Google

600022270J

Digitized by Google

.vys Fach).

Digitized by Google

600022270J

Digitized by Google

Digitized by Google

600022270J

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# ENWOGION Y FFYDD:

NEU,

## HANES CREFYDD Y GENEDL GYMREIG,

### O'r Diwygiad Protestanaidd hyd yr Amser Presennol,

FEL YR ARDDANGOSIR HI YM

MYWYDAU PRIF DDUWINYDDION A CHREFYDDWYR Y CYFNOD HWNW.


O DAN OLYGIAD

Y PARCH. JOHN PETER A GWEIRYDD AP RHYS.

CYNNORTHWYWYR—

Y Parch. WILLIAM REES, D.D. (Hiraethog), Caerlleon.
Y Parch. OWEN THOMAS, D.D., Liverpool.
Y Parch. THOMAS REES, D.D., Abertawe.
Y Parch. JOHN HUGHES, D.D., Liverpool.
Y Parch. JOHN THOMAS, D.D., Liverpool.
Y Parch. HUGH JONES, D.D., Llangollen.
Y Parch. H. E. THOMAS, D.D., Pittsburgh, America.
Y Parch. J. PAN JONES, Ph.D., Mostyn.
HENRY RICHARD, Ysw., A.S., Llundain.
Y Parch. SAMUEL DAVIES, Bangor.
Y Parch. J. JONES (Mathetes), Llansawel.
Y Parch. ROGER EDWARDS, yr Wyddgrug.
Y Parch. WILLIAM GRIFFITHS, Caergybi.
Y Parch. DANIEL ROWLANDS, A.C., Bangor.
Y Parch. J. SPINTHER JAMES, Llandudno.
Y Parch. JOHN EVANS, Llundain (gynt Eglwys Fach).
Y Parch. ROBERT THOMAS, P.D. (Ap Fychan), Bala.


CYF. I.

BODLEIAN BIBLIOTHECA


LLUNDAIN:

WILLIAM MACKENZIE, 69 LUDGATE HILL, E.C.

LLYNLLEIFIAD, CAERODOR, ABERTAWY, A CHAERLLEON.


210. h. 331

Digitized by Google

Digitized by Google

# RHAGYMADRODD.

YR ydym yn llwyr gredu bod yr hyn a ddywed Carlyle yn gywir, "mai Hanes Gyffredinol, hanes yr hyn a wnaeth dŷn yn y byd hwn, yn y gwraidd, yw Hanes y Gwŷr Mawrion a fuant yma yn gweithio. Hwynt-hwy, y rhai mawrion hyn, oedd arweinwyr dynion; y cynllunwyr, y cynffurfwyr, ac, mewn ystyr ehang, gwneuthurwyr beth bynag yr amcenir ei wneuthur neu ei gyrraedd gan y cyffredin bobl; pob peth a welwn yn aros wedi ei gyflawni yn y byd, sydd, mewn ystyr briodol, effaith allanol, neu sylweddiad a chorpholiad y Meddyliau a breswylient yn y Gwŷr Mawrion a ddanfonwyd i'r byd hwn: gellir ystyried mai enaid hanes yr holl fyd, yw hanes y rhai hyn."

Cynnyrch Meddyliau y fath ddynion, dan arweiniad dwyfol, yw crefydd yn y byd; ac y mae crefydd yn effeithio ar holl hanes cenedl neu lwyth o ddynion. Gan hyny, os mynnwn gael hanes gywir a chyflawn am grefydd cenedl, rhaid i ni fyned, yn benaf, at hanes bywydau "Enwogion Ffydd" y genedl honno. Y mae'n sicr, fel y dywedasom yn ein Hyspysiad, nad oes dim yn fwy nodedig ynghymmeriad cenedl y Cymry na'i theimlad crefyddol. Y mae'r teimlad yma wedi bod yn brif gynhyrfydd y rhan fwyaf o feddyliau a gweithrediadau y genedl er ys rhai canrifoedd bellach; ac y mae wedi ymgymmysgu â chariad y Cymry at eu gwlad, a'u parch i'w hynafiaid.

Mewn gwaith bleunorol a fu dan ein golygiad, yr oedd a fynnem â'r genedl Gymreig yn ei hamrywiol agweddau hanesyddol; ond yn y gwaith hwn ymdrechasom wneud cyfiawnder cyfartal âg arweinwyr y meddwl Cymreig, yn enwedig y meddwl crefyddol. Casglasom hanes bywydau yr Enwogion, y rhai, trwy gynnau'r fflam grefyddol, a'i chadw yn olau yn y genedl Gymreig, a wneuthant gymmaint i'w gwneud yr hyn ydyw yn bresennol.

Gan yr ystyriwn bod yn bwysig gwneud cyfiawnder cwbl amhleidiol, mewn gwaith fel hwn, â phob cyfundeb crefyddol yn ddiwahaniaeth, gwahoddasom amryw awduron enwog a dysgedig o wahanol ganghenau yr Eglwys Gristionogol Gymreig i'n cynnorthwyo; a dengys y rhestr sydd yn ein henwad-ddalen yr anrhydeddwyd ni â chefnogaeth amryw o brif ysgrifenwyr ein cenedl.

Er mwyn gwneud y gwaith mor hwylus i'r darllenydd ag y gellid, dosparthwyd ef yn llyfrau, cyfnodau, a phennodau; a rhagfleunwyd pob llyfr a phennod â sylwadau cyffredinol ar y cyfnod, ynghyd â phennod neu ddwy ar gyfodiad a chynnydd y cyfundeb neu'r cyfundebau a sefydlwyd yn ystod y cyfnod dan sylw. Cyflewyd yr holl Enwogion, cyn belled ag yr oedd yn gyflëus, yn ol eu hamserau.

Gan fod y genedl Gymreig yn meddu cynnifer o "Enwogion y Ffydd," gorfodwyd ni i gymmeryd i mewn y prif rai yn unig, cyn belled ag y gallem eu dethol, yn ol y cynllun cyfnodol a roddwyd i ni gan y diweddar Barch. John Peter ar gychwyniad y gwaith. Gyd â golwg ar y cyfnod diweddaf, yr hwn sydd ddigyffelyb o gyfoethog mewn defnyddiau at fywgraphiadau dyddorol gwŷr enwog, bu yn amhossibl i ni, yn ol cynllun a therfynau y gwaith, roddi lliaws o fywgraphiadau i mewn, y rhai y mawr hoffasem eu rhoddi. Pa wedd bynag, yr ydym yn hyderu y bydd derbyniad y gwaith

Digitized by Google

hwn gan y genedl y fath fel ag i'n cefnogi i gyhoeddi cyfrol fechan, mewn amser dyfodol, fel attodiad i'r gwaith hwn, yr hwn a neillduir yn bennodol i gynnwys Enwogion y cyfnod diweddaf.

Wrth derfynu, dymunwn ddatgan ein dïolchgarwch a'n rhymedigaeth i nifer mawr o foneddigion a chyfeillion, heb law y rhai y mae eu henwau yn yr enwad-ddalen, am fenthyg llyfrau bywgraphiadol prinion, cystal a chynnorthwyon eraill a roddwyd i ni ganddynt. Rhoddwyd cymmorth sylweddol i ni, trwy fenthyca i ni lyfrau a llawysgrifau prinion a gwerthfawr, gan y Parch. E. Herber Evans, Caernarfon; y Parch. H. Jones, Caerlleon; Mr. T. T. Parry, Bangor; Mr. H. Davies, Bangor; Mr. J. Roberts, Bangor; Y Thesbiad; Andreas o Fôn; Llystyn; Iolo Trefaldwyn; Glan Menai; Gwilym Bangor, a'i frawd Mr. S. Evans; Y Wyn; y Cyn-Arolygydd Jones o Fangor; Y Coedwigydd: ar fyr, ni ommeddodd neb y bu'r golygydd ar eu gofyn roddi iddo ei gais yn rhwydd ac yn llawen; a theimla yntau yn dra dïolchgar i bawb o'i gefnogwyr a'i gynnorthwywyr.

BANGOR, *Rhagfyr*, 1880.

Digitized by Google

# Y CYNHWYSIAD.

## CYFROL I.

### LLYFR I.

#### RHAGARWEINIAD.


PENNOD I. — Tudal.
Amcan y gwaith, . . . . . . . . . 1
PENNOD II.
Y Diwygiad Protestanaidd ar y Cyfandir, . . . . . 3
PENNOD III.
Y Diwygiad Protestanaidd ym Mrydain, . . . . . 6
PENNOD IV.
Achos y Diwygiad yng Nghymru, . . . . . . 11
PENNOD V.
Rhagredegwyr y Diwygiad yng Nghymru, . . . . . 12
Morien (Pelagius), . . . . . . . . . 13
Garmon a Lupus, . . . . . . . . . 13
Padrig, Gildas, ac Awstin Fynach, . . . . . . 13
Harri II., Adrian, . . . . . . . . . 14
PENNOD VI.
Y Doctor Sion Cent a'r Cynddiwygwyr, . . . . . 15
Dafydd Ddu o Hiraddug, . . . . . . . . 17
Dafydd ab Gwilym, . . . . . . . . . 19
Wycliffe, Chaucer, Miltwn, Walter Mapes, William y Breuddwydiwr, a Syr Thomas Maelor, . . . . . . 20
Syr John Oldcastle, . . . . . . . . . 21
Walter Brute, . . . . . . . . . . 23
PENNOD VII.
Syr John Price a'r Diwygwyr yng Nghymru, . . . . . 25
Lewis Glyn Cothi, . . . . . . . . . 25
Meredydd ap Ieuan ap Robert, &c., . . . . . . 26
Iorwerth Fynglwyd, . . . . . . . . 27
William Barlow, . . . . . . . . . 30
Thomas Hore, . . . . . . . . . . 31
Y Dr. Ellis Price o Blas Iolyn, . . . . . . 31
Thomas Price a John Price, . . . . . . . 33


### LLYFR II.

#### ENWOGION Y CYFNOD CYNTAF: O 1547 HYD 1603.

##### EDWARD VI., MARI WAEDLYD, AC ELIZABETH.


PENNOD I.
Sylwadau Cyffredinol ar Hynodion y Cyfnod, . . . . 35
Edward a'i Gynghoriaid, . . . . . . . . 36
Robert Farrar: ei Losgiad, . . . . . . . 36
Merthyron Cymreig yn Lloegr, . . . . . . 37
Yr Eisteddfod a'i Henwogion, . . . . . . 38
PENNOD II.
William Salesbury, . . . . . . . . . 39
Ei Achau, . . . . . . . . . . 41
Ei Gynnorthwywyr, . . . . . . . . . 51
PENNOD III.
Y Doethawr Gruffydd Roberts, . . . . . . 53
Rhosier Smyth a George Smith, . . . . . . 54
Awduron Pabaidd, . . . . . . . . . 57
PENNOD IV.
Y Doctor William Morgan, . . . . . . . . 58
Ei Gynnorthwywyr (nodiad), . . . . . . . 61
Crybwylliad am y Dr. Davies, . . . . . . 64
John Whitgift, . . . . . . . . . . 64
William Hughes, Dafydd Powel, D.D., Gabriel Goodman, D.D., a Richard Vaughan, D.D., . . . . . . . 65
PENNOD V.
Edmund Prys, . . . . . . . . . . 66
Ei Frwydrau Llenyddol, . . . . . . . . 67
Dafydd Ddu o Hiraddug, . . . . . . . . 70
Gwilym Ganoldref, . . . . . . . . . 70
PENNOD VI.
John Penry, . . . . . . . . . . 73
PENNOD VII.
Morus Cyffin a'i Gydoeswyr, . . . . . . . 90
Hugh Price, D.C.L., . . . . . . . . . 94
William Lleyn, . . . . . . . . . . 94
Ioan Dafydd Rhys, . . . . . . . . . 95
Henry Salesbury, . . . . . . . . . 96
Humphrey Llwyd, Lewis Thomas, B.A., Huw Llwyd o Gynfal, a Ioan Llwyd, D.D., . . . . . . . . 97
PENNOD VIII.
Edward Cyffin a'i Gydoeswyr, . . . . . . . 97
Syr Thomas ap William, . . . . . . . . 99
John Owen, . . . . . . . . . . 99
Henri Perri, . . . . . . . . . . 99
Huw Lewys a Robert Holland, . . . . . . . 100


### LLYFR III.

#### ENWOGION YR AIL GYFNOD: O 1603 HYD 1649.

##### JAMES I. A CHARLES I.


PENNOD I.
Sylwadau Cyffredinol ar Hanes a Neillduolion y Cyfnod, . . 108
PENNOD II.
Yr Annibynwyr, . . . . . . . . . . 109
PENNOD III.
Y Bedyddwyr, . . . . . . . . . . 120
PENNOD IV.
Edward James, a'i lafur, . . . . . . . . 135
PENNOD V.
Richard Parry, D.D., a rhai o'i Gydoeswyr, . . . . . 137
PENNOD VI.
Y Doctor John Davies o Fallwyd, . . . . . . 141
PENNOD VII.
Robert Llwyd, Ficar y Waun, . . . . . . . 151
PENNOD VIII.
Rowland Heilyn, . . . . . . . . . 158
Syr Thomas Myddleton, . . . . . . . . 160
PENNOD IX.
William Wroth, . . . . . . . . . . 161
PENNOD X.
William Erbury, . . . . . . . . . . 165
PENNOD XI.
Rhys Prichard, Ficar Llanymddyfri, . . . . . . 169
PENNOD XII.
Rowland Fychan, y Cyfieithydd o Gaer-gai, . . . . . 188
PENNOD XIII.
Y Doctor Gruffydd Williams, . . . . . . . 194
Richard Jones o Ddinbych, . . . . . . . . 196


Digitized by Google

PENNOD XIV.

Tudal.

Roger Williams, sefydlydd enwog Talaeth Ynys Rhode, Gogledd America, . . . . . . . . . . . 199

## LLYFR IV.

ENWOGION Y TRYDYDD CYFNOD: O 1649 HYD 1689.

CROMWEL, CHARLES II., AC IAGO II.

PENNOD I.

Sylwadau Cyffredinol ar Hanes a Neillduolion y Cyfnod, . . 223

PENNOD II.

Y Crynwyr, neu y Cyfeillion, . . . . . . . . 232

PENNOD III.

Undodiaeth: ei Dadblygiadau a'i Dullweddau, . . . . 238
Sabeliaeth, . . . . . . . . . . . 238
Ariaeth, . . . . . . . . . . . . 239
Pelagiaeth, neu Forganiaeth, . . . . . . . 240
Deistiaeth, . . . . . . . . . . . . 246
Arminiaeth, . . . . . . . . . . . 247
Sosiniaid, . . . . . . . . . . . . 248
Cyffredinolwyr, . . . . . . . . . . . 249
Y Cyfundeb Cristionogol, . . . . . . . . 250
Y Campeliaid, neu y Disgyblion Cristionogol, . . . . 250
Yr Hickiaid, neu y Crynwyr Undodaidd, . . . . . 250

PENNOD IV.

Oliver Cromwel, . . . . . . . . . . . 251

PENNOD V.

Howel Fychan, . . . . . . . . . . . 276
Gruffydd Parri, . . . . . . . . . . . 276
William Thomas, . . . . . . . . . . . 276
Jenkin Lloyd (Siencyn Llwyd), . . . . . . . 279
Richard Powel, . . . . . . . . . . . 279
Evan Bowen, . . . . . . . . . . . 279
Robert Powel, . . . . . . . . . . . 281
Rice Williams, . . . . . . . . . . . 281
James Quarrell, . . . . . . . . . . . 281
Edmund Elis, . . . . . . . . . . . 282
Owen Prys (Price), . . . . . . . . . . 282
Dafydd Walters, . . . . . . . . . . . 282
Morus Bidwel, . . . . . . . . . . . 283
John Evans, . . . . . . . . . . . 283
John Tombes (Twmz), . . . . . . . . . 283
Thomas Holmes, . . . . . . . . . . . 285
Marmaduke Matthews, . . . . . . . . . 286

PENNOD VI.

Walter Cradoc, . . . . . . . . . . . 286

PENNOD VII.

John Milton, . . . . . . . . . . . 296
Olsylwadau, . . . . . . . . . . . 319

PENNOD VIII.

Oliver Thomas, . . . . . . . . . . . 321
Thomas Powel, D.D., . . . . . . . . . 324
Robert Morgan, D.D., . . . . . . . . . 325
Sion Tre-redyn, . . . . . . . . . . . 325

PENNOD IX.

Richard Symonds, . . . . . . . . . . 328
Timothëus (Timothy) Roberts, . . . . . . . 330
Jenkin Jones, . . . . . . . . . . . 330
Ambrose Mostyn, . . . . . . . . . . . 333
Henry Walters, . . . . . . . . . . . 334

PENNOD X.

Y Doctor John Owen, . . . . . . . . . 335
Byr Hanes ei Hynafiaid, . . . . . . . . 335
Gwylliaid Cochion Mawddwy: eu hanes (nodiad), . . . . 335

PENNOD XI.

Y Dr. George Griffith, . . . . . . . . . 350
Vavasor Powel, . . . . . . . . . . . 355

PENNOD XII.

Tudal.

John Roberts (y Crynwr), . . . . . . . . . 365
Hugh Evans, . . . . . . . . . . . 371
John Williams, . . . . . . . . . . . 374
John Edwards, . . . . . . . . . . . 375

PENNOD XIII.

Charles Edwards, . . . . . . . . . . 375

PENNOD XIV.

Thomas Gouge, . . . . . . . . . . . 384
Stephen Hughes, . . . . . . . . . . 387
Dafydd Penri; Lewis Jones; Dafydd Thomas; Evan Dafis; Samuel Prys (nodiad); John Joseph, . . . . . 390

PENNOD XV.

Morgan Llwyd o Wynedd, . . . . . . . . 398
Hugh Llwyd o Gynfal (nodiad), . . . . . . . 403

PENNOD XVI.

John Myles, . . . . . . . . . . . 413

PENNOD XVII.

William Jones o Ddinbych, . . . . . . . . 421
Y Milwriad Twisleton (nodiad), . . . . . . . 421
Thomas Proud, . . . . . . . . . . . 422
Morgan Jones a'i hiliogaeth, . . . . . . . 423
Walter Prosser, . . . . . . . . . . . 425
John Powel a David Davies, . . . . . . . 427

PENNOD XVIII.

Thomas Watkins, . . . . . . . . . . 427
Thomas Jones, . . . . . . . . . . . 429
William Jones, Rhydwilym, . . . . . . . . 429
Christopher Price, . . . . . . . . . . 431
Thomas Woolaston (nodiad), . . . . . . . 432
Robert Morgan, . . . . . . . . . . . 432
Rondl Davies, . . . . . . . . . . . 434

PENNOD XIX.

Huw Morus, . . . . . . . . . . . 435
Peregrin Phylips, . . . . . . . . . . 441
John Jones, Llwyn Rhys, . . . . . . . . 443

PENNOD XX.

Thomas Evans, . . . . . . . . . . . 444
Henry Williams, . . . . . . . . . . . 445
William Llwyd, D.D., Esgob Llanelwy, . . . . . 447
John Evans, Gwrecsam, . . . . . . . . 450

PENNOD XXI.

Samuel Jones, . . . . . . . . . . . 451
Henri Morus (Henry Maurice), . . . . . . . 456

PENNOD XXII.

Rhys Prydderch, . . . . . . . . . . 460
Daniel Phylip, . . . . . . . . . . . 462
Henri Gregori (Henry Gregory), . . . . . . . 463
Dafydd Jones, . . . . . . . . . . . 464
Gruffydd Howels, . . . . . . . . . . 465
Olnodion, . . . . . . . . . . . . 466

PENNOD XXIII.

Rhisiart Dafydd y Crynwr, . . . . . . . . 467
Llwydiaid Dolobran (nodiad), . . . . . . . 474
Cyfarfodydd Misol a Blynyddol y Crynwyr, . . . . . 479

PENNOD XXIV.

Huw Owen, Bron-y-Clydwr, . . . . . . . . 480
Deddf yr Unffurfiad (nodiad), . . . . . . . 481
Owen Gruffydd o Lanystumdwy, . . . . . . . 483
Tŷ Dduw (nodiad), . . . . . . . . . . 485
Yr Esgob Humphreys, . . . . . . . . . 485

PENNOD XXV.

Y Doctor Daniel Williams, . . . . . . . . 487
Ewyllys y Dr. D. Williams, . . . . . . . . 490

PENNOD XXVI.

William Penn, . . . . . . . . . . . 498

Digitized by Google

# Y CYNHWYSIAD.

## CYFROL II.

## LLYFR V.

### ENWOGION Y PEDWERYDD CYFNOD: O 1689 HYD 1760.

WILLIAM III., ANN, GEORGE I., GEORGE II.


PENNOD I. — Tudal.

Sylwadau Cyffredinol ar Hanes a Neillduolion y Cyfnod, . . 1
Deddf y Goddefiad; y Rhodd Frenhinol; yr Anhyngwyr a'r Gwŷr Twng; y Gymdeithas er Lledeunu Gwybodaeth Gristionogol; Ann yn ymdrechu cyfyngu ar Grefydd, . . . . 2
Esgyniad George I. i'r orsedd; Celgyfrinach yr Uchel-Eglwyswyr a'r Jacobiniaid, . . . . . . . . 3
Marwolaeth George I., ac esgyniad George II. i'r orsedd, . . 3
Helynt Deddf Goddefiad yr Iuddewon, . . . . . . 3
Duwinyddiaeth yr 17fed ganrif, . . . . . . . 4
Y dirywiad ar ol hyny, . . . . . . . . . 4

PENNOD II.

Y Methodistiaid, . . . . . . . . . . 4

PENNOD III.

William Prichard, . . . . . . . . . 20
Iago ap Dewi, . . . . . . . . . . 22

PENNOD IV.

James Owen, . . . . . . . . . . 25
Dafydd Owen, Jeremiah Owen, a Charles Owen, . . . . 31

PENNOD V.

John Jenkins, . . . . . . . . . 31
Elis Puw, . . . . . . . . . 35

PENNOD VI.

Mathew Henry, a'i dad Phylip Henry, . . . . . . 36

PENNOD VII.

Phylip James, . . . . . . . . . . 47
John Wynn. D.D., . . . . . . . . . 49
Morgan Gruffydd, Craig-yr-allt, . . . . . . . 49
Elis Wynn, y Bardd Cwsg, . . . . . . . . 52

PENNOD VIII.

William Gambold, . . . . . . . . . 60
Abel Morgan, . . . . . . . . . . 60
Christmas Samuel, . . . . . . . . . 62
John Harri, . . . . . . . . . . 63
Edward Samuel, . . . . . . . . . 63
Sion Rhydderch (nodiad), . . . . . . . . 67

PENNOD IX.

Phylip Puw, . . . . . . . . . . 69
Vavasor Gruffydd, . . . . . . . . . 70
Matthias Morus, . . . . . . . . . . 71
S. Thomas, . . . . . . . . . . 74

PENNOD X.

Gruffydd Jones, Llanddowror, . . . . . . . 76
Madam Bevan, . . . . . . . . . . 89

PENNOD XI.

Jenkin Jones, yr Armin cyntaf yng Nghymru, . . . . 90
Llythyrau Anna Beynon, . . . . . . . . 91
Moses Williams, . . . . . . . . . 95

PENNOD XII.

Enoch Francis, ei gydweithwyr, a'i deulu, . . . . . 98
James James (nodiad), . . . . . . . . 101
Ifan Dafydd (nodiad), . . . . . . . . 101
Galarnad Enoch Francis (nodiad), . . . . . . 103

PENNOD XIII. — Tudal.

Theophilus Evans, . . . . . . . . . . 104
Ifan Tomos Rhys, . . . . . . . . . . 109

PENNOD XIV.

Gruffydd Jones, . . . . . . . . . . 112
Thomas William, . . . . . . . . . . 113
Charles Winter, . . . . . . . . . . 115
Miles Harri, . . . . . . . . . . 118
Dafydd Rees (nodiad), . . . . . . . . 119
Joseph Francis (nodiad), . . . . . . . . 119

PENNOD XV.

Edmund Jones, . . . . . . . . . . 120
Evan Williams, . . . . . . . . . . 125
William Prichard, . . . . . . . . . 128
Jenkin Morgan, . . . . . . . . . . 129
Howel, Harri, Thomas, a'u chwaer, plant Thomas Prichard, Tŷ-Gwyn, Llangefni, . . . . . . . . . 130
Hen ŵr yr Hafod, a'i fab, Huw Jones, . . . . . 132
Richard Williams, a John William Prichard, . . . . . 136

PENNOD XVI.

Morgan Harri, . . . . . . . . . . 137
Phylip Dafydd, . . . . . . . . . . 137
Dafydd Williams (nodiad), . . . . . . . . 137
Lewis Rees, . . . . . . . . . . 138

PENNOD XVII.

Dafydd Jones o Gaio, . . . . . . . . . 145
Huw Evans, . . . . . . . . . . 150
John Griffith, . . . . . . . . . . 151

PENNOD XVIII.

Daniel Rowlands ac eraill, . . . . . . . . 154

PENNOD XIX.

Howel Harris ac eraill, . . . . . . . . 175

PENNOD XX.

Morgan Rhys, . . . . . . . . . . 197
Edward Richard, . . . . . . . . . . 199
Howel Davies, . . . . . . . . . . 208

PENNOD XXI.

William Williams, Pant-y-Celyn, a'i deulu, . . . . 212

PENNOD XXII.

Joshua Thomas a'i dad, . . . . . . . . 243
Thomas Davies, . . . . . . . . . . 247
John Gruffydd, . . . . . . . . . . 248
William Edwards, . . . . . . . . . 249
Thomas Williams, . . . . . . . . . 251
Lewis Evan, . . . . . . . . . . 252

PENNOD XXIII.

Richard Tibbott . . . . . . . . . . 255
Thomas Walters, . . . . . . . . . . 260
Timothy Thomas, . . . . . . . . . . 261
John Richards, . . . . . . . . . . 262
John Harris, . . . . . . . . . . 264


## LLYFR VI.

### ENWOGION Y PUMMED CYFNOD: O 1760 HYD 1880.

GEORGE III., GEORGE IV., WILLIAM IV., A VICTORIA.


PENNOD I.

Sylwadau Cyffredinol ar Hanes a Neillduolion y Cyfnod, . . 269
Y camsyniad cyffredin am ryddid crefyddol, . . . . . 269


Digitized by Google

Tudal.

Sefyllfa addysg yng Nghymru ar esgyniad George III. i'r orsedd, 269
Daioni yr Ysgolion Sabbothol, y Bibl Gymdeithas, a'r pregethu teithiol, . . . 270
Sefyllfa crefydd yn y wlad cyn hyny, . . . 271
Deffroad cyffredinol ym mysg crefyddwyr wedi cymmeryd lle, . 271
Crynhodeb o'r prif ymdrechion crefyddol, . . . 272

PENNOD II.

Y Wesleyaid, . . . 272

PENNOD III.

Peter Williams, . . . 287
Nathaniel Rowlands, . . . 293

PENNOD IV.

Goronwy Owen, . . . 294
Morgan Edwards, . . . 300
Richard Price, . . . 301

PENNOD V.

Edward Parri, . . . 303
John Evans o'r Bala, . . . 307

PENNOD VI.

Thomas Llewelyn, . . . 313
William Davies, Castell-nedd, . . . 315
John Williams, LL.D., . . . 317
John Owen o'r Berthen-gron, . . . 318
Zechariah Thomas, . . . 319

PENNOD VII.

Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir yr ail), . . . 320
John Roberts (Siôn Robert Lewis), Caergybi, . . . 325

PENNOD VIII.

John Griffiths ("Griffiths Glandwr"), . . . 329
Thomas Foulkes, . . . 331
Dafydd Jones o Lan-gan, . . . 334

PENNOD IX.

Benjamin Davies, . . . 338
Rebecca Jones, . . . 339
Benjamin Evans, . . . 343

PENNOD X.

Abraham Rees, . . . 345
Dafydd Morys, . . . 346
Dafydd Dafis, Castell-Howel, . . . 348
Robert Jones, Rhos-y-lan, . . . 351

PENNOD XI.

William Richards o Lynn, . . . 455
Edward Williams, D.D., o Rotherham, . . . 358

PENNOD XII.

Thomas Jones, Creaton, . . . 364
John Griffiths, Caernarfon, . . . 369
Dafydd Cadwaladr o'r Bala, . . . 373

PENNOD XIII.

Thomas Charles, B.A., o'r Bala, . . . 377

PENNOD XIV.

Thomas Jones o Ddinbych, . . . 383
Simon Llwyd, B.A., . . . 387
Benjamin Jones, . . . 388
Evan Richardson, Caernarfon, . . . 389

PENNOD XV.

Edward Jones o Faes-y-plwm, . . . 391
Walter Davies (Gwallter Mechain), . . . 393
Robert Roberts, Clynog, . . . 395
George Lewis, D.D., . . . 397

PENNOD XVI.

David Peter, . . . 399
Christmas Evans, . . . 400
John Roberts o Lanbryn-Mair, . . . 405
Thomas Phillips, D.D., o'r Neuadd-Lwyd, . . . 406

PENNOD XVII.

Titus Lewis, . . . 408
Joseph Harris (Gomer), . . . 409
Richard Jones o'r Wern, . . . 413

PENNOD XVIII.

John Elias, . . . 415
Richard Llwyd, Bomaris, . . . 425

PENNOD XIX.

John Parry (Caer), . . . 427
John Hughes, Pont-Robert, . . . 428
Arthur Jones, D.D., Bangor, . . . 430
Hugh Hughes, . . . 432
James Hughes, . . . 432
William Evans, . . . 435
John Jenkins, . . . 435

PENNOD XX.

Ann Griffiths, . . . 436
David Morgan, . . . 438
John Williams (y cyntaf), . . . 441
Ebenezer Richard, . . . 441
William Williams o'r Wern, . . . 444

PENNOD XXI.

Edward Jones (y trydydd), . . . 447
James Griffiths, . . . 447
David Rogers, . . . 449
Samuel Griffiths, . . . 450
Cadwaladr Jones, . . . 451
John Davies, . . . 453
William Jones, . . . 454
David Williams, . . . 455

PENNOD XXII.

William Roberts, Amlwch, . . . 456
Michael Jones, . . . 464

PENNOD XXIII.

J. P. Davies, . . . 466
Ellis Evans, . . . 467
Richard Bonner, . . . 470
John Williams (yr ail), . . . 471
Thomas Price (Carnhuanawc), . . . 472
Samuel Davies (y cyntaf), . . . 477

PENNOD XXIV.

John Jones, Tal-y-sarn, . . . 478
Thomas Aubrey, . . . 486
John Peter (Ioan Pedr), . . . 488

PENNOD XXV.

William Rees, D.D. (Hiraethog), . . . 490
Yr Esgob Hughes, Llanelwy, . . . 495
Lewis Edwards, D.D., Bala, . . . 496
Henry Richard, Ysw., A.S., . . . 497
Thomas Davies, D.D., . . . 498
Owen Thomas, D.D., . . . 499
Thomas Rees, D.D., . . . 501
Thomas Price, D.D., . . . 502
Yr Archddiacon Griffiths, . . . 503
John Evans, . . . 504

Digitized by Google

# RHESTR O'R DARLUNIAU.

## CYFROL I.

Tudal.

PARCH. THOMAS CHARLES, B.A., O'R BALA, . . . . . 115
PARCH. THOMAS REES, D.D., ABERTAWE, . . . . . 116
PARCH. JOHN ELIAS O FON, . . . . . 117
PARCH. LEWIS EDWARDS, D.D., BALA, . . . . . 183
PARCH. JOHN JONES, TAL-Y-SARN, . . . . . 280
PARCH. CHRISTMAS EVANS, . . . . . 406
PARCH. WILLIAM WILLIAMS O'R WERN, . . . . . 423

## CYFROL II.

PARCH. THOMAS AUBREY, . . . . . 486
PARCH. JOHN PETER, BALA, . . . . . 488
PARCH. WILLIAM REES, D.D., CAERLLEON, . . . . . 490
PARCH. JOSHUA HUGHES, D.D., ESGOB LLANELWY, . . . . . 495
PARCH. THOMAS DAVIES, D.D., HAVERFORDWEST, . . . . . 498
PARCH. OWEN THOMAS, D.D., LLYNLLEIFIAD, . . . . . 499
PARCH. THOMAS PRICE, D.D., ABERDAR, . . . . . 502
YR HYBARCH ARCHDDIACON GRIFFITHS, CASTELL NEDD, . . . . . 503
PARCH. JOHN EVANS, LLUNDAIN, . . . . . 504

Digitized by Google

Digitized by Google

# ENWOGION Y FFYDD.

## LLYFR I.

### RHAGARWEINIAD.

#### PENNOD I.

AMCAN Y GWAITH.

YN y ffurf o hanes a buchdraeth y dadguddiodd yr Ysbryd Glân y rhan fwyaf o egwyddorion crefydd yn y Beibl. Gosodwyd, gan hyny, warant ac urddas arbenig ar y gangen hon o lenyddiaeth, ac nis gallwn ninnau wneyd yn well na dilyn yr esiampl ysbrydoledig yn ein hymdrech i ledaenu athrawiaethau yr efengyl.

Dywediad cyffredin yw, fod "Gwybodaeth yn allu." Wrth hyn rhaid ini olygu a deall dau beth; sef, fod gwybodaeth yn cynnyrchu cyfnewidiad o fewn y dyn, a'i bod yn galluogi dyn i ddarostwng pethau allanol i'w amcanion ei hun. Yr olaf o'r ddau feddwl yma i'r ymadrodd a olygir yn gyffredin pan y'i defnyddir; sef, fod gwybodaeth yn dysgu dyn i ddefnyddio a mwynhau sylweddau a galluoedd y greadigaeth. Pwysig iawn yw hyn i ddyn yn ei fywyd ar y ddaear, ac yn ei berthynas â'r byd; ond y mae y cyntaf, sef dylanwad gwybodaeth ar y meddwl ei hunan, yn llawer pwysicach i ddyn yn ei gysylltiadau uchaf a chyda rhagolwg ar sefyllfa ddyfodol mewn byd ysbrydol a thragywyddol. Un peth yw amgylchiadau allanol dyn, a pheth arall ydyw ei gyflwr a'i ansawdd ef ei hun.

Gwybodaeth o natur, yn ei gwahanol gangenau, sydd i effeithio ar amgylchiadau dyn. Dyna sydd i roddi iddo allu dros elfenau y greadigaeth. Ond hanesiaeth, fel gwybodaeth o ffeithiau ac egwyddorion cymdeithasol, sydd i ddylanwadu yn fwyaf uniongyrchol ar y dyn ei hunan. Ymwneyd â dyn fel aelod o gymdeithas, yn boliticaidd, gwareiddiol, a chrefyddol, y mae hanesyddiaeth; ac y mae swyn neillduol yn perthyn iddi. Y mae bywgraffiad yn gyfyngach ei derfynau, ond yn ddyfnach a grymusach ei argraff ar y meddwl. Bywgraffiaeth yw y wybodaeth sydd yn ymwneyd â bodau, tra mai drychfeddwl neu arddansoddiad ydyw gwrthddrych hanesiaeth gyffredinol. O unigolion y gwneir i fyny gymdeithas. Gall unigolion hanfodi heb gymdeithas, ond y mae yn annichonadwy i gymdeithas fod heb unigolion i'w chyfansoddi. Y dyn, fel y cyfryw, sydd fwyaf dyddorol i ddyn; oblegid yn ei hanes gwel ei ddelw ei hunan a'i brofiad personol. Unigolion, dynion mawr a hynod, sydd wedi gwneyd hanes, ac y mae bywgraffiad rhyw ychydig o enwogion mewn byd ac eglwys yn rhwym o gynnwys holl hanes y ddynoliaeth.

Gellir edrych ar ddyn o wahanol gyfeiriadau, ac y mae bywyd yn cael ei wneyd i fyny megys o wahanol elfenau. Nid ungainc ydyw bywyd, ond y mae yn gordeddedig. Cynnwysa edefyn o boliticiaeth, ac un arall o deuluyddiaeth, a thrydydd o grefydd. Ond yn y cyffredin, mae rhyw egwyddor lywodraethol yn mywyd pob dyn. O'r aelwyd y rhaid edrych ar ambell ddyn, ar faes y gwaed y mae hynodrwydd dyn arall, tra y mae arall wedi gwneuthur celfyddyd yn brif bwnc ei fywyd. Ond yr ydym ni yn bwriadu, yn y gwaith hwn, edrych ar ychydig o enwogion ein gwlad ein hunain oddiar safle grefyddol. Dyma y gallu sydd yn dylanwadu yn ddyfnaf ar feddwl dyn ac ar ei dynged yn unigol, yn gystal ag ar fuddiannau cymdeithas yn gyffredinol. Crefydd sydd yn uno ynddi ei hunan holl egwyddorion y galon a holl



Digitized by Google

amcanion bywyd, gan wneuthur y cwbl yn iswasanaethgar iddi ei hun. Oddiar y safle hon y cawn olwg gyflawn ar y dyn yn hanfodion ei gymeriad ac yn ei gysylltiadau pwysicaf. Bywgraffiaeth grefyddol yw y ffurf fwyaf dyddorol y gall gwybodaeth ei chymeryd. Y mae hanes crefydd yn gynnwysedig mewn hanes dynion duwiol. Crefyddwyr enwog ein gwlad a gynnyrchasant hanes crefydd yn Nghymru. Wrth adrodd hanes "enwogion y ffydd," yr ydym yn adrodd hanes y ffydd ei hunan, ond mewn dull dyddorol a difyr. Felly, golygwn i'r gwaith hwn fod yn hanes cyflawn am holl helyntion crefyddol ein gwlad o gyfnod rhyfedd y Diwygiad Protestanaidd hyd y dyddiau presennol.

Dyma, yn ddiau, yr amser gogoneddusaf a fu erioed ar grefydd yn Nghymru. Tlawd iawn yw ei hanes yn yr oesoedd tywyll blaenorol, a difudd mewn cymhariaeth ydyw yr ymchwiliadau i'r oesau cyntefig. Hanes crefydd yn dadfeilio, yr efengyl yn ymlygru, a'r eglwys yn ymsuddo i gyfeiliornadau, ydyw hanes y canrifoedd rhagflaenol. Nid yw y cyfryw yn ddiaddysg i ni; ond cyfoethocach ganwaith, a melusach fil o weithiau, ydyw gweled yr eglwys yn deffro ac yn ymddyrchafu o'i sefyllfa o waradwydd. Mwy dymunol, yn gystal a mwy addysgiadol, ydyw hanes pureiddiad crefydd a dyrchafiad ei sefydliadau oddiwrth ofergoeledd a llygredigaeth. Ymdrechwn ddangos drwy yr holl waith fel y mae Rhagluniaeth a Gras wedi bod yn cydweithio mewn ffyrdd dirgelaidd a rhyfedd i ddyrchafu ein gwlad mewn moesoldeb a duwioldeb, ac i ddwyn ein hen genedl anffodus i afael trysorau efengyl bur. Gobeithiwn drwy hyny fod yn offerynol i ryw raddau i ddeffro sel yr oes bresennol dros egwyddorion mawrion y Diwygiad, ac i greu awydd mewn ambell galon am feddiannu crefydd bersonol. Fel y mae yr efengyl i'w chanfod yn hanes yr eglwys, felly y mae Crist yn eglur yn mywyd ei saint, a'r amcan uchaf y gellir ei gyrhaedd ydyw dangos daioni a gogoniant Crist i bechadur.

Iesu Grist yw y dyn perffaith, am ei fod ar ddelw Duw ac fod y Duwdod yn preswylio ynddo. Ei fywyd Ef yn y byd ydyw cynllun ac esiampl holl blant Duw. Gosodwyd ei hanes Ef allan gan yr Ysbryd Glân mewn pedwar bywgraffiad, yn y pedair Efengyl. Yr un egwyddorion, amcanion, ac ysbryd, ag a ddangosir yno sydd i feddiannu pawb. Yn yr Efengylau y cawn ddadblygiad o'r bywyd gogoneddusaf a fu erioed ar y ddaear ag sydd bosibl i greadur. Yr oedd Crist yn berffaith Dduw, ac ar yr un pryd yn ddyn perffaith. I'r graddau y bo canlynwyr yr Arglwydd Iesu yn uniongred yn eu golygiadau, yn bur yn eu bywyd, yn hunan-ymwadol a goddefgar yn eu hysbryd, a'u calonau yn llawn o gariad gweithredol tuagat bawb, i'r un graddau yr adlewyrchant gymeriad a bywyd Iesu Grist. "Chwi yw goleuni y byd," ebai Efe wrth ei ddisgyblion. Yr elfen fawr a ganfyddir yn nodweddu dynion da pob oes a gwlad ydyw ysbryd y Gwaredwr. Am hyny y dylem chwilio wrth ddarllen eu hanes. Fel y mae y greadigaeth naturiol yn arddangos mawredd, gallu, a doethineb y Tad, felly y mae y greadigaeth newydd yn nghalon pechadur yn dangos gogoniant y Mab. Gallwn weled yn ymarweddiad ei saint Ef egwyddorion ei deyrnas, a nodweddion ei fywyd ysbrydol, yn cael eu gweithio allan mewn gwahanol bersonau o dan bob math o amgylchiadau. Mewn bywgraffiad gwelir crefydd yn ei gwaith, Cristionogaeth wedi ei phersonoli, a'r Arglwydd Iesu megys yn ailfyw ar y ddaear.

Wrth gwrs, y mae llawer o ddiffygion a ffaeleddau yn y goreu o ddynion. Ni ddaeth neb, ond y Sylfaenydd mawr ei hunan, erioed i fyny â drychfeddwl perffaith yr efengyl. Mewn gwirionedd, y mae pawb o'i ganlynwyr penaf wedi syrthio yn anfeidrol fyr o gyrhaedd y nod. Nid ydym yn bwrw ddarfod i neb o honynt gael gafael, ond yn unig eu bod yn ymestyn ac yn cyrchu at y nod. Yr un modd yn union y mae gyda golwg ar y greadigaeth weledig. Er fod rhai yn myned i eithafion wrth son am ei hardderchogrwydd, ac yn ei gwneyd fel Duw ei hunan yn anfeidrol berffaith, y gwir yw, ei bod yn llawn diffygion ac anmherffeithderau. Syniad deistaidd yw fod y byd yn berffaith. Addefwn yn rhwydd ei fod yn ardderchog; ond, fel pob peth meidrol, ei ragoroldeb penaf yw ei fod yn ymgyrhaedd at berffeithrwydd. Rhaid fod rhyw gysgod o wirionedd yn mhob cyfeiliornad (os nad yw enaid daioni mewn pethau drwg, fel y myn rhai), a dyma y gwirionedd sydd yn y damcaniaethau diweddar a gyhoeddwyd gan Darwin a Spencer yn nghylch dadblygiad rhywogaethau, ac a addefir fel egwyddor sylfaenol daeareg. Nid byd yn aros yn ei unman nac yn troi mewn cylch ydyw y ddaear, ond gwaith yn cael ei gario yn mlaen yn raddol a chyson yn ol cynllun rhagosodedig ac yn cyfeirio drwy bob cyfnewidiad at gyflwr o berffeithrwydd. Felly yn union y mae bywyd

Digitized by Google

dyn duwiol. Ymestyn y mae at berffeithrwydd, yn ol cynllun perffaith a osodwyd o'i flaen; ac fel nad yw anmherffeithrwydd y byd naturiol yn cau allan ei dystiolaeth ddiamwys i'w Greawdwr, felly nid yw diffygion cymeriad y Cristion yn gwrthweithio tystiolaeth ei fywyd i Grist. Yn hytrach, fel arall. Y mae gyrfa *(progress)* yn rhagolygu anmherffeithrwydd, a pherffeithiad peth sydd yn dangos gweithrediad gwastadol yr awdwr. Dadblygiad y greadigaeth yw y prawf uchaf o fodolaeth y Creawdwr, a santeiddiad graddol y Cristion ydyw y prawf amlycaf o breswyliad gwastadol Crist yn ei eglwys.

Ond goddefer ini sylwi ein bod yn y gwaith hwn yn dyfod yn agos iawn at deimlad pob Cymro. Bwriadwn osod ger ei fron hanes grefyddol ei wlad ei hun yn y cyfnod ardderchocaf a fu arni, a hyny drwy adrodd hanes gyrfa y dynion goreu a mwyaf a gyfododd yn Nghymru yn y cyfnod hwnw. Hyderwn felly y gallwn ddysgwyl i'r darlleniad o hono ddylanwadu yn ddwfn, yn gystal ag yn dda, ar feddwl y darllenydd, a bod, o dan fendith Duw, yn wasanaethgar i grefydd yn ein hoes ac yn mhlith ein cenedl.

---

## PENNOD II.

### Y DIWYGIAD PROTESTANAIDD AR Y CYFANDIR.

Yr hyn a ddeallir yn gyffredin wrth y Diwygiad Protestanaidd ydyw, rhyddhâd yr eglwysi oddiwrth ormes Rhufain. Diau fod hyny yn rhan bwysig ac amlwg yn y Diwygiad. Dadgysylltiad yr eglwysi oddiwrth y Babaeth a barodd yr holl gyffro mewn teyrnasoedd, a'r holl erlidigaethau mewn gwledydd. Yn ei ochr lywodraethol, neu boliticaidd, y daw y Diwygiad yn amlycaf i olwg y cyffredin, ac ar y rhwyg a wnaed yn unoliaeth allanol y gyfundrefn eglwysig yr edrycha y byd. Nid yw hyny, wedi y cwbl, ond rhan fechan mewn gwirionedd o'r Diwygiad mawr. Dyna y rhan y cymerai breninoedd a llywodraethau, a mawrion y byd, a'r byd ei hun fel y cyfryw, y dyddordeb mwyaf ynddi. Ond nis gallesid byth ddwyn hyny oddiamgylch heb fod yno nerthoedd cryfach yn gweithredu, a chyfnewidiadau dyfnach yn ymweithio. Fel hyn y dywed Ullman ar y mater hwn:—"Yr oedd y Diwygiad, mewn un ystyr, yn golygu dirnadaeth newydd o ffydd ac athrawiaeth yr efengyl, wedi ei ffurfio oddiar safle a chanolbwynt newydd. Mewn ystyr arall, fodd bynag, yr oedd hefyd yn ddygwyddiad mawr yn hanes yr eglwys a dynoliaeth, yn ddwyn i weithrediad yr hyn a wyddid ac a ddysgid o'r blaen, yn ddrama gyfansoddedig o actau ardderchog yn dilyn eu gilydd ar esgynloriau gwahanol, yn y rhai y chwareuai prif dywysogion a chenedloedd Ewrop eu rhan. Oni buasai y cyfryw ddrama yn sylfaenedig ar athrawiaethau gwir Gristionogol, wedi eu cofleidio gydag argyhoeddiad dwfn a phrofiadol, ni buasai iddi unrhyw ystyr wirioneddol, nis gallasai ddal gafael tyn yn y meddwl, ac o ganlyniad buasai yn rhwym o ddiflanu heb adael unrhyw ffrwyth ar ei hol. Ar y llaw arall, oni buasai fod ffydd ac athrawiaeth wedi eu cario allan yn uniongyrchol a'u sylweddoli mewn gweithrediad, buasent fel o'r blaen yn parhau i gael eu cyfyngu o fewn tiriogaeth dysg a damcaniaeth, ac nis dygasid oddiamgylch unrhyw adnewyddiad trwyadl ar grefydd a'r eglwys fel ag i ddylanwadu ar gorff y boblogaeth."* Teimla pawb briodoldeb a grym y sylwadau uchod, ond prin y golygwn fod Ullman yn rhoddi digon o arbenigrwydd ar nerthol weithrediad crefydd ymarferol. Pa beth a barodd i'r athrawiaethau efengylaidd gael eu dwyn i'r golwg yn y Diwygiad, a'u pregethu fel gwirioneddau byw, yn lle cael eu cyfyngu fel o'r blaen i'r ysgolion a'u dadleu fel profebau oerion? Rhaid eu bod yn awr, trwy weithrediad yr Ysbryd Glân, wedi eu cymhwyso at y galon ac nid yn gorwedd yn y deall yn unig. Y canlyniad oedd, i'r athrawiaethau pur o gyfiawnhâd drwy ffydd a chyfrifoldeb personol ac uniongyrchol dyn i Dduw ddylanwadu yn rymus ar fuchedd gyffredin pob dosbarth, deffro y gydwybod, tyneru y galon, gwresogi y serchiadau crefyddol, a chyfnewid yr holl natur. Yr oedd y Diwygiad yn ddiwygiad mewn llywodraeth eglwysig, mewn defodau a gwasanaeth, mewn ffydd ac athrawiaeth, ac mewn moesoldeb a phurdeb buchedd: a'r gallu mawr oedd wrth wraidd yr holl gyfnewidiad hwn ydoedd argyhoeddiad nerthol o wirioneddolrwydd crefydd. Nis gallodd gwawd a gwamalrwydd Rabelais effeithio nemawr ddaioni ar gredo na buchedd, ac mor bell ag y cyrhaeddai yr oedd y dylanwad yn nacaol yn hytrach na chadarnhaol; yn ddinystriol, ac nid adeiladol. Ond yr oedd ffydd sylweddol Luther a'i gyd-Ddiwygwyr yn cynnyrchu difrifwch meddwl, dylanwad yr hwn

* Ullman, Diwygwyr cyn y Diwygiad, cyf. i. Rhagymadrodd, t. ix. x.

Digitized by Google

oedd yn anwrthwynebol yn ei ymosodiad yn gystal ag yn anorchfygol yn ei benderfyniad. Adfywiad cryf a dwfn mewn crefydd a barodd y Diwygiad Protestanaidd.

Y mae y sylwadau uchod yn gymhwysiadol at y Diwygiad yn Germany, ac ar y Cyfandir yn gyffredinol. Beth bynag oedd cysylltiadau man-freninoedd y taleithiau â'u gilydd ac â Rhufain, nis gallasai eu dylanwad a'u hawdurdod hwy byth gynnyrchu y fath chwyldroad daionus. Bu digon o anghydfod a rhyfeloedd rhwng breninoedd y gwledydd drwy yr oesau, ond ni chynnyrchwyd drwy unrhyw ymbleidio na chynghrair rhyngddynt y fath fywiogrwydd crefyddol erioed. Diau mai y Groesgad oedd y symudiad mwyaf nerthol a fu yn Ewrop cyn y Diwygiad. Cynhyrfodd hwnw holl deyrnasoedd y Cyfandir i'w sail, yn bendefigion a gwerin. Ond er fod y Groesgad yn allanol grefyddol, wedi ei chychwyn er mwyn rhyddhau y Bedd Santaidd o feddiant y Saraceniaid digred, ychydig iawn o ysbryd gwir grefyddol ac efengylaidd oedd yn meddiannu yr ymladdwyr. Ymdrechent am y cysgod, ac esgeulusent y sylwedd; ymladdent dros yr allanol, ond dibrisient y mewnol. Mewn gair, yr oedd y Groesgad yn ymgorffoliad o ysbryd twyllodrus y Babaeth. O'r ochr arall yr oedd y Diwygiad, er fod ynddo lawer o ddiffygion a ffaeleddau, yn ffrwyth ysbryd perffaith wahanol; yn barod i aberthu heddwch ac undeb allanol er mwyn hanfod y gwirionedd. Ni bu y fath symudiad mawr, a phwysig, a gogoneddus yn yr eglwys o'r blaen er y pryd y sylfaenwyd hi gan Grist a'r apostolion.

Y mae yn deilwng o sylw hefyd mai yn yr eglwys ei hun y cychwynodd y Diwygiad. Nid unrhyw ddylanwad estronol o wledydd pellenig na chylchoedd gwrthgrefyddol a'i hachlysurodd. Cymer chwyldroad le mewn gwlad weithiau drwy i giwaid ormes ei goresgyn, fel y bu yn y wlad hon fwy nag unwaith; a gall chwyldroad gael ei gychwyn hefyd drwy ryw ddadblygiad graddol o syniadau ac egwyddorion politicaidd newyddion o fewn y deyrnas ei hun, a dygwyddodd hyny drachefn unwaith neu ddwy yn Mhrydain. Yr un modd y gall diwygiadau gael eu dwyn oddiamgylch mewn crefydd, un ai drwy ddylanwad rhyw gyfnewidiad gwareiddiol yn y wlad, neu drwy adfywiad athrawiaethau a galluoedd yn yr eglwys ei hun. Cymerodd adfywiad mawr le ar ddysg a chrefydd yn y bymthegfed ganrif, ac ofer fyddai gwadu nad effeithiodd hyny i raddau helaeth ar grefydd ac na bu yn gynnorthwyol iawn i'r Diwygiad. Haera rhai mai dyna brif, os nad unig achos, yr adfywiad crefyddol yn y ganrif ganlynol. Ond tra yn barod i gydnabod dyled fawr yr ysgogiad i'r bywiocâd hwnw mewn dysgeidiaeth, daliwn yn gadarn mai yn yr eglwys ei hunan y ffynnonellodd y gallu a'i gweithiodd allan; ïe, ni byddem bell o'n lle pe dywedem mai yn yr eglwys y cafodd adfywiad gwyddorol y bymthegfed ganrif ei haniad. Mae hyn o leiaf yn sicr, mai cysegredig oedd y gerddoriaeth, yr arluniaeth, a'r archadeiladaeth, yn y ganrif hòno. Fel mewn bron bob amgylchiad, felly yma; gwelwn weithrediad ac adweithrediad gwahanol fudiadau yn cynnorthwyo eu gilydd: Rhagluniaeth a Gras yn cydweithio mewn cysondeb i gyrhaedd yr un amcan gogoneddus a osododd Brenin nef a daear o flaen y ddau. Yn yr eglwys yr oedd y gweithrediad, ond amgylchiadau allanol a roddasant ffurf iddo: peiriant oedd dysg a chelfyddyd, a chrefydd oedd y gallu a'i hysgogai. Dynion crefyddol, eto, a flaenorent yn y mudiad. Mynach oedd Luther ei hun, ac offeiriaid oedd ei gynnorthwywyr penaf. Y cwbl a wnaeth y tywysogion duwiolfrydig oedd amddiffyn bywydau y dewrion hyny, efallai hefyd i rai teyrnoedd llai eu gras fanteisio ar y Diwygiad i gyrhaedd eu hamcanion uchelgeisiol. Yr unig beth a fyntumiwn ydyw, mai o fewn yr eglwys yr oedd y nerth a ymweithiai allan drwy yr adfywiad hwn, ac mai yn yr eglwys y cychwynodd. Yno y planesid y gronyn mwstard, ac ynddi hi y gosodasid y lefain: o'r blaen cuddid yr had gan y gweryd, ond yn awr dechreuodd flaguro; o'r blaen gorweddai y lefain yn ngwaelod y llestr, ond yn awr ymweithiodd drwy ei holl gynnwysiad.

Yr oedd Eglwys Rhufain cyn y Diwygiad wedi dirywio a myned i gyflwr gwaradwyddus. Ymweithiasai y llygriad hwn drwyddi yn raddol yn nhreigliad oesau. Cynnyddasai o'i symlrwydd cyntefig yn sefydliad anferth. Lluosogodd y deiliaid, cynnyddodd y cyfoeth a'r urddas, ychwanegwyd at y graddau a'r swyddi, y defodau a'r ffurfiau, nes bod yr eglwys yn beiriant cymhlethog ac amrosgo yn gofyn llawer o allu i'w gadw i droi. Yr oedd fel corff mawr trwm, ac fel y marweiddiai ei fywyd ac y gwanhâi ei egni nid rhyfedd i gig marw fagu ynddo, ac i lygredigaeth ddechreu o'i fewn. Daeth y llygriad i'r golwg mewn gwahanol ffurfiau. Ymgripiodd cyfeiliornadau arswydus i'r credo, daeth defodau a seremonïau ofergoelus i mewn i'r gwasanaeth, aeth

Digitized by Google

bywyd yr offeiriaid a'r mynachod yn warthus o lygredig, ac ymdaenodd ysbryd trahäus a gormesol drwy yr holl swyddogaethau.

Os dyna oedd cyflwr yr Eglwys Babaidd ar y pryd, priodol yw gofyn pa fodd y gallai bywyd darddu allan o'r fath fedd o lygredigaeth? Y mae dwy ystyriaeth a rydd atebiad i'r cwestiwn. Yn gyntaf, rhaid cofio fod yr hanfod yn yr eglwys; fod athrawiaethau sylfaenol yn cael eu dal a'u dysgu, er yn llethedig gan gruglwyth o ofergoelion. Yr efengyl oedd corff athrawiaeth yr eglwys, ond ei fod wedi ei rwymo a'i lyffetheirio â gefynau yr athroniaeth Aristotelaidd a'i ffugaddurno â gwisgoedd paganiaeth. Y Gwyddelod neu fel y gelwid hwy y pryd hwnw, yr Ysgotiaid), oedd y rhai cyntaf yn Ewrop i gyfaddasu athrawiaethau Cristionogol at ofynion yr athroniaeth Roegaidd. Dygasant eu duwinyddiaeth newydd i fri yn yr wythfed ganrif, ac y mae wedi parhau i raddau i ddylanwadu ar bob cangen o'r eglwys hyd ein dyddiau ni. Mabwysiadwyd defodau, a syniadau, ac ofergoelion paganaidd yn foreuach fyth. Er hyny yr oedd traddodiadau y tadau boreuol, ac hyd yn nod y Beibl, yn cael rhywfaint o sylw yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg, ac yr oedd rhai yn alluog i ganfod rhyw belydr o'r goleuni Dwyfol drwy holl leni philosophi a gwag dwyll y Canol Oesoedd. Yn ail, dylid ystyried fod pleidiau gwahanol yn bodoli o'r dechreu, oddiallan ac o fewn yr eglwys ei hun. Nis gallwn gydolygu â Baur fod dwy blaid yn bodoli yn yr oes apostolaidd, un o dan arweiniad Pedr a'r llall dan arweiniad Paul, ac fod y ddau brif apostol yn rhoddi gwedd wahanol ar wirioneddau yr efengyl; er fod Paul ei hun yn son wrth y Galatiaid am efengyl yr enwaediad wedi ei hymddiried i Pedr, ac efengyl y dienwaediad wedi ei hymddiried iddo yntau (Gal. ii. 7, 8). Fodd bynag, y mae yn eithaf eglur fod pleidiau, a heresiau, a sismau, wedi dechreu yn yr eglwysi eisoes, a pharhausant i raddau mwy neu lai drwy yr holl oesau; ond y mae Paul yn mynych feio arnynt, ac yn dangos ysbryd perffaith anghymeradwyol o honynt. Er hyny goruwch-lywodraethodd Duw hyd yn nod yr ymraniadau hyn i fod yn foddion puro a dadblygu yr athrawiaeth. Yn y bummed ganrif cyfododd lluaws o gyfeiliornadau, yn mhlith y rhai nid y lleiaf oedd heresi Pelagius, neu Morien, yr hwn a anesid yn Mhrydain ac a ddadleuodd yn benderfynol âg Awstin. Yn y nawfed ganrif ymrwygodd yr eglwys yn ddwy gangen, y rhai sydd byth ar wahan o dan yr enwau o Eglwys Rhufain ac Eglwys Groeg. Yn y ddeuddegfed ganrif daeth y Waldensiaid a'r Albigensiaid i'r golwg fel ymneillduwyr hollol oddiwrth y Babaeth, fel diwygwyr eiddgar mewn moesoldeb ac athrawiaeth, ac fel rhai yn chwilio yr Ysgrythyrau yn ddyfal, gan dderbyn eu tystiolaeth yn derfyn ar bob dadl. Nid oes sicrwydd am haniad y pleidiau hyn, a dichon y rhaid eu hystyried fel rhai a gyfodasant o'r tu allan i'r eglwys. Ond nid felly am yr urdd Franciscaidd. Un o neillduolion y Babaeth yw ei bod yn goddef o'i mewn wahanol urddau, neu gymdeithasau yn amcanu at ddybenion gwahanol, yn defnyddio moddion gwahanol i gyrhaedd y dybenion hyny, ac yn gwahaniaethu cryn lawer mewn daliadau, ond eu bod oll yn cydnabod awdurdod y pab a'i gardinaliaid. Brawdoliaeth o gardotwyr oedd y Francisciaid, a sefydlwyd gan St. Francis yn nechreu y ddeuddegfed ganrif. Cyn diwedd y ganrif ymranasent yn amryw isurddau, un o ba rai, y Francisciaid Ysbrydol, a gydnabyddwyd gan y Pab Celestine V., enw yr hwn a fabwysiadasant, ond a gondemniwyd gan ei olynydd, Boniface VIII.* Ymosodai y rhai hyn yn ddidrugaredd ar yr offeiriaid a'r mynachod ereill, ac hyd yn nod ar bendefigion yr eglwys, am eu cyfeiliornadau a'u hanfoesoldeb. Fel hyn, ychydig iawn o heddwch a fwynhäi y Babaeth hyd yn nod yn nyfnder tywyllwch yr oesoedd tywyllaf. Yr un modd hefyd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg; cai y Chwil-lys ddigon o waith i ddal, profi, a llosgi hereticiaid a Diwygwyr. Yn nechreu y bymthegfed ganrif ysgydwyd y Babaeth gan gynhyrfiadau mawrion, a bu yr eglwys ranedig am ryw dymmor yn cael ei llywodraethu gan ddau bab, un yn Rhufain a'r llall yn Ffrainc, ac wedi hyny gan gynnifer a thri; a mawr oedd yr elyniaeth rhyngddynt hwy â'u pleidiau, a blin y drafferth i'w heddychu. Dyma y pryd y cyfododd yr enwog ferthyr John Huss yn Bohemia, ac y llosgwyd ef a'i gyfaill, Jerome o Prague, oherwydd eu hysbryd Diwygiadol. Yn niwedd yr un ganrif y cyfododd Savonarola yn yr Eidal, ac y taranodd yn ofnadwy yn erbyn llygredigaethau Rhufain; nes yn gyntaf ei dagu, ac wedi hyny ei losgi, yn 1498. Ond heblaw y personau unigol hyn, yr oedd cymdeithasau dirgelaidd a chyhoeddus wedi eu ffurfio yn mhob

* Mosheim's Ecclesiastical History, cent. xiii. part ii. chap. ii. sec. 28, and notes.

Digitized by Google

gwlad ar y Cyfandir i wrthwynebu gorthrwm a llygredigaeth Rhufain, a hyn a'i gwnaeth yn bosibl i Luther a'i gyd-Ddiwygwyr lwyddo yn eu hanturiaeth fawr.

Nid yw yn ymddangos fod llawer o wahaniaeth rhwng gwahanol genedloedd a theyrnasoedd yn eu hymdrech i wrthwynebu gallu Rhufain. Ffrainc a roddodd fodolaeth i'r Albigensiaid, y rhai a fygythiasant y Babaeth mor foreu. Ychydig a ddysgwyliasai ddyn o'r ysbryd hwn yn yr Eidal, ond yno y magwyd ac yr addysgwyd Savonarola, er mai yn yr Hispaen y ganesid ef; a rhaid rhestru y bardd Eidalaidd Dante yn mhlith gwrthwynebwyr boreuaf trais y Babaeth. Dichon er hyny mai Germany a ennillodd yr enwogrwydd mwyaf yn y cyfeiriad hwn, nid yn unig drwy gynnyrchu rhifedi mawr o Ddiwygwyr, ond drwy gyfodi gwr fel Luther, a lwyddodd i dori asgwrn cefn y "bwystfil," tra yr oedd ereill wedi syrthio yn ysglyfaeth hawdd iddo. Clod arall sydd deilwng i Germany yw fod ei breninoedd a'i thywysogion wedi bod yn lled ffafriol i'r Diwygiad, tra y trodd breninoedd Ffrainc yn ei erbyn. Louis VIII. a ddarostyngodd yr Albigensiaid yn neheubarth Ffrainc yn y drydedd ganrif ar ddeg, onidê y tebygolrwydd yw pe cawsent lonydd y torasai y blaid hòno esgyll y "ddraig" o Rufain dri chan mlynedd llawn cyn i Luther ei gorchfygu. Ond y ffaith yw, mai ar dir Germany yr ymladdwyd y frwydr fawr, a Germaniaid gan mwyaf oedd yn blaenori yn y gad. I'r wlad ac i'r genedl hòno, o ganlyniad, y perthyna y clod o ddwyn i fuddugoliaeth y frwydr ofnadwy rhwng rhyddid a thrais crefyddol.

---

## PENNOD III.

### Y DIWYGIAD PROTESTANAIDD YN MHRYDAIN.

PUR debyg yw hanes y Diwygiad yn y wlad hon i'r hyn y darluniasom ef ar y Cyfandir. Nid gwaith bychan ydyw newid crefydd gwlad o dan unrhyw amgylchiadau, ond yr oedd yn Lloegr ar y pryd anfanteision ac anhawsderau neillduol, fel nas gallwn edrych ar y chwyldroad crefyddol hwn ar ryw olwg yn fawr lai na gwyrth. Ymddangosai ar y cyntaf yn anmhosibl, ac eto daeth oddiamgylch yn rhwydd a naturiol. Ymddangosai fel yn ymweithio allan er gwaethaf pawb a phobpeth, fel y tueddir ni i dori allan wrth ddarllen ei hanes yn ngeiriau swynwyr yr Aipht, "Bys Duw yw hyn" (Exod. viii. 19). Priodolir ef yn fynych i'r brenin, Harri VIII., ond nid oedd dim byd pellach oddiwrth ei feddwl ef na'i ddwyn oddiamgylch. Yr oedd yn casäu y Lutheriaid â'i holl enaid, ac ysgrifenodd lyfr yn eu herbyn, am yr hwn wasanaeth y derbyniodd gan y pab y teitl o Amddiffynydd y Ffydd, yr hwn a wisgir gan benaduriaid Lloegr hyd heddyw. Pabydd eithafol, mewn syniadau a theimlad, oedd y brenin. A phe buasai efe yn dueddol i'r Diwygiad ei hun, heb fod y wlad yn addfed iddo hefyd, nis gallasai byth ei gario allan, er cymaint gormesdeyrn ydoedd. Peryglus fuasai iddo fyned yn mhell iawn yn erbyn teimlad ei ddeiliaid, oblegid mewn gwirionedd nid oedd ei deitl i'r orsedd yn rhy dda. Daethai ei dad i mewn heb ddim gwell na chysgod o hawl iddi; daeth i mewn yn rhinwedd amgylchiadau trallodus y deyrnas ar ol rhyfeloedd cartrefol gwaedlyd y Rhosynau. Yr oedd hawl Harri VIII. beth yn well, yn rhinwedd llinach ei fam, ond nid oedd yn ddiberygl iddo yntau ymyryd gormod â pheth mor beryglus a chrefydd y deiliaid yn groes i'w hewyllys. Mae yn wir fod dyfodiad y Tuduriaid i'r orsedd wedi bod yn iachawdwriaeth i'r deyrnas, ac yr oedd hyny yn cael ei deimlo a'i gydnabod yn bur gyffredinol. Boddlonai tlawd a chyfoethog i ddyoddef cryn lawer er mwyn yr amddiffyniad oedd drostynt, drwy fod gwr mor egnïol a Harri yn eistedd ar yr orsedd. Ond prin y goddefasid iddo yntau greu cyfnewidiadau mawrion mewn crefydd yn groes i ddymuniad y bobl, yn enwedig gan y buasai y clerigwyr o bob gradd yn ffyrnigo ac yn cynhyrfu pawb i'w wrthsefyll. Y ffaith yw fod Prydain, fel y Cyfandir, yn bur addfed i'r Diwygiad pan y daeth, ac nad oedd y cwbl a wnaeth y brenin yn y mater ond dibwys mewn cymhariaeth. Yr oedd esiampl Germany yn cael ei theimlo yn y wlad hon, a llyfrau y Diwygwyr yn cael eu lledaenu drwy y deyrnas, i'r hyn yr oedd darganfyddiad y gelfyddyd o argraffu, ryw hanner can mlynedd cyn hyny, yn dra manteisiol. Prin y buasai y Diwygiad yn bosibl yn y deyrnas hon nac ar y Cyfandir heb y wasg. Drwyddi hi, i raddau helaeth, y gwnaethpwyd athrawiaethau mawrion ac egwyddorion newyddion y Diwygiad yn hysbys i'r gwledydd, a thrwyddi hi y cyrhaeddai dylanwad y Diwygwyr bob gradd a dosbarth. Rhaid, o ganlyniad, fod gan Luther a'i gyd-lafurwyr ran mewn cynnyrchu

Digitized by Google

y mudiad gwrth-Babaidd yn y wlad hon; ond yr oedd yma ddylanwadau ereill yn gweithredu ag oedd wedi tyfu yma, a'r rhai nas gellir eu deall heb roddi cipdrem dros hanes grefyddol Prydain, fel y gwnaethom eisoes dros hanes grefyddol y Cyfandir.

Paganiaid anwaraidd ac eilunaddolgar oedd y Seison pan yr ymsefydlasant yn Lloegr, yn y bummed ganrif. Yn nechreu y seithfed ganrif yr anfonwyd Awstin Fynach drosodd o Rufain i'w hefengyleiddio. Pabydd oedd Awstin, a chan y pab y gyrwyd ef yma. Yr unig ffurf o Gristionogaeth y gwybu y Sacsoniaid am dani oedd y ffurf Babyddol, ac y mae yr un sylw yn briodol am yr holl lwythau Teutonaidd yn gyffredinol. Yr oeddynt oll o'r dechreu mewn cydgord perffaith â Rhufain. Parhaodd y Seison felly yn fwy didor, ac am gyfnod hŵy, nag odid i genedl yn Ewrop.* Mae hanes boliticaidd y wlad, a gweddillion llenyddol yr Oesoedd Tywyll, yn dangos fod yma beth anniddigrwydd weithiau yn herwydd honiadau Rhufain; ond, ar y cyfan, pur dawel a gostyngedig fu Lloegr o dan iau y Babaeth.

Yn y ddeuddegfed ganrif yr oedd un Walter Mapes yn archddiacon yn Rhydychain. Ychydig iawn a wyddys am ei hanes, a buwyd yn hir yn ammheu a fu y fath wr yn bodoli erioed ai peidio. Cydnabyddir yn awr, fodd bynag, fod y fath ddynsawd wedi bod, ond ammheuir dilysrwydd y gwaith a briodolir iddo. Daw ei enw i'r golwg yn nglŷn â Gruffydd ab Arthur a'i gronicl. Dywed Gruffydd, neu Sieffrai o Fynwy fel y gelwir ef yn gyffredin, yn ei ragdraeth ddarfod iddo gael y llyfr gan Walter Mapes, ac iddo ei gyfieithu o'r iaith Frytanaidd i'r Lladin.† Dygasai Walter y llyfr o Lydaw i Gymru, ond prin y gallwn gredu mai Llydawr oedd efe. Beth yw ystyr Mapes? Gall ei fod yn enw lle, oblegid oddiwrth eu lle brodorol y cymerai dynion eu henwau yn fynychaf yn yr oes hòno; ond nis gwyddom am unlle o'r enw, os nad yw Mabwys, yn sir Benfro, yn deilliaw o hono. Y mae genym ryw dyb hefyd fod enw

* Fel hyn y dywed Burnet yn "Hanes y Diwygiad:"—"Felly pa beth bynag oedd beiau ereill y brenin hwn (Harri VIII.), a pha mor ddiffygiol bynag oedd y cyfnewidiad a wnaeth, ac oddiar ba gymhellion drygionus bynag yr ymddengys ei fod wedi tarddu; eto, gan fod y pethau ynddynt eu hunain yn dda, ni ddylem feddwl yn waeth o honynt oherwydd yr offeryn, neu y dull y dygwyd hwy oddiamgylch drwyddo; ond dylem ryfeddu ac edmygu llwybrau Doethineb Ddwyfol, yr hon a ddygodd oddiamgylch y fath gyfnewidiad mewn eglwys, yr hon tra yn ddarostyngedig i Eglwys Rhufain a fuasai yn anad un parth o Ewrop yn fwyaf dof o dan ei gorthrwm, ac a suddasai ddyfnaf mewn ofergoeledd." (Burnet's History of the Reformation of the Church of England, Preface; 4th edit.)

† Four Ancient Books of Wales, vol. i. p. 22, &c.

tebyg yn rhywle yn Morganwg. Ond dyma yr hyn a barodd ini gyfeirio yn awr at y Walter hwn, pwy bynag oedd, sef fod cryn nifer o ddarnau barddonol yn Lladin yn cael eu priodoli iddo, y rhai sydd yn gwawdio yr offeiriaid Pabaidd ac yn dadlenu eu hanwybodaeth a'u hanfoesoldeb.* Ond yr hyn a ddengys egluraf fod egwyddorion Diwygiadol yn ymweithio yn lled gyffredinol yn Lloegr yn nyddiau Wycliffe, ac yn annibynol ar ei ddylanwad, os nad cyn ei ddyddiau ef, yw cyhoeddiad amryw gyfansoddiadau yn yr iaith gyffredin y rhai o ran eu tuedd sydd wrthwynebol i'r Babaeth. Y pwysicaf o'r cyfryw ydyw "Gweledigaeth William yn nghylch Piers yr Aradrwr" ("The Vision of William concerning Piers Ploughman"), er nad ydyw yn agos mor lym ag ereill o'r un cyfnod. Tybir mai un Robert Langlande oedd yr awdwr, a'i fod yn fynach; ond nid oes dim sicrwydd i'w gael ar bwnc ei awduriaeth. Ar ffurf barddoniaeth y cyfansoddwyd y gwaith, a'i arddull yn ddammegol neu arallegol. Llinellau byrion chwesill ydyw y mesur, ond heb odl. Y mae ynddo fath o gynghanedd ysgafn, sef nifer o eiriau (tri neu bedwar mewn braich) yn dechreu gyda'r un lythyren, yn ol rheol yr hen fydryddiad Sacsonaidd. Fel hyn y dywed Wright mewn perthynas i'r gân:—"Mewn gwirionedd, cyfres o freuddwydion ydyw 'Piers yr Aradrwr,' yn hytrach nag un weledigaeth seml. Y breuddwydiwr, yn flin ar y byd, a syrth i gwsg ar lan afon, yn nghanol golygfëydd prydferth Bryniau Malvern. Yn ei weledigaeth, cynddrychiolir pobl y byd gan dyrfa anferth wedi ei chasglu i ddôl hyfryd; ar un llaw saif Tŵr y Gwirionedd yn ddyrchafedig ar fynydd, yn nod cywir i bererindod dyn, tra y mae Pydew Gofal ar y llaw arall, Trigle Camwri. Yn nosranau (*passus*) cyntaf y bryddest darlunir dechreuad cymdeithas, sefydliad ac urddas brenhinol allu, a dosbarthiad dynion yn wahanol swyddogaethau a graddau. Yn nghanol ei syndod at yr hyn a genfydd, dynesa boneddiges deg, sef personoliad o'r eglwys santaidd, i addysgu y breuddwydiwr. Esbonia iddo ystyr y gwahanol wrthddrychau a ymgyflwynent i'w sylw; a dengys, drwy annogaethau ac esiamplau, deilyngdod boddlonrwydd a chymedroldeb, perygl anufudd-dod (yn cael ei eglurhau drwy hanes cwymp Lucifer), ac effeithioldeb cariad a brawdgarwch. Yn nghanol ei ymddyddan gyda'i addysgydd, gwna

* Piers Ploughman's Vision, vol. i. pp. vi.–xiii.; Wright's edit. 1856. Mosheim's Eccles. Hist. p. 313.

Digitized by Google

foneddiges ei hymddangosiad ar yr esgynlawr. Hon yw boneddiges Haeddiant, sef personoliad o'r gwrthddrych twyllodrus hwnw ag y mae rhan mor fawr o'r hil ddynol yn cyfeirio eu hymdrechion ato—ffynnonell y rhan fwyaf o'r llygredigaethau a'r gweithredoedd drygionus yn y byd—nid y cyfiawn daledigaeth am ein gweithredoedd, at yr hwn yr edrychwn yn mlaen mewn bywyd dyfodol, ond y gwobrwy a geisir gan y rhai a osodant eu holl obeithion ar y presennol. Y mae yr Eglwys Santaidd yn awr yn gadaw y breuddwydiwr, yr hwn a gaiff hamdden i sylwi beth sydd yn cymeryd lle yn y maes." Yn y dull yma y dygir yr alegori yn mlaen hyd ddiwedd y V. adran, lle y cyfarfydd William y Breuddwydiwr gyntaf â Piers yr Aradrwr. Yr oedd y dyrfa erbyn hyn wedi ceisio cynghor gan luaws o gymeriadau—gan y Gyfraith Wladol, Cydwybod, Rheswm, Edifeirwch, a Gobaith—pa fodd i gael gafael ar Wirionedd; ac wedi i bererin gydnabod ei anallu i'w cyfarwyddo, y mae Piers yr Aradrwr yn cynnyg eu harwain drwy anhawsderau y ffordd os arosant nes iddo orphen hau ei hanner erw, ac yna daw y VI. adran i mewn. "Yn y cyfamser y mae yr holl bererinion a feddant allu a medr yn brysur gyda rhyw orchwyl defnyddiol, oddigerth y marchog, yr hwn a ymgymera, fel ad-daliad am y gynnaliaeth a dderbynia oddiwrth lafur yr aradrwr, i'w wylio a'i amddiffyn rhag yspeilwyr a gelynion estronol. Aflonyddir ar heddwch y llafurwyr i ddechreu gan Gwastraffwr, yr hwn a ommedda gyflawni yr ammodau a rwyment y lleill: gan fod cynnorthwy y marchog yn aneffeithiol yn erbyn y gwr terfysglyd hwn, gorfodir yr aradrwr i anfon am Newyn, yr hwn a'i darostynga yn bur effeithiol. Dyna yw yr adran hon o'r gân, cyfeiriad parhäus at effeithiau y newyn a'r haint, a goganiad ar fywyd moethus a gwastraffus ein cyndadau yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. (Adran VII.) Pan glywodd Gwirionedd am fwriad Piers yr Aradrwr i adael ei lafur er mwyn gwasanaethu fel arweinydd i'r pererinion ar eu taith, danfonodd genad ato i'w gynghori i aros gartref a pharhau yn mlaen gyda'i orchwylion; a chan roddi iddo 'faddeuant,' yr hwn a gyrhaeddai hefyd bawb a'i cynnorthwyai ef yn onest drwy eu llafur ac a gyflawnent eu holl ddyledswyddau gyda phurdeb calon. Cymer yr ysgrifenydd fantais yn y fan hon i ddirmygu maddeuantau y pab, y rhai oedd y pryd hwnw yn y fath fri; y mae offeiriad yn ammheu cyfreithlondeb llythyrau maddeuant Piers, ac fe gyfyd y ffrwgwd rhyngddynt mor uchel nes deffroi o'r breuddwydiwr. Caniatëir maddeuant Piers yr Aradrwr i'r sawl a gyflawnant weithredoedd da: ymgolla y breuddwydiwr yn y ddamcaniaeth ar y cwestiwn beth yw gweithredoedd da, ac ymgymera â phererindod newydd mewn ymchwiliad am wr nad ymddangosasai o'r blaen—Rhinwedd (*Do-well*)." Yn awr, fel enghraifft o ysbryd ac arddull yr awdwr, yn gystal ag o'r iaith Seisnig yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a dull hynod mydryddiad yr hen farddoniaeth Sacsonaidd, gosodwn isod ychydig linellau o'r darluniad gwreiddiol ac yn gyfochrol âg ef gyfieithiad o hono.*

Ond nid yw hyn yn agos mor lym a rhai pethau

* Y gwreiddiol:—

"4695.
"'Piers,' quod a preest thoo,
'Thi pardon moste I rede;
For I wol construe ech clause,
And kenne it thee on Englisshe.'
And Piers at his preiere
The pardon unfoldeth:
And I bi-hynde hem bothe
Biheld al the bulle,
And in two lynes it lay,
And noght a leef more,
And was writen right thus,
In witnesse of Truthe;
*Et qui bona egerunt, ibunt in vitam eternam.*
*Qui vero mala, in ignem eternam.*

"'Peter,' quod the preest thoo,
'I kan no pardon fynde
But do wel and have wel,
And God shal have thi soule.
And do yvel and have yvel,
Hope thow noon oother,

Cyfieithiad:—

4695.
"Piers," ebai offeiriad y pryd hwnw,
Rhaid i mi gael darllen dy bardwn;
Oblegid fe gyfieithaf fi bob brawddeg,
Ac a'i dysgaf iti yn Seisonaeg."
A Piers, wrth ei gais,
A leda y pardwn o'i flaen;
A minnau, o'r tu ol iddynt ill dau,
A welais yr holl lythyr;
Ac mewn dwy linell y gorweddai,
A dim dalen yn ychwaneg,
Ac fe a ysgrifenasid fel hyn:—
A'r Gwirionedd yn dyst;
A'r rhai a wnant ddaioni, a ânt i fywyd tragywyddol.
Ond y rhai a wnant ddrygioni, i dân tragywyddol.
"Pedr," ebai yr offeiriad wedyn,
"Nis gallaf gael un pardwn:
Ond gwna dda, ac ymddwyn yn dda,
A Duw a gymer dy enaid.
A gwna ddrwg, ac ymddwyn yn ddrwg,
Na obeithia ddim amgen,

But after thi deeth-day
The devel shal have thi soule.'
And Piers for pure tene
Pulled it a-tweyne,
And seide, *Si ambulavero in medio umbrae mortis, non timebo mala, quoniam tu mecum es.*
"4724.

. . . . . . . . . .

And so I leve leelly,
Lordes forbode ellis!
That pardon and penaunce
And preieres doon save
Soules that have synned
Seven sithes dedly;
Ac to truste to thise triennals,
Trewely me thynketh,
Is noght so siker for the soule,
Certes, as is Do-wel.
"For—thi I rede yow, renkes,
That riche ben on this erthe,
Upon trust of youre tresor
Triennals to have,
Be ye never the bolder
To breake the .X. hestes;

Ond ar ol dy ddydd marwolaeth
Y diafol a gaiff dy enaid."
A Piers, o gynddaredd ddigymysg,
A'i tynodd yn ddau ddarn,
Ac a ddywedodd, Os rhodiaf yn nghanol cysgod marwolaeth nid ofnaf niwed, canys yr wyt Ti gyda mi.
4724.

. . . . . . . . . .

Ac felly credaf yn ffyddlawn,
Yr Arglwydd a waharddo yn amgen!
Fod pardwn a phenyd
A gweddïau yn achub
Eneidiau a bechasant
Saith waith yn farwol;
Ond am ymddiried yn y triawd hyn,
Yn wir ymddengys i mi
Nid yw ddim mor sicr i'r enaid,
Ysywaeth, ag yw Rhinwedd.
Am hyny cynghorwn chwi, wŷr
Ag sydd gyfoethog ar y ddaear hon,
Ar gyfrif eich trysor
I gael y triawdau,
Na fyddwch ddim hyfach
I dori y .X. gorchymyn;

Digitized by Google

a ysgrifenwyd yn yr oes hòno. Tybir yn gyffredin nad yw y gân a elwir "Piers Ploughman's Creed" ("Credo Piers yr Aradrwr") mewn gwirionedd yn gynnyrch yr un awdwr a'r "Weledigaeth," ond rhaid ei bod wedi ei chyfansoddi tua'r un adeg a'r llall, ac yn fath o efelychiad o honi. Mae y "Credo" yn llawer ffyrnicach yn erbyn Pabyddiaeth na'r "Weledigaeth." Ymddengys fod y ddau gyfansoddiad yn hynod boblogaidd yn mhlith y werin yn yr oes hòno; a diau fod eu dylanwad yn fawr, a'u syniadau yn ymweithio yn helaeth drwy gymdeithas. Ond y dyn a wnaeth fwyaf o bawb er parötoi y ffordd i'r Diwygiad yn Lloegr oedd Wycliffe.*

Gweithiodd Wycliffe mewn llawer modd er llwyddiant crefydd ac egwyddorion Diwygiadol. Ymdrechodd yn gadarnhaol a nacaol, yn ymosodol ac yn amddiffynol, i dynu i lawr gyfeiliornadau ac i osod i fyny y gwirionedd. Ar dri drwg mawr yr ymosodai yn benaf. Gwrthwynebai awdurdod y pab o fewn teyrnas ac Eglwys Loegr, condemniai fywyd llygredig ac athrawiaethau cyfeiliornus y Mynachod Cardotaidd, ac ymosodai yn benderfynol ar yr athrawiaeth felldigaid o draws-sylweddiad yn y Cymun. Ond nid ymfoddlonai ar wrthwynebu a thynu i lawr. Amcanai hefyd at gynllunio a gweithio er crefyddoli y wlad. Gwnai hyn drwy ei addysg a'i ddylanwad yn Mhrifathrofa Rhydychain fel doethawr a darlithydd, ymroddai i bregethu yn boblogaidd ac i roddi ysbryd pregethu mewn ereill, a llafuriodd i gyfieithu a lledaenu yr Ysgrythyrau yn yr iaith gyffredin. Mae yn debygol mai Ockham a ddylanwadodd fwyaf ar feddwl ieuanc Wycliffe, pan yr oedd yn efrydydd yn Rhydychain, yr hwn am ei wrthwynebiad cyhoeddus i anffaeledigrwydd y pab a orfodwyd i ffoi o Loegr i Bavaria. Cyhoeddodd Wycliffe y traethawd cyntaf a briodolir iddo yn 1356, pan yn ddeuddeg ar hugain mlwydd oed, o dan y teitl, "Oes olaf yr Eglwys" ("Last Age of the Church"). Arallegol a dychymygol i'r pen ydyw hwn, ond y mae ynddo rai ymadroddion nodedig, ac y mae y canlynol bron yn brophwydoliaethol:—"Dial y cleddyf, a drygau nas gwelwyd erioed o'r blaen, drwy y rhai y cospir dynion yn y dyddiau hyny, a ddisgynant yn herwydd pechodau yr offeiriaid. Dynion a syrthiant arnynt, ac a'u bwriant allan o'u bywioliaethau bras."

Yr oedd y pab a'r offeiriaid wedi ymhyfhau i raddau annyoddefol yn eu honiadau o awdurdod yn y wlad hon ac yn y dyddiau hyny. Cyhoeddodd un mynach draethawd yn yr hwn yr haera fod penaduriaeth Lloegr wedi ei chyfiawn fforffedu i'r pab, drwy beidio talu y deyrnged flynyddol; ac fod y clerigwyr yn rhydd yn eu personau a'u meddiannau oddiwrth bob ymostyngiad i awdurdod yr ynadon. Geilw yr awdwr ar Wycliffe i ateb yr haeriadau hyn wrth ei enw, ac y mae yntau yn derbyn yr her, ond yn ochelgar a gostyngedig. Er mwyn diogelu ei hun rhag llid y pab, yn hytrach na defnyddio ei eiriau ei hunan, adrodda areithiau a draddodwyd yn Nhŷ yr Arglwyddi y pryd hwnw. Dywed un o honynt nad oedd dylanwad y pab a'i gardinaliaid yn cael ei deimlo yn Lloegr, oddigerth drwy drosglwyddo cyfran fawr o'i thrysor i ddwylaw ei gelynion; ac mai Crist ydyw y Brenin Goruchaf, tra nad yw y pab ond dyn darostyngedig i bechod; a'r hwn, os mewn pechod marwol o ran ei gyflwr ysbrydol, sydd yn ol barn duwinyddion yn anghymhwys i deyrnasu. Oddiwrth y cyfryw eiriau fe welir fod syniadau gwrth-Babaidd wedi dringo i gylchoedd uchaf y deyrnas, ac yn wir un o'r teulu breninol oedd noddydd ffyddlonaf y Diwygiwr drwy ei oes. Hwn oedd John of Gaunt, dug Lancaster. Nid rhyfedd fod pob gradd o ddynion, yn ddeiliaid a llywiawdwyr, wedi blino ar y Babaeth; oblegid nid yn unig yr oedd swm mawr o eiddo y deyrnas yn myned i Rufain bob blwyddyn yn y ffurf o deyrnged, ond yr oedd swyddi y deyrnas yn cael eu llenwi gan glerigwyr, a hwy oedd y swyddogion uchaf yn y Senedd y pryd hwnw. Gan

| | |
|---|---|
| And namely ye maistres, | Ac yn enwedig chwi feistri, |
| Meires and jugges, | Maerod a barnwyr, |
| That have the welthe of this world | Sydd genych olud y byd hwn |
| And for wise men ben holden, | Ac a gyfrifir yn ddoethion, |
| To purchace yow pardon. | I brynu iwch bardynau. |
| And the popes bulles, | A llythyrau y pab, |
| At the dredful dome, | Yn y farn ofnadwy, |
| Whan dede shulle rise, | Pan adgyfyd y meirw |
| And comen alle to-fore Crist | Ac y deuant oll ger bron Crist |
| Acountes to yelde, | I roddi cyfrif |
| How thow laddest thi lif here, | Pa fodd yr arweiniaist dy fywyd yma, |
| And hise lawes keptest, | Ac y cedwaist ei ddeddfau Ef, |
| And how thow didest day by day | A pha fodd y darfu it' o ddydd i ddydd |
| The doom wole reherce. | Adgoffa yn iawn am y farn. |
| A poke ful of pardon there, | Llonaid llogell o bardwn, |
| Ne provincials lettres, | Na llythyrau taleithiawl, |
| Theigh ye be founde in the fraternité | Er eich cael yn mrawdoliaeth |
| Of all the foure ordres, | Yr holl bedair urdd, |
| And have indulgences double-fold, | A chael pardynau yn ddyblyg, |
| But if Do-wel yow helpe, | Os na bydd Rhinwedd i'ch cynnorthwyo, |
| I sette youre patentes and youre pardon | Prisiaf eich holl freintebau a'ch pardwn |
| At one pies hele. | Yn werth un sawdl pioden. |
| "4887." | 4887. |

* Y Gwyliedydd, cyf. i. Vaughan's Wycliffe.

fod gwrthwynebiad mawr i hyn yn y Senedd ac yn y wlad, yr oedd gan Wycliffe gefn da yn ei ymosodiadau ar y pab, pa mor luosog, dylanwadol, a dichellddrwg bynag y gallai fod ei elynion. Pasiwyd Deddf y *Provisors* yn 1350, a'r *Præmunire* yn 1353, er cwtogi awdurdod llys y pab yn Lloegr; ac yn 1373 danfonodd y Brenin Edward III. ddirprwyaeth at y Pab Gregory XI., yr hwn y pryd hwnw a breswyliai yn Avignon yn Ffrainc, i ofyn am rhyddhâd oddiwrth y beichiau canlynol: sef, hawl y pab i gadw bywioliaethau Eglwys Loegr yn ei law ei hun, awdurdod y pab i attal dyrchafiad offeiriad i esgobaeth, a'r angenrheidrwydd am ei gadarnhâd ef ar etholiad esgob. Yn y drafodaeth hon, ac ereill a fu yn y dyddiau hyny â'r pab, cafodd Wycliffe drem ar ysbryd cyfrwys y llys Pabaidd; a diau mai dyna yr achos fod ei ysgrifeniadau dilynol yn llawn llymder yn erbyn mawrion Eglwys Rhufain. Ymledodd ei olygiadau mor gyflym yn y Senedd a thrwy y deyrnas nes y dychrynodd y clerigwyr, ac y gwysiasant ef i sefyll ei brawf yn St. Paul am goleddu a lledaenu golygiadau hereticaidd. Fodd bynag, dilynwyd Wycliffe i'r llys gan dug Lancaster a'r Arglwydd Percy, a phan wnaeth yr Esgob Courtney rhyw sylw trahäus wrth y Diwygiwr, dywedodd y dug: "Am danoch chwi, fy arglwydd esgob, sydd wedi myned mor falch ac uchelfrydig, mi dynaf i lawr nid yn unig eich balchder chwi ond hefyd falchder holl glerigwyr Lloegr." Yn 1378 gwysiwyd ef drachefn i sefyll o flaen y *synod* yn Lambeth. Daeth yno ei hunan, ond yr oedd cyffro mawr drwy y ddinas, ac yr oedd y dyrfa o amgylch y lle mor fygythiol a chynhyrfus fel y crynai yr esgobion gan ofn, ac ychwanegwyd at eu dychryn pan y daeth Syr Lewis Clifford i mewn i'r capel lle yr oeddynt yn gynnulledig, ac a orchymynodd iddynt, yn enw y frenines (mam y brenin), beidio a chyhoeddi unrhyw ddedfryd yn erbyn ymddygiad na golygiadau y Diwygiwr. Fodd bynag, dywedir ddarfod iddo cyn ymwahaniad y cynghor roddi papyr yn nwylaw yr esgobion, yn cynnwys dadganiad maith o'i olygiadau. Y mae hwn yn dystysgrif (*document*) pwysig, ac wedi tynu sylw pleidwyr a gwrthwynebwyr. Yn y chweched erthygl dadgana ei farn am berthynas yr eglwys â'r llywodraeth:—"VI. Os oes Duw, dichon i'r arglwyddi gwladol gymeryd ymaith yn gyfreithlawn a chanmoladwy eiddo etifeddol eglwys anffyddlawn." Gall dadganiad fel hyn roddi trem gynnwysfawr i'r darllenydd ar syniadau eang y Diwygiwr mewn ystyr boliticaidd, a dyry y ddeunawfed erthygl olwg darawiadol ar ei safle yn ei berthynas â'r offeiriadaeth:—"Dichon i glerigwr, ïe, hyd yn nod pab Rhufain ei hun ar rai cyfrifon, fod yn ddarostyngedig i gerydd ei ddeiliaid, ac er mwyn lles yr eglwys gael ei erlyn gan wŷr llên a lleyg;" ac yn mhellach, erfynia na byddo i ofn dyoddefaint, nac awydd am elw, na chariad at enwogrwydd, attal milwyr Crist, yn wŷr lleyg yn gystal a gwŷr llên, rhag dyfod allan i amddiffyn cyfraith Duw hyd yn nod at waed! Pe byddai i'r arglwydd bab ei hunan, neu hyd yn nod angel o'r nef, gyhoeddi athrawiaethau fyddo yn gosod ar greadur y gallu i faddeu, ag sydd yn perthyn yn neillduol i'r Duwdod, haerir y dylai pob aelod o'r weriniaeth Gristionogol deimlo yn ddyledus arno yn y cyfryw achos i ymegnïo i'r eithaf "er cadw y ffydd."

Yn y flwyddyn 1360 y dechreuodd Wycliffe ei ddadleuon gyda'r Mynachod Cardotaidd, y rhai a ddaethant i Rydychain yn 1221. Buasai ereill o'i flaen yn ymosod ar yr urdd lygredig hon, ond y gwahaniaeth oedd mai ymosod a wnaent hwy ar y llygredigaethau neillduol i'r urdd, tra y daliai Wycliffe fod eu llygredigaethau yn cyfodi yn naturiol ac o angenrheidrwydd oddiar y rheolau hyny ag yr ymrwymasai y mynachod i'w cadw. Tua'r flwyddyn 1378 darfu i'w lafur dibaid, a'i ddyoddefiadau mynych, ddwyn afiechyd i'w gyfansoddiad gwanaidd. Tybiodd y mynachod y byddai yn wasanaeth i Dduw pe gallent gael gan y fath bechadur rhyfygus gyfaddef ei fai ac ymwrthod â'i gyfeiliornadau. Danfonasant ato ddirprwyaeth o bedwar doethawr, sef un o bob urdd fynachaidd, y rhai a areithiasant wrtho am amser maith heb dderbyn unrhyw ateb. Wedi iddynt orphen, galwodd Wycliffe ei weision i'w godi yn ei wely, ac yna trodd at ei elynion, sefydlodd ei lygaid arnynt, a chan gasglu yn nghyd ei ychydig nerth oedd yn ngweddill, a ddywedodd: "Ni byddaf farw, ond byw; a chyhoeddaf eto weithredoedd drygionus y mynachod."

Yn y ddeuddegfed ganrif y dechreuwyd cyhoeddi yn awdurdodol athrawiaeth gyfriniol y traws-sylweddiad. Cyfarfyddodd âg amryw wrthwynebwyr, yn enwedig Berengarius yn Ffrainc, cyn dyddiau Wycliffe, ond ni bu neb mor benderfynol ag efe yn ei herbyn. Tra y perswadiai ei noddwr, John of Gaunt, ef i ymostwng i farn ei urdd mewn pynciau athrawiaethol, dywed gelyn Wycliffe ddarfod iddo barhau yn ei

Digitized by Google

wrthwynebiad cyhoeddus i'r traws-sylweddiad, "ac fel heretic gwrthnysig, ymresymodd yn erbyn yr holl ddoctoriaid."

Yn y flwyddyn 1372 y cymerodd y gradd o Ddoethawr mewn Duwinyddiaeth, yr hyn a roddai hawl iddo i agor ysgol fel dysgawdwr cyhoeddus o dduwinyddiaeth yn y brifysgol. Yn y cysylltiad hwn mae yn ddiammheu ddarfod iddo ddarllen llawer o'r darnau ysgolheigaidd hyny ag sydd eto yn aros yn mhlith ei weithiau, ac o'r pryd hwn teimlid dylanwad ei olygiadau yn fwyfwy yn y brifysgol. Tua'r flwyddyn 1381 cyhuddir ef ger bron y *synod* o gyhoeddi athrawiaethau cyfeiliornus: yn nghylch Sacrament yr allor, ei bod yn berffaith heb unrhyw gyfnewidiad yn sylwedd y bara a'r gwin; yn nghylch offeiriaid ac esgobion, eu bod yn colli eu hurdd drwy syrthio i bechod marwol; yn nghylch clustgyffesiad, fel peth afreidiol; yn nghylch gwaddoliadau eglwysig, fel pethau anghyfreithlawn; ac yn nghylch honiadau y pab, pan y dygwyddo ei fod yn ddyn llygredig, mai o gyfraith Cesar y derbynia ei allu ac nid o awdurdod yr efengyl. Cyhuddid rhai o brif awdurdodau y brifysgol o gyfranogi yn y cyfryw heresi, ac yn eu plith Robert Rigge, y canghellydd. Ond y canlyniad fu, i'r esgobion lwyddo o'r diwedd i gael gan y gallu gwladol attal Wycliffe rhag dysgu mwy yn y brifysgol; er hyny, ni lwyr ddifodwyd byth mo'r had da a hauasai efe yn mhlith ei ddisgyblion a'i gydathrawon.

Heblaw ei lafur fel dysgawdwr yr oedd efe yn arfer pregethu yn fynych i'r cyffredin, fel y lledaenwyd ei olygiadau yn bur gyffredinol yn mysg gwerin a bonedd drwy y deyrnas. Nid yn unig pregethai ei hunan, ond annogai ei ddisgyblion i fyned oddiamgylch i ledaenu ei syniadau; a chawn gyhuddiadau yn eu herbyn eu bod yn crwydro drwy y siroedd gan bregethu nid yn unig mewn eglwysi a mynwentydd, ond hefyd mewn marchnadoedd a ffeiriau, a lle bynag y byddai cyrchfa pobl. Yr oedd rhai o'r cyfryw bregethwyr teithiol yn adnabyddus drwy hanner y deyrnas, megys John Ashton a Nicholas Hereford. Ond dygwyd hwy yn fuan gerbron brawdleoedd, a rhoddwyd terfyn ar eu llafur. Y mae amryw o bregethau Wycliffe ei hun ar gael mewn ysgrifen, ac ymddengys eu bod yn ymarferol o ran eu tuedd ac yn cyfeirio at amgylchiadau yr eglwys yn y dyddiau hyny.

Ond prif wasanaeth y Diwygiwr, efallai, oedd cyfieithu yr Ysgrythyrau i'r iaith gyffredin. Gan fod Wycliffe yn ei ddadleuon â'r mynachod yn cyfeirio yn ddibaid at y Beibl fel yr unig awdurdod derfynol ar bob pwnc, yr oedd efe wedi ymgynnefino â'r Gair Ysbrydoledig tra yr oedd y Babaeth yn ymgynddeiriogi yn ei erbyn. Ofnai yr esgobion yn fawr rhag gweled y Beibl yn llaw y lleygion, a phasiasant benderfyniadau yn erbyn ei gyfieithu i'r Seisonaeg ac yn condemnio John Wycliffe am amcanu gwneyd y gwaith. Ysgrifenodd yntau, fel Luther, lawer iawn o draethodau a phregethau, rhai ar gyfer dysgedigion a rhai ar gyfer y werin; ond nid oedd dim yn cael cymaint o ddylanwad ar bob dosbarth ag a gaffai y cyfieithiad o'r Beibl gan y naill a'r llall. Trwy hwn y llefarasant wrth yr oesoedd canlynol, ac y cadwasant grefydd a'r Diwygiad rhag ymlygru drachefn. Effaith hyn, fel y tystia eu gelynion, oedd gwneyd gwirioneddau yr efengyl yn fwy adnabyddus i'r werin, ac hyd yn nod i wragedd, nag y buasent hyd yn hyn i'r clerigwyr urddasolaf.

---

## PENNOD IV.

### ACHOS Y DIWYGIAD YN NGHYMRU.

Daeth y Diwygiad i Gymru yn wahanol i fel y daeth i luaws o wledydd ereill. Yr oedd ei egwyddorion yn Lloegr a Germany wedi graddol ymledu rai oesoedd cyn ei gwblhau. Tyfu a wnaeth yn y gwledydd hyny, heb nemawr ddylanwad oddiallan. Nid drwy ddarostyngiad y teyrnasoedd i allu arall, na thrwy genadaeth o'r naill wlad i'r llall, y cynnyrchwyd y cyfnewidiad mawr hwn mewn crefydd; ond yr oedd yno ddadblygiad naturiol o egwyddorion a darddasant oddiar amgylchiadau a hanes mewnol y gwledydd hyny. Nid felly yn hollol y bu yn Nghymru. Yr oedd ein gwlad ni yn adeg y Diwygiad mewn cyflwr hynod, yn boliticaidd a chymdeithasol. Eisteddai brenin o waed Cymreig ar orsedd Lloegr; ac nid yn unig yr oedd y Cymry yn teimlo eu hawl ynddo, ond yr oedd yntau ei hunan o'r ochr arall yn cydnabod yr hawl. Arddelai Harri VIII. a'i dad eu cenedl, a'r un modd y Frenines Elisabeth drachefn. Yr oedd amryw o'r deddfau gorthrymus a osodasid ar y Cymry eisoes wedi eu dilëu, ond yn nheyrnasiad Harri VIII. y difodwyd pob gwahaniaeth rhwng y Cymry a'r Seison ac yr unwyd y ddwy wlad yn un deyrnas. "Pa beth bynag a feddylir am y dynion hyn (Harri ac Elisabeth) mewn golygiadau

Digitized by Google

ereill, nis gellir am fynyd ammheu nad Harri VIII. a'i ferch Elisabeth a wnaethant fwyaf dros Gymru o holl benaduriaid Lloegr o amser Iorwerth Hirgoes, yr hwn a ddifreiniodd y Cymry o'u hannibyniaeth, hyd y dydd heddyw," ebai y Parch. D. Silvan Evans.* Byth ar ol hyny y mae yr un cyfreithiau yn llywodraethu y naill a'r llall, a'r un rhagorfreintiau gwladol yn perthyn iddynt. Ond un peth yw uno dwy genedl drwy Ddeddf Seneddol, a pheth arall anhawddach ydyw sicrhau gwir undeb mewn teimlad ac ymarferiad. Pe buasai rhywun o freninoedd Lloegr heblaw un o linach y Tuduriaid yn cynnyg yr hawlfraint hon i'r Cymry, diau y teimlasent yn dra drwgdybus; ond yr oedd y ffaith mai Cymro o waed oedd yn dwyn oddiamgylch yr undeb yn symud llawer iawn o'r rhagfarn, os nad yn difodi yr holl anfanteision yn nglŷn â'r cyfnewidiad. Beth bynag am hyny, yr oedd y ddwy wlad bellach yn un; a pha gyfnewidiadau gwleidyddol bynag a gymerai le yn y naill, yr oeddynt yn rhwym o ddylanwadu ar y llall.

Dyma, yn ddiau, ydoedd prif ysgogydd y Diwygiad yn Nghymru. Yn rhinwedd ei chysylltiad â Lloegr y cyfnewidiodd ein gwlad ni ei chrefydd. Nis gallwn brophwydo bellach pa beth a allasai gymeryd lle ynddi mewn amser, pe cawsai lonydd i weithio allan ei hysbryd crefyddol ei hunan. Y ffaith yw, mai cael ei osod ar Gymru a ddarfu y Diwygiad Protestanaidd, ac nid addfedu yno o hono ei hunan. Aeth y gorchymyn allan o Senedd Lloegr fod y brenin yn ben i'r eglwys, a phob cysylltiad â'r pab ac â Rhufain i gael ei dori. Bu hyn, o dan yr amgylchiadau, yn dra effeithiol i gyfnewid barn ein hynafiaid. Dywedir yn gyffredin nas gellir argyhoeddi dynion drwy Act Seneddol, a diau fod hyny lawer pryd yn wirionedd; ond yr oedd gan Harri ffordd effeithiol i gyfnewid syniadau crefyddol ei ddeiliaid. Difuddiai yr offeiriaid a'r esgobion o'u bywioliaethau bras os nad ymostyngent i'w orchymynion ef, ac yr oeddynt mewn perygl o golli eu pen naturiol os na chymerent ef yn lle y pab yn ben ysbrydol. Heblaw hyn, yr oedd crefydd yn y dyddiau hyny yn isel iawn, ac ychydig mewn cymhariaeth o'r offeiriaid mwy na'r bobl oedd yn coleddu syniadau pendant am athrawiaeth na llywodraeth eglwysig: felly gwaith rhwydd oedd iddynt ymddiosg o'r naill broffes a gwisgo un arall yn ei lle. O leiaf, nid oedd fawr o le i ddysgwyl y buasai y fath gymeriadau ag a oedd yn gyffredin yn mhlith yr offeiriaid yn yr oes hòno yn barod i farw na dyoddef dros eu daliadau crefyddol. Y canlyniad fu, i ddirwasgiad oddiallan lwyddo i ddarostwng y Cymry i dderbyn y grefydd newydd.

* Llyfryddiaeth y Cymry, t. xxvii. nod.

Ond yr oedd yma, er hyny, rai gwreichion gwanaidd o dân Diwygiad drwy yr oesau yn marw-losgi mewn cyrau o'n gwlad. Er dangos hyn, a rhoddi syniad cliriach am gysylltiad y Diwygiad â hanes Cymru, taflwn gipdrem dros helyntion crefyddol ein cenedl o ddechreu y cyfnod Cristionogol hyd y Diwygiad. Heb hyn nis gellir barnu natur a graddau y cyfnewidiad, ond nid oes angen ini ymhelaethu, gan fod amryw weithiau ar y pwnc eisoes yn yr iaith, a gall y neb a chwennycho chwilio yn fanylach i'r mater dyddorol yma ddarllen y cyfryw lyfrau a "Hanes Crefydd yn Nghymru" gan y diweddar Barch. D. Peter, neu "Hanes y Brytaniaid a'r Cymry" gan Gweirydd ap Rhys.

## PENNOD V.

### RHAGREDEGWYR Y DIWYGIAD YN NGHYMRU

ADDEFIR yn gyffredinol ddarfod i'r Brytaniaid dderbyn yr efengyl o ryw ffynnonell heblaw Rhufain. Pa un bynag ai Paul, ai Joseph o Arimathea, ai Simon Zelotes, ai Brân Fendigaid, ai rhywun arall, a ddug yr efengyl gyntaf i'r ynys, y mae yn eglur oddiwrth hanes dilys nad delw ac argraff Rhufain oedd arni. Bu crefydd ein gwlad am rai canrifoedd ar ol ei sefydlu yma yn berffaith annibynol ar Rufain, ac yn wahanol i Eglwys Rhufain mewn credo a defodau. Dilynai arferion eglwysi y Dwyrain, yn hytrach nag eiddo y Gorllewin. Yn y seithfed ganrif, o dan Elfod, esgob Bangor, y derbyniodd y Cymry lywodraeth y pab, ac yn ddiweddarach fyth yr ymostyngodd Deheubarth, tra y parhaodd yr Iwerddon hyd y ddeuddegfed ganrif i ymwrthod âg awdurdod Rhufain. Dylanwad y Seison a ddygodd Babyddiaeth i'r ddwy wlad. Gwerthodd y pab ynys yr Iwerddon i Harri II. am geiniogau Pedr, a defnyddiwyd pob dichell i wthio esgobion Pabaidd i'r corau yn Nghymru. Y Seison drachefn mewn oesau diweddarach a fu yn ymdrechu yn aflwyddiannus i wthio crefydd estronol arall ar y Gwyddelod, a hwy a wnaeth yr un peth â'r Cymry,

Digitized by Google

ond yn fwy llwyddiannus; gan i'r Cymry fyned o eithafion Pabyddiaeth i eithafion Protestaniaeth o dan eu dwylaw, ac er eu gwaethaf. Pabyddion oedd y Teutoniaid oll o'r dechreu, ond yr oedd y Celtiaid yn annibynol ar Rufain am eu crefydd.

Efallai fod a fyno hyn rywbeth â heresi Morien, Pelagius, fel y'i gelwir. Anhawdd yn awr yw ffurfio barn gywir am ei ddaliadau ef a'i blaid; gan iddo fod yn aflwyddiannus yn ei ymdrech i argymhell ei olygiadau ar yr eglwys, ac y rhaid ini, o ganlyniad, ddibynu i raddau helaeth ar dystiolaethau ei elynion am dano. Ymddengys yn berffaith eglur ei fod yn wr dysgedig, yn santaidd ei fuchedd, ac yn fawr ei ddylanwad. Gallwn sylwi yma, wrth fyned heibio, ar y camgymeriad a wneir yn fynych yn ei enw. Gelwir ef yn gyffredin Morgan, ond ffurf wreiddiol y gair hwn yw Morcant, fel y tystia yr hen lawysgrifau. Addefir yn gyffredinol mai ystyr enw yr heretic Brytanaidd oedd "un wedi ei eni o'r môr," am mai dyna ystyr y cyfieithiad Lladinaidd o'i enw, Pelagius. Nis gall Mor-cant olygu geni o gwbl, gan fod y ddwy ffurf, *geni* a *cant*, yn hollol anmhosibl eu treiglo i'w gilydd drwy unrhyw ddeddf na rheol adnabyddus. Felly rhaid mai ffurf yr enw yn nghyfnod bywyd Pelagius oedd Morgen, yr hwn air a gyfnewidiai yn rheolaidd yn yr oesoedd diweddar i Morien. Fel cadarnhâd i'r ffaith hon, nid yw awduron hynafol yn crybwyll am heresi Morgan, ond y mae amryw gyfeiriadau at heresi Morien. O'r cyfryw, yr egluraf yw y canlynol:—

"Mewn cronicl a briodolir i Caradog o Lancarfan, a gyhoeddwyd yn mhlith yr 'Iolo MSS.,' fe'n hysbysir o dan y dyddiad 380 fod Morien, mab Argad y bardd, yn blodeuo tua'r cyfnod hwn, ac fod hud Morien yn un o dair hud ddinystriol Ynys Prydain, a thrwyddi hi ddarfod i fedydd ac aberth beidio yn Mhrydain, lle yr aeth yr holl boblogaeth yn Iuddewon difedydd. Gwel darllenydd hanesiaeth eglwysig beth gormodiaith yma, ond prin yr ammheua nad heresi Pelagius ydoedd hud Morien, yn enwedig ar ol darllen, ychydig yn mhellach yn mlaen, y dadganiad diamwys a ganlyn:—'Yn 425 daeth Garmon o Gâl, gyda St. Lupus, i Brydain, i adnewyddu bedydd, aberth, a gwir ffydd mewn Cristionogaeth, yr hon a syrthiasai i adfeiliad.' Cofier ddarfod danfon Garmon a Lupus i Brydain gan esgobion Gâl i'r amcan arbenig o wrthwynebu yr heresi Pelagiaidd, yr hon a dyfasai yn y cyfamser, o 380 hyd 425."* Sylwer hefyd mai o Gâl, ac nad o Rufain, y daeth y genadaeth enwog a boreu hon i'n gwlad, ac fod Eglwys Gâl wedi parhau yn bur annibynol am rai canrifoedd.

Cyfododd dynion enwog ereill yn yr Eglwys Brydeinig tua'r un amser. Credir yn gyffredin mai Cymro oedd Padrig, sant noddawl y Gwyddelod, ac iddo fyned drosodd i'r Iwerddon tua 457. Ond yr oedd yno Gristionogion yn mhell cyn hyny, oblegid yn 436 rhoddodd y pab gomisiwn i Palladius i ymweled â'r Iwerddon fel cenadwr; nid i ddychwelyd y trigolion at Gristionogaeth, ond i geisio eu darostwng o dan lywodraeth Rhufain. Gwrthododd y credinwyr brodorol ei dderbyn, a bu orfod arno ddychwelyd yn bur fuan i'w wlad ei hun. Gan hyny, nid o Rufain y derbyniasai y Gwyddelod (neu fel y'u gelwid y pryd hwnw, yr Ysgotiaid) eu Cristionogaeth, ac o ba le y gallent ei derbyn heblaw o Gymru, gan ei bod o'r un natur ag eiddo y Cymry, ac fod y fath gymundeb a chyfathrach rhwng y ddau bobl? Y casgliad yw, fod y Cymry wedi danfon cenadon i'r Iwerddon yn mhell cyn dyddiau Padrig, ac am Padrig ei hunan mai gwrth-Babydd oedd; ond i'r Pabyddion, tua'r nawfed ganrif, lunio chwedlau celwyddog i gael gan y bobl gredu mai o Rufain y danfonasid ef.†

Ond nid hir y cafodd Cymru ei hunan lonydd gan y pab. Tua chanol y chweched ganrif y cyfansoddodd Gildas ei lythyr cwynfanllyd, yr hwn a arddengys eisoes ddylanwad Rhufeinig;‡ ac yn 596 y daeth Awstin Fynach drosodd i bregethu i'r Seison.§ Yr ymdrafodaeth a fu rhyngddo ef a'r Cymry y pryd hwnw a ddengys ini wir deimlad yr Eglwys Brydeinig ar y pryd at y Babaeth. Fel hyn yr anerchodd Awstin esgobion y Cymry:—"Yr ydych chwi yn gweithredu mewn llawer o bethau yn groes i'n harferiad ni, neu yn hytrach i arferiad yr eglwys gyffredinol, ac eto os cydsyniwch â mi yn y tri phwynt hyn, sef, i gadw y Pasc ar yr amser priodol; i weinyddu bedydd, drwy yr hwn y'n hailenir i Dduw, yn ol defod eglwys santaidd apostolaidd Rhufain; ac i gydbregethu â ni Air Duw i'r Seison, cyd-ddygwn yn rhwydd

* Archæologia Cambrensis, 1874, p. 120. Owen Jones, Pymtheg o Ddarlithiau ar Hanes y Cymry, t. 326. Hughes' Horæ Britannicæ, vol. ii. p. 86. Hanes y Brytaniaid a'r Cymry, cyf. i. t. 213. Llyfr. y Cymry, t. 367.

† Dickinson's Theological Quarterly, vol. ii. p. 100.

‡ Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. i. t. 352.

§ Bede's Ecclesiastical History, p. 84; Bohn's edit.

Digitized by Google

â phobpeth arall a wnewch, er ei fod yn groes i'n defodau." Atebasant na wnaent ddim o'r pethau hyn, ac na dderbynient ef fel eu harch-esgob.* Mae yr hanes oll yn dra dyddorol, ac yn adlewyrchu cymaint o glod ar y Cymry ag a wna o warth ar Awstin Fynach a'i Seison barbaraidd, hyd yn nod yn ol hanes Beda o'r drafodaeth.

Ar ol gwrthsefyll Rhufain a Lloegr am tua chanrif yn hwy, a goddef pob math o erlidigaeth, nes difa miloedd o'u hoffeiriaid gan gleddyf y "bwystfil," ymollyngodd y Brytaniaid o'r diwedd yn eu hysbryd, a derbyniasant offeiriaid ac esgobion Pabaidd yn raddol i'w plith. Erbyn yr wythfed ganrif yr oedd Cymru wedi cydffurfio â'r Catholiciaid yn gyffredinol, tra y parhaodd y Gwyddelod yn hollol annibynol hyd nes y cafodd y pab gan Harri II., brenin Lloegr, ymgymeryd a meddiannu y wlad ei hunan, a darostwng y boblogaeth i grefydd Rhufain. Yr oedd y Pab Adrian IV. (Breakspear), yr unig Sais a eisteddodd erioed ar yr orsedd Babaidd, wedi rhoddi trwydded i Harri yn 1156 i oresgyn yr ynys; ond nis gwnaeth efe ddefnydd o honi hyd y flwyddyn 1171, pryd y gorchfygodd efe yr holl daleithiau, ac y gorfododd yr holl offeiriaid a'r bobl i ymostwng i grefydd Rhufain.† Ond yr oedd y Gwyddelod, yn offeiriaid a myneich, wedi ymledu dros y Cyfandir fel cenadon, a'u dylanwad yn fawr fel dysgedigion, ac yr oedd cryn gyfathrach yn parhau rhwng Cymru a'r Iwerddon drwy yr holl oesau; fel nad yw yn un rhyfeddod fod hen lenyddiaeth y Cymry, er ei thuedd Babyddol gyffredin, yn rhoddi rhai enghreifftiau o wrthwynebrwydd i Rufain, fel y cyffredin o lenyddiaeth werinaidd holl wledydd Cred. Y mae yn ddigon posibl fod rhai o'r crybwyllion hyny yn cyfodi yn fwy oddiar wrthwynebiad i Gristionogaeth, neu grefydd yn gyffredinol, nag i ryw ffurf neillduol o lywodraeth eglwysig.

Y crybwylliad cyntaf a gawn yn llenyddiaeth Cymru o wrthwynebiad i Babyddiaeth yw y pennill canlynol yn "Hoianau," neu "Borchellanau," Myrddin:—

"Oian a pharchellan neud dit golev.
Andaude leis adar duffyr dyar leissev.
An hit ni bluitinet a hir diev.
Areiv enwir edwi frwytheu.
Ac escib. lluch lladron differch llannev.
Amyneich a obrin beich o bechodev." ‡

* Bede's Eccles. Hist. p. 70; Bohn's edit.
† The Student's Hume, p. 117.
‡ Skene's Four Ancient Books of Wales, vol. ii. p. 28.

Gan fod y pennill hwn yn "Llyfr Du Caerfyrddin," yr hwn a ysgrifenwyd yn y ddeuddegfed ganrif, a'r hynaf o'r llawysgrifau Cymraeg priodol, nis gall fod yn llai na saith gant oed, a dichon ei fod yn llawer hynach, os nad o ddyddiau Myrddin, dri chant ar ddeg yn ol, ac yn gynnyrch awen yr hen ddewin ei hunan, ond fod yr orgraff wedi newid wrth ei chopïo o oes i oes. Yn ol Stephens,* gellir aralleirio y pennill fel y canlyn:—

"Gwrando di borchell! Ha, wele ddydd golau,
Gwrando gân adar sydd ddifyr eu lleisiau;
Dywedant a ddygwydd ar ol hir flynyddau—
Daw teyrnedd anghyfiawn i wywo y ffrwythau,
Esgobion lladronllyd ddifwynant y llanau,
A myneich wnant benyd am echrys bechodau."

Gwaith Myrddin y cyfrifir yr "Afallenau" drachefn, ond nid oes yn y "Llyfr Du" fwy na deg o bennillion; felly rhaid fod y deuddeg gweddill yn y "Myvyrian Archaiology" yn ddiweddar a ffugiol. Nid yw y pennill canlynol yn y "Llyfr Du;" ond tybia Stephens iddo gael ei gyfansoddi yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg, neu ddechreu y bedwaredd ar ddeg, ac felly cyn dyddiau Wycliffe:†—

"Afallen beren bren addfeinus
Gwasgadfod glodfawr buddfawr brydus
Yd wnant bennaetheu gam gyfesgys
A myneich geuawg bwydiawg gwydius
A gweisionein ffraeth bid arfaethus
Yd fyddant wyr rammant rit rwyuanus." ‡

Cawn grybwylliad neu ddau eto, yn yr un ysbryd gwrthfynachaidd, yn y cyfansoddiadau a briodolir i Taliesin. Fel hyn y dywedir yn y gân a elwir "Preiddeu Annwfn," allan o "Lyfr Taliesin," yr hwn a ysgrifenwyd yn nechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg, § ac a all fod yn gopi o lyfr hynach fyth, er fod profion mewnol i'w cael nas gall ei fod wedi ei gasglu cyn y ddegfed ganrif. Dichon er hyny fod y cyfansoddiad hwn, a chyfansoddiadau unigol ereill, yn hynach hyd yn nod na hyny:—

"Y myneich ymdŷrant fel cŵn yn eu corau,
O 'mddyddan â'u huwchradd y gwyddant wybodau—
Ai'r un hynt y gwynt a dwr yr eigionau?
Ai'r un gwreichion tân a mawr dwrf y taranau?
Y myneich ymdŷrant fel bleiddiaid 'sglyfaethus,
O 'mddyddan â'u huwchradd y deuant wybodus.
Nis gwyddant ymraniad y wawr a'r nos astrus,
Na hynt yr awelon, na pham maent gynhyrfus,
Yn mh'le y dystawant, na ph'le maent yn frochus.
Diflana bedd sant o'r allorfedd anhysbys—
Yr Arglwydd Goruchaf a archaf yn ddilys,
Gael Crist im' yn eiddo, fel na bwyf druenus." ‖

* Literature of the Kymry, p. 259. † *Ibid.* p. 236.
‡ Myvyrian Archaiology of Wales, p. 116; 2nd edit. Denbigh.
§ Skene's Four Ancient Books of Wales, vol. ii. p. 397.
‖ Skene's Four Ancient Books of Wales, vol. i. p. 266; vol. ii. p. 182.

Digitized by Google

Gwelir fod yr uchod, fel y cyffredin o'r hen gyfansoddiadau Cymraeg, yn bur anhawdd ei ddeall. Y mae y rhediad fodd bynag yn oganol i'r myneich, er fod ysbryd y cyfansoddiad yn grefyddol. Y mae a ganlyn * yn fwy dealladwy, ond yn llawer diweddarach, yn gymaint ag mai yn "Y Llyfr Coch o Hergest" y dygwydda gyntaf, mewn ysgrifen o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg:—

"Ny chymmeraf gymun
Gan ysgymun uyneich
Ac eu twygeu ar eu clun
Am kymuno duw e hun."

Tybiai Edward Llwyd fod y cyfansoddiad maith ("Cyfoesi Myrddin a'i Chwaer Gwenddydd") o'r hwn y cymerwyd y llinellau a ddyfynwyd wedi ei gynnyrchu gyntaf tua 948.† Gesyd Stephens ef tua 1077,‡ a Vaughan o Hengwrt tua 1187, ond heb sail digonol. Diweddarach fyth yw y pennill a ddyfynir yn gyffredin i brofi fod peth gwrthwynebiad i'r Babaeth yn parhau yn Nghymru drwy yr oesau, sef y pennill hwn o "Ddifregwawd Taliesin:"—

"Gwae ofeiriad byd, Ni angreiftia gwyd,
Ni phregetha;
Ni warcheidw ei gail, Ac ev yn vugail,
Nis areilia;
Ni ddiver ei ddevaid Rhag bleiddiau Rhuveiniaid
A'i fon glopa." §

Jonas o Fynyw a gydnabyddir fel awdwr y dernyn hwn, a rhaid ei fod yn lled ddiweddar, er nad ymddengys y gŵyr neb fawr am y Jonas hwnw.‖ Ysgrifenwyd "Llyfr Taliesin" yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac nid oes un o'r hanner dwsin caneuon a gyfansoddodd Jonas o dan enw Taliesin yn gynnwysedig ynddo. Y mae yn bosibl, gan hyny, fod pob un o'r enghreifftiau uchod yn perthyn mewn gwirionedd i gyfnod Wycliffe. Pe buasai arnom eisieu esiamplau o Babyddiaeth Cymru yn y Canol Oesoedd, ni buasai arnom ddim prinder. Y mae digon o'r cyfryw yn "Nghyfreithiau Hywel Dda," yn y "Mabinogion" a'r "Greal," ac mewn lluaws o gyfansoddiadau barddonol o'r ddegfed ganrif hyd ddechreu yr ail ar bymtheg. Cyfeiria Stephens¶ at syniadau Derwyddol a gyfodasant tua'r ddeuddegfed ganrif, ag oedd i raddau helaeth yn wrthwynebus i fynachaeth. Ond, fel y caniatâ yr awdwr dysgedig ei hunan, nid oedd ddim amgen na theimlad plaid yn erbyn plaid, y beirdd yn erbyn offeiriaid; a diau fod llawer o oganau y beirdd yn cyfodi yn llawn cymaint oddiar wrthwynebrwydd i Gristionogaeth ag o gydymdeimlad â'r efengyl bur. Ond ymchwiliwn yn y bennod nesaf yn fanylach i'r mater, yn nglŷn â hanes un neu ddau o enwogion crefyddol yr Oesoedd Tywyll.

* Skene's Four Ancient Books of Wales, vol. ii. p. 218, *et seq.*
† Archæologia Britannica, p. 257. ‡ Lit. of Kymry, p. 216.
§ Myv. Arch. p. 78; 2nd edit.
‖ Skene's Four Ancient Books of Wales, vol. i. p. 194.
¶ Lit. of Kymry, p. 110.

---

## PENNOD VI.

### Y DOCTOR SION CENT A'R CYN-DDIWYGWYR.

Y MAE seren fechan yn nyfnder y nos yn tynu mwy o sylw na seren fawr yn y cyfnos. Nid rhyw lawer a wyddys am Sion Cent, ac y mae yr ychydig draddodiadau am dano i raddau yn ansicr. Cyfarfyddir â'i enw, er hyny, yn dra mynych ar faes llenyddiaeth Gymraeg. Gadawodd ar ei ol amryw gyfansoddiadau barddonol crefyddol, y rhai a drosglwyddwyd i'n dyddiau ni. Dyry y cyfansoddiadau hyny syniad gwahanol ini am dano ragor y traddodiadau a adroddir yn ei gylch. Gesyd traddodiad ef allan fel dewin, neu hanner ysbryd;* tra y mae ei gywyddau a'i englynion yn ei ddwyn ger bron fel gwr dysgedig, difrifol, a chrefyddol. Nid ydym yn tybio iddo adael argraff ddofn ar ei oes, na dylanwad mawr ar yr oesoedd canlynol; ond y mae yn gynddrychiolydd pur nodweddiadol o Ddiwygwyr ei oes ei hun, a daw cymeriadau ereill i mewn yn gysylltiol â'i hanes, ac felly gosodasom ei enw uwch ben y bennod hon.

Fel y canlyn yr adroddir y traddodiad am dano yn y "Myvyrian Archaiology:"†—"Yr oedd Sion Cent, neu fel y tybir y gelwid ef hefyd, Sioni Cwm Tridwr, yn hynod am awen a deall pan yn fachgen. Ond fel y bu erioed, ac y bydd byth, ei gymydogion a genfigenent wrtho ac a'i hanmharchent yn anghyfiawn. Yntau yn fachgenyn tlawd, wedi colli tad a mam, nid oedd ganddo fodd yn y byd i fyw ond a ennillai wrth weithio gyda ffermwyr ac ereill. Un diwrnod oer iawn yr oedd efe yn bugeila y brain, ac fe ddaeth i dŷ ei feistr i ymdwymo. Gofynwyd iddo paham y deuai o'r maes, a gadael y brain ar

* "Mae Williams, yn ei 'History of Monmouthshire,' yn meddwl fod Sion Cent yn enwog fel *actor* yn y *religious dramas*, ac mai dyna ddechreu y chwedlau am Sion a'r diawl." (*Vide* Williams, p. 231. Crefydd yn yr Oesoedd Tywyll, gan Nefydd, t. 4.)
† P. 828; 2nd edit.

Digitized by Google

yr yd? 'Y mae y brain,' ebai ef, 'yn ddiogel yn nghastell Caerffili.' 'Yn nghastell Caerffili!' ebai ei feistr, ac a'i curodd yn greulawn, gan ei droi allan o'r tŷ. Cymerodd y bachgen ei daith tua phen uchaf Gwent, ac ni welwyd mohono mwyach yno. Aeth ei feistr i maes yn mhen ychydig, a thua'r cae gwenith, lle nid oedd gymaint a brân yn weledig. Rhyfeddodd yn fawr wrth hyn, ond o gyfeiriad Caerffili clywai grawciadau a llefau anghyffredin. Aeth tuag yno, a gwelodd y brain wrth y miloedd o fewn i'r castell; ac er nad oedd na drws na ffenestr yn nghauad, nis gallai gymaint ag un o'r brain ddianc allan. Aeth i mewn, a cheisiodd eu troi allan o'r tŵr, ond yn lle myned allan, ymgasglasant o'i amgylch a phigasant ei lygaid o'i ben. Yna y daeth i'w gof y sarhâd a'r anmharch a wnaethai efe â'r bachgen tlawd a alwai efe yn Sioni Cwm Tridwr, a danfonodd i chwilio am dano; ond nid oedd neb a wyddai ronyn o'i hanes.

"Sioni, fodd bynag, a aeth yn mlaen tua gwlad Gwent, ac i blwyf Cent, a elwir yn Seisonaeg Kenchester; ac yno, mewn tŷ gwr boneddig, fe gafodd le fel gwas mewn ystabl, i edrych ar ol y ceffylau a'u bwydo. Efe a orweddai bob nos dan y preseb, ac mor ofalus oedd efe am y ceffylau fel y daliodd y boneddwr sylw arno, a rhoddai rhywfaint o arian iddo ar brydiau. A'r arian hyny y prynai y glaslanc lyfrau a phapyr, ac ysgrifenai rywbeth neu gilydd yn fynych. Daliwyd sylw ar hyn; a gwelwyd y gallai y bachgen fod yn wasanaethgar mewn ffordd amgenach yn y teulu, na bod yn yr ystabl. Anaml iawn yn yr oes hòno y ceid neb a fedrai ddarllen ac ysgrifenu, hyd yn nod yn mysg rhai o radd uwch na'r bachgen tlawd. Cymerwyd ef i'r tŷ a holwyd ef, a deallwyd y medrai Ladin. Derbyniwyd ef i barch, a rhoddwyd iddo swydd a chyflog a weddai i ysgolhaig; a phan y daeth i'r oedran gofynedig, urddwyd ef yn offeiriad. Bu dros rywfaint o amser yn ngwasanaeth yr eglwys yn Emlyn, ond yn mhen tro fe gafodd eglwys plwyf Cent, ac yno y bu hyd ddydd ei farwolaeth, ac yno y claddwyd ef o dan wal y ganghell; nid yn yr eglwys, nac i maes o honi, yn ol ei ddymuniad. Dyna fel yr adroddir ei hanes yn llyfr Sion Bradford, yr hwn a ysgrifenwyd tua'r flwyddyn 1760. Oddiwrth y traddodiad hwn y ffurfiwyd y syniad poblogaidd am Sion Cent fel dewin ac ellyll, fel ag i'w fwgwth ar blant drwg er eu dychrynu."

Adroddir ei hanes mewn ffordd wahanol gan ereill. Fel hyn y dywed George Owen, Ysw. (tua 1580), yn ei "History of Pembrokeshire:"*—"John Kent, doethawr enwog mewn duwinyddiaeth, fel yr ymddengys oddiwrth ei weithiau dwyfyddol, y rhai nas anghofir hyd ddiwedd y byd. Yr oedd yn fardd dysgedig, yn yr hyn y doniwyd ef gan natur, ac felly y mae wedi gadael yn yr iaith Gymraeg lawer o weithiau nodedig. Yr oedd yn byw yn amser y Brenin Richard III., fel y sylwa Mr. Holinshed. Ganwyd ef yn arglwyddiaeth Cilgerran, yn sir Benfro, fel y mae yn eglur oddiwrth rai o'i gyfansoddiadau ef ei hun. Yr wyf yn cael fod John Kent arall yn byw yn amser Harri III.; ond o ba wlad yr oedd yn enedigol, nid wyf yn gwybod."

Cyfyd dau ofyniad yn y meddwl o barthed i Sion Cent: Pa bryd yr oedd yn byw? pa beth oedd ei gymeriad? Nid hawdd yw ateb y cwestiwn cyntaf gyda sicrwydd, yn gymaint a bod y cyfeiriadau ato mor lac a chroes i'w gilydd. Mor bell ag y gwelsom, casgliad oddiwrth ei weithiau barddonol yw pob penderfyniad a ffurfiwyd yn ei gylch. Methasom a chael dim rhyddiaith ar ei enw mewn Cymraeg, Seisonaeg, na Lladin, na dim dyiyniadau o'r cyfryw, na chyfeiriad awdurdodol atynt. Ofnwn fod y crybwylliad a wna George Owen uchod am ddau John Kent yn peri llawer o ddyryswch, ac yn gwneyd pob un o'n dau holiad yn anhawddach eu hateb. Ond er chwilio y llyfr-restri yn yr Amgueddfa Brydeinig, ni lwyddasom i gael allan fod dim argraffedig ar enw y naill na'r llall o'r ddau ddynsawd, ac nid oes dim tystysgrifau (*documents*) yn cyfeirio atynt. Y crybwylliad hynaf am y bardd, feddyliem, yw eiddo George Owen; ac ar ei dystiolaeth ef y dywed ein geiriaduron bywgraffyddol bobpeth am dano, ond a loffir o'i gywyddau ac a adroddir fel

* Cambrian Register, vol. ii. p. 208. Ar ol y cywydd "Oedran a Pharhâd Pethau," yn yr "Iolo MSS." (p. 286), dywedir: "Yr Athro Gàn Sion y Cent a'i cant. Yr oedd ef yn byw yn amser Wicliff, ac yn un o'i blaid." Ac ar ol yr "Englynion a gânt Sion Cent ar ei Wely Angau" (Iolo MSS. p. 290) dywedir: "Sion Cent ar ei wely Angau, yn amser y Brenin Harri'r pummed ydd oedd ef.—Llyfr T. Bona." (1413-1422.) Hefyd, fel hyn y dywed Ab Iolo (Iolo MSS. p. 276):—"John o Kentchurch, neu Sion Kent, fel y gelwir ef, oedd offeiriad, fel y tybir, yn Kentchurch, yn sir Hereford, ar derfynau Cymru, tua dechreu y bymthegfed ganrif. Y mae eto yn mwynhau gradd uchel o boblogrwydd yn chwedlau traddodiadol y Dywysogaeth fel rheibiwr galluog. Y mae yn meddiant Mr. Scudamore o Kentchurch ddarlun hynafol o fynach, a thybir mai darlun ydyw o Sion Cent; a chan fod teulu Scudamore yn disgyn o ferch Owain Glyndwr, a bod y gwron hwnw, fel y dywedir, wedi treulio mewn ymguddfa yn nhŷ y teulu hwnw gyfran o ddiwedd ei oes, fe dybiodd rhai nad oedd Sion Cent neb amgen nag Owain Glyndwr ei hun."

Digitized by Google

traddodiad. Mewn atebiad i ymofyniad yn ei gylch, drwy gyfrwng "Y Brython," cafwyd yr atebiad canlynol:*—"Ychydig amser yn ol gwelais ymholiad, Pwy oedd Sion Cent? Mae genyf yn fy meddiant hen lawysgrifau yn cynnwys ychydig o'i waith, . . . ac odditan un garol ag sydd yn gosod allan achau Mair y Forwyn, mae yn ysgrifenedig fel y canlyn:—'Mi weles hen ysgrifau hen iawn yn nghylch Dr. Sion Cent, Doctor Dyfynyddiaeth, a gweinidog plwyf Cent, yn sir Henffordd, oedd efe, lle canodd amryw gywyddau da; ac yn ei amser ef, Cymraeg oedd yn rhugl trwy yr holl sir, sef Henffordd. Sion Gwent y geilw y Dr. Gruffydd Roberts ef. (Sion Tudur, Proctor ynghwrt yn Llanelwy oedd efe.)'" Nid yw y Dr. G. Roberts yn rhoddi dim manylion am dano, mwy nag y gwna William Salesbury, fel y gwelir rhagllaw; ond y mae eu cydoeswr, Dafydd Jones, ficer Llanfair Dyffryn Clwyd (1560–1590), yn dyweyd fel hyn:—"John y Kent, Athro neu Doctor o diviniti: ir oedd ef yn amser H. y pedwerydd [1399–1413], a pheth o'i flaen hefyd."† Felly, nid oes genym bellach ddim i'w wneyd ond troi at y cyfeiriadau a gawn yn ngwaith barddonol y doethawr ei hun, a'r beirdd ereill a ystyrir yn gyfoesol iddo.

Y mae rhai cyfeiriadau a barant ini dybio ei fod yn oesi yn gynt nag y credir yn gyffredin. O'r dosbarth yma y mae "Cywydd o Fyfyrdod ar y Byd a'i Wagedd," lle y dywed yr awdwr:—

"P'le mae Edward? plwm ydych,
Y gwr a wnai gaer yn wych?
Mae'i ddelw, pei meddylien,
Wych yn y porth uwch ein pen;
Yntau'n fud, hwnt yn ei fedd,
Dan gareg dew yn gorwedd." ‡

Gan fod y trydydd Edward wedi marw yn 1377, sef yr amser y tybir yn gyffredin fod Sion Cent yn canu ei gywyddau, y mae yn syn na buasai y bardd wedi nodi yr un y cyfeiriai ato fel y cyntaf o'r tri; oblegid y mae yn amlwg mai at y cyntaf y cyfeirir uchod, at ei waith yn adeiladu castell Caerynarfon ac yn gosod ei ddelw uwch ben y porth. Y casgliad naturiol oddiwrth eiriad y cywydd yw, ei fod wedi ei gyfansoddi cyn marwolaeth yr ail Edward yn 1327, ac ar ol marwolaeth y cyntaf yn 1307. Ond y mae genym enghraifft arall o anhawsder cyffelyb mewn

* Cyf. v. t. 335.
† British Museum, Additional MSS. 1841–1845. Welsh School MSS. No. 14,866, p. 15; folio.
‡ Ceinion Llenyddiaeth Gymreig, cyf. i. t. 116.

"Cywydd Duwiol, yn dangos nad oes yma Drigo yn y Byd ond Enyd:"—

"Mae Owain, por awchfain oedd?
Mae Rhisiart Frenin, mae'r oesoedd?" *

Naturiol yw i'r darllenydd feddwl ar unwaith am Richard I., yr hwn a fu farw yn 1199; neu o leiaf nad oedd Richard II. wedi esgyn i'r orsedd (1377) pan gyfansoddwyd y cywydd. Ond y mae rhai llinellau dilynol yn newid yr achos i raddau:—

". . . rys Einion roes anerch,
Duk o York a roes forck i ferch,
Anniweiriaf fu Ddafydd,
Selef Ddoeth, salw fu'i ddydd."

Gan nad oes un Dafydd Sele yn adnabyddus, golygwn fod y ddwy linell olaf yn cyfeirio at Dafydd Frenin a Solomon ei fab; er mai Salmon y geilw ein hawdwr yr olaf mewn manau ereill. Ond y mae y cyfeiriad at y dug o York yn un o'r rhai mwyaf boddhaol i brofi y dyddiad. Yn amser Edward III. (1327–1377) y crewyd y teitl o ddug, a'i bummed mab, Edmund, oedd y cyntaf i wisgo y teitl o "Duk o York;" felly, rhaid fod y cywydd wedi ei gyfansoddi ar ol ei farwolaeth yn 1402. Gan fod hyn ddwy flynedd ar ol marwolaeth Richard II., diau mai ato ef y cyfeirir yn y cywydd; ac o ganlyniad, yr oedd Sion Cent yn fyw ar ol y flwyddyn uchod.

Y mae yn dra eglur fod testyn y cywyddau yn bur llygredig, a'u cynnwys yn gymysgedig. Priodolir rhai o honynt weithiau i Sion Cent, bryd arall i ryw fardd diweddarach. Felly gyda golwg ar y cywydd i'r "Byd a'i Wagedd," o'r hwn y dyfynasom uchod, yr hwn mewn rhai ysgriflyfrau hynafol a briodolir i Syr Dafydd Trefor (1470–1500). Y mae y cyfeiriad ynddo at Hywel y Pedolau (1280–1325) a Hywel y Fwyell (1356) fel cymeriadau adnabyddus, yn ein cadarnhau ni, fodd bynag, yn ein cred mai gwaith Sion Cent yw y cywydd:—

"Mae Howel y Pedole?
Mae'r llall a'r gron fwyell gre'?",

O'r ochr arall, y mae y cywydd sydd yn dechreu, "Digam y gwnaeth Duw gymwyll," yr hwn mewn amryw ysgriflyfrau a briodolir i Dafydd Ddu o Hiraddug, a'r un modd yn "Y Brython,"† yn cael ei briodoli i Sion Cent mewn ysgriflyfr hynafol yn yr Amgueddfa Brydeinig.‡ Gan mai dyma yr unig gywydd sydd ar enw Dafydd Ddu, ac oherwydd yr ychydig resymau canlynol, prin y gallwn gredu mai efe yw awdwr

* Ystumant y Cler, MS. t. 70, b. † Cyf. iv. t. 429. ‡ No. 14,866.



Digitized by Google

hwn, na'i fod yn gydnabyddus â mesur cywydd o gwbl. Gan fod genym yn y "Myvyrian Archaiology" gryn swm o waith Dafydd Ddu, y mae genym fantais i farnu am ei arddull; a'r ffaith yw fod pob un o'i gyfansoddiadau barddonol a gofnodir yno ar yr hen fesurau, ac yn yr hen ffurf o gynghanedd. Nid oes sail i'r dywediad fod ei feddfaen yn Tremeirchion.* Ond oddiwrth arddull ei farddoniaeth casglwn ei fod yn blodeuo yn nechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg, os nad yn niwedd y ganrif flaenorol; ac felly o flaen ein holl gywyddwyr, o'r rhai yr oedd Dafydd ab Gwilym, os nad y cyntaf oll, yn un o'r rhai boreuaf, ac yn dad i farddoniaeth Gymreig ddiweddar. Gallasai Dafydd Ddu fod yn cofio gorchfygiad Cymru gan Edward I. Effeithiodd yr amgylchiad hwnw ar fywyd cymdeithasol y wlad, ac efallai ar yr iaith Gymraeg; fodd bynag, cymerodd cyfnewidiad rhyfedd le ynddi hi, fel mewn ieithoedd ereill, tua'r adeg hon;† a chan fod y cyfnewidiad hwnw wedi creu chwyldroad yn aceniad yr iaith, effeithiodd hyny y chwyldroad y soniwn am dano yn rheolau barddoniaeth Gymraeg. Golygwn felly fod Dafydd Ddu a Sion Cent yn perthyn i ddau gyfnod gwahanol, yn llenyddol a chrefyddol; oblegid y mae pobpeth diammheuol o waith y cyntaf yn Babaidd ei olygiadau a'i ysbryd.

Golygwn oddiar yr ystyriaethau uchod, yn gystal ag oddiar draddodiadau ereill, fod Sion Cent yn cydoesi â Dafydd ab Gwilym a Rhys Goch Eryri; rai blynyddoedd yn iau na'r blaenaf, ac ychydig yn hŷn na'r olaf. Dywedir fod y tri yn Eisteddfod y Ddôl Goch, yn Emlyn, yr hyn nad yw anmhosibl, ac sydd yn ol pob tebyg yn wir;‡ canys y mae cywyddau ar gael o ymryson rhwng Sion Cent a Rhys Goch,* mewn canlyniad i'r cyntaf fyntumio mai awen o Dduw oedd ganddo ef, ac felly wrthod y gadair farddol a ddyfarnesid iddo, ac mai awen o ddiawl oedd gan Rhys. Dengys hyn fod ymrafael yn yr oes hòno rhwng y beirdd a'r crefyddwyr, ac fod Sion Cent wedi sefyll dros grefydd a gwrthod cadair Eisteddfod er ei mwyn. Dechreua y doethawr ei gywydd fel hyn:—

"Camair hy', cam yw'r heol,
Cymru fu, cam roi fol," &c.

Ac etyb Rhys yn ffyrnig:—

"Toraist am treiaist arnaf,
Tris meddgrig gnoedig gnaf,
Fraw chwedl o froeach adlam,
Fy mod yn cadw geifr fy mam.
. . . . . . . .
Ac am hyn, emyn amher,
Cabl Sion clywch at parion cler.
Pam, was ystabl, y'm cablud
Fudredd, drwy ddigasedd drud.
. . . . . . . .
Dwy awen ryfedd meddut
Y sydd, odidog ei sut:
Un a roes Duw, iawnras dôn,
Yn ngolwg ei angylion;
Ac awen fydr heb gywair,
Gelwyddawg, geuawg a gair
A gafas, berw a gyfyd,
Beirdd a phrydyddion y byd;
. . . . . . . .
Copr Sion senferw creichion crach,
Cent a aethost mewn ceintach."

Dichon fod y Doctor Sion Cent yn ddisgybl barddol i Dafydd ab Gwilym, ond nid ystyrid y doethawr yn bencerdd gan feirdd diweddarach. Er fod Gruffydd Roberts (1567) wedi dyfynu dau gywydd o'i eiddo ar ddiwedd ei ramadeg† ardderchog, ac yn ei ddyrchafu o ran ei ddysg

* Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii. t. 376, nod. †.

† Revue Celtique, vol. ii. p. 341.

‡ Yr oedd Llywelyn ab Gwilym, o'r Cryngae a'r Ddôl Goch, yn ewythr ac athraw i Dafydd ab Gwilym. Claddwyd ef yn Llandudoch. (*Vide* marwnad D. ab Gwilym iddo yn ei waith, t. 326.) Yr un yw, mae yn debyg, a Llywelyn o Emlyn y canodd D. ab Gwilym awdl foliant iddo. (*Vide* Gorchestion Beirdd Cymru, t. 21; argr. 1af. Gwaith Dafydd ab Gwilym, t. 324; 2fed argr.)

Fel hyn yr adroddir yr hanes yn yr "Iolo MSS." (p. 96):—"Eisteddfod Gwern y Cleppa a Brodyr Marchwiail. Coffadwriaeth am Feirdd a Phrydyddion. O Lyfr Edward Dafydd, Antoni Powel, &c.

"Yn amser y Brenin Edward y III. [1327-1377] y bu Eisteddfod yng Ngwern y Cleppa dan nawdd a Dawn Ifor Hael; ag i honno daeth Tri Brodyr Marchwiail ym Maelor yng Ngwlad Bowys, a Llywelyn ap Gwilym o'r Ddol Goch yng Ngheredigion—a Thri Brodyr Marchwiail a Dafydd ap Gwilym gyda nhwy a fuant yn ysgolheigion Barddoniäidd Llywelyn ap Gwilym yng Ngwern y Cleppa, ys ef Llys Ifor hael. Ag yn yr Eisteddfod honno y doded braint Cadair ar fesur Cywydd lle nad oedd felly o'r Blaen, a phan canwyd am gadair Dafydd ap Gwilym a enuillws o nerth Awen a chanu a Chymraeg cynhwynol. Ac o hynny maes braint Cadair i fesur Cywydd deuair, a gwisgo Dafydd ap Gwilym ag addurn Cadair Morganwg a rhod enw Dafydd Morganwg, ag yng Ngwynedd ei alw Bardd Ifor Hael: ac o hyny hyd yn awr serchoccaf a goreu o'r holl fesurau y bernir Cywydd. Gwedi hynny bu Eisteddfod dan nawdd Llywelyn ap Gwilym yn y Ddol-goch yn Emlyn ag i honno y daeth Sion y Cent a Rhys Goch o Eryri yng Ngwynedd, a thyfu ymryson rhwng Sion y Cent a Rhys Goch, goreu ar wengerdd Sion Cent, a goreu ar foliangerdd Rhys Goch, a rhodd y blaen a'r Gadair i'r wengerdd, ond ni fynnai Sion y Cent ei wisgo ag addurn Cadair Ceredigion a Dyfed, eithr i Dduw y rhoddai ef y blaen, am hynny y gwedai rhai mai Duw ei hunan a ennillws y gadair honn. Wedi hynny dodes Llywelyn ap Gwilym ganu er Cadair Ceredigion, y goreu am Rieingerdd; a Barnu Dafydd ap Gwilym yn oreu, a'i wisgo a'r Cae Bedw ys ef addurn Rhieingerdd. Yna Llywelyn ap Gruffydd, un o dri Brodyr Marchwiail, a ganodd Englynion 'marchwiail bedw briglas' ar hen ganiad. Gwedi hyny y tri brodyr a ddodasant dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn Eisteddfod ym Maelor, ym Mhowys, yn nawdd Iarll Mortimer dan goron y brenin Edwart y trydydd, ac yno y canwyd am gadeiriau. Ac Ednyfed ap Gruffydd a gafas am Gywydd Gwr, ac am Englynion byrraf Eiry Mynydd, a Madoc y trydydd brawd a gafas gadair a chae bedw am Rieingerdd, a Dafydd ap Gwilym a ganodd yn garedig i Fadog am ei gerdd. Ac yn yr Eisteddfod honno ydd addurnwyd Iolo Goch ag addurn cadair am ei wybodau a ddysgws Ednyfed ap Gruffydd parth gwybodau Cerdd Dafod a'i pherthynasau. Ac o'r tair Eisteddfod hyn y cafad gwellhad ar gerdd Dafod a Chynghanedd."

* Enwogion Cymru, t. 117. Y Brython, cyf. iii. t. 390. Ceinion Llenydd. Gymreig, cyf. i. t. 135.

† "Meddylia am yddoli," &c. (t. 17), a "Llyma fyd kyd kadarn," &c. (t. 20).

Digitized by Google

a'i ddoniau, y mae yn ei feio am ei gelfyddyd fydryddol, fel y gwelir oddiwrth y dyfyniad isod.* Yr un modd y dywed William Salesbury, mewn copi o'i reitheg a olygwyd gan Thomas ab William, ac sydd wahanol i'r un argraffedig o dan olygiaeth Henri Perri, ac yn debycach i ran o'r "Pum Llyfr Cerddwriaeth a'r Angchwanegiadau" a gyhoeddodd Ab Ithel gyda gramadeg Edeyrn Dafod Aur. Y mae yn nghadw mewn llawysgrif yn yr Amgueddfa Brydeinig:†—

"Soraismos. Bolysothach a'r Cymysgiaith â cherdd Gymraec gair neu eiriau o osbiaith arall, neu ryw eiriau hên a newydd cymhessur ac anghymessur fal y mae:—

'Vy mhwrs melfed fy mherson
Vy nghoffr aur fy nghyff o rôn
Vy mhwrs gramarsi am hynn.—*D: Io. Cent.*'"‡

Felly y dyfynir ei waith gan Salesbury, fel enghraifft o fai gwaharddedig. Er fod yn ein meddiant bump neu chwech ar hugain o'i gywyddau, nid yw ei enw yn mhlith y beirdd, rhestr o gynnyrchion pa rai a gyhoeddwyd ar gloriau "Y Greal" (1805). Ond madws ini bellach chwilio yn fwy uniongyrchol i'w hanes a'i gysylltiadau crefyddol.

Er fod Dafydd ab Gwilym wedi canu amryw gywyddau i oganu y myneich, nis gallwn gasglu fod dim o ysbryd y Diwygiad wedi effeithio arno. Y mae ganddo ychydig o gyfansoddiadau crefyddol, ond ceir syniadau eithaf Pabyddol mewn amryw o honynt, gan ei fod yn dywedyd yn ei gyffes o'i bechodau:—

"Dirmygu heb dawl, o chwant corfforawl,
Gwasanaeth dwyfawl Duw deddfawl-dad.
Bod yn aflawen, goganu'n absen,
*Sarhau meibion llén, o'r hen raddiad:*
Gosteg anghymwys yn mhlas yr eglwys;
Bod yn anghyfrwys, ddwys ddeisyfiad." *

Ac eto cawn ganddo yr ymadroddion gwrth-Babaidd a ganlyn:†—

"Minnau atebais i'r brawd, am bob gair a ddywawd,
'Nid ydyw Duw mor greulon, ag y dywaid hen ddynion;
Ond celwydd yr offeiriaid, yn darllain hen grwyn defaid;
Ni chyll Duw enaid gwr mwyn, er caru gwraig na morwyn."

Mwy gwatwarus yw y cywydd "Ymddyddanion rhwng Merch a Phrelad,"‡ a mwy tafod-ddrwg fyth yw yr un i'r "Brawd Ffydd,"§ ac yn enwedig un arall "I un o'r Brodyr Llwydion, a gynghorai y Bardd i Ymadael â'i Gariad,"‖ o'r hwn y dyfynwn linell neu ddwy:—

"Cosbwr y marwawl bechawd,
Casbeth genyf bregeth brawd;
Pobty y bara peinioel,
Pibl weddi, almari¶ moel;
Gosgedd gryglus, gweddus gwiw,
Gwas baglog mewn gwisg bygliw.
. . . . . . . .
Doedai'r enfys oedran foel
Wrthyf fi—yr hen arth foel!"

Ond oddiwrth y dyfyniadau hyn, gwelir ar unwaith yn mha ysbryd yr oedd y bardd awenyddfawr hwn yn gwrthwynebu y myneich, ac mor wahanol ei dôn i eiddo y Dr. Sion Cent. Oddiar gasineb a dig tuag atynt y goganai Dafydd hwynt, tra mai yn erbyn eu drygfoesau a'u cyfeiliornadau y taranai y doethawr. Bron na ddywedem fod gogan Dafydd bron mor uniongyrchol yn erbyn crefydd ag ydoedd yn erbyn Pabyddiaeth; er ei fod ef wedi canu darnau crefyddol prydferth ar y testynau mwyaf cysegredig, ac wedi dadgan profiad dwfn yn niwedd ei oes o ddylanwad yr efengyl ar ei galon a'i gydwybod. Fodd bynag, y mae yn dra eglur fod y Dr. Sion Cent yn gymeriad hollol wahanol mewn natur a dysg, a chanddo amcan gwahanol i'w holl fywyd. Yr oedd yn grefyddol anghyffredin ei ysbryd, yn wrol ei feddwl, ac yn bur ei foesau. Eto, y

* Yn yr Amgueddfa Brydeinig (Cymmrodorion MSS. No. 15,046) cedwir darnau o ramadeg Cymraeg yr ysgolhaig enwog Simwnt Fychan, yr hwn a'i cyfansoddodd tua 1580. Y mae corff y gwaith yn dechreu ar tudalen 65, ond cynnwysa y tri tudalen cyntaf o'r ysgriflyfr ychydig o'r rhan olaf o ramadeg Gruffydd Roberts, ag sydd yn dra dyddorol oblegid y crybwylliad a gynnwysa am y Dr. Sion Cent. Fel hyn y dywed yr awdwr:—

"Y RHAN DIVAETHAF i ramadeg a elwir Tonyddiaeth. Ms. Ni wasnaetha oedi tonyddiaeth mwy na gohirio moi dosparth, gan fod cimaint blys y Cymru awenyddus amdani. Wedi ichwi ddangos yn y rhan gyntaf, wrth barthu 'r Gramar yn bedair colofn, fod hon yn un o honynt, a bod i swydd hi amlygu iawn don, a chymwys fessurau 'madrodd, a phob math ar gerdd dafod sy ddechmygawl, ac yn gymradwy ymysg beirdd awduredic a phenceirddied Cymru. Canys mae ymysg blodau ifientid Cymru lawer un a chentho synwyr owchlym, athrylith odidoc, dysc ardderchawg, awenydd redegog, ac ewyllys i ossod allan mewn mydr Cymreig folliant rhinweddau, dychan camweddau, cyfrwyddid i'r diddysg, cyssur i'r trwm-gallon, a diddanwch i'r annifyr i gytlwr, heb eissie dim arnynt, ond cael gwybod naws y cynghaneddion, a'r messurau sydd arferedig, a'r pethe sy berthynassol at y gerdd dafod a lle i dangos yn ddifarn ymysg penceirddied. Gr. Gwir a ddywedwch ac nid oedd ar Doctor Sion Gwent ddiphig na dysg, na duwioldeb nac awenydd; etto am nad oedd gentho gyfarwyddid yn y cynghaneddion, a'r pethau sy'n damwain iddyn, nid yw i gowyddau ef mor gymradwy ymysg y beirdd, ac y buassent, pei gwelsid ynddynt ogelfyddyd gynghaneddawl gimaint ag sydd o santeiddrwydd a dysg. Ond nid madws etto son am donyddiaeth, nes myned trwy Gystrawiaeth yn gyntaf. Canys honno yw'r drydedd golofn; a phe gadewid heibiaw yr un o'r pedair prif-golofn, efyddai 'r adeiladaeth yn serfyll, ar addewid a wnaethom wrth ddechrau heb i chowiro. Mo. Diamau yw hyny, pe bai i'n bryd wneuthur traethiad cyfanbarth ar yr holl ramar, megis y mae rhai sy'n prophessu 'r gelfyddyd ymhob iaith, yn gwneuthur. Eithr yr owron nid ydym ond megis o arabedd ar gip yn rhedeg trwyddi; ni a allwn yn ddifarn neidio dros un rhann. Hefyd, e ddysg dŷn gystrawenu 'r geirieu Cymraeg yn gynt wrth i glust, a hir ddal ar yr iaith nog wrth rolaethau celfyddyd, ne ddogfennau techneu" (*technical documents?*).

† No. 15,046, pp. 299–348.

‡ Cymharer y paragraff yn Edeyrn Dafod Aur (t. cxix.).

* Gwaith Dafydd ab Gwilym, t. 350; 2fed argr.

† Gwaith Dafydd ab Gwilym, t. 209.

‡ *Ibid.* t. 217.

§ Gwaith Dafydd ab Gwilym, t. 316.

‖ *Ibid.* t. 308.

¶ Almari: *almonry*, cwpbwrdd, cloer, cell.

Digitized by Google

hwn, na'i fod yn gydnabyddus â mesur cywydd o gwbl. Gan fod genym yn y "Myvyrian Archaiology" gryn swm o waith Dafydd Ddu, y mae genym fantais i farnu am ei arddull; a'r ffaith yw fod pob un o'i gyfansoddiadau barddonol a gofnodir yno ar yr hen fesurau, ac yn yr hen ffurf o gynghanedd. Nid oes sail i'r dywediad fod ei feddfaen yn Tremeirchion.* Ond oddiwrth arddull ei farddoniaeth casglwn ei fod yn blodeuo yn nechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg, os nad yn niwedd y ganrif flaenorol; ac felly o flaen ein holl gywyddwyr, o'r rhai yr oedd Dafydd ab Gwilym, os nad y cyntaf oll, yn un o'r rhai boreuaf, ac yn dad i farddoniaeth Gymreig ddiweddar. Gallasai Dafydd Ddu fod yn cofio gorchfygiad Cymru gan Edward I. Effeithiodd yr amgylchiad hwnw ar fywyd cymdeithasol y wlad, ac efallai ar yr iaith Gymraeg; fodd bynag, cymerodd cyfnewidiad rhyfedd le ynddi hi, fel mewn ieithoedd ereill, tua'r adeg hon;† a chan fod y cyfnewidiad hwnw wedi creu chwyldroad yn aceniad yr iaith, effeithiodd hyny y chwyldroad y soniwn am dano yn rheolau barddoniaeth Gymraeg. Golygwn felly fod Dafydd Ddu a Sion Cent yn perthyn i ddau gyfnod gwahanol, yn llenyddol a chrefyddol; oblegid y mae pobpeth diammheuol o waith y cyntaf yn Babaidd ei olygiadau a'i ysbryd.

Golygwn oddiar yr ystyriaethau uchod, yn gystal ag oddiar draddodiadau ereill, fod Sion Cent yn cydoesi â Dafydd ab Gwilym a Rhys Goch Eryri; rai blynyddoedd yn iau na'r blaenaf, ac ychydig yn hŷn na'r olaf. Dywedir fod y tri yn Eisteddfod y Ddôl Goch, yn Emlyn, yr hyn nad yw anmhosibl, ac sydd yn ol pob tebyg yn wir;‡ canys y mae cywyddau ar gael o ymryson rhwng Sion Cent a Rhys Goch,* mewn canlyniad i'r cyntaf fyntumio mai awen o Dduw oedd ganddo ef, ac felly wrthod y gadair farddol a ddyfarnesid iddo, ac mai awen o ddiawl oedd gan Rhys. Dengys hyn fod ymrafael yn yr oes hòno rhwng y beirdd a'r crefyddwyr, ac fod Sion Cent wedi sefyll dros grefydd a gwrthod cadair Eisteddfod er ei mwyn. Dechreua y doethawr ei gywydd fel hyn:—

> "Camair hy', cam yw'r heol,
> Cymru fu, cam roi fol," &c.

Ac etyb Rhys yn ffyrnig:—

> "Toraist am treiaist arnaf,
> Tris meddgrig gnoedig gnaf,
> Fraw chwedl o froeach adlam,
> Fy mod yn cadw geifr fy mam.
>
> . . . . . . . .
>
> Ac am hyn, emyn amher,
> Cabl Sion clywch at parion cler.
> Pam, was ystabl, y'm cablud
> Fudredd, drwy ddigasedd drud.
>
> . . . . . . . .
>
> Dwy awen ryfedd meddut
> Y sydd, odidog ei sut:
> Un a roes Duw, iawnras dôn,
> Yn ngolwg ei angylion;
> Ac awen fydr heb gywair,
> Gelwyddawg, geuawg a gair
> A gafas, berw a gyfyd,
> Beirdd a phrydyddion y byd;
>
> . . . . . . . .
>
> Copr Sion senferw creichion crach,
> Cent a aethost mewn ceintach."

Dichon fod y Doctor Sion Cent yn ddisgybl barddol i Dafydd ab Gwilym, ond nid ystyrid y doethawr yn bencerdd gan feirdd diweddarach. Er fod Gruffydd Roberts (1567) wedi dyfynu dau gywydd o'i eiddo ar ddiwedd ei ramadeg† ardderchog, ac yn ei ddyrchafu o ran ei ddysg

* Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii. t. 376, nod. †.

† Revue Celtique, vol. ii. p. 341.

‡ Yr oedd Llywelyn ab Gwilym, o'r Cryngae a'r Ddôl Goch, yn ewythr ac athraw i Dafydd ab Gwilym. Claddwyd ef yn Llandudoch. (*Vide* marwnad D. ab Gwilym iddo yn ei waith, t. 326.) Yr un yw, mae yn debyg, a Llywelyn o Emlyn y canodd D. ab Gwilym awdl foliant iddo. (*Vide* Gorchestion Beirdd Cymru, t. 21; argr. 1af. Gwaith Dafydd ab Gwilym, t. 324; 2fed argr.)

Fel hyn yr adroddir yr hanes yn yr "Iolo MSS." (p. 96):—"Eisteddfod Gwern y Cleppa a Brodyr Marchwiail. Coffadwriaeth am Feirdd a Phrydyddion. O Lyfr Edward Dafydd, Antoni Powel, &c.

"Yn amser y Brenin Edward y III. [1327–1377] y bu Eisteddfod yng Ngwern y Cleppa dan nawdd a Dawn Ifor Hael; ag i honno daeth Tri Brodyr Marchwiail ym Maelor yng Ngwlad Bowys, a Llywelyn ap Gwilym o'r Ddol Goch yng Ngheredigion—a Thri Brodyr Marchwiail a Dafydd ap Gwilym gyda nhwy a fuant yn ysgolheigion Barddoniaidd Llywelyn ap Gwilym yng Ngwern y Cleppa, ys ef Llys Ifor hael. Ag yn yr Eisteddfod honno y doded braint Cadair ar fesur Cywydd lle nad oedd felly o'r Blaen, a phan canwyd am gadair Dafydd ap Gwilym a ennillws o nerth Awen a chanu a Chymraeg cynhwynol. Ac o hynny maes braint Cadair i fesur Cywydd deuair, a gwisgo Dafydd ap Gwilym ag addurn Cadair Morganwg a rhod enw Dafydd Morganwg, ag yng Ngwynedd ei alw Bardd Ifor Hael: ac o hyny hyd yn awr serchoccaf a goreu o'r holl fesurau y bernir Cywydd. Gwedi hynny bu Eisteddfod dan nawdd Llywelyn ap Gwilym yn y Ddol-goch yn Emlyn ag i honno y daeth Sion y Cent a Rhys Goch o Eryri yng Ngwynedd, a thyfu ymryson rhwng Sion y Cent a Rhys Goch, goreu ar wengerdd Sion Cent, a goreu ar foliangerdd Rhys Goch, a rhodd y blaen a'r Gadair i'r wengerdd, ond ni fynnai Sion y Cent ei wisgo ag addurn Cadair Ceredigion a Dyfed, eithr i Dduw y rhoddai ef y blaen, am hynny y gwedai rhai mai Duw ei hunan a ennillws y gadair honn. Wedi hynny doded Llywelyn ap Gwilym gann er Cadair Ceredigion, y goreu am Rieingerdd; a Barnu Dafydd ap Gwilym yn oreu, a'i wisgo a'r Cae Bedw ys ef addurn Rhieingerdd. Yna Llywelyn ap Gruffydd, un o dri Brodyr Marchwiail, a ganodd Englynion 'marchwiail bedw briglas' ar hen ganiad. Gwedi hyny y tri brodyr a ddodasant dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn Eisteddfod ym Maelor, ym Mhowys, yn nawdd Iarll Mortimer dan goron y brenin Edwart y trydydd, ac yno y canwyd am gadeiriau. Ac Ednyfed ap Gruffydd a gafas am Gywydd Gwr, ac am Englynion byrraf Eiry Mynydd, a Madoc y trydydd brawd a gafas gadair a chae bedw am Rieingerdd, a Dafydd ap Gwilym a ganodd yn garedig i Fadog am ei gerdd. Ac yn yr Eisteddfod honno ydd addurnwyd Iolo Goch ag addurn cadair am ei wybodau a ddysgws Ednyfed ap Gruffydd parth gwybodau Cerdd Dafod a'i pherthynasau. Ac o'r tair Eisteddfod hyn y cafad gwellhad ar gerdd Dafod a Chynghanedd."

* Enwogion Cymru, t. 117. Y Brython, cyf. iii. t. 390. Ceinion Llenydd. Gymreig, cyf. i. t. 135.

† "Meddylia am yddoli," &c. (t. 17), a "Llyma fyd kyd kadarn," &c. (t. 20).

Digitized by Google

a'i ddoniau, y mae yn ei feio am ei gelfyddyd fydryddol, fel y gwelir oddiwrth y dyfyniad isod.* Yr un modd y dywed William Salesbury, mewn copi o'i reitheg a olygwyd gan Thomas ab William, ac sydd wahanol i'r un argraffedig o dan olygiaeth Henri Perri, ac yn debycach i ran o'r "Pum Llyfr Cerddwriaeth a'r Angchwanegiadau" a gyhoeddodd Ab Ithel gyda gramadeg Edeyrn Dafod Aur. Y mae yn nghadw mewn llawysgrif yn yr Amgueddfa Brydeinig:†—

"Soraismos. Bolysothach a'r Cymysgiaith â cherdd Gymraec gair neu eiriau o osbiaith arall, neu ryw eiriau hên a newydd cymhessur ac anghymessur fal y mae:—

'Vy mhwrs melfed fy mherson
Vy nghoffr aur fy nghyff o rôn
Vy mhwrs gramarsi am hynn.—*D: Io. Cent.*'"‡

Felly y dyfynir ei waith gan Salesbury, fel enghraifft o fai gwaharddedig. Er fod yn ein meddiant bump neu chwech ar hugain o'i gywyddau, nid yw ei enw yn mhlith y beirdd, rhestr o gynnyrchion pa rai a gyhoeddwyd ar gloriau "Y Greal" (1805). Ond madws ini bellach chwilio yn fwy uniongyrchol i'w hanes a'i gysylltiadau crefyddol.

* Yn yr Amgueddfa Brydeinig (Cymmrodorion MSS. No. 15,046) cedwir darnau o ramadeg Cymraeg yr ysgolhaig enwog Simwnt Fychan, yr hwn a'i cyfansoddodd tua 1580. Y mae corff y gwaith yn dechreu ar tudalen 65, ond cynnwysa y tri tudalen cyntaf o'r ysgrifiyfr ychydig o'r rhan olaf o ramadeg Gruffydd Roberts, ag sydd yn dra dyddorol oblegid y crybwylliad a gynnwysa am y Dr. Sion Cent. Fel hyn y dywed yr awdwr:—

"Y RHAN DIVAETHAF i ramadeg a elwir Tonyddiaeth. Ms. Ni wasnaetha oedi tonyddiaeth mwy na gohirio moi dosparth, gan fod cimaint blys y Cymru awenyddus amdani. Wedi ichwi ddangos yn y rhan gyntaf, wrth barthu 'r Gramar yn bedair colofn, fod hon yn un o honynt, a bod i swydd hi amlygu iawn don, a chymwys fessurau 'madrodd, a phob math ar gerdd dafod sy ddechmygawl, ac yn gymradwy ymysg beirdd awduredic a phenceirddied Cymru. Canys mae ymysg bleidau ifientid Cymru lawer un a chentho synwyr owchlym, athrylith odidoc, dysc ardderchawg, awenydd redegog, ac ewyllys i ossod allan mewn mydr Cymreig folliant rhinweddau, dychan camweddau, cyfrwyddid i'r diddysg, cyssur i'r trwm-gallon, a diddanwch i'r annifyr i gyflwr, heb eissie dim arnynt, ond cael gwybod naws y cynghaneddion, a'r messurau sydd arferedig, a'r pethe sy berthynassol at y gerdd dafod a lle i dangos yn ddifarn ymysg penceirddied. Gr. Gwir a ddywedwch ac nid oedd ar Doctor Sion Gwent ddiphig na dysg, na duwioldeb nac awenydd; etto am nad oedd gentho gyfarwyddid yn y cynghaneddion, a'r pethau sy'n damwain iddyn, nid yw i gowyddau ef mor gymradwy ymysg y beirdd, ac y buassent, pei gwelsid ynddynt ogelfyddyd gynghaneddawl gimaint ag sydd o santeiddrwydd a dysg. Ond nid madws etto son am donyddiaeth, nes myned trwy Gystrawiaeth yn gyntaf. Canys honno yw'r drydedd golofn; a phe gadewid heibiaw yr un o'r pedair prif-golofn, efyddai 'r adeiladaeth yn serfyll, ar addewid a wnaethom wrth ddechrau heb i chowiro. Mo. Diamau yw hyny, pe bai i'n bryd wneuthur traethiad cyfanbarth ar yr holl ramar, megis y mae rhai sy'n prophessu 'r gelfyddyd ymhob iaith, yn gwneuthur. Eithr yr owron nid ydym ond megis o arabedd ar gip yn rhedeg trwyddi; ni a allwn yn ddifarn neidio dros un rhann. Hefyd, e ddysg dŷn gystrawenu 'r geirieu Cymraeg yn gynt wrth i glust, a hir ddal ar yr iaith nog wrth reolaethau celfyddyd, ne ddogfennau techneu" (*technical documents?*).

† No. 15,046, pp. 299–348.

‡ Cymharer y paragraff yn Edeyrn Dafod Aur (t. cxix.).

Er fod Dafydd ab Gwilym wedi canu amryw gywyddau i oganu y myneich, nis gallwn gasglu fod dim o ysbryd y Diwygiad wedi effeithio arno. Y mae ganddo ychydig o gyfansoddiadau crefyddol, ond ceir syniadau eithaf Pabyddol mewn amryw o honynt, gan ei fod yn dywedyd yn ei gyffes o'i bechodau:—

"Dirmygu heb dawl, o chwant corfforawl,
Gwasanaeth dwyfawl Duw deddfawl-dad.
Bod yn aflawen, goganu'n absen,
*Sarhau meibion llên, o'r hen raddiad:*
Gosteg anghymwys yn mhlas yr eglwys;
Bod yn anghyfrwys, ddwys ddeisyfiad."*

Ac eto cawn ganddo yr ymadroddion gwrth-Babaidd a ganlyn:†—

"Minnau atebais i'r brawd, am bob gair a ddywawd,
'Nid ydyw Duw mor greulon, ag y dywaid hen ddynion;
Ond celwydd yr offeiriaid, yn darllain hen grwyn defaid;
Ni chyll Duw enaid gwr mwyn, er caru gwraig na morwyn."

Mwy gwatwarus yw y cywydd "Ymddyddanion rhwng Merch a Phrelad,"‡ a mwy tafod-ddrwg fyth yw yr un i'r "Brawd Ffydd,"§ ac yn enwedig un arall "I un o'r Brodyr Llwydion, a gynghorai y Bardd i Ymadael â'i Gariad,"‖ o'r hwn y dyfynwn linell neu ddwy:—

"Cosbwr y marwawl bechawd,
Casbeth genyf bregeth brawd;
Pobty y bara peinioel,
Pibl weddi, almari¶ moel;
Gosgedd gryglus, gweddus gwiw,
Gwas baglog mewn gwisg bygliw.
. . . . . . . .
Doedai'r enfys oedran foel
Wrthyf fi—yr hen arth foel!"

Ond oddiwrth y dyfyniadau hyn, gwelir ar unwaith yn mha ysbryd yr oedd y bardd awenyddfawr hwn yn gwrthwynebu y myneich, ac mor wahanol ei dôn i eiddo y Dr. Sion Cent. Oddiar gasineb a dig tuag atynt y goganai Dafydd hwynt, tra mai yn erbyn eu drygfoesau a'u cyfeiliornadau y taranai y doethawr. Bron na ddywedem fod gogan Dafydd bron mor uniongyrchol yn erbyn crefydd ag ydoedd yn erbyn Pabyddiaeth; er ei fod ef wedi canu darnau crefyddol prydferth ar y testynau mwyaf cysegredig, ac wedi dadgan profiad dwfn yn niwedd ei oes o ddylanwad yr efengyl ar ei galon a'i gydwybod. Fodd bynag, y mae yn dra eglur fod y Dr. Sion Cent yn gymeriad hollol wahanol mewn natur a dysg, a chanddo amcan gwahanol i'w holl fywyd. Yr oedd yn grefyddol anghyffredin ei ysbryd, yn wrol ei feddwl, ac yn bur ei foesau. Eto, y

* Gwaith Dafydd ab Gwilym, t. 350; 2fed argr.
† Gwaith Dafydd ab Gwilym, t. 209. ‡ *Ibid.* t. 217.
§ Gwaith Dafydd ab Gwilym, t. 316. ‖ *Ibid.* t. 308.
¶ Almari: *almonry*, cwpbwrdd, cloer, cell.

Digitized by Google

mae genym grybwyllion yn ei waith sydd yn profi nad felly yr oedd erioed, ond fod argyhoeddiad wedi ei hollol gyfnewid mewn barn ac ymarweddiad ar ryw dymmor o'i oes. Ymddengys fod y cywydd canlynol yn profi crediniaeth Sion Cent, am dymmor o'i fywyd beth bynag, mewn "pardwn gwerth" a phurdan:—

"Od ai i'r nef, rhaid yn wir
Ffinio dros y corff anwir,
A thalu'r ffydd Gatholig
Yn y tân o'r enaid dig;
Crist ni dderbyn o'r crasdân
Enaid i'w law ond yn lân." *

Hefyd, mewn cywydd arall dywed yn gyffelyb:—

"Pan el enaid dyn pleidfawr
Pair dan mwg i'r purdan mawr,
Cas llid, ni ddaw cwys llydan
O'r tir i ddiffoddi'r tân." †

Prawf y darn canlynol drachefn, o'r un cywydd, ei fod yn dal rhinwedd holl sagrafenau yr Eglwys Babaidd:—

"Gwyn ei fyd, nid er gwynfydu,
Y dyn cyn gloes angeu du
. . . . . . . .
A chael corff Crist uchelair,
A chyffes o fynwes Fair;
A chael olew nefolydd,
A rhoi y meddiant yn rhydd;
A chael dodi'n corff, o chaid,
Yn deg mewn tir bendigaid."

Anhawdd yw cyfarfod â dim yn ngweithiau ein beirdd mwy eithafol Babyddol na'r dyfyniadau uchod. Rhaid fod yr awdwr pan y'u cyfansoddodd yn credu yn ddibetrus holl gyfeiliornadau ofergoelus a chrach-offeiriadol Rhufain. ‡ Dyma, i ddechreu, ddirwy neu benyd am bechod; yna, athrawiaeth baganaidd y purdan; wedi hyny, rhinwedd achubol y Sacrament fel cyfranogiad o gorff Crist; cyffesu, er mwyn cael cyfryngwriaeth Mair; eneinio y claf; cyhoeddi ei faddeuant; ac wedi ei farw, claddu ei gorff mewn tir cysegredig!

Dengys y dyfyniadau canlynol fod Sion Cent wedi ymwrthod âg athrawiaethau y Babaeth yn y rhan olaf o'i oes. Mewn cywydd i'r "Deg Gair Deddf," § yn dechreu fel hyn, "Llawrodd a roes i Foesen," &c., dadgana yn groyw yr ail orchymyn, yr hwn a wrthodir gan y Pabyddion:—

"Yr ail gair, hylaw gariad,
Ni wna twyll (yn enw y Tad),
Yna, yn d'oes, na wna di
Ddelwau hyll i'w haddoli."

* Cloer Barddas, MSS. t. 246; "Cywydd i Dduw ac i'r Byd, ac i gyffelybu Dyn i Ddiwrnod."—"Dyn yn gyff'lybrwydd y daw," &c.

† Cloer Barddas, MSS. t. 249; "Cywydd arall i Dduw ac i'r Byd."—"Gwyn ei fyd nid er gwnfydu," &c.

‡ Gwel hefyd "Cywydd i Dduw, ac yn dangos fod Degwm yn Deilwng i'w Dalu," yn "Llyfr Ty'n y Braich," MSS. (t. 22), a "Ceinion Llenyddiaeth Gymreig" (cyf. i. t. 119).

§ Cloer Barddas, MSS. t. 260.

Ac eto dywed ychydig linellau yn mlaen:—

"Cais gadw yn abl ddigablfraint
Gwyliau a noswyliau saint,
Trosot ti y gweddïant,
Bechadur; nid segur sant."

Dylid, wedi y cwbl, gofio nad Pabaidd na gwrth-Babaidd chwaith yw y swrn mawr o farddoniaeth Sion Cent. Tua phump neu chwech ar hugain o gywyddau o'i waith sydd yn wybyddus ini, ond fel y dywedasom o'r blaen, nid oes son am dano yn y rhestr o feirdd a barddoniaeth ar gloriau "Y Greal;" felly nis gwyddom pa nifer o gyfansoddiadau o'i eiddo a ddichon fod ar gael. Ond y mae bron y cwbl a ddaeth i'n llaw ar destynau crefyddol, ac yn anadlu ysbryd crefyddol, ac fe welir nad damwain oedd hyn, ond bwriad, yn cyfodi oddiar argyhoeddiad yr awdwr am natur a swydd barddoniaeth. Ond gallwn sylwi yma fod y beirdd, at eu gilydd, wedi bod bob amser yn ffafriol i ddiwygiad mewn byd ac eglwys. Un o'r Lolardiaid, dilynwyr Wycliffe, oedd Chaucer, tad barddoniaeth Seisnig; ac Ymneilldüwr eiddgar ydoedd Miltwn, tywysog beirdd Lloegr. Ffaith arall hefyd y dylid ei gwybod a'i chofio yw, mai ar gyffiniau Cymru y cyfododd y rhan fwyaf o lenorion Lloegr yn yr hen oesoedd, ac mai yno y cafodd y diwygiadau fwyaf o dderbyniad a dylanwad. Cymro oedd Walter Mapes, cyfaill urddasol Giraldus Cambrensis a Sieffrai o Fynwy, a goganwr diarbed y mynachod yn y ddeuddegfed ganrif. Yn sir Amwythig yr oedd cartref William y Breuddwydiwr, ag y cyfeiriasom eisoes ato; ac o sir Gaerlleon yr hanai Syr Thomas Maelor, cyfieithiad yr hwn o "Hanes Arthur a'i Farchogion" oedd un o'r llyfrau cyntaf a argraffwyd yn yr iaith Seisnig, a'r hwn, er perswadio yr hen Caxton gydwybodol i'w gyhoeddi, a aeth ar ei lw fod pob gair o'r hanes yn wir. Ond cawn eto enghreifftiau cyffelyb o'r un peth mewn oesoedd diweddarach.

Efallai mai yr hyn a brawf egluraf wrthwynebrwydd Sion Cent i anfoesoldeb a chyfeiliornadau y myneich a'r offeiriaid yw ei gywydd "Modd y bydd y Prydydd yn Ymddyddan â'i Lyfr." Gan nad oes genym ni, fel gwlad Gymru, lywodraeth a chofnodfa (*archives*), rhaid ini ymddiried i'r prawf hanesyddol cydnabyddedig arall, sef llenyddiaeth gyfoesol. Y mae ein llawysgrifau yn lluosog, ac nis gwnaethpwyd eto yr holl ddefnydd posibl o honynt. Cynnwysant yn uniongyrchol,

Digitized by Google

ac anuniongyrchol, lawer iawn o hanesiaeth bwysig a dyddorol. Felly y cawn yn y cywydd dilynol gyfeiriadau at rai amgylchiadau pwysig a gymerasant le yn nyddiau yr awdwr, heblaw dadganiad o'i berthynas ef ei hun â'r eglwys ac â'r gwŷr llên. Cofier fod y testyn wedi ymlygru yn fawr yn nwylaw adysgrifwyr, ac yn nhreigl pum can mlynedd.

"'Tulus * gân anfedrus gau
Tarus fawr ei anturiau,
Llyfr wyt, ac nid llafar iawn,
Dolenog, diwael aniawn;
Arwest egr er pymthegryw,
Arw dy farn, oer yw dy fyw;
Neu, dithau cryn eiriau cred,
A ffy rhwng cist a phared.
Paid aro, ond cof y cwymp
Olkaist,† ti ai yn eilcwymp.
Dig yw'r cedyrn glaerchwyrn glyd,
Dig iawn nad oes digonyd;
Dig yw'r gwŷr llên a'r menaich,
Dogyn fodd, digon o faich;
Dig hefyd, Rhodrig rhydrist,
Yw brodyr crefyddwyr Crist;
Dig iawn ganwaith dan gynnydd,
Dig haid yr offeiriaid o'r ffydd;
Dig hefyd—ffo hyd y ffordd—
Yw'r esgyb, diwair osgordd;
Dig iawn ganwaith dan gynnull
Dig yw'r offeiriaid a'u dull;
Truth noeth, traethu a wnaethost,
Ni chaent hwy, gwn achwyn tost,
Groendew ffol, graen yw dy ffed,
Gaerydd nef yn agored.'

"*Y Llyfr yn ateb:*—

"'Nawdd y Goruchel Geli,
Ni ddoedais, ni soniais i,
Na ddelent yn un ddolef
A'u llu a'u nerth oll i nef.
Doedaf chwedyl, geiriau chwyrn,
O'm ceudawd am y cedyrn:
Oni chânt nef, dref drachyfoeth,
O fodd Duw, gwr ufudd doeth,
Meddir o bydd cywir cant,
I minnau hwy a'i mynant:
O eiriau glew ar a glowais,
Orddwy drud ar Dduw o drais.
Hoywdda rwysg heddyw'r esgob,
Sidan yn gyfan ei gôb;
Gwin a fyn, nid gwan ei fâr,
Awch gidwm, a chig adar;
Llef am nad yw allufawr,
A llysiau'n dameidiau mawr:
Yn ei wydd gwel arglwyddes,
Enid teg ail Luned tês;
Anwyl oedd a wnel iddi
Camryn hwyl a'i cym'ro hi.
Muroedd teg mawr oedd eu tai,
Menych tra aml eu mwnai.
Breisgion ynt ar eu brasgig,
Brwysgion, dinhwygyddion gig.
Tôn anferth, tinau unfaint;
Tyrchiaid y syniaid ar saint.
Y brodyr, pregethwyr gynt,
A oedden heb dda iddynt;
Ar eu traed eiriau tradyn,
A'u pwys heb orphwys ar ffyn:
Y maent hwy'n gynt hynt hybeirch,
Yn dri llu yn meddu meirch.
Nid amlach cyfeddachwyr
Eu gwleddau na gwaeau gwŷr.
A 'ffeiriaid, i'n amhlaid ni,
Yn arwntian ‡ am renti;
Pob un, heb na llun na lles,
Ofer iawn, a'i feiriones;
Oni bydd, trachudd trechair,
Dwy o buteiniaid neu dair:
A'i blwy' heb feddu dwy-fyw,
A'i blant yn bwyta da Duw:
A'i weddi nid yw wiwdda,
I wlad nef, medd ef, ydd ä.
Minnau, o'm dysg a'm hanian,
Ar liw yr Ysgrythyr Lân;
Gwn gyfraith, euriaith arab,
Y Tad, a'r Ysbryd, a'r Mab.
Ni lewais gwiwras gwerin,
Dewi yn ei weddi win;
Na medd gloywlas lwys-lew,
Na rhost mawr, na sawr, na sew;
Na galw ni bu salw ei sain,
Na thro pot na rhuthro putain;
Cyd bo ynof cof cyfnwyf
Y mydr oll a'i medr wyf
'Nid annoeth wrth ymdynu
'N unig âg eglwysig lu
Nifer hyn oes nef ar hynt,
Am ei gael ymogelynt.
Wedi'r cig rhost fost feithrin,
A'r lliain gwynfain a'r gwin;
A'r gwleddau, gwarau gwiwreg,
A'r gwragedd twf eurwedd teg.
Astud wyf, o ystad ofwy,
Ystyr o'u twyll ystyrient hwy,
Nad â gwleddau gau gynen,
Ydd eir i nef ddioer nen.'" §

Y peth cyntaf a'n tery yn y dernyn uchod ydyw y cyfeiriad at dynged yr Arglwydd Cobham, neu Syr John Oldcastle. Dienyddiwyd ef yn y modd creulonaf yn Llundain, Rhagfyr, 1417. ‖ Oddiwrth y ffaith hon cawn ddyddiad newydd

* Dilys. (Iolo MSS.) † Oldcastle.
‡ Arwntian: *arraught* (?), *seized by violence*. (Spenser.)
§ Cafn Awen, MSS. Ceinion Llenydd. Gymreig, cyf. i. t. 120; "Cywydd yn nghylch Bywioliaeth ac Anghymedroldeb Gwŷr Llên, ac ereill o Wŷr Galluog, ar Ddammeg." Iolo MSS. p. 804.
‖ National Cyclopædia, *sub voce*.

yn mywyd Sion Cent, oblegid profa y cyfeiriad yn ei gywydd ei fod wedi goroesi Oldcastle; er nas gwyddom eto am ba hyd. Anhawddach fyth yw penderfynu adeg ei enedigaeth; oblegid gall amgylchiad y cyfeiria dyn ato fod wedi cymeryd lle yspaid maith cyn ei enedigaeth, tra y rhaid fod ei farwolaeth rywbryd ar ol dyddiad ei holl gyfeiriadau. Felly yn yr amgylchiad presennol, nis gallwn benderfynu pa hyd y bu y bardd fyw ar ol yr Arglwydd Cobham, na pha beth oedd ei oedran ar y pryd; ac felly nis gallwn ddyfalu, gyda chywirdeb, yr adeg y ganwyd ef. Ond y mae hyn yn eglur yn y cywydd, ei fod yntau wedi cynhyrfu digofaint yr eglwyswyr a'i fod o ganlyniad yn ofni cyfarfod â'r un dynged ag Oldcastle, ac y mae yn bur sicr hefyd fod y ddau yn gyfoeswyr. Cwestiwn dyddorol, o ganlyniad, yw: Pa gydnabyddiaeth oedd rhwng y naill a'r llall, a pha faint o ddylanwad a gafodd y naill ar y llall? Eglur yw, fel y sylwasom yn barod, fod chwyldroad wedi cymeryd lle yn meddwl y Dr. Cent: Pwy, a pha beth, a gynnyrchodd y cyfryw chwyldroad?

Tybid unwaith fod yr holl Drioedd Cymraeg yn awdurdod cyfoesol ar y materion a drafodant, ac felly eu bod yn dra hynafol. Y gred gyffredinol erbyn hyn, fodd bynag, yw eu bod yn amrywio yn ddirfawr yn amser eu cyfansoddiad; rhai o honynt yn hen, ac ereill yn gymhariaethol ddiweddar. * Y mae yn ddiddadl fod llawer o honynt yn wybyddus yn amser Sion Cent, ond y mae yn ammhëus genym nad diweddarach yw y pedwar Triad canlynol:—

"Tri pheth ni waeth pa leiaf y clywir o honynt: cân hwch ar wynt, cnec hen wrach, a phregeth Brawd Llwyd" (*Grey Friar*).

"Tri pheth sydd, a gwae a ddelo dan eu crafangau: cyffeswr o Frawd Llwyd, llogwr arian, ac arglwydd tir o gostoglwyth."

"Tri anhebgor uffern: rhingyll, Brawd Llwyd, a Sais."

"Tri pheth ni waeth i ddyn ychydig na llawer o honynt: bara offeren, nawdd y creiriau, a rhoddion mab y crinwas" (cybydd). †

Rhaid ini, o ganlyniad, droi i rywle arall i gael gafael ar y gallu a ddylanwadodd ar Sion Cent i gynnyrchu ynddo y cyfnewidiad y cyfeiriwyd ato uchod. Nis gallwn lai na chredu nad

* Y Beirniad (Thomas Stephens), cyf. v. t. 58, 136, 214, 272; cyf. vi. t. 126, 295.
† Darlithiau ar Hanes y Cymry, t. 265. Gwel ereill cyffelyb yn y "Myvyrian Archaiology" (pp. 831, 869, 904).

Digitized by Google

rhyw adlewyrchiad o oleuni mawr Wycliffe a belydrodd ar ei feddwl; er y golygwn ei fod yn rhy ddiweddar ei oes i glywed a gweled Wycliffe yn bersonol, os nad ydoedd yn oedranus iawn yn marw (1420?). Nid ydym yn dyweyd fod hyn yn anmhosibl, ond gan nad oes un prawf pendant o hyny, ac nad yw y Dr. Cent byth yn cyfeirio at Wycliffe, gwell genym briodoli ei ddychweliad i rywun o ddisgyblion Wycliffe a gyniweriant drwy y wlad i ledaenu ei olygiadau. Mae yn wir y gallai fod Wycliffe yn darlithio fel doethawr yn Rhydychain yn ystod tymmor efrydiaeth Sion Cent; ond y mae rhediad cywyddau yr olaf yn rhoddi ar ddeall ini mai yn ddiweddar yn ei oes y cafodd ei argyhoeddi, ac nis gallwn lai na phriodoli y gwaith hwnw i'r enwog, talentog, a rhagorol Arglwydd Cobham, yr hwn, fel y gwelsom, a enwir gan ein doethawr mewn cysylltiad nodedig, dan ei gyfenw teuluaidd, Oldcastle.

Syr John Oldcastle a anwyd, fel y tybir, yn nhreflan Oldcastle (yr Hendŷ), gerllaw Llanfihangel Cryg Cornel, yn Ngwent is y Coed, ar derfyn siroedd Mynwy a Hereford. Nis gwyddys blwyddyn ei enedigaeth; ond a golygu ei fod tua thrigain oed pan ferthyrwyd ef yn 1417, fe'i ganwyd tua 1357, sef tua thair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd ar ol Wycliffe. Ymddengys oddiwrth ei gyffes ei hun ar ei brawf ger bron yr archesgob yn 1413, iddo dreulio boreugwaith ei fywyd yn anfoesol ac ofer, ac mai drwy offerynoliaeth Wycliffe y daeth i feddwl am ei gyflwr ysbrydol. Wedi hyny ymenwogodd yn fawr fel gwladweinydd a rhyfelwr o dan Richard II., Harri IV., ac Harri V. Y mae yn eglur oddiwrth ei hanes* ei fod yn wr galluog, hyawdl, a dewr. Ymdaflodd yn llwyr i ysbryd y Diwygiad, a gweithiodd yn dra llwyddiannus yn erbyn Pabyddiaeth am dymmor maith. Dygodd fesurau gwrth-Babaidd i mewn i'r Senedd, ac efe oedd un o'r prif offerynau i basio Deddf yn nheyrnasiad Richard II. (1377–1399) yn erbyn awdurdod wladol y pab yn Lloegr. Gelwir hon yn Ddeddf y *Provisors* neu *Præmunire*, a daeth i rym yn 1393. Er nad oedd hon y Ddeddf gyntaf a basiwyd yn Mhrydain o'r natur yna, gan fod Deddfau cyffelyb wedi eu hawdurdodi yn nheyrnasiad Edward I. ac Edward III. (1307 a 1367); eto cariodd hon ddylanwad mawr ar sefyllfa yr eglwys yn y deyrnas, a chadwodd hi rhag myned yn hollol o dan drawslywodraeth y pab.

* Y Gwyliedydd, cyf. i. t. 65, 97.

Ond nid yn ei hagwedd boliticaidd yn unig y pleidiai yr Arglwydd Cobham ddiwygiad mewn crefydd. Yr oedd yn wr o dduwioldeb personol dwfn, ac o egwyddor grefyddol anhyblyg. Nid oes genym sicrwydd ei fod yn pregethu yn rheolaidd ei hunan, ond cadwai bregethwyr teithiol i dramwyo drwy siroedd Lloegr a Chymru i gyhoeddi y gwirionedd. Efallai mai drwy ddyfod i gyfarfyddiad â'r pregethwyr hyny y dychwelwyd Sion Cent i'r un egwyddorion; neu y mae yn bosibl ei fod yn bersonol gydnabyddus âg Oldcastle ei hunan, a'i fod wedi teimlo dylanwad ei gymeriad, gan fod plwyfi Oldcastle a Kentchurch yn taro ar eu gilydd. Ond yn y cyfryw amgylchiadau, anfynych y mae un dylanwad yn cynnyrchu yr effaith; a'r tebygolrwydd yw, fod y doethawr yn hysbys o holl fudiadau crefyddol yr oes, yn cymeryd dyddordeb mawr ynddynt, ac yn dwys fyfyrio y cwestiynau mewn dadl. Ond os bu gan rywun law mwy na'i gilydd yn ei argyhoeddiad, tueddir ni i roddi y credid am hyny i'r Arglwydd Cobham.

Diwedd Cobham fu deilwng o'i fywyd, canys seliodd ei farwolaeth dystiolaeth ei oes. Cynnyddasai y Lolardiaid yn fawr yn nheyrnasiad y ddau Harri, ond trodd Harri V. yn greulawn yn erbyn eu hathrawiaethau. Teimlai fod y blaid mor gref fel yr oedd yr Eglwys Gatholig mewn perygl, ac fel Iago I., yn mhen dwy ganrif ar ei ol, tybiai fod tynged yr orsedd yn nglŷn â thynged yr eglwys sefydledig. Gan hyny defnyddiodd foddion llymion i ddarostwng y Diwygwyr, yr hyn a greodd lawer o deimladau drwg yn y wlad. O'r diwedd, yn 1413, gan yr ystyrid yr Arglwydd Cobham yn awr yn flaenor plaid y Lolardiaid, ac er iddo fod yn flaenorol yn un o gyfeillion mwyaf mynwesol y brenin, nid oedd bellach ddim arbediad iddo. Llwgrwobrwyasid y brenin gan yr offeiriaid, y rhai a roddasent iddo y tiroedd a'r meddiannau a berthynent i fynachlogydd tramor, rhag ofn y buasent yn colli y cyfan o'u meddiannau. Ymddyddanodd y brenin i ddechreu yn gyfrinachol â Cobham, gan geisio ei ddarbwyllo i ymadael â'i olygiadau crefyddol; ond pan welodd ddiysgogrwydd ei hen gyfaill, collodd ei dymherau a bygythiodd ef. Ond Cobham a'i hatebodd yn eofn: "Yr wyf fi wedi bod yn ddeiliad ffyddlon i'ch Mawrhydi bob amser, a'm llawn fwriad ydyw eich gwasanaethu yn ufudd o hyn allan. Yn nesaf dim i'r Hollalluog Dduw, mi a fyddaf ufudd

i'm brenin. Ond mewn perthynas i arddelwadau ysbrydol y pab, a'r awdurdod y mae efe yn hòni ar gydwybodau dynion, ni fedrais erioed ganfod ar ba sail yr adeiladwyd hwynt, ac ni thalaf iddynt barch nac ufudd-dod. Cyn sicred a bod Gair Duw yn wir, y mae yn amlwg ddigon i mi mai y pab yw yr Anghrist mawr a ragfynegwyd yn yr Ysgrythyr Lân." *

Digiodd y brenin yn aruthr wrtho am y geiriau gwrol hyn, ac ni ddangosodd mwy unrhyw arwydd o gyfeillgarwch tuag ato. Esgymunwyd ef gan yr archesgob. Daliwyd ef drwy orchymyn y brenin, a charcharwyd ef yn y Tŵr Gwyn, yn Llundain. Fodd bynag, drwy ryw foddion anhysbys, gwaredwyd ef o'i garchar ar noson dywell, a ffodd yntau i'w hen wlad, i Gymru, lle y bu am bedair blynedd yn ffoadur. Diau na bu segur yn y pedair blynedd hyn, ond hauodd ei syniadau nid yn unig yn Ngwent, ond hefyd yn Mhowys. Canys daliwyd ef o'r diwedd yn ei ymguddfa yn Mroniarth, yn agos i'r Llyn Du, rhwng Meifod a Chegidfa. Y prif offeryn i'w ddal oedd arglwydd Powys, yr hwn a orchymynasai i'w holl denantiaid gyfodi allan i chwilio am dano. Rhoddodd arglwydd Powys wobrau mawrion i'r rhai a gynnorthwyasant yn y gwaith mileinig hwn. Y mae eto ar gael weithredoedd, wedi eu dyddio y bummed flwyddyn o deyrnasiad Harri V., yn trosglwyddo arglwyddiaeth Broniarth i deulu Tanad o Aber Tanad, ac ynddi y mae cae a elwir hyd heddyw "Gardd yr Arglwydd Cobham." † Y mae hefyd weithred eto ar gael yn sicrhau breintiau i Syr Gruffydd Fychan, ‡ arglwydd Byrgedwyn, Treflydan, Garth, a Chaerfawr, ac i Ieuan ei frawd, am gynnorthwyo i ddal Syr John Oldcastle.

Dygwyd ef i Lundain, a dedfrydwyd ef i gael ei araf-losgi i farwolaeth. Yn ganlynol, crogwyd ef wrth gadwyn am ei wasg uwch ben tân. Dyoddefodd y ferthyrdod greulawn a melldigedig hon gyda gwroldeb digryn. Dywed arglwydd Orford am dano: "Yr Arglwydd Cobham oedd yr awdwr cyntaf, yn gystal a'r merthyr cyntaf, o blith ein pendefigion: yr oedd yn wr ag y gwnai ei rinweddau ef yn Ddiwygiwr, ei wroldeb yn ferthyr, a'i ferthyrdod yn sant."

Sylwyd fod aflwydd a barnau wedi disgyn yn fuan ar bawb fu a llaw yn yr anfadwaith creulawn hwn. Fel hyn y dywed golygydd gweithiau Lewis Glyn Cothi:—"Nis goroesodd rhai o'r prif actwyr yn nhrywawd (*tragedy*) Syr John Oldcastle ei drychineb alaethus ond ychydig flynyddoedd. Yn 1417, neu yn ol ereill yn 1418, y llosgwyd Syr John Oldcastle yn fyw, drwy ei grogi wrth gadwyn gerfydd ei wasg. Edward Charlton, arglwydd Powys, yr hwn a'i danfonodd i Lundain gyda gwarchodlu cryf, a fu farw yn 1421. Syr John Grey, mab yn nghyfraith arglwydd Powys, yr hwn a gymerai ofal y carcharor o Gastell y Trallwng (y Castell Coch, neu Powys Castle) i Lundain, a las yn mrwydr Bauge, yn Ffrainc, yn 1421. Y Brenin Harri V., yr hwn a oddefai i hereticiaid gael eu llosgi, a fu farw o'r eisglwyf (*pleurisy*) yn Roan, yn Normandi, yn bedair ar ddeg ar hugain oed, yn 1422. Syr Gruffydd Fychan, prif ddaliwr Syr John Oldcastle, a syrthiodd yn dorfynygledig wrth draed Harri Grey, arglwydd Powys, yn nghadlys Castell y Trallwng yn 1447. Harri Grey, arglwydd Powys, ar ol bywyd o gryn ddinodedd, a fu farw yn 1450." *

Yr oedd gwr enwog arall yn cydoesi â'r enwogion a nodwyd, ag y gallai fod Sion Cent wedi teimlo ei ddylanwad. Enw yr hen Ddiwygiwr ardderchog hwn oedd Walter Brute, ac yr oedd yntau yn frodor o'r un gymydogaeth a'r Arglwydd Cobham, gan ei fod yn perthyn i esgobaeth Henffordd. Ymddengys fod y Lolardiaid yn gryfion a lluosog yn Ngwent a'r cyffiniau yn yr oes hòno. Yr oedd cysylltiadau agos rhwng y galluog John of Gaunt, dug Lancaster, noddwr neillduol Wycliffe, fel y gwelsom yn barod, â'r parthau hyny; gan fod ganddo lawer o feddiannau yno, ac mai Castell Grosmont oedd ei breswylfa mwyaf dewisol. † Nid yw crefydd a chredo mawrion bob amser yn effeithio llawer ar werin gwlad; ond oddiwrth sefyllfa ac ysbryd y wlad yn yr oes hòno, ac yn enwedig oddiwrth dalentau, sel, a duwioldeb y personau hyn, naturiol yw casglu fod llawer o'r cyffredin bobl wedi teimlo grym

* Y Gwyliedydd, cyf. i. t. 68. † Yorke's Royal Tribes, p. 82.

‡ "Edward Charlton, arglwydd Powys, er anrhydedd Duw, ac fel cydnabyddiaeth am y dyfalwch a'r llafur ymroddgar a gymerodd Ieuan ab Gruffydd ab Ieuan ab Madog ab Gwenwys, a Gruffydd Fychan ei frawd, yn dal John Oldcastell yr heretic, a gwyrdröwr y ffydd Gatholig, a gelyn ein brenin goruchaf sydd yn awr yn teyrnasu; wrth erfyniad y personau a enwyd—y mae y dywededig arglwydd Powys yn eu rhyddhau oddiwrth bob llofruddiaethau a throseddau ereill a gyflawnwyd ganddynt ar yr achlysur dywededig; ac hefyd, er anrhydedd y Duw Hollalluocaf, y mae y dywededig arglwydd Powys yn dychwelyd i'r dywededig Ieuan a Gruffydd am byth ei hawliau i bob gosgordd a gwasanaeth, porthiant haf, a phorthiant gauaf, &c., am eu holl diroedd o fewn maenor ei arglwyddiaeth yn Ystrad Marchell, a hwythau i dalu yn lle pob rhent a gwasanaeth pa bynag, a ddalient, neu yr oeddynt yn ddyledus am danynt, i'r dywededig arglwydd Powys a'i etifeddion, un saeth dagellog yn flynyddol am byth ar Ddydd Gwyl St. Ioan Fedyddiwr." (Gwaith Lewis Glyn Cothi, t. 419.)

* Gwaith Lewis Glyn Cothi, t. 419, 420. † Y Gwyliedydd, cyf. i. t. 100.

Digitized by Google

y Diwygiad. Pe bai fodd, mwy dewisol fyddai genym gael allan ddaliadau y bobl na daliadau y pendefigion, oblegid y bobl yw y lluosocaf, a hwy sydd yn gwneyd i fyny gorff y wlad; ond yn y cyffredin hanes ychydig o fawrion sydd wedi ei groniclo a hanes y cyffredin wedi ei ebargofi, fel nad oes genym ond casglu yr olaf oddiwrth y blaenaf. Felly yn yr amgylchiad presennol, y mae hyny o brawf sydd yn aros yn bleidiol i'r syniad fod y wlad yn gyffredin yn nosbarth* Gwent, os nad drwy Gymru oll, yn coleddu athrawiaeth y Diwygiad; a chan nad oes genym dystiolaeth i'r gwrthwyneb, gallwn gymeryd hyn yn bresennol fel mater profedig.

Gwr lleyg oedd Walter Brute, neu Britte, neu Bright, ac er mai ychydig o'i hanes personol sydd ar gael, y mae yn eglur ei fod yn Gymro ac yn ymorchestu yn ei genedl. Yr oedd hefyd yn wr o gryn ddylanwad, fel y profir gan y llafur a gymerodd y Pabyddion i geisio ei ddychwelyd neu ei ddystewi, ac y mae ei ysgrifau yn dangos ei fod yn dra llafurus i oleuo ei gydgenedl yn ystod ei fywyd, er mai ychydig o sylw a dalodd ein beirdd a'n croniclwyr brodorol iddo ar ol ei farwolaeth. Efrydodd yn Rhydychain a graddiodd yno. Yn 1360 gwrthwynebodd athrawiaeth y brodyr (*friars*), mai drwy gardota y cawsai Crist ei fywioliaeth; a'r un cyfeiliornadau a chwynion a ddygid yn ei erbyn ef ag a ddygid yn erbyn y Lolardiaid yn gyffredinol. Perthynai i esgobaeth Hereford, lle y cyhuddwyd ef o heresi yn Hydref, 1391. Yr oedd ei atebion yn glir a phenderfynol, a phrofodd fod bara y Cymun yn parhau yn fara ar ol y cysegriad ac mai y pab oedd yr Anghrist. Parhaodd y cwynion yn ei erbyn am ddwy flynedd, ac yna ar ol tri diwrnod o archwiliad ger bron lluaws o esgobion a gwŷr eglwysig, yn mhlith y rhai yr oedd ei hen gydymaith Nicholas Hereford, gwnaeth Brute ddadganiad o'i ymostyngiad mewn ffurf agored a mwys; heb, er hyny, gydnabod ei gred yn nghyfeiliornadau Eglwys Rhufain.† Y mae Foxe, yn ei "Hanes y Merthyron," wedi cyhoeddi yr holl femrynau (*documents*) sydd yn cyfeirio at Brute allan o gofnodion esgob Hereford.

* Y Cyneirlyfr, *sub voce* "Gwent."

† "Yr wyf fi, Walter Brute, yn ymostwng yn benaf i efengyl Iesu Grist, ac i benderfyniadau yr eglwys santaidd, ac i gymanfaoedd cyffredinol yr eglwys santaidd; ac hefyd i syniadau a phenderfyniadau pedwar doethawr yr Ysgrythyr Santaidd, hyny yw Awstin, Emrys, Jerome, a Gregory. Yr wyf hefyd yn gostyngedig blygu i'ch cerydd chwithau, fel y gweddai i ddeiliad tuagat ei esgob." (Foxe's History of the Acts and Monuments of the Church, p. 252; edit. 1838.) Yn y flwyddyn 1393 y bu yr amgylchiadau hyn.

Y cwynion a ddygid yn benaf i'w erbyn oedd ei fod yn gwrthwynebu awdurdod Rhufain, yn pregethu allan o'r Ysgrythyr, yn gwrthbrofi traws-sylweddiad, ac yn dysgu fod pardynau y pab, a dyfeisiau ereill o eiddo y clerigwyr, yn ddiwerth er iachawdwriaeth eneidiau. Er mwyn dangos gwroldeb a hyfder yr hen Frython duwiol hwn, rhoddwn ddyfyniad neu ddau allan o'i amddiffyniad ger bron llys yr esgob:—

"Yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, Amen. Myfi, Walter Brute, bechadur, lleygwr, amaethwr, a Christion o'r Brythoniaid, a'm llinach o'r Brythoniaid o du fy nhad ac o du fy mam, a gyhuddwyd wrth esgob Hereford fy mod wedi cyfeiliorni mewn llawer o bethau o barthed i'r ffydd Gristionogol Gatholig; gan yr hwn y'm gwysir i ysgrifenu atebiad yn Lladin i'r holl gyhuddiadau hyny. Boddlonaf ei ewyllys ef hyd eithaf fy ngallu, gan brotestio yn gyntaf, ger bron Duw, a cher bron yr holl fyd, fel nad fy amcan yw, drwy ras Duw, wrthod y gwirionedd gwarantedig er gwobr mawr na bychan, ïe, bydded gymaint ag y bo, nac ychwaith o ofn unrhyw gosp ddaearol; felly hefyd nid fy amcan yw myntumio unrhyw athrawiaethau cyfeiliornus er mwyn unrhyw ennill pa bynag. Ac os bydd i unrhyw ddyn, o ba radd, plaid, neu sefyllfa bynag y byddo, ddangos imi drwy awdurdod yr Ysgrythyr Santaidd fy mod yn cyfeiliorni yn fy ysgrifeniadau neu yn fy nywediadau, derbyniaf ei addysg yn ostyngedig a llawen. Ond am eiriau noeth unrhyw ddysgawdwr, gyda'r eithriad o Grist ei hun, nis credaf ynddynt yn unig oni bydd efe yn alluog i'w cadarnhau drwy dystiolaeth profiad neu Ysgrythyr."

Fel enghraifft o'i gariad at ei wlad, a'i ymffrost yn ei gydgenedl, darllener y dadganiad canlynol o'i eiddo:—"Oddiwrth yr Ysgrythyrau y mae yn ymddangos imi yn dra thebyg y dinystrir Anghrist gan y gwŷr galluocaf o'r Cenedloedd, a hyny â chleddyf Gair Duw. Ni bu erioed yn mhlith y Cenedloedd neb pobl gryfach o gorff a ffydd na'r Brythoniaid, fel y prawf hanesiaeth; canys nis gorchfygwyd hwy erioed oddigerth drwy eu brad neu eu cynllwyn eu hunain, neu oherwydd eu gwanychu drwy haint a newyn, ac nis gallodd unrhyw drychineb eu gorfodi i ymwrthod â'r ffydd. Oddiwrth hyn fe ymddengys yn eglur paham y pryd hwn, mwy nag mewn amseroedd o'r blaen, y cynhyrfir o achos y mater hwn; a phaham yn y deyrnas

Digitized by Google

hon, yn hytrach nag mewn teyrnasoedd ereill, y sonir am alwad y Cenedloedd, er gwarantiad yr efengyl, drwy ddadguddio Anghrist."*

Y mae Foxe yn symio i fyny rinweddau Walter Brute yn y geiriau cryfion a ganlyn:—"Gwelwn weithrediad nerthol Ysbryd Duw ynddo yn ei wybodaeth addfed, ei symlrwydd gostyngedig, ei ddiysgogrwydd dewr, ei draethodau dysgedig, a'r brwydrau lluosog a ymladdodd â gelynion Duw." Fel hyn y dywed awdwr "Credo Piers yr Aradrwr" am dano:—

"Pawb a ddyoddefant erlidigaeth yn eu bywyd pur
A gânt fendith Duw, a bendigaid fyddant ar y ddaear.
Atolwg, gwelwch yn awr oruchwylion y mynach,
Yn mha fesur o addfwynder y delia y bobl hyn.
Edrychwch ar Walter Brute, yr hwn a erlyniasant yn brysur
Am iddo ddywedyd wrthynt y gwirionedd;
Ac eto, syr, nis gallant yn mhellach ddrygu y dyn
Ychwaneg na thrwy beri ei alw yn heretic,
A dyweyd ei fod yn camgredu,
A'i fod yn pregethu yn y pwlpud i ddallu y bobl.
Fe regent yr adyn hwnw am ei weithredoedd da,
Ac felly gochelant gariad, fel y gochel bytheuaid eisin.
Ewyllysiant fyned mor fawr
Ag i ragori ar allu pob dyn i lofruddio encidiau:
Yn gyntaf i losgi y corff mewn coelcerth o dân,
Ac yna i ladd yr enaid gwirion a'i ddanfon i uffern."†

Dengys y dyfyniad hwn fod beirdd y cyffiniau yn talu sylw i'r Diwygiwr Cymreig, tra nas gwyddom fod beirdd Cymru wedi cyfeirio o gwbl ato yn eu cywyddau. Yr awdwr Cymreig cyntaf a gyfeiriodd ato oedd Charles Edwards, yn "Y Ffydd Ddiffuant: sef Hanes y Ffydd Gristionogol a'i Rhinwedd" (1666), ac nid yw ei grybwylliad yntau ond byr. Felly y mae y gwŷr mawr a da yn cael eu hebargofi gan y rhai a fedant o ffrwyth eu llafur. Rhaid i ninnau, gyda hyn, adael y cyfnod dyddorol yma—cyfnod y Doethawr Sion Cent a'i gyd-Ddiwygwyr—a symud yn mlaen at y Diwygiad mawr Protestanaidd.

---

## PENNOD VII.

### SYR JOHN PRICE A'R DIWYGIAD YN NGHYMRU.

Ar ol marwolaeth yr Arglwydd Cobham syrthiodd y deyrnas i ddifrawder crefyddol, yr hwn a barhaodd am ganrif gyfan. Diffoddodd pob awydd am ddiwygiad ac adfywiad, a thowyd y wlad â thywyllwch a marwolaeth ysbrydol. Yr oedd amryw bethau yn cydgyfarfod i gynnyrchu y cyfryw effeithiau galarus. Trist iawn yw darllen am y fath ddiwedd siomedig i'r fath Ddiwygiad gogoneddus. Yr oedd Wycliffe yn rhagorach Diwygiwr na Harri VIII. na neb o'i gynghorwyr, ac yr oedd yr ysbryd a'r egwyddor a ddangosid yn Niwygiad y bedwaredd ganrif ar ddeg yn rhagori ar eiddo yr unfed ganrif ar bymtheg, ac nis gallwn lai na gofidio na buasai y cyntaf yn llwyddo.

Un gallu a weithredai yn erbyn y Diwygiad cyntaf ydoedd yr erlidigaeth ddidrugaredd a gododd Harri V. yn erbyn ei flaenoriaid. Os na all y gallu gwladol wneuthur da, fe all ei ddistrywio; os na all feithrin a choleddu crefydd, fe fedr ei llethu. Ac felly y gwnaeth yn y cyfnod dan sylw, fel mewn amgylchiadau ereill a gofnodir gan hanesyddiaeth. Bu erlidigaeth lawer tro yn achlysur i gryfhau crefydd, a gwaed y saint merthyredig yn had i'r eglwys. Ond y mae yr un mor wir fod gorthrwm a thrais gwladol, yn gystal ag erlidigaeth gymdeithasol, wedi llwyddo mewn rhai amgylchiadau i lethu y gwirionedd, o leiaf am dymmor, yn mhlith llawer cenedl. Fel prawf o hyn, mewn perthynas i Gymru, darllener gweithiau beirdd Cymreig y bymthegfed ganrif. Y maent yn lluosog mewn rhif, yn awenyddgar mewn dawn, ac yn gyfoethog mewn cynnyrchion. Ond nid oes odid ddernyn crefyddol yn mhlith eu cyfansoddiadau. Dichon mai yr enwocaf o honynt oll ydyw Lewis Glyn Cothi, ac y mae ei waith ef yn haws i'w gael nag eiddo y cyffredin o'i gyfoedion. Cawn ef, yn ei gywydd marwnad i Einion ab Ieuan ab Llywelyn ab Maredydd Gam, yn goganu y mynachod yn wawdlym;* ond nid yw yn dangos dim ysbryd crefydd, hyd yn nod yn ei farwnadau.

Gallu arall a ddylanwadai yn anfanteisiol ar grefydd oedd yr ymbleidio a'r rhyfel cartrefol a dorodd allan yn fuan rhwng teuluoedd York a Lancaster. Gan fod y naill blaid mor Babyddol, neu yn hytrach mor ddigrefydd, a'i gilydd, nid oedd crefydd yn dyfod i mewn i'r ddadl o gwbl, yr hyn a wahaniaethai ryfeloedd gwaedlyd y bymthegfed ganrif oddiwrth ryfel cartrefol yr ail ganrif ar bymtheg.

Gwasanaetha yr un sylwadau bron am Gymru ag am Loegr yn y cyfnod tywyll hwn. Machludasai haul gobeithion gwladwriaethol y genedl gyda gorchfygiad a marwolaeth ei gwron galluog, Owain Glyndwr. Ymollyngai ei phendefigion, a arbedasid gan y cleddyf, i fywyd afreolus; naill

* Writings and Examinations of Brute, &c. p. 19; Religious Tract Society, London, 1831.
† Llinell 1300 hyd 1332.

* Gwaith Lewis Glyn Cothi, t. 279, &c.

y Diwygiad. Pe bai fodd, mwy dewisol fyddai genym gael allan ddaliadau y bobl na daliadau y pendefigion, oblegid y bobl yw y lluosocaf, a hwy sydd yn gwneyd i fyny gorff y wlad; ond yn y cyffredin hanes ychydig o fawrion sydd wedi ei groniclo a hanes y cyffredin wedi ei ebargofi, fel nad oes genym ond casglu yr olaf oddiwrth y blaenaf. Felly yn yr amgylchiad presennol, y mae hyny o brawf sydd yn aros yn bleidiol i'r syniad fod y wlad yn gyffredin yn nosbarth * Gwent, os nad drwy Gymru oll, yn coleddu athrawiaeth y Diwygiad; a chan nad oes genym dystiolaeth i'r gwrthwyneb, gallwn gymeryd hyn yn bresennol fel mater profedig.

Gwr lleyg oedd Walter Brute, neu Britte, neu Bright, ac er mai ychydig o'i hanes personol sydd ar gael, y mae yn eglur ei fod yn Gymro ac yn ymorchestu yn ei genedl. Yr oedd hefyd yn wr o gryn ddylanwad, fel y profir gan y llafur a gymerodd y Pabyddion i geisio ei ddychwelyd neu ei ddystewi, ac y mae ei ysgrifau yn dangos ei fod yn dra llafurus i oleuo ei gydgenedl yn ystod ei fywyd, er mai ychydig o sylw a dalodd ein beirdd a'n croniclwyr brodorol iddo ar ol ei farwolaeth. Efrydodd yn Rhydychain a graddiodd yno. Yn 1360 gwrthwynebodd athrawiaeth y brodyr (*friars*), mai drwy gardota y cawsai Crist ei fywioliaeth; a'r un cyfeiliornadau a chwynion a ddygid yn ei erbyn ef ag a ddygid yn erbyn y Lolardiaid yn gyffredinol. Perthynai i esgobaeth Hereford, lle y cyhuddwyd ef o heresi yn Hydref, 1391. Yr oedd ei atebion yn glir a phenderfynol, a phrofodd fod bara y Cymun yn parhau yn fara ar ol y cysegriad ac mai y pab oedd yr Anghrist. Parhaodd y cwynion yn ei erbyn am ddwy flynedd, ac yna ar ol tri diwrnod o archwiliad ger bron lluaws o esgobion a gwŷr eglwysig, yn mhlith y rhai yr oedd ei hen gydymaith Nicholas Hereford, gwnaeth Brute ddadganiad o'i ymostyngiad mewn ffurf agored a mwys; heb, er hyny, gydnabod ei gred yn nghyfeiliornadau Eglwys Rhufain.† Y mae Foxe, yn ei "Hanes y Merthyron," wedi cyhoeddi yr holl femrynau (*documents*) sydd yn cyfeirio at Brute allan o gofnodion esgob Hereford.

* Y Cyneirlyfr, *sub voce* "Gwent."

† "Yr wyf fi, Walter Brute, yn ymostwng yn benaf i efengyl Iesu Grist, ac i benderfyniadau yr eglwys santaidd, ac i gymanfaoedd cyffredinol yr eglwys santaidd; ac hefyd i syniadau a phenderfyniadau pedwar doethawr yr Ysgrythyr Santaidd, hyny yw Awstin, Emrys, Jerome, a Gregory. Yr wyf hefyd yn gostyngedig blygu i'ch cerydd chwithau, fel y gweddai i ddeiliad tuagat ei esgob." (Foxe's History of the Acts and Monuments of the Church, p. 252; edit. 1838.) Yn y flwyddyn 1393 y bu yr amgylchiadau hyn.

Y cwynion a ddygid yn benaf i'w erbyn oedd ei fod yn gwrthwynebu awdurdod Rhufain, yn pregethu allan o'r Ysgrythyr, yn gwrthbrofi traws-sylweddiad, ac yn dysgu fod pardynau y pab, a dyfeisiau ereill o eiddo y clerigwyr, yn ddiwerth er iachawdwriaeth eneidiau. Er mwyn dangos gwroldeb a hyfder yr hen Frython duwiol hwn, rhoddwn ddyfyniad neu ddau allan o'i amddiffyniad ger bron llys yr esgob:—

"Yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, Amen. Myfi, Walter Brute, bechadur, lleygwr, amaethwr, a Christion o'r Brythoniaid, a'm llinach o'r Brythoniaid o du fy nhad ac o du fy mam, a gyhuddwyd wrth esgob Hereford fy mod wedi cyfeiliorni mewn llawer o bethau o barthed i'r ffydd Gristionogol Gatholig; gan yr hwn y'm gwysir i ysgrifenu atebiad yn Lladin i'r holl gyhuddiadau hyny. Boddlonaf ei ewyllys ef hyd eithaf fy ngallu, gan brotestio yn gyntaf, ger bron Duw, a cher bron yr holl fyd, fel nad fy amcan yw, drwy ras Duw, wrthod y gwirionedd gwarantedig er gwobr mawr na bychan, ïe, bydded gymaint ag y bo, nac ychwaith o ofn unrhyw gosp ddaearol; felly hefyd nid fy amcan yw myntumio unrhyw athrawiaethau cyfeiliornus er mwyn unrhyw ennill pa bynag. Ac os bydd i unrhyw ddyn, o ba radd, plaid, neu sefyllfa bynag y byddo, ddangos imi drwy awdurdod yr Ysgrythyr Santaidd fy mod yn cyfeiliorni yn fy ysgrifeniadau neu yn fy nywediadau, derbyniaf ei addysg yn ostyngedig a llawen. Ond am eiriau noeth unrhyw ddysgawdwr, gyda'r eithriad o Grist ei hun, nis credaf ynddynt yn unig oni bydd efe yn alluog i'w cadarnhau drwy dystiolaeth profiad neu Ysgrythyr."

Fel enghraifft o'i gariad at ei wlad, a'i ymffrost yn ei gydgenedl, darllener y dadganiad canlynol o'i eiddo:—"Oddiwrth yr Ysgrythyrau y mae yn ymddangos imi yn dra thebyg y dinystrir Anghrist gan y gwŷr galluocaf o'r Cenedloedd, a hyny â chleddyf Gair Duw. Ni bu erioed yn mhlith y Cenedloedd neb pobl gryfach o gorff a ffydd na'r Brythoniaid, fel y prawf hanesiaeth; canys nis gorchfygwyd hwy erioed oddigerth drwy eu brad neu eu cynllwyn eu hunain, neu oherwydd eu gwanychu drwy haint a newyn, ac nis gallodd unrhyw drychineb eu gorfodi i ymwrthod â'r ffydd. Oddiwrth hyn fe ymddengys yn eglur paham y pryd hwn, mwy nag mewn amseroedd o'r blaen, y cynhyrfir o achos y mater hwn; a phaham yn y deyrnas

Digitized by Google

hon, yn hytrach nag mewn teyrnasoedd ereill, y sonir am alwad y Cenedloedd, er gwarantiad yr efengyl, drwy ddadguddio Anghrist." *

Y mae Foxe yn symio i fyny rinweddau Walter Brute yn y geiriau cryfion a ganlyn:—"Gwelwn weithrediad nerthol Ysbryd Duw ynddo yn ei wybodaeth addfed, ei symlrwydd gostyngedig, ei ddiysgogrwydd dewr, ei draethodau dysgedig, a'r brwydrau lluosog a ymladdodd â gelynion Duw." Fel hyn y dywed awdwr "Credo Piers yr Aradrwr" am dano:—

"Pawb a ddyoddefant erlidigaeth yn eu bywyd pur
A gânt fendith Duw, a bendigaid fyddant ar y ddaear.
Atolwg, gwelwch yn awr oruchwylion y mynach,
Yn mha fesur o addfwynder y delia y bobl hyn.
Edrychwch ar Walter Brute, yr hwn a erlyniasant yn brysur
Am iddo ddywedyd wrthynt y gwirionedd;
Ac eto, syr, nis gallant yn mhellach ddrygu y dyn
Ychwaneg na thrwy beri ei alw yn heretic,
A dyweyd ei fod yn camgredu,
A'i fod yn pregethu yn y pwlpud i ddallu y bobl.
Fe regent yr adyn hwnw am ei weithredoedd da,
Ac felly gochelant gariad, fel y gochel bytheuaid eisin.
Ewyllysiant fyned mor fawr
Ag i ragori ar allu pob dyn i lofruddio eneidiau:
Yn gyntaf i losgi y corff mewn coelcerth o dân,
Ac yna i ladd yr enaid gwirion a'i ddanfon i uffern." †

Dengys y dyfyniad hwn fod beirdd y cyffiniau yn talu sylw i'r Diwygiwr Cymreig, tra nas gwyddom fod beirdd Cymru wedi cyfeirio o gwbl ato yn eu cywyddau. Yr awdwr Cymreig cyntaf a gyfeiriodd ato oedd Charles Edwards, yn "Y Ffydd Ddiffuant: sef Hanes y Ffydd Gristionogol a'i Rhinwedd" (1666), ac nid yw ei grybwylliad yntau ond byr. Felly y mae y gwŷr mawr a da yn cael eu hebargofi gan y rhai a fedant o ffrwyth eu llafur. Rhaid i ninnau, gyda hyn, adael y cyfnod dyddorol yma—cyfnod y Doethawr Sion Cent a'i gyd-Ddiwygwyr—a symud yn mlaen at y Diwygiad mawr Protestanaidd.

---

## PENNOD VII.

### SYR JOHN PRICE A'R DIWYGIAD YN NGHYMRU.

Ar ol marwolaeth yr Arglwydd Cobham syrthiodd y deyrnas i ddifrawder crefyddol, yr hwn a barhaodd am ganrif gyfan. Diffoddodd pob awydd am ddiwygiad ac adfywiad, a thowyd y wlad â thywyllwch a marwolaeth ysbrydol. Yr oedd amryw bethau yn cydgyfarfod i gynnyrchu y cyfryw effeithiau galarus. Trist iawn yw darllen am y fath ddiwedd siomedig i'r fath Ddiwygiad gogoneddus. Yr oedd Wycliffe yn rhagorach Diwygiwr na Harri VIII. na neb o'i gynghorwyr, ac yr oedd yr ysbryd a'r egwyddor a ddangosid yn Niwygiad y bedwaredd ganrif ar ddeg yn rhagori ar eiddo yr unfed ganrif ar bymtheg, ac nis gallwn lai na gofidio na buasai y cyntaf yn llwyddo.

Un gallu a weithredai yn erbyn y Diwygiad cyntaf ydoedd yr erlidigaeth ddidrugaredd a gododd Harri V. yn erbyn ei flaenoriaid. Os na all y gallu gwladol wneuthur da, fe all ei ddistrywio; os na all feithrin a choleddu crefydd, fe fedr ei llethu. Ac felly y gwnaeth yn y cyfnod dan sylw, fel mewn amgylchiadau ereill a gofnodir gan hanesyddiaeth. Bu erlidigaeth lawer tro yn achlysur i gryfhau crefydd, a gwaed y saint merthyredig yn had i'r eglwys. Ond y mae yr un mor wir fod gorthrwm a thrais gwladol, yn gystal ag erlidigaeth gymdeithasol, wedi llwyddo mewn rhai amgylchiadau i lethu y gwirionedd, o leiaf am dymmor, yn mhlith llawer cenedl. Fel prawf o hyn, mewn perthynas i Gymru, darllener gweithiau beirdd Cymreig y bymthegfed ganrif. Y maent yn lluosog mewn rhif, yn awenyddgar mewn dawn, ac yn gyfoethog mewn cynnyrchion. Ond nid oes odid ddernyn crefyddol yn mhlith eu cyfansoddiadau. Dichon mai yr enwocaf o honynt oll ydyw Lewis Glyn Cothi, ac y mae ei waith ef yn haws i'w gael nag eiddo y cyffredin o'i gyfoedion. Cawn ef, yn ei gywydd marwnad i Einion ab Ieuan ab Llywelyn ab Maredydd Gam, yn goganu y mynachod yn wawdlym; * ond nid yw yn dangos dim ysbryd crefydd, hyd yn nod yn ei farwnadau.

Gallu arall a ddylanwadai yn anfanteisiol ar grefydd oedd yr ymbleidio a'r rhyfel cartrefol a dorodd allan yn fuan rhwng teuluoedd York a Lancaster. Gan fod y naill blaid mor Babyddol, neu yn hytrach mor ddigrefydd, a'i gilydd, nid oedd crefydd yn dyfod i mewn i'r ddadl o gwbl, yr hyn a wahaniaethai ryfeloedd gwaedlyd y bymthegfed ganrif oddiwrth ryfel cartrefol yr ail ganrif ar bymtheg.

Gwasanaetha yr un sylwadau bron am Gymru ag am Loegr yn y cyfnod tywyll hwn. Machludasai haul gobeithion gwladwriaethol y genedl gyda gorchfygiad a marwolaeth ei gwron galluog, Owain Glyndwr. Ymollyngai ei phendefigion, a arbedasid gan y cleddyf, i fywyd afreolus; naill

* Writings and Examinations of Brute, &c. p. 19; Religious Tract Society, London, 1831.

† Llinell 1300 hyd 1332.

* Gwaith Lewis Glyn Cothi, t. 279, &c.

ai i yspeilio eu cymydogion, neu i ymladd yn farbaraidd â'u gilydd. Dyry Syr John Wynne o Wydir hanes du iawn am y cyfnod yma,* o'r hwn y cymerwn un esiampl:—

"Ganwyd Maredydd ab Ieuan ab Robert, o'r Geselgyfarch yn Eifionydd, tua'r flwyddyn 1450. Rhoddwyd ef i'w fagu gan ei dad i feddiannydd y Criege, yn Llanfair is Gwyrfai, rhwng Bangor a Chaerynarfon, yr hwn a'i danfonodd i Gaerynarfon i'r ysgol, lle y dysgodd ddarllen ac ysgrifenu yn Seisonaeg a Lladin. Pan tua phedair ar bymtheg oed priododd Alice, ferch William Gruffydd ab Robin, sirydd sir Gaerynarfon, yr hon oedd yn byw ar y pryd gyda'i thad gwyn, Mr. Spicer, yn y dref. Gan i'w noddwr adael y Criege i Maredydd ab Ieuan, fe ymsefydlodd y par ieuanc yno, ond pan anwyd iddynt ddau o blant, a golwg am ychwaneg, ofnodd Maredydd fod y lle yn rhy gyfyng, a meddyliodd am ddychwelyd i'w dreftadaeth yn Eifionydd. Deallodd, fodd bynag, nad oedd yn y parthau hyny ddim ond ymladd a llofruddio, ac am hyny fe brynodd y brydles ar gastell a ffrithoedd Dolwyddelan gan Syr Ralph Berkinnet, siambrlen Gwynedd, a symudodd i'r castell i fyw. Yr oedd rhan o'r castell y pryd hwnw yn drigiannol, lle y buasai un Hywel ab Ieuan ab Rhys Gethin yn byw yn nechreu teyrnasiad Edward IV. (1461), yr hwn oedd herwr (*outlaw*) a chadben y wlad.

"Bu llawer o ymladd rhwng yr Hywel ab Ieuan hwn ag un Dafydd ab Siencyn. Gan fod Dafydd yn rhy wan i wrthsefyll Hywel, fe ffodd i'r Iwerddon, lle y bu am tua blwyddyn. O'r diwedd dychwelodd yn yr haf, a chydag ef osgordd o ganlynwyr wedi eu gwisgo mewn gwyrdd. Gwasgarodd y rhei'ny yn mhlith ei gydnabod, gan lechu yn y dydd a cherdded y nos rhag ofn ei elynion. Byddai y brodorion a ddygwyddent gael golwg arno ef a'i ganlynwyr yn tybio mai tylwyth teg oeddynt, ac yn rhedeg ymaith.

"Nid oedd yr holl wlad y pryd hwnw ddim ond un goedwig ddibreswylwyr. Canys yr oedd rhyfeloedd Owain Glyndwr, y rhai a ddechreuwyd yn 1400 ac a barhausant am bymtheg mlynedd, wedi dwyn y fath ddifrod ar y wlad fel y tyfasai glaswellt yn marchnadfa Llanrwst, sef y lle a elwir Bryn y Boten, ac y ffoai y ceirw i'r fynwent, fel y dywedir. Yna, yn mhen tua phymtheg mlynedd drachefn, dechreuodd Rhyfeloedd York a Lancaster. I'r blaid olaf hon y perthynai Dafydd ab Siencyn, yr hwn am bymtheg mlynedd a heriodd holl allu Edward IV. i'w ddal na'i ladd; canys ymguddiai mewn lle o'r enw Careg y Gwalch, gan ddifrodi yr holl diroedd o amgylch. Ychwanegodd rhuthr yr Iarll Herbert hefyd at y difrod blaenorol.

"Nid yn unig yr oedd Nant Conwy oll yn un goedwig, ond hefyd yr oedd holl wledydd Arfon, Meirion, a Dinbych yn yr unrhyw gyflwr; er mai yn Nant Conwy yr oedd lleiaf o drigolion. O dref Conwy i'r Bala, ac o Nant Conwy i Ddinbych, yr oedd yr holl wlad wedi ei difrodi gan y rhyfeloedd; ac wedi darfod y felldith hòno, yr oedd nythaid o gacwn yn magu yn Yspytty Ifan, sef arglwyddiaeth a berthynai i urdd Marchogion St. Ioan o Jerusalem, lle yr oedd sefydliad mawr, gyda braint nawdd-gysegr. Gan nad oedd y sefydliad hwn yn ddarostyngedig i gyfreithiau y brenin, daeth yn gynnullfan lladron a llofruddion; y rhai a noddid yno rhag y gyfraith, nes eu bod yn dra lluosog. Nid oedd unlle o fewn ugain milltir yn ddiogel rhag eu hymgyrchiadau a'u hyspeiliadau, a pha beth bynag a ddygent i fewn i'w terfynau eu hunain oedd yn eiddo iddynt hwy. Yr oedd ganddynt hefyd bleidwyr yn holl sir Feirionydd, ac yn nhir Powys, nes yr oedd yr holl wlad hòno wedi ei difleithio a'i diboblogi. Dyna gyflwr Nant Conwy pan yr ymsefydlodd Maredydd yno, sef tua'r bedwaredd flwydd ar hugain o'i oedran, ac yn nechreu teyrnasiad Harri VII. (1485). Gofynwyd iddo gan ei gyfeillion paham y dymunai symud o'i hen gartref a byw yn Nant Conwy, a oedd yn heigio gan ladron a chaethion, o'r rhai yr oedd eto lawer yn arglwyddiaeth a thref y brenin o fewn y cantref hwnw? I'r hyn yr atebodd: 'y caffai efe ddigon o le yn y parthau eang hyny yn mhlith y caethion; ac fod yn well ganddo ef ymladd â herwyr a lladron, nag â'i gyfathrach a'i dylwyth ei hun; canys, meddai, os trigaf yn fy nhŷ yn Eifionydd, rhaid imi un ai lladd fy mherthynasau neu gymeryd fy lladd ganddynt.' A gwir iawn y llefarodd, canys John Owen ab John ab Maredydd a laddodd Hywel ab Madog Fychan o'r Berkin heb unrhyw gweryl, ond yn unig er mwyn cael y llaw uchaf yn y wlad.

* The History of the Gwedir Family; by Sir John Wynne, the First Baronet of that Name, who was Born in 1553; London, 1770. Bu yr awdwr farw yn 1626, a golygwyd ei waith gan yr Anrh. Daines Barrington, ac y mae yn un o'r awdurdodau uchaf ar sefyllfa gymdeithasol Cymru yn y bymthegfed ganrif.

Digitized by Google

"Gan fod nain Hywel ab Madog Fychan yn chwaer i Ieuan ab Robert ab Maredydd, yr oedd efe yn nai fab cefnder i'm hendaid, Maredydd ab Ieuan; ac yr oedd y John Owen a'i lladdodd yn gefnder i'm hennain, gan ei bod hi yn ferch i Morus ab Ieuan ab Maredydd. Felly, mewn canlyniad i'r alanas uchod, nis gallai fy hendaid oddef neb o hiliogaeth Owen ab Ieuan ab Maredydd, ac nis gallai hithau oddef neb o'i hiliogaeth yntau o'r Berkin. Gwelir, o ganlyniad, yr ymbleidiau lluosog a oedd yn y dyddiau hyny rhwng cyfeillion mor agos.

"Gan i Hywel ab Madog Fychan ymladd yn y modd dewraf yn nghanol ei bobl derbyniodd glwyf marwol yn ei ben. Tra yr oedd ar lawr tarawodd ei fam, yr hon oedd bresennol, ei llaw ar ei ben er lleddfu yr ergyd, a thorwyd ymaith hanner ei llaw a thri o'i bysedd.

"Dywedwyd wrthyf," ebai ein hawdwr, "gan Dafydd Llwyd Gruffydd Fychan, fy ewythr, fod ei dad, yr hwn a drigai yn Cwm Strallyn, yn Eifionydd, ar ol clywed am y ffrwgwd, ond nid am farwolaeth ei gefnder, wedi ei ddanfon ef pan yn blentyn i edrych am ei gefnder. Pan y daeth yntau i'r Berkin, cafodd ef yn gorwedd ar ei wely a'i wŷr clwyfedig yn rhifedi mawr yn gorwedd ar drestlau (*cocherie*) tu uchaf i'r gradd (sef y codiad yn y llawr), gerllaw y bwrdd mawr ar draws y neuadd, oll yn archolledig ac yn ymdrybaeddu yn eu gwaed eu hunain. Gwelodd hefyd wartheg blithion y boneddwr yn cael eu dwyn at ddrws y neuadd a'u llaeth yn cael ei gario yn dwym oddiwrth y buchod i'r gwŷr clwyfedig, gael iddynt ei yfed felly er mwyn adfer iddynt y gwaed a gollasant.

"Ar ol i Maredydd fod yn byw am rai blynyddoedd yn nghastell Dolwyddelan fe adeiladodd y tŷ yn Mhenamnen, yr hwn le oedd y tir goreu yn y plwyf; ac hefyd, yn mhen ychydig flynyddoedd wedyn, symudodd yr eglwys o'r lle a elwir Bryn y Bedd i'r lle y saif yn awr, sef rhan o feddiannau priordy Bedd Gelert. Mae yn debyg fod hyn rywbryd cyn y flwyddyn 1512. Saif yr eglwys (yr hon sydd o adeiladwaith cadarn), y castell, a thŷ Penamnen fel trybedd, a thua milltir cydrhwng pob un o honynt. Pan ofynais i fy ewythr, Robert Wynne," ebai yr hanesydd, "paham y chwalodd ei daid yr hen eglwys, yr hon a safai mewn llwyn, ac yr adeiladodd hi ar wastadedd yn helaethach a chryfach nag o'r blaen, atebodd fod ganddo resymau am hyny: am fod y wlad yn wyllt, ac y gallai gael ei oddiweddyd yn ddisymwth gan ei elynion mewn gwlad mor goediog; yr oedd, o ganlyniad, yn gallineb ynddo i ddarparu amryw leoedd i encilio iddynt. Y mae yn sicr nas gallai fyned i'r eglwys ar y Sul o'i dŷ yn Mhenamnen heb adael gwarchodlu yno, gyda'r drysau yn folltedig a chlöedig, a gwyliwr ar Gareg y Big yn ystod y gwasanaeth Dwyfol. Yr oedd Careg y Big yn lle amlwg, o'r hwn y gellid gweled y tŷ a'r eglwys a rhoddi rhybudd os ymosodid ar y tŷ. Ni feiddiai, er ei fod yn cael ei amddiffyn gan ugain o fwäwyr corffol, wneyd yn hysbys pa bryd yr elai i'r eglwys nac i un man arall; ac ni feiddiai ychwaith fyned a dyfod yr un ffordd, rhag iddo syrthio i ganol cynllwynwyr yn y coed a'r ffyrdd culion. Yn nechreu ei amser yr oedd hyn.

"Er cadarnhau ei hunan yn y wlad fe gyrchodd o'r cymydogaethau cylchynol y gwŷr talaf a chadarnaf y clywai am danynt. Gosododd fandrefedigaethau o honynt yma ac acw, gan lenwi pob anneddle wag â hwynt, o'r rhai yr oedd y rhan fwyaf ar dir y brenin. Yn mhen ychydig flynyddoedd cafodd ei hunan yn gadben ar saith ugain o fwäwyr nerthol. Yr oedd gan bob un o honynt siaced neu bais arfog, cap da o ddur, cleddyf byr a dagr, heblaw ei fwa a'i saethau. Yr oedd gan y rhan fwyaf o honynt hefyd geffylau a chaethion ymlid, y rhai a atebent i bob gwaedd ar bob amgylchiad.

"Drwy hyn fe ymgryfhaodd gymaint cyn hir fel y dechreuodd wrthsefyll a ffrwyno y lladron a'r yspeilwyr o nawdd-gysegr Ysbytty Ifan, y rhai a fyddent ar brydiau yn gynnifer a chant o farchogion arfog."

Dyna gyflwr un parth o Gymru yn y bymthegfed ganrif a dechreu yr unfed ar bymtheg. Go debyg oedd sefyllfa parthau ereill o'n gwlad, yn gymdeithasol a moesol. Nid rhaid ond darllen gwaith Lewis Glyn Cothi, a beirdd ereill cyfoesol y Deheubarth, i weled hyny; ond nid oes genym ni amser a gofod i ddyfynu o'r gweithiau hyny yn awr, er fod cymaint o'r cyfryw allan o gyrhaedd y cyffredin ac felly yn gofyn eu cyhoeddi mewn rhyw ffurf neu gilydd. Ond gosodwn ger bron ddyfyniad neu ddau er dangos sefyllfa grefyddol y wlad yn y cyfnod rhwng y ddau Ddiwygiad.

Un o feirdd crefyddolaf yr oes oedd Iorwerth Fynglwyd, yr hwn a flodeuai tua 1460, yn ol y Dr. Davies, ac yr oedd yn frodor o Forganwg. Y

Digitized by Google

Anhawdd deall pa bechodau a olygir, os nad pechodau y byd a osodwyd ar y Gwaredwr i'w dwyn yn lle dynoliaeth. Os felly, bwrir fod Crist wedi ymryddhau oddiwrthynt oll ar y groes a'u bwrw i uffern i feddiant y cythreuliaid. Y mae y syniad canlynol yn brydferthach fel dychymyg, ond yr un mor ddisail ac ofergoelus:—

"*Y Marchog* (1):—

"'Arch i Lonsiws, o'i ddewrder,
Y marchog mawr i bryder,
Ddodi i phonn wrth ais Jessu;
Arch i frathu o'i gryfder.'

"*Y Marchog* (2):—

"'Dyred, Lonsiws, rwydd wahadd
A'th waiw llym gwr o radd;
A brath lle i'r archwyd yt'
Megis pettyt yn ymladd.'

"*Lonsiws Ddall*:—

"'I mae ofn ar fy nghalon
Fod hwn yma yn wr gwirion,
Herwydd wrth y gwaed o'i ais
Mi a gefais fy ngolygon:
Arglwydd ym kadw f'enaid,
Yr awr honn yr wyf i'th welaid.
Mi a wn dy fod yn gyfiawn,
Herwydd pan gawn fy llygaid.'" †

Y cyfryw ymborth gwagsaw a ddarparai athrawon crefyddol y bymthegfed ganrif i'w disgyblion. Nid oes genym ddim arall crefyddol o bwys wedi d'od i lawr i'n dyddiau ni heblaw "Bucheddau y Saint," y rhai sydd yn llawer mwy ofergoelus a daearol nag hyd yn nod y chwareuganau. Nid oes cymaint ag un bregeth, na thraethawd duwinyddol Cymraeg, yn yr iaith er cyn y Diwygiad Protestanaidd. Ychydig o bwys a ddyry Pabyddiaeth ar bregethu a dysgu. Y mae gwasanaeth yr offeren wedi llyncu y cwbl iddo ei hun. Ond y mae Protestaniaeth yn wrthgyferbyniol yn hyn. Ni ddyry gymaint o bwys ar ffurfiau a seremonïau, a defosiwn cyhoeddus, ond ymddirieda i'r gwirionedd gynnyrchu y teimladau a'r tueddiadau hyny yn y meddwl. Diau fod gan y gyfundrefn fynachaidd ddylanwad mawr ar syniadau yr Eglwys Babaidd yn y mater hwn, ac y mae difodiad y gyfundrefn hòno yn ergyd marwol i Babyddiaeth yn ei phrif neillduolion os nad ei hanfodion. Ar y mynachod yr ymosodai Wycliffe † ffyrnicaf, fel y gwelsom, ac ar y mynachdai y disgynodd bwyell Harri VIII. gyntaf. Gwnaethant gryn lawer dros lenyddiaeth fydol a chrefyddol mewn rhai oesoedd; ond, a'u cymeryd yn y cyffredin, nythleoedd anwybodaeth, diogi, a phob llygredigaeth oeddynt. Nid oedd mynachdai Cymru yn eithriad i'r rheol; ond gwaith mawr oedd eu chwalu, er hyny. Ymddiriedwyd llawer o'r gwaith hwn gan y brenin i ddau wr lleyg—Syr John Price o Aberhonddu yn y Deheubarth, a'r Dr. Price o Blas Iolyn yn y Gogledd, a dau wr nodedig oeddynt.

Mab ydoedd Syr John Price i Rhys ab Gwilym Gwyn, o sir Frycheiniog. Yr oedd o ran ei sefyllfa yn uwch o waed a bonedd nag o feddiannau, fel lluaws o'n cydwladwyr cynt a chwedyn. Gwr mawr yn Nghymru yr adeg hòno, fel noddwr llenyddiaeth, oedd William Herbert (Ieuaf), iarll Penfro. Iddo ef y cyflwynodd y Dr. Gruffydd Roberts ei ramadeg, ac yr oedd yr iarll yn noddwr hefyd i Price ieuanc. Addysgwyd Price yn Broadgate Hall, neu Goleg Pembroke, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn Ddoethawr yn y Gyfraith yn 1534. Wedi iddo orphen ei efrydiau, a chael ei alw at y *bar* fel darllenydd, tynodd sylw y Brenin Harri VIII., yr hwn a'i pennododd yn un o gynghorwyr Llys y Cyffiniau. Defnyddiodd ei sefyllfa ddylanwadol er llesäu ei wlad, a chymerodd ran flaenllaw yn nghwbl uniad Cymru a Lloegr. Tybir mai efe a barotôdd y ddeiseb at Harri VIII. ar y pwnc hwnw. Ar ddadgorfforiad y crefydd-dai pennodwyd ef, gyda Syr Edward Carne o Eweni, a John Arnold o Lantoni, yn ddirprwyaeth i gymeryd meddiant o honynt hwy ac o'u heiddo yn enw ac at wasanaeth y goron. Yn ei sir frodorol, Brycheiniog, y gweithredai efe gan mwyaf; ond oddiwrth lythyrau o'i eiddo, y rhai sydd eto ar gael, gwelwn ei fod yn ymweled â pharthau ereill o'r Deheubarth gyda'r un gorchwyl, yn gystal a rhanau o Loegr.

Er nad yw yn wybyddus pa bryd y dechreuwyd son am ddadgorfforiad y mynachlogydd, y mae yn sicr mai y Cardinal Wolsey a osododd y fwyell gyntaf wrth wraidd y pren. Cafodd efe ganiatâd i ddifodi rhyw nifer o'r crefydd-dai lleiaf, er mwyn sefydlu coleg newydd yn Rhydychain (Christchurch) ac un arall yn Ipswich. Geilw Wolsey ei hunan hwy (yn ei lythyr at y brenin, a argraffwyd yn mhlith yr "Original Letters," gan Henry Ellis; yr ail gyfres, cyf. ii. t. 18) yn "fynachlogydd eiddil a bychain, lle nas gwasanaethir Duw, ac nas cedwir crefydd." Bu difodiad y cyfryw yn achos i gynhyrfu y mynachod yn enbyd, oblegid gwelent ar ol dechreu y fath waith nas gwyddai neb yn mha le y gorphenai; ac yr oeddynt yn hyny yn iawn, canys buan y cafodd y brenin a'i gynghorwyr flas ar yr

* Dywedir yn un o'r llawysgrifau, sef copi Llelo Gwta o Blas y Lelo, yn Nerwen, a ysgrifenwyd yn 1552, fel hyn:—"Llyma y dioddefaint ynghymraec a'r englynion gair kyrch ynessa i gallwyd wrth ddysc a synwyr a dyallt ai droi o'r llading ynghymraec. Ac llyma i ddechrau yn enw Duw." Os yn Lladin y cyfansoddwyd y chwareu yn wreiddiol, rhaid mai yn Mhrydain, oblegid sonir ynddo am yr "ynys hon."

† Sillebir enw y Diwygiwr mewn lluaws o wahanol ffyrdd. Dilynasom ni sillebiaeth y Dr. Vaughan, yn ei argraffiad o draethodau Wycliffe; ond barnwn yn awr, ar ol ymchwiliad i'r cwestiwn, mai *Wyclif* yw y llythyreniad priodol.

Digitized by Google

ysglyfacth, a nodwyd dirprwywyr i ymweled â'r holl grefydd-dai drwy y deyrnas, ac i wneyd adroddiad o'u cyflwr a'u gwerth. Gall y darllenydd gael rhestr lled gyflawn a chywir o grefydd-dai Cymru, yn nghyda hanes rhai o honynt, yn y "Cambrian Register" am 1796, sef yr 2fed gyfrol, tudalen 278, &c.; a dyry y llythyrau canlynol ryw syniad iddo am grefydd yn Nghymru cyn y Diwygiad mawr.

Brodor o Essex oedd William Barlow. Yr oedd yn bleidiol i ddiwygiad eglwysig yn moreu ei oes, a gwnaethpwyd ef yn esgob Llanelwy gan Harri VIII. yn 1535, ac yn mhen ychydig wythnosau symudwyd ef i Dŷ Ddewi. Dyry y llythyr canlynol oddiwrtho at y prif weinidog olwg darawiadol ar dywyllwch y wlad:—

"WILLIAM BARLOW AT CROMWELL.

"Rhynged bodd eich meistroniaeth * i gymeryd sylw tosturiol o gwyn a deiseb ddiffuant eich erfyniwr gostyngedig, yr hwn a lwyr flinir yn ddiachos, ac heb unrhyw achlysur nac esgus o du eich erfyniwr dywededig. Gan i'r frenines, o'i haelioni grasusol, fy marnu nid yn annheilwng o brioriaeth Hwlffordd, a sefydlwyd gan ei Mawrhydi, er y pryd y preswyliwn yn wastadol yno, gan ystyried newyn trwm y bobl am glywed Gair Duw a phrinder diffeithiol pregethwyr gwirioneddol, ymdrechais fy hunan, nid heb lawer o berygl corfforol, yn erbyn Anghrist a'i holl gynghrierwyr cyfammodol i bregethu yn ddidwyll efengyl Crist, gwirionedd yr hon fel y mae yn anorchfygol, felly sydd hefyd yn cael ymosod arni gan dwyllwyr anffyddlawn a gau; am ba reswm y mae y rhai a ddylasent o ddyledswydd fy attegu i fyntumio y gwirionedd yn coleddu meddwl drygionus, i'm goganu yn ddiachos, yn y fath fodd fel y gorfodwyd fi oherwydd eu gormes i appelio at gynghor anrhydeddol y brenin, fel yr ymddengys yn eglur oddiwrth erthyglau celwyddog a luniwyd yn fradwrus gan Frawd Du Hwlffordd. . . .

"Yn mhellach, er sicrhau eich meistroniaeth yn ddiffuant yn mha gyflwr truenus a gresynus y trinir deiliaid ffyddlawn y brenin, sef trigolion tlodion esgobaeth Tŷ Ddewi, gan y clerigwyr, gofynir trafodaeth helaethach nag a ellir yn gyflëus ei osod ger eich bron yn y ffurf hon; oblegid er fod genym, yn debyg i esgobaethau ereill mewn ymddangosiad allanol, ac mewn awdurdod a seremonïau ffurfiol, esgob, rhagesgob, archddeoniaid, deoniaid, dirprwywyr, a swyddogion esgobawl ereill, gyda theitlau ac enwau ysbrydol, ac hefyd luoedd o fynachod, canonau, brodyr ffydd, ac offeiriaid bydol, eto yn eu plith hwynt oll, er eu bod mor lluosog mewn rhifedi ac mewn esgobaeth mor eang, nid oes yno un ag sydd yn pregethu Gair Duw yn ddifrifol, na braidd neb ag sydd o'i galon yn bleidiol iddo, ond y maent oll yn elynion hollol yn ei erbyn, gwrthwynebiad cyndyn y rhai nis gall barhau heb wrthryfel penderfynol yn erbyn gweithredoedd grasusol y brenin, a sefydlwyd ar wirionedd Gair Duw. Ac o berthynas i'r llygredigaethau dychrynllyd, y gorthrymdrethi twyllodrus, y bywyd annhrefnus, a'r ddelwaddoliaeth baganaidd, a gefnogir yn y modd mwyaf gwarthus dan lywodraeth yr eglwyswyr, ac a ddilynant yn naturiol eu hanwybodaeth beiadwy, nid wyf yn tybio fod unrhyw esgobaeth yn fwy llygredig, nac un wedi syrthio i'r fath annhrefn, heb obaith diwygiad oni bydd i'ch meistroniaeth weled ffordd i'w gwella, yn yr hwn, o dan ras y brenin, y mae ymddiriedaeth pawb a fwriadant dda yn orphwysedig. . . .

"Eich deisyfwr gostyngedig,

"WILLIAM BARLO, *Prior Hwlffordd.*

"Yn y flwyddyn 1535, Hydref."*

Yn Mawrth, 1538, ysgrifena yr un gwr at y prif weinidog o barthed i'r creiriau coelgrefyddol yn Hwlffordd ac Aberteifi, a chynghora fod i eglwysgordd (*see*) Tŷ Ddewi gael ei symud i Gaerfyrddin. Fel hyn y dywed:—"O barthed i lythyrau eich arglwyddiaeth mewn cyfeiriad at Ganwyll Hwlffordd, cyn eu derbyniad yr oeddwn i wedi cwblhau diwygiad, ac wedi dynoethi y twyll mewn cysylltiad â hi, ac y mae pob plaid ag oedd o'r blaen yn wrthwynebol wedi eu cymmodi mewn edifeirwch. Ond gan imi ddarganfod canwyll arall llawer mwy enwog, a llawer mwy ffiaidd ei dylanwad, yr hon a elwir Canwyll ein Harglwyddes [Mair] o Aberteifi,† yr hon a anfonais i'ch arglwyddiaeth gydag esboniad byr o'r hudoliaeth ddieflig hon. Yn mhellach, rhybuddiais ganonau Tŷ Ddewi, yn ol gorchymyn y brenin, na byddo iddynt mewn unrhyw fodd arddangos ffug-greiriau er hudo y bobl at ofergoeliaeth, nac i gefnogi cadwraeth ofer y gwyliau diangen a ddiddymwyd drwy awdurdod oruchel y brenin. Pan y byddai y bobl yn cadw Dydd Gwyl Dewi, o'u tueddfryd eu hunain dygid allan ryw greiriau, y rhai y perais i eu codi a'u cludo ymaith, gan eu cadw yn fy meddiant nes imi glywed ewyllys eich arglwyddiaeth o berthynas iddynt. Dyma barseli y creiriau:—Dau ddarn o ddaleni arian, yn gorchuddio dau benglog braenedig yn llawn o fratiau pwdr: *Item*, dau asgwrn braich, a llyfr pryfedig wedi ei orchuddio â llafnau arian." Buasem yn mawr hoffi gwybod beth oedd yr hen lyfr, a pha beth a ddaeth o hono. Diau fod y Diwygiad wedi achlysuro colled a dinystr llawer hen drysor llenyddol a hynafiaethol, fel y gwnaeth teyrnasiad Cromwell yn y ganrif ganlynol; ond rhaid i'r cyfryw bethau roddi ffordd o flaen crefydd a gwirionedd, er nas gallwn lai na gofidio am y golled.

Yn mhellach y mae Barlow yn myned yn mlaen i roddi ei resymau dros symud yr eglwysgordd i Gaerfyrddin, lle yr oedd priordy hynafol perthynol i'r Brodyr Llwydion, yn yr hwn y

* Mastership.

* Three Chapters of Letters relating to the Suppression of Monasteries, p. 77; Camden Society, London, 1843.

† Yr oedd yn Aberteifi briordy bychan o fynachod Benedictaidd, yn dibynu ar fynachlog Chertsey yn Surrey, a sefydlwyd yn 1291; y prior olaf oedd Thomas Hore.

Digitized by Google

claddwyd Edmund Tudur, tad Harri VII., ond ymddengys i'w esgyrn gael eu symud i Dŷ Ddewi ar ddadgorfforiad y priordy. Er fod llawer o'r rhesymau yn dda, ymddengys mai rhagfarn a gariodd y dydd.

Gyda'r llythyr uchod anfonwyd adroddiad o'r ymchwil i hanes y ganwyll uchod, ac o arholiad Thomas Hore, y prior, yn ei chylch. Dywed Hore ei fod yn credu mai coed oedd defnydd y ganwyll. Fod y ddelw (o Fair) oedd y pryd hwnw yn eglwys Aberteifi, ac yn tynu yno bererindodau lluosog, wedi ei chael yn nofio ar afon Teifi, gyda'i mab bychan yn ei harffed a'r ganwyll yn cynneu yn ei llaw. Ddarfod cludo y ddelw i Eglwys Crist, yn Aberteifi, ond nad arosai yno; eithr symudodd oddiyno deirgwaith neu bedair i'r lle yr adeiladwyd wedi hyny Eglwys Fair, gyda'r ganwyll yn llosgi yn ei llaw, yr hon a barhaodd i losgi am naw mlynedd heb ddifa, nes i rywun dyngu anudon arni, ac yna diffoddodd ac nis cynneuodd mwyach. Fod y ddelw, ar ol diffoddi y ganwyll, wedi ei chau mewn cell a chael ei hystyried fel crair ardderchog, ac felly a addolid ac a gusenid gan bererinion, ac a ddefnyddid gan ddynion i dyngu iddi mewn achosion o bwys ac anhawsder, oddiwrth yr hyn y deilliai swm mawr o arian i'r trysor.*

Mewn llythyr arall, dyddiedig Ebrill 5, o'r un flwyddyn (1538), y mae yr Esgob Barlow yn ysgrifenu drachefn at Cromwell i gwyno oblegid anufudd-dod rhai o'i ganonau. Yr achos y priodola eu hanniddigrwydd iddo yw ei waith yn ceryddu rhai o honynt am anllywodraeth ac anfoesoldeb. Dywed am un, (Lewis?) Gruffydd ab Owen wrth ei enw, ei fod yn cadw benyw, ac iddo gael amryw blant o honi, ac iddo wedi hyny beri iddi briodi un o'i weision ef ei hun, a'i fod wedyn yn caniatäu iddi fynychu ei dŷ ef yn ddyddiol gyda chanon arall am ddwy flynedd, o'r hwn yr oedd ganddi un plentyn ac yn barod i roddi genedigaeth i un arall.

Nid oes genym ond gadael i'r cyfryw ffeithiau siarad drostynt eu hunain am gyflwr ein gwlad yn y cyfnod Pabyddol, ac fe wnant hyny yn llawer mwy effeithiol nag y gallwn ni, na neb, lefaru drostynt. Ac os dyna oedd sefyllfa y Deheubarth, nid oedd ddim gwell yn Ngwynedd. Yr oedd yn eglwys Llandderfel, yn sir Feirionydd, ddelw fawr o Derfel Gadarn, sant noddawl y plwyf, yr hon a ystyrid yn dra chysegredig gan yr holl wlad. Cyrchai lluaws mawr o bobl ati i offrymu iddi, gan gredu fod ganddi allu i waredu eneidiau y meirw o'r purdan, os nad o uffern. Mewn perthynas iddi yr ysgrifenodd y Dr. Ellis Price, o Blas Iolyn, y llythyrau canlynol:—

"ELLIS PRICE AT YR ARGLWYDD CROMWELL, I WYBOD PA BETH A WNA A DELW DERFEL GADARN. A.D. 1538.

"Y gwir anrhydeddus, a'm harglwydd a'm meistr arbenig, heb seremoni na defod bydded boddlawn gan eich arglwyddiaeth im' eich hysbysu, yn gymaint a'm gosod a'm gwneyd drwy eich ewyllys a'ch gorchymyn anrhydeddus chwi yn ddirprwywr cyffredinol dros esgobaeth Llanelwy, fy mod wedi arfer pob dyfalwch ac ymroddiad i daflu allan a chymeryd ymaith y cyfryw gamarferion, ofergoelion, a rhagrith ag a arferid o fewn y ddywededig esgobaeth, sef Llanelwy, yn ol gorchymynion a deddfau anrhydeddus y brenin a wnaethpwyd i'r perwyl hwnw.

"Er hyny, y mae yma ddelw o Ddervel Gadarn o fewn y ddywededig esgobaeth, yn yr hwn y dyry y bobl y fath ymddiried, gobaith, a ffydd, fel y deuant yn feunyddiol ar bererindod ato, rhai gyda gwartheg, ac ereill âg ychain neu geffylau, a'r gweddill âg arian: fel ag yr oedd yno gymaint a phump neu chwe' chant o bererinion, yn ol y cyfrif cyffredin, yn offrymu i'r ddelw ddywededig y pummed dydd o'r mis hwn, Ebrill. Y mae y bobl ddiniwed wedi eu twyllo yn greulawn a'u hudo i addoli y ddelw hòno, fel y mae yn ddywediad cyffredin eto yn eu plith, pwy bynag a offrymo felly i'r ddywededig ddelw o Darvell-gadarn, fod ganddo allu i'w nol ef neu hwy, sef y neb a offrymo, allan o uffern ar ol eu damnio. Gan hyny, er mwyn diwygiad a gwellâd y lle, dymunwn yn fawr gael gwybod gyda'r dygedydd eich dymuniad a'ch ewyllys anrhydeddus; fel y gŵyr Duw, yr hwn yn hir a gadwo eich arglwyddiaeth mewn iechyd ac anrhydedd. Ysgrifenwyd yn Ngwynedd y VI. dydd o'r Ebrill presennol.

"Eich eiriolwr,

"A'ch gweddïwr beunyddiol o ddyledswydd,

"ELIS PRICE."*

---

"ELLIS PRICE AT YR ARGLWYDD CROMWELL, AR EI WAITH YN TYNU I LAWR DDELW DERFEL GADARN.

"Y gwir anrhydeddus, a'm harglwydd a'm meistr arbenig, yn ol dymuniad eich arglwyddiaeth cyrchais i'r lle y safai delw Darvell gadarn a thynais yr unrhyw i lawr, yn ol gorchymyn anrhydeddusaf y brenin a'ch eiddo chwithau, a dygir hi hyd at eich arglwyddiaeth gyda phob dyfalwch a chyflymder. Fe gynnygiodd person a phlwyfolion yr eglwys yn yr hon y safai y ddelw ddywededig o Dervell, imi ddeugain punt os parwn i'r gyfryw ddelw beidio cael ei danfon i Lundain; a chan nad

* Y mae gan y colwynydd (*editor*), Thomas Wright, nodyn yn y fan hon i'r perwyl fod y Cymry mor gelwyddog fel nas coelient eu gilydd heb lw. Drwg genym weled sylw mor annheg mewn gwaith hanesyddol. Yr un fath fyddai i ddyn haeru yn awr mai pobl gelwyddog yw y Seison am na dderbyniant dystiolaeth mewn llys gwladol ond ar lw. (*Vide* Three Chapters of Letters, &c. p. 183, &c.)

* Gwel "Three Chapters of Letters relating to the Suppression of Monasteries" (p. 190) a'r "Archæologia Cambrensis" am 1874 (p. 152). Y mae y creadur ar yr hwn y safai y ddelw eto yn Llandderfel. Ei hyd yw 4 troedfedd, a'i uchder o'r llawr i'w gopa yw 2 droedfedd ac 8 modfedd. Y mae ei goesau wedi eu plygu odditanodd. Bu yn y Pale am rai oesau ar ol dychwelyd o Smithfield, a defnyddiwyd ef yn gafn mochyn am dymmor mewn ffermdy gerllaw. Morteisiedig yw y pen i'r cyff, ac wedi ei sicrhau â hoelion coed.

Digitized by Google

oeddwn mewn un modd yn dueddol i wrando ar eu cynnygion a'u deisebau, y mae y person ei hunan, gydag ereill, yn dyfod at eich arglwyddiaeth, nid yn unig i ddwyn cynghaws ac ymdrechu yn yr achos, ond hefyd i wneuthur awgrymiadau gau ac achwynion arnaf fi. Felly bwriadaf, os Duw a'i myn, ddyfod ac ymweled â'ch arglwyddiaeth o fewn cylch pymthegnos, fel y gallwyf ateb y cyfryw gwynion a roddant yn fy erbyn. Ac felly yr Ih'u a gadwo eich arglwyddiaeth mewn iechyd ac anrhydedd. Ysgrifenwyd yn Ngwynedd y xxviiifed dydd o Ebrill.

"Eich gweddïwr beunyddiol o ddyledswydd,

"ELIS PRICE.

"I'r gwir anrhydeddus, a'i arglwydd a'i feistr arbenig, yr Arglwydd Cromwell, a changhellwr y gallu a'r ddeddfwriaeth eglwysig yn Lloegr, cyflwyner y rhai hyn."*

Erbyn cymeryd y ddelw i Lundain, yr oedd yno frawd ffydd o'r enw Forest i gael ei losgi yn Smithfield, yr hwn a ddedfrydwyd i gael ei losgi am wadu uchafiaeth y brenin. Yr oedd y chwareu barbaraidd i gymeryd lle ar y 30fed o Fai, 1538, a darlunir yr amgylchiad gan yr hen groniclwr Hall yn y geiriau canlynol:—"Ar ei ddyfodiad i le y dienyddiad, yr oedd esgynlawr mawr wedi ei ddarparu, ar yr hwn yr eisteddai pendefigion y deyrnas a chynghor anrhydeddusolaf ei Fawrhydi y brenin, er mwyn caniatäu maddeuant i'r creadur truenus os dangosai wreichionen o edifeirwch. Yr oedd yno hefyd wedi ei ddarparu bwlpud, lle y dadganai gwir barchedig dad yn Nuw ac ysgolhaig enwog, sef esgob Caerwrangon, a elwid Hugh Latimer, ei gyfeiliornadau, ac yn oleu ac eglur, wrth Ysgrythyr Duw, a'u gwrthbrofodd, a chyda llawer o annogaethau duwiol a'i cynghorodd ef i edifarhau; ond y cyfryw oedd ei gyndynrwydd, fel nas gwnai na gwrandaw na llefaru.

"Ac ychydig cyn y dienyddiad dygwyd delw anferth o flaen y dienyddle; yr hon ddelw a ddygasid o Gymru, a'r hon a berchid ac a addolid yn fawr gan y Cymry. Gelwid y ddelw hon yn Darvell Gatheren, ac yr oedd gan y Cymry brophwydoliaeth y byddai i'r ddelw hon roddi 'fforest' gyfan ar dân; yr hen brophwydoliaeth yn awr a roddwyd mewn grym, canys gosododd ar dân y Brawd Forest, ac a'i difaodd yn ddim. Y brawd ffydd hwn, pan y gwelodd y tân yn dyfod âc fod marwolaeth ddioed gerllaw, a afaelodd yn yr ysgol, ac nis gollyngai ei afael o honi; ond mor ddiamynedd y cyfarfyddodd ei farwolaeth, fel na ddiweddodd neb erioed a roddodd ei ymddiried yn Nuw ei fywyd mor aflonydd ac annuwiol. Os iawn i bobl ei farnu oddiwrth y dyn oddiallan, ymddangosai nad oedd ganddo ond ychydig wybodaeth am Dduw ac am ei wirionedd dilys, a llai fyth o ymddiried ynddo yn ei ddiwedd.

"Ar y ddienyddglwyd ar yr hon y bu farw y gosodasid i fyny, mewn llythyrenau breision, y pennillion hyn sydd yn canlyn:—

"'David Darvell Gatheren,
As saith the Welshmen,
  Fetched outlawes out of Hell.
Now he is come with spere and
  shilde
In harnes to burn in Smithfelde,
  For in Wales he may not dwell.

"'And Forest the Frier
That obstinate lyer
  That wilfully shalbe dead;
In his contumacie
The Gospell doth deny
  The Kyng to be supreme
  head.'"

Mab ydoedd y Dr. Ellis Price i Robert ab Rhys ab Maredydd, o Yspytty Ifan. Y Rhys Fawr ab Maredydd hwn ydoedd banerwr Harri VII. ar faes Bosworth ar ol lladd Syr William Brandon, ac efe ydoedd bencenedl teuluoedd y Prysiaid o Blas Iolyn, y Giler, a'r Rhiwlas, y rhai a feddiannasant diroedd eang y mynachlogydd yn y parthau hyny; sef, Tir Ifan, Tir Abad, a Chwm Tir Mynach. Addysgwyd Ellis Price yn Nghaergrawnt, lle y cafodd y radd o LL.D. Yr oedd efe yn un o aelodau Caergrawnt a fu mewn dadl â Throgmorton ac ereill o Brifysgol Rhydychain, yn 1532; ac yn ol Caius, yn ei "Antiquities of Cambridge," daeth y Dr. Price allan o'r ymdrafodaeth hon yn fuddugwr. Heblaw y swyddi a lanwai o dan Harri VIII., cyrhaeddodd sefyllfa ddylanwadol wedyn yn Ngogledd Cymru, canys yn y tri teyrnasiad nesaf, sef Edward VI., Mari Waedlyd, ac Elisabeth, bu yn sirydd, ac yn farchog y sir am bedair o siroedd gwahanol yn Ngwynedd. Bu yn aelod Seneddol dros Feirionydd ddwywaith, sef yn 1558 a 1563, a saith gwaith yn sirydd, y tro olaf yn 1584–1585. Ymddengys ei fod yn aelod a sirydd dros y sir hòno yn y bummed flwyddyn o deyrnasiad Elisabeth; yr hyn a brawf, mae'n debyg, iddo unwaith anfon ei hunan i gynddrychioli y sir.

Adwaenid ef yn mhlith y werin wrth yr enw y Doctor Coch, oherwydd y fantell a wisgai o'r lliw hwnw yn rhinwedd ei radd a'i swydd. Ystyrid ef gan y cyffredin fel offeryn gormes yn llaw Dudley, iarll Leicester; a thybid ei fod wedi ymwerthu i bob drwg, ac yn gnaf penaf yn yr holl wlad, ac y mae yr enwog Pennant yn dyweyd am dano wrth ddarlunio Bodysgallen, gerllaw Conwy, gan gyfeirio at ddarlun o hono: "Ond

* Ellis' Original Letters, illustrative of English History, vol. ii. p. 82, 2nd edit.; 3rd Series, vol. iii. p. 194 (as quoted in "Archæologia Cambrensis" for 1874, p. 153).

Digitized by Google

y mwyaf neillduol yw eiddo y Dr. Ellis Pryse o Blas Yolin, yn sir Ddinbych, gyda'r amseriad 1605; offeryn i iarll Leicester, ac yn ymroddedig i'w holl fwriadau drygionus. Gwisg Pryse yw siaced wen gydag ymylwaith llydan; melyn yw ei wallt, a'i farf yn deueu ac o'r un lliw; ei wynebpryd sydd hir, gwelw, a rhagrithiol. Efe oedd y penaf o'u cnafiaid yn y cyfnod yr oedd yn byw ynddo; y gorthrymwr mwyaf ofnadwy i'w gymydogion; a gwenieithiwr gwirioneddol; oblegid ei anerchiad cyffredin yn ei lythyr at ei noddwr oedd, 'O arglwydd, ynot ti y gosodaf fy ymddiried!'" Ond prin y gellir credu ei fod yn fyw yn 1605, a phrin y tybiwn fod y darluniad uchod yn hollol ddiragfarn, er fod y cyffredin yn credu fod Leicester ac yntau yn cydgynllwyn i gael i'w meddiant ran fawr o'r tiroedd eglwysig oedd wedi syrthio i hawl y goron trwy ddiddymiad y mynachlogydd. Gwrthwynebwyd hwynt mewn cyfraith gan y rhai oedd mewn meddiant o honynt eisoes, a'r canlyniad fu i wyth o brif foneddigion Lleyn, yn ngwlad Arfon, gael eu cymeryd yn garcharorion i'r Tŵr Gwyn, yn Llundain.

Credai y werin ei fod mewn cynghrair â'r diafol. Ei enw ef oedd y cyntaf o'r rhai yr anfonodd y Frenines Elisabeth atynt yn eu hawdurdodi i gynnal yr Eisteddfod Freninol yn Nghaerwys yn 1568. Ni chyfrifid ef yn fardd ei hunan, ond yr oedd ei fab, Thomas Price, yn awdwr rhyddiaith a barddoniaeth,* ac yr oedd yntau yn noddwr i lenyddiaeth.† Nis gwyddom faint o grefydd oedd ynddo, ond gwelir fod ei lythyrau yn cynnwys ymadroddion pur grefyddol, yr hyn oedd arferiad y wlad yn yr oes hòno.

Ni feddwn gymaint o hanes Syr John Price, ond yr oedd ef yn llenor a hynafiaethydd ei hunan, ac nid yw yn ymddangos fod cymaint o lid yn mhlith y werin yn ei erbyn. Perthyna anrhydedd mawr i Syr John Price fel llenor Cymreig, yn gymaint ag mai efe oedd awdwr y llyfr cyntaf a argraffwyd erioed yn Gymraeg. Dyma ei deitl:—"Beibl. Yn y Llyvyr hwn y Traethyr Gwyddor Kymraeg. Kalendyr. Y Gredo neu bynkey yr ffydd Gatholig. Y Pader neu Weddi yr Arglwydd. Y Deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampay arveradwy, a'r Gweddiau Gocheladwy ac Keingeu." [Llundain, 1546; 4plyg.] Nis gwelsom y llyfr hwn erioed, ac nis gwyddom yn mha le y mae copi o hono yn nghadw. Nid oes yr un yn yr Amgueddfa Brydeinig, ac nid yw awdwr na golygydd "Llyfryddiaeth y Cymry" yn cyfeirio at yr un. Nid yw yr awdwr ychwaith yn ein hysbysu o ba le y cafodd ei wybodaeth am y llyfr, os nad yw ei grybwylliad am yr Esgob Humphreys yn awgrym o hyny; ond y mae yn eglur nas gwelodd efe yr un copi ei hunan, ond gallwn gasglu i'r golygydd weled un yn rhywle, er nad yw yma yn cofnodi y ffaith yn bendant. Ar sail cyfeiriad yr Esgob Richard Davies ato fel y cyfryw, yn ei "Lythyr at y Cymry" o flaen Testament Salesbury, y priodolir y gwaith i Syr John Price, ac nid oes eisieu sail well.

Nid rhyw lawer o bwys sydd i'w roddi ar ddangoseg y llyfr gwerthfawr a defnyddiol uchod ("Llyfryddiaeth y Cymry"), onidê cawsem gofnodiad o lyfr arall o waith Syr John Price yn llawer boreuach; oblegid y mae yn y ddangoseg gyfeiriad at lyfr o dan Rhif 2, 1535, o dan ei enw, yr hyn wrth gwrs sydd yn rhyw gamsyniad dybryd. Dywed golygydd y gwaith drachefn, mewn nodyn yn ngwaelod tudalen 25, mai gwaith Syr John Price yw y "Darluniad o Gymru" a ragddodwyd wrth waith Humphrey Llwyd ("Hanes Cymru"), a gyhoeddwyd yn 1584; ond nid oes son am y ffaith o dan y flwyddyn hòno. Ond o dan y flwyddyn 1573 cyfarfyddwn â llyfr o'i waith, sef ei amddiffyniad Lladin i hanesiaeth Frytanaidd yn erbyn Polydore Virgil. Dywedir drachefn yn y copi o'r wynebddalen mai yn 1579 y cyhoeddodd Humphrey Toy y llyfr, ac yr oedd hyny dros ugain mlynedd ar ol marwolaeth yr awdwr. Y gwir yw, fod mawr angen ailysgrifenu o leiaf lyfryddiaeth yr unfed ganrif ar bymtheg.

Gwelwn oddiwrth y ffeithiau hyn fod Syr John Price yn llenor galluog ac yn hynafiaethydd craff, ac o ganlyniad os oedd rhywbeth o werth yn y cangenau hyny yn nghadw yn y mynachlogydd a syrthient i'w ddwylaw ef, nas gallent fyned i ddwylaw gwell. Ofnwn mai ar ol hyny y bu dinystr a difrod mawr ar lyfrau y Cymry; ac os oedd Syr John Price wedi trosglwyddo llawer o'r llawysgrifau a ddarganfyddasai i Gastell Rhaglan, gwyddom beth a fu eu tynged hwy, fel lluaws ereill.

Ond nid ydym yn gwybod i'r marchog urddol, Syr John Price, gyhoeddi dim byd crefyddol ar

* Y mae cyfrol o'i waith yn yr Amgueddfa Brydeinig, wedi ei golygu gan Lewis Morus, yn barod i'r wasg. Cynnwysa, heblaw barddoniaeth, Ddaearyddiaeth Prydain, Hanes Eisteddfodau 1524 a 1576, Gramadeg a Rheitheg. Yr oedd yn cyfansoddi o 1589 hyd 1632. (Gwel Catalogue of Additional MSS. 1841–1845. Welsh School MSS. No. 14,872; small 4to.)

† Enwogion Cymru, t. 851.



Digitized by Google

ol y llyfr cyntaf a alwai efe yn "Beibl." Ymddiriedai hyny i'r gwŷr lleyg, y rhai yn ddiau a wnaethant lawer cymwynas i lenyddiaeth Gymraeg mewn gwahanol gyfnodau canlynol; ond buont yn hir iawn cyn dechreu ar eu gwaith, a gallasem ddysgwyl llawer mwy oddiwrth ddosbarth o bobl mor ddysgedig, hamddenol, a dylanwadol.

Ond rhoddwn eto ger bron y darllenydd un llythyr o waith y marchog urddol:—

"JOHN AB RICE AT CROMWELL.

"Rhynged bodd i'ch meistroniaeth, canys yn gymaint ag y tybiaf y cewch gwyn ger eich bron o berthynas i Burie * cyn y dychwelwn, tybiais yn ddymunol eich hysbysu am ein gweithrediadau yno, ac hefyd yn nghylch cyflwr yr unrhyw. Am yr abad, ni chawsom ddim ammhëus o barthed ei ymarweddiad, ond cafwyd allan ei fod yn llenwi ei ystorfëydd yn ofalus, ei fod yn ymhoffi llawer mewn chwareu disiau a chardiau, a'i fod drwy hyny yn gwario llawer o arian, heblaw mewn adeiladu er mwyn difyrwch. Nid oedd yn pregethu yn gyhoeddus. Hefyd fe drosglwyddodd amryw ffermydd yn gopi-ddaliad, am yr hyn y cwyna pobl dlodion. Hefyd, ymddengys ei fod yn dueddol i gynnal y cyfryw seremoniau ofergoelus ag a arferid gynt.

"O barthed i'r cwfen (*convent*), nis gallem gael ond ychydig neu ddim adroddiad ganddynt, er ini arfer llawer o ddiwydrwydd yn ein hymchwiliadau; yr wyf yn cadarn gredu ac yn tybio eu bod wedi cynghreirio ac ymgyfammodi cyn ein dyfodiad na fyddai iddynt ddadguddio dim. Er hyny, cyffesir a phrofir fod mwy o fenywod yn cyrchu ac yn tramwyo i'r fynachlog hon nag i unrhyw fan. Yn mhlith y creiriau cawsom lawer o wagedd a choelgrefydd, megys y glo â'r hwn y rhostiwyd St. Laurence, parion ewinedd St. Edmund, cyllell a botasau St. Thomas o Gaergaint, ac amryw benglogau rhag y cur mewn pen; darnau o'r groes santaidd, digon i wneuthur croes gyfan o honynt; creiriau ereill i gael gwlaw, a rhai arferion ofergoelus ereill rhag i chwyn dyfu mewn yd, a phethau cyffelyb. Yna parod yw y rhai sydd o dan oed i ymadael ar yr wythfed, a'r rhai sydd uwch law oed ar bummed pe caniatëid iddynt, a hwy yw y rhai goreu yn y tŷ, a chanddynt yr addysg a'r doethineb oreu. Holl nifer y cwfen cyn ein dyfodiad oedd LX. namyn un, heblaw III. oedd yn Rhydychain. Am Elis, ysgrifenais at eich meistroniaeth gyda'm cydymaith Richard à Lee. Ac felly caffed y Duw Hollalluog chwi yn ei gadwraeth. O Burie, vmed o Dachwedd.

"Eich gwas rhwymedicaf,

"JOHN AP RICE.

"A.D. 1535, Tach. 5med."

* Yn Suffolk.

Dyry Barlow eto, mewn llythyr arall o'i eiddo,* ddarluniad truenus o gyflwr Cymru; ond y mae yn eglur oddiwrth ei ysbryd a'i amcan ei fod yn dyweyd y gwaethaf. Ei bwnc mawr oedd cael symud yr eglwysgordd o Dŷ Ddewi, fel y crybwyllasom yn barod, ac er mwyn hyny gwna St. Dewi yn waeth na'r pab ei hun, a'r Cymry yn waeth na Phabyddion Rhufain. Ond nid yw yn y llythyr hwn yn nodi dim ffeithiau, ac felly gallwn yn eithaf priodol ei basio heibio yn ddisylw. Ond mewn llythyr o waith Richard, esgob Dover, at Cromwell cawn ychydig fanylion gwerth eu crybwyll. Fel hyn y dywed:—"Buaswn yn danfon i chwi amryw greiriau, ond eu bod yn rhy feichus i'w cario. Y mae genyf glust Malchus, yr hon a dorodd Pedr ymaith, fel yr ysgrifenwyd, a mil o bethau cyn wired a hyny; ond y crair santeiddiaf drwy holl Wynedd yr wyf yn ei ddanfon i chwi yn awr. Ni lyfas un dyn gusanu hwn heb iddo benlinio pan welo ef gyntaf, er ei fod yn y lle aflanaf yn yr holl wlad, a rhaid iddo gusanu pob careg, oblegid y mae pardwn mawr yn mhob un. Ar ol iddo ei gusanu rhaid i ddyn dalu mesur o yd, neu gosyn grot, neu bedair ceiniog am dano. Yr oedd yn werth i'r brodyr yn Mangor, gyda delw arall, ag yr wyf hefyd wedi ei chau i fyny, XX. marc y flwyddyn mewn yd, caws, gwartheg, ac arian. Pe darluniwn yr holl ddelwau a ddefnyddid gan eilunaddoliaeth y wlad cymerai len o bapyr, ond yr wyf yn gochel hyny." †

Rhaid i ninnau hefyd ddwyn yr adran arweiniol yma o'n gwaith i ben, gan obeithio y cawn bethau mwy cadarn a sicr i'w cofnodi, os nad mwy dymunol, yn y dosbarthiadau dyfodol. Yr ydym yn teimlo sicrwydd beth bynag fod ein gwlad, drwy drugaredd y Nef ac nid amcanion dynion, wedi dirfawr wella yn ein dyddiau ni; a gobeithiwn mai crefyddoli fwyfwy a wna, fel y byddo goleuni gwybodaeth a manteision gwareiddiad yn cynnyddu.

* Three Chapters of Letters, &c. p. 206, &c. † *Ibid.* p. 211, &c.

Digitized by Google

# LLYFR II.

## ENWOGION Y CYFNOD CYNTAF: O 1547 HYD 1603.

### EDWARD VI., MARI WAEDLYD, AC ELISABETH.

## PENNOD I.

### SYLWADAU CYFFREDINOL AR HANES A NEILLDUOLION Y CYFNOD.

Perthyna i bob cyfnod yn hanes gwlad, fel i bob gwlad a phobl, ei nodweddion cyffredinol a gwahaniaethol. Nid hawdd yw amgyffred nodweddion oes, oblegid rhaid fod llawer o eithriadau i bob dywediad cyffredinol am dani, ac y mae yn gymaint o fater o raddau ag yw o ffaith, ac yn wrthddrych chwaeth yn gystal a barn a gwybodaeth. Er hyny, gyda'r ystyriaethau yna, buddiol yw ffurfio syniad am deithi cyffredinol pob cyfnod, a dyledswydd yr hanesydd yw cynnorthwyo i wneuthur hyny.

Yn yr oes flaenorol, sef yn ystod teyrnasiad maith Harri VIII., yr oedd pobpeth yn gymysglyd ac ansefydlog. Ewyllys ormesol a barn gyfnewidiol y brenin a reolai holl amgylchiadau y deyrnas, yn wladol a chrefyddol. Nis gallai efe oddef unrhyw wrthwynebiad gan neb, ac os codai rhywun yn ei erbyn, gan hòni ei hawl i ddadgan ei farn bersonol ac i wahaniaethu oddiwrth y brenin, nid oedd ond un o ddau beth yn ei aros —un ai ymostyngiad diammodol, neu ddinystr llwyr. Nis goddefai y Tudur i neb o'i wŷr llys wahaniaethu oddiwrtho mewn dim. Os cyfnewidiai efe ei farn, cyfnewid oedd raid iddynt hwythau; ac os parhäi efe yn ddiysgog mewn opiniwn, yr oedd yn rhaid i bawb arall fod yr un mor ddigyfnewid. Yn ddiddadl efe oedd yn teyrnasu er drwg neu er da, a gwae i'r neb a ammheuai hyny. Yr unig beth a wnelai hyn yn oddefol i'r deiliaid oedd cymeriad Harri Tudur. Yr oedd ei ewyllys mor gryf, a'i benderfyniad mor ddiarbed, a'i hunan-honiad (*self-assertion*) mor anwrthwynebol, fel y rhoddai pawb eu harfau i lawr a'u hewyllys i fyny iddo ar unwaith. Felly yr oedd yn y pethau lleiaf yn gystal a'r mwyaf, teuluaidd a chyhoeddus; un ai ufudd-dod dios, unffurfiaeth dieithriad, neu ryfel hyd angeu. Aberthasai ei fywyd yn gynt nag y goddefai wrthwynebiad, ac yr oedd ei ewyllys yn bwysicach yn ei olwg na'i fodolaeth.

Ond er yr holl benderfynolrwydd ystyfnig hwn, yr oedd golygiadau Harri VIII. yn llawn anghysonderau, a'i yrfa grefyddol yn gyfres o gyfnewidiadau. Yr oedd fel llanw y môr yn ysgubo pobpeth o'i flaen, ac fel hwnw hefyd yn dygyfor yn ddibaid. Yn ystod ei deyrnasiad ef nis gellid ystyried mewn un modd fod y Diwygiad wedi ei sefydlu yn y wlad, os oedd wedi ei gychwyn o gwbl mewn ystyr egwyddorol. Teimlai pawb fod ansicrwydd yn crogi uwch ben crefydd y deyrnas, ac anhawdd oedd penderfynu pa grefydd a goleddid gan y llys a'r llywodraeth. Yr oedd y cyfnewidiad a ddygasid o amgylch yn debycach i newid dau bab nag i newid dwy grefydd, ac anhawdd oedd penderfynu pa un o'r ddau oedd y mwyaf Pabaidd ei galon. Llifai cyllidau yr eglwys yn awr i goffr y brenin, yn lle i drysor Rhufain; a thra y llosgid rhai am fod yn Babyddion, llosgid ereill am eu bod yn Brotestaniaid. Rhyfel personol oedd rhwng Harri VIII. â'r pab, ac nid rhyfel egwyddorol. Pwnc mawr y brenin oedd cael yr arian a'r awdurdod i'w ddwylaw ei hun, ac nid puro a diwygio crefydd. Parodd losgi John Lambert am wadu o hono athrawiaeth Babaidd y traws-sylweddiad, ac ymdrechai yn mhob modd i gael pawb yn unffurf mewn barn, sef i gydolygu âg ef ei hun. I'r dyben hwnw cyhoeddodd y Chwech Erthygl, y rhai sydd fel y canlyn:—

"1. Fod y bara a'r gwin yn y Swper santaidd

Digitized by Google

yn wir gorff a gwaed Crist. 2. Fod y bara neu y gwin yn unig yn ddigonol i'r bobl yn gyffredin; gan fod corff Crist yn cynnwys ei waed, a'i waed yn cynnwys ei gorff. 3. Nad yw yn gyfreithlawn i offeiriaid briodi. 4. Fod yn rhaid cadw addunedau o ddiweirdeb. 5. Fod yr offeren ddirgel i gael ei chynnal. 6. Fod cyffes ddirgel i'r offeiriaid yn angenrheidiol."

Pabyddiaeth noeth yw ysbryd yr erthyglau hyn, ac eto deddfodd y brenin fod i bwy bynag a'u gwadai gael ei losgi; yr hyn a brawf mai llywodraethiad yr eglwys, ac nid ei hathrawiaeth, oedd yn bwysig ganddo. Ac ni chafodd yr erthyglau hyn a'r deddfiad cydfynedol aros yn llythyren farw, oblegid er gwaethaf cyfryngiad tywysogion Germany fe'u rhoddwyd yn fuan mewn grym, a charcharwyd tua phum cant o bobl oherwydd eu gwrthodiad o honynt; ond ar eiriolaeth yr Esgob Cranmer a'r Arglwydd Cromwell, rhyddhawyd hwynt o'r carchar heb ddyoddef eithaf llymder y gyfraith greulawn ac anghyfiawn.

Y flwyddyn ganlynol (1540) dienyddiwyd yr Arglwydd Cromwell, yr hwn a wnaethid yn ddiweddar yn iarll Essex ac yn Farchog y Gardas, am ei fod yn rhy ffafriol i'r Diwygiad. Yr un flwyddyn llosgwyd tri Phrotestant, a chrogwyd tri Phabydd, yn Smithfield; y Protestaniaid am wrthwynebu athrawiaethau Pabaidd, a'r Pabyddion am wadu fod y brenin yn ben yr eglwys. Felly y parhaodd tynged yr eglwys yn anghyson a chyfnewidiol hyd farwolaeth y brenin, yn nechreu y flwyddyn 1547.

Nid oedd Edward VI., ei fab o Jane Seymour, ddim ond naw mlwydd oed pan y dechreuodd deyrnasu, a chwe' blynedd y parhaodd ei deyrnasiad. Cytuna pawb i dystio fod y brenin ieuanc yn fachgen hawddgar a chrefyddol, ond nis gallai gan ei ieuenctid gymeryd awenau y llywodraeth i'w law ei hun. Felly, yn unol â rhagdrefniad ei dad, llywodraethid y deyrnas gan gynghor o un ar bymtheg o raglawiaid gyda deuddeg o gynghorwyr; ond y peth cyntaf a wnaeth y pwyllgor hwnw ar ei gyfarfyddiad oedd dewis ac appwyntio amddiffynydd, a throsglwyddo yr awdurdod i'w ddwylaw ef. Yr un a ddewiswyd oedd arglwydd Hertford, ewythr y brenin frawd ei fam, yr hwn a grewyd yn ddioed yn ddug Somerset. Ond wedi cael y llywodraeth i'w ddwylaw, fe fynodd Hertford gadarnhâd ac ychwanegiad i'w allu hyd yn nod yn groes hollol i ddarbodion yr hen frenin; ond er cymaint trawslywodraeth oedd hyny, nis meiddiai neb ei wrthwynebu.

Bu llywodraeth dug Somerset, ar y cyfan, yn dra bendithiol i fyd ac eglwys. Parodd liniaru llawer o'r Deddfau gorthrymus yn erbyn hereticiaid, a chynlluniodd drefn o wasanaeth drwy yr hwn y gadewid heibio lawer o syniadau Pabyddol yn dawel a dystaw; ac eto cafodd mwy nag un ei losgi ganddo am ei syniadau crefyddol. Ond yn 1549 collodd efe ei ddylanwad a'i awdurdod a chymerwyd ei le gan iarll Warwick, yr hwn a gyfrifid yn Babydd ond a drodd allan yn Ddiwygiwr. Erbyn hyn yr oedd adfywiad graddol ar grefydd yn y wlad, drwy fod Beiblau, llyfrau gweddi, a homiliau yn cael eu gwasgaru drwy y plwyfi. Bwriedid i'r Llyfr Gweddi newydd gymeryd lle yr hen lyfrau gwasanaeth a ddefnyddid yn amser y Pabyddion, a'r rhai oeddynt wahanol mewn gwahanol esgobaethau. Offeiriaid Deheubarth Cymru a ddefnyddient drefn Henffordd, ac offeiriaid Gwynedd a lynent wrth ffurfwasanaeth Bangor. Ond yn awr gwnaethpwyd Deddf i orfodi pawb i ddefnyddio y Llyfr Gweddi newydd, fel y ceid unffurfiaeth drwy yr holl deyrnas. Un o wendidau Protestaniaeth yw y syniad am unffurfiaeth mewn cred, llywodraeth, ac addoliad. Goddefa y Pabyddion lawer o ryddid yn hyn, tra yn dyn dros berffaith undeb ymarferol; a diau fod hyn wedi bod yn elfen o nerth i'r Babaeth yn ei llywodraeth dros gynnifer o wledydd a chenedloedd. O'r ochr arall, y mae Eglwys Loegr wedi bod o'r dechreu yn hynod anffortunus yn ei mabwysiad o'r syniad o unffurfiaeth, a dygwyd hi fwy nag unwaith i ddibyn distryw gan ei hymlyniad ynddo.

Gwnaed Robert Farrar yn esgob Tŷ Ddewi yn 1548. Amddifadwyd ef o'r esgobaeth ar esgyniad Mari yn 1553, a llosgwyd ef yn 1555 ar heol Caerfyrddin. Ei ddilynydd ef oedd Henry Morgan, y Pabydd selog. Gwr o sir Fynwy oedd efe. Dadleuai yn benderfynol dros yr athrawiaeth o draws-sylweddiad, ac oblegid ei fedrusrwydd yn ei hamddiffyn galwyd ef yn Forgan y Twyllddadleuwr.

Diwrnod tywyll ac ofnadwy i Brotestaniaid y deyrnas oedd diwrnod claddedigaeth Edward ac esgyniad Mari i'r orsedd. Diau fod rhifedi y Protestaniaid erbyn hyn yn fawr, ac hyd yn nod yn lluosocach na'r Pabyddion; ond yr oedd eu gallu a'u dylanwad yn cael ei wrthweithio mewn gwahanol ffyrdd, fel yr oeddynt yn hollol at

Digitized by Google

drugaredd y blaid wrthwynebol. Nid oedd y wlad a'i phoblogaeth oll yn cael ei rhanu yn ddwy blaid y pryd hwnw mwy nag ar adegau ereill yn ei hanes, ond yr oedd yno dyrfa o "bobl gymysg" yn barod i droi gyda phob amgylchiadau, ac i roddi eu hunain yn offerynau yn nwylaw pa blaid bynag a ddygwyddai fod mewn awdurdod. Ac na thybier mai gwerin a gwreng, nac hyd yn nod bobl ddigrefydd, oedd y cyfryw oll; ond yr oedd lluaws o'r proffesedig a'r urddedig yr un mor fradus a diegwyddor. O'r pedwar esgob a lywodraethent Eglwys Cymru y pryd hwnw nid oedd ond un yn Gymro o enedigaeth, sef y Dr. Arthur Bulkeley o Fangor. Ond rhagrithiodd efe, yn nghydag Anthony Kitchin, esgob Llandaf, a Robert Parfew (neu Warton), esgob Llanelwy, yn ystod teyrnasiad Edward VI., a phan y daeth Mari i'r orsedd ymddangosasant yn eu gwir nodwedd. Robert Farrar oedd yr unig un a barhaodd yn ffyddlawn i'w egwyddorion, am yr hyn y derbyniodd goron merthyrdod, fel y dangoswyd uchod. Y mae Browne Willis, yn "Hanes Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi," yn dwyn cyhuddiadau trymion yn erbyn Farrar fel yspeiliwr yr eglwys; ond gan ei fod yn dwyn y cyffelyb gyhuddiadau yn erbyn yr esgobion ereill, ac nad yw yn dwyn yn mlaen brofion nac yn gosod i lawr fanylion, gwell genym dderbyn tystiolaeth Foxe am ei ddiniweidrwydd a'i dduwioldeb. Beth bynag am ei wir gymeriad, y mae yr adroddiad a ddyry Foxe o hanes ei brawf yn adlewyrchu cymaint o'i ragoroldeb ef ag o annhegwch a thrahausder esgob Winchester, yr hwn a'i holai.

Blwyddyn adfydus a gwaradwyddus yn hanes y deyrnas oedd y flwyddyn 1555. Llosgwyd ugeiniau, a charcharwyd cannoedd, o wŷr rhagoraf y wlad. Ymddengys fod amryw Gymry yn mhlith y rhai a ddyoddefasant yn Lloegr, ond ychydig iawn a anrhydeddasant y Dywysogaeth drwy aberthu eu bywyd er mwyn purdeb ei chrefydd, na dim cymaint ag un yn Ngwynedd, pa fodd bynag y cyfrifir am hyny. Gallai fod pellder a dyeithrwch y wlad yn amddiffyn i'r trigolion, ond digon tebyg mai y rheswm a ddyry y Parch. D. Peter yw y cywiraf. Fel hyn y dywed:—"Nid oes dim hanes i fwy na thri ddyoddef yn Nghymru yn nheyrnasiad y Frenines Mari; a'r achos o hyny oedd, oblegid nad oedd y Diwygiad gwedi cynnyddu fawr yn Nghymru y pryd hyny."*

* Hanes Crefydd yn Nghymru, t. 185; 2fed argr. Gwel hefyd "Hanes y Merthyron," gan Thomas Jones (t. 238 Dinbych, 1813).

O'r ddau gant pedwar ugain a phedwar o Brotestaniaid a ddienyddiwyd am eu crefydd yn Mhrydain yn amser teyrnasiad Mari Waedlyd, cawn yr enwau Cymraeg a ganlyn yn mhlith y rhai a ddyoddefasant yn Lloegr:—John ab Rhys, Philip Humphrey, John David, Henry David, Robert Samuel, John Floyd (Llwyd), John Gwynne, James Harris, Robert Williams, T. Benion, ac ereill. Ond am y tri a ddyoddefodd yn Nghymru enwau Seisnig sydd arnynt, er nad yw hyny yn brawf mai Seison oeddynt. Nid yw enw yr un o honynt yn gofnodedig yn "Enwogion Cymru." Y mae pob sicrwydd mai Sais o enedigaeth oedd yr Esgob Farrar, a losgwyd yn nhref Caerfyrddin, ac y mae yn debygol mai Sais o ran tafodiaeth oedd y pysgotwr Rawlins White, a losgwyd yn Nghaerdydd yn 1555; o leiaf yr oedd yn deall Seisonaeg, oblegid rhoddodd ei fachgen yn yr ysgol i ddysgu darllen y Beibl Seisonaeg, gan ei fod ef ei hun yn anllythyrenog. Y tebygolrwydd yw mai Sais hefyd oedd William Nichol, a losgwyd rai blynyddau yn ddiweddarach (Ebrill 9, 1558) yn nhref Seisnig Hwlffordd, yn sir Benfro.*

Ond ni chaniataodd Duw yn ei ragluniaeth oes na theyrnasiad hir i'r Frenines Mari. Gyda'i bywyd annedwydd hi terfynodd yr erlidigaethau creulawn hyn yn niwedd y flwyddyn 1558. O'r wyth gant Diwygwyr a adawsant y wlad ar ei hesgyniad i'r orsedd, dychwelodd lluaws mawr pan glywsant am ei marwolaeth. Bu bron gymaint cyfnewidiadau yn y wlad a'r eglwys ar esgyniad Elisabeth i'r orsedd ag a fuasai ar esgyniad ei chwaer, ond mewn cyfeiriad gwrthgyferbyniol. Ond yr oedd ambell swyddog yn ddigon o farchogwr i allu rhoddi ei gyfrwy ar bob march a ddelai heibio, ac o'r cyfryw yr oedd Anthony Kitchin, esgob Llandaf, yr hwn ar ol ei gysegru yn amser Harri VIII. a ymddarostyngodd o ran ewyllys a chydwybod i bob cyfnewidiad hyd ei farwolaeth o dan deyrnasiad Elisabeth. Ond nid llawer o'i ddosbarth ef, drwy drugaredd, oedd yn y wlad y dyddiau hyny. Gwell oedd gan gannoedd o bobl egwyddorol nid yn unig golli eu swyddi, ond hefyd adael eu gwlad a'u cartref, na llygru eu cydwybodau. Tlodwyd gwledydd Ewrop lawer gwaith o'u dynion rhagoraf drwy erlidigaeth wladol a chrefyddol, ac felly y gwnaethid â Lloegr dan Mari Waedlyd; ond ar ei marwolaeth hi daeth y Diwygwyr egwyddorol

* Hanes y Merthyron, gan T. Jones, t. 654; Dinbych, 1813.

Digitized by Google

yn ol yn finteioedd, ac adferwyd llawer o honynt i'w swyddi a'u safle blaenorol.

Heblaw nad oedd yn Nghymru odid neb o ysbryd gwrol ac egwyddorol yn y dyddiau hyny, fel ag i farw dros Brotestaniaeth na Phabyddiaeth, nid oedd yma ychwaith nemawr neb o enwogrwydd a thalent. Brithid y wlad gan feirdd, gweithiau y rhai a ddaethant i lawr mewn llawysgrifau i'n dyddiau ni; ond nid oedd cymaint ag un o honynt yn alluog i roddi cyfeiriad newydd i'r awen, fel y gwnaethai Dafydd ab Gwilym yn y bedwaredd ganrif ar ddeg er da, nac fel Dafydd ab Edmwnt yn y bymthegfed ganrif er drwg. Canu yr oeddynt yn yr un hen gyweiriau, ac i'r un hen destynau lleol a dibwys. Yr oedd offeiriaid a mynachod yn llenwi pob congl, ac yn bwyta brasder y wlad; ond nid oedd odid neb o honynt yn pregethu yr efengyl, yn ysgrifenu llyfrau, nac yn hyrwyddo llenyddiaeth wladol na chrefyddol. Isel iawn oedd celfyddyd a masnach, dysg a chrefydd; ac o ganlyniad barbaraidd oedd cyflwr y mawrion, a thruenus oedd cyflwr y werin. Ond yr oedd cyfnewidiad ar ddyfod dros fyd ac eglwys, ac arwyddion o fywyd i'w canfod yn mhob cylch. Ar esgyniad teulu Tudur i orsedd Prydain deffrôdd teimlad cenedlaethol y Cymry, a dechreuasant o'r newydd goleddu eu hiaith a'u llenyddiaeth. Daeth eu traddodiadau hefyd yn destyn ymchwiliad yn Lloegr a'u chwedlau yn ffasiynol yn y llys, nes bod y beirdd Seisnig yn eu mabwysiadu yn destynau caniadau, a'r haneswyr Seisnig yn eu casglu a'u beirniadu. Canodd Churchyard ei rigwm ar "The Worthiness of Wales," a Spenser ei aralleg ardderchog, yn seiliedig ar draddodiadau Cymreig am Arthur a'i farchogion a champau y tylwyth teg. Ni bu y prif fardd dramayddol ei hunan yn ddisylw o hen chwedloniaeth Cymru, fel y prawf ei "King Lear" a'i "Cymbeline," heblaw ei gyfeiriadau mynych at hanesiaeth Gymreig a'i ddefnydd o gymeriadau Cymreig mewn amryw o'i ddarnau ereill. Yr oedd hyn drachefn yn rhwym o ddylanwadu yn ol ar Gymru, a pheri i'r beirdd a'r llenorion Cymreig feddwl yn uwch am eu sefydliadau a'u trysorau llenyddol. Ymweithiai ysbryd gwladgarol a llenyddol drwy bob dosbarth, yr hwn yn fuan a ddangosodd ei hun mewn amrywiol ffyrdd.

Nid oes sicrwydd ddarfod cynnal Eisteddfod yn amser Harri VII.,* ond erbyn y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad ei fab, Harri VIII., yr oedd y llanw gwladgarol wedi codi yn ddigon uchel i gael gwŷs freninol er cynnal Eisteddfod, yr hyn na chawsid o'r blaen er's llawer oes. Hon oedd Eisteddfod gyntaf Caerwys, yr hon a gynnaliwyd yr 2fed o fis Gorphenhaf, 1523. Yn mhen pum mlynedd a deugain cawn wŷs freninol arall yn cael ei hanfon allan gan Elisabeth i gynnal Eisteddfod yn yr un lle, yr hon a gynnaliwyd y 26ed o fis Mai, 1568. Ond nid yr Eisteddfodau hyn yw yr unig brawf o ddeffroad llenyddol y genedl yn yr oes hòno. Y mae rhifedi a helaethrwydd yr ysgriflyfrau a ysgrifenwyd yn y cyfnod hwn yn profi yr un peth. Yn ystod y tri chan mlynedd a dreiglodd ymaith er y pryd hwnw hyd yn awr, rhaid fod nifer aruthrol o hen ysgrifau wedi eu difa gan bryfaid, tân, a dynion; er hyny y mae yn aros gasgliad helaeth o'r cyfryw yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn Mheniarth, yn Wynnstay, a manau ereill, ac o honynt adysgrifiwyd y rhan fwyaf yn y cyfnod Tuduraidd. Nid ydym, o ganlyniad, yn fyr o brofion fod bywyd cenedlaethol a llenyddol y Cymry wedi derbyn symbyliad nerthol drwy esgyniad teulu Tudur i orsedd Prydain.

Effeithiodd y dygwyddiad hefyd ar fywyd crefyddol y wlad. Llywodraethid Eglwys Cymru, fel Eglwys Loegr, gan breladiaid Seisnig, ac o ganlyniad Seison gan mwyaf a lanwent esgobaethau a phrif fywioliaethau eglwysig Cymru. Yr oedd hyn yn nodedig amlwg er cyfnod terfysglyd Rhyfeloedd y Rhosynau. Ni raid ond bwrw golwg dros gyfrolau Browne Willis, a sylwi ar restri yr esgobion a'r deoniaid, na welir ar unwaith mai estroniaid o iaith a gwaed a lanwent y prif leoedd ac a dderbynient y prif symiau o gyllid yr eglwys. Ond yn raddol ar ol gorseddiad y Tuduriaid y mae yr enwau yn cyfnewid ac yn dyfod yn fwy Cymreig, nes o'r diwedd fod cyfartaledd da, os nad y mwyrif, o honynt yn eglur ddynodi brodorion. Ac fe ymddengys i hyn greu adfywiad yn yr eglwys ei hunan, ac effeithio ar grefydd y wlad i raddau yn gystal ag ar ei llenyddiaeth. Addefwn y rhaid priodoli y cyfnewidiad mawr i'r Diwygiad Protestanaidd cyffredinol drwy y deyrnas, ond cymerodd ei ffurf yn Nghymru i gryn raddau oddiwrth ddylanwad cenedlgarol y preladiaid. Gwaith mawr ac anhawdd oedd cadw i fyny ysbryd crefydd o dan yr amgylchiadau. Fel yn mhob chwyldroad diwygiadol, felly yn y Diwygiad Protestanaidd, cymerai llawer fantais ar y cyfnewidiad i daflu

* Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii. t. 416.

Digitized by Google

oddiwrthynt rwymau crefydd, ac ar ol colli cyfartaledd mawr o'r hen offeiriaid a'r holl fynachod yr oedd bron yn anmhosibl cael gweinidogion a dysgawdwyr i lenwi eu lle, fel i ymddangosiad allanol nad oedd y cyfnewidiad yn ddiwygiad o gwbl. Ond i'r neb a edrychai islaw y wyneb, yr oedd hadau ac egwyddorion yn cael eu lledaenu drwy y wlad ag oeddynt yn rhwym mewn amser, a thrwy fendith Duw, o ymweithio drwy bob cylch mewn cymdeithas ac effeithio yn ddaionus ar yr holl wlad.

Gorchwyl mawr, a mwyaf addawol, y cyfnod hwn oedd cyfieithiad yr Ysgrythyrau Santaidd i iaith y bobl. Y Beibl ydyw nerth a bywyd Protestaniaeth. Tra y mae Pabyddiaeth, a phob plaid o dueddiadau Pabyddol, yn crynoi eu sylw ar ddefodau arwyddluniol a defosiwn ffurfiol, y mae ysbryd Protestaniaeth yn gofyn am addysgiadaeth grefyddol a goleuni ysbrydol. I'r dyben yma daw y Beibl yn anfeidrol bwysig, fel ffynnonell gwirionedd a thrysorfa gwybodaeth anffaeledig. Dyrchefir y pwlpud uwch law yr allor, a chymer pregethu le yr offeren. Cysegrir llenyddiaeth at esbonio Gair Duw, cysegrir y wasg at ei ledaenu, cysegrir areithyddiaeth at wasgu ei wirioneddau adref i'r galon a'r gydwybod. Heblaw hyny, sefydlir cymdeithasau arbenig i'r un amcan mawr—Cymdeithas Feiblaidd i'w anfon i wleddydd paganaidd, yn gystal ag i gyflenwi gwledydd Cristionogol, a'r ysgol Sabbathol i alluogi pob gradd ac oed i'w ddarllen drostynt eu hunain ac i ddeall ei athrawiaethau. Ond y gorchwyl cyntaf y gofynid gan Brotestaniaeth ei gyflawni yn y cysylltiad hwn ydoedd cyfieithu Gair Duw i iaith y werin. Credir fod y Beibl yn yr iaith Gymraeg er yn foreu, ond nid oes genym brawf y gwyddai ein hynafiaid ddim bron am dano drwy yr oesoedd. Y mae yn ffaith i ryfeddu ati nad oes bron ddim o'r Beibl ar gael mewn llawysgrifau Cymraeg hynafol. Er fod genym gryn gyflawnder o ysgrifau o'r ddeuddegfed ganrif hyd y bedwaredd ar bymtheg, y mae yn ffaith anwadadwy ond rhyfedd nad oes genym ddim o'r Ysgrythyrau Santaidd yn eu plith gwerth son am dano. Dengys hyn ddylanwad nerthol a gorthrymus Pabyddiaeth. Pa beth bynag yw esgus y Pabyddion dros hyny, y mae yn ffaith anwadadwy nad ydynt yn bleidiol i ledaeniad y Beibl yn mhlith y werin, a'u bod yn y cyffredin yn berffaith elynol i'w ddarlleniad. Awdurdod terfynol y Babaeth yw yr eglwys wedi ei chorffoli yn y pab, ac awdurdod derfynol Protestaniaeth yw y Dadguddiad Dwyfol; o ganlyniad nid rhyfedd fod Eglwys Rhufain yn greulawn yn erbyn syniadau Protestanaidd am y Beibl, ac yn benderfynol yn erbyn appelio ato oddigerth ar yr un tir a'r tadau eglwysg, y cynghorau, a'r traddodiadau. Prif waith y cyfnod cyntaf hwn, gan hyny, oedd cyfieithu yr Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg. Yn nglŷn â'r gorchwyl pwysig hwn daw amryw o enwau nodedig dan sylw, y rhai a osodasant eu hargraff yn ddwfn ar hanes, llenyddiaeth, a chrefydd ein gwlad. Cofnodwn hanes y gwŷr enwog, William Salesbury, y Dr. Morgan, a'r Esgob Davies, heblaw ereill bron yr un mor enwog a fu yn cynnorthwyo yn y gwaith.

Ond nid cyfieithu y Beibl Santaidd oedd unig waith y cyfnod. Buwyd mewn pryder ac ymdrech yn ceisio corffoli ffurf newydd yr eglwys, yn penderfynu ei disgyblaeth, ac yn tynu allan ei chredo. Rhaid ini addef nad llawer fu gan y Cymry i'w wneyd yn y cyfeiriad hwn, gan iddynt hwy dderbyn yn bur dawel yr hyn y penderfynid arno gan y Senedd a'r gwahanol gynghorau eglwysig yn Lloegr. Daw un gwr, fodd bynag, o dan sylw yn y cysylltiad yma, sef y merthyr John Penry, yn yr hwn y gwelwn hadau Anghydffurfiaeth yn dechreu blaguro. Er hyny rhaid cofio nad ei amcan a'i ddymuniad penaf ef oedd newid cyfansoddiad yr eglwys, ond yn hytrach ddarparu pregethu rheolaidd ac addysg grefyddol effeithiol i'r werin Gymreig.

Awn yn mlaen bellach i adrodd hanes enwogion crefyddol y cyfnod pwysig a dyddorol hwn bob yn un ac un.

## PENNOD II.

### WILLIAM SALESBURY.

Ni phetruswn osod William Salesbury ar ben rhestr "Enwogion y Ffydd," nid yn unig o ran dyddiad ond hefyd o ran enwogrwydd a theilyngdod. Cydgyfarfyddai ynddo gynnifer o ragoriaethau personol ac amgylchiadol, naturiol a chyrhaeddedig, deallol, moesol, a chrefyddol, fel mai ychydig o'i gyffelyb a welodd Cymru na'r byd. O leiaf yn hanes grefyddol ein gwlad y mae yn ffynnonell dylanwad sydd yn cael ei deimlo yn gyffredinol, ac i gynnyddu o oes i oes fel y llwydda y grefydd Gristionogol.

Ganwyd William Salesbury yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Nid yw y flwyddyn

Digitized by Google

yn hysbys, ond y tebygolrwydd yw iddo gael ei eni yn niwedd y chwarter cyntaf o'r ganrif. A chymeryd ei fod yn ddeg ar hugain pan gyhoeddodd ei waith cyntaf yn 1547, fe gychwynodd ei yrfa yn 1517; ond haws genym gredu ei fod wedi dechreu ar waith mawr ei oes, sef cynnyrchu a chyhoeddi llyfrau at wasanaeth ei gydgenedl, yn ieuangach na deg ar hugain, ac felly ei fod wedi ei eni o gymaint a hyny yn ddiweddarach; o ganlyniad, credwn nas gallwn fod yn mhell o'n lle pe dywedem iddo ddechreu ei fywyd tua 1520.

Disgynai William Salesbury o waedoliaeth urddasol o du ei dad a'i fam. Enw ei dad oedd Ffowc Salesbury, etifedd a thrigiannydd y Plas Isaf, Llanrwst. Yr oedd ei fam yn ferch i un Pilstwn o Fon. Y ddau wehelyth hyn, yn yr oes hòno, a feddiannent brif etifeddiaethau Gwynedd a'r prif swyddi o dan y goron. Dywedir mai Normaniaid oedd y Salesburiaid yn wreiddiol, ac estroniaid yn ddiau oedd y Pilstwniaid ar y dechreu; ond drwy briodas a chyfathrach yr oedd y ddau dylwyth bellach wedi ymgordeddu â'r genedl Gymreig, fel yr oeddynt yn llawn mor eiddgar dros eu gwlad a'u hiaith a neb o'r Cymry cynnwynol eu hunain. Ffowc Salesbury oedd fab ac etifedd Robert Salesbury o'r un lle, i'r hwn yr oedd pymtheg o blant—un ar ddeg o feibion a phedair o ferched. Yr oedd dau o'r meibion o'r un enw, Sion Hynaf a Sion Ieuangaf.* Y Robert hwn oedd y cyntaf o'r enw Salesbury a ymsefydlodd yn y Plas Isaf. Daeth i mewn i'r etifeddiaeth drwy briodi Gwenhwyfar, aeres Rhys ab Einion Fychan, ab Ifan Wyn ab Rhys ab Dafydd Llwyd ab y Penwyn o Felai. Ond y mae yn nglŷn â'r mater hwn gryn lawer o dywyllwch, ac nid hawdd yw ei chwalu. Nis gwyddom a lwyddwn ni ai peidio, ond os yw ymchwil dyfal yn teilyngu llwyddiant, a ni ein hunain yn farnwyr, fe ddylem ni lwyddo yn yr ymdrech hon. Gwnawn ein goreu, oblegid nid yw yn fater dibwys. Y mae wedi blino llawer o'n blaen ni, a hoffem estyn rhyw gymhorth tuagat ei benderfynu i'r rhai a ddaw ar ol. Y dyryswch ydyw hwn:—Pa fodd y parhaodd etifeddiaeth Robin Fychan o'r Hen Blas, gorhendaid William Salesbury, yn meddiant ei ddisgynyddion ac yntau heb etifedd i'w hawlio? Oblegid yr hen arferiad Gymreig oedd i bob etifeddiaeth gael ei rhanu rhwng y meibion, ac os na byddai mab fod i'r tiroedd fyned i'r etifedd nesaf. Yn awr, oddiwrth y lechres achyddol ar tudalen 42, gwelir mai y cyntaf i feddiannu etifeddiaeth yr Hen Blas oedd Dafydd, ail fab Hywel y Fwyell, ac fod Maredydd, y mab hynaf, wedi ymsefydlu yn Eifionydd. I'r Dafydd hwn yr oedd unig fab, Robin, yr hwn a gyfenwid Fychan, er mwyn, mae'n debygol, ei wahaniaethu oddiwrth ei gefnderw, Robert ab Maredydd. Robin Fychan a briododd Angharad, merch Rhys ab Gruffydd ab Rhys ab Ednyfed Fychan, o'r hon ni chafodd un mab a dim ond un ferch, sef Catrin. Yn awr dyma yr etifeddiaeth, o ddiffyg etifedd cyfreithlawn yn ol hen ddeddf Frytanaidd y *gavelkind* (neu "gafael cenedl" fel y myn rhai*), yn dychwelyd i'r gangen hynaf o'r teulu yn mherson Robert ab Maredydd o Eifionydd. Yn y cyfamser torodd Rhyfel y Rhosynau allan, a chan fod Robert yn bleidiwr gwresog i Owain Glyndwr,† ac wedi hyny i deulu Lancaster, ni chafodd hamdden yn ei oes i hawlio ei iawnderau;‡ ond nid hir y bu ei fab Ieuan heb wasgu ei hawl ar ei gyfyrder Catrin, merch ei ewythr. Erbyn hyn yr oedd Catrin wedi priodi Rhys ab Einion Fychan o Lanrwst, yr hwn a ddisgynai o'r Penwyn o Felai, bradychwr Dafydd, brawd Llywelyn, yn amser Edward I., ac yr oedd ei thad, yn ol ei hawl gyfreithiol § ac er lles ei unig ferch, wedi marwystlo (*mortgage*) y tir i'w fab yn nghyfraith, Rhys ab Einion, am 12*p*., yr hyn oedd yn gryn swm yn yr oes hòno. Cafodd teulu yr Hen Blas lonydd tra y bu Robin Fychan byw, oblegid yr oedd y gyfraith yn ystyried y gallai mab gael ei eni tra y byddai y tad yn fyw; ond wedi marw Robin Fychan, galwodd Ieuan ab Robert ab Maredydd yn yr Hen Blas wrth ddychwelyd o'i hynt filwrol tua pharthau Dinbych, pan yr anfonodd Edward IV. William, iarll Penfro, i ddial y difrod a wnaethai, ac addawodd ei amddiffyniad i'w gares. Ond yn fuan wedi marwolaeth Robin Fychan dyma Ieuan ab Robert a'i ewythr, Ieuan ab Maredydd, yn dyfod i'r Hen Blas, yr hwn le sydd tua 3 milltir i'r dwyrain o Lanrwst, i dalu y marwystl ac i hawlio yr etifeddiaeth.‖ Dadleuai Rhys ab Einion yn daer am gael byw yno fel deiliad, ond ni chaniatëid hyny iddo, a rhybuddiwyd ef i ymadael Gwyl Fihangel, ac ymadael fu raid iddo.

Yn awr dyna yr hen gangen wedi gorfod ymadael

* Lewis Dwnn's Heraldic Visitations of Wales, p. 115.

* Webster's English Dictionary, *sub voce*. Daniel Silvan Evans' English and Welsh Dictionary, *sub voce*.

† Gwel gywydd Rhys Goch Eryri iddo yn "History of the Gwedir Family" (p. 56).

‡ History of the Gwedir Family, p. 87. § *Ibid.* p. 126. ‖ *Ibid.* p. 91.

Dywediad gwir, ag y teimlasom filwaith ei nerth, yw mai "Dacaryddiaeth ac amseryddiaeth yw dau lygad hanesiaeth." Gan y teimlwn fod achyddiaeth yr un mor bwysig i fywgraffiaeth ag yw y ddwy wyddor a nodwyd i hanesiaeth, rhoddwn yma lechres hiliogaeth Gwydir, gan gadw yn fanwl at awdurdod Syr John Wynne, yn ei "History of the Gwedir Family." Bydd y rhan ddiweddaraf o'r lechres yn anhebgorol tuagat ddeall perthynas y Salesburiaid â'r hen deulu hwn, a'r ymchwiliad crybwylledig i'r hawliau croesdynol yn yr etifeddiaeth.

## I.—O Gruffydd ab Cynan hyd Llywelyn, y Llyw Olaf.

Gruffydd ab Cynan, tywysog Cymru = Anghared, merch Owen ab Edwin, arglwydd Englefield.

1. Owen Gwynedd (tywysog Gwynedd, 1137–1169) = 1. Gwladys, m. Llywarch ab Trahaearn, arg. Dyfed.

2. Cadwaladr, arg. Ceredigion = Alice, m. Richard, iarll Clare.

3. Cadwallon. Llofruddiwyd 1179.

Iorwerth Drwyndwn, o gastell Dolwyddelan = Marged, m. Meredydd, tywysog Powys.

1. Llywelyn Fawr (teyrn. 1194–1240) = 1. Tangwystl, m. Llywarch Goch, o'r Rhos.

= 2. Joan, m. John, brenin Lloegr, ac Agatha ei ordderch.

Gruffydd = Sina, m. Cariadog ab Thomas.

1. Dafydd (teyrn. 1240–1246). 2. Gwladys, briododd Syr Ralph Mortimer.

1. Llywelyn, ein llyw olaf. 2. Owen Goch.

## II.—O Owen Gwynedd hyd Howell y Fwyall.

Owen Gwynedd = 2. Christian, m. Gronow ab Owen ab Edwyn, ei gyfnither.

= 3. Amryw ordderchadon.

1. Dafydd = Emma, chwaer Harri II.

Owen.

2. Rhodri = 1. . . . . m. Rhys ab Gruffydd ab Tudur Mawr.

2. . . . . m. Gotheric, brenin Manaw.

1. Gruffydd. 2. Thomas = Marged, m. Einion ab Sisyllt. 3. Einion.

Cariadog = Efa, m. Gwyn ab Gruffydd, arg. Cegidfa.

1. Cynan, arg. Meirion. 2. Llywelyn. 3. Meredydd. 4. Edwal. 5. Fun. 6. Howell.

1. Gruffydd, a gladdwyd yn mynachlog Conwy, mewn cwcwll mynach, 1253 (p. 20).

2. Meredydd (p. 20).

Howell, a gladdwyd yn Nghonwy (p. 26).

7. Cadell. 8. Madog. 9. Einion. 10. Cynwrig.

11. Phylip. 12. Rhirid, arg. Clochran, yn yr Iwerddon.

1. Einion, arg. Penychen, Bala Deulyn, Pen y Berth, &c. = . . . .

1. Tudur, arg. Penychen, &c. (p. 29). Brenines Edward I. a ddeisyfodd gael ei diroedd, ac efe heb hil.

2. Gwervil.

2. Gruffydd, arg. Ffriwlwyd, Ystrad Esgibion, Rhos, a Rhufoniawc = Lleucu, m. Llywarch Vychan ab Llywarch Goch ab Llywarch Hwlbwrch.

3. Wilcocke, a aeth i Newton, yn Mhenfro.

4. Syna = Gruffydd ab Llywelyn.

Llywelyn ab Gruffydd, tywysog olaf Cymru.

Dafydd = Eva, m. ac aeres Gruffydd Vychan ab Gruffydd ab Moreithig o Benyfed, yn Eifionydd.

Howell ab Meredydd, o Eifionydd.

1. Ieuan. 2. Gruffydd = . . . .

1. Dafydd. 2. Meredydd. 3. Howell = 1. Eva (p. 38).

2. Gwenllian, br. Ievan ab Gruffydd ab Madog ab Rhirid Flaidd.

3. . . . . = Howell ab Gronow ab Ievan ab Gronow ab Howell, o Faelor.

Einion.

1. Gwervil, br. Tudur ab Hob y Dili. 2. Alician, br. Puleston. Llin Havod y Wern (p. 39.)

1. Ievan. 2. Howell y Fwyall = . . . .

## III.—O Howell y Fwyall hyd Syr John Wynne a William Salesbury.

**Howell y Fwyall.**
Brwydr Poitiers, 1356.

1. Meredydd (1353), o Cefn y Fan a Chesail Gyfarch (p. 41) = Morfudd, m. Iefan ab Dafydd ab Trahaearn Goch, o Leyn. (Ei hewyllys a brofwyd yn 1416.)
2. Dafydd, o'r Hen Blas, Llanrwst = . . . .

Plant Meredydd a Morfudd:
1. Robert, o blaid Owen Glyndwr. Gwel gywydd Rhys Goch (p. 56). = Angharad, m. Dafydd ab Llywelyn ab Dafydd o Gefn y Melgoed, yn Aberteifi. = Meredydd ab Rhys ab Ievan Llwyd, o . . Uchaf (p. 65).
2. Ieuan, Bu farw tua 1410 (p. 54). = Lleucu, m. Hywel Sele ab Meurig, o Nannau (p. 49).
3. Robin (p. 44).
4. Marsli, br. Jenkin Conwy.
 Sion, aer Conwy.

Mab Dafydd: Robin Vychan = Angharad, m. Rhys ab Gruffydd ab Rhys ab Ednyfed Vychan.
 Cattrin = Rhys ab Einion Vychan o Lanrwst, o'r Penwyn o Felai.
 Robert Salesbury = 1. Gwenhwyfar.
 2. Lleify = Gruffydd ab Madog Vychan, o Abergele.
 Ffowc Salesbury = m. . . . . Pulestone, o Fon.
 Robert. William.

Plant Robert ac Angharad:
1. Ievan, o'r Gesail Gyfarch. M. 31 oed. = 1. Cattrin, m. Rhys ab Howell Vychan, o Bron y Foel (p. 75.)
2. Gwenhwyfar, m. Madog Vychan, o Lwyn Dyrys.

Plant Ievan a Cattrin:
1. Meredydd. Bu iddo bump o wragedd. Bu farw 1525. = Alice, m. W. Gruffydd ab Robin, o Cochwillan.
2. Robert.
3. John.

Plant Meredydd ac Alice (Oll yn chwech ar hugain o blant.):
1. William.
2. John Wynne Bu farw 1553 = Elen Lloyd, m. Morris ab John ab Meredydd, o Riwaedog.
3. Rees.
4. Rhydderch.
5. Margaret, br. 1. Rhys ab Dafydd ab Gwilym, o Fon. 2. Ievan ab John ab Meredith, o'r Brynkir. 3. Robert ab Meredydd, o Fronheulog.

Plant John Wynne ac Elen Lloyd:
1. Morris Wynne.
 Syr John Wynne.
2. Gruffydd, o'r Berth Ddu.
3. Owen, o Gaermelwr.
4. Robert, o Gonwy.
5. Dr. John Wynne.

## IV.—Y Salesburiaid.

Adam de Salzburg (Abraham, medd rhai), 1154–1189 = Jocs, m. Syr William Damffred.
 Alexander.
 Thomas.
 Syr Harri Ddu Salesbury = Nest, m. ac aeres Cynwrig Sais, ac wyres Ithel Fychan.
 Syr John Salesbury, sylfaenydd y fynachlog yn Ninbych. Marw 1289 = Catherine, m. arglwydd Gemer.
 William.
 Rowling.
 Henry Salesbury, o Lawesog.
 Thomas Salesbury, Hen, 1451 = Elisabeth, m. Jenkyn Don.

Plant Thomas ac Elisabeth:
1. Syr Thomas. Br. Jane, m. ac aeres W. Fychan, *chamberlain* Gwynedd.
2. Harri. Br. Marged, m. Gruffydd ab Rhys ab Gruffydd ab Madog Gloddaeth, aeres Gloddaeth, a briodasai yn flaenorol Howel ab Ieuan Fychan, o Fostyn.
3. Ffowc. Deon Llanelwy, 1511–1543.
4. John. Br. Lowri, o Bachymbyd.
5. Robert = Gwenhwyfar, m. ac aeres Rhys ab Einion Fychan, o Lanrwst.

Plant Robert a Gwenhwyfar:
1. Ffowc = . . . . m. . . . . Puleston, o Fon.
2. Rhys.
3. Robert, &c.

Plant Ffowc:
1. Robert = Lowri, m. Syr Robert ab Rhys, o'r Yspytty.
William = . . . . (?)
 John = Mary Salesbury o Stour, yn Kent.
 Mab, yn byw yn y Plas Isaf yn 1612.
 Mab, a fu farw yn y Cae Du yn 1630.

Plant Robert a Lowri:
1. Gwen = Gruffydd Wynn, o Wydir.
2. Elen = 1. Elis Llwyd, o'r Rhiw Goch, hynaif Syr John Wynn o Wynnstay. = 2. Owen Wynn, o Wydir, ei chydfrawd yn nghyfraith.
 Sion Wynn Owen.

Digitized by Google

IV.—Y SALESBURIAID.—*(Parhâd.)*

2. Harri = Marged.

1. Harri Goch = 1. Liws = 2. . . . .    2 Merched.

Catrin.

Dafydd, o blwyf Llanberis, cwmwd Is Gwyrfai = Marsli, m. Ivan Llwyd.

1. William.  2. Sion.  3. Robert.  4. Cadwaladr.  5. Simwnt.  6 a 7, dwy Ferch.

4. John = Lowri, o Bachymbyd (Lewis Dwnn, p. 331).

1. Piers Salesbury, o Bachymbyd = Marged Win, ach Ifan ab Howel ab Rhys ab Dafydd ab Howel ab Gruffydd ab Owen, Brogyntyn.  2. Sion Wynn.  3. Ffowc.  4. Robert.  5. Catrin.  6. Elizabeth.  7. Alis.

Robert.

Syr Sion Salesbury, o Rug. Sirydd 1559.

William.

John.

o'r hen gartref, a'r cwestiwn sydd yn ddyrys yw: Pa fodd y cawn wedyn fod Robert Salesbury, yr hwn a briododd Gwenhwyfar, unig ferch ac aeres Rhys ab Einion, yn trigiannu yno wedyn? Dyna un dyryswch, ond y mae yma un arall hefyd yn cyfodi. Fodd bynag, fe'u cymerwn bob yn un ac un. Ein hateb i'r cwestiwn cyntaf yw i'r Hen Blas barhau byth wedyn yn y gangen hynaf o'r teulu, ac na bu erioed yn eiddo y Salesburiaid. Yr unig achos o'r dyryswch yw cymysgu y Plas Isaf â'r Hen Blas, tra y mae rhyngddynt lawn 3 milltir o ffordd, a'u bod yn perthyn i ddwy etifeddiaeth wahanol; a dyna ddigon ar y pen yna.

Mor fuan ag y cafodd Rhys ab Einion wŷs i ymadael o'r Hen Blas dechreuodd adeiladu Brynsyllty,* yr hwn oedd ychydig yn nes i Lanrwst, ond ar etifeddiaeth wahanol. Ein barn yw mai i Rhys ab Einion y perthynai y dreftadaeth hon, am y dywed Syr John Wynne mai tua hanner Maethbrood a berthynai i'w deulu ef; er ei fod yma, fel y mae yn lled fynych, braidd yn anhawdd ei ddeall. Ond yr ail ofyniad a awgrymasom uchod yw: Pa fodd y gallodd Robert Salesbury gadw meddiant o etifeddiaeth ei dad yn nghyfraith, Rhys ab Einion, yn rhinwedd hawl ei wraig Gwenhwyfar mwy nag y gallodd Rhys ab Einion yn rhinwedd hawl ei wraig Catrin? Yr atebiad i'r gofyniad hwn yw, fod yr etifeddiaeth hon wedi bod yn meddiant Henry Lacy, iarll Lincoln ac arglwydd Dinbych, ac felly yr oedd deddf y gafael cenedl wedi ei dirymu o barthed i'r etifeddiaeth hòno. Ond fe ddaw yr un cwestiwn i fyny eto yn nglŷn â helynt anhyfryd William Salesbury a'i ddwy nith.

* Bryn Ellylldy. (Ordnance Map.)

O ochr ei dad, disgynai William Salesbury o deulu urddasol, lluosog, a dylanwadol Lleweni. Ei dad oedd Ffowc Salesbury o'r Plas Isaf, Llanrwst. Y mae y lle hwn yn ymyl y dref, tua 3 milltir oddiwrth y ddau hen le, Brynsyllty a'r Hen Blas. Tad Ffowc Salesbury oedd Robert Salesbury, i'r hwn yr oedd pymtheg o blant:— 1, Ffowc; 2, Rhys; 3, Robert; 4, Dafydd; 5, Sion; 6, Harri; 7, Ralph; 8, Sion Ieuangaf; 9, Thomas; 10, Huw; 11, Edward; 12, Elin; 13, Catrin; 14, Marged; a 15, Sian. Felly Ffowc oedd yr hynaf, ac yn y Plas Isaf y trigiannai. Yr oedd y teulu y pryd hyn wedi ymestyn i Rhyd Lanfair, Gwytherin, a Llanefydd, ac wedi ymgyfathrachu â phrif deuluoedd y wlad. Ond fel casglwyr eiddo a gwŷr llygadog am urddas ac awdurdod yr hynodid hwy yn gyffredinol, ac nid oes odid neb o honynt yn adnabyddus fel llenorion na chrefyddwyr heblaw Henri Salesbury, o Dolbeledr, a gwrthddrych y cofiant hwn.

Myntumir yn gyffredin mai yn y Plas Isaf y ganwyd W. Salesbury, ond y mae genym brawf pendant mai camgymeriad yw hyny. Meddwn ei dystiolaeth ef ei hun mai yn y Cae Du, ger Llansannan, y cafodd ei enedigaeth. Mewn llysieulyfr dyddorol o'i waith dywed fel y canlyn:— "Tir ffraeth y tyf y rhyw hwn o'r hokys: mi a'i gwelais yn tyfu yn y ddol dan blas Meredydd

Digitized by Google

ab Gronow yn Llansannan, sef y plwyf y ganed fi." Y plas a nodir uchod oedd yr hen Ddyffryn Aled, am yr afon â'r palas newydd presennol, yr hwn sydd yn feddiant i deulu Yorke o Erddig. Yn ol tystiolaeth trigolion Llansannan y mae y llysiau rhinweddol, yr hocys (*mallows*), yn tyfu yn ardderchog yno hyd y dydd hwn. Yr oedd yno wr yn byw yn Nyffryn Aled yn amser W. Salesbury o'r enw Meredydd ab Gronow, fel y dengys y lechres isod o achau y teulu.* Felly nis gall fod un ammheuaeth am y plwyf, ac oddiwrth yr ystyriaethau canlynol, yn nghyda'r traddodiad yn yr ardal, nis gall fod nemawr ammheuaeth yn nghylch y tŷ.

I ba gangen o'r teulu y perthynai y Cae Du? Pa fodd y daeth i fod yn feddiant i William Salesbury? Diau fod llawer o'r teulu ac o'r enw yn byw yn y cylchoedd, ond nid oes odid gofnodiad am neb o honynt, er y dywed llechres Dyffryn Aled fod cangen o honynt wedi bod yn trigiannu yno yn yr hen amseroedd; neu o leiaf fod y teulu yn disgyn o'r cyfryw gangen, ac felly rhaid eu bod yn fawr eu dylanwad yn y lle. Nid yw yr enw Salesbury i'w gael gymaint ag unwaith yn mynwent nac eglwys Llansannan, a chlywsom nad yw chwaith yn llyfrau y plwyf! Yr unig gofnodiad a welsom oedd yr enw "JOHN SALESBURY, 1758," wedi ei dori yn ddwfn ar drawst derw mawr yn ystabl yr Hendref, yr hwn oedd yn hen dŷ. Y Cae Du, o ganlyniad, yw yr unig fan yn mhlwyf Llansannan lle gallasai William gael ei eni. Yn awr y mae dyddordeb newydd yn ymgasglu o gwmpas yr hen le hwnw, ac ymdrechwn roddi dysgrifiad byr o hono ac o'i safle fel y mae yn awr, ac fel yr oedd yn amser y cyfieithydd. Saif Cae Du tua 2 filltir o'r Llan, ar lethr serth, uwch law ceunant dwfn, drwy yr hwn y rhed yr afon Aled. Ar ei gyfer, yr ochr arall i'r ceunant, y mae Chwibren a Than y Rhywiau, cartrefi y Llwydiaid a hynafiaid y Rhysiaid. Yn y Cae Du y magwyd llawer ar y ddau frawd-weinidogion enwog Henry a William Rees, fel y mae yr hen adfeilion yn gysegredig yn nheimlad Cymru ar lawer ystyriaeth, heblaw fel anneddle Salesbury. Adfeilion, meddwn, oblegid gyda galar nid bychan y rhaid ini gyhoeddi fod yr hen Gae Du erbyn hyn yn garnedd, a thŷ newydd wedi ei adeiladu ychydig yn uwch i fyny. Saif yr hen dŷ â'i dalcen i'r wtre, a'i fur yr ochr hòno yn ddwfn yn y ddaear; tra yr oedd y talcen isaf, oherwydd cwympiad yn y tir, uwch law yr arwyneb, a'i lawr yn ddigon uchel i ffurfio math o seler yn y pen hwnw. Ar frys mawr y cawsom yn bersonol ryw gipolwg ar y lle, ond darfu cyfaill caredig o'r ardal, ein harweinydd ar y pryd, ailymweled â'r hen dŷ ac anfon i ni fesuriadau yr ystafelloedd a chynllun o'r adeilad. Yr oedd yn yr hen dŷ dair ystafell ar y llawr a dwy i fyny, heblaw y seler a grybwyllasom eisoes a'r ystafell fechan enwog yn y simdde, lle y dywedir i Salesbury gyfieithu y Testament. Yr oedd hyd yr adeilad drosti tua 72 o droedfeddi, a'i lled rhwng y muriau tua 14 o droedfeddi. Cymerai yr ystafell gyntaf tua 9 troedfedd o'r hyd, ac yn hon nid oedd le tân, ond gorweddai yn lled ddwfn yn y ddaear. Y nesaf, neu y ganol, oedd y brif ystafell, yr hon a fesurai tuag 16 troedfedd o hyd, ac ynddi yr oedd yr aelwyd a'r simdde. Gwahanid y ddwy ystafell hyn gan fur ceryg yn cyrhaedd i'r nen, a mantell lydan yn taflu allan uwch ben yr aelwyd, ac fel y mur yn cyrhaedd i'r nen. Nid oedd un llofft ar yr ystafell gyntaf, ond yr oedd un oddiar y ddwy arall, ac un fechan hefyd wedi ei ffurfio yn y simdde rhwng y fantell, neu y palis oddiar y fantell, a'r mur terfyn, ac uwch ben yr aelwyd. Yr oedd y llofft oddiar y gegin fawr felly yn llai na'r gegin o led y simdde. Nid oedd un drws i fyned o'r brif lofft i'r un fechan a

* ACHAU DYFFRYN ALED:—

Ednyfed ab Tudur ab Dwywg ab Gwilym ab Edryd, ab Ineithon ab Joseth ab Carwedd ab Marchudd, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd = Gwenllian, m. Rhys ab Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, brenin Debenbarth.

Dafydd Llwyd = Alswn, m. Gruffydd ap Einion Dew.

Gruffydd = Alswn, m. Siencyn Pigot ab Howel P. ab Wilcox P.

Gronw Gethin = Isabel, m. Gruffydd ab Einion ab Tudur ab Heilyn Goch ab Tudur ab Einion ab Cynfrig ab Llywarch.

MEREDYDD = Agnes, m. Robert Fychan, o'r Berain.

1. Gwen = Cadwaladr ab Pyrs Macsmor, o Facsmor.

2. Robert = Agnes, m. Ifan ab Dafydd ab Meredydd, o'r Hafodunos.

Thomas Wynn, o'r Dyffryn = Catrin, m. Robert Wynn ap Cadwaladr, o'r Voelas.

Digitized by Google

ddarluniwyd, ac nis gallasai neb feddwl fod yno un ystafell o gwbl. Yr unig ffordd i fyned iddi oedd drwy ddringo i fyny y simdde, a dyma'r fath le oedd y ddirgelfan, neu gysegr fel y gellid yn briodol ei alw, lle y cyflawnwyd y gwaith santaidd a roddodd y fath enwogrwydd arno.

Ar y llechwedd islaw y tŷ y mae olion gardd, wedi ei chodi yn fath o ddau esgynlawr (*terrace*) bychan i wastatäu y tir, ond nis gwyddom a oes yno beth o hiliogaeth y "redic" y parodd Salesbury eu "symytto" i'w ardd o Aberllechog. Fe dŷf yno amryw goed ffrwythau, ond y mae hithau, yr ardd, fel y tŷ wedi myned yn adfail a gwyllt.

Gobeithiwn gael eto ymweled â'r lle yn yr haf, i edrych a oes yno ddim tebyg i rywogaeth y llysiau y gallasai yr hen lysieuwr fod wedi eu trawsblanu yno.*

Nis gwyddom ddim am fabolaeth William Salesbury. Fel y canlyn y dywed Gwallter Mechain am ei addysg a'i ddygiad i fyny:—"Ysgolion ei fro enedigol a fuont wasanaethawl i osod sylfaen ei gyfarwyddyd mewn ieithoedd. Mewn oed cyfaddas anfonwyd ef i Rydychain, i yfed yn helaethach o ffrydiau dysg a gwybodaeth. Ni wyddai Antoni Wood, pan gyhoeddawdd ei 'Athenæ Oxonienses,' pa un ai yn Athrofa St. Alban ai yn Broadgate (yn awr Coleg Penfro) y cartrefodd tra yn y brifysgol. Yn mhen ennyd symudawdd oddiyno i'r brif ddinas i fyfyriaw, ac i fod yn hyddysg yn y deddfau cartrefawl a thramor; ar y cyntaf mewn lle a elwid Thave's Inn,† ac wedi hyny, medd rhai, yn Lincoln's Inn. Ond ni adawawdd Rhagluniaeth iddo ymrwymaw am ei oes yn ngwasanaeth y gyfraith ac elw bydol. Gadawai y rhai hyn i Ddemas a'i deulu, a dychwelawdd i fyw ar ei etifeddiaeth yn ngwlad ei enedigaeth. Helaethrwydd ei wybodaeth, a dyfnder ei ddysg mewn llawer o ieithoedd, a wnaeth i oreugwyr a dysgedigion ei wlad edrych arno gyda pharch a charedigrwydd."‡

Arweinia hyn ni at y dirgelwch annymunol yn nghylch yr etifeddiaeth. Ymddengys fod Mr. John Gruffydd o Gae Cyriog, hynafiaethydd gwybodus a gonest, yn dyweyd yn bendant fod William Salesbury wedi dal y Plas Isaf oddiwrth ei ddwy nith amddifaid. Cyhuddiad trwm yw hwn, fel y sylwa'r Dr. Edwards,§ ac nis gwyddom pa fodd i'w lwyr glirio. Pe buasai y tiroedd wedi parhau yn aeriaeth Gymreig, yn ol hen ddeddf y gafael cenedl, nis gallesid beio llawer ar ei ymddygiad; ond fel y gwelwyd eisoes, y tebygolrwydd yw fod etifeddiaeth y Plas Isaf wedi ei throsi i'r daliad Seisnig, ond pa un a oedd hyny yn golygu nas gallai merched ei hetifeddu sydd gwestiwn i'r cyfreithwyr. Yr hyn sydd yn gwneyd yr achos yn ddrwg yn erbyn ein harwr yw tystiolaeth ddifloesgni yr hynafiaethydd y buasai efe wedi attal ychwaneg o'u heiddo oddiwrth ei nithoedd oni buasai i'r Doctor Coch ei rwystro. Yr oedd Ellis Price hefyd yn ewythr iddynt o frawd eu mam, ac yn wr galluog iawn, fel y gwelwyd yn y tudalenau blaenorol; ond nis gwyddom pa'r un ai drwy deg ai drwy ystryw yr amddiffynodd efe ei nithoedd, oblegid yn ol y traddodiad yr oedd efe yn feistr ar fwy nag un gyfraith. Drwg genym na fedrem gael rhyw dystiolaeth bendant i wrthbwyso tystiolaeth Mr. John Gruffydd, oblegid nis gallem ystyried unrhyw ddamcaniaeth yn ddigonol i'w mantoli. Y mae helyntion etifeddiaethau yn fynych mor ddyrys fel mai gwaith anhawdd yw penderfynu y dadleuon a gyfodant o barthed iddynt. Nid oes genym ond casglu, oddiwrth holl hanes a chymeriad William Salesbury, nad yw yr un blotyn hwn ar ei enw mor ddu ag y myn rhai ini gredu.

Pa bryd y bu farw ei frawd Robert nis gwyddom, ac o ganlyniad nis gallwn benderfynu pa bryd y gadawodd yntau Lundain ac yr ymsefydlodd yn y Plas Isaf. Ein barn yw iddo gyhoeddi ei ddau waith cyntaf cyn gadael Llundain, ac felly iddo ddychwelyd i Gymru yn fuan ar ol 1550. Llyfrau Seisonaeg yn gyfangwbl, neu mewn rhan, oedd y ddau hyny, a rhai Cymraeg a gyhoeddodd ar ol hyny i gyd.

Y llyfr cyntaf a argraffodd oedd ei eiriadur, yr hwn a gyhoeddwyd gan John Waley yn 1547. Nid ydym yn sicr nad hwn yw y llyfr a argraffwyd gyntaf yn yr iaith Gymraeg (mor bell ag y mae yn Gymraeg), oblegid nid ymddengys fod un copi ar gael o'r "Beibl" y dywedir ei gyhoeddi y flwyddyn flaenorol, ac y priodolir ei awduriaeth i Syr John Price.* Gall fod pob copi o hono wedi diflanu er dyddiau Moses Williams, yr hwn a'i cofnododd yn 1717, ond y mae amryw gopïau

* Y Traethodydd, 1873, t. 178, *et seq.*
† Sefydlwyd y gymdeithas hon yn y flwyddyn 1519. Dilewyd hi yn 1768.
‡ Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii. t. 198.
§ Traethodau Llenyddol, t. 87.

* Llyfr. y Cymry, t. 3. Y mae amryw ysgrifenwyr wedi priodoli hwn yn gamsyniol i Salesbury, megys Gwallter Mechain (Gwaith Gwallter Mechain, t. 199), y Dr. Edwards (Traethodau Llenyddol, t. 89), Gweirydd ap Rhys (Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii. t. 430), "Enwogion Cymru," *sub voce*, &c.

Digitized by Google

holl ddiniwed), yr wyf yma wedi gwneuthur llyfr bychan diaddurn, er mwyn y werin ddiaddurn a diniwed, fel (megys y nodais o'r blaen) wedi eu darbwyllo yn effeithiolach drwy wersi eglur o'r Ysgrythyr Lân, na fyddo ganddynt yr unrhyw achlysur i furmur, i rwgnach, na thramgwyddo, nac wrth weithrediadau buddugoliaethus archesgob Lloegr (*Allusio sine periphrasis Nicolati episcopi Londoniensium*) nac wrth unrhyw esgob na swyddog cyfreithlawn arall a ymgymero â'r cyfryw oruchwyliaethau: hyny yw, i ddiwreiddio a symud ymaith yr allorau Pabaidd allan o eglwysi a themlau Crist. Yn mhellach, yn gymaint ag y canfyddwn (fel y rhoddodd un o'r doctoriaid Pabaidd dysgedicaf yn Lloegr achlysur imi, drwy amddiffyn ei allorau gyda dant ac ewin, a ffyrnigrwydd angerddol, ac hefyd gydag awdurdod Ysgrythyrau gwyrdroëdig) ac y teimlwn yn berffaith sicr y parhâ yr holl Babistiaid dysgedig i fyntumio eu hallorau cysegredig; felly y'm gorfodid i wneuthur y llyfryn bychan hwn yn fwy gwasgedig a chynnwysfawr, ac felly yn fwy eang ac anhawdd ei ddeall nag y bwriadaswn yn ol fy nghynllun dechreuol. Felly pwy bynag a fyno ei ddeall, darllened ef yn drwyadl, ac os derbynia drwy hyny fwy o oleuni neu wybodaeth berffaith o'r pwnc a drinir ynddo, diolched i Dduw a molianned Ef, yr Hwn a'i rhoddodd.

"I'r Hwn y byddo pob anrhydedd
a gogoniant.
Amen."

Y mae yn myned yn mlaen wedyn, yn nghorff y gwaith, i gymharu ei hunan i ornestwr dewr yn rhoddi rhybudd o'i fwriad cyn ymosod ar y gelyn, gan gyhoeddi yn uchel ei fod yn annelu ei gyflegrau at ragfur y Babaeth, yr hwn wrth gwympo a dyn i lawr gydag ef yr holl adeilad. Ar y pedwerydd tudalen y mae brawddeg anhawdd iawn ei deall a'i chysoni â dyddiad y llyfr. Fel hyn y mae:—"Cymerwch ofal, gan hyny, rhag na byddo gan eich rhagfur (*Botereulx*) sylfaen safadwy: canys os gallwn brofi mai ar Moses y'i sÿlfaenwyd, ac nid ar Grist, yna fe'i ddistrywiwyd mewn effaith M.D.*lxxvii.* o flynyddoedd yn ol." Pa fodd y gallai y llyfr gael ei gyhoeddi yn 1550, ac yntau heb ysgrifenu hyd 1577? Rhaid fod yma gamargraffiad neu rywbeth. Prin y gall fod camgymeriad yn amser y cyhoeddiad, gan ei fod yr un fath yn nechreu ac yn niwedd y llyfr, ac y mae y nodiad ar y dechreu yn dyweyd mai yn 1550 y casglodd yr awdwr ef. Dichon mai ar ol yr *x* gyntaf y dylai yr *l* fod, ac felly mai 1547 ddylasai fod yn y fan dan sylw. Ar ol egluro ystyr a tharddiad y gair allor yn Hebraeg, Groeg, a Lladin, y mae yn gosod i lawr resymau y Pabyddion dros eu hallor a'u haberth, allan o'r Hen Destament a'r Newydd ac allan o'r tadau Cristionogol, a threulia amryw dudalenau i ddychymygu a darlunio ymffrost ofer y gwrthddadleuydd yn ei adnodau, gan ei fwgwth â dymchweliad llwyr a therfynol. Y mae yn myned o amgylch y gorchwyl hwn drwy ddangos yn gyntaf oferedd holl aberthau y cenedloedd paganaidd; yna dengys amcan a threfn yr aberthau Iuddewig, nad oeddynt ar y goreu ond cysgodion yn cyfeirio at Grist ac yn cael eu sylweddoli yn ei farwolaeth Ef, a'u bod yn fynych, drwy gnawdolrwydd a ffurfioldeb yr aberthwyr yn hollol ddifudd, ac hyd yn nod yn bechadurus. Yna dengys os nad oes ebyrth nas gall fod ystyr i allor, ac felly fod allorau y pab oll yn dwyllodrus. Gorfoledda beth uwch ben ei ymresymiad, a heria y Pabydd i'w ddymchwelyd. Edliwia hefyd i'r doctoriaid duwinyddol gymaint yn llai dysgedig ydynt hwy yn nghyfraith Duw ragor y cyfreithwyr gwladol yn neddfau y wlad. Dyfyna yn helaeth o'r Ysgrythyr, ac yn enwedig o ysgrifeniadau Paul, a dwg dystiolaeth Cystenyn dros ymwrthod yn hollol â phob defodau paganaidd—hyd yn nod enwau dyddiau yr wythnos, a'r cyfryw fân olion o'r hen baganiaeth. Dyfyna hefyd o Polidore Virgil, yr hwn a eilw yn gydwladwr i'r pab, gan ei gymharu i Caiaphas, yr hwn yntau a dystiolaethodd i'r gwirionedd yn erbyn ei gredo cyfeiliornus ei hun a'i genedl. Ond un o'r paragraffau mwyaf dyddorol yn y llyfr yw yr un lle y traetha ei brofiad ei hun fel Pabydd dychweledig. Fel hyn y dywed:—

"Canys yr oedd gyda hwy (yr Iuddewon) y pryd hyny, fel y bu gyda minnau pan yr oeddwn yn Babydd santaidd, pryd yr oedd fy mherthynas â Duw yn debyg i hyn: sef, os gwrandawn offeren ar Sul a gwyl, os dywedwn fy ngweddi blygeiniol i Mair, neu Sallwyr y Forwyn, os cusanwn ac y llyfwn yn ddefosiynol draed eu saint (canys felly y galwant eu delwau), ac os taenellwn fy hun â dwfr rheibiedig (*conjured*), ac os dygwn y penyd ofergoelus a osodid arnaf gan fy—pa'r un a ddywedaf, gelyn ynte tad?—ysbrydol; yna, meddaf, yr oeddwn ar y fath delerau â Duw fel y tybiwn ac y credwn yn gadarn fy mod wedi cyflawni fy nyledswydd yn llawn tuag ato, er nad alwaswn unwaith i gof haeddiannau marwolaeth Crist i foddloni a dyhuddo cyfiawnder, am yr holl droseddau a phechodau a gyflawnaswn a'm buchedd ddrygionus drwy fy mywyd yn flaenorol.

"Ië, heblaw yr holl ryfyg Pabaidd a dieflig hwn, tybiwn yn mhellach os byddwn wedi cyflawni y gweithredoedd ofer a enwais, ac ereill tebyg, nad oedd genyf fwy o ddyled i Dduw nag oedd ganddo yntau i minnau; ac ni chyflwynwn iddo unrhyw ddiolch am faddeu i mi fy

Digitized by Google

mhechodau, mwy nag a ddyry y naill farchnatäwr i'r llall am gael ceiniogwerth am geiniog.

"Ond diolch fyddo i'r Arglwydd, yr hwn yn unig o'i dosturi a'm gwaredodd o'r heresi Babaidd hon, ac a ganiatao yr unrhyw fendith i weithredu y cyfryw wyrth mewn cynnifer ag sydd eto yn parhau yn y fath gyfeiliornad damniol."*

Wrth adael y llyfryn bychan hwn gwelwn ynddo, fel yn holl weithiau yr awdwr, radd helaeth o ddefosiwn personol yn gystal ag o ddysg ac athrylith; ac yr oedd y naill yr un mor angenrheidiol iddo a'r llall er cyflawni y gwaith mawr a gogoneddus a dorasai Rhagluniaeth o'i flaen. Aeth ein dyfyniadau braidd yn helaethach nag y bwriadem ar y dechreu, ond hyderwn na bydd y darllenydd yn ddig am hyny, oblegid dyma yr unig lyfr crefyddol gwreiddiol o waith yr awdwr, ac ni chyfieithwyd o'r blaen ddim o hono i'r Gymraeg.

Yn yr un flwyddyn (1550) cyhoeddodd W. Salesbury ei ragdraeth i'w eiriadur ar wahan, o dan y teitl, "A Brief and plain Introduction, teaching how to pronounce the Letters in the Brytysh Tongue." Ond gan nad oes yr un copi o hono yn adnabyddus, ac fod y cofnodiad yn gwbl ar awdurdod ein llyfryddwyr, a'u llyfryddiaeth yn y cyfnod yma yn lled ddiymddiried, nis gallwn roddi nemawr bwys arno.† Gwasanaetha yr un sylwadau yn nghylch llyfr arall cyffelyb, a gofnodir o dan yr un flwyddyn, sef: "Arweiniad hawdd ac eglur i'r iaith Gymraeg. Gan W. Salesbury."

Yn y flwyddyn ganlynol (1551) cyhoeddodd gyfieithiad o'r llithiau a'r Epistolau dan y teitl, "KYNNIVER llith a ban or yscrythur ac a ddarlleir yr Eccleis pryd Commun y Sulieu a'r Gwilieu trwy'r vlwyddyn: o Cambereiciad W. S. ¶ Imprinted at London by Roberte Crowley for William Salesbury dwellynge in Elye tentes in Houlbourne Anno Domini MD.L.i." Ar awdurdod Moses Williams yn unig y cofnodir y llyfr hwn eto, am nad oes un copi adnabyddus ar gael ac nad ydys wedi darganfod unrhyw drwydded awdurdodol i'w argraffu. Nid oes angen gwell tyst na M. Williams, wrth gwrs, ond buddiol yw deall ar ba dir y safwn a pha faint yw mesur y tir hwnw.

Rhaid ini yn awr neidio deuddeng mlynedd cyn y cawn unrhyw gofnodiad am lafur ein gwron. Ond

* The Batery of the Popes Botereulx, fol. 1

† Cofnodir, fodd bynag, ail argraffiad o hono dan y flwyddyn 1567 (Rhif 5), yr hwn y mae Ieuan Brydydd Hir, yn ei "Specimens of the Poetry of the Ancient Welsh Bards," wedi rhoddi adysgrif o'i ragdraeth (t. 43; 2fed argr.). Stationers' Register, vol. i. p. 155. Y Traethodydd, 1876, t. 430.

yn 1562–1563 cawn gofrestriad trwydded i Mr. Waley argraffu y Litani (*Lateny*) yn Nghymraeg.* Nid oes enw cyfieithydd yn cael ei roddi, ond oddiwrth y cyhoeddwr a natur y gwaith teimlwn yn bur hyderus i'w briodoli i W. Salesbury.

Deuwn bellach at flwyddyn enwog yn hanes grefyddol a llenyddol ein gwlad, yn gystal ag yn mywyd gwrthddrych y sylwadau hyn. Yn 1567 cyhoeddwyd y Llyfr Gweddi a'r Testament Newydd yn gyflawn yn ein hiaith, heblaw un neu ddau o lyfrau ereill gan awduron gwahanol, nad ydynt mewn cysylltiad â'n llenyddiaeth, nemawr lai pwysig. Cymerwyd y drwydded i argraffu y Gwasanaeth-lyfr o flaen yr un i argraffu y Testament (1566–1567),† ond nis gwyddom pa un o honynt a ddaeth gyntaf allan o'r wasg. Yn rhestr ein llyfryddwyr y Testament a osodir gyntaf; ond efallai mai oherwydd ei orbwysigrwydd, er fod yn ddichonadwy, yn ol y cofrestriad, ddarfod i'r Gwasanaeth-lyfr ymddangos yn 1566. Gesyd Moses Williams y Llyfr Gweddi, fodd bynag, dan y flwyddyn 1567; ac er nad oes cymaint ag un copi yn adnabyddus yn awr, nid oes genym le i ammheu y dysgrifiad a roddir o hono gan y gwr dysgedig hwnw.

"Yr oedd hwn yn Llyfr Gweddi mawr i'r eglwysi, mewn cydymffurfiad â'r Weithred Seneddol a grybwyllwyd yn barod. Dywed Moses Williams mai cyfieithiad William Salesbury ydoedd; ond dywed y Parch. R. Williams ('Eminent Welshmen') mai cyfieithiad yr Esgob Davies ydoedd, ac iddynt dalu y draul o argraffu rhyngddynt."‡ "Nid oes ond ychydig o anghysondeb rhwng y ddau fynegiad. Cydwaith Davies a Salesbury ydoedd y cyfieithiad; a golyga y naill awdwr mai yr esgob a gynnorthwyai Salesbury, ac ystyria y llall mai Salesbury a gynnorthwyai yr esgob. Ond pa un o honynt oedd â'r llaw benaf yn y gwaith, annichonadwy bellach yw dywedyd. Priodola Tegid ('Bedd Gwr Duw,' t. 24) y gwaith i'r esgob, gyda chynnorthwy Salesbury."§

* Stationers' Register, vol. i. *sub dato*. Y Traethodydd, 1876, t. 429.

† Stationers' Register, vol. i. *sub anno*. Y Traethodydd, 1876, t. 428.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 21.

§ Llyfr. y Cymry, t. 21. (Nod y golygydd.) Fel y canlyn y rhoddir y teitl yn "Llyfryddiaeth y Cymry:"—

"Llyfr Gweddi Gyffredin. 1567.

"'Finis Tra Vo—Imprinted at London by Henry Denham at the costes and charges of Humfrey Toy, 1567, and are to be sold at his shop at the sygne of the Helmet in Paules Churchyard. Cum privilegio ad imprimendum solum.' [unplyg.]"

Felly ymddengys fod y wynebddalen wedi colli o'r copi a welodd Moses Williams, ac mai ar y diwedd y mae hyny o ddarluniad o hono ag a roddir. Sylwer hefyd ei fod wedi ei argraffu gan yr un argraffydd a'r Testament, ac ar draul yr un boneddwr gwladgar a haelfrydig.

Digitized by Google

Yr unig ffynnonell y gallwn ddysgwyl goleuni ychwanegol o honi yw yr ail argraffiad o'r llyfr hwn. Ymddangosodd hwnw yn 1586, ond heb enw cyfieithydd.* Oddiwrth yr iaith a'r arddull yr ydym yn casglu nas gall fod nemawr ammheuaeth nad gwaith Salesbury ydoedd, heb ond ychydig iawn o gyfnewidiad ac o dan ei olygiaeth ef ei hun, er fod y cyhoeddwr a'r cynnorthwywr arianol yn wahanol. Fel llyfrau ereill Salesbury yn gyffredin, nid oes enw awdwr ar y wynebddalen. Cawn ynddo y geiriau sydd yn neillduol i'r cyfieithydd, gyda'r eglurhadau neu amrywiaethau ar "'ledemyl" y ddalen, fel yn y Testament. Yr un modd y mae y nodiadau Seisonaeg yn cyfateb yn hollol i arddull Salesbury wrth ysgrifenu yn yr iaith hòno, a cheir ynddo yr "Argument" o flaen y Sallwyr, fel o flaen y Testament. A mwy na'r cwbl, cynnwysa restr o eiriau y cwynid oherwydd eu haneglurder yn cael eu hesbonio yn Seisonaeg; yr hyn a brawf fod yr awdwr, pwy bynag oedd, wedi bod o flaen y cyhoedd yn flaenorol ac yn cael ei feio am ei arddull. Y mae yr holl ystyriaethau hyn yn ein cyfeirio yn ddigamsyniad at y cyfieithydd dysgedig o'r Plas Isaf. Nid llai awgrymiadol ychwaith ydyw y pennillion a geir i'r misoedd ynddo, oblegid y maent yn debyg iawn i eiddo Salesbury ar ddechreu ei lysieulyfr, ac o'r un dosbarth a'r proest ar wynebddalen y Testament. Nis gwyddom beth yw ystyr y geiriau, "Finis Tra Vo at London," sydd ar y diwedd; ond y maent yr un fath ar ddiwedd yr argraffiad cyntaf. Felly dyma genym ail argraffiad o gyfieithiad Salesbury o'r Llyfr Gweddi, heb nemawr gyfnewidiad yn ei iaith na'i arddull; a chan fod copi anghyflawn o hwn yn yr Amgueddfa Brydeinig, gallwn gasglu oddiwrtho beth oedd nodweddion yr argraffiad cyntaf, o'r hwn nid oes un copi yn adnabyddus.

Ond gwaith mawr William Salesbury oedd cyfieithu y Testament i'r iaith Gymraeg. Y ffordd i fesur mawredd unrhyw waith yw ystyried mawredd ei ddylanwad. Yn yr ystyr yma, dyma waith mwyaf yr oes mewn perthynas â Chymru; a dylai gael ein sylw manylaf ninnau yn yr oes hon, gan mai drwyddo y derbyniasom ni ein rhagorfreintiau penaf.

Fel y sylwasom droiau yn barod, nid oes brawf fod y Beibl yn adnabyddus i'r Cymry cyn yr hanner olaf o'r unfed ganrif ar bymtheg. Dywed Richard, esgob Mynyw, yn ei "Epistol at y Cymry," y gallai fod yr Ysgrythyrau yn ddigon cyffredin yn mhlith y Cymry yn yr hen oesoedd, cyn eu gorchfygu, eu hyspeilio, a'u dinystrio gan y Seison. Ychydig iawn o brawf sydd o hyn, oblegid er cymaint o lawysgrifau Cymraeg sydd yn gadwedig, rhyfedd gan lleied o'r Beibl a geir yn eu plith! Ein cred yw na bu y cyffredin bobl erioed yn gydnabyddus â Gair Duw cyn darganfyddiad y gelfyddyd o argraffu, er fod profion i rai rhanau gael eu dymchwel i'n hiaith yn lled foreu.

Cafodd y Gothiaid barbaraidd yr Efengylau yn eu hiaith yn y bedwaredd ganrif, drwy lafur eu hesgob, Ulphilas, cyfieithiad yr hwn sydd yn bodoli eto. Aralleiriodd Cædmon ranau o'r Beibl yn iaith y Sacsoniaid yn y seithfed ganrif, ond nid oes sicrwydd ddarfod i'r Cymry fwynhau yn eu hiaith eu hunain unrhyw gyfran o'r Gyfrol Santaidd cyn y drydedd ganrif ar ddeg. Yn y flwyddyn 1277 cawn Joan, archesgob Caergaint, yn cenadu i ganonwyr Llanelwy gario oddiamgylch "y llyfr, neu eiriau yr Efengylau, yn perthyn i eglwys Llanelwy, a elwir yn gyffredin wrth yr enw 'Ereuegilthes.'"* Yr oedd hwn yn Llanelwy yn amser yr Esgob Goldwell, a thybia rhai iddo fyned âg ef ymaith i Rufain yn 1558, ond nid yw Browne Willis o'r farn hòno.†

Yn ddiweddarach fyth, cyfarfyddwn âg aralleiriad o ranau o'r Beibl; megys yr un ofergoelus ac apocryphaidd yn y "Greal," lle y dygir i mewn hanes Adda ac Efa‡ mewn ffurf ac ysbryd hynod. Mwy llythyrenol yw yr un yn "Y Gwyliedydd,"§ allan o ysgriflyfr yn meddiant Angharad Llwyd, gynt o Gaerwys, er fod hwnw hefyd yn gymysgedig â dychymygion. Cyfeiria Gwallter Mechain‖ at un arall tra phwysig yn y geiriau a ganlyn:— "Y cyfieithiad nesaf o unrhyw ddosbarth o'r Ysgrythyrau, y soniaf am dano, yw un oedd yn llyfrgell y diweddar J. Llwyd, Ysw., o Hafod Unnos, ac a werthwyd yn mhlith ei lyfrau a'i ysgrifau ereill ychydig o flwyddau yn ol. Rhan ydoedd o Efengyl Ioan, ar femrwn, mewn llaw deg, y fath ag oedd mewn arferiad o'r ddeuddegfed i'r drydedd ganrif ar ddeg: dri chant o flwyddau, debygwn, yn hŷn na'r ysgrif o ddechreu Genesis, yr hwn a ddarluniais yn fy llythyr cyntaf. Er mai yr enw a roddwyd i'r ysgrif yn Wicwar oedd 'Gwaith Ioan Efengylystor,' eto, yn hanes

* Llyfr. y Cymry, t. 31, *et seq.*

* Llyfr. y Cymry, t. 14. Haddon and Stubbs' Charters, vol. i. p. 523.
† Survey of St. Asaph Cathedral, p. 123.
‡ Y Seint Greal, gan y Canon Williams, t. 127, *et seq.*; 1876.
§ 1823, t. 141.
‖ Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii. t. 190.

adgyfodiad Iesu, am yr angel a ymddangosodd i'r gwragedd, a hi yn dyddhau i'r dydd cyntaf o'r wythnos, cyflëir geiriau Matthew, xxviii. 3—'A'r drych arno oedd fel llucheden'—yn lle, 'A'i wynebpryd oedd fel mellten.'" Boddhaol iawn fyddai cael gwybod pa beth a ddaeth o'r memrwn gwerthfawr hwn ar ol ei werthu, o achos y mae y darluniad uchod o hono bron a gwneyd ini gredu mai hen Efengylau Llanelwy ydoedd. Nid ydym yma yn son am Dafydd Ddu o Hiraddug, am ein bod yn bwriadu cyfeirio at ei gyfieithiad eto.

Gallwn grybwyll yma yr hen gyfieithiad o'r efengylau ffugiol yn "Llyfr Gwyn Rhydderch," sydd yn awr yn llyfrgell ardderchog Peniarth. Tybir fod y llyfr cyfoethog hwn wedi ei ysgrifenu tua 1400, ac felly yn un o'r rhai boreuaf o'r dosbarth yma yn yr iaith. Ond addefa yr Esgob Davies nas gwelsai efe ddim o'r Ysgrythyrau yn Nghymraeg, oddigerth pum llyfr Moses yn nhŷ ewythr iddo. Tybia W. Salesbury mai "Gruff ab Ieuan ab Lln Vachan" oedd hwnw, at yr hwn y cyfeiriasom eisoes, a'r hwn a berchenogai y Llanerch, yn Nyffryn Clwyd. Cyfieithiad arall y sonir gan hynafiaethwyr am dano, ond nad oes dim o hono ar gael, yw eiddo Thomas Llywelyn o Regoes. Dywedir fod yn llyfrgell Syr Thomas Mostyn, yn Ngloddaeth, lythyr oddiwrth Thomas Llywelyn at Richard Davies, esgob Tŷ Ddewi, yn ei annog i gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg ac yn ei hysbysu am ei waith ei hun. Dywedir mai yn 1540 y cyflawnasai efe y gorchwyl hwn, ac mai o Feibl Seisonaeg Tyndal y cyfieithai.* A rhai mor bell a haeru ddarfod i'r esgob a Salesbury wneyd defnydd o'r cyfieithiad hwnw heb gydnabod eu dyled iddo; ond gan nad oes brawf o hyny, rhaid ini ystyried yr haeriad yn gabldraith.

Yn y flwyddyn 1562, neu yn hytrach 1563, y deddfwyd yn y Senedd, "Fod i'r Beibl, yn gynnwysedig o'r Hen Destament a'r Newydd, yn nghyda'r 'Llyfr Gweddi Gyffredin,' gael ei gyfieithu i'r iaith Frythonaidd, neu y Gymraeg—iddo gael ei arolygu gan esgobion Llanelwy, Bangor, Tŷ Ddewi, Llandaf, a Henffordd—a'i argraffu a'i ddefnyddio yn yr eglwysi erbyn y laf o Fawrth yn y flwyddyn 1566, o dan boen dirwy o 40*p.* ar bob un o'r esgobion uchod."† Nis gwyddom a dalwyd y ddirwy ai peidio, ond wrth gwrs ni chyflawnwyd y gorchymyn ac ni chadwyd y Ddeddf; oblegid yr oedd mewn gwirionedd yn gyfraith afresymol, gan fod yr amser yn llawer rhy fyr a'r trefniadau yn rhy anmhenodol. Ond yn y flwyddyn nesaf, sef 1567, daeth y Testament Newydd* allan yn gyfrol drwchus o bedwar cant namyn un o ddalenau (wyth gant tudalen bron) 4plyg, yn cynnwys llythyrau anerchiadol meithion oddiwrth y cyfieithwyr, William Salesbury a'r Esgob Davies, ac "Argumentau," neu gynnwysiad, o flaen pob llyfr.

Yr un a fu a'r rhan helaethaf yn y gwaith o lawer oedd Salesbury, oblegid cyfieithodd fwy na'i gynnorthwywyr yn nghyd, a golygodd y cyfan. Yn ei lythyr cyflwyniad i'r Frenines Elisabeth fe sieryd mor ddifloesgni ag erioed am Babyddiaeth: "Pan alwaf i gof ddull y grefydd lygredig yn Lloegr, pan boblogid Mynwent Paul, yn y ddinas, gan wneuthurwyr delwau o alabastr i'w gosod i fyny mewn eglwysi; a phan yr ennillai trigolion Paternoster-rowe eu bywioliaeth wrth werthu gleiniau paderau; a phreswylyddion Ave-

* Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii. t. 191.

† Dr. Llewelyn's Historical Account of the British or Welsh Versions and Editions of the Bible, p. 4.

* "Testament Newydd ein Arglwydd Iesu Christ. Gwedy ei dynnu, yd y gadei yr amcyfiaith 'air yn ei gylydd or Groec a'r Llatin, gan newidio ffurf llythyreu gairiae-dodi. Eb law hyny y mae pop gair a dybiwyt y vot yn andeallus, ai o ran llediaith y 'wlat, ai o ancynefinder y devnydd, wedi ei noti ai eglurhau ar 'ledemyl y tu dalen gydrychiol.

"'Hon yw'r varnedigeth, gan ddyvot golauni i'r byt, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r golauni.' Ioan iii. c.

"Matheu xiii. f.

"Gwerthwch a veddwch o vudd
(Llyma'r Man lle mae'r modd
Ac mewn ban amgen ny bydd)
I gael y Perl goel hap wedd."

Dyna y wynebddalen yn gywir, ac oddigerth yr addurniadau, yn gyflawn. Ond y mae ychydig amrywiaeth mewn gwahanol gopïau, yn enwedig yn yr addurniadau. Felly y mae hefyd yn yr argraffeb, yr hon sydd ar ddiwedd rhai copïau ac ar gefn y ddalen enwol yn y lleill. Fel hyn y mae:—

"Imprinted at London by Henry Denham, at the costes and charges of Humfrey Toy, dwelling in Paules church yarde, at the signe of the Helmet. Cum privilegio ad imprimendum solum. Anno 1567. Octob. 7."

Cychwynodd y diweddar Mr. Saunderson, Bala, gyhoeddi *fac simile* o'r argraffiad cyntaf mewn llythyren ddu, ond digalonodd ar ol argraffu ychydig leni. Daeth allan ail argraffiad, lled gyflawn a da, o Gaerynarfon yn 1850.

Ychydig gopïau o'r argraffiad cyntaf sydd ar gael, ac nid rhyfedd pan ystyriom nad argraffwyd o hono ar y cyntaf ddim ond chwe' chant (Rees' History of Protestant Nonconformity in Wales, p. 499) a'i fod cyn hir wedi ei ddisodli gan gyfieithiadau rhagorach, ac felly fyned i raddau yn ddiddefnydd. A ganlyn y gwyddom ni yn awr am danynt:—1. Yr Amgueddfa Brydeinig (hen gopi "Rhisiart Morus o'r Navi Offis"). 2. Peniarth. 3. Tŷ y Gymdeithas Feiblau. 4. Miss Saunderson, Bala.

Cofnodir trwyddediad y Testament Cymraeg yn "Nghofrestr Cwmni y Safwerthwyr" fel y canlyn:—"Toye. Recevyd of humphrey Toye for his lycence for prynting of the newe testament in welshe .xij.d." (p. 153). A ganlyn yw cynnwysiad y gyfrol:—1. Wynebddalen. 2. Gwag, neu â'r argraffeb fel uchod. 3. Llythyr W. Salesbury "To the most Noble and Virtuous Prince Elizabeth;" pedwar tudalen. 4. "Richard can rat Dyw,"&c., sef Epistol Esgob Tŷ Ddewi; pum tudalen ar hugain. 5. Anerchiad W. S. "At yr holl Cunbru;" un tudalen. 6. Y Testament; pedwar cant namyn un o ddalenau (*folios*). 7. "Tabul y gahel yr Epistolae a'r Euangelon y ddarlleuir yn yr Eglwys trwy'r flwyddyn;" dau dudalen a chwarter. "Finis."

Digitized by Google

lane drwy werthu gleiniau Mair; a gwŷr Credelane drwy wneyd gleiniau y Credo; yn gystal a'r defodau ofer a ymlusgasant i'n gwlad ninnau, sef Cymru, pryd yr addolai dynion yn lle y bywiol Dduw ddelwau meirw o goed a cheryg, clychau ac esgyrn, yn nghyda chreiriau ereill cyffelyb, nas gwn yn iawn beth i'w galw, . . . nis gallaf lai, O! dywysoges fwyaf Cristionogol a phenadur grasolaf, . . . na chydnabod yn ddyledus y rhagorfraint ddigyffelyb a ganiatasoch ini, drwy ein bendithio â'r Ysgrythyrau Santaidd yn yr iaith a ddeallir oreu genym: yr hyn, mor belled ag y gallaf fi gasglu (er fod crefydd Crist yn ei phurdeb wedi bod yn blodeuo unwaith yn mhlith ein hynafiaid, yr hen Frythoniaid), ni buont mor gyflawn a pherffaith erioed o'r blaen yn eu meddiant ag y maent, diolch i Dduw, yn ein meddiant ni yn bresennol."*

Fel y canlyn yw rhan bob un o'r cyfieithwyr, yn ol y nodiadau ar ymyl y dail:—O ddechreu Matthew hyd ddiwedd yr Ail Epistol at y Thessaloniaid gan W. S., sef William Salesbury. Yr Epistol Cyntaf at Timothëus gan D. R. D. M., sef y Dr. Richard Davies, Mynyw. Yr Ail at Timothëus, Titus, a Philemon, gan W. S. At yr Hebreaid, Epistol Iago, a dau Epistol Pedr, gan yr Esgob R. Davies. Tri Epistol Ioan ac Epistol Judas gan W. S. Y Dadguddiad gan T. H. C. M., sef Thomas Huet, un o gantorion corawl Tŷ Ddewi.

Ymddengys hefyd fod dylanwad Salesbury yn fawr ar ei gyd-lafurwyr, ac mai ei arddull a'i orgraff ef, i gryn raddau, a fabwysiadwyd drwy holl gorff y gwaith. Yr ydym yn casglu hyn oddiwrth y ffaith fod neillduolion arddull y Testament i'w gweled yn amlycach yn ngweithiau Salesbury ei hun, nag yn ngwaith yr esgob ei hun. I weled y gwahaniaeth, nis rhaid dim ond cymharu "Epistol yr Esgob at y Cymry" gyda'r dyfyniadau a roddwyd eisoes yn y gwaith hwn o gynnyrchion boreuol Salesbury.† Ond yma cawn yr hen gwestiwn yn dangos ei gyrn eto: O ba le y cafodd y cyfieithydd ei orgraff? Am ei arddull a'i eiriadaeth, nis gall fod llawer o ddadlu. Arddull gyfoethog, droellawg, a nerthol sydd ganddo wrth ysgrifenu Cymraeg a Seisonaeg; ond yn tueddu i fod yn dywyll, oherwydd hyd a chymhlethiad y brawddegau. Oddiwrth eiriadaeth y cyfieithiad tybiodd rhai fod Salesbury wedi defnyddio gwaith rhyw ragflaenydd, o'r enw Thomas Llywelyn, o'r Glyn Eithinog, yr hwn y crybwyllasom ei enw eisoes,* am fod y Testament yn cynnwys cynnifer o eiriau Gwenhwysaidd, sef tafodiaith Gwent a Morganwg. Ond ceir esboniad gwell ar hyn yn yr ymdrech mawr a arddengys y cyfieithydd i wneyd y llyfr yn ddealladwy i drigolion Cymru oll. Tybiwn fod hyn wedi effeithio yn ormodol ar feddwl y cyfieithydd, fel yn ei orbryder iddo ffurfio ieithwedd nad oedd gymeradwy gan unrhyw ran o'r wlad. Nid yw yn debyg i ddim arall yn yr oes hòno, nac un oes flaenorol, mewn rhyddiaith na barddoniaeth, yn y De nac yn y Gogledd. Y peth tebycaf iddi efallai, o ran egwyddor ei chyfansoddiad, yw "Coll Gwynfa" y Dr. William Owen Pughe. Iaith gelfyddydol, wedi ei gwneyd ac nid wedi tyfu, yw y naill a'r llall; ond fod Salesbury wedi cymeryd cryn drafferth i egluro ei eiriadaeth ddyeithr i'w ddarllenwyr, tra y gadawodd Pughe rhwng y darllenydd, os bu erioed y fath greadur, a'i eirlyfr. Rhoddodd Salesbury amryw eiriau eglurhaol ar ymyl y dail, fel y mae ei Lyfr Gweddi yn gystal a'i Destament yn gronfa eiriol gyfoethog, ac o honi y cymerodd y Dr. Morgan lawer o'i ymadroddion mwyaf hapus.

Ymddengys fod yn ei oes ef ei hun gri mawr yn erbyn geirweddiad y cyfieithydd, oblegid dywed yn Llyfr Gweddi 1586: "Eglurhad arr rai geiriau y beiir o'u herwydd gan rai, am eu bod, yn y cyfieithiad hwn, wedi eu hysgrifenu yn wahanol ragor y mae y bobl anllythyrenog, a rhai rhanau o'r wlad, yn eu llefaru."† Yr un cyfrif sydd i'w roddi am yr orgraff afrywiog a fabwysiadodd. Aeth yr un gacynen i'w gap ag a aeth wedi hyny i gap y Dr. W. Owen Pughe, a llawer ereill, ac i gryn raddau gyda'r un canlyniadau annymunol. Tybiodd mai tarddiadaeth, ac nid seiniadaeth, oedd i fod yn safon orgraff. Yn lle dilyn natur, gosododd i fyny ddamcaniaeth. Nid oes dim cyfrif arall i'w roddi am y fath glogyrneiddiwch; ac, mor bell ag y mae yr orgraff yn gyson, y mae y rheswm yna yn ddigonol. Cadwodd llawer o'i gydoeswyr oddiwrth y camgymeriad hwn, fel y gwelir wrth gymharu "Y Drych Christianogawl," o waith y Dr. Gruffydd Roberts, a'r "Dyffynniad Ffydd," gan Maurice Kyffin. Fel hyn y dywed yr olaf yn ei "Annerch at yr Howddgar Ddarlleydd:"—"Mi a dybiais yn oref adel heibio'r hen

* Llewelyn's Hist. Account of British or Welsh Versions, p. 91. Y Ffydd Ddiffuant, t. 212; 1856. Y Gwyliedydd, cyf. vi. t. 212.

† T. 46, col. 1.

* Llyfr. y Cymry, t. 12.

† *Ibid.* t. 34.

Digitized by Google

Yn 1595, tua dwy flynedd ar ol ei farwolaeth, cyhoeddodd Henri Perri, drwy gefnogaeth Syr Sion Salesbury o Leweni, ei lyfr ar reitheg (*rhetoric*) o dan y teitl, "Egluryn Phraethineb." Gwaith dyddorol a phwysig yw hwn, a dengys yn eglur helaethrwydd a dyfnder dysgeidiaeth yr awdwr. Ymddengys oddiwrth MS. yn yr Amgueddfa Brydeinig fod Syr Thomas ab William hefyd wedi darparu colwyniad (*edition*) o hono. Rhif yr ysgriflyfr yn yr Amgueddfa yw 15,046, ac ynddo dywedir ar tudalen 299: "Yma y soniwn am y phigurae ai rhanneu y rhai a ymchwelawdd W. S. o'r Lladin a'r Groec yn Gambraec, ac wedi eu anghwanegu gan Th. W." Cyrhaedda hyd tudalen 348.

Gan fod dau argraffiad arall o'r gwaith hwn wedi ymddangos, un gyda "Greal" Llundain dan olygiaeth y Dr. W. O. Pughe yn 1807, ac un arall yn Llanrwst yn 1829, y mae yn llyfr lled adnabyddus; ond gadawyd allan o'r argraffiadau diweddar hyn lawer o bethau pur ddyddorol. Gadawodd y golygydd, H. Perri, yn ammhëus ai efe ynte yr awdwr a ysgrifenodd y gwaith yn y ffurf y'i hargraffwyd, ac ni roddodd un awgrym am faint ei gyfran ef yn y llyfr. Ysgrifenodd Salesbury lythyr at Gruffydd Hiraethog, ei gymydog a'i gydoeswr, yr hwn sydd eto ar gael,* a thybir mai rhagdraeth i'r gwaith hwn y golygai yr awdwr i'r llythyr fod. Y gwaith olaf a gyhoeddwyd dan enw W. Salesbury oedd ei gyfieithiad o Prideaux ar Weddi, sef yn 1607.†

Gadawodd Salesbury ar ei ol amryw lyfrau ereill mewn llawysgrif, nas cyhoeddwyd eto monynt. Y mae un pur helaeth yn llyfrgell Peniarth, yn cynnwys casgliad helaeth o farddoniaeth Gymraeg yn llaw Salesbury ei hun. Y mae gan yr ysgrifenydd hefyd gopi o'i waith gwreiddiol ar lysieuaeth,‡ yr hwn a ddengys ei fod wedi talu sylw manwl i'r gangen brydferth hòno o wybodaeth ac wedi sylwi ei hunan ar gynnyrchion llysieuol Cymru. Nid ymddengys ei fod yn fardd ei hunan,§ nac yn gyfarwydd yn rheolau barddoniaeth Gymraeg; ond yr oedd yn gyfaill mawr i rai o'r beirdd, ac yn cymeryd cryn ddyddordeb yn eu gwaith. Yr oedd ganddo chwaeth at wyddor, fel y prawf y llysieulyfr; ac y mae Richards, yn ei gyfieithiad o eiriadur Lladin y Dr. Davies, yn gystal a'r Dr. Davies ei hun,* yn dyweyd fod ganddo felin i'w gweled yn 1574 yn troi o honi ei hun. Wrth gwrs, dychymyg ydyw y gyfryw freuan, ond dengys y traddodiad fod Salesbury yn cael ei ystyried yn gelfyddydwr cywrain.

Yr oedd yn enwog hefyd fel achwr, ac yn awdurdod ar y pwnc. Cyfeiria Lewis Dwnn ato fel un o'i awdurdodau yn ei "Heraldic Visitations." Cynnwysa ysgriflyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig † nodiadau wedi eu cymeryd allan o lyfr a ysgrifenwyd gan Mr. Wm. Salesbury mewn perthynas i deuluoedd Cymreig.‡

Wrth adael y gwr mawr a daionus hwn, gwelwn ynddo dalentau naturiol dysglaer, wedi eu diwyllio yn drwyadl, ac yn cael eu defnyddio gyda diwydrwydd diball, a'u llywodraethu gan dduwioldeb diammheuol. Nid oes yr un fath waith yn hollol i'w gyflawni bellach, ond y mae ar Gymru lawn cymaint eisieu ag erioed ddysgedigion o'r cyffelyb feddwl ac ysbryd. Cyfoded Duw lawer o'r cyfryw yn ein plith.

---

## PENNOD III.

### Y DOETHAWR GRUFFYDD ROBERTS.

Gwr gwahanol iawn oedd hwn i William Salesbury. Yr oedd y naill mor ddysgedig ac mor ymroddedig i lenyddiaeth a'r llall. Ymgeisiodd Salesbury yn uwch; cyflawnodd y doethawr

* Y Traethodydd, 1876, t. 35. Y mae y nodiad am H. Perri yn "Enwogion Cymru" yn dra gwallus a chymysglyd. Nis gwyddom am ddim ond un copi o'r argraffiad cyntaf, sef yr un yn yr Amgueddfa Brydeinig; ac y mae hwnw yn ddiffygiol, gan fod ei ddechreu a'i ddiwedd mewn llawysgrif.

† Llyfr. y Cymry, t. 81. ‡ Y Traethodydd, 1873, t. 156, *et seq.*

§ Y mae ei enw ef a John Salesbury ei fab, o'r Plas Isaf, yn rhestr Thomas Price, o Blas Iolyn, o'r beirdd yn ei oes ef "a ganent ar eu bwyd eu hunain," sef boneddig-feirdd. (*Vide* Y Greal, 1805, t. 106. British Museum MSS. No. 14,872, p. 348.) Yr unig grybwylliad barddonol am dano a welsom, heblaw englyn diweddar iddo a ymddangosodd yn "Y Gwyliedydd" (cyf. xi. t. 283), oedd mewn cywydd cyfoesol, o waith rhyw fynach Pabaidd, yn goganu y Diwygwyr. Fel hyn y dywedai am W. Salesbury:—

"Trwyn slwt y translatiwr."

Cyfansoddodd Thomas Price gywydd anerch i'r J. Salesbury crybwylledig ac i Lwlen ei ferch o tua deg a thrigain o linellau:—

"Pwy yw'r gwr mewn pur gariad;
Pwy'n lew yw pen y wlad?

. . . . . . . .

Del yw i'w thad, eiddil Wilwst,
Llawn raid pur weddi Llanrwst

. . . . . . . .

Os gwyn yw llun y fun fain,
Du yw eira y dwyrain.

. . . . . . . .

A thrwyn tlws, mwyn yw ei math,
Korken fal sull trwyn kwrkath."

—(Welsh School MSS. No. 14,872, Plut. clxvii. 1–3.)

* *Sub voce* "Breuan." † Harleian MSS. vol. 2289, No. 7, p. 76.

‡ "9. Pedigrees of Morien Glas and the Princes of Pembrokeshire, &c., for which 'a MS. written by Mr. Wm. Salisbury, a very curious antiquarian, which I take to be the most depended upon and faithful of any I have seen, is the authority.' This MS. was late in the custody of Mr. Ed. Lhuyd." (Harleian MSS. vol. 4187, Art. 8, No. 9.) Efallai mai at hwn y cyfeirir yn y "Myvyrian Archaiology" (p. 417; 2nd edit.) fel yn cynnwys achau y saint.

Digitized by Google

Pabyddol yn fwy llwyddiannus. Gan y cyntaf yr oedd y sylwedd goreu, a chan yr olaf yr oedd y ffurf berffeithiaf. Cydoesent â'u gilydd, ac y mae yn debygol eu bod yn frodorion o'r un ardal.

Rhaid ini addef fodd bynag ar y dechreu mai pur ychydig a wyddom am hanes personol Gruffydd Roberts, llai hyd yn nod nag am Salesbury. Ni bu ei ddylanwad ar grefydd ein gwlad ychwaith yn ddim i'w gystadlu i eiddo y cyfieithydd clodwiw, ond cyfodai hyn i raddau oddiar amgylchiadau yn hytrach nag oddiar wir werth a llafur. Yr oedd y wlad erbyn hyn yn Brotestanaidd, a chynnyrchion y doethawr yn Babyddol, fel nad oedd iddynt y derbyniad a haeddent. Ond tra yr oedd ieithwedd Salesbury yn beth i'w gochel, yr oedd arddull Gruffydd Roberts a'i ddisgybl, Rhosier Smyth, yn gampwaith i'w hefelychu.

Nid oes genym, yn niffyg tystiolaethau hanesyddol, ond casglu yn nghylch lle ac amser ei enedigaeth. Ymddengys yn ddiddadl mai Gogleddwr oedd; oblegid yn un peth fod ei "leferydd yn ei gyhuddo," oblegid llafarwedd Gwynedd a ddefnyddia. Hefyd, yn ei ragdraeth i'r "Drych Christianogawl" fe ddywed: "Fe fydd weithiau yn dostur fy nghalon wrth weled llawer a anwyd ac a fagwyd i'm dywedyd [yr iaith Gymraeg sydd yn llefaru, cofier] yn ddiystyr genthynt am danaf, tan geisio ymwrthod a mi, ac ymgystlwng ag estroniaith cyn adnabod dim o honi. Canys chwi a gewch rai yn gytrym ag y gwelant afon Hafren, ne glochdai Ymwythig, a chlowed Sais yn doedyd yn ei iaith *good morrow*, a ddechreuant ollwng i Cymraeg tros gof, a'i doedyd yn fawr i llediaeth: i Cymraeg fydd Seisnigaidd, a'u Saisneg (duw a wyr) yn rhy Gymreigaidd."* Felly, gan ei fod yn son am fyned i olwg Amwythig ar y ffordd i Loegr, rhaid mai o'r Gogledd y golygai fod y cychwyn. Nid llai awgrymiadol ydyw ei gysylltiad agos â Rhosier Smyth.

Am y Rhosier Smyth hwn gwnaeth Gwilym Lleyn gamsyniad dybryd, yn ein bryd ni, wrth geisio ei wneyd yr un a George Smith, mab i Williams o'r Dewisbren, yn mhlwyf Bettws Abergele, ac y mae y golygydd dysgedig yn cydolygu â ni yn hyn. Yr oedd y blaenaf yn llawer diweddarach na'r olaf, a dywed y blaenaf yn bendant mai o dref Llanelwy yr ydoedd. Cafodd George Smith y teitl o LL.D. yn 1557–1558; tra nad yw yn ymddangos i Rhosier Smyth gael y cyfryw deitl yn ei oes, ond yn hytrach D.D. Bu George farw yn 1608, tra y cyhoeddai Rhosier lyfrau Cymraeg hyd 1615.* Protestant hefyd oedd y naill, a Phabydd selog oedd y llall. Yn nglŷn â Gruffydd Roberts y daw enw Smyth i mewn yn benaf, ond fe wnaeth rai pethau ar faes llenyddiaeth Gymraeg ar ei gyfrifoldeb ei hun. Felly rhoddwn ef ac un neu ddau arall o'r ffydd Babyddol yn nghyd yn y bennod hon, a'r cwbl mewn cysylltiad â'r gwr athrylithgar enw yr hwn sydd yn deitl i'r bennod.

Nid oes genym gofnodion am enedigaeth y doethawr, ond os yw cyfeiriad Smyth ato yn ei ragdraeth i'w "Gatechism" wedi ei godi yn gywir i "Lenyddiaeth y Cymry,"† yr oedd yn fyw yn 1611. O'r ochr arall, cyhoeddodd ei "Ran Gyntaf o Ramadeg Cymraeg" yn 1567, a hwn yw y gwaith cyntaf, hyd y gwyddys, a gyhoeddodd efe, er fod ei ieithwedd eisoes yn dangos addfedrwydd mawr. Gallem felly ei gyfrif, yn ei enedigaeth a'i farwolaeth, tuag ugain mlynedd yn ddiweddarach na Salesbury, ac ni byddem yn mhell o'n lle pe gosodem ei enedigaeth yn 1540 a'i farwolaeth yn 1620. Cafodd ei ddysg yn Mhrifysgol Sienna, yn yr Eidal, o dan nawdd William Herbert, iarll Penfro, i'r hwn bendefig, yn enw yr iaith Gymraeg, y cyflwynodd ei ramadeg;‡ yr hwn a argraffwyd

* Y Traethodydd, 1872, t. 97

* Llyfr. y Cymry, t. 90. Enwogion Cymru, *sub voce* "Smith."

† T. 86.

‡ "Dosparth Byrr Ar y rhann gyntaf i ramadeg cymraeg, lle cair llawer o bynciau an-hepcor i vn a chwen-nychai na doedyd y gymraeg yn ddilediaith, nai scrifennu'n iawn. [Coron addurnedig.] *A orchfygo yma a goronir fry.* 1567. Primo Martii." Dyna y wynebddalen yn gywir a chyflawn, ond fod yr orgraff, neu yn hytrach y llythyrenau, ychydig yn wahanol; yn gymaint ag fod y dybledigion dd, ll, yn cael eu dynodi â d, l, gyda nopyn odditanynt, a'r un modd y gwahaniaethir u ac w. Y tudalenau, ac nid y dalenau, sydd wedi eu rhifo. Ar gefn y wynebddalen cawn y cynnwysiad canlynol i'r rhan gyntaf:—

"Beth yw gramadeg, a phessawl rhann ar-benig sydd iddi. Cap. 1. dol. 8.
Iawnscrif aphessawl pwnc sydd oi 'striau yn i chylch, a phum peth pyrthynassol i lythyreu oi draethu. Cap. 2. dol. 13.
Llun, henwau a nifer y llythyrennau. Cap. 3. dol. 16.
Gwahaniad rhwng y llythyrennau. Cap. 4. dol. 22.
Dosparth ar y diphdongiaid a'r cysseiniaid. Cap. 5. dol. 24.
Sillafiaeth, s. y phordd sydd i wneuthur sillafau o gysswllt y llythrennau. Cap. 6. dol. 52.
Wyth arwydd gwahaniaeth y 'madrodd. Cap. 7. dol. 65.
Phugrau iawnscrifennyddiaeth, a descreifiad pob vn o honynt. Cap. 8. dol. 69.
Cyssillafiaeth, s. modd i wneuthur geiriau o'r sillafau. Cap. 9. dol. 72."

Terfyna y rhan gyntaf ar tudalen 92, ac y mae yr ail ran, ar "Gyfiachyddiaeth," yn cynnwys dros gant a deuddeg o dudalenau. Y drydedd ran, neu "Y Rhann Divaethaf i ramadeg a elwir Tonyddiaeth," a gynnwysa dros un ar bymtheg a deugain o dudalenau. Yn y copi a welsom yn yr Amgueddfa Brydeinig y mae y ddwy ran hyn yn ddiffygiol ar eu diwedd. Yn ddiweddaf, dilyna casgliad o gyfansoddiadau Cymraeg, fel y canlyn:—"1. Symlen [Credo] yr Abostolion mewn deuddeng englyn. 2. Y Gredo mewn messur arall. 3. Gweddi'r arglwydd, ne'r weddi arglwyddiawl mewn saith englyn. 4. Cyfarchiad yr angel, a elwir yr afi Maria, tri englyn. 5. Yr un mewn messur Cyhydedd nowban. 6. Yr afi mewn messur arall. 6. Y deg gorchymyn, a alwai'r hen gymru y dengair mewn deng englyn. 7. Saith rinwedd

Digitized by Google

yn Milan, yn y wlad uchod.* Yn y ddinas enwog hòno yr ymsefydlodd ar ol gadael yr athrofa, a dyrchafwyd ef yn gyflym mewn urddau eglwysig. Tua 1580 cawn ef yn gyffeswr i'r Cardinal Borromeo, ac yn fawr ei gymeradwyaeth yn y lle.† Yn 1611, crybwylla Rhosier Smyth am dano ei fod yn "Ganon Theologaid o Fam-Eglwys Dinas Milen."‡

Y gwaith nesaf a gyhoeddwyd gan Gruffydd Roberts, neu yn hytrach o'i gyfansoddiad ef ac a gyhoeddwyd gan Rhosier Smith, oedd "Y Drych Christianogawl." Y mae gan yr ysgrifenydd gopi o'r gwaith dyddorol hwn, ac y mae un arall, ychydig yn gyflawnach, yn yr Amgueddfa Brydeinig. Llyfr defosiynol ydyw, heb ond pur ychydig o'r surdoes Pabaidd yn ei ddiflasu. Darluniwyd ef, a rhoddwyd rhai dyfyniadau o hono, yn "Y Traethodydd." § Adgyhoeddasom yno y rhan olaf o'r rhagdraeth, ac yr ydym yn rhoddi isod y gweddill o hono, fel y byddo yn gyflawn o fewn cyrhaedd y darllenydd ymchwilgar.‖ Oblegid y mae y cyfryw ddogfenau (*documents*) yn awdurdod ddiammheuol ar gyflwr crefydd yn yr oes y'u hysgrifenwyd, yn gystal ag yn dangos nodweddion a theimladau yr awdwr. Nid llai dyddorol ydyw rhagdraeth y golygydd, Rhosier Smyth, yr hwn hefyd a roddir isod. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r hanes, onidê cawsent gymeryd eu lle yn rheolaidd yn nghorff y gwaith; ond gan ei bod yn anhawdd iawn i'r cyffredin gael golwg arnynt, buddiol yw eu cyflëu yn mhlith y nodiadau ar ymyl y dail. Yr arfer gyffredin yw gosod y cyfryw ddefnyddiau fel attodiad ar ddiwedd y gwaith, ond y mae mantais eu cael yn gyferbyniol i'r testyn, ac felly yn hwylus i gyfeirio atynt. Nis gall fod yr orgraff a'r ieithwedd o nemawr drafferth i neb, oblegid nid yw yn gwahaniaethu llawer oddiwrth eiddo y Beibl presennol, a gall fod yn werthfawr i'r neb a fo yn llafurio yn hanes yr iaith Gymraeg, ac felly ni newidiasom gymaint a llythyren yn fwriadol.

yr eglwys, a elwir Sagrafennau. 8. Amryw englynion [t. 55 a 56]. 9. Llyfr Marcws Twlliws Sisero, a elwir Caton hynaf, ne o henaint, at Titws Pomponiws Atticws."

Perthyna i'r llyfr ran arall, sef "Dosparth ar fessurau cerdd dafod, yn dangos bath yw messur a phessawl rhywogaeth sydd o honynt," yr hwn yw y dernyn cyntaf a argraffwyd ar farddoniaeth Gymraeg.

Fel hyn y rhifir tudalenau y llyfr mewn un copi yn Llundain:—Y rhan gyntaf, 92; yr ail ran, 112; y drydedd, 72; y bedwaredd, 8; y cyfan yn gwneyd llyfr o tua thri chant o dudalenau, a chyfrif yr anerchiadau a'r rhagdraeth. Ar ffurf 8plyg bychan y mae, wedi ei argraffu bron oll mewn llythyren Eidalaidd brydferth, ychydig yn frasach na'r *fac simile* cywir a gyhoeddir yn awr fel attodiad i'r "Revue Celtique," yn Paris. Cyhoeddodd Mr. Spurrell argraffiad o hono yn "Yr Haul" am 1856–1857. Tuag wyth copi o gwbl sydd ar gael o'r gwreiddiol:—Dau yn yr Amgueddfa Brydeinig (un mewn cyflwr da ond yn anghyflawn, a'r llall wedi ei niweidio gan y rhwymwr ond yn lled gyflawn); un gan y Parch. Robert Jones, Rotherhithe; un arall yn Wynnstay (a achubwyd yn amser tân mawr 1858); un arall yn Mheniarth; ac un pur ddiffygiol gan y Tywysog Lucien Buonaparte. Anhawdd genym gredu nad oes rhai copïau yn ychwanegol yn llyfrgelloedd y Cyfandir, yn enwedig llyfrgelloedd Rhufain a'r Eidal.

Ar ffurf ymddyddan y mae, rhwng dau gyfaill o Gymru mewn gwlad estronol, a'u henwau Gruffydd, yr athraw, a Moses, y disgybl, fel y tebygwn, gan mai Gr. a Mo. a roddir yn y llyfr. Y mae copi o ran o hono mewn llawysgrif hynafol yn yr Amgueddfa Brydeinig, ond heb deitl nac enw yr awdwr. Mewn un copi yn y Gywreinfa Brydeinig y mae amryw lythyrau oddiwrth Ioan Tegid at y Gwir Anrhydeddus C. W. W. Wynne, yn nghyda'i atebiad yntau, ac hefyd oddiwrth Panizzi at yr un gwr. Llyfrgellydd yn y Gywreinfa Brydeinig oedd Panizzi, a deil ef yn dyn mai yn Llanfyllin, ac nid yn yr Eidal, yr argraffwyd y llyfr!

* Ymddengys ei bod yn arferiad gan deuluoedd Pabyddol Cymru i anfon eu plant i Athrofa Sienna, oblegid yno, gyda phlant Syr Edward Stradling, yn mhen deng mlynedd ar hugain wedyn, y cafodd gramadegydd mawr arall ei addysg, sef y Dr. Sion Dafydd Rhys; yr hwn yntau, yn ol esiampl ei ragflaenor, a gyflwynodd ei waith i'w noddwr, gan gyfeirio at y Dr. Gruffydd Roberts.

† Llyfr. y Cymry, t. 22. ‡ *Ibid.* t. 68. § 1872, t. 91, *et seq.*

‖ Y mae y wynebddalen ar goll yn y copi sydd yn Llundain, ond fel y canlyn y mae wedi ei hadfer mewn llawysgrifen:—

"Y DRYCH CHRISTIANOGAWL, yn yr hwn y dichon pob Christion ganfod gwreiddin a dechreuad pob daioni sprydawl, sef, gwybod modh i wasanaethu Duw, drwy ei garu a'i ofni yn fwy na dim, ag i daflu ymaith beth bynnag ar a fo rwystr i hynny.

"Y RHANN gyntaf yn peri gwasanaeth Duw drwy ei garu. 8º *Rhotomagi apud haeredes Jathroi Faronis.* 1585."

Mewn llythyren ddu (*Old English*) y mae wedi ei argraffu bron oll, a hyny fel y gwelir yn Rouen, yn Ffrainc; ac felly y mae yn un o'r llyfrau Pabyddol a argraffwyd ar y Cyfandir gyda'r bwriad o'u lledaenu yn mhlith trigolion Cymru.

Ar y drydedd ddalen ar ddeg y dechreua y rhifnodiad, a 75 yw rhif yr olaf. Gwna hyn, gyda deuddeg dalen o ragdraeth a thair dalen o gynnwysiad, gan dalen (dau gant tudalen) yn y llyfr i gyd. (British Museum, C. 25, b. Argraffnod olaf T. iii.).

Fei y canlyn y mae rhagdraeth Gruffydd Roberts, ac mewn llythyren ddu y'i hargraffwyd:—

"YR AWDVR NEVR GWR A WNAETH Y LLYFR YMA AT EI garedigion Gymry yn erchi phynniant a lhwydhiant idhynt.

"WRTH fedhwl am fraint a bri'r Cymry gynt, ai lhesced ai diystyred yr owran, mae dolur a chlefyd yn magu yn fynghallon: Canys heb geisio son am wyr mawr a fu o Gymry, drwy synnwyr a nerth yn gorescyn ag ennulh gwledydh, gan orchfygu a gorfod ar frenhinoedh, drwy lawer oes o *Bhrutus* hyd yn amser Crist: Nyni a gophawn y peth rheitiaf i'n harfauth a'n pwrpas ni, a'r peth sy'n heudhu mwy o glod ymhlith Cristianogion, yn fwy na dim o'r a fu cyn geni Crist, yn gymaint ag y mae braint a pharch yr enaid yn rhagori ar y corph. Eisoes ny dhawn i o benn a chasclu'r cwbl ynghyd, a'r a fu er amser Crist o oruchafiaeth Cristianogawl ymhlith Cymbry. Am hynny yn lhe sampl i dhangos i ni beth a fuom gynt, a pheth ydym yn awr, mi a dhangosa bedwar sampl yn dwyn clod fawr i genedl Gymry, pe y baent yn haudhu clod a pharch: Ond y maent yn nes i dhwyn i'r Too sydh hedhiw o Gymry, fwy o gywilydh a gwarth, nag o glod a chanmoliaeth.

Cymbry yn dha gynt.

"Y goruchafiaeth cyntaf oedd, i Dhuw fod mor drugarawg i'r hen Gymbry a danfon yn y mann ar ol i Grist dhiodhef, y phydh Gristianogawl yn eu plith: yn gymaint a danfon o Dhuw Joseph, un o'r dhau wr urdhasawl a fu yn cladhu Crist: Hwnn a dhoeth a'r phydh gyntaf olh i ynys Frydain i'r Cymbry.

"Ag er eyn bod yn belh aruthr odh i wrth Gaer Selem, ag mewn ynys wedy'n corlannu a'n neilhtuaw odh i wrth yr holh fyd mewn congol dhirgel: eisioes ir oedh Duw yn gofalu ag yn pryderu cymeint am danom ni, ag idho yn y mann, megys cyn oeri gwaed y mab rhat, dhanfon y gwr a fuassei yn cladhu Crist i bregethu i'r Cymry. Er na throes y brenhin i'r phydh y pryd hynny, eisoes ef a droes lawer o Gymbry erailh.

"Mae rhai yn yscrifennu na fu dhigon gan Grist dhanfon *Joseph* i'n plith ni, ond hefyd fod un, ony bu fwy o Bostolion Crist, yn ynys Brydein ymhlith Cymry. Ond hynn sy siccur dhigon, mae un or Brenhinoedh cyntaf a fu Gristiawn oedh Frenhin yr hen Gymbry. Canys pawb sy'n addef dhanfon o *Les* fab *Coel* gennad i *Rufain* at Bab *Rhufain* i dheisyf arno dhanfon gwyr o dhysc atto i bregethu phydh Grist i'r Brenhin. Yna y danfonodh *Eleutherius* y *Pab* dhau wr dyscedig duwiol, sef *Phagan* a *Doewan*. Y

Ex Damaso, Platina, &c.

Digitized by Google

swydd eglwysig yn y wlad hòno, ond bu mewn cyfathrach agos â'r Gwir Barchedig Jacques David, y Cardinal Peronne, &c., drwy gymhorth a nawddogaeth yr hwn y cyhoeddodd "Swm ne grynodeb o addysc Gristionogawl" yn 1611.* Gallem gasglu, fodd bynag, oddiwrth ei deitl ei fod yn gadeirdraw, neu athraw mewn cysylltiad â'r brifysgol yn Mharis. Y mae yn eglur nad oedd "na segur na diffrwyth" yn y blynyddau hyn, oblegid cawn ef yn 1615 yn cyhoeddi cyfrol arall, o dri chant tudalen, o dan y teitl, "Gorsedd y Byd," yr hwn a ysgrifenasid yn Ffrancaeg.* Dyma y crybwylliad olaf a gawsom am y gwr llafurus ac anturiaethus hwn Cyfeiria Gwilym Lleyn yn ei ddangoseg at y flwyddyn 1618 o dan ei enw; ond erbyn troi yno, nid oes son am dano o gwbl. Yr unig lyfr Cymraeg a gyhoeddwyd yn y flwyddyn hòno oedd yr "Eglurhad Helaethlawn o'r Athrawaeth Gristnogavvl," yr hwn a briodolir i'r Cardinal Rhobert Bellarmin. Nid yw yn annhebyg i'r "Swm ne grynodeb" uchod, ond y mae o awduriaeth wahanol, ac nis gall fod yr un llyfr. Dichon fod gan Rhosier Smyth ryw law yn ei gyfieithiad neu ei gyhoeddiad, ond nid oes dim awgrym o hyny yn y llyfr ei hun, o'r hwn y mae genym gopi cyflawn. Heblaw hyny, y mae y wynebddalen yn priodoli y cyfieithiad o'r Eidalaeg yn bendant i ryw "bendefig, V. R." Nid oes dim hynodrwydd yn yr iaith, ond gallai fod yn gyfieithiad Smyth neu Roberts; a dichon mai G. R. a ddylasai fod yn lle y V. R. uchod. Gan ein bod wedi darlunio y llyfr yn "Y Traethodydd,"† rhaid ini beidio ychwanegu yma, er ei bod yn brofedigaeth ini ddyfynu yn helaethach o hono. Wrth adael y ddau ddoethawr Pabyddol, ond gwladgarol hyn, goddefer ini sylwi gair neu ddau ar eu nodweddion. Yr oedd y naill a'r llall yn ysgolheigion gwych, yn gynnefin âg amryw ieithoedd hen a diweddar. Nid yn unig hyny, yr oeddynt hefyd yn llawn ysbryd ac anturiaeth llenyddol, ac yn teimlo yn angerddol dros iaith a llenyddiaeth gwlad eu genedigaeth. Cryn anturiaeth oedd cyhoeddi llyfr Cymraeg yn yr oes hòno; ond fel y gwelwyd, yr oedd ganddynt ryw wŷr cyfoethog yn gefn iddynt yn y cyffredin, ac fel offeiriaid dibriod a difeddiannau nid oedd ganddynt lawer i'w golli ar y gwaethaf. Ond rhaid ini ddyweyd ychydig am lyfr neu ddau arall, a gyfansoddwyd gan awduron Pabaidd ac a gawsant gryn dderbyniad yn Nghymru, rai o honynt gan Brotestaniaid yn gystal a Phabyddion.

Llyfr perffaith wahanol yw "Drych Cydwybod," a gyhoeddwyd tua 1661.‡ Tra yr oedd y rhai a ddarluniwyd uchod nid yn unig yn ddefosiynol eu hysbryd ond hefyd yn gymedrol eu syniadau, y mae hwn yn eithafol yn ei olygiadau Pabaidd ac yn ffyrnig a diarbed yn ei gyfeiriadau at Brotestaniaid. Nis gwyddys pwy oedd yr awdwr,

scrifennu, i gael aml gopiae i fyned ar hyd y wlad. Pann dhoeth y gair o hynn i dir Phrainc lhe yr oedhwn i yn trigo, ef a fu lawen a chynhes fynhallon, wrth glywed chwant ag awydh y Cymry i wrando cynghor sprydol. Yma y tyfodh gobeith mawr yn fy medhwl, y gelhyd achub lhawer o eneidieu yn Ghymry rhag discyn i Yphern, pe y baei fodd i dhangos ydhynt eu peryglon sprydol. Wrth fedhwl am hyn ny fedrwn i weled vn modh phrwythlon gymhwys, ony baei gael gossod a dodi i maes y lhyfr mywn Print. O fywn y Deyrnas ny welwn dhim gobaith i gael nag arian, na gweithwyr, na lhe cymhwys cyfadhas. Wrth hir fedhwl a gweled egni y Saeson phydhlon [Pabyddol] yn printio lhyfreu Saesnec o'r tu yma ir mor mywn gwledydh dieithr, mi a ganfuum mewn rheswm y galhei y Printwyr o Phrainc brintio Cymbraeg yn gystal a Saesnec, gan fod y dhwy iaith yn gyfdhieithr idhynt. Ac ynghyferyd y mawr nifer o lhyfreu Saesnec a ossoded alhan er man lygrwyd [?] Phydh a chrefydh yn ynys Prydein, drwy boen a thrafael y Saeson Catholic: rhag cywilidh a cholhed i holh Gymry, cymesur a phrydferth y gwelwn ossod a dodi alhan vn lhyfr Cymraeg, gan fod cymaint o eisieu, ar Cymbry mor chwannoc i gael lhyfreu, a Duw wedy trefny Printwyr mywn tref ar fin y mor yn barod er cyflog i brintio Cymraec cystal a Saisnec: Mi a gymerais arnaf (nyd heb gyfarch a chennad yr Athro) ossod mywn print y Rhan gyntaf o'r Tair megis y gellwch ddeall wrth lythur yr Athro o'r blaen, nid yw yr holl waith onid un llyfr, yn cynnwys Tair Rhann. Ac os Duw a dhenfyn rwydeb, myfi a osodaf allan y rhaneu eraill yn gynta ac gallwyf, sef yr ail a'r drydydd, pob un yn i hordor ai gradd. Llythrennau Seisnig a gowsom ir gwaith, ag yn lle y D, ar L dybledigion a roesom, dh, ag lh, ar ol arfer yr hen gymreigwyr gynt, y peth sydd weddeiddiach na dyblu'r llythrennau. Gan na fedrem gael D. ac L. a nodeu danynt ar ol ordor yr Athrawiaeth Gristionogol a brintiwyd yn Mulan, mewn ymbell fanneu chwi a gewch D: ac L: wedi i nodi yn ei pennau: Ar rhai hyny ei gyd sy'n arwain sain y lleill, ag yn arbed yr :H: gyda :D: ac L: y mae'r gost, ar draul ar boen yn fawr jawn ag yn flin: Am hyny i mae pob Cymro ffyddlon, gar bron Duw yn rhwymedig ei roi help a chynorthwy i'r gwaith drwy weddi a moddeu eraill, pawb yn ei radd a'i allu. Ac am fod Anghyfarwydd Anghyfiaeth mewn gwlad ddieithr heb ddeall yr Jaith Gymraeg yn gollwng oddi dan ei dwylo fagad o feieu drwy gam gymeryd, a cham ossod y llythyrenneu, a beieu eraill at hyny: rhaid yw maddeu y fath feieu bychain: gan na ellir cael pethen mewn modd gwell oddiwrth ddwylo dieithred Anghyfarwydd.

"Yn olaf peth ydhwyf yn deisyf ar bob Cymro phydhlon fedhwl amdanaf inneu yn ei wedhi, a chophau hefyd yn i wedhi bob math ar dhyn or a fu ag or a fydh yn helpu'r gwaith hynn drwy gost, traul, blinder neu fodhion erailh yn y byd.

"O DREF ROAN
eych gwladwr
caredig
R. S."

* "OPUS CATECHISTICUM D. PETRI CANISII THEOLOGI EX SOCIETATE JESV. *Sef yw: Swm* ne grynodeb o ddysc Gristionogawl, a dosparth Catholic, ar holl bwnciau'r Phydd." (*Vide* Y Traethodydd, 1876, t. 435.)

Diau mai yr un gwaith yw hwn a'r "Crynodeb" a gyhoeddasai Rhosier Smyth yn rhanol ddwy flynedd yn gynnarach (Llyfr. y Cymry, t. 84), os nad yr un a'r "Athrawiaeth Gristionogol" y cyfeirir ato yn y rhagdraeth i'r "Drych." Dywed Gwilym Lleyn fod yr "Opus" wedi ei argraffu yn yr un llythyren a gramadeg Gruffydd Roberts; ond nid yw hyny yn gywir, oblegid er mai llythyren Eidalaidd yw y naill a'r llall, y mae un yr "Opus" ychydig yn fanach nag un y gramadeg. Ymddengys ddarfod i ddau argraffiad o'r llyfr hwn ymddangos wedyn, un yn 1657 a'r llall yn 1683.

* Llyfr. y Cymry, t. 88, *et seq.* † 1874, t. 64, *et seq.*
‡ Llyfr. y Cymry, t. 187. Y Traethodydd, 1876, t. 38.



Digitized by Google

oedd y mae arwyddion o'i fewn mai yn Nghymraeg y'i cyfansoddwyd yn wreiddiol, ac y mae y ddwy v (vv) yn lle w yn awgrymu mai ar y Cyfandir y'i hargraffwyd. Llyfr arall, llawn mor Babaidd a ffyrnig, yw "Allwedd Paradwys," yr hwn a argraffwyd yn Luyck (Lüttich neu Liège), yn ngwlad Belgium, yn y flwyddyn 1670.* Enw y casglwr a chyfieithydd yw I. H., a thybir ei fod yn un o'r Havardiaid o Ddefynog, o'r rhai y ceir llawer yn offeiriaid Pabaidd a'u henw yn James. Ond barna y Parch. D. Silvan Evans mai un John Humphreys, o urdd yr Iesuaid, ydoedd; yr hwn a fu farw yn Lloegr, Mawrth 14, 1676, yn chwech a thrigain oed. Fodd bynag, cawn yr un Llythyrenau, I. H., wrth lyfr arall tra gwahanol, ond o nodwedd Babyddol, a gyhoeddwyd tua'r un adeg (1670). Hwn yn ddiau oedd yr argraffiad cyntaf o "Dilyniad Iesu Grist," o gyfieithiad H. O., Gwenynog (ger Llanfechell, Mon).† Cyhoeddwyd ef gan ddau hen gyfaill iddo, a fuont yn cydfyw âg ef yn Nghastell Rhaglan am dros ugain mlynedd. Gŵyr pawb mai llyfr rhagorol ydyw "Thomas à Kempis," ond Pabydd oedd yr awdwr; ac y mae yn ddiammheu genym mai Pabydd oedd H. O., y cyfieithydd, yn gystal a'r ddau golwynydd, J. H. ac S. J. Gan eu bod hwy yn anerch eu ceraint, &c., yn Gwent a Brycheiniog, y mae yn naturiol casglu am H. J. mai wedi byw yr oedd am hir amser yn Ngwent ac yn enedigol o Frycheiniog, ac mai yr un person oedd a chyhoeddwr "Allwedd Paradwys."

Yn ei ddangoseg ni phetrusa Gwilym Lleyn ddeongli H. O. yn Hugh Owen. Nid yw y ffurf hòno o'r enw wrth unrhyw argraffiad o'r gwaith, er fod dros hanner dwsin wedi ymddangos.‡ Bu H. O. yn oruchwyliwr i Syr Huw Owen o Fodeon, yn Mon, ac wedi hyny yn secretari am dros ugain mlynedd i marqwes cyntaf Caerfrangon (*marquess of Worcester*). Ganwyd Henri, y marqwes cyntaf, yn Nghastell Rhaglan yn 1562, derbyniodd y teitl yn 1642, a bu farw, yn bump a phedwar ugain oed, yn y flwyddyn 1647.§ Cyn y Rhyfel Cartrefol (1642–1649) y bu H. O. yn Nghastell Rhaglan, oblegid yr oedd yn Mon yn ymladd o blaid y brenin yn y rhyfel hwnw, a bu y marqwes cyntaf farw, fel y gwelir, cyn dienyddiad y brenin yn 1469.

Nid yw yn ymddangos i'r Pabyddion allu ffurfio na chychwyn unrhyw symudiad newydd yn y cyfnod a ddarlunir yn y bennod hon. Cyfyngid eu dylanwad bron yn hollol i'r llyfrau a wasgarent, a methasant ag ennill unrhyw dir yn y wlad. Yr oedd ymlyniad y Cymry mor fawr yn nheulu Tudur fel yr aberthasant eu rhagfarnau crefyddol i'w teyrngarwch, a'r canlyniad fu i Babyddiaeth ddiflanu yn dawel o'r wlad a Phrotestaniaeth godi yn raddol yn ei lle. Da i ni oedd hyny, oblegid fel cyfundrefn ni luniwyd erioed ddim mor ofnadwy beryglus i grefydd ysbrydol, tra y mae llawer hen Babydd duwiolfrydig yn deilwng o'n hedmygedd, ac ambell lyfr a ysgrifenwyd gan Babydd yn rhagorol ei gynnwysiad ac yn dra adeiladol i'r darllenydd. Y mae yn golled i'n gwlad na byddai "Pattrwm y Gwir-gristion" yn fwy adnabyddus, a hoffem hefyd weled "Y Drych Christianogawl" yn cael ei ailargraffu a'i ledaenu yn gyffredinol drwy Gymru.

---

## PENNOD IV.

### Y DOCTOR WILLIAM MORGAN.

Y MAE rhai arwyddfeirdd yn olrhain achau y gwr enwog hwn o du ei dad i Nefydd Hardd, ac ereill i Hedd Molwynog, ac o du ei fam i Farchudd ab Cynan. O ganlyniad disgynai o linach anrhydeddus, pe byddai hyny yn bwysig, a phe byddai coel i'w roddi bob amser ar lechresi achau. Diau fod gan ambell deulu urddasol yn ein gwlad gofnodion cywir am eu hynafiaid hyd sylfaenwyr y Pymtheg Llwyth Cyffredin a'r Pum Llwyth Breninol, yn y ddeuddegfed ganrif. Ond y mae llawer o'n hachwyr ar ol olrhain teulu ryw dair oes neu bedair yn ol, pan y byddo yn dechreu tywyllu arnynt, yn cydio y teulu â rhyw linach bendefigaidd ac adnabyddus, ac felly yn pontu gagendor y llinach ac yn cadw eu geirda eu hunain. Ond i wr fel y Dr. Morgan, yr hwn nid rhaid iddo wrth achau i gynnal ei enw, digon yw ei fod yn fab i John Morgan o'r Wybrnaut,* ar

* Llyfr. y Cymry, t. 195. Y Gwyliedydd, cyf. iv. t. 279.

† Y Traethodydd, 1874, t. 62.

‡ Sef yn 1679, 1684, 1723, 1737, 1744, 1775, heblaw un o Lanfair Caereinion, o gyfieithiad Bardd Mawddach, ac un arall yn 1858 o Bont y Pridd, o gyfieithiad y Parch. H. Oliver, B.A., a'r un y golygwn ei fod y cyntaf oll, gan y J. H. a'r S. J. uchod.

§ Nicholson's Cambrian Traveller's Guide, col. 1133.

* Sillebir yr enw mewn gwahanol ffyrdd, yn ol gwahanol syniadau am darddiad ac ystyr y gair. Wybrnant ydyw ar yr *Ordnance Map*, ac felly y seinir ef gan y trigolion, na'r hyn nid oes gwell awdurdod, a gresyn fod neb yn andwyo hen enwau ardderchog oddiar fympwyon coegysgolheigaidd. Wrth ysgrifenu yn Seisonaeg, silleba Syr John Wynne yr enw yn Wybernant, a dywed mai rhan o dref ddegwm (*township*) Dolwyddelan yw (Yorke's Royal Tribes, p. 141); ond y mae trigolion Penmachno yn dal yn gadarn mai yn eu plwyf hwy, ac o dan nawddogaeth St. Tyddud, y ganwyd y doctor, ac nid yn rhandir St. Gwyddelan, ei gymydog, ac y mae Browne Willis ac ereill ganddynt o'n tu. (*Vide* Survey of St. Asaph, p. 83. Y Gwladgarwr, cyf. v. t. 253.)

Digitized by Google

derfyn plwyfi Penmachno a Dolwyddelan, y rhai a ffurfiant ddosbarth deheuol cwmwd Nant Conwy. Nis gwyddys y flwyddyn y ganwyd ef, ond tybiwn ei fod ychydig yn hŷn na'i gymydog, Syr John Wynne o Wydir, yr hwn a anwyd yn 1553. Nis gallem fod yn mhell o'n lle pe gosodem enedigaeth William Morgan yn 1550.* Ychydig a wyddys am foreuddydd ei oes, ond y mae yn eglur mai mewn sefyllfa lled isel yr oedd ei rieni, am fod teulu llcwaidd Gwydir wedi crafangu yr holl wlad. Eto, mewn ffordd o "noddi," ni bu y teulu mawr yn ddiffygiol tuagat y teulu bach. Dyna yw ffasiwn y byd: bod mor galed ag y byddo modd nes cael yr awdurdod i'w law, ac yna ymostwng i nawddogi y truciniaid a yspeiliasai. Sut bynag y bu yn yr achos hwn, ymddengys fod teimladau da a chyfeillgarwch gwresog rhwng Syr John Wynne a'r Dr. Morgan hyd yn agos i derfyn oes yr olaf.

Derbyniodd Morgan addysg yn ieuanc, ond nid yw yn wybyddus yn mha le. Wedi cyrhaedd oedran priodol cafodd dderbyniad i Goleg St. Ioan, Caergrawnt, lle y gorphenodd ei addysg. Nis gwyddom ei helynt am rai blynyddoedd ar ol iddo adael ei goleg, ond sefydlwyd ef yn ebrwyad (*vicar*) y Trallwm, sir Drefaldwyn, ar yr 8fed o Awst, 1575, a'r tebygolrwydd yw mai dyna ei fywioliaeth gyntaf. Nid oes dim wedi ei gofnodi am dano yn ystod y tair blynedd y gwasanaethodd yn y Trallwm. Yn 1578 symudwyd ef i fywioliaeth Llanrhaeadr yn Mochnant, lle y dechreua ei gyhoeddusrwydd fel offeiriad pur a llafurus. Yma, yn ol pob tebyg, y dechreuodd ac y gorphenodd waith mawr ei oes, sef cyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg.

Yn ystod ei weinidogaeth yn Llanrhaeadr torodd rhyw anghytundeb allan rhyngddo ef a'i blwyfolion. Nid yw yn eglur beth oedd achos y cynhwrf, ond aeth y drwg mor bell fel yr achwynodd rhai o'r plwyfolion wrth yr esgob. Dywed rhai mai y gwyn oedd, ei fod yn esgeuluso ei ddyledswyddau bugeiliol er mwyn cael amser i droi yr Ysgrythyrau yn Nghymraeg. Dywed ereill mai rhyw anghydfod a fodolai rhyngddo a'i wraig. Y mae yn ddiddadl fod rhyw flinder teuluaidd yn ei boeni, o achos y mae Syr John Wynne yn edliw hyny iddo, ac nid yw yntau yn ei wadu, yn yr ymdrafodaeth a fu rhwng y ddau yn nghylch y degymau.* Y tebygolrwydd yw mai dig oedd rhai o'r plwyfolion hanner Pabyddol ei fod yn llafurio i gyfieithu yr Ysgrythyrau, ac iddynt ddefnyddio a chamliwio rhyw helynt bach teuluaidd er mwyn ennill eu pwynt. Ond "gwaith mawr yr oedd efe yn ei wneuthur," a gresyn na chawsai efe, ac ereill cyffelyb, lonydd gan rwgnachwyr hunangar i gario allan eu cynlluniau eang a duwiolfrydig. Gall Duw, fodd bynag, oruwch-lywodraethu mân ymosodiadau ar ei weision a'u troi yn fanteisiol i'r gwaith a gyflawnant. Felly y dygwyddodd yn yr amgylchiad presennol: nis gallai dim byd mwy ffortunus i Gymru gymeryd lle nag i'r Parch. William Morgan, yn 1583, ymddangos ger bron yr Archesgob Whitgift i wrthbrofi cyhuddiadau ei blwyfolion. Wrth ymddyddan âg ef cafodd yr archesgob craff allan yn fuan ei fod yn wr o athrylith a dysg anghyffredin, ac annogodd ef yn y modd mwyaf taer a charedig i fyned yn mlaen gyda'r gwaith nes gorphen y Beibl oll. O'r blaen, amcan Morgan oedd cyfieithu pum llyfr Moses yn unig; ond wedi cael y gefnogaeth gref, ond annysgwyliadwy hon, fe ymwrolodd ynddo ei hun ac yn ei Dduw, a chyda chymhorth ychydig ddysgedigion o'r cyffelyb feddwl fe ymosododd ar y gwaith mawr a gogoneddus o ddwyn yr holl Ddadguddiad Dwyfol i gyrhaedd y Cymro uniaith.

Dywed "Enwogion Cymru" mai William oedd enw ei dad, ond dywed Parry (Cambrian Plutarch, p. 318) mai John. Gan nad yw y naill na'r llall yn cyfeirio at eu tystion, nid oes genym ond dewis erthygl a'r enw wrthi o flaen un ddienw; ac y mae genym "Y Gwladgarwr" hefyd o'n plaid (cyf. v. t. 253).

Wrth fyned i lawr o Bentrefoelas i Bettws y Coed, wedi pasio Rhaeadr Conwy, gellir cael golwg ardderchog ar gwm y Wybrnant. O'n blaen ymestyna Glyn Lledr, yn gwm cul creigiog, i fyny hyd Ddolwyddelan, 5 milltir o ffordd. Y mae hwn yn ddigon neillduedig a rhamantus, ond y mae cwm bychan y Wybrnant, yr hwn sydd yn fforchogi o Glyn Lledr ar y chwith, yn fwy fyth felly. Amgylchynir a chauir ef i mewn gan glogwyni uchel, y rhai a addurnir yma a thraw gan goed ac a amrywir gan yr afonig ffrochwyllt a red o Ro-llwyd, gan roddi enw i ffermdy y Wybrnant wrth fyned heibio ac ymarllwys yn y gwaelod i afon Lledr. Tybia rhai fod y tŷ yr un fath, o ran adeilad, a phan y trigai y teulu ynddo a osododd enwogrwydd arno, am fod y cyplau yn codi o'r sylfaen yn ol dull adeiladu yn yr oes hòno. Damwain gyfeillgar a arweiniodd yr ysgrifenydd at y tŷ yr unig dro y cafodd olwg o agos arno, drwy iddo golli y ffordd ar y mynydd rhwng Penmachno a Dolwyddelan, a'r unig beth a'i gofidiai oedd nas gallasai dreulio ychwaneg o amser yn y lle. Y mae yr ardal yn dra dyddorol i'r daearegydd yn gystal ag i'r hynafiaethydd, gan ei bod yn gyfoethawg mewn cloddolion ac yn arddangos gweithrediadau treuliadol yr hen iafonau (*glaciers*).

* "Ganwyd y Dr. Morgan yn 1547." (T. W. Hancock.)

* Yorke's Royal Tribes, pp. 141, 145. Ar ei symudiad o Landaf i Lanelwy y dygwyd hyn yn ei erbyn, yn ol llythyr Syr John Wynne, ond nid yw hyny yn cau allan fod y cyhuddiad wedi ei ddefnyddio yn flaenorol. Cyfeiria'r Dr. Morgan, yn ei lythyr at y frenines, at y rhwystrau a'r gwrthwynebiadau a gafodd wrth gyfieithu. Fel hyn y dywed Charles Edwards:—"Ac ym mlwyddyn yr Arglwydd mil a phum cant, a phedwar ugain ac wyth, cyfieithwyd a phreintiwyd y Bibl cyfan yn Gymraeg, gan y Doctor Morgan, Ficar Llanrhaeadr ym Mochnant. Ond nid hwyrach fel y dywedodd Nathaniel, 'A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?' (Ioan i. 46,) yr amheua'r Gwyneddwr, a allai'r fath gymmwynas iachusol ddeilliaw o'r gymmydogaeth honno. Etto gwel fel y prifiodd cecri rhai o'i blwyfolion yn fantais i'r athro hwn yn ei orchwyl pwysfawr; canys pan orfu iddo fyned i lys yr Archesgob, i atteb iddynt, canfu'r Prelad pwyllog ei odidowgrwydd ef, ac a'i hannogodd ef i'r gwaith bendigaid hwnnw." (Y Ffydd Ddiffuant, t. 214; argr. Caerfyrddin.)

Digitized by Google

Seisonaeg y trodd efe ef i'r Gymraeg.* Y gwirionedd yw, fod nid yn unig hanes yr holl drafodaeth yn profi yn wahanol, ond hefyd arddull y cyfieithiad ei hun. Proffesai Morgan ei droi o'r Hebraeg a'r Groeg, ac nid yw yn debyg y gallasai efe dwyllo yr archesgob a'r esgobion a'i cefnogent a'r gwŷr dysgedig a'i cynnorthwyent. O ran hyny, y mae ei gopi ef ei hun o'r Beibl Hebraeg, yr hwn a ddefnyddiai efe fel testyn, yn awr yn meddiant arglwyddes Llanofer ac yn cynnwys nodiadau lluosog a chyfoethog y cyfieithydd dysgedig ar ymyl y dail.

Nid oes neb nad addefa fod y gwaith hwn yn ddigon o orchwyl oes. Felly, fe dybiem, yr ystyriai y doctor ef ei hun, ac ychydig iawn o ddim arall sydd genym o'i gynnyrchion llenyddol.† Yn hyn gwahaniaetha yn fawr oddiwrth Salesbury. Yr oedd Salesbury yn llawer eangach, os nid dyfnach, ei gydymdeimlad a'i gyrhaeddiadau. Cymerai ddyddordeb mewn barddoniaeth a gwyddor, mewn achyddiaeth ac ieithyddiaeth, mewn athroniaeth a chelfyddyd. Ond cyfyngai y Dr. Morgan ei hun at yr un pwnc mawr o gyfieithu yr Ysgrythyrau. Er hyny y mae genym grybwylliad am dano yn mhlith y beirdd,* ac awgrymiad ei fod yn fardd ei hun.

crefydd wneuthur mwy tuag at dangnefedd, nâ chyssondeb iaith. Ac nid duwiol cyfrif budd yn well na chrefydd, a chordiad oddi allan nâ'r heddwch y mae Gair Duw yn ei seilio ym meddyliau dynion. Yn olaf, mor annoeth yw y rhai a dybiant, pe gwarafunid Gair Duw, yn ein iaith mammawl, yr annogai hyny i ddysgu un arall, canys bydd crefydd yn anadnabyddus oni's dysgir yn iaith y cyffredin, a'r peth y bo un heb adnabod ei felusdra a'i werthfawrogrwydd, ni chymmer ddim poen er mwyn ei gael. Am hynny, attolygwn ar eich Mawrhydi, i'r rhai y rhoddasoch un fron y Gwirionedd eisoes, ganiattau y llall, fel y clodforo pob tafod Dduw."

Dyna gyfieithiad, neu yn hytrach aralleiriad, Charles Edwards o'r llythyr; ond talfyriad yw, heb gynnwys dros hanner y gwreiddiol, ond fod y sylwedd wedi ei gorffoli ynddo yn gryno a medrus. Dysgwyliwn am gyfieithiad Seisonaeg y Gwir Anrhydeddus W. E. Gladstone o hono yn gyflawn cyn hir, gan ei fod wedi cynnysgaethu Mr. Hancock âg ef, a'i fod i ymddangos yn nghyfrol yr olaf ar y Dr. Morgan. Ychwanegwn yma gydnabyddiaeth Morgan o'r cymhorth a gafodd gan y dysgedigion a enwir:—

"Enwau y gwŷr, y rhai yn arbenig a ymdrechasant i hyrwyddo y gwaith hwn:

"Y TADAU parchedig, esgobion Llanelwy a Bangor, a fu wiw ganddynt ganiatâu imi gynnifer o lyfrau ag a ddeisyfais, ac archwilio a golygu y gwaith hwn, ac yn ganlynol ei gymeradwyo.

"GABRIEL GOODMAN, deon Westminster, gwr rhagorol mewn gwirionedd yn gystal ag mewn enw, a llwyr ymroddedig i bob duwioldeb, a fu y fath ddyfal gyfarwyddwr imi mewn adolygu yr hyn a gyfieithaswn fel y cynnorthwyodd fi i'r eithaf drwy lafur a chynghor, a rhoddodd imi lawer o'i lyfrau ei hun, gan ganiatâu imi ddefnyddio y gweddill o'i lyfrau; ac hefyd, am y flwyddyn gyfan y bu y llyfr hwn yn y wasg (fel dolen gydiol rhwng y gwŷr a gydweithredent mor garedig yn yr amcan) a'm derbyniodd i'w dŷ, yr hwn garedigrwydd a gynnygiwyd imi yn y modd tirionaf gan yr archesgob gwir barchedig, am yr hwn y crybwyllais eisoes yn y llythyr hwn, ond yr afon Tafwys a'm gorfododd i'w wrthod, gan ei bod yn rhanu ac yn ysgaru rhwng ei dŷ ef a'r wasg.

"Yr un modd y dygodd y gwŷr canlynol gymhorth na ddyljd ei ddibrisio:—

"DAFYDD POWEL, Doctor Duwinyddiaeth Santaidd.

"EDMWND PRYS, archddiacon Meirionydd.

"RICHARD VYCHAN, llywydd yspytty St. Ioan, yr hwn sydd yn Lutterworth."

* Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii. t. 225. Llewelyn's Hist. Account of British or Welsh Versions, p. 60.

† Yn "Llyfryddiaeth y Cymry" (t. 56) cofnodir cyhoeddiad "Psalmau Dafydd. 1588. 4plyg." Dywed yr awdwr mewn nodiad ar waelod y ddalen mai ar awdurdod Johnson y cofnodir ef, ond y mae y golygydd yn taflu ammheuaeth ar y mater. Buom, fodd bynag, mor ffortunus a chael gafael mewn copi cyflawn o'r llyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig, wedi ei rwymo gydag amryw bethau dyddorol ereill, yn nodedig gyfieithiad i'r Seisonaeg o'r Salmau Cymraeg, wedi ei wneyd i ryw foneddiges o'r enw Anne, gan ei chefnder (cyfnither?), T. Bowyer, a'i orphen y 5med dydd o Awst, 1594, er mwyn i'w gwr a'i mab gael rhyw gysur tra yn trigo yn Nghymru. Y cwbl ag sydd ar y wynebddalen yw:—

"Psalmau Dafydd or vn cyfieithiad ar Beibl cyffredin. Iaco 5. 13. *A oes neb yn esmwyth arno? caned Psalmau.* Anno. 1588." gydag ymylwaith llydan tebyg i'r un ar Lyfr Gweddi 1621. Pedwarplyg ydyw ei faint, ond nid yw wedi ei dudalenu. Yn ei argraffwaith a'i ymddangosiad y mae yn mawr debygu i'r Llyfr Gweddi uchod. Yr hyn sydd ddyeithr ac anesboniadwy yw, pa fodd y dywedir ei fod "o'r un cyfieithiad a'r Beibl cyffredin," ac yntau yn cael ei argraffu yn yr un flwyddyn ag argraffiad Morgan?

* Mewn ysgriflyfr yn yr Amgueddfa Brydeinig cawsom y nodiad canlynol:—"Enwau y Beirdd, allan o Lyfr mawr Englynion John Jones o Gelli Lyvdy, ym meddiant Wm. Fychan, Ysgr., Cors-y-gedol. 1773. Ysgrifenwyd 1605–1618. . . . 'Syr Lewis Gethin, MORGAN Esgob Llanelwy, &c.'" (*Vide* W. Morys *apud* Moses Williams' Repertorium Poeticum.) Gwnaethom ymchwiliad am y llyfr yn llyfrgell ardderchog Peniarth, lle y cedwir ysgrifau y diwyd gasglwr ac adysgrifiwr o'r Gelli Lyfdy, yn sir Fflint, cydoeswr a chyfaill Robert Vaughan, Ysgr., o'r Hengwrt; ond nid yw y boneddwr gwladgarol sydd yn awr yn eu meddiannu wedi llwyddo i gael gafael yn y "Llyfr Mawr Englynion," ac yn niffyg hyny nid oes genym gymaint a llinell o gynnyrch awen ein cyfieithydd. Efallai, er hyny, y deuir o hyd iddo ryw dro, a bydd hyny yn foddlonrwydd i'n cywreingarwch o leiaf.

Nid yw y beirdd wedi bod yn hollol ddystaw o barthed i'r Dr. Morgan, fel y gwelir oddiwrth y darnau a gyflëir isod. Yn hyn hefyd bu Morgan yn fwy ffodus na Salesbury, ond canodd rhai i'r Esgob Davies (gwel gywydd Sion Tudur yn "Y Gwyliedydd," cyf. iii. t. 153), a thybir ei fod yntau yn fardd, ac yn bresennol yn ei ieuenctid yn Eisteddfod gyntaf Caerwys (Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii. t. 203) yn 1524. Dywed "Enwogion Cymru," modd bynag, mai yn Eisteddfod 1568 y canodd efe y tri englyn i'r eos a gofnodir yno, sef pan ydoedd yn saith a thrigain oed (t. 229).

"CYWYDD I'R DR. WILLIAM MORGAN, YR HWN A GYFIEITHODD Y BEIBL I'R GYMRAEG.

"Ond dedwydd oreuffydd rym,
O ail . . . . . ydym
A gair Duw yn egored aeth,
Yn deg o'i enedigaeth;
Duw a enynodd dawn unwaith
Doctor anhepcor o'n hiaith,
Yn deg o niwl a'n dug ni,
Ac i lan y goleuni;
Mae Doctor a rhagoriaeth,
Morgan wych mab Mair a'i gwnaeth;
Blaenor, gynghor y gangell—
Bugail yw heb gael ei well;
Drwy addysg, a'i droi iddyn'
Dicter Duw, Doctor a dyn:
Dysgai heb na thrai na thro,
Dysc Camrits,* dewis Gymro;
Ar unwaith gan y'n iaith ni
Yr oedd ffydd ar ddiffoddi;
Drwy'n gofal draw yn gyfan,
Dwg ni i'r goleuni glân:
Piau'n rhoi yn glau o'r glud,
Piau helpu o'r pulpud.
Llyna faeth lle ni fethodd,
Llygad Llanrhaead' llawn rhodd:
Ffrwythder ieithoedd ffraeth draethai,
Ffynnon heb na thro na thrai;

"* Cambridge."

Dyn hoffaidd yw'n dwyn ffydd iach,
Dewis ieithoedd disothach;
Glân oedd galon o'i addef,
Gwr i ni a garai nef.
Doctor i gael rhagor rhodd,
Yw y gwr a'i hagorodd;
Esgob a fydd ddydd a ddaw,
Nid oes dadl, wedi astudiaw;
Troes y Beibl tros y bobloedd,
Tro gwr gwych trugarog oedd
Nid gwell hael i'w gael heb gwrs,
Ni bydd fel cybydd ceubwrs;
Hwn a fydd cynydd canu,
Hafddydd i Feirionydd fry;
Cafas hwn cofio synwyr,
Cai y blaen y cwbl a ŵyr;
Mae'n lân am arian a medd,
Mewn aur hwn yw'r maen rhinwedd;
Mae i'r gwr mawr ei gariad
Malais a glowais i'm gwlad,
Weithian caiff atcan y cwyn,
Edrychont ai da'r achwyn;
Eiliai gywydd rhydd fawrhad,
Iddo hael o Ddeheuwlad;
Edward ab Sion, ffynnon ffawd,
Am Mhorus* nid amharawd;

"* Ab Morus."

Digitized by Google

Nid yw yn ymddangos i Salesbury gael dim mantais nac anrhydedd personol oddiwrth ei waith. Yn hytrach y mae genym le i gasglu mai ei feirniadu a'i feio a gafodd yn fwy na'i ganmol; ac y mae ei dôn yn ei lythyr at Gruffydd Hiraethog yn ymddangos yn siomedig, yr hyn efallai a gyfrif am ei ddystawrwydd yn y rhan olaf o'i oes yn llawn cymaint a'i anghydwelediad â'r esgob. Yr oedd yr Esgob Davies eisoes wedi ei ddyrchafu i'r sedd eglwysig uchaf yn Nghymru, a chafodd yr anrhydedd o gyfranogi yn y gwaith o ailgyfieithu yr Ysgrythyrau i'r iaith Seisonaeg pan y gorchymynodd y frenines gyhoeddi Beibl Parker yn 1568, ac efe a olygodd lyfrau Joshua, Ruth, a'r ddau Samuel. Am y Dr. Morgan, cafodd efe yn ddioed y dyrchafiaethau eglwysig a haeddai ei athrylith a'i lafur; oblegid yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd ei Feibl symudwyd ef i fywioliaeth Llanfyllin, a chafodd segurswydd Pennant Melangell gyda'r berigloriaeth gyfoethog hòno. Yn 1594, drachefn, ychwanegwyd bywioliaeth Dinbych at ei fuddiannau ereill; ac yn y flwyddyn ganlynol dyrchafwyd ef i esgobaeth Llandaf, ar ddymuniad neillduol y Frenines Elisabeth. Bu yno am chwe' blynedd, ac yna, yn 1601, trosglwyddwyd ef i esgobaeth gyfoethocach Llanelwy, lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1604, sef am yspaid tair blynedd.

Yn mhen blwyddyn neu ddwy ar ol ei sefydliad ar orsedd esgobol Llanelwy cyfododd dadl annymunol rhyngddo a'i hen gyfaill a noddydd, Syr John Wynne o Wydir. Ymddengys fod y barwnig galluog wedi bod yn garedig i Morgan ar lawer amgylchiad, ac wedi cynnorthwyo i gael iddo esgobaeth Llanelwy. Wrth gwrs dysgwyliai y barwnig llygadog iddo yntau dalu yn ol gyda llog, a'r gymwynas gyntaf a ofynodd oedd cael prydles ar berigloriaeth Llanrwst. Ceisiai yr esgob ddangos iddo nad oedd iawn iddo ef ddefnyddio eiddo yr eglwys i wobrwyo ei gymwynaswyr; ond

Dyn a fu dan ei feiau,
Duw fo rhwydd i 'difarhau;
Gwr a fynai'n gryf enyd,
Ranu y corff heb roi'n cyd,
Ymroes, a throes, ac wrth raid,
Weithian at ran yr enaid.
Galw Dduw bydd llywydd llawen
Gweled y ffordd glud o'i phen;
Y Beibl ar led, os credwn,
A'i dengys hysbys yn hwn:
Dyn llawn dawn a llawenydd,
Diffael Doctor hael a'i rhydd.
Beibl a wnaeth i'n bobl ni,
Praff adail y proffwydi,
O'i fewn sydd rhag cerydd caeth,
Fydd genym feddyginiaeth;

A rhad Duw yr hauwyd hwn,
Am ei hau nag amheuwn.
Dan ddwylo rhodio nid rhaid
Drwy gael in' driagl enaid;
Os ein drych harddwych yw hwn,
Ar y drych yr edrychwn.
Cyfraith grymuswaith Moesen,
Cyf'rwyddyd y byd o'i ben;
Caf restio cof ar osteg,
Cyfraith Duw a'i waith yn deg;
Y Beibl maith yn ein hiaith ni,
Yw'r Haul yn rhoi' oleuni:
A'r Doctor cynghor ei caid
A'i troes in' rhag trais enaid;
Byd rhydd ar gynydd ganoes,
Bid rhwydd rhag y neb a'i troes.

"IEUAN TEW *a'i cânt*, 1590." (Y Brython, cyf. v. t. 333.)

---

Diweddar, fel y gwelir, yw y cywydd maith ar y Dr. Morgan a'i gydlafurwyr, o'r hwn y dyfynwn y darnau a ganlyn:—

"Bibl Duw i bobl dywyll,
Gwir nad oes un gair yn dwyll
O'i fewn oll, ofyn welliant,
Yn rheol sydd, er elw sant,
Na nod yn ormod i ni,
Ar len ei bur oleuni.

. . . . . . . . . .

Myned gaf mewn adgofion
Ar hanes yr Ynys hon,
A fu'n hir heb fwynhau
Iaith wir yr Ysgrythyrau.

. . . . . . . . . .

Drwy gynal hud drygioni,
Duodd nos ein gwledydd ni,
'Heb Dduw, heb ddim,' ac heb ddoeth
Arweiniad, i rai annoeth
Bod heb wybod, 'heb obaith,'
Na gras Duw, neu Grist a'i waith.

. . . . . . . . . .

Ond wele wawr yn awr o'r nen,
Ail lewyrch Gwalia lawen!
Chwalai niwl a chiliai nos,
Oedd ddu oer, yn ddiaros,
Haul y dydd a'i olau daeth,
Ar hyn, o fawr wahaniaeth,
Do'i Sals'bri i'n bri a'n braint,
Ar unwaith fel pêr enaint,
Yn ei ddawn fal 'Seren ddydd,'
A'i gwawr ar dywyll gaerydd,
Iaith y nef a ddaeth i ni,
Eirian glân er goleuni.
I aros i'r nos nesu
Allan oddiar ei llen ddu,
I gael teg oleuad dydd,
Y gwanwyn yn ei gynydd.
A'r Doctor Gwilym Morgan,
Mawr ei glod, fel Cymro glân,
Roi'r gwirionedd yn feddiant
I'n bro ni, o Ewybr-nant.

. . . . . . . . . .

Fe welodd ei blwyfolion
Yn egr i'w swydd, garw yw son,
Ymroisant i ymryson
Droes i warth hyd yr oes hon.
Gan wrthod ei gynhorthwy
Yn ngair mawr ei gynghor mwy.
Enw Llanrhaeadr i'w adrodd,
Lle'i fawr-draul i'r llafur drodd;
A phan y llwyr orphenodd
Ei waith mawr, mawr yn mhob modd,
Achwynid gyda chynen
A gair bach am eu gwir ben,
Digient, ac ni fynent faeth
A thrwyadl wir athrawiaeth.
Ar alwad Uwch Rheolydd
Erchid ei gyrchu y dydd,
A'r addysg a ro'i iddo,
Bu o ddawn, a'i boddhai o.
A'r Archesgob o bob un,
Ni wybu enw nebun
Mor addas er ymroddi
Gariai'n iach y Gwir i ni!
Mae enw Whitgift mewn atgof,
A hir geir hwnw ar gof,
A'i gydmar Doctor Goodman,
Dau yn hir a gerir gan
Y genedl, yn bur gynhes,
Gwŷr yn llawn, garai ein lles—
Gyru y gwr i Gaergaint,
Wnai ei gam yn ogymaint,
Ond eilwaith hyny'n dilyn,
Gwedi'r daith, i godi'r dyn.

. . . . . . . . . .

Dewisai ei gyd-weision,
Ein llèn heirdd yn ngwinllan Iôn,
Dynion sy raid eu henwi,
Golud a nerth ein gwlad ni,—
A fu gynt yn fywiog wyr,
Ddyledus dreiddiol awdwyr.
At *Dafis—Huet* hefyd,
Union yn ngair eu henw'n nghyd,
Rhoddai y gwŷr, rhydd eu gwedd,
Ini ran o'r gwirionedd;
Llu eilwaith, a'u holl alwad
Wrth eu rhif bu'n gymhorth rhad.
Nawdd *Elizabeth* ddethawl,
O fri mwy, gofer â mawl,
Hi dynodd o gadwyni
Enbyd nos, ein bywyd ni.
*Huws* heb ail, sai' a *Bellod*,
A *Powel* mewn uchel nod,
Mynid prawf o *Edmwnd Prys*
Bardd o dalent beirdd dilys,
Ac mewn rhan *Fychan* a fu,
I reidiol gydweithredu.
Y gwir pur gyrai *Parri*,
*Dafydd* wnaed o fudd i ni,
I'r rhes atynt *Rhys* eto,
Dwnad iaith adwaenid o.*
O bryd i bryd hyd yn awr
Y gwir ordaenai'n gorawr,
Gyda'i waith, fe gadwai Iôn,
Ar awydd, y goreuon;
Ac o'u blaen o gwbl enyd
Morgan gaiff y gân i gyd!"

. . . . . . . . . .

—(Yr Adolygydd, cyf. ii. t. 18, *et seq.*)

---

Gan fod cywydd Sion Tudur wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar mewn ffurf gyrhaeddadwy i'r cyffredin, nis ychwanegwn yma namyn dyfyniadau o hono:—

"CYWYDD I'R DOCTOR MORGAN, ESGOB LLANELWY.

"Yr athro mawr wrth rym wyd,
Urddas gwaed ar ddysg ydwyd:
Tro fawl iach nid trafael wan
Trwm ergyd Doctor Morgan.
Gwniäist ordeiniaist air Duw,
Cost dibrin o'r text Ebryw:
Mil chwe chant mewn tyfiant teg,
Oed Duw oedd onid deuddeg:
Pan y troist pob pennod draw,
I'r bobl drist o'r Beibl drostaw.

. . . . . . . . . .

* Cyfeiriad sydd yma at y dyb mai er mwyn cynnorthwyo y Cymry i ddeall Beibl Morgan y cyfansoddodd Sion Dafydd Rhys ei ramadeg Lladin-Gymraeg. Nad yw hyn gywir, er fod Humphrey Pritchard yn ei ddyweyd yn y rhagdraeth. (*Vide* Cambrian Plutarch, p. 315, *et seq.*)

Digitized by Google

nis gallai y barwnig bydol weled hyny, a ffromodd yn aruthr; fel y prawf yr ohebiaeth a gymerodd le rhyngddynt, ac sydd eto ar gael.* Ond er pob edliwiaeth a bwgwth, daliodd yr esgob cydwybodol yn ddiwyro at yr hyn a gredai oedd iawn. Beïir yr esgob gan rai, a'r marchog gan lawer; ond dichon fod ychydig fai o bobtu. Er hyny os rhaid cyhoeddi dedfryd ar yr achos, nis gallwn betruso mynyd o blaid pwy i'w rhoddi. Dichon fod Morgan braidd yn rhy lym ei ymadroddion wrth un a fuasai mor garedig wrtho, tra y mae yn eglur fod Syr John yn edrych ar ei fantais ei hun yn fwy nag ar gyfiawnder, ac yn gofalu mwy am y *Gwedir family* nag am yr eglwys. Felly oddiwrth y drafodaeth hon, yn gystal a holl fywyd y ddwyblaid mewn dadl, fe ddeffröir ein dirmyg a'n casineb at y naill a'n hedmygedd a'n serch at y llall. Os gadawodd Syr John Wynne elusendai yn Llanrwst i goffa ei enw ac yn iawn am draha ei fywyd, ac os yw ei ysbryd eto yn Rhaeadr y Wennol yn gorphen y penyd, gadawodd y Dr. Morgan enw da i berarogli ei goffadwriaeth a thrysor anchwiliadwy Gair Duw i gyfoethogi ei wlad.

Ni bu y doethawr yn hollol ddilafur llenyddol yn ystod tymmor ei swyddogaeth fel esgob. Yn y flwyddyn 1603 cyhoeddodd Thomas Salisburie, yr argraffydd, fydryddiad Gwilym Ganoldref o'r Salmau. Wrth anerch y darllenydd ar y dechreu, dywed fod ganddo amryw lyfrau Cymraeg ereill yn barod i'r wasg, ac yn eu plith y "Testament, wedi ei ddiwygio gan esgob Llanelwy." Nis gwyddom a gyhoeddwyd hwn byth ai peidio, ond os mai do, y mae yr holl gopïau wedi diflanu, gan nad oes gymaint ag un yn wybyddus. Dichon nad oedd hwn ddim ond ail argraffiad, ar wahan, o'r cyfieithiad yn y Beibl (1588); ond mwy

Gelyniaeth a wnaeth un wedd,
Eglwys Rhufain gloes rhyfedd;
Chwareu â ni'n chwerw a wnaeth,
Chwareu *mum*, chwerwa mammaeth!
Chwareu ddoe yn chwerw ddeall,
Mig un dwyll a'r mwgan dall!
A'u pennau'n eu cau mewn cwd,
Am ein magu mewn mwgwd!
. . . . . . . . .
O daw'r gelyn drwy gilwg,
A thrwy drais i wneuthur drwg,
Mae'n wan ac anghyfannedd,
Marchog heb na chlog na chledd;
Drwg yw i gall, draig yw gwr,
A dyrnau moelion drin milwr.
Gloyw ddwys bryd gledd ysbrydawl,
Gair Duw yw'r arf a darf diawl!
. . . . . . . . .
Gwnaethost drwy egni weithian,
Act o rugl-waith Doctor lan;
. . . . . . . . .
Hen fardd, e fu hardd fy hynt,
Wyf, a hynaf o honynt;
Fy mryd yn fy mro ydyw,
Derfynu f' oes dra fwy'n fyw;
Tarrio 'nghansel Llan Elwy,
Heb allu myn'd i bell mwy:
A chanlyn gair, iawn air oedd,
Iesu, madws i'm ydoedd;
Darllen yn ffel hyd elawr
I bobl y mwth y Bibl mawr!
Gofyn rwy' i ddyn rodd dda,
Gofyn y Beibl yn gyfa;
Dod y gyfraith air maith i mi,
Praff adail a'r Prophwydi;
Yr holl gyfraith freisg-waith frau,
A'r Efengyl arf angau.
Rhodd a gaf hardd ei gofyn,
Na châs bardd wawd hardd hyd hyn,
A'i eisiau wnaeth Iesu Ner,
Dyfu pob caniad ofer;
Nis canaf yn Is Conwy,
Neu fwrw mawl yn ofer mwy;
Cai glod o fyfyrdod fawr
A da dylid hyd elawr;
Tra gwneir tai, tra caner tant,
Tra fo Cymro'n cau amrant,
Tra 'dwaener tro di anwych,
Cyfwng rhwng y cefn a rhych,
Gwelwyf yt iechyd Galen,
Einioes trwy hap Nestor hên!"

—(Ceinion Llenydd. Gymreig, cyf. ii. t. 209.)

* Yorke's Royal Tribes, p. 137, *et seq.* Er mwyn y sawl na feddant y gyfrol ddyddorol hon fe roddwn yma lythyr cyntaf yr esgob (o leiaf sydd ar gael) yn ateb i gais y barwnig:—

"WILLIAM MORGAN, ESGOB LLANELWY, AT SYR JOHN WYNNE O WYDIR.

"*Salutem in Chro.*

"Eich cymhelliadau imi gadarnhau eich prydles ar berigloriaeth Llanrwst sydd amryfal, sef:—

"1. Eich gofid am fethu yn eich amcan, gan na fethasoch erioed o'r blaen mewn unrhyw ymgais.

"2. Y byddai yn well genych golli 100*p.* yn flynyddol mewn tiroedd.

"3. Fod yr ardreth a godir yn gymaint a gwerth y berigloriaeth.

"4. Ddarfod i chwi brynu y brydles yn ddrud.

"5. Y meddyliai y byd fod eich serch ataf fi yn derbyn ad-daliad angharedig.

"6. Y bydd i ereill, drwy fy esiampl i, eich parchu yn llai.

"7. Eich bod yn dysgwyl fy nghael i tuag atoch chwi yr hyn y buoch chwi ataf fi.

"8. Fod cysylltu Tŷ Brith wedi costio i chwi lawer.

"9. Fy amryw addewidion, y caffai eich prydles chwi fod y gyntaf. Ac un peth sydd yn fy ysgogi yn erbyn y rhai hyn oll, sef fy nghydwybod, yr hon a'm sicrhâ fod eich cais yn gyfryw fel drwy ei ganiatâu y profwn fy hun yn ddyn anonest, digydwybod, a digrefydd; Ie, yn yspeiliwr annuwiol fy eglwys, yn ddifrodwr bradwrus fy esgobaeth, ac yn rhwystrwr annaturiol i bregethwyr ac ysgolheigion da; a byddai y meddwl am hyn yn ddychryn a phoen gwastadol i'm cydwybod. Ac i ddyfod at eich rhesymau cymhelliadol:—

"1. Atolygaf na byddo eich gofid oherwydd methu yr un peth a gofid Ahab am winllan Naboth.

"2. Y mae gwerth 100*p.* o dir yr un faint a 200*p.* o ddegwm.

"3. Yr wyf yn deall oddiar sail dda fod y berigloriaeth yn werth dau cymaint a'r ardreth osodedig; yr hyn a gadarnhëir gan eich ail reswm.

"4. Y mae eich pedwerydd rheswm yn cadarnhau yr unrhyw; canys ni phrynech brydles yn ddrud, a hithau fawr fwy o werth na'r ardreth.

"5. Dangosasoch i mi lawer o garedigrwydd, ond nid dim caredigrwydd anonest; ac nid wyf finnau byth yn bwriadu eich gwrthod chwithau o'ch gofynion gonest.

"6. Ni thybid yn well am danoch drwy i chwi gael eich deisyfiadau annuwiol, ond yn hytrach yn waeth; canys nid yw yn gywilydd i ddyn fethu mewn ymdrechion drwg, ond bydd eu gadael yn ganmoliaeth mawr.

"7. Gellwch fod yn dawel y cewch fi, fel y dymunwn i eich cael chwi, yn mhob peth cyfreithlawn a gonest.

"8. Nid wyf yn ystyried fod cysylltu Tŷ Brith nac yn niweidiol na manteisiol i mi na'r eglwys.

"9. Fy addewid ydoedd ac yw, nas gwnaf ddim i unrhyw ddeiliad a'r nas gwnaf i chwi, ac na chadarnhâf unrhyw brydles fel yr eiddoch o flaen yr eiddoch chwi. Ac nid wyf yn awr yn tueddu i gadarnhau unrhyw brydles o gwbl. Ond y mae y cabidwl yn bwriadu adnewyddu un oes mewn prydles o'u heiddo hwy.

"Yn mhlith eich cymwynasau ereill, rhoddasoch dystiolaeth dda am danaf. Atolwg, caniatëwch imi barhau yn deilwng o honi. Y mae cynnifer o asglodion eisoes wedi eu cymeryd oddiwrth yr eglwys fel y mae yn barod i gwympo. Y mae Duw wedi eich bendithio mor neillduol fel yr ydych yn rhwym o gynnorthwyo ei eglwys dlawd yn hytrach nag i'w hattal.

"Felly, gyda'm cofion mwyaf calonog atoch chwi ac at y dirion Meistres Wyn, y gorphwysaf.

"Yr eiddoch byth yn yr Arglwydd,

"WILLIAM ASAPHEN.

"25med Chwefror, 1603. "*Verte folium.*

"Gwn am chwech neu saith o ymgeiswyr am gadarnhâd prydlesoedd ar eglwysfuddion cyflwynol (*presentative benefices*), y rhai a fwriadant ddwyn tiroedd cynghorwyr cyfrin (*privy counsellors*), os nad tir ei Fawrhydi ei hun. Ac yn y Senedd nesaf yr wyf yn edrych yn mlaen at ymosodiad arnaf. Ond yr wyf yn ymddiried yn Nuw yr amddiffyna Efe myfi a'i eglwys.

"Agorai *un* y drws i'r lleill oll. "W. A."

Digitized by Google

tebygol yw fod yr esgob wedi ei ailddiwygio, er nad yw ei olynydd, Parry, yn son dim am y cyfryw waith yn ei lythyr cyflwyniad i'r Brenin Iago I., o flaen Beibl 1620, ac yntau mor rydd a gofalus i gydnabod gwaith ei ragflaenwyr. Y tebygolrwydd yw nad argraffwyd erioed mono, ac fod y copi wedi sefyll yn swyddfa Thomas Salisburie, fel yn ddiau y bu ffawd neu anffawd "Traethawd ar Lywodraeth y Tafod," gan Mr. Perkins;* "Parotoad i Briodas, a Phregethau ereill," gan Henry Smithes, a "llawer o bethau ereill, Dwyfol a dynol;" tra yr ymddangosodd "Y Salmau yn y Mesur arferedig yn Eglwys Loegr, gyda Nodau i'w canu,"† yn yr un flwyddyn a'r "Psalmae" gan G. Ganoldref (ond heb y nodau).

Anhyfryd yw cofnodi llwyddiant nacaol fel ffrwyth ymchwiliad i unrhyw gwestiwn; ond iawn ini grybwyll yma ddarfod i gyfaill brwdfrydig archwilio llyfrgelloedd a choflyfrdai eang Lambeth, Westminster, a'r Gofnod-Swyddfa (*Record Office*), gyda'r amcan arbenig o chwilio am rywbeth o barthed i'r Dr. Morgan; ond bron yn gwbl ofer. Yr unig beth y llwyddodd i gael gafael arno oedd sel swyddogol yr esgob, a hòno wedi tori yn ddarnau. Fodd bynag, asiodd y cyfaill a'r swyddog y darnau yn ofalus; ac y mae yn awr i'w gweled yn gyfan, gydag eryr deuben y teulu fel un arwyddlun arni, yn y Gofnod-Swyddfa.

Tair blynedd yn unig y daliodd efe esgobaeth Llanelwy, canys bu farw y 10fed o Fedi, 1604. Bu fyw felly tua dwy flynedd ar bymtheg a deugain. Claddwyd ef y dydd canlynol i'w farwolaeth yn yr eglwys gadeiriol, ond nid oes cymaint a "chareg arw a dwy lythyren" i ddynodi man ei feddrod!

Ymrana ei fywyd yn dri chyfnod: wyth mlynedd ar hugain (1547–1575) o ragbarotoad, ugain mlynedd (1575–1595) o weinidogaeth, a naw mlynedd o esgobaeth (1595–1604).

Cyn gadael y gwr da a dysgedig hwn, goddefer ini roddi cofnodiad byr am y gwŷr enwog a gydoesent âg ef ac a gyd-lafurient yn y gwaith. Yr oedd Cymru yn y cyfnod hwnw yn gyfoethog mewn enwogion, pa mor dywyll bynag oedd cyflwr y werin. Nid yw yn ymddangos i'r Esgob Davies o Dŷ Ddewi helpu dim yn y cyfieithiad hwn, heblaw a wnaethai drwy y Testament a'r Llyfr Gweddi, ac nid oes un cofnodiad fod Morgan ac yntau erioed wedi cyfarfod na gohebu â'u gilydd. Bu y Dr. Richard Davies farw yn 1581, yn bedwar ugain mlwydd oed, yr hyn oedd tua'r adeg y dechreuai Morgan feddwl am "ladmeru" yr Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg. Nid oes son ychwaith fod y Dr. Morgan wedi cael na cheisio cymhorth Salesbury at y gwaith, ac yn ol yr awgrymiadau a feddwn nid yw yn debyg y cawsai pe ceisiasai. Bu Salesbury fyw hyd 1593*—bum mlynedd ar ol ymddangosiad Beibl Morgan—ond yr oedd wedi digio wrth ei wlad er's blynyddoedd, ac wedi penderfynu peidio na darllen nac ysgrifenu gair o Gymraeg byth,† na'i siarad ychwaith hyd y gallai; er iddo fethu ymattal yn llwyr, gan mai yn y cyfnod yma ar ei fywyd y casglodd ei reitheg. Er hyny, cafodd Morgan gefnogaeth a chynnorthwy amryw wŷr o urddas a dysg, y rhai a gydnebydd yn ddiolchgar a helaeth yn ei lythyr cyflwyniad. Y cyntaf a enwir ganddo yw—

JOHN WHITGIFT, archesgob Caergaint, yr hwn a aned yn Great Grimsby, yn sir Lincoln, tua 1530–1533. I'w ewythr, Robert, abad ar fynachdy y Brodyr Duon yn Wellow, ger Grimsby, yr ymddiriedwyd ei addysg, ac yntau yn fuan a'i dysgodd yn egwyddorion y grefydd Brotestanaidd. Yn 1583 y gwnaed ef yn archesgob Caergaint, ar farwolaeth y Dr. Grindal. Fel y canmolir Grindal gan rai am ei dynerwch at y Puritaniaid Esgobyddol, felly beïir yn llym ar Whitgift am ei doster atynt; ond dylid cofio nad y tyneraf ei deimlad a ystyrid yn yr oes hòno y cymhwysaf i lenwi swydd uchel yn yr eglwys. Y mae gan Gymru, beth bynag, achos i ddiolch i'r archesgob

* Cymharer "Llyfryddiaeth y Cymry" (t. 211) â'r "Ffydd Ddiffuant" (t. 218).

† Y Traethodydd, 1852, t. 244 Llyfr. y Cymry, t. 75.

* Llyfr. y Cymry, t. 19.

† "Lle y bwriedais yn fynych o amser, fy nghyd-ddarpar, a'm caredigion o gelfyddyd cerdd dafod, nid yn unig er atal fy llaw rhag ysgrifenu dim yn yr iaith yma, ond ar ysgogi fy ngolwg oddiwrth bob llyfr y byddai dim o honi yn ysgrifenedig ynddo; a phe diangwn rhag trawsogan anhaeddedig, rhoddaswn ddiofryd i ymddiddan lleiaf a allaswn ynddi, a chymaint a chynifer o iawn achosion yn marn y *Brawdwr* a fynid oedd imi hyny; ond lle y bwriedais, meddaf, hyny, ni allai, naill ai rhyw dynghedfen anesgorawl, ai ynte rhyw drugar dosturi, wrth dy weled ti, Gruffydd, mor Hiraethog am gywair yr iaith, ag yr wyt, fel y dywed y Lladingwyr am Atlas, yn cymeryd gormod baich ar dy ysgwyddau dy hun; nid amgen na'th fod yn ceisiaw ymhell, oddi yma ac oddi acw, am bob cwrach o lyfr brycheulyd i'w ddarllain ac i'w chwilio drostaw, er cael peth cymhorth tuag at gynal yr iaith sydd yn cychwyn ar dramgwydd; ie ni allai anfeidrawl i mi dy adael dy hun yn unig i sefyll dan faich mor orthrwm, ond hyd y gwasanaetha egwander fy nerth a'm hariol, estyn fy ysgwydd dan yr un baich a'r lluddedig ysgwydd dau dithau; ni allai fyth gyfiawnder cydwybod calon undyn dynawl dy adu i ymofalu, i ymdrafferthu y tu hwnt ag y gwnai Prometheus, am yr hwn y dywedai y chwedl am ei astud a'i feddylgar fyfyrdawd, fod eryr yn pigo ei berfedd allan o'i geudawd; a chan fod yn ddiamau genyf fod rhyw drafferth ar yr iaith, llyma fi yn estyn fy hun hyn o ffigyrau megis yn golofnau yn oseiliau ac yn ategau i'w rhoddi wrthi." (Llythyr Salesbury at Gruffydd Hiraethog, fel rhagdraeth i'r "Egluryn Ffraethineb." *Vide* Traethodydd, 1876, t. 35.)

Digitized by Google

byth am ei nodded dros y Dr. Morgan a'i gefnogaeth iddo i ddwyn y Beibl mewn ffurf mor ardderchog i'n gwlad. Bu farw Whitgift yn 1603, tua'r drydedd flwyddyn ar ddeg a thrigain o'i oedran.

Y gwŷr a enwir nesaf gan y Dr. Morgan fel ei gynnorthwywyr yw esgobion Llanelwy a Bangor.

WILLIAM HUGHES oedd frodor o sir Gaerynarfon, ac yn olrhain ei achau i Marchudd, un o'r Pymtheg Llwyth. Yn 1573 y gwnaed ef yn esgob Llanelwy. Cyhuddir ef o gadw un ar bymtheg o blwyfi ar ei law am flynyddoedd, nes i'r llywodnaeth ymyryd yn yr achos. Bu farw yn 1600. HUGH BELLOT, a wnaed yn esgob Bangor yn 1585, o'r lle y dyrchafwyd ef yn esgob Caerlleon, lle y bu farw yn 1595 neu 1596, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys Gwrecsam. Sais, mae'n debyg, oedd efe; ond fel ereill o'i genedl yn yr oes hòno, bu yn llawn gwell cymwynaswr i Gymru na llawer o'i meibion.

DAFYDD POWEL, D.D., a anwyd yn sir Ddinbych yn 1552, ac ydoedd fab i Hywel ab Dafydd ab Gruffydd ab Ithel, ac a ddisgynai mewn llinell unionsyth o Llywelyn Aurdorchog o Ial yn y ddeuddegfed ganrif. Yn 1568 aeth i Rydychain, lle y graddiodd yn B.A. yn 1572 ac yn M.A. yn 1576. Cafodd ficeriaeth Rhiwabon, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes ac y cynnyrchodd ei weithiau llenyddol. Yn 1584 cyhoeddodd argraffiad o gronicl Caradog o Lancarfan yn Seisonaeg, ar yr hwn y sylfaenwyd y rhan fwyaf o hanesion Cymru a ymddangosasant byth wedyn. Parotoisai hefyd eiriadur Cymraeg, a llawer o gynnyrchion gwerthfawr ereill na chawsant byth eu cyhoeddi. Bu farw yn 1598, a chladdwyd ef yn eglwys Rhiwabon.

GABRIEL GOODMAN, D.D., a anwyd yn Rhuthyn yn 1528. Ail fab ydoedd i Edward Goodman o'r dref hòno, yr hwn gyntaf a gymerodd y cyfenw hwnw, yr hwn er ei fod yn Seisnig, fel amryw enwau ereill cyffelyb, a berthynai i deulu o waedoliaeth hollol Gymreig, gan fod yr Edward uchod yn disgyn, drwy Tomas ab Edward, o Siencyn Goch o Landyrnog, yn Nyffryn Clwyd. Casglodd Edward Goodman ("gwr da" mewn gweithred a gwirionedd) lawer o gyfoeth fel sidanydd, a danfonodd ei fab Gabriel i Gaergrawnt tua 1544, lle y bu am tua saith mlynedd, nes ennill o hono y radd o M.A. Drwy ddylanwad Syr W. Cecil, wedi hyny arglwydd Burleigh, yn nheulu yr hwn y gwasanaethai Goodman fel caplan, gwnaed ef yn un o gôr-berigloriaid St. Paul yn Llundain tua 1558, ac yn 1560 cafodd yr un swydd yn eglwys gadeiriol Westminster. Y flwyddyn ganlynol cafodd y radd o D.D., a dyrchafwyd ef yn ddeon yn yr un eglwys, yr hon swydd a lanwodd am ddeugain mlynedd, sef hyd ei farwolaeth yn 1601. Cafodd yr anrhydedd o law-nodi y Namyn Un Deugain Erthygl, y rhai y cytunwyd arnynt yn 1562. Yn 1568 ymddangosodd y cyfieithiad newydd o'r Beibl i'r Seisonaeg, yr hwn a elwir Beibl yr Esgobion, a chafodd y Deon Goodman y fraint o gyfieithu yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid. Yn 1590 sefydlodd elusendai yn ei dref enedigol ac ysgol ramadegol o radd uchel, yr hon sydd mewn bodolaeth, ar ol rhoddi addysg ragbarotoawl i rai o brif ddynion ein cenedl. Bu farw, fel y crybwyllwyd, yn 1601, Mehefin 17, a chladdwyd ef yn nghapel St. Benedict, o fewn mynachlog Westminster, lle y gellir gweled cofadail ardderchog iddo, ac arni gofnodiad o'i rinweddau a'i ragoriaethau.*

Gan y bwriadwn gysegru pennod eto i goffadwriaeth EDMWND PRYS, pasiwn heibio iddo fe yn awr gyda'i grybwyll.

RICHARD VAUGHAN, D.D., ydoedd fab i Thomas ab Robert Vaughan o Nyffryn, lle rhwng Tudweiliog ac Edeyrn, yn Lleyn, sir Gaerynarfon. Ei fam oedd Catherine, ferch Gruffydd ab Sion ab Gruffydd o (Gefn Amwlch?) Leyn. Cafodd ei addysg yn Ngholeg St. Ioan, Prifysgol Caergrawnt, o ba un yr oedd yn gymmrawd, ac yn mha le y cymerodd ei raddau, er y dywedir fod cysylltiad rhyngddo a Rhydychain hefyd. Wedi bod yn dal prebendiaeth Holborn, yn mhrifeglwys St. Paul (1583), ac archddeoniaeth Middlesex (1588), ac efe ar y pryd yn Faglawr mewn Duwinyddiaeth (B.D.), cysegrwyd ef yn esgob Bangor, Ionawr 25, 1595, symudwyd ef i Gaerlleon yn 1597, a gwnaed ef yn esgob Llundain yn 1604. Perchid ef yn uchel ar gyfrif ei addfwynder a'i ddysg, ac yn enwedig am ei ddoniau pregethwrol. Bu farw Mawrth 30, 1607, a chladdwyd ef o fewn Capel yr Esgob Kemp, yn mhrifeglwys St. Paul. Cyfododd ei gefnder, yr Esgob Rowlands, gof-golofn iddo yn eglwys gadeiriol Bangor.†

Dyma yr holl wŷr a fu yn brif gynnorthwywyr i Morgan yn ei orchestwaith duwiol,‡ a diau na

* Y Gwladgarwr, cyf. vi. t. 257, lle y rhoddir darlun o hono, a'i fywgraffiad. Mae yno hefyd ddarn bychan o gywydd Simwnt Fychan iddo, "Archangel oedd Abriel dda," &c. (Enwogion Cymru, *sub voce*. The Goodmans, by Newcome.)

† Williams' Eminent Welshmen, *sub voce*.

‡ Dywed rhai fod y Dr. John Davies o Fallwyd yn helpu, ond prin y gallai hyny fod, gan mai tua 1570 y ganwyd ef, ac felly nid oedd ond tua deunaw oed pan *gyhoeddwyd* y Beibl.

bu neb arall o help neillduol iddo, onidê buasai yr esgob anrhydeddus yn falch o gofnodi eu henwau. Gwŷr o Wynedd, a gwŷr eglwysig, oeddynt oll, ac efallai mai cydnabyddiaeth bersonol yn benaf a ddaeth a hwy yn nghyd i gydweithredu; ond dylai Gwynedd a Deheubarth uno i anrhydeddu eu henwau tra y bo y Beibl Cymraeg yn cael ei ddarllen.

---

## PENNOD V.

### EDMWND PRYS.

TRI enw, o tua'r un oes, a roddant fri ar dair o siroedd cyfagos Gwynedd: William Salesbury ar sir Ddinbych, y Dr. William Morgan ar sir Gaerynarfon, ac Edmwnd Prys ar sir Feirionydd. Ar ol traethu a wyddom am y ddau enwogion blaenaf, iawn yw ini bellach gasglu a allom o hanes yr olaf.

Edmwnd Prys, archddiacon Meirionydd, a anwyd yn y Gerddi Bluog, yn mhlwyf Llandecwyn, gerllaw Harlech. Nid oes cofnodiad am amser ei enedigaeth, ond gan ei fod yn "hynafgwr pedwar ugain oed" pan gyhoeddwyd gramadeg y Dr. Davies o Fallwyd yn 1621, rhaid yw ddarfod ei eni tua 1541. Nid yw enwau ei rieni yn wybyddus; ond dywed Eben Fardd, yn ei "Gyff Beuno," * fod y teulu yn disgyn o Rhys ab Einion Fychan o lwyth Marchudd (B.A. 850), ac y mae Gwilym Lleyn yn "Golud yr Oes," † wrth olrhain achau Mostyn, yn dyweyd mai y Prysiaid a'r Llwydiaid, ac nid y Mostyniaid, a ddisgynent o Marchudd; ond nid yw efe yn dwyn i mewn gangen y Gerddi Bluog i'r achau, er ei fod yn enwi teuluoedd y cwmpasoedd yn Meirion, Dinbych, Arfon, ac Aberteifi.

Llawer o bererinion sydd wedi bod yn gweled mangre lom, ond rhamantus, ei enedigaeth, ac yn eu plith cafodd yr ysgrifenydd y pleser o gyflawni y bererindod tua phedair blynedd yn ol. Gorwedda y ffermdy hynafol i fyny, bron yn mlaen cwm Llyn Bychan, ar lechwedd serth yr ochr orllewinol i'r cwm, mewn unigedd yn nghanol creigiau noethlwm. Mae y tŷ o gynlluniad amrosgo ac adeiladwaith anghelfydd, ond cadarn, y bymthegfed ganrif. Yr unig beth sydd yno yn awr ag oedd yn eiddo i'r archddiacon ydyw ei wely, a'r unig brawf fod hwnw mor hen yw fod E. P. wedi eu cerfio ar un o'r paneli.* Y mae yn wely mawr llydan, wedi ei wneyd oll o dderw, ac wedi ei banelu o amgylch. Gan mai yn y Tyddyn Du y preswyliai yr archddiacon y rhan fwyaf a'r rhan olaf o'i oes, nid hawdd yw cyfrif pa fodd yr arosodd ei wely yn ei gartref genedigol. Dichon mai ei gludo yno a gafodd ar ol marwolaeth y patriarch, ac iddo gael ei gadw yn eiddo yr hen deulu tra y parhausant mewn bod. O ran hyny, nis gwyddom pa sail wirioneddol sydd i'r traddodiad mai yn y Tyddyn Du, Maentwrog, y preswyliai Edmwnd Prys; heblaw ei fod yno yn nes at ei eglwysi, ac mai yn Maentwrog y claddwyd ef. Dangosir hefyd awrlais yn y Gerddi Bluog, yr hwn y dywedir ei fod yn eiddo yr archddiacon; ond nis gall y dywediad fod yn gywir, oblegid I. PRICE ydyw yr enw cerfiedig o'i fewn, yn nghyda'r flwyddyn (tua) 1714: felly rhaid mai cadw amser i un o ddisgynyddion yr archddiacon oedd yr anrhydedd uchaf a gafodd yr hen awrlais, gan y dywedir ei farw ef yn 1623, neu 1624.† Drwg genym fyddai awgrymu na chafodd y gwely uwch anrhydedd na'r awrlais, oblegid y mae genym ddigon ychydig o greiriau yn gofion am ein henwogion eisoes, fel nas gallwn fforddio eu lleihau oddiar orammheuaeth heb ryw dystiolaeth bur bendant i'w condemnio.

Tra yn son am greiriau, goddefer ini grybwyll fod gan Mr. Jones, Tŷ Newydd, Glocaenog, yr hwn sydd ddisgynydd i'r archddiacon, amryw bethau a berthynent iddo. Mae Mr. Jones wedi rhanu amryw o honynt rhwng cyfeillion o edmygwyr ei hynaif, a bu mor garedig ag anfon

* T. 28.

† Cyf. i. t. 459.

* Er mor ddoniol a difyr ydyw adroddiad y diweddar fardd Glasynys o'i ymweliad â'r lle, nid yw yn hollol gywir a manwl yn ei holl haeriadau. Dywed efe fod y flwyddyn O.C. 1557 ar y gwely gyda'r ddwy lythyren, ond camsyniad yw hyny; nid oes yno ddim ond yn unig gynlythyrenau yr enw, fel y dywedasom uchod. Y mae Glasynys wedyn yn dadgan ei gred yn ystori yr hen gloc, ac yn darlunio rhyw ystafell fechan ddirgelaidd uwch ben mantell y simdde, tebyg feddyliem i un William Salesbury; ond efelychiad yw yn nychymyg pobl o gell enwog y cyfieithydd, fel y mae y pwlpud drachefn yn efelychiad o bwlpud rhamantus Huw Llwyd yn Rhaeadr Cynfal. Gellir gweled darluniad Glasynys o'r Gerddi Bluog, ac o'i daith yno, yn "Golud yr Oes" (cyf. i. t. 80).

† Enwogion Cymru, *sub voce.* Dywed William Morus, brawd Lewis Morus o Fon, mai yn 1623 y bu farw, ac mai pedwar ugain oedd ei oed. Camsyniad eglur yw yr olaf, fel y gwelwyd uchod. Fel hyn y dywed W. Morus mewn nodiad llawysgrifol ar gopi o "Repertorium Poeticum" Moses Williams, sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig: "Edmwnd Prys. *Obiit* 1623, yn 80 oed, person ffestiniog a Maentwrog, ac arch diacon Meirionnydd. claddwyd dan yr allor yn eglwys Maentwrog!" Gwŷr cyfarwydd a chraff oedd y tri brodyr, y Morusiaid o Fon, a gallwn yn hawdd ymddiried i'w gair, am na haerent ddim heb ryw sail i'w haeriad. Gan fod Browne Willis yn tystio fod olynydd Prys yn yr archddiaconiaeth, Robert White, yn y meddiant o'r swydd yn 1623, y tebygolrwydd yw iddo farw yn y flwyddyn yna, oblegid nid oes un prawf ddarfod iddo ymddiswyddo cyn terfyn ei oes. (Survey of Bangor, p. 143.)

Digitized by Google

ei ffon i'r ysgrifenydd. Gwelsom hefyd yn yr arddangosfa gelfyddydol cysylltiedig âg Eisteddfod Gwrecsam, yr hon a gynnaliwyd yn 1876, glawr pregethau (*sermon-case*) yr archddiacon, a deallwn fod amryw o'i ddeialau ar gael.

Addysgwyd Edmwnd Prys yn Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, lle hefyd yr addysgwyd cynnifer o enwogion Cymru a Lloegr. Ennillodd y radd o Athraw yn y Celfyddydau yno, ond nis gwyddom pa sawl blwyddyn y parhaodd ei efrydiaeth. Ar ol cymeryd urddau santaidd, ymddengys iddo fod yn Llwydlo (Ludlow) am beth amser, ond nid yw yn sicr yn mha swyddogaeth.* Fodd bynag, yn 1572, pan yn un ar ddeg ar hugain oed, cafodd rectoriaeth Ffestiniog yn ei sir enedigol, yn cynnwys capeliaeth Maentwrog, yr hwn a ddaliai gyda rectoriaeth Llanddwywe, ar ol ei dyfod i'w feddiant yn 1580. Yn y flwyddyn 1576, Tachwedd y 5med, y gwnaed ef yn archddiacon Meirionydd, yr hon swydd a lanwodd am saith mlynedd a deugain. Gwnaed ef yn ganon Llanelwy yn 1602, ond nid hir y mwynhaodd y swydd hòno; gan, mae'n debyg, iddo farw y flwyddyn ganlynol.

Heblaw llenwi y swyddi amrywiol uchod, hynododd Edmwnd Prys ei hun fel bardd. Y mae llawer o'i farddoniaeth o wahanol fathau ar gael, rhai darnau yn argraffedig a llawn cymaint mewn llawysgrif. Tua deugain darn o'i waith sydd yn meddiant yr awdwr, heblaw wrth gwrs y Salmau cân, ac y mae rhai o honynt yn feithach na'r cyffredin o gyfansoddiadau yr oes hòno. Dywed rhai mai Sion Tudur oedd ei athraw barddonol,* ac ereill mai Gwilym Lleyn.† Yr oedd efe, fel llawer ereill o feirdd Cymru, hen a diweddar, yn rhy barod i ddadleu ac ymdderu. Yn wir ychydig a ddaeth i fyny â'r hen archddiacon urddasol yn y cyfeiriad yma hyd yn nod yn mysg y prydyddion, ac yr oedd ei allu ef yn gyfled a'i ewyllys i ymladd rhyfel papyr. Canodd Thomas Price o Blas Iolyn "Gywydd Duchan i Edmwnd Prys,"‡ ond nid yw atebiad yr olaf ar gael, er nad yw yn debygol iddo adael y fath gyfleusdra am frwydr fyned heibio. Dichon mai cymeryd plaid ei gymydog, Wiliam Cynwal o Yspytty Ifan (neu Dôl Gynwal), yr oedd y boneddwr o Blas Iolyn; er ei fod, efallai, drwy hyny yn myned yn erbyn un o'i hen wehelyth ei hunan, o'r un cyfenw.

* Cydymaith Diddan, t. 93. "Almanac Tragywyddol. Pan oedd *Edmund Prys* yn Berson *Llwydlo* ef a ddanfonodd at *Sion Tudur* am ddwy rodd yn ei Gywydd, ebr ef,

'Dwned a fu cyn d' eni,'" &c.

Nid yw Dafydd Jones (neu Dewi Fardd fel y galwai Lewis Morus ef mewn braidd-gellwair) yn rhoddi dim ond darn o'r cywydd, ond gan fod y rhanau ereill yn berthynasol i'r mater, ac heb erioed eu cyhoeddi o'r blaen, rhoddwn yma y cywydd yn gyflawn. Braidd na phrawf y cywydd mai disgybl i Sion Tudur oedd Edmwnd Prys, ac y mae yn eglur ei fod yn un o'r cyfansoddiadau cynnaraf o'i eiddo ag sydd ar gael:—

"CYWYDD O WAITH EDMUND PRYS I SION TUDUR, I OFYN DAU LYFR Y DWNED* A PROGNOSTICATION DIGRI, O WAITH SION TUDUR.

"Sion air pur, synwyr parod;
Selef ein cler, sylfaen clod!
Sion rywiog, sein aur awen,
Senior† pawb o synwyr pen!
Lleuad y beirdd, lle daw barn;
Llew difiog‡ oll i dafarn.
Llawdden § a chanwyll addysg;
Llawn, llwybraidd iawn lle bu'r ddysg.

* Dwned: Donatus, y gramadegydd; gramadeg.
† Senior: hynafgwr neu arglwydd.
‡ Difiog: *fierce*.
§ Llawdden: Laudatus (?), enw gwr, a ddefnyddir gan y beirdd i ddynodi rhagoriaeth mewn dysg.

Apollo'r glêr, pel aur glod,
A *Minerva** mwyn arfod.
Athraw ydwyd, a thradoeth,
A cholofn y gerdd ddofn ddoeth.
Sion Tudur, ai sant ydwyd?
O roddau Duw, rwydded wyd!
Duw'n borth i wraidd d' awen ber;
Duw a fendig dy fwynder.
Mi yw'r dyn, am air dinag,
A gâr dy waith gwr di wag.
Prys wyf fi, darperais fawl,
Er dy ofyn, wr dwyfawl.

* Minerva: duwies athrylith.

Disgybl wyf o dasg gwbl [waith]
Yspas hir, yspys araith.
Hir iawn wyf, hwyr yn y wawd,
I'm heyru yn amharawd.
Wy'n troi cwyn at wr cu,
Am ddwned i'w ymddynu.
Gwr wyf fi egoraf fant
Ysmala, er nas molant.
Gwas diried a gais dwyrodd;
Ac yn rhoi llai nag un rhodd.
Ceisio hen llyfr cyson llwyd,
Ac un newydd o gwnïwyd.
Caf hen, a ddyco cof hir,
Ddwned, ni chadwodd anwir.
Cyff o ras Duw, coffer stor,
A chapcas o chai hepcor.
Cawell euraid call araith,
Cell a roed rhag colli'r iaith.
Cayad iawn yw, cadw a wnaeth
Iaith degwch, a'i thadogaeth
Cadwodd fraint coed,cydwydd frig,
Mewn mesur, mwyna musig!
Ysgwir yw i sgwario iaith,
A rheoli rhai eilwaith.
[Doniau] y gler a dawn gwlad,
[Difwlch] o fewn croen dafad.
[Llyfr] a chlud farcud yw fo,
Cefn llydlyd ca fo'n Llwydlo.
Cael panel, er cloi penill,
I chwynu dysg a chan dill.*
Cair y gwr carrai i'w gau,
Wele bid, a labedau!
Patrwm gwawd, pe troem o'i gwr,
A'i dor llawn i'r darlleiniwr.
Y mal† iownfraint melynfrith,
O ran blys yr awn i'w blith.
Brith o'i fewn berenwaith fau,
A melyn ei emylau.
Mae swrn inc, mesur ni wn,
A dolenau dail anwn.
Dwned a fu cyn d' eni;
Yn y mwg, gyr hwn i mi.

* Dill: *a plait, a fold.*
† Mâl: *bounty*, rhodd.

Meistr y beirdd am ystryw bol,
Myn roi awen mewn rheol.
I minau mae awenydd
Druana erioed, daran rydd.
Ynof fi troes anaf trwch,
Eisie dwned, estynwch;
Er cael hwn, pardwn heb pall.
Soraf am neges arall;
Ceisio'r ail cysur a wn,
Ceisio *prognosticasiwn**
Ceisio 'rym, er cais, er mawl,
Blaen wybodaeth blin bydawl.
Mae ynod oll wŷn, wyd wr
Ystryw mwy nag ystrymiwr.†
Bwriwyd yn rhwydd bob blwyddyn,
A byr ddallt a'i bwriodd yn‡
Gwag lyfrau, goeglu afraid,
Gwlaw glew, gwynt, rhew, ac nid rhaid
Dwrd § a wnaent di-eirda neb,
Di-gordiad, di-gowirdeb.
Mesura rymus wrhyd;
Moes di'r gwir, fy meistr, i gyd.
Nid anawdd rhoi nod anwir;
Nid iawn gamp onid un gwir.
Ystreinïaist rym awen;
Ys da yw'r pwyll, ystryw pen.
Dwyn pob peth yn dy blethiad,
A dwyn *stil* ‖ pob dyn o stad.
Da gwyddost dy *brognosti-
Casiwn* teg; cyson wyti!
Gofyn yr wyf, gyfiawn raid,
[Llyfrau] heb penill afraid
Dod bob un a ddymunwyf,
Dod y ddau, a dedwydd wyf.

"EDMWND PRYS *a'i cânt*."

* Prognosticasiwn: *Almanac*, neu lyfr serddewiniaeth.
† Ystrymiwr: ystremiwr, *a magician*.
‡ Yn: in', ini.
§ Dwrd: *chiding*, dwrdiad.
‖ Stil: *style*, dull, gradd.

* Y Brython, cyf. v. t. 17. "Sion Tudur ydoedd athraw Edmwnd Prys, archddiacon Meirionydd."

† Gwaith Ieuan Brydydd Hir, t. 36, nod.

‡ Gwel y gyfrol o waith y blaenaf yn yr Amgueddfa Brydeinig (Additional MSS. No. 14,872, t. 612.

â gair iddo farw o W. Cynwal. Yna canodd yr archddiacon gywydd marwnad iddo, ar ddull ymddyddan rhyngddo a'r genad, yn cwyno colled y fath fardd godidog. Dywedir, fodd bynag, i Cynwal, druan, farw o dor calon, ac nid rhyfedd o dan ddyrnodiau y fath dychanwr a'r archddiacon; ond myntumir yn gyffredin mai gan Cynwal yr oedd yr athrylith a chan Edmwnd Prys y ddysg, ac fel y dywed Goronwy Owen, ofer oedd i wr â dyrnau moelion gynnyg brwydr âg ysgolhaig arfog.

Yr oedd Edmwnd Prys a Hugh Llwyd o Gynfal yn gydoeswyr ac yn gymydogion. Adroddir amryw chwedlau yn nghylch eu helyntion cyfeillgar a chroesymdynol. Ceir ychydig yn eu cylch yn "Cymru Fu,"* ond nid oes dim cyfansoddiadau ymrysonol rhyngddynt ar gael. Ceir deg o bennillion ac englynion beddargraffol prydferth o waith H. Llwyd yn "Y Greal,"† ac englyn beddargraff o'i waith i Sion Phylip, gydag englynion marwnad iddo yntau o waith W. Phylip yn "Y Brython,"‡ a'r englyn beddargraff iddo gan Huw ab Ieuan, neu yn ol "Cymru Fu," Edmwnd Prys. I Huw ab Ieuan ab Rhobert y priodola "Llyfr Ty'n y Braich"§ yr englyn. Dyma yr englyn:—

"Holl gampau doniau a dynwyd—o'n tir,
Maentwrog yspeiliwyd;
Ni chleddir, ac ni chladdwyd,
Fyth i'w llawr mo fath Huw Llwyd."

Ond nid ymryson oedd unig waith Edmwnd Prys fel bardd. Fe gyfansoddodd lawer o farddoniaeth arall, o bob math ac ysbryd, ond yn benaf cywyddau. Yr oedd yn feistr ar y gynghanedd ac ar yr iaith Gymraeg, heblaw ei fod yn ysgolhaig trwyadl.‖ Fel pawb a wnaeth ryw ddaioni mawr i'w wlad, fe gredai yn ei wlad, ei iaith, a'i genedl. Er ei fod yn gydnabyddus âg "wythiaith," fel y tystia efe ei hun yn un o'i gywyddau, ac yn ddiau yn gyfarwydd âg amryw lenyddiaethau cyfoethog, ni throdd hyny yn ei ben, fel y gwna i ambell newyddian; ond edmygai a charai lenyddiaeth ei wlad ei hun yn llawn cymaint ar gyfrif ei gydnabyddiaeth â chynnyrchion llenyddol gwledydd ereill. Dichon nad oes dim rhagorol iawn yn ein hiaith, ond gwendid ydyw i Gymro feddwl hyny; fel y byddai yn wendid mawr, os nad yn drosedd, i blentyn feddwl fod neb tebyg i'w dad. A dynion anwybodus, un ai o lenyddiaeth estronol neu o eiddo eu gwlad eu hunain, sydd yn dibrisio cynnyrchion athrylith eu gwlad, ac y mae holl wŷr gwir fawr Cymru bob amser wedi eu gwerthfawrogi a'u coleddu.

* T. 174.

† T. 401. Gwel hefyd "Ceinion Llenyddiaeth Gymreig" (cyf. ii. t. 320).

‡ Cyf. iv. t. 114.

§ Cell y Cof, t. 170.

‖ Cyfansoddodd anerchiad Lladin i ramadeg y Dr. Davies o Fallwyd, fel y crybwyllwyd uchod, a chan nad yw bellach yn hawdd ei gael fe'i gosodwn i lawr yma gan nad yw yn faith:—

"RESCRIPTUM EDMUNDI PRISIE SENIS OCTOGENARII, ARCHIDIACONI MEIRION, IN APPROBATIONEM OPERIS.

"En duo praeclari linguam renovare vetustam
Conati, Serrensis et Oxoniensis alumni:
Ambo Joannes dicti, Davisii et ambo,
Doctores ambo, et patrio sormone periti,
Corporis is medicus, medicus coelestis at alter.
Feut uterpue suâ progressus arte venustos.
Mitibus à Cambris merito redamandus uterque est.
Ille, peregrinis multum versatus in oris,
Antiquam calami mutat Cambrôgena formam.
Ille memor patriæ, sed originis immemor, almæ
Ille memor linguæ, sed carminis immemor. Unde
Cæcos ille duces imitatus non videt album,
Velle suum laudamus, et amplexamur amorem.
Hic tamen, idque domi, multo vigilantior: imo
Ima petit, 'suprema petit, studiosque profundo
Hebræos fontes, tumidos simul Helladis amnes
Hansit, et inde suos jussit potare Britannos.
Hic docet obductas tenebrarum spargere nubes,
Romani dudum quas induxere tyranni.
Hic docet et Cambros distinctè, Grammaticèque
Verba loqui, linguæ verteris radice repertâ,
Hebræam ut citiùs valeamus discre linguam,
Et laudare Deum patrio sermone volentes
Vivamus Christo: Cui gloria tota redundet."

Gwelir fod y bardd yn cymharu y ddau Ddoctor John Dafydd fel gramadegwyr, ac yn eu bywyd un yn deithiwr a'r llall yn gartrefol: un yn feddyg y corff a'r llall yn feddyg enaid. Tua'r un adeg, sef 1628, y cyfansoddodd efe yr englyn canlynol

I'R CYBYDD:—

"Parcus avarus verat,—ut amnis,
Et omnia desiderat;
Cupit ut omnia capiat
Nil vero pro Deo dat."

Priodolir dau neu dri ereill iddo, ond rhaid ini adael ar hyn yna yr awr er mwyn rhoddi cipdrem dros y gweddill o gynnyrchion Cymreig yr archddiacon. Dyma restr o'r rhai cyhoeddedig ac anghyhoeddedig, heblaw y rhai a enwyd eisoes, ond diau nad yw yn gyflawn. Dywed "Llyfryddiaeth y Cymry" (t. 235), ar dystiolaeth Moses Williams, fod "Caniadau Edmund Prys" wedi eu cyhoeddi yn llyfr tua 1686. Efallai mai yr unig sail i hyn yw fod rhai o'i ganiadau wedi ymddangos yn llyfr carolau Foulke Owens, a argraffwyd y tro cyntaf yn y flwyddyn hòno. Copi o'r ail argraffiad sydd yn ein meddiant, ac nis gallwn gael dim dan ei enw yno. Y mae yno gân gan Edmwnd Prys (t. 141), ond y mae ychydig o ddechreu y llyfr ar goll. Mae cân o'i waith yn "Y Blodeugerdd" (t. 340) ar "Cydsain Cerddorion ynglyn Helicon," a darn o gywydd i'r "Ddwy Awen" yn y rhagymadrodd (t. vii.). Y mae "Englynion i'r Tybaco" yn "Y Gwyliedydd" (cyf. iii. t. 281), "Cywydd i'r Byd" a "Chywydd i'r Bedd" (*Ibid.* cyf. x. t. 281), "Awdl i Ddyn" (*Ibid.* cyf. xii. t. 24), ac "Englyn" (*Ibid.* 316).

Fel enghraifft o'i arddull ysgafn a'i awen chwarëus gosodwn yma y cywydd canlynol:—

"CYWYDD I OFYN GALIGASCYN.*

"Sawl yw o ddyn isel ddad.†
Anwydog ei fynediad,
Aed i ofyn dwy wiwferch;
Da yw'r fam a diwair ferch:
Nid o serch gofyn merched,
Afiaeth a gais y fath ged;
Gofyn help Duw gyfiawn hael
Rhag anwyd rhyw gyw anhael.
Elsbeth bert, lles yw bath bwyll,
Ferch Robert, fawr ei chrybwyll,
Ab William, drud abl am drin,
Ab Gruffydd, rhybudd Rhobin;
A Margred, loyw luned lân,
Bert fach, ferch Robert Fychan.
Llyna ferch un lliw a'r fam,
Daw eilwaith o du William;
Newydd iachwr ni ddichon,
'Fenydd Sais, am fonedd son.
Oes genym eisiau cynnal,
Ac eisiau mwy, dwy goes mal

* Gallgascyn: *Galligaskins* (*Caligæ Vasconum*, esgidiau Gascoyny?), math o lodrau neu hosanau mawrion.

† Dad: *datum*, dodiad, gosodiad.

Digitized by Google

Ond gwaith mawr yr archddiacon, a'r hwn sydd wedi ei enwogi a'i anwylo yn ngolwg goreugwyr ei genedl, ydyw ei fydryddiad o'r Salmau. Nid efe oedd y cyntaf, mae'n wir, i feddwl am y gorchwyl hwn; ond efe a'i cyflawnodd yn y fath fodd ag i fod yn gymeradwy gan y cyffredin ac yn ddefnyddiol i'r eglwys, gan fydru y Salmau oll.

Mae yn debyg fod rhai o'r darnau sydd yn y "Myvyrian Archæology" ar enw Taliesin, ac yn fath o fydryddiad o gynnwysiad rhanau o'r Beibl, megys "Divregwawd Taliesin" a'i "Gyffes," wedi eu cyfansoddi yn y ddeuddegfed ganrif; ond y cyntaf y gwyddom am dano i droi Salm gyfan yn rheolaidd ar gân oedd Dafydd Ddu o Hiraddug, yn ei gyfieithiad o "Wasanaeth Mair." Tybir ei fod ef yn oesi tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond ychydig iawn a wyddys yn ei gylch. Tybir mai ficer Tremeirchion, sir Fflint, ydoedd, a'i fod wedi ei gladdu yno. Dangosid ei fedd yn yr eglwys hòno, ond y mae yn brofedig bellach nad oes sail ddigonol i gredu mai bedd Dafydd Ddu ydyw.* Cynnwysa "Gwasanaeth Mair" fydriad o chwech ar hugain o Salmau, heblaw o ranau ereill o'r Ysgrythyr. Yr unig enghraifft a roddwn yw Salm cxxxiii.:—

"Llyma mor dda mor ddigrif mor eiddun
Yw cydbreswyliaw o frodyr yn gyfun
Megis iraid gwyrthfawr ym mhen dynion
A ddisgynnawdd ym marf, barf Aaron
A ddisgynnawdd yn ymylau ei wisg mal gwlith yn Hermon
Yr hwn a ddisgynnawdd o'r nef hyd ym mynydd Sion
Canys yno y gorchymmynnawdd Duw ei fendith,
A buchedd barhaus yn oes oesoedd wastad ddichwith."

"Gogoniant i'r Tad," &c.

Fel y sylwa Gweirydd, diweddar ydyw yr orgraff uchod; ond y mae y mydryddiad, yr hwn sydd fwy digyfnewid gan adysgrifwyr, yn ddios yn perthyn i oes foreuol. Ond gwelir, pa mor gryf a mawreddog bynag yr ystyrir y mydriad, nad yw yr uchod yn addas i'w ganu ar fesurau neu donau cynnulleidfaol diweddar.

Ychydig, wedi hyny, a wnaeth yr awdwr nesaf a drodd y Salmau ar gân, sef Gwilym Ganoldref, tuagat wasanaeth a chaniadaeth y cysegr. Cadben morwrol oedd y bardd, ac yn ynys Scutum, yn yr India Orllewinol, y gorphenodd efe y gwaith, ar y 24ydd o Ionawr, 1595.† Argraffwyd ef yn 1603 gan Thomas Salusbury, yn Llundain, yr hwn a ysgrifenodd fath o ragdraeth iddo ar ffurf cyflwyniad "I'r uchel a'r Galluog Unben Iago," &c., yr hwn a eilw efe yn ymherawdwr Prydain Fawr. Ar y mesurau caethion, ysywaeth, y mae bron y cwbl o'r gwaith hwn; a hyny a barodd ei fod yn ddifudd i'r eglwys ac yn anghymeradwy gan y werin. Ond y mae Salmau xli. a xlix., yn enwedig yr olaf, yn dangos y gwasanaeth a allasai y cadben ei wneyd pe gadawsai yn llonydd y "mesurau cerdd" ac y cadwasai yn fwy at yr "ofer fesurau." Dyma bennill neu ddau yn siampl ac i brofi yr hyn a wedir weithiau, fod mesurau emynyddol, neu gorfanol, yn adnabyddus i feirdd a gydoesent â'r archddiacon:—

"Gwerthfawr ydyw gan Dduw mau
  Yr eneidiau duwiol,
Ger ei fron, Duw gorau fry,
  A bery yn dragwyddol.
Nid all neb, er hyn o hawl,
  Fyw'n dragwyddawl dirion;
Rhaid yw iddynt fyn'd i'r bedd,
  A gorwedd gyda'r meirwon.

Na fi'd arnat ofn ychwaith,
  Er golud maith annuwiol;
A chynnyddu yn ei blas
  Ei urddas yn orchestol,
Can's ni chymmer gydag ef
  Ddim i'w gartref ola',
Ac ni ddilyn ar ei ol
  Ei falchder ffol oddiyma."

. . . . . . . . .

Yn y llythyr cyflwyniad o flaen y gwaith uchod, dywed yr argraffydd fod ganddo amryw lyfrau

Wmffre, sydd heb ddim ffris iach,
A'i ffan, wyneb afiach;
A'i ffye yw, ofalus wŷn,
Gwisg gwiego Galigascyn.
Cycau fydd hug hyd ei fol,*
Megynau am ei ganol;
Dau gryn fydd am ddigrif ddyn,
Dug tal mewn dwy god telyn.
Cadau a gaiff i'w cyd-gau,
O hyd agos hydygau;
Cyfod gyegod, blychod blew,
A wnai dandi yn dindew;
Dwy feipen. drwsglbur di-drwch;
Dwy o filiwn dyfelwch.
Da, da pen caid dan dop scwrs,†
Tebyg i grychiad tewlwrs;
Capiau llwyd bibau lled bwn,
Cwarteiniau bodd cert anwn;
Ceiniau o grafancau uncorff
Don o'i gylch dennaw o'i gorff ‡
Hopranau, crochanau chwant,
Hyd ei liniau dylynant;
O'u penau bydd pwynniau bacl.§
Meinion fal cwcwll mynach;
Ac i fynu gofynais
Cuttiau pert, fal cwttio pais;
Rholiau, yn eu rheoli,
Crynion fal cynffon y ci.
Agor ei brest gar ei bron,
Anlladaidd ownau llwydion:
Mae yn ei bron, fal myn bras,
A renid ar ei wanas,
Tanceri tynciau arab,
Fal twmffed,‖ am arffed mab.

Er bod targed gyffredin,
Gloch laes, o amgylch ei lin,
Gallai fod, aml gwall fydd,
Anwyd yn ei adenydd.
Dymunai gael, damwain ged,
Syrcynau,* ffrisiwr caened
Ar syrcyn, a ddymunwyd,
Gwiw o'r un lliw a rhawn llwyd.
Gwain corff bach, gewyn craff bwyth,
Galawnt a godreu golwyth
Brawd yscwd bwrdais gaden,
Cauad a bair codi ben.
Rhenwch, rhag ofn rhyw anwyd,
I Wmffrai lifrai o lwyd;
Oni chair, yn eich chwarau:
Fo barodd hyn ei bruddhau.
Y fo a geir efo'i gath
Duw Nadolig dan dulath†
Ni ddaw allan rhag anwyd,
Nychai o fewn na chai fwyd.
Un o saith scâr‡ trugaredd,
Dilladu er helpu hedd.
Y ddwy hwswi § ddeheuserch;
Mae'n ol y fam meinael ferch.
Diwair y gŵyr dwy wawr gu,
A llwydion ei ddilladu:
Dwy o'r un rhith wenithaidd,
Dwy o'r un ras, dirion wraidd:
Dwy yn un fryd, dawn iawn frau,
Ag un addfwyn gyneddfau:
Dwy a eill roi, diwall rith,
O bandy iddo'u bendith;
Rhana yntau mewn rhinwedd,
Fendith Dduw fuan daith hedd.

"EDMWND PRICE ai ka:"

* Yma y canlyn darluniad o'r galigascyn.
† c. f. leg-top trowsers.
‡ Tywyll yw y darluniad yma. Dichon mai talfyriad o *devont* yw *Don*.
§ Pwynniau: pwyntiau; darpariaethau, mae'n debyg, at sicrhau y wisg am y corff.
‖ Twmffed: *funnel*.

* Syrcyn: crys; efallai mai o sirig, hen air am sidan. Ffrisiwr: *frize*.
† Os na chaiff Wmffre y galigascyn nis gall fyned allan y Nadolig, ond rhaid iddo aros yn y ty gyda'i gath.
‡ Scar: *share*.
§ Hwswi: *housewife, huswife, hussy*.

* Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii. t. 376, nod. † Yno profir drwy ymchwil ebrwyad Tremeirchion, y Parch. W. Hicks Owen, mai beddrod rhyw Roderic yw yr un y tybid ei fod yn gwarchadw esgyrn yr hen ddewinfardd.
† Y Traethodydd, 1852, t. 175, *et seq.*

Digitized by Google

Cymraeg ereill yn barod i'r wasg, a'i fod wedi dechreu argraffu "Y Salmau yn y mesur arferedig yn Eglwys Loegr, gyda nodau i'w canu." Daeth hwn allan yn yr un flwyddyn a gwaith Gwilym Ganoldref (1603). Ei awdwr oedd Edward Cyffin, am yr hwn ac am ei waith y mae genym sylw neu-ddau i'w gwneyd.

Yn ei ragymadrodd i'w gyfieithiad godidog o "Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr" o'r Lladin i'r Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1594,* dywed Morus Cyffin o'r Glascoed, Llansilin, mai gwaith da a buddiol fyddai troi y Salmau i fesur Cymreig, er difyrwch a dyddanwch nefol i'r Cymry yn y llan a chartref, ac ymrwyma i gyflawni y gwaith os caniatëid iddo fywyd a seibiant. Nis gwyddom pa bryd y bu efe farw, ond ymddengys ei fod yn fyr un ai o hamdden neu o fywyd i gwblhau ei fwriad daionus. Tybir, fodd bynag, mai y crybwylliad uchod a symbylodd Edward Cyffin, brawd iddo fel y barna rhai, i wneyd yr hyn a wnaeth, ac Edmwnd Prys i afael o ddifrif yn y tasg. Ail fab oedd Morus Cyffin i Richard Cyffin, Ysw., o'r Glascoed. Treuliodd ei fywyd i raddau helaeth mewn teithio gwledydd, ond nis gwyddom ei alwedigaeth. Yr oedd yn fardd da mewn gwahanol ieithoedd, ond ychydig sydd o'i gyfansoddiadau Cymraeg ar gael;† a chawn ef yn cwyno yn ei lythyr anerch o flaen y "Diffyniad Ffydd" ei fod wedi colli ei feistrolaeth i raddau dros iaith ei fam yn ystod ei grwydriadau tramor. Cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth Seisonaeg yn 1588, o dan y teitl, "The Blessedness of Brytaine,"‡ cyflwynedig i'r Frenines Elisabeth, gyda llythyr at iarll Essex. Y mae y llyfr yn ddwy ran, ac y mae yr awdwr yn anerch iarll Essex drachefn ar ddechreu yr ail, a hyny mewn llythyr Lladin.

Ychydig iawn sydd wybyddus am Edward Cyffin. Tybir yn gyffredin ei fod yn frawd i Morus Cyffin.§ Ni chyhoeddodd ond tair ar ddeg o'r Salmau yn unig, a hyny fel prawf neu anturiaeth i edrych pa gefnogaeth a chymeradwyaeth a gai y gwaith. Ysgrifenodd anerchiad prydferth iawn at ei gydwladwyr, yr hwn a gyhoeddwyd yn gyflawn yn "Y Traethodydd,"‖ a byddai yn werth i'r darllenydd fynu golwg

* Cyhoeddodd Charles Edwards ail argraffiad yn 1671; y Parch. T. Charles, Bala, drydydd argraffiad yn 1808; a'r Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol bedwerydd argraffiad yn 1849.

† Gwel pedwar englyn o'i waith yn "Y Greal" (t. 308; Llundain).

‡ Y Traethodydd, 1876, t. 433.

§ Llenydd. y Cymry, t. 76.

‖ 1852, t. 244.

arno, er nas gallwn ni fforddio gofod i'w osod yma; yn unig rhoddwn bennill neu ddau o'i Salmau fel enghraifft o'i waith:—

"1 Arglwydd, amled ydyw'r gwŷr
Y sydd drallodwyr ini;
A llawer o gaseion tynn
I'm herbyn sydd yn codi.
. . . . . . . . .

"4 Gelwais ar yr Arglwydd Nef,
A'm llef o ddyfnder calon;
Ag ef a glybu 'nghystudd
O'i sanctaidd fynydd tirion."

Yr oedd y cyhoeddwr wedi hysbysu y byddai tonau cerddorol yn canlyn y geiriau yn y llyfr uchod; ond ymddengys na chwblhawyd yr amcan hwnw, mwy na gorphen y mydryddiad. Gwaith rhagbarotoawl ydoedd, ac ni ddychwelwyd ato gan yr anturiaethwyr, beth bynag oedd yr achos—ai angeu, ynte rhyw amgylchiadau mwy dibwys. Ond hawdd y gallwn faddeu i'r gwŷr gwladgar hyn, er mor gryf ein hawydd am gael golwg ar eu tonau cerddorol o'r oes hòno.

Ond tywysog holl fydrwyr y Salmau Cymraeg oedd yr archddiacon. Nis gwyddom pa bryd yr ymgymerodd â'r gwaith, ac nid oes arwydd na chofnodiad ei fod yn ymaflyd ynddo nes iddo gael ei gyhoeddi yn 1621. Tybir mai annogaeth Morus Cyffin yn 1594, ac esiampl Edward Cyffin yn 1603, a barodd iddo ymaflyd yn y gwaith. Dywed rhai ei fod yn cyfansoddi Salm ar gyfer pob Sabbath, ond dichon mai oddiwrth arfer y Ficer Pritchard y cododd y dywediad hwn, ac fod arferiad yr olaf yn cael ei phriodoli neu ei hestyn i'r blaenaf. Gorphenodd ei lafurwaith erbyn 1621; ac ymddangosodd mewn dwy ffurf yn yr un flwyddyn, yn gysylltedig â'r Llyfr Gweddi ac ar wahan, ac yr oedd nodau cerddorol yn canlyn pob un.*

Gan fod y Salmau hyn wedi eu hargraffu gynnifer o weithiau, ac fod amryw ddysgedigion o bryd i bryd wedi gwneyd sylwadau arnynt,† awn ni heibio yn bresennol gyda gair neu ddau ar y mydryddiad ac ychydig sylwadau ar y tonau cerddorol. Nid oes dadl nad oes llawer o Salmau Edmwnd Prys yn dra chlogyrnaidd eu corfaniad, er mor ardderchog a mawreddog yw eu cyfansoddiad yn gyffredinol. Pa fodd y rhoddir cyfrif am hyn? Y mae gan bawb ei ddamcaniaeth, ac un yw, nad oedd mesurau corfanol yn adnabyddus i'r archddiacon a'i oes. Ond nid yw hyny yn safadwy, gan fod Edward Cyffin, ac hyd yn nod Gwilym Ganoldref, fel y gwelsom, wedi eu trafod yn weddol dda gymaint o amser o'r blaen; heb

* Y Traethodydd, 1876, t. 436.

† Gwaith Gwallter Mechain, cyf. i. t. 541, *et seq.* Y Gwyliedydd cyf. vii. t. 221. Y Beirniad, 1876, t. 16, *et seq.*

Digitized by Google

son am y dyrīau a'r carolau oedd mewn cryn fri yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg. Dyma bennill o gân Edmwnd Prys ei hun i "Cydsain Cerddorion ynglyn Helicon:"*—

"5. Da i ddynion eu diddanwch,
Da i forwyn ei difyrwch,
Duw Sul da i weision;
Teg yw hyn, nid dig i henaint,
Teg i ifainc nid digofaint,
Glwyswch ddolau gleision;

Teg y trefnodd gwir Dduw Tad,
Ei rodd a'i rad, mor hynod;
Teg pob osle', teg pob tro,
A thrwy na bo mo'r pechod:
A'r ddaear mor glaear,
Mor gynnar yw, a'r gwenith;
A'r llwyn-dir, mor fwyndir,
Lle y rhodder y mawr fendith.

"*Mr.* EDMUND PRYS, *Arch Diacon Meirionydd*, 1600."

Rhaid ini addef, yr un pryd, fod cryn afreoleidddra yn rhai o bennillion y gân uchod, tra y mae yn y cyffredin nid yn unig yn felus a chywrain ond hefyd o gorfaniad perffaith reolaidd. Efallai y rhaid ini adael yn bresennol y pwnc hwn, gyda iaith ryfedd Salesbury a iaith naturiol neu ddiweddar Dafydd ab Gwilym, i'r oes nesaf ei benderfynu.

Tua dwsin o donau miwsig oedd gyda'r Salmau. Buddiol fyddai i ryw gerddor cyfarwydd eu trawsddodi o'r hen allweddau i'r rhai diweddar, fel y caffer gwybod o ba le y cafwyd hwynt a pha sawl un o honynt sydd yn Gymreig. Y mae "St. Mary" gyda Salm ii., a "Nashville" gyda Salm cxiii., ac y mae'n debygol mai rhai estronol yw y rhan fwyaf o'r gweddill; ond y maent, rai o honynt, yn ddyeithr i gerddorion yr oes bresennol. Cyhoeddwyd hwy drachefn yn y Beibl bychan (1630), ac yn yr un allweddau a chyda'r un nodau ysgwâr. Nodwedd arall prydferth dros ben yn yr argraffiadau cyntefig hyn, ac a gollwyd mewn rhai diweddarach, yw y cynnwysiad uwch ben pob Salm, o waith yr archddiacon ei hunan fe dybiem. Fel hyn y dywed o flaen Salm li.:—"Dafydd yn cyfaddef ei anwiredd, ac wrth ymgydnabod â brynti ei anian, yn dymuno cael gan Dduw faddeuant, ac adnewyddu ei ddoniau; ac mae hefyd yn gweddïo dros yr eglwys."

Adroddir rhai traddodiadau dilornus am ei gymeriad moesol, ond anhawdd dyweyd pa sail sydd iddynt. Ymddengys ei fod, oddiwrth ei brydyddiaeth, yn cymysgu cryn lawer â'r byd, ac y mae rhai ymadroddion ysgafn o leiaf yn ei gyfeiriad at fenywod; er nad oes dim masweddol yn y cywyddau a welir isod.† Nis gwyddom pwy oedd ei wraig, ond yr oedd ei ŵyr, o'r un enw, yn berson Clynog Fawr yn 1695. Yr oedd yntau fel ei enwog daid yn fardd, fel y prawf ei englynion anerch i gyfieithydd "Rheol Buchedd Sanctaidd," sef yr enwog Ellis Wynn o'r Lasynys. Y mae yno hefyd yn yr un llyfr nid yn unig englynion oddiwrth y cyfieithydd at y darllenydd, ond cân Ladin o waith Ffowc Prys,

* Y Blodeugerdd, t. 310.

† "CYWYDD MWYTHUS I FERCH I ERCHI IDDI NAILL AI DYFOD AI PRIDIO.

"Cerais ennyd, cwrs anhawdd,
Cryn wayw tyn, caru nid hawdd.
Anbowsa dim, hyn o stad,
Cynnal cûr canol cariad
Rhyfrwd; mae rhai'n rhy efrydd,
A rhai ar sud rhy oer sydd.
Anhawdd yw cadw'r uniawn;
Cirio ni âd caru'n iawn.
Caru bûn lân a'i hannerch,
Cariad, gloes fwriad glwys ferch.
Cwyraidd iawn carawdd unwaith,
Ni'm car heb edifar daith:
Dialedd i anwadalawr
Newidio serch, nid oes awr.
Ni wn a wnaf, o'm llafur,
Namyn bod gormod o gûr.
Achlysur ni châi loywserch,
Drem y ser, i droi mo'i serch
Pry' a welodd per wiwlun
Ffres o beth yw ffreseb bûn
Dwr a wnaeth, ddyn dirion wen,
Ddyn hûdliw, ar ddanhadlen:
Mewn dychryn mae'n diochri:
Synu a wnaeth ni sonniwn i
Am i'r ferch, mor amûr fu,
Fwyn i gair, fy ni-garu:
Bwriais ei baich, dibris barch,
Wen o'm cof, hon i'm cyfarch,
Am i'r gû amrywio gwaith,
Y trois inau tros unwaith.
Dysgais, hyn o fantais fu,
Deg eirian, ei di-garu:
O dysgais hyn o dasg serch,
Dysg iawn deheuwisg annerch,
Di rwydais, dori adwy;
Rhaid yw modd i'm rhwydo mwy!
Milwr glew, a melwr* gwlad,
A gwneweriodd gainc cariad.
Oni chlyw'r beûnes reswm,
Aed i droi, ac nid wy' drwm.
Od wy' gâs, ddyn deg essyllt,†
Llawn câs wyf i'm llances wyllt.
Gadel i'r lwys gydloer lân,
Ddifai hoen, ddofi 'i hunan.
Ys gwyllt hon, os colled hi,
Nid wy' ufudd i'w dofi.
Nid â 'i erlyn diweirlwys,
Seth ei phen, er saith o'i phwys.
Od â' i ymlid bûn wridawg,
Gwen sir haul, gwn na sai 'rhawg.
Y wen hoywdeg anhydyn
Pellach, hwnt hayach y tyn,
Sef bob merch bur annerch ber
Oll a gerddiff lle 'i gwerdder*
O'i meddwl, ddinam addwyn,
Y daw y ferch, od yw fwyn.
Gwn ddull, ac oni ddaw
Ni'm dawr, mae'n rhaid ymdaraw!
Nis down i, er estyn nôd,
Ddau gam oni ddoe gymod.
Dig y modd, nid gwiw meddwl,
Merch air ffals, mo'r chware ffwl
Mynwn fod yn ymodi,
A chware ffwl â'i chorff hi.
Merch a ddiango, dro drel,
Yn ddiachos a ddychwel.
Dig iawn y ferch, deg Wenn fau,
Duw gwyn! orddig wy' inau!
Lliw'r od, os myn gymodi
Wiw oleuferch, wele fi!
Os sorodd, nid oes hiraeth;
Gad iddo, Gweno, nid gwaeth.
Os parod i gymodi,
Pryd a fynn, parod wyf fi.
Os hi, wawr wisgi, a red
Yn grychias, nag eiriached.
Doed y ferch, ddiwŷd wyf fi,
Cûr a syrth, croeso wrthi.
Oni ddaw Gwen, gangen gall,
Ddiweiriol, e ddaw arall.
Troed i'w hol, troad helynt,
Traed Gwen, fal troad y gwynt!
Os dig Gwen, naws deg heini,
Digied hon, Duw gyda hi!
Ac os bodlon Gwenonwy,
Bid y lan Wen, bodlon wy'.
Oreuwedd drem a rydd dro,
Doed eilwaith, neu da y delo.
Od yw fwyn, nid wyf inau
Greulon fyth, i'm gwawr lon fau
Digwn fyth, da gennyf fi,
A gem wiwdeg, gymodi.
Dig o sorrodd deg seren,
Diddig wyf yn dyddio â Gwen
Diofal nid wy' afiach,
Deled, neu beidied, fûn bach!
Mynned y ferch i'w pherchi,
Main ei hael, lle mynno hi.
Gwn ei bod, bur cûrnod brest,
Gwen iawn fwyn ac yn onest.

"EDMWND PRYS,
*Mr. o Gelfyddyd, a'i k:*"

* Melwr: *dealer in honey* (?); *c.f.*, Cae'r Melwr, Llanrwst.

† Essyllt oedd enw amryw wragedd glân, ac a ddefnyddir yn fynych gan y beirdd i olygu glendid, both bynag oedd ei ystyr wreiddiol.

* Gwerdder: gwaharddder.

"CYWYDD PRIODAS A'I BRAINT.

"Rhai a gar yn rhagorawl
I gwn meirch ganu mawl;
Rhai a gân, rhy wag weniaith,
I ferch war, oferach waith;
A cheisio oed a chusan,
A phwyth mwy na phethau mân,
A thrwy hyd lithraw hon,
Bod gordderch mewn bedw gyrddion.
Dwy a gar, ddiwag arall,
Diwaeledd ged a budd gwall.
Prydaf wyrthiau prydferthawl
Priodas, mwy urddas mawl.
Parchus glwm, pur iachus, glyd,
Prydferth, nid peri adfyd
Par teilwng parod teulu,
Pur dwys fawl, priodas fu.
Delw enwog Duw a luniai,
Dydd o glod, Adda o glai.

Digitized by Google

person Llanllyfni, yn Arfon, a thybir ei fod ef yn fab i'r archddiacon ac yn dad i ficer Clynog.

Bellach rhaid ini adael y gwr enwog hwn eto, gan obeithio y daw ei Salmau cân fwyfwy i sylw; os nid i'w canu yn y gynnulleidfa, o leiaf i'w darllen a'u trysori yn y cof fel moddion effeithiol i feithrin duwiolfrydedd.

---

## PENNOD VI.

### JOHN PENRY.

Os ydyw gwaith y Creawdwr ar fater yn amrywiaethol, y mae ei waith ar feddwl yn fwy felly. Y fath wahaniaeth anfesurol sydd rhwng y gwr da, John Penry, a'r gwŷr da y buom yn ymdrin â hwy yn y dalenau rhagflaenol! Ysgolheigion dyfnion oeddynt hwy; areithiwr tanllyd oedd yntau: efrydwyr neillduedig oeddynt hwy; gweithiwr difefl yn nghanol dynion oedd yntau: myfyrio yn ddyfal, a pharotoi llyfrau rhagorol y buont hwy; cynllunio mesurau, a gweithio allan ddiwygiadau yn grefyddol a chymdeithasol y bu yntau. Cawsant hwy fyw yn hir, a marw o farwolaeth naturiol; ond torwyd ef i lawr yn mlodau ei ddyddiau, a gwisgodd goron merthyrdod gyda'i fod yn gwisgo arfau ei filwriaeth.

Mab ydoedd John Penry i Meredydd Penry o'r Cefn Brith, plwyf Llangamarch, yn sir Frycheiniog. Tua hanner y ffordd rhwng Llanfair-muallt a Llanymddyfri y mae lle o'r enw Aberdulas, yn agos i'r man lle yr ymuna yr afon Dulas â'r Irfon. Wyth milltir a hanner o Fuallt y mae tollborth, ac am yr afon Dulas a'r tollborth, ar gwr mynydd Epynt, y mae y ffermdy unig yn yr hwn y ganwyd ein harwr duwiolfrydig. Yn 1559, flwyddyn ar ol i'r frenines fawr Brotestanaidd ond erlidgar Elisabeth esgyn gorsedd Lloegr, y gwelodd y Puritan angherddol oleuni yr haul. Tybia rhai mai cainc o deulu urddasol Llwyn Cyntefn ar Wysg (*Old Grove*), yn yr un sir, yn disgyn o Elystan Glodrydd, oedd teulu dysyml Cefn Brith.* Beth bynag am eu tras a'u bonedd, nid rhyw lawer o lewyrch mewn ystyr fydol a fu ar yr hiliogaeth yn yr oesoedd diweddar, ac nid oes un teulu urddasol o'r enw yn awr yn adnabyddus.

Dengys amgylchiadau ei addysg sefyllfa isel, ond cymeriad anrhydeddus, ei rieni. Nid oes dim o hanes boreuddydd ei oes yn wybyddus, ond pan yn bedair ar bymtheg oed, sef yn 1578, anfonwyd ef i Brifysgol Caergrawnt, yn y gradd o is-fwydwr (*undersizar*), sef un yn derbyn cynnaliaeth am weini wrth y bwrdd ar y graddedigion yn Ngholeg Peterhouse, yr hwn oedd y coleg hynaf yn y brifysgol. Fel efrydwyr cyffredin yr oes hòno, cafodd yrfa galed tra yn yr athrofa, ond yr oedd ei fam yn dra gofalus o hono, ac yn darparu iddo oreu y gallai er ei gynnaliaeth a'i gysur. Bu yn llwyddiannus yn ei fyfyrdodau, oblegid graddiodd yn B.A. tua 1583.

Yr oedd ei syniadau a'i dueddiadau yn Babyddol tra yn Nghaergrawnt, ond ymddengys na thynodd ei ymddygiadau sylw neillduol yn ystod ei arosiad yno, ond cyn ei ymadawiad yr oedd cyfnewidiad hollol yn ei olygiadau crefyddol. Daethai i gyfarfyddiad gyda rhai o'r ychydig

Duw yn hwn rhoes doniau rhaid,
Llun ffun ei hoff enaid.
Gwir greadur, gair gredynt,
Yrodd gwys ar Adda gynt.
Dwg ar gais ddyfais ddifasw,
Duw asen a'i du asw;
A'r asen hon, cofion cudd,
Y gwnaed Efa, gnawd ufudd.
Dihunodd wedi hoenyn
Dwedai, pan ddihunai, hyn:
Didwyll ferch fy nghnawd ydwyd,
Asgwrn im' o'm hasgwrn wyd:
Duw a roes diwair asiad
Dan yr ais, fel dyna rad
Wrth fy mron, drwy nidrioni,
Yn y mwyn, un wyth a mi.
Mi a hon im' mwya help;
O mynai mwy o anhelp.
*Rhodd Duw* mawr, mawrhaed a'i medd,
Yw gwraig, heb ddim gorwagedd;
*A Christ*, yn nechreu ei waith,

. . . . . . . . . .

Yr ail Adda ar wleddiaeth
*Dwr yn* win ei droi wnaeth,
Priodas pan'd urddaswl?
Clo iawn i bawb, coeliwn Bawl!
*Clo mwynder* cwlwm undab;
Cyttunawl serch merch a mab.
Nid iawn undeb, na'i debig—
*Undeb* drwy odineb dig.
Hen Ddoctoriaid, ddwyblaid ddwys,
*Rhan* wiwglod, i'r un Eglwys,
Gedasant foddiant ddifyrn,
Arwyddion in' un o'r addyrn
*Rhoi* modrwy, rhwym i edrych,
Am drydydd bys, gweddus gwych,
O'r tu asw i'r ferch ddifasw, fain;
O herwydd hyny i'w harwain
Gwythen sydd, gwaith Ion o serch,
Ar bys hwn, aur bwys anerch;
A dyn fry, hyd yn y fron
Bell gael, i bwll y galon.

Ys da arwydd ystyriaeth,
Priod yn undod a wnaeth!
Clymu dyn, nid clymiad oer,
Law-yn-llaw a'i llawen-lloer.
Credu yn Nghrist, a byw yn ddistaw
Haul a lloer, a'u hil o'u llaw.
Mae arwyddion mor addas
Gan ei gwr, ni fagan' gas;
Pwrs i Wen lle 'i presennir *
Rhan o'i dda, yr hyn oedd wir.
Gwregys rhwym rhag gorwegi,
Gwisgo hon am ei gwasg hi,
I roi ei gwasg, ddyn rywiog wen,
A'i hoff orchwyl, i'w pherchen;
I'w gwr ei hun a'i gwar rad,
A'i chadw yn warcheidwad.
Menig am ddwylaw meinwen,
Ar hyn o waith, rhïan wen.
Rhoi cyllell yn-well, un-wedd,
Rhan maeth yw rhïan a'i medd.
Wrth hyn o araith ynof,
Dïogan gwrs, gygwn gof;
Un gyfoeth, medd Iawn gofiwr,
Ag un gorff yw Gwen a'i gwr;
A chyfran o bob anedd,
O waith a maeth, hi a'i medd.
Cyd gariad cenad, cywir;
Cyd yngeledd mewn hedd hir;
Cyd waith, cyd afiaith ufudd,
Clyfaredd rhag caredd cudd;
Cyd hilio plant, cyd haeledd,
A chyd o febyd i fedd;
Yn ddiwair, ddianair ddau,
Yn ddifêth yn ddifwythau;
Yn ddiddadl, trwyadl y trig,
Yn dda oddef, yn ddiddig;
Yn dduwiol, yn ddiawydd,
Yn ddiwyd, pa fyd a fydd:
Duw yn rhwydd rad a'ch llwyddo
I'ch plith a'i fendith a fo.

"EDMUND PRYS,
"*Archdeon Meirionydd, a'i cânt.*"

* *To present.*

* Ai aelod o'r teulu hwn oedd Hugh Penry, a briododd Anne, chwaer i'r llythyrwr enwog James Howell o Gefn y Bryn, Llangamarch, at yr hwn y cyfeiria yr olaf yn ei lythyrau? (Familiar Letters, p. 88, &c.; edit. 1673).



Digitized by Google

Buritaniaid oedd yn aros yn y brifysgol. Ond yn Rhydychain yr oedd ysbryd y Diwygiad gryfaf ar y pryd, ac efallai mai dyna achos ei symudiad disymwth yno pan ar gymeryd gradd M.A., yn 1586. Yn mis Gorphenhaf, ar yr 11eg dydd o'r mis, y cafodd y radd hòno, ar ol ymaelodi yn Neuadd St. Alban, Rhydychain. Yr oedd ysbryd Presbyteraidd yn gryf yn y brifysgol ar y pryd, yr hwn a blanesid yno drwy ymweliad amryw weinidogion o Ysgotland, ddwy flynedd cyn dyfodiad Penry. Ei gyfranogiad o'r dylanwad hwn a barodd i Penry wrthod ei urddo heblaw fel pregethwr y brifysgol. Ond amcan mawr ei fywyd oedd goleuo gwlad ei enedigaeth, ac hyd yn nod yn ystod ei fywyd athrofaol yr oedd wedi dechreu ar y gwaith, a hynodi ei hunan fel pregethwr yn ei ardal enedigol yn gystal ag yn y brifysgol. Yr oedd ei ddawn yn rhwydd, difrifol, a thanllyd, a thynai sylw neillduol pob dosbarth, fel y geilw Anthony Wood ef yn "ysgolhaig cymedrol, yn bregethwr adeiladol, ac yn ddyn da." Diau mai traddodiad disail yw y dywediad poblogaidd fod "pedair o eglwysi Ymneillduol yn nghymydogaeth Llangamarch yn olrhain eu dechreuad iddo, ond y mae yn eithaf credadwy iddo ennill disgyblion yn yr ardal hòno, os na ffurfiodd eglwysi." Yr hyn a ammheuwn yw, ddarfod i unrhyw gymdeithasau crefyddol felly oroesi Penry ei hunan, a chael eu trosglwyddo yn ddifwlch i'n dyddiau ni.

Nid hawdd yw penderfynu i ba blaid o Buritaniaid y perthynai efe. Dengys ei ysgrifau yn eglur ei fod yn benderfynol yn ei wrthwynebiad i'r Babaeth, ac yn ymroddedig i ddiwreiddio ei holl chwyn, ac i blanu hadau y gwirionedd pur yn ei anwyl wlad. Dywed Wood am dano ei fod yn Browniad, yr hyn y gelwid yr Annibynwyr yn yr oes hòno, ond y mae yn debygol fod dylanwad Presbyteriaid Ysgotland yn fawr arno, mewn canlyniad i'w cyfathrach a'i brifysgol, ac i'w plith hwy y ffodd efe rhag ei erlidwyr, fel ag y cawn weled eto.* Gellir gweled ei gynlluniau a'i ysbryd i raddau oddiwrth y dyfyniad canlynol allan o draethawd ar efengyleiddiad Cymru, a ysgrifenodd ac a gyhoeddodd tra yn Rhydychain, sef yn y flwyddyn 1587:—

"AT BAWB SYDD YN GALARU YN SION HYD ONI WELONT JERUSALEM YN BEN MOLIANT, AC YN BENAF AT FY MRODYR A'M TADAU YN EGLWYS LOEGR: GRAS, TRUGAREDD, A CHARIAD YN NGHRIST IESU A LIOSOGER.

"Mae wedi bod, fy anwyliaid yn yr Arglwydd, yn achwyniad cyfiawn gan bobl Dduw yn mhob oes, nad yw gwirionedd tragywyddol a bendigedig Duw, i'r hwn y rhaid i'r nefoedd ei hun ymgrymu ac ufuddhau, yn cael rond sylw bychan iawn gan y rhan fwyaf o'n pobl fawr, y hai nad ystyriant fyned i wrandaw y genadwri yn ddim ond gwastraff ar eu hamser. O ba herwydd, gan nad yw y gwirionedd yn cael ei barchu ganddynt ond pan yn gyfleus iddynt, y mae yn beth cyffredin na fydd neb ond y rhai mwyaf dirmygedig, a gwehilion y bobl yn ymgysegru i'w wasanaeth; a chan y bydd y rhai hyn yn teimlo eu hunain yn euog o golliadau mawrion, ac yn aml o bechodau gwarthus; ac nad ydynt heb wybod mai gorthrymder sydd yn canlyn proffes onest a difrifol, tynant eu gyddfau yn aml o'r iau, a thaflant y baich oddiar eu hysgwyddau; mae'r Arglwydd yn gorfod eu trin yn llym cyn cael ganddynt fyned i gyhoeddi y genadwri. A'r hyn sydd lawer mwy galarus yw, na fydd difrawder, syrthni, diofalwch, serchiadau oerion, rhewllyd y duwiolion eu hunain, byth yn absennol o'u cyflawniadau mwyaf pwysig—na diwydrwydd pryderus, sel ddifrifol, a gweddïau cynhes bob amser yn gymeradwy. Mae'r Arglwydd yn goddef i'w achos gael ei ddifwyno gan eu dwylaw pechadurus. Parodd yr ystyriaethau hyn, fy anwyliad, yn neillduol yr olaf, imi oedi gwneyd, yr hyn yr wyf yn awr, drwy ddaioni Duw, fel y gwelwch wedi ei ddechreu Byddai yn ofid mawr imi am fy oes pe byddai urddas achos sydd yn haeddu cael ysgwyddau pob tywysog dan y nef yn ystoldroed iddo, yn cael ei leihau yn y mesur lleiaf drwy fy nwylaw aflan i, y rhai, yr wyf yn sicrhau i chwi, yr wyf wedi eu golchi mor lân ag y caniatai eu lliw.

"Ond yr wyf yn cael cysur mawr o ddau gyfeiriad:—Yn gyntaf, Fel y mae'r Arglwydd yn gwybod, Efe a'm taflodd i i'r gwaith yn mron yn erbyn fy ewyllys, a chan fy mod yn gweled anrhydedd Iesu Grist (er mwyn yr hwn y mae Duw y Tad yn garedig wedi edrych heibio i fy mhechodau, ac eiddo yr Hwn yn awr yw yr oll a feddaf) yn sefyll ar lwyddiant y gair a bregethwyd yn ein plith ni. Ni chaiff fy nistawrwydd i, er i hyny beryglu fy mywyd, fradychu ei anrhydedd Ef. Onid yw Efe Dduw? Oni fyn Efe ei wasanaethu a'i addoli? Onid yw Efe yn gofyn iddynt grefydda yn ol cynghor ei ewyllys ei hun? Onid yw Efe yn gofalu pa un a roddir iddo addoliad teilwng ai ni roddir? Os yw yn gofalu, gwae fydd i'r gydwybod hono sydd yn gwybod hyn ac yn ei ddirgelu, neu sydd araf i'w hyrwyddo yn ei flaen. Wrth weled ddarfod rhyngu bodd iddo Ef, yr Hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, fy neffro i at y gwaith hwn, nid wyf yn ammheu na phar Efe y fath lwyddiant i'm llafur ag a ddygo fwyaf o ogoniant i'w enw Ef. Yn sicr, drwy ei gymhorth Ef, nis gallaf ac nis gwnaf arafu. Gobeithio yr ystyrir anrhydedd yr achos. Os na wneir, nid yw pwysigrwydd achos Duw i'w droi o'r neilldu.

"Fy ail gysur yw: gan nad pa ganlyniadau bynag fyddo i'm llafur, nad wyf fi yn ceisio yr eiddo fy hun, eithr yr eiddo hwy, y rhai y perthyn iddynt, sef, fy rhieni a'm brodyr yn ol y cnawd, cyflwr y rhai sydd mor druenus y dydd hwn, fel yr wyf yn credu mai annoethineb mawr fyddai i mi attal un ymadrodd fyddo yn debyg o lwyddo.Ië, dymunwn gan Dduw i'm bywyd i ennill iddynt bregethiad yr efengyl. Mae ein clefyd ni yn y galon, ni ddylid chwareu âg ef, rhaid cael meddyginiaeth ddioed, neu y mae dinystr yn sicr."

Mae Penry, mewn dagrau a chyda llaw grynedig, yn dangos "creithiau trueni ysbrydol" y rhai a hagrent wyneb hardd ei anwyl wlad. "Mae

* "Y mae rhai haneswyr yn galw John Penry yn *Anabaptist* ('of which party he was in his time the Coryphæus,'" h. y., blaenor.) "Mae'n haneswyr sydd dros y Puritaniaid," meddai J. Thomas, "yn rhoi clod mawr iddo, ond amryw yn celu ei fod dros fedydd y crediniol." Gwel Hanes y Bedyddwyr, gan J. Thomas, t. 141.-15; argr. B. Davies." (Mathetes.)

miloedd o'n pobl," medd efe, "heb wybod fod Iesu Grist nac yn Dduw nac yn ddyn, yn offeiriad na phrophwyd; prin y clywsant erioed am dano. O sefyllfa amddifad a thruenus! Mae hyd yn nod pregethu ei hun yn hollol anadnabyddus mewn llawer ardal. Mewn rhai lleoedd darllenir pregeth unwaith bob tri mis. Cedwir corff y boblogaeth rhag suddo i afael annuwiaeth wag a difywyd yn unig gan yr ofergoeledd mwyaf gresynus."

Olrheinia y gwladgarwr efengylaidd sefyllfa druenus y bobl yn benaf i waith clerigwyr yn byw allan o'u plwyfydd, ac yn peidio pregethu; i'w hanwybodaeth o iaith y bobl, a'u dyeithrwch i wirioneddau yr efengyl. Dywed Penry yn hyf ei fod yn credu nas gellid cael un feddyginiaeth i'r drygau dyfnion dyryslyd hyn mewn trefniadau gwladol. "Rhaid magu cydwybod," meddai, "yn y bobl; heb hyny, y mae eu hailenedigaeth gymdeithasol yn anmhosibl." Dadleua nas gall dim ond yr efengyl, a'r efengyl yn cael ei phregethu yn iaith y bobl, a chan bersonau wedi teimlo dylanwad y gwirionedd, gyfarfod y fath angen.

Mae y traethawd yn cynnwys llawer o grybwylliadau ymarferol. Yn y lle cyntaf, annoga Penry ar fod i bregethwyr o'r prif ysgolion gael eu sefydlu ar lanau y môr ac yn y trefydd ar y goror lle y siaredir Seisonaeg. Gellid cael tri chant yno yn barod at y gwaith, "dynion galluog yn mhob ystyr, gydag ychydig ymarferiad." Yna ychwanega na ddylai melldith Gerizim gael crogi uwch ben y cymydogaethau lle nad oes dim ond Cymraeg yn cael ei siarad. "Bydd yn arw," medd efe, "os nad oes o'n pobl ni ddwsin yn bregethwyr y brifysgol." Cynnygia i'r rhai hyn fath o orfod-wasanaeth ysbrydol. "Dylai ein brodyr sydd yn y weinidogaeth yn Lloegr gael eu hanfon adref. Gellid gofalu am eu deadelloedd hwy ryw ffordd arall; ac iddynt hwythau ymadael drwy gydsyniad, oherwydd fod angen yr eglwys yn gofyn hyny." Mae yn trin dosbarth arall o oruchwylwyr yn fwy meistrolaidd:—"Deuai nifer o'r segurwyr diwerth sydd yn awr yn y weinidogaeth mewn blwyddyn o amser yn gymhwys i'r gwaith, pe gwasgerid pregethwyr yma a thraw yn ein plith, a hwythau yn cael eu gorfodi yn wythnosol i ymwneyd â'r gwaith, yn rhywle ne'i gilydd, pan welent nad eu dinystr ond eu lles yn hytrach a fyddai mewn golwg."

Wrth appelio at bersonau, calonau y rhai y gallai Duw eu gogwyddo i'w wasanaeth, dywed: "Gall fod llawer o bobl deilwng yn Eglwys Loegr nad ydynt yn bresennol yn arfer eu doniau yn gyhoeddus; gellid darparu yn ein plith ar gyfer y cyfryw. Gobeithiaf na byddant anewyllysgar i ddyfod allan er cynnorthwyo i ennill eneidiau at Iesu Grist. Mae rhai pobl anghyhoedd, na fuont erioed mewn prifysgol, yn deall duwinyddiaeth yn dda. Nid oes ammheuaeth na fyddai llawer o'r rhai hyn, fel y Lefiaid gynt, mewn caledi yn fwy cywir eu calonau na llawer o wŷr dysgedig (2 Cron. xxix. 34). Os gofynir o ba le y caent eu cynnaliaeth? Byddai yn well gan y rhai y cyffyrddodd yr Arglwydd â'u calon fyned i ddyrnu er ennill eu bywioliaeth na bod y bobl heb neb i bregethu iddynt. Pe byddai y boneddigion a'r bobl ddim ond deall y daioni a ganlynai y pregethu, ceid yn fuan ganddynt gynnorthwy at y gwaith. Gosodid angenrhaid arnynt i'w gyflawni. Ni fyddai iachawdwriaeth yn rhy ddrud i'w phrynu â chnawd ein breichiau."

Mae Penry, er mwyn cyfnerthu yr appêl, yn adgofio i'r "anwyl Eglwys Loegr" fod achos y Diwygiad mewn perygl yn ei gastell diweddaf. "Mae eglwys Dduw o'n hamgylch, yn Ffrainc, Belgium, a rhan fawr o'r Almaen, yn myned yn ddrylliau. Buasai yn dda genyf ped arosasai Ysgotland yn ei chariad cyntaf, ac i ddwylaw yr adeiladwyr gael eu cryfhau genych chwi. Deued a ddelo, sefwch chwi yn wrol yn y ffydd, fy mrodyr a'm tadau, ac yn ol cynghor Judas, adnewyddwch y frwydr â'ch gelyn ysbrydol, ac ymdrechwch gyda phob difrifoldeb. Er fod y cangenau byw wedi eu tori ymaith, dichon y rhynga fodd i Dduw ein bywhau ni, y cangenau meirw, drwy rinwedd ein Pen, Iesu Grist. Nid wyf yn ammheu dim, os drwy ddaioni yr Arglwydd y sefydlir y gwirionedd yn ein plith drwy bregethu, na fydd carwyr daioni drwy Ewrop yn diolch i'r Arglwydd am ein sel a'n gwroldeb yn y gwaith."

Yn ddiweddaf, a chyda brwdfrydedd teilwng o'i genedl enwog, y dywed: "Ni fuasai yn gymaint o ofid i ni gael ein hamddifadu o'r efengyl, oni buasai ei bod yn etifeddiaeth a fwynheid gan ein tadau, y Brythoniaid Cymreig, er ys cannoedd o flynyddoedd yn y wlad hon. Canys er nas gallwn heddyw alw crefydd bur wrth ei henw priodol, nid yw ein cyflawniadau ofergoelus ni yn flagur wedi tyfu oddiar yr hen wirionedd a gredid gan ein tadau, a'r hwn a seliasant â'u gwaed, eithr yn flagur oddiar gyff difywyd a bwystfilaidd Rhufain, yr hwn a drawsblanwyd yn Lloegr gan Awstin, y mynach balch hwnw,

Digitized by Google

gweithrediadau trahaus yr hwn a wrthwynebodd clerigwyr Cymru hyd angeu. Nid ydym yn ceisio dim ond meddiant o'r etifeddiaeth oedd gan ein tadau, yr hon nas gallent hwy ei hatafaelu oddiwrth eu plant."*

Cyflwynwyd deiseb i'r Senedd gan un o'r aelodau Cymreig yn corffori sylwedd yr anerchiad uchod. Cadarnhaodd yr aelod Seneddol yr haeriadau, a chefnogodd y cais mewn araeth o flaen y Tŷ, ond ni wnaed nemawr sylw o'r mater, gan yr ystyrid yr anhawsderau ar ffordd ei gario allan mor fawr, a'r perygl o dramgwyddo y llys mor enbyd. Nis gallwn ninnau gymeradwyo y cynllun yn gyfan-gwbl, oblegid rhoddwyd prawf ar un pur gyffelyb yn mhen tua thrigain mlynedd wedyn, gan Cromwell a'r Senedd, ac nid llwyddiannus iawn y trodd allan yn y diwedd, er iddo wneyd daioni ar y pryd; eto credwn ei fod yn rhagori ar lawer trefn a gynnygiwyd yn ddiweddarach, ac yn annhraethol well na'r difaterwch a'r hwyrfrydigrwydd a feddiannai yr eglwys a'r wladwriaeth ar y pryd. Ond y syndod mwyaf ini yn yr oes hon yw yr effaith afresymol a gafodd yr anerchiad difrifol, ond diniwaid, ar yr awdurdodau gwladol ac eglwysig.

Yr oedd yr Archesgob Whitgift wedi bod yn is-lywodraethwr gororau Cymru, ac felly yn gwybod cryn lawer am gyflwr y wlad, heblaw teimlo dyddordeb anghyffredin ynddi. Gwelsom o'r blaen ei fod yn barod i gynnorthwyo Cymru i gael gwybodaeth grefyddol drwy gyfrwng yr Ysgrythyrau Santaidd, a dylem ninnau fod byth yn ddiolchgar iddo am ei gefnogaeth a'i gynnorthwy i'r Dr. Morgan yn y gwaith o'u cyfieithu; ond nis gall neb ganmol ei ddynoliaeth am y dull y llanwodd ei swydd oruchel, mor bell ag y deuai i gyffyrddiad â'r Puritaniaid. Os oedd y fath lymder a chreulondeb yn angenrheidiol er llenwi yn deilwng y swydd, a chyflawni yn ffyddlawn ei ddyledswyddau, nis gallwn edmygu y dyn a ymgymerai â'r fath swydd, pa mor fawr bynag y gwaddol, a pha mor uchel bynag yr urddas cysylltedig â hi. Yr oedd miloedd o ddynion yn Eglwys Loegr yn yr oes hòno na chymerasent y deyrnas yn wobr am gyflawni y fath ddyledswyddau creulawn, sydd mor groes i egwyddorion cyfiawnder, heb son am ysbryd addfwyn y grefydd Gristionogol. Pan wybu yr archesgob am draethawd difrifol, a chynllun gwreiddiol Penry i efengyleiddio Cymru, yn benaf drwy offerynoliaeth lleygwyr, rhoddodd allan orchymyn yn ddioed i atafaelu y llyfr a charcharu ei awdwr. Bu yn gaeth am fis cyn gwybod ei drosedd, a phan ddygwyd ef i'w brawf ni chafodd ond ei wawdio gan ei farnwyr Esgobol, a'i daflu i garchar drachefn. Bu yno am beth amser yn hwy, yn groes i bob cyfiawnder; ond rhyddhawyd ef, gyda'r dysgwyliad i'w drosedd gymeryd ffurf fwy clir a phendant, yn ol syniadau gorthrymus ei farnwyr.

Yr oedd Penry erbyn hyn wedi ymbriodi â gwraig o gyffelyb egwyddorion ac ysbryd ag yntau, sef merch i Mr. Godley, o Northampton. Er nad oedd hi na'i theulu, hyd y gallasom gael allan, mewn un modd yn dal cysylltiad â Chymru, yr oedd yn barod i ddyoddef pob caledi, os byddai raid, er mwyn i'w phriod allu cyflawni ei amcan duwiolfrydig tuagat ei gydgenedl. Profedigaeth lem yn ddiau i Penry oedd y syniad fod yn rhaid i'w wraig a'i deulu bach ddyoddef gydag ef lid ei elynion, os yn mlaen yr äi yn ei yrfa wladgarol. Ond nid oedd dim a'i hataliai i wasanaethu ei Arglwydd yn ol ei gydwybod. Er fod y gormes yn trymhau, a gorchymyn wedi ei gyhoeddi gan yr uchel-ddirprwyaeth (*high commission*) nid yn unig yn erbyn pregethu, ond hefyd yn erbyn argraffu llyfrau yn groes i orchymynion y frenines, dan boen dirwyon, carchariad, a merthyrdod; eto anturiai Penry ei fywyd er mwyn gwasanaethu achos crefydd yn mhlith ei gydgenedl.

I'r dyben o gario allan ei gynlluniau ef, ac ereill o gyffelyb feddwl, gosodwyd i fyny argraffwasg ddirgel. Mynai rhai ei defnyddio i argraffu a lledaenu llyfrynau goganllyd er gwaradwyddo a dirmygu yr erlidwyr, ond gwrthwynebodd Penry y syniad yn ddifrifol a phenderfynol. Digiodd rhai oherwydd ei fanyldeb yn hyn, a bu agos i'r argraffwasg gael ei gosod o'r neilldu mewn canlyniad, a phryder Penry am les ysbrydol Cymru yn unig a wrthweithiodd y drwg, ac a ddarostyngodd yr anghydfod. Rhaid fod yr helyntion hyn, a'r oediad a achosid drwyddynt, yn dra digalon i'n cydwladwr aiddgar, ac yn fwy blin i'w ysbryd hyd yn nod nag erlidigaethau ei elynion. Fodd bynag, deuwyd i gytundeb cyn hir a dechreuwyd ar y gwaith o argraffu pamphledau. Bwriedid i'r wasg gael ei symud o le i le er mwyn dirgelwch a dyogelwch, ac am hyny y galwyd hi yn wasg bererinol.

Gwraig weddw, o'r enw Mrs. Crane, oedd y gyntaf i wneyd lle i'r argraffwasg. Cynnygiodd

* Penry, the Pilgrim Martyr, by John Waddington, D.D., p. 10, *et seq.*

Digitized by Google

ran o'i phreswylfod yn Mouldsey, Surrey, i fod yn argraffdy, heb gymeryd ei dychrynu gan "gystuddiau yr efengyl." Treuliodd Penry yn y lle hwn oddeutu tair wythnos ganol haf 1558, ac yn yr un lle, oddeutu diwedd y flwyddyn, cyfarfyddodd â'i gyfeillion Udal a Wigginton, y rhai oeddynt newydd gael ychydig seibiant o'u caethiwed maith a chaled.

Gelwir y llyfr cyntaf a gyhoeddodd Waldegrave yn Mouldsey, "Golwg ar ryw ran o'r Diffygion a'r Annrhefn Cyhoeddus yn Ngwasanaeth Duw yn Nghymru, o fewn Llywodraeth ei Mawrhydi, yn nghyda Deiseb ostyngedig at Uchel Lys y Senedd am eu huniawnu yn fuan."

Gwaith Penry ydoedd hwn, ac y mae ei enw priodol wrtho, fel wrth y rhan fwyaf o'i lyfrynau. Cydnebydd ei waeledd a'i anheilyngdod ei hun i ymgymeryd â'r fath orchwyl mawr a phwysig a darbwyllo yr awdurdodau gwladol i gymeryd achos crefyddol Cymru i'w dwylaw; ond awgryma y gall Duw gyrhaedd ei amcan drwy foddion gwael, a'i fod yn dewis gwneyd hyny yn fynych er dadguddio ei hunan yn amlycach, er y gall Efe orchymyn i'w wasanaeth bob mawredd ac urddas dynol. Yna ä yn mlaen i sylwi:—

"Gan fod y ddeiseb yn dwyn perthynas âg achos Duw a daioni yr eglwys, ni ddylai yr ychydig sylw a dalodd y Senedd hyd yma i'r fath appeliadau ddigaloni llawer arnaf; dylai rhif, gallu, nerth, ac awdurdod gelynion yr achos ddigaloni llai arnaf. Gall yr Hwn sydd yn llywodraethu calonau dynion wneyd iddynt draethu ei fawl pan wel Efe yn dda. Bydd yr Arglwydd, oherwydd rhyw resymau hyspys i'w ddoethineb ei hun, yn peidio gwneyd un adeg yr hyn mewn adeg arall a wna, er hyrwyddo ei ogoniant ei hun. Ac nid yw ymdrechion ei blant i adeiladu ei eglwys wedi bod bob amser mor llwyddiannus ag y dymunent; canys bydd Efe weithiau yn defnyddio ymdrechion rhai yn ddarpariaeth at y gwaith sydd ganddo i ereill ei orphen."

Mae yr anerchiad drwyddo yn llawn llymder wedi ei gyfrodeddu â thynerwch, fel eiddo y proffwyd o Anathoth. Dwrdia ymarweddiad yr esgobion yn hyf, ond boneddigaidd:—

"Nid ydynt erioed hyd yma wedi cymeryd mewn llaw i ddiwygio dim. Eithr, o'r ochr arall, maent wedi bod bob amser yn barod i ddefnyddio rhwymau a charchar; ac ni oddefant byth i'r gwirionedd gael gwrandawiad, nac i neb dyn lonyddwch i'w amddiffyn. Nis gall gweision Duw fyned heibio i'w hymddygiadau yn ddisylw, heb fradychu gwirionedd Duw a rhyddid ei eglwys."

Mae yn amlwg oddiwrth y cynghorion ymarferol yn yr anerchiad hwn fod yr awdwr yn rhywbeth heblaw dadleuwr penboeth.

"Gadewch imi grefu arnoch chwi, fy anwyl gydwladwyr, y rhai a alwodd Duw yn ei drugaredd anfeidrol o deyrnas y tywyllwch i feddiant gwynfydedig o'r Jerusalem nefol, i fod yn ofalus am rodio yn addas i efengyl Crist. Byddwch ofalus am hyny lle bynag y boch yn byw, pa un bynag ai yn Lloegr ai yn Nghymru. Ac uwchlaw y cwbl, ymdrechwch am gartref lle y galloch gael mwynhau y Gair. A byddwch ofalus i gynnal addoliad pur i'r Arglwydd yn eich teuluoedd. Gwyliwch rhag yr ysgafnder sydd yn tynu llawer yn awr i ddibrisio barn Duw ar eu pechodau. Mae yr amser yn dod pan wneir yn amlwg nad yn ofer y gobeithiasoch. Byddwch yn ddiwyd, mor bell ag y goddef eich galwedigaethau, i fod yn gyfryngau i drosglwyddo y trysor hwn i'ch gwlad, o'r hwn y'ch gwnaed chwi eich hunain yn gyfranogion. Gadewch imi, yn neillduol, eich adgofio chwi, fy ngwir anrhydeddus a pharchedig gydwladwyr sydd yn y Senedd, i ddyweyd wrth y llys anrhydeddus yna am drueni ein gwlad, ac i fod yn daer am ddiwygiad. A'r rhai hyny o honoch chwi, fy mrodyr, sydd yn meddu cymhwysderau, ac yn awr yn y weinidogaeth yn eich gwlad eich hunain, neu yn Lloegr, yr wyf yn crefu arnoch gofio o honoch Sion. Na adewch lonydd i'r Arglwydd hyd nes y dygo allan gyfiawnder fel y goleuni, ac iachawdwriaeth fel lamp yn llosgi. Dymunwn gan Dduw allu ymuno â chwi, a chwithau â minnau, mewn rhyw gynllun er dwyn cyfryngau iachawdwriaeth i wlad ein genedigaeth. Dyna ddymuniad fy nghalon. Duw'r heddwch, yr Hwn a'n galwodd i'r gogoniant tragywyddol hwn drwy Iesu Grist, a'n perffeithio, a'n cadarnhao, a'n sefydlo, ac a'n gwreiddio hyd y diwedd. Amen."

Diwedda Penry y ddeiseb hon at y Senedd yn yr ymadroddion cynhyrfus hyn:—

"Fel hyn yr wyf wedi cyflawni fy nyledswydd dros Dduw, ei eglwys, fy ngwlad, a chwithau y llys uchel hwn, yr hyn pe bae angen a wnawn eilwaith, er gwybod o honof y dygwn fy hun i berygl bywyd drwy hyny. A bydded hysbys i chwi nad wyf fi yn ofni y ddaear yn yr achos hwn. Os trengu, trengaf. Fy nghysur yw y gwn i ba le i droi, ac yn y dydd hwnw pan ddadguddir dirgelion calonau pawb, daw gonestrwydd fy achos i'r golwg. Pa fodd bynag, digon yw imi, er yn druenus drwy bechod, mai i Grist yr wyf yn byw ac yn marw, a thrwy ei ras Ef

yr wyf yn bwriadu, os estynir fy mywyd, i fyw iddo Ef, ac i'w eglwys, nid imi fy hun, yn llwyrach nag y gwnaethum hyd yma. Gall yr Arglwydd godi rhai o burach dwylaw a gwefusau na fi i ysgrifenu a llefaru dros anrhydedd ei achos yn Nghymru. A phared yr Arglwydd i'r cyfryw, pwy bynag fyddont, na byddont byth yn esgeulus mewn achos mor dda, yr hwn, gan y gall ryngu bodd i'r Arglwydd imi eu gadael ar fy ol, yr wyf yn ddifrifol ac angerddol gyflwyno iddynt yn fy ewyllys a'm testament diweddaf hwn. Ac O! chwi, anrhydeddus a pharchedig aelodau Seneddol, cedwch Gymru dlawd yn eich cof, fel y bo i fendith llawer enaid achubedig yno ddilyn ei Mawrhydi a chwithau, wŷr anrhydeddusa pharchedig, ïe, ddisgyn arnoch a glynu wrthych hyd byth. Rhodded y Duw tragywyddol i'w Mawrhydi a chwithau yr anrhydedd o adeiladu ei eglwys yn Nghymru. Estyner dyddiau ei heddwch i lywodraethu drosom, bendithier hi a chwithau yn y bywyd hwn, fel y byddo teyrnas nefoedd yn eiddo iddi hi a chwithau yn y bywyd dyfodol. Boed felly, Arglwydd da.

"Oddiwrth un sydd wedi ymrwymo i weddïo yn ddibaid drosoch chwi, wŷr anrhydeddus a pharchedig.

"JOHN PENRY."*

Dyna yr arddull a'r ysbryd yn yr hwn yr ysgrifenai Penry ei holl appeliadau. Pa beth oedd yn y cyfryw ysgrifeniadau i gynhyrfu gelyniaeth a dialedd, nis gallwn yn hawdd ei amgyffred. Ond yr un yw effaith bywyd ysbrydol bob amser ar y difywyd a'r difater; a'r un difrifoldeb ac ysbrydolrwydd yn yr apostolion a'r merthyron, ac hyd yn nod yn yr Arglwydd Iesu ei hun, a gynhyrfai y bydol i'w cashau, a'r rhai mewn awdurdod i'w dyfetha. Y mae yn ffaith hanesyddol, ac yn brofiad pob gwlad ac oes, nad yw daioni a diniweidrwydd, nac hyd yn nod garedigrwydd a chymwynasgarwch byth yn dyogelu dyn rhag ymosodiadau. Unig drosedd Penry oedd ei daerineb yn annog yr awdurdodau gwladol ac eglwysig, y perthynai y cyfryw orchwyl yn swyddogol iddynt, ddarparu ar gyfer gwlad yr addefid ei bod mewn cyflwr tywyll a thruenus; ac eto teimlai tra yn gwneuthur hyny, fel y gwelsom, fod ei ddyogelwch a'i fywyd ei hunan mewn perygl. Nid oedd yn cynnyg yspeilio yr eglwys o unrhyw feddiannau, ond erfyniai ar y preladiaid iawn-ddefnyddio y meddiannau hyny er lles yr eglwys ac iachawdwriaeth y deiliaid; ac ar yr un pryd appelia at gyfoethogion crefyddol y wlad am gyfraniadau gwirfoddol er cyflenwi diffyg darpariaeth cyfreithiol y llywodraeth. Ond nid oes dim mor elynol i achos crefydd a'r ysbryd swyddogol sydd yn meddiannu rhai bleidiau. Gwell gan y cyfryw fod y gwaith heb ei gyflawni, ac eneidiau byth heb eu hachub, nag i hyny gael ei wneuthur (nid yn groes, ond) o'r tuallan i'r trefniadau swyddol at hyny. Diau mai pechod mawr Penry oedd ei ddadleuaeth dros bregethwyr lleyg, yn cael eu cynnal drwy roddion gwirfoddol; er na ddadleuai efe dros hyny ond ar y tir fod y ddarpariaeth reolaidd yn ddiffygiol ac aneffeithiol. Ond gwyddai efe pa mor beryglus oedd y cyfryw appel, ac nis gall neb lai nag edmygu ei sel a'i wroldeb yn wynebu y fath enbydrwydd er mwyn cyrhaedd ei amcan clodwiw. Fel hyn y dywed efe ei hun ar y pwnc:—

"Pan yr oedd yr Atheniaid yn gwarchae dinas Thasus, gwnaeth y trigolion ddeddf fod i bwy bynag a gynnygiai ammodau heddwch â'r gelyn gael ei osod i farwolaeth. Pan ddechreuodd fyned yn galed ar y ddinas, a'r bobl yn cwympo drwy y cleddyf a'r newyn, rhoddodd dinesydd o'r enw Hegetorides, yr hwn a deimlai dros sefyllfa ei wlad, reffyn am ei wddf, a daeth i mewn i'r llys a dywedodd: "Fy arglwyddi, gwnewch â mi fel y mynoch, ond er mwyn pob peth gwnewch heddwch â'r Atheniaid, fel y caffo fy ngwlad ei hachub drwy fy angau i." Fy sefyllfa i yw sefyllfa y dyn hwnw. Nid wyf yn cyfrif fy mherygl yn yr amgylchiadau hyn. Yr wyf yn dy weled di, gwlad anwyl fy ngenedigaeth, yn marw, ac y mae yn ddrwg genyf, yr wyf yn dyfod i'ch hachub gyda rheffyn am fy ngwddf. Deued fel y delo gyda mi, yr wyf yn llafurio am i chwi gael pregethu yr efengyl yn eich plith. Os costia hyn fy mywyd imi, nid ystyriaf y tal yn ormod.

"Bydded fel y byddo, fy nghysur yw tystiolaeth fy nghydwybod mai mewn symlrwydd a didwylledd calon, nid yn unig fel yn ngolwg angelion Duw ac o flaen ei blant, i olwg a barn y rhai y mae y gwasanaeth gwael hwn yn cael ei gynnyg, eithr fel yn mhresenoldeb Iesu Grist, yr wyf wedi ymddwyn yn yr achos hwn, gan gadw yn fy ngolwg bob amser y bydd raid imi ryw ddydd roddi cyfrif i'r Anfeidrol o'm hamcan, ac hefyd o'r holl amgylchiadau, y camgymeriadau, a'r geiriau ofer a segur yn y drafodaeth hon. Ond och! beth allaf wneyd heb ei fod yn sawru o'r hen Adda, a'r corff pechod yma a ddygaf o amgylch gyda mi. Dangosir imi pryd bynag y byddo imi droseddu, naill ai mewn dull ai mewn gwaith, ac â'm dwylaw fy hun dinystriaf yr hyn a wnaf ar gam, bydd yn ddrwg genyf am fy nghamgymeriad, ceryddaf fy hun yn y dull llymaf, a diolchaf o galon i'r hwn a'm hargyhoeddo o'm bai.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

"Eich cydwladwr tlawd, yr hwn yn mhob rhwymedigaeth ac ewyllys da, sydd wedi cysegu ei hun yn hollol i wneyd daioni i chwi yn yr Arglwydd.

"JOHN PENRY."*

Nis gallwn ddysgwyl yn arddull Penry lawer o ragoriaeth llenyddol. Yr oedd efe yn rhy ymroddgar a difrifol yn ei brif amcan i dalu sylw manwl i addurniadau cyfansoddiad. Nid am nad oedd ganddo ddysg, a dawn, a chwaeth; ond yr oedd ei feddwl wedi ei lyncu yn ormodol gan y gwaith i gaboli llawer ar ei arfau. Nid oedd ganddo ychwaith ddim o'r hamdden dysgedig (*learned leisure*) a ystyrir yn anhebgorol i lenyddiaeth. Felly ofer i neb hawlio iddo safle uchel fel llenor Cymreig na Seisnig. Yn wir nis

* Waddington's Penry, the Pilgrim Martyr, p. 24, *et seq.*

* Waddington's Penry, the Pilgrim Martyr, p. 32, *et seq.*

Digitized by Google

gwyddom iddo erioed gyhoeddi na chyfansoddi cymaint a llinell yn Nghymraeg, er cymaint a ysgrifenodd yn achos Cymru. Ond y mae ei enw er hyny yn tynu sylw dysgedigion Lloegr, yn ei gysylltiad tybiedig â thraethodau ffug-enwol Martin Marprelate. Dywed y Dr. Rees nad oes cysgod o sail i'r haeriad mai efe oedd Martin,* ac y mae Waddington yn mhellach yn dal na chyhoeddodd Penry erioed linell heb ei enw priodol.† Dichon fod hyn yn berffaith gywir, ond er nad oes genym sail gadarn dros ei ammheu, cyfiawnder â Penry, ac eithaf cyson â'i egwyddorion gonest, yw chwilio hyd y gellir i waelod y mater.

Mae gan yr ysgrifenydd er's rhai blynyddoedd lyfryn gyda'r pennawd, "Mr. Sorne wedi ei osod allan yn ei Liwiau ei hun" ("M. Sorne laid open in his Coulers." 1588). Proffesa ei fod yn llythyr neu draethawd a ddanfonwyd gan ysgolhaig o Rydychain at ei gyfaill yn Nghaergrawnt mewn perthynas i'r ddadl rhwng y Dr. Sorne, yr hwn oedd un o greaduriaid Whitgift, â John Penry. Nid oes enw awdwr nac argraffydd wrtho, dim ond y ddwy lythyren "J. G.," ar waelod tudalen 124, sef yr olaf; ond priodolir ef gan rai i Penry ei hunan; ac nis gwelsom ni ddim ynddo yn annheilwng o'i enw, gan ei fod yn dra gwahanol i waith Martin, ac yn arddangos ysbryd boneddigaidd a chrefyddol, yn enwedig o'i gydmaru âg ysgrifeniadau ei wrthwynebydd. Nid yw y Dr. Waddington wedi rhoddi teitlau y llyfrau a'r pamphledi a gyhoeddwyd yn y ddadl hon, llawer llai restr gyflawn o honynt; yr hyn a ystyriwn yn ddiffyg mawr mewn gwaith mor foddhaol mewn ystyriaethau ereill.* Ar y cyfan, oddiwrth ei gynnwys a'i arddull, tueddir ni i briodoli y llyfr hwn i Penry; ac os felly, y mae yn un engrhaifft o hono yn cyhoeddi traethawd dan ffug-enw. Nid ystyriwn hyn yn drosedd mawr, ac ystyried yr amgylchiadau, ond iawn yw cael allan y gwirionedd hyd y mae yn ddichonadwy.

Cwestiwn arall perffaith wahanol yw, ai efe oedd *Martin Marprelate*, ac a oedd ganddo efe ryw

* The History of Nonconformity in Wales, p. 24.

† Penry, the Pilgrim Martyr, p. 35 and 217, *et seq.* Fel hyn y dywed y Dr. Waddington:—

"Mae'n deilwng o sylw y byddai Penry gyda boneddigeiddrwydd neillduol, yr hyn oedd yn beth nodedig braidd yr amser enbyd hwnw, bob amser yn gosod ei enw wrth ei waith. Gan ei fod yn bur a gonest, nid oedd arno na chywilydd nac ofn arddel ei syniadau.

"Mae hyn, ar wahan oddiwrth y ffaith ei fod mewn llafur parhaus yn parotoi ei ysgrifeniadau, y rhai a arddelai, a sylweddolrwydd a difrifoldeb dieithriad y rhai hyny, yn cynnyrchu tebygolrwydd cryf nad efe oedd awdwr y pamphledau a wahaniaethent oddiwrthynt mor hollol mewn arddull ac ysbryd, y rhai er hyny a briodolid iddo mor gyffredinol, eto mor anghyfiawn, fel y ceir gweled cyn diwedd yr hanes.

"Cyhoeddwyd gwahanol bamphledau Penry mewn brys, a thrwy lawer o anhawsderau. Maent wedi eu hargraffu yn druenus, ar bapyr gwael, ac y mae'n rhyfedd fod un copi o honynt yn aros. Nis gallai gael y wasg i'w wasanaeth ei hun yn hollol pan oedd yn Mouldsey, er mai efe yn benaf oedd yn gyfrifol am ei rheolaeth. Lledaenodd Waldegrave draethodau dienaid y "Marprelate" er anghyfleusdra mawr iddo ef, ac weithiau yn erbyn ei waharddiadau pendant. Argraffwyd y cyntaf o'r traethodau rhemp hyn y flwyddyn hon (1588), yn Kingston, yn yr un gymydogaeth. Yr oedd cymaint o alw am danynt, a darllenid hwynt gyda'r fath wanc fel y dywedai y llyfr-rwymydd ei fod yn gweithio fel pe mewn carchar, a bod llawer yn gofyn iddo beth oedd yr achos ei fod yn edrych mor wael."

Galwyd sylw Whitgift yn fuan, fel y gallesid dysgwyl, at yr ysgrifeniadau allan hyn, a gwnaed ymchwiliad manwl am guddfan yr argraffydd.

Dywedodd Mrs. Crane wrth Penry, y Nadolig pan yn derbyn "llwyth o ddefnyddiau," ei bod yn ofni y buasai yn eu harwain i'r ddalfa. Trefnodd yntau iddynt gael eu hanfon ar unwaith yn ol i Northampton. Nis gellid gwneyd taith yr amser hwnw o Surrey i Northampton gyda men dromlwythog heb lawer o drafferth a thraul.

Yr oedd y gwladwr a gymerodd ofal cludo "y defnyddiau," fel yr ymddengys, yn awyddus am weled "y darnau haiarn â llythyrenau ar eu penau," a bu yn esgeulus fel gyrwr; a chan nad oedd y ffyrdd yn y cyflwr goreu, aeth yr olwyn i ffos ddofn, a gorfu iddi aros yno am beth amser, bob mynyd mewn perygl cael ei ddal. Cyrhaeddodd gartref, pa fodd bynag, yn ddyogel. Gosodwyd y llythyrenau, y rhai oedd mewn basgedi a "chareg ddu," yn ystafell fagu Maenor Fawsley; ac oddiyno symudwyd hwy i dŷ yn nghwr arall y dref, a gosodwyd hwy mewn ystafell i'r hon yr eid drwy risiau troellog. Gwelid Penry pan oedd y gwaith hwn yn cael ei wneyd, yn cerdded yn ol a blaen drwy y parc wedi ymddyeithrio mewn gwisg hirllaes, o liw asur, ac ymyl y goler wedi ei haddurno âg ysnoden aur ac arian, het oleuliw, a chleddyf ar ei glun. Gwisgai Humphrey Newman, "cel-werthwr y llyfrau, ar y cyntaf gôb uchaf a het werdd, ac yn mhen ychydig amser gwisgodd lifrai Syr Richard Knightley."

"Rhodiai'r argraffwyr o gwmpas yn yr un fath wisg. Ond tynodd y fath osgorddlu mawr ormod o sylw, ac nid oedd pethau yn well wedi myned a'r wasg i ffermdy gwag yn Norton. Yr oedd Waldegrave yn eithaf adnabyddus i'r swyddogion gwladol, wedi bod yn cadw argraffwasg o'i eiddo ei hun, yr hon a chwalesid er ys ychydig fisoedd cyn hyny. Meddyliwyd, gan hyny, mai y ffordd oreu fyddai estyn ychydig gymhorth iddo, a'i anfon i Ysgotland, a chafodd waith yn fuan yn Edinburgh, fel argraffydd i'r brenin."

* Casglasom y rhestr ganlynol o ysgrifeniadau Penry, allan o waith y Dr. Waddington yn benaf. Nid yw yn gyflawn, yn ddiau, ond gall fod yn gymhorth i roddi golwg gryno o lafur llenyddol y merthyr yn ei flynyddau olaf. Diau y gallasai y Dr. Waddington ei hun roddi rhestr berffaith o gyhoeddiadau Penry, yn nghyda'r dyddiad, a manylion ereill perthynol iddynt.

1. "A Treatise containing the Equity of an Humble Supplication which is to be exhibited to Her Gracious Majesty, and the High Court of Parliament, in the behalf of the country of Wales, &c. Oxford, 1587." (*Vide* Llyfr. y Cymry, t. 39.)

2. "A view of some part of such Public Wants and Disorders as are in the service of God within Her Majesty's country of Wales, together with an Humble Petition unto the High Court of Parliament for their speedy redress. 1588."

3. "M. Sorne laid open in his coulers; Wherein the Indifferent Reader may easily see, howe wretchedly and loosely he hath handeled the cause against M. Penri. Done by an Oxford man, to his friend in Cambridge. 1588."

4. "Exhortation unto the Governours and People of Her Majesty's country of Wales, to labour earnestly to have the preaching of the Gospel planted among them. 1558."

5. "The Appelation of John Penri unto the High Court of Parliament. 1589." (Llyfr. y Cymry, t. 56.)

6. "A Treatise wherein is manifestly proved that Reformation and those that are sincerely for the same are unjustly charged with being enemies unto her Majesty and the state—written both for the clearing of those that stand in that cause, and the stopping of the slanderous mouths of all the enemies thereof. 1590."

7. "Propositions and Principles of Divinitie propounded and disputed in the Universitie of Geneva, by certain professors of divinitie there, under M. Theodore Beza, and M. Anth: Fauis, professors of divinitie. Edinburg. 1591. 4to. (Translated by John Penry.)"

8. "History of Corah, Dathan, and Abiram." (MSS.)

Gall y darllenydd gael teitlau traethodau Martin Marprelate yn "Llyfryddiaeth y Cymry" (t. 53, nod.)

Digitized by Google

law yn nghynnyrchiad y traethodau bustlaidd a ymddangosasant o dan yr enw hwn. Nis gallwn gredu hyny am foment, ar ol darllen trafodaeth ddyhysbyddol y Dr. Waddington o'r mater a'r tystiolaethau cryfion a ddwg efe yn mlaen. Gwadai Penry yn y modd difrifolaf fod a fynai ddim â hwy. Tystiai nas gwyddai ddim am danynt, ac y mae ei bapyrau yn dangos iddo brotestio yn benderfynol yn erbyn i'r argraffydd eu printio. Nis gall neb weled unrhyw debygolrwydd yn eu harddull, na'u hysbryd, na'u cynnwys i weithiau addefedig Penry. Mewn gair, y mae pob tystiolaeth fewnol ac allanol yn erbyn eu priodoli iddo.

Rhaid fod enaid cyfiawn Penry yn llosgi o'i fewn, nid yn unig oherwydd ei fod yn gorfod treulio cymaint o'i amser byr a gwerthfawr i amddiffyn ei hun ac i ateb cyhuddiadau ei wrthwynebwyr, yn lle bod yn llafurio i ledaenu gwirioneddau teyrnas y tangnefedd yn ei Gymru anwyl; ond hefyd oherwydd natur faleisus y cyhuddiadau hyny. I ddangos hyn, yn gystal a phenderfyniad di-ildio ein gwron i gyflawni ei weinidogaeth er gwaethaf bygythiadau a pheryglon, nis gallwn wneyd yn well na dyfynu paragraff neu ddau o'r gwaith yr ydym eisoes mor ddyledus iddo, ac i'r hwn y rhaid ini ymddiried yn benaf am arweiniad tra yn olrhain bywyd Penry.

Tystia fod ei gyhuddo o fod yn derfysgwr, fel yr arferir cyhuddo pob diwygiwr crefyddol brwdfrydig yn mhob oes, yn hollol ddisail. "Yr wyf wedi bod," meddai, "yn dylyn fy efrydiaethau drwy fy oes. Nid wyf hyd yma wedi ymyryd dim, na mwy na llai, âg un achos o fath yn y byd oedd a fynai â'r wladwriaeth a'r llywodraeth; ac yr wyf yn sicr nad yw Satan ei hun yn ddigon gwynebgaled i feddwl fy nghyhuddo i o fwriadu dim yn erbyn ei Mawrhydi."

Addefa Penry ei benderfyniad, deued a ddeuai, i barhau gyda gwaith y Diwygiad hyd nes yr argyhoeddid ef o'i gamsyniad. "Er imi," ychwanega, "fod filwaith gwaelach na'm gwrthwynebwyr, eto drwy drugareddau yr Arglwydd, yr wyf ddigon yn well na hwynt yn nheilyngdod fy achos. Nid colli fy mywyd drosto, er y gall hyny fod yn beth i chwi sydd mewn awdurdod i'w ystyried, diolch i Dduw, yw yr hyn yr wyf fi yn ei ofni, eithr ofni yr wyf fi y tynaf yn fy nhywydd garw warth ar y gwirionedd. Achos Duw yw'r achos, achos yr eglwys yw, ac felly mae yn achos llawer o filoedd o'r dynion mwyaf didwyll, y deiliaid mwyaf sefydlog a charedig fedd ei Mawrhydi; calonau y rhai, drwy wrthodiad y ddeiseb hon, a fawr lwfrha. Fy unig gynghaws a'm cais yw, fod imi gael sicrwydd am heddwch a dyogelwch, neu ynte i'm gwrthwynebwyr ddadguddio achosion fy helbul, fel y cosber fi am fy nhroseddau. Nid wyf yn gofyn un ffafr, gwneler cyfiawnder â mi: dyna'r oll a geisiaf. Mae y swyddi a ddeliwch yn hawlio i chwi roddi hyn imi."

Pan oedd Penry yn parotoi y ddeiseb hon i'r Senedd, cyrhaeddodd y cyffro yn achos cyhoeddiad pamphledau Martin Marprelate ei fan uchaf. Dywed Fuller, "Mae yn rhyfedd eu bod yn cael eu hargraffu mor ddirgel, eu dosparthu mor gyflym, eu darllen mor awyddus, a'u credu mor gadarn, yn neillduol gan y bobl gyffredin, i'r rhai nid oedd un gerddoriaeth yn felusach na chlywed eu huwchafiaid yn cael eu gwarthruddo."

Nis gellir cymeradwyo arddull y traethodau dadleugar hyn, ond y maent yn llawer rhagorach na'r traethodau dienw a ysgrifenid gan yr ochr arall. Os ydynt yn gynhyrfus a chyffredin, nid ydynt yn anfoneddigaidd a budr fel eiddo amddiffynwyr Esgobyddiaeth a'r uchel brwyaduron. Ni atebwyd ymresymiad Martin erioed. Ymdrechodd yr Esgob Cooper, ar gais yr archesgob, wrthweithio ei ddylanwad; ond buasai ei "gynghor" eiddilaidd, afrosgo, a dibwys, yn ddinystr i unrhyw achos y proffesai ei wasanaethu, oddigerth yr attegid ef gan ddylanwadau gorfodol.

Rhoddwyd gorchymyn allan ar y 13eg o Chwefror, 1598, i gasglu yn nghyd bob llyfr terfysglyd a hereticaidd, argraffedig neu ysgrifenedig, a'u rhoddi i'r ynad cyffredin, neu i un o'r Cyfrin Gynghor. Dysgrifir y pamphledau atgas hyn "fel yn tueddu at ddwyn i mewn ddefodau newyddion anghenfilaidd, a pheryglus i bob ffurf o lywodraeth eglwysig oedd ar y pryd yn adnabyddus; a chyda bwriad dibris a maleisus i chwalu cyfansoddiad Esgobyddiaeth, yr hon yw un o dair gradd hynafol y deyrnas hon, o dan ei huchelder, yr hon y myn ei Mawrhydi ei pharchu. Mae hi, gan hyny, yn gwahardd i neb o'i deiliaid gadw llyfrau gwrthwynebol i drefn, ffurfiau, a defodau yr eglwys; mae ei Mawrhydi yn benderfynol o gospi yn llym awdwyr a chefnogwyr pob llyfrau o'r fath mor fuan ag y deler o hyd iddynt."

Lluniwyd y saeth hon gan Whitgift, ac anelid hi mae yn amlwg at Penry a'i gymdeithion. Chwilid yn "boeth iawn" yn Northampton am lyfrau hereticaidd, am eu hawdwyr, ac am eu cefnogwyr. Anfonodd Syr Richard Knightley

Digitized by Google

ei was ymaith, a chynghorodd Sharpe y llyfrrwymwr i ymgadw o'r golwg os oedd ei fywyd yn werthfawr ganddo. Nis gallodd yr holl gwmni ond prin ddianc. Ar yr 20fed o Chwefror, 1589, yn mhen wythnos ar ol cyhoeddiad y gorchymyn, marchogodd Penry i Coventry er ymgynghori â Mr. Pigot, o hyd i'r hwn y daeth ar ddiwedd oedfa; a chafodd le i'r celfi argraffu am dymmor yn y dref hòno, yn nhŷ Mr. Hales, nai Syr Richard Knightley. Cyflogwyd Hodgkins yn lle Waldegrave, ac yn mhen pymthegnos aeth efe a'r ddau weithiwr, Tomlyn a Sinms, "dan yr enw brodweithwyr" i Syr Roger Wigston, yn Woolston, yr hwn ar gais ei wraig oedd wedi caniatau i'w wasg gael ei dwyn i'w dŷ, a gweithid hi "mewn parlwr isel."

Ymddengys i Penry ymryddhau yma oddiwrth ofal yr argraffu, er mwyn troi ei sylw at amgylchiadau cartrefol. Yr oedd yn angenrheidiol darparu lloches i'w wraig a'i blant bychain, gan na oddefid iddynt aros yn hwy yn nhref eu genedigaeth. Nid oedd ond un drws agored i'w gael. Yr oedd gweinidogion Ysgotland, y rhai oedd wedi bod yn ymweled â'r myfyrwyr yn Rhydychain, yn teimlo dyddordeb mawr yn ngweithrediadau y Diwygiwr Puritanaidd; ac yr oeddynt yn barod i estyn iddo yr amddiffyniad a'r nodded angenrheidiol yn yr amgylchiad cyfyng hwn. Felly troes ei wyneb mewn gobaith tua mynyddoedd yr Alban; a thrwy fod yn ochelgar i ddewis ei lwybr, cyrhaeddodd efe a'i deulu bach y Gogledd yn ddyogel. Yr oedd Iago VI. yn Norway ar y pryd: ac fel annogaeth pellach iddo i symud, yr oedd Waldegrave, yr argraffydd, wedi sefydlu yn Edinburgh, a gallai gael yno fwy o chwareu teg i gyhoeddi ei ysgrifeniadau.

Nis gallai lai na tharaw y darllenydd, wrth ddarllen y tudalenau blaenorol, fod Mr. Penry yn ymddiried llawer iawn i'w ysgrifeniadau. Nid oes ond ychydig o son am bregethu bellach yn ei bamphledau, na phrawf yn bod iddo ymroddi i'r gwaith hwnw yn y cyfnod hwn. Treuliai ei amser yn benaf gyda'r ysgrifell a'r wasg; ac eto nid oedd hyn yn ddim ond cynllun i agor y ffordd i bregethu mwy effeithiol pe llwyddasai, oblegid y mae mor amlwg a'r haul mai mewn pregethu yr oedd ei ffydd ef fel diwygiwr. Cyfeirid bron yr oll o'i ysgrifeniadau at rai mewn awdurdod, y frenines a'r Senedd, gan geisio cynhyrfu yr awdurdodau gwladol ac eglwysig yn mhlaid y Diwygiad, a'u hannog i ddarparu pregethwyr cymhwys ar gyfer y wlad. Felly, hyd yn hyn, aelod selog o Eglwys Loegr y rhaid cyfrif Penry; ond yn perthyn i'r blaid fwyaf Puritanaidd o honi, ac yn gwahaniaethu efallai oddiwrth bawb o'r blaid hòno yn ei olygiadau ar yr offeiriadaeth ac ar bregethu, ac yn graddol wyro oddiwrth Esgobyddiaeth yn ei farn a'i deimlad. Credai yn gadarn mai y gallu gwladol oedd i ddarparu moddion gras i'r deiliaid, ac nad iawn na dichonadwy i unrhyw gymdeithas wirfoddol wneyd hyny yn effeithiol. Fel hyn y dywed:—"Oni bydd i'r ynad amddiffyn anrhydedd yr Arglwydd yn erbyn Satan, fe gwympa i'r llawr er dim y gall dyn ei ragweled." Daliai yn mhellach fod gan y penadur hawl, ie, ei bod yn ddyledswydd arno, i orfodi ei ddeiliaid fynychu addoliad cyhoeddus Duw."* A baich ei ysgrifeniadau felly oedd, darbwyllo y frenines a'i chynghorwyr i ddarparu digon o bregethwyr i Gymru.

Ond yn raddol teimlodd Penry fod ei holl ymdrechion hyd yn hyn yn ofer, a gwaeth nag ofer, oblegid ffyrnigo yr oedd yr awdurdodau yn ei erbyn yn lle gwrando ar ei lais, ac y mae yn debygol fod ei arosiad yn Ysgotland wedi ei ddyeithrio fwyfwy oddiwrth Eglwys Loegr a'i swyddogion. Defnyddiai Penry ei amser yn Ysgotland yn y cyffelyb ddull llafurus a phan yn Lloegr, ac ysgrifenai lawer yn bersonol a chyhoeddus. Y canlyniad oedd, nas gallai ei elynion ei oddef hyd yn nod yn y pellder hwnw. Gwylid ei ysgogiadau gan ysbïwyr, ac yr oedd Psancroft yn dal ar bob cyfle i atafaelu ac agor llythyrau o Ysgotland at y Puritaniaid yn Lloegr. Ni chafwyd dim y gellid ei gollfarnu yn y gohebiaethau atafaeledig hyny, am hyny ffromodd yr archbrelad, a cheisiodd gymhorth y llys, ac ysgrifenodd Elisabeth lythyr at James, brenin Ysgotland, yn awgrymu llawer, ac yn dyweyd digon o'i hewyllys o barthed i Penry. Gwnaeth yntau ddedfryd o alltudiaeth yn erbyn y pererin, druan; ond methodd a'i gosod mewn grym, gan i'r gweinidogion godi yn erbyn ei chyhoeddi.

Yn Chwefror, 1593, bu dadleuon brwd yn y Senedd o berthynas i'r eglwys a rhyddid crefyddol, ac ar yr 28ain o'r mis daeth cenadwri oddiwrth y frenines yn gorchymyn rhoddi terfyn ar y cyfryw ddadleuon, gan mai iddi hi fel pen yr eglwys y perthynai yr awdurdod i benderfynu yr holl gwestiynau. Felly nid rhyfedd i'n gwron ddigaloni, a rhoddi i fyny y gobaith am ddiwyg-

* Some laid open in his Coulers, p. 17.



Digitized by Google

iad drwy y llys a'r Senedd. Eto penderfynodd wneuthur un cais yn rhagor, a dychwelodd i Loegr gyda'r bwriad o gyflwyno deiseb ei hunan i'r frenines, a cheisio gwrandawiad personol ganddi.

Ei ddeisyfiad yn awr oedd cael dychwelyd i wlad ei enedigaeth i bregethu hyd y gallai ei hunan i'w gydgenedl ofergoelus. Er mwyn hyn yr anturiodd ei ryddid a'i fywyd i adael Ysgotland, lle y gallasai dreulio ei oes mewn dyogelwch a graddau o ddefnyddioldeb. Ond mor fawr oedd ei gariad at ei wlad, a'i dosturi dros ei thrigolion, fel mai gwell oedd ganddo farw wrth geisio ei gwasanaethu yn yr Arglwydd, na byw ac edrych arni yn gorwedd mewn tywyllwch ac annuwioldeb. Ar ol cyrhaedd Llundain, ymunodd â chynnulleidfa dlodaidd o Ymneillduwyr yn Southwark. Gelwid hwy yn Browniaid, ond gwadent hwy bob cysylltiad â Brown a phob cydymdeimlad â'i egwyddorion chwyldroadol, ac nid arddelent neb dyn fel eu blaenor a'u hathraw; ïe, ar y pryd nid oedd ganddynt weinidog sefydlog na man neillduol i ymgyfarfod ynddo. Darllenent y Beibl yn nghyd mewn tŷ neu allan, fel yr ystyrient hi ddyogelaf ac fel y caniatai amgylchiadau. Gwrthododd Penry unrhyw swyddogaeth yn eu plith, ond bu yn dra gwasanaethgar iddynt yn eu cyfyngderau. Ond yn mhen tua chwe mis ar ol ei ymuniad â hwy, syrthiodd i ddwylaw ei elynion. Yr oedd y ddau weinidog a ordeiniasid yn ddiweddar arnynt, Francis Johnson a John Greenwood, wedi eu carcharu yn flaenorol, heblaw Barrowe ac ereill; a thrwy fradwriaeth neu wiriondeb un John Edwards, a ddaethai gydag ef o Ysgotland, daliwyd Penry, a chafodd yntau ei draddodi i garchar i aros ei ddienyddiad yn hytrach na'i brawf, oblegid ei brofi erioed nis cafodd.* Tra yno, ysgrifenodd amryw lythyrau, y rhai a ddangosant yn eglur ei gymeriad diniwaid a'i ofal mawr am achos Duw. Credai o'r dechreu nad oedd nemawr obaith am ei arbediad, ac felly hyd yr oedd yn ddichonadwy ymbarotoai gogyfer â'r gwaethaf. Nid yw yn arddangos dim ofn personol, ond dadgana yn y modd tyneraf ei ofal am ei deulu a'i dosturi drostynt. Buasai yn dda genym allu eu rhoddi yma yn llawn, a diau genym y buasai y darllenydd Cymreig yn ddiolchgar am danynt, yn gymaint ag na chafodd Cymru erioed olwg arnynt yn mhriodoriaith yr awdwr. Ond er mor ddyddorol ydynt, ac er mor werthfawr fel adlewyrchiad gonest o sefyllfa orthrymedig Anghydffurfiaeth ac ysbryd creulawn crefydd awdurdodedig yr oes hòno, rhaid ini ymfoddloni ar ychydig ddyfyniadau o'r llythyrau, gan nad oddef ein terfynau ini eu cyhoeddi yn gyflawn. Diolched y darllenydd, fodd bynag, i'r Dr. Waddington am eu dwyn i oleuni dydd, allan o lwch ac enhuddiad swyddfëydd y llywodraeth a llyfrgelloedd anhygyrch yr awdurdodau eglwysig.

Ar y 6fed o Ebrill, 1593, yr ysgrifenodd Penry y llythyr canlynol at ei wraig, yn yr hwn y gwelir teimladau y Cristion, y priod, a'r tad yn llewyrchu mewn undeb a chydgordiad mor dyner a phrydferth:—

"*At fy anwyl wraig,* HELENOR PENRY, *fy nghydoddefydd yn y bywyd hwn o gystuddiau Efengyl y deyrnas, ac amynedd Iesu Grist, ac yn sefyll yn sicr gyda mi yn ngobaith sicr y gogoniant a ddadguddir ini. Pob nerth a chysur, gyda phob dawn ysbrydol, a luosoger drwy Iesu Grist, fy Arglwydd.*

"Yr wyf yn gweled, fy anwylyd, eu bod yn cynnyg am fy mywyd, a bod fy nyddiau a'm gwaith, o ran dim wn

* Yr oedd amgylchiadau ei draddodiad i garchar yn enbyd iddo ef a'i briod, fel y dengys y dyfyniad canlynol:—

"Cofia y darllenydd gofalus i Penry gael ei ddal ddydd prawf Barrow. Gallasai efe aros am dymmor heb wybod beth fyddai y canlyniadau, a'r amgylchiadau cynhyrfus a'i dylynasant. Ond yr oedd ei ffyddlawn wraig yn gwybod y cwbl, ac aeth ei phryder bron yn annyoddefol. Cafodd gan wraig weddw o'r enw Catharine Unwin, yn nhŷ yr hon yr oedd efe wedi traddodi ei bregeth olaf, fyned gyda hi i gyflwyno y ddeiseb ganlynol i'r arglwydd geidwad:—

"DEISEB OSTYNGEDIG HELEN PENRY AT Y GWIR ANRHYDEDDUS SYR JOHN PUCKERING, ARGLWYDD GEIDWAD SEL FAWR EI MAWRHYDI BRENINES LLOEGR.

"Mae eich deisebydd tlawd, gyda phob gostyngeiddrwydd, yn taer ymbil ar eich anrhydedd dros ei phriod tlawd, John Penry: yn gymaint a bod priod tlawd eich deisyfydd yn awr yn cael ei gadw yn garcharor caeth yn y Counter, Poultry, Llundain. Ni chaniateir i neb ddwyn iddo y pethau angenrheidiol i feithrin a chynnal bywyd: mae efe yn naturiol yn ddyn gwan ac eiddil, yn analluog i oddef y fath garchariad caled ac afresymol yn hir heb beryglu ei fywyd: ni chaniateir dim ond bara a dwfr iddo i'w fwyta: gwrthoda ceidwad y carchar roddi iddo y pethau a ddygir at ei gynnaliaeth, fel pe byddai y teyrnfradwr mwyaf a fu yn y byd erioed.

"Nid yw ei Mawrhydi yn ewyllysio iddo gael ei drin yn greulawn fel hyn. Pa ryw gyhuddiadau bynag sydd yn cael eu dwyn yn ei erbyn: yr wyf yn hyderu y ceir gweled ei fod yn ddeiliad gonest a da i'w Mawrhydi.

"Yn y modd mwyaf gostyngedig. gan hyny, y mae hi yn crefu ar eich anrhydedd, er mwyn achos Duw, gymeryd i ystyriaeth sefyllfa eiddil a gwanaidd iechyd ei phriod tlawd, a rhyngu bodd i'ch anrhydedd roddi iddi genad i gael myned at ei phriod tlawd i weini iddo o'r cyfryw bethau ag a allo er cynnaliaeth ei fywyd: a theimla eich deisebydd ei hun yn rhwym bob dydd i glodfori Duw am ganiatau o honoch i'w phriod y fath ffafr a thrugaredd fawr; ac ni ad Duw hwynt heb eu gwobr."

Cymerodd yr awdurdodau afael yn y wraig weddw yn y fan, a thrwy greulondeb dyfeisddrwg, yr hwn nad esgeulusa glwyfo lle y byddo'r teimlad dyneraf, taflodd yr arglwydd brif farnwr hi i garchar y Gatehouse, am fod gyda gwraig Penry ac ereill yn cyflwyno y ddeiseb i'r arglwydd geidwad. Y rhyfeddod yw i Mrs. Penry ei hun ddianc. Mae yn amlwg oddiwrth yr amgylchiad beth oedd ei syniadau hi am ymddygiad ceidwad y carchar. Yn fuan ar ol hyn, ysgrifenodd Penry dystlythyr yn ei ffafr yn y geiriau hyn:—"Mae y rhai sydd yn dyweyd fy mod wedi dyoddef eisieu bwyd neu ddiod er pan yn y carcha, nyn gwneyd cam â Mr. Gittens. Yr wyf yn debycach i farw o anwyd rag o newyn. Ni chaniateir, mae'n wir, i'm gwraig ddyfod i'm golwg: nid yw hi yn gwybod pa fodd y mae arnaf fi am fwyd a diod, ac felly gall ei bod yn ofni ei bod yn waeth arnaf nag yw, ac nag y bu. Ebrill, 1693.—JOHN PENRY." (Waddington's Penry, the Pilgrim Martyr, p. 124, *et seq.*)

Digitized by Google

i, yn tynu tua'r terfyn; ac oherwydd hyny, yr wyf yn meddwl mai fy nyledswydd yw gadael ar fy ol y dystiolaeth hon o'm serch at chwaer mor anwyl, a gwraig mor gariadus ag ydych chwi, yn yr Arglwydd, wedi bod imi.

"1af. Yr wyf yn crefu arnoch i sefyll yn ddiysgog yn y ffydd, yr hon ydych chwi a minnau yn broffesu yr awr hon mewn digalondid mawr a pherygl. Na chaffed dim eich denu i ymostwng i Anghrist mewn un ffordd. Cadwch eich enaid a'ch corph yn mhell oddiwrth y cynnulleidfaoedd hyny sydd yn ymostwng yn ddirgel neu yn gyhoeddus i ddefodau'r 'bwystfil,' hyny yw, cymeryd ei osod ar y llaw dde neu ar y talcen, fel y gelwir ef gan Ysbryd Duw: gwaherddir chwi i wneyd hyn o dan boen tynu digofaint tragywyddol Duw ar eich pen.

. . . . . . . . . . . . . . .

"Ac os offrymir fi ar yr aberth hwn, dymunaf, fy anwyl Helen, ar fod i'r holl bapyrau sydd ar wasgar, y rhai a ysgrifenais yn yr achos hwn, ac sydd hyd yma heb fyned i law y gelyn, gael eu cyhoeddi i'r byd wedi fy marwolaeth, yn nghyda phob llythyrau o ddim pwys a ysgrifenais ar y pwnc, er y gallant fod yn anmherffaith, eto byddant ddigon i gau genau y gelynion, a thaflu goleuni nid bychan ar yr achos.

"Mae rhai o honynt yn mysg papyrau ein brawd Mr. Smithe. Cewch wybod pa le y mae y lleill. Cymerwch eich cyfarwyddo yn y peth hwn gan yr eglwys. Os gwel yr Arglwydd yn dda imi gael byw, drwy ei ras Ef, gwnaf hyn fy hun. Rhaid tynu tua'r terfyn; fy anerch at yr holl eglwys, yn neillduol y rhai sydd mewn rhwymau, ac yr wyf yn eich hanerch oll yn dra chalonog. Na ddychryned neb o honynt; gofala'r Arglwydd am ganlyniadau gogoneddus i ofidiau Sion. Eto rhaid i chwi oll fod yn barod at ddyoddefaint; yr wyf yn eu gweled yn dod. Na esgeulused y rhai hyny sydd ar wasgar fynychu eu cynnulliadau santaidd. Anerchwch fy mam i a'r eiddo chwithau, yn Nghymru, fy mrodyr, fy chwiorydd, a'm perthynasau yno.

"Gwyr fy Nuw, ïe, gwyddoch chwithau, pa mor daer ac aml y dymunais ganiatau o'r Arglwydd imi lafurio yn eu plith, er ennill eu heneidiau i fod byth yn eiddo iddo Ef. Anerchwch eich rhieni a'r eiddo finnau, a'ch perthynasau yn Northampton; hefyd fy nghar tlawd, Jenkin Jones, a Mr. David hefyd, er na feddyliais i erioed y buasai unrhyw ddylanwad allanol byth yn gwneyd iddo ddynu ei ysgwydd o dan waith yr Arglwydd; ond y mae'r Arglwydd yn sicr o'i dynu ato eto, yn ei amser da ei hun. Anerchwch ein holl gydnabod yn Ysgotland, ar y cyffiniau, ac yn mhob man yn y gogledd, yn neillduol Mr. Fuel, yr hwn bob amser fu yn anwyl genyf. Bendithied Crist Iesu di, a chwi oll, fy anwylyd, yn oes oesoedd. Na chaffed neb wybod, ond yr hwn fyddo yn darllen y llythyr hwn i chwi, fy mod i wedi ysgrifenu o gwbl. Cefais gyfleusdra heddyw i ysgrifenu cymaint a hyn heb fod yr un creadur byw yn gwybod.

"Y 6fed dydd o'r pedwerydd mis, Ebrill, 1593. Mewn brys mawr, gyda llawer o ddagrau, ac eto mae fy enaid yn gryf o gysuron ysbrydol.

"Eich priod am dymmor a'ch brawd hyd byth,

"JOHN PENRY.

"Tyst annheilwng i ewyllys Crist yn erbyn ffieidd-dra yr Anghrist Rhufeinig a'i ganlynwyr, yn sicr o fuddugoliaeth, drwy waed yr Oen.

"O.Y.—Sut bynag y bo, na chaed neb wybod fy mod wedi ysgrifenu atoch. Cofiwch hyny. Dymunwn arnoch fyned a'r plant gyda chwi at y barnwyr drosof, a chrefu arnynt gymeryd eich cyflwr gresynus chwi a minnau i ystyriaeth. Ië, pe bae modd, dymunwn i chwi allu myned â hwynt at y frenines, gan ymbil arni, er mwyn achos Duw, i ddangos ei charedigrwydd arferol i'w deiliaid; ac at arglwydd y trysorlys, ac ereill o'r cynghor a farnwch yn ddoeth, a chrefu arnynt dalu sylw i'ch cwynion chwi a minnau; canys yr ydys yn sicr yn ceisio am fy mywyd. Yr wyf yn barod, gweddïwch drosof, a dymunwch ar yr eglwys weddïo drosof yn daer ac aml. Dyddaned yr Arglwydd di, anwyl Helen, a rhodded nerth i ti. Paid a llwfrhau. Nid wyf yn gwybod sut yr wyt yn cael dy gynhaliaeth, ond fe ofala yr Arglwydd am dy gynnaliaeth i ti. Fy serch fyddo gyda thi yn awr a byth, yn Nghrist Iesu."

Yn mhen pedwar diwrnod ar ol i Penry ysgrifenu y llythyr yna at ei wraig, parotodd anerchiad at ei blant. Ceir llawer o frawddegau yn hwn yn cynnwys bron yr un syniadau, er nad yn yr un geiriau. Rhoddwn yma gan hyny dalfyriad o'r anerchiad hwn; mae'r anerchiad i gyd yn faith:—

"AT FY MERCHED, PAN DDELONT I ADDFEDRWYDD OEDRAN A SYNWYR.

"Fy anwyl a thirion gariadus Ferched,—Gwaredigaeth, cysur, dyogelwch, a gobaith sicr Duw y nefoedd, yr Hwn yw fy Nuw i a chwithau yn Iesu Grist, ein galluog Waredwr, a'ch bendithio gyrff ac eneidiau â gras achubol ei Ysbryd hyd byth, ac yn dragywydd, a chaniataed, er fy nghysur tragywyddol i mi gael eich cyfarfod yn nheyrnas nefoedd. Clustymwrandewch yn awr â'm cynghor hwn, yr hwn yn enw fy Nuw yr wyf fi, eich tad mewn rhwymau am dystiolaeth Iesu Grist, yn ei roddi i chwi; a gofalwch ei gadw, fel y delo bendith yr Arglwydd arnoch hyd byth. Yn gyntaf, mynwch adnabod Duw eich tad, a gwasanaethwch Ef yn yr holl ddyledswyddau a geisia genych yn ei Air bendigedig. Rhaid i chwi chwilio ei holl orchymynion, a'u cadw hwynt i gyd. Cofiwch a chredwch fod iachawdwriaeth gyflawn i'w chael drwy Iesu Grist yn unig. Os mynwch fod yn gyfranog o'r iachawdwriaeth hon, rhaid i chwi yn sicr gredu fod eich holl bechodau wedi eu maddeu er ei fwyn Ef. Os gwnewch hyn, O! wobr wynfydedig sydd yn eich aros yn nheyrnas nefoedd. Cewch fyw yno yn nghanol pob llawenydd gyda Iesu Grist, yn nghwmni ei engyl a'i saint, ac yn nghwmni yr un oedd i chwi yn y bywyd hwn yn dad. Ond os yn wahanol y gwnewch, ni chewch er eich cysur byth fy ngweled i yn y bywyd gwynfydedig hwnw, o'r hwn, drwy drugaredd yr Arglwydd, y mae eich mam a minnau yn sicr. Na, teflir chwi am byth o bresennoldeb Duw, yr Hwn sydd ofnadwy. Mae'n debyg y cewch weled a dyoddef llawer o dywydd garw yn achos Gair Duw, ond bydd y canlyniadau yn fendigedig os parhewch hyd y diwedd."

Dyry hwy ar eu gocheliad rhag credu mewn teitlau uchel yn yr eglwys, megis archesgobion, archddiaconiaid, canghellwyr, &c., gan alw y cyfryw yn ddyfeisiau Satan, yr hyn a brawf ei fod erbyn hyn yn llwyr wrthwynebol i'r drefn Esgobaethol o eglwys. Eto gorchymyna hwy yn gaeth a difrifol i ymostwng i lywodraeth a disgyblaeth y wir eglwys, gynnwysedig o dduwiolion, a thyngheda hwy i ddyoddef yn dawel dros y gwirionedd. Yna cyfarwydda hwy yn y geiriau canlynol mewn perthynas i'w bywyd a'u hymarweddiad cyffredin yn y byd:—

"Oherwydd paham, unwaith eto fy merched, ïe, fy nhyner gariadus ferched, na cherwch y byd na'r pethau sydd ynddo. Nac edrychwch ar ddim ond anniflanedig

Digitized by Google

goron y gwobrwy, yr hon a barha yn dragywydd, yr hon mae yr Arglwydd Iesu yn ei chynnyg i chwi, ac i bawb a gyd-ddyoddefant âg Ef. Yr wyf fi, eich tad, yn dyst o flaen eich llygaid mewn rhan o'r dyoddefiadau hyn drwy y chwe' blynedd diweddaf. Cydgyfranogodd eich mam â mi o honynt mewn llawenydd. Mae pob un o honoch chwi wedi eich geni yn ystod tymmor helbulon eich mam a minnau, o ba herwydd y mae genyf obaith da yn yr Arglwydd y cewch ras i'n dilyn ni, eich rhieni tlodion, yn yr hyn sydd gymeradwy yn ei olwg Ef.

"Ymddiriedaf chwi i'ch mam am gyfarwyddiadau yn y bywyd presennol. Bu hi yn chwaer dyner, ac yn gymhares o'r fath ffyddlonaf imi yn fy holl helbulon a'm cystuddiau, ac er eich cysur chwi a minnau cymerodd lawer o deithiau peryglus ar dir a môr.

"Ad-dalwch, gan hyny, ran o'r caredigrwydd sydd ddyledus arnoch iddi, drwy ei pharchu ac ufuddhau iddi. Ufuddhewch iddi mewn gair a gweithred, a chofiwch fod yn amddiffyn iddi pan elo yn hen. Hi yw yr unig ganllaw a chynnaliaeth sydd genych chwi i edrych ati mewn plentyndod ac ieuenctyd. Yr wyf yn awr yn gadael pedair o honoch yn ei gofal, heb genyf ddim gwerth son am dano i'w adael iddi hi nac i chwithau, oddi eithr ffynnonell dragywyddol ddihysbydd Rhagluniaeth, ac addewidion yr Arglwydd, yr Hwn a ofala am angenrheidiau yr amddifaid a'r weddw.

"Nid yw yr hynaf o honoch yn llawn pedair blwydd oed, ac nid yw yr ieuengaf yn bedwar mis; felly byddwch yn mhob ystyr yn ddyledus i'ch mam, yr hon ni feddylia fod gofalu am danoch oll yn ormod o faich iddi.

"Byddwch foddlon, gan hyny, i wneyd a dyoddef pob peth fel y byddo hi yn eich cyfarwyddo. Cymerwch eich rheoli ganddi yn mhob peth, yn neillduol wrth briodi, os gwel yr Arglwydd yn dda i chwi gael myned i'r sefyllfa anrhydeddus hono. Os bydd hi yn eich gosod mewn gwasanaeth, peidiwch edrych ar un swydd onest yn rhy isel, nac un ymborth iach yn rhy galed, nac un wisg a'ch cuddio ac a'ch cadwo yn gynnes yn rhy wael; eithr bendithiwch Dduw am ddarparu i chwi ymborth a dillad. Nis gallaf, oherwydd anwiredd teyrnas Anghrist, ddarparu ar eich cyfer fel y dymunwn; eto yr wyf yn sicr y gofala fy Nuw, yn ngwasanaeth yr Hwn yr wyf yn llafurio yn erbyn Babel a'i merched, yn helaeth am danoch chwi a'ch mam: a phan weloch fod yr Arglwydd yn gwneuthur hyn, yn ol yr addewidion bendigedig a wnaeth Efe â mi, eich tad tlawd, yr wyf yn eich tynghedu i broffesu a chydnabod y ffafr hon o'i eiddo o flaen y byd, os bydd galwad am hyny: gan ddywedyd, 'Trugareddau yr Arglwydd sydd o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb ar y rhai a'i hofnant Ef, a gwirionedd ei addewidion i blant eu plant, o'r rhai a gadwant ei orchymynion, ac a gofiant ei gyfreithiau i'w gwneuthur.' Beth bynag ddelo o honoch, daliwch eich cysylltiad â'r eglwys lle yr wyf yn eich gadael, neu â chymdeithas santaidd y saint mewn rhyw le arall. Nid wyf yn amheu na chynhyrfa yr Arglwydd lawer o'i blant i ddangos caredigrwydd i'm chwaer a'm gwraig ffyddlawn, eich mam, er fy mwyn i. Ond yn mha wasanaeth caled bynag y dygir chwi i fyny, fy anwyl blant, cofiwch ddysgu darllen, fel y galloch ymgydnabyddu ddydd a nos â Gair yr Arglwydd. Os gall eich mam eich cadw gartref, bydd yn sier o'ch dysgu i ddarllen ac ysgrifenu. Yr wyf yn gadael i chwi bedwar Beibl, un i bob un o honoch, yr unig drettadaeth neu gynysgaeth sydd genyf ar eich cyfer. Yr wyf yn ymbil arnoch ac yn eich tynghedu nid yn unig i'w cadw, eithr eu darllen ddydd a nos; a chyn ac ar ol darllen, byddwch daer mewn gweddi a myfyrdod, fel y galloch ddeall a chael nerth i gyflawni meddwl Duw. Deued a ddelo, nac esgeuluswch eich cyflawniadau crefyddol a chyfarfodydd y saint, canys yno y mae yr Arglwydd fwyaf galluog yn ngweinidogaeth ei Air; a chofiwch ei fod yn parchu, yn caru, ac yn bendithio y gwasanaeth cyhoeddus yn fwy nag un math o gyflawniadau dirgel.

"Dysgwch fod yn isel, gostyngedig, tyner, ac amyneddgar at bob dyn. Na thelwch ddrwg i neb dros ddrwg mewn gair na gweithred, eithr gorchfygwch ddrygioni drwy ddaioni, drwy amynedd, drwy wylder a sobrwydd. Uwchlaw y cwbl, byddwch yn addfwyn a charedig i saint Duw, gan fod bob amser yn barod i osod i lawr eich bywydau i wneyd daioni i'r eglwys mewn tlodi, ac i bob aelod ar y ddaear. Beth bynag fyddo genych, rhoddwch ef er lles yr eglwys. Bwytewch yn brin a gwisgwch yn gynnil, fel y byddo gennych rywbeth i'w roddi i'r eglwys a'r aelodau er cynnorthwyo i gynnal gwir addoliad a gwasanaeth Duw yn eu plith. Os byddwch chwi yn gyfoethog, gofalwch na byddo aelodau Crist mewn angen. Byddwch bob amser gyfranog â hwynt o gystuddiau yr efengyl.

"Llafuriwch o blaid gostyngeiddrwydd, curwch i lawr y balchder sydd yn naturiol i bob dyn. Peidiwch ymollwng i oferedd mewn gwisgoedd, geiriau, nac ystumiau. Ffrwynwch eich tueddiadau bob amser yn brydlon, ac ymgydnabyddwch â'r meddyliau hyny yn unig a'ch arweinio i fod yn ostyngedig; y rhai a greo ynoch gasineb at yr hyn sydd ddaearol, a dymuniad hiraethus am deyrnas nefoedd.

"Byddwch yn garedig i'ch perthynasau o du eich tad a'ch mam, ond yn neillduol os byth y daw ar eich llaw, dangoswch bob parodrwydd i wneyd daioni i'm cenedl, a'm perthynasau i yn ol y cnawd.

"Mae cenedl y Cymry er ys cannoedd o flynyddoedd bellach wedi bod o dan wialen yr Arglwydd, ond yr wyf yn credu fod yr amser wedi dyfod iddo ddangos trugaredd iddynt; drwy beri i oleuni yr efengyl dywynu yn eu plith, a da chwi, fy merched anwyl, mor fuan ag y deloch i wybod beth yw gweddi, gweddïwch yn daer ar yr Arglwydd am i hyny gymeryd lle; a byddwch bob amser yn barod i estyn cymhorth i'r distadlaf o blant tlodion Cymru fyddo mewn angen: er mwyn pob peth, os byth y deuwch i allu, ad-dalwch y caredigrwydd dyledus oddiwrthyf i'm perthynasau agosaf yno, fy mam, fy mrodyr, a'm chwiorydd, &c., y rhai, mae'n ddios genyf, ïe, er fy mwyn i, a ymddygant hyd eithaf eu gallu yn y modd mwyaf caredig tuag atoch chwi a'ch mam; a byddwch yn gysur neillduol i fy mam dlawd, yn fy lle i, mewn henaint a phenllwydni: hi oedd fy unig gymhorth i yn nechreuad fy efrydiaethau, drwy y rhai y daethum i adnabyddiaeth o'r ffydd werthfawrocaf sydd yn Nghrist Iesu, o blaid yr hon yr wyf yn sefyll heddyw yn llawen yn fy enaid, er mewn anhunedd mawr o ran y dyn oddi allan.

"Gweddïwch yn daer ac yn aml am deyrnasiad llwyddiannus a dyogelwch corff ac enaid ei gwir ragorol Fawrhydi, fy ardderchocaf benadur y Frenines Elisabeth, dan deyrnasiad yr hon y daethum i feddiant o'r wybodaeth a'r gobaith bendigedig hwn, yn yr hwn yr wyf yn sefyll. Dangosed yr Arglwydd drugaredd iddi am hyny yn y bywyd hwn ac yn y dydd mawr.

"Byddwch barod i gynnorthwyo pob dyeithriaid, ac yn dirion wrth bobl Ysgotland, yn mhlith y rhai y bum i, eich mam, a dwy o honoch chwithau yn byw fel dyeithriaid, eto cawsom roesaw a charedigrwydd er mwyn ein Duw. Byddwch yn dyner wrth y weddw a'r amddifad, oherwydd mae deddf Duw yn gystal a deddf natur yn ei ofyn oddiar eich llaw; ac hefyd, o ran dim a wn, yr wyf fi yn debyg o'ch gadael chwi yn amddifaid a'ch mam yn weddw.

"Yn olaf, fy merched, cynnyddwch yn holl rasusau, gwybodaeth, a duwioldeb Crist Iesu. Credwch a gobeithiwch yn ddiysgog yn yr iachawdwriaeth sydd ynddo Ef. Dyoddefwch gystudd gydag Ef yn yr eglwys dlawd hon. Parhewch mewn ofn santaidd hyd y diwedd, yna cewch chwi a minnau gyfarfod yn wynfydedig yn nydd mawr ei ymddangosiad Ef.

"Yr wyf fel hyn wedi esmwythau fy enaid pryderus o ran o fy ngofal mawr am danoch yn mhob ystyr, ond yn neillduol am eich iachawdwriaeth. Yr wyf wedi ysgrifenu

Digitized by Google

hyn yn y fath brinder papyr, inc, ac amser, fel nad allaswn wneyd dim ond eu rhoddi i lawr fel y deuent i'm meddwl, o ba achos nid yw mor llawn, nac mor fuddiol cynghor ag a fuasai fy Nuw yn fy ngalluogi i roddi i chwi pe buasai genyf well hamdden, ond nid wyf fi yn ammheu nas gellwch chwi, fy mhlant, gael addysg ynddo; a dilynwch hi, fel y delo bendith Duw nid yn unig ar ben disgynyddion Jonadab mab Rechab, ond hefyd ar ben plant John Penry, am yr ufudd-dod a roddasant i orchymyn a chynghor duwiol eu tad. Fel hyn yn awr y mae eglwys Dduw mewn lludw yn eistedd ar y llawr fel gwraig weddw, yn estyn ei dwylaw er gweled a oes neb a gysura ei henaid, ac y mae yn cwyno fy mod i, yr hwn oedd yn gwneyd hyny, yn cael fy ngorthrymu a'm cymeryd i Babel: 'A'r Arglwydd a ddywedodd, Myfi a ddadleuaf dy ddadl di' (Jer. li. 36), tra yr wyf fi, eich tad tlawd, o waelod fy enaid a'm calon fel hyn yn foddlon ddyoddef nid yn unig fy ngharcharu, eithr marw hefyd dros enw a gwirionedd yr Arglwydd Iesu, y rhai a amddiffynais; ac ar yr un pryd yr wyf yn cyhoeddi, gyda llais uchel buddugoliaeth, nad yw cystuddiau y bywyd hwn yn haeddu eu cymharu â'r gogoniant a ddadguddir ini.

"Yr wyf yn eich gorchymyn chwi, fy anwyl blant, a'ch cariadus fam i ddwylaw fy Nuw gwir drugarog, a'ch Gwaredwr sicr a gofalus yn Nghrist Iesu ein Harglwydd, yr Hwn a fyddo fendigedig yn oes oesoedd. Amen, Amen, Amen.

"O garchar caeth, gyda llawer o ddagrau, eto yn llawen iawn yn yr Ysbryd Glân, y degfed dydd o'r pedwerydd mis, Ebrill, 1593, eich tad tlawd yma ar y ddaear, gwir awyddus am ymuno â chwi byth yn nheyrnas Iesu Grist.

"JOHN PENRY.

"Tyst annheilwng yn y fuchedd hon o blaid hawl Iesu Grist ac yn erbyn ffieidd-dra y Babel Rufeinig."

Anhawdd yw attal dagrau wrth ddarllen y fath sylwadau doeth a thyner, wedi eu hysgrifenu o dan y fath amgylchiadau cyfyng a thorcalonus. Ond prin y gellid dysgwyl i esgobion trahausfalch y dyddiau hyny, yn eu palasau moethus ac yn y mwynhad o'u rhwysg a'u hurddas tywysogaidd, gydymdeimlo â'r fath dynerwch ac anwyldeb, ïe, y fath dduwioldeb nefolaidd, er mwyn carchar, tra yn sefyll ar ffordd eu bwriadau a'u cynlluniau hwy. Nid oedd dim trugaredd na goddefgarwch yn eu calonau, ond aberthent y lledneisrwydd a'r crefyddoldeb Dwyfolaf i'w huchelgais personol a'u sel dros gyfundrefn. Fel y bu filoedd o weithiau o'r blaen, ac fel y bydd filoedd o weithiau eto, cawn yma y daearol â'i droed ar wddf y nefol; y cnawdol yn damsang yr ysbrydol. Ond gwrandawn eto ar yr hanesydd yn adrodd ffeithiau.

Wedi "esmwythau ei enaid pryderus" o'r hyn oedd yn gwasgu drymaf arno yn ei gysylltiadau teuluaidd, ymwregysodd Penry i ymladd brwydr wrtho ei hun â'r awdurdodau llywodraethol, y rhai, o dan gêl ddylanwad Esgobyddol, oeddent wedi penderfynu ei rwydo yn gyntaf ac yna ei ddifetha. Dygwyd ef ger bron i gael ei holi y diwrnod yr ysgrifenodd y llythyr at ei blant, rhan o'r hwn a ddyfynasom uchod; fis cyn hyny y tystiasai Barrowe a Greenwood broffes dda yn Whitehall. Eisteddai deuddeg o'r brodyr gyda'u gilydd ar yr achlysur hwnw yn y rhagystafell yn garcharorion, ond ni oddefid iddynt siarad gair â'u gilydd. Gelwid hwy bob yn un i ystafell yr arglwydd ganghellydd, ac yno yr oedd yr archesgob ac esgob Llundain yn eu hurddwisgoedd, ac ereill o aelodau yr uchel ddirprwyaeth; eisteddai y Barnwr Young a'r Dr. Some wrth ben isaf y bwrdd. Gofynwyd i Barrowe, ar ei fynediad i'r ystafell, benlinio ac ateb y gofyniadau a roddid iddo gan y llys. Ymddengys i Penry gael ei holi yn llai ffurfiol. Mewn trefn i ddeall a gwerthfawrogi ei atebion, rhaid ini ystyried cyfyngder yr amgylchiadau yr oedd ynddynt. Nid oedd fel Luther o flaen y llys yn Worms. Nid oedd ganddo yr un noddwr daearol, na'r un cyfaill personol i'w galonogi drwy gydymdeimlad dirgel, nac i roddi iddo un gair o gyfarwyddyd.

A defnyddia ei eiriau ef ei hun: "Gwn eu bod yn cynnyg am fy mywyd." Ei ofal penaf ef oedd amddiffyn y gwirionedd, dros yr hwn yr oedd efe i ddyoddef. Yr egwyddor yr ymdrechai efe o'i phlaid, fel y gwelsom yn barod, oedd: "Fod eglwys Crist i gael ei llywodraethu yn unig gan ddeddfau ei Sefydlwr Dwyfol." Yr oedd wedi dyfod i'r penderfyniad sicr a disigl fod yr holl swyddogaethau deilliedig oddiwrth Eglwys Rhufain yn anysgrythyrol, ac fel y cyfryw yn anghristionogol: hyny yw, yn groes i ewyllys ddatguddiedig Crist. Nid yw cywirdeb neu anghywirdeb y syniad hwn o gymaint pwys ini yma ag yw dangos y tir a gymerodd y merthyr, a'r ysbryd yn yr hwn yr amddiffyna ei safle. Mae genym ddigon o brofion fod ei argyhoeddiad yn drwyadl a chwbl addfed. Yr oedd yn gynnyrch amryw flynyddoedd o fyfyrdod ysbrydol, ac mewn ufudd-dod i'r argyhoeddiad addfed hwn yr oedd wedi cefnu ar gyfeillion hen ac anwyl, ond nid yn benboeth nac mewn ysbryd angharedig. Yr oedd, er mwyn yr argyhoeddiad hwn, wedi rhoddi cartref i fyny ac wedi myned yn grwydryn; ac yn awr o dan warth, wedi ei wahanu oddiwrth wraig ei fynwes ac heb weled ei blant bychain, yr oedd yn dysgwyl merthyrdod yn y dull atgasaf; marw ar y crogbren fel drwgweithredwr. Ymddygid tuag ato fel bradwr, er fod teyrngarwch yn deimlad cryf yn ei fynwes. Eto, aeth yn mlaen yn ei lwybr. Yr oedd y gwirionedd dros yr hwn y dyoddefai wedi dyfod yn rhan o hono ef ei hun.

Digitized by Google

Dyna fel! Mae ei wyneb yn welw, a gallai llygad cydymdeimlad weled olion y dagrau oedd yn treiglo dros ei ruddiau pan yn dirgel ysgrifenu y llythyr hwnw, yr hwn nad yw ei inc ond prin wedi sychu.

Yr oedd llafur a charchariad wedi effeithio ar ei gyfansoddiad tyner, eto yr oedd ei lygad yn ddisglaer, a phan ddaeth llygad y Barnwr Young i gyffyrddiad â'i olwg dreiddiol ef, edrychai mor anesmwyth a phan welodd arch Roger Rippon wrth ddrws ei dŷ.

Ni bydd ini yma adrodd hanes ei brawf, er mor addysgiadol yw, ond deuwn ato eto wrth wneuthur ychydig sylwadau terfynol ar ei olygiadau glwys-drefniadol. Bydd yn dda gan y darllenydd gael ei anerchiad at y llywodraeth, ac yr ydym yn cyfleu hwnw yn mhlith y nodiadau ar odrau y dail er mwyn arbed gofod.* Ond nis gallwn ymattal heb roddi dyfyniadau o'i lythyr toddedig at yr eglwys yn ei phrofedigaeth ar ol colli amryw o'i haelodau drwy erledigaeth yr awdurdodau.

* DEISEB PENRY AT Y LLYWODRAETH.

"Yr wyf fi, John Penry, fel y bydd raid imi ateb o flaen yr Arglwydd fy Nuw yn nydd mawr y farn, yn gosod i lawr yma yn gryno yr holl wir, a dim ond y gwir, yr hwn yr wyf yn ei ddal ac yn ei broffesu yn nglŷn â'r ffydd sydd tuagat Dduw yn gystal a thuagat fy ngoruchaf benadur, y Frenines Elisabeth, i'r hon yn unig, o holl benaduriaid y byd, y mae pob parch, teyrnged, ac ymostyngiad yn ddyledus oddiwrthyf fi yn yr Arglwydd:—

"Yn gyntaf. Yn gymaint a bod fy nheyrngarwch i'w Mawrhydi yn aml yn cael ei ammheu, nid wyf fi heddyw, ni fum erioed yn holl ddyddiau fy mywyd, yn euog o, neu yn gwybod am, un bwriad, cynllun, na theimlad gwrthryfelgar yn erbyn ei Mawrhydi, neu i aflonyddu ar ei gwlad deyrngarol a'i llywodraeth heddychol. A phe buaswn yn gwybod am y fath weithredoedd annuwiol, drwg, ac annheyrngarol, neu am fwriadau allasent mewn unrhyw fodd aumharu, neu aflonyddu ar sefyllfa heddychol fy nheyrn a gwlad fy ngenedigaeth, buaswn yn hysbysu, yn dadguddio, ac yn gwrthwynebu y cyfryw hyd eithaf fy ngallu yn mhob dyn, estronol yn gystal a chartrefol, o ba grefydd bynag.

"Yr wyf yn cydnabod fod ei llywodraeth oruchel y fath y tu fewn i derfynau ei thiriogaethau, dros bob dyn, fel nad oes neb, nac un achos gwladol nac eglwysig y tu allan i gyrhaedd ei hawdurdod a'i cherydd, ei chyfreithiau a'i chleddyf. Yr wyf hefyd yn cydnabod fod ei Mawrhydi wedi derbyn gan yr Arglwydd lawn awdurdod, yn rhinwedd ei breninol allu, i lunio a sefydlu pob deddf, yn eglwysig a gwladol, yn mysg ei deiliaid; yn ngwneuthuriad y rhai, hawlia'r Arglwydd fod i'r deddfau eglwysig gael eu gwneyd yn ol ei Air ysgrifenedig, yr hwn sydd yn eglur yn cynnwys pob peth a berthyn i'w addoliad: ac i'r deddfau gwladol gael eu sylfaenu ar reolau cyffredin cyfiawnder ac uniondeb, terfynau y rhai ni chyfyngir gan awdurdod breninoedd a thywysogion, gan mai dyma'r unig ffyrdd dyogel iddynt.

"Yr wyf yn foddlon o galon i amddiffyn a dal i fyny yr awdurdod uchel benaduriaethol hon o eiddo ei Mawrhydi, yn erbyn pob teyrnas, person, a chreadur o dan y nef, pe rhaid i mi golli fy mywyd ddeng mil o weithiau drwy hyny.

"Ac yr wyf yn galw Duw yn dyst, nad oes dydd, hyd eithaf fy ngwybodaeth, wedi myned dros fy mhen, yr wyf yn sicr, er pan ddygodd yr Arglwydd fi gyntaf i adnabyddiaeth o'r gwirionedd o dan lywodraeth rasol ei Mawrhydi, heb fy mod wedi, neu yn gweddïo drosti, am i fendithion fy Nuw gael eu tywallt yn allanol a mewnol hyd byth mewn cyflawnder ar orsedd, llywodraeth, a thiriogaethau ei gwir ardderchog Fawrhydi, a bod iddo Ef chwalu, neu ar frys ddymchwel ei holl elynion a'u bwriadau yn ei lid, pa un bynag ai cartrefol ai tramor fyddont; i wirionedd yr hyn yr wyf yn galw Chwiliwr y calonau yn dyst yn erbyn fy enaid, os wyf yn gwenieithio neu yn ffugio yn y gosodiadau hyn.

"Yn ail. O berthynas i'm ffydd: yr wyf yn credu â'm calon, ac yn cyffesu â'm tafod, nad oes Duw ond y gwir Dduw yn unig, yr Hwn mae y Gair ysgrifenedig yn dysgu sydd yn un hanfod ac yn dri pherson, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, tri pherson gwahanol o'r un a'r unrhyw hanfod. Yr wyf yn credu mai y Duw Goruchel hwn, yr Hwn yw fy Nuw i yn Nghrist Iesu, yw creawdwr, cynnaliwr, amddiffynwr, penarglwydd, ac archlywydd pob creadur yn y nef ac ar y ddaear; dynion ac angylion, da a drwg. Nid wyf yn credu fod, nac y gall dim gymeryd lle yn y nef nac ar y ddaear, heb ei fod wedi ei ragarfaethu a'i ragdrefnu gan ei ewyllys, ei fwriad, ei gynghor, ei gyfarwyddyd, Ie, heb ei orchymynion mwyaf santaidd, doeth, ac uniawn, yn ol cynghor ei ewyllys ei hun.

"Yr wyf yn credu fod pawb wrth natur yn blant digofaint, yn cael eu hachub yn unig drwy ras; ffydd gywir yn gafaelu yn haeddiant a chyfiawnder Crist Iesu.

"Yr wyf yn credu fod Crist Iesu o ran natur yn Dduw a dyn, Ie, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd; ac o ran swyddau yn unig frenin, offeiriad, a phroffwyd ei eglwys: y swyddi a gyflawnodd mor drwyadl yn nyddiau ei gnawd, drwy egluro holl ewyllys ei Dad; drwy bregethu a dysgu iachawdwriaeth gyflawn i'w eglwys drwy ei angau a'i adgyfodiad, ac iddo dderbyn gan y Tad y fath awdurdod hollol yn y nef ac ar y ddaear fel nad oes olynydd iddo i fod yn un o'r swyddau hyn, ond ei fod Ef wedi cael ei gysegru iddynt hyd byth.

"Yr wyf yn credu mai gwir ffydd yw darbwylliad y galon i deimlo sicrwydd am faddeuant pechodau, a chyfrifiad cyfiawnder Crist.

"Nid yw y wir ffydd hon yn perthyn ond yn unig i etholedigion Duw, a pharha hyd y diwedd. Yn anwahanol gysylltiedig â'r wir ffydd hon, ac fel ffrwyth yn tyfu arni, mae byw i gyfiawnder yn y fath fodd fel y mae aelodau Crist yn cael brwydr barhaus ynddynt eu hunain yn erbyn pechod; yr hwn, drwy ddylanwad angau Crist sydd wedi ei glwyfo ynddynt, ac yn graddol ddadfeilio, ac yn y diwedd diflana yn hollol pan fyddo y cyrff a'r eneidiau yn cael eu gwahanu; ac nid cyn hyny.

"Yr wyf yn credu fod eiddo Crist yma ar y ddaear yn cael eu tynu gan ei allu bywiocaol yn debycach, debycach, bob dydd i'w ewyllys Ef, ac i wneyd yr unrhyw; Ie, i golli eu bywydau yn hytrach na dianrhydeddu Duw, drwy yn wirfoddol ac ewyllysgar wadu ei wirionedd a thori ei ddeddfau a'i ewyllys mewn un peth a ddadguddiwyd iddynt.

"Yr wyf yn credu fod ei ewyllys ddadguddiedig yn cael ei chynnwys i gyd yn ysgrifeniadau yr Hen Destament a'r Newydd; wedi eu rhoddi gan yr Ysbryd Glân, er addysg a chysur ei eglwys dlawd cyhyd ag y byddo fel pererin ar y ddaear.

"Yr wyf yn credu mai cymdeithas o'r rhai mae'r Gair yn alw yn saint yw yr eglwys, y rhai ydynt nid yn unig yn proffesu mewn gair yr adwaenant Dduw, eithr ydynt mewn gwirionedd yn ufudd i'w ddeddfau a'i ordinhadau; a'r fath eglwys yr wyf yn credu fod yr Arglwydd wedi myned i gyfammod, o'i ewyllys da, y bydd Efe yn Dduw iddynt, ac y cant hwythau fod yn bobl iddo Ef. Ar y cyfammod hwn y mae dwy sel, bedydd a Swper yr Arglwydd.

"Yr wyf yn credu nad yw'r eglwys yma ar y ddaear yn berffaith, er o ran y drefn yr hon a ordeiniodd yr Arglwydd ar ei chyfer, ei bod yn bob peth; ond hyd yma, mae yn aros ynddi lawer o ddiffygion a ffaeleddau; eto yr wyf yn credu yn sicr y caiff ei bobl Ef, yr aelodau gwirioneddol, ddydd y farn eu perffeithio a'u coroni â gogoniant tragywyddol gan Iesu Grist, o'i ras Ef yn unig, ac nid o un haeddiant o'r eiddynt eu hunain.

"Drwy drugareddau fy Nuw, ac felly yr wyf yn foddlon i ddyoddef unrhyw gystudd yn y bywyd hwn er ei fwyn Ef, i'r Hwn y byddo y gogoniant oddiwrth fy enaid a'm corff, ac oddiwrth ei holl saint yn oes oesoedd. Amen.

"Yr wyf yn ffieiddio pob heresi, ymbleidiaeth, ymraniad, a chyfeiliornad, pa un bynag ai hen ai newydd, gan bwy bynag y byddont wedi eu cynllunio, dan ba enw bynag y byddo dynion yn eu galw, megys Puritaniaeth, Donatiaeth, Ailfedyddiaeth, Penrhyddiaeth, Browniaeth, a holl freuddwydion a ffolinebau yr Anwyl-deulu; ond yn neillduol pob peth Pabyddol, crefydd ofnadwy yr Anghrist, gelyn mawr ein Harglwydd Iesu, a gwrthwynebwr mwyaf peryglus holl orseddau breninoedd a thywysogion; felly yr wyf fi â'm holl enaid yn ffieiddio yr oll, a phob rhan o grefydd y pab, yr hwn a elwir 'mab y golledigaeth' gan Ysbryd Duw, canys y mae yr Arglwydd wedi penderfynu ei lwyr ddileu drwy ei ymddangosiad yn nysgleirdeb yr efengyl, cyn y delo yr ail waith.

"Mae'n gas genyf uwchafiaeth drahaus y 'dyn pechod' hwn, drwy yr hyn y mae, fel y dywed yr apostol, wedi ymddyrchafu yn ei aelodau a'i allu, i reoli dros wirionedd ac aelodau Crist, Ie, dros y rhai oll a elwir yn santaidd; fel y gelyn mwyaf marwol, gwrthwyneba bob gwirionedd a phob gwas i'r Arglwydd na phlyga iddo ef; ond drwy y gallu uffernol yna llywodraetha drostynt yn lle Crist yn ei ordinhadau bendigedig.

Digitized by Google

lynu yn ddiysgog yn egwyddorion y Diwygiad. Y mae yn enwi lliaws o'r frawdoliaeth yn ei gyfarchiad ar y dechrau, ac yn datgan ei serch mawr tu ag atynt. Tybiai ar y pryd fod ei gyfeillion anwyl, Barrowe a Greenwood, eisoes wedi eu dienyddio, a theimlai nad oedd yntau i fyw ond ychydig ddyddiau. Cyfeiria y llythyr fel y canlyn:—

"At y gynnulleidfa drallodus, ond ffyddlon, Crist yn Llundain, a'r holl aelodau, pa un bynag ai rhwym ai rhydd, annerch.

Cadarnha hwy i ddechrau yn yr athrawiaethau a bregethasai, a'r egwyddorion y dadleuasai drostynt, a datgan ei lwyr ymddiried yn eu ffyddlondeb a'u cadernid. Yna â yn mlaen i'w hannog yn wyneb yr hyn a gredai oedd yn eu haros:—

"Dymunwn yn fawr, pe yn unol âg ewyllys Duw, gael byw etto gyd â chwi, i'ch cynnorthwyo i gynnal yr iau drom a phoenus y rhaid i chwi, yn ol pob tebyg, ei dioddef, un ai yma neu mewn gwlad estronol.

"Fy mrodyr anwyl, gan fod alltudiaeth ac yspeiliad yn debyg o'ch goddiweddyd oll, ymbarotowch gogyfer â'r cyfryw dynged flin, a llawenhewch am eich cyfrif yn deilwng, er mwyn achos Crist, i ddioddef a myned trwy yr holl ofidiau hyn. Ac erfyniaf arnoch, yn ymysgaroedd Iesu Grist, na byddo i neb o honoch yn y cyfryw achos edrych ar ol ei gyflwr ei hun, ond yn hytrach gofalu am gyflwr cyffredinol eglwys Dduw; fel y dalier hwnnw ynghyd ac yn gyfan pa le bynag y gwelo Duw yn dda eich danfon. O! mawr fydd y fendith a ddwg y gofal hwn. Ond, os â pob un i ofalu am ei dŷ ei hun, ac i edrych ar ol ei dylwyth ei hun, gan esgeuluso Sion drallodus, gesyd yr Arglwydd ei wyneb yn eich erbyn, ac a'ch chwal o'r naill gwr o'r nefoedd i'r cwr arall; ac ni chewch orphwysfa i wadnau eich traed, na bendith ar ddim yr ymgymmerwch âg ef.

. . . . . . . . . .

"Ac yma yr wyf yn taer erfyn arnoch, nid er mwyn pethau allanol, fel y rhaid i mi etto atteb ger bron Duw, gymmeryd fy ngweddw ddiymgeledd, a'm twr plant bychain, amddifaid a digyfaill, gyd â chwi i alltudiaeth lle bynag y byddoch yn myned; ac nid wyf yn ammau na chewch weled y bydd i'r addewidion bendigedig a wnaeth Duw i mi a'r eiddof eu canlyn hwy; ïe, a'r holl eglwys er eu mwyn hwy. Canys hyn hefyd yw addewid Duw i'r hâd duwiol, gan na bydd fawr eisiau i chwi ofyn iddynt beth a fwytant, neu beth a wisgant; ac ymhen ychydig amser, yr wyf yn dra sicr, y byddant yn gynhorthwy i'r eglwys ac nid yn faich arni. Yn unig yr wyf yn erfyn arnoch beidio eu gadael ar eich ol yn y wlad hon, lle y cânt eu gorfodi i ddychwelyd i'r Aipht; a'm Duw i a roddo i chwi ddychweliad llawen i'ch gwlad yn dâl am hyny. Nid wyf yn ammau na fydd rhai o honoch yn ofalus i gyflawni ewyllys eich brawd ymadawedig yn y peth hwn, a dichon y bydd efe etto byw i ddangos y caredigrwydd hwn i'r eiddo chwithau. Ni ddywedaf ychwaneg.

"Byddwch yn fwyn, caredig, a thyner-galon y naill at y llall; llafuriwch ymhob dull i fyned ar gynnydd mewn cariad, ac i ddangos gweithredoedd cariad at eich gilydd, trwy ymweled, diddanu, a gweinyddu i angen eich gilydd; ïe, er cywilydd i'r paganiaid sydd o'n hamgylch (fel y dywed yr Arglwydd). Byddwch wyliadwrus i weddïau; yn arbenig, cofiwch y brodyr hyny sydd mewn enbydrwydd neillduol. Cofiwch yn benodol am y ddau frawd Mr. Studley a Robert Bowl, i'r rhai y mae yr Arglwydd yn awr wedi rhoddi nerth i sefyll yn lle poethaf y frwydr.

"Yr wyf yn ofni eiu bod wedi esgeuluso gofyn i Dduw arbed bywydau dau oleuad mor nodedig yn yr eglwys, y rhai sydd yn awr yn gorphwys gydag ef, a'i fod wedi eu cymmeryd ymaith am amryw resymau a ymddangosir yn ddoeth iddo ef, fel y byddom rhagllaw yn fwy gofalus i weddïo arno yn y fath amgylchiadau. Gweddïwch drostynt, fy mrodyr, a thros ein brawd Mr. Fran. Johnson, a throsof finnau, gan y gorfodir fi, y mae'n debyg, i derfynu fy nyddiau yr un amser a hwynt, neu o'u blaen, am i Dduw ein harbed i'w eglwys, neu roddi i ni ffyddlondeb mawr, sef fy anwyl Mrs. Barrow a Mrs. Greenwood, y rhai yr wyf yn eu hannerch yn y modd mwyaf calonog, ac yn mawr ddymuno iddynt fod yn ddedwydd yn yr Arglwydd, yr hwn, drwy ei fendithion o'r uchelder, a wna i fynu iddynt hwy am y golled o frawd a phriod mor rhagorol.

"Yr wyf yn taer ddymuno arnoch ysgrifenu, ïe, anfon, os gellwch, i gysuro y frawdoliaeth yn siroedd y gorllewin a'r gogledd, fel na byddo iddynt ymollwng yn y cystuddiau hyn, fel y byddo i chwi gael eu cyngor hwy, a hwythau yr eiddo chwi, ynghylch beth sydd orau i'w wneud yn yr amseroedd cythryblus hyn; ac os byddwch yn tybio y bydd o ryw gysur, cymmorth, a chyfarwyddyd iddynt, anfonwch iddynt gopi o'r llythyr hwn, a chyhoeddiad fy ffydd a'm teyrngarwch, gan ddymuno arnynt, o flaen pwy bynag y gelwir arnynt, na byddo iddynt ddywedyd dim i gondemnio eu hunain; ïe, dymunwn i chwi fod gyd â'ch gilydd, os bydd modd, lle bynag yr alltudir chwi; o ba herwydd, trefnwch ym mlaen llaw i ba le i fyned; ïe, anfonwch rywrai cymmwys o'ch blaen i barotoi i chwi le cymmwys i drigo, a gellwch oll fod yn sicr y bydd yr Hwn sydd yn Dduw i chwi yn Lloegr yn Dduw i chwi mewn unrhyw wlad dan y nefoedd, canys ei eiddo ef yw y ddaear a'i chyflawnder; a gwyn eu byd y rhai a yspeilir o ran o honi er mwyn ei achos ef.

"Yn ddiweddaf, fy mrodyr, bendithied y Duw tragywyddol chwi a'r eiddoch, fel y caffwyf eich cyfarfod oll er fy nghysur yn ngwynfydedig deyrnas nefoedd. Fel hyn, wedi gwneud fy nyledswydd atoch chwi, gall mai dyma'r olaf yn y bywyd hwn, yr wyf yn eich annerch oll yn yr Arglwydd, yn wŷr a gwragedd; ïe, yr wyf yn annerch y rhai na enwais mor galonog a'r rhai y crybwyllais eu henwau (canys nis gwn eich enwau i gyd). A chofiwch sefyll yn ddiysgog a ffyddlon yn Iesu Grist, fel y derbyniasoch ef i fywyd tragywyddol; a bydded iddo eich cadarnhau a'ch gwreiddio hyd y diwedd, er ei ogoniant ei hun. Amen.

"Y pedwerydd ar hugain o'r pedwerydd mis, Ebrill, 1593.

"Eich brawd serchog yn amynedd a chystudd yr efengyl,

"JOHN PENRY,

"Tyst dros Grist yn y byd hwn, a chyfranogydd o'r gogoniant a ddatguddir."

Fel yna yr amlygai y merthyr duwiol hwn ei deimladau tu ag at ei frodyr crefyddol, pan yn teimlo fod yr adeg wedi dyfod iddo ef eu gadael ynghanol bleiddiaid gwangcus a sychedent am eu gwaed hwy yn gystal a'r eiddo yntau. Nis gall dim fod yn fwy tyner a Christionogol na'r yspryd a amlygir yn y llythyr drwyddo. Ysgrifenasai annerchiad arall, tua blwyddyn yn flaenorol, wedi ei gyfeirio at y frenines. Fel y gellid disgwyl, y mae hwnw yn bur wahanol yn ei arddull a'i gynnwys. Camgymmeriad mawr fyddai meddwl mai creadur benywaidd, llwfr oedd Penry, heb ddim

Digitized by Google

ond ei dduwioldeb a'i ddiniweidrwydd i'w hynodi. Nid deiliaid felly a gerir gan Grist, ac a gynhyrchir gan ei efengyl. Y mae y gwir Gristion, fel Luther a Paul, a'r Arglwydd Iesu ei hunan, yn llawn o wroldeb a nerth, ac yn llawn cymmaint o ymosodwr ar ddrwg ag yw o ddioddefydd oddi wrth ddrwg. Nid oedd Penry yn dioddef fel drwgweithredwr neu leidr, ond teimlai nerth gwirionedd a diniweidrwydd yn ei fynwes, yn ei wneud yn hyf fel llew. Amddiffynai ei hunan gyd â medrusrwydd a phenderfyniad, ac ymosodai ar orthrwm ac anghyfiawnder yn y cylchoedd uchaf yn eofn a llym. Fel esampl o'i allu ymosodol, cymmerer y difyniadau canlynol o'i anerchiad at Elizabeth, a amserwyd Ebrill 30, 1592:—

"Y mae dyddiau diweddaf eich teyrnasiad yn gogwyddo yn erbyn Iesu Grist a'i efengyl, yn hytrach nag o'u plaid. Y mae genyf achos mawr i achwyn, fy arglwyddes; ïe, y mae gan Dduw a'i eglwys achos i achwyn, ar eich llywodraeth, canys nis goddefir i ni, eich deiliaid, heddyw, o dan eich llywodraeth, wasanaethu Duw yn ol ei air; eithr gwerthir ni yn gaethion, nid yn unig i'n blysiau, i wneuthur fel y mynnom, ond yn unig i ni ymgadw o fewn terfynau y cyfreithiau gwladol, ond hefyd i fod yn gaethweision i'r 'Dyn Pechod' a'i ordinhadau.

"Rhaid i chwi restru eich hun ymhlith y penaduriaid sydd wedi cael eu llithio i wrthwynebu yr efengyl; o herwydd, hyd onis gwneloch hyn, fy arglwyddes, nid ydych yn gweled eich hun, ac nid yw y rhai a ddywedent fel arall wrthych ond rhagrithwyr a gwenieithwyr. Drwy yr efengyl yr ydych chwi yn sefyll ac wedi sefyll. Nid ymddengys ei bod hi yn rhwymedig i chwi am ddim. Y mae gweithrediadau eich llywodraeth yn dangos, pe gallasech lywodraethu heb yr efengyl, fod yn amheus a gawsai yr efengyl ei sefydlu neu beidio: o blegid yn awr, pan yr ydych chwi wedi eich sefydlu ar eich gorsedd, ni oddefwch iddi fyned ymhellach nag y byddo eich teyrnwialen yn gosod i lawr derfynau iddi."

Y mae'n syndod genym ni, yn y dyddiau hyn, fod y cyfryw eiriau diniwaid, oddi wrth y fath berson dinod, mewn ystyr wladol, yn cael sylw penadur o gwbl. Ond y pryd hwnw yr oeddynt fel halen ar friwiau yr awdurdodau; a buasent felly etto oni buasai i John Penry a'i gydddiwygwyr dewrion ymladd brwydrau rhyddid. Gorfodir ni weithiau i ddarllen a gwrando esgusodion dros orthrwm a thrais y dyddiau enbyd hyny; a dywedir mai i'r oes y rhaid priodoli yr holl greulonderau a gyflawnwyd. Addefwn fod hyny yn wirionedd; ond, attolwg, pwy oedd yr oes, a pha beth a wnaeth y gwahaniaeth dirfawr sydd rhwng yr oes hon a'r oes honno? Ai math ar graig, neu ffurfiad daearegol, yw yr oes, yn cael ei chynhyrchu gan ryw alluoedd mewnol yn y ddaear? Ai effaith rhyw gyferbyniad serddewinol yn y ffurfafen uwch ben yw yspryd yr oes? Nage. O galon ddrwg dynion drwg y deillia oes ddwrg, ac effaith llafur a dioddefaint dynion da yw oes oleuedig. Daeth rhyddid, a gwareiddiad, a chrefydd bur ein hoes ni i ni drwy ymdrechion a gwaed oesau a chenedlaethau o ferthyri gogoneddus. Annogir ni weithiau i ebargofio helyntion gofidus yr oesoedd gynt, ac i fyw yn heddychol a brawdol â'n cyd-ddinasyddion. Attolwg, a ydyw profiad ein cyndadau yn ddiwerth? ac a ydyw hanesyddiaeth i fod yn ddistaw? ac a oes y fath ddosparth yn ein gwlad ni etto yn cydymdeimlo cymmaint âg erlidwyr gwaedlyd y dyddiau gynt, fel nas gallant fyw mewn heddwch â ni, os soniwn am wirioneddau pwysicaf hanes ein gwlad? Oni ddylai pawb o'r "oes oleu hon" gyttuno yn unllais i gondemnio creulonderau yr erlidwyr, ac i ddathlu clod y gwroniaid Cristionogol, i ba blaid bynag y perthynent?

Ond nid oedd na mwyneidd-dra nefolaidd Penry na'i wroldeb diwyro yn ddigon i'w gadw o grafangau y creuloniaid a'i herlidient. Ar y 21ain o Fai, 1593, dygwyd ef ger bron yr arglwydd brifynad yn *Westminster*, ac wedi rhith o brawf a bery byth yn warth i lysoedd Brydain, cafwyd ef yn euog, a bwriwyd ef i garchar y *Queen's Bench* yn *Southwark*. Yn ei lythyr oddiyno at arglwydd Burleigh, haera yn eofn nad oedd wedi troseddu un o gyfreithiau Lloegr; ac ni fedrodd neb o'i gyhuddwyr brofi yn wahanol. Cyfeiria yn hyderus at ei holl ysgrifeniadau, a heria i neb ddangos bod ynddynt ddim yn erbyn cyfreithiau na llywodraeth ei wlad.. O'r ochr arall, myntumia bod ei ysgrifeniadau yn brofion dilys o'i ddiniweidrwydd, ei ffyddlondeb i'r goron, a'i barodrwydd i aberthu ei fywyd dros ei frenhines.

Er nas gallai neb ddwyn un gyfraith ym mlaen i gondemnio Penry dyner a duwiol, etto yr oedd yr archesgob a'i gydswyddogion eglwysig yn sychedu am ei waed; a chan nas gallant ei ddodi i farwolaeth yn gyfreithlawn, ni phetrusent fyned yn *llofruddion* iddo. Ar y 29ain o Fai, 1593, am bump o'r gloch yn y prydnawn, dïenyddiwyd ef yn St. Thomas-a-Watering, Surrey, mor ddirgel ag y gallent wneuthur, rhag ofn cynnwrf y bobl. Llofruddiwyd ef fel hyn yn y 34edd flwyddyn o'i oedran, gan adael gweddw a phedair o ferched ieuaingc yn amddifaid, a llu o Gristionogion erlidiedig i alaru o blegid ei golli. Fel hyn y bu fyw a marw RHAGBAROTOWR Anghydffurfiaeth Gymreig, enw da yr hwn a fu'n cael ei dduo yn ysgeler dros



Digitized by Google

oesoedd gan gamddarluniadau anfad haneswyr dallbleidiol ac anwybodus, ond â'r hwn o'r diwedd y gwnaed cyfiawnder. Goruwch reolwyd aberthiad ei fywyd gwerthfawr ef i fod er daioni megis dolen ynghadwyn digwyddiadau a arweiniodd i ddymchweliad gormes breladaidd, ac mewn canlyniad i attaliad graddol erledigaeth, a buddugoliaeth rhyddid crefyddol trwy'r holl deyrnas. Cyfododd merthyr Duw lu o ddilynwyr teilwng i wneud y gwaith a ddechreuwyd ganddo ef mor egnïol; ac y mae ei "ANWYL GYMRU WLAD," trueni ac amddifadrwydd ysprydol yr hon, yn ei ddyddiau ef, oedd annisgrifiadwy alarus, ac er symmud yr hyn y gweddïodd, y llafuriodd, y dïoddefodd, ac y bu efe farw, yn awr wedi ei chynnysgaeddu â chystal moddion gwybodaeth grefyddol ag un wlad dan haul.

Cyflawnwyd dymuniad Penry, mewn rhan yn fuan, sef bod i'r Arglwydd gyfodi rhai o'i gydwladwyr i gyflawni'r gwaith a ddechreuasid ganddo ef. Yn ystod deg neu ddeuddeng mlynedd ar ol ei farwolaeth ef, canfyddwn ychydig o bregethwyr hyawdl, difrifol, efengylaidd, ac ymroddedig ar y maes,* ac ysgrifenodd rhai o honynt yn egnïol er moesoli a chrefyddoli eu cydgenedl, fel y gwelir rhag llaw.

---

## PENNOD VII.

### MORUS CYFFIN A'I GYDOESWYR.

ER lleied o hanes Morus Cyffin yn bersonnol sydd wedi llithro o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg hyd atom ni, etto gwnaeth y fath gymmwynas i'w gydwladwyr, y rhai oedd mor amddifaid ar y pryd o foddion gwybodaeth grefyddol, fel y mae'n wir deilwng o gael ei restru ymhlith "Enwogion y Ffydd."

MORUS CYFFIN, neu, fel yr ysgrifenai efe ei enw, M. KYFFIN, ydoedd *ail* fab i Richard Cyffin, Ysw., o'r Glasgoed, ymhlwyf Llansilin, sir Ddinbych, medd y Parch. R. Williams;† ond Gwilym Lleyn a ddywed mai mab *hynaf* y boneddwr hwnw ydoedd.‡ Methasom gael allan pa bryd y ganwyd y cymmwynaswr hwn i'w genedl; ond y mae'n amlwg ei fod yn ei flodau yn 1594. Dywed Charles Edwards mai "trafaeliwr" ydoedd;§ ac y mae yntau ei hun yn awgrymu mai ychydig o "seibiant a hamdden" oedd ganddo i ymdrin â llenyddiaeth grefyddol. Gan ei fod yn wr mor ddysgedig a hybarch, fe allai ei fod yn llysgenhadwr yn rhai o'r gwledydd tramor dros y Frenhines Elizabeth. Beth bynag am hyny, yr oedd efe yn un o'r "tri chyntaf" a roddasant lyfrau Cymraeg crefyddol, o ddim gwerth mawr, ynghyrraedd ei gydgenedl: y ddau arall oedd William Salesbury a'r Dr. William Morgan, fel y gwelsom eisoes; ac y mae cyfieithiad M. Cyffin yn tra rhagori, o ran ieithwedd (*idiom*), ar eiddo Salesbury, ac yn gwbl gyfartal, yn yr ystyr hyny, i gyfieithiad godidog y Dr. Morgan o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Yr enw a roddes Cyffin ar ei gyfieithiad sydd fel hyn:—

> "Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr: lle y ceir gweled, a gwybod, dosparth Gwir Grefydd Crist, ac anghywirdeb Crefydd Eglwys Rufain: Angenrheidiol i bawb ei ddeall, a madws i ddynion ei ddyscu, o ran arwain eu buchedd yn y byd, fel y caffont fywyd tragwyddol yn y byd a ddaw. Wedi ei gyfieithu o Ladin, yn Gymraeg, drwy waith M. Kyffin."

Dyna fel y dyry Charles Edwards yr enw ar ddiwedd ei annerch "At y Darllenydd" sydd o flaen yr ail argraphiad o'r gwaith, a gyhoeddwyd yn Rhydychain dan ei olygiad ef yn 1671. Wele eiriau y golygydd enwog ar y pwngc:—

> "Tra yr oeddwn yn chwilio i geisio gwybod helynt y grefydd Gristnogol ym-mysc ein gwladwyr ni gynt, cefais olwg ar y ddau draethawd hyn, y fuont gynorthwyol i ddechreu arferiad y ffydd ym-mhlith ein henafiaid ni yn yr oes ddiweddaf a aeth heibio. DEFFYNIAD Y FFYDD a gyfieithwyd yn Gymraeg er's pymtheng mlynedd a thriugain, sef yn y flwy. 1595; a'r Epistol a brintiwyd gyd a'r Testament Newydd er's tair blynedd a chant, yn y flwy. 1567. Mi welwn y ddau wedi heneiddio, ac yn ddiymgeledd yn y wlad, yn llechu mewn ymbell gornel, mewn dillad sitrachog, llychlyd, ac yn o-debyg i'r 'ddau dystion, wedi eu gwisgo a sachliain,' a lludw hefyd, er iddynt haeddu croesaw gwell: Am hyny cipiais hwynt oddiar y gwyfyn, a'r rhwd oedd barod i'w difetha hwynt, a rhoddais wisc newydd am yr hen gyrph, a theilwng iddynt y cymmwynas. Ni feiddiais i wneuthur dim cyfnewidiad ynddynt, er bod y dysclau wedi eu hail-bwrw, etto yr un fath yw'r seigiau ac oeddent, heb gymysc dim a hwynt."

Yr "Epistol" crybwylledig yn y difyniad uchod yw yr eiddo'r Dr. Richard Davies, Esgob Mynyw (Tŷ Ddewi), a gyhoeddwyd o flaen cyfieithiad W. Salesbury o'r Testament Newydd. Gwelir hefyd, yn y difyniad, mai yn y flwyddyn 1595 y cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o "Ddeffyniad y Ffydd," er bod yr "Annerch at yr hawddgar ddarllenydd Cristnogawl" wedi ei hysgrifenu "o dref *Lunden* ym-Mis *Hydref*, 1594." Y mae rhai yn tybied bod Morus Cyffin wedi cyhoeddi llyfr a'i

* Dr. Rees's Hist. Prot. Noncom. in Wales, p. 30.
† Eminent Welshmen, p. 270. ‡ Llyfryddiaeth y Cymry, t. 70
§ Hanes y Ffydd, argr. 1822, t. 298.

Digitized by Google

enw "Dadseiniad Meibion y Daran," yn 1587;* ond, medd y Parch. D. Silvan Evans, "y mae'n ammheus iawn a argraphwyd llyfr o'r enw y flwyddyn hon. Galwodd Charles Edwards, awdwr *Hanes y Ffydd*, ar yr enw hwn yr ail argraphiad o gyfieithiad Morus Cyffin o 'Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr,' gwaith yr Esgob Jewel,† yr hwn a gyhoeddwyd ganddo yn Rhydychain yn 1671; ond nis gwyddys i Cyffin ei hun gyhoeddi un gwaith yn dwyn y cyfryw enw."

Ymddengys bod rhyw greaduriaid yn amser Morus Cyffin a'i gydoeswyr â'u holl fryd ar ddiddymu yr iaith Gymraeg, a'u bod yn dra milain wrth ef a'i gydwladwyr gwladgarol eraill am roi dim i'r werin bobl yn iaith eu gwlad; ond y mynnent i bob peth argraphedig ac ysgrifenedig fod yn yr iaith Saesneg, yr hon yr oeddynt mor falch o'i harfer, fel y gwnelid hyny gan rai Cymry hyd yn oed cyn hanner ei dysgu.‡ Gan fod yr hen Gyffin yn trin hyn mor ddeheuig a doniol yn ei "Annerch," a bod y gwaith mor anhawdd ei gael weithion yn ei ddull cyntefig, ac o herwydd ei fod, hyd yn oed yn y dull hwnw, yn eithaf dealladwy i bob darllenydd Cymraeg hyrwydd, caiff lefaru drosto ei hun, yn ei lythyraeth § ei hun, cystal ag yn ei ieithwedd ei hun; yr hyn, fel y credir, a foddha gywreindeb llawer o'n darllenwyr. Dyma fel y dywed yr hen Gymreigiwr ystwyth ac ieithweddol wrth yr "hawddgar ddarllenyd Cristnogawl:"—

"Dymma i ti ar les d'enaid, yn hyn o lyfr, sylwedd a chrynodeb y *Ffydd Wir Gatholig*; ith hyffrddi a'th berffeithio yn llwybr gwasanaeth Duw, ag iechydwriaeth dyn. Wrth ddarllen hwn y cei di wybod hanes, a deall gwirionedd y Grefydd Gristnogawl, a chyda hynny ddanghossiad a dat-guddiad amhuredd crediniaeth *Pâb Rhufain.* Rhoed y Goruchaf Dduw iti ochel y drwg, a chanlyn y da.

"Mi a dybiais yn oref adel heibio 'r hen eiriau Cymreig yr rhai ydynt wedi ‖ tyfu allan o gydnabod a chyd-arfer y cyffredin, ag a ddewisais y geiriau hawsaf, rhwyddaf, a sathredicca' y allwn, i wneuthur ffordd yr ymadrodd yn rhydd ag yn ddirwystrus i'r sawl ni wyddant ond y gymraeg arferedig. Eithr am ryw air angenrheidiol, yr hwn ni ellid dangos mo sylwedd ei rym, na synnwyr ei arwyddoccâd yn gymraeg, e ddarfu i mi yn-ol arfer yr iaith *Saesonaeg, Ffrangaeg*, iaith *Itali*, iaith *Spaen*, a bagad o ieithoedd eraill, gymryd y cyfryw air o'r *Groeg*, neu o'r *Lladin*, yn y modd y mae'n gynefin gan-mwyaf ymhob gwlad yng-Hred er ys-talm o amser. Nid oes nemawr o'r fath eiriau; ag o'r rhai rheitiaf di gei hysbysrwyd a deonglad ar eu pennau eu hun, ar ol diwedd hyn o Ragddoediad. Er maint fy fyngofal a'm myfyrdod yn hyn o beth, etto, mi a wna gyfri gael fy-marnu a beio arnaf gan ryw fath ar goeg ddynion, y rhai a graffant ar ymbell air ymma ag accw, ag a ddoedant yn y fan, wele, geiriau seisniogaidd a geiriau lladingaidd yw rhain, yn dwyno'r gymraec: f'atteb i'r rheini ydyw'r ddihareb, *Ni Wyr, ni Welodd, ni Ddysc.* Druain gwerin, ychydig a wyddant, llai a welsant, ag nid gwiw son am ddysgc iddynt. My fi a faddeua i'r rhai hyn eu hanwybodaeth a'u ffolineb, ag adawaf i rai eraill chwerthin am eu pennau. Hawdd yw gwybod am ryw eiriau seisnig, nad oes, ag na bu er ioed eiriau cymreig iw cael; a hefyd may geiriau yn dyfod o'r Ffrangaeg yw'r rhan fwyaf o'r rhai y mae'n hwy yn tybied eu bod yn seisnigaidd. Ag am y geiriau lladingaidd, pwy nis gwyr nad yw'r iaith Gymraec yn ei herwydd, ddim amgen, onid hanner lladin drwyddi. Mi' allwn pe bae genyf hamdden wneuthyr llyfr digon ei faint o'r geiriau cymreic arferedig, a fenthycciwyd nid yn unig o'r Lladin a'r Ffrangaec, eithr iaith Itali, ag iaith Spain hefyd: heb law'r dafod Roeg, ag Ebryw, a'r cyfryw. Rhyw rai diddysc di-synwyr, a ddoedant ddarfod i'r Ieithoedd hynny fenthyccio gan y Gymraeg, ag nid yr iaith Gymraeg genthyn-nhwy. Nid gwiw mo'r ymresymmu a'r fath ynfydion cynhwynol, namyn eu gadael mewn anwiredd ag

* Llyfr. y Cymry, t. 39.

† "Yr awdwr, John Jewel, a aned ar y 24ydd o Fai, 1522, yn Buden, ym mhlwyf Berri Nerber, yngogledd Dyfnaint [Devonshire]. Pan yn dair ar ddeg oed anfonwyd ef i Rydychain, pryd yr aeth yn aelod o Goleg Corph Crist (Coleg Merton, medd eraill). Cofleidiodd yn foran athrawiaeth y Diwygiad. Pan esgynodd Mari i'r orsedd gorfu arno ef, fel llawer eraill, ffoi i'r Cyfandir; a bu am beth amser yn Ffrangcffort, ac wedi hyny yn Strasburg: ond pan ddechreuodd Elizabeth deyrnasu, dychwelodd yn ol i Loegr. Yn y fl. 1560, gwnaed ef yn Esgob Salsbri [Caer Caradog]; ac yno yr arhosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hwn a ddigwyddodd ar yr 22fed o Fedi, 1571. Ysgrifenodd lawer yn ei ddydd, yn enwedig ar y dadleuon cyffredin yn ei oes rhwng y Protestaniaid a'r Pabyddion; ac y mae ei ysgrifeniadau mewn bri a chymmeradwyaeth hyd y dydd heddyw. Ymddangosodd ei 'Apologia Ecclesiæ Anglicanæ' y tro cyntaf yn y fl. 1562, a buan y cyfieithwyd y gwaith, nid yn unig i'r Gymraeg, ond i amryw o ieithoedd y Cyfandir; a dywedir i'r llyfr hwn, yr hwn sydd wedi ei ysgrifenu mewn Lladin goeth, wneuthur mwy o les i achos y Diwygiad nag un gwaith a gyhoeddwyd yn yr oes honno. Nid yw etto wedi myned allan o amser, ond cyfrifir ef yn un o'r amddiffyniadau gorau o Eglwys Brotestanaidd Lloegr a ymddangosodd erioed. Casglwyd gwahanol gyfansoddiadau yr Esgob Jewel mewn un gyfrol unplyg yn 1609, a chymmaint oedd y parch i'w ysgrifeniadau yn yr amser gynt fel y gosodid un neu ychwaneg o'r llyfrau hyn mewn amryw o'r eglwysydd, fel y gallai'r plwyfolion ddyfod yna i'w darllen; a cheir rhan o'r cyfrolau hyn hyd heddyw mewn ambell eglwys wedi eu cadwyno wrth y ddarllenfa. Dywedir ei fod yn enwog am ei hynawsedd, purdeb ei fuchedd, ei dduwioldeb, a'i ddysgeidiaeth."—Y Parch. D. S. Evans, Llyfr. y Cymry, t. 70; Waller's Imp. Dict. of Univ. Biog., vol. ii., p. 1058.

‡ Ceir prawf o hyn hefyd, a cherydd llym o'i blegid, yn "Annerch" Gymraeg y Dr. Ioan Dafydd Rhys i'w Rammadeg Cymraeg yn Lladin, lle y dywed efe fod pob ieithoedd eraill yn cael eu gwrteithio a'u coethi gan lenorion a gwerin y gwledydd yr arferid hwy ynddynt. "Eithr ninheu y Cymry," eb efe ("mal gweision gwychion) rhai o honon' ynn myned morr ddiflas, ac morr fursennaidd, ac (yn amgenach nog un bobl arall o'r byd) morr benhoeden; ac y daw brith gywilydd arnam gynnyg adrodd a dywedyd eyn hiaith eyn hunain; ief a gwynn eyn byd ryw rai o honom fedru bod morr findlws, 'a chymrud arnam ddarfod inni o gwbl abergofi y Gymraec, a medru weithion (malpei) ddoydud Saesnec, a Phrangec, ac Italiaith, neu ryw iaith alltudaidd arall paryw bynnac a fo honno oddieithr Cymraec; cytboet yn wir ynn y cyfrwng hynn, na's medrom y ganfed rann o'r ddieithriaith a gymhersam arnam ei gwybod a'i doydud morr hyfedr. Eithr nyd yw y fursennaidd sorod hynn o Gymry (os teg doydud gwir) onyd gohilion, a llwgr, a chrachyddion y bobl, a'i brynteion; a megys cachadurieit y wlad: ac ynn yr un Orseddfa a chadair a rhai hynn, y dylyid llehau a gossod y rhai a fynnynt doddi a difa holl iaith y Cymry, a chyfleu a dodi iaith y Saeson ynn ei lle hi: yr hynn beth yssydd ymhossibl ei gwbl-hau a'i berffeithio, heb ddifa yn llwyr holl genedl y Cymry a'u gwneuthur yn Seisnics. Either my fi a gyffelybwn y rhai hynn i Gwcwalltieit, a fedryat fod yn gyn pholed, ief yn gyn yn fytted a bod yn foddlon ganthynt fyned o'u gwlyeu eu hunain oddiwrth eu gwragedd priod, a goddef i ryw fryntddynion eraill fyned i'r un gwelyeu i gamarferu o'i gwragedd a'i halogi."

§ Yn gyffredin, dodwn ddifyniadau o awduron diweddar yn ein llythyraeth ein hunain, rhag gormod amrywiaeth yn hyn o beth.

‖ Y mae ymyl y dail wedi eu tori mor agos i'r print, fel nas gellir darllen y nodau ymylddalenol.

Digitized by Google

oferedd. Yn wir chwith iawn yw dal sylw ar lawer o wyr Eglwysig cymreig yn byw ar bris eneidiau dynion, a bagad eraill o Gymry yn cymeryd arnynt eulun dysc a goruchafiaeth, heb genthynt fri'n y byd a'r iaith eu gwlad, eithr rhusso 'i doedyd, a chwylyddio 'i chlywed, rhag ofn iss-hau ar eu gradd a'u cymeriad; heb na medry darllen, na cheisio myfyrio dim a fae gymraeg, fegis mynny onynt i bobl dybied fod cymmaint eu rhagor-fraint nhwy, na wedde iddynt (f'eneideu gwynion) ostwng cyn issed ag ymyrryd ar ddim addysc cymreig. Telid Duw iddynt ddaed eu cyneddfeu. Amdanaf fy hun, mi allaf ddoedyd er dwyn onof y rhan fwyaf o'm hoes ym-mhell oddi wrth wlad Gymry,* etto wrth fod ym-mysc Ieithoedd dieithr, a darfod i mi dreulio f' amser a'm hastudrwydd mewn pethau eraill, ni bu fy-ngofal ar fyfyrio, a dal i'm cof un iaith, no'r Gymraec; gan ddamuno allu o honof wneuthur rhyw lês i'r iaith a'r wlad lle ym ganwyd, yn ol athrawiaeth Plato 'r Athrho mawr a phenadur llawer o philosophyddion dyfn-ddysc, yr hwn a ddoedodd, *Ortus nostri partem Patria, partem Parentes vendicant, partem Amici;* sef yw hynny, y mae rhan o'n genedigaeth ni yn ddyledus i'n Gwlad, a rhan yn ddyledus i'n Tadau a'n Mammeu, a'r rhan arall yn ddyledus i'n hoff-ddynion. Duw a wyr e fuasse howsach i mi o lawer, a hynodach i'm henw, scrifennu'r cyfryw beth mewn iaith arall chwaethach nog yn Gymraec; Ond mi a welaf bob peth (onid antur) ymhob iaith ynghred, mor bybyr, ag mor berffaith, drwy ddysc a diwydrwydd gwyr da, nad rhaid iddynt (yn ei herwydd) wrth ddim ychwaneg. O'r tu arall, prin y gwela'i ddim (onid llyfr Gair Duw yn unig yn y Gymraec) a dim ffrwyth rhinwedd ynddo, i ddyscu a hyfforddi yr rhai annysgedig. Doctor Wiliam Morgan a gyfieithodd y Beibl drwyddi yn hwyr o amser; gwaith angenrheidiol, gorchestol, duwiol, dyscedig; am yr hwn ni ddichon Cymry fyth dalu a diolch iddo gymaint ag a haeddodd ef. Cyn hynny hawdd yw gweled may digon llesg oedd gyflwr yr iaith Gymraeg, pryd na cheid clywed fynnychaf, ond y naill ai cerdd faswedd, ai ynte rhyw fath arall ar wawd ofer heb na dysc, na dawn, na deunydd ynddi. O damweinie i ryw brydydd, ryw amser, geisio bras nyddu ychydig dduwioldeb ar gerdd, ef a balle mewn llawer pwnc eisieu dysc, a gwybodaeth; gan hynodi i'r bobl ryw hen chwedl, neu goel gwrach ar gwrr y barth; a hynny wedi ei dynny allan (y rhan fwyaf) o lyfr y Myneich celwyddog, yr hwn a elwid *Legenda Aurea*, ag a ellir ei alw *Traethawd y Celwyddeu.*† Y mae'n fy meddiant i beth o'r fath gerdd Gymraec i'w dangos, ag y mae yn dostur iawn gan fynghalon i feddwl ddarfod twyllo ag anrheithio llawer enaid dyn drwy y fath erchyll ynfydrwydd. E ddarfuassid cyfieithu'r Testament newydd‡ ynghylch yr wythfed neu'r nowfed flwyddyn o Deyrnas eyn harglwyddes frenhines Elizabeth, ond yr oedd cyfled llediaith a chymaint anghyfraith yn yr ymadrodd brintiedig, na alle clust gwir Gymro ddioddef clywed mo'naw'n iawn. Yn-nhal y Testament hwnnw y gwelais i lythur duwiol dyscedig at y Cymry, o waith y gwir barchedig Dâd Richard Escob Meniw [Mynyw] i'w twyso nhwy i adnewyddiad yr hên ffydd gatholic a goleuni Efengyl Crist: yr hwn lythyr a scrifennodd y doededig Escob mewn Cymraec groyw, hyfedr, ymadroddus, a di-ammeu wneuthur onaw lés mawr i bob Cymro a'i darllenodd. Heblaw hynny mi a welais ddosparth byr ar y rhan gyntaf i Ramadeg cymraec a brintiesid er ys-talm, yr hwn sydd ddarn o waith dyscedig ynghelfyddyd gramadec, mor buraidd, mor lathraidd, ag mor odidawg ei ymadroddiad, na ellir damuno dim perffeithiach yn hynny o beth.§ Ni wn i weled etto, na chlywed son am ddim amgenach yn Gymraeg, a nemmawr o addysc yntho.

"*Julius Cæsar* yr ymerodr cyntaf, er ys mwy no mil a chwechant mlynedd a aeth heibio [55 c. c.], a fynegodd, yn ei ystori ladin a elwir *Cômmentarii*, y ddysc ar Philosophyddiaeth oedd gan y Drudion ym-mhlith y Brytanniaid yn ei amser ef;|| ond ni choelia'i ddigwydd dim sylwedd o'r athrylith a'r athrawiaeth honno i brydyddion Cymry er ys llawer oes.

"Tu-ag-at am newid trefn, a newyddu llwybr y scrifenyddiaeth gymreig, drwy ddychymmyig o wyr ryw fath ddieithr ar lythyrenneu ag yscrifen bawb ar ei amcan ei hun, a hyny fynychaf heb na rhol, na rheswm; anghymessur iawn yw'r helynt honno. Os newid llythyrennau sydd raid, cymmwysa llythyrennau i'r Gymraeg yw'r llythyrennau Groeg: hefyd, a'r rheini, medd yr Ymerodr Julius Cæsar, yr oedd yr hen Frutanniaid arfer o scrifenny yn ei amser ef gynt.¶ Ond gan fod y llythyrennau sydd yn arferedig ag yn sathredig ymhlith y Cymry er ys cyhyd o amser, gwell yw cadw rheini rhag llaw, na throi'r bobl i ddyscu gwyddor drachefn. Os anweddus dyblu d, l, ı, ynechreu geiriau, eisteddfod o wyr dyscedig a ddichyn drwy awdurdod cyffredin ddi-wygu hynny o fai. Eithr yn y cyf-amser, gormod hyfder mewn un gwr pwy bynnag fo, yw rhoi allan math newydd ar lythyrennau a scrifenyddiaeth, a thybied may cymwys i bawb ei galyn ef. Hyn a wnaeth i mi ochel newid dim yn y llythyrenneu, er bod gennyf amryw ddull ar elfenneu gymaint a chan eraill. Eisieu dysc a duwioldeb, ag nid eisieu llythyrenneu i adrodd dysc, sydd ar yr iaith Gymraeg. Nid gwaeth gan y newynog fwyd mewn descul bren, nog mewn descul arian. Mi a fum ddiescaelusa'g ellais yn ol trefn ieithoedd dyscedig, ag yn enwedig iaith Ffrainc ag Itali, ar osod ymadrodd hyn o lyfr yn llyfn ac yn llwybraidd, gan ochel dryg-sain a llediaith (gymaint dim byth ag allwn) yn scrifenyddiaeth a llaferydd y geirieu; ag fal y galle Cymro ei ddarllen ef yn rhwydd, ag yn rhygyl. O digwydd i ti ar y cais cyntaf gyfarfod a pheth anghynefinder ag anhowsder, mewn ystryw a deallt rhyw ddoediad neu sentens weithie, darllen di'r mann hwnnw drach-efn, a pha fynychaf y darllenner ef, howsach howsach fydd ei ddirnad. Hefyd, rhaid i ti wybod na ellir cyfieuthu dim o iaith arall yn Gymraeg, cyn rhwydded, a chyn rhydded, ag y dichyn un scrifenny'r peth a ddychmygo ag a fynno fo'i hun. Yn y naill rhaid yw dilyn doediad, a chalyn cerddediad gwr arall: yn y llall, mae i ddyn gymryd y llwybr a welo fo yn dda, a gwneuthyr ei daith a'i waith, yr hwn a fynno, ai hir, ai byrr, ai crych, ai llyfn; yr hyn beth a wyr pawb dyscedig. Yn ychwaneg, gwybydd ddarfod imi (yn bennaf dim) beri printio hyn o draethiad yn y llythyrennau arferediccaf a chydnabyddussaf i'r rhai annyscedig (oddieithr rhywfath ar eirieu, a doediadeu arbennig, yn rhyw fanneu o'r llyfr)

* Dyma brawf o wirionedd tystiolaeth Charles Edwards, mai "trafaeliwr" oedd Morus Cyffin.

† Y mae'n dra sicr mai y chwedlau a elwir "Bucheddau'r Saint" oedd "Traethawd y Celwyddau" yma y cyfeiria M. Cyffin atynt. Argraphwyd y rhai hyn yn Llanymddyfri yn 1853, ar gost "Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig," yn un gyfrol 8plyg breiniol fawr, o bris dau gini; eithr nid yw dda i ddim ond i ddangos pa fath oedd yr iaith Gymraeg yn yr oesoedd tywyll, a pha mor erchyll ofergoelus oedd athrawon Pabaidd y Cymry y pryd hyny.

‡ Cyfieithiad William Salesbury ydyw hwn. Gwel t. 49.

§ Hwn yw Grammadeg y Doethawr Gruffydd Roberts. Gwel t. 54.

|| Y cwbl a ddywed Cesar am Dderwyddon Brydain yw hyn:—"Tybir i'r sefydliad Derwyddol gael ei ddechreuad ym Mrydain, ac iddo gael ei ddwyn drosodd oddi yno i Gâl [Ffraingc]; ac y mae y rhai sy'n ewyllysio cael gwybodaeth fanylach o'r gyfundrefn, hyd yn oed yn awr, yn arfer myned yno i'w myfyrio. Cæsar De Bell. Gall., l. vi. c. 13.—Yr unig un arall o ysgrifenwyr Groeg a Rhufain sy'n crybwyll am Dderwyddon Brydain yw Tacitus; ac nid yw yntau yn dangos eu bod mewn un man ym Mrydain, ond yn Ynys Mon yn unig; a dengys bod Suetonius wedi eu llwyr ddinystrio hwy, eu llwyni, a'u hallorau gwaedlyd a barbaraidd.—Tacitus, Ann. l. xiv. c. 30.

¶ Y mae yma ychydig o gamsyniad. *Derwyddon Gal*, ac nid "yr hén *Frutanniaid*," yn ol Cesar, a arferent ysgrifenu â llythyrenau Groeg. Casglad yw bod Derwyddon Mon yn arfer yr un llythyrenau.—Cæsar De Bell. Gall. l. vi. c. 14.

Digitized by Google

a rhaid yw cyd-ddwyn ag ymbell fai a ddiangodd dan ddwylaw'r Printiwr, herwydd nid peth cynefin yw printio cymraeg. A chymmesur yw adrodd i ti yn hyn o fan pa ddialedd a llwyr-gam a wnaeth gwr eglwysig o Gymry mewn eisteddfod; pan grybwyllwyd am roi cennad i un celfydd i brintio Cymraeg, yntef a ddoedodd nad cymmwys oedd adel printio math yn y byd ar lyfreu Cymreig, eithr ef a fynne i'r bobl ddyscu Saesonaeg, a cholli eu Cymraeg, gan ddoedyd ym-mhellach na wnae'r Beibl Gymraeg ddim da, namyn llawer o ddrwg. Wele, onid rhinweddol a naturiol oedd fod yn Eglwyswr fal hyn? A alle Ddiawl ei hun ddoedyd yn amgenach? Nid digon oedd gantho ef espeilio'r Cyffredin am eu da dayarol, ond ef a fynne gwbl anreithio eu heneidiau nhwy hefyd. Herwydd pwy ni wyr mor amhossibl fydde dwyn yr holl bobl i ddyscu Saesonaeg ag i golli eu Cymraeg; ag mor resynol yn y cyfamser fydde colli peth aneirif o eneidiau dynion eisieu dysc a dawn i'w hyfforddi? Ond tebig oedd hwn i'r ci yn gorwedd yn y preseb, ni wnae na bwyta gwair ei hun, na gadael i'r ych bori chwaith? Na bo gwell helynt ei enaid ef nag oedd ei ystyriaeth fo am eneidiau eraill. Doetted pawb *Amen*, ag na chlywer byth mwy son am dano. Ond gan fod llyfr gair Duw wedi ei gymreigu a'i brintio, nid gwiw i neb o blant diawl bellach geisio tywyllu goleuni Cymry, gwnelont eu gwaethaf."

Dyna esampl o waith Morus Cyffin yn cyfansoddi ei hun; ond yn awr dodwn ychydig ymadroddion ger bron fel esampl o'i ddull yn cyfieithu gwaith ysgolhaig arall, sef y dysgedig Esgob Jewel:—

"Hir a hen yw'r cwyn er yr amseroedd cyntaf y Patrieirch a'r Prophwydi, wedi ei gynnal drwy Scrifeniadau a Thestiolaetheu pob oes, fod y Gwirionedd yn crwydro mal estron yn y byd hwn, ac ymhlith ei anghydnabod yn hawdd iddo gael gelynion a cham gyhuddwyr. Yr hyn beth er na choelia rhyw rai ysgatfydd, od oes rai ni ddaliassant graff sylw arnaw (yn gymaint a bod holl rywiogaeth dyn o wir Naturiaeth ag o'i waith ei hunan heb Athro, in ymgais a'r Gwir: a Christ eyn Prynwr pan oedd ef yn byw ymmysg dynion, yn mynnu ei alw y Gwirionedd, fegis henw cymhwyssaf iddo, i ddangos ag i ddeongl ei holl nerth Duwiol). Nyni er hynny, ysawl a 'marferassom a'r Scrythurau glân, ag a ddarfu ini ddarllen, a gweled beth a ddamweiniodd i bawb duwiol agos ymhob amser: i'r Prophwydi, i'r Apostolion, i'r Merthyron sanctaidd, i Grist ei hun, pa fodd y rhegwyd, y goganwyd, ag y cablwyd nhwy, yn unig er mwyn y Gwir; ydym yn cydnabod nad ydyw hyn yr un o'r ddau nog yn beth newydd, nag yn anhawdd ei goelio, eythr o ddechreuad byd yn gymeradwy ag yn arferedig. Ie rhyfeddach o lawer ag anhawddach ei goelio fydde, ped fai Tad y Celwyddau a gelyn pob gwirionedd (y Cythrel) yr awr hon yn y diwedd, ag yn ddi-symmwth wedi newidio ei hen gyfrwysdra, gan obeithio allu o honaw mewn modd amgenach na thrwy ddoydyd celwydd orchfygu'r Gwir. Neu geisio o honaw yrawron gadarnhau ei deyrnas drwy ddichellion eraill ag amgen nag a arferasseu ef er ioed hyd heddyw.

"Canys er pan oes cof am ddim, braidd i medrwn gael un amser, nag wrth gynnydd cyntaf y ffydd, nag yn ei gwastadfod, na chwaith ym mhryd ei had-gyfodiad, yn yr hyn ni wnawd llwyr-gam trahaus a'r Gwir, ag a Gwiriownder. Herwydd diau fod Diawl yn gweled nad di-ogel iddo ef, ag na ddichyn gadw'r eiddo, tre fo'r Gwir mewn di-ogelwch.

"Am hynny pe rhoem na chrybwyllem am yr hen Batrieirch a'r Prophwydi, y rhai ni threiglassent un darn o'i heinioes yn rhydd oddi wrth gam-ogan a dychan: Nyni a wyddom ddarfod i rai yn yr amseroedd gynt, ddoedyd a phregethu yn gyffredinawl, fod yr hen Iddewon (y rhai nid amheuwn nad oeddynt addolwyr yr unig a'r gwir Dduw) yn addoli y naill ai Hwch neu Assyn yn lle Duw, ag nad ydoedd ei holl grefydd nhwy ddim amgen onid erchyllddirmyg a di-ystyrwch ar bob Duwiolaeth. Ni a wyddom pan oedd mab Duw a'n Prynwr Iesu Grist yn dyscu 'r Gwir i ddynion, gael o honaw ef ei gymeryd yn Hudol, yn gyfareddwr, yn Samaritan, yn Beelzebub, yn Dwyllwr y bobl, yn feddwyn, ag yn fwyttawr." *

Dyna ddigon i ddangos pa fath gyfieithwr oedd Morus Cyffin. Y mae'n amlwg wrth ei gyfieithiad ef, cystal ag wrth ei gyfansoddiad, mai *sain* geiriau, fel y parebliad hwy'n llithrig ar lafar gwlad yn ei oes, oedd ei safon ef i'w hysgrifenu; ac nid eu gwraidd gwirioneddol na dychymmygol, yn ol cynllun aflafar y Dr. Pughe a'i ddilynwyr o ysgrifenu. Am ieithwedd Morus Cyffin, dywed beirniaid galluog ei bod yn bur a phrydferth, ac yn gynllun godidog i ysgrifenwyr Cymreig. Cyhoeddwyd pedwar argraphiad o "Ddeffyniad Ffydd Eglwys Loegr," y cyntaf yn Llundain, gan yr awdwr ei hun, yn 1595; yr ail, yn Rhydychain, dan olygiad Charles Edwards, yn 1671; y trydydd, yn y Bala, dan olygiad y Parch. T. Charles, yn 1808; a'r pedwerydd, yn Llundain, gan y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, yn 1849.

Ymddengys hefyd fod Morus Cyffin yn fardd, canys yr oedd yn ei fryd ef droi y Psalmau ar gân, megis y tystia yn yr "Annerch" y difynwyd mor helaeth o honi eisoes, fel hyn:—

"Gwaith rheidiol iawn fydde troi'r Psalmeu i ganghanedd gymraeg, nid i ganghanedd Englyn, nag Owdl, na Chowydd,† nag i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly, ni ellir byth troi na'r Psalmeu, na dim arall yn gywir. Eithr i'r fath fesur a thôn canghanedd ag sydd gymeradwy ymhob gwlad, a ddiwygwyd drwy dderbyniad discleirdeb yr Efengel: ag fel y gwelir yn y Saesonaeg, Scot-aeg, Ffrangaeg, iaith Itali, a'r cyfryw; fal y gallo'r bobl ganu y gyd ar unwaith yn yr Eglwys; yr hyn fydde ddifyrwch a diddanwch nefawl iddynt yn y llann, a

* Diffyniad y Ffydd, t. 1. † Williams' Em. Welshm., p. 270; Llyfr. y Cymry, t. 70; En. Cymru, F. t. 145.

† Y mae'n hyspys nad oedd Morus Cyffin yn siarad am "Englyn, Owdl, neu Gowydd," heb wybod cryn lawer am eu natur a'u hansawdd, canys y mae amryw englynion o'i waith yn *Y Greal* (Llundain); ac y mae'n bur debyg iddo adael llawer ychwaneg o ganiadau "canghaneddol" mewn llawysgrif. Fel esampl o'i allu "canghaneddol," dodwn yma englyn neu ddau o'i waith sydd yn *Y Greal*, t. 309, 314:—

"*I Groesawu'r Gog y Flwyddyn Newydd.*

"Croesaw'r gog odidog ac adail—caed,
Croesaw ceidwad glasddail;
Croesaw pencerdd bron werddail;
Croesaw Duw! cares y dail.—*M. Cyffin.*"

"*I Robert ap Rhisiart o Faelor.*

"Mawr-ddysc mèr addysc morr rwydd-wych—Maelor,
Mawl-wawd tannau llwfr-gyrch,
Mydrau telyn-gerdd meidr-wych,
Mawr-goel, wnai mawr-glaf yn wych.—*M. Cyffin*"

Y mae yn amlwg nad oedd yr hen Gyffin yn agos mor fanwl efo'r gwant, y rhagwant, "canghanedd." a'r brifodl a rhai o feirdd y caethfesurau yn y dyddiau hyn.

Digitized by Google

chartref. Am Englyn, neu Owdl, neu Gowydd, ewyr pawb nad cynefin ond i un dyn ar unwaith ganu'r un o'r rheini. Heb law hynny, ni wasanaetha tôn yr un o honynt i gerdd ysprydol uchelfraint; a phe gwasanaetha, etto, cabledd mawr yw cymmysc cerdd yr Ysbryd glan yn yr un don ganiad a cherdd faswedd ofer. Rhaid i'r neb a gychwnno hyn o orchwyl cyssegr, ddealld amryw ieithoedd dyscedig, fegis na roddo ef un gair yn y Ganghanedd ond a fo cwbl gyd-synniol a meddwl yr Ysbryd glan. Pette gennyf y seibiant a'r hamdden sydd gan lawer, cyntaf peth, a chwannocca poen a gymerwn i arnaf, fydde, tueddu at hyn o waith, ar ôl cyd-siarad a dyscedigion Cymry, ynghylch pa ddull a math ar ganghanedd, a dybid oref a chymessuraf i hyn o Dduwioldeb."

Nid ymddengys i Morus Cyffin gael "y seibiant a'r hamdden" a ddymunai byth i wneud "hyn o dduwioldeb;" ond medrodd un o'i geraint (ei frawd, fel y tybia rhai) gael adeg i wneud "rhann" o'r diffyg i fynu, sef Edward Cyffin, fel y ceir gweled rhag llaw; canys rhaid iddo ef gael mwy o sylw na nodyn brysiog wrth fyned heibio.

Heb law Morus Cyffin,* dylid byr gofnodi amryw eraill oedd yn cydoesi âg ef, ac yn eu blodau, rhai o'i flaen ac eraill ar ei ol, y rhai, fel y dywed Charles Edwards, a roddasant i Gymru bob un ei dlws i'w chyfoethogi mewn llenyddiaeth a "Ffydd," ac i'w chysuro am yr holl ddrwg a ddigwyddodd iddi, pan ynghanol tlodi, llenorol ac ysprydol, dan orthrwm Pabyddiaeth ac ofergoeliaeth. Yr hynaf o'r rhai hyn, ond odid, oedd

Hugh Price, D.C.L.† Brodor o Aberhonddu oedd y gwladgarwr yma; ond ni wyddus pa bryd y ganwyd ef yno. Cafodd ei addysg yn Rhydychain, lle y derbyniodd y radd uchod yn o.c. 1525; ac o gylch y fl. 1542, gwnaed ef yn un o gôr-offeiriaid‡ cyntaf Caer Graig,§ ac yn drysorydd Tŷ Ddewi. Pan ydoedd mewn gwth o oedran, penderfynodd sefydlu coleg, yn yr hwn y gallai ei gydwladwyr yng Nghymru gael addysg aruchel, mantais nad oedd yn eu cyrraedd hwy yn Rhydychain y pryd hyny. Er mwyn cyrraedd yr amcan clodfawr yma, anfonodd ddeiseb at y Frenhines Elizabeth, i erfyn arni sefydlu coleg, i'r hwn y gallai efe gyfranu ei gyfoeth. Cydsyniodd hithau â'i gais; a rhoddes freinteb i'r un perwyl, wedi ei hamseru y 27fed o Fehefin, 1573, yr hwn hefyd a archai ei adeiladu wrth yr enw, "Coleg Iesu o fewn Dinas ac Athrofa Rhydychain, o sylfaeniad y Frenhines Elizabeth:" y gymdeithas i gynnwys un dysgawdwr, wyth o gymmrodwyr, ac wyth o ysgolorion; a chaniatâd i'r Dr. Price sefydlu ei etifeddiaeth yn ol 160p. y flwyddyn at eu cynhaliaeth. Ychwanegwyd swm o goed gan y frenhines at hyn, o goedwigoedd Strow a Shotover. Saif etifeddiaethau y sylfaenydd gwladgar, y rhai a droswyd ar y 30fed o Fehefin, 1573, yn sir Frycheiniog. Hefyd, cyfranodd y Dr. Price dros 1500p. at yr adeilad, heb law swm arall o arian a fu'n aros heb ei dreulio hyd ddechreu yr 17fed ganrif, pryd yr oedd yn 700p. Bu'r cymmwynaswr hwn i'w genedl farw yn y fl. 1574.*

William Llyn,† enw priodol yr hwn oedd William Owen, A.M., oedd wr Eglwysig arall, a bardd godidocaf ei oes. Ganwyd ef o gylch y fl. 1540, ym mhlwyf Llangïan, yng nghantref Llŷn, sir Gaernarfon. Dywedir mai mab ordderch ydoedd i un o Ruffyddiaid Cefnamwlch, a'i enw Owen Gruffydd, y mae'n debyg, yr hwn a'i dygodd i fynu i offeiriadaeth Eglwys Loegr; ond ni hyspysir pa un ai yn Rhydychain ai yng Nghaergrawnt y cafodd ei addysg athrofaol. Appwyntiwyd ef yn ficar Croesyswallt (Oswestry) yn 1583; ac yno y bu, cyn belled ag y gwyddys, hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn 1588.

Ei athraw barddonol oedd Gruffydd Hiraethog, a dywedir mai yntau oedd athraw barddonol Edmund Prys, Archddiacon Meirion. Graddiwyd William Llŷn yn bencerdd cerdd dafod ar unwaith a Lewis Edward, Owain Ifan (Owain Gwynedd), a Simwnt Fychan, yn Eisteddfod Caerwys, yn 1568;‡ a dywedir y bu ymryson prydyddol rhyngddo a'i gyd-bencerdd, Owain Gwynedd. Bernir mai efe oedd prifardd ei oes, ac na chododd ei gyffelyb hyd Goronwy Owain. Y mae celfyddyd, doethineb, nerth, a thlysni yn addurno ei holl farddoniaeth. Yr oedd yn Brotestant cydwybodol, a chynnwys ei waith aml hergwd i Babyddiaeth. Y mae naw o'i ganiadau yng *Nghorchestion Beirdd Cymru*, tair o ba rai sydd farwnadau, sef "Awdl Farwnad Huw ap Siôn ap Hywel, o Lanfendigaid;" "Cywydd Marwnad Gruffydd Hiraethog," ei athraw barddonol; a "Chywydd Marwnad Syr Owain ab Gwilym, curad Tal-y-Llyn, yn swydd Feirionydd." Dodwn yma ychydig ddifyniadau o'r farwnad olaf, fel esampl o'i ddull yn barddoni. Ymddiddan

* Hanes y Ffydd, argr. 1822. t. 298.

† Hyny yw, yn Gymraeg, Huw Prys, D.C.W. = Doethawr Cyfraith Wladol (Saesoneg *Doctor of Civil Law*).

‡ Prebendaries. § Rochester.

* Williams' Em. Welshm., p 414; En. Cymru, F., t. 852.

† Llŷn yw dull yr enw yn yr holl hen lyfrau, argraphedig cystal ag ysgrifenedig. Dull diweddar yw Lleyn, i geisio dangos gwraidd tybiedig y gair.

‡ Pennant's Tours, ed. 1810, v. ii., p. 93; Y Greal, t. 277.

Digitized by Google

ydyw'r cywydd yma, fel yr un o'i flaen, rhwng y byw a'r marw :—

W. LLEYN.

TRWM ar Iâ, yw tramwy'r Od,
Trymmach yw torri ammod
A luniais gynt ar lannerch,
Oedd i mi fal addaw merch:
Sorrais wrthyd benn Saerwawd,
Syr Owain gwiw seren gwawd.
Ai cof gennyf caf gwynaw,
Y rhwymau drud, fu rho'm draw?
Purllwyn praff, perllan Prophwyd,
Paladr Iaith, pa le yr wyd?
Ai 'ngwlad Deau, Mannau Medd?
Angel dawn, ai 'ngwlad Wynedd?
Od oedd, ein dydd dyweddi?
A thyst wyf, na ddaethost ti:
Dywed fardd, da yw dy fodd,
Teulu pwy a'th attaliodd?
. . . . .

SYR OWAIN YN ATTEB.

O Dduw! Angau, gwinau'n gaeth,
Mawr elyn, pob Marwolaeth!
Daliodd fy Nhraed a'm Dwylaw,
Ni allai droi i unlle draw.
Y cnawd gwyn megis cnwd gwâr,
I mae'n duo mewn Daear;
A'r genau fu'n clymmu clod,
I* mae'n tewi mewn tywod.

W. LLYN YN ATTEB.

Syr Owain! fo'm Sarhawyd,
Synwyr Iaith, os yna'r wyd?
O's am dda balch, gwalch, y gwin
I'th restiwyd Athro Awstin?
Gofyn i'th Dduw glwyswyn glod,
Ddi drais, fu yn dda drosod.

SYR OWEN YN ATTEB.

Na wnaf, ni ofynaf fi,
Ym Duw, ni waeth im' dewi.
Ni eill da byd, enwyd awr,
Estyn einioes, dŷn unawr:
Dŷn pwl sy'n meddwl am oes,
Duw a rann hyd yr einioes.†

Dywedir i William Llŷn adael dros ddeugain o gyfansoddiadau barddonol ar ei ol, y rhai ni chyhoeddwyd erioed, ac mai Rhys Cain a ganodd ei farwnad ef, yr hon hefyd sydd heb ei chyhoeddi.‡

IOAN DAFYDD RHYS§ ydoedd un arall o gydoeswyr M. Cyffin, ac un o gymmwynaswyr y Cymry.‖ Mab ydoedd i Dafydd Rhys, yr hwn oedd yngwasanaeth Syr William Griffith, Gareg Lwyd, Llanfaethlu, Mon; a dywedir mai ei fam ydoedd weinyddes i Jane Stradling, o St. Dunawd, yr hon a briodes Syr W. Griffith. Ganwyd Ioan yn O.C. 1534, a phan oedd yn ddeunaw oed derbyniwyd ef i goleg Eglwys Crist, yn Rhydychain, lle y daeth yn efrydydd; ond wedi aros yno dros dair blynedd, gadawodd yr athrofa heb gymmeryd graddau, ac aeth i'r Cyfandir yn Rhagfyr, 1555, gan ymsefydlu dros amser yn Sienna, yn Tuscany, lle yr oedd athrofa enwog; ac yno graddiwyd ef yn M.D.¶ Penodwyd ef wedyn yn gyfreolydd cyhoeddus ysgol Pistoia, dinas arall yn Tuscany. O gylch y pryd hyn ysgrifenodd *Rules for the Obtaining of the Latine Tongue*, yn Italaeg, yr hwn a argraphwyd yn Venice; ac ysgrifenodd waith arall yn Lladin, a'i enw *De Italicæ Linguæ Pronuntiatione*, yr hwn a argraphwyd yn Padua. Coleddai yr Italiaid syniadau uchel am y ddau waith hyn, ac ystyrid yr olaf yn llyfr tra gwerthfawr i ymdeithwyr estronol yn yr Ital.

Ond gwaith mawr I. D. Rhys yw ei Rammadeg Cymraeg yn Lladin, yr hwn a elwir yn fyr, ar frig y dail, *Linguæ Cymraecæ Institutiones Accuratæ** (Gosodiadau Cywir yr Iaith Gymraeg). Ar ol dychwel i Gymru, eb efe ei hun, yn nhŷ y pendefig Mr. Morgan Meredydd, o ymyl y Bugeildy, yn Nyffryn Tafida, o fewn swydd Faesyfed, y myfyriwyd ac y meddyliwyd y mwyafrif parth o'r llyfr yma. "Eithr diweddbarth y llyfr hyn," eb efe, "a fyfyriwyd dan berthi a dail gleision mewn gronyn o Fangre i mi fy hunan, a elwir Clun Hir, ym mlaen Cwm y Llwch, a than odreuon Mynydd Banwchdeni. Rhai a eilw y mynydd hyn Ban Arthur, eraill Moel Arthur," yn sir Frycheiniog.

O barth amcan y llyfr, efe a ddywed, "Eithr i adrodd i chwi taw [mai] ymha le bynag y dechreuwyd, nac y canolwyd, nac y diweddwyd y llyfr yma; nac ymha fan bynag y myfyriwyd un dim arno, i chwi, ac er eich mwyn chwi y gwnaethpwyd hyn oll. Ac o'r ethryb [herwydd] hyny, od oes dim ynddo a fo tebyg i wneuthur dim lles nag i'r iaith, nag i chwithau, y Pendefigion a Bonheddigion Gwlad Cymru, y mae'n dda iawn gan fy nghalon: onid e, gadawer heibio mal diffrwythbeth, a dychymmyger ryw beth arall a fo gwell nag ef; a charer fi, os mynner, am fy ewyllys da, er i mi o ddamchwain fod, a hyny o eisiau gallu, yn ddiffygiol, ysgatfydd, o barth perffeithio fy ngorchwyl." Humphrey

* Arferid *i* ac *ir* yn fynych gynt yn rhagferfau yn lle *y* ac *yr*; megis, *i* mae; *ir* oedd, *ir* wyt, &c.; ond y mae llythyraeth y Bibl wedi sefydlu *y* ac *yr* er ys llawer dydd.

† Gorch. Beirdd Cymru, argr. 1778, t. 296. ‡ Wms's Em. Welshm., t. 279; En. Cymru, F. t. 680.

§ Ymddengys wrth y llythyrenau I. D. R., sydd ar derfyn ei Ragymadrodd Cymraeg, mai dyma'r dull yr ysgrifenai efe ei enw yn iaith ei wlad.

‖ Hanes y Ffydd, t. 299.

¶ *Medicinæ Doctor*=Doethawr Meddyginiaeth.

* Yr enwad-ddalen yn gyflawn sydd fel hyn:—"Cambro-brytannicæ Cymraecæve Linguæ Instivtiones et Rvdimenta Accuratè, & (quantum fieri potuit) succinctè & compendiosè conscripta à Ioanne Davide Rhœso Monensi Lanvaethlæo Cambro-brytanno, Medico Senensi: Ad Jllust. virum Edouardum Stradlingum Equestris ordinis Cambro-brytannum: Ad intelligend. Biblia Sacra nuper in Cambro-brytannicum sermonem & caste & eleganter versa, non minus necessaria quàm vtilia: Cum exacta carmina Cymraeca condendi Radione, & Cambro-brytannicorum Poematum generibus, alijsquè rebus nonnullis eôdem spectantibus, ijsdémque pariter non minùs necessarijs quàm vtilibus. Londini Excudebat Thomas Orwinus. 1592." 4plyg. "Nid *unplyg* mo hono, ond *pedwarplyg* lled fawr ydyw," fel y sylwa'r Parch. D. S. Evans, "fel y mae yn ddigon hawdd i bawb weled, ond sylwi ar y nod-lythyrenau ar odre y dail."—Llyfr. y Cymry, t. 57, nod †.

Denys y difyniad canlynol o lythyr cymmyn Syr Edward Stradling mai ar ei draul ef y cyhoeddwyd y llyfr, ac mai 1250 o gopiau a argraphwyd, a'u bod oll ar y pryd yn ei feddiant ef:—"Item. Whereas there were printed at my expence twelve hundred and fifty British Grammars, I do give fifty of them ready bound to my friend Mr. Doctor Davys [byddai I. D. Rhys yn arfer yr enw yma yn achlysurol], the author of them; and my will is that the rest of them shall be given and bestowed from time to time by my cousin, Sir John Stradling, upon such gentlemen and others as he shall think fit, for the advancement of the British tongue."—Traherne's *Stradling's Letters. Tem. Qu. Eliz.*

Digitized by Google

Pritchard hefyd, brodor o Fangor, ac offeiriad Protestanaidd, a ddywed yn ei Ragymadrodd Lladin o flaen y Grammadeg hwn, mai prif amcan cyfansoddi'r gwaith, oedd cynnorthwyo i iawn ddeall y cyfieithiad rhagorol o'r Ysgrythyrau i'r Gymraeg, a gyhoeddasid gan y Dr. Morgan tu a phedair blynedd yn ol, fel y gallai'r offeiriaid wneud y Bibl yn fwy dealladwy i'r werin bobl. Y Parch. D. S. Evans hefyd a ddywed, "Ni ddywedir ar ragddalen y gwaith mai amcan yr awdwr ydoedd hyrwyddo gwybodaeth o'r Ysgrythyrau ym mhlith *y bobl gyffredin* trwy gyfrwng y gramadeg hwn: ond dïau mai yr hyn a olygid ydoedd, cynnorthwyo y gweinidogion i ddeall yr iaith Gymraeg (canys yr oedd pregethu Cymraeg wedi myned i gryn raddau allan o arfer yng Nghymru cyn y Diwygiad), fel y byddai iddynt hwy hyfforddi y bobl mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyrau, y rhai, y pryd hwn, oedd newydd gael eu cyfieithu yn Gymraeg gan yr Esgob Morgan. Nid amcanai y Dr. Rhys, mwy na'r Dr. Davies ar ei ol, i'r cyffredin bobl fyfyrio ei ieithadur cywrain ef, canys nis gallai llyfr Lladin fod yn ddealladwy iddynt; ond yr oedd yn ddealladwy i'r gwŷr eglwysig, ac o'i ddeall disgwylid iddynt gyrraedd mwy o fedrusrwydd yn yr iaith, a thrwy hyny allu o honynt ddysgu y bobl yn amgenach. Dysgu yr athrawon oedd bwriad y Dr. Rhys; a gadewid iddynt hwythau daenu gwybodaeth ym mhlith y werin, a hyny trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg."

Am ansawdd y grammadeg hwn, dywedodd Ioan Tegid, mewn llythyr at yr ysgrifenydd, tu a deugain mlynedd yn ol, pan y bwriadai gyhoeddi grammadeg Cymraeg, mai grammadegydd lled ganolig oedd yr hen Ioan Dafydd Rhys; ond, eb efe, "mal egluTydd rheolau barddoniaeth Gymreig, ni chyfododd neb tebyg iddo ar ei ol." Ystyriai efe fod y Dr. Gruffydd Roberts yn llawer amgenach grammadegydd na'r Dr. J. D. Rhys; ac annogai yr ysgrifenydd i ymgynghori â hwnw, ac â grammadeg y Dr. Davies o Fallwyd, yn ddyfal a gofalus. Bu'r Dr. Rhys farw, yn ol Wood, yn Aberhonddu, neu yn agos yno, yn y fl. 1609.*

HENRY SALESBURY, un o geraint William Salesbury, gan ei fod yn hanu o un o ganghenau hen deulu enwog a gwladgarol y Salesbriaid o Leweni, a anwyd yn Dolbeledr, sir Ddinbych, yn y fl. 1561. Cafodd ei addysg golegol yn Rhydychain, ac wedi ei raddio yn B.A.,* myfyriodd feddyginiaeth, a dilynodd ei alwedigaeth fel meddyg llwyddiannus a chymmeradwy yn nhref Dinbych; ac ystyrid ef yn dra chyfarwydd yn hynafiaethau ac iaith ei wlad. Cyfansoddodd y gwr hwn hefyd, fel y Dr. Rhys, rammadeg Cymraeg yn y Lladin, dan yr enw, "Grammatica in usum linguæ studiosorum succinctâ methodo et perspicuitate facili conscripta." Cyflwynodd ef i Henry, iarll Penfro; a chyhoeddwyd ef yn Llundain yn 1593, gan Thomas Salesbury, un o geraint yr awdwr, ymhen blwyddyn ar ol grammadeg I. D. Rhys, a dïau mai yr un amcan oedd mewn golwg, sef hyfforddi swyddogion eglwysig tywyll a *Lladinaidd* yr oes honno yn yr iaith Gymraeg, fel y gallent hwythau ddysgu'r werin bobl yn iaith eu gwlad. Dywed yr awdwr yn ei lythyr Saesneg at y darllenydd, bod "amryw bethau da eraill yn barod i'r wasg, megis *Testament Brytanaidd*, wedi ei ddiwygio yn ddiweddar gan Esgob Llanelwy." Dywed Ames† ddarfod i'r Dr. Morgan edrych dros Destament Salesbury, a'i ddiwygio ymhellach, a'i fod yn barod i'r wasg pan fu efe farw.

Hefyd, cyfansoddodd Henry Salesbury eiriadur Cymraeg a Lladin, yr hwn y bwriadai ei gyhoeddi, a'r grammadeg ynglyn âg ef, pan y gelwid am ail argraphiad o'r olaf; ond y mae'n debyg iddo ef farw cyn i hyny ddigwydd, canys nid yw blwyddyn ei farwolaeth ef yn hyspys. Enwad-ddalen y geiriadur oedd fel hyn:—"Geirfa Tafod Cymraeg: hoc est, vocabularium Linguæ Gomeritanæ, sive vocum antiquitus Britannicarum ferme omnium, una cum Latinis quibus explicantur, commentariolum per Henricum Salesbury. Cui accessit ejustam Linguæ Grammatica ab eodem authore olim edita, jam denuo recognita, ad limam revocata, et pluribus locis adaucta, cum rerum et locorum insignium locupletissimo Indice." Dywed Wood i'r geirlyfr hwn ddyfod yn anorphenol i lâw y Dr. Davies o Fallwyd, ac iddo wneud defnydd mawr o hono yn ei waith ei hun, pan y dywed eraill fod ynddo lawer o eiriau nad ydynt gan Davies. Ond ymddengys nad yn anorphenol y gadawyd y gwaith, canys dywed yr Esgob Humphrey fod ganddo ef gopi perffaith o hono. Dywed y Parch. D. S. Evans "nad oes anghyssondeb yn y ddau ddywediad. Gallasai Davies adael bagad o eiriau Salesbury allan er mwyn

* Parry's Cambr. Plut., p. 309; Williams' Em. Welshm., p. 417; A. Llwyd's Hist. Mona., pp. 358, 391; Llyfr. y Cymry, t. 57; Jones' Hist. Brec., v. ii. 51; En. Cymry Foulkes, t. 895, &c.

* Bachelor of Arts=Mebydd yn y Celfyddydau.

† Typog. Antiquities.

byrder, megis y gwnaeth â geirlyfr Lladin y Dr. Williams.*

Yr oedd amryw Gymry dysgedig eraill yn cyd-oesi â Morus Cyffin, megis HUMPHREY LLWYD, yr hynafiaethydd a'r hanesydd Lladinaidd, oedd yn ei flodau yn 1551, ac a fu farw yn 1568; LEWIS THOMAS, B.A., y duwinydd Seisnig, oedd yn ei flodau rhwng 1582 ac 1600; HUW LLWYD, o Gynfal, y bardd godidog, oedd yn ei flodau o gylch 1578, ac a fu farw yn 1620, am yr hwn y dywedodd Edmwnd Prys,

> "Ni chleddir ac ni chladdwyd
> Fyth i'r llawr mo fath Huw Llwyd;"

IOAN LLWYD (John Lloyd, D.D.), câr agos i Humphrey Llwyd, a ficar Writtle, Essex, awdwr amryw lyfrau Lladin, ac oedd yn ei flodau yn 1595, ac a fu farw yn 1603,† a rhai eraill ond odid; eithr ni wyddys iddynt wneuthur braidd ddim yn Gymraeg, nac mewn un iaith arall, yn wir, i hyrwyddo'r "Ffydd" yng Nghymru.

---

## PENNOD VIII.

### EDWARD CYFFIN A'I GYDOESWYR.

Y MAE hanes genedigaeth, maboed, addysg, a therfyn oes y gwladgarwr yma, Edward Cyffin, yr un mor dywyll a'r eiddo ei gâr dysgedig, Morus Cyffin. Y cwbl a wyddys am dano hyd sicrwydd ydyw, ei fod yn ei flodau rywbryd cyn 1603, canys cyhoeddwyd llyfr o'i waith y flwyddyn honno, enwad-ddalen yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Rhann o Psalmae Dafydd Brophwyd, Jvv canu ar ol y dôn arferedig yn Eglwys Loegr.

"Simon Stafford a'i Printiodd yn Llunden dros T. S. 1603."

Y T. S. yma oedd Thomas Salesbury,‡ yr hwn a gyhoeddodd gynghaneddiad William Middleton (Gwilym Ganoldref) o'r Psalmau yn yr un flwyddyn, ac, fel y tybir, yr un amser, canys ceir y ddau lyfr yn gyd-rwymedig. Tair Psalm ar ddeg sydd yn y "Rhann" a gyhoeddwyd o fydriad Edward Cyffin, a therfyna'r llyfr fel hyn:—"Terfyn ar hyn: hyd oni threfno Duw Gymmorth ymhellach." Y mae annerchiad tra dyddorol yn rhagflaenu'r llyfr, yr hwn, gan nad ydyw ond byr, a ddodir yma, a dïau genym y darllenir ef gan lawer gyd â mawr hyfrydwch.

"*At fy ngharedigion wlad-wyr y sawl a garant Ogoniant yr Arglwydd, ag ymgeledd eu gwlad-iaith.*

"Wrth weled mor ofalus yw ieithyddion eraill am eu gwlad-iaith, a chynnydd yr Efengyl drwy oll gréd, a bod y Saeson mor gymwynasgar i'w gelynion y Spaeniaid ag iddynt brintio bagad o lyfre yn yr Yspaen-iaith a'u danfon ymysg eu gelynion ar feddwl eu hynill at Dduw; a'r rhai a aeth a'r llyfre rheini at y gelynion, a fentriasant nid yn unig eu dâ a'u trafael ond eu hoedl hefyd ar fedr gwneuthur lles i Estron-genedl.

"Pa faint mwy y dylem ni ymgeleddu ein hiaith ein hunain yr honn a ddeffynodd y Goruchaf Dduw yn yr unlle yn y deyrnas honn ers seithgant ar hugain o flynyddoedd, ag ychwaneg ymysc cynnifer o amrafaelion Cenhedloedd, terfyscoedd a dinystroedd a fu i'n mysc er yr amser hwnnw i geisio difa a dinystrio yr iaith ai phobl yn llwyr. Yr hynn beth ni all un nasiwn [genedl] nag iaith ar sydd dann Grêd a Bedydd heddyw ddoedyd y cyffelyb. Am yr hynn yr ydym ni fwy rhwymedig i'r Arglwydd nog oll Bobloedd y byd: ag nyni yn olaf ac yn ddiweddaraf am osod allan Ogoniant Duw yn ein hiaith ein hunain.

"Ag wrth weled a chlywed mor brydferth ag mor hyfryd rydys yn moliannu Duw yn yr holl Eglwysi lle mae'r Efengyl yn cael rhyddid, ond Ynghymru yn unig, wrth ganu Psalmau Dafydd, hynny a wnaeth i mi (er Gogoniant i'r Arglwydd a Chariad i'm Gwlad) ddangos fy ewyllys da yn cychwyn hynn o waith ar ddechre cynghaneddu hynn o Psalmae yn nesa ag ellais at feddwl yr Yspryd Glân, fel y cefais hwynt yn scrifennedig yn y Scrythurau.

"Mi a rois y Psalmau prês ar gyfer y cynghanedd, ag a adewais le rhwng pôb vers ai gilydd o'r cynghanedd fel i gallo rhai celfyddach gymhennu a pherffeithio hynn a wneuthum i o fras-naddiad, er praw yn unig, ag er annog eraill (a fedrant yn well) ei hailddiwygu hwynt. Gan ddymuno arnoch bawb yn ol ei allu hyfforddi fy ewyllys da i a'ch cyngor a'ch cymorth, i amlygu i'r byd eych serch a'ch cariad i Dduw a'ch Gwlad. Yr hynn beth os gwnewch, chwi a ogoneddwch yr Arglwydd, chwi a fawrhewch eych gwlad, ag am cysurwch innau, nid yn unig i fynd trwodd a holl gorph y Psalmae yn yr un rhyw gynghaneddiad (yr hwn fesur cynghanedd sydd gymwysaf ei ganu gann yr oll gynulleidfa ar un-waith) ond hefyd i leshau fyngwlad ymhellach ar ol hynn mewn pethau duwiol eraill o'r Scrythur lân. Drwy obeithio gann gadw o Dduw nyni dros gyd o amser, fod gann yr Arglwydd Dduw ryw orcheswaith a gorchafiaeth tu ag at amlhâd ei ogoniant ei hun ym-mysg yr hên Frutaniaid a gadwodd ef mor wyrth-fawr mewn rhyddid a diogelwch hyd yn hynn.

"A chann eyn bod yn byw yn yr oes honn dann arddercbockaf Vrenhines o'n gwlad eyn hunain, yr honn sydd yn canhiadu i ni gael y Scrythyr lan yn eyn hiaith ein hunain, ag oll gyfreidiau eraill ar a ddymunem eu cael tu ag at amlhau Gogoniant Duw, a mawrhâd eyn hiaith: (yr hyn beth ni a attolygwn i Dduw ei hir-gynnal i ni rhag-llaw). O fy anwyl wladwyr tra fo Duw yn caniattau i ni y rhwyddineb, yr heddwch, a'r rhyddid y rydym yr rowron yn ei gael, na chollwn yr amser presennol, ond yr hytrach gwaredwn yr hir-amser a gollasom yn barod, a dangoswn i'r byd, eyn bod yn prisio mwy am ogoniant Duw, am

* Wood's Athenæ Oxon., v. i., pp. 226, 754; Bishop Humphreys's Additions to the same; Williams's Em. Welshm., p. 464; Llyfr. y Cymry, p. 68; En. Cymru, F. t. 925.

† Gwel Williams's Em. Welshm. ac En. Cymru, F., dan yr enwau crybwylledig.

‡ Syr Thomas Salesbury, yr ail farwnig, o Leweni, ger llaw Dinbych, fel y tybir, oedd y gŵr hwn, mab Syr Henry Salesbury, a Hester, merch Syr Thomas Middleton, Barg., o Gastell y Waun. Cafodd ei addysg yn Rhydychain, a dywed Wood ei fod yn perchen awen, ac iddo ei harfer yn fynych ar wahanol achlysuron. Priododd Hester, merch Syr Edward Tirrell, o Thorton, a bu farw yn y fl. 1643.—Llyfr. y Cymry, t. 75.



Digitized by Google

orchafiaeth a derchafiad eyn Gwlad a'n hiaith ag am ddidranck lawenydd ag iechydwriaeth eyn Eneidiau eyn hunain, nag yr ydym am ddarfodedig fwnws y byd hwnn, yr hynn nid oes i ni ond byrr amser i'w fwynhau.

"Ag ar hynn mi a ddymunwn ar bob gwir Gymro na rodde hun iw lygaid, na heppian iw amranau (fel y doedodd y prophwyd Dafydd) nes gweled Gogoniant yr Arglwydd, drwy hy-fforddi gorffenniad y Gorchwyl duwiol yma yn ei wlad-iaith ei hunan.

"Yr oll-alluog Dduw yr hwn yn unig a roes y meddwl yma ynof i gychwyn hynn o waith a gynhyrfo ynoch chwithau ewyllys i gymhorth yr unrhyw, tu ag at helaethiad Gogoniant Duw, mawrhâd eyn priod-iaith, a chysur eyn Eneidiau erbyn y dydd a ddaw.

"Yr eiddoch iw orchymyn yn-Christ Iesu:

"EDWARD KYFFIN."

Mor gynnes, gwladgar, ieithgar, a duwiol oedd prif ysgrifenwyr yr oesau gynt! Gresyn na ddilynai mwy o ysgrifenwyr yr oes hon eu hesampl brwdfrydig a defosiynol. Llefarai Edward Cyffin fel pe buasai dan yspryd prophwydoliaeth gyd â golwg ar "Fod gann yr Arglwydd Dduw ryw orcheswaith a gorchafiaeth tu ag at amlhâd ei ogoniant ei hun ym-mysc yr hên Frutaniaid," canys nid oes un genedl dan haul wedi cael ei dyrchafu yn uwch na ni, cenedl y Cymry, mewn breintiau crefyddol; ac nid yw yr Hollalluog wedi llwyddo yr Efengyl yn fwy gogoneddus ym mysg un pobl ar y ddaear nag yn ein plith ni, a hyderwn nad yw'r gwaith da etto ond dechrau. Credir yr hoffai amryw o'n darllenwyr gael ychydig siamplau o "gynghaneddiad" y bardd duwiolfryd a chynharol yma o'r Psalmau cyssegredig; ond cyn dechrau difynu, sylwed y darllenydd bod y bardd yn crynhoi pob adnod i bedair llinell ar gân; ac felly yr oedd yn ychwanegu rhai ymadroddion mewn adnod fer i wneuthur y pennill yn gyflawn; ond rhag gwneuthur cam â'r gwreiddiol, dodai ei ychwanegion rhwng cromfachau. Nid oedd mor llwyddiannus wrth grynhoi adnodau hirion i bedair llinell, canys teimlir bod rhai pennillion felly yn lled dywyll, megis, er esampl, yn y pennill olaf. Weithian dodwn yr esamplau ger bron:—

PSALM I.

1. Dyn ni rodia dedwydd yw
Ynghyngor annuw ddynion;
Yn ffordd pechadwyr ni sai,
Ni 'steddai 'n stôl gwatworion.

3. Fel prenn glann-ddwfr dwg ffrwyth pryd,
Ei ir-ddail clyd ni wywa:
Pa beth bynnag wnel ei law
Hynny draw a lwydda.

5. Am hynn ni sai anwir lu,
Wrth farnu'r ddeulu'n uniawn:
Na'r pechadurwyr diriaid bla
Mysg y gynlleidfa gyfiawn.

PSALM II.

1. Pam i codant derfysc floedd
Cenhedloedd o gynddaredd;
A'r Iddewon bobl gau
A'i bryd ar wau oferedd.

2. Brenhinoedd a phennaethiaid byd
Maent yn cyd-gynghori:
Yn erbyn yr Arglwydd rhawg
A'i Grist eneiniawg Geli.

4. Ond Preswylydd Nef a chwardd
Am ben eu hanardd fwriad:
Duw a'u gwatwar am eu gwg
A'u diffaith gilwg hyfrad.

8. Gofyn i mi rhof ar goedd
Genhedloedd i'th tifeddiaeth:
A therfynau daiar fyd
Cei hefyd i'th feddiannaeth.

PSALM III.

1. Arglwydd amled ydyw'r gwyr
Y sydd drallodwyr imi;
A llawer o gaseion tynn
I'm herbyn sydd yn codi.

4. Gelwais ar yr Arglwydd Nef
A'm llef o ddyfnder calon;
Ag ef a glybu nghystudd
O'i sanctaidd fynydd tirion.

PSALM IV.

3. Gwybyddwch i'r Arglwydd ethol
Y duwiol iddo 'i hunan;
Pann alwyf ar fy Nuw eu
Efe a wrendu nghwynfan.

4. Gwir ofnwch ag na phechwch
Meddyliwch yn eich calon;
Ar eich gwely difarhewch
Distewch (fel rhai ufuddion).

PSALM V.

3. Yn forenol Arglwydd nef
Clywi fy llef ddifrifaf;
Yn foreu cyfeiriaf attad
Ag am dy râd disgwyliaf.

5. Ni safant ynfydion drwg
Yn dy olwg purwedd:
Ceisiant oll annuwiol wŷr
Gweithredwyr pob anwiredd.

7. Minnau ddof i'th dŷ fy Ner
Yn amlder dy drugaredd:
Ag addolaf yn dy ofn
I'th deml ddofn sancteidd-wedd.

PSALM VI.

6. Diffygiais gan fy ochain fry
Fy ngwely gwnaf yn foddfa:
Fy heilltion ddagrau i bob nos
Sy'n lli dros fy ngorweddfa.

PSALM VII.

10. Fy amddiffyn oll y sydd
Beunydd yn fy Nuw cyfiawn:
Canys ef yw iachawdwr llonn
Y rhai o galon uniawn.

15. Cloddiodd gorbwll trychodd ffos
(I aros cael fy mhriddaw:)
Syrthiodd ei hun (nid oedd waeth)
I'r dystryw a wnaeth ei ddwylaw.

Digitized by Google

Dyna ddigon i ddangos natur ac ansawdd y gwaith; ac wele'r terfyn:—

**Psalm xiii.**

5. Fy ymddiried i'th drugaredd sydd
Fy llawenydd i'th iechyd:
I Dduw am synio arnaf
Canaf, canaf drgywydd-fyd.

Terfyn ar hynn: hyd oni threfno Duw Gymmorth ymhellach.

Nid yw hyspys ddarfod i Edward Cyffin gyfeilio dim ychwaneg o'r Psalmau; ond tybia rhai mai efe, trwy gyfrwng ei annerch dduwiol a deisyfiadol, a gynhyrfodd Edmund Prys i wneud ei orchestwaith campus ar y Psalmau; a chan eu bod yn gydoeswyr, y dichon i Edward Cyffin gael cyfleusdra i annog yr archddiacon yn bersonol i ymaflyd yn y gwaith angenrheidiol. Ni ddilynodd ef gynllun caeth Cyffin, trwy ychwanegu geiriau o'i waith ei hun at adnodau byrion er eu gwneud yn bennill pedair llinell, a thrwy adael geiriau allan o adnodau hirion er mwyn eu cyfyngu i'r un cylch; ond weithiau gwnai ef un pennill o ddwy adnod, a phryd arall gwnai ddau bennill o un adnod, fel y gwelai angen yn gofyn. Dywed y Parch. T. Charles y "rhaid i bawb deallus" farnu bod cyfieithiad mesurol Edmund Prys o'r Psalmau, "a'i olygu i gyd efo'i gilydd, yn rhagorol, ac yn rhoddi meddwl yr Yspryd Glân allan mor gywir ag a wnawd, neu a ellir ei wneud, mewn un cyfieithiad."*

Yr oedd yr "Enwogion" Cymreig canlynol yn cydoesi âg Edward Cyffin:—

Syr Thomas ap William, Trefriw. Daw gwaith y Cymro gweithgar a dysgeidig yma dan sylw mewn cyssylltiad â'r Dr. Davies o Fallwyd.

Gabriel Powel. Mab oedd y gwr dysgedig hwn i'r Dr. Dafydd Powel, yr hanesydd. Ganwyd ef yn Rhiwabon, sir Ddinbych, yn 1575. Cafodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain, a chymmerth ei gydwladwr, y Dr. Richard Fychan, Esgob Llundain, ef yn gapelwr teuluaidd. Ysgrifenodd un ar ddeg, o leiaf, o lyfrau Seisnig, amryw o honynt yn erbyn rhoi goddefiad i'r Pabyddion. Nis gwyddys i ddim o'i waith gael ei gyhoeddi yn Gymraeg. Bu farw yn 1607.

John Owen, y pennilliwr Lladin enwog, ydoedd drydydd mab Thomas Owen, Ysw., Plas Du, Llanarmon, yng nghwmmwd Eifionydd, sir Gaernarfon. Dygwyd ef i fynu yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn Febydd y Gyfraith Wladol yn 1590. Bu farw yn 1622, ar ol cyfansoddi peth afrifed o bennillion Lladin, lliaws o ba rai a gyfieithwyd i wahanol ieithoedd; ond nid ydym yn gwybod i ddim o honynt gael eu troi i'r Gymraeg.

Henri Perri (yr hwn a alwai ei hun hefyd weithiau yn Henry Parry) a anwyd yn sir Fflint, o deulu a honnai ei fod yn hanu o Ednowain Bendew, cyff cenedl un o bymtheg llwyth Gwynedd, pais arfau yr hwn a wisgai. Addysgwyd ef yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.D. yn 1597, a chafodd lïaws o fywiolaethau eglwysig yn sir Fon wedi hyny, megis perigloriaethau Llanfachraith, Rhosgolyn, a Threfdraeth, ynghyd â chanoniaeth yn Eglwys Gadeiriol Bangor; ond yr hyn a wnaeth, yn ol Charles Edwards, at "gyweirio'r ffordd i aml bregethiad a gwybodaeth o'r Efengyl oedd ar ddyfod i'r wlad,"† oedd cyhoeddi'r llyfr canlynol:—

"Egluryn Phraethineb, sef Dosparth ar Retoreg, un o'r saith gelbhydyd yn dyscu lhuniaeth ymadrodh a'i pherthynasau. A dhechreuwyd gan William Salesbury a anghwanegwyd ac a orphenwyd gan Henri Perri, drwy draul Syr Sion Salisbury o Leweni sir Dhinbych. Printiedig gan Ioan Dantes, yn Llundain. 1595."

Y mae'n amlwg fod gan lenorion a duwinyddion y wlad, ar y pryd, feddwl uchel iawn am y llyfr hwn, canys gwnaed pennillion o glod i'r awdur gan amryw wŷr enwog yn Groeg, Lladin, Saesneg, a Chymraeg, megis gan Dafydd Roberts, Harri Holand, Gwilym Ganoldref, Ludowic Llwyd, William Mathew, William Perkins, Huw Lewis, a Harri Salesbury. Wele ddwy esampl Gymraeg o'u caniadau iddo:—

"Llymma gwir garu llomiaith,
Llymma gwir nid llwm y gwaith:
Buddiawl i bawb ond byddar,
Iaith gywir gu a'th gwir gar.
Rheidiawl i bob dyn rhodiad,
Gwann a glew yn gweini gwlad.
Rheidwiawl i ddallt yr hydau
Ar araith goeth, gyniaith, gau.
Bid gair Duw, bid gwr doeth,
Bid o yni bod annoeth;
Gan hyny, cawn yna
Fawl i Dduw, o orfoledd dda.
Ar berwawd molir Perri,
Wraidd naws a'n henrodd ni,
O drwsiaw'r iaith a dreisied,
O'r llwch, a'i thynnu ar lled,
Yn gwyraidd ac yn gyrrith,
Yn fyw yn ei rhyw a'i rhith.

H. Salisburi."

"O gymheniaith deg a'i mynnu,
Y mae tynnu amnod doniawg;
A'r hoff weniaith, a bair ffynnu,
Gwyr ennynnu gair iawn enwawg.
Nid oedd fudion,
Nac chudion,
Beirdd a drudion braidd droiadawg:
Perri purwaith,
Unwedd iawnwaith,
Euraid araith yw'r dioriawg.

"O cymmerwn a'u cymharu,
Wiria caru ciriau caerawg;
Iddo adferwn ddidifaru,
A darparu draw hap eurawg.
Am beroriaith,
A blaenoriaith,
A rhagoriaith, orau geiriawg:

* Geiriadur Charles, argr. 1839, llyfr ii., t. 380; Y Traethodydd, llyfr viii. 243; Llyfr. y Cymry, t. 75.

† Hanes y Ffydd, t. 298.

Digitized by Google

Mae'n ffynnadwy,
Mae'n barchadwy,
Mae'n daladwy mwyn dyledawg.

"O gelfyddyd golau foddion,
Da yw rhoddion dawn rhieddawg;
Yno nyddid awen noddion
Ag ansoddion gwiw naws heddawg;
A chanmolwch,
A rheolwch,
A dadolwch diwyd elwawg,
Yn fedruswych,
Yn barchus-wych,
Yn weddus-wych, yn Nudd oesawg.
GWIL. MIDDELTON."

Bu Henri Perri farw yn y fl. 1617. Daeth dau argraphiad o'i lyfr allan heb law yr un a fu dan sylw eisoes: un yn Llundain, dan olygiad y Dr. W. O. Pughe, yn 1807. Cyhoeddwyd yr argraphiad yma ynglŷn â'r *Greal*, ac ar ei ben ei hun. Ysgrifenodd John William Prichard, Plas y Brain, Mon, ar ddiwedd y copi o'r argraphiad hwn sydd ynglŷn â'r *Greal*, sydd yn meddiant yr ysgrifenydd, fel hyn:—"Y mae llawer iawn o bethau yn ddiffygiol yn yr argraphiad hwn wrth fel yr oedd yn yr argraphiad cyntaf." Ail gyhoeddwyd yr argraphiad diffygiol yma yn Llanrwst yn y fl. 1829.*

HUW LEWYS, neu Hugh Lewis. Y cwbl a wyddys am y cymmwynaswr hwn i'w genedl ydyw, mai gŵr o Landdeiniolen, sir Gaernarfon,† ydoedd, a'i fod yn ei flodau o gylch 1595, pan y cyhoeddodd y llyfr canlynol er mwyn hyrwyddo'r "Ffydd" ymlith y Cymry:—

"Perl mewn adfyd, neu, perl ysprydawl, gwyrthfawrocaf, yn dyscu i bob dyn garu, a chofleidio y groes, meis peth hyfryd angenrheidiawl i'r enaid, pa gonffordd sy yw gael o honi, ple, ac ymha fodd, y dylid ceisiaw diddanwch, a chymorth ym hob adfyd: a thrachefn, pa wedd y dyle bawb i ymddwyn i hunain mewn blinder, yn ol gair duw, a escrifennwyd yn gyntaf mewn Dwitch gan bregethwr dyscedig Otho Wermulerus, ac a droed i'r Saesonaeg gann D. Miles Coverdale, ac yr awrhon yn hwyr ir Gamberaeg gann H. S.—Joseph Barnes a'i printiodd yn Rhydychen. 1595."‡

Yn ei annerch "I'r Darllennydd Christnogaidd," dywed y cyfieithydd am ei lythyraeth fel hyn:—

"Na feia am nad oes (y) ymhob mann o flaen (n) ne (r) lle i dyle fod, canys ni alle y printiwr wneuthyr amgen, am nad oedd ganthaw cymaint ac oedd angenrheidiol or llythyrennae hynny: ac felly cymer y (d') yn lle y (dd) ac l' yn lle (ll) ac os damweiniodd i un llythyren ne i air fod allan oi le, meddwl mae Saeson ai printiodd, 'rhai oeddynt anghyfarwydd yn yr iaith. Cymer bob peth mewn rhann dda, a thi am anogi i, ag eraill hefyd, i gymeryd poen mewn pethau eraill o hyn allan, drosot. yn iach."

* Rowlands's Mona. Antiq. Rest., ed. 1723, p. 375; Bp. Humphreys's Add. to Wood's Athen. Oxon., p. 252; Cambr-Reg., v. i., p. 156; Rhetoreg, argr. 1807; Ann. t. vii.; A. Llwyd's Mona, p. 319; Williams's Em. Welshm., p. 403; En. Cymru, F. p. 825; Llyfr. y Cymry, t. 70.

† Y Greal, t. 106.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 71.

O berthynas i gyflawniad y gwaith, dywed y cyfieithydd fel y canlyn:—

"Bellach i bwysaw at ddiwedd: na fid rhyfedd, na chwith genyt, paham yr henwais y llyfr hwn yn berl (gann mae gair Saesonaeg yw perl) nid wyf yn gwneuthyr yn hynn ond fal y gwnaeth fyngwell om blaen, canys darllain y trydydd pennod ar ddeg o Efangyl Sainct Mathew, yn y 45, ar chweched wers a deugain, a thi a gai yr vn gair. Heb law hynn, oni chanlhynais, fy Awdur air yngair, na feddwl wneuthyr o honof ar fai: canys weithieu (yr wyf yn cyfaddef) mi a roddais lai, weithieu eraill, mi a rois fwy nac sydd yn y llyfr Saesonaeg, ond cofia beth a ddywaid y Bardd lladin *non verbum reddere verbo, curabit fidus interpres*. my-fi a wneuthym yr a dybais fod yn oreu ar dy les."

ROBERT HOLLAND oedd wr arall y cyfeiria Charles Edwards ato fel un o "Enwogion y Ffydd."§ Nid oes yr un o'n geiriaduron bywgraphiadol yn son dim am dano; ond y mae'n amlwg ei fod yn ei flodau yn 1600, canys cyhoeddodd lyfr yn y flwyddyn honno a'i enw,—

"Darmerth, neu Arlwy Gweddi, a ddychymygwyd er mawr dderchafiad Duwioldeb, ac i chwanegu Gwybodaeth ac Awydd yr annysgedig ewyllysgar i iawn wasanaethu'r gwir Dduw. Gan Robert Holland, gweinidog gair Duw, a Pherson Llan Ddeferowg,|| yn sir Gaerfyrddin." Rhydychain, 1600.

Dywed Charles Edwards y "gwnaeth Robert Holland, gweinidog yn Llanddyferwr, yn sir Gaerfyrddin, draethawd byr yn erbyn consurwyr a dewiniaid, ar ddull ymadrodd rhwng Tudur a

§ Hanes y Ffydd, t. 299.

|| Llanddowror ydyw y lle a gamenwir uchod yn Llan Ddeferowg. Y mae chwedl ddigrif yn *Liber Landavensis*, yn Lladin, yn t. 120, a chyfieithiad o honi i'r Saesneg yn t. 367, ynghylch tarddiad enw'r lle hwn, yr hon chwedl y tybia'r Parch. D. S. Evans bod rhyw faint o sail iddi. Wele ei aralleiriad ef o honi:—"Yr oedd yn byw yn ardal Daugleddyf, ym Mhenfro, yn amser Teilo Sant, ŵr o'r enw Cynwain, yr hwn oedd yn hanu o deulu pendefigaidd, ond yr oedd wedi syrthio i ddirfawr angen a thlodi, o herwydd lliosawgrwydd ei blant, o'r rhai y genid un bob blwyddyn. Gwedi ymgynghori o'r tad helbulus â Sant Teilio ynghylch ei deulu nifeiriol, a derbyn ei gyngor, ond heb ei ddilyn ond mewn rhan yn unig, penderfynodd foddi'r plant, neu eu rhoi i fynu i'r sant, os gofalai ef am danynt. Fel yr oedd Sant Teilo un tro yn dyfod heibio ar ddamwain y ffordd honno, efe a ganfu'r tad yn Rhydsynedig, ar lan yr afon Taf, o dan gynhyrfiad y diafol, yn suddo'r plant o un i un yn yr afon i'w boddi, o achos ei dlodi a'i angenoctid. Pan welodd Sant Teilo'r fath anfadwaith, derbyniodd hwynt oll yn adfyw, ac wedi rhoddi diolch, bedyddiodd hwynt yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân. Gwedi cymmeryd ymaith y saith mab oddi wrth y tad anffodus, dygodd y sant hwynt i fynu, anfonodd hwynt i astudio llenoriaeth, a gosododd hwynt i fyw ar ei dir ei hun yn Llandeilo [fel y gelwid y fan y pryd hwnw]; ac felly derbyniodd y lle oddi wrthynt hwy yr enw *Llanddyfrgwyr*, o herwydd, o achos eu buchedd grefyddol, nid oedd iddynt un ymborth ond pysgod dyfrol, y rhai, yn ol eu rhifedi hwynt, sef saith, a anfonid iddynt gan Dduw yn feunyddiol, ar garreg yn yr afon Taf, yr hon, o herwydd hyny, a alwyd Llech y Myneich. A thrachefn, gelwir hwynt *Dyfrgwyr*, am eu cael yn y dwfr. *Dwfrgwyr*, yn yr iaith Frythoneg, sy'n arwyddo *aquatici viri*."

"Yn ol y ffuglith yma," eb Mr. Evans, "yr hon yr ymddengys bod rhyw faint o sail iddi, iawn enw'r lle yw *Llanddyfrwyr*, yr hwn yn ddigon hawdd a lygrwyd yn *Llanddowror*. Mewn cyfeiriad at yr un chwedl, sonir am yr un lle mewn man arall o'r un llyfr (t. 74) dan yr enw '*territorium Aquilentium*,' h.y. tiriogaeth y Dyfrwyr. Saif Eglwys Llanddowror ar lan yr afon Taf, o ddeutu deng milltir i'r deorllewin o Gaerfyrddin, ac ar gyffiniau swydd Benfro."—Llyfr. y Cymry, t. 73

Digitized by Google

Gronwy." Nid ydym yn gwybod gyhoeddi o Robert Holland y traethawd hwnw byth ei hunan; ond cyhoeddodd Stephen Hughes ef yn 1681, mewn cyssylttiad a "Chanwyll y Cymru," sef gwaith Mr. Rees Prichard, gynt ficcer Llanddyfri, dan yr enw,—

"Dau Gymro yn Taring yn Bell o'i Gwlad, Ac yn ymgyfwrdd ar fynydd, yn chwedleua am a welson ac a glywson ynghylch consurwyr, rheib-wyr, dewiniaid, a'r fath."

Yr oedd y pechod ynfyd o ymofyn â dewiniaid, fel y gelwid hwynt, yn ffynnu yn erchyll yn amser S. Hughes yng Nghymru, ac ymhell ar ol hyny, ysywaeth; a dïau y gwnaeth y byr-draethawd hwn lawer o les yn ei amser. Nid ydym yn gwybod iddo gael ei gyhoeddi byth ar ol na chyn yr argraphiad crybwylledig o *Ganwyll y Cymry;* a chan fod hwnw weithian yn bur brin, dodwn ychydig esamplau o'r ymgom ger bron, fel y gwelo'r darllenydd y dull yr âi duwiolion yr oes honno yn erbyn yr ynfydrwydd dewinol:—

"TUDYR.

"Dydd-da a fo i Ronw a chroeso duw wrtho adref, fo a fu hir gennyf (a minne yn ddiarth ymma) am eich gweled, a chael peth gwybodaeth gennych am yr hyn a glywais vn yn darllen yn llyfr y diharebion,* lle mae dihareb yn son am fwrw cath i'r cythrel, pa beth oedd feddwl y neb a ddywad hynny yn gyntaf?

"*Gronw.* Dydd-da a fo i Dudyr a chan dydd-da a fo iddo, rhag mwyned a fydde i chwedleu: nis gwn i beth yw bwrw cath i'r cythrel,† onid bwrw iddo beth diphaith tebig iddo ei hun, i gyflawni dihareb arall sydd yn dyweyd yr ymgais pob cyphelib, a gwir meddant hwy yw pob dihareb: mi a fedrwn ddyweyd i ti chwedl tebig i'r hyn a ofynnaist, ond nad yw'r amser yn gwasanaethu na minne yn cael arfod.

"*T.* Y mae Gronw amser i bob peth, ti a fuost ddyn mwyn, llinia'r gwadn mal y bo'r troed, a chymmer beth arfod er nas gelli aros yn hir i chwedleua a chymmydog a'th car, ac oedd yn hir gantho am danat adref.

"*Gr.* Nid erys mall traeth ar Owain: etto nis medraf mo'r ymmado a thi, pan ymgyfarfyddom yr wy yn tybiaid mai swynwr wyt a'th fod yn fy rheibio.

"*T.* Nage Gronw: nis gwn i oddiwrth y gelfyddyd honno, nis bu arnaf fwy ofn pobl erioed na rheini.

"*Gr.* Tudyr, ofna dduw yn vnig. nis gallant hwy ddrwg i neb ond hyd a bo duw yn dioddef, naill ai er profi phydd i blant, mal y dioddefodd i'r cythrel brofi Job: neu er cospi annuwioldeb drwg ddynion: ond ysyweth y mae diafol yn cael methel ar lawer, nid aw-ni y rowan i chwilio am yr achos.

"*T.* Hynny Gronw a wnaeth i mi ryfeddu, a gofyn i ti beth oedd fwrw cath i'r cythrel: canys myfi a debygwn mai aberth rhyw ddewin, swynwr, rheibiwr neu'r fath i'r cythrel a fyddai'r gath a fwrid iddo felly: a digon tebig fod diafol yn gorchymmyn iw weision aberthu rhyw beth iddo ynte, mal yr ydoedd plant Israel i dduw.

"*Gr.* Gwir yw Tudyr: ac agos i mi a gillwng tros gof fy chwedl, y mae yn gyphelyb fod gormod o rhai sydd yn cymmeryd arnynt i bod yn gristnogion da, etto tan law yn ophrymmu aberth i'r cythrel, canys pan oeddwn y gayaf diweddaf oddi gartref, yn Albania, fo a ddigwyddodd i mi letteuaf yno, yn-nhy henawgwr glan, lle yr ydoedd o honom yn wyr, yn wragedd, ac yn bobl iefaingc loned y ty, a'i harfer yw yno hir-nos gayaf eistedd wrth tan yn ol swpper, a dywedyd chwedleu i ddyfyru yr amser: ac mal yr oeddwn yn glustagored ddigon i wrando ar bawb, cyntaf dim aeth son am dano, oedd am yr hyn yr wyf yn i ofyn: ebr vn wrth tan ai gwir yw bod rhai weithie yn bwrw cath i'r cythrel? nis gwn i ebr arall am gath, ond myfi a glywais fod gwr cywoethog o'n gwlad ni yn rhoi myharen neu fustach tew bob nos glanmai i'r cythrel: pa fodd y galle efe hynny, ebr finne? Y mae efe ebr ynte weithie yn cymmeryd yr anifail ac yn i rwymo mewn man dirgel ar y mynydd, ac y mae'r cythrel neu ryw beth yn i gyrchu oddi-yno yn ddi daring, nis gwelir mo hwnnw mwy yn pori ar y mynydd: ac weithie y mae efe yn i fwrw tros glogwyn i dorri i wddwf, hyd y gwn i dyna aberthu i'r cythrel, canys fo a fydde anhawdd gantho rannu rhwng y tlodion gymmaint mewn deng mblynedd ac y mae efe yn i roi ar vn waith i ddiafol. Nawdd duw ebr llangcessan iefangc a oedd yn eiste ynghornel y simne, a alle mai wrth wasanaethu 'r cythrel a rhoi aberth iddo yn y modd hwnnw yr aeth ein cymmydog mor gyfoethog? myfi a glywais fy mam yn dywedyd nad oedd ond gwan i ddechreuad ef, a gwaelach i genedl, ond efe a aeth yn ymmerodr o gyfoeth o fewn ychydig amser: ac yrowan pwy mewn gwlad fonnheddiccach nag efe? A fydd ebr finne cyn galled ar phola eich cymmydog yn bwrw cath i'r cythrel, ac yn aberthu iddo nos glanmai? Nis gwn i ebr y fechan gofynnwch i'm-mam: ac yno ebr hen-awgwraig lan oedd wrth tan (ac hyd y gwn i mam yr iefangc oedd honno) gwae a gapho ddrygair yn iefangc: y mae'r gwr bonheddig y mae'r fechen gymmen accw yn son am dano wedi cael enw drwg yn hir o amser, o'i fod yn ymgyrchu a'r cythrel ac yn rhoi llawer eidion teg iddo: ac myfi a glywais (pan oeddwn yn oedran y gras beth phraeth accw) hen wr oedd dad i mi (yr hwn a fuase ymdeithiwr mawr ac yspys-iawn ymmhob gwlad) yn fynych yn dywedyd i fod yn adnabod gwr yn taring rhwng Llydew a Llychlyn a oedd yn ophrymmu aberth i'r cythrel yn yr vn modd ac y mae ein cymmydog ninne: mal nad peth newydd neu ammheuthyn mo'r chwedl a glywsoch: ac yr ydoedd hwnnw (medde efe) yn gyfoethog ddigon. Os ebr vn pob yn eilwaith (mal y rhed y cwn) y dywedwn chwedleu, minne a gaf ddywedyd chwedl bellach: gwrandewch arno ebr finne: yno ebr ynte, yr ydoedd gwr iefangc wedi priodi hen wraig-weddw gyfoethog o'n hymmyl ni, fo a ddigwyddodd ddyfod haint ymmhlith i dda a marw iddo o ychen, o wartheg, ac o gephyle lawer, ac ynte (nis gwn ai trwy gyngor arall ai o'i ynfydrwydd ei hun) a rwymes gephyl byw wrth bont, ac au hamgylches a chynnyd, ac a wnaeth dan wrtho nes i losgi yn lludw: beth meddwch a'i bwrw cath neu ophrymu aberth i'r cythrel yr ydoedd hwnnw: ode drwg y tycciodd iddo, canys cyn i farw, braidd y tale yr hyn a fedde werth y cephyl: wele ebr pawb mor wir y ddihareb, *drwg y ceidw diafol ei was.* * * * Wele ebr fi hi aeth yn bell o'r nos wrth chwedleua, ac nis gedy cyscu i mi eich atteb ddim amgen na hyn, mai pobl ddrwg annuwiol yw y rhai yr ych yn son am danynt, a thrwy help y cythrel y maent hwy yn cael yr yspyssrwydd sydd ganthynt a'i gwybodaeth i gyd, duw a'u cadwo rhagddynt, ac a roddo noswaith dda i chwi bawb oll: can noswaith

* Y "Diarhebion" Cymreig, yn ddiau, a feddylir yma, ac nid "Diarhebion Solomon." Yr oedd y Cymry gynt yn dra hoff o'u diarhebion, ac nid gwaeth pe bai'r oes hon hefyd yn gynnefinach â hwy nag â'r ffugchwedlau diles y gwastreffir cymmaint o amser i'w darllen. Dywed y Dr. Richard Davies, Esgob Mynyw, yn ei Epistol campus sydd o flaen Testament Salesbury, bod amryw o'n diarhebion ni wedi eu tynu "o berfedd yr Scrythyr 'lan, ac o ganol Efengil Christ."

† Tybia rhai mai "bwrw *caeth* (nid *cath*) i gythraul," sydd gywir, a bod y ddihareb wedi ei chymmeryd oddi wrth arfer yr hen Dderwyddon yn aberthu'r *caethion* a gymmerid mewn rhyfel, ac eraill, i'w duwiau, fel y datgan y prif awduron y gwnelent.—Cæsar De Bell. Gall. l. vii., c. 16; Strabo, l. iv.

Digitized by Google

dda i chwithe ebr pawb oedd yno heb gyscu, ac mal hyn yr ymadawsom y nos honno, a thrannoeth myfi a genais yn iach a'm lletteuwr ac a dynnais tu ac adref, man oedd hir gen i am fod ynddi.

"*T.* Wrth hynny Gronw gwir fyth yw pob dihareb, gwedi rhodio pob llef hawdd fydd i gartref: ac weithian er duw dywed i minne yr hyn a adewaist heb ddywedyd yno am y bobl ddiphaeth heini, y mae llawer yn coelio i bod hwy yn medru llawer o bethau, ac myfi a wn lle y mae vn yr ydys yn cyrchu atti o bell o phordd am swynion i dda ac i ddynion.

"*Gr.* Tudyr cystal yw bwytta y cig ac yfed y cawl: brawd yw mugu i dagu: y mae'n gystal myned at ddiafol i hun ac at y rhai sydd yn i wasanaethu ac yn cael yspyssrwydd a gwybodaeth gantho: y mae efe mal y dywedais o'r blaen yn cael methel ar y rheini, ac ar y rhai sydd yn cyrchu attynt hwythau, gan dybiaid nad oes niwed yn hynny, ie mai da-iawn a chall y maent hwy yn gweithio o fyned at y rheini, am i bod yn cael yspyssrwydd a help ganthynt am lawer • bethau.

"*T.* Yn wir Gronw, myfi a glywais rai a fuase tros eraill gyda'r fath yn dywedyd gael o honynt hwy yspyssrwydd am a'r oeddynt yn i ofyn: ac eraill yn dywedyd weled o honynt hwy rai cleifion yn gwella ar ol swyno iddynt.

"*Gr.* Dyna mal y mae duw yn dioddef i'r cythrel ddallu y gwrthodedig: canys nis geill y cythrel na helpu na gwaethygu ar neb ond cyhyd ac y bo duw yn dioddef.

"*T.* Pa ddrwg y sydd yn dyfod o fyned at y rhai y mae duw yn dioddef iddynt wneuthyr daioni?

"*Gr.* Gwael yw'r daioni a wna'r cythrel a'i weinidogion i neb, iachau'r corph a lladd yr enaid: canys y mae efe yn denu dynion yn y modd hwn i droseddu a thorri gorchmynnion duw, yr hwn a fynne i ddynion ymhob ing ac adfyd alw arno efe, a pheidio myned at y cythrel trwy geisio help gan i weinidogion ef: y mae'r cythrel yn gyfrwys ac yn anhawdd diangc o'i ddwy-law pan gapho ddim gafael mewn dyn: a dymma'r modd y mae yn ynnill y rhai colledig i roi cred a phydd ynddo efe, trwy anobeithio y gwrendy ac y gwna duw ddim erddynt, neu dybiaid nas geill duw yn gystal, neu nad yw mor barod iw helpu ac yw'r swynwr, y rheibiwr, neu'r fath.

"*T.* Pe buase ddrwg gan dduw (yr hwn a wydde bob peth) i ddynion ymofyn ac ymgynghori a rhain, fo a fuase yn i air yn peri i ddynion nad ymgyrchent attynt hwy: canys y mae gwyr o ddysc yn dywedyd, fod duw wedi yspyssu yn i air bob dim er sydd reidiol i iechydwriaeth dyn.

"*Gr.* Gwir yr wyt yn i ddywedyd Tydur am ragwybodaeth a rhagweledigaeth duw: y mae gair duw yn dangos yn gyflawn ddigon bob dim rheidiol i'n hiechydwriaeth ni: ac am hynny gwrando dithe bellach pa beth y mae'r Scruthyr-lan yn dywedyd am y bobl annuwiol heini: Nac edrychwch am ddewiniaid ac nag ymgynghorwch a'r brudwyr i ymhalogi o'i plegid, yr Arglwydd eich duw ydwyf fi. Lef. 19. 31.

"Ni thybiais er-ioed fod gair duw yn son am reibwyr, brudwyr na'r fath: y mae yn rhyfedd gan i wrth glywed am hyn, paham y mae gwyr synhwyrol sydd yn gwybod y scruthyr lan yn gwneuthyr cymmaint cyfri am danynt hwy gan fod gair duw mor eglur yn i herbyn."

Difynu yr Ysgrythyrau ar y pwngc, a'u hegluro, ac atteb gofynion Tudyr yn ei gylch a wna Gronw o hyn i ddiwedd y traethawd, a dywedir y gwnaeth les mawr yn ei amser, gan fod y wlad, pan ysgrifenwyd ac yr argraphwyd ef, yn hynod o ofergoelus a thywyll, yn enwedig gyd â golwg ar swynion a dewiniaeth. Nid oedd dim Bibl Cymraeg mewn un man pan ysgrifenwyd y traethawd hwn, ond mewn ambell eglwys blwyfol, a hyny yn bur anaml, canys bernir nad argraphwyd mwy na rhyw 500 copi o Fibl y Dr. Morgan,* tra'r oedd nifer yr eglwysydd, yn ol Walker,† o ddeutu 800, heb law yr eglwysydd cadeiriol a'r capeli anwes.‡ Gan hyny y mae'n anhawdd i ni, yn yr oes hon, pan y mae'r Biblau, trwy drugaredd, yn llawer lliosocach na'r tai annedd, wybod gwerth traethawd Robert Holland yn yr oes yr ysgrifenwyd ac y cyhoeddwyd ef.

Y mae un peth ynghyfansoddiad y llyfryn hwn, ac amryw eraill a ysgrifenwyd ar ol cyhoeddi Bibl y Dr. Morgan, ac a argraphwyd yn oed ar ol cyhoeddi Bibl y Dr. Parry, sy'n anhawdd braidd rhoi cyfrif am dano, sef bod eu llythyraeth a'u gwahannodiad mor hynod o annhebyg i'r eiddo y ddau gyfieithiad godidog hyny; tra y mae eu llafarwedd neu eu hymadroddiad yn llithrig a Chymreigaidd, yn lled debyg i ymadroddiad y ddau gyfieithiad. Nis gallwn dybied am fynud mai anallu gwŷr o ddysg a gwybodaeth Robert Holland a Stephen Hughes, ac eraill cyffelyb, oedd yr achos o hyn. Yr hyn a ymddengys i ni yn debyg ydyw, eu bod yn llythyrenu mor debyg ag y medrent i lafar gwlad, er mwyn gwneud eu gwaith mor ddealladwy i'r werin bobl ag oedd bossibl; er y tybiwn ni y cyrraeddasent yr amcan hwnw, yn y pen draw, yn well pe dilynasent lythyraeth cystal a llafarwedd ein cyfieithiadau godidog o'r Ysgrythyrau.

Credu yr ydym hefyd na chyrhaeddwn ninnau, na'n holafiaid, byth unffurfiad yn llythyraeth ein hiaith, am yr hyn y mae cymmaint o ystwr wedi bod er ys mwy na hanner can mlynedd bellach, nes y cyttuno ein llenorion i gymmeryd llythyraeth y Bibl yn safon, canys deil "Llyfr y Llyfrau" berthynas gyffelyb â'r Gymraeg ag a ddeil y *Times* ac ysgrifeniadau seneddol â'r iaith Saesneg; ac yr ydym ni yn falch o hyny. O herwydd paham, od oes angen newidiad yn ein llythyraeth o gwbl, yr hyn sydd led amheus ar y cyfan, yn llythyraeth y Bibl y dylid gwneuthur y cyfryw newidiad.

Arweiniwyd ni i'r osgoad byr yma gan lythyraeth hynod traethodyn Robert Holland. Yn awr at ein hawdur etto, dros ychydig amser. Dywed Charles Edwards y trodd Robert Holland Gatecism Mr. Perkins yn Gymraeg ymhen dwy flynedd ar hugain ar ol iddo gyfansoddi yr "Ymadrodd."

* Y Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639. † Walker's Sufferings of the Clergy. ‡ Chapels of Ease.

Digitized by Google

# LLYFR III.

---

## ENWOGION YR AIL GYFNOD: O 1603 HYD 1649.

### IAGO I. A CHARLES I.

### PENNOD I.

#### SYLWADAU CYFFREDINOL.

CYFNOD terfysglyd dros ben oedd hwn mewn byd ac eglwys, yn enwedig tu a'i derfyn. Yr oedd y ddau ddihiryn gwagsaw a deyrnasent ar y wlad yn ystod y cyfnod yma, sef y tad a'r mab, Iago I. a Charles I., wedi disgyn yn syth o'r Tuduriaid Cymreig galluog, gormesol, a phenderfynol, canys mab oedd Iago I. i Mari, brenhines yr Ysgotiaid, merch Iago V., mab Iago Stuart (Iago IV. o Ysgotland), yr hwn a briodasai Margaret, merch hynaf Harri VII.; a thad Iago I. oedd yr Arglwydd Darnley, mam yr hwn oedd Margaret, merch Margaret, merch hynaf Harri VII. o'i hail wr, yr Iall Angus.* Ond er bod yr Iago yma wedi disgyn o'r Tuduriaid trwy gyfrwng tad a mam, etto ymddengys bod essill y Stuardiaid wedi dirywio hyd yn oed y Tuduriaid yn druenus.

Yr oedd teyrnasiad unbenaethol ac egnïol y Tuduriaid uchelfryd wedi parlysu'r Senedd. Yr oedd ei lleferydd yn fyngys ac amherffaith, ac yr oedd y bobl eu hunain fel pe buasent wedi colli nid yn unig yspryd, ond hefyd braidd y traddodiad am ryddid Brytanaidd; am hyny collwyd y cyfleusdra i fynnu diwygiad, a llithrodd y deyrnwialen, heb odid ysgydwad ar yr heddwch, i ddwylaw eiddil a diwerth yr Iago hwn; dŷn, fel y dywaid un ysgrifenydd, "nas gallai na meddwl yn synwyrol, na gweithredu yn egnïol," a alwyd i reoli tynged Brydain, a hyny pan oedd llygaid ac edmygedd holl Ewrop wedi ymsefydlu arni, ar ol teyrnasiad yr alluog, gyfrwys, ormeslyd Elizabeth.†

* Mackenzie's Fam. Hist. Engl. "Genealogical Tree of the Tudur Line, v. ii., p. 7.

† Ferguson's Hist. Engl., v. iii., p. 10.

Mágesid Iago yn y grefydd Bresbyteraidd (Henadurol), a thyngasai ar ei esgyniad i orsedd Ysgotland, un mlynedd ar bymtheg cyn i deyrnwialen Brydain ddisgyn i'w ddwylaw diymadferth, y cynnaliasai efe Bresbyteriaeth yn y wlad honno'n ddihalog yn ol y "Cyngrair a'r Cyfammod Difrifol," ac yn 1590 gwnaeth ddatganiad cyffelyb drachefn o blaid Presbyteriaeth, gan ddifrïo Llyfr Gweddi Eglwys Loegr fel gwasanaeth yr offeren.* Yr oedd yn naturiol, gan hyny, i'r Puritaniaid oedd yn Eglwys Loegr ddisgwyl diwygiadau mawrion yngwasanaeth yr eglwys ar esgyniad Iago i'r orsedd; ond cawsant eu siomi'n aruthr ynddo, canys torodd ef ei holl addunedau a'i lwon, a throdd i bleidio Eglwys Esgobyddol Lloegr. Yn lled fuan ar ol ei esgyniad, galwodd y brenin ynghyd y cynhulliad a elwir Cynhadledd Llys Hampton, a chymmerai arno y cai'r Puritaniaid gystal chwarau teg a'r defodwyr, neu'r ucheleglwyswyr; ond galwyd pedwar ar bymtheg o'r blaid olaf i'r llys, dan arweiniad yr Archesgob Whitgifft, pan na alwyd yno ond pedwar o'r Puritaniaid, dan arweiniad y Dr. Reynolds, a chafodd y rhai hyn eu sarhau yn y modd mwyaf trahaus gan y brenin anwireddus a rhagrithiol.†

Yn Ionawr, 1604, galwodd y brenin drachefn ar Reynolds,‡ ac amryw Buritaniaid eraill, i'w ystafell gyfrin, gan arwyddo ei fod yn awyddus, mewn gwirionedd, am gydsynio â'u cais; ond dangosodd y rhagrithiwr yn fuan mai ei brif am-

* Calderwood's Hist. Church Scot., p. 256.

† Collier, v. ii., p. 673; Strype's Life of Whitgift, p. 570; Neal's Hist. Purit., v. i., pp. 406-520.

‡ Gan y cymmerai'r Dr. Reynolds gymmaint o ddyddordeb yn egwyddorion y Puritaniaid, y rhai oedd ar gael eu gweithio allan weithion yng Nghymru, tybir yr hoffai rhai gael hanes fer am dano, er mai Sais ydoedd, fel llawer eraill o'r Puritaniaid.

Enw beddydd y gwr enwog hwn oedd **EDWARD REYNOLDS**, yr hwn a anwyd yn Southampton, yn y fl. 1599. Addysgwyd ef yng Ngholeg Merton, yn Rhydychain, a chafodd y radd o B.A. yn Hydref 15, 1618; ac yna aeth yn gymmrawd yr un coleg. Ynnillodd ei ysgolheigdod

can oedd cael cyfle i ddangos ei ddysg a'i fedr mewn dadl, am y rhai y coleddai'r farn uwchaf.* Gwnaed rhyw ychydig o gyfnewidiadau dibwys ynghyfarwyddiadau y "Llyfr Gweddi Cyffredin," ac yn y Litani, lle y dodwyd erfyniadau byrion dros y brenhinol deulu ac ynghylch y tywydd, a'r cyffelyb. Cyhoeddwyd y cyfnewidiadau hyn trwy awdurdod y brenin, ac arferwyd hwy'n gyffredinol, er na chawsant erioed awdurdod y Senedd. Yr unig les a ynnillodd y Puritaniaid trwy'r ffug gynnadleddau a nodwyd, oedd cael cyfieithiad Saesneg gwell o'r Bibl, yr hwn yw'r cyfieithiad awdurdodol hyd y dydd heddyw. Canlyniad arall i'r ffug ddadleuon crybwylledig, pur wahanol i'r olaf, oedd gwaith y brenin "yn gorchymmyn i'w holl ddeiliaid gydymffurfio â'r drefn sefydledig yn Eglwys Loegr, ac yn rhybuddio pawb i beidio disgwyl dim ychwaneg o gyfnewidiadau, gan fod ei ymroddiadau ef wedi eu llwyr sefydlu." Gwnaed hyn, fel llawer o bethau eraill, gan y brenin hunanol a mympwyol yma, heb awdurdod y Senedd, fel y profwyd yn effeithiol yn ystod y teyrnasiad nesaf.†

Bu dadl drachefn cyn diwedd y flwyddyn hon (1602) ynghylch arwydd y groes ym medydd, rhwng y Dr. Rudd, Esgob Tŷ Ddewi, o blaid y Puritaniaid, a'r Dr. Bancrofft, Esgob Llundain, o du'r defodwyr hanner Pabyddol. Er na bu'r canlyniad o nemmor les i'r Puritaniaid, o herwydd bod y brenin rhagrithiol mor bleidiol i ddefodau Pabaidd yr Eglwys Sefydledig, etto credir yr hoffai amryw weled pa fodd y dadleuai yr Esgob Cymreig (Sais o genedl) yn eu herbyn. Yr hyn a gymhellai efe oedd cariad a chydoddefiad. Dyma fel y llefarai:—

"Yr wyf yn cydnabod hynafiaeth arwydd y groes yn y bedydd, megis y crybwyllir gan Tertulian, Cyprian, Chrysostom, Awstin, ac eraill. Yr wyf yn cyfaddef hefyd i ddechreuad y ddefod hon gyfodi o achos y Paganiaid, y rhai a waradwyddent yr hen Gristionogion am eu bod yn credu yng Nghrist croeshoeledig, ac i'r ddefod hon gael ei chamarfer gan y Pabyddion, ond ei bod wedi ei hadfer genym ni yn Eglwys Loegr i'w phrif burdeb, heb ddim coel-grefydd ynglŷn â hi. Mi ddymunwn hefyd, os parha'r brenin i'w harddodi, ar fod i bawb ymostwng i'w harfer yn hytrach nag ymwrthod â'r weinidogaeth o'i phlegid. Ond yr wyf yn ofni, yn ol yr hanes a gaffwyf, bod llawer o bregethwyr dysgedig, cydwybodau y rhai sydd heb fod dan ein hawdurdod ni, nad ymostyngant i arfer y ddefod hon. Mi ddymunwn, gan hyny, pe cyfarfyddwn â neb o'r cyfryw, gael fy nghynnysgaeddu ym mlaen llaw, gan rai o honoch chwi, â rhesymau digonol i'w boddloni hwynt ynghylch rhai o'r pethau a ddywedwyd yma'n bresennol.

"Gan yr haerir bod llawer o Ysgrythyrau dros yr arfer o arwydd y groes, megis, 'Na atto Duw i mi ymffrostio ond ynghroes ein Harglwydd Iesu Grist,' ac eraill o'r un sylwedd: os digwydd i neb o'r farn wahanol ddyfod attaf, a dywedyd bod yr Ysgrythyrau hyn yn gyffelybiaethol, ac yn arwyddo dïoddefiadau a marwolaeth ein Iachawdwr Crist, a bod tynu rheswm oddi wrthynt i gyfiawnhau arwydd y groes yn y bedydd yn fath o dwyll ymresymiad annigonol: pa atteb a roddaf iddynt?

"Yn gymmaint ag i wrthwynebwyr y ddefod hon ddywedyd yn y gymdeithasfa a fu yn Llys Hampton, y dylid diddymu arwydd y groes yn y bedydd, o blegid iddi gael ei chamarfer gan y Pabyddion, megis y maluriodd Hezeciah y sarph bres, am fod y bobl yn arogl-darthu iddi; a'r atteb canlynol gael ei roddi iddynt, sef y gallasai Hezeciah, pe buasai yn ewyllysio, gadw'r sarph bres heb ei malurio, wedi iddo beru i'r bobl beidio arogl-darthu iddi; yn ganlynol, bod awdurdod gan y brenin i ddiddymu neu gadw arwydd y groes mewn ymarferiad, er iddi gael ei chamarfer gan y Pabyddion. Ond, o daw rhywun ataf, a dywedyd nad yw'r atteb yma yn ei foddloni ef, o herwydd bod gan y Purtaniaid yn awr gymmaint o achos i ddeisyf ar y brenin ddiddymu arwydd y groes yn y bedydd ag oedd gan yr Israeliaid duwiol i erfyn ar Hezeciah falurio'r sarph bres, o blegid bod y Pabyddion yn ein plith ni yn cam-arfer y naill i goel-grefydd, megis yr oedd yr Israeliaid yn cam-arfer y llall. Pa atteb cadarn a roddaf i'w boddloni?

"Gan i chwi ddywedyd heddyw fod yn addas ac yn angenrheidiol cadw coffadwriaeth o groes Crist, trwy'r moddion hyn; os daw rhywun o'r blaid wrthwynebol ataf fi, a dywedyd y gall coffadwriaeth o groes Crist gael ei chadw yn fwy sicr trwy bregethu athrawiaethau yr efengyl, sylwedd y rhai yw Crist croeshoeliedig, ac iddo gael ei bregethu mor fywiog i'r Galatiaid a phe buasai ei gorph wedi cael ei groeshoelio yn eu plith; ac etto nad oedd croes weledig yn yr eglwys y pryd hyny: dymunaf wybod pa atteb i'w roddi iddynt?

"Ymhellach, yr wyf yn haeru bod y cyfan a ddywedir genyf fi yma heddyw yn cael ei ddywedyd mewn ffordd o gynhygiad, ac nid mewn ffordd o wrthwynebiad, a bod y cyfan yn tueddu at heddwch yr eglwys; o blegid ystyriaf bod llawer o wahaniaeth rhwng yr hyn sydd gyfreithlon a'r hyn sydd gyfaddas; a rhwng y rhai sydd eglwys-

iddo glod yn forau. Yn 1622 dilynodd y Dr. Donne fel pregethwr Gwestty Lincoln; ac yn 1630, cyflwynwyd ef i fywiolaeth Bramston yn Northamptonshire. Gan fod ei egwyddorion yn Buritanaidd, appwyntiwyd ef yn un o dduwinyddion Cymmanfa Westminster. Ni chymmerth ei eisteddle hyd y 14ydd o Orphenaf, ac ni chymmerth lw'r cyfammod hyd y flwyddyn ganlynol. Ni chymmerth ran amlwg yn ei dadleuon, er bod ganddo law yn yr ardystiadau, y Cyfarwyddiadur, a'r Gyffes Ffydd; a bu hefyd mewn rhai o'r "ymweliadau" (*visitations*). Pan fwriwyd y Dr. Fell ymaith yn 1648, gwnaed ef yn ddeon Eglwys Crist, Rhydychain, ac yn is-ganghellydd yr athrofa. Ar ol dïenyddio Charles I., gwnaed llw newydd a elwid yr Ymrymiad; gwrthododd Reynolds ef, a gwnaed y Cymro, y Dr. John Owen, y duwinydd Seisnig mawr, yn ddeon Eglwys Crist, Rhydychain, ac yn is-ganghellydd yr athrofa, yn ei le. Weithian ymneillduodd Reynolds i'w fywiolaeth yn Bramston, ac yn fuan wedyn dewiswyd ef yn ficar St. Lawrence Jewry, Llundain, appwyntiad a ddaliodd efe hyd adferiad Charles II. Yn 1660, pregethodd ger bron y Senedd, pan y datganodd ei olygiadau ar sefyllfa'r genedl yn dra diduedd a chymmedrol. Appwyntiwyd Reynolds yn un o'r gweinidogion oedd i fod gyd â'r brenin yn Breda, Holland; ac wedi iddo gyrraedd yno, appwyntiodd Reynolds i fod yn un o'i ddeg caplan Presbyteraidd. Dadleuodd yn egnïol yng Nghynnadledd Savoia, yn Sardinia, o blaid mesurau cymmodol. Dywed Baxter ei fod "yn ddyn gwir onest; ond o blegid ei dynerwch a'i barch gormodol a llwfr i ddynion mawr, ei fod yn gwbl anghymmwys i ymgystadlu â hwynt." Yn 1660, derbyniodd Esgobaeth Caercynan (Norwich), er nid ychydig o dramgwydd i'r rhai yr arferai efe gydweithredu â hwynt. Bu farw'r Esgob Reynolds ar yr 28ain o Orphenaf, 1676, yn yr 76ed flwyddyn o'i oedran.

Yr oedd Reynolds yn meddu mwy o gatholigrwydd nag o rym cymmeriad. Calfiniaeth oedd ei dduwinyddiaeth, ac y mae ei waith yn arddangos meddwl iachus a dysgeidiaeth odidog, ac y mae'r cyfan wedi ei dymheru âg yspryd addfwyn a rhyddfrydig.—Imp. Dict. of Univ. Biog., v. iii., p. 800.

* Collier, v. ii., p. 862.

† Neal's Hist. Purit., v. i., pp. 322-332.

Digitized by Google

rwygwyr a'r rhai sydd ammheus yn unig ynghylch rhai defodau, ond yn wŷr dysgedig, myfyrgar, pwyllgar, ac onest.

"Bwrier fod yn well gan y gwŷr hyn ymadael â'u bywiolaethau, a'r weinidogaeth hefyd, na chydymffurfio â'r defodau, er nad wyf yn eu cyfiawnhau am hyn, fe welir eisiau eu gwasanaeth hwy yn y fath amser a hwn, ac sydd yn galw arnom ni a hwythau i roddi deheulaw cymdeithas y naill i'r llall, a myned law yn llaw yn erbyn y gelyn cyffredin. Heb law hyny, ystyriwch pwy a fydd yn gorfod eu difuddio hwy, ond nyni yr esgobion; a phâr hyny iddynt hwy a'u cyfeillion godi'r fath ddadwrdd i'n herbyn, fel y byddwn mewn perygl o gael ein casâu i'r eithaf.

"Cofiwch hefyd pa fodd y bu pan ddinystriwyd yr holl Benjaminiaid ond chwe channwr, ac y tyngodd gwŷr Israel, yn eu llidiowgrwydd, na roddai un o honynt ei ferch yn wraig i Benjamin. Er iddynt hwy ddïoddef yn gyfiawn, etto edifarhaodd eu brodyr drachefn, a dywedasant, 'Torwyd ymaith heddyw un llwyth o Israel,' ac arferasant eu holl ddyfais i adfer y llwyth hwnw drachefn. Yr un modd, os bydd i'r brodyr dywededig gael eu difuddio o'u lleoedd am y peth hyn, y mae'n sicr genyf y dylem ddyfeisio hyd eithaf ein gallu iddynt gael lleoedd i arfer eu doniau.

"Etto, o bydd i gynnifer cant o Buritaniaid ymadael â'u gofalon, pwy a ddaw yn eu lle? Ni wn i pa le i gael cynnifer o bregethwyr awdurdodol o fewn yr holl deyrnas heb leoedd. Ond bwrier bod nifer digonol yn y deyrnas, gwell fyddai sefydlu y rhai hyny yn lleoedd yr offeiriaid nad ydynt yn pregethu, nag yn lleoedd y rhai a droir allan. O blegid, os sefydlir hwy yn lleoedd y rhai a droir allan, fe ganlyn, yn gyntaf, na bydd nifer y gweinidogion sy'n pregethu ddim yn lliosocach; yn ail, na ellir diwallu yr eglwys â gweinidogion mor gymmwys yn union-gyrch; o blegid er y gall y cynhorthwy newydd fod yn wŷr dysgedig o'r athrofâu, etto ni allant dros ryw amser fod mor gyflym eu doniau, nac mor brofiadol mewn dyledswyddau gweinidogaethol, nac mor bwyllog yn eu hymddygiad, a rhai wedi treulio blynyddoedd yn y weinidogaeth.

"Heb law hyny, gan na chymhellwyd y pethau hyn mor ddirfawr yn amser y diweddar Archesgob Caergaint, ond cafodd llawer o bregethwyr dysgedig fwynhau eu rhyddid ar yr ammod na wnelent ddim ar air na gweithred i aflonyddu'r sefydliad eglwysig, dymunwn wybod paham y gelwir arnynt mor gyffredin yn awr, pan y mae mwy o Babyddion yn ein plith nag oedd ychydig amser yn ol?

"Yn ddiweddaf, os na ellir, trwy anfon deisyfiad at y brenin, symmud ymaith y rhwystr yn hollol, na chael goddefiad i'r rhai sydd fwyaf diysgog a chymhedrol eu hymddygiad; etto, dymunwn o leiaf gael lleihad o'u cospedigaeth."

Attebwyd Esgob cymhedrol a heddychgar Tŷ Ddewi gan Esgobion eithafol a hanner Pabaidd Llundain, Caerwynt,* Ely, a Chaerlwytgoed;† ond pan gyfododd efe i'w hatteb drachefn, cafodd ei rwystro gan flaenor y gymmanfa. Yna ymostyngodd Esgob Tŷ Ddewi, gan ddywedyd, "Yn gymmaint ag nad oes dim yn fwy anwyl genyf na heddwch yr eglwys, yr wyf wedi penderfynu arfer y moddion gorau a allaf i ddwyn pawb i undeb a chydffurfiad â mi fy hun a'm holl frodyr parchedig."‡ Felly terfynodd y ddadl y waith hon etto o blaid defodwyr Pabaidd Eglwys Loegr; ond y c nlyniad fu, gwneud yr Eglwys Sefydledig yn drahaus ac erlidgar, nes yr aeth, o dipyn i beth, yn atgas yn oed yngolwg ei haelodau mwyaf duwiol a chydwybodol ei hunan, ac y cynhyrchodd Ymneillduaeth trwy'r holl wlad, yn enwedig yng Nghymru; y fath, fel y ceir gweled rhag llaw, ag a gynhyddodd yn barhaus, hyd y dydd heddyw, fel y mae wedi dwyn yr hen sefydliad gwladol o grefydd, erbyn hyn, i fin "dadsefydliad a dadwaddoliad;" a barn lliaws ydyw mai gorau po cyntaf y digwyddo hyn, er lles crefydd, yn oed yn y Sefydliad Gwladol ei hun, cystal ag yn eglwysi yr Ymneillduwyr yn y wlad.

Yn fuan ar ol y ddadl grybwylledig, yn yr un flwyddyn etto (1604), dyrchafwyd Bancrofft, Esgob Llundain, ar ol Whitgifft, i archesgobaeth Caergaint, ac ymrôdd i erlid y Puritaniaid gyd â'r fath greulondeb fel y distawyd, neu yr amddifadwyd, dros dri chant o honynt o'u bywiolaethau; rhai o'r sawl a ysgymmunwyd neu a fwriwyd i garcharau, pan y ffodd eraill o wlad eu genedigaeth er mwyn cael rhyddid cydwybod.§

Fel yr oedd y Brenin Iago yn heneiddio, yr oedd yn myned yn fwyfwy llidiog at y Puritaniaid yn Eglwys Loegr ac allan o honi. Yr oedd y Puritaniaid o gydwybod yn erbyn seremonïau yr Eglwys Wladol, megis darllen y gwasanaeth mewn gwenwisg, troi'r wyneb tu a'r dwyrain ac ymgrymu wrth enwi'r Gwaredwr yn y gwasanaeth, moli Duw ar offer cerdd, cadw'r gwyliau, a'r cyffelyb ddefodau, am na welent sail i'r cyfryw yn y Testament Newydd; ac o herwydd na chydsynient âg ynfydrwydd penboeth y brenin Pabgarol, a'r defodwyr eithafol, gwnelid pob peth a'r a ellid i'w blino a'u poenydio. Yn 1618, cyrhaeddwyd pinacl y gorphwylledd gwrth-Buritanaidd, trwy i'r brenin awdurdodi'r traethawd halogedig a elwid "Llyfr y Chwareuon."‖ Cynllluniwyd y llyfryn anfad yma gan yr Esgob Morton,¶ yn yr hwn lyfr y datgan y brenin, trwy ei offeryn

* Winchester. † Lincoln.

‡ Neal' Hist. Purit., v. i., p. 286; Han. Crefydd, t. 207.

§ Neal's Hist. Purit., v. i., p. 380, &c.

‖ Book of Sports.

¶ Y Thomas Morton yma ydoedd o'r un teulu a'r Cardinal Morton, a wnaed yn Archesgob Pabaidd Caergaint gan Harri VII., ac yr oedd y Thomas hwn mor Babaidd a neb o'i hynafiaid. Cafodd ei addysg athrofaol yng Nghaergrawnt. Wedi amryw ddyrchafiadau, cymmerth y radd o D.D. yn 1606; yna cafodd ddeoniaeth Caerloyw, o'r lle y symmudwyd ef i ddeoniaeth Caerwynt, yn 1609; a'r flwyddyn ganlynol gwnaed ef yn gôr-beriglor Caerefrog. Yn 1616, appwyntiwyd ef yn Esgob Caerlleon, ac yma yr oedd pan y lluniodd y llyfr halogedig a nodir uchod, sef "Llyfr y Chwareuon" Sabbothol. Cafodd yntau beth taledigaeth am ei greulondeb a'i halogrwydd Pabyddol yn ystod y rhyfel fawr gartrefol; ond goddefwyd iddo o'r diwedd ymneillduo i dŷ Syr Christopher Yelverton, yn sir Northampton, lle y bu yn athraw i'w fab Henry, yr hwn a'i cynhaliodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn 1659, ac efe yn 95 oed.—Mackenzie's Imp. Dict. of Univ. Biog., v. iii., p. 460.



Digitized by Google

esgobol dallbleidiol, "Bod ei Fawrhydi yn ewyllysio i'w holl ddeiliaid daionus gael difyrwch, sef na bo iddynt, ar ol i'r gwasanaeth dwyfol ar y Sabbothau derfynu, gael eu haflonyddu, eu hattal, na'u hanghefnogi i fwynhau pob difyrwch cyfreithlawn; megis, i'r meibion a'r merched ddawnsio ynghyd, ac i'r meibion gael saethu, neidio, campio, neu unrhyw chwarau diniwaid arall." Ond nid *pawb* o ddeiliaid ei Fawrhydi Protestanaidd(?) oedd i gael mwynhau y rhagfreintiau hyn! "1. Nid oes un ymwrthodwr, sef Pabydd, i gael mwynhau'r lles a ddeillia o'r datganiad yma. 2. Na neb a'r na bo'n bresennol yn yr holl wasanaeth dwyfol. 3. Na'r sawl nad ymgadwont at eu heglwysydd plwyfol eu hunain, sef y Puritaniaid." Archodd y brenin i'r datganiad halogedig yma gael ei ddarllen yn holl eglwysydd plwyfol y deyrnas gyfunol; ond gwrthododd lliaws o eglwyswyr, er eu clod, gydsynio â chais y dihiryn, "heb ofni llid y brenin."*

Yr oedd Iago bron mor ffyrnig yn erbyn Calfiniaeth ag ydoedd yn erbyn Puritaniaeth, a dengys Bereus iddo lunio chwech o erthyclau hirion er cyfarwyddo'r eglwyswyr pa fodd i ranu eu testynau ac i bregethu arnynt! Pa wedd bynag, ofer a fu ei ymdrech ef a'i holl offerynau ysgeler yn erbyn y Calfiniaid a'r Puritaniaid, canys yr oeddynt yn lliosocach pan fu efe farw yn 1626, nag y buasent erioed cyn hynny.

Yr oedd Charles I., yr hwn a esgynodd i orsedd Brydain ar ol ei dad Iago,† yn llawn mor elynol at y Puritaniaid a'r Calfiniaid, yn yr Eglwys Wladol ac allan o honi, ag ydoedd Iago ei hunan. Ni ddigwyddodd dim neillduol yn hanes Eglwys Loegr tra bu'r heddychgar Archesgob Abbot‡ mewn swydd; ond pan ddiraddiwyd Abbot, y llofruddiwyd Buckingham, ac y symmudwyd yr Archesgob Williams§ o fod yn geidwad y sel fawr, cafodd Laud‖ y ffordd yn rhydd i lawn

* Neal's Hist. Purit., v. i., p. 381-2.

† Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 470.

‡ Mab ydoedd George Abbot i Morris Abbot, brethynwr Guilfford, yn Surrey, ac Alis, ei wraig, y ddau yn bleidwyr cynnes i'r Diwygiad. Ganwyd ef ar y 29ain o Hydref, 1562, a chafodd ei addysg athrofaol yng ngholeg Baliol, Rhydychain. Yn 1597 graddiwyd ef yn D.D., a gwnaed ef yn feistr y Coleg Athrofaol. Tra y gwasanaethai'r swydd o is-ganghellydd y dechreuodd y cweryl rhyngddo a Laud. Yr oedd golygiadau Abbot yn gysson â syniadau y Diwygwyr, ac am hyny o angenrhaid yn ei wneud yn wrthrych gelyniaeth Laud a'i ganlynwyr. Yn 1599 gwnaed Abbot yn ddeon Caerwynt, ac yn 1604 ymddiriedwyd cyfieithu'r Testament Newydd i'r Saesneg iddo, ond yr Epistolau. O blegid ei wasanaeth yn Ysgotland yn 1608, trwy dueddu'r Ysgotiaid i fod yn fwy pleidiol i esgobyddiaeth, gwnaed ef yn Esgob Maes y Cyrph (Lichfield); yn 1609, yn Esgob Llundain; ac yn 1611, yn Archesgob Caergaint. Cymmerai Abbot yr ochr boblogaidd mewn gwleidyddiaeth, a meddai'r gwroldeb o wrthwynebu'r brenin fwy nag unwaith, megis yn ysgariaeth yr Iarll Essex, a chyhoeddiad datganiad y brenin ynghylch y Chwareuon Sabbothol yn 1618, y rhai y gwaharddodd efe eu darllen yn Croydon. Wrth ganfod gwendidau henaint yn cynhyddu, a'i ddylanwad yn y llys yn edwino ar ol marwolaeth y frenhines, efe a ymneillduodd i Guilfford, lle yn 1619 y gosododd efe y garreg sylfaen gyntaf o'i elusendy i lawr, yr hwn a waddolodd efe yn haelfrydig. Wrth hela ceirw ym mharc yr Arglwydd Zouch, yn 1621, lladdodd y ceidwad wrth geisio saethu carw; am hyny cynhygiodd Laud ei ddiswyddo, gan haeru bod yn oed llofruddiaeth ddamweiniol yn anghymmwyso clerigwr i weinyddu pob swydd glerigol. Sylwodd Iago, gyd â rhyddfrydedd canmoladwy y waith hon, "y gallai angel fethu yn y dull yma;" ond yr oedd angenrhaid iddo sefydlu llys i wneud ymchwiliad ffurfiol. Cymhellodd y llys ei fawrhydi i ganiatâu maddeuant arbenig, yr hyn a wnaeth yntau, ac awdurdododd ddirprwyaeth yn cynnwys wyth o esgobion i'w ryddhau oddi wrth bob sen a allai ddigwydd, ac i ddatgan ei fod fyth yn meddu pob hawl ac awdurdod dinasol. Dychwelodd Abbot i'r llys ar ol hyn, ac yr oedd gyd âg Iago pan fu farw yn 1625. Nid hir y parhaodd Abbot yn ffafr y brenin newydd. Archodd Charles iddo ymneillduo i'w dŷ gwledig yn Fford, ac amddifadwyd ef yn ebrwydd wedyn o'i swyddi archesgobol. Pa wedd bynag, symmudwyd yr amddifadiad yma yn 1628, trwy ddeiseb at Dŷ'r Arglwyddi, a pharhaodd yntau i gyflawni dyledswyddau ei archesgobaeth hyd ddydd ei farwolaeth, yn Awst 21, 1633. Rhodd ei gefnogaeth ddiysgog i Ddeiseb yr Hawl a gyflwynwyd i'r brenin, yr hon a fabwysiadwyd yn 1628 gan ddau Dŷ y Senedd. Cyfansoddodd amryw draethodau galluog, yn benaf ar ddadleuon yr amser, a dilynwyd ef yn yr archesgobaeth gan ei hen wrthwynebydd Laud.—Mack. Imp. Dict. Univ. Biog., v. i. 5.

§ Cymro oedd y gwr hwn, a'i enw priod oedd John Williams, mab i William Williams, Ysw., o hen deulu Cochwillan, yn Llandegai, yn sir Gaernarfon, a'i fam oedd Mari, merch Owen Wynn ap Ioan Owen, o Eglwys Fach. Ganwyd ef ar y 25ain o Fawrth, 1582, yng Nghonwy, sir Gaernarfon. Ar ol cael addysg arweiniol yn ysgol Rhuthyn, aeth i goleg Ioan Sant yn Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn 1602 yn B.A., a'r flwyddyn ganlynol cafodd frodoriaeth. Yr oedd ei ddiwydrwydd a'i lwyddiant yn y coleg yn dra chanmoladwy. Yn 1609, cafodd fywiolaeth yn Suffolk, o pherigloraeth Graffton Regis, yn sir Northampton, ymhen dwy flynedd wedyn, at y rhai yr ychwanegwyd côr fywiolaethau yn eglwysydd cadeiriol Caerlwytcoed, Henffordd, Tŷ Ddewi, a Phedr-fwrgais (Peterborough), yn benaf trwy ddylanwad y Canghellydd Egerton (yr Arglwydd Ellesmere), i'r hwn yr oedd efe yn gaplan. Yn 1612, graddiwyd ef yn D.D., a gwnaeth Iago ef yn gaplan brenhinol, a rhoddes iddo ddeoniaeth Caercaradog a Westminster. Pan symmudwyd yr Arglwydd Bacon yn 1621, rhoddwyd y sel fawr i'r Dr. Williams, ac yn fuan wedyn dyrchafwyd ef i Esgobaeth Llwytcoed, tra y daliai y bywiolaethau eraill dan ymddiried. Symmudodd Charles ef o fod yn arglwydd geidwad yn 1626, am nad oedd gymmeradwy gan y Duc Buckingham. Nid oedd dim da chwaith rhwng y Pabaidd Laud a'r Dr. Williams, am yr ystyriai Laud ef yn gefnogwr y Puritaniaid, tra yr ystyriai Williams yntau yn gefnogwr y Pabyddion. Lluniodd y dihiryn Laud, mewn undeb â Buckingham gydfradwriaeth yn erbyn y Dr. Williams; cymmerwyd ei swyddi gwladol oddi arno, a gwaharddwyd iddo fod yn bresennol fel deon ar goroniad Charles I., nac i ymddangos yn ei le yn y Senedd; ond anufuddhaodd i'r gorchymyn olaf, ac amddiffynodd Ddeiseb yr Hawl yn hyawdl a galluog. Yn 1629 dilewyd ei enw o'r cyfrin-gyngor; ac yn 1636 erlyniwyd ef yn Ystafell y Seren. Cyhuddodd ei elyn Laud ef o fradychu cyfrinion y brenin; a chan y cyhuddid ef hefyd o ymostwng i dyngu anudon er ei amddiffyn ei hun, dirwywyd ef i 10,000p., i gael ei garcharu yn y Twr, ac i'w ddifadu o'i holl alwedigaethau. Rhyddhawyd ef yn Tachwedd, 1640. Yr oedd efe yn un o'r rhai a gymhellent y brenin i gydsynio âg anurddiad Stafford, ac, wrth reswm, ymunodd â'r erlyniad yn erbyn Laud. Yn 1641 dyrchafwyd ef i Archesgobaeth Caerefrog, a'r un flwyddyn anfonwyd ef i'r Twr dros amser gan y blaid lywodraethol. Ymneillduodd i Gonwy yn ystod y rhyfel gartrefol, a chadarnhaodd y castell at wasanaeth y brenin; ac ar ol llawer o helbul ynglŷn â'r castell, bu farw yn ddibriod yn Gloddaeth, ger llaw Conwy, ar y 25ain o Fawrth, dydd ei enedigaeth, yn 1650. Aeth etifeddiaethau y Penrhyn a Chochwillan, a brynasid ganddo ef, i'w nai, Syr Gruffydd Williams, yr hwn a wnaed yn farwn yn 1661. Cyhoeddodd rai Pregethau, "Y Bwrdd Sanctaidd, yr enw a'r peth," a thraethawd yn erbyn Laud.—Mack. Imp. Dict. Univ. Biog., v. iii., p. 135-9; Williams' Em. Welshm., p. 526.

‖ Enw'r Pabydd twyllodrus yma yn llawn oedd William Laud, mab i frethynwr yn Reading, lle y ganed ef ar y 7fed o Hydref, 1573. Yn 1589 aeth o ysgol rad ei dref enedigol i Goleg Sant Ioan, Rhydychain, lle y daeth yn gyntaf yn ysgolor; yna, yn 1593, yn frodor; wedyn yn ddarllenydd mewn grammadeg; ac yna cymmerth raddau darlithydd mewn duwinyddiaeth. Mor foran a 1601, dangosodd ei fod yn gwa-

Digitized by Google

swynhau hyder y brenin anwiliadwrus ac ofergoelus, ac i weithio allan ei gynlluniau defodgar a Phabaidd yn Eglwys Loegr hyd eithaf ei foddlonrwydd. Pan fu farw Abbot yn 1633, y brenin, pan ymwelodd Laud âg ef gyntaf, a'i cyfarchodd wrth yr enw, "Eich Graslonrwydd o Gaergaint!" Un o weithredoedd cyntaf yr archesgob newydd oedd defnyddio awdurdod y brenin i ail-sefydlu Llyfr y Chwareuon Sabbothol, oedd erbyn hyn wedi myned allan o arfer; ac anfonodd gyfarwyddyd oddi wrtho ei hun, fel archesgob, i'w gyhoeddi yn yr holl eglwysydd plwyfol ar y Sabbothau.* Gwnaeth y dihirwch yma ddifrod anaele ymhlith y Puritaniaid dros saith mlynedd. Archollai rhai offeiriaid truain er cydwybodau, trwy ufuddhau i'r gorchymyn ysgeler rhag colli eu bywiolaethau; tra y llwyr wrthodai eraill gydsynio ar unrhyw delerau, y rhai a erlid'id ac a gospid yn greulawn.† Ymhlith y Cymry a wrthodasant ddarllen Llyfr y Chwareuon, y sawl a dröed o'u bywiolaethau ac a erlidiwyd, bucheddau amryw o'r rhai a gofnodir rhag llaw, yr oedd un Roberts, ac un neu ddau eraill yn Esgobaeth Tŷ Ddewi; William Erbery, ficar Mari Santes, yng Nghaerdydd, a'i gurad, Walter Cradoc; William Wroth, person Llanfaches, ger llaw Caerffili; a Marmaduke Matthews, ficar Penmain, ger llaw Abertawy. Yr oedd Robert Powel hefyd, ficar Cadoxton, ger llaw Castell Nedd, Morganwg, yn wrthwynebydd penderfynol i Lyfr y Chwareuon; ond ni fynegir pa un a gospwyd ef o'r achos ai peidio. Cydoeswyr â'r enwogion uchod, y rhai a ddygwyd i fynu yn Rhydychain fel hwythau, ond ychydig yn ddiweddarach, oedd Richard Symonds, o Abergefeni; Ambrose Mostyn, o Calcott, yn sir Fflint; a Henry Walters, o sir Fynwy. Yr oeddynt yn coleddu'r un syniadau Puritanaidd a'r gwŷr a nodwyd uchod; ond ni hyspysir iddynt fod mewn bywiolaethau o gwbl, na pha erledigaethau a ddïoddefasant.‡

Yn 1632, cyhoeddodd Alexander Leighton§ lyfryn a'i enw "Dadl Sïon yn erbyn Esgobyddiaeth ...

haniaethu oddi wrth y dduwinyddiaeth a'r egwyddorion eglwysyddol a ffynnent yn Eglwys Loegr er y Diwygiad, trwy ddatgan mewn un o'i ddarlithiau mai Eglwys Rhufain oedd wir eglwys weledig Crist ar y ddaear cyn y digwyddiad hwnw; ac yn y gosodiadau a amddiffynai yn 1604 dros radd o febydd mewn duwinyddiaeth, myntumiai yr angenrhaid o fedydd fel cyfrwng adenedigaeth yn erbyn y Puritaniaid, a'r angenrhaid o esgobyddiaeth fel hanfod y wir eglwys. Cynhyrfodd y golygiadau hyn wrthwynebiad mawr yn Rhydychain, a thynasant gerydd ffurfiol arno yntau oddi wrth y brifysgol, yr hon a lywyddid ar y pryd gan George Abbot, Archesgob Caergaint wedi hyny, am yr hwn y dodwyd hanes dalfyr mewn nodyn blaenorol. Yn 1608, gwnaed ef yn D.D., a daeth yn gaplan i'r Dr. Neile, Esgob Caergraig (Rochester), yr hwn nid yn unig a roddes iddo amryw fywiolaethau plwyfol yn olynol, ond hefyd a'i cyflwynodd i'r brenin. Yr oedd Iago I. weithion wedi troi, fel y crybwyllwyd yn y testyn, o fod yn Bresbyteriad proffesedig ac yn gondemniwr y Llyfr Gweddi Gyffredin, fel gwasanaeth yr offeren, i fod yn uchel-eglwyswr Seisnig; am hyny yr oedd Laud yn dduwinydd wrth fodd ei galon. Ymddyrchafodd yn gyflym yn ffafr y brenin; ac er i'w ddylanwad gael ei wrthsefyll yn rymus yn y llys dros amryw flynyddau gan yr Archesgob Abbot a'r Canghellydd Ellesmere, etto ni rwystrodd hyn iddo gael ei wneud yn gaplan brenhinol yn 1611, ac yn ddeon Caerloyw yn 1616. Pan aeth Iago i Ysgotland i wthio Eglwys Loegr ar y wlad honno, cymmerth Laud i'w ganlyn; a dywedir mai i'w ddylanwad ef y gellir priodoli mabwysiad Erthyclau Perth. Wedi dychwel o Ysgotland, gwnaed ef yn gôr-beriglor Westminster, ac yn 1621 yn Esgob Tŷ Ddewi. Yn awr y dechreuodd roi llawn rwysg i'w hoff olygiadau. Yr oedd ei Erthyclau Ymweliad (*Visitation Articles*) yn 1622 yn ddatganiad rhyfel yn erbyn Puritaniaeth, ac yn orfodaeth i arfer yr holl hen addurniadau a defodau Pabaidd yn ei esgobaeth, y rhai a ddileasid yn bennodol trwy gyfraith er amser y Diwygiad. Gwelid portreiadau, canwyllbreni, cylchleni allorawl drudfawr, a ffenestri lliwiedig etto yn holl eglwysydd Deheubarth Cymru; tröed y bwrdd cymmun yn allor, a gwahanwyd yr allor gan gysgodlen oddi wrth rannau mwy anghyssegredig yr eglwys. Hefyd, archwyd pengrymu i'r allor, a chafwyd archeb frenhinol, trwy ddylanwad Laud, yn caeth wahardd i'r clerigwyr bregethu ar y pyngciau o ragarfaeth ac etholedigaeth. Yr oedd yn amlwg i'r genedl fod yr eglwys weithion i gael ei dad-Brotestaneiddio o ran athrawiaeth ac addoliad, a bod y rhan fwyaf o waith duwinyddion y Brenin Edward a'r Frenhines Elizabeth i gael ei ddad wneuthur. Dechreuodd y Pabyddion goleddu gobeithion newyddion, a dechreuodd yr arfer eglwysyddol newydd effeithio ar y pendefigion a'r boneddigion, trwy i aml un o honynt droi yn ol at Babyddiaeth. Ac y mae defodau Pabaidd Laud ac Iago; y portreiadau, yr addurniadau eglwysyddol, yr allorau, y pinaclau, y clochau, y ffenestri lliwiedig, y gwisgoedd offeiriadol, a'r cyfryw, yn para yn yr Eglwys Sefydledig hyd y dydd hwn; ac y mae llawer yn barnu bod amryw o honynt yn prysur ymlusgo i gapelydd yr Ymneillduwyr, canys gwelir aml un o honynt hwythau weithion yn meddu ffenestri lliwiedig, tyrau, ac organau; a bernir nad yw'r pethau hyn a'u cyffelyb ddim amgen na gweddillion "Babilon fawr, mam puteiniaid a ffieidd-dra y ddaear."

Pan esgynodd Charles I. i'r orsedd yn 1625, gwelwyd yn ebrwydd fod Laud yn fwy o hoffddyn gan y brenin newydd nag ydoedd yn oed gan yr hen. Dewiswyd ef i weinyddu ar y coroniad yn hytrach na'r Esgob Williams o Gaerlwytcoed, tuedd Buritanaidd yr hwn a'i darostyngodd yngholwg y brenin. Yn fuan wedi hyny dyrchafwyd Laud i esgobaeth Bath a Wells, a gwnaed ef yn ddeon y capel brenhinol ac yn aelod o'r cyfrin gyngor. Pan ddifadwyd yr Archesgob Abbot o'i swyddi, yr oedd Laud yn un o'r pum esgob yr ymddiriedwyd gweinyddiaeth yr archesgobaeth iddynt; daeth ef yn enaid y ddirprwyaeth, ac fel y cyfryw yn archesgob y deyrnas mewn gwirionedd. Wedi hyny etholwyd ef yn 1628 i esgobaeth Llundain. Yn 1633, dilynodd Charles i Ysgotland i geisio sefydlu y Llyfr Gweddi Gyffredin yno; ond ni lwyddodd yno cystal ag yn Lloegr. Yn fuan ar ol iddo ddychwel o Ysgotland, yn Awst yr un flwyddyn, gwnaed ef yn Archesgob Caergaint; a dywedir y cafodd gynnyg ar gapan Cardinal yr un diwrnod; ond dewisodd fod yn ben yn Lloegr yn hytrach na bod yn gynffon yn Rhufain. Crynhôdd brif swyddi yr eglwys a'r wladwriaeth i'w berson ei hun; a'r rhai nas gallai eu cyflawni ei hun, dododd ei ymlynwyr gwasaidd i'w llenwi. Yr oedd yn aelod o uchel ddirpwyaeth Ystafell y Seren, cystal ag o'r cyfrin gyngor; efe oedd canghellydd Rhydychain a Dublin, ac ymwelydd Caergrawnt; a dodwyd ef yn yr holl ddirprwyaethau yr ymddiriedid trefniad y trysorlys a chyllid y goron iddynt; ar fyr, daeth Laud yn ail Wolsey yn y deyrnas. Gan fod talfyriad o hanes cwymp disyfyd, a therfyn alaethus yr Esgob Tŷ Ddewi yma yn y testyn uchod, nid angenrhaid dodi hyny yma. Y mae yn amlwg ei fod ef yn ddall i dueddiadau ei oes a'r genedl; a chan iddo barhau mewn antur ammhosibl ac anghyfiawn, nid yn unig distrywiodd ei hun, ond hefyd tynodd yr un dinystr ar y brenin a'r eglwys yr ymdrechai efe mor egnïol eu Pabeiddio. Pa wedd bynag, teg yw dywedyd ei fod yn noddwr haelionus i ddysg ac ysgoloriaeth; a gresyn ei fod mor ddallbleidiol ac erlidgar mewn ystyr grefyddol.—Mack. Imp. Dict. Univ. Biog., v. ii. 116.

* Baxter's Hist. Church Eng., p. 581.

† Neal's Hist. Purit., v. i. 462.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, pp. 38-72.

§ Ganwyd A. Leighton yn Edinburgh, yn 1568, ac yn athrofa'r ddinas honno y cafodd ei addysg golegol, lle y mawr ymenwogodd trwy ei ddysg a'i ddisglair dalentau; ac appwyntiwyd ef yn broffes-

iaeth," yn yr hwn yr annogai lwyr ddistrywio'r urdd esgobol fel yr unig ffordd i gael ymwared â'r ormes. Cymmerwyd ef i fynu dan warant o'r Arbrwyadaeth; dygwyd ef ger bron Ystafell y Seren, oedd weithion dan reolaeth Laud, ac efe etto yn Esgob Llundain; a dedfrydwyd ef i gael tori ymaith ei ddwy glust, hollti ei ddwy ffroen, serio S. L.* ar ei fochgernau â haiarn poeth, talu deng mil o bunnau o ddirwy, a'i garcharu wrth ewyllys y brenin. Pan gyhoeddwyd y ddedfryd dyner hon, tynodd Laud ei gap oddi am ei ben, a dīolchodd yn ddefosiynol i Dduw, yr hwn a roddasai iddo'r fath fuddugoliaeth ogoneddus ar ei elyn! Yn 1638, ymhen tair blynedd ar ol i Laud gael archesgobaeth Caergaint, mynnodd gormes ysgeler Ystafell y Seren gael aberth gan y gyfraith, meddyginiaeth, a duwinyddiaeth, sef Prynne,† Bastwick, a Burton, y rhai a arteithiwyd, a ddirwywyd, ac a garcharwyd, fel Leighton. Prynne, am iddo ysgrifenu yn erbyn y chwareufa, a dirmygu'r frenhiniaeth a'r llywodraeth eglwysig am gefnogi'r cyfryw, a'r cyffelyb; a Bastwick‡ a Burton§ am ymosod ar y llys a'r llywodraeth.

Aeth trais eglwysig Laud, a dichellion gwladol Wentworth (yr Iarll Stafford), mor ffiaidd o'r diwedd yngolwg y wlad, fel y penderfynodd eu chwydu hwynt allan o'i genau; ac nid hir y bu eu meistr twyllodrus, Charles, heb gyfarfod â'r un dynged. Aeth yr Ysgotiaid dan arfau yn erbyn y ffurfwasanaeth a wthiodd Laud i Guile Sant, Edinburgh, yn 1637; gwnaethant yr ymrwymiad a elwir "Y Cyngrair a'r Cyfammod Difrifol," yn yr ail erthycl o ba un yr ymrwyment "i ddileu Pabyddiaeth, Esgobyddiaeth, llywodraeth yr eglwys gan archesgobion, esgobion, eu canghellwyr, &c., ynghyd â phob ofergoeliaeth, sism, a halogrwydd;" ynnillwyd Edinburgh gan eu cadlywydd Leslie, a gorfodwyd Charles, ar ol trechiad gwaradwyddus a chyttundeb mwy gwarthus fyth, i gadarnhau bod Esgobyddiaeth yn groes i air Duw!* Yn 1638, diddymodd yr Ysgotiaid bum erthycl Perth, Llyfr y Canonau, y ffurfwasanaeth (*liturgi*), ffurfiau ordeiniad a chyssegriad, a Llys yr Arbrwyadaeth; a gwnaed cyfraith yn datgan "bod pob Esgobyddiaeth wahanol i arolygiad bugail dros braidd neillduol yn cael ei wrthod gan yr eglwys (*kirk*) hon, ac i gael ei symmud o honi." Yna ysgymmunwyd y ddau archesgob a chwech o esgobion, a diswyddwyd pedwar o breladiaid; ond gan i'r ddau arall ymostwng yn ufudd, ni wnaed ond eu lluddias dros amser.†

Tra y llethid Esgobyddiaeth fel hyn yn y Gogledd, yr oedd Laud yn ei gyru ym mlaen yn neheubarth Lloegr a Chymru gyd âg egni oedd yn ymylu ar orphwylledd. Mewn cymmanfa a gynhaliwyd yn 1640, aeth mor rhyfygus a threthu y clerigwyr, heb awdurdod gyfreithiol, i gynnal achos y brenin dirywiedig; gwnaeth ganonau hefyd i'w rhwymo i bregethu hawl ddwyfol y brenin unwaith bob tri mis yn yr eglwysydd; gosododd arnynt amryw ddefodau Pabaidd eraill; ac fel gwrthwynebiad i'r Cyngor Difrifol, gorfodai bawb a gymmerent urddau i dyngu na chydsynient âg unrhyw newyddiant yn llywodraethiad yr Eglwys Wladol gan archesgobion, esgobion, deoniaid, archddīaconiaid, a'r cyfryw, yr hwn lw, o herwydd ei fod mor benagored, a alwyd "*Y llw felly ym mlaen.*"‡

wr athroniaeth foesol yn yr athrofa. Parhaodd yn y swydd honno nes y symmudodd i Llundain yn 1618, lle y bu yn ddarlithydd ac yn feddyg, nes yr ysgrifenodd y llyfr crybwylledig uchod, pan y bwriwyd ef i garchar ar ol y driniaeth ysgeler a nodwyd. Cadwyd ef yn garcharor, mewn celloedd ffiaidd, nes yr ymgyfarfu'r Senedd Hir yn 1640, pan y rhyddhawyd ef, ac y pleidleisiwyd chwe mil o bunnau iddo, fel iawn am yr holl sarhâd a'r creulonderau a ddīoddefodd; ond dywedir na thalwyd byth iddo, ac mai'r cwbl a gafodd oedd lle fel ceidwad yn Lambeth-house. Yn 1646 cyhoeddodd lyfryn yn cynnwys hanes finiog a dyddorol o'r creulonderau a ddīoddefodd, a bu farw yn 1649. —Mack. Imp. Dict. Univ. Biog., v. ii., p. 148.

* *Seditious Libeller:* cablwr terfysglyd. Prynne a'i ffraeth alwodd yn "Stigmata *Laud*—is" (mân dyllau'r trychfil—*Laud.*)

† William Prynne a anwyd yn 1600, yn Swainswick, Gwlad yr Haf. Cafodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain, a daeth yn fargyfreithiwr enwog. Coleddodd athrawiaethau'r Puritaniaid, y rhai a amddiffynodd yn alluog yn erbyn honiadau Laud a llygredigaethau erchyll yr uchel-eglwyswyr, a bwriwyd ef i garchar dan gyffelyb driniaethau creulon a dirwyon a Leighton, lle y bu hyd 1640, pan y rhyddhawyd ef ac y talwyd ei ddirwyon yn ol gan y Tŷ Cyffredin. Etholwyd ef wedi hyny yn aelod i'r Senedd dros y Borth Newydd, yng Nghaerloyw. Cymmerth ran egnīol yn y Senedd yn erbyn glwysbendodaeth; ac yr oedd yn un o drefnwyr y cyhuddiad yn erbyn Laud. Yn 1650 carcharwyd ef eilwaith am ysgrifenu yn erbyn Cromwel a'i blaid, ond rhyddhawyd ef drachefn; ac yn 1660 cafodd ei eisteddle yn y Senedd gyd a'r aelodau ysgymmunedig eraill, a gwnaeth ei egni i adfer y teulu brenhinol. Bu farw yr ymrysonydd yma yn 1669, wedi ysgrifenu yn helaeth ac egnīol ar wahanol destynau a dadleuon ei amser.—Mack. Imp. Dict. Univ. Biog., v. iii., p. 742.

‡ John Bastwick a anwyd yn Essex, 1593, ac a gafodd ei addysg athrofaol yn Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn M.D. Y gwaith a barodd iddo gael ei arteithio, ei ddirwyo, a'i garcharu, a alwai yn "Ffangell i'r Pab ac Esgobyddiaeth Rhufain." Rhyddhawyd ef yn 1640, ac archwyd talu ei ddirwyon yn ol o etifeddiaethau ei farnwyr: dedfryd pur gyfiawn. Ymddengys mai Presbyteriad zelog ydoedd, canys ysgrifenodd wedi hyny yn llawn mor ffyrnig yn erbyn Annibyniaeth ag yr ysgrifenai yn erbyn Esgobyddiaeth. Nid yw hyspys pa bryd y bu farw.—Mack. Imp. Dict. Univ. Biog., v. i., p. 412.

§ Henry Burton a anwyd yn Birsall, sir Gaerefrog, o gylch 1579, ac a addysgwyd yn Rhydychain, lle y cafodd ei raddio yn M.A. a M.D. Cafodd y driniaeth a nodir uchod, fel Prynne a Bastwick, am gyhoeddi dwy bregeth a alwodd, "Dros Dduw a'r Brenin." Yn 1640 rhyddhawyd ef mewn canlyniad i ddeiseb ei wraig at y Tŷ Cyffredin, a chafodd ddeng mil o bunnau fel iawn am golli ei glustiau, a'r cyffelyb anghyfiawnder. Bu farw yn 1648.—Mack. Imp. Dict. Univ. Biog., v. i., p. 820.

* Baxter's Hist. Church Eng., p. 590.

† Mack. Fam. Hist. Eng., v. iii., p. 290.

‡ *Et-cetera Oath.*—Baxter's Hist. Church Engl., p. 594.

Digitized by Google

Parodd y gweithredoedd anghyfreithlawn hyn, a'u cyffelyb, ynghyd â sefyllfa fuddugoliaethus yr Ysgotiaid, y fath gyffro yn y wlad, fel y gorfodwyd y brenin anhydyn, yn Nhachwedd y flwyddyn hon, i alw'r Senedd ynghyd, yr hon ni ddadgorphorwyd hyd Ebrill, 1653, pan y chwalwyd hi gan Cromwel, hanes yr hon sy'n bur ddyddorol;* ond rhaid i ni ymgyfyngu yma at rai o'i phrif weithrediadau eglwysig.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth, ymhen tu a mis ar ol dechrau eistedd, oedd bwrw'r Archesgob Laud i garchar fel teyrnfradwr, dan y cyhuddiad o ddwyn defodau Pabaidd i'r eglwys, a chynnyg llywodraeth unbenaethol a gormesol ar y wlad; o herwydd yr hyn hefyd y torwyd ei ben ef yn 1645, ar ol ymddwyn ato yn waradwyddus tra yngharchar ac ar ei brawf, yr hyn, er holl ddihirwch Laud, sydd warth oesol ac annileadwy i'r Senedd Hir.† Yn fuan ar ol carcharu Laud, diddymwyd Llys yr Arbrwyadaeth, Ystafell y Seren, a llysoedd gormesol cyffelyb; a rhyddhawyd Prynne, ac aberthau eraill y llysoedd creulawn ac anghyfiawn hyny.‡

Crybwyllwyd eisoes ddarfod i Laud lwyddo i ddiraddio a charcharu yr Esgob Williams; ond yn gynnar yn 1641, a Laud ei hun weithion yngharchar, dyrchafwyd Williams gan y brenin i Archesgobaeth Caerefrog. Yr oedd camymddygiadau'r gŵr eglwysig a'r brenin, ynghyd â buddugoliaethau yr Ysgotiaid, wedi peru i Bresbyteriaeth a Phuritaniaeth gael y llaw uchaf yn awr yn y Senedd, a throisant hwythau bellach i erlid yr eglwyswyr! Dygwyd ysgrif i'r Senedd i droi'r esgobion allan o Dŷ'r Arglwyddi, yr hyn oedd ddigon rhesymol, ond a wrthwynebwyd yn egnïol a chyndyn gan yr Archesgob Williams; ac o herwydd hyny, a phethau eraill, bwriwyd ef, ac eraill o'r un blaid, i garchar. Rhyddhawyd yr archesgob ymhen deunaw wythnos, ac ymsefydlodd eilwaith yn ei archesgobaeth; ond o blegid ei egni parhaus o blaid y brenin a'r Eglwys Wladol, bu raid iddo ffoi yn fuan i Gonwy, lle y bu hyd ddiwedd ei oes, fel y dangoswyd yn ei fer-hanes a roddwyd eisoes. Cyddïoddefwyr Cymreig yr Archesgob Williams o blaid y brenin a'r eglwys oedd y dysgedigion canlynol:—Y Dr. John Owen, Esgob Llanelwy; y Dr. Morgan Owen, Esgob Llandaf; y Dr. Thomas Owen, person y Gantref, sir Frycheiniog; y Dr. William Roberts, Esgob Bangor Fawr yng Ngwynedd; y Dr. William Thomas, Esgob Tŷ Ddewi; y Dr. Gruffydd Williams, Esgob Ossory, yn y Werddon; y Dr. Francis Davies, Esgob Llandaf; ac eraill heb fod mor gyhoeddus.

* Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 473-480. † Mack. Fam. Hist. Engl., v. iv., pp. 45-49. ‡ Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 478.

Yr oedd nerth y Presbyteriaid yn parhau i gynhyddu yn y Senedd, ac erbyn 1643 llwyddasant i gael gorfodrif o blaid y Cyngrair a'r Cyfammod Difrifol.* Ymddygodd y Presbyteriaid yn warthus at yr esgobyddion mewn canlyniad i hyn, canys ni foddlonasant ar droi'r clerigwyr o'u bywiolaethau, gan ddefnyddio eu cyfoeth at wasanaeth y Senedd, ond difrododd milwyr y Senedd yr eglwysydd plwyfol ac esgobol yn y modd mwyaf barbaraidd.† Yn ystod y flwyddyn hon hefyd llosgwyd Llyfr y Chwareuon gan y dienyddwr cyffredin yn Cheapside; ac erfyniwyd ar bawb a feddent gopïau o hono eu trosglwyddo i siryddion Llundain i'w llosgi; a dodwyd y cyfreithiau ynghylch cadw'r Sabboth mewn grym.‡

Aeth y Presbyteriaid mor bell yn eu rhwysg fel y mynnent, yn gynnar yn 1645, sefydlu eu crefydd eu hunain trwy gyfraith yn grefydd yr holl wlad. Gwyddai Cromwel a'r Puritaniaid, oedd o blaid i bob sect gael rhyddid i addoli yn ol argyhoeddiad eu cydwybod, bod y Presbyteriaid yn rhwym yn ol eu cyfammod i ddileu pob sect ond yr eiddynt eu hunain o'r tir;§ ac yn hytrach nag i'r fath sect gael ei rhwysg ymhellach, dangosodd Cromwel awydd i adfer y brenin, o herwydd yr hyn ymdrechodd y Presbyteriaid drosglwyddo Cromwel hefyd i garchar y Tŵr, ond methasant yn eu hamcan. Pan ddiddymwyd Brenhiniaeth ac Esgobyddiaeth, trwy dori pen y brenin yn 1649,‖ aeth yr ymrysonfa o hyny allan rhwng y Presbyteriaid a'r Puritaniaid, a alwyd bellach yn Annibynwyr. Fel hyn, ynghanol ymrysonau sectarol pur anysgrythyrol ac anfrawdol, y terfynodd y cyfnod terfysglyd yma.

---

## PENNOD II.

### YR ANNIBYNWYR.

Annibynwyr,¶ yn ystyr grefyddol neu eglwysig y gair, yw'r blaid sy'n credu bod rhyw nifer o

* Mack. Fam. Hist. Eng., v. iv., pp. 34, 35. † Walker's Sufferings of the Clergy. ‡ Neal's Hist. Purit., v. ii., p. 58. § Neal's Hist. Purit., v. ii., p. 186, &c. ‖ Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 478.

¶ Galwyd hwy yn Annibynwyr (*Independents*) y tro cyntaf o gylch o.c. 1645 (Gwel y tudalen blaenorol); ond cyn hyny yr enwau a

Digitized by Google

bobl* a ymgynhullont i'r un lle i broffesu Crist yn eglwys, neu gynnulleidfa,† gyflawn ynddi ei hun, a chanddi hawl i gredu athrawiaethau crefydd, i ddewis ei swyddogion, ac i ddisgyblu ei haelodau, heb fod yn gyfrifol i unrhyw berson, llys, cymmanfa, cyngor, senedd, nac eglwys arall ar y ddaear. Credant hefyd mai unig swyddogion Eglwys Crist yw esgobion neu henuriaid a dīaconiaid, a bod y Testament Newydd yn cynnwys cynllun cyflawn a pherffaith o *drefn* eglwys, cystal ag o athrawiaeth a disgyblaeth;‡ a "bod gan bob dŷn hawl naturiol, fel creadur rhesymol, i farnu drosto ei hun beth sydd wirionedd, gan mai drosto ei hun y bydd raid iddo sefyll neu

roddid iddynt oedd Puritaniaid, Browniaid, Ymneillduwyr, Protestaniaid, Wycliffiaid, &c. Gelwir hwy yn fynych ar lafar gwlad yng Nghymru yn *Senters*, o'r gair *Dissenters*, enw a roddir iddynt yn fynych yn Lloegr.—Gol.

* Poed y "nifer o bobl" mor fychan ag y byddo, "canys," ebai Pen yr Eglwys ei hun, "lle y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr wyf yn eu canol hwynt," Mat. xviii. 20. "Ymgynnull yn enw Crist" sy'n gwneud y cynhulliad, pa mor fychan bynag a allo fod, yn Eglwys Gristionogol. Nid yw swyddogion eglwysig, sef henuriaid neu egobion (dau enw ar yr un rhai yw henuriaid ac esgobion, Act. xx. 17, 28; Tit. i. 5, 7), a diaconiaid, ddim yn anhebgorol i hanfod Eglwys Gristionogol. Y mae'n amlwg y bu eglwysi "Lystra, ac Iconium, ac Antiochia," mewn bod dros amser *cyn* i Paul a Barnabas "ordeinio iddynt henuriaid ymhob eglwys," Act. xiv. 21, 23. Felly hefyd y bu eglwysi Creta, Tit. i. 5.—Gol.

† *Congregation*, gair o'r un ystyr a'r gair Ysgrythyrol *ecclêsia*, gwreiddyn y gair Cymraeg *eglwys*. Oddi wrth y gair *congregation*, yr hwn a ddefnyddir yn lle *church* ym Mibl Cranmer, y cymmer yr Annibynwyr Seisnig diweddar yr enw *Congregationalists*, gair a gyfieithir gan y Cymry yn *Gynnulleidfawyr*, neu *Gynnulleidfaolwyr:* geiriau hirion ac anystwyth.—Gol.

‡ Dichon nas gellir dynodi syniadau yr Annibynwyr yn well, gyd â golwg ar hyn, nag y gwna D. Morgan, Machynlleth, yn y difyniadau canlynol:—

"Egwyddor sylfeunol pob Gwrthdystiwr ydyw, 'Mai y Bibl, a'r Bibl yn unig, ydyw ei grefydd;' hyny hefyd ydyw egwyddor sylfeunol pob Ymneillduwr; a hyny hefyd ydyw egwyddor sylfeunol Cristionogaeth. Edrychai yr apostolion, a'r eglwysi cyntefig, ar fod pob gair a orchymynai yr Arglwydd yn cael ei wneuthur, heb ychwanegu ato na thynu oddi wrtho. Nid oes un peth yn eglurach na bod yr apostolion yn ystyried y datguddiad a roddai yr Arglwydd yn gwbl ddigonol i boll ddibenion crefydd ac iawn gyflawniad o bob ymarferiad a dyledswydd grefyddol, yn ol yr awdurdod a gawsent yn eu hanfoniad allan ar y cyntaf, pan ddywedodd wrthynt am ddysgu i'r proselytiaid gadw *pob peth* a'r a *orchymynai efe iddynt*. Yr hyn a ddengys yn eithaf eglur nad oeddynt hwy, na neb arall, i ddysgu y bobl i gadw dim ond a orchymynodd Efe iddynt, yn gystal a'u rhwynau i addysgu iddynt yr hyn a orchymynodd.

"Yn gysson â hyn y gwelir bod yr apostolion yn ymddwyn ymhob lle, gan bregethu yr un athrawieuthau, sefydlu yr un sefydliadau, a gosod i fynu yr un defodau, ymhlith Iuddewon a Chenhedloedd, ymhlith Rhufeiniaid a Groegiaid, Barbariaid a Scythiaid, caeth a rhydd, tlodion a chyfoethogion, y dysgedig a'r diddysg, yn ddiwahaniaeth. Dywedai Paul wrth y Corinthiaid ei fod yn anfon Timothëus, 'yr hwn,' meddai, 'a ddwg ar gof i chwi fy ffydd i yng Nghrist, megis yr wyf ymhob man yn athrawieuthu, ac ymhob eglwys, ac fel yr wyf yn ordeinio yn yr eglwysi oll.' Edrychai yr apostolion arno yn gymmaint drwg ychwanegu at eiriau Duw, a thynu oddi wrthynt, neu fyned yn groes iddynt, fel y galwai yr Apostol Paul hyny 'yn rith duwioldeb mewn ewyllys grefydd;' a dywedai fod 'yr ordeiniadau hyn oll yn llygredig, wrth eu harfer yn ol gorchymynion dynion,' am ba rai y gorchymyn 'na byddo i ni gyffwrdd, teimlo, nac archweuthu dim o honynt.' Wrth ddarllen y Testament Newydd, y mae'n eglur fod yr apostolion yn fanwl iawn na byddai unrhyw beth yn cael ei arosod ar gydwybodau dynion mewn ffordd o rwymedigaeth, ond oedd wedi ei ddatguddio yn y gwirionedd. Gwelir hyn yn bur amlwg yn y cyfarfod mawr a fu yn Jerusalem (Act. xv.)

"Y mae'n amlwg hefyd fod yr apostolion yn ystyried yr hyn a amlygwyd iddynt yn addas, fel rheol a maen-prawf mewn pob peth a berthynai i grefydd, er atteb ei dibenion, ymhlith Iuddewon a Chenhedloedd, fel y teimlent eu rhwyman i ddwyn pob ymddygiad 'at y gair ac at y dystiolaeth.' Ymhellach, y mae'n eglur yr edrychent ar y datguddiad hwn yn rhwymedigaeth barhaus ac anghyfnewidiol ar eglwys Dduw, hyd ddiwedd amser, fel nad oedd neb i ddisgwyl un datguddiad neu oruchwyliaeth newydd, na threfniad arall, canys geilw yr Apostol Paul yr oruchwyliaeth a osodai efe i fynu, a'r hyn a berthynai iddi, 'y pethai nid ysgydwir,' 'y deyrnas ddisigl.' O herwydd y pethau hyn y dïoddefai yr apostolion eu gorthrymu, eu herlid, a'u lladd, ymhob lle Pe rhoddasent hwy i fynu gyd â pheth mor ystwyth a *deddf cyfleusdra*, gan gydymagweddu âg arferion y gwledydd, a chymmeryd defodau y bobloedd i undeb â'u crefydd, heb gyhoeddi unigolrwydd a digonolrwydd y Datguddiad Dwyfol yn hyny, ni buasai raid iddynt ddïoddef yr hyn a ddïoddefasant. Hyn hefyd yw yr unig achos fod yr holl eglwysi cyntefig yn un mewn athrawiaeth, ymarferiad, a threfn, sef trwy eu bod oll yn cael eu 'goruwch-adeiladu ar sail yr apostolion a'r prophwydi, ac Iesu Grist ei hun yn ben conglfaen,' heb eu bod yn cydnabod un awdurdod arall, nac un ddeddf cyfleusdra o eiddo dynion, nac un gosodiad dynol arall i'w llywodreuthu.

"Yr athrawiaeth o ddigonoldeb yr Ysgrythyrau ymhob peth a berthyn i ffydd ac ymddygiadau crefyddol, oedd athrawiaeth awduron boreuaf Cristionogaeth ar ol dyddiau yr apostolion. Ignatius a ddywedai wrth eglwysi Asia, pan yn ymadael oddi yno i fyned i Rufain i'w ferthyru yn achos Crist, 'Glynwch yn ddïysgog wrth yr athrawiaeth ysgrifenedig sydd yn llythyrau yr apostolion, yr hon a ysgrifenwyd o angenrhaid i'r oesau dilynol; ac na'ch arweinier ymaith gan unrhyw draddodiadau' (Eusebius, b. iii., c. 36). Cyprian hefyd a ddywedai, 'O ba le y mae'r traddodiadau hyn? A ydynt wedi eu cymmeryd o awdurdod Crist a'i efengyl, neu oddi wrth yr apostolion a'u hepistolau? O blegid tystiolaetha Duw mai yr hyn a ysgrifenwyd yn unig sydd i ni i'w wneuthur. Pa gyndynrwydd! pa ryfyg ydyw i neb lynu wrth draddodiadau, yn lle ordinhadau y Nefoedd!' A chyffelyba 'y rhai a droant oddi wrth y gair ysgrifenedig i Corah, Dathan, ac Abiram' (Epist. 74–75).

"Athanasius drachefn a ddywedai, ar ol iddo osod i lawr lyfrau canonaidd yr Hen Destament a'r Newydd, yn eu rhif ac wrth eu henwau, 'Yn y rhai hyn yn unig y'n dysgir am yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb: na fydded i un dŷn dynu oddi wrthynt, na chwanegu atynt.' Ac yn ei Gydolygiad dywed am yr Ysgrythyrau, 'Y rhai hyn ydyw unig amddiffyn ein ffydd, ac angor ein gobaith. Nid rhaid i wybodaeth o'r gwirionedd wrth un dehonglwr dynol ac awdurdodol, canys y mae'r gwirionedd yn ddigon eglur ynddo ei hun; a thrwy y pregethiad o Grist y mae'n dyfod yn ddisgleiriach na'r haul' (Tom. ii., p. 39). Basil a ddywedai, 'Gwelaf mai gorchymynion yr Arglwydd sydd ffyddlawn a sicr, dros byth bythoedd; ac eglur yw i ni mai pechod ofnadwy yw syrthio oddi wrth y ffydd, ac mai balchder anfad ydyw i ni wneuthur un o honynt yn ddiddefnydd, neu ychwanegu atynt, trwy osod rhyw beth yn ein crefydd nad ydyw ynddynt hwy' (Tom. ii., p. 24). Dwight hefyd a ddywed, 'Yr wyf yn sylwi bod y gyfundrefn o lywodraeth eglwysig a osodir allan yn yr Ysgrythyrau yn cael ei datguddio ganddynt naill ai yn gyflawn, neu mewn rhan. Od ydynt wedi cyflawn ddatguddio y gyfundrefn hon, yna ni a'i canfyddwn oll yn y gyfrol sanctaidd, ac nis dichon bod angen i ni chwilio am dani mewn un lle arall. Os mewn rhan y datguddiwyd y drefn yn yr Ysgrythyrau, yna yr oedd datguddiad rhanol yn ddigonol; a'r rhan hono ydyw yr hyn oll sydd yn meddu, neu a ddichon feddu, unrhyw awdurdod i rwymo cydwybodau dynion. Pa ychwanegiadau bynag a wnaed ati, a pha mor ddoeth neu angenrheidiol bynag y gwnaed hwy gan ddynion, nis gallant honni yr awdurdod neu y rhwymedigaeth leiaf. Ofer yw dywedyd, os felly, bod yr eglwys wedi ei gadael yn benagored, a dïamddiffyn yn erbyn anhrefn a sism. Y mae'r atteb i'r wrthddadl yma yn amlwg a chyflawn: gadawyd yr eglwys fel y dewisodd Doethineb Anfeidrol ei gadael. Pe caniatawn, yn groes i wirionedd a gweddusder, nad yw y sefyllfa yn yr hon y gadawyd hi yr orau; er hyny, y mae'r gwall heb un feddyginiaeth, canys nis gallwn ni, ddynion ffaeledig, ychwanegu dim at eiriau Duw' (Dwight's Serm. cl.)

"Dichon y dywed rhywun fod yr hynafiaid a nodwyd, er yr hyn a ysgrifenent, yn arfer llawer o bethau yn eu crefydd nad ydynt yn yr Ysgrythyrau. Gwir. Ond dylem ni, gan fod eu geiriau eu hunain yn eu cyhuddo, fod yn fwy gochelgar rhag dilyn eu hesiampl, os amgen, bydd eu geiriau yn ein cyhuddo ninnau hefyd i'r graddau yr ydym yn eu gweled hwy yn feius yng wyneb yr Ysgrythyrau."—Han. Ymneill., t. 33–5.

Digitized by Google

syrthio yn y farn."* O herwydd paham, nid anfynych y ceir gwahanol bersonau yn yr un eglwys Annibynol yn amrywio o ran eu syniadau ar wahanol byngciau crefyddol; ac er hyny, cydweithredant yn frawdol a thangnefeddus yn achosion allanol crefydd dan ddylanwad yr egwyddor fawr uchod.

Er mwyn i'r darllenydd gael trem ar yr hyn a arweiniodd i ddechreuad Annibyniaeth yng Nghymru, cyfeirir ef isod† at Hanes Grefyddol y Cymry yn y Cyfnod Anglo-Normanaidd, y Cyfnod Tuduraidd, a'r bennod gyntaf o'r llyfr hwn, lle y gwelir mai ail sefydliad Llyfr y Chwareuon gan Charles I., yn 1633, a fu yn achos uniongyrchol o sefydliad eglwysi Annibynol yng Nghymru.‡ Yn gymmaint ag i William Wroth, ficar Llanfaches; William Erbery, ficar Eglwys Fair, yn Nghaerdydd; a Walter Cradoc, ei gurad, wrthod darllen Llyfr y Chwareuon ar y Sabbathau, trowyd hwynt o'u bywiolaethau eglwysig, ac erlidiwyd hwy yn greulawn.

Yn ebrwydd ar ol hyn trodd yr eglwyswyr yn ffyrnig yn erbyn Walter Cradoc, ac ymunodd ei deulu ef ei hun â'r erlidwyr yn ei erbyn; o herwydd hyny ymneillduodd yntau i Ogledd Cymru. Trwy ryw gyfrwng sydd weithion yn anhyspys, cafodd guradiaeth plwyf Gwrecsam,§ yn sir Ddinbych, lle y bu ei bregethau egnïol ac efengylaidd yn foddion i argyhoeddi llawer, ac yn eu plith Morgan Llwyd o Wynedd, a Dafydd ap Huw, y rhai a fuant bregethwyr enwog a llwyddiannus ar ol hyny. Pan glybu bragwr cyfoethog yn y gymmydogaeth, a'i enw Timothy Middleton, bod gwinidogaeth Cradoc yn sobri y meddwon ac yn diboblogi y tafarnau, llwyddodd i'w erlid o'r gymmydogaeth, wedi iddo fod yno ond prin ddwy flynedd; er hyny gadawodd ei bregethau treiddgar y fath argraph ar yr ardal hono, a'r gwledydd amgylchynol, fel y galwyd pobl ddifrifol trwy holl Ogledd Cymru, dros gant a hanner o flynyddau ar ol hyny, gan eu gelynion yn *Gradociaid.* Pan orfodwyd Cradoc i ymadael o Wrecsam, aeth at gyfaill iddo oedd yn Amwythig, lle y daeth yn gydnabyddus â Richard Baxter. Ymhen rhyw ennyd aeth oddi yno i sir Henffordd,‖ lle yr arfollwyd ef yn garedig gan Syr Robert Harley, o Brampton Briars, dros dair neu bedair blynedd; o'r lle yr elai ar deithiau yn fynych i sir Faesyfed, sir Frycheiniog, sir Drefaldwyn, a sir Aberteifi, gyd â mawr lwyddiant; ond nid ymddengys i Cradoc sefydlu eglwysi Annibynol mewn un man hyd yn hyn.¶

* Ymneillduwr H. Pugh, t. 4, &c.

† Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 394, 442.

‡ Gwel pen. i. o'r llyfr hwn.

§ Wrexham, a elwid gynt Bryn Iorcyn.

‖ Herefordshire, yr hon sydd yn terfynu ar sir Fynwy, sir Benfro, a sir Faesyfed.

¶ Credir yr hoffa amryw o'n darllenwyr gael hanes y ddefod o ordeinio ymhlith yr Annibynwyr; ac nis gallwn ddodi hyny ger bron yn well na thrwy roddi talfyriad yma o hanes un o'r eglwysi Annibynol hynaf yng Ngogledd Cymru, sef Llanbrynmair. Tybir mai ffrwyth pregethiad Walter Cradoc, cydlafurwr William Wroth (gwel y llyfr hwn iii., pen. ix.; a llyfr iv., pen. vi.), ydoedd yr eglwys hon, yr hwn a fu yn pregethu yng Ngwrecsam gyd âg arddeliad mawr yn y flwyddyn 1635; ac yn ystod y tair blynedd ganlynol, teithiai yn achlysurol trwy siroedd Maldwyn, Maesyfed, a Brycheiniog. Tybir bod ym Maldwyn bregethwr llafurus mor foreu ag 1634, a'i enw Dafydd Roberts, yr hwn a erlidiwyd yn dost yn y flwyddyn hon a'r un ganlynol, gan Esgob Tŷ Ddewi (Lambeth MSS., vol. 943). Bu D. Roberts yn ddefnyddiol iawn yn Llangurig tu a'r flwyddyn 1646, ac wedi hyny yn Llandinam; ac ar y 29fed o Ebrill, 1654, efe a symmudodd i Drefaldwyn (State Papers, Inter. vol. 319).

Ar derfyniad y rhyfel gartrefol, llafuriodd amryw o bregethwr galluocaf y Dywysogaeth yn sir Drefaldwyn. Tu a'r flwyddyn 1650, aeth yr enwog Vavasor Powel i fyw i Ceri; ac o hyny allan, hyd ei garchariad yn 1660, mwynhaodd sir Drefaldwyn a sir Faesyfed y rhan fwyaf o'i lafur pregethwrol (gwel llyfr iv., pen. xi.) Cyn terfyniad tymmor llywodraeth y Senedd ac Oliver Cromwel, dywed Vavasor Powel fod 16 o bregethwyr galluog yn y sir hon, a 10 o honynt wedi eu dwyn i fynu yn y prif athrofâu. Un eglwys y cyfrifid crefyddwyr yr holl sir o 1646 hyd yn agos i derfyniad yr erledigaeth yn 1688, er eu bod yn cyfarfod i addoli mewn deuddeg neu bymtheg o wahanol fanau tra phell oddi wrth eu gilydd. Mwynhaodd "Eglwys sir Drefaldwyn" dangnefedd hyfryd nes i rai o genhadon y Crynwyr fyned yno i daenu eu golygiadau yn eu plith tu a'r flwyddyn 1652, ac ennill rhai disgyblion o'r aelodau, megis Rhisiart Dafydd, o'r Trallwm, a Charles a Thomas Llwyd, o Ddolobrau (gwel llyfr iv., pen. xxiii.), a rhai eraill lled bwysig o ran eu talentau a'u safleoedd mewn cymdeithas. Cyn i'r terfysg a achlysurwyd gan y Crynwyr dawelu, tu a'r flwyddyn 1655, newidiodd Vavasor Powel ei farn am fedydd, a chymmerth ei fedyddio trwy drochiad. Gan ei fod ef yn enwog a phoblogaidd, a bod ei ddylanwad ym mysg crefyddwyr y sir yn ddirfawr, dilynwyd ei esampl gan amryw o'r aelodau gwasgaredig; ac er i Powel a'i blaid ddal yn zelog hyd y diwedd dros gymmundeb cymmysg, etto, dygodd yr amrywiaeth golygiadau ar fedydd lawer o ddadleuon i blith yr aelodau. Pan adferwyd Charles II. yn 1660, ac yr adnewyddwyd yr erledigaeth, anghofiodd y crefyddwyr, i raddau, eu gwahaniaeth golygiadau, a chyd-unasant i gyd-weithredu a chyd-oddef dros yr egwyddorion mawrion y cyd-olygent oll yn eu cylch

Gan fod Vavasor Powel yn ŵr cyhoeddus ac enwog iawn, a'i fod nid yn unig yn Ymneillduwr zelog, ond hefyd yn Werinwr o ran ei olygiadau gwladyddol, a bod amryw o'r bobl y pregethai iddynt o'r un golygiadau ag ef yn y pethau hyn, dechreuodd erledigaeth ruthro ar bobl grefyddol sir Drefaldwyn gyd â'r rhai cyntaf yng Nghymru ar ol adferiad Charles II. Dengys llythyr a ysgrifenodd V. Powel tu a diwedd Mehefin, 1660 (Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 235), bod rhai o grefyddwyr Maldwyn yngharchar y pryd hwnw; ac ymddengys iddynt gael eu rhyddhau yn ebrwydd ar ol ysgrifeniad y llythyr hwnw; ond ni pharhaodd eu rhyddid ond dros ychydig ddyddiau, canys ceir hanes ddarfod i'r uchel-sirydd, Syr Mathew Prys, yr hwn oedd erlidiwr creulon, anfon y Capten Prys, Henry Williams, a V. Powel, i garchar drachefn yn nechrau Gorphenaf, 1660 (State Papers, Charles II.'s Reign, vol. viii.) Nid oedd hyn ond dechrau gofidiau, canys llanwyd carcharau y sir yn fuan o Ymneillduwyr i'r fath raddau fel nad oedd ynddynt le i ladron ac yspeilwyr; a chymmaint oedd creulondeb yr awdurdodau fel y trinent y crefyddwyr gyd â llawer mwy o amharch a chreulondeb nag y trinent y drwgweithredwyr; ïe, gosodent y rhai olaf hyn mewn ystafelloedd clud yn lloffdydd y carchardy, tra yr hyrddient yr Ymneillduwyr i orwedd ar ychydig wellt ar y lloriau pridd lleithion; a gosodwyd amryw o honynt yn ymyl geudy (*privy*), o'r hwn y rhedai ysgarthion y carcharorion atynt. Yr oedd ym mysg y carcharorion hyn amryw o ameuthwyr parchus a gwragedd tyner, a rhai a fuasent ychydig fisoedd cyn hyny yn ynadon heddwch y sir (gwel llyfr iv., pen. xxiii.) Nid yw hyspys pa nifer o bobl Llanbrynmair oedd ym mysg y dïoddefwyr hyn; ond gan i'r erledigaeth barhau bron yn ddïattal o 1660 hyd 1688, y mae'n ddïau i lawer o honynt gael eu rhan o'r tywydd garw.

Digitized by Google

Yn y cyfamser, yr oedd pregethau tanllyd, ac ymarweddiad diargyhoedd William Wroth a William Erbery yn ennill llïaws o ddisgyblion, a rhai o honynt yn wŷr ieuaingc dysgedig, wedi eu dwyn i fynu yn Rhydychain neu Gaergrawnt, megis Marmaduke Matthews, Richard Symonds, Ambrose Mostyn, Henry Walter, Vavasor Powel, Robert Powel, Jenkin Jones, ac eraill.*

Ym mis Tachwedd, 1639, William Wroth, tad Annibyniaeth yng Nghymru, a sefydlodd eglwys Annibynol yn Llanfaches, sir Fynwy, yr hon oedd y gyntaf a sefydlwyd yn y Dywysogaeth. Ymhlith eraill oedd yn cynnorthwyo Wroth i gorpholi yr eglwys honno yr oedd Henry Jessey, gweinidog yr eglwys Seisnig Annibynol hynaf yn y deyrnas. Bu Cradoc yn gynnorthwywr i Wroth yn Llanfaches hyd 1642, pan fu farw yr olaf yn 72 oed, a dilynwyd ef gan y blaenaf fel gweinidog yr hen eglwys honno.†

Ymhen rhyw ennyd ar ol hyn, sefydlwyd eglwys Annibynol ym Mynyddislwyn, yn yr un sir, gan Henry Walter. Daeth yr eglwys hon, fel un Llanfaches, yn dra llïosog, a llafuriasant yn egnïol i daenu yr efengyl trwy'r wlad; ac er yr holl erledigaethau creulawn a ddïoddefasant, y mae'r ddwy yn para yn eglwysi Annibynol hyd y dydd hwn.‡

Er bod golygiadau Erbery yn dra gwahanol am drefn eglwys i'w gyfeillion, Wroth a Chradoc; etto cydsyniodd yntau, o gylch yr un amser, i sefydlu eglwys Annibynol ar yr un cynllun yng Nghaerdydd; a sefydlwyd un arall gyffelyb, yn fuan wedyn, trwy ymdrech Ambrose Mostyn, yn Abertawy. Y mae'n amlwg i'r eglwys hon, cystal a'r tair eraill, gael ei sefydlu cyn dechrau y rhyfel gartrefol,§ brwydr bwysig gyntaf yr hon a ymladdwyd ar y 23ain a'r 24ain o Hydref, 1642, ym Mryn y Llethr, sir Gaerwythelin.‖

Gan fod pendefigion a gwerin Cymru yn gyff-

Bu carchariad V. Powel, Capten Prys, a H. Williams, ynghyd âg amryw eraill o aelodau "Eglwys sir Drefaldwyn" yn 1660, yn foddion i wasgaru y disgyblion, ac i wneud y winllan, i raddau pell, yn anhreithiedig; ond methodd yr holl ystormydd a'i llwyr ddifrodi. Cyfarfyddai yr amryw frodyr a ddigwyddent fod mewn gwahanol barthau o'r sir, mewn tai annedd i gynnal moddion crefyddol, er gwenthaf holl enbydrwydd yr amseroedd. Y mae'n ddïamman fod y brodyr oedd yn Llanbrynmair, a'r ardaloedd o amgylch, yn cynnal moddion crefyddol yn rhywle yn y gymmydogaeth, er na fynegir hyny mewn unrhyw lyfr argraphedig nac ysgrifenedig, fel y mynegir am leoedd eraill. Y mae ysgrifeniadau Lambeth yn enwi amryw leoedd yn sir Drefaldwyn lle y cynhelid cyfarfodydd gan yr Ymneillduwyr yn 1669; ac mewn hen lyfr yn y *Record Office* (Swyddfa'r Cofnodau), Llundain, sy'n cynnwys enwau y lleoedd a drwyddedwyd i bregethu yn 1672, enwir rhai manau yn y sir hon; ond ni sonir am Lanbrynmair yn y naill na'r llall o'r hen ysgrif-lyfrau hyny. Dichon mai y rheswm am hyn ydyw, bod y lle ymhell oddi wrth yr ynadon ac erlidwyr eglwysig eraill; a bod yr ychydig grefyddwyr a breswylient yn y cymmoedd dirgel hyny, fel y Waldensiaid yn Nyffrynoedd Piedmont, i raddau, wedi osgoi yr erlidwyr. Mynega Dyddlyfr Henry Morus am y 30fed o Awst, 1672, ddarfod iddo ef bregethu y diwrnod hwnw i gynnulleidfa llïosog yn Llanbrynmair, pan ar ei daith o'r Amwythig i Leyn, yn sir Gaernarfon.

Ar ol i'r g nnulleidfa fod dros lawer o flynyddau yn cyfarfod o dŷ i dŷ yn yr ardal, cafodd gartref sefydlog tu a'r flwyddyn 1675, mewn ameuthdy a elwid y Tŷ Mawr. Neillduwyd ystafell o'r tŷ yn lle i addoli ynddi; ac yno y buwyd yn ymgynnull am 64 blynedd, sef hyd nes y codwyd y capel yn 1739. Nid oedd yr ystafell ond bechan a diaddurn; er hyny bu yn gartref i'r eglwys fechan hyd oni ddygwyd hi i'w thrigfan sefydlog yn y Capel Newydd, a elwir erbyn hyn yr Hen Gapel. Huw Owen, Bron-y-Clydwr, a ystyrid yn weinidog "Eglwys sir Drefaldwyn," o 1660 hyd 1672; a chan ei fod ef, fel Vavasor Powel, ac eraill o'r pregethwyr Ymneillduol cyntaf, wedi ei urddo yn yr Eglwys Sefydledig (gwel llyfr iv., pen. xxiv.), nid ystyrid bod angenrhaid eu hurddo hwy yn ol trefn yr Annibynwyr. Ond ar yr 28fed o Awst y flwyddyn olaf a nodwyd, urddwyd Henry Williams, o Ysgafell, yn gynnorthwywr i H. Owen; eithr ni ddynodir y drefn o urddiad Annibynol ynglŷn âg ef. Y nesaf a urddwyd i gynnorthwyo H. Owen, yn ol y drefn Annibynol, oedd Reynallt Wilson; ond ni cheir hanes yr urddiad mewn cyssylltiad ag yntau. Bu farw H. Owen yn 1699, a dilynwyd ef gan ei fab, John Owen; ond ni sonir am ei urddiad ef, a bu efe farw ymhen tu a blwyddyn ar ol ei dad. Ei olynwr ef oedd Rees Protheroe (Rhys Prydderch, gwel llyfr iv., pen. xxii.), yr hwn a urddwyd gan Mathew Henry, D. Jones, o'r Mwythig, a'r Dr. Charles Owen, ar yr 16fed o Fehefin, 1702, i fod yn weinidog "Eglwys sir Drefaldwyn;" ond ni cheir hanes fanwl am y dull o'i urddo yntau, ac y mae'n bur sicr i'r ddefod gymmeryd lle yn absennoldeb yr eglwys yr oedd efe i weinyddu iddi. Dilynwyd Prydderch yn sir Drefaldwyn gan amryw eraill, y rhai ni sonir am eu hurddiad, megis William Jervice, Benjamin Meredydd, &c.

Yn 1734, galwodd yr enwog Edmund Jones, o Bont-y-Pwl (gwel llyfr v., pen. xiv.), yn Llanbrynmair, ac arweiniodd sylw yr eglwys at Lewis Rees (gwel llyfr v., pen. xv.), gŵr ieuangc gobeithiol oedd ar y pryd yn fyfyriwr yn Athrofa Llwyn-llwyd, sir Faesyfed. Rhodd eglwys Llanbrynmair alwad i Rees yn 1734, ac yn 1738 urddwyd ef yn ol y drefn Annibynol i fod yn weinidog yno; ond cymmerth yr urddiad le ym Mlaen-gwrach, Cwm-nedd, sir Forganwg, ugeiniau o filltiroedd o Lanbrynmair, pan y gweinyddwyd yr urddiad gan James Davies, Merthyr; Roger Howels, Cwmllyfnell; Joseph Simons, Chwarelau-bach; Edmund Jones, Pont-y-pwl; David Williams, Richard Rees; a Henry Davies, Blaen-gwrach; ond ni roddir dim o hanes manylion yr urddiad. Dilynwyd Rees yn Llanbrynmair gan Simon Williams, ac yna gan Richard Tibbott; ond nid yw manylion eu hurddiad hwythau genym.

Yn nechrau y flwyddwyn 1795, penderfynodd R. Tibbott a'r eglwys yn Llanbrynmair, gan fod llesgedd henaint wedi dal Tibbott, fel nas gallai gyflawni ei waith megis cynt, ar roddi galwad i John Roberts, un o aelodau yr eglwys, yr hwn oedd ar orpheu ei amser yn Athrofa Croesyswallt, i fod yn gynnorthwywr i R. Tibbott. Yn awr, ceir hanes manylion yr urddiad Annibynol. Urddwyd J. Roberts ar y 25med o Awst, 1796. Ar yr achlysur, traddodwyd y gyn-araeth gan J. Gruffydd, Caernarfon; derbyniwyd ei gyffes gan y Dr. George Lewis; gweddïwyd yr urdd weddi gan R. Tibbott, tra'r oedd llaw ddehau yr holl bregethwyr presennol ar ben yr urddedig; traddodwyd y cyngor i'r gweinidog ieuangc gan y Dr. Jenkin Lewis; a'r cyngor i'r eglwys gan B. Jones, Pwllheli. Cyd-lafuriodd Roberts a Tibbott yn dra brawdol a llwyddiannus hyd ddiwedd oes yr olaf, yr hon derfynodd yn 1798. Yna rhoddes yr eglwys ail alwad i J. Roberts i fod yn olynydd i Tibbott. Dyma'r gŵr enwog, a'r ysgrifenydd ymdrechgar, a alwyd o hyny hyd y dydd heddyw yn "John Roberts, Llanbrynmair." Llafuriodd Mr. Roberts yn y cylch pwysig hwn gyd â llwyddiant mawr hyd ddydd ei farwolaeth, ac yr oedd ei glod yn yr holl eglwysi Annibynol trwy Gymru benbaladr.—Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 234-240.

Yn ol y dull uchod, a nodwyd ynglŷn â'r Parch. John Roberts, yr urddwyd pob gweinidog Annibynol ar ei ol ef yng Nghymru, a rhai, fe allai, o'i flaen hefyd; ac os cymharir y dull â "Ffurf a Dull Gwneuthur, Urddo, a Chyssegru Esgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid yn ol Trefn Eglwys Loegr," canfyddir bod cryn debygolrwydd, mewn amryw bethau, rhwng y ddau ddull a'u gilydd. Yr unig esampl o ordeinio sydd yn y Testament Newydd ydyw yr un a geir yn Act. xiv. 23.

* Han. Egl. Ann. Cymru, cyf. i., t. 3, &c.

† Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, p. 55.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, p. 68.

§ Yr un, p. 69.

‖ Edge Hill, Warwickshire.

Digitized by Google

redin yn bleidwyr i Charles I. pan dorodd y rhyfel allan rhyngddo ef a'r Senedd, penderfynwyd mewn cynnadledd a gynhaliwyd yn Llanfaches ar i'r gweinidogion, ac eraill a allent, ffoi i Loegr am nodded. Y mae yr erlid a'r dïoddefaint yr aeth yr Anghydffurfwyr trwyddynt yng Nghymru yn ystod y rhyfel yn erchyll i'w ddarllen. Ond er yr holl ddifrod a wnaeth y gelynion arnynt hwy a'u meddiannau, cafodd Cradoc, Vavasor Powel, ac eraill, eu synu a'u llawenhau yn ddirfawr ar eu dychweliad i Gymru pan derfynodd y rhyfel, yn 1646, wrth ganfod nid yn unig fod yr eglwysi wedi dal eu tir ynghanol yr holl beryglon, ond hefyd eu bod wedi llwyddo, trwy fyned o dŷ i dŷ i lefaru y gwirionedd wrth eu cymmydogion, i ynnill gryn wyth gant o ddisgyblion newyddion ym Mynwy, Morganwg, a Brycheiniog yn eu habsennoldeb hwy.*

Cymmerth ymraniad le ymhlith Anghydffurfwyr Cymru yn 1649, pan yr aeth dau weinidog o Forganwg, oedd o'r blaen gyd â'r Annibynwyr, sef John Myles a Thomas Proud, i Lundain i gael eu bedyddio trwy drochiad; ac yn 1655 newidiodd yr enwog Vavasor Powel ei farn am fedydd, a bedyddiwyd yntau trwy drochiad. Aeth yr Annibynwyr Cymreig o hyn allan yn ddwy blaid, sef bedyddwyr pawb a bedyddwyr proffeswyr mewn oedran yn unig, yr hyn a fu yn achos o wanhâd mawr i'r blaid flaenaf dros hir amser, yn enwedig yn siroedd Dinbych, Trefaldwyn, Maesyfed, Brycheiniog, Morganwg, a Mynwy.

Ymhen tu a blwyddyn ar ol ymadawiad Myles a Proud at y Bedyddwyr, cyfododd trydydd plaid yng Nghymru dan yr enw Cyfeillion, neu y Crynwyr.† O eglwysi yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, ac nid o anghredinwyr y wlad, y casglodd sylfaenwyr y Cyfeillion yng Nghymru y rhan fwyaf o'u deiliaid, yr hyn a barodd wanhâd pellach i'r ddau gyfundeb crefyddol hyny dros gryn amser yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Tybia rhai mai gwaith y Bedyddwyr yn dodi'r fath bwys ar fedydd a fu yn achlysur i'r Cyfeillion redeg i'r eithafedd arall,‡ i ddal mai "bedydd yr Ysbryd" yn unig sydd angenrhaid i Gristion, ac nad yw na bedydd na swper yr Arglwydd yn *allanol* yn rhwymedig arno.

Pan ail gyhoeddwyd Deddf yr Unffurfiad gan Charles II. yn 1662,§ cafodd o gylch pedwar ugain o Annibynwyr, a thu ag ugain o Fedyddwyr yng Nghymru eu hattal i bregethu; a dïoddefasant hwy a'r Cyfeillion fwy o erlidiau a chreulonderau o hyny hyd ddyfodiad William a Mari i'r orsedd, yn 1688, nag a ŵyr neb hyd y dydd heddyw.‖

Bu yr Anghydffurfwyr yn cael eu hadnabod yng Nghymru, hyd ar ol 1662, fel Annibynwyr, Bedyddwyr, a Chyfeillion, neu Grynwyr; ond wedi hyny galwyd rhai o'r gwŷr a daflwyd allan o'u bywiolaethau yn Bresbyteriaid, fel yr oedd amryw o ran egwyddor; ond ni lwyddodd yr elfen hon o Anghydffurfiaeth i ymsefydlu yn gymmundeb crefyddol gwahaniaethol erioed yng Nghymru. Gwnaed ymdrech i sefydlu eglwys Bresbyteraidd yn Henllan, sir Gaerfyrddin, yn 1707, ond llethwyd y cynnyg gan yr elfen Annibynol oedd yn y lle; o ganlyniad, ymgymmysgodd y Presbyteriaid, gan mwyaf, â'r Annibynwyr, yr Arminiaid, yr Ariaid, neu yr Undodiaid.

Wedi i'r Ymneillduwyr lwyddo, trwy gynhorthwy William III., ac ychydig ddiwygwyr Seneddol eraill,¶ i gael Deddf y Goddefiad yn 1689, fel y ceir gweled yn Llyfr V., ymrôdd yr Annibynwyr yng Nghymru i daenu yr efengyl ymhlith eu cydwladwyr, i sefydlu eglwysi, i ordeinio gweinidogion, i adeiladu capelydd,** ac

* Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, pp. 78–80.

† "Y bobl a elwir Cwacers," ydyw yr enw a roddir iddynt gan gyfieithydd "Prif Cristianowgrwydd William Penn," a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1790.—Gol.

‡ Dechreuodd Cwaceriaeth yng Nghymru ymhen tu a phedair blynedd ar ol i George Fox ddechrau taenu ei olygiadau yn Lloegr, yn 1646; ac y mae'n ddigon tebyg bod ofergoelion a defodau truenus Pabyddiaeth, a gwaith cyfundebau crefyddol eraill yn ei dynwared yn ormodol, wedi bod yn achlysur i'r gŵr duwiol hwnw a'i ddilynwyr redeg ar y pellaf gyd â golwg ar rai pethau; ond y mae'n ddilys ddiammau fod golygiadau y Cwacers ar bregethu yr efengyl, ar symledd, cymmedroldeb, geirwiredd, gonestrwydd, cariad brawdol, ac amryw bethau eraill perthynol i efengyl Crist, yn nes at gyfarwyddiadau y Testament Newydd na golygiadau, neu o leiaf ymarferion, unrhyw gyfundeb crefyddol arall a gyfododd yn y Deyrnas Gyfunol hyd yn hyn. Dichon mai eu diffyg ymdrech i daenu eu hegwyddorion ydyw eu gwall penaf (Credoau y Byd, cyf. i., t. 501).—Gol.

§ Act of Uniformity.—14 Car. II., c. 14.

‖ Life of James Owen, pp. 42–44.

¶ Bogue and Bennett's Hist. Dissent., v. i., p. 187.—Y mae ymdrech William i osod ei holl ddeiliaid ar yr un tir, mewn ystyr wladol a chrefyddol, yn deilwng o fod byth mewn coffadwriaeth gan holl drigolion Ynys Brydain; ond er ei holl ymdrech dyngarol a chlodwiw o blaid rhyddid gwladol a chrefyddol cyfartal i bawb, o bob syniad a chredo dan ei lywodraeth, gorfodwyd ef i foddloni ar y gyfraith ddiffygiol a elwir "Deddf y Goddefiad." Pa wedd bynag, bu honno yn foddion i ryddhau yr Ymneillduwyr oddi wrth y cospau am gynnal cyfarfodydd ar wahân i'r Eglwys Sefydledig.

** Yr oedd ganddynt ddeuddeg o gapelydd cyfleus yn Neheubarth Cymru erbyn 1697, ac erbyn 1712 yr oedd ganddynt ddeg a deugain yn y Dywysogaeth; pedwar a deugain yn y Deheubarth, a chwech yn y Gogleddbarth; heb law yr ymgyfarfyddai amryw eglwysi mewn tai annedd, am nad allent gael tir i adeiladu capelydd arno.

Y pryd hyn, a hyd o fewn deng mlynedd ar hugain neu ddeugain mlynedd yn ol, yr oedd "y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt," megis yn amser y Gwaredwr (Mat. xi. 5; Luc vii. 22), pa un bynag ai mewn tai annedd ai mewn capelydd y pregethid. Yr oedd canol llawr y capel y lle mwyaf cyfleus i wrando, yn yr hwn y gosodid



Digitized by Google

i gyhoeddi llyfrau crefyddol er goleuo a moesoli eu cydgenedl.* Sefydlwyd dwy athrofa ganddynt yng Nghymru yn ebrwydd, er parotoi gwŷr ieuaingc i'r weinidogaeth; un yn Brynllywarch, dan arweiniad Samuel Jones, a'r llall yn Ystrad Wallter, dan arolygiad Rees Prytherch (Rhys Prydderch.)† Y mae yr enwad wedi para i gynnal y cyfryw sefydliadau o hyny hyd yn awr, heb law bod ganddynt amryw ysgolion eraill uwchraddol i'r un perwyl. Cynhelir prif athrofa Annibynol y Deheubarth weithion yn Aberhonddu, lle y mae colegdy cyfleus, gwerth dros ddeng mil o bunnau; ac yn y Bala y mae eu prif athrofa yn y Gogleddbarth. Y mae traul blynyddol y ddwy athrofa hyn dros ddwy fil o bunnau, y rhai a gesglir, gan mwyaf, yn eglwysi Annibynol y Dywysogaeth gan y myfyrwyr.

Calfiniaid lled uchel oedd Ymneillduwyr Cymru yn gyffredinol hyd oes y Dr. Daniel Williams, yr hwn oedd yn ei flodau o gylch 1687, fel y gwelir yn ei hanes a roddir rhag llaw, yn y cyfnod nesaf. Calfiniad isel oedd y Dr. Williams, o gyffelyb farn i Richard Baxter, a pharodd y dadleuon ar y pyngciau hyny, fel ar fedydd, lawer o gynnwrf, a rhai ymraniadau, ymhlith Ymneillduwyr Cymru. Er hyny, dengys y cyfrifon sydd yn llyfrgell y Dr. Williams, yn Heol Redcross, Llundain, a wnaed gan y Dr. John Evans, yn 1715, bod nifer Annibynwyr Cymru y pryd hwnw o gylch deng mil a hanner.

Nid oedd gan yr Annibynwyr hyd yn hyn ysgol Sabbothol yn ei ffurf bresennol; ond yr oedd ganddynt gyfarfodydd rheolaidd i egwyddori y bobl ieuaingc, ac anaml y derbynient neb i gymmundeb heb eu bod yn hyddysg yng Nghatecism y Gymmanfa.

Cynhyrfwyd Ymneillduwyr Cymru gan ddadl Arminaidd boethlyd o gylch 1729, yr hon a gychwynwyd gan Jenkin Jones, myfyriwr galluog o athrofa Aberhonddu, yr hwn a briododd foneddiges gyfoethog o sir Aberteifi; a thrwy ei ddawn a'i ddylanwad, ynnillodd lawer o bleidwyr mewn gwahanol barthau o'r Dywysogaeth. Pan fu efe farw yn 1742, yr oedd chwech neu saith o eglwysi Annibynol, a'u gweinidogion, yn proffesu Arminiaeth.

Pur egwan oedd Ymneillduaeth yng Ngogledd Cymru hyd ddechreuad Methodistiaeth Calfinaidd. Deg o eglwysi Annibynol oedd yn y chwe sir yn 1715, ac yr oedd saith o honynt yn fychain a gwanaidd. Cawsant ychydig adfywiad o gylch 1734, trwy gyfrwng pregethiad grymus Lewis Rees, Llanbrynmair. Bernir mai un achos o wendid Ymneillduaeth yn y Gogledd oedd diffyg pregethwyr brodorol. Deheuwyr oedd yr holl

meingeiau cyfleus, yn cael ei adael i'r tlodion yn ddi dâl. Yr oedd yr hen Ymneillduwyr cyntaf yng Nghymru yn dra gofalus am y tlodion, a haelionus iddynt; a dilynwyd eu hesiampl yn ddiwyd iawn gan yr hen Fethodistiaid trwy yr holl Dywysogaeth; a dilys ddiammau bod eu rhagoroldeb yn "y gras hwn," fel y geilw yr apostol ef, yn un achos mawr o'u llwyddiant a'u cynnydd cyflym yn y wlad. Byddai gwahanol eglwysi yn y wlad yn appwyntio dynion cymmwys i fyned allan, pob un i'w ddosparth pennodedig, i ymweled â thlodion yr ardal na fyddent yn myned i un lle o addoliad ar y Sabbothau, i'w cymmell i ddyfod i wrando yr efengyl; ac os rhoddid ar ddeall iddynt mai diffyg gwisgoedd, neu'r cyffelyb, a fyddai yr achos iddynt aros gartref, yn lle myned i'r addoliad cyhoeddus, byddent yn casglu yn y pregethau, yr ysgol Sabbothol, ac mewn dulliau eraill, er mwyn eu cynnorthwyo; ac wedi eu cael i'r addoliad, byddent yn gofalu, fel yr awgrymwyd eisoes, am eu gosod yn y lleoedd mwyaf manteisiol i wrando y gair. Yr oedd yr ymddygiadau hyn at y tlodion yn hollol gysson âg esiamplau Crist a'r apostolion. Pan anfonodd Ioan Fedyddiwr ddau o'i ddisgyblion at yr Arglwydd Iesu i ofyn iddo, "Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddisgwyl? A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Ewch a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch. Y mae'r deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhau, a'r byddariaid yn clywed; y mae'r meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt" (Mat. xi. 2–5; Luc vii. 21, 22). Cymmaint oedd gofal Iesu Grist am y tlodion, a'i haelioni iddynt, fel, pan ddywedodd efe wrth Judas Iscariot, y nos cyn ei fradychu, "Hyn yr wyt yn ei wneuthur, gwna ar frys," y tybiodd yr apostolion, "am fod Judas â'r gôd ganddo, fod yr Iesu yn dywedyd wrtho, Pryn y pethau sydd arnom eu heisiau erbyn yr ŵyl; neu, ar roi o hono beth i'r tlodion" (Ioan xiii. 27–29). Cyffelyb hefyd oedd gofal yr apostolion am y tlodion, ar ol esgyniad eu Harglwydd, canys pan oedd Paul yn ymddiddan âg Iago, Cephas, ac Ioan, ynghylch ei genadwri ei hun a'i gydlafurwyr at y Cenhedloedd, efe a ddywed, "Ni chwanegasant ddim i mi: . . . . . yn unig ar fod i mi gofio y tlodion; yr hyn hefyd y bûm mi ddyfal i'w wneuthur" (Gal. ii. 6–10; 1 Cor. xvi. 1, 2; 2 Cor. viii. 1–8). Gallasai yr hen Ddiwygwyr yng Nghymru ddywedyd yr un fath yn gymmwys, a mawr y llwyddiant a fu ar eu "llafur cariad" ymhob parth o'r Dywysogaeth.

* Cyhoeddwyd dros ddeg ar hugain o lyfrau Cymraeg gwerthfawr yn ystod yr eilfed ganrif ar bymtheg gan yr enwogion Annibynol hyn:—Stephen Hughes, Dafydd Jones, Richard Jones, a James Owen; ac y mae cynhyrchion llenyddol yr enwad wedi cynhyddu o amser Thomas Buddy, yn nechrau y ddeunawfed ganrif, hyd yn awr, yn fwy nag ar eu canfod. Dichon yn wir na lafuriodd un enwad Cymreig yn y maes toreithiog hwn yn gyfartal i'r Annibynwyr.

† Gan mai gwŷr wedi eu dwyn i fynu ymhrif athrofâu yr Eglwys Sefydledig, Rhydychain a Chaergrawnt, oedd sylfeunwyr Ymneillduaeth yng Nghymru, o William Wroth hyd Howel Harris, ac yn ddiweddarach, fel y profir yn helaeth yn hanes eu bywydau a geir yn y gwaith hwn, yr oedd yn ddigon naturiol iddynt hwy feddwl nad oedd neb yn gymmwys i bregethu y gair ac i weini yr ordinhadau ond rhai wedi cael addysg athrofaol; ond pan ddechreuodd Methodistiaeth gynhyddu yn ddirfawr, trwy gyfrwng pregethu teithiol, yn y Deheudir a'r Gogledd, ac i nifer yr hen Ymneillduwyr o'r Eglwys Sefydledig ddyfod yn llawer rhy fychan i ddiwallu yr alwad oedd yn y wlad am bregethu a gweinyddu yr ordinhadau, gwasgwyd y Methodistiaid, megis o angenrhaid, nid yn unig i oddef dynion digoleg i bregethu y gair, yn ol esiampl holl aelodau eglwys liosog Jerusalem (Act. viii. 1, 4; xi. 19–21); ond hefyd, i neillduo amryw o'r cyfryw i weini yr ordinhadau. Ac yn y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd yn y Bala, Mehefin 19, 20, 1811, neillduwyd naw o wŷr enwog heb gael addysg athrofaol, yng Ngogledd Cymru, i weini yr ordinhadau; ac mewn cyfarfod yn Llanelli Fawr, neillduwyd tri ar ddeg o bregethwyr cyffelyb yn y Deheudir i weini yr ordinhadau (Cyfres Ffydd, argr. 1829, t. 42-5); a pharhaodd y cyfundeb i chwanegu rhai o'r fath at eu nifer yn flynyddol, hyd 1836, pan y sefydlwyd coleg Methodistaidd yn y Bala, ac y mae'r llwyddiant mawr a fu ar eu llafur, a'r cynnydd parhaus a fu ar yr enwad trwy yr holl wlad, o'i gychwyniad hyd yn bresennol, yn brawf pur gadarn o effeithioldeb y cynllun a ddilynasant i ledeunu yr efengyl. Bu llwyddiant dirfawr a chyflym y Methodistiaid trwy yr holl Dywysogaeth yn foddion i ddwyn yr Ymneillduwyr Cymreig eraill i ddilyn eu hesampl, i gryn raddau, canys ordeiniwyd lliaws o bregethwyr heb gael addysg athrofaol yn eu plith hwythau i weinyddu yr ordinhadau.

Digitized by Google

Digitized by Google



E. Pick, Sc.

PARCH. THOMAS CHARLES,

O'R BALA.

WILLIAM MACKENZIE, LLUNDAIN, CAERLLEON AC ABERTAWE

Digitized by Google

bregethwyr yno braidd, ar y rhai yr edrychai y Gwyneddwyr fel dïeithriaid ymyrgar a diawdurdod. Ond yr oedd Annibyniaeth yn gref, a'i deiliaid yn lluosog ar y pryd yn y Deheubarth; gan hyny nid yw disgrifiad y Parch. T. Charles, Bala, y *Drysorfa Ysprydol*, 1799, a'r Barnwr Johnes yn ei *Causes of Dissent in Wales*, o wendid Anghydffurfiaeth, yn briodol ond am y Gogleddbarth yn unig.

Gwnaed cryn gynnwrf yn hen eglwys Annibynol Walfford, ger llaw Caerffili, mor forau ag 1738, gan Fethodistiaeth Galfinaidd. Gofynodd y gweinidog, Dafydd Williams, y pryd hwnw i Howel Harris bregethu yn ei gapel, â'r hyn y cydsyniodd yntau. Wedi hyny, yn 1743, cynhaliodd y Methodistiaid gymmanfa* yn Walfford, a'r canlyniad fu i ran o'r eglwys gofleidio golygiadau y Methodistiaid; a chododd y blaid Fethodistaidd gapel yn y Groeswen, o fewn tu a dwy filltir i Walfford.

Yn fuan ar ol hyn gwnaed rhwyg mawr ym mysg yr Annibynwyr gan Belagiaeth, neu Forganiaeth, athrawiaeth sydd yn gwadu pechod Adda fel yr achos o lygredigaeth y natur ddynol, a'r cyffelyb.† Yr oedd y gred yma yn araf weithio ei ffordd yn eu plith er mor forau ag 1728, ac erbyn 1770 coleddid yr athrawiaeth gan amryw o'u gweinidogion dysgedicaf, ymhlith y rhai yr oedd S. Thomas, athraw coleg Caerfyrddin. Aeth y ddadl mor boeth a chyndyn rhyngddynt, fel yr ymneillduodd y Calfiniaid oddi wrth y Pelagiaid, gan adael coleg Caerfyrddin i'r blaid Belagaidd, a sefydlodd y Calfiniaid athrofa arall yn Abergefeni. Wedi hyny, cynhaliodd y blaid Galfinaidd gymmanfa chwarterol ar gylch yn y gwahanol siroedd.‡ Parhaodd y ddadl gyndyn yma i rwygo eglwysi yr Annibynwyr yn y Deheubarth dros ddeugain mlynedd.

Wedi i'r Parch. T. Charles o'r Bala gychwyn yr Ysgol Sabbothol o gylch 1790, ymaflodd yr Annibynwyr yn y cynllun yn fuan â'u holl egni, a gweithiasant ef allan yn effeithiol a llwyddiannus, er lles i filoedd o'u cydwladwyr.§

Pan sefydlwyd Cymdeithas Genhadol Llundain, yn 1795, ymunodd Annibynwyr a Methodistiaid Calfinaidd Cymru i'w chynnorthwyo yn egnïol. Y mae yr Annibynwyr yn parhau mewn undeb â hi hyd y dydd hwn; ond sefydlodd y Methodistiaid Gymdeithas Genhadol eu hunain yn 1840, ac ymneillduasant oddi wrth y fam gymdeithas o hyny allan.

Ymhlith gwahanol ddadleuon y cyfnod hwn, y bwysicaf oedd yr un a ddygwyd ym mlaen rhwng yr Uchel-Galfiniaid a'r Calfiniaid Cymhedrol. Er mwyn gochel Arminiaeth a sefydlwyd yng Nghymru o gylch 1800, gogwyddodd amryw o bregethwyr yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r

* Seilia y Cyfundebau Crefyddol yn gyffredin eu hawl i gynnal cymmanfau ar Act. xv. Y mae Eglwys Rhufain ac Eglwys Loegr yn galw y bennod honno yn "hanes y Gymmanfa Eglwysig *(Convocation)* yn Jerusalem;" a'r Cyfundebau Crefyddol eraill yn ei galw yn "hanes Cymmanfa, Cymdeithasfa, neu Gyngor Jerusalem." Y mae yr holl enwau hyn yn arwyddo bod lliaws o eglwysi, neu gyfundeb o eglwysi, yn cael eu cynddrychioli ynddynt; a gwyddys na bydd neb ond cynddrychiolwyr ynghyfarfodydd dirgel cymmanfa, a'r rhai hyny oll yn gardinaliaid, archesgobion, esgobion, offeiriaid, gweinidogion, pregethwyr, bugeiliaid, blaenoriaid, a'r cyffelyb. (Nid yw pregethu i gynnulleidfa gymmysg mewn cymmanfa ond peth diweddar mewn cymhariaeth.) Ond nid oes dim o'r fath yn y bennod dan sylw. Hanes syml sydd yn y bennod am un Eglwys Annibynol led ieuangc, o genhedloedd gan mwyaf (Act. xiv. 26-28), yn anfon "Paul a Barnabas, a rhai eraill" o aelodau yr eglwys (xv. 2), i ofyn cynghor gan ben Eglwys Jerusalem, lle yr oedd y rhan fwyaf, os nad yr holl, apostolion ar y pryd, ynghylch yr enwaediad yn unig (ad. 1, 2). Nid oes dim sail i gasglu, mewn un modd, bod yno genhadon, neu gynddrychiolwyr, o unrhyw eglwys ond un Antiochia yn unig, yr hon oedd gryn 300 milltir o Jerusalem. Ac nid yr apostolion a henuriaid Eglwys Jerusalem yn unig a gyfarfu â chenhadon Eglwys Antiochia, ond *yr eglwys* cystal a'r apostolion a'r henuriaid (adn. 4), *yr holl liaws* (adn. 12), sef yr holl liaws disgyblion oedd yn aelodau yn Eglwys Jerusalem ar y pryd; a "chan yr apostolion a'r henuriaid [sef henuriaid Eglwys Jerusalem] *ynghyd a'r holl eglwys* y gwelwyd yn dda anfon gwŷr etholedig o honynt eu hunain i Antiochia, gyd â Phaul a Barnabas, sef Judas a gyfenwir Barsabas, a Silas, gwŷr rhagorol *ymhlith y brodyr*" [nid *ymhlith yr henuriaid*]: adn. 22. Nid anfon cenadwri yngenau cenhadon eglwys Antiochia a wnaeth yr apostolion, yr henuriaid, a holl eglwys Jerusalem, fel y gwneir o gymmanfaoedd at wahanol eglwysi; namyn anfon llythyr eglur ar y pwngc, sef enwaediad, a ofynid gan eglwys Antiochia. Pan ddechreuodd y Methodistiaid bregethu yn gyhoeddus yn eu cymmanfaoedd, arferai trigolion y sir y cynhelid y gymmanfa ynddi a thrigolion y siroedd cyfagos ymdyru wrth y miloedd i le yr ymgynhulliad, i wrando prif bregethwyr y cyfundeb yn traddodi eu cenadwri. Y mae sicrwydd i gynnifer ag o bymtheg i ugain mil o wrandawyr fod yn bresennol mewn llawer o gymmanfaoedd y Methodistiaid yn y gwahanol siroedd; ac nid oes un dŷn a ŵyr pa nifer o bechaduriaid a argyhoeddwyd yng Nghymru, trwy gyfrwng pregethiad y gair, yn y cyfarfodydd lliosog hyn. Yr ydym yn gwybod, trwy glywed rhai o hen Fethodistiaid Mon yn dywedyd, yr arferai amryw broffeswyr crefydd, tu a thriugain mlynedd yn ol, a chyn hyny, fyned yr holl ffordd ar eu traed o'r sir honno, bob blwyddyn, i "Sasiwn y Bala;" ac arferai trigolion siroedd eraill wneuthur yn gyffelyb. Eu harfer fyddai cyd-deithio yn gwmnïau bychain, ac ar ben pob rhyw ddeg neu bymtheg milltir, gorphwysent dros ychydig amser ar fin y ffordd neu ar y llwybr, tra'r elai un neu ddau o'r cyfeillion i weddi am fendith ar y gymmanfa; a therfynai y gorphwysfâu difyrus hyny yn fynych mewn sain cân a moliant, nes y byddai'r holl ardal yn dïaspedain gan eu gorfoledd. Yn lled fuan ar ol i'r Methodistiaid ddechrau cynnal eu cymmanfaoedd, dilynwyd eu hesampl gan y cyfundebau eraill.

† Y mae haneswyr yn amrywio ychydig yn eu dull o osod credo Morgan allan. Gyd â golwg arno yn bersonol, rhoddir gair da iddo hyd yn oed gan ei elynion penaf am gryfder ei synwyr, ei ddysg, a'i dduwioldeb.—Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. i., t. 213-217.

§ Y mae yn ddilys ddïammau nad oes un moddion gan yr Eglwys Gristionogol sy'n atteb yn fwy llythyrenol na'r Ysgol Sabbothol i orchymyn olaf yr Arglwydd Iesu i'w ddisgyblion, sef "Ewch gan hyny a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân; gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynais i chwi. Ac wele yr wyf fi gyd â chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen." (Mat. xxviii. 19, 20). Caiff *holl* ddisgyblion Crist ganiatâd i *ddysgu* y faint a fynnont i'w cyd-ddynion yn yr Ysgol Sabbothol, yn bendifaddau egwyddorion y cyfundeb; a chant *weddïo* y faint a fynnont drostynt; ond os digwydd iddynt argyhoeddi rhai o'u disgyblion, ni feiddient eu *bedyddio*, am yr ymddengys yr ystyrir hyny yn fwy cyssgredig na *dysgu a gweddïo*, o herwydd paham cedwir *bedyddio* i'w gyflawni gan y gweinidogion.—Gol.

Digitized by Google

Methodistiaid Calfinaidd at Antinomiaeth, fel y tybiai eu gwrthwynebwyr. Dan effaith y syniad yma, cyhoeddodd y diweddar Barch. John Roberts, o Lanbrynmair, lyfryn, yn 1815, a'i enw *Dibenion Marwolaeth Crist*, er mwyn amddiffyn golygiadau y Dr. Williams, Fuller, a'r Dr. Wardlaw, ar helaethrwydd yr Iawn. Attebwyd ef gan y diweddar Barch. T. Jones, o Ddinbych, a pharhaodd y ddadl rhyngddynt dros hir amser. Yn lled fuan ar ol i'r ddadl ddechrau, cymmerth amryw enwogion eraill gyfran helaeth ynddi; ac yr oedd llawer o'r Annibynwyr mor zelog dros olygiadau Jones ag ydoedd eraill dros yr eiddo Roberts. Condemnid Roberts fel heretic y pryd hwnw gan ei wrthwynebwyr; ond cafodd yr hen wron fyw i weled y gwrthwynebiad ffyrnig i'w "system newydd," fel y'i gelwid, wedi lleddfu i raddau dymunol, ac erbyn hyn y mae'n cael ei chredu a'i phregethu heb odid neb yn meddwl am ei gwrthwynebu.

Er yr holl helyntion a nodwyd, yr oedd Annibynwyr Cymru yn para i gynhyddu yn sefydlog. Pan gyfrifwyd hwy yn 1861, yr unig amser y'u cyfrifwyd ar ol 1715,* yr oedd eu rhif yng Nghymru fel hyn:—Capelydd,† 736; gweinidogion, 376; pregethwyr cynnorthwyol, 419; cymmunwyr, 94,798; aelodau yr Ysgol Sabbothol, 86,546; gwrandawyr, 101,763. Eglwysi Cymreig yn Lloegr, fel hyn:—Capelydd, 30; gweinidogion, 14; pregethwyr cynnorthwyol, 12; cymmunwyr, 2,849; aelodau'r Ysgol Sabbothol, 2,319; gwrandawyr, 2,587.

Ychwanegwn yr hyn a ganlyn o *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, gan T. Rees, D.D., Abertawy, a J. Thomas, D.D., Liverpool, heb newid dim ond y llythyraeth a'r geiriad yn achlysurol.

Yn y flwyddyn 1735 y torodd y diwygwyr Methodistaidd, Howel Harris, Trefecca, a Daniel Rowlands, Llangeitho, allan, ac y crëwyd cyfnod newydd yn hanes crefydd yng Nghymru. Y mae'n amhosibl llefaru yn rhy gryf am wasanaeth a dylanwad amhrisiadwy y dynion hyn a'u cyfoeswyr, a'u holynwyr uniongyrchol, ar grefydd yn ein gwlad. Dygasant ellen o wres a bywiowgrwydd i mewn nad oedd hyd yma wedi hynodi crefydd Cymru; ac yr oedd eu llafur a'u gweinidogaeth o nodwedd fwy ymosodol nag eiddo y rhan fwyaf o'r hen Ymneillduwyr, y rhai a foddlonent ar wylio eu praidd yn eu corlanau eu hunain.‡ Ond y mae'r deyrnged uchel a dalwyd iddynt, gan haneswyr a beirdd, wedi peri na chafodd y rhai a fuant o'u blaen hwy eu cydnabyddiaeth briodol; ac wedi peri hefyd fod sefyllfa y wlad, ar eu hymddangosiad hwy, wedi ei lliwio yn rhy gryf. Nid oes ddadl am wasanaeth gwerthfawr y diwygwyr Methodistaidd, ond hefyd y mae'n weddus cydnabod gwasanaeth y rhai a fuant yn arloesi'r tir, ac yn addysgu'r bobl erbyn eu dyfodiad hwy. Y mae rheswm arall hefyd paham y mae llawer wedi derbyn camargraph am gyflwr Ymneillduaeth yng Nghymru ynghyfodiad Methodistiaeth. Cyflwr Gogledd Cymru a ddarlunir gan ein haneswyr gan mwyaf, a chymmerir yn ganiatäol fod y Deheudir yn yr un sefyllfa. Nid oedd ond deg o gynnulleidfaoedd trwy holl Ogledd Cymru yn 1715, ac yr oedd saith o honynt yn fychain iawn; ac yr oedd y bobl yn anwybodus ac ofergoelus, a'u hyspryd yn erlidgar yn erbyn crefydd a gweinidogaeth efengylaidd. Ond yr oedd Deheudir Cymru mewn sefyllfa dra gwahanol, a gweinidogion llafurus yn gwylio dros eglwysi llewyrchus; ond nad oedd y gweithgarwch a'r bywiowgrwydd ynddynt oedd yn hynodi y diwygwyr Methodistaidd, o'r hwn wedi hyny y cyfranogodd llawer o'r hen Ymneillduwyr.§ Rhoddwyd darlun rhy dywyll gan amryw o agwedd crefydd yng Nghymru yn y cyfnod

* Yn y flwyddyn 1715, casglodd y Dr. John Evans, trwy ofal a llafur dirfawr, Ystadegaeth Ymneillduaeth yn Lloegr a Chymru. Yr oedd nifer y cynnulleidfaoedd Ymneillduol yn y flwyddyn hono yn 110, a nifer y rhai a ymgynhullent iddynt fel addolwyr rheolaidd yn fwy na 27,000, heb gyfrif y plant a'r rhai a ddeuent yn achlysurol. Yr oedd y blynyddoedd dyfodol yn flynyddoedd o lwyddiant graddol, fel y dengys hanes plwyf Aberystruth, gan Edmund Jones, a chofnodion eglwysig Cilgwyn, Pant Teg, Capel Isaac, a mannau eraill.—Han. Egl. Ann. Cymru, cyf. iv., t. 488.

† Un waith y mae y gair *cappel* yn y Bibl, sef yn Amos vii. 13; ac yno y mae yn arwyddo tŷ eulynod Jeroboam.—Gol.

‡ Dengys hyn tu hwnt i ddadl mai dilyn cynllun yr Eglwys Sefydledig, oddi wrth yr hon yr oeddynt wedi cilio, a wnaeth pregethwyr hen Ymneillduaeth Cymru, trwy aros yn "weinidogion sefydlog," i "wylio eu praidd yn eu corlanau eu hunain," yn lle dilyn cynllun y Pen Bugail, yr hwn a anfonodd y deuddeg apostol, ar y cyntaf, i ddinasoedd a threfydd Israel (Mat. x. 5, 11; Marc vi. 7, 10; Luc ix. 1, 2, 6); a'r deg disgybl a thriugain, wedi hyny, i ba dai a dinasoedd bynag a'u derbynient hwy (Luc x. 1–3, 5, 8), cystal ag i'r prif-ffyrdd a'r caeau (Mat. xxii. 9; Luc xiv. 21–23).—Gol.

§ Addefir yma mai yn y Deheubarth yr oedd "yr hen Ymneillduwyr . . . wedi arloesi y tir, ac addysgu y bobl" erbyn cyfodiad y Methodistiaid; ond bod cyflwr y Gogleddbarth yn dra gwahanol, "y bobl yn anwybodus ac ofergoelus, a'u hyspryd yn erlidgar yn erbyn crefydd a gweinidogaeth efengylaidd." Ond hyn sydd yn rhyfedd, eithr yn berffaith wir, sef mai yn y Gogleddbarth, lle nad oedd y tir wedi ei arloesi, na'r bobl wedi eu haddysgu gan hen Ymneillduwyr Cymru, ond i raddau bychain iawn, fel yr addefir, y llwyddodd y Methodistiaid fwyaf o lawer, ac yno y maent yn para i lwyddo fwyaf hyd yn bur ddiweddar, os nad hyd heddyw, yr hyn sy'n awgrymu yn bur arwyddocaol mai ychydig, os dim, mantais i Fethodistiaeth oedd arloesiad ac addysgiad "hen Ymneillduwyr Cymru." Attolwg, pa gyfrif a roddir, yn ddiragfarn, yn awr, am hyn? Wel, yn wir, yr unig gyfrif a allwn ni ei roddi ydyw hwn—Cenhadon teithiol, di goleg, fel rheol, y mae yn wir, ond hynod o dduwiol, galluog, ymdrechgar, a dysgedig yn yr Ysgrythyrau, oedd pregethwyr canrif gyntaf Methodistiaeth Galfinaidd, tebyg i'r apostolion, y deg a thriugain, ac aelodau Eglwys Jerusalem, "y rhai a drammwyasant gan

Digitized by Google



H. A. Chapman. Photo. L. Lowenstam. Sc.

PARCH. THOMAS REES, D.D.

ABERTAWE.

WILLIAM MACKENZIE, LLUNDAIN, CAERLLEON AC ABERTAWE.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google



L. Lowenstam Sc.

PARCH. JOHN ELIAS,

O FÔN.

WILLIAM MACKENZIE, LLUNDAIN, CAERLLEON AC ABERAWE

Digitized by Google

yma. Yn ei farwnadau ar ol Howel Harris a Daniel Rowlands, y mae Williams, Pant y Celyn, wedi rhoddi darluniad eithafol o gysgadrwydd crefyddol y wlad ynghodiad Methodistiaeth. Dyma un engraifft allan o'i farwnad i Howel Harris:—

"Pan oedd Cymru gynt yn gorwedd,
 Mewn rhyw dywyll farwol hûn,
Heb na Phresbyter na Ffeiriad,
 Nac un esgob ar ddihûn;
Yn y cyfnos tywyll pygddu,
 Fe ddaeth dŷn fel mewn twym iâs,
Yn llawn gwreichion golau, tanllyd,
 O Drefeca fach i ma's."

Yr ydym yn addef yn rhwydd fod ffurfioldeb a chysgadrwydd mawr wedi meddiannu llawer o'r hen eglwysi Ymneillduol, a'u bod yn boddloni yn ormodol ar gadw yr hyn oedd ganddynt, yn lle myned allan yn ymosodol er ynnill y wlad at Grist. Nid ydym mewn un modd yn ammau nad oedd tywyllwch, anwybodaeth, ac ofergoeledd yn gordoi llawer iawn o fanau yn ein gwlad, yn enwedig felly yng Ngogledd Cymru. Nid oes neb, ychwaith, yn fwy parod na ni i gydnabod gwasanaeth amhrisiadwy Howel Harris a'i

bregethu y gair;" am hyny cafodd y cynllun cenhadol Ysgrythyrol fwy o chwarau teg yn y Gogleddbarth nag a gafodd yn y Deheubarth, yr hwn barth oedd wedi ei lefeinio, i raddau pell, gan "weinidogaeth sefydlog" ddeublyg, sef yr eiddo Eglwys Loegr ac eiddo yr hen Ymneillduwyr Cymreig o honi, y rhai, mwy na'u holynwyr, nid ymysgwydasant oddi wrth ddefod yr hen Eglwys Sefydledig o gynnal *un* "gweinidog sefydlog" ymhob cynnulleidfa, yn lle "ordeinio *henuriaid* neu *esgobion*," sef *amryw* o honynt "*ymhob eglwys;*" ac anfon eu pregethwyr allan yn genhadon i argyhoeddi y byd, yn ol cynllun y Testament Newydd, fel y gwnaeth yr hen Fethodistiaid yn ebrwydd ar ol sefydlu eglwysi. Nis medrwn ni, a chredwn na fedr neb arall diragfarn, roddi unrhyw gyfrif amgenach am lwyddiant mawr a chyflym y Methodistiaid yn y Gogleddbarth, a'u llwyddiant llai ac arafach yn y Deheubarth.

Cymmerwn gipdrem etto ar "weinidogion llafurus" ac "eglwysi llewyrchus" y Deheubarth, cyn y diwygiad Methodistaidd. Dengys y Dr. John Evans, fel y gwelsom mewn nodyn blaenorol, mai 110 oedd nifer y cynnulleidfaoedd Ymneillduol yng Nghymru (yr holl enwadau Ymneillduol ond y Methodistiaid) yn 1715; a bod "nifer y rhai a ymgynhullent iddynt fel addolwyr rheolaidd yn fwy na 27,000." Ni fynegir pa un a oedd y 27,000 dan sylw yn *aelodau eglwysig* oll ai peidio: yr ydym braidd yn casglu oddi wrth amwysedd y mynegiad nad oeddynt; ond bwrier eu bod. Yn awr, tybier nad oedd y 10 cynnulleidfa yn y Gogledd yn fwy at eu gilydd na 100 bob un; yna tyner 1000 o'r 27,000, a bydd 26,000 yn weddill i saith sir y Deheubarth, Maesyfed, Brycheiniog, Mynwy, Morganwg, Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi. Rhanner y 26,000 dan sylw rhwng 100 o gynnulleidfaoedd, a gwelir nad oedd pob cynnulleidfa, ar gyfartaledd, hyd yn oed yn y Deheubarth, yn cynnwys dim ond 260 o "addolwyr rheolaidd" yn 1715, sef ymhen 76 o flynyddoedd ar ol i Wroth sefydlu eglwys yn Llanfaches, yn 1639; a 21 cyn i Howel Harris "sefydlu cyfeillachau neillduol" yn 1736. Nid yw nifer mor fychan i bob cynnulleidfa, ymhlith cynnifer o filoedd o drigolion a gynhwysai saith sir y Deheubarth, yn oed y pryd hyny, ac ystyried bod "yr hen Ymneillduwyr" wedi cael y fath dymmor hir i'w casglu, yn arwyddo bod y "gweinidogion" wedi bod yn hynod o "lafurus," na bod yr "eglwysi" ar y pryd yn bur "llewyrchus" chwaith. Dylid cofio hefyd bod "yr hen Ymneillduwyr" yn cynnwys dau enwad crefyddol, o leiaf, ar y pryd, sef yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Os cymharir gwaith y ddau enwad crybwylledig yn y Dywysogaeth yn ystod yr 76 mlynedd cyntaf o'u hanfod â gwaith y Methodistiaid yn yr 76 mlynedd cyntaf o'u hanfod hwythau, ceir golwg bur wahanol ar lwyddiant yr olaf i'r rhai blaenaf. Nid yw Edmund Jones, Pont y Pŵl, yn ei gofnod chwerw am Williams o Bant y Celyn, fel y gwelir yn y testyn ychydig ym mlaen, yn nodi dim ond 9 o weinidogion Ymneillduol yn holl Gymru yn ei amser ef, mor ddiweddar ag 1773, ymhen 134 o flynyddau ar ol i Wroth sefydlu yr eglwys Annibynol gyntaf yn Llanfaches; ond sylwer ar sefyllfa y Methodistiaid yn 1811, ymhen 75 o flynyddau ar ol i Harris sefydlu "cyfeillachau neillduol" yn 1736:—"Y mae y Methodistiaid yng Nghymru yn y dyddiau hyn [Mehefin 19, 20, 1811] yn Gorph tra llïosog . . . Am nad ydyw nifer yr Offeiriaid yn yr Eglwys Sefydledig, yn gweinidogaethu yn ein plith, yn cyfatteb i lïosogiad y Corph ac ehangder y gwaith, a nifer yr eglwysi yn ganlynol i hyny, i gyfranu y sacramentau a'r ordinhadau i'r holl Gorph, yn ei amrywiol ganghenau; ac am fod anghyfleusdra mawr i'r eglwysi yn y trefydd yn Lloegr, a diffyg gweinyddiad yr ordinhadau sanctaidd, heb geisio gweinidogion o bleidiau eraill i'w gweinyddu iddynt: o herwydd y rhesymau hyn, ac amrywiol eraill, yr ydym yn gweled yn addas, ac yn angenrheidiol,—

"1. Neillduo nifer addas o lefarwyr, yn yr amrywiol siroedd, i gynnorthwyo yr Offeiriaid sydd yn gweini yn bresennol yn y Corph, yngweinyddiad yr ordinhadau.

"2. Yr ydym yn barnu yn addas iddynt ym mlaenaf gael eu dewis o blith yr hynafgwyr yn y Corph, y rhai y cafwyd prawf boddlongar o'u ffyddlondeb, eu sobrwydd, eu difrifwch, a'u duwioldeb, a'u doniau addas i waith yr Arglwydd.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

"6. Nad oes i un llefarwr a neillduir i olygu ei hun yn weinidog arbenig [sefydlog] i un gangen o eglwys; ond eu bod oll, yn ol y dull presennol, i weini yr ordinhadau i bob cangen o'r Corph, fel y byddo eu cyfleusdra, a'r galwad am danynt."

Yn unol â'r penderfyniadau hyn, ac eraill cyffelyb, neillduwyd 9 o bregethwyr yn chwe sir y Gogledd i weini yr ordinhadau, "enwau y rhai a ddarllenwyd i o gylch tri chant o gynddrychiolwyr y Corph oedd yn ymgynnulledig yn y Bala, y rhai a roddasant eu cymmeradwyaeth unfryd iddynt oll."

Yn yr un flwyddyn etto, yn Llandeilo Fawr, neillduwyd 13 yn gyffelyb o wahanol siroedd y Deheubarth (Cyffes Ffydd, argr. 1823, t. 36–45); a dengys *Methodistiaeth Cymru* fod cannoedd o bregethwyr yn yr holl Dywysogaeth ar y pryd a elwid "Cynghorwyr," y rhai oedd yn llawn mor gymmwys i weini yr ordinhadau a'r rhai a neillduwyd, ond bod "y Corph," fel yr enwadau eraill oedd yn y wlad, wedi methu llwyr ymryddhau oddi wrth ddefodau Eglwys Loegr, o'r hon yr oeddynt hwy, fel y lleill, wedi hanu.

Credir bod yn amhossibl priodoli cynnydd mawr a chyflym y Methodistiaid yng Nghymru, ar eu cychwyniad, mewn cymhariaeth i gynnydd anniben "yr hen Ymneillduwyr" eraill, i ddim ond i'w gwaith yn dilyn cynllun anffaeledig y Testament Newydd, trwy bregethu teithiol, a thrwy osod *amryw henuriaid ymhob eglwys*, dan yr enw "blaenoriaid," tra y dilynai y lleill gynllun gwahanol, trwy gymmeryd *un* "gweinidog sefydlog," cyflogedig, yr hwn a gyfynga ei holl lafur braidd i un gynnulleidfa, gan bregethu yn barhaus i'r un pobl, a llawer o'r rhai hyny, yn ddïau, mor ddeallus yn yr efengyl ag yntau, gan adael ei gyd-ddynion oddi allan i'w gynnulleidfa fechan ei hun heb glywed yr efengyl.

Gresyn calon bod llawer o'r Methodistiaid weithion yn prysur ymlithro i gamsyniad dihoenus yr enwadau eraill, trwy gyflogi *un*, a alwant yn "fugail sefydlog, pregethwrol," i'r gwaith a wnelid gynt yn "y Corph" gan amryw henuriaid ymhob eglwys, yn rhad, yn ol y cyfarwyddyd dwyfol (Act. xx. 17, 28–35). Gresyn hefyd bod "y Corph" yn awr wedi newid cryn lawer ar ei gynllun cyntefig o fyned at y bobl i ymdrechu eu hargyhoeddi, a'u dwyn dan bregethiad yr efengyl, fel y gwnelai y tadau, canys y mae miloedd lawer o'n cydgenedl etto yn y wlad, yn enwedig y tlodion, heb glywed gair o bregeth ddydd mewn blwyddyn, na darllen adnod o'r Bibl, na gofalu am hyny chwaith. Ofer yw dywedyd bod digon o gyfleusderau yn awr yng Nghymru i bawb glywed yr efengyl, canys pa ddiben bod cyfleusderau ynghyrraedd rhai nad ydynt yn gweled dim gwerth ynddynt, nac yn gofalu dim am eu heneidiau eu hunain chwaith. Y cyfarwyddyd dwyfol i'r eglwys ydyw, "Dos allan ar frys i heolydd ac ystrydoedd y ddinas, a dwg i mewn yma y tlodion, a'r anafus, a'r cloffion, a'r deillion. . . . . Dos allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, a chymmell [*cymmell*] hwynt i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhŷ" (Luc xiv. 21-23). Gobeithio bod yr amser wrth y drws pan y cyfyd yr Arglwydd etto ddynion o fath Howel Harris, Ebenezer Morris, y ddau Richard, R. Roberts, Clynnog, John Elias, a'u cyffelyb, y rhai a ymroddant i ddysgu eu cydwladwyr â'u holl egni yn egwyddorion syml y Testament Newydd, fel y gwnai y tadau ymdrechgar a llafurus crybwylledig, cystal a llawer o rai eraill ymhlith yr Ymneillduwyr gynt ymhob sir trwy Gymru.

Digitized by Google

gydlafurwyr, o blegid yn sicr "Fe ddaeth dŷn fel mewn twym iâs, yn llawn gwreichion golau, tanllyd, o Drefeca fach i ma's." Ond nid gwir ydyw nad oedd un "Presbyter na Ffeiriad, nac un esgob ar ddihûn."* Yn wir y mae'r Bardd ei hun ychydig ym mlaen yn y farwnad yn cydnabod:—

"Gruffydd Jones pryd hyn oedd effro,
Yn cyhoeddi efengyl gras,
Hyd cyrhaeddai'i lais o'r pulpud,
Neu os rhaid o'r fynwent las;
Ond am fod ei forau'n dywyll,
Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,
Fe arswydai fynd i'r meusydd,
Ac i'r lleoedd nad oedd llan."

Wel, ynte, os oedd Gruffydd Jones, Llanddowror, y pryd hyny yn effro, yn sicr nid oedd pob "Ffeiriad" yn cysgu; ac yr oedd llawer "Presbyter," fel y gelwid yr Ymneillduwyr, "ar ddihûn." Digiodd Edmund Jones, Pont y Pŵl, yn fawr wrth Williams, Pant y Celyn, am y darluniad unochrog a roddodd; ac yn ei ddydd-lyfr am 1773, ysgrifenodd y sylw llym a ganlyn:— "Y mae Mr. William Williams, yr offeiriad Methodistaidd, yn ei farwnad i Mr. Howel Harris, yn dywedyd yn eglur, ac yn canu yn eglur, nad oedd yr un† Offeiriad na Phresbyter yn effro pan ddaeth Mr. Howel Harris allan i gynghori.‡ Anwiredd digywilydd wedi ei argraphu; o blegid yr oedd rhai Offeiriaid yn effro o'i flaen ef, megis Mr. Gruffydd Jones, Llanddowror, a Mr. Thomas Jones, Cwmiau;§ a llawer o weinidogion Ymneillduol, megis Mr. John Thomas, yn sir Gaernarfon; Mr. Williams, Tredwstan; a Mr. Morgan, Llanafan, yn sir Frycheiniog; Mr. Vavasor Griffiths, yn sir Faesyfed; Mr. Palmer, Henllan; a Mr. William Morris, yn sir Benfro; Mr. Philip Pugh, yn sir Aberteifi; Mr. James Davies, Merthyr, yn sir Forganwg; a myfi fy hun‖ a ddygodd Mr. Harris i gynghori yn sir Fynwy. Y mae'n syndod pa fodd y gallodd dŷn ddyweyd y fath beth wedi ei eni a'i addysgu ym mysg yr Ymneillduwyr. Os na rydd y Methodistiaid i fynu eu geiriau caledion, bydd i Dduw yn raddol eu gadael, ac yna gwanychant, ac ni byddant ond o ychydig wasanaeth."* Y mae'n hawdd deall bod yr "Hen Brophwyd" yn ysgrifenu dan radd o gyffroad; ac nid rhyfedd hyny pan yr oedd pethau yn cael eu siarad a'u hysgrifenu i osod allan agwedd Cymru mor dywyll a phaganaidd a phe na buasai dim wedi ei wneud ar ol can mlynedd o lafur caled yr hen Anghydffurfwyr.†

Y mae dau neu dri o bethau yn deilwng o sylw ar berthynas y Diwygwyr Methodistaidd â'r hen Ymneillduwyr, y rhai y mae ein haneswyr a'n hysgrifenwyr yn gyffredinol yn edrych heibio iddynt. Yn gyntaf oll, gallwn grybwyll ddarfod i amryw o'r gweinidogion Ymneillduol, oedd eisoes ar y maes, roddi y gefnogaeth fwyaf calonog i Harris a Rowlands, a'u cydlafurwyr. Cafodd Daniel Rowlands, Philip Pugh, Llwynpïod, yn noddwr caredig: Edmund Jones, Pont y Pŵl, fel y gwelsom, a wahoddodd Howel Harris i sir Fynwy: ar gais Lewis Rees, Llanbrynmair, yr ymwelodd gyntaf â'r Gogledd: Dafydd Williams, Walfford, a agorodd ddrws ei gapel i'r Methodistiaid i gynnal eu cymdeithasfa gyntaf yng Nghymru; ac y mae y llythyrau caruaidd a basiodd rhwng Howel Harris a James Davies, Merthyr; Henry Davies, Blaengwrach; D. Williams, Walfford; ac Edmund Jones, Pont y Pŵl, llawer o ba rai sydd wedi eu cyhoeddi, yn dangos mor gefnogol oeddynt i lafur y Diwygwyr Methodistaidd.‡ Y mae'n wir fod amryw yn teimlo'n wahanol, ac yn barnu eu bod yn rhoddi golwg unochrog ar drefn yr efengyl, ac yn cefnogi afreoleiddiwch anghydweddol âg urddas§ yr efengyl: felly yn arbenig Philip Dafydd, Pen-main;‖ ond cawsant ffafr yngolwg y rhan fwyaf o'r hen Ymneillduwyr, a dy-

* Dylid cofio y goddefir i Feirdd arfer gormodiaith, a dengys y pennill uchod a ddifyna yr ysgrifenwyr galluog mai yr hyn a olyga yr hen Williams ydoedd, nad oedd ond *ychydig* o'r rhai a nodai efe "ar ddihûn;" ac yn hyny yn wir yr oedd efe yn berffaith gywir. Gwel y nodiad blaenorol.—Gol.

† Gwel y nodiad olaf.

‡ "Cynghori," ac nid pregethu, yn ol yr hen "Bresbyter" Annibynol yma, yr oedd Howel Harris! Pe buasai efe a'i frodyr yr un fath a Howel Harris, buasai mwy na *naw* gwerth eu henwi o honynt yng Nghymru oll yn 1773.—Gol.

§ Dim ond dau "Offeiriad" gwerth eu henwi yng Nghymru benbaladr!—Gol.

‖ Gwel y nodiad olaf ond un.

* Ni buasai dim perygl i'r brophwydoliaeth yma gael ei chyflawni, pe buasai y Methodistiaid yn para i wella eu cynllun dechreuol, gan ei ddwyn yn nesnes at gynllun syml y Testament Newydd; ond gan eu bod wedi dechrau llithro, er ys gryn ddeugain mlynedd bellach ymhellach bellach oddi wrtho, gan ddynesu mwyfwy at gynllun clerigol yr hen enwadau oedd yn y wlad o'u blaen, y mae lle i ofni, os na throant yn ol i'r "hen ffordd," sef ffordd y Testament Newydd, y teimlant ymhen amser nad gau y brophwydoliaeth a draddodwyd gan Edmund Jones, o Bont y Pŵl.—Gol.

† Gwel y nodiad olaf ond tri.—Gol.

‡ Y mae yn debyg na wyddai "yr hen Ymneillduwyr" hyd yn hyn y ffurfiai y Methodistiaid gyfundeb hollol wahanol iddynt hwy.—Gol.

§ Ofn am yr *urdd glerigol* oedd ar yr hen deulu.—Gol.

‖ Ceir ei nodiadau chwerwon ef ar y Methodistiaid yn 1775, 1783, ac 1785 (Han. Egl. Ann. Cymru, cyf. i., t. 27), ymhen o ddeugain i hanner can mlynedd ar ol i Howel Harris sefydlu y "cyfeillachau neillduol" cyntaf yn 1736, pan yr oedd yn ddigon amlwg nad ymunai y Diwygwyr Methodistaidd â'r "hen Ymneillduwyr." Am yr hen frawd, Philip Dafydd, dywed yr ysgrifenwyr (Han. Egl. Ann. Cymru, cyf. i., t. 27, 28), "Hen Ymneillduwr sych oedd Philip Dafydd, ynghyfrif Methodistiaid ei oes, a hen Galfiniad rhagfarnllyd ynghyfrif ei gydoeswyr Arminaidd ac Ariaidd. Tra nas gallwn lai nag edrych gyd â chymmeradwyaeth ar ei wrthwynebiad cadarn i gyfeiliornadau ei oes, nis gallwn hefyd lai na galaru na buasai gŵr o'i alluoedd rhagorol ef yn llawnach o yspryd diwygiad yr oes."—Gol.

Digitized by Google

munent Dduw yn rhwydd iddynt, er nad oeddynt yn cymmeradwyo pob peth ynddynt.

Y mae ffaith arall yn deilwng o sylw, sef mai yn y manau lle'r oedd Ymneillduaeth wedi hir wreiddio, a chynnulleidfaoedd cryfion wedi eu casglu, y dechreuodd arweinwyr y Diwygiad Methodistaidd eu gweinidogaeth. Dygwyd Howel Harris i fynu o fewn hanner milltir i Dredwstan, lle'r oedd eglwys Annibynol gref, yn cynnwys tu a dau cant o aelodau, a lle yr oedd W. Williams, un o'r dynion mwyaf gweithgar yng Nghymru, yn weinidog. Yr oedd Daniel Rowlands yn byw yn yr un plwyf a'r apostolaidd Philip Puw, yr hwn yr oedd pump o eglwysi Annibynol cryfion dan ei ofal, yn cynnwys cydrhyngddynt fil o bersonau.* Yr oedd tad Williams, Pant y Celyn, yn ddiacon yn eglwys Annibynol Cefnarthen, ger llaw Llanymddyfri, ac yno y dygwyd yntau i fynu; a bu wedi hyny yn athrofa Annibynol Llwyn-llwyd, yn sir Faesyfed. Nid ydym yn cael bod cymmaint ag un gymdeithas neillduol Fethodistaidd, am y chwe blynedd cyntaf wedi cychwyniad y Diwygiad, wedi ei sefydlu mewn unrhyw ardal nad oedd yno yn flaenorol eglwys Ymneillduol. Gwelir felly fod y tir mewn rhan wedi ei barotoi gan y rhai a aethant o'u blaen hwy. "Eraill a lafuriasant, a hwythau a aethant i mewn i'w llafur hwynt."†

Y mae un peth etto yn werth ei grybwyll, sef mai aelodau o'r hen eglwysi Ymneillduol, oedd eisoes yn y wlad, oedd y rhan fwyaf o'r to cyntaf o gynghorwyr y Methodistiaid,‡ ac i lafur hunanymwadol y rhai yr addefa pawb yr oedd y Diwygiad ar ei gychwyniad yn ddyledus.§ Nis gallasid disgwyl i ddynion newydd eu dychwelyd at yr Arglwydd o ganol y tywyllwch dudew y tybia llawer fod y wlad ynddo, fod yn gymmwys i gynghori eraill, ac arolygu y cymdeithasau bychain a sefydlid; ond yr oedd yr Arglwydd trwy yr hen Ymneillduwyr, y rhai oedd yn ofalus i wreiddio eu pobl mewn gwybodaeth, wedi parotoi dynion cymmwys i'r gwaith. Rhai felly oedd Richard Tibbot, Jenkyn Morgan, Morgan John Lewis, John Belcher, William Edwards, ac eraill. Dylanwadwyd arnynt gan y gwres a'r bywiowgrwydd oedd yn nodweddu y Diwygwyr Methodistaidd; ond o'r diwedd, wrth weled yr amcan i wneud Methodistiaeth yn gangen o'r Eglwys Sefydledig, dychwelodd llawer o honynt at eu hen gyfeillion, ac ymsefydlasant, fel y gwelsom, yn weinidogion ar eglwysi neillduol. Os cymmerir y tri pheth a nodwyd i ystyriaeth, nid ydym yn gweled pa fodd y gellir ysgoi y casgliad, bod Methodistiaeth yn llawn cymmaint o gangen o'r hen eglwysi Annibynol oedd eisoes yn y wlad ag ydyw o'r Eglwys Sefydledig.‖

Y mae yn eglur, pa fodd bynag, ddarfod i'r hen eglwysi oedd wedi bod yn hir ar y maes dderbyn symbyliad effeithiol trwy'r Diwygiad Methodistaidd.¶ Bu yn achlysur, y mae yn wir, i yru rhai ymhellach oddi wrth yr hen wirioneddau a gyf-

* Yr oedd y pum eglwys gref (o ddeucant bob un ar gyfartaledd) oedd "dan ofal yr apostolaidd Philip Puw," yn llawer tebycach i Esgobaeth Tŷ Ddewi neu un Llandaf, nag i eglwysi gwir Annibynol Lystra, ac Iconium, ac Antiochia, ac eglwys Ephesus, canys yr oedd y gwir "apostolaidd" Paul a Barnabas wedi gosod *amryw* henuriaid neu esgobion "ymhob eglwys" o'r rhai hyny (Act. xiv. 21, 23; xx. 17, 28); tra nad oedd gan bob un o'r pum eglwys (pum *darn* o eglwys, yn hytrach) oedd "dan ofal yr apostolaidd Philip Puw" ddim ond y *bummed ran* o *un* esgob! Y mae yn amlwg fod yr *hen* Fethodistiaid wedi cael syniad Ysgrythyrol cywir ar y pwngc o *amryw henuriaid* ymhob eglwys, cystal ag ar y pwngc mai cenhadon teithiol *yw* pregethwyr i fod, ac nid "gweinidog sefydlog," fel y'u camenwir, beth bynag oedd eu colliadau mewn pethau eraill.—Gol.

† A da iawn y gwnaethant "fyned i mewn i'w llafur hwynt," os felly yr aethant; canys y mae yn eglur, fel y dangoswyd yn y nodiad olaf, nad oedd "yr hen Ymneillduwyr" yn llafurio yn ol cynllun yr Ysgrythyr Lân. Heb law hyny, os i lafur "yr hen Ymneillduwyr" yn hollol, fel yr awgrymir yn y testyn, yr aeth yr hen Fethodistiaid, pa reswm a ellir ei roddi dros y gwirionedd neu y "ffaith" mai yng Ngogledd Cymru, lle nad oedd ond deg o gynnulleidfaoedd, a "*saith* o honynt yn *fychain iawn*," a lle yr "oedd y bobl yn anwybodus ac ofergoelus, a'u hyspryd yn erlidgar yn erbyn crefydd a gweinidogaeth efengylaidd," y llwyddodd y Methodistiaid fwy o lawer iawn, fel y dangoswyd eisoes, nag yn y Deheubarth, lle y dywedir bod "y tir wedi ei barotoi" iddynt? Yr unig reswm dros y gwirionedd neu y "ffaith" grybwylledig a allwn ni ei ganfod ydyw, bod tir y Deheubarth wedi ei ofer-wrteithio gan glerigaeth Eglwys Loegr, a'i hen blant Ymneillduol; am hyny bod tir gwyllt y Gogledd yn fwy cyfaddas i dderbyn had da gwirionedd cenhadol a gwir henadurol y Testament Newydd.—Gol.

‡ Yr oedd Wycliff hefyd a Luther, ac eraill o "gynghorwyr" y Diwygiad Protestanaidd, wedi bod yn aelodau zelog a chydwybodol o hen-*hen* Eglwys Rhufain, a thrwy hyny cawsant fantais i weled ei haml gyfeiliornadau ysgeler a gwaradwyddus.—Gol.

§ Nid oedd eu dyled iddynt yn y Gogledd, fel y gwelsom, ond *bychan iawn*, fel *saith* o'r cynnulleidfaoedd oedd yno. Chwarau teg i'r ddwy blaid yw ein "gair cysswyn" ni.—Gol.

‖ Y mae yr ymadroddion hyn yn ymddangos i ni yn hynod a thywyll. Nid ydym yn gwybod, ac ni fynegir yma, pwy o'r hen Fethodistiaid a amcanent "wneud Methodistiaeth yn gangen o'r Eglwys Sefydledig." Pwy bynag a amcanai at hyny, os ancanwyd o gwbl, yr oedd yn amcanu at beth amhosibl, heb i holl dai addoliad y Methodistiaid gael eu cyssegru gan Esgob Gwladol yn eglwysydd neu gapelydd anwes, a'u pregethwyr gael eu hurddo gan Esgob Gwladol yn ddiaconiaid, offeiriaid, a'r cyffelyb! Nid oes dim "cangen" arall i fod o Eglwys Sefydledig y wlad. Yr un mor amhriodol hefyd, os nad mwy felly, yw dywedyd bod Methodistiaeth yn "gangen o'r hen eglwysi Ymneillduol," Annibynol, ag a fyddai dywedyd eu bod hwythau yn "gangen" o'r Eglwys Wladol. Yn wir, y maent hwy yn debygcach o lawer i'r eglwys honno nag ydoedd yr hen Fethodistiaid di-"weinidog sefydlog," cyflogedig. Pwy o'r "hen Ymneillduwyr" a aethant yn Fethodistiaid, ac a ddychwelasant "at eu hen gyfeillion," nis gwyddom ar hyn o bryd, heb law Richard Tibbot, Llanbrynmair; ac ymddengys mai gwaith yr Eglwys Annibynol yno, yn rhoi galwad iddo i fod yn "weinidog sefydlog" cyflogedig iddi hi, a barodd y chwyldroad yn ol, yn hytrach na dim arall, fel y ceir gweled etto yn ei hanes.—Gol.

¶ Gresyn na buasai y Diwygiad Methodistaidd yn eu symbylu hefyd i gymmeryd cynllun y Testament Newydd o bregethu teithiol, ac o sefydlu *amryw* henuriaid neu esgobion "ymhob eglwys," fel yr eglwysi Annibynol apostolaidd (Act xx. 17, 28-35; Phil. i. 1; Tit. 1. 5.)—Gol.

Digitized by Google

rifid yn uniongred; ond bu yn foddion hefyd i beru i eraill wisgo gwedd fwy efengylaidd; a gŵyr pawb cyfarwydd mai y blaid efengylaidd yn yr Eglwys Sefydledig, ac ym mysg yr enwadau Ymneillduol, a achubodd fywyd crefydd yn y deyrnas hon yn y ganrif ddiweddaf.

Ni byddai briodol i ni fyned heibio heb gyfeirio at y Diwygiadau Crefyddol â pha rai y bendithiwyd yr enwad. Er mai peth priodol i'r cyfnod Methodistaidd yw diwygiad, yn yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r ymadrodd; etto, gwyddom fod ein henwad ninnau bellach er ys yn agos i bedwar ugain mlynedd wedi ei fendithio ar wahanol adegau â diwygiadau nerthol. Profodd ein heglwysi, cyn diwedd y ganrif ddiweddaf, ymweliad grymus oddi wrth yr Arglwydd; a dichon bod yr enwog David Davies, Abertawy, ym mysg y rhai cyntaf a ddefnyddiwyd gan yr Arglwydd i roddi cyffroad nerthol yn ein henwad. Yr oedd nerth ei ddoniau yn tynu tyrfaoedd mawrion ar ei ol; a thrwy ei weinidogaeth [ei *bregethiad?*] angerddol, rhoddwyd bywyd newydd mewn llawer o eglwysi. Cyfranogodd amryw o'i gydoeswyr yn helaeth o'r un yspryd, fel y daeth "sain cân a moliant ymhyrth merch Sïon" yn beth cyffredin dan eu gweinidogaeth [eu *pregethiad?*] Tu a'r flwyddyn 1809, a'r flwyddyn ddilynol, ymwelodd yr Arglwydd yn rasol â pharthau o'n gwlad, pryd yr ychwanegwyd llawer at yr eglwysi. Torodd diwygiad nerthol iawn allan tu a'r fl. 1818, a pharhodd dros rai blynyddau yngwahanol ranau y Dywysogaeth, "a nifer mawr a gredodd ac a drodd at yr Arglwydd." Yr oedd amryw o'r to diweddaf o weinidogion ein gwlad ym mysg dychweledigion y diwygiad hwnw. Y mae llawer etto yn fyw o'r rhai a ddychwelwyd at grefydd yn 1828, a'r flwyddyn ganlynol. Bu yn fywyd o feirw i lawer o eglwysi. Ymwelodd Duw â'i bobl mewn modd nodedig yn y blynyddau 1839–40. Yr oedd y Diwygiad Dirwestol, yr hwn a gychwynwyd yn ein gwlad ychydig flynyddau cyn hyny, ac i'r hwn yr ymollyngodd llawer o weinidogion a dynion gorau yr eglwysi yn y dyddiau hyny, wedi bod yn foddion "i ddarparu i'r Arglwydd bobl barod." Y mae haf a hydref 1849 yn fyw etto ar gof cannoedd yn ein gwlad, fel adeg nodedig i gofio Sïon. Daeth ton gref o ddiwygiad nerthol dros yr holl wlad yn 1859, a pharhaodd dros y flwyddyn ganlynol; a dïau na welodd ein gwlad, yn nifer ei dychweledigion, ddim byd yn gyffelyb i'r hyn a welwyd yn yr adeg honno. Bu yr ymweliadau anarferol hyn yn dra bendithiol i grefydd; a hebddynt, nid yw debyg y gallasai yr eglwysi ddal eu tir mewn rhifedi. Y mae yn wir i lawer o'r rhai mwyaf zelog a thanllyd fyned "yn eu hol heb rodio mwyach gyd â'r Iesu;" ond y mae yn wir hefyd fod miloedd o honynt "wedi cael help gan Dduw yn aros hyd y dydd hwn," heb law y miloedd sydd wedi myned i ogoniant yn orfoleddus. Y mae bellach bymtheng mlynedd wedi myned heibio heb ymweliad neillduol oddi wrth yr Arglwydd; ond y mae deffroad cyffredinol trwy holl eglwysi ein gwlad y dyddiau yma, ac arwyddion gobeithiol bod yr Arglwydd ar "godi a thrugarhau wrth Sïon;" ac y mae y dynion gorau yn yr eglwysi yn hiraethu am "weled ei nerth a'i ogoniant fel eu gwelsant yn y cyssegr."*

## PENNOD III.

### Y BEDYDDWYR.

Y MAE egwyddorion neillduol a gwahaniaethol rhai "Enwadau Crefyddol" yn hanfod, ac i raddau mwy neu lai yn ymddadblygu, neu yn dod i'r golwg o dan wahanol amgylchiadau dros ugeiniau, ac weithiau dros gannoedd o flynyddau, yn flaenorol i'w cyfuniad gweledig mewn gwahanol gyfundrefnau nerthol i ddylanwadu yn rymus er drwg, neu er da, ar y teulu dynol. Bu'r Babaeth, er esampl, dros gannoedd o flynyddau cyn ymffurfio yn gyfundrefn nerthol a herfeiddiol, fel ag i fod yn fflangell drom ar wledydd a theyrnasoedd; ond ymwthiai "dirgelwch yr anwiredd" yn raddol i'r golwg mewn ymddadblygiadau daroganus, hyd yn oed yn yr oes apostolaidd. Gwnaeth Luther waith nad yw yn hawdd, nac fe allai yn bossibl, ei orbrisio; ond y "Diwygwyr cyn y Diwygiad" a barotoisent y byd i gryn raddau ar gyfer y Diwygiad Protestanaidd, am rai canrifoedd cyn geni y diwygiwr mawr, er nad oeddynt hwy na'u syniadau yn adnabyddus iddo ef; a gwaith Luther, i raddau pell, oedd corphori a gweithio allan egwyddorion a ymddadblygasent yn rhanol mewn ysgrifau a dywediadau distaw yn y lleoedd mwyaf dirgel ac anghyspell.† Pe na chawsai y byd ei addfedu i raddau ar gyfer y diwygiad yn Germania gan oruchwyliaethau blaenorol, nis gallasai y myn-

* Han. Egl. Ann. Cymru, cyf. iv., t. 488–491.
† Gwel y Rhagymadrodd.

ach dychweledig effeithio mor ddwfn ac mor ehang ag y gwnaeth ar wledydd Ewrop. Ceir profion anwrthwynebadwy o wirionedd y syniad hwn mewn gwahanol lyfrau ar y "*Reformers before the Reformation.*" Yn nyddiau Crist a'i apostolion, ac am gryn amser wedi hyny, ceid Cristionogaeth yn ei phurdeb, er i'r "anwiredd," fel y crybwyllwyd, roddi profion o'i hanfod yn y ganrif gyntaf. Yn amser Cystenyn (*Constantinus*) unwyd crefydd â'r wladwriaeth, yr hyn a fu yn fanteisiol i uchelgais y Babaeth mewn oesoedd dyfodol. Pan gafodd y "dŷn pechod" y gallu yr ymawyddasai am dano, cynhyddodd y diwygiad yn gyflym, ac ymberffeithiodd yn yr oesoedd tywyll. Yn yr amseroedd ofnadwy hyny, pan deyrnasai "y dŷn pechod" â llaw gadarn, cuddiwyd y gwirionedd i raddau pell, ac yn eithriadol y ceid nifer bychan yma ac acw yn ei broffesu, gan lefaru yn ddistaw o'i blaid, a dyheu am ryddid i draethu eu hargyhoeddiadau, ac i ymdrechu fel y dymunent drosto. Hyd yn oed yn yr oesoedd tywyll, llafuriai rhai pleidiau crefyddol ar raddeg gyfyng dros ranau o'r efengyl nas cydnabyddai y Babaeth mo honynt, ac o blaid egwyddorion a wrthwynebid gan y Pabyddion; ac y mae dïoddefiadau echryslawn lluoedd o honynt o herwydd eu gwrthwynebiad i Babyddiaeth a'u teyrngarwch i Grist, yn bocnus o adnabyddus. Hyd yn oed yn yr amseroedd dychrynllyd hyny, cyhoeddid llïaws o syniadau gwahaniaethol, ac arferid rhai o gyflawniadau crefyddol "enwadau" mwyaf dylanwadol yr oes hon, ac ymdrechid yn egnïol, ond yn ddistaw, drostynt: ymddadblygai yr yspryd adferiadol yn raddol mewn gwahanol oesoedd; ac yn amser Wycliffe,* cafwyd math ar ddiwygiad rhagflaenol i'r Diwygiad llawn yn nyddiau Luther. Offeiriad Pabaidd oedd Wycliffe, ac ynghymundeb Rhufain y bu farw; ond hauodd hadau Protestanaidd yn Ewrop trwy gyfieithu y Bibl,† a chyhoeddi golygiadau duwinyddol sydd yn bresennol yn cael eu harddel a'u gweithio allan gan gyfundebau crefyddol Brydain Fawr a gwledydd eraill.

Ym mysg eraill, yr ydym yn cael yn ei weithiau syniadau cyfunwedd â golygiadau gwahaniaethol y Bedyddwyr, neu addysg mewn cyduniad â'u neillduolion enwadol.‡ Barn y Bedyddwyr fel enwad crefyddol yw, y gallant olrhain eu hegwyddorion a'u defodau yn ol i'r oes apostolaidd, a'u seilio ar y Testament Newydd;* ond ein pwngc yn bresennol yw cipdremio arnynt fel rhai adnabyddus yn y wlad hon yn amser Wycliffe a Harri VIII., er nad oeddynt ond megis "llin yn mygu."† Dywed rhai nad oedd Wycliffe yn bleidiol i fedydd babanod tu a diwedd ei oes, tra y myn eraill ei fod; modd bynag am hyny, *immersion* oedd y dull a fabwysiadai, fel yr Eglwys Babaidd yn gyffredin yr amser hwnw; ond nid oedd yn groes i dywalltiad pan ddewisid hyny yn hytrach na throchiad.‡ Mabwysiadwyd golygiadau y Diwygiwr gan lawer iawn ym Mrydain Fawr, a byddid yn adwaen y rhai hyny wrth yr enw Wycliffiaid; ac yn ol *Watson's Theological Dictionary*, ac un o ysgrifenwyr *Rees' Cyclopædia*, gwrthodid bedydd babanod gan lawer o'r Wycliffiaid a'r Lolardiaid. Daeth Walter Lolard i'r wlad hon yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg,§ a byddai efe a'i ddisgyblion yn gwrthod bedydd babanod, ac yn ei ystyried yn seremoni afreidiol.‖ Ymunodd y Wycliffiaid â'r Lolardiaid, a daethant yn blaid gref iawn. Yn fuan wedi marwolaeth Wycliffe yn 1334, dywedid fod hanner trigolion Brydain i raddau o dan ddylanwad y blaid Wycliffaidd a Lolardaidd. "Pe cyfarfyddech â dau ddŷn ar y ffordd," meddai un ysgrifenydd o'r oes honno, "y mae'n sicr y byddai un o honynt yn Lolardiad." Nid ydys yn haeru y byddai yr holl blaid yn groes i fedydd babanod; ond yr oedd llawer o honynt yn Fedyddwyr, fel yr addefir gan gefnogwyr taenelliad babanod. Yn *Bale's Works* (Parker Society) dywedir y byddai yr hereticiaid a'r Lolardiaid o syniadau Wycliffe yn cael eu

* Gwel t. 9, &c. † Gwel t. 11.

‡ "On account of the words in the last chapter of Matthew, our church introduces believers who answer for the infant which has not yet arrived at years of discretion, &c. Nor is it of moment whether the baptized be immersed once or thrice, or whether the water be poured on the head," &c.—(Triologue 10, p. 156. Wickliffe Society.)



* Dyma yw barn pob un o'r pedwar prif enwad crefyddol sydd yng Nghymru am dano ei hun.—Gol.

† "On baptism, his (Wickliffe's) expressions are at times obscure; but, according to his general language, the value of a sacrament must depend wholly on the mind of the recipient, not at all on the external act performed by the priest."—(Dr. Vaughan's John de Wickliffe. A Monograph, p. 461.)

‡ "Mae yn eglur oddi wrth ysgrifeniadau llawer o ddysgeidion fod Dr. John Wycliffe, y diwygiwr Seisnig cyntaf, naill ai yn ystyried bedydd plant yn anghyfreithlawn, neu ar y gorau yn afreidiol" (Esgob Hurd.) "Y mae yn amlwg," ebe un ysgrifenydd arall, "oddi wrth awdwyr lawer, y byddai Wycliffe yn gwrthod bedydd babanod, ac yn yr athrawiaeth hon cydunai â'r Bedyddwyr diweddar. Galwai Thomas Walden Wycliffe yn 'un o'r saith pen a ddaeth o'r pydew diwaelod,' am wadu bedydd babanod, yr heresi hwnw o eiddo'r Lolardiaid, ar y rhai yr oedd efe y fath benarweinydd mawr." "Yn y flwyddyn 1381," meddai Walsingham, "ail gododd yr heretic duwiol hwnw, John Wycliffe, opiniynau melldigedig Berengarius, yr hwn oedd Fedyddiwr." Dywed un Syr Lewis Clifford, yr hwn fuasai yn gyfaill i Wycliffe, na fyddai y Lolardiaid yn bedyddio plant newydd eni." —(Ivimey's Hist. of Bap., vol. i., p. 71, 72.)

§ Gwel Mosheim's.

‖ Orchard's, p. 322.



Digitized by Google

goddef i bregethu yn eofn, i gasglu cynnulleidfaoedd, i gadw ysgolion mewn annedd-dai, a'r cyffelyb, fel nad yw eu llwyddiant y pryd hwnw yn anesboniadwy. Ceid yn eu plith lïaws o ddynion galluog a hyawdl, a phriodolai y mynachod eu gallu a'u hyawdledd i ddylanwad y diafol. Un o'u prif, os nad y penaf o'u pechodau(?) oedd gwrthod dwyn eu plant i'r eglwysydd i gael eu bedyddio.* Bu y crefyddwyr Brytanaidd hyny yn addoli mewn coed, annedd-dai, a'r cyffelyb, am gyfnodau meithion cyn cael addoldai at eu gwasanaeth, oblegid mai yn llaw Pabyddiaeth yr oedd y deyrnwialen; ond y mae genym grybwyllion am rai adeiladau eglwysig o'r eiddynt er yn forau. Yr oedd gan yr hen Fedyddwyr hyny (y rhai a fedyddient fel y Bedyddwyr presennol) addoldy yn Hill Cliffe, ger llaw Warrington, mewn lle neillduedig iawn (un o'r mannau mwyaf pwrpasol mewn amser erledigaethus), fel y mae Goodby yn dangos yn y *Bye-Paths.* Pan yn helaethu yr hen addoldy yn 1841, ac yn cloddio am y sylfaen, &c., cafwyd hen fedyddfa wedi ei gwneud o gerrig, a'i chydlydu neu ei chymmrydu (*cemented*) yn dda, yn yr hon yr arferid bedyddio yn amser yr erledigaethau. Nid yw yr hen *Records* perthynol i'r capel i'w cael; ond dengys ffeithiau anwadadwy fod yr adeilad cyntaf yn hen iawn. Yn ol traddodiad, adeiladwyd ef gan yr hen Lolardiaid, y rhai a fedyddient fel y Bedyddwyr yn bresennol. Yn ol y beddfeini yn y tir claddu perthynol i'r capel, yn amser Luther a Harri VIII. y claddwyd y mwyafrif o'r meirwon; ond dangosai un beddfaen a gafwyd yno i'r gweddillion sydd dano gael eu claddu yn y flwyddyn 1357, sef yr amser yr oedd Wycliffe yn gymmrawd yng ngholeg Merton, Rhydychain.†

Fel y crybwyllwyd, nid yw hen weithredoedd hynaf Hill Cliffe ar gael, ac y mae'r *Deeds* presennol dros ddau can mlwydd oed, ymha rai y mae'r *property* yn cael ei gyflwyno "*for the use of the people commonly called Anabaptists.*" Golygir fod yr addoldy o dan ein hystyriaeth yn un o'r rhai hynaf sydd yn perthyn i'r Bedyddwyr yn y wlad hon; ond dywed rhai nad efe yw *yr* hynaf o'u haddoldai. Ceid llïaws o Fedyddwyr‡ ym Mrydain Fawr yn amser Harri VIII. yn ymgynnull i addoli yn ddirgelaidd, o blegid erledigaethau dychrynllyd yr oes. Ysgrifenent lyfrau, a chyhoeddent eu syniadau mewn gwahanol ffyrdd, a gwnaeth Harri ei orau i'w distewi a'u difetha, fel y dengys y *Proclamations* a gyhoeddwyd i'w herbyn. Yn y cyntaf o honynt dywed ei fod yn ffieiddio syniadau yr *Anabaptists;* yn yr ail y mae yn gorchymyn iddynt adael y deyrnas, ac yn bygwth eu lladd os nad ymadawent; yn y trydydd *proclamation*, yr hwn a gyhoeddwyd yn amser Cranmer, yr ydym yn ei gael yn awdurdodi yr archesgob ac eraill i edrych allan am yr *Anabaptists*, i ddinystrio eu llythyrau a'u llyfrau, a'u holl lenyddiaeth enwadol; ac yr oedd Cranmer i ymddwyn at y Bedyddwyr erlidiedig yn hollol fel yr ewyllysiai Mewn canlyniad i'r cyhoeddiad ofnadwy hwnw, cafodd llawer o'r Bedyddwyr eu llosgi i farwolaeth, a llïaws mawr eu carcharu a'u poeni mewn gwahanol ffyrdd. Cyhoeddwyd *proclamations* eraill gan Harri yn erbyn Anghydffurfwyr, ac yn neillduol yn erbyn *Anabaptists;* a gorchwyl hawdd fyddai dangos helaethrwydd ac erchylldod eu dïoddefiadau o dan deyrnasiad y penadur erlidgar hwnw. Gan i Harri gyhoeddi cynnifer o ddeddfau Seneddol i'r diben o ddifetha'r Bedyddwyr, nis gallasent fod mor ddibwys mewn rhif a dylanwad y pryd hwnw ag y myn rhai i ni gredu.

Gan y ceid llawer o Fedyddwyr yn Lloegr yn nyddiau Harri VIII., a rhai cyn ei amser ef, fel y dangoswyd, y mae'n hawdd cyfrif am y ffaith fod rhai o'n hathrawon mewn hanesiaeth yn ein dysgu nad oeddynt yn anadnabyddus yng Nghymru yn yr un cyfnod.§ Yn Hanes Foreuol y Bedyddwyr,

* Bye-Paths in Baptist History, by Goodby, p. 14.

† Goodby's Bye-Paths, p. 22.—Yn ol tystiolaeth yr hen feddfaen yn Hill Cliffe, yr oedd Bedyddwyr yn y deyrnas hon cyn dyddiau Wycliffe, a meddent un addoldy, beth bynag am ragor, at eu gwasanaeth. Golygir mai at yr arferiad o "fedyddio'r crediniol trwy drochiad" (fel yr arferir dweyd) y mae Taliesyn, un o feirdd y chweched ganrif, yn cyfeirio yn y llinellau canlynol:—

"Gwae a gymmerth fedydd,
A chred a bedydd,
Onis tystia."

"Ior nef a daear,
Gwel y rhai hygar,
A fu'n ddiweddar
Dan yr elfen."

"Pob peth a dderfydd
Ond cred a bedydd."

"Nid oedd namyn Duw a Derwyddon,
A wyr eu rhif dan ymchwydd y don."
—Carnhuanawc, t. 185, 342, &c.

"Er nad yw y Bedyddwyr yn credu mewn olyniaeth apostolaidd, fel y deallir hi gan rai, etto hwy a olrheiniant eu hanes trwy y Wycliffiaid, y Lolardiaid, y Mennoniaid, y Cathariaid, y Waldensiaid, y Manicheaid, y Nofatiaid, a'r Montaniaid, &c., yn ol i'r oes apostolaidd."—*Y Greal*, Chwefror, 1875, t. 31.

‡ "Os dywedir fod yr enw Bedyddwyr yn annioddefol, gan ei fod yn awgrymu nad oes neb arall yn bedyddio, onid yw yr enw eglwys yn ol yr un rheol yn awgrymu nad oes neb arall yn eglwys ond hwy? Onid yw Trefnyddion yn awgrymu mai annhrefnus yw pawb eraill ond hwy? ac onid yw Annibynwyr yn awgrymu mai caethweision yw pawb eraill? Ond er y gellir codi gwrthddadl yn erbyn enw pob plaid mor hawdd ag yn erbyn yr enw Bedyddwyr; etto caiff pawb lonydd i fwynhau yr enw a ddewisant heb neb yn cynnyg eu drwgdybio am hyny.—CYNDDELW.

§ Burgess's Ancient British Church, pp. 139, 145, 277-9; Usher's Religion of the Ancient Irish, c. x.

Digitized by Google

gan y Parch. Josiah Taylor, ceir y frawddeg ganlynol:—"Ni wyddai y Cristionogion Prydeinig am Gristioneiddio babanod yn Lloegr cyn i Awstin ddyfod yma yn y flwyddyn 597." Dywed y Dr. Benedict, yn ei *Church History*, nad yw Bedyddwyr Cymru heb gredu fod eu syniadau wedi cael eu cadw yn fyw bob amser o'r oes apostolaidd hyd yn bresennol; y byddai yr hen Frytaniaid yn cadw eu hegwyddorion yn eu henciliadau mynyddig, ac yn ystyried eu gwlad yn fath ar Piedmont arall, ymha un y llechai y tystion dros y gwirionedd, yn amser y tywyllwch a'r ofergoeledd cyffredinol.* Ar y dybiaeth fod egwyddorion yr enwad hwn ym Mrydain o'r ganrif gyntaf hyd amser Wycliffe, &c., nid yw yn anhawdd deall cyfeiriadau Taliesyn, yn y chweched ganrif, at "y rhai hygar a fu'n ddiweddar dan yr elfen," ac at "eu rhif dan ymchwydd y don." Ond nid â'r *modd* y daethant yn adnabyddus yn y wlad hon yn nyddiau Wycliffe a Harri y mae a fynnom yma, eithr â'r ffaith noeth eu bod felly, yr hon sydd, fel y dangoswyd, uwch law amheuaeth. Yn gymmaint ag mai mewn lleoedd dirgel yr ymgynhullai pob math ar Anghydffurfwyr i addoli pan deyrnasai y bwysfil Rhufeinig, gallasai miloedd lawer o honynt fod am ganrifoedd heb i ni feddu nemawr hanes am eu heglwysi; a phan yn ystyried ffyrnigrwydd uffernol y Babaeth, ei gormes a'i hystrywiau, ynghyd â'r ffaith alarus fod galluoedd gwladol Ewrop i'r fath raddau yn ei gwasanaeth ar y pryd, yr ydym braidd yn synu yn yr olwg ar gymmaint o hanes y Cristionogion erlidiedig sydd yn ein meddiant, ac yn ddiolchgar i'r Goruchaf am dano.

Yr oedd gan Wycliffe ddisgyblion yng Nghymru, fel y dengys y ffeithiau canlynol. Pe caniateid, er mwyn dadl, nad yw cyfeiriadau Taliesyn, a'r hen feddfaen ynghladdle addoldy Hill Cliffe, ac hanesion eraill, yn profi nad "bedydd y crediniol" oedd yn y Dywysogaeth cyn dyddiau Wycliffe, nis gellir osgoi y syniad fod gan y diwygiwr Seisnig a Lolard ddisgyblion Cymreig, sef Walter Brute, Arglwydd Cobham, &c.† Yr oedd y blaenaf yn un o ddisgyblion Wycliffe yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac yn byw ynghymmydogaethau Olchon, ar gyffiniau sir Henffordd. Cymro oedd efe o ran tad a mam, a phregethai yr efengyl yn ei ardal enedigol. Cafodd ei addysg yn Rhydychain, lle y mabwysiadodd egwyddorion Wycliffe; ond yn hytrach na chymmeryd urddau, dewisodd alwedigaeth amaethwr, gan wasanaethu crefydd trwy gynnal cyfarfodydd crefyddol, &c.; a bernir gan rai mai efe oedd y Cymro cyntaf a geisiodd ddeffroi ei gydwladwyr yn erbyn Pabyddiaeth.‡ Galwai y Pab yn anghrist, a dysgai mai twyll offeiriadaeth yw yr athrawiaethau Pabaidd o barthed degwm, trawssylweddiad, &c. Dywed Titus Lewis ei fod "yn hynod o ran ei ddysg, ei ddawn, ei wybodaeth, ei zel, a'i ras," a'i fod yn barnu y dylai ffydd fod o flaen bedydd.§ Yn ymyl Olchon hefyd y ganwyd Syr John Oldcastle, Arglwydd Cobham, yr hwn oedd yn Lolard zelog, ac yn cael ei ystyried yn ben y Lolardiaid. Gan fod ganddo syniadau Biblaidd ar natur eglwys Crist a diben yr ordinhadau, &c., fel y dengys ei attebion o flaen ei farnwyr, y mae'n rhesymol casglu na fu yr addysg a gyfranwyd ganddo i'w gydwladwyr yn aneffeithiol i ddwyn rhai o honynt hwythau i fabwysiadu a chefnogi yr un egwyddorion. Ymdrechodd lawer dros ei dduwinyddiaeth mewn gwahanol ffyrdd, ac wedi dioddef llawer o blegid hyny, dïenyddiwyd ef trwy ei grogi gerfydd ei ganol wrth gadwen haiarn, a'i rostio i farwolaeth wrth dân araf. Cymmerodd hyny le yn meusydd St. Giles, yn y flwyddyn 1418.‖

Ganwyd William Tyndale hefyd yn ardal Olchon yn y flwyddyn 1480, ac yr ydys yn meddwl mai oddi wrth y Lolardiaid y derbyniodd yntau ei wybodaeth Ysgrythyrol. Bedyddiai efe blant; ond dengys ei ysgrifeniadau mai Bedyddiwr ydoedd gyd â golwg ar ddull y gweinyddiad, ac nad

* Cawn yn Dugdale's *Monasticon* gyflawnder o brofion mai estroniaid a sefydlasant braidd yr holl fynachlogau yng Nghymru, ac mai estroniaid gan mwyaf hefyd oedd yn eu noddi ac yn eu preswylio. Yr oedd yr offeiriaid yn gymmaint o bla yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif, fel y darfu i bendefigion ac amaethwyr sir Gaernarfon gyflwyno deiseb i Harri VII., yn yr hon y cyhuddent yr offeiriaid o fod yn arfer cyfundrefn gelfyddgar i lithio eu gwragedd a'u merched hwynt."—(Grafton, p. 931.) "Ni chafodd y grefydd Babaidd erioed ei derbyn gan y Cymry gyda'r un awch nac i'r un graddau ag y cafodd gan y cenedloedd cymmydogaethol."—Gwel Usher's Religion of the Ancient Irish, p. 617; a'r Rhagarweiniad i'r gwaith hwn.

† Gan fod sylwadau helaeth ar Brute a Cobham yn y Rhagarweiniad, ni wneir yma ond cyfeirio yn fyr iawn atynt yn y cymmeriad o fath ar ddiwygwyr Cymreig cyn y diwygiad yn Germania.

‡ Y Rhagarweiniad.

§ Hanes Prydain Fawr, t. 137.

Dywedir nad oedd yn Fedyddiwr ymarferol ei hun, ond dysgai athrawiaeth ffafriol i syniadau gwahaniaethol y Bedyddwyr. Er y credai y dylai ffydd flaenori bedydd, etto barnai fod ffydd rhieni duwiol yn ddigon dros eu plant, ac nad yw bedydd yn hanfodol i iachawdwriaeth. Gellir casglu oddi wrth rai o'i ddywediadau nad oedd yn credu mewn bedydd o gwbl, ond yn debyg mewn rhai golygiadau i'r bobl dda sydd yn cael eu galw yn Gwaceriaid. Modd bynag, yr oedd yn Anghydffurfiwr trwyadl; ac y mae argraph ar feddwl yr ysgrifenydd na pharhaodd ei farn ar fedydd yn ddigyfnewid, ond iddo ddadlau dros ffydd a bedydd am dymmor, a'i fod i raddau yn Gwaceraidd mewn barn cyn diwedd ei yrfa. Ond nid yw yn hawdd, nac fe allai yn bossibl, cael sicrwydd o nifer o ddywediadau croes i'w gilydd.

‖ Pale's Examp. and Death of Sir John Oldcastle; Gilpin's Life of Lord Cobham; gwel y Rhagarweiniad.

Digitized by Google

oedd yr athrawiaeth a ddysgai yn ffafriol i fedydd babanod. "Y mae'r soddiad i'r dwfr," eb efe, "yn arwyddo ein bod yn marw, ac yn cael ein claddu gyd â Christ o ran yr hen fywyd o bechod, yr hwn sydd yn Adda; ac y mae'r tyniad allan drachefn yn arwyddo ein bod yn cyfodi gyd â Christ mewn buchedd newydd, llawn o'r Yspryd Glân, yr hwn a'n dysg ac a'n harwain, ac a weithia ynom ewyllys Duw, fel y gwelir yn Rhuf. ii."*

Dengys y crybwyllion byrion hyn nad oedd neillduolion gwahaniaethol y Bedyddwyr yn anadnabyddus yn ardaloedd Olchon yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, ac, o blegid hyny, nad yw sefydliad eglwys o Fedyddwyr yn Olchon yn y flwyddyn 1633 (at ba amgylchiad y cyfeirir etto) yn anesboniadwy, ond i'r graddau eithaf yn debygol. Nid yn y rhan ogleddol o'r Dywysogaeth yn unig yr ydym yn cael profion o fodolaeth Wycliffiaeth a Lolardiaeth yn y canrifoedd crybwylledig, ond dengys ffeithiau anwadadwy y ceid Lolardiaid yn y Deheubarth hefyd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Y mae'r diweddar Mr. Stephens, o Ferthyr, yn dangos yn ei draethawd ar Sefyllfa Wareiddiol y Cymry, fod cyssylltiad rhwng beirdd Morganwg a'r Albigensiaid;† ac yn ol y Iolo MSS. (t. 200–203) yr oedd "y ffydd newydd," neu Lolardiaeth, yn nheulu Rhys Brydydd, yr hwn oedd yn byw ym Mlaen Cynllan, plwyf Llanharan, sir Forganwg. Blodeuai Rhys rhwng 1390 ac 1400; ac yn ol y *Manuscripts*, cafodd Ieuan ab Rhys, ei ail fab, ei droi allan o fynachlog Margam "achos ei fod yn Loleraidd ei farn," "eithr Syr Matthew Caradóg, o Abertawy, a'i canlynwys ef â chyfraith am rywbeth, mae'n debyg, yn ei farn am grefydd, hyd oni orfu arno ymadael â Chynffig." Yr oedd mab i Ieuan ab Rhys, yr hwn a elwid Thomas, neu Twm ab Ifan ab Rhys y Prydydd a'r Prophwyd, a chafodd yntau ei droi allan o Fargam, a'i garcharu amryw weithiau ynghastell Cynffig gan Syr Matthew Caradog a Syr George Herbert; "ag achos ei fod o'r ffydd newydd, efe a gafas lawer am ei ben, a chasineb gan fwy na mwy." Brodor o sir Forganwg hefyd oedd Thomas Llywelyn, Glyn Eithinog, Rhegoes (plwyf Ystrad-dafodwg), yr hwn oedd yn un o'r Lolardiaid, yn "fardd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain," yn uchelwr, ac yn un o gyndeidiau Dr. Thomas Llewelyn (gwel yr enw), Bedyddiwr dysgedig ym mhlwyf Gelligaer. Dywed y Dr. W O. Pugh, yn ei ragdraith i waith Llywarch Hen, fod T. Llywelyn yn ddisgybl barddonol i Lewys Morganwg yn 1520; a hyspysir ni gan Cynddelw mai englyn o'i waith ef yw yr un canlynol:—

"Ystyriais, gwelais gywilydd—ym myd
Ymadael â chrefydd;
A ffol ymwrthod â ffydd,
A'i dibenion da beunydd."

Dywedir iddo gyfieithu Testament Newydd Tyndale o'r Saesneg i'r Gymraeg cyn y flwyddyn 1540, ac mai gwaith T. Llywelyn, gyd â diwygiadau, a gyhoeddwyd yn 1567 gan W. Salesbury a'i gydlafurwyr.‡ Yn ol y *Cambrian Biography*, blodeuodd rhwng 1540 ac 1580, a dywed Malkin§ iddo adael llawer o farddoniaeth Gymreig ar ei ol mewn llawysgrif, a bod ei gyfieithiad o'r Testament Newydd i'r Gymraeg (yr hwn a wnaed ddeugain mlynedd o flaen eiddo'r Dr. Morgan) ar gael yn ddiweddar mewn llawysgrif. Er ei fod yn ddŷn galluog iawn, ac wedi gwneud llawr iawn o ddaioni crefyddol yn ei oes yn y cymmeriad o ddiwygiwr Cymreig, etto nid yw ein haneswyr eglwysig yn crybwyll ei enw. Dywed Malkin iddo gael ei drwyddedu i bregethu gan yr Archesgob Grindale, yn amser Elizabeth; ei fod yn boblogaidd iawn; y byddai yn cyflawni gwasanaeth crefyddol yn fynych mewn tai annedd yn ogystal ag mewn eglwysydd; ac iddo ffurfio llawer o gymdeithasau crefyddol, ond na ddarfu iddo eu ffurfio gan fwriadu iddynt ymneillduo oddi wrth yr Eglwys Sefydledig. Dywed Malkin fod y cymdeithasau hyny a sefydlwyd ganddo yn debyg mewn llawer o bethau i'r Methodistiaid Calfinaidd pan adawsant Eglwys y Goron, ac y byddent, fel y cyfryw, yn ystyried eu hunain yn aelodau o'r Eglwys Sefydledig. Arferent, meddai efe, wasanaeth yr eglwys honno yn gyffredin, a byddent hefyd yn arfer gweddïau difyfyr, ac yn pregethu yn achlysurol, yn hytrach na darllen pregethau, yn ol arfer yr oes. Gan y byddent felly yn gwahaniaethu oddi wrth y trefniadau eglwysig, trwy gynnal gwasanaeth mewn anneddau, &c., cawsant eu drwgdybio yn ddiachos o fod yn elynion i'r Eglwys Wladol, a'u herlid gan Laud a'i bleidwyr, am yr hyn a ystyrid yn afreoleidd-iwch. Perodd yr erledigaeth iddynt ymneillduo yn llwyr o'r Eglwys Sefydledig, ac ymneillduas-

* Tyndale's Works, vol. i., p. 287.
† Traethod., cyf. xiii., t. 322.
‡ Gwyliedydd, 1826, t. 161; Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 191.
§ Malkin's South Wales, v. i., p. 297, 301.

Digitized by Google

ant hefyd oddi wrth eu gilydd, gan ymffurfio yn gymdeithasau gwahanol, yn ol y golygiadol duwinyddol a fabwysiedid ganddynt. "Y rhai oeddent faban-fedyddwyr a unasant â'r neillduaeth Presbyteraidd. *Eraill a unasant â'r rhai oeddent yn arfer bedydd rhai mewn oed.* Gelwid y drydedd blaid yn Wrthfedyddwyr (*Catabaptists*); a phan ffurfiodd George Fox ei ddisgyblion yn blaid wrthi ei hun, ychwanegwyd eu rhif gan y Gwrthfedyddwyr Cymreig hyn, y rhai a gyfarfyddent i addoli yn mynwent y Crynwyr"* (ger llaw Merthyr.) Myn Malkin i ni gredu mai yn hanes T. Llywelyn a'i ddisgyblion yr ydym yn cael dechreuad Ymneillduaeth Gymreig; ond y mae yn gwrthddweyd ei hun, canys dywed yn yr hyn a ddifynwyd i ddisgyblion Presbyteraidd Llywelyn *uno* â'r Presbyteriaid, ac i'w ganlynwyr Bedyddiedig *uno* â'r rhai a arferent fedydd rhai mewn oed, yr hyn sydd yn dangos bodolaeth Presbyteriaid a Bedyddwyr yr amser hwnw, canys nis gellir *uno* â phleidiau nad ydynt mewn bod. Yn ol ysgrifenydd yn y *Beirniad*,† byddai T. Llywelyn yn darllen rhanau o'i gyfieithiad o'r Testament Newydd i gynnulleidfaoedd bychain mewn gwahanol fanau ar hyd y wlad, ac weithiau yn pregethu. Ysgrifenodd lythyr at y Dr. R. Davies, Esgob Mynyw, i ddymuno arno gyfieithu y Bibl i'r Gymraeg, ac yr oedd copi o'r llythyr ar gael yn ddiweddar, os nad yw yn bresennol. Y mae yn dra thebyg i Malkin, a'r ysgrifenydd yn y *Beirniad*, seilio eu syniadau ar y "*Manuscripts*," ac y mae rhai yn meddwl y gellir cael mwy o hanes Llywelyn yn ysgrif-lyfrau Iolo Morganwg.

Gan nad oedd duwinyddiaeth wahaniaethol y Bedyddwyr‡ yn anadnabyddus yn ardaloedd Olchon yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, fel y dangoswyd, nid yw sefydliad eglwys o Fedyddwyr yn y gymmydogaeth honno yn 1633 yn annhebygol, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. "Y mae i Fedyddwyr presennol Cymru," medd un awdwr galluog, "yn y man lleiaf, dri neu bedwar tarddiad, sef dyffryn Olchon, yn swydd Henffordd, Llanilltyd (Ilston) a Llanharan, ym Morganwg, ac yn Heleddwen (Nantwich), yn swydd Caerlleon, a deuant i'r golwg ymhob un o'r lleoedd uchod, nid fel Ymneillduwyr oddi wrth yr Eglwys Wladol, . . . ond fel defnyddiau ag oeddent yn flaenorol mewn bodolaeth, eithr yn wasgaredig ar hyd yr ardaloedd, ac yn disgwyl yr adeg briodol a'r llaw gymmwys i'w ffurfio yn eglwysi rheolaidd." Olchon, sef y blaenaf o'r lleoedd uchod, "y gelwir afonig fechan sydd yn rhedeg trwy gwm o'r un enw ynghanol y Mynyddoedd Duon, ac yn arllwys i afon Mynwy ynghongl ddeheuol swydd Henffordd. Yn y dyffryn annhygyrch hwn daw i'r golwg yr Anghydffurfwyr cyntaf (ar ol yr oesoedd tywyll) yng Nghymru, y rhai a elwir yn Eglwys Olchon. Pobl werinol ac heddychol oedd y rhai hyn, yn byw mewn lleoedd mynyddig, ymhell oddi wrth drefi poblog, ac heb nemawr negeseuau rhyngddynt ag eraill." Arferent ymgynnull i ddysgu eu gilydd ac addoli Duw fel y gallent, ond nid mewn eglwys na chapel, eithr yn y modd mwyaf dirgel yn eu tai eu hunain, weithiau yn y nos ac weithiau yn y dydd, neu ynte ynghymoedd a chilfachau y Mynyddoedd Duon, o blegid yr oeddynt yn cael eu gorfodi i newid eu cynnullfanau yn fynych, i'r perwyl o geisio osgoi eu gelynion erlidgar. Y mae'r Parch. Joshua Thomas yn barnu mai tu a'r flwyddyn 1633 y ffurfiwyd eglwys y Bedyddwyr yn Olchon, ac mai un o'r enw Howel Vaughan (Fychan) oedd ei gweinidog cyntaf. Dangosai ysgrifen oedd yn meddiant Mr. Thomas pan yn ysgrifenu ei hanes, fod H. Fychan yn gweinidogaethu yn Olchon yn amser Siarl I., "yr hyn," medd efe, "sydd yn tystio i mi ei fod yno cyn y flwyddyn 1640.§ Cafodd Siarl yr orsedd yn 1625, a'i ddienyddio yn 1649. Beth oedd yn yr ysgrifen grybwylledig yn peru i'r hanesydd feddwl fod Fychan yn weinidog ar yr eglwys cyn 1640, nid yw yn ein hyspysu.‖ Ceisiodd Mr. Thomas gael allan y manylion perthynol i ddechreuad eglwys Olchon, ond ni fu yn llwyddiannus; ond dywed ei fod ef "o'r farn mai hon oedd yr eglwys gyntaf yng Nghymru" a ddarfu addoli ar wahan oddi wrth Eglwys Loegr. Gan fod Howel Fychan yn weinidog ar yr eglwys cyn 1640, rhaid fod yno eglwys cyn yr amser y dechreuodd efe ei weini-

* Malkin's South Wales, v. i., p. 298-599.

† Beirn., 1864, t. 219.

‡ Ceir egwyddorion gwahaniaethol y Bedyddwyr, a rhai ystadegau pwysig o barthed i'r cyfundeb Bedyddiedig yng Ngeiriadur Beiblaidd a Duwinyddol Mathetes, cyf. i., d.g. Bedyddwyr.

§ Dywed Vavasor Powel "fod proffeswyr crefydd yn anaml iawn yng Nghymru, oddi eithr ynghonglau dwy neu dair o siroedd, tu a'r flwyddyn 1664," ac nad oedd "yn nechrau y rhyfel (1641) ond *un* neu *ddwy* gynnulleidfa wedi eu casglu trwy holl Gymru."—Brief Narrative.

Golygir mai at Olchon a Llanfaches y mae Powel yn cyfeirio yn y difyniadau hyn, a bod "ynghonglau dwy neu dair o siroedd" yn cyfatteb i sefyllfa ddaearyddol y flaenaf o'r ddwy. Ffurfiwyd eglwys Llanfaches yn 1639. At ba eglwysi y gallasai gyfeirio ond at y ddwy uchod?

‖ Hist. of the Bap. Association in Wales, p. 3; Hanes y Bed. yng Nghymru, t. 67.

Digitized by Google

dogaeth yn y lle; a dywed J. Thomas ei fod yn tybied oddi wrth amgylchiadau (anhysbys iddo ef, wrth reswm) mai yn 1633 y cafodd ei sefydlu. Tybied oddi wrth amgylchiadau (*supposed from circumstances*) yr oedd mai yn 1633 y ffurfiwyd hi, ond nid yw yn ymddangos fod y gradd lleiaf o amheuaeth yn ei feddwl o barthed cyssylltiad gweinidogaethol Fychan â'r eglwys cyn 1640.* Wedi i Mr. Thomas dderbyn yr "*Extracts*" o America (at ba rai y cyfeirir etto o dan yr enw John Myles), y rhai a gymmerasid o lyfr eglwys Ilston, yr hwn a ddygasid i'r Gorllewin gan Myles a'i gyfeillion, meddyliodd yr hen hanesydd gochelgar a chydwybodol ei fod wedi camsynied trwy ddweyd yn ei "Hanes" mai eglwys Olchon oedd y gynnulleidfa gyntaf o Anghydffurfwyr yng Nghymru, a cheisiodd unioni yr hyn a dybiai yn gamgymmeriad yn ei "*History of the Welsh Association.*" Nid yw symmud yr anhawsder ymddangosiadol hwn yn anhawdd. Dywed Myles yn yr "*Extracts*" nad oedd ei frodyr ac yntau yn gwybod am gynnulleidfa arall yng Nghymru yn dal allan ac yn proffesu athrawiaeth, addoliad, trefn, a disgyblaeth yr efengyl yn ol y sefydliad gwreiddiol neu gyntefig ("*according to the primitive constitution*") er amser y Diwygiad. Hwyrach nad amhriodol sylwi fod y geiriau "*that we ever heard of in Wales*" yn profi nad oeddynt hwy yn proffesu adnabyddiaeth fanwl â *phob* amgylchiad o gymmeriad crefyddol a gymmerasai le yng Nghymru. Nid dyweyd y maent nad *oedd* eglwys felly i'w chael, ond nad oeddynt hwy wedi *clywed* am un o'r fath. Ymhellach, y mae yn wirionedd y byddai eglwys Olchon yn arfer cymmundeb cymmysg, ac na fu dyn erioed yn fwy penderfynol na Myles yn erbyn y fath arferiad.† Ei farn gydwybodol ef oedd fod y fath gymmundeb yn groes i'r "*primitive constitution;*" o ganlyniad, yr oedd efe yn hollol gysson âg ef ei hun, ac heb fod yn anghysson â'r hyn a ysgrifenasid gan Joshua Thomas o barthed amser dechreuad eglwys Olchon, pan yn galw eglwys Ilston y gyntaf yng Nghymru yn ol y cynllun cyntefig; canys nid oedd efe yn ystyried eglwys o "Fedyddwyr cymmysg" yn ol y "*primitive constitution.*" Y mae'r mwyafrif o Fedyddwyr Cymru yn bresennol yr un farn a Myles: dywedant yn ddigel nad yw y "Bedyddwyr cymmysg," fel y maent yn eu galw, yn deilwng o'r enw Bedyddwyr, o blegid eu bod yn caniatau cymmundeb i ddynion sydd yn cael eu hystyried ganddynt hwy yn ddifedydd. Onid oes cymmanfaoedd Bedyddiedig yng Nghymru yn nacau aelodaeth gymmanfaol i eglwysi sydd yn arfer "cymmundeb agored," ac yn diaelodi unrhyw eglwys a'i harfero allan o undeb y gymmanfa? "Rhyw fath o Fedyddwyr" yw yr enw wrth ba un y mae Bedyddwyr y cymmundeb caeth yn adwaen Bedyddwyr yr "*open communion.*" Nid yw Myles a'i gyfeillion yn dweyd yn yr "*Extract*" nad oedd eglwys o *ryw* fath o Fedyddwyr yng Nghymru cyn 1649, ond ein hysbysu y maent nad oeddynt wedi clywed am un eglwys yn y Dywysogaeth yn ol y "*primitive constitution*" yn flaenorol i eglwys Ilston, yr hon a ffurfiwyd yn y flwyddyn honno.

Cafwyd amryw argraphiadau o'r Bibl Cymraeg allan cyn 1633, sef eiddo'r Dr. Morgan yn 1588, argraphiad y Dr. Parry yn 1620, a Bibl Heylin a Middleton yn 1630, ac ymddangosodd cyfieithiad W. Salesbury o'r Testament Newydd yn 1567. Erbyn y flwyddyn 1649, pan sefydlwyd eglwys Ilston, yr oedd argraphiadau eraill o'r Testament Newydd allan, gan W. Wroth a W. Cradoc yn 1641; eiddo Cradoc yn 1646, ac un arall ganddo yn 1647, yn cynnwys 3000 o gopiau; ac mewn canlyniad i hyny, cafodd lliaws o eglwysi newyddion eu sefydlu yn y Dywysogaeth gan y Bedyddwyr a'r Annibynwyr. Bu dienyddiad Siarl I. yn 1649, a'r Werin-lywodraeth yn amser Cromwel, o 1649 hyd 1660, pan gafodd Siarl II. yr orsedd, i raddau yn fanteisiol i ledaeniad crefydd ym mysg Anghydffurfwyr y cyfnod byr hwnw; ond buasai y fath erledigaethau dychrynllyd er amser Harri VIII., fel nad oedd rhyw ddeng mlynedd ond amser byr iawn i'r saint trwy y deyrnas i ymadnewyddu, ac i ddarbwyllo eu hunain i gredu nad oedd peryglon cyffelyb rhag llaw; a phrofodd esgyniad Siarl II. i'r orsedd, yn 1660, nad oedd eu hofnau yn ddisail, na gwyliadwriaeth yn afreidiol. Modd bynag, ffurfiwyd lliaws o eglwysi yn yr adeg ffodus honno gan y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, a theimlodd crefyddwyr Cymru ddylanwad y seibiant, ac, ym mysg eraill, cyfundeb y Bedyddwyr.

* "A dywedir mewn ysgrifen ag sydd genyf ei fod ef (Fychan) yno yn amser Charles y Cyntaf, yr hyn sydd yn tystio i mi ei fod yno cyn y flwyddyn 1640. Ond yr wyf yn barnu na fu y gŵr hwn erioed yn Rhydychain nac un brif ysgol, eithr gŵr duwiol, gwledig, cydwybodol, ond yn hyfforddus yn yr Ysgrythyrau, ydoedd; ac o herwydd hyny, a'i ddawn gweinidogaethol, cafodd ei ddewis i borthi yr ychydig bobl hyny â gwybodaeth ac â deall. Diau yw mai hon oedd y drefn yn amser yr apostolion, dyweder a fynner yn ei herbyn. Amser blin iawn oedd hi, ar y Bedyddwyr yn enwedig, ac ar lawer eraill, y dyddiau hyny."—Han. y Bed., t. 67.

† Hanes y Bedyddwyr, gan J. Thomas, t. 68, 69.

Digitized by Google

Wedi dienyddiad Siarl I., dechreuodd yr enwad hwn ffurfio eglwysi newyddion, o'r defnyddiau oedd yn wasgaredig mewn gwahanol ardaloedd. Fel y crybwyllwyd, yn 1649 y ffurfiwyd eglwys Ilston, yr hon oedd yn 263 o aelodau yn 1662–3, pan ymadawodd J. Myles, y gweinidog, ac un o'r aelodau, i America, o herwydd yr erledigaethau o dan Siarl II.* Yn yr un flwyddyn ffurfiwyd eglwys yn Gelligaer, Morganwg, yr hon a symudodd yn y blynyddau dilynol i wahanol fanau, sef Llanharan, Llantrisant, Craig-yr-allt, a'r Berthlwyd, ac a sefydlodd yn Hengoed, wedi crwydro am tu a thriugain mlynedd. Yn y flwyddyn 1651, sefydlwyd eglwys o Fedyddwyr yng Nghaerfyrddin, ac un arall yn y Fenni yn 1652; ac ymddengys i frawdoliaeth gael ei ffurfio yn Aberafon yn 1653 neu 1654, canys cynhaliodd y Bedyddwyr gymmanfa yno yn 1654. Perthynai amryw ganghenau i rai o'r eglwysi, a chynhwysai amryw o honynt a'u canghenau gannoedd o aelodau. Bernir fod tu a phum cant o aelodau yn perthyn i Hengoed a'i changhenau tu a'r flwyddyn 1654, pryd yr oedd ganddi bedwar o bregethwyr doniol.† Gan fod yr amseroedd mor erledigaethus, a hwythau yn addoli mewn annedd-dai, nid yw yn hawdd nac fe allai yn ddichonadwy cael cyfrif manwl o'r holl aelodau. Bu y Bedyddwyr, a'r Annibynwyr yr un modd, yn eglwysi lliosog a llewyrchus am ugeiniau lawer o flynyddau mewn llawer o fanau, cyn fod ganddynt nemawr o addoldai at eu gwasanaeth.

Er bod adeiladu capeli yn anhawdd iawn, a braidd yn amhossibl, yn y fath amseroedd, etto llwyddwyd i'w cael mewn lliaws o fanau; adeiladodd y Bedyddwyr addoldy yn y Gelli yn 1649, yn Llanwenaeth yn 1695, Hengoed yn 1710, Rhydwilym yn 1701, Llangloffan yn 1706, Felinganol yn 1709. Nid oedd gan y Bedyddwyr na'r Annibynwyr lawer o dai cyrddau yng Nghymru cyn y flwyddyn 1710; ar ol y flwyddyn honno yr adeiladwyd yn agos yr holl addoldai sydd yn perthyn i'r cyfundebau hyn, er, fel y crybwyllwyd, i rai ymdrechion llwyddiannus gael eu gwneud yn flaenorol.

Y mae prinder addoldai yn hollol esboniadwy yngoleuni hanes eglwysig y cyfnod. Y mae disgrifiad Vavasor Powel, yn 1661, o'r erledigaeth ofnadwy yng Nghymru, yn amser Siarl II., braidd yn anghredadwy.‡ Ond gan ei fod ef yn llygad-dyst o'r creulonderau y mae yn eu disgrifio, ac yn un o'r dynion mwyaf teilwng o ymddiried, rhaid i ni gredu ei dystiolaeth. Ni ddïoddefodd un dosparth o grefyddwyr fwy na'r Bedyddwyr o amser Harri VIII. hyd ddiwedd yr erledigaethau; a dengys hanesion credadwy iddynt ddïoddef mwy o lawer nag eraill ar rai adegau. Y mae'r darllenydd yn cofio y crybwylliad byr am y *Proclamations* a gyhoeddwyd yn eu herbyn gan Harri VIII. "Yr oeddym ni yn yr hen amseroedd," meddai Cynddelw, "ac etto, y mae yn wir, o dan fwy o warthrudd ac erledigaeth na'r un blaid arall o grefyddwyr. Mae rhywbeth yn ein hegwyddorion fel gwrthodwyr bedydd babanod . . . yn peru i bob rhywogaeth o grefyddwyr ymuno i ferthyru yr un bedydd hwnw sydd yn gofyn proffes wirfoddol o ffydd yn ei ddeiliaid, am ei fod yn ganolfur y gwahaniaeth rhwng teyrnasoedd y byd hwn a brenhiniaeth Crist. Erlidid y Diwygwyr gan y Pabyddion, erlidiai y Diwygwyr bob gradd o Ymneillduwyr, a chydunai pawb i erlid y Bedyddwyr." Y mae Mosheim yn dweyd "fod rhyw sectau ac athrawon, yn erbyn pa rai yr oedd zel, diwydrwydd, a llymdra y Pabyddion, y Lutheriaid, a'r Calfiniaid yn cydgyfarfod. Gwrthrychau eu dygasedd cyffredinol oedd yr Ailfedyddwyr."§ "Ennynwyd fflamau Smithfield i'r Ailfedyddwyr," meddai Gibbon, "gan zel Cranmer; yswyd yntau ei hun ynddynt ar ol hyny." Gelwid ni "y sect fwyaf damniol! llofruddion gwaedlyd babanod," gan Thomas Becon, capelydd i Cranmer. Barnai hyd yn oed Richard Baxter "na ddylid goddef y Bedyddwyr mewn gwladwriaeth, mwy na llofruddion pen ffordd fawr, am fod bedyddio yn drosedd yn erbyn y gorchymyn, 'Na ladd.'"‖ Dywedai Calamy, Bates, Baxter, &c., na ddylid caniatau rhyddid i bob sect, ac yn enwedig y Bedyddwyr, o blegid bod goddefiad (nid rhyddid) crefyddol yn gwneud yr eglwys yn debyg i arch Noa, yn nawddle i bob bwystfil aflan.¶ Gan fod y fath enwogion a'r rhai hyn yn siarad ac yn ysgrifenu mor ddychrynllyd yn ein herbyn, beth allesid ddisgwyl oddi wrth Babyddion ac Uchel Eglwyswyr? Y mae un ysgrifenydd enwog yn gofyn, "Pa beth oedd yr achos fod John Bunyan, y Bedyddiwr, yn dihoeni yngharchar Bedford, pan yr oedd Dr. Owen, yr Annibynwr, yn ŵr rhydd,

* Golyga rhai i Myles gael cwmni yn agos yr holl eglwys; ond yr hyn sydd debycaf yw, i Myles ac un o'r aelodau (Turner) gychwyn i'r Gorllewin yn gyntaf, ac i liaws mawr eu canlyn mewn amser dyfodol. —Gwel John Myles.

† Hengoediana, t. 41.

‡ Hengoediana, cyf. ii., t. 31-2.

§ Orchard's Hist. of For. Baptists, p. 335.

‖ Ivimey, v. i., pp. 192-196.

¶ Bap. Magazine, 1844, p. 183.

Digitized by Google

ac mewn bri gyd â'r brenin?" Gorchwyl hawdd fyddai ysgrifenu cyfrol fawr, yn gynnwysedig o ffeithiau hanesyddol, er dangos bod y Bedyddwyr wedi dïoddef mwy yn herwydd eu crefydd yn y deyrnas hon nag un blaid arall. Hyd yn oed yn amser Cromwel ei hun, cafodd llawer o'r Bedyddwyr ddïoddef eu carcharu, &c., o herwydd eu gwrthwynebiad i fedydd babanod, a'u zel dros fedydd credinwyr, fel y dengys hanes Henry Denne, Mr. Coppe, Andrew Wyke, Samuel Oates, &c.*

Un o'r agweddau mwyaf dychrynllyd a wisgai erledigaeth ar y Bedyddwyr gynt oedd eu rhwystro i gladdu eu meirwon. Ar ol eu hesgymmuno am beidio dyfod i'r eglwysydd plwyfol, ni chaniateid iddynt ddwyn eu meirwon i'r mynwentydd. O ganlyniad, gorfodid hwynt yn fynych i gladdu eu hanwyliaid yn eu gerddi, &c., yn y nos; a chafodd Bedyddwyr Cymru ddïoddef yn ofnadwy yn y cyfeiriad hwn. Codwyd corph merch ieuangc o'r bedd, ar orchymyn offeiriad Llanfihangel, yn swydd Faesyfed, a chladdwyd ef ar y groes-ffordd. O dan yr amgylchiadau hyny y dechreuodd y Bedyddwyr ddarparu claddfeydd bychain iddynt eu hunain; a dywed rhai mai mewn lle o'r enw Glascwm, yn swydd Faesyfed, y darparwyd yr un gyntaf. Gwnaethant gladdfa arall yn Penylannoeth, ym mhlwyf Llanarth, swydd Aberteifi, ac un arall mewn lle o'r enw Bwlchog, ym mhlwyf Llanfihangel-ar-Arth, sir Gaerfyrddin. Y gladdfa sydd wedi cyrraedd mwyaf o enwogrwydd yw "Gardd Gladdu Trefangor," fel y mae yn cael ei galw, yr hon a wnaeth Griffith Howel (gwel yr enw), o Rushacre, ar ei dir ei hun, yn Llanddewi-Felfre, sir Benfro.† Nid oes sicrwydd pa bryd y gwnaeth hi, ond cafodd gweithred y cyflwyniad ei hamseru yn 1690, yn yr hon y mae'r tir yn cael ei gyflwyno at wasanaeth Anghydffurfwyr y gymmydogaeth honno dros byth.‡

Y mae yn ffaith adnabyddus, ac yn cael ei chydnabod gan ddynion goleuedig ac amhleidiol, fod y Bedyddwyr wedi cael llawer o gam gan haneswyr eglwysig. Yn y flwyddyn 1857, ysgrifenodd y diweddar Nefydd (yr hwn oedd yn hanesydd rhagorol, ac yn un o'r dynion gonestaf) fel y canlyn ar y pwngc hwn:—"Y mae ein henwad wedi arfer cael ei guddio, neu ei gadw o'r golwg, ei esgeuluso, a'i ddirmygu gan ddynion da, yn dwyn y cymmeriad o haneswyr Ymneillduol. Gallem nodi llawer iawn o enghraifftiau o hyn yn y ddwy oes ddiweddaf, heb law yr oesoedd cyn hyny. Gwelir hyn yn amlwg yng ngweithiau Neal, Calamy, Palmer, Brooks, Bogue, Bennett, &c. . . . . Gallem olrhain y dull pleidiol a diffygiol hwn yn ein hanesyddiaeth am wahanol bethau yn perthyn i hanes crefydd yng Nghymru." Fel y canlyn y mae'r diweddar Barch. R. Robinson, o Gaergrawnt, yn ysgrifenu ar y mater hwn:—"Cafodd yr holl gyfenwad (o Fedyddwyr), drwy oesoedd dilynol, ei gamddarlunio a'i drin gyda mwy o bleidgarwch a llymder nag Anghydffurfwyr eraill. Cawsent eu galw yn *Anabaptists*, neu Ailfedyddwyr, am eu bod yn gweinyddu un bedydd i'r rhai a daenellasid yn eu mabandod, yr hwn daenelliad nid oedd yn eu tyb hwy yn fedydd o gwbl. Ysgrifenwyr iawngred yn erbyn heresiau a ofalent yn wastad am osod yr Ailfedyddwyr§ yn nosparth yr hereticiaid mwyaf heintus, am eu bod yn dinoethi y ffug-athroniaeth a gydgorphorasai yr ysgolion a Christionogaeth. Drwgliwid hwy gan ysgrifenwyr ar lywodraeth eglwysig fel terfysgwyr afreolus, ac fel pleidwyr gwerin-lywodraeth, am eu bod yn casâu gormes, ac yn gwadu awdurdod swyddogion gwladol ar gydwybodau dynion mewn materion crefyddol."‖ Dywed Ivimey¶ mai peth arferol gan ysgrifenwyr eglwysig yw eu darlunio fel yn ddiystyr yn eu rhif, yn gyfeiliornus yn eu hegwyddorion, a'u gweinidogion fel personau diddysg ac anenwog. Y mae'r yspryd bychanus

* Crosby's Baptists, v. i., pp. 221-240, ed. 1738.

† Hanes y Bedyddwyr, gan J. Thomas, t. 104, 123, 341, 369, 442.

‡ Yn y flwyddyn 1861 neu 1862, bu cynghaws cyfreithiol rhwng rhai o Fedyddwyr sir Benfro a boneddwr yn yr ardal o ethryb yr "Ardd Gladdu." Haerai yr attafaelydd mai efe oedd y perchenog, a chollodd y Bedyddwyr y gyfraith, trwy iddynt fethu cael gafael yng ngweithred y trosglwyddiad gan Griffith Howels. Yn fuan wedi'r prawf, cafwyd y *Deed*, a dychwelodd y boneddwr yr Ardd Gladdu i'r Bedyddwyr, a chynnygiodd dir at eu gwasanaeth er helaethu y fynwent, a rhoddodd swm o arian i'r diben o gau y tir yn gyfleus. Cyhoeddwyd hanes y prawf a'r amgylchiadau perthynol iddo mewn llyfryn bychan gan y Parch. Henry Price, gweinidog y Bedyddwyr yn Rhydwilym.

§ Cam o'r mwyaf â'r Bedyddwyr yw eu galw yn *Ail*fedyddwyr. Ceir *Anabaptists*, Gwrthfedyddwyr, ac Ailfedyddwyr yngweithiau ysgrifenwyr diweddar, ac oddi wrth ba rai y gallesid disgwyl mwy o foneddigeiddrwydd a thegwch. Gan nad ydynt yn ystyried taenelliad yn fedydd, ac nad ydynt yn bedyddio y rhai fyddo yn eu barn hwy wedi eu bedyddio yn iawn, nid yw yn iawn eu galw yn Ailfedyddwyr; ac y mae eu galw yn Wrthfedyddwyr plant yn annheg, canys nid yw gwrthwynebu bedydd plant yn gwneud i fynu un ran o'u cyfundrefn, ond yn unig fel y mae yn dod yn achlysurol ar eu ffordd wrth amddiffyn bedydd y credinol. Golyga rhai nad yw yr enw Bedyddiwr yn un addas, ac y mae eraill yn barnu yn wahanol. "Y mae'r enw sydd arnom, *Bedyddwyr*," ebe Cynddelw, "yn hynod o gyfaddas fel darnodair arwyddluniol (*symbolical*) o Gristionogaeth. Mae 'llu bedydd,' 'rhwyf bedydd,' 'cadair bedydd,' &c., yn hen eiriau Cymreig i ddynodi byddin, pennaeth, a chadair Gristionogol; felly y mae'r enw Bedyddwyr yn argyfenwair mor ansectaraidd a'r enw Cristionogion. Dynion wedi eu goleuo, eu dysgu, eu hargyhoeddi, a'u dychwelyd, a gwisgo Crist am danynt yn y bedydd; eiddo proffesedig yr Arglwydd Iesu, teulu'r ffydd, a phlant Duw."—*Y Greal*, Mai, 1874.

‖ Robinson's Miscellaneous Works, v. iii., pp. 185-6.

¶ Ivimey, v. ii., pp. 5, 6.

Digitized by Google

hwn yn amlwg yn hanesion Neal, Calamy, a Baxter; ac yn ddiweddarach yn *Hanes yr Ymneillduwyr* gan Bogue a Bennett." Ymddengys mai clywed un o'r rhai sydd yn bedyddio (neu yn taenellu) babanod yn haeru mai tu a dau can mlynedd yn ol y dechreuodd y Bedyddwyr, a berodd i Mr. Orchard ddarparu ei *History of Foreign Baptists.* "Tra y mae gweinidogion crefydd," meddai Orchard, "i ddibenion pleidiol, yn cuddio rhyw nodweddau cyfenwadol, y mae Voltaire, Hume, Gibbon, ac ysgrifenwyr anffyddol eraill, yn nodi y pethau hyn yn ffyddlon a diorchudd, ac yn llawer mwy diduedd yn eu hadroddiadau na llawer o dduwinyddion diweddar."* Dywed un hanesydd (?) mai gweinidog Annibynol duwiol a dysgedig oedd Henry Jessey, ond nid yw yn dweyd i Hansard Knollys ei fedyddio yn 1645. Siaredir yn fynych am Vavasor Powel fel Annibynwr, heb ddweyd iddo uno â'r Bedyddwyr flynyddau cyn marw. Nid yw dinoethi pethau fel hyn yn gysurus i deimlad; ond y mae gonestrwydd yn ein rhwymo i aberthu teimlad ar allor dyledswydd.†

Er yr holl greulonderau a arferwyd at yr enwad hwn gan frenhinoedd a seneddwyr, ac er holl ymdrechion ysgrifenwyr eglwysig i'w cuddio, eu camddarlunio a'u drygu gyd â'r bwriad i'w difetha, etto llwyddasant i gadw eu hunain mewn hanfod, ac i sicrhau graddau helaeth o lwyddiant, yn ystod yr holl erledigaethau Brytanaidd, o'r amser y sefydlwyd eglwys Hill Cliffe hyd Ddeddf y Goddefiad yn 1689; ac o'r amser hwnw hyd heddyw cynhaliodd y Bedyddwyr eu cymmanfa flynyddol o'r flwyddyn 1650 hyd esgyniad Siarl II. Cynhaliwyd y gyntaf yn Llanilltyd (Ilston) yn 1650, yn yr hon y cynnrychiolid tair eglwys, sef Olchon, Llanharan, ac Ilston.‡ Honno oedd y gymmanfa gyntaf yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ail yng Nghaerfyrddin yn 1651, y drydydd yn Gelligaer yn 1652, y bedwaredd yn y Fenni yn 1653, y bummed yn Aberafon yn 1654, &c. Yn ol y farn gyffredin, yn Aberhonddu, yn y flwyddyn 1656, y cynhaliwyd y gymmanfa ddiweddaf cyn erledigaethau Siarl II.; ond dywed y Parch. William Jones ei bod "yn beth tebyg i gymmanfa y Bedyddwyr gael ei chynnal ym mlaen dros bedair blynedd wedi cyfarfod Aberhonddu."§ Pan ddychwelodd Siarl, dechreuwyd erlid, a gosodwyd terfyn i raddau ar gyfarfodydd cyhoeddus yr Ymneillduwyr trwy'r deyrnas; a pharhaodd yr erledigaeth am wyth mlynedd ar hugain. Ynghymmanfa Aberhonddu cyttunwyd i argraphu llyfr dan yr enw "Gwrthfeddyginiaeth yn erbyn Gwenwyn yr Amseroedd," a chyhoeddwyd ef trwy gydsyniad henuriaid eglwysi Ilston, Fenni, Tregynog, Caerfyrddin, Henffordd, Bydorddyn, Clydach, a Llangors. Os yw gosodiad y Parch. William Jones yn gywir, cynhaliodd y Bedyddwyr eu cymmanfa hyd orseddiad Siarl II. yn 1660; ond yr oedd eu cynnal rhag llaw allan o'r cwestiwn am dymmor, yngwyneb yr Actau uffernol a luniwyd i'r perwyl o ddifetha Anghydffurfiaeth.‖ Wedi ymdrechu yn egnïol yn erbyn rhwystrau mawrion am flynyddau, terfynwyd y gymmanfa yn Aberhonddu yn 1656 (neu mewn man arall yn 1660, yn ol W. Jones), a buont heb un gymmanfa am yspaid maith. Yn 1689, cynhaliwyd cymmanfa yn Llundain, yn yr hon y cynnrychiolid saith eglwys yng Nghymru. Yn y cyfnod rhwng 1656 neu 1660 ac 1689, collodd y Bedyddwyr, fel eraill, lawer iawn o aelodau trwy yr erledigaethau, ymfudiadau o herwydd y blinder, &c.; ond dywed y diweddar Nefydd eu bod tu a'r un nifer yn 1689 ag oeddent pan ddechreuodd Siarl II. deyrnasu ac erlid.¶ Nid ffaith ddibwys yn eu hanes yw, na ddarfu iddynt leihau mewn nifer er yr

* Orchard's Hist. of For. Baptists, pp. 7, 8.

† "Y mae rhai haneswyr eglwysig yn haeru mai Atheistiaid, Antinomiaid, a Libertiniaid oedd y Bedyddwyr, am y barnent fod goddefiad cyffredinol yn rhan o wladwriaeth ddaionus. Enllibid hwy gan y dysgedigion fel haid o benbyliaid anllythyrenog, o blegid eu bod yn dal yn wastad fod llyfr crefydd mor eglur, a'i grefydd mor amlwg, fel y gall unrhyw ddŷn o synwyr cyffredin ei ddeall, os myn. Ceblid hwy gan yr offeiriaid fel sect sarug, surllyd, ymrysongar, a chyndyn, am y meddylient fod Cristionogaeth yn anghyfnewidiol, a bod cydymagweddu â dull y byd a gweniceithio yn bechodau mewn crefydd.'—R. Robinson's Miscellaneous Works, v. iii., p. 186.

‡ Y mae'r cyferbyniad rhwng y Bedyddwyr yr amser hwnw a'u sefyllfa yn bresennol yn ddyddorol iawn. Ysgrifenodd Nefydd fel y canlyn yn 1857 (saith mlynedd ymhellach nag y mae'r gwaith hwn yn cyrraedd):—"Mae genym yn y deyrnas gyfunol hon yn bresennol agos i ddwy fil o eglwysi, yn cynnwys tu a dau cant a hanner o filoedd o gymmunwyr, ac fe allai yr un rhifedi neu ragor yn coleddu yr un egwyddorion, heb fod yn aelodau. Mae yn Unol Daleithiau America tu ag un mil ar ddeg o eglwysi, yn cynnwys tu a naw can mil o aelodau, heb son am y tri chan mil o wahanol Fedyddwyr eraill sydd yno; ac heb son hefyd am y ddwy Ganada, Nova Scotia, Cyfandir Ewrop, a'r meusydd cenhadol. Os rhoddir y cyfan ynghyd, bydd nifer yr aelodau tu a phymtheg cant o filoedd o leiaf. Fe allai nad gormod fyddai rhoi nifer y gwrandawyr yn bum miliwn."—Llythyr Cymmanfa Mynwy, 1857.

§ Han. Cym. y Bed. Neillduol yn Nghymru, gan Wm. Jones.

‖ Gwel llyfr ii., pen. i.

¶ Dywed offeiriad parchus o Eglwys Loegr (sef y Parch. R. W. Morgan, Tregynon) fel y canlyn am Siarl II.:—"Ei deyrnasiad ef yw un o'r rhai mwyaf gwarthus yn hanes Brydain. Yr oedd yn adyn ysgeler ac afradlon ei hun; yr oedd ei lys yn cynnwys casgliad o fenywod aflan, a swyddwyr wedi eu llychwino gan bob llygredd. Niweidiodd eu hesiamplau y genedl, fel yr oedd arferion llygredig ac anllad yn cyrhaedd trwy holl ddosparthiadau cymdeithas. Hyny, ynghyd âg esgobion gweniceithus, heb fod cymmaint ag un yn eu plith yn ddigon gonest dros Grist, a thros eneidiau dynion, i gondemnio y fath annhrefn a orphenai y darlun anfoesol."—Brit. Cymry, p. 248.



Digitized by Google

holl erledigaethau uffernol a ddïoddefasant o dan deyrnasiad yr adyn drygionus. O'r flwyddyn 1689, pan unasant â chymmanfa Llundain, parhaodd Bedyddwyr Cymru mewn undeb â'r gymmanfa honno, a chymmanfaoedd Caerodor a Taunton, hyd y flwyddyn 1700, pryd y dechreuasant ail gychwyn cymmanfa yn y Dywysogaeth, yr hon sydd wedi parhau o'r flwyddyn honno hyd yn bresennol. Yn yr hen gymmanfaoedd, ni fyddent yn pregethu fel y gwneir yn bresennol, ond yn ymgynghori ar wahanol faterion eglwysig, ac yn atteb cwestiynau yr eglwgsi ynghylch athrawiaeth a disgyblaeth. Byddid yn ysgrifenu penderfyniadau a chynghorion y cynnadleddau, a'r cenhadon yn cymmeryd copïau o honynt, ac yn eu dwyn i'r eglwysi. Yng nghymmanfa Cilfowyr, yn 1760, y penderfynwyd argraphu y penderfyniadau, &c., rhag llaw.

Ymddengys mai yng nghymmanfa Llanwenarth, yn 1703, y traddodwyd y bregeth gyntaf. Parhaodd yr arferiad o draddodi un bregeth mewn cymmanfa am flynyddoedd; ac wedi hyny dechreuwyd pregethu dwy bregeth gymmanfaol, sef un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg; a bu'r drefn honno mewn arferiad am gryn amser. Dengys pellder y ffordd, yr anhawsderau, a'r draul i deithio i gymmanfaoedd yn yr hen amseroedd, nad oedd ein hynafiaid heb deimlo llawer o ddyddordeb yn eu cynnulliadau cymmanfaol. Nodweddid eu cyflawniadau mewn cymmanfaoedd gan lawer o grefyddolder. Pan fyddai anghydfod neu ffrae mewn eglwys, neu rhwng eglwysi, neillduid dydd neu ddyddiau i weddïo ac ymprydio; a phan dderbynid gwaredigaeth wladol, neu ryw ddaioni neillduol arall, nid oedd braidd ddarfod i'w dïolch am y fendith. Er esampl, cadwasant gyfarfodydd dïolchgarwch yn fisol a blynyddol am ugain mlynedd, i gydnabod eu rhwymau i'r Goruchaf am esgyniad George I. i'r orsedd, pan yr ofnent orseddiad y *Pretender*, oddi wrth yr hwn nis gallent ddisgwyl tawelwch. Cadwent y dydd cyntaf o Awst yn ddydd dïolchgarwch blynyddol, ac ar y dydd Mercher cyntaf o bob mis cyfarfyddent i ddïolch yn fisol i'r Goruchaf.

Cynhaliwyd y gymmanfa ym mlaen yn rheolaidd o 1700 hyd 1790, pryd y dechreuodd yr ymranu yn y Dolau, ac y mae yn awr yn naw neu ddeg o gymmanfaoedd. Ceir cipolwg ar hanes cymmanfaol y Bedyddwyr o 1650 hyd 1831 yn llyfr W. Jones; ac y mae "*History*" Joshua Thomas yn cynnwys hanes ein cymmanfaoedd o 1650 hyd 1790. Y mae darllen y llyfrau hyn yn waith dyddorol i bawb sydd yn gallu teimlo dyddordeb yn ein helyntion enwadol. Yn ol yr hanesion sydd yn ein meddiant, yr oedd y bedyddiadau yn lliosog mewn rhai blynyddoedd, ac ystyried yr anhawsderau yr ymdrechid yn eu herbyn, fel y dengys yr esamplau canlynol:—Yn 1774, bedyddiwyd 333; yn 1775, 278; yn 1776, 260; yn 1777, 216; yn 1785, 332; yn 1786, 410; yn 1787, 402; yn 1788, 513; yn 1789, 603; yn 1790, pan ranwyd y gymmanfa, 544. Rhif yr eglwysi oedd yn aelodau o'r gymmanfa yn 1790 oedd 46, heb yr eglwysi cymmysg a'r canghenau, ac eglwysi eraill, fe allai, nad oeddent wedi appelio am aelodaeth gymmanfaol. Yn y flwyddyn 1736, pan y mae y Methodistiaid Calfinaidd yn cyfrif eu dechreuad, yr oedd gan y Bedyddwyr 16 o eglwysi digymmysg, heb law canghenau, *preaching stations*, ac o bump i wyth o gynnulleidfaoedd cymmysg. Cawn ddychwelyd at y mater hwn etto.

Nis gall unrhyw enwad crefyddol gael allan y manylion perthynol i'w hanes o ddechrau yr unfed ganrif ar bymtheg hyd 1850, rhifedi yr aelodau mewn gwahanol gyfnodau, eu sefleoedd cymdeithasol, &c.; ond y mae yn bosibl y gellir cael cipdrem ar rai o'r agweddiadau ar adegau neillduol. Cawsom yn barod syniad am rifedi eglwys Hengoed a'i changhenau ar un adeg. Modd bynag, yr oedd rhai o'r eglwysi yn llwyddiannus iawn, yn lliosog, a llawer o'r aelodau yn gysurus mewn amgylchiadau tymhorol, er yr holl gamwri a'r creulonderau a ddïoddefasant oddi wrth erlidwyr gorthrymus a chigyddlyd. Fel y crybwyllwyd, rhifedi yr eglwysi Bedyddiedig digymmysg, yn 1736, oedd 16. "Ni gymmerwn," ebe Nefydd, "er enghraifft, ychydig hanes am gynnydd un o'r 16 hyn, a honno yn eglwys ieuangc y pryd hyny, sef Blaenau Gwent. Nis gellir ystyried hon yn agos mor llwyddiannus a rhai o honynt, ond yr oedd yn fwy llwyddiannus nag eraill, ac felly, fe allai, yn un o'r goreuon i roddi drychfeddwl cyfartal am lwyddiant y cwbl o honynt. Corpholwyd yr eglwys yma yn 1696, pan yr oedd yno 64 o aelodau. Yn y flwyddyn 1717, digwyddodd amgylchiad a wasanaetha i ddangos mai nid rhyw ddyrnaid o 'sothach' diddylanwad oedd yn gwneud i fynu eglwys a gwrandawyr y dyddiau hyny. Gofynwyd yn 1717, gan y Llywodraeth, i'r gweinidogion (perthynol i'r holl enwadau) gyfrif y rhai oedd yn gwrandaw eu gweinidogaeth yn gyffredin, a'u sefyllfa yn y

wlad; ac felly y gwnaethant. Y gwrandawyr yn Aberystruth (sef Blaenau), y Rhossau (cangen o'r Blaenau), ac yn nhy Isaac Daniel (cangen arall), oeddynt fel y canlyn:—Y rhai sydd ganddynt *vote* (*county voters*) yn nhref Fynwy, 123; y rhai a feddent *vote* dros y dref (*Burgesses*), 26; rhai yn cadw tiroedd, 98; crefftwyr, 58; gweithwyr cyffredin, 246. Y rhai hyn, gyd a'u gwragedd, merched, &c., o gylch mil. Nid yw yn ymddangos fod plant icuaingc yn cael eu cyfrif. Codwyd yr uchod gan Joshua Thomas o hen lyfr eglwys y Blaenau i "Hanes y Bedyddwyr" (1778), ac y mae yn cael ei ddifynu gan Nefydd yn llythyr cymmanfa Mynwy, 1857. Dylid cofio nad oedd capel yn y naill na'r llall o'r lleoedd crybwylledig ddwy flynedd cyn gwneud y cyfrifiad. Nid oedd ond 21 o flynyddau er pan gorpholasid yr eglwys, pan nad oedd yr aelodau ond 64, fel y crybwyllwyd. Yn 1725, derbyniwyd tu a 80 o aelodau yn y gymmydogaeth rhwng Blaenau a Hengoed. Yn 1729, ffurfiwyd eglwys Penygarn, a chafodd tu a 50 o aelodau ollyngdod er ffurfio yr eglwys honno, agos oll o'r Blaenau, ac etto yr oedd yr eglwys yn fuan ar ol hyny yn 210. Dywed Nefydd y gellid dilyn yr un rheol i sylwi ar bob un o'r eglwysi digymmysg (16), a'r un modd y rhai a arferent gymmundeb agored.*

Bu Deddf yr Unffurfiaeth, yn 1662, yn drallod i lawer yn y wlad hon, ac yn ddinystr mewn mwy nag un ystyr i rai; ond ni ddisgynodd y fflangell honno mor drom ar weinidogion y Bedyddwyr yng Nghymru ag y gwnaeth ar esgobion eraill, o blegid na osodwyd nifer mawr iawn o honynt gan y "*tryers*" yn yr eglwysydd plwyfol, i wasanaethu yn lle yr offeiriaid annheilwng a droisid allan gan y werin-lywodraeth. Y mae rhai yn beio y gweinidogion a aethant i wasanaethu eglwysi y Llywodraeth ar y pryd mewn modd llym iawn, gan ddweyd y dylasent wrthod y cynhygion, a thrwy hyny ymddwyn yn deilwng o'u proffes fel Anghydffurfwyr. Ceisia eraill eu hesgusodi trwy ddweyd nad oedd Anghydffurfiaeth yn cael ei deall yr amser hwnw fel y mae yn cael ei dirnad yn bresennol, &c. Gan nad oedd caethiwed yn cael ei osod ar eu golygiadau a'u harferion crefyddol, derbyniwyd teleran y Llywodraeth gan lïaws o bregethwyr, ac, ym mysg eraill, gan J. Myles, D. Davies, a Watkin Jones (Bedyddwyr); ond nis gellir cyfiawnhau eu hymddygiad yn ymgyssylltu â'r Llywodraeth fel y gwnaethant. Cawsant gyfleustra rhagorol i sefydlu anymddibyniaeth mewn crefydd, ond ni ddefnyddiasant yr adeg. Er i lawer ymollwng yn y cyfyngdra yr oeddent ynddo, gwrthodwyd y cynnyg gan eraill.

Yr oedd "cymmundeb cymmysg" yn cael ei arfer i raddau helaeth gan rai o'r hen Fedyddwyr Cymreig, ac yr ydym yn meddwl ei fod yn helaethach ei derfynau gynt nag y mae llawer yn tybied. Yr oedd Bedyddwyr Vavasor Powel yn sir Drefaldwyn, Bedyddwyr Hugh Evans yn Maesyfaid, Bedyddwyr Jenkin Jones yn Mrycheiniog, Caerfyrddin, a Morganwg, a Bedyddwyr William Thomas yn Mynwy, oll yn arfer cymmundeb cymmysg, ac o blegid hyny nid oeddynt yn perthyn i'r gymmanfa. Dywed un ysgrifenydd mai diwedd yr holl eglwysi cymmysg hyny fu, naill ai marw o ddiffyg achles, neu gael eu llyngcu i fynu gan yr Annibynwyr, fel y llyngcwyd eglwys Llanbrynmair, yr hon a sefydlwyd gan Vavasor Powel.† Achosodd cymundeb cymmysg lawer o flinder yn yr amser gynt, a bu raid i John Myles ac eraill ymladd yn galed yn ei erbyn. Y mae'r pwngc wedi achosi llawer o deimladau annymunol mewn eglwysi, ac wedi peru i eglwysi gwahanol ymrafaelio. Bu dadl boenus rhwng eglwys Blaenau Gwent ac eglwys Llanfaban ar y pwngc yn 1696; ac yn 1697 cafodd yr ymrafael rhwng y ddwy eglwys ystyriaeth cymmanfa Bristol, yr hon a roddes ei barn yn erbyn cymundeb rhydd.‡ Bu "gosodiad dwylaw ar y bedyddiedig" hefyd yn poeni yr eglwysi yn y cynnadleddau cymmanfaol yn awr ac eilwaith am flynyddau, a'r ddadl Arminaidd yn cynhyrfu'r gwersyll fwy nag unwaith; ond nid yw ein terfynau yn caniatau i ni fanylu ar y pwyntiau hyn.

Nid oedd llenyddiaeth grefyddol yn uchel yn yr eglwysi yn y canrifoedd diweddaf, fel y mae yn hawdd i ni dybied; ond y mae yn gysur meddwl na bu'r Bedyddwyr yn hollol ddilafur yn y cyfeiriad hwn. Cyhoeddasant lïaws o lyfrau ar wa-

* Nid ydym yn rhoddi hanes yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid yma; ond gellir sylwi iddynt hwythau fyned trwy ofidiau ac erledigaethau ofnadwy yn amser Siarl II., ac i lawer o honynt gael eu rhoddi i farwolaeth trwy gael eu gosod mewn carcharau afiachus, celloedd tywyll, a seleri gwlybion, fel y cafodd y Bedyddwyr. "Gallem hefyd," meddai un ysgrifenydd galluog, "gyfeirio at ddiwygiadau nerthol a gymmerasant le yn eu plith hwythau mewn amryw o'u heglwysi, o 1689 hyd 1720 neu 1830. Pan ystyriom fod eglwysi yr Annibynwyr (yn cynnwys y Presbyteriaid) yn lliosocach o lawer y pryd hyny na'r Bedyddwyr yng Nghymru, y mae yn rhaid cael gwroldeb neu anwybodaeth fwy na'r cyffredin i ddywedyd fod Ymneillduaeth wedi, neu ym mron, a diflanu yn ein gwlad yn 1736."

† Yn y flwyddyn 1675, anfonodd Henry Maurice, gweinidog Llanigon, "Fynegiad o'r holl eglwysi cynnulledig yn amrywiol swyddi Cymru," i Mr. Edward Terrill, diacon yn Broadmead, Bristol. Dengys y dyst-ysgrif honno y byddai Bedyddwyr a Thaenellwyr i'w cael yn yr un eglwys mewn amryw fanau yng Nghymru.

‡ Hengoediana, t. 36, 37.

Digitized by Google

hanol amserau, a sefydlasant athrofa yn Nhrosnant, Pontypŵl,* yn 1730, yn yr hon yr egwyddorid dynion ieuaingc a ddechreuasent bregethu, a bu mewn bod hyd nes y sefydlwyd athrofa Bristol yn 1770. Bu tu a deugain o bregethwyr ieuaingc yn derbyn addysg yn yr hen athrofa honno, a daeth amryw o honynt yn ddynion enwog mewn dysgeidiaeth a defnyddioldeb. Ym mysg eraill, bu'r Dr. Thomas Llywelyn ynddi, yr hwn a fu o fendith fawr i'w genedl, ac yn neillduol i'r Bedyddwyr, mewn gwahanol ffyrdd. (Gwel yr enw.)† Yr oedd argraphwasg ym Mhontypŵl ar y pryd, a meddyliai Nefydd mai o dan arolygiaeth y Bedyddwyr yr ydoedd. Ac eithriadu Olchon, yn y Deheubarth yn benaf y llafuriodd y Bedyddwyr hyd 1776; yn y flwyddyn honno y dechreuodd gweinidogion y Bedyddwyr yn y Deheudir deithio trwy'r Gogledd i bregethu yr efengyl i'r bobl, a bu llwyddiant mawr ar eu llafur. Y Dr. T. Llywelyn gafodd y fraint o ddechrau y gwaith da hwn.‡ Ysgrifenodd lythyrau at y Parch. J. Thomas, a Wm. Williams, Ysw., Aberteifi, yn 1776, i'w hyspysu ei fod yn awyddus am gael math ar genhadaeth i Ogledd Cymru, a'r llythyrau hyny a fuant yn foddion i gychwyn y symmudiad daionus. Y Parch. D. Evans, Dolau, oedd y cenhadwr cyntaf a ymwelodd â'r Gogledd, ac efe oedd y cyntaf a gafodd yr anrhydedd o weinyddu yr ordinhad o fedydd ym Mon. Cyflawnwyd y gwasanaeth crefyddol hwnw ynghymmydogaeth Llangefni, Ebrill 18fed, 1779. Erbyn y flwyddyn 1779, yr oedd yno amryw eglwysi wedi eu corpholi, fel cynnyrch cenhadaeth y Dr. Llywelyn. Cynhaliwyd y gymmanfa gyntaf yn y Gogledd yng Nglynceiriog, yn 1779, ac yr oedd y Dr. Llywelyn ynddi. Teithiodd rhai o bregethwyr gorau y Deheubarth dair neu bedair gwaith ar ddeg trwy y Gogledd, gan bregethu yr efengyl, ac ni fu eu llafur yn ofer yn yr Arglwydd.§

Pan yn meddwl am holl lafur mawr a llwyddiannus y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yng Nghymru, o'r flwyddyn 1650 (heb fyned ymhellach yn ol) hyd 1736 (ac am rifedi eu pregethwyr a'u haddoldai, &c.,) pan gyfododd Methodistiaeth, nis gellir cymmeradwyo rhai pethau sydd wedi eu llefaru a'u hysgrifenu o barth sefyllfa foesol a chrefyddol y Dywysogaeth cyn y flwyddyn 1736.‖ Dïau i Harris a Rowlands gyflawni gorchestion, a'u bod i'w hedmygu yn fawr am eu hymdrechion llwyddiannus; ond nid ar draul anwybyddu llafur a dïoddefiadau y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, &c., a'u blaenasant. Ni allai Harris, Daniel Rowlands, ac eraill, wneud hanner na chwarter y daioni a wnaethant yn y ganrif ddiweddaf, pe na buasai y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, y Crynwyr, a'r Presbyteriaid wedi parotoi y ffordd i'r efengyl yng Nghymru. Pa beth a allasent hwy ei wneud mwy na rhyw ddynion eraill yn wyneb y cyfreithiau ofnadwy (y *conventicle*, &c.) a ffurfiasid i luddias Anghydffurfwyr, ac i ddifetha Anghydffurfiaeth? "Nid am eu bod hwy (Rowlands a Harris) yn rhagori cymmaint ar eraill y bu hyn" (eu llwyddiant,) meddai un awdwr, "ond am eu bod yn llafurio ynghyflawnder yr amser." Dengys ein sylwadau byrion yn y tudalenau blaenorol, i ryw fesur, nad bychan nac aflwyddiannus y bu llafur y Bedyddwyr yng Nghymru am ugeiniau o flynyddau cyn geni Harris a Rowlands. Yr oedd ganddynt ddeugain neu ragor o weinidogion ar y maes yn 1736, a

* Nid yw yn hawdd gwybod paham y darfu i awdwr yr "History of Nonconformity in Wales" anwybyddu athrofa Trosnant, gan ddweyd mai yn 1807 y sefydlwyd athrofa gyntaf y Bedyddwyr yn Abergafenni. Dylai hanesydd fod yn wybodus, gonest, a diragfarn. Y mae gan y Bedyddwyr athrofeydd rhagorol ym Mhontypŵl, Hwlffordd, a Llangollen, er ys blynyddau, a'r naill a'r llall o honynt wedi dysgu llïaws o ddynion defnyddiol.

† Ceir hanes yr hen athrofa, ac athrofeydd eraill y Bedyddwyr, mewn llyfryn bychan wedi ei ysgrifenu gan y Parch. J. Williams (Rufus.) Ei enw yw "Hanes ein Hathrofeydd."

‡ Er holl ymdrechion cenhadol y Dr. Llywelyn ac eraill, gwan mewn cymhariaeth yw achos y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru. Y mae'r Parch. H. W. Hughes (Arwystl) yn priodoli ein haflwyddiant i raddau pell i gyfodiad Sandemaniaeth yn 1795. Dywed efe mai gwahaniaeth *yspryd*, yn fwy na gwahaniaeth *barn*, a'u deolodd oddi wrth y Bedyddwyr. "Rhyfedd," meddai Mr. Hughes, "fod plaid o bobl a arddelwant enw Crist, yr hwn a ddywedodd, 'Ewch i'r holl fyd,' &c., na symmudant hanner cam, eled y byd lle'r elo. Ni wna y blaid hon gymmaint a *gweddïo* dros y byd, heb son am ragor. Y maent yn erbyn y Genhadaeth, yn erbyn yr Ysgol Sabbothol, ïe, yn wir, yn erbyn y weinidogaeth fel *sefydliad*. . . . Pe buasai holl Gristionogion cred o'r un yspryd a'r blaid hon, ni buasai y dydd heddyw Fibl yn llaw cymmaint ag un pagan, na chlust cymmaint ag un eilun-addolwr ar wyneb y ddaear wedi clywed efengyl. Gwae ni fwrw erthyl Sandemaniaeth! canys nid yw ein mam hyd yma wedi cefnu yr anffawd."—Cof. y Parch. T. R. Davies, gan H. W. Hughes.

§ Hist. of the English Bap., by J. Ivimey, p. 534; Hengoediana, t. 87, 88.

‖ Y mae Nefydd, yn Llythyr Cymmanfa Mynwy, 1857, yn nodi yr awdwyr a'r darlithwyr (neu amryw o honynt), y rhai sydd yn camddarlunio ansawdd ein gwlad yn flaenorol i gyfodiad Methodistiaeth, ac yn troi yn ol eu haeriadau disail yn y modd mwyaf meistrolaidd, trwy offerynoliaeth ffeithiau ac ystadegau nas gellir eu gwrthwynebu. Y mae yn cyfeirio at amryw o'r llyfrau ymha rai y dysgir yr athrawiaeth o fod moesau, dysg, a chrefydd yn iselach yng Nghymru cyn 1736 nag y buasent braidd mewn un oes flaenorol i hyny, er amser y Diwygiad Protestanaidd. Dywedir fod y tipyn crefydd a fuasai yng Nghymru bron ar ddiflanu. Caniateir fod tipyn o ddaioni wedi ei wneud gan y Presbyteriaid a'r Annibynwyr (anaml y cofir son am y Bedyddwyr o gwbl, fel y sylwa Nefydd); ond yr oedd y cwbl yn agos wedi diflannu erbyn 1720 neu 1730. Dywed awdwr galluog a goleuedig y llythyr dan sylw fel y canlyn:—"Ond hyn yw ein haeriad yn erbyn yr holl awdwyr a nodwyd a'u cyffelyb, *fod cyflwr gwybodaeth, moesau, a chrefydd y Cymry yn* 1736 *ymhell o flaen yr hyn a fuasai erioed o'r blaen.* Dyma'r pwngc yr ydym yn barod i'w brofi unrhyw bryd."

Digitized by Google

dywed un ysgrifenydd fod rhifedi eu hesgobion o'r dechrau hyd y flwyddyn honno (yn fyw ac yn farw) o gant i chwech ugain, a llawer o'r rhai hyny yn ddynion galluog ac enwog. Dangoswyd fod genym 16 o eglwysi digymmysg (heb law canghenau ac eglwysi cymmysg), a lliaws o honynt yn lliosog, a llawer o'r aelodau yn uchel yn eu hamgylchiadau tymhorol, flynyddau meithion cyn 1736.* Heb law yr 16 a grybwyllwyd, yr oedd eglwysi Llangloffan, Pencoed, Maesaleg, Casbach, Ffynnonhenry, Ffynnon gwell na buwch, &c., yn bod yn 1736, a'r ordinhadau yn cael eu gweinyddu ynddynt, ond eu bod heb eu corpholi.† Yn y flwyddyn 1800, yr oedd ein heglwysi yn 80, heb law y canghenau a'r eglwysi cymmysg. Yn y flwyddyn 1860, yr oedd Bedyddwyr Neillduol Cymru (sef yr aelodau perthynol i'r eglwysi oedd yn perthyn i'w hundebau cymmanfaol) yn 62,246; ond nid yw y nifer hwn yn cynnwys aelodau yr eglwysi Seisnig, y rhai nad ydynt yn perthyn i'r cymmanfaoedd Cymreig,‡ nac aelodau yr eglwysi nad ydynt yn perthyn i'r undebau cymmanfaol. Nifer ein heglwysi yn y flwyddyn honno oedd 467; ein hysgolion Sabbothol, 492, yn cynnwys 54,820 o ysgolheigion. Dengys y cyfrif hwn fod yn y cyfundeb 26 o ysgolion Sabbothol yn fwy nag oedd o eglwysi, a'r esboniad ar hyn yw, fod genym ysgolion mewn annedd-dai ac ystafelloedd, yn cael eu cynnal mewn cyssylltiad âg eglwysi cyfagos. Yr oedd gan y Bedyddwyr Cymreig y flwyddyn honno 333 o weinidogion, a 281 o bregethwyr cynnorthwyol (614), a 47 o fyfyrwyr yngholegau Pontypŵl a Hwlffordd. Yn yr un flwyddyn cyfranai eglwysi Cymru er cynnal gwahanol gymdeithasau pwysig, sef y Genhadaeth Dramor, Cenhadaethau Cartrefol, y Gymdeithas Gyfieithadol, y Gymdeithas Fiblaidd, &c.; ond y mae yn ffaith alarus nad oedd ac nad yw cyfraniadau y Bedyddwyr yn deilwng o'u gallu, nac o bwysigrwydd y sefydliadau uchod; ac y mae yn fwy na thebyg y gellir dweyd yr un peth am holl enwadau y Dywysogaeth. Nid yw y Bedyddwyr Cymreig mor enwog ag y dylent fod mewn haelioni, yn eu hymdrech dros yr ysgol Sabbothol, nac yn eu cefnogaeth i'r wasg. Gyd â golwg ar y wasg, y mae enwadau eraill ymhell o'u blaen. Un o ddiffygion penaf y Bedyddwyr yw ymddibynu gormod ar eu hegwyddorion, ac esgeuluso y llafur angenrheidiol i'w gweithio allan mewn cyfeiriadau ymarferol. Ac ystyried ein manteision, nid yw Bedyddwyr presennol Cymru mor ymdrechol dros eu syniadau gwahaniaethol ag yr oedd yr hen Fedyddwyr y cyfeiriwyd atynt yn y tudalenau hyn.

Ni fu dynion erioed yn fwy zelog dros ryddid na'r Bedyddwyr, a gwnaeth y tadau Cymreig y crybwyllwyd am danynt ymdrechion egnïol drosto yn y wlad hon yn amser yr erledigaethau a fu o dan ein hystyriaeth. Eu hawydd am ryddid a berodd i lawer o honynt ymfudo yn amser y creulonderau Brytanaidd; ac y mae America yn fwy dyledus i Fedyddwyr Cymreig am rai o'i breintiau presennol nag y mae llawer yn tybied. Cymro o sir Gaerfyrddin oedd Roger Williams, dŷn na fu neb erioed yn deall rhyddid yn well nag ef, nac yn fwy llafurus drosto.§ Dywed Charles Butler (Pabydd) "Mai yr enwad hwn o Gristionogion" (sef y Bedyddwyr) "a ledaenodd yr egwyddorion o ryddid crefyddol gyntaf."‖ Dadleuent, ac y maent yn parhau i ddadlau, dros ryddid i'r Pabyddion a phawb. Yn y flwyddyn 1609, dywedent wrth yr awdurdodau gwladol:—"Ac am y Pabyddion, oni ellir tybied yn gyfiawn mai un o'r achosion penaf o'u holl droseddau oedd yr holl ddirgymhellion a arferwyd yn erbyn eu cydwybodau, wrth eu gorfodi i'r addoliad a arferir yn gyhoeddus, yn ol cyfraith y wlad hon. Nid oes amheuaeth, os tynir hyn ymaith, na fyddant yn

* Ceir enwau pregethwyr y Bedyddwyr yng Nghymru yn 1736, ac enwau yr eglwysi, yn Llythyr Cymmanfa Mynwy, 1857, ac mewn Rhagdraeth i Gofiant y Parch. T. R. Davies, gan y Parch. H. W. Hughes (Arwystl.) Yn y blaenaf yr ydym yn cael hefyd enwau llawer iawn o weinidogion yr Annibynwyr yn 1736.

† Dywed Nefydd fod nifer y cynnulleidfaoedd Bedyddiedig, y rhai oedd fel eglwysi ymhob peth ond y corpholiad, yn 1736, o 20 i 30, a bod ganddynt o 40 i 50 o ganghenau a lleoedd pregethu, heb son am yr eglwysi cymmysg. Mor forau a'r flwyddyn 1689, yr oedd gan y Bedyddwyr dros 40 o weinidogion yng Nghymru, ac er yr holl erledigaethau, &c., nid oeddynt wedi lleihau yn 1736; a diau y buasent yn lliosog iawn y flwyddyn olaf pe cawsent ryddid yn y blynyddoedd blaenorol. "Gellir dweyd," ebe Nefydd, "fod y Bedyddwyr wedi cymmeryd rhan mor bwysig mewn efengyleiddio Cymru yn athrawiaeth Ymneillduaeth Brotestanaidd, ac mewn ymwrthodiad â *chrefydd wladol*, ag unrhyw enwad. Gellir dweyd na fu yn ol i'r penaf o honynt. Tybiwn y gellir profi, gyd â golwg ar egwyddorion Ymneillduaeth yng Nghymru, ac ymwrthodiad â thaliad y Llywodraeth, iddo fod y *blaenaf*. Cyfeirir yma at amser y Werin-lywodraeth." "Nid rhyw enwad gorwyllt wedi dyfod i'r cylch o'r agweddiad yma fel cicaion Jonah yw ein henwad, ond bu ganrif ar ol canrif yn sefydlu yr egwyddorion, ac yn gweithio ei ffordd trwy lawer o rwystrau ac erledigaethau mawrion. Gellir nodi hefyd fod ymhob dosran o hanes yr enwad hwn ddynion o ddysg, dawn, gonestrwydd, a phenderfyniad, o'r cylch blaenaf ac enwocaf, yn llafurio, a hyny agos ymhob oes."

‡ Y mae gan Fedyddwyr Seisnig y Deheubarth un gymmanfa iddynt eu hunain, yn cynnwys siroedd Mynwy, Morganwg, a Chaerfyrddin. Nid yw aelodau y gymmanfa honno yn y cyfrif uchod.

§ "Ewyllys a gorchymyn Duw," meddai Roger Williams, "er dyfodiad ei Fab, yr Arglwydd Iesu, yw fod caniatad i'r cydwybodau a'r addoliadau mwyaf paganaidd, Iuddewaidd, Turkaidd, neu anghristaidd, gael ei roddi i bob dŷn yn mhob cenedl a gwlad; a'u bod i ymladd yn eu herbyn yn unig â'r cleddyf hwnw sydd abl i orchfygu mewn mater eneidiau, sef cleddyf yr Yspryd, yr hwn yw Gair Duw."

‖ Darlith ar Han. y Bed., gan R. Ellis.

Digitized by Google

Llawer mwy tangnefeddus." "*Clear stage and no favour*" oedd eu harwyddair yn yr oes honno, a'r un ydyw yn bresennol.

Y mae pob cyfundeb crefyddol yn cael ei wahaniaethu oddi wrth eraill gan egwyddorion pennodol; ac yn unweddol â hyn, gwahaniaethir y Bedyddwyr oddi wrth y Pabyddion a'r Episcopaliaid gan syniadau ac arferion adnabyddus; ac oddi wrth Daenellwyr neu Fedyddwyr babanod yn gyffredin gan egwyddorion gwahaniaethol na fyddai yn anfuddiol i ni gipdremio arnynt, er mwyn hyfforddiant y rhai nad ydynt yn eu gwybod. Y maent yn gwahaniaethu oddi wrth rai o'r "enwadau" mewn rhyw bethau, ac oddi wrthynt oll mewn pwyntiau eraill. (*a*) Yn ol barn y Pabyddion ac Episcopaliaid Lloegr, y mae'r cyssylltiad adnabyddus rhwng crefydd a gwladwriaeth yn iawn; ond dywed y Bedyddwyr, fel enwadau eraill, nad ydyw, ac y dylai pawb geisio myned i'r nef ar eu traul eu hunain, heb farchogaeth plwyf, gwlad, na theyrnas. (*b*) Y mae'r egwyddor hon o angenrheidrwydd yn eu rhwymo i fabwysiadu yr un ganlynol hefyd, sef, Mai Crist yw unig Ben yr eglwys Gristionogol, ac nad oes a fynno pab, brenin, na brenhines â'r benogaeth. Nid ydynt yn credu yn y peth a elwir yn ben gwladol o gwbl. (*c*) Y maent yn tystio mai gair Duw yn unig yw rheol crefydd, ac nid y Bibl *a thraddodiad.* Nid ydynt chwaith yn cydnabod awdurdod erthyclau seneddol mewn crefydd, y namyn un deugain erthyclau, &c. (*d*) Dywedant nad oes gan un gallu daearol hawl i newid trefniadau Ysgrythyrol, ychwanegu atynt na thynu oddi wrthynt, fel y mae cefnogwyr crefyddau gwladol yn gwneud. (*e*) Golygant nad oes un offeiriadaeth neillduol yn bod o dan yr efengyl heb law Archoffeiriaeth Crist; fod pob Cristion i offeiriadu drosto ei hun; ac mai ffugiadau yw offeiriaid (?) Rhufain a Lloegr. Nid ydym i gyffesu i offeiriaid (?) ond i Dduw.

Y mae eu harferiad o'r hyn sydd yn cael ei alw yn "Fedydd y crediniol trwy drochiad," yn eu gwahaniaethu oddi wrth Fedyddwyr neu Daenellwyr babanod o bob enwad, ac yn eu barn hwy yn cynnwys yr egwyddorion gwahaniaethol hyn, sef (*a*) Mai peth *personol* yw crefydd. (*b*) Fod ein cyflawniadau crefyddol i gael eu nodweddu gan *wirfoddoliaeth.* "Os *myn* neb." Golygant fod bedydd babanod yn milwrio yn erbyn personolrwydd a gwirfoddolrwydd crefydd. (*c*) Egwyddor wahaniaethol arall yw, fod gair Duw i flaenori yr ordinhadau, sef bedydd a swper yr Arglwydd. Y gair yn gyntaf, a'r ordinhadau wedi hyny. (*d*) Fod gwaed Crist i fod o *flaen* y dwfr. Cyhoeddiad o athrawiaeth y gwaed i gynhyrchu edifeirwch a ffydd, a bedydd i ganlyn. (*e*) Mai *oddi mewn* y mae crefydd yn dechrau, ac nid oddi allan. "Deuwch yr awr hon ac *ymresymwn.*" Rhaid agor y deall ac ennill y galon cyn y gellir disgwyl yr ewyllys i blygu. (*f*) Fod pob gweithred grefyddol i fod yn *ufudd-dod* i Grist, ac mai ar ffydd y gweithredydd y mae gwerth crefyddol y weithred yn ymddibynu. (*g*) Fod ein holl gyflawniadau crefyddol i fod yn gyfryngau mwynhâd neu ddedwyddwch i'r rhai sydd yn eu harfer, ac nad yw bedydd yn eithriad. Y mae swper yr Arglwydd, gweddi, mawl, &c., felly. (*h*) Fod ein cyflawniadau crefyddol i fod yn warogaeth ymarferol i hawliau goruchel cydwybod. "Ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw." (*i*) Mai un math o ddull ac *un* math o ddeiliaid sydd i fod, ac nad oes *dau* ddull na *dau* ddosparth o ddeiliaid. (*j*) Fod dŷn yn cael ei ddwyn i gyflwr newydd trwy ei fedydd, neu fod rhyw gyssylltiad rhwng crefydd a maddeuant. "Er maddeuant pechodau." Fel y mae priodas yn newidiad cyflwr i'r pleidiau sydd yn priodi, felly y mae bedydd yn dwyn ei ddeiliaid i gyflwr newydd gyd â golwg ar lywodraeth foesol Duw. (*k*) Fod bedydd yn gosod ei ddeiliaid o dan rwymedigaethau crefyddol neillduol o bwysig. "Cynnifer o honoch a fedyddiwyd i Grist, a wisgasoch Grist." (*l*) Fod gan y rhai a fedyddiwyd i Grist, "er maddeuant pechodau," hawl i holl freintiau crefydd, sef swper yr Arglwydd, &c., ac mai iddynt hwy yn unig y mae'r breintiau hyny yn perthyn. (*m*) Na ddylid difodi llinell y gwahaniaeth rhwng byd ac eglwys, ond ei chadw mor amlwg ag y gellir yn ol ordeiniad y Blaenor mawr. (*n*) Nad yw egwyddor nac arferiad ag sydd yn analluogi dynion i weithio allan gommissiwn y Ceidwad (sef bedyddio pawb fyddo yn credu y gennadwri) yn Ysgrythyrol. Llawer o'r rhai sydd yn credu yr efengyl wedi eu bedyddio pan yn fabanod. (*o*) Nad yw achyddiaeth neu gyssylltiad cnawdol yn cael ei gydnabod o dan yr efengyl. Rhai yn bedyddio babanod rhieni crefyddol, ac yn gwrthod bedyddio hiliogaeth dynion digrefydd. (*p*) Nad yw yr hyn sydd yn ergydio ar wreiddyn cyfrifoldeb personol yn Fiblaidd. Dyma y rhan liosocaf, os nad yr holl brif syniadau neu egwyddorion gwahaniaethol Bedyddwyr teilwng o'r enw, wedi eu gosod ger

Digitized by Google

bron yn y modd byraf ag y gallesid, a ni a hyderwn yn y modd mwyaf didramgwydd. Dywed y dosparth hwn o grefyddwyr fod taenelliad, neu fedydd babanod, yn milwrio yn uniongyrchol yn erbyn yr egwyddorion blaenorol; ac o ganlyniad, fod y gwahaniaeth sydd rhyngddynt hwy a Bedyddwyr babanod yn fawr a sylweddol, ac nid yn rhywbeth mewn enw yn unig. Y maent yn gwybod fod "yr enwadau crefyddol" eraill yn proffesu amryw o'r egwyddorion a grybwyllwyd, ac yn eu gweithio allan yn rhagorol mewn llïaws o gyssylltiadau; ond barn y Bedyddwyr yw fod bedydd babanod yn anghysson â'r egwyddorion hyny (personolrwydd a gwirfoddolrwydd crefydd, &c.,) a bod yr arferiad o hono yn gwanhau breichiau ac yn pylu cleddyfau ein cyfeillion yn eu brwydrau dros ddaioni ac yn erbyn lluoedd y bwystfil.

---

## PENNOD IV.

### EDWARD JAMES.

Y GWIR am y Cymreigiwr godidog hwn ydyw, mai'r cwbl a wyddys am dano yw, ddarfod iddo yn O.C. 1606 gynnysgaeddu ei gydwladwyr â chyfieithiad ardderchog o'r llyfr Saesneg a gyfansoddwyd yn benaf gan y galluog, anwadal Granmer, dan yr enw *Sermons or Homilies.* Enw'r llyfr yn yr argraphiad Cymraeg cyntaf, fel yr oedd gan y cyfieithydd medrus ei hun, oedd fel hyn:—

"Pregethau a osodwyd allan trwy awdurdod i'w darllein ymhob Eglwys plwyf a phob Capel er adeiladaeth i'r bobl annyscedig. Gwedi eu troi i'r iaith Gymraeg drwy waith Edward Iames.—Robert Barker, printiwr i odidawgaf fawrhydi y Brenin, ai Printiodd yn Llundain. Anno Dom. 1606."

Y Parch. D. Silvan Evans a ddywed—"Nid ymddengys bod ar gael ddim o hanes Edward James, cyfieithydd hybarch yr Homiliau i iaith y Cymry. Er gwasanaethu o honno ei genhedlaeth mor rhagorol, nis gwyddys pa le na pha bryd y ganwyd ef, nac y bu farw; ac nid oes un sicrwydd pa un ai gŵr llen ai gŵr lleyg ydoedd. Ni cheir mo'i enw mewn un geiriadur bywgraphiadol, ac nid oes un grammadegydd na geirlyfrwr wedi difynu cymmaint a llinell o'i waith. Y mae ei gyfieithiad o'r Homiliau yn un rhagorol dros ben, ac yn teilyngu sylw, pe na bai ond er mwyn ei briodwedd wir Gymreig yn unig. Ac y mae lle i farnu, gyd â chryn ddilysrwydd, wrth ambell ymadrodd, ffurf rhai geiriau, ac ychydig neillduoldeb yn yr ieithwedd, mai gŵr o'r Deheudir ydoedd y cyfieithydd clodwiw.* Saif Edward James ar orsaf uchel, fel gwasanaethwr ei gyd-genedl, yn ymyl Gwilym Salsbri, yr Esgob Morgan, a'r Esgob Parri; ac fel ysgrifenwr Cymraeg diledieith, nid yw yn ail i un o honynt."†

Cyffelyb ydyw tystiolaeth y Parch. John Roberts, Tremeirchion, golygydd yr ail argraphiad o'r Homiliau, yr hwn a ddywed—"Rhaid i'r golygydd gyfaddef ei fod yn analluog i roddi dim o hanes y cyfieithiwr, na'i broffes, eithr ei enw yn unig, EDWARD JAMES, fel yr ymddengys yn enwaddalen ei argraphiad ef. Ni bu'r golygydd yn alluog, er pob ymofyniad ac ymchwiliad a wnaeth, i sicrhau pa un a oedd efe yn glerigwr, ac a wnaeth efe y cyfieithiad dan nawdd ac awdurdod ai peidio. Y mae teilyngdod y cyfieithiad yn arddangos ei fod yn ysgolhaig, cystal ag y mae ei lafur yn brawf o'i zel dros y grefydd Brotestanaidd, ac yn rhoddi iddo fythol hawl i fod ynghymdeithas enwogion Cymru [ac "Enwogion y Ffydd" hefyd], y rhai a deilyngant barch oesol eu cydwladwyr. Y mae'n ddilys ddiammau y derbynid ac yr ystyrid y cyfieithiad bob amser fel gwaith wedi ei gyflawni yn gymmeradwy, fel y gellir casglu oddi wrth y defnydd cyhoeddus a wneir o hono, pan y cyfyngid gweinyddiadau pulpud y cyffredin o'r clerigwyr at ddarllen yr Homiliau."‡

Pa wedd bynag, y mae un peth yn sicr, sef bod Edward James yn ei flodau, ac yn un o Gymreigwyr penaf ei genedl, yn 1606. Pe bwrid ei fod y pryd hwnw yn 50 oed (ac y mae addfedrwydd ei waith yn awgrymu nas gallasai fod nemmawr ieuengach yn y flwyddyn honno), ganwyd ef o gylch y flwyddyn 1556; ac felly yr oedd yn gydoeswr â phrif Gymreigwyr ei genedl, y Dr. Morgan, yr Archddiacon Prys, Morus ac Edward Cyffin, Henry Perri, y Dr. Parry, y Dr. Davies o Fallwyd, ac eraill. Ond am amser ei farwolaeth, fel y gwelwyd eisoes, nis gellir cymmaint a dyfalu.

Gwilym Lleyn, awdwr *Llyfryddiaeth y Cymry,*

* Teimla'r ysgrifenydd braidd yn wahanol yn hyn, gan ei fod yn gweled tebygolrwydd mawr yn ymadroddiad y cyfieithwr godidog hwn i ymadroddiad *Bibl* y Dr. Morgan; *Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr* M. Cyffin; ac *Egluryn Phraethineb* Henri Perri; Gwyneddwyr, a thadau, neu wir sylfaenwyr y Gymraeg bresennol.

† Llyfr. y Cymry, t. 80.

‡ Hom., arg. 1817, Advert., p. ix.—Y mae'r argraphiad yma yn ymgadw yn bur dda, ar y cyfan, at ieithwedd yr hen argraphiad (1606), fel y canfyddir wrth gymharu diwedd "yr ail ran o'r bregeth am Gadwedigaeth Dynolryw" (t. 30) â'r difyniad o'r un darn o'r hen argraphiad sydd yn Llyfr. y Cymry (t. 79, 80.) Cyhoeddwyd argraphiad arall o'r gwaith, dan olygiad y Parch. Morris Williams (Nicander), yn y Bala, 1847; yr hwn, mewn gwirionedd, sydd gyfieithiad gwahanol, heb feddu ond ychydig o ieithwedd rymus a Chymreig y ddau argraphiad blaenorol.

Digitized by Google

a ddywed am *Lyfr yr Homiliau*, yr "ystyrir ef fel safon athrawiaeth Eglwys Loegr yn amser y Diwygiad;"* ond y golygydd, y Parch. D. S. Evans, a ddywed, "Nid ystyriwyd yr Homiliau erioed yn safon athrawiaeth yr Eglwys. Barn yr Eglwys am danynt yw, eu bod 'yn cynnwys athrawiaeth dduwiol ac iachus, ac angenrheidiol i'r amserau hyn' (1562.) . . . 'Am hyny yr ydym yn barnu fod eu darllen hwy yn yr eglwysi gan y gweinidogion yn ddiesgeulus ac yn llawn llythyr, fel y gallo'r bobl eu deall."†

Ymddengys bod y dystiolaeth olaf hon, mewn ystyr fanwl, yn gywir, canys dengys "Declarasiwn y Brenhin," sydd o flaen y "namyn un deugain Erthyclau Crefydd," yn yr hen Llyfrau Gweddi Gyffredin, mai yr erthyclau hyny *yw*, cystal ag *oedd*, "safon athrawiaeth Eglwys Loegr," o blegid yn y "Declarasiwn" hwnw dywedir fel hyn:—

"Fod Erthyglau Eglwys *Loegr* (y rhai a gymmeradwywyd ac a awdurdodwyd hyd yn hyn, a'r rhai y darfu i'n Heglwyswyr yn gyffredin ddodi eu dwylaw wrthynt) yn cynnwys gwir Athrawiaeth Eglwys *Loegr*, yn gyttunol â gair Duw: y rhai yr ydym gan hynny yn eu sicrháu ac yn eu cadarnháu, gan orchymmyn i'n holl Ddeiliaid serchog barháu yn yr Unffurf honno o Broffes, a gwahardd yr Anghydfod lleiaf oddïwrth y dywededig Erthyglau, y rhai i'r diben hynny yr ydym yn gorchymmyn eu printio o newydd, a chyhoeddi ein *Declarasiwn* hwn gyd â hwynt."‡

Ond, os nad yw'r Homiliau yn "safon athrawiaeth Eglwys Loegr," dengys y "Gosodedigaethau a Chanonau Eglwysig" bod iddynt awdurdod o'r fath uchelaf, gan y tystiant fel y canlyn:—

"Mynned pob Gŵr meddianol ni chymmeradwywyd i bregethu, Bregethwr a genhadwyd yn gyfreithlon, i bregethu yn ei Güri unwaith o leiaf ymhob mis, os gall ei le ef ym marn yr Ordinari oddef hynny. Ac bob Sul na bo un Bregeth yn ei Gür ef, darllened efe neu ei Gurad ryw un o'r Homiliau a osodwyd, neu a osodir trwy Awdurdod i'r dibenion rhag-ddywededig."§

"Nid oes i un dŷn pwy bynnag, heb ei holi a'i gymmeradwyo gan Esgob yr Esgobaeth, neu heb ei genhadu, fel y dywedwyd, i fod yn Bregethwr abl ac addas, gymmeryd arno esbonio yn ei Gür ei hun, nac yn un lle arall, un Ysgrythyr neu fatter o Athrawiaeth, ond ceisio'n unig ddarllain yn eglur ac yn gymmwys (heb na deongli na chwanegu) yr Homiliau a osodwyd eisoes allan, neu a osodir rhag llaw trwy Awdurdod gyfreithlon, er cadarnhau y wir ffydd, ac er Athrawiaeth dda, ac Adeiladaeth y Bobl."||

Wele yn canlyn esampl o waith Edward James yn cyfansoddi, yn cynnwys ei farn ef am yr Homiliau a'r Ysgrythyrau, sef ei Ragymadrodd i'r argraphiad cyntaf, 1606:—

"Y mae'r Apostol Paul yn tystiolaethu yn oleu na all neb alw neu weddïo ar Dduw heb gredu ynddo, na all neb gredu heb wrando, na neb wrando heb fod rhai a bregetho air Duw iddynt. Am hynny, pan ystyriodd y brenhin ieuangc duwiol Edward VI. pa mor anaml oedd gwir bregethwyr gair Duw o fewn ei deyrnas ef, y rhai a fedrai addysgu'r bobl i gredu yn Nuw, i alw arno, ac i gadw ei orchymmynion sanctaidd ef, er iechyd eu heneidiau a gogoniant i enw Duw, efe a barodd wrth gyngor ei gynghoriaid i ŵyr duwiol dysgedig, cyfarwydd yngair Duw, gynnull a scrifennu yr Homiliau duwiol yma, allan o'r Ysgrythyrau sanctaidd; unig ffynnon pob doethineb, unig ymborth yr eneidiau; unig dywysog ac arweinydd i wir wybodaeth, a rhinwedd, a duwioldeb; unig ddiwreiddydd pob chwyn gwenwynig; unig wrthladdydd pob anwybodaeth; ac unig gyferbyn yn erbyn pob gau athrawiaeth dwyllodrus, yr hon sydd yn tywys i ofer-goel, trawsopiniynau, a delw-addoliad. Yn yr Homiliau hyn y cynhwysir y prif byngciau o'n ffydd ni, ac o'n dyled tu ag at Dduw a'n cymmydogion; fel y gallai yr Offeiriaid a'r Curadiaid annysgedig, y rhai ni fedrant yn amgen etto, wrth adrodd, datgan, a darllain yr Homiliau hyn, bregethu i'w pobl wir athrawiaeth; ac fel y gallai pawb o'r bobl wrth wrando, ddysgu'n union ac yn iawn anrhydeddu ac addoli'r Hollalluog Dduw, a'i wasanaethu'n ddiwyd. Yr Homiliau hyn hefyd, am eu bod mor fuddiol, a orchymynnodd yr ardderchog Frenhines Elizabeth eu hargraphu eilwaith; ac hi a roddodd yr un gorchymmyn am eu darllain hwy ag a roisai ei brawd duwiol yn y blaen. Ac megis na ellir dywedyd bod ar y ddaear erioed Dywysog a ddangosodd ymhob peth arall fwy o zel at Dduw, ac o ofal dros ei ddeiliaid, na'r Brenhin godidog ardderchog duwiol James ein grasusaf Frenhin a'n Llywydd; felly yn y peth hyn ni ddangosodd efe ddim llai o'r fath zel a gofal nag a ddangosasai y Brenhin Edward VI. a'r Frenhines Elizabeth, o'i flaen ef. O herwydd yntau trwy gyfraith eglwysig (fel y gellir gweled yn 46 Canon a wnaeth y Gymmanfa Esgobion ac Eglwyswyr, a gynhaliwyd yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad ef ar Brydain Fawr, Ffraingc, ac Iwerddon, yr hon a gadarnhaodd ei fawrhydi ef â'i awdurdod goruchel brenhinol) a rois orchymmyn caled ar fod i bob Person, Ficar, a Churat, ddarllain yr Homiliau hyn bob Sul a Gŵyl (o ddiffyg pregeth) ymhob Eglwys Blwyf a Chapel o fewn ei deyrnas; fel y gallai y rhai ni chlywant lafar pregethwr ond yn anaml, wrth arfer o glywed darllain y pregethau duwiol dysgedig hyn yn fynych, ddysgu mewn amser gredu yn Nuw yn union ac yn ffyddlon, galw arno yn ddifrif ac yn deilwng, gwneuthur y cwbl o'u dyled tu ag at Dduw a'u cymmydogion, ac ymddwyn felly yn y byd hwn yn ol gwybodaeth, fel y caffont fwynhau bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw, trwy ein Iachawdwr Iesu Grist. Etto, er nad oedd rheitiach i un wlad wrth y fath gynhorthwy nag i wlad Cymru, am fod pregethwyr mor anaml ynddi,* ni ewyllysiodd Duw i ni gael neb o'r Homiliau hyn na'r fath eraill yn y iaith Gymraeg hyd yr amser hyn. Ond, wele, y Cymro, hwy yn awr yn dy iaith di dy hun, fel y medrech dithau wrth eu gwrando eu deall hwy. Duw a wnelo wneuthur i ti fawr lles, ac a'th wnelo dithau yn ddïolchus i Dduw am ei fawr ddaioni. Amen."†

Terfynwn y bennod hon ar y cyfieithydd enwog Edward James gyd âg esampl gyfochr o'r argraph-

* Llyfr. y Cymry, t. 77. † Yr un lle, nod †.
‡ Llyfr Gweddi Gyffredin o flaen argraphiad 1747, Caergrawnt, o'r Bibl. § Gosod. 46. || Gosod. 49.

* Yr achos "bod pregethwyr mor anaml" yn y wlad yn awr (1604–6), fel y dangoswyd yn y bennod gyntaf o'r llyfr hwn, oedd bod y defodgar Archesgob Whitgifft, a'r Pabgar Archesgob Bancrofft ar ei ol, trwy awdurdod yr anwadol ac hanner Pabaidd Iago I., wedi creulawn amddifadu dros 300 o bregethwyr Puritanaidd cydwybodol o'u bywiolaethau, yn Lloegr a Chymru, rhai o'r sawl a ysgymmunwyd ac a fwriwyd i garcharau ganddynt, tra y ffodd eraill i wledydd tramor er mwyn cael rhyddid cydwybod.—Neal's Hist. Purit.. v. i., p. 338, &c.
† Hom., arg. 1817, t.xviii.

Digitized by Google

iad cyntaf ac ail, fel y gwelo'r darllenydd y gwahaniaeth rhwng y ddau argraphiad:—

**YR ARGRAPHIAD CYNTAF, 1606.**

"Megis nad hyn yw gwir ystyr yr athrawiaeth ymma: yr ydys yn ein cyfiawnhau ni yn rhâd, heb weithredoedd, neu fe'n cyfiawnhau'r ni trwy ffydd ynghrist yn vnic: nid yw yr ystyr, meddaf, mai'n gorchwyl ni yn credu ynghrist, neu ffydd Grist yr hon sydd ynom ni, sydd yn ein cyfiawnhau ni, ac yn haeddu ini gyfiawnhâd (o herwydd ni byddai hynny onid ein cyfrif ein hunain yn gyfiawn drwy ryw weithred neu rinwedd ynom ni ein hunain. Ond gwir ystyr a meddwl yr athrawiaeth hon, yw, er ein bod ni'n gwrando gwir air Duw, ac yn ei gredu, er bod ynom ffydd, gobaith, cariad, edifeirwch, ac ofn Duw ac er ein bod ni yn gwneuthur llawer o weithredoedd da, etto rhaid ini ymwrthod a holl haeddiant y rhinweddau ymma, ffydd, gobaith, a chariad, a phob rhinweddau a daionus weithredoedd eraill ar a wnaethom, a wnawn, neu a allon eu gwneuthur, megis pethau o lawer yn rhy weinion, yn rhy analluog, ac yn rhy anghyflawn i haeddu ini ollyngdod o'n pechodau, a chyfiawnhâd, ac am hyny rhaid i ni ymddiried, yn vnic ynnhrugaredd Duw, a'r a wnaeth ein Archoffeiriad, a'n ceidwad Christ Iesu mâb Duw a offrymmodd ef vnwaith drosom ni ar y groes, i hebrwng ini trwy râd Duw a gollyngdod, cystadl o'n dechreuol bechodau, cyn bedydd, ac o'n pechodau gweithredol, y rhai a wnaethom ar ol bedydd, os ni a wir edifarhawn, ac a drown yn ddiragrith atto fe. Fal er rhinweddoled, ac er duwioled oedd Ioan fedyddiwr, etto yn hyn o beth, am faddeuant pechodau, fe ddanfonodd y bobl oddiwrtho ei hun ac âu danfonodd hwy at Grist, gan ddywedyd, wele oen Duw yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd: felly er maint ac er duwioled rhinwedd yw bywiol ffŷdd, etto y mae hi yn ein danfon oddiwrthem ein hunain, ac yn ein gollwng, ac yn ein gyrru ni at Grist, i gael yn vnic gantho fe ollyngdod o'n pechodau neu gyfiawnhad: fal y mae ein ffydd ni ynghrist, megis yn dywedyd wrthym ni fal hyn. Nid myfi sydd yn tynnu eich pechodau chwi ymaith, *onid* Christ yn vnig ac atto ef yn vnig y danfonaf chwi er mwyn hynny. gan ymwrthod mewn *hyn o beth* â'ch holl rinweddau da, geiriau, meddyliau, a gweithredoedd, a chan osod a dodi eich ymddiried ynghrist yn vnic."*

**YR AIL ARGRAPHIAD, 1817.**

"Megis nad hyn yw gwir ystyr yr athrawiaeth yma; yr ydys yn ein cyfiawnhau ni yn rhad, heb weithredoedd, neu fe'n cyfiawnheir ni trwy ffydd yng Nghrist yn unig; nid yr ystyr yw, meddaf, mai'n gorchwyl ni yn credu yng Nghrist, neu ffydd Crist yr hon sydd ynom ni, sydd yn ein cyfiawnhau ni, ac yn haeddu i ni gyfiawnhad (o herwydd ni byddai hynny ond ein cyfrif ein hunain yn gyfiawn drwy ryw weithred neu rinwedd ynom ni ein hunain) ond gwir ystyr a meddwl yr athrawiaeth hon yw, er ein bod ni'n gwrando gwir air Duw, ac yn ei gredu, er bod ynom ffydd, gobaith, cariad, edifeirwch, ac ofn Duw; ac er ein bod ni yn gwneuthur llawer o weithredoedd da; etto rhaid i ni ymwrthod a holl haeddiant y rhinweddau yma, ffydd, gobaith, a chariad, a phob rhinweddau a daionus weithredoedd eraill a wnaethom, a wnawn, neu a allwn eu gwneuthur, megis pethau o lawer yn rhy weinion, yn rhy analluog, ac yn rhy anghyflawn i haeddu i ni ollyngdod o'n pechodau, a chyfiawnhad: ac am hyny rhaid i ni ymddiried, yn unig yn nhrugaredd Duw, a'r aberth a wnaeth ein Harchoffeiriad, a'n Ceidwad Crist Iesu Mab Duw a offrymmodd efe un waith drosom ni ar y groes i hebrwng i ni trwy hynny rad Duw a gollyngdod, cystal o'n dechreuol bechodau cyn bedydd, ac o'n pechodau gweithredol, y rhai a wnaethom ar ol bedydd, os ni a wir edifarhawn, ac a dröwn yn ddiragrith atto ef. Fel er rhinweddoled, ac er duwioled oedd Ioan fedyddiwr, etto yn hyn o beth, am faddeuant pechodau, fe ddanfonodd y bobl oddiwrtho ei hun, ac a'u danfonodd hwy at Grist, gan ddywedyd, *Wele Oen Duw yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd: Ioan i.* 20; felly er maint ac er duwioled rhinwedd yw ffydd, etto mae hi yn ein danfon oddiwrthym ein hunain, ac yn ein gollwng, ac yn ein gyrru ni at Grist, i gael yn unig ganddo ef ollyngdod o'n pechodau, neu gyfiawnhad: fal y mae ein ffydd ni yn Nghrist, megis yn dywedyd wrthym ni fal hyn, Nid myfi sydd yn tynnu eich pechodau chwi ymaith, ond Crist yn unig, ac atto ef yn unig y danfonaf chwi er mwyn hynny, gan ymwrthod mewn hyn o beth â'ch holl rinweddau da, geiriau, meddyliau, a gweithredoedd, a chan osod a dodi eich ymddiried yng Nghrist yn unig."†

Gwelir weithian bod yr ail argraphiad yn dilyn y cyntaf yn bur ffyddlawn, heb newid odid ddim ond y llythyraeth yn unig.

* Hom., llyfr I., arg. 1606, t. 33.

† Hom., llyfr I., arg. 1817, t. 30.

## PENNOD V.

### RICHARD PARRY, D.D., A RHAI O'I GYDOESWYR.

Er bod y gŵr hwn, ac amryw o'i gydoeswyr, yn wir enwog, etto yr oedd eu henwogrwydd o ansawdd pur wahanol; ond tueddai yr eiddynt hwy, fel llawer o'u blaen ac ar eu hol, i bleidio a dyrchafu'r "Ffydd." Y mae'n wir mai tu a dechrau yr eilfed ganrif ar bymtheg y daeth ffrwyth llafur y rhan fwyaf o'r enwogion hyn i afael cenedl y Cymry; ond gan mai yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg y ganwyd, yr addysgwyd, ac y cymhwyswyd hwy i hyfforddi eu cydgenedl mewn dysg a chrefydd, tybir bod yn eithaf priodol eu cyfleu yn y cyfnod yma.

Richard Parry, D.D., ydoedd fab hynaf, ac am hyny etifedd, John Parry, Ysw., o Bwll Halog,‡ yn sir Ddinbych, tylwyth boneddigaidd o gyff-ach Bleddyn ap Cynfyn, tywysog Gwynedd a Phowys ar ol Gruffydd ap Llywelyn, yr hwn a fu farw yn o.c. 1062. Ganwyd Richard Parry yn Rhuthyn, yn o.c. 1560. Cafodd ei ddwyn i fynu mewn dysgeidiaeth yn ysgol Westminster, dan addysg yr hanesydd enwog, William Camden, awdur y llyfr godidog a elwir "Britannica," ac amryw lyfrau gwerthfawr eraill. Yn 1579, ac efe yn 19 oed, etholwyd Parry yn efrydydd Eglwys Crist ym mhrif athrofa Rhydychain. Yn 1592, gwnaed ef yn ganghellydd Bangor ac yn ficar Gresfford. Yn 1598, cafodd ei raddio yn D.D., a'r flwyddyn ganlynol pennodwyd ef yn ddeon Bangor. Y mae'n debyg mai o gylch y pryd hyn y priododd efe Gwen, merch John ap Rhys Wynn, o Lwyn Ynn.§ Pan esgynodd Iago I. i orsedd Brydain, efe a ddyrchafodd y Dr. Parry, am yr hwn y coleddai'r syniadau uwchaf bob amser, i gadair esgobol Llanelwy, ar farwolaeth y Dr. Morgan; a chyssegrwyd ef i'r swydd anrhydeddus ar y 30fed o Ragfyr, 1604.

Ymhen wyth mlynedd ar hugain ar ol i'r Dr. Parry gael ei ddyrchafu i esgobaeth Llanelwy, sef yn 1620, efe a gyhoeddodd ail argraphiad o'r Bibl Cymraeg, o herwydd yr hyn bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig ym mysg cenedl y Cymry yn oes oesoedd. Gellid dyfalu bod dau achos yn annog yr Esgob Parry i gyhoeddi ail argraphiad, os na

‡ Pwllcallod, medd Foulkes (Enwogion Cymru, t. 809), a'r Gwyddoniadur (cyf. viii., t. 240); ond Pwll Halog sydd gan Gwallter Mechain (Gwaith, cyf. ii., t. 229); y Parch. R. Williams (Em. Welshm., p. 390); a Gwilym Lleyn (Llyfr. y Cymry, t. 93), ond y dyry efe y Pwll Halog yn sir Fflint, mewn camsyniad, yn ddiau, yn lle yn sir Ddinbych.

§ Dunn's Her. Visit., v. ii., p. 320.



Digitized by Google

ellir ei alw yn ail gyfieithiad, o'r Bibl: yn gyntaf, prinder y llyfr gwerthfawr yn y Dywysogaeth, gan nad oes sail i dybio bod rhifedi argraphiad y Dr. Morgan, yn 1588, yn fwy na rhif y plwyfau yng Nghymru, od oedd yn gynnifer. Yn ail, bod yr esgob, a'i gyd-ysgolhaig, a'i gyd-frawd ynghyfraith, y Dr. Davies o Fallwyd, yn gweled angenrhaid llyfnhau yr ymadrodd, a diwygio cystrawen yr argraphiad cyntaf. Rhy helaeth oedd y Dr. Morgan yn gyffredin o'r geiriau *yna*, *felly*, *hyny*, a'r cyffelyb, yn enwedig yn nechrau ymadroddion. Dodir yma ychydig o esamplau yn lle cant a ellid eu rhoddi:—

Gen. xlii. 3, "*Yna* dêc o frodyr Ioseph," 1588. "*A* dêc brodyr Ioseph," 1620.
Gen. xliii. 15, "*Felly* y gwŷr a gymmerasant yr anrheg," 1588. "*A'r* gwyr a gymerasant yr anrheg," 1620.
Gen. xli. 17, "Pharao *gan hynny* a ddywedodd," 1588. "*A* Pharao a ddywedodd," 1620.
Gen. xl. 10, "Ei gwrysc hi oeddynt addfed [eu] grawnwin," 1588. "Ei grawnsyppiau hi a ddúg rawnwin addfed," 1620.
Gen. xli. 5, "Efe a gyscodd hefyd ac a freuddwydiodd," 1588. "Ac efe a gyscodd, ac a freuddwydiodd," 1620.

Tybir mai yr achos penaf am y gwahaniaeth a welir ynghystraweniad y ddau argraphiad ydyw, bod y Dr. Morgan wedi dal yn gaethach at ddulliau a nodweddiadau yr ieithoedd gwreiddiol na'i ddilynwyr, a'u bod hwy wedi cymmeryd y rhyddid i Gymreigeiddio ei Hebraegiadau ef, fel y gwelir yn yr esamplau canlynol:—

Gen. xli. 40, "Tydi a oruchwyli fy nhŷ fi, ac ar dy fin y cusana fy mhobl oll," 1588. "Tydi a fyddi ar fy nhŷ, ac wrth dy air di y llywodraethir fy mhobl oll," 1620.

Newidiwyd trefn a sefyllfa geiriau ambell adnod gyfan gan y diwygwyr, ac mewn mannau eraill gosodent air cymhwysach yn lle gair a dybient yn anaddas, megis *celaneddau* yn lle *burgynnod* yn Gen. xv. 11. Yn Job xl. 15, y Dr. Morgan a drodd *behemoth* yn *eliphant* (ond *pen*. xl., *adn*. 10, ydyw yn ei ddosparthiad ef.) Yr oedd y dysgedigion gynt, gan mwyaf, o'r un dyb ag ef; ond yn yr argraphiad 1620, adferwyd yr enw cyntefig, *behemoth*, fe allai o herwydd y dadleuon oedd ar droed. Ymhen amser, Bochart ddysgedig, yn ei waith rhagorol *Critica Sacra*,* a'i gwnaeth bron yn ddïamheuol mai'r march afon (*hippopotamus*) ydyw y *behemoth*; a *chrocodil* yr afon Sihor, ac afonydd eraill, yw'r *lefiathan;* creaduriaid cedyrn ac ofnadwy, rhy adnabyddus yn ardaloedd creision y Dwyreinfryd, lle yr oedd Job a'i gyfeillion yn anghysurawl yn cyfanneddu.

* "Tebygol mai yr *Hierozoicon* a olygir, gan na chyhoeddodd Bochart waith o'r enw *Critica Sacra*."—Y Parch. D. Silvan Evans: Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 231, Nod. 1.

Y Dr. Morgan, yn narluniad y behemoth, a gyfieithodd Job xl. 18 o'i ddosparthiad ef (ond *adn*. 23 ydyw yn nosparthiad y Dr. Parry, a'r Biblau presennol) fel hyn:—"Wele efe a orthrymma afon [fel] na phrysuro hi i [redeg :] efe a obeithie y rhuthre Iorddonen iw safn ef:" 1588.

Y Dr. Parry a'i newidiodd, yn fwy cyttunol â'r Saesneg, ac ieithoedd eraill, fel hyn:—"Wele, efe a ŷf† yr afon [ac] ni phrysura, efe a obeithiai y tynnai efe yr Iorddonen i'w safn:" 1620.

Bochart a gyfieithodd yr un adnod fel hyn:—"Wele, er gwasgu o'r ffrwd-lif arno, ni ddychrynir ef: bydd efe yn ddigyffro pe rhuthrai Iorddonen yn erbyn ei safn."

Y rhagoriaeth mwyaf rhwng y ddau gyfieithiad Cymreig ydyw hyn: y Dr. Morgan a ddychymmyg, gan faint y behemoth, a'i awydd i yfed, ei fod yn ddigonol i luddias ffrwd yr afon i lifo: ni phrysura hi, nid â yn ei blaen. Y cyfieithiad Seisnig a edrydd na phrysura y *behemoth* o herwydd ei nerth a'i gryfder. Y Dr. Parry, ac eraill, megis wedi cloffi rhwng dau feddwl, a gyfieithodd yn y cyfryw ddull fel y gellir cymhwyso y gweithrediad nacaol ("ni phrysura") naill ai at y *behemoth* ai at yr *afon*. "Efe a ŷf yr afon [ac] ni phrysura:" ni phrysura y *behemoth* rhag ffrwd a llifeiriant yr afon; neu, ni phrysura yr *afon* lifo gan gorph a llwngc yr anghenfil. Gan mai yn awenyddol, neu yn ol rheolau barddoniaeth yr Hebreaid, y cyfansoddwyd y darluniadau gorchestol a gynnwysir yn y pennodau hyn, y Dr. Morgan, i'n tyb ni, a ddyry'r dychymmyg mwyaf awenyddol, gan ei fod yn priodoli (ar yr achlysur dan sylw) *ammhrysurdeb* i'r elfen ddifywyd, sef yr *afon*.

Rhaid cyfaddef i'r dysgawdwyr enwog a anrhegasant y Cymry â'r ail argraphiad o'r Bibl, yn y fl. 1620, wellhau llawer ar yr argraphiad cyntaf; ar yr un pryd nis gellir haeru bod y cyfnewidiadau *oll* yn welliadau. Gan ein bod eisys ar Lyfr *Job*, dymunwn dynu sylw y darllenydd at *pen*. xxxix., *adn*. 6, lle y sonir am yr "*asyn gwyllt:*"—

"[Myfi] yr hwn a osodais yr *anialwch* yn dŷ iddo: a'r *morfa* yn drigfa iddo ef:" 1588.
"Yr hwn y gosodais yr *anialwch* yn dŷ iddo: a'r *diffaethwch* yn drigfa iddo:" 1620.

Gwelir yma osod *diffaethwch* yn lle *morfa* y Dr. Morgan. Nid yw *diffaethwch* ond gair arall am anialwch, a dichon fod pob un o honynt yn *ddihalenaidd*, yr hyn nid yw *morfa* byth. Y Saesneg am ddiffaethwch yn yr adnod hon yw "*barren*

† Ystyr y gair Hebraeg a gyfieithir yma yn "ŷf" ydyw *treisio*: "efe a *dreisia* yr afon."

Digitized by Google

*land*," a "*salt places*" ar gyfer yn ymyl y ddalen. Gosododd y Dr. Parry "*halen-dir*" ar ymyl ei ddalen yntau. Paham felly y gwrthodwyd *morfa?*

Num. xi. 5: "Cof yw gennym y pyscod y rhai a fwyttawsom yn yr Aipht yn rhad:" 1588.
"Cof yw gennym y *pyscod* yr oeddym yn ei fwytta," &c.: 1620.

Yma "*ei fwytta*" a berthyn, nid i bysgod *lawer*, ond i *un* pysgodyn. Parhaodd y gwall hwn ymhob argraphiad hyd yr un a gyhoeddwyd yn y fl. 1799:* yn hwnw, "*eu* bwytta."†

Psalm xiv. 6: "Etifeddiaeth a syrthiodd i ni mewn [lleoedd] hyfryd:" 1588.
"Y llinynnau a syrthiodd i mi," &c.: 1620.

Ac felly hyd heddyw yn yr argraphiadau ystrydeb. Pwngc a ddadleuir yw hwn, fe allai, ar du y diwygiad.

Luc xxiii. 32: "Ac fe a ddygwyd dau eraill, y rhai [oeddynt] ddrwg weithredwyr iw rhoi iw marwolaeth gyd âg ef:" 1588.
"Ac arweiniwyd gyd âg ef hefyd *ddau ddrwg-weithredwŷr eraill* iw rhoi iw marwolaeth:" 1620.

Yma, y mae yn dra eglur iddynt waethygu ar gyfieithiad y Dr. Morgan, canys gesyd yr adnod hon ger bron llygad y meddwl fwy na dau ddrwgweithredwyr yn cael eu harwain i'w dïenyddiad! Aeth yr adnod hon drwy'r wasg o argraphiad i argraphiad, hyd oni sefydlwyd, yn yr ystrydeb, gan Gymdeithas y Biblau. Ond yn y Testament dwy-ieithiol a argraphwyd yng Ngwasg Clarendon yn y fl. 1826, dan olygiad y Parch. J. Jones (Tegid), adferwyd yr adnod i eiriadaeth gywirach, fel hyn:—"Ac arweiniwyd gyd âg ef hefyd, ddau eraill, drwg weithredwyr, i'w rhoi i'w marwolaeth." Daeth Testament arall, o'r un wasg, ac o'r un cywirdeb, allan yn y fl. 1828,‡ dan olygiad yr un beirniad cyfarwydd.

1 Cron. xii. 8: Yn yr adnod hon dywed y Dr. Morgan fod y Gadiaid a ymgyssylltasant â Dafydd yn ei gyfyngder "yn wŷr milwraidd i ryfel, yn trin *tarian* a *gwaiw-ffon*." Y Dr. Parry a ddywed eu bod "yn medru trin," nid tarian a gwaiw-ffon, ond "*tarian* a *bwccled;*" hyny ydyw, tarian yn un llaw, a bwccled, neu darian etto, yn y llaw arall!

* Cyhoeddwyd yr argraphwyd hwn yn Rhydychain, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, dan olygiad y Parch. John Roberts, Tremeirchion.—Y Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639.

† "Ceir y gwall anafus hwn ymhob un o'r argraphiadau diweddar y cafodd yr ysgrifenydd gyfleusdra i ymgynghori â hwynt, ac yn eu plith argraphiad 4plyg hardd y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, Llundain, 1827, yr hwn a arferir yn lled gyffredin yn yr eglwysi y dyddiau hyn. Cynnwys yr unrhyw argraphiad lawer o wallau dybryd eraill, heb son am anghyssonderau."—Y Parch. D. S. Evans: Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 233, Nod. [1]

‡ "Rhwystrwyd lledaeniad yr argraphiad hwn, am nad oedd y golygydd wedi dilyn llythyraeth y Dr. Parry."—Y Parch. D. S. Evans: Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 233, Nod [2]

Pe byddai y Rwssiaid, yn yr ymdrech bresennol, yn cael eu harfogi yn ol cyfieithiad y Dr. Morgan, a'r Tyrciaid yn ol cyfieithiad y Dr. Parry, byddai yn hawdd brudio pwy a ennillai y fuddugoliaeth. Cyn i eiriadur y Dr. W. O. Pughe ymddangos, yr oeddym o'r farn mai o'r Saesneg, *buckler*, yr hanyw bwccled; y Saesneg o'r Ffrangaeg *bouclier;* ac yntau, ond odid, o'r Lladin wladaidd *bucularium, bucula,*§ sef *bogail* y darian. Arfau *amddiffyn* yw *tarian*, *bwccled*, ac *astalch*, i'w arfer âg un llaw; ac ni byddai y Gadiaid, na neb arall, "yn wŷr milwraidd," i lwyddo mewn rhyfel, heb arfau *niweidiol; cleddyf* neu *waywffon* yn y llaw arall. Sylwer yma ar ystyr y gair *astalch*, a arferir mewn llawer o fanau yn y Bibl, o'r cyntaf yn 1588, hyd y flwyddyn hon: *aes* a arwyddocâ *darian*, ac *aesdalch* yw tarian gwedi ei churo yn *dalch*, yn ddarnau gan ddyrnodiau gelynion.

Yn Gen. xxvii. 45, lle y mae Rebecca yn cynghori ei mab Jacob i ffoi i Haran, rhag dialedd ei frawd Esau, hi a ddywed wrtho ef (yn ol ysgrifeniad y Dr. Morgan), "Paham y byddwn yn ymddifad o honoch *ill dau* [mewn] un dydd?" Y mae *ill dau* yma yn feius, o herwydd bod Jacob a'i fam wyneb yn wyneb. Ni leferir *ill dau*, neu *ill tri*, onid am *ddau* neu *dri*¶ a fyddant yn absennol. Awn *ein* dau; ewch *eich* dau; ânt *eu* dau, neu *ill* dau. Y Dr. Parry a newidiodd "*ill* dau" yr argraphiad cyntaf i "*eich* dau," a da y gwnaeth.

Ezra ii. 69: "Rhoddasant yn ol eu gallu ir drysor-dy'r gwaith chwe *myrddiwn*, a mil o *ddracmonau* aur, a phum mil o *bunnoedd* arian:" 1588. Diwygiodd y Dr. Parry y chwe myrddiwn uchod i driugain mil. Y *dracmonau* hyn oeddynt yr un werth a'r *sylltau* y sonir am danynt yn 1 Cron. xxix. 7. Y mae'r enw *swllt* yn ddigon i gamarwain Cymro i dybio mai *arian* oedd eu deunydd; ond darnau *aur* oeddynt, gwerth o gylch 15 swllt bob un. Wrth y gair *punnoedd*, yn yr adnod uchod, y deallir cynnifer o *bwysi;* nid arian. Felly eglurach a fuasai "pum mil o *bwysi* o arian."

Cyffelyb ydyw y newidiadau eraill trwy'r holl

§ Y Dr. Pughe a dardd y gair *bwccled* o *bwg*, a hobgoblin; ac o *cled*, a sheltering. Y mae'r tarddiad uchod yn llawer tebygcach o fod yn gywir na'r eiddo'r Dr. Pughe. Y gwir yw bod genym gannoedd o eiriau yn banu yn amlwg o'r Lladin, cystal ag o ieithoedd eraill, heb law bwccled, megis Abad, *abas; abates.* Abl, *habilis;* Absen, *absentia*, a'r cyffelyb, trwy yr holl egwyddor.

¶ Gellir defnyddio y rhagenw *ill*, yn y trydydd person, yn y ddau ryw, o flaen *pedwar* neu *bedair*, cystal ag o flaen *dau* neu *dri*, megis "A'r un dull oedd iddynt *ill pedair*." "A'u cantau oedd yn llawn llygaid oddi amgylch *ill pedwar*," Ezec. i. 16, 18. Ac nis gwyddom ni paham na byddai yn llawn mor briodol dywedyd *ill pump, ill chwech, ill saith* a chyffelyb am y rhifau eraill.

Digitized by Google

Digitized by Google

Gadeiriol Llanelwy, lle nad oes un math o gofnod i nodi gorphwysle ei weddillion!*

---

## PENNOD VI.

### Y DOCTOR JOHN DAVIES O FALLWYD.

WRTH ystyried y mawr a'r lliosog gymmwynasau a wnaeth y gŵr enwog hwn i lenyddiaeth a chrefydd ymhlith ei gyd-genedl, y Cymry, y mae'n rhyfedd na ddaethai ychwaneg o fanylion ynghylch hanes ei fywyd i lawr hyd atom ni. Gwehydd ym mhlwyf Llanferras, sir Ddinbych, oedd ei dad, o ran ei alwedigaeth fydol, a'i enw, yn ol yr Esgob Humphreys, oedd Dafydd ap Ioan, ap Rhys, ap Ednyfed, o Lan Rhaiadr, yng Nghymeirch, yn Esgobaeth Bangor, ac yn sir Ddinbych; a'i wraig ef (sef gwraig Dafydd ap Ioan, a mam John Davies) ydoedd Elizabeth, merch Lewis Dafydd Llwyd, un o hiliogaeth Ednyfed Fychan, cadlywydd enwog dan Llywelyn Fawr, Tywysog Cymru.† Dywed Yorke fod Dafydd ap Ioan ap Rhys yn un o Lwyth Marchudd.‡ Heb law hyny, y mae'r Dr. Davies ei hun, mewn llythyr at Syr John Wynn, o Wydir, Awst 26, 1623, yn galw Robert Fychan (*Vaughan*), o'r Hengwrt, yr hynafiaethydd enwog a chyfoethog, yn gefnder.§ Yn ol y tystiolaethau hyn, yr oedd y Dr. JOHN DAVIES wedi disgyn o deulu pendefigaidd, ac y mae'n debyg i hyny droi yn fantais iddo yn ei yrfa ddyfodol.

Ganwyd ef o gylch y fl. 1570, yn Llanferras, ger llaw y Wyddgrug, yn sir Ddinbych. Mynegir yn gyffredin iddo gael "ei addysg foreuol yn ysgol Rhuthyn, a sefydlasid ychydig flynyddau cyn hyny gan y Dr. Gabriel Goodman," ac mai "un o'r athrawon yno ydoedd y Dr. Richard Parry, yr hwn a fu wedi hyny yn Esgob Llanelwy;" ond y Parch. D. S. Evans a ddywed, "Sefydlwyd ysgol rammadegol Rhuthyn gan y Deon Goodman yn y fl. 1595, chwe blynedd *ar ol* i Davies fyned i Rydychain, a dwy flynedd *ar ol* iddo ymadael â'r brifysgol honno. Nis gallasai efe, gan hyny, dderbyn ei ddysg yn ysgol fawr *Rhuthyn*, a hithau heb ei sylfaenu ar y pryd; ond *hwyrach* fod yno ysgol led enwog cyn i'r Deon Goodman sylfaenu yr ysgol bresennol. Ni bu yr Esgob Parry erioed yn athraw ysgol Rhuthyn."|| Tybia rhai mai mewn ysgol anghyhoedd a gedwid gan y Dr. Parry yn Rhuthyn, rhwng 1579 ac 1592, y cafodd y Dr. Davies ei addysg foreuol, pan y dechreuodd cyfeillach gynnes rhyngddynt, a barhaodd ar hyd eu hoes; ond *tyb* ydyw hyn, canys nid oes dim awgrym yn hanes y Dr. Parry iddo fod erioed yn cadw un math o ysgol, mewn un man, heb law nad yw y Dr. Davies yn crybwyll o gwbl iddo fod erioed dan addysg y Dr. Parry. Gellir *casglu*, ar sail pur gadarn hefyd, oddi wrth y mynegiad canlynol sydd yn rhagymadrodd y Dr. Davies i'w eiriadur Cymraeg a Lladin, y bu rywbryd, ar ryw adeg o'i fywyd, dan addysg y Dr. Morgan:—

> "Yn gyntaf, y Parchedig William Morgan, Doethawr Duwinyddiaeth, o Brifysgol Caergrawnt, cyfieithydd cywir a ffyddlawn yr Ysgrythyrau Sanctaidd i'r iaith Gymraeg, Esgob gwyliadwrus Llandaf yn gyntaf, ac wedi hyny Esgob Llanelwy, enw yr hwn sydd hyfryd genyf ei draethu â'm genau; canys wrth draed y Gamaliel hwn y cefais fy addysgu a'm dwyn i fynu."

Y mae'r ymadrodd, "*y cefais fy addysgu a'm dwyn i fynu*," yn bur awgrymiadol, ac yn arwyddo iddo fod dan addysg y gŵr enwog hwn pan yn ieuangc. Gwelsom fod rhai arwyddfeirdd neu achyddion yn olrhain achau y Dr. Morgan, o du ei fam, i Marchydd,¶ ac y mae yr un gwŷr yn olrhain achau tad y Dr. Davies i'r un Marchydd, a dïau bod y ddau ŵr enwog yn gwybod hyny; a dichon bod y fath garennydd yn peri mwy na chyffredin o ofal ac anwyldeb y naill am y llall. Dyna'r cwbl a wyddys hyd sicrwydd am addysg foreuol y Dr. Davies.

Yn y fl. 1589, dechreuodd Davies, ac efe yn 19 oed, ar ei fywyd athrofaol, a daeth yn aelod o Goleg Iesu yn Rhydychain. Ni bu ei arhosiad cyntaf yn yr athrofa dros bedair blynedd; ac yn y cyfamser cafodd ei raddio yn B.A., ac yr oedd iddo glod fel un wedi cyrraedd gradd helaeth o ddysgeidiaeth athrofaol. Yn 1593, dychwelodd o Rydychain i Gymru, o ddiffyg moddion, *fel y tybir*, i aros yno yn hwy. Pa wedd bynag, ni laesodd ei ddwylaw fel efrydydd ar ol dychwel i wlad ei enedigaeth, ond ymrôdd o lwyrfryd calon i fyfyrio duwinyddiaeth ac ieithoedd estronol, heb anghofio hynafiaethau ac iaith ei wlad ei hun. Dengys llythyr a ysgrifenodd o Fallwyd ar y 23ydd o Ionawr, 1627, at "Mr. Owen Wynn o Wydir, ei fod wedi dechrau casglu defnyddiau at ei *Eiriadur Cymraeg a Lladin* yn ebrwydd ar ol

* Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 229; Llyfr. y Cymry, t. 93; Williams' Em. Welshm., p. 390; Y Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 240; En. Cymru Foulkes, t. 810; Han. Cref. yng Nghymru, t. 209, 213, 214.

† Bp. Humphreys's Add. to Wood's Athen. Oxon., p. 509; Cambr. Reg., v. ii., p. 158.

‡ Yorke's *Royal* Tribes, p. 104, Note *s*.

§ Cambr. Reg., v. ii. 470.

|| Llyfr. y Cymry, t. 99, Nod. *

¶ Gwel col. 1.

Gadeiriol Llanelwy, lle nad oes un math o gofnod i nodi gorphwysle ei weddillion!*

---

## PENNOD VI.

### Y DOCTOR JOHN DAVIES O FALLWYD.

WRTH ystyried y mawr a'r lliosog gymmwynasau a wnaeth y gŵr enwog hwn i lenyddiaeth a chrefydd ymhlith ei gyd-genedl, y Cymry, y mae'n rhyfedd na ddaethai ychwaneg o fanylion ynghylch hanes ei fywyd i lawr hyd atom ni. Gwehydd ym mhlwyf Llanferras, sir Ddinbych, oedd ei dad, o ran ei alwedigaeth fydol, a'i enw, yn ol yr Esgob Humphreys, oedd Dafydd ap Ioan, ap Rhys, ap Ednyfed, o Lan Rhaiadr, yng Nghymeirch, yn Esgobaeth Bangor, ac yn sir Ddinbych; a'i wraig ef (sef gwraig Dafydd ap Ioan, a mam John Davies) ydoedd Elizabeth, merch Lewis Dafydd Llwyd, un o hiliogaeth Ednyfed Fychan, cadlywydd enwog dan Llywelyn Fawr, Tywysog Cymru.† Dywed Yorke fod Dafydd ap Ioan ap Rhys yn un o Lwyth Marchudd.‡ Heb law hyny, y mae'r Dr. Davies ei hun, mewn llythyr at Syr John Wynn, o Wydir, Awst 26, 1623, yn galw Robert Fychan (*Vaughan*), o'r Hengwrt, yr hynafiaethydd enwog a chyfoethog, yn gefnder.§ Yn ol y tystiolaethau hyn, yr oedd y Dr. JOHN DAVIES wedi disgyn o deulu pendefigaidd, ac y mae'n debyg i hyny droi yn fantais iddo yn ei yrfa ddyfodol.

Ganwyd ef o gylch y fl. 1570, yn Llanferras, ger llaw y Wyddgrug, yn sir Ddinbych. Mynegir yn gyffredin iddo gael "ei addysg foreuol yn ysgol Rhuthyn, a sefydlasid ychydig flynyddau cyn hyny gan y Dr. Gabriel Goodman," ac mai "un o'r athrawon yno ydoedd y Dr. Richard Parry, yr hwn a fu wedi hyny yn Esgob Llanelwy;" ond y Parch. D. S. Evans a ddywed, "Sefydlwyd ysgol rammadegol Rhuthyn gan y Deon Goodman yn y fl. 1595, chwe blynedd *ar ol* i Davies fyned i Rydychain, a dwy flynedd *ar ol* iddo ymadael â'r brifysgol honno. Nis gallasai efe, gan hyny, dderbyn ei ddysg yn ysgol fawr Rhuthyn, a hithau heb ei sylfaenu ar y pryd; ond hwyrach fod yno ysgol led enwog cyn i'r Deon Goodman sylfaenu yr ysgol bresennol. Ni bu yr Esgob Parry erioed yn athraw ysgol Rhuthyn."‖ Tybia rhai mai mewn ysgol anghyhoedd a gedwid gan y Dr. Parry yn Rhuthyn, rhwng 1579 ac 1592, y cafodd y Dr. Davies ei addysg foreuol, pan y dechreuodd cyfeillach gynnes rhyngddynt, a barhaodd ar hyd eu hoes; ond *tyb* ydyw hyn, canys nid oes dim awgrym yn hanes y Dr. Parry iddo fod erioed yn cadw un math o ysgol, mewn un man, heb law nad yw y Dr. Davies yn crybwyll o gwbl iddo fod erioed dan addysg y Dr. Parry. Gellir *casglu*, ar sail pur gadarn hefyd, oddi wrth y mynegiad canlynol sydd yn rhagymadrodd y Dr. Davies i'w eiriadur Cymraeg a Lladin, y bu rywbryd, ar ryw adeg o'i fywyd, dan addysg y Dr. Morgan:—

"Yn gyntaf, y Parchedig William Morgan, Doethawr Duwinyddiaeth, o Brifysgol Caergrawnt, cyfieithydd cywir a ffyddlawn yr Ysgrythyrau Sanctaidd i'r iaith Gymraeg, Esgob gwyliadwrus Llandaf yn gyntaf, ac wedi hyny Esgob Llanelwy, enw yr hwn sydd hyfryd genyf ei draethu â'm genau; canys wrth draed y Gamaliel hwn y cefais fy addysgu a'm dwyn i fynu."

Y mae'r ymadrodd, "*y cefais fy addysgu a'm dwyn i fynu*," yn bur awgrymiadol, ac yn arwyddo iddo fod dan addysg y gŵr enwog hwn pan yn ieuangc. Gwelsom fod rhai arwyddfeirdd neu achyddion yn olrhain achau y Dr. Morgan, o du ei fam, i Marchydd,¶ ac y mae yr un gŵyr yn olrhain achau tad y Dr. Davies i'r un Marchydd, a diau bod y ddau ŵr enwog yn gwybod hyny; a dichon bod y fath garennydd yn peri mwy na chyffredin o ofal ac anwyldeb y naill am y llall. Dyna'r cwbl a wyddys hyd sicrwydd am addysg foreuol y Dr. Davies.

Yn y fl. 1589, dechreuodd Davies, ac efe yn 19 oed, ar ei fywyd athrofaol, a daeth yn aelod o Goleg Iesu yn Rhydychain. Ni bu ei arhosiad cyntaf yn yr athrofa dros bedair blynedd; ac yn y cyfamser cafodd ei raddio yn B.A., ac yr oedd iddo glod fel un wedi cyrraedd gradd helaeth o ddysgeidiaeth athrofaol. Yn 1593, dychwelodd o Rydychain i Gymru, o ddiffyg moddion, *fel y tybir*, i aros yno yn hwy. Pa wedd bynag, ni laesodd ei ddwylaw fel efrydydd ar ol dychwel i wlad ei enedigaeth, ond ymrôdd o lwyrfryd calon i fyfyrio duwinyddiaeth ac ieithoedd estronol, heb anghofio hynafiaethau ac iaith ei wlad ei hun. Dengys llythyr a ysgrifenodd o Fallwyd ar y 23ydd o Ionawr, 1627, at "Mr. Owen Wynn o Wydir, ei fod wedi dechrau casglu defnyddiau at ei *Eiriadur Cymraeg a Lladin* yn ebrwydd ar ol

* Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 229; Llyfr. y Cymry, t. 93; Williams' Em. Welshm., p. 390; Y Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 240; En. Cymru Foulkes, t. 810; Han. Cref. yng Nghymru, t. 209, 213, 214.

† Bp. Humphreys's Add. to Wood's Athen. Oxon., p. 509; Cambr. Reg., v. ii., p. 158.

‡ Yorke's Royal Tribes, p. 104, Note s.

§ Cambr. Reg., v. ii. 470.

‖ Llyfr. y Cymry, t. 99, Nod. *

¶ Gwel col. 1.

dychwel o Rydychain y waith hon." Ar ol traethu yn lled helaeth ar "Eiriadur Cymraeg Syr Thomas ap William," efe a ddywed—"Ond am fy ngeiriadur fy hun, yr hwn a ddechreuais er y fl. 1593, nid wyf ond yn dechrau ei ysgrifenu yn dêg; etto, yr wyf yn gobeithio y bydd yn barod erbyn dechrau yr haf, os Duw a'i myn. Lladin yn gyntaf, a'r Gymraeg yn dilyn, sydd gan Syr Thomas ap William; a'r Gymraeg yn gyntaf, a'r Lladin wedyn, sydd yn fy un innau; ac ni bydd y ddau yn fwy eu swm na geiriadur Syr Thomas, fel y'i ysgrifenwyd ganddo ef ei hun."* Ymhen blwyddyn ar ol dychwel o Rydychain, sef 1594, cafodd ei urddo yn ddiacon neu offeiriad, os nad y naill a'r llall, gan ei gâr, y Dr. Morgan, yn ol pob tebyg; ond bu dros ddeng mlynedd ar ol hyny heb unrhyw ddyrchafiad eglwysig, sef hyd onid oedd yn 34 oed. Nid oes genym ddim ychwaneg o'i hanes yn ystod y deng mlynedd hyn; ond y mae yn bur debyg mai rywbryd yn yspaid yr amser yma y priododd efe Jane, merch John ap Rhys Wynn, o Lwyn Ynn, a chwaer Gwen, gwraig y Dr. Richard Parry;† a dichon mai hyn, ynghyd â'i ddysg helaeth, a'i hynawsedd caredig, a'i gwnaeth ef yn gyfaill mor anwyl a chymmwynasgar i'r Dr. Parry.

Yn 1604, ar ol marwolaeth y Dr. Morgan, a chyn i'r Dr. Parry gael ei ddyrchafu i Esgobaeth Llanelwy, anrhegwyd Davies â pherigloriaeth Mallwyd, yn siroedd Meirionydd a Threfaldwyn,‡ gan y Brenin Iago I. Y mae yn debyg fod gan ei gâr, y diweddar Dr. Morgan, os nad gan ei gydfrawd ynghyfraith, y Dr. Parry hefyd, ryw law yn y dyrchafiad crybwylledig, canys yr oedd gan Iago feddwl uchel am bob un o'r ddau. Yn ebrwydd ar ol dyrchafiad y Dr. Parry, ar derfyn y flwyddyn hon, i Esgobaeth Llanelwy, gwnaed Davies yn gaplan iddo.

Bu yn gweinyddu'r swyddi yma, ac yn ysgrifenu ei lyfrau yn ei wlad ei hun, dros bymtheng mlynedd, pan y casglodd gryn foddion, fel yr ymddengys, oddi wrth ei berigloriaeth a'i gaplaniaeth; ac yn 1608, ac efe yn 38 oed, efe a aeth i Rydychain, ac a dderbyniwyd yn aelod o Goleg Lincoln, fel darllenydd o frawddegau yr Esgob Lombard,§ wedi cael caniatâd ym mlaen llaw i beidio rheoli yn y celfyddydau. Ymddengys na bu ei arhosiad yn Rhydychain y waith hon yn llawn pedair blynedd, canys etholwyd ef yn 1612 i Ganoniaeth Llanelwy. Yn 1613, cafodd berigloriaeth Llan ym Mawddwy, yn sir Feirionydd; ac yn 1615, cafodd ficeriaeth Darowain, yn sir Drefaldwyn, yr hon a roddes i fynu er mwyn cael Llanfawr, ger llaw y Bala; a dywed rhai bod Garthbeibio hefyd yn ei feddiant. Yn 1616, cymmerth y radd o Ddoctor Duwinyddiaeth; ac yn 1617, cyfnewidiodd Ganoniaeth Llanelwy am Gôr-weinyddiaeth Llannefydd. Wrth ystyried nifer ei fywiolaethau cyfoethog, nid rhyfedd i Rhisiart Cynwal, y bardd, ddywedyd wrtho:—

"Mae iti renti drwy ras,
Mab dewrddoeth, mwy bo d'urddas:
Mallwyd sydd am wellâd sant,
A Mawddwy yn eich meddiant,
A Llanfawr, blaenfawr heb ludd,
Llawn afael a Llannefydd."

Gellir casglu oddi wrth y difyniad a roddwyd eisoes o lythyr y Dr. Davies at Mr. Owen Wynn o Wydir, a'r difyniad canlynol o'i ragymadrodd i'w *Eiriadur*, ei fod ef, mewn cyssylltiad â'r Dr. Parry, ei gyfaill a'i gyd-frawd ynghyfraith, wedi dechrau diwygio cyfieithiad y Dr. Morgan o'r Bibl yn lled fuan ar ol i'r Dr. Parry gael ei ddyrchafu i Esgobaeth Llanelwy. Ymddengys hefyd bod rhyw hanfodau yn ei feio am ymyryd ar yr pryd â'r fath gyfansoddiadau a *Grammadeg a Geiriadur*. Dyma'r difyniad:—

"Os bydd rhai yn barod i feio arnaf, meddaf, a thaeru fy mod megis yn fy ail fabandod, am fy mod yn ymyryd â'r pethau pleutynaidd hyn, fel y gelwir hwy gan rai; etto, yr wyf yn gobeithio y caf faddeuant rhwydd, hyd yn oed gan y bobl hyn, pan y gwypont fy mod megis wedi lladrata yr amser a weriais ar y llyfr hwn [y *Geiriadur*] oddi wrth bethau eraill mwy pwysfawr (canys yr wyf yn ewyllysio rhoi cyfrif o'm holl amser i'r rhai sy'n chwilio mor fanwl am bob gwall i'm barnu yn euog); ac yr wyf yn meddwl bod yr amser a dreuliais at gyfansoddi y Geiriadur yn fuddiol a llesol, o herwydd y byddwn arferol o ddychwelyd oddi wrth y gorchwyl ysgafn hwn, fel y'i gelwir, efo mwy o awydd, a chyd âg astudrwydd a diwydrwydd newydd, dau-ddyblyg, at y pethau pwysfawr hyny, sef pregethu yr efengyl, a chyfieithu yr Ysgrythyrau Sanctaidd i'r iaith Gymraeg."

Y mae rhai yn meddwl bod gan y Dr. Davies law ynghyfieithiad y Dr. Morgan cystal ag yng-

* Cambr. Reg., v. ii., p. 473.

† Bp. Humphreys's Add. to Wood's Athen. Oxon., p. 509; Cambr. Reg., v. i., p. 158.

‡ "Saif eglwys, persondy, a phentref Mallwyd ar derfyn eithaf swydd Feirionydd; ond y mae rhan o'r plwyf yn swydd Drefaldwyn. Gan nad oes un linell neillduol yn gwahaniaethu rhwng terfynau y ddwy swydd yn y lle hwn, dywedir weithiau fod y persondy â rhan o hono yn mhob un o'r ddwy.—Y Parch. D. S. Evans, Llyfr. y Cymry, t. 99, Nod. †.

§ Gwaith Peter Lombard, Esgob Pabaidd Paris yn 1172, oedd "Llyfrau y Brawddegau," pedwar o nifer, yn cynnwys casgliad o ddifyniadau o ysgrifeniadau y rhai a elwir yn "Dadau Cristionogol," anghyssonderau a gwrthddywediadau y rhai yr ymdrechai y prelad Lombard, gyd â zel Gatholig, eu cyssoni. Yr oedd clod hwn y fath yn fuan ar ol ei ymddangosiad, medd Roger Bacon, fel yr ystyrid bod pwysigrwydd hyd yn oed yr Ysgrythyrau Sanctaidd eu hunain yn israddol iddo. Y fath oedd gormes duwinyddiaeth ysgolaidd ar feddyliau dynion yn yr oesoedd anoleuedig hyny!—Cambr. Plut., p. 330, Note †.

Digitized by Google

hyfieithiad y Dr. Parry, a thybiant y cefnogir hyny gan y geiriau canlynol sydd yn rhagymadrodd y Doctor ei hun i'w rammadeg:—"*Utique S. S. Bibliorum interpreti Brit. indignus fui administer.*" Ond y mae pob lle i gasglu bod y Dr. Morgan wedi dechrau ei waith mawr mor forau, os nad ychydig yn foreuach, a'r fl. 1578, pan y symmudodd efe o'r Trallwm i Lanrhaiadr ym Mochnant, a phan nad oedd y Dr. Davies ond 8 oed; ac yr oedd wedi gorphen ei orchest odidog erbyn 1587, pan yr aeth i Lundain i edrych ar ol ei argraphu, a phan nad oedd y Dr. Davies ond 17 oed. Y mae clod llenyddol y Dr. Davies yn ddigon uchel heb gam briodoli dim o'r eiddo y Dr. Morgan iddo.

Yn 1620, pan oedd y Dr. Davies yn 50 oed, cyhoeddwyd y cyfieithiad diwygedig o'r Bibl Cymraeg, a briodolir i'r Dr. Parry; ond, fel y sylwa un o fywgraphwyr y Dr. Davies, "bernir mai iddo ef y mae'n ddyledus priodoli llawer o gywreinrwydd yr argraphiad hwnw."* Dangoswyd rhai o ragoriaethau y cyfieithiad godidog hwn, ac ychydig o'i ddiffygion, yn y bennod flaenorol ar y Dr. Richard Parry. Y mae'n dra sicr mai y Dr. Davies hefyd a gyfieithiodd "Y Namym un deugain Articlau Grefydd" oedd yn "Y Llyfr Gweddi Gyffredin," canys cyhoeddwyd hwy yn llyfr ar wahân yn 1664, ymhen ugain mlynedd ar ol ei farwolaeth ef, a'i enw wrtho, dan yr enw yma:—"Articlau. Y Namyn un deugain Articlau Grefydd. O gyfieithiad J.D. S.S. T.P."†

Yn y fl. 1621, cyhoeddodd y Dr. Davies rammadeg Cymraeg yn Lladin, enw yr hwn yn fyr yw, *Antiquæ Linguæ Britannicæ Rudimenta;* sef, *Egwyddorion yr Hen Iaith Frytanaidd.*‡ Y mae hwn yn waith godidog, yn tra rhagori, fel grammadeg, ar un I. D. Rhys, unig amcan yr hwn, fel yr eiddo Rhys, megis y crybwyllwyd eisoes, oedd hyfforddi offeiriaid yr Eglwys Sefydledig yn yr iaith Gymraeg trwy gyfrwng y Lladin, er mwyn iddynt fod yn fwy cymmwys i ddysgu y werin bobl yn egwyddorion crefydd. Dichon mai prif ddiffyg y gwaith gorchestol hwn ydyw, bod yr awdur yn cymmeryd yr holl ddifyniadau, a ddyry fel esamplau, o waith yr hen feirdd, yn lle o ryddiaith ystwyth y Dr. Morgan, Morus Cyffin, a chyfieithiad y Dr. Parry ac yntau ei hun. Gan fod y grammadeg dan sylw mor brin erbyn hyn, er iddo gael ei ail argraphu yn Rhydychain yn 1808, dichon yr hoffai rhai o'n darllenwyr gael esampl o hono. Wrth egluro terfyniadau y ferf, efe a ddywed:—

"Summæ est imperitiæ, et contractio nemini poetarum licita, quod nonnulli primam singularem faciunt in *is*, vel in *es—ceris*, *ceres*, pro *cerais;* secundam in *ist* vel *est—cerist*, *cerest*, pro *ceraist:* nisi cum imperitam vulgi loquelam μιμητικῶς vel εἰρωνικῶς imitari volunt poetæ, ejusque incitiam damnare, ut ille,

Mae'r dis ? mi a'i teflis yn tân, pro *teflais.*—S. T.§

"Tertiam personam singularem *odd* poetica licentia mutat in *awdd*, ut,

Y ci a las yn y clawdd,
Llwyddiant i'r neb a'i lladdawdd,—D. Ll.
Ni ddaliawdd ei chlawdd ych lân.—G. G.
Ni adawdd, ni bu nawdd nes.—D. G.

"Nonnunquam in *es:*

Hoffi digoni a ddigones llew,
A'r llu tew trylew trwy faran-res.—Cyndd.
Y dydd y codes Iesu,
O farw 'n fyw, da farn fu.—G. Y. C.
Yn dad drwy gariad y rhagores
Yn fab rhwyddarab araf cynnes.—Iolo.
Lloches lle 'r ymolches moch.—D. G.
Drych y ffair oedd, dewrwych ffres,
Drwy olwg draw a'i gweles.—T. H.
Pwy amgen onid pum-gair,
A feichioges mynwes Mair.—G. I. H.

"Et in *as:*

Trist wyf trais Duw a'i gollas,
Traws Ddafudd lawrudd a las.—B. T.
Ac yn oreu dŷn Duw ry greas,
Cyn ei fâr arnaf neuaf na'm llas.—G. M.

"Et in *is:*

Cymro glew a'n gadewis.—D. G.
Gadewis fy newis Fôn.—D. G.
Pwy a beris it brisiaw ?—R. G.
Dy ddau nai, nid oeddym is,
Yr un Duw a'i gwrandewis.—T. P.
Cadarn rhag llwgr y cedwis,
Ceidwad yw fo, cadwed fis.—D. Ll.

"Et veteres,

Llawes iawn o'i ddawn a ddefnis
Attaf, llwyr y coffäaf a'm coffeis.—D. B.

"*Trodd*, *ffodd*, *clodd*, parotodd, et alia quorum infinitivum est in *oi* contracte dicuntur, pro *troodd*, *ffoodd*, *cloodd*, *parotoodd*. &c.

"Vulgo Demetarum hæc personæ definit in *ws*, *carws*, amavit. Quod nemo fere poetarum aut oratorum ausus est usquam imitari. Semel dixit D. G.

Hadlyd liw hudol o dlws,
Hudolion o'i hadeilws.—D. G.

"Et veteres aliquando *ws:*

Ystwyll ystyriws Dews defnydd.—M. G.

"Aliquando *wys:*

Creawdr a'm crewys a'm cynnwys i'w plith
Plwyf gwerin Enlli.—M. B.
Dum a ddifferwys ei eglwysau.—G. B."||

Cyffelyb ydyw y gwaith drwyddo pan yn difynu esamplau. Nid yw yn cynnwys cymmaint ag un

* Y Gwladgar, Caer, cyf. v., t. 225.
† Llyfr. y Cymry, t. 192.
‡ Enw y llyfr yn gyflawn sydd fel hyn:—"Antiquæ Linguæ Britannicæ nunc communiter dictæ Cambro-Britannicæ, a suis Cymraecæ, vel Cambricæ, ab alijs Wallicæ, Rudimenta: Juxta genuinam naturalemque ipsius Linguæ Proprietatem, qua fieri potuit accurata Methodo et Brevitata conscripta."

§ Y mae yr holl esamplau mewn llythyrenau Italaidd yn y gwreiddiol.
|| Davies' Antiq. Ling. Brit., ed. 1808, p. 94.

Digitized by Google

esampl mewn rhyddiaith, hyd y canfyddasom wrth redeg yn frysiog trwy'r llyfr, pan yn ysgrifenu yr erthycl yma.

Y gwaith nesaf a gyhoeddwyd gan y Dr. Davies oedd ei eiriadur, ar yr hwn y bu efe yn llafurio, ar adegau, fel y gwelsom, dros yn agos i ddeugain mlynedd, sef o 1593 hyd 1632. Dywedodd yr awdur wrth Mr. Owen Wynn o Wydir, fel y crybwyllwyd o'r blaen, ei fod yn gobeithio y byddai yn barod erbyn dechrau haf 1627; ond bu dros bum mlynedd wedyn heb ei gyhoeddi, ac y mae yn ddigon sicr ei fod yn ychwanegu ato, yn tynu oddi wrtho, ac yn ei dacluso, bob cyfle a gaffai ar hyd yr amser. Nis gellir darlunio llafur dirfawr yr awdur ynglŷn â'r gorchwyl anniben yma yn well, os cystal, ag y gwna efe ei hun yn ei ragymadrodd Lladin i'r gwaith, lle y dywed:—

"Ac na bydded i ti gamsynied chwaith, ddarllenydd mwyn, â meddwl ddarfod i mi orphen hyn o gasgliad yn ddi boen, ac yn ddidrafferth, ac yn debygeach i un a fyddai yn chwarau, megis, yn hytrach nag i ddŷn a fyddai yn astudio ac yn ymdrafferthu yn ddiwyd. Canys bydded hyspys i ti mai gwaith pwysfawr a llafurus yw cyfansoddi Geiriadur mewn unrhyw iaith gyffredin, fel y byddo iddo ryngu bodd i'r genhedlaeth bresennol; a mwy o lawer a fyddai yr anhawsdra i'w wneuthur yn y fath fodd ag y byddai iddo atteb disgwyliad yr oesoedd dyfodol. Y mae'r gospedigaeth druenus ac echryslawn y gwelodd Duw yn dda ei rhoddi ar blant dynion, sef cymmysgiad yr ieithoedd yn Nhŵr Babel, wedi gormesu ac arglwyddiaethu cymmaint ar yr holl ieithoedd, ac wedi eu dymchwelyd yn y fath fodd, fel y maent yn parhau i gael eu cyfnewid a'u llygru o'r amser hwnw hyd yr awr hon, a hyny, nid yn unig yng ngwlad Syria, ond hefyd trwy yr holl fyd. Ac y mae'r ymrafaelion a'r dadleuon sydd beunydd yn digwydd ymhob dysgeidiaeth a chelfyddyd, o herwydd yr achos hwn (ansicrwydd ystyr amryw eiriau mewn ieithoedd), yn dwyn mawr ofid, a thristwch, a llafur i'r dysgedig, a phoen a thrafferth i'r bobl gyffredin ac annysgedig. A dyma yr achos bod Grammadegau a Geirlyfrau yn cael eu cyfansoddi a'u hargraphu ymhob iaith, er mwyn sefydlu ystyr ac arwyddocâd geiriau mewn modd anghyfnewidiol. Etto er hyn i gyd, y mae ieithoedd yn gyffredin mor ddiffygiol ac anghyflawn, a chymmaint o wagleoedd a thyllau megis ynddynt, fel, er mwyn egluro amryw bethau a chelfyddydau un iaith âg enwau cyfaddas a pherthynasol, y mae angenrhaid mewn iaith arall, naill ai arfer amryw eiriau i'r diben o amlygu ac egluro un gair, neu ddychymmyg a bathu gair newydd i gyflawni y diffyg. Ac o herwydd hyn, y mae yn gofyn bod y dŷn sydd yn ewyllysio cyfansoddi Geiriadur cyflawn a pherffaith o unrhyw iaith, nid yn unig yn meddu tair calon, fel y dywed Emius am dano ei hun; neu dri thafod, fel y mae Varro yn son am y Messaliaid; ond hefyd, fel Mithridates, yn amgyffred ac yn deall amryw ieithoedd yn hollol berffaith; megis yr Hebraeg, y Galdaeg, y Syriaeg, y Dalmudaeg, yr Arabaeg, yr Indaeg, yr Armeniaeg, yr Ethiopaeg, y Dyrcaeg, y Groeg, y Lladin, ac amryw ieithoedd eraill. Y mae holl amser bywyd dŷn yn rhy fyr ac anghyfattebol i ddysgu y rhai hyn oll yn gyflawn. Y bobl hyn yn unig a allant amgyffred a mynegi y mawr a'r digyffelyb anhawsdra i gyfansoddi Geiriadur, y rhai a fuant eu hunain yn llafurio yn y cyfryw orchwyl. Hwy a allant, mewn rhan, amgyffred y boen a'r llafur a gefais i, ddydd a nos, i chwilio allan, a chasglu, ac ysgrifenu y fath leng neu lïaws o eiriau; a gosod pob un yn y lle a'r sefyllfa berthynasol iddo ei hun; hwy yn unig a allant ddeall y drafferth a gefais i chwilio a darllen amryw lyfrau i gael gweled gwir ystyr ac arwyddocâd pob gair; ac wedi'r cwbl, eu hysgrifenu a'u hailysgrifenu oll, ddwywaith neu dair, yn addas ac yn dêg allan. Ac er mwyn i'r gwaith fod yn berffeithiach a chyflawnach, mi a ddarllenais agos yr holl lyfrau sydd yn yr iaith Gymraeg, y rhai sydd mewn llawysgrifen, cystal a'r rhai argraphedig; ond yn enwedig gwaith y beirdd a'r prydyddion, y rhai sydd yn sefydlu ystyr geiriau ymhob iaith braidd; ac yn fynych yn rhoddi iddynt arwyddocâd neillduol: bu hyn er mawr les a budd i mi er sefydlu ystyr geiriau, a'u hysgrifenu yn gywir. Ond er bod gwaith y beirdd ymhob gwlad yn dywyll ac anhawdd ei amgyffred, etto nid wyf yn meddwl bod ysgrifeniadau y beirdd mewn un iaith yn fwy tywyll a dyrys, ac annealladwy, nag yn y Frytaniaeth. O herwydd paham, bu'r gwaith o'u darllen i mi yn dra phoenus a thrafferthus, yn enwedig gan i mi fethu gweled un dŷn oedd yn eu deall yn y mesur lleiaf, fel y gallwn ddatgan fy meddyliau yn eu cylch, ac y gallem gydymgynghori o'u plegid."

Wedi i'r Dr. Davies orphen ei eiriadur Cymraeg a Lladin ei hun, erbyn tu a dechrau y flwyddyn 1626, hyd at ei "ysgrifenu yn deg," a'i ddiwygio er ei wneud yn barod i'r wasg, dywed wrth Mr. Owen Wynn o Wydir, y crybwyllwyd am dano eisoes, y dechreuodd ddiwygio a thalfyru geiriadur Lladin a Chymraeg Syr Thomas ap William, yn Ebrill yr un flwyddyn, ac y gorphenodd ef cyn y 23ydd o Ionawr, 1627; a dywed iddo ei dalfyru i'r fath raddau fel na byddai y ddau, yr eiddo ef ac un Syr William, yn fwy ei swm na geiriadur Syr Thomas ei hun, fel yr ysgrifenasai efe ef.* Am yr hyn a wnaeth ar y gwaith hwn, efe a ddywed, yn ei ragymadrodd Lladin i'w eiriadur, wrth y darllenydd fel hyn:—

"Na fydded i ti feddwl na chymmerais ddim ychwaneg o boen a thrafferth gyd â Geiriadur Lladin a Chymraeg Tho. ap Gwil. [Thomas ap Gwilym, sef Syr Thomas ap William] na'i ail ysgrifenu allan o'i ysgrifenlaw ef ei hun; ond gwybydd fy mod wedi ychwanegu amryw eiriau Cymraeg, er mwyn eglurhau ystyr ac arwyddocâd y geiriau Lladin yn fwy cyflawn. Yr wyf hefyd wedi ei ddiwygio o'r aneirif feiau a gwallau oedd yn rhedeg yn bur aml trwy gorph yr holl lyfr; ac er mwyn iddo fod yn berffeithiach, ac ar yr un pryd yn llai ei faintioli, gadewais allan yr holl eiriau Hebraeg a Groeg, ac amryw eraill oedd ynddo, gan fy mod yn barnu y gall y rhai sy'n ewyllysio gwybod ystyr y cyfryw eiriau eu chwilio allan yng Ngeirlyfrau y dywededig ieithoedd. Gadewais heibio hefyd lawer o eiriau cyfansawdd a chyssylltedig, ac amryw eiriau oedd yn tarddu neu yn deilliaw o rai eraill, ac agos yr holl rangymmeriadau, a rhai o'r goreiriau, herwydd bod yn hawdd chwilio allan a gweled ystyr y rhai hyn oddi wrth y ffynhonau o'r sawl y maent yn tarddu, sef y cyssefiniaid, y berfau, a'r ansoddeiriau, yr un fath ag yr adwaenir plant oddi wrth eu rhieni: ar fyr, yr wyf wedi cyfnewid, adfer, difeio, a iachâu, lle bynag yr oedd eisiau llaw y meddyg; yr hyn sydd wedi rhoi gwedd newydd ac arall oddi wrth yr un gyssefin, fel y gellir ei alw yn awr yn waith i mi fy hun yn hytrach na gorchwyl y Meddyg Tho. Gwil., er fy mod wedi sylfaenu hwn megis ar hwnw."

* Cambr. Reg., v. ii., p. 472.

Digitized by Google

Heb law hyn, cyssylltodd y Dr. Davies Lysieueg *(Botanologium)* Gymraeg a Lladin led helaeth wrth ei *Eiriadur Cymraeg a Lladin* ei hun, rhyngddo a *Geiriadur Lladin a Chymraeg* Syr Thomas ap William; ac ar ol hwn ychwanegodd gasgliad o'r "Diarhebion Cymraeg,"* "Y Pedair Camp ar Hugain," ac "Authorum Britannicorum nomina & quando floruerint" (=enwaur yr Awduron Brytanaidd a'r amser y blodeuent.)

Wedi i'r Dr. Davies drefnu yr höll waith, fel y mynegwyd uchod, efe a'i cyhoeddodd yn y fl. 1632. Yr enw sydd o flaen ei eiriadur ef ei hun sydd fel hyn:—"Dictionarivm Britannico-Latinvm" (=Geiriadur Brytanig-Lladinaidd); a'r enw sydd o flaen ei attrefniad o eiriadur Syr Thomas ap William yw hwn:—"Dictionarivm Latino-Britannicum" (=Geiriadur Lladinaidd-Brytanig.)†

Gan fod yr hen eiriadur yma weithian yn bur brin, ac anhawdd i'r cyffredin gael golwg arno, credir yr hoffai rhai o'n darllenwyr gael esampl o honno.

Esampl o'r rhan gyntaf, Cymraeg a Lladin, y Dr. Davies ei hun:—

Ba, pro Pa.

Baban, *Pupus, pupa, vid. an corruptum pro* Maban. Heb. בבה, *Babah.*

Baccwn, *Lardum, laridum.*

Bacseu, *vid.* Eigreu.

Bâch, *Parvus. Idem quod* Bychan.

Bâch, *Hamus, vncus, harpax, harpago. Et idem quod* Bachiad.

Bachiad, *Curvitas, sinuatio, sinus.*

Bachu, *Hamare, harpagare, adhamare, inuncare.* Bachu llongau, *Naves adhamare.*

Bachgen, *Parvulus, puer, puerulus, pupus.* Heb. בחור, *Bachur, juvenis, & פוחח, Pirchach, Puer, parvulus. Arab. Fatan, puer, parvus.*

Bâd, *Linter, scapba, acatium.* Nid rhaid march buan danad, neu bont ar aber, na bâd. D. G. i'r gwynt.

Baddug, *Idem quod* Niwl, *ait Ll.*

Baedd, *Aper.*

Baeddgig, *Caro aprina, aprugna.*

Baeddu, *Verberare, tunaere, contundere, cædere. A Gr. βατεύειν, vnde Lat. Bature. Rectius dicimus* Baeddu *quam* Maeddu. Bydd geidwad, baedda gedyrn. *L. Mor.* Pob edn o'r byd alltudryw, A'i baedd, ond rhyfedd ei byw. D. G. i'r dylluan.

Y mae yn llawer helaethach ar ambell air, megis Bann, eglurhad yr hwn sydd dros hanner colofn.

Esampl o'r ail ran, Lladin a Chymraeg T. W.:—

Beatitas, âtis, *Dedwyddyd, dedwyddwch, gwynfyd, gwynfydedigrwydd.*

Beatus a, um, *Dedwydd, gwynfydedig, gwynfydig, bendithgael.*

Belial, *Di-iau, dilywodraeth, anhywedd, y fall, diawl.*

Bellaria, orum, *Ammheuthunfwyd, ancwyn, eilsaig.*

Bellator, ôris, *Rhyfelwr, lluyddwr, ymwanwr, rhyswr, cadwr.*

Bellatulus, a, um: Diminut. à Bellus, a, um.

Bellax, âcis: Adject. *Rhyfelgar.*

Bellicosus, a, um; *Rhyfelgar, milwraidd, lluyddog.*

Bellicrepus, a, um: *Trystiol megis mewn rhyfel.*

Bellicum, i, *Y corn rhyfel, y corn cychwyn.*

Belligero, âre, *Rhyfela, lluydda.*

Bellipotens, *Lluyddfawr.*

Bello, âre, *Rhyfela, lluydda, rhoi câd.*

Bellua, æ, *Anifail mawr.*

Nis helaethir ar unrhyw air braidd yn y talfyriad yma a gymmerth y Dr. Davies o eiriadur Lladin a Chymraeg Syr T. ap William,‡ ac ni

* Ymddengys oddi wrth lythyr Lladin a anfonodd y Dr. Davies at Syr Simmonds D'Ewes, Chwefror 2, 1640, ei fod wedi ysgrifenu dehongliad ar y "Diharebion," yn Lladin, y mae yn debyg; a dywedir bod yr ysgrif yng Nghywreinfa Frytanaidd Llundain hyd y dydd hwn. Cyhoeddwyd y diarhebion hyn, wedi eu cyfieithu i'r Saesneg, gan James Howel, yn 1659, a chyhoeddwyd casgliad Cymraeg y Dr. Davies o honynt yn Llundain, yn 1672. Cyhoeddwyd yr un casgliad drachefn, gyd âg ychydig ychwanegiadau, yng Ngeiriadur Cymraeg a Saesoneg y Parch. T. Richards, yn 1751; ond y casgliad cyflawnaf o honynt etto ydyw yr un a gyhoeddwyd yn y *Myvyrian Archæology*, yn 1803, yr hwn lyfr a ail argraphwyd yn Ninbych, gan Mr. T. Gee, yn 1870. Y mae casgliad helaeth a threfnus o honynt hefyd yn *Y Gwyddoniadur*, cyf. iii., t. 491. Dyna'r argraphiadau cyflawnaf o honynt y gwyddom ni am danynt; ond dywed y Parch. D. S. Evans nad oes yn agos i'r cyfan o ddiarhebion Cymru wedi eu hargraphu hyd yn hyn, a bod casgliad helaeth o honynt yn llawysgrifen Iolo Morganwg yn Llyfrgell Arglwydd Llanofer, ac mai am adysgrifen o'r rhai hyn y cafodd Ab Ithel wobr yn Eisteddfod Llangollen yn 1858.—Llyfr. y Cymry, t. 114; Y Gwyddoniadur, cyf. iii., t. 490.

† Yr enwad-ddalen yn gyflawn sydd fel hyn:—"Antiquæ Linguæ Britannicæ, nunc vulgò dictæ Cambro-Britannicæ, a suis Cymrææcæ vel Cambricæ, ab aliis Wallicæ, et Lingvæ Latinæ, Dictionarium Duplex. Prius, Britannico-Latinum, Plurimis venerandæ antiquitatis Britannicæ monumentis respersum. Posterius, Latino-Britannicum. Accesserunt Adagia Britannica, & plura & emendatiora quàm antehac edita.

"Londini, Impress. in ædibus R. Young, Impensis Joan Davies SS. Th. D. An. Dom. 1632."

Am yr *ail* ran, sef y rhan Ladin a Chymraeg, o Eiriadur y Dr. Davies, sydd wedi ei chymmeryd o waith Syr Thomas ap William, medd y Parch. D. S. Evans, "nid yw ddim ond *talfyriad* yn unig o waith y meddyg o Drefriw, a thalfyriad cwta ydyw. Y mae'r gwaith *gwreiddiol* ar gadw yn Llyfrgell Peniarth, yn llawysgrifen yr awdur ei hun: ac oddi ar ymchwiliad personol, gallaf gyd-dystiolaethau âg awdur dysgedig y *Dictionary of Eminent Welshmen*, nad yw yr hyn a gyhoeddodd Davies o hono nemawr gwell na dangoseg yn unig o'r hyn ydyw y gwaith megis y gadawodd ei awdur llafurus ef. Nid yw Davies yn honni hawl i *awduriaeth* yr ail ran o'r Geirlyfr."—Llyfr. y Cymry, t. 113, Nod. *

‡ Mab ydoedd y Thomas yma i William ap Thomas ab Gronwy, yr hwn a hanai o du ei dad o Ednowain Bendew, cyff cenedl un o Bym-



Digitized by Google

ddygir difyniadau na geiriau estronol i mewn yn yr eglurhad, megis y gwna Davies yn y rhan gyntaf o'r llyfr, sef ei eiriadur Cymraeg a Lladin ei hun.

Cyflwynwyd y geiriadur i'r Brenin Charles II., ond nid ymddengys i'r warogaeth honno i'r goron ddwyn dim budd i'r awdur. Y mae yn anhawdd gwybod hefyd pa gynhorthwy a gafodd efe gan deulu Gwydir; ond amlwg yw mai ar gyfrif yr hyn a wnelai er parotoi geiriadur Syr Thomas ap William i'r wasg y disgwyliai gymmorth Syr John. Yn ei lythyr at y boneddwr hwn, Awst 26, 1623, efe a ddywed:—

"Yr wyf wedi bod yn hir awyddus, fel y tybiaf nad yw yn anhyspys i chwi, am weled geiriadur fy hen gyfaill daionus, Syr Thomas ap William; nid yn gymmaint o blegid dim perffeithrwydd godidog a allwn ddisgwyl ei weled yn y gwaith, ag o herwydd y boen fawr y gwn a gymmerth yr awdur i'w gasglu; a dywed fy nghefnder, Robert Fychan, wrthyf, y rhynga bodd i chwi i mi gael y llyfr, ar yr ammod y bydd i mi edrych ar iddo gael ei argraphu, a phriodoli'r holl glod i Thomas ap William, a'i gyflwyno i chwithau. O rhynga bodd i chwi i mi gael ei weled, mi a'i darllenaf ef, os Duw a'i myn, yn y modd gorau a'r a allaf; ac os gwelaf ef yn gymmwys i'r wasg, cewch wybod hyny; a chymmeraf bob poen a'r a allaf er ei osod allan, heb ddisgwyl na chlod nac elw oddi wrth hynny, namyn lles fy ngwlad yn unig trwy hyny, gan adael yr anrhydedd yn gwbl i'r awdur, a'r elw i'r neb a appwyntir gennych chwi. Ac os cyflwynodd yr awdur ef i chwi, caiff ei gyflwyniad sefyll; os amgen, bydd ei argraphu ar eich traul chwi yn gyflwyniad digonol; canys mi a wn na ddisgwyliwch i mi fyned i ddim cost, gan fy mod yn foddlawn, er mwyn fy ngwlad, a chlod yr awdur, a'ch anrhydedd chwithau, i roi fy mhoen a'm llafur yn rhodd."*

Etto, mewn llythyr at yr un boneddwr, y 3ydd o Dachwedd yr un flwyddyn, efe a ddywed fel hyn:—

"O berthynas i'r geiriadur [yr eiddo T. ap William, bid sicr], gwyddom nas gellir argraphu cyfrol mor fawr heb lawer o gost, a gwn na wna un argraphydd hyny, ar unrhyw gyfrif, gan y gwyddant bod gobaith elw oddi wrth lyfrau Cymraeg mor fychan. Yn awr, pwy a ddwg y gost yw y peth cyntaf i'w ystyried; a dïau y rhaid i'r llyfr gael ei ddiwygio mewn llïaws o fanau; a chan ei fod yn llawysgrif yr awdur, rhaid ei ail ysgrifenu oll, cyn y gall unrhyw argraphydd (yn enwedig un o iaith arall) ei ddarllen. A pha awdurdod a gaf fi drosto, a saif at eich dewisiad chwi. Ni bydd dim yn eisiau, os Duw a'i myn, a allaf fi ei wneuthur er rhwyddhau ei argraphiad." †

Gellir casglu oddi wrth y llythyr nesaf sydd ar gael, a ysgrifenodd y Dr. Davies at Syr John Wynn, ar y 15fed o Fai, 1625, nad oedd efe wedi gwneuthur ond ychydig gyd â geiriadur Syr T. ap William yn ystod y ddwy flynedd a aethent heibio. Dyma fel y dywed efe ar y pwngc:—

"Am y geiriadur, nid yw fy angof am dano yn llai na'm cywilydd fy mod wedi ei gadw mor faith, ac wedi gwneud cyn lleied gyd âg ef; ac yr oeddwn yn hiraethu am ryw genad o ymddiried, trwy'r hwn y gallwn eich hyspysu sut yr oedd y peth yn sefyll gyd â mi. Cyn i chwi ddymuno am i mi edrych ar iddo gael ei gopïo air yng ngair, yr oeddwn wedi meddwl am fyned drosto, gan ei dalfyru a'i ddiwygio; ond, gan ddeall eich ewyllys, nid aethum ymhellach yn y dull hwnw, ac, yn ol eich dymuniad, cefais rai i'w gopïo o fesur darn. Gwelais na wnai eu gwaith yn ei gopïo ddim lles; ac yn awr y mae yn sefyll gyd â mi, ac ni wneir dim iddo nes y gwypwyf eich ewyllys ymhellach. Yr wyf yn anfon i chwi yn hwn y llen olaf o'r copi a ddymunasoch ei wneuthur, gan ei bod yr orau a'r gywiraf a ysgrifenwyd."‡

Y mae yn amlwg wrth y difyniadau uchod mai ynghylch cyhoeddi geiriadur Lladin a Chymraeg Syr T. ap William y bu yr holl ymdrafodaeth rhwng Syr John Wynn a'r Dr. Davies, hyd Mai, 1625, ac ymddengys y mynnai Syr John ei gyhoeddi yn gyflawn. Bu ef farw ar y 1af o Fawrth, 1626; a dïau mai o gylch y pryd hyny y meddyliodd y Dr. Davies am ei *dalfyru*, er mwyn ei gyhoeddi ynglŷn â'i eiriadur Cymraeg a Lladin ei hun, canys dywed wrth Mr. Owen Wynn mai yn Ebrill, 1626, y dechreuodd ei dalfyru, ac iddo ei orphen cyn Ionawr, 1627. Ymddengys hefyd mai er mwyn cyhoeddi geiriadur Lladin a Chymraeg Syr Thomas ap William yn gyflawn, ar ei ben ei hun, yr addawodd Syr John Wynn y swm crybwylledig yn y difyniad isod; eithr bod y Dr.

theg Llwyth Gwynedd; a'i fam ydoedd Catherine, merch ordderch Meredydd Wynn ap Ifan ap Robert, o Wydir, ger llaw Llanrwst. Ganwyd ef, yn ol ei dystiolaeth ei hun yn ei "Llyfr Achau," mewn lle a'i enw Ardde'r Meneich, wrth droed y Wyddfa, ynghwmmwd Llechwedd Isaf, sir Gaernarfon; ond ni hyspysir ymha flwyddyn. Cafodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A., fel aelod o Goleg Brazenose, yn 1573. Dychweloddd wedi hyny i wlad ei enedigaeth, ac ymsefydlodd yn Nhrefriw, ger llaw Llanrwst, lle yr arferai yr alwedigaeth o feddyg. Heb law ei Eiriadur mawr, Lladin a Chymraeg, o'r hwn y casglodd y Dr. Davies yr ail ran o'i Eiriadur, ysgrifenodd lyfr a'i enw "Prif Achau holl Gymru Benbaladr." Dywed y dechreuodd gasglu hwn yn 1578, ac ychwanegodd lawer ato yn 1589 ac 1609. Ysgrifenodd lyfr ar feddyginiaeth hefyd, a dywedir yn "Enwogion Cymru" fod copi o hwn yn awr, mewn llawysgrifen, gan Ioan Lleifiad, Liverpool. Dywedir hefyd iddo ysgrifenu "Llyfr Prophwydoliaethau Cymraeg, Saesneg. a Lladin, a Llysieulyfr helaeth, yn y tair iaith, a bod copi ysgrifenedig o honynt yn Llyfrgell Hengwrt, yr hon a drosglwyddwyd yn ddiweddar i W. W E. Wynn, Ysw., Peniarth, ger llaw Tywyn, Meirionydd. Ni chyhoeddwyd dim o'i ysgrifeniadau hyd yn hyn, oddi eithr y talfyriad crybwylledig o'i Eiriadur Lladin a Chymraeg, gan y Dr. Davies. Nid yw hyspys pa bryd y bu farw, mwy na pha bryd y ganed ef; ond prawf llythyr a ysgrifenodd at Syr John Wynn o Wydir, ar y 21fed o Hydref, 1620, ei fod yn fyw y pryd hwnw; ac od oedd yn 20 oed pan raddiwyd ef yn Rhydychain yn y fl. 1573, yr oedd yn 77 oed pan ysgrifenodd y llythyr crybwylledig. Dywedir mai Pabydd ydoedd o ran ei farn, ac y bu yn gurad unwaith yn Nhrefriw, yr hyn a amheuir gan eraill. Pa wedd bynag, y mae sicrwydd iddo gael ei wysio, fel Pabydd, i Lys Eglwysig Bangor, Mai 23, 1606, ac i lys eglwysig cyffelyb yn Llundain, Tachwedd 12, 1607; ac os nad oedd mewn rhyw swydd eglwysig, pa fodd y rhoir cyfrif am y gwysiadau crybwylledig? Ymddengys bod y gair *Syr* yn cael ei ddodi, o foesgarwch, yn yr oesoedd hyny, o flaen enwau gwŷr eglwysig a meddygon, megis y dodir y gair *Parch.*, yn ein dyddiau ni, o flaen enwau offeiriaid Eglwys Loegr a Rhufain, a phregethwyr Ymneillduol.—Bp. Humphreys' Add. to Wood's Athen. Oxon., p. 266; Cambr. Reg., v. i., p. 157; Id., v. ii., p. 472; Llyfr. y Cymry, t. 112; Williams' Em. Welshm., p. 537; En. Cym., F. t. 1034.

* Cambr. Reg., v. ii., p. 470. † Cambr. Reg., v. ii., p. 471.
‡ Cambr. Reg., v. ii., p. 472.

Davies, wrth ei grybwyll wrth Mr. O. Wynn, yn golygu ei gymhwyso at ei eiriadur ei hun ynghyd â'r talfyriad o un Syr Thomas. Dyma'r difyniad:—

"O berthynas i gost yr argraphiad, dymunai eich tad unwaith gael ei wybod; ac anfonais innau atteb iddo y byddai o gylch lxxvii bunt, o'r hyn nid oedd efe foddlawn i dalu ond xli.; eithr deallais wrth eich llythyr chwi bod eich ardderchog frawd yn bwriadu rhoddi chwaneg. Daw cost y diwygiwr, am edrych dros yr argraphu, i 60p. neu 70p. yn ychwaneg. O rhynga bodd Syr Richard roi cynnyg ar gyfeillion, a gweled beth a ellir ei gael at y gost honno, ac o gwel yn dda adael i mi gael clywed oddi wrtho, mi a wnaf fwy o frys, ac a ymdrechaf fod yn gwbl barod erbyn canol yr haf,"* 1627.

Beth a wnaeth y Wynniaid yn y dull yma, nid yw hyspys; ond y mae yn wir, fel y gwelsom, na chyhoeddwyd y geiriaduron hyd ymhen pum mlynedd ar ol i'r Dr. Davies ysgrifenu y llythyr uchod at Mr. Owen Wynn. Pan gyhoeddwyd hwy, ystyrid bod geiriadur Cymraeg a Lladin y Dr. Davies, yn enwedig, yn gampwaith digyffelyb; ac felly yr oedd hefyd, mewn gwirionedd, os ystyrir mai hwn oedd y geiriadur cyntaf, o ddim gwerth, a wnaed yn Gymraeg. Yr oedd casglu geiriau o'r gwahanol lyfrau Cymraeg, y rhan fwyaf o lawer o'r sawl oedd mewn hen lawysgrifau pur anhawdd eu darllen, trwy eu hysgrifeu lawer gwaith drosodd, er mwyn eu trefnu yn egwyddorol, yn llafur, fel y sylwa'r Dr. Davies ei hun, fel y gwelsom, nad oes gan neb, ond a gawsant y profiad, ddim amgyffred priodol am ei faintioli. Nid oedd ysgrifenu geiriadur Lladin a Chymraeg Syr Thomas ap William ond gwaith bychan mewn cymhariaeth i un Cymraeg a Lladin y Dr. Davies, gan fod y Lladin wedi ei threfnu yn egwyddorol yn barod, fel nad oedd gan Syr Thomas ddim i'w wneuthur ond egluro y geiriau Lladin â rhai Cymraeg priodol.

Bu geiriadur y Dr. Davies yn safon yr iaith Gymraeg dros gant a hanner o flynyddoedd, sef o'i gyhoeddiad, yn 1632, hyd gyhoeddiad geiriadur mawr Cymraeg a Saesneg y Dr. W. O. Pughe, yn 1803; ac y mae *llythyraeth* y Dr. Davies yn gymhwysach i fod yn safon y Gymraeg hyd y dydd hwn na'r eiddo y Dr. Pughe, yr hwn sydd seiliedig ar fympwy yn hytrach nag ar arfer a llithrigrwydd sain; ond o ran rhif geiriau, nid oes rhagorach na geiriadur Pughe mewn un iaith adnabyddus. Diwygiwyd ei lythyraeth yn y "Geiriadur Cenedlaethol, Cymraeg a Saesneg," a gyhoeddwyd gan Mr. T. Gee, Dinbych, yn 1859, &c. Lewis Morris (*Llywelyn Ddu o Fon*) oedd y cyntaf i alw sylw cyhoeddus at ddiffyg geiriadur y Dr. Davies, yr hyn a wnaeth efe mewn llythyr at Mr. S. Pegge, Chwef. 11, 1761, yn yr hwn y dywed fel hyn:—

"Gwaith brysiog yw geiriadur y Dr. Davies, y gorau sydd genym; ac nid yw yn cynnwys dros hanner corph ein iaith, yr hyn a barodd i mi, er ys deugain mlynedd bellach, wneud cymmaint o chwanegiadau ato, er fy mudd fy hun, ag a allwn yn ystod fy narlleniad. Gwnaeth Mr. Edward Llwyd ychydig yn y ffordd honno yn ei *Arch. Brit.*; ond nid yw yr holl eiriaduron eraill namyn sothach a hudlewyn. Nid oedd T. Richards, y crybwyllwch am dano yn un o'ch llythyrau at y Dr. Phillips, yn gymmwys at y gorchwyl: cymmerth efe hyd yn oed wallau y Dr. Davies i mewn, a chwanegwyd llawer atynt o'i waith ei hun, a gwaith ei ohebwyr, enwau y rhai yn ffol a roddes ef ym mysg ei hen awduron hybarch, megis pe sypynid Quarles a Cibber i fynu gyd â Horas a Virgil. Yr oedd Richards yn llafurus, ond yn hynod o anwybodus a hwyrdrwm.† Yr oedd y Dr. Davies yn ddŷn o wybodaeth ddofn mewn ieithoedd; yn brydydd Cymraeg go dda; ac yn dra hyddysg yn ein iaith, fel yr ymddengys wrth sylwadau yn ei ysgriflaw sydd yn fy meddiant i; ond yr oedd yn gwbl anwybodus o athroniaeth naturiol; ac anturiaf ddywedyd na wyddai ddim am anifeiliaid, oddigerth ei ysgrubliaid a'i ednod ei hunan. Cyfieithiodd enwau ei anifeiliaid, ei lysiau, a'i gloddilion (*fossils*) o eiriaduron gwaelion, pan ydoedd athroniaeth naturiol yn ei babandod; o herwydd paham ni ddylid ymddiried ynddo mewn un erthycl braidd ar y pethau hyny; ac y mae ei lyfr fel plentyn wedi ei eni yn ei chwemis."‡

Beiwyd Llywelyn Ddu gan rai am ddywedyd mai "gwaith brysiog yw geiriadur y Dr. Davies," yn gymmaint ag iddo fod wrtho dros yn agos i ddeugain mlynedd; ond nid gyd â golwg ar yr amser a gymmerwyd i'w ysgrifenu y galwai Llywelyn ef yn "waith brysiog," ond gyd â golwg ar ei gynnwysiad, ei drefn, a'i ansawdd; ac, yn wir, dywed y Doctor ei hun, fel y gwelsom, mai "lladrata yr amser" a wariodd efe ar y llyfr hwn a wnaeth "oddi ar bethau eraill mwy pwysfawr."

Cyhoeddwyd ail argraphiad o eiriadur Cymraeg a Lladin y Dr. Davies, heb y talfyriad o eiriadur Lladin a Chymraeg Syr Thomas ap William, gan Boeshorn, yn Amsterdam, yn 1654; "ond yn yr argraphiad hwn gadawyd allan y geiriau Hebraeg, ac ieithoedd eraill y cymherir y Gymraeg â hwynt." Dyma'r unig *ail* argraphiad o eiriadur y Dr. Davies a gyhoeddwyd hyd yn hyn.§

Tybia rhai mai ar ei eiriadur y dibyna clod llenyddol (os nad crefyddol hefyd) y Dr. Davies mewn oesau dyfodol; ond credwn ninnau bod ei glod yn dibynu mwy o lawer yn y dyfodol ar ei gyfieithiadau godidog, canys y mae ei eiriadur, cystal a'i rammadeg, y rhai a fwriadai efe i'r gwŷr

* Cambr. Reg., v. ii., p. 473.

† Cyffelyb oedd barn Goronwy Owain (*Gronwy Ddu o Fon*) am waith "*poor plodding Richards*:" Gronofiana, t. 222.—Cyhoeddodd Richards ei eiriadur Cymraeg a Saesneg yn 1751.

‡ Cambr. Reg., v. i., p. 370.

§ Llyfr. y Cymry, t. 113, Nod. *.

eglwysig a'r llenorion, fel y crybwyllwyd eisoes, yn gwbl anhyspys i gorph y genedl; ond deil ei gyfieithiadau mewn bri ym mysg y Cymry, yn enwedig ei gyfieithiad o'r Bibl mewn cyssylltiad â'r Dr. Parry, tra y pery'r iaith Gymraeg i gael ei darllen.

Yn yr un flwyddyn ag yr argraphwyd y geiriadur, sef 1632, cyhoeddodd y Dr. Davies gyfieithiad Cymraeg o *Parsons's Christian Resolutions*. Yr enw a roddes y Dr. Davies i'w gyficithiad yn llawn sydd fel hyn:

"Llyfr y Resolusion, yr hvvn sydd yn dysgv i ni bawb wneuthur y goreu, a rhoi cwbl o'n bryd a'n meddwl ar fod yn wir Gristianogion, hyny ydyw ar ymadael a'n drwg fuchedd, a throi ar ddaioni a duwioldeb;—Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg y gan I. D. er llês i'w blwyfolion;—A'i brintio yn Llundain yn nhy John Beale, tros yr vn I. D. 1632."

Awdur y llyfr Saesneg, "Robert Parsons neu Persons (Robertus Personius, fel yr ysgrifenai ei enw yn Lladin), ydoedd enedigol o Nether Stowey, yng Ngwlad yr Haf (*Somersetshire*), ac yr ydoedd trwy ei oes yn un o amddiffynwyr eiddicaf Eglwys Rhufain yn y wlad hon, ac yn un o wrthwynebwyr chwerwaf y Grefydd Ddiwygiedig. Yr oedd yn ddŷn dysgedig a hynod weithgar, ac ysgrifenodd fagad o lyfrau heb law yr un a gofnodir yma, y rhai, oddi eithr hwn, oeddynt gan mwyaf oll ar destynau dadleuol yr amseroedd hyny. Bu farw yn Rhufain yn y fl. 1610, wedi bod o hono yn athraw yng ngolegau Sevil, Valadolid, Cadis, a Lisbon, ac wedi hyny yn Dowai, St. Omer, a Rhufain. Yr oedd yn aelod o'r ffyddlonaf a llafurusaf o Gymdeithas y Iesuaid, yr hon ychydig cyn hyny a sylfaenasid gan Ignatius Loyola; ond y mae hyd yn oed Pabyddion cymmedrol yn collfarnu ei benboethni a'i ymdrechion diorphwys ef a'i gydweithiwr Garnet i hau hadau anghydfod a gwrthryfel yn y deyrnas."*

Y mae ieithwedd cyfieithiad y Dr. Davies o'r llyfr hwn yn wir odidog. "Ymddengys iddo gymmeryd i gyfieithu o hono argraphiad Edmund Buny, yr hwn oedd Brotestant, ac a wnaeth lawer iawn o gyfnewidiadau yng ngwaith gwreiddiol Parsons, er mwyn ei gyfaddasu at wasanaeth Protestaniaid. Y mae genym yn awr o'n blaen argraphiad o'r gwaith cyssefin, wedi ei gyhoeddi ar ol ymddangosiad argraphiad newidiedig Buny, yn y rhagymadrodd i'r hwn y mae yr awdur yn dylorni'r gŵr hwn yn bur ddiddefod am ei hyfdra yn newidio ac yn niweidio ei waith. Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg yn cyttuno mewn un modd â'r argraphiad Pabyddol hwn. Tebygol i'r Dr. Davies olygu'r llyfr hwn trwy'r wasg, pan oedd yn Llundain yn achos argraphu'r geiriadur, canys canfyddir i'r ddau waith ymddangos o fewn corph yr un flwyddyn."†

* Llyfr. y Cymry, t. 118, Nod. ‡.

Argraphwyd y llyfr gwerthfawr yma dair gwaith ar ol hyn, sef yn 1684, dan olygiad Charles Edwards; yn 1711, a gyhoeddwyd gan Thomas Jones (y Mwythig?); ac yn 1802, dan olygiad y Dr. W. O. Pughe.

Ar enwad-ddalen yr ail argraphiad, yr hwn yw y gorau o'r pedwar (1684), dywed y golygydd, Charles Edwards: "Fe brintiwyd y llyfr hwn er ys mwy na hanner cant o flynyddoedd a aethant heibio [yn 1632], ac yn awr drachefn, nid yn unic er mwyn y Gymraeg bur sydd ynddo (yn amgenach nag mewn un llyfr ond y Bibl), eithr hefyd er mwyn y defnydd da a ellir ei wneuthur o hono."‡ A'r Parch. D. S. Evans a ddywed: "Y mae yr argraphiad drwyddo yn un hynod o gywir. Buasai yn dda iawn cael argraphiad newydd o'r gwaith godidog hwn."§ Ac mewn lle arall, eb efe: "Nid yw 'Llyfr y Resolusion,' megis cyfansoddiad llenyddol, wedi cael hyd yn hyn y sylw y mae yn ei haeddu."‖ Am yr argraphiad a ddygwyd allan dan olygiad y Dr. Pughe, yn 1802, yr un beirniad craffus a ddywed: "O ran argraphwaith, hwn yw y goreu a ymddangosodd o'r gwaith rhagorol hwn hyd yn hyn; ond y mae o ran y llythyraeth, a rhai pethau eraill, wedi ei Buweiddio, megis *llyfyr*, *cwbyl*, *amyl*, *pobyl*, a'r cyfryw, yn lle llyfr, cwbl, aml, pobl."¶

Copi amherffaith o'r trydydd argraphiad, a gyhoeddwyd yn y Mwythig, 1711, yn unig sydd genym ni; a chan fod y fath glod i'r gwaith, a hyny yn deilwng hefyd, o ran ei ieithwedd Gymreig, a'i sylwedd crefyddol, ac o blegid bod yn oed copïau o'r argraphiadau diweddaf weithian yn bur anhawdd eu cael, credir yr hoffai y darllenydd gael ychydig esamplau o hono. Ym mlaenaf, dodwn ger bron annerch yr awdur "At ei Anwyl Blwyfolion:"—

"Fy Anwyl Garedigion yn yr Arglwydd Iesu Grist,—Er na bum yn absennol oddi wrthych ond yn anfynych, a hyny fynychaf ar negesau oedd yn perthyn i'ch Iechydwriaeth chwi ac eraill o bobl Dduw; etto i wneuthur i chwi beth iawn am hynny o esgeulusdra, mi a gyfieuthais i chwi yn Gymraeg y llyfr yma sy'n canlyn, yr hwn, i'm tyb i, sydd un o'r llyfrau goreu i ddysgu i ddynion ymadael

† Llyfr. y Cymry, t. 117, Nod. *.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 230. § Yr un, t. 231. ‖ Yr un, t. 206.
¶ Llyfr. y Cymry, t. 117, Nod. *.

a'u drwg fuchedd, a throi at Dduw. Ac yr wyf yn deisyf arnoch, er mwyn Iesu Grist, fod yn ddiwyd ac yn ddyfal i'w ddarllen ac i'w wrando, a rhoi y cwbl o'ch bryd ar wneuthur yn ei ol ef. Ac o herwydd nas gall na myfi na neb arall o'm galwedigaeth, ond eich dysgu chwi a'ch annog, a'ch cynghori, am nad ydym ni ond 'Gweinidogion i Grist, a goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw:'* ïe, 'nad yw *Paul* ddim, nac *Apolos* ddim, ond gweinidogion trwy y rhai y credasoch chwi, ac fel y rhoes yr Arglwydd i bob un;' ïe, 'nad yw ddim na'r hwn sydd yn plannu, na'r hwn sydd yn dyfrhau, ond Duw yr hwn sydd yn rhoddi y cynnydd:' 2 Cor. iv. 1; 1 Cor. iii. 5. O herwydd hynny, meddaf, ac am nas gallaf ddim ond hynny, 'Yr wyf yn attolwg i chwi,' gyda'r Apostol, 'Goddefwch air y cyngor,' Ac yn gweddïo drosoch yn y modd y gweddïodd yntau dros yr Hebreaid, 'A Duw yr heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu Grist, bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfammod tragwyddol, a'ch perffeithio chwi ymhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef, ac a weithio ynoch yr hyn sydd gymmeradwy yn ei olwg ef, trwy Iesu Grist. I'r hwn y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.' Heb. xiii. 20, 21, 22.

"Eich Ewyllysiwr anwiw sydd yn gofalu,

"ac 'yn gwilio dros eich eneidiau chwi,'

"JOHN DAVIES.

"Mallwyd yn Sir Feirionydd."†

Yr esampl nesaf a gymmerir o ddechrau y drydedd bennod, am fod y bennod gyntaf a rhan o'r ail wedi colli o'n copi:—

"PENNOD III. *Yn dangos pa achos a diwedd‡ y crewyd dŷn, ac y gosodwyd ef yn y byd hwn.*—Weithian yn enw yr Hollalluog Dduw, a thrwy gymmorth ei lân Yspryd ef, ystyried pob Cristion o ddŷn ag sydd yn chwennych iechydwriaeth enaid a chorph, yn ddwys ac yn ddifrifol yn gyntaf dim, megis y gwna marsiandwr pan êl tros fôr i wlad ddieithr; neu megis y gwna capten a ddanfono ei dywysog ar ryw negesau o bwys, pan ddêl i'r lle a appwyntiwyd iddo: hynny ydyw, meddwl am ba achos y daeth yno, paham y danfonwyd ef yno, ac i ba beth, i amcanu pa beth, i wneuthur pa beth, ac i gyflawni pa beth; a pha beth a ddisgwyl ac a ofyn yr hwn a'i danfonodd ef yno ar ei law ef pan ddêl adref. O blegid diammeu y gwna ystyried y pethau hynny iddo fod yn ofalus am edrych am y pethau y danfonwyd ef o'u plegid, ac nid ymofalu am bethau ni pherthyn iddo. Y cyffelyb bethau a fynnwn i Gristion eu hystyried, ac ymofyn âg ef ei hun, paham, ac er mwyn pa achos a diwedd y creuodd Duw ef, ac a'i danfonodd yma i'r byd hwn? i wneuthur pa beth? i dreulio ei oes mewn pa beth? ac fe gaiff weled nad i ddim arall, ond yn unig i wasanaethu Duw yn y bywyd hwn. Tan yr ammod hwnnw y creuwyd ni, ac er mwyn hynny yn unig i'n prynwyd ni, fel y prophwydodd Zacharias o'r blaen 'Fel y byddeu i ni wedi ein gwared oddi wrth ddwylo ein gelynion ei wasanaethu ef mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder holl ddyddiau ein heinioes.' Luc i. 74.

"2. O hyn y canlyn yn gyntaf, gan mai gwasanaethu Duw yn y bywyd hwn yw yr achos a'r diwedd y rhoed ni yn y byd o'i blegid; wrth hynny beth bynnag a wnelom, neu a amcanom, neu a dreuliom o'n hamser arno, ar a fo na gwrthwyneb nac ammherthynol i'r achos a'r diwedd hwnnw (sef gwasanaethu Duw yn unig), pe bae i ni wrth hynny ynnill holl deyrnasoedd y byd; etto nid yw ond llwyr wagedd ac oferedd, a ffoledd, a gwaith ofer; a pheth a wna i ni ryw ddydd ofidio, ac edifarhau, a chywilyddio o'i blegid; o herwydd nid hynny yw y peth y daethom ni i'r byd o'i achos, na'r peth y gofynir i ni gyfrif am dano yn y dydd diweddaf.

"3. Yn ail, y canlyn, os gwasanaethu Duw ydyw yr achos a'r neges y daethom ni i'r byd o'i blegid, a bod pob creadur daearol arall wedi ei roi yn y byd i'n gwasanaethu ni, fel y byddeu i ninnau wasanaethu Duw; ni a ddylem ninnau na ddymunem o'r creaduriaid eraill, nac o gyfoeth, nac o dylodi, nac o iechyd, nac o glefyd, nac o barch, nac o ammharch, na mwy na llai, nag a fo da er ein lles ni tu ag at wasanaethu Duw; o blegid pwy bynnag a geisio ychwaneg o'r creaduriaid hynny nag a wasanaetho i'r perwyl hynny, y mae efe yn cilio oddi wrth yr achos a'r diwedd y daeth efe i'r byd o'i blegid.

"4. Wrth hyn y gall Cristion gofalus gael peth cydnabyddiaeth am ei gyflwr gyda Duw, a bwrw amcan pa un a wna ai bod ar y ffordd union ai na byddo. O blegid os edrych ef yn unig neu yn bennaf dim at y diben y daeth efe i'r byd yma er ei fwyn (hynny ydyw gwasanaethu Duw); os bydd ei ofalon ef a'i feddyliau, a'i amcanion, a'i lafur, a'i ymddiddanion, yn rhedeg yn unig ar y peth hyn; ac na bo matter ganddo am greaduriaid eraill, megis anrhydedd, cyfoeth, dysg, a'r cyffelyb; ond hyd a fo yn anghenrhaid iddo i'r perwyl hynny; os efe a dreulia ei ddyddiau a'i fywyd (meddaf) mewn astudrwydd ar wasanaethu Duw, yna dïammeu ei fod yn ddŷn o'r happusaf, ac o'r dedwyddaf, ac y daw ef yn y diwedd i deyrnas Dduw."

Cyffelyb o ran difyr, ystwyth, dirodres, ac adeiladol ydyw y llyfryn hwn drwyddo; a'r fath drueni ydyw na bai llyfrau buddiol, Cymreigaidd, a sylweddol fel hyn yn awr ynghyrraedd ieuengctid a chorph ein cenedl, yn lle eu bod, fel rheol, yn ymborth ar sothach disylwedd a gânt mewn nofelau gwammal a phapurach gweigion, heb un amcan uwch wrth eu cyfansoddi na phorthi archwaeth anghoethedig eu darllenwyr! Gresyn na chymmerai y "Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol," a "Chymdeithas y Traethodau Crefyddol," at y rhai y cyfrana y Cymry mor haelionus yn flynyddol, hyn at eu hystyriaeth, ac na roddent y llyfr gwerthfawr hwn, "Dadseiniad Meibion y Daran," "Llyfr yr Ymarfer o Dduwioldeb," "Hanes y Ffydd," traethodau Morgan Llwyd, a'r cyffelyb, ynghyrraedd gwerin ein gwlad. Ond rhaid i ni ddychwel etto at y Dr. Davies ei hun.

Byddai efe pan yn darllen gwahanol lyfrau, ac yn cyfarfod ynddynt â rhyw ymadroddion a'i boddhai yn fwy na chyffredin, yn arfer dodi nodau ar ymyl y dail gyferbyn a hwynt. Wedi i'r Dr. Davies farw, casglodd James Davies *(Iago ab Dewi)*, o Bencadair, sir Gaerfyrddin, yr ymadroddion hyny ynghyd, ac argraphodd hwy yn llyfr dan yr enw *Flores Poetarum Britannicorum* (=Blodau Prydyddiaeth Frytanaidd), yr hwn a

* Mewn llythyrenau Italaidd y mae'r geiriau Ysgrythyrol yn y gwaith gwreiddiol.

† Ymddengys mai y cyhoeddwr a anturiodd ddodi "John Davies," yn llawn, ar y llaw dde, yn yr annerch yma, a "Mallwyd yn Sir Feirionydd" ar y llaw aswy, canys yn y ddau argraphiad blaenorol nid oes dim ond "I. D." yn unig.

‡ Nid ydym yn cofio gweled neb yn defnyddio *diwedd* fel cyfieithiad o'r gair *purpose* (amcan, diben), ond y Dr. Davies yn y cyfieithiad hwn. Ei eglurhâd o'r gair *diwedd* yn ei eiriadur sydd fel hyn:—"Diwedd, *Finis, terminus, eventus, conclusio.*"

Digitized by Google

rwymid gyd â phrydyddiaeth Salesbury. Yn y flwyddyn 1710, cyhoeddodd Dafydd Lewis, Llanllawddog, yr un llyfr, fel yr ymddengys wrth ei ragymadrodd, yn yr hwn y dywed: "Yn gymmaint a dyfod i'm llaw y casgliad hwn o eiddo y dysgedig a'r parchedig Ddoctor J. Dafis, hyd ar ddeallais, a alwodd ef* '*Flores Poetarum Britannicorum*, sef Blodeuog waith y Prydyddion Brytanaidd,' mi a dybiais yn fuddiol ei brintio, yn gystal er mwyn ei awdwr parchedig (yr hwn a haeddodd fwy ar law pob Cymro nag a allont fyth dalu y pwyth iddo), ac er mwyn y llyfr ei hun, yr hwn sydd yn cynnwys llawer o ddysgeidiaeth a chelfyddyd. Myfi a chwanegais ychydig ato, ac a gedais rai pethau buddiol eraill allan gyd âg ef." Ficar Llangattwg, ger llaw Castell Nedd, ym Morganwg, oedd y Dafydd Lewis, neu Lewys, hwn. Yr oedd efe ar y pryd, fel y dengys y "Llythyr at y Darllenydd," yn Llanllawddog. Efe oedd awdur y llyfr a elwir *Golwg ar y Byd*, a gyhoeddwyd yng Nghaerfyrddin yn 1725, a thrachefn yn Llanrwst yn 1825. Detholion ydyw y *Flores Poetarum* o waith hen feirdd, o dan wahanol benau neu byngciau. Hefyd, y mae yn cynnwys "Llyfr Barddoniaeth o waith y Capten William Middleton." Yn 1864, cyhoeddwyd argraphiad newydd o hono gan y Parch. Robert Jones, Rotherhithe, Llundain, yr hwn a gyflwynwyd i'r "Tywysog Louis Lucien Buonaparte, D.C.L., Uchel Seneddwr Ffrainge, un o brif ieithyddwyr yr oes, a noddwr gwresog llenyddiaeth y Cymry." Dywed ysgrifenydd yn *Cymru*, cyf. i., t. 395, bod "cyfrol drwchus" o ysgrifeniadau y Dr. Davies ger ei fron ef, "o tu ag 800 o dudalenau, wedi eu hysgrifenu yn fân ac yn agos, gyd â phrydferthwch mawr, yn cynnwys Awdlau, Cywyddau, Caniadau, Pryddestau, a Hanesion achlysurol, Gwasanaeth Mair, ac amryw Weddïau, &c. Ar derfyn yr olaf dywed: 'Y copi yr ysgrifenwyd hwn allan o honaw, a ysgrifenasid yn Llanharri ym Morganwg, ynghylch y 30 o Harri VIII., sef tu a'r flwyddyn 1537, ac a ysgrifenwyd yma yn y flwyddyn 1631.' Y mae y rhan fwyaf wedi eu copïo o'r Llyfr Coch o Hergest, gyd â rhai darnau o'r Llyfr Du, a llyfrau eraill, fel y mynega. Crybwylla wrth derfynu hefyd fel hyn: 'Y Llyfr Coch o Hergest sydd yn awr yn eiddo Syr Lewis Mawnsell, a'i dŷ yw Margam. A'r llyfr hwnw a ddaeth ym menthyg i Fallwyd, yn sir Feirionydd, pan oedd Crist 1634; a lle y gwelych Ll. C., y Llyfr Coch a arwyddocâ.'" Hefyd, arferid dangos pregethau, mewn llawysgrifen, yn Ysgol Ystrad Meurig, y rhai y dywedid mai pregethau y Dr. Davies o Fallwyd oeddynt. Dywedodd Llywelyn Ddu o Fon, fel y gwelsom, bod y Dr. Davies yn brydydd Cymreig gweddol dda; ond nis llwyddasom ni i weled odid ddim o'i brydyddiaeth.

Y mae pob hanes am y Dr. Davies yn tystio ei fod yn ŵr cariadus iawn ymhlith ei gydwladwyr, yn ynad heddwch cyfiawn a thyner, ac yn dra haelionus yn ei elusenau; am hyny perchid ei goffadwriaeth dros hir amser gan bawb a'i hadwaenent. Cafodd trigolion Mallwyd achos arbenig i gofio am dano dros byth, canys bu yn gymmwynaswr haelionus iawn i'r gymmydogaeth honno. Yn ei lythyr cymmun gadawodd ardreth maes, a'i enw "Dolddyfi," i dlodion y plwyf hwnw tra y rhedo dŵr. Dywedir bod yr afon wedi treulio gryn ran o'r maes erbyn hyn, ond er hyny bod ei ardreth o seithbunt i ddeg yn y flwyddyn. Adeiladodd hefyd dair o bontydd meini ar ei draul ei hun, er cyfleusdra i'w gymmydogion. "Y mae'r tair pont hyn," medd y Parch. D. S. Evans, "yn aros hyd heddyw, er bod pontydd newyddion (a adeiladwyd yn 1844 ac 1845) yn eu hymyl, wedi eu codi yn lle dwy o honynt. Y mae un o'r hen bontydd hyn, yr hon a elwir Pont Ffinnant, âg iddi ddau fwa, ar yr afon Dyfi, rhwng Mallwyd a Dinas Mawddwy, ac yn ymyl gorsaf Rheilffordd Mawddwy; y llall, o un bwa, a elwir Pont y Cleifion, ar y Clywedog, o fewn ychydig i Fallwyd, ar yr un ffordd; a'r drydedd, yr hon a elwir Pont Fallwyd, ar Ddyfi, ychydig is law aber y Clywedog. Y mae'r olaf hon yn bont hynod o ramantus yr olwg arni, ac yn tynu sylw cyffredin ymwelwyr â'r ardal. Y mae gwedd bur ramantus hefyd ar hen Bont y Cleifion."† Dywedir bod llythyrenau ei enw, J. D., wedi eu palmantu â cherrig gwynion, mewn dau fan ar Bont y Cleifion. Hefyd, efe a ail adeiladodd gangell a chlochdy yr eglwys, gan roddi ceiliog gwynt ar nen y clochdy, a'r un llythyrenau is law iddo, a'r flwyddyn 1640 ar ystyllen ar ochr y clochdy. Ail adeiladodd y persondy hefyd, ac un o'i ystafelloedd, a dodwyd llythyrenau ei enw â cherrig gwynion yn y palmant o flaen drws y persondy; a dywedir iddo wneyd y cwbl ar ei gost ei hun. "Y mae'r persondy y preswyliai y Dr. Davies

* Gwelir uchod nad y Dr. Davies a'i galwodd felly, namyn ei gasglydd, Iago ab Dewi.

† Llyfr. y Cymry, t. 100, Nod. *.

ynddo yn aros hyd heddyw, ond bod rhai ystafelloedd wedi eu chanwegu ato gan beriglor presennol y plwyf, y Parch. Ebenezer Edwards, B.D., yr hwn a gyflwynwyd i'r fywoliaeth yn y flwyddyn 1852."*

Dywedir iddo gasglu cyfoeth nid ychydig oddi wrth ei fywiolaethau lliosog, ac iddo adael ei diroedd oll, ond y Ddolddyfi grybwylledig, rhwng nai iddo ei hun a nai ei wraig, mab yr Esgob Parry, gan nad oedd iddo ef hiliogaeth. Priododd ei weddw Edward Wynn, M.A., yr hwn a gafodd beriglorіaeth Llan ym Mawddwy ar ol y Dr. Davies. Mab ieuengaf ydoedd yr Edward Wynn hwnw i Edward Wynn, Ysw., Bodewryd, Mon,† un o hiliogaeth Gweirydd ap Rhys Goch, Caerdegog, Mon, cyff cenedl un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Dywedir i lyfrau y Dr. Davies fyned i ŵr a'i enw Kenrick (o herwydd paham, ni fynegir), yr hwn a fu yn weinidog i'r Ymneillduwyr yng Ngwrecsam, ac a symmudodd oddi yno i Gaerwysg (*Exeter*); a dywedir eu bod fyth yn meddiant ei hiliogaeth.

Bu yr enwog Ddr. Davies farw ar y 15fed o Fai, 1644, ac efe o gylch 74 oed, a chladdwyd ef yn nghangell yr eglwys; ac ar ei garreg fedd, cerfiwyd y geiriau canlynol, y rhai, o herwydd bod y garreg yn llawr y lle, sydd wedi treulio ymaith er ys llawer o flynyddoedd:—

JOHANNES DAVIES, S. T. P.
RECTOR ECCLESIÆ PAROCHIALIS DE MALLWYD,
OBIIT 15 DIE MAII,
ET SEPULTUS FUIT 19, A.D. 1644, IN VIRTUTIS
POTIUS QUAM NOMINIS MEMORIA.

Hyny yw, "John Davies, Doethor Duwinyddiaeth Gyssegredig, Periglor Eglwys Blwyfol Mallwyd, yr hwn a fu farw y 15fed dydd o Fai, ac a gladdwyd ar y 19ydd, o.c. 1644, er cof am ei rinwedd yn fwy nag am ei enw."

"Ychydig flynyddoedd yn ol," eb y Parch. D. S. Evans, "trwy ymdrechion y diweddar Barch. Rowland Williams, person Ysceifiog, yn swydd Fflint (gŵr genedigol o'r plwyf hwn), gosodwyd i fynu yn eglwys Mallwyd goflech harddwych o fynor gwyn, gwaith y cerfiedydd rhagorol Mr. Solomon Gibson, o Lynlleifiad, er cof am y dysgedig Dr. Davies. Saif ar fur gogleddol yr eglwys, yn lled agos ar gyfer y ddarllenfa, a chynnwys arysgrifen" Lladin led faith, yr hon sydd yn dechrau fel hyn:—

H. S. E.
JOHANES DAVIES, S. T. P.
VERRESIOLANI IN AGRO,
DINOVICENSI NATUS,
PRÆPOSITUS HUIC ECCLSIÆ,
ANNOS XXX.‡

---

## PENNOD VII.

### ROBERT LLWYD, FICAR Y WAUN.

Yr ydym yn cyfleu "Enwogion y Ffydd," hyd y bo'n hwylus, yn benaf yn ol yr amser y buddont wedi gwneuthur rhyw wrhydri, mewn ystyr grefyddol, naill ai trwy lyfrau ai trwy ryw ymdrechion eraill canmoladwy. Y mae Robert Llwyd, Ficar y Waun, yn dra theilwng o gael ei restru ymhlith ein henwogion yng Nghymru, o herwydd y mawr les a wnaeth i grefydd ym mysg ein cenedl ni, yn benaf trwy gyfrwng y llyfrau gwerthfawr a gyfieithiodd ac a gyhoeddodd yn rhad, yn yr iaith Gymraeg, pan yr oedd llyfrau crefyddol, fel pob llyfrau eraill, yn hynod brinion yn y wlad. Ond er bod Robert Llwyd yn Gymreigiwr tra medrus yn ei ddydd, ac yn ŵr pur wladgarol, a bod ei gyfieithiadau, o ran ieithwedd a llithrigrwydd, ymhlith goreuon yr iaith; etto, gellir dywedyd am dano ef, fel y dywedodd y Parch. D. S. Evans am Edward James, cyfieithydd godidog yr *Homiliau*, "Ni cheir mo'i enw mewn un geiriadur bywgraphiadol, ac nid oes un grammadegydd na geirlyfrwr wedi difynu cymmaint a llinell o'i waith."

Y mae rhieni Robert Llwyd, ac amser ei enedigaeth, ei ddysg, a'i farwolaeth, yn gwbl anhyspys; ond dywed Walker, yn ei *Sufferings of the Clergy*, iddo gael ei bennodi yn Ficar y Waun (*Chirk*), yn Nyffryn Llangollen, sir Ddinbych, yn y fl. 1615. Gan iddo gael ficeriaeth y flwyddyn honno, gellir casglu ei fod yn 30 oed, o leiaf, ar y pryd; ac os felly, ganwyd ef o gylch 1585; yn wir, y mae Edward, yn ei *Willis's Survey of St. Asaph*, yn awgrymu mai y lle cyntaf a gafodd oedd ficeriaeth yn sir Amwythig. Os felly, y mae yn dra thebyg ei fod yn hynach na 30 pan gafodd ficeriaeth y Waun. Yn 1619, cafodd ficeriaeth Llanrwst; ac yn 1625, cafodd ficeriaeth y Cwm, ger llaw Llanelwy, a phersoniaeth Llandyssul, ger llaw y Dref Newydd, yn sir Drefaldwyn. Dengys

* Llyfr. y Cymry, t. 100, Nod. †.

† Cambr. Reg., v. i., p. 158.

‡ Gan ein bod wedi cyfeirio mor fynych i'n hawdurdodau, dichon bod eu henwi yn ddigon yma:—Wood's Athen. Oxon.; Bp. Humphreys's Additions to the same; Cambr. Register; Cambr. Plutarch; Wms. Em. Welshmen; Y Gwyliedydd; Y Gwladgarwr; Y Traethodydd; Enwogion Cymru Ffoulkes; Llyfryddiaeth y Cymry, &c.

Digitized by Google

hyn fod Ficar y Waun yn bur gymmeradwy gan ei esgobion.

Yn y flwyddyn 1620, ymhen pedair blynedd ar ol y dyrchafiadau diweddaf, cyhoeddwyd

"Pregeth ynghylch Edifeirwch, gan Arthur Dent.* O gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficar y Waun, yn sir Dinbych."

Paham yr arferwyd y gair "gynt" yn yr enwad-ddalen uchod, nis gwyddom; ond y mae genym sicrwydd yn y cofnod canlynol, yr unig un sydd ynghoflyfr Eglwys y Waun yn crybwyll enw R. Llwyd, ei fod ef yno ymhen pedair blynedd ar ol cyhoeddi pregeth Arthur Dent: "Jane Lloyd filia Rob[ti] Lloyd vicarii de Chirke sepulta fuit apud Llandysyl 26. Septembris 1633;" h.y. Jane Llwyd, merch Robert Llwyd, Ficar y Waun, a gladdwyd yn Llandysyl y 26ed o Fedi, 1633. Dengys y cofnod yma hefyd fod Robert Llwyd yn ŵr priod; ond pwy oedd ei wraig, nid yw hyspys. Fe ddichon mai brodor o Landyssul oedd hi neu efe, os nad pob un o'r ddau, ac mai hyny oedd un achos iddo gladdu ei ferch ym mynent y plwyf hwnw yn hytrach nag ym mynwent y Waun, heb law ei fod yn berson Llandyssul. Beth bynag am hyny, prif waith Robert Llwyd oedd y cyfieithiad canlynol:—

"Llwybr Hyfforddd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd. Yn yr hwn y dichon dyn ystyriol weled ei gyflwr presennol, pa un ai cadwedig ai colledig. Wedi ei osod allan ar ddull ymddiddanion, yn gyntaf yn Saesonaec, o waith Arthur Dent, Gweinidog Gair Duw. Ac yr awr-hon ei gyfieithu yn Gamber-aec er cymmorth i'r Cymro annysgedig, fel y gallo efe gael yn ei dafodiaith ei hun, foddion a chyfryngau i chwanegu ei wybodaeth i wasanaethu Duw."

Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r gwaith godidog yma, dan olygiad y Cymreigiwr campus, Charles Edwards, yn 1682; ac y mae copi carpiog, anghyflawn, o'r argraphiad yma ymeddiant yr ysgrifenydd. Dengys dernyn o ddalen sydd o flaen y gwaith ei fod wedi ei gyflwyno i ryw Arglwydd, yr hwn ddernyn a derfyna fel hyn:—

"Hwn y fâth ac ydyw, gyd a'm fy [coll gair] a'm gwasanaeth goreu, yr ydwyf yn rhwydd-galon, ac a phob gostyngeiddrwydd yn eu gosod ar lawr wrth draed eich Arglwyddiaeth chwi. Arglwydd yr Arglwyddi, a gynnyscaeddo eich Arglwyddiaeth chwi a lluosogrwydd o bob doniau cymwys, addas, ac angenrheidiol i drin yr Alwedigaeth gyssgredig i'ch galwodd Duw iddi.† Hyn a weddiaf beunydd, gan barhau yn

"Eiddo eich Arglwyddiaeth
"i'm gorchymmyn tra bwyf,
ROBERT LLOYD."

Yn niwedd ei "At y Darllenydd" sydd o flaen yr argraphiad cyntaf, efe a ddywed: "O'm stafell yn Ffoster-lân yn Llundain yr Vgeinfed dydd o fis Medi, 1629. Yr eiddot yn yr Arglwydd, R. Ll." Wrth ymresymu â'i "Ddarllenydd," efe a ddywed fel hyn:—

"Ai anhawdd genit dreulio amser yn .y gorchwyl hwn, nid rhaid i ti golli dim amser a waethygo arnat, neu a rwystro dy orchwylion bydol yn eu pryd: y mae'r nos yn hir y gaiaf, a'r Suliau a'r gwyliau yn hir yr hâf; gad ymmaith y twmpath chwareu, a'r bowliau, a'r tafarnau, a'r bêl-droed, a'r denis, a'th negeseuau; gwna y pethau hyn yn weddol ar dy ddiwrnodau dy hun, o bydd achos: eithr gwasanaetha Dduw ar ei ddydd ei hun; ac onidê efe a ddigia wrthit, ac i ba le y ffoi di rhagddo? . . . Ai ni fedri di ddarllain Cymraec, na neb o'th dy chwaith? O beth â ddywedaf wrthit, ond Duw a'th helpio druan; pa fodd y gwasanaethi di Dduw, gan na fedri ddarllain ei air ef. Dysc yn gyntaf y gellych, neu bâr i ryw vn o'th dy ddyscy darllain, a dysced y lleill gan hwnw: Mi a gymmeraf arnaf osod y dyn ieuangc a fynnych (yn enwedig o bydd efe hyddysc) ar ffordd gymmwys i ddyfod i ddarllain o honaw ei hun yn adrybelydr yn ol cymmeryd o honof ychydig o boen ag ef tros vn wythnos. A pheth yw hynny wrth y llesâd a ddichon dyfu oddiwrtho?"

Yr oedd y rhai hyn yn gynghorion gwerthfawr dros ben yn oes Robert Llwyd, pan nad oedd ysgolion Sabbothol mewn bôd, nac ysgolion dyddiol chwaith ynghyrraedd un o fil o'r werin bobl. Y mae'n yn amlwg hefyd fod "Ficar y Waun" yn Eglwyswr crefyddol, ac achos eneidiau ei gydwladwyr annysgedig a di-fanteision yn agos at ei galon. Wedi cael yr esamplau uchod o waith gwreiddiol Robert Llwyd, credwn yr hoffai ein darllenwyr cyffredin gael rhai esamplau hefyd o'i waith yn cyfieithu. Ymddiddanion ydyw y gwaith rhwng—

"Ymddiddan-wyr. { *Theologus:* Pregeth-wr. / *Philagathus:* §Gwr-da. §Gwr-onest. / *Asunetus:* Anghyfarwydd-ddyn. / *Antilegon:* §Cecryn. §Cynnenwr."

Yn rhagflaenu y llyfr y mae—

"*Ystyriaeth a chynnwysiad yr ymddiddanion hyn a ddengys i ni:*

"1. Drueni dyn tan naturiaeth, a'i ymadferth i ddiangc rhagddo.

"2. Anwiredd yr amser ymma, a chyffredin lygredigaeth y byd.

"3. Nodau plant Duw, a nodau rhai gwrthodedig; ac arwyddion hyspys o iachawdwriaeth, a damnedigaeth.

"4. Mor anhawdd yw myned i fywyd: a lleied yw nifer y rhai a ânt yno.

* Arthur Dent, awdur y bregeth uchod, ydoedd "Weinidog Gair Duw yn South Shoobery, Essex," ac un o'r Presbyteriaid yn amser Iago I. Dïoddefodd lawer o orthrymderau o blegid ei anghydffurfiaeth; a dyma ei bregeth yn cael ei chyfieithu a'i chyhoeddi gan Eglwyswr zelog ac ymroddgar, fel y gwelir rhag llaw. Ysgrifenodd a chyhoeddodd Dent waith enwog a'i enw "The Ruin of Rome, or an Exposition of Revelation." Bu farw o gylch 1600.—Llyfr. y Cymry, t. 111; Brook's Hist. of Purit., v. ii., p. 113.

† Y mae hyn yn arwyddo mai i un o'r Arglwyddi Esgobol y cyflwynodd R. Llwyd ei gyfieithiad godidog.

Digitized by Google

"5. Anwybodaeth y byd, a'i wrth-attebion yntef.
"6. Hyfryd addewidion yr Efengyl, ac aml drugareddau Duw i'r sawl oll a edifarhânt, ac a gredant, ac a wir ddychwelant atto ef."

"Golygiadau tra Chalfinaidd yw athrawiaethau y llyfr," fel y sylwa Gwilym Lleyn yn briodol. Y mae ymddiddanion *Theologus* oll mewn llythyren ddu, fechan, brydferth, y rhai sydd fath ar atteb-ion i sylwadau y tri eraill, y rhai sydd mewn llythyren Rufeinig.

Wedi ymddiddan yn helaeth ar y ddau bwngc cyntaf, daw yr awdur yn y 35fed tudalen at y trydydd, sef "Nodau plant Duw, a nodau y gwrthodedig;" ac y mae y rhai hyn mor bwysig yn 1877 ag oeddynt yn 1629, pan y'u cyfieith-wyd, a thrinir hwynt yn hynod o ddeheig ac effeithiol, ac mewn ieithwedd Gymreig brydferth dros ben; ond ni oddef lle i ni ddodi dim ond y penau ger bron, a'r "ymddiddan" ar y prif bechod, a eilw y cyfieithydd yn "flaenor" y pechodau, ynghyd â'r arweiniad i'r ymddiddan hwnw.

Gan fod llythyraeth y cyfieithydd yn ddigon dealladwy i bawb, dodir hi yma yn ddigyfnewid, fel yr ydys yn arfer gyd â difyniadau o gyfnod y "Llwybr Hyfforddd," gan y gall, nid yn unig fodd-hau cywreinrwydd diniwaid, ond hefyd bod er addysg i'r rhai sydd dueddol i glogyrneiddio yr iaith er mwyn ceisio dangos ei gwraidd tybiedig. Dygir y "nodau" a'r "ymddiddan" arnynt i mewn fel hyn:—

"*Asunetus.* . . . Mi chwenychwn i chwi . . . yspysu arwyddion ansiommedig, ac argoelion diamheus wrth y rhai y gallo pawb wybod yn hy-wir, eu bod wedi eu sancteiddio, a'i hailgeni, ac y byddant cadwedig.

"*Theologus.* Y mae ŵyth math o arwyddion a nodau didwyll yn dangos ac yn pennu y dyn a ailaner. Y rhai a ellir yn gymmwys eu cyfenwi, ŵyth arwydd iechydwr-iaeth. A'r rhai hyn ydynt: sef
"1. Cariad tu ag at blant Duw.
"2. Digrifwch yngair Duw.
"3. Aml a difrifol weddio.
"4. Awydd-fryd i osod allan ogoniant Duw.
"5. Ein gwadu ein hunain.
"6. Dioddef-gar ddwyn y groes er budd a chysur.
"7. Ffyddlondeb yn ein galwedigaeth.
"8. Ymarweddiad ônest, cyfiawn, a chydwybodus tu ag at bob dyn yn ein gweithredoedd, a'n buchedd.

"*Phila.* Gan ddangos o honoch i ni arwyddion hyspys o iechydwriaeth, dangoswch i ni hefyd arwyddion damne-digaeth.

"*Theol.* Y gwrthwyneb i'r rhai uchod, ydynt arwyddion amlwg o ddamnedigaeth: nid amgenach na'r rhai hyn, sef
"1. Angharu plant Duw.
"2. Diflasu ar air Duw.
"3. Gweddio yn oer ac yn anfynych.
"4. Difrawch yngwasanaeth Duw.
"5. Hyder arnom ein hunain.
"6. Annioddefgarwch tan y groes.
"7. Anffyddlondeb yn ein galwedigaeth.
"8. Ymarweddiad an-ônest, ac anghydwybodus.

"*Phila.* Diau os halogir dyn a'r beiau hyn, arwyddion sceler ydynt fod y dyn hwnnw a'i enaid yn glwyfus, ac mewn cyflwr enbydus: eithr onid oes etto arwyddion eglurach a hynottach o ddamnedigaeth na'r rhai hyn?

"*Theol.* Oes yn wir: y mae naw arwydd eglur, ac hys-pys o golledigaeth dyn.

"*Phila.* Dymuno cael clywed y rheini.

"*Theol.* 1. Balchder. 2. Putteindra. 3. Cybydd-dod. 4. Dirmyg ar yr Efengyl. 5. Tyngu. 6. Celwydd. 7. Meddwdod. 8. Segurdod. 9. Gorthrymder.

"*Phila.* Y rhain ydynt feiau anafus yn ddiwâd.

"*Theol.* Nid anghymmwys y gellid eu cyfenwi naw Belzebwb y byd. A'r neb sydd a'r arwyddion hyn arno, sydd mewn cyflwr gofidus.

"*Phila.* Beth o bydd dyn wedi ei lygru a dau neu dri o'r rhai hyn?

"*Theol.* Pwy bynnag a lygrir a thri o'r rhai hyn, sydd mewn perigl o golli ei enaid. Canys gwenwyn cynhwynol yw y rhai hyn oll: a phob tri o'r rhain pa un bynnag ai'r tri cyntaf, ai'r tri olaf, ai'r tri canol, ydynt ddigon i wen-wyno yr enaid i farwolaeth: Ië, ac o ddywedyd y gwir, ni byddei waeth i ddyn ddwrn-wascu llyffant a theimlo neidr na chymmyrhedd [mawrygu] ag un o'r rhai hyn.

"*Phila.* A yw pob vn* o honynt mor enbaid?

"*Theol.* Ydyw, canys echrys-haint yr enaid ydynt: os bydd dyn a'r cornwyd ar ei gorph, ein harfer ni yw dy-wedyd fod nodau duw arno; duw a drugarhao wrtho; felly y gallwn ddywedyd yn hydda, o bydd neb yn galon-glwyfus, ac wedi llwyfr-glafychu o'r vn o'r rhai hyn, fod nodau duw ar ei enaid: yr Arglwydd a drugarhao wrtho.

"*Phila.* Nid yw llawer yn tybied fod y pethau hyn mor beryglus ac y dywedwch chwi: Ie y mae llawer yn gwneuthur cyfrif bychan o honynt.

"*Theol.* Gwir yw hynny: canys y mae y rhan fwyaf o'r byd wedi eu gwarchau mewn dallineb, a chaledrwydd calon, heb na chanfod eu pechodau, nac ymwrando a hwynt; ac am hyny yn gwneuthur cyfrif bychan o hon-ynt, gan dybied nad oes mo'r fath berigl ynddynt.

"*Phila.* Diammeu yw fod dynion yn chwannog i wneu-thur prîs bychan o'u pechodau, ac i'w lleihau: neu i'w cuddio, ac i'w coluro a llawer o ddychymmygion dichell-gar, a gwâg-esgusodion. Canys y mae llawer yn chwannog beunydd i lechu, ac i ymddolennu fel nadroedd er mwyn cuddio eu pechodau: ie pe bai bossibl, i wneuthur pechod yn ddibech, i droi rhinwedd yn fai, a bai yn rhinwedd. Am hynny attolwg i chwi adrodd o'r Scrythyrau mor anguriol [angiriol, arswydus], ac mor ffiaidd yw eu pech-odau hwynt.

"*Theol.* Mor erchyll, ac mor ffiaidd yw aruthredd y pechodau hyn, ac na ddichon dyn, nac ar dafod fyngegu, nac mewn Scrifen yspysu eu holl frynti, a'u ffieidra [ffieidd-dra] yn ôl eu dull, a'u naturiaeth. Etto myfi â wnaf fyngoreu ar eu gosod hwynt allan ar gyhoedd i beri i bawb eu ffieiddio.

"*Phila.* Attolwg i chwi gan hynny, dechreuwch yn gyntaf ar falchder.

"*Theol.* Da y dywedwch: canys iawn i hwnnw gael bod yn flaenor: am ei fod yn echrys-haint pennaf o holl anafau yr enaid.

"*Phila.* Dangoswch allan o'r Scrythyrau fod balchder mor anguriol ac mor athrugar [tosturus].

"*Theol.* 'Ffiaidd gan yr Arglwydd bob dyn uchel-galon.'† Yr hyn a ddengys yn eglur fod duw yn gwrth-wynebu, ac yn casau y beilchion. Ac onid peth ofnadwy dybygwch chwi, i ddyn fod yn ffiaidd gan dduw? Ac yn yr un bennod y dywed: 'Balchder sydd yn myned o flaen dinistr, ac vchder yspryd o flaen cwymp.' Ymma y dengys yr yspryd glân fod balchder yn rhagflaenu rhyw gwymp tra-mawr, naill ai trwy anair, neu golli ei gym-

* Defnyddir *v* yn lle *u* gan y cyfieithydd yn ddamweiniol.

† Mewn llythyren wahanol y dyry'r cyfieithydd y difyniadau; ond hwylusach i ni yw difynnodau.

meriad. Canys hên wir ddihareb a ddywed, 'Balchder a gaiff gwymp.' A mynych y gwelir, pan fyddo dynion wedi ymgodi uchaf, yna y maent nesaf i syrthio: megis wrth esamplau Haman, Nebuchadnezzar, a Herod, y meddylir yn eglur. Pan fyddo'r ddueg yn chwyddo, y bydd y corph mewn mannau eraill yn darfod: felly pan fo'r galon yn chwyddedig y bydd yr holl ddyn yn agos i ddinistr. Heb law hyn, yr yspryd glân a ddywed: 'Yr Arglwydd a ddiwreiddia dŷ y beilchion.' A Iob a ddywed am y beilchion: 'Tân heb ei chwythu a'i hyssa hwynt.' Mi a dybygwn wrth hyn pe bai ynom gymmaint a gwreichionen o râs, y gallai yr ymadroddion erchyll hyn, a ddywaid yr yspryd glân, ein darostwng, a thynnu i lawr ein balchder: yn enwedig gan fod yr Scrythyrau yn testiolaethu fod duw yn gwrthladd y beilchion, ac yn ymosod yn bwrpasol i'w herbyn: Ac am hynny gwae hwynt-hwy: pwy a ddichon ei attal ef: yr hwn a wna beth bynnag a fynno.

"*Phila.* Eithr dywedwch i mi, attolwg, a chwithau yn ymadrodd yn erbyn balchder, pa fath falchder ydych chwi yn ei feddwl?

"*Theol.* Yr wyf fi yn deall hyn am bob balchder; yn gystal balchder y galon oddimewn, a'r hwn sydd yn tarddu i'w weled yn wynebau dynion oddiallan: sef yr hwn sydd yn ymddangos yn eglur yn eu geneiau a'u gweithredoedd.

"*Phila.* A ydych chwi yn meddwl hyn hefyd am falchder dynion o'u doniau?

"*Theol.* Ydwyf yn wir. Canys nid oes yn y byd falchder gwaeth, na mwy peryglus na hwnnw. Gochelwch (medd vn) rhag balchder ysprydol, sef balchder o'n dysc, o'n synwyr, o'n gwybodaeth, o'n darllain, scrifennu, pregethau, gweddio, o'n duwioldeb, gwroldeb, cryfder, neu gyfoeth: o'n goruwchafiaeth, bonedd, glendid, neu awdurdod. Canys ni roes duw y cyfryw ddoniau i ddynion i wneuthur marsiandiaeth o honynt, i'w heulo allan i'w gweled er mwyn ceisio oddiwrthynt wag-ogoniant, a chanmoliaeth gan ddynion, drwy yspeilio duw o'i anrhydedd, a honni iddynt eu hunain drwy wâg fôst, y peth sydd ddyledus i dduw, sef clôd am ei ddoniau. Eithr ar fwriad ac amcan arall y rhoes efe ei ddoniau: sef i'w harfer i'w ogoniant ef, ac er llesad i eraill (mewn swydd eglwysig, neu lywodraeth gwlad) yn enwedig y rhai nessaf o berthynas i ni.

"*Phila.* Etto nyni a welwn yn aml fod y rhai mwyaf eu doniau yn fwyaf eu balchder.

"*Theol.* Gwir iawn: oblegid y brethyn rhywioccaf a gymmer amliw yn gyntaf. Ac megis y bydd pryfed yn magu yn y pren rhywiog tyner yn gynt nac yn y caled, a'r ceingciog: ac megis y maga y gwyfyn yn y gwlân rhywiog main, yn hytrach nac yn y garw: felly y mae balchder a gwâg ogoniant yn magu yn gynt mewn rhyw ddyn rhagorol, ac odiaeth ym mhlith math ar wybodaeth a rhinweddau da, nac mewn eraill gwaelach eu doniau a'u rhoddion. Ac o hynny y dywedir mai o liaws pob rhinweddau da y mae balchder yn tarddu allan. Canys balchïo a wna dynion o herwydd eu bod yn ddoethion, yn ddyscedig, yn dduwiol, yn ddioddefgar, yn ostyngedig, &c. Cymmwys gan hynny y cyffelybir balchder i'r blagur surion a darddant allan o foncyff y pren afalau pereiddiaf. Ac o ddywedyd gwir, dymma vn o'r peiriannau rhyfel, a'r arfau perycclaf a gymmer y cythraul yn llaw yn olaf i orchfygu gwir blant duw. Nid amgen, megis eu chwythu hwynt i fynu a balchder fel a phowdr-gwn. Canys megis y digwydd wrth warchau rhyw ddalfa gadarn-gref, pan fetho ei hynnill drwy daro arni, a saethu atti; y dychymmyg olaf fydd cloddio tani a'i chwythu i fynu a gwnpowdr: felly pan fetho Satan orchfygu y rhai rhagorol ym mhlith gweision duw, ei ddichell olaf ef fydd eu chwythu hwynt i fynu a balchder megis a gwn-powdr.

"*Phila.* Myfi a welaf mai grâs enwedigol oddiwrth dduw mewn gwŷr o ddoniau rhagorol yw bod yn ostyngedig o galon: Ac odid o cheir ym mhlith mil o'r rhai a ragorant mewn doniau, oddieithr ychydig, ie prin vn yn rhagori mewn gostyngeiddrwydd. A pha amlaf a fyddo ei rinweddau da, mwyaf o'r cwbl fydd ei ostyngeiddrwydd yn byw; nid drwy ddiystyru eraill, ond tybied o honynt yn well nac o honaw ei hun. Canys mynych y digwydda fod doniau, a rhoddion duw yn ein gwneuthur ni yn waeth, o herwydd nad ydym yn eu trin hwynt yn iawn: Ac o herwydd eu bod yn magu ynom lawer o farw-gig chwyddedig: y cyfryw ac fydd raid beunydd a rhyw sugneli llym ei yssu ymmaith. Ac o hyn y mae duw yn dangos ffafor, a thrugaredd ragorol i'r hwn a dynno ef i lawr i fod yn ostyngedig drwy ryw flinder, a gwendid. Canys oni bai hynny, diau y gorchfygid ni yn hollawl gan y cnawd coegfalch.

"*Theol.* Gwir a ddywedwch; canys y mae'r Apostol yn cyfaddef am dano ei hun, ei demtio ef, a'i drallodi y ffordd honno, a bod yn agos iddo a thra-ymddyrchafu tros fesur o herwydd godidawgrwydd ei ddatguddiedigaethau: oni bai ddanfon o dduw iddo o'i ddirfawr drugaredd, swmbwl yn y cnawd i'w oeri, ac i'w attal (sef cennad Satan) a'r hwn yr iachaodd yr Arglwydd ef o'i falchder. Ac felly y mae efe yn iachau llawer o honom ninnau oddiwrth ein balchder drwy ein taflu i Satan, a'n gadael arnom ein hunain, a'n rhoddi i fynu i wneuthur rhyw bechod anguriol, megis syrthio bendramwnwgl a thorri ein gyddfau. A'r cwbl oll er mwyn ein darostwng, ein gwârhau, a thynnu i lawr ein balchder: o'r hwn y mae efe yn gweled fod ein calonnau wedi clafychu. Gan hynny da yw i ni ein darostwng, yn amlder ddoniau, a rhadau duw, rhag i ni falchïo o'r pethau sy gennym, neu o'r pethau a wnaethom. Canys gwell yw o'r ddau ymostwng mewn pechod na balchïo o dduwioldeb.

"*Phila.* Yn hyn yr ymddengys doethineb a thrugaredd dduw yn ddiandlawd: sef ei fod efe mor raslon yn tynnu daioni allan o ddrygioni, ac yn troi ein blinderau ni, ein gwendid, a'n cwympiau i'w anrhydedd ei hun, a llesad i ninnau.

"*Phila.* Onid oes dim achos i wŷr a chanddynt ddoniau rhagorol, i ymorfoleddu dim yn eu doniau?

"*Theol.* Nac oes ddim. O blegid yr Apostol a ddywaid: 'Pwy a'th neillduodd di? Beth hefyd sydd gennit ar nis derbyniaist, ac os derbyniaist, paham yr wyt ti yn ymorfoleddu megis pe nas derbyniaist?' lle y mae'r Apostol yn dangos yn eglur, na ddylai neb fod yn falch o'r doniau a roes duw iddo ef: Nid oes iddo ond cynnwysiad [caniatâd] i'w trin, ac i'w harfer. Os benthyccia dyn gan arall ddillad gwychion, sef gown o sidan, a phais o satyn, cadwyn aur, a chlos melfed; ac a ymsongcei yn y rhai hynny allan ar osteg, megis pe baent yn eiddo ei hun: oni thybiem ni yr haeddai hwnnw chwerthin am ei ben, megis dyn ffôl? felly y dylid cyfrif yn ffyliad y rhai a falchïant o'r doniau a roes duw iddynt tros amser, y rhai nid yw eiddynt eu hunain. Am hyn y dywed y Prophwyd Ieremias: 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd: nac ymffrostied y doeth yn ei ddoethineb, ac nac ymffrostied y crŷf yn ei gryfder: ac nac ymffrostied y cyfoethog yn ei gyfoeth; eithr y neb a ymffrostio ymffrostied am hyn, ei fod yn deall ac yn fy adnabod i.' I'r ystyriaeth hyn y dywed y Poet digred: 'Ni ddichon neb ddiangc rhag cospedigaeth am falchder, am hynny na falchïed neb yn ei lwyddiant.'

"*Phila.* Etto rhyfedd yw gweled falched, sured, hoiwed, goeced, a phen-vched yw llawer o herwydd eu doniau a'u campau da: yn tybied eu bod cyfuwch a'r cymmylau, ac nad yw y ddaiar yn eu cynnal: Tybied y maent eu bod yn Angelion bychain, neu yn rhyw fath ar greaduriaid rhyfeddol. Diystyru a wnant a dirmygu pawb eraill, y rhai nid oes ganddynt y cyfryw ddoniau. Edrych arnynt a wnant yn ddiystyr, fel llew ar lygoden, neu frenin ar gardottyn.

"*Theol.* O ludw balch, ô fwyd-pryfed uchel-fryd: pe gosodent eu calonnau o flaen duw a'u cydwybodau, a'u meddyliau a'u nwydau i'w barnu wrth ei gyfraith ef: hynny a'i hacrei hwynt, ac a'u gostyngei yn ddigon issel:

Digitized by Google

yna y caent weled fod eu diffygion, a'u amherffeithrwydd yn gymmaint, ac na byddei iddynt mwy achos i ymffrostio, nac i'r Ethiopiad o'i wynder, am fod ei ddannedd yn wynion. Yr yspryd glân sydd yn torri ein cribau ni, ac yn gostwng balchder ein cnawd, pan yn dywedyd: 'Mor fychan yw'r peth y mae dyn yn ei glywed, neu yn ei wybod am dduw.'

"*Phila.* Awn rhagom, attolwg, i dreuthu am y balchder hynod a diwin [diwyn] sydd yn dwyn rhwysc yn y byd. Ac yn gyntaf dim dywedwch i mi, beth a dybiwch am falchder mewn dillad?

"*Theol.* Tybied yr wyfi fod hynny yn oferedd tu hwnt i bob oferedd: ac yn ffolineb tu hwnt i bob ffoledd. O blegid balchïo o ddillad fyddei megis pe balchïei lleidr o'i gebystr [cortyn], neu gardottyn o'i glyttiau, neu blentyn o'i frithni, neu ddyn ffôl o'i degan.

"*Phila.* Er hynny, ni a welwn mor feilchion yw llawer (yn enwedig gwragedd a merched) o'r cyfryw deganau. Canys darfyddo iddynt dreulio trauan [traian] y diwrnod yn ymdrwssio, ac yn ymdacclu: yn ymbingcio ac yn ymbinio, yn ymsongci ac yn ymgymmwyso, yn ymwisco ac yn ymlassio, yn ymhoiwi ac yn ymloiwi, ac yn ymwychu yn y modd manylaf; yna deuant allan i'r heolydd a'u siop pedler ar eu cefnau, a'u corŷnau yn dra uchel, gan eu tybied eu hunain yn angelesau bychain, neu yn bethau amgenach na merched eraill. O hyn y digwydd eu bod yn ymchwyddo o falchder, ac yn barod i dorri ar eu traws wrth gerdded yr heolydd. Ac yn wir fe ellir tybied fod y cerrig yn yr heolydd, a'r coed yn y tai yn dychrynu, ac yn rhyfeddu weled eu hansuttiol, a'u hanfeidrol falchder. Canys cyffelyb yw nad ydynt ond swpp o falchder, ac o falchder y gwnaed hwynt, ac nad oes ynddynt ddim ond balchder, balchder.*

"*Theol.* Yr ydych chwi yn frŵd yn yr achosion hyn.

"*Asune.* Yn wir, Syr, yr wyf finnau yn tybied yn well o honaw ef. Canys ni bu'r byd erioed mor llawn o falchder, ac y mae yn y dyddiau hyn.

"*Theol.* Pwy a ddichon ymattal rhag dywedyd yn erbyn balchder yr oes hon? Pa achos sydd i gig a gwaed, i fwyd pryfed llwch a lludw, i bridd a domm ymhoiwi mewn brattiau gwychion, yngolwg Duw, ac Angelion, a dynion: Canys fe ddaw yr amser pan gladder hwynt, a'u holl wychder mewn beddrod. Ie fel y dywed Iob: Pan y byddo y bedd yn dŷ iddynt, a phan gyweiriant eu gwelu mewn tywyllwch: Pan ddywedant wrth lygredigaeth, 'ti wyt fy nhâd, ac wrth y prŷf, ti wyt fy mam a'm chwaer.' Pa lesâd a wna iddynt y pryd hynny eu bod gynt yn ymrwfflio [ymgrychlenu] mewn pob gwychder, pan orfyddo yn ddisymmwth descyn i ddestryw: Pa lesâd a wnaeth i'r gŵr goludog ymddilladu a gwiscoedd gwerth-fawr, a chymmeryd ei fyd yn ddanteithiol, pan gladdwyd ei gorph ef yn y bedd, a'i enaid yn nhân uffern?

"*Asune.* Beth a ddwywedwch chwi am y rwffiau [clwydi] mawrion y rhai a gynhelir i fynu ag attegion, ac a rebattos [tyrch gyddfau] megis a phŷst ac a chledr?

"*Theol.* Beth a ddywedaf am danynt; ond duw a dosturio wrthym. Canys y cyfryw bethau sy'n tynnu i lawr lid, a dial duw arnom oll. Megis y dywed yr Apostol, 'O achos y pethau hyn y daw digofaint duw ar blant yr anufydddod.' Ac yn wir ddigelwydd, y mae i ni achos i ofni y dŵg duw ddialedd arnom am ein ffiaidd falchder.

"*Asune.* Beth a ddywedwch chwi am y rwffiau triphlyg, a phedwar-plyg, y rhai a arferir yn y dyddiau hyn yn sathredig? Ac am y ffardingal† gwmpasiog, y cudynau lleision, y topynnau, y crych-wallt, a'r holl arfer newydd a ddychymmygir, ac a adnewyddir beunydd?

"*Theol.* Hyn a ddywedaf, mai pell ydynt oddiwrth y symlrwydd, a'r lledneisrwydd a fu yn yr oesoedd gynt: Nid adwaenai ein tadau ddim o'r fath beth. Darllain yr ydym am William Rufus, a fu gynt yn frenin ar y deyrnas ymma, pan ddug ei stafelludd atto bâr o hosanau newydd, ofyn o honaw beth a gostiasent, attebodd yntef, mai tri swllt: yno y Brenin yn ddigllon a orchymynnodd geisio iddo bâr a gostiei forc. Os tybid yn y dyddiau hynny fod yn ormod i frenin dalu morc am bâr o hosanau: beth a dybiwn ni am lawer o ddynion gwael yn y dyddiau hyn (heb na bod yn berchen tiroedd, na chwaith o alwedigaeth enwog) y rhai a dalant am vn-pâr gymmaint ac a roddei y brenin am ddeubar,‡ pan oeddid yn ei farnu ef yn afradlon. Eithr sywaeth, nyni a aethom tros derfyn gweddeidddra, a chymmesurdeb. Nid oes reswm arnom: Y pechod hwn sy rydrwm i'n glwad ni. Canys balchder pob cenedl, a ffoledd pob gwlad a ddaeth i'n plith, pa fodd y dygwn y pethau hyn? Ac am yr arfer newydd, pa newyddaf, ffolaf o'r cwbl: Canys a'n harfer newydd yr ydym ni yn myned yn llwyr allan o bob arfer dda. Pe bai gynnifer gosgedd ar ein cyrph; ac sydd o amryw agwedd ar ein dillad, e fyddei gynnifer dull arnom ac sydd o rifedi bysedd, ar ein dwylo, a'n traed. Eithr ofer-ddynion yn feibion ac yn ferched a ddangosant yn amlwg ysgafned yw eu meddyliau pan ydynt mor chwannog i ddilyn y fath oferedd a ffôl arfer.

"*Asune.* Ni bu'r byd yn dda byth er pan ddaeth y fath startsio, a rhwbio, a'r dwyfron-bren, a'r whâl-bôns: Yr attegion a'r rebattôs, y peintio a'r lliwio, a gwerthu pryd a gwedd. Oblegid er pan ddaeth y pethau hyn y daeth cybydd-dod, trais a thwyll. Canys pa fodd amgenach y cynnelid balchder. A diau o fewn y deg mlynedd ar hugain hyn, nad adwaenid, ac na chlywsid sôn am y pethau ymma. Gan hynny beth a ddywedwch chwi am goluro wynebau, noethi dwyfronnau, lliwio y gwallt, gwisco perwig, a gwallt gosod, a thop-galantau? A pheth a ddywedwch chwi am y merched a wneir yn lluniaidd drwy gelfyddyd, y rhai a fynnant fod yn well eu llun nag y gwnaeth duw hwynt. Nid ydynt fodlon i waith ei ddwylo ef: hwy a fynnant wellhau ar hwnnw, drwy gael gwedd arall, dwyfronnau eraill, a boliau eraill amgenach nac a wnaeth duw iddynt.

"*Theol.* Hyn yr wyf yn ei ddywedyd, fod i chwi, ac i minnau ac i bobl yr Arglwydd oll, achos mawr, a chyfiawn i alaru, i wylo, ac i gwynfan am wneuthur y cyfryw ffieidd-dra yn Israel. Afonydd o ddyfroedd a ddescynent o lygaid dafydd am nad oedd dynion yn cadw cyfraith dduw. Ac ofn aruthr a ddaeth arno ef o blegid yr annuwiolion, y rhai oeddynt yn gadu cyfraith duw. A Ieremy a ocheneidiei yn ddirgel, gan ddymuno bod ei ben yn llawn dwfr a'i lygaid yn ffynnon o ddagrau o achos pechodau y bobl. Nehemias oedd yn galaru tros gamweddau y bobl. Lot gyfiawn oedd mewn gofid drwy anniwair ymarweddiad y Sodomiaid. Ac oni alarwn ninnau am y pethau hyn? Oni ymofidiwn ddim am falchder ein gwlad? Oni ollwngwn ddim dagrau am y cyfryw ffieidd-dra erchyll? y fath ni ddylid eu dioddef mewn gwlad? Casedig ydynt o flaen Duw a dynion: oni bai fod yn rhagorol ei ddioddefgarwch, a'i hir-ymaros, y cythraul a'i cippiai hwynt ymmaith yn

* Y mae y darlun uchod mor gywir o arfer y rhan fwyaf o fenywod yr oes hon a phe buasai yr awdur yn llygad-dyst o benau afluniol, costfawr, a chynffonau hirion, diles, a drudfawr ein genethod, y rhai a beidiant i heolydd ein dinasoedd, a thai addoliad y dyddiau hyn. Y mae y rhan fwyaf o honynt yn dyfod i'r mannau a nodwyd, "gan rygyngu â'u traed," fel y dywed y prophwyd, yr un ffunyd a phe bai "siop pedler ar eu cefnau, a'u penau yn dra uchel," fel pe baent yn tyfu ynghanol swp o flodau a thlysni; ac, yn wir, y mae'r meibion hefyd yn rhedeg yn llawer rhy bell "i'r unrhyw ormod rhysedd;" ac nid oes neb yn dywedyd wrthynt, er iddynt fod yn aelodau proffesedig o grefydd Crist, "Drwg y gwnewch chwi!" Gresyn na chymmerai aelodau y cyfundebau crefyddol cyffredin esampl yn hyn, ac mewn llawer o bethau eraill hefyd, oddi wrth ddull syml, dirodres, a rhad, mewn cymhariaeth, y "Cyfeillion" (Cwacers) disyml, y rhai, yn lle eu gorwychu eu hunain â phethau aflesol a chwbl afreidiol, a roddant yr arian a wastreffir ar wychderau diles gan eraill, i gynnorthwyo y tlawd a'r amddifad, y claf a'r clwyfus, o'u brodyr a'u chwiorydd.

† Fardels, sypynau, bwrnelau.

‡ Ystyrid hosanau gwychion yn bwysig gynt, pan na wyddid am unrhyw lodrau ond y "clôs pen glin."

Digitized by Google

fyw, neu dân a brwmstan a syrthiai arnynt o'r nefoedd i'w difa.

"*Antil.* Yr ydych chwi yn rhy frŵd yn y matterion hyn am ddillad. Prysurach ydych nac a fyddei raid.

"*Asune.* Y mae gennifi ddiolch iddo. Bendith dduw i'w galon. Mi a'i caraf ef yn fwy tra yr adwaenwyf ef, am fod mor ddiragrith yn erbyn y cyfryw falchder cywilyddus a ffiaidd. Onid cywilydd i ferched yn cyfaddeu gwir grefydd, eu gwneuthur eu hunain yn gyfryw eulynod, a delwau, a pheunod ac y maent? Ac er hyn nid wyfi yn clywed fod nemmawr o'r pregethwyr yn dywedyd yn y pulpyt yn erbyn hyn.

"*Antil.* Rhyfedd yw gennif eich bod chwi mor frŵd yn achosion dillad. Chwi a wyddoch yn ddigon da nad yw dillad ond pethau cyffredin, ac nad yw crefydd, a theyrnas Dduw yn y pethau hyn.

"*Theol.* Mi a wnn yn dda nad yw dillad yn eu naturiaeth eu hunain ond pethau cyffredin, eithr nid pethau cyffredin yw dillad coeg, anlladaidd, anllednais, ac anhardd. Canys y mae pob cyfryw gamarfer yn tynnu ymmaith y cyffredinolrwydd, ac yn eu gwneuthur yn bechadurus, ac yn ddrygionus, o herwydd y moddion, sef y ffrwythau a'r digwyddiadau sy'n canlyn. Canys pe amgen, paham y bygythiai Duw drwy ei Brophwyd, yr ymwelai efe a phawb a wiscent wiscoedd dieithr, hynny yw dull ac agwedd dillad gwledydd eraill, ie hyd yn oed y tywysogion, a phlant y brenin. Paham hefyd y dygei yr Arglwydd y fath blâ ar bendefigesau beilchion, a'r mursennod hoiw yn Ierusalem am eu balchder a'u coegni mewn dillad, oni bai fod y cyfryw gamarfer yn ddrygioni? Fel hyn y dywed yr Arglwydd drwy'r Prophwyd Esau, yn erbyn y meistresod gwychion hynny. 'O herwydd balchïo o ferched Sion, a rhodio â gyddfau estynedig, ac yn amneidio a'u traed gan rodio, a rhygyngu y cerddent, ac y trystient a'u traed: ac am hynny y clafria yr Arglwydd gorŷnau merched Sion: Yr Arglwydd hefyd a ddinoetha eu gwarthle hwynt: Yn y dydd hwnnw y tynn yr Arglwydd addurn yr escidiau, y rhwydau hefyd a'r lloerawg wscoedd, y perarogl, y breichledau, a'r moledau: y penguwch a'r llawdrau, a'r snodennau, a'r dwyfronegau: a'r clust-dlysau, y modrwyau, ac addurn-wisc y trwyn: y gwiscoedd symmudliw, a'r hefysau. Y misyrnau hefyd a'r pyrsau, y drychau hefyd a'r lliain meinwych: Y cocwllau, a'r gŷnau. A bydd yn lle peraroglau ddrewi: bydd hefyd yn lle gwregys rwygiad, ac yn lle iawndrefniad gwallt foelni: ac yn lle dwyfronneg gwregys o sach-liain: a llosgfa yn lle prydferthwch. Dy ddynion a syrthiant drwy'r cleddyf, a'th gadernid drwy ryfel: felly ei phyrth hi a ofidiant, ac yn wag yr eistedd hi ar y ddaiar.'

"Fel hyn, ni a welwn mor ofnadwy y mae Duw yn bygwth y gwragedd heini yn Ierusalem am eu balchder rhyfygus, a ffiaidd. A hyn a ddichon fod yn ddrŷch i'r mursennod beilchion yn ein dyddiau ni, y rhai y mae achos iddynt i ofni, y dŵg Duw ryw farnedigaeth drom arnynt, megis y dûg efe gynt ar ferched Ierusalem. Canys eu pechodau hwynt yn hyn o beth ydynt mor ffiaidd, a chymmaint ac oedd yr eiddo merched Sion. Ac yn Duw yw efe yr awr-hon ac ydoedd y pryd hynny i gospi balchder.

"*Antil.* Na cheisiwch mo'ch rhuad a'ch dadwrdd ynghylch yr achosion hyn am ddillad. Canys y mae yn rhaid i ni wneuthur fel y gwnelo eraill: a chanlyn yr arfer, ac onidê ni wneir cyfrif o honom.

"*Theol.* Os chwi nis canlynwch hwynt, e wneir mwy cyfrif o honoch gyd â Duw, a'i Angelion, a'i seintiau, a phob dynion da. Ac am bawb eraill, os chwi a wnewch fwy cyfrif o honynt nac o'r rhain, dyna arwydd pa fath ydych.

"*Antil.* Gadewch i hynny fod: etto er hyn i gyd, dywedwch chwi a fynnoch, yn y galon y mae balchder, ac nid yn y dillad. Canys fe ddichon dyn fod yn falch o ddillad cymmedrol megis o ddillad gwychion. Ac y mae rhai cyn falched o'u colerau llyfnion, ac o'u rwffiau byrion vn-plŷg, ac ydynt eraill o'u rwffiau mawrion.

"*Theol.* Ynfyd yr ydych chwi yn siarad: Pa fodd y gwyddwch chwi hynny? A fedrwch chwi farnu calonnau, a meddyliau dynion? Pan fyddo dillad meibion, a merched yn sobr, yn weddaidd, yn llednais, ac yn Gristionogol, a ellwch chwi ddywedyd eu bod hwy yn feilchion o'r cyfryw ddillad? Pell dros dros ben yw eich ergyd chwi, gymmeryd arnoch, farnu'r galon. Chwi a ddylych farnu mewn cariad am y rhai a ymwiscant yn sobr, ac yn weddaidd, fod eu calonnau yn gyffelyb i'w gwisciad. Ond am danoch chwi, myfi a allwn yn hytrach dybied fod eich calon yn ofer, yn yscafn, ac yn ynfyd, o herwydd bod eich dillad hoiw yn arwydd eglur o hynny. A bod fel y dywed y Prophwyd, dull eich wynebau yn testiolaethu i'ch erbyn, a chwithau hefyd fel Sodoma yn mynegu eich pechodau, ac heb eu celu.

"*Antil.* Gosodwch chwi ar lawr, adolwyn, ryw drefn am ddillad, allan o'r Scrythyrau.

"*Theol.* Gosodwyf fi a fynnwyf, y rhan fwyaf yn feibion, ac yn ferched a wnant yr hyn a fynnant hwythau. Canys y mae lle i dybied, fod llawer yn yr oes hon, wedi rhoi diofryd dilyn Duw, a'i air, a phob daioni. O blegid y maent wedi dyfod cyn belled a hyn dyweded Duw a fynno, hwy a wnant y peth a fynnont hwythau. Canys fel y dywed y Prophwyd: 'Hwy a wnaethant gyfammod ag uffern, ac â'r bedd y gwnaethant gyngrair.' Ac yr wyfi yn tybied pe descynnei Duw ei hun i lawr o'r nefoedd, a chynghori meibion a merched i roddi heibio eu gwagedd mewn dillad, etto y canlynent eu harfer, er gwaethaf Duw, i'w gythruddo ef ymhellach. O blegid rhoisant gymmaint serch ar y peth, a chymmaint difyrrwch ynddo, ac na fynnant amgen, na chadw eu harfer, pe rhôn a bod dynion, ac Angelion, a'r byd oll yn dywedyd y gwrthwyneb. Ie y peth sydd fwy, pe gorfyddei iddynt fyned i ddiafol yn fyw gyd a'r peth. Ac am hynny gwaith ofer yw pregethu, neu scrifennu, neu ddywedyd yn eu herbyn. Gwaith cyffelyb i aredig y môr, neu guro wrth ddrŵs gŵr byddar, canys nid oes obaith o'u gwellâd. Hyn yn unig sydd i ni i'w gael am ein poen, sef fod y byd wedi ei argyoeddi, a'i farnu am bechod. A'r pethau hyn fydd dŷst yn eu herbyn yn y dydd diwaethaf, fel na allant ddywedyd amgen; na chawsant rybudd têg, ac na bu prophwyd yn eu plîth.

"*Phila.* Etto er hyn i gyd, gosodwch ar lawr ryw drefn a rheol allan o air Duw, ynghylch dillad. Canys er bod rhai yn ddrwg, ac yn ofergoelus yn y pethau hyn: etto diammeu yw, fod eraill ar feddwl da yn gwneuthur cydwybod o fyw yn ôl gair Duw.

"*Theol.* Er mwyn y rhai sy ar feddwl da, myfi a osodaf ger bron beth cyfarwyddyd iddynt. S. Paul a fynnei i wragedd ymwisco mewn dillad gweddol, gyd â lledneisrwydd a chymmesurdeb. Nid a gwallt plethedig, neu aur, neu gemmau, neu wisc werthfawr; eithr megis y gweddai i wragedd yn addo duwioldeb, a gweithredoedd da. S. Petr hefyd sydd yn gosod ar lawr yr un fath rêol. Canys efe a ddywed wrth grybwyll am wragedd Cristianogaidd, ac yn cyfaddef crefydd, y dylei y cyfryw rai fod a'u trwsiad, nid oddiallan sef yn sefyll ar wychder y corph: 'Megis plethiadau gwallt, ac amgylch-osodiad aur, a'r cyffelyb; ond ar harddwch oddimewn, fel y byddo dirgel ddyn y galon mewn anllygredigaeth yspryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr. Canys felly gynt (medd efe) yr ymdrwsiei'r gwragedd sanctaidd, y rhai oeddynt yn gobeithio ar dduw, megis Sara, Rebecca, Rahel, a'r cyffelyb henaf-wragedd llednais.

"*Phila.* Ar ba beth yn bennaf y mae'r trwsiad hwn oddimewn yn sefyll?

"*Theol.* Ar bedwar peth, y rhai a osodwyd ar lawr yn y lleoedd a henwyd o'r blaen: sef lledneisrwydd, cymmedroledd, yspryd llonydd, ac yspryd addfwyn.

"*Phila.* Dymma wiscoedd gwychion yn sicer. Mi a

Digitized by Google

fynnwn pe gwiscai bawb o'r gwragedd, y rhai hyn am danynt heb eu diosc vn amser, ond eu gwisco beunydd. Canys y rhain ydynt well o'u gwisco, er bod gwiscoedd eraill yn waeth.

"*Theol.* Beth ped ymdrwsiei gwragedd oddimewn a'r rhinweddau vchod: Hwy a fyddent yn lle tlysau o aur, a pherlau. Canys y gwragedd a ofnant yr Arglwydd, a ganmolir.

"*Phila.* Moeswch glywed attolwg Syr, eich barn chwi am wiscoedd y corph.

"*Theol.* Hyn yw'r cwbl a fedraf fi ei ddywedyd am y matter ymma: y dylei ein gwisciad ni fod, fel y dywed yr Apostol yn weddaidd, yn drefnus, yn hardd; ac nid yn ysgafn, yn anlladaidd, yn anwladaidd, ac yn dramgwyddus.

"*Phila.* Pa fodd y bernwch chwi beth sydd weddaidd, trefnus a hardd? Canys fe ddywed pob mâb, a phob merch fod eu dillad, yn weddaidd, ac yn drefnus, er hoiwed, er gwyched, er ofered fyddont.

"*Theol.* Yn hyn o beth nyni a ddylem ddilyn siamplau y gwŷr a'r gwragedd Duwiolaf, synhwyrolaf, sobraf, a lledneisiaf. Pwy a fedr yn well na'r cyffelyb, farnu beth sydd hardd, a gweddaidd, a chymmesur?

"*Phila.* Eithr nyni a welwn rai o'r rhai goreu wedi llygru peth arnynt, a myned tros y terfynau ynghylch dillad.

"*Theol.* Gwaethaf ôll. Eithr sywaeth, ni a welwn fod rhwysc yr amser, a nerth y ffrŵd cyn gryfed ai bod yn dwyn gyd a hwynt beth bynnag nid yw wedi ei sefydlu, a'i wreiddio yn ddwfn, ac yn gadarn. Ac ymbell rai duwiol (er nad yw eu calonnau yn tueddu at y pethau hyn) a ddygir ymmaith gyd â nerth y gwynt, a'r llanw. Y rhai er nas gellir yn hydda na dadleu yn eu cweryl, nac escusodi eu cyflwr, etto fe ddylid tosturio wrthynt, ac ymofidio trostynt.

"*Phila.* A oes gennych chwi ddim cyfarwyddyd ychwaneg ynghylch yr achos ymma?

"*Theol.* Oes un peth ychwaneg, sef y dylei dillad pob dyn fod wrth ei radd, a'i le, a'i alwedigaeth. Canys nid yw hardd ar y naill ddyn, y peth sydd hardd ar y llall: Nid cymmwys i'r tlawd y peth a weddai i'r cyfoethog. Ac anhardd yw ar ddynion gwael [isel], y peth sydd drefnus, a chanmoladwy ar bendefigion, a phennaethiaid."

Y mae yr awdur yn trin yr wyth bechod arall a nodasai, sef putcindra, cybydd-dod, dirmyg ar yr efengyl, tyngu, celwydd, meddwdod, seguryd, a gorthrymder, gyd â'r un manylrwydd a llymder.*

Ar ol y "Llythyr at y Darllenydd," sydd o flaen y "Trysor i'r Cymro," o gyfieithiad Richard Jones o Ddinbych, 1677, dywedir am "Lwybr Hyfforddd" Ficar y Waun fel hyn: "Os Duw a rydd iechyd a bywyd, disgwyliwch mewn amser am ail brintio y *Llwybr Hyfforddd i'r Nefoedd*, a *Llyfr y Resolusion;* y rhai, nid yn vnic er mwyn y matter, ond hefyd er mwyn y iaith tra-rhagorol sydd ynddynt (ac yn enwedig y diweddaf o'r ddau (o ran iaith) wedi osod allan gan y cymreigiwr goreu yng-Hymru, yn ei amser, sef y *Doctor Davies*) a haeddant eu printio drachefn." Y mae'r ddau lyfr hyn, ac amryw lyfrau eraill o'r cyfnod yma a'r ddau nesaf, yn anrheuthol deilyngach, o ran matter ac iaith, o gael "eu printio drachefn," yn yr oes hon, na llawer o'r pethau a brintir; a gresyn calon nad ymroddai rhyw gyhoeddwr galluog neu gymdeithas wladgarol i gyhoeddi argraphiad unffurf o waith ein prif awduron, o Fibl y Dr. Morgan, yn 1588, hyd draethawd Gwallter Mechain ar ryddid, yn 1791, tebyg i gyfresi Seisnig Bohn, Gilfillan, ac eraill.

Yn yr argraphiad diweddaf o "Hanes y Ffydd," a gyhoeddwyd dan olygiad y Dr. P. Williams, Llanbedrog, yn 1822, dywedir: "Ac, i hyfforddi ein Pregethwŷr, perffeithiodd y Dr. Davies o Fallwyd DDICTIONARY Cymraeg a ddechreuasai'r Dr. Thomas Williams, ac eraill o ewyllyswyr da i Gymru. Efe a wnaeth rammadeg Cymraeg hefyd, ac a gyfieithodd lyfrau godidog tu ag at adeiladaeth ysprydol; sef 'Llyfr y Resolution,' a'r 'Ymarfer o Dduwioldeb,' a'r 'Llwybr Hyfforddd i'r Nefoedd.'"† Yn yr argraphiad olaf yn unig y gwnaed y camhyspysiad yna, trwy i'r golygydd neu yr argraphydd ddywedyd, "ac a gyfieithodd lyfrau," yn lle fel y dywedodd Charles Edwards ei hun, "a chyfieithwyd llyfrau." "Llyfr y Resolution" yn unig a gyfieithodd y Dr. Davies; eithr Robert Llwyd, Ficar y Waun, fel y dangoswyd eisoes, a gyfieithodd y "Llwybr Hyfforddd," a Rowland Fychan, o Gaergai, fel y ceir gweled rhag llaw, a gyfieithodd yr "Ymarfer o Dduwioldeb."

Yr hanes ddiweddaf sydd genym am Robert Llwyd, Ficar y Waun, ydyw, bod Profyddion Cromwel wedi ei droi allan o'i fywiolaethau yn 1654.‡ Yr oedd y clerigwyr Cymreig yn cael eu troi allan o ddiffyg gwybodaeth o egwyddorion crefydd, ac o'r iaith Gymraeg, am esgeuluso pregethu, am anfoesoldeb, neu o herwydd eu gel-

* Yn hyn yr oedd yr awdur yn debycach i'r apostolion nag i lawer yn yr oes hon, a fynnant i'r wlad feddwl eu bod yn ddiwygwyr digyffelyb: y rhai a wnant ddelw fawr o *un* pechod (meddwdod), ac a ymunant â'r byd annuwiol i geisio ei ddryllio, fel pe bai Eglwys Crist yn annigonol, heb gymmorth y byd, i lanhau hyd yn oed ei haelodau ei hun oddi wrth y pechod yma, ar yr hwn y pregethant ac y darlithiant beunydd a beunos, gan adael i'r eglwys a'r byd, o'u rhan hwy, i fadru mewn pechodau eraill sydd cynddrwg yn ol y Bibl, megis balchder, a'r lleill a nodwyd, a'u cyffelyb (Gal. v. 19–21; Eph. iv. 28–32), heb draethu na phregeth na darlith yn eu herbyn ddydd mewn blwyddyn. Nid rhyfedd bod cyn lleied o fendith ar ymdrech unplyg o'r fath, a bod y ddelw, yn lle cael ei dryllio, yn myned gryfach gryfach o flwyddyn bwygilydd. Dilyned Eglwys Dduw gyfarwyddyd y Bibl, trwy ymroddi i'w glanhau ei hun oddi wrth *bob* pechod, gan ddyfod allan o ganol annuwiolion, ac ymddidoli (2 Cor. vi. 17), heb ymgymmysgu â hwynt. "Os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eulun–addolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn grib-ddeiliwr, gyd â'r cyfryw ddŷn ni ddylai y saint gyd-fwyta chwaith wrth fwrdd yr Arglwydd" (1 Cor. v. 11.) Sylwed yr eglwys hefyd ar yr hyn a ddywed Paul ymhellach: "Canys beth sydd i mi a farnwyf ar y rhai sydd oddi allan? Onid y rhai sydd oddi mewn yr ydych chwi yn eu barnu? Eithr y rhai sydd oddi allan, Duw sydd yn barnu" (1 Cor. v. 12, 13.)

† Hanes y Ffydd, t. 300.
‡ Walker's Sufferings of the Clergy; Llyfr. y Cymry, t. 300.

Digitized by Google

hyn fod Ficar y Waun yn bur gymmeradwy gan ei esgobion.

Yn y flwyddyn 1629, ymhen pedair blynedd ar ol y dyrchafiadau diweddaf, cyhoeddwyd

"Pregeth ynghylch Edifeirwch, gan Arthur Dent.* O gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficar y Waun, yn sir Dinbych."

Paham yr arferwyd y gair "gynt" yn yr enwad-ddalen uchod, nis gwyddom; ond y mae genym sicrwydd yn y cofnod canlynol, yr unig un sydd ynghoflyfr Eglwys y Waun yn crybwyll enw R. Llwyd, ei fod ef yno ymhen pedair blynedd ar ol cyhoeddi pregeth Arthur Dent: "Jane Lloyd filia Rob[ti] Lloyd vicarii de Chirke sepulta fuit apud Llandysyl 26. Septembris 1633;" h.y. Jane Llwyd, merch Robert Llwyd, Ficar y Waun, a gladdwyd yn Llandysyl y 26ed o Fedi, 1633. Dengys y cofnod yma hefyd fod Robert Llwyd yn ŵr priod; ond pwy oedd ei wraig, nid yw hyspys. Fe ddichon mai brodor o Landyssul oedd hi neu efe, os nad pob un o'r ddau, ac mai hyny oedd un achos iddo gladdu ei ferch ym mynent y plwyf hwnw yn hytrach nag ym mynwent y Waun, heb law ei fod yn berson Llandyssul. Beth bynag am hyny, prif waith Robert Llwyd oedd y cyfieithiad canlynol:—

"Llwybr Hyfforddd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd. Yn yr hwn y dichon dyn ystyriol weled ei gyflwr presennol, pa un ai cadwedig ai colledig. Wedi ei osod allan ar ddull ymddiddanion, yn gyntaf yn Saesonaec, o waith Arthur Dent, Gweinidog Gair Duw. Ac yr awr-hon ei gyfieithu yn Gamber-aec er cymmorth i'r Cymro annysgeedig, fel y gallo efe gael yn ei dafodiaith ei hun, foddion a chyfryngau i chwanegu ei wybodaeth i wasanaethu Duw."

Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r gwaith godidog yma, dan olygiad y Cymreigiwr campus, Charles Edwards, yn 1682; ac y mae copi carpiog, anghyflawn, o'r argraphiad yma ymeddiant yr ysgrifenydd. Dengys dernyn o ddalen sydd o flaen y gwaith ei fod wedi ei gyflwyno i ryw Arglwydd, yr hwn ddernyn a derfyna fel hyn:—

"Hwn y fath ac ydyw, gyd a'm fy [coll gair] a'm gwasanaeth goreu, yr ydwyf yn rhwydd-galon, ac a phob gostyngeiddrwydd yn eu gosod ar lawr wrth draed eich Arglwyddiaeth chwi. Arglwydd yr Arglwyddi, a gynnyscaeddo eich Arglwyddiaeth chwi a lluosogrwydd o bob doniau cymwys, addas, ac angenrheidiol i drin yr Alwedigaeth gyssgredig i'ch galwodd Duw iddi.† Hyn a weddiaf beunydd, gan barhau yn

"Eiddo eich Arglwyddiaeth
"i'm gorchymmyn tra bwyf,
ROBERT LLOYD."

Yn niwedd ei "At y Darllenydd" sydd o flaen yr argraphiad cyntaf, efe a ddywed: "O'm stafell yn Ffoster-lân yn Llundain yr Vgeinfed dydd o fis Medi, 1629. Yr eiddot yn yr Arglwydd, R. Ll." Wrth ymresymu â'i "Ddarllenydd," efe a ddywed fel hyn:—

"Ai anhawdd genit dreulio amser yn y gorchwyl hwn, nid rhaid i ti golli dim amser a waethygo arnat, neu a rwystro dy orchwylion bydol yn eu pryd: y mae'r nos yn hir y gaiaf, a'r Suliau a'r gwyliau yn hir yr hâf; gad ymmaith y twmpath chwareu, a'r bowliau, a'r tafarnau, a'r bêl-droed, a'r denis, a'th negeseuau; gwna y pethau hyn yn weddol ar dy ddiwrnodau dy hun, o bydd achos: eithr gwasanaetha Dduw ar ei ddydd ei hun; ac onidê efe a ddigia wrthit, ac i ba le y ffoi di rhagddo? . . . Ai ni fedri di ddarllain Cymraec, na neb o'th dy chwaith? O beth â ddywedaf wrthit, ond Duw a'th helpio druan; pa fodd y gwasanaethi di Dduw, gan na fedri ddarllain ei air ef. Dysc yn gyntaf y gellych, neu bâr i ryw vn o'th dy ddyscy darllain, a dysced y lleill gan hwnw: Mi a gymmeraf arnaf osod y dyn ieuangc a fynnych (yn enwedig o bydd efe hyddysc) ar ffordd gymmwys i ddyfod i ddarllain o honaw ei hun yn adrybelydr yn ol cymmeryd o honof ychydig o boen ag ef tros vn wythnos. A pheth yw hynny wrth y llesâd a ddichon dyfu oddiwrtho?"

Yr oedd y rhai hyn yn gynghorion gwerthfawr dros ben yn oes Robert Llwyd, pan nad oedd ysgolion Sabbothol mewn bôd, nac ysgolion dyddiol chwaith ynghyrraedd un o fil o'r werin bobl. Y mae'n yn amlwg hefyd fod "Ficar y Waun" yn Eglwyswr crefyddol, ac achos eneidiau ei gydwladwyr annysgedig a di-fanteision yn agos at ei galon. Wedi cael yr esamplau uchod o waith gwreiddiol Robert Llwyd, credwn yr hoffai ein darllenwyr cyffredin gael rhai esamplau hefyd o'i waith yn cyfieithu. Ymddiddanion ydyw y gwaith rhwng—

"Ymddiddan-wyr. { *Theologus:* Pregeth-wr.
*Philagathus:* §Gwr-da. §Gwr-onest.
*Asunetus:* Anghyfarwydd-ddyn.
*Antilegon:* §Ceccryn. §Cynnenwr."

Yn rhagflaenu y llyfr y mae—

"*Ystyriaeth a chynnwysiad yr ymddiddanion hyn a*
"*ddengys i ni:*

"1. Drueni dyn tan naturiaeth, a'i ymadferth i ddiangc rhagddo.

"2. Anwiredd yr amser ymma, a chyffredin lygredigaeth y byd.

"3. Nodau plant Duw, a nodau rhai gwrthodedig; ac arwyddion hyspys o iachawdwriaeth, a damnedigaeth.

"4. Mor anhawdd yw myned i fywyd: a lleied yw nifer y rhai a ânt yno.

* Arthur Dent, awdur y bregeth uchod, ydoedd "Weinidog Gair Duw yn South Shoobery, Essex," ac un o'r Presbyteriaid yn amser Iago I. Dioddefodd lawer o orthrymderau o blegid ei anghydffurfiaeth; a dyma ei bregeth yn cael ei chyfieithu a'i chyhoeddi gan Eglwyswr zelog ac ymroddgar, fel y gwelir rhag llaw. Ysgrifenodd a chyhoeddodd Dent waith enwog a'i enw "The Ruin of Rome, or an Exposition of Revelation." Bu farw o gylch 1600.—Llyfr. y Cymry, t. 111; Brook's Hist. of Purit., v. ii., p. 113.

† Y mae hyn yn arwyddo mai i un o'r Arglwyddi Esgobol y cyflwynodd R. Llwyd ei gyfieithiad godidog.

Digitized by Google

"5. Anwybodaeth y byd, a'i wrth-attebion yntef.
"6. Hyfryd addewidion yr Efengyl, ac aml drugareddau Duw i'r sawl oll a edifarhânt, ac a gredant, ac a wir ddychwelant atto ef."

"Golygiadau tra Chalfinaidd yw athrawiaethau y llyfr," fel y sylwa Gwilym Lleyn yn briodol. Y mae ymddiddanion *Theologus* oll mewn llythyren ddu, fechan, brydferth, y rhai sydd fath ar attebion i sylwadau y tri eraill, y rhai sydd mewn llythyren Rufeinig.

Wedi ymddiddan yn helaeth ar y ddau bwngc cyntaf, daw yr awdur yn y 35fed tudalen at y trydydd, sef "Nodau plant Duw, a nodau y gwrthodedig;" ac y mae y rhai hyn mor bwysig yn 1877 ag oeddynt yn 1629, pan y'u cyfieithwyd, a thrinir hwynt yn hynod o ddeheig ac effeithiol, ac mewn ieithwedd Gymreig brydferth dros ben; ond ni oddef lle i ni ddodi dim ond y penau ger bron, a'r "ymddiddan" ar y prif bechod, a eilw y cyfieithydd yn "flaenor" y pechodau, ynghyd â'r arweiniad i'r ymddiddan hwnw.

Gan fod llythyraeth y cyfieithydd yn ddigon dealladwy i bawb, dodir hi yma yn ddigyfnewid, fel yr ydys yn arfer gyd â difyniadau o gyfnod y "Llwybr Hyfforddd," gan y gall, nid yn unig foddhau cywreinrwydd diniwaid, ond hefyd bod er addysg i'r rhai sydd dueddol i glogyrneiddio yr iaith er mwyn ceisio dangos ei gwraidd tybiedig. Dygir y "nodau" a'r "ymddiddan" arnynt i mewn fel hyn:—

"*Asunetus.* . . . Mi chwenychwn i chwi . . . yspysu arwyddion ansiommedig, ac argoelion diamheus wrth y rhai y gallo pawb wybod yn hy-wir, eu bod wedi eu sancteiddio, a i haileni, ac y byddant cadwedig.

"*Theologus.* Y mae wyth math o arwyddion a nodau didwyll yn dangos ac yn peunu y dyn a aileiner. Y rhai a ellir yn gymmwys eu cyfenwi wyth arwydd iechydwriaeth. A'r rhai hyn ydynt: sef
"1. C[illegible] tu ag at [illegible] Duw.
"2. D[illegible] ymgair Duw.
"3. Aml a [illegible].
"4. Awy[illegible] i [illegible] allan ogoniant Duw.
"5. Ein [illegible].
"6. D[illegible] y [illegible] a chyn[illegible].
"7. Ff[illegible].
"8. Y[illegible] a [illegible] tu ag at [illegible].

"*Phila.* [illegible] arwyddion [illegible] damedig[illegible].

"*Theol.* Y [illegible] arwyddion aml[illegible] sef
"1. A[illegible] Duw.
"2. [illegible] Duw.
"3. G[illegible].
"4. [illegible] Duw.
"5. H[illegible].
"6. A[illegible].
"7. A[illegible].
"8. Y[illegible].

"*Phila.* [illegible] arwyddion



seeler ydynt fod y dyn hwnnw a'i enaid yn glwyfus, ac mewn cyflwr enbydus: eithr onid oes etto arwyddion eglurach a hynottach o ddamnedigaeth na'r rhai hyn?

"*Theol.* Oes yn wir: y mae naw arwydd eglur, ac hyspys o golledigaeth dyn.

"*Phila.* Dymuno cael clywed y rheini.

"*Theol.* 1. Balchder. 2. Putteindra. 3. Cybydd-dod. 4. Dirmyg ar yr Efengyl. 5. Tyngu. 6. Celwydd. 7. Meddwdod. 8. Segurdod. 9. Gorthrymder.

"*Phila.* Y rhain ydynt feiau anafus yn ddiwâd.

"*Theol.* Nid anghymmwys y gellid eu cyfenwi naw Belzebwb y byd. A'r neb sydd a'r arwyddion hyn arno, sydd mewn cyflwr gofidus.

"*Phila.* Beth o bydd dyn wedi ei lygru a dau neu dri o'r rhai hyn?

"*Theol.* Pwy bynnag a lygrir a thri o'r rhai hyn, sydd mewn perigl o golli ei enaid. Canys gwenwyn cynhwynol yw y rhai hyn oll: a phob tri o'r rhain pa un bynnag ai'r tri cyntaf, ai'r tri olaf, ai'r tri canol, ydynt ddigon i wenwyno yr enaid i farwolaeth: Ië, ac o ddywedyd y gwir, ni byddei waeth i ddyn ddwrn-wascu llyffant a theimlo neidr na chymmyrhedd [mawrygu] ag un o'r rhai hyn.

"*Phila.* A yw pob vn* o honynt mor enbaid?

"*Theol.* Ydyw, canys echrys-haint yr enaid ydynt: os bydd dyn a'r cornwyd ar ei gorph, ein harfer ni yw dywedyd fod nodau duw arno; duw a drugarhao wrtho; felly y gallwn ddywedyd yn hydda, o bydd neb yn galonglwyfus, ac wedi llwyfr-glafychu o'r vn o'r rhai hyn, fod nodau duw ar ei enaid: yr Arglwydd a drugarhao wrtho.

"*Phila.* Nid yw llawer yn tybied fod y pethau hyn mor beryglus ac y dywedwch chwi: Ie y mae llawer yn gwneuthur cyfrif bychan o honynt.

"*Theol.* Gwir yw hynny: canys y mae y rhan fwyaf o'r byd wedi eu gwarchau mewn dallineb, a chaledrwydd calon, heb na chanfod eu pechodau, nac ymwrando a hwynt; ac am hyny yn gwneuthur cyfrif bychan o honynt, gan dybied nad oes mo'r fath berigl ynddynt.

"*Phila.* Diammeu yw fod dynion yn chwannog i wneuthur pris bychan o'u pechodau, ac i'w lleihau: neu i'w cuddio, ac i'w coluro a llawer o ddychymmygion dichellgar, a gwâg-esgusodion. Canys y mae llawer yn chwannog beunydd i lechu, ac i ymddolennu fel nadroedd er mwyn cuddio eu pechodau: ie pe bai bosibl, i wneuthur pechod yn ddibech, i droi rhinwedd yn fai, a bai yn rhinwedd. Am hynny attolwg i chwi adrodd o'r Scrythyrau mor anguriol [angiriol, arswydus], ac mor ffiaidd yw eu pechodau hwynt.

"*Theol.* Mor erchyll, ac mor ffiaidd yw anuthredd y pechodau hyn, ac na ddichon dyn, nac ar dafod [illegible], nac mewn Scrifen yspysu eu holl frynti, a'u ffieidra [ffieidd-dra] yn ôl eu dull, a'u naturiaeth. Etto mi a wnaf fyngoreu ar eu gosod hwynt allan ar gyhoedd i beri i bawb eu ffieiddio.

"*Phila.* Attolwg i chwi gan hynny, dechreuwch yn gyntaf ar falchder.

"*Theol.* Da y dywedwch: canys iawn i hwnnw gael bod yn flaenor: am ei fod yn [illegible] o holl anafau yr enaid.

"*Phila.* Dangoswch allan o'r Scrythyrau fod balchder mor angiriol ac mor [illegible].

"*Theol.* [illegible] yr A[illegible] dyn [illegible]galon.* Yr hyn a [illegible] [illegible] Ac [illegible] [illegible] [illegible] [illegible] [illegible] [illegible]

* [illegible]
† [illegible]

hyn fod Ficar y Waun yn bur gymmeradwy gan ei esgobion.

Yn y flwyddyn 1629, ymhen pedair blynedd ar ol y dyrchafiadau diweddaf, cyhoeddwyd

"Pregeth ynghylch Edifeirwch, gan Arthur Dent.* O gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficar y Waun, yn sir Dinbych."

Paham yr arferwyd y gair "gynt" yn yr enwad-ddalen uchod, nis gwyddom; ond y mae genym sicrwydd yn y cofnod canlynol, yr unig un sydd ynghoflyfr Eglwys y Waun yn crybwyll enw R. Llwyd, ei fod ef yno ymhen pedair blynedd ar ol cyhoeddi pregeth Arthur Dent: "Jane Lloyd filia Rob[ti] Lloyd vicarii de Chirke sepulta fuit apud Llandysyl 26. Septembris 1633;" h.y. Jane Llwyd, merch Robert Llwyd, Ficar y Waun, a gladdwyd yn Llandysyl y 26ed o Fedi, 1633. Dengys y cofnod yma hefyd fod Robert Llwyd yn ŵr priod; ond pwy oedd ei wraig, nid yw hyspys. Fe ddichon mai brodor o Landyssul oedd hi neu efe, os nad pob un o'r ddau, ac mai hyny oedd un achos iddo gladdu ei ferch ym mynent y plwyf hwnw yn hytrach nag ym mynwent y Waun, heb law ei fod yn berson Llandyssul. Beth bynag am hyny, prif waith Robert Llwyd oedd y cyfieithiad canlynol:—

"Llwybr Hyfforddi yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd. Yn yr hwn y dichon dyn ystyriol weled ei gyflwr presennol, pa un ai cadwedig ai colledig. Wedi ei osod allan ar ddull ymddiddanion, yn gyntaf yn Saesonaec, o waith Arthur Dent, Gweinidog Gair Duw. Ac yr awr-hon ei gyfieithu yn Gamber-aec er cymmorth i'r Cymro annysgedig, fel y gallo efe gael yn ei dafodiaith ei hun, foddion a chyfryngau i chwanegu ei wybodaeth i wasanaethu Duw."

Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r gwaith godidog yma, dan olygiad y Cymreigiwr campus, Charles Edwards, yn 1682; ac y mae copi carpiog, anghyflawn, o'r argraphiad yma ymeddiant yr ysgrifenydd. Dengys dernyn o ddalen sydd o flaen y gwaith ei fod wedi ei gyflwyno i ryw Arglwydd, yr hwn ddernyn a dersyna fel hyn:—

"Hwn y fath ac ydyw, gyd a'm fy [coll gair] a'm gwasanaeth goreu, yr ydwyf yn rhwydd-galon, ac a phob gostyngeiddrwydd yn eu gosod ar lawr wrth draed eich Arglwyddiaeth chwi. Arglwydd yr Arglwyddi, a gynnyscaeddo eich Arglwyddiaeth chwi a lluosogrwydd o bob doniau cymwys, addas, ac angenrheidiol i drin yr Alwedigaeth gyssgredig i'ch galwodd Duw iddi.† Hyn a weddiaf beunydd, gan barhau yn

"Eiddo eich Arglwyddiaeth
"i'm gorchymmyn tra bwyf,
ROBERT LLOYD."

Yn niwedd ei "At y Darllenydd" sydd o flaen yr argraphiad cyntaf, efe a ddywed: "O'm stafell yn Ffoster-lân yn Llundain yr Vgeinfed dydd o fis Medi, 1629. Yr eiddot yn yr Arglwydd, R. Ll." Wrth ymresymu â'i "Ddarllenydd," efe a ddywed fel hyn:—

"Ai anhawdd genit dreulio amser yn y gorchwyl hwn, nid rhaid i ti golli dim amser a waethygo arnat, neu a rwystro dy orchwylion bydol yn eu pryd: y mae'r nos yn hir y gaiaf, a'r Suliau a'r gwyliau yn hir yr hâf; gad ymmaith y twmpath chwareu, a'r bowliau, a'r tafarnau, a'r bêl-droed, a'r denis, a'th negeseuau; gwna y pethau hyn yn weddol ar dy ddiwrnodau dy hun, o bydd achos: eithr gwasanaetha Dduw ar ei ddydd ei hun; ac onidê efe a ddigia wrthit, ac i ba le y ffoi di rhagddo? . . . Ai ni fedri di ddarllain Cymraec, na neb o'th dy chwaith? O beth â ddywedaf wrthit, ond Duw a'th helpio druan; pa fodd y gwasanaethi di Dduw, gan na fedri ddarllain ei air ef. Dysc yn gyntaf y gellych, neu bâr i ryw vn o'th dy ddyscy darllain, a dysced y lleill gan hwnw: Mi a gymmeraf arnaf osod y dyn ieuangc a fynnych (yn enwedig o bydd efe hyddysc) ar ffordd gymmwys i ddyfod i ddarllain o honaw ei hun yn adrybelydr yn ol cymmeryd o honof ychydig o boen ag ef tros vn wythnos. A pheth yw hynny wrth y llesâd a ddichon dyfu oddiwrtho?"

Yr oedd y rhai hyn yn gynghorion gwerthfawr dros ben yn oes Robert Llwyd, pan nad oedd ysgolion Sabbothol mewn bôd, nac ysgolion dyddiol chwaith ynghyrraedd un o fil o'r werin bobl. Y mae'n yn amlwg hefyd fod "Ficar y Waun" yn Eglwyswr crefyddol, ac achos eneidiau ei gydwladwyr annysgedig a di-fanteision yn agos at ei galon. Wedi cael yr esamplau uchod o waith gwreiddiol Robert Llwyd, credwn yr hoffai ein darllenwyr cyffredin gael rhai esamplau hefyd o'i waith yn cyfieithu. Ymddiddanion ydyw y gwaith rhwng—

"Ymddiddan-wyr.
*Theologus:* Pregeth-wr.
*Philagathus:* §Gwr-da. §Gwr-onest.
*Asunetus:* Anghyfarwydd-ddyn.
*Antilegon:* §Ceecryn. §Cynnenwr."

Yn rhagflaenu y llyfr y mae—

"*Ystyriaeth a chynnwysiad yr ymddiddanion hyn a* "*ddengys i ni:*

"1. Drueni dyn tan naturiaeth, a'i ymadferth i ddiangc rhagddo.

"2. Anwiredd yr amser ymma, a chyffredin lygredigaeth y byd.

"3. Nodau plant Duw, a nodau rhai gwrthodedig; ac arwyddion hyspys o iachawdwriaeth, a damnedigaeth.

"4. Mor anhawdd yw myned i fywyd: a lleied yw nifer y rhai a ânt yno.

* Arthur Dent, awdur y bregeth uchod, ydoedd "Weinidog Gair Duw yn South Shoobery, Essex," ac un o'r Presbyteriaid yn amser Iago I. Dioddefodd lawer o orthrymderau o blegid ei anghydffurfiaeth; a dyma ei bregeth yn cael ei chyfieithu a'i chyhoeddi gan Eglwyswr zelog ac ymroddgar, fel y gwelir rhag llaw. Ysgrifenodd a chyhoeddodd Dent waith enwog a'i enw "The Ruin of Rome, or an Exposition of Revelation." Bu farw o gylch 1600.—Llyfr. y Cymry, t. 111; Brook's Hist. of Purit., v. ii., p. 113.

† Y mae hyn yn arwyddo mai i un o'r Arglwyddi Esgobaid y cyflwynodd R. Llwyd ei gyfieithiad godidog.

"5. Anwybodaeth y byd, a'i wrth-attebion yntef.
"6. Hyfryd addewidion yr Efengyl, ac aml drugareddau Duw i'r sawl oll a edifarhânt, ac a gredant, ac a wir ddychwelant atto ef."

"Golygiadau tra Chalfinaidd yw athrawiaethau y llyfr," fel y sylwa Gwilym Lleyn yn briodol. Y mae ymddiddanion *Theologus* oll mewn llythyren ddu, fechan, brydferth, y rhai sydd fath ar atteb-ion i sylwadau y tri eraill, y rhai sydd mewn llythyren Rufeinig.

Wedi ymddiddan yn helaeth ar y ddau bwngc cyntaf, daw yr awdur yn y 35fed tudalen at y trydydd, sef "Nodau plant Duw, a nodau y gwrthodedig;" ac y mae y rhai hyn mor bwysig yn 1877 ag oeddynt yn 1629, pan y'u cyfieithwyd, a thrinir hwynt yn hynod o ddeheig ac effeithiol, ac mewn ieithwedd Gymreig brydferth dros ben; ond ni oddef lle i ni ddodi dim ond y penau ger bron, a'r "ymddiddan" ar y prif bechod, a eilw y cyfieithydd yn "flaenor" y pechodau, ynghyd â'r arweiniad i'r ymddiddan hwnw.

Gan fod llythyraeth y cyfieithydd yn ddigon dealladwy i bawb, dodir hi yma yn ddigyfnewid, fel yr ydys yn arfer gyd â difyniadau o gyfnod y "Llwybr Hyfforddd," gan y gall, nid yn unig foddhau cywreinrwydd diniwaid, ond hefyd bod er addysg i'r rhai sydd dueddol i glogyrneiddio yr iaith er mwyn ceisio dangos ei gwraidd tybiedig. Dygir y "nodau" a'r "ymddiddan" arnynt i mewn fel hyn:—

"*Asunetus.* . . . Mi chwenychwn i chwi . . . yspysu arwyddion ansiommedig, ac argoelion diamheus wrth y rhai y gallo pawb wybod yn hy-wir, eu bod wedi eu sancteiddio, a'i hailgeni, ac y byddant cadwedig.

"*Theologus.* Y mae ŵyth math o arwyddion a nodau didwyll yn dangos ac yn pennu y dyn a ailaner. Y rhai a ellir yn gymmwys eu cyfenwi, ŵyth arwydd iechydwriaeth. A'r rhai hyn ydynt: sef
"1. Cariad tu ag at blant Duw.
"2. Digrifwch yngair Duw.
"3. Aml a difrifol weddio.
"4. Awydd-fryd i osod allan ogoniant Duw.
"5. Ein gwadu ein hunain.
"6. Dioddef-gar ddwyn y groes er budd a chysur.
"7. Ffyddlondeb yn ein galwedigaeth.
"8. Ymarweddiad ônest, cyfiawn, a chydwybodus tu ag at bob dyn yn ein gweithredoedd, a'n buchedd.

"*Phila.* Gan ddangos o honoch i ni arwyddion hyspys o iechydwriaeth, dangoswch i ni hefyd arwyddion damnedigaeth.

"*Theol.* Y gwrthwyneb i'r rhai uchod, ydynt arwyddion amlwg o ddamnedigaeth: nid amgenach na'r rhai hyn, sef
"1. Angharu plant Duw.
"2. Diflasu ar air Duw.
"3. Gweddio yn oer ac yn anfynych.
"4. Difraŵch yngwasanaeth Duw.
"5. Hyder arnom ein hunain.
"6. Anniodddefgarwch tan y groes.
"7. Anffyddlondeb yn ein galwedigaeth.
"8. Ymarweddiad an-ônest, ac anghydwybodus.

"*Phila.* Diau os halogir dyn a'r beiau hyn, arwyddion sceler ydynt fod y dyn hwnnw a'i enaid yn glwyfus, ac mewn cyflwr enbydus: eithr onid oes etto arwyddion eglurach a hynottach o ddamnedigaeth na'r rhai hyn?

"*Theol.* Oes yn wir: y mae naw arwydd eglur, ac hyspys o golledigaeth dyn.

"*Phila.* Dymuno cael clywed y rheini.

"*Theol.* 1. Balchder. 2. Putteindra. 3. Cybydd-dod. 4. Dirmyg ar yr Efengyl. 5. Tyngu. 6. Celwydd. 7. Meddwdod. 8. Segurdod. 9. Gorthrymder.

"*Phila.* Y rhain ydynt feiau anafus yn ddiwâd.

"*Theol.* Nid anghymmwys y gellid eu cyfenwi naw Belzebwb y byd. A'r neb sydd a'r arwyddion hyn arno, sydd mewn cyflwr gofidus.

"*Phila.* Beth o bydd dyn wedi ei lygru a dau neu dri o'r rhai hyn?

"*Theol.* Pwy bynnag a lygrir a thri o'r rhai hyn, sydd mewn perigl o golli ei enaid. Canys gwenwyn cynhwynol yw y rhai hyn oll: a phob tri o'r rhain pa un bynnag ai'r tri cyntaf, ai'r tri olaf, ai'r tri canol, ydynt ddigon i wenwyno yr enaid i farwolaeth: Ië, ac o ddywedyd y gwir, ni byddei waeth i ddyn ddwrn-wascu llyffant a theimlo neidr na chymmyrhedd [mawrygu] ag un o'r rhai hyn.

"*Phila.* A yw pob vn* o honynt mor enbaid?

"*Theol.* Ydyw, canys echrys-haint yr enaid ydynt: os bydd dyn a'r cornwyd ar ei gorph, ein harfer ni yw dywedyd fod nodau duw arno; duw a drugarhao wrtho; felly y gallwn ddywedyd yn hydda, o bydd neb yn galon-glwyfus, ac wedi llwyfr-glafychu o'r vn o'r rhai hyn, fod nodau duw ar ei enaid: yr Arglwydd a drugarhao wrtho.

"*Phila.* Nid yw llawer yn tybied fod y pethau hyn mor beryglus ac y dywedwch chwi: Ie y mae llawer yn gwneuthur cyfrif bychan o honynt.

"*Theol.* Gwir yw hynny: canys y mae y rhan fwyaf o'r byd wedi eu gwarchau mewn dallineb, a chaledrwydd calon, heb na chanfod eu pechodau, nac ymwrando a hwynt; ac am hyny yn gwneuthur cyfrif bychan o honynt, gan dybied nad oes mo'r fath berigl ynddynt.

"*Phila.* Diammeu yw fod dynion yn chwannog i wneuthur pris bychan o'u pechodau, ac i'w lleihau: neu i'w cuddio, ac i'w coluro a llawer o ddychymmygion dichellgar, a gwâg-esgusodion. Canys y mae llawer yn chwannog beunydd i lechu, ac i ymddolennu fel nadroedd er mwyn cuddio eu pechodau: ie pe bai bossibl, i wneuthur pechod yn ddibech, i droi rhinwedd yn fai, a bai yn rhinwedd. Am hynny attolwg i chwi adrodd o'r Scrythyrau mor anguriol [angiriol, arswydus], ac mor ffiaidd yw eu pechodau hwynt.

"*Theol.* Mor erchyll, ac mor ffiaidd yw aruthredd y pechodau hyn, ac na ddichon dyn, nac ar dafod fyngegu, nac mewn Scrifen yspysu eu holl frynti, a'u ffieidra [ffieidd-dra] yn ôl eu dull, a'u naturiaeth. Etto myfi â wnaf fyngoreu ar eu gosod hwynt allan ar gyhoedd i beri i bawb eu ffieiddio.

"*Phila.* Attolwg i chwi gan hynny, dechreuwch yn gyntaf ar falchder.

"*Theol.* Da y dywedwch: canys iawn i hwnnw gael bod yn flaenor: am ei fod yn echrys-haint pennaf o holl anafau yr enaid.

"*Phila.* Dangoswch allan o'r Scrythyrau fod balchder mor anguriol ac mor athrugar [tosturus].

"*Theol.* 'Ffiaidd gan yr Arglwydd bob dyn uchel-galon.'† Yr hyn a ddengys yn eglur fod duw yn gwrthwynebu, ac yn casau y beilchion. Ac onid peth ofnadwy dybygwch chwi, i ddyn fod yn ffiaidd gan dduw? Ac yn yr un bennod y dywed: 'Balchder sydd yn myned o flaen dinistr, ac uchder yspryd o flaen cwymp.' Ymma y dengys yr yspryd glân fod balchder yn rhagflaenu rhyw gwymp tra-mawr, naill ai trwy anair, neu golli ei gym-

* Defnyddir *v* yn lle *u* gan y cyfieithydd yn ddamweiniol.
† Mewn llythyren wahanol y dyry'r cyfieithydd y difyniadau; ond hwylusach i ni yw difynnodau.



Digitized by Google

yna y caent weled fod eu diffygion, a'u amherffeithrwydd yn gymmaint, ac na byddei iddynt mwy achos i ymffrostio, nac i'r Ethiopiad o'i wynder, am fod ei ddannedd yn wynion. Yr yspryd glân sydd yn torri ein cribau ni, ac yn gostwng balchder ein cnawd, pan yn dywedyd: 'Mor fychan yw'r peth y mae dyn yn ei glywed, neu yn ei wybod am dduw.'

"*Phila.* Awn rhagom, attolwg, i dreuthu am y balchder hynod a diwin [diwyn] sydd yn dwyn rhwysc yn y byd. Ac yn gyntaf dim dywedwch i mi, beth a dybiwch am falchder mewn dillad?

"*Theol.* Tybied yr wyfi fod hynny yn oferedd tu hwnt i bob oferedd: ac yn ffolineb tu hwnt i bob ffoledd. O blegid balchïo o ddillad fyddei megis pe balchïei lleidr o'i gebystr [cortyn], neu gardottyn o'i glyttiau, neu blentyn o'i frithni, neu ddyn ffôl o'i degan.

"*Phila.* Er hynny, ni a welwn mor feilchion yw llawer (yn enwedig gwragedd a merched) o'r cyfryw deganau. Canys darfyddo iddynt dreulio trauan [traian] y diwrnod yn ymdrwssio, ac yn ymdacclu: yn ymbingcio ac yn ymbinio, yn ymsongci ac yn ymgymmwyso, yn ymwisco ac yn ymlassio, yn ymhoiwi ac yn ymloiwi, ac yn ymwychu yn y modd manylaf; yna deuant allan i'r heolydd a'u siop pedler ar eu cefnau, a'u corŷnau yn dra uchel, gan eu tybied eu hunain yn angelesau bychain, neu yn bethau amgenach na merched eraill. O hyn y digwydd eu bod yn ymchwyddo o falchder, ac yn barod i dorri ar eu traws wrth gerdded yr heolydd. Ac yn wir fe ellir tybied fod y cerrig yn yr heolydd, a'r coed yn y tai yn dychrynu, ac yn rhyfeddu weled eu hansuttiol, a'u hanfeidrol falchder. Canys cyffelyb yw nad ydynt ond swpp o falchder, ac o falchder y gwnaed hwynt, ac nad oes ynddynt ddim ond balchder, balchder.*

"*Theol.* Yr ydych chwi yn frŵd yn yr achosion hyn.

"*Asune.* Yn wir, Syr, yr wyf finnau yn tybied yn well o honaw ef. Canys ni bu'r byd erioed mor llawn o falchder, ac y mae yn y dyddiau hyn.

"*Theol.* Pwy a ddichon ymattal rhag dywedyd yn erbyn balchder yr oes hon? Pa achos sydd i gig a gwaed, i fwyd pryfed llwch a lludw, i bridd a domm ymhoiwi mewn brattiau gwychion, yngolwg Duw, ac Angelion, a dynion: Canys fe ddaw yr amser pan gladder hwynt, a'u holl wychder mewn beddrod. Ie fel y dywed Iob: Pan y byddo y bedd yn dŷ iddynt, a phan gyweiriant eu gwelu mewn tywyllwch: Pan ddywedant wrth lygredigaeth, 'ti wyt fy nhâd, ac wrth y prŷf, ti wyt fy mam a'm chwaer.' Pa lesâd a wna iddynt y pryd hynny eu bod gynt yn ymrwfflio [ymgrychlenu] mewn pob gwychder, pan orfyddo yn ddisymmwth descyn i ddestryw: Pa lesâd a wnaeth i'r gŵr goludog ymddilladu a gwiscoedd gwerth-fawr, a chymmeryd ei fyd yn ddanteithiol, pan gladdwyd ei gorph ef yn y bedd, a'i enaid yn nhân uffern?

"*Asune.* Beth a ddwywedwch chwi am y rwffiau [clwydi] mawrion y rhai a gynhelir i fynu ag attegion, ac a rebattos [tyrch gyddfau] megis a phŷst ac a chledr?

"*Theol.* Beth a ddywedaf am danynt; ond duw a dosturio wrthym. Canys y cyfryw bethau sy'n tynnu i lawr lid, a dial duw arnom oll. Megis y dywed yr Apostol, 'O achos y pethau hyn y daw digofaint duw ar blant yr anufydddod.' Ac yn wir ddigelwydd, y mae i ni achos i ofni y dŵg duw ddialedd arnom am ein ffiaidd falchder.

"*Asune.* Beth a ddywedwch chwi am y rwffiau triphlyg, a phedwar-plyg, y rhai a arferir yn y dyddiau hyn yn sathredig? Ac am y ffardingal† gwmpasiog, y cudynau lleision, y topynnau, y crych-wallt, a'r holl arfer newydd a ddychymmygir, ac a adnewyddir beunydd?

"*Theol.* Hyn a ddywedaf, mai pell ydynt oddiwrth y symlrwydd, a'r lledneisrwydd a fu yn yr oesoedd gynt: Nid adwaenai ein tadau ddim o'r fath beth. Darllain yr ydym am William Rufus, a fu gynt yn frenin ar y deyrnas ymma, pan ddug ei stafelludd atto bâr o hosanau newydd, ofyn o honaw beth a gostiasent, attebodd yntef, mai tri swllt: yno y Brenin yn ddigllon a orchymynnodd geisio iddo bâr a gostiei forc. Os tybid yn y dyddiau hynny fod yn ormod i frenin dalu morc am bâr o hosanau: beth a dybiwn ni am lawer o ddynion gwael yn y dyddiau hyn (heb na bod yn berchen tiroedd, na chwaith o alwedigaeth enwog) y rhai a dalant am vn-pâr gymmaint ac a roddei y brenin am ddeubar,‡ pan oeddid yn ei farnu ef yn afradlon. Eithr sywaeth, nyni a aethom tros derfyn gweddeidddra, a chymmesurdeb. Nid oes reswm arnom: Y pechod hwn sy rydrwm i'n glwad ni. Canys balchder pob cenedl, a ffoledd pob gwlad a ddaeth i'n plith, pa fodd y dygwn y pethau hyn? Ac am yr arfer newydd, pa newyddaf, ffolaf o'r cwbl: Canys a'n harfer newydd yr ydym ni yn myned yn llwyr allan o bob arfer dda. Pe bai gynnifer gosgedd ar ein cyrph; ac sydd o amryw agwedd ar ein dillad, e fyddei gynnifer dull arnom ac sydd o rifedi bysedd, ar ein dwylo, a'n traed. Eithr ofer-ddynion yn feibion ac yn ferched a ddangosant yn amlwg ysgafned yw eu meddyliau pan ydynt mor chwannog i ddilyn y fath oferedd a ffôl arfer.

"*Asune.* Ni bu'r byd yn dda byth er pan ddaeth y fath startsio, a rhwbio, a'r dwyfron-bren, a'r whâl-bôns: Yr attegion a'r rebattôs, y peintio a'r lliwio, a gwerthu pryd a gwedd. Oblegid er pan ddaeth y pethau hyn y daeth cybydd-dod, trais a thwyll. Canys pa fodd amgenach y cynnelid balchder. A diau o fewn y deg mlynedd ar hugain hyn, nad adwaenid, ac na chlywsid sôn am y pethau ymma. Gan hynny beth a ddywedwch chwi am goluro wynebau, noethi dwyfronnau, lliwio y gwallt, gwisco perwig, a gwallt gosod, a thop-galantau? A pheth a ddywedwch chwi am y merched a wneir yn lluniaidd drwy gelfyddyd, y rhai a fynnant fod yn well eu llun nag y gwnaeth duw hwynt. Nid ydynt fodlon i waith ei ddwylo ef: hwy a fynnant wellhau ar hwnnw, drwy gael gwedd arall, dwyfronnau eraill, a boliau eraill amgenach nac a wnaeth duw iddynt.

"*Theol.* Hyn yr wyf yn ei ddywedyd, fod i chwi, ac i minnau ac i bobl yr Arglwydd oll, achos mawr, a chyfiawn i alaru, i wylo, ac i gwynfan am wneuthur y cyfryw ffieidd-dra yn Israel. Afonydd o ddyfroedd a ddescynent o lygaid dafydd am nad oedd dynion yn cadw cyfraith dduw. Ac ofn aruthr a ddaeth arno ef o blegid yr annuwiolion, y rhai oeddynt yn gadu cyfraith dduw. A Ieremy a ocheneidiei yn ddirgel, gan ddymuno bod ei ben yn llawn dwfr a'i lygaid yn ffynnon o ddagrau o achos pechodau y bobl. Nehemias oedd yn galaru tros gamweddau y bobl. Lot gyfiawn oedd mewn gofid drwy anniwair ymarweddiad y Sodomiaid. Ac oni alarwn ninnau am y pethau hyn? Oni ymofidiwn ddim am falchder ein gwlad? Oni ollwngwn ddim dagrau am y cyfryw ffieidd-dra erchyll? y fath ni ddylid eu dioddef mewn gwlad? Casedig ydynt o flaen Duw a dynion: oni bai fod yn rhagorol ei ddioddefgarwch, a'i hir-ymaros, y cythraul a'i cippiai hwynt ymmaith yn

* Y mae y darlun uchod mor gywir o arfer y rhan fwyaf o fenywod yr oes hon a phe buasai yr awdur yn llygad-dyst o benau afluniol, costfawr, a chynffonau hirion, diles, a drudfawr ein genethod, y rhai a beidiant i heolydd ein dinasoedd, a thai addoliad y dyddiau hyn. Y mae y rhan fwyaf o honynt yn dyfod i'r mannau a nodwyd, "gan rygyngu â'u traed," fel y dywed y prophwyd, yr un ffunyd a phe bai "siop pedler ar eu cefnau, a'u penau yn dra uchel," fel pe baent yn tyfu ynghanol swp o flodau a thlysni; ac, yn wir, y mae'r meibion hefyd yn rhedeg yn llawer rhy bell "i'r unrhyw ormod rhysedd;" ac nid oes neb yn dywedyd wrthynt, er iddynt fod yn aelodau proffesedig o grefydd Crist, "Drwg y gwnewch chwi!" Gresyn na chymmerai aelodau y cyfundebau crefyddol cyffredin esampl yn hyn, ac mewn llawer o bethau eraill hefyd, oddi wrth ddull syml, dirodres, a rhad, mewn cymhariaeth, y "Cyfeillion" (Cwacers) disyml, y rhai, yn lle eu gorwychu eu hunain â phethau aflesol a chwbl afreidiol, a roddant yr arian a wastreffir ar wychderau diles gan eraill, i gynnorthwyo y tlawd a'r amddifad, y claf a'r clwyfus, o'u brodyr a'u chwiorydd.

† Fardels, sypynau, bwrnelau.

‡ Ystyrid hosanau gwychion yn bwysig gynt, pan na wyddid am unrhyw lodrau ond y "clôs pen glin."

Digitized by Google

fyw, neu dân a brwmstan a syrthiai arnynt o'r nefoedd i'w difa.

"*Antil.* Yr ydych chwi yn rhy frŵd yn y matterion hyn am ddillad. Prysurach ydych nac a fyddei raid.

"*Asune.* Y mae gennifi ddiolch iddo. Bendith dduw i'w galon. Mi a'i caraf ef yn fwy tra yr adwaenwyf ef, am fod mor ddiragrith yn erbyn y cyfryw falchder cywilyddus a ffiaidd. Onid cywilydd i ferched yn cyfaddeu gwir grefydd, eu gwneuthur eu hunain yn gyfryw eulynod, a delwau, a pheunod ac y maent? Ac er hyn nid wyfi yn clywed fod nemmawr o'r pregethwyr yn dywedyd yn y pulpyt yn erbyn hyn.

"*Antil.* Rhyfedd yw gennif eich bod chwi mor frŵd yn achosion dillad. Chwi a wyddoch yn ddigon da nad yw dillad ond pethau cyffredin, ac nad yw crefydd, a theyrnas Dduw yn y pethau hyn.

"*Theol.* Mi a wnn yn dda nad yw dillad yn eu naturiaeth eu hunain ond pethau cyffredin, eithr nid pethau cyffredin yw dillad coeg, anlladaidd, annlednais, ac anhardd. Canys y mae pob cyfryw gamarfer yn tynnu ymmaith y cyffredinolrwydd, ac yn eu gwneuthur yn bechadurus, ac yn ddrygionus, o herwydd y moddion, sef y ffrwythau a'r digwyddiadau sy'n canlyn. Canys pe amgen, paham y bygythiai Duw drwy ei Brophwyd, yr ymwelai efe a phawb a wiscent wiscoedd dieithr, hynny yw dull ac agwedd dillad gwledydd eraill, ie hyd yn oed y tywysogion, a phlant y brenin. Paham hefyd y dygei yr Arglwydd y fath blâ ar bendefigesau beilchion, a'r mursennod hoiw yn Ierusalem am eu balchder a'u coegni mewn dillad, oni bai fod y cyfryw gamarfer yn ddrygioni? Fel hyn y dywed yr Arglwydd drwy'r Prophwyd Esau, yn erbyn y meistresod gwychion hynny. 'O herwydd balchïo o ferched Sion, a rhodio â gyddfau estynedig, ac yn amneidio a'u traed gan rodio, a rhygyngu y cerddent, ac y trystient a'u traed: ac am hynny y clafria yr Arglwydd gorŷnau merched Sion: Yr Arglwydd hefyd a ddinoetha eu gwarthle hwynt: Yn y dydd hwnnw y tynn yr Arglwydd addurn yr escidiau, y rhwydau hefyd a'r lloerawg wscoedd, y perarogl, y breichledau, a'r moledau: y penguwch a'r llawdrau, a'r snodennau, a'r dwyfronegau: a'r clust-dlysau, y modrwyau, ac addurn-wisc y trwyn: y gwiscoedd symmudliw, a'r hefysau. Y misyrnau hefyd a'r pyrsau, y drychau hefyd a'r lliain meinwych: Y cocwllau, a'r gŷnau. A bydd yn lle peraroglau ddrewi: bydd hefyd yn lle gwregys rwygiad, ac yn lle iawndrefniad gwallt foelni: ac yn lle dwyfronneg gwregys o sach-liain: a llosgfa yn lle prydferthwch. Dy ddynion a syrthiant drwy'r cleddyf, a'th gadernid drwy ryfel: felly ei phyrth hi a ofidiant, ac yn wag yr eistedd hi ar y ddaiar.'

"Fel hyn, ni a welwn mor ofnadwy y mae Duw yn bygwth y gwragedd heini yn Ierusalem am eu balchder rhyfygus, a ffiaidd. A hyn a ddichon fod yn ddrŷch i'r mursennod beilchion yn ein dyddiau ni, y rhai y mae achos iddynt i ofni, y dŵg Duw ryw farnedigaeth drom arnynt, megis y dûg efe gynt ar ferched Ierusalem. Canys eu pechodau hwynt yn hyn o beth ydynt mor ffiaidd, a chymmaint ac oedd yr eiddo merched Sion. Ac yn Duw yw efe yr awr-hon ac ydoedd y pryd hynny i gospi balchder.

"*Antil.* Na cheisiwch mo'ch rhuad a'ch dadwrdd ynghylch yr achosion hyn am ddillad. Canys y mae yn rhaid i ni wneuthur fel y gwnelo eraill: a chanlyn yr arfer, ac onidê ni wneir cyfrif o honom.

"*Theol.* Os chwi nis canlynwch hwynt, e wneir mwy cyfrif o honoch gyd â Duw, a'i Angelion, a'i seintiau, a phob dynion da. Ac am bawb eraill, os chwi a wnewch fwy cyfrif o honynt nac o'r rhain, dyna arwydd pa fath ydych.

"*Antil.* Gadewch i hynny fod: etto er hyn i gyd, dywedwch chwi a fynnoch, yn y galon y mae balchder, ac nid yn y dillad. Canys fe ddichon dyn fod yn falch o ddillad cymmedrol megis o ddillad gwychion. Ac y mae rhai cyn falched o'u colerau llyfnion, ac o'u rwffiau byrion yn-plŷg, ac ydynt eraill o'u rwffiau mawrion.

"*Theol.* Ynfyd yr ydych chwi yn siarad: Pa fodd y gwyddwch chwi hynny? A fedrwch chwi farnu calonnau, a meddyliau dynion? Pan fyddo dillad meibion, a merched yn sobr, yn weddaidd, yn llednais, ac yn Gristionogol, a ellwch chwi ddywedyd eu bod hwy yn feilchion o'r cyfryw ddillad? Pell dros dros ben yw eich ergyd chwi, gymmeryd arnoch, farnu'r galon. Chwi a ddylych farnu mewn cariad am y rhai a ymwiscant yn sobr, ac yn weddaidd, fod eu calonnau yn gyffelyb i'w gwisciad. Ond am danoch chwi, myfi a allwn yn hytrach dybied fod eich calon yn ofer, yn yscafn, ac yn ynfyd, o herwydd bod eich dillad hoiw yn arwydd eglur o hynny. A bod fel y dywed y Prophwyd, dull eich wynebau yn testiolaethu i'ch erbyn, a chwithau hefyd fel Sodoma yn mynegu eich pechodau, ac heb eu celu.

"*Antil.* Gosodwch chwi ar lawr, adolwyn, ryw drefn am ddillad, allan o'r Scrythyrau.

"*Theol.* Gosodwyf fi a fynnwyf, y rhan fwyaf yn feibion, ac yn ferched a wnant yr hyn a fynnant hwythau. Canys y mae lle i dybied, fod llawer yn yr oes hon, wedi rhoi diofryd dilyn Duw, a'i air, a phob daioni. O blegid y maent wedi dyfod cyn belled a hyn dyweded Duw a fynno, hwy a wnant y peth a fynnont hwythau. Canys fel y dywed y Prophwyd: 'Hwy a wnaethant gyfammod ag uffern, ac â'r bedd y gwnaethant gyngrair.' Ac yr wyfi yn tybied pe descynnei Duw ei hun i lawr o'r nefoedd, a chynghori meibion a merched i roddi heibio eu gwagedd mewn dillad, etto y canlynent eu harfer, er gwaethaf Duw, i'w gythruddo ef ymhellach. O blegid rhoisant gymmaint serch ar y peth, a chymmaint dityrrwch ynddo, ac na fynnant amgen, na chadw eu harfer, pe rhôn a bod dynion, ac Angelion, a'r byd oll yn dywedyd y gwrthwyneb. Ie y peth sydd fwy, pe gorfyddei iddynt fyned i ddiafol yn fyw gyd a'r peth. Ac am hynny gwaith ofer yw pregethu, neu scrifennu, neu ddywedyd yn eu herbyn. Gwaith cyffelyb i aredig y môr, neu guro wrth ddrŵs gŵr byddar, canys nid oes obaith o'u gwellâd. Hyn yn unig sydd i ni i'w gael am ein poen, sef fod y byd wedi ei argyoeddi, a'i farnu am bechod. A'r pethau hyn fydd dŷst yn eu herbyn yn y dydd diwaethaf, fel na allant ddywedyd amgen; na chawsant rybudd têg, ac na bu prophwyd yn eu plith.

"*Phila.* Etto er hyn i gyd, gosodwch ar lawr ryw drefn a rheol allan o air Duw, ynghylch dillad. Canys er bod rhai yn ddrwg, ac yn ofergoelus yn y pethau hyn: etto diammeu yw, fod eraill ar feddwl da yn gwneuthur cydwybod o fyw yn ôl gair Duw.

"*Theol.* Er mwyn y rhai sy ar feddwl da, myfi a osodaf ger bron beth cyfarwyddyd iddynt. S. Paul a fynnei i wragedd ymwisco mewn dillad gweddol, gyd â lledneisrwydd a chymmesurdeb. Nid a gwallt plethedig, neu aur, neu gemmau, neu wisc werthfawr; eithr megis y gweddai i wragedd yn addo duwioldeb, a gweithredoedd da. S. Petr hefyd sydd yn gosod ar lawr yr un fath reol. Canys efe a ddywed wrth grybwyll am wragedd Cristianogaidd, ac yn cyfaddef crefydd, y dylei y cyfryw rai fod a'u trwsiad, nid oddiallan sef yn sefyll ar wychder y corph: 'Megis plethiadau gwallt, ac amgylch-osodiad aur, a'r cyffelyb; ond ar harddwch oddimewn, fel y byddo dirgel ddyn y galon mewn anllygredigaeth yspryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr. Canys felly gynt (medd efe) yr ymdrwsiei'r gwragedd sanctaidd, y rhai oeddynt yn gobeithio ar dduw, megis Sara, Rebecca, Rahel, a'r cyffelyb henaf-wragedd llednais.

"*Phila.* Ar ba beth yn bennaf y mae'r trwsiad hwn oddimewn yn sefyll?

"*Theol.* Ar bedwar peth, y rhai a osodwyd ar lawr yn y lleoedd a henwyd o'r blaen: sef lledneisrwydd, cymmedroledd, yspryd llonydd, ac yspryd addfwyn.

"*Phila.* Dymma wiscoedd gwychion yn sicer. Mi a

Digitized by Google

fynnwn pe gwiscai bawb o'r gwragedd, y rhai hyn am danynt heb eu diosc vn amser, ond eu gwisco beunydd. Canys y rhain ydynt well o'u gwisco, er bod gwiscoedd eraill yn waeth.

"*Theol.* Beth ped ymdrwsiei gwragedd oddimewn a'r rhinweddau vchod: Hwy a fyddent yn lle tlysau o aur, a pherlau. Canys y gwragedd a ofnant yr Arglwydd, a ganmolir.

"*Phila.* Moeswch glywed attolwg Syr, eich barn chwi am wiscoedd y corph.

"*Theol.* Hyn yw'r cwbl a fedraf fi ei ddywedyd am y matter ymma: y dylei ein gwisciad ni fod, fel y dywed yr Apostol yn weddaidd, yn drefnus, yn hardd; ac nid yn ysgafn, yn anlladaidd, yn anwladaidd, ac yn dramgwyddus.

"*Phila.* Pa fodd y bernwch chwi beth sydd weddaidd, trefnus a hardd? Canys fe ddywed pob mâb, a phob merch fod eu dillad, yn weddaidd, ac yn drefnus, er hoiwed, er gwyched, er ofered fyddont.

"*Theol.* Yn hyn o beth nyni a ddylem ddilyn siamplau y gwŷr a'r gwragedd Duwiolaf, synhwyrolaf, sobraf, a lledneisiaf. Pwy a fedr yn well na'r cyffelyb, farnu beth sydd hardd, a gweddaidd, a chymmesur?

"*Phila.* Eithr nyni a welwn rai o'r rhai goreu wedi llygru peth arnynt, a myned tros y terfynau ynghylch dillad.

"*Theol.* Gwaethaf ôll. Eithr sywaeth, ni a welwn fod rhwysc yr amser, a nerth y ffrŵd cyn gryfed ai bod yn dwyn gyd a hwynt beth bynnag nid yw wedi ei sefydlu, a'i wreiddio yn ddwfn, ac yn gadarn. Ac ymbell rai duwiol (er nad yw eu calonnau yn tueddu at y pethau hyn) a ddygir ymmaith gyd â nerth y gwynt, a'r llanw. Y rhai er nas gellir yn hydda na dadleu yn eu cweryl, nac escusodi eu cyflwr, etto fe ddylid tosturio wrthynt, ac ymofidio trostynt.

"*Phila.* A oes gennych chwi ddim cyfarwyddyd ychwaneg ynghylch yr achos ymma?

"*Theol.* Oes un peth ychwaneg, sef y dylei dillad pob dyn fod wrth ei radd, a'i le, a'i alwedigaeth. Canys nid yw hardd ar y naill ddyn, y peth sydd hardd ar y llall: Nid cymmwys i'r tlawd y peth a weddai i'r cyfoethog. Ac anhardd yw ar ddynion gwael [isel], y peth sydd drefnus, a chanmoladwy ar bendefigion, a phennaethiaid."

Y mae yr awdur yn trin yr wyth bechod arall a nodasai, sef puteindra, cybydd-dod, dirmyg ar yr efengyl, tyngu, celwydd, meddwdod, seguryd, a gorthrymder, gyd â'r un manylrwydd a llymder.*

Ar ol y "Llythyr at y Darllenydd," sydd o flaen y "Trysor i'r Cymro," o gyfieithiad Richard Jones o Ddinbych, 1677, dywedir am "Lwybr Hyfforddd" Ficar y Waun fel hyn: "Os Duw a rydd iechyd a bywyd, disgwyliwch mewn amser am ail brintio y *Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd*, a *Llyfr y Resolusion;* y rhai, nid yn vnic er mwyn y matter, ond hefyd er mwyn y iaith tra-rhagorol sydd ynddynt (ac yn enwedig y diweddaf o'r ddau (o ran iaith) wedi osod allan gan y cymreigiwr goreu yng-Hymru, yn ei amser, sef y *Doctor Davies*) a haeddant eu printio drachefn." Y mae'r ddau lyfr hyn, ac amryw lyfrau eraill o'r cyfnod yma a'r ddau nesaf, yn anrheuthol deilyngach, o ran matter ac iaith, o gael "eu printio drachefn," yn yr oes hon, na llawer o'r pethau a brintir; a gresyn calon nad ymroddai rhyw gyhoeddwr galluog neu gymdeithas wladgarol i gyhoeddi argraphiad unffurf o waith ein prif awduron, o Fibl y Dr. Morgan, yn 1588, hyd draethawd Gwallter Mechain ar ryddid, yn 1791, tebyg i gyfresi Seisnig Bohn, Gilfillan, ac eraill.

Yn yr argraphiad diweddaf o "Hanes y Ffydd," a gyhoeddwyd dan olygiad y Dr. P. Williams, Llanbedrog, yn 1822, dywedir: "Ac, i hyfforddi ein Pregethwŷr, perffeithiodd y Dr. Davies o Fallwyd DDICTIONARY Cymraeg a ddechreuasai'r Dr. Thomas Williams, ac eraill o ewyllyswyr da i Gymru. Efe a wnaeth rammadeg Cymraeg hefyd, ac a gyfieithodd lyfrau godidog tu ag at adeiladaeth ysprydol; sef 'Llyfr y Resolution,' a'r 'Ymarfer o Dduwioldeb,' a'r 'Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd.'"† Yn yr argraphiad olaf yn unig y gwnaed y camhyspysiad yna, trwy i'r golygydd neu yr argraphydd ddywedyd, "ac a gyfieithodd lyfrau," yn lle fel y dywedodd Charles Edwards ei hun, "a chyfieithwyd llyfrau." "Llyfr y Resolution" yn unig a gyfieithodd y Dr. Davies; eithr Robert Llwyd, Ficar y Waun, fel y dangoswyd eisoes, a gyfieithodd y "Llwybr Hyffordd," a Rowland Fychan, o Gaergai, fel y ceir gweled rhag llaw, a gyfieithodd yr "Ymarfer o Dduwioldeb."

Yr hanes ddiweddaf sydd genym am Robert Llwyd, Ficar y Waun, ydyw, bod Profyddion Cromwel wedi ei droi allan o'i fywiolaethau yn 1654.‡ Yr oedd y clerigwyr Cymreig yn cael eu troi allan o ddiffyg gwybodaeth o egwyddorion crefydd, ac o'r iaith Gymraeg, am esgeuluso pregethu, am anfoesoldeb, neu o herwydd eu gel-

* Yn hyn yr oedd yr awdur yn debycach i'r apostolion nag i lawer yn yr oes hon, a fynnant i'r wlad feddwl eu bod yn ddiwygwyr digyffelyb: y rhai a wnant ddelw fawr o *un* pechod (meddwdod), ac a ymunant â'r byd annuwiol i geisio ei ddryllio, fel pe bai Eglwys Crist yn annigonol, heb gymmorth y byd, i lanhau hyd yn oed ei haelodau ei hun oddi wrth y pechod yma, ar yr hwn y pregethant ac y darlithiant beunydd a beunos, gan adael i'r eglwys a'r byd, o'u rhan hwy, i fadru mewn pechodau eraill sydd cynddrwg yn ol y Bibl, megis balchder, a'r lleill a nodwyd, a'u cyffelyb (Gal. v. 19–21; Eph. iv. 28–32), heb draethu na phregeth na darlith yn eu herbyn ddydd mewn blwyddyn. Nid rhyfedd bod cyn lleied o fendith ar ymdrech unplyg o'r fath, a bod y ddelw, yn lle cael ei dryllio, yn myned gryfach gryfach o flwyddyn bwygilydd. Dilyned Eglwys Dduw gyfarwyddyd y Bibl, trwy ymroddi i'w glanhau ei hun oddi wrth *bob* pechod, gan ddyfod allan o ganol annuwiolion, ac ymddidoli (2 Cor. vi. 17), heb ymgymmysgu â hwynt. "Os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eulun-addolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn grib-ddeiliwr, gyd â'r cyfryw ddŷn ni ddylai y saint gyd-fwyta chwaith wrth fwrdd yr Arglwydd" (1 Cor. v. 11.) Sylwed yr eglwys hefyd ar yr hyn a ddywed Paul ymhellach: "Canys beth sydd i mi a farnwyf ar y rhai sydd oddi allan? Onid y rhai sydd oddi mewn yr ydych chwi yn eu barnu? Eithr y rhai sydd oddi allan, Duw sydd yn barnu" (1 Cor. v. 12, 13.)

† Hanes y Ffydd, t. 300.
‡ Walker's Sufferings of the Clergy; Llyfr. y Cymry, t. 300.

Digitized by Google

yniaeth at lywodraeth Cromwel, a'u pleidgarwch i'r frenhiniaeth.* Y mae cyfieithiadau campus Robert Llwyd yn brofion pur gedyrn nad oedd efe euog o'r tri throsedd blaenaf; gan hyny y mae yn dra sicr mai yr olaf oedd ei drosedd ef, cystal a lliaws eraill yn yr oes honno; ac felly y byddai y rhan fwyaf o lawer o glerigwyr yr oes hon hefyd, pe damweiniai yr un digwyddiadau. Methasom daro wrth Robert Llwyd ar ol iddo gael ei droi allan gan y Profyddion, am hyny yr ydym yn casglu ei fod wedi marw cyn 1660, pan adferwyd Charles II. i orsedd Brydain; pe amgen, y mae braidd yn sicr y cawsid hanes ei adferiad yntau i'w fywiolaethau.

## PENNOD VIII.

### ROWLAND HEILYN A SYR THOMAS MYDDLETON.

Y MAE cenedl y Cymry dan rwymau mawrion i'r ddau ŵr enwog a gwladgarol hyn, yn benaf am iddynt gyhoeddi argraphiad rhad a hwylus o'r Bibl Sanctaidd yn yr iaith Gymraeg. Nid oedd y Cymry, fel cenedl, wedi cael y Bibl hyd oes yr enwogion hyn, er ei fod oll yn eu hiaith er ys mwy na hanner can mlynedd. Bernir mai 500 copi yn unig a argraphwyd o gyfieithiad y Dr. Morgan, yn 1588, a gwyddys mai y nifer hwnw a argraphwyd o Fibl y Dr. Parry, yn 1620,† y ddau mewn plyg mawr, anhwylus, a drud, a elwir unplyg (*folio*), a'r cwbl yn cael eu cyfyngu bron yn hollol i'r eglwysydd plwyfol. Cydymdeimlodd y ddau ŵr enwog uchod âg amddifadrwydd y Cymry o Air Duw, ac yn y flwyddyn fyth-gofiadwy 1630 cyhoeddasant yr Hen Destament a'r Newydd, yn cael eu rhagflaenu gan y Llyfr Gweddi Gyffredin, annerchiad Lladin Richard, Esgob Llanelwy, at y Brenin Iago, llythyr Lladin yr Esgob William Morgan at y Frenhines Elizabeth, ac "At y Darllenydd" yn Gymraeg. Rhwng y ddau Destament y mae'r Apocrypha, ac ar ol y Testament Newydd y mae "Llyfr y Psalmau, wedi ev cyfieithv, a'i cyfansoddi ar Fesur Cerdd, yn Gymraeg. Drwy waith Edmwnd Prys, Archdiacon Meirionydd;" a'r cwbl yn llyfryn bychan, hwylus, 8plyg, yn y llythyren fân a enwir bwrdeisen (*bourgeois.*)

Ail argraphiad manwl ydyw hwn, o ran llythyraeth a geiriad, o Fibl y Dr. Parry. Dodwn yma esampl o hono, a chaiff y darllenydd ei chymharu âg argraphiadau presennol y Bibl:—

"Wedi hynny yr oedd gŵyl yr Iddewon, a'r Iesu a aeth fynu i Ierusalem.

"2 Ac y mae yn Ierusalem, wrth *farchnad y defaid, lynn a elwir yn Hebraeg Bethesda, ac iddo bum Porth:

"3 Yn y rhai y gorweddei lliaws mawr o rai cleifion, ddeillion, cloffion, gwywedigion, yn disgwil am gynnhyrfiad y dwfr.

"4 Canys Angel oedd ar amserau yn descyn i'r llyn, ac yn cynnhyrfu'r dwfr: yna yr hwn a elei i mewn, yn gyntaf ar ôl cynhyrfu y dwfr, a ai yn iach o ba glefyd bynnag a fyddei arno.

"5 Ac yr oedd rhyw ddŷn yno, yr hwn a fuasei †glâf namyn dwy flynedd deugain.

"6 Yr Iesu pan welodd hwn yn gorwedd, a gwybod ei fod ef felly yn hir o amser bellach, a ddywedodd wrtho, A fynni di dy wneuthur yn iach?

"7 Y clâf a attebodd iddo, Arglwydd, nid oes gennif ddŷn i'm bwrw i'r llyn,‡ pan gynhyrfer‡ y dwfr: ond tra fyddwyfi yn dyfod, arall a ddescyn o'm blaen i.

"8 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Cyfod, cymmer dy wely i fynu, a rhodia.

"9 Ac yn ebrwydd y gwnaed y dŷn yn iach: ac efe a gododd ei wely, ac a rodiodd: a'r Sabbath oedd y diwrnod hwnnw.

"10 Am hynny yr Iddewon a ddywedasant wrth yr hwn a wnaethid yn iach, y Sabbath yw hi: nid cyfreithlon i ti godi dy wely.

"11 Efe a attebodd iddynt, yr hwn a'm gwnaeth i yn iach, efe a ddywedodd wrthif, Cyfod dy wely, a rhodia.

"12 Yna hwy a ofynnasant iddo, Pwy yw'r dŷn a ddywedodd wrthit ti, Cyfod dy wely a rhodia?

"13 A'r hwn a iachasid ni ŵyddei pwy oedd efe: canys yr Iesu a giliasei §or dyrfa oedd yn y fan honno."||

Y mae tôn unllais o flaen y Psalmau cân canlynol: 1, 2, 5, 6, 8, 9, 10, 11, 12, 51, 100, a 113; ac o bydd yn gyfleus i'r argraphydd, ni a ddodwn y dôn sydd o flaen y Psalm gyntaf ger bron yma, gan ein bod yn sicr y mawr hoffai ein darllenwyr cerddorol ieuaingc weled pa fath donau oedd gan ein tadau 257 o flynyddoedd yn ol, a pha fodd yr ysgrifenid, neu, yn hytrach, yr argrephid hwynt:

"Beatus vir. Psal. I.

"*Dyma wynleni y Psalmau: yn dangos tycciant y duwiol ac aflwydd y rhai annuwiol.*




* Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 508.
† Y Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639.

* *Porth.*—Ar ymyl y dail y mae'r nodiadau hyn, ynghyd âg ychydig gyfeiriadau Ysgrythyrol.
† *Mewn gwaeledd.*
‡ Y mae'n debyg mai camargraph oedd dodi un *n* yn y ddau air hyn, megis mewn rhai eraill.
§ *Neu er bod tyrfa* (*neu*) *a thyrfa yn y fan honno.*
|| Ioan v. 1–13.

Nid yw hyspys pa nifer o gopïau a gynhwysai yr argraphiad yma; ond y mae yn sicr mai at yr argraphiad hwn y cyfeiria hen Ficar Llanymddyfri yn y penill canlynol:—

"Mae'r Bibl *bach* yn awr yn gysson,
Yn iaith dy fam i'w gael er *coron:*
Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw;
Mae'n well na thref dy dâd i'th gadw."*

Wrth ymddiddan ar y pwngc dyddorol yma, dywed Joshua Thomas† fel hyn:—

"*Plentyn.* Mae'n debig fod y wlad, fel o'r blaen [sef ar ol cyhoeddi Bibl y Dr. Morgan ac un y Dr. Parry, megis cyn hyny], heb y Beibl ond yn yr Eglwysi.

"*Tad.* Oeddent. Er mwyn yr Eglwysi yr oedd yr argraphiad hwn [yr eiddo y Dr. Parry] fel y llall [yr eiddo y Dr. Morgan.]

"*P.* Beth a wnaed yn ol hynny?

"*T.* O ran y cyfieithiad ni wnaed dim llawer o'r gyfnewidiad wedi'r argraphiad yn 1620. Am y cyfieithiad, neu'r diwygiad hwnnw, yr hwn sydd gennym hyd heddyw,‡ un da rhagorol ydyw. Yr oedd y gwyr hynod a enwyd mor ddysgedig yn yr Hebraeg a'r Groeg, fel o bosibl, nad oes un cyfieithad o'r ysgrythur yn y byd yn well na'r un Cymraeg, ond y mae llawer yn waeth nag ef, er ei fod yn hir cyn dyfod, etto efe a wnaed yn dda o'r diwedd.§ Dylai'r gwyr ardderchog a lafuriasant gymmaint wrtho, ar eu traul eu hunain, oddieithr rhyw ychydig o wyr da oedd gyd â hwy yn cynnorthwyo, fod mewn coffadwriaeth dragywyddol ymhlith y Cymry.

"*P.* Pa bryd y daeth y Beibl allan i'r bobl gyffredin?

"*T.* Yn y flwyddyn 1630; ychydig wedi can mlynedd ar ôl dechreu'r *Diwygiad;* can mlynedd ar ôl dechreu'r gair *Protestaniaid;* ac yn agos can mlynedd wedi dechreu *Eglwys Loegr.*

"*P.* Ar draul pwy y daeth hwnnw allan?

"*T.* Ar draul dau wr enwog o hiliogaeth y Cymry, y rhai oeddent y pryd hynny yn Henuriaid yn ninas Llundain: sef Mr. *Rowland Heylin,* a Sir *Thomas Middleton,* o enedigaeth o Gastell y Wayn yn Sir Dinbych, rhwng Croesoswallt a Wrexham, a rhyw rai eraill yn eu cynnorthwyo. Am yr olaf y mae Mr. *Stephen Hughes* yn dywedyd yn ei lythyr o flaen *Llyfr y Ficar,* a argraphwyd yn 1672, 'Mai Sir *T. Middleton,* yn anad neb arall, a ddangosodd y drugaredd hyn gyntaf i'n gwlad ni, sef i fod mewn traul i argraphu'r Beibl yn llyfr bychan, er budd i'r cyffredin bobl, er ei fod o'r blaen yn llyfr mawr yn yr Eglwysydd.' Ebe fe ymhellach yno, 'Yr wyf i'n dymuno o'm calon ar Dduw, am i bob bendith ysprydol a chorphorol ddesgyn o'r Nef ar bob un o eppil Sir *Thomas Middleton,* yng Ngwynedd, neu yn un lle arall. Rhodded Duw iddynt fendithion aneirif; fel tywod y mor, fel glaswellt y ddaiar, ac fel sêr y nefoedd: a dyweded pob un yng Nghymru, ag sydd yn caru Duw, ac yn hiraethu am iechydwriaeth pobl yno, Amen, ac Amen; poed felly y bo. Arglwydd grasol, bendithia eppil Sir *Thomas Middleton,* a bydded ei enw ef dros byth yn anrhydeddus.' Mae teulu anrhydeddus y gŵr haelionus yn byw hyd yn hyn [1778] yng Nghastell y Wayn."

Dywed y Dr. Llywelyn‖ bod y diweddar Barch. Mr. Griffith Jones [Llanddowror¶] yn cyssylltu dinasyddion eraill o Lundain [wrth Heilyn a Myddleton] er dwyn argraphiad 1630 allan, enwau y rhai y dymunasai efe eu cael, ond nad oedd yn ei allu eu crybwyll. Ac, ysywaeth, ychydig iawn o hanes eglur a gwahanredol sydd genym am y ddau y mae eu *henwau* yn adnabyddus, sef Heilyn a Myddleton.

ROWLAND HEILYN a hanai o hen deulu Pentref Heilyn, ym mhlwyf Llanymenech, neu Llanymyneich, yn sir Amwythig, ar gyffiniau sir Drefaldwyn;* ac nid yn Llandysilio, fel y dywed y Parch. R. Williams,† ac eraill ar ei ol. Ystyr y y gair *Heilyn* yw *trulliad,* a chymmerth y teulu y gair yn gyfenw, am eu bod yn drulliaid etifeddol i dywysogion Powys. Ymddengys hefyd eu bod yn alweryddion (*purse-bearers*) a gweinidogion y cyllid, ac mai eu gwastraff o arian y wlad a rodd hanfod i'r ddihareb, "Hael Heilyn o gôd y wlad."‡

Pa wedd bynag, yr oedd Rowland Heilyn c duedd hollol wahanol, canys tra hael i'r wlad a fu efe, ac nid hael o'i chôd hi. "Yr oedd y Rowland Heilyn hwn yn ŵr daionus dros ben. Parodd i'r Bibl Cymraeg gael ei argraphu ar ei draul ef ei hun [a'r rhai a nodwyd eisoes], yn gyfrol hwylus, er lles ei gydwladwyr, yr hwn oedd o'r blaen yn unplyg eglwysig mawr. Cyhoeddodd hefyd yr 'Ymarfer o Dduwioldeb'§ yn Gymraeg, a Geiriadur Cymraeg,‖ er budd ei gydwladwyr. Yr oedd Biblau Cymraeg cyn hyny yn bur brinion a chostus; ond bellach daethant yn gyffredin yn llaw pob dŷn, ac yn iaith ei fam."¶

Pa bryd y ganwyd Rowland Heilyn, ac ymha le, nid ydym yn canfod neb yn mynegi; ond od oedd efe yn 70 oed pan yn marw, ganwyd ef o gylch y fl. 1564. Pa wedd bynag, y mae sicrrwydd iddo ymsefydlu yn Llundain, ac ymddyrchafu yno i gyfoeth mawr a swyddi anrhydeddus, canys bu yn henadur ac yn siryf y brif-ddinas. Bu farw yn y flwyddyn 1634; a chan nad oedd iddo fab, ac i un o'i ferched briodi gŵr a'i enw

* Canwyll y Cymry, 1714, t. 8. † Han. y Bed., t. 17.

‡ Sef hyd 1778, pan ysgrifenai Jos. Thomas; a gellir dywedyd mai yr un yw y cyfieithiad sydd genym "hyd heddyw" (1877), ond bod y *llythyraeth* wedi cael ei newid yn fynych, weithiau er gwell ac weithiau er gwaeth.

§ Dr. Llywelyn's Historical Account of the British or Welsh Versions and Editions of the Bible, 1768, p. 57.

‖ Hist. Acc., p. 40. ¶ Welsh Piety for 1742.

* Gwaith G. Mechain, v. iii., pp. 17, 19; Llyfr. y Cymry, t. 109, Nod. †.

† Em. Welshm., p. 219.

‡ "Hael ywain o bwrs y wlad" sydd ynghasgliad y Dr. Davies o Fallwyd o'r Diarhebion, a "Hael Hywel o bwrs y wlad" sydd ynghasgliad T. Richards.

§ Cyfieithiad Rowland Fychan o Gaergai oedd hwn, fel y ceir gweled rhag llaw.

‖ Yr unig Eiriadur a dim Cymraeg ynddo a gyhoeddwyd yn oes Rowland Heilyn, hyd y gallwn ni ganfod, oedd Geiriadur Cymraeg a Lladin, a Lladin a Chymraeg, y Dr. Davies, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1632. A oedd gan Rowland Heilyn ryw law ynghyhoeddiad hwnw, nis gallwn benderfynu.

¶ Gwaith G. Mechain, v. iii., p. 19.

Digitized by Google

Congreve, trosglwyddwyd ei etifeddiaeth i rai o'r enw hwnw.*

SYR THOMAS MYDDLETON (am yr hwn y traethwyd ychydig eisoes, yn ei gyssylltiad â'r enwog Rowland Heilyn yn nygiad allan y Bibl rhad cyntaf i genedl y Cymry, yn 1630) ydoedd un o hiliogaeth hen Filtwniaid sir Ddinbych, fel y galwai y Cymry hwynt. Bu pedwar o'r Miltwniaid yn dwyn yr enw Syr Thomas Myddleton, ac y mae'r anrhydedd o gyhoeddi y Bibl rhad yn 1630 yn cael ei briodoli i ddau o honynt, sef i Syr Thomas y cyntaf, ac i'w fab ef, Syr Thomas yr ail. I Syr Thomas y cyntaf y priodolir yr anrhydedd gan y rhan fwyaf o'n hysgrifenwyr;† ac y mae dau o honynt yn dywedyd ddarfod i Syr Thomas y cyntaf, maer Llundain, "mewn cyssylltiad â Rowland Heilyn, henadur Llundain," ddwyn "*tri* argraphiad rhad allan o'r Bibl Cymraeg."‡ Y mae hyn yn gamsyniad dybryd. Ni chyhoeddwyd argraphiad o'r Bibl ar ol 1630 hyd 1654, ymhen 20 mlynedd ar ol i Heilyn farw. Methodd y Dr. Llywelyn gael allan pwy a fu'n foddion i gyhoeddi yr argraphiad helaeth hwnw;§ ond gan iddo gael ei ddwyn allan yn y flwyddyn gyntaf o lywodraethiad Cromwel, galwyd ef yn "Fibl Cromwel."‖ Yr argraphiad nesaf o'r Bibl yn gyflawn a gyhoeddwyd yn 1677, ymhen deuddeng mlynedd ar ol marwolaeth Syr Thomas Myddleton yr ail, a 34 blynedd ar ol marwolaeth Rowland Heilyn.

Ond, pa un ai Syr Thomas Myddleton y cyntaf, maer Llundain, ai ei fab, Syr Thomas yr ail, a fu gynnorthwyol i Rowland Heilyn i ddwyn allan yr argraphiad rhad cyntaf o'r Bibl Cymraeg, yn 1630?. Y mae dau o'n hysgrifenwyr craffaf a manylaf yn priodoli yr anrhydedd i Syr Thomas Myddleton yr ail, sef y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain) a'r Parch. D. Silvan Evans (Hirlas.) Y mae Gwallter Mechain, cyn traethu ar y gymmwynas fawr dan sylw, ciddo yr hwn a elwir genym ni Syr Thomas Myddleton yr ail, yn olrhain y Miltwniaid gwladgarol, yn fyr a dyddorol, i Rhirid Flaidd,¶ nai Meredydd ab Bleddyn, tywysog Powys, fel y canlyn:—

"RHIRID FLAIDD a fu o gylch y flwyddyn 1150 yn benarglwydd ar bum plwyf Penllyn, Eifionydd, Pennant Melangell, y Glyn ym Mhowys, a'r Un Dref ar Ddeg *(Rayton of the Eleven Towns)* yn swydd y Mwythig. Cymmerodd ei gyfenw milwraidd *Blaidd* oddi wrth ei orhendaid, y Blaidd Rhudd o Gest, yn Eifionydd. Haer, ferch Gyllin ab y Blaidd Rhudd, a briodes yn gyntaf Fleddyn ap Cynfyn, tywysog Cymru; ac wedi ei gyflafan ef yn Ystrad Tywi yn y fl. 1073, hi a briodes Gynfyn Hirdref, a enwid felly oddi wrth ei dreftadaeth ger llaw Nefyn yn Arfon. Merch o'r briodas ddiweddaf oedd Enerys, a hi a briodes Wrgeneu ap Collwyn ab Moreiddig, uchelwr o Bennant Melangell ym Mhowys, a'u mab hwynt oedd Rhirid Flaidd. Felly yr oedd Rhirid yn nai fab hanner chwaer i Feredydd ab Bleddyn, tywysog Powys, ac yn gadfridog gwrol yn ei fyddin ef. Rhai achwyr a dystiant mai o achos y carennydd hwn y graddiwyd Rhirid Flaidd yn un o 15 Llwyth Gwynedd, yn lle Nefydd Hardd o Nanconwy, a iselwyd yn fab aillt am ladd ei arglwydd Idwal, mab Owain Gwynedd, yng Nhwm Idwal yn Eryri. Er bod Rhirid yn Flaidd mewn cad ac ymorchest, yr oedd, er hyny, yn ol tystiolaeth ei gydoeswr, Cynddelw Brydydd Mawr, yn wladwr hael a hynaws. Gosodir yma rai difyniadau allan o bryddest Cynddelw:—

'Priodawr Pennant pennaf uchelwr
Uchelwr fodrydaf;
Nid i flaidd praidd y prydaf,
Namyn i flaidd glyw y glewaf.
. . . . . . . . . .
Nid blaidd coed coll ei afael,
Namyn blaidd maes, moesawg hael.'

"Yn y dyddiau blinion hyny, nid oedd haiach i ryfelwr yn disgyn i'w fedd mewn heddwch; a chesglir oddi ar gofiant y bardd i Ririd Flaidd gael ei ladd gan un Goronwy.

'Gwnaeth Goronw, gwr anelw,
Gyflafan anheledïw,
Adladd Ririd rwyf anaw,
A byth nis beiddiei be byw.
. . . . . . . . . .
Neud am Dreig *Bennant* benaf galar,
. . . . . . . . . .
Gwr ni oedd hygawdd a oedd hygar,
Hygyrch ei neuadd cyn lladd lachar.
. . . . . . . . . .
Gwr oedd feirdd arfoll cerddgoll cerddgar,
Gwr oedd *flaidd* llysaidd, llysid ei fâr;
Gwr oedd rudd ei lafn o lif gwyar,
Gwr oedd ruthr aruthr ar ei ysgar,
Gwr athrigiad aer, gwr athrugar,
Gwr athrist i feirdd ei fod yn wâr;
Gwr a'm gwnaeth hiraeth hir ysgar—ag ef,
Yny dêl llu nef a llu daiar.'

"Rhirid Bothon (neu genaw Blaidd), gorwyr i Rhirid Flaidd, a briodes Sisli (Cecilia) ferch ac etifeddes Syr Alecsander Miltwn (*Middletown*, Tref Ganol), swydd y Mwythig, yn agos i Garn Atyn,* Ceidwad Castell Trefaldwyn. Robert, mab y Pothon a Sisli uchod, oedd y cyntaf o genedl Rhirid Flaidd a gymmerodd y cyfenw Miltwn. Wyr i Robert oedd Dafydd Miltwn hen. Yn ei faboliaeth syrthiasai mewn cariad ag Elin, merch Syr John Don o Utkinton, swydd Gaer, ond ni fedrai ennill ewyllys da ei thad, yr hwn ar awr anffodiog a'i cymhellodd i briodi un arall, a oedd yn well wrth ei fodd ef.† Nis gallai disgynydd y Blaidd Rhudd foddloni i'r anfri hwn. Aeth i gyfarfod Elin Don a'i phriod newydd ei huno ynghwlwm priodas, ac a darawodd y priodfab ger llaw porth y fynwent, a chymmerodd Elin ymaith mewn gorfoledd, ac a'i priododd pan gyrhaeddodd le diogel, cyn

* Williams's Eminent Welshmen, p. 219; Gwaith Gwallter Mechain, v. iii., p. 19.
† Han. Cref. yng Nghymru, t. 215; Gwladgarwr Caer, 1833, t. 75, Nod. *; Yr un, 1837, t. 141, Nod. *; En. Cymry, t. 759; Cymru, cyf. ii., t. 295; Llyfr. y Cymry, t. 109.
‡ En. Cymru, t. 759; Cymru, cyf. ii., t. 295.
§ Llewelyn's Acc., p. 40.
‖ Y Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639.
¶ Nid un o'r "Normaniaid estronol" oedd y gŵr hwn, fel y dywed un ysgrifenydd fod "teulu Middleton."—Cymru, cyf. ii., t. 296.

* Corndon Hill.
† Richard Don o Croton.

Digitized by Google

machlud yr haul. Ac felly, fel y dywed Mr. Yorke,* 'bu Elin Don yn ferch ieuangc, yn wraig, yn weddw, ac yn wraig eilwaith ynghorph yr un dydd.' Yr oedd y llywodraeth wladol, yn gystal a greddf foesol, mewn cyflwr isel yn y dyddiau hyny. Y mae hanesion yr oesau hyny yn ymddangos i ni heddyw fel breuddwydion y nos. Yn lle cospi Dafydd Miltwn am y gyflafan ddybryd, gosodwyd ef yn dderbynydd ardreth y brenin drwy dalaeth Gwynedd.

"Bu i Ddafydd Miltwn ac Elin Don ddeg o blant: 1. Roger Miltwn o Waunynog; 2. Tomas Miltwn o Arth Gynan; 3. Ffoulk; 4. Dafydd Miltwn o Gaer; 5. Siôn; 6. Edward; 7. Elisabeth, gwraig Dafydd Holand; 8. Ann, gwraig Morus Gethin o Gerniogau; 9. . . gwraig Mathew o'r Grin, yn Llyweni; 10. . . gwraig yr hen Harri Heaten.

"I'r trydydd mab (Ffoulk) y bu naw o blant; sef, 1. Ffoulk; 2. William; 3. Siôn o Ystrad; 4. Richard; 5. Robert; 6. Hwmffrai; 7. Tomas; 8. Dows *(Dulcibella)*, gwraig Ffoulk ap Rhys ab Bened o Fod Elwyddan; 9. Elisabeth.

"Richard, y pedwerydd mab, a briodes Jane, merch Hugh Dryas (Drihurst) o'r Ardd, yn Ninbych. Bu yn geidwad Castell Dinbych dan dri theyrnasiad, sef Edward VI., Mair [Mari Waedlyd], ac Elisabeth. Ymhorth yr Eglwys Wen, is law Dinbych [o fewn tu a milltir i'r gogledd-ddwyrain o Ddinbych], ar y llaw ddeheu, y mae taflen o elydn er coffadwriaeth am y ddeuddyn hyn. Y ceidwad Miltwn ar ei liniau, a'i ddwylaw ymhleth, ger bron allor, a *naw* o'i feibion yn penlinio o'r tu cefn iddo; a'i briod ef yn yr un agwedd defosiynol, ac o'r tu ol iddi hithau *saith* o ferched. Enwau yr un ar bymtheg hyn oedd fel y canlyn:—1. Richard; 2. Simon; 3. William; 4. Tomas; 5. Charles; 6. Huw; 7. Ffoulk; 8. Robert; 9. Pyrs; 10. Siân; 11. Siws; 12. Margred; 13. Ales; 14. Elin; 15. Gras; 16. Barbara. Bu farw eu tad yn y fl. 1577. A Rhys Cain, yn ei farwnad ef, a geidw goffadwriaeth o rifedi ei blant ef, fel y canlyn:—

'Mae cedeyrn am eu codi
Ac o ryw hon a'i gŵr hi:
*Naw* mab rhoed ymhob rhediad,
A *saith* loer, urddas wyth wlad.'

"Ymhlith y naw meibion uchod bu i *dri*† ragori yn eu hoes, er lles a bendith i'w gwlad a'u cenedl. Y pedwerydd mab, THOMAS, a fu'n fasnachydd yn Llundain, ac a lwyddodd cymmaint yn ei alwedigaeth, fel ag y bu iddo wasanaethu swydd siryf dan y Frenhines Elisabeth, ac arglwydd maer yn nheyrnasiad Iago I. Ei gyfoeth a'i galluogodd i brynu Castell y Waun, a'i holl berthynasau, gan yr Arglwydd St. John o Blesto, yn y fl. 1595. Hwn oedd y cyntaf o Filtwniaid Castell y Waun, er bod y teulu yng Ngwaunynog, a phalasau eraill, er rhai oesau yn ol.

"Mab i Syr Tomas y cyntaf, maer Llundain, a phrynydd Castell y Waun, oedd y Syr Tomas Miltwn [Syr Thomas Myddleton yr ail] a ymarfogodd pan oedd yn 57 o flwyddi oed, ymhlaid y Senedd yn yr anhapus ryfel cartrefol; ond y golofn benaf a ddyrchafodd er coffadwriaeth i'w enw, oedd yr argraphiad cyntaf o'r Beibl Cymraeg yn wythplyg, cymmwys i'r llogell, fel y gellid ei werthu am bris isel i'w wladwyr tlodion, oeddynt ymorau y Diwygiad yn hiraethu, yn sychedu, ac yn newynu am Air y Bywyd yn eu hiaith eu hunain. Yr argraphiad hwn o'r Beibl a ddaeth allan yn y flwyddyn 1630." ‡

* Royal Tribes, p. 107, Note *.—*Margaret Done* ydyw gan Yorke.

† Y cyntaf o'r tri hyn oedd y trydydd mab, William (Gwilym Ganoldref), y capten a'r bardd, am yr hwn y crybwyllwyd o'r blaen, t. 70. Yr ail oedd y pedwerydd mab, Tomas (Syr Thomas Myddleton y cyntaf), yr hwn y traethir am dano ef a'i fab uchod; a'r trydydd oedd y chweched mab, Huw (Syr Hugh Myddleton), yr hwn a ddug yr Afon Newydd i Lundain.

‡ Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 431–434



Yna difyna yr ysgrifenydd enwog weddi Stephen Hughes dros Syr Thomas Middleton a'i eppil, a ddifynwyd genym eisoes.

Y Parch. D. S. Evans hefyd a ddywed: "*Mab* i'r Syr Thomas Middleton (brawd i Syr Huw Middleton a Gwilym Ganoldref), a gofnodir gan yr awdur (Gwilym Lleyn), ydoedd y Syr Thomas Myddleton a ddug ran o draul argraphu Bibl Cymraeg 1630, ac a gymmerth ran yn y rhyfel rhwng Siarls I. a'r Senedd. Y tad [Syr Thomas Myddleton y cyntaf] a fu yn Arglwydd Faer Llundain yn nheyrnasiad Iago I., ac a brynodd Gastell y Waun yn 1595; a'r mab [Syr Thomas Myddleton yr ail] ydoedd yr *ail* Filtwn o'r lle hwn. Felly ewythredd i'r gŵr hwn (ac nid brodyr) oedd dygiedydd yr Afon Newydd i Lundain, a chynganeddwr y Psalmau ar fesur cerdd."§

Dywed amryw ysgrifenwyr‖ y bu Syr Thomas Myddleton yr ail farw yn y fl. 1666, yn 80 oed. Felly ganwyd ef yn y fl. 1586, yr hyn hefyd a ettyb i'w oedran pan ymarfogodd ymhlaid y Senedd yn 1643, ac efe yn 57 oed. Am hyny ymddengys nad cywir mynegiad Joshua Thomas, yr hwn a ddywed ei fod "o enedigaeth o Gastell y Wayn,"¶ canys yr oedd efe o gylch 9 oed pan brynodd ei dad, Syr Thomas Myddleton y cyntaf, Gastell y Waun yn y fl. 1595. Tebycach ydyw mai yn Llundain y ganwyd ef, o gylch y flwyddyn a nodwyd, 1586. Yr oedd efe o gylch 44 oed pan ymunodd â Rowland Heilyn i ddwyn traul yr argraphiad 1630 o'r Bibl Cymraeg.

---

## PENNOD IX.

### WILLIAM WROTH.

WELE ŵr enwog etto heb ei gofnodi gan ein geiriadurwyr bywgraphiadol cyffredin: er hyny y mae genym hanes led fanwl am dano ef mewn gwahanol lyfrau, fel y ceir gweled wrth fyned rhagom. Y mae hanes y gŵr enwog yma yn dwyn golygfa grefyddol newydd i'n gŵydd. Gwelsom fod "Enwogion y Ffydd," ymhlith y Cymry, yn gyfyngedig bron yn hollol, hyd yn hyn, i Eglwys Sefydledig Lloegr; ond bellach cawn olygfa wahanol, pan y dechreuodd Ymneillduaeth oddi wrth yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru, ac o hyn allan cawn "Enwogion y Ffydd" ym mysg Eglwyswyr ac Ymneillduwyr; ac, yn ol yr hanes a

§ Llyfr. y Cymry, t. 110, Nod. *.

‖ Gwladgarwr Caer, cyf. v., t. 143; En. Cymru, t. 760.

¶ Han. y Bedyddwyr, t. 18.

gafodd y Parch. Joshua Thomas,* WILLIAM WROTH, "gweinidog Llanfaches, yn Sir Fonwy, ydoedd y cyntaf o'r Cymry a ymneillduodd oddi wrth Eglwys Loegr."

Ganwyd William Wroth yn Abergefenni, neu yn agos yno, yn y fl. 1570. Dywedir ei fod yn hanu o un o'r teuluoedd cyfoethocaf a pharchusaf yn sir Fynwy;† ond ni roddir dim o'u hanes hwy, nac o hanes ei fabandod yntau, hyd y gallwn ni ganfod. Derbyniwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, ar y 21fed o Ionawr, 1586, pan oedd yn 16 oed. Ymddengys iddo fod yn Rhydychain, ar amserau o leiaf, hyd onid oedd yn 25 oed, canys dengys coflyfrau y brifysgol mai ar y 18fed o Chwefror, 1595, y cafodd ei raddio yn B.A. (Gwyryf yn y Celfyddydau.) Dywed y Parch. T. Charles, Bala,‡ yr arhosodd Wroth yn Rhydychain dros bedair blynedd ar ddeg; ond nid yw yn dwyn awdurdod dros y mynegiad. Ei athraw cyntaf yn Rhydychain oedd un Mr. Case (y Dr. Case wedi hyny), yr hwn oedd ysgolhaig tra enwog, ond "yn tueddu yn gryf at athrawiaeth Eglwys Rhufain." Gan fod llawer o brif deuluoedd sir Fynwy yn yr oes honno yn Babyddion, tybir mai perthyn i'r blaid honno yr oedd teulu neu warcheidwaid Wroth, ac mai hyny oedd yr achos iddo gael ei ddodi dan athraw o'r cyfryw olygiadau yn Rhydychain.

Ni fynegir pa bryd, nac ymha le, y cafodd Wroth ordeiniad offeiriadol; ond cafodd ei osod yn Ficar Llanfaches (plwyf rhwng Casnewydd a Chas Gwent, yn sir Fynwy), gan y noddwr, Syr William Lewis o'r Fan, ger llaw Caerphili, o gylch y fl. 1595, yn bur fuan, fel yr ymddengys, ar ol ei ordeiniad. Ymddengys i W. Wroth, fel llawer o'i gydoeswyr, gymmeryd swydd eglwysig fel galwedigaeth fydol, i gael bywioliaeth gysurus oddi wrthi, pan yn gwbl ddïeithr i grefydd ysprydol Iesu Grist. Dyry'r Parch. Jos. Thomas§ hanes argyhoeddiad William Wroth, a gafodd efe "mewn ysgrifen yn sir Fonwy" (heb amseriad wrthi), fel y canlyn:—

"Yr oedd Mr. Wroth, fel llawer eraill o'r Cymry, yn mawr hoffi cerddoriaeth. Yr oedd gŵr bonheddig ger llaw,|| a chanddo ryw achos mewn cyfraith i'w drin yn Llundain. Yr oedd Mr. Wroth ac yntef yn gyfeillgar|| iawn. Aeth y gŵr mawr i Lundain ynghylch y gyfraith, a daeth hanes i Lanfaches ei fod wedi ennill y dydd, yr hyn a barodd orfoledd nid bychan gartref. Prynodd y gweinidog offeryn cerdd* newydd i gael llawn orfoledd a gwledda pan ddelai'r cymmydog adref. Yr oedd yr amser wedi ei bennu, a pharotoad mawr yn y teulu; a'r Ficar yn trefnu ei offer er mwyn iddo fod yn Ben-cerddor y nos honno. Ond tra'r oeddynt yn disgwyl y gŵr bonheddig adref, daeth yr hanes ei fod wedi marw. Felly trodd y gorfoledd mawr yn alarnad chwerw dost. Wrth weled y llefain, yr wylo, a'r galar, dywedir i'r Ficar syrthio ar ei liniau, a thaer weddïo ar i Dduw fendithio y tro rhyfedd hwnw iddynt oll, a chysuro'r weddw drist, a'r ymddifaid galarus. Yr ydys yn meddwl mai hwn oedd y tro cyntaf y gweddïasai ef erioed o'i galon; gan mai gŵr ysgafn yn ei fuchedd ydoedd o'r blaen. Ond dywedir ei fod yn daer iawn y pryd hyny am fendith ar y rhagluniaeth, er eu dwyn i ystyried gwagedd y byd hwn, a'r cyffelyb. Yr oedd y Ficar o hyn allan yn ŵr sylweddol, dwys-fyfyriol ar air Duw: pregethodd fel un ag awdurdod ganddo. Yr oedd am ogoneddu Duw, dyrchafu Crist, ac achub eneidiau gwerthfawr. Gwnaeth swn mawr ar hyd y wlad, a chafodd llawer eu hargyhoeddi.

"Yr wyf fi'n barnu," ebai Mr. Thomas, ymhellach,† "ei fod ef wedi dechrau pregethu yn y modd yma ar fyr wedi 1620, neu o hyny i 1630." Dywed y Dr. T. Rees‡ "fod hyn yn amlwg ddisail. Yr oedd Mr. Wroth dros 50 oed yn 1620; ac ymddengys yn bur anhebyg, a dywedyd y lleiaf, y deuai clerigwr wedi cael ei ddychwelyd yn yr oedran hwnw mor enwog a chyffredinol hyspys ag i gael ei alw yn 'Apostol Cymru.' Y mae cofnodwr digwyddiadau o'r fath gywiraf a ffyddlonaf, sef ysgrifenydd Coflyfrau Broadmead, wrth gyfeirio at sefyllfa grefyddol y deyrnas o 1600 hyd 1640, yn dywedyd: 'A chyfodwyd amryw weinidogion a phregethwyr sanctaidd a grymus, o gylch y pryd hyny, yn y genedl hon; un o ba rai yn y parthau hyn oedd un Mr. Wroth, yn sir Fynwy, heb fod ymhell o Gaerodor (Bristol), yr hwn, o blegid nerth ac effeithiolrwydd ei bregethiad, ynghyd â santeiddrwydd dilychwin ei fuchedd, a alwyd yn Apostol Cymru; canys y mae Pabydd, a phob math braidd, yn ei anrhydeddu fel dŷn sanctaidd. Rhyngodd bodd i'r Arglwydd ddychwelyd lliaws trwy ei weinidogaeth, fel y maent wedi gadael eu ffyrdd drygionus yn y byd; wedi hyny parodd yntau iddynt ymneillduo oddi wrth addoliad y byd, a chynhullodd hwynt i drefn efengylaidd o lywodraeth eglwysig. Ac y mae eu goleuni wedi mawr dywynu yn y parth yma o'r tir. O gylch yr un amser cyfododd Duw, yn y ddinas hon, Caerodor, ym mhlwyf Philip, un Mr. Yeamans, pregethwr zelog, yr hwn, er ei fod mewn rhai pethau, er mwyn cadw ei le, yn gwneud

* Han. y Bedyddwyr, 1778, t. 22.

† Rees's Hist. Noncon. in Wales, p. 41; Han. Egl. Anni. Cymru, cyf. i., t. 9.

‡ Trysorfa Ysprydol, 1799, t. 155.

§ Hanes y Bedyddwyr, t. 22.

|| Ni ddywed Mr. Thomas, megis y dywedodd eraill ar ei ol, bod Wroth yn gâr i'r gŵr bonheddig hwnw, na'i fod yn lletya yn ei dŷ chwaith.

* Violin, crwth, ffidl.

† Han. y Bed., t. 23.

‡ Hist. Noncon. in Wales, p. 43.

Digitized by Google

yn ol yr arfer ar y pryd, etto nis goddefai i'w wrandawyr arfer defod ddall, megis ymgrymu wrth enwi Iesu, a rhodiana'n anwybodus, neu'n hytrach, yn ol yr arfer, a halogi'r Sabbath; at yr hwn yr ymgynhullai pobl o eneidiau effro a meddyliau gonest, yn ddiadell fawr i wrando arno. Eisteddent dan ei oleuni dros yn agos i ugain mlynedd.'*

"Ymsefydlodd y Mr. Yeamans yma yn St. Philip, Caerodor, o gylch 1604, a bu farw yn 1633.† Nid ymddengys yn naturiol mewn un wedd y buasai ysgrifenydd y Coflyfrau yn crybwyll Mr. Wroth, gweinidog yn preswylio dros ugain milltir yn y wlad o Gaerodor, o flaen Mr. Yeamans, gweinidog yn ei ddinas ei hun, oni buasai bod y blaenaf yn adnabyddus ac yn enwog, fel pregethwr efengyl, o flaen yr olaf. Y mae'r ystyriaethau hyn yn ein harwain i amseru dychweliad Mr. Wroth mor forau o leiaf a'r flwyddyn 1600."

Yr oedd Llanfaches yr un fath i bobl grefyddol Cymru, a rhanau o Loegr, ag ydoedd Jerusalem gynt i'r Iuddewon. Cyrchent yno o bob cwr o'r wlad, ac yr oedd rhagoriaeth grefyddol y bobl a hoffent bregethau "Apostol Cymru" yn amlwg i bawb. Y mae William Erbury, mewn llyfryn a gyhoeddwyd yn 1652, wrth draethu yn y modd mwyaf angharedig ar sylfaenwyr achos Gwrth-Fedyddwyr babanol yng Nghymru, yn ein cynnysgaeddu â phrawf nodedig o boblowgrwydd anghyffredin Mr. Wroth, ac o gymmeriad uchel ei ganlynwyr. Wrth gyfeirio at Gymru, efe a ddywed fel hyn:—

"Canys megis mai eglwys Annibynol oedd y gyntaf yno, felly eglwysi Bedyddiol oedd y rhai diweddaf yno. . . . Yn ddiweddar yr ymddangosodd ac y cynhyddodd yr eglwysi Bedyddiol yng Nghymru; a neb ond y Cristionogion gwanaf yn unig sydd wedi syrthio i'r dwfr. Yr wyf yn dywedyd gwirionedd yn amhleidgarol. Nid oedd saint mwy ysprydol a dïoddefgar mewn un ran o'r deyrnas nag oedd yng Nghymru; mor hunan-ymwadol ac mor farw i'r byd; ïe, y fath Gristionogion doeth o galon a gwybodus oeddynt! Dyweded a thystied yr holl siroedd Seisnig o amgylch y fath nifer o saint o Wlad yr Haf, sir Gaerloyw, sir Henffordd, sir Faesyfed, sir Forganwg, &c., a gyrchent yn lluoedd i Lanfaches. Y fath oleuni a'r fath lafur yn yr yspryd oedd yno! Mor nefolaidd eu hyspryd oeddynt! Y fath iaith ddihalog a arferent! Mor wyliadwrus oeddynt! Y fath weddïau ddydd a nos! ar y ffordd wrth gerdded, gyd â'u gwaith, wrth ddilyn yr aradr: ar fyr, yr oedd yspryd gweddi a phurdeb calon yn ymddangos ymhob man. Nid oedd dim son am ordinhadau'r pryd hwnw; dim ond ofn ynddynt eu hunain, a chymmell eraill trwy'r Yspryd, i fyw ynddynt. Yspryd a bywyd oedd y cwbl yr edrychai'r saint yng Nghymru arn danynt y pryd hwnw."‡

Nid oedd ficar apostolaidd Llanfaches yn cyfyngu ei lafur i'w blwyf ei hun yn unig. Ymwelai yn fynych â gwahanol barthau o Gymru, ac â'r siroedd Seisnig cyfagos. Llawenychid pobl grefyddol Caerodor yn achlysurol gan ei ymweliadau â'r ddinas honno, "a rhedent ar ei ol ef, a phregethwyr diwygiadol eraill y Deheubarth, fel eneidiau newynog am ymborth."§ Yr oedd ei bregethau difrif-ddwys, ei boblowgrwydd, a'i weithrediadau anghanonaidd, ond apostolig, fel peth o angenrhaid yn cynhyrfu eiddigedd ei gymmydogion gwrthwynebus a hunanol, a llidiog achwynent arno yn fynych yn llys yr Esgob yn Llandaf; ond goddefwyd iddo ef, fel amryw Buritaniaid eraill, gadw eu bywiolaethau yn ystod penesgobaeth yr Archesgob Abbot. Dywedir ddarfod i'r Dr. T. Field, a fu yn esgob Llandaf o 1619 hyd 1627, ofyn iddo yn ddigllon unwaith pa fodd y beiddiai droseddu canonau yr Eglwys trwy ei weithrediadau afreolaidd. Attebodd Wroth, druan, yn ostyngedig, gan ddywedyd, "Fy Arglwydd, y mae fy nghydwladwyr truain wrth y miloedd yn myned i'r farn yn eu pechodau, a neb yn eu rhybuddio i ffoi rhag y llid a fydd; ac nis gallaf fod yn llonydd heb fynegi iddynt eu perygl ofnadwy, er i mi droseddu canonau yr Eglwys wrth wneuthur hyny." Dywedodd y geiriau hyn gyd â theimlad dwys a dagrau, a dywedir i'w ddull addfwyn a difrifol effeithio cymmaint ar yr esgob nes y wylodd yntau. Gollyngodd ei Arglwyddiaeth ef ymaith y waith hon, gan ddywedyd yn dyner wrtho, "Dos ac na phecha mwyach." Ond parhau i fyned rhagddo yn yr un dull a wnaeth efe, er gwaethaf llawer o erlid, nes i'r arch-erlidiwr creulawn hwnw, y Dr. William Laud, gael ei wneud yn Archesgob Caergaint yn 1633; yna darfu am i unrhyw Buritan zelog mewn un cwr o Loegr na Chymru gael dim llonyddwch mwyach.

Dywed awduron "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru"‖ y "cafodd Mr. Wroth, ym mysg eraill, ei wysio yn y flwyddyn 1633 i'r llys a elwid *The Court of High Commission* [Llys yr Arbrwyadaeth], ac y bu ei achos ger bron y llys hwnw hyd y flwyddyn 1638, pan y cafodd ei droi allan o'i fywioliaeth." Yr Archesgob Laud, yn ei Hanes Flynyddol o'i Dalaeth,¶ a gyflwynodd efe i'r Brenin Charles I., a ddywed efe hyn:—

"Ionawr 2, 1635. Llandaf.—Canfu yr esgob, yn ei ymweliad triblynyddol y flwyddyn ddiweddaf, yn yr esgobaeth hon, ddau o sismaticiaid hynod, Wroth ac Erbery, y

* The Broadmead Records, 1847, pp. 7, 8.
† Fuller's Dissent in Bristol. 1840, pp. 13, 15.
‡ Erbury's Apocrypha, 1652, p. 8.
§ The Broadmead Records, p. 9.
‖ Cyf. i., t. 3.
¶ The Lambeth MSS., v. 913

rhai sy'n tynu llïaws o bobl ddiniwaid ymaith ar eu hol; ac wrth weled eu bod yn parhau yn ewyllysgar yn eu gyrfa sismaticaidd, efe a ddododd erthyclau yn ofalus yn eu herbyn yn Llys yr Arbwyadaeth, lle, pan fo'r achos yn barod i gael gwrandawiad, y derbyniant yn ol teilyngdod yr achos.

"1636. Llandaf.—Y mae'r esgob yn cwyno yn gymmaint a bod Mr. Wroth a Mr. Erbery yn Llys yr Arbrwyadaeth am eu gweithrediadau sismaticaidd, bod arafwch yr erlyniad yno yn eu herbyn yn peru i'r ddau barhau yn eu coegffyrdd; a bod eu dilynwyr yn eu barnu yn ddieuog. Ond o blegid hyn yr wyf yn gostyngedig gyflwyno yr atteb yma i'ch Mawrhydi, bod colli dau dymmor, herwydd afiechyd, yn awr wedi taflu'r erlyniadau allan o'r llys hwnw, cystal ag yn ol o eraill.

"1638. Llandaf.—Nid oedd ond dau weinidog gwrthnysig yn yr esgobaeth yma y flwyddyn ddiweddaf, Mr. Wroth a Mr. Erbery. Ymostyngodd y blaenaf; ond ni wnai'r llall nac ymostwng na boddhau ei blwyfolion, i'r sawl y rhoddasai efe dramgwydd cyhoeddus. Rhodd efe ei ficeriaeth i fynu, ac felly gadawodd yr esgobaeth mewn heddwch."

Gellir casglu oddi wrth y paragraph cyntaf o'r difyniadau hyn, "Ionawr 2, 1635," &c., mai yn y flwyddyn hon neu y "flwyddyn flaenorol," 1634, y rhoddwyd erthyclau yn erbyn Wroth, cysal ag yn erbyn Erbury, yn Llys yr Arbrwyadaeth. Pa fath ymostyngiad a wnaeth Wroth yn 1638, ni fynegir; ac ni ddywedir chwaith yn y difyniad esgobol am y flwyddyn hon, fel y gwelir, ddarfod iddo ef gael ei droi allan o gwbl; ond y mae genym sicrwydd i hyny ddigwydd naill ai tu a diwedd 1638 neu yn gynnar yn 1639. Dywed Erbury, fel y gwelsom, mai Eglwys Annibynol oedd y gyntaf yng Nghymru, a bod lluoedd yn ymdyru o'r siroedd amgylchynol i Lanfaches; ac yn *Hanes Bywyd* y Parch. Henry Jessey, gweinidog yr Eglwys Annibynol yn Southwark, Llundain, dywedir fel hyn: "Ym mis Tachwedd, 1639, anfonwyd ef [Mr. Jessey] gan ei gynnulleidfa i Gymru i gynnorthwyo yr oedranus Mr. Wroth, Mr. Cradoc, ac eraill, i gorpholi* yr eglwys yn Llanfaches, yn Neheubarth Cymru, yr hon eglwys wedi hyny a fu fel Antiochia yn fam-eglwys yn y wlad baganaidd honno. Yr oedd yn nodedig am ei swyddwyr, ei haelodau, a'i doniau.†

Tybir bod William Erbury, Walter Cradoc, Henry Walter, David Walter, Ambrose Mostyn, Richard Simmonds, ac ychydig eraill, y rhai oeddynt oll naill ai yn offeiriaid urddedig o Eglwys Loegr, neu yn ymbarotoi at gael eu hurddo, yn aelodau o eglwys Wroth yn Llanfaches, pan neillduwyd ef, yn 1639, i fod yn weinidog sefydlog ynddi. Yr oedd llïaws o rai a ddychwelasid trwy bregethiad Wroth yn y blynyddoedd blaenorol yn wasgaredig ar hyd siroedd Mynwy, Morganwg, Brycheiniog, Maesyfed, a rhai siroedd eraill, a thybir i'r rhan fwyaf o honynt ymuno â'r eglwys yn Llanfaches; ond o herwydd pellder y

* Digwyddodd hyn tu a thair blynedd cyn i'r rhyfel gartrefol dori allan, pan oedd Wroth yn y 69fed flwyddyn o'i oedran. Gan mai hon oedd yr eglwys Ymneillduol gyntaf a sefydlwyd yng Nghymru, credir y bydd ychydig o hanes y lle yn ddyddorol i'r darllenydd. Saif plwyf Llanfaches, fel y crybwyllwyd, rhwng Cas Newydd a Chas Gwent, yn sir Fynwy. Ystyrir yn gyffredin mai sir Seisnig yw Mynwy, ond y mae'n anhawdd gwybod paham. Y mae ei sefyllfa ddeuaryddol, ac arferion a nodwedd ei phreswylwyr, yn hollol Gymreig; ac felly yr oedd ei hiaith hyd yn ddiweddar. Y mae arwynebedd y sir yn 368,399 o erwau, ac y mae pedwar ugain mil o'r erwau hyny yn cynwys toraeth ddihyspydd o lo a mŵn haiarn. Terfynir y sir ar y dwyrain gan siroedd Caerloyw a Henffordd; ar y de gan Fôr Hafren; ar y gorllewin gan sir Forganwg; ac ar y gogledd gan sir Frycheiniog. Nid yw hyspys, hyd y gwyddom, pa faint oedd poblogaeth y sir hon yn amser William Wroth; ond nid oedd ond 45,568 yn 1801, ymhen yn agos i gant a hanner o flynyddoedd ar ol marwolaeth Wroth. Y mae wedi cynhyddu yn ddirfawr ar ol hyny, canys yr oedd ei phoblogaeth yn 1811 yn 62,105; yn 1821, yn 75,801; yn 1831, yn 98,125; yn 1841, yn 134,368; yn 1851, yn 157,418; ac erbyn cyfrifiad 1861, yr oedd wedi cynhyddu i'r nifer dirfawr o 174,633. Nid yw cyfrifiad 1871 wrth law genym; ond os cynhyddodd gymmaint yn y deng mlynedd olaf y'i cyfrifwyd ag a gynhyddodd yn y deng mlynedd cyn hyny, yr oedd nifer ei thrigolion yn 1871 yn 191,848.

Y mae y rhan fwyaf o lawer o drigolion y sir hon, fel pob sir arall o Gymru, oddi eithr Maesyfed, yn Ymneillduwyr. Pan wnaed cyfrif o nifer y personau oedd yn addoldai y gwahanol enwadau crefyddol yn y sir ar Sul y 30fed o Fawrth, 1851, yr oedd tu a 4 o bersonau yn addoldai yr Ymneillduwyr am bob 1 oedd yn addoldai yr Eglwys Sefydledig. Er y pryd hyny hyd yn awr, y mae'r Ymneillduwyr wedi ennill llawer mwy o dir ym Mynwy, cystal a siroedd eraill Cymru, nag a ennillodd yr Eglwyswyr, er bod lledeuniad cyflym yr iaith Saesneg trwy holl ranau gweithfaol y sir yn rhoddi mantais ddirfawr i'r Eglwyswyr, gan eu bod hwy yn cynnal addoliad Saesneg agos ymhob addoldy, pan y mae'r Ymneillduwyr yn esgeuluso hyny mewn llawer o fanau lle y mae galwad am dano. Yr enwad llïosocaf ym Mynwy yw'r Bedyddwyr, y nesaf ato yw'r Annibynwyr, y trydydd yw'r Wesleyaid, a'r pedwerydd yw'r Methodistiaid Calfinaidd. Y mae'r Methodistiaid Cyntefig (*Primitive Methodists*) yn lled lïosog yno hefyd, ac yn agos i rif y Methodistiaid Calfinaidd. Hefyd, y mae yn y sir amryw o fân enwadau crefyddol eraill, y rhai, a'u cymmeryd oll ynghyd, sydd yn lled lïosog.

Yn awr, pa mor Seisnig bynag yr ystyrir y sir hon yn bresennol, yn hon, fel y gwelir uchod, y dechreuodd Ymneillduaeth yng Nghymru; ac oddi yma yr ymledeunodd i bob parth o'r Dywysogaeth, nes y cyrheuddodd yn oed i sir Fon, y bellaf o Lanfaches, a'r fwyaf digrefydd y pryd hyny; ond erbyn hyn, y lawnaf o broffeswyr crefydd, yn ol ei maint, o honynt oll. Gwelsom yn y difyniad o hanes bywyd Henry Jessey, bod eglwys Llanfaches yn enwog o ran doniau ei haelodau. Ceir prawf o hyn yn y gwirionedd ddarfod i tu ag ugain o'i haelodau hi ac eglwys Mynyddislwyn gael eu hanfon allan yn bregethwyr teithiol gan y llywodraeth yn amser y Weriniaeth. Yr oedd llïaws mawr o bersonau a ddychwelasid trwy bregethau William Wroth, a'i gydweithwyr ymdrechgar, William Erbury, a'r lleill a nodwyd eisoes, yn wasgaredig ar hyd siroedd Mynwy, Morganwg, Brycheiniog, a Maesyfed, a rhai siroedd eraill hefyd; ac y mae'n ddilys ddïammau i'r rhan fwyaf o honynt ymuno â'r eglwys yn Llanfaches; ond o herwydd pellder y ffordd, nis gallasai llawer o honynt fod yn bresennol ynghyfarfodydd yr eglwys yno ond pur anfynych; gan hyny, ceir hanes bod eglwysi eraill wedi cael eu ffurfio, a elwid yn ganghenau o eglwys Llanfaches, ym Mynyddislwyn, Caerdydd, Abertawe, ac yn rhywle yn sir Faesyfed, cyn pen dwy flynedd ar ol ffurfio yr eglwys yn Llanfaches. Yn gymmaint ag na oddefai y cyfreithiau i'r Ymneillduwyr addoli yn gyhoeddus yn yr amser hwnw, nid ymddengys i'r holl aelodau allu cyfarfod yn yr un lle unrhyw bryd yn amser Wroth. Y tebygolrwydd ydyw, medd yr hanes, mai cyfarfod yn ddirgel y byddent mewn tai annedd yn y gwahanol ardaloedd lle y byddai yr aelodau yn cyfanneddu; ac y byddai Wroth a'i gynnorthwywyr yn ymweled â hwynt yn eu tro. Cynnorthwyid Wroth gan y pregethwyr ieuangc a nodwyd eisoes, ond yn benaf gan Walter Cradoc, yr hwn a ddewiswyd yn ganlyniedydd i Wroth ar ei farwolaeth ef yn nechrau y flwyddyn 1742.—Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 2-5.

† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 3; Jessey's Life, pp. 9, 10.

Digitized by Google

ffordd, nis gallasai llawer o honynt fod yn bresennol yn y cyfarfodydd yno ond anfynych; gan hyny, ymddengys i'r aelodau gwasgaredig‖ hyny gael eu cynnull yn eglwysi Annibynol ym Mynyddislwyn, Caerdydd, Abertawy, ac yn rhywle yn sir Faesyfed, yn lled fuan ar ol y seremoni o osod Wroth yn weinidog Llanfaches. Gan nas goddefai y cyfreithiau i'r Ymneillduwyr ymgyfarfod yn gyhoeddus yn amser Wroth, tybir mai ymgynnull yn ddirgel y byddent, mewn annedd-dai, yn y gwahanol ardaloedd lle y digwyddai bod amryw Ymneillduwyr yn cyfanneddu, ac y byddai Wroth, a'r pregethwyr ieuaingc a nodwyd, yn ymweled â hwynt ar wahanol amserau.*

Yr oedd William Wroth yn credu yn ddiysgog y terfynai yr anghydfod rhwng Charles I. a'r Senedd mewn rhyfel, a thaer weddïai ar yr Arglwydd ei gymmeryd ef i'r anneddle lonydd, yng ngwlad yr heddwch, cyn i'r rhyfel dorri allan; a chafodd ei atteb yn yr hyn a ddymunodd.† Bu farw yng Ngwanwyn 1642, yn 72 oed; a chladdwyd ef, yn ol ei ddymuniad, dan drothwy eglwys Llanfaches.

Yr oedd Wroth yn ŵr mor sanctaidd, gostyngedig, a rhagorol, fel nas gallasai lai na dylanwadu yn dda ar eraill. Y fath oedd purdeb difrycheulyd ei fuchedd, ei ragoriaethau fel pregethwr, ac mor ddiniwaid a boneddigaidd oedd ei ymddygiad, fel yr oedd yn oed y Pabyddion, a dynion gelynol i'w athrawiaeth a'i ddull o grefydda, yn gorfod cydnabod mai dŷn sanctaidd ydoedd. Yr oedd ei ddull yn y pulpud yn dra dymunol, ei lais yn gryf a pherorol, ei ymadroddiad yn eglur, a'i ddull yn syml, tarawiadol, a dealladwy i'w holl wrandawyr. Yr oedd ei holl bregethau yn tueddu i ddeffro y gydwybod. Y fath oedd William Wroth, tad a sylfaenydd Anghydffurfiaeth yng Nghymru.‡

---

## PENNOD X.

### WILLIAM ERBURY.

Er bod William Erbury yn ieuengach na William Wroth o 34 blynedd; etto, gan ei fod yr Ymneillduwr hynaf yng Nghymru, fe allai, ond William Wroth, ac yn un o aelodau Eglwys Ymneillduol Llanfaches ar ei sefydliad cyntaf, heb law iddo dreulio ei holl oes, oddi eithr rhyw bum mlynedd, yn ystod y cyfnod presennol, credir mai yma, yn ebrwydd ar ol Wroth, y mae yn addas traethu ychydig ar hanes ei fywyd diwyd a helbulus. Ganwyd Erbury yn y fl. 1604, ymhlwyf Roath (Roath Dagfield, medd un), ger llaw Caerdydd, yn sir Forganwg. Ni fynegir dim am ei deulu na'u sefyllfa. Y mae ei gyfenw ef, fel yr eiddo Wroth, a llawer eraill o gymmwynaswyr y Cymry, yn awgrymu bod teulu ei dad, o leiaf, yn hanu o ryw genedl estron, ac y mae dygiad da y mab i fynu yn arwyddo eu bod mewn sefyllfa gysurus.

Derbyniodd Erbury ei addysg athrofaol yng Ngholeg Brasenose, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. Y mae yn dra sicr mai Esgob Llandaf a'i hurddodd yn ddiacon ac offeiriad; ac yna cafodd guradiaeth Casnewydd, yn sir Fynwy.§ Symmudwyd ef ymhen ryw yspaid o amser oddi yno i ficeriaeth Eglwys Fair yng Nghaerdydd, a chymmerth yntau Walter Cradoc yn gurad iddo yno. Dechreuodd awdurdodau yr Eglwys Wladol ei erlid ef a'i gurad, o blegid eu Puritaniaeth, mor forau a'r fl. 1633. Dywed Wood y byddai yn pregethu mewn cêl-gyfarfodydd; a chan iddo wrthod darllen datganiad y Brenin (sef Llyfr y Chwareuon) am ddifyrwch ar ol y gwasanaeth dwyfol ar ddydd yr Arglwydd, y gwysiwyd ef yn fynych i Lys yr Arbrwyadaeth yn Lambeth, lle y dioddefodd am ei gildynrwydd. Yna difyna ymadrodd o Hanes Laud o'i Dalaeth am 1634, t. 533, yr hwn sydd fel hyn:—

> "Esgobaeth Llandaf.—Tystia Esgob Llandaf ei fod ef wedi ymweled a'i esgobaeth y flwyddyn hon (1634), ac iddo weled bod W. Erbury, Ficar Eglwys Fair yn Nghaerdydd, a Walter Cradoc, ei Gurad, wedi bod yn dra anufudd i orchymynion ei Fawrhydi, ac wedi pregethu'n bur sismaticaidd a pheryglus i'r bobl. O herwydd hyn, efe a roddes rybudd cyfreithiol i'r Ficar, ac efe a'i herlyn ymhellach os nad ymostynga. Am ei Gurad, Walter Cradoc, gan mai cydymmaith ieuangc hyf ac anwybodus ydyw, efe a'i diswyddodd ef, ac a gymmerth ei drwydded oddi arno, a gawsai i wasanaethu'r guradiaeth."

"Y fath ydoedd rhai o fendithion dyddiau gogoneddus Laud," medd y Dr. Richards, yn dra phriodol, "a'r eiddo ei feistr, y Brenin Charles y Merthyr!"‖ Dengys y difyniad a gymmerwyd eisoes o Hanes Laud o'i Dalaeth, am 1638,¶ bod Erbury wedi gwrthod "ymostwng" i'w erlidwyr,

‖ "Cangbenau o'r fam-eglwys" y geilw awduron "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru" yr aelodau gwasgaredig hyny; ond y mae "cangbenau" o eglwys Annibynol yn wrthddywediad, cystal ag anysgrythyrol.

* Han. Egl. Anni. Cymru, cyf. i., t. 8.

† The Broadm. Rec., p. 29.

‡ Hanes Cref. yng Nghymru, t. 216; Han. Egl. Anni. Cymru, cyf. i., t. 10; Rees's Noncon. in Wales, p. 47; Gwel hefyd Richards's Cambro-Brit. Biog., t. 189; Seren Gomer, 1822, t. 161; Cymru d.g. Llanfaches.

§ Erbery's Testimony, p. 152.

‖ Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 192.

¶ Gwel t. 163 o'r bennod flaenorol.

Digitized by Google

ac "wedi rhoi ei ficeriaeth i fynu, ac ymadael o'r esgobaeth mewn heddwch." "Ar ol y triniaethau chwerwon uchod yn ei esgobaeth, ac yn Llys yr Arbrwyadaeth," meddai y Dr. Richards, "daeth yn bregethwr teithiol enwog, ac yn offeryn llwyddiannus i oleuo a diwygio ei gydwladwyr. Bu fyw i weled terfyn gormes Laud, cystal a thrais erchyll Llys yr Arbrwyadaeth. Ond er iddo orfucheddu y rhai hyny, ac eraill o'i erlidwyr boreuol, etto yr oedd ganddo elynion fyth, y rhai a'i casaent ef â chas cyflawn, ond yn hollol ddiachos. Ymhlith y difenwadau maleisus y rhyngai bodd i'w elynion eu dodi arno, ceir y cyfryw ag Ymgeisiwr (Seeker), Brygawthwr (Ranter), cystal ag Ailfedyddiwr. Yr oedd ei fywyd a'i ymddygiad, cyn belled fyth ag y gellais i ganfod, yn hardd, yn ddidramgwydd, ac yn barchus, y fath ag a weddai i efengyl Crist; ac yr oedd y parch a goleddai George Fox tu ag ato yn brawf digonol, fel yr ymddengys, mai chwedl ddisail faleisus oedd yr un a'i cyhuddai o fod yn Frygawthwr, gan ei fod ef a'i frodyr yn proffesu anfoddhâd cryf a phenderfynol at Frygawthiaeth. Y mae yn debyg mai ffrwyth dygasedd ydyw y fath goeg-chwedl, yr hyn a wna i rai pobl roi yr enwau gwaethaf ar ddŷn a gasânt a'r a fedrant eu difeisio. . . . Dygir y cyhuddiad o Frygawthiaeth yn ei erbyn gan Heath, yn ei *Flagellum* [Ffrewyll], a hefyd yn Hanes Eglwys Brydain Fawr (Llundain, 1674), a ysgrifenwyd, os nad wyf yn camsynied, gan yr un awdur, yr hwn, fel prawf, yr wyf yn tybied, a ychwanega yr hyn a ganlyn:—

"Clywodd casglwr y traethawd hwn fod yr Erbury yma unwaith yn llefaru mewn cynnulleidfa gyhoeddus ger llaw Y Badd [Bath], am oruchwyliaeth ddeublyg Duw tu ag at ei eglwys a'i bobl. Bu datguddiad deublyg o Dduw i'w bobl, eb efe, neu oruchwyliaeth ddeublyg, sef, y Gyfraith a'r Efengyl; ac y mae Duw yn datguddio ei hun i'w bobl yn y ddwy oruchwyliaeth yn amrywiol. Dan y Gyfraith, datguddiodd Duw ei hun i'w bobl mewn ffordd o ofn; am hyny galwyd Duw yn Dduw mawr ac ofnadwy; ac yr oedd cyflwyniad y Gyfraith i Moses mewn dull ofnadwy. Yn awr, pan y llefara'r apostol am weinidogaeth yr Efengyl, eb efe, 'Ni dderbyniasoch yspryd caethiwed drachefn i beri ofn; eithr derbyniasoch Yspryd mabwysiad,' &c. Hyny ydyw, eb efe, yn awr pan y daeth yr Efengyl, gwybu dynion bod Duw yn Dad, a hwythau, mewn Yspryd mabwysiad, a lefasant 'Abba, Dad.' Ychwanegodd, yr adwaenid Duw dan y Gyfraith fel Arglwydd a Meistr, yn cadw ei bobl ar waith; ac megis bod ganddynt eu gwaith, felly yr oedd ganddynt eu cyflog; ac os na weithient, y byddai dychrynfeydd ar eu hysbrydoedd i'w brawychu hwynt. Ond dan yr Efengyl, canfyddwyd bod Duw yn Dad, yn llawn goleuni a chariad; felly ein bod yn awr yn cymdeithasu â Duw mewn dull cariadlawn, ac yn ei wasanaethu ef fel y gwasanaetha mab ei dad. Aeth rhagddo i ddywedyd bod trydedd goruchwyliaeth etto i ddyfod yn y dyddiau diweddaf, yn y rhai y datguddir Duw ei hun mewn ffordd fwy ofnadwy, ac etto mewn ffordd lawnach o oleuni a chariad nag yn yr amseroedd blaenorol. Ychwanegodd, y byddai datguddiad llawnach o Dduw'r pryd hwnw nag a fu dan y Gyfraith na than yr Efengyl: ac anwybodaeth o hyn, eb efe, a fu'r achos o'r holl derfysgoedd ac ymrysonau ymhlith pobl Dduw. Dywedodd y disgwyliai'r apostolion am yr oruchwyliaeth yma; sef sefyllfa arall fwy gogoneddus na'r un y cyrhaeddasent hwy iddi hyd yn hyn. Geilw Paul yr oruchwyliaeth ogoneddus yma, eb efe wrthym, 'Y gogoniant a ddatguddir ynom ni: rhyddid gogoneddus plant Duw;' a bod Petr yn ei galw, 'Nefoedd newydd a daear newydd;' ac Ioan, 'Y Jerusalem newydd.'

"Y fath ydyw y prawf o benboethni a Brygawthiaeth Erbury! Os hyn ydyw'r cyfan, nis gadewir ef genym ni, ac ni bydd cywilydd genym o hono: yn y gwrthwyneb, ni a ymdrechwn fytholi ei enw, a pherarogli ei goffadwriaeth."*

"Dyry cydoeswyr Erbury ddarluniadau amryw a gwrthwynebus o'i syniadau. Dywedwyd gan rai iddo fod yn Sosiniad; gan eraill ei fod 'yn un o'r prif Ailfedyddwyr;' tra y dyry trydydd dosparth iddo yr enw o 'Antinomiad terfysglyd:' ond y mae y rhai hyn oll yn gamddarluniadau. Profodd yn ddigonol ger bron y Pwyllgor dros Weinidogion Yspeiliedig, yn Westminster, Mawrth 9, 1652, nad ydoedd Sosiniad, er bod y mynegiad o'i syniadau ar berson a marwolaeth Crist yn bur ddyryslyd, cyfrinol, a braidd yn annealladwy.† Y mae ei nodiadau afrifed ar fedydd ac Ailfedyddwyr, y cyfarfyddir â hwy braidd ar bob tudalen o'i ysgrifeniadau, yn dangos ei fod mor bell oddi wrth olygiadau y blaid honno ag ydyw y pegynau oddi wrth eu gilydd;‡ ac y mae ei ddirgymhelliad parhaus o'r angenrhaid am ysprydolrwydd meddwl a sancteiddrwydd ymddygiad, trwy ei holl ysgrifeniadau, yn ei ryddhau oddi wrth y cyhuddiad o fod yn Antinomiad. Y gwir yw, y byddai yn bur anhawdd i neb, wedi darllen pob llinell yn fanwl a ysgrifenodd, fynegi mewn geiriau eglur beth oedd ei gredo, ac y mae yn amheus iawn a wyddai y gŵr da ei hun beth ydoedd. Etto, y mae yn berffaith eglur, ynghanol ei holl gymmysgiadau a'i ymadroddion cyfriniol, ei fod yn bleidiwr egnïol i sancteiddrwydd mewnol ac

* Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 193–195.

† Tyb yr hanesydd ydyw hyn. Mawr hoffasem gael ymadroddion yr awdur ei hunan.

‡ "Y mae Mr. Baxter," medd Joshua Thomas, "yn cyfrif Mr. Erbury ymhlith y Bedyddwyr (*Plain Scripture Proofs for Infant Baptism*, vol. iii., p. 117.) Nid oes achos i amman na wyddai ef. Mae rhai o lythyrau Mr. Erbury at Mr. Morgan Lloyd, ac un o honynt at eglwysi y Bedyddwyr yn Nehenbarth Cymru, i'w gweled yn llyfr Mr. Thomas Meredith, a argraphwyd yn 1770. Mae Dr. Walker (o waith *Wood's Ath.*, vol. ii., p. 103), yn cyfrif Mr. Erbury yn un o'r pennaf o bregethwyr teithiol Cymru."—Hanes y Bedyddwyr, t. 23.

Digitized by Google

allanol, a'i fod yr un mor bybyr wrthwynebol i'r syniad o eglwys weledig, y weinidogaeth, ac ordinhadau allanol crefydd. Pe byddai briodol ei restru gyd â rhyw blaid, rhaid ei osod ymhlith y Crynwyr. Yr oedd ei olygiadau am y weinidogaeth, yr ordinhadau, &c., yn bur debyg i'r eiddynt hwy. Nid ymunodd efe erioed yn weithredol gyd â hwynt, ond gwnaeth ei wraig hyny. Yr oedd y duwiol, ond yr anffodus, Christopher Love, brodor o Gaerdydd, yn coleddu y parch mwyaf serchiadol at Mr. Erbury hyd y diwedd, er ei holl golliadau. Efe a sylwa fel hyn:—

"O berthynas i Mr. Erbury, er ei fod wedi cwympo i opiniynau peryglus, etto, gan mai efe yw fy nhad ysprydol i, y mae genyf ofal naturiol am dano; ac ymlyna fy nghalon yn fwy wrtho nag wrth un gŵr yn y byd. Yr wyf yn llefaru er clod i Dduw, mai efe a fu'n offeryn fy nhröedigaeth i yn agos i ugain mlynedd yn ol, a moddion fy addysg yn y Brifathrofa, am yr hyn garedigrwydd y gallwn ymadael yn rhwydd â hanner yr hyn oll a feddaf yn y byd er ei fwyn. Y mae'n wir iddo ef gael ei yspeilio yng Nghymru tu a naw neu ddeng mlynedd yn ol, ac y daeth i'm gweled i yng Nghastell Windsor; ond nis gallai mab wneuthur mwy o dad nag a wneuthum innau o hono ef, yn ol fy ngallu. Pan nad oedd genyf ddeuddeg punt yn y byd, gadewais iddo ef gael chwech o honynt; a llwyddais iddo gael bod yn gaplan i gatrawd yr Uwchgapten Skippon, lle y cafodd wyth swllt y dydd.*

"Am dduwioldeb Mr. Erbury, nis gall fod yr amheuaeth lleiaf; ond yr oedd y golygiadau dieithr a fabwysiadodd ac a ledaenodd yn erbyn casglu eglwysi, y weinidogaeth, a'r ordinhadau, yn ei wneud yn waeth na diles fel dŷn cyhoeddus, ac i ryw raddau yn gwrthweithio ymdrechiadau ei frodyr i wneud daioni. Y fath nifer o weinidogion yn meddu talentau uwchraddol, duwioldeb diamheuol, ac yn llenwi sefyllfaoedd pwysig, sydd wedi andwyo eu hunain ac achos Crist, mewn llawer o fanau ac oesoedd, trwy ledaenu opiniynau mympwyol ac eithafol ar byngciau y cydnabyddir nad ydynt sylfaenol! Gwnaeth William Erbury, yr hwn a allasai fod o fendith arbenig i Gymru, trwy ei fympwyon yno, cystal ag yn Lloegr, niwaid difesur i achos crefydd ysprydol; ond yr oedd ef yn fwy esgusodol na llawer, o blegid ei drallod meddyliol. . .

"Ar ol ysgrifenu y crynhodeb blaenorol, gwelsom draethawd prin, a gyhoeddwyd yn 1685, a'i enw 'Amdo i Feirw Mr. Baxter; neu, y rhai a laddwyd yn gelaneddau ganddo ef yn ei Gymmundeb Catholig yn cael eu perarogli yn felusaidd a'u claddu yn ddestlus drachefn; yr hwn sydd Esgusawd dros amryw Weinidogion—sef, Mr. Erbury, Mr. Cradoc, Mr. Vavasor Powell, a Mr. Morgan Llwyd.'† Ar y trydydd tudalen, cawn yr hanes ganlynol am Mr. Erbury:—

"Gadawaf y gorchwyl anhyfryd o rwygo yn agored ffaeleddau y meirw i Mr. Baxter, yr hwn, fel yr ymddengys, sy'n meddu dawn neillduol at hyny. Yr oedd Mr. Erbury, gan hyny, cyn iddo glafychu o'i fympwyon, yn ysgolhaig da, o dalentau prydferth, yn dra difrifol a llwyddiannus yn ei bregethiad, ac yn bur ddwys a chrefyddol yn ei fywyd a'i ymarferiad. Beiddiaf ddywedyd nad yw y rhai a'i hadwaenant yn well na chyhuddwr chwerw y meirw, yn petruso dodi'r cymmeriad yma iddo. Dywedwyd wrthyf gan ŵr synhwyrol, o safle bwysig, heb gael ei lychwino mewn un wedd gan ei anhwyldeb,—'Y mae anhwyl Mr. Erbury yn ei ben, nid yn ei galon;' hyny yw, cyfododd ei gyfeiliornadau diweddar o anhwyldeb yn ei gorph neu ei ymenydd, yn hytrach nag o unrhyw hereticiaeth llygredig yn ei feddwl; yr hyn hefyd oedd barn eraill pur gydnabyddus â Mr. Erbury, y rhai a ddywedasant wrthyf yr un modd ei fod ef yn cadw ei gariad at bobl ddaionus hyd y diwedd. Nis gall Mr. Baxter lai na gwybod y gall rhai a orthrechir gan brudd-glwyf dwfn a greddfol, gael dylanwadu arnynt weithiau gan y fath orphwylledd neillduol, fel ag i fod yn euog o ymddygiadau pur wyllt a gormodol, pan y byddont, er hyny, gyd â golwg arnynt eu hunain, yn ddynion tra difrifol. A phaham nas gellid coleddu rhyw ronyn o'r fath dyb haelfrydig am Mr. Erbury druan? Ond o berthynas i ysgrifeniadau argraphedig Mr. Erbury, pe dywedai rhywun bod ynddynt ormod o ymadroddion eithafol, nad ymddangosant yn anhebyg i arllwysion ymenydd terfysglyd, cyfaddefaf nas gallaf ei wadu. Pa wedd bynag, gallaf, ac yr wyf, ar y cyfrif hwnw yn bennodol, yn coleddu meddyliau hynaws am y person ei hun, yr hwn, fel y tybiaf, a ddylai fod yn wrthrych ein tosturi, ac nid ein cabledd enllibus."‡

Dyma ni weithion wedi dodi barnau ac opiniynau pur wahanol am William Erbury ger bron. Ystyriwn bod cyfiawnder hanesyddol yn gofyn hyny, gan fod y fath wahanol farnau yn hanfod yn ei gylch. Gwelwn fod ei elynion cableddus ac erlidgar yn dodi pob enwau arno er ceisio dylorni ei gymmeriad a gwanhau effaith ei syniadau, megis *Seeker*, *Ranter*, *Sosiniad*, *Ailfedyddiwr*, a hyd yn oed *Antinomiad!* Am dystiolaeth ei gydoeswr gelynol, Heath, credwn, fel y Dr. Richards, y buasai yn anhawdd dyrchafu ei gymmeriad yn uwch nag y gwnaeth hwnw, er yn gwbl anfwriadol. Galwyd ef yn *Ranter*, neu Frygawthwr, gan ei elynion clerigol a gweinidogaethol, am mai efe, fel y dywed yr anwadal Walker, oedd "y pennaf o bregethwyr teithiol Cymru." Gyda â golwg ar dystiolaeth Baxter (yr hwn oedd gymmysg o Eglwyswr, Presbyteriad, ac Annibynwr),§ ei fod yn Ailfedyddiwr, y mae holl waith Erbury, fel y dywed y Dr. T. Rees, yn profi yn wahanol; ac y mae ei gydoeswyr, Love, ac awdur yr "Amdo i

* Love's Vindication, 1651, p. 36.

† A Winding Sheet for Mr Baxter's Dead; or, Those whom he hath killed and slain in his Catholic Communion sweetly embalmed and decently buried again; being an Apology for several Ministers—viz., Mr. Erbery, Mr. Cradock, Mr. Vavasor Powell, and Mr. Morgan Lloyd.

‡ Rees's Hist. Noncon. in Wales, pp. 48-51.

§ Imp. Dict. Univ. Biog., v. i., p. 421, s.v. Baxter, Richard.

Digitized by Google

Feirw Mr. Baxter," a ddifynwyd eisoes, yn profi bod difrïaeth Baxter arno yn gwbl ddisail. Yngbylch barn pleidwyr "gweinidogaeth sefydlog," hen a diweddar, sy'n credu bod dirywiad naturiol yn ei ymenydd, credwn mai camgasgliad ydyw oddi wrth eiriau amwys Christopher Love, ac awdur yr "Amdo." Am Love, er yr ymddengys ei fod yn ddŷn gwir dduwiol, y mae yn amlwg mai cymmysg oedd ei farn am drefn eglwys, o Bresbyteriaeth Ysgotland ac Eglwysyddiaeth Lloegr;* a gwyddys eu bod hwy yn credu bod pregethu teithiol, gwadu gweinidogaeth sefydlog, ac ammau seremonïau eglwysig, yn orphwylledd; a dyma farn ddiysgog gweinidogion sefydlog ein dyddiau ninnau. Ymddengys mai cyffelyb oedd barn awdur hynaws a duwiol yr "Amdo."

Cyn belled ag y medrwn ni farnu, a hyny mor ddiragfarn ag y gallwn, "opiniynau peryglus" Erbury, yn ol Love, a'i "glafychdod mympwyol," yn ol awdur yr "Amdo," oedd ei waith yn gwadu *gweinidogaeth sefydlog*, *seremonïau crefyddol*, a'r cyffelyb, ac nid clefyd *naturiol* yr ymenydd, neu'r meddwl, fel y casgl ysgrifenwyr diweddar. Ac ymddengys i ni mai'r gwirionedd ydyw, bod Erbury yn ŵr mor ddwys-fyfyriol, duwiol, a sanctaidd, neu mor *Buritanaidd*, nes y barnodd ei gydoeswyr defodgar ei fod yn bruddglwyfus a gorphwyll-fympwyol; neu, yngeiriau awdur yr "Amdo," ei fod yn cael ei flino gan "orphwylledd neillduol" (*a particular mania.*)

Y mae yn amlwg i ni fod Erbury wedi myfyrio trefn eglwys y Testament Newydd, cystal a'i athrawiaethau yn fanylach, ac yn fwy diragfarn, na neb o'i gydoeswyr Puritanaidd, ac na'r rhan fwyaf o lawer o'u holynwyr hefyd, a'i fod yn benderfynol o weithio ei egwyddorion allan hyd eithaf ei allu, pa un bynag a gaffai ei erlid ai ei gymmeradwyo. Ymddengys iddo allu ymddiosg yn bur llwyr oddi wrth ragfarnau ei ddygiad i fynu i'r Eglwys Sefydledig, a'r holl seremonïau cyssylltedig â hyny, ac ymroddi i ddarllen a myfyrio y Testament Newydd drosto ei hun, ac iddo ymdrechu yn ddifrifol ac â'i holl egni i ymddwyn yn ol ei gyfarwyddiadau. Gwelodd yno mai *pregethwyr teithiol* oedd yr apostolion a'r efengylwyr, a bod gwaith "pawb" oedd yn eglwys Jerusalem, sef holl aelodau yr eglwys, y rhai a wasgarwyd, ac "a dramwyasant gan bregethu y gair,"† yn profi bod gan bob credadyn yn ddiwahaniaeth hawl i fyned ar deithiau i "bregethu y gair," heb unrhyw seremoni nac urddiad o fath yn y byd. Gwelodd fod *amryw* esgobion neu henuriaid i fod "*ymhob eglwys*" yn ddieithriad;‡ nad oes gan esgobion neu henuriaid eglwys un hawl i gymmeryd dim am eu gwasanaeth;§ ac nad oes gymmaint ag *un esampl* yn y Testament Newydd o eglwys yn cadw *gweinidog sefydlog*, cyflogedig. Credai Erbury, ac y mae rhai eraill yn credu yr un fath, bod y pethau hyn, a'u cyffelyb, sydd yn "Llyfr Cyfraith Eglwys Crist," yn "byngciau sylfaenol" crefydd; am hyny teithiodd barthau helaeth o Gymru a Lloegr, gan eu pregethu yn egnïol, difrifol, ac ymroddgar ymhob man lle cai dderbyniad; a chan fod ei syniadau crefyddol ef mor anhebyg i syniadau ei frodyr oedd wedi methu ymryddhau oddi wrth ddefodau a seremonïau Eglwys Loegr, yn yr hon y dygasid hwy i fynu, tybiodd amryw o honynt, fel y tybiodd Ffestus am Paul, ei fod yn ynfydu!

Wedi traethu cymmaint a hyn am gymmeriad a syniadau Erbury, angenrhaid yw adrodd y gweddill sy'n hyspys o ddigwyddiadau ei fywyd llafurus ac erlidiedig. Yn y fl. 1642, wedi bod yn teithio i bregethu, fel y mynegwyd, dros tu a phedair blynedd ar ol cael ei fwrw allan o ficeriaeth Eglwys Fair, Caerdydd, yspeiliwyd ef o'i eiddo yng Nghymru gan filwyr y Brenin, a chafodd ei drin yn greulawn ganddynt. Yna efe a ffodd i Lundain, at Christopher Love, fel y gwelsom, yr hwn a lwyddodd i'w osod yn gaplan i gatrawd yr Uwchgapten Skippon. Gadawodd y fyddin yn 1645, a bu yn preswylio dros yspaid yn Ynys Ely, gan bregethu lle bynag y cai gyfle. Yn 1646, gwnaed ef yn gaplan i gatrawd o filwyr yn Rhydychain; ond cyhuddwyd ef gan ei elynion o fod yn Sosiniad, ac ar y 9fed o Fawrth, 1652, safai o flaen y Pwyllgor dros Weinidogion Yspeiliedig, fel y crybwyllwyd, lle y profodd fod y cyhuddiad yn gam dystiolaeth. Nid ymddengys iddo ddychwel i Gymru i gartrefu ar ol hyn, ond ymwelai â'r wlad yn achlysurol, a phregethai ymhob man lle y cai dderbyniad. Ni oddefai yr ychydig weinidogion sefydlog oedd yn y wlad iddo bregethu i'w cynnulleidfaoedd hwy, hyd y gallent ei rwystro, o blegid y gwyddai efe anysgrythyroldeb eu swyddogaeth; am hyny, âi efe, yn ol y cyfarwyddyd dwyfol, i'r prif ffyrdd a'r ceuau, i heolydd ac ystrydoedd y dinasoedd, ac i dai

* Imp. Dict. Univ. Biog., v. iii., p. 228.
† Act. viii. 1, 4; xi. 19–21.
‡ Act. xiv. 21-23; Phil. i. 1; Tit. i. 5, 7; Iago v. 14.
§ Act. xx. 17, 28-35.

Digitized by Google

annedd, a phregethai deyrnas Dduw i bawb a ddelent i'w wrando, fel un ag awdurdod ganddo. Yr oedd yn ŵr o hyawdledd godidog, talentau disglaer, dysgeidiaeth uchel, cydwybodolrwydd mawr, a duwioldeb diamheuol. Bu farw ym mis Ebrill, 1654, yn 50 oed. Nid yw hyspys ymha le y digwyddodd hyny, nac ymha le y claddwyd ef.*

Ysgrifenodd lawer o lyfrau yn Saesneg, a chyhoeddwyd amryw o honynt yn ystod ei fywyd, ac eraill ar ol iddo farw, megis—1. "Mawr Ddirgelwch Duwioldeb," 1540. 2. "Pregeth Gyhoeddus yn Rhydychain," 1646. 3. "Esgob Llundain a'r Curad Cymraeg," 1652. 4. "Apocrypha Erbury," 1652. 5. "Gweinidogion am Ddegymau, prawf nad ydynt Weinidogion yr Efengyl," 1653. 6. "Y Seren Ogleddol: neu ryw Nos-Oleuni yn tywynu yng Ngogled Cymru. Gyd â rhai Datguddiadau tywyll o ail ddyfodiad Crist," 1653. 7. "Pregethau ar amryw achlysuron," 1653. 8. "Teyrnasiad Crist a'r Saint ar y Ddaear am Fil o Flynyddoedd," 1654. Yn ystod y flwyddyn hon y bu Erbury farw, fel y gwelir uchod. 9. "Tystiolaeth William Erbury, a adawyd er Cof i Saint yr oesau dilynol. Yr hwn sydd Gasgliad o Ysgrifeniadau yr Awdur dywededig, er budd i Olafiaid. At yr hwn yr ychwanegir 'Yr Heretic Gonest, sef ei Brawf yn Westminster.'" Ymddengys bod dau argraphiad o hwn, un yn 1658,† a'r llall yn 1659.‡ 10. "Ffrewyll i'r Gormesydd mawr Assyriaidd, yn ol Lladdfa Midian, gan yr Enneiniog, Esai 10, 26, 27. Wedi ei gasglu o Waith Hen Awduron," 1770. Dywedir bod ychwaneg o waith Erbury yn y Gywreinfa Brydeinig.

## PENNOD XI.

### RHYS PRICHARD, FICAR LLANYMDDYFRI.

Y MAE enw RHYS PRICHARD, FICAR LLANYMDDYFRI, neu, fel y gelwid ef ar lafar gwlad, "Hen Ficar Llanymddyfri," wedi bod yn "air teuluaidd" ymhlith y Cymry, yn enwedig yn y Deheubarth, dros lawer oes bellach, ac y mae ei ganiadau duwiol wedi bod yn dra chyssegredig yngolwg ein cenedl ni dros hir amser; a gresyn na bai'r oes hon yn llawer mwy cynnefin â "Llyfr y Ficar" nag ydyw. Ond er bod enw a gwaith y Ficar Prichard wedi bod yn bur hyspys i'r Cymry, yn enwedig yn ystod y ddwy ganrif ddiweddaf, fel y ceir gweled rhag llaw; etto nid yw ei hanes bersonol ond pur fer ac anghyflawn. Yr hynaf sydd ar gael, hyd y gwyddom, ac am hyny y gywiraf, fel y tybir, ydyw yr un a ysgrifenwyd yn y fl. 1682, ymhen 38 mlynedd ar ol i'r Ficar farw, yr hon sydd fel y canlyn:—

"RHYS (REES) PRICHARD a anwyd, fel yr ymddengys, yn Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin; ac wedi cael ei addysgu yn y parthau hyny, efe a anfonwyd i Goleg Iesu, yn Rhydychain, yn y fl. 1587, ac efe o gylch 18 oed. Ordeiniwyd ef yn offeiriad yn Witham neu Wytham, yn Essex, gan John, Esgob Cynnorthwyol Caercoilin,* ar y 25med o Ebrill, 1602. Cymmerth y radd o B.A. yn y Mehefin canlynol; ac ar y 6ed o Awst yr un flwyddyn, cafodd Ficeriaeth Llanymddyfri, a grybwyllwyd eisoes, yr hon a gyflwynwyd iddo gan Anthony, Arglwydd Esgob Tŷ Ddewi. Ar y 19ydd o Dachwedd y fl. 1613, sefydlwyd ef yn beriglor Llannedi, yn Esgobaeth Tŷ Ddewi, a gyflwynwyd iddo gan Iago'r Cyntaf, yr hon a ddaliai efe ynghyd â'r fywioliaeth arall trwy ganiatâd oddi wrth yr Archesgob, yr 28fed o Hydref, 1613, yr hyn a gadarnhawyd gan y Sêl Fawr ar y 29fed o'r un mis, ac a gymhwyswyd trwy fod yn gaplan i Robert, Iarll Essex. Ar y 17fed o Fai, 1614, gwnaed ef yn gôr-beriglor Eglwys Golegol Aberhonddu gan y dywededig Anthony, Esgob Tŷ Ddewi; a thrwy yr hawl o M.A., gradd y darbwyllwyd efe ei chymmerwyd gan y Dr. Laud, ei esgob, gwnaed ef yn Ganghellydd Tŷ Ddewi, wrth yr hon swydd y mae côr-berigloriaeth Llanhaden† yn gyssylltedig, ar y 14ydd o Fedi, 1626, ar ei rhoddiad i fynu gan Richard Baylie, B.D. o Goleg Ioan Sant. Y mae yng Nghymru lyfr o'i gyfansoddiad, sydd gyffredin ymhlith y bobl yno, a'i enw,

"Gwaith Mr. Rhys Prichard, gynt Ficcer Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin, a argraphwyd o'r blaen yn bedwar llyfr, ond a argraphwyd yn awr ynghyd yn un llyfr, &c. Ynghyd âg ychwanegiad o amryw bethau o ysgrifeniadau nas gwelwyd o'r blaen gan y cyhoeddwr; heb law y bedweredd ran a gyhoeddir yn awr y tro cyntaf yn Llundain, o.c. 1672, yn wythplyg tew.‡

"Y mae'n cynnwys pedair rhan, a'r cwbl yn cynnwys amryw ganiadau a charolau duwiol yn Gymraeg, y rhai a draddodir i'r cof, ac yr arferir eu canu'n fynych gan gydwladwyr yr awdur. Cyfieithodd hefyd amryw lyfrau i'r Gymraeg, ac ysgrifenodd rywbeth ar y Namyn un deugain Erthyclau, y rhai nis gwn a argraphwyd hwy ai peidio; ond gwelais rai o honynt mewn llawysgrif.§

* Williams's Em. Welshm., s.v.; Rees's Noncon. in Wales, p. 50.

† Williams's Em. Welshm., p. 146; Rees's Hist. Noncon. in Wales, p. 47, Note †.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 183.

* Suffragan Bishop of Colchester.

† Llanhuaden.

‡ Enw yr argraphiad yma yn Llyfr. y Cymry yw "Canwyll y Cymru—yn bedair rhan. Llundain. 1672." 8plyg. "Dywedir mai Stephen Hughes a'i cyhoeddodd."—Llyfr. y Cymry, t. 200.

§ Cadarnheir y dystiolaeth yma, ddarfod i'r ficar adael amryw ysgrifau ar ei ol heb law ei ganiadau, yn y nodiad canlynol, o waith cyhoeddwr yr argraphiad 1770 o'r caniadau:—

"Fy Nghydwladwy [r], Trefnodd Duw, Awdwr pob Daioni i 'scrifeniadau yr Awdwr Duwiol hwn gael eu rhoddi i mi i wneuthur y gorau o honynt, ac wrth chwilio, deallais mai ei Bregethau oedd y rhan fwyaf o honynt, pa rai a gadwyd yn ei Lyfr-gell ef yn Llanymddyfri, er dydd ei Farwolaeth nes iddynt ddyfod i'm Llaw. Ac os rhydd Duw i mi amser, anturiaf gynnig rhai o honynt i'm Cydwladwyr yn Argraphedig; gan hyderu nas cant lai derbyniad genych nag a roddasoch i'w Garolau. Y Llyfr cyntaf fydd gwerth 1s. Pwy bynnag a'i chwenych anfonant eu Henwau ymma yn ddi-draul, fel y gwybyddwyf y Rhifedi a allwyf Argraphu; yr hyn a fydd yr un Llythyren a Phapur a hwnn. R. Thomas."—"Ond ymddengys na chafwyd cefnogaeth ddigonol; ac felly y maent yn wir wedi eu hollol ddinystrio."—Llyfr. y Cymry, t. 519.

"Bu farw yn Llanymddyfri o gylch mis Tachwedd, 1644, a chladdwyd ef, fel y tybiaf, yn yr eglwys yno. Yn ystod ei fywyd gadawodd diroedd gwerth 20p. y flwyddyn at sefydlu Ysgol Rad yn Llanymddyfri, ynghyd â thŷ i'w chadw ynddo. Meddiannwyd y tŷ wedi hyny gan bedwar Ysgolfeistr olynol, a thalwyd yr arian iddynt. Darfu i Thomas Manwaring o'r diwedd, mab Roger, a fu rywbryd yn Esgob Tŷ Ddewi, yr hwn a briododd Elizabeth, unig ferch Samuel, mab y dywededig Rhys Prichard, gymmeryd meddiant o'r tir dywededig, fel yr hyspysir fi gan lythyrau oddi yno, dan yr esgus o dalu yr arian i'r Ysgolfeistr, yr hyn a wnaed dros flwyddyn neu ddwy; ond yn fuan ar ol hyny torodd yr Afon Towy i'r tŷ, gan ei ysgubo ymaith; a pherchennogir y tir a berthynai iddo yn awr, 1682, gan Roger Manwaring, mab ac etifedd y dywededig Thomas. Felly y mae'r Ysgol, mewn ystyr, wedi ei llwyr anghofio."*

Dywedir bod Rhys Prichard yn deilliaw o deulu cyfrifol a chyfoethog yn ardal Llanymddyfri, ac mai enw ei dad oedd Dafydd ap Rhusiart, ab Dafydd ap Rhys ab Dafydd; a chan mai Rhys oedd y mab hynaf, efe a gafodd dreftadaeth ei hynafiaid. Dichon, ïe, y mae braidd yn sicr, bod sefyllfa anrhydeddus teulu Rhys Prichard yn un achos mawr iddo gael cynnifer o fywiolaethau a dyrchafiadau eglwysig, a hyny tra nad oedd efe etto ond lled ieuangc. Dengys yr hen hanes uchod y gwnaed ef yn ficar Llanymddyfri yn 23 oed, yn gaplan yr Iarll Essex ac yn berson Llannedi yn 34 oed, yn gôr-beriglor Eglwys Golegol Aberhonddu yn 35 oed, yn ganghellydd Tŷ Ddewi a chôr-beriglor Llanhuaden yn 47 oed. Y mae yn dra sicr hefyd fod ei dalentau disglair, ei ddysgeidiaeth goeth, a'i ddoniau hyawdl, cymmwysderau nad oedd ond ychydig iawn o offeiriaid yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru yn eu meddu yn y dyddiau hyny, yn tueddu i dynu sylw ei uwchafiaid eglwysig, heb law bod ei gyfeillach â boneddigion uchelfri o fath yr Iarll Essex yn dra manteisiol er ei ddyrchafu.

O ran ffurf corphorol, dywed traddodiad mai dŷn lled fyr ydoedd, ond pur gydnerth, yn gadael i'w farf dyfu yn llaes, yn ol arfer yr hen Frythoniaid ac eraill yn y dyddiau hyny; bod ganddo lais pur beraidd, ac y byddai ei wynebpryd yn llawn bywiowgrwydd a'i lygaid yn danllyd pan yn y pulpud, yn enwedig ar ol ei dröedigaeth, ac y byddai yn hawdd gwybod y pryd hyny y byddai ei yspryd ar dân gan awydd troi dynion oddi wrth eu pechodau, ac achub eu heneidiau. Dywedir y preswyliai, nid yn y ficerdy, ond mewn palasdy o'i eiddo ei hun yn Llanymddyfri, a'i enw "Y Neuadd Newydd," ac yr oedd yn perthyn i'r palas dyddyn helaeth, a elwid "Tir y Neuadd," a dwy felin. Mynegir hefyd ei fod yn perchen amryw diroedd heb law hyny, digon iddo gael ei ystyried ymhlith boneddigion penaf y gymmydogaeth, a'i fod yn ynad heddwch dros sir Gaerfyrddin mor forau ag 1610, pan nad oedd efe ond 31 oed.

Ymddengys wrth yr hen ysgrif a ddifynwyd eisoes iddo gael ei urddo yn offeiriad *(priest)* ddau fis, o leiaf, sef ar y 25med o Ebrill, 1602, cyn cael ei raddio yn y brifysgol, yr hyn ni ddigwyddodd hyd y Mehefin canlynol, yr hyn a ystyrir yn awr, os nad y pryd hwnw hefyd, yn afreolaidd; ac ymhen dau fis wedyn, cafodd ficeriaeth Llanymddyfri, profion amlwg iawn ei fod yn bur uchel ar y pryd, fel yr awgrymwyd eisoes, ym marn urddasolion yr Eglwys Wladol.

Nid oes genym ddim hanes gydoesol, ddiamheuol, am forau oes y Ficar; ond y mae'r traddodiad am ei foesau pan yn ieuangc yn rhoi anair iddo. Dywedir ei fod yn bur chwannog i yfed yn anghymmedrol, ac i ddilyn cymdeithion halogedig mewn cyfeddach a dïota, ac mai bŵch gafr a fu'n offeryn i'w wared o'i afradlonedd a'i ffyrdd dryg-ionus. Dywedir y byddai'r bŵch yn arfer ei ddilyn i bob man lle yr elai, ac felly yn myned gyd âg ef i'r tafarnau, ac yfed ychydig gwrw o'i law yn achlysurol, megis pe buasai yn gwybod bod hyny yn ei foddio. Un diwrnod, pan mewn cyfeddach gyd â'i gymdeithion ofer, gorfododd yr anifail truan i yfed i ormodedd. Byth wedi hyny nis gallai berswadio y bŵch mewn un modd i groesi trothwy tŷ tafarn, nac i yfed un dyferyn o ddïod feddwol. Wrth sylwi ar ddoethineb y bŵch, yn llwyr ymwrthod â'r hyn a'i hurtiodd ac a'i niweidiodd, argyhoeddwyd ei berchenog o ynfydrwydd ei anghymmedroldeb; a dwyshaodd yr argyhoeddiad yma ar ei feddwl nes ei arwain, nid yn unig i ymwrthod â dïota, cyfeddach, a meddwdod, ond i lwyr ymgyssegru i wasanaeth yr Arglwydd, fel creadur newydd yng Nghrist Iesu. Chwedl arall a ddywed mai trwy gymmedroldeb ei geffyl, yn gwrthod yfed dim wedi iddo unwaith dori ei syched, y gwelodd y Ficar ynfydrwydd ei arferion anghymmedrol a phechadurus. Beth bynag am y traddodiadau hyn, y mae yn wir fod yr Arglwydd, yn ei air, yn ein hanfon at yr anifeiliaid direswm i gael addysg, megis yr ŷch, yr asyn, y morgrugyn, a'r cyffelyb; ac y mae yr un mor wir i "Ficar Llanddyfri" gael ei argyhoeddi, nid yn unig i weled y niwaid o'r pechod ffiaidd o feddwdod, ond pob pechod arall hefyd; ac ni wnaeth neb fwy o egni, ac ni bu odid neb yn ei

* Athen. Oxon., ed. 1691, v. ii., p. 29.

oes yn fwy llwyddiannus, i argyhoeddi ei gydwladwyr o'u pechodau, nag a fu'r enwog Rhys Prichard.*

Nid yw hyspys pa bryd y priododd y Ficar Prichard, nac o ba deulu yr oedd ei wraig; ond dywedir iddo briodi yn fuan ar ol ymsefydlu yn Llanymddyfri, ac mai enw ei wraig oedd Gwenllian. Dengys ei ganiadau fod iddo un mab, ei etifedd, a'i enw Samuel;† a dengys yr hen ysgrif sydd yn yr *Athenæ Oxoniensis* bod i hwnw un ferch, ei etifeddes, a'i henw Elizabeth, yr hon a briodes un "Thomas Manwaring, mab Roger, a fu rywbryd yn Esgob Tŷ Ddewi." Y mae yn amlwg hefyd fod y Ficar yn ŵr tyner, yn gymmydog cymmwynasgar ac elusengar, ac yn dad gofalus a phryderus. Y mae rhai o'i ganiadau wedi eu cyfansoddi mewn dull o gynghorion, a chynllun o weddïau, i'w fab Samuel, un o'r sawl sy'n dechrau fel y canlyn:—

"SAMI bach, er cariad Duw,
Cofia byth tra fyddech byw,
Foli Crist ar ben dy linie,
Trech‡ o'm golwg oddi cartre.§

"Galw'n brûdd,|| o ddyfnder calon,
Ar dy Dâd a'th Brynwr tirion,
Am d'amddiffyn nos a bore,
Rhag pob drwg, trech oddi gartre.

"Plyg dy ddoi-lin,¶ côd dy ddwylo,
Dal yn grâff dy lygaid arno:
Cais ei rym, a'i ras, a'i ore,
Ymhob dim trech oddi gartre.

"Felly ceidw Duw din'n wastod
Rhag pob niwed, rhag pob anffod;
Ac ni edy ddim yn eisie
Ar SAM bach, tra oddi gartre."**

Gellir casglu oddi wrth "Gyngor i Wr Ieuangc," o waith yr awdur pryderus, bod ei fab "Sami" yn fachgen lled wych, tra yn ieuangc, ac "oddi gartref," yn yr ysgolion, neu'r colegau, yn ol pob tebyg. Fel hyn y dechrau'r gân yr ydym yn cyfeirio ati:—

"F' Anwyl Blentyn, ces dy lythyr,
Serchog, Sanctaidd, llawn o synwyr,
Sy'n dymuno cyngor ffyddlon,
I'th gyfrwyddo i fyw fel Cristion.

"Argoel gras yw'th weld cyn Ianged
Mor fawr dy chwant, mor brûdd dy syched,
I Nabod Duw, i ddyscu'r Scrythur,
I ddofi'r Cnawd a mwyniant Natur.

"I gyflawnu dy ddymuniad,
Derbyn hyn o gyngor difrad,
I gyfrwyddo dy holl fuchedd,
O'th fabolaeth hyd dy ddiwedd.

"Yn dy ieungetid, F'enaid cofia,
Wir wasanaethu Duw gorucha,
Ac addoli dy Greawdwr,
Cyn i wendid waethu'th gyflwr.

"Dechre ddyscu trech yn blentyn,
Nabod Duw a'th Brynwr pur-wyn,
Hoffi Air a chadw ei gyfraith;
Hynny'th wna yn hen-wr perffaith."††

Ond pan ddychwelodd "Sam" adref, ymddengys iddo droi yn fab adradlon, ac y mae yn bur debyg mai hyny a gynhyrfodd y tad pryderus i gyfansoddi y gân sy'n dechrau fel hyn:—

"F' Anwyl Blentyn, dere'n nes,
Gwrando gyngor er dy les;
Prawf i ddilyn tra fech byw,
Or ceisi fynd i deyrnas Dduw.

"Ofna Dduw tra bywyd ynod:
Parcha ei Enw mawr yn wastod;
Galw arno â'th holl galon
Gwrando ei Air, a chadw ei orchmynion.

"Cymmer Air Duw yn wastadol,
Yn Gynghorwr ac yn rheol;
I reoli dy holl fywyd,
Ym-mhob gorchwyl a fo gennyd.

"Dyna'r Lantern a'th oleua;
Dyna'r Athro a'th gyfrwydda
I wachelyd pob drygioni,
Ac i'th ddwyn at Dad goleuni.

"Gwachel wneuthur mawr na bychan
Yn ôl d'wyllys ffol dy hunan;
Y mae pechod gwedi llygru,
Nes cael gras i hadnewyddu."*

Ond er holl gynghorion y tad gofalus, ymddengys mai para i ymlygru yr oedd ei anwyl "Sami," ac iddo yn y diwedd droi i ddilyn cyfeillach ddrwg a halogedig; ac y mae yn bur debyg mai hyny a roes achlysur i'r gân sy'n dechrau fel hyn:—

"Y neb a fynno fyw yn ddeddfol,
Yn ol gwllys ei dad nefol,
Cynta peth sydd raid ei wneuthur,
Tynnu o blith y drwg weithredwyr;

"A rhoi fynydd ddrwg gwmpniaeth,
Yn dragywydd, heb ddim hiraeth,
Megis Moesen gwmpni'r Aiphtiaid,
Lot ac Abram y Caldeaid.

"Fel y tâg y gwŷg y gwenith,
Fel y sura fineg lefrith,
Fel y nyrdda pŷg dy gadach;
Felly'th nafa ddrwg gyfeillach.

"Gwachel neidir rhag dy frathu,
Gwachel blâg rhag dy ddifethu;
Ac os ceri iechydwriaeth,
Gwachel ddilyn drwg gwmpniaeth."†

Golygfa arswydus i rieni duwiol, gofalus, yw gweled eu plant, yn enwedig eu hunig blentyn, yn ymlygru fwy-fwy; ond ymddengys mai hyny a fu tynged yr hen Ficar, truan; ac er maint oedd ei bryder a'i ymdrech i ddysgu ei fab yn athrawiaethau a dyledswyddau crefydd, na chafodd ond anghysur chwerw oddi wrtho, ac iddo dyfu i fynu yn ŵr ieuangc gwyllt ac ofer, a darfod iddo barhau yn ei ynfydrwydd, yn oed ar ol priodi, nes y cyfarfu â diwedd truenus ac anamserol. Dywedir bod S. Prichard yn gyfaill mawr i Syr Francis Llwyd, o Faes y Felin, ger llaw Llanbedr-Pont-Ystephan, yr hwn a ymwerthasai i lygredigaethau ac anfadrwydd ei oes. Fel yr oedd Samuel unwaith mewn cyfeillach annuwiol a meddwol ym Maes y Felin, aeth yn gynnen rhyngddo ef a gŵr y tŷ, meddir, o achos rhyw garwriaeth anniwair, a'r canlyniad fu i fab y Ficar gael ei fygu rhwng dau wely plyf; ac yna y dodwyd ei gorph mewn sach, yn ei ddillad, ar gefn ei geffyl ei hun. Felly y trosglwyddwyd ef yn y nos ar hyd y ffordd oedd yn arwain i Lanymddyfri. Yr oedd pont garreg gul y pryd hwnw dros yr Afon Tywi, rhwng y fan y mae'r bont grogedig yn awr ar Nantyrogfaen. Yn y lle hwnw, cymmerwyd y corph o'r sach, a thaflwyd ef i'r afon, a gollyngwyd y ceffyl i ddychwel adref, er mwyn i bobl feddwl mai cwympo a wnaethai ei farchog oddi ar ei gefn dros ganllaw y bont, a boddi yn yr afon.

* Trysorfa Ysprydol, 1799, t. 323; Seren Gomer, 1825, t. 351; Gwladgarwr Caer, 1840, t. 130; Y Traethodydd, 1846, t. 135; Williams's Eminent Welshmen, p. 424; Rees's Noncon. in Wales, p. 31; *Enwogion* Cymru, t. 860; Cymru, cyf. ii., t. 457; Y Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 458.

† Canwyll y Cymru, 1681, t. 385, 888.

‡ *Tra fyddech.*

§ Yn yr ysgol, ond odid.

|| Yn ddifrif.

¶ Deulin.

** Canwyll y Cymru, 1681, t. 385.

†† Canwyll y Cymru, 1714, t. 89.

* Canwyll y Cymru, 1681, t. 83.

† Yr un, 1681, t. 76.

Digitized by Google

Y traddodiad ydyw i'r Ficar, yn ei drychineb chwerw, draddodi y wae ganlynol:—

> "Melldith Dduw fo ar Maes y Felin,
> Ar bob carreg a phob gwreiddin,
> Am daflu blodau tre Llanddyfri
> Ar ei ben i Dywi i foddi!"

Credir yn gyffredin fod y felldith wedi disgyn ar deulu a thŷ Maes y Felin, fel na bu dim ffyniant arnynt byth mwyach. Adfeiliodd y palas gwych hwnw, medd traddodiad yr ardal, nes yr oedd cyn hir wedi myned yn furddyn. Disgynodd etifeddiaeth Maes y Felin i'r Llwydiaid o Ffynnon-Bedr, ynghymmydogaeth Llanbedr, a chymmerwyd peth o ddefnyddiau neuadd Maes y Felin i adeiladu palas Ffynnon-Bedr; a chredir yn yr ardal hyd heddyw i'r defnyddiau hyny ddwyn y felldith ar y lle hwnw hefyd, gan i'r palasdy ysplenydd syrthio yn ebrwydd i adfeilion! Pa wedd bynag, y mae yn garnedd hyd y dydd hwn, ac yn atteb yn llythyrenol i ddarlun y Parch. D. Davies, Castell Hywel, o hono:—

> "A mynych yr ŷch o'r iau,
> A bawr lawr ei barlyrau." *

Nid yw hyspys pa bryd, yn fanwl, y cafodd y Ficar Prichard wir argyhoeddiad o bechod a dychweliad at Dduw; ond y mae'r traddodiad ddarfod iddo briodi yn fuan ar ol ymsefydlu yn Llanymddyfri, ym Mehefin 1602, tra nad oedd ond 23 oed, a nifer llïosog ei ganiadau a'i ysgrifeniadau eraill, yn arwyddo iddo gael tröedigaeth o gylch yr amser hwnw, neu yn fuan ar ol hyny. Y mae genym sicrwydd ei fod ym mlodau ei dduwioldeb a'i grefydd, pan nad oedd ei fab Samuel ond 10 oed, "Yngweddi Mr. S. P.," yr hon a ddechreua fel hyn:—

> "Arglwydd Rhoddwr pôb daioni,
> Brenin nef a Thad goleuni,
> Gwel a gwrando weddi egwan,
> Blentyn bach o *ddeng mlwydd oedran*." †

Yr oedd y wlad, yn amser y Ficar, wedi ei gorchuddio gan anwybodaeth, anfoesoldeb, ac anghrefydd. Yr oedd hen lefain Pabyddiaeth yn gweithio yn rymus o hyd yn y wlad, a llawer o'r rhai a gymmerent arnynt enw Protestaniaid a sychedent am ryddid i ymbleseru mewn difyrwch a gwagedd ar y Sabbothau, fel y caniateir i drigolion y gwledydd Pabaidd. Y Brenin Iago I., o blegid ei dueddfryd gwageddus ei hun, ac er mwyn ceisio rhyngu bodd a chymmodi rhai o'i ddeiliaid Pabaidd, a roes orchymyn allan yn 1617, pan oedd y Ficar Prichard yn 38 oed, ar i "Lyfr y Chwareuon" Sabbothol gael ei ddarllen yn yr Eglwysydd, fel y mynegwyd eisoes, yr hyn a baroddd anfoesoldeb erchyll yn y wlad, a gofid calon i'r ychydig dduwiolion oedd yn yr Eglwys Wladol. Pan fu farw yr Archesgob Abbot, dan reolaeth yr hwn, fel y gwelsom o'r blaen, yr oedd "Llyfr y Chwareuon" wedi myned bron allan o arfer, ac y dyrchafwyd y Pabyddol Laud i'r gadair archesgobol yn 1633, pan oedd ein Ficar o gylch 54 oed, ail gyhoeddwyd "Llyfr y Chwareuon" yn yr eglwysydd, trwy orchymyn Charles II., yr hyn a fu yn ofid calon i lawer o offeiriaid duwiol, a chollodd rhai, fel Wroth ac eraill, eu bywiolaethau am nacâu darllen y cyhoeddiad ysgeler yn eu heglwysydd. Ond nid oedd y gorchymyn anfad yn cael ei gario allan gyd â'r un llymder ymhob man. Yr oedd rhai swyddogion yn rhy dyner a chydwybodol i wneud hyny; etto, nis gallent attal y llifeiriant o anghrefydd, yn ei ymchwydd dinystriol, oedd yn gorlifo dros y wlad. Dywedir yr arferid chwarau pêl ym mynwent Llandingad (y plwyf lle y mae tref Llanymddyfri), nid yn unig ar ol y gwasanaeth, ond yn oed yn amser y gwasanaeth. Y mae yn dra sicr mai hyn a'i cynhyrfodd i ganu "Ar y Sabboth," gan y gwyddai fod y Cymry yn dra hoff o ganu; a dywedir iddo lwyddo i raddau i attal y ffrwd chwareuol ar y Sabbothau, trwy i bobl ieuaingc ac eraill gael blas ar ei ganiadau. Wele esampl o un o'i ganiadau ar y Sabboth:—

> "Deffro'n fore gyda'r ceiliog,
> Ffyst * d' adanedd, cân yn serchog
> Psalm i'r Arglwydd yn blygeiniol,
> Ar bob Sabboth yn dra suriol.
>
> Duw ddibenodd ei holl weithred
> Ar y dydd o flaen y seithfed:
> Gorphen dithe bob gorchwylion,
> Cyn y Sabboth, od wyt Gristion.
>
> Ymsancteiddia cyn y Sabboth,
> Cadw'n lân dy lester boenoth: †
> Golch dy hun mewn edifeirwch,
> Ofna Dduw, a chais ei heddwch.
>
> Cyn y Sabboth rhaid ymgweirio, ‡
> A throi pob dydd-waith heibio,
> I gael gweithio gwaith yr Arglwydd,
> Tra fo'r dydd, mewn gwir sanctrwydd.
>
> Gorphwys di, a'th dda, a'th ddynion
> Oddi wrth bob rhyw o orchwylion;
> Ac na weithia ddydd yr Arglwydd,
> Waith o blesser na bydolrwydd.
>
> Gwerthu liflod, § cario beichie,
> Gweithio'n galwad, mynd i shiwrne,
> Pob ofer-waith plesseredig.
> Ar y Sabboth sydd warddedig.
>
> Cadw'r Sabboth oll yn brydd,
> Fore a hwyr a chanol dydd,
> Yn dy dŷ fel yn yr Eglwys.
> Yn gwasanaethu Duw heb orphwys.
>
> Cymmer fwy o garc ‖ trech fyw,
> Weithio'r Sabboth waith dy Dduw,
> Nag y gymrech yn dydd amgen
> Ynghylch gweithio bydol bressen.
>
> Ar y Sul mae mor anghenraid,
> Geisio Manna i borthi'r enaid,
> Ac yw ceisio ar ddydd marchnad,
> Fwyd i borthi'r corphyn anllad.
>
> Cod y bore ar y wawr-ddydd,
> Am y cynta a'r ehedydd.
> I gael treulio dydd yr Arglwydd,
> Mewn duwioldeb a sancteiddrwydd.

* Gwladgarwr Caer, 1840, t. 131; Y Traethodydd, 1846, t. 138; Y Gwyddoniadur, cyf. viii. t. 459.

† Canwyll y Cymru, 1681, t. 388.

* Cur, ysgwyd. † Beunos, bob nos.

‡ Ymgyweirio, ymbarotoi.

§ Pob math ar ymborth. ‖ Gofal

Dywed Mr. Charles o'r Bala bod y gân hon, "a'r gân arall, o'r un natur, a elwir 'Achwyn Eglwyswr,' mewn dull galarus cwynfanllyd, yn rhagori mewn yspryd ac ymadrodd addas ar ddim a welodd efe mewn un rhyw iaith, ond Galarnad Jeremīa, a rhyw rannau eraill o'r Bibl. Y mae yn anmhossibl in' eu darllen yn ystyriol heb deimlo ein hun· yn tueddu i gyd-gwynfan a chyd-alaru â'r gwr duwiol, a ffieiddio penglogrwydd dynion anufudd i'r efengyl, a fu yn achos o'r cyfryw achwyniadau dwys a galarus. Y maent yn dangos yspryd rhagorol o gariad at eneidiau dynion, a zel tros ogoniant Duw a'i achos."* Wele ychydig o esamplau o'r "gân arall" y sonia Mr. Charles am dani:—

"Duw gwel drwmmed yw fy nghalon,
Weled faint pengledrwydd dynion;
Cais eu harwain tua'r nefoedd,
Hwyntau ânt i'r tân heb ddiffodd.

Golchi'r Moyrys† du trwy sebon,
Troi'r Iorddonen i ben Hermon,
Yw cynghori'r dyn pengaled,
'Ofni Duw a charecu‡ enaid.

Cais trwy deg, a chais trwy hagar,
Ofer canu i'r neidir fyddar:
Trinia fynnech ar bren pwdwr,
Byth ni ry 'ti ffrwyth na swccwr.

Dysc a dangos, gwawdd, ymhwedd,
Mab y fall, ni wella o'i fuchedd:
Lladd â'r gyfraith, gwawdd â'r fengyl,
Ni thry attat ond ei wegil.

Gollwng arno'r holl Brophwydi,
A'r Postolion i'w gynghori;
Nid gwaeth ffysto§ pen wrth bentan,
Ni wna ond a fynno ei hunan.

Gwae fy nghalon drom gan hynny,
Na buasse Duw'n gwyllyssu‖
Fy rhoi'n fugail ar dda gwylltion,
Cyn rhoi im shars y cyfryw ddynion.

Y corr a dynn y gwenwyn lindys
O'r blodeuyn goreu ei relys;¶
A'r dyn drwg a dynn ryw accan
O bur eiriau Duw ei hunan.

Waith i Grist, ein Prynwr tirion,
Golli drossom waed ei galon,
A'i roi'n bridwerth dros ein pechod,
Fe fynn llawer bechu'n wastod.

Er bod Duw yn llawn trugaredd,
Yn hwyr ei lid, yn dda ei ammynedd;
Etto er hyn mae Christ yn dwedyd
Fod Duw mawr yn gyfiawn hefyd.

Duw sydd rassol, Duw sydd gyfion,
Duw sydd fwyn, a Duw sydd ddiglion;
Duw sydd ddof, a Duw sydd danllyd,
Duw sydd hael, a chynnil hefyd.

I'r rhai ffyddlon edifeiriol,
Mae Duw'n ffyddlon ac yn rassol;
Ond i'r stwbwrn,** cas, gwrthnysig,
Mae Duw'n greulon ac yn ffyrnig.

O herwydd hyn 'rwi'n cynghori,
Na ddilyner hir ddrygioni;
Ond i bawb tra fyddont byw,
Dreulio eu hoes mewn ofan Duw."††

Ymddengys bod pregethau tanllyd, efengylaidd, golau, ac effeithiol y Ficar Prichard yn fwy derbyniol a llwyddiannus yn Llannedi, Llanhuaden, a Thŷ Ddewi, nag oeddynt yn Llanymddyfri. Pan elai efe i Lannedi, dywedir y byddai yn wastad yn cael cynnulleidfaoedd mawrion i'w wrando, a gorfodid ef yn fynych i fyned allan i'r fynwent i bregethu, am y byddai yr eglwys yn rhy fechan i gynnwys y lluoedd a ymgasglent i'w wrando. Dywed Fenton, yn ei *History of Pembrokeshire*, yr arferai y Ficar fyw ar brydiau yn St. Kenox, ger llaw Llanhuaden, pan yn ganghellydd Tŷ Ddewi, a bod llanerch yn agos i'r tŷ, yr hon a arferid wedi hyny yn llawr nithio, wedi bod yn fynych yn lle iddo bregethu i gynnulleidfaoedd rhy līosog i un eglwys gyffredin eu cynnwys. Y fath līaws a ymgasglent i wrando arno yn pregethu pan yn aros yn Nhŷ Ddewi, fel y byddai raid iddo gael pulpud symmudadwy yn y fynwent, gan y byddai yr Eglwys Gadeiriol, er mor chang ydoedd, yn rhy gyfyng i gynnwys y tyrfaoedd a ymgynhullent i'w wrando. Cyfansoddwyd pennill gan ryw brydydd anhyspys ar yr achlysur o draddodiad un o'i bregethau yn Nhŷ Ddewi, yr hwn a adroddid yn bur gyffredin y pryd hwnw, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Y Ficar o Landdyfri
Wnaeth bregeth yn Nhŷ Ddewi,
Na fu'n y byd erioed ei gwell;
Hi aeth ymhell trwy Gymru."

Pa wedd bynag, yr oedd ei boblowgrwydd dirfawr, ei bregethau tanllyd, a'i weithgarwch dīesgeulus yn dramgwydd anaele i amryw Eglwyswyr anfedrus, dioglyd, cynfigenllyd, a digrefydd; am hyny cymmerasant fantais oddi wrth ei waith yn pregethu allan yn y mynwentydd, fel y crybwyllwyd, i achwyn arno yn y Llys Eglwysig am afreoleidd-dra. Cadarnheir y syniadau hyn gan ddwy o'i ganiadau, y rhai y byddai yn anhawdd deall yr achlysur o'u cyfansoddi ond ar y golygiad yma, sef "Gweddi yn erbyn Gorthrymder Gwrthwynebwyr," a "Diolch am ymwared o ddwylo Gelynion." Yn y flaenaf o'r caniadau hyn efe a ddywed:—

"Dihun, Dihun, paham y cyscaist?
Erioed hyd hyn fy Nuw ni heppiaist:
Nid Baal wyt: o danfon swccwr!
Tynn dy was o dost gyfyngdwr.

Sych fy neigreu, Torr fy Magal,
Gwared F'enaid, llaesa 'ngofal:
Gwel fy nghystydd, clyw fy nghwynfan;
Barn fy hawl, rhyddha fi weithian.

Fy nghraig i wyt, o nad fi syrthio;
Fy nhwr cadarn, nad f'anrheithio;
Fy Nuw, fy Ner, o dere im' helpu;
Fy Nefawl Dâd, nad fy nghorthrymmu.

Gallnog wyt, di allu helpu,
Unig ddoeth, y modd di medru;
Trugarog Dàd, oh dere a swccwr;
Hawdd yw'th gael mewn tost gyfyngdwr.*

Gwradwydda fwriad fy ngelynion,
Tola falchder fy nghaseion:
Gwascar gyngor tyrfa waedlyd,
Er mwyn Christ, Rhyddha fi o'm penyd.

Duw rhoist gennad i'm gelynion,
Fy ngorthrymmu heb achosion,
A'm difetha'n llwyr gan mwya,
Os tydi ar frys ni'm helpa.

Di roist gennad i estroniaid
Lwyr amcanu difa f'enaid,
A'r sawl nad wi'n nabod etto,
Lwyr amcanu fy anrheithio.

Rhai na wn o ble y henyn,†
Rhai na wnaetho i ddim i'w herbyn,
Rhai na chanfu 'rioed fy llygaid,
Sydd yn ceisio speilio f'enaid.

Deffro o gysgu f'unig Geidwad,
Mae fy llong mewn trallod irad;
O cerydda'r gwynt a'r tonneu,
Rhag im soddi yn eu rhwydeu.

Erchaist immi ddwad attad,
Yn fy nhrallod, anwyl Geidwad:‡

* Trysorfa Ysprydol, 1799, t. 325.
† Moors, dynion duon. ‡ Gofalu. § Curo. ‖ Ewyllysio.
¶ Relish, blas; arogl. ** Stubborn, cyndyn, ystyfnig.
†† Canwyll y Cymru, 1681, t. 397.

* Psalm xli. 1. † O ba le y maent yn hanu, neu yn tarddu.
‡ Psalm l. 15.

Digitized by Google

Attad ti, fy Nuw, rwi'n trottan;
Danfon im ymwared weithian.

Di waredaist Dafydd frenin
Oddiwrth Saul cedd yn ei ddilyn;
Gwared finne o'm trallodion,
Ac o ddwylo fy ngelynion.

Di waredaist hen Elias
O law waedlyd gwreigin* ddiras;
Gwared finne yn fy nolyr,
O law waedlyd fy ngwrthnebyr.

Nid wi'n ceisio help Gwyr Mawrion,
Na Phennaethiaid, na Thwssogion,
Ond yn unig cymmorth difrad
Gennit ti, fy Nuw a'm Ceidwad.

Mae fy llygaid, o'r dechreuad,
Ddydd a nos yn disgwyl arnad;
Dere weithian i'm diddanu;
Arglwydd nad i'm llygaid ballu.

Dere Arglwydd, dere, brysia,
Gwared f'enaid o gyfyngdra,
Fel y gallwyf dy foliannu,
Trwy lawenydd am fy helpu."†

Nid rhyfedd i weddi mor daer, mor Ysgrythyrol, ac mor hyderus yn Nuw, gael ei gwrando, ac i'r gweddïwr duwiol gael ei wared o grafangau ei elynion; ond fe waredwyd llawer un o flaen ac ar ol y Ficar Prichard, eithr ni ddychwelasant i roi gogoniant i Dduw;‡ ond nid anghofiodd efe y ddyledswydd resymol a duwiol honno. Edrycher a sylwer ar rai esamplau o'i waith yn "Diolch am ymwared o ddwylo Gelynion:"—

"Angelion Duw, a meibion Dynion,
Nef a Daiar, a'u Trigolion,
Molwch Dduw ar eitha'ch gallu,
Dydd a nos am fy ngwaredu.

Mewn ing, trallod, a chyfyngdwr,
Y gweddiais ar fy Mhrynwr,
Ac o'r Nef o blith Angelion,
Clybu lef fy nghwyn hiraethlon.

Sarph ossododd fagal cmbaid,
A chroglath he i ddala f'enaid;
Rhwyd a chroglath Duw a'u torrwys,
Fenaid inne fe'i gwaredwys.

*Helodd* Angel i'm dad-ddryssu,
Rhows ei Yspryd i'm diddanu;
Tannodd drosswi Adain hyfryd,
Ac fe'm tynnodd o'm holl ofyd.

Teirw Basan a'm cylchynodd,
*Nadredd* tanllyd a'm herlidiodd;

Bleiddiaid blin ac unicorniaid,
Amcanassant ddifa f'enaid.

Gwyr digrefydd, gwragedd gwaedlyd,
A gynllwynodd am fy mywyd,
Ac amcansont fy andwyo,
Difa f'enaid a'm anrheithio.

Duw ddatguddiodd eu dichellion;
Duw ddiddymmodd eu hamcanion;
Duw a ddryssodd eu bwriade;
Duw waredodd f'enaid inne.

Clod a gallu, Diolch, moliant,
Gwir Anrhydedd a Gogoniant,
Y fo nos a dydd i'r Drindod
Am fy nhynnu maes o drallod.

Nefoedd, Daiar, Dwr ac Awyr,
Tân, a gwynt, a phob creadur,
Molwch f' Arglwydd mawr yn wastod,
Am fy nhynnu maes o drallod."§

Ni wyddys odid ddim am ddyddiau diweddaf y Ficar Prichard, mwy nag am ei ddyddiau boreuaf. Y mae yn amlwg iddo fyw i weled y rhyfel gartrefol wedi tori allan, yr hyn a ddigwyddodd yn Medi, 1642. Dywed y Dr. T. Rees‖ mai brenhinwr dïysgog oedd y Ficar, fel yr oedd clerigwyr a boneddigion Cymru yn gyffredin, a'i fod wedi rhoi corph ei gyllid dros dair blynedd at gefnogi plaid y Brenin.¶ Os felly, rhaid bod y Ficar yn rhoddi ei gyllid at gefnogi plaid y Brenin *dros un fl*wyddyn cyn i'r rhyfel gartrefol ddechrau, canys bu efe farw yn 1644, fel y gwelsom, sef ymhen dwy flynedd ar ol y digwyddiad erchyll hwnw.

"Bu Ficar daionus Llanymddyfri," ebe yr un hanesydd ymchwilgar, "fyw a marw yn gydymffurfiwr cadarn; ond ymffurfiodd y rhan fwyaf, os nad ei holl ddychweledigion, yn gymdeithasau Anghydffurfiol yn fuan ar ol ei farwolaeth. Y mae sir Gaerfyrddin, byth er ei farwolaeth ef, wedi bod yn gadarnle Anghydffurfiaeth. Y mae ei achos ef yn eglurhâd nodedig o'r syniad a draethwyd gan yr enwog John Berridge, Ficar Everton, wrth yr Arglwyddes Huntingdon. 'Ond yr ydych yn dywedyd,' eb efe, 'bod yr Arglwydd yn anfon llawer o lafurwyr efengylaidd i'r Eglwys [Sefydledig.] Gwir; a hyny, fel y tybiaf, er mwyn galw ei bobl Ef allan o honi. O blegid, pan y symmudir y cyfryw wasanaethwyr gan angau, neu y trawsgludir hwy i winllan arall, nid wyf fi'n gweled llafurwyr efengylaidd newydd yn eu dilyn, yr hyn sy'n gorfodi y preiddiau amddifaid i redeg i dŷ cyfarfod. A beth arall a allant ei wneuthur? Od ydynt wedi profi'r manna, ac yn newynu am dano, nis gallant ymborthi ar beiswyn cenhedlig, nac ychwaith ar grawenau cyfreithiol, er iddynt gael eu pobi gan ryw Pharisead sythffurfiol i lawn berffeithrwydd.'*

"Y mae enw Rhys Prichard yn fwy adnabyddus i holl genedl y Cymry nag enw neb arall o'i gydoeswyr enwog. Y mae ei ganiadau wedi anfarwoli ei goffadwriaeth. Nid oedd Bibl Cymraeg i'w ganfod mewn un man yn y Dywysogaeth yn ystod yr wyth mlynedd ar hugain cyntaf o'i weinidogaeth, oddi eithr yn unig ar bulpudau yr Eglwysydd Plwyfol. Am hyny yr oedd y bobl o angenrhaid yn anwybodus o bethau ysprydol. Gan hyny, wrth ganfod eu bod yn dra hoff o brydyddiaeth a cherddoriaeth, trodd efe sylwedd ei bregethau sylweddol, ysgrythyrol, a phoblogaidd, ar gân. Dosperthid copïau ysgrifenedig o'r rhai hyn ymhlith y bobl; a bu hyny yn nodedig ddefnyddiol er trosglwyddo syniadau cywir am athrawiaethau a dyledswyddau crefyddol i boblogaeth druenus o esgeulusedig ac anwybodus. Un o'i ganiadau yn unig a gyhoeddodd efe yn ystod ei fywyd;† ond yn 1646, ymhen dwy flynedd ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd amryw o honynt yn un gyfrol, dan

* Gwreigen. † Canwyll y Cymru, 1681, t. 264.
‡ Luc xvii. 18. § Canwyll y Cymru, 1681, t. 267.
‖ *Hist. Noncon.* in Wales, p. 33.
¶ Mawr buasem gael cyfeiriad at brawf hanesyddol dïamheuol mewn cyssylltiad â'r mynegiad yma.

* Life and Times of the Countess of Huntingdon, 1839, v. ii., p. 423.
† Nid yw Gwilym Lleyn yn cofnodi y gân honno mewn un man yn Llyfr. y Cymry, o 1601 hyd 1644, ystod yr amser y bu Rhys Prichard yn offeiriadu. Buasai yn bur dda genym gael gwybod pa un o'i ganiadau ydoedd honno.

Digitized by Google

yr enw 'Y Seren Fore, neu Ganwyll y Cymry.'* Yn y fl. 1672, cyhoeddodd yr Anghydffurfiwr enwog, Stephen Hughes, argraphiad newydd, yn cynnwys nifer mawr o ganiadau ychwanegol, o lawysgrifau yr awdur. Cyhoeddwyd pymtheg† o argraphiadau er y pryd hyny; ond y mae yr olaf, a olygwyd gan y diweddar Barch. Rice Rees, B.D.,‡ at yr hwn y rhagddodwyd cofiant yr awdur, yn anghymharol ragorach na'r holl rai blaenorol o ran cyflawnder, cywirdeb, a phrydferthwch.§ Ni chafodd un llyfr yn ŷr iaith Gymraeg, oddi eithr y Bibl, gylchrediad mor helaeth, a darlleniad a wnaeth gymmaint o les, a chaniadau y Ficar. Y mae ei gyfrol ef yn gorph cyflawn o dduwinyddiaeth athrawiaethol ac ymarferol.* Y mae'r arddull yn syml, synhwyrlawn, a nodedig o rymus. Y mae'r syniadau yn uchel Galfinaidd, ond heb y gorlliw lleiaf o Antinomiaeth. Y mae amryw o'r pennillion mwyaf nodedig wedi dyfod yn ddiarhebion cenedlaethol er ys hir amser. Y mae'r Ficar, wrth ddisgrifio dirywiad moesol ei gydwladwyr, ac ymddygiad gwaradwyddus y clerigwyr, yn defnyddio iaith llawn mor gref a John Penri; ond yn yr iaith Gymraeg yr ysgrifenai efe, ac ni chyhoeddwyd ei gyfansoddiadau ef hyd ar ol ei farwolaeth: fel hyn, osgôdd efe flinderau, y

* "Canwyll y Cymry, &c. Gan Rhys Prichard, Ficar Llanddyfri yn Neheubarth," yn unig ydyw yr enw a ddodir i'r argraphiad yma yn "Llyfryddiaeth y Cymry," t. 138. A chyffelyb ydyw yr enw ymhob argraphiad arall a gofnoda'r "Llyfryddiaeth" (oddi eithr y rhoir *Cymru* weithiau yn lle *Cymry*), hyd argraphiad 1770 (t. 518), yr hwn a elwir "Y Seren Foreu, neu Ganwyll y Cymry," &c.

† Deunaw, o leiaf, yn ol "Llyfryddiaeth y Cymry." Dywed Gwilym Lleyn fod yr argraphiad yn 1777 "yr 16fed, o leiaf." Cyhoeddwyd y gwaith, yn ol y "Llyfryddiaeth," yn gyflawn, neu mewn rhan, bum waith yn y 17fed ganrif, un ar ddeg o weithiau yn y 18fed, a phedair gwaith yn y ganrif bresennol: oll yn 22 o argraphiadau, o leiaf.

‡ Cyhoeddwyd tri argraphiad o'r un a olygwyd gan y Proffeswr Rees, sef yn y blynyddoedd hyn:—1841, 1858, ac 1867.

§ Y dystiolaeth hon sydd wir, gyd â golwg ar "gyflawnder" a "phrydferthwch," o leiaf; ond yr ydym yn ammau "cywirdeb" yr argraphiad yma mewn amryw fanau. Yr oedd y Ficar yn ysgrifenu yn fanwl, yn y llediaith gymmysg oedd ar lafar gwlad yn y Deheubarth yn ei amser ef, er mwyn bod yn berffaith ddealladwy i werin bobl anwybodus y parth hwnw o'r Dywysogaeth; a dilys ddïammau fod hyny yn un achos bod gwaith y Ficar mor dra phoblogaidd gan werin y Deheubarth yn gyffredinol. Dywedir ei fod yn gymmaint felly fel yr oedd llawer o hono ar gof yn oed hen wragedd tlodion a arferent gardota o ddrws i ddrws, y rhai a arferent adrodd y darnau a ystyrient yn fwyaf effeithiol er cymmell rhai i gyfranu iddynt, megis,—

"Or bydd marw un rhag newyn,
Bydd gwaed hwnnw ar ein cobyn:
Ni all cyfoeth mawr yr holl-fyd,
Wneuthur iawn am dan ei fywyd.

"Rho dy gardod yn ddi-attal;
Os bydd llawer, doro'n amal:
Os bydd 'chydig, doro ronyn;
Ond rho'n llawen heb ei wrafyn."

O gwrthodid rhoddi dim iddynt, arferent droi eu cefnau, gan fwngial yn ddigllon,—

"Gwae'r goludog di-dosturi,
Stoppo ei glûst rhag gwrando tlodi;
Fe gaiff hwnnw ddyfal grio,
Yn y pwll, heb neb i wrando."

Gan fod cyfieithiad Cymraeg y Dr. Morgan o'r Bibl yn yr eglwysydd pan oedd y Ficar yn 9 oed, argraphiad y Dr. Parry pan oedd yn 41 oed, ac argraphiad helaeth Heilyn a Myddleton pan oedd yn 51 oed, heb law cyfieithiadau neu gyfansoddiadau amryw ddysgedigion eraill, megis "Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr," "Egluryn Phraethineb," "Perl mewn Adfyd," "Dannerth. neu Arlwy Gweddi," "Yr Homiliau," "Yr Athrawiaeth am Weddi," "Crynhodeb o addysc Cristionogol," "Grammadeg," a "Geiriadur" y Dr. Davies, ac amryw lyfrau Cymraeg rhagorol eraill: gan fod y rhai hyn a'u cyffelyb yn argraphedig cyn i'r Ficar Prichard ddechrau cyfansoddi ei ganiadau, ac at ei alwad ef, yn ddilys ddigon, y mae yn gwbl sicr y gallasai efe gyfansoddi ei ganiadau mewn ieithwedd gyffelyb iddynt; yn wir, y mae efe yn awgrymu hyny ei hunan yn y pennillion canlynol:—

"Am weld dwfn-waith enwog *Sals-*
Gan y diddysc heb ei hoffi; [*bury*
Cymrais fessur byrr cyn blaened,
Hawdd i'w ddyscu, hawdd i'w styried

"Gelwais hon yn Ganwyll Cymro,
Am im chwennych brudd oleuo
Pawb o'r Cymru diddysc. deillion,
I wasnaethu Duw yn union.

"Er mwyn helpu'r annysgedig,
Sydd heb ddeall ond ychydig,
Y cynhullais hyn mor gysson:
Mae gan eraill well Athrawon."

* Dywedai Peter Williams fod caniadau y Ficar yn cynnwys "hufen y Bibl."

Gan fod gwaith y Ficar Prichard, yn ei lythyraeth a'i eiriad cyntefig, fel gwaith eraill o'r un oes ag ef, cystal a'u holynwyr, yn gwbl ddealladwy i'r cyffredin bobl, credu yr ydym ni ei fod yn llawer mwy dyddorol yn ei ddull cynhenid nag yn ei ddull diweddar, newidiedig. Tybir y profir hyn tu hwnt i ddadl gan yr aml argraphiadau o hono er pan gyhoeddwyd ef gyntaf yn 1646 hyd 1798, mewn cymhariaeth i'r ychydig argraphiadau a gyhoeddwyd yn y ganrif bresennol, o 1807 hyd 1867. Dyma'r achos ein bod ni yn difynu, fel rheol, o argraphiad Stephen Hughes, yn hytrach nag o'r rhai diweddar, newidiedig, gan y credwn ei fod ef wedi cyhoeddi gwaith y Ficar yn ffyddlon, fel y cafodd ef yn ei ysgrifau. Ond, os ydyw newid y llythyraeth yn oddefadwy, credwn bod newid y geiriad yn gwbl anfaddeuadwy; er hyny, cyfarfyddir â'r newidiadau yma yn lled fynych yn argraphiadau y Proff. Rees. Cymmerwn y pennill, yn ei ddull cyntefig, o argraphiad diweddaf (1681) Stephen Hughes, a'r newidiad, o argraphiad cyntaf (1841) y Proff. Rees. Dodir y geiriau newidiedig mewn llythyrenau Italaidd:—

"Mene tecel Tre Llanddyfri.
Pwysodd Duw di yn dy frynti:
Ni *chas* ynod ond y sorod,
*Gwachel* weithian rhag *y Drindod*."

"Mene, Tecel, tre Llan'ddyfri!
Pwysodd Duw di yn dy frynti;
Ni *cha'dd* ynot ond y sorod:
*Gochel* weithiau rhag *ei ddyrnod*."

Yn awr, os anghymmeradwy genym waith gŵr o ddysg a gwybodaeth y Proffeswr Rees, yn newid cryn lawer weithiau ar waith "hen Ficar Llanddyfri," pa faint ffieiddiach yn ein golwg yw gwaith corrod, llai na Williams o Bant y Celyn ac Ann Gruffydd o'u hysgwyddau i wared, yn rhyfygu newid gwaith y prif-feirdd awenyddol a nefolaidd hyny! Onid mwy dewisol gan bob dŷn y bo ei archwaeth heb lygru, ydyw ymborth o'r coginiad cyntaf, na gweddillion cymmysg, wedi eu hail dwymo? Os nad cymmeradwy gwaith gwreiddiol yr enwogion a nodwyd, a'u cyffelyb (pe bai eu cyffelyb hefyd), gadawed ymyrwyr ef heibio, a chyfansoddant ryw bethau eu hunain cydweddol â'u syniadau anffaeledig!

Pan gyfarfyddai S. Hughes â rhyw eiriau a ystyriai yn aneglur, neu syniadau a dybiai yn amheus, yngwaith y Ficar, ei gynllun ef oedd, nid eu newid, ond eu hegluro ar ymyl y dail, neu rhwng y pennillion. Dodir yr eglurhad yn yr esamplau canlynol, er mwyn cyfleusdra, ar ol y pennillion:—

"F' aeth y Doethion i gyflwyno,
Ac i roi anrhegion* iddo,
Aur, a thus, a myrh o'r gore
A'i bresento† ar eu glinie."

"* Rhoddion. † Offrwm."

"Awn i weld yr hen Ddihenydd,*
Y wnaeth y Nef, a môr, a mynydd,
Alpha† oediog, Tad goleuni,
Yn ddyn bychan newydd eni."

"* Er ei fod yn hen, etto mae'n hardd, heb ei dorri gan oed. † Y cyntaf."

"Awn i weld y *ferch* yn *fam**
A'r *fam* yn *ferch*† ddinwyf ddinam·
Y *ferch* yn magu *Thad* o'i rwymyn,
A'r *Tad* yn suguo brone'r Pentyn."

"* I Grist fel yr oedd e'n ddyn. † I Grist fel yr oedd e'n Dduw."

Digitized by Google

rhai, pe amgen, y mae'n dra thebyg a syrthiasent i'w ran."*

"Ymddengys mai Ficar Llanymddyfri oedd yr unig weinidog cydymffurfiol duwiol ac effeithiol yn y Dywysogaeth yn ystod teyrnasiad Iago I. a Charles I. Yr oedd ei holl gydoeswyr teilwng, i raddau mwy neu lai, wedi eu diwyno gan 'Anghydffurfiaeth.' O ganlyniad, daethant yn wrthrychau anymddiried, gorthrymder, ac erledigaeth, a gyrwyd hwy yn y diwedd allan o bulpudau yr Eglwys Sefydledig. Y gwŷr enwog hyn oedd tadau a sylfaenwyr yr Eglwysi Anghydffuriol yng Nghymru, a'u bywydau hwy, ynghyd â'u llafur, eu dïoddefiadau, a'u llwyddiant,"* a gânt fod yn destynau amryw o'n pennodau dyfodol.

"Noah am wir wasnaethu'r Arglwydd,†
Gas ei gadw yn ddi-dramgwydd,
Yn yr Arch, a'i dylwyth hefyd,
Pan y soddodd Duw yr holl fyd.

"† Er nad oes neb yn haeddu trugaredd a bywyd tragwyddol am eu gwasanaeth; am fod ein gweithredoedd gore yn amherffaith: etto y mae gwasanaethwyr Duw, i gael hynny oll; am fod Duw o'i gariad a'i ras, er mwyn Crist, wedi addo hynny iddynt. Eph. 2. 7, 8, 9."

"Er bod Duw yn abl cadw
Sawl a fynno heb eu galw,
Nid yw'r cadw mawr o enaid,
Ond trwy swydd a gwaith offeiriaid.‡

"Cais gan hynny gynta ag allech
Ffeirad attad pan glafychech,
I roi pwrg yn erbyn pechod,
Rhwn yw achos dy holl nychdod.‡

"‡ Trwy bregethiad y gair mae ffydd a throedigaeth i ffordd iechydwriaeth yn dyfod, ac am hynny cyn clafychu fe ddylit arferu gwrando'r gair, rhag ofn y bydd hi yn rhy hwyr yn ein clefyd i wneuthur felly. Ni ddylem ni oedi, a thybied mai pethau bychain yw ffydd ac edifeirwch a gwellhad buchedd, o herwydd mae pob un o'r rhain yn angenrheidiol i iechydwriaeth. Jo. 3. 36. Luc 13. 5. 1 Cor. 6. 9. Heb. 12. 14. Er mwyn Christ ystyriwch y pedwar lle hyn o'r Scrythur, a bernwch ynoch eich hunain, gan na ellir bod yn gadwedig heb edifeirwch, a ffydd, a newydd-deb buchedd (fel y mae'r Scrythyrau hyn yn dangos yn eglur) onid yw yn ynfydrwydd i gadel hwynt heb eu ceisio hyd amser ein clefyd? Fe fydd yr enaid y pryd hwnnw yn ym-wrando a dolur ac afiechyd y corph, ac o herwydd hynny yn anghymmwys iawn i wrando cyngor y gweinidog ac i wneuthur yn ei ol fel y dyle. Nid ydym yn darllen ond am vn, sef y lleidr ar y groes ag a wir edifarhaodd ar yr awr ddiweddaf, am vn yr ydym yn darllen hynny, fel nad amheuo neb; ond nid ydym yn darllain ond am vn, fel na ryfygo neb, i oedi ei droedigaeth at Dduw hyd yr awr ddiweddaf."

"*Hymn neu Gan ar Ddydd nadolig.*

"Dyrchefwch eich calonnau,
Cyd-genwch Psalms a Hymnau,
Er clôd a mawl i'n Prynwr cu,
Y Aned heddy'r borau.§

§ "Er bod y Scrythur yn dangos eni Christ: etto mae hi yn gwbl ddistaw am y diwrnod ei ganed ef arno."

"Ac arfer pob diwarnod,
Yn ddyfal iawn i ddyfod
I Demel Duw a'i sanctaidd dy,‖
Bob rhai dan ganu mawr glod.

"‖ Temlau Duw mewn gwir ymadrodd yn nyddiau yr efengyl yw cynnulleidfaoedd y rhai sy'n ofni ei enw ef: yr un peth yw ei dy ef a'i deml ef: yn y 3 o'r Heb. a'r 6, y dywedir fel hyn, Eithr Christ megis mab ar ei dy hun, ty yr hwn ydym ni, os nyni a geidw ein hyfder a gorfoledd ein gobaith yn sicer hyd y diwedd. Teml y Duw byw ydych chwi medd Paul wrth yr eglwys, neu'r ffyddloniaid yn Corinth, 2 Cor. 6. 16. Nid ydwyf fi, yn y messur lleiaf, yn dywedyd vn gair yn erbyn dyfod yn barchus i addoli Duw yn ol ei ewyllys ei hun, yn y lleoedd y mae'r awdwr yn eu alw yn Demlau, ac yn Eglwysydd; ac nid ydwyf fi'n gwadu, nad ellir wrth ddull o ymadrodd, a elwir *metonymia* [traws-enwad] alw y lleoedd hynny wrth yr enwau mae yr Awdwr yn eu harfer. Ond yn gymmaint ag nad oes vn Adeilad mwy na'i gilydd yn awr yn nyddiau'r Efengyl wedi ei adeiladu trwy orchymyn neilltuol y goruchaf Dduw, a phortreiad (Patrwn) mewn scrifen oddi wrth ei yspryd ef, fel yr adeiladwyd y Deml (1 Cron. 28. 10, 11, 12, 19, 20. Joan. 2. 19, 21. 2 Cor. 6. 16. 1 Bren. 9. 3) fawr yn Ierusalem, yn amser y gyfraith; nac vn lle mwy na'i gilydd yn awr yn Arwydd o Grist a'i bobl, fel yr oedd y Deml honno y pryd hynny, nac un addewid yn awr o bresennoldeb i un lle mwy na'i gilydd (pan fo'r gynnulleidfa o bobl yr Arglwydd yn absennol) fel yr oedd yr amser hynny i'r Deml honno: Am y rhesymmau hyn nid ydwyfi yn deall etto (cynta [gan nad] beth a ddeallafi ar ol hyn) pa sancteiddrwydd yr oedd yr Awdwr bendigedig yn ei dybied ei fod yn y cyfryw leoedd."

Dichon y byddai yn fuddiol dywedyd ychydig etto ar ansawdd iaith a mesurau "yr hen Ficar," cyn gorphen traethu arno yn y dull yma. Crybwyllwyd eisoes mai ei brif, os nad ei unig, amcan ef, gyd â golwg ar iaith, oedd bod yn gwbl ddealladwy i'r werin bobl, yn enwedig gwerin y Deheubarth. Er mwyn cyrraedd yr amcan yma, ni phetrusai efe ddim arfer geiriau a ystyrir yn gwbl estronol i'r iaith Gymraeg, os barnai eu bod yn fwy cynnefin i'r bobl na geiriau a dybir eu bod yn Gymraeg. Defnyddiai eiriau hefyd yn gyffredin yn eu dull gwerinol yn hytrach na'u dull llenorol, pan y tybiai y byddai'r naill ddull yn fwy adnabyddus i'r bobl na'r llall; ac ni phetrusai ddim newid geiriau arferedig i atteb i'r odl, os meddyliai yn unig eu bod yn ddealladwy i'w ddarllenwyr cyffredin. Gellir gweled hyn oll yn yr ychydig esamplau canlynol. Dynodir y geiriau estronol a newidiedig â llythyrenau Italaidd yn yr esamplau hyn:—

"Mae e' *Methlem* gwedi eni,
Yn y *stabal* tu hwnt i'r *Ostri*;
Awn bob *Christion* i gyflwyno,
Ac i roddi golwg arno.

Awn i *weld Concwerwr Ange*
Wedi rwymo mewn *cadache*;
A'r Mab y rwyga deyrnas Satan
Yn y *craits* heb allu *crippian*.

*Christ* sy'n cadw'r holl *allwedde*
Sydd ar uffern ac ar *ange*.
Ni baidd Diawl nac angau *dwtchio*
Neb, nes cael gan Grist ei *lwo*.

Ni fyn Christ roi i Sant nac Angel,
Dyn na delw o vn fettel,
*Bart* na *pharsel*, rhan na chyfran
O'r gogoniant sy 'ddo ei hunan.

Er i'r lladron *speilio* d'enaid,
A'th archolli yn dra *embaid*;
Cred *yn Ghrist* y gwir Samariad,
Fe iacha d' archollion *desprad*.

Carcharorion dan law Satan,
Yn y *Dwnshwn* mawr yn cwynfan,
Byth y *byssem* bawb yn *gryddfu*,
Oni *bysse*'r Jesu ein prynu.

Pwy *bynna* geisio *madde*
Ei bechod a'i drosedde,
A chael *pardwn* gan Dduw gwyn
Rhaid dilyn hyn o *werse*."

Yr oedd gan "yr hen Ficar," a'i gyhoeddwr manwl, Stephen Hughes, cystal a'r hen ysgrifenwyr yn gyffredin, un arfer y byddai yn burion i ysgrifenwyr presennol ei dilyn, sef peidio defnyddio collnod† ynghanol geiriau cyfansawdd, megis *gwasnaethu*, *drysodd*, *cymrais*, *ynghanol*, *ymhlith*, a'r cyffelyb. Pe rhoddid collnodau yn yr holl eiriau cyfansawdd sydd yn yr iaith, yn y rhai y cyll llythyrenau neu sillau, byddai golwg

* Rees's Hist. Noncon. in Wales, p. 34.

* Rees's Hist. Noncon. in Wales, p. 35. † An apostrophe.



Digitized by Google

ryfedd ar dudalenau ein llyfrau; ac od oes eu hangen mewn *rhai* geiriau, paham nad *ymhob* geiriau o'r fath? Diben collnodau mewn geiriau cyfansawdd yn cynnwys mwy nag un sill, yw ceisio dangos gwraidd tybiedig y geiriau; ond gwaith geiriadurwr yw hyny, ac nid gwaith traethodwr. Prif reol yr olaf yw *sain* lithrig, ystwyth, a pheraidd; a'r gwir ydyw bod pob sain sydd yn y Gymraeg (a chyffelyb yw ieithoedd eraill yn hyn), yn ddïeithriad, yn newid ynghyfansoddiad lliaws o eiriau cyfansawdd, ac yn colli ynghyfansoddiad lliaws eraill, er mwyn llithrigrwydd a pherseinedd. Haerir nad yw *i* ac *u*, o'r llafariaid, er esampl, byth yn newid. Hoffem wybod, ynte, beth y mae *i* yn ei wneuthur mewn geiriau o fath *diddymu*, *erledigaeth*. Rhodres noeth, nas gwnelid byth gan ysgrifenwyr a llefarwyr difympwy, a fyddai ysgrifenu a llefaru y geiriau hyn yn *dyddimu*, *erlidigaeth*. *Eulynod* hefyd, ac nid *eulunod*, nac *eilunod*, ydyw y gair yma yn argraphiad y Dr. Morgan, y Dr. Parry, a phob argraphiad arall o'r Bibl, hyd ddechrau y ganrif bresennol, pan ddechreuodd y Dr. Puw syfrdanu ein llenorion â gwraidd geiriau. Gellid dangos yr un peth am *holl seiniau eraill* yr egwyddor Gymreig, yn ddïeithriad. Cawsom brofedigaeth o ysgafnder, yn ddiweddar, wrth weled un ysgrifenydd Cymreig yn galaru yn ddolefus o blegid bod llenorion ei wlad yn ysgrifenu *pythefnos* yn lle *pymthegnos*, gan adael yr *m* allan o'r sill gyntaf, a throi yr *g* i *f* yn yr ail sill. Ond pe buasai efe ychydig yn fwy craffus, gwelsai fod *pythefnos* yn droseddwr llawer gwaeth, canys y gwraidd yw *pump-deg-nos;* o herwydd paham, y mae *pythefnos* yn newid *u* i *y*, ac yn colli *mp*, yn y sill gyntaf; ac yn newid *d* i *th*, ac *g* i *f*, yn yr ail sill. Cwynai yr un ysgrifenydd yn irad hefyd o blegid ysgrifenu *cynnysgaeddu* yn lle *cynnysgaethu*, am mai gwraidd y gair, eb efe, yw *cyn-dysg-aeth*, a bod drwg mawr troi *th* i *dd!* Yr oedd "Ficar Llanddyfri," a chyhoeddwyr cyntaf ei waith, yn hollol lân oddi wrth ffoleddau fel hyn, gan yr ysgrifenent hwy eiriau fel yr oeddynt yn cael eu llefaru ar y pryd yn y Deheubarth.

Am fesurau y Ficar, y mesur a arfer yn gyffredin ydyw pedair llinell wythsill, yn y corfan rhywiog trwy'r llinell oll, fel hyn:—

"Er croes-hoelio'r Iesu drosom,
A rhoi taliad llawn am danom;
Etto ni bydd neb cadwedig,
Ond a gretto yndo'n vnig."

Dywed, fel y gwelsom, mai yr achos iddo ddewis y mesur syml yma, "Hawdd i'w ddyscu, hawdd i'w 'styried," ydoedd,—

"Am weld Dwfn-waith enwog Salsbury,
Gan y diddysc heb ei hoffi."

Ond nid yw efe yn cadw at y mesur yma yn gysson trwy yr holl gân, ond y mae yn newid ychydig arno yn lled fynych, a hyny hyd yn oed yn yr un pennill, megis yn yr esamplau canlynol:—

"Er dy fod ti'n elyn Duw
Wrth naturiaeth a'th ddrwg ryw,
Cred yn Ghrist, fe'th wna o elyn
I'th nefol dad yn anwyl blentyn."

"Er i'r danllyd sarph dy frathu,
A'th wenwyno nes dy nafu;
Cred yn Ghrist, fe ddofa'r poen,
Fe iacha'r clwyf a gwaed yr oen."

Y mae ganddo ychydig ganiadau mewn mesurau gwahanol i'r mesur crybwylledig, yr hwn yw ei "fesur cyffredin" ef, megis y rhai canlynol:—

"Mae'r ffeirad, mae'r ffermwr, mae'r hwsmon a'r crefftwr,
Mae'r Bayli a'r Barnwr, a'r bonedd o'i bron,
Bob un am y cynta, yn digio'r goruchaf
Heb wybod p'un waetha eu harferion."

"Clywch adrodd mawr gariad mab Duw at y byd,
Pan ddaeth ef o'r nefoedd i'n prynu mor ddrud
Er peri i chwi gofio am gariad mab Duw,
A'i foli'n wastadol tra fyddoch chwi byw."

"Pan gwelas Duw grassol ein stad mor dosturiol,
O'i gariad rhagorol yn benna,
F' addewis ein helpu, trwy ddanfon i'n prynu
Ei vn mab Christ Iesu anwyla."

"Na fydded neb mor angall,
Mor ddwl, mor ddall, mor ffol,
A throi oddiwrth y Ceidwad,
Sy'n galw yn eich hol;

Ni ddiangc neb rhag angeu,
Ni ddringad vn i'r nef,
Ni bydd un dyn cadwedig,
Nes caffo ei gymmorth ef."

Dull cyffredin y mesur canlynol gan y Ficar yw defnyddio seithsill ymhob llinell, gan ddechrau y drydedd linell â sill accenol, fel hyn:—

"A dysc yn brudd gydnabod,
Nad oes o flaen y Drindod,
Iawn am bechod ond gwaed Crist,
A'i angeu trist a'i 'fudd-dod."

Ond weithiau defnyddia wyth sill yn y drydedd linell, â'r sill gyntaf ynddi yn anaccenol, megis y tair llinell, fel hyn:—

"A gwybydd fod Duw'n foddlon,
I'r iawn a wnaeth Christ drosom,
Ac er ei fwyn yn barod iawn,
Roi pardwn llawn i'r ffyddlon."

Dull cyffredin y mesur canlynol gan y Ficar (yr unig un a ddefnyddia, hyd y canfyddwn, heb law y rhai a nodwyd eisoes) yw dodi saith sill ymhob llinell, y gyntaf a'r drydedd yn dechrau â sill accenol, a'r ail a'r bedwaredd â sill anaccenol, fel hyn:—

"Ni wnaeth Duw vn gene 'rioed,
Mewn tir, mewn coed, mewn dyfnder,
Nes partoi ei ymborth tyn
I'r geneu cyn ei ganer."

Digitized by Google

Ond weithiau dyry wyth sill yn y drydedd linell, a dechreua hi â sill anaccenol, fel hyn:—

“Mae e'n porthi dyn yn rhin,
A chan a gwin yn ddemti,
A brwd a rhost o lawer rhyw,
Heb neb ond Duw'n i peri.”

Er mor syml yw mesurau y Ficar Prichard, y mae llawer o'i bennillion yn gynnwysfawr, arwyddocaol, a grymus dros ben. Cymmerer ychydig o esamplau:—

“Duw yw chiliwr y calonnau;
Duw ei hun yw Tad y golau:
Duw fyn gweddi brudd o'r galon;
Duw ni phrissia eiriau gweigion.

Gweddi laddodd gawr tra chadarn;
Gweddi agorodd byrth o haiarn;
Gweddi gauodd safne llewod;
Gweddi dynn ddyn o bob trallod.

Gweddi glodd y nef yn hir;
Gweddi droes y môr yn dir;
Gweddi wnaeth i'r meirw godi:
Nid oes dim mor gryf a Gweddi.

Gad dad i droi, gad fam i wylo,
Gad wraig i scoi, gad blant i grio,
Gad dai, gad dir, gad faeth, gad fywyd,
Cyn gado Crist, gad faint sydd gennyd.

Heb Grist, heb gred, heb faeth, heb fywyd,
Heb ddull, heb ddawn, heb nerth, heb iechyd,
Heb hop, heb help, heb ras, heb rym,
Heb ddysc, heb dda, heb Dduw, heb ddim.

Heb ffydd ni chae ran yng-Hrist,
Heb ffydd fe'th droir i vffern drist,
Heb ffydd ni phlessir o Dduw'r lluoedd,
Heb ffydd nid ae di byth i'r nefoedd.”

Er mai addysgiadau crefyddol a moesol, wedi eu dodi ar gân, a gynnwys pennillion y Ficar yn gyffredin, etto y mae amryw o honynt yn arddangos syniadau hedegog a gwir farddonol, megis y darnau canlynol o'r gân a elwir “Cofiwch Angau:”—

“Byrr yw'n hoes ac Ancertennol,
Heddyw'n fyw, y foru'n farwol;
Gynne'n Gawr, y boir yn gelain;
Dymma gytlwr dyn a'i ddamwain.

Fel y rhed yr haul i'r hwyr,
Fel y treulia'r ganwyll gwyr,
Fel y syrthia'r Rhosyn gwynn,
Fel y diffydd tarth ar lynn:
Felly Treulia, felly rhed,
Felly derfydd pobol Grêd,
Felly diffydd bywyd dyn,
Felly syrthiwn bob yr un.

Fel y trewir pysc â thryfer,
Fel y saethir phesant dyner,
Fel y torrir blodau'r ardd,
Fel y lleddir gweunydd hardd:
Felly trewir dyn heb wybod,
Felly saethir yn ddiarfod,
Felly torrir gwychder dyn,
Felly'n lleddir bob yr un.

Fel y cwymp holl ddail yr allt,
Fel y croppia'r gwelle'r gwallt,
Fel y gwywa lili'r maes,
Fel y tyrr y gwydyr glas:
Felly gwywn, felly tyrr,
Felly craccia'n bywyd byrr,
Felly croppir einioes dyn,
Felly cwympwn bob yr un.”

Gellid nodi lliaws a ddarnau o gyffelyb ansawdd barddonol a hedegog, ond rhaid ymattal rhag gormod meithder. Y mae ysgrifenydd galluog yn “Y Traethodydd”* yn sylwi ar gynnwys caniadau y Ficar megis tri dosparth—1. “Fel y maent yn taflu goleuni ar amgylchiadau y genedl yn y dyddiau hyny, ac ar ddigwyddiadau yr oes.” 2. “Fel y maent yn cynnwys crynhodeb o athrawiaethau mawrion crefydd ddatguddiedig.” 3. “Fel y maent yn gasgliad o gynghorion neu reolau i'w dilyn ymhob sefyllfa.” Terfynwn ein pennod ar “hen Ficar Llanddyfri” gyd â thalfyriad ac arall-eiriad o sylwadau craffus ac esamplau lliosog yr ysgrifenydd crybwylledig. Difynwn yr esamplau, fel arfer, o argraphiad olaf Stephen Hughes, 1681.

I. Caniadau y Ficar Prichard “fel y maent yn taflu goleuni ar amgylchiadau y genedl yn y dyddiau hyny, ac ar ddigwyddiadau yr oes.”

Y mae'r darlun a dyn y Ficar, fel llygad-dyst o agwedd cymdeithas yng Nghymru ddau can mlynedd yn ol, yn dangos bod yr holl wlad, “yr un fath bobl ac offeiriaid,” yn un domen o lygredigaeth ysgeler; ei bod o wadn y troed hyd y pen heb ddim cyfan ynddi, “ond archollion, a chleisiau, a gweliau crawnllyd.” Yr oedd y rhan fwyaf o'r genedl heb air Duw yn eu tai, ac heb bregethiad o hono yn yr eglwysydd plwyfol:—

“Tost yw gweled maes o lafyr
Yn pydru eisieu help Medelwyr:
Tostach gweled mil o ddynion
Yn meirw eisieu help Athrawon.”

“Mae'r bobol gyffredin, fel Israel heb frenin,
Na ffeirad ei meithrin, na phrophwyd i roi maeth,
Yn byw yn anhywaith, fel pobol heb gyfraith,
Heb grefydd, heb obaith, ysywaeth!”

Yr oedd yr offeiriaid plwyfol yn gyffredin yn greaduriaid cwbl anaddas i'r gorchwyl a ymddiriedid iddynt, gan na fedrent na darllen na phregethu yn ddyladwy. Y cwbl a wnelent oedd rhedeg yn drwsgl dros y “gwasanaeth” ac ambell “homili,” heb geisio goleuo nac achub y bobl:—

“Mae'r offeiriaid hwyntau'n cysgu,
Ac yn gado'r bobol bechu,
Ac i fyw y modd y mynnon,
Heb na cherydd na chynghorion.

Oh! pa lef ac achwyn irad,
Y fydd dydd y farn gan fagad,
Am i'r ffeirad eu newynu,
A'u handwyo eisie eu dyscu.”

Ystyriai yr hen Ficar mai anghyfiawnder noeth oedd i offeiriaid segur ac anffyddlawn fyw ar feddiannau y bobl, heb ofalu dim am eu dysgu ac achub eu heneidiau; ac y mae ei gondemniad ar y cyfryw yn rhuo fel taranfollt yn erbyn holl beriglorion diswydd yr oes hon cystal a'i oes yntau:—

“A pha gonsciens y gall ffeiriad,
Gippio'r cryf heb borthio'r ddafad?
Bwytta'r offrwm mor ddiwybod,
Ac heb weiddi'n erbyn pechod!”

Dengys y Ficar fod y creaduriaid direswn yn tra rhagori ar athrawon (a eilw efe “offeiriaid”) annuwiol, anwybodus, a dibryder dros achub eneidiau:—

“Y ceiliog gwynn a ffyst ei adanedd
I ddeffro'i hun, cyn deffro'i wragedd,
Felly dyle'r holl offeiriaid
Ddeffro'i hun, cyn deffro'i ddefaid.

Beth wnair a'r dall i arwain deilliaid?
Beth wnair a'r mud i gyfarth bleiddiaid?
Beth wnair a'r hesp heb laeth mewn bronne
I fagu plant, i borthi eneidie?

* Cyf. ii., t. 143-155.

Ni wnair dim a chi cysgadur.
Ni wnair dim a gweision segur,
Ni wnair dim a halen di flas.
Ni wnair dim a ffeiriad llanas.

Dodi'r dall ar ben disgwylfa,
Dodi'r dwl i ddyscu tyrfa,
Dodi'r diddysc wrth y llyw,
Yw dodiad dyn, nid dodiad Duw."

Gan mai y fath yna oedd y dysgawdwyr, hawdd casglu pa fath oedd y werin. Os bydd y llygad yn ddrwg, bydd yr holl gorph yn dywyll. Yr oedd pob graddau wedi ymlygru mor druenus fel yr ofnai y Ficar nad oedd unlle dan haul yn waeth na Chymru:—

"Mae'r ffeiriad yn loetran, mae'r barnwr yn bribian,
Mae'r boneddig yn tiplan o dafarn i dwlc:
Mae'r hwsmyn oedd echdo heb fedru cwmhnio,
Yn yfed Tobacco yn ddidwlc.

"Puteindra'r Sodomiaid, meddwdod y Parthiaid,
Lledrad y Cretiaid (os credwch y gwir):
Ffalsedd gwlad Groecia, gwan-gred Samaria,
Sy'n awr yn llettena ymhob rhandir.

"Mae'n anfoes im draethu ein campau ni'r Cymru,
Rhag cwilydd mynegu'n ymddygiad i'r byd:
Etto rhaid meddwl y traetha Duw'r cwbwl,
Pan delo'r dydd trwbwl i trefnyd."

Gwelsom eisoes fod "Llyfr y Chwareuon" Sabbothol wedi llenwi y wlad â phob oferedd ar y dydd hwnw, yn anad un diwrnod arall, a bod y Ficar wedi canu yn egnïol er ceisio attal y ffrwd halogedig. Gwelsom hefyd bod y swyddogion gwladol yng Nghymru wedi myned yn dra llygredig, anghyfiawn, a gorthrymus, a bod y Ficar yn eu rhybuddio ac yn eu bygwth hwythau yn bur ddifrifol. Y mae'r "Cyngor i'r Porthmon" yn arwyddo bod rhai tra anghyfiawn a thwyllodrus yn dilyn y gorchwyl hwnw yn y wlad y pryd hyny, cystal ag yn bresennol. Arferai twyllwyr o'r dosparth yma, a redent yn rhy bell i gael eu goddef yn y wlad hon, ffoi y pryd hwnw i'r Werddon, megis y ffy eu cyffelyb yn awr i'r America; am hyny rhybuddiai y Ficar hwy fel y canlyn:—

"[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible] yw credid.

Gwachel brynu mawr yn echwyn:
Pawb ar air a werth yn seymmyn:
Prynu'n echwyn y wna i Borthmon
Adel'r wlad a mynd i'r Werddon.

Na chais [illegible] wrth angen:
Na [illegible]:
Na [illegible]:
Ni [illegible] a feddian.

Gwachel dwyllo dy fargenwyr:
Duw sydd farnwr ar y twyllwyr:
Pa diangit ti hwnt i'r Werddon,
Duw fyn ddial twyll y Porthmon."

Ymddengys bod y pechod ffiaidd o feddwdod yn dra chyffredinol yn oes y Ficar, fel y mae, ysywaeth, yn ein hoes ninnau, a bod pob dosparth a graddau o gymdeithas yn euog o hono; am hyny y mae efe yn ceryddu pawb yn llym a gwawdus o'i blegid:—

"[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible]

Er mwyn Iesu gwachel feddwdod.
Gwaeth yw hwn nag un rhyw bechod
Mae'n troi dyn ar lun y cythrel,
Ugain gwaeth nag un anifel.

Gynt ni feddwe ond bedlemmaid,
A'r rhai gwaetha o'r begeriaid:
'Nawr ni chaiff bedlemmaid llodion
Le i feddwi gan fonddigion.

Brwnt gweld Barnwr mewn anhemper,
Neu Bendefig draw'n y gwtter;
Brwnt gweld Cawr yn slaf i'r cwrw,
Brynta gyd gweld ffeiriad meddw."

O herwydd bod dïota a meddwi yn bethau mor gyffredinol, yr oedd tafarnau newyddion yn cael eu hagor yn barhaus; a chwyna y Ficar fod pob math ar bobl wedi gorphwyllo am fyned yn dafarnwyr:—

"Mae'r tanner a'r tweewr,* a'r baceer† a'r bwtsiwr,
Gwaydd, gof, a thaylwr,‡ a thiler§ a chrydd,
A'r hwsmyn, a'r crefftwyr, a'r diffrwyth uchelwyr,
Yn mynd yn dafarnwyr digrefydd.

Mae'r gwragedd yn gado eu nyddiad a'u cribo,
A'i gwayad, a'i gwnio i dwymo Dwr;
Gwerthassant ei rhode a'i cyffion, ai cribe,
I brynu costrele Tafarnwr."

Gellir casglu bod yr ynadon yn derbyn llwgrobrwy am ganiatau trwyddedau i godi tafarnau newyddion; mai eu trachwant am y budr-elw yma a wawdir mor llym gan y Ficar yn y llinellau canlynol:—

"Pe ceisie na'r cythrel, na'r fam godi capel,
Wrth ocher dy demel, er dimme yn y dydd,
I gadw tafarndy cyhoeddus yng Hymru,
Fe gae ei gennadu yn ufydd."

Yr oedd y Ficar craffus wedi canfod yn oed y pryd hwnw mai yr unig ffordd ddiogel i wared y meddwon oedd goehel y tafarnau, a llwyr ymwrthod â'r ddïod feddwol:—

"Tynn o'r Tafarn, gwachel feddwdod,
Na chais fynd yn drech na'r ddiod;
Ni chas un o'r trecha arni,
Ond a gilie'n ebrwydd rhagddi.

Alexander a gwngcwerodd
Yr holl fyd y ffeiriad y cwnidodd;
Ond y ddiod, yn dra sicer,
A gongcwerodd Alexander.

Gwell yw diange nag ymdrecha,
Gwell yw cilio nag ymdynnu:
Gwell rhoi'r gore i'r bwrswn cwrw,
Nag ymostwng iddo'n feddw.

O doi at ddyn fe lyse dy grimpe;
O doi at sarph hi frath dy sodle;
O doi at byg, ond cwrdd, fe'th nyrdda:
O doi at ddiod gref hi'th feddwa."

Bernir mai un achos bod yr hen Gymry gynt mor gryfion a hirhoedlog oedd eu cymmedroldeb mewn bwydydd a diodydd; ond erbyn amser y Ficar yr oedd glythineb a moethusrwydd wedi dirywio y genedl yn druenus, ac y mae yntau yn eu beio yn dost o herwydd y "rhaid" oedd ar "bobl ofer" am "saws"‖ i awchlymu eu hawydd am ymborth:—

"Rhaid cael saws a rhaid cael [illegible].
Rhaid cael capers, samphir, garlleg.
Cyn y gallo llawer fwytta
Pryd o fwyd, rhag [illegible] o'i traha.

Y mae'r saws yn awr yn costi
I'r oes hon, mewn gwres a gwegi.
Mwy nag oedd y [illegible],
Gynt yn costi i'n hen Dade.

Gynt ni cheisie Alexander.
Saws un amser gyd â'i swpper.

Ond y saws oedd yn ei gyl'a.
Chwant i'r bwyd ar ol rhyfela.

Cyrus ynte fyddei foddlon
I swpperu ar lan afon,
Lle cai ddwr i dorri syched,
Ef a'i filwyr yn eu lluddded.

Rhaid yn awr i bobol ofer,
Gael eu gwin ar ginnio a swpper
Rhaid cael peint neu ddau o glared
Cyn êl tammaid bwyd i wared."

* Pannwr. † Pobydd. ‡ Teiliwr. § Priddlechwr; llechdöwr
‖ Sauce, cyffaith, blasyn.

Ymddengys bod yr arfer ffiaidd o chwiffio a chnoi tybacco (myglys) yn cael ei gyfyngu yng Nghymru, yn oes y Ficar, i gylch yr oferwyr a'r meddwon; am hyny y mae efe yn cyssylltu y ffieidd-dra yn wastad â "chrowso:"*—

"Os meddwyn wyt ti'n arfer chwiffio
Gwin, a chwrw, a thybacco,
Llef am ras ar Dduw yn fuan,
I orchfygu meddwdod aflan."

Wele yn canlyn ddarlun pur gywir o'r meddwon yn myned rhagddynt yn eu hwtres a'u cyfeddach:—

"Gwedi darffo iddyn yfed, yn barod i fyned,
Fy'n Hostes† a'm hened moes etto:
Llanw di'r potte, yn llawn o'r un gore;
Ni awn i ddechre carowso.

Bellach moes ymma ddalen o'r India,
A'i henw hi'n benna tybacco;
Pibell a thewyn, neu ganwyll i nynnyn;
Nad orfod eu gofyn hwy etto."

Yn ei "Gyngor i bob Penteulu i lywodraethu ei dŷ yn dduwiol,"‡ arch y Ficar fel hyn:—

"Nad hwy dorri un gorchymmyn,
O'r rhai lleia heb ei gwrafyn;
Nad hwy ddilyn un drwg arfer,
Heb eu cyffro wella ar fyrder.
Nad hwy chwiffio yn y seler;
Nad hwy feddwi ar un amser:
Nad hwy sugno mwy y ddalen,
Sydd yn speilio'r bol a'r cefen."

Yn y gân a elwir "Galarnad Pechadur,"§ y mae'r Ficar yn cwyno yn chwerw-dost o blegid iddo fod yn chwannog, ymhlith drygau eraill,—

"I hyfed a'i charowsio,
A sugno tarth Tobacco.
Fu fy swydd dros ennyd fawr,
Gwae finneu nawr ei gofio."‖

Yr oedd moddion dysgeidiaeth yn dra phrin yn y Dywysogaeth yn amser y Ficar Prichard, gan nad oedd odid ysgol i'w chael yn yr holl wlad lle y gallai rhieni, a ewyllysient hyny, gael dim dysgeidiaeth i'w plant; am hyny y mae efe yn y gân a eilw yn "Rhybudd i'r claf wneuthur ei wllys mewn pryd," &c., yn dywedyd fel hyn:—

"Os goludog wyt heb Eppil
Ac yn caru Christ a'r 'fengyl,
Adail ysgol rydd yng-Hymru,
Lle mae eisie Dysc yn methu."

O herwydd y prinder ysgolion yng Nghymru, fel y crybwyllwyd, ynghyd â difatterwch y genedl am ddysg a gwybodaeth, dywed y Ficar fod cobleriaid, morwynion, a thingceriaid ymhlith y Saeson yn rhagori yn y pethau hyny ar deuluoedd, yn oed penaethiaid, ym mysg y Cymry:—

"Mae'r cobleriaid a'i morwynion,
A'r rhai gwaetha 'mysc y Saeson,
Bob yr un a'r Beibil ganthynt,
Ddydd a nos yn darllain ynthynt.

Mae'r pennaethiaid gyda ninnau,
A'i tableri ar eu bordau,
Heb un Beibil, nac un plygain
Yn eu tai, na neb i'w darllain.

Peth cwilyddus gweld cobleriaid
Yn rhagori ar Bennaethiaid,
Am gadwriaeth eu heneidiau,
A'r peth rheitia mewn neuaddau.

Y cobleriaid hyn a gyfyd,
Yn nydd y farn, yn anian aethlyd,
I gondemnio'r fath bennaethiaid,
Sydd mor ddibris am yr enaid.

Pob merch tincer, gyda'r Saeson,
Feidir ddarllain llyfrau mawrion:
Ni wyr merched llawer Sewier,
Gyda ninne ddarllain pader."

Gan fod y fath dywyllwch yn gorchuddio y wlad, yr oedd ofergoeledd mewn rhwysg mawr, a swynyddion yn cael parch a galwad tra chyffredin:—

"Pan ddel dewin neu ryw swynwr,
Och! ni a redwn at y twyllwr,
Fel y gwenyn at y gwinwydd,
I roi clust i dad y celwydd.
Tynnu'r plentyn trwy bren crwcca,
Neu drwy fflam ar nos glangeua,
A'u rhoi 'mhin y felin uchel,
Yw offrymmu plant i gythrel."

Y mae'r Ficar duwiol yn egnïol annog ei gydwladwyr i ochel y fath ofergoeledd ynfyd, gwrthun, ac annuwiol:—

"Gwachel geisio help y swynwyr
Yn dy flinder toast a'th ddolyr:
Gado Duw mae'r cyfryw ddynion,
Ac addoli'r gau dduw Eccron.

Na chais help i'r corph, mor embaid,
Gan y Diawl sy'n lladd yr enaid;
Nid oes un Pyssygwr allan,
Waeth na'r Diawl i helpu'r egwan.

Nid yw swyn ond hug i'th dwyllo,
Gwedi Satan ei dyfeisio,
I ddifetha d' enaid gwirion,
Pân y swyner i'th glefydon.

Nid yw'r swynwr ond apostol
Ffalst, i'r Diawl i dwyllo'r bobol
Oddiwrth Grist, mewn poen a thrafel,
I butteinia ar ol y cythrel.

Twyllo'r corph, a lladd yr enaid,
Digio Duw, bodloni diawliaid,
Gwrthod Christ, a'r maint sydd eiddo,
Y mae'r swyn, a'r sawl a'r caro.

Ceisio'r cythrel yn Byssygwr
Ydyw ceisio help gan swynwr:
Ceisio Diawl i ddarllain tesni
Yw â dewin ymgynghori.

Ceisio gwir gan dâd y celwydd,
Yw ymofyn â drogenydd;
Ceisio help i ladd yr enaid,
Ydyw ceisio swyn Hudoliaid.

Na char swynwr mwy na chythrel,
Mae'n dy demptio yn dy drafel;
Glûn wrth Grist, er maint yw'th flinder,
Cais ei nerth, di gei esmwythder."

Crybwyllwyd eisoes am annogaethau y Ficar Prichard i ddarllen a chwilio y Bibl, yn y bennod ar Heilyn a Myddleton; gan hyny, awn rhagom weithian i sylwi, yn

II. Ar ganiadau y Ficar "fel y maent yn cynnwys crynhodeb o athrawiaethau mawrion crefydd ddatguddiedig." Y mae ganddo ganiadau godidog ar briodoliaethau a rhagluniaeth Duw, ar berson a chyfryngdod Crist, ar ragorfreintiau y saint, ar nefoedd, uffern, a'r cyffelyb. Crybwyllwyd o'r blaen mai Calfin uchel oedd y Ficar, ond ei fod ymhell o fod yn bleidiwr penrhyddid ac Antinomiaeth; canys er y dywed y "rhaid i Grist ail greo pechadur ar ei lûn," etto efe a ddywed hefyd,—

"Mae'n rhaid i ninnau'r dynion
Repento â chalon brudd,
A chredu yng-Hrist ein ceinwad,
Trwy wir a bywiol ffydd,
A pheunydd wella'n buchedd,
Trwy nerth ei yspryd ef,
A bod yn bobol newydd,
Cyn dweco Christ ni i'r nef."

* *Carouse*, cyfeddach. † Llettyes, tafarnwraig.
‡ Canwyll y Cymru, t. 193. § Yr un, t. 78.
‖ Y mae'r pennill yma yn tueddu i gadarnhau y traddodiad bod y Ficar wedi bod yn fab pur afradlon dros dymmor, ac y mae amryw eraill yn yr un gân yn awgrymu yr un peth, megis,—

"Dy Sabboth a'th ddydd Sanctaidd
Y dreuliais innau'n ffiaidd,
Mewn cyfeddach, meddwdod brwnt,
A maswedd tu-hwnt i weddaidd."

Digitized by Google

Y mae'r syniadau uchel-Galfinaidd a gwyliadwrus hyn yn rhedeg trwy lïaws o'i ganiadau; ond rhaid i ni ymfoddloni ar ychydig esamplau, am fod ei ddarluniadau swynol o amgylchiadau a digwyddiadau ei oes wedi ein denu braidd yn ddiarwybod i fyned yn feithach nag y bwriadem:—

"Duw o'i ras a'i naws ei hun,
Sy'n cynnyg Christ i gadw dyn;
Nid dim ond mwynder Duw yn unig
Sy'n cynnyg Christ i ddyn colledig.

Nid yw Duw yn gwardd i undyn
Dderbyn Christ, a'i gadw, ai ganlyn,
Y mae'n gwardd i neb ei wrthod,
Er ffeiddied a fo'i bechod.

Rhaid i Dduw'r Tad agor llygaid
Dyn i weld gofidi'i enaid,
A'i drueni, a'i wael gyflwr,
Cyn 'mofynno am Iachawdwr.

Nid ein nattur, nid ein tade,
Nid ein dysg, na'n poen, na'n donie;
Ond Yspryd Duw trwy'i air ei hun,
Sy'n gweithio ffydd ynghalon dyn.

Gwrando'r gair, a chais ei Yspryd,
Llef am ffydd fel am dy fywyd;
Wrth weiddi am ras, a gwrando'r 'fengyl,
Mae Duw yn rhoddi ffydd yn rheigyl.

Nid oes pechod nac anwiredd
All dy nadu gael trugaredd;
Ond annuwiol anghrediniaeth,
A bod heb 'difaru, 'sywaeth."

Y mae yn amlwg fod surdoes Pabyddiaeth heb ei lwyr garthu o Gymru yn oes y Ficar Prichard, megis athrawiaeth y purdan, gweddïo dros y meirw, eiriolaeth saint, a'r cyffelyb ddaliadau anysgrythyrol, yn erbyn y rhai y gwrthdystiai efe yn egnïol mewn amryw o'i ganiadau; a gresyn na thueddid y mân ddefodwyr sy'n awr yn blino y Dywysogaeth i ddarllen ei syniadau Ysgrythyrol, ac i gydsynio â hwynt. Am y purdan, efe a ddywed:—

"Nid oes ffordd ond dwy i'r hollfyd,
Ffordd i ddestryw, ffordd i wynfyd;
Ni ddangossodd Christ yn un-man,
Drydedd ffordd yn mynd i'r purdan.

Nid oes hefyd ddim ond daule
I blant dynion gwedi ange;
Nef ac uffern, heb le trydydd:
Nid yw purdan ddim ond celwydd.

Rhai a ddwedant fod y purdan
Yn y mor sy'n fawr ei dwrddan;
Rhai'n y ddaiar; rhai yn Etna;
Ni wn p'un o'r rhain a greda.

Os y purdan sy'n ein golchi
O'n pechodau oll, a'n brynti;
Pam y dywaid y Scrythyrau
Mae gwaed Christ sy'n golchi'n beiau?

Ofer oedd i Fab Duw cyfion
Golli gwerthfawr waed ei galon,
I'n glanhau oddiwrth ein brynti,
Os y purdan sy'n ein golchi!

O cai waed fy Nghrist i'm golchi
O'm holl bechod a'm holl frynti;
Cloed Pab fi 'nghenol purdan,
Ni bydd arnai byth ei ofan.

Dannedd gwaedlyd y Pabyddion,
Sydd yn gollwng gwaed Cristnogion,
Sydd yn dangos nad gwir ddefaid
Crist yw'r rhain, ond rheibus fleiddiaid."

O berthynas i fwyta corph Crist yn swper yr Arglwydd, y mae yn sylwi fel hyn:—

"Nid yw Christ yn fwyd i'r bola,
I'w gnoi â dant, i'w roi i'r cylla;
Bwyd yw Christ i borthi enaid
Yn ysprydol, trwy ffydd danbaid.
Mae'r efengyl inni'n dangos
Fod Christ yn y Nef yn aros,
Ac na ddichon un dyn cnawdol,
Fwytta Christ ond yn ysprydol."

Ymddengys nad oedd y Ficar yn cyfyngu Eglwys Crist i'w Gyfundeb Esgobaethol ei hun yn unig, canys efe a ddywed,—

"Rwi'n credu yn suwredig,
Fod Eglwys lân Gatholig,
O bob Nasiwn, oes, a thir,
Gan Ghirist yn wir gadwedig."

Weithian, cyn cefnu yn hwyrfrydig ar yr "hen Ficar" enwog, duwiol, a difyrus, taflwn gipolwg dros ei ganiadau, yn

III. "Fel y maent yn gasgliad o gynghorion, neu reolau ymarferol, i'w dilyn ymhob sefyllfa." Y mae ynddynt wersi a gweddïau priodol i'r plentyn tyner, addysgiadau cymmwys a deniadol i'r llangc a'r gŵr ieuangc, a chyfarwyddiadau addas ac Ysgrythyrol i rieni a meistriaid; a dedwydd yw y teulu a ddysgo eu hyfforddiadau amhrisiadwy. Gesyd allan resymoldeb a gwerth crefydd foreuol mewn iaith rymus, fel y canlyn—

"Cais flodeuo yn dra chynnar,
Gydâ'r Spring fel Almond hygar;
Y pren na ddweco blodau'r gwanwyn,
Trwy'r cynhaiaf fe fydd ddifwyn.

Drwy it roddi'r Gwin i Satan,
A rhoi i Grist y gwaddod aflan
Rhoi dy nerth i blessio'r drwg-wr,
A rhoi'th wendid i'th Greawdwr.

Gwachel arfer ddrwg yn blentyn;
Arfer ddrwg a'th nyrdda'n scymmyn,
Ac a dry yn ail naturiaeth
Nes yr elych beunydd waeth-waeth.

Rho gan hynny gorph ac yspryd,
Yn dy ieungctid yn dra hyfryd,
I wasnaethu dy Greawdwr,
Ac i ymladd a'th wrthnebwr.

Gwachel oedi hyd y foru,
Rhag it farw heno wrth gyscu,
Ac i angau glas dy lysco
I'r farn yn llangc, cyn ymgyweirio.

Mae yn uffern fil o filoedd
O wyr ifaingc a bwrpassodd,
Yn eu henaint brudd ddifaru,
Heb gael arfod wneuthur hynny."

Y mae'r gân ar "Ddyled-swydd plant i'w Rhieni"* yn dra theilwng o ystyriaethau difrifolaf pobl ieuaingc. Wele rai o'r pennillion cynhyrfus sydd ar y matter yma:—

"Os plentyn wyt, rho wir anrhydedd
I'th dad, i'th fam, trwy barch a mawredd;
Duw sy'n erchi eu hanrhydeddu,
Os gras a hir-oes a chwennychu.

Od wyt ŵr mawr o alwad uchel,
A'th dad yn dlawd, a'i radd yn issel,
Rho barch i'th dad, er cuwch o'th alwad,
Anrhydedda'th fam yn wastad.

Mae'th Dad yn Dad, pyt fae ef cobler,
A thithau'n fab, pyt fae ti scwier;
Tra fech di'n fab, mae Duw'n dy rwymo
Roi parch i'th Dad, pwy bynne fytho.

Pan oeddyd wan heb fedru cwnnu,†
Heb fwyd i gnoi, heb laeth i lyngcu,
Heb glwtt i'th gylch, dy fam a'th helpodd,
Pa dâl y roi i'r hon a'th fagodd?

Y parch a'r bri, y bwyd a'r trwssiad,
A roech i'th dad yn henwr ingad,‡
Y ry dy fab i titheu'n henddyn,
Wrth union farn, cyn del dy derfyn."

Caniadau ardderchog, a gwir deilwng o ystyriaeth ddifrifolaf pob mab a merch ieuangc yw "Cyngor cyn myned i Garu,"§ a "Chanmoliaeth Gwraig Dda;"‖ a phe dilynai ieuengctid ein gwlad y cynghorion a'r cyfarwyddiadau duwiol hyn, ysgöent fwy na mwy o'r trallodion chwerwaf sy'n cyfarfod dynion yn y byd hwn. Ym mlaenaf oll, y mae'r Ficar profiadol yn annog y dŷn ieuangc i ymgynghori â'i Dad nefol, ac yna â'i dad a'i fam naturiol:—

"Pan yr elych gynta i garu,
Galw ar Dduw os myn di ffynnu;
Cais ei Yspryd i'th gyfarwyddo,
Hebddo nid oes lûn it lwyddo.
Fe fyn Duw it ymgynghori
A'th dad a'th fam, cyn priodi,
Ac ymfaitsio'n ol eu hwllys,
Tra na cheisiont faits anweddys."

* Canwyll y Cymru, t. 204.
† Cyfodi. ‡ Blinderus. § Canwyll y Cymru, t. 150.
‖ Canwyll y Cymru, t. 153.

Digitized by Google

Digitized by Google



Humphreys Photo. G. J. Stodart.

PARCH. LEWIS EDWARDS, D. D.

B A L A.

WILLIAM MACKENZIE LLUNDAIN, CAERLLEON AC ABERTAWE.

Digitized by Google

Y peth cyntaf i edrych am dano mewn cymhares bywyd yw duwioldeb; a barn y Ficar yw y dylent, er bod yn ddedwydd, fod o'r un grefydd, ac yn gymharus o ran oedran:—

"Cais wraig dduwiol o'r iawn ffydd,
O grefydd Ghrist, heb nag heb nydd;*
Mewn un gwely byth ni chydfydd
Gwr a gwraig o amryw grefydd.†

Cais wraig weddus ar ei gwên,
Nid rhy ieuangc, nid rhy hên;
'R hên rhy oer, a'th ladd â'i phesweh,
A'r llall a bair it aflonyddwch."

Dengys y dylid dewis un fedrus, ddiwyd, a chynnil, yn hytrach nag un gyfoethog anfedrus, wastrafflyd:—

"Na chais wraig â gwaddol ‡ lawer,
Ac heb fedru trin ei phwer; §
Mwg, a niwl, a llif yn treio,
Yw gwaddol mawr heb fedru drinio.

Or bydd ond dwy it gael dy ddewis,
Un yn frâs, a'r llall yn fedrus;
Gad i fynd y frâs ddifeder,
Cais y fedrus â'th holl bwer."

Am ansoddau anhebgor gwraig rinweddol, dengys y Ficar eu bod yn dra llïosog; eithr ni chawn ni ddifynu ond ychydig linellau i nodi rhai o honynt fel esamplau:—

"Cais wraig ddistaw, dda ei nwyde,
Ddof ei nattur, bach ei chweddle; ||
Cais wraig fedrus, ddoeth, rinweddol,
Honno'th gwyd yn ben i'th bobol.

Cais un ufydd megis Sara;
Cais un ddisym ¶ fel Rebecca;
Cais un serchog megis Rahel;
Cais un fedrus fel mam Lemuel.

Cais un rasol, hygar, hyfryd,
Suber,** sanctaidd, lân ei bywyd,
Araf, weddus, dda ei-ymddygiad;
Hi dâl mwy na chyfoeth tairgwlad."

Byddai yn dra buddiol i bobl ieuaingc ddysgu y ddwy gân yma ar dafod leferydd, canys y mae'r rheolau a'r cyfarwyddiadau a gynhwysant o bwys anhraethol er dedwyddwch teuluaidd. Dodwn esampl neu ddwy o'r darlun a ddyry'r awdur o wraig ddrwg a gwraig dda:—

"Gwachel goegen falch, ddifeder;
Gwachel soga †† sur, ansuber;
Gwachel un oludog, ffrom-ffol;
Honno'th ffina di a'th bobol.

Archoll calon, baich anesmwyth,
Defni dyfal, gwawd i'w thylwyth,
Iau yn gwascu, sarph yn pricco,
Yw gwraig ddrwg; gwae'r gŵr a'i caffo!

Gwraig rinweddol, hygar, hyfryd,
Sydd gan gwell na byd o olud;
Gwell na thir, na thai, na thryssawr
Gwell na'r perls a'r meini gwerthfawr.

Piler aur mewn morteis anian,
Twr rhag angen i ddŷn egwan,
Coron hardd, a rhan rhagorol,
Gras ar ras yw Gwraig rinweddol."

Er difyred a duwioled yw cymdeithas "hen Ficar Llanddyfri," rhaid i ni ymadael âg ef, wedi dywedyd gyd â'r ysgrifenydd gwych yn *Y Traethodydd*, ‡‡ mai ynghymmydogaeth Llanymddyfri y cyfododd dau brifardd crefyddol Cymru, y Ficar Prichard a Williams o Bant y Celyn. "Cyfododd y ddau ar wahanol amserau, ac yr oedd gan bob un ei wahanol fodd, ond doniwyd hwy gan 'yr un a'r unrhyw Ysbryd;' ac fel Ioan Fedyddiwr, hwy a 'gyflawnasant eu rhedfa.' Planed yn llewyrchu yn y nos oedd Prichard; seren forau y Diwygiad oedd Williams. Y naill sydd fel afonig yn y diffeithwch, yn disychedu ac adfywio y teithiwr ynghanol anghysuron y crasdir; a'r llall fel yr Afon Tafwy, yn ogoniant y brifddinas, ac yn cludo trysorau o bob parth i'r dinasyddion. Y mae'r cyntaf yn tramwyo o Dan i Beerseba, i ddysgu Israel a Judah yn neddfau yr Arglwydd; ond y llall yn sefyll ym mron yn gwbl ar Galfari Fryn, i ryfeddu, a chanmol, a dangos y pethau a wnaethpwyd yno. Y mae Prichard yn weithiwr cyffredinol, yn ymaflyd ymhob gwaith o amgylch palasdy Sïon, tra y mae Williams wrth ben y bwrdd oddi mewn yn bwydo'r plant. Bardd y deall a'r gydwybod yw hen Ficar Llanymddyfri; bardd y serch a'r ewyllys yw hen Fethodist Pant y Celyn. Y naill yw ein hawenydd teuluaidd, i'n difyru a'n hyfforddi yn ein cartrefleoedd; y llall yw ein hawenydd cyssegredig, i'n galluogi i arllwys ein teimladau sancteiddiaf yn nhŷ Dduw. Parch bythol i'w coffadwriaeth!"

* Cyndynrwydd.

† "O'r un enwad crefyddol," medd yr ysgrifenydd yn *Y Traethodydd*. Ond nid yw hon reol ddïeithriad, canys gŵyr yr ysgrifenydd am rai priodasau nas gallent fod yn ddedwyddach, er i'r pleidiau fod yn aelodau o wahanol enwadau crefyddol; ond dichon yr ymddibyna hyny ar ddoethineb, gwybodaeth, rhyddfrydedd, a duwioldeb y gŵr a'r wraig.

‡ Cynnysgaeth. § Power, cyfoeth. || Chwedlau.

¶ Disyml, dirodres. ** Syber, sobr, dyrchafedig.

†† Un afrywiog. ‡‡ Llyfr ii., t. 155.

## PENNOD XII.

### ROWLAND FYCHAN, Y CYFIEITHYDD O GAER-GAI.*

GAN fod Rowland Fychan (Vaughan) o Gaer-Gai mor enwog fel cyfieithydd ag oedd Robert Fychan o Hengwrt yn yr un oes fel hynafieithydd, fe allai nad annerbyniol fyddai ychydig gofion am dano, wedi eu casglu gan mwyaf o'r *Gwyliedydd*, un o'r cyhoeddiadau gwerthfawrocaf a ymddangosodd yn yr iaith Gymraeg. Bu teulu'r Fychaniaid yng Nghaer-Gai am rai canrifoedd. Yma yr oedd Gwerfyl Mechain, merch Howel Fychan, yr hon oedd brydyddes enwog, ac a flodeuodd o'r flwyddyn 1460 i'r flwyddyn 1490.† Ei brawd, John Fychan, a briododd ferch y Capten Madoc; a mab iddynt hwy oedd Robert Fychan, a briododd etifeddes Gwernbrychdwn, yr hon oedd un o Lwydiaid Mythafarn; a merch y rhai hyny a briododd y Milwriad Salsbri, o Rug a Mychymbyd.‡ Yng nghofrestr siryddion Meirionydd yr ydym yn cael

* Cymmerir y bennod hon, gan mwyaf, o "Draethodau Llenyddol" y Parch. Lewis Edwards, D.D., Bala, t. 292–326, trwy garedig ganiatâd yr awdur dysgedig, heb newid odid ddim ar yr ysgrif gyntefig, oddi eithr lle paragraph neu ddau ar y dechrau, a dodi y llythyraeth yn null y gwaith hwn, ac ychwanegir ambell nodiad ar odrau'r dail.

† Owen's Cambrian Biography.

‡ Gwyliedydd, llyfr vi., t. 89.

Digitized by Google

fod John Fychan o Gaer-Gai yn sirydd yn 1615, ac wedi hyny yn 1622. Cawn enw Rowland Fychan, sef y cyfieithydd, yn 1644, John Fychan yn 1668, William Fychan yn 1682, a John Fychan yn 1709. Cyfarfyddir hefyd âg enw yr olaf ym mysg y tanysgrifwyr yn nechrau "Holl Ddyledswydd Dyn," o gyfieithiad Edward Samuel, yn y flwyddyn 1718. Ond i ddychwelyd at yr enwocaf o honynt oll, sef y cyfieithydd. Dywedir yn *Y Gwyliedydd*, llyfr iv., t. 247, y gelwid ef y Cadpen Fychan, ac iddo fod ym mrwydr Naseby* yn ymladd o blaid y brenin; ac fel prawf, rhoddir y cyfieithiad canlynol o hen hyspysiad, ond ni fynegir pa le y cafodd yr ysgrifenydd afael arno:—"Ymofyner am un S— H—, o L-n-ll-ch-d, yn agos i Fangor; gŵr du, byr, llydan ei ysgwydd, a chydnerth o wneuthuriad. Bu yn ymladd o dan y Cadpen Rowland Fychan yn ymladdfa Naseby, lle y cymmerwyd ef yn garcharwr. Anfonwyd â phenwaig, neu ysgadau cochion, i un Mr. Wyn, yn agos i Gaerwrangon, yr hwn a fuasai yn ddiweddar yn swydd Gaernarfon yn prynu gwartheg, ac a gyflogasai y dywededig S— H— i'r gorchwyl uchod. Gwelwyd ef ddiweddaf yn dychwelyd tu ag adref y pedwerydd dydd ar bymtheg o Ionawr diweddaf, ar Fwlch Oerddrws, lle y tagodd efe ryw gylchwerthwr *(pedlar)*, gan yr hwn yr oedd ceffyl yn llwythog o dobacco, triagl, dwr y bywyd (*brandy*), a lliain, &c. &c., a chymmerodd y cwbl ymaith.—16—." Buasai yn dda cael rhyw brofion ychwanegol i brofi y prawf hwn: ond gan nad pa un a fu y Cadpen Fychan yn defnyddio ei *gleddyf* yn erbyn y seneddwyr, y mae yn ddigon amlwg nad oedd yn arbed ei *ysgrifell*. Ymddangosodd cerdd awenyddol o'i waith yn y *Blodeugerdd*, wedi ei chyfansoddi i ddinoethi yr hyn a ystyriai efe yn rhagrith a gormes y *blaid seneddol*. Ar ol cyfeirio at ddïenyddiad Siarls, dan yr esgus o roddi hanes am benaeth yr Iwerddon, yr hwn y torwyd ei ben, dywed ymhellach,—

"Ni allaf fynegi yr achos o'i dòri,
Mwy da i mi dewi yn dawel a son;
Ond dyweda'n seliedig, na thòrir pen tebig,
Yn Lloegr goch oerddig na'r Werddon."†

Pe buasai mewn gwirionedd yn "tewi yn dawel a son," tebygol na chawsai ei aflonyddu yn herwydd ei syniadau gwladwriaethol, mwy na'i gydoeswr o'r Hengwrt; ond gan ei fod yn bleidiwr mor wresog a gweithgar i'r brenin, nid rhyfedd iddo ddïoddef oddi wrth y seneddwyr. Dywed rhai‡ iddo gael ei garcharu am dair blynedd yng Nghaerlleon Gawr. Dywedir hefyd§ iddynt losgi ei dŷ, a rhoddi ei etifeddiaeth i gâr iddo, ac iddo yntau gyfansoddi yr englyn canlynol ar yr achlysur:—

"Caer-Gai nid difai fu gwaith tân—arnad,
Oernych wyd yr wan;
Caer aethost i'm câr weithian,
Caer-Gai lle bu cywir gân."

Y mae yr amser pan ddigwyddodd yr anffawd hwn wedi ei gadw mewn coffadwriaeth yn yr englyn a ganlyn o waith William Phylip o Ardudwy:—

"Mil chweuchant gwarant gwiwrai—yn digwydd,
Pump a deugain difai;
Er dwyn i'r gwŷr adwaenai,
Ar gof pan losgwyd Caer-Gai."

Adroddir hefyd‖ i'r ddau fardd gyfarfod yn amser eu henciliad ar un o fynyddoedd sir Feirionydd, pan yr anerchasant eu gilydd fel hyn:—

"Pe cawn i 'r Pen-grynion
Rhwng ceulan ac afon,
Ac yn fy llaw goed-ffon o lin-on ar li;
Mi a gurwn yn gethin
Ynghweryl fy mrenin,
Mi a'u gyrwn yn un byddin i'w boddi.
*R. Fychan.*"

"Pe cawn i 'r Pen-gryniaid
Ar ben goriwaered,
Er gwaned a hyned wyf heno
A phastwn du-ddraenen,
Rwy'n *ddeuddeg a thrigain*,
Chwi a'm gwelech yn llawen yn llowio.
*W. Phylip.*"

Ar ddychweliad Siarls II., adferwyd yntau [R. Fychan] i'w etifeddiaeth, ac ail adeiladodd ei dŷ, gan argraphu y pennill hwn uwch ben y drws:—

"Dod glod i bawb yn ddibrin,
A châr dy frawd cyffredin,
Ofna Dduw, cans hyn sydd dda,
Ac anrhydedda'r brenin."

Adroddir hefyd yr englyn canlynol, yr hwn a gyfansoddodd efe i Gaer-Gai wedi ei hail adeiladu:—

"Llawer caer yn daer i'w dydd—a losgwyd,
Lesgwaith gwŷr digrefydd:
Y gaer hon i gywir rhydd,
Caer gain yw Caer-Gai newydd."

Ymddengys bod Rowland Fychan yn feddiannol ar gryn lawer o arabedd, yr hwn a redai allan

* Ymladdwyd y frwydr honno ar y 14ydd o Fehefin, 1645.—Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 477, a'i awdurdodau.—Gol.

† Yn argraphiad 1759 o'r *Blodeugerdd*, t. 53, fel y canlyn y mae'r pennill:—

"Ni fedra'i fynegi, mor achos oi golli,
Mae'n hardda ini dewi, yn dawel a son;
Mi a ddweda'n Seliedig, na thorri'r pen tebig,
Yn *Lloegr* goch oerddig, ar 'Werddon."—Gol.

‡ Gwyliedydd, llyfr ii., t. 218. § Yr un, llyfr iii., t. 276.

‖ Eos Ceiriog, sef Casgliad o Bêr Ganiadau Huw Morus, gan W D. [Walter Davies], llyfr i.; A Sketch, &c., p. xi.—Gol.

weithiau mewn pennillion difyfyr. Pan adeiladwyd yr aden newydd o'r tu dehau i Eglwys Llanuwchllyn, yn amser Siarls y Cyntaf, canodd y Cadpen fel hyn:—

> "Tebyg yw'r adeilad hon,
> Yn ol yr union gyfraith,
> I het newydd ar ben hen langc
> A fyddo ar drangcedigaeth."

Ond y mae hanes y Cadpen Fychan yn gwirio y ddihareb Gymreig, "Y mae gwehilion i'r gwenith;" o blegid er ei fod yn bleidiwr cadarn i'r "Eglwys a'r Brenin," ac er iddo gyfieithu yr "Ymarfer o Dduwioldeb," a llyfrau da eraill i'r Gymraeg, yr ydym yn cael nad oedd efe ei hun bob amser yn rhodio mor ddiargyhoedd ag y buasai ddymunol. Yn *Y Gwyliedydd*, llyfr ii., t. 218, rhoddir crybwylliad ei fod ryw dro, gyd â Rowland Llwyd o Riwaedog, yn dychwelyd adref o Rug, plas Syr Owain Salusbury, pan ddigwyddodd iddynt ymrafaelio ar y ffordd, ac ymladd, ac wedi hyny ymadael â'u gilydd mewn digter. Ond cyn ei ddisgyblu yn rhy lymdost am y trosedd hwn, gwrandawer fel y mae yn cyfaddef ei fai yn y pennill a anfonwyd ganddo dranoeth o Gaer-Gai i Riwaedog:—

> "Gwin a saig Syr Owain Salusbury,
> A wnaeth gynnwrf ar Gareini,
> Rhwng Rowland Llwyd, pendefig mwynlan,
> A'r hen gecryn Rowland Fychan."

Wrth ddarllen yr hanes yma, dylem hefyd gofio yr oes yn yr hon yr oedd y cyfieithydd o Gaer-Gai yn byw: o blegid nid yw yn annichon fod gradd o wirionedd mewn dywediad a glywsom unwaith gan un o'r diaconiaid mwyaf duwiol yn sir Feirionydd, yr hwn sydd hynod mewn parodrwydd i feddwl y gorau am bawb. Yr oedd yr hen frawd hwn ar y pryd, yn debyg i Syr Isaac Newton a Robert Hall, ac eraill nad oes achos eu henwi yma, yn myfyrio ac yn mygu tybaco ar unwaith. Er mwyn ei dynu allan i siarad, gofynwyd iddo pa fodd yr oedd cynnifer o ddynion da yn yr hen amser mor dueddol i fyned dros derfynau cymmedroldeb yn yr arferiad o ddïodydd meddwol. "Mae'n debyg," meddai yntau, gan ollwng y mwg allan yn droellau godidog o gwmpas ei ben, "mae'n debyg nad oedd meddwi tipyn yn yr oes honno yn ddim mwy o ddrwg nag yw ysmocio yn ein dyddiau ni." Os oedd y cyfaill hwn yn myned yn rhy bell yn helaethrwydd ei natur dda, gwell yw genym gyfeiliorni yr ochr honno na rhyfygu i farnu yn rhy galed am gyflyrau ein cyd-ddynion.

Am y gweddill o hanes Rowland Fychan, gellir ei gynnwys mewn ychydig o eiriau. Cyfieithodd "Law-lyfr o Weddïau" y Dr. Brough, ar gais y Milwriad Gwilym Salesbury. Dywedir hefyd i'r "Ymarfer o Dduwioldeb" gael ei gyfieithu ganddo drwy archiad ei gares, Marged, unig etifeddes Syr John Llwyd, Marchog, a chywely John Llwyd, Ysw., o Riwaedog, ac mai ar draul yr Henuriad Heilyn, o Lundain, yr argraphwyd ef. Cyfieithodd hefyd "Ymddiffyniad rhag Pla o Schism," ac amryw lyfrau eraill.*

Yr amser y bu farw nid yw hyspys;† ond pa bryd bynag y bu, yr ydym yn cyttuno âg un o ohebwyr doniol *Y Gwyliedydd* "nad oedd ei farwolaeth yn golled fechan i Gymru."

Yr oedd yr "Ymarfer o Dduwioldeb" yn un o'r llyfrau oedd yn fwyaf parchus gan ein hynafiaid yng Nghymru o ddeutu dau cant o flynyddoedd yn ol. Ysgrifenwyd ef yn Saesneg gan y Dr. Bayly,‡ dan yr enw "*The Practice of Piety; directing a Christian how to walk that he may please*

* Y rhai hyny, hyd y gwelwn yn "Llyfryddiaeth y Cymry," t. 717–179, oedd "Prif-fanau Crefydd Cristionogol," "Yr arfer o Weddi yr Arglwydd," "Pregeth yn erbyn Schism," ac "Y Llwybreiddfodd byr o Gristionogawl Grefydd." Cyhoeddwyd y pedwar hyn, ynghyd â'r "Llaw-lyfr" a'r "Ymddiffyniad" a nodir yn y testyn, yn 1658, sef y flwyddyn y bu Cromwel farw. Y chwech hyn, a'r "Ymarfer o Dduwioldeb," hyd y canfyddwn ni, oedd holl gyfieithiadau Rowland Fychan, a'u brif bwngc oll, ond yr "Ymarfer," oedd pleidio yr Eglwys Sefydledig.—Gol.

† Nid yw yr amser y ganwyd ef chwaith yn hyspys, hyd y gwelsom ni. Pa wedd bynag, gwyddys iddo gyfieithu yr "Ymarfer o Dduwioldeb" mor forau o leiaf ag 1620, er na chyhoeddwyd ef hyd 1630.—Llyfr. y Cymry, t. 105. Od oedd Fychan yn 30 oed pan gyfieithodd efe yr "Ymarfer," ganwyd ef o gylch 1590. Dywed Walter Davies iddo fyw "lawer o flynyddoedd" ar ol adferiad Charles II. yn 1660. Os bwrir bod y "llawer" hyny yn ddeng mlynedd, yr oedd efe yn fyw yn 1670, ac yr oedd ar y pryd, yn ol yr amcandyb am ei enedigaeth, yn 80 oed. Y mae yn debyg nad aeth efe yn rhyw lawer hynach na hyny. Dyma fel y dywed y Parch. W. Davies:—"Llosgwyd palas Rowland Fychan, Ysw. o Gaer Gai hyd y llawr, ac attafaelwyd rhan o'i etifeddiaeth; a chostiodd ei hail feddiannu iddo lawer o flynyddoedd o gyfraith ddrudfawr a thrallodus, hyd yn oed ar ol adferiad yr anniolchgar Charles."—Eos Ceiriog; a Sketch, llyfr i., t. x.—Gol.

‡ Ganwyd Lewis Bayly yng Nghaerfyrddin, a chafodd ei ddysgeidiaeth athrofaol yng Ngholeg Exeter, Rhydychain. Yn 1611, cyfarfyddir â'i enw ynghofnodiadau Rhydychain, fel gweinidog Evesham, yn swydd Gaerwrangon, caplan i'r Tywysog Henry, a gweinidog St. Matthew yn Llundain; ac yn fuan wedi hyn gwnaed ef yn gaplan i'r Brenin Iago I. Ar farwolaeth yr Esgob Rowlands, dyrchafwyd ef i esgobaeth Bangor, a chyssegrwyd ef i'r swydd honno yn Lambeth yr 8fed o Ragfyr, 1616. Yr oedd ei lyfr mor boblogaidd yn Saesneg fel yr oedd pedwar ar bymtheg a deugain o argraphiadau wedi dyfod allan erbyn y flwyddyn 1734; ac y mae lle i gasglu iddo fod yn yr iaith honno yn fendithiol i laweroedd. Yn hanes John Bunyan, a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun, dywedir bod hwn yn un o'r llyfrau oedd ymeddiant ei wraig pan briododd, ac a dderbyniasai hi gan ei thad, yr hwn oedd ŵr crefyddol. Darllenwyd ef gan Bunyan; o blegid er ei fod yn rhagori mewn direidi, yr oedd hyd yn oed yr amser hwnw yn rhagori ar lïaws o bobl ieuangc Cymru yn y dyddiau hyn mewn awydd ac ymofyniad am wybodaeth. Ac er mai parhau a wnaeth am ryw yspaid yn annychweledig, y mae yn cydnabod bod y darlleniad o hono wedi ei arafu i ryw raddau yn ei yrfa annuwiol, ac wedi ei dueddu i gyrchu yn fwy mynych i swn gweinidogaeth yr efengyl, yr hyn a ddibenodd, ar ol llawer o "wingo yn erbyn y symbylau," mewn gwir dröedigaeth. Hyfryd i'n teimladau ni feddwl bod llyfr wedi ei ysgrifenu gan un a anwyd ar lan Towy yn ddolen yn y gadwyn o ail achosion a fu yn offerynol dan fendith Duw, i rwymo



Digitized by Google

*God.*" Yr argraphiad cyntaf o'r llyfr hwn yn Gymraeg a gyhoeddwyd yn Llundain, yn 1630. Nodir ef yn nghofrestr Moses Williams fel y canlyn:—"Yr Ymarfer o Dduwioldeb, gan Lewis Baily, Esgob Bangor. 8vo Mwythig, a 12mo Llundain, 1630."* Y mae'n debygol nad oedd Moses Williams yn bwriadu cyssylltu y flwyddyn 1630 ond yn unig â'r argraphiad deuddeg-plyg yn Llundain, ac mai wedi hyny y daeth yr argraphiad wyth-plyg allan yn y Mwythig. Y cyfieithydd oedd Rowland Fychan o Gaer-Gai, ger llaw y Bala. Yn yr argraphiad diweddaf o "Hanes y Ffydd," dan ofal y Dr. P. Williams, rhoddir yr anrhydedd hwn mewn camgymmeriad i'r Dr. Davies o Fallwyd. Ar ol son am waith y Dr. Davies yn perffeithio geirlyfr Thomas Williams, dywedir, "Efe a wnaeth rammadeg Cymraeg hefyd, ac a gyfieithodd lyfrau godidog tu ag at adeiladaeth ysprydol, sef 'Llyfr y Resolution,' a'r 'Ymarfer o Dduwioldeb,' a'r 'Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd.'"† Ond nid felly yr ysgrifenodd yr awdur, Charles Edwards. Yn yr argraphiad diweddaf yn unig y gwnaed yr amryfusedd, trwy roddi "ac a gyfieithodd lyfrau," yn lle "a chyfieithwyd llyfrau." Y gwirionedd ydyw na chyfieithodd y Dr. Davies ond un o'r tri, sef "Llyfr y Resolution." Cyfieithydd y "Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd" oedd Robert Llwyd, Ficar y Waun,‡ a chyfieithydd yr "Ymarfer o Dduwioldeb," fel y dywedyd eisoes, oedd Rowland Fychan.

Mewn perthynas i ansawdd yr "Ymarfer o Dduwioldeb," yr ydym yn ei ystyried yn llyfr da, defnyddiol; ond nid ar un cyfrif yn gydradd âg amryw a ysgrifenwyd yn wreiddiol yn yr iaith Gymraeg, megis "Hanes y Ffydd," a "Llyfr y Tri Aderyn," gan Morgan Llwyd. Nid oes ynddo ond ychydig neu ddim o'r hyn a elwir *athrylith* Ofer yw chwilio o'i fewn am ymadrodd yn taraw y meddwl gyd â grym trydanawl, ac yn treiddio trwy bob nwyd a chynneddf, nes gwneud yr enaid yn danllwyth o deimlad. Ond y mae ei ddiffyg mwyaf etto heb ei enwi. Nid oes ynddo yr un attebiad golau a boddlonawl i'r gofyniad, "Pa fodd y cyfiawnheir dŷn gyd â Duw, neu pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" Nid oes ynddo ddigon o le i waith Mab Duw dros bechaduriaid, na gwaith yr Yspryd ar bechaduriaid. Yn hyn y mae yn gyffelyb i'r holl lyfrau eraill oedd yn fwyaf eu bri gan y Cymry o ddeutu can mlynedd yn ol, er nad yw mor ddiffygiol a'r rhan fwyaf o honynt, megis "Dilyniad Iesu Grist," gan Thomas à Kempis; "Holl Ddyledswydd Dŷn;" a "Rheol Buchedd Sanctaidd," gan Jeremy Taylor. Nid oedd crefydd, yn ol eu disgrifiad hwy, fawr amgen na moesoldeb a ffurfioldeb. Gwir eu bod yn ein cynnysgaeddu â nifer mawr o weddïau ar wahanol achlysuron; ond pan gollir golwg ar yr angenrheidrwydd am waith Yspryd Duw, nid yw gweddi yn ddim amgen na ffurf; o blegid i ba ddiben, ac am ba beth, y gweddïwn os bydd gras penarglwyddiaethol wedi ei gau allan o'n cyfundraeth? Yr amcan oedd gwneud y ffrwyth yn dda heb newid anian y pren; a'r canlyniad naturiol oedd fod Cymru, yn ol tystiolaeth Griffith Jones, Llanddowror, yn myned yn fwy digrefydd bob blwyddyn. Nid ydym yn eu beio am draethu cymmaint ar grefydd ymarferol. Nid oes modd dyweyd gormod yn erbyn llygredigaethau cyhoeddus yr oes, ac i feithrin buchedd sanctaidd. Ond beio yr ydym ar grefyddwyr yr oes honno am na buasent yn rhoddi rhyw lyfrau eraill yn nwylaw y bobl, yn ychwanegol at y rhai hyn, i ddangos colledigaeth a drygioni dŷn o ran ei gyflwr a'i galon, a threfn rasol Duw i'w godi o'i sefyllfa bechadurus a thruenus. Fel cydymaith i esponiad Luther ar y Galatiaid, buasai gwaith y Dr. Bayly yn dra buddiol. Er bod seiliau cryfion i gredu nad oedd gwahaniaeth hanfodol rhyngddo ef a Luther yn ei olygiadau ar gyfiawnhad trwy

a gwareiddio y Behemoth hwn, nes y daeth o'r diwedd i fod yn "dywysog y breuddwydwyr," ac yn un o brif arweinwyr y pererinion ar eu taith o ddinas distryw i'r Gaersalem nefol.

Ni ddigwyddodd i ni weled hyspysiad pa bryd y cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf; ond dilys ydyw iddo ymddangos rywbryd cyn y flwyddyn 1612; o blegid mewn argraphiadau dilynol, ar ol crybwyll bod barn Duw wedi disgyn, yn 1598, ar Tiverton yn Devon, am "ffieidd-fudr halogi dydd yr Arglwydd, yr hyn a ddigwyddai yn bendant o achos bod ei marchnad ar y dydd oedd yn canlyn," y mae'r awdur yn ychwanegu, "Ac yr awr hon eilwaith gwedi rhoi y llyfr hwn allan gyntaf, ar y pummed dydd o fis Awst, 1612 (pedair blynedd ar ddeg ar ol y waith gyntaf), yr ennynodd tân yn yr holl dref eilwaith, ac ei difawyd, oddi eithr deg ar hugain o dai rhai tlodion, yr yscol, a'r elusendai." Bu yr esgob farw Hydref 23ydd, 1631, a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Bangor. Gadawodd bedwar o feibion, Nicholas, John, Theodore, a Thomas.—Cynnwys y nodiad hwn y ddau baragraph blaenaf yn erthygl odidog y Dr. Edwards.

* Ynghofrestr Gwilym Lleyn nodir yr argraphiad yma fel hyn:—"Yr Ymarfer o Dduwioldeb: yn Cyfar-wyddo dŷn i ryngu bodd Duw: Yr hwn lyfr a osodwyd allan yn Saeson-aec o waith y gwir barchedig dad Lewis Esgob Bangor, ac a gyfieithwyd yn Gamberaec o waith Row. Vaughan o Gaergai o sir Feirion ŵr bonheddig. *est voluisse satis.* Printiedig gan Felix Kyngston tros Robert Allot, ac ydynt i'w cael tan lûn yr Arth ym monwent St. Paul yn Llundain. 1630" [12plyg bychan.]—Llyfr. y Cymry, t. 105. Yn 1710 y cyhoeddwyd yr argraphiad 8plyg yn y Mwythig, yr hwn a elwir "Y chweched argraphiad yn Gymraeg, wedi gwellau llawer o gamyspeiliadau oedd yn yr Argraphiadau eraill." Er y gelwir hwn "y chweched argraphiad," y *pedwerydd* ydoedd, yn ol "Llyfryddiaeth y Cymry," sef yr uchod yn 1630; yr ail yn 1656, "Printiedig gan Sarah Griffin, tros Philip Chetwind," yn Llundain, y mae'n debyg, er na ddywedir hyny yn y "Llyfryddiaeth;" a'r trydydd yn 1675, "Printiedig yn Llundain gan Tho. Dawks, dros Ph. Chetwin."—GOL.

† Hanes y Ffydd, 1822, t. 300.—GOL.

‡ Gwel y llyfr hwn, pen. vii.—GOL.

Digitized by Google

ffydd, ynghyd â'r angenrheidrwydd am waith yr Yspryd Glân, y mae wedi ein gadael i gasglu hyny trwy awgrymiadau achlysurol. Yr *ymarfer* o dduwioldeb oedd ei destyn ef, ac at hyny y mae wedi ymgadw bron yn hollol, oddi eithr yn y pennodau cyntaf, lle y mae yn son am Dduw a'i briodoliaethau, am drueni yr annuwiol, ac am ddedwyddwch y duwiol. Y mae yn dechrau gyd âg "agweddiad eglur o sylwedd a phriodoliaethau Duw, allan o'r Ysgrythyr Lân, cyn belled ag y mae yn addas i bob Cristion ei wybod, ac yn angenrhaid ei gredu i'r neb a fynno fod yn gadwedig." Dan y pen hwn, cymmerer yr hyn a ganlyn:—

"Personau y Duwdod ydynt naill ai'r *Tad*, neu y rhai ydynt o'r *Tad*. Y Tad yw'r person cyntaf yn y gogoneddus Drindod, heb dderbyn na'i sylwedd na'i ddechreuad gan neb arall, eithr ganddo ei hun, yn cenhedlu ei Fab, ac ynghyd gyd â'i Fab, yn anfon ei Yspryd Glân er tragywyddoldeb.

"Y personau y rhai ydynt o'r Tad yw, y rhai o herwydd eu personol hanfod sy ganddynt holl sylwedd y Duwdod er tragywyddoldeb, wedi ei gyfranu iddynt oddi wrth y Tad. A rhai hyny ydynt naill ai oddi wrth y Tad yn unig, megis y Mab: neu oddi wrth y Tad a'r Mab, megis yr Yspryd Glân.

"Y Mab yw'r ail Berson o'r *Drindod gogoneddus*. Ac unig genedledig Fab ei *Dad*, nid o ras, ond o naturiaeth; yn cael ei hanfod o'r *Tad* yn unig, a holl hanfod ei Dad trwy genhedliad tragywyddol ac anfesuredig, ac ynghyd â'r *Tad* yn anfon yr Yspryd Glân. O herwydd ei sylwedd berffaith-gwbl, o honaw ei hun y mae; eithr o herwydd ei berson, o'i Dad y mae, trwy genhedliad tragywyddol. Canys nid yw y sylwedd yn cenhedlu sylwedd, eithr person y Tad sydd yn cenhedlu person y Mab, ac felly y mae ef yn Dduw o Dduw, yn cael oddi wrth ei Dad ddechreuad ei Berson, a'i Drefn, eithr nid dechreuad ei sylwedd a'i amser.

"Yr Yspryd Glân ydyw y trydydd Person o'r Drindod fendigedig, yn deilliaw a chwedi ei anfon yn gystal oddi wrth y Tad a'r Mab, trwy dragywyddol ac anfesurol ysprydoliaeth. Canys fel y mae'r Mab yn derbyn holl sylwedd y Duwdod trwy genhedliad, felly y mae'r Yspryd Glân, yn ei dderbyn yn gyfan trwy ysprydoliaeth.

"Y drefn hon rhwng y tri pherson a ymddengys yn hyn: sef fod y Tad, yr hwn sy'n cenhedlu, o flaen y Mab, yr hwn a genhedlwyd; a'r Tad a'r Mab o flaen yr Yspryd Glân,* yr hwn sy'n deilliaw oddi wrth y ddau.†

"Y drefn hon a wasanaetha i ni osod allan ddau beth: yn gyntaf, y dull pa wedd y mae'r Drindod yn gweithio yn eu gweithrediadau oddi allan: megis bod y Tad yn gweithiaw o hono ei hun drwy y Mab a'r Yspryd Glân; y Mab oddi wrth y Tad a thrwy yr Yspryd Glân; yr Yspryd Glân oddi wrth y Tad a'r Mab. Yn ail, i neillduo y dechreuad digyfrwng cyntaf, oddi wrth yr hwn y mae'r gweithrediadau cyffredin hyny oddi allan yn tarddu. Oddi yma y deilliaw, yn gymmaint ag y mae'r Tad yn ffynnon a gwreiddyn y Drindod, a dechreuad pob gweithrediad oddi allan: enw Duw *mewn perthynas*, a'r cyfenw creawdwr‡ yn y Credo, a roddir mewn modd hynodol i'r Tad; ein prynedigaeth i'r Mab; a'n sancteiddiad i Berson yr Yspryd Glân, megis mewn gweithredyddion digyfrwng o'r gorchwyliaethau hyny. A hyn hefyd yw yr achos y mae'r Mab fel y mae yn Gyfrynwr yn rhoi pob peth ar law ei Dad; ac nid ar yr Yspryd Glân; a bod yr ysgrythyr yn dywedyd cyn fynyched ein bod ni wedi ein cymmodi â'r Tad.

"Oni bae y drefn *oruchel* hon, neu y *Deuluaeth*, nid oes na chyntaf na diweddaf, nac uwch nac is ymhlith y tri phersonau, canys o ran *naturiaeth cydhanfod* y maent, o ran *braint* gogyfuwch ydynt, ac o ran amser, *go-gydtragywyddol*.

"Holl sylwedd y Duwdod sydd ymhob un o'r tri pherson; eithr a gnawdiwyd yn unig yn yr ail Person, sef y *Gair*, ac nid ym mherson y Tad na'r Yspryd Glân, o herwydd tri rheswm,

"1. Fel y gallai Dduw Tad yn hytrach egluro faint yw ei gariad tu ag at ddynol ryw; yn rhoddi ei unig anedig Fab i gymmeryd cnawd arno, ac i ddïoddef marwolaeth er mwyn iachawdwriaeth dŷn.

"2. Fel y gallai ef, yr hwn yn ei Dduwdod oedd yn Fab i Dduw, fod hefyd yn ei ddyndod yn Fab dŷn: rhag i enw Mab fyned i arall; yr hwn wrth ei dragywyddol enedigaeth nid ydoedd y Mab.

"3. O herwydd mai gweddeiddiaf oedd i'r Person hwnw, yr hwn yw sylwedd a gwir ddelw-lun ei dragywyddol Dad, efrydu ynom ysprydol ddelw, yr hon a gollasem.

"Yn y cnawdoliaeth, ni thröed mo'r Duwdod yn ddyndod, na'r dyndod yn Dduwdod; mal y mae yn ail Person, neu y *Gair*, a gymmerodd arno y dyndod, sef y cwbl o naturiaeth dŷn, corph ac enaid, a'i briodoliaethau naturiol a'i wendid perthynasol, ond *pechod* yn unig.

"Yr ail Person ni chymmerodd arno Berson dŷn, ond naturiaeth dŷn. Felly nid oes gan y naturiaeth ddynol mo'r hanfod personol o'r eiddo ei hun (canys felly y byddai dau Berson yng Nghrist) eithr hanfod y mae efe yn y *Gair*, yr ail Person. Canys megis na wna enaid a corph ond un person dŷn, felly Duwdod a dyndod ni wna ond un Person Crist.

"Dau naturiaeth y Duwdod o'r dyndod ydynt mor ddïymmod wedi eu cyssylltu ynghyd drwy bersonol undeb, mal megis na ellir byth eu gwahanu o'r neilldu, felly ni chymmysgir hwynt; eithr parhau y maent byth yn wahanredol wrth eu hamryw sylweddol briodoliaethau, yr rhai oedd ganddynt cyn eu cyd-gyssylltu. Megis wrth esampl; *Anherfynoldeb y Dduwiol anian* ni chyfrenir i'r *dynol anian*, na therfynoldeb y dynol i'r Duwiol.

"Etto o herwydd yr undeb personol hwn, y mae'r fath gyssondeb priodoliaethau yn y ddau naturiaeth, fel y mae'r

* Pe bai yr haeriad rhyfedd yma yn wirionedd, sef bod y Tad *o flaen* y Mab, a'r Tad a'r Mab *o flaen* yr Yspryd Glân, nis gallai fod y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân yn "ogyd-dragywyddol," fel y dywed yr "Hyfforddwr." Y mae mwy fil o weithiau o wybodaeth iachus, syml, ac eglur am Dduw i'w chael yn yr ychydig adnodau canlynol nag sydd yn holl gywreindruth dychymygol y Dr. Bayly a'i gyffelyb—Ioan 1-4, 14; Col. ii. 8, 9; 1 Tim. iii. 16; 1 Ioan v. 7, 20.—Gol.

† Ni ddywed y Bibl mewn un man fod yr Yspryd Glân "yn deilliaw oddi wrth *y ddau*," ac ni ddyry le i *gasglu* hyny. Fel hyn y dywed Iesu Grist am yr Yspryd Glân:—"Eithr pan ddel y Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddi wrth y Tad (Yspryd y Gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddi wrth y Tad), efe a dystiolaetha am danaf fi" (Ioan xv. 26.) Ac am dano ei hun "Y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy, Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i; canys oddi wrth Dduw y deilliais, ac y deuthum i" (Ioan viii. 42.) Nid yw y Bibl yn son mewn un man am "Bersonau y Drindod" na "Phersonau y Duwdod:" geiriau o ddychymyg dŷn yw y rhai hyn. Dywedir yn Heb. i. 3 bod y Mab, a grybwyllir yn yr adnod gyntaf, "yn wir lun ei berson ef," sef Duw, enw yr hwn sydd ar ddechrau yr adnod gyntaf. Ni chrybwyllir am *berson* Duw, chwaethach *personau*, mewn un man arall yn y Testament Newydd, na'r Hen chwaith, yn wir.—Gol.

‡ Dodir didolnod (¨) uwch ben *e* gan amryw yn y gair *creawdwr*, a'r cyffelyb; ond nid oes ei angen, am nas gellir sain gyfansawdd, a elwir deuseiniad, o *ea*, *oa*, a rhai cyfuniadau llafarog eraill; am hyny yr un modd y seinir *ea* heb ddim uwch eu pen, a phe dodid deg o nodau uwch eu pen; ond bydd eisiau didolnod weithiau, pan fo perygl seinio dwy lafariad yn gyfansawdd, tra y gofyn yr ystyr eu seinio ar ddidol, megis tröed, *let him turn*, rhag ei seinio yn troed (troud), *a foot*, fel y gofyn y synwyr weithiau.—Gol.

Digitized by Google

hyn fydd briodol i'r naill, weithiau hefyd i'w briodoli i'r llall. Megis *pwrcasu o Dduw yr eglwys â'i briod waed; ac y barna efe y byd drwy y Gŵr yr hwn a ordeiniodd efe:* Act. xx. 28; ac xvii. 31. O hyn y canlyn, er bod dynol ryw Crist yn gauedig, ac am hyny yn derfynol, ac yn gynnwysedig anian, ac na ddichon bod yn bresennol ymhob man, trwy osodiad gweithredol, neu gynhwysiad cyfleus yn ol ei hanfod naturiol: etto o herwydd bod ganddo wedi ei gyfranu ato Bersonol hanfod Mab Duw, yr hwn sydd anfeidrol ac anherfynedig, a chwedi ei uno â Duw yn y cyfryw fodd, ac na ellir yn unlle byth ei wahanu oddi wrth Dduw, am hyny y gellir dywedyd am *gorph Crist* ei fod o herwydd ei bersonol hanfod ymhob lle."

Nid ydym yn tybied bod y Dr. Bayly ei hun yn deall y frawddeg olaf yn y difyniad uchod,* ac am hyny nid awn i'r drafferth i geisio ei hesponio. Ar ol traethu am y gweithrediadau drwy y rhai y gwahanredir y tri Pherson, y mae yn myned ym mlaen i son am briodoliaethau y Duwdod, y rhai a ddosperthir ganddo yn ddau fath, sef galwedigol a hanfodol. Y priodoliaethau galwedigol ydynt o dri math: 1. Y rhai a arwyddocânt sylwedd Duw, sef *Jehofah*, *Eheieh*, *Jah*, *Curios* (Arglwydd), *Theos* (Duw.) 2. Y rhai a arwyddocânt y Personau yn yr hanfod, o ba rai ni roddir ond un engrafft, sef *Elohim*. 3. Y rhai a arwyddocânt sylweddol weithredoedd Duw, sef *El*, *Shaddai*, *Adonai*, *Helion*, *Abba*. Hyd yma am y priodoliaethau enwol. Y dosparth nesaf yw y priodoliaethau hanfodol, neu, fel y geilw y cyfieithydd hwynt mewn man arall, "y priodoliaethau sylweddol," y rhai ydynt o ddau fath, naill ai anghyffredinol ai ymgyfattebol. "Y priodoliaethau anghyffredinol ydynt gyfryw ag na allant mewn neb rhyw fodd gyttuno (neu weddu) i un math ar greadur, ond i Dduw yn unig. Y rhai hyn ydynt ddau, sef digymmysgedd ac anherfynoldeb." Ac o'r ddau hyn y mae tri eraill o briodoliaethau anghyffredin yn tarddu allan: 1. "Ammesuredigaeth, neu boblleaeth, trwy yr hyn y mae ef o anherfynedig amgyrraedd yn llenwi y nefoedd a'r ddaear, ac yn cynnwys pob lleoedd heb yspaid, lle, neu derfyn yn dichon ei gynnwys ef, ac heb fod absennol yn unlle, y mae yn bresennol ymhob lle." Y mae ei bresennoldeb yn gyffredinol, "ymhob lle yn llawnedigaidd, eithr nid yn unlle yn gynnwysedigaidd;" ond yn enwedigol yn y nefoedd, yn fwy enwedigol yn ei saint, ac yn fwyaf enwedigol yng Nghrist yn gorphorol. 2. Anghyfnewidioldeb, "trwy yr hyn y mae Duw heb gyfnewid oll; yn gystal o herwydd ei sylwedd, a'i ewyllys." 3. Tragywyddoldeb, "trwy yr hwn y mae Duw heb ddechreuad i'w ddyddiau, na diwedd i'w amser; ac heb derfynau, o ran rhagfynegiad neu ol-ddilyniad." Hyd yn hyn am y priodoliaethau anghyffredin, perthynol i Dduw yn unig. Bellach am y rhai ymgyfattebol, neu, fel y gelwir hwynt mewn lle arall, "y rhai tueddol, neu y cyfryw ag a edrychant tu a'r creaduriaid." Y rhai hyn ydynt bump, sef bywyd, deall, ewyllys, gallu, mawrhydi. Dan y pen o ewyllys Duw y cynhwysir cariad, cyfiawnder, trugaredd, daioni, gwirionedd, amynedd, sancteiddrwydd, a digofaint. Dyma grynhodeb o olygiadau yr awdur ar y priodoliaethau, y rhai, er bod ynddynt lawer o gywreinrwydd, ni ddymunem gael ein gosod dan yr angenrheidrwydd o'u hamddiffyn yn gyflawn fel y maent. Ond yn y lle nesaf, yr ydym yn cael myfyrdodau am drueni dŷn heb ei gymmodi â Duw yng Nghrist. Yma etto cawn raniadau ac adraniadau, ac is-adraniadau. Ystyrir trueni dŷn—1. Yn ei fywyd; 2. Yn ei farwolaeth; 3. Ar ol ei farwolaeth. Trueni dŷn yn ei fywyd a renir drachefn yn ddau fath: 1. Trueni sy'n dilyn ei gorph; 2. Y trueni sy'n gwrthuno ei enaid. Ac eilwaith, disgrifir y trueni sy'n canlyn y corph yn ol trefn pedair oes dŷn: 1. Mebyd; 2. Ieuengctid; 3. Oedran gŵr; 4. Henaint. Rhoddir darluniad nerthol o drueni y corph a'r enaid wrth farw, ac yn ol marwolaeth, yr hyn yw cyflawnder melldigedigrwydd. Ac yna, heb son am y ffordd i waredu dŷn o'i drueni, anrhegir ni â myfyrdodau am gyflwr Cristion wedi ei gymmodi â Duw yng Nghrist, ynghyd â'i ddedwyddwch yn ei farwolaeth, yn ol ei farwolaeth, ac yn y nef "gwedi y derbynio efe ei farn o ollyngdod, ger bron brawdle Crist, ar ddydd y farn ddiweddaf." Ar ol gwasgu yr ystyriaethau hyn yn ddwys at gydwybodau y darllenwyr, eir ym mlaen at y rhwystrau sydd yn attal y pechadur oddi wrth ymarfer duwioldeb, y rhai ydynt saith yn arbenig, sef: 1. Camgymmeryd yn anwybodus iawn ddeall rhyw fannau o'r Ysgrythyr Sanctaidd,

* Yn wir, yr ydym yn credu y gallasai yr ysgrifenydd galluog ddywedyd yr un peth am braidd holl frawddegau y difyniad: o leiaf, y maent yn ymddangos i ni yn llawer tebycach i "philosophi a gwag dwyll," nag i "eiriau gwirionedd a sobrwydd" yr Ysgrythyr Lân. Ymddengys i ni nas dichon iaith draethu ymadroddion symlach ac eglurach na'r rhai canlynol, a'u cyffelyb:—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair." "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd." "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad." "Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynnof finnau." "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd." "O blegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." Y mae'r ymadroddion Ysgrythyrol hyn, a'u cyffelyb, yn ymddangos i ni yn berffaith eglur a diamwys; ond wfft byth i'r esponiadau arnynt, megis yr eiddo y Dr. Bayly, a'i gyffelyb, rhag eu dyrysed a'u tywylled!—Gol.

Digitized by Google

a rhyw fannau o brif byngciau crefydd Gristionogol; 2. Drwy esiamplau y gwŷr mawr; 3. Dïangc yn hir heb haeddedigol gosp yn y bywyd hwn; 4. Rhyfygu o drugaredd Duw; 5. Cyfeillach ddrwg, yr hyn yn gyffredin a elwir cymdeithion da; 6. Ofn meddylgar, rhag i ymarfer â duwioldeb wneuthur gŵr (yn enwedig gŵr ieuangc) i fod yn rhy brudd ac yn bendrwm; 7. Gobaith o hir eisoes. Dan y pen cyntaf cawn y sylwadau canlynol ar y camgymmeriadau am rai o brif byngciau crefydd:—

"Seiliau crefydd a gamgymmerir ydynt:—

"1. Oddi wrth athrawiaeth *cyfiawnhâd* trwy ffydd yn unig: Cristion cnawdol a gasgl; nad ydyw gweithredoedd da angenrheidiol, y mae'n canmol eraill a wnelo weithredoedd da, eithr y mae ef yn coelio am dano ef ei hun y bydd efe cadwedig trwy ei ffydd, heb wneuthur dim o'r fath bethau. Ond ef a ddylai wybod, er nad yw gweithredoedd da angenrheidiol i gyfiawnhau dŷn; etto y maent yn angenrheidiol i iechydwriaeth; 'Canys *gwaith Duw ydym wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw i ni rodio ynddynt:*' Eph. ii. 10. Pwy bynag gan hyny mewn oedran a synwyr ni wnel weithredoedd da wedi ei alw, ni eill ef fod yn gadwedig: ac ni ragddarparwyd ef erioed i fywyd tragywyddol. Am hyny y dywed yr ysgrythyr y tâl *Crist i bob dŷn yn ol ei weithredoedd:* Rhuf. ii. 6; 2 Cor. ix. 6; Dat. xxii. 12. Nid yw Crist yn gwneuthur cyfrif o ddim oedd yn yr Angylion a'r saith eglwys, ond o'u gweithredoedd: Dat. ii. a'r iii. Ac yn y dydd diwaethaf, ef a rydd yr *etifeddiaeth* nefol yn unig i'r rhai a wnaethant weithredoedd da, yn porthi y newynog, yn dilladu y noeth, ac felly: Math. xxv. Yn y dydd hwnw *cyfiawnder* a wisg y goron: 2 Tim. iv. 8. Heb *gyfiawnder*, heb *goron*, heb *weithredoedd* da (yn ol ei dalent) heb *wobr* gan Dduw, oddi eithr dïal. Bod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da ydyw y sail gadarnaf o'n sicrwydd ni i dderbyn bywyd tragywyddol: 1 Tim. vi. 19. O blegid gweithredoedd da ydynt wir ffrwythau gwir ffydd, yr hon sydd yn ymaflyd yng Nghrist a'i ufudd-dod i iechydwriaeth. Ac nid oes ffydd arall *yn lleshau yng Nghrist, ond yr hon sy'n gweithredu trwy gariad:* Gal. iii. 6.

"Ac (oddi eithr yngweithred cyfiawnhâd) y ffydd, yr hon sydd yn unig yn cyfiawnhau, nid yw yn unig un amser, eithr ynghyd â gweithredoedd da: Fel y pren a'i ffrwyth, yr haul a'i lewyrch, y tân a'i wres, y dwfr a'i wlybaniaeth. A'r ffydd honno, yr hon nid ymgyfiawnha trwy weithredoedd da o flaen dynion, nid yw ond *ffydd farwol:* yr hon ni chyfiawnha fyth enaid dyn o flaen Duw: Iago ii. 26. Ond y ffydd sydd yn cyfiawnhau a *bureiddia y galon, ac a sancteiddia yr holl ddŷn* trwyddo: Act. xi. 9; 1 Thes. v. 23.

"2. Oddi wrth athrawiaeth tragywyddol *ragddarpariad* Duw a'i ddigyfnewidiol *osodiad*, y mae yn casglu: Os rhagddarparwyd ef i fod yn gadwedig, ni eill ef amgen na bo, os i ddamnedigaeth, ni eill moddion wneuthur iddo ddim daioni.* Am hyny nid yw holl weithredoedd Duwioldeb ond ofer. Eithr ef ddylai ddyscu ddarfod i Duw ragddarparu ar y *moddion*, fel ar y *diwedd.* Yr hwn gan hyny a ddarparodd Duw i fod yn gadwedig, hyny yw, at y diwedd, a ddarfu iddo ei ddarparu yn gyntaf i gael ei *alw*, a'i sancteiddio, a'i wneuthur un agwedd a llun ei Fab, yr hyn yw y moddion, a'r rhai (medd Pedr) *a ddewisodd i iechydwriaeth*, a ddewiswyd hefyd *i sancteiddiad yr Yspryd:* 1 Petr ii. 16; Rhuf. viii. 20, 30. Os tydi gan hyny ar dy alwad a'th osodi dy hun at air, ac agwedd Crist dy Arglwydd, ac a ufuddhei i ddaionus gynhyrfiadau yr Yspryd Glân, trwy ymadael â phechod, a byw mewn buchedd dduwiol: yna bydded ddïogel gennit, dy fod yn un o'r rheini, yn ddïammau a ragddarparwyd i iechydwriaeth tragywyddol. Os amgen, na feia ar ragddarpariad Duw, ond ar dy bechod dy hun, a'th wrthryfelgarwch. Ymchwel di at Duw, a Duw yn rasusawl a'th dderbyn di, fel y derbyniodd *y Tad y mab afradlon;* ac wrth dy droad, fe fydd eglur, yn gystal i angylion ac i ddynion, *dy fod yn perthyn i'w etholedigaeth ef:* Luc xv. 10, 24. Onis gwnei, paham yr achub Duw dydi?

"3. Pan glywo y Cristion cnawdol, nad oes gan ddŷn rydd-did ewyllys at ddaioni, y mae ef yn gollwng awen ei ffrwyn at ei feddwl llygredig ei hun, fel ped fai heb allu nac ymattal, nac ymgospi; yn ddigwyddedig yn gwneuthur Duw yn awdur o bechod, gan iddo ef oddef i ddŷn redeg i'r angenrhaid yma. Ond efe a ddylai wybod roddi o Dduw i *Adda* rydd-did ewyllys, i sefyll yn ei ddiniweidrwydd, os mynnai, eithr dŷn a gamarferodd ei ewyllys rhydd ac a'i collodd ei hun, ac yntau. Gwedi y cwymp y mae i ddŷn ynghyflwr llygredigaeth ewyllys rhydd at y drwg, ac nid at y da. O blegid yn yr stât hon (medd yr Apostol) nid ydym ni yn gallael meddylied un meddwl da: 2 Cor. iii. 5. Ac nid ydyw Duw rwymedig i roi i ni eilwaith yr hyn a gollasom yn enbydus, heb gymmeryd gofal mwyach am ei ynnill drachefn. Ond cyd gynted ag y byddo dŷn yn adgenedledig, *y mae gras Duw yn hyfforddi ei ewyllys at ddaioni*, fel y mae efe yn gwneuthur yr holl bethau da a'r a wnelo, âg ewyllys rhydd: O blegid felly y mae yr Apostol yn dywedyd fod Duw *o'i ewyllys da, yn gweithredu ynom yn gystal yr ewyllys, a'r gwaith:* Phil. ii. 12; 2 Cor. vii. 1. Y rhai (fel y mae yr Apostol yn ei ddeongl) 'ydym yn ein glanhau ein hunain oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio ein sancteiddrwydd yn ofn Duw.' Ac yn y cyflwr yma, y mae i bob Cristion ewyllys rhydd; ac fel y mae yn cynhyddu mewn gras, felly y mae ei ewyllys yn cynhyddu mewn rhydd-did: O blegid pan fo 'y Mab yn ein gwneuthur ni yn rhydd, yno yr ydym ni yn rhydd ddïogel:' ac 'lle bo Yspryd yr Arglwydd yno y mae rhydd-did:' Ioan viii. 36; 2 Cor. iii. 17. Canys y mae yr Yspryd sanctaidd yn *tynnu* eu meddyliau: Ioan vi. 44. Nid o'i hanfodd, ond trwy raffau cariad: Can. i. 4. Gan lewyrchu eu meddyliau i adnabod y gwirionedd; gan gyfnewidio eu calonau i garu y gwirionedd adnabyddus; gan nerthu pob un o honynt (yn ol y gras a dderbyniodd) i wneuthur y daioni, yr hyn y mae yn ei garu. Eithr nid wyt ti yn arferu mo rydd-did dy feddwl, cyn belled ag y rhoes Duw ef yn rhydd: O herwydd yr ydwyd ti yn fynych yn ewyllysgar (yn erbyn cyfraith Dduw i beryglu dy enaid dy hun) yn gwneuthur peth, yr hyn ped fai cyfraith y Brenin dan boen marwolaeth, neu golli dy dda, yn ei wahardd, neu yn ei wrthwynebu, nis gwneit. Na wna gan hyny mo'th ddiffyg *ewyllys rhydd i ddaioni*, i fod yn gymmaint achos o'th waith yn pechu, ag yw eisiau calon gariadus i wasanaethu dy Dad nefol.

"4. Pan glywo y dŷn cnawdol, na ddichon neb (er pan gwympodd Adda) gyflawni cyfraith Dduw, a chadw ei holl orchymynion: Y mae ef yn hyfedr i bechu yn rhyfygus fel rhai eraill: ac yn ei foddloni ei hun âg ychydig feddyliau da: ac onid yw ef yn gwbl gynddrwg a'r gwaethaf, y mae ef yn gweled ei fod ei hun yn gystal adgenedledig ag yw y gorau. Ac y mae ef yn cyfrif pob ewyllysgar nacâu o wneuthur daioni, neu o wrthwynebu y drwg, yn amhosibilrwydd y gyfraith. Eithr ef a ddylai ddysgu, er (yn ol y cwymp) na allodd neb ond Crist (yr hwn oedd yn Dduw ac yn ddŷn) gyflawni yr holl gyfraith yn berffaith: etto y mae pob gwir Gristion, cyn gynted ag ei bo yn adgenedledig, yn dechrau cadw holl orchymynion Duw mewn gwirionedd, er nas geill mewn perffeithrwydd cyflawn. Ac

* Dyma *ragddarparu* i ddamnedigaeth cystal ag i gadwedigaeth! Y mae'n rhyfedd fod prif ysgrifenwyr yr oesoedd tywyll hyn yn dal yr athrawiaeth anysgrythyrol a dychrynllyd o wrthodedigaeth.—GOL.

Digitized by Google

hyn fydd briodol i'r naill, weithiau hefyd i'w briodoli i'r llall. Megis *pwrcasu o Dduw yr eglwys â'i briod waed; ac y barna efe y byd drwy y Gŵr yr hwn a ordeiniodd efe:* Act. xx. 28; ac xvii. 31. O hyn y canlyn, er bod dynol ryw Crist yn gauedig, ac am hyny yn derfynol, ac yn gynnwysedig anian, ac na ddichon bod yn bresennol ymhob man, trwy osodiad gweithredol, neu gynhwysiad cyfleus yn ol ei hanfod naturiol: etto o herwydd bod ganddo wedi ei gyfranu ato Bersonol hanfod Mab Duw, yr hwn sydd anfeidrol ac anherfynedig, a chwedi ei uno â Duw yn y cyfryw fodd, ac na ellir yn unlle byth ei wahanu oddi wrth Dduw, am hyny y gellir dywedyd am *gorph Crist* ei fod o herwydd ei bersonol hanfod ymhob lle."

Nid ydym yn tybied bod y Dr. Bayly ei hun yn deall y frawddeg olaf yn y difyniad uchod,* ac am hyny nid awn i'r drafferth i geisio ei hesponio. Ar ol traethu am y gweithrediadau drwy y rhai y gwahanredir y tri Pherson, y mae yn myned ym mlaen i son am briodoliaethau y Duwdod, y rhai a ddosperthir ganddo yn ddau fath, sef galwedigol a hanfodol. Y priodoliaethau galwedigol ydynt o dri math: 1. Y rhai a arwyddocânt sylwedd Duw, sef *Jehofah*, *Eheieh*, *Jah*, *Curios* (Arglwydd), *Theos* (Duw.) 2. Y rhai a arwyddocânt y Personau yn yr hanfod, o ba rai ni roddir ond un engrafft, sef *Elohim*. 3. Y rhai a arwyddocânt sylweddol weithredoedd Duw, sef *El*, *Shaddai*, *Adonai*, *Helion*, *Abba*. Hyd yma am y priodoliaethau enwol. Y dosparth nesaf yw y priodoliaethau hanfodol, neu, fel y geilw y cyfieithydd hwynt mewn man arall, "y priodoliaethau sylweddol," y rhai ydynt o ddau fath, naill ai anghyffredinol ai ymgyfattebol. "Y priodoliaethau anghyffredinol ydynt gyfryw ag na allant mewn neb rhyw fodd gyttuno (neu weddu) i un math ar greadur, ond i Dduw yn unig. Y rhai hyn ydynt ddau, sef digymmysgedd ac anherfynoldeb." Ac o'r ddau hyn y mae tri eraill o briodoliaethau anghyffredin yn tarddu allan: 1. "Ammesuredigaeth, neu boblleaeth, trwy yr hyn y mae ef o anherfynedig amgyrraedd yn llenwi y nefoedd a'r ddaear, ac yn cynnwys pob lleoedd heb yspaid, lle, neu derfyn yn dichon ei gynnwys ef, ac heb fod absennol yn unlle, y mae yn bresennol ymhob lle." Y mae ei bresennoldeb yn gyffredinol, "ymhob lle yn llawnedigaidd, eithr nid yn unlle yn gynnwysedigaidd;" ond yn enwedigol yn y nefoedd, yn fwy enwedigol yn ei saint, ac yn fwyaf enwedigol yng Nghrist yn gorphorol. 2. Anghyfnewidioldeb, "trwy yr hyn y mae Duw heb gyfnewid oll; yn gystal o herwydd ei sylwedd, a'i ewyllys." 3. Tragywyddoldeb, "trwy yr hwn y mae Duw heb ddechreuad i'w ddyddiau, na diwedd i'w amser; ac heb derfynau, o ran rhagfynegiad neu ol-ddilyniad." Hyd yn hyn am y priodoliaethau anghyffredin, perthynol i Dduw yn unig. Bellach am y rhai ymgyfattebol, neu, fel y gelwir hwynt mewn lle arall, "y rhai tueddol, neu y cyfryw ag a edrychant tu a'r creaduriaid." Y rhai hyn ydynt bump, sef bywyd, deall, ewyllys, gallu, mawrhydi. Dan y pen o ewyllys Duw y cynhwysir cariad, cyfiawnder, trugaredd, daioni, gwirionedd, amynedd, sancteiddrwydd, a digofaint. Dyma grynhodeb o olygiadau yr awdur ar y priodoliaethau, y rhai, er bod ynddynt lawer o gywreinrwydd, ni ddymunem gael ein gosod dan yr angenrheidrwydd o'u hamddiffyn yn gyflawn fel y maent. Ond yn y lle nesaf, yr ydym yn cael myfyrdodau am drueni dŷn heb ei gymmodi â Duw yng Nghrist. Yma etto cawn raniadau ac adraniadau, ac is-adraniadau. Ystyrir trueni dŷn—1. Yn ei fywyd; 2. Yn ei farwolaeth; 3. Ar ol ei farwolaeth. Trueni dŷn yn ei fywyd a renir drachefn yn ddau fath: 1. Trueni sy'n dilyn ei gorph; 2. Y trueni sy'n gwrthuno ei enaid. Ac eilwaith, disgrifir y trueni sy'n canlyn y corph yn ol trefn pedair oes dŷn: 1. Mebyd; 2. Ieuengctid; 3. Oedran gŵr; 4. Henaint. Rhoddir darluniad nerthol o drueni y corph a'r enaid wrth farw, ac yn ol marwolaeth, yr hyn yw cyflawnder melldigedigrwydd. Ac yna, heb son am y ffordd i waredu dŷn o'i drueni, anrhegir ni â myfyrdodau am gyflwr Cristion wedi ei gymmodi â Duw yng Nghrist, ynghyd â'i ddedwyddwch yn ei farwolaeth, yn ol ei farwolaeth, ac yn y nef "gwedi y derbynio efe ei farn o ollyngdod, ger bron brawdle Crist, ar ddydd y farn ddiweddaf." Ar ol gwasgu yr ystyriaethau hyn yn ddwys at gydwybodau y darllenwyr, eir ym mlaen at y rhwystrau sydd yn attal y pechadur oddi wrth ymarfer duwioldeb, y rhai ydynt saith yn arbenig, sef: 1. Camgymmeryd yn anwybodus iawn ddeall rhyw fannau o'r Ysgrythyr Sanctaidd,

* Yn wir, yr ydym yn credu y gallasai yr ysgrifenydd galluog ddywedyd yr un peth am braidd holl frawddegau y difyniad: o leiaf, y maent yn ymddangos i ni yn llawer tebycach i "philosophi a gwag dwyll," nag i "eiriau gwirionedd a sobrwydd" yr Ysgrythyr Lân. Ymddengys i ni nas dichon iaith draethu ymadroddion symlach ac eglurach na'r rhai canlynol, a'u cyffelyb:—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair." "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd." "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad." "Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynnof finnau." "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd." "O blegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." Y mae'r ymadroddion Ysgrythyrol hyn, a'u cyffelyb, yn ymddangos i ni yn berffaith eglur a diamwys; ond wfft byth i'r esponiadau arnynt, megis yr eiddo y Dr. Bayly, a'i gyffelyb, rhag eu dyryswch a'u tywyllwch!—Gol.

Digitized by Google

a rhyw fannau o brif byngciau crefydd Gristionogol; 2. Drwy esiamplau y gwŷr mawr; 3. Dïange yn hir heb haeddedigol gosp yn y bywyd hwn; 4. Rhyfygu o drugaredd Duw; 5. Cyfeillach ddrwg, yr hyn yn gyffredin a elwir cymdeithion da; 6. Ofn meddylgar, rhag i ymarfer â duwioldeb wneuthur gŵr (yn enwedig gŵr ieuangc) i fod yn rhy brudd ac yn bendrwm; 7. Gobaith o hir eisoes. Dan y pen cyntaf cawn y sylwadau canlynol ar y camgymmeriadau am rai o brif byngciau crefydd:—

"Seiliau crefydd a gamgymmerir ydynt:—

"1. Oddi wrth athrawiaeth *cyfiawnhâd* trwy ffydd yn unig: Cristion cnawdol a gasgl; nad ydyw gweithredoedd da angenrheidiol, y mae'n canmol eraill a wnelo weithredoedd da, eithr y mae ef yn coelio am dano ef ei hun y bydd efe cadwedig trwy ei ffydd, heb wneuthur dim o'r fath bethau. Ond ef a ddylai wybod, er nad yw gweithredoedd da angenrheidiol i gyfiawnhau dŷn; etto y maent yn angenrheidiol i iechydwriaeth; 'Canys *gwaith Duw ydym wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw i ni rodio ynddynt:*' Eph. ii. 10. Pwy bynag gan hyny mewn oedran a synwyr ni wnel weithredoedd da wedi ei alw, ni eill ef fod yn gadwedig: ac ni ragddarparwyd ef erioed i fywyd tragywyddol. Am hyny y dywed yr ysgrythyr y tâl *Crist i bob dŷn yn ol ei weithredoedd:* Rhuf. ii. 6; 2 Cor. ix. 6; Dat. xxii. 12. Nid yw Crist yn gwneuthur cyfrif o ddim oedd yn yr Angylion a'r saith eglwys, ond o'u gweithredoedd: Dat. ii. a'r iii. Ac yn y dydd diwaethaf, ef a rydd yr *etifeddiaeth* nefol yn unig i'r rhai a wnaethant weithredoedd da, yn porthi y newynog, yn dilladu y noeth, ac felly: Math. xxv. Yn y dydd hwnw *cyfiawnder* a wisg y goron: 2 Tim. iv. 8. Heb *gyfiawnder*, heb *goron*, heb *weithredoedd* da (yn ol ei dalent) heb *wobr* gan Dduw, oddi eithr dïal. Bod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da ydyw y sail gadarnaf o'n sierwydd ni i dderbyn bywyd tragywyddol: 1 Tim. vi. 19. O blegid gweithredoedd da ydynt wir ffrwythau gwir ffydd, yr hon sydd yn ymaflyd yng Nghrist a'i ufudd-dod i iechydwriaeth. Ac nid oes ffydd arall *yn lleshau yng Nghrist, ond yr hon sy'n gweithredu trwy gariad:* Gal. iii. 6.

"Ac (oddi eithr yngweithred cyfiawnhâd) y ffydd, yr hon sydd yn unig yn cyfiawnhau, nid yw yn unig un amser, eithr ynghyd â gweithredoedd da: Fel y pren a'i ffrwyth, yr haul a'i lewyrch, y tân a'i wres, y dwfr a'i wlybaniaeth. A'r ffydd honno, yr hon nid ymgyfiawnha trwy weithredoedd da o flaen dynion, nid yw ond *ffydd farwol:* yr hon ni chyfiawnha fyth enaid dyn o flaen Duw: Iago ii. 26. Ond y ffydd sydd yn cyfiawnhau a *bureiddia y galon, ac a sancteiddia yr holl ddŷn* trwyddo: Act. xi. 9; 1 Thes. v. 23.

"2. Oddi wrth athrawiaeth tragywyddol *ragddarpariad* Duw a'i ddigyfnewidiol *osodiad*, y mae yn casglu: Os rhagddarparwyd ef i fod yn gadwedig, ni eill ef amgen na bo, os i ddamnedigaeth, ni eill moddion wneuthur iddo ddim daioni.* Am hyny nid yw holl weithredoedd Duwioldeb ond ofer. Eithr ef ddylai ddyscu ddarfod i Duw ragddarparu ar y *moddion*, fel ar y *diwedd*. Yr hwn gan hyny a ddarparodd Duw i fod yn gadwedig, hyny yw, at y diwedd, a ddarfu iddo ei ddarparu yn gyntaf i gael ei *alw*, a'i sancteiddio, a'i wneuthur un agwedd a llun ei Fab, yr hyn yw y moddion, a'r rhai (medd Pedr) *a ddewisodd i iechydwriaeth*, a ddewiswyd hefyd i *sancteiddiad yr Yspryd:* 1 Petr ii. 16; Rhuf. viii. 20, 30. Os tydi gan hyny ar dy alwad a'th osodi dy hun at air, ac agwedd Crist dy Arglwydd, ac a ufuddhei i ddaionus gynhyrfiadau yr Yspryd Glân, trwy ymadael â phechod, a byw mewn buchedd dduwiol: yna bydded ddïogel gennit, dy fod yn un o'r rheini, yn ddïammau a ragddarparwyd i iechydwriaeth tragywyddol. Os amgen, na feia ar ragddarpariad Duw, ond ar dy bechod dy hun, a'th wrthryfelgarwch. Ymchwel di at Duw, a Duw yn rasusawl a'th dderbyn di, fel y derbyniodd *y Tad y mab afradlon;* ac wrth dy droad, fe fydd eglur, yn gystal i angylion ac i ddynion, *dy fod yn perthyn i'w etholedigaeth ef:* Luc xv. 10, 24. Onis gwnei, paham yr achub Duw dydi?

"3. Pan glywo y Cristion cnawdol, nad oes gan ddŷn rydd-did ewyllys at ddaioni, y mae ef yn gollwng awen ei ffrwyn at ei feddwl llygredig ei hun, fel ped fai heb allu nac ymattal, nac ymgospi; yn ddigwyddedig yn gwneuthur Duw yn awdur o bechod, gan iddo ef oddef i ddŷn redeg i'r angenrhaid yma. Ond efe a ddylai wybod roddi o Dduw i *Adda* rydd-did ewyllys, i sefyll yn ei ddiniweidrwydd, os mynnai, eithr dŷn a gamarferodd ei ewyllys rhydd ac a'i collodd ei hun, ac yntau. Gwedi y cwymp y mae i ddŷn ynghyflwr llygredigaeth ewyllys rhydd at y drwg, ac nid at y da. O blegid yn yr stât hon (medd yr Apostol) nid ydym ni yn gallael meddylied un meddwl da: 2 Cor. iii. 5. Ac nid ydyw Duw rwymedig i roi i ni eilwaith yr hyn a gollasom yn enbydus, heb gymmeryd gofal mwyach am ei ynnill drachefn. Ond cyd gynted ag y byddo dŷn yn adgenedledig, *y mae gras Duw yn hyfforddi ei ewyllys at ddaioni*, fel y mae efe yn gwneuthur yr holl bethau da a'r a wnelo, âg ewyllys rhydd: O blegid felly y mae yr Apostol yn dywedyd fod Duw *o'i ewyllys da, yn gweithredu ynom yn gystal yr ewyllys, a'r gwaith:* Phil. ii. 12; 2 Cor. vii. 1. Y rhai (fel y mae yr Apostol yn ei ddeongl) 'ydym yn ein glanhau ein hunain oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio ein sancteiddrwydd yn ofn Duw.' Ac yn y cyflwr yma, y mae i bob Cristion ewyllys rhydd; ac fel y mae yn cynhyddu mewn gras, felly y mae ei ewyllys yn cynhyddu mewn rhydd-did: O blegid pan fo 'y Mab yn ein gwneuthur ni yn rhydd, yno yr ydym ni yn rhydd ddïogel:' ac 'lle bo Yspryd yr Arglwydd yno y mae rhydd-did:' Ioan viii. 36; 2 Cor. iii. 17. Canys y mae yr Yspryd sanctaidd yn *tynnu* eu meddyliau: Ioan vi. 44. Nid o'i hanfodd, ond trwy raffau cariad: Can. i. 4. Gan lewyrchu eu meddyliau i adnabod y gwirionedd; gan gyfnewidio eu calonau i garu y gwirionedd adnabyddus; gan nerthu pob un o honynt (yn ol y gras a dderbyniodd) i wneuthur y daioni, yr hyn y mae yn ei garu. Eithr nid wyt ti yn arferu mo rydd-did dy feddwl, cyn belled ag y rhoes Duw ef yn rhydd: O herwydd yr ydwyd ti yn fynych yn ewyllysgar (yn erbyn cyfraith Dduw i beryglu dy enaid dy hun) yn gwneuthur peth, yr hyn ped fai cyfraith y Brenin dan boen marwolaeth, neu golli dy dda, yn ei wahardd, neu yn ei wrthwynebu, nis gwneit. Na wna gan hyny mo'th ddiffyg *ewyllys rhydd i ddaioni*, i fod yn gymmaint achos o'th waith yn pechu, ag yw eisiau calon gariadus i wasanaethu dy Dad nefol.

"4. Pan glywo y dŷn cnawdol, na ddichon neb (er pan gwympodd Adda) gyflawni cyfraith Dduw, a chadw ei holl orchymynion: Y mae ef yn hyfedr i bechu yn rhyfygus fel rhai eraill: ac yn ei foddloni ei hun âg ychydig feddyliau da: ac onid yw ef yn gwbl gynddrwg a'r gwaethaf, y mae ef yn gweled ei fod ei hun yn gystal adgenedledig ag yw y gorau. Ac y mae ef yn cyfrif pob ewyllysgar nacâu o wneuthur daioni, neu o wrthwynebu y drwg, yn amhosibilrwydd y gyfraith. Eithr ef a ddylai ddysgu, er (yn ol y cwymp) na allodd neb ond Crist (yr hwn oedd yn Dduw ac yn ddŷn) gyflawni yr holl gyfraith yn berffaith: etto y mae pob gwir Gristion, cyn gynted ag ei bo yn adgenedledig, yn dechrau cadw holl orchymynion Duw mewn gwirionedd, er nas geill mewn perffeithrwydd cyflawn. Ac

* Dyma *ragddarparu* i ddamnedigaeth cystal ag i gadwedigaeth! Y mae'n rhyfedd fod prif ysgrifenwyr yr oesoedd tywyll hyn yn dal yr athrawiaeth anysgrythyrol a dychrynllyd o wrthodedigaeth.—GOL.

Digitized by Google

hyn fydd briodol i'r naill, weithiau hefyd i'w briodoli i'r llall. Megis *pwrcasu o Dduw yr eglwys â'i briod waed; ac y barna efe y byd drwy y Gŵr yr hwn a ordeiniodd efe:* Act. xx. 28; ac xvii. 31. O hyn y canlyn, er bod dynol ryw Crist yn gauedig, ac am hyny yn derfynol, ac yn gynnwysedig anian, ac na ddichon bod yn bresennol ymhob man, trwy osodiad gweithredol, neu gynhwysiad cyfleus yn ol ei hanfod naturiol: etto o herwydd bod ganddo wedi ei gyfranu ato Bersonol hanfod Mab Duw, yr hwn sydd anfeidrol ac anherfynedig, a chwedi ei uno â Duw yn y cyfryw fodd, ac na ellir yn unlle byth ei wahanu oddi wrth Dduw, am hyny y gellir dywedyd am *gorph Crist* ei fod o herwydd ei bersonol hanfod ymhob lle."

Nid ydym yn tybied bod y Dr. Bayly ei hun yn deall y frawddeg olaf yn y difyniad uchod,* ac am hyny nid awn i'r drafferth i geisio ei hesponio. Ar ol traethu am y gweithrediadau drwy y rhai y gwahanredir y tri Pherson, y mae yn myned ym mlaen i son am briodoliaethau y Duwdod, y rhai a ddosperthir ganddo yn ddau fath, sef galwedigol a hanfodol. Y priodoliaethau galwedigol ydynt o dri math: 1. Y rhai a arwyddocânt sylwedd Duw, sef *Jehofah*, *Eheieh*, *Jah*, *Curios* (Arglwydd), *Theos* (Duw.) 2. Y rhai a arwyddocânt y Personau yn yr hanfod, o ba rai ni roddir ond un engrafft, sef *Elohim*. 3. Y rhai a arwyddocânt sylweddol weithredoedd Duw, sef *El*, *Shaddai*, *Adonai*, *Helion*, *Abba*. Hyd yma am y priodoliaethau enwol. Y dosparth nesaf yw y priodoliaethau hanfodol, neu, fel y geilw y cyfieithydd hwynt mewn man arall, "y priodoliaethau sylweddol," y rhai ydynt o ddau fath, naill ai anghyffredinol ai ymgyfattebol. "Y priodoliaethau anghyffredinol ydynt gyfryw ag na allant mewn neb rhyw fodd gyttuno (neu weddu) i un math ar greadur, ond i Dduw yn unig. Y rhai hyn ydynt ddau, sef digymmysgedd ac anherfynoldeb." Ac o'r ddau hyn y mae tri eraill o briodoliaethau anghyffredin yn tarddu allan: 1. "Ammesuredigaeth, neu boblleaeth, trwy yr hyn y mae ef o anherfynedig amgyrraedd yn llenwi y nefoedd a'r ddaear, ac yn cynnwys pob lleoedd heb yspaid, lle, neu derfyn yn dichon ei gynnwys ef, ac heb fod absennol yn unlle, y mae yn bresennol ymhob lle." Y mae ei bresennoldeb yn gyffredinol, "ymhob lle yn llawnedigaidd, cithr nid yn unlle yn gynnwysedigaidd;" ond yn enwedigol yn y nefoedd, yn fwy enwedigol yn ei saint, ac yn fwyaf enwedigol yng Nghrist yn gorphorol. 2. Anghyfnewidioldeb, "trwy yr hyn y mae Duw heb gyfnewid oll; yn gystal o herwydd ei sylwedd, a'i ewyllys." 3. Tragywyddoldeb, "trwy yr hwn y mae Duw heb ddechreuad i'w ddyddiau, na diwedd i'w amser; ac heb derfynau, o ran rhagfynegiad neu ol-ddilyniad." Hyd yn hyn am y priodoliaethau anghyffredin, perthynol i Dduw yn unig. Bellach am y rhai ymgyfattebol, neu, fel y gelwir hwynt mewn lle arall, "y rhai tueddol, neu y cyfryw ag a edrychant tu a'r creaduriaid." Y rhai hyn ydynt bump, sef bywyd, deall, ewyllys, gallu, mawrhydi. Dan y pen o ewyllys Duw y cynhwysir cariad, cyfiawnder, trugaredd, daioni, gwirionedd, amynedd, sancteiddrwydd, a digofaint. Dyma grynhodeb o olygiadau yr awdur ar y priodoliaethau, y rhai, er bod ynddynt lawer o gywreinrwydd, ni ddymunem gael ein gosod dan yr angenrheidrwydd o'u hamddiffyn yn gyflawn fel y maent. Ond yn y lle nesaf, yr ydym yn cael myfyrdodau am drueni dŷn heb ei gymmodi â Duw yng Nghrist. Yma etto cawn raniadau ac adraniadau, ac is-adraniadau. Ystyrir trueni dŷn—1. Yn ei fywyd; 2. Yn ei farwolaeth; 3. Ar ol ei farwolaeth. Trueni dŷn yn ei fywyd a renir drachefn yn ddau fath: 1. Trueni sy'n dilyn ei gorph; 2. Y trueni sy'n gwrthuno ei enaid. Ac eilwaith, disgrifir y trueni sy'n canlyn y corph yn ol trefn pedair oes dŷn: 1. Mebyd; 2. Ieuengctid; 3. Oedran gŵr; 4. Henaint. Rhoddir darluniad nerthol o drueni y corph a'r enaid wrth farw, ac yn ol marwolaeth, yr hyn yw cyflawnder melldigedigrwydd. Ac yna, heb son am y ffordd i waredu dŷn o'i drueni, anrhegir ni â myfyrdodau am gyflwr Cristion wedi ei gymmodi â Duw yng Nghrist, ynghyd â'i ddedwyddwch yn ei farwolaeth, yn ol ei farwolaeth, ac yn y nef "gwedi y derbynio efe ei farn o ollyngdod, ger bron brawdle Crist, ar ddydd y farn ddiweddaf." Ar ol gwasgu yr ystyriaethau hyn yn ddwys at gydwybodau y darllenwyr, eir ym mlaen at y rhwystrau sydd yn attal y pechadur oddi wrth ymarfer duwioldeb, y rhai ydynt saith yn arbenig, sef: 1. Camgymmeryd yn anwybodus iawn ddeall rhyw fannau o'r Ysgrythyr Sanctaidd,

* Yn wir, yr ydym yn credu y gallasai yr ysgrifenydd galluog ddywedyd yr un peth am braidd holl frawddegau y difyniad: o leiaf, y maent yn ymddangos i ni yn llawer tebycach i "philosophi a gwag dwyll," nag i "eiriau gwirionedd a sobrwydd" yr Ysgrythyr Lân. Ymddengys i ni nas dichon iaith draethu ymadroddion symlach ac eglurach na'r rhai canlynol, a'u cyffelyb:—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair." "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd." "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad." "Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynnof finnau." "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd." "O blegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." Y mae'r ymadroddion Ysgrythyrol hyn, a'u cyffelyb, yn ymddangos i ni yn berffaith eglur a diamwys; ond wfft byth i'r esponiadau arnynt, megis yr eiddo y Dr. Bayly, a'i gyffelyb, rhag eu dyrysed a'u tywylled!—Gol.

hyn fydd briodol i'r naill, weithiau hefyd i'w briodoli i'r llall. Megis *pwrcasu o Dduw yr eglwys â'i briod waed; ac y barna efe y byd drwy y Gŵr yr hwn a ordeiniodd efe:* Act. xx. 28; ac xvii. 31. O hyn y canlyn, er bod dynol ryw Crist yn gauedig, ac am hyny yn derfynol, ac yn gynnwysedig anian, ac na ddichon bod yn bresennol ymhob man, trwy osodiad gweithredol, neu gynhwysiad cyfleus yn ol ei hanfod naturiol: etto o herwydd bod ganddo wedi ei gyfranu ato Bersonol hanfod Mab Duw, yr hwn sydd anfeidrol ac anherfynedig, a chwedi ei uno â Duw yn y cyfryw fodd, ac na ellir yn unlle byth ei wahanu oddi wrth Dduw, am hyny y gellir dywedyd am *gorph Crist* ei fod o herwydd ei bersonol hanfod ymhob lle."

Nid ydym yn tybied bod y Dr. Bayly ei hun yn deall y frawddeg olaf yn y difyniad uchod,* ac am hyny nid awn i'r drafferth i geisio ei hesponio. Ar ol traethu am y gweithrediadau drwy y rhai y gwahanredir y tri Pherson, y mae yn myned ym mlaen i son am briodoliaethau y Duwdod, y rhai a ddosperthir ganddo yn ddau fath, sef galwedigol a hanfodol. Y priodoliaethau galwedigol ydynt o dri math: 1. Y rhai a arwyddocânt sylwedd Duw, sef *Jehofah*, *Eheieh*, *Jah*, *Curios* (Arglwydd), *Theos* (Duw.) 2. Y rhai a arwyddocânt y Personau yn yr hanfod, o ba rai ni roddir ond un engrafft, sef *Elohim*. 3. Y rhai a arwyddocânt sylweddol weithredoedd Duw, sef *El*, *Shaddai*, *Adonai*, *Helion*, *Abba*. Hyd yma am y priodoliaethau enwol. Y dosparth nesaf yw y priodoliaethau hanfodol, neu, fel y geilw y cyfieithydd hwynt mewn man arall, "y priodoliaethau sylweddol," y rhai ydynt o ddau fath, naill ai anghyffredinol ai ymgyfattebol. "Y priodoliaethau anghyffredinol ydynt gyfryw ag na allant mewn neb rhyw fodd gyttuno (neu weddu) i un math ar greadur, ond i Dduw yn unig. Y rhai hyn ydynt ddau, sef digymmysgedd ac anherfynoldeb." Ac o'r ddau hyn y mae tri eraill o briodoliaethau anghyffredin yn tarddu allan: 1. "Ammesuredigaeth, neu boblleaeth, trwy yr hyn y mae ef o anherfynedig amgyrraedd yn llenwi y nefoedd a'r ddaear, ac yn cynnwys pob lleoedd heb yspaid, lle, neu derfyn yn dichon ei gynnwys ef, ac heb fod absennol yn unlle, y mae yn bresennol ymhob lle." Y mae ei bresennoldeb yn gyffredinol, "ymhob lle yn llawnedigaidd, eithr nid yn unlle yn gynnwysedigaidd;" ond yn enwedigol yn y nefoedd, yn fwy enwedigol yn ei saint, ac yn fwyaf enwedigol yng Nghrist yn gorphorol. 2. Anghyfnewidioldeb, "trwy yr hyn y mae Duw heb gyfnewid oll; yn gystal o herwydd ei sylwedd, a'i ewyllys." 3. Tragywyddoldeb, "trwy yr hwn y mae Duw heb ddechreuad i'w ddyddiau, na diwedd i'w amser; ac heb derfynau, o ran rhagfynegiad neu ol-ddilyniad." Hyd yn hyn am y priodoliaethau anghyffredin, perthynol i Dduw yn unig. Bellach am y rhai ymgyfattebol, neu, fel y gelwir hwynt mewn lle arall, "y rhai tueddol, neu y cyfryw ag a edrychant tu a'r creaduriaid." Y rhai hyn ydynt bump, sef bywyd, deall, ewyllys, gallu, mawrhydi. Dan y pen o ewyllys Duw y cynhwysir cariad, cyfiawnder, trugaredd, daioni, gwirionedd, amynedd, sancteiddrwydd, a digofaint. Dyma grynhodeb o olygiadau yr awdur ar y priodoliaethau, y rhai, er bod ynddynt lawer o gywreinrwydd, ni ddymunem gael ein gosod dan yr angenrheidrwydd o'u hamddiffyn yn gyflawn fel y maent. Ond yn y lle nesaf, yr ydym yn cael myfyrdodau am drueni dŷn heb ei gymmodi â Duw yng Nghrist. Yma etto cawn raniadau ac adraniadau, ac is-adraniadau. Ystyrir trueni dŷn—1. Yn ei fywyd; 2. Yn ei farwolaeth; 3. Ar ol ei farwolaeth. Trueni dŷn yn ei fywyd a renir drachefn yn ddau fath: 1. Trueni sy'n dilyn ei gorph; 2. Y trueni sy'n gwrthuno ei enaid. Ac eilwaith, disgrifir y trueni sy'n canlyn y corph yn ol trefn pedair oes dŷn: 1. Mebyd; 2. Ieuengctid; 3. Oedran gŵr; 4. Henaint. Rhoddir darluniad nerthol o drueni y corph a'r enaid wrth farw, ac yn ol marwolaeth, yr hyn yw cyflawnder melldigedigrwydd. Ac yna, heb son am y ffordd i waredu dŷn o'i drueni, anrhegir ni â myfyrdodau am gyflwr Cristion wedi ei gymmodi â Duw yng Nghrist, ynghyd â'i ddedwyddwch yn ei farwolaeth, yn ol ei farwolaeth, ac yn y nef "gwedi y derbynio efe ei farn o ollyngdod, ger bron brawdle Crist, ar ddydd y farn ddiweddaf." Ar ol gwasgu yr ystyriaethau hyn yn ddwys at gydwybodau y darllenwyr, eir ym mlaen at y rhwystrau sydd yn attal y pechadur oddi wrth ymarfer duwioldeb, y rhai ydynt saith yn arbenig, sef: 1. Camgymmeryd yn anwybodus iawn ddeall rhyw fannau o'r Ysgrythyr Sanctaidd,

* Yn wir, yr ydym yn credu y gallasai yr ysgrifenydd galluog ddywedyd yr un peth am braidd holl frawddegau y difyniad: o leiaf, y maent yn ymddangos i ni yn llawer tebycach i "philosophi a gwag dwyll," nag i "eiriau gwirionedd a sobrwydd" yr Ysgrythyr Lân. Ymddengys i ni nas dichon iaith draethu ymadroddion symlach ac eglurach na'r rhai canlynol, a'u cyffelyb:—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair." "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd." "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad." "Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynnof finnau." "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb: Duw a ymddangosodd yn y cnawd." "O blegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." Y mae'r ymadroddion Ysgrythyrol hyn, a'u cyffelyb, yn ymddangos i ni yn berffaith eglur a diamwys; ond wfft byth i'r esponiadau arnynt, megis yr eiddo y Dr. Bayly, a'i gyffelyb, rhag eu dyrysed a'u tywylled!—Gol.

Digitized by Google

a rhyw fannau o brif byngciau crefydd Gristionogol; 2. Drwy esiamplau y gwŷr mawr; 3. Dïange yn hir heb haeddedigol gosp yn y bywyd hwn; 4. Rhyfygu o drugaredd Duw; 5. Cyfeillach ddrwg, yr hyn yn gyffredin a elwir cymdeithion da; 6. Ofn meddylgar, rhag i ymarfer â duwioldeb wneuthur gŵr (yn enwedig gŵr ieuangc) i fod yn rhy brudd ac yn bendrwm; 7. Gobaith o hir einioes. Dan y pen cyntaf cawn y sylwadau canlynol ar y camgymmeriadau am rai o brif byngciau crefydd:—

"Seiliau crefydd a gamgymmerir ydynt:—

"1. Oddi wrth athrawiaeth *cyfiawnhâd* trwy ffydd yn unig: Cristion cnawdol a gasgl; nad ydyw gweithredoedd da angenrheidiol, y mae'n canmol eraill a wnelo weithredoedd da, eithr y mae ef yn coelio am dano ef ei hun y bydd efe cadwedig trwy ei ffydd, heb wneuthur dim o'r fath bethau. Ond ef a ddylai wybod, er nad yw gweithredoedd da angenrheidiol i gyfiawnhau dŷn; etto y maent yn angenrheidiol i iechydwriaeth; 'Canys *gwaith Duw ydym wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw i ni rodio ynddynt:*' Eph. ii. 10. Pwy bynag gan hyny mewn oedran a synwyr ni wnel weithredoedd da wedi ei alw, ni eill ef fod yn gadwedig: ac ni ragddarparwyd ef erioed i fywyd tragywyddol. Am hyny y dywed yr ysgrythyr y tâl *Crist i bob dŷn yn ol ei weithredoedd:* Rhuf. ii. 6; 2 Cor. ix. 6; Dat. xxii. 12. Nid yw Crist yn gwneuthur cyfrif o ddim oedd yn yr Angylion a'r saith eglwys, ond o'u gweithredoedd: Dat. ii. a'r iii. Ac yn y dydd diwaethaf, ef a rydd yr *etifeddiaeth* nefol yn unig i'r rhai a wnaethant weithredoedd da, yn porthi y newynog, yn dilladu y noeth, ac felly: Math. xxv. Yn y dydd hwnw *cyfiawnder* a wisg y goron: 2 Tim. iv. 8. Heb *gyfiawnder*, heb *goron*, heb *weithredoedd* da (yn ol ei dalent) heb *wobr* gan Dduw, oddi eithr dïal. Bod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da ydyw y sail gadarnaf o'n sicrwydd ni i dderbyn bywyd tragywyddol: 1 Tim. vi. 19. O blegid gweithredoedd da ydynt wir ffrwythau gwir ffydd, yr hon sydd yn ymaflyd yng Nghrist a'i ufudd-dod i iechydwriaeth. Ac nid oes ffydd arall *yn lleshau yng Nghrist, ond yr hon sy'n gweithredu trwy gariad:* Gal. iii. 6.

"Ac (oddi eithr yngweithred cyfiawnhâd) y ffydd, yr hon sydd yn unig yn cyfiawnhau, nid yw yn unig un amser, eithr ynghyd â gweithredoedd da: Fel y pren a'i ffrwyth, yr haul a'i lewyrch, y tân a'i wres, y dwfr a'i wlybaniaeth. A'r ffydd honno, yr hon nid ymgyfiawnha trwy weithredoedd da o flaen dynion, nid yw ond *ffydd farwol:* yr hon ni chyfiawnha fyth enaid dyn o flaen Duw: Iago ii. 26. Ond y ffydd sydd yn cyfiawnhau a *bureiddia y galon, ac a sancteiddia yr holl ddŷn* trwyddo: Act. xi. 9; 1 Thes. v. 23.

"2. Oddi wrth athrawiaeth tragywyddol *ragddarpariad* Duw a'i ddigyfnewidiol *osodiad*, y mae yn casglu: Os rhagddarparwyd ef i fod yn gadwedig, ni eill ef amgen na bo, os i ddamnedigaeth, ni eill moddion wneuthur iddo ddim daioni.* Am hyny nid yw holl weithredoedd Duwioldeb ond ofer. Eithr ef ddylai ddyscu ddarfod i Duw ragddarparu ar y *moddion*, fel ar y *diwedd*. Yr hwn gan hyny a ddarparodd Duw i fod yn gadwedig, hyny yw, at y diwedd, a ddarfu iddo ei ddarparu yn gyntaf i gael ei *alw*, a'i sancteiddio, a'i wneuthur un agwedd a llun ei Fab, yr hyn yw y moddion, a'r rhai (medd Pedr) *a ddewisodd i iechydwriaeth*, a ddewiswyd hefyd *i sancteiddiad yr Yspryd:* 1 Petr ii. 16; Rhuf. viii. 29, 30. Os tydi gan hyny ar dy alwad a'th osodi dy hun at air, ac agwedd Crist dy Arglwydd, ac a ufuddhei i ddaionus gynhyrfiadau yr Yspryd Glân, trwy ymadael â phechod, a byw mewn buchedd dduwiol: yna bydded ddïogel gennit, dy fod yn un o'r rheini, yn ddïammau a ragddarparwyd i iechydwriaeth tragywyddol. Os amgen, na feia ar ragddarpariad Duw, ond ar dy bechod dy hun, a'th wrthryfelgarwch. Ymchwel di at Duw, a Duw yn rasusawl a'th dderbyn di, fel y derbyniodd *y Tad y mab afradlon;* ac wrth dy droad, fe fydd eglur, yn gystal i angylion ac i ddynion, *dy fod yn perthyn i'w etholedigaeth ef:* Luc xv. 10, 24. Onis gwnei, paham yr achub Duw dydi?

"3. Pan glywo y Cristion cnawdol, nad oes gan ddŷn rydd-did ewyllys at ddaioni, y mae ef yn gollwng awen ei ffrwyn at ei feddwl llygredig ei hun, fel ped fai heb allu nac ymattal, nac ymgospi; yn ddigwyddedig yn gwneuthur Duw yn awdur o bechod, gan iddo ef oddef i ddŷn redeg i'r angenrhaid yma. Ond efe a ddylai wybod roddi o Dduw i *Adda* rydd-did ewyllys, i sefyll yn ei ddiniweidrwydd, os mynnai, eithr dŷn a gamarferodd ei ewyllys rhydd ac a'i collodd ei hun, ac yntau. Gwedi y cwymp y mae i ddŷn ynghyflwr llygredigaeth ewyllys rhydd at y drwg, ac nid at y da. O blegid yn yr stât hon (medd yr Apostol) nid ydym ni yn gallael meddylied un meddwl da: 2 Cor. iii. 5. Ac nid ydyw Duw rwymedig i roi i ni eilwaith yr hyn a gollasom yn enbydus, heb gymmeryd gofal mwyach am ei ynnill drachefn. Ond cyd gynted ag y byddo dŷn yn adgenedledig, *y mae gras Duw yn hyfforddi ei ewyllys at ddaioni*, fel y mae efe yn gwneuthur yr holl bethau da a'r a wnelo, âg ewyllys rhydd: O blegid felly y mae yr Apostol yn dywedyd fod Duw *o'i ewyllys da, yn gweithredu ynom yn gystal yr ewyllys, a'r gwaith:* Phil. ii. 12; 2 Cor. vii. 1. Y rhai (fel y mae yr Apostol yn ei ddeongl) 'ydym yn ein glanhau ein hunain oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio ein sancteiddrwydd yn ofn Duw.' Ac yn y cyflwr yma, y mae i bob Cristion ewyllys rhydd; ac fel y mae yn cynhyddu mewn gras, felly y mae ei ewyllys yn cynhyddu mewn rhydd-did: O blegid pan fo 'y Mab yn ein gwneuthur ni yn rhydd, yno yr ydym ni yn rhydd ddïogel:' ac 'lle bo Yspryd yr Arglwydd yno y mae rhydd-did:' Ioan viii. 36; 2 Cor. iii. 17. Canys y mae yr Yspryd sanctaidd yn *tynnu* eu meddyliau: Ioan vi. 44. Nid o'i hanfodd, ond trwy raffau cariad: Can. i. 4. Gan lewyrchu eu meddyliau i adnabod y gwirionedd; gan gyfnewidio eu calonau i garu y gwirionedd adnabyddus; gan nerthu pob un o honynt (yn ol y gras a dderbyniodd) i wneuthur y daioni, yr hyn y mae yn ei garu. Eithr nid wyt ti yn arferu mo rydd-did dy feddwl, cyn belled ag y rhoes Duw ef yn rhydd: O herwydd yr ydwyd ti yn fynych yn ewyllysgar (yn erbyn cyfraith Dduw i beryglu dy enaid dy hun) yn gwneuthur peth, yr hyn ped fai cyfraith y Brenin dan boen marwolaeth, neu golli dy dda, yn ei waharddl, neu yn ei wrthwynebu, nis gwneit. Na wna gan hyny mo'th ddiffyg *ewyllys rhydd i ddaioni*, i fod yn gymmaint achos o'th waith yn pechu, ag yw eisiau calon gariadus i wasanaethu dy Dad nefol.

"4. Pan glywo y dŷn cnawdol, na ddichon neb (er pan gwympodd Adda) gyflawni cyfraith Dduw, a chadw ei holl orchymynion: Y mae ef yn hyfedr i bechu yn rhyfygus fel rhai eraill: ac yn ei foddloni ei hun âg ychydig feddyliau da: ac onid yw ef yn gwbl gynddrwg a'r gwaethaf, y mae ef yn gweled ei fod ei hun yn gystal adgenedledig ag yw y gorau. Ac y mae ef yn cyfrif pob ewyllysgar nacâu o wneuthur daioni, neu o wrthwynebu y drwg, yn amhosibilrwydd y gyfraith. Eithr ef a ddylai ddysgu, er (yn ol y cwymp) na allodd neb ond Crist (yr hwn oedd yn Dduw ac yn ddŷn) gyflawni yr holl gyfraith yn berffaith: etto y mae pob gwir Gristion, cyn gynted ag ei bo yn adgenedledig, yn dechrau cadw holl orchymynion Duw mewn gwirionedd, er nas geill mewn perffeithrwydd cyflawn. Ac

* Dyma *ragddarparu* i ddamnedigaeth cystal ag i gadwedigaeth! Y mae'n rhyfedd fod prif ysgrifenwyr yr oesoedd tywyll hyn yn dal yr athrawiaeth anysgrythyrol a dychrynllyd o wrthodedigaeth.—Gol.

Digitized by Google

hyn fydd briodol i'r naill, weithiau hefyd i'w briodoli i'r llall. Megis *pwrcasu o Dduw yr eglwys â'i briod waed; ac y barna efe y byd drwy y Gŵr yr hwn a ordeiniodd efe:* Act. xx. 28; ac xvii. 31. O hyn y canlyn, er bod dynol ryw Crist yn gauedig, ac am hyny yn derfynol, ac yn gynnwysedig anian, ac na ddichon bod yn bresennol ymhob man, trwy osodiad gweithredol, neu gynhwysiad cyfleus yn ol ei hanfod naturiol: etto o herwydd bod ganddo wedi ei gyfranu ato Bersonol hanfod Mab Duw, yr hwn sydd anfeidrol ac anherfynedig, a chwedi ei uno â Duw yn y cyfryw fodd, ac na ellir yn unlle byth ei wahanu oddi wrth Dduw, am hyny y gellir dywedyd am *gorph Crist* ei fod o herwydd ei bersonol hanfod ymhob lle."

Nid ydym yn tybied bod y Dr. Bayly ei hun yn deall y frawddeg olaf yn y difyniad uchod,* ac am hyny nid awn i'r drafferth i geisio ei hesponio. Ar ol traethu am y gweithrediadau drwy y rhai y gwahanredir y tri Pherson, y mae yn myned ym mlaen i son am briodoliaethau y Duwdod, y rhai a ddosperthir ganddo yn ddau fath, sef galwedigol a hanfodol. Y priodoliaethau galwedigol ydynt o dri math: 1. Y rhai a arwyddocânt sylwedd Duw, sef *Jehofah*, *Eheieh*, *Jah*, *Curios* (Arglwydd), *Theos* (Duw.) 2. Y rhai a arwyddocânt y Personau yn yr hanfod, o ba rai ni roddir ond un engrafft, sef *Elohim*. 3. Y rhai a arwyddocânt sylweddol weithredoedd Duw, sef *El*, *Shaddai*, *Adonai*, *Helion*, *Abba*. Hyd yma am y priodoliaethau enwol. Y dosparth nesaf yw y priodoliaethau hanfodol, neu, fel y geilw y cyfieithydd hwynt mewn man arall, "y priodoliaethau sylweddol," y rhai ydynt o ddau fath, naill ai anghyffredinol ai ymgyfattebol. "Y priodoliaethau anghyffredinol ydynt gyfryw ag na allant mewn neb rhyw fodd gyttuno (neu weddu) i un math ar greadur, ond i Dduw yn unig. Y rhai hyn ydynt ddau, sef digymmysgedd ac anherfynoldeb." Ac o'r ddau hyn y mae tri eraill o briodoliaethau anghyffredin yn tarddu allan: 1. "Ammesuredigaeth, neu boblleaeth, trwy yr hyn y mae ef o anherfynedig amgyrraedd yn llenwi y nefoedd a'r ddaear, ac yn cynnwys pob lleoedd heb yspaid, lle, neu derfyn yn dichon ei gynnwys ef, ac heb fod absennol yn unlle, y mae yn bresennol ymhob lle." Y mae ei bresennoldeb yn gyffredinol, "ymhob lle yn llawnedigaidd, eithr nid yn unlle yn gynnwysedigaidd;" ond yn enwedigol yn y nefoedd, yn fwy enwedigol yn ei saint, ac yn fwyaf enwedigol yng Nghrist yn gorphorol. 2. Anghyfnewidioldeb, "trwy yr hyn y mae Duw heb gyfnewid oll; yn gystal o herwydd ei sylwedd, a'i ewyllys." 3. Tragywyddoldeb, "trwy yr hwn y mae Duw heb ddechreuad i'w ddyddiau, na diwedd i'w amser; ac heb derfynau, o ran rhagfynegiad neu ol-ddilyniad." Hyd yn hyn am y priodoliaethau anghyffredin, perthynol i Dduw yn unig. Bellach am y rhai ymgyfattebol, neu, fel y gelwir hwynt mewn lle arall, "y rhai tueddol, neu y cyfryw ag a edrychant tu a'r creaduriaid." Y rhai hyn ydynt bump, sef bywyd, deall, ewyllys, gallu, mawrhydi. Dan y pen o ewyllys Duw y cynhwysir cariad, cyfiawnder, trugaredd, daioni, gwirionedd, amynedd, sancteiddrwydd, a digofaint. Dyma grynhodeb o olygiadau yr awdur ar y priodoliaethau, y rhai, er bod ynddynt lawer o gywreinrwydd, ni ddymunem gael ein gosod dan yr angenrheidrwydd o'u hamddiffyn yn gyflawn fel y maent. Ond yn y lle nesaf, yr ydym yn cael myfyrdodau am drueni dŷn heb ei gymmodi â Duw yng Nghrist. Yma etto cawn raniadau ac adraniadau, ac is-adraniadau. Ystyrir trueni dŷn—1. Yn ei fywyd; 2. Yn ei farwolaeth; 3. Ar ol ei farwolaeth. Trueni dŷn yn ei fywyd a renir drachefn yn ddau fath: 1. Trueni sy'n dilyn ei gorph; 2. Y trueni sy'n gwrthuno ei enaid. Ac eilwaith, disgrifir y trueni sy'n canlyn y corph yn ol trefn pedair oes dŷn: 1. Mebyd; 2. Ieuengctid; 3. Oedran gŵr; 4. Henaint. Rhoddir darluniad nerthol o drueni y corph a'r enaid wrth farw, ac yn ol marwolaeth, yr hyn yw cyflawnder melldigedigrwydd. Ac yna, heb son am y ffordd i waredu dŷn o'i drueni, anrhegir ni â myfyrdodau am gyflwr Cristion wedi ei gymmodi â Duw yng Nghrist, ynghyd â'i ddedwyddwch yn ei farwolaeth, yn ol ei farwolaeth, ac yn y nef "gwedi y derbynio efe ei farn o ollyngdod, ger bron brawdle Crist, ar ddydd y farn ddiweddaf." Ar ol gwasgu yr ystyriaethau hyn yn ddwys at gydwybodau y darllenwyr, eir ym mlaen at y rhwystrau sydd yn attal y pechadur oddi wrth ymarfer duwioldeb, y rhai ydynt saith yn arbenig, sef: 1. Camgymmeryd yn anwybodus iawn ddeall rhyw fannau o'r Ysgrythyr Sanctaidd,

* Yn wir, yr ydym yn credu y gallasai yr ysgrifenydd galluog ddywedyd yr un peth am braidd holl frawddegau y difyniad: o leiaf, y maent yn ymddangos i ni yn llawer tebycach i "philosophi a gwag dwyll," nag i "eiriau gwirionedd a sobrwydd" yr Ysgrythyr Lân. Ymddengys i ni nas dichon iaith draethu ymadroddion symlach ac eglurach na'r rhai canlynol, a'u cyffelyb:—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair." "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd." "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad." "Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynnof finnau." "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb: Duw a ymddangosodd yn y cnawd." "O blegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." Y mae'r ymadroddion Ysgrythyrol hyn, a'u cyffelyb, yn ymddangos i ni yn berffaith eglur a diamwys; ond wfft byth i'r esponiadau arnynt, megis yr eiddo y Dr. Bayly, a'i gyffelyb, rhag eu dyrysed a'u tywylled!—Gol.

Digitized by Google

a rhyw fannau o brif byngciau crefydd Gristionogol; 2. Drwy esiamplau y gwŷr mawr; 3. Dïangc yn hir heb haeddedigol gosp yn y bywyd hwn; 4. Rhyfygu o drugaredd Duw; 5. Cyfeillach ddrwg, yr hyn yn gyffredin a elwir cymdeithion da; 6. Ofn meddylgar, rhag i ymarfer â duwioldeb wneuthur gŵr (yn enwedig gŵr ieuangc) i fod yn rhy brudd ac yn bendrwm; 7. Gobaith o hir eisoes. Dan y pen cyntaf cawn y sylwadau canlynol ar y camgymmeriadau am rai o brif byngciau crefydd:—

"Seiliau crefydd a gamgymmerir ydynt:—

"1. Oddi wrth athrawiaeth *cyfiawnhâd* trwy ffydd yn unig: Cristion cnawdol a gasgl; nad ydyw gweithredoedd da angenrheidiol, y mae'n canmol eraill a wnelo weithredoedd da, eithr y mae ef yn coelio am dano ef ei hun y bydd efe cadwedig trwy ei ffydd, heb wneuthur dim o'r fath bethau. Ond ef a ddylai wybod, er nad yw gweithredoedd da angenrheidiol i gyfiawnhau dŷn; etto y maent yn angenrheidiol i iechydwriaeth; 'Canys *gwaith Duw ydym wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw i ni rodio ynddynt:*' Eph. ii. 10. Pwy bynag gan hyny mewn oedran a synwyr ni wnel weithredoedd da wedi ei alw, ni eill ef fod yn gadwedig: ac ni ragddarparwyd ef erioed i fywyd tragywyddol. Am hyny y dywed yr ysgrythyr y tâl *Crist i bob dŷn yn ol ei weithredoedd:* Rhuf. ii. 6; 2 Cor. ix. 6; Dat. xxii. 12. Nid yw Crist yn gwneuthur cyfrif o ddim oedd yn yr Angylion a'r saith eglwys, ond o'u gweithredoedd: Dat. ii. a'r iii. Ac yn y dydd diwaethaf, ef a rydd yr *etifeddiaeth* nefol yn unig i'r rhai a wnaethant weithredoedd da, yn porthi y newynog, yn dilladu y noeth, ac felly: Math. xxv. Yn y dydd hwnw *cyfiawnder* a wisg y goron: 2 Tim. iv. 8. Heb *gyfiawnder*, heb *goron*, heb *weithredoedd* da (yn ol ei dalent) heb *wobr* gan Dduw, oddi eithr dïal. Bod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da ydyw y sail gadarnaf o'n sierwydd ni i dderbyn bywyd tragywyddol: 1 Tim. vi. 19. O blegid gweithredoedd da ydynt wir ffrwythau gwir ffydd, yr hon sydd yn ymaflyd yng Nghrist a'i ufudd-dod i iechydwriaeth. Ac nid oes ffydd arall *yn lleshau yng Nghrist, ond yr hon sy'n gweithredu trwy gariad:* Gal. iii. 6.

"Ac (oddi eithr yngweithred cyfiawnhâd) y ffydd, yr hon sydd yn unig yn cyfiawnhau, nid yw yn unig un amser, eithr ynghyd â gweithredoedd da: Fel y pren a'i ffrwyth, yr haul a'i lewyrch, y tân a'i wres, y dwfr a'i wlybaniaeth. A'r ffydd honno, yr hon nid ymgyfiawnha trwy weithredoedd da o flaen dynion, nid yw ond *ffydd farwol:* yr hon ni chyfiawnha fyth enaid dyn o flaen Duw: Iago ii. 26. Ond y ffydd sydd yn cyfiawnhau a *bureiddia y galon, ac a sancteiddia yr holl ddŷn* trwyddo: Act. xi. 9; 1 Thes. v. 23.

"2. Oddi wrth athrawiaeth tragywyddol *ragddarpariad* Duw a'i ddigyfnewidiol *osodiad*, y mae yn casglu: Os rhagddarparwyd ef i fod yn gadwedig, ni eill ef amgen na bo, os i ddamnedigaeth, ni eill moddion wneuthur iddo ddim daioni.* Am hyny nid yw holl weithredoedd Duwioldeb ond ofer. Eithr ef ddylai ddyscu ddarfod i Duw ragddarparu ar y *moddion*, fel ar y *diwedd*. Yr hwn gan hyny a ddarparodd Duw i fod yn gadwedig, hyny yw, at y diwedd, a ddarfu iddo ei ddarparu yn gyntaf i gael ei *alw*, a'i sancteiddio, a'i wneuthur un agwedd a llun ei Fab, yr hyn yw y moddion, a'r rhai (medd Pedr) *a ddewisodd i iechydwriaeth*, a ddewiswyd hefyd *i sancteiddiad yr Yspryd:* 1 Petr ii. 16; Rhuf. viii. 20, 30. Os tydi gan hyny ar dy alwad a'th osodi dy hun at air, ac agwedd Crist dy Arglwydd, ac a ufuddhei i ddaionus gynhyrfiadau yr Yspryd Glân, trwy ymadael â phechod, a byw mewn buchedd dduwiol: yna bydded ddïogel gennit, dy fod yn un o'r rheini, yn ddïammau a ragddarparwyd i iechydwriaeth tragywyddol. Os amgen, na feia ar ragddarpariad Duw, ond ar dy bechod dy hun, a'th wrthryfelgarwch. Ymchwel di at Duw, a Duw yn rasusawl a'th dderbyn di, fel y derbyniodd *y Tad y mab afradlon;* ac wrth dy droad, fe fydd eglur, yn gystal i angylion ac i ddynion, *dy fod yn perthyn i'w etholedigaeth ef:* Luc xv. 10, 24. Onis gwnei, paham yr achub Duw dydi?

"3. Pan glywo y Cristion cnawdol, nad oes gan ddŷn rydd-did ewyllys at ddaioni, y mae ef yn gollwng awen ei ffrwyn at ei feddwl llygredig ei hun, fel ped fai heb allu nac ymattal, nac ymgospi; yn ddigwyddedig yn gwneuthur Duw yn awdur o bechod, gan iddo ef oddef i ddŷn redeg i'r angenrhaid yma. Ond efe a ddylai wybod roddi o Dduw i *Adda* rydd-did ewyllys, i sefyll yn ei ddiniweidrwydd, os mynnai, eithr dŷn a gamarferodd ei ewyllys rhydd ac a'i collodd ei hun, ac yntau. Gwedi y cwymp y mae i ddŷn ynghyflwr llygredigaeth ewyllys rhydd at y drwg, ac nid at y da. O blegid yn yr stât hon (medd yr Apostol) nid ydym ni yn gallael meddylied un meddwl da: 2 Cor. iii. 5. Ac nid ydyw Duw rwymedig i roi i ni eilwaith yr hyn a gollasom yn enbydus, heb gymmeryd gofal mwyach am ei ynnill drachefn. Ond cyd gynted ag y byddo dŷn yn adgenedledig, *y mae gras Duw yn hyfforddi ei ewyllys at ddaioni*, fel y mae efe yn gwneuthur yr holl bethau da a'r a wnelo, âg ewyllys rhydd: O blegid felly y mae yr Apostol yn dywedyd fod Duw *o'i ewyllys da, yn gweithredu ynom yn gystal yr ewyllys, a'r gwaith:* Phil. ii. 12; 2 Cor. vii. 1. Y rhai (fel y mae yr Apostol yn ei ddeongl) 'ydym yn ein glanhau ein hunain oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio ein sancteiddrwydd yn ofn Duw.' Ac yn y cyflwr yma, y mae i bob Cristion ewyllys rhydd; ac fel y mae yn cynhyddu mewn gras, felly y mae ei ewyllys yn cynhyddu mewn rhydd-did: O blegid pan fo 'y Mab yn ein gwneuthur ni yn rhydd, yno yr ydym ni yn rhydd ddïogel:' ac 'lle bo Yspryd yr Arglwydd yno y mae rhydd-did:' Ioan viii. 36; 2 Cor. iii. 17. Canys y mae yr Yspryd sanctaidd yn *tynnu* eu meddyliau: Ioan vi. 44. Nid o'i hanfodd, ond trwy raffau cariad: Can. i. 4. Gan lewyrchu eu meddyliau i adnabod y gwirionedd; gan gyfnewidio eu calonau i garu y gwirionedd adnabyddus; gan nerthu pob un o honynt (yn ol y gras a dderbyniodd) i wneuthur y daioni, yr hyn y mae yn ei garu. Eithr nid wyt ti yn arferu mo rydd-did dy feddwl, cyn belled ag y rhoes Duw ef yn rhydd: O herwydd yr ydwyd ti yn fynych yn ewyllysgar (yn erbyn cyfraith Dduw i beryglu dy enaid dy hun) yn gwneuthur peth, yr hyn ped fai cyfraith y Brenin dan boen marwolaeth, neu golli dy dda, yn ei wahardd, neu yn ei wrthwynebu, nis gwneit. Na wna gan hyny mo'th ddiffyg *ewyllys rhydd i ddaioni*, i fod yn gymmaint achos o'th waith yn pechu, ag yw eisiau calon gariadus i wasanaethu dy Dad nefol.

"4. Pan glywo y dŷn cnawdol, na ddichon neb (er pan gwympodd Adda) gyflawni cyfraith Dduw, a chadw ei holl orchymynion: Y mae ef yn hyfedr i bechu yn rhyfygus fel rhai eraill: ac yn ei foddloni ei hun âg ychydig feddyliau da: ac onid yw ef yn gwbl gynddrwg a'r gwaethaf, y mae ef yn gweled ei fod ei hun yn gystal adgenedledig ag yw y gorau. Ac y mae ef yn cyfrif pob ewyllysgar nacâu o wneuthur daioni, neu o wrthwynebu y drwg, yn amhosibilrwydd y gyfraith. Eithr ef a ddylai ddysgu, er (yn ol y cwymp) na allodd neb ond Crist (yr hwn oedd yn Dduw ac yn ddŷn) gyflawni yr holl gyfraith yn berffaith: etto y mae pob gwir Gristion, cyn gynted ag ei bo yn adgenedledig, yn dechrau cadw holl orchymynion Duw mewn gwirionedd, er nas geill mewn perffeithrwydd cyflawn. Ac

* Dyma *ragddarparu* i ddamnedigaeth cystal ag i gadwedigaeth! Y mae'n rhyfedd fod prif ysgrifenwyr yr oesoedd tywyll hyn yn dal yr athrawiaeth anysgrythyrol a dychrynllyd o wrthodedigaeth.—Gol.

hyn fydd briodol i'r naill, weithiau hefyd i'w briodoli i'r llall. Megis *pwrcasu o Dduw yr eglwys â'i briod waed; ac y barna efe y byd drwy y Gŵr yr hwn a ordeiniodd efe:* Act. xx. 28; ac xvii. 31. O hyn y canlyn, er bod dynol ryw Crist yn gauedig, ac am hyny yn derfynol, ac yn gynnwysedig anian, ac na ddichon bod yn bresennol ymhob man, trwy osodiad gweithredol, neu gynhwysiad cyfleus yn ol ei hanfod naturiol: etto o herwydd bod ganddo wedi ei gyfranu ato Bersonol hanfod Mab Duw, yr hwn sydd anfeidrol ac anherfynedig, a chwedi ei uno â Duw yn y cyfryw fodd, ac na ellir yn unlle byth ei wahanu oddi wrth Dduw, am hyny y gellir dywedyd am *gorph Crist* ei fod o herwydd ei bersonol hanfod ymhob lle."

Nid ydym yn tybied bod y Dr. Bayly ei hun yn deall y frawddeg olaf yn y difyniad uchod,* ac am hyny nid awn i'r drafferth i geisio ei hesponio. Ar ol traethu am y gweithrediadau drwy y rhai y gwahanredir y tri Pherson, y mae yn myned ym mlaen i son am briodoliaethau y Duwdod, y rhai a ddosperthir ganddo yn ddau fath, sef galwedigol a hanfodol. Y priodoliaethau galwedigol ydynt o dri math: 1. Y rhai a arwyddocânt sylwedd Duw, sef *Jehofah*, *Eheieh*, *Jah*, *Curios* (Arglwydd), *Theos* (Duw.) 2. Y rhai a arwyddocânt y Personau yn yr hanfod, o ba rai ni roddir ond un engrafft, sef *Elohim*. 3. Y rhai a arwyddocânt sylweddol weithredoedd Duw, sef *El*, *Shaddai*, *Adonai*, *Helion*, *Abba*. Hyd yma am y priodoliaethau enwol. Y dosparth nesaf yw y priodoliaethau hanfodol, neu, fel y geilw y cyfieithydd hwynt mewn man arall, "y priodoliaethau sylweddol," y rhai ydynt o ddau fath, naill ai anghyffredinol ai ymgyfattebol. "Y priodoliaethau anghyffredinol ydynt gyfryw ag na allant mewn neb rhyw fodd gyttuno (neu weddu) i un math ar greadur, ond i Dduw yn unig. Y rhai hyn ydynt ddau, sef digymmysgedd ac anherfynoldeb." Ac o'r ddau hyn y mae tri eraill o briodoliaethau anghyffredin yn tarddu allan: 1. "Ammesuredigaeth, neu bolllceaeth, trwy yr hyn y mae ef o anherfynedig amgyrraedd yn llenwi y nefoedd a'r ddaear, ac yn cynnwys pob lleoedd heb yspaid, lle, neu derfyn yn dichon ei gynnwys ef, ac heb fod absennol yn unlle, y mae yn bresennol ymhob lle." Y mae ei bresennoldeb yn gyffredinol, "ymhob lle yn llawnedigaidd, eithr nid yn unlle yn gynnwysedigaidd;" ond yn enwedigol yn y nefoedd, yn fwy enwedigol yn ei saint, ac yn fwyaf enwedigol yng Nghrist yn gorphorol. 2. Anghyfnewidioldeb, "trwy yr hyn y mae Duw heb gyfnewid oll; yn gystal o herwydd ei sylwedd, a'i ewyllys." 3. Tragywyddoldeb, "trwy yr hwn y mae Duw heb ddechreuad i'w ddyddiau, na diwedd i'w amser; ac heb derfynau, o ran rhagfynegiad neu ol-ddilyniad." Hyd yn hyn am y priodoliaethau anghyffredin, perthynol i Dduw yn unig. Bellach am y rhai ymgyfattebol, neu, fel y gelwir hwynt mewn lle arall, "y rhai tueddol, neu y cyfryw ag a edrychant tu a'r creaduriaid." Y rhai hyn ydynt bump, sef bywyd, deall, ewyllys, gallu, mawrhydi. Dan y pen o ewyllys Duw y cynhwysir cariad, cyfiawnder, trugaredd, daioni, gwirionedd, amynedd, sancteiddrwydd, a digofaint. Dyma grynhodeb o olygiadau yr awdur ar y priodoliaethau, y rhai, er bod ynddynt lawer o gywreinrwydd, ni ddymunem gael ein gosod dan yr angenrheidrwydd o'u hamddiffyn yn gyflawn fel y maent. Ond yn y lle nesaf, yr ydym yn cael myfyrdodau am drueni dŷn heb ei gymmodi â Duw yng Nghrist. Yma etto cawn raniadau ac adraniadau, ac is-adraniadau. Ystyrir trueni dŷn—1. Yn ei fywyd; 2. Yn ei farwolaeth; 3. Ar ol ei farwolaeth. Trueni dŷn yn ei fywyd a renir drachefn yn ddau fath: 1. Trueni sy'n dilyn ei gorph; 2. Y trueni sy'n gwrthuno ei enaid. Ac eilwaith, disgrifir y trueni sy'n canlyn y corph yn ol trefn pedair oes dŷn: 1. Mebyd; 2. Ieuengctid; 3. Oedran gŵr; 4. Henaint. Rhoddir darluniad nerthol o drueni y corph a'r enaid wrth farw, ac yn ol marwolaeth, yr hyn yw cyflawnder melldigedigrwydd. Ac yna, heb son am y ffordd i waredu dŷn o'i drueni, anrhegir ni â myfyrdodau am gyflwr Cristion wedi ei gymmodi â Duw yng Nghrist, ynghyd â'i ddedwyddwch yn ei farwolaeth, yn ol ei farwolaeth, ac yn y nef "gwedi y derbynio efe ei farn o ollyngdod, ger bron brawdle Crist, ar ddydd y farn ddiweddaf." Ar ol gwasgu yr ystyriaethau hyn yn ddwys at gydwybodau y darllenwyr, eir ym mlaen at y rhwystrau sydd yn attal y pechadur oddi wrth ymarfer duwioldeb, y rhai ydynt saith yn arbenig, sef: 1. Camgymmeryd yn anwybodus iawn ddeall rhyw fannau o'r Ysgrythyr Sanctaidd,

* Yn wir, yr ydym yn credu y gallasai yr ysgrifenydd galluog ddywedyd yr un peth am braidd holl frawddegau y difyniad: o leiaf, y maent yn ymddangos i ni yn llawer tebycach i "philosophi a gwag dwyll," nag i "eiriau gwirionedd a sobrwydd" yr Ysgrythyr Lân. Ymddengys i ni nas dichon iaith draethu ymadroddion symlach ac eglurach na'r rhai canlynol, a'u cyffelyb:—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y Gair." "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd." "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad." "Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynnof finnau." "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd." "O blegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." Y mae'r ymadroddion Ysgrythyrol hyn, a'u cyffelyb, yn ymddangos i ni yn berffaith eglur a diamwys; ond wfft byth i'r esponiadau arnynt, megis yr eiddo y Dr. Bayly, a'i gyffelyb, rhag eu dyrysed a'u tywylled!—Gol.

Digitized by Google

a rhyw fannau o brif byngciau crefydd Gristionogol; 2. Drwy esiamplau y gwŷr mawr; 3. Dïangc yn hir heb haeddedigol gosp yn y bywyd hwn; 4. Rhyfygu o drugaredd Duw; 5. Cyfeillach ddrwg, yr hyn yn gyffredin a elwir cymdeithion da; 6. Ofn meddylgar, rhag i ymarfer â duwioldeb wneuthur gŵr (yn enwedig gŵr ieuangc) i fod yn rhy brudd ac yn bendrwm; 7. Gobaith o hir eisoes. Dan y pen cyntaf cawn y sylwadau canlynol ar y camgymmeriadau am rai o brif byngciau crefydd:—

"Seiliau crefydd a gamgymmerir ydynt:—

"1. Oddi wrth athrawiaeth *cyfiawnhâd* trwy ffydd yn unig: Cristion cnawdol a gasel; nad ydyw gweithredoedd da angenrheidiol, y mae'n canmol eraill a wnelo weithredoedd da, eithr y mae ef yn coelio am dano ef ei hun y bydd efe cadwedig trwy ei ffydd, heb wneuthur dim o'r fath bethau. Ond ef a ddylai wybod, er nad yw gweithredoedd da angenrheidiol i gyfiawnhau dŷn; etto y maent yn angenrheidiol i iechydwriaeth; 'Canys *gwaith Duw ydym wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw i ni rodio ynddynt:'* Eph. ii. 10. Pwy bynag gan hyny mewn oedran a synwyr ni wnel weithredoedd da wedi ei alw, ni eill ef fod yn gadwedig: ac ni ragddarparwyd ef erioed i fywyd tragywyddol. Am hyny y dywed yr ysgrythyr y tâl *Crist i bob dŷn yn ol ei weithredoedd:* Rhuf. ii. 6; 2 Cor. ix. 6; Dat. xxii. 12. Nid yw Crist yn gwneuthur cyfrif o ddim oedd yn yr Angylion a'r saith eglwys, ond o'u gweithredoedd: Dat. ii. a'r iii. Ac yn y dydd diwaethaf, ef a rydd yr *etifeddiaeth* nefol yn unig i'r rhai a wnaethant weithredoedd da, yn porthi y newynog, yn dilladu y noeth, ac felly: Math. xxv. Yn y dydd hwnw *cyfiawnder* a wisg y goron: 2 Tim. iv. 8. Heb *gyfiawnder*, heb *goron*, heb *weithredoedd* da (yn ol ei dalent) heb *wobr* gan Dduw, oddi eithr dïal. Bod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da ydyw y sail gadarnaf o'n sierwydd ni i dderbyn bywyd tragywyddol: 1 Tim. vi. 19. O blegid gweithredoedd da ydynt wir ffrwythau gwir ffydd, yr hon sydd yn ymaflyd yng Nghrist a'i ufudd-dod i iechydwriaeth. Ac nid oes ffydd arall *yn lleshau yng Nghrist, ond yr hon sy'n gweithredu trwy gariad:* Gal. iii. 6.

"Ac (oddi eithr yngweithred cyfiawnhâd) y ffydd, yr hon sydd yn unig yn cyfiawnhau, nid yw yn unig un amser, eithr ynghyd â gweithredoedd da: Fel y pren a'i ffrwyth, yr haul a'i lewyrch, y tân a'i wres, y dwfr a'i wlybaniaeth. A'r ffydd honno, yr hon nid ymgyfiawnha trwy weithredoedd da o flaen dynion, nid yw ond *ffydd farwol:* yr hon ni chyfiawnha fyth enaid dyn o flaen Duw: Iago ii. 26. Ond y ffydd sydd yn cyfiawnhau a *bureiddia y galon, ac a sancteiddia yr holl ddŷn* trwyddo: Act. xi. 9; 1 Thes. v. 23.

"2. Oddi wrth athrawiaeth tragywyddol *ragddarpariad* Duw a'i ddigyfnewidiol *osodiad*, y mae yn casglu: Os rhagddarparwyd ef i fod yn gadwedig, ni eill ef amgen na bo, os i ddamnedigaeth, ni eill moddion wneuthur iddo ddim daioni.* Am hyny nid yw holl weithredoedd Duwioldeb ond ofer. Eithr ef ddylai ddyscu ddarfod i Duw ragddarparu ar y *moddion*, fel ar y *diwedd*. Yr hwn gan hyny a ddarparodd Duw i fod yn gadwedig, hyny yw, at y diwedd, a ddarfu iddo ei ddarparu yn gyntaf i gael ei *alw*, a'i sancteiddio, a'i wneuthur un agwedd a llun ei Fab, yr hyn yw y moddion, a'r rhai (medd Pedr) *a ddewisodd i iechydwriaeth*, a ddewiswyd hefyd *i sancteiddiad yr Yspryd:* 1 Petr ii. 16; Rhuf. viii. 20, 30. Os tydi gan hyny ar dy alwad a'th osodi dy hun at air, ac agwedd Crist dy Arglwydd, ac a ufuddhei i ddaionus gynhyrfiadau yr Yspryd Glân, trwy ymadael â phechod, a byw mewn buchedd dduwiol: yna bydded ddïogel gennit, dy fod yn un o'r rheini, yn ddïammau a ragddarparwyd i iechydwriaeth tragywyddol. Os amgen, na feia ar ragddarpariad Duw, ond ar dy bechod dy hun, a'th wrthryfelgarwch. Ymchwel di at Duw, a Duw yn rasusawl a'th dderbyn di, fel y derbyniodd *y Tad y mab afradlon;* ac wrth dy droad, fe fydd eglur, yn gystal i angylion ac i ddynion, *dy fod yn perthyn i'w etholedigaeth ef:* Luc xv. 10, 24. Onis gwnei, paham yr achub Duw dydi?

"3. Pan glywo y Cristion cnawdol, nad oes gan ddŷn rydd-did ewyllys at ddaioni, y mae ef yn gollwng awen ei ffrwyn at ei feddwl llygredig ei hun, felped fai heb allu nac ymattal, nac ymgospi; yn ddigwyddedig yn gwneuthur Duw yn awdur o bechod, gan iddo ef oddef i ddŷn redeg i'r angenrhaid yma. Ond efe a ddylai wybod roddi o Dduw i *Adda* rydd-did ewyllys, i sefyll yn ei ddiniweidrwydd, os mynnai, eithr dŷn a gamarferodd ei ewyllys rhydd ac a'i collodd ei hun, ac yntau. Gwedi y cwymp y mae i ddŷn ynghyflwr llygredigaeth ewyllys rhydd at y drwg, ac nid at y da. O blegid yn yr stât hon (medd yr Apostol) nid ydym ni yn gallael meddylied un meddwl da: 2 Cor. iii. 5. Ac nid ydyw Duw rwymedig i roi i ni eilwaith yr hyn a gollasom yn enbydus, heb gymmeryd gofal mwyach am ei ynnill drachefn. Ond cyd gynted ag y byddo dŷn yn adgenedledig, *y mae gras Duw yn hyfforddi ei ewyllys at ddaioni*, fel y mae efe yn gwneuthur yr holl bethau da a'r a wnelo, âg ewyllys rhydd: O blegid felly y mae yr Apostol yn dywedyd fod Duw *o'i ewyllys da, yn gweithredu ynom yn gystal yr ewyllys, a'r gwaith:* Phil. ii. 12; 2 Cor. vii. 1. Y rhai (fel y mae yr Apostol yn ei ddeongl) 'ydym yn ein glanhau ein hunain oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio ein sancteiddrwydd yn ofn Duw.' Ac yn y cyflwr yma, y mae i bob Cristion ewyllys rhydd; ac fel y mae yn cynhyddu mewn gras, felly y mae ei ewyllys yn cynhyddu mewn rhydd-did: O blegid pan fo 'y Mab yn ein gwneuthur ni yn rhydd, yno yr ydym ni yn rhydd ddïogel:' ac 'lle bo Yspryd yr Arglwydd yno y mae rhydd-did:' Ioan viii. 36; 2 Cor. iii. 17. Canys y mae yr Yspryd sanctaidd yn *tynnu* eu meddyliau: Ioan vi. 44. Nid o'i hanfodd, ond trwy raffau cariad: Can. i. 4. Gan lewyrchu eu meddyliau i adnabod y gwirionedd; gan gyfnewidio eu calonau i garu y gwirionedd adnabyddus; gan nerthu pob un o honynt (yn ol y gras a dderbyniodd) i wneuthur y daioni, yr hyn y mae yn ei garu. Eithr nid wyt ti yn arferu mo rydd-did dy feddwl, cyn belled ag y rhoes Duw ef yn rhydd: O herwydd yr ydwyd ti yn fynych yn ewyllysgar (yn erbyn cyfraith Dduw i beryglu dy enaid dy hun) yn gwneuthur peth, yr hyn ped fai cyfraith y Brenin dan boen marwolaeth, neu golli dy dda, yn ei wahardd, neu yn ei wrthwynebu, nis gwneit. Na wna gan hyny mo'th ddiffyg *ewyllys rhydd i ddaioni*, i fod yn gymmaint achos o'th waith yn pechu, ag yw eisiau calon gariadus i wasanaethu dy Dad nefol.

"4. Pan glywo y dŷn cnawdol, na ddichon neb (er pan gwympodd Adda) gyflawni cyfraith Dduw, a chadw ei holl orchymynion: Y mae ef yn hyfedr i bechu yn rhyfygus fel rhai eraill: ac yn ei foddloni ei hun âg ychydig feddyliau da: ac onid yw ef yn gwbl gynddrwg a'r gwaethaf, y mae ef yn gweled ei fod ei hun yn gystal adgenedledig ag yw y gorau. Ac y mae ef yn cyfrif pob ewyllysgar nacâu o wneuthur daioni, neu o wrthwynebu y drwg, yn amhosibilrwydd y gyfraith. Eithr ef a ddylai ddysgu, er (yn ol y cwymp) na allodd neb ond Crist (yr hwn oedd yn Dduw ac yn ddŷn) gyflawni yr holl gyfraith yn berffaith: etto y mae pob gwir Gristion, cyn gynted ag ei bo yn adgenedledig, yn dechrau cadw holl orchymynion Duw mewn gwirionedd, er nas geill mewn perffeithrwydd cyflawn. Ac

* Dyma *ragddarparu* i ddamnedigaeth cystal ag i gadwedigaeth! Y mae'n rhyfedd fod prif ysgrifenwyr yr oesoedd tywyll hyn yn dal yr athrawiaeth anysgrythyrol a dychrynllyd o wrthodedigaeth.—Gol.

Digitized by Google

felly (gyd â Dafydd) y maent hwy yn gosod eu calonau i gyflawni 'gorchymynion Duw bob amser hyd y diwedd: Psal. cxix. 112. Ac yno y mae Ysbryd y gras (yr hwn yn ol yr addewid a dywelltir allan dan yr Efengyl) yn eu diddanu hwynt, ac yn eu cynnorthwyo yn eu hamcanion i wneuthur yr hyn a orchymyno ef iddynt ei wneuthur: Joel ii. 28, 29. Ac wrth wneuthur hyny, y mae yn derbyn eu hewyllys da a'u dyfalwch, yn lle cyflawniad y gyfraith, gan osod haeddedigaethau Crist (yr hwn a gyflawnodd y gyfraith drosom ni) i atteb dros ba beth bynag a fo ddiffygiol yn ein ufudd-dod ni. Ac o herwydd hyn, y mae St. Ioan yn dywedyd, 'nad yw gorchymynion Duw yn drymion:' 1 Ioan iii. 5.

"Ac y mae St. Paul yn dywedyd, 'Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist yr hwn sydd yn fy nerthu i:' Phil. iv. 15. Ac yr ydys yn dywedyd am Zachari ac Elizabeth, iddynt hwy 'rodio yngorchymynion yr Arglwydd yn ddïargyhoedd:' Luc i. 5. Ac o'r achos yma y mae Crist yn erchi i'w ddisgyblion gymmeryd gofal am *gadw ei orchymynion:* megis y dystiolaeth gywiraf o'n *cariad* tu âg ato: Ioan xv. 10. Cymmaint gan hyny y mae dŷn yn caru Crist, ag y mae ef yn gwneuthur cydwybod o rodio yn ei orchymynion ef; a pho mwyaf a fo ein cariad ni tu ag at Grist, lleiaf a fydd ein poen ni yn cadw ei gyfraith.

"Melldith y gyfraith, yr hwn (dan y Testament hên) oedd mor ddychrynadwy, dan y newydd trwy farwolaeth Crist a ddiddymwyd i'r adgenedig. Y toster oedd yn ei gwneuthur yn amhosibl i'n naturiaeth ni o'r blaen, sydd yr awrhon gwedi ei dymheru gan yr Ysbryd i'r newyddenedig, fel y mae hi yn ymddangos yn hawdd, ac yn esmwyth. Yr oedd yr Apostolion yn dirio ar yr Iuddewon, a'r cenhedloedd digred, nad oedd bosibl cadw y gyfraith drwy nerth naturiaeth lygredig. Ond pan fyddent hwy yn dysgu Cristionogion credadwy, y maent hwy yn gofyn ufudd-dod i'r gyfraith (yr hon yw rheol cyfiawnder) sef gwir ufudd-dod, mewn gair a gweithred: marwhau eu haelodau: croeshoelio y cnawd, ei wyniau a'i drachwantau: adgyfodiad i newydd-deb buchedd, rhodio yn yr Ysbryd, gorchfygu y byd trwy ffydd: Rhuf. xv. 18; Col. iii. 5; Gal. v. 24; Rhuf. v. 4, 5, ac 8, 11; 1 Ioan v. 4. Fel na allo neb ddywedyd gyd â Christ, 'pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod:' fe ddichon pob Cristion adgenedledig ddywedyd am dano ei hun pwy o honoch a'm hargyhoedda fi o odinebwr, puteinwr, tynghedwr, meddwyn, lleidryn, occrwr, gorthrechwr, balch, cenfigenus, yn gybydd, yn dorwr y Sabboth sanctaidd, yn gelwyddog, yn esceuluso cyffredin wasanaeth Duw, a'r fath bechodau dybryd gorthrwm? Ac onid ê nid yw efe wir Gristion. Pan beidio dŷn a gwneuthur cydwybod o ddilyn llywodraeth cyfraith Dduw, yno y mae Duw yn ei roddi yntau i fynu i'w arwain gan ei drachwantau ei hun, yr arwydd penaf o feddwl anghymmeradwy: Rhuf. i. 24, 28. Fel hyn y gyfraith (yr hon gwedi y cwymp ni ddichon neb o'i naturiol allu ei chyflawni) a gyflawnir mewn gwirionedd gan bob Cristion adgenedledig, trwy rasusol gynhorthwy Ysbryd Crist: Rhuf. viii. 9; Luc xi. 13. A'r Ysbryd hwn a rydd Duw i bob Cristion a weddïo am dano, ac a ostyngo ei galon i gadw ei gyfreithiau ef.

"5. Pan glyw dŷn di-adgenedledig, fod Duw yn ymhoffi mwy yn y meddwl oddi mewn nag yn y dŷn oddi allan, yno y mae efe yn meddwl ynddo ei hun fod pob parch, neu grefydd oddi allan, naill ai'n ofergoel ai yn afraid.

"O hyn y digwydda mai anfynych iawn y gostwng ef ar ei liniau yn yr Eglwys; a'i fod yn gwisco am ben wrth ganu Psalmau, neu ar weddïau cyffredin: yr hyn beth ni chynhygiai y budredd brwnt yngŵydd tywysogion, neu ŵr anrhydeddus. Ac am y catwo efe ei feddwl i Dduw, y mae yn tybied mewn pethau eraill y gall ddilyn arferion y byd. Y mae efe yn rhanu ei feddyliau, ac yn rhoi hyn a hyn i Dduw, a hyn a hyn i'w drachwantau; ïe efe a rêin y dydd Sabboth â Duw, ac a rydd gan mwyaf y naill hanner i Dduw, ac a dreulia y llall yn gyfan yn ei ddifyrwch ei hun. Eithr gwybydd (o ddŷn cnawdol) na fyn yr hollalluog Dduw mo'i wasanaethu âg hannerau, o herwydd efe a greawdd ac a waredodd yr holl ddŷn. Ac fel y mae Duw yn ffieiddio gwasanaeth y dŷn oddi allan, heb y galon oddi mewn, megis rhagrith: felly y mae ef yn cyfrif gwasanaeth oddi mewn, heb anrhydedd oddi allan yn ffieiddbeth halogedig: y mae ef yn gofyn y ddau yn ei wasanaeth. Yn dy weddi (gan hyny) ymostwng ar dy liniau i dystiolaethu dy ostyngeiddrwydd: dyrcha dy olwg, a'th ddwylaw, i arwyddocâu dy grediniaeth: ac yn enwedig galw ar Dduw â chalon bur: gwasanaetha ef yn sanctaidd, yn gyfan, ac yn unig: canys Duw, a thywysog y byd hwn, ydynt ddau Arglwydd gwrthwyneb i'w gilydd, am hyny nid yw bosibl i neb wasanaethu y ddau.

"6. Y mae Cristion diadgenedledig yn cymmeryd gwrando pregethiad yr efengyl yn beth a ellir ei hepcor, a bod iddo ei ddewis a'i arfer, ai peidio a'i arfer pan fynno: ond pwy bynag wyt a fynnit yn ddïogel sicrhau dy galon, o'th fod yn un o ddewisedig ddefaid Crist, rhaid iti gymmeryd gofal mawr, a gwneuthur cydwybod (os yw bosibl iti) i wrando pregethu gair Duw: o blegid yn gyntaf, pregethiad yr efengyl ydyw y prif gyfrwng trefnedig a osododd Duw i ddychwelyd enediau, y rhai a ragddarparodd ef i fod yn gadwedig: am hyny y gelwir 'yn allu Duw er iechydwriaeth i bob dŷn sydd yn credu:' Rhuf. i 16. Ac lle nid yw yr ordinhâd hwn, y mae'r bobl 'yn golledig:' Diar. xxix. 18; a phwy bynag a'i gwrthodo fe fydd esmwythach 'i dir Sodom a Gomorha ddydd y farn nag i'r bobl hyny:' Luc x. 12. Yn ail, pregethiad yr efengyl ydyw 'baner Crist; at yr hon yr ymgynnull yr holl filwyr, a'r etholedigion bobl:' Esay xi. 2, ac ii. 2, 3. Pan osoder allan y faner hon megis y gwneir ar ddydd yr Arglwydd, nid yw efe o bobl Dduw 'yr hwn ni chyrcho ati, ac ni ddiscyn defnyn o'i ras ef ar eu heneidiau:' Zech. xiv. 17. Yn drydydd, dyma'r moddion cyffredin, trwy yr hyn y mae'r Ysbryd Glân yn ennyn ffydd yn ein calonau, heb yr hyn ni allwn ni ryngu bodd Duw: Rhuf. x. 14. Os gwrando ar lais Crist yw y nôd penaf ar etholedig ddefaid Crist, ac ar gyfaill y priodfab: Ioan x. 2, a iii. 29. yno ni ddichon na bo hwnw nôd ddychrynadwy o afr wrthodedig, yr hwn a esceuluso, neu ddiystyro wrando pregethiad yr efengyl. Na feddylied neb fod yr ymadrodd hwn yn ffôl: o blegid trwy y ffolineb yma ar bregethu 'y mae yn rhyngu bodd i Dduw achub y rhai a gredant:' 1 Cor. i. 11. Ofnadwy yw eu cyflwr hwynt gan hyny y rhai sy'n byw mewn heddwch, heb ofal am bregethiad yr efengyl. A eill dynion ddisgwyl am drugaredd Duw, a dirmygu y moddion i'w gael? yr hwn (medd Crist am bregethwyr yr efengyl) 'a'ch dirmygo chwi a'm dirmygo innau:' Luc x. 16: 'yr hwn sydd o Dduw, a wrendy eiriau Duw,' am hyny 'nid ydych chwi yn gwrando am nad ydych o Dduw:' Ioan viii. 47. Oni buasai bregethu o Ioan Fedyddiwr, ni buasai yr Iuddewon byth yn galaru; oni buasai i'r Israeliaid glywed cenhadwri Phineas, ni wylasent byth; oni buasai i'r rhai a groeshoeliodd Crist glywed pregeth Pedr, ni buasai byth gynhyrfriw yn eu calonau:' Act. ii. 37. Oni bai glywed o'r Ninifeaid bregeth Jonas, ni buasent hwy byth yn edifarhau: Jon. iii. 5; ac oni wrandewi dithau ac edifarhau, ni byddi di byth yn gadwedig: Luc xiii. 5; Diar. ii. 8, 9.

"7. Yr opiniwn nad yw y Sacramentau ond arwyddion noethion selau o addewid Duw a'i ras i ni, a wnaeth fawr rwystr ar dduwioldeb; lle mewn gwirionedd y maent yn selau yn gystal o'u gwasanaeth, a'n hufudd-dod ni i Dduw: yr hwn wasanaeth, onis cyflawnwn iddo ef, nid yw y sacramentau yn selio dim gras ini. Eithr os derbyniwn hwynt tan fwriadu bod yn weision ffyddlon edifeiriol, yno y mae'r sacramentau nid yn unig yn arwyddocâu, ac yn cynnyg, eithr yn hytrach yn selio a gweithredu gras ysprydol oddi mewn, yr hyn oddi allan y maent yn ei addo, ac yn ei arwyddocâu. Ac i'r perwyl yma, y gelwir

Digitized by Google

y bedydd ymolchiad adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glân: Tit. iii. 5; a swpper yr Arglwydd, cymmun corph a gwaed Crist: 1 Cor. x. 16. Pe coelid y gwirionedd hwn, y sacrament sanctaidd o swpper yr Arglwydd, a gymmerid yn fynychach, ac mewn mwy o barch ac anrhydedd.

"8. Yr olaf, ac nid y cyff lleiaf, wrth yr hwn y mae duwioldeb yn cael tramgwydd mewn achosion crefydd, ydyw addurno campau drwg âg enwau rhinweddau da: megis galw carowsio meddwaidd, yfed iechyd; tywallt gwaed gwirion, gwroldeb; glothineb, lletteugarwch; cybydd-dra, cynnildeb; puteindra, caru merched; cyssegrwerth, rhôdd o ddïolchgarch; balchder, ymddygiad hoyw; gwenieithio, medrusrwydd; meibion Belial, cymdeithion da; poethineb, ffromder; serthedd, digrifwch; felly o'r tu arall, galw llarieidd-dra mewn geiriau a gweithredoedd, rhagrithiad; elusenau, gwag-ogoniant; Duwiolder, ofergoel; zel mewn crefydd, puritaniaeth; gostyngeidd-dra, llyfrdra; gwneuthur cydwybod, manyldra, &c. A thra fôm ni fal hyn yn galw drwg yn dda; a da yn ddrwg; y mae gwir dduwioldeb yn cael mawr rwystr i fyned i'w thaith a'i helynt."

Nis gwyddom yn iawn beth oedd meddwl yr awdur pan ddywedai yn y difyniad uchod fod Duw yn derbyn ewyllys da y credinwyr, a'u dyfalwch, yn lle cyflawniad y gyfraith; ac yn gosod haeddedigaethau Crist (yr hwn a gyflawnodd y gyfraith drosom ni) i atteb dros ba beth a fo ddiffygiol yn ein hufudd-dod ni. Ni ddylid ei wneud ef, na neb arall, yn droseddwr o herwydd gair. Y mae'n amlwg oddi wrth yr iaith a arferir ganddo mewn manau eraill nad oedd yn golygu bod unrhyw weithred nac ewyllysiad o eiddo y credadyn, mewn un modd na rhan, yn ddefnydd ei gyfiawnhâd. Yr oedd mor bell oddi wrth hyn a neb o'r hen ddiwygwyr. O ran hyny, y mae'n coffâu enw Calfin fwy nag unwaith yn dra pharchus. Wedi hyn, yn amser Laud, y dygwyd Morganiaeth a Phabyddiaeth i mewn i Eglwys Loegr, yr hyn nis gellid ei wneuthur yn hwylus heb ddadgyssylltu rhyngddi ac athrawiaeth y Diwygiad, ac ymdrechu hyd yr oedd yn ddichonadwy i daflu pob dirmyg ar enwau y Diwygwyr. Y mae yn debyg, gan hyny, nad oedd y Dr. Bayly yn meddwl dim ychwaneg wrth y geiriau uchod na bod amcan cywir yn rhyngu bodd Duw, a'i fod ef yn maddau pob diffygion yn ufudd-dod y dŷn adgenedledig trwy haeddedigaethau y Cyfryngwr. Er hyny, nis gallwn ddywedyd ein bod yn cymmeradwyo yr ymadrodd. Y mae o leiaf yn anhapus, ac yn arwain i ganlyniadau anysgrythyrol. O barth y dywediad a ganfyddir yn y difyniad blaenorol am y sacramentau, os yw yn newydd i rai, nid yw yn anheilwng o sylw, o blegid gorfodir ni i gredu bod syniadau anhraethol rhy isel yn cael eu coleddu ar y mater hwn gan lawer o'n cydwladwyr. "Phiol y fendith," meddai yr apostol, "yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Crist ydyw?" Y mae'r geiriau hyn yn llawn o wirionedd, a'r gwirionedd hwnw yn llawn o ddirgelwch ysprydol. Nid credu gormod y mae'r Pabyddion, ond credu rhy ychydig. Y maent yn methu dirnad pethau ysprydol, a thrwy hyny yn darostwng dirgeledigaethau, y rhai ydynt uwch law rheswm, i fod yn wrthddywediadau croes i reswm.* Ond awn ym mlaen i ddilyn yr awdur at yr hyn a eilw y "clo cyngan" yn niwedd y sylwadau ar y rhwystrau i fyw yn dduwiol, o'r hwn y cymmerwn un engraifft:—

"Na foddlona mo honot dy hun ar *grefydd ffurfiol*, yr hon a ffurfiodd gwŷr diadenedig iddynt eu hunain, yn lle duwioldeb ddiragrith; canys mewn amldra opiniynau y mae y rhan fwyaf agos wedi colli yr ymarfer o wir ffydd. Na thebyg fod yn Gristion digon da, o blegit dy fod di yn gwneuthyd fel y mae y rhan fwyaf, ac o ran nad wyt yn gynddrwg a'r gwaethaf. Nid oes dŷn yn y byd mor ddrygionus, a bod ei ymarweddiad yn tueddu at bob math ar feiau. O herwydd y mae anghyssondeb *(antipathy)* rhwng rhai beiau a'u gilydd. Ond cofia beth y mae Crist yn ei ddywedyd, "Oddi eithr i'ch cyfiawnder fod yn helaethach *na* chyfiawnder yr scrifenydd-

* Gorfodir ninnau i gredu bod y Dr. Bayly wedi camsyniad yn arswydus trwy ddywedyd yn y difyniad blaenorol fel hyn:—"Ac i'r perwyl yma, y gelwir y bedydd ymochiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glân:" Tit. iii. 5. "Can 'olchiat yr adenedigaeth, ac adnewyddiat yr Yspryt glan," yw cyfieithiad W. Salesbury. "Trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glân," ydyw ymhob argraphiad arall o'r Testament Newydd, o'r Dr. Morgan hyd yn awr. Credu yr ydym ni yn ddïysgog fod yr Yspryd Glân yn dywedyd ei feddwl bob amser yn y Bibl mor eglur ag y gall geiriau ei draethu; ac nid *dywedyd* un peth, a *meddwl* peth arall, fel y gellir casglu oddi wrth yr esponiadau yn fynych ei fod yn gwneuthur. Nid oes dim son yn yr adnod dan sylw, nac mewn un man arall yn yr Epistol at Titus, am *fedydd* o gwbl. "Golchiad [neu lanhâd] yr *adenedigaeth* [nid golchiad *bedydd*, sydd yma], ac adnewyddiad yr *Yspryd Glân* [nid adnewyddiad trwy *fedydd dwfr*]; yr hwn [yr *Yspryd Glân*, nid *bedydd*] a dywalltodd efe [*Duw*, nid *dŷn yn y bedydd*] arnom ni yn helaeth, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr:" Titus iii. 5, 6. Ymddengys i ni, yn wir, bod Paul yn ystyried bod *efengylu* yn llawer mwy pwysig na bedyddio. Craffer ar ei ymadroddion:—"Ai yn enw Paul y'ch bedyddiwyd chwi? Yr ydwyf yn dïolch i Dduw, na fedyddiais i neb o honoch, ond Crispus a Gaius; fel na ddywedo neb fedyddio o honof fi yn fy enw fy hun. Mi a fedyddiais hefyd dylwyth Stephanas: heb law hyny nis gwn a fedyddiais i neb arall. Canys ni anfonodd Crist fi i fedyddio, ond i efengylu:" 1 Cor. 13–17. Yr oedd *rhyw ddisgyblion* yn arfer bedyddio yn amser yr apostolion. "Rhyw ddisgybl yn Damascus, a'i enw Ananïas," a fedyddiodd Saul o Tarsis: Act. ix. 10–18. Y mae'n amlwg i ni hefyd mai "Rhai o'r brodyr a aeth gyd â Petr" o Joppa i dŷ Cornelius (Act. x. 23), a fedyddiasant y gynnulleidfa a argyhoeddwyd yno gan Petr; canys dywedir yn eglur, "Ac efe [Petr] a orchymynodd eu bedyddio hwynt yn enw yr Arglwydd:" Act. x. 48. O ganlyniad, nid Petr a'u bedyddiodd hwynt, canys *gorchymyn* i eraill wneud peth y byddys.

Yr ydym yn gweled hefyd y disgyblion, sef credinwyr cyffredin, yn oes yr apostolion, yn arfer "dyfod ynghyd, ar y dydd cyntaf o'r wythnos, i dorri bara" (Act. xx. 7), pa un bynag a ddigwyddai bod cenad neu apostol gyd â hwynt ai peidio. Gwahardd yr anhrefn oedd ymhlith y disgyblion yn Corinth wrth gyfranogi o swpper yr Arglwydd yr oedd Paul, ac nid gwahardd iddynt fwynhau y swpper sanctaidd ymhlith eu gilydd: 1 Cor. xi. 20–20. Dengys Mosheim, a haneswyr eglwysig eraill, mai pan ddechreuodd yr Eglwys Gristionogol ymlygru, dan arweiniad "y dŷn pechod" a'r "anghrist," y dechreuwyd cyfyngu gweinyddiad bedydd a swpper yr Arglwydd i'r dosparth a gamenwir yn "offeiriaid," "gweinidogion ordeiniedig," a'r cyffelyb.
—GOL.

Digitized by Google

ion a'r Phariseaid, nid ewch i mewn mewn un modd i deyrnas nefoedd:" Math. v. 20. Ystyria ynot dy hun belled wyt ti o ol y Phariseaid mewn ymprydio, gweddïo, mynych dramwy i'r Eglwys, a rhoddi elusenau. Meddwl ynot dy hun pa nifer o baganiaid, y rhai nad adwaenent fedydd, etto mewn rhinweddau gwybodawl, a gonestrwydd buchedd, oeddynt yn rhagori llawer arnat ti. Pa le wrth hyny y mae bywyd Crist dy feistr? a pha cyn belled wyt ti oddi wrth fod yn wir Gristion? Os wyt ti yn ewyllysgar yn ymroi i fyw mewn un math ar bechod anafus, nid elli di gael enaid adgenedledig; er i ti ddiwygio dy fuchedd mal Herod oddi wrth lawer o feiau eraill: Marc vi. 10. Y mae'n rhaid i'r gwir Gristion gymmeryd gofal i rodio mewn uniondeb calon, yn ol holl orchymynion Duw, yn gystal yn y naill a'r llall. O blegit, medd St. Iago, 'yr hwn a ballo mewn un pwngc o'r gyfraith (yn ewyllysgar) fydd euog o'r cwbl:' Iago ii. 10. Ac y mae Pedr yn erchi i ni roddi heibio (nid peth) ond holl lid, cynfigen, twyll, a rhagrith, &c.: 1 Pedr ii. 1. Un pechod fydd ddigon er peri enaid yn golledig, heb *edifeirwch*. Na freuddwydia am fyned i'r nef rhyd ffordd negosach neu hawsach na'r hon a linyniodd Duw i ni yn ei air. Nid ydyw'r ffordd i'r nefoedd yn hawdd, a chyffredin, *ond cul a chyfyng:* Mat. vii. 14; ïe, cyn gyfynged ag y mae Crist yn tystiolaethu, 'fod yn anhawdd i ddyn goludog fyned i deyrnas nefoedd:' Mat. xix. 23. A'r rheini fydd yn myned i mewn, nid ydynt ond *ychydig:* ac na eill yr ychydig rai hyny mo'r myned i mewn ond trwy *ymdrechu:* a bod rhai o'r rheini a ymdrechant *heb allu myned i mewn:* Luc xiii. 24. Hyn a wyddai holl Seintiau Duw (tra fuont fyw yma) yn dda. Pryd yr oeddynt trwy aml ymprydiau, difrifol weddïau, mor fynych yn gwrando'r gair, a derbyn y Sacramentau, a thrwy y cyfryw amldra o ddagrau heilltion yn crefyddol erfyn ar ddwylaw Duw, er mwyn Crist, am gael eu derbyn i'w deyrnas."

Am y rhelyw [gweddill] o'r llyfr, nis gallwn roddi mwy na chynnwysiadau y prif bennodau, y rhai ydynt fel y canlyn:—Y modd y mae i ŵr neillduol ddechrau y borau mewn duwioldeb; myfyrdod boreuol; addysg fer o'r modd y mae darllain yr Ysgrythyrau sanctaidd unwaith bob blwyddyn trostynt, yn hawdd, yn fuddiol, ac yn barchedig; myfyrdodau yn arwain y Cristion fel y gallo efe rodio yr holl ddiwrnod gyd â Duw fel Enoch; myfyrdodau am dduwioldeb teuluaidd; am yr union fodd o arfer duwioldeb ar y dydd Sabboth; yr ymarfer anghyffredin ac anaml o dduwioldeb, trwy yr hyn y gogoneddir Duw yn ein bywyd, sef naill ai yn ymprydio ai yn gwneuthur gwleddau; yr union fodd o ymarfer duwioldeb wrth dderbyn cymmun yr Arglwydd; yr arfer o dduwioldeb i ogoneddu Duw yn amser clefyd, pryd y galwer arnat ti i farw yn yr Arglwydd. Dan y pen olaf hwn yr ydym yn cael gweddi pan ddechreuo un fyned yn glaf, gweddi o flaen cymmeryd physygwriaeth, a gweddi i ddŷn claf wedi dywedyd iddo nad yw efe ddŷn i'r byd hwn, ond fod rhaid iddo barotoi ei hun i fyned at Dduw. Yn yr un modd, y mae gweddïau yn gymmysg â'r myfyrdodau trwy yr holl lyfr, yr hyn, fe allai, oedd un achos o'i boblogeiddrwydd yn yr hen amser. Dïau bod llawer wedi cael bendith dragywyddol wrth ei ddarllen; a da fyddai pe darllenid mwy arno yn yr oes hon. Dywedwn etto ei fod yn llyfr tra buddiol; ac wrth derfynu, rhoddwn un difyniad ymhellach, i ddangos fel y mae, wrth dracthu am rodio yr holl ddiwrnod gyd â Duw, yn ein dysgu i wylied ar ein geiriau:—

"Cofia fod yn rhaid i 'ti roi cyfrif am bob gair segur:' Mat. xii. 36: a bod y gŵr doethaf wrth siarad gormod, yn myned tu hwnt iddo ei hun: Diar. x. 19. Gochel gan hyny bob annibenus ac ofer siarad, o'r hyn aufynych y daw diddanwch, a thra mynych edifeirwch: yn enwedig mogel attebion byrbwyll, pryd y mae'r tafod yn rhedeg o flaen y meddwl: y gair oedd eiddot ti tra y cedwaist ef i mewn, y mae'n eiddo arall cyn gynted ag yr aeth allan. O gywilydd a gwarth, pan fyddo tafod dŷn ei hun yn dyfod yn dyst yn ei erbyn, i waradwyddo ei wyneb ei hunan. Ynteu bydded dy eiriau yn anaml, ac yn bwyllog: rhagfyfyria ydyw y peth yr wyt ar fedr ei ddywedyd, yn weddaidd i'w ddywedyd: na haera fwy nag a wypech ti ei fod yn wir, a dewis dewi o flaen siarad yn ddiffrwyth, neu chwedleua rheswm diddefnydd: Iago i. 19.

"2. Eled dy galon a'th dafod ynghyd mewn honestrwydd, a gwirionedd. Casâ ragrith, a chelwydd mewn arall, ffieiddia ynot dy hun: neu fo ffieiddia Duw dydi am hyny. O blegit y mae ef yn casâu'r dŷn celwyddog a'r cythraul ei dad ef un ffunyd: 1 Pedr ii. 1; Salm iii. 2. Os gwybyddir unwaith dy fod heb wneuthur cydwybod o ddywedyd celwydd, ni choelia un dŷn mo honot pan fyddech yn dywedyd y gwirionedd. Os celwyddog i'th adwaenant pryd y traethech wir ni'th coeliant, eithr o byddi yn caru'r gwirionedd, fe a goelir i'th air di o flaen llwf un celwyddog. Mawr yw'r meddiant sydd gan Satan ar y rhai a ymarfero â dywedyd celwydd, megis na fedrant ond dyweyd er na byddo iddynt elw yn y byd oddi wrtho, ac er na bo neb arall yn peri iddynt ei ddywedyd. Na ad i'th ddigofaint barhau wedi ei darfyddo'r achos: gwel byth y rhagoriaeth rhwng yr hwn sy'n gwneuthur cam o herwydd ei wendid (neu yn erbyn ei ewyllys), a'r hwn sydd yn trawseddu o'i lwyrfryd yn faleisus; gad i'r naill gael trugaredd ac i'r llall gael cyfiawnder.

"3. Cadw dy ymadrodd oddi wrth bob budreddi a serthrwydd, mor lân ag y mynnit gadw dy fwyd oddi wrth wenwyn: a bydded dy ymadrodd yn gyfryw ag a fyddo da i 'adeiladu'n fuddiol, ac yn peri gras i'r gwrandawyr:' Eph. iv. 29. Bydd yn fwy difrifol yn siarad am y grefydd, nag yn siarad am bethau bydol.

"O dealli it gyfeiliorni, nac ymdro yn wargaled i aros yn dy fai: gorfoledda wrth gael y gwirionedd, a mawryga ef. Myfyria gan hyny ar dri pheth; sef i ddeall yn dda, i ddywedyd yn dda, a gwneuthur yn dda. A phan gyfarfyddech di â phlant Duw, bydd sicr o gynnill rhyw lesâd oddi wrthynt, dysg ganddynt gwbl ag a ellych o ddaioni, a chyfrana âg hwynt yr holl bethau daionus a wyddost dithau. Po mwyaf o ddaioni a ddyscech i eraill, mwyaf a ddysco Duw i tithau: Marc iv. 24, 25. Canys megis y mae rhoddion dynion wrth hir ymarfer o honynt yn delwi ac yn darfod: felly y mae doniau Duw o'i hir ymarfer yn cynhyddu, ac yn chwanegu: megis ystenaid o olew y wraig weddw ddyledog, yr hon po mwyaf a dywalltai hi o hono; fwyfwy a fyddai ynddi: 2 Bren. iv. 2.

"Gochel gredu'r cwbl a ddywedpwyd i ti, ac na ddywed y cwbl a glywech di; canys os gwnei, ni chei di hir feddu cyfeillion cywir, na byth eisiau blinderau trymion: Preg. iii. 7; Luc ii. 19. Am hyny mewn cyhuddiadau, bydd yn gyntaf yn ddïogel o'r gwirionedd, yno barna. Ac fel yr wyt yn prisio geirda calon honest, na âd fyth i gasineb mewn drygnaws beri i ti adrodd yr hyn y darfu i gariad mewn cymdeithas dy rwymo di (er ys hir o amser) i'w

Digitized by Google

gadw yn gyfrinachol. Eithr rhag ofn y fath wyniau, synia ddau beth.

"Yn gyntaf, er maint dy gydnabyddiaeth, na wna yr un yn gyfeillfrawd o'th gyfrinach ond un a fyddo'n gwir ofni Duw, y cyfryw nid rhaid i ti byth mo'i ofni. Canys o ddigwydda i chwi amrafaelio mewn rhyw bethau neillduol, etto cariad Cristionogawl, prif sail eich cyfeillach, ni chwympa ymaith byth; ac ni chynnwys ofn Duw iddo ef wneuthur dihirdra â thydi.

"Yn ail, na wna ddim yngŵydd dy gyfaill dinasol, am yr hyn ni elli fod yn ddïangol, oddi eithr ei gadw yn gyfrinachol: nac un peth am yr hwn (o daw achos) y bydd raid i ti ei ofni; os efe a brifia i fod yn elyn anafus i ti. O gwnaethost ti ddim ar fai, gofyn faddeuant i Dduw, a pherswadia dydi dy hun, ac nid dy gyfaill, i gadw dy gyfrinach dy hun. Canys bydd ddïogel pa gyfeillach bynag a osodir ar sail amgen nag ar wir grefydd, os yr achos o honi a fetha, y mae'r gyfeillach yn myned i'r gwellt: ac yn hytrach, o herwydd fel y mae Duw yn magu gwirionedd, heddwch, a chymdeithas ymhlith dynion, mal y byddem fyw i wneuthur daioni y naill i'r llall: felly y mae'r cythraul beunydd yn hau celwydd, amrafael, a gelyniaeth, i beri (os gall ef) i'r cyfeillion anwylaf ddifetha eu gilydd.

"5. Na wna goeg-ddigrifwch o wendid un arall: cofia dy un dy hunan. Ffieiddia synwyr gâs, a naturiaeth front y dŷn sydd (pan fo ei menydd yn deall rhyw achos o watwor) yn trafeilio megis gwraig feichiog, nes cael ei ben yn rhydd oddi wrtho. Ië, gwell ganddo golli ei gyfaill gorau na'i wawd dihiraf: eithr o bydd ynot hoen i fod yn llawen, cymmer ofal mawr am dri pheth. Yn gyntaf, na bo dy ddigrifwch yn gwrthwynebu iawn grefydd. Yn ail, na byddo yn erbyn cariad perffaith. Yn drydydd, na byddo yn erbyn diweirdeb. Ac yno bydd mor llawen ag a fynech, yn unig yn yr Arglwydd: Phil. iv. 4.

"6. Na fydded llawen gennit weled codwm i'th elyn, o blegid ni wyddost pa fodd y bydd dy ddiwedd dy hun. Eithr gorfoledda fwy weled gwellhad y dŷn dihiraf, nag wrth weled ei gospedigaeth. Na chasha un dŷn, rhag ofn bod Crist yn ei garu, yr hwn ni fyn i ti gashau yr hwn a garo: yr oedd Crist yn dy garu yn *elyn* iddo: Rhuf. v. 8, 10; Eph. ii. 4. Am hyny drwy haeddedigaethau ei waed, y mae ef yn erfyn arnat er ei fwyn ef garu dy elyn: nacâ ef (a thithau yn Gristion) os llysefi.* Nid yw ef yn gofyn maddeuant o gant o geiniogau am faddeuant o ddeng-mil o dalentau: Math. viii. 24, 28; a xxv. 28. Triugain can-mil o goronau, am ddeg-coron: ychydig o faddeuant dŷn am anherfynol faddeuant yr Hollalluog Dduw. Er i ti dybied nad yw dy elyn yn haeddu maddeuant, etto y mae Crist yn deilwng o'i anrhydeddu.

"7. Dywed y gwirionedd, ac na ofna wyneb dŷn, pan fyddo gogoniant Duw neu ddaioni dy gymmydog yn ei ofyn ar dy law. Wrth ynnill câs y Tywysog lawer gwaith yr ynnilli gariad Duw: ni chaiff gweniaith ond byr barhau mewn cymmeriad, na gwirionedd mo'r hir aros mewn amharch.

"8. Tybia ei fod yn gyfaill cywir ffyddlon, a ddywedo i ti dy feiau yn eglur mewn dirgelwch. Yr hwn sy'n dy weled ti yn troseddu, ac heb ddywedyd i ti dy fai, naill ai y mae ef yn gwenieithio i ti am dy ffafr, neu ni feiddia ef rhag ofn dy anfoddloni. Gresynus ydyw cyflwr yr hwn wrth ei raid ni feddo un i'w gynghori. Argyhoeddiad, bid gyfion bid anghyfion, pa un bynag ai o enau cydymaith, ai o enau gelyn y delo, ni wna fyth niwaid i ŵr synhwyrol. O blegid os bydd hyny yn wir, dyna i ti rybudd i wellhau: os anwir, dyna ddangos i ti beth i'w ochelyd. Felly ymhob ffordd y mae'n gwneuthur gŵr call yn well, neu'n ddichlynach. Ond oni elli aros dy argyhoeddi. na wna dithau ddim achos o argyhoeddiad.

"9. Na chrybwylla Dduw, ond trwy ofn ac anrhydedd, megis yn ei glyw a'i olwg. Canys gan weled nad ydym ni deilwng i arferu ei enw sanctaidd yn ein geneuau: llai o lawer y dylem ni gamarfer ei enw bendigedig yn ofer yn ein hymroddion. Canys ei arfer beunydd, mewn ofer, byrbwyll, neu gau lyfon, sydd arwydd ddïamheus o enaid ni wir ofnodd Dduw erioed. Gweddïa gan hyny gyd â Dafydd, pan fyddech i lefaru mewn rhyw achos a ddichon beri digofaint fel hyn: 'Gosod, Arglwydd, gadwraeth o flaen fy ngenau: cadw ddrws fy ngwefusau:' Psal. cxli. 3.

"10. Yn olaf, bydd weddaidd yn canmol, yn wybodol yn cyfarch, yn gymdeithgar yn cynghori, yn drugarog yn maddau, yn ffyddlon yn addo, yn hael yn gwobrwyo twrn da, heb wneuthur taledigaeth rhinwedd yn wobrau ffafor: 2 Pedr i. 12; Rhuf. xii. 10; 2 Thes. iii. 15; Psal. xv. 4."†

Am y rhanau ymarferol o'r difyniadau uchod, gallwn ddywedyd, fel y dywed y Dr. Edwards am y llyfr ei hun, ein bod yn eu hystyried yn dda a defnyddiol; ond am y rhanau athrawiaethol a duwinyddol o honynt, rhaid i ni ddywedyd wrth y darllenwyr fel y dywedodd "William Midelton" am yr "Owdl Fair a gânt Gwilym Tew"—"Gochelwch y surdoes."‡

Y mae llafarwedd iaith y difyniadau hefyd yn brydferth, llithrig, a Chymreigaidd ragorol, ac yn dra theilwng o efelychiad ysgrifenwyr yr oes hon; ond ymddengys nad i Rowland Fychan y mae i ni ddïolch yn gwbl am hyny, canys dywed "Diwygiwr y preintwasc at y darllenydd" (yr hwn y tybir yn sicr mai Charles Edwards ydoedd), yn yr argraphiad 1675, fel hyn:—

"Pan i'm galwyd i ddiwygio'r preintiad o'r llyfr yma, mi dybiais nad oedd raid imi ond edrych ar iddo gyfatteb yn gywir i'r llyfrau o'r blaen. Ac felly y dechreuais wneuthur, nes imi wrth fyned ymlaen i holi'r copi, ddal sylw fod yn angenrheidiol gyfnewid ynddo lawer o bethau; gan fod y darlleniad a'r ystyr yn dywyll, ac yn anghysson mewn llawer o fannau, ac heb gyrhaeddyd ergyd yr Awdwr yn y dafodiaith arall: ac i'r cyfieithydd gamgymeryd bagad o eiriau Lladingaidd a Groegaidd yn y llyfr Saesonaec, ysydd anhawdd eu dirnad, ac allent fagu amryfusedd; megys yn y ddalen 41 o'r preintiad cyntaf, lle y cymmerth y gair site yn lle sight, gan ei gyfieithu golwg, yn lle cyflead. Nid yw y fath gamgymeriad mewn rhai geiriau dieithriol achos i feio ar y cyfieithydd a gymmerth boen mor llesol i'w wlad yn y gorchwyl hwn, am nad oedd y pryd hynny hyfforddiadau i gyfieithu mor gyffredin ac ydynt yr awrhon. Y mae gennif barch i'w enw am y llyfr hwn, ac yn gofus gennif er fy mebyd mor groesawus ydoedd i'r parth lle y ganwyd fi. Ond y beiau mwyaf (tebyg cennifi) a ddigwyddasau oddiwrth anghyfarwyddyd y preintwyr Seisnig, y rhai yn gynnefinol a adawant amryw eiriau a liniau hefyd heb eu rhoi i mewn, onid edrychir attynt yn dra-manwl. O herwydd yr achosion rhagddywededig mi roddais gais ar gyffelybu y rhan fwyaf o'r llyfr Cymraeg a'r un Saesoneg ynghyd, ac i'w gwneuthur i gydgordio, gan roddi i mewn a thynnu allan, a chyfnewid a symud pethau, fel yr oedd yr achos yn gofyn."

Nid oedd neb gymhwysed a'r enwog Charles Edwards at hyn o orchwyl, fel y ceir gweled yn y llyfr nesaf o'r gwaith hwn. Ond er y gwallau a nodwyd gan "Ddiwygiwr y preintwasc," gan y

* Llyfasu (beiddio) ydyw y gair. Pa un a gamgymmerwyd yr hen s am ſ, ac ſ am s, nis gwyddom.—Gol.

† Yma y terfyn ysgrif y Dr. Edwards.

‡ Linguæ Cymraecæ Institutiones Accuratæ I. D. Rhys, p. 235.

Dr. Edwards, a chenym ninnau, oedd, ac y sydd, yn "Yr Ymarfer o Dduwioldeb;" etto yr ydym yn llwyr gydsynio â'r hyn a ddywedir am y cyfieithydd gwladgarol, Rowland Fychan, gan ei gydoesydd gwych, Robert Llwyd, Ficar y Waun, yn ei "Annerch at y darllennydd o Gymro uniaith," sydd o flaen y "Llwybr Hyfforddd i'r Nefoedd," a gyhoeddwyd yn 1629:—

"Mi a amcanaswn chwanegu at ddiwedd y llyfr yma fagad o weddiau iw harfer ar amryw fath ar achlyssur, ac achosion; eithr y mae yr *Ymarfer o Dduwioldeb* ynteu yn y Print-wasc, ac yn bryssio i ddyfod i wlad Gymru cyn y gaiaf; oddiyno y gelli di gael beth bynag a ddymunech. Dyna wr boneddig yn treulio ei amser yn weddol, ac yn ganmoladwy, gan wneuthur gwasanaeth i Dduw, daioni i'w wlad, a llesâd mawr iddo ei hun drwy gyfieithu y llyfr godidog hwnnw. Pe cymmerai foneddigion ieuaingc ein gwlad ni ryw gyffelyb orchwyl-waith duwiol a buddiol, i dreulio eu hamser arno, ni byddai anllygredigaeth, a rhysedd yn cael cymmaint rhwysc: Na gwir grefydd uniwn-gred yn cael cyn lleied brî, a chymmesuriad; ac ni byddei occreth yn yssu, ac yn bwytta y naill ddarn o'u tiroedd, na thafarndai, a mwg Tobacco yn yfed y darn arall."

---

## PENNOD XIII.

### Y DR. GRUFFYDD WILLIAMS, A RICHARD JONES O DDINBYCH.

Yr ydym yn dwyn y gŵr blaenaf i blith "Enwogion y Ffydd," nid yn gymmaint o ran yr hyn a wnaeth o blaid y ffydd yng Nghymru, oddi eithr dros ychydig amser, ag o blegid iddo hanu o genedl y Cymry, ynghyd â'i ymdrechiadau mawrion a gwronol o blaid ffydd Eglwys Loegr. Yr ydym yn cyssylltu Richard Jones o Ddinbych âg ef, nid o blegid ei fod wedi ei ddwyn i fynu ar gyfer Eglwys Loegr, fel yntau, ond am ei fod yn gydoeswyr âg ef, ac o herwydd nad oes ond ychydig o'i hanes ef ar gof a chadw.

Gruffydd Williams ydoedd ŵr enwog a hanai, trwy ei fam, fel y dywedir, o hen deulu pendefigaidd y Tuduriaid o Benmynyd, Mon; a'i dad a breswyliai ar ei dreftadaeth ei hun, yr hon a ddisgynasai iddo oddi wrth ei hynafiaid, sef Trefeilian, ymhlwyf Llanrûg, sir Gaernarfon. Methasom daro wrth enw y tad na'r fam; ond y tebygrwydd yw mai enw y tad oedd William, canys arfer yr hen Gymry gynt yn wastad oedd cymmeryd y cyfenw oddi wrth enw cyntaf y tad.

Ganwyd Gruffydd yn Nhrefeilian, yn 1587. Cafodd ei addysg foreuol mewn ysgol anghyhoedd yn nhref Caernarfon, ac yn 1603 derbyniwyd ef yn ysgolor i Goleg Eglwys Crist yn Rhydychain, pan ydoedd yn 16 oed. Gadawodd y brifysgol honno cyn cymmeryd gradd ynddi, a symmudodd i Gaergrawnt, ar wahoddiad ei gyfaill, yr Archesgob Williams,* yr hwn oedd yn fyfyriwr ar y pryd yn y brifysgol honno, ac yn hynach na Gruffydd o bum mlynedd; a bu yn noddwr egnïol iddo, a chymmorth arbenig yn ei fyfyrdodau. Wedi iddo gymmeryd y radd o M.A., llwyddodd ei gyfaill iddo gael ei bennodi yn gaplan i Phylip, Iarll Trefaldwyn, yn 1614, pan ydoedd yn 27 oed. O gylch yr un amser, pennodwyd ef yn beriglor St. Bennet Sherehog, Llundain; a dywed Syr James Waeres iddo gael Ffoscot a Bucks hefyd. Wedi hyny bu yn ddarlithiwr, yn gyntaf yn St. Peter, Cheapside, Llundain, ac wedyn, dros bum mlynedd, yn St. Paul.

O gylch y pryd hyn, dywedir y bu rhyw ymrafael rhyngddo â'r Puritaniaid, yr hyn a gostiodd iddo gryn lawer o arian. Yn y cyfamser, wedi deisebu o hono at Archesgob Caergaint, ac eraill, cafodd berigloriaeth Llanllechid, yn Arfon, lle y perchid ef yn fawr fel pregethwr Cymraeg galluog, ac fel Cristion dichlynaidd. Ystyrid ef yn dra hyddysg mewn duwinyddiaeth a hanes eglwysig; ac wedi cael y radd o D.D., etholwyd ef i fod yn un o gaplanwyr Charles I. Yn 1628, gwnaed ef yn gôr-beriglor Westminster; ac yn 1633, gwnaed ef yn Ddeon Bangor, ac yn Archddiacon Mon. Ar yr 20fed o Fedi, 1641, cyssegrwyd ef yn Esgob Ossory, yn y Werddon. Yn 1642, torodd y rhyfel gartrefol allan rhwng y Brenin a'r Senedd, a gorfodwyd yr Esgob Williams i ffoi o'r Werddon i Loegr, am ei fod, fel ei frodyr clerigol yn gyffredin, yn pleidio achos y brenin; a llyfr i amddiffyn ei achos ef oedd y cyntaf a ysgrifenodd, sef ei "Vindicæ Regum," o blegid yr hwn y daliwyd ef yn ei dŷ, yn Apethrope, sir Northampton, gan fintai o filwyr y Senedd, y rhai a'i cludasant ef yn garcharor i Northampton, lle yr eisteddai pwyllgor, a bennodasid gan y Senedd, mewn barn ar yr achos, â'r llyfr crybwylledig yn eu dwylaw. Enciliodd wedyn i Rydychain, ac argraphodd ei "Discovery of Mysteries." Tra yr oedd efe yn pregethu o flaen Tŷ Cyffredin Charles, a gynhelid ar y pryd yn Rhydychain, aeth milwyr y Senedd o Northampton, ac yspeiliasant ei dŷ, yn yr hwn y cyfanneddai ei wraig a'i blant, gan gymmeryd ymaith ei holl ddodrefn, ac attafaelu ei diroedd at wasanaeth y Senedd. Yn ystod y gauaf canlynol efe a ysgrifenodd ei "Jura Majestatis."

* Gwel t. 106, Nod. §.

Digitized by Google

Fel yr oedd achos y brenin yn gwanhau, darostyngwyd yr Esgob Williams a'i deulu i gyfyngderau mawrion; ond er iddo gael cynnyg ar ddyrchafiadau gwerthfawr, od ymostyngai i'r Senedd, efe a'u gwrthododd oll yn benderfynol. Y mae yn crybwyll yn un o'i bregethau ddarfod i'r Duc Ormonde, a Lofftus, Archesgob Dublin, anfon symiau mawrion o arian iddo yn ei gyfyngderau. Cynhygiodd Harri Cromwel, llywiawdwr y Werddon, gan punt y flwyddyn iddo od ymostyngai i'r llywodraeth, ond efe a'u gwrthododd mor benderfynol ag y gwrthododd y cynhygion eraill a wnaed iddo. Yn lled fuan wedyn, efe a enciliodd i Lanllechid, ger llaw Bangor, "lle y bu mewn cyfyngder mawr dros ddeuddeng mlynedd, heb fwy nag ugain punt y flwyddyn at ei gynnal ei hun a'i deulu; a gorfodwyd ef i fyw ar dyddyn bychan o ddwy bunt a degswllt y flwyddyn, a gwerth pedair punt o dir o'i feddiant ei hun.* Felly yr oedd ei sefyllfa yn is na'r eiddo curad tlawd; ac ymborthi ar fara ceirch, bara haidd, a llaeth enwyn, a dwr weithiau; gan nad oedd alluog i gadw un dyferyn o gwrw neu ddïod frag, dros ddeng mlynedd ynghyd. Ymwisgai hefyd yn y dull mwyaf gwledig; a gwnai'r gwasanaeth iselaf o amgylch y tŷ, yn yr ardd, a chyd â'r anifeiliaid." Yn yr agwedd isel uchod y gwelwyd ef gan y "genad" a ddaeth ar ei ol o'r Werddon. Yr oedd ganddo gryman drain ar ei fraich y pryd hyny, fel pe buasai newydd fod ar y gorchwyl o gau rhai o wrychoedd drain y "Tyddyn Du" a'r "Plas Hwfa." Siomwyd y "genad" yn aruthr pan ddywedodd wrtho bod yr esgob "yn y tŷ pan oedd efe yno," canys ni ddaethai i feddwl y "genad" mai yr esgob oedd mewn agwedd mor isel. Nis gallasai neb ond un o "Enwogion y Ffydd" ddewis byw fel hyn yn hytrach na gwerthu yr egwyddorion a ystyriai efe, druan, ac ychydig eraill, yn gywir ac ysgrythyrol.

Pa wedd bynag, bu yr Esgob Williams fyw i weled "tro ar fyd." Pan aeth Charles II. i Gaerwrangon (Worcester) yn 1659, marchogodd yr Esgob Williams ar geffyl i Lundain, i edrych am fodd i gyhoeddi ei "Great Antichrist;" ond methodd yn ei amcan ar hyn o bryd, fel y bu raid iddo ddychwel yn ol wedi cael "siwrnai seithug," ac ar ei daith yn ol, cloffodd ei geffyl, fel y bu raid iddo gerdded ar ei draed o Daintsy, tu a thriugain milldir o ffordd, gan dywys y ceffyl. Pan adferwyd Charles II. i'r orsedd yn 1660, adferwyd ei holl ddyrchafiadau eglwysig iddo yntau. Dychwelodd yn fuan wedyn i'r Werddon. Glaniodd yno ar forau Sul, a phregethodd yn Eglwys St. Bride; ac efe oedd y cyntaf yn y Werddon a arferodd weddïo dros y brenin. Adfeddiannodd ei esgobaeth yn awr, ond cafodd gryn helynt gyd â rhyw ddynion oedd yn amser y gwrthryfel wedi meddiannu peth o'r tir a berthynai i'r esgobaeth; a chyn gynted ag a gwelodd arwyddion digonol o heddwch, cyfranodd bedwar cant ar ddeg o bunnau at adgyweirio yr Eglwys Gadeiriol, sef St. Canice, Kilkenny. Pan basiwyd gweithred seneddol, yn 1665, i attal unrhyw ŵr llên ddal bywiolaethau eglwysig yn Lloegr neu Gymru, ac yn y Werddon yr un pryd, rhoddwyd erthycl i mewn, fel eithriad, i alluogi yr Esgob Williams i ddal Deoniaeth Bangor ac Archddiaconiaeth Mon, ynghyd â'i esgobaeth yn Ossory, cyhyd ag y byddai byw; ac felly y bu.

Yr oedd elusenau yr Esgob Williams yn dra llïosog. Adeiladodd wyth o elusendai i wyth o wragedd gweddwon tlodion, y rhai a waddolodd efe â thir a'i enw Ffermogle, yr hwn oedd yn werth deugain punt y flwyddyn. Y mae'r tai fyth heb lwyr adfeilio; ond y mae'r tir gwaddoledig wedi myned i ddwylaw anwir. Yn ei ewyllys ddiweddaf, neu ei lythyr cymmun, a amserwyd yr 16fed o Hydref, 1671, rhoes hanner cant o bunnau i dlodion St. Canice, a'i diroedd ymhlwyfydd Llanllechid, Bangor, a Chyffin, a'i dai yng Nghonwy, a roddes efe i Ann, merch John Prys, am ei hoes; ac wedyn i dlodion y gwahanol blwyfydd, dan gyfarwyddyd eu swyddogion eglwysig dros byth. Ei gymmunrodd ymhlwyf Llanllechid yw Plas Hwfa a'r Tyddyn Du, a phedwar o anneddau arno (y cwbl ond y tŷ wrth y lon), a naw o geuau bychan, sydd tu a deg cyfar a hanner. Rhennir y gymmunrodd hon bob Dyddgwyl Domas, dan gyfarwyddyd y person a'r wardeiniaid.

O ran ei dymmer yr oedd yr Esgob Williams yn addfwyn a charuaidd, ac yr oedd yn bur ddeniadol yn ei ymddiddanion; am hyny hoffid ef yn fawr gan bawb o'i gydnabod. Yr oedd yn gynghorwr gwresog, yn bregethwr tanbaid, ac yn geryddwr didderbyn wyneb. Yr oedd yn berffaith onest yn ei egwyddorion, y rhai a gyhoeddai yn wrol a dïysgog yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau, trwy glod ac anglod, parch ac ammarch, elw a cholled, addewidion a bygythion. Rhaid ei fod yn meddu graddau helaeth o amynedd Job,

* Tybir mai Trefeilian, ymhlwyf Llanrûg, oedd y tir yma.

gwroldeb Dafydd, ac anturiaeth Paul, cyn y beiddiasai gyhoeddi y fath lyfrau a'r "Vindicæ Regum" a'r "Great Antichrist" ar y fath amserau ag y gwnaeth. Yn yr olaf y mae'n cyhoeddi yn ddibetrus mai y gymmanfa a gynhaliwyd yn Westminster Abbey oedd yr "Anghrist Mawr," a bod dīenyddiad yr Archesgob Laud a Charles I. yn brofion dīamheuol o hyny.

Heb law llīaws o bregethau, ysgrifenodd y duwinydd enwog a gwrol hwn tu a deuddeg o lyfrau, y rhai a gyhoeddwyd ar wahanol amserau o'r flwyddyn 1622 hyd 1667, o'r sawl y cofnodir dau yn "Llyfryddiaeth y Cymry," sef "Discourse before the unfortunate Parliament at Oxford, on the only way to preserve life. 1644." Rhoddir hanes ar ddiwedd y llyfr hwn am yr yspeiliad y crybwyllwyd am dano eisoes, a wnaed ar eiddo yr esgob gan filwyr y Senedd tra yr oedd efe yn traddodi y bregeth hon. Y llyfr arall a gofnoda y "Llyfryddiaeth" yw y "Jura Majestatis, the Rights of Kings, both in Church and State. 1. Granted by God. 2. Violated by the Rebels, &c., and the Wickedness of the Faction of this pretended Parliament at Westminster, their Rebellion, Murder, Robbery, &c. Oxford, 1644." Nid ydym yn gwybod i'r un o lyfrau na phregethau yr Esgob Williams, mwy na'r eiddo ei gyfaill, yr Archesgob Williams, gael eu cyfieithu i'r Gymraeg; ond y mae yn sicr iddo draddodi amryw bregethau yn Gymraeg yn ystod yr amser y bu yn ei beriglorïaeth yn Llanllechid, fel yr awgrymwyd eisoes. Bu yr esgob dysgedig, gwrol, a llafurus hwn farw ar y 22fed o Fawrth, 1672, yn yr oedran teg o 84 blwydd, a chladdwyd ef yn ochr ddeheuol cangell Eglwys Gadeiriol St. Canice, Kilkenny, y Werddon; ac y mae'r gwirionedd iddo roddi rhan helaeth o'i feddiannau i'w nith Ann, yn ei ewyllys ddiweddaf, heb son dim am ei wraig a'i blant, yn arwyddo eu bod hwy oll wedi meirw o'i flaen ef.*

RICHARD JONES o Ddinbych. Y mae hanes y gŵr duwiol ac enwog hwn yn bur brin; ac y mae'r ychydig sydd o'i hanes yn lled dywyll a dyrys, a hyny, yn benaf, fel y tybir, am fod Calamy ac Wood yn traethu yn wahanol, neu, o leiaf, yn dywyll, am dano. O herwydd hyn, tybiodd Mr. Foulkes fod dau Richard Jones o Ddinbych, y naill wedi ei eni yn Henllan, ger llaw Dinbych, a'r llall yn Llansannan,† pentref o fewn tu ag wyth milltir o Ddinbych. Ond nid yw y craffus Wallter Mechain yn crybwyll ond am un, ac y mae efe yn priodoli y cyfansoddiadau, a phethau eraill, a ran Mr. F. rhwng y ddau, i'r un gŵr, ac felly y gwna Gwilym Lleyn. Dyma fel y dywed Gwallter Mechain:—

"Nis gwn pwy oedd *Risiard Jones* o Ddinbych, os nad yr un a Risiard Jones, mab Siôn Puw o Henllan, yn ymyl Dinbych o ddeutu'r fl. 1603. Yr oedd y gŵr hwn yn un o oreuon ein cenedl; ond ni chafodd ei goffad y sylw a deilynga. Derbyniwyd ef yn aelod o Athrofa yr Iesu yn Rhydychain, yn 1621. Cymmerodd ei radd yno, a bu wedi hyny yn bregethwr. Ysgrifenodd grynhodeb o lyfrau a phennodau y Bibl, a galwodd y llyfr *Gemma Cambricum.** Ysgrifenodd yr enwog James Howel ragymadrodd o gymmeradwyaeth iddo; ac argraphwyd ef yn Rhydychain,† yn 1652.† Y mae'n brin iawn yn bresennol. Mynegodd y Dr. Michael Roberts, pennaeth Athrofa yr Iesu, i Wood, fod Mr. Jones wedi marw yn y Werddon, ryw bryd cyn 1657.‡ Nid oedd annichonawl iddo gyfieithu llyfr Mr. Gouge,§ o herwydd yr oeddynt ill dau o'r un oedran; ac yr oedd Mr. Gouge, hyd y flwyddyn 1662, yn weinidog ffyddlawn a llafurus yn yr Eglwys Sefydledig. Tebyg mai o ffordd y gwrthryfel yr aeth Mr. J. i'r Werddon. Buddiol fyddai cael ychwaneg o hanes y gŵr da hwn."||

Gan fod hanes y gŵr enwog a duwiol hwn mor brin, y mae pob peth a ddywedir gan wahanol ysgrifenwyr am dano yn sicr o beri mawr ddyddordeb i bawb o hoffwyr "Enwogion y Ffydd;" am hyny dodwn y cwbl sydd at ein galwad am dano ger bron, a chaiff y darllenydd dynu ei gasgliadau. Dyma fel y dywed Calamy am Richard Jones o Ysgol Rydd Dinbych:—

"Ganwyd ef yn Llansannan yn y wlad hon [Dinbych.] Yr oedd yn ŵr o athrylith, dysgeidiaeth helaeth, a duwioldeb nodedig, ac yn ysgolfeistr pur ddefnyddiol a llwyddiannus. Gwrthododd urddau a dyrchafiadau, y rhai a gynhygid iddo os cydymffurfiai. Goddefwyd iddo gadw ysgol anghyhoedd dros amser yn Henllan, ond ymlidiwyd ef oddi yno o'r diwedd. Yr oedd ganddo awen at brydyddiaeth yn Lladin, Saesneg, a Chymraeg. Bu farw yn Ninbych ar y 15fed o Awst, 1673. Pregethwyd ei bregeth angladdol gan Mr. Roberts, gweinidog cydymffurfiol y dref, oddi wrth y geiriau hyny, eiddo'r Psalmydd,—'Gwae fi fy mod yn preswylio yn Mesech,' &c. Cyfieithodd am-

* Williams' Em. Welshm., p. 524; Taliesin, cyf. ii., t. 27; En. Cymru, t. 999; Llyfr. y Cymry, t. 136.

† En. Cymru, t. 629.

* Enw'r llyfr yn llawn sydd fel hyn—"Gemma Cambricum, seu Mnemonica Biblorum.—Perl y Cymro, neu Gofiadur y Bibl. Gan Richard Jones, M.A.—Llundain." 1655. 12plyg.—Llyfr. y Cymry, t. 168.

† Yn Llundain, yn 1655, yn ol Cofrestr Moses Williams, rhif 101, fel yn y "Llyfryddiaeth;" ond Wood a'i dyry yn 1652, fel Gwallter Mechain. Y mae yn dra thebyg ei fod ymeddiant M. Williams pan yn ei gofrestru.

‡ Wood's Athenæ Oxoniensis, ii. 96.

§ Y llyfr y cyfeirir ato yma oedd "Hyfforddiadau Cristionogol. Yn dangos Pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y dydd. A osodwyd allan yn Saesonaec, gan Thos. Gouge, Gweinidog yr efengyl ac yn Gamberaec gan Richard Jones, o Ddinbech.—Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr. 1675."

"Diwygiwr y print-wasg," medd Gwilym Lleyn, "oedd Charles Edwards. Cyhoeddodd T. Gouge y llyfr hwn ar ei draul ei hun, gan geiso Cymro cyfarwydd i'w droi i'r Gymraeg."—Llyfr. y Cymry, t. 202.

|| Gwaith Wal. Davies, cyf. ii., t. 800.

ryw lyfrau i Gymraeg, yn enwedig, 'Galwad i'r Anedifeiriol,' a 'Bellach neu Byth,' gan Mr. Baxter; at y rhai y gellir ychwanegu yr 'Hyfforddiadau Cristionogol,' gan Gouge,"* y cyfeiriwyd atynt eisoes.

Cyffelyb ydyw yr hyn a ddywed Gwilym Lleyn am y gŵr enwog hwn:—

"Mab ydoedd yr awdwr [awdur 'Perl y Cymro,'] RICHARD JONES, i un John Pugh, o Henllan, ger Dinbych. Ganwyd ef yn 1603 (yn Llansannan, medd Calamy.) Aeth i Rydychain yn 1621, pan oedd tu a deunaw mlwydd oed, a chymmerodd y radd o A.C. [M.A.] yno. Dywedir ei fod yn ddŷn deallus, o ddysgeidiaeth nodedig a duwiol, a defnyddiol a llwyddiannns iawn fel ysgolfeistr. Efe a wrthododd urddau, a chodiad os cydymffurfiai. Gadawyd iddo gadw ysgol yn Henllan dros beth amser, ond o'r diwedd efe a yrwyd ymaith, wedi iddo cyn hyny, y mae'n debyg, golli cadwraeth yr Ysgol Rad Rammadegol yn Ninbych. Yr oedd yn fardd o gryn fri, yn Lladin, Saesneg, a Chymraeg. Bu farw yn y Werddon, ond y mae'r amser yn anhyspys, meddai Wood;† ond dywed Calamy mai yn Ninbych y bu farw,"‡ fel y gwelsom eisoes.

Gwelir mai ar dystiolaethau Calamy ac Wood y mae pawb yn seilio eu mynegiadau am Richard Jones o Ddinbych, a bod y ddau hanesydd hyny yn wahanol ynghylch lle ei enedigaeth a'i farwolaeth; er hyny, yr un gŵr ydyw ganddynt oll ond Mr. Foulkes.

Un esampl o waith Richard Jones o Ddinbych sydd yn ein meddiant ni, sef ei gyfieithiad o "Bellach neu Byth" Baxter, yr hwn sydd yn y "Trysor i'r Cymru," a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1677.§ Y mae'r bregeth hon yn gyfansoddiad godidog dros ben, ymhob ystyr, ac y mae'r cyfieithiad yn Gymreigaidd ac ystwyth, yn gwbl gyfartal i'r cyfansoddiad gwreiddiol. Fel hyn y dywed yr awdur galluog yn y "Llythyr at y Darllenydd," sydd o flaen y "Trysor i'r Cymru," am dani:—

"Ac fel y bo i ti allel gwneuthur iawn ddefnydd o'th amser gyd â cheisio cymmorth Duw trwy weddi, ym mysg moddion cyfreithlon eraill, darllen yn ddyfal y rhan hynny o'r llyfr hwn, ac a elwir *Bellach neu Byth;* canys y mae llawer o ddysc ac hyfforddiadau i'r diben hynny yn gynnwysedig ynddo. Ond na chamgymmer mo'r awdur, pan y mae fo'n pledio cymmaint tros sancteiddrwydd a phobl sanctaidd, ac yn perswadio rhai i fod yn ddyfal ac yn ddiwyd mewn sancteiddrwydd; na chamgymmer meddafi mo'r awdur, fel pet fae ei bwrpas ef, yn unig trwy hynny, i'th dynnu di i ryw Blaid neu Barty.

"Darllen y cwbl trosto mewn trefn, ddwywaith tair, ac fe fydd hawdd i ti farnu nad yw ergyd y cwbl ac y mae fo yn ei ddywedyd, ond i berswadio pawb o bob party, i fod yn rassol ac yn sanctaidd, fel y bont cadwedig ar y diwedd; 'canys heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd:' Heb. 12. 4. Ie nid yw'r awdur yn ceisio ond hyn, sef ar i bawb fyw yn gyfattebol i'r hyn yr ym ni oll yn cyttuno ynddynt; canys yr ym ni oll yn proffesu 'Y dyle pob dyn wadu annuwioldeb, a chwantau cnawdol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awron.' A pheth echrydus yw, oni ddichon pobl ddioddef eu perswadio i fyw yn ol yr hyn y maent hwy yn cyttuno ac eraill ynddo!

"Nid ydys ymma yn dywedyd dim yn erbyn neb o un rhyw barty, ond cyn belled ac mae y neb o honynt yn annuwiol, ac yn cassau ac yn dirmygu duwioldeb, a hynny yn erbyn yr hyn y maent hwy yn ei broffessu eu hunain. Ac am wendid a ffolineb y rhai grassol, yn yr amryw Bartyon y sydd yr awron, nid ydys yn dywedyd ymma cymmaint ac un gair i hamddiffyn hwy yn hynny."

* Calamy's Account, vol. ii., p. 844; Rees's Hist. Noncon. in Wales, p. 149.

† Wood's Athen. Oxon., vol. ii., p. 96; Williams's Em. Welshm., p. 260.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 168.

§ Methasom gael sicrwydd mai gwaith R. Jones o Ddinbych ydyw'r "Tri o ddrychau ysprydol i dri math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhith-gristion, a'r Gwir-Gristion," sydd yn y "Trysor," y rhai "a brintiwyd agos er ys deng-mlynedd ar hugain a aethant heibio" (yn 1647, medd y "Llythyr at y Darllenydd.") Am y gwaith hwn, y mae awdur y "Llythyr" yma yn annog fel y canlyn:—

"Darllen yn ddyfal y Drychau sy'n datcuddio pwy sydd wir Gristionogion, a phwy nid ydynt; a phrofa dy hunan wrthynt, fel y bo i ti wybod pa un ydwyt, ai edifeiriol ai anedifeiriol, Gwir-Gristion neu yntau Rhith-Gristion, neu Ang-Hristion. Ac os anedifeiriol ac anghristion, neu rith-gristion ydwyt, yna ymdrecha i fod yn wir-gristion ac yn wir edifeiriol; canys nid oes neb yn cael maddeuant pechodau, ac iechydwriaeth i'w henediau, ond yr edifeiriol, hynny yw y gwir Gristionogion, neu'r pur ac union eu calonnau: Act. 3. 19. Mat. 5. 8. Psal. 7. 10. Luc 13. 5. Ac os dy bechodau fyddant heb eu maddeu, a bod o honot yn golledig, och cynddrwg fydd dy gyflwr ar ol marwolaeth! Dilys neu sicr yw, os êi di o'r byd hwn yn ddiedifeiriol, heb ran yn Iesu Grist, mae gwell fuassei, naill ai pe na ddoessit ti erioed i'r byd, neu ynte pes creasit ti yn Gi neu yn Llyfan (yn hytrach nag yn Ddyn) pan ddaethost ti iddo; canys pan bo marw ci neu lyffant, dyna ddiwedd o honynt. Ond och! mae enaid dŷn yn anfarwol; ac y mae'r enaid anedifeiriol yn gorfod rhoddi cyfrif i Dduw, ar ol myned oddi ymma, am y cwbl a wnaeth yn y byd hwn; ac yn gorfod dioddef yn oes oesoedd trwm felldith a digofaint Duw yn uffern, megis *Difes* annuwiol, heb gael y gronyn lleiaf o orphwysfa na chyssur, cymmaint a dafn o ddwfr i oeri ei dafod yn y fflam uffernol. Oh meddwl am dragwyddoldeb! ac mae hir y byddir yn cnoi tammaid chwerw! Ystyria, ai peth i'w ddewis yw bod yn dragwyddol yn *y Pwll diwaelod*, yn dragwyddol yn *y Tywyllwch eithaf*, yn dragwyddol yn y *Llyn* sy'n llosgi â thân a brwmstan, yn dragwyddol yn y *Ffwrn Dan*, yn y lle nid yw'r *Pryf* yn marw, na'r *Tan* yn diffodd ynddo? Peth echrys yw i ddŷn gael ei daflu bendramwnwgl i Bwll Tro, neu orwedd blwyddyn mewn carchar tywyll, neu cael dala ei law mewn Tân un cwarter awr, neu fod ei gorph ef yn cael ei fwytta gan bryfed; ond och! nid yw hyn gymmaint a phigiad pin i'w gyffelybu i boenau uffern; canys nid yw y poenau mwyaf yn y byd hwn yn parhau ond tros ychydig o amser, ond y mae poenau uffern yn parhau yn dragwyddol. A pha bryd y bydd diwedd o dragwyddoldeb? a phwy a ddichon rifo blynyddoedd tragwyddoldeb? Os gelli di rifo ser y nefoedd, tywod y môr, gwlith, gwelltglas, a llwch y ddaiar, gro'r afonydd, a'r mân wlaw pan ddiscynno, yna ti elli rifo blynyddoedd tragwyddoldeb.

"Gwybydd hyn yn ddilys, pe cai'r annuwiolion aros yn uffern, ond cyhyd o amser ac y byddei aderyn bychan yn arllwys y môr mawr (pe byddai hynny bossibl) trwy ddwyn ymaith llonaid ei bŷg [big] o ddwfr ar bob pryd, a hynny ond un-waith bob pum-can mlynedd, hwy fyddent happus; canys fe fyddei diwedd ryw bryd: ond och! och! nid oes diwedd i dragwyddoldeb! Oh gan hynny meddwl yn fynych am dragwyddoldeb! ac ystyria ym mha le y byddi di pan yr elot oddi ymma. Ti wyddost mai marwolaeth yw ffordd yr holl ddaiar, a bod bagad yn y Bedd ac a adwaenit ti gynt; gyd â'r rhai y buost yn cydchwedleua, yn cyd-fwytta, yn cyd-yfed, yn cyd-ffeiria, yn cydfarchnatta, ac yn cyd-ddigrifo. Ac fel yr wyt ti ac eraill yn dywedyd am y rheini, eu bod hwy wedi marw a'u claddu; felly gwybydd fod yr amser yn dyfod (a Duw a'i gŵyr pa mor gynted) yn yr hwn y dywed eraill am danat tithe, y mae'r gŵr hwn a'r gŵr gwedi marw a'i gladdu.

"Er bod dy diroedd yn faith ac yn llawn o gnwd glanwych, a'th berllannau yn ffrwyth-lawn, a'th anifeiliaid yn toi'r mynyddoedd, a'th dŷ yn llawn, ac nad oes eisiau dim arnat o bethau'r byd hwn; etto ti wyddost pan ddel angau, y bydd rhaid i ti adael y cwbl yn dy ôl. O gan hynny tra fo amser gennit, ymro â'th holl egni, i droi at Dduw trwy ffydd yn Iesu Grist, gan edifarhau am dy bechodau, ac ymwrthod

Digitized by Google

Dyry'r difyniadau tlysion yna, o waith cyhoeddwr y "Trysor," awgrym o ansawdd ac amcan y bregeth, "Bellach neu Byth" (*Now or Never.*) Testyn y bregeth yw Preg. ix. 10, "Beth bynag a ymafael dy law ynddo iw wneuthur, gwna â'th oll egni, canys nid oes na gwaith na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd, lle yr wyt ti yn myned."* Yn awr, dodwn ychydig ddifyniadau o gyfieithiad prydferth y bregeth hon ger bron:—

"Wrth fod marwolaeth dŷn yn brif-destyn Solomon yn y bennod hon, ac wrth ddal-sylw nad yw doethineb a duwioldeb yn rhyddhau dynion oddi wrth farwolaeth: Y mae efe yn gyntaf yn dangos 'nas gwyddys Cariad neu Gâs Duw i'r naill ddŷn rhagor i'r llall wrth ei waith ef yn ei trin hwynt ymma,'† lle y mae pob peth yn ystod gyffredinol rhagluniaeth yn dyfod yr un ffunyd i bawb. Y *pechod* cyffredinol a ddug *farwolaeth* i mewn megis *cospedigaeth gyffredinol:* yr hon sydd yn gosod pob peth yn gyd-wastad, ac yn dibennu holl ddibenion, gorchwylion, a mwyniant y bywyd hwn, i'r da a'r drwg: A'r Cyfiawnder a wnaiff y gwahaniaeth ni amlygir yn y byd ymma yn gyffredinol. Fe debygei *loddestwr* neu *anghredadyn* fod Solomon ymma yn dadleu tros eu matter annynawl annuwiol hwynt. Eithr nid am ddarfodedigaeth neu ddiben ar fywyd, neu weithrediadau, neu fwyniant yr enaid y mae ef yn son, fel pe nas bai un bywyd i ddyfod, neu enaid dŷn heb fod yn anfarwol; ond am ddarfodedigaeth neu ddiben ar holl weithrediadau, anrhydedd a difyrrwch y bywyd hwn, yr hwn i'r da, na'r drwg ni bydd mwyach. Nid oes iddynt mwy ymma ddim gwobr: eu Coffadwriaeth hwynt ymma a anghofir: 'Nid oes ganthynt byth mwyach gyfran mewn dim ar a wnelir tan haul:' adnod 5. 6.

"Oddi ymma y mae efe ymhellach yn dangos, nad yw Cyssurau bywyd ond byrion a darfodedig; ac am hynny fod yn rhaid cymmeryd yn yr amser presennol yr hyn a ddichon y creadur ei roddi; Ac fal na chaiff yr Annuwiol ddim mwy difyrrwch nag yn bresennol; felly y geill y ffyddloniaid gymmeryd eu cyssurau cyfreithlawn, yn y cymhedrol arfer presennol o'r creaduriaid; canys os yw iawn i neb arfer eu hyfryd-bêr ddaioni hwynt, iddynt hwy y mae; Ac am hynny er nas gallant eu harfer hwynt o ran niwaid, i borthi mwythau eu cnawd, ac i nerthu eu trachwantau, a rhwystro ysprydol ddyledswyddau, cymmwynasau, ac iechydwriaeth: etto 'Rhaid iddynt wasanaethu yr Arglwydd mewn llawenydd, ac mewn hyfrydwch calon, ac amldra pob dim, ar y mae ef yn eu rhoddi iddynt:' Deut. 28. 47.

"Yn nessaf y mae ef yn dwyn i mewn ac yn casglu oddi wrth fyrdra oes dŷn, mor angenrheidiol yw iddo brysurdeb a diwydrwydd ei ddyledswydd. A hyn sydd yngeiriau fy Nhext: lle y cewch chwi. 1. Y ddyledswydd a orchymmynir. 2. Y rheswm neu yr annogaeth iw gynhyrfu ef.

"Y *ddyledswydd* sydd yn y rhan gyntaf ['Beth bynnag a ymafael dy law ynddo iw wneuthur'] hynny yw, pa waith bynnag a osodwyd i ti gan Dduw iw wneuthur yn y bywyd byrr hwn ['gwna a'th holl egni'] sef. 1. Ar *frys*, yn ddiymdro: 2. Yn *ddiwyd*, ac yn oreu y gellych; ac nid drwy fusgrelli, ac yn hannerog.

"2. Yr *annogaeth* sydd yn y rhan olaf ['Canys nid oes na gwaith, na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb yn y bedd lle yr wyt ti yn myned'] hynny yw, rhaid iddo fod yn awr neu ni bydd byth. Y *Bedd*, lle nas gellir gwneuthur dy waith, a wnaiff yn brysur ddiben o'th odfeydd. Y deongliad Chaldaec sydd yn priodoli y synwyr neu'r sens yn rhy gyfyng i weithredoedd o gariad neu elusenau ['Ba ddaioni ac elusenau bynnac yr ymafaelech ynddo iw wneuthur.'] A'r rheswm annogaethawl a ddarllenant hwy ar ei ol ['Canys ni chanlyn dim dydi ond dy weithredoedd o gyfiawnder a thrugaredd.'] Eithr y mae y geiriau yn fwy cyffredinol, a'r ystyr yn eglur yn gynnwysedig yn y ddau bwngc hyn:

"Athrawiaeth. 1. Gwaith y bywyd hwn ni ellir moi wneuthur pan ddarfyddo y bywyd hwn: Neu, Nid oes dim gwaith yn y bedd, i'r hwn yr ydym ni oll yn prysuro.

"Athr. 2. Am hynny rhaid i ni wneuthur ein rhan, tra caffom amser: neu rhaid i ni wneuthur gwaith y bywyd hwn yn y— [coll gair, am fod ymyl y ddalen wedi tori] ac yn ddiwyd."

Y mae hyn yn ddigon i ddangos pa fath gyfieithydd prydferth oedd Richard Jones o Ddinbych, ac ymha fath nwyddau godidog a buddiol i'w genedl yr oedd efe yn masnachu; ac y mae'n ddigon o reswm hefyd dros ei restru yn ddibetrus ymhlith "Enwogion y Ffydd."

a hwynt, fel y gallot ti o hyn allan wasanaethu Duw mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd, a chasclu siccrwydd oddi wrth hynny, dy fod ti yn aelod o Grist, ac y bydd i'th awr ddiweddaf di fod dy awr oreu di, ac y bydd i ti fyned i mewn y pryd hynny i lawenydd dy Arglwydd, a chael diwedd dy ffydd, sef iechydwriaeth dy enaid."

Y mae llafarwedd y difyniadau yma mor Gymreigaidd (a ysgrifenwyd ddau can mlynedd yn ol, yn 1677), ac annogaethau yr awdur mor syml, dirodres, a phwysig, fel nas gallwn ymattal heb ddodi ger bron yr hyn oll a draethai efe am y "Drychau" dan sylw ganddo; ac yr ydym yn sicr na bydd y llenor sydd yn hoff o Gymraeg diledryw, a'r Cristion sydd hoff o annogaethau diaddurn a dwysion ynghylch pethau o dragywyddol eu pwys, yn anniolchgar i ni am danynt. Weithian am ychydig esamplau o'r "Drychau" eu hunain:—

"1. Am yr Anghristion ni alwodd Duw ef, nid yw o Eglwys Dduw, ac ni ddyle fod ynthi; ond y mae efe o synagog Satan: 1 Cor. 5. 12. Dat. 2. 9.

"Y Rhith-Gristion a alwodd Duw oddi allan, ac yw dros amser yn Eglwys Dduw: Math. 22. 14, 15. Ioan 2. 19.

"Y Gwir-Gristion sydd wedi ei alw a'i ddewis, o Dduw y mae ef, yn Eglwys, ac o Eglwys Dduw, yn wastadol: Fsal. 64. 4; 15. 1. Dat. 17. 14.

"2. Yr Anghristion sydd o Ddiafol, ar ddull Diafol, ac yn gwasanaethu'r Diafol: Ioan 8. 44. 1 Ioan 3. 8.

"Y Rhith-Gristion sydd yn ymhonni ei fod o Dduw, ac yn cymmeryd arno wasanaethu Duw, er nad yw o Dduw, ond o'r byd a'r cnawd, yn gweini i'r byd a'r cnawd: Ioan 8. 23, 41.

"Y Gwir-Gristion sydd wedi ei waredu oddi wrth y byd, y cnawd, a'r cythrel, ac wedi ei eni o Dduw, a'i adnewyddu ar lun Duw, yn gwasanaethu Duw: Luc 1. 74. 1 Io. 3. 1, 9. 2 Cor. 5. 17.

"3. Yr Anghristion sydd gwbl aflan oddi fewn ac oddi allan, o flaen Duw a dynion: Mar. 7. 21. Tit. 1. 15.

"Y Rhith-Gristion sydd rith-lân oddi allan yngolwg dynion, ac oddi fewn yn aflan ger bron Duw: Dihar. 30. 12. Math. 23. 25. 26. 27.

"Y Gwir-Gristion sydd lân oddi mewn ac allan, wedi ei olchi yngwaed Christ, a'i buro drwy ei air, a'i yspryd ef: Eph. 5. 25. 26. Tit. 2. 14."

Cynnwys y traethodyn hwn 25 o drioedd fel y difyniadau blaenorol, ac y maent oll yr un mor ddyddorol ac Ysgrythyrol. Ar ei ddiwedd y mae tair o weddïau, sef "Gweddi yr Anghristion gwir edifeiriol," "Gweddi y Rhith-Gristion gwir edifeiriol," a "Dïolchgarwch y gwir Gristion, a'i farn ostyngedig am dano ei hun;" ac yna ceir deg tudalen o "Agoriad ar ryw eiriau dïeithr i rai yn Neheubarth," megis "Absenwr, enllibiwr. Achlesu, amddiffyn. Achlysur, achos, amser cyfaddas," &c. Y mae'r traethodyn hwn, fel y ddau arall, yn tra rhagori ar lawer o gynhyrchion yr oes hon, ac yn wir deilwng o'i adargraphu.

* Y mae'r testyn wedi ei gymmeryd yn llythrenol o gyfieithiad y Dr. Parry o'r Bibl, 1620.

† Mewn llythyrenau Italaidd, heb ddifyn-nodau, y dyry'r ysgrifenydd hwn, fel eraill o ysgrifenwyr y 17fed ganrif, ei holl ddifyniadau, cystal a geiriau pwysig.

Digitized by Google

## PENNOD XIV.

### ROGER WILLIAMS, SYLFAENYDD ENWOG TALAETH YNYS RHOD, GOGLEDD AMERICA.

GAN mai "Cymro o waed coch cyfan" oedd y gŵr tra enwog hwn, ac iddo wasanaethu ei genedl hyd angau, er mwyn gwlad estronol, ac na bu neb gwronach nag ef o blaid y Grefydd Gristionogol, na neb yn deall ei hegwyddorion yn well, ac yn eu gweithio allan yn fwy egnïol, pur, a thangnefeddus, ar ol yr Apostol Paul, credir y cydwêl ein darllenwyr yn gyffredin ei fod yn wir deilwng o le go ehang ymhlith "Enwogion y Ffydd" Cymreig. Gwelodd Duw yn dda anfon ROGER WILLIAMS i'r byd hwn pan oedd yn dra chynhyrfus mewn ystyr wladol a chrefyddol; amser pan yr oedd egwyddorion gwrthwynebol i'w gilydd wedi dyfod i gydgyfarfyddiad, a dynion dihafarch yn ymladd o ddifrif calon ar bob ochr. "Cawri oedd ar y ddaear y dyddiau hynny." Yr oedd y sefydliad crefyddol a gydnabyddid gan lywodraeth Brydain wrth yr enw "Eglwys Sefydledig," wedi bod yn hynod o *an*-sefydlog o amser Harri VIII. hyd amser Roger Williams. Weithiau byddai yn Babaidd, wedyn yn Brotestanaidd, a thrachefn yn gymmysg o'r naill a'r llall. Ar un tymmor yn Esgobyddol, ar dymmor arall yn Bresbyteraidd, ac yna yn Esgobyddol drachefn. Digwyddai yr holl gyfnewidiadau chwidr hyn fod yn y corph gwladol yn hollol fel y digwyddai y pen teyrnol fod ar y pryd. Bwriodd Harri benogaeth y Pab o Rufain ymaith er mwyn cael bod yn Bab ei hun ar Eglwys Loegr. Gan nas goddefai defodau Eglwys Rhufain iddo fwrw ymaith ei wraig, a phriodi un arall oedd decach yn ei olwg, penderfynodd roddi llythyr ysgar i'r Eglwys honno, fel y gallai lunio eglwys yn Lloegr wrth fodd ei galon ei hun, a bod yn ddïogel yr un pryd oddi wrth ysgymmundod "ei Sancteiddrwydd" o Rufain. Ond goruwch-reolwyd syfrdanedd y dŷn drygionus hwn i fod yn achlysur cyfnod newydd a phwysig ar grefydd yn Ynys Brydain, a rhai parthau eraill o'r byd. Pan ddrylliwyd iau "y dŷn pechod" yn y wlad hon, agorwyd y drws, er yn hollol ddïarwybod i Harri, ac yn groes i'w amcan ef, i gyfnewidiadau mawrion er gwell ddyfod ar grefydd. Codai ambell un yn oed yn ei ddyddiau ef i fod yn dyst dros y gwirionedd, ac aeth rhifedi y cyfryw ar gynnydd yn ystod yr ychydig seibiant a gafwyd dan deyrnasiad ei fab Edward, er creulondeb Pabaidd Mari, a chwidredd hanner Pabaidd Elizabeth, Iago, a Charles I., nes o'r diwedd, trwy gael ychydig hamdden yn yspaid byr y Weriniaeth, yr oeddynt wedi myned mor llïosog a phenderfynol fel, yn amser Charles II., y gorfu i ddwy fil o rai nad oedd y byd yn deilwng o honynt, droi allan o'r Sefydliad Gwladol o grefydd, o herwydd nas cydymffurfient â'r defodau hanner Pabaidd oedd ynddo, ac, ysywaeth, y sydd ynddo hyd y dydd hwn.

Mewn canlyniad i hyn, trodd yr Eglwys Sefydledig dan Iago a'i feibion, fel y gwelsom eisoes, i erlid y Diwygwyr mor greulon fel y gorfu i lawer o honynt ffoi i Holand am nawdd i addoli Duw yn ol eu cydwybodau. Gan nad oeddynt yn gallu gwneud eu cartref yn Holand, ac nad oedd gobaith iddynt gael rhyddid cydwybod yn Lloegr, ymfudodd 101 o honynt, yn y flwyddyn 1620, o Leyden i Plymouth, gwlad yn Massachusetts, yng Ngogledd America, yn cael ei therfynu ar y tu gogledd-ddwyrain gan Angorfa Massachusetts.* Yr oedd "Gwlad y Gorllewin" y pryd hyn yn ymagor fel noddfa i'r gorthrymedig, ac aeth llawer o'r "pererinion" yno, ac ymsefydlasant yn Salem, Charlestown, Boston, a manau eraill yn Massachusetts. Cydnabyddai yr ymfudwyr eu hymostyngiad i awdurdod coron Lloegr, a chawsant freinlen i'w hawdurdodi i ffurfio cyfansoddiad gwladol dan ei nawdd. Gan nad oedd yr ymfudwyr yn anghyttuno â'r egwyddor o Sefydliad Gwladol Crefyddol, yn yr hwn yr oeddynt oll wedi eu dwyn i fynu o'u mebyd, ond yn unig â'r athrawiaethau a'r defodau coelgrefyddol a ddysgid yn y sefydliad hwnw yn "yr hen wlad," ac mai eu hamcan penaf wrth ymfudo oedd cael rhyddid i fwynhau eu hegwyddorion eu hunain, a sefydlu eglwys rydd oddi wrth lygredigaethau a choelgrefydd, yr oedd yn naturiol gweled y syniadau hyn yn gymhlethedig â'u deddfau gwladol, a'r canlyniad fu iddynt ymffurfio yn fath ar werin-lywodraeth grefyddol. O herwydd eu bod oll ar y cyntaf yn coleddu yr un syniadau, lluniwyd deddf ganddynt, a fu mewn grym dros ryw yspaid, nad oedd neb i gael ei dderbyn i gyflawn ryddid yn y corph gwladol, oddi eithr ei fod yn aelod o ryw un o'r eglwysi o fewn terfynau eu hawdurdod. Yr oedd y drws i bob swydd wladol yn cael ei gau fel hyn, nid yn unig oddi wrth ddynion dibroffes, ond hefyd oddi wrth y dynion mwyaf crefyddol a duwiol, oni byddent yn perthyn i'w sefydliad crefyddol hwy; a dyma oedd sefyllfa pethau pan yr

* Wright's Royal Dict. Cycl., vol. iv., p. 729.

Digitized by Google

aeth ROGER WILLIAMS i'w plith. Pa wedd bynag, fel yr oedd y trefedigaethau yn llïosogi, nid hir iawn y buwyd heb ganfod bod y fath ddeddf yn feithrinfa i dwyll a rhagrith, a bu raid iddynt ei diddymu.

Ganwyd Roger Williams yn o.c. 1606.* Yr oedd ei rieni yn byw ar dreftadaeth hynafiaid ei dad, ym Maestroiddyn, ym mhlwyf Cynwyl-Gaio,† yn sir Gaerfyrddin. Ymddengys eu bod mewn sefyllfa gysurus, ac iddynt roddi manteision addysg helaeth i'w mab Roger, a'i fod yntau wedi gwneud y defnydd gorau o honynt. Aeth Roger Williams i Lundain (i ryw ysgol yno, y mae'n debyg) cyn ei fod yn 15 oed; o gylch yr un amser (1620), fel yr ymddengys, ag y trodd Syr Edward Coke i amddiffyn y Puritaniaid,‡ yr hyn, ond odid, a fu yn achlysur i'r bachgen duwiol, Roger,§ hoffi Syr Edward, yr hwn, fel y ceir gweled, a dalodd y pwyth iddo yntau yn anrhydeddus. Tra yr oedd Roger yn Llundain y pryd hwn, arferai ysgrifenu yr areithiau a draddodid ar y pryd yn y *Star Chamber*, mewn llaw fer, y rhai a anfonai i Syr Edward Coke. Parodd hyn i'r cyfreithiwr enwog hwnw gredu bod y bachgen ieuangc, Roger, yn un tra gobeithiol, ac anfonodd ef i *Sutton's Hospital*, a elwir yn awr *Charter House*, lle y derbynbyniwyd ef ar y 25med o Fehefin, 1621, ac efe o gylch 15 oed.‖ Yn 1624, anfonodd yr un gŵr¶ ef oddi yno i Goleg yr Iesu, Rhydychain, lle y derbyniwyd ef ar y 30fed o Ebrill y flwyddyn honno. Nid yw hyspys pa hyd yr arhosodd yn Rhydychain, ac ni *chofnodir* chwaith iddo gael unrhyw raddau yno; ond y mae'n amlwg y cyrhaeddodd wybodaeth fanwl o'r Groeg, y Lladin, a'r Hebraeg, ynghyd âg amryw ieithoedd diweddar. Ar ol iddo ymadael o Rydychain, bu dros ryw yspaid yn myfyrio y gyfraith dan nawdd Syr E. Coke; ond yn y cyfamser, ymddengys iddo droi ei fryd at dduwinyddiaeth, ac y cymmerth urddau yn Eglwys Loegr.* Casglir oddi wrth gyfeiriad a geir yn un o'i ysgrifeniadau mai yn rhywle yn Esgobaeth Caerlwytcoed y bu yn offeiriadu dros ryw dymmor byr, pan y cofleidiodd syniadau ac athrawiaethau y Puritaniaid erlidiedig; a gwyddys bod yr enwog Ddr. Williams, Esgob Caerlwytcoed ar y pryd (Archesgob Caerefrog wedyn) yn dyner at yr Anghydffurfwyr, ac yn siarad gyd â chryn ryddid yn erbyn defodau Pabaidd yr Eglwys Sefydledig. Dywedir i Roger Williams ynnill gair da fel pregethwr yn ystod yr ychydig amser y bu yn y wlad hon. Pa wedd bynag, gan fod y Pabyddol Laud yn chwarau ei brangciau y pryd hyn, ac yn gorchymyn hollol ymostyngiad i ddefodau yr Eglwys Wladol, canfu y craffus a'r penderfynol Roger Williams nad oedd iddo obaith am ryddid crefyddol yn y wlad hon, a phenderfynodd ymfudo ar unwaith at ei frodyr Puritanaidd oedd wedi ymsefydlu eisoes yn America.

Hwyliodd Williams a'i wraig o Gaerodor (Bristol) tu a'r "wlad rydd" ar y 5med o Chwefror, 1631, ac efe yn 25 oed; ac ar ol mordaith dymhestlog o 66 o ddyddiau, cyrraeddasant Boston, ym Massachusetts, Lloegr Newydd, lle yr oedd y drefedigaeth o'r wlad hon, y soniwyd am dani eisoes, wedi ymsefydlu. Pa ddelw bynag, yr oedd Roger Williams, druan, am fwy o ryddid a dedwyddwch crefyddol yn y "byd newydd" nag a allai hyd yn oed y "byd" hwnw ei ganiatâu iddo. Er mai "Annibynwyr Puritanaidd," fel y'u gelwid, oedd aelodau y sefydliad hwn, etto yr oeddynt yn ystyried bod yn ddyledswydd arnynt, fel cyfansoddiad gwladol, ddefnyddio yr awdurdod honno i wrthsefyll a darostwng yr hyn a farnent hwy yn gyfeiliornad mewn athrawiaeth neu drefn eglwys. Yn wir, dyma oedd y gred gyffredinol ymhlith pob plaid, ac ymhob gwlad y dyddiau hyny, fel y dengys yr ychydig ddifyniadau canlynol yn ddigon amlwg. Wele dystiolaeth unol Barrow a Greenwood, merthyron cyntaf Annibyniaeth yn Lloegr, wrth yr Arglwydd Burleigh:—

"Yr ydym yn cydnabod y dylai'r tywysog orfodi yr holl ddeiliaid i wrando Gair Duw yng ngweinyddiadau cyhoeddus yr eglwys."

* Yn o.c. 1599, yn ol Williams's Em. Welshm., p. 534.

† Yn Llansawel, sir Gaerfyrddin, medd Williams, Em. Welshmen, p. 534; ond yn *sir Forganwg*, ger llaw Castell Nedd, y mae Llansawel, a elwir yn awr Briton Ferry.

‡ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1083.

§ Ymddengys bod argraphiadau crefyddol ar feddwl Roger Williams mor forau a phan oedd tu a 7 oed, canys yn y fl. 1673 efe a ddywed —"Y gwir yw y cyffyrddodd Tad y goleuni a'r trugareddau fy enaid i â chariad ato ei hun, at ei uniganedig, y gwir Iesu Grist, ac at yr Ysgrythyrau sanctaidd, o'm mebyd, yn awr dros driugain mlynedd yn ol."

‖ Y mae hyn yn brawf pellach mai yn 1606 y ganwyd Roger Williams, sef mai 15 oed ydoedd yn 1621.

¶ Dengys y difyniad canlynol a ysgrifenodd Roger Williams, ymhen blynyddoedd lawer ar ol hyn, at ferch Syr Edward Coke, yr Arglwyddes Parbeck, pa mor anwyl ydoedd coffadwriaeth ei henwog dad yn ei feddwl ef fyth. Nid dŷn a anghofiai garedigrwydd a chymmwynasau ydoedd Roger Williams. Dyma fel y dywed:—"Rhyngai bodd i'r dŷn anrhydeddus, doeth, a duwiol hwnw, eich anwyl dad, fy ngalw i yn fynych 'Fy mab;' ac yn sier, yr oedd mor chwerw i mi ag angau pan erlidiodd yr Esgob Laud fi o'r wlad, ac y perswadiwyd fy nghydwybod yn erbyn yr Eglwys Wladol, ei seremoniau, a'i hesgobion, yn fwy nag y perswadiwyd cydwybod eich anwyl dad; yr oedd mor chwerw i mi ag angau, meddaf, pan y marchogwn ffordd Windsor i gymmeryd llong o Tristan, o gweled Stoke House, lle yr arhosai y gŵr bendigaid hwnw, ac na feiddiwn ei hyspysu o argyhoeddiad fy nghydwybod a'm ffoedigaeth."

* Y mae hyn yn arwyddo iddo gael rhyw raddau yn Rhydychain, er na chofnodir hyny ynghoflyfrau y Brifysgol.

Digitized by Google

A dyma dystiolaeth y ddau ar wahan:—

"Erchir i'r tywysog, a'i ddyledswydd yntau ydyw, edrych ar fod gweinidogion yr eglwys yn cyflawni eu dyledswydd, ac yn dysgu deddf Duw yn ddyfal a diledryw."—*Barrow.*

"Dylai yr ynadon orfodi anffyddwyr i wrando dysgeidiaeth yr eglwys; a hefyd anfon dynion cymmwys allan, dan gymmeradwyaeth yr eglwys, yn meddu doniau a grasusau, i ddysgu yr Anffyddwyr."—*Greenwood.*

Hefyd, Johnson, gweinidog cyntaf yr Eglwys Annibynol Seisnig gyntaf ar y Cyfandir, a ysgrifenodd fel hyn:—

"Gall, a dylai tywysogion o fewn eu taleithiau, ddileu pob gau addoliad, a phob gau weinidogaethau, a sefydlu'r gwir addoliad ar weinidogaeth a appwyntiodd Duw yn ei Air, gan orchymyn a gorfodi eu deiliaid i beidio arfer yr un arall ond y cyfryw. Etto rhaid iddynt oddef perswadio'r gydwybod,* a chwanegu at yr eglwys, o bryd i bryd, y rhai a fyddont gadwedig."

Robinson hefyd, yr hwn a ystyrid yn ŵr tra galluog a rhyddfrydig yn yr oes honno, a ysgrifenodd fel y canlyn:—

"Nid wyf yn ammau mai ynadon duwiol sydd i ddarostwng eulun-addoliaeth hynod a chyhoedd, trwy orfodaeth; a hefyd i ddarpar bod gwirionedd Duw yn ei ordinhadau yn cael ei gyhoeddi yn eu tiriogaethau. Gall hefyd nad yw anghyfreithlawn ynddynt, trwy ryw gosp na'u gilydd, orfodi eu deiliaid yn gyffredinol, i wrando ar eu haddysg a'u tröedigaeth; ïe, yn wir, i ganiatâu iddynt osod y fath gosp arnynt, os, wedi addysg gymmwys, na chynhygiant eu hunain i'r eglwys."†

Etto, dyma iaith yr Eglwys Annibynol gyntaf a sefydlwyd yn Llundain yn 1616, yn ei chyffes ffydd a ddanfonodd allan yn ystod y flwyddyn honno:—

"Yr ydym yn credu y dylem ni, a phob gwir eglwys, gael ein harolygu a'n cadw mewn trefn dda, a heddwch; ac y dylem gael ein llywodraethu yn oruwchraddol ac yn israddol, gan yr ynad gwladol; ïe, mewn achosion crefyddol, os bydd angen."

Y mae ymddygiadau dyfodol y "pererinion" i Loegr Newydd at yr enwog Roger Williams yn profi mai y golygiadau gwyrgam, anysgrythyrol, a hanner Pabaidd hyn, am hawl yr ynadon i ymyraeth â rhyddid crefyddol y bobl, a goleddent hwythau, y rhai a gawsant oddi wrth y merthyron Barrow a Greenwood, Robinson o Leyden, Johnson o Amsterdam, a Jacob o Lundain, ac nid o'r Testament Newydd. Yr oedd eu gwrthwynebiad hwy i'r Eglwys Sefydledig yn cyfeirio yn gwbl at ei threfniant esgobyddol, a'i heresiau duwinyddol. Ystyrient bod ei pherthynas â'r wladwriaeth yn eithaf cyfreithlawn. Credent mai Annibyniaeth oedd unig wir drefn eglwys, ac mai y cyfryw a ddylasai fod yn sefydledig. Yn unol â'r daliadau hyn, ffurfiasant eu llywodraeth eglwysig, ar eu sefydliad ym Massachusetts, ar y cynllun Annibynol, dan reolaeth a nawdd yr ynadaeth wladol.

Dyma yr olygfa druenus a gafodd y Cymro ymchwilgar a chydwybodol, Roger Williams, ar y sefydliad yn Boston ar ei laniad yno. Ond yr oedd efe wedi ymroddi i fyfyrio y Testament Newydd yn gwbl annibynol ar gredoau ac opiniynau dynion, yn oed cyn ymadael o Eglwys Loegr; ac yr oedd wedi deall ei egwyddorion yn gywirach nag odid neb o'i gydoeswyr, ac nag ond ychydig iawn o'i olafwyr hefyd. Ei egwyddorion ef oedd, mai dyledswydd y swyddog gwladol yw amddiffyn cyrph a meddiannau dynion, ac nad oes ganddo hawl i ymyraeth dim â matterion cydwybod, ac i gospi am na chyfeiliornad na gwrthgiliad; nad oes gan y llywodraeth wladol ddim awdurdod i deyrnasu yn y graddau lleiaf ar Eglwys Crist, nac i alw neb i gyfrif o herwydd ei grefydd; a bod yr athrawiaeth o erlid neb o blegid ei grefydd yn hollol groes i athrawiaeth Iesu Grist yn y Testament Newydd. Yr oedd y syniadau hyn yn newyddion a dïeithr, na ddaethant erioed i galon neb o'r ymsefydlwyr; ond yr oedd y Cymro rhyddfrydig yn meddu digon o wroldeb i'w traethu yn hyf a difloesgni, beth bynag a fyddai y canlyniad, ac nid hir y bu heb deimlo o achos ei gywirgred, a elwid gan ei wrthwynebwyr yn hereticiaeth.

Cafodd Roger Williams alwad ymhen ychydig wythnosau ar ol iddo lanio, gan yr eglwys oedd yn Salem,‡ fel cynnorthwywr i un Skelton, a chydsyniodd yntau, ac aeth yno yn Ebrill, 1631. Ond yn y fan wedi iddo ddechrau ar ei wasanaeth, daeth yr awdurdod wladol ym mlaen i attal ei sefydliad, a'r esgus a roddid dros yr ymyriad oedd, ei fod wedi gommedd ymuno â'r eglwys yn Boston, am na chyffesai yr aelodau eu hedifeirwch o blegid iddynt fod mewn cymmundeb âg Eglwys Loegr pan oeddynt yn y wlad honno: a hefyd, am ei fod yn honni nad oes gan y swyddog gwladol awdurdod i "gospi am dori y Sabboth, nac am unrhyw drosedd o'r llech gyntaf." Er bod Williams yn credu bod pob Eglwys Wladol yn anysgrythyrol, ac am hyny yn niweidiol, a bod y mwyafrif yn y cyfryw eglwysi yn ddynion anianol; etto cydnabyddai fod llïaws o wir Gristionogion yn eu plith, a rhoddai ddeheulaw cymdeithas

* Y mae "perswadio y gydwybod" a *gorfodaeth* yn ymddangos i ni yn dinystrio eu gilydd.

† Cynllun gwych, cwbl gysson â Phabyddiaeth, i wneud rhagrithwyr!

‡ Tref ydyw Salem yn sir Essex, yn nhalaeth Massachusetts, 14 milltir i'r gogledd-ogledd ddwyrain o Boston, Gogledd America.



Digitized by Google

a derbyniad i gymmundeb i rai o Boston, pan oedd yn gwasanaethu yn Plymouth.* Arwydda hyn yn bur eglur nad oedd Roger Williams yn perthyn i'r "Caethgymmunwyr;" a hefyd, bod y cyhuddiad cyntaf yn ei erbyn, sef iddo wrthod ymuno â'r eglwys yn Boston, yn anghywir; ond bod y cyhuddiad arall yn cynnwys egwyddorion a gydnabyddai hyd ddiwedd ei oes, yn wirionedd safadwy yn wyneb y Testament Newydd. Pa wedd bynag, gorfodwyd ef i ymadael o Eglwys Salem, ond derbyniwyd ef yn gynnes gan Eglwys Plymouth, i fod yn gynnorthwywr i un Ralph Smith. Yr oedd y crefyddwyr yn Plymouth yn cael eu hystyried yn llawer mwy rhyddfrydig na chrefyddwyr y parthau eraill o'r dalaeth, am nad oeddynt yn cyssylltu unrhyw gerydd gwladol â disgyblaeth eglwysig; am hyny, yr oedd Roger Williams yn debycach o fedru cyttuno â hwy nag â'r awdurdodau yn Boston. Cafodd Williams gyfleusderau, tra yn aros yn y lleoedd crybwylledig, i ymgydnabyddu â rhai o brif benaethiaid yr Indiaid, a theimlai yn ddwys o herwydd eu cyflwr a thrueni eu llwythau. Bu yn "llettya yn eu tyllau budron a myglyd" er mwyn dysgu eu hiaith, fel y gallai fynegi iddynt ffordd iachawdwriaeth.

Dychwelodd Roger Williams i Salem yn Awst, 1633, i gynnorthwyo Skelton; ac ymhen tu a blwyddyn bu farw yr olaf, a dewiswyd Williams yn ei le. Yn y cyfamser anfonodd lythyr at y llywydd, yr hwn a ysgrifenasid o'r blaen at lywydd Plymouth, yn dadlau nad oedd gan y trefedigaethwyr hawl i feddiannu lled troed o dir y wlad, ond trwy roddi cyflawn foddlonrwydd i'r brodorion am dano. Nid ymddengys eu bod hwy wedi gwneuthur hyny, ond bod yr hen erthyl Babaidd afresymol ac anysgrythyrol heb ei dileu byth o'r byd, sef "Bod gan frenhinoedd Cristionogol hawl, am eu bod yn Gristionogion, i gymmeryd meddiant o diroedd a gwledydd, ac i'w rhoddi i eraill yn ol eu hewyllys." O herwydd hyn, yr oedd Brenin Lloegr yn gosod ei hun allan yn y freinlen megis prif arglwydd yr holl gyfandir, ac yn caniatau ynddi ddarnau eang o diroedd i'r trefedigion, heb ddim cyfeiriad at hawl y brodorion. Ac oddi ar ei ofnau y byddai iddynt weithredu yn ol llythyren y freinlen yr ysgrifenodd Williams attynt, a thybiasant hwythau ei fod yn gwrthwynebu y freinlen yn ei chrynswth; ond wedi iddo eglurhau ei feddwl yn helaethach, cydnabyddent hwythau iddynt ei gamddeall, a'r canlyniad fu i'r ddadl hon derfynu yn heddychol.

Yn fuan ar ol hyn gwnaed deddf gan yr ynadon yn gorchymyn i bawb fyned i le o addoliad, a chyfranu at ei gynnal. Ystyriai Williams hyn yn groes i hawliau naturiol dŷn, a gwrthwynebai y ddeddf yn benderfynol, am na ddylid gorfodi neb i dalu at gynnal crefydd, ond bod hyny yn gwbl at ei ddewisiad ef ei hun. Yr oedd yr ymosodiadau parhaus hyn ar ryddid crefyddol a breiniau dŷn yn cynhyrfu Williams i ddarllen ei Destament Newydd yn fwyfwy egnïol a diduedd; ac yr oedd ei ddull gwrol ac anhyblyg yn sefyll dros yr hyn a ystyriai yn wirionedd, pan y byddai y gwrthwynebiad iddo yn tueddu i gyfygu ar ryddid cydwybod mewn pethau crefyddol, yn cyffroi yr awdurdodau rhagfarnllyd yn ei erbyn, nes y penderfynasant o'r diwedd fynnu ymwared oddi wrtho, cam neu gymmwys. Cyhuddai un ef o fod yn "aflonyddu ar heddwch yr eglwys a'r weriniaeth;" a dywedai un arall fod "melin wynt yn ei ben." O'r diwedd gwysiwyd ef i Boston, yn Gorphenaf, 1635, i atteb ger bron y llys am y "syniadau peryglus" canlynol, y cyhuddid ef o'u hamddiffyn:—

"1. Na ddylai yr ynad gospi am drosedd y llech gyntaf, ond mewn amgylchiadau y byddai y troseddwr yn aflonyddu ar heddwch gwladol.
"2. Na ddylid rhoddi dŷn annuwiol ar ei lw.
"3. Na ddylid cydaddoli âg annuwiolion.
"4. Na ddylid rhoddi diolch ar ol y sacrament, nac ar ol bwyd, a'r cyffelyb."†

Am y cyntaf o'r cyhuddiadau hyn, y mae wedi ei osod allan yn ddigon eglur. Gellir casglu oddi wrth gyfeiriadau sydd yn ei ysgrifeniadau at yr ail gyhuddiad, ei fod yn ystyried tyngu llw yn weithred o addoliad, a bod y neb a roddo lw i ddŷn annuwiol yn "meddu cymmundeb â'r cyfryw yn addoliad Duw, ac yn achosi iddo gymmeryd enw yr Arglwydd yn ofer." Dywed y "gall Cristion gymmeryd llw ar achlysuron priodol, er nad mewn pethau dibwys; ond nas gall dŷn anghrefyddol gyflawni y weithred hon, mwy nag unrhyw weithred arall o addoliad, yn ddidwyll; ac na ddylid gorfodi dŷn i gyflawni hyn mwy na rhyw wasanaeth arall o addoliad." Ond ymddengys mai i'r hyn a elwid "Llw y gŵr rhydd"‡ yr oedd ei wrthwynebiad pennaf. *Cynnyg* y llw hwn yn unig a wneid ar y cyntaf, fel prawf o ffyddlondeb i'r llywodraeth; eithr ni oddefid i neb a'i gwrth-

* Plymouth yw prifddinas sir Plymouth, yn nhalaeth Massachusetts, ac yn sefyll 38 milltir de-ddwyrain o Boston.

† Dr. Elton's Life of Roger Williams, the Earliest Legislator and the True Champion for a Full and Absolute Liberty of Conscience, p. 26. ‡ Freeman's Oath.

Digitized by Google

odai gael ei bennodi i unrhyw swydd; ond wedi hyny *gorchymmynid* ef ar bob dŷn un ar bymtheg oed ac uchod, dan boen cospedigaeth wrth ewyllys y llys am ei wrthod. Gwrthdystiai Roger Williams yn erbyn hyn, am y rhesymau a nodwyd eisoes, ac o blegid ei fod yn trosglwyddo y rhwymedigaeth o ymlyniad wrth Frenin Lloegr i lywodraeth Massachusetts. Dadleuai ei fod yn wrthwyneb i'r freinlen, yn anghysson â dyledswydd deiliaid Brydain, ac yn gwbl groes i'w egwyddor fawr ef o berffaith ryddid cydwybod.

Yr oedd y trydydd cyhuddiad yn codi oddi ar yr un egwyddor a'r ail, sef "Na ddylid dal cymmundeb âg annuwiolion yn addoliad Duw." Y mae yn sicr fod llygaid Roger Williams ar gyfarwyddiadau y Bibl ynglŷn â'r pwngc yma, cystal a'r lleill. Gweddi, mawl, ac ymostyngiad duwiol o ran corph a meddwl yw prif ranau addoliad Duw. "Abertha foliant i Dduw; a thâl i'r Goruchaf dy addunedau: a galw arnaf fi yn nydd trallod: mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi. Yr hwn a abertho foliant a'm gogonedda i."* "Ond wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymmerech ar fy nghyfammod yn dy enau? Gan dy fod yn casâu addysg, ac yn taflu fy ngeiriau i'th ol."† Ac, medd Paul wrth y brodyr yn Corinth:—"Ond yn awr mi a ysgrifenais attoch, na chydymgymmysgech, os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eulunaddolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn gribddeiliwr; gyd â'r cyfryw ddŷn na chyd-fwytta chwaith."‡ "Wrth eu gilydd," "pan ddelont ynghyd yn yr eglwys," ac nid ymhlith annuwiolion, y mae'r saint i "lefaru mewn psalmau, a hymnau, ac odlau ysprydol; gan ganu a phyngcio yn eu calon i'r Arglwydd."§ Gyd â golwg ar ymostyngiad duwiol, pan syrthiodd Ioan wrth draed yr angel a fynegai iddo bethau mawrion a rhyfedd, dywedodd yr angel, "Gwel na wnelych hyn: cyd-was ydwyf i ti, ac i'th frodyr y rhai sydd ganddynt dystiolaeth Iesu Grist. Addola Dduw."‖ Etto, y mae genym rai ugeiniau o bregethau Crist a'r Apostolion yn y Testament Newydd; ond nid oes gymmaint ag *un esampl* o weddi na mawl o flaen nac ar ol yr un o honynt. Sylwer, er esampl, mor ddiseremoni y mae Iesu Grist yn dechrau ac yn diweddu y bregeth fawr ar y mynydd,* a Phetr ar ddydd y Pentecost, ac yn nhŷ Cornelius;† a chyffelyb ydyw holl esamplau y Testament Newydd. Amcan mawr pregethu, yn ol y cyfarwyddiadau dwyfol, yw argyhoeddi annuwiolion o'u pechodau, ac "agoryd eu llygaid, a'u troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw; fel y derbyniont faddeuant pechodau, a chyfran ym mysg y rhai a sancteiddiwyd, trwy y ffydd sydd ynof fi,"‡ medd Iesu Grist wrth Saul o Tarsus pan ar y fordd i Damascus. Nid ydym ni yn rhyfeddu dim, gan hyny, bod dŷn o graffder Roger Williams, ac o'i ymroad a'i wroldeb i ddilyn y cyfarwyddiadau dwyfol, er gwaethaf yspryd coelgrefyddol ac erlidgar ei oes, yn ymddwyn fel y gwnelai; a gresyn na chyfodai llu o'i gyffelyb yn y dyddiau hyn, pan y mae gogwydd yr oes yn gyffredin at seremonïau, defodau, ac arferion anysgrythyrol a Phabaidd.

Yr un awydd sanctaidd a phenderfyniad gwronol i ddilyn cyfarwyddyd syml y Testament Newydd a barai i Roger Williams wrthdystio yn erbyn "rhoddi dïolch *ar ol* swper yr Arglwydd, ac *ar ol* bwyd." Gwelai efe mai yr esampl ddwyfol, anffaeledig, oedd "bendithio" a "dïolch" *cyn* bwytta ac yfed, a "chanu hymn" *ar ol* hyny.§ *Cyn* "torri bara" y bendithiodd Iesu Grist ar ol ei adgyfodiad, cystal a chyn ei farwolaeth.‖ Byddai yn rhy faith i ni nodi yr holl esamplau a roddes Efe i ni o hyn yn yr efengylau. Chwilied y darllenydd drosto ei hun, a phenderfyned, fel Roger Williams, ddilyn y cyfarwyddyd dwyfol beth bynag a fyddo y canlyniadau.

Y canlyniad o'r cyhuddiadau a nodwyd a fu i Roger Williams gael ei ddwyn ger bron y llys, pryd y gofynwyd i'r gweinidogion (y pregethwyr) fod yn bresennol i roddi eu cyngor. Ymddengys i'w brawf gael ei ddwyn ym mlaen heb holi un tyst yn ei erbyn, na gwrando un dadleuydd o'i blaid, pan y "barnwyd ganddynt oll, ynadon a gweinidogion, bod ei syniadau yn gyfeiliornus a thra pheryglus," a datganwyd ei fod yn haeddu cael ei alltudio o'r drefedigaeth am ddal yr athrawiaeth "na ddylai yr ynad gwladol gyfryngu hyd yn oed i rwystro eglwys i gyfeiliornad neu wrthgiliad."¶ Rhoddwyd amser iddo ef a'r eglwys yn

* Ps. l. 14, 15, 23. † Yr un, adn. 16, 17.
‡ 1 Cor. v. 11. § Eph. v. 19; Col. iii. 16; 1 Cor. xiv. 26.
‖ Dat. xix. 10; xxii. 9; Act. x. 25, 25.

* Mat. v.–vii. † Act. ii. 14–40; x. 29–43.
‡ Act. xxvi. 15-18. § Mat. xxvi. 26, 27.
‖ Luc xxiv. 15, 30.
¶ Dengys y drafodaeth fympwyol ac erlidgar hon y fath ddylanwad, yn fynych, sydd gan ddygiad i fynu, hyd yn oed ar ddynion da a dysgedig. Yr oedd y gwŷr hyn oll, fel y mae'n fwyaf gresynol, wedi cael eu dwyn i fynu yn swn yr efengyl (ac wedi ymladd yn benderfynol a gwrol dros achos rhyddid cydwybod am hir amser yn eu

Digitized by Google

Salem i ystyried y pwngc, hyd oni ddeuai y llys ynghyd drachefn; ac oddi eithr iddo allu rhoddi boddlonrwydd iddynt y pryd hwnw ei fod yn ymwrthod â'i gyfeiliornadau, nad oedd un gobaith iddo am ymwared. Ond nid oedd dim yn tycio: yr oedd Roger Williams yn rhy ymwybodol o wirionedd ac ysgrythyroldeb ei olygiadau a'i egwyddorion, ac yn rhy wrol i'w haberthu ar allorau mympwyon dynion rhagfarnllyd a chulfarn; am hyny cyhoeddwyd dedfryd alltudiaeth arno, â'r hon y cyttunai yr holl weinidogion ond un, yn y geiriau hyn:—

"Gan fod Mr. Roger Williams, un o henuriaid eglwys Salem,* wedi taenu a chyhoeddi syniadau newyddion a pheryglus yn erbyn awdurdod yr ynadon, a hefyd wedi ysgrifenu llythyrau athrodus am yr ynadon a'r eglwys, ac etto yn ymlynu wrth hyny; o herwydd paham gorchymynir bod i'r dywededig Mr. Williams ymadael o'r rhaglawiaeth yma ynghorph y chwech wythnos dyfodol; ac oddi eithr iddo wneuthur hyny, y bydd yn gyfreithlon i'r llywydd a dau o'r ynadon ei anfon i ryw le allan o'r rhaglawiaeth yma, ac na bydd iddo ddychwelyd heb drwydded oddi wrth y llys."

Cyfeiria y llythyrau a nodir yn y ddedfryd at anghydwelediad rhwng yr awdurdodau a thrigolion Salem, ynghylch darn o dir a berthynai i'w tref. Anfonasant ddeiseb i'r llys am dano, ond gwrthodwyd ei derbyn o herwydd iddynt ddewis Roger Williams yn "un o'u henuriaid," ac am eu bod yn para i'w amddiffyn, a thrwy hyny yn taflu dirmyg ar yr ynadon. Yna ysgrifenodd yr eglwys yn Salem lythyrau at yr eglwysi y perthynai yr ynadon iddynt, yn erfyn arnynt ddangos iddynt yr anghyfiawnder, a'u ceryddu o'r herwydd; ond gan na fynnai yr eglwysi hyny fyned yn erbyn y gwŷr mawr, ysgrifenodd Roger Williams lythyr at eglwys Salem, yn eu hannog i lwyr ymneillduo oddi wrth yr eglwysi erlidgar hyny. Cyffrôdd hyn yr ynadon yn anaele, fel y bu iddynt ofalu am roddi arbenigrwydd iddo yn y ddedfryd. Parodd yr ymddygiad yma at Roger Williams gryn derfysg, o blegid yr oedd ei ymarweddiad dilychwin, a'i bregethiad effro a difrifol, yn ennill iddo barch a chymmeradwyaeth ymhob cydwybod dynion; ïe, yr oedd hyd yn oed ei elynion yn gorfod cydnabod ei fod yn "ddŷn duwiol a gweinidog galluog." Cyhoeddwyd y ddedfryd anghyfiawn a gwarthus ar y 3ydd o Dachwedd, 1635; ond o blegid bod iechyd Roger Williams wedi amharu yn fawr o herwydd ei lafur a'i bryder, goddefwyd iddo aros yn Salem hyd Wanwyn y flwyddyn ddyfodol. Yn y cyfamser, achwynwyd wrth "yr ynadon a'r gweinidogion" fod pobl yn ymgynnull i'w dŷ, a'i fod wedi ynnill amryw i gofleidio ei egwyddorion, a'i fod yn bwriadu ffurfio sefydliad newydd ger llaw Angorfa Narraganset.† Ar hyn, penderfynodd yr ynadon ei anfon yn ddïoed i Loegr, mewn llong oedd yn y porthladd ar y pryd yn barod i hwylio, ac anfonwyd swyddogion i'w gyrchu; ond er eu dirfawr siomedigaeth, cawsant allan ei fod ef wedi ymadael er ys tridiau nas gwyddent i ba le. Yr oedd wedi cael hyspysiad o'i berygl, a gwnaeth y defnydd gorau o'r ychydig ryddid oedd ganddo. Pwy all ddirnad a disgrifio ei deimladau y boregwaith y galwodd ar ei briod i'w hwylio i'w daith, pan yr ymwrolodd "fel un yn gweled yr anweledig," gan ddywedyd:—

"Fy Mair!" (deffrôdd) "partowch fy offer teithio,
Fy nghwmpas llogell, a'm gwisg gadarn gref;
Fy nghareg-dân a'm dur, i roi im dân wrth eisio;
A bwyd am wythnos, os na ddo'i'n gynt i dref;
Fy mwyell hefyd, rhaid fydd im wrth honno
I dori tanwydd yn yr anial, dan nawdd nef:
A'r rhai hyn yr âf i chwilio'r goedwig erchyll
Am gartref, heb na thrais nac ofn un rhingyll."‡

gwlad enedigol eu hunain), fel Roger Williams ei hun mewn gwirionedd; ond o herwydd eu bod yn methu cydweled â'r mwyafrif o weision Eglwys Loegr, am ryw ddefodau Pabaidd a goleddid ganddynt yno, bu raid iddynt ffoi i Holand, ac oddi yno i'r America. Ac yn awr, ar ol i'r gwŷr hyn gael yr awenau i'w dwylaw eu hunain, wele hwy yn gorfodi Roger Williams i ffoi am yr un peth yn union ag y gorfodwyd hwythau i ffoi yn flaenorol, sef am nad allai gydymffurfio â'u defodau anysgrythyrol a Phabaidd hwy! Y gwirionedd ydyw mai rhyw un ymhlith canmil, neu fwy, sydd fel Roger Williams yn gallu ymddïosg yn llwyr oddi wrth effaith ei ddygiad i fynu, a darllen y Bibl yn gwbl ddiragfarn, gan ei ddeall a'i farnu yn hollol annibynol a diduedd drosto ei hun; ac y mae yr hwn a wnelo hyny, hyd yn oed yn awr, ac a ddatgano ei farn yn gyhoeddus a diamwys, os bydd yn wahanol i farnau pleidiau crefyddol y wlad, mor sicr o gael ei erlid mewn rhyw fodd ag y cafodd Roger Williams ei erlid a'i alltudio o Massachusetts. Darllen esponiadau a chredoau eu *plaid* eu hunain, a cheisio deall y rhai hyny, a'u dilyn, y mae crefyddwyr yn gyffredin, ac nid darllen y Bibl drostynt eu hunain, a cheisio ei ddeall a'i ddilyn ef yn annibynol ar farn pawb eraill. Cymmeryd y grefydd a ddewisir iddynt gan eu rhieni, fel y dywed Mr. Gladstone iddo yntau wneuthur, y mae dynion yn gyffredin, ac nid dewis crefydd iddynt eu hunain, oddi ar argyhoeddiad cydwybod yn wyneb yr Ysgrythyrau. Dyma yr achos mai Pabyddion, fel rheol, yw plant Pabyddion; a'r un modd y gellir dywedyd am blant Esgobyddion, Presbyteriaid, Annibynwyr, Bedyddwyr, Methodistiaid Calfinaidd a Wesleyaidd, a phob plaid arall, *fel rheol;* a phan y beiddia un o ganmil, fel Roger Williams, farnu drosto ei hun yn gwbl annibynol, a gwahaniaethu oddi wrthynt oll, caiff ei erlid mewn rhyw ddull na'u gilydd, yn ddïeithrad.

* Ymddengys wrth hyn mai Eglwys Bresbyteraidd oedd Eglwys Salem, ac ond odid yr un erlidgar yn Boston hefyd.

† Angorfa brydferth, ehang, a chyfleus ydyw hon yn perthyn i dalaeth Ynys Rhôd, Gogledd America, yn cael ei ffurfio o'r Môr Atlantig, rhwng Penrhyn Judith ar y gorllewin, a chreigiau Seaconnet ar y dwyrain, ac yn 28 milltir o hyd wrth o 3 i 12 milltir o led. Y mae yn hawdd myned iddi ar bob tymmor o'r flwyddyn; yn meddu amryw borthladdoedd godidog, ac yn un o'r gorsafau morwrol gorau yng Ngogledd America.—Royal Dict. Cycl., vol. iii., p. 22.

‡ "Mary!" (she woke) "prepare my travelling gear,
My pocket-compass, and my raiment strong;
My flint and steel, to yield the needful fire;
Food for a week, if that be not too long;
My hatchet, too, its service I require
To clip my fuel, desert wild among:
With these I go to found, in forest drear,
A state where none shall persecution fear."
—What-Cheer: or Roger Williams in Banishment.

Digitized by Google

Cychwynodd yn nyfnder y gauaf, trwy rew ac eira, mewn anialwch gwag erchyll, heb wybod i ba le yr oedd yn myned. Yr oedd o werth dirfawr iddo, erbyn hyn, ei fod wedi dyfod i gydnabyddiaeth â'r Indiaid, wedi ennill ymddiried rhai o'u pennaethiaid, ac wedi dysgu eu hiaith. Cafodd dderbyniad a nawdd gan Ousamequin, neu, fel y gelwid ef yn gyffredin, Massasoit, â'r hwn yr oedd ar delerau cyfeillgar pan yn Plymouth. Caniataodd y penaeth hwn iddo ymsefydlu ar lan ddwyreiniol yr afon Seekong, ac ymunwyd âg ef gan amryw o'i gyfeillion o Salem. Ond nid oedd iddo yma chwaith ddinas barhaus, canys derbyniodd lythyr caredig oddi wrth ei hen gyfaill, Mr. Winslow, llywydd Plymouth, yn ei hyspysu ei fod ar eu terfynau hwy, ac y byddai yn fwy diogel iddo symmud dros yr afon i Ynys Rhôd;* ac yna y gallent fod yn gymmydogion heddychol. Cydsyniodd Roger Williams â hyn yn y fan, ac aeth efe a phump eraill mewn bâd i lawr yr afon Seekong, yr hon sy'n gwahanu rhwng Massachusetts ac Ynys Rhôd, a glaniasant ar ochr orllewinol yr orynys, yn agos i aber yr afon Mooshausick, tu a diwedd 1635; ac ar lechwedd bryn, ger llaw yr afon yma, y lledodd y fintai fechan Gristionogol gyntaf ei phebyll yn Ynys Rhôd, ac ar y llanerch yma, yn ystod y fl. 1636, y sylfaenodd Roger Williams dref Providence (Rhagluniaeth), a alwyd felly ganddo "er coffadwriaeth ddïolchgar am ddaioni Rhagluniaeth Duw tu ag ato yn ei gyfyngder."

Y ddau benaeth Indiaidd mwyaf galluog yn yr ynys, pan aeth Williams yno, oedd Miantonomoh, a'i nai Canonicus, yr hwn a weithredai fel prifweinidog ei ewythr. Ennillodd Williams eu hymddiried hwy a'u llwythau yn fuan ar ol ymsefydlu yn eu plith, a phrynodd dir ganddynt rhwng y ddwy afon, Mooshausick a Wanasquatucket, er cael lle i'w drefedigaeth newydd; ac ymhen tu a dwy flynedd wedyn, yn 1638, trosglwyddodd yr Indiaid iddo "yr holl dir sy'n gorwedd rhwng y ddwy afon grybwylledig a'r Pautuxet, yn rhydd ac yn rhad, o blegid ei wasanaeth a'i garedigrwydd iddynt hwy a'u cyfeillion." Llwyddasai Williams, ar ei ddyfodiad cyntaf i blith yr Indiaid hyn, i attal rhyfel rhwng dau benaeth Indiaidd arall a Miantonomoh, a thrwy fawr ymdrech cafodd hwy i heddwch a chymmod â'u gilydd; ac am y "gwasanaeth a'r caredigrwydd hwn," cafodd yntau yr ad-daliad crybwylledig.

Wedi i Roger Williams gael y telerau manteisiol hyn gan yr Indiaid, am ei "wasanaeth a'i garedigrwydd" iddynt, yn lle cadw y tiroedd a roddasant iddo, "yn rhydd ac yn rhad," iddo ei hun, yn ol arfer Nimrodiaid y byd, efe a'u rhanodd rhwng y rhai a ymunasant âg ef i ffurfio y drefedigaeth, heb nodi allan ond rhan gyfartal iddo ei hun. Wele un gŵr duwiol yn ufuddhau yn llythyrenol i orchymyn ei Arglwydd, sef "Câr dy gymmydog fel ti dy hun." Yn awr, wele drefedigaeth newydd wedi ei sefydlu; ond ar ba delerau y ceir derbyniad iddi, a chyflawn fwynhâd o'i rhagorfreintiau dinasol? Y mae rhai dynion da, wedi iddynt gael eu codi i awdurdod, yn ei defnyddio tu ag at eraill yn yr un modd ag yr oeddynt yn beio eraill am ymddwyn felly tu ag at atynt hwy; ond dygodd credo Roger Williams well ffrwyth na hyn. Y mae yr ardystiad yr oedd angenrhaid i bawb a dderbynid i'r sefydliad ei lawnodi fel y canlyn:—

"Yr ydym ni, y rhai y mae ein henwau yn ysgrifenedig isod, ac sydd yn dymuno cael preswylio yn nhref Providence, yn addaw ymostwng yn ufudd, gweithredol, a goddefol, i bob gorchymyn a chyttundeb a lunier er daioni cyhoeddus y corph, *mewn modd rheolaidd,* trwy gydsyniad y mwyafrif o'r preswylwyr presennol, penau teuluoedd, wedi ymgorphori, ynghyd âg eraill a dderbynier i'r unrhyw, *yn unig mewn pethau gwladol.*"

Wele yr egwyddorion y dadleuai Roger Williams drostynt, ac y gorfu arno ffoi yn alltud o'u plegid, wedi cael eu crynhoi o'r diwedd mewn cyttundeb, i fod yn sylfaen cymdeithasol talaeth; ac ni wyrodd Ynys Rhôd un iot nac un tipyn oddi wrthynt hyd y dydd heddyw. Y Cymro hwn oedd y cyntaf, ar ol yr Apostolion, i sefyll dros berffaith ryddid cydwybod, ac yn yr ynys

* Rhode Island. Dichon yr hoffai rhai o'n darllenwyr gael darlun byr o'r ynys bwysig hon, ynghyd â'i sefyllfa. Ynys Rhôd ydyw y *leiaf o* Unol Daleithiau Gogledd America. Saif rhwng yr hydred gorllewinol 71° 6′ a 71° 55′; a rhwng y lledred gogleddol 41° 18′ a 42° 1′; a therfynir hi ar y gogledd a'r dwyrain gan dalaeth Massa*chusetts*; ar y de gan y Môr Atlantig; ar y gorllewin gan dalaeth Connecticut. Y mae y rhan fwyaf o'r dalaeth yn gorwedd i'r gorllewin a'r gogledd o Angorfa Narraganset (o'r hon y rhoddwyd darlun *byr eisoes*), a chynnwys o gylch 900 o filltiroedd ysgwar. Saif parth bychan o honi i'r dwyrain o Angorfa Narraganset, a'r gweddill a gynnwys ynysoedd Rhôd, Canonicut, Prudence, Patience, Hope, Hog, *Dyer's*, ac Ynys Block, y cwbl yn Angorfa Narraganset, ond yr olaf, yr hon sydd 10 milltir allan yn yr Atlantig. Holl arwynebedd y dalaeth yw 1306 o filltiroedd ysgwar, neu 835,840 o erwau. Ynys *Rhôd, yr hon* a ddyry enw i'r dalaeth, yw yr ehangaf o'r holl ynysoedd a berthyn iddi. Ei hyd sydd o gylch 15 milltir, a'i lled tu a 3½ milltir ar gyfartaledd. Yr orynys hon yw y rhan ffrwythlonaf o'r dalaeth. *Y mae ei* daear yr un mor gyfaddas at gnydau a phorfa, ac y mae wedi ei thrin yn dda. Y mae yn nodedig o wych am ei gwartheg a'i defaid, ac y mae ei chaws a'i hymenyn yn odidog ragorol. Y mae arwyneb*edd parth* cyfandirol o dalaeth Ynys Rhôd yn bur wastad; ond y mae rhai parthau o honi, yn benaf yn y gogledd-orllewin, yn fryniog a chreigiog. Y mae ei hinsawdd yn iachus, ac yn dynerach, yn enwedig ar yr ynysoedd, nag un parth arall o Loegr Newydd. Y mae awelon y môr yn cymmedroli poethder yr haf ac oerder y gauaf. Y fath sydd gipdrem ar ansawdd y wlad yr arweiniwyd Roger Williams iddi dan *ofal Rhagluniaeth.*—Royal Dict. Cycl., vol. v., p. 158.

honno y cysarsyddwyd gyntaf i lunio cyfreithiau gwladol, heb fod dim a wnelent â chredo y deiliaid mewn pethau crefyddol.

Cafodd Roger Williams gyfleusdra yn lled fuan ar ol ymsefydlu yn Ynys Rhôd i brofi bod ei ddysgeidiaeth ef ar ryddid cydwybod mewn matterion crefyddol yn ddiffuant. Yn yr un flwyddyn ag yr alltudiwyd ef o Salem, sef 1635, cyfododd plaid o bobl, yn nhrefedigaeth Massachusetts, dan arweiniad gwraig bur alluog, ac yn meddu dylanwad mawr ar ei dilynwyr, a'i henw Ann Hutchinson, athrawiaeth yr hon, fel y tybiai yr ynadon a'r "gweinidogion" anffaeledig yn Boston, oedd yn arwain yn anocheladwy i Antinomiaeth. Parodd y blaid hon ddirfawr gythrwfl ymhlith yr anffaeledigion; ac ar ol hir ddadlau a chynhenu, penderfynwyd mewn cynhadledd o "weinidogion" ac ynadon, a gynhaliwyd yn Boston ym mis Awst, 1637, i ysgymmuno y blaid; ac yn ychwanegol at hyn, penderfynwyd alltudio Ann Hutchinson, a'r prif arweinwyr, o'r drefedigaeth. Gyd â golwg ar bechaduriaid llai, dedfrydwyd hwy i dalu dirwyon, a'r cyffelyb gospau. Galwyd y ddedfryd erledigaethus hon, er mwyn ceisio ei chyfiawnhau yngolwg y byd, "Y Gwasgariad Antinomaidd." Ond, pan oedd yr alltudion ar eu crwydriadau peryglus yn chwilio am fangre i breswylio ynddi, clybu Roger Williams am eu cyfyngderau; a phan ddeallodd mai o blegid eu golygiadau crefyddol yr oeddynt yn dioddef, gwahoddodd hwy ar unwaith i wladychu yn Ynys Rhôd; ac yn ol ei hynawsedd a'i ddyngarwch cyffredin, arferodd ei ddylanwad gyd â'r Indiaid er sicrhau iddynt feddiant o lanerch dra phrydferth yn yr ynys. Yr oedd Williams ymhell o gydfarnu âg Ann Hutchinson a'i chanlynwyr ynghylch y pyngciau a ddygasant yr erledigaeth arnynt; ond y fath oedd dyfnder ei argyhoeddiad ef o gyssegredigrwydd rhyddid cydwybod mewn pethau crefyddol, fel y cymhellid ef i gydymdeimlo ar unwaith â *phawb* a erlidid o blegid eu crefydd, beth bynag a allai honno fod. Ar yr egwyddor hon yn unig, ac fel gwrthdystiad yn erbyn ymyriad pechadurus yr awdurdodau gwladol â phethau crefyddol, y cymhellwyd ef i roi derbyniad mor groesawgar, a chynnorthwyon mor haelfrydig a pharod, i Ann Hutchinson a'i dilynwyr yn Ynys Rhôd.

Yr oedd y blinderau, yr erledigaethau, a'r cablu a ddioddefai Roger Williams yn parhau i'w yru ef i chwilio ei Destament Newydd yn ddyfalach a manylach o'r naill flwyddyn i'r llall; a phan gai ef ei argyhoeddi bod ei syniadau blaenorol heb fod yn gysson â'r Ysgrythyrau, ni phetrusai efe ddim eu newid yn y fan, ac arddel ei gyfnewidiad yn y modd mwyaf cyhoeddus a phenderfynol, gan gyhoeddi y rhesymau a'r ysgrythyrau a barent iddo gyfnewid. Ac, yn wir, nid yw bywyd y Cristion, mwy na'r anghristion, a benderfyno ymlynu wrth ei hen opiniynau, Ysgrythyrol neu beidio, ddim yn werth ei barhau mwyach yn y byd hwn; a gellir dywedyd yr un peth gyd â golwg ar wleidyddiaeth, a phob gwybodaeth a galwedigaeth arall. Pa wedd bynag, gan fod Roger Williams yn arddel ei argyhoeddiadau a newidion ei farn, gan ymddwyn yn eu hol a'u hamddiffyn yn y modd mwyaf cyhoeddus a dïymattal, fel y dywedwyd, cyhuddwyd ef gan fympwywyr hunan-anffaeledig ei oes, ac eraill ar eu hol, o fod yn ansefydlog a phenboeth. Ond nid oedd dim yn tycio: yr oedd efe, fel Wycliffe, Huss, a Luther, wedi ei eni yn Ddiwygiwr; am hyny, arddel, cyhoeddi, ac ymddwyn yn ol ei argyhoeddiadau cydwybodol a wnai efe, er gwaethaf llid a gogan ei holl wrthwynebwyr. Gan fod Roger Williams dros i bawb eraill gael perffaith ryddid crefyddol i farnu drostynt eu hunain, ac i arddel eu barnau a'u hargyhoeddiadau, yr oedd yn naturiol a rhesymol iddo yntau honni yr un hawl a rhagorfraint iddo ei hunan; ac felly y gwnaeth hyd angau.

Erbyn iddo ymsefydlu yn Ynys Rhôd, yr oedd wedi cael ei argyhoeddi nad oes dim sail yn y Testament Newydd o blaid i Gristionogion wario symiau anferth o arian i adeiladu temlau gwychion a drudfawr, a elwir Eglwysydd a Chapelydd,* yn ol arfer Eglwys Rhufain a'i changhenau, a gadael i bechaduriaid, yn enwedig tlodion na fedrant dalu am setti ynddynt, ddyfod iddynt neu beidio. Barnai efe mai mwy Ysgrythyrol oedd defnyddio "y gasgl i'r saint" (yr unig gasgl o'r fath y sonir am dani yn y Testament Newydd) i gynnorthwyo y tlodion, yr amddifaid, a'r methedig.† Barnai hefyd mai dyledswydd disgyblion Crist yw myned i heolydd ac ystrydoedd y dinasoedd, ac i'r prif-ffyrdd a'r caeau, a chymmell pechaduriaid i gredu yng Nghrist, a bod yn "demlau i'r Yspryd Glân;‡ a myned "i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur,"§ fel y gwnaeth holl aelodau eglwys fawr Jerusalem,‖ gan "ddysgu

* Gelwir y rhai hyn gan y Pabyddion a'u cyffelyb yn "Demlau Duw," ac yn "Dai Duw," pan y dengys y Testament Newydd mai y saint yw "Teml Dduw," a "Thŷ Dduw:" 2 Cor. vi. 16; Heb. iii. 6.

† 1 Cor. xvi. 1, 2. ‡ Mat. xxii. 9, 10; Luc xiv. 21-23; 1 Cor. vi. 19. § Marc xvi. 15. ‖ Act. viii. 1, 4; xi. 19-21.

Digitized by Google

yr holl genhedloedd."* Yn unol â'r cyfarwyddiadau dwyfol hyn, pregethai efe i'w gyd-drefedigion yn Ynys Rhôd yn yr awyr agored, pan ganiatâi yr hin; ond pan fyddai yn rhy erwin i bregethu allan, pregethai mewn tai annedd.

Ond ni chyfyngai Roger Williams ei bregethiad i'w gyd-drefedigion a'i gydwladwyr yn unig, ond teimlai efe fod "mesur y rheol a ranodd Duw iddo yn cyrhaeddyd hyd at yr Indiaid hefyd," ac "atynt hwy hefyd yr aeth efe âg efengyl Crist."† Gwnaeth lawer tu ag at eu heddychu a darostwng y teimladau rhyfelgar a barbaraidd oedd ynddynt; a bu yn llwyddiannus yn ei amcan efengylaidd yn fynych, fel y gwelsom eisoes mewn rhan, ac y ceir gweled yn helaethach rhag llaw; eithr nid oedd hyny ond dangos bod yr un egwyddorion yn llywodraethu ei galon ef ei hun ag a gymhellai yn ei bregethau. Dysgai hwy mai Tywysog Tangnefedd yw y Gwaredwr bendigedig, ac mai tangnefeddwyr yw y rhai a ufuddhânt i'r ffurf o athrawiaeth a draddodir iddynt, yn ol yr Ysgrythyrau. Yr oedd llwyth o Indiaid yn Narragansett yn wrthrychau neillduol ei addysgiadau a'i bregethau efengylaidd, ac ymgynhullent i'w wrando ef yn ewyllysgar, pryd na wrandawent neb arall. Mor fawr oedd ei ddylanwad ym mysg y Niantickiaid hyn, fel na chymmerasant ran yn y gwrthryfel gyd â'r Pokanoketiaid o dan Phylip, fel y ceir gweled etto. Parhaodd i ymweled â hwynt, yn fisol, pan oedd uwch law deg a thriugain oed; ac y mae gweddill o'r llwyth hwnw yn aros hyd heddyw yn ne-ddwyrain Ynys Rhôd, yn Gristionogion gwareiddiedig, yn dystiolaeth o'i lafur a'i ymdrechion yn eu mysg.

Fe allai mai o gylch yr amser yr ymlidiwyd Roger Williams o Salem, yn niwedd 1635, y cafodd ei argyhoeddi, wrth ddarllen yr Actau a'r Epistolau, "Nad yw Gweinidogaeth Gyflogedig yn eiddo Crist,"‡ gan y gwahardd yr Apostol Paul yn bendant i henuriaid neu esgobion sefydlog eglwys dderbyn un math o daledigaeth fydol am eu gwasanaeth i'r eglwys."§ Ond pa bryd bynag y cafodd ei oleuo ar y pwngc pwysig yma, y mae genym sicrwydd na chydsyniodd efe byth â "galwad" ar ol myned o Salem, er iddo gael cynhygion taerion lawer gwaith, i fod yn "weinidog cyflogedig" sefydlog; ond parhaodd i fod yn "bregethwr teithiol," neu genhadwr, fel y crybwyllwyd uchod, ar hyd ei oes i'w gyd-drefedigion ac "i'r holl genhedloedd" o amgylch, a phregethai felly mor fynych fyth ag y caniatâi ei alwedigaethau gwleidyddol lliosog a phwysig iddo wneuthur; a mawr y llwyddiant a fu ar ei lafur, fel y gwelsom eisoes.

Nid oes genym sicrwydd pa bryd y dechreuodd golygiadau Roger Williams newid ynghylch dull gweinyddiad bedydd; ond y mae genym dystiolaeth bendant iddo gymmeryd ei fedyddio trwy drochiad gan "frawd cyffredin," fel y dywed yr "urddedigion," a'i enw "Ezeciel Holiman, yr hwn oedd ŵr bucheddol a duwiol, ac a fu wedyn yn bregethwr defnyddiol ei hunan." Wedi i'r gŵr hwnw fedyddio Williams, bedyddiodd Williams yntau, a deg o frodyr eraill yr un amser. Digwyddodd hyn ryw bryd yn ystod y fl. 1639, ymhen tu a thair blynedd ar ol iddo ef a'i gyd-drefedigion ymsefydlu yn Providence, Ynys Rhôd;‖ a dywedir mai y *deuddeg* hyn oedd y rhai cyntaf a fedyddiwyd trwy drochiad yn holl America.¶ Yr oedd y drefedigaeth ieuangc wedi cynhyddu yn fawr erbyn hyn; a chan fod yno berffaith ryddid crefyddol i bawb fabwysiadu a dilyn yr egwyddorion a'r credoau crefyddol a'r a fynnent, heb fod eu breintiau a'u manteision gwladol yn ddim llai, nac mewn un math o berygl, yr oedd yno bellach ychydig o wahanol bleidiau crefyddol, a chan rai o honynt "weinidogion cyflogedig," "urddedig," a "sefydlog." Cymmerth y rhai hyn a'u deiliaid culfarn achlysur oddi wrth waith Williams yn cymmeryd ei fedyddio gan ŵr *anurddedig*, fel Holiman, i'w gablu ef a'i frodyr bedyddiedig yn chwerw (ni feiddient eu herlid a'u niweidio), trwy haeru eu bod "yn halogi y sacramentau sanctaidd, trwy eu trosglwyddo i ddwylaw anghyssegredig, sef rhai heb eu hurddo i'w gweinyddu." Ond er bod Roger Williams weithian yn uwchaf, yn oed mewn ystyr wladol, o neb oedd yn y drefedigaeth, ac y gallasai yn awr dalu y pwyth iddynt, yn ol fel y gwnaethai eu brodyr ffug-sancteiddiol ac erlidgar yn Boston iddo yntau; er hyny, ni chymmerth ef arno eu clywed, a medrodd berswadio ei frodyr bedyddiedig i ymddwyn yr un modd. Y fath ddŷn bendigedig oedd y dŷn hwn!

Yr oedd efe yn gweled yn y Testament Newydd, unig Lyfr Cyfraith yr Eglwys Gristionogol, fod pob gwasanaeth crefyddol yn gyfartal gyssegredig: gweddïo, canu mawl, tori bara, bedyddio,

* Mat. xxviii. 19, 20. † 2 Cor. x. 13–16. ‡ Gwel ei "Hireling Ministry none of Christ's." London: 1652. § Act. xx. 17, 28–35.

‖ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 1359.
¶ Williams's Em. Welshm., p. 534.

cyfeillachu yn yr eglwys, pregethu, a phob rhan arall o'r gwasanaeth crefyddol, a bod y neb sy'n gymmwys i wneud y naill yn gymmwys hefyd i wneud y lleill oll; ac nad yw'r seremonïau gweigion ac anysgrythyrol a ddyfeisiwyd gan "y dŷn pechod, mab y golledigaeth,"* megis ffug-urddo, dodi dwylaw dieffaith ar benau pobl, a'r cyffelyb wag honiadau, yn gwneud neb yr un mymryn cymhwysach i gyflawni un rhan o wasanaeth crefyddol. Yr oedd yn gweled mai "rhyw ddisgybl" (nid rhyw apostol, na rhyw weinidog neu ddïacon, na rhyw genhadwr neu bregethwr, na rhyw henuriad neu esgob, ond "*rhyw ddisgybl*) yn Damascus, a'i enw Ananïas, gŵr defosiynol," &c., a fedyddiodd Saul o Tarsus."† Gwelai Roger Williams hefyd mai "rhai brodyr" (nid rhai pregethwyr neu genhadon, na rhai gweinidogion neu ddïaconiaid, na rhai henuriaid neu esgobion, ond "*rhai brodyr*) o Joppa, a aeth gyd â" Phetr i dŷ Cornelius, a orchymynwyd gan Petr i fedyddio yr holl gynnulleidfa oedd yn y tŷ hwnw.‡ Am hyny yr oedd efe yn gweled bod rhyw ddisgybl yn Providence, a'i enw Ezeciel Holiman, "gŵr bucheddol a duwiol," yn llawn mor gymmwys i'w fedyddio ef ag ydoedd yntau, a brentisiwyd yn Rhydychain i fod yn offeiriad Eglwys Loegr, ac a gafodd ddwylaw gweigion rhyw "esgob" ar ei ben, i fedyddio Holiman.

Yr oedd Roger Williams yn gweled hefyd yn yr un Llyfr anffaeledig bod "y *disgyblion*" yn Troas yn *arfer* dyfod ynghyd "ar y dydd cyntaf o'r wythnos i dori bara," pa un bynag a fyddai cenad neu bregethwr yn eu plith ai peidio, ac mai damwain oedd i'r Apostol Paul fod gyd â hwy ar yr amser a gofnodir.§ Gwelai hefyd mai cyfarwyddyd "i *Eglwys* Dduw yr hon oedd yn Corinth,"‖ ac nid i'w hesgobion a'i dïaconiaid, od oedd yno rai, ynghylch "swpper yr Arglwydd," ydyw 1 Cor. xi. 20–29. Casglai efe oddi wrth yr Ysgrythyrau a nodwyd, a'u cyffelyb, bod pob gwir Gristion, pa un bynag a fyddo yn bregethwr ai peidio, yn gymmwys i dori bara ac i dywallt gwin yn y swpper sanctaidd, ac nad yw'r gwasanaeth hwnw, pregethu a bedyddio, un tipyn mwy cyssegredig na gweddïo a chanu mawl.

Yr oedd Roger Williams yn casglu hefyd oddi wrth hanes Apolos yn dechrau pregethu,¶ a hanes "yr eglwys oedd yn Jerusalem," oedd rhwng saith a deng mil o nifer, holl aelodau yr hon, "ond yr apostolion," "a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan," ac a "dramwyasant gan bregethu y gair,"* bod gan holl aelodau Eglwys Dduw gystal hawl a'u gilydd i "dramwy gan bregethu y gair," a hyny heb gael na "galwad," na "chenad," na "choleg," nac "arholiad," nac "urddiad" o un math gan ddynion. Credai mai dichellion "y dŷn pechod," y cyfeiriwyd ato eisoes, ydyw yr holl wag ddefodau uchod, a'u cyffelyb, wedi eu dyfeisio er mwyn "gwneuthur masnach o air Duw," fel y gallo *un dosparth* o broffeswyr crefydd gael mwy o barch ac elw bydol oddi wrth yr efengyl na'u brodyr yn gyffredin, yr hyn a ystyriai efe yn gwbl anysgrythyrol a phechadurus. Ymddygodd Roger Williams yn berffaith gysson â'r syniadau hyn, o'r amser yr ymsefydlodd yn Ynys Rhôd hyd ddiwedd ei oes faith, trwy dramwy gan bregethu y gair ymhell ac yn agos, fel y gwelsom, hyd byth y caniatâi ei orchwylion gwleidyddol a phersonol pwysig a llafurfawr.†

Weithian ni a edrychwn ymhellach arno yn ystod y tymmor a nodwyd o'i oes, fel gwleidyddwr, awdur, a Christion. Y mae rhai yn honni egwyddorion sydd yn llawer mwy rhyddfrydig na'u calonau. "Dywedant, ond nis gwnant." Eu holl ryddfrydigrwydd sydd gynnwysedig mewn cael gan bawb gydnabod mai hwy sydd yn eu lle, a thalu gwarogaeth iddynt. Y mae eraill yn meddu calonau llawer mwy rhyddfrydig na'r egwyddorion a broffesant. Y mae eu bywyd yn well na'u credo, ac y mae hyny yn drugaredd fawr mewn llawer amgylchiad. Ond yr oedd egwyddorion Roger Williams yn wir ryddfrydig, ac yr oedd ei galon hefyd dan eu llywodraeth. Buasai dŷn o feddwl bychan, cyfyng, a dallbleidiol, yn defnyddio y cyfleusderau cyntaf a ymgynhygiai iddo, ar ol dïange o grafangau ei elynion, i *adgofio* iddynt eu camweddau, os nad i ddïal arnynt hefyd; ond yr oedd efe yn maddau iddynt, ac yn barod i "wneuthur da i'r rhai a'i casäent." Yn y flwyddyn 1634, dwy flynedd cyn i Roger Williams ymsefydlu yn Ynys Rhôd, gwnaed cyngrair heddwch rhwng y drefedigaeth yn Angorfa Massachusetts a'r Poquodiaid, llwyth llïosog o'r Indiaid rhyfelgar; ond yn fuan wedi ymsefydliad Williams yn Providence, ymosododd y Poquodiaid ar long fasnachol, a lladdasant un dŷn perthynol i'r sefydliad ym Massachusetts. Yr oeddynt yn ymdrechu hefyd cael amryw lwythau eraill o'r Indiaid i

* 2 Thes. ii. 3-12. † Act. ix. 10–18; xxii. 12-16. ‡ Act. x. 23, 44-48. § Act. xx. 6, 7. ‖ 1 Cor. i. 1. ¶ Act. xviii. 24-28.

* Act. viii. 1, 4; xi. 19-21.
† Rog. Williams's Hireling Ministry none of Christ's.

Digitized by Google

gyngrair â hwynt yn erbyn y Saeson. Cyn gynted ag y daeth hyn i glustiau Roger Williams, hyspysodd y peth i'r Llywydd Vane, o Boston. Anfonwyd cais ato yntau yn ol gan yr awdurdodau yno i ymdrechu rhwystro y cyngrair crybwylledig. Ymgymmerodd yntau â'r gyfryngaeth yn ddiymaros, heb ymgynghori dim â chig a gwaed ynghylch yr angharedigrwydd a dderbyniasai ar eu dwylaw gynt; a chanfyddir oddi wrth y difyniad canlynol pa beryglon eu maint a wynebodd yn yr amgylchiad:—

"Pan dderbyniais lythyrau oddi wrth lywydd a chynghorfa Boston, yn dymuno arnaf ymdrechu hyd eithaf fy ngallu, mor fuan ag y gellid, i ddyrysu bwriadau y Poquodiaid a'r Moheganiaid i ffurfio cyngrair yn erbyn y Saeson, . . . cynnorthwyodd yr Arglwydd fi i ddodi fy mywyd yn fy llaw; ac heb ond prin hyspysu fy ngwraig, aethum fy hunan mewn bâd trwy wyntoedd geirwon, a môr tymhestlog, i d ŷ y pennaeth. Gorfodid fi gan fy ngorchwyl i ymgymmysgu a lletty a dros dridiau a theirnos gyd â chenhadon gwaedlyd y Poquodiaid, y rhai y dychymmygwn bod eu dwylaw a'u breichiau yn mygu gan waed fy nghydwladwyr a lofruddiasid ac a gigyddiasid ganddynt ar afon Connecticut; ac nis gallaswn lai bob nos nag ofni teimlo eu cyllill gwaedlyd yn fy ngwddf fy hun. Amddiffynodd Duw fi yn rhyfedd; a chynnorthwyodd fi i ddyrysu bwriadau a negesau y Poquodiaid, ac i ffurfio cyngrair rhwng y Saeson a'r Narragansettiaid a'r Moheganiaid yn erbyn y Poquodiaid." *

Y fath esampl o ddŷn duwiol, anniälgar, yn ymddiried yn ei Dduw wrth wneuthur ei ddyledswydd tu ag at ei erlidwyr, ac yn priodoli pob daioni iddo Ef! Wedi cael eu siomi yn eu hamcan, penderfynodd y Poquodiaid ddwyn y rhyfel ym mlaen eu hunain, a bu eu hymryson yn ddinystr iddynt yn y canlyniad. Ond ni chafodd Roger y Bedyddiwr gymmaint a dïolch gan ei hen gymdeithion yn Boston am ei holl lafur a'i wasanaeth yn yr amgylchiad. Yr oedd iddynt dewi a son y pryd hyn yn dangos gormod braidd o angharedigrwydd tu ag at natur dda; ond nid dyma'r cyfan. Ymhen rhyw yspaid wedyn, wrth ofni bod yr Indiaid yn llunio gwrthryfel yn erbyn y trefedigaethau, anfonodd llywodraeth Massachusetts genhadon at y Narragansettiaid i wybod y gwirionedd ynghylch hyny; a dywedodd Miantonomoh nad oedd ganddynt hwy un bwriad o'r fath, a'i fod ef yn barod i ymweled â Boston, os dewisent, ar yr ammod i Mr. Roger Williams ddyfod gyd âg ef yno; eithr nid oedd yr awdurdodau culfarn a diddïolch yno yn barod i alw yn ol ddedfryd alltudiaeth Williams mewn amgylchiad mor bwysig! Dengys y gwirioneddau hyn fod gan y Cymro duwiol gryn ddylanwad gyd â'r brodorion, a'i fod wedi ynnill graddau helaeth o'u hymddiried. Nid trwy ddamwain y cyrhaeddodd hyn, ond fel canlyniad naturiol i'r teimlad o gyfiawnder ac uniondeb a lywodraethai ei holl ymddygiadau. Ystyriai efe fod yr Indiad yn *ddyn* yn gystal a'r Sais a'r Cymro, ac am hyny bod yr un hawliau naturiol yn perthyn i'r naill cystal ag i'r llall. Yn y difyniad blaenorol gwelsom Roger Williams yn amddiffyn ei gydwladwyr yn erbyn brad yr Indiaid; ond yn y canlynol cawn ef yn amddiffyn hawliau yr Indiaid yn erbyn brad ei gydwladwyr:—

"Diangodd pedwar o Saeson oddi wrth eu meistriaid o Plymouth, ac ymosodasant ar un o'r brodorion, yn agos i Providence. Derbyniwyd hwy gan Mr. Williams yn ol ei lettygarwch arferol, o blegid nid oedd etto yn gwybod dim am eu cymmeriad na'u trosedd. Cyn gynted ag y gwnaed ef yn hyspys o'u cyflafan, ar ol eu hymadawiad, anfonodd ar eu hol i'w dal; ac aeth ef ei hun, a dau eraill, i ymofyn am yr Indiad archolledig. Cludasant ef i Providence; ond bu eu holl ymdrech i'w adfer yn aneffeithiol. Daliwyd y llofruddion, a dygwyd hwythau i Providence; ond ar gais y Llywydd Winthrop, anfonwyd hwy i Plymouth, gan mai yn y rhaglawiaeth honno y cyflawnwyd y weithred. Diangodd un o honynt, ond dygwyd y tri eraill i brawf am lofruddiaeth. Cyffesasant y trosedd, a dihenyddiwyd hwynt ym mhresennoldeb Mr. Williams a'r Indiaid. Fel hyn, yr oedd amddiffyn y gyfraith a hawliau y brodorion yn cadarnhau eu hymddiried." †

Yr oedd y drefedigaeth yn Ynys Rhôd yn parhau i gynhyddu yn dra chyflym, a llïaws mawr o bob math, da a drwg, yn heidio iddi o wahanol barthau Ewrop, ac o'r trefedigaethau eraill yn America. Ond pa mor amrywiol bynag y gallai eu credoau fod, yr oedd dinasyddion Providence, dan arweiniad Roger Williams, yn llwyr benderfynu cadw eu hardystiad yn ddihalog, a hyny i'r fath fanylrwydd fel, nid yn unig na byddai iddynt hwy *orfodi* neb i fyned i un lle o addoliad, ond hefyd na chai neb arall o fewn terfynau eu rhaglawiaeth *rwystro* y rhai a fyddent dan eu hawdurdod, os byddent yn dewis. Pan y darfu un gŵr ommedd i'w wraig fyned i wrando pregethiad Roger Williams, naill ai o blegid ei ragfarn ato ef yn bersonol, neu ei athrawiaeth, neu herwydd ei elyniaeth at grefydd yn gyffredinol, bu cryn gyffro yn y sefydliad, am eu bod yn ystyried hyny yn ymyraeth â matter cydwybod dŷn rhyngddo a Duw: od oedd y wraig, ar ol cyflawni ei gorchwylion teuluaidd yn ffyddlon, yn dymuno myned i wrando Williams yn pregethu y gair, bod yn iawn iddi gael myned yn ddirwystr. Galwyd cyngor trefol ar yr achlysur, pan y penderfynwyd "Bod i Joseph Verrin, am dori y cyttundeb,

* Elton's Life of Roger Williams, p. 41.

† Elton's Life of Roger Williams, p. 56.

trwy attal rhyddid cydwybod, gael ei amddifadu o'i hawl i bleidleisio hyd oni chydnabyddai ei fai." Fel hyn, pwngc ynadon Providence oedd penderfynu, nid pa beth oedd iawn neu gyfeiliornus mewn crefydd, ond bod i bawb gael ymarfer â chrefydd yn ol eu cydwybodau eu hunain. Hefyd, pan sefydlwyd ffurf o lywodraeth fwy rheolaidd ganddynt, ceir y canlynol ym mysg eu penderfyniadau cyntaf:—"Na chyfrifir neb yn droseddwr o herwydd ei ATHRAWIAETH, oddi eithr ei bod yn gwrthdaro yn uniongyrchol yn erbyn y llywodraeth a'r deddfau sefydledig." Ac ymhen yspaid wedi hyn, cadarnhawyd "Bod y ddeddf ynghylch rhyddid cydwybod mewn pwngc o athrawiaeth i barhau." Hyn oedd gwreiddyn yr holl anghydfod rhwng y trefedigaethau eraill a phreswylwyr Ynys Rhôd, ac o herwydd hyn ni wnai y trefedigaethau unrhyw gyweithas â hwynt ond yr hyn na allent ei hebgor. Yr oedd hyn yn peru iddynt gryn raddau o anghyfleusdra ar amserau; ond nid oedd dim a barai i'r naill na'r llall wadu eu hegwyddorion. Yn wyneb i'r gair gael ei daenu yn y gwahanol drefedigaethau, bod y brodorion yn bwriadu ymosod ar y bobl wynion, ymunodd pedair o'r trefedigaethau mewn cyngrair, er mwyn bod yn fwy galluog i amddiffyn eu hunain, o blegid bod eu sefyllfa yn dyfod yn fwy peryglus yn barhaus, am fod yr Indiaid yn gallu cael arfau ac arlwy rhyfel gan fasnachwyr Isellmynaidd a Seisnig. Arwyddwyd erthyclau yr undeb ar y 9fed o Fai, 1643, yn Boston, gan ddirprwywyr dros Plymouth, Angorfa Massachusetts, Connecticut, a'r Porthladd Newydd (New Haven) wrth yr enw "Trefedigaethau Unedig Lloegr Newydd." Amcanion y cyngrair oedd amddiffyn eu gilydd rhag ymosodiadau y brodorion, ynghyd â'r mwynhâd o "Ryddid yr efengyl mewn purdeb a heddwch, a helaethiad teyrnas Iesu Grist." Yr oedd pob trefedigaeth, yn ol erthyclau y cyttundeb, i ethol dau ddirprwywr yn flynyddol, y rhai oedd i gyfarfod unwaith yn y flwyddyn, neu fynychach, os gwelid angenrhaid, yn Boston, Harfford, y Porthladd Newydd, a Plymouth, ar gylch; a bod iddynt awdurdod i benderfynu ynghylch heddwch neu ryfel, a chydymgynghori am bethau a ddygent berthynas â daioni cyffredinol y trefedigaethau. Ond yr oedd Providence, a'r trefedigaethau eraill oedd wedi ymsefydlu erbyn hyn yn Ynys Rhôd, wedi eu cau allan o'r "Undeb," a'r esgus cloff a roddid dros hyny oedd, eu bod heb freinlen; ond pan symmudwyd y rhwystr hwnw, para yn anfoddlawn i'w derbyn i'w cyngrair a wnai yr hen drefedigaethau rhagfarnllyd a chulfarn eraill, am eu bod yn rhy ryddfrydig!

Er maint oedd dylanwad Roger Williams gyd â'r Indiaid, nis gallai Providence lai na bod mewn sefyllfa led beryglus. Wrth ystyried hyn, ac y drwgdybient braidd bod awdurdodau Massachusetts yn barod i hebgor i rai y drafferth i lywodraethu eu hunain, ac i honni hawl ynddynt, penderfynwyd cael breinlen i sefydliadau Ynys Rhôd, ac i Roger Williams, wrth reswm, yr ymddiriedwyd y gorchwyl. Daeth drosodd i Loegr yn 1643; ond erbyn iddo dirio, yr oedd yn helynt flin yma gan ryfel gartrefol; plaid y brenin yn prysur golli y dydd, a'r Senedd wedi cymmeryd meddiant o'r awdurdod wladol. Pa wedd bynag, nid oedd yr anghydfyddiaethau hyn yn anfanteisiol iawn i Roger Williams gael ei neges, gan y tueddai y Senedd i fod ar delerau da â'r trefedigaethau Americanaidd, er mwyn cadarnhau eu nerth eu hunain. Caniatawyd breinlen i breswylwyr Providence, Portsmouth, a Newport (Cei Newydd), yr hon a amserwyd ar yr 17fed o Fawrth, 1644. Dychwelodd y cenhadwr Williams ym Medi yr un flwyddyn, â'i neges wedi ei chyflawni, a chafodd dderbyniad fel brenin gan y rhai a'i hanfonasent. Aeth llu o'r trigolion mewn badau i'w gyfarfod cyn iddo lanio, a hebryngasant ef i'w gartref gyd â rhialtwch dirfawr. Crogasant y freinlen mewn lle amlwg yn yr awyr agored, fel y gallai pawb ei darllen drostynt eu hunain. Y ffurflywodraeth a bennodid yn y freinlen oedd Gweriniaeth gyffelyb i'r un sydd yn awr yn yr Unol Daleithiau. Terfynai y freinlen fel y canlyn:—

"Dyma'r deddfau a berthynant i bob dŷn, a dyma'r cospau am eu troseddu, y rhai a gadarnheir trwy gydsyniad yn yr holl drefedigaeth. Ac oddi eithr yr hyn a waherddir yma, gall pob dŷn ymddwyn fel y cymhellir ef gan ei gydwybod ei hun, pob un yn enw ei Dduw; a rhodied Saint y Goruchaf yn y drefedigaeth hon heb ormesiad, yn enw y Jehofah eu Duw, yn oes oesoedd."

Pan gyfarfu y trigolion i drefnu cynllun o lywodraeth yn ol egwyddorion y freinlen, yr oedd yn naturiol i Roger Williams gymmeryd rhan bwysig yn nhrefniad y cyfansoddiad newydd, ac yr oedd yn rhesymol i'w gyd-ddinaswyr ddangos eu rhwymedigaeth iddo am ei wasanaeth gwerthfawr, trwy gynnyg ei anrhydeddu â'r llywyddiaeth; ond nid ei ddyrchafiad a'i enw ei hun oedd yngolwg Roger Williams, "ond llesâd llaweroedd." Ofnai, pe

Digitized by Google

derbyniasai efe y llywyddiaeth, y buasai yr awdurdodau cylchynol yn edrych ar hyny fel herfeiddiad iddynt hwy, ac y gallasai hyny beri blinder i'r sefydliad ieuangc oedd mor agos at ei galon; am hyny gwrthododd yr anrhydedd o fod yn llywydd, gan foddloni ar lanw y swydd o gynnorthwywr. Y fath oedd ei hynawsedd a'i yspryd cymmodlawn ef fel yr ymdrechai yn wastad ymgadw rhag pob ymddangosiad o feiddgarwch. Un o ansoddau prydferthaf ei gymmeriad ef oedd ei awydd parhaus, ynghanol ei ymlyniad di-ildio wrth ei argyhoeddiadau, a'i ddatganiad difloesgni o honynt, am fod ar delerau da a heddychol â'i wrthwynebwyr.

Bu raid iddo aros ym Mrydain, o herwydd y terfysgoedd a nodwyd, rhwng y Brenin a'r Senedd, dros o ddeutu blwyddyn; ond yn y cyfamser, ni bu ef na segur na diffrwyth, o blegid arferai ddywedyd "bod un gronyn o dywod amhrisiadwy amser yn fwy ei werth na mynydd o aur." Ymddengys iddo ysgrifenu dau lyfr, neu o leiaf eu gorphen, tra ar ei daith o Ynys Rhôd i'r wlad hon, sef "Hanes yr Indiaid,"* yr hwn a fawr ganmolid gan Arglwyddi y Morlys; ac "Allwedd i Iaith Lloegr Newydd."† Cyhoeddwyd y ddau hyn yn Llundain yn 1643. Er na bu ei arhosiad yn Lloegr ond ychydig gyd â blwyddyn, ac er prysurdeb anhebgor ei brif neges, etto ysgrifenodd dri o lyfrau yn y cyfamser, sef "Llythyr Mr. Cotton, a argraphwyd yn ddiweddar, yn cael ei Chwilio a'i *Atteb*;"‡ "Holiadau o'r Pwys Mwyaf yn cael eu cynnyg i Mr. Thomas Goodwin, cyflwynedig i *Uchel Lys* y Senedd;"§ "Barn Waedlyd Erledigaeth, yn Achos Cydwybod, yn cael ei holi mewn *Cynnadledd* rhwng Gwirionedd a Heddwch; y sawl, gyda â phob serch tyner, sy'n cyflwyno i *Uchel Lys* y Senedd (fel cynnyrch eu hymddiddan) yr ymadroddion hyn, ymhlith eraill, sydd o'r pwys mwyaf."‖ Argraphwyd y tri yn Llundain yn y flwyddyn 1644. Ar yr un pwngc y mae'r tri, sef erledigaeth a rhyddid cydwybod. Y mae'r olaf o'r tri, ac ystyried yr oes, y pwngc, a'r amgylchiadau dan ba rai yr ysgrifenwyd ef, yn golofn oesol o feddylgarwch, ysgolheigdod, a rhyddfrydigrwydd ei awdur. Dyry'r difyniad canlynol o waith yr ysgrifenydd ei hun, ryw fraslun o gynnwys y llyfr, yn yr hwn y gall y darllenydd gael rhyw feddylddrych am syniadau y cyfansoddwr:—

"Nid yw gwaed y fath gannoedd o filoedd o Brotestaniaid a Phabyddion a dywalltwyd yn yr oes hon, ac mewn oesoedd blaenorol, o herwydd eu crefydd, yn ofynedig nac yn gymmeradwy gan Iesu Grist, Tywysog y Tangnefedd. . . . Cynhygir Ysgrythyrau a rhesymau trwy'r gwaith yn erbyn yr athrawiaeth o erledigaeth yn achos cydwybod. . . . Rhoddir attebion i'r Ysgrythyrau a'r rhesymau a ddygid gan Mr. Calfin, Beza, Mr. Cotton, a gweinidogion eglwysi Lloegr Newydd, ac eraill, i brofi yr athrawiaeth o erlid am fatter cydwybod. Profir bod yr athrawiaeth o erlid yn achos cydwybod yn euog o holl waed yr eneidiau sydd dan yr allor yn llefain am ddïal. Profir bod llywodraethau gwladol, ynghyd â'u swyddogion cyfiawnder yn eu gwahanol swyddau a'u gweithrediadau, yn hollol wladol; ac o ganlyniad, nad ydynt yn farnwyr, llywodraethwyr, nac amddiffynwyr cyflwr ac addoliad ysprydol a Christionogol. Ewyllys a gorchymyn Duw ydyw, gan ddyfod ei Fab, yr Arglwydd Iesu, bod i'r credoau a'r addoliadau mwyaf Paganaidd, Iuddewaidd, Tyrcaidd, neu wrth-Gristionogol, gael eu caniatâu i bawb, ymhob cenedl a gwlad; a'u bod i gael eu gwrthwynebu â'r cleddyf hwnw, yr hwn sydd alluog i orchfygu mewn pethau i'r enaid, sef 'Cleddyf yr Yspryd, yr hwn yw gair Duw.' Profir mai ffugyrol a seremonïol oedd llywodraeth tir Israel, a'r bobl, mewn heddwch a rhyfel, heb fod yn gynllun i unrhyw deyrnas neu lywodraeth wladol yn y byd i'w dilyn. Nad yw Duw yn gofyn i unffurfiaeth mewn crefydd gael ei arosod na'i orfodi gan unrhyw lywodraeth wladol: bod y cyfryw unffurfiaeth gorfodol, yn hwyr neu hwyrach, yn achlysur penaf rhyfel gartref, yn drais ar gydwybod, yn erledigaeth ar Grist Iesu yn ei weision, yn rhagrith, ac yn ddinystr miloedd o eneidiau. Wrth i'r llywodraeth wladol ddal unffurfiaeth orfodol mewn crefydd, rhaid i ni o angenrhaid wadu ein dymuniadau a'n gobeithion am ddychweliad yr Iuddewon at Grist. Y mae gorfodi unffurfiaeth mewn crefydd i genedl gan lywodraeth wladol, yn cymmysgu y crefyddol a'r gwladol, yn gwadu egwyddorion Cristionogaeth a gwareiddiad, ac yn gwadu bod Iesu Grist wedi ymddangos yn y cnawd. Rhyddid i gredoau ac addoliadau eraill, heb law yr un a broffesir gan y llywodraeth, yn unig, o dan fendith Duw, a gynhyrcha heddwch cadarn a pharhaol; gan gymmeryd gofal, yn ol doethineb y llywodraeth wladol, ar fod unffurfiaeth oddi wrth bawb mewn ufudd-dod gwladol. Gall gwir wareidddra a Christionogaeth ffynnu mewn gwlad neu deyrnas, er rhoddi caniatâd i gredoau amrywiol a gwahaniaethol, pa un bynag ai yr eiddo'r Iuddew ai'r Cenedl-ddyn."*

Beirniadwyd y "Farn Waedlyd" gan un Mr. Cotton, o Boston, America, mewn llyfr a alwyd ganddo "Y Farn Waedlyd wedi ei golchi a'i gwneud yn wen yng Ngwaed yr Oen."† Attebwyd hwn yn lled fuan gan Roger Williams, mewn llyfr a alwodd efe "Y Farn Waedlyd wedi ei gwneud yn fwy Gwaedlyd fyth gan ymdrech Mr. Cotton i'w golchi yn wen."‡ Dywed yr Esgob

* "An Account of the Indians."

† "A Key to the Language of New England."

‡ "*Mr.* Cotton's Letter, lately printed, Examined and Answered."

§ "Queries of the Highest Considerations proposed to Mr. Thomas Goodwin, *presented to* the High Court of Parliament."

‖ "*The Bloody* Tenent of Persecution, for Cause of Conscience, discussed in a Conference between Truth and Peace; who, in all tender affection, present to the High Court of Parliament (as the result of their discourse) these, amongst other, passages of highest consideration."

* Elton's Life of Roger Williams, pp. 66, 67.

† "The Bloudy Tenent washed and made white in the Blood of the Lamb."

‡ "The Bloudy Tenent, yet more Bloody, by Mr. Cotton's endeavour to wash it White."

Digitized by Google

Heber, yn ei Gofiant am Jeremy Taylor, mai y gŵr enwog hwnw oedd y cyntaf i ddadlau dros ryddid cydwybod; ond yr oedd Roger Williams wedi cyhoeddi "Y Farn Waedlyd," a'r ddau lyfr eraill ar y pwngc, er ys tair blynedd cyn i Taylor gyhoeddi "Rhyddid Prophwydoliaeth."* Heb law hyny, nid yw yr olaf yn myned ymhellach na *goddefiad*, a hyny *yn unig i'r Cristionogion a gyttunent â Chredo yr Apostolion;* ond dadleuai y blaenaf, nid dros *oddefiad* yn unig, eithr *bod i bob dyn gael perffaith ryddid cydwybod.*

Yn ebrwydd ar ol i Roger Williams ddychwel o Loegr i Ynys Rhôd, a dechrau trefnu pethau er sefydlu ffurf o lywodraeth reolaidd, yn ol y freinlen, fel y nodwyd, galwyd am ei wasanaeth i heddychu rhwng trefedigaethau yr ochr arall i'r afon â'r Indiaid. Torasai anghydfod allan, pan oedd efe absennol, rhwng y Narragansettiaid a'r Moheganiaid. Lladdwyd Miantonomoh, penaeth y blaenaf, a phenderfynasant ddïal ar yr olaf, a dwyn rhyfel ym mlaen yn erbyn y Saeson, am eu bod yn cymmeradwyo yr hyn a wnaethai y Moheganiaid; ond o blegid eu parch i Roger Williams, yr oeddynt mewn heddwch â Providence, a sefydliadau Ynys Rhôd. Hyspysodd Williams y Saeson o'u perygl, a phenderfynwyd gan gyfarfod neillduol o ddirprwywyr yn Boston i anfon dau genad i wneuthur cais am heddwch. Erbyn hyn yr oedd yr Indiaid wedi anfon am Roger Williams, er mwyn cael ei gyngor ef yn yr amgylchiad; a thrwy ei annogaeth a'i ymdrech ef gwnaed heddwch, nid yn unig rhwng y Saeson a'r Indiaid, ond hefyd rhwng y brodorion a'u gilydd. Wele gyfleusdra unwaith etto yn cael ei ddefnyddio gan y gŵr enwog hwn i "wneuthur da i'r rhai oedd yn gwneud niwaid iddo ef, ac yn ei erlid."

Wedi cael breinlen, yr oedd angen am gryn bwyll a doethineb i ddwyn sefydliadau Ynys Rhôd i gydweled â'u gilydd. Pa wedd bynag, llwyddwyd i gael gan wahanol drefydd i gyttuno mewn cymmanfa gyffredinol yn Portsmouth, y 19ydd o Fai, 1647, ar ffurflywodraeth pur debyg i ffurflywodraeth bresennol yr Unol Daleithiau, fel y crybwyllwyd. Yn ol y ffurf ddewisedig, yr oedd llywydd a phedwar o gynnorthwywyr iddo, i gael eu hethol yn flynyddol, y rhai a feddent awdurdod i weinyddu y deddfau. Yr oedd y gymmanfa ddeddf-wneuthurol i gynnwys chwech o ddirprwywyr o bob tref, y rhai a feddent awdurdod i wneuthur y cyfreithiau, ac i arolygu a threfnu gorchwylion y drefedigaeth. Yr oedd y deddfau y cyttunwyd arnynt gan y gymmanfa hon wedi eu cymmeryd allan, gan mwyaf, o ddeddfau Brydain. Y mae amryw o blant dynion ymhob dosparth mor ddallbleidiol a chyndyn am eu ffyrdd a'u mympwyon eu hunain fel nad ymostyngant yn oed i'r mwyafrif. Felly y digwyddodd y pryd hyn yn Ynys Rhôd. Cododd un William Codington (Coddington) yn erbyn y llywodraeth, a chafodd ychydig o'r trefydd i gyttuno âg ef. Mynnai efe i sefydliadau Ynys Rhôd gael eu derbyn i gyngrair "Undeb Trefedigaethau Lloegr Newydd;" ond bu aflwyddiannus. Beth oedd ei amcan yn hyn, nid ydys yn gwybod. Beth bynag am hyny, y mae'r llythyr canlynol a ysgrifenodd Roger Williams ar yr amgylchiad, at dref Providence, yn ganmoliaeth uchel i'w ben a'i galon:—

"DEILWNG GYFEILLION,—Nid yw beth newydd ein bod ni ein hunain, a phob dynion, yn dueddol i wahaniaethu. Gwirionedd arall sydd yr un mor alaethus sefydlog ydyw, bod y naill ddosparth neu blaidd neu y llall, ymhob oes a aeth heibio, ymhob parth o'r byd, yn y parthau hyn ac yn Lloegr, ein hanwyl wlad ein hunain, y mwyaf uniawn yn ei olwg ei hun; ei achos yn uniawn, ei ymddygiad yn uniawn, ei ddadleuon yn uniawn, a'i attebion yn uniawn. Ac y mae profiad yn dywedyd wrthym, pan y cymmero Duw yr heddwch dangnefedd oddi ar y ddaear, bod un wreichionen, mewn gair neu ymddygiad, yn ddigon nerthol i gynnau y fath dân ag a losgai drefydd, dinasoedd, byddinoedd, llyngesau, cenhedloedd, a theyrnasoedd. Anwyl Gyfeillion, gan fod yn anrhydedd i ddynion ymattal oddi wrth ymrafaelion; a chan fod bywyd o gariad yn felus, ac undeb mor gryf ag ydyw o ddymunol; a chan eich bod wedi gweled yn dda yn ddiweddar fy ngalw i at ryw wasanaeth cyhoeddus, a'm henaid wedi bod yn hir bryderu pa fodd y gallwn ddwyn dwfr i ddiffodd y tân, ac nid olew neu danwydd arno: yr wyf yn awr yn gostyngedig a hyf ddymuno arnoch, yn enw holl gysuron nefoedd a daear, y rhai a ddwg yspryd tawel, a heddychol arnoch; ac yn enw yr holl ddychrynfeydd a'r rhybuddion ofnadwy yn ein plith ni, trwy farwolaethau ac afieehyd; neu mewn lleoedd eraill, yngalanasdra cynddeiriog y cleddyf; yr wyf yn dymuno arnoch, meddaf, yn ostyngedig a difrifol, fod yn foddlawn i fod yn heddychol, yn foddlawn i ddyfod i gymmod, yn foddlawn i fod yn gyfeillgar, ac i wrando ar y cynhygiad (rhesymol fel yr wyf yn hyderu) canlynol:—Gan fod profi matterion trwy ddadleuon ac ysgrifeniadau, weithiau yn ddiderfyn; gan fod profi dadleuon trwy arfau a chleddyfau bob amser yn greulawn a gresynol; gan fod blino llywodraeth ac arglwyddi Lloegr yn dra afresymol a threulfawr; a chan nad yw blino ein cymmydogion o drefedigaethau eraill yn ymddangos yn ddïogel ac anrhydeddus;—Yr wyf yn tybied, anwyl gyfeillion, bod y drefedigaeth yn awr yn edrych gyd âg wyneb rhwygedig o ddwy blaid, a bod y nifer mwyaf o Portsmouth, gyd â chyfeillion caredig eraill sy'n cyttuno â hwy, yn un blaid sy'n ymddangos yn cael eu gofidio, a'r tair tref arall, neu y nifer mwyaf, yn y blaid arall. Bydded i bob plaid ethol a phennodi tri: Portsmouth, a'r cyfeillion sy'n cyttuno â hwy, dri; a'r blaid arall dri, un o bob tref: bydded i awdurdod gael ei roddi iddynt i wneud ymchwiliad i bob gwahaniaeth cyhoeddus, sarhâd, a'r hyn sy'n lluddias cyfiawnder, heddwch, a dïogelwch cyffredin: bydded i'w

* "Liberty of Prophecying."

Digitized by Google

dedfryd oll, neu y nifer mwyaf o honynt, fod yn derfyn ar yr ymryson, a gosod y cyfan mewn trefn; a bydded iddynt osod cerydd ar y neb a wrthwynebo eu penderfyniad." *

Wele y gŵr enwog a duwiol hwn yn cynnyg sefydlu "Cymdeithas Heddwch," o ran yr egwyddor o honi, ddau can mlynedd cyn i'n cydwladwyr ni, yn Lloegr a Chymru, feddwl am sefydlu y fath gymdeithas. Ond pa mor resymol bynag oedd cyngor doeth Roger Williams, methwyd ei roi mewn gweithrediad. Mynai Codington, y prif gynhyrfydd, ei ffordd ei hun. Daeth drosodd i Loegr, a chafodd freinlen newydd, a phennodwyd yntau ynddi i fod yn llywydd am ei oes ar Ynysoedd Rhôd a Canonicut. Yn 1651, dychwelodd i Ynys Rhôd, gan ddwyn ei freinlen gyd âg ef, yr hyn a barodd gryn gyffro yn y sefydliadau; ond nid hir y cafodd fwynhau y dyrchafiad y sychedasai gymmaint am dano. Er yr holl gymmwynasau a wnaethai Roger Williams i drefedigaethau Massachusetts, yr oedd eu hyspryd gormesol hwy, yr hwn oedd yn cynhyddu yn barhaus wrth gael ei feithrin, yn dra llidiog at drefedigaeth ryddfrydig Ynys Rhôd, a dangosodd hyny y cyfleusdra cyntaf a gafodd. Dymunodd hen ŵr oedd yn aelod o Eglwys Porthladd Newydd (Newport), Ynys Rhôd, yr hwn a breswyliai yn awr o fewn ychydig filltiroedd i Boston, ar i rai o'r brodyr o'r Porthladd Newydd ymweled âg ef, er mwyn cael cyfeillach grefyddol â hwy. Anfonodd yr eglwys dri i ymweled âg ef, un o ba rai oedd eu pregethwr, John Clarke. Aeth y cyfeillion crefyddol hyn at yr hen ŵr ar ddydd Sadwrn; ac ar ei ddymuniad ef, arosasant yno dros dranoeth, i addoli a phregethu yn ei dŷ. A phan oedd Clarke ar ganol pregethu, daeth dau swyddog gwladol i'r tŷ, a chanddynt wŷs wedi ei harwyddo gan un o ynadon Massachusetts, i'w cymmeryd o flaen yr awdurdodau. Cyhuddwyd hwy o goleddu a thaenu egwyddorion cyfeiliornus; a dywedai y llywydd mewn tymmer digllawn bod Clarke "yn haeddu marwolaeth, ac na oddefai efe i'r fath sothach gael ei ddwyn i mewn i'r rhaglawiaeth honno." Dirwywyd hwy yn drwm; ac os na thalent y dirwyon, yr oeddynt i gael eu fflangellu. Gwrthodasant dalu, a bwriwyd y tri i garchar; ond ar daer gais cyfeillion o'r dalaeth, rhyddhawyd Clarke ac un o'r ddau arall. Cadwyd y llall yn hwy; ac am na fynnai dalu dirwy mor anghyfiawn, fflangellwyd ef yn greulawn. Y fath drugaredd i'r America oedd i Washington ei glanhau oddi wrth awdurdod gormeswyr creulawn o fath y rhai hyn!

Gan y gwelai trigolion Ynys Rhôd oddi wrth hyn, ac ymddygiadau gorthrymus cyffelyb, eu bod yn agored i raddau rhy bell i dra-arglwyddiaeth y trefedigaethau cylchynol, ac yn wyneb y cynhenau oedd yn eu plith eu hunain o blegid William Codington, penderfynodd y mwyafrif o drigolion y Porthladd Newydd a Portsmouth, y ddwy dref yr oedd gan Codington fwyaf o lywyddiaeth arnynt, ar i John Clarke fyned i Loegr i erfyn am i lywyddiaeth Codington gael ei diddymu, ac am i'r freinlen a ganiatawyd i Roger Williams gael ei chadarnhau. Er bod Providence a Warwick yn parhau i ddwyn eu llywodraeth ym mlaen yn ol y freinlen gyntefig, etto taer ddymunasant ar Roger Williams fyned gyd â Clarke, er mwyn bod yn sicrach o gyrraedd yr amcan. Yr oedd yn bur anfoddlawn i gydsynio â'r cais hwn ar y cyntaf, herwydd nas gallai feddwl am adael ei deulu lliosog, ac nad oedd yn alluog i ddwyn y draul; ond gan fod y genadwri mor bwysig, a hwythau mor daer, cydsyniodd o'r diwedd â'u cais. Gwnaed rhyw ymdrech gan y trefydd i ddwyn y draul, ond nid oedd yr hyn a gyfranwyd iddo yn agos ddigon; eithr o blegid bod ei awydd ef am lywyddiaeth y drefedigaeth mor fawr, "efe a werthodd ei dŷ masnach yn Narragansett, yr hwn a ddygai iddo gan punt o elw blynyddol," er mwyn cynnal ei hun a'i deulu tra yn absennol. Wedi cyrraedd Brydain, llwyddodd Williams i ddwyn yr amcan mewn golwg i ben, trwy gynhorthwy ei hen gyfaill rhyddfrydig, Syr Henry Vane,† yr hwn, yn 1652,

* Elton's Life of Roger Williams, pp. 73, 74.

† Yr oedd Syr Henry Vane (Syr Harri Fychan), fel Roger Williams, yn hanu o hen deulu Cymreig pendefigaidd, sef o Howel Fychan, sir Fynwy, mab yr hwn, sef Gruffydd, a briododd Lettis, merch Bleddyn ap Cynfyn, arglwydd Powys. Gwnaed Harri, cynddrychiolydd y teulu, yn farchog ar faes Poictiers, yn Ffraingc, am ei wrhydri, yn 1356, gan Edward, y Tywysog Du.

Ganwyd Syr Henry Vane, cydoeswr Roger Williams, yn 1612; a phan oedd rhwng 14 a 15 oed, teimlodd argyhoeddiadau dwysion, a llwyr newidiodd ei fuchedd, oedd o'r blaen yn bur wyllt, yn ol ei oedran. Gan fod ei gyfnewidiad yn dra anghymmeradwy gan ei dad, gyrodd ef i Rydychain; ond ymadawodd oddi yno yn fuan, ac aeth i Geneva, lle y cryfhaodd ac yr eangodd ei olygiadau crefyddol. Pan ddychwelodd adref, a gweled na chai fwynhau rhyddid crefyddol yn ol ei gydwybod gan ei dad na'r Llywodraeth, ymadawodd yn ddisymmwth o'r wlad, a glaniodd yn Boston, yn Lloegr Newydd, yn 1635. Ynnillodd gydymdeimlad ac ymddiried y trefedigwyr yn ebrwydd, a gwnaed ef yn ddinesydd Massachusetts ar unwaith; ac yn 1636, cyn ei fod yn llawn 24 oed, etholwyd ef yn llywydd y drefedigaeth, yn yr hon swydd y dangosodd gyfuniad mawr o ddiysgogrwydd, cydoddefiad, a doethineb. Ond gan fod y trefedigion yn culhau yn eu golygiadau ar ryddid crefyddol, ac yn cynhyddu mewn gormes, bwriwyd ef allan o'r swydd, a dewiswyd Winthrop, llywydd cyntaf y drefedigaeth, yn ei le. Yn Awst 1637, dychwelodd i Loegr; ac wedi byw mewn neillduedd dros rai blynyddoedd, dychwelwyd ef, yn Ebrill, 1640, yn aelod Seneddol dros Kingston-upon-Hull, a thrachefn, yn Nhachwedd yr un flwyddyn, etholwyd ef yn aelod o'r Senedd Hir; ac fel un o arweinwyr galluocaf y blaid Ryddfrydig, cymmerth ran

Digitized by Google

ydoedd lywydd Cyngor y Llywodraeth. Anfonodd preswylwyr Providence lythyr at Roger Williams, yn dymuno arno gymmeryd y llywyddiaeth, a gofyn am gael ei bennodi yn Lloegr i'r swydd; ond nid ymddengys iddo grybwyll un gair yma am y fath beth.

Yn lled fuan ar ol i Roger Williams lanio yn y wlad hon, cyhoeddodd lyfr a alwodd efe—"Prawf Bywyd ac Iechyd Ysprydol, a'u Cadwedigion,"* yr hwn a gyflwynodd efe i Syr Henry Vane. Dywedir iddo gyfansoddi y llyfr hwn "ynghanol yr Indiaid noethion, yn eu tai gwylltion, ac wrth eu tanau barbaraidd." Rhagflaenir y llyfr yma gan lythyr nodedig at ei briod, yr hwn a ddyry brawf pa fath benteulu ydoedd. Cymmerer y difyniad canlynol fel esampl:—

"Fy Anwylaf Gariad a Chydymaith yn Nyffryn Dagrau,—Fel yr oedd dy afiechyd sydyn a pheryglus diweddar, a'th waredigaeth fuan o byrth marwolaeth, ac o ewinedd angau, trwy ddaioni yr Arglwydd, yn rhyfedd yngolwg pawb; felly yr wyf yn diragrith ddymuno ar iddynt fod yn wastad yn ein meddyliau ninnau, fel rhybudd o'r nef i ymbarotoi erbyn galwad ddisyfed oddi yma; i fyw y gweddill o'n hoes fer ac ansicr yn fwy fel dïeithriaid, gan hiraethu a dyheu am gartref a gwlad arall; i fwrw ymaith ein hofnau a'n gofalon mawrion, a'n dymuniadau a'u llawenydd am ganwyll ofer y bywyd ofer hwn, a fydd yn fuan wedi diffodd, ac i ymddiried yn y Duw byw. Yr wyf yn anfon i ti, er mai gauaf ydyw, lonaid llaw o flodau, wedi eu gwneuthur yn flodeuglwm bychan, i ti, dy anwyl hunan, a'n hanwyl blant, i edrych arno ac i'w arogli, pan y byddaf fi fel gwellt y maes, wedi myned ymaith a gwywo."*

Yn bur fuan ar ol cyhoeddi y llyfryn hwn, a alwodd efe yn "flodeuglwm" i'w anwylyd a'i blant, cyhoeddodd lyfr arall pur bwysig, yn Llundain, 1652, at yr hwn y cyfeiriwyd eisoes, sef "Y Weinidogaeth Gyflogedig heb fod yn eiddo Crist: neu Draethawd am Ledaeniad Efengyl Crist Iesu."† Yn y traethawd rhagorol hwn, prawf Roger Williams trwy holl lyfrau y Testament Newydd, nid yn unig fod sefydliadau gwladol o grefydd yn anysgrythyrol, y rhai a gynhelir trwy ddegymau, trethi eglwysig, a thaliadau gorfodol eraill, megis y gwna Eglwys Rhufain, Eglwys Loegr, ac Eglwys Ysgotland, ac y gwnai yr Eglwysi Annibynol yn ei amser ef yn Massachusetts; ond hefyd, bod yr un mor anysgrythyrol i eglwysi heb fod mewn cyssylltiad â'r llywodraeth wladol, pa un bynag ai Annibynol ai Presbyteraidd a fyddont, *gyflogi* dŷn, dan yr enw "gweinidog sefydlog," am hyn a hyn y mis neu hyn a hyn y flwyddyn. Prawf mai *teithiol* yw pregethiad y gair i fod dan y Testament Newydd, oddi wrth hanes teithiau Ioan Fedyddiwr, Iesu Grist ei hun, y deuddeg Apostol, a'r Deg a Thrigain, a geir yn yr Efengylau; ac oddi wrth hanes teithiau gorfeithion yr Apostol Paul, Barnabas, Apolos, Timotheus, Titus, Petr, a'r "apostolion eraill;" ac oddi wrth hanes holl Eglwys Jerusalem, "y rhai a dramwyasant gan bregethu y gair," a geir yn yr Actau a'r Epistolau. Prawf ymhellach mai "fel apostolion Crist," neu fel cenhadon neu bregethwyr teithiol, y mae Paul yn honni bod ganddo ef a Barnabas, "a'r apostolion eraill," "awdurdod i fwytta ac i yfed; i arwain o amgylch [*o amgylch*] wraig a fyddai chwaer; i bwyso ar yr eglwysi, ac i fod heb weithio."‡

Hefyd, y mae yn profi yr un mor gadarn, trwy yr Ysgrythyrau, mai unig swyddogion sefydlog Eglwys Crist yw henuriaid neu esgobion, a diaconiaid neu weinidogion; a bod *amryw* esgobion a diaconiaid i fod "*ymhob eglwys*," megis yr oedd ymhob eglwys yn Derbe, Lystra, Iconium, ac Antiochia;§ ac yn Eglwys Ephuses,‖ yn Eglwys Philipi,¶ ac ymhob eglwys oedd yn ninasoedd Creta.** Dengys yr un mor eglur bod Paul yn pendant wahardd i henuriaid neu esgobion sefyd-

bwysig yn yr erlyniadau yn erbyn yr Arglwydd Strafford, ac yn erbyn y Pabyddol Archesgob Laud. Llefarai yn rymus o blaid yr ysgrif yn erbyn llywodraeth esgobyddol, a daeth yn aelod o enwog Gynghorfa Duwinyddion Westminster, yn yr hon yr oedd yn uchel am ei ddysgeidiaeth dduwinyddol, a'i gefnogaeth i oddefiad cyffredinol. Aeth law yn llaw gyd â Pym a Hampden yn eu holl fesurau diwygiadol; ond yr oedd yn erbyn dihenyddio y brenin. Ymneillduodd dros rai misoedd cyn i'r ddedfryd honno gael ei chyhoeddi; ond yn Chwefror 1649, ar daer ddymuniad ei gyfeillion blaenorol, derbyniodd eisteddfa ynghyngor y Llywodraeth; a thra yn y sefyllfa yma, yn 1651, y cynnorthwyodd Roger Williams i gael ail gadarnhad i freinlen gyntefig Ynys Rhôd. Yn y flwyddyn ganlynol, 1652, gwnaed ef yn llywydd y Senedd Hir, neu, yn hytrach, "Senedd y Gynffon," yr hon a ddaliodd yn gyndyn yn erbyn dymuniadau y wlad, hyd oni throdd Cromwel yr holl aelodau allan ar yr 20fed o Ebrill, 1653, a Vane oedd yr olaf a adawodd y Tŷ; a phan yn myned heibio i Cromwel allan, dywedodd Cromwel yn uchel—"Syr Henry Vane! Syr Henry Vane! Yr Arglwydd a'm gwaredo rhag Henry Vane!" Yna ymneillduodd Syr Henry, ac ymroddi i fyfyrio athroniaeth a chrefydd. Cyhoeddodd amryw lyfrau dysgedig, ac ymhlith eraill un a alwyd ganddo—"Yr Holiad Iachaol yn cael ei Gynnyg a'i Benderfynu" (The Healing Question Propounded and Resolved), o herwydd yr hwn y bwriodd Cromwel ef i garchar dros ychydig amser. Wedi marw o Cromwel yr Amddiffynwr, etholwyd Vane yn aelod o'r Senedd a alwyd ynghyd gan Richard Cromwel, yn yr hon yr egnïol gefnogai olygiadau gwerinol, ac y gwrthwynebai fesurau yr Amddiffynwr. Ar ymddeoliad Richard, cynnorthwyodd Vane i ail gadw y Senedd Hir, ac appwyntiwyd ef yn aelod o Bwyllgor y Ddiogelfa, i'r hwn yr ymddiriedwyd prif awdurdod y wlad dros ennyd byr. Yn ebrwydd ar ol adfer Charles II. i'r orsedd, bwriodd y dihiryn hwnw Syr Henry i garchar y Twr; ac ar ol ffug-brawf gwarthus, anghyfiawn, a chreulon, llofruddiwyd y gwladgarwr di-ildio ar y 18fed o Fedi, 1662, trwy dori ei ben, er tragywyddol warth i'r brenin anfad a'i gynghorwyr atgas ac anghyfiawn.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 1215; Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 480.

* "Experiment of Spiritual Life and Health, and their Preservatives."

* Elton's Life of Roger Williams, p. 80.

† "The Hireling Ministry none of Christ's: or, a Discourse of the Propagation of the Gospel of Christ Jesus:" London. 1652. 4to.

‡ 1 Thes. ii. 5-9; 1 Cor. ix. 1-14. § Act. xiv. 20-23.

‖ Act. xx. 17. ¶ Phil. i. i. ** Tit. i. 5-11.

Digitized by Google

log eglwys dderbyn unrhyw dâl bydol am eu gwasanaeth i'r eglwys; ond mai eu dyledswydd hwy yw "gweithio â'u dwylaw" at eu cynnal eu hunain a'u teulu, a "gweiniaid" a fyddont yn yr un eglwys a hwynt, megis y rhoddes efe ei hun, er ei fod yn apostol, esampl iddynt.*

Nid credu ac ysgrifenu pethau fel hyn yn unig a wnai Roger Williams, ond ymddygai a gweithredai efe yn ol ei gredo; am hyny gwrthododd ef bob "galwad" a rodded iddo i fod yn "weinidog sefydlog, cyflogedig," fel y gwelsom, a theithiai at y cenhedloedd Indiaidd o'i amgylch, a phregethai iddynt hwy, cystal ag i'w gyd-drefedigion, "yn yr awyr agored ac mewn tai annedd." O herwydd hyny, cyhuddid ef gan "weinidogion sefydlog, cyflogedig" ei oes o "fod yn benboeth;" ac y mae rhyw Dexter, o'r un dosparth cyflogedig yn yr oes hon, yn ei gyhuddo o'r un peth. Os ydyw peidio bod yn "weinidog sefydlog, cyflogedig," a "thramwy gan bregethu y gair," yn Judea a Galilea, ac "o amgylch" holl Asia Leiaf, "o Jerusalem hyd Ilyricum," ac o Jerusalem hyd Babilon, yn "benboethni;" yna yr oedd Ioan Fedyddiwr, yr holl Apostolion, y Deg a Thriugain, yr efengylwyr Apostolaidd, a holl eglwys fawr Jerusalem, ïe, a'r Arglwydd Iesu ei hun, yn "benboeth!" I'r fath eithafion gwrthun y gall dynion talentog, a duwiol hefyd, ond odid, a fyddont wedi eu dwyn i fynu dan effaith rhagfarn a "budr-elw" eglwysig, a chredoau anysgrythyrol, redeg ac ysgrifenu! Gwyn fyd na chodai miloedd etto (ïe, hwy a gyfodant yn hwyr neu hwyrach) dan effaith yr un "penboethni" (?) a Roger Williams, Crist, a'i ddisgyblion Apostolaidd; yna, fe welid golwg bur wahanol yn fuan ar y byd pechadurus, ac ar yr eglwysi coel-grefyddol a dirywiedig sy'n awr yn llenwi holl wledydd cred.

Bu Roger Williams yn y deyrnas hon dros dair blynedd y waith hon, sef o 1651 hyd 1654, ac yn y cyfamser cafodd yr hyfrydwch o gyfeillachu âg amryw o wŷr penaf a mwyaf crefyddol y wlad, megis Cromwel, Syr Henry Vane, y Dr. Owen, a'r mwyaf o honynt oll, sef John Milton. "Treuliai lawer o'i amser ynghyfeillach Milton;" ac y mae hyn ei hun, pe na bai genym un dystiolaeth arall, yn profi bod Roger Williams yn ddŷn gwir fawr, canys ni buasai Milton byth (yr hwn, "o ran dim a allwn ni ei weled, yr oedd ei allu yn anherfynol" †) yn colli amser i "gyfeillachu llawer" â dŷn cyffredin. Yr oedd Milton yn awr yn y swydd uchel o Ysgrifenydd Tramor i Gyngor y Llywodraeth; "a gellir tystio yn ddïogel na wnaeth un ysgrifenydd i'r Llywodraeth, mewn un wlad, y fath wasanaeth i'w oruchwylwyr ag a wnaed gan Milton," ‡ yn ystod tymmor ei swyddogaeth. Heb law cyflawni ei swydd dan y Llywodraeth, ysgrifenodd bump o lyfrau, tri o ba rai sydd yn Lladin, o 1649 hyd 1654, sef ystod tymmor ei swyddogaeth wladol, pan yr aeth yn gwbl ddall, ac oll yn amddiffyn Gweriniaeth, ac yn erbyn crefydd sefydledig a gwaddoledig; ac y maent yn gwbl gysson â golygiadau Roger Williams ar yr un pyngciau. Y mae yn dra thebyg mai yn yr adeg yma, pan y cyfeillachai Milton â Williams, y daeth y syniad am y llyfr ardderchog hwnw i'w feddwl, a elwir ganddo "Ystyriaethau yn cyffwrdd y Moddion Tebycaf i Symmud Cyflogedigion allan o'r Eglwys; yn Traethu hefyd am Ddegymau, Eglwys-Obrau, ac Eglwys-Gyllidau; a pha un a ellir Sefydlu unrhyw Gynhaliaeth i Weinidogion trwy Gyfraith ai peidio." § Cynnwys y llyfr godidog hwn yr un syniadau yn gymmwys a "Gweinidogaeth Gyflogedig heb fod yn eiddo Crist," gan Roger Williams, a nodwyd eisoes, wedi helaethu a manylu arnynt gan y Bardd digyffelyb a'r Cristion didwyll John Milton. ‖

Yn ystod ei arhosiad ym Mhrydain y waith hon hefyd y cyhoeddodd Roger Williams ei atteb i adolygiad Cotton ar ei "Farn Waedlyd," y sylwyd arno yn barod. Bu hefyd yn "addysgu dau fab y Seneddwr," dros ryw yspaid yn yr un amser, fel y crybwyll yn un o'i lythyrau. Pan oedd Williams yn ymbarotoi i ddychwel i Ynys Rhôd, cafodd gynnyg ar amryw swyddi uchel yn y Llywodraeth od arhosai ym Mrydain: prawf diamheuol nad oedd gwŷr mwyaf Brydain Fawr yr un farn am dano a'r creaduriaid cynfigenllyd a haerent ei fod yn "benboeth." Pa wedd bynag,

* *Act.* xx. 17, 28-35; Tit. i. 7.

† Traethodau Llenyddol y Dr. L. Edwards, t. 52.

‡ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 412.

§ "Considerations touching the Likeliest Means to Remove Hirelings out of the Church; wherein is also Discoursed of Tithes, Church-Fees, and Church-Revenues; and whether any Maintenance of Ministers can be Settled by Law."—London: 1659.

Cyhoeddwyd y traethawd godidog hwn, a chwech o rai eraill ynghyd âg ef, o waith yr awdur, ar destynau eglwysig cyffelyb, yn un llyfryn 12plyg, yn cynnwys 312 o dudalenau, yn 1831, gan William Tait, 78 Princes Street, Edinburgh, ac i'w gael gan Simpkin, Marshall, & Co., London; a dylai pob Cristion sy'n deall Saesneg fynnu ei feddiannu.

‖ Byddwn yn falch am fod yr awgrym lleiaf bod y dŷn gwir fawr hwn yn perthyn i'r Cymry. Dywed y Dr. Johnson "y priododd tad y Bardd foneddiges a'i henw Caston, teulu Cymreig."—Johnson's Lives of the English Poets. London, 1831, p. 34. Felly yr oedd John Milton a Roger Williams yn hanu o'r un genedl henafol.

Digitized by Google

nid oedd dim yn ddigon i'w demtio i droi cefn ar ei wlad fabwysiedig: prawf arall o'i wladgarwch a'i hunanymwadiad. Dychwelodd i Ynys Rhôd yn gynnar yn haf 1654. Yr oedd gorchymyn wedi myned o Frydain i'r drefedigaeth er ys cryn amser cyn i Williams ddychwel yno, yn erchi diddymu llywyddiaeth Codington; ond o blegid teimlad drwgdybus y gwahanol drefi at eu gilydd, ni chyttunwyd ar unrhyw delerau nes i Williams ddychwel yno. Ar ol cryn ymdrech, ac amynedd, ar ei ran ef, bu yn llwyddiannus o'r diwedd i gael gan y gwahanol drefydd bennodi dirprwywyr, y rhai a gyfarfuant ar y 31fed o Awst, 1654, a chyttunwyd ar erthyclau yr undeb, yn ol y freinlen a gawsai Williams ym Mrydain. Ymhen ychydig ddyddiau ar ol y cyfarfod crybwylledig, cynhaliwyd etholiad cyffredinol, pryd yr etholwyd Roger Williams i fod yn Llywydd Ynys Rhôd. Pennodwyd ef hefyd, ac un arall, i ysgrifenu llythyrau o ddïolchgarwch at ei uchelder, yr Arglwydd Amddiffynydd, Syr Henry Vane, ac eraill yn Lloegr, ac iddo ef eu harwyddo yn rhinwedd ei swydd. Yn awr, gan fod dynion mwyaf Brydain ac Ynys Rhôd yn cyttuno i ddyrchafu Roger Williams, ac i ymddiried iddo y pethau pwysicaf a berthyn i'r bywyd hwn, a'r hwn a fydd, a oes rhywun, heblaw ymhonwyr a geisiant ymddyrchafu trwy ddarostwng gwŷr mawr, megis y creadur dinod a haerodd amser yn ol mai yr Arglwydd Bacon a gyfansoddodd ganiadau Shakespeare, a farn am foment fod Roger Williams "yn ddŷn penboeth," a "bod melin wynt yn ei ben!" "Druain gwerin!" chwedl Morus Cyffin, "ychydig a wyddant, llai a welsant, ag nid gwiw sôn am ddyscu iddynt. Myfi a faddeua i'r rhai hyn eu hanwybodaeth a'u ffolineb, ag adawaf i rai eraill chwerthin am eu penneu."

Yn ebrwydd ar ol i Roger Williams gymmeryd arno y llywyddiaeth, daeth angenrhaid arno gyfryngu unwaith etto rhwng y trefedigaethau eraill a'r Indiaid, a bu yn llwyddiannus y waith hon hefyd i ragflaenu rhyfel y penderfynasai y trefedigaethau eraill arni, a hyny, debygid, er hunanamddiffyniad. Dengys y difyniadau canlynol o lythyr a anfonwyd gan Williams at lywodraeth Massachusetts, yr egwyddorion mawrion oedd yn llywodraethu ei feddwl ef, a'r rhyddid a ddefnyddia i'w hargymmell i'w sylw hwythau; ac os na wêl y darllenydd fwy na chyffredin o synwyr y dŷn a chrefydd y Cristion ynddynt nag a geir yn y fath lythyrau yn fynych, ofnwn y rhaid ei restru yn y dosparth sy'n hacru bod Roger Williams "yn benboeth:"—

"Dra Anrhydeddus Feistriaid,—Yr wyf yn gwir ddymuno i chwi heddwch, a deisyfaf arnoch roddi derbyniad pwyllog i air, yr wyf yn tybied nad yw yn anamserol.

"Yr ydym ni yn y parthau hyn yn clywed eich bod yn bwriadu myned i ryfel â'r brodorion yma, ym mysg y rhai yr ydym ni yn preswylio. Yr wyf yn ystyried bod rhyfel yn un o'r tri pheth tra thost â'r rhai y mae Duw yn gweled yn dda gystuddio meibion dynion. Ystyriaf hefyd fy mod wedi gwrthod llawer o gynhygion yn ddiweddar yn fy hen wlad, oddi ar ddymuniad diragrith i geisio daioni a heddwch y wlad hon. . . . Ar fy ymadawiad diweddar o Loegr, taer ddymunwyd arnaf gan benaethiaid y Narragansettiaid, yn enwedig gan Ninigret, osod eu deisyfiad ger bron uchel benaethiaid Lloegr, na bo iddynt gael eu gorfodi i wadu eu crefydd; o blegid dywedant y clywant fygythion beunydd gan y Indiaid sy'n dyfod o barthau Massachusetts, os na weddïant y dinystrir hwy trwy ryfel. Gwnaethum eu deisyfiad yma yn hyspys mewn ymddiddanion personol i amryw o benaethiaid ein cenedl, yn enwedig i'w uchelder [yr Arglwydd Ganghellydd?] yr hwn, yn yr amryw ymddiddanion a gefais âg ef, nid amlygiai yr anfoddlonrwydd lleiaf, fel yr hyspyswyd yma; ond dangosai yspryd cariad a thynerwch bob amser; ac yn fynych rhyngai bodd iddo ofyn i mi amryw holiadau, a chai ei foddloni yn wastad gan fy attebion ynghylch amgylchiadau yr Indiaid yn y wlad hon; ac ar ol rhoddi pob gwrandawiad i chwi a ninnau, gwelodd ei uchelder a'r cyngor yn dda ganiatâu, ym mysg arwyddion eraill o'i ewyllys da, ryw bethau pennodol gyd â golwg ar yr Indiaid, preswylwyr brodorol y rhaglawiaeth yma.

"Yr wyf yn gostyngedig gyflwyno i'ch sylw, bwyllgor amhleidgar, yn gyntaf, yr ymadroddion hyn y rhynga bodd i'r Arglwydd eu gorchymyn i bawb sydd yn proffesu ei enw:—'Os yw bosibl, hyd y mae ynoch chwi, byddwch heddychlawn â phob dŷn:' Rhuf. xii. 18. Ni bûm i erioed yn erbyn i bobl neu genhedloedd wneuthur defnydd cyfiawn o'r cleddyf gwladol; ond etto, tra y mae pob dŷn o gydwybod neu synwyr yn myned yr un ffordd a'r gwynt, i honni bod eu rhyfeloedd yn hunan-amddiffynol (fel y gwnaeth y brenin [Charles I.,] yr Ysgotiaid, y Saeson, a'r Gwyddeled hefyd yn y rhyfeloedd diweddar), yr wyf yn gostyngedig ddeisyf eich ystyriaeth, Pa un a ydyw, nid yn unig yn ddichonadwy, ond hefyd yn bur hawdd, byw a marw mewn heddwch â holl frodorion y wlad hon?

"O herwydd, yn ail, Ai nid yw holl Saeson y bröydd hyn yn gyffredinol yn bobl wedi cael eu herlid o'u gwlad eu hunain? Ac, ai ni ddarfu i Dduw yr heddwch a Thad y trugardeddau wneuthur y brodorion hyn yn fwy cyfeillgar i ni yn y wlad hon, na'n cydwladwyr yng ngwlad ein genedigaeth? Ai ni ddarfu iddynt ymuno mewn cyngrair cariad, a hyd y dydd hwn ddwyn ymlaen fasnach heddychol a pharhaus â ni? Ai nid yw ein teuluoedd yn tyfu i fynu mewn heddwch yn eu mysg? Yn wyneb hyn, yr wyf yn gostyngedig ofyn, Pa fodd y cydsaif â diffuantrwydd Cristionogol bod i ni gymmeryd i fynu ryw achlysuron ymddangosiadol i'w distrywio hwy, er na byddid, fe allai, ond yn amcanu at y pen? Etto, y mae pob profiad yn ein dysgu y bydd i'r dinystr syrthio ar y corph, a'r diniwaid.

"Yn drydydd, yr wyf yn deisyf arnoch gofio pa mor bell y mae enw Duw yn dal perthynas â'r pethau hyn; o blegid nis gellir ei guddio, y modd y mae Lloegr oll, a chenhedloedd eraill, yn ymffrostio yn nychweliad gogoneddus Indiaid Lloegr Newydd. Gwyddoch fod llawer o lyfrau da wedi eu taenu trwy'r genedl ar y pwngc (y mae enwau prif benaethiaid y Narragansettiaid yn cael eu gwaradwyddo mewn rhai o honynt, am iddynt ommedd gweddïo): y gorchymynwyd mynegi o holl bulpudau y

Digitized by Google

gwaith gogoneddus hwn (nid wyf yn siarad mewn gwawdiaith, ond adrodd yn unig yr hyn a grybwyllir yn yr holl lyfrau argraphedig), a hyny gan orchymyn ac awdurdod oruchaf y Senedd; a darfod i olygwyr eglwysig fyned o dŷ i dŷ i gasglu at yr achos hwn.—Anrhydeddus feistriaid, Pa un a fûm mi, ac a ydwyf, yn gyfaill i ddychweliad y brodorion i wareiddiad a Christionogaeth, a pha un a fûm, ac a ydwyf, yn dymuno bod yn foddlon i hyny, yn ol y golau sydd ynof, nid wyf am eich poeni: yn unig yr wyf yn deisyf arnoch ystyried pa fodd y gellir amddiffyn enw y Duw sanctaidd ac eiddigus, yn wyneb cydgyfarfyddiad y ddau beth hyn, sef dychweliad gogoneddus yr Indiaid yn Lloegr Newydd, a rhyfeloedd diangenrhaid, a dinystr creulawn yr Indiaid, yn Lloegr Newydd?

"Yn bedwerydd, dymunaf arnoch beidio anghofio, er ein bod ni yn fwy tueddol i chwarau gyd â'r pla hwn o ryfel, nag â'r ddau eraill, newyn a haint; etto, yr wyf yn deisyf arnoch ystyried pa mor ryfeddol o ansafadwy oedd amgylchiadau presennol yr holl ryfeloedd a fu yn y byd erioed, a bod y galanastra a'r chwyldroadau dyfodol yn rhyfeddol yn y diwedd.—Hyd yma, gan nad oedd genyf ryddid i gymmeryd llong yn eich rhaglawiaeth chwi, gorfodwyd fi i fyned at yr Isellmyn, lle y gwelodd fy llygaid doriad allan cyntaf y rhyfel honno a ddechreuodd yr Isellmyn, o blegid llofruddiad rhai o honynt gan yr Indiaid; ac ni phetrusent ei chyflawni mewn ychydig ddyddiau, yn y fath fodd fel yr oedd yr enw heddwch, pan gynhygiodd rhyw rai gyfryngu, yn ynfydrwydd ac yn ddirmygus yn eu golwg; ond cyn i ni godi angor, yr oedd eu deildai ar dân, a'r Isellmyn a'r Saeson wedi eu lladd. Gwelodd fy llygaid eu trefydd yn y fflamau; . . . ac ar ol traul anferth, ac i lawer o Isellmyn, Saeson, ac Indiaid gael eu lladd, ymhen tu a phedair blynedd gorfodwyd yr Isellmyn, er mwyn rhagflaenu hollol ddinystr eu planigfeydd, wneuthur yr heddwch mwyaf anheilwng a gwaradwyddus â'r Indiaid.

"Ond, yn olaf, os bydd rhyw un etto yn awyddus i gynnau y tân hwn dros Dduw, &c., dymunaf ar y boneddwr hwn, pwy bynag a all fod, osod ei hun yn y pen arall i'r glorian gyd âg un o'r blagur prydferthaf a achleswyd erioed gan Haul Cyfiawnder, sef Josïah, y diwygiwr gwresog, yr hwn a fynnai fyned i ryfel yn erbyn rhybuddion, ac a syrthiodd yn alaethus o'r farwolaeth fwyaf anamserol, ag sy'n sefyll yn awr fel colofn halen i holl genedlaethau dyfodol. . . . Pa faint mwy ardderchog a gogoneddus i enw Duw a'r eiddoch eich hun a fyddai pe nas beiddiai un pagan ddefnyddio enw Sais fel un heb ddyfod allan, i ryw fesur, o farbareiddiwch i wareiddiad. . . . Ac, fel y dywedodd y duwiol a'r doeth, y diweddar Mr. Winthrop, ar i wareiddiad fod yn gam arweiniol i Gristionogaeth, yw dymuniad gostyngedig eich mwyaf diragrith ymhob gwasanaeth cariad,

"ROGER WILLIAMS,

"Llywydd Trefedigaeth Providence."*

Wele y dŷn y dywed ei gyhuddwyr hunanol, rhagfarnllyd, a choelgrefyddol, hen a diweddar, ei fod "yn benboeth!" Y dŷn y dengys holl hanes ei fywyd, cystal a'i ysgrifeniadau lliosog, ei fod yn un o'r dynion mwyaf pwyllog, diragfarn, gonest, doeth, diargyhoedd, gwyliadwrus, sobr, gweddaidd, llettygar, tirion, athrawaidd, anymladdgar, diariangar, a phenderfynol dros ryddid barn a welodd y byd hwn er amser yr Apostolion hyd y dydd heddyw.

Attebodd y llythyr uchod ei amcan, a rhoddwyd y bwriad o ryfela heibio y pryd hwnw. Pa ddelw bynag, nid oedd Williams yn cael ei anrhydeddu, mwy na llywodraethwyr eraill y byd, nad oedd rhywrai o'i gyd-ddinasyddion yn cynfigenu wrtho, ac yn ei gamddarlunio mewn modd ysgeler. Taenwyd traethodyn ymhlith trigolion Providence, wedi ei gyfeirio at y dref, yn yr hwn yr honnid "bod gweinyddu barn ar droseddwyr yn erbyn lles neillduol neu gyffredinol yn groes i reol yr efengyl, ac yn gwneuthur y gweinyddwyr yn euog o waed." Barnodd Williams bod yn briodol iddo ddangos ynfydrwydd y fath syniadau, mewn dull o amddiffyniad iddo ei hun, ac nad oedd yr egwyddorion a broffesai efe yn arwain i'r fath ganlyniadau gwrthun. Wele ddifyniad o'i lythyr ar y pwngc at dref Providence:—

"Fy mod i erioed wedi dywedyd nac ysgrifenu un gair sy'n tueddu at y fath ryddid cydwybod afresymol, sydd gamsyniad y darfu i mi bob amser ei wadu a'i ffieiddio. I ragflaenu y fath gamsyniadau, ni chaf yn awr ond cynnyg y sylw canlynol:—Y mae llawer llong wedi myned i'r môr, a llawer cant o eneidiau ar ei bwrdd, y rhai y mae eu gwynfyd ne'u gwae yn gyffredin; yr hon long sydd ddarlun cywir o werin-lywodraeth, neu gydgyssylltiad cymdeithas o ddynion. Digwydd weithiau bod Pabyddion a Phrotestaniaid, Iuddewon a Thyrciaid, yn cael eu cludo yn yr un llestr: ar y dybiaeth yma, yr wyf yn honni bod yr holl ryddid cydwybod y dadleuais i erioed drosto, yn troi ar y ddau begwm hyn: na byddo i neb o'r Pabyddion, y Protestaniaid, yr Iuddewon, na'r Tyrciaid gael eu gorfodi i ddyfod i weddïau ac addoliad y llong, nac ychwaith gael eu gorfodi i adael eu gweddïau a'u haddoliad eu hunain, od ymarferent â rhyw fath. Ymhellach, ni ddarfu i mi erioed wadu, er y rhyddid hwn, mai llywydd y llong hon a ddylai gyfarwyddo ei gyrfa; ïe, a gorchymyn ar i gyfiawnder, heddwch, a sobrwydd gael eu cadw a'u hymarfer ymhlith y morwyr a'r teithwyr. Pe gommeddai rhai o'r morwyr wneuthur eu gwasanaeth, neu y teithwyr dalu y llong-log; pe nacâi neb roddi help gwaith neu arian at y costau, neu er amddiffyniad cyffredin; ped anufuddhâi neb i ddeddfau a threfniadau y llong, gyd â golwg ar ei heddwch a'r amddiffyniad cyffredin; pe pregethai, neu ped ysgrifenai neb na ddylai bod llywyddion neu swyddogion, na deddfau, na threfniadau, na disgyblaeth, na chospau; yr wyf yn dywedyd na ddarfu i mi erioed wadu na ddylai y llywydd neu'r llywyddion, mewn amgylchiadau fel hyn, beth bynag a honnir, farnu, gwrthwynebu, a chospi y cyfryw droseddwyr yn ol eu haeddiant."†

Bu llythyr a ysgrifenodd Cromwel o gylch y pryd hyn at y drefedigaeth, ynghyd â phenderfyniad y gymmanfa gyffredinol am anfon blaenoriaid unrhyw gyngrair a aflonyddent ar heddwch y trigolion i Loegr i dderbyn eu prawf, yn foddion i ddwyn pob peth i drefn yn fuan. Llwyddodd Roger Williams i gael gan lywodraeth Massachusetts ganiatâu i'r drefedigaeth yn Ynys Rhôd brynu arfau ac arlwy rhyfel yn Boston, yr hyn a waherddid o'r blaen, a thrwy hyny yn eu gosod

* Elton's Life of Roger Williams, pp. 108, 109.

† Elton's Life of Roger Williams, p. 111.



Digitized by Google

mewn sefyllfa ddiamddiffyn yn wyneb perygl oddi wrth yr Indiaid.

Yn y flwyddyn 1656, aeth amryw o'r bobl onest, heddychol, a chrefyddol, a elwir Crynwyr gan y byd, ond Cyfeillion ganddynt hwy eu hunain, sef dilynwyr yr enwog George Fox, i Boston, lle yr oedd Puritaniaeth, sef Eglwys Sefydledig Massachusetts, wedi myned erbyn hyn yn llawn mor anffaeledig, erlidgar, a chreulawn ag ydoedd swyddogion Eglwys Sefydledig Lloegr a Rhufain. Yr oedd y Cyfeillion, ac y maent etto, yr un syniadau yn gymmwys a Roger Williams am "weinidogaeth sefydlog, gyflogedig," ac am hawl a rhyddid yr holl saint i bregethu, ac i wneud pob gwasanaeth crefyddol arall, pan y cynhyrfer hwy gan yr Yspryd i wneuthur hyny, heb angen unrhyw seremoni ddynol sydd ar arfer ymhlith y cyfundebau crefyddol eraill; ond yr oeddynt yn wahanol eu barn i Williams, fel y ceir gweled yn fuan, am fedydd a swper yr Arglwydd, ac amryw bethau eraill. Cyn gynted ag yr aeth y Cyfeillion i Boston yn y flwyddyn grybwylledig, dechreuasant daenu eu hegwyddorion yn ddyfal ac egnïol. Yr oedd yr egwyddorion hyn yn taro yn uniongyrchol yn erbyn "budr-elw" yr esgobion Puritanaidd sefydlog a chyflogedig; am hyny yr oedd angenrhaid carthu y Crynwyr allan ar unwaith o'r cyffiniau. Yn unol â'u golygiadau anysgrythyrol, lluniodd awdurdodau Boston ddeddfau yn ddïoed i'w difodi o'r rhaglawiaeth. Dirwywyd, carcharwyd, fflangellwyd, ac alltudiwyd llïaws o honynt; ac i goroni y cwbl, gwnaed deddf yn 1658, yn darbod bod i'r Crynwyr a ddychwelent o'u halltudiaeth yn ol i'r rhaglawiaeth honno gael eu cospi â marwolaeth; a than y ddeddf farbaraidd grybwylledig, merthyrwyd pedwar o Grynwyr a ddychwelasant i'r rhaglawiaeth ddirywiedig a chreulawn. Ffurfiwyd deddfau erlidgar cyffelyb yn eu herbyn gan drefedigaethau eraill Massachusetts; ac anfonwyd annerch at Ynys Rhôd i geisio ganddi hithau ymuno yn yr erledigaeth waedlyd a barbaraidd. Wedi i gymmanfa y drefedigaeth ymgynnull ynghyd, daeth i benderfyniad ar y pwngc yn ebrwydd; ac anfonwyd yr atteb canlynol i erlidwyr Boston:—

"Gan mai rhyddid i wahanol gredoau i gael eu noddi rhag gorfodaeth oedd sylfaen ein breinlen ni, gyd â golwg ar ein cais gostyngedig am dano, a gwir fwriad Senedd anrhydeddus Lloegr yn caniatâu yr unrhyw i ni; yr hwn ryddid yr ydym etto yn ei werthfawrogi fel y dedwyddwch penaf a all dynion ei feddu yn y byd hwn; gan hyny, er mwyn amddiffyn ein heddwch a'n trefn wladol, ni a gymmerwn ofal o hyn allan yn fwy difrifol ar fod i'r bobl hyn, a phawb eraill sydd yma, neu a ddelont i'n mysg, fod o dan rwymedigaeth ddiduedd, a hyd eithaf ein gallu ar iddynt gael eu gorfodi, i gyflawni pob dyledswydd wladol sydd yn ofynol er amddiffyn ei uchelder, y llywodraeth a gweriniaeth anrhydeddus Lloegr yn y drefedigaeth hon; ac o bydd i'r bobl ddywededig, a elwir Crynwyr, sydd yma, neu a ddichon gyfodi yma, neu ddyfod i'n mysg, wrthod ymostwng i gyflawni yr holl ddyledswyddau a nodwyd; yna yr ydym yn penderfynu gwneuthur hyny yn hyspys ar y cyfleusdra cyntaf i'n cenhadwr sydd yn byw yn Lloegr."*

Ni foddlonai dirprwywyr Boston ar attebiad fel hyn; o herwydd paham anfonasant drachefn yn lled fuan i Ynys Rhôd, ac wele ran o atteb y gymmanfa yno iddynt eilwaith:—

"O berthynas i'r Crynwyr (a elwir felly), y rhai sy'n awr yn ein plith, nid oes genym ni un gyfraith yn ol yr hon y gallwn gospi neb am fynegi eu meddyliau a'u syniadau ynghylch pethau Duw, a'i ffyrdd gyd â golwg ar iachawdwriaeth a sefyllfa dragywyddol, mewn geiriau yn unig, &c. Yr ydym yn canfod, ymhellach, am y bobl hyn a enwyd, mai y parthau yn y drefedigaeth hon lle y maent yn cael mwyaf o ryddid i fynegi eu syniadau yn ddiattal, ac yn cael eu gwrthwynebu yn unig trwy resymau mewn ymddiddan, ydyw y manau y mae ganddynt leiaf oll o ddylanwad i ddyfod iddynt."

Pa wedd bynag, ni fynnai gormeswyr crefyddol Boston mo'u hattal yn eu hamcanion erlidgar heb roi cynnyg ar bob ystryw a allai "Dirgelwch yr anwiredd," gelyn rhyddid crefyddol, ei sibrwd iddynt er eu cyrraedd; am hyny ysgrifenodd y dirprwywyr y drydydd waith i Ynys Rhôd, os na chyttunent i fwrw ymaith y dynion drygionus a hereticaidd hyn o'u mysg, y cauid yr holl drefedigaeth allan o bob cyweithas fasnachol â'r rhan arall o Loegr Newydd; ond ni fuasai waeth iddynt gymmeryd eu hatteb y tro cyntaf o ran dim gobaith y gallent wasgu trigolion Ynys Rhôd i wadu eu hegwyddorion am ryddid crefyddol. Er hyny, rhag y gallai'r trefedigaethau eraill wneuthur cais mewn rhyw fodd i gyflawni eu bygythiad, ysgrifenodd y gymmanfa at John Clarke, eu cenhadwr ar y pryd yn llys yr Amddiffynwr Cromwel. Wedi cydnabod ei wasanaeth ar amgylchiadau blaenorol, dywed y gymmanfa fel hyn:—

"Y mae genym yn awr achos newydd, wedi ei gynhyrfu gan hen yspryd, gyd â golwg ar y trefedigaethau o'n hamgylch, y rhai sy'n ymddangos wedi tramgwyddo wrthym o blegid rhyw fath ar bobl, a elwir Crynwyr, sydd yn ein mysg, ac a ynnillasant amryw sy'n bresennol o'r un yspryd; o herwydd paham, ymddengys y trefedigaethau o'n hamgylch yn dramgwyddedig wrthym, am fod y bobl yma yn cael rhyddid yn ein plith, ac yn cael dyfodfa i'n tai a'n cynnulleidfaoedd. Hyd yn hyn nid ydym ni wedi cael un achos cyfiawn i'w beïo am aflonyddu ar yr heddwch gwladol; ond yn unig y maent yn myned ymaith yn barhaus i'w plith hwy [preswylwyr culfarn trefedigaethau

* Elton's Life of Roger Williams, p. 116.

Massachusetts], ac yn eu gofidio a'u poeni gyd â golwg ar eu crefydd; ac y maent yn dychwel gyd âg aml archoll front yn eu cyrph o'r herwydd. A'r tramgwydd a gymmer ein cymmydogion atom ydyw, ein bod yn peidio defnyddio unrhyw lwybr at y bobl hyn i'w halltudio oddi wrthym, neu wneuthur fel y gwnaethant hwythau, y rhai sy'n ofni rhag i'w crefydd gael ei llygru ganddynt. Gwnaethant eu hanfoddlonrwydd atom yn hyspys trwy lythyr, wedi ei ysgrifenu gan ddirprwywyr y trefedigaethau unedig yn eu heisteddfod, fel pe buasent am ein gorfodi i weithredu yn ol eu cynllun hwy, neu eu bod am gymmeryd rhyw lwybr i ddangos eu hanfoddlonrwydd tu ag atom. Yr ydym yn anfon copi o'u llythyr i chwi gyd â hwn, fel y galloch weled pa fodd y maent yn amlygu eu meddyliau; a danfonwn ein hatteb ninnau iddynt, er rhoddi i chwi yr holl olau a allwn ar y pwngc. Y mae un dosran yn eu llythyr yn cynnwys bygythiad amlwg, er ei fod wedi ei eirio yn lled amwys, yn ol eu dull arferol hwy; meddwl y ddosran, fel y casglwn, yw hyn:—Gan eu bod hwy, fel y tybiwn, wedi bod mewn cryn ddychryn gyd â golwg ar eu hymostyngiad parhaus i lywodraeth Lloegr, rhag, pe byddai iddynt wrthod ymostwng, y gwaharddai Lloegr bob masnach â hwynt, mewn cludo pob angenrheidiau i mewn, a'u cymmeryd allan, yr hyn a fyddai yn ddigon galluog i ddarostwng Lloegr Newydd, gan nas gallai ymgynnal. Fel hyn, ymddengys eu bod yn dirgel fygwth ein tori ninnau ymaith o bob trafnidiaeth a masnach â hwynt, a thrwy hyny ein hamddifadu o bob cynhaliaeth gysurus, o herwydd bod cyrchfa llongau, ac felly pob angenrheidiau, i'w plith hwy yn gyffredin, gan wybod hefyd nad ydym ni alluog i anfon llongau allan ein hunain, yr hyn a achoswyd i fesur helaeth, fel y gwyddoch chwi, o blegid eu bod hwy yn ein gorthrymu; fel mewn llawer modd, ac felly yn hyn hefyd, nad ydym yn cael dim oddi wrthynt i gyflenwi ein cyfreidiau, nad ydynt hwy yn penderfynu gwerth eu nwyddau eu hunain a'r eiddom ninnau; o blegid nad oes genym ni arian bathol y Saeson, namyn yn unig y fath ag a gyfnewidir ymhlith y barbariaid hyn, a'r cyfryw nwyddau a godir trwy lafur ein dwylaw ein hunain, megis ŷd, gwartheg, tobaco, a'r cyffelyb, i wneuthur ein taliadau, *y rhai* y rhaid iddynt hwy eu cael yn ol y prisiau a welant yn dda eu hunain eu rhoddi arnynt, os amgen, ni fasnachant â ni; ond er eu bod, fel hyn, yn cael elw anferth oddi wrthym, etto gallant ymddangos megis yn anghofio eu hunain yn oed yn yr ystyr hyny, er mwyn dïogelwch eu crefydd, o blegid *pa beth na wna dynion er mwyn eu Duw?*

"Syr, dyma ein cais difrifol yn bresennol atoch yn y matter hwn, canys gwelwch oddi wrth ein hatteb i'r trefedigaethau unedig ein bod yn ffoi megis i'n noddfa, ymhob ystyr wladol, at ei uchelder a'i gyngor anrhydeddus, gan *nad ydym* ddarostyngedig i neb arall gyd â golwg ar ein llywodraeth wladol; am hyny, dymunwn ar i chwi weled yn dda fod â'ch llygad a'ch clust yn agored, pe deuai *ein* gelynion i geisio ein disodli gyd â golwg ar y rhagorfreintiau a ganiatawyd i ni, ac ar i chwi ddadlau ein hachos yn y fath fodd ag na bo i ni gael ein gorfodi i ddefnyddio unrhyw allu gwladol ar gydwybodau dynion, cyn belled ag na byddo trefniadau dynol, mewn pwngc *o wareiddiad*, yn cael eu niweidio na'u troseddu, yr hyn arferir yn fynych gan ein cymmydogion o'n hamgylch, oddi wrth yr hyn y mae amryw o honom wedi teimlo yn *helaeth*; ac nis gallwn ei farnu yn llai na *pherffaith greulondeb*."*

Y mae'r difyniadau cyffrous hyn, y rhai, fel y credwn, y caiff ein darllenwyr gymmaint o ddyddordeb wrth eu darllen ag a gawsom ninnau wrth eu hysgrifenu, yn dangos y fath frwydrau moesol poethion a drudion y bu raid i'r sefydliad gwladol cyntaf yn y byd, a bleidiai berffaith ryddid crefyddol, eu hymladd dan gyfarwyddyd ei arweinydd dyngarol, cydwybodol, gwrol, a duwiol, ein cydwladwr gwir enwog, Roger Williams y Bedyddiwr. Er bod Williams, fel hyn, yn gwbl benderfynol o fynnu rhyddid crefyddol i'r Crynwyr, cystal a phawb eraill yn ei drefedigaeth, etto yr oedd efe ymhell o gydweled â'r Crynwyr mewn llawer o bethau, fel y crybwyllwyd eisoes, ac y ceir gweled etto. Ond ei farn ef oedd, fel y mae barn pawb erbyn hyn, sy'n credu mai y Testament Newydd ydyw *unig* Lyfr Cyfraith Eglwys Crist, y dylai *pawb* gael perffaith ryddid crefyddol gan y Llywodraeth wladol, pwy bynag a fyddont ai Iuddewon, Cristionogion, Mahometaniaid, ai Paganiaid, cyn belled ag na sango eu rhyddid crefyddol ar hawliau gwladol eu cyd-ddynion.

Yn 1661, galwyd ar Roger Williams, unwaith etto, i ymdrechu heddychu yr Indiaid. Nid oedd cynnydd a llwyddiant y bobl wynion yn ddymunol, mewn un modd, yngolwg y barbariaid cochion. Yr oedd Massasoit, prif benaeth y Pocanocetiaid, erbyn hyn wedi marw, a'i fab Phylip wedi cymmeryd ei le; ac yr oedd efe yn dra awyddus am ffurfio cyngrair rhwng y gwahanol lwythau yn Lloegr Newydd yn erbyn y Saeson. Pan wnaed hyn yn hyspys, gwahoddwyd Phylip, gan lywydd Plymouth, Massachusetts, a'r dirprwywyr, i'w cyfarfod yn Taunton, tref ym Massachusetts, tu ag 20 milltir i'r dwyrain-ogledd o Providence. Attebodd Phylip hwy yn uchelfryd, od oedd arnynt eisiau ei weled ef, am iddynt ddyfod ato; ond nid oedd neb yn Plymouth yn ddigon gwrol i anturio myned i fangre y Pagan barbaraidd. Pan glybu Roger Williams bod ei erlidwyr Puritanaidd yn debyg o gael niwaid gan yr Indiaid, ymwelodd ef, a gŵr arall o Providence, yn y fan â gwersyll y penaeth, a thrwy ei lafur a'i ymdrech ef, yn benaf, y gwnaed heddwch y waith hon hefyd. A dyma y gŵr heddychol, maddeugar, a alwai y creaduriaid annïolchgar, i'r sawl y gwnai efe bob daioni yn ei allu, "yn ddŷn penboeth!"

Cymmerth cyfnewidiadau pwysig le yn y famwlad ar farwolaeth yr Amddiffynwr Cromwel, a dyfodiad Charles II. i orsedd Brydain. Yn wyneb newidiad yn y ffurflywodraeth yno, penderfynwyd anfon at John Clarke, yr hwn oedd etto yn Lloegr, i erfyn am freinlen newydd, yr hon a ganiatawyd, wedi ei hamseru yr 8fed o Orphenaf, 1663, ac yn

* Elton's Life of Roger Williams, pp. 118, 119.

Digitized by Google

cyflwyno y fath awdurdod i'r drefedigaeth na chaniatawyd ei chyffelyb erioed o'r blaen, os byth wedi hyny, i unrhyw sefydliad o fewn cylch llywyddiaeth Brydain. Rhoddwyd hawl iddi i ddewis ei holl swyddogion, i wneuthur heddwch, ac i gyhoeddi rhyfel; a'r cyfan i gael ei wneuthur heb fod y brenin yn honni hawl yn oed i adolygu ei gweithrediadau. Dengys y difyniad canlynol ansawdd yr hawl a roddwyd i'r trefedigion gyd â golwg ar yr egwyddor fawr oedd mor bwysig yn eu golwg hwy, sef rhyddid cydwybod:—

"Yn awr, gwybyddwch ein bod ni, gan fod yn foddlawn i gefnogi anturiaeth obeithiol ein dywededig ddeiliaid caruaidd a theyrngarol, ac i sicrhau iddynt rydd ymarferiad a mwynhad o'u holl hawliau gwladol a chrefyddol, a berthyn iddynt fel ein deiliaid caredig; ac i amddiffyn iddynt y cyfryw ryddid yn y wir ffydd Gristionogol ac addoliad Duw, am fwynhad o'r hwn yr ymofynasant gyd â'r fath lafur, a chyd â meddyliau heddychol ac ymostyngiad teyrngarol i'n hynafiaid brenhinol, ac i ninnau; ac o blegid nas gall rhai o bobl a phreswylwyr yr unrhyw drefedigaeth gydffurfio, yn eu syniadau neillduol, â'r ymarferiad cyhoeddus o grefydd, yn ol gwasanaeth cyffredin, ffurfiau, a defodau Eglwys Loegr; neu gymmeryd ac arwyddnodi y llwon a'r erthyclau a sefydlwyd iddi; ac o blegid hyn, na bydd i'r unrhyw, fel yr ydym yn gobeithio, ar gyfrif pellder y lleoedd hyny, fod yn rhwyg ar yr undeb a'r unffurfiaeth sefydledig yn y genedl hon: yr ydym wedi tybied yn gymmwys, gan hyny, ac yma yn cyhoeddi, ordeinio, a mynegi, mai ein hyfrydwch a'n hewyllys ydyw hyn:—Na bydd i neb o fewn y drefedigaeth ddywededig, ar unrhyw bryd i ddyfod, gael ei flino, ei gospi, ei derfysgu, na'i alw i gyfrif, am unrhyw wahaniaeth barn mewn pethau crefyddol, tra na byddo yn aflonyddu ar heddwch ein trefedigaeth ddywededig; ond bod i bawb oll, a phob un, o bryd i bryd, a phob amser rhag llaw, i feddu a mwynhau yn rhydd a chyflawn ei farn a'i gredo, a'u barnau a'u credoau eu hunain mewn pethau yn perthyn i'w crefydd, trwy yr holl randir a enwir rhag llaw, os bydd iddynt ymddwyn yn heddychol a thawel, a heb ddefnyddio y rhyddid hwn i benrhyddid a drygioni, nac i wneuthur niwaid gwladol, nac aflonyddwch allanol i eraill." *

Y cwbl a ellir gasglu oddi wrth y gwirionedd bod Charles II. wedi awdurdodi "Deddf Unffurfiad" ym Mrydain, yr hon a roddwyd mewn grym ar "Ddydd Bartholomëus," y 24ydd o Awst, 1662, trwy rin yr hon y trowyd 2000 o Anghydffurfwyr allan o'r Eglwys Sefydledig, ac wedi rhoddi y freinlen fwyaf rhyddfrydig i drefedigion Ynys Rhôd ar yr 8fed o Orphenaf, 1663, ydyw nad oedd y dŷn anystywallt yma, mwy na'r rhan fwyaf o'i hynafiaid a'i olafiaid brenhinol, yn ystyried crefydd yn ddim amgen nag offeryn yn llaw y Llywodraeth wladol i gadw y blaid gryfaf yn y naill wlad a'r llall yn dawel ac ymostyngol i'r awdurdodau gwladol. Pe buasai trefedigaeth bellenig o Fahometaniaid yn gofyn breinlen i grogi pob un nad ymostyngai i'r Alcoran, neu drefedigaeth o Babyddion yn gofyn un i losgi pob un nad ymostyngai i'r grefydd Babaidd, cawsent y cyfryw gan Charles gyd â'r parodrwydd ag y cafodd Brydain y "Ddeddf Unffurfiad," ac Ynys Rhôd un yn awdurdodi cyflawn ryddid crefyddol i bawb. Y mae yr hyn a ddywed Gibbon am y Rhufeiniaid yn rhy wir am bob cenedl, sef "Bod yr amryw ddulliau o grefydd a ffynnai yn y byd Rhufeinig yn cael eu hystyried oll gan y bobl megis yn gyfartal wir, gan y philosophydd [anghrediniol] yn gyfartal gau, a chan yr ynad megis yn gyfartal ddefnyddiol."

Derbyniwyd y freinlen a ganiataodd Charles i Ynys Rhôd gyd â llawenydd mawr gan y trefedigion, mewn cymmanfa gyffredinol yn y Borth Newydd (Newport.) Pennodwyd y swyddogion gan y brenin, o'r sawl yr oedd Roger Williams yn un. Etholwyd ef yn fynych drachefn, hyd nes yr ymwrthododd yn hollol â'r gorchwyl. Yn 1664, dewiswyd ef a John Clarke i adolygu y deddfau. Dewiswyd ef hefyd yn un o'r dirprwywyr i sefydlu terfynau dwyreiniol y drefedigaeth.

Yn 1674, ymwelodd George Fox, tad y Crynwyr, â'r drefedigaeth. Penderfynodd Roger Williams achub y cyfleusdra i wrthdystio yn erbyn y pethau a ystyriai efe yn gyfeiliornadau ynghredo y gŵr enwog hwnw. Am hyny anfonodd bedwar ar ddeg o osodiadau at George Fox, gan ei wahodd i ddadl gyhoeddus gyfeillgar arnynt; ond trwy ryw achos, ni chyrhaeddodd y gosodiadau na'r gwahoddiad mo Fox mewn pryd, cyn iddo hwylio i Brydain. Er hyny, dygwyd y ddadl ym mlaen gyd â thri o ddisgyblion Fox yn y drefedigaeth. Parhaodd y ddadl dros bedwar diwrnod ar ddeg; ond ni pharodd ddim cyfnewidiad ym marn y naill ochr na'r llall. Pa wedd bynag, bu yn achlysur i Roger Williams gyhoeddi llyfr yn lled fuan, wrth yr enw—"George Fox wedi ei gloddio o'i Geudyllau: neu gynnyg Dadl ar Bedwar ar Ddeg o Osodiadau, a wnaed yr haf diweddaf, 1672, i G. Fox, oedd ar y pryd yn bresennol yn Ynys Rhôd."†

Yn 1675, torodd rhyfel flin allan rhwng yr Indiaid a threfedigaethau Massachusetts, yr hon a barhaodd dros fwy na blwyddyn. Lladdwyd ynghylch chwe chant o wŷr ieuaingc gan yr Indiaid, a llosgwyd deuddeg neu dair ar ddeg o drefydd; ac nid oedd sefydliadau Ynys Rhôd chwaith y

* Elton's Life of Roger Williams, p. 161.

† "George Fox digged out of his Burrows: or an Offer of Disputation on Fourteen Proposals, made this last summer, 1672, unto G. Fox, then present on Rhode Island."

Digitized by Google

tro hwn yn ddiberygl. Bu raid i Roger Williams yn awr, ac efe yn 69 oed, gymmeryd swydd yn y fyddin, a gwneuthur ymdrech mawr i gael darpariadau amddiffynol. Pan oedd y gelynion unwaith yn ymyl Providence, cymmerth ei ffon dan ei law, ac aeth i'w cyfarfod yn bwyllog, heddychol, ac di ofn, gan hyderu y gallai eu tawelu, a lliniaru eu gelyniaeth a'u cynddeiriowgrwydd, megis y gwnaethai fwy nag unwaith o'r blaen. Pan welsant ef, aeth amryw hen ryfelwyr i'w gyfarfod; ac yn yr ymddiddan, wrth geisio eu perswadio, dangosai iddynt nerth y Saeson, gan ddywedyd, "Gall Massachusetts gyfodi miloedd o ddynion yn ddïoed; ac os gellwch eu lladd hwynt, lleinw Brenin Lloegr eu lle mor fuan ag y syrthiant." "O'r gorau," ebe hwythau: "gadewch iddynt ddyfod, ac yr ydym ni yn barod iddynt; ond am danoch chwi, frawd Williams, yr ydych chwi yn ddŷn da, ac wedi bod yn garedig i ni dros lawer o flynyddau; am hyny ni chyffyrddir â blewyn o'ch pen chwi." Pan welodd Williams nad oedd dim yn tycio, trodd ei gefn; ond nid yw hyspys iddynt ladd neb yn Ynys Rhôd, na gwneuthur nemmawr niwaid i feddiannau. Terfynodd y rhyfel yma ym marwolaeth Phylip, a braidd y diangodd y Pocanocetiaid a'r Narragansettiaid heb eu llwyr ddinystrio. Yr Indiaid oedd wedi codi yr ymrafaelion hyn; a phan aethant yn erbyn y Saeson, yr oedd yn ymladdfa am fywyd ac hanfod y llwythau hyny.

Dengys y pethau hyn mor uchel oedd Roger Williams ym meddyliau y brodorion, mor bwysig y swyddi yr etholwyd ef iddynt, mor fawr yr ymddiried a roddid iddo gan ei gyd-drefedigion, ac mor llwyr yr ymgyflwynai yntau i wasanaeth y drefedigaeth y bu yn offerynol i'w sefydlu. O ran y cyfleusderau a gafodd, gallasai ymgyfoethogi yn fawr; ond codwyd ef i anrhydedd nad oes ond *ychydig* yn deall am dano. Treuliodd ef ei gyfoeth a'i amser i wneud daioni yn y byd. *Ychydig* o glod i ddŷn, mewn cymhariaeth, ydyw medru hel llawer o bethau y bywyd hwn ynghyd. *Gwyddys* am rai pur fyrion eu cynheddfau wedi gallu gwneuthur hyny, y rhai y mae yn anhawdd *gwybod* am un amcan i'w bywyd, os nad ydynt yn cael eu goddef fel rhyw bla yn llywodraeth y *Brenin* Mawr, ac yn gospedigaeth ar eu cydgreaduriaid a ddelont o fewn eu cyrraedd; ac y mae eu plant, ar ol dyfod i feddiant o'r pentwr, heb wybod ei werth, na pha fodd i'w ddefnyddio, yn hynodi eu hunain wrth ei ddifetha. Ië, y mae hyn wedi digwydd weithiau mewn cyssylltiad â dynion a ddylasent wybod yn well pa fodd i ddefnyddio eu cyfoeth. Nid un o'r tylwyth yma oedd Roger Williams, eithr dŷn wedi ymwerthu i wneuthur daioni i ddynol ryw yn gyffredinol, Iuddewon a Groegiaid, Saeson ac Indiaid; ïe, i'w elynion yn gystal ag i'w gyfeillion.

Yn 1682, ysgrifenodd Williams gyfrol o'r pregethau a draddodasai i'r Indiaid a'r Saeson, tra yn Ynys Rhôd, gan fwriadu ei chyhoeddi, ac efe o gylch 76 oed; ond bu farw cyn dwyn y bwriad yma i ben, ar y 10fed o Fai, 1683, yn 77 oed,* yn y drefedigaeth a sefydlasai 47 mlynedd yn flaenorol, i sicrhau llwyddiant tymhorol ac ysprydol yr hon y cyssegrasai ei eiddo, ei amser, a'i alluoedd cryfion a disglaer. Claddwyd ef yn anrhydeddus mewn llannerch o'i ddewisiad ei hun, yn agos i'r lle y glaniasai tu a saith mlynedd a deugain yn ol.

Yr oedd Roger Williams yn ddŷn tra nodedig, o gymmeriad arwraidd yn ystyr ehangaf y gair. Yr oedd yn perchen galluoedd meddyliol anarferol o gryfion, o ansawdd y radd uwchaf o athrylith. Meddiannai "dri anhebgor Awen: llygad yn gweled Anian, calon yn teimlo Anian, a dewrder a feiddiai gydfyned âg Anian." Yr oedd ei amgyffrediad o wirionedd yn gyflym; a lle gwelai yn glir, teimlai yn ddwfn. Edrychai yn graff, gwelai yn olau, daliai yn dyn, a llefarai yn eglur. Yr oedd ei ddewrder i ddatgan ac i weithio allan ei egwyddorion yn gyfartal i dreiddgarwch ei amgyffrediad o honynt. Yr oedd ei allu i ddioddef o blegid ei argyhoeddiadau, fel y prawf hanes ei holl fywyd, braidd yn ddiderfyn. Chwanegai at hyn dduwioldeb dwys a dwfn, llawn graslonrwydd a thynerwch. Nid oes angen prawf sicrach ac uwch o hyn na'i ymddygiad dros ei holl fywyd tu ag at ei erlidwyr. Er y teimlai y driniaeth a gaffai ganddynt yn ddwys a chwerw dros ben, etto ni choleddai y gradd lleiaf o lid a dïal tu ag atynt. Prawf diamheuol o hyn yw ei ymdrechiadau dewrwych a llwyddiannus i'w dïogelu rhag ymgyrchoedd yr Indiaid, ynghyd â'i ymgais parhaus, trwy bob moddion, heb law rhoddi i fynu ei argyhoeddiadau, i ynnill eu cymmod a'u cydweithrediad cyfeillgar ymha beth bynag a dueddai er llwydd-

* Dywed y Parch. R. Williams (Em. Welshm., p. 535) ei fod yn 84 pan fu farw yn 1683, yr hyn a fuasai gywir pe ganesid ef yn 1599, fel y mynega efe; ond y mae ei holl fywgraphwyr eraill a welsom ni yn cyttuno mai blwyddyn ei enedigaeth oedd 1606. Dywed dau o'i fywgraphwyr Cymreig, ar ol Mr. Williams, fel yr ymddengys, iddo farw yn 1683, yn 84 oed, ond iddo gael ei eni yn 1606!

Digitized by Google

iant tymhorol ac ysprydol eu gwahanol sefydliadau. Y mae ymddygiad caruaidd a Christionogol Roger Williams at ei wrthwynebwyr yn gymmaint o anrhydedd iddo ag ydyw ei wroldeb yn dioddef dros ei egwyddorion ac argyhoeddiadau ei gydwybod. "Gellir symio ei fywyd a'i gymmeriad i fynu i dri pheth: craffder yn ei amgyffred o egwyddorion cyssefin ['llygad yn gweled Anian;'] beiddgarwch dihafarch yn eu gweithiad allan ['dewrder a faidd gydfyned âg Anian;'] ynghyd â hynawsedd yspryd anhyspyddol ['calon yn teimlo Anian;"] hynawsedd a gofleidiai gyfaill a gelyn, gwareiddiedig ac anwareiddiedig, yn ddiwahaniaeth." Fel honnwr hawliau cydwybod, dywedodd Bancrofft i Roger Williams fod "yn rhagredegwr Milton, ac yn flaenorydd ac uwchafiad Jeremy Taylor."†

† Dr. Elton's Life of Roger Williams; Williams's Em. Welshm., p. 534; Y Traethodydd, llyfr ix., t. 348; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 1359; Dr. Dexter on Roger Williams; Y Gwyddoniadur, cyf. x., t. 220.

# LLYFR IV.

## ENWOGION Y TRYDYDD CYFNOD: O 1649 HYD 1689.

### CROMWEL, CHARLES II., AC IAGO II.

### PENNOD I.

SYLWADAU CYFFREDINOL AR HANES A NEILLDUOLION Y CYFNOD.

DECHREUODD y cyfnod hwn yn bur derfysglyd, mewn ystyr wladol a chrefyddol, fel y parhaodd y blaenorol ar ei hyd, ac y terfynodd hwn hefyd; ond pan wnaed y gwron Cromwel (Cromwell) yn Amddiffynydd y Llywodraeth yn 1649, nid hir y bu efe heb ddwyn rhan o'r cyfnod i drefn a dosparth, a pharhaodd heddwch, llwyddiant, a rhyddid yn y wlad hyd derfyn ei oes werthfawr ac egnïol ef. Yr oedd yn y wlad bedair o brif bleidiau pan etholwyd Cromwel yn Amddiffynydd iddi, sef y Frenhinol, y Bresbyteraidd, y Werinaidd, a'r Annibynol. Yr oedd y tair plaid flaenaf yn elynion peryglus yr Amddiffynydd a heddwch gwladol a chrefyddol y genedl; tra'r oedd yr olaf yn gefnogwyr yr Amddiffynydd a rhyddid cyffredinol.

Yr oedd y Brenhinwyr oll yn Esgobyddion hanner Pabaidd, erlidgar, a phenboeth. Yr oeddynt hwy yn bygwth llofruddio yr Amddiffynydd y cyfle cyntaf a gaffent, ac yn dirgel gasglu milwyr ac arfau, er mwyn gosod yr eiddil a'r diwerth Charles II. ar yr orsedd, fel y gallent gael mwynhau eu rhwysg, eu rhodres, a'u gormes, megis yn flaenorol. Pan ddeallodd yr Amddiffynydd eu bwriadau ysgeler, datganodd yn gyhoeddus, er na fynnai efe er y byd orfod dechrau yr arfer arswydus a roddai efe mewn grym; etto, os cynhygiai neb o blaid y Brenin aflonyddu y genedl, fel y bygythient, ac os methent, y gwnai efe ryfel ddifaol arnynt, ac na orphwysai nes diddymu holl eppil y terfysgwr neu'r terfysgwyr yn llwyr allan o'r wlad; a bod ei bleidwyr ef o'r un meddylfryd, ac yn barod i gyflawni ei archiad. Gwyddai y cynhenwyr wrth yr hyn a wnaethai yr Amddiffynwr yn y Werddon, nad dŷn oedd efe a fygythiai yn ofer; a bu y dychryn a barodd y bygythiad yma yn fwy o ddïogelwch iddo ef a'r wlad na'i lurig ef a'i holl osgorddlu. Er bod plaid y Brenin yn llunio rhyw frad yn wastad yn erbyn person a llywodraeth yr Amddiffynwr, etto ymddygai efe atynt yn weddaidd bob amser, tra yr ymgadwent o fewn terfynau cymhedrol a rhesymol; ac y mae yn ddiamheuol nad o blegid eu crefydd y gwnaed y cyfreithiau llymion a ddeddfwyd yn eu herbyn, ond o herwydd eu casineb anghymmeradwy at y llywodraeth.*

Yr oedd holl gorph y Presbyteriaid dros y Brenin a'r "cyfammod" Presbyteraidd; ac yr oeddynt yr un mor wallgof am osod y Brenin ar yr orsedd, a sefydlu Presbyteriaeth yn grefydd waddoledig y deyrnas gyfunol, a dileu pob crefydd arall allan o'r tir, ag ydoedd plaid y brenin dros wneud yr un modd âg Esgobyddiaeth; ac er mwyn cyrraedd eu hamcan, yr oeddynt hwythau, fel yr Esgobyddion, yn casglu milwyr ac arfau yn Ysgotland, ac aethant mor bell yn eu gorphwylledd coelgrefyddol a gwahodd Charles II. i Ysgotland yn 1650, dan yr ammod iddo dyngu y sefydlai ac y gwaddolai y grefydd Bresbyteraidd yn yr holl wlad, yr hyn yn ddiegwyddor a thwyllodrus a wnaeth yntau. Pan ddeallodd Cromwel hyny, ysgubodd ef a'i "Ochrau Dur" dros yr holl wlad, fel corwynt; gorchfygodd ei elynion ymhob cyfeiriad; ac ar ol ei frwydr lwyddiannus yng Nghaerwrangon, ar y 3ydd o Fedi, 1651, ffodd Charles am ei hoedl yn ol i'r Cyfandir.† Ar ol y frwydr a nodwyd, a dïenyddiad Christopher Love

* Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 370.
† Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 479

Digitized by Google

am ei frad-gynllwyn, dychrynwyd y Presbyteriaid anhydrin a phleidgarol dros dymmor, fel y cydsyniasant â'r llywodraeth, er y gwaharddwyd eu gweithrediadau, ac y gwelsant eu dryllio yn ddarnau; ond llanwyd hwy â dychryniadau newyddion pan synwyd hwy gan ddyrchafiad rhyfeddol Cromwel i'r Amddiffyniaeth, ac y bygythiwyd llwyr ddirymu eu hawdurdod eglwysig, canys ystyrient ef nid yn unig fel gormesddyn, ond hefyd yn sectarydd, yr hwn a bleidiai yr arferiad rhydd o grefydd i bawb a ymddygent yn dangnefeddus dan ei lywodraeth; ac er iddo dystio wrthynt y cai crefydd ei pharhau dan y llywodraeth bresennol, etto ni foddlonai dim hwy, os diarfogid eu disgyblaeth o'i hawdurdod gorfodol. Y blaid hon, gyd âg ychydig iawn o eithriadau, oedd holl aelodau y "Senedd Hir."*

Ond gwrthwynebwyr mwyaf penderfynol yr Amddiffynydd oedd y blaid werinol. Yr oedd y blaid yma yn ddwy gangen. Ychydig, neu ddim crefydd, oedd gan un o honynt; ond yr oeddynt dros weriniaeth lwyr yn y llywodraeth, a rhyddid cyffredinol mewn crefydd. Deistiaid, neu wadwyr dwyfoldeb yr Ysgrythyrau, neu, yn iaith yr Amddiffynwr, Paganiaid, oedd penaethiaid y gangen yma. Yr oedd yn amhossibl cymmodi y rhai hyn â llywodraeth un person; am hyny diarfogodd yr Amddiffynwr hwynt o'u hawdurdod. Penboethiaid trwyadl y gelwid y gangen arall o'r blaid hon, a gwŷr y bummed unbenaeth, y rhai a ddisgwylient deyrnasiad gogoneddus Crist Iesu ar y ddaear dros fil o flynyddoedd. Yr oeddynt hwy dros chwalu yr eglwysydd, neu'r temlau, o bob math, medd Burnet; dros ddiddymu y degymau, a gadael crefydd yn gwbl rydd, heb na chefnogaeth nac attaliad. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt dros ddifodi y clerigwyr o bob rhyw ac enwad, gan nas gallent eu gweled yn y Testament, a thros ddiddymu pob peth tebyg i sefydliad cenedlaethol o grefydd. Ymdrechai yr Amddiffynwr ennill y rhai hyn. Ymddiddanai â'u penaethiaid yn rhydd a chyfeillgar: gwahoddai hwynt i mewn ato, ac wedi cau y drysau, gwnai iddynt eistedd yn ei bresennoldeb â'u heti am eu penau, er mwyn dangos iddynt pa mor ddibwys yn ei olwg oedd y ffurfiau y gorfodid ef i'w dilyn gyd âg eraill, a therfynid yr ymddiddan yn gyffredin gyd â gweddi hirfaith. Ei brif gynhorthwy yn erbyn y gwrthwynebwyr galluog hyn oedd yr Annibynwyr, dinas Llundain, a'r fyddin, yr hon oedd bron oll yn Annibynwyr, y rhai a edrychent arno ef fel arweinydd eu plaid; ac yr oedd felly cyn belled ag yr oeddynt hwythau yn erbyn awdurdod eglwysig, a thros oddefiad cyffredinol. Coleddai ddinas Llundain â pharch gweddaidd, gan ddatgan ar bob achlysur ei benderfyniad i ddïogelu iddynt eu rhagorfreintiau, a threfnu mesurau er dwyn ym mlaen gelfyddyd a masnach; a safodd at ei air yn ffyddlawn. Ond ar y fyddin yr ymddibynai ef yn benaf, a llwyddodd yn raddol, trwy ddoethineb a phwyll, i'w ffurfio yn gwbl yn ol ei ewyllys. Yr oedd yn talu i'r milwyr yn anrhydeddus, ac yn eu dyrchafu yn ol eu gwir deilyngdod, yn gwbl annibynol ar eu genedigaeth a'u hoedran; ac yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn wŷr crefyddol a chydwybodol.†

Yr oedd y pleidiau crefyddol anystywallt oll yn elynion digofus i'w gilydd; ac yr oeddynt oll, ond yr Annibynwyr, yn gymmaint gelynion i'r Amddiffynydd. Yr oedd y fyddin yn casâu y Presbyteriaid a'r Gwerinwyr eithafol, a'r rhai hyn yn eu casâu hwythau. Tybiai y Brenhinwyr y rhaid yr ymunai pawb oedd yn erbyn yr Amddiffynwr gyd â hwy i adfer y Brenin Charles II.; tra'r oedd y Presbyteriaid yn parhaus wthio eu "Cyfammod Unffurfiaeth" ym mlaen; a'r Gwerinwyr yn ymdrechu gwthio eu Gweriniaeth ar y wlad. Y fath amynedd, medr, ac athrylith a raid fod gan y dŷn a allai gadw heddwch gartref ymhlith y fath bleidiau gelynol ac eithafol; ac ar yr un pryd a fedrai ynnill parch mor uchel, cystal ag ofn, ymhlith penaduriaid estronol!

Yn y flwyddyn 1654, darganfyddwyd cynllun llofruddiog tri o fradwyr a'u henwau Fox, Gerhard, a Vowel (Powel?) y rhai a gymmerwyd i fynu, ac a brofwyd ger bron uchel lys cyfiawnder, am fradfwriadu llofruddio yr Arglwydd Amddiffynydd fel yr elai efe i Lys Hampton, dal ei osgorddlu, cymmeryd Tŵr Llundain, a chyhoeddi y brenin. Cyffesodd Fox y rhan fwyaf o'r cyhuddiadau hyn yn ei erbyn, a maddeuwyd iddo; ond dododd y ddau eraill eu hunain ar brawf, er y gwadant gyfreithlondeb y llys, a chawsant eu collfarnu a'u dïenyddio. Bu y terfysgoedd hyn a'u cyffelyb yn achlysur o'r caledi yr aeth y Brenhinwyr dano yn fuan ar ol hyny. Dïenyddwyd estron a'i enw Don Pantaleon Pa, brawd y llysgenhadwr Portuguaidd, yr un diwrnod a Gerhard a Vowel, o blegid ei derfysg a'i waith yn llofruddio dŷn yn

* Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 370-1.

† Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 371-2; Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 43; Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 476.

Digitized by Google

y Gyfnewidfa Newydd (New Exchange.) Dadleuai ei frawd ei gymmeriad cyhoeddus; ond ni chymmerai yr Amddiffynydd unrhyw esgus dros i neb lofruddio arall, a dyrchafodd y weithred nodedig yma o gyfiawnder penderfynol yr Amddiffynydd yn uchel ynghyfrif y bobl.*

Er mwyn sefydlu y genedl ymhellach, gwysiodd yr Amddiffynwr y Senedd ynghyd ar y 3ydd o Orphenaf, 1654; ac ar ol i'r Dr. T. Goodwin draddodi pregeth, traddododd yr Amddiffynydd araeth i'r aelodau, yn yr hon y cwynai o blegid y Cydwastadwyr, a Gwŷr y Pum Penaeth, y rhai oedd dros ddadymchwel y cyfreithiau sefydledig, a thaflu pob peth yn ol i ddyryswch. Adgofiodd iddynt yr anhawsderau yr oedd y genedl ynddynt pan y cydsyniodd efe i gymmeryd y llywyddiaeth, ac o'i llwyddiant a'i dedwyddwch presennol. Yna annogodd hwy i drefnu mesurau er cynnal y llywodraeth bresennol, a dymunodd arnynt gredu y llefarai efe wrthynt, nid fel un a ewyllysiai fod yn Arglwydd arnynt, ond fel un a benderfynai fod yn gydwas â hwynt er lles eu gwlad; ac wedi eu hannog i fod yn unfryd, gollyngodd hwynt i'w Tŷ Cyffredin i ddewis Llefarydd. Y pwngc cyntaf a gymmerasant mewn llaw oedd offeryn y llywodraeth, yr hyn a achosodd ddadleuon mor boethlyd fel yr ymddangosai y parai rwyg anadferadwy yn eu plith. I ragflaenu hyny, archodd yr Amddiffynwr iddynt, yn gymmaint ag iddynt ddyfod i'r Tŷ, y dylid eu cyfarwyddo i fyned ato ef i'r Ystafell Liwiedig, lle y traddododd efe yr araeth nodedig a ganlyn, yr hon sydd dra theilwng o gael ei difynu yma, a chael sylw y darllenydd:—

"FONEDDIGION,—Nis gallaf lai na synu at eich ymddygiad yn dadlau mor rydd a phoethlyd ar offeryn y llywodraeth, canys yr un awdurdod ag a'ch gwnaeth chwi yn Senedd a'm appwyntiodd innau yn Amddiffynydd; felly od ydych yn ammau y naill, rhaid i chwi wadu y llall. Yr wyf fi yn fonheddwr o enedigaeth; a galwyd fi at wahanol orchwylion yn y Senedd, ac yn y rhyfeloedd, y rhai, ar eu terfyniad, y dymunais gael ymneillduo i fywyd anghyhoedd; ond, ni chaniateid i mi fy nymuniad. Gwyddoch i mi bwyso ar y Senedd Hir, fel aelod o honi, i ymddadgorphori; ond wrth ganfod y bwriadent barhau eu heisteddiadau, teimlais fod yn ddyledswydd arnaf eu dadgorphori, a galw rhai personau ynghyd o wahanol barthau o'r genedl, er gweled a allent hwy ddisgyn ar well sefydliad. Yn unol â hyny, cyflwynais fy holl awdurdod i'w dwylaw; ond ar ol peth amser, dychwelasant ef yn ol i mi drachefn. Yna, wedi i amryw foneddigion gydymgynghori, ffurfiasant y cynllun presennol heb yn wybod i mi; a dywedasant wrthyf, os na chydsyniwn i dderbyn yr unrhyw, y torai tywallt gwaed a dyryswch allan yn eu plith etto; ond gwrthodais drachefn a thrachefn, hyd oni ystyriais o'r diwedd na'm gosodid mewn uwch galwad nag yr oeddwn ynddo o'r blaen, a chydsyniais. Er y pryd hwnw, diolchwyd i mi gan y fyddin, y llynges, a dinas Llundain, a chan liaws o foneddigion yn y tair cenedl. Weithion, gan fod y llywodraeth wedi ei phenderfynu fel hyn, ystyriaf fod pedwar o bethau sylfaenol, y rhai nis gellir eu hammau, na'u cyfnewid:—1. Bod y llywodraeth i fod mewn un person ac yn y Senedd. 2. Nad ydyw y Senedd i fod yn fyth-barhaol. 3. Yr erthycl ynghylch y cartreflu. Ac, yn 4. Rhyddid priodol cydwybod mewn matterion crefyddol. Gellir newid pethau eraill yn y llywodraeth fel y bo achos yn gofyn. Yn gymmaint gan hyny ag i chwi fyned ynghylch dadymchwel pethau sylfaenol yn y llywodraeth hon, a thaflu pob peth yn ol i ddyryswch, er mwyn rhagflaenu hyny yn y dyfodol, yr wyf fi dan angenrhaid i appwyntio i chwi brawf, neu gydnabyddiaeth o'r llywodraeth, trwy yr hwn y gwneir chwi yn Senedd, cyn i chwi ddychwel mwyach i'r Tŷ."

Yn ol hyny, ar eu dychweliad, canfyddent osgorddd wrth y drws yn attal neb i fyned i mewn nes iddo yn gyntaf lawnodi yr ymrwymiad canlynol:—

"Yr wyf fi trwy hyn yn rhydd addaw ac ymrwymo i fod yn gywir a ffyddlon i Arglwydd Amddiffynydd Gwerinlywodraeth Lloegr, Ysgotland, a'r Werddon; ac ni bydd i mi na chynnyg na rhoddi fy nghydsyniad i newid y llywodraeth, megis y mae wedi ei sefydlu mewn un person ac mewn Senedd."†

Llawnodwyd yr ymrwymiad gan o gylch tri chant o'r aelodau, ac wedi iddynt gymmeryd eu lleoedd yn y Tŷ, cadarnhawyd offeryn y llywodraeth bron ymhob peth ar ol ychydig anhawsder, oddi eithr yr hawl i nodi olynydd i'r Amddiffynydd presennol, yr hyn a gadwyd i'r Senedd. Ar ol penderfynu cyflog y fyddin, traul y llywodraeth, a rhyw bethau eraill cyffelyb, gan nad oeddynt mewn natur dda, ac mor bell o dalu parch i'r llys, fel na chadwasant un math o ohebiaeth âg ef; yr hyn, ynghyd â'u gwaith yn pleidleisio "Na byddai un pwngc y cyttunwyd ganddynt hwy yn rhwymedig, oddi eithr i bawb gydsynio âg ef," a gynhyrfodd yr Amddiffynydd, gan ystyried eu hymddygiad megis yn ei ddifuddio ef o'r awdurdod i gydsynio neu i wrthod ysgrifau neillduol; ac am hyny, wrth ganfod fod amryw ddichellion yn erbyn ei lywodraeth yn barod i dori allan, yn y sawl yr oedd rhai o'r aelodau yn euog, anfonodd am danynt i'r Ystafell Liwiedig, ac ar ol araeth faith a dyrys, yn yr hon, wedi traddodi rhai ymadroddion nerthol o blaid rhyddid cydwybod mewn crefydd, er y gallent wahaniaethu mewn pethau dibwys, cwynai na chymmerasant fwy o sylw o hono ef, trwy na chenadwri nac annerchiad, na phe buasai y fath berson heb fod; ac na wnaethant ddim er anrhydedd a chynhorthwy y llywodraeth, ond y treuliasant eu hamser mewn dadleuon diffrwyth ac o ychydig bwys, tra yr oedd

* Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 372–4.

† Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 373–5

y genedl yn gwaedu i farwolaeth; am hyny dadgorphorodd hwy, heb gadarnhau yr un o'u gweithredoedd, wedi iddynt fod yn eistedd dros bum mis. Ystyrid hon yn weithred amhoblogaidd, ac yn gwrthod y titl ychwanegol a roddai y Senedd iddo; ond ni chymmerai y dŷn enwog a galluog hwn ei fwrw o'r cyfrwy, â'i gleddyf yn ei law, gan bleidleisiau a phenderfyniadau, canys nid ei uchelgais a barai iddo ef gymmeryd y llywodraeth i'w law, fel y tystiai, ond penderfyniad anhyblyg i attal y genedl rhag cwympo yn ol i aflywodraeth a thywallt gwaed.*

Pan ddadgorphorwyd y Senedd, cymmerwyd y Cadfridog Harrison, un o benaethiaid y Gwerinwyr, fel y galwent eu hunain, i garchar; a daliwyd un J. Wildman, tra yr oedd efe yn ysgrifenu papur a alwai "Datganiad pobl ryddion a da eu hewyllys Lloegr sydd yn awr dan arfau yn erbyn Oliver Cromwel, y Gormesydd," yr hwn Wildman a fwriasid allan o'r Senedd yn flaenorol. Attaliodd hyn derfysg y blaid eithafol honno. Yr oedd y Brenhinwyr yn prynu arfau yr un pryd, ac yn parotoi i gyfodi mewn amryw barthau o'r deyrnas. Yr oeddynt wedi cael dirprwyaeth oddi wrth Charles, oedd weithian yn Cologne (Colôn), a dymunwyd arno fod yn barod wrth lan y môr ar yr 11fed o Fawrth, pan y byddai gwrthryfel yn y fyddin, a phan y trosglwyddid Castell Dover i'w ddwylaw. O ganlyniad symmudodd Charles i Midlbyrg (Middleburgh), yn Zeland; ond mynegwyd i'r Amddiffynydd am y fradwriaeth, yr hyn a ddatganodd yntau yn gyhoeddus cyn gynted ag y dychwelodd i Lundain; a pharodd hyny i'r bradwyr ddigaloni, gan yr ofnent fod eu bradwriaeth wedi ei gwneud yn hyspys. Pa wedd bynag, ymgasglodd rhai minteioedd bychain o'r Brenhinwyr yn sir Amwythig, gan fwriadu ymosod ar dref Amwythig a Chastell y Waun yn ddisymmwth. Yr oedd mintai i gyfodi yr un pryd yn y parthau gogleddol, dan arweiniad Iarll Caergraig (Rochester); ond ymwasgarasant cyn gynted ag yr ymgyfarfuant, rhag ofn cyfarfod y milwyr rheolaidd. Yn y gorllewin, aeth Syr J. Wagstaffe, y Milwriad Penruddock, y Capten Grove, un Jones, ac eraill, i ddinas Caercaradog (Salisbury), gyda â dau gant o wŷr meirch wedi eu harfogi yn dda, a daliasant y barnwyr a siryf y wlad, y rhai y penderfynent eu crogi. Cyhoeddasant y brenin, a bygythient ruthro ar y sawl nad ymunent â hwy; ond gan na ddaethai y wlad yn ol eu disgwyliad, brawychwyd hwy, ac aethant rhagddynt i sir Dorset, ac oddi yno i Ddyfnaint (Devonshire), lle y goddiweddwyd hwy gan y Capten Crooke, yr hwn a'u gorchfygodd âg un gatrawd o wŷr meirch, ac a gymmerth y rhan fwyaf o honynt yn garcharorion. Torwyd penau Penruddock a Grove yn Exeter, a dienyddiwyd ychydig eraill yn Nghaercaradog, y lle a oresgynasid ganddynt mor ddiweddar. Yr oedd gwyliadwriaeth yr Amddiffynydd ar yr achlysuron hyn braidd yn anghredadwy: parodd i lawer iawn o arglwyddi a boneddigion amheus gael eu diogelu, ac anfonodd lythyrau at yr ynadon ymhob sir, y rhai a ordeiniasai efe yn ddiweddar, gan orchymyn iddynt chwilio allan a diogelu pawb a wnelent y cythrwfl lleiaf.†

Y prif achos o'r holl derfysgoedd hyn gan y Brenhinwyr Esgobyddol oedd gwaith Cromwel yn troi yr Eglwyswyr diwerth ac anghrefyddol, o'r archesgobion hyd y curadiaid, allan o'u bywioliaethau breision yn yr Eglwys, ac o'u segurswyddau yn y fyddin, ac yn dodi dynion gweithgar a chrefyddol yn eu lle, heb ofalu dim am eu hachau, canys meibion ieuengaf y boneddigion oedd yn llenwi y lleoedd brasaf yn yr Eglwys a'r fyddin, heb ofalu dim am eu duwioldeb a'u gallu, gan nad oedd ganddynt hwy ddim arall i'w cynnal yn foneddigion, herwydd bod y meibion hynaf yn perchenogi yr holl etifeddiaethau; a chyffelyb ydyw hyd y dydd hwn. Nid rhyfedd, gan hyny, bod yr Esgobaethwyr uchelffroen a digrefydd, oedd yn byw yn fras, segur, a diffrwyth ar gost y werin bobl, mor ddigofus wrth Cromwel, ac yn parhau i godi gwrthryfel yn ei erbyn.

Os priodol ystyria y darllenydd y pethau hyn, a'r perygl a gyfodai oddi wrth y fath derfysgoedd difaol, a'r angenrhaid oedd taro eu hawdwyr â dychryn, bydd yn hawdd iddo roddi cyfrif am lymder yr Amddiffynydd tu ag at y Brenhinwyr. Pan lethodd efe y gwrthryfel, penderfynodd orfodi yr holl blaid i ddwyn y gost: am hyny, cyhoeddodd orchymyn, trwy gydsyniad ei gyngor, bod i'r holl rai a fu dan arfau dros y brenin, neu a ddatganasant eu bod o'r blaid frenhinol, i gael eu degymu; hyny yw, talu pris y ddegfed ran o'u hetifeddiaethau i ddwyn traul y byddinoedd mawrion y gorfodid eu cadw o blegid eu harferion cynhyrfus a gwrthryfelgar hwynt. O ganlyniad, appwyntiodd ddirprwywyr ymhob sir i'r perwyl, a dygwyd symiau mawrion i'r trysorlys. Er mwyn

* Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 375–6.

† Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 376-7.

Digitized by Google

cyflawnhau y weithred anghyffredin yma, cyhoeddodd yr Amddiffynydd ddatganiad, yn yr hwn y cwynai o herwydd anghymmodlonedd y rhai a ymlynent wrth y brenin, at y rhai a wasanaethasent eu gwlad o blegid y Senedd, a'u bod yn awr i gael edrych arnynt fel gelynion cyhoeddus, ac i gael eu cadw yn analluog i wneuthur niwaid, gan fod yn ddigon amlwg eu bod bob amser â'u tueddfryd at wneud cymmaint o ddrwg ag a allent i'r genedl, yn wladol a chrefyddol. O herwydd paham, tybiai bod yn dra rhesymol, a datganodd mai ei benderfyniad ydoedd, os gwnelid unrhyw gynnyg bradwrus rhag llaw ganddynt, y gorfodai efe yr holl blaid i ddioddef o'r plegid.*

Er bod Presbyteriaeth weithian wedi edwino yn ddirfawr, etto hi oedd crefydd sefydledig y wlad fyth; ac yr oedd ei deiliaid yn llawn mor eiddigus dros eu hurdd, ac mor ddiystyrllyd a gelynol at bob plaid arall, ag ydoedd yr Esgobaethwyr eu hunain. Yn gynnar yn y flwyddyn 1654, cwynent yn dost fod drysau y pulpudau yn cael eu hagor i wŷr lleyg a brodyr anurddedig, o byddent dalentog. Yn wyneb cwynion y grwgnachwyr hyn, appwyntiodd Cromwel a'i gyngor nifer pennodol o ddirprwywyr, gwŷr o alluoedd a ffyddlondeb addefedig, i ofalu am hyn o orchwyl ymhob sir trwy y Deyrnas Gyfunol, y rhai a alwyd yn BROFYDDION.† Yr oedd y rhai hyn oll yn 38 o nifer, o'r sawl yr oedd rhai yn Bresbyteriaid, eraill yn Annibynwyr, a dau neu dri yn Fedyddwyr. Awdurdodwyd y rhai hyn i roddi tystysgrif i bob un a gymmeradwyid, yr hon a roddai iddynt lawn feddiant o'r bywiolaethau a bennodid iddynt. Yr oedd unrhyw bump yn ddigonol i gymmeradwyo; ond nid oedd gan ddim llai na naw awdurdod i wrthod person fel un anghymmwys. Dyry Baxter ddarlun pur deg a gonest am y gwŷr hyn, yr hwn a ystyrid yn un o'u gwrthwynebwyr hyfaf. Dyma fel y dywed efe:—

"Achubasant lawer cynnulleidfa rhag addysgwyr anwybodus, annuwiol, a meddwon; y fath ddynion ag na fwriadent wneud dim mwy yn y weinidogaeth na dywedyd pregeth, fel y dywed darllenwyr eu gweddïau cyffredin ar y *Sabbothau*, ac a ânt yr holl weddill o'r wythnos gyd â'r bobl i'r dafarn, ac a'u caledant mewn pechod; a'r fath rai a bregethant naill ai yn erbyn bywyd sanctaidd, neu a bregethant fel dynion heb erioed ei adnabod. Gwrthodent y rhai hyn yn gyffredin, ac ni dderbynient neb yn eu lle ond pregethwyr galluog a difrifol, ac yn byw bywyd sanctaidd, o ba farnau cymhedrol bynag y byddent; felly, er bod llawer o honynt braidd yn bleidiol i Annibynwyr, Ymddidolwyr, Gwŷr y Pum Penaeth, ac Ailfedyddwyr, ac yn erbyn Esgobyddion ac Arminiaid, etto cymmaint oedd y lles yn fwy na'r niwaid a ddygasant i'r eglwys, fel y bendithiwyd Duw gan lawer mil o eneidiau am y pregethwyr ffyddlawn a ddygasant i mewn, a mawr y gofidiasant pan fwriwyd hwy allan drachefn gan yr Esgobyddion."‡

Er mwyn darostwng clerigwyr drygionus ac anaddas ymhellach, cyhoeddwyd deddf gan yr Amddiffynydd, trwy annogaeth ei gyngor, i fwrw ymaith glerigwyr ac ysgolfeistriaid gwaradwyddus, anwybodus, ac annigonol. Yr oedd y ddeddf yma yn appwyntio ac yn enwi rhyw ddirprwywyr lleol i bob sir, ac yn ychwanegu atynt ddeg eraill o'r pregethwyr difrifolaf a mwyaf nodedig, fel eu cynnorthwywyr, ac yn awdurdodi unrhyw bump neu ychwaneg o honynt i alw unrhyw bregethwr, darlithiwr, person, ficar, curad, neu ysgolfeistr, a gyfrifid yn anwybodus, anweddaidd, annigonol, neu esgeulus, ger eu bron; ac i dderbyn pob erthyclau neu gyhuddiadau a ddygid yn eu herbyn o blegid hyny; ac i fyned rhagddynt i chwilio y fath ddiffygion, a'u penderfynu yn ol rheolau pennodedig.§ Fel hyn, nid yn unig glanhaodd yr enwog Cromwel y deyrnas mewn byr amser oddi wrth derfysgoedd gwladol ysgeler a gwaedlyd, ond hefyd carthodd allan y budreddi anfad oedd yn llenwi y cyfundebau crefyddol yn y wlad. Ac er hyny, dyma y dŷn a ddirmygwyd, a gablwyd, ac a ddywedwyd pob drygair am dano, gan Esgobaethwyr, Presbyteriaid, Gwerinwyr eithafol, ac eraill, hyd oni chododd Carlyle a Macauley i'w amddiffyn; wedi hyny trodd tôn y prif ysgrifenwyr o'i blaid yn gyffredin, a hyny yn berffaith haeddiannol, canys prin yr ymddengys un ymhob mil o flynyddoedd o fath yr Amddiffynydd Cromwel.

O gylch yr un amser ag y gwnaed y trefniadau a nodwyd, ffurfiodd yr Amddiffynydd a'i gyngor ddeddf at wasanaeth y Cymry, yn appwyntio Syr H. Owen, ac o gylch deunaw o ddirprwywyr eraill, ar gyfer chwe sir Deheubarth Cymru, a sir Fynwy; a Matthew Morgan, a thu a deuddeg o ddirprwywyr eraill, i gymmeryd gofal chwe sir Gwynedd. Gan nad oedd y dirprwywyr yn ddigon adnabyddus o holl Gymru, trefnwyd iddynt gael cynhorthwy yr enwogion canlynol:—Henry Walter, Walter Caradoc, Richard Symonds, Roger Charnoc, Jenkin Llwyd, Morus Bidwel, Dafydd Walter, William Seaborn, Edmund Elis, Jenkin Jones, George Robinson, Richard Powel, Robert Powel, Thomas Owen, John Myles, Oliver Thomas, y Dr. John Elis, Ambrose Mostyn, Stephen Lewis, Morgan Llwyd (o Wynedd), William Jones, Richard Edwards, Vavasor Powel, Richard

* Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 378.

† Tryers.

‡ Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 378-382.

§ Yr un, p. 383.

Swain, a Rowland Nevet; oll yn bump ar hugain o nifer.* Awdurdodwyd y rhai hyn, mewn undeb â'r dirprwywyr, i roddi tystysgrif i bob un a gymmeradwyid, yr hon a roddai iddynt lawn feddiant o'r bywiolaethau a bennodid iddynt.† Yr oedd gan ryw dri o'r dirprwywyr awdurdod, yn ol y gyfraith a wnaed er Lledaenu yr Efengyl yng Nghymru, i alw ger bron yr holl rai a dderbynient ryw elw oddi wrth fywiolaethau yn y Dywysogaeth, ac i roi cyfrif ar lw am yr holl ardrethion, a phob rhyw elw eglwysig a dderbynient. Os canfyddai y dirprwywyr, ar ol ymchwiliad manwl, eu bod yn anghymmwys fel athrawon crefyddol i'r bobl, naill ai o ddiffyg gwybodaeth o egwyddorion crefydd, o'r iaith Gymraeg, neu eu bod yn esgeuluso pregethu, neu yn anfoesol, yr oedd ganddynt hawl i'w diswyddo, a'u troi o'u bywiolaethau; ond rhoddid y bummed ran o'r fywiolaeth at eu cynnal. Mewn canlyniad i'r gyfraith hon, tröwyd lliaws o'r clerigwyr allan o'u bywiolaethau;‡ rhai o blegid eu hanfoesoldeb, eraill o herwydd eu gelyniaeth at y llywodraeth, a llu mawr o blegid eu hanwybodaeth truenus.§

Er mwyn diwallu y Cymry â moddion crefyddol cystal ag y gellid dan yr amgylchiadau, dewiswyd chwech o bregethwyr teithiol i bob un o dair sir ar ddeg Cymru, oll wedi eu dwyn i fynu mewn prif ysgol, ac wedi derbyn urddau esgobol, neu ordeiniad Presbyteraidd; a rhoddid can punt y flwyddyn i bob un o honynt. Hefyd, dewiswyd deuddeg ar hugain o wŷr cymmwys eraill i gynnorthwyo y rhai a nodwyd, o ba rai yr oedd pedwar ar hugain wedi cael dysg athrofaol, a'r gweddill yn wŷr lleyg dysgedig a dawnus, y rhai a deithient y wlad yn ddïorphwys i geisio argyhoeddi a goleuo y trigolion. Telid o ugain punt i hanner canpunt yn flynyddol i'r rhai hyn am eu llafur, yn ol gradd eu dysg a'u doniau.‖ Fel hyn y parhaodd yr ymdrafodaeth grefyddol, gan mwyaf, hyd 1660, pan esgynodd Charles II. i orsedd Brydain. Er bod y pregethwyr cyflogedig a nodwyd bron oll yngwasanaeth yr Eglwys Bresbyteraidd, a bod amryw o honynt yn Esgobyddion, etto hwynthwy, fel y mae ryfeddaf, a fu yn offerynol i blanu eglwysi Annibynol a Bedyddiol yn y wlad, yr hyn a wnaethant mewn llawer o ardaloedd, fel y ceir gweled rhag llaw. Dichon bod gan yr ystyriaeth mai Annibynwyr oedd Cromwel ac amryw o wŷr penaf ei lys, megis y Dr. John Owen, yr enwog fardd John Milton, ac eraill, ryw ddylanwad o blaid y drefn Annibynol.

Wedi i Charles esgyn i'r orsedd, dileu gweriniaeth, ac adsefydlu brenhiniaeth, dechreuodd yn ebrwydd, dan arweiniad gwŷr ei lys, Clarendon, Ormond, ac eraill o'r un golygiadau, ddarpar at ddileu Presbyteriaeth a phregethu teithiol, a sefydlu Esgobyddiaeth trwy yr holl wlad, yn oed yn Ysgotland, a hyny yn groes i'w addewidion a'i lwon blaenorol i'r Ysgotiaid. Adferwyd yr holl hen esgobion a chlerigwyr oedd yn fyw i'w bywiolaethau, y rhai a droisid allan gan y Weriniaeth o blegid eu hymlyniad wrth Frenhiniaeth ac Esgobyddiaeth, neu o herwydd eu hanfoesoldeb a'u hanghymhwysder i fod yn athrawon crefyddol. Y gwŷr canlynol a gawsant esgobaethau Cymru:—Y Dr. William Roberts, yr unig esgob Cymreig oedd wedi goroesi Presbyteriaeth, a adferwyd i Esgobaeth Bangor; y Dr. George Gruffydd a sefydlwyd yn Esgobaeth Llanelwy; y Dr. Huw Llwyd, yn Llandaf; a'r Dr. William Lucy, yn Nhŷ Ddewi. Yr oedd y gwŷr hyn wedi dwyn mawr zel dros y brenin a llywodraeth esgobol, ac wedi dïoddef llawer o herwydd hyny, fel yr oedd yn naturiol i'r Brenhinwyr a'r Esgobyddion eu dyrchafu pan gawsant gyfleusdra.*

Yn nechrau 1661, gwnaed deddf i ddileu yr holl gyfreithiau a wnelsid er 1633, trwy yr hyn, ymhlith pethau eraill, y dilewyd y gyfraith a sefydlasai Bresbyteriaeth yn grefydd y wlad. Dilynwyd hyn gan gyhoeddiad y Cyfrin Gyngor, yn datgan llwyr ddiddymiad Presbyteriaeth, ac adferiad Esgobyddiaeth; yn gwahardd cyfarfodydd y cyngorfäu a'r cymmanfaoedd;† yn adfer yr esgobion i'w heisteddleoedd yn y Senedd; yn dileu y gyfraith oedd yn eu hanghymhwyso hwy, a chlerigwyr eraill, i lenwi swyddi gwladol; ac yn lluddias llefaru neu bregethu yn erbyn y pethau hyn

* Han. Cref. yng Nghymru, t. 224; Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 385.

† Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 378-385.

‡ Y mae braidd yn amhossibl cael allan y gwir nifer erbyn hyn, pe bai hyny o bwys. Tu a chwech ugain, medd rhai, tra y dywed eraill eu bod o bump i chwe chant o nifer.—Han. Cref. yng Nghymru, t. 224; Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 385.

§ Dywed John Edwards (Sion Tre-Redyn), gŵr da a fwriwyd allan o fywiolaeth Tredynog (Trefredynog), ym Mynwy, o blegid ei wrthwynebiad i'r llywodraeth, fel yr ymddengys, mai prin un ar bymtheg o glerigwyr ei oes ef oedd alluog i ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg. Dywed Walter Cradoc, yr hwn oedd offeiriad Puritanaidd, ac un o gynnorthwywyr y dirprwywyr, nad oedd dim un pregethwr o fedr ymarferol am bob sir yng Nghymru. Ni ddichon bod troi y cyfryw allan o'u bywiolaethau o ddim colled i'r Cymry, pa mor ddysgedig bynag y gallent fod mewn ieithoedd estronol.—Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, p. 89, note; p. 94.

‖ Han. Cref. Cymru, t. 224; Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 385-390; Baxter's Hist. Church Engl., pp. 609-615.

* Han. Cref. Cymru, t. 229.

† Synods and Assemblies.

Digitized by Google

dan boen carchariad.* Yn nesaf, gwnaed Ysgrif y Gorphoraeth† yn gyfraith, yr hon a orfodai bob aelod o gorphoraeth, nid yn unig i gymmeryd llw o uwchafiaeth y brenin, ond hefyd tyngu nad oedd gyfreithlawn cymmeryd arfau yn erbyn y brenin dan unrhyw esgus; bod y Cyngrair a'r Cyfammod Difrifol yn anghyfreithlawn; ac nad oedd neb gymmwys i gael unrhyw swydd ddinasol heb iddo, yn ystod y flwyddyn cyn ei etholiad, gymmeryd swper yr Arglwydd yn ol defod Eglwys Loegr. Yr oedd y gyfraith hon yn cau yr Ymneillduwyr allan o bob awdurdod wladol, ac yn eu hanalluogi i wasanaethu eu gwlad mewn unrhyw swydd o elw ac ymddiried.‡ Yn ystod yr un flwyddyn etto, gwnaeth y gymmanfa eglwysig ynghylch chwe chant o gyfnewidiadau yn y "Llyfr Gweddi Gyffredin," y rhan fwyaf o honynt yn ddibwys, ond rhai wedi eu cyfaddasu i wneud y Llyfr Gweddi yn atgasach nag ydoedd o'r blaen yngolwg y Puritaniaid.§

Dilynwyd y cyfreithiau crybwylledig yn y flwyddyn ganlynol (1662) gan y gyfraith ysgeler a elwir Deddf yr Unffurfiad,‖ yr hon a gondemnir, nid yn unig gan Ymneillduwyr, ond hefyd yn oed gan Eglwyswyr goleuedig.¶ Yn ol y ddeddf hon, nid oedd neb i gael gweinyddu mewn un math o wasanaeth crefyddol cyhoeddus heb gael ei ailordeinio, os na byddai wedi cael ordeiniad esgobol cyn hyny; a gorfodid ef i ddatgan ei lwyr gydsyniad bod pob peth yn y Llyfr Gweddi Gyffredin yn gysson â gair Duw; i gymmeryd llw o ufudddod i ganonau yr Eglwys Sefydledig; i ymrwymo peidio cefnogi unrhyw gyfnewidiad ynghyfansoddiad yr eglwys na'r llywodraeth; ac i ddal bod yn anghyfreithlawn cymmeryd arfau yn erbyn y brenin dan unrhyw esgus nac amgylchiad. Ceisiodd Tŷ yr Arglwyddi ryddhau ysgolfeistriaid ac athrawon yr ieuengctid oddi wrth y gyfraith ormesol hon, ond trechwyd hwy gan y Tŷ Cyffredin.** Daeth y ddeddf hon i rym ar Ddydd Bartholomeus Sant, sef y 24ydd o Awst, 1662, pan y dewisodd dros ddwy fil o glerigwyr ac athrawon yng Nghymru a Lloegr gymmeryd eu troi allan o'u bywiolaethau, eu hyspeilio o'u meddiannau, eu carcharu, a'u gorthrymu ymhob modd, yn hytrach na gwadu eu hegwyddorion yn groes i'w cydwybodau. Yr oedd cynnifer a chant a chwech, o leiaf, o wroniaid Dydd Bartholomeus yn bregethwyr ac athrawon Cymreig, yn y gwahanol siroedd, fel y canlyn:—Sir Gaernarfon, 1; sir Feirionydd, 1; sir Ddinbych, 7; sir Fflint, 3; sir Drefaldwyn, 14; sir Faesyfed, 5; sir Frycheiniog, 7; sir Fynwy, 16; sir Forganwg, 24; sir Gaerfyrddin, 10; sir Benfro, 8; sir Aberteifi (Ceredigion), 10. Yr unig sir yng Nghymru nad ydym yn canfod cymmaint ag un Anghydffurfiwr ynddi yw sir Fôn yn 1662; ond yn 1877, nid oes un sir yn y Dywysogaeth lle y mae Anghydffurfiaeth yn gryfach, yn fwy dylanwadol, ac yn fwy parchus na'r hen "Ynys Dywell." Yr oedd yr holl nifer a nodwyd yn y gwahanol siroedd, amryw o'r rhai a ddeuant dan sylw rhag llaw, yn bregethwyr cyflogedig, a'r rhan fwyaf o honynt wedi cael ordeiniad Esgobyddol, ac eraill un Presbyteraidd. Ond heb law y rhai hyn, yr oedd yn y Dywysogaeth lïaws o bregethwyr llawn mor alluog, duwiol, a llwyddiannus a hwythau, y rhai a ddilynent eu galwedigaethau bydol, ac a bregethent yn absennoldeb y teithwyr cyflogedig, neu mewn tai annedd, y sawl a elwid "Cynghorwyr neu Adroddwyr,"* er mwyn eu gwahaniaethu hwynt oddi wrth rai wedi eu hurddo. Gwnaed llawer o'r gwŷr teilwng hyn yn bregethwyr rheolaidd, neu "weinidogion," fel y'u gelwir, yn ystod yr amseroedd erledigaethus a ddilynasant, a gwnaethant les dirfawr yn eu dydd.†

Gwnaeth y Pabyddion, cystal a'r Uchel Eglwyswyr, eu gorau i basio Deddf yr Unffurfiad, gan obeithio os llwyddid i ormesu digon ar yr Ymneillduwyr, y byddid debycach o gael goddefiad cyffredinol, ac felly y caent hwythau oddefiad ynghysgod y lleill. Awgrymasant wrth y brenin y gallai efe arfer yr awdurdod a dybid ei bod yn rhagorfraint y goron, o'u plaid hwy a'r Ymneillduwyr. Dan effaith y syniad yma, parotôdd y brenin Ddatganiad o Oddefiad Cyffredinol; ond gorfodwyd ef gan yr Iarll Clarendon, ac Uchel Eglwyswyr eraill oedd yn y Senedd, i'w ohirio.‡

Ymddengys i'r Esgobyddion Uchel Eglwysig gael allan mai amcan y brenin trwy Ddatganiad y Goddefiad ydoedd, ysgafnhau gorthrwm y Pabyddion; a phenderfynasant hwythau ei drymhau, gan

* Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 494; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 207.
† Corporation Bill.
‡ Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 496.
§ Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 211.
‖ Act of Uniformity.—14 Car. ii. c. 14.
¶ Baxter's Hist. Church Engl., p. 630, &c.
** Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 515.

* Exhorters or Repeaters.
† Han. Cref. Cymru, t. 231-243; Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, pp. 140-174.
‡ Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 212.

Digitized by Google

suddo pob Anghydffurfwyr eraill dan yr un "pwys plaid orthrech." Ar y clerigwyr, y pregethwyr, a'r athrawon Anghydffurfiol, yn benaf, y gwasgai Deddf yr Unffurfiad, tra nad effeithiai yn ddigyfrwng ar y bobl; ond yn 1664, gwnaed cyfraith i ormesu ar y trigolion Anghydffurfiol, cystal ag ar eu hathrawon, a'i henw Deddf y Celgyfarfod.* Yn ol y gyfraith ysgeler hon, od ymgynhullai pump, neu ychwaneg, o rai un ar bymtheg oed, a thros hyny, heb law yr un teulu, mewn rhyw le at amcanion crefyddol heb fod yn ol trefn y Llyfr Gweddi Gyffredin, yr oedd pob un i gael ei gospi am y trosedd cyntaf â thri mis o garchar, neu bum punt o ddirwy; am yr ail, chwe mis o garchar, neu ddeg punt o ddirwy; ac am y trydydd, alltudiad dros saith mlynedd, neu gan punt o ddirwy.† O dïangai neb o'i alltudiaeth, a dychwel i'r wlad hon, bernid ef yn gyflafanwr, a chospid ef â dïenyddiaeth. Yr oedd y rhai a oddefent y fath gyfarfodydd yn eu tai, neu eu hysguboriau, yn agored i'r un cospau. Pan ddelid gwragedd yn y fath gyfarfodydd, carcherid hwy am ddeuddeng mis, os na thalai eu gwŷr ddeugain swllt am eu rhyddhâd.‡ Dros dair blynedd yr oedd y gyfraith farbaraidd yma i fod mewn grym; ond adnewyddwyd hi drachefn yn 1669, ac ychwanegwyd at eu gormes ysgymmun.§

Yn lled fuan yn y flwyddyn 1665, ymwelodd Duw â dinas Llundain, ac wedi hyny â'r trefydd o'i hamgylch, â haint arswydus a difaol, dan yr hwn y cwmpai o wyth i ddeng mil yr wythnos o'r trigolion. Ffodd y boneddigion a'r clerigwyr cyfoethocaf i'r siroedd a'r trefydd pellaf oddi wrth y ddinas, gan adael y tlodion heb na chymmorth i fyw na chyfarwyddyd erbyn marw, o'u rhan hwy. Ond aeth llawer o bregethwyr Anghydffurfiol i ganol yr haint a'r perygl, i gynghori a chyfarwyddo y trueniaid yngylch eu cyflwr dyfodol; a deffrowyd llïaws ganddynt i lefain am eu bywyd, "Beth sydd raid i ni ei wneuthur fel y byddom cadwedig?" Y fath amser ofnadwy ni welodd Brydain erioed o'r blaen!‖ Ond ynghanol yr holl erchyllderau hyn, yr oedd y dihiryn gan Clarendon, a'i gyd-Uchel Eglwyswyr ysgeler, yn darpar cyfreithiau ychwanegol i gospi ac erlid yr Ymneillduwyr, canys ar y 30fed o Hydref y flwyddyn hon, pan oedd y pla yn ei lawn rwysg, gwnaed Deddf y Pum Milltir,* er mwyn gyru y bugeiliaid oddi wrth eu praidd, a'u newynu i farwolaeth, os dichonadwy.† Yr oedd y ddeddf hon yn gorfodi yr holl Anghydffurfwyr i dyngu na chynhygient ddim newidiad yn yr eglwys na'r wladwriaeth, ac yn darpar nad oedd i neb o'r pregethwyr neu'r athrawon a wrthodent gymmeryd y llw i gael byw mewn unrhyw fwrdeisdref, dinas, neu dref gorphoredig, nac o fewn *pum milltir* i'r cyfryw drefydd, oddi eithr wrth groesi y ffordd yn unig; nac o fewn pum milltir i unrhyw blwyf, tref, neu le y buasent yn bersoniaid, ficeriaid, neu ddarlithwyr ynddynt, dan boen deugain punt o ddirwy; ac yr oedd yn eu hanghymmwyso i fod yn athrawon mewn unrhyw ysgol gyhoeddus na neillduol.‡

Nid oedd hyd yn oed hyn yn ddigon i ddiwallu trachwant y trahaus Glarendon a'i blaid erlidgar yn erbyn yr Anghydffurfwyr, canys yn ebrwydd ar ol pasio y ddeddf anfad uchod, dygasant ysgrif i'r Tŷ Cyffredin a elwid y Llw o Anwrthwynebedd§ ar yr holl genedl; ac oddi eithr digwyddiad damweiniol, buasai yr ysgrif echryslawn hon wedi dyfod yn gyfraith y tir. "Yr oedd y rhagluniaeth trwy yr hon y taflwyd yr ysgrif allan," medd Locke, "yn dra nodedig: canys cyflwynwyd Mr. Preregrine Bertie i'r Tŷ, oedd newydd gael ei ddewis, gan ei frawd oedd yn awr yn Iarll Lindsey, a Syr Thomas Osborne, oedd yn awr yn Arglwydd Drysorydd, a rhodd pob un o'r tri ei bleidlais yn erbyn yr ysgrif honno; ac yr oedd rhif yr aelodau mor gyfartal fel mai y tair pleidlais hyn a drodd y fantol yn ei herbyn." "Tair pleidlais," medd Ralph, "a gawsant yr anrhydedd o achub eu gwlad rhag y gwaradwydd mwyaf a allai ddisgyn i'w rhan, sef rhybedio, cystal a morthwylio ei chadwyni ei hunan."‖ Ond, medd yr "Hen Lyfr," "Dïau cynddaredd dŷn a'th folianna di: gweddill cynddaredd a waherddir." Gwiriwyd hyn i'r llythyren yn achos yr erlidgar Edward Hyde, Iarll Clarendon. Cododd y wlad a'r llys yn ei erbyn; y brenin distadl a'i ordderchadon anllad; yr Esgobyddion, y Presbyteriaid, y Pabyddion, a'r Ymneillduwyr; ac ar y 28fed o Ragfyr, 1667, bu raid iddo ffoi i Ffraingc, ac yno

* Conventicle Act.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 993.

† 16 Car. II. c. 4; Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 531.

‡ Daw canlyniadau y gyfraith ysgeler hon, a'i chyffelyb, dan sylw yn y pennodau canlynol.

§ Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 531-541; Baxter's Hist. Church Engl., p. 632; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 175, &c.; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 221; Han. Cref. yng Nghymru, t. 245.

‖ Evelyn, Diary, vol. ii., p. 245; Ellis, Letters, vol. iv., p. 35; Pepys, vol. ii., p. 266.

* Five Miles' Act.

† 17 Car. ii. c. 3. ‡ Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 535-537.

§ The Oath of Non-Resistance.

‖ Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 224.

Digitized by Google

yn alltud torcalonus y bu farw ar y 9fed o Ragfyr, 1674, yn y 66ed flwyddyn o'i oedran.*

Yn ystod y flwyddyn 1665, bu farw y Dr. W. Roberts, a phennodwyd y Dr. Robert Morgan i esgobaeth Bangor; ac yn fuan wedyn bu farw y Dr. Gruffydd, a dodwyd Harri Glenham yn esgob yn Llanelwy yn ei le. O gylch yr un amser hefyd y dyrchafwyd Ffrancis Davies i esgobaeth Llandaf.

Yn ystod y flwyddyn 1667, dangosodd Charles awydd mawr am gyhoeddi Goddefiad Cyffredinol, er mwyn ei frodyr Pabyddol; ond llwyr lethwyd ei amcan gan yr esgobion a'r pendefigion uchel-eglwysig, trwy bleidleisio dognau mawrion o arian y wlad iddo, a'r cyffelyb ddichellion. Go debyg y parhaodd cyflwr yr Eglwyswyr a'r Anghydffurfwyr hyd ddiwedd y teyrnasiad eiddil a halogedig yma, yr hwn a derfynodd trwy farwolaeth Charles II. ar y 6ed o Chwefror, 1685.

Dilynwyd ef i'r orsedd gan ei frawd, IAGO II., creadur mwy ofergoelus a Phabyddol, pe buasai fodd, nag yntau. Cyflwynodd y Senedd uchel-eglwysig annerchiad i'r brenin hwn yn lled fuan ar ol ei esgyniad, yn erfyn arno roi cyhoeddiad brenhinol allan, yn erchi dodi y cyfreithiau cospawl yn erbyn yr Ymneillduwyr oddi wrth yr Eglwys Sefydledig mewn grym, â'r hyn y cyttunodd yntau; a galanas erchyll a fu y canlyniad, dros beth amser. Pa fodd bynag, canfu yr Eglwyswyr yn fuan wrth waith y brenin yn bwrw Archesgob Caergaint, a chwech o breladiaid eraill, i'r Tŵr, ymhlith y rhai yr oedd y Dr. W. Llwyd, esgob Llanelwy, nad oedd gan Iago ddim mwy o gariad atynt hwy nag at yr Ymneillduwyr, ac mai ei wir amcan oedd arloesi y ffordd i sefydlu Pabyddiaeth yn y wlad. Pan ddygwyd y preladiaid hyny i brawf, cyhoeddodd y barnwyr hwy yn ddieuog, er gofid a chynddaredd i'r brenin, a mawr lawenydd i'r bobl. Dechreuodd y clerigwyr weithian bregethu yn erbyn Pabyddiaeth. Pan ddeallodd y brenin hyny, anfonodd allan orchymyn pendant, yn gwahardd i'r clerigwyr israddol bregethu ar byngciau dadleuol crefydd. Pan geuwyd eu genau yn y pulpud, troisant hwythau i ymladd â'r Pabyddion â'u harfau hwy eu hunain, trwy gyhoeddi traethodau o blaid Protestaniaeth. Torodd hyn bob rhwymau rhwng y brenin ac Eglwys Loegr; a throdd y ddwy blaid i lochi yr Ymneillduwyr, fel eu cefnogwyr, y rhai y bwriadasid mor ddiweddar eu llwyr ddileu o'r tir. Weithian penderfynodd y brenin ddwyn Goddefiad Cyffredinol i mewn, er mwyn dîal ar yr Eglwys Sefydledig. Creulondeb Eglwys Loegr oedd testyn parhaus ei ymddiddanion; a dywedai y buasai efe wedi sefydlu Goddefiad yn gynt, oddi eithr cael ei rwystro gan *rai o honynt hwy*, y rhai a addawent bleidio y Pabyddion o goddefid iddynt erlid yr Ymneillduwyr. Wedi i'r brenin esmwythâu ar yr Anghydffurfwyr fel hyn, bwriadai eu defnyddio i gospi yr Eglwys Wladol hyd yr eithaf. Appwyntiodd ddirprwywyr trwy yr holl wlad i chwilio pa faint o arian a godwyd, a pha faint a ddygwyd i gyfrif y Trysorlys. Tarawodd hyn yr achwynwyr, y barnwyr ymddiriedol, a'r holl lwyth oedd wedi cadw cymmaint o'r yspail, â dychryn anaele, gan y credent mai llwyr ddinystr a fyddai eu rhan anocheladwy; herwydd ofnent hwy, a chredai y brenin hefyd, y troai yr Ymneillduwyr yspeiliedig yn gyhuddwyr ewyllysgar. Ond, er syndod i'r brenin a'r Eglwyswyr, gwrthodai yr Ymneillduwyr Protestanaidd, er bythol glod iddynt, ymddangos yn erbyn eu gelynion Eglwysig, wedi iddynt gael addewid ddifrifol gan yr arweinwyr, yn glerigwyr a lleygwyr, nad erlidid hwy rhag llaw. Fel yr oedd y rhyfel yn poethi rhwng y brenin a'r Eglwys Sefydledig, yr oedd yr Ymneillduwyr yn myned yn uwch uwch yngolwg y naill blaid a'r llall. Gwahoddid eu penaethiaid i'r llys yn fynych gan y brenin, dan rith ymgynghori â hwy ar byngciau pwysig rhyddid crefyddol; a'r Eglwyswyr, hwythau, a erfynient arnynt sefyll o blaid y sefydliad Protestanaidd, gan addaw yn haelionus, o delent byth etto i awdurdod fel cynt, yr ymddygid atynt fel brodyr; ond nid oedd achos cymmell yr Ymneillduwyr i sefyll o blaid Protestaniaeth, gan iddynt brofi yn fynych fod honno yn anwylach ganddynt na'u bywyd.†

O'r diwedd, cyhoeddodd y brenin ei Ddatganiad dros Ryddid Cydwybod, a amserwyd y 4ydd o Ebrill, 1687, trwy yr hyn, nid yn unig y rhyddhawyd Ymneillduwyr o bob math, ond hefyd goddefid iddynt wasanaethu mewn pob swyddi o elw ac ymddiried. Ar y 6ed o Dachwedd anfonodd y brenin orchymyn at faer Llundain ar iddo esgusodi y Crynwyr am beidio cymmeryd llw, neu, o leiaf, ar iddo beidio eu dirwyo os gwrthodent wasanaethu, trwy yr hyn yr oedd yn agor y drws i'r Pabyddion, a phawb eraill, i gael swyddi yn y llywodraeth heb gymhwysder cyfreithiol; a

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 994.

† Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 600-612; Baxter's Hist. Church Engl., p. 637, &c.

dangosodd y brenin yn fuan mai ei gariad at y Pabyddion oedd gwreiddyn ei holl haelfrydedd. Cyflwynwyd iddo amryw gyfarchiadau ar yr achlysur yma gan gwmnïau yn Llundain, gan gorphoriaethau yn y wlad, a chan yr holl gyfundebau crefyddol, hyd yn oed gan yr Eglwyswyr eu hunain, yn dïolch iddo am ei Ddatganiad dros Ryddid Cydwybod; ond cawsant oll achos i newid eu tôn yn bur fuan. Dangosodd y brenin yn eglur mai ei amcan yn ei holl ryddfrydedd oedd dyrchafu Pabyddiaeth i awdurdod, a diddymu Protestaniaeth o'r wlad; am hyny ymunodd yr holl gyfundebau Protestanaidd i bleidio Eglwys Loegr a'r pendefigion Esgobyddol, a gwahoddwyd William a Mari* i'r wlad hon i lywodraethu yn lle Iago II., yr hwn, ar eu glaniad hwy yma yn Hydref, 1688,† a ffodd i Ffraingc, lle y bu efe farw yn 1701.‡ Galwyd y cyfnewidiad yma yn Chwyldroad 1688,§ a chwyldroad er llawer iawn gwell a fu hefyd, i grefydd a gwladwriaeth, fel y ceir gweled yn y cyfnodau nesaf.

## PENNOD II.

### Y CYFEILLION NEU Y CRYNWYR.

Dechreuwyd y blaid hon gan George Fox, yr hwn a anwyd yn Draiton, swydd Leicester, Gorphenaf, 1624, ymhen o ddeutu pedair blynedd ar ol glaniad y Tadau Pererinol yn Lloegr Newydd, ac ychydig lai na blwyddyn cyn i Siarl I. esgyn i orsedd Brydain. Rhwymodd ei rieni ef, pan yn lled ieuangc, yn egwyddorwas gyd â chrydd o'r gymmydogaeth, lle, wrth glywed ei gydweithwyr, a'r dïeithriaid a ymwelent â "Siop y Crydd," yn trin ac yn beirniadu yr amgylchiadau oedd yr amser hwnw yn ysgwyd y deyrnas, yn wladol a chrefyddol, y rhai a ddarluniwyd yn barod, ac yntau ei hun o duedd ddifrifol a meddylgar, aeth ei bryder ynghylch ei enaid ei hun a chyflwr ei gymmydogion yn drech nag ef. Gadawodd ei waith, ac aeth i ymgynghori âg offeiriad o gryn enwogrwydd oedd yn byw ger llaw. Wedi arllwys teimladau cynhyrfus ei galon o flaen y gŵr eglwysig, ac yn disgwyl am gydymdeimlad a chyngor fuasai yn llwyddo i dawelu yr ystorm oedd yn ei enaid; ond yn lle hyny, troes yr offeiriad ato dan wenu, a dywedodd wrtho nad oedd ganddo gyngor gwell i'w roddi iddo, nag iddo fyned adref ac ysmocio nes boddi ei feddwl cythryblus mewn mwg. Edrychodd Fox gyd â dirmyg ar y fath gynghorwr, ac ymaith âg ef at offeiriad arall, yr hwn oedd yn ddoethwr mewn duwinyddiaeth. Wedi dweyd ei ofid wrth hwnw, edrychodd arno yn bryderus, a dymunodd arno fyned at y meddyg cyn gynted y gallai i ollwng gwaed, a chymmeryd ychydig o *salts* yn awr ac eilwaith, rhag i'w glefyd godi yn dwymyn boeth. Cynhyrfodd y fath gysurwyr gofidus enaid George yn llawer gwaeth, a ffwrdd âg ef o ddeutu saith milltir o bellder at offeiriad lled enwog yn ei ddydd, gan feddwl yn sicr y cawsai gan hwnw falm i'w enaid. Cafodd hyd iddo yn yr ardd, ac wedi cael cenad i draethu ei gŵyn, arllwysodd ei ofid, fel yr oedd wedi gwneuthur y ddwy waith flaenorol; ac wrth bryderus ddisgwyl am attebiad cysurlawn, edrychai yn graff yn wyneb y gŵr eglwysig, fel y darfu iddo, yn anffodus, sathru ar flodeuyn bychan oedd yn tyfu wrth ochr y llwybr. Pan welodd yr offeiriad hyny, cymmerodd afael yn ei fraich, a throes ef dros y drws, heb roddi iddo un math o attebiad. Wrth fyned adref, meddyliai George y rhaid cael rhyw gymhwysder mwy na threulio pum mlynedd yn Rhydychain i wneud dŷn yn addas i arwain enaid terfysglyd i dawelwch. Dechreuodd feddwl yn isel am yr offeiriaid, fel dosparth o bobl diwerth a diddaioni. Cyhoeddai fygythion enbyd uwch ben y fath gŵn mudion, a phrophwydai fod dydd eu dymchweliad yn agosâu. Yn y flwyddyn 1647, blwyddyn diorseddiad Siarl I., dechreuodd fyned o amgylch y wlad yn bregethwr teithiol. Pregethai ar y croesffyrdd, yn y pentrefydd, a'r marchnadoedd, a swm ei weinidogaeth oedd "*Y pwys i gael goleuni Crist yn yr enaid.*" Tybiodd yn fuan ei fod yn cael gweledigaethau nefol a chyfarwyddiadau uniongyrchol gan Dduw ynghylch gwahanol faterion. Sicrhai iddo gael cenadwri oddi wrth Dduw yn peru iddo beidio galw "Chwi" ar neb, eithr arfer "Ti" a "Thithau;" peidio tynu ei het i neb, na gwneud ei lw ar bwngc yn y byd. Llïosogodd ei ganlynwyr yn gyflym; ac i'r graddau yr oeddent yn llïosogi, yr oeddynt yn ymhyfhau, a byddent beunydd ar eu gwyliadwriaeth am gyfleusdra i

* William, Tywysog Orange, yn Ffraingc, oedd fab Mari, merch Charles I., ac felly yr oedd yn nai fab chwaer i Iago II.; a'i dad oedd William o Orange, Duc Orleans. Mari, gwraig William, Tywysog Orange, a'i gyfnither, oedd ferch Iago II., o'i wraig gyntaf, Ann Hyde, merch Edward Hyde, yr anfad Iarll Clarendon, a fu dan sylw yn y sylwadau blaenorol.—Genealogical Tree of the Stuart Line, in Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iii., p. viii.

† Han. Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 482.

‡ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., pp. 1029-1031.

§ Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 612-626; Baxter's Hist. Church Engl., pp. 638-664.

Digitized by Google

wrthwynebu yr offeiriaid. Teimlent eu hunain yn aml yn cael eu cynhyrfu gan yr Yspryd i fyned i'r llanau plwyfol, y rhai a alwent "*Tai y Clychau*," i wrthwynebu yr offeiriaid pan ddywedent ryw beth croes i'w golygiadau hwy. Cynhyrfai hyny yr offeiriaid, a galwent eu holl allu a'u dylanwad ynghyd i ddīal arnynt. A phan oedd George un tro yn cael ei holi o flaen Gervas Bennet, un o ynadon Derby, ar gyhuddiad o'r fath, cynhyrfodd ei enaid, a dywedodd wrth yr ynad y dylai, yn lle eistedd i'w farnu ef, grynu (*quake*) wrth air yr Arglwydd; a gelwir y blaid oddi ar hyny, mewn ffordd o wawd, Crynwyr; ond Cyfeillion, fel y gellir cyfieithu y gair Groeg *αγαπητοι*, y galwent hwy eu hunain.

Cafodd George ei gyfarwyddo mewn gweledigaethau nefol hefyd i beidio gwisgo fel pobl eraill; ac mewn canlyniad, gwnaeth iddo ei hun glôs lledr, cryf, naill ai oddi ar ei hoffder o'r nwydd hwnw, wedi bod yn ei drin, neu o herwydd y gwyddai y buasai yn parhau yn hir, neu am y tybiai y buasai felly yn debycach i Ioan Fedyddiwr ac Elias, dau parth o yspryd y rhai, fel yr ymddengys, oedd wedi disgyn arno.

Pan ddymchwelwyd Siarl, yr oedd y Presbyteriaid ar y blaen yn y Senedd ac yn y brif ddinas, ond yr oeddynt yn analluog i blygu y wlad i'w barn eu hunain, gan fod Cromwel a'r fyddin yn bleidiol i'r Annibynwyr, a'r rhai hyny yn bleidiol i oddefgarwch crefyddol. Ynghanol y fath gymmysgedd, nid oedd ond naturiol disgwyl gwrthdarawiadau. Llenwid y pulpudau gan athrawon o bob nodwedd; a phan elai yn rhyfel rhwng y gwahanol bleidiau, dychrynai pobl dda pob plaid, ac ofnent fod y gwirionedd wedi myned ar goll. Cyfarfyddai George Fox â'r rhai hyn, a siaradai â hwynt yn syml, tyner, a difrifol, nes y credai llawer ei fod wedi ei anfon yn genad oddi wrth Dduw i'w cysuro. Yr oedd y Puritaniaid wedi bod yn hir yn dysgu yr angenrheidrwydd am ddylanwad Yspryd Duw ar yr enaid. Cymmerodd George afael yn y syniad, a dywedodd mai dyna beth oedd y goleuni mewnol gyfrenir gan Dduw i bob dŷn, ac mai y cwbl oedd yn angenrheidiol oedd iddo gael chwarau teg; a gweled y fath anhrefn a chymmysgedd yn yr eglwysi, y mae yn ddīau, fu yr achos iddo ef a'i ganlynwyr cyntaf gymmeryd cymmaint o hyfdra i aflonyddu ar addoliad y llanwyr. Pan gofiom eu bod yn troi allan ym mrwdfrydedd eu zel dros burdeb y gwirionedd, heb ganddynt un reol neillduol i weithredu, a'r rhan fwyaf o honynt yn annysgedig, nid oedd ond naturiol disgwyl iddynt wneud llawer tro digrif a thrwstan, fel y gwneir bob amser wrth gychwyn sectau a sefydliadau dynol; a gall fod llawer o'r troion y cyhuddir hwynt o'u cyflawni yn cael eu gorliwio gan eu gelynion, ac y mae yn sicr fod llawer o'r pethau y beid George Fox a'i ganlynwyr am danynt wedi dyfod erbyn heddyw i gael eu hystyried yn rhinweddol, canmoladwy, a Biblaidd.

Dywedir i un a'i enw James Naylor fyned i gredu ei fod yn ddwyfol. Cafodd gan swp o ferched penboeth ei foli a'i alw yn "fab tangnefedd," "y rhagoraf o ddeng mil," "tywysog heddwch." Gosododd yr awdurdodau ef yn y cyffion; ac wedi bod yno yn dwyn ei benyd am dymmor, cymmerasant ef ymaith. Tyllasant ei dafod â haiarn poeth, a seriasant ei dalcen â'r llythyren B. Gan y caniatai y Crynwyr i ferched gymmeryd rhan yn y gwasanaeth, cymmerodd un ferch ieuangc mewn llaw i fyned i Rydychain i ddysgu "gwirionedd yr efengyl" i'r myfyrwyr, yr hyn, y mae yn fwy na thebyg, oedd yn wir angenrheidiol; ond yn lle derbyn ei chenadwri, cymmerodd y myfyrwyr afael ynddi, a gosodasant hi i sefyll ar ei phen, ac oddi yno cymmerasant hi i'r ystol-drochi (*ducking-stool*), lle y cadwasant hi nes yr oedd bron colli ei hanadl. Aeth merch ieuangc arall yn hollol noeth i'r capel i White Hall, pan oedd Cromwel yn bresennol, er mwyn dangos iddo mor noeth y cai ei adael gan y byd hwn a'i bethau; a llawer o droion cyffelyb. Ond nid oedd y frawdoliaeth yn cymmeradwyo y fath ystrangciau, a chyhoeddent eu hanghymmeradwyaeth i bob dŷn a gynhygiai y fath; a byddai mor anheg dal y Crynwyr, fel plaid, yn gyfrifol am ffolinebau pob un oedd yn galw ei hun ar enw George Fox, ag y byddai dal rhyw blaid arall yn gyfrifol am ffolinebau y gwahanol aelodau sydd yn perthyn iddi. Ond faint bynag o anhrefn oedd yn eu mysg ar y dechrau, y mae yn deilwng o sylw na chawsant eu cyhuddo, gan hyd yn oed eu gelynion, o fod yn arwain bywyd anfoesol; ac aeth oes y rhai yr oedd eu zel yn fwy na'u gwybodaeth yn fuan heibio.

Prif erthyclau eu ffydd oedd rhinwedd moesol, cariad at Dduw, cariad brawdol, gwaith yr Yspryd yn yr enaid, ymwrthod â phob seremonīau, symlrwydd mewn bwydydd a gwisgoedd, a dymuniad ar yr Yspryd Glân am arweiniad; erthyclau yn erbyn y rhai nid oes gan neb uniongred ddim i



Digitized by Google

ddweyd, ac y mae yn debyg na ddywedasid dim yn eu herbyn hwythau am eu credu; ond eu dull unplyg, gonest, o weithio allan eu hegwyddorion oedd yn peru fod yr oes honno yn eu casâu. Ond beth bynag oedd eu cyfeiliornadau a'u camsyniadau, dengys eu hanes yn ddigon amlwg eu bod yn eu hoes wedi gwneud mwy at liniaru ac efengyleiddio deddfau gwledydd y byd adnabyddus na'r un blaid arall; a thystiai maer Cork fod y Crynwyr wedi gwneud mwy o les yn y Werddon yn ei oes ef nag oedd yr holl wŷr llên eraill wedi ei wneud mewn can mlynedd.

Pan oedd Cromwel yn ymffrostio, un diwrnod, fod holl ddeddfau gorthrymus a chospawl y deyrnas wedi cael eu llwyr ddileu, attebodd un o'r Crynwyr rhag blaen mai hawdd iawn oedd ymffrostio felly, ond y dylai gofio fod llawer o'r Crynwyr ar y pryd yn y carchar yn herwydd eu crefydd. Pan welodd Cromwel eu bod yn lliosogi, barnodd mai doeth iddo fyddai gwneud ymdrech i'w hennill o'i du, ac anfonodd at George Fox i ofyn iddo ymrwymo mewn ysgrifen i beidio cynhyrfu y wlad yn ei erbyn ef; fod iddo groesaw i ddefnyddio ei eiriau ei hun fel y dewisai. Ysgrifenodd yntau yn ol "ei fod yn hollol wrthwynebol i neb ddefnyddio cleddyf yn erbyn Oliver Cromwel, fel yn erbyn pob dŷn arall." Galwodd Cromwel am dano ato, wedi cael cymmaint a hyny o'i feddwl, a chaniataodd y gŵr oedd yn llywio Brydain, ac yn dal mantol heddwch Ewrop, i George Fox y Crynwr sefyll i ymddiddan âg ef â'i het am ei ben. Ond cymmerodd Fox fantais ar y cyfleusdra i ddweyd wrtho wirioneddau heilltion yn erbyn ei yspryd tra arglwyddaidd a rhyfelgar, y rhai a wrandawodd Cromwel heb ddangos un anfoddlonrwydd ar y pryd; ond pa ganmoliaeth bynag y mae'r cyfnod hwn yn ei haeddu, erys y triniaethau a dderbyniodd y Crynwyr yn nyddiau Cromwel oddi ar law yr Esgobaethwyr, y Presbyteriaid, a'r Annibynwyr, yn ysmotiau duon ar ei hanes hyd byth, ac yn brawf fod y genedl yn farbaraidd, neu fod yr awdurdodau llywodraethol yn ddig wrthynt; ac amlwg yw fod rhyw beth mwy na'u penboethni a'u trwstaneiddiwch yn achosi iddynt gael eu herlid.

Perthynai iddynt, y mae yn wir, wyth o neillduolion, y rhai o angenrheidrwydd oedd yn eu gwneuthur yn gas gan eu cydoeswyr:—1. Ni thalent ddegwm, a dadleuent mai perthyn yr ydoedd i'r oruchwyliaeth Iuddewig. Yr oedd, ac y mae, llawer yn credu ac yn siarad yn erbyn y degwm, ond yn y Crynwyr yn unig yr oedd digon o wroldeb i weithio eu credo i ymarferiad. 2. Gwrthodent dalu pob math o drethi i gynnal yr eglwys, ac ystyrient son am sancteiddrwydd y lle hwnw yn ofergoeledd, tra yr oedd wedi cael ei "halogi gan bob math o gymmeriadau." 3. Gwrthodent gymmeryd eu llw ar un achos yn y byd, am fod Iesu wedi gwahardd hyny yn bendant. 5. Gwrthodent fyned i'r llanau i addoli, a chynhalient gyfarfodydd lle y gallent, yn ol argyhoeddiad eu cydwybodau eu hunain. 6. Safent yn wrol yn erbyn llygredd yr oes, gan siarad â brenin fel â chardotyn. 7. Gwrthodent wasanaeth yr offeiriaid wrth briodi a chladdu, a thrwy hyny dangosent i'r wlad mor hawdd yr oeddynt yn gallu byw heb yr offeiriaid, ac, wrth reswm, collent y tâl arferol am y fath swyddi. 8. Gwrthwynebent, yn y modd mwyaf diamwys, bob math o ryfeloedd, a dadleuent dros benderfynu pob dadl drwy gyflafareddiad; a chanfyddir, yn hanes eu tywydd garw, fod eu holl erledigaethau wedi codi drwy y naill neu y llall o'r neillduolion hyn. Y fath gyfnewidiad sydd wedi cymmeryd lle ym marn y cyhoedd mewn dau can mlynedd am y pyngciau yr erlidid George Fox a'i ganlynwyr yn eu herwydd!

Taflwyd George Whitehead i'r carchar am bregethu yr efengyl yn ei ffordd ei hun, ac wedi bod yno am dymmor, fflangellwyd ef gyd â'r fath greulondeb nes yr oedd ei gnawd yn friwiau, a'i holl gorph yn orchuddiedig â gwaed; ac yr oedd yr olwg mor druenus fel yr oedd y rhai mwyaf calon-galed ym mysg yr edrychwyr yn crefu am iddo gael ei ollwng; a bron yr un amser, taflwyd llangc ieuangc o deulu parchus, a'i enw James Parnel, i garchar, a chadwyd ef yno hyd ddydd ei farwolaeth. Yr unig gyhuddiad yn ei erbyn oedd, ei fod wedi siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfod. Yr oedd y barbareidd-dra a arferid at y merched a'r gwragedd hefyd y fath fel y mae gwyleidd-dra yn gwarafun i ni eu darlunio.

Pan fu Cromwel farw, ac i Siarl II. ddyfod i'r orsedd, meddyliasant y caent fwy o ryddid a chwarau teg; ac, ar y dechrau, ymddangosai fel pe buasai eu gobeithion yn cael eu sylweddoli. Gollyngwyd ugeiniau o honynt allan o'u carcharau; eithr ni pharhaodd eu tawelwch ond am dymmor byr, canys ail garcharwyd hwy, a llawer eraill i'w canlyn, ac aeth eu cyflwr lawer yn waeth. O'r blaen erlidid hwy gan y clerigwyr, yn groes i'r gyfraith; ond yn awr, gwnaed cyfraith i nerthu

breichiau yr erlidwyr. Pan gododd un o'r enw T. Venner i ddysgu fod Iesu Grist ar ddyfod i'r ddaear i sefydlu y bummed ymerodraeth, er nad oedd ganddo ond rhyw hanner cant o ganlynwyr, ac i'r rhai hyny gael eu lladd i gyd, naill ai gan y milwyr yn yr ysgarmes wrth eglwys St. Paul, neu drwy ddïoddef fel troseddwyr, cymmerwyd mantais ar y cynnwrf i erlid y Crynwyr, er y gwyddai pawb eu bod yn berffaith ddiniwaid; yn unig gwyddid eu bod yn hollol ddiamddiffyn. Pan wnaed y ddeddf i wahardd pobl i gyfarfod i addoli, sef Deddf y Celgyfarfod, ni chymmerodd y Crynwyr un sylw o honi, eithr daethant ynghyd i'w capeli fel o'r blaen. Cymmerwyd hwy i fynu ymhob man lle y gellid, a thaflwyd hwy i'r carcharau; a boddlonent fyned gyd â'u gilydd, heb ofyn am arbediad. A phan, ar ol ychydig ddyddiau, y gollyngid hwynt allan, gwrthodent dalu y dirwyon a osodid arnynt. Lle y byddai yr ynadon wedi peru cloi eu haddoldai, ymgasglent i addoli o amgylch y drysau. Yn 1670, rhoddodd y llys orchymyn i chwalu addoldy o'r eiddynt yn Horselydown, ger llaw Llundain. Daethant hwythau ynghyd, fel arferol, a chynnaliasant eu gwasanaeth ar yr adfeilion. Daeth mintai o filwyr yno i'w gyru ymaith; a phan yn eu curo, ac un yn gorwedd ar y llawr, â'i ben wedi ei hollti, ac â'i ymenydd yn y golwg, gofynodd rhyw un iddynt pa fodd yr oeddent yn gallu bod mor greulon? "Pe gwyddech y gorchymynion a gawsom, chwi a ryfeddech ein bod mor dyner," oedd yr atteb.

Yn ystod y tymmor erledigaethus hwn, ymwelsant â'r rhan fwyaf o wledydd y byd, a chawsant dderbyniad caredig gan y tywysogion a'r bobl bron ymhob gwlad. Aeth merch ieuangc a'i henw Mary Fisher, yn angerdd ei zel, i ymweled â'r Twrc, a chafodd dderbyniad croesawgar gan Sultan Mahomet IV., pan yn gwersyllu ger Adrianople, ac ymddangosai fel yn mawr gymmeradwyo yr hyn a ddywedai. Aeth dwy chwaer arall allan ar ymweliad â'r Pab, a chawsant wrandawiad astud ganddo; ond arhosodd y Twrc yn Fahometan, a'r Pab yn anffaeledig, er eu holl ymdrechion i gyd. Gwnaethant yr holl waith cenhadol hwn heb ofyn nawdd un llywodraeth wladol, heb gymmorth cyllid, na bwrdd cyfarwyddwyr cymdeithas o fath yn y byd.

Nis gellir dywedyd yn sicr ymha flwyddyn yr ymwelasant â Chymru; ond y cyntaf i bregethu eu hathrawiaethau yng Nghymru oedd gŵr a gwraig a'u henwau Thomas ac Elizabeth Holmes. Yr oedd y ddau unwaith yngharchar yr un pryd am siarad â'r offeiriad ar yr heol, y naill yngharchar Abertawy, a'r llall yngharchar Caerwent. Y mae yn amlwg eu bod yn 1655 yn llïosog yn Neheudir Cymru, o herwydd yr oeddent wedi tynu sylw y llywodraeth, a dechreuwyd eu herlid y flwyddyn hon. A thrwy i George Fox briodi Cymraes, gweddw y Barnwr Fell, daeth y Crynwyr i berthynas mwy neillduol â Chymru, a buont yma am dymmor yn dra llwyddiannus, fel y gwelir oddi wrth lïosowgrwydd y dïoddefwyr.

Y cyntaf a erlidiwyd yng Nghymru oedd John ap John,* yr hwn a aeth i eglwys Abertawy, ac wedi gwrando ychydig, gofynodd i'r offeiriad a oedd efe yn tybio ei hun yn was i Grist? Taflodd hwnw ei bregeth o'r neilldu, rhuthrodd ato, cymmerodd afael yn ei goler, a galwodd am y cwnstabl, yr hwn a'i cymmerodd ymaith rhag blaen, er cymmaint a grefodd yr offeiriad am gael ei fflangellu nes yr âi y diawl o hono. Pan geisiodd siarad i amddiffyn ei hun, gwthiodd yr offeiriad ei ddwrn i'w enau. Gorchymynodd Robert Dawkins, yr ynad, iddo gael ei gymmeryd i garchar Caerdydd; a dywedir yn yr wyseb mai dŷn genedigol o sir Ddinbych ydoedd. Cymmerodd y cwnstabl afael mewn un o honynt pan ar ganol pregethu mewn pentref bychan ym mro Morganwg. Plygodd yntau ar ei liniau i weddïo; ond rhedodd gweision yr offeiriad yno dan guro llestri pres a haiarn er mwyn boddi ei lais. Gan nad oedd efe yn codi ac yn myned ymaith, daeth y forwyn yno a thaflodd lonaid llestr mawr o olchion a budreddi am ei ben ef a'i gyfeillion. Cymmerwyd hwynt ymaith i'r carchar, a chadwyd hwynt yno am bum mis heb gael un math o brawf; a phan ddygwyd hwynt allan i gael eu profi, anfonwyd hwynt yn eu hol i'r carchar am dri mis yn ychwaneg, am ddirmygu y llys, drwy ymddangos ynddo â'u hetiau am eu penau. Llusgwyd John ap John drachefn, yn 1658, gerfydd gwallt ei ben o eglwys Abertawy, am wrthwynebu yr offeiriad, Evan Griffith. Cymmerodd un arall afael yn ei drwyn, a llusgodd ef allan o'r dref, a thaflwyd ef i'r carchar, lle y bu am ugain wythnos. O ddeutu yr un amser, trowyd Mary a Rebecca Thomas allan

* "Pan oedd y Cyfeillion yn y rhanau Gorllewinol, anfonodd offeiriad o Wrexham, a'i enw Morgan Llwyd, wedi clywed am danom, ddau o'i gynnulleidfa i holi yn ein cylch, ac i'n profi, ac i ddwyn ein hanes iddo ef. Ond pan ddaethant i'n plith, trechwyd hwynt gan Ysbryd yr Arglwydd, ac ennillwyd y ddau i'r gwirionedd. Felly arhosasant gyd â ni am beth amser; yna aethant yn ol i Gymru, lle y gwrthgiliodd un o honynt, ond glynodd y llall yn ffyddlon, enw yr hwn oedd John ap John, a chafodd ran o'r weinidogaeth ymhlith y ffyddloniaid."—Journal George Fox, I. 172 (1653.)

Digitized by Google

o'r dref i'r tu arall yr afon. Cymmerodd William Bevan dosturi arnynt, a chludodd hwynt yn ol yn ei gwch ei hun; ond pan glywodd yr ynadon yr hyn a wnaethai, gosodasant ef yn y carchar, lle y bu am fisoedd mewn cadwynau. Gwrthododd chwech o gymmydogion a'u henwau John Dafydd, Evan Leonard, Mathew a Morgan Gibbon, a Thomas a Daniel Hopkins, dalu y degwm i'r offeiriad; ac er nad oedd y swm a ofynid gan y chwech ond 4p. 3s. 4c., etto daeth y swyddogion gwladol ar eu gwarthaf, a chymmerasant werth 23p. 6s. 8c. o'u meddiannau. Taflwyd Francis Gawler i garchar Caerdydd am siarad â'r offeiriad ar yr heol; a phan wedi dyfod allan, ac yn cerdded ynghwmni Alice Burkit drwy Landaf, ymosodwyd arnynt yn y dull mwyaf barbaraidd; a dywedir i wraig yr offeiriad gymmeryd hen agoriad mawr rhydlyd yr eglwys, a'i bod yn ddeheuig neillduol yn ceisio hollti pen Francis. Galwodd Elizabeth Richard offeiriaid Caerdydd yn gŵn mudion, am yr hyn y rhoddodd George Morgan orchymyn i'w charcharu; ond gwrthododd yr ynad arall ymyryd yn yr achos, am ei fod ef yn credu, meddai, "ei bod hi yn dweyd llawer o wirionedd." Yr oedd offeiriad heb fod ymhell o Abertawy wedi cael ei ddal yn gosod ei nôd ei hun ar amryw o ddefaid ei gymmydogion, er nad oedd neb wedi cadw dim trwst ynghylch hyny; ond un diwrnod cyfarfyddodd pedwar o'r Crynwyr ef ar yr heol, a dywedasant wrtho nad oedd yr offeiriaid yn ddim ond yspeilwyr a gweision cyflog, heb ofalu dim am eu defaid. Credodd yr offeiriad eu bod yn gwybod am y defaid a nodasid ganddo ef, ac ni orphwysodd nes gweled y pedwar yn cael eu fflangellu. Carcharwyd Walter Watkin a'i wraig, a Dafydd Jones, yng Nghaerdydd, y naill am wrthod talu punt o ddegwm, a'r llall bedair ceiniog; a thaflwyd James Jones, Hwlffordd, a William Thomas, Llanddewy, i'r carchar am sefyll o flaen yr offeiriad, heb gynnyg dweyd dim, na da na drwg. Yr oedd offeiriaid sir Benfro yn arswydo rhagddynt, a diwyd gynllunient pa fodd i osod attalfa arnynt, a chael gwared o honynt; a phan glywodd offeiriad Hwlffordd fod Elizabeth Holmes yn cynhyrfu sir Benfro drwyddi, rhai yn ei herlid a llawer yn ei chredu, aeth yr offeiriad, Adam Hawkins, i un o'i chyfarfodydd. Gwahoddodd hi yn garedig i Hwlffordd, a dywedodd y gofalai efe am iddi gael chwarau teg. Cydsyniodd hithau â'r gwahoddiad; ond prin yr oedd hi a'i chyfeilles, Anne Burkit, wedi cyrraedd y dref, na chawsant eu gosod yngharchar, lle y buont am rai misoedd. Er i'r offeiriad geisio ymryddhau oddi wrth y weithred, tystiodd yr ynadon, ddydd y prawf, eu bod hwy yn methu cael llonydd nes iddynt roddi gwŷs i'w dal. Carcharwyd William Bateman am fisoedd am ganiatâu cynnal cyfarfodydd yn ei dŷ; a Howel Jones am wrthod tynu ei het i'r offeiriad. Yn 1660, cymmerwyd ceffyl gwerth 4p. oddi ar John Williams, Llandilo, am wrthod talu 14s. o ddegwm. Yn sir Aberteifi, yr oedd dŷn tlawd a'i enw William Dafydd yn byw ar dyddyn bychan, am yr hwn y talai 2p. 10s. o ardreth flynyddol; ond am iddo wrthod talu punt o ddegwm, cymmerwyd oddi arno fwy o eiddo na gwerth ei ardreth ddwywaith drosodd. Ym mysg pethau eraill, cymmerwyd ei fuwch, gan yr hon yr oedd llo ieuangc, yr hwn a fu farw am nad oedd ganddynt laeth i'w roddi iddo. Cymmerwyd eidion gwerth 2p. 6s. 8c. oddi ar un Dafydd John, yn sir Faesyfed, am beidio talu 5s. 2c. o ddegwm; ac yn yr un lle dirwywyd un ar ddeg o bersonau i 9s. yr un am beidio myned i'r llan ar y Sul; a chan eu bod yn gwrthod talu, cymmerwyd gwerth 18p. 3s. 8c. o eiddo oddi arnynt. Rhuthrodd y milwyr ar eu gwarthaf yn sir Feirionydd. Cawsant hyd i rai o honynt yn eu cyfarfodydd. Daliwyd eraill yn eu gwelyau, a hyrddiwyd hwynt ganol nos i'r Bala i sefyll eu prawf; a gyrwyd 660 o'u hanifeiliaid i'r un lle i gael eu gwerthu. Anfonwyd 23 o sir Drefaldwyn i garchar am wrthod cymmeryd y llw yn yr un flwyddyn. Rhoddwn yma engraifft o'r cyfarwyddiadau a roddid i'r mân ustusiaid a'r cwnstabliaid am y modd yr oeddent i'w trin:—

"At Ynadon Cyffredin N——. Anerch.

"Yn rhinwedd yr wyseb a anfonwyd i mi gan ynadon y sir hon, i beri fod gwyliadwriaeth briodol i gael ei chadw yn eich plwyf yn gystal y nos a'r dydd, a bod i'r gwylwyr gymeryd gofal na byddo i neb o'r bobl hyny a elwir Crynwyr neu Ailfedyddwyr gael eu goddef i fyned a dyfod o'r naill blwyf i'r llall, neu ymgasglu yn nghyd i un capel, a bod i chwi ofalu cymeryd i fynu bob dieithriaid eraill fyddo yn myned heibio'r wyliadwriaeth a'u dwyn o flaen yr ynadon i'w holi, a bod i chwi gymmeryd gofal neillduol i gadw'r holl Grynwyr yn ddiogel yn eich plwyf hyd nes y cewch glywed ymhellach; gwyliwch ar eich perygl rhag methu o honoch wneuthur hyn. Arwyddwyd yn yr uchel lys Chwefror 2, 1660."

Dranoeth wedi cyhoeddiad y gorchymyn yna, rhoddwyd 40 yngharchar Caerdydd *am ddim ond am fod yn Grynwyr.* Yr oedd y carcharu lawn cynddrwg ym Maesyfed a Meirionydd. Cauwyd saith i fynu am ddeng wythnos yn Nolgellau, mewn cwt mochyn, am nad oedd le yn y carchar. Heb law bod y lle yn wael, yr oedd y moch yn

cadw y fath dwrf bob nos y tu allan i'r muriau, o herwydd colli eu lletty, fel yr oedd cysgu allan o'r pwngc. Cymmerwyd tri ar ddeg i fynu ar y ffordd pan yn myned i'r addoliad, a chadwyd hwy yn y carchar dros ddwy flynedd a hanner am wrthod cymmeryd y llw. Yr un flwyddyn rhoddwyd pedwar ar ddeg yngharchar Dinbych am yr un trosedd, a chadwyd hwy am fisoedd ynghyntedd y carchar heb ddim ond ychydig wellt i orwedd arno, na chysgod o fath yn y byd wrth eu penau. Ym Mehefin yr un flwyddyn, ychwanegwyd un William Gibbon at eu nifer. Cedwid ef mor gaeth fel na chaniateid i neb ddyfod a bwyd iddo; a phan ddaliwyd ef yn cymmeryd i fynu wrth raff ryw damaid a ddygai cyfeillion oddi allan iddo, curwyd ef mor greulon nes tori ei esgyrn, a gadawyd ef yno am fisoedd i hanner pydru. Pan oedd cwnstabl o Ddinbych yn dychwelyd adref drwy yr Amwythig, troes i fewn i un o gyfarfodydd y Cyfeillion; ac er mwyn cael cwmni adref, cymmerodd Thomas Moon gerfydd ei goler o'r cyfarfod, a gosododd ef gyd â Gibbon yngharchar Dinbych. Ym mis Awst, carcharwyd Lewis Dafydd a Susan ei wraig, James ac Alice Lewis, E. John a W. Thomas o Landdewy, yn sir Benfro, am beidio rhoddi sicrwydd i'r ynadon nad aent i ychwaneg o gyfarfodydd. Taflwyd deg arall atynt ymhen ychydig o ddyddiau, a chadwyd hwynt yno i gyd ddeunaw mis, dau auaf, heb weled tân o gwbl, nes o dan effaith yr oerni yr oedd eu haelodau wedi rhewi, ac yn dechrau pydru pan ddaethant allan; a phan ddygwyd hwy i gael eu profi, gollyngwyd hwy yn ddigosp. Ar yr 21fed o Fedi, dirwywyd W. a Sarah Bateman, James Jones, Henry ac Elizabeth Relief, Morgan a Joane Eynon, i 5p. yr un; ond gan nad oedd ganddynt fodd i dalu, taflwyd hwy oll i garchar Hwlffordd. Ar yr un adeg rhoddwyd Morgan Thomas yngharchar Caerfyrddin am yr un trosedd.

Pan fyddai y carcharau yn rhy lawnion, neu yn rhy bell, curid hwy yn y dull mwyaf barbaraidd. Felly y gwnaed â John Humphrey a Humphrey Williams yng Nghaerfyrddin, ac â Lewis a Gryffydd Morgan yn Ninbych y Pysgod. Yn y flwyddyn 1662, taflwyd James Picton i garchar Caerfyrddin, lle y bu am rai blynyddoedd; ac ymhen deng mlynedd, carcharwyd ef drachefn, lle y bu heb gael un math o brawf am ddeng mlynedd. Cymmerid hwynt yn lluoedd o sir Drefaldwyn i garchar yr Amwythig; a charcharwyd dau o wŷr blaenaf yr Amwythig, Overton a Poyner, am eu noddi, ac am gadw eu siopau yn agored ar ddydd Nadolig. Anfonwyd William Davies a Philip Williams, Talgarth, i'r carchar am feiddio claddu eu meirw yn eu mynwentydd eu hunain; a bygythiai Lewis Morgan, yr offeiriad, godi y cyrph er mwyn iddo ef gael darllen uwch eu penau. Cynhygiodd amryw o honynt gladdu eu meirw yn ddirgel ym mynwent y plwyf; ond mynai yr offeiriad godi y cyrph hyny, yn lle eu bod yn halogi y fynwent, a gorfodid hwynt i'w claddu ar y croesffyrdd. Rhoddwn yma engraifft o'r dull y dirwyid hwynt:—Cymmerwyd ceffyl W. Thomas, Llanddewy, oddi tano, a phadell bres o'r tŷ oddi ar y wraig. Dirwywyd un Lewis Dafydd, oedd yn byw ar y terfyn rhwng sir Benfro a Chaerfyrddin, i 25p. dros y naill sir a 36p. dros y llall, am mae yn debyg fod ganddo dir yn y ddwy sir. Cymmerwyd gwerth 55p. o anifeiliaid Cadwaladr Thomas, Bala; ac yn 1674, taflwyd yntau i garchar Dolgellau am beidio myned i'r llan, a thröwyd ef o'i dyddyn. Cymmerwyd gwerth 15p. o anifeiliaid Elizabeth Williams; gwerth 26p. o wartheg John Thomas, Narberth; a gwerth 9p. 6s. oddi ar wraig weddw a'i henw Margaret Philips, o'r un lle. Cymmerwyd hefyd ddillad gwely Thomas Davies a Littler Thomas, fel nad oedd ganddynt ddim i'w osod yn orchudd drostynt yn y nos. Nid yw yr engreifftiau hyn ond ychydig o'r lleng a allem nodi. Pan roddodd Siarl II. ychydig seibiant iddynt, trwy liniaru ychydig ar y deddfau oedd wedi cael eu llunio yn eu herbyn, daeth cannoedd allan o'u carcharau, llawer o honynt wedi bod yn gaeth am flynyddoedd, heb gael eu dwyn i brawf. Yr oedd deuddeg yn myned allan yr un dydd o garchar yr Amwythig, wedi bod yno o bump i ddeng mlynedd. Ymddangosent fel yn gwywo, a chnawd rhai o honynt yn dechrau pydru, a bu llawer o honynt farw yn y carcharau. Yr oedd pedwar ar bymtheg o honynt o flaen yr ynadon yr un diwrnod, yn sir Faesyfed, am wrthod talu y degwm, a chyrhaeddai swm y dirwyon a osodwyd arnynt i 93p. 5s. 5c. Yn yr un sir, ac yn agos yr un adeg, cymmerwyd cynnulleidfa gyfan, pan ar ganol y gwasanaeth, i'r carchar. Yr oedd pob lle y gellid gwneud carchar o hono yn sir Aberteifi, Tregaron, Llanbadarnfawr, a Llanbedr, yn llawn o Grynwyr. Yn 1683, yng Nghaernarfon, carcharwyd Evan Morris am wrthod cymmeryd llw o ffyddlondeb; ac yr oeddent yn Bristol yn unig, erbyn diwedd y flwyddyn hon, wedi talu 16,440p.

Digitized by Google

o ddirwyon am wrthod cymmeryd eu llw, peidio tynu eu hetiau, na thalu degwm i'r offeiriaid.

Wedi i'r Crynwyr fod fel hyn ym mreichiau erledigaeth a gorthrymder dibaid am o ddeutu 35 mlynedd, pryd yr oeddent wedi llwyddo a myned yn genedl gref, fel yr Israeliaid yn yr Aipht, wele ollyngdod ac ymwared yn agor o'u blaen o ddau gyfeiriad yr un pryd—goddefiad trwyadl yn eu gwlad eu hunain, a rheolaeth un o daleithiau America, Pennsylfania yn cael ei ymddiried i un o'u brodyr ffyddlonaf, sef yr enwog William Penn. Anfonasant anerchiad i Iago II., yn 1685, ar ei esgyniad i'r orsedd, fel y canlyn:—"Dywedir i ni nad wyt ti dy hun yn credu, mwy na ninnau, yn Eglwys Loegr; am hyny, attolygwn arnat ganiatâu i ni yr un rhyddid ag a fwynhai dy hun." Y canlyniad fu, er mwyn i'r Pabyddion gael rhyddid, i ganiatâd gael ei gyhoeddi i bawb i addoli Duw fel y mynnent. Ac fel y gorchymyna yr Apostol, ar fater arall, am gymmeryd beth bynag a osodir o'n blaen, heb holi yn ei gylch, felly cymmerodd y Crynwyr afael yn y datganiad hwn o eiddo y brenin, heb holi dim am amcan ei gyhoeddiad, a dychwelasant eu dïolchgarwch i Dduw am gael byw i weled brenin ar orsedd Lloegr yn cyhoeddi yr egwyddor fendigedig o "ryddid cydwybod" mewn crefydd. Ceir llawer o oleuni ar helyntion y cyfnod hwn yn y pennodau bywgraphyddol a hanesyddol sydd yn canlyn.

---

## PENNOD III.

### UNDODIAETH: EI DADBLYGIADAU A'I DULLWEDDAU.

Y mae bron mor hawdd dilyn y Nilus i'w tharddiad ag olrhain Undodiaeth yn ol i'w dechreuad; a chan mai cyfundrefn nacaol ydyw, hawddach dweyd beth nad yw na pheth ydyw. Perthyn iddi gynnifer o bleidiau, dan wahanol enwau, mor amrywiol eu credoau fel y mae yn anhawdd penderfynu pwy a olygir wrth Undodiaid, na deall beth yw erthyclau eu ffydd. Amrywiant yn eu credoau oddi wrth syniadau ymarferol Fuller hyd resymoliaeth oer Hume, a chymmerant i mewn Drochwyr a Thaenellwyr, Trefnyddion ac Annibynwyr. Yn eu tro, gelwir y Sabeliaid, yr Ariaid, y Pelagiaid, yr Arminiaid, y Sosiniaid, y Campbeliaid, y Disgyblion Cristionogol, y Cyfundeb Cristionogol, yr Hickiaid neu y Crynwyr Undodaidd, y Rhyddfrydwyr Ffrangcaidd, y Rhesymolwyr Germanaidd, yr Undduwiaid, y Brodyr Cristionogol, a'r Adferiadwyr, yn Undodiaid, er y byddai Dyndodiaid neu Resymoliaid yn enw lawn mor ddisgrifiadol o honynt.

Y mae Undodiaeth yn hen. Yr oedd rhyw olygiadau nacaol am berson Crist yn dechrau ymddangos yn yr eglwys yn nyddiau yr apostolion: haerai un blaid nad oedd yn ddŷn, a'r llall nad oedd yn Dduw. Mewn trefn, gan hyny, i gael golwg iawn ar Undodiaeth yng Nghymru, rhaid olrhain ychydig ar ddadblygiad y golygiadau nacaol hyn, yn gystal yn yr oesoedd hen a diweddar.

Gŵyr y darllenydd yn dda mor barod yw dŷn i redeg o un eithafion i'r llall gyd â phob peth; ond nid yw yn fwy felly gyd â dim na chyd â'i grefydd. Nid yw yr holl bleidiau newyddion sydd yn dyfod i hanfod o dro i dro yn ddim ond gwrthergydion (*reactions*) rhyw egwyddor neu athrawiaeth fyddo wedi cael ei gorweithio yn flaenorol; ac fel yr oedd Undodiaeth foreuol yn eithafion cyferbyniol i Baganiaeth, felly y mae Undodiaeth ddiweddar yn eithafion cyferbyniol i Babyddiaeth. Pan fyddai Paganiaid eulunaddolgar yn troi at Gristionogaeth, nid oedd ond naturiol i bobl oleuedig, y rhai oedd wedi canfod trueni Paganiaeth, a ffolineb eu duwiau gau, ofni iddynt lusgo rhai o'u hen syniadau i'w canlyn. Nodwedd fawr crefyddau y Dwyrain oedd penbleth am Dduw: gwneud Duw o bob peth, pren, maen, aur, ac arian, gwaith dwylaw dŷn, a throi gogoniant yr anllygredig Dduw i lun dŷn llygredig, ehediaid, anifeiliaid pedwar carnol, ac ymlusgiaid. Nid oedd rif ar eu duwiau; a'r canlyniad oedd i Sabelius ac Arius redeg i eithafion cyferbyniol er amddiffyn unoliaeth hanfod Duw. Nodwedd Derwyddiaeth y Gorllewin oedd penbleth ynghylch dŷn: edrychai arno fel creadur diwerth, didda, a diallu; a'r canlyniad oedd i Pelagius, neu Morgan, redeg i eithafion cyferbyniol i'w ddyrchafu, a gwelir bod ei ddadl ef yn troi o gylch cyflwr, gallu, a gwaith dŷn.

#### SABELIAETH.

O ddeutu y flwyddyn 255, dechreuodd Sabelius, athronydd Cristionogol yn yr Aipht, ddysgu yn gyhoeddus nad oedd ond un person yn y Duwdod, ac nad yw yr enwau Tad, Mab, ac Yspryd Glân yn ddim ond enwau i ddynodi gwahanol gymmeriadau Duw; mai fel Tad y rhoddodd y ddeddf ar Sina, mai fel Mab y preswyliodd gyd â dynion, ac mai fel Yspryd Glân y cyflawnodd Efe yr apostol-

Digitized by Google

ion â nerth o'r uchelder. Dysgai nad oedd y Mab a'r Yspryd Glân yn ddim ond priodoleddau perthynol i Dduw, fel y perthyna goleuni a gwres i'r haul. Dywed Mosheim ei fod yn dysgu mai uniad rhyw nerth neillduol o eiddo Duw, fel Tad cyffredinol, â'r dŷn Crist Iesu oedd y person a elwid Mab, ac mai nerth deilliedig oddi wrtho, yn yr un ystyr, yw yr Yspryd Glân. Ym mysg coleddwyr diweddar y syniadau hyn, gellir enwi y Dr. Watts a'r Dr. Doddridge, fel y rhai mwyaf adnabyddus; a chredodd y Methodistiaid Calfinaidd eu bod yn gweled Sabeliaeth yn sylwadau y Parch. Peter Williams ar y bennod gyntaf o efengyl Ioan, a manau eraill, o ba herwydd erlidiasant ef yn ddibaid am ugain mlynedd. Yn y diwedd, diarddelasant ef pan yn ddeng mlwydd a thriugain oed, a chauasant eu capeli yn ei erbyn, llawer o'r rhai yr oedd efe wedi bod y prif offeryn i'w codi.

### ARIAETH.

Yr oedd llawer o erlid a chondemnio wedi bod, o bryd i bryd, ar Sabeliaeth; ond o blegid mai personau unigol ac eglwysi diawdurdod oedd y condemnwyr a'r erlidwyr, ni theimlai y condemniedig fawr oddi wrthynt, ac ni aflonyddwyd fawr ar heddwch yr eglwysi; o herwydd hyd yma yr oedd pob eglwys yn rhydd ac annibynol, fel nad oedd yr hyn a aflonyddai y naill ddim o angenrhaid yn aflonyddu ei chymmydoges.

Ond yn 315, ymhen o ddeutu tair blynedd ar ol cyssylltu crefydd â'r wladwriaeth, dechreuodd Arius, henuriad yn yr eglwys yn Alexandria, hen gartrefle eulunaddoliaeth, ddysgu yn gyhoeddus nad oedd y Mab yn ogyfuwch a'r Tad, eithr mai efe oedd y bod crëedig cyntaf ac ardderchocaf; mai drwyddo ef, fel goruchwyliwr, yr oedd pob peth wedi cael ei hanfod, a'i fod ef, fel y cyfryw, nid yn unig yn is na'r Tad o ran hanfod, ond hefyd yn gwbl wahaniaethol oddi wrtho. Cydnabyddai mai y Mab oedd y Gair, ond gwadai ei fod yn dragywyddol; etto yn bôd cyn pob creadur arall. Credai fod ganddo gorph dynol; ond gwadai fod ganddo enaid fel dŷn, eithr bod y *Logos*, wedi ymuno â chnawd, yn gwasanaethu swydd enaid. Ystyriai fod yr adnodau hyn yn brofion digonol o'i raghanfodiad, "Cyn bod Abraham yr wyf fi," "A'r gogoniant oedd i mi gyd â thi cyn bod y byd." Ac yn ol graddau yr urddas a briodola ei ganlynwyr i berson Crist cyn ei ymgnawdoliad, y maent yn ymranu i Ariaeth uchel ac isel. Yn 320, ysgymmunwyd Arius gan Alexander, esgob yr eglwys lle yr oedd efe yn aelod, am ddysgu cyfeiliornad. Yr oedd awdurdod wladol yn awr y tu cefn i'r eglwys. Aeth yntau ym mlaen ar ei daith tu a'r Dwyrain, lle y derbyniwyd ef yn garedig, ac y cofleidiwyd ei olygiadau gan lawer o wŷr dysgedig a pharchus, un o'r rhai oedd Eusebius, esgob Nicomedia, gŵr o fri ac awdurdod yn yr eglwys yn yr oes honno.

Wrth weled mawr lwyddiant Ariaeth, galwodd Cystenyn Fawr, yn 325, gymmanfa o holl esgobion y byd Cristionogol i gyfarfod yn Nicea,* prif ddinas Bithynia, er bwrw eu penau ynghyd beth a ellid wneud er attal golygiadau Arius i gymmeryd meddiant o'r holl ymerodraeth. Cydsyniodd 318 o esgobion â'r gwahoddiad, ym mysg y rhai, meddir, yr oedd amryw o Brydain; a buont yn eistedd o'r 19ydd Mehefin hyd y 25med o Awst, pryd y cyttunasant gyd â chryn unfrydedd "Fod y Mab yn y Tad, a'r ddau yn un o ran hanfod;" ac wrth reswm ysgymmunwyd Arius yr ail waith. Ymhen rhyw hyd ar ol hyn, tynwyd allan ffurf o "gyffes ffydd," neu gredo; eithr nid oes neb yn gwybod pa bryd na chan bwy, ond ymddengys ei bod yn gorpholiad o syniadau y gymmanfa honno, a hyny yn y termau mwyaf pendant. Gelwir hi yn y Llyfr Gweddi "Credo St. Athanasius," am mae yn debyg mai efe oedd cadeirydd y gymmanfa, a phrif wrthwynebydd Arius.

Y mae'r "gyffes" hon wedi hen fyned allan o'r ffasiwn, ac yn gas gan y rhai mwyaf ystyriol a goleuedig o'r Eglwyswyr eu hunain. Cwynai yr Archesgob Tillotson, wrth ysgrifenu at Burnet, "ei fod yn arw o beth na cheid gwared o honi, yn lle ei bod yn eu llethu fel corph y farwolaeth." A chaniatâu ei bod yn gywir o ran syniadau am berson Crist, y mae ei thermau bygythiol ac ysgymmunol yn hollol anheilwng o'i yspryd a'i egwyddorion Ef. Ai nid yw yn llawn bryd iddi hi a'i chwïorydd ieuengach gael eu hail doddi?†

Ond yn lle bod yn attalfa ar ffordd lledaeniad yr athrawiaeth newydd, bu gwaith y gymmanfa yn ysgymmuno Arius yn fanteisiol i'w llwyddiant, a chymmerodd afael lled gyffredinol yn y Dwyrain. Pan welodd yr ymerawdwr hyny, diddymodd y deddfau a luniasai yn ei herbyn, alltudiodd Athanasius i Ffraingc, a galwodd Arius yn ol i'w swydd; ond gwrthododd eglwys Alexandria ei dderbyn yn ei ol. Yn wyneb hyny, gwahoddodd yr ymerawdwr ef ato ei hun i Gaer-

* Mosheim's Ecclesiastical History; Usher de Eccles. Brit.

† Usher de Eccles. Brit.; Cressy's Church History.

Digitized by Google

cystenyn; ond bu farw cyn cyrraedd pen ei daith, a'r gred yw mai ei lofruddio a gafodd gan ei wrthwynebwyr. Ond er marw o Arius, bu ei athrawiaeth byw, ac ymledodd yn gyflym drwy y Dwyrain a'r Gorllewin, nes oedd yr esgobion wedi myned yn rhanedig, a'r naill yn ysgymmuno y llall yn ddibaid. Wedi marw o Gystenyn, galwodd ei feibion gymmanfa o esgobion i Sardis, yn Thracia, er mwyn cynllunio pa fodd i gadw yr eglwysi mewn heddwch drwy yr ymerodraeth. I'r gynhadledd honno daeth 376 o esgobion, ym mysg y rhai enwir Rhystyd, esgob Llundain, ac amryw Brydeinwyr eraill, y rhai, fel yr ymddengys, oedd yn gynnadleddwyr mawrion. Cadarnhawyd holl benderfyniadau cynhadledd Nicea, condemniwyd yr Ariaid, a galwyd Athanasius yn ei ol; ond yr oedd Ariaeth wedi gwreiddio yn rhy ddwfn i roddi ffordd o flaen y fath fesurau plentynaidd. Yr oedd Constantius yn ffafriol i Arius, ac wedi marw ei frawd, galwodd gymmanfa arall i gyfarfod yn Arminium, yn yr Ital, i'r hon, drwy fod yr ymerawdwr, er sicrhau cynnulliad da, wedi addaw dwyn yr holl dreuliau, y daeth dros 400 o esgobion. Cynnygiodd yr Ariaid, er mwyn dyfod i heddwch, ddiddymu yr hen gredoau dadleugar blaenorol i gyd; y cymmerent hwy gredo syml, rhydd oddi wrth bob pwynt dadleugar, â'r hwn y gallai y ddwy blaid gyttuno; y boddlonent hwy ar ddweyd fod y Mab ymhob peth yn debyg i'r Tad, ond peidio dweyd, fel ynghymmanfa Nicea, ei fod o'r un sylwedd a hanfod a'r Tad. Gwrthododd esgobion y Gorllewin gydsynio â'r fath ammod mwys, ac anfonasant i ofyn i'r ymerawdwr adael iddynt gredu fel y mynnent, a myned adref at eu pobl. Ennillodd yr ymerawdwr y cenhadau i gredu nad oedd dim gwahaniaeth rhwng y ddwy blaid, yn unig eu bod yn methu deall geiriau eu gilydd; fod y gair "sylwedd," neu "hanfod," yn aneglur, ac nad oedd yn golygu dim mwy na bod y Mab yn debyg i'r Tad. Yna gorchymynodd iddynt fyned yn eu hol at eu cydesgobion, ac arfer eu dylanwad i'w hennill i gredu yr un peth.* Ar yr un pryd, rhoddodd orchymyn i'r swyddogion gwladol i wylio pyrth y ddinas, a pheidio gadael i'r un esgob ymadael nes y byddent oll wedi eu hennill i gredu yr athrawiaeth Ariaidd; ac yno y buont dan warchau am saith mis cyn ymostwng. Ond ni chafwyd erioed well engraifft o'r llinellau hyny:—

"Convince a man against his will,
He 's of the same opinion still."

* Locale's Church History; Cave's Lives.

Canys nid oeddynt ond prin wedi cyrraedd adref, nad oeddynt yn cyhoeddi ar ben pob heol drwy y Gorllewin eu hymlyniad llwyraf wrth gyffes ffydd Nicea,† ac yn condemnio Ariaeth yn y termau mwyaf pendant. Ond er yr holl ysgymmuno, y cynghorau, a'r cymmanfaoedd, llwyddodd yr athrawiaeth drwy'r Gorllewin yn gyffredinol, ac yn neillduol drwy Brydain i gyd.‡

### PELAGIAETH, NEU MORGANIAETH.§

Pan oedd y galluoedd gwladol yn ymgodymu âg Ariaeth, a'r llysoedd eglwysig anffaeledig (?) yn ysgymmuno coleddwyr yr athrawiaeth, dechreuodd Pelagius, Morgan neu Morien, gŵr genedigol, meddir, o Fangor is y Coed, yn swydd Flint, ddysgu athrawiaethau hollol groes i gredo awdurdodedig yr eglwys. Cynnwysai ei gredo y deuddeg adran canlynol:—

"1. Fod Adda wedi ei greu yn farwol, ac y buasai marw pe heb bechu.

"2. Nad oedd pechod Adda yn perthyn o gwbl i'w hiliogaeth.

"3. Fod y ddeddf yn alluog i gymhwyso dŷn i'r nefoedd, yn gystal a'r efengyl.

"4. Fod dynion, cyn dyfodiad Crist, yn gallu byw yn ddibechod.

"5. Fod babanod yn yr un cyflwr ag Adda cyn y cwymp.

"6. Nid pechod Adda a ddygodd angau i'r byd, ac nid yn rhinwedd angau Crist yr adgyfodir y meirw.

"7. Y gall dŷn, drwy ymdrechu, gadw ei hun mewn cyflwr o ddiniweidrwydd pur.

"8. Nas gall cyfoethogion fyned i'r nefoedd heb ymadael â'u meddiannau.

"9. Fod rhyddid ewyllys a gwybodaeth o ddyledswydd yn ddigon o gymmorth i ddŷn i fyw yn dduwiol.

"10. Fod Duw yn cyfranu ei ras yn ol fel y byddo dŷn yn haeddu.

"11. Nad oes neb yn blentyn i Dduw nes y byddo yn berffaith rydd oddi wrth bechod.

"12. Mai rhyddid ewyllys, ac nid cymmorth Duw, sydd yn rhoddi i ddŷn fuddugoliaeth ar bechod."

Yr oedd Morgan, cyn gwneud ei olygiadau yn hyspys, yn sefyll yn uchel ym marn esgobion y wlad, a pherchid ef yn neillduol gan Jerome ac Awstin ar gyfrif ei ddysg a'i dduwioldeb; ond pan ddeallasant ei fod yn gwahaniaethu oddi wrthynt mewn barn, aethant yn eithafol yn ei erbyn, a dirmygent ef yn gorphorol a meddyliol. Yr oedd Celestius, ei gydymaith a'i ddisgybl ffyddlon, yn ddŷn dysgedig, yn awdur coeth a galluog; ond geilw Jerome uniongred ei feirniadaeth ar ei esponiad ef ar yr Ephesiaid yn waith ynfytyn pendew, bol yr hwn oedd wedi chwyddo wrth yfed cawl ysgolaidd; ei anferth, cymhwysach i gicio

† Cave's Lives.
‡ Stillingfleet's Orig. Brit; Gildas; Peter, Crefydd yng Nghymru.
§ Cambrian Biography.

Digitized by Google

na brathu; ufferngi, pen yr hwn y dylid ei daro wrth ben ei feistr, nes gosod taw bythol arnynt. Bu o flaen cynghorau, cymmanfaoedd, a chynnadleddau. Condemnid ei olygiadau gan rai, a chanmolid hwynt gan eraill. Barnai un gymmanfa ei fod yn cyfeiliorni; cyhoeddai un arall ef yn uniongred. Cofleidiodd esgob anffaeledig Rhufain ei olygiadau unwaith; ond anghredodd yr un gŵr anffaeledig hwynt pan glywodd Awstin yn dadleu yn eu herbyn, a thrinodd Morgan a'i ganlynwyr gyd â chreulondeb a dygasedd digymmysg. Ac er na ddychwelodd efe yn ei ol o'r Dwyrain, lledodd ei olygiadau yn gyflym drwy yr holl wlad, fel y bu raid anfon i Ffraingc am gymmorth i attal y llifeiriant, ac i amddiffyn y gwirionedd! Daeth dau esgob drosodd, Garmon a Lupus, y rhai, drwy eu doniau, a lwyddasant i gael gan lawer adael athrawiaeth Morgan, a glynu wrth athrawiaethau awdurdodedig yr eglwys. Galwodd y Morganiaid gymmanfa yn Verulam i amddiffyn eu hegwyddorion; ond golchodd ffrydlif doniau y ddau esgob bob peth o'u blaen yno. Cyn i'r dadleuon na'r dadleuwyr gael amser i ail ymunioni, ymdaenodd nos du y Babaeth dros ben yr eglwys, a bu'n cysgu yn dawel am ddeg cant o flynyddoedd o dan gwrlid tew anwybodaeth, fel nad oedd gwahaniaeth rhwng Cristionogaeth a Phaganiaeth, ond mewn enw yn unig.

Pan dorodd gwawr y Diwygiad ar nos dywyll y canol oesoedd, agorwyd y Bibl o flaen llygaid y byd, yr hwn yn flaenorol oedd yn seliedig i bawb, oddigerth ychydig o ddysgedigion; a gwelwyd yn fuan flagur bywyd ar bob llaw, fel rhagarwyddion fod haf wrth y drws. Yr oedd Rhagluniaeth wedi trefnu fod i ddau fynach Pabaidd, Copernicus a Luther, y rhai y mae yn debyg oedd yn Rhufain yr un amser, greu chwyldroad yn y byd meddyliol, y naill ynghylch y cyrph nefol, a'r llall ynghylch y nefoedd ei hun. Wedi tori y cadwynau oedd yn dal yr eglwys yn gaeth-forwyn i'r Pab, troes pob dŷn ei lygaid at gydwybod a gair Duw; ac fel y dŷn dall gynt yn cael ei olwg, yr oeddynt yn dyfod yn araf i weled pethau yn eglur. Yr oedd pawb yn gweled yn ddigon eglur fod Eglwys Rhufain wedi myned yn bob peth ond cartref rhinwedd a sancteiddrwydd; ond yr oedd llawer o bobl dda yn methu cydweled yn eglur pa fodd i'w diwygio. Barnai rhai mai doeth oedd bod yn araf, o ba herwydd bu llawer o'r diwygwyr farw, gan adael eu gwaith ar ei hanner, ac ar ei hanner y mae wedi aros byth; ac fel y dywedodd Milton, "Y mae gwaith mawr etto yn aros i gael ei wneud yn yr eglwys; oes, y mae eisiau diwygo y Diwygiad ei hun." Fel yr oedd pobl oleuedig yn y canrifoedd cyntaf yn ofni i weddillion Paganiaeth ymlusgo i'r eglwys Gristionogol, felly ofnai llawer yr amser hwn i weddillion Pabyddiaeth aros yn yr eglwys Brotestanaidd. Yr oeddynt wedi arfer edrych gyd â dirmyg ar y Pabyddion yn talu addoliad i bob peth gwaelach na'u gilydd; pob math ar ddelwau, seintiau, a chreiriau, y rhai a ganfyddid ar ben pob heol. Un o brif gynhyrfiadau y Diwygiad oedd dryllio a symmud y delwau ("*Iconoclasm;*") o ba herwydd yr oeddynt yn ofni son am Drindod, rhag bod yn y gair ryw gefnogaeth yn cael ei roddi i'r eulundduwiaeth, nes, yn eu hawydd am gadw yr hen efrau i lawr, diwreiddiasant lawer o wenith. Buasai yn hawddach gan y Diwygwyr, hen a diweddar, gredu nad oedd Duw o gwbl na chredu fod y gwrthrychau dirmygus a gydnabyddid gan y Paganiaid a'r Pabyddion yn dduwiau; ac y mae ffolinebau Pabyddiaeth wedi gyru llawer yn yr oes hon i ddirmygu Cristionogaeth.

Tybir bod y teimlad hwn yn amlwg yngweithiau Calfin a Luther. Dywedai y naill nad oedd yn hoffi y dull sathredig oedd ganddynt i weddïo, "Y Drindod sanctaidd, un Duw, bydd drugarog wrthym;" y carai gael gwared o'r fath dermau, nid yn unig am eu bod yn ddichwaeth, eithr am fod rhyw sawr Barbaraidd arnynt. Dywedai y llall nad oedd y gair "Trindod" i'w gael yn y Bibl; mai term o ddynol ddyfeisiad ydoedd; ei fod yn swnio yn oerllyd, ac y byddai y gair syml "Duw" lawer yn well na "Trindod." Fel hyn ymddadblygodd yr athrawiaethau nacaol yn gyfochrog â'r Diwygiad, ym mron yn yr un ffurf ag yr aethant o'r golwg yn nhywyllwch y Babaeth, ddeg can mlynedd cyn hyny, a chymmerodd llawer o'r rhai a gydnabyddir yn Undodiaid ran bwysig ym mrwydrau rhyddid. Yn yr Almaen (Germania), gellir enwi Capito, Cellarius, a Denk; yn yr Iseldiroedd, Campanus ac Arminius; yn yr Ital, Socini, Gribaldus, a Gentilis; a dywed un awdur fod yr Ariaid, yn 1555, fel locustiaid yn llanw eglwysi Poland. Yn 1570, diarddelwyd hwynt o bob eglwys drwy y wlad, ac ymunodd y Pabyddion, y Jesuitiaid, a'r Protestaniaid i'w gorthrymu ymhob dull; ond er gwaethaf yr erlid a'r gorthrwm, bu Undodiaeth yn flodeuog iawn yn Poland o'r flwyddyn 1585 hyd tu a 1640; a'r hyn oedd Racow, a'i phrif ysgol, yr amser hwnw

i Undodiaeth y Cyfandir, yw Llandysul, a choleg Caerfyrddin, i Undodiaeth Cymru y dyddiau hyn. O'r amser hwn ym mlaen, nid yw eu hanes ond un erledigaeth ddidor; amddifadid hwy o freintiau dinasyddion, dinystrid eu meddiannau, a llosgid eu haddoldai i'r llawr. Tyngodd y brenin John, yn enw y Forwyn Fair, y glanhai y wlad o bob anghrediniwr; a chan ei fod yn methu eu dychwelyd i fynwes yr eglwys, penderfynodd eu halltudio i gyd o'r wlad. Yr oedd eu gweled yn cychwyn yn olygfa ddifrifol—henafgwyr patriarchaidd, a'u gwallt gwyn yn crogi dros eu hysgwyddau; mamau tyner-galon, yn cario eu babanod yn eu mynwesau; plant chwareugar yn cefnu ar y wlad lle y ganesid hwynt, gan adael o'u hol y gwinllanoedd addfed, y maesydd gwynion, ïe, gwlad beddrod eu tadau, a phob peth oedd ynddi yn gyssegredig iddynt, yn hytrach na rhoddi i fynu yr egwyddorion a broffesent.

Bu Undodiaeth yn flodeuog yn Hungary, a thrwy i'r tywysog Sigusmund gofleidio y syniadau Undodaidd, cawsant eu cydnabod ar yr un tir a'r pleidiau eraill, Pabyddion, Lutheriaid, a'r Eglwys Efengylaidd Diwygiedig; ac ni feiddiai y naill ymyryd â rhyddid a heddwch y llall, yr hyn na chydnabyddwyd mewn un wlad arall yn Ewrop (?) Yn 1539, llosgwyd Catharine Vogel yn 80 mlwydd oed, gwraig i un o brif ddinasyddion Racow, am iddi ddweyd nad oedd y Mab yn Dduw; yn 1546, llosgwyd Stephen Dolet, yn Paris, gŵr ieuangc 37 oed, mab ordderch i Francis I., am ei fod yn dal golygiadau Servetus am berson Crist; ac yn Constance, yn Switzerland, llosgwyd Lewis Hetzer yn 1539 am ei fod wedi ysgrifenu traethawd yn erbyn athrawiaeth y Drindod.

Y mae'r Hispaen yn enwog am ei Hundodiaeth, fel gwlad genedigaeth Michael Servetus, yr hwn, yn 1553, a losgwyd yn fyw yn Geneva, cartref rhyddid (?), o herwydd iddo ysgrifenu yn erbyn Trindodiaeth. Y mae Calfin yn cael ei ddal yn gyfrifol am y weithred hon gan y rhan fwyaf o haneswyr; ac y mae'r rhan arall yn methu rhoddi ond esgusodion hynod ddiafael dros ei ymddygiad tu ag ato. Yr oedd y ddau yn hen gyfeillion, wedi bod yn gydefrydwyr yn Paris, wedi arfer ymgomio a dadleu ynghylch yr athrawiaeth Undodaidd; a pharhasant i ohebu yn gyfeillgar â'u gilydd am 16 mlynedd wedi ymadael â'r athrofa, y naill yn ceisio ennill y llall i'w olygiadau ei hun. Cyhyd ag yr oedd y ddau yn cael eu herlid, yr oeddynt yn gyfeillion, er yn gwahaniaethu mewn barn; ond pan drodd y frwydr o du y Diwygiad yn Switzerland, ymchwyddodd Calfin gymmaint nes yr oedd yn amlwg, er nad oedd yn dweyd hyny yn gyhoeddus, ei fod yn teimlo ei hun lawn mor anffaeledig a'r Pab o Rufain. Pan welodd nad oedd gobaith plygu Servetus i'w olygiadau ei hun, dechreuodd ei erlid yn Jesuitaidd, a llwyddodd drwy ryw ystrangciau anheilwng i gael hyd i'w ysgrifeniadau, y rhai a gyflwynodd i'r awdurdodau gwladol i fod yn dystiolaeth yn ei erbyn. Y mae amryw lythyrau ar gael heddyw yn profi bod hen rag-gynllun gan Calfin i'w symmud oddiar y ffordd: hwyrach ei fod yn eiddigeddus o alluoedd Servetus. Yn 1546, dywed Calfin, mewn llythyr at ei gyfaill Farel, fod Servetus wedi ysgrifenu pethau mor annïoddefol fel, os byth y deuai i Geneva, y gwnai ei oreu nad âi oddi yno yn fyw; ac mewn llythyr arall dywedai, os byth y deuai Servetus i'w ddwylaw ef, y gofalai iddi gostio ei fywyd iddo. Dywed mewn llythyr a ysgrifenodd at benystafellydd brenin Navarre, ymhen wyth mlynedd wedi llosgi Servetus, "Uwch law pob dim, gofalwch lanhau y wlad o'r dihirod penboeth sydd yn cynhyrfu y bobl yn ein herbyn. Dylai y fath anghenfilod gael eu tori ymaith, fel y torais i Michael Servetus, yr Hispaeniad." Ysgrifenodd res o gyhuddiadau yn ei erbyn at swyddogion Lyons, lle yr oedd ar y pryd, a chrefai ar y Pabyddion arfer eu hawdurdod i'w symmud oddi ar y ffordd am ryfygu gwadu y Drindod. Carcharwyd ef yn Vienne; ond pan oedd ei brawf yn dechrau, dïangodd o'r carchar, a chan obeithio y gallai gyrraedd i'w wlad ei hun, yr Hispaen, cyfeiriodd ei gamrau tu ag yno drwy Germania, yn lle drwy Piedmont, gan obeithio y cawsai fwy o dynerwch gan Brotestaniaid y flaenaf na chan Babyddion yr olaf. Cyrhaeddodd i Geneva erbyn y nos; a phan yn y bore yn aros am gwch i groesi yr afon, clywodd Calfin ei fod yn y ddinas. Er mai bore Sabboth ydoedd, llwyddodd i gael gan yr ynadon anfon gwŷs i'w ddal, a'i daflu i garchar, pan oedd efe ei hun yn dysgu y bobl am Dywysog y Tangnefedd. Yr oedd deddfau Geneva yn gorfodi y cyhuddwr i roddi ei hun i fynu yn garcharor cyn y derbynid ei gyhuddiad yn erbyn neb, fel os methid profi y cyhuddiadau, y gellid cospi y cyhuddwr yn lle y cyhuddiedig. Gan nad oedd Calfin yn dewis myned i'r carchar ei hun, anfonodd un o'i weision â rhes o gyhuddiadau yn ei erbyn. Cyhuddid ef, ym mysg pethau eraill, o ddweyd mai gwlad ddiffrwyth oedd Palestina; ei

Digitized by Google

fod, pan yn cynnorthwyo argraphu y Bibl yn Lyons, wedi gosod ar ymyl y dail rai nodau cyfeiliornus am Dduwdod Crist. Ond y cyhuddiad mawr, a'r hwn oedd yn rhedeg drwy yr holl brawf, oedd ei fod yn gwrthwynebu yr athrawiaeth a bregethid gan Calfin! Yr oedd Pab Geneva erbyn hyn wedi myned mor anffaeledig a'r un Pab a fu yn Rhufain erioed. Ysgrifenai at Farel ei fod yn gobeithio y condemnid Servetus i gael ei losgi; ond y gellid, fe allai, dymheru ychydig ar y ddedfryd. Attebai Farel yn efengylaidd fod Servetus wedi haeddu marw ddeng mil o weithiau, ac y byddai'r barnwyr yn greulon ac yn elynion i Iesu Grist a'i eglwys os na wnaent ef yn esampl i'r byd. Teimlai Bucer, diwygiwr mawr arall, yn sicr y dylasid tynu allan ei ymysgaroedd, a'u tori yn ddarnau mân; a chanmolai Bulinger y barnwyr am ymddwyn mor wrol i gospi hereticiaid, yr hyn a ystyriai yn tueddu yn fawr i ogoneddu Duw!

Anfonodd Servetus ddeiseb at y barnwyr am gael myned yn rhydd, gan nad oedd yr apostolion na'r eglwys gyntefig erioed wedi cospi neb am wahaniaethu mewn barn ar bwngc o athrawiaeth; nad oedd efe erioed wedi troseddu yn erbyn y deddfau gwladol; ac nad oedd erioed wedi son wrth neb am ei olygiadau, heb law wrth y dysgedigion. Gan ei fod yn ddŷn dïeithr, yn hollol anadnabyddus â deddfau ac arferion y wlad, taer ddymunodd arnynt ganiatâu iddo gael dadleuwr i'w amddiffyn; ond ni wnaed sylw o'i gais, a chymmerodd Calfin fantais ar bob cyfleusdra i gynhyrfu y barnwyr a'r bobl yn ei erbyn. Pan gyfarwyddwyd ef gan un o'r barnwyr i appelio at lys uwch, gan yr hwn y tybiai y cai fyned yn rhydd, dadleuodd Calfin yn erbyn yr appêl, a rhwystrodd ef i gael hyny. Ar y 26ed o Hydref, 1553, condemniodd y barnwyr ef i gael ei losgi y dydd canlynol, ynghyd â'i holl lyfrau ysgrifenedig. Wedi enwi rhes o'r cyhuddiadau oedd yn ei erbyn, terfyna y ddedfryd fel y canlyn:—

"Yn herwydd y pethau hyn, ac eraill o'r un natur, gan *ein bod* yn dymuno glanhau yr eglwys oddi wrth y fath haint, a thori ymaith y fath aelod pwdr, yr ydym, ar ol ymgynghori â'n deiliaid, a gofyn i Dduw ein cyfarwyddo i roddi barn gywir, gan gadw Duw a'r Ysgrythyr o flaen ein llygaid tra yn eistedd ar hen sedd ein hynafiaid, yn enw y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, yn dy gondemnio di, Michael Servetus, i gael dy rwymo, a'th gario i'r lle a elwir Champel, ac yno i gael dy sicrhau wrth bawl, a'th *losgi yn fyw*, a'th holl lyfrau ysgrifenedig ac argraphedig gyd *â thi*, nes y byddo dy gorph yn lludw; ac fel hyn cei di *derfynu* dy oes yn esampl i eraill a ddichon fod yn debyg i ti. Yr ydym yn gorchymyn i chwithau, ein rhaglaw, osod y ddedfryd hon mewn gweithrediad."

Ymwelodd Calfin âg ef ar ol ei gondemniad, a chafodd ef, fel yr oedd yn naturiol disgwyl, mewn sefyllfa gythryblus, o'r hyn y mae Calfin yn gwneud gwawd. Gofynodd Servetus iddo faddeu, os oedd efe wedi arfer geiriau caledion neu amharchus wrth ddadleu. Attebodd Calfin ei fod yn gobeithio y maddeuai Servetus iddo yntau; ei fod ef wedi gwneud ei orau i'w ennill o'i gyfeiliornadau, nes yr oedd yn y diwedd yn teimlo ei fod yn llafurio gyd âg ef yn hollol ofer. Dywed ei fod yn gwaeddi am drugaredd yn yr Hispaen, ac yn udo fel gwallgofddyn.

Bu fyw yn y tân am dros ddwy awr, yn ochain yn y modd mwyaf torcalonus, a gwaeddai allan, "O! y fath greadur truenus ydwyf! Ai nis gallent wneud digon o dân i osod terfyn ar fy mhoenau? ai nis gallasent brynu digon o goed â'r arian a gymmerasant oddi arnaf, fel ag i orphen fy llosgi yn gynt na hyn?" Heb son dim am y ffug brawf fu arno, y mae yn amlwg y gallasai Calfin beidio gosod pobl ar waith i'w ddal; gallasai beidio gwneud rhes o gyhuddiadau yn ei erbyn wedi ei ddal; gallasai arfer ei ddylanwad yn ei ffafr, a lleihau ei gospedigaeth; gallasai beidio ei ddirmygu, wedi ei gondemniad; ac, yn olaf, wedi ei losgi, gallasai efe a'i gyd-blaid beidio ymogoneddu cymmaint yn y weithred, fel un oedd yn adlewyrchu gogoniant ar y deyrnas a'r oes. Y mae yr holl hanes yn dangos yn eglur mai digofaint personol oedd y prif elfen yn yr erlyniad.* Fel hyn, cyn bod y Diwygwyr ond prin wedi gorphen ymladd am ryddid i esponio y Bibl yn ol eu credo eu hunain, tröent i erlid y neb a feiddiai wahaniaethu oddi wrthynt. O'r 175 personau o urddas a safleoedd uchel a losgwyd y flwyddyn honno yn y wlad hon gan y Pabyddion, ni chafodd neb o honynt fwy o gam nag a gafodd Michael Servetus gan y Protestaniaid; a pheth bynag a ellir ei ddywedyd am Bonner, Gardiner, Laud, a Mari, gellir dywedyd yr un peth yn hollol am John Calfin. Ac fel prawf ei fod yn ymogoneddu yn y weithred farbaraidd, tynodd allan y gyffes ffydd ganlynol:— "Yr ydym yn ffieiddio pob heresiau, y rhai sydd wedi bod o bryd i bryd yn aflonyddu yr eglwys; ac yn neillduol dychymmygion diefli̇g Servetus, yr hwn a ddaliai nad yw y Mab yn wir Dduw." Rhaid i bob ymgeisydd am y weinidogaeth yn Geneva a'r cylch, cyn cael ei urddo, dyngu ei fod yn credu, "Er mai un hanfod syml yw Duw, etto fod ynddo dri pherson gwahaniaethol: am hyny

* Robinson's Ecclesiastical Researches; Dr. Benson's Brief Account.

Digitized by Google

yr wyf fi yn casâu yr holl heresiau a gondemniwyd gan gyngor cyntaf Nicea, ynghyd â'r holl gyfeiliornadau sydd wedi cael eu hail godi gan Servetus a'i ganlynwyr." Ond er yr holl fanylrwydd hyn gyd â'r "GREDO a'r GYFFES," cawn i weinidogion Switzerland, olynwyr John Calfin, ynghynghorfa neu synod fawr Basle, ar yr 2il o Fai, 1871, benderfynu y pwngc yn wahanol drwy fwyafrif o 63 yn erbyn 48.

Ni fu Brydain heb gwmmwl o dystion i'r athrawiaeth Undodaidd. Gorfu i lawer o honynt yn y wlad hon, fel mewn gwledydd eraill, selio eu ffydd â'u gwaed. Yn 1326, llosgwyd Adam Duff, yn Dublin, am wadu athrawiaeth y Drindod; ac yn Ebrill, 1551, llosgwyd George Parris, yn Llundain, am yr un peth. Yn 1555, llosgwyd Patrick Patingham, yn Uxbridge; Mathew Hamont yn Hethersel, Norfolk, yn 1579; John Lewis, yn 1583; a Peter Cole, yn 1587. Yn 1589, llosgwyd Francis Kel, M.A., yn agos yn yr un lle ac am yr un trosedd, am yr hwn y dywed y Parch. W. Burnet ei fod yn rhedeg yn ol a blaen yn y fflamau, yn curo ei ddwylaw ac yn bendithio Duw, nes i'r tân losgi ymaith ei aelodau hyd at ei gorph, ac i'r mwg ei analluogi i siarad; "ond gwareder ni," meddai, "rhag credu bod Duw yn cymmeryd un dyddordeb ym mawl na gweddi y fath ddiawl ymgnawdoledig." Gwel y darllenydd i bedwar Undodwr ddïoddef merthyrdod yn amser Elizabeth, am ddim ond arfer eu rhyddid i esponio y Bibl. Yr olaf a losgwyd yn Smithfield oedd Bartholomew Legate, Mawrth, 1612. Yn nheyrnasiad Iago I., yr oedd yn barchus dros ben gan y brenin, yr hwn a wnaeth bob ymdrech i'w ennill i'r ffydd; ond wedi methu, barnodd mai ei losgi oddi ar y ffordd oedd orau; ac yn Ebrill yr un flwyddyn, yn Burton-on-Trent, llosgwyd Bedyddiwr a'i enw Edward Wightman, yr hwn a gondemniwyd gan esgob Lichfield am ddal golygiadau Undodaidd. Efe oedd yr olaf a ddïoddefodd ferthyrdod am ei olygiadau crefyddol ym Mrydain Fawr. Ond mor ddiweddar a 1696, crogwyd Thomas Aikenhead, myfyriwr ymhrif ysgol Edinburgh, am ei fod wedi ysgrifenu rhyw bamphlet i wawdio athrawiaeth y Drindod; ac o'r amser hwnw hyd heddyw, er y mae'n wir na losgwyd neb yn uniongyrchol o flaen llysoedd barn am eu "ffydd a'u cred," etto rhaid addef nad oes ond ychydig iawn o glod yn ddyledus i lywodraethwyr na duwinyddion Brydain am eu rhyddfrydigrwydd yn y cyfeiriad hwn.

Cafodd Ariaeth ym Mrydain, yn nyddiau Cromwel, amddiffynwr galluog yn T. Firmin, yr hwn a fu yn hynod o lafurus i gasglu symiau o arian yn y wlad hon i gynnorthwyo y frawdoliaeth Undodaidd yn Poland; a dywed y Dr. Bennet nad oedd y driniaeth a gafodd gan dduwinyddion y wlad hon yn adlewyrchu ond ychydig iawn o anrhydedd ar eu syniadau am ryddid crefyddol. Dadleuodd un Mr. Emlyn, o'r Werddon, yn gryf o blaid yr athrawiaeth tu a diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Efe, y mae'n debyg, ar y pryd, oedd yr unig weinidog oedd yn proffesu yr athrawiaeth, ac achosodd ddychryn mawr ym mysg pregethwyr a chynnulleidfaoedd y wlad. Pleidiodd Mr. Whiston, athraw meintoniaeth yn Nghaergrawnt, yr un golygiadau, o ba herwydd, yn 1710, tröed ef o'i swydd. Yn 1715, cyhoeddodd y Dr. S. Clarke, ebrwyad St. Iago, Westminster, lyfr i amddiffyn Ariaeth, yr hyn a greodd gyffro nid bychan ymhlith Ymneillduwyr ac Esgobaethwyr. Pleidiwyd ef gan lawer o bobl flaenaf yr Eglwys Sefydledig; ond ni chymmerodd y bobl gyffredin fawr sylw o hono, gan nad oeddynt yn deall fawr am athrawiaeth, ac yn gofalu llawn cyn lleied pa athrawiaeth a fyddai yn llwyddo. Ond gan fod llawer o bobl gyffredin yr Ymneillduwyr yn deall athrawiaethau lawn cystal a'u hathrawon, cafodd ei lyfr ddylanwad tra gwahanol arnynt hwy. Deallwyd fod James Pierce a Joseph Hallel, dau weinidog Presbyteraidd yn Exeter, yn coleddu syniadau Ariaidd, a chafwyd eu bod wedi gwrthweithio Trindodiaeth Galfinaidd, nes ennill plaid gref, yr hyn, ar unwaith, a osododd ddinas Exeter yn un cynnwrf cyffredinol. Yn 1718, penderfynwyd gofyn, yn Nyfnaint a Chernyw, i'r holl weinidogion wneud cyffesiad o'u ffydd ar "dragywyddol Dduwdod Crist," naill ai yngeiriau erthyclau Eglwys Loegr, yngeiriau Catecism y Gymmanfa, neu yn y geiriau a ddewisent eu hunain. Defnyddiwyd y wasg i amddiffyn yr athrawiaeth, a thaenid pamphletau ar y pyngciau mewn dadl drwy y ddinas a'r wlad; darllenid hwy yn awyddus gan y bobl ieuaingc; ac aeth y rhan fwyaf o'r bechgyn yn sefydliad addysgawl Mr. Hallel yn Ariaid cyhoeddus. Ymwrthododd eglwys y Bedyddwyr â'i gweinidog, am y credid ei fod yn cyfeiliorni. Cymmerodd yr Esgobaethwyr fantais ar y ddadl i wrthwynebu Ymneillduaeth, a dywedent—"Dyna hwy, ar y dechrau, gwadasant yr unig wir eglwys; a dyma hwy yn awr yn gwadu yr unig wir Dduw!" Byrdwn

pob pregeth drwy y blynyddau hyny, yn y llanau plwyfol, oedd rhybudd difrifol i'r bobl wylio rhag cael eu llygru gan yr Ymneillduwyr, y bobl oedd yn gwadu yr hwn a'u prynodd, a rhoddai y barnwr siars i'r uchelreithwyr i ymgadw yn ofalus rhag yr heresi Ariaidd. Gorchymynodd Pierce un Sabbath i'r canwr beidio defnyddio y fawlgan *(doxology)* arferedig ar ddiwedd y gwasanaeth, am fod "gogoniant i'r Mab" ynddi, yn gystal ag i'r Tad. Gadawodd un arall y gair "holl" allan yn ei gyssylltiad â'r Mab a'r Yspryd Glân. Appeliodd Trindodiaid Exeter at dduwinyddion blaenaf Llundain am gyfarwyddyd. Teimlai y rhai hyny yn hwyrfrydig i ymyryd â'r achos, ac annogasant y bobl i wneud pob peth yn eu gallu i benderfynu y ddadl gartref. Ymgymmerodd saith o weinidogion Dyfnaint â chwilio i mewn i'r achos. Cyttunodd y pwyllgor hwnw—Fod cyfeiliornadau mewn athrawiaeth yn rhesymau digonol dros i gynnulleidfaoedd ymwrthod â'u gweinidogion. Fod gwadu Duwdod y Mab yn gyfeiliornad hollol groes i'r Ysgrythyrau Sanctaidd, a chredo yr eglwys ddiwygiedig; a phan y mae y fath gyfeiliornad yn cael ei daenu o amgylch drwy y wlad, ei fod yn ddyledswydd anocheladwy ar y gweinidogion i roddi eglurhâd boddhaol o'u golygiadau ar y cyfryw byngciau. Cydsyniodd yr holl weinidogion â'r cais, ond Pierce a Hallel, a'r canlyniad fu i'w cynnulleidfaoedd ymwrthod â hwynt. Dadleuai y ddau eu bod yn cael cam; ond daliai ymddiriedolwyr y capeli fod eu troi ymaith yn gyfiawn, gan eu bod yn troi y capeli o'u hamcan priodol. Cymmerwyd y ddadl i fynu gan weinidogion y brif ddinas; galwasant gynhadledd o'r gweinidogion agosaf, a thynasant allan res o gynghorion a chyfarwyddiadau. Yna galwasant gynhadledd gyffredinol o holl weinidogion Ymneillduol y brif ddinas a'r cylchoedd, er gofyn iddynt eu cymmeradwyo. Meddyliai rhai yn y gynhadledd honno y cawsent fwy o ddylanwad ar y frawdoliaeth yn Exeter drwy iddynt ychwanegu atynt ddatganiad eglur o'u credo eu hunain yn y Drindod. Bu yno gryn ddadleu o bob tu; a phan roddwyd y pwngc i bleidlais, cafwyd fod 53 droso a 57 yn ei erbyn. Felly collwyd y cynhygiad. Sicrhai y 57 nad oedd y mwyafrif yn ddim ond buddugoliaeth rhyddid ar orthrwm, cydwybod ar ragfarn, a gair Duw ar gredoau dynol; ond ofnai y 53, a phobl zelog y cynnulleidfaoedd, ei bod yn fuddugoliaeth cyfeiliornad ar wirionedd. Tueddwyd llawer o weinidogion i gredu ei fod yn ddyledswydd arnynt gyhoeddi eu golygiadau yn ddïamwys ar Dduwdod Crist, er tawelu meddyliau eu cynnulleidfaoedd, a throi yn ol y camddarluniadau a dynid o honynt gan Esgobyddwyr. Dygwyd y pwngc i sylw cynhadledd gyffredinol ym Mawrth; ond gwrthododd y y cadeirydd ei osod i bleidlais, am nad ystyriai ef yn perthyn i waith y gynhadledd. Tramgwyddodd hyny y blaid "uniongred," ac ymneillduodd 60 o honynt i ystafell arall, lle, gyd âg unfrydedd, yr ardystiasant erthycl Duwdod Crist o gredo Eglwys Loegr, a'r attebion i'r pummed a'r chweched gofyniad o Gatecism y Gymmanfa. Anfonasant y cyfarwyddiadau ynghyd â'u hardystiad i Dduwdod Crist i'w brodyr yn Exeter. Anfonodd y blaid arall hefyd gyfarwyddiadau i'r frawdoliaeth yn Exeter, ac annogaethau i fyw mewn undeb a chariad brawdol. Sicrhaent hwynt mewn llythyr cyfrinachol eu bod hwythau hefyd yn credu yn Nuwdod Iesu. Yng nghymmanfa Dyfnaint a Chernyw, ym Mai, llawnododd 56 o weinidogion y credo, ond gwrthododd 19. Yr oedd yn amlwg, gan hyny, oddi wrth sefyllfa pethau, fod Ariaeth yn ennill tir; ac er gosod attalfa arni, penderfynodd y Cyffeswyr na chai neb ddechrau pregethu, ac na chymmerent hwythau ran yn urddiad neb, heb iddo yn gyntaf lawnodi yr erthycl Drindodaidd. Ar ol hyn, ni chynnadleddwyd yn erbyn Ariaeth, eithr dechreuodd y pleidiau ymheddychu.

Nid oedd ond ychydig Annibynwyr ymhlith y rhai a wrthododd lawnodi y gyffes. Presbyteriaid a Bedyddwyr oeddynt bron i gyd, o'r rhai yr oedd llawer yn Ariaid proffesedig. Yr oedd un neu ddau yn Sosiniaid, a'r gweddill yn cael eu drwgdybio er ys talm o fod yn gogwyddo yn y cyfeiriad hwnw. Bu gweithrediadau zelog a gwrol gweinidogion a chynnulleidfaoedd uniongred Dyfnaint a Llundain yn foddion i arafu lledaeniad Ariaeth am dymmor. Ond pan fu farw yr hen wriaid oedd wedi bod ar y maes yngwres y dydd yn ei gwrthwynebu, a'r meibion heb gael eu magu i gymmeryd eu lle, ail dyfodd yr athrawiaeth; ac i'r graddau yr oedd y bobl ieuaingc yn cydymffurfio â'r byd, ac yn colli difrifwch Puritanaidd eu rhieni, i'r graddau hyny yr oedd Ariaeth yn llwyddo. Y mae'n debyg nas gellir nodi un gynnulleidfa flodeuog o dan weinidogaeth Ariaidd, er pan oedd James Pierce yn weinidog yn Exeter; ac nis gellir cyfeirio at un engraifft lle y bu Ariaeth, er pan ddringodd i'r pulpudau Ymneillduol, o un cymmorth i ychwanegiad sancteiddrwydd yr

Digitized by Google

eglwysi. Eithr i'r gwrthwyneb, bu yn feddrod i'r rhan fwyaf o gynnulleidfaoedd Presbyteraidd y wlad; tra na theimlodd y cynnulleidfaoedd Annibynol fawr o'i dylanwad. Ystyrid bod Ariaeth fel credo crefyddol yn gweddu yn rhagorol i foneddigion ieuaingc dysgedig; a chan fod y meibion, yn ol y drefn Bresbyteraidd, yn dyfod i gymmeryd lle y tadau yn rheoleiddiad amgylchiadau yr eglwysi, y canlyniad oedd claddu yr eglwysi Presbyteraidd o'r golwg. Pan fyddai rhai o'r Annibynwyr yn gogwyddo y ffordd honno, ymunent â'r Presbyteriaid. Ymunodd llawer o aelodau y Presbyteriaid â'r Annibynwyr am i'w gweinidogion wrthod llawnodi y gyffes; a mabwysiadodd llawer o'r eglwysi Presbyteraidd y drefn Annibynol, weithiau o ddewisiad, ac weithiau er mwyn cyfleusdra. Y mae ymheddychiad y gwahanol bleidiau, a'u hymgymmysgiad â'u gilydd yn yr un gymmydogaeth, ac weithiau yn yr un eglwys, yn un o nodweddion rhyfeddaf crefydd yn yr oes honno. Byddai rhai gweinidogion ac eglwysi yn myned yn Ariaid megis ar unwaith, ac eraill yn ymlithro drosodd yn raddol. Byddai y gweinidog weithiau yn dylanwadu ar yr eglwys, bryd arall yr eglwys ar y gweinidog; ond daeth y ddwy blaid cyn pen nemmawr o flynyddau i allu goddef y fath gyfnewidiadau heb i'w heddwch gael ei aflonyddu o gwbl.

Yn 1749, dewisodd un o gynnulleidfaoedd uniongred Exeter weinidog o'r enw Micaiah Togwod, yr hwn oedd yn Ariad proffesedig, heb gymmaint a gofyn iddo am ei olygiadau ar Dduwdod Crist, nac ar bwngc yn y byd; a bu y Dr. Lardner, Sosin proffesedig, gweithiau yr hwn a fu yn foddion i wneud y Dr. Priestley yn Sosin, yn gydweinidog am tu ag ugain mlynedd â'r Dr. Harris, yr hwn oedd yn Drindodwr Calfinaidd, ac yn pregethu yr erthyclau hyny bob amser yn ddiamwys. Pan fu farw y Dr. Harris, y Trindodwr, dewiswyd y Dr. Benson, Sosin o gryn enwogrwydd, i lanw ei le. Y mae'n anhawdd cael syniad cywir am chwaeth a chydwybod y fath gynnulleidfa, na deall pa fodd yr oeddynt yn gallu mwynhau athrawiaethau mor eithafol yr un dydd, y naill yn y bore a'r llall yn yr hwyr, ac mewn llai na deugain mlynedd yn rhoddi tro o gwmpas yn gwbl ddigynnwrf.

Beth bynag oedd doniau, hawliau, a syniadau Pierce a Hallel, gweinidogion Exeter, a pha driniaeth anheg bynag a gawsant gan yr eglwysi, y mae'n amlwg eu bod hwy ill dau wedi ymddwyn yn anheg o'r dechrau i'r diwedd. Gwyddent eu bod yn cymmeryd gofal eglwysi enwog am eu Trindodiaeth, tra, ar yr un pryd, y gwyddent eu bod hwythau yn credu fel arall. Os oeddynt am ennill y cynnulleidfaoedd drosodd, dylasent ymddwyn yn onest, a chyfaddaf beth oeddynt, ac nid chwarau y blaidd ynghroen dafad. Yr oeddynt yn ymddwyn yn draws at y neb a ofynai eu barn ar y pyngciau mewn dadl, ac at y neb a geisiai ganddynt bregethu arnynt; a phan wesgid arnynt i wneud hyny, cyhuddent yr eglwysi o geisio adsefydlu y chwilys (*inquisition*). Beïd y blaid uniongred am dynu allan "gyffes," a gofyn i'r frawdoliaeth ei llawnodi; ond y mae'n ddiau fod gan bob cynnulleidfa hawl i fynnu gwybod golygiadau eu gweinidogion, gan mai hwy fydd yn eu talu, ac i ymwrthod â hwynt os na fyddant yn cael eu boddloni ynddynt. Ond nid oes hawl gan eglwys na gweinidog i erlid y naill y llall am eu bod yn methu cydweled ar byngciau yr athrawiaeth.

Ond drwy i'r pleidiau ddyfod i fyw mor heddychol, ni aflonyddai y naill ar y llall, a chai pob un gredu fel y mynnai; a phrawf o hyny yw i Job Orton, y Dr. Samuel Clarke, y Dr. J. Taylor, a John Milton, heb law llawer eraill a ellid eu henwi, gael eu goddef yn rhengau y Trindodiaid, er yn Undodiaid o ffydd a chred.*

### DEISTIAETH.

Y cyntaf i daenu syniadau y Deistiaid yn y wlad hon oedd Arglwydd Cherbury, yr hwn a ystyrid yn gydgyfarfyddiad o bob rhagoriaeth

* Cyfeiriwn y darllenydd at y gweithiau canlynol fel y prif lyfrau a ysgrifenwyd ar y ddadl hon:—The Case of the Ministers ejected at Exeter, by James Pierce; An Account of the Reasons why many Citizens of Exeter have withdrawn from the Ministry of Mr. Pierce: being an Answer to his State of the Case; A Defence of the State of the Case, by James Pierce; A Defence of the Account, in answer to James Pierce; A Justification of the Case, by James Pierce; A True Account of what was done in the Assembly at Exeter, May 5th and 6th, 1719, published by order of the Assembly; Remarks on the Account, by James Pierce; A Particular Account of the Proceedings of the Assembly at Exeter, by George Jacomb; A Defence of the Proceedings, by John Enly; An Answer to Mr. Enly's Defence, by James Pierce; A Plain and Faithful Narrative of the Differences among the Dissenters at Exeter; An Authentic Account of some things done by the Dissenting Ministers at Satler's Hall; A Vindication of the Subscribing Ministers in Answer to the Authentic Account; A Reply to the Subscribing Ministers' Reasons; A True Relation of some Proceedings at Satler's Hall; Animadversions on A True Relation, by James Pierce; The Noble Stand, in three parts, by Daniel Wilcox; The Western Inquisition, by James Pierce; An Account of the late Proceedings at Satler's Hall, in a Letter to Dr. Gale; The Unreasonableness of the Charge of Imposition against several Dissenting Ministers, by Thomas Ridgley; A Letter to a Subscribing Minister in Defence of the Animadversions on a True Relation, by James Pierce. Y mae'r uchod yn ddigon i alluogi y ddarllenydd i ddeall ymha yspryd y dygid y ddadl ym mlaen.

Digitized by Google

oedd yn uchel yn y farchnad yn yr oes honno, yr hyn y mae'n ddïau a roddodd fantais iddo i ledaenu ei olygiadau. Yn 1624, cyhoeddodd draethawd ar "Wirionedd," ac yn 1663 cyhoeddodd un arall ar "Grefydd y Paganiaid." Yr oedd yn mawr ofni cael ei wrthwynebu yn ei olygiadau. Dywed iddo yn ei bryder fyned at Duw â'r ysgrif yn ei law, a dymuno am arwydd a oedd y llyfr yn gymmeradwy gan y nefoedd. Sicrha iddo gael yr hyn a ofynodd, a pharhaodd i gredu hyd ddiwedd ei oes ei fod wedi cael gorchymyn o'r nef i gyhoeddi llyfr yn erbyn yr hyn a elwir Datguddiad Dwyfol. Mabwysiadodd Hobbs ei olygiadau, a chyhoeddodd hwynt yn lled ddïamwys yn ei "Leviathan," cyhoeddiad yr hwn, rhwng ofergoelion yr oes a dull anonest yr offeiriaid o wneud budr-elw o'r efengyl, a fu yn achos i wneud i lawer o bobl dda yr oes honno gredu yr un athrawiaeth. Gwnaeth y Dr. Toland gymmaint ag a fedrai i ledaenu y golygiadau Deistaidd, er yn aelod mewn eglwys Drindodaidd. Cyhoeddodd lyfr i brofi nad oes dim uwch law rheswm mewn Cristionogaeth, ac un arall i brofi nad yw y Testament Newydd yn fwy dwyfol na rhyw lyfr arall. Cyhoeddodd Arglwydd Shaftesbury lawer o bamphletau i ymosod ar Gristionogaeth ymhob ffurf; a chymmerodd Woolston mewn llaw i brofi bod llawer o wyrthiau Crist yn dwyllodrus ac anghredadwy, er ei fod, ar yr un pryd, yn aelod zelog mewn eglwys Gristionogol. Proffesai y Dr. Tindal barch mawr i'r efengyl, ond dadleuai yn gryf, ar yr un pryd, nad oedd angen datguddiad o gwbl ar ddŷn, ac felly fod y Bibl yn hollol ddiwerth. Edrychir ar Arglwydd Bolingbroke a Hume fel dau gadflaenor i'r blaid Ddeistaidd. Amcanai y naill brofi nad oedd eisiau y Bibl ar ddŷn—fod goleuni natur yn ddigon iddo at bob pwrpas; treuliodd y llall ei oes i ddadlau yn erbyn gwyrthiau, sefyllfa ddyfodol, llywodraeth foesol, rhagluniaeth, a hanfod Duw. Un o'r rhai cyntaf i wrthwynebu y gyfundraeth hon oedd Richard Baxter, yn y llyfr a gyhoeddodd dan yr enw "Rhesymau dros y Grefydd Gristionogol." Cyhoeddodd Mr. Haliburton, o St. Andrews, gyfrol dan yr enw "Crefydd Naturiol yn Annigonol, a Datguddiad yn Angenrheidiol i Ddedwyddwch Dŷn." Ysgrifenodd Jeremiah Jones yn erbyn syniadau Toland, a dymchwelodd Simon Brown holl osodiadau Tindal a Woolston. Amddiffynodd Moses Lowman yr Hen Destament, a chyhoeddodd y Dr. Doddridge attebiad cyflawn i Dodwell, yr hwn oedd wedi bod yn haeru fod rheswm yn erbyn Cristionogaeth. Ond hwyrach mai y prif ysgrifenwyr yn y ddadl hon oedd y Dr. Chandler a'r Dr. Lardner yn Lloegr, a'r Dr. Leland yn y Werddon, ac y mae eu hysgrifeniadau yn aros yn gampweithiau ar y pyngciau mewn dadl, ac yn werth i'r hwn a fyddo yn dewis ymarfogi yn erbyn y fath gyfundraeth eu darllen yn ofalus.

Ystyrid y ddadl hon yn Lloegr yn un bwysig a bu ei dylanwad yn ddigon i newid tôn y weinidogaeth. Gellid credu mai prif amcan pob pregeth oedd, nid annog pechaduriaid i dderbyn y Ceidwad, eithr eu hannog i gredu fod ganddynt eneidiau mewn angen am dano. Ni chafodd Ysgotland fawr o'i blino gan y ddadl neu y dadleuon Undodaidd, ac ni lwyddodd Undodiaeth fel y cyfryw i osod ei throed i lawr yn y wlad honno hyd y flwyddyn 1870, pryd y sefydlwyd eglwys yn Dundee, yr hon sydd yn dal yr erthyclau canlynol:*—

"1. Awdurdod oruchel rheswm a chydwybod dŷn.
"2. Hawl a dyledswydd pob dŷn i farnu drosto ei hun mewn pethau crefyddol.
"3. Fod ein gwybodaeth am Dduw yn gynhyddol, fel am bob peth arall.
"4. Unoliaeth hollol Duw.
"5. Dynoliaeth naturiol Iesu.
"6. Tadolaeth Duw i bob dŷn ar wahân i linach, cred, neu wahaniaeth moesol.
"7. Gobaith bywyd tragywyddol byth-gynhyddol mewn daioni i bob enaid.
"8. Cariad brawdol yn ddyledswydd uchaf, a phob rhinwedd i gael ei arfer yn annibynol ar ddylanwad ofn cosp, neu obaith am wobr yn y byd hwn neu yn yr hwn a ddaw."

Y mae yno erbyn hyn wyth neu ddeg o gymdeithasau Dyndodaidd yn dal athrawiaeth lled debyg i'r uchod.

### ARMINIAETH.

Dechreuwyd y blaid hon yn Holand, gan James Arminius, yr hwn a anwyd yn y flwyddyn 1560. Urddwyd ef yn Amsterdam, yn 1588, lle, mewn byr amser, y cyrhaeddodd enwogrwydd mawr. O ddeutu 1602, appwyntiwyd ef yn athraw duwinyddol yn Leyden, ac yn y swydd honno cafodd gyfle i ddwyn allan ei dalentau, a thaenu ei olygiadau. Dygodd hyn gawodydd o ymosodiadau am ei ben o bob cyfeiriad, a bu agos i'r ddadl greu chwyldroad gwladol yn Holand.

Er gosod yr athrawiaeth newydd i lawr, galwodd y llywodraeth gymmanfa o dduwinyddion i gyfarfod yn Dort, i'r hon y daeth cynddrychiolwyr eglwysig o bob rhan o'r Iseldiroedd, gyd â

* Unitarian Almanack.

Digitized by Google

thri eithriad, o Hessen, Bremen, Switzerland y Palatinate, a Brydain. Yr oeddid wedi trefnu unwaith i'r Arminiaid gael amddiffyn eu hunain; ond yn lle hyny, trinwyd eu hachos yn eu habsennoldeb, a chondemniwyd hwy fel rhai euog o ddal syniadau cyfeiliornus a niweidiol, y rhai a gondemnir yn bendant gan air Duw. Wedi eu condemnio felly gan y gymmanfa, trinwyd hwy gan yr awdurdodau a'r cyhoedd yn y dull mwyaf creulon. Tröwyd hwy allan o'u swyddi, cymmerwyd y gweinidogion i fynu, a gwasgarwyd y cynnulleidfaoedd; ond ymhen o ddeutu saith mlynedd ar ol hyn, yn 1625, adferwyd hwynt i'w breintiau blaenorol, ac o hyny allan cawsant bob chwarau teg drwy yr holl deyrnas.

Yn Lloegr, pleidiwyd Arminiaeth gan y brenin a'r archesgob Laud; ond drwy iddynt ddangos pleidgarwch hefyd i Babyddiaeth, ni fu eu dylanwad o fawr les i ledaeniad yr athrawiaeth. Calfiniaeth oedd y cwbl yn amser Cromwel, a dygwyd y Dr. Owen i sylw ac enwogrwydd, yn benaf, drwy ei ymosodiadau ar Arminiaeth. Goodwin oedd yr unig un, ym mron, a lynodd wrthi drwy yr ystorm i gyd; ond pan fu farw Cromwel, ymdaenodd Arminiaeth yn gyflym drwy yr holl wlad.

Uchelgyrch y ddadl Arminaidd oedd yr ymraniad rhwng Wesley a Whitfield. Yr oedd cymmaint o bellder rhwng eu syniadau fel yr oedd yn amhossibl i undeb cynnes hanfodi rhwng eu calonau, ac felly nis gallasent gydweithio. Wesley a ddechreuodd yr ymosodiad yn ei bregeth ar "Rad Ras," yr hon oedd yn floedd groyw i'r gâd. Cyhoeddodd amryw lyfrau eraill o natur ymosodol, a rhai o honynt, meddir, yn dangos cryn lawer o ddiffyg chwaeth a thalent. Amcanodd Whitfield ei atteb yn frawdol; ond gwrthododd Wesley hyny, ac appeliodd at farn y cyhoedd am lawryf buddugoliaeth. Ymneillduodd y ddau yn fuan o'r maes, gan adael y ddadl yn nwylaw eu cyfeillion. Yr adeg hon yr ysgrifenodd Edwards, o'r America, ei draethawd ar "Ryddid yr Ewyllys," yr hwn, meddid, pe deallesid ef ar y pryd, a fuasai yn penderfynu y pwngc am byth (?). Dywedai Fletcher fod cymmaint o eisiau diwygio yr eglwys oddi wrth Antinomiaeth, yr amser hwnw, ag oedd ar y tadau o eisiau ei diwygio oddi wrth Babyddiaeth. Wedi i'r ddwy ochr barhau i ysgrifenu am rai blynyddoedd, distawodd y ddadl heb fod neb fawr callach; ond bu y ddadl yn achos i'r ddwy blaid, y Calfiniaid a'r Arminiaid, fyned ymhellach, fe allai, oddi wrth eu gilydd nag odid un dwy blaid arall. Er i Wesley a Whitfield ddyfod i ymddangos yn gyfeillion, ni lwyddasant byth i ddiffodd y fflamau a gynneuasid ganddynt yn mynwesau eu canlynwyr. Dywedai y Calfiniaid lawer o bethau am yr Arminiaid, nid mor wir ac efengylaidd ag y gallent, eithr mor gryf a chaled ag y medrent; ie, dywedent bethau y byddai rhai Calfiniaid yn cywilyddio rhagddynt, ond byddai eraill yn ymogoneddu ynddynt fel egwyddorion gogoneddus yr efengyl. Rhedodd Calfiniaeth fel hyn i dir mor Antinomaidd nes myned yn bla mewn llawer cymmydogaeth, ie, yn benrhyddid hollol. Dychrynodd yr Arminiaid rhag y fath athrawiaeth, a rhedasant hwythau i eithafion cyferbyniol ar y "pum pwngc," y rhai a ddysgid yn ofalus gan y Calfiniaid, sef—1. Etholedigaeth ddiammodol; 2. Prynedigaeth neillduol; 3. Dylanwadau anwrthwynebol yr Yspryd; 4. Pechod gwreiddiol; 5. Parhâd mewn gras. Mewn llawer o eglwysi, neillduwyd dosparth o bobl, dan enw henuriaid athrawiaethol, i wylio na ddysgid dim yn groes iddynt mewn un bregeth; ond y mae'r olaf o honynt erbyn heddyw, y mae'n debyg, wedi myned i ffordd yr holl ddaear, a'r athrawiaeth yn cael gofalu am dani ei hun. Dysgodd yr Arminiaid hwythau—1. Etholedigaeth ammodol; 2. Iawn cyffredinol; 3. Nad oes llygredigaeth moesol yn canlyn pechod Adda; 4. Nad yw dylanwad yr Yspryd Glân yn anwrthwynebol yn argyhoeddiad pechadur; 5. Syrthiad oddi wrth ras. Wrth ddangos eu casineb at gredo y Calfiniaid, rhedodd llawer o'r Arminiaid i gymmaint o eithafion [illegible] myned drosodd i dir Sosinaidd.

### SOSINIAID.

Cymmer y blaid hon ei henw oddi wrth ddau frawd o'r enw Socinus, a anwyd yn yr Ital o ddeutu dechrau yr unfed ganrif ar bymtheg, a buont yn llafurus ac yn llwyddiannus dros ben i ledaenu syniadau Dyndodaidd drwy Ewrop, yn neillduol yn Poland. Agorwyd y ddadl Sosinaidd yn y wlad hon drwy i weinidog Ymneillduol [illegible] a'i enw Cardale gyhoeddi pamphlet yn dwyn y titl—"Gwir Athrawiaeth y Testament Newydd am Berson Crist, yn yr hwn y dinoethir y camddarluniadau Ariaidd, a'r holl syniadau Trindodaidd ac Athanasiaidd, ac yr amddiffynir Cymmeriad a Chennadwri Ddwyfol y Gwaredwr." Tyb[illegible] pawb ar unwaith fod llyfryn oedd yn dwyn y fath enw yn waith awdur uniongred; ond gwelwyd [illegible]

Digitized by Google

fuan nad oedd y titl yn ddim ond abwyd i ddal y lliaws. Daeth y doniau gorau i'r maes i'w wrthwynebu, o'r areithfa yn gystal a thrwy y wasg. Cymmerodd y Dr. Priestley blaid y Sosiniaid, a chyhoeddodd, ym mysg papurau eraill, "Golwg Gyffredinol ar y Rhesymau dros Unoliaeth Duw, ac yn erbyn Duwdod a Rhaghanfodiad Crist, yng ngoleuni Rheswm, Ysgrythyr, a Hanesiaeth." Cyhoeddodd hefyd lyfr ar "Crefydd Naturiol a Datguddiedig," yr hwn sydd fath o gorph o dduwinyddiaeth Sosinaidd, yn yr hwn y mae yn gwadu dwyfoldeb yr Ysgrythyrau, bodolaeth yr enaid ar wahân i'r corph, a sefyllfa ddyfodol dragywyddol. Cynnwysa y pennill canlynol, yr hwn a fwriedid yn ysgrifenfedd iddo, ei olygiadau yn lled gywir:—

"Yma gorwedd, wedi marw,
'N ddigon tawel mewn arch dderw,
Esgyrn, 'menydd, gwaed, gwythienau
Corph ac enaid Dr. Priestley."

Cyhoeddodd attodiad i "Crefydd Naturiol," dan yr enw "Hanes Llygriad Cristionogaeth," gan feddwl y buasai hwnw yn gosod terfyn bythol ar yr athrawiaeth o Dduwdod a Iawn y Cyfryngwr. Cymmerodd y Dr. Horsley, Esgob Tŷ Ddewi, ran yn y ddadl; ond yr oedd y Dr. Priestley yn gwasgu mor drwm ar wynt ei wrthwynebwyr fel y dewisodd yr esgob, fel y rhan liosocaf o honynt, gadw o'i afael. Cyhoeddodd Esgob Norwich bregeth ar Dduwdod Crist; a Parkhurst, awdur y geiriaduron Hebraeg a Groeg, a gyhoeddodd lyfr dan yr enw "Prawf o'r Bibl i Ddwyfoldeb a Rhaghanfodiad y Gwaredwr." Ysgrifenodd Pabydd, a'i enw Geddes, lyfr i brofi bod yr athrawiaeth o Dduwdod Crist yn hynach na chymmanfa Nicea, o herwydd yr oedd yr holl esgobion yno yn unol ar y pwngc; gan hyny, rhaid fod yr athrawiaeth yn hynach na'r gymmanfa, a rhaid felly mai dyna yr athrawiaeth gyntaf. Os nad e, ai tybed i'r eglwys oddef yn ddistaw a thawel i'r Iesu gael ei wneud, neu ei ystyried, yn Dduw, tra y gwna y fath dwrf pan gynhygir ei ddwyn i lawr i fod yn ddŷn. Cofleidiodd offeiriad a'i enw Lindsay y syniadau Undodaidd. Taflodd ei fywiolaeth eglwysig i fynu, a threuliodd y gweddill o'i oes i wrthwynebu Trindodiaeth. Gadawodd offeiriad arall a'i enw Gilbert ei fywiolaeth, a throes ei ddysg a'i dalent i olrhain golygiadau y tadau am Dduwdod Crist; ac y mae cynnyrch ei ymchwiliad yn profi yn amlwg fod ei dalentau yn uwch na'i dduwioldeb. Yr oedd offeiriaid yr OES HONNO yn bobl onest; rhoddent eu bywiolaethau i fynu yn dawel pan yn methu cydweled â'r "Llyfr Gweddi Gyffredin" (?). Dywedodd Wilberforce, mewn traethodyn a gyhoeddodd ar "Y Gwahaniaeth rhwng Ysbryd Cristionogaeth ac Ysbryd y rhan fwyaf o'i Phroffeswyr," nad oedd i Sosiniaeth ddim ond hanner y ffordd ("*half-way house*") i Ddeistiaeth. Attebodd Belsham ef yn ei bregeth ar ol y Dr. Priestley; a chyhoeddodd y Dr. Pye Smith, o Homerton, attebiad galluog iawn i'r bregeth honno. Cyhoeddodd Gilbert Wakefield argraphiad o'r Bibl, a nodau ar ymyl y dail, yn y rhai y ceisiai brofi mai gwrthDrindodwyr oedd yr ysgrifenwyr sanctaidd eu hunain. Ymddygodd y Dr. Priestley yn foneddwr drwy yr holl ddadl, yn unig methai lywodraethu ei dymmer weithiau pan ddeuai i wrthdarawiad âg uchel Galfiniaeth, rhag ofn yr hon yr oedd wedi myned yn Sosin; a chawn weled i'r un athrawiaeth gario cyffelyb ddylanwad yng Nghymru.

Llunia y Sosiniaid eu cyfundraeth grefyddol wrth bwysau a mesur rheswm ac athroniaeth, gan benderfynu gwneud i'r Bibl blygu ati, a gwyrdroi neu wadu y rhanau sydd yn croesi eu golygiadau, yn ol fel y byddo fwyaf manteisiol iddynt, yr hyn, yn ol eu syniadau hwy am y Bibl (peth o honno yn gywir a pheth o honno yn anghywir), sydd yn deg a rhesymol.

Bu'r Dr. Priestley farw fel y bu byw. Gofynai i'w fab, pan yn ymyl marw, estyn iddo bamphlet o waith Simpson ar barhâd cospedigaeth yn y byd arall, a dywedodd wrtho—"Dyna fe, machgen i, darllen ef yn fanwl. Y mae wedi bod yn gysur mawr i mi, a gall ddal dy feddwl dithau i fynu yn yr amgylchiadau mwyaf tywyll. Cawn gyfarfod oll yn y diwedd; yn unig y mae rhai o honom yn gofyn disgyblaeth wahanol i atteb ein gwahanol gymmeriadau. Yr wyf yn myned i gysgu. Nid yw angau ond noswaith o gwsg hirfaith yn y bedd. Cawn weled ein gilydd etto." Dyna hyd a lled cysuron crefyddol arch Sosin ei oes. Dyna fel yr oedd y dŷn a fu drwy ei dymmor yn gwneud ei orau i lesoli eraill yn ymadael â'i blant ac â'r byd, "Cawn gydgyfarfod etto ar ol cael ein disgyblu." Paham na fuasai yn edrych, fel Paul, am goron y bywyd, neu yn gorchymyn ei yspryd, fel Stephan, i ddwylaw yr Iesu?

Y mae yn America amryw bleidiau Undodaidd anadnabyddus yn y wlad hon, y rhan fwyaf o honynt o darddiad diweddar.

### CYFFREDINOLWYR=(UNIVERSALISTS.*)

Nis gellir nodi yr amser pa bryd, na chan bwy, y

* Introduction to Cambrian Worthies.

cychwynwyd y blaid hon, ac ni fynnent gael eu galw ar enw neb. Yn America, yn 1770, y dechreuwyd pregethu yr athrawiaeth yn gyhoeddus, ac y mae wedi aros yn America bron yn hollol. Y mae wedi gwreiddio yn ddwfn a lledu ei changau yn ehang yn Lloegr Newydd, hen gartref y Tadau Pererinol. Y mae ganddynt yn agos i 650 o gynnulleidfaoedd llïosog yn y wlad. Cyhoeddant dri ar ddeg o gylchgronau, trwy y rhai y maent yn taenu eu syniadau, ac y mae ganddynt bedwar ar ddeg o golegau i godi gweinidogion at eu gwasanaeth. O ddeutu y flwyddyn 1870, yr oedd holl eglwysi Annibynol Cymreig America, o fôr i fôr, mewn cyffro gwyllt o herwydd fod Mr. Herbert, o Vermont, meddid, yn cyhoeddi athrawiaethau y blaid hon, yr hyn a fu yn achos iddo symmud i'r Gorllewin. Clywsom Mr. Herbert fwy nag unwaith yn pregethu; ond yr oedd ei bregethau bob tro mor rydd oddi wrth bob peth dadleugar fel y gallasai John Elias a Hume eu pregethu heb groesi dim ar eu syniadau. Y maent wedi cyhoeddi amryw gredoau, y rhai sydd yn gwbl Undodaidd. Dywed y cyntaf, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1793, yn nhalaeth Jersey Newydd, fel hyn:—

"Yr wyf yn credu bod un Duw yn bôd, ac nad oes arall ond Efe; ac nad oes ond un person yn y Duwdod."

Cyhoeddwyd y gyffes hon yn New Hampshire yn 1803:—

"Yr wyf yn credu bod yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yr Hen Destament a'r Newydd, yn cynnwys datguddiad o gymmeriad ac ewyllys Duw, o ddyledswydd, lles, a thynged dŷn. Yr wyf yn credu bod un Duw, natur yr hwn yw cariad, wedi ei egluro mewn un Arglwydd Iesu Grist, gan un yspryd o ddedwyddwch. Yr wyf yn credu bod sancteiddrwydd a gwir ddedwyddwch yn anwahanol gyssylltiedig, ac y dylai credinwyr fod yn ofalus am gadw trefn, ac arfer gweithredoedd da, am fod hyny yn dda a buddiol i ddŷn."

Dywed y gyffes ddiweddaf fel hyn:—

"Credaf mewn un Duw, Creawdwr a Thad dynol ryw; yn Iesu Grist ei Fab, yr Hwn yw y Gwir Ddysgawdwr, Esampl, a Gwaredwr dŷn; yn yr Yspryd Glân, y Diddanydd; atdaliad sicr; maddeuant pechodau; adgyfodiad cyffredinol; sancteiddrwydd a dedwyddwch pob dŷn yn y diwedd mewn bywyd anfarwol. Nad oes y fath beth yn bod ag iawn dirprwyol, ond y rhaid i bob troseddwr oddef cospedigaeth am ei bechod ei hun yn y byd hwn neu yn yr hwn a ddaw. Nad oes llygriad moesol yn dilyn pechod Adda; ond y mae daioni yn y galon. Nad gwaredigaeth o afael poenau tragywyddol yn uffern yw iechydwriaeth, eithr gwaredigaeth o gaethiwed pechod, yr hyn sydd fewnol, ac nid oddi wrth un drwg allanol."

### Y CYFUNDEB CRISTIONOGOL.

Ffurfiwyd y blaid hon gan bersonau o wahanol enwadau, y rhai, meddir, oedd yn teimlo yn flin wrth weled yr yspryd sectol, cul, oedd yn nodweddu y gwahanol bleidiau. Y cyntaf oedd y Wesleyaid, y rhai yn 1793 oedd wedi blino ar drefniadau caeth y Gynghorfa ("*Conference*"), a gadawsant y cyfundeb o dan arweiniad James O. Kelly. Yn 1798, aeth yn rhwyg yngwersyll y Bedyddwyr yn achos eu huchel Galfiniaeth a'u cymmundeb caeth, ac aeth mintai oddi wrth y cyfundeb o dan arweiniad Abner Jones ac Elias Smith; ac yn 1800, o herwydd ffurfioldeb ac uchel Galfiniaeth y Presbyteriaid, ymadawodd mintai gref â hwynt o dan arweiniad Mr. Barton. Ymunodd y tair mintai hyn â'u gilydd i daflu yr hen gredoau blaenorol i'r wadd a'r ystlumod, a chyttunasant i ymdoddi i'w gilydd yn y credo ganlynol:—

"1. Mai yr Arglwydd Iesu Grist sydd i fod yn unig ben i'r eglwys.

"2. Eu bod i alw eu hunain yn Gristionogion, ac ymwrthod â phob enw arall.

"3. Fod y Bibl, yr Hen Destament a'r Newydd, yn ddigon o reol ffydd ac ymarweddiad.

"4. Cymmeriad Cristionogol, neu dduwioldeb amlwg, sydd i fod yn ammod aelodaeth.

"5. Fod hawl i farn bersonol a rhyddid cydwybod yn eiddo i bob dŷn."

Y maent yn derbyn Trindodiaid o bob plaid i aelodaeth; ond dywedir na fydd neb a ymuna â hwynt yn parhau yn Drindodwr yn hir iawn.

### Y CAMPBELIAID, NEU Y DISGYBLION CRISTIONOGOL.

Nid yw y blaid hon ond cangen a ymadawodd â'r "Cyfundeb Cristionogol" yn 1825, o dan arweiniad y Parch. A. Campbell, yr hwn oedd yn Sabeliad o farn, ac yn teimlo yn anfoddog wrth weled osgo Ddyndodaidd y "Cyfundeb;" ond nid oes un gwahaniaeth rhyngddynt, heb law eu bod hwy yn gwrthod derbyn pob math o gyffes ffydd, ac yn gwneud bedydd drwy drochiad yn ammod aelodaeth. Hwy yw un o'r cyfundebau Undodaidd llïosocaf yn y byd; ac er yn ymwrthod â'r enw Undodiaid, etto y maent yn Undodiaid i bob pwrpas yn y byd. Yn ol arwyddion presennol yr amserau, y maent yn debyg o ymuno etto â'r "Cyfundeb Cristionogol," oddi wrth yr hwn yr ymranasant yn y dechreuad.

### YR HICKIAID, NEU Y CRYNWYR UNDODAIDD.

Yn 1822, ymranodd y Crynwyr yn America yn ddwy blaid ynghylch Duwdod Crist. Blaenorid y blaid Undodaidd gan un a'i enw Elias Hicks, a chanlynwyd ef gan o ddeutu 60,000 o'r Crynwyr Y mae eu credo ymhob peth yn Sosinaidd. Ceir

Digitized by Google

yn America amryw bleidiau eraill o ddechreuad diweddar, yn dal yr athrawiaethau Undodaidd, y rhai gyd â'u gilydd a wnant o ddeutu 100,000 o aelodau, amryw o'r rhai sydd heb gymmeryd un ffurf neillduol, nac un enw pennodol.

### UNDUWIAID.

Y mae'r Undodiaid yn arddel perthynas hefyd â'r Iuddewon, y rhai sydd yn addoli un Duw y Tad, ac yn gwadu Duwdod Crist; a hefyd â chanlynwyr Andreas Eosy, yn Bohemia, y rhai, er 1588, sydd yn dal i addoli un Duw, gan gymmysgu ychydig o Fahometaniaeth â Christionogaeth. Ystyriant fod y Mahometaniaid a'r Hindwiaid, y rhai nad ydynt yn cydnabod ond un Duw, yn un person, yn gystal Undodiaid a'r un gangen o honynt.

Gan ein bod yn awyddus am i'r darllenydd ddeall beth yw Undodiaeth, a phwy yw yr Undodwyr, ond yn analluog i osod eu credo i lawr yn fanwl, na'u nodi hwynt allan fel corph gwahaniaethol o bobl, gan eu bod, mewn rhyw ystyr, ynglŷn â'r holl enwadau eraill, ac yn ymdoddi iddynt, hyderwn yr esgusodir hyd y bennod hon.

---

## PENNOD IV.

### OLIVER CROMWEL.

YR ydym yn cofnodi y dŷn gwir enwog yma (yr enwocaf, yn ddilys ddigon, a fu yn llywodraethu Brydain erioed), ymhlith "Enwogion y Ffydd" yng Nghymru, am ei fod yn Gymro o waedoliaeth, ac am iddo wneuthur mwy o blaid y ffydd yng Nghymru na neb a fu yn llywodraethu y wlad hon o'i flaen nac ar ei ol, ac ystyried byrder yr amser y bu yr awenau yn ei ddwylaw. Yr ydym eisoes wedi tracthu peth ar yr hyn a wnaeth dros grefydd yn y Dywysogaeth, yn y bennod gyntaf o'r llyfr hwn, yn ein "sylwadau cyffredinol;" o herwydd paham gallwn fyned heibio i amryw o'r pethau hyny heb fanylu arnynt yn y bennod hon.

Gan y gwyddai gelynion maleisus CROMWEL yr edrychai pobl yn gyffredin yn yr oes honno, ac yn *rhy fynych*, ysywaeth, yn yr oes hon hefyd, gyd â mwy o barch ar achau pendefigaidd dynion nag ar eu gwrol-gampau a'u gweithredoedd da, ymroisant yn fuan ar ol i Cromwel gael ei ddyrchafu yn Arglwydd Amddiffynydd y tair teyrnas, yn 1653, i daenu trwy yr holl wlad mai dŷn o haniad isel ydoedd, nid amgen na mab i ddarllawydd o Huntingdon, bwrdeisdref yn sir Huntingdon, 16 milltir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Gaergrawnt, a 59 milltir i'r gogledd-orllewin o Lundain. Dywed Ferguson nad oes sail i'r haeriad mai darllawydd oedd tad Cromwel, eithr mai amaethwr parchus ydoedd, yn byw ar ei dir ei hun, a bod ei gyllid tu a 300 o bunnau y flwyddyn, cyfartal i fil o bunnau o'n harian ni.* Dywed P. E. Dove fod Robert Cromwel, ei dad, yn aelod seneddol dros Huntingdon yn Senedd 1593, ac y dichon bod darllawdy ymhlith ei feddiannau, ac y gallai mai hyny oedd yr achos o'r gwawd a fwrid ato gan ei elynion, fel "mab y darllawydd."† O'n rhan ni, nid ydym yn credu y dylid edrych ar ddŷn fymryn uwch nac is o blegid i'w hynafiaid, megis Nimrod, lwyddo i ladd trigolion gwlad, a lladratta eu tiroedd a'u heiddo; eithr bod teilyngdod dŷn yn ymddibynu yn hollol ar ei weithredoedd, ei ymddygiadau, a'i dalentau ef ei hun; ac ymddengys wrth wir hanes Cromwel mai dyma oedd ei olygiad yntau ar ddynion. Pa ddelw bynag, er mwyn rhoi taw ar ei enllibwyr, y rhai oedd yn addoli brenhinoedd a thywysogion, yn gwbl annibynol ar eu bucheddau a'u gweithredoedd, dododd Cromwel ddirprwywyr galluog a dysgedig ar waith i olrhain ei achau. Cadwyd yr achau hyn, medd Ieuan Glan Geirionydd, yn nheulu Prestwich, o Prestwich a Holme, yn sir Gaerhirfryn (*Lancashire*), hynafiaid y rhai, sef John Prestwich, Bar., Edmund Prestwich, o ddinas Llundain, a'r Parch. John Prestwich, o Rydychain, oedd gydoeswyr â Chromwel, a rhai o honynt yn llygad-dystion o'i ddyrchafiad.‡ Dengys yr achau hyn fod Cromwel yn hanu, o du ei dad, o hen dywysogion Cymry, y rhai a ddisgynasant yn syth o frenhinoedd Brydain; a hefyd, ei fod yn hanu, o du ei fam, o dywysogion a brenhinoedd Ysgotland. Wele yr achau, cynnyrch llafur y dirprwywyr crybwylledig:—

"Llinach ei uchelder, yr anrhydeddusaf a'r ardderchocaf Oliver Cromwel, penaeth goruchel, neu Arglwydd Amddiffynydd Gweriniaeth Lloegr, Ysgotland, a'r Werddon, a'r tiriogaethau perthynol iddynt.

"OLIVER CROMWEL, neu Williams, fab Robert Cromwel, neu Williams, fab Syr Henry Cromwel, neu Williams (o Hinchinbroke, yn sir Huntingdon), fab Syr Richard Cromwel, neu Williams,§ Marchog (yr hwn a gymmerth

* Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 104.

† Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. v., p. 1138.

‡ Y Gwladgarwr, cyf. iv., t. 197, &c.

§ "Y mae'n ddiamheuol," medd Carlyle, "bod y Richard hwn yn ysgrifenu ei enw yn 'Richard Cromwel neu Williams,' ac yr oedd ei feibion a'i wyrion yn gwneuthur yr un modd; a gwyddys bod OLIVER wedi ysgrifenu ei enw felly pan yn ieuangc." Leland a ddywed yn ei Deithlyfr (*Itinerary*) bod "Richard Williams neu Cromwel wedi ei eni ymhlwyf Llanilden, yn sir Forganwg." "Y mae'r gwirioneddau hyn," medd Carlyle, "yn anwadadwy."

yr enw Cromwel gyntaf ar ol ei ewythr, Thomas, yr Arglwydd Cromwel, Iarll Essex), fab William ab Morgan (o Eglwys Newydd, sir Forganwg, yr hwn a brodes ferch Walter Cromwel, chwaer Syr Thomas Cromwel, Iarll Essex), fab Morgan ap Ioan, fab Ioan ab Morgan, fab Morgan ap Hywel, fab Hywel ab Madog, fab Madog ab Alan, fab Alan ap Owain, fab Owain ap Cadwgan (Arglwydd Cibion, neu Cibwyr), fab Cadwgan ab Gruffydd, fab Gruffydd Maelor (Arglwydd Maelor yn 1190), fab Meredydd ab Madog, fab Madog ab Bleddyn, fab Bleddyn ab Cynfyn, Tywysog Powys a Gwynedd, o.c. 1064-1073."

Disgynodd Cromwel trwy ei fam o frenhinoedd Ysgotland (yr Alban) fel y canlyn:—

"OLIVER CROMWEL, fab Elsbeth Stiwart (gwraig Robert Cromwel), ferch Elsbeth Stiwart, ferch William Stiwart, fab Niclas Stiwart, fab Niclas Stiwart, fab Rhisiart Stiwart, fab Thomas Stiwart, fab Thomas Stiwart, fab Ioan Stiwart, fab Alecsander Stiwart, y 5med o Walter Ddu* (o.c. 1286), fab Trahaiarn ap Caradog, o.c. 1070-1110."

Yr oedd Cromwel, fel hyn, yn gâr pell, o du ei fam, i Charles I., yr hwn a dorfynyglwyd am ei anwadalwch a'i dwyll, canys yr oedd y ddau, Cromwel a Charles, yn disgyn yn gyfochr o Alecsander Stiwart, y 5med o Walter Ddu, fel y canlyn:—

"Charles I. (brenin Lloegr), oedd fab Iago I. (Iago VI. o'r Alban), fab Mari (brenhines yr Ysgodogion), ferch Iago V., fab Iago IV., fab Iago III., fab Iago II., fab Iago I., fab Robert III., fab Robert II., fab Walter Stiwart, fab Ioan Stiwart, fab Alecsander Stiwart, y 5med o Walter Ddu ap Trahaiarn ap Caradog."

Y mae'r llinellau awdurdodol hyn yn ddigon i brofi bod Cromwel wedi disgyn o'r teuluoedd uwchaf yn y Deyrnas Gyfunol, y rhai a ystyrir hefyd yr anrhydeddusaf; ond, mewn gwirionedd, fel yr awgrymwyd eisoes, nid yw achau ond pethau pur ddibwys er gwneud dynion yn wir enwog. Nerth eu talentau eu hunain, a gwerth yr egwyddorion a goleddant, sy'n gwneud dynion yn anrhydeddus a defnyddiol yn eu cenhedlaeth. Tyddynwr cyffredin yn Israel oedd Jesse, tad Dafydd, ac yntau ei hun yn fugail defaid ei dad, yr hwn a ddaeth yn achubwr ei wlad, yn frenin ei genedl, ac yn fardd penaf i Eglwys Dduw; ond yr oedd Rehoboam, ei ŵyr, y distadlaf a fu yn eistedd ar orsedd Israel a Judah, yn fab Solomon, y brenin penaf o holl feibion y Dwyrain. Gwyddai Oliver Cromwel y pethau hyn a'u cyffelyb yn dda, a diau mai fel pwngc o wladyddiaeth yn unig y tybiodd efe yn werth amser atteb haeriadau disail ei wrthwynebwyr gwladol gyd â golwg ar ei haniad, y rhai a arllwysent eu digofaint arno trwy oganu ei hynafiaid, fel rhai o haniad distadl ac anhyspys.

OLIVER CROMWEL a anwyd ar y 25med o Ebrill, 1599, ymhlwyf Ioan Sant, yn nhref fwrdeisiol Huntingdon; ac ar y 29fed o'r un mis, bedyddiwyd ef dan yr enw OLIVER, o barch i'w ewythr, Syr Oliver Cromwel, brawd hynaf ei dad. Treuliodd ei faboed rhwng ei gartref ei hun, trigfod ei ewythr, Syr Oliver, a phalas ei daid o du ei fam, Syr Robert Stiwart. Ymddiriedwyd ei addysg foreuaf i benaeth athrofa neillduol yn ei dref enedigol; ond symmudwyd ef yn fuan, a dodwyd ef dan ofal y Dr. Thomas Beard, athraw ysgol rammadegol rydd,† gŵr o ddysg a theilyngdod nid bychan. Ei elynion gwladol ac eglwysig sy'n haeru mai "iasau (*fits*) o ddysg a fyddai yn eu cael; weithiau yn fyfyriwr caled dros wythnos neu ddwy, ac yna yn llercyn dros gynnifer o fisoedd, heb ddim sefydlowgrwydd ynddo." Y mae'r dystiolaeth gryfaf yn ei hanes ddyfodol yn ddigon i brofi nas gallasai fod yn gydymaith segur ac anwybodus, fel y myn rhai i ni gredu am dano.‡

Yr olwg nesaf a geir ar Oliver ydyw, pan aeth i Goleg Sidney-Sussex, Caergrawnt, fel myfyriwr. Derbyniwyd ef yn Gymmrawd eilradd ar y 23ydd o Ebrill, 1616, pan nad oedd ond 17 oed. Prawf y gwirionedd iddo gael ei dderbyn mor ieuangc i'r coleg hwnw nad "iasau o ddysg a fyddai yn eu cael," yn ol haeriad ei elynion. Ei athraw yno oedd un Richard Howlet, ac ymddengys iddo wneud y defnydd gorau o'i fanteision dros y tymmor byr y bu yno, canys ymadawodd oddi yno ar y 23ydd o Fehefin, 1617, ar farwolaeth ei dad, ac ni ddychwelodd yno mwy; er hyny, dysgodd gymmaint yno fel y medrai siarad Lladin yn rhwydd mewn blynyddoedd dyfodol.

Dilynodd Oliver ei dad, ar ei farwolaeth, yn yr etifeddiaeth, ac yn lled fuan wedyn aeth i Lundain i fyfyrio y gyfraith; ond yn lle myned i Westty Caerlwytcoed (*Lincoln's Inn*), nac unrhyw westty cyfreithiol arall, nid aeth efe ond i ystafelloedd rhai gwŷr dysgedig yn unig, er mwyn

* Y mae Carnhuanawc yn cofnodi yr hyn a ganlyn am y Walter Ddu yma, a adroddir. eb efe, "gan amryw hanesyddion:"—"Yn amser y tywysog hwn [Gruffydd ap Llewelyn, o.c. 1039-1063], Macbeth, brenin yr Alban, a barodd lofruddiad pendefig o'r enw Bancho; a Fleance [Ffliangc], ei fab, a ffodd i Gymru, at Ruffydd ap Llewelyn, yr hwn a'i derbyniodd yn lletteugar a haelionus. Eithr y dyeithryn a gamarferodd ei fraint, trwy ordderchiad merch ei lettywr, o'r hon y ganed mab, a enwyd Walter. Pan wybu Gruffydd hyn, efe a osododd Ffliangc i farwolaeth; ond Walter a ddygwyd i fynu yn y llys. Pan ddaeth i oedran gŵr, aeth i'r Alban, lle yr ymddygodd mor wych a'i wneuthur yn brif-oruchwyliwr (*Lord-Steward*) y deyrnas. Ac oddi wrth hyn cymmerodd yr enw Stewart; ac oddi wrtho ef y mae'r teulu brenhinol, y *Stuardiaid*, yn deilliaw. Ond y mae rhai yn amhau yr hanesiad hyn, ac yn dywedyd fod y Stuartiaid yn hanedig oddi wrth deulu Normanaidd yn swydd Amwythig, o'r enw *Fitzalan*." —Han. Cym., t. 442.

† "Ysgol Bresbyteraidd," medd P. E. Dove.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. v., p. 1138.

‡ Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 104.

Digitized by Google

dysgu digon o'r gyfraith i gyflawni dyledswyddau ynad sirol. Y mae chwedlau ei elynion ynghylch ei fywyd segur a gwastraffus tra yn Llundain yn gwbl ddisail. Tebycach o lawer ydyw ei fod ar y pryd yn cyfeillachu â rhai o Buritaniaid duwiolfryd y brif-ddinas, canys dechreuodd bregethu yn bur danbaid, ar achlysuron, yn lled fuan ar ol dychwel adref o Lundain, a daeth yn raddol yn adnabyddus i ryddfrydwyr crefyddol ei wlad, a gwrthwynebwyr y llys llygredig, ac ystyrid ef ganddynt yn fuan fel un o'u harweinwyr mwyaf galluog, penderfynol, a chysson.*

Ar yr 22fed o Awst, 1620, ac efe yn 21 oed, priododd Oliver Cromwel âg Elizabeth, merch Syr Iago Bourchier (Bŵrsiyr), a chafodd gynhysgaeth dda i'w chanlyn, a bu yntau yn briod tyner, yn dad gofalus, yn feistr rhesymol, yn ynad teg a chyfiawn, ac yn gymmydog cymmwynasgar a Christionogol, ymhell cyn iddo ymddyrchafu i enwogrwydd cyhoeddus trwy yr holl wlad. Yn wir, ei gymmeriad cyffredinol, yn oed cyn iddo ddyfod yn hyspys i'r holl genedl, ydoedd eiddo dŷn heb ddim gwall arbenig. Yr oedd yn syml, yn eirwir, yn ddiffuant, ac yn wladgarol; a phan y galwyd arno i wasanaethu ei wlad, gwnaeth hyny gyd âg egni, dyfalbarhâd, ac amynedd cyfartal i'w anhunanoldeb. Treuliodd Cromwel tu a phedair blynedd ar ol priodi yn ei dref enedigol, Huntington, neu ar ei chyffiniau, yn trin ei dir, ac yn dechrau magu ei blant, o'r sawl y bu iddo wyth o gwbl, sef pedwar o feibion a phedair o ferched. Ni wyddys odid ddim am dano yn ystod yr amser yma, heb law yr arwydda ei fywyd dyfodol iddo fod yn ddiwyd, meddylgar, ac egnïol; a gellir casglu oddi wrth ymddygiad ei gyd-drefwyr ato ar ol hyn ei fod yn dra chymmeradwy yn eu plith fel pregethwr, cymmydog, ac ynad heddwch.

Ymhen yspaid lled fyr wedi iddo ymsefydlu yn Huntington, bu farw ei ewythr, brawd ei fam, Syr Thomas Stiwart, o Ely, dinas esgobol sir Gaergrawnt, a disgynodd ei etifeddiaeth iddo ef, yr hon oedd ar y pryd yn werth tu a 500p. y flwyddyn, cyfartal i 1,500p. o'n harian ni. Mewn canlyniad i hyn, symmudodd Cromwel i Ely, ac yn y flwyddyn 1625 etholwyd ef yn aelod seneddol dros ei fwrdeisdref enedigol, Huntingdon, yr hyn a brawf bod gan ei hen gymmydogion feddwl pur uchel o hono.† Felly eisteddodd Cromwel yn y senedd gyntaf a gynhaliwyd dan deyrnasiad Charles I. Dywed I. G. Geirionydd mai o gylch y pryd hyn y dechreuodd Cromwel "amlygu anhoffder at yr Eglwys Sefydledig, yn yr hon yr oedd efe a'i berthynasau wedi cael eu dwyn i fynu hyd yn hyn, a dangosai ei ymogwyddiad at y blaid honno o grefyddwyr a elwid y pryd hwnw Puritaniaid, gan fynych gyrchu i wrando y gweinidogion hyny a ddidolasid oddi wrth yr Eglwys drwy Ddeddf yr Unffurfiad, o'r cyfryw y mynych wahoddai amryw i weinidogaethu yn ei dŷ ei hun."* Ond ni wnaed "Deddf yr Unffurfiad" hyd 1662, ymhen pedair blynedd ar ol marwolaeth Cromwel.† Tebycach o lawer ydyw i hadau Puritaniaeth gael eu hau yn ei feddwl ieuangc pan yn "ysgol Bresbyteraidd" ei ardal enedigol, ac iddynt dyfu ac addfedu yn raddol pan yn Llundain, ac ar ol dychwel adref a phriodi, pryd y dechreuodd eu cyhoeddi a'u hamddiffyn yn danbaid ac egnïol, fel y crybwyllwyd eisoes.‡ Y mae yn dra sicr fod ymddygiadau Pabaidd a gormesol Iago I., a'i fab Charles I. ar ei ol, a'r dihirod eglwysig a'u cefnogent,§ yn ei yru ymhellach bellach oddi wrth yr Eglwys Wladol, ac yn ei ddynesu yn nes nes at olygiadau y Puritaniaid.

Pan ymgynhullodd y Senedd yn 1628, yr hon a ddadgorphorwyd yn 1629, yr oedd Cromwel yn eistedd ynddi etto dros Huntingdon, ac yn ystod yr eisteddiad yn yr olaf y dechreuodd efe ddyfod i sylw cyhoeddus, mewn cyssylltiad â gwrthdystiad y Senedd yn erbyn y brenin a'i gynffonwyr uchel-eglwysig o herwydd iddynt droseddu Deiseb yr Hawl.‖ Pan welodd y brenin na chai ei ffordd ei hun gan gynddrychiolwyr y bobl, dadgorphorodd y Senedd ar y 10fed o Fawrth, 1629, ac aeth mor bell yn ei ryfyg unbenaethol fel y penderfynodd lywodraethu heb Senedd, ac ni alwodd gynddrychiolwyr y genedl ynghyd mwyach hyd Ebrill, 1640.¶

Yn ebrwydd ar ol dattod y Senedd yn 1629, ymrôdd y brenin rhyfygus i droseddu darpariadau Deiseb yr Hawl, trwy godi trethi heb awdurdod gyfreithiol; carcharu ei ddeiliaid heb eu profi yn euog; dyrchafu ei wenieithwyr; darostwng yr

* Y Gwyddoniadur, cyf. ii., t. 578-9.
† Y Gwladgarwr, cyf. iv., t. 198.

* Y Gwladgarwr, cyf. iv., t. 198-9.
† Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 211; Staunton, vol. iii., p. 247.
‡ Y Gwyddoniadur, cyf. ii., t. 578-9.
§ Gwel hanes eu hymddygiadau ysgeler yn Llyfr iii., pen. i.; Llyfr iv., pen. i.
‖ Petition of Right.
¶ Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 32; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iii., pp. 258, 260, 272-4, 309.

Digitized by Google

yspryd rhyddid oedd yn ymgodi yn y wlad; teyrnasu fel unbenaeth; a chafodd offeryn galluog yn Thomas Wentworth, yr hwn a wrthgiliasai yn ddiweddar oddi wrth y blaid ddiwygiadol, ac a ddyrchafasid, mewn canlyniad, gan y gormesdeyrn i'w Gyfrin Gyngor. Amcan mawr Wentworth, cyn gynted ag y dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth ac i gyngor y brenin, oedd gwneud y frenhiniaeth yn unbenaeth annibynol, trwy ddarostwng, nid yn unig etifeddiaethau, ond hefyd rhyddid personol y deiliaid, i ewyllys y goron. Er mwyn sicrhau yr amcan yma, rhodd ei holl allu ar waith i ffurfio byddin sefydlog at wasanaeth y brenin, er mwyn cadw y deiliaid mewn ofn, ac i'w gorfodi i ymostwng dan bob gormes a roddai efe a'i feistr diegwyddor arnynt; ond camddeallodd y ddau yspryd y Brytaniaid. At ei holl ormesiadau eraill, gosododd y brenin DRETH Y LLONGAU ar yr holl deyrnas, yr hon a gyfyngid ar y cyntaf i'r trefydd porthladdol. Ni chyfodasid y dreth hon erioed o'r blaen ond yn amser rhyfel yn unig. Yr oedd Brydain weithion mewn heddwch â'r holl fyd; a gofynai y genedl yn gyffredin, "Pa achos oedd yn awr am y fath dreth ormesol?" Daeth y wlad i ddeall yn fuan mai unig amcan y dreth anghyfreithlawn oedd cynnal gallu milwrol at wasanaeth y brenin, er mwyn iddo allu gwneud ei lywodraeth yn wir unbenol. Cynhyrfwyd yspryd y genedl yn erbyn yr ormes; ac ar un John Hampden, boneddwr pwyllog a chariadlawn o sir Buckingham, ond yr hwn oedd yn meddu meddwl golau, cadarn, a dïysgog, yr hwn hefyd oedd yn gefnder i Oliver Cromwel, y disgynodd y gorchwyl o godi baner rhyddid yn erbyn trais y gorthrymwr gorphwyllog, a'i offerynau gwladol ac eglwysig erlidgar a diegwyddor. Yr oedd Tŷ'r Cyffredin wedi datgan bod codi treth heb gydsyniad y Senedd yn anghyfreithlawn, a bod y rhai a wnelent hyny, a'r sawl a'i talent, yn euog o deyrnfradwriaeth. Gan hyny, yr oedd hyn, pe na buasai dim arall, yn ol cyfreithiau y wlad ar y pryd, yn gwneud y brenin yn agored i gael ei dorfynyglu. Yn Ionawr, 1636, trethwyd Hampden i'r swm o 1p. 11s. a 6c. mewn un plwyf, ac i'r swm o 1p. mewn plwyf arall, trwy awdurdod y brenin; ond gwrthododd Hampden eu talu, ac appeliodd at y gyfraith yn erbyn yr ormes. "Yr oedd y gyfraith mor eglur o blaid Hampden fel, er na ddaliai y barnwyr eu sefyllfaoedd ond dros yr yspaid a ewyllysiai y brenin yn unig, etto yr oedd y mwyafrif yn ei erbyn y lleiaf ag oedd bossibl. Datganodd pump o'r deuddeg o'i blaid. Rhodd y saith eraill eu lleisiau yn ei erbyn. . . . Edrychodd y bobl arno fel buddugwr, a daeth yn anwyl gan bob calon yn Mrydain," ond y gormeswyr, a chynhyrfwyd hwy yn chwerw gan anghyfiawnder y ddedfryd. Yn wyneb y gorthrwm yma, a'i gyffelyb, penderfynodd llïaws o grefyddwyr, amaethwyr, gweithwyr, a boneddigion, werthu eu meddiannau ac ymfudo i'r America, ac yn eu plith yr oedd OLIVER CROMWELL a'i gefnder HAMPDEN, yn yr hwn yr oedd gan Oliver yr ymddiried llwyraf. Wedi i'r ymfudwyr fyned i wyth o longau ar yr Afon Tafwys, ac ar droi allan, daeth gorchymyn oddi wrth y brenin a'i lys i'w hattal; gorfodwyd hwy i ddadlwytho; a dyma un o'r gweithredoedd mwyaf andwyol iddo ei hun a'i offerynau anfad a gyflawnodd y brenin annarbodus yn ei holl fywyd Pabyddol a gormesol.*

Yr oedd y wlad yn awr yn dyheu am fwy o ryddid crefyddol cystal a gwladol; ond yr oedd y brenin a'i lys eglwysig sarhaus yn penderfynu gwneud gwawd o'u holl geisiadau rhesymol a gwladgarol, fel y dangoswyd o'r blaen.† Nid yn Lloegr, Cymru, a'r Werddon yn unig yr oedd y gormesdeyrn twyllodrus yn gorthrymu ei ddeiliaid, ond hefyd yn Ysgotland, trwy geisio newid cyfreithiau a chrefydd y wlad honno, er iddo addaw yn ddifrifol, pan yn eu gwlad, yr ymddygai yn wahanol. Ymrestrodd yr Ysgotiaid fel un gŵr dan arfau yn erbyn y gormeswr ac o blaid eu hawliau. Casglodd yntau fyddin gref ynghyd, trwy gymmorth y gwŷr eglwysig yn benaf; ond wedi cyfarfod ar y maes, canfu yn fuan fod yr Ysgotiaid yn rhy gryfion a phenderfynol iddo, a gorfodwyd ef i wneud cyngrair heddwch â hwy, er ei waradwydd. Torodd y brenin anwadal y cyngrair â'r Ysgotiaid yn ebrwydd; ond cyfarfu â'r un dynged eilwaith, yr hyn a barai i'r wlad edrych arno gyd â dirmyg, fel dihiryn anwybodus o'i sefyllfa ei hun a'i ddeiliaid. Er iddo fwriadu teyrnasu, tu a deuddeng mlynedd yn ol, heb Senedd, aeth mor gyfyng arno o'r diwedd, o blegid prinder arian i gynnal ei fyddin fawr, afreidiol, ac aflwyddiannus, fel y gorfodwyd ef unwaith etto i alw y Senedd ynghyd, yr hon a ymgynhullodd ar y 12fed o Ebrill, 1640, i'r hon yr anfonwyd llawer o wir gynddrychiolwyr y bobl, megis

* Macaulay's Essays, p. 205, &c.; Ferguson's Hist. Engl., vol iii., p. 33.

† Gwel Llyfr iii., pen. i.

Digitized by Google

Hampden, Pym, Hòles, Strode, Oliver St. John, Maynard, a Hazelrig; a dychwelwyd Oliver Cromwel y waith hon dros ddinas Caergrawnt. Cynhygiodd y brenin lwyr ddileu Treth y Llongau, yr atgasaf gan y wlad, os rhoddai y Senedd chwe chan mil o bunnau iddo yntau fel cydnabyddiaeth am hyny. Cydsyniodd y Tŷ i addaw yr arian, ond nid fel cydnabyddiaeth am beidio codi Treth y Llongau, o herwydd nad oedd ganddo ef hawl i godi honno, nac un dreth arall, heb gydsyniad y Senedd. Honnent hefyd mai hen arfer y Tŷ oedd ymdrin â chwynion y wlad cyn trin pwngc yr arian; a dechreuwyd yn y man ar y cwynion, y rhai a drefnwyd ganddynt yn dri dosparth:—Rhagorfreintiau y Senedd; meddiannau y deiliaid; a matterion crefyddol. Pan welodd Charles na phlygai y Senedd heb gael llwyr foddhâd ar y pyngciau a nodwyd, dadgorphorodd hi unwaith etto, mewn llid a chynddaredd, yr hyn a yrodd y wlad i fwy o ddigofaint fyth yn ei erbyn ef a'i gynghoriaid gormesol ac anonest. Wedi arteithio ac yspeilio llu o'i ddeiliaid ffyddlonaf, yn cael ei gynnorthwyo gan y clerigwyr a'i weneithwyr anfad, fel y dangoswyd yn y bennod gyntaf o'n trydydd llyfr, aeth unwaith etto gyd â byddin led fawr yn erbyn yr Ysgotiaid; ond gorfodwyd ef i wneud cyngrair â hwy, yr hyn a chwanegodd at ei warth a'i ynfydrwydd yngolwg yr holl wlad. Yr oedd yr holl deyrnas weithian mewn cynnwrf a dychryn, ac argyhoeddwyd y brenin annoeth a chyndyn nas gallai wneud dim mwyach heb gydsyniad cynddrychiolwyr y bobl; am hyny galwodd hwy ynghyd unwaith etto, y rhai a ymgynhullasent ar y 3ydd o Dachwedd, 1640, yn yr eisteddiad byth gofiadwy a elwir

Y SENEDD HIR. Y mae gweithrediadau hon yn llawer rhy "hir" i ni sylwi ar ddim ond y prif bethau a'n harweiniant at CROMWEL, yr hwn a etholwyd etto dros ddinas Caergrawnt, yn erbyn ymgeisydd y llys.* Yn ebrwydd ar ol ymgynnull, yn lle pleidleisio arian i'r brenin gwastraffus a gormesol, aeth yr aelodau, dan arweiniad Pym, Hampden, Hòles, Cromwel, a'r cyffelyb ŵyr enwog, i drin cwynion y wlad, fel yn yr eisteddiad blaenorol, ac ni feiddiai y brenin eiddil a thwyllodrus weithian eu hattal. Yr oedd cwynion a deisebau yn erbyn gormesiadau yn ymdywallt i'r Tŷ o bob cyfeiriad, fel yr ymranodd ac yr adymranodd i fwy na deugain o bwyllgorau i'w cymmeryd dan ystyriaeth. Yr oeddynt wedi cael eu llwyr argyhoeddi erbyn hyn bod Charles yn ddŷn cwbl diymddiried, ac mai gwrthwynebiad trwyadl a phenderfynol i'w holl gynlluniau llywodraethol yn unig a allai achub y genedl rhag dinystr. Aethant ym mlaen yn egnïol i erlyn y rhai a gynnorthwyent y brenin i lethu y genedl. Mynasant garcharu prif weinidog y brenin, yr Iarll Strafford (T. Wentworth), a'r Archesgob Laud, dan y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth, fel y crybwyllwyd eisoes. Diddymasant y dedfrydau yn erbyn Hampden, ac eraill o'r blaid boblogaidd; cawsant gydsyniad y brenin, yr hwn oedd weithian yn gwbl yn llaw y Senedd, i'w hysgrif a ofynai Senedd dair blynedd; llwyddasant i ddileu gorfaeliant, ac i gael cydsyniad y brenin yn erbyn dulliau anghyfreithlon i godi arian trwy fenthyciadau gorfodol; tâl y dunell a'r bunt; treth y llongau; a chynlluniau dïawdurdod eraill, ac i roddi gweinidogion pleidiol i'r bobl ynghynghorau y brenin. Diddymwyd Ystafell y Seren, Llys yr Arbrwyadaeth, Llys Llywydd a Chyngor y Gogledd, a Llys Llywydd a Chyngor Cymru a'i Chyffiniau, y rhai oedd yn nythleoedd i bob trais, creulondeb, ac anghyfiawnder. Dywed Hàlam (Hallam) fod "y rhai hyn, dan wahanol esgusion, wedi trawsfeddiannu awdurdod mor ehang ag i amddifadu un ran o dair o Brydain o ragorfreintiau y gyfraith gyffredin." Ynghanol y diwygiadau gwladol pwysig ac iachusol hyn, ni oddefwyd i'r awdurdod anghyfreithlawn a drawsfeddiannwyd gan y "Gymmanfa Eglwysig" fyned heibio heb attalfa. Pasiwyd penderfyniad yn datgan nad oedd gan y clerigwyr eglwysig awdurdod i lunio canonau er rhwymo na gwŷr llên na gwŷr lleyg, a bod y canonau a wnaed gan y Gymmanfa Eglwysig ddiweddar yn groes i gyfreithiau y tir, ac yn tueddu i fagu ymblaid a therfysg. Pleidleisiwyd hefyd bod y cynnorthwyon arianol a ganiatawyd gan y Gymmanfa Eglwysig yn groes i'r gyfraith, ac appwyntiwyd pwyllgor i holi y pleidiau oedd â'r llaw benaf yn y gweithrediadau anghyfreithlawn hyny. Fel hyn gwnaed holl adeilad gormes, a gyfodwyd gyd â'r fath lafur gan Charles, trwy gynhorthwy Wentworth a Laud, yn ystod y deuddeng mlynedd blaenorol, yn un garnedd o adfeilion ar un ergyd. Dywed P. E. Dove "fod Cromwel wedi bwrw ei goelbren ymhlith arweinwyr y Senedd newydd hon, gan ddefnyddio ei lais cras ac amherorol i wasanaeth mawr; a'i fod, fel y sylwa Syr Phylip Warwick yn bur briodol, 'yn cael ei wrando i raddau helaeth

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. v., p. 1139.

iawn.'"* Ar ol ymroddiad dyfal, a llafur egnïol a chawraidd, gohiriwyd y Senedd wiwgof hon ar y 9fed o Fedi, 1641, dros yr yspaid byr o chwech wythnos yn unig.†

Ail ymgynhullodd y Senedd ar y 27fed o Hydref y flwyddyn hon, ac aeth ym mlaen yn ei gweithrediadau yn benderfynol ac ymroddgar. Pan aeth y brenin, o gylch y pryd hyn, i Ysgotland i geisio hudo y trigolion i'w blaid ei hun, ac y llofruddiwyd tu a 50,000 o Brotestaniaid, o bob sefyllfa ac oedran, gan y Pabyddion yn y Werddon, a hyny trwy gydsyniad y brenin a'i frenhines Babaidd, fel y tybid, llanwyd y Protestaniaid trwy yr holl deyrnas âg eiddigedd a dygasedd at y Pabyddion, yr uchel-eglwyswyr, a'r brenin, ac ymunodd y blaid boblogaidd yn y Senedd i lunio gwrthdystiad at y brenin, a alwyd y GWRTHDYSTIAD MAWR,‡ yn gosod allan "eu holl gwynion yn erbyn llwyr ddymchwel y cyfansoddiad gwladol, yn cael ei achosi yn hollol gan ymgyfuniad plaid Babaidd, yr hon yn wastad a lywodraethai ynghynghorau y brenin, yr hon a ymdrechasai trwy egni di dor i ddwyn eu hofergoelion i mewn i Gymru, Lloegr, ac Ysgotland, a'r hon weithian a gynhyrfwyd o'r diwedd i wrthryfel cyhoedd, gwaedlyd, a barbaraidd yn y Werddon." Cynhwysai y Gwrthdystiad Mawr hwn ddau cant a chwech o adranau, yn cynnwys crynhoad o ddigwyddiadau un mlynedd ar bymtheg o deyrnasiad Charles I. Edrychai y blaid ryddfrydig ar basio y gwrthdystiad yma fel adeg dra phwysig yn eu gyrfa; "y pegwn yr oedd yr hyn oll a wnaethant hyd yn hyn, neu a obeithient allu ei wneud rhag llaw, yn troi arno." Dadleuwyd holl adranau y gwrthdystiad yn egnïol gan y blaid frenhinol, eglwysig, a chan y blaid ryddfrydig, y naill ddydd ar ol y llall, o'r 8fed o Dachwedd hyd y 23ydd o'r un mis; a phan ranwyd y Tŷ ddau o'r gloch y borau y diwrnod hwnw, ar ol i'r aelodau fod yn eistedd er deg o'r gloch y borau cyn hyny yn ddïorphwys, cafodd y diwygwyr y mwyafrif bychan o un ar ddeg, sef 159 o bleidleisiau yn erbyn 148. Pan gyfarfu Cromwel â Falkland y borau hwnw wrth ymadael o'r Tŷ, dywedodd wrtho, pe gwrthodasid y gwrthdystiad, y buasai efe ac amryw eraill yn gwerthu yr hyn oll a feddent y diwrnod hwnw, ac nas gwelsai Brydain ef na hwythau byth mwyach. Ond nis gallai Brydain fforddio colli mab mor alluog a ffyddlawn, tynged yr hon a fyddai yn fuan yn ei law.*

Torodd yr ymryson mawr rhwng Charles a'r Senedd allan ynghylch cael llywodraeth y milwyr cartrefol. Honnai Charles mai iddo ef y perthynai yr awdurdod ar y milwyr, a dechreuodd eu casglu ynghyd yn ddïoed. Dychrynodd hyn y blaid ryddfrydig trwy yr holl wlad yn aruthr, a dygwyd ysgrif i'r Senedd ar y 7fed o Ragfyr yr un flwyddyn yn trefnu y dylai cyfluniad y milwyr cartrefol, ac enwad eu swyddogion, fod o hyn allan trwy gydsyniad y Senedd. Credai'r Tŷ Cyffredin bod rhyddid a Phrotestaniaeth Brydain yn dibynu yn awr ar y fath gyfraith. Yr oedd y blaid ormesol weithion fel pe buasai wedi ymddïofrydu i'w dis-trywio ei hun, canys o gylch yr un amser gyrodd un ar ddeg o esgobion, ac un archesgob, y rhai ni feiddient fyned i'r Senedd trwy heolydd Llundain, rhag mor amhoblogaidd oeddynt, wrthdystiad i'r Senedd, yn cyhoeddi bod pob cyfreithiau, pleidleisiau, a threfniadau Seneddol a wnelid yn eu habsennoldeb hwy yn ddirym; a chymmeradwywyd y gwrthdystiad gan y brenin ffol ac anwyliadwrus. Cyttunodd dau Dŷ y Senedd fod y gwrthdystiad yn drosedd yn erbyn egwyddorion sylfaenol y Senedd, a bwriwyd deg† o'r "tadau sanctaidd" i garchar; ond trosglwyddwyd yr Archesgob Williams‡ ac Esgob Durham, o blegid eu hoedran mawr, i ofal y Wialen Ddu. Dywedodd un aelod Seneddol nas credai efe eu bod yn euog o deyrnfradwriaeth, ond yn hytrach eu bod yn wallgof wyllt; am hyny yr ewyllysiai efe eu hanfon i Bedlam, yn hytrach nag i'r Tŵr.§

Ar y 3ydd o Ionawr, 1642, aeth y brenin rhyfygus, gyd â dau gant o wŷr arfog, i'r Senedd, gan fwriadu trosglwyddo pump o aelodau Tŷ'r Cyffredin i garchar, sef Pym, Hampden, Hòles, Hazelrig, a Strode, sef prif arweinwyr y blaid ryddfrydig, ynghyd â'r Arglwydd Kimbolton o Dŷ'r Arglwyddi; ond tra yr oedd y brenin yn teithio o flaen ei filwyr i'r Tŷ, yr oedd yr aelodau camgyhuddedig yn cael eu hanfon trwy ddrws arall i ddïogelwch. Yr oedd Llundain yn llawn cynnwrf.

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. v., p. 1139.

† Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 36, &c.; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iii., p. 317, &c.; Macaulay's Essays, p. 61, &c., p. 190, &c.; Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., p. 67.

‡ Grand Remonstrance.

* Forster's Deb. on the Grand Rem., pp. 359-362; Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 39-49; Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., pp. 74, 85, note J. J.; Mackenzie's Fam. Hist. Eng., vol. iii., pp. 344-356; Neal's Hist. Purit., vol. i., p. 593.

† Y rhai hyny oedd esgobion y lleoedd canlynol:—Caercynan, Llanelwy, Maes y Cyrph, Bath a Wells, Henffordd, Rhydychain, Ely, Caerloyw, Peterborough, a Llandaf.—Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., p. 78, note *.

‡ Gwel t. 106, nod. §.

§ Han. Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 475, &c.

Digitized by Google

Cludwyd y pum aelod gan lu arfog yn fuddugol i Westminster, ac ymddangosodd pedair mil o wŷr meirch o sir Buckingham i edrych na wnelid dim cam â'u haelod Seneddol hwy, Mr. Hampden.*

Ymadawodd y brenin â'i lys o Whitehall (y Neuadd Wen) ar y 10fed o Ionawr, 1642, nid i ddychwel iddi mwy ond fel carcharor. Ar y 7fed o Chwefror, cynhygiodd Cromwel 300p. at wasanaeth y Weriniaeth, ac ymddengys iddo godi y swm wedi hyny i 500p. Ar y 23ydd o Ebrill, y brenin a wnaeth yr ymosodiad rhyfelgar cyntaf, trwy geisio cymmeryd Caerffynidwy (Hull), oedd ar y pryd y porthladd pwysicaf trwy yr hwn y gellid dwyn milwyr o'r Cyfandir, a lle yr oedd digon o arfau i 30,000 o wŷr wedi eu casglu yn ystod y rhyfel Ysgotaidd; ond methodd Charles ei chymmeryd ar ol amryw ymosodiadau. Yn Awst yr un flwyddyn, yr oedd Cromwel ar droed eisoes, ac yn gwneuthur gwasanaeth bywiog. "Cymmerth Mr. Cromwel arfdy y castell yng Nghaergrawnt, yn sir Caergrawnt; ac attaliodd i'r llestri aur ac arian gael eu cymmeryd o'r brifysgol, y sawl, yn ol rhai adroddiadau, sy'n werth 20,000p., neu o ddeutu hyny." Ar y 14ydd o Fedi y flwyddyn hon y dechreuodd Cromwel ei yrfa filwrol, ac efe yn 43 oed, pan y gwnaed ef yn gapten. "Robert, Iarll Essex, oedd arglwyddgadlywydd dros y brenin a'r Senedd," yr hyn a olygir dros y Senedd yn erbyn y brenin; a William, Iarll Bedfford, oedd gadlywydd y meirch, yn meddu o gylch 75 o gatrodau, yn cynnwys 60 o wŷr bob un; ac ymhob catrawd yr oedd capten, is-gapten, torflumanwr, a lluestydd."† Yng nghatrawd 67fed Oliver Cromwel, aelod dros Gaergrawnt, *oedd y capten*; ac yn yr 8fed gatrawd Oliver Cromwel arall, torflumanwr, mab y mae'n debyg i'r *hynaf*, yr hwn a laddwyd ac y collwyd golwg arno mewn hanesyddiaeth ddyfodol."‡ Nid oedd y brwydrau hyn yn ddim amgen nag ysgarmesoedd.*

Ymddengys nad oedd y Senedd, yr hon a feddai lawer mwy o adnoddau at ei galwad nag oedd gan y brenin, yn bwriadu gwneud dim mwy, pan ddechreuodd y gormeswr ymosod ar y wlad trwy rym arfau, nag amddiffyn ei hun a'i chydwladwyr yn effeithiol, gan hyderu, ond odid, y gwelai'r brenin ei ynfydrwydd o'r diwedd, ac y deuai i ammodau heddwch rhesymol ac anrhydeddus i'r ddwy blaid. I hyn y priodola rhai waith y Senedd yn peidio llethu plaid y brenin ar ddechreuad ei ymosodiadau rhyfelgar, pan y cafodd y llaw uchaf mewn rhai ysgarmesoedd ar gychwyniad y rhyfel; ond yr oedd Cromwel yn meddwl yn wahanol, fel y ceir gweled yn ebrwydd. Y frwydr gyntaf o bwys a ymladdwyd rhwng y brenin a'r Senedd a gymmerth le ar y 23ydd a'r 24ydd o Hydref, 1642, yn Edge Hill,† pan yr honnai y ddwy blaid eu bod yn drechaf. Canfu llygaid eryraidd Cromwel yr achos o lesgedd y milwyr Seneddol, y rhai oedd hen, diegwyddor, a gwasaidd; a dywedodd wrth ei gefnder, Hampden, y mynnai efe ddiwygiad dïoed; y cyfodai wŷr âg ofn Duw ger bron eu llygaid, y rhai a ddygent ryw gydwybod i'r hyn a wnelent; "a chewch weled," eb efe, "na orchfygir y cyfryw ddynion ar frys." Casglodd gatrawd yn cynnwys 1000 o wŷr ieuaingc egnïol, gwladgarol, a chydwybodol, "y rhai ni orchfygwyd erioed," ac am hyny a alwyd yn "Ochrau Dur."‡ Ym Mawrth 1643, gwnaed Cromwel yn filwriad,§ a chyfododd yntau ei gatrawd i 2000 o nifer. Dywed Forster, "Pe buasai hanes Cromwel yn terfynu gyd â'r gwaith o godi a disgyblu y dynion hyn, y gadawsai brawf digonol o'i fawredd i oesau dyfodol." Newidiodd holl agwedd y rhyfel yn bur fuan ar ol hyn. Ar y 18fed o Fehefin y flwyddyn hon, bu brwydr boeth ym Maes Charlgrove, ger llaw Rhydychain, lle y lladdwyd yr enwog Hampden. Wedi hyny darostyngodd Cromwel Essex, Hertford, Norfolk, Caergrawnt, a Huntingdon; a thu a diwedd Mehefin, hynododd ei hun yn ddir-

* Fergnson's Hist. Engl., vol. ii., p. 41; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iii., p. 357, &c.; Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., *pp. 78, 86*, note K. K.; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1139.

† Captain, Lieutenant, Cornet, Quarter-master.

‡ *Y mae'n* sicr mai mab hynaf OLIVER CROMWEL oedd yr Oliver yma, canys pan benderfynodd efe ymladd dros ryddid gwladol a chrefyddol ei wlad, dywedodd wrth ei fab hynaf fel hyn:—"Tyred, *fy mab Oliver*: yr wyt ti yn ddigon dy faint i ymafael mewn cleddyf: os bu rhyfel erioed yn werth ei hymladd, a'i galw yn rhyfel yr Arglwydd, hon ydyw hi."

*Tybir ei fod yn* cyfeirio at gwymp ei fab Oliver yn y llythyr teimladwy a *ysgrifenodd* at ei frawd ynghyfraith, pan gwympodd mab hwnw, a'i *nai yntau* o fab ei chwaer, ym mrwydr ofnadwy Rhosdir *Marston* (Marston Moor), yn yr hwn y dywed fel y canlyn:—"Syr, chwi a wyddoch am y profedigaethau y bu raid i mi fy hun fyned trwyddynt; ond fy nghynhaliaeth oedd, bod yr Arglwydd wedi ei gymmeryd i'r dedwyddwch yr ydym oll yn disgwyl am dano. Yno y mae eich plentyn gwerthfawr chwithau yn llawn gogoniant, heb fod byth i brofi na phechod na thristwch mwy. . . . Dŷn ieuangc gwerthfawr ydoedd, yn gymmwys i fyned at Dduw. Y mae genych achos i fendithio yr Arglwydd: y mae yn sant gogoneddus yn y nefoedd, yn yr hyn y dylech fawr lawenhau. Nid geiriau ffugiol i'ch diddanu yw y rhai hyn, ond y maent yn wirioneddau dïamheuol a sylweddol."

* Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 41, 42; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 4; Milit. Hist. apud, vol. vi., p. xxxiii.; Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., p. 83; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1139.

† Llethr y Bryn, yn sir Gaerwythwythelin=Warwickshire.

‡ Ironsides. § Colonel.



Digitized by Google

fawr trwy y waredigaeth feistrolgar a roddes i Gainsborough (Gênsbyro), sir Gaerlwytcoed, pan y llwyr orchfygodd y galluog Cavendish, yr hwn a gwympodd yn y frwydr. Ar yr 11fed o Hydref, bu brwydr ofnadwy yn Horncastle, tref arall yn yr un sir, lle y llwyr chwalodd efe fyddin yr Iarll Newcastle. Wedi hyny cymmerth Helsdon-house trwy ruthr, a chadwodd Rydychain dros amser mewn dychryn anaele. Yna darostyngodd ac ynnillodd Lynn-Regis, yn sir Norfolk; ac ymhen deng niwrnod wedyn, ymladdodd frwydr Newbury, yn sir Berk, ac ynnillodd hi.*

Tu a dechrau haf 1644, gwarchcuodd yr Arglwydd Fairfax ar yr Ardalydd Newcastle, ynghyd â 6000 o wŷr, yng Nghaerefrog. Ym mis Mehefin aeth y Tywysog Rupert, prif gadlywydd y brenin, gyd âg 20,000 o wŷr, o sir Gaerhirfryn, tu a Chaerefrog i wared yr Ardalydd. Pan glybu Cromwel hyny, ysgubodd ar draws y deyrnas; ac ar y 1af o Orphenaf, ymunodd â Fairfax yn Rhosdir Marston (Marston Moor), tu ag wyth milltir i'r de-orllewin oddi wrth y ddinas, a thranoeth bu Cromwel a'i "Ochrau Dur" yn foddion i lwyr chwalu byddin fawr y brenin. Lladdwyd 3000 o honynt, a chymmerwyd 1500 yn garcharorion, yn cynnwys tu a 100 o swyddogion, ynghyd â'u cadoffer, eu pebyll, eu cad-ddarpariaeth, a'u holl gadgelfi. Gadawyd 4150 o gyrph ar y maes i'w claddu y noswaith ofnadwy honno.† Ymhen tridiau ar ol y frwydr hon, ysgrifenodd Cromwel fel y canlyn:—

"Ein dyledswydd yw teimlo yn ddwys wrth dderbyn ein trugareddau, a moliannu yr Arglwydd yn ein ceryddon a'n profedigaethau. Yn wir, y mae Brydain wedi cael ffafr fawr gan yr Arglwydd yn y fuddugoliaeth fawr hon a roddes efe ini, y fath na chawsom er pan ddechreuodd y rhyfel anfad hon. Rhoddwyd ynddi bob arwyddion buddugoliaeth, trwy fendith Duw, i'r rhai sydd yn ei ofni. Ymlidiasom y gelyn ar unwaith: gorchfygodd yr aden aswy, yr hon oedd dan fy llywyddiaeth i, gyd âg ychydig o'r Ysgotiaid, holl feirch y tywysog. Gwnaeth Duw hwynt fel sofl o flaen ein cleddyfau. Nis gallaf adrodd y manylion yn bresennol; ond yr wyf yn credu nad oes 4000 wedi eu gadael o'r 20,000 oedd gan y tywysog. Rhoddwch y gogoniant, yr holl ogoniant, i Dduw."

Rhoddes buddugoliaeth Rhosdir Marston y gogledd oll dan awdurdod y Senedd. Ymostyngodd Caerefrog ar y 10fed o Orphenaf; ac ar y 19ydd o Hydref, cymmerwyd Newcastle (y Castell Newydd) trwy ruthr. Yr oedd darostyngiad y lle hwn o wasanaeth dirfawr i ddinas Llundain, "lle yr oedd y dosparth tlotaf o'r bobl," medd yr haneswyr brenhinol eu hunain, "wedi bod dros y ddwy flynydd ddiweddaf bron rhynu i farwolaeth o ddiffyg tanwydd,"‡ gan y gwaharddwyd trosglwyddo glo o Newcastle cyhyd ag y bu'r dref yn nwylaw y blaid frenhinol. Gan hyny, croesawyd darostyngiad y dref honno, ar ddyfodiad y gauaf i mewn, fel y digwyddiad mwyaf dedwydd i drigolion y brif-ddinas a'r siroedd deheuol.

Wedi darostwng y parthau a nodwyd o'r wlad, aeth Cromwel a'i "Ochrau Dur" ar ffrwst i Gernyw, lle yr oedd y brenin wedi myned at ei bleidwyr; a phan yr oedd yn dychwelyd, ar ol trechu yr Iarll Essex, tu a Rhydychain, cyfarfu Cromwel âg ef ar y 27fed o Hydref, a llwyr orchfygodd ef yn Newbury. Buasai Cromwel wedi dal y brenin yn y lle hwn, gan roi terfyn ar y rhyfel ysgeler a gwaedlyd hon, pe cawsai ei ffordd ei hun gan yr amhenderfynol, os nad y bradwrus, Iarll Manchester, yr hwn ydoedd arweinydd dïymadferth y fyddin yr oedd Cromwel yn filwriad ynddi.§

Yr oedd y pendefigion, y rhai a ddaethant yn bur gyffredin cyn hyn i gofleidio y mesurau boreuaf yn erbyn Charles a'i lywodraeth, wedi dyfod weithian i dybied y dodasant ormod o awdurdod yn nwylaw y bobl; ac am hyny yr oeddynt yn barod i ymgyssylltu â'r Ysgotiaid i gynllunio ammodau heddwch â'r brenin. Tybient os gallant sicrhau Charles yn y meddiant o'i awdurdod blaenorol, na byddai hyny sail annïogel, ar yr hon y gallent osod eu hawl neillduol eu hunain i radd a rhagorfraint etifeddol. "Aethant yn llawer pellach," medd un ysgrifenydd, "canys yr oedd Iarllod Essex a Manchester, i'r rhai yr ymddiriedasid arwain lluoedd y Senedd, a'r sawl y gellid dywedyd eu bod yn cynddrychioli corph mawr y pendefigion yn y fyddin, wedi troi, fel yr ymddangosai, ar ol brwydr Rhosdir Marston, i aneffeithioli ymdrechion y milwyr, megis pe buasent anewyllysgar i wneud yr achos poblogaidd yn rhy amlwg a phwysig; ac, er nas goddefent i'r brenin eu llwyr drechu, etto cymmerent cyn lleied o fantais o'i ddiffygion ag y goddefent iddo yn achlysurol wneud y fath ddefnydd o frwydr gyfartal, ïe, a hyd yn oed drechiad penderfynol, megis pe buasai yn fuddugoliaeth iddo. O herwydd y pethau hyn, daeth yn amlwg i'r Senedd, yn lle dynesu i benderfynu pethau oedd mor agos at eu

* Gwel yr awdurdodau a nodwyd eisoes, Ferguson, &c.
† Echard, vol. iii., p. 482.

‡ Rushworth's Hist. Col., vol. v., pp. 624-5; Baillie's Letters, vol. ii., p. 49.
§ Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 44, &c.; Gleig's Hist. Engl. p. 355.

calon, a thrwy y rhai y gobeithient unwaith allu rhoddi y gyfraith yn effeithiol i'w penadur, eu bod yn oed yn colli tir yn yr ymdrechfa."

Yr oedd y pethau hyn yn pwyso yn ddwys ar yspryd Cromwel; ond cilio yn ol a wnaeth efe yn unig, fel y gallai roddi naid fwy llwyddiannus. Tremiodd ei lygaid eryraidd ef ar unwaith i ddyfnder a gwreiddyn y symmudiadau aflwyddiannus hyn. Gan ei fod yn dychryn rhag y canlyniadau a ymddangosent yn crogi uwch ben y wlad ac achos cyfiawn dynoliaeth lethedig, efe a ymroddodd gyd â bywyd ac egni newydd i weithio allan ddiwygiad. Dechreuodd, er mawr foddhâd i'r Seneddwyr, trwy gyhuddiad ffurfiol yn erbyn yr Iarll Manchester, ei brif gadfridog. Gwnaeth hyn "yn wyneb haul a llygad goleuni." Nid oedd ganddo ef ddim i'w guddio, ac o ganlyniad dim i'w ofni. Gadawodd faes y gyflafan a thrwf arfau rhyfel dros ennyd, ac aeth i Dŷ'r Cyffredin i ganol ystorm o ddadl ddigofus. Ar ddydd Llun, y 25med o Dachwedd, 1644, ffurfiodd ei gyhuddiad fel ag i arwyddo mewn effaith ddarfod i Manchester bob amser ddangos hwyrfrydigrwydd i ymosod ar y gelyn, ac fel pe buasai arno ofn dïanrhydeddus; ei fod wedi gwrthod beth bynag a dueddai i brysuro gorchfygiad y blaid wrthwynebol; ei fod wedi trefnu byddin y Senedd fel ag i roddi mantais mynych a phennodol i'r gelyn; a'i fod wedi gweithredu weithiau yn groes i gyngor rhyfel, trwy eu darbwyllo a'u llithio, weithiau i esgeuluso cyfleusdra dan yr esgus o ganfod un arall, ac yna eu hannog i beidio ymladd o gwbl. Wedi adrodd y cyhuddiad yn y dull yma, â Cromwel ym mlaen i gyfarch y Tŷ fel y canlyn:—

"Y mae hi weithian yn llawn bryd llefaru, neu dewi am byth. Nid yw yr achlysur ddim llai nag achub cenedl o sefyllfa waedlyd; ïe, braidd na ddywedwn, sefyllfa farwol, i'r hon y mae parhâd maith y rhyfel bron wedi ei dwyn; fel, os na yrir y rhyfel ym mlaen yn fwy cyflym, egnïol, ac effeithiol, gan roi heibio bob gweithrediadau gohiriog, y byddwn fel milwyr ffawd tu hwnt i'r môr yn nyddu allan ryfel, a blina y deyrnas arnom, a chasânt yr enw o Senedd. Canys beth a ddywed y gelyn? Ië, beth a ddywed llawer oedd yn gyfeillion ar ddechrau y Senedd? Hyn a ddywedant, bod aelodau y ddau Dŷ wedi cael lleoedd ac awdurdodau mawrion, a'r cleddyf i'w dwylaw; ac y bydd iddynt, trwy eu dylanwad yn y Senedd, a'u hawdurdod yn y fyddin, fythol ymbarhau mewn mawredd, heb oddef i'r rhyfel derfynu yn ebrwydd, rhag ofn y terfyna eu hawdurdod hwythau i'w chanlyn. Nid yw yr hyn a ddywedaf fi yn ein hwynebau ond yr hyn a ddywed eraill yn ein cefnau. Yr wyf ymhell o feïo ar neb yn bersonol. Yr wyf yn gwybod gwerth y cadflaenoriaid hyny, aelodau o'r ddau Dŷ, y rhai sydd etto mewn awdurdod; ond o goddefir i mi ddywedyd yn gydwybodol, heb oganu neb, yr wyf yn sicr, os na threfnir y fyddin mewn dull gwahanol, ac os na yrir y rhyfel ym mlaen yn fwy egnïol, nas gall y bobl oddef y rhyfel yn hwy, ac y gorfodant chwi i wneud heddwch gwaradwyddus. Ond hyn a gymhellaf i'ch sylw a'ch doethineb, sef peidio sefyll ar unrhyw gŵyn neu amryfusedd unrhyw gadfridog, canys yr wyf yn cydnabod fy mod fy hun yn euog o gamsyniadau, fel y gwn nas gellir eu gochel bob amser mewn gweithrediadau milwrol. Am hyny, gan roddi heibio ymchwiliad manwl i'r achosion hyn, bydded i ni ymroddi i ddiwygio, yr hyn sydd anhebgorol angenrheidiol. Gobeithiaf bod genym y fath galonau gwir Frytanaidd, a'r fath serchiadau at les cyffredin ein mam wlad, fel na bydd i aelodau yr un o'r ddau Dŷ betruso *ymwadu* â hwy eu hunain, a'u lles personol er mwyn y daioni cyffredin; ac nad ystyriant y bydd dim dïanrhydedd yn cael ei wneuthur iddynt, beth bynag y penderfyno y Senedd arno yn yr amgylchiad tra phwysig yma."

Attebodd Manchester ef yn frwnt a sarhaus; ond ni wnaeth Cromwel ddim sylw pellach arno. Gwelodd y ddau Dŷ nas gallent hebgor yr olaf; a'r diwedd fu, boddloni Essex â blwydd-dal ysplenydd, a dodwyd Manchester ar bwyllgor y ddwy deyrnas. Ail drefnwyd y fyddin yn ebrwydd wedyn, yn ol cynllun Cromwel, trwy yr hyn y daeth Brydain yn fyw drachefn, a bu yn ddechreuad cyfnod newydd i'r genedl.*

Tu a dechrau 1645, mynnai y Presbyteriaid, oedd weithian yn benaf yn y Senedd, fel y crybwyllwyd mewn lle arall, sefydlu Presbyteriaeth yn grefydd y wlad trwy gyfraith y tir, a dileu pob sect arall allan o'r Deyrnas Gyfunol; tra y mynnai y Puritaniaid, a alwyd o hyn allan yn ANNIBYNWYR, ryddid i bob sect i addoli yn ol argyhoeddiad eu cydwybod, canys yr Annibynwyr, medd yn oed yr hanesydd Hume, "o'r holl sectau Cristionogol, oedd y rhai cyntaf, yn ystod eu llwyddiant, cystal ag yn eu hadfyd, a goleddent yr egwyddor o oddefiad bob amser."† Yn wyneb y cynnwrf annïoddefol yma, gwnaed Cromwel yn brif gadlywydd y gwŷr meirch; ac wedi iddo attrefnu y fyddin, aeth dros y wlad fel corwynt yn Ebrill, ac ar ddechrau y mis gorchfygodd yr Iarll Northampton, ger llaw Rhydychain, gan lwyr wasgar ei fyddin, a chymmeryd 400 yn garcharorion. Yna, ar y 24ydd o'r un mis, trechodd William Fychan, wrth Bont Islip; ar y 26ed, ynnillodd fuddugoliaeth arall wrth Bont Radcot; ac ar y 29fed, cymmerth dref Farington trwy ruthr.

Yr oedd Cromwel yn awr wedi cael ei enwi gan y Senedd yn llywodraethwr Ynys Ely, lle yr oedd ei feddiannau, a lle y preswyliai ei deulu; a thra yr oedd yn cadarnhau y lle, clybu bod y brenin ar gychwyn i'r gogledd i ymuno â'i fyddinoedd yn sir Gaerefrog, lle yr oeddynt wedi ail ymgyn-

* Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 49-52.
† Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., p. 107.

Digitized by Google

null, a phrysurodd yntau i ymuno â Fairfax i'w rwystro. Cyfarfu y ddwy fyddin, oedd bron yn gyfartal o ran nifer, ar y 14ydd o Fehefin, ar rosdir uchel ger llaw pentref bychan a'i enw NASEBY, yn sir Northampton, lle y llwyr orchfygwyd byddin y brenin, pan y lladdwyd 800 o'i wŷr, ac y cymmerwyd dros 5,000 yn garcharorion; a syrthiodd ei holl gelfi rhyfel i ddwylaw y gorchfygwyr, ynghyd â'i gerbyd brenhinol, yn cynnwys ei ysgrifeniadau a'i gynlluniau, trwy gyhoeddi y rhai yn ebrwydd wedyn y gwnaed bwriadau dichellgar a gormesol y brenin yn hyspys i'r wlad; ac fel y dywed Clarendon, "collodd y blaid frenhinol ei brenin a'i gwlad ar unwaith."* Hon oedd y frwydr olaf a ymladdodd Charles I. Edrychai efe hyd yn hyn gyd â dirmyg ar y "Pengryniaid," y rhai, mewn gwirionedd, a fu yn foddion i'w lwyr ddinystrio. Ar ol y frwydr danllyd yma, a'r ymlidiad poeth a'i dilynodd hyd Harborough, ysgrifenodd Cromwel o'r lle hwnw cyn gorphwyso yr un noswaith (Mehefin 14, 1645), at Lefarydd y Senedd, yr Anrhydeddus W. Lenthall, fel y canlyn:—

"SYR,—Wedi cael fy ngorchymyn genych i'r gwasanaeth hwn, yr wyf yn rhwym i'ch hyspysu am ddaionus law Duw tu ag atoch chwi a minnau. . . . Heddyw aethom i gyfarfod y brenin; ac ar ol tair awr o ymladd amheus, ymlidiasom ei fyddin; lladdasom a chymmerasom 5,000, a llawer o swyddogion; ond o ba radd, nis gwyddom etto. Hefyd, cymmerasom 200 o gerbydau, sef y cwbl oedd ganddo, a'i holl fagnelau, 12 o nifer. Ymlidiasom y gelyn dros dair milltir o un tu i Harborough hyd naw milltir tu hwnt iddi, nes bod yngolwg Leicester (Caerleirion), lle y ffodd y brenin. Syr, nid yw hyn ddim amgen na llaw Duw; ac iddo ef yn unig y perthyn y gogoniant. . . . Gwasanaethwyd chwi gan y pencadfridog [Syr Thomas Fairfax] gyd â phob ffyddlondeb ac anrhydedd; a'r ganmoliaeth orau a allaf ei rhoddi iddo ef ydyw, y beiddiaf ddywedyd ei fod yn priodoli y cyfan i Dduw, ac y dewisasai farw yn hytrach na chymmeryd y clod iddo ei hun, yr hon sydd ffordd onest a llwyddiannus; ac etto gellir priodoli cymmaint o wrhydri iddo ef yn y frwydr yma ag a berthyn i ddŷn. Gwasanaethodd dynion gonest chwi yn y frwydr hon yn ffyddlawn. Syr, y maent yn wŷr o ymddiried; ac yr wyf yn erfyn arnoch, yn enw Duw, beidio eu hanghefnogi. Dymunwn i'r frwydr yma genhedlu dïolchgarwch ac ymostyngiad ymhawb a berthyn iddi. Dymunwn ar i'r hwn a anturio ei fywyd dros ryddid ei wlad, ymddiried yn Nuw am ryddid ei gydwybod, ac i chwithau am y rhyddid yr ymladd drosto."†

"Hon," ebai Clarendon, "oedd y frwydr fwyaf andwyol o'r holl ryfel; nid yn gymmaint o blegid colli y magnelau, y cad-ddarpar, a'r cludgelfi, am y rhai y bostiai'r gelyn gymmaint; ond am fod yn amhossibl i'r brenin ymadfer byth ar ei hol. Nis gellid byth cael y fath wŷr traed mwyach, y rhai gorau y bu efe erioed yn feistr arnynt: yr oedd ei fyddin yn y gorllewin yn agored i ddinystr anocheladwy, a goresgynwyd y gogledd gan yr Ysgotiaid. Ar fyr, daeth yr achos yn anobeithiol; a bu'r brenin unwaith ar fin erchi i ni oll ymwasgar, ac ymdaro drosom ein hunain cystal ag y gallem."‡

Wedi i Cromwel dawelu "gwŷr y pastynau" (club-men), y rhai a attalient ymborth i'w filwyr, a chymmeryd Caerodor (Bristol), Caerwynt (Winchester), a Basing-house trwy ruthr, gorphenodd y rhyfel gartrefol gyntaf, a dychwelodd i Lundain, "gan gyflwyno Brydain drosodd i'r Senedd mewn agwedd pur debyg i wlad orchfygedig."§ "Derbyniwyd ef yn Llundain," medd May, ysgrifydd cydoesol, "gyd âg anrhydedd anarferol. Y munud yr aeth i'r Tŷ, cyfododd yr aelodau oll ar eu traed i'w groesawu, a thraddododd y Llefarydd, yn eu henwau, araeth lafurus o ganmoliaeth iddo, yn cyflwyno iddo ddïolchgarwch mwyaf calonog y Tŷ am ei wasanaeth mawr ac amrywiol." Ond ni cyfyngwyd dïolchgarwch y Senedd iddo i amlygiadau o hyder ynddo, a pharch iddo, yn unig, eithr trefnasant iddo 2,500p. y flwyddyn o dâlwobr am ei oes. Yn nechrau y flwyddyn 1646, gwnaed cyfraith gan y Tŷ Cyffredin "bod holl diroedd yr Iarll Worcester, yr Arglwydd Herbert, a Syr John Somerset, ei feibion, yn sir Southampton, i gael eu sefydlu ar yr Isgadfridog Cromwel a'i etifeddion, ac i'w hystyried fel rhan o'r 2,500p. y flwyddyn a bennodwyd iddo o'r blaen gan y Tŷ hwn."

Tra yr oedd Cromwel yn gorphen glanhau y wlad oddi wrth y gelynion brenhinol, a phan yn dechrau gwarchau Rhydychain gyd â Fairfax, lle yr oedd y brenin yn ymnoddi, er mwyn ei gymmeryd ef yn bersonol, fel y gellid terfynu y rhyfel, ffodd y brenin oddi yno yn ddirgel ar y 27fed o Ebrill, 1646, a rhodd ei hun i fynu i'r fyddin Ysgotaidd oedd yn gwersyllu ar y pryd ger llaw Newark, gan obeithio cael eu nawdd ar yr ammod twyllodrus o bleidio Presbyteriaeth. Ond o ddiffyg ffydd yn addewidion y brenin, neu o awydd iselwael am arian, gwerthodd yr Ysgotiaid ef i ddirprwywyr y Senedd am 400,000p., er eu tragywyddol warth. Gellir ystyried Charles o hyn allan fel carcharor hyd ddiwedd ei oes.‖

Yr oedd y Senedd weithian bron oll yn Bres-

* Clarendon's Hist. Rebel., vol. iv., pp. 156-8.
† Rushworth's Hist. Col., vol. vii., p. 44.

‡ Clarendon's Hist. Rebel., vol. iv., p. 658.
§ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1139.
‖ Whitelock's Mem., p. 146; Clarendon's Hist. Rebel., vol. iv., pp. 50-58; Rushworth's Hist. Col., vol. vii., p. 44; Walker, 130.

Digitized by Google

byteriaid culfarn ac erlidgar, a'r fyddin bron oll yn Annibynwyr zelog;* am hyny mynnai y Senedd wasgar y fyddin, yr hon, er syndod a dychryn i'r Seneddwyr, a wrthodai ufuddhau, gan hawlio tâl am y gwasanaeth a wnaethai eisoes. Pan ganfu Cromwel, er ei ofid, y penderfynai y Senedd gymmeryd yr holl lywodraeth ar yr eglwys, y wlad, y fyddin, y brenin, y senedd, ynghyd â chydwybodau y genedl, cymmerth yntau, wrth reswm, blaid yr Annibynwyr a'r fyddin. Gan y gwyddai Cromwel fod y Presbyteriaid yn rhwym, yn ol eu "Cyfammod," i ddileu pob sect ond eu hunain, amlygodd awydd i adfer y brenin i'r orsedd, dan yr ammod iddo foddloni ar ragorfraint gymhedrol, a goddef i bob sect addoli yn ol rhyddid eu cydwybod. Pan ddeallodd y Senedd Bresbyteraidd hyn, penderfynodd drosglwyddo Cromwel i'r Tŵr yn garcharor, fel bradwr; ond dïangodd efe o'u gafael at y fyddin. Nid oedd gan Cromwel ddim mwy o hyder bellach yn y Senedd, os cymmaint, nag oedd ganddo yn y brenin. Yn nechrau Mehefin 1647, tra yr oedd y Senedd, trwy gyfrwng dirprwywyr, yn dadlau â'r brenin, oedd yn cael ei gadw yn awr yng Nghastell Holdenby, sir Northampton, ynghylch sefydlu crefydd wladol; y Senedd dros Bresbyteriaeth, a'r brenin yr un mor gyndyn dros Esgobyddiaeth; cyrchwyd yr olaf gan farchlumanwr, a'i enw Joyce, i'r fyddin,† oedd weithian yn Childersly, o fewn chwe milltir i Gaergrawnt, lle y cyflwynwyd ef i Cromwel a'i fab ynghyfraith Ireton, y rhai a ymddygasant ato yn llawr mwy caredig na swyddogion y Senedd. Yn y cyfamser, dechreuodd y Senedd amddiffyn Llundain; ond teithiodd y fyddin trwy y ddinas, gan ddryllio ei hamddiffynfeydd ymhob cyfeiriad; ac ar yr 16fed o Awst, dodwyd y brenin yn Llys Hampton. Ymddengys i Cromwel ddefnyddio ei holl ddylanwad gyd â Charles a'r Senedd, ar ol hyn, er mwyn iddynt ddyfod i delerau a osodent y cyfansoddiad a'r goron ar sylfaen safadwy i'r naill a'r llall. Yn wir, efe a aeth mor bell ag i ddarbwyllo y fyddin i anfon llythyr at Dŷ'r Cyffredin i hyspysu, os na sicrheid ei hawliau i'r goron, nad oedd obaith am sefydliad parhaus. Y brenin ei hun a newidiodd yr olygfa obeithiol hon ar bethau, trwy ffoi, ar yr 11fed o Dachwedd, o Lys Hampton i Ynys Wyth, lle y cymmerwyd ef i fynu, ac y cadwyd ef fel carcharor yng Nghastell Carisbrooke, gan y llywodraethwr, y Milwriad Hammond. Yn wyneb yr ymddygiad crybwylledig o eiddo Charles, dywedodd Cromwel yn ei le yn y Senedd bod y brenin yn llysgenhadwr galluog, ond ei fod y fath dwyllwr a rhagrithiwr fel nas gellid ymddiried yn oed yn ei addewidion mwyaf difrifol: ar fyr, rhoddes ef i fynu megis dŷn dan galedwch barnol, yn mynnu dinystrio ei hun.‡

Mewn canlyniad i hyn, aeth y wlad yn ferw gwyllt drwyddi draw yn nechrau 1648. Ymunodd y blaid Bresbyteraidd yn y Senedd, a'r Ysgotiaid, ynghyd â'r pendefigion, yn erbyn yr Annibynwyr a'r fyddin; a dechreuasant negesua â'r brenin, yn Ynys Wyth, ar eu rhan eu hunain. Cyhuddwyd Cromwel gan yr ymgynghreirwyr hyn o uchel fradwriaeth; ond, ac efe yn dirmygu amddiffyn ei hun o'u blaen yn y Senedd, arweiniodd ei fyddin o Lundain mewn digofaint a phoen, o blegid twyll y Senedd, yr Ysgotiaid, a'r brenin. Yr oedd y Cymry yn frenhinwyr penboeth byth er pan esgynodd Harri Tudur, dan yr enw Henry

* Nid rhyfedd hyn od ystyrir mai Cromwel oedd eu prif arweinydd, canys dywed un o'i gydoeswyr am dano ef mewn cyssylltiad â'r fyddin—"Efe a bregethai, efe a weddïai, efe a ymladdai, efe a gospai, efe a obrwyai. Yr oedd brwdfrydedd gwyllt, ynghyd â dewrder a disgyblaeth, fyth yn ymgynhyddu; a thaflai pawb eu llygaid at arweinydd mor dduwiol a llwyddiannus."—Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 50.

† "Priodolwyd y weithred yma i gyfarwyddyd ac awgrymiad Cromwel, ond ar ba awdurdod y mae'n anhawdd deall. Nis gallwn ni ganfod dim ond yr haeriad mwyaf noeth. Chwiliasom yn ddyfal am brawf, ond ni ddaeth cymmaint a chysgod o hono i'r golwg. Ni ddywedwn fod Cromwel yn gwbl anhyspys o'r peth, ac nad oedd y weithred yn unol â'i ewyllys, na'i bod wedi ei hanghymmeradwyo ganddo pan ddaeth i'r amlwg; ond byddai haeru bod ganddo ef law bendant yn symmudiad y brenin yn ei amddifadu ar unwaith o'r holl gymmedroldeb ymddygiad a'i hynododd gymmaint yn y rhan a aeth heibio o'i oes; tra y buasai cymmeryd y fath awdurdod ar berson y penadur, er gwaethaf y Senedd, yn orchwyl y buasai yn anhawdd cael unrhyw ŵr doeth i'w gyflawni. Tybir bod cyn amlyced a'r dydd mai gweithred gyffredinol y fyddin ydoedd, y rhagarweinwyr, o'r sawl yr oedd Joyce yn un, a bod Cromwel mor bell o gael ymgynghori âg ef ganddynt fel yr edrychid arno yn rhwystr, yn hytrach na chynhorthwy, i gario eu hamcanion ym mlaen; ac nid yw anhebyg, mewn un modd, fod cynhyrfwyr digyfrwng y weithred yn fwy tueddol i gelu eu bwriadau na'u cyhoeddi. . . . Yr oedd y prif weithredwyr yn perthyn i blaid nad oedd dan lywodraeth bennodol neb, y rhai oedd yn ddigon eofn i wneuthur yr hyn y gwyddent ei fod yn gymmeradwy gan yr holl fyddin. Y mae'n ddilys ddïammau nad oedd gan Oliver law yn arweiniad gweithredol na'r blaid na'r cydfwriad, ond iddo adael y peth i gael ei gyflawni yn null ac amser y cynllunwyr eu hunain. Nid oedd ond ychydig, os oedd neb, yn rhyfeddu at hyfder Joyce, nac yn barnu bod angenrhaid gofyn pwy oedd awdur cynllun yr oedd corph mawr y fyddin yn barod i amddiffyn y cyflawnwyr o hono â'u bywyd. Mor bell oedd Joyce oddi wrth gelu mai efe oedd y gweithredydd yn y fyddin dros hyn, fel yr oedd yn hytrach yn ymffrostio yn y peth. Os gofynid pwy a'i rhoddes ar waith, ei atteb yn wastad oedd, Y FYDDIN. Pan yn cyfarch Charles ei hun, dywedodd—'Casgler y fyddin i gynhullfan, a gofyner iddynt; a byddaf foddlawn i gymmeryd fy nghrogi os na ddïolch tair rhan o bedair o honynt i mi am yr hyn a wneuthum.' Er hyny, nid oedd Charles yn credu; a phan y gwadodd Fairfax a Cromwel na roddasant hwy Joyce ar waith, dywedodd yntau—'Ni chredaf chwi, os na chrogwch ef.'"—Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 64.

‡ Gleig's Hist. Engl., p. 859; Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 58–72; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 982; Y Gwyddoniadur, cyf. ii., t. 583.

Digitized by Google

VII., i orsedd Brydain; ac yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn parhau felly, hyd yn oed trwy ystod y Weriniaeth;* ac y maent yn gyffelyb, fel cenedl, hyd y dydd heddyw. Ymgododd llu o honynt yn y Deheubarth o gylch y pryd hyn o blaid y brenin, dan arweiniad Langhorne, Poyer, a Powel, swyddogion Presbyteraidd. Aeth Cromwel yno ym Mai y flwyddyn hon; ac ar ol cymmeryd Castell Penfro trwy ruthr, darostyngodd y terfysgwyr Cymreig ymhob man mewn byr amser. Yr oedd yr Ysgotiaid erbyn hyn wedi ymarfogi yn ffyrnig o blaid y brenin a Phresbyteriaeth, dan arweiniad Syr Marmaduke Langdale a'r Duc Hamilton; ond cyn gynted ag y gwastataodd Cromwel y Cymry, ysgubodd ar draws yr holl wlad i'r Gogledd; ac yn Awst y flwyddyn hon, trechodd y terfysgwyr yn ebrwydd, a chymmerth y Duc Hamilton yn garcharor. Tra yr oedd Cromwel fel hyn yn ymdrechu sicrhau rhyddid crefydd a rhyddid ei wlad, yr oedd y Senedd Bresbyteraidd dwyllodrus, a'r pendefigion Esgobyddol eiddigus, yn cynllunio sut i'w ddifetha; ond yr oedd y gwron yn anfarwol nes gorphen ei waith, er esampl i'r oesau dyfodol. Ffromodd yr adran o'r fyddin a adawsid i wylio y brif-ddinas yn absennoldeb Cromwel gymmaint wrth y brenin a'r Senedd, o blegid eu twyll, fel y cyrchasant y brenin o Gastell Carisbrooke i Gastell Hurst, yn sir Hamp, er mwyn ei brofi yn gyfreithiol, a thystiasant yn ddifrifol, os na roddai ei ddau fab, Tywysog Cymru a'r Duc Caerefrog, eu hunain i fynu ar ddydd pennodol, yr ystyrid hwy yn alltudion a bradwyr dros byth. Yn ebrwydd ar ol hyn, gwarcheuodd y Milwriad Pride (Pryid), gyd â dwy fyddin, ar Dŷ'r Cyffredin; daliodd ddeugain o aelodau y blaid Bresbyteraidd yn y dramwyfa, a charcharwyd hwy mewn ystafell isel, a alwyd wedyn yn "Uffern." Tröed 160 o'r aelodau allan; ac ni oddefid i neb fyned i mewn ond yr Annibynwyr, y cwbl heb fod dros 60 o nifer. Galwyd y driniaeth yma, yn y cyfamser, yn "Ysgythrai Pryde" *(Pryde's Purge)*, a galwyd y 60 aelod a gawsant fyned i mewn yn "Senedd y Gloren."† Pan ddychwelodd Cromwel yn fuddugol o'r Gogledd, tarawyd ef â syndod at yr hyn a wnelsid gan y fyddin, a thystiai yn ddifrifol nas gwyddai efe ddim am y drafodaeth eithafol cyn hyny, er yr haerllug haera ei elynion hyd heddyw mai efe oedd wrth wraidd y cyfan. Pa ddelw bynag, gan i bethau gael eu cario mor bell yn ei absennoldeb, a bod y brenin a'i bleidwyr mor gyndyn a thwyllodrus, bu raid i Cromwel gydsynio i'w ddodi ar ei brawf. Ffurfiwyd pwyllgor yn ddïoed i barotoi cyhuddiad yn erbyn y brenin. Er mwyn ffurf, dymunasant gael cydsyniad Tŷ'r Arglwyddi ar y matter. Pan wrthododd y Tŷ gydsynio â'r cais, pleidleisiwyd yn y fan nad oedd eu cydsyniad yn angenrheidiol, gan mai y bobl oedd ffynhonell pob gallu deddfrydol cystal a deddfwrol. Treuliwyd o'r 6ed hyd yr 20fed o Ionawr, 1649, i barotoi ar gyfer y prawf. Ar y 15fed o'r mis, dygwyd y brenin o Gastell Hurst yn garcharor i St. James, Llundain, gan y Milwriad Harrison. Eisteddodd y llys, yn cynnwys 60 o aelodau, ar ei brawf yn Westminster. Ymddygodd y brenin yn ystod dyddiau ei brawf yn wrol a phenderfynol. Ar y 27fed o'r mis, cafwyd ef yn "Euog o godi rhyfel yn erbyn pobl Brydain, a bradychu ei wlad;" ac ar y 30fed o'r mis torwyd ei ben o flaen Whitehall, ac efe yn 49 oed.‡

Tranoeth ar ol ei ddïenyddio, gwaharddodd y Tŷ Cyffredin i neb arall gael ei gyhoeddi yn frenin, gan y cafwyd allan trwy brofiad gofidus fod brenin yn afreidiol, yn ormesol, ac yn beryglus

* Eos Ceiriog, gan Huw Morus, cyf. i.: A Sketch, pp. x.-xii.; hefyd, t. 179-226.

† The Rump Parliament.

‡ Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 72-76; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., pp. 89-119; Hume and Stafford, vol. ii., pp. 124-139; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., pp. 981-2.

"Y mae darlunio Charles fel merthyr yn achos Esgobyddiaeth yn ynfydrwydd," medd Macaulay. "Yr oedd y rhai a'i dodasant ef i farwolaeth yn gofalu cyn lleied am gymmanfa y duwinyddion ag am y gymmanfa eglwysig; ac y mae'n debyg y casasent ef yn fwy, pe cyttunasai i sefydlu disgyblaeth Bresbyteraidd. Yn wir, er gwaethaf opiniwn Mr. Hàlam, tueddir ni i feddwl mai cwbl wleidyddol oedd ymlyniad Charles wrth Eglwys Loegr. Yr ydym yn addef bod y natur ddynol mor fympwyol fel y gall rhyw un planhigyn byw fod mewn rhyw un man mewn cydwybod a fyddo ymhob man arall yn ddideimlad. Gall rhyw betrus rhyfedd fod mewn dŷn anwireddus ac annynol. . . . Gan y troseddai Charles holl reolau moesoldeb Cristionogol, prin y byddai ei gymmeriad yn uwch yn ein golwg ni pe credem ei fod yn wir bryderus ynghylch llywodraeth eglwysig. Ond yr ydym yn ei gael yn ddïeuog o'r fath wendid. Yn 1641, pwyllog gadarnhaodd y Datganiad Ysgotaidd, yr hwn sy'n tystio bod llywodraeth yr eglwys gan archesgobion ac esgobion yn groes i air Duw. Yn 1645, ymddengys iddo gynnyg sefydlu Pabyddiaeth yn y Werddon. Y mae'n gwbl anghredadwy bod brenin a sefydlasai y grefydd Bresbyteraidd mewn un dywysogaeth, a'r hwn oedd barod i sefydlu y grefydd Babaidd mewn un arall, yn coleddu petrusder anorfod ynghylch cyfansoddiad eglwysig y drydedd. Dywed ei hun, yn ei lythyrau, yr edrychai ar Esgobyddiaeth fel atteg gadarnach i awdurdod unbenaethol yn oed na'r fyddin. Dengys y pethau a nodwyd eisoes fod yr Eglwys Sefydledig, byth er y Diwygiad, wedi bod yr amddiffynfa gadarnaf i ragorfraint unbenol. Am hyny, ewyllysiai Charles ei chadw. Tybiai ei fod ef ei hun yn anhebgorol i'r Senedd ac i'r fyddin. Nis rhagwelodd, nes yr oedd yn rhy ddiweddar, ei fod, trwy goeg chwarau â'r Presbyteriaid, yn eu trosglwyddo hwy ac yntau ei hun i awdurdod plaid erwinach ac eofnach. Pe rhagwelsai hyny, credwn y buasai'r gwaed brenhinol fyth heb ei dywallt, yr hwn sy'n llefain i'r Nef bob 30fed o Ionawr am farnau, y rhai a droir heibio yn unig trwy bysg hallt ac ŵy-gyffaith. Prin y buasai yr hwn a lyngcasai y Datganiad Ysgotaidd yn tagu wrth lyngcu y Cyfammod."—Macaulay's Essays, p. 80, &c.

Digitized by Google

i ryddid, diogelwch, a lles cyffredin y bobl. Ar y 6ed o Chwefror, 1649, diddymwyd Tŷ'r Arglwyddi, a throsglwyddwyd y llywodraeth i GYNGOR GWLADOL, yn cynnwys 41 o aelodau, gyd â'r ddarpariaeth anghysson yma: bod y cyngor i lunio ei gyfreithiau yn ol y cyfarwyddyd a gaffai gan y Senedd! Gyrodd y pethau hyn, a'u cyffelyb, yr Ysgotiaid mor eiddigus at y Senedd fel y cyhoeddasant Charles II. yn frenin, ar y 5med o Chwefror, yn Edinburgh, dan yr ammod iddo "fod o ymarweddiad da, cofleidio y Cyfammod, a pheidio cynnwys neb o amgylch ei berson ond gwŷr duwiol, ffyddlon i'r ymrwymiad hwnw." Rhwng y brenhinwyr, y Presbyteriaid, a'r gorddiwygwyr, buasai yr holl wlad wedi myned yn bendramwnwgl oni buasai pwyll, gallu, a phenderfyniad Oliver Cromwel. Trefnodd efe y Gwastatawyr yn bur fuan, a diffoddodd dân mud aflywodraeth gymdeithasol, fel dŷn nas gwnai nac ofera na chellwair, pethau, yn wir, nas gallai Cromwel eu gwneuthur. Yn y cyfamser, cyfodwyd terfysg aruthr yn y Werddon, gan y blaid frenhinol a Phabaidd, gyd â'r bwriad o lofruddio holl Brotestaniaid y wlad. Trodd llygaid y Senedd a'r wlad at Cromwel fel yr unig un a fyddai yn debyg o ddwyn y Gwyddelod barbaraidd i drefn a dosparth. Ar y 22fed o Fehefin, 1649, tynwyd ei ddirprwyaeth allan. Pa wedd bynag, nid oedd hon yn trefnu ond y rhan filwraidd o'r gorchwyl. Yna y Senedd "a ystyriodd am drefnu awdurdod wladol cenedl y Werddon, pa un bynag ai trwy ddirprwywyr ai yn amgen. Wedi dadl fer, pleidleisiwyd i'r Isgadfridog Cromwel fod yn brif lywodraethwr y Werddon; a hefyd bod awdurdod wladol a milwrol y genedl honno i'w sefydlu arno ef yn ystod ei ddirprwyaeth," sef tair blynedd. Hwyliodd yno gyd â'i "Ochrau Dur" ym mis Awst: "disgynodd ar y Werddon fel morthwyl Thor; tarawodd hi megis âg un dyrnod i lwch a dinystr; ac nid ail ymunodd yn ei erbyn ef byth mwyach." Beir Cromwel yn chwerw gan ei enllibwyr Pabaidd, ac eraill hefyd o gyffelyb syniadau unochrog, o fod yn greulawn iawn yn y Werddon; ond os cofir anian farbaraidd y Gwyddelod ar y pryd; darfod iddynt lofruddio o gant i ddau can mil o Brotestaniaid; bod Cromwel wedi attal tywallt afonydd o waed gwirion; a dyfod o'r Gwyddelod mewn canlyniad, yr hyn ni buant erioed o'r blaen, nac ond anfynych wedi hyny chwaith, yn bobl heddychol, llafurus, a llwyddiannus, ymddengys ymddygiad Cromwel yn esgusodol, o leiaf, os nad cyfiawnhaol. Yn ei frys-lythyr at y Senedd, efe a ddywed—"Yr wyf yn credu mai barn gyfiawn Duw oedd hyn, ar farbariaid oedd wedi trochi eu dwylaw mewn cymmaint o waed gwirion, ac fe arbed golli llawer o waed rhag llaw." Y mae hyn yn sail ddigonol. Gyd â golwg ar erwinder Cromwel yn y Werddon, dywed Carlyle fel hyn:—

"Daeth y dŷn hwn i'r Werddon gythryblus â gwirionedd Duw yn ei galon, . . . y dŷn cyntaf o'r fath a welsant er ys llawer dydd. Y mae'n dal actau seneddol mewn un llaw, a deddfau daear a nefoedd, a chleddyf noeth yn y llaw arall. Cyfarch hwy fel y canlyn:—'Chwi-chwi ddynion brochus, gwaedlyd, nad yw eich gair fwy o werth na chyfarthiad cŵn: y mae hyd yn oed eich meddwl yn dwyllodrus, heb gyfatteb i ddim gwirionedd, ond yn hollol groes i wirionedd; wele fi wedi dyfod atoch i ddywedyd ac i wneuthur y gwirionedd. Y mae yma Actau Seneddol; y rhai agosaf a'r a allwn ni, Buritaniaid tlodion, eu gwneud i ddeddf Llyfr Duw; a'n hymdrech a fydd eu dwyn yn nes nes iddo yn barhaus. Ufuddhewch iddynt; cynnorthwywch ni i'w perffeithio; byddwch fyw yn heddychol ac yn ffyddlawn danynt, a bydd yn dda i chwi. Gwrthodwch roi ufudd-dod iddynt, ni adawaf i chwi fyw! Dewiswch! Dewisasant ei anghredu: nis gallent ddeall ei fod ef, mwy nag eraill, yn meddwl y gwir. Gwrthodasant ei delerau: ymosododd yntau ar y lle; bu cystal a'i air; a rhoddes bob un o'u gwarchodlu i farwolaeth. Gwaharddodd i'w filwyr gymmeryd dim anrhaith; a chrogodd bob un a droseddodd ei orchymyn. Wele ddŷn ag y mae ei *air* yn cynddrychioli rhywbeth."

Arhosodd Cromwel yn y Werddon nes dwyn yr holl wlad i heddwch, ufudd-dod, a threfn; ac ar yr 31fed o Fai, 1650, dychwelodd i Lundain, gan adael ei fab ynghyfraith, Ireton, yn rhaglaw ar y wlad yn ei le. Cyfarfyddwyd ef, pan yn dyfod i'r brif-ddinas, ar Grugle Hounslow, a phennodwyd palas Iago Sant iddo yn breswylfod.*

Nid oedd llafur milwrol Cromwel wedi llwyr derfynu etto. Ar y 23ydd o Fehefin, 1650, daeth Charles II. drosodd o'r Cyfandir i'r Ysgotland, ar ddymuniad y Presbyteriaid. Llaw-nododd y "Cyngrair a'r Cyfammod Difrifol" ar fwrdd y llong cyn glanio, trwy yr hyn, cofier! yr ymrwymai i ddileu Annibyniaeth, Esgobyddiaeth, a Phabyddiaeth o'r tair teyrnas, ac i sefydlu Presbyteriaeth yn eu lle, yn grefydd waddoledig y Deyrnas Gyfunol. Penderfynodd y Seneddwyr ymosod ar Charles ar unwaith; a'r Cadfridog Fairfax, wrth ei swydd, a ddylasai gymmeryd arweiniad y fyddin; ond perswadiodd ei wraig ef, yr hon oedd Bresbyteriad, i ymneillduo o fywyd cyhoeddus. O ganlyniad, ar y 26ed o Fehefin, "pennodwyd Oliver Cromwel, Yswain, yn

* Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 80, &c.; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 121, &c.; Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., p. 140, &c.; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1139, &c.; Y Gwyddoniadur, cyf. ii., p. 583, &c.

Digitized by Google

benciwdod ac yn gadlywydd yr holl filwyr a gyfodwyd neu a gyfodid, trwy awdurdod y Senedd, o fewn Gweriniaeth Lloegr." Dechreuodd Cromwel, yn ol ei arfer, ar ei waith yn y fan. Ei islywyddion oedd Lambert, Fleetwood, Whalley, Monk, Overton, ac eraill. Ar y 29fed o Fehefin, ymhen tri diwrnod ar ol ei appwyntiad i'r brif lywyddiaeth, cychwynodd tu ag Ysgotland. Ar yr 22fed o Orphenaf, croesodd y terfyn trwy Berwick, ac oddi yno i Cockburnspath, Dunbar, Haddington, a Musselburgh; tra y gorweddai y fyddin Ysgotaidd, dan arweiniad y Cadlywydd Dafydd Lesley, rhwng Edinburgh a Leith. Ar yr ail dydd ar ol iddynt gyrraedd, gwnaeth yr Ysgotiaid, dan Lesley, ruthrgyrch penderfynol; ond cilgwthiwyd hwynt yn ol. Yn ei lythyr ar ol hyn, dywed Cromwel—"Y mae hyn yn ddechreuad melus o'n gwaith, neu, yn hytrach, o waith yr Arglwydd." Nis gallai Cromwel ymosod ar Lesley yn ei gadarnle; ac ymhen y pythefnos ar ol hyn, wedi methu tynu y gelyn allan i'w gyfarfod mewn brwydr benderfynol, gwelai fod ei adnoddau yn darfod, y tymmor yn myned heibio, ac afiechyd yn lleihau ei filwyr "tu hwnt i ddychymyg." Ar y 31fed o Awst, gadawodd Musselburgh, ei wersyllfa hyd yn hyn, a chiliodd yn ol i Dunbar, lle y gorweddai ei longau. Gwelodd Lesley ei fantais, a chymmerth feddiant o'r bryniau uwch law Dunbar. Beth a wna Cromwel, druan, yn y cyfyngder mawr hwn! Y mae'r môr o'i ol, Lesley ar yr ucheldir (Bryn Doon) o'i flaen ar y chwith, a'r ceunentydd ym meddiant yr Ysgotiaid! "Yr ydym wedi ein gwarchae a'n hamgylchynu," eb efe, "ym mwlch Copperspath, trwy yr hwn nis gallwn fyned braidd heb wyrth." Pa wedd bynag, nid oedd ei ffydd ef yn pallu. "Y mae pob peth yn cydweithio er daioni," eb efe, ynghanol y perygl erchyll: "y mae ein hysprydoedd yn gysurus, moliant i'r Arglwydd." Ar yr 2il o Fedi, ym mhrydnawn y diwrnod tywyll hwnw, gwelai Cromwel fod Lesley yn newid ei sefyllfa, gan ddwyn yr adran ddeheuol o'i wŷr meirch, ychydig i lawr y bryn, i dir mwy agored. Yna Cromwel a lefodd, "Yr Arglwydd a'u rhoddes hwynt yn fy llaw i!" Wedi ymgynghori â'i swyddogion, penderfynwyd peidio disgwyl wrth Lesley i ymosod, ond dechrau y frwydr borau dranoeth cyn dydd. Yn ol y cyttundeb, dechreuwyd ymladd am chwech o'r gloch y borau. Yr oedd y frwydr yn boeth am awr ar y dechrau; yna, eb efe, "daeth fy nghatrawd i fy hun" i wneud ymosodiad, a gorfu ar filwyr gorau y gelyn ffoi yn ddiattreg. Ar godiad yr haul, clywid Cromwel yn llefain yngeiriau y Psalmydd, "Cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion; a ffoed ei gaseion o'i flaen ef." Yn y fan, gwasgai y gwŷr meirch a'r gwŷr traed ym mlaen o bob ochr yn ddiwrthwynebiad, a syrthiai rhengau yr Ysgotiaid yn ol mewn anhrefn, gan ffoi mewn dychryn syfrdanllyd. Safai y cadlywydd buddugol, tra yr ymbarotoai y gwŷr meirch i'r ymlidiad, a chanai y Psalm cxvii.:—

"O! cenwch fawl i'r Arglwydd nef,
Moliennwch ef, genhedloedd:
Molwch ei enw ef trwy'r byd,
Chwithau i gyd y bobloedd.

"Am ei fod ini yn dda iawn;
Yr Arglwydd llawn trugaredd;
A'i air ef sydd yn parhâu byth,
Sef ei ddilyth wirionedd."

Yna rhuthrwyd i'r ymlidiad eilwaith; a chyn 9 o'r gloch y borau, yr oedd tu a 3,000 o laddedigion ar y maes, a chymmerwyd tu a 10,000 o'r Ysgotiaid yn garcharorion. Mewn llythyr at ei fab ynghyfraith, Ireton, dywed Cromwel fel hyn:—"Yr oedd y gelyn yn ein dirmygu ac yn ein bygwth: yr oedd ein cyflwr yn wir beryglus." Mewn llythyr at yr Anrhydeddus W. Lenthal Llefarydd y Tŷ Cyffredin, a amserwyd y 4ydd o Fedi, dranoeth ar ol y frwydr fuddugol, efe a ddywed fel y canlyn:—

"Yr oedd holl nifer y gelyn yn fawr dros ben, bron yn 6,000 o wŷr meirch, fel yr ydym yn clywed, a'r gwŷr traed yn 10,000 o leiaf; ond tynwyd ni i lawr yn dost gan afiechyd, fel nad oeddym ond tu a 7,500 o wŷr traed galluog, a 3,500 o wŷr meirch. . . . Gair y gelyn oedd CYFAMMOD, yr hwn a lefent dros amryw ddyddiau cyn y frwydr; a'r eiddom ninnau oedd ARGLWYDD Y LLUOEDD. . . . O gylch 20 neu 30 yw ein colled. . . . Dyma i chwi olwg ar un o'r trugareddau mwyaf a roddes yr Arglwydd i Loegr yn y rhyfel hwn. Yn awr, goddefwch i mi ddywedyd ychydig eiriau. Y mae'n hawdd dywedyd, 'Yr Arglwydd a wnaeth hyn.' Gwnai les i chwi weled a chlywed ein milwyr yn cerdded yn ol ac ym mlaen gan ymffrostio yn Nuw. . . . Yr ydym ni, y rhai sydd yn eich gwasanaethu, yn erfyn arnoch beidio ein cydnabod ni yn hyn, ond yr Arglwydd yn unig. . . . Estynwch ymwared i'r gorthrymedig, a gwrandewch riddfanau carcharorion truain Lloegr. Diwygiwch bob anhrefn; ac od oes *rhai* yn tlodi *llawer* er mwyn cyfoethogi *ychydig*, nid yw hyny yn cydweddu â gwerinlywodraeth."

Dychwelodd Cromwel o Dunbar i Edinburgh, lle yr oedd y gweddill o'r fyddin orchfygedig wedi ffoi, i warchau y castell, yr hwn a roddwyd i fynu iddo gan y Milwriad Walter Dundas, y llywydd, ar y 24ydd o Ragfyr. Pan roddwyd y castell i fynu yn heddychol i Cromwel, ymddyg-

Digitized by Google

odd yn ddynol a haelfryd at y milwyr a'r trigolion; canys yn groes i arfer gorchfygwyr barbaraidd ei oes ei hun a'r rhai dilynol, gwaharddai efe i'w filwyr bob amser, dan boen marwolaeth, na lladd nac yspeilio y dïamddiffyn. Arhosodd yn Ysgotland hyd Awst, 1651.*

Yr oedd gyrfa filwrol lwyddiannus Cromwel weithian yn tynu at y terfyn, a rhedegfa fwy ogoneddus yn ei aros. Ar y laf o Ionawr, 1651, coronwyd Charles II. gan yr Ysgotiaid Presbyteraidd yn Scone. Casglasant fyddin o 14,000 o wŷr erbyn dechrau yr haf, dan arweiniad Hamilton a Lesley. Ymunodd Charles â hwynt, a gwersyllasant yn Torwood. Prysurodd Cromwel a'i wŷr i'w cyfarfod. Wedi methu eu denu i faes y frwydr, aeth rhyngddynt a Stirling, er tori ymaith eu cyflenwad o wŷr ac ymborth. Ar hyny, dïangodd Charles a'i fyddin, er syndod i Cromwel, drosodd i Loegr. Cyrhaeddodd Gaerliwelydd (Carlisle) ar y 6ed o Awst; ar y 9fed, cyhoeddwyd ef yn Frenin Brydain Fawr a'r Werddon; ac erbyn yr 2il o Fedi, yr oedd wedi cyrraedd Caerwrangon (Worcester), ar lan yr Hafren. Cromwel, wedi gadael 7,000 o wŷr dan Monk i orphen darostwng Ysgotland, a ruthrodd ar ol Charles, gan orchfygu yr Iarll Derby ar y ffordd; ac ar y 3ydd o Fedi, ei ddiwrnod ffodus, cymmerth y dref trwy ruthr, a lladdwyd neu garcharwyd yr holl fyddin Ysgotaidd. "Dododd fy Arglwydd-Gadlywydd ei hun mewn perygl dirfawr," medd un oedd yn llygad-dyst, "gan farchogaeth i fynu ac i lawr ynghanol yr ergydion; a marchogodd ei hun yn bersonol i ymyl y gelynion i gynnyg nawdd iddynt, i'r hyn ni roddasant atteb ond ergyd." Dyma'r tro diweddaf yr ymddangosodd Ysgotland byth mewn cymmeriad cenhedlaethol. Aeth yn ddrylliau gan anghydfod ac ymbleidiau; ac ni chafodd ei hanfod fel teyrnas annibynol le mwyach mewn hanesyddiaeth. Ffodd Charles, ac amryw dduciaid, iarllod, ac arglwyddi, o faes y gyflafan trwy anhawsderau anhygoel; ac ar yr 22fed o Hydref, glaniasant yn Ffrainge yn ddïogel. Dyma lafur milwrol Cromwel ar ben, heb gael ei orchfygu gymmaint ag unwaith, fel y gallai ddywedyd cystal, os nad gwell, a Cesar —"Deuais, gwelais, gorchfygais." Dyma'r tair teyrnas yn dawel ac ufudd wrth draed y gorchfygwr a'r Senedd. Cyfarfyddwyd Cromwel yn Aylesbury, ar ei ddychweliad i Lundain, gan ddirprwyaeth oddi wrth y Senedd a chyngor y wladwriaeth. Parotowyd Llys Hampton iddo yn breswylfod, a phleidleisiwyd etifeddiaeth o 4,000p. y flwyddyn iddo, yn ychwanegol at ei rodd flynyddol flaenorol. Y mae yn werth gwybod teimladau crefyddol Cromwel yn wyneb yr holl lwyddiant a'r dyrchafiadau hyn, a amlygir ganddo mewn llythyr at ei fab ynghyfraith, y Gwir Anrhydeddus Isgadlywydd Fleetwood, Penciwdod y Catrodau yn y Werddon:—

"Anerchwch eich anwyl wraig drosof. Dywedwch wrthi am wylio yn erbyn yspryd caethiwed. Ofn ydyw canlyniad naturiol y fath yspryd; a'r feddyginiaeth ydyw cariad. Llais ofn ydyw, 'Pe gwnaethwn hyn, gochelaswn y llall: mor dda a fuasai arnaf.' Mi a wn mai felly y byddai hi yn ymresymu. Bidy, druan! [enw ei ferch] y mae cariad yn ymresymu fel hyn:—'Pa fath Grist sydd genyf? A pha fath Dad ynddo a thrwyddo ef? Y fath enw sydd gan fy Nhad! Trugarog, graslawn, hirymarhous, helaeth o drugaredd a gwirionedd; yn maddau anwiredd, a chanwedd, a phechod. Pa fath natur sydd gan fy Nhad? *Cariad* ydyw; anghyfnewidiol, rhad, a thragywyddol. Pa fath gyfammod sydd rhyngddo ef â Christ, yn enw yr had oll, ymha un y mae efe yn cymmeryd pob rhwymau arno ei hun, heb adael yr un enaid tlawd? Y cyfammod newydd ydyw *Gras* i'r enaid, ac arno: *Mi a ddileaf eu hanwireddau: Mi a ysgrifenaf fy nghyfraith yn eu calonau: Ni chiliant oddi wrthyf byth.*' Hyn sydd yn canmol cariad Duw. Crist yn marw trosom, pan oeddym ni yn weiniaid, yn bechaduriaid, yn elynion. Ac a chwiliwn ni i ni ein hunain am wraidd ein cysuron! Pa beth a wnaeth Duw? Pa beth ydyw efe i ni yng Nghrist? Hyn ydyw gwraidd ein cysuron: hyn ydyw ein dïogelwch. Nid yw gweithredoedd o ufudd-dod yn berffaith; ac, o ganlyniad, nis gallant gynhyrchu perffaith gysur. Nid yw ffydd, fel gweithred, yn ei gynhyrchu; ond yn unig fel y mae yn ein dwyn ni ato Ef, yr hwn yw ein gorphwysfa a'n tangnefedd perffaith; yn yr Hwn y'n cyfrifir ac y'n derbynir gan y Tad, fel Crist ei hun. Hyn yw ein galwedigaeth uchel: gorphwyswn yma, ac yma yn unig."†

Er bod gorchwyl milwrol Cromwel weithion wedi terfynu, fel y crybwyllwyd, etto yr oedd gweithredoedd mawrion eraill, gwladol ac eglwysig, o flaen y gwron, y rhai ni oddef ein terfynau i ni ond prin eu crybwyll. "Yr oedd Oliver yn filwr o'r fath ddewraf a mwyaf llwyddiannus, ond edmygir ef genym ni yn llawer mwy fel gwir wladgarwr. Yr oedd yn alluog mewn rhyfel, ond yn alluocach fyth pan y gweiniodd ei gledd, ac y crogodd ei arfau yn y neuadd." Daeth Gweriniaeth Brydain yn fuan yn destyn syndod ac ofn yr holl genhedloedd. Daeth holl sefydliadau yr America yn ddeiliaid ufudd i'r Weriniaeth; ymostyngodd Jersey, Gurnsey, Scily, ac Ynys Manaw iddi y naill ar ol y llall, trwy offerynoliaeth y Puritan galluog, Robert Blake, yr hwn a lwyddodd i lanhau y moroedd ymhob cyfeiriad oddi wrth fôr-ladron a gelynion o bob math, a daeth

* Gwel yr un awdurdodau.

† Yr un awdurdodau.

Brydain yn "feistres y moroedd" mewn gwirionedd.*

Yr oedd y Senedd weithian, oedd heb ddadymgorphori fyth er y 3ydd o Dachwedd, 1640, wedi edwino bron i'r drydedd ran o'i nifer cyntefig; o blegid yr hyn, fel y dywedwyd, y galwyd hi yn SENEDD Y GLOREN. Er hyny, ni fynnai ymddadgorphori er rhoi mantais i'r genedl i ethol ei haelodau. Yr oedd llawer o'r aelodau hefyd yn dra llygredig a gorthrymus, fel y daeth llais y wlad a'r fyddin bron mor uchel yn erbyn y Senedd ag y bu yn erbyn Charles I. Dallwyd y Senedd i'r fath raddau yn wyneb y cyhuddiadau yn ei herbyn, fel yr aeth mor ynfyd a chynnyg diswyddo y fyddin oedd wedi ei hachub hi a'r wlad; a chyhuddir rhai o'r aelodau o ffurfio cynllun er llofruddio Cromwel ei hunan! Nid oedd ond ychydig o'r aelodau weithian yn Buritaniaid cydwybodol, tra yr oedd rhai o honynt yn Bresbyteriaid eiddigus; a chredir bod amryw o'r rhai mwyaf pendefigaidd o honynt yn dirgel goleddu y syniad o osod Charles II. ar yr orsedd. Pan welodd y gwron Cromwel nad oedd dim yn tycio er dwyn y Senedd gildyn i wrando ar lais y cyffredin, a'i fod yntau ei hun a'r wlad unwaith etto mewn perygl, galwodd nifer o aelodau y Senedd, a phrif swyddogion y fyddin, ynghyd i ymgynghori â hwynt yn yr achos pwysig, a chafodd ganddynt wrthdystio yn egnïol yn erbyn ymddygiad y Senedd, ac i honni y dylai'r genedl, tra yr oedd yr holl wlad mewn heddwch tawel, gael y fraint o ethol ei haelodau Seneddol yn ol y cyfreithiau. Ond yn lle gwrando ar y rhybudd, pasiodd y Senedd benderfyniad i beidio ymddadgorphori, namyn llenwi y lleoedd gweigion trwy etholiad newydd; ond dododd Cromwel derfyn buan ar eu hystyfnigrwydd. Aeth i'r Tŷ ar yr 20fed o Ebrill, 1653, gyd â 300 o'i filwyr; archodd i'r Llefarydd fyned o'r gadair; dywedodd wrth yr aelodau iddynt fod yno yn ddigon o hyd o ran dim lles a wnaethant; a dywedodd mewn llais awdurdodol, "Nid ydych yn Senedd mwyach; ïe, meddaf, nid ydych yn Senedd mwyach. Y mae yr Arglwydd wedi blino arnoch: y mae wedi dewis offerynau eraill i ddwyn ei waith ym mlaen." Dywedodd wrth Vane ei fod yn hocedwr; Chaloner, ei fod yn feddwyn; Alan, ei fod wedi twyllo y bobl; a Martin a Wentworth, eu bod yn aelodau tra amhriodol. Yna dywedodd wrth un o'r milwyr, "Symmud ymaith y coegbeth yna," fel y galwai y ferllysg. Yna, wedi i'r holl aelodau fyned allan, efe a glodd y drysau ar eu hol, a dychwelodd i'w letty yn y Whitehall. Felly, dyna derfyn ar y Senedd Hir, neu, fel y'i gelwid er ys tro bellach, fel y crybwyllwyd, Senedd y Gloren.†

Gadawodd dadgorphoriad y Senedd ryfedd hon yr holl awdurdod, yn wladol a milwrol, yn nwylaw Cromwel, yr unig ŵr yn y wlad, ar y pryd, a allai ei llywodraethu a'i chadw mewn heddwch. Teimlai anhawsder y gorchwyl i'r byw, eithr ni wnai anhawsderau ond ei symbylu ef i fwy o egni. Anfonodd wŷs, ar y 6ed o Fehefin, i 128 o'r dynion gorau o wahanol drefydd a siroedd Lloegr a Chymru, 5 o Ysgotland, a 6 o'r Werddon, i ymgynnull yn Llundain dan yr enw CYNGOR Y LLYWODRAETH. Agorodd Cromwel y cyngor difrifol yma ar y 4ydd o Orphenaf, 1653, a chyfarchodd yr aelodau dros dair awr, gan ddangos yn effeithiol y fath helbulon a pheryglon y daethai efe a'r genedl drwyddynt yn ddïogel, dan nawdd arbenig Rhagluniaeth y Nef, nes iddynt lanio o'r diwedd, trwy afonydd o waed, ar dir heddwch a thangnef. Dangosodd fel yr oedd achos Duw wedi ei sangu dan draed gan y Senedd ddiweddar, ac erfyniodd arnynt ymroddi â'u holl egni i drefnu y cyfreithiau a'r llywodraeth er lles cyffredin y genedl, a llwyddiant gwir grefydd; ac ar iddynt ofalu na sangent ar un dosparth o grefyddwyr, tra y peidio'r cyfryw ddosparth ag amcanu sangu ar ryddid neb arall. Am bum mis yn unig yr eisteddodd y cyngor pwysig yma, o blegid yr hyn y galwyd ef gan yr enllibwyr brenhinol a Phresbyteraidd Y SENEDD BACH, neu SENEDD BAREBONE, am fod Puritan a'i enw Barebone, bangcer llwyddiannus yn Llundain, yn un o'i haelodau. Beth bynag am faint y Senedd hon, ac am gyfoeth a gwychder ei haelodau, gwnaeth waith na ddylai Brydain byth ei anghofio. Sefydlodd drefn a chynhildeb yn y cyllidau; gwellaodd sefyllfa y carcharorion; dileodd drethi traws-awdurdodol y frenhiniaeth; rhoddes ddeddfwriaeth sefydlog i'r genedl; lleihaodd y fyddin, a dododd swyddogion galluog ynddi, yn lle meibion dïymadferch y pendefigion; diddymodd draws ofal eneidiau‡ yr Esgobyddion, llethodd y degymau, a phurodd y clerigwyr a'r eglwys. Wedi trefnu y pethau hyn

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 608, &c.

† Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 99-103; Hume and Smollett's Hist. Engl., vol. ii., pp. 152-155; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1140; Y Gwyddoniadur, cyf. ii., t. 584; Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 353, &c.

‡ Cure of Souls.

Digitized by Google

a'u cyffelyb, dewiswyd yr Arglwydd-Gadlywydd, Oliver Cromwel, i fod yn

Arglwydd Amddiffynydd Brydain Fawr a'r Werddon. Ar ol llawer o bryder, a elwir gan y digred freniniaethwr Hume yn benboethni, a chan yr Esgobyddion a'r Presbyteriaid yn rhagrith, cydsyniodd Cromwel i gymmeryd arno y mawr gyfrifoldeb; ac ar yr 16fed o Ragfyr, sefydlwyd ef yn ei swydd bwysig gyd â dirfawr rwysg a difrifwch. Yr oedd llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gael ei hymddiried i'r Amddiffynydd; cyngor o ddim mwy na 21 o aelodau, a dim llai na 13; a Senedd o ddewisiad y genedl, yr hon oedd i gael ei hail ethol bob tair blynedd o bellaf, ac i beidio cael ei dadgorphori heb gydsyniad yr aelodau mewn llai na phum mis. Yr oedd i gynnwys 400 o aelodau dros Loegr a Chymru, 30 dros Ysgotland, a 30 dros y Werddon; o'r sawl yr oedd 60 i ffurfio Tŷ, neu eisteddiad. Yr oedd siroedd Lloegr a Chymru i ddewis 239, a'r gweddill i gael eu dosparthu rhwng y prif ddinasoedd a'r trefydd marchnadol, heb ddim cyfeiriad at hen arfer. Os gwrthodai yr Amddiffynydd anfon gwysiau allan, yr oedd dirprwywyr y sêl fawr, neu yr uchel-sirydd, i wneud hyn dan boen bod yn euog o drosedd. Nid oedd neb i gael pleidlais heb fod yn werth dau cant o bunnau. Yn ol y darpariadau hyn, yr oedd y llywodraeth yn fath o Weriniaeth gyd âg Arlywydd; ac y mae'n dra sicr fod cynllun Gweriniaeth ddoeth Brydain o flaen llygaid yr enwog Washington pan yn cynnorthwyo i lunio Gweriniaeth odidog America, ac mai Cromwel yw cynffurf Arlywydd Cynghorfa fawr yr Unol Daleithiau. Yr erthyclau perthynol i grefydd oedd yr rhai hyn:—

"Yn 35fed, Bod y grefydd Gristionogol a gynhwysir yn yr Ysgrythyrau i gael ei dal allan a'i chymmell fel proffes gyhoeddus y cenhedloedd hyn; a chyn gynted ag y bo modd, bod darpariaeth lai agored i ymryson, a sicrach na'r un bresennol, i gael ei gwneud er cynhaliaeth gweinidogion; a hyd oni wneler y cyfryw ddarpariaeth, bod yr un bresennol i barhau.

"Yn 36fed, Nad oes neb i gael ei orfodi i gydymffurfio â'r grefydd gyhoeddus trwy gospau, neu'r cyffelyb; ond bod ymdrech i gael ei defnyddio i'w hennill trwy athrawiaeth iachus, ac esampl ymddiddanion daionus.

"Yn 37fed, Bod y rhai a broffesant ffydd yn Nuw trwy *Iesu Grist*, er iddynt wahaniaethu o ran barn oddi wrth yr athrawiaeth, yr addoliad, neu'r ddisgyblaeth, a ddelir allan yn gyhoeddus, i gael peidio eu hattal, ond i gael eu hamddiffyn yn eu proffes a'u ffydd, a'r ymarferiad o'u crefydd, cyn belled ag na chamddefnyddiont hwy y rhyddid hwn er niwaid gwladol i eraill, ac er terfysgu yr heddwch cyhoeddus; gan ddarpar na bo y rhyddid hwn i gael ei estyn i Babyddiaeth neu Esgobyddiaeth, neu y rhai, dan broffes o Grist, a ddaliant allan ac a arferant anfoesoldeb a phenrhyddid.

"Yn 38fed, Yr ystyrir pob cyfeithiau, deddfau, gosodiadau, neu adranau o unrhyw gyfraith, deddf, neu osodiad, a fyddont yn groes i'r rhyddid rhag-grybwylledig, yn ddirym ac ofer."

Wedi i'r cyngor benderfynu yr erthyclau uchod, perthynol i grefydd, ac eraill perthynol i'r wladwriaeth, llawnododd Cromwel yr ardystiad, neu'r llw canlynol, ger bron yr aelodau yn y canghellys:—

"Gan fod y rhan fwyaf o'r Senedd ddiweddaf, wrth ystyried na wnai eu heisteddiad ddim yn hwy, fel yr oedd yn gyfansoddedig, unrhyw les i'r Weriniaeth, wedi dadgorphori yr unrhyw; a'u bod, trwy ysgrifeniadau dan eu dwylaw, wedi trosglwyddo i mi eu hawdurdodau; a chan fod angenrhaid o herwydd hyny i ryw lwybr cyflym gael ei gymmeryd i sefydlu y cenhedloedd hyn ar y fath seiliau ag a allant, trwy fendith Duw, fod yn barhaus, i amddiffyn meddiannau, ac i atteb dibenion mawrion crefydd a rhyddid, am y rhai yr ymrysonwyd cyhyd; a chan fod yn foddlawn, ar ol ystyriaeth lawn ac addfed, y gall y ffurf o lywodraeth sydd yn gyssylltedig yma, trwy gymmorth Dwyfol, atteb y dibenion rhag-grybwylledig; ac wedi cael fy annog a'm cynghori gan amryw bersonau o bwys a ffyddlondeb yn y Weriniaeth, cystal a swyddogion y fyddin, i gymmeryd arnaf amddiffyniad a llywodraeth y cenhedloedd hyn yn y dull a fynegir yn y dywededig ffurf o lywodraeth, mi a dderbyniais yr unrhyw, ac yr wyf trwy hyn yn datgan fy nerbyniad yn ol hyny; ac yr wyf yn addaw, ymhresennoldeb Duw, na bydd i mi droseddu na chwtogi y matterion a'r pethau cynnwysedig ynddi, ond y bydd i mi eu cadw hyd eithaf fy ngallu, a pheri eu cadw; ac y bydd i mi ymhob peth arall, hyd eithaf fy nealldwriaeth, lywodraethu y cenhedloedd hyn yn ol y cyfreithiau, y deddfau, a'r gosodiadau, a pheri gweinyddu cyfiawnder a chyfraith yn gyfartal i bawb." *

Er nad yw cynllun rhyddid crefyddol yr Amddiffynydd yn agos i fynu â'n syniadau ni, yn yr oes hon, am ryddid crefyddol, nac, yn wir, â syniadau dŷn mwyaf ei oes ei hun, sef ei gâr, ei gyfaill, a'i Ysgrifenydd Tramor, John Milton, fel y ceir gweled yn ebrwydd; etto, wrth ystyried syniadau yr oes am ryddid crefyddol, a chaethiwed echrys golygiadau ac ymarferion y Presbyteriaid a'r Esgobyddion, oedd mor liosog yn y wlad ar y pryd, y mae'r rhyddid crefyddol a fynnodd Cromwel i'w gydwladwyr yn rhyfeddod i bob dŷn diragfarn, sy'n hyspys o hanes y wlad yn ei oes ef, ac ar ol hyny, hyd amser yr enwog William III. Gresyn nas gallasai yr Amddiffynydd galluog gydsynio â syniadau yr Ysgrifenydd, oedd alluocach fyth, yr hwn a ddywedodd wrtho fel y canlyn:—

"Pe gadewech yr eglwys i'r eglwys, a thrwy hyny ddoeth ddadlwytho eich hun, cystal a'r ynadon gwladol yn gyffredinol, oddi wrth ofal sydd yn gwneud i fynu hanner eu baich, ac sydd hefyd yn gwbl anghyttun â'u swyddi hwynt, heb adael i awdurdod gwahanryw, eiddo yr

* Fergnson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 105-125; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., pp. 1140-1; Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., pp. 158-163; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., pp. 150-154; Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 353-362.

eglwys a'r llywodraeth, barhau yn ddichellion (ynghyd â'u cydgynhorthwy ymddangosiadol, yr hyn sy'n gwir wahanu y naill a'r llall, ac a fydd yn ddinystr iddynt yn y diwedd), heb ganiatâu unrhyw gyfyngiad ar gydwybod, yr hyn yn ddïau a bery, o angenrhaid, cyhyd ag y pery aur, gwenwyn yr eglwys, ac yspinog (quinsy) gwirionedd, i gael ei ddirwasgu o'r gwŷr lleyg i dalu cyflogau gwŷr llên a elwir gweinidogion; chwi a ddymchwelech fyrddau y newidwyr arian, a'r gwerthwyr, nid colomenod, ond Y Golomen ei hun; Sanctaidd Ysbryd Duw, yr wyf yn ei feddwl."

"Iaith nerthol ydoedd hon o'r eiddo Milton," ebai Ferguson, "ond y mae'r gwirionedd a ddywedodd wedi bod yn ennill tir fyth yn y meddwl cyhoeddus o hyny hyd heddyw; ac ordeiniwyd i'r gwirionedd hwnw ymorfoleddu yn rhyddfreiniad yr eglwys gyffredinol, sef ei hannibyniaeth ysprydol, ei rhyddid dilyffethair, a'i gogoniant heulog."*

Camgyhuddiad pur anheg yn erbyn Cromwel yw dywedyd, fel y gwna rhai, hyd yn oed yn y dyddiau hyn, ei fod ef wedi gwneud "Annibyniaeth yn sefydliad gwladol" o grefydd, ar wahân i'r Bedyddwyr a'r Presbyteriaid, canys y mae genym brofion cydoesol bod Presbyteriaid a Bedyddwyr, cystal ag Annibynwyr, yn cael tâl gan y llywodraeth, dan ei amddiffyniad ef, am bregethu a dysgu crefydd i'r werin bobl; ac yr oedd dynion enwog a duwiol o'r tri chyfundeb ymhlith "Profyddion" y pregethwyr, yn Lloegr a Chymru, fel y dangoswyd genym mewn lle arall.† Camsyniad mawr Cromwel, fel yr awgryma ei Ysgrifenydd, Milton, oedd talu o'r llywodraeth i neb am bregethu ac addysgu y cenhedloedd mewn pethau crefyddol; a chamsyniad, ysywaeth, sydd fyth mewn rhwysg yn y wlad hon a gwledydd eraill ydyw; ond credir bod ei derfyn weithian yn prysur agosâu, ym Mrydain, o leiaf, a henffych i'r dydd pan y digwydd ymhob gwlad dan haul, pan y "gadewir yr eglwys i'r eglwys," heb i'r llywodraeth wladol ymyryd â hi mewn un modd. Pa wedd bynag, yr oedd yr anhawsderau i wneuthur hyn yn anhraethol fwy nag y gall ond ychydig yn y dyddiau hyn eu hamgyffred. Yr oedd y wlad yn hynod o anwybodus a digrefydd, a chlerigwyr yr Eglwys Wladol, fel rheol, yn dra anweithgar, llygredig, ac erlidgar; ac yr oedd yntau, Cromwel, fel y Puritaniaid yn gyffredin, clod i'w henwau! yn llosgi gan awydd dysgu a chrefyddoli y genedl, ac ofnai efe, pe llwyr attaliasid cynhorthwy y llywodraeth oddi wrth y pregethwyr, nas gallasent gynnal eu hunain a'u teuluoedd ar roddion gwirfoddol eu gwrandawyr; a hyn oedd ei gamsyniad mawr, fel yr awgrymai Milton. Gyd â golwg ar ymddygiad Cromwel, ynglyn â'r pethau hyn, dywed Daniel Neal, yr hwn a aned yn 1678, ymhen 30 mlynedd ar ol marwolaeth Cromwel, fel y canlyn:—

"Ond er bod yr Esgobyddion, mewn ystyr wladol, yn eithriad y pryd hyn oddi wrth oddefiad crefyddol, etto elid heibio i'w cynnulliadau yn ddisylw; ac yr oedd amryw o'u clerigwyr yn mwynhau yr ymarferiad cyhoeddus o'u gweinidogaeth heb lyffetheiriau llwon, tystysgrifau, nac ymrwymiadau. Yr oedd amryw o'r esgobion a gadwasid oddi wrth wasanaeth cyhoeddus gan gyfammod ac ymrwymiad [y Presbyteriaid, pan yn eu rhwysg yn ystod y Senedd Hir] yn pregethu etto yn gyhoeddus yn y dinasoedd, megis Usher, Brownrigg, ac eraill. Dywed Baxter, yr hwn oedd yn bur bell o fod yn gyfaill i'r Amddiffynwr, 'Fod pawb yn cael eu goddef i fyw yn heddychol, a mwynhau eu meddiannau, dan ei lywodraeth ef; ei fod wedi symmud cyfeiliornadau a rhagfarnau oedd yn rhwystrau i lwyddiant yr efengyl, yn enwedig wrth ystyried bod duwioldeb yn cael cefnogaeth a pharch, cystal a rhyddid; pan o'r blaen, os nad ymddangosai yn holl lyffetheiriau a defodau yr amseroedd, ei bod yn ffordd i warth a dinystr cyffredin. Y mae'n eithaf hyspys nad oedd y Presbyteriaid yn cymmeradwyo y trawsdeyrnedd [fel y galwai efe lywodraeth Cromwel]; ond pan welsant mai amcan Cromwel oedd gwneuthur daioni, ar y cyfan, hwy a ymostyngasant.‡ Ac yna, wrth gymharu yr amseroedd hyn â'r rhai ar ol yr adferiad [adferiad Charles II.], mi a dybiaf o hyn allan fod tir yn ddedwydd, yn yr hwn y ca'r bobl ddim ond rhyddid noeth i fod mor ddaionus ag yr ewyllysiont; a phe cyssylltid ond cefnogaeth a chynhaliaeth at ryddid, ac ond i gyfeiliornadau a sectau goddefedig gael eu gorfodi i gadw heddwch, ni bydd i mi o hyn allan fawr ofni y fath oddefiad, nac anobeithio y bydd i wirionedd orchfygu ei wrthwynebwyr.' Yr oedd hon yn dystiolaeth bwysig i weinyddiaeth yr Amddiffynydd o bin gwrthwynebwr.

"Nid ymddangosai ymddygiad doeth yr Amddiffynydd yn amlycach mewn dim nag yn ei ymdrech diflino i wneud pob pleidiau crefyddol yn esmwyth. Boddhai efe y fyddin yn ei phenboethni brwdfrydig; ac weithiau ymunai â hwynt yn eu gweddïau a'u pregethau. Calonogai efe y Presbyteriaid, gan sicrhau iddynt y cynhaliai efe'r weinidogaeth gyhoeddus; a rhoddai iddynt bob nodded priodol. Cynnorthwyai efe yr Annibynwyr, trwy eu gwneuthur yn gaplanau iddo ei hun; trwy eu dodi mewn bywiolaethau pwysig yn yr eglwys a'r prif-ysgolion; a thrwy eu cyssylltu yn un ddirprwyaeth fel Profyddion yr holl rai a ddymunent gael derbyniad i fywiolaethau eglwysig. Ond gwaharddai yn bendant i glerigwyr pob cyfundeb ymyryd dim â gwladyddiaeth, megis peth heb fod yn perthyn i'w proffes; a phan y deallai fod y Presbyteriaid trefniadol yn hawlio gormod iddynt eu hunain, canfyddai foddion yn wastad i'w hanghefnogi, ac ymfawrygai weithiau ei fod wedi ffrwyno y sect drahâus honno, yr hon nas goddefai neb ond ei hunan. Yr oedd yn ddedwydd i'r Presbyteriaid doeth a chymhedrol bod yr Amddiffynydd wedi dïarfogi ei disgyblaeth o'i hawdurdod attaliol a gorfodol. Yr oedd ganddynt eu henadurfâu classurol, misol neu chwarterol, ymhob sir, i ordeinio gweinidogion, trwy arddodiad dwylaw, yn ol eu hyfforddiadur, i'r sawl y rhoddent dyst-lythyrau.

* Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 126.

† Gwel pen. i. o'r llyfr hwn, y IV.

‡ Ond dylasai ddywedyd, "heb yn waethaf iddynt." Math ar gymmysg oedd Baxter o Bresbyteriad, Esgobyddwr, ac Annibynwr, heb fod yr un o honynt yn fanwl; am hyny galwyd ei ddilynwyr ef yn Baxteriaid.

"Pan ganfu y Presbyteriaid nas gallai eu dosparthiadau gael awdurdod i weinyddu penydiau a chospau ar y rhai a wrthodent ymostwng i'w disgyblaeth, dechreuodd yr amryw gyfundebau crefyddol yn y wlad gynnal cymmanfäu caredig, er cael cyngor a chyfarwyddyd brawdol. Ffurfiodd Richard Baxter a'i frodyr, yn sir Gaerwrangon, gynllun ar y fath egwyddorion cyffredinol ag y gallai pob dynion da gyttuno arnynt; ac wedi iddo dynu erthyclau cyttundeb allan, cyflwynodd hwynt i gael eu cywiro gan yr Archesgob Usher, a duwinyddion Esgobyddol eraill, y rhai a gyttunent âg ef na ddylid arfer mwy o ddisgyblaeth nag un y gallai Esgobyddion, Presbyteriaid, ac Annibynwyr ymuno ynddi; ac na ddylent 'Ymyryd â gwladyddiaeth, neu amgylchiadau y llywodraeth wladol, na honni arfer awdurdod yr agoriadau, nac unrhyw geryddon eglwysig, ond yn unig cynnorthwyo, cynghori, ac annog bawb eu gilydd i ledaenu gwirionedd a sancteiddrwydd, ac i gadw eu heglwysi yn lân oddi wrth gymmunwyr halogedig a gwaradwyddus.' Appwyntiwyd i'w cyfarfodydd fod unwaith yn y mis mewn rhyw dref farchnad, lle y traddodid pregeth yn y borau; ac ar ol cinio yr oedd ymddiddan i fod ar y fath byngciau o athrawiaeth neu ddisgyblaeth ag y gofynid cyfarwyddyd yn eu cylch; neu ynte treulid awr i ddadlau ar ryw bwngc duwinyddol a bennodasid y mis blaenorol.* . . .

"Ond ni chefnogid y cymmanfaoedd hyn gan Bresbyteriaid mwy zelog Llundain, y rhai a ymgyfarfyddent yn wythnosol yng Ngholeg Sïon. Prin y gallent hwy gydddwyn â goddefiad i'r sectariaid, llawer llai ymostwng i ymgyssylltu â hwynt; ond penderfynent ymgadw yn dyn at drefniadau y Senedd, ac at eu cymmanfa daleithiol. Yr oedd arnynt hwy eisiau cleddyf disgyblaeth, ac yr oeddynt yn ddïamynedd dan y gwaharddiad presennol; ac nid oedd dim ond llygad treiddgar yr Amddiffynydd, yspïwyr yr hwn oedd ymhob cornel, a'u cadwai rhag pregethu, gweddïo, a chynllwyn yn erbyn y llywodraeth. Pa wedd bynag, yr oedd y gweinidogion gwledig yn foddlawn yn eu meddiannau, yn coleddu cymmydogaeth dda, ac yn taenu eu cyfarfodydd misol trwy y gwahanol siroedd; ac os na chamhyspysir fi, y mae'r cyffelyb gyfarfodydd brawdol ymhlith yr Anghydffurfwyr hyd y dydd hwn."†

Wedi i'r Amddiffynydd drefnu matterion y llywodraeth, ac achosion rhyddid crefyddol, ac addysg y werin, fel y crybwyllwyd uchod, yr oedd y mân gynllwynion brenhinol yn cael eu llethu cyn gynted ag y darganfyddid hwy; ac yr oedd eiddigedd truenus yr hen bendefigaeth yn cael ei gorbwyso gan ymostyngiad cyffredin y bobl i'r llywodraeth gyfiawnach oedd weithian mewn rhwysg; tra y dylifai cyfarchiadau o'r parthau pwysicaf yn y deyrnas i longyfarch yr

* Ymddengys mai math ar gyfarfodydd oedd y rhai hyn, tebyg i gyfarfodydd misol gwahanol gyfundebau crefyddol Cymreig yr oes hon, ond yr ymgynhullai penaethiaid Esgobyddol, Presbyteraidd, ac Annibynol ynghyfarfodydd misol Baxter ac Usher. Pa mor gledfawr bynag oedd amcan eu sefydliad, ni ddeilliodd fawr o les cyffredinol a pharhaus i'r wlad oddi wrth gyfarfodydd misol y gwŷr da hyny; ac y mae'r achos o hyny yn amlwg i'r diragfarn, sef am eu bod yn Anysgrythyrol. Yr oedd "yr holl eglwys," cystal "a'r apostolion a'r henuriaid," yn bresennol yn y cyfarfod mawr yn Jerusalem, i'r hwn yr aeth "Paul a Barnabas, a rhai eraill," o eglwys Antiochia i ymgynghori ynghylch yr enwaediad (Act. xv. 4, 12, 22); a deilliodd lles i'r eglwysi hyd y dydd hwn oddi wrth y cyfarfod eglwysig hwnw. Terfynodd Baxteriaeth yn ebrwydd ar ol i William III. lwyddo i basio DEDDF Y GODDEFIAD yn 1689. Wedi hyny aeth yr Esgobyddion, y Presbyteriaid, a'r Annibynwyr bawb at ei sect fel o'r blaen.

† Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 363–366.

Amddiffynydd, ac addaw ufudd-dod iddo. Prysurodd holl lysoedd Ewrop hefyd i gydnabod llywodraeth newydd Brydain. Yr oedd llysgenhadon Ffraingc, yr Hispaen, Hòland, Portugal, a Denmarc, oll am y cyntaf i gyflwyno eu gwarogaeth i'r Amddiffynydd galluog. Yr oedd buddugoliaethau cyflym a phenderfynol Blake a Monk ar y moroedd yn dra ffafriol i ddwyn hyn o amgylch.‡

Tu a dechrau 1654, neu gynt, yr oedd y brenhinwyr a'r gwastatawyr wedi ymuno, ac yn peri mawr gyffro yn y wlad; ac yr oeddynt yn ystyried Charles Stuart yn llawer gwell, a mwy dŷn, nag Oliver Cromwel; a daeth llanw cynhyrfiad i mewn gyd â nerth adnewyddol. Yr oedd yn amhossibl gwybod ar ba bwynt y tarawai y don nesaf; ond angenrhaid oedd attal terfysg ac afreolaeth, ac amddiffyn trefn a heddwch. Er mwyn cyrraedd yr amcan, rhanodd yr Amddiffynydd y wlad yn ddeuddeg dosparth, gan osod gŵr o ffyddlondeb a galluoedd dïamheuol ymhob dosparth, dan yr enw o Isgadfridog. Yr oedd y swydd yn cynnysgaeddu ei meddiannydd âg arolygiaeth gyffredinol, gwladol cystal a milwrol; ac nid oedd yn oed pregethwyr allan o'u cyffiniau. Mawr leihaodd drygioni a throsedd dan arolygiad y swyddogion hyn, a dodwyd crefydd a rhinwedd ar seiliau ehangach a pherffeithiach. O ganlyniad, daeth gweithrediadau y swyddogion hyn yn fwy afreidiol, ac, yn raddol, gadawyd i'r swydd ei hunan ddiflannu. Yr oedd y Werddon yn awr yn dra chynhyrfus etto, ac ofnid fod Fleetwood, mab ynghyfraith yr Amddiffynydd, yn rhy amhenderfynol, ac yn rhoi gormod o'u fford i'r Gwastatawyr, os nad yn eu pleidio; am hyny, appwyntiwyd Henry, mab ieuengaf yr Amddiffynydd, yn Arglwydd-Raglaw y Werddon; dŷn cywir, o feddwl golau a phenderfynol, yr hwn a gyflawnodd ei swydd yn alluog a ffyddlawn. Yn fuan ar ol iddo ymsefydlu yn y Werddon, ysgrifenodd ei dad ato fel y canlyn:—

"FY MAB,—Yr wyf yn canfod eich bod yn dra phryderus ynghylch ymddygiad rhai personau sydd yna, gyd â golwg arnoch eich hun a'r gweithrediadau cyhoeddus. Credaf y dichon bod rhai personau neillduol heb fod yn bur foddlawn i sefyllfa bresennol pethau, a'u bod yn dueddol i ddangos eu hanfoddlonrwydd fel y caffont gyfleusdra; ond ni ddylai hyn bwyso gormod ar eich meddwl. Gall amser ac amynedd eu gweithio i well tymmer ac yspryd, a'u dwyn i weled yr hyn sy'n awr yn guddiedig iddynt; yn enwedig os gwelant eich cymmedroldeb a'ch cariad chwi tu ag atynt, os canfyddir eu bod yn wahanol tu ag atoch chwi.

‡ Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 115–119; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., pp. 158–9; Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 369.

Digitized by Google

Yr wyf yn difrifol ddymuno arnoch fyfyrio y pethau hyn hyd eithaf eich gallu. Felly cewch chwi a minnau gysur, beth bynag a ddichon y canlyniad fod."

Y mae'n amlwg yr hoffai Cromwel lywodraethu y Werddon, fel pob parth arall, mewn amynedd, cymmeroldeb, a chariad. Parhaodd Henry Cromwel yn y swydd o Arglwydd-Raglaw yno, mewn llwyddiant a chymmeradwyaeth gan y Protestaniaid, hyd adferiad Charles II. i'r orsedd, pan yr ymneillduodd yntau i Soham, yn sir Gaergrawnt, lle y treuliodd weddill ei oes yn ei etifeddiaeth ei hun.*

Daeth y newydd galarus i lys yr Amddiffynwr ar y 3ydd o Fehefin, 1655, bod y Duc Savoy wedi gyru chwe chatrawd o filwyr Pabaidd, yn Rhagfyr y flwyddyn flaenorol, i ddyffrynoedd Lucerna, Perosa, a St. Martin, yn yr Alpau, i ymlid y trigolion Protestanaidd ymaith, a elwir yn awr Vaudois, sef hiliogaeth yr hen Waldensiaid, o blegid iddynt wrthod troi yn Babyddion. Ymosododd y milwyr Pabaidd, fel bwystfilod rheibus, ar y trigolion diniwaid, anarfog, a dïamddiffyn, yn nyfnder y gauaf, gan eu hymlid o'u tai, llosgi neu ladrata eu meddiannau, a lladd y trigolion nas gallent ffoi i'r mynyddoedd, o bob rhyw, gradd, ac oedran, mewn modd rhy fwystfilaidd a barbaraidd i'w adrodd. Pan fynegwyd y galanasdra ofnadwy i Cromwel yr amser a nodwyd, ac y cyflwynwyd iddo appeliad y trueiniaid am ei amddiffyniad, "Toddwyd yr Arglwydd-Amddiffynydd i ddagrau, a chynhyrfwyd ef gan dân sanctaidd. Yr oedd y cyttundeb Ffrangcaidd, nad oedd ddibwys iddo ef, i gael ei lawnodi heddyw [Mehefin 3, 1655]. Gwrthododd ei lawnodi heddyw hyd onid ymrwymai y brenin a'r cardinal i'w gynnorthwyo ef i gael cyfiawnder i'r dyffrynoedd tlodion hyny. Anfonodd 2,000p. o'i logell ei hun i'r trueiniaid ymlidiedig; appwyntiodd ddiwrnod o ymbil a gweddi, a chasgliad cyffredinol trwy y deyrnas at yr amcan; ar fyr, penderfynodd roi cymmorth i'r truain tlodion hyn, a dywedodd yr edrychai Brydain ac yntau am iddynt gael ymwared a chyfiawnder." Yr oedd yr holl wlad hon, ar y pryd, cystal a'r Amddiffynydd, yn dra chynhyrfus yn erbyn Pabyddiaeth, a chasglwyd trwy y wlad yn ebrwydd, ar ei gais ef, 37,097p. 7s. 3c.; swm dirfawr ei faint ar y pryd. "Y mae dïoddefiadau y Cristionogion truain hyn," eb yr Amddiffynydd, "mor agos at fy nghalon a phe buasent yn frodyr a chwiorydd i mi." Cyfarwyddodd Milton i ysgrifenu ar eu rhan at holl wladwriaethau Ewrop. Efe a ysgrifenodd â'i law ei hun at frenin Ffraingc, y Cardinal Mazarin, a'r Duc Savoy. Ysgrifenodd yr Ysgrifenydd Thurlow o'i enau fel hyn at y gweinidog Seisnig yn Switzerland:—"Y mae gwir angen am undeb diffuant rhwng yr holl Brotestaniaid. Y mae'r creulonderau a gyflawnwyd ar y Piedmontiaid truain yn cael eu bwriadu ar yr holl Brotestaniaid, pe cai Rhufain ddim ond moddion a chyfleusdra. Os na ddeffry hi ni, yr ydym dan gysgadrwydd barnol." Gwyddai yr holl wledydd erbyn hyn nad un a siaradai heb fwriadu gweithredu ydoedd Cromwel. Canfu foddion yn fuan i weithio allan ei benderfyniad. Arferai ddywedyd mai llong ryfel oedd y llysgenhadwr gorau, ac y gallai efe wneud i ruad ei gyflegrau ym Môr y Canoldir gael ei glywed gan Bab Rhufain. Ond os prin y gallai wneud i ruad ei gyflegrau morawl gael ei glywed gan erlidwyr y Waldensiaid, etto cynlluniodd i wneud iddo deimlo pwys ei fraich. Yr oedd yr Amddiffynydd yn awr, fel y gwelsom, yn brysur mewn gwneud cyttundeb â brenin Ffraingc, a gwrthododd ei lawnodi nes i Mazarin, yr hwn a ddirfawr ofnai y llywodraethwr Seisnig, orfodi y Duc Savoy i gydsynio â'i ofynion, ac i ymrwymo yn ddifrifol i ganiatâu rhyddid cydwybod i bobl y Dyffrynoedd, ac adfer iddynt eu holl hen hawliau a rhagorfreintiau. Archodd hefyd i hyspysiad gael ei anfon at y Pab, "Os nad adferid eu rhyddid crefyddol i'r Vaudois, y gyrai efe lynges Frytanaidd i guro muriau Babilon o gwmpas ei glustiau ef yn Rhufain;" a thystiolaethodd yn y Senedd na oddefai efe i'r ffydd Brotestanaidd gael ei sarhau a'i gorthrymu mewn un ran o'r byd adnabyddus; ac ni chlywyd mwyach am y fath sarhâd a gorthrwm mewn un man hyd ddiwedd ei oes gyssegredig ef.†

Cynhyrfodd yr ysgelerderau erchyll a nodwyd, sy'n dangos yspryd digyfnewid Rhufain, enaid mawreddog Milton i dywallt ei ddigofaint ar yr anfadrwydd yn y ganig brydferth a elwir, "Ar y Gyflafan ddiweddar yn Piedmont," yr hon sydd un o'r pethau tlysaf o ffrwyth ei awen ysprydoledig, rhydd gyfieithiad o'r hon sydd fel y canlyn:—

"DIAL, O Dduw! dy ferthyredig saint,
Esgyrn y rhai sydd wasgaredig hyd oer fryniau'r Alp;
Y rhai a gadwent gynt dy eiriau di mor bur,

* Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 119, 120; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1138; vol. ii., p. 407.

† Cromwel's Life and Letters, vol. iii., pp. 104, 163, 164; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., pp. 165, 166; Y Gwyddoniadur, cyf. ii., t. 584, 585; Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., p. 125.

Digitized by Google

Pan yr addolai'n tadau ni oll bren a maen,
Nac anghofia hwynt: cofnoda'u hocheneidiau yn dy lyfr:
Dy ddefaid oeddynt, laddwyd yn eu corlan hen
Gan y Piemontiaid gwaedlyd, a fwrient y fam,
Ynghyd â'i baban, dros y creigiau serth.
Adseiniai'u hochain dwys o bant i fryn,
A hyd y nef. Hauwyd eu gwaed a'u lludw merthyredig
Dros feusydd yr holl Ital, lle fyth y trig
Y brwnt ormesydd triphlyg mewn llawn rwysg:
Pâr, o'r rhai hyn oll, dyfu ar eu canfed,
Y rhai, 'n ol dysgu dy ffyrdd di, yn forau
A ddiangant rhag y Fabilonaidd wae." *

Prif orchwyl Cromwel yn 1656 oedd puro y Senedd oddi wrth aelodau llygredig a diwerth, trwy osod adran o filwyr wrth ddrws Tŷ'r Senedd ar ddiwrnod ei hymgynhulliad, i rwystro neb fyned i mewn ond a allai ddangos tystysgrif, wedi ei llawnodi gan Ysgrifenydd y Weriniaeth yn y Canghellys, i brofi ei fod wedi cael ei ddychwel i wasanaethu yn y Senedd bresennol, a'i gymmeradwyo gan y Cyngor.† Er bod hyn yn dra angenrheidiol y pryd hwnw, ac am oesoedd wedi hyny, a byth, yn wir, hyd sefydliad pleidlais ddirgel, gan y cai'r dihiryn gwaethaf a mwyaf diddefnydd ei ddychwelyd i'r Senedd, o byddai ganddo ddigon o gyfoeth a thenantiaid; etto ffromodd y cynddrychiolwyr gwrthodedig yn aruthr, a gwnaeth amryw o honynt eu hegni yn erbyn yr Amddiffynydd, ac aeth rhai o honynt mor bell a cheisio codi terfysg yn y wlad, ac i gynllwyn am ei fywyd. Pa wedd bynag, ymgynhullodd y Senedd ar ddydd Mercher, yr 17fed o Fedi, 1656, ac aethant hwy a'r Amddiffynydd i Eglwys yr Abbey, i wrando ar y Dr. John Owen, prif dduwinydd yr oes, ac Isganghellydd Rhydychain, yn pregethu. Ei destyn oedd Esa. xiv. 32: "A pha beth a attebir i genhadon y genedl? Seilio o'r Arglwydd Sïon, ac y gobeithia trueiniaid ei bobl ef ynddi."‡ Ar ol y bregeth aethant i'r Ystafell Liwiedig i drin achosion y deyrnas. Agorwyd yr eisteddiad gan yr Amddiffynydd mewn araeth a barhaodd dros amryw oriau. Dechreuodd trwy ddywedyd, "Y mae a wnelom ni â phethau, ac nid â geiriau. Y mae goruchwyliaethau Duw tu ag atom yn gofyn hyn; ac y mae yr hyn sydd genym dan sylw o bwys mawr, gyd â golwg ar ogoniant Duw, a lles ei achos yn y byd. Wrth ei achos ef yn y byd, yr wyf yn deall ei achos neillduol, ei eglwys, cymmundeb canlynwyr ffyddlawn Crist." Yna, ar ol cyfeirio at wledydd tramor, a'r angenrhaid am wrthsefyll cyfeiliornad ac erledigaeth, ac amddiffyn y gwirionedd ynddynt oll, efe a ddywed, "Y mae achos Protestaniaeth trwy holl Ewrop yr un; ac ond i chwi fod o ochr Duw, a gweithredu yn effeithiol o'i blaid ef, chwi a fyddwch yn amddiffyn i'r bobl ymhob man. Am hyny dywedaf i chwi mai oddi wrth y gelyn cyffredin, oddi wrth Babyddiaeth, yr Anghrist, y mae ein perygl ni. Ac os na wadwch wirionedd yr Ysgrythyr, chwi a welwch mai Pabyddiaeth ydyw yr Anghrist." Yn nesaf, cyfeiriodd at a gwahanol bleidiau oedd yn cweryla, ac yn barod i godi terfysg, pe gallent; y rhai a wadent y peryglon a fu yn bygwth y wlad, ac a fychanent ei waith yntau yn amddiffyn y wlad rhagddynt; a dywed, "O'r braidd y credant y bu gwrthryfel o gwbl yn Ngogledd Cymru, yn yr Amwythig, yn Rhosle Marston, ac mewn llawer o fanau eraill." Yna, y mae yn eu hannog i ystyriaeth bwysig o'r hyn sydd angenrhaid er dïogelwch rhag yr holl beryglon cartrefol a thramor oddi wrth y gelyn cyffredin, Pabyddiaeth; ac aiff rhagddo fel y canlyn:—

"Un peth yn neillduol a fydd yn gymmeradwy gan Dduw, yn ddïogelwch i ninnau rhag peryglon, ac yn amlygiad o'n dïogelwch am y trugareddau a dderbyniwyd genym; a hyny ydyw, Diwygiad gwirioneddol, ac nid peth anheilwng o'r enw, fel y peth a fu ar ol amser Mari. Pe gofynech i mi ddywedyd yn awr beth a fydd ein dïogelwch rhag llaw, yr wyf yn dywedyd etto, ym mhresennoldeb yr Hollalluog Dduw, nid eich milwyr, nid eich arfau, nid eich nerth a'ch gwyliadwriaeth; ond Diwygiad gonest, trwyadl, a chyfiawn. Parwch fod yn gywilydd i ddynion fyw mewn pechod a chabledd, a bendithia Duw chwi yn eich gwaith; ac felly y byddwch yn fendith i'r genedl. Y

* "Avenge, O Lord! thy slaughter'd saints, whose bones
Lie scatter'd on the Alpine mountains cold;
Even them who kept thy truth so pure of old,
When all our fathers worshipt stocks and stones,
Forget not: in thy book record their groans
Who were thy sheep, and in their ancient fold
Slain by the bloody Piemontese that roll'd
Mother with infant down the rocks. Their moans
The vales redoubled to the hills, and they
To heaven. Their martyr'd blood and ashes sow
O'er the Italian fields, where still doth sway
The triple tyrant; that from these may grow
A hundred fold, who, having learn'd thy way,
Early may fly the Babylonian woe."—
*Milton's Poet. Works; Edinburgh*, 1840, *p.* 171.

† Wele ffurf y dystysgrif:—"September 17, 1656. County of——. These are to certify that A. B. is returned by indenture one of the Knights to serve in this Parliament for the said county, and is approved by his Highness's Council.——Nath. Taylor, Clerk of the Commonwealth in Chancery."

‡ Yn niwedd y bregeth hon, dyry'r Dr. Owen ddisgrifiad bywiog o agwedd crefydd yng Nghymru. Yn ei bregeth flaenorol o flaen y Senedd, yr oedd wedi dangos yr angenrhaid o gael rhyw gynllun er hyrwyddo addysg a chrefydd yn y wlad hon. Yr oedd duwioldeb a gwladgarwch yn peru iddo gymmeryd dyddordeb neillduol yn achos crefydd a gwybodaeth yng Nghymru. Yr oedd efe ei hun, fel yr Amddiffynydd, o deulu Cymreig, a gwyddai bod moddion gwybodaeth grefyddol a gwladol yn dra phrin yn eu plith, heb na Biblau nac unrhyw lyfrau eraill yn Gymraeg ynghyrraedd y genedl yn gyffredinol; a dywedir mai prin y traddodid pedair pregeth Gymraeg bob blwyddyn yn yr holl Dywysogaeth. Trwy annogaeth y Dr. Owen, a zel grefyddol yr Amddiffynydd, a dynion duwiol eraill, megis Thomas Gouge a Stephen Hughes, gwnaed diwygiadau mawrion yng Nghymru, ar ol gwneuthuriad y ddeddf Seneddol yn 1649, er taenu gwybodaeth grefyddol yn y Dywysogaeth, a throi clerigwyr anaddas o'u swyddi, fel y dangoswyd yn y bennod gyntaf o'r llyfr hwn.

Digitized by Google

mae'n wir mai pethau yn dal perthynas âg eneidiau dynion yw y rhai hyn ; ond y *meddwl* yw y dŷn. O bydd hwnw yn bur, bydd y dŷn yn rhywbeth ; os na bydd, hoffwn wybod pa wahaniaeth sydd rhwng dŷn ac anifail. Am hyny, yr wyf yn eich tynghedu, yn enw Crist, '*bydd-wch* wŷr ; byddwch ddynion *Cristionogol*, yr hyn yn unig a'ch galluoga i ymddwyn fel dynion. Er mwyn bod fel hyn, rhaid i chwi gael Yspryd Crist ; nid yspryd y Laodiceaid. Gwyddoch beth a ddywedodd Duw wrth yr eglwys honno : 'Am dy fod yn glaiar, ac nid yn oer nac yn frwd, mi a'th chwydaf di allan o'm genau.' Goddefwch i mi ddywedyd wrthych nad ar ffurfiau, areithiau, a syniadau y mae'r gwaith hwn yn dibynu. Nid wyf yn disgwyl i'r pethau hyn ei gyflawni. Na ; ond gan ddynion cywir yngwasanaeth Duw, wedi eu nerthu gan Ragluniaeth, ac wedi eu goleuno yn y Bibl i adnabod ei Air ef, yr hwn sydd wedi ei selio â gwaed ei Fab ef, ac â gwaed ei weision ef : hwn yw yr Yspryd a ddwg y gwaith ym mlaen. Nid oes genyf ond un peth arall i'w ddywedyd wrthych : yr oeddwn yn darllen Psalm ddoe, yr hon nid yw anfuddiol nac anheilwng o'ch sylw chwi a minnau. Y mae'n dechrau fel hyn : 'Graslawn fuost, O Arglwydd, i'th dir : dychwelaist gaethiwed Jacob.'" . . .

Yna aeth rhagddo i adrodd y Psalm (lxxxv.) wrthynt, yr hon sy'n terfynu fel y canlyn:—

"'Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant ; cyfiawnder a heddwch a ymgysanasant. Gwirionedd a dardda o'r ddaear ; a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd. Yr Arglwydd hefyd a rydd ddaioni ; a'n daear a rydd ei chnwd. Cyfiawnder a â o'i flaen ef ; ac a esyd ei draed ef ar y ffordd.' Yn wir, mi a ddymunwn fod y Psalm hon yn ysgrifenedig yn ein calonau, fel y mae yn y Llyfr, modd y gallem ddywedyd, 'Tydi a wnaethost hyn yma, a Thydi a wnaethost hyn acw ; a Thydi a faddeuaist ein hanwiredd.' Y mae llawer o rwgnach gan rai am na chant redeg ceffylau, ymladd ceiliogod, a phethau cyffelyb ;* ond nid wyf yn meddwl eu bod yn angenrheidiol. Os rhydd Duw yspryd diwygiad, chwi a gedwch y deyrnas hon rhag troi at y fath wagedd ; a pha beth a ddilyn ? Bendith a chysur. Yna 'trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfyddant.' Y mae llawer o 'wirionedd' ymhlith proffeswyr, ond nid 'trugaredd.' Torant yddfau y naill a'r llall, pe goddefid iddynt. Ond pan ddygir ni i'r iawn, byddwn yn drugarog cystal ag yn uniawngred. Yr wyf yn terfynu. Gweddiwch Dduw ar iddo eich bendithio â'i bresennoldeb, fel y byddo ef, sydd a'n calonau chwi a minnau ganddo, fod yn ein mysg."

Dywedodd Carlyle am yr araeth odidog hon fel y canlyn:—"Ni thraddodwyd araeth frenhinol gyffelyb mewn un man arall o'r byd erioed ! Y mae'r dŷn Oliver, a'r Frydain a lywodraethai, i'w canfod yn amlycach ynddi nag yn yr holl hanesion braidd a ysgrifenwyd am dano."†

Tymmor helbulus a thrallodus dros ben a gafodd yr enwog Oliver Cromwel o ddiwedd 1656 hyd derfyn ei oes lafurus a defnyddiol. Yr oedd y rhan fwyaf o'r bobl, a'r pendefigion bron oll, yn gwbl anaddfed i'r fath ddiwygiad mawr ag a ddygwyd ym mlaen gan Cromwel ; ac yr oedd eu hymlyniad mor dyn wrth frenhiniaeth fel nad oedd dim a'u boddlonai ond cael brenin. O'r tu arall, yr oedd y fyddin, gwŷr y pumed unbenaeth, a'r uchel-werinwyr, mor greulawn yn erbyn brenhiniaeth, o oblegid y trueni erchyll a ddygasai brenhinoedd blaenorol ar y wlad, fel y bygythiai rhai o honynt lofruddio yr Amddiffynydd, os derbyniai yr enw ysgymmun o frenin. Pa wedd bynag, gwnaed y cynnyg ar y 19ydd o Ionawr, 1657, ac ymddengys iddo gael ei dderbyn yn foddhaol gan amryw o'r aelodau. Y mae'n amlwg, modd bynag, oddi wrth y ddadl a ddilynodd, nad oedd y pwngc wedi ei lawn gynllunio. Gofynodd un o'r areithwyr, mewn cyffro, "A ydych am wneud yr Amddiffynydd y rhagrithiwr mwyaf yn y byd ?" Er hyny, ar y 23ydd o Chwefror, safodd Syr Christopher Park, henadur, ac aelod dros y ddinas, yn ei le yn y Senedd, a chyflwynodd ddeiseb i'r Tŷ, yn cynnyg cyhoeddi yr Amddiffynydd yn frenin ; ac wedi dadlau brwd o blaid ac yn erbyn y cynnyg, ar yr 31fed o Fawrth cyflwynwyd iddo gan y Tŷ, dan arweiniad eu llefarydd, "Ddeiseb a Chyngor gostyngedig Senedd Lloegr, Ysgotland, a'r Werddon." Yna traddodwyd araeth hir, yn mawrygu manteision llywodraeth frenhinol, a hyder y genedl yn y penadur newydd. Ymhen tri diwrnod wedyn, derbyniodd y llefarydd lythyr oddi wrth Cromwel, yn yr hwn y dymunai ar i bwyllgor gael ei appwyntio i fyned ato ef i dderbyn ei atteb. Cynnwys ei atteb, yn fyr, ydoedd NA. Cydnabyddai ei "fod wedi byw y rhan fwyaf o'i oes mewn tân, ynghanol blinderau ; ei fod ef yn dra anheilwng o'r anrhydedd a gynhygid iddo yn awr ; ond ei gysur oedd, bod yr holl lwythau a bwysent yn drwm arno, wedi eu dodi gan law Duw."

Wedi i Cromwel wrthod y frenhiniaeth, cydsyniodd i'r Senedd fod yn gynnwysedig o ddau Dŷ, fel cynt, Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ; ac ymgynhullasant am y tro cyntaf, dan y llywodraeth bresennol, ar yr 20fed o Ionawr, 1658. Pa wedd bynag, gwelodd y dŷn craffus hwn yn ebrwydd eu bod mor groes i'w gilydd fel nas gallai ond un o honynt hanfod heb lwyr ddinystrio y llywodraeth, a suddo y genedl unwaith etto mewn rhyfel gartrefol ; am hyny, ymhen pymtheng niwrnod ar ol iddynt ddechrau eistedd, dadgorphorodd Cromwel y Senedd, pan y tra-

* Yr oedd y chwareuon creulawn, gwastraffus, ac ofer hyn, dan wahardd y gyfraith wladol yn ystod llywodraethiad Cromwel ; a bendith ddirfawr i'r wlad a fyddai eu dodi etto dan yr un gwahardd, canys arbedai fwy na mwy o greulondeb, a chelwydd, a thwyll, a lladrad, a dinystr ar fywiolaethau a chysuron llu o bersonau unigol cystal a theuluoedd.

† Hume and Stafford, vol. ii., p. 171 ; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., pp. 166–168 ; Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 119–123 ; Burton, Diary, vol. i., pp. 148-178 ; Y Gwyddoniadur, cyf. ii., t. 587-8.

Digitized by Google

ddododd yr araeth lem a didderbyn wyneb ganlynol iddynt, yr hon sy'n meddu y dyddordeb mwyaf, am mai dyma yr araeth olaf a draddododd ynglŷn â'r wladwriaeth:—

"Yr oedd yr hyn a ddywedais wrthych yn nhŷ'r wledd, ddeng niwrnod yn ol, yn wirionedd, sef bod parotoadau ar droed i ymosod arnom. Y mae Duw yn dyst i mi y sicrhawyd wrthyf, lai na diwrnod yn ol, bod gan frenin yr Ysgotland fyddin wrth lan y môr, yn barod i hwylio i Frydain. Mynegwyd y peth i mi oddi wrth rai a fu yn llygad-dystion o hono. A thra y mae ar waith, gwneir ymdrechion gan rai, sydd heb fod yn bur bell o'r lle hwn, i gynhyrfu pobl y ddinas hon i derfysg; ïe, beth pe dywedaswn, i wrthryfel! A gobeithiaf y dangosaf nad ydyw well, os cynnorthwya Duw fi.

"Nid yn unig yr ydych wedi bod yn ymdrechu gwyrdroi y fyddin tra fuoch yn eistedd, a'u tynu i drafod y pwngc ynghylch gwladwriaeth; ond hefyd y mae rhai o honoch wedi bod yn codi gwŷr, trwy ddirprwyaeth Charles Stuart, i ymuno âg unrhyw derfysg a ddichon gael ei wneuthur. A pha beth sydd yn debyg o ddilyn hyn, gan fod y gelyn yn barod i ymosod arnom, namyn tywallt gwaed, cyffro, ac afreolaeth? Ac os felly fydd, yr wyf fi yn ei briodoli i'r achos yma, sef eich gwaith yn peidio cydsynio â'r hyn y gwahoddasoch fi ato trwy eich deiseb a'ch cyngor, megis yr hyn a allasai brofi yn sefydliad y genedl. Ac os hyn fydd terfyn eich eisteddiad, ac os hyn a fydd eich ymddygiad, yr wyf yn meddwl bod yn llawn bryd rhoi terfyn ar eich eisteddiad. Yr wyf fi, gan hyny, yn dadgorphori y Senedd hon. A bydded Duw farnwr rhyngoch chwi a minnau."

Yr oedd y dadgorphoriad yma yn angenrhaid poenus. "Pe parhausai yr eisteddiad yma ond dau neu dri diwrnod ymhellach, buasai pawb mewn gwaed, yn y ddinas ac yn y wlad, yn achos Charles Stuart." Mor fygythiol a dïoed oedd y perygl fel y cymmerth Cromwel ei hun arolygiad y gwylwyr yn Whitehall dros amryw nosweithiau yn olynol. Canfyddwyd arweinwyr y brad erchyll yma, yn erbyn Amddiffynwr Brydain, a daliwyd hwy yn eu hymgynhullfan yn Shoreditch, ar noson y diwrnod y dadgorphorwyd y Senedd. Amcan addefedig y fradwriaeth yma oedd adfer hiliogaeth y Stuartiaid; amcan llawnaf o berygl o bob un arall i ryddid a dedwyddwch y wlad ar y pryd. Y rhai penaf yn y fradwriaeth yma oedd Syr Henry Slingsby, y Parch. Dr. Hewit, duwinydd brenhinol enwog, ac ychydig eraill. Sefydlwyd llys cyfiawnder pennodol ar gyfer eu prawf, a gweinyddwyd cyfiawnder gyd â phenderfyniad ac amhleidgarwch cyfartal. Condemniwyd y marchog a'r pregethwr o deyrnfradwriaeth; ac yn unol â'r ddedfryd, torwyd eu penau yn y Tŵr. Cyfarfu rhai eraill â'r un dynged, a charcharwyd nid ychydig, gan eu cospi yn ol y bernid maint eu troseddau. "Yna dadgorphorwyd yr uchel lys cyfiawnder; ac wedi hyn, a dim ychwaneg, o dywallt gwaed, terfynodd y symmudiad gwrthryfelgar mawr yma, a gorweddodd yn dawel o fewn ei ogofau drachefn."*

Gellir dywedyd bellach am Cromwel fel y dywedwyd am Dafydd, "Yna dyddiau Cromwel a nesasant i farw;" a dichon mai dyma yr olygfa ardderchocaf o'i holl fywyd gorlawn o ddigwyddiadau. Cymmerwyd ef yn glaf yn Llys Hampton ar y 12fed o Awst, 1658, lle yr oedd yn gwylio ei hoffusaf ferch Elizabeth, yr Arglwyddes Claypole, gwraig Syr John Claypole, yr hon a fu farw yno ar y 6ed o Awst. "Y mae'n ddïammau," eb Harvey, "ddarfod i gydymdeimlad ei yspryd â'i ferch gystuddiedig oedd yn marw ei dori i lawr yn ddirfawr; heb law afrifed ystyriaethau eraill o ddïoddefiadau a blinderau, fel y bûm mi yn synu yn fynych pa fodd y gallai ddal i fynu cyhyd, oddi eithr, yn wir, iddo gael ei gadw i fynu gan allu goruwchnaturiol mewn modd anghyffredin, fel trugaredd i'r byd gwir Gristionogol, ac i ninnau y cenhedloedd hyn, pe buasem deilwng o hono!" "Yn Llys Hampton," medd yr un awdurdod, "ymhen ychydig ddyddiau ar ol marwolaeth yr Arglwyddes Elizabeth, yr hyn a'i trywanodd ef yn dost, tra yr oedd yntau ei hun yn dïoddef dan amryw anhwylderau corphorol, rhagredegwyr y clefyd a fu yn angau iddo, ac efe yn ei ystafell wely, galwodd am ei Fibl, a dymunodd ar ŵr anrhydeddus a duwiol, ac amryw eraill yn bresennol, ddarllen Phil. iv. 11–13;† ac wedi eu darllen, i arfer ei eiriau ef hyd y gallaf eu cofio, efe a ddywedodd, 'Achubodd y geiriau hyn fy mywyd i unwaith, pan fu fy mab hynaf, Robert druan, farw, yr hyn a aeth fel picell i'm calon, yn wir fe aeth.' Yna, gan ail adrodd geiriau y testyn ei hun, a darllen y ddegfed a'r unfed adnod ar ddeg am foddlonrwydd ac ymostyngiad Paul i ewyllys Duw ymhob sefyllfa, efe a ddywedodd, 'Y mae'n wir, Paul, dy fod *di* wedi dysgu hyn, ac wedi cyrraedd y mesur yma o ras; ond beth a wnaf *fi?* Och! greadur tlawd, y mae'n wers galed i mi ei chymmeryd! Felly yr wyf fi yn ei chanfod.' Ond wrth ddarllen y drydedd adnod ar ddeg, lle y dywed Paul, 'Yr wyf yn gallu pob

* Burton, Diary, vol. i., pp. 362, 397-416; Whitelock's Mem., pp. 662, 655, 673; Thurlow's State Papers, vol. iv., p. 567; vol. vi., pp. 163-188, 767, 778-788; Clarendon's Hist. Rebel., vol. iii., p. 792; Papers, vol. iii., p. 311; Ludlow's Mem., vol. ii., pp. 149, 261; State Trials, vol. v., pp. 871-883; Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 121-125.

† "Nid am fy mod yn dywedyd o herwydd eisiau: canys myfi a ddysgais ym mha gyflwr bynnag y byddwyf, fod yn foddlawn iddo. Ac mi a fedraf ymostwng, ac a fedraf ymhelaethu: ym mhob lle ac ym peth y'm haddysgwyd, i fod yn llawn ac i fod yn newynog, i fod mewn helaethrwydd ac i fod mewn prinder. Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu i."

peth trwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu,' yna dechreuodd ffydd weithio, a'i galon gael nerth a chysur, a dywedodd fel hyn wrtho ei hun: 'Yr hwn oedd Grist Paul, yw fy Nghrist innau hefyd!' Ac felly efe a dynodd ddwfr o ffynnon yr iachawdwriaeth."*

Ar ddydd Gwener, yr 20fed o Awst, ymddangosai yr Amddiffynydd yn llawer gwell, ond tranoeth cymmerth newidiad er gwaeth le; ymddangosai arwyddion twymynol, ac archodd y y meddygon gwbl ddistawrwydd. O ddydd Sadwrn hyd ddydd Mawrth, parhaodd yr arwyddion i waethygu, ac ymosododd math ar gryd tridiau arno; a gorchymynwyd iddo ddychwel i Whitehall, am fod yr awyr yno yn fwy ffafriol i'r clefyd. Ychydig cyn marw, siaradai lawer am y cyfammodau, a phethau eraill cyffelyb, yn benaf wrtho ei hun. "Yr oedd dau gyfammod," eb efe; "ond gwnaethpwyd hwy yn un cyn sylfaenu y byd." Drachefn, eb efe deirgwaith olynol, fel yr arferai yn fynych, ac yr oedd ei ail adroddiadau yn wastad yn dra phwysig: "Y mae yn sanctaidd a gwir. Pwy a'i gwnaeth yn sanctaidd a gwir? Cyfryngwr y cyfammod." "Ffydd yn y cyfammod yw fy unig gynhaliaeth. Os nad wyf fi yn credu, y mae efe yn aros yn ffyddlawn." Pan oedd ei wraig a'i blant yn wylo o'i amgylch, dywedodd, "Na cherwch y byd, ond byddwch fyw fel Cristionogion: yr wyf fi yn gadael y cyfammod i chwi i ymborthi arno." Yna dywedodd, megis wrtho ei hun, "Ti a wyddost, os wyf fi yn dymuno byw, fy mod yn dymuno hyny er mwyn dangos dy glod, a datgan dy weithredoedd." Dywedodd deirgwaith drosodd, "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw!" Ond, eb efe yn y fan, drachefn, "Y mae holl addewidion Duw *ynddo Ef* yn ïe, ac *ynddo Ef* yn Amen; ïe, *ynddo Ef* yn Amen, er gogoniant Duw trwom ni: trwom *ni* yn Iesu Grist." "Y mae yr Arglwydd wedi fy llenwi â chymmaint o hyder am faddeuant, ac am ei gariad ef, ag a all fy enaid ei ddal." "Yr wyf yn credu fy mod y creadur tlotaf a thruenusaf yn fyw; ond yr wyf yn caru Duw, neu yn hytrach yn cael fy ngharu gan Dduw." "Yr wyf yn goncwerwr, ac yn fwy na choncwerwr trwy Grist, yr hwn a'm carodd i, ac sydd yn fy nerthu."

Ar ddydd Llun, y 30fed o Awst, pan oedd ystorm ddychrynllyd o wynt yn rhuthro dros yr holl wlad, clybuwyd yr Amddiffynydd duwiol yn cyflwyno y weddi ganlynol at ei Dad yr hwn sydd yn y nefoedd:—

"O ARGLWYDD, er mai creadur euog a thruenus ydwyf fi, etto yr wyf mewn cyfammod â thi trwy ras. Yr wyt ti yn caniatâu, ac yr wyf finnau yn dyfod atat ti ar ran dy bobl. Ti a'm gwnaethost i, er fy mod yn dra anheilwng, yn offeryn distadl i wneuthur peth lles iddynt hwy, a gwasanaeth i tithau. Y mae llawer o honynt wedi gosod gormod o fri arnaf; er bod eraill yn dymuno fy marwolaeth, yr hyn a fyddai yn llawen ganddynt. Ond, Arglwydd, beth bynag a wneir o honof fi, dos rhagot, attolwg, a gwna les iddynt hwy. Dyro iddynt uniondeb barn, un galon, a chariad at eu gilydd. Dos rhagot i'w gwaredu; llwydda waith y diwygiad, a gwna enw Crist yn glodfawr trwy yr holl fyd. Dysg y rhai sy'n edrych gormod at dy offerynau, i ymddibynu yn fwy arnat ti dy hun. Maddau i'r sawl sy'n ewyllysio sathru ar lwch dy isel bryfyn, o herwydd dy bobl di ydynt hwythau; a maddau ffolineb y weddi fer hon, er mwyn Iesu Grist. A dyro i ni noswaith dda, os dy ewyllys di ydyw. Amen."

Arferid cadw y 3ydd o Fedi yn ddydd o ddiolchgarwch fyth ar ol buddugoliaethau rhyfeddol Dunbar a Chaerwrangon; ac ar nos Iau o flaen y diwrnod hwnw, y flwyddyn hon, 1658, clybuwyd yr Arglwydd-Amddiffynydd, Cromwel, ac efe yn bur glaf a gwanaidd, yn llefaru mewn llais bloesg fel hyn:—"Da yw Duw yn wir; ïe yn wir: nis gad;" a phallodd ei leferydd. "Nis gad efe fyfi" oedd ei feddwl, fel y tybiai Thurlow, oedd yn ei wrando. Dywedodd "Da yw Duw" lawer gwaith drosodd, a hyny yn siriol, a chyd âg egni mawr ynghanol ei boen. Ac, eb efe drachefn, "Byddwn foddlawn i fyw er hwyrwyddo gwasanaeth Duw a'i bobl; ond y mae fy ngwaith i ar ben: etto bydd Duw gyd â'i bobl." Yr oedd yn bur anesmwyth y rhan fwyaf o'r nos hono; a phan gynhygiwyd iddo rywbeth i'w yfed, er mwyn ei esmwythâu a'i dueddu i gysgu, efe a ddywedodd, "Nid wyf am yfed dim, na chysgu; ond fy nymuniad yw, gwneud pob brys a'r a allaf i ymadael at fy Nghrist a'm Duw."†

Pan gyfododd yr haul y borau dranoeth, dydd Gwener, y 3ydd o Fedi, 1658, yr oedd OLIVER CROMWEL wedi colli ei leferydd; a rhwng 3 a 4 o'r gloch yn y prydnhawn, ei ddiwrnod llwyddiannus, efe a fu farw "yn yr Arglwydd," yn y 60fed flwyddyn o'i oedran, wedi bod yn Amddiffynydd Brydain Fawr am bedair blynedd, wyth mis, a deunaw niwrnod; a bu ei farwolaeth yn anhraethol golled i ryddid, moesoldeb, crefydd, masnach, ac anrhydedd y Deyrnas Gyfunol, fel y cafodd brawf chwerw yn ebrwydd dan deyrnasiad eiddil, halogedig, anfoesol, gormeslyd, a gwastraffus Charles II. Claddwyd corph yr Amddi-

* Cromwel's Life and Letters, vol. iii., pp. 367, 368.

† Cromwel's Life and Letters, vol. iii., pp. 371-375.

ffynydd enwog, mewn rhwysg mawr, ar y 23ydd o Dachwedd, yng Nghapel Harri VII., yn Mynachlog Westminster.

Gadawodd Cromwel ddau fab a thair o ferched ar ei ol: Richard, yr hwn a'i dilynodd fel Amddiffynydd; Henry, Arglwydd-Raglaw y Werddon; Bridget, a briododd Ireton yn gyntaf, ac wedi hyny Fleetwood; Mary, a briododd yr Arglwydd Fauconbridge; a Frances, a briododd ŵyr yr Arglwydd Hawick yn gyntaf, ac wedi hyny Syr John Russell. Cynddrychiolydd olaf yr Amddiffynydd oedd Oliver Cromwel, gor-ŵyr Henry Cromwel, yr hwn a ddilynai y swydd o gyfreithiwr yn Llundain, ac a fu farw yn Cheshunt-park, yn 1821.*

"Y mae cymmeriad y dŷn mawr hwn [OLIVER CROMWEL] wedi bod yn destyn camddarluniad, cabledd, ac enllib truenus dros hir amser; ond trodd llanw'r farn gyffredin yn ddiweddar i redeg mewn cyfeiriad gwahanol. Amhossibl ydyw hyd yn oed i'w elynion wadu ei fod yn meddu y talentau milwrol o'r radd uchaf; dewrder naturiol a moesol diddychryn; a deheuder a medrusrwydd digyffelyb: bod ei lywyddiaeth yn amlygu gallu gweinyddiadol mawr dros ben; a bod ei anturiaethau tramor yn cael eu hynodi gan eofndra a llwyddiant cyfartal. . . . Yr oedd ganddo graffder mawr i ddarllen cymmeriad; ac yr oedd yn llawn mor barod i obrwyo ag oedd o gyflym i ddirnad rhagoriaeth."†

"Ni ddug penadur erioed gyfran mor helaeth o ansoddau gorau y graddau cyffredin i'r orsedd, a'r fath gydymdeimlad â theimladau a lles ei bobl. Gorfodid ef weithiau i arfer trefniadau llymion; ond yr oedd yn meddu calon Frytanaidd fawr, dewrwych, a gonest. O herwydd paham, carai gael ei gylchynu gan ŵyr o fath Hale, Blake [Milton, a'r Dr. John Owen]. O blegid hyny, goddefai helaethrwydd o ryddid i'w ddeiliaid; ac yn oed pan y gorfodid ef gan wrthwynebiad peryglus i'w awdurdod a'i berson i lywodraethu â'r cleddyf, yr oedd efe yn wastad yn awyddus am adael cnewyllyn o'r hwn, ar dymmor mwy manteisiol, y gallai sefydliadau rhyddion darddu a thyfu. Yr ydym yn cwbl gredu, pe nas dechreuasai ei Senedd gyntaf ei dadleuon trwy wrthwynebu ei hawl, y buasai ei lywodraeth mor dyner gartref ag ydoedd o egnïol a galluog mewn gwledydd tramor. Yr oedd ei weinyddiaeth yn ogoneddus, ond heb wag-ogoniant yn perthyn iddi. Yr oedd ei hegni yn naturiol, yn iachus, ac yn gymhedrol. Efe a ddododd Brydain ar y blaen gyd â golwg ar y lles Protestanaidd, ac yn y rhestr gyntaf o awdurdodau Cristionogol. Dysgodd i bob cenedl werthfawrogi ei chyfeillach, ac ofni ei gelyniaeth."‡

"Gadawodd Cromwel glod ar ei ol cyfartal i'w lwyddiant tra rhyfeddol, ac i'r ansoddau mawrion a'u cynhalient; a mawrygid ef yn fwy ond odid gan ddieithriaid na chan ei wlad ei hun, am nad oedd y syniad mor gymmysgedig gan y casineb a geisiai ddiddymu y gogoniant a'i cynhyrfai. Yr oedd y genedl yn maddau llawer i un a ddygasai weddillion ei hen hanesyddiaeth yn ol, traddodiadau oes Elizabeth, ar ol teyrnasiad cywilyddus a halogedig diymadferth. Yr oedd y cyferbyniad rhwng gweinyddiadau tramor Iago a Charles yn rhoi disgleirdeb ychwanegol i gyfnod yr Amddiffyniaeth. . . . Yr oedd Protestaniaid gorthrymedig mewn gwledydd Pabaidd, y rhai yr oedd y Stuartiaid hanner-llugoer a hanner-gwrthgiliedig yn ffiaidd yn eu golwg, yn edrych i fynu at Cromwel fel eu noddwr a'u cyfryngwr."*

Wedi i'r Brytaniaid ynnill Dunkirk dan arweiniad Lockhart, "anfonodd y cardinal Ffrengig, Mazarine, ei nai, Mancini, gyd â'r Duc Crequi, i Lundain i longyfarch yr Amddiffynydd ar lwyddiant y cenhedloedd cynghreiriol, ac i ddywedyd bod yn bur ddrwg ganddo ef fod amgylchiadau anorfod yn ei amddifadu o'r anrhydedd y bu cyhyd yn ei ddymuno, sef talu parch personol i'r dŷn mwyaf yn y byd: bod un gem yn ddigon mawr ac yn ddigon disglair i addurno ael Cromwel dros byth:—Y DYN MWYAF YN Y BYD!" Dywed Marle D'Aubigné "y cyflawnodd OLIVER CROMWEL waith dirfawr ei faint, ac y dylai Brydain weithian gyfodi iddo gofadail, bwa buddugoliaeth, gyd â'r cerfiad canlynol:—

'I SYLFAENYDD RHYDDID CREFYDDOL.'

"Yr ydym yn cyflwyno hyn i ystyriaeth y mae'r arwyddair Canning a gwaith Cromwel mor ddifrifol agos at eu calonau."†

Cyhoeddwyd RICHARD CROMWEL, yr hynaf oedd yn fyw o ddau fab Cromwel, yn Amddiffynydd, dranoeth ar ol i'w dad farw, sef ar y 4ydd o Fedi, 1658; ond gan fod Richard yn hollol wahanol i'w dad ardderchog, yn ddŷn llwfr a dïymgais, ac yn caru llonyddwch yn fwy nag ymdrechu dros ryddid ei wlad, cydsyniodd i ymddiswyddo ar y 25ed o Fai, 1659, ac aeth i Ffraingc, ac oddi yno i Geneva; ac o gylch 1680, dychwelodd i Loegr, dan y ffugenw Clark, a chymmerth ei gartref yn Cheshunt, sir Hertford, lle y preswyliodd "yn heddychol ac anghofiedig" hyd ei farwolaeth yn 1712, ac efe yn 86 oed.‡

Ar ol ymddiswyddiad Richard Cromwel, syrthiodd y llywodraeth i ddwylaw llesg gweddillion y Senedd Hir, y rhai a'i daliasant yn egwan hyd y 25med o Ebrill, 1660, pan yr anfonwyd i gyrchu Charles Stuart i'r wlad; ac ar y 29fed o Fai, cyhoeddwyd ef yn Frenin Brydain Fawr a'r Werddon, dan yr enw Charles II.§ Ymhen tu ag wyth mis ar ol i'r adyn Pabaidd ac erlidgar yma esgyn i'r orsedd, sef ar y 30fed o Ionawr, 1661, tynwyd cyrph OLIVER CROMWEL, Henry

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1141; Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., pp. 175-177; Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., pp. 176-178; Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 128-130; Y Gwyddoniadur, cyf. ii., t. 588.

† Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., p. 179.

‡ Macaulay's Crit. and Hist. Essays, p. 84.

* Hallam's Const. Hist., vol. i., p. 670.

† Ferguson's Hist. Engl., vol. iii., pp. 128, 134.

‡ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1142.

§ Gleig's Hist. Engl., pp. 878, 884; Hume and Stafford, Hist. Engl., vol. ii., pp. 181-184.

Ireton, a John Bradshaw, ar ysleidiau i Tyburn. Dyma fel y dyry papurau newydd yr amser yr hanes:—"Pan oedd y tri ysgerbwd hyn yn Tyburn, tynwyd hwy allan o'u heirch, a chrogwyd hwynt yn amryw onglau y pren triphlyg hwnw, lle y buant yn grogedig hyd fachlud haul; yna torwyd eu penau ymaith, a thaflwyd eu cyrph drewedig i dwll dwfn dan y crogbren. Dodwyd penau y tri theyrnleiddiaid gwarthus hyny, Oliver Cromwel, John Bradshaw, a Henry Ireton, ar bolion ar ben uchaf Neuadd Westminster gan y dienyddiwr cyffredin. Dodasant Bradshaw yn y canol. Cromwel a'i fab ynghyfraith Ireton, un ar y dde, a'r llall ar yr aswy i Bradshaw."*

Er y gwarth ynfyd ac ysgeler yma y ceisiwyd ei daflu gan y dihirod brenhinol hanner Pabaidd ar y tri wŷr hyn, fe fydd eu henwau a'u gweithrediadau yn anwyl byth gan bob gwladgarwr a rhyddgarwr diragfarn, fel tri o wir "Enwogion y Ffydd;" tra yr anrhydeddir enw OLIVER CROMWEL yn oes oesoedd, fel "SYLFAENYDD RHYDDID CREFYDDOL."

---

## PENNOD V.

### HOWEL FYCHAN, AC AMRYW O'I GYDOESWYR.

HOWEL FYCHAN† (Vaughan) ydoedd, yn ol pob tebygolrwydd, y gweinidog cyntaf ar eglwys y Bedyddwyr yn Olchon,‡ yr hon a sefydlwyd tua'r flwyddyn 1633. Nid oes sicrwydd pa bryd, na pha le y ganwyd ef. Nid oedd Fychan wedi cael manteision athrofaol, y mae'n debyg; ond yr oedd yn ddyn cyfarwydd â'r Bibl, ac yn ymfucheddu yn ol ei gyfarwyddiadau.§ Y mae gan Joshua Thomas restr o weinidogion Olchon, a Howel Fychan yw yr ail‖ ar y rhestr, a John Penry yw y blaenaf; ond gan nad oes sicrwydd fod Penry yn Fedyddiwr, rhaid gosod Fychan ar ben y rhestr.¶ Yr ydym yn ei gael ym mysg y rhai a arwyddasant y llythyr yng Nghyfarfod Cyffredinol y Fenni 'Abergafenni' yn 1653, yr hyn oedd ugain mlynedd wedi sefydliad eglwys Olchon, os yn 1633 y cymmerodd hyny le.* Gan mai mewn amser trallodus y bu efe byw, y mae yn dra thebyg iddo gael yfed yn helaeth o gwpan blinder. Er nad oedd efe yn un o'r rhai a elwir yn fawrion, etto golygir bod ei gyssylltiad boreuol â'r hen le cyssegredig a nodwyd yn hawlio iddo ychydig [illegible] yn mysg "Enwogion y Ffydd."†

GRUFFYDD PARRI oedd wr da arall na wyddys ond ychydig iawn am dano, heb law mai brodor ydoedd o Rydolion, ymhlwyf Llangian, Lleyn, sir Gaernarfon. Ei briod ydoedd ferch Ioan Wynn, o'r Wern Fawr, yn Lleyn; ac felly, meddir, y daeth yr enw Parri i deulu Madryn. Sicrheir fod Gruffydd Parri yn swyddog ym myddin Oliver Cromwel o 1642 hyd 1651. Y mae'n bur debyg ei fod yn arfer pregethu yn achlysurol, fel y rhan fwyaf o swyddogion Cromwel, canys yr oedd areithfa yn sefyll gynt yn Rhydolion a elwid "Pulpud Gruffydd Parri." Od oedd efe yn 50 oed pan ymladdwyd "brwydr Rhosdir Marston," ganwyd ef yn 1594.‡

WILLIAM THOMAS oedd y gweinidog cyntaf yn eglwys Llangwm, Mynwy, a'r hwn a gydlafuriodd â Wroth yn Llanfaches,§ ac a fu farw ym mis Gorphenaf, 1671.‖ Ni chafodd efe ei osod mewn llan gan yr awdurdodau, ac o blegid hyny nid yw ei enw ym mysg y gweinidogion a fwriwyd allan¶ a groniclwyd gan Palmer ac eraill. Pan weinidogaethai Wroth yn Llanfaches, yr oedd William Thomas naill ai yn cydlafurio âg ef yn y weinidogaeth, neu yn ei gynnorthwyo yn ei lafur gweinidogaethol. Gan mai eglwys Annibynol, yn arfer cymmundeb cymmysg, oedd un Llanfaches, a rhai Bedyddwyr yn cydaddoli â'r Annibynwyr yn y lle, nid oedd derbyn cymmorth Bedyddiwr yn y weinidogaeth yn ymddangos yn hynod o dan y fath amgylchiadau, nac yn wahanol i'r drefn a fabwysiedid gan eglwysi eraill yn yr un cyfnod. Derbynid cyfrifoldeb gweinidogaethol rhai o eglwysi yr Annibynwyr yn achlysurol gan weinidogion perthynol i'r Bedyddwyr, a byddai gweinidogion Annibynol yn llafurio ar brydiau

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i. p. 1141.

† "Howel Fychan, neu Vaughan," y gelwir gan Joshua Thomas.—Han. y Bedyddwyr, 1778, t. 67.—Gol.

‡ Gorwedd Olchon ar gyrau sir Henffordd, sir Fynwy, a sir Frycheiniog (Han. Bed. J. T., t. 23). Enw arall ar y Bedyddwyr yn Olchon yw Capel y Ffin.—Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru, gan David Jones. Caerfyrddin, 1839, t. 773.—Gol.

§ Gwel John Myles, pen. xvi. o'r llyfr hwn.

‖ Y mae yma ychydig o gamgymeriad. Hywel Fychan yw y cyntaf ar y rhestr gan J. T. (Han. Bed., t. 83). Yn rhestr D. Jones y mae efe yn ail, a John Penry yn gyntaf (Han. Bed. D. J., t. 773). Hanesydd manwl a gofalus dros ben oedd Jos. Thomas.—Gol.

¶ Bu Howel Fychan farw, yn ol D. Jones, yn 1653; ac od oedd efe yn 70 oed y pryd hyny, ganed ef yn 1583 (Han. Bed. D. J., t. 773). Bu farw, yn ol y cyfrif yma, ymhen tua phedair blynedd ar ol torfyngiad yr erlidiwr anwadal Charles I.: am hyny, y mae lle i gasglu iddo gael tywydd teg yn ystod y cyfnod byr hwnw o'i oes ddiweddaf.—Gol.

* Han. Bed. J. T., t. 70, 71.

† Gwel John Penry, llyfr ii., pen. vi., t. 73.

‡ Lleyn MSS.; En. Cymru, F. t. 807.

§ Gwel W. Wroth, llyfr iii., pen. ix., t. 161.—Gol.

‖ Od oedd yn 70 oed y pryd hyny, ganwyd ef yn 1601.—Gol.

¶ Ejected Ministers.

Digitized by Google

mewn eglwysi Bedyddiedig, fel y bu yn eglwys John Bunyan yn Bedford. Dealler mai hyspysu yr ydym *sut* y gwnelent, yn hytrach na dywedyd pa fodd y *dylasent* wneuthur. Wedi cydaddoli yn Llanfaches am ryw gymmaint o amser (o'r dechreuad yn 1639, fe allai), cymmerodd ymadawiad le, neu ffurfiwyd cangen o eglwys Llanfaches yn Llantrisant neu Llangwm, yn yr un sir, yr hon a wneid i fynu yn benaf, os nad yn hollol, o Fedyddwyr, o dan ofal William Thomas. Gan mai Bedyddiwr oedd Mr. Thomas, ac mai Bedyddwyr oedd pawb agos o'r aelodau, os nad pawb o honynt, yr oedd honno yn eglwys berthynol i'r Bedyddwyr, ac felly y parhaodd. Nid ydym sicr pa bryd, nac o dan ba amgylchiadau, y cymmerth yr ymadawiad le; ond dywed Jos. Thomas ei fod yn barnu mai yn 1645 yr ymadawsant.* Ffaith adnabyddus yw y bydd gwahanol enwadau yn uno â'u gilydd weithiau i gynnal gwasanaeth crefyddol mewn un lle, pan yn rhy wan i gael achos i bob enwad ar ei ben ei hun, ac yna yn ymadael â'u gilydd mewn tangnefedd wedi ennill digon o nerth i sefydlu eglwysi bychain o dan faneri eu gwahanol gyfundebau. Yr hyn sy'n debyg iawn ydyw, nad oedd y Bedyddwyr yn Llanfaches yn ystyried eu hunain yn ddigon cryfion i gael eglwys iddynt eu hunain yn 1639, ac iddynt uno â'r Annibynwyr, yn yr eglwys a ffurfiwyd yno gan Henry Jessey, ac ymadael yn heddychlawn tu a'r flwyddyn 1645, gan ymsefydlu yn Llangwm, a dewis William Thomas i'w bugeilio yn yr Arglwydd. Dywed Henry Maurice (Morus), yn ei lythyr at Edward Terril yn 1675,† i gangen o eglwys Llanfaches ymadael gan ymsefydlu yn Llantrisant, neu Llangwm, dan weinidogaeth William Thomas. Y mae Mr. Maurice yn ein dysgu hefyd eu bod bron, os nad oll, yn Fedyddwyr, ond yn arfer cymmundeb cymmysg. Gan iddynt dreulio blynyddau mewn eglwys gymmysg, nid yw eu cefnogaeth i gymmundeb agored yn anesponiadwy. Tu a'r flwyddyn 1645, yr oedd amryw o bregethwyr Cymru ar ffo yn Llundain, o herwydd y rhyfel gartrefol;‡ ac y mae cyhoeddwr a golygydd manwl a llafurus *Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas, yr hwn sy'n cael ei ail gyhoeddi yn awr (1877), yn sylwi bod William Thomas, Llantrisant, ymhlith y ffoedigion. "Dengys y MSS.,"* eb efe, "bod W. Thomas yn un o'r rhai a ffoisant o Gymru i Gaerodor yn 1642, ac oddi yno i Lundain yn 1643, pan ynnillwyd Caerodor gan fyddin Charles I. Ond dychwelodd W. T. at ei eglwys yn 1646, fel y gwnaeth eraill. Y mae ei enwogrwydd, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd yn Lloegr, yn dangos ei fod yn ddŷn tra chyfrifol."†

Yn amser y rhyfel gartrefol, cyn y ffoedigaeth, ac wedi dychweliad y ffoedigion o Lundain, ennillodd crefydd lawer o dir yn y Dywysogaeth. Bendithiwyd llafur Mr. Thomas ac eraill i raddau anarferol, fel y dengys rhan o bregeth Vavasor Powel yn Llundain, yn 1648:—"Y mae'r gwaith mwyaf gogoneddus a welais i erioed yn myned ym mlaen yng Nghymru. Y mae'r efengyl yn rhedeg dros y mynyddoedd, rhwng Brycheiniog a Mynwy, fel tân mewn gwellt. Dywed y rhai doethaf fod yno tu ag wyth cant o bobl dduwiol, y rhai sy'n myned oddi wrth y naill at y llall.‡ Nid oes ganddynt weinidogion, y mae'n wir; ond pe byddai ganddynt rai, hwy a fendithient Dduw am danynt. A raid i ni ddifrïo y cyfryw, a dywedyd mai pregethwyr pen twba ydynt, ac na buant erioed yn y brif-ysgol?"§

Dylid cofio nad y pregethwyr yn unig a ffoisant i Lundain, &c., yn amser y rhyfel; ond ffodd llawer eraill o Gymru, y rhai ni phregethasant erioed.‖ Golyga rhai mai yn Llundain y dechreuodd yr ymwahaniad y cyfeiriwyd ato rhwng crefyddwyr Llanfaches. Ymunodd y Bedyddwyr âg eglwys Fedyddiedig Mr. Kyffin yn Llundain; ac ymaelododd yr Annibynwyr mewn eglwys berthynol i'w cyfundeb eu hunain yn All Hallows. Dengys y *Broadmead Records* y byddai rhai o'r ffoedigion yn ymuno â'r Bedyddwyr yn Llundain, ac eraill yn ymaelodi ymhlith y Bedyddwyr. Os o dan fath o reidrwydd, fel yr awgrymwyd, yr ymunodd y Beddyddwyr â'r Annibynwyr yn

* Han. Bed., t. 163, &c.—Gol.

† Broadmead Records, Housard Knolly's.

‡ Broadmead Records, Bunyan Library, pp. 25, 26.—Dealler nad yr un oedd y W. Thomas, Llantrisant, a W. Thomas, Ilston (Llanilltyd), fel y myn rhai i ni gredu. Ni fu y blaenaf erioed yn perthyn i'r gymmanfa (i'r hon ni dderbynid cefnogwyr cymmundeb agored), fel y dengys Hanes y Bedyddwyr; ond yr oedd yr ail yn un o'r cymmanfawyr.—Y Greal am Ebrill, 1875.

* Y MSS. a anfonwyd o America i Jos. Thomas gan Mr. Backus, sef difyniadau o lyfr eglwys Ilston, yr hwn a gymmerwyd i'r America gan John Myles.—Gwel John Myles, llyfr iv., pen. xvi.

† Han. Bed., ail argr., t. 34.

‡ Dyma'r cynllun Ysgrythyrol, pan y taenwyd yr efengyl mor gyflym ac eang yn oes yr apostolion (Act. viii. 1, 4; xi. 19–21).—Gol.

§ Cradock's Glad Tidings, p. 50.

‖ Yn y *Brief Narrative*, yn ei *Bird in the Cage*, dywed Vavasor Powel fel hyn:—"Gan i'r rhyfel gymmeryd lle yn sydyn, bu raid i'r rhan fwyaf, os nad pawb, o'r ychydig bregethwyr yng Nghymru, ynghyd â'r proffeswyr, ymadael o'u cartrefi a'u gwlad, trwy greulondeb yr erlidwyr, y rhai a gymmerasant feddiant o'u heiddo a'u hanifeiliaid. Gorfodwyd eu gwragedd a'u plant i fyw mewn cyfyngder a pherygl, nes i'r rhyfel ddarfod, a heddwch gael ei sefydlu yn y wlad, trwy yr hyn y rhoddwyd annogaeth i'r rhai alltudiedig ddychwelyd, a'r ychydig lafurwyr a drïed allan o'r winllan i ddyfod yn ol drachefn."

Digitized by Google

Ireton, a John Bradshaw, ar ysledfeni i Tyburn. Dyma fel y dyry papurau newydd yr amser yr hanes:—"Pan oedd y tri ysgerbwd hyn yn Tyburn, tynwyd hwy allan o'u heirch, a chrogwyd hwynt yn amryw onglau y pren triphlyg hwnw, lle y buant yn grogedig hyd fachlud haul; yna torwyd eu penau ymaith, a thaflwyd eu cyrph drewedig i dwll dwfn dan y crogbren. Dodwyd penau y tri theyrnleiddiaid gwarthus hyny, Oliver Cromwel, John Bradshaw, a Henry Ireton, ar bolion ar ben uchaf Neuadd Westminster gan y dienyddwr cyffredin. Dodasant Bradshaw yn y canol, Cromwel a'i fab ynghyfraith Ireton, un ar y ddehau a'r llall ar yr aswy i Bradshaw."*

Er y gwarth ynfyd ac ysgeler yma y ceisiwyd ei daflu gan y dihirod brenhinol hanner Pabaidd ar y tri wŷr hyn, fe fydd eu henwau a'u gweithrediadau yn anwyl byth gan bob gwladgarwr a rhyddgarwr diragfarn, fel tri o wir "Enwogion y Ffydd;" tra yr anrhydeddir enw OLIVER CROMWEL yn oes oesoedd, fel "SYLFAENYDD RHYDDID CREFYDDOL."

---

## PENNOD V.

### HOWEL FYCHAN, AC AMRYW O'I GYDOESWYR.

HOWEL FYCHAN† (Vaughan) ydoedd, yn ol pob tebygolrwydd, y gweinidog cyntaf ar eglwys y Bedyddwyr yn Olchon,‡ yr hon a sefydlwyd tu a'r flwyddyn 1633. Nid oes sicrwydd pa bryd, na pha le y ganwyd ef. Nid oedd Fychan wedi cael manteision athrofaol, y mae'n debyg; ond yr oedd yn ddŷn cyfarwydd â'r Bibl, ac yn ymfuchéddu yn ol ei gyfarwyddiadau.§ Y mae gan Joshua Thomas restr o weinidogion Olchon, a Howel Fychan yw yr ail‖ ar y rhestr, a John Penry yw y blaenaf; ond gan nad oes sicrwydd fod Penry yn Fedyddiwr, rhaid gosod Fychan ar ben y rhestr.¶ Yr ydym yn ei gael ym mysg y rhai a arwyddasant y llythyr yng Nghyfarfod Cyffredinol y Fenni (Abergefenni) yn 1653, yr hyn oedd ugain mlynedd wedi sefydliad eglwys Olchon, os yn 1633 y cymmerodd hyny le.* Gan mai mewn amser trallodus y bu efe byw, y mae yn dra thebyg iddo gael yfed yn helaeth o gwpan blinder. Er nad oedd efe yn un o'r rhai a elwir yn fawrion, etto golygir bod ei gyssylltiad boreuol â'r hen le cyssegredig a nodwyd yn hawlio iddo ychydig frawddegau ym mysg "Enwogion y Ffydd."†

GRUFFYDD PARRI oedd ŵr da arall na wyddys ond ychydig iawn am dano, heb law mai brodor ydoedd o Rydolion, ymhlwyf Llangïan, Lleyn, sir Gaernarfon. Ei briod ydoedd ferch Ioan Wynn, o'r Wern Fawr, yn Lleyn; ac felly, meddir, y daeth yr enw Parri i deulu Madryn. Sicrheir bod Gruffydd Parri yn swyddog ym myddin Oliver Cromwel o 1642 hyd 1651. Y mae'n bur debyg ei fod yn arfer pregethu yn achlysurol, fel y rhan fwyaf o swyddogion Cromwel, canys yr oedd areithfa yn sefyll gynt yn Rhydolion a elwid "Pulpud Gruffydd Parri." Od oedd efe yn 50 oed pan ymladdwyd "brwydr Rhosdir Marston," ganwyd ef yn 1594.‡

WILLIAM THOMAS oedd y gweinidog cyntaf yn eglwys Llangwm, Mynwy, a'r hwn a gydlafuriodd â Wroth yn Llanfaches,§ ac a fu farw ym mis Gorphenaf, 1671.‖ Ni chafodd efe ei osod mewn llan gan yr awdurdodau, ac o blegid hyny nid yw ei enw ym mysg y gweinidogion a fwriwyd allan¶ a groniclwyd gan Palmer ac eraill. Pan weinidogaethai Wroth yn Llanfaches, yr oedd William Thomas naill ai yn cydlafurio âg ef yn y weinidogaeth, neu yn ei gynnorthwyo yn ei lafur gweinidogaethol. Gan mai eglwys Annibynol, yn arfer cymmundeb cymmysg, oedd un Llanfaches, a rhai Bedyddwyr yn cydaddoli â'r Annibynwyr yn y lle, nid oedd derbyn cymmorth Bedyddiwr yn y weinidogaeth yn ymddangos yn hynod o dan y fath amgylchiadau, nac yn wahanol i'r drefn a fabwysiedid gan eglwysi eraill yn yr un cyfnod. Derbynid cyfrifoldeb gweinidogaethol rhai o eglwysi yr Annibynwyr yn achlysurol gan weinidogion perthynol i'r Bedyddwyr, a byddai gweinidogion Annibynol yn llafurio ar brydiau

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 1141.

† "Howel Ychan, neu Vaughan," ydyw gan Joshua Thomas.—Han. y Bedyddwyr, 1778, t. 67.—GOL.

‡ Olchon sydd ar gyrau sir Henffordd, sir Fynwy, a sir Frycheiniog (Han. Bed. J. T., t. 23). Enw addoldy y Bedyddwyr yn Olchon yw Capel y Ffin.—Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru, gan David Jones. Caerfyrddin, 1839, t. 773.—GOL.

§ Gwel John Myles, pen. xvi. o'r llyfr hwn.

‖ Y mae yma ychydig o gamsyniad. Hywel Fychan yw y cyntaf ar y rhestr gan J. T. (Han. Bed., t. 83). Yn rhestr D. Jones y mae efe yn ail, a John Penry yn gyntaf (Han. Bed. D. J., t. 773). Hanesydd manwl a gofalus dros ben oedd Jos. Thomas.—GOL.

¶ Bu Howel Fychan farw, yn ol D. Jones, yn 1653; ac od oedd efe yn 70 oed y pryd hyny, ganed ef yn 1583 (Han. Bed. D. J., t. 773). Bu farw, yn ol y cyfrif yma, ymhen tu a phedair blynedd ar ol torfynyglu yr erlidiwr anwadal Charles I.; am hyny, y mae lle i gasglu iddo gael tywydd teg yn ystod y cyfnod byr hwnw o'i oes ddefnyddiol.—GOL.

* Han. Bed. J. T., t. 70, 71.

† Gwel John Penry, llyfr ii., pen. vi., t. 73.

‡ Lleyn MSS.; En. Cymru, F. t. 807.

§ Gwel W. Wroth, llyfr iii., pen. ix., t. 161.—GOL.

‖ Od oedd yn 70 oed y pryd hyny, ganwyd ef yn 1601.—GOL.

¶ Ejected Ministers.

Digitized by Google

mewn eglwysi Bedyddiedig, fel y bu yn eglwys John Bunyan yn Bedford. Dealler mai hyspysu yr ydym *sut* y gwnelent, yn hytrach na dywedyd pa fodd y *dylasent* wneuthur. Wedi cydaddoli yn Llanfaches am ryw gymmaint o amser (o'r dechreuad yn 1639, fe allai), cymmerodd ymadawiad le, neu ffurfiwyd cangen o eglwys Llanfaches yn Llantrisant neu Llangwm, yn yr un sir, yr hon a wneid i fynu yn benaf, os nad yn hollol, o Fedyddwyr, o dan ofal William Thomas. Gan mai Bedyddiwr oedd Mr. Thomas, ac mai Bedyddwyr oedd pawb agos o'r aelodau, os nad pawb o honynt, yr oedd honno yn eglwys berthynol i'r Bedyddwyr, ac felly y parhaodd. Nid ydym sicr pa bryd, nac o dan ba amgylchiadau, y cymmerth yr ymadawiad le; ond dywed Jos. Thomas ei fod yn barnu mai yn 1645 yr ymadawsant.* Ffaith adnabyddus yw y bydd gwahanol enwadau yn uno â'u gilydd weithiau i gynnal gwasanaeth crefyddol mewn un lle, pan yn rhy wan i gael achos i bob enwad ar ei ben ei hun, ac yna yn ymadael â'u gilydd mewn tangnefedd wedi ennill digon o nerth i sefydlu eglwysi bychain o dan faneri eu gwahanol gyfundebau. Yr hyn sy'n debyg iawn ydyw, nad oedd y Bedyddwyr yn Llanfaches yn ystyried eu hunain yn ddigon cryfion i gael eglwys iddynt eu hunain yn 1639, ac iddynt uno â'r Annibynwyr, yn yr eglwys a ffurfiwyd yno gan Henry Jessey, ac ymadael yn heddychlawn tu a'r flwyddyn 1645, gan ymsefydlu yn Llangwm, a dewis William Thomas i'w bugeilio yn yr Arglwydd. Dywed Henry Maurice (Morus), yn ei lythyr at Edward Terril yn 1675,† i gangen o eglwys Llanfaches ymadael gan ymsefydlu yn Llantrisant, neu Llangwm, dan weinidogaeth William Thomas. Y mae Mr. Maurice yn ein dysgu hefyd eu bod bron, os nad oll, yn Fedyddwyr, ond yn arfer cymmundeb cymmysg. Gan iddynt dreulio blynyddau mewn eglwys gymmysg, nid yw eu cefnogaeth i gymmundeb agored yn anesponiadwy. Tu a'r flwyddyn 1645, yr oedd amryw o bregethwyr Cymru ar ffo yn Llundain, o herwydd y rhyfel gartrefol;‡ ac y mae cyhoeddwr a golygydd manwl a llafurus *Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas, yr hwn sy'n cael ei ail gyhoeddi yn awr (1877), yn sylwi bod William Thomas, Llantrisant, ymhlith y ffoedigion. "Dengys y MSS.,"* eb efe, "bod W. Thomas yn un o'r rhai a ffoisant o Gymru i Gaerodor yn 1642, ac oddi yno i Lundain yn 1643, pan ynnillwyd Caerodor gan fyddin Charles I. Ond dychwelodd W. T. at ei eglwys yn 1646, fel y gwnaeth eraill. Y mae ei enwogrwydd, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd yn Lloegr, yn dangos ei fod yn ddŷn tra chyfrifol."†

Yn amser y rhyfel gartrefol, cyn y ffoedigaeth, ac wedi dychweliad y ffoedigion o Lundain, ennillodd crefydd lawer o dir yn y Dywysogaeth. Bendithiwyd llafur Mr. Thomas ac eraill i raddau anarferol, fel y dengys rhan o bregeth Vavasor Powel yn Llundain, yn 1648:—"Y mae'r gwaith mwyaf gogoneddus a welais i erioed yn myned ym mlaen yng Nghymru. Y mae'r efengyl yn rhedeg dros y mynyddoedd, rhwng Brycheiniog a Mynwy, fel tân mewn gwellt. Dywed y rhai doethaf fod yno tu ag wyth cant o bobl dduwiol, y rhai sy'n myned oddi wrth y naill at y llall.‡ Nid oes ganddynt weinidogion, y mae'n wir; ond pe byddai ganddynt rai, hwy a fendithient Dduw am danynt. A raid i ni ddifrïo y cyfryw, a dywedyd mai pregethwyr pen twba ydynt, ac na buant erioed yn y brif-ysgol?"§

Dylid cofio nad y pregethwyr yn unig a ffoisant i Lundain, &c., yn amser y rhyfel; ond ffodd llawer eraill o Gymru, y rhai ni phregethasant erioed.‖ Golyga rhai mai yn Llundain y dechreuodd yr ymwahaniad y cyfeiriwyd ato rhwng crefyddwyr Llanfaches. Ymunodd y Bedyddwyr âg eglwys Fedyddiedig Mr. Kyffin yn Llundain; ac ymaelododd yr Annibynwyr mewn eglwys berthynol i'w cyfundeb eu hunain yn All Hallows. Dengys y *Broadmead Records* y byddai rhai o'r ffoedigion yn ymuno â'r Bedyddwyr yn Llundain, ac eraill yn ymaelodi ymhlith y Bedyddwyr. Os o dan fath o reidrwydd, fel yr awgrymwyd, yr ymunodd y Beddyddwyr â'r Annibynwyr yn

* Han. Bed., t. 163, &c.—Gol.

† Broadmead Records, Housard Knolly's.

‡ Broadmead Records, Bunyan Library, pp. 25, 26.—Dealler nad yr un oedd y W. Thomas, Llantrisant, a W. Thomas, Ilston (Llanilltyd), fel y myn rhai i ni gredu. Ni fu y blaenaf erioed yn perthyn i'r gymmanfa (i'r hon ni dderbynid cefnogwyr cymmundeb agored), fel y dengys Hanes y Bedyddwyr; ond yr oedd yr ail yn un o'r cymmanfawyr.—Y Greal am Ebrill, 1875.

* Y MSS. a anfonwyd o America i Jos. Thomas gan Mr. Backus, sef difyniadau o lyfr eglwys Ilston, yr hwn a gymmerwyd i'r America gan John Myles.—Gwel John Myles, llyfr iv., pen. xvi.

† Han. Bed., ail argr., t. 34.

‡ Dyma'r cynllun Ysgrythyrol, pan y taenwyd yr efengyl mor gyflym ac ehang yn oes yr apostolion (Act. viii. 1, 4; xi. 19–21).—Gol.

§ Cradock's Glad Tidings, p. 50.

‖ Yn y *Brief Narrative*, yn ei *Bird in the Cage*, dywed Vavasor Powel fel hyn:—"Gan i'r rhyfel gymmeryd lle yn sydyn, bu raid i'r rhan fwyaf, os nad pawb, o'r ychydig bregethwyr yng Nghymru, ynghyd â'r proffeswyr, ymadael o'u cartrefi a'u gwlad, trwy greulondeb yr erlidwyr, y rhai a gymmerasant feddiant o'u heiddo a'u hanifeiliaid. Gorfodwyd eu gwragedd a'u plant i fyw mewn cyfyngder a pherygl, nes i'r rhyfel ddarfod, a heddwch gael ei sefydlu yn y wlad, trwy yr hyn y rhoddwyd annogaeth i'r rhai alltudiedig ddychwelyd, a'r ychydig lafurwyr a dröed allan o'r winllan i ddyfod yn ol drachefn."

Digitized by Google

Llanfaches, nid yw afresymol i ni feddwl ddarfod iddynt ymuno â'r Bedyddwyr yn Llundain, a theimlo i ryw fesur yn fwy cartrefol, hwyrach, ym mysg brodyr o'r un syniadau crefyddol, nag y teimlasent ymhlith cyfeillion a wahaniaethent mewn barn. Y mae'n bossibl mai yno y cychwynwyd y meddylddrych o ymffurfio yn eglwys Fedyddiedig wedi dychwel i Fynwy, fel y mae rhai yn golygu. Os ymunodd W. Thomas âg eglwys Mr. Kyffin yn Llundain, yr hwn oedd yn gaeth gymmunwr zelog, nid yw hyny yn un rheswm dros gredu mai ar egwyddor y cymmundeb caeth y sefydlodd ei frodyr ac yntau eglwys Llantrisant. Nid yw yn ymddangos i'r Bedyddwyr ymwahanu oddi wrth gymmundeb cymmysg pan yn gadael Llanfaches; ond ffarwelio a wnaethant âg eglwys a berthynai i'r Annibynwyr, yn yr hon y cawsent hwy nodded am yspaid o amser, ac ymffurfio yn eglwys Fedyddiedig ar egwyddor y cymmundeb agored. Gan nad yw cymmundeb cymmysg, fel y cyfryw, yn peri bod eglwys yn Fedyddiedig, nac yn Annibynol, ac mai Bedyddwyr yn eglwys yr Annibynwyr oeddynt yn Llanfaches, ymawyddent am godi baner eu cyfundeb eu hunain, yr hyn hefyd a wnaethant. Nid yw manylion hanes Mr. Thomas a'i frodyr Bedyddiedig yn Llangwm yn adnabyddus; ond yr ydym yn gwybod bod y gweinidog yn ymdrechgar a pharchus, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd yn Lloegr. Yn ol y *Broadmead Records*, cafodd Mr. Thomas ei wahodd i Gaerodor i fedyddio deg o feibion a phedair o ferched. Sylwedd yr amgylchiad uchod sydd fel y canlyn:—

"Yn y gauaf diweddaf, argyhoeddwyd amryw yng Nghaerodor mai eu dyledswydd oedd cymmeryd eu bedyddio yn ol yr Ysgrythyr; ond trwy un esgus a'r llall gohiriwyd yr amser, nes i'r dydd estyn a'r tywydd gynhesu. Ymhen amser pennodwyd y dydd i fedyddio, ac ar yr un pryd i urddo dau Henuriad Llywodraethol, swydd gyffredin iawn yr amser hwnw, ac am dymmor maith wedi hyny.* Nid oedd Mr. Ewins, y gweinidog, yn hollol iach; a rhag i hyny fod yn rhwystr, cyttunwyd i wahodd Mr. William Thomas, gweinidog Llantrisant, i ddyfod i gynnorthwyo ar y dydd appwyntiedig, yr hwn oedd i fod y 6ed dydd o'r mis cyntaf (Mawrth), 1666. Felly darparwyd pob peth. Daeth y dydd sobr a disgwyliedig; a'u dymuniad oedd, ar iddi fod yn dywydd teg. Ond wele! yr oedd yn oer anghyffredin: ni buasai y fath ddiwrnod trwy yr holl auaf blaenorol: y gwynt yn gryf ac yn bur oer, a'r rhew a'r eira yn llym, er nad oedd yr olaf yn ddwfn iawn. Ond yr oedd y gwynt a'r rhew mor enbyd, fel y rhewodd cadach am wddf un o'r benywod oedd i gael ei bedyddio, ar ei ffordd i'r lle trwy weirglodd. Digwyddodd fod ynddo ryw wlybaniaeth. Yr oedd y wraig mor wael fel y dywedodd y forwyn wrthi, yr hon a wyddai ei sefyllfa, os elai i mewn i'r dwfr, na ddelai allan yn fyw. Yr oedd Mr. Thomas Jennings, un o'r deg dŷn, yn y fath boen gan y ddannodd fel yr oedd chwydd mawr yn ei wyneb, yr hwn oedd wedi ei orchuddio. Ni buasai allan o'r tŷ er ys agos i wythnos; ac yr oedd ei ben yn fawr iawn y diwrnod hwnw. Yr oedd un arall o'r dynion wedi ysigo ei lin tu ag wythnos cyn hyny, a chan nad oedd alluog i gerdded, efe a farchogodd i'r lle. Ac yr oedd un arall yn wanaidd, gwael, ac yn y darfodedigaeth; o herwydd paham, ymdrechodd ei berthynasau ei rwystro i ufuddhau ar y fath dywydd. Parodd yr ystyriaethau hyn i rai ofni y canlyniadau ar y fath dywydd caled; ond ystyrient hefyd fod y gweinyddwr wedi dyfod o bellder yn ol ei ymrwymiad. Felly yr oedd yn lled gyfyng arnynt. Ond yr ymofynwyr am fedydd a ymddiriedasant yn yr Arglwydd, ac ni fynnent ohirio ymhellach. A'r Arglwydd a amlygodd ei allu mawr, . . . er mwyn rhoi esampl i eraill yn y dyfodol a fyddent yn ofni gerwindeb yr hin wrth ufuddhau i ewyllys Duw. Hwy a fedyddiwyd yn yr afon heb ddim niwaid i'r un o honynt, ond yn lles iddynt; ac y maent oll yn fyw heddyw, ymhen deng mlynedd wedi yr amgylchiad, i ddywedyd am ddaioni yr Arglwydd. Yr oedd rhai a ddymunent fod yn wyddfodol, ond yn ofni myned allan ar y fath dywydd, yr hwn a barhaodd am dri diwrnod yn olynol. Y gelynion, pan glywsant am yr hyn a wnaed, a ystyrient y bobl yn ynfydion am anturio y fath beth, ar dywydd mor enbyd. Cymmerwyd hyn allan o'r *Broadmead Records*, ond nid yn hollol lythyrenol, er bod y meddwl wedi ei gymmeryd yn dra gofalus."*

Ar y 18fed dydd o'r pummed mis, yn 1667, darfu i Mr. Thomas, yn ol y *Records*, fedyddio pedwar eraill yng Nghaerodor. "Dengys yr amgylchiadau hyn," eb Jos. Thomas, "mor barchus oedd W. Thomas yng Nghaerodor, ac mor gyfeillgar yr oedd yn egluro *Broadmead* o'r dechreuad." Y maent yn dangos hefyd nad oedd anghyfarwydd â'r Saesneg, ond yn ol pob tebygolrwydd yn rhwydd ynddi.† Er nad yw ein hadnabyddiaeth o'i hanes ond rhanol iawn, etto

* Yr oedd, ac y mae, "ordeinio," neu osod *amryw* henuriaid neu esgobion "ymhob eglwys," yn Ysgrythyrol (Act. xiv. 23; xx. 17, 28; Phil. i. 1; 1 Tim. v. 17; Tit. i. 5). Y mae'r geiriau, "ac am dymmor maith wedi hyny," yn awgrymu nad oedd y Bedyddwyr yn amser yr ysgrifenydd yn arfer gosod "henuriaid llywodraethol" neu fugeiliol "ymhob eglwys." Os felly, yr oedd y Bedyddwyr, fel enwadau crefyddol eraill, wedi dirywio, a myned yn fwy anysgrythyrol nag y buant, erbyn amser ysgrifenydd y *Broadmead Records*.—Gol.

* Han. Bed. J. T., t. 241–2.

† "Yn awr, ymddengys i ni nad Mr. W. Thomas, Llantrisant, oedd yr ysgolfeistr yng Nghaerodor: nid efe chwaith oedd W. Thomas, Ilston. Nid wyf yn barnu bod y William Thomas hwn mewn golwg o gwbl gan y Dr. Calamy, gan nad oedd efe yn un o'r gweinidogion a dröed allan o'r Eglwys Wladol, am na sefydlasid ef yn weinidog mewn un eglwys blwyfol. Ac nid efe oedd mewn golwg yn yr *Ilston Records* a gymmerwyd i'r America, mewn unrhyw fan lle y mae'r enw, nac ychwaith ynghofnodion y Fenni. Ond ato ef yn ddiau y cyfeiria y *Broadmead Records*, fel y nodwyd. A ganlyn sydd brawf pellach o hyny:—Y mae Llantrisant yn sir Fynwy, a Llangwm yn ddau blwyf cyfagos. Brodor o'r diweddaf, y mae'n debyg, oedd Mr. Cradoc. Preswyliai aelodau yr eglwys Fedyddiedig yn y ddau blwyf am hir amser. Yr oedd yr eglwys yn myned wrth enw y naill blwyf weithiau a'r llall bryd arall. Yr oedd y ddiweddar Mrs. Watkins, o'r Pwll, ymhlwyf Llangwm, o deulu Cradoc. Yr oedd ganddi un neu ddau o lyfrau cofnodion (*memorandums*) a berthynent i'r teulu. Yno y cafodd y geiriau canlynol:—'William Thomas, a preacher of the true word of God, departed this life the 26th of July, 1671, and was buried the 28th at Llantrisant.' Nid oes amheuaeth am gywirdeb hyn. Y mae hen ysgrif arall yn nodi fel hyn:—'Mr. Walter Prosser was eminent in the ministry, and preached often at Llantrisant, Tregynog, and Llangwm. He preached to Mr. William Thomas's people.'"—Han. Bed., ail argr., t. 243.

y mae yn amlwg oddi wrth yr hyn a wyddom am dano nad dŷn diymdrech ac amddifaid o fedrusrwydd oedd efe, ond ei fod yn Gristion llafurus, ac yn un o sylfaenwyr daioni crefyddol yng Nghymru yn yr oesoedd diweddaf.

JENKIN LLOYD (Siencyn Llwyd), M.A., ydoedd fab hynaf ac etifedd Dafydd Llwyd, Ysw., o Fairdref Fawr, ymhlwyf Llandyssul, sir Aberteifi. Cafodd ei ddwyn i fynu yn Eglwyswr; ac y mae y radd o M.A. yn arwyddo iddo gael ei addysg yn un o'r ddwy brif-athrofa, Rhydychain neu Gaergrawnt, er nad oes neb o'i fyr-gofianwyr yn mynegi hyny, hyd y gwelsom ni. Bu yn offeiriad (yn Ficar, medd un) yn ei blwyf genedigol, ac yn amser y Weriniaeth bu yn bregethwr teithiol. Yr oedd yn un o'r Profyddion yn y Ddeddf er Lledaenu yr Efengyl yng Nghymru,* a sefydlwyd gan y Weriniaeth ar yr 22fed o Chwefror, 1649; a dywed Meyrick (Meurig) ei fod yn gapelwr i Oliver Cromwel.† Ei wraig oedd Elin, merch Dafydd Llwyd o'r Geuros. Cyhoeddodd lyfryn bychan yn Saesneg yn 1658, a'i enw "Ymadroddion Ymadawol Crist: neu, Sylwadau Cyssegredig ar Eiriau Olaf ein Iachawdwr a draddodwyd ar y Groes,"‡ ac y mae tlysni a naturioldeb ei arddull, yr egluriadau rhagorol sydd yn lliosog ynddo, a'r dôn efengylaidd, enneiniedig sy'n treiddio drwyddo, yn profi y rhaid bod yr awdur yn un o bregethwyr mwyaf effeithiol yr efengyl. Nid yw amser ei farwolaeth yn gwbl hyspys, ond tybir i hyny ddigwydd o gylch 1660; ac od oedd efe yn 70 oed yn marw, rhaid y ganwyd ef o gylch 1590.§

RICHARD POWEL, Ficar Llanigon, sir Frycheiniog, oedd un arall o'r Profyddion yn y Ddeddf er Lledaenu yr Efengyl yng Nghymru. Ni fynegir pa bryd y ganwyd ef, pwy oedd ei hynafiaid, nac ymha un o'r prif-ysgolion y cafodd ei addysg golegol. Ymddengys y bu yn glerigwr Esgobyddol dros rai blynyddoedd cyn y rhyfeloedd cartrefol. Ymosodir ar y gŵr da yma yn dra ffyrnig gan Walker, ar awdurdod un Alexander Gruffydd. Cyhuddir ef o ddatgan yn ei bregethau mai gweddi bwdr yw Gweddi yr Arglwydd, ac nad Duw oedd creawdwr y byd; o dderbyn can punt o gyflog gan y Dirprwywyr, heb law cynnyrch bywioliaeth Llanigon, a thri o blwyfydd cyfagos eraill; a gwaeth fyth, ei fod wedi arwain ei blwyfolion ac eraill yn erbyn byddinoedd brenhinol Syr William Waller! Cymmer y darllenydd y cyhuddiadau hyn yn ol eu gwerth wedi ystyried cymmeriad yr hwn a'u dyfeisiodd. Yn y flwyddyn 1653, dodwyd R. Powel ym mywioliaeth Glasbury, yn sir Frycheiniog, o'r hon yr oedd ei gablwr, A. Gruffydd, wedi ei fwrw allan yn 1650, am ei anfoesoldeb. Y mae Thomas Watkins, Ysw., ynad heddwch dros sir Frycheiniog, yn canmol R. Powel fel "pregethwr gonest a ffyddlawn yr efengyl." Bu farw yn ei breswylfod, Pen y Wern Eithin, yn sir Faesyfed, yn y flwyddyn 1658.*

EVAN BOWEN, wedi bod dros ryw nifer o flynyddoedd yn bregethwr teithiol, a appwyntiwyd ar y 12fed o Fawrth, 1653, yn weinidog sefydlog ymhlwyf Llanafan Fawr, yn sir Frycheiniog. Dywed Walker ei fod yn 55 oed y pryd hwnw; ac felly ganwyd ef yn y flwyddyn 1598. Dywed yr un gŵr mai saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac nad oedd yn deall yr iaith Saesneg.† Y mae'n bur amlwg mai amcan Walker yn dwyn y cyhuddiadau hyn yn erbyn Bowen oedd, ceisio dangos nad oedd Bowen gymmwys i bregethu ac i lywodraethu eglwys. Ond, os cymmerir yn ganiataol bod y tri chyhuddiad yn gywir, nid ydynt yn profi mewn un modd fod Bowen yn anghymmwys i fod yn henuriad neu esgob mewn eglwys Gristionogol, ond yn hollol yn y gwrthwyneb.

Gyd â golwg ar oedran, dengys y Testament Newydd mor amlwg a'r dydd y "rhaid i esgob" neu henuriad fod, pan y'i galwer i'r gwaith, "nid yn newyddian yn y ffydd," ond yn ŵr un wraig, yn meddu tŷ, a phlant wedi tyfu i fynu, fel y caffo yr eglwys brawf oddi wrth ei waith "yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod ynghyd â phob onestrwydd," ei fod yn gymmwys i gymmeryd "gofal dros eglwys Dduw."‡ Od oedd Bowen, gan hyny,

* Yr oedd y Dirprwywyr a nodwyd yn y ddeddf hon yn 71 o foneddigion, a nodwyd 25 o bregethwyr dysgedig, hyspys yn y Dywysogaeth, fel Profyddion pregethwyr cyhoeddus trwy yr holl wlad, sef y gwŷr enwog canlynol:—Henry Walter, Walter Cradoc, Richard Symonds, Roger Charnoc, Jenkin Lloyd, Morus Bidwel, Dafydd Walter, William Seaborn, Edmund Elis, Jenkin Jones, George Robinson, Richard Powel, Robert Powel, Thomas Ewen, John Myles, Oliver Thomas, y Dr. John Elis, Ambrose Mostyn, Stephen Lewis, Morgan Llwyd, William Jones, Richard Edwards, Vavasor Powel, Richard Swain, a Rowland Nevet.—Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 381; Hanes Crefydd, D. P., t. 224; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 84. Y mae copi cyflawn o'r ddeddf hon, yn cynnwys rhestr gyflawn o enwau y Dirprwywyr a'r Profyddion, yn Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 501–505.

† Meyrick's Hist. of Cardiganshire, p. 158.

‡ "Christ's Valedictions; or, Sacred Observations on the Last Words of our Saviour, delivered on the Cross."

§ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 135; En. Cymru, F., t. 685; Enwogion Sir Aberteifi, Glan Menai, t. 105.

* Walker's Suffer. of the Clergy, part i., p. 159; The Lambeth MSS., vol. 1027; Examen et Purg. Vavasoris, vol. i., p. 737; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 134.

† Walker's Sufferings of the Clergy, part i., p. 161; part ii., p. 49.

‡ 1 Tim. iii. 2-7.

Digitized by Google

yn 55 oed pan y dodwyd ef yn henadur neu esgob yn Llanafan Fawr, yr oedd mewn mantais i feddu yr holl gymmwysderau gofynol i fod yn henuriad neu esgob.

Y mae galwedigaeth fydol hefyd yn anhebgorol angenrheidiol, yn ol y Testament Newydd, i henuriad neu esgob eglwys, fel y gallo gynnal ei hun a'i deulu, heb bwyso ar yr eglwys; canys dengys Paul yn berffaith eglur bod yn anghyfreithlawn i henuriaid neu esgobion eglwys gymmeryd nac arian, nac aur, na gwisg, nac unrhyw dâl bydol arall am wasanaethu swydd esgob neu henuriad mewn eglwys. Yn wir, yr oedd Paul ei hun, er ei fod yn apostol, neu genad teithiol, ac "awdurdod" ganddo, *fel y cyfryw*, i "bwyso ar yr eglwysi, ac i fod heb weithio;"* etto, er mwyn dangos i henuriaid neu esgobion sefydlog eglwysi nad oes ganddynt hwy, *fel y cyfryw*, y fath awdurdod, yr oedd efe, cyn gynted ag yr arhosai dros ryw ennyd, pa mor ychydig bynag a fyddai ei arhosiad, yn "gweithio â'i ddwylaw" yn y fan, er mwyn rhoi esampl i henuriaid yr eglwys y trigai ynddi i ddangos y dylent hwythau wneuthur yr un modd.† Y mae'n ddilys ddiammau mai un achos o gynnydd mawr a chyflym yr hen Fethodistiaid Calfinaidd yng Nghymru oedd bod henuriaid neu esgobion pob eglwys, a alwent hwy yn "flaenoriaid," yn dilyn y rheol ddwyfol, trwy fod yn grefftwyr, tyddynwyr, masnachwyr, a'r cyffelyb, er cynnal eu hunain a'u teuluoedd; ac yn lle pwyso ar yr eglwysi, yr oedd eu hesgobion hwy yn cyfranu yn helaeth, yn ol eu sefyllfaoedd, at achosion crefydd yn eu plith, megis y tlodion, y cenhadon (y "pregethwyr teithiol"), a phethau eraill. Ymhellach fyth, yr oedd eu *cenhadon* hwy, pan gartref, yn dilyn galwedigaethau bydol, yn ol esampl yr apostol Paul; a gwnaeth y crefftwyr, y tyddynwyr, a'r masnachwyr pregethwrol hyny, ynghyd â henuriaid neu esgobion eu heglwysi, *fwy* er taenu yr efengyl a gwybodaeth Fiblaidd yng Nghymru nag a wnaeth colegwyr yr holl enwadau crefyddol ynghyd, yn ystod yr un amser, fel y gwel pawb a ddarllenont "Ddrych yr Amseroedd" a "Methodistiaeth Cymru" yn ddiragfarn. Ymddengys na sylwodd Walker mai pysgotwyr oedd Simon Petr ac Andreas, Iago ac Ioan;‡ mai publican oedd Matthew;§ ac mai gwneuthurwr pebyll oedd yr apostol Paul.‖

* 1 Cor. ix. 1-6; 1 Thes. ii. 6.
† Act. xx. 31-35; 1 Thes. ii. 9.
‡ Mat. iv. 18, 19, 21, 22. § Etto, ix. 9; x. 3.
‖ Act. xviii. 3.

Am yr haeriad nad oedd Bowen yn deall Saesneg, neu mai gŵr unieithog ydoedd, y mae'n ddïau mai gwŷr unieithog hefyd oedd y rhan fwyaf o lawer o holl eglwys Jerusalem, oedd o wyth i ddeng mil o nifer, y rhai "a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan," ac "a dramwyasant gan bregethu y gair," a "chan bregethu yr Arglwydd Iesu," llwyddiant rhyfeddol y rhai a barodd y fath lawenydd i Barnabas, yr hwn oedd "yn ŵr da, ac yn llawn o'r Yspryd Glân, ac o ffydd."* A gwŷr cyffelyb i aelodau eglwys Jerusalem, heb na dysg na choleg, oedd y rhan fwyaf o'r rhai a fu yn fwyaf defnyddiol i lenwi Cymru "âg efengyl Duw," o John Evans y Bala hyd John Jones Tal y Sarn. Y mae'n bur amlwg mai amcan Walker yn dwyn y cyhuddiadau a nodwyd yn erbyn Bowen oedd ceisio ei ddirmygu, a dangos nad oedd gymmwys i'r gwaith y galwyd ef iddo, am nad oedd wedi cael dysg golegawl, fel a gawsai efe a'i frodyr clerigol. Ymddengys na sylwodd efe mai rhai cyffelyb i Bowen, yn hyn, oedd yr holl apostolion, ond Paul yn unig; ac nad rhagoriaeth Timotheus, yn oed ynghyfrif Paul, oedd ei fod yn deall llawer o ieithoedd estronol, ac yn hyddysg mewn "philosophi a gwag dwyll," a'r cyffelyb, ond ei fod "er yn fachgen yn gwybod yr ysgrythyr lân."† A phan aeth Paul ei hun at y Corinthiaid, nid aeth atynt, eb efe, "yn ol godidowgrwydd ymadrodd neu ddoethineb," ond gan fynegi iddynt dystiolaeth Duw. "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith," eb efe, "ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio."‡ Byddai yn bur dda i fechgynos Cymru, sydd wedi cael tipyn o ddysg ar draul yr eglwysi, gofio nad "philosophi a gwag dwyll," a "chwedlau gwneuthur," o ysgrifenwyr Paganaidd Groeg a Rhufain, sydd wedi eu trefnu i ddwyn pechaduriaid "o dywyllwch i'r goleuni, ac o feddiant Satan at Dduw," namyn gwybodaeth o'r "ysgrythyr lân," o "dystiolaeth Duw," ac o "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Pe cofient hyn, a phe myfyrient fwy ar bregethau Crist a'r apostolion, sydd yn yr Efengylau, yr Actau, a'r Epistolau, ni flinid eu gwrandawyr mor fynych gan "chwedlau gwneuthur" a "philosophi a gwag dwyll."

Barn y Dr. T. Rees mai at Evan Bowen y cyfeirir yn y llyfr a elwir "Diadell ac Ysgubau Vavasor,"§ lle y llefarir am dano fel "gŵr o ddoniau

* Act. viii. 1, 4; xi. 19-24. † 2 Tim. iii. 15.
‡ 1 Cor. ii. 1, 2. § Examen et Purgamen Vavasoris, p. 17.

Digitized by Google



PARCH. JOHN JONES,

TALSARN

WILLIAM MACKENZIE, LLUNDAIN, CAERLLEON AC ABERTAWE

Digitized by Google

ardderchog a gallu deheuig yn ei iaith ei hun, a bod yr Arglwydd wedi ei wneud yn offeryn i droi llawer o'r bobl Gymreig." Efe oedd sylfaenydd yr eglwys Annibynol yn Nhroedrhiwdalar, ymhlwyf Llanafan Fawr, yr hon sydd wedi bod yn eglwys nodedig o dangnefeddus a blodeuog, o'i amser ef hyd y dydd hwn. Y mae amser marwolaeth y gŵr da yma yn anhyspys.*

ROBERT POWEL ydoedd fab i foneddwr o sir Amwythig.† Ganwyd ef yn y flwyddyn 1599, a chafodd ei ddysg athrofaol yn Neuadd Hart, Rhydychain. Ymaelododd yn y neuadd honno ar y 25med o Hydref, 1616. Appwyntiwyd ef i ficeriaeth Tregadog (Cadoxton), ger llaw Castell Nedd, sir Forganwg, o gylch 1622, neu yn fuan ar ol hyny.‡ Dywed y Dr. T. Rees nad oes brawf ei fod yn Anghydffurfiwr cyn y rhyfeloedd cartrefol,"§ ond ei fod yn glerigwr efengylaidd, ac yn bregethwr diwyd a doniol o'r efengyl.‖ Dywed T. Charles ei fod yn wrthwynebydd egnïol i Lyfr y Chwaryddiaethau, oedd yn rhoi cenad i chwarau ar y Sabbothau; y cafodd llawer eu galw a'u hymgeleddu trwy ei weinidogaeth ffyddlon, efengylaidd; a'i fod ef a Rhys Prichard ("Ficar Llanddyfri") yn dra chyfeillgar â'u gilydd, ac o fawr gymmorth a chynhaliaeth y naill i'r llall, mewn amser tywyll a phrin o ran brodyr crefyddol.¶ Dywed Mr. Charles, fel y gwelir ar odrau y ddalen, ei fod wedi marw yn 1640; ond dywed y Dr. T. Rees fod hyn yn eglur anghywir, "Canys y mae ei enw ymhlith y Profyddion yn y Ddeddf er Lledaenu yr Efengyl yng Nghymru, yn 1649;"** ac felly rhaid ei fod ef yn fyw y flwyddyn honno.* Tybir iddo farw cyn adferiad Charles II. i'r orsedd; ond ymha le, a pha bryd, nid yw hyspys.

RICE WILLIAMS (Rhys ab Gwilym) ydoedd ŵr enwog arall yn y ffydd yn ystod y cyfnod hwn, nad oes ond pur ychydig o'i hanes ar gof a chadw. Nid yw hysbys iddo gael addysg ar gyfer gwasanaeth Eglwys Loegr, nac un cyfundeb crefyddol arall; ond dywedir ei fod yn fonheddwr o safle uchel, ac ymddengys iddo arfer ei ddoniau yn fynych fel pregethwr. Y mae Walter Cradoc, mewn llythyr at Cromwel, a amserwyd y 29fed o Fawrth, 1652, yn ei ddarlunio megis "yr hen sant enwog hwnw, Mr. Rice Williams, o'r Casnewydd, un a wasanaethodd y llywodraeth mewn llawer o fanau; ond ni ynnillodd geiniog oddi wrth hyny." Yr oedd efe yn un o'r Dirprwywyr yn y Ddeddf er Lledaenu yr Efengyl yng Nghymru; am hyny, nid yw ei enw ef ymhlith y 25 o'r Profyddion Cymreig ynglŷn â'r ddeddf honno.† Cynhelid cyfarfod‡ yn rheolaidd yn ei dŷ yn 1669, a chrybwyllir am dano yntau fel un o'r athrawon. Y mae'n debyg iddo farw yn fuan ar ol hyn; ond nid oes manylion ar gael am ei enedigaeth na'i farwolaeth§

JAMES QUARRELL (Iago Cwarrel) oedd frodor o sir Fynwy, ac y mae ei enw yn awgrymu ei fod o hiliogaeth estronol o du ei dad o leiaf; ond yr oedd amryw o'r cyfryw yn Gymreigwyr medrus yn yr oes honno cystal ag yn yr oes hon, ac yn wladgarwyr Cymreig o'r fath orau. Pregethwr teithiol oedd Cwarrel yn sir Fynwy ac amryw o'r siroedd cyfagos. Efe, ac nid Thomas Cwarrel, fel y dywed Palmer, oedd gweinidog cyntaf yr eglwys Annibynol yn Amwythig. Nid ydyw debyg ei fod ef yno fel y cyfryw "yn amser Oliver," am ei fod ar lawn waith y pryd hwnw fel pregethwr teithiol yng Nghymru. Yr oedd efe yn un o awduron y llyfryn a elwir "Diadell ac Ysgubau Vavasor." Gwraig gyntaf Vavasor Powel oedd gweddw Paul Cwarrel, o Presteigne. Y mae'n dra thebyg fod Iago Cwarrel yn gâr agos i Paul Cwarrel. Cafodd y gŵr enwog hwn, fel y rhan fwyaf o'i frodyr crefyddol, ei gyfran o erledigaeth. Canfyddir bod gorchymyn, mewn llythyr oddi wrth yr Arglwydd Newport at Syr Richard Ot-

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 136.

† "Dylid sylwi," medd y Dr. T. Rees, "mai y Gymraeg oedd iaith y wlad mewn rhai parthau o siroedd Amwythig a Henffordd yn yr eilfed ganrif ar bymtheg.

‡ Cafodd y ficeriaeth honno, medd T. Charles, yn 1620, "a bu yn dra llafurus a llwyddiannus yn ei weinidogaeth yno hyd 1640, y flwyddyn y bu efe, a Mr. Wroth hefyd, farw" (Trys. Yspr. 1799, t. 322-3). Y mae yma gamfynegiad am flwyddyn ei farwolaeth, fel y ceir gweled yn ebrwydd.

§ Ymladdwyd y frwydr gyntaf o'r rhyfeloedd hyny rhwng Charles I. a'r Senedd ar y 23ydd a'r 24ydd o Hydref, 1642, yn Llethr y Bryn (Edge Hill).—Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 476.

‖ Hoffasem gael mwy o eglurhad ar ei Anghydffurfiaeth. Dywed Mr. Charles, fel y nodwyd eisoes, mai yn ficeriaeth Tregadog y bu yn gwasanaethu hyd ei farwolaeth. "Y tebygolrwydd yw mai fel ficar Eglwys Loegr y bu yno hyd y rhyfeloedd cartrefol, ac yna, pan ddaeth y Senedd a Chromwel i awdurdod, iddo fwrw y Llyfr Gweddi Gyffredin a defodau yr Eglwys Wladol heibio, a dilyn cynllun y Senedd a Chromwel olynol, ac iddo gael mwynhau ei ficeriaeth hyd ddiwedd ei oes. Os felly, casglir nad oedd efe yn gofalu rhyw lawer pa ffurf i'w dilyn, pa un ai eiddo yr Eglwys Wladol ai Anghydffurfiaeth, os goddefid iddo fwynhau ei fywioliaeth, ac os peidid ei orfodi i wneud drwg, megis darllen Llyfr y Chwaryddiaethau; ac os cai lonydd i bregethu i'w blwyfolion, a'u dysgu yngwirioneddau yr efengyl. Yr oedd yn debyg yn hyn i'w gyfaill, Rhys Prichard, Llanymddyfri, Gruffydd Jones, Llanddowror, ac amryw eraill o'r hen ddiwygwyr.

¶ Trys. Yspr. 1799, t. 323.

** Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 67.

* Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 381; Han. Cref. D. P., t. 224; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503.

† Han. Cref. D. P., t. 224; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503.

‡ Conventicle.

§ Lambeth MSS., vol. 639; Letters addressed to O. Cromwel, p. 83; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 162.



Digitized by Google

tley, i "ddal Mr. Cwarrel, Felton Cymreig, offeiriad, a'i drosglwyddo i'r pen-swyddog, ac i'w ddïogelu ganddo ef, nes y ceir gorchymyn pellach."* Nid yw hyspys a ddodwyd y gorchymynion hyny mewn grym ai peidio. Parhaodd Cwarrel i fod yn weinidog yr eglwys yn Amwythig dros amryw flynyddoedd. Bu'r duwiol Henry Maurice (Morus) yn gyd-weinidog âg ef yn 1672, ac, ond odid, am flwyddyn neu ddwy cyn hyny. Arferai Cwarrel fyned ar deithiau pregethwrol yn fynych yn ystod ei arhosiad yn Amwythig. Y crybwylliad olaf am dano a geir yn hanes cydnabyddiad Henry Williams fel gweinidog yr eglwys yn sir Drefaldwyn, ar y 28fed o Awst, 1672, lle y cyflwynodd efe y weddi gydnabyddol. Y mae'n debyg y bu farw yn fuan ar ol hyny.† Nid oes sicrwydd ymha le, na pha bryd, y ganwyd ef, nac y bu farw; ond od oedd efe yn 70 oed yn 1672, ganwyd ef o gylch 1602. Yr oedd amryw bersonau a'u cyfenw yn Cwarrel yn aelodau o'r eglwys Annibynol yn Amwythig yn y ganrif flaenorol, y rhai, ond odid, oeddynt hiliogaeth Iago Cwarrel.‡

Edmund Elis. Ychydig iawn o hanes y gŵr enwog hwn etto sydd wedi ei drosglwyddo i ni. Methasom gael allan pwy oedd ei rieni, na pha bryd ac ymha le y ganed ef, ac y bu farw. Dywedir y bu yn Grynwr yn Llundain, ac y bwriwyd ef allan o Ffagan Sant (sef o *eglwys* y sant hwnw, y mae'n debyg), ger llaw Caerdydd, yn sir Forganwg; ond pa bryd y digwyddodd hyny, ni fynegir. Pa wedd bynag, y mae genym sicrwydd ei fod wedi ei eni yn gynnar yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, os nad yn niwedd y ganrif flaenorol, a'i fod hefyd yn ŵr gwir enwog, canys y mae ei enw ymhlith Profyddion Cymreig y Dirprwywyr yn y Ddeddf er Lledaenu yr Efengyl yng Nghymru, yn 1649;§ a dywed Walker y caniatâi "y gorfodogwyr|| iddo gan punt y flwyddyn am wasanaethu y plwyf hwn"¶ (Ffagan Sant, fel y tybir). Ni dderbyniai y rhai a anfonid allan yn bregethwyr teithiol fwy nag 20p. neu 30p. y flwyddyn.**

Owen Prys (Price). Er nad oedd y gŵr enwog yma yn bregethwr, etto yr oedd yn athraw dysgedig, galluog, a ffyddlawn. Brodor o sir Drefaldwyn ydoedd; ond o ba le yno, ni fynegir, a methasom daro wrth amser ei enedigaeth; eithr gan iddo gael ei wneud yn ysgolor yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, gan Ymwelwyr y Senedd yn 1648, rhaid y ganwyd ef yn gynnar yn y ganrif honno. Wedi bod yn y brif-ysgol dros bedair blynedd, pennodwyd ef yn athraw ysgol gyhoeddus yng Nghymru; ond ymha le yn y wlad yma, ni ddywedir; eithr hyspysir y bu yn dra diwyd i addysgu y rhai oedd dan ei ofal yn egwyddorion y Presbyteriaid, sef yr egwyddorion a bleidid mor zelog ar y pryd gan y mwyrif o aelodau y Senedd. Yn 1655, ymhen dwy flynedd ar ol i Cromwel gael ei wneud yn Arglwydd Amddiffynydd y deyrnas, dychwelodd Prys yn ol i Rydychain, a gwnaed ef yn efrydydd o Goleg Eglwys Crist. Wedi cymmeryd graddau yn y celfyddydau (pa un ai B.A. ai M.A., ai y naill a'r llall, nid yw hyspys), pennodwyd ef yn athraw ysgol rydd ger llaw Coleg Magdalen; ac o herwydd ei fedrusrwydd yn ei alwedigaeth, cafodd nifer tra lliosog o ddisgyblion. Pan adferwyd Charles II. i'r orsedd, tröed ef o'i swydd o herwydd ei Anghydffurfiaeth. Yna bu yn athraw llwyddiannus mewn ysgol yn sir Dyfnaint (Devon), ac wedi hyny yn sir Berc, a manau eraill. Yn 1665, cyhoeddodd lyfr yn Saesneg a'i enw "Y Peiriant Llafar, neu Gelfyddyd Newydd o Ddysgu Llythyraeth;" ac yn 1670 cyhoeddodd lyfr arall, yn yr un iaith, ar Sillebiaeth. Bu farw yn Rhydychain, yn 1671.*

Dafydd Walters. Wele ŵr enwog arall nad oes ond ychydig fanylion am dano wedi eu trosglwyddo i ni; eithr y mae'r cwbl sydd genym yn arwyddo ei fod yn ddŷn anghyffredin. Yr oedd yn bregethwr teithiol enwog yn Nyffryn Morganwg, a dewiswyd ef yn un o'r Profyddion yn y Ddeddf er Lledaenu yr Efengyl yng Nghymru,† yr hyn a brawf iddo gael ei eni yn gynnar yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Cyflwynodd William Erbery ei hanes o ddadl ym Mhont y Fon (Cowbridge), a fu rhyngddo ef ac un Henry Nichols, i Dafydd Walters, ac y mae yn ei gyfarch fel "Deilwng Syr." Cyfeiria Walker ato fel un a arferai bregethu yn fynych yn Baglan, Aberafon, a Llandaf. Cafodd ei lawn gyfran o sarhâd gan yr ysgrifenydd cecrus hwnw, yr hyn sydd brawf sicr nad ydoedd ddŷn cyffredin. Wrth gyfeirio at wasanaeth a gynhelid ganddo yn Eglwys Gadeiriol

* Owen and Blakway's Hist. of Shrewsbury, vol. ii., p. 482
† Orig. MSS. of Henry Maurice.
‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 164.
§ Han. Cref. D. P., t. 224; Llyfr. y Cymry, t. 150.
|| Sequestrators.
¶ Walker's Sufferings of the Clergy, part ii., p. 301; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503.
** Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 153.

* Wood's Athen. Oxon.; Williams's Em. Welshm., p. 417.
† Han. Crefydd, D. P., t. 224; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 501, 103.

Digitized by Google

Llandaf, efe a ddywed, "Aeth un Walters y gwehydd i'r pulpud, yr hwn a honnai fod yn bur ysprydol, a phregethodd (faldordd ynfyd=*more suo*) dros dair awr bwygilydd, gan gablu defodau prydferth yr Eglwys, a dyrchafu addoliad allanol annestlus, cystal ag y gallai, gan ddechrau yn Genesis, a therfynu yn y Datguddiad. Presbyteriad oedd y dŷn hwn (pe gwybuasai ei hun beth ydoedd, yr hwn a fu gynt yn döwr cyffredin gwlad);* ond yr oedd ganddo gof ehang i gadw yr Ysgrythyrau, ac ymhyfrydai yn fawr ei arfer ym mhulpud Llandaf. Ar fyr, pregethwr cyflogedig mewn pum milltir o amgylch ydoedd."† "Gallasai yn llawn cystal ddywedyd," medd y Dr. T. Rees, "mewn deng milltir ar hugain o amgylch. Y mae yn debyg i Walters farw rywbryd cyn adferiad Charles II. yn 1660."‡

Morus Bidwel oedd un arall o enwogion yr oes foreuol hon, am yr hwn ni wyddus ond ychydig iawn. Gwnaed ef yn beriglor yn Eglwys Mair Santes, Abertawe, pan fwriwyd Morgan Hopkin allan o blegid anfedrusrwydd crefyddol. Yr oedd yn un o'r Profyddion yn y Ddeddf er Lledaeniad yr Efengyl yng Nghymru, § ond ni wyddys pa un ai Presbyteriad ai Annibynwr ydoedd. Dywed Walker iddo farw yn Abertawe cyn yr Adferiad yn 1660, a chwynir yn ei erbyn gan y Crynwyr o blegid iddo drin rhai o'u pregethwyr yn angharedig yn y flwyddyn 1658. Dyna y cwbl a allwn ni gael o'i hanes.‖

John Evans oedd frodor o sir Aberteifi, neu Geredigion; ond ni wyddys pwy oedd ei deulu, na pha bryd y ganwyd ef. "Cafodd dröedigaeth mewn modd tra hynod. Ar ol bod yn halogi y Sabboth yn y borau, aeth i wrando pregeth yn yr hwyr, yr hon a fu yn foddion i'w argyhoeddi, ac i'w wneuthur yn ddŷn newydd. Ymhen amser galwyd ef i bregethu, ac ordeiniwyd ef gan y Presbyteriaid. Er nad oedd yn nodedig o dalentog, etto yr oedd ei zel yn fawr dros ben. Yr oedd yn dra diwyd, a choronwyd ei lafur â llwyddiant mawr. Gwasanaethodd y gynnulleidfa yn Cellau, ger llaw Llanbedr, dros amryw flynyddau. Cynhygiodd ei noddwr mawr, Dafydd Llwyd Gwynn, berigloriaeth gyfoethog iddo, ond ni oddefai ei gydwybod iddo feiddio ei derbyn. Bu farw yn fuan ar ol i Ddeddf yr Unffurfiad ddyfod i rym,"* yn 1660. Mewn canlyniad i'r ddeddf Babaidd honno, fel y gellir tybied, bwriwyd ef allan o Fangor, ger llaw Castell Newydd Emlyn. Y mae Palmer yn cymmysgu y John Evans yma â John Evans o Wrecsam, tad y Dr. John Evans, awdur y pregethau ar "Dymmer Gristionogol;" ond gwahanol bersonau oeddynt.†

John Tombes‡ (Twmz), B.A., Llanlleieni, un o amddiffynwyr penaf ei oes i fedydd y crediniol, a anwyd yn Bewdley, sir Gaerwrangon, yn 1603. Gan mor ddysgedig oedd yn y grammadegau, derbyniwyd ef i Rydychain pan yn 15 oed; ac ar farwolaeth ei athraw enwog, William Pemble, yn 1624, derbyniwyd ef yn olynydd iddo fel areithydd yn Neuadd Magdalen. Wedi dal o hono ei swydd am saith mlynedd, ac ennill enwogrwydd mawr yn amrywiol ganghenau dysgeidiaeth, aeth i Gaerwrangon (Worcester), lle yr aeth ei glod yn uchel fel pregethwr; ond nid ymddengys iddo gael bywioliaeth yno. Yn fuan, pa fodd bynag, derbyniodd Ficeriaeth Llanlleieni, yn sir Henffordd, lle y creodd gyffro mawr ar fyrder, fel diwygiwr yn yr Eglwys Wladol.

John Tombes oedd un o'r rhai cyntaf yn yr oes honno i geisio puro gwasanaeth yr Eglwys Sefydledig oddi wrth ddyfeisiadau dynol. Traddododd bregeth yn ei eglwys ar y pwngc, yr hon, wedi hyny, a argraphwyd trwy orchymyn y Senedd. Gwnaeth hyn ef yn wrthrych dygasedd ffyrnig y blaid Esgobyddol; ac ar doriad allan y rhyfel gartrefol, yspeiliwyd ef o'r cyfan oedd yn ei feddiant gan filwyr y brenin, a gorfu iddo yntau ddiangc am ei fywyd i Gaerodor, yr hon oedd ar y pryd ym meddiant y Senedd, a rhoddes y Cadfridog Fiennes iddo fywioliaeth Eglwys yr Holl Saint. Pan gymmerwyd Caerodor gan wŷr y brenin yn 1643, bu yn gyfyng iawn ar Tombes.

* Ho! Ymddengys y gallai y gŵr enwog hwn droi ei law at y peth a fynnai, a rhagori yn ei orchwyl, yn ol tystiolaeth y cablwr ei hun. "Y gwehydd" ydoedd ganddo ar y dechrau; ond cyn diwedd ei chwedl gwnaeth ef yn "döwr cyffredin gwlad" (*a common country thatcher*); yn meddu "cof ehang i gadw yr Ysgrythyrau;" ac yn "bregethwr teithiol cyflogedig mewn pum milltir o amgylch." Gwyn fyd na bai genym lu o bregethwyr cyffelyb iddo yn y dyddiau hyn! Y mae'n amlwg fod y gŵr duwiol hwn yn gwneud ei orau i ledeunu teyrnas y Gwaredwr ym mysg ei gymmydogion a'i gydwladwyr, yn onest ac egniol.

† Walker's Suffer. of the Clergy, part i., p. 156; The Lambeth MSS., vol. 1027; Examen et Purgamen Vavasoris, p. 17.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 134.

§ Han. Crefydd, D. P., t. 224; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 501, 503.

‖ Walker's Suffer. of the Clergy, part ii., p. 278; Besse's Sufferings of the Quakers, vol. i., p. 737. Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 135.

* Palmer's Noncon. Mem., vol. iii., p. 496.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 142.

‡ Er mai Sais digymmysg, hyd y gwyddys, oedd y gŵr enwog hwn etto y mae awdur galluog yr erthycl fer yma arno yn barnu ei fod yn deilwng o le bychan ymhlith "Enwogion y Ffydd" yng Nghymru, o blegid y cymmerth ran mor bwysig yn nadleuon crefyddol ei amser yn y wlad hon, ac ar ei gororau yn sir Henffordd, a manau eraill. —Gol.

Digitized by Google

Ysbeiliwyd ei wraig a'i blant, a thrwy ymdrech caled y gallodd ffoi; ond cyrhaeddodd Lundain yn ddiogel ar yr 22fed o Fedi, 1643.

Ymddengys ei fod, er ys cryn amser cyn myned i Lundain, yn coleddu amheuon am Ysgrythyroldeb bedydd plant, ac yn awr defnyddiodd y cyfleusdra i ddatguddio yr amheuon hyny i amryw o'r gweinidogion a ymgynnullasant o bob parth i Gymmanfa Westminster. Cynhaliodd gweinidogion Llundain gynhadledd ar y pwngc yn Ionawr, 1643; ond methwyd a rhoi boddlonrwydd i feddwl Tombes. Felly efe a ysgrifenodd ei amheuon yn Lladin mewn dull ysgolheigaidd, ac anfonodd hwynt i Whitaker, cadeirydd y pwyllgor a bennodwyd gan Gymmanfa y Duwinyddion i ystyried y pwngc; ond gwelodd y boneddigion hyny yn dda, yn hytrach nag ymdrechu symmud ei amheuon ef ynghylch Ysgrythyroldeb bedydd babanod, ei symmud ef o fod yn bregethwr yn y Deml (Temple), i'r hon swydd yr etholasid ef ar ol ei fynediad i Lundain.* Wedi derbyn o hono y fath driniaeth gan ei frodyr duwiol a dysgedig, efe a gyhoeddodd ei "Amddiffyniad"† yn 1646, yn yr hwn y daeth i'r golwg fel amddiffynydd cadarn bedydd y crediniol.

Yn fuan ar ol hyn, dewiswyd ef yn weinidog gan bobl Bewdley, ei dref enedigol, lle y dechreuodd ddadlau yn gyhoeddus yn erbyn bedydd babanod. Casglodd eglwys o Fedyddwyr yn Bewdley; ac etto yr oedd yn parhau, yn y cyfamser, i fod yn weinidog yn yr Eglwys Blwyfol yn y lle. Cymmydog agos i John Tombes yn y lle hwn oedd Richard Baxter, yr hwn oedd weinidog Kidderminster. Yr oedd y ddau yn ysgolheigion enwog, yn bregethwyr poblogaidd, ac, am ryw yspaid, yn gyfeillion mawr. Yr oedd argyhoeddiadau y cyntaf ar y pwngc o fedydd yn gryfion: yr oedd eisoes wedi dïoddef drostynt; tra yr oedd syniadau y llall yn hynod lac ac amhenderfynol. Teimlai y cyntaf yn ddyledswydd arno gymmell ei wrandawyr i roddi ufudd-dod personol i orchymyn pendant Crist; tra yr oedd y llall yn petruso ynghylch taenellu babanod.‡ Yr oedd Tombes wedi traddodi cyfres o bregethau ar fedydd, a rhai cyfeillion i Baxter wedi dyfod yno i'w wrando, gan gymmeryd nodiadau o'i bregethau a'u dwyn gyd â hwynt i'w hathraw. Mewn canlyniad i hyn, cyfnewidiwyd llythyrau rhwng y ddau benaeth, ac ennynwyd yspryd brwydr. Hysiwyd Baxter gan rai o ynadon ei dref a phregethwyr yr amgylchoedd i wneud ymosodiad ar y Bedyddiwr, a rhoddwyd yr her. Y laf o Ionawr, 1650, oedd y diwrnod i ddechrau yr ymrysonfa. Yr oedd Tombes yn gryf a hoenus, â'i feddwl wedi ei arfogi o ddysgeidiaeth yr ysgolion, ac heb fod yn newyddian yn nadleuon bedydd. Yr oedd Baxter, o'r ochr arall (yr hwn oedd *Don Quixote* ei oes, "carwr heddwch a thangnefedd," ond etto mewn ymrafael yn wastadol, yn ol ei dystiolaeth ei hun),* yn afiach a gwanllyd iawn; ond er y cwbl efe a aeth i'r frwydr, a thybiai ef a'i gyfeillion iddo gael nerth gwyrthiol yn wyneb yr amgylchiad. Os felly, y mae'n ddilys na ddefnyddiwyd nerth gwyrthiol llai anrhydeddus erioed. Dyma y fan iselaf y gwelwyd Richard Baxter yn ei holl fywyd. Pwy allasai ddychymygu y buasai awdur "Tragywyddol Orphwysfa y Saint," yr hwn waith a fyfyriai ar y pryd, yn ceisio gwarthruddo bedydd y crediniol trwy ensynio† bod John Tombes yn trochi merched ieuaingc yn noethion, ac felly yn troseddu y seithfed gorchymyn!‡ Parhaodd y ddadl am tu a saith awr, a therfynodd, fel y terfyna dadleuon cyhoeddus yn gyffredin, a phob plaid yn hawlio y fuddugoliaeth.

Yn ol dim a wyddom ni, dyma y ddadl fedydd gyntaf yn Lloegr. Ond ymhen tu a dwy flynedd ar ol hyny, cawn yr un gwaith yn cael ei gario ym mlaen gyd â brwdfrydedd a chyffro mawr yn Eglwys Blwyfol Abergefenni. Ymddengys i eglwys o Fedyddwyr gael ei sefydlu yn Abergefenni yn 1652, ac i nifer mawr, tu a thriugain neu ragor, gael eu bedyddio yno yn fuan ar ol hyny. Cynhyrfodd hyn lawer o sylw a gwrthwynebiad y Bedyddwyr babanod, a daeth bedydd yn bwngc yr ardal. O'r diwedd, penderfynodd y ddwy blaid gael dadl gyhoeddus ar fedydd yn Eglwys Mair Santes. Yr oedd hyn ymhen tu a saith wythnos ar ol i'r Bedyddwyr gynnal eu cymmanfa yn y dref. Y dadleuwr o ochr y Bedyddwyr oedd John Tombes, yr hwn yn ddiweddar oedd wedi cael ei bennodi i Ficeriaeth Llanlleieni; a thros Fedyddwyr babanod yr oedd Henry Fychan, M.A., a John Cragg, M.A. Yr oedd Tombes i ddadlau â

* Examen et Purgamen Vavasoris, pp. 1, 2; Anti-Pædobaptism, part iii., p. 8. † Apology.

‡ "O'm rhan fy hun, gallaf ddywedyd gyd â Mr. Blake na welais daenellu baban erioed; ond yr holl rai a welais i yn cael eu bedyddio, tywelltid dwfr arnynt, ac felly golchid hwynt."—Infant Church Membership, p. 184.

* Inf. Church Memb., pp. 136, 137.

† Gair newydd ydyw hwn, go ddïangenrhaid hefyd, yn arwyddo *awgrymu, lled-arwyddo, lled-hyspysu, lled-fynegi; to insinuate.*—GOL.

‡ Inf. Church Memb., p. 245.

Fychan yn gyntaf, ac wedyn â Cragg. Bu yno ddadlau brwd am amser maith, ac argraphodd y ddwy blaid eu syniadau ar ol y ddadl. Yn ei nodiad at y darllenydd, dywed Fychan "bod Mr. Tombes, ar ol misoedd o gymhellion trwy lythyrau a chenhadon, wedi dyfod o'r diwedd i ddyfrhau yr hyn a blanasid gan Mr. Myles [John Myles, o Lanilltyd] a Mr. Prosser [Walter Prosser, o Lanigon], ac eraill.*

Yr oedd Tombes erbyn hyn mewn bri gan Fedyddwyr y deyrnas. Edrychent arno, yn naturiol, fel un o brif amddiffynwyr y gwirionedd; a dywed Wall† am dano—"O'r Gwrthfedyddwyr babanod proffesedig, Mr. Tombes oedd y galluocaf yn ein cenedl ni, ac fe allai yn unrhyw genedl arall." Etto y mae'n wirionedd na ollyngodd efe ei afael o'r Eglwys Sefydledig hyd oni phasiodd Deddf yr Unffurfiad yn 1662, er ei fod, fel y nodwyd eisoes, wedi sefydlu eglwys Fedyddiedig flynyddoedd cyn hyn yn Bewdley, yn yr hon y dygwyd i fynu dri o weinidogion i'r Bedyddwyr, sef Richard Adams, John Eccles, a Capt. Boylston.‡

Y mae'n amlwg bod Tombes yn sefyll yn uchel iawn hefyd yngolwg yr awdurdodau Eglwysig yn ei dymmor, canys cawn ei fod yn dal pedair o fudd-swyddau ar unwaith: yr oedd yn berson Ross, yn ficar Llanlleieni, yn bregethwr Bewdley, ac yn feistr yspytty yn Ledbury.§ Ac yn ychwanegol at hyny hefyd cafodd yn 1653 ei bennodi gan Cromwel yn un o'r Profyddion.‖ Ond pan ddaeth Deddf yr Unffurfiad i fod yn 1662, methodd Tombes blygu, ond gadawodd fywioliaeth yr Eglwys Sefydledig, eithr nid ei chymmundeb, canys parhaodd i gymmuno fel lleygwr yn Eglwys Loegr hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerth le yng Nghaercaradog (Salisbury) ar y 25med o Fai, 1676, ac efe yn 73 oed.

Beir llawer ar Tombes am y weithred olaf hon, sef treulio y tair blynedd ar ddeg diweddaf o'i oes mewn esmwythdra dïanrhydeddus ynghymmundeb Eglwys Loegr, yn lle cydweithio â'i frodyr trwy ganol y ddrycin i sefydlu Ymneillduaeth yn y wlad. Ond rhaid cadw mewn cof ei fod ef yn gydffurfiwr zelog ymhob pwynt oddi eithr bedydd plant: yn hyn yr oedd yn hollol anorchfygol. Treuliodd derfyn ei oes i gyfoethogi llenyddiaeth ddadleuol ei wlad; ac nid oes amheuaeth nad ysgrifenodd fwy ar fedydd na neb yn ei oes. Ceir rhestr o'i gyfansoddiadau yn yr erthygl dan ei enw yn y *Nonconformist Memorial.*

THOMAS HOLMES. Y cwbl braidd a wyddys am y gŵr enwog hwn ydyw, mai efe oedd y Crynwr cyntaf yng Nghymru; y bu yn dra diwyd ac egnïol i ledaenu ei egwyddorion; ac y bu mewn carcharau yn fynych. Amgylchynwyd ef mewn byr amser gan lu o gyd-lafurwyr ymdrechgar, megis John ap John o Wrecsam, Ffrancis Gauler, Risiart Dafydd o'r Trallwm,* Charles a Thomas Llwyd o Ddolobran, ger llaw Llanfyllin, ac amryw eraill heb fod mor enwog.† Teithiodd y bobl hyn y wlad gyd â diwydrwydd nodedig, a llwyddasant i wneud eu golygiadau neillduol mor hyspys fel, erbyn diwedd y flwyddyn 1660, pan esgynodd Charles II. i'r orsedd, nad oedd odid lanerch o un sir yng Nghymru, oddi eithr Mon ac Arfon, heb aelodau o'r cyfundeb rhagorol ac Ysgrythyrol yma.‡ Gresyn calon oedd i olynwyr yr enwogion a nodwyd laesu dwylaw i'r fath raddau cywilyddus ag y gwnaethant, canys erbyn hyn prin y mae cynnifer o Gyfeillion neu Grynwyr yn y Dywysogaeth ag sydd ynddi o siroedd! Parodd brwdfrydedd amryw o aelodau y blaid newydd hon iddi gael ei chamddarlunio a'i dirfawr waradwyddo. Crybwyll eu hanes am droion digon annoeth; ond nid oedd y cyfryw ond damweiniol ac anfynych. Er mwyn cael rhyw esgus dros y creulonderau a arferid tu ag atynt, cyhuddid hwy o ymddwyn yn afledais, ac o droseddu cyfreithiau y wlad. Gelwid cyngor Cristionogol a roddent i gynnulleidfa ar ol y gwasanaeth yn y llan yn aflonyddu yr addoliad cyhoeddus, ac yn ymyriad â swydd yr offeiriad; gelwid eu hardystiad gonest yn erbyn pechod ar yr heol neu yn y farchnad yn drosedd ar yr heddwch; gelwid eu gwaith yn ymddangos ger bron yr ynadon â'u hetiau am eu penau yn ddirmyg ar yr awdurdod wladol; ac o dan yr esgusion hyn, dirwyid, carcherid, ac yspeilid hwynt o'u heiddo. Ië, yr oedd rhai o'r ynadon mor greulon am eu herlid, yn oed yn amser Cromwel, fel yr oeddynt yn mynnu fflangellu gwŷr a gwragedd parchus, ac yn eu dodi yn y cyffion, dan yr esgus eu bod yn troseddu y

* Hist. W. Asso., p. 8.
† Hist. Inf. Bap., part ii., p. 29.
‡ Noncon. Mem., vol. ii., p. 36.
§ Baxter's Inf. Ch. Memb., p. 203.
‖ Nid yw enw Tombes ymhlith y Dirprwywyr na'r Profyddion bennodwyd gan y Senedd yn 1649 yn y Ddeddf er Lledaenu yr Efengyl yng Nghymru (Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 501, 503). [illegible]ethasom daro wrth ddeddf Cromwel yn 1653, ac nid yw yr awdur cyfeirio ati.—GOL.

* Gwel pen. xxii. o'r llyfr hwn.
† Besse's Suff., vol. i., p. 735, &c.
‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 107.

Digitized by Google

gyfraith fel crwydriaid. Cafodd Thomas Holmes ei ran yn helaeth o'r cyfryw erledigeuthau creulon yn ei ddydd.*

MARMADUKE MATTHEWS oedd fab i Matthew Matthews, o Abertawe. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1606. Ar yr 20fed o Chwefror, 1624, ymaelododd yn Ngholeg yr Holl Eneidiau, Rhydychain. Nid yw hyspys ymha le yr ymsefydlodd ar ol gadael y brif-ysgol, ond yr oedd yn ficar Penmain, ger llaw Abertawe, yn 1636, a "phregethai yn erbyn cadw dyddiau gwylion, ac amryw bethau eraill, megis opiniynau mympwyol a llygredig." Pan wnaed cwynion cyfraith yn ei erbyn yn Llys yr Uchel Ddirprwyaeth, efe a ffodd i Loegr Newydd, America. Ymha le, a pha fodd, y treuliodd ei amser yn ystod ei arhosiad yno, nid ydys yn gwybod; ond ymhen rhyw ennyd ar ol darostyngiad y Marchogion yng Nghymru, dychwelodd o'r America, a rhoddwyd iddo fywioliaeth plwyf Ioan Sant, Abertawe, o'r lle y bwriwyd ef allan ar ol i Ddeddf yr Unffurfiaeth ddyfod i rym yn 1662.

"Gadawodd fywioliaeth dda er mwyn cydwybod, er nad oedd ganddo ddim arall i ymddibynu arno. Pregethodd wedi hyny, trwy oddefiad yr ynadon, mewn capel bychan ynghwr y dref. Yr oedd yn ŵr pur dduwiol a zelog; ac elai o amgylch i hyfforddi y bobl o dŷ i dŷ. Pethau ysprydol oedd cynnwys braidd ei holl bregethau. Nid arferai ymweled â neb ond fel gweinidog yn unig, ac ni dderbyniai ymweliad ond ar fatterion crefyddol. Pan y delai rhywun i ymweled âg ef, dechreuai yn ebrwydd, ar ol y cyfarchiadau cyffredin, ymddiddan ynghylch pethau Dwyfol; a phan ddygid rhywbeth i'w yfed, ei arfer oedd cymmeryd y gwydryn yn ei law, dïolch yn ddifrifol i Dduw, ac yfed at ei gyfaill, gan ddywedyd bod iddo groesaw calon. Elai allan yn fynych ar ddyddiau marchnad at bobl y wlad, i siarad â hwy ynghylch pethau ysprydol, a chai dderbyniad parchus gan rai, a dim ond gwawd a dirmyg gan eraill. Yr oedd yn byw uwchlaw y byd, ac yn ymddibynu yn hollol ar Ragluniaeth am gynhaliaeth iddo ei hun a'i deulu. Cynhelid ef yn hollol trwy dduwioldeb ei blant (o'r sawl yr oedd dau neu dri yn gydffurfwyr difrifol), a thrwy garedigedrwydd perthynasau a chyfeillion; a dywedai weithiau yn ddifyrlon, 'Yr wyf yn cael fy nghynnal yn gysurus gan blant Duw, fy nheulu fy hun, a phlant y byd.' Yr oedd rhyw hynodrwydd arbenig yn ei ddull o bregethu a chaticeisio; ond yr oedd yn gwbl weddus iddo ef, ac yn fanteisiol i luoedd. Bu fyw i oedran teg, a pharhaodd yn ddefnyddiol hyd y diwedd. Bu farw o gylch y flwyddyn 1683."†

---

## PENNOD VI.

### WALTER CRADOC.

O'R ychydig wŷr ieuaingc ymroddgar a gynnorthwyent yr hynafgwr, William Wroth, i gasglu a sefydlu yr eglwysi Anghydffurfiol cyntaf yng Nghymru, tybir mai WALTER CRADOC* oedd y mwyaf talentog, llafurus, ac ehang ei ddefnyddioldeb. Ganwyd y gŵr enwog hwn yn Nhrefela, ymhlwyf Llangwmucha, ger llaw Brynbyga, yn sir Fynwy. "Hen balasdy yw Trefela; ond yn awr, fel llawer o hen balasdai eraill, y mae wedi ei droi yn amaethdy."† Nid yw amser manwl ei enedigaeth wedi ei gofnodi; ond y mae yn sicr iddo gael ei eni rywbryd rhwng 1606 ac 1610. Dywedai y trahaus Archesgob Laud mai "cydymaith hyf, anwybodus," ydoedd yn 1633, pan oedd yn gurad yng Nghaerdydd. Yr oedd efe yn etifedd treftadaeth oedd yn oed y pryd hyny yn werth 60p. y flwyddyn; a dywedir iddo gael ei addysg athrofaol yn Rhydychain, er nad yw Antoni Wood yn crybwyll dim am dano, a hyny, fe allai, am nad arhosodd yno i gymmeryd graddau. Gan iddo gael ei eni a'i fagu ynghymmydogaeth Llanfaches, yr oedd mewn cyfleusdra o'i febyd i wrando yn fynych ar yr enwog Wroth yn pregethu; ac y mae bron yn sicr iddo gael ei ddwyn i wybodaeth o'r gwirionedd ym morau ei oes trwy offerynoliaeth y pregethwr godidog hwnw. Dywed Gwilym Lleyn‡ i bregethau Wroth effeithio arno mor forau ag 1620, pan nas gallasai fod nemmawr dros 12 oed; ac fe ddichon mai anfoesoldeb y myfyrwyr yn Rhydychain a barodd iddo ymadael oddi yno cyn cymmeryd graddau. Ond graddau neu beidio, cafodd guradaeth Llanbedr y Fro, ym Morganwg, yr hon oedd y gyntaf a gafodd; a

* Credoau y Byd, cyf. i., t. 501, &c.; Gwel hefyd pen. ii. a iii. o'r llyfr hwn. † Calamy's Account, 1713, vol. ii., p. 732; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 59.

* Tybir mai llygriad o *Caradog* yw *Cradoc*, neu *Cradock*, fel yr ysgrifenid ef fynychaf. Y mae *Caradog* yn un o'r enwau priodol hynaf ymhlith y Brytaniaid a'r Cymry, ac y mae yn un o'r enwau a arferid yn dra mynych yn yr oesau gynt; ac arferir ef hyd yn oed yn awr, dan wahanol ddulliau, mewn rhai teuluoedd, yn enwedig ym mysg yr uchelradd. Y mae bron yn sicr mai Lladiniad o *Caradog* yw *Caractacus*, enw tywysog Brytanaidd a ymladdai yn dra dewr dros ryddid ei wlad yn erbyn y Rhufeiniaid, o.c. 43-54, yr hwn a fradychwyd i ddwylaw y Rhufeiniaid gan y fradwres Cartismandua.—Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. i., t. 119–123.

"Hwyrach," medd y Parch. D. Silvan Evans, "nad amhriodol yma a fyddai cywiro ychydig o amryfusedd sydd wedi llithro i *Eiriadur* y Dr. Puw o barthed yr enw hwn. O dan '*Cariadog*,' efe a ddywed fod y gair hwnw, megis enw cadarn, yn dynodi—'a member of the sect of independents, *pl.* cariadogion.' Nid yw yr enw ddim amgen na *Caradogion* neu *Cradogion*, sef canlynwyr Walter *Caradog* neu *Cradoc*."—Llyfr. y Cymry, t. 165, nod. *.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 51; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 10.—Gwilym Lleyn a ddywed yn y tudalen a nodwyd uchod mai "mewn lle a elwir y Pwll, yn nhrefddegwm Trefela, ger Brynbuga. yn sir Fynwy," y ganwyd Cradoc Y mae pob un o'r haneswyr hyn yn wŷr manwl a gofalus. Dywed y naill, fel y gwelir, mai "hen *balasdy*" yw Trefela, ac mai yn yr hen balasdy hwnw y ganwyd Cradoc; tra y dywed y llall mai *trefddegwm* yw Trefela, ac mai "mewn lle [tŷ?] a elwir y *Pwll* y ganwyd ef. Nid ydym ni mewn cyfleusdra i benderfynu yr amrywiaeth dibwys rhyngddynt. Pa wedd bynag, cyttunant mai yn Trefela, &c., y ganwyd ef; a gwelir mai ynghylch enw y *tŷ* lle'i ganwyd yn unig y mae'r ychydig amrywiaeth.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 165.

Digitized by Google

rhaid ei fod y pryd hwnw yn 23 oed yr adeg foreuaf y gallasai gael urddau Esgobol Bu yn dal yr un swydd wedyn, neu o gylch yr un amser, dan yr enwog William Erbery, yn Eglwys Fair, Caerdydd. Gallasai fod yn Llanbedr a Chaerdydd yr un amser, gan nad oes ond tu a chwe milltir rhwng y naill le a'r llall. Y mae sicrwydd ei fod yn Eglwys Fair yn 1633, pan y diswyddwyd ef gan Esgob Llandaf, am wrthod darllen Llyfr y Chwareuon ar y Sabboth.*

Ar ol iddo gael ei fwrw allan o'i fywioliaeth yng Nghaerdydd, dywedir i'w deulu droi yn chwerw atò o blegid ei Anghydffurfiaeth; am hyny barnai mai gwell iddo ymadael o'i fro enedigol, ond nid allai feddwl am gefnu ar Gymru yn hollol; o ganlyniad, aeth i barthau eraill o'r wlad, lle y gallai bregethu y gair gyd â llai o wrthwynebiad, a mwy o lwyddiant. Ymddengys iddo dreulio peth amser yn awr yn siroedd Brycheiniog, Maesyfed, a Threfaldwyn, gan bregethu y gair lle bynag y cai ganiatâd a gwrandawiad. Pregethai, fel yr apostolion a'r hen efengylwyr, mewn tai annedd, mewn coedydd, ac ar y mynyddoedd. Dywed y Dr. William Richard† i VAVASOR POWEL ddyfod yn un o'i wrandawyr yn ystod y teithiau pregethwrol hyn, ac i hyny derfynu yn ei dröedigaeth. Ar ol y teithiau crybwylledig yn y Deheubarth, aeth Cradoc ym mlaen i'r Gogleddbarth, lle y cafodd guradaeth Gwrecsam, y llwyddiant, a'r erledigaeth a ddarluniwyd yn fyr eisoes.‡ Tra yr oedd efe yn Brampton Briars, dan nawdd Syr Robert Hurley, cyfaill ffyddlon y Puritaniaid erlidiedig, fel y gwelsom, cyfarfu â'r digwyddiad hynod a gofnodir yn y difyniad canlynol:—

"Bendithiwyd ei bregethiad yn sir Aberteifi mewn modd tra nodedig; ac ymhlith esamplau eraill o rad drugaredd Duw, y mae un yn bur deilwng o gael ei chofnodi. Yr oedd boneddwr a breswyliai yn agos i'r lle y pregethai pan ar ymweliad unwaith â'r sir honno, yn dra gwrthwynebus i'w athrawiaeth a'i bregethiad. Dirmygai ef yn ei ymddiddanion; gwnai wawd o hono mewn pennillion duchanus; a gwrthwynebai ei bregethiad ymhob dull a'r a allai. Digwyddodd, yn ol ewyllys Duw, fel yr oedd Mr. Cradoc yn pregethu unwaith mewn cae agored (o herwydd nad oedd y lle y bwriadai bregethu ynddo yn ddigon ehang i gynnwys ei wrandawyr) i Mr. Morgan Howel, enw y boneddwr y cyfeiriwyd ato, drefnu cael chwarau pél droed yn y cae ar y pryd, er mwyn rhwystro y pregethwr, ac aeth mor bell â cheisio ei daro ef â'r bêl; ond methodd yn ei amcan trwy gwympo ac yssigo ei ffêr, fel nas gallai symmud o'r fan, ac felly gorfodwyd ef i wrando y bregeth, yr hon a oruwch lywodraethodd Duw i fod yn dröedigaeth iddo; ac er prawf bod ei ddychweliad yn ddiffuant, cymmerth Mr. Cradoc i'w dŷ, a derbyniai ef yn groesawgar pa bryd bynag y deuai i'r sir; ac o'r diwedd daeth yn bregethwr gwirionedd yr Iesu ei hunan, ac efe a sefydlodd yr eglwys gyntaf o gredinwyr yn ei gymmydogaeth." *

Bernir, ar seiliau pur gedyrn, mai ffrwyth pregethiad Walter Cradoc, tra yr arhosai dan nawdd Syr Robert, yn Brampton Briars, oedd yr eglwysi a gynhullwyd yn Llanfyllin, Llanbrynmair, Rhaiadr, Llanafan, Llanwrtyd, a manau eraill.† Tu a diwedd 1639, yr oedd efe yn Llanfaches, yn cynnorthwyo William Wroth i gasglu yr eglwys Annibynol yno. Galwyd ef y pryd hyny i gynnorthwyo Wroth, ac ar farwolaeth y gŵr enwog hwnw, dewiswyd ef yn olynydd iddo; ond ni chafodd lonydd yno dros fwy na dau neu dri mis ar ol marwolaeth Wroth, canys pan dorodd y rhyfel allan rhwng Charles I. a'r Senedd, trwy i'r blaenaf ymosod trwy rym arfau ar Gaerffynidwy,‡ ar y 23ydd o Ebrill, 1642, ffodd Cradoc a'r rhan fwyaf o aelodau eglwys Llanfaches, ynghyd â lliaws eraill o Anghydffurfwyr Deheudir Cymru, am nawdd i Gaerodor.§ Ceir hanes neillduol am yr amgylchiad yma yn y difyniad canlynol:—

"Delid y ddinas yma yn awr gan fyddin y Senedd, am hyny brysiodd llawer o bregethwyr a phroffeswyr Cymru oddi wrth eu teuluoedd, am eu bod yn debyg o gael eu cymmeryd gan Ddirprwyaeth Trefnwr y Fyddin; a ffoisant ar hyd y nos, rhai ffordd yma ac eraill ffordd acw, a daethant i'r ddinas hon, ac ymunasant (sef y rhan fwyaf o'r eglwys yn Llanfaches) â'r eglwys yng Nghaerodor. Wedi i'r ddwy eglwys yma ddyfod fel hyn ynghyd, yr oedd ganddynt weithian gyfleusdra i gael gweinyddu swper yr Arglwydd iddynt, gan fod Mr. Cradoc wedi dyfod, canys hyd yn hyn, er eu bod wedi ymneillduo oddi wrth y byd er ys cryn ddwy flynedd yn ol, etto nid oeddynt wedi ymsefydlu gyd â bugail arnynt; ond gan fod Mr. Cradoc yn fugail yr eglwys a ddaeth o Lanfaches, eisteddasant ynghyd i dori bara. Gweinyddai efe yn gyntaf yn y Dolphin, ac wedi hyny, weithiau, mewn tŷ pobi, yn ystafell gefn Iago, yr hwn oedd aelod o'r eglwys. Yna cawsant le cyhoeddus bychan iddynt eu hunain, a elwid 'TEwins, gan y Tolzey, lle yr arferent bregethu a gweini swper yr Arglwydd, megis yr oedd yn weddus. Ac felly y parhausant i ymgynnull ynghyd mewn cyfeillach eglwysig, gan dori bara a gweddïo, hyd oni roddwyd Caerodor i fynu i filwyr y brenin, yr hyn a ddigwyddodd ymlwyddyn ein Harglwydd un mil chwe chant a thair a deugain. Yna aeth y rhai o Gymru, a'r rhan fwyaf o broffeswyr o'r ddinas hon, ar daith i Lundain; a chan fyned fel hyn, gwylid hwy dros ran o'r ffordd gan arweinwyr o fyddin y brenin, yn ol yr erthyclau y cyttunasid arnynt wrth roddi y ddinas i fynu. Ond wedi iddynt fyned ychydig i'r wlad, dadwisgwyd ac yspeiliwyd hwynt gan yr un arweinwyr, yn groes i'r erthyclau, ac felly y gadawyd hwynt, y rhai yr oedd meirch ganddynt i fyned ar draed. Pan aethant i Lundain, ymunodd y bobl o Gymru â'r rhai o Gaerodor, ac ymgynhullent yn gyffredin

* Gwel t. 165. 1633 y dylasai 1634 fod yn y difyniad hwnw.
† Cambro-Brit. Biog., p. 197. ‡ Gwel t. 111.

* Preface to Charles and Oliver's edition of Cradock's Works, 1800, pp. 4, 5.
† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 11.
‡ Hull. § Bristol.

Digitized by Google

yn Great All-Hallows* gan mwyaf; yn unig aeth y proffeswyr a fedyddiasid o'r blaen i fynu, ac eisteddasant i lawr gyd â Mr. Kiffin [Cyffin], a'i eglwys ef yn Llundain, gan eu bod wedi eu bedyddio yn gyffelyb." †

Pan ffodd Cradoc, ac eraill a allent, i Lundain o Gaerodor, dywed Vavasor Powel y traws-gymmerwyd eu heiddo a'u hanifeiliaid gan eu gelynion brenhinol, ac y bu eu gwragedd a'u plant yn byw mewn eisiau, cyfyngder, a pheryglon erchyll hyd nes y terfynodd y rhyfel. Neal hefyd a ddywed bod y Tywysog Rupert, yn ei ymdaith ddinystriol trwy Gymru, "wedi gyru ymaith anifeiliaid y bobl, wedi anrheithio eu tai, ac wedi eu hyspeilio o'u hŷd oedd heb ei fedi yn y meusydd; wedi diddilladu hen bobl anarfog; wedi llofruddio rhai mewn gwaed oer; ac wedi hanner crogi a llosgi eraill, gan eu gadael yn ddrygfyw a dïymgeledd." Gan mai Brenhinwyr eiddigus oedd corph y genedl Gymreig ar y pryd, y mae'n sicr mai yr Anghydffurfwyr truain oedd yn cael eu darostwng i'r creulonderau barbaraidd a nodwyd. ‡ Ond er lleied oedd rhifedi y duwiolion a adawyd gan Cradoc a'i gydffoedigion yng Nghymru, ac er maint oedd eu dïoddefiadau a'u herchyll anfanteision, ceir gweled yn fuan na buant "na segur na diffrwyth" yn ystod enciliad eu cyfeillion.

Pan gyrhaeddodd Walter Cradoc Lundain, ymhen rhyw ennyd fer ar ol ymadael o Gaerodor, ar y 26ed o Orphenaf, 1643, pryd y rhoddwyd y ddinas honno i fynu i'r Brenhinwyr, fel y crybwyllwyd, dewiswyd ef yn bregethwr sefydlog yn Great All-Hallows, ac ymunodd y bobl a'i dilynasant ef o Gaerodor â'r gynnulleidfa yno, a bu yn pregethu yn y lle hwnw, mewn cymmeradwyaeth a bri mawr, i lïaws o wrandawyr astud, dros o gylch tair blynedd. Ymddengys mai yn ystod yr amser hwnw y traddododd lawer o'r pregethau a'r egluriadau a argraphwyd wedi hyny. Ond er maint ei lafur y pryd hyn, ac er uched ei fri ydoedd ym mysg y Saeson a'i genedl ei hun yn y brif-ddinas, etto nid anghofiodd efe amddifadrwydd ei gydwladwyr truain yng Nghymru o foddion gwybodaeth Gristionogol.

Yr oedd y Bibl bach, rhad, a gyhoeddasid gan yr enwog Rowland Heilyn a Syr Thomas Myddleton yn 1630, wedi myned yn brin iawn erbyn hyn, ac anhawdd ei gael am unrhyw bris; am hyny ymrôdd Walter Cradoc i ymdrechu cael argraphiad rhad o'r Testament Newydd allan yn Gymraeg; a llwyddodd yn oed cyn diwedd y flwyddyn gyntaf o'i arhosiad yn Llundain, sef 1643, i gyhoeddi argraphiad 8plyg, rhad, o hono. Dywed Gwilym Lleyn mai "cyhoeddwyr yr argraphiad hwn ydoedd William Wroth a Walter Cradoc;"§ ond ymddengys bod hyny yn gamsyniad, canys yr oedd Wroth wedi marw, fel y gwelsom, yn gynnar yn 1642, tu a dwy flynedd cyn i'r argraphiad yma gael ei gyhoeddi. Hwn oedd yr argraphiad cyntaf o'r Testament Newydd a gyhoeddwyd, ar wahân i'r Hen, ar ol "Testament William Salesbury," a gyhoeddasid yn 1567. Nid yw y Dr. Llewelyn, ac eraill ar ei ol, hyd Gwilym Lleyn, yn crybwyll am yr argraphiad yma o'r Testament Newydd; ac ymddengys i ni yn eglur mai at yr argraphiad nesaf o'r Testament Newydd, ac nid at yr un yn 1643, y mae John Lewis yn cyfeirio, fel y ceir gweled yn ebrwydd, yn y llyfryn tra dyddorol a gyhoeddwyd ganddo yn 1646, a elwir—"Myfyrdod ar yr Amseroedd hyn, neu y Senedd yn cael ei hegluro yng Nghymru."‖ Methasom gael amcan am nifer y copïau o Destament 1643 a gyhoeddwyd; ond y mae genym sail i gasglu, fel y ceir gweled rhag llaw, nad oedd y nifer ond ychydig. Ymddengys bod amddifadrwydd ysprydol cenedl y Cymry yn para i bwyso yn dra dwys ar feddwl y duwiol Walter Cradoc, canys mewn pregeth a draddodwyd ganddo ger bron y Senedd ar yr 21fed o Orphenaf, 1646, efe a ddywed fel hyn:—

"O! na adawer i Gymru dlawd ocheneidio, newynu, galaru, a gwaedu, tra y byddoch chwi yn mwynhau eich dyddiau i wledda, i lawenychu, i ddïolch, ac i foliannu Duw. O mor anhawdd genyf grybwyll hyn wrthych! Onid ydyw yn achos difrifol i feddwl am dano, nad oes mewn tair ar ddeg o siroedd dros dri ar ddeg (Duw a ŵyr o fod yno ychwaneg! Nis gwn i fod yno gynnifer) o weinidogion cydwybodol, y rhai yn yr amseroedd hyn a ymroddant yn ddiysgog a pharhaus ffyddlawn i'r Senedd, ac a bregethent gynt yn fuddiol yn yr iaith Gymraeg ddwy waith bob Dydd yr Arglwydd? Etto, dïolch i Dduw, y mae yno ychydig, er nad wyf fi deilwng i gael fy nghyfrif yn eu plith, y rhai sydd barod ac ewyllysgar i dreulio ac ymdreulio er gogoniant i Dduw a daioni eu gwlad." ¶

Ymddengys i'r appeliad dwys a duwiolfrydig yna effeithio i bwrpas ar y Senedd, ac iddi droi ei sylw o ddifrif, y waith hon, at sefyllfa druenus y Cymry; a dïammau bod Oliver Cromwel, yr hwn,

* Yr Holl Gyssegroedd Mawr.

† Broadmead Records, pp. 29-31.—"Aelodau oedd 'y proffeswyr a fedyddiasid o'r blaen a aethant i fynu,' o'r eglwys yng Nghaerodor. Yr oeddynt wedi cael eu troi i Olygiadau Gwrthfedydd Babanod gan Mr. John Canne yn 1640. Nid ymddengys bod neb o'r Anghydffurfwyr Cymreig o'r dyb honno hyd y flwyddyn 1649."—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 56, note *.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 76, &c.

§ Llyfr. y Cymry, t. 132.

‖ "Contemplation upon these Times: or, the Parliament explained in Wales. London, 1646."—Llyfr. y Cymry, t. 140.

¶ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 78.

Digitized by Google

yntau, fel y gwelsom, oedd Gymro o du ei dad, yn cefnogi yr appeliad. Yr oedd y Senedd, tu a blwyddyn yn ol, sef ar y 15fed o Awst, 1645, wedi "Gorchymyn bod i dri chant o bunnau yn y flwyddyn, allan o diroedd esgobion, deoniaid a glwysgorau Llandaf a Thŷ Ddewi, i gael eu talu i Mr. Henry Walter, Mr. Richard Symonds, a Mr. Walter Cradoc, gweinidogion, cyhyd ag y rhyngo bodd y Tŷ, gan eu rhanu yn gyfartal rhyngddynt, sef can punt y flwyddyn i bob un, at eu cynhaliaeth yng ngwaith y weinidogaeth yn Neheudir Cymru." Y mae'n amlwg i'r "gorchymyn" yna gael ei oedi dros yn agos i flwyddyn gyfan; ond dranoeth ar ol yr appeliad difrifol uchod gan Walter Cradoc, sef ar yr 22fed o Orphenaf, 1646, pasiwyd

"Gosodiad er trefnu i Mr. Richard Symonds, Henry Walter, a Walter Cradoc, gweinidogion, bregethu yn deithiol yn amryw siroedd Deheudir Cymru; ac i bob un o honynt gael can punt y flwyddyn allan o ardrethion a chyllidau deoniaid, deoniaid a glwysgorau, a phrebenderiaid Tŷ Ddewi a Llandaf, am eu poen; a hefyd, er ffurfio pwyllgor i orfodi cael y dywededig ardrethion a chyllidau, ac i dalu y dywededig gyflog i'r dywededig weinidogion allan o honynt, yr hyn a ddarllenwyd y dydd heddyw; ac, ar y pwngc, pasiwyd a gorchymynwyd iddo gael ei anfon at yr Arglwyddi er mwyn cael eu cydsyniad.

"Penderfynwyd, &c., bod i Mr. Cofiadur ddarpar a dwyn i mewn osodiad er sefydlu pwyllgorau at gael gwell trefn ar amgylchiadau Gogledd Cymru, er rhoddi gosodiadau y Senedd mewn grym, ac er sefydlu gweinidogaeth bregethwrol yno; ac er cymmeryd gofal am ddarpar cynhaliaeth iddynt; ac er anfon i lawr weinidogion a fyddont alluog i bregethu yn yr iaith Gymraeg; ac er appwyntio pwyllgor sefydlog i gymmeryd sylw, ac arolygu gweithrediadau amryw bwyllgorau y siroedd hyny; ac i barotoi cyfarwyddiadau iddynt.

"Ar yr 28fed o Hydref, 1646, gorchymynwyd i Mr. Cradoc, Mr. Symonds, a Mr. Walter, y rhai a appwyntiwyd yn flaenorol i fyned i Gymru, i bregethu yr efengyl yno, mor fuan fyth ag y bo cyfleus, yn ol yr appwyntiad blaenorol; a bod y dogn a orchymynwyd yn flaenorol i gael ei dalu iddynt am eu poen, i gael ei dalu yn awr iddynt gan bwyllgor y cyllid." *

O gylch diwedd y flwyddyn hon, aeth y pregethwyr rhag-grybwylledig, ac ychydig eraill, i faes eu llafur i gymmeryd meddiant o hono yn enw eu Duw. Ymddengys bod anfoesoldeb anferth llawer o'r clerigwyr, llwyr aneffeithioldeb y rhan fwyaf o honynt, treuliau trymion y rhyfel ddiweddar, yr hon a fawr dlodasai bob dosparth, ac ymddygiad barbaraidd y Marchogion Brenhinol, wedi ffieiddio rhan helaeth o'r genedl i'r fath raddau fel yr oeddynt yn dyheu am gyfnewidiad. Yr oedd yn oed y Brenhinwyr mwyaf cydwybodol, y rhai oedd yn meddu y graddau lleiaf o wladgarwch a theimlad crefyddol, yn ystyried yn ddyledswydd arnynt gynnorthwyo y Seneddwyr i gymmeryd meddiant o'r wlad, yn hytrach na'i gadael i gael ei llwyr ddinystrio gan filwyr halogedig y brenin.* O ganlyniad, pan gyrhaeddodd Walter Cradoc a'i gyd-efengylwyr i Gymru, nid yn unig canfuant fod y meusydd yn wynion i'r cynhauaf, ond hefyd, er eu syndod a'u llawenydd anhraethol, cawsant allan fod rhan o honynt wedi eu medi eisoes yn eu habsennoldeb hwy, canys er holl beryglon, eisiau, a dioddefiadau yr ychydig Anghydffurfwyr tlodion a orfodwyd i aros yn y wlad, pan ffoisant hwy i Lundain yn 1643, nid yn unig yr oeddynt wedi glynu yn ddisyfl wrth eu hegwyddorion, ond hefyd wedi tramwy ar hyd a lled y wlad, fel holl aelodau eglwys Jerusalem,† gan bregethu y gair i'w cydwladwyr, a mawr y llwyddiant a fu ar eu llafur. Yr oeddynt wedi cael esampl Walter Cradoc, ac eraill o'r pregethwyr oedd gyd âg ef yn sir Frycheiniog a sir Fynwy, y rhai a bregethent, nid yn unig yn y llanau, ond hefyd mewn tai annedd, ac yn fynych yn yr awyr agored, a gwneuthant hwythau yr un modd. Ni fynegir pa nifer oedd y crefyddwyr hyn a orfodwyd gan dlodi, ac amgylchiadau eraill, i aros yn eu gwlad; ond gellir casglu oddi wrth eiriau Cradoc nad oeddynt ond ychydig. Pa nifer bynag oeddynt, y mae'n amlwg iddynt ddilyn esampl eu pregethwyr yn fanwl a llwyddiannus. Gwelsom i Cradoc, a'r pregethwyr eraill oedd gyd âg ef, orfod ffoi i Lundain rhag ymosodiad milwyr y brenin yn gynnar yn 1642, ac na ddychwelasant i Gymru hyd 1646: felly bu'r ychydig grefyddwyr tlodion a adawsid ar ol am gryn bedair blynedd heb un pregethwr swyddogol yn eu plith. Y mae geiriau Cradoc, a ddifynir yn ebrwydd, yn arwyddo ei fod yn ofni y buasai yr ychydig dduwiolion hyny, oedd yn llwyr amddifad o bregethwyr, wedi cwbl ddiflannu erbyn ei ddychweliad ef a'i frodyr pregethwrol i'r wlad; ond er ei lawenydd, canfu eu bod wedi lliosogi yn ddirfawr. Ond cymmerer geiriau Cradoc ei hun ar y pwngc:—

"Nid wyf fi yn arfer adrodd chwedlau, ond goddefer i mi ddywedyd yr un peth yma. Er pan ffm oddi wrth-

* Journals of the House of Commons, vol. iv., pp. 242, 622, 707.

* Phillips's Life of Archbishop Williams, pp. 300-2.—"Daeth llythyrau hefyd heddyw, y rhai sy'n tystio bod y Dr. Williams, diweddar (*quondam*) Archesgob Caerefrog, wedi cefnu ar blaid y Brenin, ac yn dyfod o Gonwy, ac wedi myned i'w dŷ ei hun yn Penrhyn [Llandegai, sir Gaernarfon], yr hwn a gadarnhaodd efe, gan ei wneud yn amddiffynfa; ac anfonodd i'r wlad na ddylent mwyach dalu trethi i blaid y Brenin, gan eu bod wedi eu twyllo yr holl amser yma; canys yn awr, eb efe, y mae ei holl dwyll yn dangos yn eglur mai'r Senedd sydd ar yr iawn. Gellwch weled y gall y llwyddiant a'r cynnydd â'r sawl y bendithiodd y Senedd ddarostwng llawer o ddynion cyndyn ac anhyblyg."—*Weekly Intelligencer of April* 30, 1646.

† Act. viii 1, 4; xi. 19-21.

ych chwi yn ddiweddar, sylwais, a gwelais ym mynyddoedd Cymru, y gwaith mwyaf gogoneddus a welais erioed yn Lloegr, oddi eithr yn Llundain yn unig. Y mae'r efengyl wedi rhedeg dros y mynyddoedd rhwng sir Frycheiniog a sir Fynwy fel tân mewn ysgub o wellt. A phwy a wnaeth y gwaith yma? Nid oes ganddynt weinidogion; ond dywed rhai o'r gwŷr doethaf fod yno ynghylch *wyth gant* o bobl dduwiol, a'u bod yn myned oddi wrth y naill at y llall. Nid oes ganddynt weinidogion, y mae'n wir: pe byddai ganddynt, hwy a'u parchent, ac a fendithient Dduw am danynt. A fydd i ni ddirmygu y cyfryw rai, a'u galw yn bregethwyr y twrnel, am na buant erioed mewn prif-ysgol? Bydded i ni gwympo i lawr, ac anrhydeddu Duw: beth os myn Duw ei anrhydeddu ei hun yn y dull hwnw? Y maent hwy wedi cael eu llenwi â'r newyddion da, ac y maent yn eu traddodi i eraill; ac am hyny na thralloder neb o'u herwydd, gan ddywedyd, 'Pa fath amseroedd yw y rhai hyn? a pha beth a ddaw o honom?' Pam! beth ydyw'r matter? 'O! y fath ddŷn! ni bu efe erioed yn Athraw yn y Celfyddydau, ac ni bu erioed mewn Prif-ysgol; ac efe yn cymmeryd arno bregethu!' Er hyny, fe ddichon bod mwy o Dduw ynddo nag sydd ynof fi, a chant o rai a gawsant hyn oll." *

Hefyd, John Lewis, Ysw., o'r Glasgrug, ger llaw Aberystwyth, yn y llyfryn y cyfeiriwyd ato yn barod, sef "Myfyrdod ar yr Amseroedd hyn," a ddywed ar yr un matter fel y canlyn:—

"Os bydd i ni sylwi, gallwn ganfod ei ffafr fwyaf Ef, ei efengyl ef yn dyfod i'n plith. Y mae'r Bibl, a adnabyddid o'r blaen yn unig mewn cyfrol eglwys, wedi ei argraphu yn hardd, ac mewn cyfrol hwylus, trwy gyfrwng y teilwng Syr Thomas Middleton. Ac yn awr drachefn, yr wyf yn clywed bod Mr. Cradoc am gael argraphu† y Testament Newydd yn Gymraeg, yn gyfrol fechan, trwy yr hyn y gall fod yn fwy hwylus a chyffredin; yr hyn a ddichon fod o ddefnydd mawr, mewn byr amser, i ddwyn gwybodaeth o'r efengyl i'n plith. Y mae'r efengyl wedi tywynu eisoes mewn rhai parthau o Gymru, a hyny trwy ymdrech teilwng a duwiol Mr. Cradoc, yr hyn nis gall ein siroedd byth ei gydnabod yn rhy ddiolchgar; ac yn enwedig, yr hyn sy'n werth ein sylw, y mae'n dechrau tywynu mewn lle oedd yn nodedig anhywaith o'r blaen, a elwir Llangrug, yn sir Drefaldwyn; lle oedd yn dra amddifaid gynt, ond lle y cyfeirir ato yn awr fel mangre Puritaniaid a Phengryniaid Cymru; a hyn oll trwy ymdrech duwiol rhai gweinidogion erlidiedig (Mr. Powel a Mr. Roberts) yn cyrchu yno trwy lu o anfanteision a pheryglon.

"A, bendigedig fyddo'r Arglwydd, ni chawsom eaioed fwy o obeithion a thecach moddion yn ymgynnyg nag yn awr. Megis pan welwn gerrig, coed, a defnyddiau eraill yn cael eu casglu i le, y penderfynwyd yn y fan fod rhyw adeilad mewn llaw; felly, yn ol yr hyn a ddarllenasoch, tybiaf yn awr yr ymddengys nad yw yr Arglwydd yn gwneud dim llai na darpar moddion, a defnyddiau, megis, i ddyrchafu Ei efengyl yn ein mysg. A megis y dywedir am y dŷn dall yn yr Efengyl ei fod yn gweled dynion megis prenau yn rhodio, yr wyf finnau yn meddwl ein bod eisoes wedi cael rhyw fath ar olygfa aneglur o ddistaw ddynesiad a symmudiad yr efengyl tu ag atom. Ac megis yn amser y newyn yn Samaria y dywedodd Elïas wrth Ahab, 'Wele drwst llawer o wlaw,' felly, ar ol y newyn mawr hwn am Air y bywyd, yr ydym ninnau yn awr, o leiaf, megis yn canfod cwmmwl bychan fel cledr llaw gŵr yn ymddyrchafu, ac y bydd i'r nefoedd cyn hir dduo gan gymmylau a gwynt, ac y cawn wlaw mawr, ac y dyry Arglwydd y cynhauaf i ni ei gynnyrch toreithiog. Yn ddïau, os na byddwn yn ddiffygiol i ni ein hunain trwy ein cildynrwydd a'n hannïolchgarwch, y mae gan Dduw ryw ffafrau mawrion ynghadw ar ein cyfer." ‡

Pan ddaeth Walter Cradoc i Gymru yn Hydref, 1646, ymddengys iddo gael ei argyhoeddi yn drwyadl o lwyr annigonolrwydd "gweinidogaeth sefydlog," gyflogedig, ymhlith yr Anghydffurfwyr, cystal ag yn yr Eglwys Wladol, i ddiwygio a chrefyddoli y byd; ac y mae'n sicr iddo ganfod nad ydyw y fath "weinidogaeth" yn Ysgrythyrol chwaith, ond iddi gael ei llunio ar y dechrau gan "y Dŷn pechod, mab y golledigaeth" yn Rhufain; am hyny gwrthododd bob "galwad" a roddid iddo gan gynnulleidfaoedd yn y wlad hon, ac yn Llundain, i fyned yn "weinidog sefydlog," a threuliodd weddill ei oes yn *bregethwr teithiol*, fel yr apostolion, aelodau eglwys Jerusalem, a hen bregethwyr y Methodistiaid Calfinaidd; a mawr y llwyddiant a ddilynodd ei lafur Ysgrythyrol, megis llwyddiant y rhai a enwyd uchod. Gosodwyd ef hefyd yn fath ar olygwr cyffredinol ar bregethwyr teithiol Cymru. Efe oedd y prif ddŷn yn nhrefniad a gweinyddiad y deddfau a fabwysiadwyd gan y Senedd er taenu yr efengyl yng Nghymru. Gelwid ef yn fynych i Lundain i bregethu ger bron y Senedd, ac i eistedd ar bwyllgorau er trefnu achosion crefyddol y wlad; ond yng Nghymru y cartrefai efe o'r flwyddyn 1646 hyd derfyn ei oes lafurfawr a bendithiol. §

Wedi iddo ddyfod i Gymru ar yr amser nodedig, canfu yn fuan fod yma ddiffyg mawr etto am Air y Bywyd. Yr oedd yr argraphiad o'r Bibl bach yn 1630, ac o'r Testament Newydd, y soniwyd am dano eisoes, y bu efe yn foddion i'w argraphu yn 1643, wedi creu syched mawr yn y bobl am "ddidwyll laeth y Gair," yr hwn a ennynwyd fwyfwy hefyd gan y pregethwyr teithiol efengylaidd oedd yn y wlad yn awr; ac er mwyn tori'r syched angerddol hwnw i ryw raddau, llwyddodd y diwyd Walter Cradoc i gyhoeddi argraphiad 12plyg bychan o'r Testament Newydd yn 1647. Dywed Gwilym Lleyn y rhoddwyd dau argraphiad yn ebrwydd ar ol eu gilydd, heb ddim gwahaniaeth yn eu maint, yn gwbl fel po

* Cradock's Glad Tidings, p. 50.

† Y mae hyn yn dangos yn eglur nad at y Testament Newydd a gyhoeddwyd trwy ymdrech Walter Cradoc yn 1643 y cyfeirir yma yn 1646.

‡ Nid oes neb o'n bywgraphwyr, hyd y gwelsom ni, yn son dim am awdur enwog y llyfryn sy'n cynnwys y difyniad dyddorol uchod, ond *Glan Menai* yn unig, yn "Enwogion Sir Aberteifi," t. 99; ac nid oes ganddo yntau ddim ond ei enw a'i gartref, sef "John Lewis, o'r Glascrug, Ceredigion," a'i fod yn awdur y llyfr dan sylw, "yn yr hwn y mae'n dinoethi, yn yr iaith gryfaf, ddifatterwch y llywodraethwyr eglwysig, a'u hesgeulusdra o ofalu am anghenion ysprydol eu deiliaid." Wrth "y llywodraethwyr eglwysig" y golyga, y mae'n debyg, y personiaid a'r curadiaid; ac wrth "eu deiliaid," eu plwyfolion.

§ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 12.

Digitized by Google

buasai yr un argraphiad, ond bod *u* yn lle *v* yn un o honynt, a'r llythyren ddechrau pennod yn addurnedig.* Dyry y Dr. T. Rees un o'r argraphiadau hyn yn 1646, a'r llall yn 1647; a dywed y tybir eu bod, ill dau, yn cynnwys dros 3,000 o gopïau, ac mai i Walter Cradoc yr oedd y Cymry yn ddyledus am danynt.† Y mae'r Dr. Llewelyn yn cofnodi argraphiad 1647, ond nid yw efe yn crybwyll y nifer;‡ eithr dengys y *Gwyddoniadur*§ mai 1,000 o gopïau a gynhwysai yr argraphiad yma.

Er bod yr olygfa ar bethau yn y Dywysogaeth ar hyn o bryd yn ffafriol a chalonogol ar y cyfan, etto rhaid oedd i'r pregethwyr teithiol weithio eu ffordd trwy lïaws o rwystrau ac anhawsderau, a chroesi llwybrau dynion oedd yn elynion penderfynol iddynt hwy a'u gwaith. Yr oedd yr hen syniad Pabaidd, nad oes gan neb hawl i bregethu yr efengyl ond rhai wedi cael eu hurddo gan esgob Eglwys Loegr, mor gryf y pryd hwnw ag ydyw y syniad sydd yr un mor Babaidd a ffynna yn awr ymhlith yr holl Anghydffurfwyr, ond y Crynwyr a'r Plymouth Brethren, sef nad oes gan neb yn eu plith hwythau hawl i bregethu os na bydd wedi cael "galwad eglwys," "arddodiad dwylaw gweinidogion," "cenad cyfarfod misol neu gymmanfa," a'r cyffelyb seremonïau anysgrythyrol.‖ Yr oedd hyn o wahaniaeth rhwng Eglwys Loegr y pryd hwnw a'r enwadau crefyddol yn awr: goddefai hi, yn yr amser a nodir, y mwyaf anfoesol ei fuchedd i weinyddu yn ei themlau, o byddai wedi cael urddau esgobol. Heb law hyny, yr oedd y clerigwyr, fel rheol, y pryd hwnw, fel yn awr, o'r esgob i'r curad, yn perthyn i deuluoedd cyfoethocaf y wlad; am hyny yr oedd y clerigwyr anfoesol, a'u cyfeillion ymhlith y cyfoethogion, yn gwneud eu holl egni i rwystro llafur y pregethwyr teithiol; ond gan eu bod wedi eu hamddifadu o'r awdurdod a feddent yn y rhyfel i'w carcharu, cymmerasant gynlluniau eraill yn awr, megis cablu eu cymmeriadau, llunio chwedlau athrodus ynghylch eu pregethau, a chynhyrfu y werin i aflonyddu eu cyfarfodydd.* Taflwyd y wlad i ddyryswch a helbul dirfawr unwaith etto gan yr ail ryfel gartrefol, yn 1648, yr hon a dorodd allan yn gyntaf yn Neheubarth Cymru, dan y Catrodfridog Laugharne (Llacharn?), a'r Milwriaid Poyer a Powel; ac, wrth reswm, rhwystrodd hyn waith y pregethwyr teithiol dros amser. Ffodd Walter Cradoc, V. Powel, ac amryw bregethwyr eraill, y mae'n debyg, i Loegr etto; ond cyn gynted ag y llwyddodd Cromwel i ddarostwng y Brenhinwyr, ac i adfer heddwch,† dychwelodd y pregethwyr i'r wlad at eu gwaith eilwaith.

Ar yr 22fed o Chwefror, 1649, gwnaed y "Ddeddf er Gwell Lledaeniad Pregethiad yr Efengyl yng Nghymru," fel y crybwyllwyd o'r blaen, a gosodwyd Walter Cradoc yn un o'r 25 Profyddion oedd i chwilio a chymmeradwyo pregethwyr yn y Dywysogaeth.‡ Gwelodd Cradoc, Vavasor Powel, ac eraill o'r "Tanwyr," fel y gelwid pregethwyr teithiol egnïol ac ymroddgar y pryd hwnw, fod argraphiad 1630 o'r Bibl bach wedi llwyr ddarfod, a bod Testament 1647 wedi myned yn bur brin, tra yr oedd galwad am Fiblau a Thestamentau yn dirfawr gynhyddu, fel ffrwyth pregethiad effeithiol a llwyddiannus y "Tanwyr" duwiol; am hyny ymroddes Cradoc a Powell i ymdrechu cael argraphiad hwylus arall o'r Bibl, a llwyddasant i gael argraphiad 8plyg bychan, hardd, a helaeth o hono, yn 1654, yn cynnwys 6,000 o gopïau. Am yr argraphiad yma, dywed y Dr. Llewelyn fel hyn:—

"Dyma yr hanes gyntaf a gyfarfyddwn am nifer y copïau a gynhwysai unrhyw argraphiad. Yr ydym yn ddyledus am hyn i Mr. Charles Edwards, awdur y llyfr a elwir *Hanes y Ffydd*,§ a ysgrifenwyd yn y ganrif ddiweddaf, a argraphwyd amryw weithiau, y waith gyntaf

* Llyfr. y Cymry, t. 141.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 82.

‡ Llewelyn's Acc., p. 55. § Cyf. i., t. 539.

‖ Y mae'r *holl* "Etholedigion yn ol rhagwybodaeth Duw Dad, trwy sancteiddiad yr Yspryd, i ufudd-dod a thaenelliad gwaed Iesu Grist, yn *offeiriaeth sanctaidd*, i offrymu aberthau ysprydol, cymmeradwy gan Dduw." Y maent *oll* yn "rhywogaeth sanctaidd, *brenhinol offeiriadaeth*, pobl briodol i Dduw, fel y mynegont (*y pregethont*) rinweddau yr hwn a'u galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef" (1 Petr i. 2; ii. 5, 9). Y mae gan "*ryw un*" o'r "offeiriadaeth sanctaidd, frenhinol" yma awdurdod oddi wrth Grist a'r apostolion i "droi pechadur o gyfeiliorni ei ffordd;" a "gwybydded y bydd i'r *hwn* [pwy bynag a fyddo] a drodd bechadur o gyfeiliorni ei ffordd gadw enaid rhag angau, a chuddio llïaws o bechodau" (Iago v. 19, 20). Y mae'n sicr mai un o amcanion mawrion Duw yn goddef i *holl eglwys Jerusalem*, oedd rhwng saith a deng mil o nifer, gael ei gwasgaru "o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan," "y rhai a dramwyasant gan bregethu y gair" (Act. viii. i. 1, 4; xi. 19-21), oedd rhoi esampl i'r Eglwys Gristionogol ymhob oes o'r byd bod gan bob aelod o honi, yn ddiwahaniaeth, awdurdod ddwyfol i "bregethu yr Arglwydd Iesu," ac i wneud pob peth arall a allo dros ei Waredwr, heb ofyn cenad un dyn, na chynnulleidfa o ddynion; ac y mae'n ddilys ddigon y rhaid i Eglwys Crist garthu allan "hen lefain" y glerigaeth, o'r Pab a'r Archesgob i lawr hyd y "gweinidog sefydlog," cyflogedig, a'r "pregethwr cynnorthwyol," y rhai sy'n gwreiddio oll mewn ymgais am barch, swydd, ac arian, a gadael i'r "holl eglwys," yn gyfartal a [illegible]bl ddiddefod, ymroddi i droi y byd at Grist, cyn byth y gwêl y *Diwygiad* mawr, cyffredinol, y dangosir yn y Bibl ei fod i gymmeryd *lle* "yn y dyddiau diweddaf;" a gobeithio mai yng Nghymru y *dig*[illegible]dd hyny.

* Gwel Alexander Griffiths's Various Pamphlets, and Vavasor Powel's Replies to them; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 82.

† Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 478.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 501-5.

§ Hanes y Ffydd, argr. 1822, t. 301.

Digitized by Google

yn argraphdy Rhydychain, Awst 1, 1676.* Nid yw Edwards yn ein hyspysu i bwy yn neillduol yr ydym rwymedig am y cyflenwad tra helaeth yma, fel y rhaid yr ystyrid ef y pryd hwnw. Ac i ddiffyg cymmwynaswyr arbenig i'r rhai y gallwn ei gyfeirio, yr wyf fi wedi bod yn dueddol i ymddifyru weithiau trwy ei briodoli i dymmer y genedl, ac i'r amseroedd yn y rhai y cafwyd ef.

"Cyhoeddwyd y Bibl yn y fl. 1654, y flwyddyn gyntaf o amddiffyniad Oliver Cromwel, hynafiaid yr hwn, fel y dywedir, a ddaethant o Gymru, enw teuluol y rhai yn wreiddiol, fel y dywedir, oedd Williams. Yr oedd ansawdd yr amserau, tueddiad y bobl, y bobl mewn awdurdod, a'r bobl yn gyffredin, yn grefyddol. Yr oedd ymlyniad wrth yr Ysgrythyr yn broffes gyffredinol. Yr oedd gwybodaeth Ysgrythyrol mewn bri, ac iaith Ysgrythyrol oedd gyttunol â moes ac arfer. Cymmerid ymadroddion Ysgrythyrol a chymhwysid hwy at bob achos a digwyddiad. 'Arglwydd y lluoedd,' 'Duw gyd â ni,' &c., oedd arwyddeiriau yr amseroedd; gair y frwydr, llef y byddinoedd, a mynegair y bathodau, y tlysau, a'r arysgrifion." †

Er nad yw Charles Edwards yn enwi y rhai a fuant offerynol i gael yr argraphiad hwylus a helaeth yma o'r holl Fibl, ac argraphiad o'r Testament Newydd ar wahân yr un flwyddyn, mewn llythyren frasach, ‡ ac er y priodola y Dr. Llewelyn yr argraphiad yma "i dymmer y genedl, ac i'r amseroedd yn y rhai y cafwyd ef," etto ni phetrusa Gwilym Lleyn ei briodoli i Vavasor Powel a Walter Cradoc; § ac y mae'n ddiammau genym ei fod yn gywir. Gelwir yr argraphiad yma yn "Fibl Cromwel;" ‖ ac y mae'n ddilys genym ei fod ef yn gynnorthwywr haelionus i'w ddau gydwladwyr Cymreig enwog i gyhoeddi yr argraphiad yma o'r Bibl a'r Testament.

Ychydig o hanes yr enwog Walter Cradoc sydd genym ar ol cyhoeddiad yr argraphiadau crybwylledig o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Dywed D. Morgan, Llanfyllin, mai yr hanes ddiweddaf sydd genym am dano ydyw ei waith yn cyflwyno gwrthdystiad i'r Senedd yn erbyn gwrthdystiad ei hen gyfaill Vavasor Powel, yr hwn a wrthwynebai yn dra egnïol i Cromwel gymmeryd y titl o "Arglwydd Amddiffynydd y Deyrnas." ¶

Bu Walter Cradoc yn ŵr priod; ond ni fynegir pa bryd y priododd, na phwy oedd ei wraig; eithr dywedir y bu iddo ddwy ferch, y rhai a enwodd efe yn Lois ac Eunice. Priododd yr hynaf âg un Richard Creed, boneddwr Seisnig, a'r ail âg un Thomas Jones, o Abergefenni; a mab iddynt hwy oedd Christopher Jones, yr hwn oedd ŵr enwog yn ei oes fel crefyddwr.

Bu farw Walter Cradoc yn nhreftadaeth ei hynafiaid, yn Nhrefela, ar y 24ydd o Ragfyr, 1659, mewn llawn fwynhâd o gysuron nefol, a chladdwyd ef ynghangell Eglwys Llangwmucha. Symmudwyd ef o'r ffordd ychydig fisoedd cyn i'r dymmestl fawr dori allan ar adferiad Charles II. i orsedd Brydain; a thybir i'r cymmylau duon a welai yn ymgasglu uwch ben yr eglwysi effeithio cymmaint ar ei feddwl nes cyflymu ei farwolaeth.

O ran ei berson, dywedir ei fod yn ddŷn tal, wedi ei nodi gan y frech wen yn lled drwm, a'i fod yn bur gadarn, gewynog, a galluog i gyflawni llawer o galedwaith, ac i oddef mawr flinder; ac yr oedd angenrhaid iddo ef wrth y fath gyfansoddiad, i deithio mor fynych ac mor faith ag y gwnaeth, ynghanol mynyddoedd oerion a digysgod Cymru, i bregethu efengyl Iesu Grist. Yr oedd yn serchog o ran ei dymmer, ond yn bur frwdfrydig a lled fyrbwyll. Yr oedd yn dra chymmedrol yn ei farn at y rhai a wahaniaethent oddi wrtho yn y pyngciau a ystyriai efe yn ddibwys; ac yr oedd yn fwy hyddysg yn nadleuon yr amseroedd na'r rhan fwyaf o'i gydoeswyr.* Yr oedd ei alluoedd rhagorol, ei ddoethineb, ei weithgarwch, a'i boblowgrwydd digyffelyb fel pregethwr, yn ei wneud ynghyfrif ei gydoeswyr y dŷn pwysicaf a mwyaf dylanwadol yng Nghymru. "Yr oedd Mr. Cradoc," medd un o'i gydoeswyr, "er yr holl ddiystyrwch y ceisia Mr. Baxter ei daflu arno, † yn un o alluoedd naturiol grymus a bywiog dros ben, y rhai, y mae'n wir, o herwydd ei holl orchwylion a'i lafur cyhoeddus, ni chafodd hamdden i'w diwyllio a'u coethi i'r graddau y gallasai wneuthur pe cawsai amser. Yr oedd yn ddŷn o fedr rhyfeddol i egluro dyfnion bethau Duw i'r gwanaf eu hamgyffred a'u galluoedd; ac yn un y mae preswylwyr mynyddoedd Cymru yn bendithio daioni yr Hollalluog am ei lafur digyffelyb o lwyddiannus. Y mae wedi anfon lliaws i'r nefoedd, lle y mae efe ei hun yn awr, yn ddiammau genyf, allan o gyrraedd pob cabledd a gwaradwydd." ‡

* Y mae yma gamhyspysiad lled bwysig: *ail* argraphiad o *Hanes y Ffydd* a gyhoeddwyd yn 1676. Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf yn 1671.—Llyfr. y Cymry, t. 198, 206. † Llewelyn's Acc., pp. 40, 41. ‡ Id. p. 56. § Llyfr. y Cymry, t. 165. ‖ Y Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639; Llyfr. y Cymru, t. 164, nod. ‡. ¶ Hanes Ymneillduaeth, t. 526.

* Trys. Ysprydol 1799, t. 173; Preface to Cradock's Works, p. vi.

† Yr oedd Richard Baxter, yr hwn a feddyliai mor dra uchel am Walter Cradoc, pan welodd ef yn yr Amwythig yn 1635, yn nghŷ ei athraw, Richard Symonds, wedi newid ei farn am dano erbyn 1684, fel y cyhuddai ef o fod yn "Antinomiad noeth!" Yr oedd y gwirionedd ei fod, erbyn y flwyddyn olaf a nodwyd, yn Annibynwr, yn amddiffynwr rhyddid cyflawn i bob sect, ac i bawb i bregethu Crist, ac o blaid pregethu teithiol, yr hyn oedd yn myned yn syth yn erbyn "gweinidogaeth sefydlog," gyflogedig: yr oedd y pethau hyn, a'r gwir ei fod yn Galfiniad lled uchel, yn ddigon i wneud meddwl Baxter yn rhy ragfarnllyd yn ei erbyn i roddi darluniad teg a diragfarn o'i olygiadau. Y gwir yw bod Cradoc yn llawn mor bell o fod yn Antinomiad ag oedd Baxter ei hunan.—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 57.

‡ A Winding Sheet for Mr. Baxter's Dead, p. 6.

Digitized by Google

Cyhoeddwyd holl waith Walter Cradoc yn un gyfrol 4plyg drwchus yn ei oes ef, yn cynnwys pregethau, annerchiadau, ac esponiadau ar adnodau o'r Bibl. Nid ydys yn gwybod iddo ef gyhoeddi dim yn Gymraeg ond yr argraphiadau a nodwyd, mewn cyssylltiad â gwŷr da eraill, o'r Ysgrythyrau; eithr cyfieithwyd a chyhoeddwyd rhai o'i fân draethodau ar ol iddo farw. Ymddengys mai fel pregethwr y tra rhagorai efe; ac wele dystiolaeth un o Bresbyteriaid culfarn ei oes am dano fel y cyfryw, a'i enw Thomas Edwards, yr hwn a fwriadai ei ddirmygu, ond a ystyrir gan y diragfarn, erbyn hyn, y ganmoliaeth uwchaf a ellid ei rhoddi iddo:—

"Pregethodd yn ddiweddar ar y testyn hwnw yn Heol Thames, 'Nid ydym ni o'r nos, ond o'r dydd,'* pan y traddododd syniadau i'r effaith yma: bod nos dywyll wedi bod er amser yr apostolion, neu'n ebrwydd ar ol hyny; ond yn awr bod y dydd yn tori ar ol nos hir, a bod y goleuni yn dyfod yn fwy y naill ddydd ar ol y llall, ac y deuai llawer o freintiau efengylaidd, y rhai a fwynheid genym yn y Jerusalem Newydd. *Na bydd gosodiadau i gospi dynion am ddal opiniynau* yn y dydd hwnw; na bydd cyffesion ffydd; y bydd i bawb gael rhyddid cydwybod yn ddiwahaniaeth, megis y prophwydwyd yn Michah am yr amseroedd efengylaidd hyny: 'Yr holl bobloedd a rodiant bob un yn enw ei dduw ei hun, a ninnau a rodiwn yn enw yr Arglwydd ein Duw byth ac yn dragywydd,' yr hyn a ddygodd efe o blaid rhyddid cydwybod; ac yn y dydd hwnw na byddai i nac Esgobyddiaeth, na Phresbyteriaeth, na dim arall ymyryd er rhwystro hawliau y saint. Yr oedd ganddo lawer o'r fath ffol ergydion, a thraddodwyd y bregeth yma bron yn yr amser pan y cymmerid gosodiad yn erbyn heresiau i ddadl, a phan yr oedd cyffes ffydd i gael ei dwyn i'r Tŷ Cyffredin: felly, trwy y pethau hyn a llawer yn ychwaneg, y mae ei grybwylliadau mynych am drochiad, a dïoddefaint, y fath ag fydd yn dangos beth yw blaenffrwythau y pregethwyr teithiol hyn, a pheth mor ddifrifol ydyw bod dynion o'r cyfryw egwyddorion yn myned i blith y fath bobl a'r Cymry, *gyd â chymmaint o awdurdod i bregethu ag sydd ganddo ef a'i gymdeithion.*"†

Y mae'r difyniad yna yn dangos yn bur eglur y fath wron oedd Walter Cradoc o blaid rhyddid cydwybod i bob dŷn, ac mor wrthwynebol ydoedd i unrhyw osodiadau dynol, megis cyffesion ffydd a'r cyffelyb, gael eu gosod yn lle y Bibl, na chyd âg ef chwaith, fel rheol ffydd ac ymarweddiad y Cristion. Hefyd, dengys y difyniad pa mor gul, rhagfarnllyd, hunan-dybus, a gormesol eu meddyliau oedd Presbyteriaid yr oes (gobeithio eu bod yn well erbyn hyn), ac mor eiddigus oeddynt dros osod eu Cyffes Ffydd mympwyol eu hunain, yn lle y Testament Newydd, yn safon syniadau dynion, a hyny trwy rym cyfraith y tir! Trugaredd i'r grefydd Gristionogol ydyw bod y fath blaid hunanol a gorthrymus wedi ei dïarfogi o awdurdod llywodraeth wladol.

Y mae T. Charles o'r Bala wedi cyfieithu sylwadau Walter Cradoc ar ddwy adnod yn Esaiah; a chan nad ydynt bur feithion, a'u bod yn ddangosiad eglur iawn o ansawdd efengylaidd ei bregethau, ac o ledneisrwydd tyner ei yspryd; ac o herwydd bod yr hen *Drysorfa* weithian yn bur anhyspys, heb law bod y cyfieithydd a'r awdur mor enwog, credir yr hoffa llïaws o'n darllenwyr gael y cyfansoddiad godidog:—

"SYLWADAU MR. WALTER CRADOC AR ESA. LXVI. 12, 13.

"Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd; Wele, mi a estynaf iddi heddwch fel afon, a gogoniant y cenhedloedd fel ffrwd lifeiriol: yna y sugnwch; ar ei hystlys hi y'ch dygir, ac ar ei gliniau y'ch diddenir. Fel un yr hwn y diddana ei fam ef, felly y diddanaf fi chwi; ac yn Jerusalem y'ch diddenir.

"Tractha'r prophwyd yn y bennod hon ynghylch galw y Cenhedloedd‡ trwy yr Iuddewon; pa fath amseroedd gogoneddus a fyddai'r dyddiau diweddaf, pan y byddai yr Iuddewon, y chwaer hynaf, a'r Cenhedloedd, a elwir y chwaer fechan ('Y mae i ni chwaer fechan, ac nid oes fronnau iddi:' Can. viii. 8); pan fyddai, meddaf, i'r chwaer hynaf hon, fyned a dwyn yr ieuengaf; sef pan yr aent ac y galwent y Cenhedloedd; eu porthi a'u diddanu, fel y gwna'r plant hynaf yr ieuengaf: 'eu dwyn ar eu hystlys, ac ar eu gliniau eu diddanu;' fel y gwelwn blant yn maethu eu gilydd, yn enwedig yr hynaf yr ieuengaf. Felly y byddai iddynt hwythau ddwyn eu brodyr yn offrwm i'r Arglwydd, ar fulod, ac ar anifeiliaid buain; a phan na allent fyned ar draed, byddai iddynt eu rhoddi ar feirch; ac os na allent farchogaeth, byddai iddynt gael eu rhoddi mewn cerbydau; ac os byddai y rhai hyny yn rhy arw iddynt, byddai iddynt gael eu rhoddi ar elorau meirch; hyny yw, byddai iddynt wneuthur pob peth i'w hymgeleddu, eu maethu, a'u dwyn i fynu. Gellir ymresymu yn addas, os yw y plant yn hoffi eu gilydd gymmaint ag y byddai iddynt ddwyn eu gilydd ar eu hysgwyddau, a diddanu eu gilydd ar y gliniau, pa faint mwy hoff y bydd yr Arglwydd o'r plant hyny: yn ganlynol, yn yr adnod nesaf y dywed, 'Fel un yr hwn y diddanai ei fam ef, felly y diddanaf fi chwi.' Y mae Duw yn dangos anwyldeb ei gariad at y gwreichion lleiaf o gariad yn ei blant tu ag at eu gilydd. Ond y mae ei gariad ef yn oruchel: math ar hoffder: 'Diddanaf hwynt ar y gliniau.' Paham? ai ni ddichon wneuthur iddynt ddaioni, heb eu diddanu ar y gliniau? Y mae hoffder sanctaidd, ysprydol, rhwng Duw a'i bobl: hoff ganddo hwynt, a hoff ganddynt hwy yntau. Nid pob sant sydd felly: gelli fod yn sant, ac yn ddïeithr i'r cwbl yr wyf ar fedr ei lefaru oddi wrth y testyn. Ond y mae'r fath beth, am ei fod yn sant, os yw'n wirioneddol felly, nis gellwch osod o'i flaen unrhyw ras a sancteiddrwydd, nad ydyw'n ymgais yn ddifrifol ato. Nid oes raid i chwi osod o flaen sant cywir ond gradd uwch o ras, nes y bydd yn glaf, ac ni bydd byth yn iach nes cyrraedd ato. Am hyny gosodaf ger eich bron y cyfryw dymmer sydd mewn rhai saint, fel y maent yn hoffi Duw â hoffder sanctaidd, ac nid pechadurus.

"*Yn gyntaf*, Dangosaf eu bod felly.

"*Yn ail*, Pa ffordd y mae Duw yn gwneuthur i'w bobl ei hoffi.

"1. Y peth cyntaf yw hyn: ni oddef plentyn hoff i'w

* "Nid ydym ni o'r nos, nac o'r tywyllwch," ydyw yr adnod yn Gymraeg a Saesneg (1 Thes. v. 5).

† Gangræna, ed. 1646, part iii., p. 163

‡ Yr oedd Mr. Charles y pryd hyn (1813) yn bur hoff o lythyraeth fympwyol y Dr. Puw; am hyny ni ddilynir ei lythyraeth, eithr cedwir at ei eiriad yn ofalus.

dad fyned byth o'i olwg. Anwylyd, geill un fod yn sant, ac etto heb weled ei dad, fel plentyn gyd â'r fammaeth, ond unwaith y chwarter, neu'r cyffelyb. Peth cyffredin gan y saint yw gweled eu Tad, os hapia, dan y cyfryw bregeth, neu yn y cyfryw ordinhâd, neu'r cyfryw ystafell ddirgel, pan y buont yn hunan-ymholi; a hwyrach nas gwelant ef bythefnos gwedi hyny; ac ymdarawsant â'r gras a dderbyniwyd, gyd â theimlad o gariad Duw, pan y'i gwelsant, gyd âg ychydig gymmorth oddi wrth y creadur a chysuron y byd, i ymgynnal nes y gwelont ef drachefn: dyma fywyd y rhan fwyaf o saint. Ond y mae'r fath dymmer gan rai saint, fel nas goddefant i Dduw fyned un funud o'u golwg heb waeddi ar ei ol. Fy meddwl yw, mewn gair, y mae'r fath dymmer meddwl, neu agwedd yspryd, pe buasit ti a minnau gwedi ei gyrhaeddyd, nad eill Duw byth fyned allan o olwg; ond yr ydwyf bob amser yn ei ganfod, ac yn ei weled ef bob amser yn fy sylwi i, fel yr wyf yn wastad gyd âg ef. Gwelwch hyn yn y saint: plentyn hoff oedd Dafydd: 'Dealli fy meddwl o bell: nid oes air ar fy nhafod, ond wele, Arglwydd, ti a'i gwyddost oll. Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad. I ba le y ffoaf o'th ŵydd?' Nid mewn ffordd ragrithiol, fel y ffoai oddi wrth Dduw. 'Pan ddeffrowyf, gyd â thi yr ydwyf yn wastad. Pan elwyf allan, gosodais Dduw ar fy neheulaw, fel na'm hysgogir,' Ps. cxxxix. Pan fyddo dŷn bob amser yn y golwg; pan fyddo llygad Duw bob amser arno, a'i lygaid yntau bob amser ar Dduw, pa fath beth gwynfydedig ydyw! Y cyfryw sant, os cuddia Duw ei wyneb oddi wrtho, efe a fydd helbulus; os â Duw allan un awr oddi wrth y cyfryw, y mae'n barod i grïo allan ei galon, fel y gwna plentyn maldodus [moethus]. Yr achos paham y mae cymmaint o gnawdolrwydd yn y saint, ac y gwnant gynnifer o bethau ansanctaidd fel dynion y byd: paham? am eu bod yn myned tu cefn i Dduw, ac yn meddwl bod Duw yn cysgu yn y cyfamser, ac y gallant hwy wneuthur eu gorchwyl. Ond Joseph a ddywedai, 'Pa fodd y gallaf wneuthur y mawr-ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw!' Yr oedd Duw yn ei olwg tra'r oedd gyd â'r ddynes druenus honno. Geill Duw fod allan o olwg, ac etto eich bod yn saint; ond y mae bywyd mwy gogoneddus, pan y rhodia dŷn yn wastad gyd â'r Arglwydd: Duw yn ei weled ef, ac yntau yn canfod Duw. Yn awr, ymddiddan â'th galon ychydig, ac edrych beth yw dy dymmer, a dy ffordd; ac os nad ydwyt yn cael dy hun felly, dywed wrth Dduw, 'Dywedodd y gweinidog fod rhai saint yn byw yn ogoneddus; ac y mae'n hoff ganddynt Dduw; y maent yn wastad gyd âg ef, ynghwsg ac yn effro, yn y gwely ac wrth y bwrdd; nid ydynt un amser allan o'i olwg: Arglwydd, gwna fi y cyfryw!'

"2. Peth arall am y sant sydd yn hoff ganddo Dduw: nis boddlona un creadur ef. Y plentyn nad yw hoff ganddo ei fam, gellwch roddi iddo ugain o deganau tra'r elo ei fam i'r farchnad, neu ynghylch rhyw beth arall; ond os yw mewn hoffder, ni wna mil o'r cyfryw bethau ei foddloni. Felly y rhai hyn: y mae ganddynt lawer o Dduw, ac ychydig o'r creaduriaid. Geill dŷn fod yn sant gwirioneddol, ac etto byw llawer yn y creadur. Ond pan fydd enaid wedi cyrraedd i hoffder ysprydol, ni wasanaetha creaduriaid a theganau mo hono. Os rhydd Duw y creadur yn ei law, y mae'n ddïolchgar; ond os bydd Duw yn absennol, nid oes dim a'i boddlona. Fel plentyn hoff ganddo ei fam, rhoddwch iddo rugl-degan neu chwïogen, tra byddo ymreichiau ei fam, y mae'n llawen; ond nid oes a'i llonydda hebddi.

"3. Y mae hyfder mawr mewn plentyn hoff, i ofyn peth gan ei dad; y cyfryw hyfder ag a fuasai mewn arall yn anfoesgarwch: eistedd plentyn ar liniau ei fam, ac a gipia unrhyw beth allan o'i llaw. Felly y dichon dynion siarad am ffurfiau, pa fodd y mae i ddynion weddïo, a bod iddynt sefyll hanner awr i addef eu pechodau, ac felly dyfod ym mlaen yn raddol; ond un sydd hoff ganddo Dduw, gyd â hoffder sanctaidd, gŵyr y gall neidio ar liniau ei Dad un amser, a syrthio i'w freichiau, a gofyn un peth ganddo, heb ddyganlyn a rhodres. Y mae rhai saint nas gallant un amser fyned at Dduw i ofyn un peth ganddo, heb fod ganddynt lawer o boen i drefnu eu calonau, a chael yr euogrwydd ymaith, sydd fel cwmmwl rhyngddynt a Duw; ac y mae arnynt drafferth fawr i gael ychydig o yspryd mabwysiad i alw Duw yn dad, ac i ddal gafael ar ei addewidion; ond y mae'r cyfryw hoffder sanctaidd nad oes angen am hyn oll; y mae'r fath gyfrinach rhwng Duw a'r enaid, ac yn wastad gyd â'u gilydd, fel cyn gynted ag y delo, y gall ofyn un peth, a chyd â hyder sanctaidd, ei gipio, megis, 'Yr ydym yn treisio teyrnas nefoedd; a threiswyr sydd yn ei chipio hi,' Mat. xi. 12. Hyder sanctaidd ydyw hwn! Fel plentyn yn ymlusgo i fynwes ei fam, ac etto am fod cariad tu mewnol, y mae yn ei oddef, ac yn gwenu yn ei wyneb. Y mae'n brawf o agosrwydd mawr at Dduw, pan fyddo un yn wastad yn barod i ofyn un peth ganddo. Sylwais ar yr eneidiau sydd ymhell oddi wrth Dduw, rhaid iddynt yn wastad fyned ar eu gliniau; ond enaid sydd agos at Dduw, geill weddïo yn sefyll, neu yn rhodio, neu yn siarad, fel y gŵr duwiol hwn y darllenwch am dano yn llyfr Ezra, geill weddïo heb dynu ei het, neu weddïo yn ei wely, neu lle mynoch, pan fyddo mewn cymdeithas â Duw. Nid yw'n diystyru defodau crefyddol; ond geill gymdeithasu â Duw ynddynt, a hebddynt hefyd. Peth gogoneddus iawn ydyw, a gras a ganfyddais mewn rhai saint; ac y mae fy enaid yn glaf am dano; enaid yn wastad yn y cyfryw agwedd, fel y geill ddywedyd gair ysprydol un amser; fel y dywedwyd am Bradford, bod ei galon mor gyfeillgar â Duw, fel y gallai ddywedyd yn y munud am bethau Duw. Crefyddwr gwan sydd yn gweddïo, ac y mae'n ymdrech caled yn y ddyledswydd y borau; yna yr â tu cefn i Dduw trwy'r holl ddydd hyd y nos: oni rydd heibio ei hollwaith a myned ar ei liniau: nis gall weddïo wrth brynu, gwerthu, a marchnata.

"4. Y mae mewn plentyn hoff ryw ddïofalwch sanctaidd, yn bwrw ei hun, ei gorph, ei enaid, ei deulu, ei fasnach, ei achosion, a'r cwbl ar Dduw: 'Na ofelwch am ddim.' Nid i wneuthur Cristionogion dïofal; ond y mae yn wir mewn un ystyr: pan mewn dïofalwch sanctaidd, y mae dŷn yn bwrw ei hun ar Dduw. Eich gwendid sydd yn peri llawer o'ch amheuon ynghylch gras, iachawdwriaeth, a chyfiawnhâd: plentyn hoff Duw a chwardd arno: geill ddyfod yn agos at ei Dad, a dal gafael arno, a dywedyd, 'Mi a wn i bwy y credais;' 'Mi a wn i bwy yr ymddiriedais.' Sant gwan nid yw'n gofalu ond ychydig am wasanaeth Duw; ond y mae'n gofalu llawer am ei ddïogelwch a'i iachawdwriaeth ei hun; ond sant cryf a ofala lai am ei iachawdwriaeth ei hun, ond a feddwl lawer am wasanaeth ac achos Iesu Grist: canys, medd efe, edryched Iesu Grist am hyny: bu farw dros fy enaid, ac addawodd ei dderbyn, ac a ddywedodd, 'Yr hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf ef allan ddim.' Bwriais fy enaid arno; soddi neu nofio, ni thrafferthaf ynghylch hyny; ond fy holl ofal a fydd, pa fodd y boddlonaf Iesu Grist, y caraf, ac y gogoneddaf ef. Gradd hyfryd o ras yw pan allo sant ddyfod i'r dïofalwch sanctaidd hwnw, fel nad ydyw amheus feddylgar am ei enaid, ond wedi ei ddwyn at Iesu Grist, ei adael yno, heb feddwl am dano, ond meddwl am waith ac ewyllys Crist, a pha fodd i'w anrhydeddu ef. Mewn perthynas i'm corph a'm henaid, fy ngofal a ddylai fod, nid gymmaint pa un a fyddaf gadwedig neu yn golledig; mi a wn i bwy y rhoddais fy hun; ond fy ngofal a ddylai fod, pa fodd y rhodiaf yn fwy sanctaidd i ryngu bodd Crist, ac er adeiladaeth ei eglwys a'i deyrnas: hyn a wna plentyn hoff ganddo Dduw.

"5. Y sant sydd hoff ganddo Dduw yn Iesu Grist, a wêl rywbeth o Dduw ymhob peth. Megis y dywedant am gariad, ni wêl un mewn cariad ddim â'i lygaid, ac ni chlyw ddim â'i glustiau, ond cariad; felly sant sydd

Digitized by Google

hoff ganddo Dduw; dygwch fwyd iddo, gwêl gariad Duw yng Nghrist ynddo; dygwch ddillad iddo, neu ryw beth, y mae ei lygaid yn syllu mwy ar gariad Duw yng Nghrist nag ar y peth. Fel yr Eglwys yn y Caniadau (canys y Caniadau sydd lyfr am fwynserch Crist a'i bobl at eu gilydd), y mae'n clywed un yn *siarad;* dilys genyf, meddai, mai llais fy anwylyd yw: mor hoff oedd ganddi ef, fel nas gallasai glywed un yn siarad heb feddwl mai ei *hanwylyd oedd.* Pan yr edrychai ar y rhodfëydd a'r dellt, dïogel genyf, meddai, bod fy anwylyd yn edrych trwy'r dellt; a phan y cysgai, yr oedd ei chalon yn effro. Hyfryd yw, pan nad yw y llygaid yn canfod pethau ynddynt eu hunain, ond felly fel y canfyddom Dduw ymhob peth. Canfyddwch hyn wrth amrywiol agweddau eich meddyliau, weithiau yn fwy ysprydol, ac weithiau yn fwy cnawdol: pan fyddoch yn fwy cnawdol, yr ydych yn arfer mwy o'r creaduriaid, heb ganfod Duw mewn dim; ond pan fyddoch yn ysprydol, canfyddwch Dduw a'i gariad yng Nghrist ymhob peth.

"Gan y dymunaf eich gadael yn hiraethu am dano, dangosaf i chwi yn awr y modd y mae Duw yn dwyn ei blant i'r hoffder sanctaidd hwn: gobeithiaf y gadawaf rai yn glaf nes y gweithio Duw yr agwedd nefolaidd hon ar eu heneidiau. Ni chaf enwi ond pedwar peth :—

"1. Y mae Duw yn argyhoeddi y saint mai cwbl wagedd yw pob creadur ymhob cyflwr: hyd hyny nis bydd byth yn hoff o Dduw. Y mae Duw yn ei adael i brofi y naill greadur ar ol y llall, ac yna y cenfydd y gwagedd o honynt. Y mae Duw yn ei roddi yn y naill gyflwr ar ol y llall. O! medd y sant, pan fyddo glaf, pe bawn iach, gorfoleddwn a gogoneddwn Dduw: y mae Duw yn rhoddi iechyd iddo, ac yna y mae mewn gwaeth tymmer nag o'r blaen. Pan fyddo dlawd, medd efe, pe byddai genyf ddigon i dalu fy nyledion, a gosod i fynu mewn bywioliaeth yn daclus, yna gwasanaethwn Dduw: y mae Duw yn ei osod i fynu, ac yn gadael i'w galon fyned ar ol cybydd-dod, ac yn dywedyd wrtho, A weli di ddim dy fod yn waeth nag o'r blaen? Felly y mae Duw yn ei ymlid o'r naill greadur i'r llall, ac o'r naill gyflwr i'r llall. Os myn fod yn y wlad, argyhoedda Duw ef y byddai yn waeth nag yn y dref. Yn y diwedd y dywed, Arglwydd, profais ac ymlidiais bob peth, a chanfyddaf yn awr nad ydynt ond cwbl wagedd. Weithiau pan yw glaf yn ei gorph, ac yn ddychrynllyd yn ei enaid, y mae Duw yn ymddangos yn ogoneddus iddo, ac yn gwneuthur y cyflwr gwaelaf yn well na'r gorau; nes yw yn gorfod dywedyd, Nid wyf yn gofalu pa gyflwr, pa un ai mewn carchar ai mewn rhyddid, tlawd neu gyfoethog, iach neu glaf, os datguddia efe ei hun i'm henaid. Ni bydd byth yn hoff genych Dduw nes yr argyhoedder chwi o wagedd pob cyflwr, a phob creadur, ac yn ddifatter pa greaduriaid sydd genych neu nad ydynt, gan eich bod yn canfod mai 'Duw sydd bob peth, ac ymhob peth:' fel y byddo Duw yn y peth, neu na byddo, felly y mae'n felus neu yn chwerw, yn dda neu yn ddrwg.

"2. Y mae'r Arglwydd yn tywallt ei gariad yn eu calonau (Rhuf. v. 5): y mae yn ei dywallt fel pe tywalltech grwc o ddwfr. Y mae Duw yn gorlenwi y galon felly â'i gariad, fel nad oes mwyach yn aros yn yr enaid nac euogrwydd, na chaledrwydd, nac ofn, nac ysbryd caethiwed. Arglwydd, paham na bai yn fwy hoff genyf Dduw? Paham na fyddai yn fwy anwyl genym? Yr achos yw, am fod genym aml feddyliau caledion am dano; a dichon fod yn elyn yn gystal ag yn gyfaill; ac nis gwyddom beth y mae yn ei feddwl. Yr ydym yn edrych arno fel â ffon yn ei law i'n taro. Y mae llawer o'r cyfryw feddyliau yn yr enaid, yn enwedig mewn cystudd: rhai sydd barod i ddywedyd, 'Cafodd Duw fi allan fel rhagrithiwr, ac y mae yn rhoddi ei bläau arnaf.' Ond y mae'r Arglwydd yn dyfod at rai o'i blant, ac yn gorlenwi eu calonau felly â'i gariad, fel nad oes un meddwl na dychymyg ynddynt ond am ei gariad ef: y maent yn ei hoffi. Canys pan welant gariad pur yn Nuw, a dim ond egwyddor o gariad pur ynddynt hwy tu ag ato ef, beth a all attal fel na byddo hoff ganddynt eu gilydd? Pe byddai gwraig yn toddi ymenyn (i ddefnyddio cyffelybiaeth dra chyffredin), os tyn ef oddi ar y tân yn rhy fuan, bydd cnap yn aros heb ei doddi, a chynhydda, gan ei dynu oddi ar y tân, nes y byddo'r cwbl yn galed: felly sant gwan, wrth fyfyrio ar addewidion a chariad Duw, bydd ei galon yn toddi; ond etto erys rhai meddyliau caledion am yr Arglwydd, rhai ofnau ac amheuon: ond y mae Duw yn dyfod o'r diwedd, ac yn toddi yr holl gnapiau yn y galon; yr holl feddyliau a'r dychymygion o ofnau, a dychrynfëydd, fel y mae gwyddor gywir, bur, o gariad at Dduw: yna y mae'r enaid yn ei hoffi. Y mae Duw yn hoffi dwyn ei blant i fynu i fod yn fwy mewn cariad âg ef, fel, pe taflai hwynt i'r cyflwr mwyaf gresynol o ran corph ac enaid, a gofyn iddynt, Beth a feddyli am danaf yn awr? yr ettyb yr enaid 'Cariad yw y cwbl.' Anwylyd, llawer a ddeuant i wrando, a'r cwbl a welaf fi ynddynt yw, os bydd un peth dadleuol, ymddadleuant ynghylch hwnw pan ddeuant adref; ond gosodwch chwi, fel Mair, y pethau hyn yn eich calon, a gweddïwch ar yr Arglwydd eich dyrchafu i'r bywyd nefolaidd a hyfryd hwnw, a ellwch gyrraedd ato yn y bywyd hwn.

"3. Argyhoedda Duw ef o fuddugoliaeth gyflawn ar ei holl elynion. Ni bydd plentyn Duw byth yn feddiannol o'r hoffder hwn nes yr adnabyddo ei fod yn ddïogel, ac y dangoso Duw iddo trwy ei Yspryd ei fod yn fwy na choncwerwr ar ei holl elynion. Dywed Daniel i Grist ddyfod 'I ddwyn cyfiawnder tragywyddol, ac i ddibenu camwedd.' Y mae'r saint yn canfod trwy ffydd ddibenu camwedd, ac y troir ef allan i'r drws, yr un fath ag uffern, damnedigaeth, digofaint, a'r felldith. 'Rhyddhaodd ni,' medd ffydd, 'o ddwylaw ein holl elynion, i'w wasanaethu ef yn ddi ofn.' 'Sathr hwynt yn lludw,' medd Malachi, 'dan wadnau eich traed chwi.' Y mae gras a phechod, weithiau, fel yr aderyn a'r gwalch, yn ymgais i ehedeg yn uwch na'r llall; un am ddïogelwch, a'r llall am ysglyfaeth. O, medd gras, mi a fynnaf fod yn sanctaidd: medd pechod, Ti a gei fod yn gybyddlyd. Mi a weddïaf, medd gras: Ti gei fod yn eiddof fi, medd pechod. Yna goruwch eheda gras ar bechod, i'r man lle y mae cyfiawnder yn cartrefu, y deyrnas ddisigl, lle y gwêl ei holl elynion is ei law; ie, hyd yn oed pan fyddont yn cynddeiriogi fwyaf.

"4. Ac yn olaf, Er yr holl bethau hyn, nis gallai yr enaid fod yn hoff o Dduw, ond fel y rhoddo Duw iddo amgyffred ysprydol o'r cyfammod newydd: heb hyn, y gelynion a oruwch eheda yr enaid. Y mae'r cyfryw agwedd boenus a chyffrous ar yr enaid, weithiau, fel nas dichon dim yn y byd roddi boddlonrwydd iddo: y mae pechod, y mae profedigaeth, a hwyrach poen y corph; a pha le y mae Duw, a'r Yspryd, neu unrhyw gynhorthwy? Geill Duw gynnorthwyo, ond pwy a ŵyr y gwna efe hyny yn awr yr ydwyf yn nwylaw fy ngelynion? Yna daw y cyfammod i mewn. Gwir, medd yr enaid, yr ydwyf yn nwylaw fy ngelynion; a gallasai Duw, pe buasai yn dewis hyny, beidio fy nghynnorthwyo; ond y mae'n rhwym wrth gyfammod tragywyddol i'm helpio. Amser a fu pan y gallasai Duw fy mwrw ymaith i uffern, ac nid oedd yn rhwym i'm hachub; ond y mae pethau wedi cyfnewid yn awr, ac y mae Duw yn rhwym i'm hachub. 'Er nad yw fy nhŷ i felly gyd â Duw,' medd Dafydd, 'etto cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr: canys fy holl iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw.' Nid oes gan yr enaid yn aml ddim i'w gysuro ond y cyfammod; bod Duw wedi ei rwymo ei hun i'w bobl: nis geill, pe mynnai, eu gadael, o herwydd ei ffyddlondeb. Gadewch i ni edrych i mewn ychydig i'r cyfammod hwn. Yr ydym ni yn dueddol i fesur Duw wrthym ein hunain; ac yn barod i olygu ein meddyliau ni fel meddyliau Duw, a meddyliau Duw fel ein meddyliau ni; gan hyny y mae

Digitized by Google

Duw yn foddlawn i ymostwng atom yn ein ffordd ein hunain. Gan fod Duw gwedi trefnu ffordd o iechydwriaeth cyn dechrau y byd, nid oes achos ofni na ddwg Duw ni trwodd; ond ewyllysiodd Duw ddyfod atom yn ein ffordd ein hunain, a chymmeryd y ffordd honno yr ymddwyn y naill ddŷn tu ag at y llall. Gan ein bod yn dueddol o fesur Duw wrthym ein hunain, y mae'n dyfod ac yn llefaru; os na wna hyny y tro, y mae'n tyngu; ac os bydd hyny yn rhy fach, y mae'n dwyn cyfammod a sêl; ac yna gyd â dynion y mae un yn ddiogel. Yr oedd gair Duw yn ddigon; ond fel y caffem gysur cryf, rhaid dangos sylfeini addas i'r cysur hwnw: yna y mae Duw yn llefaru, yn tyngu, yn gwneuthur cyfammod, yn ymrwymo, fel y gallem ni ei weled yn rhwym. Am hyny y dywed yr Apostol wrth y Galatiaid, 'Cyd na byddo ond ammod dŷn, wedi y cadarnhaer, nid yw neb yn ei ddirymu.' Daethum i lawr, medd Duw, a gwneuthum fel dynion; ac nis geill neb ei ddirymu, er eich mwyn chwi. 'Ac y mae tri yn tystiolaethu;' ac y mae hyny yn ddigon ymhlith dynion: na feddyliwch, gan hyny, nad yw fy nghariad yn ddilys hyd y diwedd. Felly cysura hyn y Cristion pan fyddo yn yr hwp olaf: nid, geill Duw, os myn, fy achub; ond y mae'n rhaid iddo; y mae'n rhwym. Y mae'n druenus ar ddŷn yn nwylaw mil o eneidiau, pan nas gallo ond dywedyd, 'Hwyrach yr achub Duw fi;' ond pan ganfyddo fod yn rhaid iddo; bod cyfammod wedi ei wneuthur, ac wedi ei selio â gwaed Crist, ac nas gellir ei dori; a chyfammod yw i'm hachub i'w deyrnas dragywyddol. Y mae hyn yn rhoddi cysur cryf." *

Os cofir bod Walter Cradoc yn ddŷn bywiog a doniol, a'i enaid yn llawn tân areithyddol, ac awydd angerddol am achub ei gyd-ddynion, gellir cael rhyw syniad am yr effeithiau rhyfeddol a gydgerddent â'r fath bregethau efengylaidd a'r un uchod.

---

## PENNOD VII.

### JOHN MILTON.

Y MAE genym amryw resymau dros gyfleu y gorenwog JOHN MILTON (Ioan Miltwn) ymhlith "Enwogion y Ffydd" Cymreig. Ym mlaenaf oll, ond odid, dylid crybwyll yr ymddengys bod ganddo hawl fel CYMRO i fod yn eu plith. Gan fod y Dr. Johnson yn preswylio yn Llundain, lle y ganwyd Milton, ac mewn cyfleusdra i ymgynghori â holl hen ysgrifeniadau y brif-ddinas, yn yr Amgueddfa Frytanaidd, a manau eraill, y mae'n ddïau fod ganddo sail i'r dystiolaeth ganlynol a draetha am rieni a hynafiaid y bardd:—

"JOHN MILTON ydoedd foneddwr o enedigaeth, yn disgyn o berchenogion Milton, ger llaw Thrame, yn sir Rhydychain, un o'r rhai a fforffetiodd ei etifeddiaeth yn amseroedd Caerefrog a Chaerwerydd. Pa ochr a gymmerth efe, nis gwyddom; ond ni choleddai ei ddisgynydd [y bardd] ddim parch at y Rhosyn Gwyn.† Ei daid, John, ydoedd geidwad Shotover,* Pabydd zelog, yr hwn a ddïetifeddodd ei fab o herwydd iddo wrthod crefydd ei hynafiaid. . . . Efe [tad y bardd] a briododd foneddiges a'i henw Caston,† teulu Cymreig, o'r hon y cafodd ddau o feibion, John, y bardd, a Christopher, yr hwn a fyfyriodd y gyfraith, ac a ymlynodd, fel y dysgai y gyfraith ef, wrth blaid y Brenin [Charles I.], o blegid yr hyn yr erlidiwyd ef dros amser; ond wedi cael caniatâd, trwy ddylanwad ei frawd, i fyw yn dawel, cynhaliodd ei hun yn anrhydeddus fel cynghorwr cyfrinachol, ac yn fuan ar ol esgyniad Iago, gwnaed ef yn farchog ac yn farnwr; ond o blegid bod ei gyfansoddiad yn rhy wan at lafur, efe a ymneillduodd cyn i unrhyw ymostyngiad dianrhydeddus fod yn angenrheidiol." ‡

Heb law bod Milton, y bardd, yn Gymro o du ei fam, yr oedd yn ddŷn duwiol iawn, yn Buritan ymroddgar; a dïau iddo wneud llawer o blaid gwlad ei fam, er ei gwareiddio a'i hefengyleiddio, tra yr oedd yngwasanaeth Cromwel, fel y crybwyllwyd eisoes wrth ysgrifenu ar y gŵr enwog hwnw, ac y ceir gweled etto yn helaethach.

Hefyd, y mae prif waith John Milton, sef "Coll Gwynfa," § y gân Gristionogol nad oes mo'i chyfartal yn yr holl fyd, wedi cael ei chyfieithu yn gyflawn, ddwy waith, i'r iaith Gymraeg, yr hon gân, ynghyd â'r cyfieithiadau, a ddeuant dan sylw manylach rhag llaw.

Y mae'n amlwg mai mab hynaf ceidwad Shotover oedd John, tad y bardd, yr hwn a ddïetifeddwyd gan ei dad Pabyddol am iddo droi yn Brotestant. Wedi i'r gŵr ieuangc dderbyn y driniaeth greulawn honno gan ei dad dïalgar a chulfarn, yr hyn a ddigwyddodd, fel yr ymddengys, cyn iddo orphen ei efrydiaeth yn Athrofa Rhydychain, efe a aeth i Lundain, lle, trwy gynhorthwy cyfaill o'r un alwedigaeth, yr ymsefydlodd fel un a elwid y pryd hwnw yn ysgrifenydd, math ar safwerydd cyfreithiol,‖ yr hwn, heb law masnach ei fasnachdy, a weithredai hefyd fel trosglwyddwr¶ ac fel bangcer (arianydd). Yr oedd y gorchwyl mor flodeuog yn amser tad y bardd fel y cafodd y gorphoraeth newydd, yn 1616, freinlen frenhinol, gan eu bod y pryd hwnw, medd y freinlen, yn fwy lliosog nag erioed, ac yn gweithredu mewn gorchwylion o bwys ac ymddiried mawr. Llwyddodd mab dïetifeddedig ceidwad Shotover, ond o addysgiad da, cam cyntaf

* Trysorfa 1813, t. 292, 335.

† Arwydd teulu Caerefrog (York) oedd Rhosyn Gwyn, a theulu Caerwerydd (Lancaster), sef plaid Harri Tudur (Henry VII.), a wisgent Rosyn Coch.—Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 307.

* Saif Coedwig Shotover ymhlwyf Halton, yn sir Rhydychain, o fewn tu a phum milltir i ddinas Rhydychain.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 409.

† Ymddengys mai cyfenw mam y bardd oedd CASTON, canys dywed Wright mai ei henw priod oedd Sarah, enw pur arferedig ym mysg y Cymry.—Royal Dict. Cycl., vol. iii., p. 914.

‡ Johnson's Lives of the English Poets. London ed. 1838, p. 34; Coll Gwynfa; Buchedd J. Milton, gan I. D. Ffraid, t. i.

§ Paradise Lost.

‖ Law Stationer. ¶ Conveyancer.

Digitized by Google

yr hwn mewn bywyd a ddangosodd y fath ffyddlondeb ac egwyddor onest, ynghyd â dïysgogrwydd meddwl, fel y bu yn alluog yn lled fuan, fel y dywed Aubrey, i brynu "etifeddiaeth ddigonol." Mewn gwirionedd, dengys pob peth a gofnodwyd am dad y bardd ei fod yn ddŷn cywir, egwyddorol, a gwir alluog, a'i fod yntau yn defnyddio yr hyn oll a ddododd Rhagluniaeth dan ei law yn y modd gorau. Parhaodd i goethi ei feddwl, oedd wedi cael y fath gychwyn da yn yr ysgolion a'r brif-athrofa. Dywedir ei fod yn fardd go wych, ac yn un o gerddorion gorau ei oes. Y mae'n amlwg fod y cnewyllyn a ymddadblygodd mor odidog, mewn ystyr foesol a meddyliol, yn ei fab enwog, ynddo yntau ei hun. Y mae'n dra sicr hefyd bod mam y bardd yn wraig enwog,* canys pur anfynych, os un amser, y cafwyd mab neu ferch gwir alluog o fam anenwog. Yn wir, y mae Milton, yn y "Defensio Secunda" (Yr Ail Amddiffyniad), yn disgrifio ei fam fel y wraig enwocaf, ac yn nodedig o ran ei helusenau yn yr ardal. Ond y mae'n dra thebyg mai oddi wrthi hi y cafodd Milton, druan, wendid golwg, cystal a rhan helaeth o nerth meddwl; a therfynodd gwendid naturiol ei lygaid ef, cystal a gormod ymroddiad i ddarllen yn y nos (hyd hanner nos ac un o'r gloch yn y borau) pan yn ieuangc iawn, mewn cwbl ddallineb. Dywed Aubrey bod ganddi hi lygaid gweiniaid iawn, ac y defnyddiai ddrych-wydrau yn ebrwydd ar ol pasio ei degfed flwyddyn ar hugain, pan y gallai ei dad ddarllen heb wydrau pan oedd yn 84 oed.

JOHN MILTON, awdur y gân arwrol Gristionogol benaf yn yr holl fyd, a anwyd yn nhŷ ei rieni, yn Spread Eagle, Bread Street, Llundain, ar y 9fed o Ragfyr, 1608. Felly ganwyd ef yn yr un flwyddyn a'r enwog Walter Cradoc, gwrthrych y bennod flaenorol. Yn y flwyddyn hon hefyd, a'r ganlynol, y ganwyd llu o enwogion eraill a gofnodir rhag llaw.

Yn Aubrey, cydoeswr Milton, y ceir y sylw boreuaf am dano, yr hwn a ddywed iddo gael tynu ei lun yn 1619, pan oedd efe o gylch deg oed; ac yr oedd yn fardd eisoes, neu o leiaf yn ysgrifenydd pennillion. Y mae'r darlun hwnw, a amserwyd yn 1618, ar gael yn awr, mewn olewliwiad, a wnaed, fel y credir, gan Cornelius Jansen, yr hwn a ddaethai yn ddiweddar y pryd hwnw o'i ddinas enedigol, Amsterdam, Hòland, ac a ymsefydlodd yn Blackfriars, Llundain, lle y cafodd gyflawnder o waith paentio lluniau yn ebrwydd am brisiau uchel. O berthynas i'w ddysg boreuol, dywed Milton ei hun yn un o'i draethodau,† "Yr wyf fi, er fy mlynyddoedd cyntaf, trwy ddiwydrwydd a gofal diorphwys fy nhad (Duw a dalo iddo), wedi cael fy arfer mewn ieithoedd a rhai gwybodau,‡ yn ol fel y goddefai fy oedran, gan feistriaid ac athrawon, gartref ac yn yr ysgolion." Un o'i athrawon y pryd hyn, y cafwyd ei goffadwriaeth gan ei ddisgybl enwog mewn galarnad Ladin a gyfeiriwyd ato rai blynyddoedd wedyn dan yr enw Thomas Junius, oedd Thomas Young, brodor o sir Perth, ac ysgolor o brif-ysgol St. Andrews, yr hwn oedd yn dra adnabyddus yn y rhan olaf o'i oes fel duwinydd Puritanaidd. Ryw bryd cyn y flwyddyn 1620, tra nad oedd Milton yn llawn 12 oed, anfonwyd ef i ysgol St. Paul oedd yn y gymmydogaeth, yr hon oedd, ac sydd fyth, yr enwocaf o athrofâu Llundain; ac yma yr arhosodd nes yr aeth i goleg yn 1625. Derbyniwyd ef fel heilydd§ (y radd a gymmerid yn gyffredin gan feibion boneddigion) i Goleg Crist, Caergrawnt, ar y 12fed o Chwefror y flwyddyn honno. Y mae efe ei hun wedi cadw ac argraphu ei brydyddiad o ddwy Psalm (y 114edd a'r 136fed) a wnaed ganddo, eb efe, yn y 15fed flwyddyn o'i oedran. Dyma'r esamplau boreuaf sydd wedi eu cadw o'i brydyddiaeth; ac y mae'r olaf, yn neillduol, yn rhyw ragarwydd o'i enwogrwydd dyfodol. Bu yng Nghaergrawnt hyd Orphenaf, 1632, pan yr ymadawodd gyd â'r radd o M.A. Y mae'r cof am ei yrfa o saith mlynedd yn y brif-ysgol yn gynnwysedig bron yn hollol mewn cyfres o gyfansoddiadau prydyddol yn Lladin a Saesneg, y rhai sy'n dangos yn well na dim arall ei gynnydd mewn medr prydyddol a nerth meddwl. Ymhlith y rhai hyn y mae ei gânig brydferth, y gyntaf yn yr hon y mae ei athrylith yn ymddisgleirio yn ddiffael, "Ar Farwolaeth Baban Prydferth" (plentyn ei chwaer, fel y tybir), yr hon a ddyry efe ei hun yn ei eilfed flwyddyn ar bymtheg; ei alarnadau Lladin ar esgobion Caerwynt (Andrews) ac Ely (Felton); amryw epistolau galarnadol Lladin i'w hen athraw

* Ceisia y Saeson diweddar, a ysgrifenasant ar Milton ar ol y Dr. Johnson, haeru na ŵyr neb yn awr o ba genedl ydoedd, a pha un ai Haughton ai Caston; ond mai fel Mrs. Jeffrey, gweddw, yr adnabyddid hi pan y'i priodwyd gan dad y bardd.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 410.

† "The Reason of Church Government" (Y Rheswm dros Lywodraeth Eglwysig) a gyhoeddwyd gyntaf yn 1641. See Milton's Church Question. Edinburgh ed. 1836, p. 107.

‡ Sciences: Gwybodau a Chelfyddydau, Sciences and Arts.

§ Sizar.



Digitized by Google

Young, ei gyd-ddisgybl Charles Diodati gynt, ac eraill yn 1627, a'r blynyddoedd dyfodol; ei Ymarferion yn Nyspeidiad ei Goleg, yn cynnwys ei annerchiad nodedig i'w iaith enedigol, yn ei 19edd flwyddyn; ei gân odidog "Ar Forau Genedigaeth Crist," a gyfansoddwyd yn 1629; ei gân "Ar y Dïoddefaint," "Ar Amser," "Mewn Cerddoriaeth Ddifrifol," a'i bennill "Ar Shakspeare," y rhai oll a ddyry efe yn y flwyddyn ganlynol; ei bennillion ar Hobson, cludydd y brif-ysgol, ac ar Ardalyddes Caerwynt, yn 1631; ac, yn olaf, ei gân ar orpheniad ei drydydd flwyddyn ar hugain yn 1632.

Tybir nad oedd Milton yn dygymmod yn dda iawn â'i athraw cyntaf yn y coleg, sef y Parch. William Chappel, yr hwn a ddyrchafwyd wedi hyny, trwy nawddogaeth Laud, i swydd cynfaer Coleg y Drindod, Dublin, ac yna i esgobaeth Cork; a thybir mai efe oedd awdur "Holl Ddyledswydd Dŷn." Dywed Aubrey fod gwrthwynebydd mawr dyfodol Brenhiniaeth ac Esgobyddiaeth wedi cael ei ddarostwng i'r sarhâd o gael cerydd personol gan ddilynwr Laud. Pa wedd bynag, y mae'n hyspys iddo gael ei drosglwyddo y flwyddyn gyntaf, braidd yn afreolaidd, i athraw arall a'i enw Nathaniel Tovey. Ond y mae'n amlwg i hyn oll gael ei anghofio yn fuan, canys y mae Milton ei hun, mewn traethodyn a gyhoeddodd yn 1642, yn gwrthddywedyd yn bendant y cyhuddiad ddarfod iddo gael ei fwrw o'r athrofa; ac yn ei Ail Amddiffyniad, 1652, y mae yn symio hanes ei holl arhosiad yng Nghaergrawnt i fynu fel hyn (a defnyddio cyfieithiad llythyrenol Mr. Masson o'r ymadrodd):—

"Myfyriais yno dros saith mlynedd y ddysgeidiaeth a'r celfyddydau a ddysgir yn gyffredin, ymhell oddi wrth bob drygioni, ac yn gymmeradwy gan bob dynion da, hyd yn oed nes cymmeryd o honof yr hyn a elwir 'gradd athraw,' a hyny gyd â chlod. Mi . . . euthum adref o'm hewyllys fy hun, gan adael yn oed teimlad o'm colli ymhlith fy nghydfyfyrwyr yn y coleg, gan y rhai y'm perchid nid i raddau cyffredin."

Y mae'n amlwg wrth y difyniad yna mai gan y "dynion da" oedd yn y coleg yr oedd Milton yn cael ei edmygu; ond yr oedd yno amryw o rai drwg hefyd, fel y mae mewn colegau yn gyffredin, a dïau mai ymddygiad y rhai hyny a barodd iddo ef roi heibio ei amcan cyntaf yn myned i'r coleg, sef y bwriad o fyned i wasanaeth yr Eglwys Wladol, a throi ei fyfyrdodau i gyfeiriad gwahanol, megis un heb fod yn benderfynol pa beth a fwriadai ei wneuthur. Gan fod Milton o feddwl difrifol a threiddgar wrth natur, ac wedi cael ei hyfforddi yn dda o'i febyd yngwirioneddau y Bibl, gan ei dad a'i fam, yr oedd camymddygiadau rhai o'r myfyrwyr a fyfyrient ar gyfer myned i'r Eglwys Sefydledig yn ei gynhyrfu ef, oedd o feddwl mor ddifrifol a gonest, yn naturiol i chwilio erthyclau, canonau, credoau, a defodau yr eglwys honno, a'u cymharu yn awyddus ac ymroddgar â'r Bibl; a'r canlyniad oedd iddo ddyfod i'r penderfyniad bod cyfansoddiad yr Eglwys Wladol yn gymmysg o Iuddewiaeth, Paganiaeth, a Phabyddiaeth, a'i bod yn y crynswth o honi yn hollol groes i gynllun syml ac eglur y Testament Newydd o Eglwys Crist, fel y mae'n egluro yn helaeth yn ei draethodau campus ar y "Pwngc Eglwysig."* O herwydd paham, trodd efe ei fyfyrdodau, fel y crybwyllwyd, i gyfeiriadau gwahanol, o blegid yr hyn y dïystyrid ef gan rai o'r myfyrwyr anystyriol a bydol, tra y caffai gydymdeimlad dwys y rhai difrifol a gonest o honynt. Ymddengys i un o'r gwŷr da hyn alw ei sylw, ychydig cyn iddo ymadael o'r brif-ysgol, at ddull di bwynt ei efrydiaeth, a'i gymmell i ddewis rhyw alwedigaeth, neu i ddechrau yn ddïoed ar ryw yrfa bennodol mewn bywyd. Ysgrifenodd Milton lythyr† ato dranoeth, yn yr hwn, ymhlith pethau eraill, y dywed efe fel hyn:—

"Yr wyf yn dra dïolchgar i chwi am eich cynghorion ffyddlawn a gonest, ac yn neillduol am eich bod ddoe, fel gwyliwr da, yn rhoddi ar ddeall i mi bod oriau y nos yn myned heibio (canys felly yr wyf yn ystyried fy mywyd, sydd wedi bod hyd yn hyn yn dywyll a diwasanaeth i ddynolryw), a bod y dydd gyd â mi ger llaw, yn yr hwn y mae Crist yn gorchymyn i bawb weithio tra y mae yn olau. Gan fy mod yn argyhoeddedig eich bod yn gwneud hyn oddi ar wir ddymuniad am i Dduw gael ei anrhydeddu ymhawb, ystyriaf fy mod yn rhwym, er nad ydych yn gofyn i mi, i roddi i chwi hanes fy symmudiad araf, yn ol cyfarwyddyd fy nghydwybod, yr hon, fel yr wyf yn llwyr ymddiried, sydd dan gyfarwyddyd Duw. . . . Tystiaf yn ddifrifol nad oes ynof duedd i fyw mewn segurdod llenyddol; eithr ymgedwais hyd yn hyn heb ymaflyd mewn dyledswyddau cyhoeddus, nid am fy mod yn ddïystyr o'r daioni gwirioneddol a ddeillia o roddi ufudd-dod parod ac amserol i'r gorchymyn sydd yn yr Efengyl, a osodir allan gan y farn ofnadwy a ddisgynodd ar yr hwn a guddiodd ei dalent; ond yr wyf yn ymgadw yn ol, gyd â pharch cyssegredig a chrefyddol, gan ymdrechu dal fy ngolwg ar y dull gorau i ufuddhau, heb ofalu cymmaint am fod yn ddiweddar, os dyry hyny y fantais i mi fod yn fwy cymmwys."

Mewn traethawd a gyhoeddwyd ganddo ymhen tu a naw mlynedd ar ol hyn, sef yn 1641, y mae'n egluro yn ddïamwys y prif achosion a barodd iddo wneud ei feddwl i fynu i beidio myned i wasan-

* Church Question.

† Yr oedd Milton yn deall, fel ambell un arall, mai mewn *ysgrifenu* yr oedd ei nerth ef, yn hytrach nag mewn *llefaru*, a gwyddai y gallai efe egluro ei feddwl yn well i'w gyfaill trwy *ysgrifen* nag ar *lafar*.

Digitized by Google

aeth Eglwys Loegr. Wedi datgan ei fwriad o wneud gwaith mawr, yr hwn a ofynai ddarlleniad helaeth, myfyrdod dyfal ac addfed, a gweddi daer am gymmorth yr Yspryd tragywyddol, gan gyfeirio yn amlwg at ei fwriad o gyfansoddi "Coll Gwynfa," efe a ddywed fel y canlyn:—

"Byddod i unrhyw amgyffred tyner, a all wahaniaethu rhwng blinderau dysgedig a ffwdan annysgedig, ddychymyg y fath hyfrydwch neu ddywenydd gorddwfn a ddichon hyn fod, neu y fath hyfrydwch yw ymdrech yn erbyn y cyfryw flinderau. Ond pe byddai yr is-wasanaeth lleiaf, pe byddai i Dduw trwy ei ysgrifenydd, cydwybod, ei erchi i mi, byddai yn ofnadwy ddifrifol arnaf pe tynwn yn ol; arnaf fi yn arbenig, yn awr pan y mae pawb yn cynnyg eu cymmorth i helpu, i esmwythâu, ac i ysgafnhâu llafur anhawdd yr eglwys, i wasanaeth yr hon, er yn blentyn, yr oedd fy rhieni a'm cyfeillion, a'm penderfyniad fy hun, wedi fy mwriadu: ond pan ddaethum i beth addfedrwydd oedran, a gweled bod y fath ormes wedi goresgyn yr eglwys, a bod yn rhaid i'r hwn a gymmerai urddau ynddi gydsynio i fod yn gaethwas, a chymmeryd llw, yr hwn, os na chymmerid ef gyd â chydwybod pur hyblyg, y byddai raid naill ai ei dori, neu hanner gwadu y ffydd; bernais mai gwell i mi oedd bod yn ddifrycheulyd ddistaw yn hytrach na chymmeryd y swydd o lefaru, yr hon y rhaid ei phrynu a'i dechrau â chaethwasiaeth ac anudoniaeth. Pa wedd bynag, wedi cael fy ngweithio allan o'r eglwys fel hyn gan ddihirwch y preladiaid, dichon yr ymddengys fy hawl i drafod y pyngciau yma, fel o'r blaen yr ymddangosai angenrhaid a dirgymhelliad."*

Erbyn i Milton orphen ei yrfa golegol yng Ngorphenaf, 1632, yr oedd ei dad wedi ymneillduo oddi wrth fasnach, ac wedi cymmeryd tŷ gwledig ymhentref bychan tawel Horton, yn sir Buckingham; ac yno at ei dad yr aeth efe yn syth o'r athrofa. Ymddengys i'r tad galluog gydsynio ar unwaith â phenderfyniad ei fab talentog o beidio myned i wasanaeth Eglwys Loegr: yn wir, gellir casglu bod y tad, erbyn hyn, wedi mabwysiadu syniadau rhyddfrydig y mab am *Eglwys* Wladol, o bob math, dan y Testament Newydd, a dyfod o'r ddau o gylch yr un amser i gofleidio golygiadau syml y Puritaniaid. Yn Horton dawel, ynghanol gwlad brydferth a thoreithiog, gyd â'i rieni, y treuliodd Milton y pum mlynedd cyntaf ar ol ei ymadawiad o'r athrofa, yn mwynhau pob manteision a hamdden i ddilyn ei hoff fyfyrdodau, a defnyddiodd y cyfleusdra oedd yn ei gyrraedd i ymberffeithio mewn dysg a gwybodaeth. Am yr adeg ddedwydd yma, dywed yn ei "Ail Amddiffyniad" fel hyn:—

"Ymhreswylfod gwledig fy nhad, lle yr ymneillduodd efe yn ei hen ddyddiau, y treuliais, gyd â phob mantais a chyfleusdra, wyliau cyflawn, yn troi ac yn trosi ysgrifenwyr Groeg a Lladin; ond nid heb newid y wlad weithiau am y dref, naill ai er mwyn prynu llyfrau, neu i ddysgu rhywbeth newydd mewn mesuroniaeth neu gerddoriaeth, gwybodau yn y rhai y mawr ymhyfrydwn yn y dyddiau hyny."

Y mae'n dra thebyg mai y pum mlynedd hyn oedd yr adeg ddedwyddaf yn ei holl oes lafurfawr a defnyddiol. Yn ystod y blynyddoedd hyn y cynhyrchodd, ym mysg cyfansoddiadau eraill, ei ganeuon cymdeithasgar godidog, "Le Allegro" a'i "Il Penseroso," ei "Arcades" a'i "Comus." Ar ddechrau Ebrill, 1637, collodd ei anwyl fam, yr hon sy'n gorwedd dan gareg sy'n wastad ar lawr cangell eglwys Horton, ar yr hon y gellir darllen ei henw ac amser ei marwolaeth y dydd heddyw. Yn Awst yr un flwyddyn y boddodd ei gyfaill, Edward King, mab Syr John King, yr ysgrifenydd Gwyddelig, ar ororau Cymru, wrth groesi i'r Werddon, gwrthrych ei "Lycidas," un o'r galarnadau mwyaf perorol ac ysplenydd a gyfansoddwyd erioed. Buasai y caneuon hyn yn unig, pe nad ysgrifenasai ddim arall, yn ddigon i'w osod yn y rhestr flaenaf o feirdd crefyddol ei wlad. Y maent yn llawn blodau a dillynder awenyddol, ac y mae purdeb yspryd yr awdur yn tanbeidio trwyddynt oll mor amlwg ag ydyw coethder goruchel ei chwaeth: ar fyr, i ddywedyd y cwbl ar unwaith, y maent yn wir Filtonaidd. Yn fuan ar ol hyn, fel y dywed efe ei hun, daeth awydd arno am weled tiroedd estronol, yn enwedig yr Ital, a hyny, fel y gellir casglu oddi wrth ei ymadroddion ei hun, er mwyn bwrw ei hiraeth ar ol ei fam, cystal ag er boddio ei chwaeth. Ar ol cael cenad ei dad, trwy fawr ymbil, cychwynodd, gyd âg un gwas, ar ei daith dramor. Yr oedd ei frawd, Christopher, ieuengach nag ef, wedi priodi ychydig amser cyn hyn, yn ol Masson, pan nad oedd ond 23 oed; a chan nad oedd etto wedi dechrau ar ei swydd fel dadleuydd sefydlog, cafodd ef a'i briod ieuangc gartref yn Horton: felly nid oedd yr hen ŵr, pan gychwynodd ei fab hynaf i'w daith ar y Cyfandir, wedi ei adael yn gwbl unigol.

Bu Milton ar led o Ebrill, 1639, hyd Gorphenaf neu Awst, 1639. Wedi aros ychydig ddyddiau yn Paris, lle y cyfarfu â Grotius, aeth rhagddo i'r Ital trwy ffordd Nicea (Nice), ac ymwelodd yn olynol â Genoa, Leghorn, Pisa, a Fflorence, lle y treuliodd fis Awst a Medi, pan y daeth yn gydnabyddus â Galileo, Jacomo Gàdi, Antonio Ffrancini, Carlo Dati, Benneditto Bonmatthei, Cultelino, Ffrescobaldi, a Clementìli. Cynhaliai y gwŷr hyn, ac eraill cyffelyb, gyfarfodydd yn fynych i arfer ffraethineb a dysg, a byddai Milton yn cyrchu iddynt yn wastad tra yr arhosodd yn y dref. Cyf-

* Milton Church Question, pp. 111-2.

ansoddodd Antonio Ffrancini gân ganmoliaethol iddo, ac arferai Carlo Dati ohebu âg ef ar ol ei ddychweliad i Loegr. Mynnai ei gyfeillion ei gadw yn hwy yn Fflorence, oni buasai ei fod ar frys am weled Rhufain; o ganlyniad yno yr aeth trwy Siena, a threuliodd tu a dau fis yno hefyd, yn porthi ei lygaid a'i feddwl ar ddarluniau, cerfluniau, a gweddillion hynafol eraill, o'r sawl y mae'r hen ddinas Babaidd mor gyfoethog. Tra yr oedd efe yno cafodd gymdeithas amryw wŷr enwog, ac yn eu plith Lucas Holstenius, ceidwad llyfrgell y Vatican, yr hwn a ymddygodd yn y modd caredicaf ato, ac a ddangosodd iddo holl ysgrifeniadau yr awduron Groegaidd, naill ai mewn argraph neu mewn llaw-ysgrif, y rhai a ddiwygiasid ganddo ef ei hun. O Rufain efe a aeth i Naples ynghymdeithas rhyw feudwy, yr hwn a'i cyflwynodd i Giovanni Baptista Manso, a'r Ardalydd Vila, pendefig Neopolitaidd tra enwog. Bu y pendefig hwn yn bur garedig wrth Milton; ac fel cydnabyddiaeth am ei hynawsedd, cyflwynodd y bardd fugeilgerdd Ladin odidog i'r Ardalydd, a'i henw "Mansus," ar ei ymadawiad o Naples.

Pan oedd Milton ar fyned drosodd o Naples i Sicily a gwlad Groeg, derbyniodd hyspysiad o Frydain bod rhyfel newydd gychwyn rhwng y Brenin a'r Senedd, yr hyn a barodd iddo roi ei fwriad heibio ar unwaith, gan yr ystyriai nad anrhydeddus ynddo ef a fuasai treulio ei amser i ymblesera mewn gwledydd tramor, tra y byddai ei gydwladwyr yn ymladd am eu rhyddid yn ei wlad ei hun. Gan hyny penderfynodd ddychwel adref yn ddïoed trwy Rufain. Mynnai ei gyfeillion iddo beidio myned y ffordd honno, o blegid iddynt dderbyn hyspysiad bod y Jesuitiaid Seisnig yn ffurfio bradwriaeth yn ei erbyn yno, o herwydd iddo arfer cymmaint o ryddid wrth amlygu ei feddwl ar byngciau crefyddol. Ond nid "Llygad yn gweled anian," a "chalon yn teimlo anian," yn unig oedd yn enaid mawr Milton, ond hefyd "glewder a feiddiai gydfyned âg anian;" ïe, yr oedd wedi profi cyn hyn, trwy aberthu manteision bydol mawrion yr Eglwys Wladol, oedd yn gwenu cymmaint arno, bod ynddo ddigon o "lewder" i fod yn ferthyr, pe buasai achos, dros yr egwyddorion y gwyddai eu bod yn gysson â'r Testament Newydd. Am hyny, nid oedd bygythion y Jesuitiaid na darbwylliadau ei gyfeillion yn ddigon i'w droi ef gam o'r ffordd a dorasai iddo ei hun. Gyd â golwg ar ei daith y tro hwn o Naples i Rufain, efe a ddywed yn y traethawd y cyfeiriwyd ato o'r blaen fel y canlyn:—

"Tra yr oeddwn yn dychwel yn awr i Rufain, hyspyswyd fi fod y Jesuitiaid Seisnig yn llunio bradwriaeth i'm herbyn, am fy mod yn traethu fy meddwl yn rhydd ar byngciau crefyddol. Yr oeddwn wedi gosod rheol i mi fy hun, na byddai i mi un amser, tra yn y lleoedd hyny, gychwyn ymddiddan ar grefydd; ond o rhoddid i mi unrhyw holiad o berthynas i'm ffydd, yr attebwn ef yn ddïattal a diofn. Am hyny, er y bygythiad, dychwelais i Rufain. Ni chymmerais un llwybr i guddio na'm person na'm syniadau; ac yn ystod tu a deufis, mi a amddiffynais y Grefydd Ddiwygiedig yn gyhoeddus drachefn, megis y gwneuthum o'r blaen, ynghanol Prif-ddinas y Pabyddion. Myfi a ddychwelais, o dan nawdd y Goruchaf, yn ddïogel i Fflorence, lle y derbyniwyd fi gyd â chymmaint o lawenydd a phe buaswn wedi cyrraedd adref."

Arhosodd yn Fflorence y waith hon etto dros ddeufis; ac yn y cyfamser, aeth ar wibdaith am ychydig ddyddiau i Lucea. Yna croesodd yr Appenniniaid (Appennines), gan fyned ar gylch trwy Bologna a Fferrara i Venice, lle yr arhosodd am ddeufis; ac yna aeth rhagddo trwy Verona, Milan, ac ar hyd Llyn Jeman i Geneva. Yma yr oedd mewn awyr foesol gwbl wahanol, lle y cyfarfu âg amryw enwogion o egwyddorion cyffelyb iddo ei hun, yn enwedig Giovanni a Diodati, y duwinydd enwog, y rhai a'i croesawasant ef yn gynnes a charedig. Aeth oddi yno ym mlaen i Ffraingc, ac adref i wlad ei enedigaeth, trwy Lyons a Paris. Gyd â golwg ar y daith hon, a'r amryw fanau y bu ynddynt, a'r temtasiynau a'i cyfarfu, efe a ddywed—"Yn yr holl fanau hyny, lle yr ystyrid cynnifer o bethau yn gyfreithlon, yr wyf yn galw Duw yn dyst, yr ymgedwais i yn ofalus a gochelgar oddi wrth bob gwastraff a drygioni, gan gofio yn wastad, er y gallwn osgoi llygaid dynion, nas gallwn yn sicr fyned o olwg Duw."

Erbyn i Milton ddychwel i Loegr tu a diwedd Awst, 1639, ar ol bod yn absennol er Ebrill y flwyddyn flaenorol, yr oedd yma le ofnadwy. Yr oedd Stafford a Laud, fel y gwelsom eisoes, yn y bennod gyntaf a'r bedwaredd o'r pedwerydd llyfr hwn, yn gweithio allan eu cynlluniau Pabaidd yn ddiwyd ac erlidgar; y blaenaf yn ymdrechu ac yn cynllwyn i godi byddin i ddarostwng y chwyldroad yn ei fabandod; a'r olaf yn carcharu hereticiaid, fel y galwai efe y Diwygwyr; yn anfon y Puritaniaid yn finteioedd i'r planigfëydd; ac yn ymdrechu darostwng holl glerigwyr y wlad i'w ewyllys Babyddol ei hun, gan gyflawni pob creulonderau ysgeler, trwy gyfrwng Ystafell y Seren, Llys yr Uchel Ddirprwyaeth, ynghyd â phob dichellion ysgymmun eraill a allai eu dyfeisio.

Digitized by Google

Wrth syllu o bell ar yr helbulon trychinebus yma a oddiweddasant ei gydwladwyr, dywed Milton—"Yr oeddwn yn ystyried mai peth gwael ynof a fuasai teithio mewn gwledydd tramor i ddifyru fy hun, tra yr oedd fy nghyd-ddinasyddion gartref yn ymladd am eu rhyddid gwladol a chrefyddol." Dan yr ystyriaeth ddifrifol yma, ni phetrusodd ddychwelyd ar unwaith i'w wlad i gymmeryd ei ran yn yr ymdrechfa dros ryddid a chyfiawnder.

Ar ol dychwel i Loegr, aeth Milton rhag ei flaen i dŷ ei dad oedranus a chymmwynasgar, lle yr oedd ei frawd Christopher a'i wraig fyth, ynghyd â theulu cynhyddol, a chafodd y derbyniad mwyaf tadol a brawdol gan yr hen ŵr, ynghyd â'i frawd a'i wraig ieuangc. Yr oedd Milton weithian yn ei 32fed flwyddyn o'i oedran; ond nid oedd wedi ynnill ceiniog ei hunan, hyd yn hyn, meddai Masson, a thybiodd yn y fan fod yn llawn bryd iddo bellach feddwl am ddechrau ymdaro drosto ei hun. Yn unol â'r penderfyniad yma, cymmerth letty gyd âg un Russel, dilledydd, yn St. Bride's Churchyard, Fleet-street, Llundain; ond nid arhosodd yno yn hir, gan nad oedd yno ddigon o le i'w lyfrau a'i ddodrefn, a chymmerth dŷ ei hun yn heol Aldersgate. Preswyliodd yn y tŷ hwn dros rai blynyddoedd, i'r lle y cymmerth blant ei chwaer i'w haddysgu, sef John ac Edward Phylips; un yn naw, a'r llall yn ddeng mlwydd oed. Dywedir iddo wneud ei ddau nai yma yn alluog, yn ystod y flwyddyn gyntaf o'u haddysg, i gyfieithu Lladin ar yr olwg gyntaf. Yn lled fuan derbyniodd amryw ysgolorion eraill atynt, y rhai a addysgid ganddo yn dra llwyddiannus.

Ond nid er mwyn bod yn ysgolfeistr y dychwelodd Milton mor ddisyfyd i wlad ei enedigaeth, a dywedir nad rhyw hyfrydwch mawr oedd ganddo yn y gorchwyl, er mor fedrus a llwyddiannus ydoedd; ond yr hyn a'i cyrchodd ef adref oedd swn y cyffro mawr am ryddid, yr hwn a ysgydwai y wlad hyd ei sylfeini, ac a derfynodd yn nymchweliad y drefn sefydledig, eglwysig a gwladol. Ymdaflodd Milton i'r ymgyrch cenedlaethol yn fuan, canys yn gynnar yn 1641 cyhoeddodd ei draethawd gwych a elwir—

"Am Ddiwygiad yn cyffwrdd Disgyblaeth Eglwysig yn Lloegr, a'r Achosion sydd hyd yn hyn wedi ei attal; yn Ddau Lyfr, a ysgrifenwyd at Gyfaill." *

Ymosodiad nerthol a thra gorthrechol ydyw y traethawd hwn ar Esgobyddiaeth yn ei ffurfiau, ei defodau, a'i hanfod. Bu'r gwaith hwn yn foddion effeithiol i gynhyddu a chwerwi y ddadl oedd eisoes yn cael ei dwyn ym mlaen. Yr oedd Joseph Hall, Esgob Caercynan (Norwich), wedi cyhoeddi amddiffyniad i Esgobyddiaeth, yr hwn a attebwyd gan bump o Buritaniaid, sef Stephen Marshal, Edward Calamy, Thomas Young (hen athraw Milton), Matthew Newcomen, a William Spurstow, y rhai a unasant lythyrenau cyntaf eu henwau i wneud y gair "Smectymnuus." Yna daeth yr Archesgob Usher allan i gynnorthwyo Hall, ac ysgrifenodd atteb i draethawd y Smectymnuus. Ymddengys bod Milton yn bryderus iawn rhag i'r esgobion gael y trechaf yn yr ornest, canys yr oeddynt yn wŷr o dalentau disglair, ac o ddysgeidiaeth goeth ac uchel; am hyny ysgrifenodd Milton y ddau draethawd canlynol, yn ebrwydd, yn yr un flwyddyn etto (1641), sef—

"Am Esgobyddiaeth Breladaidd, a pha un a ellir ei holrhain o Amseroedd yr Apostolion, trwy rinwedd y Tystiolaethau yr haerir eu bod i'r amcan hwnw mewn rhyw Draethodau diweddar, un o'r rhai sy'n myned dan yr enw James, Archesgob Armagh." †

"Rheswm Llywodraeth Eglwysig yn cael ei gymmell yn erbyn Preladiaeth; yn Ddau Lyfr." ‡

Ond nid dyma'r cwbl: yr oedd yr Esgob Hall ei hun wedi ysgrifenu atteb i'r Smectymnuus, mewn traethawd a'i enw "Amddiffyniad y Gwrthfynegwr." § A chyhoeddodd Milton ei *bedwerydd* traethawd cyn diwedd yr un flwyddyn fyth (1641) yn atteb iddo, dan yr enw canlynol:—

"Sylwadau ar Amddiffyniad y Gwrthfynegwr yn erbyn Smectymnuus." ||

Yr oedd traethodau Milton "yn myned gryfach gryfach," fel tŷ Dafydd, tra'r oedd yr eiddo ei wrthwynebwyr, fel tŷ Saul, "yn myned wanach wanach." Dilynwyd y traethawd meistrolgar a nerthol yma yn gynnar yn 1642, gan un arall grymusach fyth, a'i enw—

"Amddiffyniad i Smectymnuus. ¶

Cyhoeddodd Milton hwn yn atteb i draethodyn a ysgrifenwyd, fel y tybid, gan fab yr Esgob Hall, ac erioed ni chafodd gormes twyll-offeiriadaeth Eglwys Loegr ac Eglwys Rhufain ei ddinoethi yn

* "Of Reformation touching Church Discipline in England, and the Causes that hitherto have hindered it. In Two Books, written to a Friend."

† "Of Prelatical Episcopacy, and whether it may be deduced from the Apostolical Times, by virtue of those Testimonies which are alleged to that purpose in some late Treatises; one whereof goes under the name of James, Archbishop of Armagh."

‡ "The Reason of Church-Government urged against Prelacy. In Two Books."

§ "The Remonstrant's Defence.

|| "Animadversions upon the Remonstrant's Defence against Smectymnuus."

¶ "An Apology for Smectymnuus."

Digitized by Google

fwy effeithiol, trwy resymau ac Ysgrythyrau, nag yn y pum traethawd galluog a nodwyd uchod; ac yr oedd eu cynhyrchu mewn cyn lleied o amser yn orchest nas gallasai neb yn yr oes honno, os mewn unrhyw oes arall, ei gyflawni, ond un yn meddu digon o ddawn, dysg, a gwybodaeth i gyfansoddi "Coll Gwynfa" ac "Adfeddiant Gwynfa." Yn wir, dywed Coleridge eu bod fel "cymmylau claergochion yn rhagarwyddo cyfodiad yr haul," a theimlwyd eu dylanwad yn ddirfawr yn yr ymdrechfa agosaol rhwng rhyddid Puritanaidd a gormes Esgobyddol.

Yr oedd tad Milton yn byw gyd â'i fab ieuengaf, Christopher, yn Reading, hyd 1643, pan gymmerwyd y dref honno gan yr Iarll Essex; yna penderfynodd fyned i fyw at ei fab hynaf, John, i Lundain, a chyd âg ef yr arhosodd mewn tawelwch hyd ddydd ei farwolaeth. Ond cyn i'w dad, a'i ysgolheigion, ddyfod i'w dŷ, aeth efe ar daith, yn wythnos y Sulgwyn, ac efe yn 35 oed, i hen ardal ei hynafiaid yn Rhydychain; ac ar ol bod yn absennol dros fis, dychwelodd adref â gwraig ieuangc i'w ganlyn, sef Mari, merch Richard Powel, gŵr bonheddig tiriog, oedd yn byw yn Fforest Hill, ger llaw Shotover, yn sir Rhydychain. Priododd Milton yn bur debyg i Samson, yr hwn, er ei fod yn Iuddew ac yn Nazaread, a briododd wraig o ferched y Philistiaid. Felly Milton, y Puritan zelog, a'r Gwerinwr cydwybodol, a briododd ferch Esgobyddwr penrhydd, a Brenhinwr dallbleidiol; ac nid anhebyg iawn a fu rhai o ganlyniadau priodas y ddau arwr. Ymddengys i Mari flino yn bur fuan ar yr ychydig londer a difyrwch a ganfyddai yn nhŷ ei gŵr; ac wedi byw yno dros o gylch mis, gofynodd genad i fyned ar ymweliad â'i theulu dros ychydig amser, yr hyn a ganiatawyd iddi ar unwaith. Yr oedd y ddau deulu yn hen gydnabyddus â'u gilydd. Ymddengys bod Powel yn ddŷn gwastraffus, ac yn rhedeg i ddyled; ac mor gynnar a'r flwyddyn 1620, yr oedd tad Milton wedi rhoi benthyg 500p. iddo ar dirwystl.* Tybir i Mari briodi Milton ar annogaeth ei theulu, er mwyn gochel, os dichonadwy, talu y benthyg yn ol. Beth bynag am hyny, y mae'n amlwg nad oedd y briodas yn un gymharus, o ran na thuedd nac oedran, ond odid. Pan ddaeth yr amser pennodol i'r wraig ieuangc ddychwelyd, ni welodd Milton, druan, ddim oddi wrthi; ac wedi aros ennyd i ddisgwyl am dani yn bryderus, efe a ysgrifenodd ati, ond ni chafodd atteb. Ysgrifenodd amryw lythyrau ati drachefn yn erfyn arni ddychwelyd yn ddïoed, heb gael dim amgen na dirmyg distaw! Yna efe a anfonodd genad pennodol ati gyd â llythyr yn erfyn arni ddychwel adref heb ychwaneg o oediad; ond gwrthododd gydsynio yn sarhaus, a gollyngodd y genad ymaith gyd â dirmyg. Ond nid oedd Milton ŵr, mwy na Samson, a gymmerai ei sarhau yn ddïachos heb gynnyg talu yn ol. Nid aeth Milton i boeni ei ben beth oedd yr *achos* iddi dori ei hammod; pa un ai anghariad ato ef a'i arferion syml ac athronyddol, ai ymlyniad ei theulu wrth y blaid Frenhinol a'r Eglwys Wladol, tra y pleidiai yntau Buritaniaeth a Gweriniaeth; ai beth arall a'i cymhellai hi i ymddwyn fel y gwnaeth; ond trodd efe ar unwaith i fyfyrio Llyfr Cyfraith yr Eglwys Gristionogol, y Testament Newydd, ar bwngc ysgariaeth.

Gellir casglu oddi wrth y crybwyllion a ysgrif odd efe ar ei fywyd o gylch y pryd hyn, yr ystyriai efe ysgariaeth yn bwngc perthynol i ryddid cyffredinol, ac y buasai yn ysgrifenu arno ryw bryd, pe nas digwyddasai ei amgylchiad personol ef fod fel y bu; ond parodd hyny iddo ysgrifenu ar y pwngc yn gynt nag y bwriadai. Tra yr oedd dynion eraill yn brwydro am ryddid, dywed ei fod yntau wedi penderfynu gwneud yr hyn a allai (ac yr oedd ei allu ef mor fawr fel nas gall un dŷn ei fesur) i'r un achos mawr trwy esponio egwyddorion gwir ryddid; a chan ei fod eisoes wedi ysgrifenu ar ryddid eglwysig, a gweled bod y pwngc hwnw yn cael ei ddwyn i ryw fath o derfyniad, canfyddai fod yn bryd weithian penderfynu pyngciau eraill a ystyrid ganddo ef yr un mor bwysig, sef rhyddid personol, rhyddid cymdeithasol, a rhyddid gwladol. Nid dŷn i wneuthur dim mewn congl, yn llechwraidd, ydoedd Milton; am hyny cyhoeddodd bedwar o fân draethodau, olynol, yn ddïoed ar y pwngc o ysgariaeth, fel y canlyn:—

"Athrawiaeth a Disgyblaeth Ysgariaeth, &c. 1644."†

Ymddangosodd dau argraphiad o hwn yr un flwyddyn, wedi eu cyflwyno i Senedd Brydain, ynghyd ag i'r Gymmanfa yn Westminster.

"Barn Martin Bucer yn cyffwrdd ag Ysgariaeth. 1644."‡

Cyfieithiad campus ydyw y traethodyn hwn o amryw ddifyniadau ar ysgariaeth.

* Mortgage.

† "The Doctrine and Discipline of Divorce," &c.

‡ "The Judgment of Martin Bucer touching Divorce."

Digitized by Google

Enwau Groeg sydd ar y ddau draethodyn a gyhoeddwyd ar y pwngc yn 1645, sef—

"Tetrachordon," a "Colasterion."

Ystyr y blaenaf yw *Pedwar tant*, ac ystyr y llall yw *Cospedigaethau*. Yr hyn y dadleuir drosto yn y tracthodau hyn drwyddynt oll ydyw, bod anghydweddiad moesol, neu ddiffyg cydweledIad ar bethau crefyddol, yn y pâr priodasol, yn gystal, os nad gwell, sail i ysgariad ag ydyw anffyddlondeb priodasol. Nid oes achos rhyfeddu bod dynion cyffredin, a gawsant eu syniadau crefyddol, a phob syniadau eraill, gan eu rhieni, heb farnu erioed yn ddiduedd ac annibynol drostynt eu hunain ar unrhyw byngciau, megis ei gydoeswyr Presbyteraidd culfarn, ac eraill cyffelyb, yn methu cydweled â golygiadau ehang ac annibynol John Milton ar y pwngc yma, cystal a llu o byngciau eraill; ac nid ydym yn synu dim ddarfod i'r "duwinyddion Presbyteraidd" rhagfarnllyd a hunandybus, "yn eu cymmanfa," geisio gan y Senedd ei alw i gyfrif am ei syniadau rhesymol ac Ysgrythyrol ar ysgariaeth; ond gan fod dynion fel Cromwel, Hòlis, Hazelrig, Pym, Hampden, a Strode yn y Senedd ar hyn o bryd, nid mor hawdd i'r Presbyteriaid anffaeledig (?) gael cenad y Senedd i erlid un o alluoedd a gwasanaeth Milton i'r genedl. Dywed un o'i fywgraphwyr,* wrth ysgrifenu arno ynglŷn âg ysgariaeth, "Dïau nad oes i'r Cristion ond un gyfraith ar y pwngc hwn, sef yr hon a osodir gan ein Harglwydd ei hun," yr hon sydd fel hyn:—

"Ac meddaf i chwi, Pwy bynnag a ysgaro â'i wraig, ond am odineb, ac a briodo un arall, y mae efe yn torri prïodas: ac y mae yr hwn a brïodo yr hon a ysgarwyd, yn torri prïodas."†

Ond nid ar un ran o'r Testament Newydd yr oedd John Milton yn edrych; ond yr oedd ei feddwl ef yn ddigon ehang i dreiddio trwyddo oll, ar un golygiad. Gwyddai efe fod yr un awdurdod ddwyfol yn dywedyd fel hyn hefyd:—

"Os bydd i un brawd wraig ddigred, a hithau yn foddlawn i drigo gyd âg ef, na ollynged hi ymaith. A'r wraig, yr hon y mae iddi ŵr digred, ac yntau yn foddlawn i drigo gyd â hi, na wrthoded hi ef. Canys y gŵr digred a sancteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a sancteiddir trwy y gŵr. Pe amgen, aflan yn ddïau fyddai eich plant; eithr yn awr sanctaidd ydynt. Eithr os yr anghredadyn a ymedy, ymadawed. Nid yw y brawd neu y chwaer gaeth yn y cyfryw bethau: eithr Duw a'n galwodd ni i heddwch."‡

Y mae cyfreithiau y Testament Newydd, fel ei athrawiaethau a'i holl osodiadau, yn wasgaredig trwy yr holl Lyfr Sanctaidd, am mai felly y rhyngodd bodd i Ddoethineb Anfeidrol eu trefnu; a chyn y gall dŷn gael golwg gyflawn ar unrhyw bwngc, athrawiaeth, neu osodiad, rhaid iddo fod yn ddigon cynnefin â'r Llyfr yn gyflawn, a rhaid i'w feddwl fod yn ddigon ehang i edrych trwyddo oll, megis ar unwaith; ac y mae holl ysgrifeniadau John Milton yn dangos mai un felly ydoedd efe. Y mae'n deilwng o sylw hefyd mai nid un a *ysgrifenai* ar ryw bwngc yn *ddamcaniadol*, heb fwriadu rhoi ei ddamcaniad mewn *gweithrediad*, oedd John Milton. Pan gai ef ei argyhoeddi bod rhyw syniad yn gywir, ymdrechai ar unwaith ei roi mewn gweithrediad. Felly y gwnaeth gyd â'r pwngc o ysgariaeth. Cyn gynted ag y cafodd foddlonrwydd fod ei olygiad yn Ysgrythyrol, dechreuodd weithredu yn unol â hyny yn ebrwydd. Gan y gwelai mai "ymado" a fynnai yr "anghredadyn" gan Mari Powel, dechreuodd yntau dalu ei anerchion i foneddiges arall, yr hon a ddisgrifir fel un yn meddu athrylith a phrydferthwch neillduol, sef merch un Dr. Davies.§ Dychrynodd hyn y Poweliaid yn effeithiol, a gwnaed cymmod fel y canlyn:—Yr oedd Milton yn arfer ymweled yn fynych â châr iddo a'i enw Blackborough, a breswyliai yn St. Martin-le-Grand, Llundain. A thrwy gydsyniad Blackborough, a'i gydweithrediad hefyd, y mae'n debyg, trefnodd y Poweliaid i wraig Milton fyned yn ddisymmwth i'r ystafell pan fyddai efe yno, a syrthio ar ei gliniau o'i flaen, gan erfyn, â dagrau yn ei llygaid, am faddeuant, a derbyniad yn ol. Gwyddai Milton orchymyn ei Arglwydd, sef "Os pecha dy frawd yn dy erbyn, cerydda ef; ac os edifarhâ efe, maddau iddo." Yn unol â hyn, cafodd Mari Powel faddeuant. Y mae'n bur debyg i'r olygfa effeithiol yn niwedd y degfed llyfr o "Goll Gwynfa" gael ei hawgrymu gan y digwyddiad yma, lle y mae Adda yn ceryddu Efa am fod yn achos o'u trueni a'u dinystr, ac yn y diwedd yn toddi wrth weled ei dagrau a'i hedifeirwch. Heb law y traethodau ar ysgariaeth, yr oedd Milton, yn ystod 1644 ac 1645, wedi ysgrifenu traethawd godidog "Ar Addysg," yr hwn a gyflwynodd efe i Samuel Hartlip. Yn y traethawd hwn ceir ei olygiadau ar sefyllfa y prif-ysgolion, a'i gynllun ef o athrofa i gymmeryd eu lle hwy a'r ysgolion grammadegol, ac i wneud y gwaith yn well ac mewn llai o amser. Gresyn, er lles y wlad,

* Coll Gwynfa, argr. Wrexham, pp. v., vi.

† Mat. xix. 9.

‡ 1 Cor. vii. 12-15.—Y cyfieithiad gorau o'r gair *eisênê*, a gyfieithir yma yn *heddwch*, a fyddai *rhyddid*: "Duw a'n galwodd ni i *ryddid*."

§ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 411.—Nis gwyddom ddim ychwaneg o hanes Miss Davies.

Digitized by Google

na chymmerasid ei gynllun athronyddol a naturiol; ond gwell gan yr athrawon ohirio er mwyn y tâl. Y traethawd arall a gyhoeddodd y flwyddyn hon (1644), oedd yr un a alwodd:—

"Areopagitaeth, neu Araith o blaid Rhyddid Argraphu Didrwydded." *

Yn hwn dyry ei olygiadau ar ryddid y wasg, ar ddull appeliad at y Senedd i adystyried cyfraith oedd newydd ei phasio, yn gosod llyfrau yn agored i seniadaeth † swyddog pennodol. Yn yr un flwyddyn etto, yr oedd efe yn darpar yr argraphiad cyntaf o'i gyfansoddiadau prydyddol, yn cynnwys y caniadau a nodwyd eisoes, ac amryw rai eraill yn Lladin a Saesneg, y rhai a gyhoeddwyd ganddo yn un gyfrol fechan yn 1645. Dengys hyn pa mor ddiwyd y bu efe yn ystod ei arhosiad yn Aldersgate.

Yr oedd Milton wedi cymmeryd tŷ mwy yn Barbican pan y cymmododd efe a'i wraig etto, ac yr oedd ei dad oedranus, ynghyd â'i ysgolheigion, yno gyd âg ef; a phan ymostyngodd dinas Rhydychain i fyddin y Senedd yn Mehefin, 1646, amddifadwyd ei deulu ynghyfraith o'u cartref, a daethant oll, yn rhieni a phlant, i Lundain, y rhai a dderbyniwyd yn garedig gan Milton i'w dŷ, yr hwn erbyn hyny oedd yn bur llawn. Dyma brawf arall o ysbryd maddeugar, haelionus, ac efengylaidd yr enwog Milton. Bu farw ei dad ynghyfraith yn ei dŷ ef yn Ionawr, 1646; ac ym mis Mawrth canlynol bu farw ei dad ef ei hun, pan o gylch 84 oed. Yn lled fuan wedi hyny, dychweledd y Poweliaid yn ol i sir Rhydychain; o ganlyniad, cymmerth yntau dŷ llai yn Holborn, i'r lle y symmudodd yn 1647. Nid oes hyspysrwydd iddo gyfansoddi odid ddim o 1646–8; ond tybir iddo ysgrifenu rhyw gyfran o'i "Hanes Lloegr" yn yr adeg honno, pan oedd ei dŷ yn orlawn gan ei deulu ei hun, teulu ei wraig, a'i ysgolheigion.

Gyd â golwg ar y Werinlywodraeth, yr hon a gychwynwyd yn ebrwydd ar ol dīenyddiad Charles I. ar y 30fed o Ionawr, 1649, gellir dywedyd bod Milton, gyd â'i bin ysgrifenu miniog a chyflym, yn debyg o ran ei wasanaeth iddi ag ydoedd Cromwel gyd â'i gleddyf buddugoliaethus. Wedi symmud Charles o'r ffordd, ac i'r rhai mwyaf eofn a phenderfynol ddwyn y chwyldroad i'r sefyllfa yr ydoedd ynddi ar y pryd; a thra yr oedd y wlad yn sefyll mewn syndod a dychryn, heb wybod pa ffordd i droi; a phan oedd rhai a bleidient y symmudiad o'r blaen, yn enwedig yr Ysgotiaid a'r Presbyteriaid, yn troi weithian yn elynion penderfynol iddo: yn y cyfwng difrifol yma, daeth John Milton allan etto, fel seren wib ddisgleirwych, gan chwalu yr holl niwl oedd yn y ffurfafen wladol i bob cyfeiriad, yn gynnar yn y flwyddyn hon, trwy gyhoeddi y traethawd campus a meistrolgar canlynol:—

"Hawl Brenhinoedd ac Ynadon, yn profi bod yn gyfreith lawn, ac yr ystyriwyd ei bod felly trwy yr holl oesoedd, i bwy bynag a fyddo yn meddu yr awdurdod, i alw Gormeswr neu Frenin drygionus i gyfrif; ac, ar ol dyfarniad priodol, i'w ddiswyddo a'i ddodi i farwolaeth." ‡

Y mae yn ymosod yn llym ar y Presbyteriaid dīegwyddor, y rhai oedd weithian wedi troi i gondemnio y diswyddiad a'r dīenyddiad, er mai hwynthwy eu hunain a wnaethent hyny. Yn ebrwydd ar ol cyhoeddiad y llyfr, sef ar y 13ydd o Fawrth, archodd Cyngor y Llywodraeth i bwyllgor "ymddiddan â Mr. Milton, er gwybod a fyddai efe yn foddlawn i weithredu fel Ysgrifenydd y Llywodraeth mewn ieithoedd estronol;" ac ymhen deuddydd wedi hyny, archwyd ei gymmeryd ef i wasanaeth y Cyngor yn yr alwedigaeth honno. Felly, dyma derfyn o'r diwedd ar ei ysgolfeistradaeth. Symmudodd weithian o Holborn i letty, ar y dechrau, i dŷ un Thomson, y drws nesaf i Dafarn Bull's-head, yn Charing Cross, ac yn agos i Spring Gardens; ond ar y 19ydd o Dachwedd, archwyd bod "Mr. Milton i gael yr ystafelloedd oedd yn nwylaw Syr John Hippesley, yn Whitehall;" ac ar y 14ydd o Fehefin, 1650, "bod Mr. Milton i gael gwarant i'r ymddiriedolwyr a'r cymmerwyr i werthu eiddo y Brenin i ddodrefnu ei ystafelloedd yn Whitehall, ynghyd â rhyw grogleni." Pa wedd bynag, symmudodd etto ym Mehefin, 1651, o'i ystafelloedd yn White hall neu Scotland-yard, lle y ganwyd ac y bu farw ei faban, a alwai efe John, i le a ddarlunir gan ei nai Phylips fel "gardd-dŷ prydferth yn Ffrainge Fechan yn Westminster, y drws nesaf i'r Arglwydd Scudamore, yn agos i barc St. Iago;" yr un tŷ, fel y tybir, a'r hwn a elwir yn awr Queen Square, yr hwn a breswyliwyd dros lawer o flynyddau gan y diweddar Jeremy Bentham. Arhosodd Milton yn y lle hwn hyd o fewn ychydig wythnosau i adferiad Charles II. Pa wedd bynag, nid oedd ei sefyllfa swyddogol yr un yn hollol yn

* "Areopagitica, or Speech for the Liberty of Unlicensed Printing."
† Censorship.

‡ "The Tenure of Kings and Magistrates, proving that it is lawful, and hath been held so through all ages, for any one who have the power to call to account a Tyrant or wicked King; and, and after due conviction, to depose and put him to death."

Digitized by Google

ystod yr holl amser yma. Cofnodir amryw obrwyon ei appwyntiadau yn llyfrau y Cyngor; ond yn 1655, cyfarwyddir bod ei gyflog i gael ei newid o hyny allan o fod yn 188p. i flwydd-dâl dros ei oes o 150p.; ac ymddengys i'w ddyledswyddau gael eu rhanu rhag llaw rhyngddo ef ac un arall. Yr oedd dallineb wedi ei fygwth mor forau ag 1644, ond parhaodd ei lygaid de i'w wasanaethu dros ryw hyd wedi iddo lwyr golli y llall; eithr o'r diwedd, yn 1654, cafodd ei hunan yn hollol ddall.

Gellir sicrhau na wnaeth Ysgrifenydd y Llywodraeth unrhyw wlad y fath wasanaeth i'r rhai a'i dodent ar waith ag a wnaed gan John Milton. Gyd â golwg ar y gwasanaeth mawr yma, dywed y diweddar Walter Savage Landor fel hyn:—

"Ni ddarfu i Brydain erioed, er y dydd yr ymddangosodd ynghanol y môr, ymgodi i'r fath uwchder rhagor y cenhedloedd amgylchynol, ag y gwnaeth yn amser Cromwel a Milton. Tarawodd gydymgais Hòland, balchder yr Hispaen, a haerllugrwydd rhodresgar Ffraingc, megis â bys, a hyny pan oedd y cyfryw wledydd yn fwy nag y buont erioed o'r blaen. Blaenorid cleddyf Cromwel gan ferllysg (mace) Milton; y ferllysg honno, yr hon, ar ol i Cromwel gael ei alw i roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth, a agorodd i ni borth Gardd Paradwys; ac yr oedd o'i amgylch rai nad oeddynt anheilwng i fyned iddi gyd âg ef. Nis gellir rhifo ar yr holl ddaear, yn ystod un cant ar bymtheg o flynyddoedd, gynnifer o ddynion doeth a rhagorol, wedi ymuno a'u gilydd i amcan neillduol, a'r diwrnod y dangosodd Brydain ei gwir fawredd, ac y rhoes atteb i'r holiad yma:—'Pa un fwyaf, ai un, ai ynte miliwn?' Yr oedd cawri ar y ddaear y dyddiau hyny; ond cawri yn ofni Duw, ac nid yn gwrthryfela yn ei erbyn."

O'r holl gawri meddyliol hyny, y mae'n sicr nad oedd yr un yn fwy, os cyfartal, i John Milton. Crybwyllwyd eisoes bod ei ddyledswyddau swyddogol yn amrywiol; ond y gangen fwyaf pennodol, ar y cychwyn, o leiaf, oedd darpar llythyrau Lladin, y rhai y gwelai'r Cyngor yn dda eu hanfon o bryd i bryd i dywysogion, llywodraethau, a llysgenhadon tramor. Nid yw holl nifer y rhai hyn yn hyspys weithian; ond cafwyd chwech a deugain ymhlith ei bapurau, a chyhoeddwyd hwy ar ol ei farwolaeth.

Yn lled fuan ar ol dienyddio Charles I. yn Ionawr, 1649, cyhoeddwyd traethodyn, a briodolid i'r diweddar frenin, dan yr enw "Eikon Basilike," yn yr hwn y darlunid ef fel sant duwiolfrydig, a thaenwyd ef wrth y miloedd trwy yr holl wlad, er mwyn ei chynhyrfu yn erbyn y Weriniaeth, ac o blaid Charles II.; ac effeithiodd i'r fath raddau ar y genedl fel y tybiodd lliaws iddo gael ei dorfynyglu ar gam, a galwyd ef "y merthyr brenhinol." Er mwyn gwrthweithio dylanwad y traethodyn anwireddus a niweidiol hwn, rhoddwyd Milton ar waith gan y Cyngor i'w atteb; ac ysgrifenodd yntau gyfrol 4plyg drwchus, yn Saesneg, allan o law, dan yr enw "Εικονοκλαςτης,"=Delw-dorwr, yr hon a gyhoeddwyd cyn diwedd y flwyddyn 1649, ac yn yr hon y mae'n beirniadu y brenin drygionus a'r llyfr yn ddidrugaredd; ac effeithiodd yn ddaionus ar bob darllenydd diragfarn trwy yr holl deyrnas. Yn ebrwydd ar ol iddo orphen y gwaith hwn, galwyd arno drachefn i gyfansoddi un pwysicach fyth. Dododd Charles II., oedd ar y pryd yn ymnoddwr yn Hòland, ŵr tra dysgedig ar waith, a'i enw Claud de Saumaise, ac a gyfenwid Salmasius, i ysgrifenu amddiffyniad i deyrnasiad ei dad ac yntau ei hun, dan yr enw "Defensio Regia pro Carolo Primo ad Carolum Secundum," yr hwn a gyhoeddwyd yn ebrwydd ar ol "Delw-dorwr" Milton; ac yr oedd ei glod yn adseinio dros holl Gyfandir Ewrop. Ofnid y gallai hwn niweidio y Werinlywodraeth; ac ar yr 8fed o Ionawr, 1650, penderfynwyd mewn Cyngor "bod i Mr. Milton ddarpar rhyw beth mewn ffordd o atteb i lyfr Salmasius, ac, wedi iddo ei orphen, ei ddwyn ger bron y Cyngor." Ymaflodd y cawr llenyddol yn y gwaith ar unwaith, a chyfansoddodd gyfrol 4plyg arall yn Lladin, dan yr enw—"Defensio pro Populo Anglicano contra Claudii Salmasii Defensionem Regiam"=Amddiffyniad i Bobl Lloegr yn erbyn Amddiffyniad Claude Salmasius i Deyrnasiad. Ar y 23ydd o Ragfyr, 1650, gorchymynodd y Cyngor i'r llyfr hwn gael ei gyhoeddi yn ddioed, yr hyn sydd brawf na bu Milton lawn blwyddyn yn ysgrifenu y gyfrol gampus yma, er ei fod yn fwy na hanner dall ar y pryd! Dywed rhai i Milton gael 1,000p. am gyfansoddi y gwaith gorchestol hwn, a da yr haeddodd eu cael; ond nid yw cofnodion y Cyngor yn crybwyll iddo gael dim, namyn "pleidlais o ddiolchgarwch." Ehedodd clod y gwaith yma, fel tân gwyllt, dros holl Ewrop mewn byr amser, a dywedir i'w bicellau tanllyd, meistrolgar, effeithio ar Salmasius, druan, fel yr effeithiodd "Awdl Dduchan" Dafydd ab Gwilym ar Rhys Meigen, a "Dadl Farddonol" Edmund Prys ar Wiliam Cynwal: beth bynag, bu farw Salmasius yn bur fuan ar ol ymddangosiad y gwaith miniog a dysgedig yma.

Ymddengys i'r dadleuydd diguro, yr hanesydd craffus, y duwinydd dyfnddysg, y cerddor cywrain, a'r bardd mwyaf yn y byd, orphwys dros dymmor byr ar ol yr orchestgamp uchod, oddi eithr ysgrifenu llythyrau i wledydd tramor, fel swyddog y llywodraeth. Ymhen tu a dwy flyn-

edd ar ol i'r awdur ysgrifenu y gwaith pwysig uchod, sef yn 1653, fel y tybir,* bu farw ei wraig gyntaf ar enedigaeth baban, gan adael tair o enethod ar ei hol, sef Ann, tu a 7 oed; Mari, tu a 5 oed; a Deborah, yn faban. Pa mor gymmwys bynag oedd y wraig hon i fod yn gymhares i John Milton, dīau y teimlai chwithdod aruthr ar ei hol yn y fath amgylchiad difrifol, pan oedd efe ei hun yn prysur fyned yn gwbl ddall,† a thra yr oedd ei blant mor ieuangc.

Yn fuan ar ol i "Amddiffyniad" Milton "i Bobl Brydain" ymddangos yn 1651, cyhoeddwyd math ar atteb iddo, yr hwn a briodolai Milton i'r Dr. John Bramhall, Esgob Derry ar y pryd, yr hwn a wnaed yn Archesgob y Werddon ar ol adferiad Charles II. Gadawodd Milton y gwaith o atteb hwn i'w nai, John Phylips, heb wneud mwy na rhedeg drosto, a chywiro ambell ymadrodd ei hunan. Yn y flwyddyn 1652, cyhoeddwyd gwaith arall ar y Cyfandir, dan yr enw "Regii Secunda Clamor"=Ail Ddadwrdd y Frenhiniaeth, yn cynnwys yr ymosodiadau bryntaf ar Milton, gan edliw ei ddallineb iddo, a llu o gyhuddiadau cableddus eraill. Awdur y budrwaith yma oedd Ffrangcwr a'i enw Peter Dumoulin, yr hwn wedi hyny a wnaed yn gôr-beriglor yng Nghaergaint; ond i Ysgotyn a ymsefydlasai yn Ffraingc, a'i enw Alexander More, dan ofal yr hwn y cyhoeddwyd ef, y priodolai Milton y gwaith, ac yn erbyn y gŵr hwnw y cyfeiriodd efe ei bicellau tanllyd. Wedi iddo ymadfer graddau ar ol marwolaeth ei wraig, a threfnu ei dŷ cystal ag y gallai dan yr amgylchiadau, ymaflodd yng ngwar y gŵr hwnw, ac ysgytiodd ef yn anhrugarog, mewn llyfr a alwodd—"Defenio Secunda," &c.=Yr Ail Amddiffyniad, &c., yr hwn a gyhoeddwyd yn 1654, wedi i'r awdur galluog fyned yn gwbl ddall. A pha fesur y mesurodd y gŵr hwnw, yr adfesurodd Milton iddo yntau. Eithr nid yw efe yn sefyll ar dalu i'r awdur yn unig yn y gwaith gorchestol hwn, ond hefyd y mae'n ymdrin â'r prif bwngc; ac yn ystod yr ymdriniaeth y mae'n talu gwarogaeth ysplenydd i Cromwel, ac yn rhoi canmoliaeth fer, ond pur effeithiol, i amryw o wroniaid eraill y Werinlywodraeth. Er bod Milton weithian yn hollol ddall, fel y gwelsom, ac yn gorfod cadw ysgrifenydd i gopīo ei holl lythyrau swyddogol dan y llywodraeth, ni phallodd efe dim yn ei gynhyrchion llenyddol a moesol. Yn 1655, cyhoeddodd draethodyn arall i amddiffyn ei hun yn fwy uniongyrchol, dan yr enw "Authoris pro se Defenso;" ac un arall etto, yn yr un flwyddyn, yn atteb i More, dan yr enw "Authoris ad Alexandri Mori." Ar y 12fed o Dachwedd, 1656, priododd Milton eilwaith, "trwy gyttundeb gwladol," â Catherin Woodcock, merch y Capten Woodcock, o Hackney; ond yn Chwefror, 1658, bu hithau farw ar enedigaeth baban, fel ei wraig gyntaf, ac felly gadawyd y gŵr enwog hwn yn weddw unwaith etto. Y mae'r bardd yn amlygu ei serch at y wraig rinweddol hon mewn canig fechan, dlws, "Ar Farwolaeth ei Wraig."

Pan fu Cromwel farw ar y 3ydd o Fedi, 1658, parhaodd Milton yn y swydd o Ysgrifenydd y Llywodraeth, mewn ieithoedd tramor, hyd ymddiswyddiad Richard Cromwel ar y 25med o Fai, 1659. Ysgrifenodd ddeg o lythyrau i R. Cromwel yn ystod yr amser byr yma. Amserwyd y diweddaf ar y 15fed o Fai, 1659, rhyw ddeng niwrnod cyn ymddiswyddiad Richard. Nid oes hanes iddo gyfansoddi dim, heb law llythyrau swyddogol, ar ol marwnad ei ail wraig hyd y flwyddyn hon; ond tybia rhai iddo gasglu amryw ddifyniadau o wahanol awduron yn y cyfamser, y sawl y bwriadai eu cyhoeddi pan gai amser cyfaddas. Heb law y llythyrau swyddogol a nodwyd, cyhoeddodd Milton ddau draethawd pwysig yn ystod 1659, a hyny cyn i R. Cromwel ymddiswyddo, canys y mae'r ddau wedi eu cyflwyno "I Senedd Gweriniaeth Lloegr, ynghyd â'i Thaleithiau." Y cyntaf yw—

"Traethawd am Awdurdod Wladol mewn Achosion Eglwysig; yn dangos nad yw Gyfreithlawn i unrhyw Awdurdod ar y Ddaear Orfodi mewn Matterion Crefyddol." ‡

Enw y llall ydyw—

"Ysytyriaethau yn dangos y Moddion Tebycaf i Symmud Cyflogedigion o'r Eglwys; yn yr hwn hefyd yr Ymdrinir â Degymau, Gobrau Eglwysig, a Chyllid Eglwysig; a pha un a ellir Sefydlu rhyw Gynhaliaeth i Weinidogion Crefydd trwy Gyfraith." §

Yn yr un flwyddyn etto, cyhoeddodd "Lythyr

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 411–2.

† Tybir nad aeth efe yn *hollol* ddall, fel y crybwyllwyd, hyd ryw amser yn 1654.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 412.

‡ "A Treatise of Civil Power in Ecclesiastical Causes, shewing that it is not Lawful for any Power on Earth to Compel in Matters of Religion."

§ "Considerations touching the Likeliest Means to Remove Hirelings out of the Church; wherein is also Discoursed of Tithes, Church-Fees, and Church-Revenues, and whether any Maintainance of Religious Ministers can be Settled by Law."

Cyhoeddwyd y ddau draethawd yma, a'r pump eraill a nodwyd eisoes ar fatterion eglwysig, yn un llyfr 12plyg taclus, mewn llythyren fân, yn cynnwys 316 o dudalenau, yn 1836, gan William Tait, 78 Princes-street, Edinburgh, a dylai fod ymeddiant pob dŷn a chwennycho ddeall natur Eglwys Crist yn drwyadl.

Digitized by Google

at Gyfaill, ynghylch Rhwygiad y Weriniaeth;" ac yn y flwyddyn nesaf, 1660, cyhoeddodd lythyr at Monk, dan yr enw "Y Moddion Presennol a Datganiad Byr o Weriniaeth Rydd, yn hawdd i'w dodi mewn Ymarferiad yn ddïoed." Yna, pan y rhaid bod y weledigaeth hoff wedi diflannu o lygaid pawb ond llygaid meddwl y dŷn enwog hwn, efe a ysgrifenodd etto, yn yr un flwyddyn, "Y Ffordd Barod a Hawdd i Sefydlu Gweriniaeth Rydd, ac Ardderchowgrwydd yr unrhyw mewn cymhariaeth â'r Anghyfleusderau a'r Peryglon o Adsefydlu Brenhiniaeth yn y Genedl Hon. Yr awdur, J. M." Amcan yr awdur dall, galluog, a phenderfynol, yn y pedwar traethawd crybwylledig, a gyfansoddwyd mewn cyn lleied o amser, ac a gyhoeddwyd mor agos i'w gilydd, oedd attal y genedl rhag coleddu yspryd o annïoddefgarwch crefyddol, ac ymollwng dan gaethiwed Brenhinol; ond bu ei holl egni gwladgarol a chrefyddol yn ofer, canys, trwy offerynoliaeth y dïegwyddor Gadfridog Monk a'r fyddin, yr oedd y dihiryn gan Charles II. ar orsedd Brydain ym Mai, 1660.

Amddifadwyd Milton, bid sicr, ar unwaith ar ol yr "Adferiad" o'i swydd a'i flwydd-dâl. Gan y tybiai ei gyfeillion nad oedd ei fywyd bellach yn ddïogel, dywed traddodiad iddynt wneud ffug angladd iddo er mwyn ei achub. Y mae'n sicr y bu yn ymguddio dros ryw hyd yn nhŷ cyfaill iddo yn Bartholomew Close. Ond ymhen tu a thri mis ar ol esgyniad Charles, darfu i Gyfraith yr Ebargofiant, nid yn unig ei ddïogelu ef ac eraill rhag cosp am y gorphenol, ond hefyd, yn ei achos ef, ni lwythwyd ef gan unrhyw anghymhwysder yn y dyfodol. Heb law bod ganddo amryw gyfeillion galluog yn y llywodraeth newydd, dywedir ei fod yn ddyledus am y tynerwch a gafodd i eiriolaeth Syr William Davenant, y chwareuwr prydyddol, yr hwn, tu a deng mlynedd yn flaenorol, a syrthiasai i ddwylaw y blaid Seneddol, ac a achubasid yn gyffelyb trwy ddylanwad Milton. Pan orfodwyd ef i ymadael o'r tŷ a breswyliai tra mewn swydd dan y llywodraeth, efe a ymneillduodd ar y dechrau i dŷ bychan yn Holborn, ger llaw Red Lion Fields (Red Lion Square yn awr), lle y preswyliodd o 1660 hyd 1662; yna aeth i dŷ yn Jewin-street, ger llaw ei hen gartref yn Aldersgate, lle y trigodd hyd 1665. Tra yn preswylio yn y tŷ hwn, sef yn 1663, priododd ei drydedd wraig, ac efe yn 54 oed, a hithau yn ddim ond 30 oed. Enw y wraig hon ydoedd Elizabeth Minshull, merch i Ralph Minshull, yr hwn a hanai o deulu da yn sir Gaerlleon. Trefnwyd y briodas hon gan ei gyfaill, y Dr. Paget, yr hwn a welai fod ei ferched, y rhai a dyfent i fynu heb un fam i ofalu am danynt, yn fwy o boen iddo nag o gymmorth i gadw a threfnu ei dŷ. Yr oedd ei ferch hynaf y pryd hyn, yr hon oedd gloff ac anafus, yn 17 oed; yr ail, yn 14 oed; a'r ieuengaf, yn 10 oed. Yn nechrau y flwyddyn 1665, ymhen tu a dwy flynedd ar ol priodi y waith hon, symmudodd Milton o Holborn, dros ychydig amser, i letty gyd â Millington, gwerthwr llyfrau enwog yn ei ddydd; a chyn diwedd y flwyddyn honno, cymmerth dŷ bychan yn Artillery Walks, lle y preswyliodd hyd ddiwedd ei oes. Er bod Milton yn hollol ddall, fel y gwelsom, er ys 11 mlynedd bellach, sef er 1654, etto yr oedd efe yn para i gyfansoddi yn ddïorphwys. Ei ferched a ddefnyddiai i ddarllen ac ysgrifenu iddo, nes y llwyr flinasant ar y gorchwyl. Parhaodd yr ieuengaf i wasanaethu ei thad hyd 1669, pan y cwerylodd hithau â'i llysfam, medd Phylips, ac "anfonwyd y tair allan i ddysgu rhyw waith priodol i ferched, yn enwedig brodwaith mewn aur ac arian," canys er nad oedd yn cael dim tâl o'r llywodraeth er adferiad Charles, etto yr oedd ganddo ef ddigon, yn ol ei ddull cymmedrol ef o fyw, i'w gynnal ei hun a'i deulu yn gysurus.

Er bod Milton weithian megis wedi ei gau allan o'r byd, gan yr adgofion gwleidyddol amhoblogaidd oedd ynglŷn â'i enw; ac wedi ei gau i mewn oddi wrth y byd, yn fwy fyth gan ei deimladau dirmygus at bob peth braidd o'i amgylch; etto yr oedd efe ymhell, o ran ei deimlad, o fod wedi darfod â'r byd. Yr oedd hefyd yn mwynhau cysur cryf ynghymdeithas ei feddyliau ei hun, ac wrth gyfeillachu âg ychydig gyfeillion ffyddlawn a ddeuent i ymweled âg ef, y rhai a ystyrient yn anrhydedd cael ei arwain pan elai allan i'w rodfëydd dyddiol, a darllen ac ysgrifenu iddo yn ei lyfrgell. Ymddengys iddo ddychwel yn awr gyd â math o hyfrydwch, na ŵyr neb am dano ond y gwir lenor, er yr hyn oll a gollasai, at hoff fyfyrdodau ei ieuengctid. Mor forau ag 1661, cyfansoddodd ei "Elfenau Grammadeg Lladin;" yn 1670, "Hanes Brydain," hyd y goresgyniad Normanaidd; yn 1672, "Hyfforddiant Helaeth yn y Gelfyddyd o Ymresymu;" ac yn 1673, "Am Wir Grefydd, Heresi, Sism, Goddefiad, a'r moddion gorau a ellir ei ddefnyddio er attal Cynnydd Pabyddiaeth." Hwn oedd un o'i gyfansoddiadau diweddaf. Yr oedd pyngciau y llyfr hwn yn cael

Digitized by Google

sylw arbenig yn yr amser hwnw. Ysgrifenwyd ef mewn yspryd tawel, heb fawr o'r tanbeidrwydd a dreiddiai trwy ei ysgrifeniadau dadleuol cynharaf. Dengys ynddo ei olygiadau addfed ar bwngc mawr ei oes, sef Goddefiad Crefyddol. Dadleua dros oddefiad cyflawn, gyd â golwg ar athrawiaeth, trefn eglwys, addoliad, a disgyblaeth, i bob plaid Brotestanaidd yn ddiwahaniaeth; ond y mae yn cau allan y Pabyddion, yn un peth, am eu bod yn honni awdurdod wladol dros yr holl fyd, ac y mynnent i bob llywodraeth wladol ymostwng i'w penaeth eglwysig hwy, sef y Pab o Rufain; a hefyd, am y mynnent, pe gallent, ddileu pob dull o grefydd, ond yr eiddynt eu hunain, allan o'r byd, a hyny trwy rym arfau, llofruddiadau, a phob math ar greulonderau, fel y mae eu holl hanes yn profi, o'r amser cyntaf y cawsant lywodraeth wladol i'w llaw hyd y dydd hwn. Mynnai eu cau allan o bob awdurdod wladol ac eglwysig hefyd, am eu bod yn gwadu awdurdod oruchaf a phendant yr Ysgrythyrau, ac yn priodoli yr awdurdod honno i'w swyddogion eglwysig ffaeledig a dirywiedig eu hunain, yr hyn a ystyriai efe yr heresi waethaf a ddyfeisiwyd gan y "dŷn pechod, mab y golledigaeth." Ond ni fynnai efe eu ceryddu hwy â "chospau corphorol, na'u dirwyo yn eu meddiannau," am y credai nad oedd hyny "yn cydsefyll â hynawsedd yr efengyl, nac yn tueddu chwaith at ddïogelwch y wladwriaeth."

Tybir mai yn ystod deuddeng mlynedd ei ymneillduad, o 1662 i 1674, y cyfansoddodd efe y llyfr a elwir "John Milton ar Athrawiaeth Gristionogol Lloegr."* Darganfyddwyd y traethawd godidog hwn mewn llawysgrif, yn ddamweiniol, gan Mr. Lemon yn 1823, ymhlith papurau swyddogol y llywodraeth. Cyfieithiwyd a golygwyd ef gan y Parch. Charles R. Sumner, yr hwn wedi hyny a fu yn Esgob Caerwynt (Winchester). Dodir hanes y traethawd ardderchog yma fel y canlyn:—

"Wedi i Milton gyrraedd addfedrwydd oedran, ymddengys nad oedd yn cael ei foddhau yn hollol yn y gwahanol gyfundraethau duwinyddol a ddarllenasai; a chan yr ystyriai bod gan bob dŷn hawl, yn gystal a'i bod yn ddyledswydd ar bob dŷn, dynu ei dduwinyddiaeth iddo ei hun allan o Air Duw yn unig, dechreuodd gyfansoddi y gyfundrefn at ei wasanaeth ei hun, trwy gasglu testynau o'r Bibl yn ofalus, heb amcanu gwneuthur nemmawr ychwaneg na'u cyssylltu ynghyd a'u hegluro. Llafuriodd yn ddyfal ar y traethawd hwn nes ei orphen. Ystyriai ei fod yn ddigon pwysig i'w gyhoeddi; ond gan y gwyddai ei fod yn cynnwys rhai syniadau a ystyrid gan lawer yn Lloegr yn anghywir a chyfeiliornus, rhoes yr ysgriflyfr, ynghyd â chopi o 'Lythyrau y Wladwriaeth,' i Daniel Skinner, o Goleg y Drindod, Caergrawnt (câr i'w gyfaill Cyriack Skinner), yr hwn oedd yn myned drosodd i Hòland, gan ddymuno arno wneud trefniadau yno i'w cyhoeddi. Wedi i'r argraphydd Elzevir, i'r hwn y'u rhoddwyd, wrthod eu cyhoeddi, dychwelwyd hwy i Skinner, yr hwn a arhosodd dros beth amser ar y Cyfandir. Yn y cyfamser, yr oedd hanfod y llawysgrifau hyn, a'r bwriad o'u cyhoeddi, wedi dyfod yn wybyddus i lywodraeth Brydain, ac anfonwyd llythyrau at Skinner oddi wrth Barrow, athraw Coleg y Drindod, yn ei rybuddio o'r perygl yr oedd ynddo, ac yn ei annog i ddychwel i'w goleg dan boen cael ei droi allan o hono. Digwyddodd hyn yn y flwyddyn 1676, tu a dwy flynedd ar ol marwolaeth Milton; ac ymddengys i Skinner ddychwel i'r wlad hon yn fuan ar ol hyny, a chyflwyno y llawysgrifau i Syr Joseph Williamson, un o ysgrifenyddion y wladwriaeth. Dododd yntau hwy, ynghyd â phapurau ereill, yn y fan lle y cafwyd hwy gan Mr. Lemon, gant a hanner o flynyddoedd yn ddiweddarach, ac yr oeddynt yn yr un rhwymyn ag y dodwyd hwynt ynddo ar y cyntaf."

Wrth ystyried bod Milton wedi bod yn gwbl ddall dros y tymmor maith o ddeunaw mlynedd diweddaf ei oes, fel nas gallai na darllen nac ysgrifenu llinell ei hunan yn ystod yr holl amser hwnw, y mae'n syndod digyffelyb iddo lwyddo, er ffrwythloned ei athrylith diderfyn, i gynhyrchu cynnifer o gyfansoddiadau yn y cyfamser, ac amryw o honynt yn cynnwys y fath greadigaethau meddyliol synfawr, y fath syniadau goruchel a hedegog, a'r fath goethder pur a duwiol, fel nas cynhyrchwyd eu cyfartal, ymhob ystyr, yn ddïau, er dyddiau y prophwydi sanctaidd hyd yn awr, ac nas gwneir, ond odid, hyd ddiwedd amser Ond er bod ei ferched ei hun wedi diflasu yn darllen ac ysgrifenu iddo, fel y gwelsom, etto yr oedd amryw ereill yn falch o gael gwasanaethu yr hen lenor dall, enwog, a dysgedig. "Yr oedd ganddo rywrai o'i amgylch yn feunyddiol i ddarllen ac ysgrifenu iddo," medd Phylips: "rhai wedi cyrraedd addfedrwydd oedran, yn dyfod o'u gwirfodd, ac yn falch o'r cyfle o gael darllen iddo, er cael medi o'r lles a ddeilliai iddynt o'r hyn a ddarllenent, yn gystal ag er ei foddio yntau; ac ereill ieuangach, a anfonid ato gan eu rhieni i'r un amcan." Un o'i ddarllenwyr mwyaf cymmeradwy, yr hwn a gyflwynwyd iddo gan y Dr. Paget, ydoedd Grynwr ieuangc, a'i enw Thomas Ellwood, yr hwn a ddaeth, nid yn unig yn ysgrifenydd a darllenwr iddo, ond hefyd yn ddisgybl ac un o'i gyfeillion penaf. Wedi i Milton gael cym meradwyaeth iddo gan ei gyfaill, gwahoddodd ef ato yn 1661, i ddarllen llyfrau Lladin iddo, a derbyniodd Ellwood y gwahoddiad yn llawen. Pa wedd bynag, ni chafodd y Crynwr ieuangc yr hyfrydwch o fwynhau y rhagorfraint yma yn hir, y pryd hyn, canys carcharwyd ef yn Newgate gan

* "Johannis Miltoni Angli de Doctrina Christiana," &c.

Digitized by Google

yr erlidwyr Esgobyddol dan y gwagsaw Charles II., am fyned i gyfarfod gweddi at ei gyfeillion.*

Er mor ardderchog ydyw holl draethodau a mân ganiadau Milton, a bod rhai o honynt yn wir farddonol; etto, nid y rhai hyn a olygai efe fel prif amcan ei fywyd. Yr oedd efe wedi bwriadu er yn forau, os rhoddai Duw nerth iddo, y gadawai ryw waith teilwng o athrylith Gristionogol ar ei ol, yn yr hwn y gallai Brydain ymffrostio fel meddiant cenedlaethol; ac na byddai oesau dyfodol yn foddlawn iddo farw ymaith na gadael iddo gael ei anghofio. Gellir casglu y byddai yn galw yr adduned yma i'w gof nid anfynych, yn oed pan ynghanol trafferthion cyfnod canol ei oes lafurfawr; ond ni chafodd hamdden hyd o gylch diwedd tymmor amddiffyniad Cromwel, ac yntau yn ddall er ys amryw flynyddoedd, i ddechrau ar y gwaith mawr oedd wedi bod yn destyn meddylfryd penaf ei fywyd. Dywed Aubrey, ei gydoeswr, pan oedd pethau yn ymddangos, o dan reolaeth sefydlog Cromwel, fel pe buasai y wlad ar gael mwynhau cyfnod o lonyddwch a thangnefedd, yn 1658, bod Milton wedi dechrau ei waith mawr, sef "COLL GWYNFA." Er bod y bwriad o gyfansoddi cerdd arwrol Fiblaidd ym meddwl Milton er pan oedd yn lled ieuangc, fel y gwelsom, a bod y bwriad hwnw yn dilyn ei feddwl yn barhaus; etto ymddengys y bu yn bur hir cyn llwyr benderfynu ar ei *destyn.* Nid cywir fyddai dywedyd, "cyn penderfynu ar ei *gynllun*," canys yr oedd cynllun arwrgerdd yn hyspys iddo ef er yn ieuangc, trwy iddo ddarllen a myfyrio arwrgerddi Homer, Virgil, ac eraill o brifeirdd Groeg a Rhufain. Dywedir y bwriadai unwaith ganu ar Arthur y Cymry; ond wedi hir feddwl, nid ystyriai hwnw yn atteb i'w syniad cyntefig ef am gân Fiblaidd. Ond wedi iddo fod yn dwys fyfyrio, syrthiodd ei feddwl, o'r diwedd, trwy ryw ddigwydd nad yw hyspys i ni, ar destyn mawr "Coll Gwynfa." Pa bryd yn fanwl yr ymsefydlodd ei feddwl ar y testyn goruchel yma, ni fynegir; ond dywed Aubrey ei fod wedi dechrau cyfansoddi "Coll Gwynfa" tu a dwy flynedd cyn adferiad Charles II. yn 1660, ac, yn ol yr un awdurdod, gorphenwyd y gân ymhen tu a thair blynedd ar ol y digwyddiad hwnw. Pa wedd bynag, y mae genym sicrwydd ei bod wedi ei gorphen yn 1665, canys y pryd hwnw, pan oedd y pla mawr yn dechrau yn Llundain, cymmerth ei gyfaill Ellwood, oedd wedi ei ryddhau bellach o'r carchar, dŷ bychan i Milton a'i deulu yn Charfont St. Giles, yn sir Buckingham; ac yn ebrwydd wedi i'r bardd a'i deulu ymsefydlu yno, aeth Ellwood i ymweled âg ef. Galwodd Milton am lawysgrif, a rhoddes hi yn llaw ei gyfaill ieuangc meddylgar, ac archodd iddo ei chymmeryd gyd âg ef adref, a'i darllen wrth ei hamdden. Adrodda Ellwood yr amgylchiad yma fel y canlyn:—

"Pan ddychwelais adref, ac wedi i mi ddarllen yr ysgrif, canfyddais mai y gân ardderchog honno, Coll Gwynfa, ydoedd. Wedi i mi ei darllen gyd â'r sylw manylaf a'r a allwn ei roddi iddi, ymwelais âg ef drachefn, a dychwelais iddo ei lyfr, gyd â chydnabyddiaeth briodol am y ffafr fawr a gefais ganddo. Gofynodd i mi beth a feddyliwn o honi; a dywedais innau yn dirion ond yn rhydd, 'Yr wyt wedi dywedyd llawer yma am Wynfa *wedi ei cholli;* ond beth sydd genyt i'w ddywedyd am Wynfa *wedi ei hadfeddiannu?*' Ni roddes un atteb, ond eisteddodd dros ennyd mewn synfyfyrdod. Yna torodd yr ymddiddan hwnw, a syrthiodd ar bwngc arall. Wedi i'r clefyd ddarfod, sef yr haint yn Llundain, ac i'r ddinas ddyfod yn ddïogel gyfanneddol drachefn, efe a ddychwelodd yno; a phan aethum i ymweled âg ef yno wedyn (yr hyn ni phallwn braidd un amser pa bryd bynag y tynid fi gan fy achosion i Lundain), dangosodd i mi ei ail gân a elwir Adfeddiant Gwynfa,† a dywedodd wrthyf mewn tôn ddifyr, 'I chwi y mae hon yn ddyledus, canys chwychwi a'i dododd yn fy mhen i trwy ofyn yr holiad a roddasoch i mi yn Chalfont, am yr hyn nis meddyliaswn i yn flaenorol.'"‡

Wele yn awr "Adfeddiant Gwynfa," cystal a "Choll Gwynfa," wedi ei gorphen. Gwelsom fod yr olaf yn orphenedig pan oedd yr awdur yn y wlad, cyn iddo ei rhoi i'w gyfaill Ellwood; ac y mae'n sicr iddo ddechrau y llall yn ebrwydd ar ol iddo gael y syniad gan ei gyfaill, a dichon iddo ei gorphen cyn dychwel i'r ddinas ar ol i'r haint ddiflannu. Y mae'n sicr iddo ei gorphen o gylch 1667. Dywed rhai y meddyliai Milton fwy o "Adfeddiant Gwynfa" nag o "Goll Gwynfa;" ond Addison a ddywed mai yr achos i rai feddwl felly oedd, am yr arferai Milton ddwyn yr Adfeddiant i sylw, pan na soniai fawr am y llall, o blegid y gwelai bawb yn canmol y flaenaf, ond neb yn son fawr am yr Adfeddiant, canys gwyddai ef fod hon yn well nag un gân arall yn yr iaith Saesneg, er y gwyddai gystal a neb nad oedd yn gyfartal i "Goll Gwynfa."

Ymddengys mai yr orchest farddonol ddiweddaf a wnaeth y prifardd enwog oedd cyfansoddi "Yr Ymdrechydd Samson,"§ yr hyn a gymmerth le, medd Wright, yn 1671. Pruddwawd‖ ardderchog ydyw y gân hon, a achlysurwyd, yn ddilys ddïammau, gan syn-fyfyrdodau y prifardd ar ei ddallineb, yn yr hyn yr oedd yn gyffelyb i Samson.

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 239.

† Paradise Regained.

‡ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 239.

§ Samson Agonistes. ‖ Tragedy.

Digitized by Google

Y mae'r gân awenyddol, deimladwy, a chyffrous hon yn wir deilwng o awdur Coll ac Adfeddiant Gwynfa, a chanmoliaeth uwch iddi sydd yn annichonadwy. Ond er i'r gorchestion mawrion hyn gael eu gorphen, sef "Coll Gwynfa" yn 1665, "Adfeddiant Gwynfa" yn 1667, ac "Yr Ymdrechydd Samson" yn 1671; etto yr oedd anhawsderau mawrion ar ffordd eu cyhoeddiad. Gyd â golwg ar "Goll Gwynfa," yn arbenig, yr oedd perygl mawr oddi wrth falais ac anwybodaeth y trwyddedwyr, y rhai oedd yn bur debyg o anghymmeradwyo rhai darnau yn y gân orchestol, yn enwedig y darn mawreddog sydd yn y llyfr cyntaf, yn darlunio y diffyg ar yr haul, pan y dychymyg yr awdur ei fod yn gweled yspryd bradwrus. Anhawsder mawr arall oedd cael neb digon anturus i brynu y copi. Pa wedd bynag, llwyddodd i'w werthu o'r diwedd am y swm anferth o *bum punt!* Yn ol y cyttundeb, yr oedd i gael 5p. yn ychwaneg ar ol gwerthu 1,300 o gopïau, a 5p. wedyn ar ol gwerthu yr un nifer o'r ail argraphiad, a 5p. drachefn ar ol gwerthu yr un nifer o'r trydydd argraphiad. Gyd â phriodoldeb mawr y dywed un o fywgraphwyr Milton, "Y fath dâl truenus oedd hyn am y fath gampwaith gorchestol!" Cymmerth gwerthu 1,300 o'r gwaith yma yn agos i ddwy flynedd o amser, canys ni dderbyniodd yr awdur yr ail 5p. hyd Ebrill, 1669. Felly, 10p. oedd yr holl swm a dderbyniodd Milton ei hun am brif gampwaith ei fywyd; ïe, campwaith barddonol nad oes neb ar ei ol, na neb o'i flaen, ar ol y prophwydi ysprydoledig, wedi dyfod yn agos ato. Derbyniai ei weddw 5p. arall ar yr ail argraphiad, ar ol ei farwolaeth ef; a gwerthodd hi ei hawl i'r gwaith i Simmons, yr argraphydd, am 8p. yn ychwanegol, ar ol cyhoeddi y trydydd argraphiad yn 1678. Amserwyd ysgrif derbyniad yr 8p. hyny yr 21fed o Ragfyr, 1680.

Yn awr, rhaid dywedyd am brif ganiedydd Brydain, fel y dywedwyd am "beraidd ganiedydd Israel," "Yna dyddiau JOHN MILTON a nesasant i farw." Efe a fu farw yn dawel iawn, "mewn gwir ddïogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragywyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist," yn ei dŷ yn Bunhill Fields, ar y dydd cyntaf o'r wythnos, yr 8fed o Ragfyr, 1674, pan o fewn tu a mis i orphen ei chweched flwyddyn a thriugain o'i oedran; a chladdwyd ef wrth ochr ei dad yn eglwys blwyfol St. Giles, Cripplegate.

Er lleied o bris a gafodd Milton am ei brif orchestion prydyddol, dywedir iddo adael cymmaint ar ei ol a 1,500p., yr hyn oedd yn swm mawr yn y dyddiau hyny. Dywed Aubrey fod Milton yn bur hoff o'i ginio, ac y bwytai yn ddibrin o'r blasus fwyd a garai; ac unwaith ar ginio dywedodd wrth ei wraig, "Duw a gymmero drugaredd arnat, Betty: yr wyf yn gweled dy fod am gyflawni yr hyn a addewaist wrthyf fi, trwy ddarpar i mi ddysgleidiau o'r fath a garaf tra yr ydwyf yn fyw; a phan y byddaf farw, gwyddost i mi adael y cwbl i ti." Pa wedd bynag, bu Milton, fel llawer un arall, farw heb drefnu ei dŷ fel y dylasai; canys yn fuan ar ol ei ymadawiad, bu cyfraith rhwng ei ferched a'i weddw am yr hawl i'r meddiannau a adawsai ar ei ol. Dadl y weddw oedd, bod ei gŵr ymadawedig wedi datgan yngŵydd tystion mai hi oedd i fod ei unig etifeddes, ac nad oedd y merched, y rhai a fuasent "dra anufudd" iddo, i dderbyn dim ond y llôg a ddeuai oddi wrth gynnysgaeth briodasol eu mam, yr hyn ni thalasid erioed; ond yr oedd y gynnysgaeth honno mewn dwylaw da, a gallasid ei chael pan y mynid.

Ond at Milton ei hun. Y mae pob peth perthynol i ŵr o athrylith a mawredd y dŷn hwn yn wir ddyddorol i'r darllenydd ymofyngar a chwilfrydig. Hoffai wybod maintioli corph y fath ddŷn, agwedd y gwynebpryd, dull y genau, noddwedd y trwyn, bywiowgrwydd y llygaid (cyn iddynt ballu), hyd a lled y talcen, trymder neu ysgafnder yr aeliau, a'r cyffelyb; a bydd cofio bod y dŷn mawr hwn yn Gymro cystal ag yn Sais, yn sicr o ddyfnhau'r dyddordeb ym meddwl pob darllenydd Cymreig o deimladau cymmeradwy. Wel, nid oes ond ychydig o'r manylion hyn ar gof a chadw am y gŵr enwog hwn; ond caiff y darllenydd, yn fyr, yr hyn a gawsom ninnau ynglŷn a hyn yn y difyniadau canlynol:—

"Yr oedd Milton braidd is law y taldra cyffredin;* a phan yn ieuangc, ystyrid ei fod yn hardd nodedig. Yr oedd y coch a'r gwyn yn ymgymmysgu yn y modd prydferthaf yn lliw ei wyneb. Gleision tywyll oedd ei lygaid, a'i wallt yn winau, yn tueddu at fod yn olau, yn cael ei ranu yn y canol, ac yn disgyn yn llaes ar ei ysgwyddau. Yr oedd ei ymddangosiad yn eiddil, ac yn tueddu braidd at deleidrwydd benywaidd; ond yr oedd ei ysgogiadau yn ddynol, ac yn dynodi annibyniaeth meddwl. Ond yn ei hen ddyddiau yr oedd dallineb, y droedwst, ac anhwylderau eraill, wedi effeithio yn fawr ar ei nerth a'i fywiowgrwydd. 'Aeth clerigwr oedranus o sir Dorset i ymweled â John Milton,' medd yr arlunydd Richardson, 'a chafodd

* Taldra cyffredin milwyr Brydain Fawr, tu a 45 mlynedd yn ol, oedd 5 troedfedd a 7 modfedd; ac er y dichon i'r ffaith ymddangos yn chwerthinus yn awr, y gwir yw y bu raid i'r ysgrifenydd dalu 2p. a 10s. o "arian milisia" am fod yn hyny o hyd "yn nhraed ei hosanau," canys pe nacasai, dichon y buasai raid iddo fyned i'r fyddin, a gadael i'w wraig ieuangc a'i baban ymdaro fel y gallent.

Digitized by Google

ef mewn ystafell fechan, â lleni gwyrddion crogedig o amgylch y ffenestri, yn eistedd mewn cadair freichiau, wedi ymwisgo yn ddestlus mewn gwisg ddu; ei wyneb yn llwydaidd, eithr nid yn welw; a'i ddwylaw a'i draed yn dwyn arwyddion y droedwst. Arferai eistedd mewn côb o frethyn llwyd, bras, yn nrws ei dŷ yn agos i Bunhill Fields, i fwynhau awyr iach, ar dywydd teg; a derbyniai ymwelwyr o alluoedd ac enwogrwydd, ac o sefyllfaoedd uchel mewn cymdeithas yno, cystal ag yn ei ystafell.' Aubrey a ddywed, 'Yr oedd Milton yn godwr borau: codai bedwar o'r gloch y borau, ïe, hyd yn oed pan wedi colli ei olwg.' Pump y borau y cyfodai yn gyffredin yn y gauaf; ac weithiau arhosai yn ei wely ar ol deffro, i gyfansoddi yn ei feddwl, neu i adrodd ffrwyth ei fyfyrdod i'w ysgrifenydd. . . . Arferai ddechrau y diwrnod trwy ddarllen pennod neu ddwy o'r Bibl Hebraeg neu y Testament Groeg. Treulid y rhan fwyaf o'r dydd ganddo mewn darllen ac ysgrifenu; 'a byddai yr ysgrifenu, yn gyffredin, yn cymmeryd cymmaint o amser a'r darllen,' medd Aubrey. Arferai adrodd ei feddwl i'w ysgrifenydd, gan eistedd ar osgo mewn cadair freichiau, â'i goes wedi ei thaflu dros un fraich. Ciniawai am un o'r gloch, ar ol taith fer; . . . ac ar ol cinio, arferai gerdded drachefn yn yr ardd, neu yn rhywle yn y gymmydogaeth, gyd â rhywun yn arweinydd iddo; neu cymmerid ef allan weithiau mewn math ar gadair siglo o'i gynllluniad ei hun. Arferai chwarau am tu ag awr yn ystod y prydnawn ar yr organ, neu y sawdgrwth;* a chanai efe neu ei wraig, yn gyffredin, gyd â'r offeryn. . . . Tu a diwedd y prydnawn, treuliai awr neu ddwy eilwaith i wrando darllen. Tu a chwech o'r gloch, arferai ymwelwyr ymgasglu ato, â'r sawl ymddiddanai hyd wyth yn gyffredin. Yna cymmerai rawn olewydd, neu rywbeth ysgafn arall, i swper gyd â hwynt; ac ar ol ysmocio pibellaid o dybacco, a chymmeryd gwydraid o ddwfr, elai i'w wely. Aubrey a ddywed, 'Yr oedd Milton yn nodedig o ddymunol a difyrys yn ei ymddiddanion ar ginio, swper, &c.; ond braidd yn tueddu at arfer gwawdiaith duchanol; . . . ac yr oedd mwy o wŷr dysgedig yn ymweled âg ef nag a ewyllysiai.' Arferai estroniaid tramor ymweled âg ef yn llïosog pan yn Llundain; a dywed Aubrey ei fod yn llawn cymmaint o wrthrych eu hedmygedd ag 'Oliver yr Amddiffynydd ei hunan;' ac yn ol yr un awdurdod, 'yr oedd Milton yn cael ei edmygu yn llawer mwy ar y Cyfandir nag yn ei wlad ei hun.' . . . Ei gyfeillion mynwesol oedd wŷr pwyllog a difrifol, megis Andrew Marvell, Dr. Paget, a Cyriack Skinner. Yr oedd Dryden yn un o'i edmygwyr penaf, ymweliadau yr hwn a dderbynid ganddo yn garedig; er y dywedir nad oedd ganddo ryw feddwl uchel o'i gyfansoddiadau barddonol. . . . Ei hoff feirdd estronol oedd Homer, Euripides, ac Ovid; ac ymhlith y Saeson, Spencer, *Shakspeare*, a Cowley. . . . Yr oedd yn feistr, nid yn unig ar y Groeg a'r Lladin, ond hefyd ar yr Hebraeg, y Galdaeg, a'r Syriaeg, cystal ag yn yr ieithoedd diweddar, yr Italaeg, yr Ffrangcaeg, a'r Hispaenaeg."

Gyd â golwg ar gymmeriad neillduol John Milton, dywed ei fywgraphydd hyawdl a rhyddfrydig, y Dr. Charles Symmons, fel hyn:—

"Yr oedd Milton yn ddŷn yn yr hwn yr oedd yr holl ansoddau a allent addurno, neu ddyrchafu y natur i'r hon y perthynai, wedi eu godidog gydgyssylltu; dŷn, yr hwn ar unwaith oedd yn meddu prydferthwch gwynebpryd, *cymmeintiolaeth* ffurf, dillynder moesau, caredigrwydd tymmer, mawrfrydigrwydd ac ucheledd enaid, yr ysplander meddwl disgleiriaf, y wybodaeth fwyaf amrywiol ac ehang, y rhinwedd nas gohiriodd erioed yn ei hynt, ac na wyrodd yn ei yrfa; dŷn, yr hwn pe'i danfonasid fel cynddrychiolydd ei ryw i un o'r bydoedd fry, a fuasai yn awgrymu syniad goruchel am yr hil ddynol, fel bodau godidog o drysorau moesol a meddyliol, y rhai a ddyrchafwyd ac a hynodwyd yn y greadigaeth fel anwyliaid ac etifeddion y nef."

Y mae llïaws wedi ysgrifenu yn odidog ar gymmeriad cyffredinol, athrylith, a chyfansoddiadau Milton, ar ol yr enwog Joseph Addison; ond tybir mai prin y mae neb wedi dyfod i fynu, ymhob ystyr, a thraethawd ardderchog y Dr. William Ellery Channing, o Newport (Casnewydd), Ynys Rhôd, Gogledd America, ar "Gymmeriad a Gwaith Milton." O herwydd paham, cyn dodi syniadau un o feddylwyr penaf Cymru ger bron, ar y cyfieithiadau Cymreig o brif arwrgerdd Milton, difynir ychydig yma o draethawd athrylithgar a barddonol Channing:—

"Gallwn ddechrau trwy sylwi bod ysplander ei enwogrwydd barddonol yn tueddu i daflu ehangder ei feddwl, ac amrywiaeth a nerth ei gyrreiddiadau, i'r cysgod. Nid ymddengys yn ddim ond bardd yn unig i lawer, pan, mewn gwirionedd, yr oedd yn ysgolhaig dwfn, yn ddŷn o feddwl ehang, wedi ei drwytho yn drwyadl mewn dysg, hen a diweddar; ac yn alluog i feistroli pob peth fel ag i wneud y defnydd gorau o hono. Nid oedd efe yn credu yr athrawiaeth y dadleuodd llawer drosti ar ol ei ddyddiau ef, sef bod y crebwyll yn llunio y gweledigaethau disgleiriaf o niwl oesoedd ofergoelus. Gan hyny nid oedd efe yn ofni casglu gwybodaeth, rhag y byddai i hyny ffrwyno a llethu ei athrylith. Yr oedd yn gydwybodol o'r peth oedd o'i fewn a'i galluogai i lywodraethu ac i ddefnyddio pob gwybodaeth; yr hwn a allai roddi newydd-deb i hen wirioneddau, a chydgordiad i feddyliau anghydsain; a allai gydrwymo y darganfyddiadau mwyaf eithafol; a chyfodai adeiladau prydferth a gogoneddus o'r defnyddiau a gasglasid gan eraill. Yr oedd Milton yn meddu y gallu cyffredinol sydd yn hynodi deall o'r radd uwchaf. Er yr arferai yfed, bron o'i febyd, o ffynhonau llenyddiaeth glassurol,† nid oedd ynddo ddim o'r goegddysg a'r mursendod a ddirmyga bob llenyddiaeth arall. Yr oedd ei enaid iachus ef yn ymhyfrydu mewn athrylith, ar ba dir bynag yr ymddangosai, neu ymha oes bynag y bwrlymai ei dyfroedd gloywon i'r golwg, ac y tywalltai allan o'i chyflawnder. Deallai efe hawliau, urddas, a gwychder crebwyll creadigol yn rhy dda i'w gosod o dan gyfreithiau yr ysgol Roegaidd na Lladinaidd yn unig. Nid Parnassus ydoedd unig dir sanctaidd athrylith iddo ef. Teimlai efe fod barddoniaeth yn bresennol ymhob man. Teimlai fod meddyliau mawrion yn perthyn yn agos iddo ymhob llanerch. Teimlodd swyn ffugchwedloniaeth ddwyreiniol, a'r creadigaethau sydd gynnwysedig ynddynt. Gan hyny y mae ei farddoniaeth ef yn ein hadgofio am y cefnfor yr hwn sy'n ychwanegu at ei gyflawnder trwy dderbyn cyfraniadau o ddwfr i mewn o bob ardal dan y nefoedd. Ac nid ym maes y dychymyg yn unig yr oedd ei gyrreiddiadau ef yn ehang. Teithiai efe dros feusydd gwybodaeth, cyn belled ag yr oeddynt wedi eu harchwilio y pryd hwnw. Yr oedd ei amrywiol gyrreiddiadau ieithyddol yn cael eu defnyddio ganddo er mwyn meddiannu y ddoethineb a ystoriwyd ymhob gwlad lle yr oedd y meddwl dynol wedi ei ddiwyllio. Yr oedd anianyddiaeth naturiol, arddansoddiaeth, moesyddiaeth, hanesyddiaeth, duwinyddiaeth, a gwleidyddiaeth ei amser ei hun, yn hollol adnabyddus iddo. Ni bu meddwl rhyddach erioed na'i feddwl ef; ïe, gellid nodi Milton fel esampl ymarferol o'r manteision sy'n deilliaw o ddiwylliant cyff-

* Bass-Viol.

† Classical literature: Llenyddiaeth awduron Groeg a Rhufain.

redinol y deall, a ofnir gan rai fel peth anfanteisiol i fagu meddylwyr mawrion a gwreiddiol. Cofied y cyfryw rai fod meddwl yn wasgarol o ran ei natur ei hun. Ei wrthrych ydyw yr holl greadigaeth, yr hon, mewn ystyr fanwl, sydd yn un, neu yn cael ei huno ynghyd gan gyssylltiadau dirifedi; ac felly, y mae ei gynnydd naturiol o'r naill faes naturiol i'r llall: a lle bynag y mae gallu gwreiddiol a chrebwyll creadigol, y mae'r meddwl yn gweled mwy o gyfattebiadau dirgelaidd a phrydferth yngwrthrychau ei wybodaeth, yn hytrach nag yn cael ei ddyrysu neu ei lethu gan amrywiaeth ei gyrreiddiadau. Gwel oleuni yn cael ei daflu o wirionedd i wirionedd, a'i gorfoda, megis âg awdurdod frenhinol, i dalu treth o brawf, eglurhâd, neu addurn, ar unrhyw bwngc a ddadblygir ganddo.

"Yr ydym yn gweled mawredd meddwl Milton yn cael ei arddangos yn ei ymlyniad gwresog a gwastadol wrth ryddid. Rhyddid yn ei holl ffurfiau a'i ganghenau, ond yn arbenigol rhyddid meddwl, llafur, cydwybod, ac addoliad; rhyddid i chwilio am y gwirionedd, ac i broffesu a lledaenu y gwirionedd. Yr oedd rhyddid gwladol cyffredin, yr hwn sy'n dïogelu hawliau allanol dynion, mewn sefyllfa isel, ac yn barod i drengu yn amser Milton. Ond y gorthrwm a gasheid yn benaf ganddo ef oedd yr un a dorai rym moesol a deallol preswylwyr y wlad. Yr oedd yr egwyddorion yr ymosodai efe arnynt yn caethiwo y meddwl. Teimlai ynddo ei hunan fod egwyddor o gynnydd parhaol yn y meddwl dynol, a'i fod wedi ei wneuthur i fyned ym mlaen a chynhyddu yn feunyddiol; ac ewyllysiai weled pob cadwyn wedi ei thori, fel y gallai redeg gyrfa gwirionedd a rhinwedd yn frwdfrydig, llwyddiannus, a diattal. Gwnaeth yr ymlyniad yma wrth ryddid, nad ymadawodd âg ef yn y dadleuon poethaf, lawer er dïogelu ei athrylith, ei ddychymyg, ei chwaeth, a'i deimlad, rhag dylanwad llygredig a difaol sefyllfa uchel ac anrhydeddus, a digofaint a ffyrnigrwydd pleidiau. Taflodd ryw arlliw farddonol ar wleidyddiaeth. Y mae'r gwirionedd bod Milton, yn y dyddiau tymhestlog hyny, wedi cadw ei alluoedd mawrion yn ddilwgr, ynddo ei hun yn brawf o'i fawredd anghyffredin. Y mae gwleidyddiaeth, pa faint bynag a effeithia er gwneud y deall yn fywiog, yn graff, a dyfeisgar, yn tueddu yn gyffredin i ddiffodd y syched am wirionedd cyffredinol, i barlysu teimlad a dychymyg, i lygru symledd y meddwl, a dinystrio yr ymddiried mewn rhinwedd dynol sydd yn gorwedd yn sylfaen i ddyngarwch ac aberthau haelfrydig, ac yn diweddu mewn dwyn dŷn yn ddarostyngol i ryw egwyddor o hunanoldeb. Aeth Milton drwy chwyldroad, yr hwn, yn ei gynnydd a'i ganlyniadau diweddaf, oedd yn tueddu yn neillduol i oeri brwdfrydedd, i chwalu gweledigaethau gobeithiol, ac i wasgaru amheuon gyd â golwg ar wirionedd egwyddor a rhinwedd; ac er hyny, daeth ei wresowgrwydd, ei deimlad moesol, a brwdfrydedd ei ieuengctid ef trwy y prawf caled heb eu niweidio; ïe, mwy na hyny, wedi eu dyrchafu a'u perffeithio."

Wele ychydig o sylwadau yr awdur dysgedig ac athrylithgar yma ar gyfansoddiadau rhyddieithol Milton:—

"Yr ydym yn llawenhau bod y llwch yn dechrau cael ei chwythu ymaith oddi ar ysgrifeniadau rhyddieithiol Milton, a bod y cyhoedd yn awr yr hyn a wyddai y rhai oedd yn eu darllen bob amser, sef eu bod yn cynnwys darnau nad ydynt nemmawr ddim yn israddol i'w farddoniaeth fwyaf ysplenydd, a'u bod oll wedi eu nodweddu â'r un grym, ac yn dwyn yr un arwyddion o nerth meddwl ag a geir yn ei 'Goll Gwynfa.' Y mae'r cyfansoddiadau hyn wedi bod yn destynau ymosodiadau egnïol ei wrthwynebwyr; ac yn enwedig cyhuddwyd ef ganddynt o fod wedi anurddo ei gyfansoddiadau trwy amlygu gormod o yspryd plaid, difrïaeth oganllyd, a dadleuaeth chwerw; a dichon bod darnau mewn rhai o'i ysgrifeniadau y buasai gwir edmygedd o'i gymmeriad yn chwennych eu gweled wedi eu tynu ymaith. Ond yr oedd y chwerwder tybiedig yn cael ei ddangos gan Milton at wrthwynebwyr cyhoeddus, ac anghyhoeddus hefyd. Nid oedd rhai o'r dosparth blaenaf, megis Salmasius a More, yn teilyngu dim trugaredd oddi ar ei law. Tywalltasant hwy raiadrau o sarhâd ar ei gymmeriad difrycheulyd, gan ei gyhuddo o ddrygau dyfnion y galon, a throseddau mwyaf ysgeler y bywyd a'r ymarweddiad. Dylid ychwanegu hefyd bod yspryd ac arferion y cyfnod yr oedd Milton yn byw ynddo yn cyfiawnhau, i raddau helaeth, yr ad-daliad a roddodd efe i'r fath droseddwyr; ad-daliad na wneuthai yspryd mwy moesol, a mwy Cristionogol hefyd, ni a hyderwn, yr oes hon mo'i gymmeradwyo. Er hyny, nid ydym yn bwriadu bod ymhlith ei ymddiheuwyr. Dylasai Milton, gan ei fod wedi ei ddyrchafu gymmaint uwch law yr oes, fel yr oedd, ac wedi ei gadarnhau â'r ymwybodaeth o'i rinweddau ei hun, fod yn esampl o addfwynder Cristionogol i'w oes ei hun ac oesoedd dyfodol. Am y driniaeth a roddes i'r gelynion cyhoeddus yr ymosododd arnynt, sef y gorthrymwyr mewn eglwys a gwladwriaeth, a'r sefydliad llygredig a fu yn achlysur i'r rhyfel gartrefol, yr oedd tuedd gyffredinol ei ysgrifeniadau, er yn gryf a sarug weithiau, yn gyfryw, ar yr un pryd, ag a'i dyrchafa yn syniadau gwir gyfeillion rhyddid gwladol a chrefyddol. Yr oedd y rhyddid hwnw mewn perygl. Yr oedd drygau mawrion yn ymdrechu am gael byw, ac nid oedd dim ond gallu nerthol a'u gorthrecha. Yr oedd Milton yn teimlo bod manteision mawrion mewn perygl; a phwy a all ei feio am ymdaflu, gorph ac enaid, i'r gwaith o'u cadw a'u dïogelu yn feddiant ei wlad, a defnyddio holl alluoedd ei feddwl cawraidd i'w hamddiffyn gyd â zêl a brwdfrydedd? Rhaid i ni beidio camsyniad caredigrwydd Cristionogol, megis pe na bai ganddo ond un llais, sef ceisio perswadio gyd â thynerwch. Gall lefaru mewn ymadroddion llymion ac ofnadwy. Y mae ymdrechfa barhaus yn myned ym mlaen yn y byd hwn rhwng da a drwg. Y mae achos dynoliaeth yn wastad yn gorfod ymladd â gelynion. Y mae pob gwelliant yn fuddugoliaeth a ennillir trwy ymdrechion. Y mae hyn yn wir, mewn modd neillduol, am y cyfnodau mawrion sydd wedi eu hynodi gan chwyldroadau mewn llywodraethau ac mewn crefydd; ac y mae symmudiadau cyflymaf y meddwl dynol wedi eu darnodi â'r ymdrechfëydd hyn. Ysgydwodd Cristionogaeth y byd, a chynhyddodd ynghanol tymhestloedd; ac yr oedd y Diwygiad yn amser Luther yn fath o arwydd bod rhyfel gyffredinol i gymmeryd lle. Cyfarfu achos rhyddid â gwrthwynebiadau fil, y rhai a orchfygwyd ganddo trwy ei egnïon anfarwol ei hun. Yn y fath gyfnodau, y mae dynion a fyddont wedi eu bendithio â grym meddyliol ac â syniadau dyrchafedig, yn cael eu gwysio i'r ymdrechfa yn erbyn yr hyn sydd ddrwg. Y maent megis yn clywed lleferydd dwyfol yn eu cymmell i'r gâd; ac wedi derbyn y genadwri hon, y maent yn llosgi gan ymroddiad ac awyddfryd i wasanaethu gwirionedd a rhyddid: angenrhaid a osodir arnynt, ac y maent yn llefaru gyd â grym digofus; ac ni ddylent gael eu mesur wrth safon meddyliau cyffredin mewn amseroedd cyffredin. Y mae dynion o duedd ofnus a thyner, er yn meddu egwyddorion cywir a diffuant, yn tueddu i edrych ar ddynion o yspryd eofn a gerwin, fel dynion cynhyrfus, ffrochwyllt, a diffygiol mewn haelfrydedd; a hwyrach na bydd y cyhuddiad bob amser yn hollol ddisail. Ond nis gall y teimlad dwfn o bresennoldeb drygau, y mae angenrhaid ei feddu tu ag at ymladd yn deg â hwynt, yr hwn sydd yn hynodi cenhadon pwysicaf Duw at ddynion, siarad mewn iaith ac accenion tyner a mwynion. Rhaid i'r enaid a fo wedi ei gyffroi i'w waelodion lefaru yn gryf, a llefaru hefyd nes y bo cenhedloedd yn symmud ac yn ysgwyd. Yr ydym yn cynnyg y sylwadau hyn am ein bod yn eu hystyried yn dra chymmwysiadol at Milton.

Digitized by Google

Yr oedd efe yn caru ac yn parchu y natur ddynol, ac ymroddodd i'w gwasanaethu gyd â zêl a ffyddlondeb nad oes neb ond un o feddwl cyffelyb i'w feddwl ef yn alluog i'w ddangos. Yr oedd yn byw yn un o'r cyfnodau pwysig sydd yn penderfynu cymmeriad oesau dyfodol. Cynhyrfwyd ei yspryd ef gan bresennoldeb perygl. Yr oedd efe yn byw ynghanol ymladdfa. Addefir genym fod gwres ei yspryd wedi ei ysgubo ef weithiau tu hwnt i derfynau doethineb a chariad, a pheri iddo arllwys allan ogan a sarhâd dialw am danynt am ben ei wrthwynebwyr; ac yr ydym yn gofidio am hyny. Ond y mae arucheledd a phurdeb ei feddwl yn mynych dori allan ynghanol y difriaeth chwerwaf a dywalltai am ben ei wrthwynebwyr. Yr ydym yn canfod ei feddwl a'i galon ardderchog yn ymddangos trwy y cwbl. Nid serch ffugiol at wirionedd a rhyddid, yn cael ei ddefnyddio fel gorchudd dros lidiowgrwydd, ydoedd ei serch ef. Yr oedd efe yn caru crefydd ddilwgr, a rhyddid y meddwl, mewn gwirionedd; ac y mae ei enw yn teilyngu cael ei ysgrifenu ymhlith eu campwyr penaf a mwyaf diffuant."

**Yn awr, sylwer beth a ddywed yr ysgrifenydd galluog hwn am farddoniaeth y prifardd Milton:—**

"Y mae enwogrwydd Milton yn gorphwys yn benaf ar ei gyfansoddiadau barddonol. . . . Gellir ystyried nad yw Milton yngolwg y rhai sy'n arfer siarad am farddoniaeth fel rhyw ysgafn-ddarlleniad* ond wedi ei ddyrchafu ef i safle uchel ym mysg y rhai sydd wedi gwneud eu rhan, yn y cylch hwn, i ddifyru y bobl. Nid felly y meddyliai Milton am farddoniaeth. O'r holl roddion a'r doniau deallol a gyfrana Duw i ddynion, ystyriai efe yr athrylith farddonol y benaf o'r cyfan. Edrychai arni yndddo ei hun fel math ar ysprydoliaeth; ac ysgrifenodd ei ganiadau mawrion gyd â rhywbeth tebyg i urddas ymwybodol prophwyd. Yr ydym yn cyttuno â Milton yn ei farn am farddoniaeth; ac ymddengys i ninnau y fwyaf dwyfol o'r holl ddoniau, canys y mae yn anadliad neu yn ddatganiad o'r egwyddor neu y syniad sy'n ddyfnaf ac yn fwyaf dyrchafedig yn y natur ddynol. Yr ydym yn golygu y syched a'r awyddfryd, i'r hyn, fe allai, nid oes un meddwl yn gwbl ddïeithr, am rywbeth purach a hawddgarach, a rhywbeth mwy grymus, goruchel, a threiddiol, nag a geir mewn bywyd cyffredin. Nid oes un athrawiaeth yn cael ei choleddu yn fwy cyffredinol ym mysg Cristionogion na'r athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid; ond ni ddeallir *mor* gyffredin bod holl wraidd neu egwyddorion ei fywyd dyfodol yn awr yn oblygedig yn yr enaid, fel y mae elfenau y planhigyn yn yr hedyn. Fel canlyniad angenrheidiol y cyfansoddiad hwn, y mae'r enaid wedi ei feddiannu a'i gyffroi gan yr egnïon grymus hyn, yn ymestyn yn barhaus y tu hwnt i'r hyn sydd bresennol a gweledig, yn ymegnïo yn erbyn rhwymo ei garchardy daearol, ac yn ceisio esmwythâd a llawenydd mewn creadigaethau dychymygol. Y mae'r golygiad yma ar ein natur, na chafodd erioed hyd yn hyn ei ddadblygu yn llawn, sy'n myned ymhellach i egluro anghyssonderau y bywyd dynol na dim *arall*, yn ein cludo at sylfeini a ffynnonellau barddoniaeth. Y mae'r hwn nas gall esponio yr hyn a ddywedasom yn awr, trwy ei ymwybodolrwydd ei hun, heb feddu y gwir agoriad i waith athrylith. Nid yw wedi ymwrthio i'r cilfachau cyssegredig yn yr enaid, lle y genir ac y megir barddoniaeth, yr anadla fywyd anfarwol, ac yr ehêd ar ei hynt nefol. . . . Y mae i'r sylwadau hyn amcan uwch na sefydlu urddas Milton fel bardd, sef cynhyrfu pawb a fynnont barchu, diwyllio, a choethi eu natur, i anwylo a chymmeradwyo y ddawn ddwyfol a goruchel yma.

"Weithian ni a gyfeiriwn yn arbenig at 'Goll Gwynfa,'† y gofgolofn ardderchocaf sy'n bod, ond odid, o athrylith ddynol. Y mae'r ddau lyfr cyntaf o 'Goll Gwynfa,' yn ol cydsyniad cyffredinol, heb ddim i'w cystadlu â hwynt o ran mawreddigrwydd ac arucheledd. Y mae'r disgrifiad o uffern, a thrueni uffern, yn wir ofnadwy; ac y mae yr ofnadwyaeth yn ymddangos yn fwy, po mwyaf y myfyrir ar y darlun. O un elfen, sef yr elfen dân, y mae'r bardd wedi ffurfio byd o ddychrynfeydd a dïoddefaint, na bu dychymyg erioed yn ymdaith trwy ei gyffelyb. Ond y mae fflamau mwy angerddol na'r rhai a amgylchynent Satan yn llosgi yn ei yspryd ef ei hun. Y mae dïalgarwch, balchder wedi ymgynddeiriogi, digofaint difaol uchelgais, er wedi syrthio, etto heb ei orchfygu hyd yn oed gan daranau yr Hollalluog, ac yn ymwibio yn barhaus am ymherodraeth y bydysawd, yn ffurfio darlun mwy cyffrous ac ofnadwy nag uffern ei hunan. Y mae uffern ei hun megis yn rhoddi ffordd i'r yspryd a garcherir ynddi. Dengys angerddolrwydd ei thân nwydau ac ewyllys mwy angerddol ac anhyblyg Satan; a chasgl yr archangel cwympedig iddo ei hun arucheledd yr olygfa a'i cylchyna. Dyma sy'n gwneud i fynu y dyddordeb ofnadwy a berthyn i'r llyfrau rhyfeddol hyn. Ni a welwn feddwl yn oruchaf ar holl alluoedd ofnadwy natur. Yn wir, nis gwelwn y ffrwydriad o nwydau yn Satan sydd yn hollti yr enaid, cystal ag yn dinystrio y cyfansoddiad corphorol, megis yn 'Lear' Shakspeare; ond canfyddir ynddo ddyfnder nwyd nas gallai ond archangel yn unig ei amlygu.

"Ond y mae pwngc arall nas gellir myned heibio heb ei gyffwrdd. O uffern yr ydys yn ffoi i Baradwys, ardal mor hawddgar ag ydyw uffern o ddychrynadwy; ac i rai nad ydynt wedi ystyried gallu athrylith wirioneddol i wneud pob peth yn eiddo iddi ei hun, ymddengys yn ddïeithr fod yr un meddwl yn gallu paentio a gosod allan mor effeithiol ddwy olygfa mor gwbl wahanol. Y mae Gwynfa a'i phreswylwyr mewn cydgordiad dymunol â'u gilydd; ac y maent ynghyd yn ffurfio golygfa o dawelwch dedwydd, sydd ar unwaith yn boddhau ac yn difyru y dychymyg. Y mae Adda ac Efa newydd eu llunio gan law, a'u bywhau gan anadl, Duw, yn adlewyrchu yn eu hwynebau, cystal ag yn eu meddyliau, wybodaeth, caredigrwydd, a dedwyddwch eu Gwneuthurwr. Y mae i'w hanfod newydddeb a thawelwch borau haf. Y mae eu heneidiau, sydd heb eu halogi, yn mwynhau pleser diniwaid yn y greadigaeth ieuangc, sydd yn gwenu o'u hamgylch; a'u cariad at eu gilydd yn ddwfn; ac nid oeddynt yn gwybod am ofid yn oed wrth ei enw. Ni ddywedwn ein bod yn cynfigenu wrth ein rhieni cyntaf, canys teimlwn y gall bod dedwyddwch uwch na'r un a fwynhawyd ganddynt hwy; dedwyddwch a ennillir trwy ymdrechu â gelynion mewnol ac allanol, dedwyddwch goruchafiaeth foesol, dedwyddwch yn cyfodi oddi ar wneuthur aberthau mawrion, a dedwyddwch yn deilliaw o obaith sicr am anfarwoldeb. Er hyny, y mae amserau pan y bo'r yspryd, wedi ei lethu â phoen, ei wisgo allan gan lafur, wedi ei flino gan gyffroadau, yn gystuddiedig gan euogrwydd, y serchiadau yn glwyfedig, y gobeithion wedi eu dyrysu, yn grynedig mewn ffydd, yn hiraethu am 'adenydd fel colomen, fel yr ehedai ymaith' i'r Eden gyntaf y bu Adda ac Efa yn ymddifyru yn ei rhodfëydd teg, a'i llwyni cysgodfawr, ar lanau ei hafonydd grisialog.

"Y gwrthgyferbyniad dwfn rhwng y tawelwch oedd yng Ngwynfa ac ystormydd bywyd sy'n rhoddi i'r pedwerydd a'r pummed llyfr o'r gân fawreddog hon y fath swyn anorchfygol, fel y byddai llawer yn barod i wneud aberth yn oed o'r ddau lyfr cyntaf er yr holl arucheledd a berthyn iddynt, yn hytrach na cholli y rhai hyn. Dywedir, weithiau, nad oes farddoniaeth fugeiliol dda yn yr iaith Saesneg. Dymunem ofyn ymha oes neu wlad yr anadlodd y bibell fugeiliol erioed y fath gathlau melusber a'r rhai a chwythir arnom o Wynfa Milton?

"Terfynwn ein sylwadau ar farddoniaeth Milton gyd â sylwi ei bod yn cael ei hynodi gan ddifrifoldeb. Er mor

* Light reading.

† Wrth "Goll Gwynfa" y meddylir yma "Paradise Lost" Milton, ac nid y cyfieithiadau.



Digitized by Google

fawr ac amrywiol ydyw ei ragoriaethau, nid yw yn amlygu yr holl amrywiaeth a geir yn athrylith Shakspeare, dychymyg yr hwn oedd yn gloddesta yn gyfartal mewn digrifwch llawen, prydferthwch dillynwiw, a dychrynfeydd arswydlawn. Ar un adeg y mae yn codi ysprydion o'u llochesau, bryd arall yn chwarau â'r tylwythion teg, a thrachefn yn 'esgyn i nefoedd uchaf dychymyg creadigol.' Yr oedd Milton yn byw mewn amseroedd rhy ddifrifol a phwysig, wedi ei alw i gymmeryd rhan mewn achosion rhy beryglus, ac o dan angenrhaid beunyddiol i fod megis ymhresennoldeb meddyliau a chymmelliadau rhy ddyrchafedig, i ymwledda mewn creadigeuthau ysgafn a llawen, hyd yn oed pe buasai ei athrylith yn fwy hyblyg a chwarëus. Ond y mae barddoniaeth Milton, er yn wastad yn ddifrifol, etto bob amser yn iachus, disglaer, a grymus. Nid oes yn ei waith ef ddim prudd-der. Ni chymmerai ddim pleser mewn tynu darluniau tywyll o fywyd, canys gwyddai, trwy brofiad, bod gallu yn yr enaid i droi trychineb yn achlysur o nerth, a maeth i egni a rhinwedd moesol. Os nad yw Milton yn hoenus, nid ydyw byth ar dori ei galon. Y mae ei 'L'Alegro' yn profi ei fod yn deall agweddion disglaer, hoenus, a siriol natur yn drwyadl; ac yn ei 'Il Penseroso,' pan y temtiwyd ef i gasglu delweddau pruddhaol ynghyd, gwelwn nad yw yr olwg fwyaf pruddaidd a gymmerai ar y greadigaeth ond yn ein cynhyrfu i fyfyrdod dwys a goruchel."

Ar ol y sylwadau campus a hyawdl uchod ar gymmeriad cyffredinol Milton a'i gyfansoddiadau, rhaid i ni brysuro at y cyfieithiadau Cymreig o'i brif orchestwaith, sef "Coll Gwynfa;" ac y mae yn ddrwg genym na oddef lle i ni ddodi holl sylwadau gwerthfawr y Dr. Edwards, o'r Bala, i mewn arnynt, y rhai, cystal a'i ysgrifeniadau eraill, y bu mor garedig a chaniatâu i ni "wneuthur unrhyw ddefnydd o honynt a welom yn orau." Ond er meithed y rhedodd ein pennod ar y dŷn mawr hwn, angenrhaid a osodir arnom i ddifynu rhai o nodiadau pwrpasol y Dr. Edwards ar Milton fel dŷn, bardd, a Christion, cyn dyfod at y cyfieithiadau:—

"Yr ydym wedi meddwl fwy nag unwaith am ysgrifenu traethawd ar athrylith Milton; ond nis buom hyd yn hyn, ac nid ydym etto, yn meddu ar ddigon o hyfdra i gymmeryd y gwaith mewn llaw. Mor bell ag y mae parch iddo yn gymhwysder i draethu am dano, nid ydym yn foddlawn i roddi y blaen i'r Dr. Channing na Mr. Maccaulay, na neb arall. Yr ydym yn ei barchu fel dŷn cywir, gwrol, dïysgog yn ei ymlyniad wrth egwyddorion; yr ydym yn ystyried ei ysgrifeniadau rhyddieithiol ym mysg y rhai mwyaf campus yn yr iaith Saesneg; ac yn enwedig pan ddarllenom ei gyfansoddiadau barddonol, nis gallwn lai na rhyfeddu bod y fath feddyliau mawrion wedi cael lle mewn enaid dynol. Bydd ei eiriau yn ein dilyn am ddiwrnodau fel swn dyfroedd lawer, 'fel llais o dragywyddoldeb.' . . . Ond un peth yw teimlo ei fawredd, a pheth arall yw medru dangos ymha beth y mae'r mawredd hwnw yn gynnwysedig. Y gorchwyl olaf hwn nid ydym yn anturio cynnyg arno: a rhaid i ni ddywedyd na welsom neb arall wedi llwyddo i'w gyflawni mewn modd boddlonawl. Er hyny, ni ddylid dibrisio y gallu i deimlo bod Milton yn ddŷn mawr. Dyma ddawn nad oedd ond ychydig yn ei oes ef ei hun, ac nad yw pawb etto, yn ei meddu. Yr oedd ganddynt hwy ryw esgus, gan eu bod yn byw yn rhy agos ato i'w ganfod yn gyflawn: ond erbyn hyn, nid oes gan neb hawl i son am lenyddiaeth os nad yw yn gwerthfawrogi barddoniaeth Milton. Nis gwyddom am well ffordd i ddŷn adnabod ei hun na thrwy eistedd i lawr yn bwyllog i ddarllen 'Coll Gwynfa.' Os bydd yn blino arno yn fuan, dyna brawf ar unwaith ei fod yn amddifaid o chwaeth. Nid yw etto yn alluog i ddosparthu rhwng drwg a da. Y mae heb erioed agor ei lygaid i weled anian. Ond drachefn, glyned i'w ddarllen trwy bob anhawsder; ac os yw yn rhagori o ran ei gynheddfau ar greaduriaid direswm, fe ddaw mewn amser i weled prydferthwch ac ardderchowgrwydd digyffelyb yn yr holl waith: o blegid y mae 'Coll Gwynfa' yn un o'r llyfrau sy'n gwella o hyd wrth ei fynych ddarllen; a dyma y prawf gorau o wir fawredd.

"Fel pob dŷn gwir fawr, y mae Milton hefyd, nid yn unig yn traddodi meddyliau mawrion, ond yn gwneud hyny *yn hawdd*. Dichon dŷn cyffredin, trwy ymdrech dirfawr, wneuthur gorchwyl anghyffredin; ond y mae dŷn cryfach yn gwneud yr un peth gyd â rhwyddineb. Yng ngwaith beirdd diweddarach, y mae gormod o *geisio* at effaith. Pan ddywedir rhywbeth nerthol, y mae'r *ymdrech* yn rhy amlwg. Yn lle myned ym mlaen gyd â'u gwaith yn dawel, y maent mewn cyffro parhaus, ac yn dangos rhyw egni annaturiol i dynu sylw yr edrychydd. Y canlyniad ydyw bod meddwl yr edrychydd yn myned oddi wrth y gwaith at y gweithiwr; nid heb ryw gymmaint o ryfeddod, fe allai, ar y cyntaf, wrth weled ei fywiowgrwydd. Ond nid hir y bydd cyn i'r teimlad hwn roddi lle i dosturi yn gymmysgedig â graddau o ddirmyg. Y mae Byron yn llawn o'r ymdrech annaturiol hwn; y mae gormod o hono yn Polloc; ac y mae'n rhaid addef nad yw Dewi Wyn yn rhydd oddi wrtho. Ond yn Milton nid oes un gair wedi ei roddi i mewn er mwyn effaith. Y mae'n amlwg nad oedd efe byth yn gofyn pa fodd y mae hwn yn debyg o *ymddangos* orau, ond pa fodd y mae'n debyg o *fod* yn orau. Myned ym mlaen gyd â'i waith yn dawel y mae ef, heb ofalu am foddio neb ond ei Feistr mawr a'i gydwybod ei hun. Ynghanol y digwyddiadau mwyaf aruthrol, y mae'n meddiannu ei hun mewn hamdden a phwyll. Yn gyffelyb i ddisgrifiad Goethe o ddŷn mawr, y mae'n myned rhagddo,

"Fel gloyw seren
Yn y ffurfafen,
Heb brysuro,
Ac heb orphwyso,
Nes cyflawn orphen
Y gwaith rowd iddo.*

O ganlyniad nid oes ynddo ef ddim annaturiol, ddim o'r hyn a eilw y Saeson yn *spasmotic* [dirdynol]. Os yw wedi cyflawni gwaith mawr, y mae wedi gwneud hyny gyd â llai o drwst nag a gedwir yn fynych ynghylch rhyw hanner dwsin o englynion difeddwl, difywyd, yn un o Eisteddfodau Cymru. Y mae'n symmud y meini mwyaf yn Baalbek,† gyd â'r un tawelwch a rhwyddineb a phe byddent ond y cerig llyfnion sydd gan y plant i chwarau â hwynt ar lan yr afon. Nid yw hyn yn cynnwys nad oedd ei waith yn costio llafur a gofal; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Trwy lafur dibaid y cyrhaeddodd y fath berffeithrwydd; ac ar ol ei gyrraedd, nid yw yn rhoi heibio lafurio: er hyny, yn lle gwylltio yn y gorchwyl, a llethu dan y baich, y mae'n llafurio gyd â hyfrydwch iddo ei hun, fel un sy'n feistr ar ei waith. Un o elfenau hanfodol pob meistrolaeth yw cuddiad cryfder. Pan ddygir yr holl awdurdod i'r golwg, y mae o hyny allan yn colli ei ddylanwad. Nid oes dim yn gorchfygu dŷn a'i fawredd, ac

* "Wie das gestrin,
Ohne Hast,
Aber ohne Rast,
Drehe sich jeder
Um die eigne Last."

† Baalbek, a elwid gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid Heliopolis, Dinas yr Haul, ydoedd hen ddinas enwog gynt yn Syria, ynghwr eithaf gogledd-ddwyrain Dyffryn Beka, ac ydoedd hynod am ei cholofnau meini mawrion.—Gol.

Digitized by Google

yn effeithio yn hir ar ei deimladau, os na fydd ynddo ryw ddirgelwch. Y mae meddwl dŷn yn hyn yn hawlio ei berthynas âg anfeidroldeb, ac yn ymgyrraedd yn barhaus trwy y gweledig at yr anweledig. Yr oedd Milton yn deall hyn yn dda; ac am hyny nid yw ar un achlysur yn dangos pen draw ei nerth. Nid yw un amser yn cymmeryd y darllenydd hyd derfynau ei ymherodraeth, ac yn peru iddo droi yn ol mewn siomedigaeth, heb ddim ganddo mwyach ond dywedyd ynddo ei hun, Dyma gymmaint a fedd hwn: dyma yr hyn oll a all efe ei wneuthur. Er mor helaeth ac mor gyfoethog yw y golygfëydd a ledir o flaen ein llygaid, y mae'n gadael digon o le i'r dychymyg fyned rhagddo, ac yn ein gorfodi i deimlo bod mwy o'r golwg. O ran dim a allwn ni ei weled, y mae ei allu yn anherfynol. Nid ydym yn dywedyd nad ydyw yn rhoddi ei holl nerth allan yn ei 'Goll Gwynfa;' ond mae'n gwneuthur hyny mewn cyssondeb graddol, mewn rheol a threfn, er mwyn cyflawni ei waith, ac nid er mwyn ei weled gan ddynion. Yn lle gollwng yr holl agerdd i ruthro ar unwaith, nes chwalu y cwbl o'i amgylch yn yfflon, a pheri gwrthdarawiad yn ei erbyn ei hun, y mae yn ei gadw o fewn terfynau, a thrwy hyny yn effeithio yn fwy grymus. . . . Mewn dawn i chwarau ar dannau calon dŷn, ni bu neb erioed yn gydradd â Shakspeare. Yr oedd holl ddyfnderoedd y natur ddynol yn hyspys iddo, yn ei nwydau a'i serchiadau, ei chariad a'i chas, ei hyfrydwch a'i thristwch, ei dymuniadau a'i hofnau; ym mysg pob graddau, ac ymhob amgylchiadau. Yma y mae'n frenin heb un cystadleuwr. Y mae'n wir nad yw Milton yn ddisylw o'r rhyfeddodau diderfyn sydd o fewn cylch dynoliaeth. Y mae hyn yn annichonadwy i ddŷn cywir. Y mae calon ddynol yn curo yn ei fynwes yntau, a honno yn galon ehang, lawn o deimlad, rhy lawn i bawb ei hamgyffred. Wrth weled ei gyd-ddynion yn chwarau o'i amgylch, y mae fel dŷn o feddwl difrifol, fel gwir Buritan, yn edrych arnynt gyd â gwên serchog, ac nid yw gwên neb mor serchog a gwên dŷn difrifol: ond nid oes ganddo duedd nac amser i ymgymmysgu ond ychydig â hwynt yn eu llawenydd. Y mae ei fryd ef uwch law gwrthrychau daearol; ac hyd yn oed pan y mae yn ymostwng i ddisgrifio bodau dynol, yn lle eu cymmeryd yn hollol fel y maent, y mae yn eu codi i ryw fyd uwch na hwn, ac yn eu gwisgo â'r nodweddion hyny â pha rai y mae ei feddwl ef ei hun yn arfer cymdeithasu. Ei ddiben mawr ef oedd 'cyfiawnhau i ddynion lwybrau Duw.' Ni chanwyd erioed ar destyn mwy teilwng; ac ni chenir etto, tu yma i dragywyddoldeb, yn fwy teilwng o'r testyn.

"Ond, fel y dywedwyd o'r blaen, nid ein hamcan y tro hwn yw ysgrifenu am Milton, namyn am y cyfieithiad o 'Goll Gwynfa,' gan y Dr. Pughe [Puw]. Nid ychydig oedd yr anturiaeth, gan nad oes un gair afreidiol yn Milton, mwy na chwyr afreidiol mewn crwybr; nac un frawddeg ychwaith heb fod yn llawn o fêl. Cyfeirir yn fynych at y cyfieithiad hwn fel un o brif orchestion y Cymry, ac awgrymir weithiau nad oedd y cyfieithydd yn llai ei athrylith na'r awdur ei hun. Nid yw yn ddiamheuol chwaith a fydd pawb yn foddlawn i aros ar hyn; o blegid y mae genym ryw adgof i ni weled mwy nag un ysgrifenydd yn ceisio codi y Dr. Pughe yn uwch na Milton. Yngolwg pob dŷn o synwyr, nid yw hyn i gyd ond ffolineb a ffiloreg digymmysg. Un peth yw creu meddyliau, a pheth arall yw eu trosglwyddo, gyd â llwyddiant mwy neu lai, o'r naill iaith i'r llall. Ond pa glod bynag sy'n deilwng i gyfieithydd medrus, yr ydym yn ewyllysgar yn ei roddi i'r Dr. Pughe. Nid peth hawdd oedd Cymreigio y fath lyfr a 'Choll Gwynfa;' ac nid canmoliaeth gyffredin yw dywedyd ei fod wedi cyflawni y gorchwyl, gan mwyaf, heb wneuthur cam â meddyliau mawrion Milton. Gwyddom fod rhai yn barnu y byddai yn dda ei ail gyfieithu o iaith y Dr. Pughe i Gymraeg gyffredin:* ac nis gallwn ni lai nag addef, pe buasai hyn wedi ei wneuthur ganddo ef ei hun, na fuasai genym ni y gwrthwynebiad lleiaf. Ni ddigwyddodd i ni erioed gyfarfod â neb a fedrai hyspysu pa le y cafodd yr athraw hybarch ei Gymraeg.† Y mae'n ddilys mai nid gan ei fam anrhydeddus yn sir Feirionydd: ac y mae mor ddilys a hyny mai nid hon oedd iaith Taliesin ac Aneurin, na iaith y 'Mabinogion,' na iaith y 'Bardd Cwsg.' Dyma yr iaith Gymraeg ddiledryw, medd rhai. Nage, meddwn ninnau: Cymraeg ddiledryw pob oes yw yr iaith a arferid gan y Cymry yn yr oes honno, oddi eithr mor bell ag y dygwyd i mewn gyfnewidiadau y gellir profi eu bod yn anghysson âg egwyddorion hanfodol yr iaith. Ond nid yw yr iaith hon wedi ei harfer mewn unrhyw oes; a phe buasai wedi ei harfer rywbryd cyn hyn, etto nid dyma Gymraeg yr oes hon.‡ Crybwylla y Dr. Pughe nad oes dim geiriau yn ei waith nad ydynt yn arferedig mewn rhyw ffurf neu gilydd yn rhyw barth o Gymru. Ond nid yn erbyn geiriau unigol yr ydym yn dadlau. Y mae'n wir y dewisem roddi y blaen i'r geiriau a arferir *ymhob* rhan o Gymru. Er hyny, ni chwennychem i hen eiriau cryfion, da, fyned yn llwyr ar ddifangcoll. Ond dadlau yr ydym yn benaf yn erbyn ei ddull ef o ffurfio ymadroddion. Y mae ei gystrawen yn anghymreigaidd. Ond dylem ychwanegu nad yw y gwahaniaeth gymmaint ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Na lwfrhaed y Cymro anghyfarwydd; ac fe ddaw cyn hir i'w ddarllen gyd â rhwyddineb a hyfrydwch.§

"Un anhawsder arall ar ffordd y cyfieithydd oedd, bod Milton mewn llïaws o fanau yn gwneud i'r sain atteb i'r synwyr. Yn yr holl fanau hyny, y mae'r cyfieithydd mor llwyddiannus ag y gallasai neb ddisgwyl. Er angraifft:—

"On a sudden open fly
With impetuous recoil and jarring sound
The infernal doors, and their hinges grate
Harsh thunder, that the lowest bottom shook
Of Erebus."‖

"Trwy serth chwim agorynt gan¶
Chwyrn encil a chan drydar cras y pyrth

yr holl drafferth, yr ydym ni yn credu y dywedai pob ieithydd cyfarwydd, fel y dywedodd y rhai hyny gynt am y gwin, "Gwell yw yr hen."—Gol.

* Byddai dysgu iaith y Dr. Puw yn drwyadl, yn ol ein barn ni, yn gymmaint o lafur ag a fyddai dysgu iaith Milton ei hunan; ac wedi

† Tybiwn y gallwn ni hyspysu yn ddibetrus mai *yn ei fympwy ei hun* y cafodd y Dr. Puw ei iaith a'i gredo; ac yr ydym yn cwbl gydsynio â Dewi Wyn mai

"Gwell pe diwygiasai o
Y Geiriadur a'i gredo."—Gol.

‡ Yr ydym ni yn credu yn gadarn mai "Cymraeg diledryw" y Cymry, ymhob oes ar ol cyfieithiad y Dr. Morgan, y Dr. Parri, ac argraphiadau dilynol o'r cyfieithiadau hyny, yw iaith y Bibl, yr hon yw (neu a ddylai fod) iaith y pulpud a'r Ysgol Sabbothol. Y mae'r iaith hon yr un i'r Cymry, yn ein tyb ni, ag ydyw iaith y Senedd, a'r *Times*, a'r llysoedd gwladol, i'r Saeson; a phe darfyddai yr arfer o iaith y Bibl, y pulpud, a'r Ysgol Sabbothol o Gymru, y mae'n ddilys ddiamman genym ni yr âi yr iaith Gymraeg yn fuan i'r un cyflwr ag y mae hen ieithoedd Llydaw, Cernyw, yr Alban, Ynys Manaw, a'r Werddon, ynddo er ys llawer dydd.—Gol.

§ Yr ydym yn diffuant deimlo gwylder i wahaniaethu oddi wrth syniad y Dr. Edwards; ond yn wir yr ydym yn credu y costiai i'r "Cymro anghyfarwydd," yn enwedig un wedi cael rhywfaint o ysgol Saesneg, fel y ca plant yr oes hon yn gyffredin, lawn cymmaint o lafur i ddeall iaith fympwyol, glogyrnog, ac anarferedig y Dr. Puw, nes bod "yn alluog i'w darllen gyd â rhwyddineb a hyfrydwch," ag a gostiai iddo i ddeall Saesneg aruchel, ystwyth, a choeth Milton ei hunan. Ac nid er mwyn denu neb i golli amser i ddysgu Puwaeg "Coll Gwynfa" yr ydym yn dodi y difyniadau hyn i mewn, ond er mwyn y nodiadau gwerthfawr sydd ynddynt o waith y Dr. Edwards.—Gol.

‖ Book ii., line 879.—Yn yr holl ysgrif hon, y mae rhif y llinellau yn atteb i'r Saesneg.

¶ Terfyna y llinell hon, fel llïaws eraill o'r cyfieithiad hwn, â'r hyn a elwir "Corfan crych ddisgynedig," sef un sill accenol a dau anaccenol olynol, yr hyn na wneir byth yn Milton; ac y mae'n hollol groes i reolau y mesurau Cymreig, fel y ceir sylwi yn helaethach rhag llaw.—Gol.

Digitized by Google

Uffernawl, ar eu col o rygnu croch
Daranau, hyd nes crynai isaf sawdd
O Ebred." *

"Y mae 'o rygnu croch daranau' yn gyfieithiad hapus o '*grate harsh thunder.*' Pe darllenid y naill neu y llall ynghlyw dŷn anghyfarwydd, gallai ddeall oddi wrth y swn pa beth oedd yn myned ym mlaen. Nid yw y rhan nesaf yn llawn cystal. Y mae Milton yn peru i'r darllenydd deimlo bod y cwbl yn ysgwyd, trwy fod y gair '*shook*' ar ddiwedd y llinell; ond y mae hyn wedi ei golli yn y cyfieithiad. Drachefn:—

'So eagerly the Fiend
O'er bog, or steep, through strait, rough, dense or rare,
With head, hands, wings, or feet pursues his way,
And swims, or sinks, or wades, or creeps, or flies.' †

'Cymaint awch y Mallt,
Tros gors, tros allt, trwy gul, garw, dwys, neu daen
Gan ddwylaw, edyn, traed, canlynai ar ‡
Ei hynt, a nofia, sodda, creinia, neu ‡
Eheda.' §

"Y mae'r geiriau unsill yn Milton yn dangos yr anhawsderau yr oedd Satan yn myned trwyddynt ar ei daith o uffern; ac y mae hyny wedi ei gadw yn y cyfieithiad mor berffaith ag yr oedd yr iaith yn caniatâu."

Drwg genym na oddef lle i ni roddi *holl* sylwadau gwerthfawr y Dr. Edwards ar y cyfieithiad yma, na'r nesaf; a chan y credwn fod ei nodiadau tyner, ond craffus, ar eu diffygion yn llawn mor bwysig, os nad mwy felly, i'r darllenydd a'r cyfryw ar eu rhagorieuthau, ni a brysurwn yn awr at rai o'r diffygion a noda ynghyficithiad y Dr. Puw:—

"Y mae'n ymddangos i ni fod y cyfieithydd mewn rhai manau wedi camsyniad yr ystyr, a chymmerwn genad i roddi ychydig engreifftiau ger bron y darllenydd. Dichon mai ni sy'n camgymmeryd; pa fodd bynag, y mae'r peth yn werth ymchwiliad. Nid ydym yn dwyn yr engreifftiau hyn ger bron er mwyn diraddio y Dr. Pughe, ond am ei bod o bwys i ni wybod beth yw meddwl Milton ymhob brawddeg, ac am y dymunem gynhyrfu pawb i farnu drostynt eu hunain, a mynnu ei ddeall. Rhoddir y rhanau amheus o'r cyfieithiad mewn llythyrenau Italaidd; ac os bydd achos, rhoddir y rhanau rhagflaenol|| er mwyn gweled y cyssylltiad. Cynghorem yr efrydydd ieuangc i wneud cais ei hun ar y testyn gwreiddiol, cyn darllen cyfieithiad y Dr. Pughe, na'r un rhyddieith sydd yn canlyn [sef gwaith y Dr. Edwards ei hunan]:—

'Let none admire
That riches grow in hell.' ¶

'Na *hoffed* neb
Yn uffern dyfu golud.' **

"Arall mewn iaith rydd yn cael ei gynnyg fel gwelliant:—

'Na ryfedded neb fod golud yn cael ei gynhyrchu yn uffern.'

"Pa beth oedd y Dr. Pughe yn feddwl wrth hoffi bod golud yn tyfu yn uffern nis gwyddom. Troisom i'w eirlyfr i edrych am oleuni ar y matter; ond yr unig eglurhâd a rydd efe ar y gair *hoffi* ydyw, '*To delight in, or to love.*'

* Coll Gwynfa P., t. 60. † Book ii., line 947.
‡ Wele ddwy linell olynol yn terfynu â chorfan crych ddisgynedig.—Gol.
§ Coll Gwynfa P., t. 62.
|| Rhaid i ni adael "y rhanau rhagflaenol" allan, gan mwyaf, am fod rhai o honynt yn lled feithion; ond annogwn y darllenydd i'w hedrych ei hunan yn y manau a nodir.—Gol.
¶ Book i., line 69. ** Coll Gwynfa P., t. 26.

'What chance, what change
Worth waiting, since our present lot appears
For happy though but ill, for ill not worst,
If we procure not to ourselves more woe.' *

'Pa chwaen, pa dro
A dâl ei araws, *cyn y tardd i ffawd
Ein rhan gynwyddawl er mai sal*, o sal
Nid salaf, os na cheisiwn ragor gwae.' †

Arall:—

'Gan fod ein rhan bresennol yn ymddangos, o un ddedwydd er yn sal, etto o un sal nid y salaf.'

"Y meddwl ydyw, Er bod ein rhan yn ymddangos mewn cymhariaeth i un ddedwydd yn wael; etto wrth ei golygu fel un wael, nid hi yw'r waelaf, o blegid dichon iddi fod yn waeth.

'In discourse more sweet
(For eloquence the soul, song charms the sense)
Others apart sat on a hill retired.' ‡

'Mwynach mewn pwyllâad
(*Ffraethineb enaid synwyr yw, ei swyn
Yw cân*) ar gil eisteddent ereill rai.' §

Arall:—

'Canys ffraethineb a swyna yr enaid, cân a swyna'r synwyr.'

"Diben Milton oedd dangos bod ffraethineb yn rhagori ar gerddoriaeth, gan fod y naill yn effeithio ar yr enaid, a'r llall yn unig ar y synwyr. Y mae'n amlwg fod y perwyddiad '*charms*' i'w ddeall ar ol y gair '*eloquence*,' ac y dylid cymmeryd '*soul*' mewn cyflwr gwrthrychol; fel pe dywedasid, '*For eloquence charms the soul, song charms the sense.*'

'Direct my course;
Directed no mean recompense it brings
To your behoof, if I that region lost,
All usurpation thence expelled, reduce
To her original darkness and your sway
(Which is my present journey) and once more
Erect the standard there of ancient Night,
Yours be the advantage all, mine the revenge.' ||

'Rhwyddwch fy hynt, ac o
Gyfrwyddaw ni bydd salw y dâl yn ol
I chwi, y dalaeth hòno *os collais*, pob
Trawsfeddiant ynddi wedi cael ei roi
I lawr, idd ei chysefin wyll ac idd eich rhwysg
*Adferwch* hi (hyn weithion yw fy nhaith)
*A derchwch* eto yno faniar Nos;
Y fudd doed oll i chwi, y dïal i mi.' ¶

Arall:—

'O gyfrwyddaw ni bydd salw y dâl yn ol i chwi, os y dalaeth golledig honno (pob trawsfeddiant ynddi wedi cael ei roi i lawr) a adferaf idd ei chyssefin wyll ac idd eich rhwysg (yr hyn yw fy nhaith yn awr), ac os dyrchafaf yno unwaith etto faniar Nos.'

"Satan sydd yn llefaru: ond nid efe sydd wedi colli y dalaeth newydd, o blegid nid oedd erioed etto wedi ei meddiannu. Oddi ar Dryblith a Nos yr oedd Brenin gwawl wedi ei chymmeryd, fel y dywed Satan wrthynt yn y llinellau o'r blaen. Ond Satan ei hun oedd yn bwriadu ei hadferu, a dyrchafu yno faniar nos. Yn yr ymadrodd, '*If I that region lost,*' y mae '*I*' yn weithredydd, neu, fel y geilw rhai ef, yn enwedigeuthydd i'r perwyddiad '*reduce;*' y mae '*region*' yn wrthrych i'r un perwyddiad,' a '*lost*' yn ansoddair; a'r cwbl i'w ddeall fel hyn, '*If I reduce that lost region, and erect there the standard of ancient night.*'"

Y mae'r Dr. Edwards yn nodi chwech o gamgyfieithiadau eraill, gan ddwyn difyniadau lled

* Book ii., line 222. † Coll Gwynfa P., t. 37.
‡ Book ii., line 556. § Coll Gwynfa P., t. 48.
|| Book ii., line 980. ¶ Coll Gwynfa P., t. 64.

Digitized by Google

feithion i mewn i brofi hyny, y rhai yr hoffasem eu dodi ger bron, ynghyd â'r sylwadau pwrpasol arnynt; ond rhaid i ni brysuro at y terfyn. Wedi nodi cynnifer o'r diffygion, y mae efe yn troi drachefn i ganmol, gan ddywedyd:—

"Ond digon bellach: nid ein hoff waith mewn un modd yw nodi beiau; ac nid wrth chwilio am danynt y daethant i'r golwg, ond wrth ddarllen yn achlysurol. Gallasem hefyd enwi rhai manau y gadawyd allan ddarnau o Milton, megis llyfr x., llin. 899, lle y mae deng llinell heb ddim yn atteb iddynt yn y cyfieithiad. Ond gwell genym droi at yr ochr arall i'r ddalen; ac yr ydym yn rhwym o ddywedyd nad yw yr holl ddiffygion ond brychau bychain, anaml, mewn cymhariaeth i'r rhagoriaethau."

Yna difyna bedair esampl go faith, ar y rhai y sylwa yn lled faith i brofi eu rhagoroldeb; a therfyna ei sylwadau coeth a gwerthfawr ar gyfieithiad y Dr. Puw fel y canlyn:—

"Nis gwyddom pa fodd i ddiweddu yn well na thrwy ddifynu un o gyfeiriadau Milton at ei gyflwr a'i dywydd ei hun. Y mae'n hyspys i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr ei fod yn ddall pan yn cyfansoddi 'Coll Gwynfa,' ac yn cael ei amharchu yn fawr gan yr Uchel Eglwyswyr. Yn un o'i '*Sonnets*,' y mae'n cysuro ei hun â'r ystyriaeth mai y rhai sydd yn dwyn yr iau yn fwyaf tawel sydd yn gwasanaethu Duw orau, a'i fod Ef yn cyfrif ei weision y rhai hyny nad ydynt yn gwneuthur dim ond sefyll a disgwyl. Mewn un arall, y mae'n dywedyd nad yw yn colli un iota o galon na gobaith; ond ei fod o hyd yn dal i fynu, ac yn morio yn gywir yn y blaen. Felly yn 'Coll Gwynfa,' ar ol gorphen yr hanner cyntaf o'r gwaith, y mae yn nechrau y seithfed llyfr yn datgan ei deimladau fel y canlyn:—

'Er mewn dyddiau drwg,
Mewn drygion ddyddiau bod, plith drygion o
Dafodau; mewn tywyllwch, ac aml hyd
I fy amgylchu mewn unigder; nid
Er hyny unig, tra gofwyi di
Fy nosawl hun, neu pan orliwia gwawr
Y dwyrain: eto twya di fy nghân,
Nyfedon, ac andawiad addas cais
I mi, er nad lliosawg.' *

"Mwy o rai tebyg iddo a goder yn ein dyddiau ninnau. Os yw yn ormod disgwyl am ei gyffelyb mewn dawn a *gallu*, nid yw yn rhyfyg i ni benderfynu ei ddilyn mewn uniondeb moesol, ac ymroddiad i ogoneddu Duw, yn fwy na rhyngu bodd dynion; ac yna gallwn goledd y *gredin-iaeth* y cawn rai addas i'n gwrando, 'er nad llïosog.'"

---

"Ysgrifenwyd y sylwadau blaenorol flynyddoedd yn ol, heb un disgwyliad y byddai galwad arnom i draethu ein barn ar gyfieithiad arall o 'Goll Gwynfa' i'r Gymraeg. O gymmaint a hyn yr oedd ein llawenydd yn fwy pan ddeallasom fod I. D. Ffraid wedi ymaflyd yn y gorchwyl; ac nid yw y llawenydd hwnw wedi troi yn siomedigaeth wrth ddarllen y llyfr.† Yr oedd yr anturiaeth yn fawr, a'r cwbl a ellid ei ddisgwyl oedd llwyddiant cymharieuthol. Y mae cadw dullwedd Milton yn berffaith wrth gyflwyno ei feddyliau mewn iaith arall, yn ormod gwaith i neb: ac y mae rhai anfanteision neillduol yn perthyn i'r iaith Gymraeg. Un o honynt ydyw, bod y Gymraeg, mewn cymhariaeth i'r Saesneg, yn ddiffygiol mewn geiriau unsill. Er mwyn osgoi yr anhawsder hwn, y mae rhai yn diweddu eu llinellau yn fynych gyd âg *i*, *o*, *trwy*, *dros*, a'r cyfryw eiriau dibwys. Nid yw hyn byth yn cael ei arfer gan Milton; ac ni ddylid ei arfer wrth gyfieithu Milton i'r Gymraeg. Y mae I. D. Ffraid yn llawer mwy rhydd oddi wrth y bai hwn na'r Dr. Pughe. Y mae yma ddau berygl i'w gochelyd. Ar un llaw, ni ddylid diweddu y llinell yn fynych yn niwedd brawddeg. Dylai y gorphwysfaoedd amrywio yn barhaus, er mwyn gochel unffurfiaeth; ac o ganlyniad, dylai y llinellau ddiweddu yn fynych heb un attalnod, neu gyd â rhai o'r attalnodau lleiaf. Ond ar y llaw arall, y mae Milton yn gofalu bob amser fod pob llinell yn llinell, a'i bod yn dibenu gyd â rhyw air cryfach nag *and*, neu *with*, neu *to*. Felly y mae'n amlwg mai nid mesur direol yw mesur dïodl.‡

"Y mae anfanteision eraill yn tarddu o'r dull cyffredin o drefnu geiriau mewn ymadrodd. Y mae rhai o'r anfanteision hyn nad oes dim i'w wneud ond eu goddef; ond y mae eraill y byddai yn hawdd eu symmud. Ym mysg y rhai olaf gellid enwi y dull o ddefnyddio *yr hwn*, neu *yr hon*. Cymmerwn engraifft o gyfieithiad I. D. Ffraid yn nechrau y gwaith hwn:—

'Angeuol flas
Yr hwn ddug farw a'n gwae i gyd i'r byd.'

Y Saesneg ydyw—

'Whose mortal taste
Brought death into the world, and all our woe.'

"Yr ydym yn gorfod teimlo bod y Gymraeg, fel y mae yma, yn eiddilach o lawer na'r Saesneg. Ond byddai yn hawdd symmud y bai trwy ysgrifenu yn fwy unol â phriod-ddull y Gymraeg—

'Yr hwn i'r byd
A'i farwol flas ddug angau a'n holl wae.'

"Nid ydym yn beio y cyfieithydd am ddywedyd 'angeuol flas yr hwn ddug farw,' o blegid y mae'n ddull cyffredin o ysgrifenu; ac nid ydym yn ammau nad ydym ein hunain yn fynych wedi syrthio i'r un amryfusedd: ond gwell yn ddïau yw 'yr hwn a'i angeuol flas a ddug,' neu 'yr hwn y dug ei angeuol flas.'

"Nid yw y pethau hyn ond brychau, na fuasent yn werth son am danynt, neu na fuasent i'w gweled o gwbl mewn ambell gyfansoddiad; ond y mae'r cyfieithiad hwn yn waith y teimla un obaith a hyfrydwch wrth geisio ei gael yn nes at berffeithrwydd. Mewn llawer ystyr, er nad ymhob ystyr, y mae'n rhagori ar eiddo y Dr. Pughe. Ei brif ragoriaeth ydyw, ei fod yn llawer mwy llythyrenol. Y mae hyn i'w weled yn y llinell gyntaf; a gellir cymmeryd honno yn engraifft o'r gwahaniaeth rhyngddynt yn gyffredin. Geiriau Milton ydynt—

'Of man's first disobedience, and the fruit
Of that forbidden tree.'

Cyfieithir gan Pughe fel y canlyn:—

'Am drosedd dŷn, ac aeron teg y pren
Yn waharddedig.'

"Llinell brydferth yw hon o eiddo Pughe. Y mae'n swnio mor fawreddus nes yr ydym ar y cyntaf yn tueddu i ddywedyd bod Pughe yn rhagori ar Milton. Ond wrth ei theimlo a'i phwyso, yr ydym yn dechrau ammau. Pa beth yw 'trosedd dŷn?' Yr hyn a ddywed Milton yw 'anufudd-dod cyntaf dŷn,' fel y mae gan Ffraid. Gwyddom mai hyn a feddyliai Pughe, trwy ein bod eisoes yn gydnabyddus â Milton; ond pe byddai i bregethwr ddechrau ei bregeth trwy ddywedyd, 'Yr wyf yn myned i

* Coll Gwynfa P., t. 195.

† "Ysgrifenwyd y sylwadau blaenorol" ar "Goll Gwynfa" y Dr. Puw, gan y Dr. Edwards, yn 1850, a chyhoeddwyd hwy yn y *Traethodydd* y flwyddyn honno; a thrachefn yn "Nhraethodau Llenyddol" y Dr. Edwards, t. 50-71; tra na chyhoeddwyd "Coll Gwynfa" I. D. Ffraid hyd 1865; a cheir sylwadau y Dr. Edwards ar y cyfieithiad yn y "Traethodau Llenyddol," t. 71-79.—Gol.

‡ Gwel olsylwadau i'r bennod hon.—Gol.

Digitized by Google

sylwi heddyw ar drosedd dŷn, er mwyn dangos ei fawredd a'i echryslonrwydd,' y mae'n sicr mai ychydig fyddai nifer y gwrandawyr hyny a feddylient ei fod yn myned i dreuthu am bechod cyntaf Adda. Ond pa beth a ddywedwn am yr ail ran, 'ac aeron teg y pren?' Y mae yma ymddangosiad o welliant; ond y mae'n myned yn brin wrth ei bwyso. Mewn rhai amgylchiadau gallasid goddef i'r cyfieithydd roddi y gair 'teg' ynghanol y frawddeg: ond yn y lle hwn, mewn cyssylltiad â throsedd dŷn, a'r galanastra a ddaeth trwy hyny, y mae'n ddiau y buasai Milton yn ei wrthod. Gwell genym gan hyny yw y llinell fel y mae yn syml gan Ffraid—

'Am anufudd-dod cyntaf dŷn, a ffrwyth
Y gwaharddedig bren.'

"Ynglŷn â hyn, gellid sylwi bod Ffraid, trwy yr holl waith, yn gosod y meddwl allan yn fwy cywir na Pughe. Nid oes yn ei gyfieithiad ddim tebyg i'r camsyniadau digrifol y cyfeiriwyd atynt yn yr ysgrif flaenorol. Ni ddigwyddodd i ni weled ond ychydig o gam-gyfieithiadau, a'r rhai hyny yn ddibwys; ac ni fuasem yn sylwi arnynt ond yn unig ar yr egwyddor a gynhwysir yn yr hen wirair Cymreig, 'Nid da lle gellir gwell.'"

Noda y Dr. Edwards amryw fanau lle y tybia y "gellid gwell;" ond ni chawn ni ddodi ger bron ond esampl neu ddwy o'r rhai hyny:—

"Hail horrors, hail
Infernal world! and thou profoundest hell,
Receive thy new possessor; one who brings
A mind not to be changed by place or time.
The mind in its own place, and in itself
Can make heaven of hell, a hell of heaven.
What matter where, if I be still the same,
And what I should be, all but less than he
Whom thunder hath made greater?" *

"Henffych friwiau mwy!
A chroesaw fyd uffernol! a thydi
Y fagddu, ddyfnaf lyngclyn, derbyn fi
Dy berchen newydd, un a ddwg i'th fewn
Feddwl nas gellir newid gan un lle
Nac amser, y meddwl yn ei le ei hun,
Ac ynddo ei hun all wneud o uffern nef,
Ac o nef uffern. A pha waeth pa le,
Os byddaf byth yr un, a chwaith pa beth
A fyddaf fi, yn oll ond llai nag ef,
Yr hwn gan y taranau wnaed yn fwy?" †

"Gwelliant:—

'A pha waeth pa le,
Os fi yr un, a'r hyn a ddylwn fod
Hyd byth, oll ond fy mod yn llai nag ef,
Yr hwn gan allu'r daran wnaed yn fwy?' ‡

"Y mae'r llinellau cyntaf o'r difyniad yma mor dda ag y dichon iddynt fod; ac yr ydym yn eu rhoddi yma er mwyn cyfiawnder â'r cyfieithydd. Gellid meddwl bod yn anhawdd eu darllen yn Gymraeg na Saesneg heb deimlo eu grym a u prydferthwch. Ond gwelsom un beirniad Seisnig yn eu gwyrdroi yn hollol, ac yn gwneud y nodiad bod Milton, wrth ddywedyd mai 'Y meddwl yw ei le ei hun,' yn gosod rhai o gyfeiliornadau y Stoiciaid yngenau Satan mewn ffordd o wawd. Dyma un prawf mai nid yng Nghymru yn unig y mae beirniadeuthau ffol yn cael eu cyhoeddi. Ond er cystal yw Ffraid yn y llinellau cyntaf, yr ydym yn ofni ei fod wedi camgymmeryd ystyr y geiriau, '*And what I should be.*' Ac nid ydym yn sicr ein bod ein hunain yn deall y geiriau, '*All but less than he.*' Tebycaf ydyw y dylid eu cymmeryd gyd â'r geiriau o'r blaen yn yr ystyr, 'Pa waeth os ydwyf yr hyn a ddylwn fod, oll, yn gyfangwbl, ond fy mod yn llai nag ef.' Gallem roddi ein rhesymau dros y golygiad hwn; ond aem felly yn rhy faith, ac y mae'n rhaid i ni fyned ym mlaen o hyn allan yn fwy brysiog.

'When he, who most excels in fact of arms,
In what he councels and in what he excels,
Mistrustful, grounds his courage on despair.' §

'Pan y gwnai
Efe, y blaenaf mewn gorchestion eirf,
Mewn cynghor, ac yn mhob rhagorol gamp,
O ddiffyg hyder, seilio ei ddewrder ar
Anobaith.' ‖

"Gwelliant—

'Pan y mae
Efe, y blaenaf mewn gorchestion eirf,
Gan amheu'r hyn gynghora, a'r hyn yw
Ei benaf gamp, yn seilio.'" ¶

Wedi nodi amryw esamplau eraill, a chynnyg gwelliadau arnynt, terfyna y Dr. Edwards ei sylwadau gwerthfawr ar gyfieithiad I. D. Ffraid fel y canlyn:—

"Nid yw y gwallau hyn, a rhyw ychydig eraill a ellid eu nodi, megis 'fab' yn lle 'ferch,' llyfr ix., llinell 458, yn lleihau nemmawr neu ddim ar deilyngdod cyffredinol y gwaith. Nid ydynt ond yr hyn sy'n digwydd i bawb. O'r hyn lleiaf, yr ydym ein hunain yn syrthio lawer gwaith i gamgymmeriadau mwy pwysig na dim a welir ynghyfieithiad I. D. Ffraid. Y mae ar y cyfan yn hynod gywir; ac nid yn unig yn gywir, ond yn rymus. Y mae dan radd o anfantais mewn cymhariaeth i'r Dr. Pughe, trwy fod yr ymdrech i drosglwyddo yr holl feddwl yn ei wneuthur yn fwy amleiriog, ac weithiau o blegid hyny yn wanach. Ond pe dechreuem roddi angraifftiau o'r manau y cawsom ein boddio tu hwnt i'n disgwyliad, byddai raid i ni adysgrifenu cyfran helaeth o'r llyfr. Y mae gan amlaf wedi llwyddo i gadw sylwedd y meddwl heb aberthu y ffurf. Ac y mae mwy o bwys mewn ffurf nag a feddylir yn gyffredin. Pa beth yw y gwahaniaeth rhwng adeilad gwych ac un gwael? Gellir gwneud hen ysgubor o gapel ddigon diddos; ond nid yw mor hardd i edrych arno, o blegid ei fod yn ddiffygiol mewn ffurf. Felly y mae pob ysgrifenydd medrus yn alluog i osod ei feddyliau allan mewn ffurf brydferth. A dyna yr anhawsder mawr wrth geisio eu trosglwyddo o'r naill iaith i'r llall. Er pob ymdrech i roddi y meddwl yn gywir, os na roddir ef yn ei ffurf ei hun, bydd ei rym a'i brydferthwch wedi ei golli. Ond yn y cyfieithiad hwn, ni a dybiem fod y ffurf Filtonaidd, mor bell ag yr oedd yn ddichonadwy, yn aros am y meddyliau. I brofi nad yw hyn yn ganmoliaeth ry uchel, rhoddwn un difyniad ymhellach, yr hwn nid yw ond dangosiad teg o ansawdd y gwaith:—

'Ymbortha [ymborthaf] yma ar feddyliau r'ont
Ysgogiad gwirfodd i gynghanedd mwyn;
Fel yr aderyn effro'n canu'r hwyr,
Gan byngcio yn nghudd y llwyn ei gerdd y nos.
Fel hyn dychwela holl dymhorau'r flwydd;
Ond dychwel ni wna dydd i mi, na gwen
Diriondeg hwyr a bore yn agosâu,

* Book i., line 250.
† Coll Gwynfa Ffraid, llin. 302.
‡ Cynnyg arall at welliant:—
Pa waeth pa le, o byddaf fyth yr un,
A'r hyn a ddylwn fod, oll ond yn llai nag ef,
Yr hwn gan daran wnaed yn fwy?—Gol.

§ Book ii., line 124.
‖ Coll Gwynfa Ff., llin. 148.
¶ Cynnyg arall at welliant:—
Pan y mae ef, y penaf mewn gorchestion eirf,
Yn amheus o'r hyn a gynghora,
Ac o'r hyn y mae wychaf ynddo,
Yn seilio.—Gol.

Digitized by Google

Na threm ar wanwyn mewn blodeuog wrid,
Na rhosyn haf, na deadellau'r maes,
Na heidiau'r nen, na gwyneb dwyfol dyn;
Ond cwmwl tew a chaddug byth-barhaus
Sy'n cau o'm cylch, a didol fi o ffyrdd
Difyrus dynol ryw; yn lle llyfr cain
Gwybodaeth, rhoed i mi len hollol wag
O weithiau Anian, ag sydd oll i mi
Fel wedi eu croesi allan a'u dileu,
Ac un o byrth doethineb wedi ei gau.
O gymaint mwy tydi, nefolaidd wawl,
Tywyna oddi fewn, fy meddwl oll
Goleua; yno plana lygaid ter,
Oddiyno chwal a llwyr lanha bob niwl
Fel gwelwyf ac y traethwyf bethau sydd
Yn anweledig byth i farwol drem.'" *

---

### OLSYLWADAU.

Y mae'n werth manylu peth ar "Goll Gwynfa," y gân grefyddol benaf yn y byd, ar ol cân ysprydoledig y Prophwyd Esaiah; yn wir, dywed Addison y gall "y rhai na fynnant alw 'Coll Gwynfa' yn arwrgerdd, ei galw, os dewisant, yn gân ddwyfol." Gan hyny, y mae'n werth aros yn lled hir efo'r fath awdur a Milton, a'r fath gân a "Choll Gwynfa," er gorfod bod yn fyrach gyd â gwrthrychau heb fod mor enwog.

Ymddengys i ni, ar ol dyfal feddwl ar y pwngc, nad oedd yr un o ddau gyfieithydd enwog "Coll Gwynfa" yn deall mesur Milton yn drwyadl, nac yn deall hen fesurau y Gymraeg felly chwaith, ac mai i hyny y gellir priodoli llawer o'r gwallau a noda y Dr. Edwards yn eu cyfieithiadau. Y syniad cyffredin yw, mai deg sill ydyw llinellau, bannau, neu gyhydeddau mesur Milton, a bod pob llinell neu fan, fel rheol, yn gynnwysedig o'r corfan rhywiog,† neu ranau o hono, fel hyn:—

Am anufudd-dod cyntaf dŷn, a ffrwyth '0-10-10-10-1,0-1'.

Pur anfynych y ceir llinell o'r corfaniad yma yng ngwaith Milton, a thybiwn na cheir dwy llinell fel hyn yn nesaf i'w gilydd trwy holl "Paradise Lost;" o leiaf, methasom ni daro wrth y fath ddwy linell mewn un man. Yr oedd Milton yn rhoddi corfanau a gorphwysion gwahanol bob yn ail llinell braidd yn ddïeithriad; ac yr oedd yn newid hyd y llinellau hefyd yn bur fynych. Cymmerwn yr un llinell ar bymtheg cyntaf yn "Paradise Lost" fel esampl:—

| | | |
|---|---|---|
| 1. | "Of man's first disobedience, and the fruit | '0-1-'100-100,00-1' |
| 2. | Of that forbidden tree, whose mortal taste | '0-10-10-1,0-10-1' |
| 3. | Brought death into the world, and all our woe, | 1'-1000-1,0-10-1' |
| 4. | With loss of Eden, till one greater Man | '0-10-10,00-10-1' |
| 5. | Restore us, and regain the blissful seat, | '0-1000-10-10-1' |
| 6. | Sing, heavenly Muse, that on the secret top | 1'-100-1',-100-10-1', |
| 7. | Of Oreb, or of Sinai, didst inspire | '0-10,00-100-10-1' |
| 8. | That shepherd, who first taught the chosen seed | 1'-10,0-1'-10-10-1 |
| 9. | In the beginning, how the heavens and earth | 100-10,00-100-1' |
| 10. | Rose out of chaos: or, if Zion hill | 100-10,-10-10-1' |
| 11. | Delight thee more, and Siloa's brook that flow'd | '0-10-1,0-100-10-1' |
| 12. | Fast by the oracle of God; I thence | 100-1000-1'-1'-1' |
| 13. | Invoke thy aid to my adventurous song, | 0'-10-1000-100-1' |
| 14. | That with no middle flight intends to soar | '00-1'-10-10-10-1' |
| 15. | Above the Aonian mount, while it pursues | '0-100-100-1',-100-1' |
| 16. | Things unattempted yet in prose or rhyme." | 100-10-10-10-1' |

Gwelir yn y difyniad yna mai yr ail linell yn unig sydd yn y corfan rhywiog oll, ac nad oes yna ddim cymmaint a dwy linell olynol o'r un corfaniad, nac o'r un gorphwysion chwaith, fel y crybwyllwyd o'r blaen. Ac y mae hyd y llinellau yn cael eu newid yn fynych. Y mae'r llinellau hyn, —1, 6, 7, 9, 11, 13, yn 11 sill; y rhai hyn—2, 3, 4, 5, 8, 10, 12, 14, 16, yn 10 sill; a'r 15, yn 12 sill. Gwelir bod yr holl linellau uchod yn terfynu â'r rhan gyntaf o'r corfan rhywiog, sef sill accenol; ond y mae amryw o linellau Milton yn terfynu â chorfan rhywiog cyflawn; megis—

"That durst dislike his reign, and, me preferring" '0-10-10,1,'-100-10

Ond, sylwer, nid ydyw Milton byth yn terfynu cymmaint ag un linell yn y "Paradise Lost," nac yn yr un o'i ganiadau eraill, â chorfan crych ddisgynedig, yr hyn, mewn gwirionedd, sydd annaturiol, ac am hyny yn afreolaidd, fel y crybwyllwyd eisoes, pan yn cyfeirio i "Gyfrinach y Beirdd." Yn awr, cymharer cyfieithiad y Dr. Puw ac I. D. Ffraid o'r 16 llinell uchod, a cheir gweled bod

* Traethodau Duwinyddol y Dr. L. Edwards, t. 50–89; Coll Gwynfa *I. D. Ffraid*, llyfr iii., llin. 43-65.—Y prif ffynnonau lle y ceir hanes Milton, heb law yr hyn a ellir ei gasglu o'i gyfansoddiadau ef ei hun, yw yr hanes a ddyry Wood yn yr "Athenæ Oxonienses;" "Aubrey's *Minutes*, or Notes in the Bodlein Letters;" "The Memoir by Edward Philips," un o'i neiod, a gyhoeddwyd yn gyntaf gyd â chyfieithiad Saesneg o'i "Letters of State," yn 1694. Ymhlith ei fywgraphwyr *dyfodol*, a beirniaid ar ei waith, ceir Toland; y ddau Richardson, y tad a'r mab, gwaith hynod y rhai sy'n dra dyddorol; Addison, yn y "Spectator;" Birch; yr Esgob Newton; Samuel Johnson, yn ei "*Lives* of the Poets;" y Dr. Todd, yn ei gasgliad o "Milton's Poetical Works," 1801; y Dr. Symmons, yn ei argraphiad o "Milton's Prose Works," 1806; y Prof. Masson, yn ei "Life of John Milton, narrated *in connection* with the Political, Ecclesiastical, and Literary History of his Time," 1859. Ysgrifenwyd hefyd yn gampus arno gan Macaulay; y Dr. W. E. Channing; a G. L. Craik (yr olaf yn "Mackenzie's *Imperial* Dictionary of Universal Biography"); ac y mae erthycl wych arno yn y "Gwyddoniadur."

† Dau gorfan gwir wahanol y sydd, sef corfan rhywiog, a chorfan *crych ddisgynedig*. Corfan rhywiog a gynnwys ddwy sill, y gyntaf yn accenol, a'r olaf yn anaccenol (defnyddiwn 1 am yr accenol, a 0 am yr anaccenol), fel hyn:—Corfan rhywiog, cilia=10. Corfan crych ddisgynedig a gynnwys dair, pedair, neu bum sill; y gyntaf yn accenol, a'r lleill yn anaccenol (nis ceir y corfan yma mewn *un* gair Cymraeg), megis cilia o'r (ffordd)=100; cilia oddi (yma)=1000; cilia oddi ar y (ffordd)=10000. Anfynych y ceir y dull olaf. Gellir dechrau llinell neu fan â chorfan rhywiog, neu â'r rhan olaf, ddïaccen, o hono, yr hon ran a ddynodir genym yma fel hyn:—'0. A gellir terfynu ban â chorfan rhywiog, neu â'r rhan flaenaf o hono, yr hon ran a ddynodir genym fel hyn:—1'; ond "nis gellir diweddu bann â'r corfan crych ddisgynedig" (Cyfrinach y Beirdd, t. 207); eithr gellir dechrau ban â'r rhan olaf o'r cyfryw gorfan. Dylid cofio hyn yn arbenigol.

Digitized by Google

gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt; eu bod yn llawer mwy unffurf ac undonol, ac am hyny yn llawer mwy anhyfryd i'w darllen, yr hyn, i'n tyb ni, a arwydda hefyd nad oeddynt yn deall na mesur Milton na'r hen fesurau Cymreig yn drwyadl. Dechreuwn gyd â chyfieithiad y Dr. Puw:—

| | | |
|---|---|---|
| 1. | "Am drosedd Dyn, ac aeron teg y pren | '0-10-1,0-10-10-1' |
| 2. | Yn waharddedig, idd y bydd ei flas | '0-10-1000-10-1' |
| 3. | A ddygai angeu, a phob echrys wae | '0-10-10,0-1'-10-1' |
| 4. | Gan golli Eden, nes adferer ni | '0-10-1000-10-1' |
| 5. | Trwy un mwy Dyn, a meddu y fro gain, | '0-10-1,0-100-1'-1' |
| 6. | O cana Awen nefawl, hon oddiar | 1'-10-10-10-1000 |
| 7. | Ben Horeb, neu o gwmwl Sinai ddu, | 1'-1000-10-10-1' |
| 8. | A roddit idd y bugel hwnw ddawn | '0-1000-10-10-1' |
| 9. | A ddysgai gyntaf y dewisawl had | '0-10-1000-10-1' |
| 10. | I wybod, yn y dechreu fal y daeth | '0-1000-1000-1' |
| 11. | Y byd o Dryblith dwys: neu os i ti | '0-10-10-1000-1' |
| 12. | Tirionach mynydd Sion ac wrth ffrwd | '0-10-10-1000-1' |
| 13. | Silöa hon a rêd ger gwyddfa Duw: | '0-10-10-10-10-1' |
| 14. | Oddiyno anfon nawdd i gân mor hy, | '00-10-10-10-10-1' |
| 15. | O fryd anturiaw nid ar isel hynt | '0-10-1000-10-1' |
| 16. | Uwch holl orseddau awenyddion ail, | 1'-10-10-10-10-1' |
| 17. | Tra synio am newyddion bethau gwiw." | '0-1000-10-10-1' |

Gwelir bod yma dair o linellau yn y corfan rhywiog oll, sef y 1, 13, 16; ac y mae'r 14 mor debyg i'r 13 fel mai prin y gellir eu gwahaniaethu o ran corfaniad, a hyny yn nesaf i'w gilydd. Y mae'r 6ed linell yn terfynu mewn corfan crych ddisgynedig, ac am hyny nid ydyw linell o farddoniaeth o gwbl. Etto, 10 sill ydyw yr holl linellau ond y 14 llinell, a'r llinell anfarddonol, y 6ed. Nid oes yma chwaith yn agos gymmaint o amrywiaeth yn y gorphwysion ag sydd gan Milton. O blegid y diffygion hyn, nid yw y cyfieithiad yn agos mor amrywsain a hyfryd i'w ddarllen a'r gwaith gwreiddiol. Edrychwn etto ar gyfieithiad I. D. Ffraid o'r un llinellau:—

| | | |
|---|---|---|
| 1. | "Am anufudd-dod cyntaf dyn, a ffrwyth | '0-10-10-10-1,0-1' |
| 2. | Y gwaharddedig bren, angeuol flas | '0-10-10-1'0-10-1' |
| 3. | Yr hwn ddug farw a'n gwae i gyd i'r byd, | '0-10-10,0-10-10-1' |
| 4. | A cholli Eden, nes gwna un mwy Dyn | '0-10-10'0-10-1'-1' |
| 5. | Ein hadfer ni, ac ennill ini'n ol | '0-10-1,0-1000-1' |
| 6. | Y Wynfa deg, cân, awen nefawl, ti | '0-10-1,'-1,'-10-10-1' |
| 7. | Yr hon ar ddigel gopa Horeb, neu | '0-10-10-10-10,0 |
| 8. | Ar Sinai, a anadlaist ddwyfol ddawn | '0-1000-10-10-1' |
| 9. | I'r bugail hwnw a roddes addysg gynt | '0-10-100-10-10-1' |
| 10. | I'r etholedig had, pa fodd o groth | '0-10-10-10-10-1' |
| 11. | Y tryblith yn y dechreu codai fry | '0-1000-10-10-1' |
| 12. | Nefoedd a daiar; neu, os yw yn fwy | 100-10-1000-1' |
| 13. | Dewisol genyt Sïon fryn, neu ffrwd | '0-10-10-10-10-1' |
| 14. | Siloa lifai'n ymyl oracl Duw, | '0-10-10-10-10-1' |
| 15. | Oddi yno'r wyf yn erfyn am dy nawdd | '00-10-10-1000-1' |
| 16. | I'm cân anturfawr, sydd yn awr a'i bryd | '0-10-1000-10-1' |
| 17. | Ar uchel hedeg, gan ymgodi'n uwch | '0-10-10,00-10-1' |
| 18. | Na bryn Aonia'r beirdd, tra'r olrhain hi | '0-10-10-1,0-10-1' |
| 19. | Fawr bethau na chynnygiwyd etto mewn | '1-1000-10-100 |
| 20. | Na thraith na chaniad." | '0-10-10 |

Y mae'r cyfieithiad yma, fel y gwelir ar unwaith, yn llawer mwy undonol ac unrhywiog nag yn oed cyfieithiad y Dr. Puw. Y mae yma amrywiad go wych yn y corfanau, ar y cyfan; ond nid yw yn agos gyfartal yn hyn a'r Dr. Puw, heb son am Milton ei hun. Y mae rhai yn galw mesur "Paradise Lost" yn "fesur Seisnigaidd." Dyma fel y dywed beirniad yn y llyfr a elwir "Yr Eisteddfod," Gorphenaf, 1861, t. 103:—"Am fydr deg sill dyrchafedig C., mesur Seisnigaidd ydyw. Y mae'n taro yn gampus i'r iaith Seisnig, a phrofa fod yr hwn a'i dyfalodd yn gwybod athroniaeth yr iaith honno; ond y mae cymmaint rhyngddo a tharo i'r Gymraeg ag sydd o wahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg." Nid mynych yr ysgrifenwyd mwy o gamsyniad. Yr oedd y "gyhydedd ddegsill," fel y gelwir y mesur yma, yng "Nghyfrinach y Beirdd," yn cael ei defnyddio yn ddyrchafedig,* cystal ag yn ddisgynedig, yn gymmysg â chyhydeddau eraill, gan Aneurin Gwawdrydd, mor forau, o leiaf, a dechrau y chweched ganrif; pan na ddechreuwyd ei harfer gan y Saeson hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg.† Cymmerer un esampl o'r "Gododin," o gannoedd a ellid eu nodi o'r Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd:—

| | |
|---|---|
| "O freithell Gatraeth, pan adroddir, | '0-10-10,00-10, |
| Maon dychiorant; eu hoed bu hir. | 100-10,0-10-1' |
| Edyrn dïedyrn, a mygyn dir. | 100-10,0-10-1' |
| A meibion Godebawg, gwerin enwir, | '0-100-10,-10-10 |
| Dyphorthynt, lynwysawr, gelorawr hir. | '0-10,0-10,0-10-1' |
| Bu tru y dynghedfen, angen gywir, | '0-100-10,-10-10, |
| A dyngwyd i Duddfwlch a Chyfwlch Hir | '0-100-100-10-1' |
| Cydyfein fedd gloyw wrth len babir, | '0-10-1'-100-1'-10, |
| Cyd fai da ei glas, ei gas bu hir." ‡ | 10-10-1,0-10-1' |

Dyna amrywiad o gorfanau a gorphwysion cyfartal bron i'r eiddo Milton, ac y mae amrywiad y cyhydeddau yn llawn cyfartal iddo, os nad yn rhagori arno; a hyn, cofier, dros naw can mlynedd cyn i'r Saeson ganu ar fesur yn y byd, hyd y gwyddys. Y prif wahaniaeth rhwng y gyhydedd ddegsill Gymraeg, fel y'i gelwir, a'r un Saesneg ydyw, bod y Cymry yn ei therfynu braidd yn amlach yn ddisgynedig nag yn ddyrchafedig, ac yn ei chymmysgu braidd yn amlach na'r Saeson â chyhydeddau eraill; a dilys ddïammau mai felly y dylid cyfieithu y "Paradise Lost" a'r "Paradise Regained" i'r Gymraeg. Yr oedd gan y Cymry

* Dyrchafedig y gelwir llinell yn terfynu â sill accenol, fel y terfyna y rhan fwyaf o linellau "Paradise Lost;" a disgynedig y gelwir llinell yn terfynu â sill anaccenol.

† Robert Langland, tu a chanol y 14 ganrif, a ddechreuodd arfer y gyhydedd ddegsill.—Chambers's Cycl. Engl. Lit., vol. i., p. 11, &c.

‡ "O vreithyell gatraeth pan adrodir.
Maon dychiorant eu hoet bu hir.
Edyrn diedyrn amygyn dir.
A meibyon godebawc gwerin enwir.
Dyforthynt lynwyssawr gelorawr hir.
Bu tru a dynghetven anghen gywir.
A dyngwt y dutvwlch a chyvwlch hir
Ket yvein ved gloyw wrth leu babir.
Ket vei da e vlas y gas bu hir."
—Skene's Four Ancient Books of Wales, vol. ii., p. 66.

Digitized by Google

gynt, a dylai fod ganddynt etto, bedair o gyhydeddau hwy na'r gyhydedd ddegsill, fel hyn:—

Y gyhydedd unsill ar ddeg:—

"Arglwydd Dduw, heddyw boed hawdd amor llary.
" *Cynddelw Brydydd Mawr.*"

Y gyhydedd ddeuddegsill:—

"Dywallaw di y corn, canys amcan genyf.
" *Owain Cyfeiliog.*"

Y gyhydedd deirsill ar ddeg:—

"Pan ystyren gwern e am gamgyrn e am gamgledd.
" *Gorchan Tudfwlch.*"

Y gyhydedd bedeirsill ar ddeg:—

"Pabell peleidyr pefyr pryd neidyr o lwch nadredd.
" *Gorchan Tudfwlch.*"

Arferai yr hen brydyddion gymmysgu eu penillion o'r hwyaf hyd y seithsill, ac o'r ddegsill hyd y bumsill, ac yn is weithiau, cystal a'u corfanau a'u gorphwysion; a phe caffem gyfieithiad Cymreig, amrywiol, felly o'r "Paradise Lost," byddai yn llawer pereiddiach a hyfrytach i'w ddarllen nag ydyw yn null Puw a Ffraid.

Y mae'r beirdd Cymreig cyffredin yn meddwl mai dyfais Seisnig yw y "mesur dïodl," fel y'i galwant; ond y mae hyn yn gamsyniad dybryd. Y mae "cân benrydd," ys dywed Williams o Bant y Celyn, yn adnabyddus i'r Cymry er ys dros 700 mlynedd yn ol, o leiaf. Cymmerwn yr esampl ganlynol:—

"CYFARCH GWELL DAFYDD.

"Hanbych well, Dafydd, handid o ddefawd:
Gogyfarch teyrn, gogwyr teyrnfardd;
Gogyfurdd torment, gogyfiaw torfoedd;
Gogawn teyrnfeirdd, gogawn teyrnfro;
Termud, torment, terwyn deyrn.
Eryres ormes eryron dyrfa;
Eryr teyrnon er yn deyrngain;
Eryr draig ormant arddunïant prif feirdd;
Eurddawn prydyddion, arwynawl prydfar
Ar wyneb Prydain.
Hud wyt i'th edryd, hud wyf i'th edfryd;
Hydyrfeirdd o'th edrych, hud ŷnt i'th adrawdd:
Erioed dy angar, aerawd dydd angau;
Eurawg dy angad, efrydd i'm hangen:
Teyrnllu, teyrnedd, teyrnllaw, teyrnllin;
Teyrnllyw teyrnas, terfysg torment,
Terfyn tir gadw terwyn.*
" *Llywarch ap Llewelyn (Prydydd y Moch)*, 1160."

Y mae yn y difyniad yna gymmaint o amrywiaeth persain, i'r sawl a'i deallo, ag sydd mewn unrhyw ddarn o'r un hyd sydd yn "Paradise Lost." Gwelir nad oes yna gymmaint ag un linell, mwy nag sydd yn y "Paradise Lost," yn terfynu yn y corfan crych ddisgynedig anwarantadwy, fel y rhai a gyfarfyddir yn fynych yng "Ngholl Gwynfa" y Dr. Puw ac I. D. Ffraid, er bod y rhan fwyaf o honynt yn terfynu yn yr "accen ddisgynedig," sef y corfan rhywiog. Gobeithiwn y cymmer rhyw fardd Cymreig galluog y gorchwyl mewn llaw, yn hwyr neu hwyrach, i droi y "Paradise Lost" i fesurau neu gyhydeddau rhyddion gwir Gymreig a gwarantadwy. Od ydyw "Iliad" Paganaidd Homer yn werth i wŷr o ddysg a gwybodaeth Pope, yr Arglwydd Derby, a Mr. Gladstone, ei throi i'r Saesneg, y mae'n sicr ddïau bod "Paradise Lost," a elwir gan y fath wŷr ag Addison a Goronwy Owain† yn "gân ddwyfol," yn deilwng o roi *trydydd* cynnyg ar ei throi i Gymraeg ddiledryw, ddilediaith, a phersciniol. O dyry y bennod hon, sydd wedi myned braidd yn faith, ac yn enwedig hyn o "Olsylwadau," gynhyrfiad mewn rhyw fardd o'r iawn ryw i ymaflyd yn y gorchwyl, ystyria yr ysgrifenydd yr ettyb ddiben cenedlaethol; a chaiff ein cydwladwyr weled cân o waith un o'u ceraint, na welsant ei chyffelyb, fel ffrwyth crebwyll a darfelydd aruchel a chyssegredig, mewn un man ond yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

---

## PENNOD VIII.

### OLIVER THOMAS, Y DOCTOR THOMAS POWEL, Y DOCTOR WILLIAM ROBERTS, Y DOCTOR ROBERT PRYS, A SION TRE-REDYN.

Oliver Thomas. Ychydig iawn o hanes y gŵr enwog hwn sydd wedi ei drosglwyddo i'r amser presennol: yn wir, prin y gellir dywedyd bod genym ddim o'i *hanes*, yn ystyr fanwl y gair; dim ond ambell gyfeiriad damweiniol ato yn unig. Nid oes neb o'n geirlyfrwyr bywgraphiadol yn son dim am dano. Nis gwyddom pwy oedd ei deulu, na pha bryd, yn fanwl, y ganwyd ef. Dengys Anthony Wood, ei gydoeswr, iddo gael ei addysg athrofaol yn Neuadd Hart, Rhydychain, ac y bu yn dal rhyw leoedd yn sir Amwythig, ac mai yn Ffelton, yn y sir honno, y bu farw;‡ ond pa bryd, ni fynegir. Dywedir mai "gweinidog o Groesyswallt ydoedd, er na cheir bod neb o'r enw wedi bod erioed yn gweinidogeuthu yno yn yr Eglwys Sefydledig, nac yn un lle arall yn y gymmydogaeth sydd o fewn Esgobaeth Llanelwy." Y mae'n bur debyg iddo droi yn Bresbyteriad yn fuan ar ol ymadael o'r brif-ysgol, gan fod ei enw ef, ynghyd â gweinidogion eraill, "wrth gyfreithlondeb y Cyfammod yn 1647."§

* Myvyrian Archæology, argr. Dinbych, t. 201.

† Spectator. No. 267; Gronoviana, t. 186.
‡ Wood's Athen. Oxon., vol. i., p. 860.
§ Llyfr. y Cymry, t. 112, 207.

Gwyddom wrth ei waith a gyhoeddwyd yn 1631, ac yn 1677, ei fod yn ŵr crefyddol, gwladgarol, a thra hyddysg yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd; a gwyddom ei fod yn ŵr enwog a chyfrifol ymhlith y Cymry yn ei ddydd, am fod ei enw ym mysg y Profyddion Cymreig yn "Y Ddeddf er gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," a wnaed yn 1649.* Yr ydym yn gwybod hefyd, oddi wrth yr amseriadau a nodwyd, ei fod yn ei flodau o 1631 i 1649; am hyny yr ydym yn casglu iddo gael ei eni yn gynnar yn yr 17fed ganrif. Enw y llyfr a gyhoeddwyd ganddo sydd fel hyn:—

"Car-wr y Cymru, Yn annog ei genedl anwyl, a'i gydwlad wyr er mwyn Crist ai heneidiau i chwilio yr Scrythyrau yn ol gorchymyn Crist. Joh. 5. 39. Y rhai yr awr 'hon yn ddiweddar a brintiwyd o newydd yn Gymraec; ac a geir ar werth yn llyfran cynnwys, a bychain eu maintioli a'i pris, drwy fawr ddiwydrwydd, a thraul swrn o wyr Duwyol, enwog ac ewyllys-gar i wneuthur daioni i'r Cymru.—Llundain, printiedig gan Felix Kingston, drwy awdurdod. 1361." †

"Cynhwysiad y llyfran hwn" sydd mewn llythyrenau Italaidd, ar ei ddechrau; yna ceir yr hyn a ganlyn, mewn cymmysg lythyrenau, ond a roddir yma mewn llythyrenau cyffredin:—

"Gweddi y Cymro am faddeuant am iddo hyd yn hyn esceuluso chwilio yr Scrythyrau, ac am Ras o hyn allan i'w iawn chwilio hwynt; Gweddi y Car-wr dros y Cymru, ar i Dduw drugarhau wrthynt a gostwng eu calonau i gadw y gyfraith hon. Boreuol weddi i'w harfer mewn Teulu; Prydnawnol weddi i'w harfer mewn teulu; Boreuol weddi penteulu ar y dydd Sabboth; Gweddi penteulu cyn bwyd; Diolchgarwch penteulu ar ol bwyd."

Yna ceir "At y Darllenydd. R. Lloyd." Ac ar ol math ar enwad-ddalen arall, &c., ceir annerchiad Saesneg gan yr awdur, fel hyn:—

"To all the Worthy and True-hearted Well-willers and furtherers of the Spiritual weale of Wales, who have put their helping hands and hearts to that late, necessary, and worthy worke of Setting forth the Bible in Welsh, in a small volume. The Author of this Welsh treatise wisheth Wisdoms Gift (as a gracious Recompence of Reward from the Lord) viz. Length of daies, riches and honor; with Eternal life which is the gift of God through Iesus Christ our Lord."

Terfyna y llyfr gyd â "The Pronunciation of the Letters in the British Tongue," ac "A Comparison of the Pronunciation of the Letters in Welsh to the Greeke and Hebrew Letters. By Edward Kyffin."

Gwelir nad yw enw Oliver Thomas wrth y llyfr uchod; ond yn ddiweddar tarawsom wrth enw y "Trysor i'r Cymru" yn llawn yn "Llyfryddiaeth y Cymry," tra nad oes yn y copi carpiog o'r llyfr sydd genym ni ond "Trysor i'r Cymru," mewn ysgrifen ar ben y tudalen cyntaf o'r "Llythyr at y Darllenydd." Dengys yr enw y cyfeiriwn ato, nid yn unig mai Oliver Thomas oedd awdur y llyfr uchod, ond hefyd mai efe oedd awdur y "Tri o Ddrychau Ysprydol i dri math o Bobl," am y rhai y dywedasom mewn nodiad ar odre t. 197 y methasom gael sicrwydd mai gwaith R. Jones o Ddinbych ydynt. Enw y "Trysor" yn llawn sydd fel y canlyn:—

"Trysor i'r Cymru: Sef Llyfr yn Cynnwys; 1. Pregeth Mr. Arthur Dent, ynghylch Edifeirwch, o gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficer y Wayn yn Shir Ddinbych. 2. Drych o Dri math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhithgristion, a'r Gwir-gristion, o waith Mr. Oliver Thomas, Carwr y Cymru. 3. Bellach neu Byth o waith Mr. Richard Baxter, ym mha draethawd y cyfiawnheir, y cyssurir, y cynhyrfir, ac yr hyfforddir y Sanctaidd, Ddiwyd, Ddifrifol Gredadyn: A'r Gwrthwynebwyr a'r Esceuluswyr a argyhoeddir, drwy oleuni yr Scrythur a Rheswm. O gyfieithiad Mr. Richard Jones o Ddinbych. 1677."

Dodasom esampl o'r "Drychau" ar odre t. 198. Yn awr, gan fod y gweddïau y cyfeiriwyd atynt yn y nodiad crybwylledig mor hynod a duwiolfrydig, ac yn esampl helaethach o gyfansoddiad, cystal ag o ansawdd yspryd, Oliver Thomas, ni a'u dodwn ger bron yma; ond cyn eu darllen, byddai yn fanteisiol i'r darllenydd fyned dros yr esampl grybwylledig o'r "Drychau:"—

"O Dduw, deisyf ydwyf o'm calon roddi it wir fawr ddiolch am i ti ddangos i mi yn nrych dy air fy stad halogedig, felldigedig: a gwir ydyw fy mod dros lawer o flynyddoedd o ddiafol, ar lun diafol, yn gwasanaethu diafol: er fy mod yn dy broffessu di o Dduw, etto yn fyngweithredoedd yr oeddwn i yn holl ystod a chwrs fy mywyd yn dy wadu, ac yn gwrthryfela (megis gelyn) yn dy erbyn, gan gassau ac erlid gwir Gristionogion, o herwydd eu bod yn caru, ac yn calyn daioni, ac am na chyd-redent gyda mi i'r un rhyw ormodedd rhysedd. Er fy mod yn gablwr, yn erlidiwr, ac yn drahaus, ac yn awyddus i ymroi i bob gweithredoedd drwg, etto Arglwydd (oth fawr drugaredd) bydd drugarog wrth ddrwg weithredwr truan, a madde i mi y cwbl oll, er mwyn Crist, canys yn ddiarwybod y gwnethum hwynt oll, drwy anghrediniaeth: a dyro i mi (sydd ddyn anrassol) bob gras angenrheidiol, fel y gallwyf wadu pob Aniwioldeb a chwantau bydol, y bum yn byw ynddynt o'r blaen, a byw o hyn allan yn sobr, yn dduwiol, ac yn gyfiawn; a chadw fi yn ddiangol oddiwrth (deilwng) boenau uffernol, a dyro i mi fywyd tragwyddol drwy ffydd ynghrist Iesu fy Arglwydd, Amen."

"*Gweddi y Rhith Gristion gwir edifeiriol.*

"O Arglwydd yr ydwyf yn cydnabod fy mod, megis y mae drych dy air yn dangos, sef yn ymhonni fy mod yn cymmeryd arnaf dy wasanaethu di, a'm lamp yn ole o flaen dynion, megis y gwir gristion: etto nid oes, ac ni bu erioed, olew gras yn llestr fy nghalon; bum megis y ffigysbren a felldithiodd Crist, yn dwyn dail heb ffrwyth, ac megis bedd wedi wnni oddi allan, ond oddi-mewn yn llawn aflendid: yr oeddwn yn cael enw yn eglwys Grist o fod yn fyw, ac etto marw oeddwn: fynghalon dwyllodrus

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503; Han. Crefydd D. Peter, t. 224.
† Camosodwyd y rhifnodau hyn gan yr argraphydd. 1631 y dylent fod.—Llyfr. y Cymry, t. 111.

Digitized by Google

a'm twyllodd fy hun, a llawer eraill, ac oeddynt yn tybied fy mod yn frawd ffyddlon yngrist Iesu; ond un or gau frodyr oeddwn, a chennif Rhith duwioldeb, etto yn gwadu ei grym hi: diystyrais a bernais fyngwell, mawrygais a chyfiawnheais fy hun; cerais, ceisiais, a derbyniais y gogoniant sydd o ddynion; ac ni cheisiais y gogoniant sydd oddiwrthit ti o Dduw: glan oeddwn o wyneb yngolwg dynion, a brwnt o galon yngolwg Duw; Angel oddiallan, a chythrel oddi mewn: am hyny, i mi, i mi, y mae cywilydd wyneb yn perthyn; gwae fi, gwae fi, o herwydd fy rhan i sydd gyda'r rhagrithwyr lle mae Rhinciau dannedd os byddafi byw a marw yn y cyflwr hwn. Pwy a drig gyda'r tan yssol; pwy a breswylia gyda llosgfeydd tragwyddol? O Arglwydd gwared fi oddiwrth y cyfryw drinafu a phreswylfa. Gyda thi o Arglwydd y mae trugaredd a maddeuant: Ac am hyny o Dduw bydd drugarog wrthif bechadur ac er mwyn Iesu Grist madde i mi fy holl bechodau; a gwared fi oddiwrth fyngwag ogoniant, a ffug sancteiddrwydd; a chrea galon lan ynof, ac adnewydda yspryd uniawn o'm mewn, fel a gallwyf dy wasanaethu di o hyn allan mewn yspryd a gwirionedd, fel na cheisiwyf fyth fy anrhydedd a'm gwag-ogoniant fy hun, ond dy anrhydedd ath ogoniant di o Dduw Tad er mewn dy unig fab Jesu Grist fy Arglwydd. Amen."

"*Diolchoarwch y gwir Gristion a'i farn ostyngedig am dano ei hun.*

"O Arglwydd Rhoddaist i mi lygaid i weled, ac i edrych yn nrych dy air, beth oeddwn gynt, a pheth ydwyf yr awrhon; cofiaist ac ymwelaist a mi; gelwaist a dewisaist fi; gwaredaist a glanheaist fi drwy waed dy fab, a Sancteiddiad dy Yspryd. Ah beth oeddwn, i ti wneuthur hyn oll drosofi, a gadel miloedd eraill yn eu cyflwr Anghristnogol, a Rhith-gristnogol, halogedig, melldigedig, colledig, heb ymweled a hwynt, fel y gwnaethost a mi, er nad oeddwn well na hwyntau! ac oeddwn waeth na llawer o honynt, sydd yr awrhon yngwaelodion uffern: ac i'r lle hwnnw y gallesit fynhaflu inne cyn hyn. Oh beth a dalaf i ti o Arglwydd am dy holl ddoniau daionus i mi? phiol Iechadwriaeth a gymmeraf, fy addunedau a dalaf; ti fy Nuw a dderchafaf; beunydd ith fendithiaf; ath enw a folaf byth ac yn dragywydd, canys ti pie'r deyrnas, y nerth a'r gogoniant, yn oes oesoedd, Amen."

Cyhoeddwyd "Carwr y Cymru" unwaith, yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd y "Drychau" a'r "Gweddïau" uchod, mewn "llyfran" a elwir fel hyn:—

"Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd, sef Llyfr yn cynnwys, 1. Agoriad byrr ar Weddi yr Arglwydd. 2. Ymddiddanion rhwng y Carwr a'r Cymro. 3. Ymddiddanion rhwng Crist a'r Publican, &c. Amryw Reolau Duwiol, &c. Ai brintio yn Llundain gan Thomas Dawkes, Printiwr yng-hymraeg i arddercheccaf Fawrhydi y Brenin. 1677."

Heb law yr enw cyffredinol yna i'r holl waith, y mae enwad-ddalen ar wahân i bob un o'r tri thraethodyn. Enw gwaith Oliver Thomas yn hwn sydd yr un ag a roddwyd iddo yn 1631, a ddodwyd ger bron eisoes. Yn y "Llythyr at y Darllenydd," dywedir am y traethodyn yma fel hyn:—

"I gyfarwyddo pobl i chwilio'r Scrythyrau er iechydwriaeth eu Heneidiau, dymma i ti Garwr y Cymru, yn awr wedi ei brintio drachefn. Pa darllenem ni y Scrythyrau fel ein cyfarwyddir yn y llyfr hwn, ni fyddem lawer gwell Cristionogion rhagllaw nag y buom hyd yn hyn."

Y mae i'r traethodyn hwn hefyd "Ragymadrodd at Eglwyswyr Cymru," a thybir mai gwaith Oliver Thomas ydyw. Beth bynag am hyny, y mae'n ddernyn godidog dros ben, o'r hwn y dodwn y difyniadau canlynol ger bron:—

"Ha wyr frodyr, a thadau Parchedig, ac anwyl yn yr Arglwydd, y mae yn weddus i mi synnied hyn am danoch oll, nad yw yn anwybod i chwi, ond eich bod yn credu yn ddilys, mai ewyllys Crist yw, nid ar i chwi yn vnig, eithr i'r holl braidd y gwnaeth yr Yspryd glan chwi yn olygwyr arnynt, chwilio yr Scrythyrau. Act. 20. 28. Canys mae y ddyled-swydd hon wedi ei yspyssu yn amlwg, ac mor gyffredin mewn amryw fannau o Air Duw, ac o'r Tadau gynt, ac na ddichon neb oddieithr Gwyliedyddion deillion fod yn anhysspus arni. Athro rhagorol yn nechreu yr oes hon, a gasclodd allan o'r hen Dadau athrawaidd gynt, mor daer, ac mor ddifrifol oeddynt, bawb yn eu hamser, yn cymmell y cyffredin i fod yn gydnabyddus â Gair Duw, ac i'w fynych chwilio, gan gynghori hefyd y Periglorion o'r amseroedd hyny i gynhyrfu, ac i fod yn daer ar bawb tan eu gofal hwynt i ymarfer â'r ddyled-swydd grefyddol hon, yn eu tai eu hunain gartref, ym mysg eu teulu. A minne (frodyr) gan ganlyn ar ol y Seint Dwyfol hyn, a fyddaf (drwy eich cennad) cyn hyfed arnoch, ac attolwg i chwi, er mwyn Crist Iesu, er mwyn eneidiau eich praidd, ac er mwyn eich hun, fod yn eiriol ar eich plwyfolion, ar iddynt brynu beiblau bychain, y rhai sydd yr awrhon drwy ras Duw a'i ragorol ymgeledd tu ag attom (y cyffelyb peth ni bu yn ein plith erioed o'r blaen) yn aml, yn dda'r newid arnynt, ac yn hawdd i'r tlawd eu cael, fel y gallo pob dyn annyscedig a dim athrylith dduwiol ynddo (o medr ddarllen ei iaith ei hun, yr hyn a ddylei pawb fedru) fanwl chwilio Gair Duw, a bod yn hyspys ynddo. . . . Tebygol yw y buasai yng ngwlad Cymru yn nyddiau ein Tadau, fwy o chwilio ar yr Scrythyrau nag a fu hyd yn hyn o'n hoes ni, pe buasai y Bugeiliaid ysprydol, neu y rhan fwyaf o honynt, mor graff, mor ddiwyd, ac mor daer ag y dylasent fod i annog, i gymmell, ac i gynhyrfu y cyffredin bobl yn y ddyledswydd anhebgor ac angenrheidiol hon.

"Mynych dros ben y mae dolur yn taro fy nghalon wrth weled, ac ystyried y diffyg mawr a'r esgeulusdra dybryd, sydd yn ein plith ni Eglwyswyr Cymru, o gymmeryd poen i ddyscu ein praidd yn gydwybodus, eisiau ymosod a llwyr-fryd calon i ddarllain, cynghori, ac athrawiaethu, 1 Tim. 4. 13. Yr ydym ni ein hunain, (lawer o honom) yn anghynnefin a Gair cyfiawnder, ac am hynny yn anghyfarwydd, ac yn anghymen i gyfarwyddo eraill. Y mae yn aml gweld yn ein plith ni ynghymru Eglwys-wyr, o ran eu dysceidiaeth yn ganmoladwy, a'i ymadrodd yn barabl-ddoeth; ac etto yn anaml gweled mewn llawer goror o'r wlad yr Scrifennydd wedi ei addyscu i deyrnas nef, yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd, a hen. Mat. 13. 52. Ie rhoddwch gennad i mi fy mrodyr anwyl, i ddywedyd wrthych (y peth sydd ddrwg gennif orfod ei ddywedyd) y gellir cael ym mhob un o Escobaethau Cymru ddeugain, neu driugain o Eglwysi, heb un ynddynt ar y suliau hirddydd haf, pan fo sychaf y ffyrdd a chlaiaraf yr hin. . . . Eich Brawd, a'ch Car-wr, a'ch car Dienwog a Di-Enw."

Dyna'r cwbl a allasom ni ei gasglu, ar ol dyfal ymchwiliad, am y duwiol, wladgar, ac enwog Oliver Thomas. Gallasem ddifynu ychwaneg o'i waith; ond hyderwn bod yr hyn a ddifynwyd yn ddigon i roi syniad lled gywir am ansawdd ei feddwl, ac am ei eiddigedd duwiol dros lesâd ysprydol ei gydwladwyr, oedd ar y pryd yn bur

Digitized by Google

amddifaid o foddion gwybodaeth, moesoldeb, a chrefydd.

THOMAS POWEL, D.D., ydoedd un o gyfoedion Oliver Thomas. Mab ydoedd i'r Parch. John Powel, periglor Cantref, yn sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef yn 1608. Cafodd ei addysg athrofaol yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, ac etholwyd ef yn ysgolor y gymdeithas honno yn 1627, ac wedi iddo gymmeryd graddau yn y celfyddydau, cafodd gymmrodoriaeth. Wedi hyny, cafodd urddau esgobol, ac yn 1635 gwnaed ef yn berson ei blwyf genedigol, ar gyflwyniad ei frawd hynaf. Dywedir iddo ddïoddef llawer dros yr achos brenhinol yn ystod y rhyfel gartrefol, ac y bwriwyd ef o'i fywioliaeth eglwysig gan y Profyddion (ymhlith y rhai yr oedd Oliver Thomas)* a bennodwyd yn y "Ddeddf er gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," am ei ymlyniad wrth achos y brenin, ac am ddarllen y Llyfr Gweddi Gyffredin yn yr eglwys ar y Suliau, yn groes i gyfraith y wlad ar y pryd. Ar ol cael ei fwrw allan, enciliodd Powel i'r Cyfandir, lle yr arhosodd hyd oni sefydlwyd Charles II. ar orsedd Brydain, pan y dychwelodd yntau i'w wlad, ac yr adferwyd iddo ei fywioliaeth eglwysig. Yn ebrwydd wedyn cymmerth y radd o D.D., ac appwyntiwyd ef yn ganonwr Llandaf; ac, yn ol Browne Willis, enwyd ef gan y Brenin Charles i fod yn Esgob Caerodor; ond bu ef farw ar yr 31fed o Ragfyr, 1660, cyn cael ei ethol, a chladdwyd ef yn St. Dunstan in the West, Heol Fleet, Llundain.

Ysgrifenodd amryw lyfrau mewn ieithoedd estronol.† Arwydda y "Ddangoseg" yn "Llyfryddiaeth y Cymry" y cofnoda'r "Llyfryddiaeth" *bedwar* llyfr o waith y Dr. Thomas Powel yma, sef y rhif 1 dan y flwyddyn 1601; y rhif 6 dan y fl. 1603; y rhif 1 dan y fl. 1622; a'r rhif 6 dan y fl. 1657. Llyfrau Saesneg ydyw y tri blaenaf, a chyhoeddwyd y cyntaf saith mlynedd cyn geni y Dr. T. Powel yma; yr ail, bum mlynedd cyn ei eni; a'r trydydd, pan nad oedd ond 14 oed. O herwydd paham, rhaid nad oedd y Dr. Powel hwn yn awdur yr un o'r tri hyny. Y pedwerydd yn unig oedd waith y gŵr yma, sef yr un a nodir yn 5 dan y flwyddyn 1657, ynghorph y "Llyfryddiaeth" (t. 173), ac nid y 6, fel y dengys y "Ddangoseg." Enw y llyfr hwn sydd fel y canlyn:—

"Cerbyd Iechydwriaeth. Neu Prif Byngciau Crefydd Gristionogawl wedi eu egluro a'u gosod allan. 1. Yn gyntaf, mewn Sententiau a Rheolau awdurdodol. 2. Yn nesaf, mewn cyd-ymddiddan trwy ymholion ac attebion.—Printiedig yn-Ninas Llundain, gan Sarah Griffin, dros Philip Chetwind, 1657."

Nid ydyw enw yr awdur wrth y gwaith yna, fel y gwelir; ond ysgrifenodd y Dr. T. Powel lyfr yn Saesneg, a'i enw—

"Qvadriga Salvtis; or, The Four General Heads of Christian Religion Surveyed and Explained."

Gwelir bod enw y ddau lyfr yn dra arwyddocaol a phwysig; a dywed Anthony Wood am yr awdur ei fod yn "ŵr tra athrylithgar a moesgar, yn bur fedrus mewn llawer math o ddysgeidiaeth, yn athronydd galluog, yn feirniad manwl, yn hyddysg mewn amryw ieithoedd, ac nad oedd i'w ddiystyru am ei wybodaeth mewn duwinyddiaeth." Am y ddau lyfr a nodwyd, dywed y Parch. D. Silvan Evans fel y canlyn:—

"Yn y cyfargraph sydd ger fy mron *un* llyfr yw'r 'Cerbyd Iechydwriaeth' a'r 'Qvadriga Salvtis,' ond eu bod wedi eu tudalenu yn wahanol. Cynnwys y gwaith Cymreig, yr hwn sydd flaenaf yn y gyfrol, 39 o dudalenau heb law 4 o ragarweinyddion yn y dechrau. Diweddir y dosparth hwn o'r gyfrol â'r ymgais canlynol at englyn:—

'Y Pader, pan trier Duw—tri a'i dododd
O'i dadol ddaioni,
Yn faen gwaddan i bob gweddi,
Ac athrawiaeth a wnaeth i ni.'
*Ol. Vaughan.*'

"Yr un peth yn hollol yw y rhan Gymreig â chryn gyfran o'r gwaith Seisnig. Cyflwynir y 'Qvadriga'—'To the Honorable and my worthily honored Lady, the Lady Eleonor Williams of Gwerneuet,' a thanysgrifir y cyflwyniad gan 'Tho. Powell.' Ar y ddalen nesaf y mae darlun o Bren yn llawn o bob rhyw ffrwythau danteithiol, a dioddydd blasber yn distylliaw o hono, gyd â'r arwyddair—'*Dispenso munera coeli*' uwch ei ben. Y mae'r pren hwn yn tyfu, medd yr awdur, yn un o'r Ynysoedd Dedwydd, neu Ynysoedd Canari, yn y Môr Atlantig; a rhydd i ni yr hanes ganlynol am dano:—

'I have delineated this Tree in the preceeding page, according to the description of *Benzo*, an Italian, who spent 14 years in surveying the vast Continent of *America* and the adjacent Ilands. It grows in an Iland called *Hierro* or *Ferro*, which is one of the *Canaries*: There is no other Tree in all the Iland besides, neither any water to refresh the Inhabitants but what this tree affords, the bowels of the Countrey being *iron*, from whence it hath its name. It may be a fit Emblem of a charitable person in an uncharitable Countrey, and may have other fit and apposit applications. It is mentioned by sundry Geographers and Travellers, as *Hugh Linschotten*, Petr: *Bertius* in his description of the *Canaries*: Sir *Rich: Hawkins* in his Navigations, and described by the excellent *Du Bartas*, thus—

'In the Ile of Iron, one of those same seven
Whereto our Elders *happy* name have given,
The savage people never drink the streams
Of wells and rivers, as in other realms;
Their drink is in the air, the gushing spring
A weeping tree out of it self doth wring;
A tree whose tender bearded root doth spread
In driest sand; his sweaty leaf doth send
A most sweet liquor: and like as the vine
Untimely cut, weeps at her wound the wine
In pearled drops, incessantly distills
A royal stream, which all their cisterns fills.'

"Y mae'r awdur, fel y canfyddir, yn adrodd y chwedlau

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503.
† Williams's Em. Welshm., p. 413.

disail hyn am y macth-roddawl bren dychymmygol hwn gyd â phob difrifoldeb, megis hanes gredadwy, ac nid fel llên y werin, yr hyn beth yr oedd yr hen bobl mor nodedig hoff o hono. Cynnwys y dosparth Seisnig 126 o dudalenau, gyd âg 28 o ragarweinolion." *

Gan mai "yr un peth yn hollol yw y rhan Gymreig â chryn gyfran o'r gwaith Seisnig," "Qvadriga," o'r hwn y cawsom y disyniadau blaenorol gan Mr. Evans, ymddengys i ni fod y Dr. T. Powel yn enwocach mewn llawer o bethau nag ydoedd mewn duwinyddiaeth, ac nad ei enwogrwydd duwinyddol, yn ddilys ddigon, a barodd i Charles II. ei enwi i fod yn Esgob Caerodor. Er hyny, gan iddo gael ei nodi i fod yn esgob, ac iddo ysgrifenu llyfr Cymraeg yn dwyn enw mor bwysig a "Cherbyd Jechydwriaeth" (yr hwn nis cyhoeddwyd fwy nag unwaith, hyd y gwyddom ni), dichon y beiasid ni pe gadawsem ef allan o blith "Enwogion y Ffydd."

Un arall o gyfoedion Oliver Thomas oedd ROBERT MORGAN, D.D., yr hwn ydoedd fab i Richard Morgan, Bronfraith, ymhlwyf Llandysul, sir Drefaldwyn, a'i wraig Margared, merch Thomas Llwyd, o Wernbuarth, ŵr bonheddig. Ganwyd R. Morgan yn nhŷ ei rieni yn 1608. Cafodd ei addysg athrofaol yng Ngholeg Iesu, Caergrawnt, lle y graddiwyd ef yn M.A. Yn 1632, gwnaed ef yn gaplan i'r Dr. Dolben, Esgob Bangor. Yna dyrchafwyd ef i ficeriaeth Llanwnog, sir Drefaldwyn, ac wedi hyny i bersonoliaeth Llangynhafal, yn Nyffryn Clwyd. Pan ddyrchafwyd y Dr. William Roberts† i Esgobaeth Bangor yn 1637, trwy ddylanwad yr Archesgob Laud, gwnaed R. Morgan yn gaplan iddo, a chafodd ficeriaeth Llanfair Dyffryn Clwyd. Cafodd amryw fywioliaethau eraill ym Mon; ond amddifadwyd ef o'r cwbl gan y Senedd, o blegid ei ymlyniad zelog wrth achos pwdr Charles I., oddi eithr Llanddyfnan, ym Mon, prydles yr hon fywioliaeth a brynasai efe gan Fwcleiaid Baron Hill. Pan adferwyd Charles II., cafodd yntau ei fywioliaethau yn ol; ac yn 1660, cafodd Archddiaconiaeth Meirionydd, a gwnaed ef yn D.D. Yn yr un flwyddyn, gwnaed ef yn gydweddog ‡ Llanddinam. Pan fu farw y Dr. Robert Prys, § etholwyd ef yn Esgob Bangor, a chyssegrwyd ef ar y 1af o Orphenaf, 1666. Cymmerth archddiaconiaeth Bangor i'w ymddiriedaeth; ac ar farwolaeth yr Archddiacon Mostyn yn 1672, cymmerth ofal ar iddi gael ei sicrhau i'w olynwyr, y rhai a'i mwynhasant, a chyssylltwyd hi wrth yr esgobaeth gan Weithred Seneddol. Gwelir fod y gŵr hwn yn enwog am ddiogelu da y byd hwn, beth bynag am y nesaf, iddo ei hun a'i olynwyr. Bu farw ar y 1af o Fedi, 1673, yn 65 oed, a chladdwyd ef yn yr Eglwys Gadeiriol, ym medd yr Esgob Robinson, ar ochr dde yr allor. Dywed yr Esgob Humphrey ei fod yn ŵr o ddoethineb mawr mewn masnach, yn bur ddysgedig, ac yn bregethwr hyawdl yn Saesneg ac yn ei iaith frodorol, ac iddo lwyr wisgo ei hun allan trwy ei bregethiad parhaus." ||

Un o gyfoedion eraill Oliver Thomas oedd SION TRE-REDYN, enw priod yr hwn, fel y gellir casglu, oedd JOHN EDWARDS. Ni wyddys ddim am y gŵr crefyddol a gwladgar yma, ond yn unig a ellir ei gasglu oddi wrth yr hyn a ddywed ef ei hun ynglŷn â'i gyfieithiad o "Marrow of Modern Divinity" Edward Fisher. Nid oes gan y Parch. R. Williams ond ychydig linellau arno, y rhai o'u cyfieithu sydd fel y canlyn:—

"TREFREDYN, (SION,) ysgrifenydd ym mysg yr anghydffurfwyr Cymreig, yr hwn oedd yn ei flodau ynghylch o 1650 i 1700. Ffurf gyfieithedig ydyw yr enw yma o'i enw priod, John Fenton; efe ydyw awdur 'Madruddyn y Difinyddiaeth diweddaraf,' 8plyg, Lundain, 1651, yr hwn a ystyrir yn gynllun da o ieithwedd y Deheudir." ¶

Credwn y gellir profi nad oes odid frawddeg o'r llinellau yna yn gywir: er hyny, hwynt-hwy a ddilynir yn fanwl gan ein geirlyfrwyr bywgraphyddol eraill. Y mae'n amlwg nad "ysgrifenydd

* *Llyfr. y Cymry*, t. 174.

† Prif gampwaith y Dr. W. Roberts, fel yr ymddengys, oedd "darganfod meddiannau eglwysig byd fil o bunnau," cyfartal i 8,333p. *o'n harian ni*, o blegid yr hyn y dyrchafwyd ef i Esgobaeth Bangor, ar annogaeth Laud. Amddifadwyd ef o'i fywioliaethau breision, a'i feddiannau helaeth, gan y Senedd yn 1649, o blegid ei ymlyniad cyndyn wrth achos y drygionus Charles I.; ond pan adferwyd Charles II., adferwyd yntau i'w holl fywioliaethau a'i feddiannau yn 1660, a bu farw ar y 12fed o Awst, 1665, yn 80 oed. Gadawodd symiau gwych yn ei ewyllys at wahanol achosion perthynol i Eglwys Loegr.—Williams's Em. Welshm., p. 457.

‡ Comportioner.

§ Y Robert Prys, LL.D., yma ydoedd fab John Prys, Ysw., Rhiwlas, yn sir Feirionydd, lle y ganwyd ef yn 1607. Yn Eglwys Crist, Rhydychain, y cafodd ei addysg athrofaol, lle y cymmerth un radd yn y celfyddydau; ac yna ymrodd i fyfyrio y gyfraith wladol, ac fel y cyfryw gwnaed ef yn Wyryf yn 1632. Ordeiniwyd ef yn Ddeon Bangor ar y 1af o Fehefin, 1634, ac yna yn Ficar Tywyn Meirionydd; ac yn 1635, gwnaed ef yn Ganghellydd Bangor, yr hon swydd a roddes efe i fynu yn 1636. Wedi hyny appwyntiwyd ef yn gaplan yr Iarll Strafford, Arglwydd-Raglaw y Werddon, ac anrhegwyd ef â Deoniaeth Connor yn y wlad honno. Ar y 30fed o Ebrill, 1639, gwnaed ef yn LL.D. (Doethor Cyfraith Wladol) ymhrif-ysgol Dublin; ac wedi dychwel i Loegr yn fuan wedyn, cafodd yr un radd yn Rhydychain. Dioddefodd yntau swrn yn achos y frenhiniaeth; ac ymddengys mai yn hyny, a'i wybodaeth yn y gyfraith wladol, yr oedd ei brif enwogrwydd, a'r achos o'i aml ddyrchafiadau *eglwysig*. Pan adferwyd Charles II., cyssegrwyd J. Prys ar y 27fed o Ionawr, 1660, yn Esgob Ferns a Leighlin; ac ar farwolaeth y Dr. W. Roberts, a gofnodwyd yn flaenorol, enwyd Prys i fod yn Esgob Bangor; ond cyn y gellid gorphen ei etholiad, bu farw ar y 26ed o Fawrth, 1666, a chladdwyd ef yn Eglwys Padrig Sant, yn Dublin, lle nad oes na cherfiad na chofgolofn iddo.—Williams's Em. Welshm., p. 420.

|| Idem, p. 340.

¶ Williams's Em. Welshm., p. 495

Digitized by Google

ym mysg yr anghydffurfwyr Cymreig" ydoedd Siôn Tre-Redyn, canys dywed ef ei hun, fel y ceir gweled yn fuan, ar yr 20fed o Orphenaf, 1650, iddo gael cauad ei enau rhag arfer ei "weinidogaeth." Sefydlwyd y Profyddion Cymreig yn y "Ddeddf er Gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru" ar y 22fed o Chwefror, 1649;* gan hyny, y mae'n amlwg mai ganddynt hwy y ceuwyd genau Siôn Tre-Redyn; ac nid oeddynt hwy yn "cauad genau" neb rhag "arfer eu gweinidogaeth" ond rhai "anwybodus o egwyddorion y grefydd Gristionogol, neu rai yn esgeuluso pregethu, neu yn arwain bywyd anfoesol, neu yn ymlynu yn gyndyn wrth y frenhiniaeth, ac yn erbyn y llywodraeth," sef gweriniaeth. Y mae'n dra sicr mai o blegid y trosedd diweddaf y ceuwyd genau Siôn Tre-Redyn, canys yn ddïau nid oedd cyfieithydd y "Madruddyn" nac yn anwybodus, yn esgeuluso pregethu, nac yn anfoesol. Rhaid, gan hyny, mai Eglwyswr zelog, a chyndyn, y mae'n bur debyg, dros y Frenhiniaeth a'r Eglwys Sefydledig, oedd efe.

Ni welwn ddim prawf, chwaith, bod Siôn wedi para yn ei flodau hyd 1700. Y mae'n amlwg ei fod wedi gorphen ei gyfieithiad erbyn y 20fed o Orphenaf, 1650, ac na ddechreuodd gyfieithu hyd nes y ceuwyd ei enau gan Brofyddion y Senedd, yr hyn a ddigwyddodd, fel y gellir casglu yn deg, yn lled gynnar yn 1649; ac nid oes air o son am dano ar ol y 10fed o Fai, 1651, pan y gorphenodd ei annerch "I'r Darllenydd." O ganlyniad, nid oes genym ddim prawf ei fod yn ei flodau ond o 1649 i 1651. Camsyniad rhyfedd oedd dywedyd mai "John Fenton" oedd ei enw priod, pan y dywed efe ei hun, "O Cyfieithiad J. E. i'r Gymraeg." Er mor gyfnewidiol yw y llythyrenau Cymraeg, nid ydym yn gwybod am gymmaint ag un esampl o *E* yn newid i *F*. Yr un mor gamsyniol hefyd oedd dywedyd mai efe "yw *awdur* 'Madruddyn y Difinyddiaeth Diweddaraf," pan y dywed ei hun yn eglur, fel y gwelir uchod, mai *cyfieithydd* yn unig oedd efe; heb law y gwyddys mai *awdur* y llyfr oedd Edward Fisher, gŵr dysgedig o sir Gaerloyw, yr hwn a fu yn cadw ysgol dros ryw ennyd mewn rhyw barth o Gymru, ac wedi hyny a aeth i'r Werddon, lle y bu farw.† O berthynas i Siôn Tre-Redyn fel cyfieithydd, caiff y Parch. D. Silvan Evans draethu ei farn yn ebrwydd.

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 505.

† Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 393.

Ganwyd Siôn Tre-Redyn, eb efe ei hun, "ar lan Hafren, yn mro Gwent, lle y mae Saesoniaith yn drech na'r Britanaith." Gan mai aber yr Hafren yn unig sy'n terfynu ar fro Gwent, a bod y "Saesoniaith yn drech na'r Britanaith" yn yr ardal y ganed ef, gellir casglu mai ymharth de-ddwyrain sir Fynwy y digwyddodd ei enedigaeth, ger llaw Cas Gwent (Chepstow), yn agos i derfyn sir Gaerloyw, lle nad oedd dim ond Saesneg yn cael ei harfer. Pa bryd y ganed ef, ni fynega; ond gan ei fod yn ei flodau yn 1649, gellir casglu y cafodd ei eni yn gynnar yn yr 17fed ganrif. Nid oes genym awgrym am amser ei farwolaeth. Ysgrifena Gwilym Lleyn fel hyn am dano:—

"Nid oes, fel y gwelir, ond cyn-lythyrenau enw'r cyfieithydd ar wyneb-ddalen y llyfr, fel hyn:—'J. E.' Y mae Walker yn enwi tri o'r enw *John Edwards* a drowyd o'r eglwysi [gwladol] gan 'Brwywyr Lledaeniad yr Efengyl,' sef o *Lanston*, *Tredynoc*,‡ a *Llanmartin;* ond y mae'n debygol mai cydiol oedd y lleoedd hyn, o leiaf rhyw ddau o honynt; ond pa un o honynt oedd cyfieithydd y llyfr hwn, a eilw ei hun yn ei annerchiadau arweiniol yn 'Siôn Treredyn,' nis gellir yn awr benderfynu, er y meddyliodd rhai mai cyfieithiad yw *Treredyn* o *Fernton*, ac mai *John Fernton*, neu *Fenton*, yn fyrach, oedd ei enw; ond nid ydym yn cael bod neb wedi cael ei ddeoli yn y parthau hyny o'r enw hwnw; rhaid gan hyny mai un o'r Edwardiaid ydoedd, ac mai *Fernton*, *Ferntown*, neu *Fe'nton* oedd enw ei drigfan, a'i gyfieithu yn *Treredyn*, yn gydiol a'r enw cyntaf."

Weithion, deuwn at enw y cyfieithiad, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Madrvddyn y Difynyddiaeth Diweddaraf; neu Lyfr Saesoneg a elwir, The Marrow of Modern Divinity. Obleid y Cyfammod o Weithredoedd, a'r Cyfammod o râs, a'u hymarfer hwy ill dau, a'u diweddion, dan yr Hen Destament, a'r Testament Newydd. Ym mha un y dangosir yn eglur, pa cyn bellhed y mae dyn yn sefyll ar y gyfraith o rhan ei Cyfiawnhaad, ac ar hynny yn haeddu ei alw yn Ddeddfwr. A pha cyn bellhed y mae arall yn bychanu'r gyfraith o rhan sancteiddiad, ac ar hynny yn haeddu ei alw yn Ddeddf-wrthwynebwr. A'r llwybr canolig rhwng y ddau, yr hon a arwain i fywyd tragwyddol trwy Jesu Christ.

"Mewn cyd-ymddiddan rhwng
"*Evangelista.* Gweinidog yr Efengyl.
"*Nomista.* Deddfwr, neu wr yn dal o ochor y "cyfraith.
"*Antinomista.* Deddf-wrthwynebwr, neu wr yn "llwyr bychanu'r gyfraith.
"*Neophitus.* Cristion iefangc.
"O waith E. F. yn y Saesoneg.
"O Cyfieithiad J. E. i'r Gymraeg.

"Printiedig yn Llundain gan T. Mabb, a A. Coles, dros William Ballard, ag i gael ar werth yn i siop ef dan lun y Bibl' yn heol'r ûd yn Ninas Bristol. 1651."

‡ "Enw Cymraeg ***Tredunnoc*** neu ***Tredonnock***, yng Ngwent, yw *Tref Redynog*, o'r hwn nid yw'r ffurfiau Seisnig ond llygriadau diweddar; ac ystyr *Tref Redynog* (neu Tre Redyn) yw ***Fern Town***, o'r hyn gall ***Fenton*** fod yn ddullwedd, er bod tarddiad arall yn ymddangos yn fwy naturiol, ac yn agosach. Gellir barnu gyd â chryn debygolrwydd mai gweinidog plwyf Tref Redynog ydoedd ***Siôn Trefredyn***, cyn cael o hono ei droi allan gan wŷr Cromwel."—D. Silvan Evans.

Digitized by Google

Yr oedd yr hen wyrda gynt mor hoff o enwau meithion i'w llyfrau ag ydyw awduron yr oes hon o rai byrion. Am y cyfieithiad hwn, dywed y Parch. D. Silvan Evans fel y canlyn:—

"Cynnwys 303 o dudalenau 16plyg neu 8plyg bychan, heb law y rhagannerch at foneddigion y wlad, ynghyd a rhai pethau arweiniol eraill. Dywedir gan y Parch. R. Williams yn ei *Eminent Welshmen* [p. 495] yr ystyrir y gwaith hwn yn gynllun neu olygwel da o iaith y Deheudir. Nid yn fynych y gwnaed camsyniad mwy anffodus. Nid yn unig nid yw yn engraifft deg o iaith y Deheubarth, ond nid yw'n gynllun o'r iaith mewn un parth o'r Dywysogaeth; canys gwaith anghelfydd, trwsgl, carbwl ydyw; y fath ag a allesid ei ddisgwyl o law un ag oedd wedi arfer meddwl ac ysgrifenu yn Saesoneg, a byw ymhlith y Saeson, ac i gryn raddau wedi anghofio manylion ei famiaith Gymraeg. O ran ieithwedd, hwyrach mai y llyfr tebycaf iddo, ar rai golygiadau, yn y Gymraeg, yw Testament Salsbri, ond ei fod yn llawer llai ysgolheiglyd na'r gwaith clogyrnog hwnw."

Yn ei annerch "I'r ardderchoccaf Herberdiaid, y mwynaf Morganiaid, y bonheddiccaf Kemysiaid, y gwirlanaf Wiliemmiaid, ac eraill Pendefigion o tu fewn i wlad Gwent, annerch yn yr Arglwydd Jesu Christ," y mae efe yn achwyn yn dost am fod yr iaith Gymraeg yn cael ei hesgeuluso ar y pryd gan y Cymry yn sir Fynwy, gan ddywedyd:—

"Eithr o holl wledydd y byd (hyd y gwn i) nid oes un cenedl mor ddicariad, a mor elyniaethus iw iaith ei hunan, ac yw'r Cymro, er bod ein iaith ni yn haeddu cymmaint, o barch, o herwydd ei henaint a'i chyfoethogrwydd, ac yr heiddiei ieithoedd eraill, canys fal y gwelwn ni beunydd, hwy nac yr elo Cymro na Chymraes i Lundain neu i Caerloew neu un fann arall o Loegr, a dyscu ryw ychydig o saesneg, hwy a wadant eu gwlad a'u iaith eu hunain. Ac o'r Cymru cartrefol, ie ym mhlith y Pendefigion ysgolheigaidd, ie ym mysc y Dyscawdwyr Eglwysig, braidd un o bwmtheg a fedr ddarllen, ac ysgrifenu Cymraeg. Ac o'r achos hyn y mae, fod llyfrau Cymraeg mor ymbell (canys ni welais i erioed uwch pump llyfr Cymraeg yn printiedig.)*

"Ac yn awr, Pendefigion urddasol, maddeuwch attolwg, fyn cwynunion yn erbyn fynghyd wlad-wyr â ddibrisiant ein hén mamiaith a dangoswch chi adolwg, eich serch atti, *trwy* dderbyniad rocsawgar o'm poen ewyllysgar i, yn gyfieithiad o'r llyfryn hwn—na ddeliwch ar fy anneirif camsyniadau a'm hawl feiau, canys nid wyf fi (â anwyd ar lan *H*afren yn mro Gwent lle y mae saesoniaeth yn drech na'r Britanaith) yn cymmeryd arnaf na medraeth, nac hyspysrwydd yn y Cymraeg, eithr nid bychan yw fy serch at yr iaith a daioni fyn' gwlad, ac er cauad fyn' genau rhag ymarfer fyn' gweinidogaeth, i'm torcalon mwyaf, er nad wyf *fi, onid* y gwaelaf o filoedd, ac yn an-addas o'r uchel-swydd weinidogaidd, etto (am fod yn anhawdd gennyf fi, ac yn tra enbeidus i mi, na llwyr ymadael o'm gwlad, na *bod* ychwaith yn segur ynddi, y cymmeraisi hyn o boen ewyllysgar. . . .

"*Eich gwasanaethwr parodol ym mhob*
"*gwaith yr Arglwydd,*
"SION TRE-REDYN.

"*Gorphenaf* 20, 1650."

Yn ei annerch "I'r Darllenydd," y mae'n bwrw'r bai o'r gwallau, gan mwyaf, ar yr argraphydd, a'i bellder yntau oddi wrtho; ond y mae ei waith yn dangos, pe buasai wrth ei benelin, mai hynod o wallus, anystwyth, ac anghymreigaidd a fuasai wedyn. Dyma fel y dywed:—

"Ac heblaw hyn rhag rhwystro'r neb trwy'r aml camsyniadau ym mhrintiad y Cymraeg, bydded hysbys gennit, y Cymro mwyn fod rhagor i cant o filltiroedd rhwng fy nhrigfa i a'r Print-dû, ac nad oedd fal y gwelei wrth lythyr y printiwr y ddaeth i'm llaw i, onid braidd un Cymro i'w cael trwy holl Lundain i ddisgwyl ar y printiad ac i cyfarwyddo'r gweithwyr Saesnyg ac i gyweirio 'r aml ddyffygion a sy giw gennit, attolwg, o'th fawr fwyneidddra fy nghymmeryd i yn escusodol a than myned yn yscafn heibio'r camsynniadau llythyrennol canys aml yn siccr yw'r camosodiadau a'r diffygion o llythyrenna ac o'r accentau rhain (' ^ ) anhepcor yn y Cymraeg, cofia yn ddianwadal er dy well ystyriaeth cyweirio hyn o ddyffygion mwyaf sy yn canlyn, a thi a'm rhwym i fod

"Yn wasanaethwr parodol i ti
"ymmhop gorchwyl Cristnogaidd,
"SION TRE-REDYN.

"*May* 10. 1651."†

Dengys y difyniadau uchod mai cwbl gywir yw nodiad y Parch. D. S. Evans ar Gymraeg Siôn Tre-Redyn, canys nid oes odid lyfr yn yr iaith mor glogyrnog ac anghymreigaidd ag ydyw, oddi eithr Testament Salesbury yn unig. Os cymharir ef âg iaith y Mabinogion, Bucheddau y Saint, y Trioedd, Cyfrinach y Beirdd, a'r Gymraeg sydd yn yr Iolo MSS., gwelir ei fod yn llawn mor anhebyg i ieithwedd y Deheubarth ag ydyw i ieithwedd Gwynedd a geir yn y Bibl, yr Homiliau, Hanes y Ffydd, a chyfieithiadau Cymreigaidd Morus Cyffin, Edward Samuel, Elis Wynn (y Bardd Cwsg), ac eraill o brif ysgrifenwyr y Gogleddbarth.

Cyhoeddwyd cyfieithiad arall o "Marrow of Modern Divinity" Edward Fisher yn 1754, o waith un Morgan Jones, yr hwn a ddywed iddo ei gymharu â'r nawfed argraphiad Seisnig o'r gwaith gwreiddiol, ac y mae'n tra rhagori ar gyfieithiad clogyrnog Siôn Tre-Redyn. Yr enw a ddyry M. Jones i'w gyfieithiad ydyw—

"Mer Difeinyddiaeth Iachus. Mewn ffordd o Ymddiddan. A gyfieithwyd gynt o'r Saes'neg, ac ynawr wedi ei ddiwygio o aneirif o Feiau ac oedd yn yr Argraphiad cyntaf.—Argraphwyd ym Mristo, gan E. Farley, yn y Flwyddyn 1754." ‡

Dywed Gwilym Lleyn mai "cyhoeddydd a di-

* Heb law bod iaith Siôn Tre-Redyn yn hynod o amrosgo ac anystwyth, fel y dangoswyd eisoes, y mae'n amlwg hefyd ei fod yn bur anghydnabyddus â llenyddiaeth Gymreig ei amser, canys yn lle "pump llyfr Cymraeg printiedig," dengys "Llenyddiaeth y Cymry" fod dros ddeg ar hugain wedi eu printio cyn ei "Fadrvddyn" ef. a bod rhai o honynt wedi eu printio fwy nag unwaith, heb law geiriaduron Salesbury a'r Dr. Davies, a grammadegau I. D. Rhys a'r Dr. Davies.

† Llyfr. y Cymry, t. 155–7.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 439.

Digitized by Google

wygiwr y cyfieithiad hwn ydoedd un Morgan Jones, yr hwn oedd weinidog yr Ymneillduwyr yng Nghefn Arthen, o leiaf hyd y flwyddyn 1774, canys dengys *ysgrifau* yn llyfrfa y Dr. Williams, yn Llundain, y derbyniodd gynhorthwy y flwyddyn honno o'r Drysorfa Bresbyteraidd."*

Cyhoeddwyd "Trydydd Argraphiad, wedi ei Ddiwygio a'i Gyd-gymmharu â'r Sacs'neg," yn Nhrefeca, yn 1782, dan yr enw "Mer Difinyddiaeth Iachus," &c. Dywedir mai John Prichard, Bryniog Uchaf, ger llaw Llanrwst, oedd cyhoeddwr a diwygiwr y argraphiad yma.† Nid ydym yn gwybod i'r llyfr hwn gael ei argraphu byth mwyach yn Gymraeg, a chredwn nad yw hyny yn agos gymmaint o golled i'r genedl, mewn ystyr ieithyddol na duwinyddol, ag ydyw gadael llawer o gyfieithiadau godidog Thomas Williams, W. Williams, Gr. Wynn, Elis Wynn, Edward Samuel, Iago ab Dewi, ac eraill o ysgrifenwyr enwog y 17fed a'r 18fed ganrif, heb eu cyhoeddi yn yr oes hon.

---

## PENNOD IX.

### RICHARD SYMONDS, TIMOTHEUS ROBERTS, JENKIN JONES, AMBROSE MOSTYN, A HENRY WALTERS.

Richard Symonds, mab Thomas Symonds, o Abergefenni, sir Fynwy, neu Went, a anwyd yn 1609. Y mae'n debyg iddo gael ei ennill at grefydd pan yn ieuangc, trwy bregethiad William Wroth. Dodwyd ei enw ynghoflyfr coleg Caerwysg, yn Rhydychain, ar y 18fed o Chwefror, 1627. Yr oedd yn cadw ysgol yn y Mwythig yn 1635; ac ymhlith ei ysgolheigion yr oedd Richard Baxter, yr hwn wedi hyny a aeth yn ŵr tra enwog, sef awdur "Tragywyddol Orphwysfa y Saint," ac amryw lyfrau clodfawr eraill yn Saesneg.‡ Nid ymddengys i Symonds aros yn hir yn y Mwythig ar ol 1635, canys ceir ei enw yn y "Broadmead Records" (p. 9) fel un o "weinidogion diwygiadol Deheubarth Cymru," yr hwn a elai yn achlysurol drosodd i Gaerodor, o 1633 i 1640, i bregethu i'r bobl yno, lle yr oedd amryw o grefyddwyr difrifol. Nid oes sicrwydd a fu efe yn dal rhyw fywioliaeth yn yr Eglwys Sefydledig yn Neheudir Cymru, ai ynte teithio y wlad y byddai, fel ei gyfaill Cradoc, i bregethu. Pan dorodd y rhyfel gartrefol allan, ffodd Symonds gyd â'i frodyr i Loegr. Dywed

* Llyfr. y Cymry, t. 439. † Yr un, t. 611.

‡ Baxter's Catholic Communion Defended, p. 28.

Thomas Edwards,* Presbyteriad culiarn a rhagfarnllyd, y cafodd fywioliaeth eglwysig yng Nghaint (Kent) yn ystod y rhyfeloedd cartrefol. Yr ysgrifenydd cecrus hwn a'i geilw yn "Annibynwr mawr, ac ysgrifenydd mawr."† Hefyd, dyry yr hanes ganlynol am dano:—

"Y mae un Mr. Symonds, ysgrifenydd mawr, yr hwn a ddaeth i Lundain er amser y rhyfeloedd, a phregethu yn Little Allhallows, Thames Street, ac yn y Tŵr, lle y dywedir i mi bregethu o hono lawer o bethau rhyfedd a dïeithr: megis, am *oddefiad*, a rhyddid i bawb addoli Duw *yn ol eu cydwybodau*, ac o blaid *Gwrthfedydd Babanod.*‡ Hefyd, ac efe yn pregethu unwaith yn Andrew's Undershaft, dros Mr. Goodwin, pregethai Antinomiaeth yn dra uchel ei dôn: megis, mai pregethwr deddfol oedd Crist, ac yn byw mewn amser tywyll, ac felly y pregethai y gyfraith; ond wedi hyny y daeth yr Efengyl i gael ei phregethu. Drachefn, ac efe yn pregethu yn Lawrence Poultney, ar y dydd dïolchgarwch am gymmeriad Castell Sherborn, dywedai i'r saint gael buddugoliaethau mawrion, gan feddwl yr Annibynwyr; ac er hyny yr oedd y Senedd weithiau yn gwneud deddfau yn erbyn

* Pa un ai Cymro ai Sais oedd y Thomas Edwards yma, nis gwyddom hyd sicrwydd. Pa wedd bynag, gellir casglu oddi wrth ei brif waith, a elwir *Gangræna*, mai Cymro ydoedd o haniad, canys Cymry enwog, megis Walter Cradoc, Vavasor Powel, Marmaduke Matthews, Richard Symonds, Ambrose Mostyn, ac eraill, ydyw prif wrthrychau sarhâd y "gwaith enllibus" hwnw, fel y geilw'r Dr. T. Rees ef (Hist. Prot. Noncon. in Wales, p. 62). Tybir iddo gael ei eni o gylch y flwyddyn 1590; ond ymha le ni fynegir, ac nid yw hyspys pwy oedd ei rieni, eithr ymddengys eu bod mewn sefyllfa gysurus, canys gorphenodd ei addysg yng Ngholeg y Drindod, yng Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn 1605 ac 1609. Wedi hyny cymmerth urddau; ac er mai Puritan yn ei galon ydoedd, yn ol ei hanes ef ei hun, etto parhaodd i weinyddu yn Eglwys Loegr hyd yr ymrwygiad rhwng Charles I. a'r Senedd, pan y proffesodd yn gyhoeddus mai Presbyteriad ydoedd. Llefarai ac ysgrifenai ar y cyntaf o blaid yr achos poblogaidd, yr ymleddid drosto gan Cromwel a'i gydwladwyr, pan y tybiai mai y Presbyteriaid a gaffent y llywodraeth i'w dwylaw, ac, wrth reswm, y gobeithiai yntau gael rhyw swyddogaeth uchel yn eu plith; ond pan ddechreuodd yr Annibynwyr ynnill nerth oedd yn debyg o'u gwneuthur yn fuan yn brif allu yn y wlad, trodd Thomas Edwards ei holl alluoedd a'i egnïon yn erbyn y blaid honno, yn Annibynwyr a Bedyddwyr, ac ymosododd arnynt yn ffyrnig, mewn cyfres o ysgrifeniadau o'r fath fwyaf sarhaus ac athrodgar. Y galluocaf o'i holl ysgrifeniadau, y rhai sydd i gyd yn ymosodol, ydyw yr un y crybwyllwyd ei enw eisoes, sef y *Gangræna*, yr hwn a ymddangosodd yn dair rhan ar wahân, ac a gyhoeddwyd ynghyd yn 1646, yr hwn, erbyn hyn, sy'n hynod o brin ac anhawdd taro wrtho. Yn y gwaith cecrus a chwerylgar yma, ymesyd ar y pethau y tybiai efe eu bod yn gyfeiliornus yn yr Annibynwyr, a'r holl bleidiau eraill ond Presbyteriaeth, mewn dull ac yspryd y rhaid datgan eu bod yn berffaith anghyfaddas mewn dadl grefyddol, ynghylch trefn, athrawiaethau, a swyddogion yr Eglwys Gristionogol. Yn wir, y mae ei enllibiaeth yn cyfodi i'r fath eithafedd nes gwneud i ddŷn ammau gwirionedd ei holl heuriadau, cystal ag ammau cywirdeb ei amcanion. O herwydd y trahausder gwyllt ac aflywodreuthus yma, gorfodwyd ef i ffoi am nawdd i Holand, ac yno y bu efe farw ar y 24ydd o Awst, 1647.—Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, pp. 58–62; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 214.

† Pa wedd bynag, nid ydym yn gwybod i ddim o'i ysgrifeniadau gael eu cyhoeddi.

‡ Yr oedd yr hen Bresbyteriaid yn barnu bod eu cynllun eglwysig hwy yn anffaeledig; ac am hyny yr oeddynt mor chwerw ac erlidgar yn erbyn pob cyfundeb crefyddol arall ag ydoedd y Pabyddion a'r Esgobaethwyr; ac ychydig cyn amser y Weriniaeth dan Cromwel, mynnent wneud deddf Seneddol i ddileu *pob* enwad crefyddol ond eu hunain allan o'r Deyrnas Gyfunol. Un o'r giwed hunanol ac erlidgar yma oedd y Thomas Edwards hwn; a chyd â rhai o'i gyffelyb ef y bu raid i'r Dr. Chalmers ac eraill ymladd y "rhyfel ysprydol" fawr yn 1843, yr hon a derfynodd yn sefydliad "Eglwys Rydd Ysgotland."—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 965.

Digitized by Google

y saint hyn.* Megis y pregethai yn Llundain fel hyn, felly er pan adawodd Lundain yr haf diweddaf yma (1646) pregethodd ffregod rhyfedd yn Y Badd (Bath) ger bron y Cadfridog, sef yn erbyn Presbyteriaeth, gan ddywedyd mai aelod o'r Anghrist ydoedd, a dadlau dros ryddid cydwybod, a thros y rhai na fynnant fedyddio eu plant nes iddynt ddyfod i oedran a dealltwriaeth, ac o blaid i wehyddion a chrefftwyr anwybodus bregethu, pan yn llefaru am ddoniau y dynion hyn, a'u bod wedi cael yr Yspryd, a llawer o ffiloreg gyffelyb, a hyny ger bron dynion dysgedig, a dynion wedi cael eu dwyn i fyny mewn Prifysgolion. Y mae yn beth gresynus bod Syr Thomas Fairfax, y bonheddwr gwrol a charedig hwnw, yn cael y fath gaplaniaid a phregethwyr ar bob achlysur i bregethu ger ei fron. Yr wyf wedi llefaru mwy am y Mr. Symonds hwn, o blegid y clywaf ei fod wedi ei enwi i fod yn un o bregethwyr teithiol Cymru; fel y gallo'r wlad a'r gweinidogion ymochel rhagddo, ac y gallo aelodau'r Gymmanfa, pan y delo i gael ei gymmeradwyo, wneuthur eu dyledswydd, a pheidio goddef iddo basio mor rwydd ag y goddefasant i Mr. Cradoc."†

Y mae yn amlwg mai amcan y Presbyteriad culfarn hwn yn ysgrifenu cymmaint ar Richard Symonds ydoedd, fel yr addefa ei hun, o ran hyny, ceisio gan y Gymmanfa Bresbyteraidd, oedd mewn cryn ddylanwad yn y Senedd ar y pryd, ei rwystro i gydsynio â chyfarwyddyd amlwg yr Ysgrythyr Lân, yr hon sydd yn dangos mai dyledswydd disgyblion Iesu Grist yw myned "i'r prif ffyrdd a'r ceuau," ac "i heolydd ac ystrydoedd y dinasoedd;" ïe, ac "i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur." Pa wedd bynag, gofalodd Rhagluniaeth am wneud holl ymgais anysgrythyrol y Presbyteriad maleisus a rhagfarnllyd hwn yn ofer gyd â golwg ar Symonds, cystal a llïaws eraill o bregethwyr teithiol Cymru, a Lloegr hefyd, ond odid. Dywed y Dr. Thos. Rees fod Edwards yn dwyn y cyhuddiadau o Antinomiaeth, ac o fwrw "awgrymiadau mynych ynghylch trochiad, a dioddef y cyfryw," yn erbyn Cradoc cystal a Symonds; a dywed bod ei gyhuddiadau yn erbyn y naill mor ddisail ag ydynt yn erbyn y llall; bod y ddau yn Galfiniaid uchel, ond nid yn Antinomiaid; a'u bod yn amddiffynwyr rhyddid cyflawn i'r Gwrthfedyddwyr Babanod athrodedig ac erlidiedig, tra yn anghyttuno â'u golygiadau ar fedydd.

Pa wedd bynag, nis gwelwn ni brawf fod Symonds yn bleidiwr bedydd babanod. Gwyddys am rai nad ydynt dros drochiad mwy na thaenelliad mewn bedydd dwfr; rhai yn gwybod ddywedyd o Iesu Grist, "Gadewch i blant bychain, ac na waherddwch iddynt ddyfod attaf fi: canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd;"‡ a bod Paul yn dywedyd, "Canys y gŵr digred a sancteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a sancteiddir trwy y gŵr: pe amgen, aflan yn ddïau a fyddai eich plant; eithr yn awr sanctaidd ydynt."* Am hyny credant fod gan blant credinwyr hawl i gael eu dwyn i fynu yn yr eglwys, ac i gael eu meuthu yno, cystal ag adref, "yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd;"† ond dywedant nas gwelant mewn un man yn y Testament Newydd bod neb yn cael eu bedyddio, heb son dim am y dull, nes iddynt wneud proffes eu hunain o'u ffydd yn Iesu Grist. Gwyddant fod Paul a Silas wedi bedyddio Lydia "a'i theulu," a cheidwad y carchar, "a'r eiddo oll, yn y man;" ond y dywedir yn bendant am yr olaf, y traethodd yr apostolion "iddo air yr Arglwydd, ac i bawb oedd yn ei dŷ;" ac y bu ef "lawen" gyd â'r apostolion, "gan gredu i Dduw, efe a'i holl deulu."‡ Dywedant y gwelir yn y geiriau yna yn amlwg bod "*pawb* oedd yn ei dŷ ef," ei "*holl deulu*," mewn oedran cyfaddas i wrando traethiad gair Duw, ac i wneud proffes o'u ffydd; a bod yn dra sicr mai cyffelyb oedd teulu Lydia, a "thylwyth Stephanas;"§ o leiaf, nas gellir profi, trwy dystiolaeth ddïamheuol, bod yr apostolion, na neb o'u cydoeswyr, y ceir eu hanes yn y Testament Newydd, wedi bedyddio plant mewn oedran rhy anaddfed i wneud proffes o'u ffydd yng Nghrist Iesu.

Yr oedd rhai o'r hen Buritaniaid hefyd yn tueddu braidd at farn y Crynwyr gyd â golwg ar fedydd, gan seilio eu syniadau ar eiriau fel hyn:—"Myfi yn ddïau ydwyf yn eich bedyddio chwi â dwfr i edifeirwch: eithr yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, sydd gryfach na myfi, yr hwn nid ydwyf deilwng i ddwyn ei esgidiau: efe a'ch bedyddia chwi â'r Yspryd Glân, ac â thân."‖ Barnent mai hwn yn ddïau yw y bedydd y dywed Paul am dano,—"Claddwyd ni gan hyny gyd âg ef trwy fedydd i farwolaeth: fel megis ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd."¶ Credent mai y bedydd yma sydd yn achub, fel y dywed Petr:—"Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn sydd yr awrhon yn ein hachub ninnau, sef bedydd (nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd, eithr ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw), trwy adgyfodiad Iesu Grist."** Dywedent nad "bwrw

* *Oedd, bid sicr, sef* y "Senedd Hir;" ond ni bu ei deddfau gorthrymus, trwy drugaredd, ond o fyr barhad, canys chwalodd Cromwel, y rhyddfrydwr mawr, hwynt yn fuan tu a phedwar gwynt y nefoedd.

† Edwards's Gangræna, part iii., pp. 241-2.

‡ Mat. xix. 14; Luc xviii. 16.

* 1 Cor. vii. 14. † Eph. vi. 4.

‡ Act. xvi. 14, 15, 31-34. § 1 Cor. i. 16.

‖ Mat. iii. 11; Marc i. 8; Luc iii. 16.

¶ Rhuf. vi. 4; Col. ii. 12. ** 1 Petr iii. 21.



Digitized by Google

ymaith fudreddi y cnawd," trwy gymhwysiad o ddwfr naturiol at y corph, ydyw y bedydd yma, namyn tywalltiad yr Yspryd Glân ar yr enaid, yn ol rhagddywediad Ioan Fedyddiwr, nes gwneud i'r dŷn "ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw." Dyma'r bedydd "sydd yr awrhon yn ein *hachub* ni."

Gellir casglu oddi wrth awgrymiadau Edwards, yn y "Gangræna,"* mai rhyw olygiadau o'r fath a goleddai Richard Symonds; a thybir mai cyffelyb oedd syniadau William Erbury, Morgan Llwyd, ac eraill ond odid o'r hen Buritaniaid. Er hyny yr oeddynt, fel y dywed y Dr. T. Rees am Symonds a Cradoc, yn zelog ac eiddigus dros i bawb, Bedyddwyr y Crediniol a Bedyddwyr Babanod, cystal a phawb eraill, fel y mae pob dynion da etto, gael rhyddid cyflawn a dïattal i farnu drostynt eu hunain mewn pethau crefyddol, ac i ymddwyn yn ol eu barnau, tra nad ymyrent wrth ymddwyn felly â rhyddid neb arall.

Er holl ymosodiadau cableddus y Dr. John Edwards hwn ar Richard Symonds, a'i ymdrech i gael gan Gymmanfa y Duwinyddion ei wrthod, ei gymmeradwyo a wnaethant, a hyny yn 1646, i fod yn bregethwr teithiol yng Nghymru; a pharhaodd i bregethu yn deithiol ymhlith ei gydwladwyr, fel Walter Cradoc, hyd ddiwedd ei oes. Yn y ddeddf Seneddol "er Gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," a wnaed yn 1649, gosodwyd Symonds yn un o'r Profyddion,† yr hyn sydd brawf bod gan ei wlad a'r Duwinyddion feddwl uchel o hono. Y cyfeiriad awdurdodol diweddaf ato, hyd y gwyddys, a wnaed gan y Dr. John Walker, yr hwn a'i darlunia yn watwarllyd, megis yn cynnorthwyo ei frawd, Edmund Elis, o St. Ffagan, ger llaw Caerdydd, i gael y degwm gan y plwyfolion, trwy bregeth ar Mal. iii. 10.‡ Tybir i hyn ddigwydd yn 1654 neu 1655. Bu farw ryw bryd cyn adferiad Charles II. yn 1662; ond ymha le, a pha amser, nis gallwn benderfynu.§

Timotheus (Timothy) Roberts. Ychydig iawn a wyddom am y gŵr enwog hwn, ac ymddengys bod ein bywgraphwyr braidd oll yn yr un cyflwr. Y cwbl a fynegir yw, ei fod yn frodor o Gymru; yn ddŷn dysgedig, yn enwedig yn yr Hebraeg; yn ŵr gostyngedig a hunan-ymwadol; yn fyfyriwr caled; ac yn bregethwr tra defnyddiol. Cafodd ficeriaeth Barton, yn Westmoreland, yn 1653, y flwyddyn y dechreuodd Amddiffyniaeth Oliver Cromwel. Gellir casglu, gan hyny, iddo gael ei eni yn gynnar yn yr 17fed ganrif. Bu yn y ficeriaeth honno nes y deolwyd ef o honi yn 1660, gan yr erlidwyr dan Charles II., am nacâu cydymffurfio â'r Eglwys Wladol; a charcharwyd ef yn Appleby, am bregethu yn groes i'r cyfreithiau creulawn a gwaedlyd oedd mewn grym ar y pryd. Dywed Baxter iddo farw o'r pla, rhwng y Mwythig a Chroesyswallt, ar sypyn o wellt, heb neb yn beiddio myned yn agos ato.*

Jenkin Jones (neu Siencyn ap Ioan), yr hwn a elwid yn gyffredin y *Capten* Jenkin Jones (o herwydd iddo fod yn swyddog milwrol ym myddin Cromwel), oedd fab i fonheddwr a'i enw John Jones, neu John ap John Hywel, Ty-mawr, ymhlwyf Llanddetty, sir Frycheiniog. Nid ydys sicr o amser ei enedigaeth; ond gan iddo dreulio ei dymmor athrofaol yn Rhydychain, a'i fod, yn ol Calamy, yn bregethwr cyn i'r rhyfel gartrefol dori allan yn 1642,† rhaid y cafodd ei eni yn gynnar iawn yn yr 17fed ganrif; ac felly yr oedd yn un o gyfoedion y ddau ŵr enwog a nodwyd eisoes yn y bennod hon. Y mae'n dra thebyg iddo dderbyn ordeiniad Esgobyddol, er nad yw hyny yn cael ei grybwyll. Yr oedd y Capten yn ŵr bonheddig, tiriog a chyfoethog, o'r un dosparth a Vavasor Powel, o ran parchusrwydd a gwaedoliaeth. Un o deulu Mansells yn Gower, Morganwg, oedd ei wraig, gyd â'r hon y cafodd etifeddiaeth yn Llangatwg, ger llaw Castell Nedd: ac ymddengys bod ei fab hynaf yn sirydd Brycheiniog yn 1658. Pan dorodd y rhyfel gartrefol allan, dywedir bod y Capten Jones â chleddyf yn un llaw, a Bibl yn y llaw arall.‡ Dywed Walker iddo godi mintai o feirch-filwyr o blith ei berthynasau, ei wasanaethwyr, a'i denantiaid, yr hon oedd tu a chwech ugain o nifer, ac iddo eu harfogi, eu gwisgo, a'u bwydo oll ar ei draul ei hun, yr hyn sy'n dangos ei zel dros y Weriniaeth, a helaethrwydd ei adnoddau i'w chynnorthwyo. Efe ei hun oedd lywydd y fintai; a dywedir na fu aflwyddiannus i gadw pleidwyr y brenin ym Mrycheiniog yn dawel yn ystod y rhyfel, er bod y rhai hyny yn lliosog, a rhai o honynt yn wŷr o ddylanwad a chyfoeth mawr. Modd bynag, rhwystrodd iddynt roddi un cymmorth o bwys i achos y brenin. Dengys hyn nad yn y cymmeriad o ddi-

* Canger, madredd, cig marw.
† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503; Han. Cref. D. Peter, t. 224.
‡ Walker's Suff. of the Clergy, part ii., p. 301.
§ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 61; Han. Cref. D. Peter, t. 224.

* Palmer's Noncon. Mem., volume iii., page 354; Y Brython, cyf. v., t. 33.
† Calamy's Acc., vol. ii., p. 732.—Gol.
‡ Jones's Hist. Brecon., vol. ii., p. 525.—Gol.

Digitized by Google

wygiwr a phregethwr yn unig yr oedd Mr. Jones yn enwog, ond bod ei safle gwladol hefyd yn uchel a dylanwadol. Dywedir mai trwy offerynoliaeth Vavasor Powel ac yntau, yn benaf, y cafwyd y Weithred Seneddol yn 1649, "er Gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," ac y mae ei bennodiad ef i fod yn un o'r rhai oedd i brofi a chymmeradwyo pregethwyr yn ol darpariadau y ddeddf honno yr hyn a allesid ei ddisgwyl. Yr oedd ei safle uchel, ei gydymdeimlad ymarferol â'r Weriniaeth, ei ddysgeidiaeth a'i gymmeriad, ynghyd â'i ddoniau pregethwrol, yn ei gymhwyso i'r cylch y gosodwyd ef ynddo.* Bu yn bregethwr ymdrechol a llwyddiannus yn siroedd Caerfyrddin, Mynwy, Morganwg, a Brycheiniog, a manau eraill, ac yn cydlafurio i raddau pell â Walter Cradoc a Vavasor Powel. Yn ol Walker, cafodd ei wneud yn beriglor ei blwyf genedigol yn 1656, o dan y Weithred uchod, sef y "Ddeddf er Gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru;" a dywed yr un awdur mai olynydd ydoedd yn yr eglwys honno i Richard Williams, yr hwn a ddiswyddasid gan y Profyddion o blegid ei anaddasrwydd i'w swydd.†

Bu yn dal bywioliaeth Merthyr Tydfil‡ a Llangatwg; ac o'r lle olaf y trowyd ef allan yn 1662, am wrthod cydymffurfio; ac ymddengys iddo ddioddef llawer cyn hyny. Dywed un ysgrifenydd craffus nas gellir penderfynu pa un a oedd efe ym Merthyr, Llangatwg, a Llanddetty yr un pryd, ai ynte yn olynol y bu yn gweini ynddynt. Gan mai yn 1656 y cafodd berigloriaeth Llanddetty, y mae yn bossibl, ac fe allai yn debyg, y byddai yn gwasanaethu yn y lleoedd eraill cyn hyny, ac mai chwanegiad at ei ofal blaenorol oedd bywioliaeth Llanddetty. Prin y mae sicrwydd yn gyrreuddadwy, pan y mae'r goleuni hanesyddol mor fychan.

Dïoddefodd lawer yn herwydd ei ffyddlondeb i Anghydffurfiaeth. Pan unwaith yn myned i bregethu i Gelli-grûg, plwyf Aberystruth, Mynwy, daeth hen filwr a'i enw John James Watkin i'w gyfarfod, gan fwriadu ei lofruddio. Pan welodd Mr. Jones yr adyn, cyfarchodd ef yn foneddigaidd fel milwr, gan dynu ei het, a myned heibio; a'r canlyniad fu i'r fath ymddygiad, ynghyd â harddwch person y Capten, ddïarfogi yr hen filwr, a pheru iddo ganlyn Mr. Jones i'r cyfarfod. Cafodd pregeth yr hwn y bwriadasai ei lofruddio y fath argraph ar ei feddwl fel y proffesodd grefydd, a pharhaodd yn Gristion ffyddlon hyd ei farwolaeth.§

Pan adferwyd Charles II., ymosodwyd yn ddïoed ar Jenkin Jones. Anrheithiwyd ei holl feddiannau; a dywedir i lawer o honynt gael eu meddiannu gan un Edward Hughes, cyfreithiwr o Aberhonddu. Mewn llythyr a amserwyd ar y 29fed o Fehefin, 1660, a ysgrifenwyd gan Thomas Gwyn (un o aelodau eglwys Mr. Jones) at Henry Jessey, dywedir i Jenkin Jones, a llïaws o'i gynnulleidfa, gael eu carcharu am fis yr haf hwnw yngharchar Caerfyrddin. "Dygasant eu tystiolaeth mor llawn," eb Mr. Gwyn, "a'u dïoddefiadau mor hawddgar a llawen, fel y mae genym achos i fendithio yr Arglwydd am ei drugaredd tu ag atynt. Yr oedd eu hymddiddanion y fath fel y gwnaethant i'r rhai a daflent gerrig atynt, ac a'u gwawdient, pan yn dyfod yno, ymadael â hwy mewn dagrau, gan gyfaddef eu bod yn dïoddef am wneuthur daioni, a'u hystyried yn ddedwydd yn hyny."‖ Dengys y ffeithiau poenus hyn, a llïaws o'u cyffelyb, ar ba seiliau yr oedd Jenkin Jones a'i gyfeillion yn credu bod Eglwys mewn cyssylltiad â Llywodraeth nid yn unig yn anfantais i Gristionogaeth, ond hefyd i ryddid gwladol.

Ceisia rhai wadu perthynas Mr. Jones â'r Bed-

* Gwelsom eisoes ddarfod i Walter Cradoc lafurio yn egnïol iawn dros gael y ddeddf honno; ac y mae'n sicr ddïau fod ei ddylanwad ef yn llawn cymmaint a'r eiddo neb o'r 25 Profyddion. Efe ydyw y blaenaf ond un ar y rhestr yn y ddeddf dan sylw.—Gwel t. 227 o'r llyfr hwn.—Gol.

† Walker's Suff. of the Clergy, part ii., p. 409.

‡ Dywed y Dr. T. Rees bod yn dra anhebyg mai yr un person oedd yr hwn a fu ym Merthyr a'r Jenkin Jones yma. "Gan fod Mr. Jones yn perchen etifeddiaethau ehang, ac yn Brofydd pregethwyr, ac yn un o'r arweinwyr yn holl weithrediadau cyhoeddus yr amser, nid ydyw debyg mewn un modd y cymmerasai efe ofal neillduol tri o wahanol blwyfydd mor bell oddi wrth eu gilydd. Yr oedd un Jenkin John, neu John Jenkin, dŷn unllygeidiog, ym Merthyr ryw bryd ar ol yr Adferiad. Aeth hwnw i blwyf Aberystruth, ac aflonyddodd heddwch yr eglwys yno, trwy berswadio 'y Bedyddwyr i ymneillduo oddi wrth yr Annibynwyr.'"—Jones's Hist. Aberystruth, p. 97; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 128.—Gol.

§ Jones's Hist. Aberystruth, p. 121.

‖ Jessey's The Lord's Loud Call to England, ed. 1660, p. 14.

¶ Ymddengys fod Bedyddwyr yn deall ac yn teimlo drygedd y cyssylltiad rhwng Crefydd a Gwladwriaeth yn y cyfnodau erledigeuthus hyny, fel y dengys y penderfyniad canlynol, a gopïwyd o hen ysgrif ymeddiant Mr. G. L. Hiley (nai i'r diweddar Francis Hiley, un o enwogion y Bedyddwyr), yr hwn a ysgrifenwyd yn 1655. Dengys benderfyniad dïysgog y Bedyddwyr boreuol hyny i wrthwynebu y cyssylltiad rhwng Eglwys Crist a'r Llywodraeth Wladol:—

"The 11th of the 5th Month, 1655.

"The church this day being met together have renewed their covenant, viz. that they wold walke with one another by ye assistance of God, as neare as they can according to the Scriptures. And have declared they doe disowne all former disorders if any. And also that they doe withdraw from all such Ministers that doe receive maintenance from the Magistrates, and from all such as consent not to wholesome doctrine, or teach otherwise."

Od oedd Jenkin Jones yn dal bywioliaethau yr Eglwys Wladol ym Merthyr Tydfil, Llangatwg, a Llanddetty, yr oedd efe dan gollfarn y penderfyniad yna cyn belled ag y gallai fod.—Gol.

Digitized by Google

yddwyr; ond y mae eu gallu i brofi eu heuriadau yn llai na'u dymuniad. Dywedir mai rhyw Jenkin John, neu John Jenkin, yw yr hwn y mae Walker yn ei alw yn Ailfedyddiwr ffyrnig, a'r hwn a elwir yn Wrthfedyddiwr gan Calamy, yr hwn, meddant, a fu yn offeiriad yn Merthyr Tydfil.* Gŵyr y rhai sy'n gydnabyddus â hanesyddiaeth eglwysig Anghydffurfiaeth yng Nghymru yn yr 17fed ganrif, fod yn y wlad y pryd hwnw ddau fath o Fedyddwyr;† un dosparth yn zelog dros gymmundeb caeth, a'r llall yn cefnogi cymmundeb agored. Un o golofnau cryfaf yr ail ddosparth oedd Jenkin Jones, a phrif ddŷn y blaenaf oedd John Myles. Yr oedd y ddau yn gyfeillion mynwesol, ond yn hollol wrthwynebol i'w gilydd ar bwngc y cymmundeb, fel y dengys llythyr John Myles at eglwys y Gelli.‡ Tramgwyddodd Jenkin Jones Fedyddwyr y Gelli trwy fyned i dori bara i ryw gynnulleidfa o Faban-Fedyddwyr; ac ymddengys i eglwys y Gelli anfon i ofyn barn John Myles ar y matter, ac y mae yntau yn ei attebiad yn dangos llawer o deimlad gonest at Mr. Jones, ond yn gofidio yn ddwys o herwydd ei gamymddygiad. Os Maban-Fedyddiwr oedd Jenkin Jones, paham y gofidiai Myles o herwydd ei fod yn tori bara i'w frodyr ei hun? Y mae'r fath dybiaeth i'r graddau eithaf yn afresymol. Yr oedd lliaws o Fedyddwyr yn arfer cymmundeb cymmysg yn siroedd Maesyfed a Brycheiniog yn 1649, sef blwyddyn amseriad y llythyr, ac un o honynt oedd Jenkin Jones, fel y mae llythyr Mr. Myles yn profi. Heb law y prawf hwn, yr ydym yn cael prawf arall yn y "Broadmead Records," mewn crybwylliad hanesyddol am eglwysi sir Gaerfyrddin, a ysgrifenwyd gan Henry Morus (Maurice), gweinidog Llanigon, at Edward Terril, henadur yn eglwys Broadmead yn 1676, yr hwn sydd fel y canlyn:—"Y mae hefyd eglwys arall, o Fedyddwyr gan mwyaf, ond dros gymmundeb rhydd, yn cyfarfod yn Llanfair y Bryn, yn Llanddyfri, yn y sir hon. Cawsant eu galw ar y cyntaf trwy weinidogaeth Jenkin Jones, a chynhullwyd hwy fel rhan o'i eglwys yn Llanigon, sir Frycheiniog." Gan fod y ffeithiau hyn mor eglur a phendant, nid oes y radd leiaf o sail i amheuaeth am yr enwad crefyddol y perthynai Jenkin Jones iddo.§ Eglwys y Bedyddwyr oedd eglwys Llanigon, a dyma Jenkin Jones, un o'r rhai a bregethent i'r frawdoliaeth honno, yn casglu eglwys yn Llanfair y Bryn (y mwyrif yn Fedyddwyr), ac yn ei chynnull fel *rhan* o'r eglwys fedyddiedig yn Llanigon, tra yr oedd efe ei hun, yn ol rhai, yn Fedyddiwr Babanod ar y pryd! Beth allasai beru i Myles wneud cymmaint o sylw o Jenkin Jones yn y llythyr, rhagor Vavasor Powel, os nad y ffaith o fod y blaenaf yn Fedyddiwr, a'r ail y pryd hwnw heb ei fedyddio? Nid oedd ymddygiad Baban-Fedyddiwr, fel Vavasor Powel, yn cefnogi cymmundeb cymmysg yn peru i Myles synu; ond

* Gwel t. 331, nodiad ‡.—Y Dr. T. Rees a ddywed ar y pwngc yma fel hyn:—"Dywed y Dr. Calamy mai Gwrthfedyddiwr oedd Mr. Jones. Y mae'n debyg iddo gael ei arwain i feddwl hyny gan ei ymdrechion canmoladwy i gymmodi pleidiau gwrthwynebus, ac i uno personau o wahanol olygiadau ar fedydd, a'i fod yn coleddu syniadau tebyg i'r Crynwyr ar yr ordinhâd honno. Y mae rhai Gwrthfedyddwyr Babanod yn ei hawlio fel un o'u plaid hwy; ond ni ddygodd yr un o honynt erioed ddim gwell na heuriad i brofi eu hawl.—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 129.—Gol.

† Gwel Vavasor Powel, T. Proud, a John Myles.

‡ Gwel y llythyr yn cael ei ddifynu mewn nodiad yn yr ysgrif ar John Myles.

§ Ni waeth genym ni, o ddim, pa un ai Presbyteriad, Ailfedyddiwr, Annibynwr, ai Gwrthfedyddiwr, neu Grynwr, oedd Jenkin Jones. Cael hanes mor gywir ag y mae modd am dano ydyw ein pwngc ni; ond y mae'r crybwyllion cydoesol am dano mor fyrion, ac yn ymddangos mor groes i'w gilydd, fel y mae'n lled anhawdd penderfynu, dim ond casglu, i ba blaid neillduol y perthynai. Ein cynllun ni i geisio dyfod o hyd i'r gwirionedd am bwngc y byddo dadl yn ei gylch ydyw, ym mlaenaf oll, ymddïosg mor llwyr fyth ag y gallom oddi wrth bob rhagfarn a thueddgarwch blaenorol a ddichon fod genym, heb ofalu dim beth yw y gwirionedd am y pwngc mewn dadl neu amheuaeth, ond pa fodd i gael gafael ar y gwirionedd. Yn nesaf, cymmeryd golwg mor ehang a rhyddfrydig ag y gallom ar yr *holl* dystiolaethau yn ei gylch, ac yna tynu ein casgliad; ac os bydd y casgliad hwnw yn groes i'n syniadau blaenorol, eu newid yn y fan yn ddibetrus, heb ofalu beth yw barnau eraill.

Yn awr, cymmerwn y llwybr yma i edrych i ba blaid y perthynai Jenkin Jones, od oedd yn perthyn i ryw un mwy na'u gilydd. Dygwyd ef i fynu yn athrofa Rhydychain cyn y rhyfel gartrefol, yr hyn sy'n arwyddo yn gryf mai Esgobyddwyr oedd ei rieni ac yntau, cyn iddo ef ddechrau barnu drosto ei hun. Yr oedd yn bregethwr, yn ol Calamy, cyn i'r rhyfel gartrefol dori allan yn 1642, yr hyn a arwydda ei fod erbyn hyny yn Bresbyteriad, Annibynwr, neu Fedyddiwr, os nad oedd yn dipyn o bob un o honynt; ac fel y cyfryw, cymmerth blaid yr enwadau hyn yn y rhyfel yn erbyn yr Esgobyddwyr a'r Brenhinwyr. O ganlyniad, gwnaed ef, trwy Ddeddf Seneddol, yn un o'r Profyddion yn 1649, y flwyddyn y dechreuodd y Weriniaeth. Yn 1656, pan oedd llywodraeth Cromwel yn ei blodau, cafodd fywioliaeth Llanddetty, yn ol Walker, os nad Llangatwg a Merthyr Tydfil hefyd, yr hyn a arwydda ei fod yn bur uchel ym marn y Weriniaeth. Yn ol Walker, yr oedd yn Ailfedyddiwr ffyrnig; ond yn ol Calamy, Gwrthfedyddiwr ydoedd. Etto, dyma'r "Broadmead Records" yn dywedyd mai eglwys gymmysg, ond "Bedyddwyr gan mwyaf," oedd eglwys Llanfair y Bryn, a alwyd "ar y cyntaf trwy weinidogaeth Jenkin Jones;" ac wele John Myles, ei "anwyl frawd," ac un o'i gyd-"Brofyddion," yn dywedyd yn ei lythyr at eglwys y Gelli, y cyfeiriwyd ato eisoes, ei fod "yn ammau ordinhâd o sefydliad mor ddïamheuol," sef bedydd y credinol, bid sicr.

Y casgliad a dynwn ni, o angenrhaid, oddi wrth y crybwyllion byrion a chroes-ymddangosiadol yma ydyw hyn:—Bod Jenkin Jones wedi cael ei ddwyn i fynu yn Esgobyddwr; yna iddo droi yn Bresbyteriad neu Annibynwr; wedi hyny yn Ailfedyddiwr; ac yn olaf yn Wrthfedyddiwr neu Grynwr, o ran ei farn, o leiaf, gan "ammau yr ordinhâd" o fedydd. Dyma ein barn ni, mor ddiduedd ag y gallwn ei datgan; ond barned y darllenydd drosto ei hunan. Credwn ei fod yn ddŷn duwiol, cydwybodol, ac yn chwiliwr diragfarn iawn am y gwirionedd; ei fod yn meddu digon o wroldeb i newid ei feddwl, ar ol cael ei argyhoeddi nad oedd o'r blaen yn gywir, ac i broffesu ei gyfnewidiad, fel y dylai pob dŷn wneuthur; ei fod yn ymddwyn yn garedig at bob plaid grefyddol yn ei amser; ei fod yn weithiwr difefl yng ngwinllan ei Arglwydd; ac yn wir deilwng o gael ei restru ymhlith "Enwogion y Ffydd" yng Nghymru.—Gol.

Digitized by Google

rhyfeddai fod un a broffesai mai "bedydd y credinol trwy drochiad" oedd y bedydd apostolaidd yn rhoddi cymmundeb i ddynion ag oeddynt, yn ol ei broffes ef ei hun, yn ddifedydd. Llafuriodd Jenkin Jones, fel y crybwyllwyd, yn galed ac yn llwyddiannus yn y siroedd a enwyd, a dïoddefodd lawer o herwydd ei Anghydffurfiaeth. Gresyn nad ydys sicr pa bryd, nac ym mha le, y bu farw.*

**Ambrose Mostyn** ydoedd fab i'r Dr. Henry Mostyn, o'r Calcoed (Calcott), yn sir Fflint, yr hwn oedd yn hanu o hen deulu pendefigaidd Llys Mostyn, Gloddaeth, ac etifeddiaethau llydain eraill. Yr hen deulu yma, medd y Dr. W. Richards, "a wahanieuthir gan rai megis y blaenaf o bendefigion Cymru a gymmerasant gyfenw sefydlog neu barhaus. Dywedir i hyn ddigwydd yn ystod teyrnasiad Harri VIII., ac ar yr achlysur canlynol:—Pen y teulu'r pryd hwnw oedd Thomas ap William, ap Thomas, ap Richard, ap Howel, ap Ifan Fychan, &c. Pan alwyd y bonheddwr hwn, ar restr y rheithwyr, wrth yr enwau crybwylledig, annogwyd ef gan y barnwr i dalfyru ei enw, â'r hyn y cydsyniodd yntau, gan gymmeryd Mostyn, enw ei breswylfod, yn gyfenw. Dilynwyd ei esampl yn fuan wedyn yn gyffredinol, a daeth cyfenwau y boneddigion Cymreig ar ol hyny mor sefydlog a thalfyredig ag eiddo eu cymmydogion Seisnig."†

Ganwyd Ambrose Mostyn yn y flwyddyn 1610. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Braesnose, yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef ar y 15fed o Ionawr, 1629, ac efe yn 19 oed. Yn ebrwydd wedi gorphen ei addysg athrofaol, aeth i Ddeheubarth Cymru; ond pa un ai fel periglor rhyw fywioliaeth yn yr Eglwys Sefydledig, ai fel pregethwr teithiol ymhlith yr Anghydffurfwyr, nid yw hyspys. Crybwyllir ei enw yn y "Broadmead Records" fel un o bregethwyr diwygiadol y Deheubarth rhwng 1633 ac 1640, ac felly gryn ennyd cyn i'r rhyfel gartrefol dori allan; a dïau mai yn yr amser hwnw y bu yn offerynol i gasglu eglwys yn Abertawy,‡ canys ymsefydlodd Mostyn yng Ngwynedd ar ol y rhyfel. Nid ydys yn gwybod beth a'i harweiniodd ef i'r Deheubarth, oddi eithr nad oedd gydnabyddus â Cradoc, Symonds, a gwŷr ieuaingc duwiol eraill o'r parth hwnw o'r Dywysogaeth, â'r sawl y dichon iddo ffurfio cydnabyddiaeth pan yn y brifathrofa. Y mae hyspysiad Calamy, "y pregethai Mostyn dros ryw hyd ar ol ymadael o'r brifysgol, mewn undeb â Mr. Powel yn y Castell Coch, yn sir Drefaldwyn," yn amlwg anghywir, canys nid oedd Mr. Vavasor Powel dros 16 oed pan adawodd Mr. Mostyn y brifysgol; yn wir, 12 oed ydoedd Powel yn 1629, pan gafodd Mostyn ei raddio yn y brifysgol. Dichon y pregethai efe yno mewn cyssylltiad â *Walter Cradoc*, yr hwn a ymwelai yn fynych â sir Drefaldwyn yn ystod yr amser y trigai gyd â Syr Robert Harley. Ni wyddys ddim o hanes Mostyn yn ystod y rhyfel gartrefol. Fe allai iddo gymmeryd nawdd yn Llundain, neu ryw barth arall o Loegr. Llafuriai yn egnïol fel pregethwr teithiol yng Nghymru ar ol adferiad yr heddwch yn 1649.

Dywed Edmund Jones, o'r Trans, bod Ambrose Mostyn yn pregethu unwaith ym mynwent y plwyf hwnw, yn sir Fynwy; ac wedi iddo ddarllen ei destyn,§ y dechreuodd mintai o ddihirwyr, a berthynent, gan mwyaf, i deulu cyfoethog yn y plwyf, aflonyddu y cyfarfod. Cymmerasant ddreunogod coed meirw, a grogasid ymhlith coed yw oedd yn y lle, a lluchiasant hwynt yn greulawn at y pregethwr, gan chwerthin yn faleisus am ben eu hanfadwaith. Yna ciliodd efe a'i wrandawyr i ameuthdy a'i enw Gelli-grûg, oedd tu a dwy filltir oddi wrth y fynwent, lle y cafodd heddwch i bregethu i wrandawyr astud. Pan yn myned o'r fynwent, dywedodd gwraig a'i henw Catrin Prys wrth yr aflonyddwyr, dan wylo, "Y mae'n bur debyg eich bod heddyw yn gwrthod yr hyn na chewch byth gynnyg arno mwyach." Dywedir y bu'r erlidwyr hyny dan wg Rhagluniaeth dros lawer o flynyddau.‖

Yn y "Ddeddf er Gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," a wnaed yn 1649, pennodwyd Ambrose Mostyn yn un o'r Profyddion.¶ Preswyliai yn gyffredin, yn ystod y Weriniaeth, yng Nghastell Lleon (Holt), sir Ddinbych. Yn 1659, dilynodd yr enwog Morgan Llwyd ym mywioliaeth Gwrecsam; ond ymhen tu a blwyddyn, bu raid iddo encilio er rhoi y lle i un o offeiriaid y Frenhiniaeth. Bu yn briod ddwywaith; ond ni bu iddo blant o'r naill na'r llall. Ei ail wraig oedd ferch Syr E. Broughton, Barwnig.

* Hist. of Noncon. in Wales; Jones's Hist. of Brecconshire; Jones's Hist. of Aberystruth; Cymru, gan O. Jones; Han. y Bedyddwyr, gan Jos. Thomas, &c.

† Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 209.

‡ Broadmead Records, p. 514.

§ Ioan v. 35.

‖ Jones's Hist. Aberystruth, pp. 93-4.

¶ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503.

Digitized by Google

Pan ymadawodd o Wrecsam, aeth yn gaplan teuluol i'r duwiol Arglwydd Saye a Sele, ac arfollwyd ef a'i wraig gan y boneddwr caredig hwnw yn ei breswylfod yn sir Rhydychain, lle yr ymddygwyd atynt gyd â'r parch mwyaf. Ar farwolaeth y boneddwr hwnw, traddododd Mostyn ei bregeth angladdol. Yn fuan wedyn symmudodd i Lundain; ac yno, gyd âg un Mr. Johnson, gweinidog Anghydffurfiol, y bu farw o gylch 1666. Calamy a ddywed am dano fel y canlyn:—

"Yr oedd Mr. Mostyn yn cael ei ystyried yn ysgolhaig gwych, ac yn dra gostyngedig a duwiol; ond yn tueddu i fod yn bruddglwyfus. Pan oedd yn gynnorthwywr i weinidog arall yn ei ddyddiau boreuol, ac y priodolai rhyw bobl ddaionus eu dychweliad, dan fendith Duw, i bregethiad y gweinidog hwnw, syrthiodd ef i ddigalondid mawr, gan dybied nad oedd efe o ddim defnydd. Pan y gwnaeth gwladwr call oedd yn bresennol, yr hwn a fawr werthfawrogai ei bregethiad ef, y sylw canlynol er ei galonogi: 'Gall gweithiwr cyffredin dori coed i lawr, ond rhaid cael celfyddydwr medrus i'w cymhwyso at adeilad.' Ar hyny, cyfododd Mr. Mostyn i fynu, ac attebodd yn llawen, 'Od ydwyf o ryw ddefnydd, yr wyf fi yn foddlawn.' Yn wir, yr oedd ei bregethiad bob amser yn sylweddol a synhwyrol, ac yn cael ei fawrygu yn uchel gan bawb ond efe ei hunan; ond yr oedd yn ddefnyddiol nodedig i Gristionogion addfed. Yr oedd ganddo ffordd hynod o ddedwydd i egluro a chymhwyso testynau dyrys; ac yr oedd ganddo wrthwynebiad mawr i bregethau difyfyr. Yr oedd yn dra thyner at bawb a welai mewn cyfyngder. Blinid ei wraig ddiweddaf, er ei bod yn enwog o ran ei duwioldeb, gan ddirfawr iselder yspryd, yn yr hyn yr oedd efe yn gysurwr llwyddiannus. Yr oedd efe yn dueddol i boethder tymmer, ond efe a fyddai y cyntaf i feio ei hun am hyny. Nid oedd ganddo ond ychydig gyllid o'i eiddo ei hun, ac etto yr oedd yn bur elusengar. Yn yr amseroedd hyny, pan yr oedd cynnifer o ddynion teilwng mewn amgylchiadau is nag ef ei hun, byddai yn anfoddlawn i dderbyn haelioni ei gyfeillion, a dywedai na fwytai efe fara allan o enau dynion tlodion. Yr oedd ei ymddygiad yn urddasol, a'i gyfarchiad yn ddymunol, yr hyn, ynghyd â'i alluoedd mawrion, heb law ei fod yn hanu o hen deulu boneddigaidd, a barai iddo gael ei dderbyn i deuluoedd uchel, nad oeddynt gyfeillion i Anghydffurfiaeth. Er hyny ymhyfrydai efe mewn ymddiddan â Christionogion tlodion; ac yr oedd ganddo ddull dedwydd i wneud ei ymddiddanion yn fuddiol iddynt. Arferai ffordd gyfeillgar i gychwyn holiadau ymarferol, yr hyn a wnai i bobl naill ai meddwl drostynt eu hunain, neu fod yn awyddus i ddal ar ei hyfforddiadau ef iddynt. Blinid ef yn dost gan y gareg dros lawer o flynyddoedd. Pregethodd ar Ddydd yr Arglwydd cyn ei afiechyd maith diweddaf ar y geiriau hyn: 'Canys dwyn yr wyf fi yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Iesu.'" *

Henry (Harri) Walter ydoedd ail fab John Walter, Ysw., o Barc Persffild (Piercefield Park), ger llaw Cas Gwent, yn sir Fynwy. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1611, ac addysgwyd ef yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y derbyniwyd ef ar y 12fed o Ebrill, 1633. Ymddengys mai y fywioliaeth eglwysig gyntaf a gafodd, ar ol gorphen ei addysg yn Rhydychain, oedd curadaeth sefydlog Mynyddislwyn, ger llaw Casnewydd, yn sir Fynwy. Cyn gynted ag yr ymsefydlodd ym Mynyddislwyn, dechreuodd bregethu gyd â nerth ac arddeliad, a bu yn foddion i droi llawer at yr Arglwydd. Tybir mai pregethiad William Wroth a fu yn foddion i'w argyhoeddi ef i fywyd. Enwir ef yn y "Broadmead Records" fel un o bregethwyr diwygiedig Deheubarth Cymru, y rhai a arferent fyned drosodd i Gaerodor i bregethu. Ymddengys iddo gael ei fwrw allan o'r Eglwys Wladol o gylch yr un amser a Wroth, gan iddo drefnu ei ddisgyblion yn eglwys Annibynol tu a diwedd y flwyddyn 1639. Pan dorodd y rhyfel gartrefol allan yn 1642, bu raid i Walter, fel lliaws eraill o bregethwyr Cymru, ffoi i Lundain er diogelu ei fywyd. Yn 1646, anfonwyd ef yn ol i Gymru i bregethu dan nawdd y Senedd, a phennodwyd can punt y flwyddyn iddo am ei wasanaeth.† Llafuriodd yn ddiwyd ac egnïol i efengyleiddio ei gydwladwyr tra y parhaodd y rhyddid o 1646 hyd 1662. Sir Fynwy a'r parthau dwyreiniol o sir Forganwg, yn benaf, oedd meusydd ei lafur; a dywed Walker, Esgobyddwr rhagfarnllyd, ei fod yn derbyn tâl yn y ddwy sir. Purion: gan mai apostol, neu genad teithiol Crist, oedd H. Walter, dywed Paul "yr ordeiniodd yr Arglwydd" i genhadon teithiol "fyw wrth yr efengyl," ac "i fod heb weithio." Mwy na hyny, y mae gan y cyfryw genhadon teithiol "awdurdod i arwain o amgylch wraig a fyddai chwaer," pan ar eu teithiau i argyhoeddi y byd ac i gynnull eglwysi Cristionogol, fel yr oedd Henry Walter a'i gyd-genhadon yn gwneuthur.‡ Y gwir yw y bu llafur cenhadol Henry Walter, fel yr eiddo eraill o'i gydlafurwyr, o fendith fawr yn y Deheubarth, er moesoli a chrefyddoli lliaws o'i gydwladwyr, a hyny pan oedd y cyfryw bregethwyr dan anfanteision ac erledigaethau chwerwon a ffyrnig. Nid oes hanes i Henry Walter fod erioed yng Ngogledd Cymru, ac ni wyddys iddo deithio llawer yn y Deheubarth chwaith. Ymddengys iddo ef gyfyngu ei lafur cenhadol i'r ardaloedd o amgylch ei le genedigol yn benaf, ac yr oedd ei ymdrech grymus a dylanwadol yn dra chymmeradwy gan bawb a'i gwrandawent. Yr oedd ganddo waith mawr a gofalus hefyd fel un o'r Profyddion a ddewisasid yn y flwyddyn 1649.§

Yr oedd Henry Walter yn bregethwr teithiol

* Calamy's Acc., vol. ii., pp. 714-15; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 63-6, 69.

† Journals of the House of Commons, vol. iv., pp. 242, 622, 707.
‡ 1 Cor. ix. 1-15; 1 Thes. ii. 5-9.
§ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503.

Digitized by Google

pur boblogaidd a diwyd, ac ymdyrai pobl o bell ac agos i wrando arno.* Pan sefydlwyd y "Ddeddf er Gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," yn 1649, pennodwyd ef yn un o'r Profyddion, a'i enw ef yw y blaenaf ar y rhestr yn y ddeddf honno.† Yr oedd efe yn dal bywioliaeth plwyf St. Wollos, neu Eglwys Stow, Casnewydd, pan adferwyd Charles II. yn 1662, ac amddifadwyd ef o honi gan Ddeddf Unffurfiaeth. Yr oedd yn preswylio mewn lle a'i enw Parc y Pil, ymhlwyf Caerlleon ar Wysg, yn 1669; a dywedir yr arferai bregethu yn ei dŷ ei hun, a phob man arall, lle y cai ganiatâd. Dywed Henry Maurice (Harri Morus) ei fod yn weinidog eglwys Annibynol Mynyddislwyn yn 1675; a dyna yr hanes ddiweddaf sydd ar gael am dano. Y mae'n debyg y bu farw yn fuan ar ol y flwyddyn honno; ond ni wyddys pa bryd, nac ymha le y digwyddodd hyny, ond gwyddys yn dda ei fod yn un o "Enwogion y Ffydd."‡

---

## PENNOD X.

### Y DOCTOR JOHN OWEN.

Y MAE genym amryw resymau dros gyfleu y DR. JOHN OWEN, "Tywysog y Duwinyddion," ymhlith ein "Henwogion y Ffydd." Yn un peth, y mae ei haniad Cymreig yn ddiamheuol, canys mab ydoedd i Henry Owen, ap Susan Owen, ferch Gruffydd Owen, ap Lewis Owen, Yswain, o'r Llwyn, ger llaw Dolgellau, sir Feirionydd, yr hwn a olrheiniai ei achau i fab ieuengaf Llywelyn ab Gwrgant, Tywysog Morganwg, ac Arglwydd Caerdydd. Yr ydym yn bur sicr y bydd crynhodeb byr o hanes hynafiaid y Dr. Owen, o'i orhendaid hyd ato ef ei hun, yn gymmeradwy gan ein darllenwyr.

Yr oedd Lewis Owen o'r Llwyn yn ŵr bonheddig tiriog, yn meddu etifeddiaeth o werth tu a 300p. y flwyddyn, yr hyn oedd gyfartal i 1,000p. o'n harian ni, canys yr oedd 6s. o arian Brydain, dri chant a hanner o flynyddoedd yn ol, yn llawn gwerth punt o'i harian presennol. O blegid bod Lewis Owen, yr hwn hefyd a elwir "y Barwn Owen," o waedoliaeth anrhydeddus, ac yn meddu cyfoeth mawr, rhoddwyd ef mewn swydd gyfrifol yn y wladwriaeth gan y Brenin Harri VIII., yr hon a gyflawnodd yn ffyddlawn a chymmeradwy dan y brenin hwnw; ac ar ei ol ef, dan ei fab, Edward VI., a'i ferch, Mari Waedlyd. Pan oedd y Barwn Owen yn uchel-sirydd sir Feirionydd, gorfodid ef gan ddyledswyddau ei swydd i gyrchu yn fynych i'r brawdlys a gynhelid yn Nhrefaldwyn: ac ar ei ddychweliad adref oddi yno yn 1555, brâd-gynllwynwyd iddo gan fintai o yspeilwyr, a elwid "Gwylliaid Cochion Mawddwy," y rhai, gan wybod bod y sirydd i ddychwel adref trwy gwr plwyf Mallwyd, a luniasant y brâd mewn dyffryn cul, coediog, yn y gymmydogaeth honno, mewn lle a elwir y "Dugoed;" ac yno torasant nifer o goed ar draws y ffordd i attal mynediad y teithwyr. Pan ddaeth y Barwn Owen i'r fangre, gollyngasant saeth ato, yr hon, medd traddodiad, a aeth trwy ei ben, fel y syrthiodd yn farw yn y fan!§

* Jones's Hist. Aberystruth, p. 96.
† *Rees's Hist.* Prot. Noncon., p. 503.
‡ Broadmead Records, p. 516; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 66; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 24.

§ Gan fod hanes y "Gwylliaid" mor hynod, dïau y bydd crynhodeb o honi yn ddyddorol gan lïaws o'n darllenwyr. Tu a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg, ar ol y rhyfeloedd rhwng teuluoedd Caerefrog a Chaerwerydd (York and Lancaster), yr oedd lluoedd o herwyr (outlaws) a chyflafanwyr (felons) ynghymmydogaeth Mawddwy, ac yr oedd rhai o honynt o deuluoedd cyfoethog, ac yn perchen da lawer, y sawl a gymmerwyd oddi arnynt gan y gyfraith o blegid eu trosedd. Ymffurfiodd y rhai hyn yn gymdeithas gref o ladron a llofruddion, ac ymgasglodd atynt nifer mawr o gyffelyb duedd o wahanol barthau y deyrnas, nes eu myned yn haid mor lïosog ac yspeilgar fel y cododd eu harswyd trwy yr holl fro, a gadawodd llawer yr ardal rhag eu hofn. Heb law yspeilio y fforddolion a elent y ffordd honno, gosodent fath o deyrnged ar etifeddieuthau holl foneddigion y fro; ac os na thalent yr unrhyw, rhuthrent ar eu hanifeiliaid liw dydd golau, gan eu cymmeryd ymaith yn yroedd i'r coedydd a'r mynyddau ger llaw Dinas Mawddwy. Wedi iddynt gynhyddu fel hyn i'r fath raddau o haerllugrwydd a gormes, gwnaed appeliad o'u plegid at y llywodraeth, a chafwyd awdurdod i'w difetha, yr hon awdurdod a roddwyd i Syr John Wynn ab Meredydd o Wydir, a'r dywededig Farwn Owen, yr hwn, yn y cyfamser, a wnelsid yn Is-ystafellydd Gwynedd, ac yn un o farwniaid Trysorlys Cymru. Casglodd y ddau bendefig hyn fyddin o wŷr arfog i'r perwyl; ac ar noswyl Nadolig, 1554, llwyddasant, ar ol dygn ymdrech, i gymmeryd o gylch cant o'r Gwylliaid i'r ddalfa, a chrogasant hwynt yn y fan, heb na phrawf na rhaith, yn ol yr awdurdod a roddasid iddynt gan y llywodraeth. Ond er hyn oll, yr oedd nifer lïosog o'r yspeilwyr yn aros etto heb ddyfod i'r ddalfa, a pharodd yr amgylchiad a nodwyd iddynt ymgreuloni yn fwy nag o'r blaen, gan benderfynu dïal gwaed eu cymdeithion ar y boneddigion a nodwyd y cyfle cyntaf a gaffent. Dywed traddodiad bod dŷn ieuangc ymhlith y rhai a ddïenyddiwyd ar y noswyl Nadolig a grybwyllwyd, yr hwn y taer ymbiliodd ei fam ar y Barwn Owen arbed ei fywyd; eithr pan wrthodwyd ei chais, dinoethodd hithau ei mynwes mewn cynddaredd, a dywedodd wrtho, "Y mae'r bronau melynion hyn wedi rhoi sugn i ddynion a ddïalant waed fy mab, ac a olchant eu dwylaw yng ngwaed eich calon chwithau." Wedi i'r Gwylliaid ladd y Barwn Owen, fel y dywedwyd, aethant ymaith, gan adael ei gelain yn y fan y cwympodd; eithr cyn myned o honynt neppell o'r lle, cofiodd rhai o honynt ddïofryd eu mam, ac yn ddiattreg troisant yn ol i'w chyflawni yn llythyrenol; ac wedi trywanu y corph â'u cleddyfau, golchasant eu dwylaw yn weithredol yng ngwaed ei galon! Dynodir y fan lle y lladdwyd y Barwn hyd heddyw gan yr enw "Llidiart y Barwn," neu "Groes y Barwn." Lywedir bod chwech neu saith yngosgordd y Barwn Owen ar ei daith o Drefaldwyn, ac yn eu plith ei fab ynghyfraith, John Llwyd, o Geiswyn, ymhlwyf Tal y Llyn, yr hwn a'i hamddiffynodd hyd y diwedd, pan y diangodd y lleill oll yn llechwraidd ar yr ymosodiad cyntaf. Wedi lladd y Barwn, dywedodd y Gwylliaid wrth John Llwyd, "Llwyd fain, dos di ymaith." Yr achos o'r ffafr hon oedd, yn ol traddodiad, bod Llwyd

Digitized by Google

Enw pummed mab y Barwn Owen oedd Gruffydd, fel y crybwyllwyd eisoes; ac iddo yntau yr oedd merch a'i henw Susan, yr hon a briododd gŵr iddi a'i enw Wmffre Owen. Bu pymtheg o feibion o'r briodas hon, a'r ieuengaf o honynt, Henry Owen, oedd tad gwrthrych y bennod hon. Cafodd Henry Owen ei addysg athrofaol yn Rhydychain; ac wedi cymmeryd urddau eglwysig, cafodd ficeriaeth Stadham, ger llaw Watlington, yn sir Rhydychain. Wedi hyny gwnaed ef yn beriglor Harpston, yn yr un sir, lle y bu farw yn y flwyddyn 1649, yn 63 oed; a chyhuddid ef gan yr Eglwyswyr dīymadferth o fod yn Buritaniad zelog.

Heb law bod y Dr. Owen, fel yna, o haniad Cymreig dīamheuol, yr oedd efe yn meddu digon o wladgarwch i arddel ei genedl yn oed ger bron Senedd Brydain, ac i wneud ei egni er rhoi moddion moesoldeb a chrefydd yn eu cyrraedd. Yr oedd y teimladau a'r dadleuon chwerwon a achlysurwyd gan wahanol sectau wedi afrwyddo cynnydd crefydd yng Nghymru dros rai blynyddoedd cyn yr Adferiad; ac yn ei bregeth ger bron y Senedd ar y 30fed o Ragfyr, 1656, dadleuai ein cydwladwr enwog, y Dr. Owen, o blaid ei genedl fel y canlyn:—

"Na feddylier fod yn anaddas i mi ddwyn ar gof i chwi un ran o'r genedl mewn modd neillduol: y mae esampl y saint yn caniatâu i ni feddwl yn arbenig am ein cenedl ein hunain, ein perthynasau yn ol y cnawd. Am Gymru yr wyf yn llefaru, lle y mae'r annedwyddwch o fod pawb bron yn rhedeg i eithafion wedi bod yn anfantais i gychwyniad yr Efengyl yno, ac i'w chynnydd, pan yr oedd genym sail gref i ddisgwyl pethau gwell. Y mae rhai fyth yn eiddgar dros draddodiad eu tadau, ac ni foddlonir hwy gan ddim, braidd, ond yr hen ffordd o gael darllenwyr gweulion a distadl ymhob plwyf. Y mae eraill, drachefn, dan ddylanwad zel ddaionus, ond odid, wedi gyru y bobl gyd â rhuthr tu hwnt i'w hegwyddorion, ac weithiau, fe ddichon, tu hwnt i'r gwirionedd hefyd; ac, megis y dywedodd Jacob, trwy yru y praidd a'r rhai tyner yn rhy chwyrn, y mae'r holl ddïadell bron wedi ei distrywio. Rhwng cwynion ar y naill ochr a'r llall; rhwng zel a ffurfioldeb camarweiniol, yr wyf yn ofni bod yr holl waith bron wedi ei fwrw i'r llawr; y mae gwaith Sïon, fel y cyfryw, heb braidd neb yn gofalu am dano. Yr Arglwydd daionus a'ch cyfarwyddo at rywbeth er ei adgyfnerthu, fel y caffo'r duwiolion eu cadarnhau, ac nad esgeuluser y rhai sydd raid iddynt wrth hyfforddiad." *

Y mae hyn yn brawf dīamheuol fod y Dr. Owen yn teimlo i'r byw dros amddifadrwydd ei "genedl ei hun, ei berthynasau yn ol y cnawd" yng Nghymru, o foddion gwybodaeth grefyddol, a'i egni duwiol am eu cynnorthwyo yn eu cyfyngder a'u dyryswch. Dilys ddīammau hefyd iddo wneud ei orau o blaid Henry Walter, Walter Cradoc, Vavasor Powel, ac eraill o'i gyd-genedl, i gael "Deddf er Gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," a wnaed yn 1649, tu a chwe blynedd cyn traddodiad y bregeth grybwylledig; yr hon ddeddf, er mor anysgrythyrol ydoedd, a wnaeth lawer ar y pryd i beri mwy o bregethu yr Efengyl yng Nghymru nag a fu yno erioed o'r blaen.

Dymunwn sylwi hefyd, heb law bod y Dr. Owen yn Gymro o ran haniad, ei fod yn arddel ei genedl yn y modd mwyaf cyhoeddus, ac yn ymdrechu gwneud lles iddi yr un mor gyhoeddus. Y mae amryw o'i lyfrau godidog ef wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg, fel y ceir gweled rhag llaw. Wrth ystyried hyn oll, credir y cydwel ein darllenwyr yn gyffredin â ni bod ganddo hawl deg i le pur amlwg ymhlith ein "Henwogion y Ffydd."

Ganwyd JOHN, gwrthrych y bennod hon, yngbartref ei rieni, y Parch. Henry Owen, Ficar Stadham, a'i wraig, yn y flwyddyn 1616, ac efe oedd ei hail fab. Wedi iddo gael ei osod ar ben y ffordd i ddysgeidiaeth gan ei dad, dodwyd ef mewn athrofa anghyhoedd yn Rhydychain, a gadwid gan ysgolhaig enwog a'i enw Edward Sylvester; ac mor gyflym oedd ei gynnydd mewn dysg fel y dodwyd ef yng Ngholeg y Frenhines, ym Mhrifathrofa Rhydychain, pan nad oedd ond 12 mlwydd oed. Ei athraw yno oedd yr enwog ddadleuydd duwinyddol, Thomas Barlow, yr hwn a wnaed yn Esgob Caerlwytcoed (Lincoln) yn 1675.† Mor awyddus ydoedd, yn oed mor fuan ag yr aeth i'r brifysgol, am gyrraedd dysgeidiaeth uchel, fel na chaniatâi iddo ei hun ond pedair awr o gwsg bob nos dros amryw flynyddau. O herwydd y fath ymdrech, ac yntau yn meddu talentau disglair hefyd, cyrhaeddodd radd Gwyryf yn y Celfyddydau (B.A.) pan nad oedd ond 16 oed; ac yn ei 19edd flwyddyn gwnaed ef yn Athraw yn y Celfyddydau (M.A.)‡

Nid ymddengys bod nemmawr o argraphiadau crefyddol ar ei feddwl hyd yn hyn, eithr mai amcan ei holl lafur oedd cyrraedd rhyw sefyllfa anrhydeddus yn Eglwys Loegr neu yn y Wladwriaeth, heb ofalu etto ymha un. Megis yr oedd

wedi dangos cryn gyfeillach at un o'r Gwylliaid, trwy ei gymmeryd gyd âg ef i amryw fanau i ddangos ei gyflymder fel rhedegwr. Rhoddwyd y gyfraith yn ei llymder mwyaf dīarbed yn erbyn y Gwylliaid ar ol llofruddiad y Barwn Owen, fel y chwalwyd ei holl nythle mewn byr amser. Dienyddiwyd llawer o honynt, pan y ffodd eraill ymaith heb ddychwelyd mwy, a chafodd y wlad lwyr ymwared oddi wrthynt o hyny allan.—Pennant's Tours, ed. 1810, vol. ii., pp. 232–3; Wynne's Notes to Lewis Dwnn's Heraldic Visitations, vol. ii., p. 236; Gwladgarwr, cyf. vi., t. 161, &c.; Williams's Em. Welshm., p. 383.

* Owen's Works, Goold's ed., vol. viii., p. 452; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 109.

† Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., p. 886.

‡ Idem, vol. iii., p. 581.

Digitized by Google

ei dad yr ieuengaf o 15 o blant, a chanddo yntau ddau fab ac un ferch, heb law John, i'w dwyn i fynu, nid oedd gan yr olaf fawr o le i ddisgwyl rhyw lawer o gynhorthwy arianol gan ei dad. Cynnorthwyid ef yn haelionus i ddwyn ei draul yn y brifysgol gan ewythr iddo o frawd ei dad, sef Huw Owen, Tal y Bont, Ceredigion, yr hwn oedd yn meddu etifeddiaeth nid bechan yn y parth hwnw o'r Dywysogaeth; ac am nad oedd iddo blant ei hun, bwriadai ar y pryd wneud ei nai John yn etifedd iddo.* Ymddengys i ddylanwadau crefyddol ddechrau gweithredu yn rymus ar ei feddwl yn lled fuan ar ol iddo gael ei raddio yn B.A., yn 1632, a'u bod wedi cynhyddu yn fawr erbyn 1635, pan y graddiwyd ef yn M.A., pryd y cafodd "urddau eglwysig." Nid yw hyspys beth a fu yn foddion uniongyrchol i ddeffro ei feddwl ynghylch "y pethau a berthynent i'w heddwch" a'i iachawdwriaeth. Y mae'n ddilys ddigon iddo gael ei ddwyn i fynu yn grefyddol tra yr oedd dan gronglwyd Buritanaidd ei dad; ac fe allai mai argraphiadau o hyny a adnewyddwyd y pryd hwn yn ei fynwes. Pan ddyrchafodd Charles I. y Pabyddol William Laud i Archesgobaeth Caergaint, ar ol marwolaeth y tyner Archesgob Abbot, yn 1633, gwthiodd Lyfr y Chwareuon Sabbothol, ac amryw ddefodau Pabaidd eraill, i Brifysgol Rhydychain, â'r sawl ni oddefai cydwybod John Owen iddo gydymffurfio; ac yn hytrach na hyny, ymneillduodd oddi wrth y sefydliad yn 1637, pan oedd yn agos i 21 oed, ac wedi cael urddau eglwysig, er nad oedd ganddo ar y pryd olwg ar un lle arall i droi ei wyneb iddo, heb law ei fod yn y cyfamser dan ddirfawr drallod meddwl mewn perthynas i'w gyflwr ysprydol; fel rhwng y ddau adfyd yma, y gwasgwyd ef i ddwfn brudd-glwyf, a bu am o gylch tri mis heb gyfeillachu â neb, gan faint ei drallod meddwl. Pa wedd bynag, tra yn y cyfyngder mawr yma, agorodd Rhagluniaeth ddrws o ymwared iddo, trwy i Syr Phylip Dormer† ei gymmeryd yn gaplan i'w deulu, ac yn athraw i'w fab hynaf; ac wedi ymadael o'r teulu yma, bu yn gaplan i'r Arglwydd Lovelace, o Hurly, yn sir Berc. Bu yn y teulu hwn hyd oni thorodd y rhyfel gartrefol allan yn 1642, pan y cymmerth Syr Lovelace blaid y brenin yn zelog; a gwnaeth yntau broffes gyhoeddus o Buritaniaeth, ac aeth oddi yno i Lundain. Pan ddeallodd ei ewythr, Huw Owen, o Dal y Bont, yr hwn oedd Frenhinwr zelog, fel y rhan fwyaf o dirfeddiannwyr Cymru, bod ei nai John wedi troi yn Buritan, ac yn bleidiwr i'r Senedd, dïetifeddodd ef yn ffurfiol, a gadawodd ei etifeddiaeth i ŵyr ei frawd hynaf, sef Lewis Owen, Ysw., o Beniarth.

Wedi myned o hono i Lundain, lle yr oedd yn gwbl estronol, cymmerth letty ger llaw y Charter House. Er bod yr argyhoeddiadau llymion a brofasai yn flaenorol wedi lliniaru i gryn raddau erbyn hyn, etto yr oedd ei fynwes ymhell o fod wedi cael ei llwyr dawelu ynghylch ei sefyllfa ddyfodol. Yn y cyfamser, aeth gyd â chefnder iddo a'i enw Martyn Owen (darllawydd cyfrifol yn y ddinas), un dydd Sul, i Eglwys Mari Santes, Aldermanbury, Llundain, ar fedr clywed yr hyglod bregethwr Presbyteraidd, Edmund Calamy; ond lluddiwyd y gŵr hwnw gan ryw achos i fod yno ar y pryd, a llenwid ei le gan ryw bregethwr anadnabyddus o'r wlad, yr hwn, wedi gweddïo yn daer am fendith ar y gwasanaeth, a gymmerth ei destyn yn Mat. viii. 26, "Paham yr ydych yn ofni, O chwi o ychydig ffydd?" Effeithiodd darlleniad y testyn yn ddwys ar feddwl Owen, nes ei arwain i weddïo yn daer am fendith ar y bregeth. Gwrandawyd ei weddi, canys attebodd y pregethwr ei holl wrthddadleuon blaenorol, a chwalwyd ei ofnau i raddau tra dymunol. Yr oedd y bregeth yn un hynod o syml ac ysgrythyrol; ac y mae'n dra thebyg mai symledd y bregeth argyhoeddiadol honno a fu yn un achos o'r symledd a'r difrifwch ysprydol sy'n treiddio trwy ei holl bregethau a'i ysgrifeniadau yntau. Er maint o les a gafodd trwy y bregeth fendithiol honno, y mae'n hynod iddo lwyr fethu cael gwybod, er pob ymchwiliad a wnaeth, pwy oedd y pregethwr nodedig hwnw. Yn fuan ar ol hyn, y mae'n debyg, yr ysgrifenodd efe ei lyfr cyntaf, a elwir "Dadblygiad Arminiaeth,"‡ rhagymadrodd yr hwn a amserwyd yr 2fed o Fawrth, 1642. Cyhoeddwyd y gwaith yn ebrwydd, trwy archiad pwyllgor y Tŷ Cyffredin. Cafodd y gwaith yma dderbyniad cyffredinol, a chymmeradwyaeth lliaws o ddysgedigion duwinyddol; a bu yn foddion i ddwyn yr awdur i sylw gwŷr o enwogrwydd ac awdurdod. Yn fuan wedyn cyflwynwyd bywioliaeth Fordham, yn sir Essex, iddo, gan y pwyllgor a bennodasid i ddiswyddo offeiriaid Eglwysig anheilwng. Rhoddes y pennodiad yma foddhad mawr i'r preswylwyr, a

* Williams's *Em. Welshm.*, p. 380.

† Syr *Robert Dormer*, medd y *Gwladgarwr*, Williams yn ei *Eminent Welshmen*, a'r *Gwyddoniadur*; Syr *Philip Dormer*, medd y Dr. Eadie yn yr *Imperial Dictionary of Universal Biography*.

‡ Display of Arminianism.

chyrchai lluoedd llïosog i wrando Owen o'r ardaloedd amgylchynol, ac ymdaenodd ei glod yn fuan dros yr holl wlad. Tra yr oedd yn Fordham priododd ei wraig gyntaf, cyfenw yr hon oedd Rook, a bu iddynt 11 o blant, y rhai a fuant feirw oll yn ieuangc ond un ferch, yr hon a briododd ŵr bonheddig o Gymru a'i enw Kynaston; ond trodd y briodas allan yn anghymmarus, a dychwelodd hi i dŷ ei thad, lle y bu farw o'r darfodedigaeth.

Ymddengys mai math ar Bresbyteriaeth oedd golygiadau Owen ar Drefn Eglwys, ar ol iddo ymwrthod âg Esgobyddiaeth, ac ymsefydlu yn Fordham, canys wrth gyfeirio at ei syniadau y pryd hwnw ar y pwngc, efe a ddywed mewn treuthawd a ysgrifenwyd ganddo yn 1657, ar "Wir Natur Sism,"* fel y canlyn:—

"Yr oeddwn y pryd hwnw yn ŵr ieuangc, tu a chwech neu saith ar hugain oed. Yr oedd y ddadl rhwng Annibyniaeth a Phresbyteriaeth yn ieuangc hefyd ar y pryd; ac, yn wir, nid oeddwn i yn ei deall yn eglur, yn enwedig fel y cymmerid golwg arni gan yr ochr Annibynol neu Gynnulleidfaol. Nid oedd y syniadau a amlygwyd yn y treuthawd,† fel y dengys y canlyniad, yn foddhaol i'r naill blaid na'r llall; ond yr oeddynt yn gymmeradwy i'm meddwl i yn y cyfamser, wrth ystyried y gwahanol farnau oedd yn yr ardal y preswyliwn. Am fy mod yn anhyspys o syniadau yr Annibynwyr, ymunais mewn proffes â'r blaid, heb wybod nad oedd fy egwyddorion yn cyfatteb i'w barn a'u proffes hwy, canys nid oeddwn wedi edrych ond ychydig iawn ymhellach i'r achosion hyny nag yr arweiniasid fi gan fy ngwrthwynebiad i Esgobyddiaeth a seremonïau."

Ymddengys wrth y difyniad yna mai pwngc Owen, pan yn ysgrifenu y treuthawd crybwylledig, oedd ymdrechu lliniaru eiddigedd y Presbyteriaid a'r Annibynwyr oedd yn ei ardal at eu gilydd, yn hytrach na dangos ac amddiffyn trefn syml yr Eglwys Gristionogol fel y'i datguddir yn y Testament Newydd. Pa wedd bynag, y mae'n amlwg wrth ei eiriau ef ei hun mai Presbyteraidd oedd ei olygiadau ef hyd yn hyn. "Credu yr oeddwn," eb efe, "yn y ffurf o lywodraeth eglwysig a elwir yn gyffredin yn Bresbyterol, mewn gwrthgyferbyniad i'r un Esgobyddol ar un llaw, a'r un a elwir yn Annibynol ar y llaw arall." Ond cymmerth Owen gynllun yn fuan ar ol hyn, yr hwn y dylai pawb ei gymmeryd, i fyfyrio llywodraeth eglwysig, a'i gyrodd, megis o orfod, i gofleidio y drefn Annibynol, fel y dengys yn y difyniad canlynol:—

"Yn lled fuan wedi hyny [sef wedi cyhoeddi 'Dyledswydd Bugail a Phobl,' yn 1643], gwneuthum ymchwiliad difrifol i'r dadleuon a barent y fath gyffro ymhlith pobl y wlad hon. Nid oeddwn gydnabyddus âg un Annibynwr, â gweinidog na neb arall; ac nid oeddwn, hyd y gwn i, wedi gweled mwy nag un Annibynwr yn ystod fy mywyd. Yr oedd cylch fy adnabyddiaeth yn hollol ym mysg gweinidogion ac aelodau Presbyteraidd. Ond yr oedd amryw lyfrau wedi eu cyhoeddi ar y naill ochr a'r llall, y rhai a ddarllenwyd genyf, gan eu cymharu â'r Ysgrythyrau ac â'u gilydd, yn ol fel y derbyniais allu gan yr Arglwydd. Wedi cymmeryd golwg gyffredinol arnynt, yn ol fy arfer mewn dadleuon eraill, penderfynais gymmeryd un o honynt dan fy ystyriaeth neillduol, yr hwn a ymddangosai i mi y mwyaf rheolaidd a grymus yn ei waith yn yr hyn oedd groes i'm daliadau i ar y pryd. Cyfrol oedd hon o waith Mr. Cotton. Ymosodais yn ddifrifol a diwyd ar y gwaith o'i chwilio a'i gwrthwynebu, er mwyn boddhau fy hun yn unig. Y mae'r cynnydd a wneuthum yn y gwaith hwn yn amlwg i bwy bynag a ddarlleno fy sylwadau, y rhai sydd ar gael genyf etto. Wrth chwilio, cyferbynu, a barnu y gwaith hwn, yn groes i'm disgwyliad, mewn adeg pryd nas gallaswn ddisgwyl ond dinystr i'm hamgylchiadau tymhorol, heb yn wybod i neb, nac ymgynghori â neb o'r farn honno, arweiniwyd fi i dderbyn a chofleidio yr egwyddorion y gosodaswn fy hun yn wrthwynebol iddynt. Ac yn wir, dyma'r ffordd i chwilio pob peth yn ddiragfarn wrth y Gair, gan gymharu achosion âg achosion, a phethau â phethau, a gadael heibio bob rhagfarnau o berthynas i bersonau neu draddodiadau presennol, sydd lwybr y cynghorwn i bawb i ymgadw rhagddo, a fynnont ochel y perygl o gael eu troi yn Annibynwyr."‡

Ryw bryd yn ystod y flwyddyn 1644, fel yr ymddengys, amddifadwyd Owen o fywioliaeth Fordham, yr hon a roddwyd gan ei noddwr i ŵr arall; ond gan fod ei glod bellach, fel pregethwr hyawdl a nerthol, yn hyspys i'r holl gymmydogeuthau cyfagos, anfonodd trigolion plwyf Coggeshall (oedd o fewn tu a phum milltir i Fordham) ddymuniad taer arno fyned i'w gwasanaethu hwy, a chydsyniodd Iarll Caerwair (Warwick), noddwr bywioliaeth Coggeshall, â'r cais yn ddïymaros Y fath fri a roddid ar ei bregethau yn y lle hwn, fel y dywedir na byddai ei wrandawyr ond anfynych dan 2,000 o nifer. Yma y dechreuodd efe amlygu ei hun, a gweithredu fel Annibynwr, lle y ffurfiodd eglwys ar egwyddorion Annibyniaeth.

Yn lled fuan ar ol ymsefydlu yn y lle hwn cyhoeddodd ei drydydd llyfr, yn y flwyddyn 1645, sef "Angau i Angau ym Marwolaeth Crist."§ Yr oedd gan y Senedd feddwl uchel iawn o hono

* Review of the True Nature of Schism, pp. 33–4.

† Y treuthawd hwnw oedd, "The Duty of Pastor and People"= 'Dyledswydd Bugail a Phobl," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1643.

‡ Review of the Nat. of Schism, pp. 34, 36.

§ "The Death of Death in the Death of Christ."—Cyhoeddwyd sylwedd y gwaith hwn yn Gymraeg yn 1800, mewn llyfr a'i enw—"Pregeth ar Ddioddefaint Crist, o waith Joseph Hall, D.D., ynghyd a Thraethawd ar Ddiogelwch y Credadyn, neu Helaethrwydd Marwolaeth Crist, i'r holl had Etholedig, gwedi ei gymmeryd allan o'r Llyfr enwog hwnnw o Waith John Owen, D.D., a elwir Angau i Angau y' Marwolaeth Crist: Lle y Dangosir, I. Cydsyniad, a neilltuol weithredoedd Duw y'ngwaith prynedigaeth dyn trwy waed Crist. II. Symmudiad y camsyniadau o ddiben marwolaeth Crist, ac attebiad i'r rhai sydd yn ceisio amddiffyn prynedigaeth gyffredinol. III. Amddiffyniad o ddigonolrwydd iawn Crist i foddloni cyfiawnder gofynol Duw i gyfnewid cyflwr yr enaid, i ddwyn ymlaen a pherffeithio gras, a'i ogoneddu yn y gogoniant. IV. Rhesymau gwedi eu profi o air Duw, yn erbyn prynedigaeth gyffredinol, ac attebiad i bob rheswm

Digitized by Google

erbyn hyn; ac ar y 29fed o Ebrill, 1646, galwyd arno i bregethu ger bron y Senedd ar ei dydd ympryd misol, a chyhoeddwyd y bregeth yn ebrwydd, trwy orchymyn y Tŷ. Cynnwys y bregeth lïaws o fatterion; a thu a'i diwedd, tybir bod y pregethwr mawr, gwladgarol, yn cyfeirio at Gymru, gwlad ei dadau, a rhyw ranau ereill o'r deyrnas, lle y dywed fel hyn:—

"Pan ddisgynodd manna yn yr anialwch o law yr Arglwydd, yr oedd pawb yn cael rhan gyfartal. Carwn weled llai o anghyfartaledd yn bod yn awr hefyd, pan y mae yn llaw dŷn. Y mae rhai defaid yn pigo dewisol flodau y porfëydd brasaf i fynu yn feunyddiol, tra y mae'r lleill yn crwydro ar y mynyddoedd diffaith a diffrwyth, heb arweinydd na lluniaeth."

Yr oedd yr Arglwydd Fairfax, cadfridog y Senedd, yn gwersyllu y pryd hwn yn Coggeshall, ac felly daeth i gydnabyddiaeth âg Owen, yr hwn, fel y tybir, a weithredai fel caplan iddo. Yn y flwyddyn 1647, cyhoeddodd Owen lyfr a'i enw "Escol; neu Reolau Cymdeithas Eglwysig."* Yn y flwyddyn ganlynol, 1648, cyhoeddodd ei "Solus Electorum: Treuthawd ar Brynedigaeth;" a llyfr arall a'i enw "Cof-arwydd o Waredíaeth Essex."

Ar y 31fed o Ionawr, 1649, sef trannoeth ar ol dïenyddiad Charles I., galwyd John Owen i bregethu ger bron y Senedd. Testyn y bregeth hon oedd Jer. xv. 19, 20. Cyhoeddwyd y bregeth yn fuan ar ol ei thraddodiad, ynghyd â "Threuthawd ar Oddefiad," mewn cyssylltiad â hi, cyflwynedig i'r Senedd. Y mae rhai yn beio Owen yn chwerw, ac yn ei gyhuddo o lwfrdra, am na chyfeiriodd gymmaint ag unwaith yn ei bregeth at ddïenyddiad y brenin a gymmerasai le y diwrnod o'r blaen. Y mae'n debyg iawn fod y gŵr mawr hwn, oedd mor hyspys yn y Testament Newydd, yn erbyn i'r naill ddŷn ladd y llall ar unrhyw achos, fel y dylai pob Cristion fod; ac am hyny, nid rhyfedd iddo fod yn ddistaw ar y fath achlysur cynhyrfus. Er gweuthed dŷn oedd Charles I., ac er i'r filain ganddo ef fod yn achos o ladd lliaws mawr, ïe, miloedd lawer, o'i gydwladwyr, etto nid oedd gan na Senedd na neb arall awdurdod i'w ladd ef, mwy *nag* yr oedd ganddo yntau awdurdod i ladd ereill, lïaws o'r sawl oedd ddynion nad oedd y byd deilwng o honynt. Gan nad oedd gymmwys i lywodraethu y genedl, a'i fod yn achosi llofruddiaethau yn ei mysg, dyledswydd y wlad oedd, naill ai ei garcharu yn ofalus er rhwystro iddo gyflawni y mawr ddrygau a'r llofruddiadau a achosodd, neu ei ymlid o'r deyrnas, fel yr ymlidiwyd Iago II. ar ol hyny. Os y golygiadau Ysgrythyrol hyn a goleddai John Owen, fel y gellir casglu mai ïe, gresyn na buasai yn meddu digon o wroldeb i'w treuthu yn ddifloesgni ger bron y Senedd. Ond, "Heb ei fai heb ei eni," oddi eithr UN.

Yn ei "Dreuthawd ar Oddefiad," oedd mewn cyssylltiad â'r bregeth, fel y crybwyllwyd, y mae Owen yn sefyll ar yr un tir ag y safai Locke arno wrth dreuthu ar yr testyn, sef "Nad yw camsyniadau mewn crefydd yn bethau y mae gan yr Ynad Gwladol hawl nac awdurdod i'w cospi, oddi eithr y cyfryw ag a fyddont yn eu natur eu hunain yn aflonyddu heddwch a threfn cymdeithas." Yr oedd Owen wedi myfyrio yn ddwys, difrifol, a diragfarn ar y pwngc yma, fel y tystia yn y difyniad blaenorol; ac yn y treuthawd ar Oddefiad, cyhoeddodd ffrwyth ei fyfyrdodau toreithiog. Llwyddodd y gwaith pwysig hwn, yn ddïau, i gadarnhau syniadau y blaid Annibynol, yr hon a broffesai Owen yn awr yn gyhoeddus, yn gystal hefyd ag i addfedu golygiadau arweinyddion gwleidyddol y genedl yn yr un cyfeiriad.

Ni wnaeth y gwladweinwyr ddim sylw o waith Owen yn peidio cyfeirio at ddïenyddiad y brenin yn y bregeth grybwylledig, canys galwyd arno drachefn, ar y 19ydd o Ebrill, i bregethu ger bron y Senedd a swyddogion y fyddin, pan y traddododd efe y bregeth ardderchog a elwir "Ysgydwad y Nefoedd a'r Ddaear,"† am yr hon y cafodd ddiolchgarwch y Tŷ y dydd canlynol, ac archiad i'w chyhoeddi yn ddïoed, ar draul y Senedd, wrth reswm. Ymddengys mai y bregeth hon oedd y gyntaf a glywodd Cromwel ganddo, ac, yn wir, mai y waith hon y gwelodd y Puritan enwog y pregethwr mawr hwn. Yr oedd Owen yn bwriadu dychwel adref ymhen deuddydd ar ol traddodi y bregeth dan sylw; ond cyn gadael y ddinas, galwodd gyd â'r Cadfridog Fairfax, â'r hwn y deuthai yn gydnabyddus yn amser gwarchcuad Caercoilin (Colchester). Yr oedd Fairfax yn glaf ar y pryd; a thra yr oedd Owen yn siarad â gweision y Cadfridog, daeth Cromwel ac amryw swyddogion ereill i mewn i'r tŷ; a phan welodd efe Owen, aeth ato yn ddiseremoni, gan roddi ei

o bwys a ddygwyd yn erbyn Prynedigaeth neilltuol. Ynghyd a helaeth eglurhâd o feddwl yr amryw destynau ac y mae'r Arminiaid yn ceisio gwneud defnydd o honynt i brofi prynedigaeth gyffredinol. A Gyfieithwyd gan William Thomas, Gweinidog yr Efengyl yn y Bala."—Llyfr. y Cymry, t. 726.

* "Escol; or the Rules of Church Society." Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn Gymraeg yn 1734, dan yr enw canlynol:—Byr Hyfforddiad yn Addoliad Duw, a Discyblaeth Eglwysig, gan y Duwiol wr Mawr ei ddysc Doctor John Owen. O Gyfieithiad Matthias Maurice.—Llyfr. y Cymry, t. 366.

† "Shaking and Translation of the Heavens and the Earth."

Digitized by Google

law ar ei ysgwydd, fel yr arferai wneud gyd â'i gyfeillion, gan ddywedyd, "Syr, chwychwi ydyw y gŵr y mae arnaf eisiau dyfod i gydnabyddiaeth âg ef." Attebodd Owen yn wylaidd, "Bydd hyny, Syr, yn fwy o fantais i mi nag i chwi." "Cawn weled hyny yn fuan," eb Cromwel; a chan ymafael yn ei law, arweiniodd ef i ardd Fairfax, a dywedodd wrtho ei fod ef yn bwriadu myned i'r Werddon yn fuan i ymdrechu dwyn y Gwyddelod i drefn a dosparth, ac y dymunai iddo yntau fyned gyd âg ef i reoleiddio Coleg y Drindod yn Nublin. Yr oedd yn bur anhawdd gan Owen adael ei deulu a'i gyfeillion yn Coggeshall; ond wedi hir ymresymu a phetruso, Oliver Cromwel, yn ol ei arfer, a orchfygodd. Dyna fel y dechreuodd cyfeillgarwch Cromwel âg Owen, yr hon a barhaodd yn ddifwlch dros amryw flynyddoedd, er mawr fantais i'r olaf.

Galwyd ar Owen etto i bregethu, gyd â Goodwin, ar y 7fed o Fehefin, yr un flwyddyn, 1649, ger bron Cromwel a'r Senedd. Cyhoeddwyd y bregeth a draddodwyd gan Owen wrth yr enw "Gorchfygiad Gallu Dynol."* Ar yr 2fed o Orphenaf, derbyniodd Owen archiad y Senedd i fyned gyd â'r Is-gadfridog Cromwel i'r Werddon; a gorchymynwyd talu 100p. y flwyddyn i'w wraig a'i blant yn ystod ei absennoldeb, yr hyn oedd gyfartal i 333p. 6s. 8c. o'n harian ni. Tu a chanol Awst yr un flwyddyn, cychwynodd y fyddin, oedd yn cynnwys 14,000 o wŷr, dan arweiniad Cromwel, ynghymdeithas Owen, o Aberdaugleddau, sir Benfro, a chyrreuddasant yn ddïogel i Ddublin, a chymmerth Owen ei gartref yn Ngholeg y Drindod, yn y ddinas honno, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i amser yn ystod ei arhosiad yn y Werddon.

Yn gynnar yn 1650, galwyd Cromwel adref o'r Werddon i ddarostwng gwrthryfel yr Ysgotiaid, a dychwelodd Owen gyd âg ef i'r wlad hon; ac yn fuan ar ol ei ddychweliad, sef ar y 28fed o Chwefror, galwyd ef i bregethu ger bron y Senedd. Y mae'r bregeth honno yn dangos ei bryder mawr yn achos crefydd yn y Werddon. Dymunodd ar y Senedd bennodi pwyllgor i ystyried ei sefyllfa grefyddol, i drefnu cynlluniau i wneud i fynu eu hanghenion, ac i ysgafnhau beichiau gorthrymus y wlad annedwydd honno. Mewn canlyniad i'r annogeuthau hyn, pasiwyd penderfyniad, yn cael ei gefnogi gan Cromwel, i gefnogi crefydd ac addysg yn y wlad Babyddol honno. Ar ol traddodi y bregeth grybwylledig, dychwelodd John Owen at ei deulu a'i gyfeillion i Coggeshall, lle y cafodd y croesawiad anwylaf; ond cyn iddo gael mwynhau nemmawr o gyfeillach ei anwyliaid yn y lle hwnw, gyrwyd archiad Seneddol iddo ef a Joseph Caryl i fyned gyd â Chromwel i Ysgotland, yr hyn a'i taflodd eilwaith i ganol twrf arfau rhyfel, er mor groes i'w dueddiadau efengylaidd a heddychol. Er maint oedd teithiau a gorchwylion John Owen yn y Werddon, ac ar ol dychwel i Loegr, cyhoeddwyd un treuthawd o'i waith, a dwy o'i bregethau, yn ystod y flwyddyn 1650. Enw y treuthawd ydyw, "Am Farwolaeth Crist."†

Wedi i Cromwel a'r fyddin gyrraedd Berwick, tref ar y terfyn rhwng Lloegr ac Ysgotland, galwodd ar John Owen i bregethu iddo ef a'r fyddin yno, a thraddododd bregeth arall iddynt yn Ninas Eiddyn (Edinburgh). Dychwelodd Owen unwaith etto, yn gynnar yn 1651, at ei gyfeillion yn Coggeshall; ond ni chafodd fawr o hamdden yno y waith hon chwaith. Cyhoeddwyd y penderfyniad canlynol yn fuan ar ol ei ddychweliad o Ysgotland:—"Ar y 18fed o Fawrth, 1651, y mae'r Tŷ wedi cymmeryd i ystyriaeth deilyngdod a defnyddioldeb Mr. John Owen, M.A., o Goleg y Frenhines, yn gorchymyn iddo gael ei sefydlu yn Ddeon Eglwys Crist, yn lle y Dr. Reynolds." Gyd â golwg ar hyn, dywed Owen ei hun fel y canlyn:—"Tra yr oeddwn yn ddiwyd gyd â'r gwaith o bregethu yr efengyl, darfu i Loegr, trwy ei hawdurdod a'i dylanwad, fy nyrchafu i gadair ym Mhrifysgol enwog Rhydychain, er fy mod i, o'm rhan fy hun, yn anewyllysgar i'w chymmeryd." "Yr oedd ei annerchiad swyddfreiniol," medd y Dr. Eadie, "yn deilwng o hono: yr oedd yn urddasol a gwylaidd, ac nid araeth sech a honiadol, ond yn llawn o fywyd ac egni; ac yr oedd yspryd Cristionogol tyner a thirion yn treiddio trwyddi oll." Cafodd y Deon Owen alwad i bregethu etto ger bron y Senedd ar y 24ydd o Hydref y flwyddyn hon, yr hwn oedd ddiwrnod o ddïolchgarwch am lwyddiant arfau y Senedd yn erbyn byddin Ysgotland, ym mrwydr Caerwrangon, "ynghyd âg amryw drugareddau eraill." Ymddengys i'r Deon Owen fod mor brysur fel na chafodd hamdden i gyhoeddi dim ond un bregeth

* "Human Power Defeated."

† "Of the Death of Christ."—Tybiai golygydd y *Gwladgarwr* (cyf. vi., t. 196) fod hwn wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg; ond methwn ni ei ganfod yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, a thybiwn mai camsyniad a wnaeth y golygydd trwy gymmeryd hwn am y treuthawd a nodwyd eisoes, sef "Angau i Angau ym Marwolaeth Crist;" ond y mae'r ddau yn dreuthodau gwahanol.

Digitized by Google

yn unig yn ystod y flwyddyn yma, yr hon a draddodwyd ar "Fantais Teyrnas Crist."

Yr oedd Oliver Cromwel wedi cael ei ddewis yn Ionawr y flwyddyn hon (1651) yn Ganghellydd Prifysgol Rhydychain; ond gan ei fod ef mor brysur gyd â'r fyddin, a phethau gwladol eraill, fel nas gallai roddi y sylw angenrheidiol i'r brifysgol, efe a nododd y Deon Owen, trwy lythyr at y Senedd, a amserwyd y 9fed o Fedi, 1652, i fod yn Isganghellydd yn lle y Dr. Greenwood; ac ar y 26ed o'r un mis etholwyd ef yn unfryd i'r swydd trwy bleidlais gyffredinol y Senedd, ac iddo ef yr ymddiriedodd Cromwel holl ddyledswyddau ei swydd ei hun yn y brifysgol. Cyhoeddwyd dwy o bregethau yr Isganghellydd Owen yn ystod y flwyddyn hon, sef "Rhyddhâd y Sant Llafurus," a "Theyrnas Crist a Gallu Ynadol." Ym mis Hydref, 1653, galwyd Owen i Lundain gan Cromwel i "gyfarfod gweinidogion gwahanol enwadau," er ceisio trefnu rhyw gynllun i ffurfio undeb. Pa lwyddiant a ddilynodd y cyfarfod hwnw, ni fynegir; ond tra yr oedd Owen yn Llundain ar y pryd, anrhydeddwyd ef a Thomas Goodwin, llywydd Coleg Magdalen, "dau Ditaniaid a Phatriarchiaid Annibyniaeth,"* fel y geilw y rhagfarnllyd Wood hwynt, â'r radd o D.D.=Doctor Duwinyddiaeth. Tu a diwedd y flwyddyn hon, appwyntiwyd y ddau Ddoctor hyn, ac amryw eraill, gan y Senedd i fyned ar gylchdeithiau, bob yn dri, trwy y wlad, i fwrw "gweision anfuddiol," yn beriglorion, ficeriaid, a churadiaid, allan o fywioliaethau y gwahanol blwyfydd,† yn yr hyn y dywedir y bu'r Dr. Owen mor dyner ag y gallai. O gylch yr un amser pennodwyd ef yn un o'r ymwelwyr er rheoleiddio Prifysgol Rhydychain, a hyrwyddo addysg ynddi. Er cynnifer swyddi a *maint llafur* y Dr. Owen y flwyddyn hon, cyhoeddodd un gwaith pwysig, yn Lladin, a'i enw "Treuthawd ar Gyfiawnder Dwyfol."‡

Ar ol i Cromwel dori y Senedd Hir yn Ebrill *1653*, teimlodd angenrhaid galw un arall yn 1654, ac anfonwyd gwŷs i Brifysgol Rhydychain i erchi iddi ethol un i'w chynddrychioli; ac ar y 27fed o Chwefin, etholwyd y Dr. Owen i'r swydd bwysig honno. Ymgynhullodd y Senedd ar y 3ydd o Fedi; ond am fod cyfreithlondeb ei etholiad yn cael ei ammau gan Bwyllgor y Breintebau, o blegid ei fod yn "weinidog yr efengyl," nid eisteddodd yno ar y pryd ond dros fyr amser. Yn ebrwydd ar ol hyn dygodd Cromwel y penderfyniad canlynol i'r Senedd:—

"Na byddo i'r rhai sy'n proffesu ffydd yn Nuw trwy Iesu Grist, er gwahanieuthu o honynt o ran barn oddi wrth yr athrawiaeth, yr addoliad, neu y ddisgyblaeth a broffesir yn gyhoeddus, mo'u hattal rhag hyny; ond yr amddiffynir hwynt yn y broffes o'u ffydd, cyhyd ag na byddo iddynt gamarfer y rhyddid hwn i niweidio eraill mewn ystyr wladol, neu i aflonyddu ar heddwch y cyhoedd, gan ddarpar nad yw y rhyddid yma yn cael ei estyn i Babyddiaeth neu Esgobyddiaeth, nac i'r sawl sydd dan gochl o broffesu Crist, yn dal allan ac yn arfer penrhyddid."

Yr oedd y ddeddf hon yn bur ryddfrydig, ond ystyried yr amser y gwnaed hi, ac amgylchiadau y wlad ar y pryd. Ceuid Pabyddiaeth ac Esgobyddiaeth allan, nid fel crefyddau, ond am eu bod yn gyfundebau gwladol, ac yn dal allan mai dan eu rheolaeth hwy y dylai cyfreithiau, masnach, a phob peth tymhorol ac ysprydol fod; ac yn wir, credir pe ceuid hwy allan etto, yr âi y byd ym mlaen yn llawer mwy llwyddiannus. Nid oes genym fawr ychwaneg o hanes y Dr. Owen mewn cyssylltiad â'r Senedd. Gellir casglu iddo fod yn bur drafferthus y flwyddyn hon. Nid oes hanes iddo gyhoeddi ond un llyfr yn ystod hon fel y flwyddyn flaenorol, sef "Yr Athrawiaeth o Barhâd y Saint mewn Gras yn cael ei Hegluro a'i Chadarnhau," 1654.

Galwyd y Dr. Owen, ar y 12fed o Ragfyr, 1655, i gynnadledd a gynhelid ynghylch sefyllfa yr Iuddewon, yn ystafelloedd Llys Whitehall, ymhresenoldeb Cromwel, yr hwn a osododd ddeiseb o flaen y cyngor oddi wrth Manasseh Ben Israel, a breswyliai ar y pryd yn Holand, ac a ddeisyfai gael caniatâd i'w genedl i ymsefydlu ym Mrydain, ac i fasnachu yma fel eraill o ddeiliaid y wlad. Cynhwysai y gynnadledd ddau farnwr, saith o ddinasyddion Llundain, a phedwar ar ddeg o dduwinyddion, ymhlith y rhai yr oedd y Dr. Owen; ond ni wyddys pa ran a gymmerth ef yn y gynnadledd. Pa wedd bynag, ymddengys iddo fod yn brysur iawn y flwyddyn hon, fel yr un flaenorol, canys un llyfr a gyhoeddodd yn ystod hon fel y llall, sef y gwaith campus a elwir "Vindiciæ Evangelicæ: neu Ddirgelwch yr Efengyl yn cael ei Amddiffyn, a Sosiniaeth yn cael ei Harchwilio." Yn y llyfr godidog hwn, ymdrinir yn helaeth a manwl iawn â phob pwngc perthynol i'r

* "The Two Atlasses and Patriarchs of Independency."

† "Un o'r Profyddion (*Tryers*) enwog" y geilw'r Dr. Eadie y Dr. Owen mewn cyssylltiad â'r swydd yma. Ymddengys mai y siroedd Seisnig oedd "maes llafur" y Dr. Owen ac eraill a appwyntiwyd i'r gwaith hwn yn 1653, canys yr oedd Dirprwywyr a Phrofyddion i fyned trwy siroedd Cymru i'r un perwyl, wedi eu happwyntio trwy ddeddf Seneddol er y flwyddyn 1649.—Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 501, 503.

‡ "*Diatriba de Divina Justitia.*" Cyfieithiwyd hwn i'r Saesneg yn 1794, ymhen 11 mlynedd ar ol i'r Dr. Owen farw.

ddadl Sosinaidd. Mewn gwirionedd, y mae'n un o'r cyfansoddiadau cyflawnaf yn y dosparth hwn o ddadleuaeth dduwinyddol. Hwn ydyw y gwaith Seisnig cyntaf sy'n archwilio y cynllun Sosinaidd yn drwyadl, ac yn ei ddadymchwel yn deg ar egwyddorion Ysgrythyrol; ac er cymmaint a ysgrifenwyd ar y ddadl wedyn, gellir dywedyd yn ddibetrus nad oes yn y cynhyrchion odid ddim o bwys, mor bell ag y mae'r ymresymiad Ysgrythyrol yn myned, nas ceir yn y treuthawd meistrolgar yma; ac wrth ystyried amgylchiadau yr awdur, a'i brysurdeb efo phethau eraill pan yn ei gyfansoddi, y mae'n brawf hynod o nerth meddwl a diwydrwydd digyffelyb yr awdur galluog.

Ar y 17fed o Fedi, 1656, galwyd y Dr. Owen unwaith etto i bregethu ger bron y Senedd oedd newydd ei galw ynghyd. Yn y bregeth odidog hon, mynegodd ei syniadau addfed ar Ryddid Crefyddol gyd â mawr fanylder. Ar y 30fed o Hydref, pregethodd drachefn ger bron y Senedd, ac yn y bregeth wladgarol hon y traddododd ei syniadau pleidiol i Gymru, y rhai a ddifynwyd ar ddechrau y bennod hon.

O gylch y pryd hyn, neu yn fuan wedyn, ymddengys i gryn oerfelgarwch gymmeryd lle ym mynwes Cromwel at y Dr. Owen; a dywed amryw hen ysgrifenwyr i hyny ddigwydd fel y canlyn:—

"Er mwyn cau allan o'r Senedd y Gwerinwyr eithafol, y Presbyteriaid culfarn, yr Esgobeuthwyr a'r Brenhinwyr eiddigus, oedd weithion, ar ol cael hamdden oddi wrth ryfeloedd cartrefol, a chael heddwch cyffredinol, yn ymgyngreirio yn erbyn yr Amddiffynydd, gwnaed cyfraith nad oedd neb i gael ei dderbyn yn aelod Seneddol heb gael tystysgrif gan ddirprwywyr y llywodraeth eu bod yn deilwng o'r ymddiriedaeth o ran eu moesau a'u crefydd, a hefyd eu bod yn bleidwyr i'r Amddiffynydd. Cyffrôdd hyn y pleidiau eraill yn aruthr, a lluniasant lawer o fradwrieuthau anfad yn ei erbyn, fel yr oedd ei fywyd mewn perygl. Yn wyneb hyny, penderfynodd pleidwyr gorzelog yr Amddiffynydd ei gyhoeddi yn Frenin Brydain Fawr; a dywed amryw ei fod yntau yn cymmeradwyo y syniad, o leiaf ar ol gychwyniad. Mewn canlyniad i hyn, trodd amryw oedd yn bleidwyr i Cromwel o'r blaen yn wrthwynebwyr penderfynol i'w wneud yn frenin, megis y Cadflaenor Fleetwood, ei fab ynghyfraith, a'r Milwriad Desborough, ei frawd ynghyfraith, â'r sawl yr ymunodd y Milwriad Pride ac eraill; a deallodd y gwŷr hyn a'u plaid fod y Dr. Owen yr un farn a hwynt. Yn ebrwydd wedi dyfod i wybod hyn, cyttunodd y blaid ar unwaith i ddeisyf ar y Dr. Owen gyfansoddi Erfyneb i'w chyflawno i'r Senedd yn erbyn dyrchafu Cromwel i'r orsedd, â'r hyn y cydsyniodd yntau, a chyflwynwyd hi i'r Senedd gan y Milwriad Mason; a deallodd Cromwel rywfodd mai y Dr. Owen oedd ei hawdur. Nid oes dim dadl, yn ol Whitelock, un o'r rhai a gymhellent Cromwel i dderbyn y goron, na feddyliodd Cromwel dderbyn y teitl brenhinol, a'r holl anrhydedd cyssylltiedig âg ef. Dywed fod Cromwel yn llwyr gredu, o ran ei farn bersonol, y buasai yn gyfleus iddo dderbyn enw ac awdurdod Brenhin; ond, eb efe, "trwy erfyniadau gwŷr y Weriniaeth ac ofn gwrthryfel a gwrthgiliad corph mawr y fyddin pe cymmerasai y teitl a'r swydd hyny, newidiodd ei feddwl; a chyhoeddai llawer o swyddogion y fyddin fygythion erchyll yn ei erbyn os derbyniai yr enw brenin." Ond er i Cromwel newid ei feddwl, fel yna, ni alwyd y Dr. Owen ganddo byth mwyach i gyflawni unrhyw wasanaeth cyhoeddus perthynol i'r llywodraeth." *

Pa wedd bynag, ni bu gwaith Cromwel yn cefnu ar y Dr. Owen, ac yn peidio ei lwytho â swyddau a gorchwylion perthynol i'r llywodraeth, yn ddim colled i'w gydwladwyr; ond yn hollol i'r gwrthwyneb, canys ar ol hyny y cyfansoddodd efe y rhan fwyaf o lawer o'i lyfrau dysgedig a gwerthfawr,† o'r sawl ni chawn ni ond eu nodi yn fyr yn Gymraeg (cofier mai yn Saesneg yr ysgrifenwyd hwy oll), er mwyn i'n holl ddarllenwyr gael rhyw amgyffred am eu hansawdd. Yn y flwyddyn gyntaf ar ol i'r Dr. Owen golli ffafr Cromwel, sef 1656, cyhoeddwyd y llyfrau pwysig canlynol o'i waith, sef "Marweiddiad Pechod mewn Credinwyr,"‡ "Adolygiad ar Esponiadau Grotius," "Gwaith Duw yn Sylfeunu Sïon," a "Phresennoldeb Duw gyd â'i Bobl." Yn y flwyddyn ganlynol, 1657, cyhoeddodd yr awdur dri o dreuthodau galluog, sef "Am Gymmundeb â Duw, y Tad, Mab, ac Yspryd Glân;" "Am Sism: ei wir Natur yn cael ei Darganfod a'i Hystyried, gyd â chyfeiriad at yr Ymrafeulion presennol mewn Crefydd;" ac "Adolygiad ar yr unrhyw." Wrth ddarllen y "Cymmundeb â Duw," teimlir bod yr awdur galluog yn myned cryn lawer yn rhy bell fel Trindodwr wrth dreuthu am ddal cymmundeb gwahanol â'r Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân. Treuthodau galluog, fel yr eiddo'r Dr. Owen yn gyffredin, yw y rhai ar Sism, heb fod yn dal cyssylltiad arbenig âg unrhyw blaid neillduol, gan y

* Burton's Diary, vol. i., pp. 148–178, 362, 397–416; Whitelock's Memorials, pp. 655–663; Thurloe's State Papers, vol. vi., pp. 163–188, 261; Ludlow's Memoirs, vol. ii., p. 131; Clarendon's Hist of the Rebellion, vol. iii., p. 792.

† Tra yr oedd efe yn ffafr Cromwel, 19 o'i lyfrau a gyhoeddwyd: ond wedi hyny cyhoeddwyd 61 o'i lyfrau, 49 o'r 61 yn ei oes ef, a 12 ar ol iddo farw, ac y mae rhai o honynt yn llyfrau tra helaeth. Felly, y mae'r holl lyfrau a gyfansoddwyd gan y Dr. Owen yn 80 o nifer!

‡ "Of the Mortification of Sin in Believers."—Cyfieithwyd hwn i'r Gymraeg, ac argraphwyd ef yn y Mwythig, gan B. Partridge a J. Hodges, yn 1791, dan yr enw canlynol:—"Marweiddiad Pechod mewn Credinwyr. Gan John Owen, D.D. O gyfieithiad Hugh Jones, o Foesoglan."—Llyfr. y Cymry, t. 657.

Cyhoeddwyd y gwaith yma drachefn yn Gymraeg, gan yr un rhai, yn 1796, dan yr enw yma:—"Marweiddiad pechod mewn Credinwyr: yn dangos ei angenrheidrwydd a'r Natur o hono; ynghyd a'r Attebiad i amryw Achosion Cydwybod, ymherthynas i'r unryw. Gan y Duwiol a'r Dysgedig John Owen, D.D. At yr hyn rhagflaenir Byr Hanes o Fywyd a Marwolaeth yr Awdwr, Newydd ei gyfieithu i'r Gymraeg."—Tybia awdur *Llyfr. y Cymru* (t. 698) mai ail argraphiad oedd hwn o un 1791; ond os felly, y mae'n amlwg fod y wyneb-ddalen yn wahanol, a gellir casglu nad oedd y "Byr Hanes" yn y llall.

Sylwedd pregethau a draddodwyd gan yr awdur ar Rhuf. viii. 13 ydyw y treuthawd galluog hwn. Y mae'r gwaith yma yn brawf noddedig bod yr awdur duwiol yn bur adnabyddus o lygredigaeth y galon ddynol, a gweithrediadau twyllodrus y meddwl anianol.

Digitized by Google

gellid cymhwyso yr egwyddor at bob plaid Brotestanaidd. Pa ddelw bynag, cafodd y treuthodau hyn wrthwynebwyr galluog yn Hammond, Firmin, Cawrdy, ac eraill. Y llymaf, a'r mwyaf personol o'r ymosodwyr oedd Cawrdy, yr hwn oedd "weinidog Presbyteraidd" pur ragfarnllyd. Cyn gynted ag yr ymddangosodd ymosodiad hwn, attebodd y Dr. Owen ef yn ddïoed, yn dra meistrolgar, yr hwn a gyhoeddwyd yn gynnar yn 1658; a dywed yr awdur yn ei ragymadrodd na chafodd ddim mwy na phedwar diwrnod i gyfansoddi ei attebiad, rhag mor brysur ydoedd gyd â phethau eraill. Yr oedd Cawrdy wedi llusgo enw John Cotton hefyd i'r ddadl, a chafodd attebiad galluog ganddo yntau. Cyhoeddodd y Dr. Owen dreuthawd arall hefyd yn y flwyddyn hon, "Ar Natur a Grym Profedigaeth."

A fu y cynnwrf ynghylch gwneud Cromwel yn frenin, a'i oerfelgarwch at y Dr. Owen o blegid yr ochr a gymmerth yn y drafodaeth honno, yn achlysur o gyfansoddiad y treuthawd crybwylledig, nid yw hyspys. Pa wedd bynag, rhoddes Cromwel ei swydd o Arglwydd Ganghellydd Prifysgol Rhydychain i fynu ar y 3ydd o Orphenaf, 1658, ddau fis i'r diwrnod cyn iddo farw, ac etholwyd ei fab Richard yn olynydd iddo, yr hwn ymhen chwech wythnos wedyn a ddiswyddodd y Dr. Owen o fod yn Isganghellydd, gan roddi ei le i'r Dr. John Conant, Presbyteriad, a pheriglor Coleg Exeter. Ar ol pum mlynedd o wasanaeth llafurus yn y brifysgol, wele y Dr. Owen yn gorfod ymadael o'i swydd uchel, heb i neb roddi rheswm iddo paham. Dywed y Dr. Eadie nad oedd ei Annerchiad Ymadawol yn anheilwng o Samuel pan yn canu yn iach i ysgol y prophwydi. Wrth gyfarch y Canghellydd a'r Isganghellydd yn ei Annerch Ymadawol odidog, nid ynganodd air o'r sarhâd lleiaf ar ei olynwyr, ac ni ddangosodd ddim eiddigedd o blegid ei ddiswyddiad. Er hyny, rhoddes ddisgrifiad helaeth o'r anhrefn a gawsai yn y brifysgol ar ei fynediad iddi, ac o'r diwygiadau llesol a ddygasai oddi amgylch yno yn ystod ei swyddogaeth; ac y mae hanesion eraill yn cyddystiolaethu bod ei ddull o reoleiddio trefniadau y lle yn hynod o ddoeth a buddiol. Yr oedd ei lywodreuthiad yn dra awdurdodol, ac etto yn llariaidd a hynaws; ac er bod ymhlith y myfyrwyr lawer o wahaniaeth barnau crefyddol, nid arferodd efe ei awdurdod i gaethiwo cydwybod neb, eithr arferai bob moddion cyfreithlawn i ynnill cymmeradwyaeth pawb. Dangosodd ryddfrydedd mawr i'r rhai o farnau Esgobyddol, cystal ag i eraill, trwy oddef iddynt gynnal eu haddoliadau ar gyfer ei ddrws ef ei hun, er bod y gyfraith yn eu gwahardd, yr hyn a brawf ei fod ef yn deall ac yn pleidio rhyddid cydwybod bron yn gyfartal i'w gydwladwr Milton. Rhoddai y rhan fwyaf o'r bywioliaethau oedd dan ei awdurdod, fel Isganghellydd a Deon y Brifysgol, i Bresbyteriaid, er ei fod yn llwyr argyhoeddedig er ys tro bellach, fel y gwelsom, mai Annibyniaeth yw gwir drefn eglwys yn ol y Testament Newydd. Dygwyd nifer lïosog o wŷr o'r enwogrwydd mwyaf i fynu yn y brifysgol yn ystod swyddogaeth y Dr. Owen, megis John Locke, William Penn (y Crynwr), y Dr. South, Syr Christopher Wren, y Dr. Whitby, Anthony Wood, Launcelot Addison, a llu eraill o rai mwy anhyspys.

Cymmerth rhyw nifer o glerigwyr y cyfundeb Annibynol yn Llundain yn eu penau, ryw bryd yn nechrau 1658, i alw cyfarfod ynghyd yn y ddinas i lunio math ar Gyffes Ffydd i'r enwad, dan yr enw "Datganiad Unedig o'u Ffydd a'u Trefniadau," a chymmerth y Dr. Owen ran arbenig yn y symmudiad. Anfonwyd cylchlythyr, yn ol penderfyniad y cyfarfod hunan-etholedig hwnw, at eglwysi Annibynol Lloegr a Chymru, yn eu gwahodd i anfon cenhadon i gyfarfod cyffredinol a gynhelid yn Savoy, yn Llundain, ar y 29fed o Fedi canlynol. Ymgynhullodd tu a dau gant, o du a chant o eglwysi, ynghyd o rai a elwid yn "gynddrychiolwyr yr eglwysi," i'r cyfarfod hwnw erbyn y diwrnod appwyntiedig, a pharhasant i ymgyfarfod yn ddyddiol hyd y 12fed o'r mis canlynol, Hydref. Holl gynnyrch eu cynhulliad anysgrythyrol oedd llyfryn bychan a'i enw "Datganiad Savoy," yn cynnwys yr un egwyddorion athrawieuthol bron yn hollol a "Chyffes Westminster," tra'r oedd y drefn eglwys a fyntimid ynddo, wrth reswm, yn wahanol. Dywedir mai y Dr. Owen oedd awdur y rhagymadrodd, â'r hwn y cydsyniai pawb oedd yn bresennol. Ond er holl drafferth y gwŷr hyn, dangosodd yr Annibynwyr yn gyffredinol, trwy Loegr a Chymru, er eu clod, nad oeddynt hwy am ymostwng i gynlluniau a wnelid yn absennoldeb yr eglwysi, pa mor ddysgedig a duwiol bynag y gallai rhai o'r cyllunwyr hyny fod. O ganlyniad, syrthiodd "Datganiad Savoy" yn ebrwydd i ddinodedd, ac nid ystyriwyd ef byth yn safon ar unrhyw bwngc o athrawiaeth na disgyblaeth. Dadl yr eglwysi yn erbyn derbyn y "Datganiad" oedd, eu bod yn

Digitized by Google

credu mai y Testament Newydd ydyw unig Lyfr Cyfraith yr Eglwys Gristionogol; ei fod yn cynnwys cyfundrefn gyflawn a pherffaith o athrawiaeth, cystal ag o drefn a disgyblaeth eglwysig; a bod gan bob dŷn hawl naturiol i farnu drosto ei hun beth sydd wirionedd yn wyneb y Testament Newydd, gan mai drosto ei hun y bydd raid iddo sefyll neu syrthio yn y farn a fydd; o herwydd paham, nad oes angen am gredoau dynol i'r eglwys Gristionogol.* Ond rhaid i ni brysuro at ddigwyddiadau a llafur dirfawr y pedair blynedd ar hugain olaf o oes y duwinydd enwog a dysgedig hwn o'n cydgenedl.

Yn lled fuan ar ol marwolaeth Cromwel, gwysiodd Richard, ei fab, y Senedd ynghyd, yr hon a ymgyfarfu ar y 27fed o Ionawr, 1659; ac ar y 4ydd o'r Chwefror canlynol, galwyd y Dr. Owen i bregethu ger ei bron ar ddydd ympryd. Ar y 8fed o Fai, yr un flwyddyn etto, galwyd y Doctor i bregethu drachefn o flaen y Senedd; a dyma'r tro diweddaf y galwyd am ei wasanaeth gan Senedd Brydain. Ond, fel yr awgrymwyd o'r blaen, nid oedd ei wasanaeth i'r oesau dyfodol ddim yn agos ar ei hanner etto. Yn lled gynnar yn y flwyddyn hon (1659), cyhoeddodd y llyfr gwerthfawr a elwir, "Am Ddwyfol Darddiad, Awdurdod, Goleuni Hunan-brofedig, a Nerth yr Ysgrythyrau." Y mae'r llyfr hwn, fel un yn cynnwys y profion mewnol o wirionedd yr Ysgrythyrau, yn amhrisiadwy. Yn yr un flwyddyn etto, cyhoeddodd "Amddiffyniad i'r Ysgrythyrau Hebraeg a Groeg;" "Ymarferiad yn erbyn Crefydd Fympwyol;" "Gogoniant Cenhedloedd yn Proffesu yr Efengyl;" ac "Awdurdod Ynadon ynghylch Crefydd:" pump o lyfrau pwysig yn yr un flwyddyn, a honno yn flwyddyn dra helbulus i'r awdur athrylithgar a duwiol.

Cynhyddodd rhwysg y Presbyteriaid i'r fath raddau, rhwng marwolaeth Cromwel ac adferiad Charles II., nes cyfyngu llawer ar freintiau yr Annibynwyr; ac ar y 13ydd o Fai, 1660, rhyw bythefnos cyn i Charles gyrraedd Llundain o'r Cyfandir, diswyddwyd y Dr. Owen o fod yn Ddeon Eglwys Crist, Rhydychain, trwy bleidlais y Tŷ Cyffredin Presbyteraidd, ac adferwyd y Dr. Reynolds i'r swydd yn ol, yr hwn oedd Bresbyteriad. Dyna gyssylltiad y Dr. Owen â gwleidyddiaeth, ac â chrefydd wladol (beth arall ydoedd, yn oed yn amser Cromwel!) wedi darfod, ac nid ydym ni yn cwyno o blegid y digwyddiad. Yn ebrwydd ar ol hyn, ymneillduodd y Doctor i Stadham, ei ardal enedigiol, lle yr oedd wedi prynu etifeddiaeth. Arferai efe fyned yno, yn achlysurol, i bregethu yn ystod ei arhosiad yn Rhydychain, gan fod yno gynnulleidfa fechan o Annibynwyr, i'r hon yr ymrodd i bregethu ar ol ymsymmud i'r ardal; eithr ni chafodd heddwch i wneud hyny ond dros fyr amser, canys chwalwyd y gynnulleidfa yn fuan gan gartreflu Rhydychain, a gorfodwyd y Doctor i grwydro o fan i fan, dros amser, er mwyn dïogelwch. Mor drallodus a fu y flwyddyn 1660 i'r Dr. Owen fel nas gallodd gyhoeddi ond un llyfryn, a'i enw "Cynlyfr i Blant." Un llyfr hefyd a gyhoeddodd yn 1661; ond y mae hwnw yn un o'r rhai pwysicaf a ysgrifenodd yn ei oes, oddi eithr ei "Esponiad ar yr Hebreaid," ac y mae'n dra sicr iddo ysgrifenu llawer o hono yn y blynyddoedd blaenorol. Ei enw yw "Theologoumena Pantodapa: neu, ar Natur, Cyfodiad, Cynnydd, a Myfyrdod Gwir Dduwinyddiaeth." Yn Lladin yr ysgrifenwyd y llyfr hwn yn wreiddiol. Rhanodd y gwaith llafurfawr hwn yn chwech o lyfrau. I. Am Dduwinyddiaeth yn Gyffredinol. II. Duwinyddiaeth Gynddiluwiol. III. Duwiniaeth a Chynnydd Eulunaddoliaeth yn y Cyfnod rhwng Noah ac Abraham. IV. Duwinyddiaeth Abrahamaidd a Moesenaidd. V. Ymchwiliad i Lygredigaeth, Adnewyddiad, a Diddymiad y Dduwinyddiaeth Foesenaidd. VI. Duwinyddiaeth Efengylaidd, a'r Dull Priodol i'w Myfyrio. Dyna ddigon i arwyddo maint dysg, llafur, a gwerth y fath gyfansoddiad ardderchog.

Tu a diwedd y flwyddyn hon, neu ddechrau 1662, ceisiwyd cospi y Dr. Owen am bregethu mewn "cyfarfodydd anghyfreithlawn," fel y gelwid pob cyfarfodydd y pryd hyny ond eiddo yr Eglwys Sefydledig; ond gan nad oedd efe weithian yn dal un fywioliaeth eglwysig, barnwyd nad oedd gan y gyfraith afael arno; heb law bod ganddo gyfeillion dylanwadol, fel y Dr. Barlow, mewn swyddi o bwys dan y llywodraeth, y rhai a'i mawr hoffent o blegid ei ddysg, ei hynawsedd, a'i ddiniweidrwydd. Heb law hyny, cyhoeddwyd llyfr yn 1661 a'i enw "Fiat Lut: neu Ymddygiad Cyffredinol tu ag at Iawn Ddealltwriaeth rhwng Pabydd a Phrotestant, Presbyteriad ac Annibynwr." Gan John Vincent Cane, Mynach o urdd St. Ffrancis, yr hwn a ysgrifenodd lawer cyn hyny ar y dadleuon Pabaidd. Amcan y gwaith oedd ceisio profi mai yr unig feddyginiaeth i'r holl ddrygau a bair gwahanol syniadau crefyddol oedd

* Yr Ymneillduwr, gan H. Pugh, t. 4.

dychwel i fynwes yr Eglwys Babaidd. Yr oedd y llyfr hwn yn dra anghymmeradwy gan Edward Hyde, sef yr Arglwydd Clarendon, yr Arglwydd Ganghellydd ar y pryd, ac annogwyd ef gan rai o gyfeillion y Dr. Owen i anfon ato i ofyn iddo ei atteb; â'r hyn y cydsyniodd yntau ar unwaith, canys yr oedd y gwaith wrth ei fodd mewn llawer ystyr, fel y gallai gydsynio yn gydwybodol. Cyhoeddwyd atteb y Dr. Owen yn lled gynnar yn 1662, dan yr enw "Sylwadau Beirniadol ar Fiat Lut. Gan Brotestant." Rhoddes y llyfr yma y fath foddhâd i'r Canghellydd, yr hwn ei hun oedd yn ŵr tra dysgedig, fel y cynnygiodd swydd uchel i'r Doctor yn yr Eglwys Sefydledig, os cydsyniai â'i threfniadau gosodedig; a dïau mai uchel iawn y dyrchafasid ef, pe cydsyniasai. Ond, er ei fythol glod, efe a wrthododd; eithr mor foneddigaidd a gostyngedig fel y llwyr ddenodd y Canghellydd i'w hoffi. Dywedodd ei Arglwyddiaeth ei fod yn synu bod gŵr o'i ddysg a'i wybodaeth ef yn cofleidio egwyddorion newydd Annibyniaeth; i'r hyn yr attebodd y Doctor ei fod ef wedi treulio peth amser i ddyfod yn gyfarwydd â hanes yr Eglwys Gristionogol, a'i fod yn barod i brofi yn erbyn unrhyw esgob a bennodid gan ei Arglwyddiaeth i'w gyfarfod mai Annibyniaeth trwyadl oedd ffurf llywodraeth yr Eglwys yn yr oes apostolaidd, a thros lawer o oesoedd ar ol hyny; ac mai graddol iawn yr ymlygrodd i Esgobyddiaeth, ac o hyny i Babyddiaeth andwyol. Yna trodd yr ymddiddan at oddefgarwch crefyddol, ac ymadawsant yn bur gyfeillgar.

Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd y Dr. Owen "Dreuthawd ar Ffurf-wasanaeth." Nid ydym yn gwybod iddo gyhoeddi dim yn ystod y flwyddyn 1663. Tua diwedd y flwyddyn hon, cafodd y Doctor wahoddiad taer oddi wrth Eglwys Annibynol hynaf Boston, yn Lloegr Newydd, America, i fod yn olynydd i Cotton a Norton. Cefnogwyd y gwahoddiad gan lythyr parchus oddi wrth Lys Massachusetts, yn yr hwn y cymhellid ef yn daer i dderbyn yr alwad; ac ymddengys iddo gydsynio â'r gwahoddiad, ac i ran o'i ddodrefn gael ei ddodi ar fwrdd llong; a dywedir mai gorchymyn pendant oddi wrth Charles II. a'i llesteiriodd. Yn ystod y flwyddyn hon, cyhoeddodd Cane atteb byr i "Sylwadau Beirniadol" y Doctor; ac yn 1664, cyhoeddodd yntau "Amddiffyniad i'r Sylwadau Beirniadol ar Fiat Lut." Yn y gwaith hwn cymmer yr awdur galluog sylwedd yr holl ddadl Babaidd dan sylw, heb ymgyfyngu i atteb Cane; a dengys y gwaith fod yr awdur yn feistr perffaith ar holl fanylion y pwngc mewn dadl.

Cynhyddodd yr erlidiau yn Stadham i'r fath raddau o gylch y pryd hyn, fel nas gallai bregethu mwyach yn y lle hwnw; ac ymddengys na chafodd hamdden i ysgrifenu dim (o leiaf, ni chyhoeddodd ddim) yn ystod 1665 ac 1666, pan y symmudodd i Lundain, lle y bu fyw gan mwyaf yn anghyhoedd, gan bregethu pan gai gyfle a chaniatâd, yn yr ystafelloedd, neu bebyll, a gyfodwyd mewn gwahanol barthau o'r ddinas, ar ol y tân mawr a ddigwyddodd yno yn 1666, yr hwn a ddifaodd yr holl dai addoliad oedd yn y ddinas braidd, yn eglwysydd a chapelydd; a bu'r pla y flwyddyn flaenorol, a'r tân y flwyddyn hon, yn foddion i liniaru graddau ar orphwylledd yr erlidwyr. Yn y cyfamser, ysgrifenodd y Dr. Owen amryw dreuthodau pwysig, yn benaf er ceisio goleuo meddyliau yr erlidwyr, a lleddfu eu heiddigedd a'u creulondeb. Cyhoeddodd y ddau hyn yn ystod 1667:—"Ystyriaethau ar Oddefiad Crefyddol," a "Hedd-aberth, neu Ddadl dros Oddefiad;" ac yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd "Addysgiadau Byrion i Addoli Duw," ar ddull Catecism; a thraddodai amryw ddarlithiau hefyd, y rhai a wrandewid gan rai gwŷr o fri a dylanwad. Anghofiodd yr erlidwyr ddinystr erchyll y pla a'r tân yn lled fuan, a dechreuasant ail ymgynddeiriogi. O gylch y pryd hyn, aeth y Dr. Owen ar ymweliad at rai o'i hen gyfeillion ynghymmydogaeth Rhydychain; ac er iddo ymgadw mor ddirgelaidd ag y gallai, aeth y gair allan ei fod yn llettya yn y tŷ a'r tŷ, a bu o fewn dim i gael ei gymmeryd yn garcharor. Aeth mintai o wŷr meirch at y tŷ, gan ei amgylchynu, ac wedi curo'r ddôr, gofynasant am y Dr. Owen. Ymddygodd gwraig y tŷ atynt yn ol esampl Ruth gyd â'r yspïwyr, a dywedodd iddi ei glywed yn dywedyd yr âi ymaith yn forau iawn, ac nad oedd hi wedi ei weled ef mwyach. Felly, aeth y milwyr ymaith, a'r Doctor, yr hwn oedd etto yn ei ystafell wely, pan glywodd hyn, a gymmerth ei farch ar frys, ac a ddychwelodd i Lundain.

Yn y flwyddyn 1668, bu farw ei gefnder, Martyn Owen, y darllawydd enwog a aethai gyd âg ef ar fedr clywed Edmund Calamy yn pregethu, pan yr argyhoeddwyd ef gan bregeth y gŵr dïeithr oedd yn lle Calamy, a gadawodd iddo 500p. yn ei ewyllys, swm cyfartal i 1,666p. o'n harian ni, yr hyn, ynghyd â'r hyn a feddiannai o dir, ac a gaffai am ei gyfansoddiadau duwinyddol lliosog, a'i



Digitized by Google

gwnaeth yn annibynol. Gan nad oedd weithian yn "weinidog sefydlog" mewn un man, er y pregethai mor fynych ag y cai gyfle, cafodd fwy o hamdden i ysgrifenu, a gwnaeth y defnydd gorau o hono, fel y prawf y cyfansoddiadau llïosog a gwerthfawr a ysgrifenodd o hyn hyd ddiwedd ei oes lafurfawr. Yn ystod y flwyddyn hon, cyhoeddodd dri o lyfrau gwerthfawr, sef "Natur, Grym, Twyll, a Ffyniant Pechod mewn Credinwyr." Sylwedd cyfres o bregethau ar Rhuf. vii. 21 ydyw y gwaith hwn. Cymmer yr awdur lygredigaeth mewnol a chyffredinol dynoliaeth yn ganiataol, ac ymgyfynga yn hollol at y profiad a fedd credinwyr o'r ymdrechfa rhwng pechod a gras, yr hwn y maent yn wastad yn agored iddo. Dengys yr awdur adnabyddiaeth ddofn o ddrwg pechod a thwyll y galon ddynol. Y llyfr nesaf a gyhoeddodd y flwyddyn hon oedd "Esponiad Ymarferol o'r ddegfed Psalm ar hugain ar ol y ganfed."* Lled faith, amleiriog a gwasgarog ydyw y gwaith hwn. Yr oedd tuedd yn y Dr. Owen i wneud cyfundrefn gyflawn i bob gwaith, yr hyn oedd yn un o'i brif ddiffygion. Y gwaith olaf a gyhoeddodd y flwyddyn hon oedd y gyfrol gyntaf o'i "Esponiad ar yr Epistol at yr Hebreaid." Hwn yw yr helaethaf a'r gwerthfawrocaf o holl ysgrifeniadau y Dr. Owen, ar yr hwn y sylwir ychydig yn fanylach wedi iddo gael ei orphen.

Dau o'i gyfansoddiadau a gyhoeddodd y Doctor yn 1669, sef "Datganiad ac Amddiffyniad Byr i Athrawiaeth y Drindod." Amddiffyniad i olygiadau pur eithafol ar y Drindod ydyw y gwaith yma. Yn ystod y flwyddyn hon, cyhoeddodd Samuel Parker ei "Dreuthawd ar Lywodraeth Eglwysig," yn yr hwn yr enllibia yr Ymneillduwyr yn y modd mwyaf haerllug, gan heuru bod eu syniadau yn groes i heddwch a dïogelwch y llywodraeth wladol. Priodolir awdurdod a gallu diderfyn, braidd, i'r ynad gwladol mewn pethau crefyddol cystal a gwladol, ac y dylid ymostwng yn ddiwrthwynebiad i'w holl orchymynion. Attebodd y Dr. Owen hwn yn yr un flwyddyn, mewn treuthawd a alwodd efe "Gwirionedd a Diniweidrwydd yn cael ei Amddiffyn."

Pan ymgyfarfu y Senedd yn 1670, adnewyddwyd y ddeddf yn erbyn tai cyrddau yr Ymneillduwyr, a gosodwyd dirwyon yn erbyn y rhai a elent iddynt. Wedi iddi basio trwy Dŷ'r Cyffredin, dymunwyd ar y Dr. Owen ffurfio rhestr o resymau yn ei herbyn, y rhai a osodwyd ger bron Tŷ'r Arglwyddi, ac a bleidiwyd gan amryw wŷr o urddas; ond pleidleisiodd yr holl esgobion dros y ddeddf, oddi eithr Wilkins, Esgob Caerlleon; ac felly gwnaed hi yn gyfraith y tir, a mawr yr erlid creulawn a fu ar yr Ymneillduwyr mewn canlyniad dros yspaid cryn ddwy flynedd. Ni chyhoeddodd y Dr. Owen ddim gwaith yn ystod 1670, a dim ond un treuthawd yn 1671, sef "Ar Ddwyfol Osodiad y Sabboth." Ei amcan mawr yw cadarnhau awdurdod y Sabboth, ac egluro dyledswyddau a breintiau y dydd hwnw. Seilia y Doctor dysgedig ei syniadau a'i ymresymiadau ar y ddyledswydd o gadw y Sabboth ar yr Hen Destament yn benaf; olrhain y cyfarwyddiadau yn ei gylch yn fanwl trwy lyfrau Moses, y Psalmau, a'r Prophwydi; ac eglura y cyfeiriadau ato sydd yn y Testament Newydd yn feirniadol a dysgedig. Dyry eglurhâd helaeth a phur ofalus ar y cyfeiriadau at y diwrnod sydd yn Act. xx. 7; Rhuf. xiv. 5, 6; Gal. ii. 16, 17; a Dat. i. 10. Yn nechrau y flwyddyn hon, bu farw y dysgedig Charles Chauncey, prif athraw Coleg Havard, yng Nghaergrawnt, Gogledd America, a gwahoddwyd y Dr. Owen i fod yn olynydd iddo; ond nis gallai efe, pan yn 47 oed, feddwl am adael ei wlad.

Yn nechrau y flwyddyn 1672, gwelodd Charles II. fod y cyfreithiau blaenorol yn pwyso yn rhy drwm ar ei hoff gyfeillion Pabyddol; ac er mwyn lliniaru eu gofidiau hwy, rhoddes gyhoeddiad allan yn ei enw ei hun o Oddefgarwch i'r Ymneillduwyr, trwy yr hyn y caniateid iddynt gyfarfod i addoli ar y Suliau,† ar yr ammod iddynt appelio am drwydded at hyny. Mewn canlyniad i hyn, llïosogodd yr Ymneillduwyr gryn lawer yn fuan. Yn y cyfamser, sefydlodd yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid ddarlithfa gyfunol, i'w chynnal bob borau dydd Mawrth mewn lle a elwid Pinner's Hall, yn Llundain, lle y buwyd yn darlithio am dair blynedd yn erbyn Pabyddiaeth, Sosiniaeth, ac Anffyddiaeth. Y darlithwyr cyntaf oedd Owen, Manton, Bates, Baxter, Jenkins, a Collins. Yr oedd Baxter, a rhywrai eraill, o blaid i'r Ymneillduwyr fynychu yr eglwysydd gwladol; tra y dygai y Dr. Owen, ac Annibynwyr eraill, ns-

* Arwydda golygydd *Y Gwladgarwr* (cyf. vi., t. 196) bod y gwaith hwn wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac y mae rhyw adgof genym ninnau ei weled yn nhŷ ewythr i ni, tu a deng mlynedd a deugain yn ol; ond nid ydym sicr. Pa wedd bynag, nid yw Gwilym Lleyn yn son dim am dano yn *Llyfryddiaeth y Cymry*.

† Dichon mai ychydig sydd wedi sylwi na elwir "y dydd cyntaf o'r wythnos" mewn un man yn y Testament Newydd yn Sabboth; ond ceir y gair *Sul* unwaith yno, mewn cyssylltiad â gair arall, yn "Sulgwyn" (Act. xx. 16); a thybia rhai mai y "dydd cyntaf o'r wythnos" oedd hwnw.—Blwyddyn Eglwysig, gan Nicander, t. 123, nod *.

Digitized by Google

ymau cryfion yn erbyn hyny. Cyhoeddodd y Dr. Owen "Dreuthawd ar Gariad Efengylaidd" yn lled gynnar yn 1672, ac y mae ei olygiadau ar gariad ac undeb yn dra theilwng o ystyriaeth Cristionogion o bob plaid. Y mae yn nodi llygredigeuthau a diffygion eglwysi cenedleuthol, ond yn y modd rhyddaf oddi wrth ddrwg-deimlad; ac y mae'n dwyn rhesymau Ysgrythyrol cedyrn o blaid llwyr ymneillduo oddi wrthynt.

Bu farw yr enwog Joseph Caryl ar y 7fed o Chwefror, 1673, cyfaill neillduol i'r Dr. Owen, a "gweinidog sefydlog" i gynnulleidfa a ymgyfarfyddai yn Leadenhall Street, Llundain; a chan fod y ddau mor debyg o ran eu dull a'u hegwyddorion, cyttunwyd bod y ddwy gynnulleidfa i ymuno dan ofal y Dr. Owen. Cyfarfu y ddwy eglwys ynghyd y waith gyntaf ar y 5ed o Fehefin, 1673, a phregethodd y Dr. Owen iddynt oddi ar Col. iii. 13. Yr oedd y gynnulleidfa unedig yn cynnwys 171 o aelodau, ac yr oedd yn eu plith amryw wŷr urddasol, megis yr Arglwydd Charles Fleetwood, Syr John Hartopp; y Milwriad Desborough, brawd ynghyfraith Oliver Cromwel; y Milwriad Berry; William Steel, Dadleuydd Cyfreithiol; y Dr. Staines; y Milwriad Elliston; Richard Lardner, tad y Dr. Lardner; Syr Thomas Overbury; ac amryw o deulu Shute. Hefyd, yr Arglwyddes Abney; yr Arglwyddes Hartopp; yr Arglwyddes Vane Wilkinson; yr Arglwyddes Thomson; Iarlles Môn; a'r enwog Mrs. Bandish, wyres i Oliver Cromwel, yr hon oedd hynod debyg i'r Amddiffynydd o ran pryd a gwedd, cystal a nodweddiad cryf a phenderfynol. Yr oedd llawer o aelodau y Senedd a ymgyfarfu y flwyddyn hon yn dra ffyrnig o herwydd "Datganiad" y brenin o blaid yr Ymneillduwyr, a mynnent ei alw yn ol. Pasiwyd "Deddf y Prawflwon," yr hon a geuai yr Ymneillduwyr allan rhag dal un swydd o ymddiried dan y llywodraeth, ac adnewyddodd y llys ei llymder, trwy alw yn ol y trwyddedau a ganiatasid i weinidogion Ymneillduol, a thrwy gyhoeddi datganiad yn galw am roddi y gyfraith yn erbyn tai cyrddau mewn grym. Gorthrymwyd llawer o'r Ymneillduwyr yn greulawn mewn canlyniad; ond dihangodd y Dr. Owen yn rhyfedd mewn cymhariaeth i lïaws eraill. Priodolir hyn i'r gwirionedd ei fod yn adnabyddus i amryw wŷr enwog yn y wladwriaeth, megis yr Iarllod Orery a Môn; yr Arglwyddi Willoughby, Wharton, a Berkely; Syr J. Trevor, un o gyfrin-gynghorwyr y brenhin, ac amryw eraill. Gan fod y Dr. Owen yn lled wanaidd ei iechyd tu a dechrau 1674, aeth i ffynhonau Tunbridge er cael adnewyddiad; a phwy a ddigwyddodd fod yno ar y pryd ond y Duc Caerefrog. Cyn gynted ag y clywodd y Duc fod y Dr. Owen yno, anfonodd am dano, a bu yn ymddiddan yn hir âg ef yn ei babell ynghylch yr Ymneillduwyr a'r tai cyrddau. Ymddengys i hyn gael ei wneud yn hyspys i Charles II.; a phan ddychwelodd y Doctor i Lundain, anfonwyd am dano gan y brenin, a bu yn ymddiddan âg ef am gryn ddwy awr, gan ei sicrhau o'i ffafr, a dywedyd y byddai'r ffordd yn rhydd iddo fyned ato ar unrhyw adeg. Proffesai ei fod yn cydymdeimlo â'r Ymneillduwyr erlidiedig, ac, fel prawf o hyny, rhoddes fil o *ginis* i'r Doctor i'w rhanu ymhlith y dïoddefwyr yn ol ei ddoethineb, yr hyn a wnaeth yntau yn ffyddlon. Byddai John Bunyan yn myned i Lundain o gylch y pryd hyn yn lled fynych i bregethu, a dywedir y byddai'r Dr. Owen yn myned i'w wrando hyd y gallai. Dywedodd y Brenin Charles wrtho, ar ryw ymddiddan rhyngddynt, y rhyfeddai efe fod gŵr o'i ddysg a'i wybodaeth ef yn myned i wrando *tingcer*. I'r hyn yr attebodd y Doctor, "O rhynga bodd eich Mawrhydi, byddwn yn foddlawn i ymadael â'm holl ddysgeidiaeth er mwyn meddiannu doniau a dylanwad y *tingcer* hwn." Yn lled gynnar yn y flwyddyn hon, ymosododd y Dr. Sherlock yn bur chwerw ar dreuthawd y Dr. Owen ar "Gymmundeb â Duw," yr hwn a attebwyd gan y Doctor yn feistrolgar, yn ebrwydd, mewn treuthawd a alwodd efe "Amddiffyniad y Treuthawd ar Gymmundeb â Duw." Bu y ddadl yma yn foddion i gynhyrchu galwad helaethach nag o'r blaen am y gwaith cyntefig. Yn yr un flwyddyn etto, cyhoeddodd dri o lyfrau eraill, sef "Treuthawd ar yr Yspryd Glân," yr ail lyfr o'r "Esponiad ar yr Hebreaid," a threuthawd ar "Pa fodd i oddef Cerydd." Ni chyhoeddodd y Dr. Owen un gwaith yn 1673, na 1675; ond yn 1676, cyhoeddodd un treuthawd tra phwysig ar "Natur a Chosp Gwrthgiliad, yn cael ei ddatgan mewn Esponiad ar Heb. vi. 4–6." Y mae'r awdur yn cwyno yn irad yn y rhagymadrodd i'r llyfr hwn o blegid y sefyllfa isel y suddasai proffes grefyddol iddo. Ofnai bod llawer o broffeswyr yn grefyddwyr oerion, yn caru y byd presendol, ac yn amddifaid o rym duwioldeb.

Cafodd y Dr. Owen drallod chwerw iawn yn nechrau y flwyddyn hon, canys ar yr 28fed o Ionawr, 1676, bu farw ei wraig, mam i 11 o blant, fel y gwelsom, y rhai a gladdasid oll o'i blaen hi.

Digitized by Google

Gan ei fod mor amddifaid bellach, a'i iechyd yn prysur ddadfeilio o blegid ei ddirfawr lafur, darbwyllwyd ef gan amryw gyfeillion i ymofyn am "ymgeledd gymmwys" eilwaith; ac ym mis Mehefin, 1677, ac efe yn 61 oed, efe a briododd Mrs. Dorothy D'Oyly, gweddw Thomas D'Oyly, Ysw., o Chiselhampton, ger llaw Stadham, ardal ei enedigaeth. Yr oedd y wraig hon yn nodedig o ran ei synwyr, ei duwioldeb, a hawddgarwch ei thymmer; ac yr oedd yn perchen cyfoeth helaeth, yr hyn, ynghyd â'i feddiannau ei hun, a alluogodd y Dr. Owen i gadw cerbyd, ac i fyw mewn palas yn y wlad, yn Ealing, sir Middlesex, lle y preswyliai gan mwyaf ym mlynyddoedd olaf ei oes. Er trafferthion y briodas, a phethau eraill yn ystod y flwyddyn hon, medrodd gael hamdden i gyhoeddi un treuthawd a'i enw "Rheswm Ffydd." Dywedir yn gyffredin, gan fywgraphwyr y Dr. Owen a John Bunyan, ddarfod i'r Doctor, o gylch y pryd hyn, erfyn ar ei hen athraw, yr Esgob Barlow, ymdrechu cael rhyddhâd Bunyan o'r carchar, ac iddo lwyddo; ond nis gallwn ni gyssoni hyn âg amseryddiaeth. Carcharwyd Bunyan ar y 12fed o Dachwedd, 1660, a chafodd ei ryddhau, medd y Dr. John Edmond, "trwy gyfryngiad y Crynwyr; ac y mae ei enw yn y 'maddeuant cyffredinol' a basiwyd trwy gyngor y brenin ar ran carcharorion o'r syniad hwnw, a amserwyd y 13ydd o Fedi, 1672."* Ni wnaed Barlow yn esgob hyd 1675.†

Cyflwynodd y Dr. Owen ei amser bron yn llwyr o hyn hyd ddiwedd ei oes i ysgrifenu a chyhoeddi ei gynhyrchion. Yn 1678, cyhoeddodd "Yr Athrawiaeth o Gyfiawnhad trwy Ffydd;" a hefyd "Y Ffyrdd a'r Moddion i Ddeall Meddwl Duw." Yn 1679, "Christologia: neu Ddatganiad o Ogoneddus Ddirgelwch Person Crist, Duw a Dŷn;" ac "Eglwys Rhufain yn Annigonol." Yn 1680, "Ar Undeb ymhlith Protestaniaid;" "Amddiffyniad Byr i'r Anghydffurfwyr;" a'r trydydd lyfr o'r "Esponiad ar yr Hebread." Yn 1681, "Amddiffyniad yr Amddiffyniad Byr;" "Ymofyniad i Ddechreuad, Natur, Sefydliad, Awdurdod, Trefn, a Chymmundeb yr Eglwys Efengylaidd" (ni ddaeth yr *ail ran* o'r gwaith ardderchog hwn allan hyd 1688); "Tystiolaeth Ostyngedig i Ddaioni a Thoster Duw;" ac ar "Y Gras a'r Ddyledswydd o fod o Feddylfryd Ysprydol." Yn 1682, "Gwaith yr Yspryd mewn Gweddi;" ac "Ystafelloedd y Dychymyg." Ac yn 1683, "Hanes y Grefydd Brotestanaidd;" a'r rhan gyntaf o "Fyfyrdodau a Threuthodau ar Ogoniant Crist," yr hwn y dywedir iddo fyned i'r wasg ar y diwrnod y bu yr awdur enwog, dysgedig, a duwiol farw; ond ni chyhoeddwyd ef hyd y flwyddyn ddyfodol.

Heb law y 69 cyfansoddiad a nodwyd eisoes ynghorph y bennod hon, gadawodd y Dr. Owen 11 cyfansoddiad ar ei ol, yn barod i'r wasg, y rhai a nodir rhag llaw. Yr oedd iechyd y Dr. Owen, fel y gellid disgwyl, wrth ystyried maint digyffelyb ei lafur, wedi amharu cryn raddau er ys rhai blynyddoedd cyn iddo farw. Heb law ei ofal a'i bryder mawr dros achos teyrnas ei Arglwydd yn y byd, poenid ef yn dost gan ddolur y gareg, afiechyd sydd yn mynych ddilyn bywyd y myfyriwr caled a pharhaus; heb law y blinid ef yn fawr, tu a diwedd ei oes, gan ddiffyg anadl, ac anhwylderau eraill sydd dueddol i'r fath ddynion ymroddgar. Pa wedd bynag, cafodd lawer o gydymdeimlad ei frodyr Cristionogol yn y tymmor yma o'i wendid, a gwahoddid ef yn fynych gan foneddigion urddasol i dreulio ychydig amser gyd â hwy yn y wlad, yn enwedig gan yr Arglwydd Wharton, o Woburn, yn sir Buckingham, yr hyn oedd yn dra llesol iddo pan yngafael y gweuleddau a nodwyd. O gylch y pryd hyn, symmudodd y Dr. Owen o Kensington i bentref Ealing, ychydig filltiroedd pellach i'r wlad, lle yr oedd ganddo dŷ a meddiannau yn eiddo iddo ei hun, fel y crybwyllwyd; ac yno y trefnodd Rhagluniaeth iddo orphen ei yrfa ddeuarol. Fel yr oedd pen ei daith yn nesâu, yr oedd y golygiadau ar ei nefol gartref yn tywynu yn ddisgleiriach ddisgleirach ar ei feddwl yn feunyddiol. Ar y diwrnod cyn ei farwolaeth, treuthodd yr ymadroddion canlynol mewn llythyr at ei hoff gyfaill Charles Fleetwood:—

"Er nad wyf alluog i ysgrifenu un gair fy hun; er hyny yr wyf yn dra awyddus am ddywedyd ychydig eiriau wrthych etto yn y byd hwn, ac yr wyf yn gwneuthur hyny trwy law fy ngwraig. Y mae parhâd eich caredigrwydd mawr, yr hwn a uchel werthfawrogir genyf, yn fy sirioli hyd yn oed yn awr fy ymddattiad. Yr wyf yn myned at yr Hwn y mae fy enaid yn ei garu; neu yn hytrach, at yr Hwn a'm carodd i â chariad tragywyddol, yr hyn yw sail fy holl gysur a'm diddanwch. Y mae'r fynedfa yn dra helbulus a blinderus, o herwydd y poenau dirfawr yr wyf yn ddarostyngedig iddynt, y rhai sy'n terfynu oll mewn twymyn ddyspeidiol. Yr oedd pob peth wedi ei ddarpar i'm cludo i Lundain heddyw, yn ol cyngor fy meddyg; ond yr ydym oll wedi ein siomi o herwydd fy anallu hollol i ymgymmeryd â'r daith. Yr wyf yn gadael llong yr eglwys mewn tymhestloedd; ond tra bo'r Llywiwr Mawr ar ei bwrdd, ni bydd coll rhyw un is-rwyfwr distadl fel myfi ond y ychydig bwys. Byddwch fyw, a gweddïwch, a gobeithiwch, a disgwyliwch yn amyneddgar, ac na anobeithiwch.

* Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., pp. 803-4.
† Idem, vol. i., p. 386.

Digitized by Google

Y mae'r addewid yn gadarn ac ansigledig, na bydd iddo byth 'ein rhoddi i fynu, na'n llwyr adael ychwaith.' Yr wyf yn teimlo yn ofidus o herwydd anhwyldeb eich anwyl briod. Yr Arglwydd daionus a safo yn blaid iddi, ac a'i cynhalio, ac a'i gwaredo. Rhoddwch fy nghofion serchog ati, ac i'r gweddill o'ch perthynasau, y rhai sydd mor anwyl i mi yn yr Arglwydd. Cofiwch yn wresog am eich cyfaill sydd yn ymyl marw. Yr wyf yn hyderu y gwnewch hyn, ac ydwyf yr eiddoch yn llwyr," &c.

Y mae'r llythyr godidog a duwiolfrydig yna yn esponio ei hun, fel na wnai dim a ddyweder arno ond ei gymmylu. Trannoeth ar ol ysgrifeniad y llythyr uchod, aeth ei gyfaill Payne i ymweled a'r Dr. Owen, i'r hwn yr ymddiriedasai efe ddygiad allan ei "Fyfyrdodau ar Ogoniant Crist," i'w hyspysu bod y gwaith wedi ei ddodi yn y wasg. Yna y Doctor, gan ddyrchafu ei ddwylaw a'i lygaid, megis mewn pêr-lewyg, a ddywedodd:—

"Y mae'n dda genyf glywed; ond O! frawd Payne! y mae'r diwrnod y maith hireuthais am dano wedi dyfod o'r diwedd, pan y caf weled Gogoniant Person y Cyfryngwr yn fil eglurach nag y gwelais ef, ac nag y gallaswn ei weled, yn y byd darfodedig hwn."

Cyn nos yr un diwrnod, y 24ydd o Awst, 1683, ehedodd ei yspryd mawreddog i fynwes y Gŵr bendigedig y myfyriodd gymmaint "ar ei ogoniant," i'w weled fel y mae, ac i fod byth yn debyg iddo. Symmudwyd ei gorph o Ealing i Lundain, ac ar y 4ydd o Fedi, claddwyd ef ym mynwent Bunhill-fields, i'r lle y dilynwyd ef gan 67 o gerbydau pendefigion a bonedd, ynghyd â llawer o alar-gerbydau, a gwŷr cyfrifol ar feirch. Traddodwyd ei bregeth angladdol y dydd cyntaf o'r wythnos ganlynol, gan Dafydd Clarkson, oddi ar Phil. iii. 21. Cyfodwyd cofadail hardd ar ei fedd, ac arni gerfiad Lladin helaeth o waith Thomas Gilbert, yn mynegi amryw ragorieuthau a rhinweddau yr ymadawedig. Bu ei ail wraig rinweddol, yr hon oedd yn llawer ieuengach nag ef, fyw hyd y 18fed o Ionawr, 1704; ac ar y 30fed o'r un mis, traddodwyd ei phregeth angladdol gan yr enwog Dr. Watts.

Yr oedd y Dr. Owen, pan yn ei flodau, yn dalach braidd na chyffredin, ac o ymddangosiad boneddigaidd a mawreddog; ond tu a diwedd ei oes, yr oedd yn crymu gryn lawer. Yr oedd ei wynebpryd yn ddifrif-ddwys a hawddgar yr olwg, a'i lais yn addfwyn a pherorol. O ran ei foesau ymarferol, yr oedd yn hynod o lariaidd, cyfeillgar, siriol ac ymddiddanol; ond yr oedd yn dra gofalus am lywodraethu ei ymadroddion a'i dymherau, yn enwedig gwylltineb, balchder, a hunan, pethau oedd yn atgas yn ei olwg.

Gadawodd y Dr. Owen lawer o gyfansoddiadau pwysig ar ei ol, fel y crybwyllwyd eisoes, heb eu cyhoeddi, ond yn barod i'r wasg, y rhai a nodir yma. Yn 1684, y flwyddyn gyntaf ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd y pedwerydd llyfr, a'r olaf, o'i "Esponiad ar yr Hebreaid." Hwn ydyw y gwaith heleuthaf a gwerthfawrocaf o'i holl gyfansoddiadau. Ystyrir bod yr Epistol at yr Hebreaid yn un o'r rhanau mwyaf pwysig a dyrys yn y Testament Newydd. Y mae'r pyngciau yr ymdrinir â hwynt ynddo yn nodedig o ddyddorol, a'r dull yr ymdrinir â hwynt gan yr ysgrifenydd sanctaidd yn peri bod graddau anghyffredin o wybodaeth yn Ysgrythyrau yr Hen Destament, yn enwedig yn llyfrau Moses, ynghyd â chraffder beirniadol, yn anhebgorol angenrheidiol er ei ddeall yn drwyadl a'i egluro yn briodol. Y mae llawer o ysgrifenwyr galluog, hen a diweddar, Pabyddol a Phrotestanaidd, wedi bod yn myfyrio yr Epistol hwn, ac wedi ysgrifenu yn helaeth arno; ac y mae rhai o'u cyfansoddiadau yn wir werthfawr, a chydnabyddai y Dr. Owen hyny yn rhyddfrydig: er hyny teimlai ef fod rhywbeth ychwaneg yn angenrheidiol, a dïau fod ynddo ef gymmwysderau arbenig i wneud y diffyg a ganfyddai i fynu. Yr oedd ef, nid yn unig yn ddŷn duwiol iawn, ond hefyd wedi cyfoethogi ei feddwl â dysgeidiaeth dduwinyddol o'r fath ehangaf, ac yr oedd y meddwl hwnw wedi ei addfedu gan amser a phrofiad, a'i ehangu gan olygiadau tra eglur ar holl gynllun y Datguddiad Dwyfol. Ar fyr, yr oedd yn meddu pob manteision a allai dduwioldeb dwfn, cynheddfau cryfion, dysgeidiaeth helaeth, a diwylliad cymdeithasol coethedig, eu rhoddi iddo tu ag at ddeall ac egluro y rhan ddwyfol yma o'r Ysgrythyrau Sanctaidd; a gwnaeth yntau y defnydd gorau o'r cyfan.

Y mae rhagdraith y gwaith hwn, yn annibynol ar yr esponiad ei hun, yn gyfarwyddyd tra gwerthfawr i gael allan ystyr rhanau eraill o'r Bibl Cyssegr-lân. Gellir ystyried yr esponiad hwn megis yn driphlyg, sef fel eglurhâd ar gyfran neillduol o'r Ysgrythyr; fel corph o dduwinyddiaeth ddadleuol; ac fel cymhwysiad ymarferol o'r Gwirionedd Dwyfol. Fel eglurhâd ar yr Epistol pwysig hwn, ystyrir ei fod yn nodedig o ran cywirdeb ei ddehongliadaeth, a'r dull cydwybodol y mae'r awdur wedi ymdrechu olrhain meddwl yr ysgrifenydd sanctaidd. Ceir yn y gwaith gryn lawer o ddadleuaeth, yn enwedig ar Iuddewiaeth a Sosiniaeth; ond y mae tuedd ymarferol yr holl waith yn rhoddi gwerth arbenig iddo. Y mae

Digitized by Google

duwioldeb, cystal a dysgeidiaeth, yr awdur yn eglur ar bob tudalen o hono. Er bod y gwaith yn driphlyg, a chyssylltiadau agos rhwng ei wahanol ranau; etto y mae wedi ei gyfansoddi yn y fath fodd fel y gellir darllen yr amrywiol ranau ar wahân. Fel hyn, gall y beirniad, yr esponiwr, a'r Cristion syml, y naill fel y llall, gael rhywbeth yn cyfatteb i'w chwaeth, ac yn ymarferiad i'w ddeall. Wedi i'r awdur orphen y gwaith mawr hwn, dywedodd, "Y mae fy ngwaith yn awr ar ben: y mae'n amser i mi farw." Arwydda hyn yr ystyriai yr awdur ef y pwysicaf o holl gyfansoddiadau lliosog ei oes; ac felly yn ddiau yr ydoedd, ac y mae yn cael ei ystyried hyd heddyw ymhlith safonau duwinyddiaeth esponiadol. Cynnwys y gwaith saith o gyfrolau 8plyg trwchus, yr hyn sy'n achos o'i gadw ymhlith dosparth neillduol o ddarllenwyr duwinyddol.* Y Dr. Wm. Rees, yn ei annerchiad "At y Darllenydd," sydd o flaen ei brydferth a threiddgar "Nodiadau Eglurhaol ac Ymarferol ar yr Epistol at yr Hebreaid," a ddywed am yr "Esponiad" dan sylw fel hyn:—

"Nid oedd esponiad anghymharol yr anfarwol Dr. Owen gan yr awdur pan yr ysgrifenai ei nodiadau; ond y mae'n awr [1865] yn ei feddiant, a gwnaeth beth defnydd o hono wrth barotôi y gyfrol hon i'r wasg, fel y gwêl y darllenydd. Yr oedd y sylw dibrisiol a wna Moses Stuart ar waith Owen wedi creu mesur o ragfarn ym meddwl yr awdur tu ag ato; ond wedi iddo gael y gwaith, ac edrych ychydig i mewn iddo, symmudwyd y rhagfarn hwnw yn llwyr o'i feddwl yn fuan, a chred yn awr nad oedd Stuart ei hun, er yr holl barchedigaeth a delir i'w ddysg a'i graffder beirniadol, ond corach yn ymyl cawr, pan y'i cymherir â'r hen Buritan, a chymmeryd pob peth gyd â'u gilydd dan ystyriaeth. Y tebycaf i Paul ei hun, fe ddichon, o holl dduwinyddion yr Eglwys Gristionogol, o ran ei "ddeall yn nirgelion Crist," oedd y Dr. Owen; a chredwn mai ei Esponiad ef ar yr Epistol at yr Hebreaid a gymmeradwyai Paul ei hun, fel y gorau o'r holl rai a ysgrifenwyd arno, pe ceffid cyfleusdra i ofyn ei farn ar y matter."

Y cyfansoddiadau eraill a barotoisid i'r wasg gan y Dr. Owen, ac a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth, yw y rhai canlynol:—"Ar Lywodraeth Pechod a Gras," 1688; "Gwir Natur Eglwys Efengylaidd," 1689; yr ail ran o "Fyfyrdodau ar Ogoniant Crist," 1691; "Dwy Ddarlith ar Waith yr Yspryd," 1693; "Tystioleuthau Ffydd Etholedigion Duw," 1695; "Dwy ar bymtheg o Bregethau," 1720; "Ar Gydymffurfiad Addoliadau," 1720; "Pregethau a Threuthodau," 1721; "Tair Pregeth ar ddeg," 1756; "Pump ar hugain o Ddarlithiau ar Swper yr Arglwydd," 1760. Cyhoeddwyd holl waith y Dr. Owen mewn 28 o gyfrolau 8plyg trwchus, gan R. Baynes, Llundain; ond dywed y Dr. Eadie mai yr argraphiad gorau o'i holl waith ydyw yr un a gyhoeddwyd yn Edinburgh, yn 1856, a'r blynydoedd dilynol. Terfynwn ein pennod ar y Cymro enwocaf hwn o "Enwogion y Ffydd," yngeiriau y "Gwyddoniadur Brytanaidd,"† fel y canlyn:—

"O holl brif arweinyddion y Puritaniaid oedd yn cyd oesi âg Owen, efe oedd y cymhwysaf o honynt i ymgymmeryd âg achosion cyhoeddus. Yr oedd ynddo gyfuniad nodedig ac anghyffredin o'r cymmwysderau sy'n gwneuthur dŷn yn arweinydd mewn cymdeithas, ac yn oed yn wladweinydd galluog. Byddai Baxter, gyd â'i yni cyffrous, yn arwain ei gyfeillion i anhawsderau; neu, o herwydd ei hoffder o ymddadlau a gwahanieuthu rhwng y naill beth a'r llall, byddai efe yn rhesymu ac yn damcanu, pan y dylasai fod yn gweithredu. Yr oedd Howe yn hoffach o fyfyrdod tawel nag o weithio ei ffordd ym mlaen trwy amgylchiadau bywyd cyhoeddus. Owen oedd y llywiwr, at yr hwn yr edrychid pan y tybid bod argoelion yn ymddangos bod tymmestl ger llaw. Fel meddyliwr ac awdur duwinyddol, y mae Owen yn cadw ei le priodol ei hun ymhlith y cawri deallol oedd yn byw yn yr oes hynod honno. Rhagorai Baxter arno mewn teimlad a grym appeliadol, a Howe mewn darfelydd ac athroniaeth o'r fath uchaf; ac nid ydyw yn meddu tynerwch Flavel, na dillynder naturiol Bates; ond y mae'n ddigyffelyb yn ei allu i ddwyn meddwl y Bibl i'r golwg, i gael allan drysorau anhyspyddadwy y mwnglawdd Ysgrythyrol y gweithia ynddo, ac i arddangos cyssondeb a chyssylltiadau gwahanol ranau yr Ysgrythyrau: mewn gwneud gwaith dehonglydd Biblaidd, y mae'n un ymhlith mil. Prin y mae un pwngc o fewn terfynau maes ehang yr Ysgrythyrau, nad ydyw wedi ysgrifenu treuthawd arno sydd wedi goroesi dwy ganrif o amser; ac y mae ysgrifeniadau y Puritan cadarn a diysgog yma yn parhau, hyd yr awr hon, yn ystordai arfau, i ba rai y cyrcha dadleuwyr diweddar i ymarfogi. Arferai Owen ddarllen pob peth ym mlaen llaw, yn enwedig ysgrifeniadau ei wrthwynebwyr, ar y pwngc y bwriadai ysgrifenu arno; a phan eisteddai i gyfansoddi, efe a lwyr ddyhyspyddai ei destyn, heb adael i awdur arall a geisiai ei ddilyn gymmaint a lloffion ynghonglau y maes."

## PENNOD XI.

### Y DOCTOR GEORGE GRIFFITH A VAVASOR POWEL.

George Griffith, D.D. Y mae cryn amrywiaeth yn ffynnu ynghylch teulu, amser, a man genedigaeth y gŵr enwog hwn. Dywed Anthony Wood iddo gael ei eni yn y Penrhyn, ger llaw Bangor, sir Gaernarfon, ar y 30fed o Fedi, 1619.‡ Browne Willis hefyd a ddywed iddo gael ei eni yn yr un fan, ond ar y 30fed o Fedi, 1601. Y mae amser ei dderbyniad i Rydychain, ac amser ei farwolaeth, yn dangos mai yr amseriad olaf sydd gywir; ond dywed ei gydwladwr a'i gydoeswr, yr Esgob Humphrey Humphreys, yn ei "Ychwanegiadau at Wood's Athenæ Oxoniensis," mai "trydydd mab oedd y Dr. George Griffith i Robert Griffith, o'r Gareg-Llwyd, a brawd undad unfam y Dr. William Griffith, Canghellydd Bangor a Llanelwy.

* Y Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 181.

† Encycl. Britannica, s.v. Owen, John, D.D.

‡ Wood's Athen. Oxon., vol. ii., p. 270.

Digitized by Google

Ganwyd ef yn Llanfeuthlu, sir Fon.* Yr oedd yn ŵr dysgedig, crefyddol, a gwir ddaionus."† Fe allai mai yr achos i'r estroniaid, Wood a Willis, dybied mai mab y Penrhyn oedd George Griffith oedd, o herwydd mai Griffith oedd cyfenw hen berchenogion y Penrhyn cystal a'r Gareg-Lwyd; a dichon eu bod yn geraint i'w gilydd hefyd. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Westminster, a'i ethol yn Fyfyriwr o Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1619,‡ lle y daeth yn athraw ac yn bregethwr enwog. Wedi cael ei wneud yn gaplan y Dr. John Owen, Esgob Llanelwy, § rhoddes iddo berigloriaeth Llanfechain, yn sir Drefaldwyn, yr hon a newidiodd yntau am Lanymynech, ar derfyn yr un sir. Yr oedd hefyd yn berson Llandrinio, yn y sir honno. Yn 1631, cafodd ganoniaeth Llanelwy; ac yn 1635, graddiwyd ef yn D.D. Yr oedd yn wrthwynebydd egnïol i'r Weriniaeth; ac yr oedd yr un mor ffyrnig yn erbyn i neb bregethu ond urddedigion yr Eglwys Sefydledig. O ganlyniad, yr oedd yn elyn calon i'r pregethwyr teithiol oedd yn tramwy y wlad i bregethu y gair, ac i geisio efengyleiddio y bobl, megis Walter Cradoc, Ambrose Mostyn, ac yn enwedig Vavasor Powel. Er hyn i gyd, gan ei fod yn ŵr dysgedig, yn bregethwr doniol, ac yn bur ei foesau, nid ymddengys iddo gael ei droi o'r Eglwys, ond y cafodd fwynhau bywioliaeth Llanymynech, o leiaf, trwy ystod y Weriniaeth. Tra yr oedd efe yn byw yn y plwyf hwn, efe a ysgrifenodd lyfr Saesneg, a'i enw, yn ol Browne Willis,—

"Atteb llednais i Heriad hyf Pregethwr Teithiol, Vavasor Powel, yn 1652."

Ymddengys i ddadl gyhoeddus, ar lafar, gymmeryd lle rhwng y Doctor a Powel yn fuan ar ol cyhoeddi y llyfr uchod; ac mewn nodiad o waith "Pwyllgor Cymdeithas Treuthodau Crefyddol Bangor," ynglŷn â hanes y Dr. Griffith, gan Browne Willis, sydd o flaen pregethau y Doctor ar Weddi yr Arglwydd (t. vi.), dywedir mai y "Cwestiynau a gynhygiwyd gan Powel i ddadlau arnynt oedd y rhai canlynol, (1) 'Pa un ai eich galwedigaeth chwi, ai yr eiddom ni (yr hon y llefarwch chwi gymmaint yn ei herbyn) sydd fwyaf awdurdodol, a nesaf at Air Duw?—(2) Pa un ai eich ffyrdd cymmysg chwi, ai yr eiddom ni, o ymddidoliad, sydd nesaf at Air Duw.'" Cyhoeddodd Vavasor Powel hanes y ddadl bersonol ar y pyngciau yna yn lled fuan ar ol iddi ddigwydd, mewn llyfr Saesneg a alwodd efe, o'i gyfieithu,—

"Rhag. 27. Cywir a Pherffaith Ddyddiadur." 1652.

Yn ystod y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd y Dr. Griffith atteb i'r llyfr yna, mewn llyfr Saesneg, enw yr hwn, o'i gyfieithu, sydd fel hyn:—

"Sylwadau ar adroddiad amherffaith yn y Dyddiadur Perffaith, rhif 138, Bug. 2. bl. 1652, yn cynnwys Hanes Dadl rhwng Dr. Griffith a Vavasor Powel ger llaw y Capel Newydd yn sir Drefaldwyn, Gorph. 2, 1652. Llundain, 1653."

Ymddengys i'r ddadl derfynu gyd â hwn, canys nid oes hanes i Vavasor Powel gymmeryd sylw mwyach o'r Dr. Griffith. Dywed Willis i Vavasor Powel, yn 1653, fyned i roi bywiolieuthau y glerigaeth yn sir Drefaldwyn dan orfodogaeth, pan y llosgwyd Persondy Llangadfan hyd y llawr gan y gwrthryfelwyr. Dywed Gwilyn Lleyn i bersondy y Dr. Griffith gael ei losgi;‖ ond nid oes hanes i bersondy Llanymynech gael ei losgi, a gwyddys mai yno, ac nid yn Llangadfan, y preswyliai y Dr. Griffith. Mewn cymmanfa eglwysig, a gynhaliwyd yn 1640, cynhygiodd y Dr. Griffith am argraphiad newydd o'r Bibl Cymraeg; ac o gylch yr un amser, debygid, y dechreuodd gyfieithu "Y Llyfr Gweddi Gyffredin" o'r newydd i'r Gymraeg; ond trodd y naill a'r llall yn fethiant, a hyny, ond odid, o herwydd y terfysgoedd oedd yn y dyddiau hyny, a bychander dylanwad yr offeiriadaeth eglwysig. Dywed Wood a Willis fod ganddo law ynghyhoeddiad 31 o bregethau o waith William Strong (gynt darlithiwr yn Westminster), mewn cyssylltiad â'r Anghydffurfwyr, John Howe a Thomas Manton; ond dywed Palmer mai Anni-

* Ar randir y Gareg-Lwyd, lle y ganwyd y gŵr hwn, o fewn hyd cae i'r palas, y saif Eglwys Llanfeuthlu.

† Williams's Em. Welshm., p. 568.

‡ Ymddengys mai yr amseriad yma a roddes Wood i'w enedigaeth.

§ Mab hynaf oedd y Dr. John Owen yma i Owen Owen, ail fab Owen ap Robert, o Fodsilin, ymhlwyf Aber, sir Gaernarfon. Yr oedd ei dad, O. Owen, yn Archddiacon Môn, ac yn beriglor Burton Latimers, yn sir Northampton, lle y ganwyd John Owen yn 1580. Cafodd ei addysg athrofaol yng Nghaergrawnt, lle y daeth yn gymmrawd o Goleg Iesu, a chymmerth y radd o D.D. Appwyntiwyd ef yn gaplan i Charles I. cyn iddo esgyn i'r orsedd, ac yn 1618 gwnaed ef yn berson Burton Latimers. Pan fu farw yr Esgob Hanmer, cyssegrwyd J. Owen yn Esgob Llanelwy ar yr 20fed o Fedi, 1629, ar annogaeth y brenin, o blegid ei haniad Cymreig, a'i fawr ysgolheigdod, trwy lawn gydsyniad yr Archesgob Laud, gan yr hwn y mawr edmygid ef. Dewiswyd ef o flaen dau eraill, y rhai y methai yr Archesgob benderfynu yn iawn pa un o honynt oedd deilyngaf. Treuliodd lawer o'i gyflog esgobol i adgyweirio ac addurno yr Eglwys Gadeiriol, ac yn 1635 dododd organ newydd yn yr Eglwys; ond ymddengys mai y gymmwynas benaf a wnaeth i'r trigolion oedd sefydlu pregethu Cymraeg yn eglwys plwyf Llanelwy yn 1630. Dioddefodd lawer pan dorodd y rhyfel gartrefol allan; ac fel un o'r esgobion gwrthdystiol, bwriwyd ef i'r Tŵr, a gorfodwyd ef i dalu 500p. fel cyfrandal o'i waddolion eglwysig. Bu farw yn Abercinsi, ger llaw Llanelwy, ar yr 16fed o Hydref, 1651, a chladdwyd ef dan orsedd yr esgobion yn yr Eglwys Gadeiriol, heb un math o gerfiad coffadwriaethol am dano.—Williams's Em. Welshm., p. 879.

‖ Llyfr. y Cymry, t. 233.

Digitized by Google

bynwr o Lundain, a'i enw George Griffith, a chyfaill mynwesol i'r Dr. Owen, oedd y G. Griffith hwnw.

Gan fod y Dr. Griffith yn bleidiwr mor wresog i'r "Brenin a'r Eglwys," gwobrwywyd ef yn ebrwydd, ar ol esgyniad Charles II. i'r orsedd, âg Esgobaeth Llanelwy, i'r hon swydd y cyssegrwyd ef ar yr 28fed o Hydref, 1660, yng Nghapel Harri VII., yn Westminster. Daliodd hefyd ei fywioleuthau blaenorol dan ymddiried, at y rhai yr ychwanegodd archddiaconiaeth Llanelwy a bywioliaeth segur Llanrhaiadr ym Mochnant, o herwydd yr hyn y beir ef yn llym yn oed gan yr haneswyr eglwysig eu hunain; ond ymddengys bod yr hen esgob yn penderfynu gwneud i fynu y golled a gawsai yn ystod y Weriniaeth! Cydsyniodd hefyd yn effeithiol, yn y gymmanfa eglwysig a gynhaliwyd yn 1662, i gynllunio a threfnu "Deddf yr Unffurfiad," ac i wneud rhyw gyfnewidiadau yn "Y Llyfr Gweddi Gyffredin" a gyhoeddwyd y pryd hwnw. Tybir hefyd mai efe a gyfansoddodd "Ffurf Bedydd rhai mewn Oedran Addfetach," yr hon y tybiai yr Eglwyswyr bod mawr angen am dani yn y dyddiau hyny, gan fod llïaws mawr heb fedydd o fath yn y byd, ac o ganlyniad heb "adenedigaeth," yn ol barn llawer o honynt; "canys," medd Gwilym Lleyn, "yr oedd llawer wedi eu magu yn Grynwyr, a Gwrthfedyddwyr Babanod, yn ystod y Weriniaeth; ac yn awr, rhai o fodd a rhai o anfodd, yn dychwelyd yn ol i'r Eglwys, fel y gwelwyd yn angenrheidiol cyfansoddi gwasanaeth i'r perwyl, a'r hwn ni bu nemawr o arferyd arno byth ar ol hyny." Yn 1664, cyhoeddodd y llyfryn canlynol:—

"Egwyddorion y Grefydd Gristionogol yn gynnwysedig mewn Catechism Byrr."

Catecism y Gymmanfa Bresbyteraidd ydyw'r llyfr hwn, ac mewn cyssylltiad âg ef y mae "Credo St. Athanasïus," "Credo Nicea," ac "Articlau neu Byngciau," sef "Y namyn un deugain Erthyclau Crefydd" Eglwys Loegr. Rhwng y "Credoau" yna a'r "Articlau," y mae tudalen yn cynnwys ymadrodd Lladin o'r ystyr yma:—"Dyma gyfieithiad Cymraeg o Erthyclau Ffydd a Chrefydd a dderbyniwyd yn unfryd yn Eglwys Loegr, wedi eu cymharu yn ofalus â'r argraphiadau Lladin a Saesneg, gan Geo. Llanelwy." Gwelir wrth hyn bod y Dr. Griffith (canys efe oedd y "Geo. Llanelwy" yna) yn cymmeradwyo cyssylltu Articlau y Presbyteriaid âg Articlau yr Eglwys Sefydledig yn yr un llyfr!

Dywed Wood a Willis bod "Yr Esgob Griffith wedi ysgrifenu rhyw Dreuthodau eglur *ar Swper yr Arglwydd*, 1684, yn 12plyg."* Ond "Pwyllgor Treuthodau Crefyddol Bangor" a ddywed, yn eu cyflwyniad o'r trydydd argraphiad (1806) o "Bregethau Byrion" y Dr. Griffith ar "Weddi yr Arglwydd," i'r "Gwir Anrhydeddus Richard Arglwydd Penrhyn," yr hwn argraphiad sydd ger ein bron, bod yn sicr "mai Gweddi yr Arglwydd, ac nid y Sacrament, oedd testyn y '*Treuthodau Eglur*' y dywedir yma [yn yr ymadrodd uchod] iddynt gael eu cyhoeddi yn 1684, yn 12plyg." Cadarnheir y Pwyllgor yn y farn yma gan y gwirionedd "bod bywgraphwyr yr Esgob yn ddistaw am y Treuthodau *hyn* [ar Weddi yr Arglwydd]. Ymddengys mai yn ystod yr hamdden a fwynhaodd y Dr. Griffith tra yn ei Esgobaeth yn Llanelwy y cyfansoddodd efe y pregethau hyn ar "Weddi yr Arglwydd," ac iddo eu traddodi yn Saesneg, fel y tybir, cystal a Chymraeg; a dyma yr unig waith Cymraeg o'i gyfansoddiad a gyhoeddwyd, hyd yr ydys yn gwybod. Gellir casglu oddi wrth annerchiad William Foulkes† "At y Darllenydd," sydd o flaen yr argraphiad Cymraeg o honynt, fel y ceir gweled yn ebrwydd, i'r Esgob Griffith, tu a diwedd ei oes, roi y pregethau hyn iddo ef, gan awgrymu yr hoffai iddynt gael eu cyhoeddi, er mwyn i'w gydwladwyr eu "darllain yn fanwl, ac ymarferu yn gydwybodus yn ei ôl."

Bu farw yr esgob, yn bur ddedwydd, ar yr 28fed o Dachwedd, 1666, yn 65 oed; a chladdwyd ef yng Nghôr Eglwys Gadeiriol Llanelwy, a dodwyd cofadail ar ei fedd yn lled fuan ar ol ei farwolaeth, yn cynnwys cerfiad Lladin helaeth. Bu iddo chwech o blant, sef un mab a phump o ferched. Priododd y mab ferch ac etifeddes y Parch. Gruffydd Pears, periglor Nannerch, sir Fflint. Un o'i ferched a briododd John Middelton, Ysw., o Waunynog, ger llaw Dinbych; un arall a briododd John Edwards, LL.D., person

* Dyma'r sylw gwreiddiol:—"Bishop GRIFFITH wrote some plain Discourses *upon the Lord's Supper*, 1684, in 12mo."

† Mab oedd y William Foulkes yma i'r Parch. John Foulkes, yr hwn a drüed o fywioliaeth plwyf Llanfyllin yn amser Gweriniaeth Brydain, dan amddiffyniad Cromwel. Yr oedd Foulkes wedi cael personoliaeth Llanfihangel yng Ngwynfe gan yr Esgob Owen; ac y mae'n debyg iddo gael Llanfyllin gan yr Esgob Griffith, yn un peth, o blegid i'w dad ddïoddef cymmaint oddi wrth y Gwerinwyr, naill ai am ei fod yn anfedrus fel pregethwr, yn anfoesol, neu yn frenhinwr cyndyn a therfysglyd. Heb law hyny, y mae'n amlwg fod gan yr Esgob Griffith feddwl pur uchel am W. Foulkes, fel y prawf ei waith yn ymddiried ei bregethau iddo; ac yr oedd yntau yn meddwl yn fawr iawn am yr esgob. Bu farw W. F. o gylch 1691, ymhen 25 mlynedd ar ol yr Esgob Griffith, a chladdwyd ef wrth ddrws yr eglwys, lle yr oedd careg â cherfiad coffadwrieuthol am danc hyd yn ddiweddar.—Llyfr. y Cymry, t. 232.

Digitized by Google

Llanymynech, a Changhellwr Llanelwy; un arall a briododd — Griffith, Ysw., o Fron y Garth; ac un arall a briododd Mr. Foster, llyfrwerthwr yng Nghaerlleon. Ni ddywedir pa un ai priodi ai marw yn sengl a wnaeth ei bummed merch; ond dywedir mai Mr. Price, o'r Glyn, a Mr. Davies, o Drewylan, a briodasant ei wyresau o Waunynog.*

Yn 1685, ymhen 19 mlynedd ar ol i'r Esgob Griffith farw, cyhoeddodd y William Foulkes crybwylledig ei bregethau Cymraeg dan yr enw canlynol:—

"Gweddi yr Arglwydd wedi ei hegluro mewn amryw ymadroddion, neu Bregethau Byrion. O waith y Gwir Barchedig Dâd Geor. Griffith, D.D. Diweddar Esgob Llanelwy. Printiwyd yn y Theater yn Rhydychain 1685."

Yn ei annerch "At y Darllenydd," dywed W. Foulkes am y pregethau hyn a'u hawdur fel y canlyn:—

"ANRHYDEDDWYD fi, flynyddoedd tuntu, a gweini (mewn perthynasau crefydd) i Awdwr tra-pharchedig y Gwaith sydd yn canlyn, ac ym mysg llaweroedd o bethau eraill o'i feddwl, a welodd efe yn dda eu datguddio i mi, bu hyn yn ûn; Na fynnai efe ddim cyflawniad o'i eiddo ei hun (neu i neb arall) ddyfod i'r amlwg, er mwyn cynnal coffadwriaeth am dano. Ymddigonodd efe a bod Ei 'farn gyda'r Arglwydd, a'i wobr gyda ei Dduw.' Nid wyf bellach *lafasus*† (pe bawn deilwng) i ymhelaethu ynghylch ei ddoniau rhagorawl Ef, ei gelfyddyd a'i ddiwydrwydd ym mhob rhan o'i swydd sanctaidd, ei ffyddlondeb i Eglwys Dduw, a'i Frenin (pan fu dostaf arnynt yn ein hoes ni;) ei aml rinweddau da eraill ef, a chanmoladwy, a'i raddau ysprydol, ei ymddygiad o'r addasaf ym mhôb lle, a chyflwr y trefnwyd Ef ynddynt, a'u dyrchafasant i fod yn Dâd cyffredinol ac anrhydeddus i'r Esgobaeth hon (na allasai neb arall ei haeddu, a'i hurddo yn well yn ei amser) ac a'u cymhwysasant Ef i fod yn siampl odidog i eraill, ac i gael ei hun (nid oes ronyn o ammau gennyf fi) 'Ran o etifeddiaeth y Sainct yn y goleuni.' Gwybydd gan hynny mai'r unig ddiben o osod allan y llyfr (yn dy olwg di) ydoedd, i ymegnio, er dyfod a gogoniant i Dduw, trwy dy leshad di oddiwrtho: ewyllysiodd, yr hwn sydd yn siccr, ganddo gwbl awdurdod i'm gorchymyn ymmhob peth cyfreithlawn a gonest, i mi wneuthur fy egni (er i mi gyfaddaf wrtho mai llesg iawn fyddai) i'w gymmell ef i'th gymmeriad da di, i'w ddarllain gennyt yn fanwl, ac i ymarferu yn gydwybodus ar ei ôl; wedi bwrw o honof pa wedd yr yspyswn fy ymgais tuag at yr unrhyw, ni ddaethum o hŷd i fodd gwell, (yn fy nhyb i) na rhoddi peth cyfrif i ti, o gyfarwyddyd yr Athraw yn ei alwedigaeth, a'i ymddygiad trwyddi: Gŵyr llaweroedd o barthau eraill (heb law Gwynedd trosti i gid) mai 'Scrifenydd ydoedd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd,' abl 'Er dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hên.' Os yn y rhain (o'th flaen di) ni ddanghosodd Efe eithaf ei ysgolheigdod, Dirnad, mai ei iselu ei hun a wnaeth at synniad yr anneallus, a bod (pe ceit gyfranogi o honynt) laweroedd iawn o Bregethau (mewn iaith arall) a'th ddifyrrent, a'th leshâent (er maint a allo dy wybodaeth di fod eusys) ac a ddeuent a thi i gydnabod, iddo Ef lefaru yn ei ddyddiau (gyda rhai o'r rhai pennaf) megis *Oraclau Duw*. Dywaid wrthyf ŵr tra-dysgedig, ag urddasol (etto yn fyw) a fuasai yn hîr yn Blwyfol iddo, Na chlywsai Efe erioed Bregeth ganddo, nad ydoedd gymmwys i'w hadrodd yn yr un o'r ddwy *Fam yscol yn lloegr*, Bu'r Athraw parchadwy hwn mor 'ddyfal yn ei weinidogaeth,' a phe buasai gorchymmynion St. Paul at Timotheus, wedi eu tueddu atto Ef ei hun yn unig 'Glŷn wrth ddarllein, wrth gynghori, wrth athrawiaethu, Nac esgeulusa y dawn sydd ynot, myfyria ar pethau hyn, aros (neu bydd) ynddynt.' Os dydd, os rhan dda o hîr nôs, yr ymofynnid am dano (pan fyddai feistr ar ei amser) ym mysg ei Lyfrau, ag ynghylch ei orchwyl, yr oedd taro wrtho. Ni laccaodd Efe fymryn ar ei ofal-boen, a'i astudrwydd hyd ei *ddiwaethaf*, eithr parhaodd yn 'Was ffyddlon,' fel un 'doeth, a osododd ei Arglwydd ar ei deulu i roddi bwyd iddynt, mewn pryd, a'i Arglwydd (i'w wynfydwch anhraethadwy) pan ddaeth, a'i cafodd yn gwneuthur felly.'" . . .

Terfyna yr awdur y llith yma "at y darllenydd" fel y canlyn:—

"Llanfylling, *Mawrth* 2, 1684.

"Diffuant ddeisyfwr dy lwyddiant
yn y Bŷd hwn, a'th gyflawn
ddedwyddwch yn y nesaf,
WILLIAM FOULKES."

Y mae'r pregethau byrion hyn yn 22 o nifer, ac y maent yn cyflawn atteb i ganmoliaeth uchel W. Foulkes iddynt. Y maent yn nodedig o eglur, difrifol, ac Ysgrythyrol; ac y maent yn esponiad rhagorol ar y weddi fer a ddysgodd ein Harglwydd bendigedig i'w ddisgyblion.‡ Gan fod y pregethau hyn weithian yn bur brinion, yn gymmaint a bod yr argraphiad diweddaf o honynt bellach dros 71 oed, credir y bydd esampl o honynt yn dderbyniol gan ein darllenwyr yn gyffredinol. Testyn y pregethau hyn yw Luc xi. 1–4, a Mat. vi. 13, y rhan olaf o'r adnod:—

"PREGETH I.

"PENNAF peth mewn gwir grefydd yw gweddi. Ysgol y nefoedd, aberth y crefyddol, noddfa y cyfiawn, ffrewyll y cythraul, dyfodfa at Dduw, offer iechydwriaeth. Am hyny, yr hwn o'i fawr drugaredd a fu wiw ganddo gymmeryd gofal a dioddef tros ein heneidiau, a gymmerth arno fod yn Athro i ni, a'n dysgu i weddio. Nid oes hayach§ un yn ein plith na fedr ddywedyd Gweddi'r Arglwydd, ac na wyr mai yr Arglwydd ei hun a'i dysgodd. Ond nid yw y rhan fwyaf ysywaeth, ond yn ei ddywedyd, heb iawn ddeall pa beth y maent yn ei ddywedyd. Y mae ganddynt y plisgyn heb ganfod y cnewyllyn; y mae ganddynt y gist heb wybod pa fath drysor sydd o'i mewn; y mae ganddynt y geiriau heb amgyffred y meddwl. Gwybyddwn gan hyny mai am bobloedd yr oes hon hefyd y mae Duw yn achwyn drwy'r prophwyd, 'Nessau y mae y bobl hyn attaf a'u genau, a'm anrhydeddu a'u

* Wood's Athen. Oxon., vol. ii., p. 270; a quotation from Willis's Survey of St. Asaph, prefixed to Griffiths's Sermons, ed. 1806, p. v.; Williams's Em. Welshm., p. 181; Llyfr. y Cymry, t. 232; Y Gwyddoniadur, cyf. v., t. 152.

† Llyfasus—anturiol, hyderus.

‡ Prin y mae "Gweddi yr Arglwydd" yn enw priodol ar y weddi ddwyfol hon, canys gweddi a ddysgodd yr Arglwydd i'w ddisgyblion ydyw hon. Dichon y byddai'r gair *Pader* yn enw mwy priodol ar hon na "Gweddi yr Arglwydd," gair yn tarddu o'r gair cyntaf yn y weddi yn Groeg a Lladin, sef *Pater*, Tad. Y mae genym amryw o weddïau byrion ein Harglwydd ei hun yn y pedair Efengyl; ond ei brif weddi ef yw Ioan xvii.

§ Haiach—odid, braidd.



Digitized by Google

gwefusau, a'u calon sydd bell oddiwrthyf.' Esai xxix. 13. Matth. xv. 8.

"Rheittiaf peth i'r neb a fynnai fod yn grefyddol a fyddai dysgu, nid y geiriau, yn unig, ond deongliad y weddi sanctaidd hon; a'r rheswm a'r defnydd sydd ynddi. Gweddi gynhwysol yw, yn amgyffred* cymmaint oll ag a all dyn ddeisyf ar law ei Dduw; yn gystal er lles y corph a'r enaid, yr holl bethau a berthyn i'r byd yma, ag i'r byd a ddaw, pethau daearol a phethau nefol; y maent i gyd wedi eu cynnwys yn grynnol, yn y ferr weddi yma. Yr hon fel y gallom ei hesponio yn eglurach, a myned rhagom yn ddirwystr, ystyriwn yn fy nhestyn (y pedair adnod yma) dri pheth.

"1. Yr achlysur. 'A bu ag efe,' &c., adn. 1.

"2. Y Gorchymmyn, 'Ac efe a ddywedodd,' &c. adn. 2.

"3. Y Weddi ei hun. 'Ein Tad yr hwn wyt,' &c.

"Yr un gorchymmyn a'r un weddi a roesai ac a ddysgasai ein Iachawdwr o'r blaen i'w ddisgyblion ac i'r holl bobloedd. Math. vi. 9. 'Gweddiwch chwi fel hyn,' ond wrth achlysur amgen mewn man ac amser arall. Yna yn ei bregeth enwog ar y mynydd; yma yn rhyw fan neillduol, ar ol iddo beidio a gweddio; yna gwedi iddo ddangos ac argyhoeddi ragrith y Phariseaid, y rhai a weddient yng nghonglau yr heolydd, fel yr ymddangosent i ddynion; y rhai fyddent siaradus fel y cenhedloedd, gan dybied y caent eu gwrando am eu haml eiriau. Y mae yn dysgu gochelyd eu camsyniad a'u hamryfusedd hwy: 'Na fyddwch chwi gan hyny debyg iddynt hwy,' adn. 8. 'Gweddiwch chwi fel hyn,' adn. 9. Yma wrth ddymuniad un o'i ddisgyblion'r hwn oedd yn ceisio canlyn esampl ei feistr. Ar ol iddo beidio, y mae'r disgybl yn amcanu dechreu. 'Dysg i ninnau, medd efe, weddio fel y dysgodd Ioan i'w ddisgyblion; Ac efe a ddywedodd wrthynt, pan weddioch dywedwch *Ein Tad*, &c. Ac nid oedd efe yn gofalu nac yn eiriol trosto ei hun, ond tros ei gymdeithion, a throsom ninnau i gyd ei ddisgyblion oll hyd ddiwedd y byd. Dysg i *ni*, nid i *mi* yn unig. Ac am hynny y mae Crist hefyd wrth atteb yn gorchymmyn nid iddo ond iddynt hwy i gyd, ac i ninnau ar eu hôl, 'Pan weddioch, dywedwch,' nid dywed ti, &c.

"Hæc cura omnium animos tangere debet ut sciant quomdo Deus inter precandum sit alloquendus.'=' Y gofal yma a ddylai fod ymmhob enaid dyn, gael gwybod pa fodd y gallai lefaru wrth Dduw, un ddoeth, Hollalluog.' Pan fyddo neb o honom yn ceisio cymmwynas neu garedigrwydd ar law gwr arall, chwychwi a wyddoch pa mor ofalus y bydd efe ar drefnu ei ymadrodd, a gofyn yn weddus. A pha mwya fo'r gŵr, mwya fydd yr ofn, arswyd a chyfyng-gyngor yr eiriolwr, rhag iddo ddywedyd dim a allai fod yn anfoddlon gan y pendefig hwnw. Tan weddio yr ydys yn cyd-ymddiddan a Duw ei hun, Brenin y Brenhinoedd, a phenllywiawdr y creaduriaid ôll, yr hwn y mae'r angylion yn ei foliannu, ac o flaen pa un y mae nerthoedd y byd yn brawychu, ac yn dychrynnu. Pa ddyn gwael a ryfygai agoryd ei enau yn ei wŷdd [ŵydd?] ef? Am na's gall neb creadur ddychymmyg ymadroddion addas i'w fawrhydi ef. Ein tad Abraham oedd yn anheilwng i lefaru wrth Dduw, am nad oedd ond llwch a lludw: Gen. xviii. 27. Moses, yn ei esgusodi ei hun, sy'n dywedyd wrth Dduw, ei fod yn ddienwaededig o wefusau: Ecs. vi. 12. A'r prophwyd Esai yn dolefain, 'Gwae fi, canys darfu am danaf, o herwydd gwr halogedig ei wefusau ydwyf fi, ac ym mysg pobl halogedig o wefusau yr ydwyf yn trigo; Canys fy llygaid a welsant y Brenin, Arglwydd y lluoedd:' Esai vi. 5.

"Os fel hyn y dywedent y seinctiau hynny am danynt eu hunain, y rhai a elwid yn gyfeillion i Dduw. Iago ii. 23. pa beth a ddywedwn ni, gwaelaf pridd o'r byd a thruanaf o bechaduriaid? Pa hyfder a allai fod genym i godi ein llygaid tu a'r nef, i nessau at Dduw, i agor ein gwefusau halogedig wrtho, oni buasai i'n trugarog Gyfryngwr beri i ni ddyfod atto, a dysgu i ni weddio, a phan weddiom, ddywedyd fel hyn, 'Ein Tad,' &c.

"Y mae rhai yn wir yn ein mysg yn gweddio, fel y Phariseaid gynt trwy ragrith yn sefyll yn y Synagogau, ac yng nghonglau yr heolydd, fel yr ymddanghosont i ddynion: Yn wir meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr: hynny yw, y maent yn cael y peth y maent yn eu geisio, yn cael eu gweled gan ddynion, nid eu gwrando gan Dduw. Y mae rhai yn siaradus megis y cenhedloedd, yn gwneuthur hir weddiau, gan dybied y cânt eu gwrando am eu haml eiriau.†

"Eraill megis prophwydi Baal, yn gwaeddi â llef uchel.† 1 Bren. xviii. 28. A Duw yn ddiystr ganddynt. Nid llef na'r golwg, ond y galon y mae efe yn ei cheisio, yn ei gweled ac yn ei clywed.

"Gweddio yn wir sydd raid: ac hynny'r oedd y disgybl yma yn ei ystyried, wrth ei weled ef yn gweddio; yr hwn nid oedd raid iddo mo'r gweddio cymmaint er ei fwyn ei hun; ond erom ni, i eiriol trosom, ac i ddangos i ni esampl o ufudd-dod, a gostyngeiddrwydd, a'n dyledswydd tu ag at ein Duw. A gofyn sy rwydd i bawb; y neb a wypo fod dim eisiau arno, a gais yn ebrwydd ei ddiwallu. Eithr am nas gall y dyn anianol wybod ei ddiffygion ysprydol, a phes gwyddai, ni fedrai mo'r gofyn yn y modd y dylai; o herwydd hynny y mae'r disgybl defosiynol yma yn ceisio gan y Gwir Athro, Crist Iesu, ein dysgu pa bethau a fyddent angenrheidiol i'w gofyn, a pha fodd y gofynom, i fod yn gymmeradwy ger bron Duw. Dysg i ni weddio. Dyma'r ddysgeidiaeth oreu, a'r anhawsaf yn y byd, yn yr hon yr amlygir rhagor-fraint Cristionogion, nid amgen medru gofyn y peth a fynnent yn dduwiol, a chael gan dduw y peth a geisient.

"Ac am y weddi a ddysgwyd i ni ar yr achlysur yma, mae i ni hyn o oglyd ynddi, y gallwn trwy ei hiawn-ddeall a'i harfer fyned yn hyderus at orsedd-faingc y gras, 'fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom râs yn gymmorth cyfamserol.' Heb. iv. 16. Canys diammau gennym gael ein gwrando, pan weddiom ar ôl yr addysg yma, gan fod y neb a ddysgodd i ni y weddi yn ei derbyn; Ein haddysgwr yw ein Dadleuwr, 'yr hwn hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni.' Rhuf. viii. 34. A hyn nid yw anaddas i ddal sylw arno, yn y matter yma, o blegid i'n hiachawdwr Crist, gwedi iddo ddysgu'r bobl a'i ddisgyblion yn ei bregeth y flwyddyn gyntaf o'i weinidogaeth, pa fodd y gweddient, agos i dair blynedd gwedi, ar ddymuniad y Disgybl, oblegid, meddaf, iddo atgofio yr un geiriau, gan roi i ni yr un gorchymmyn, a'r un weddi eilwaith, heb osod, neu grybwyll am un ffurf arall; wrth hynny y mae i ni ddysgu, na bô rhaid i ni bob dydd, ar bob tro, a phob amser, ymgeisio ar ddwyn gweddiau newydd gyd â ni; ac na bydd ein gweddi ddim gwaeth, nac yn anghymmeradwy gan Dduw er mynyched yr adroddir yr un ffurf ar eiriau, drwy na bo dim mewn ffordd arall yn ddiffygiol. Ac wrth hyn y gwyddom fod y weddi sanctaidd hon wrth fodd yr Arglwydd; a pho mynychaf y dywedir hi trwy râs a ffydd yn ein calonnau, mwyaf fydd ein clôd, a'n budd, a chyssur ein heneidiau.

"Megis ac y dysgodd Ioan i'w ddisgyblion. Felly y bydd siamplau gwyr da yn cyffroi ein meddyliau. Yn athrawiaeth Ioan y mae'r ddysgeidiaeth hon yn dechreu; tystiolaethasai Ioan am yr Iesu, ac y mae'r Iesu a'i ddisgyblion yn dwyn tystiolaeth iddo ynteu. Yr oedd y disgybl yma yn gweled yn dda, ddarfod i Ioan ddysgu i'w ddisgyblion weddio, a hynny a barodd iddo geisio gan yr Iesu yr un peth; hynny a wnaeth i'r Iesu yr ail waith draddodi i ni hyn o ddysgeidiaeth am weddio. Hwy y pery gweithred nag ymadrodd; gwell y cofir y peth a wnelir nag a ddywedir.

"Am y gweddiau, y sut a'r modd, a ddysgodd Ioan, fe a'u hanghofiwyd hwy er ystalm; nid oes mo'u llun

* Cynnwys.

† Y mae'n debyg fod yma gyfeiriad at yr Ymneilldnwyr.

Digitized by Google

na'u hanes mewn llyfr na lle yn y byd. Gwedi i'r Iesu ddysgu i ni ei weddi gwbl-berffaith ei hun, nid oedd raid wrthynt mwyach. Ni fydd mor ymorol am ganwyll ar ôl codi'r haul i'r uchelder. Felly y mae Crist ei hun yn dywedyd am Ioan, 'Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn goleuo.' Ioan v. 33. A'r prophwyd yn galw Crist yn haul cyfiawnder, 'Haul cyfiawnder a gyfyd i chwi, a meddyginiaeth yn ei esgyll.' Malaci iv. 2. A rhan nid anhynod o'r feddyginiaeth hon o weddïo. Canys drwy hyn y mae i ni gael gan Dduw y pethau a fyddont angenrheidiol. A gweddi y cyfiawn un o esgyll Haul cyfiawnder yw; Aden i'r enaid, ar yr hon y mae iddi esgyn i'r nefoedd, ac ymddangos ger bron gorsedd-faingc y Goruchaf."

Dyna'r gyntaf o'r ddwy bregeth ar hugain dyddorol hyn; eithr nid yw'r bregeth hon, a'r ail, ond math ar arweiniad i gorph y gwaith. Y drydydd bregeth sy'n dechrau treuthu ar y Pader, "y weddi ei hun." Prif benau, neu byngciau, y bregeth honno yw y rhai canlynol:—

"(1.) Y rhagymadrodd, yn yr hwn yr ysbysir ni ar bwy y mae i ni weddio, *Ein Tad*, &c.

"(2.) Y gofyniadau, yn dangos ac yn cynnwys pa bethau y mae i ni weddio am danynt.

"(3.) Y diwedd [yr amcan], yn dangos ein dyledswydd, nid amgen, rhoi moliant i'n Tad nefawl am yr holl bethau daionus yr ydym yn eu gofyn a'u cael ar ei law."

Eglurhâd buddiol ac ysgrythyrol ar y tri phwngc yna, mewn iaith gyffredin a dealladwy, fel yr esamplau uchod, yw y pedair pregeth ar bymtheg dilynol, o'r 3edd hyd yr 21fed; a chymhwysiad, mewn iaith gyffelyb, o'r cyfan yw y bregeth olaf, yr 22fed.* Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r pregethau buddiol hyn yn y flwyddyn 1716, a thrydydd argraphiad, fel y crybwyllwyd, yn 1806; a byddai yn anrhydedd i'n gwlad pe cyhoeddid *pedwerydd* argraphiad o honynt, canys y maent yn anhreuthol ragorach, mewn ystyr grefyddol, os nad llenorol hefyd, na lliaws o bethau a ddarllenir yn yr "oes olau hon." Ar y cyfan, yr ydym yn ystyried yr Esgob Griffith, er caethed Esgobeuthwr a Brenhinwr ydoedd, yn ddigon teilwng i gael ei restru ymhlith "Enwogion y Ffydd" perthynol i'r Cymry, canys fe ddichon, ond odid, ei fod ef mor gydwybodol a'i wrthwynebydd tra galluog a goleuedig, y gwir enwog

## VAVASOR POWEL.

Er y tybir bod cryn 16 mlynedd rhwng oedran yr Esgob Griffith a Vavasor Powel; etto, gan i gymmaint o drafodaeth fod rhyngddynt pan yn preswylio y blaned ddeuarol hon, a bod braidd yn ddifyr genym ni geisio uno gwŷr galluog o wahanol farnau, heb law y credwn bod y ddau hyn wedi hen gyttuno â'u gilydd bellach, tybiwn bod yn ddigon priodol eu cyfleu yn yr bennod.

Ganwyd Vavasor Powel yn y Cnwcglas,† sir Faesyfed, yn y flwyddyn 1617; a dywedir ei fod o ochr ei dad a'i fam yn perthyn i rai o'r teuluoedd parchusaf yn siroedd Maesyfed, Maldwyn, a'r Mwythig.‡ Cafodd fanteision addysg o'i febyd, yn gyntaf yn ei ardal enedigol, ac wedi

* Gan fod y cymhwysiad crybwylledig mor hynod o bwysig a dyddorol, credir y bydd y difyniad canlynol o hono yn bur gymmeradwy, fel nodiad yn y lle yma:—

"*Am hyny.* Gwedi ystyried a mynegi dwys ddefnydd yr holl weddi, trown etto ennyd i edrych ar yr achos a barodd i'n Iachawdwr ei gosod yn esampl, neu batrwm, a pha fodd y mae i ni ei chanlyn a'i hiawn arfer. Yr achos a ddangosir yn y rhan gyntaf o'r bennod, sef camarfer y Phariseaid a'r cenhedloedd wrth weddïo; y rhain yn siaradus a'r lleill yn rhagrithus. Am hyny y mae ein Iachawdwr yn peru i ni ochelyd arferion pob un o'r ddau. 'Na fyddwch debyg iddynt hwy,' adn. 8. Ac yn dangos pa fodd y gwnawn ni hyny, gan roddi i ni, megis cofrestr o'r pethau a ddylem ni weddïo am danynt; a phatrwm, neu esampl, o'r sut a'r modd y ceisiem hwynt gan ein Tad nefol: 'Gweddïwch chwi fel hyn.' . . . .

"Ar ol ystyried defnydd y weddi, ei dosparthu, a'i chymmeryd bob yn ddarn, gyd â'r cymmalau a'r dysgeidieuthau neillduol, gadewch i ni bellach edrych arni yn ei chyflawnder, fel y gosodir hi yn bortreiad perffaith o dduwioldeb, ac y gallom lunio ein holl weddïau ar ei hol. . . . .

"Prif bwrpas y weddi, a'r mwyaf lles i ni oddi wrthi ydyw, er cynborthwy a chyfeiriad i'n deisyfiadau tu ag at Dduw bob amser, ac ar bob achlysur; eithr yn gymmaint nad oes haiach mor gyfarwydd a medru hyny, nid amgen, dodi eu cyfeiriadau priodol wrth y rheol gyffredinol, rhai a welant yn dda ddangos i'r annysgedig yn arbenig y modd a'r sut y gallant drefnu eu holl ddeisyfiadau ar ol y cyfarwyddiad hwn, eu cyfaddasu i'r amseroedd, y borau, yr hwyr; amser iechyd, clefyd, hawddfyd, adfyd, &c.; a phob math ar achosion. Y borau, cyn dechrau pob un ei orchwyl yn ei alwedigaeth, attolyged i Dduw,

"1. Roddi iddo ras i geisio ei anrhydedd ef, a'i ogoniant, ymhob peth ar a gymmero arno ei wneuthur. Meddylied am gyngor yr Apostol yn 1 Cor. x. 31; a gwnaed ei orau drwy geisio gras i'w gyflawni. Hyn ydyw, 'Sancteiddier dy enw.'

"2. Ar iddo reoli ei galon drwy ras, a llywodraethu ynddi, a chyfeirio ei draed i ffordd tangnefedd, a'i feddyliau trwy ei Yspryd Glân, a'i air bendigedig i bob gwirionedd. Hyn yw, 'Deued dy deyrnas.'

"3. Ar iddo ei nerthu i wneuthur ewyllys yr Arglwydd gyd â phob parodrwydd, ffyddlondeb, a llawenydd; ac nid ei ewyllys ei hun un amser. Ymofyned am ei waith, ac ymosoded ar ei wneuthur; ond meddylied nad oes na grym na gallu ynddo i wneuthur dim ond a roddo yr Arglwydd iddo. Ceisied yntau, a dyweded, 'Bydded dy ewyllys ar y ddaear.'

"4. Arched i Dduw beru iddo ymddiried yn ei ragluniaeth a'i ragddarbod ef yn unig, heb fod yn rhy ofalus am bethau bydol, a berthynant i'r bywyd presennol; gan feddwl am gyngor a gorchymyn yr Arglwydd yn Mat. vi. 25, a dyweder, 'Dyro i ni heddyw,' &c.

"5. Attolyged iddo ei wneuthur yn wir ostyngedig, i gydnabod ei gyflwr llygredig, a bod yn edifeiriol am ei holl bechodau; i fod yn garedigol tu ag at bawb o'i frodyr; a gallu dywedyd yn ddifrifol ac o eigion ei galon, 'Maddau i mi, O Dduw trugarog! fy holl bechodau, a dyro i mi ras i fod yn ewyllysgar ac yn barod bob amser i faddau i'm cymmydogion, gan fwrw ymaith chwerwedd, a llid, a chynfigen, a dig, a chabledd, gyd â phob drygioni: fel y gallom fyw yn ol cyngor yr Apostol, 'Byddwch gymmwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddau i'ch gilydd, megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau,' Eph. iv. 32.

"6. Arched iddo ei nerthu yn erbyn profedigeuthau, fal na orchfyger ef gan un demtasiwn, y cnawd, na'r byd, na'r cythraul. Gweddïed Dduw, ar iddo ledu ei adenydd trosto, a'i gadw rhag pob drwg, yn enwedig ar iddo gadw ei enaid. Fel hyn y gwneir hi yn foreuol weddi."

Cyffelyb ydyw ei sylwadau treiddgar a'i gyfarwyddiadau dwysion at gymhwyso'r weddi ddwyfol hon at yr amrywiol achosion a digwyddiadau eraill a noda efe, megis "at yr hwyr, at amser iechyd, clefyd, hawddfyd, adfyd; a phob math ar achosion, negesau, blinder, llwyddiant, a'r cyffelyb;" a therfyna trwy ddefosiynol ddifynu y weddi ei hunan, "Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd," &c.

† Bu ei deidiau yn byw yno am gannoedd o flynyddau o'i flaen. Yr oedd ei fam yn un o'r Vavasoriaid, dynion o hynafiaeth ac urddas, yn perthyn yn wreiddiol i sir Gaerefrog. Dywedir ei fod o ochr ei dad a'i fam yn hanu o rai o'r teuluoedd mwyaf urddasol yng Ngogledd Cymru.

‡ Enw tad yr Anghydffurfiwr enwog oedd Richard Powel.

Digitized by Google

hyny yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y cynhyddodd yn gyflym mewn adnabyddiaeth o ieithoedd, ac mewn canghenau craill. Wedi dychwel o Rydychain, bu yn cadw ysgol mewn lle a'i enw Clun, yn sir y Mwythig, gan wasanaethu fel curad i'w ewythr, Erasmus Powel, yn eglwys Clun; ac, yn ol y Dr. Richards, yr oedd mewn urddau yn yr Eglwys Wladol cyn y flwyddyn 1640.* Tra yn ysgolfeistr ac yn swyddog eglwysig, arweiniai fywyd mwy annuwiol na'r cyffredin; ac ymddengys mai un o'r Puritaniaid oedd y cyntaf i gynhyrchu gradd o ystyriaeth ynddo ynghylch ei ddrygioni ac echryslonrwydd y canlyniadau. Rhoddwn grynhodeb o'r hanes yma yngeiriau Powel ei hun:—

"Er i mi gael fy nwyn i fynu mewn dysg o'm mebyd hyd ugain oed, etto yr oeddwn, fel y mae y rhan fwyaf o ieuengctid, nid yn unig yn anwybodus o Dduw, ac o'i Fab, Iesu Grist, o'r ailenedigaeth a dirgeledigeuthau efengylaidd eraill, ac o'm cyflwr truenus fy hun wrth natur; ond hefyd yn dilyn pleserau a gwageddau y byd drygionus hwn yn dra ymroddgar a blaenllaw, ac yn cael fy nghyfiawn alw gan fy nghyfeillion a'm cydysgolheigion yn gapten neu flaenor ymhob drwg; ond yn unig fy mod yn casâu meddwdod, gan edrych arno yn beth mor annaturiol; . . . ac yr oeddwn yn rhyfeddu bod dynion yn gallu ymhyfrydu yn yr hyn nad oedd gwir bleser, elw, nac anrhydedd ynddo. Nid oedd genyf y radd leiaf o barch i'r Ysgrythyrau, ac ni phrisiwn am edrych byth iddynt; ond yn hytrach llyfrau hanesion, prydyddiaeth, a hen chwedlau oedd fy holl hyfrydwch. Byddwn yn mawr halogi'r dydd Sabboth, trwy arfer pob math ar ddifyrwch ofer; ond rhyngodd bodd i Dduw fawrhau ei ras trwy wneud hyny yn achlysur o'm tröedigaeth. Ar un Dydd yr Arglwydd, fel yr oeddwn yn sefyll ger llaw, ac yn edrych ar y rhai a dorent y Sabboth trwy amryw chwareuon; a chan fy mod y pryd hwnw yn ddarllenwr gweddiau cyffredin, ac mewn gwisg bugail ynfyd, yr oedd arnaf gywilydd chwarau gyd â hwynt; etto yr oeddwn yn cael cymmaint o bleser wrth edrych arnynt a phe buaswn yn cymmeryd rhan yn y gamp. Wrth fy ngweled yno daeth proffeswr crefydd dwys a difrifol ataf (un o'r rhai a elwid y pryd hwnw yn Buritaniaid), ac yn sobr ac addfwyn iawn a ofynodd i mi, 'Syr, a ydyw yn gweddu i chwi sydd yn ysgolhaig, ac yn un sydd yn dysgu eraill, dori Sabboth yr Arglwydd fel hyn?' Attebais innau fel y gwawdwyr hyny yn Malachi trwy ofyn, 'Ymha beth yr wyf fi yn ei dori? Chwi a welwch nad wyf ond yn sefyll ger llaw, ac nad wyf yn chwarau o gwbl.' Dywedodd yntau, 'Ond yr ydych yn cael pleser wrth edrych, ac y mae Duw yn gwahardd hyny yn ei Air sanctaidd:' ac felly agorodd ei Fibl, a darllenodd y geiriau hyn yn Esa. lviii. 13, ac yn neillduol y darn hyny, 'Heb wneuthur dy ewyllys ar fy nydd sanctaidd' (yn ol y Saesneg, 'heb gael dy bleser dy hun'). Yr oedd y rhan hon o'r Ysgrythyr mor berthynasol, a daeth y fath awdurdod gyd â'r geiriau, fel y penderfynais na throseddwn mwy yn y cyfryw fodd; a nerthodd Duw fi i gyflawni hyny, er nad oeddwn etto wedi fy argyhoeddi o'm cyflwr colledig, nac o'r angen am Grist." †

Dengys y difyniad hwn nad pechadur bychan oedd ein harwr pan yngwasanaeth Satan, ac y mae'n rhoddi i ni olwg ar gychwyniad y cyfnewidiad gogoneddus a gymmerth le, a'r moddion a fendithiwyd i'w gynhyrchu. Bu efe am gryn amser ar ol gweinidogaeth y Puritan cyn cael ei hun yn ddïogel yn "y man sy'n ymyl Duw," ac arferodd y Goruchaf rai goruchwylieuthau chwerwon er sicrhau ei ddïogelwch; ac fe allai na bu yn galetach ar neb erioed "ym mwlch yr argyhoeddiad" nag y bu arno ef am amser maith. Dychrynid ef gan bregethau a wrandawai, a chan gynhwysiad llyfrau a ddarllenai: bu yn ymprydio, gan fyw ar ychydig iawn o fwyd a dïod, ac amcanu gwanhau ei lygredd, a nerthu tueddiadau daionus trwy hyny;† a thueddwyd ef droiau i gyflawni hunan-laddiad.‡ Bu yn gweddïo am gael gweled Satan yn llythyrenol, fel y gallai yr olwg arno ei ddychryn i'r fath raddau fel na byddai iddo bechu rhag llaw; a meddyliodd fwy nag unwaith fod yr Arglwydd wedi atteb ei weddïau, trwy beru i'r diafol ymddangos iddo yn bersonol.§ Wedi bod mewn amheuon poenus am tu a phedair blynedd, weithiau yn meddwl ei fod yn wrthodedig gan Dduw; ar brydiau yn cael ei ddychryn gan Satan; yn ddarostyngedig i ogwyddiadau cryfion at hunan-laddiad; ac yn ceisio ymheddychu â Duw trwy fath ar benydiau crefyddol, a'r cyffelyb, dechreuodd ddeall trefn cymmodiad yn ol y Testament Newydd yn well, a daeth i raddau yn feddiannol ar yr ymwybyddiaeth boddhaol ei fod yn wir gredadyn, ac felly mewn heddwch â'r Goruchaf. Dywedir mai i weinidogaeth rymus Walter Cradoc yr oedd yn ddyledus am ei ddychweliad, a'r heddwch a fwynhaodd, ac fe allai fod hyny yn wir; ond nid ydym yn cofio ei fod ef ei hun yn cyfeirio at hyny yn ei

* Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 141.—Hoffasem gael prawf o hyn. Dywed y Dr. T. Rees "nad ymddengys iddo erioed dderbyn ordeiniad Esgobol."—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 115.—Gol.

† Hanes Bywyd Vavasor Powel, gan D. Risiart, argr. Caerfyrddin, 1772, t. 1, 2.

† Ceisiodd ladd ei bechodau, eb efe, "trwy ymgadw yn hir oddi wrth fwyd, trwy hir wylio, yfed dim ond dwfr oer dros lawer mis ynghyd, ac ymrwymo na fwytawn ond cynifer o dameidiau, a hyny o'r fath arwaf, ar y pryd: weithiau chwe tamaid, weithiau wyth: yr oedd deg yn bryd mawr gyd â mi; a thrwy'r moddion hyn mi a feddyliais orchfygu'r cnawd, a ffoi rai prydiau at orchymyn sanctaidd Duw yn erbyn pechod," &c.

‡ Am Satan, dywed, "Efe a'm mynych demtiodd mewn llawer ffordd i ddinystrio fy hun: weithiau i daflu fy hunan i afon i foddi fy hun; ac efe a'm dygodd i lan afon. . . . Efe a'm mynych demtiodd i ladd fy hun â chyllell, fel y gorfu i mi yn fynych ei thaflu o'm llaw pan yn bwyta mewn ystafell; ac nis meiddiwn am yspaid ddwyn cyllell gyd â mi."

§ "Ië, mi a ddymunais (heb ddeall pa beth a ddywedwn) ar Dduw adael i Satan ymddangos mewn rhyw lun i mi, i'm brawychu, fel trwy hyny y gwelwn fy mherygl, er fy annog i ffoi at Grist. Cymmerth Satan fantais ar hyn, ac fel y gwnaeth gynt i Saul, felly ymddangosodd i mi amryw weithiau, ac mewn amryw ffyrdd." Yna y mae'n myned rhagddo i grybwyll y gwahanol ffyrdd yr ymddangosodd y diafol iddo.

Digitized by Google

hanes ysgrifenedig, ond yn hytrach yn priodoli ei ymwybyddiaeth o fod mewn heddwch â Duw i ranau o'r Bibl, ac yn nodi yr adnodau neillduol y cafodd fendith yn y darlleniad o honynt.

Nid oes sicrwydd pa bryd y dechreuodd bregethu yn gyhoeddus yn y cymmeriad o Ymneillduwr; ond y mae'n wir iddo ddïoddef erledigaeth am bregethu yn sir Frycheiniog yn 1640, ac iddo ef, a thu a hanner cant o'i gefnogwyr, gael eu cau mewn eglwys am noson gan yr erlidwyr. Drannoeth, dygwyd hwy o flaen dau neu dri o ynadon, a phump neu chwech o offeiriaid, a rhyddhawyd hwy wedi eu bygwth â llawer o fygythion. Pan yn pregethu i gynnulleidfa fawr mewn cae ym Maesyfed ryw gymmaint o amser wedi hyny, daliwyd ef gan Huw Llwyd, yr uchel-sirydd, ac wedi ei brofi yn y brawdlys (session) cafodd ei ryddhau; ac er mawr siomedigaeth i'w erlidwyr, gwahoddwyd ef i giniawa gyd â'r barnwyr ar ol y prawf. Gan fod yr erledigaeth yn parhau, a'i fywyd yntau mewn perygl, ffodd i Lundain yn Awst, 1642, lle y bu yn pregethu am ddwy flynedd. Aeth oddi yno i Dartford, Caint (Kent), lle y gwasanaethodd, ac y bu yn boblogaidd iawn fel pregethwr, dros ddwy flynedd a hanner. Wedi treulio pedair blynedd a chwe mis yn Lloegr, ac i'r erledigaeth dawelu i raddau yn y Dywysogaeth, aeth rhai o grefyddwyr Cymru i Dartford i ddymuno arno ddychwel i'r Dywysogaeth.

Cyn dychwel i wlad ei enedigaeth, cafodd dystysgrif gan gymmanfa o weinidogion.* Barnai rhai o honynt y dylasai gael ordeiniad Presbyteraidd cyn ymadael; ond golygai Powel yn wahanol, ac felly cafodd y dystysgrif heb yr ordeiniad. Dywed Palmer a Neal mai cyn iddo adael Cymru y gwrthwynebid ef am na dderbyniasai ordeiniad y Presbyteriaid; ond yn Llundain y bu siarad am hyny. Ei farn ef oedd, mai yr eglwys ymha un y mae esgob i wasaneuthu† sydd i ordeinio, ac nid cynnadledd neu gymmanfa. Wedi dychwelyd yn 1646, ail gychwynodd ei hoff waith o bregethu gyd âg egni a brwdfrydedd mewn ffeiriau, marchnadoedd, ar fryniau, ac ymhob addoldy y gallai gael derbyniad iddo. Pregethai yn fynych mewn dau neu dri o fanau yr un dydd; ac anfynych y byddai allan o'r pulpudau ddau ddiwrnod mewn wythnos yn ystod y flwyddyn. Marchogai yn fynych gan milltir yr wythnos, gan bregethu ddydd a nos ymhob lle y cai wrandawyr. Pan welai dyrfa o ddynion mewn unrhyw le, pregethai iddynt, gan eu cymmell i adael eu pechodau, a throi at Grist am iachawdwriaeth. Bernir iddo bregethu ymhob neuadd-dref, capel, ac addoldy oedd yng Nghymru yn ei amser, ac nad oedd na thref na phentref yn y Dywysogaeth yn anadnabyddus o'i ddoniau pregethwrol. Synid at, ac edmygid tanbeidrwydd ei zel a mawredd ei lafur gan y rhai a'i hadweunent; ac os na bu ei lwyddiant yn gyfartal i'w ymdrechion anghymharol, bu yn offerynol yn llaw ei Dduw i droi miloedd lawer oddi wrth eu drygioni, ac i blanu nifer mawr o eglwysi. Er nad oedd mwy na dwy eglwys yng Nghymru yn 1642, sef Olchon a Llanfaches, dywedir bod yma tu ag 20 yn 1654, a rhai o honynt yn cynnwys 100 o aelodau, ac nad oedd y Cristionogion yng Nghymru y flwyddyn honno dan 20,000 o nifer, yr hyn sy'n dangos heleuthrwydd ei lafur a mawredd ei lwyddiant. Yr oedd eraill, megis Morris Griffith, John Williams, &c., yn cydweithio âg ef, gan bregethu fel yntau; ond efe a ystyrid yn flaenaf. Yn y flwyddyn honno (1654), neu y ganlynol,§ bedyddiwyd ef, ac ymunodd â'r Bedyddwyr; ond derbyniai Daenellwyr neu Fedyddwyr Babanod i gymmundeb, yr hyn a fawr wrthwynebid gan ddisgyblion John Myles ac eraill. Dywed rhai nad oedd yn Fedyddiwr, ond yn hytrach yn un o'r Cyfeillion, neu'r Crynwyr; ond y mae'r dystiolaeth hon yn hollol ddisail, fel y dengys erthycl o Gyffes Ffydd a ysgrifenwyd ganddo.‖

* "Cymmanfa o weinidogion a eisteddai y pryd hyny ar brawf pob pregethwyr cyhoeddus."—Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 145.

"*Y brodyr*" a arferent ymgynnull yn nhŷ Acwila a Phriscila, yn Ephesus, "a ysgrifenasant at y disgyblion" oedd yn Achaia, ar iddynt dderbyn Apolos, ac nid "cymmanfa o weinidogion:" Act. xviii. 24–28. *Fel hyn* yr ysgrifena'r Apostol Paul am lythyrau canmoliaeth:—"Ai dechrau yr ydym drachefn ein canmol ein hunain? ai rhaid i ni, megis i rai, wrth lythyrau canmoliaeth atoch chwi, neu rai can*moliaeth* oddi wrthych chwi? Ein llythyr ni ydych chwi yn ysgrifenedig yn ein calonau, yr hwn a ddeallir a ddarllenir gan bob dŷn: gan fod yn eglur mai llythyr Crist ydych, wedi ei weini genym ni, wedi ei *ysgrifenu* nid âg inge, ond âg Yspryd y Duw byw; nid mewn llechau cerrig, eithr mewn *llechau* cnawdol y galon," 2 Cor. iii. 1–3.—Gol.

† Dywed Syr Peter King (Enquiry into the Constitution, &c., of the Primitive Church, p. 10) mai "sicr ydyw bod yr Ysgrythyrau Sanctaidd a Clement Romanus yn dangos bod amryw henuriaid neu esgobion ymhob eglwys;" ac â hyny y cyttuna Baxter (Church History, p. 5, secs. 15, 16). Y manau y ceir hanes henuriaid neu esgobion mewn gwahanol eglwysi yn y Testament Newydd yw y rhai canlynol:—Act. xiv. 23; xv. 2, 4, 6, 22, 23; xx. 17, 28; Phil. i. 1; Tit. i. 5, 7.—Gol.

§ Hanes Ymneillduaeth, D. Morgan, t. 526; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 118.—Gol.

‖ Y mae rhan o'r erthycl (y 19ydd) honno fel hyn:—"Bedydd allanol, neu fedydd dwfr, yw trochiant arbenig arwyddol o'r holl gorph mewn dwfr, neu olchi'r corph â dwfr, *yn* (neu *i*) enw y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân yn unig: Mat. xxviii. 19. Y mae'n arwyddo marwolaeth, claddedigaeth, ac adgyfodiad Crist; a hefyd, y golchiad ysprydol—golchiad cyfiawnhâd ac adgenhedliad, neu sancteiddrwydd. . . . Er nad yw bedydd yn gwbl angenrheidiol i iachawdwriaeth, etto gan ei orchymyn gan Grist, dyledswydd pawb sydd gredinwyr gweledig, ac yn ddynion edifeiriol, gwŷr a gwragedd, yw mynnu

Digitized by Google

Gan mai ar y 27fed o Hydref, 1670, y bu farw, bu yn Fedyddiwr proffesedig am tu a 15 mlynedd cyn ei farwolaeth, ac nid am 4 neu 5 mlynedd, fel y dywed rhai. Ymunodd amryw o'i frodyr â'r Bedyddwyr yr un amser ag ef. Wedi dychwelyd i Gymru yn 1646, arhosodd yn y Dywysogaeth, gan ymegnïo yn ddïymarbed, fel y crybwyllwyd, dros yr efengyl, hyd ddiwedd 1649, pryd y dychwelodd i Lundain, ac ar y 10fed o Ragfyr, 1649, pregethodd ger bron Maer Llundain; ac ar y dydd olaf o Chwefror, 1650, pregethodd ger bron Senedd Brydain. Cyhoeddwyd y ddwy bregeth. Yr oedd copi o honynt gan y Dr. Richards, o Lynn,* a dichon bod rhai copïau ar gael etto. Ymddengys mai ei ddiben yn myned i Lundain yr amser hwnw oedd, cymmeryd rhan mewn mesurau [trefniadau] er lles i'w gydwladwyr, y rhai a gychwynid ar y pryd, ac a roddwyd mewn gweithrediad yn fuan. Gan fod crefydd yn ddychrynllyd o isel yn y deyrnas ar y pryd, a lluoedd o offeiriaid anwybodus ac annuwiol ym mhulpudau y deyrnas, penderfynodd y Llywodraeth droi y cyfryw allan, a gosod dynion amgenach yn eu lleoedd. Pennodwyd Dirprwywyr i weithio allan yr amcan hwnw. Yr oedd y swyddwyr hyny i ymgynghori â phregethwyr o enwogrwydd yng Nghymru a Lloegr ynghylch y rhai a osodid yn y pulpudau y gyrasid yr offeiriaid anheilwng allan o honynt; ac yr oedd Vavasor Powel yn un o'r gweinidogion hyny.† Pan gymmeradwyid dynion deallus, yn meddu arwyddion duwioldeb, gan Powel ac eraill, gosodid y cyfryw yn y lleoedd gweigion, er nad oedd pawb o honynt wedi cael manteision dysgeidiaeth. Dengys y penderfyniad hwn farn uchel enwogion am allu Powel, a'u hymddiried yn ei egwyddor; a dangosodd yntau yn ol llaw na chamfesurasant ei gymmwysderau meddyliol a moesol i'r gorchwyl. Ceisiodd rhai o'i elynion mwyaf dïegwyddor, megis Walker, Wood, ac eraill, awgrymu ddarfod iddo osod ei bennodiad gan y Llywodraeth dan deyrnged i'w feddiant personol; ond profodd efe, yn y modd mwyaf boddhaol, nad oedd y radd *leiaf* o sail i'r cyhuddiadau maleisus, a'i fod wedi aberthu, yn hytrach na gwella, ei amgylchiadau yn y gwaith a gyflawnasai ar gais y Senedd.‡ Cafodd efe a'i gydweithwyr waith caled i osod pethau mewn rhyw fath ar drefn yn y wlad hon, o blegid bod offeiriaid anfoesol mor llïosog, a'u drygioni mor ddychrynllyd, ac o herwydd nad oedd dynion addas i bregethu yr efengyl yn llïosog yn y Dywysogaeth; ond er llïosowgrwydd a natur y rhwystrau, llwyddasant i effeithio cyfnewidiadau er gwell ym moesau a chrefydd y wlad. Wedi dychwel o Lundain, arhosodd yng Nghymru i weithio allan fesur y Llywodraeth, at yr hwn y cyfeiriwyd, ac i bregethu, hyd ddiwedd y flwyddyn 1653, pryd yr ymwelodd drachefn â'r brif-ddinas; ac fe allai mai arfer ei ddylanwad yn erbyn Oliver Cromwel oedd un o ddibenion ei ymweliad. Modd bynag, gwnaeth ei orau yn erbyn yr Amddiffynydd, hyd yn oed y diwrnod y cyhoeddwyd ef yn Amddiffynydd; a'r noson honno pregethodd yn erbyn y cyhoeddiad yn Eglwys Blackfriars, am yr hyn y carcharwyd ef am rai dyddiau. Wedi dychwel adref i'r Goettref, plwyf Ceri, ger llaw y Drefnewydd, sir Drefaldwyn, yn 1654, anfonodd efe ac amryw eraill Ddeiseb, neu Wrthdystiad, yn 1655, i Lundain yn erbyn trawsfeddiant Cromwel, wedi ei lawnodi gan dri neu bedwar cant o ddynion.§ Cynhyrfodd y papur hwnw Cromwel a'i bleidwyr yn fawr yn erbyn Powel, a daliwyd ef gan swyddogion y Llywodraeth am y rhan a gymmerai ynddo; ond cafodd ei ryddhau ar yr ammod y byddai iddo ymddangos pan elwid am dano. Tra yr oedd Powel ac eraill yn erbyn y Weriniaeth, ceid eraill o'r Cristionogion Cymreig yn bleidiol iawn iddi, canys darfu i 800 neu 900 o honynt lawnodi Gwrth-Gyfarchiad i'r eiddo Powel, yr hwn wrth-gyfarchiad a gyflwynwyd i'r Amddiffynydd gan Walter Cradoc a'r Capten Lewis. Yr oedd Powel mewn ffafr gan Cromwel cyn y Gwrthdystiad y cyfeiriwyd ato; ond teimlodd yr Am-

eu bedyddio unwaith, a hyny ar eu crediniaeth gyntaf o'u dychweliad, a chyn yr elont i un eglwys neillduol, neu fod yn gyfranog o swper yr Arglwydd. . . . Eithr yn yr ordinhâd hon o fedydd, yn gystal ag mewn llawer o achosion eraill, fe all gwahaniaeth mewn barn ac ymarferiad gydsefyll o'r gorau â chariad brawdol a chymmundeb Cristionogol.—Han. Bywyd V. Powel, gan D. Risiart, t. 37, 38.

* Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 148.—Gol.

† Gwel t. 227.—Gol.

‡ Amddiffynodd ei hun yn y modd mwyaf meistrolaidd a llwyddiannus yn erbyn y cyhuddiadau disail a ddygid i'w erbyn gan gefnogwyr gormes a gelynion rhyddid, mewn dau o lyfrau, sef "Examen et Purgamen Vavasoris," a "Brief Narrative of the former Propagation, and late Restriction of the Gospel in Wales" (argraphwyd yn 1661 a 1662). Wedi ymddangosiad hwn, ni feiddiodd ei elynion ffyrnig wneud ymosodiadau pellach ar ei gymmeriad dihalog.

§ Galwyd y Gwrthdystiad, "A Word for God, or a Testimony in Truth's behalf, from several Churches and divers Hundreds of Christians in Wales (and some few adjacent), against Wickedness in high places: with a Letter to the Lord General Cromwell; both first presented to his own Hands, and now published for further Information."—Thurloe's State Papers, vol. iv., p. 880.

Cyhoeddwyd y llyfryn uchod yn Gymraeg yn 1655, dan yr enw, "Gair tros Dduw, neu Dystiolaeth o blaid y Gwirionedd, oddiwrth amryw Eglwysi, a llawer cant o Grist'nogion yng Nghymru (a rhyw ychydig oddiamgylch) yn erbyn drygioni mewn lleoedd uchel, gyda Llythyr byrr at yr Arglwydd Pendistein Cromwel."—Llyfr. y Cymry, t. 169.—Gol.

Digitized by Google

ddiffynydd yn ddigofus ato rhag llaw, a gwylid ei symmudiadau yn ofalus gan swyddogion gwladol a phleidwyr yr Amddiffynydd. Yr oedd Powel yn hollol ddidwyll a chydwybodol yn ei wrthdystiad i'r Llywodraeth a'r Amddiffynydd; ond nis gellir ystyried ei holl symmudiadau yn yr achos yn gynhyrchion pwyll a doethineb. Trwy ymdrechu fel y gwnaeth yn erbyn Cromwel, collodd gydymdeimlad a chefnogaeth llawer o'i gyfeillion blaenorol; a bu ei ymieuad â'r Bedyddwyr yn foddion i oeri teimladau rhai Bedyddwyr Babanod tu ag ato. Costiodd ei gydymdeimlad â'r Bedyddwyr yn ddïoed iddo, fel y dengys ei ddioddefiadau dyfodol. Gallesid meddwl y dylasai Charles II. arfer gradd o dynerwch tu ag ato, ar gyfrif ei lafur yn erbyn Cromwel; ond yr oedd ef yn un o'r rhai cyntaf yr ymosodwyd arnynt gan Charles, ac ymddygodd y penadur drygionus hwnw yn greulawn ato am y deng mlynedd y bu Powel dan ei deyrnasiad.

Fel y gwelsom mewn rhan, arllwyswyd arno gyflawnder o gynddaredd cyn dyddiau Charles. Ar ol i rai ddeall fod Cromwel wedi digio wrtho, dechreuwyd llunio a chyhoeddi y celwyddau mwyaf disail er mwyn ei ddarostwng a'i boeni ymhob modd y gellid. Er ei fod yn un o'r dynion mwyaf heddychol a thawel, etto cyhuddid ef o fod yn parotoi milwyr i ymladd yn erbyn y Weriniaeth; a gelwid ef yn derfysgwr ac yn deyrnfradwr. Wood, Walker, ac eraill a'i galwent yn "ffol, adyn gorphwyllog truan, penboethyn gwyllt, creadur terfysglyd," a'r cyffelyb. Er hyny, ni bu eu gallu i'w ddarostwng yn gyfartal i'w dymuniad. Hyd yn oed pan yn pregethu mewn addoldy neu yn yr awyr agored, cymmerai rhai arnynt ddrwgdybio amcanion ei wrandawyr, gan awgrymu mai dibenion gwladol oedd ganddynt mewn golwg. Cawn esampl nodedig o hyn yn y flwyddyn 1656, wedi iddo bregethu i dyrfa lïosog yn Llanbadarn Fawr, sir Aberteifi. Pan glywodd Price, Gogerddan, uchel-sirydd y sir, am yr amgylchiad, dychrynodd, neu cymmerth arno ofni, ac ysgrifenodd hanes y cyfarfod at yr Arglwydd Ddirprwywr, gan ofyn am gyfarwyddyd sut i ymddwyn mewn amgylchiadau cyffelyb rhag llaw. Drwgdybiai Price ddiben y fath gyfarfodydd; ystyriai hwynt yn beryglus; a dymunai gael barn Cromwel ei hun ar y matter. Er bod y fath ddrwgdybiau yn anffafriol iawn i lwyddiant y pregethwr galluog, zelog, a llafurus; etto ni chawsant ei rwystro ar yrfa dyledswydd, ond aeth rhagddo yn benderfynol, ac i raddau pell iawn yn llwyddiannus, hyd y flwyddyn 1660, pan y cyfyngwyd ar ei ryddid trwy ddychweliad Charles II. Yr oedd ei ddïoddefiadau yn fawrion a llïosog yn nyddiau yr Amddiffynydd, ond yn drymach a llïosocach yn amser Charles. Dywed y Dr. Richards* mai y Bedyddwyr a'r Cyfeillion (Crynwyr) oedd y rhai a ddïoddefasant fwyaf o dan deyrnasiad y teyrn dïegwyddor ac annuwiol hwnw; ac ymddengys mai Vavasor Powel oedd y cyntaf o'r Ymneillduwyr i ddïoddef ei ffyrnigrwydd ysgeler. Cyfnod o ddïoddefiadau echryslawn a fu y tymmor rhwng 1660 ac 1670, ac ni chafodd ond ychydig iawn o seibiant rhwng y gwahanol ymosodiadau dychrynllyd a wnaed arno. Hanes culni, dialedd offeiriadol, a gormes gwladwrieuthol yn ymarllwys mewn cynddaredd ar un o ragorolion y ddeuar, yw hanes Powel o 1660 hyd ddiwedd ei yrfa. Yr oedd teimladau gwehilion moesol Brydain mor angerddol ac aflywodreuthus yn ei erbyn o blegid y zel, y gallu, a'r llwyddiant, trwy y rhai y dinoethai eu twyll a'u drygioni, fel y cychwynasant eu hymosodiadau arno hyd yn oed cyn i Charles gael awenau y Llywodraeth.

Borau yr 28fed o Ebrill, 1660, breuddwydiodd Powel fod y swyddogion yn ei ddwyn i garchar; a phan ddeffrôdd yr oeddynt yn ymyl ei dŷ. Dygasant ef i garchar Trallwm, ac oddi yno i garchar y Mwythig; ac wedi bod yno am naw wythnos, cafodd ryw fath ar ryddhâd. Yn awr, gallasid meddwl bod pyrth uffern wedi eu hagor, a'u cynddaredd mwyaf erchyll yn ymdywallt yn rhaiadrau ffyrnigwyllt ar Anghydffurfwyr yr oes. Y mae Vavasor Powel yn rhoddi i ni gipolwg ar rai o honynt yng Nghymru, a dengys y dyfnder ofnadwy y gall dynoliaeth ymsuddo iddo dan gochl crefydd. Pan ryddhawyd Powel ymhen naw wythnos, dechreuodd ar ei hoff waith o bregethu iachawdwriaeth i bechaduriaid trwy'r Aberth Mawr; ond wedi mwynhau rhyddid am bedwar diwrnod ar hugain, cafodd ei hun yn garcharor drachefn. Bu yn y carchar amryw fisoedd, a naceid iddo y breintiau a ganiateir i garcharorion yn gyffredin. Buasai ceidwad y carchar yn un o'i wrandawyr, a dangosasai arwyddion o ffydd ac edifeirwch; ond pan gafodd y pregethwr dan ei awdurdod, dangosodd y dideimladrwydd mwyaf gelynieuthus tu ag ato. Y fath yw gelyniaeth hen wrthgiliwr wedi ymgaledu yn gyffredin at Gristionogaeth! Ar ol ei garcharu am fisoedd,

* Cambro-Brit. Biog., p. 160.

fel y nodwyd, dygwyd ef i ryw fath ar ffug brawf yn y brawdlys, gwrthodwyd y meichiau a gynhygid, ac anfonwyd ef yn ol i'r carchar. Wedi bod yno yn rhwym dros ennyd, cyrchwyd ef i Lundain i ymddangos ger bron y brenin a'r cyngor. Wedi bod wrth ddrws ystafell y brenin a'i gynghorwyr am oriau meithion, gwrthodwyd iddo gael dadlau ei achos ger eu bron; cymmerwyd ef i garchar y llynges, ac yno y caethiwyd ef am yn agos i ddwy flynedd. Ni chaniateid iddo, dros y rhan fwyaf o'r amser, fyned tu allan i ddrws ei gell, wrth ffenestr pa un yr oedd tomen o fudreddi drewllyd, yr hyn a amharodd ei iechyd i'r fath raddau fel na bu mor gryf o'r adeg honno allan ag y buasai yn flaenorol. Tra y bu yn y carchar hwnw, ymosodid ar ei gymmeriad yn ddiarbed gan ei elynion, a'r amser hwnw yr ysgrifenodd efe ei "Adroddiad Byr," yr hwn y methodd ei erlidwyr ei atteb; ac er hyny parheid i'w garcharu a'i boenydio. Symmudwyd ef o'r diwedd o garchar y llynges i garchar castell y South Sea, Portsmouth, ar y 30fed o Fedi, 1662, lle y bu efe yn ddïymgeledd ac mewn caethiwed dros bum mlynedd.

O'r diwedd, wedi i rai o'i elynion mwyaf dïalgar feirw, ac i eraill o honynt golli eu hawdurdod, cafodd y gwron profedig ei ryddhau; ond ni pharhaodd ei ryddid yn hir. Ymhen tu a deng mis wedi gadael carchar y South Sea, cychwynodd o Gaerodor i sir Fynwy, lle y pregethai i dorfeydd mawrion a gyrchent gyd âg awydd angerddol i'w wrando. Wedi pregethu yng Nghasnewydd, lle y pregethodd ddiweddaf ym Mynwy, aeth oddi yno i Ferthyr Tydfil, ym Morganwg, gan feddwl myned oddi yno adref i'r Goettref, yn agos i'r Drefnewydd. Annerchodd dyrfa fawr ym Merthyr, yr hon a ymgynhullasai i'r fonwent ac o'i hamgylch. Tra yr oedd efe yn annerch y dyrfa, gyrodd offeiriad meddw ac anfoesol y lle, a'i enw George Jones, i Gaerdŷdd at yr ynadon, oedd yno ar y pryd yn y brawdlys chwarterol, gan ddwyn y cyhuddiadau mwyaf disail ac anwireddus yn erbyn y pregethwr. Mewn canlyniad i gamdystiolaeth hwnw, gyrwyd swyddogion i gymmeryd Powel i garchar Caerdŷdd. Wedi treulio tymmor mewn caethiwed yno, dygwyd ef o flaen yr ynadon ym Mhont Faen, lle y bu dan arholiad maith. Ysgrifenwyd hanes prawf Pont Faen gan y dïoddefydd ei hun, a cheir llawer o'r gofyniadau a'r attebion gan y Dr. Richards,* ac mewn llyfrau eraill; ond y mae ein gofod yma yn rhy gyfyng i'w difynu. Modd bynag, y mae'n ddigon amlwg wrth yr hanes ei fod yn deall y gyfraith yn well o lawer na'i erlidwyr, ac nad oedd na rheswm na chyfraith dros y creulondeb a arferid tu ag ato. Amddiffynodd ei hun yn y modd mwyaf anwrthwynebol; ond ni thyciai dim a ddywedai, canys er nas gallent atteb ei resymau, bwriasant ef i garchar drachefn. Wedi cael ei gaethiwo yngharchar Caerdŷdd am gryn amser, dygwyd ef oddi yno i'r Llys Dadleuon Cyffredin yn Llundain. Cychwynodd o Gaerdŷdd ar yr 16fed o Hydref, 1669, ac yr oedd yn y llys ar yr 22fed o'r un mis. Cafodd ganiatâd i amddiffyn ei hun yno, a gwnaeth hyny yn y fath fodd ag nas gallai neb ei wrthddywedyd; ond er y cwbl trosglwyddwyd ef i garchar y llynges, nid o herwydd bod unrhyw gyhuddiad yn ei erbyn wedi ei brofi, ond, fel y dywed yr ysgrifenydd, er mwyn boddio ei elynion, fel yr ymddygwyd at Paul pan o flaen Ffelix. Bu yn y carchar du hwnw hyd y 27fed o Hydref, 1670, pan y bu farw yn 53 oed, yn yr 11fed flwyddyn o'i garchariad. Bu yn glaf am tu a mis, ac ymddengys mai ei glefyd angeuol oedd y gwaedlif. Claddwyd ef yn Bunhill Fields, ymhresennoldeb tyrfa fawr iawn o Ymneillduwyr, a dodwyd cerfiad addas ar ei fedd gan ei gyfaill, Edward Bagshaw.† Dïoddefodd ei glefyd diweddaf mewn amynedd, a dywedai na fynnai ar un cyfrif fynwesu meddwl caled am Dduw. Ynghanol ei glefyd, dangosai ei zel a'i dduwioldeb, gan fendithio Duw am ei nerthu i ddïoddef yn hytrach na throi yn anffyddlawn i'w Waredwr.

Wedi rhoddi crynhodeb byr o rai o'r prif ddigwyddiadau yn ei hanes, cyfeiriwn ymhellach at ryw nifer o'r neillduolion a'i nódweddent fel Cristion disglair, a phregethwr mor llafurus nad yw yn hawdd cyfarfod ei gyffelyb. Dyma fel y dywed un ysgrifenydd am dano:—

"Yr oedd yn ŵr cadarn a nerthol gyd â'i Dduw mewn gweddi. Cafodd brofion digonol, amlwg, ac uniongyrchol, lawer gwaith, bod yr Arglwydd yn gwrando arno. Yr oedd yn feddiannol ar yspryd rhydd a brawdol at Gristionogion o wahanol farn iddo. . . . Yr oedd yn fwyn

* Cambro-Brit. Biog., p. 169, &c.—Gol.

† Dyma fel y mae'r cerfiad:—"A successful teacher of the past, a sincere witness of the present, and an useful example of the future age; who, in the defection of many, found mercy to be faithful; for which, being called to many prisons, he was there tried, and would not accept deliverance, excepting a better resurrection."= "Athraw llwyddiannus yr oes a aeth heibio, tyst ffyddlawn yr oes bresennol, ac esampl ddefnyddiol yr oes ddyfodol; yr hwn, yn nifferg llaweroedd, a gafodd drugaredd i fod yn ffyddlawn; er mwyn yr hyn, wedi ei alw i lawer o garcharau, y profwyd ef yno, ac ni dderbyniai ryddhâd, oddi eithr adgyfodiad gwell."—Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 175.—Gol.

Digitized by Google

a gostyngedig ei dymmer: gwelwyd ef yn fynych yn cerdded, a gosod cyfaill tlawd, os yn hen ac yn analluog, i farchogaeth ei anifail; a byddai mor ddedwydd yn y bwthyn ag yn y palas. Cyssegrai y bummed ran o'i holl dderbyniadau i gynnorthwyo y tlawd. Yr oedd ei haelioni a'i elusengarwch yn anghymharol. Gwnai ddaioni i eraill yn fynych ar draul colledu ei hun. Y tlawd a'r anghenus oedd ei ddewisolion. Gwahoddai hwy i'w dŷ; gwisgai y noeth, porthai y newynog, a thorai fara y bywyd i bob un. Yr oedd mor rhyddgalon fel y byddai yn arfer dywedyd bod ganddo le i ddeuddeg mewn gwelyau yn ei dŷ, cant yn ei ysgubor, a mil yn ei galon. Yr oedd yn meddwl yn isel am dano ei hun, gan dybied eraill yn rhagori arno ef. Fel penteulu yr oedd yn dirion a gofalus. Cadwai addoliad teuluaidd ddwywaith yn y dydd, mewn darllen, esponio, gweddïo, a chanu mawl. Yr oedd yn ofalus am barchu y Sabbath, a'i gyssegru oll at wasanaeth Duw. Er ei fod ef yn cael niwaid oddi wrth lawer, nid oedd efe yn elyn i neb. . . . Gweddïau yn fynych dros ei elynion, am i'w pechodau gael eu dilëu o goflyr y nef. Yr oedd yn ddŷn gonest a difrifol yn ei ymadroddion: llefarai feddwl ei galon ar bob amgylchiad, neu ni ddywedai ddim. Gŵr Duw ydoedd, a gwasanaethodd ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw. Gwelodd aml a blin gystuddiau yn ei fywyd; ond yn ei farwolaeth trefnwyd iddo yn helaeth fynediad i mewn i dragwyddol deyrnas ei Arglwydd a'i Achubwr Iesu Grist."

Gan ei fod mewn sefyllfa gysurus yn y byd, ac yn feddiannol ar gryn dipyn o eiddo, yr oedd yn alluog i weithio allan ei ddymuniadau gyd â golwg ar haelioni a chydymdeimlad â'r gwan. Perthynai, fel y crybwyllwyd, i deuluoedd parchus ac enwog o du tad a mam; a dïau nas gallasai lafurio i'r graddau y gwnaeth dros grefydd yn annibynol ar y meddiannau oedd at ei wasanaeth. Gan fod sefyllfa Cymru yn gyfryw ag ydoedd yn ei amser ef, hawdd gwybod mai ar ei draul ei hun y teithiodd efe fel y gwnaeth i bregethu yr efengyl.* Yr oedd teithio y pryd hwnw yn wahanol iawn i'r hyn ydyw yn bresennol.

Golygai y byddai yn derbyn attebion nodedig i'w weddïau. Difynwn yr esampl ganlynol o hanes ei fywyd:—"Yr oedd gwraig fonheddig rasol, a'i henw Mrs. Watkins, o Lanigon, yn sir Frycheiniog, wedi bod yn cadw ei hystafell a'i gwely, fel y dywedir, dros ddwy flynedd, ac heb fod oddi cartref er ys pedair blynedd: wedi iddi glywed fy nyfod i'r parthau hyny, hi a ddanfonodd am danaf. Y mae'n debyg fod ganddi ryw gymmaint o ffydd y cawsai ei hiachâu os gweddïwn drosti. Ac felly y bu, canys hi a ddaeth ar ei thraed borau dranoeth i'm gwrando i yn pregethu, rhwng dwy a thair milltir o ffordd." † Dengys ei ddyddlyfr lïaws o amgylchiadau eraill, yn hanes ei fywyd, ei fod yn dduwiolach o lawer na chrefyddwyr yn gyffredin: byddai yn byw mewn cymmundeb agos a pharhaus â'r Goruchaf. Heurai ei erlidwyr fod ei bregethau ef a'i gydlafurwyr yn troi dynion yn Atheistiaid ac yn Babyddion. "Felly y mae llawer yn troi," eb yntau, "lle y mae'r moddion grymusaf wrth law, os na ddeuant hwy i'w cyrraedd. Ond paham y mae'r gwŷr hyn yn grwgnach am fod cynnifer yn troi yn hollol wahanol? Ac os ffromodd y cyhuddwyr hyn wrth y cyfryw ddynion gynt, pa fodd y maent yn awr wedi dyfod i ganiatâu cymmaint iddynt? Ond er mwyn gwrthbrofi yr heuriad, cymmerer yr esampl ganlynol:—Ychydig flynyddau yn ol, prynwyd rhan fawr o argraphiad blaenorol o'r Bibl, ac wedi hyny dau argraphiad ychwanegol o hono, un o'r Testament Newydd, ac un arall o'r holl Fibl; ac o'r ddau hyn, credaf i gynnifer ag o bump i chwe mil gael eu gwerthu mewn byr amser. Ai arwydd bod ein gwrandawyr yn troi'n Atheistiaid a Phabyddion ydyw hyn? Bydded ein cyhuddwyr yn farnwyr! Hefyd, nid oedd ond un gynnulleidfa neu ddwy wedi eu cynnull ynghyd ar ddechreuad y rhyfeloedd yn holl Gymru; a phrin yr oedd cymmaint ag un mewn rhai siroedd yn proffesu duwioldeb mewn ystyr gwir efengylaidd. Pa wedd bynag, rhyngodd bodd i'r Arglwydd tirion fendithio llafur y pregethwyr teithiol yno, pa mor weiniaid bynag oeddynt, fel yr oedd yno yn ddiweddar, ac yr wyf yn hyderu fod yno etto, dros ugain o eglwysi wedi eu cynnull ynghyd, ac mewn rhai o honynt y mae dau gant, mewn eraill dri chant, ac mewn rhai bedwar neu bum cant o aelodau, ynghyd â'u swyddogion; ac er y gwahanieuthant ychydig, ond odid, mewn barn ar rai pethau, etto y maent oll yn rhodio mewn cariad, ac yn ofn yr Arglwydd, ac yn cydymegnïo o blaid yr efengyl.

Meddai ar grynhodeb o'r elfenau gwerthfawrocaf i wneuthur pregethwr teithiol o'r fath orau. Pan ddychwelodd o Loegr i Gymru ar gais ei gydwladwyr, fel y crybwyllwyd, cafodd y gymmeradwyaeth uchel ganlynol gan 18 o weinidogion Seisnig:—

"Hyn sydd i sicrhau i bawb y perthyn iddynt, bod y dygiedydd, Mr. Vavasor Powel, yn ddŷn o gymmeriad crefyddol a diargyhoedd, ac o alluoedd cymmwys i waith y weinidogaeth, ac wedi ei brofi yn ffyddlawn yn ei waith. Yr hyn yr ydym ni, y rhai y mae ein henwau isod, yn sicrhau, rai o honom oddi ar ein gwybodaeth ein hunain, ac eraill oddi ar dystiolaeth gredadwy. Am hyny, gan ei fod yn awr yn cael ei alw, ac yn dymuno defnyddio ei ddoniau yn ei wlad ei hun, yng Nghymru, yr ydym yn ei gyfrif yn gymmwys i'r gwaith, ac yn deilwng o bob cefnogaeth ynddo. Er sicrhâd o hyn, yr ydym yn llawnodi ein hunain. Medi 11, 1646."‡

* *Oddi eithr*, bid sicr, yr amser yr oedd efe yngwasanaeth y Weriniaeth, fel un o'r Profyddion, pan y derbyniai efe, fel y lleill, gan punt y flwyddyn at ei draul, o'r bywioleuthau eglwysig.—Rees's Hist. Prot. *Noncon., pp.* 501-5.—GOL.

† *Powel's Life*, p. 18.

‡ Hon ydyw y dystysgrif a gafodd.



Digitized by Google

Gyd â'r gymmeradwyaeth hon, wedi ei llawnodi gan rai o'r dynion duwiolaf a mwyaf defnyddiol yn eu hoes, y dychwelodd i Gymru; ac wele dystiolaeth arall gyffelyb am dano:—

"Yr oedd Mr. Powel wedi ei gymhwyso gan Dduw, ymhob ystyr, at waith y weinidogaeth.* Yr oedd o gyfansoddiad cadarn a nerthol. Teithiai filltiroedd meithion heb ddiffygio. Gweddïai a phregethai yn fynych am dair, pedair, ïe, chwe awr ynghyd. Yr oedd yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau: gallai, ar amnaid, droi at unrhyw adnod yn y Bibl y sonid am dani, canys yr oedd yn Fynegai Ysgrythyrol ynddo ei hun. Ei ddull yn pregethu oedd trwy gymharieuthau eglur, a gwasgai y gwirioneddau adref gyd â'r fath ffrydlif o hyawdledd a dawn nes byddai y cyndyn yn crynu, y rhagrithiwr yn teimlo, y gwrthgiliwr yn cuddio ei ben, a beichiau cannoedd o bechaduriaid teimladwy yn syrthio i'r llawr. Bu ei weinidogaeth ef, a'i gydlafurwyr, yn nerthol trwy Dduw i newid gwyneb a chalon Cymru."

Dïoddefodd lawer, ïe, gallwn sicrhau heb betrusder, fwy na neb yn ei oes. Bu, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, mewn tri ar ddeg o garcharau yn herwydd ei zel a'i ffyddlondeb i'w Dduw. Bu yn gauedig, tlawd, a dïymgeledd mewn carcharau am yn agos yr holl ddeng mlynedd diweddaf y bu ar y ddeuar. Yr oedd yn byw mewn amseroedd dychrynllyd—amseroedd nas gwyddom ni ddim trwy brofiad am danynt. Y mae dynion a erlidient yn yr oes hon, pe gallent; ond, fel y dywed un ysgrifenydd, "Y maent wedi eu geni ganrif, neu ychwaneg, yn rhy ddiweddar. Y mae ganddynt dafodau i regi, ond nid oes ganddynt ddannedd i frathu; ond meddai cydoeswyr Vavasor Powel dafodau a dannedd." Bu yr ymosodiadau arno, a'i beryglon, yn lïosog. Dywed un awdur y gellir dywedyd am dano ef a'i frodyr, fel y dywedai Paul am dano ei hun a'i gyd-apostolion:—"Eithr gan ein dangos ein hunain ym mhob peth fel gweinidogion Duw, mewn amynedd mawr, mewn cystuddiau, mewn anghenion, mewn cyfyngderau, mewn gwïalenodiau, mewn carcharau, mewn terfysgau, mewn poenau; . . . trwy barch ac ammharch, trwy anglod a chlod: megis twyllwyr, ac er hyny yn eirwir." Y mae un ysgrifenydd yn nodi rhai o'r ymosodiadau a wnaed arno, a'i waredigaethau, fel y canlyn:—

"Un tro ymrwymodd pedwar o ddynion mewn llw i'w ladd, ond cadwodd Duw ef; ac yn y cyfarfod hwnw cafodd un o honynt ei ddychwelyd at yr Arglwydd. Dro arall daeth dŷn i'r oedfa yn y Drefnewydd, sir Drefaldwyn, gyd â bwriad i'w ladd, ond a argyhoeddwyd cyn diwedd y cyfarfod. Penderfynodd dŷn yn y Trallwm ei ladd, a bwriadai gyflawni ei fwriad yn Cegidfa; ond lladdodd Duw ei elyniaeth ef yn y bregeth. Daeth gwraig gyd â chyllell i geisio ei ladd pan yn pregethu yn marchnadfa Machynlleth; ond hi a attaliwyd yn ei bwriad. Ymosododd tyrfa derfysglyd arno yn Nolgellau, gyd â bwriad o'i lofruddio; ond er eu bod wedi eu harfogi â phastynau, cleddyfau, a cherig, ac mewn llawn cynddaredd ato ef a'i wrandawyr, efe a waredwyd megis yn wyrthiol allan o'u dwylaw. Yn fuan ar ol hyny, pan ydoedd o flaen y brawdlys yn yr un lle, dan y cyhuddiad o derfysg y tro blaenorol, cyflogwyd crythor drygionus i gymmeryd ymaith ei fywyd, yr hwn, gyd â dagr a guddiai dan ei hugan, a amcanodd ato ddwy waith tra y safai o flaen y faingc. Pan oedd yn pregethu ym mynwent Mallwyd, ymosodwyd arno mor ffyrnig a didrugaredd fel mai prin y dihangodd gyd â'i fywyd, ac wedi anafu ei ben. Pan yngharchar Trefaldwyn, ac yn edrych trwy ffenestr ei gell, saethodd milwr ato, gan amcanu ei ladd, ond a fethodd ei nod. Y duwch oedd yn cael ei daflu arno, er codi y fath ymosodiadau yn ei erbyn oedd, ei fod yn camarwain deiliaid y brenin, yn llefaru yn erbyn y 'Llyfr Gweddi Gyffredin,' a hefyd ei fod yn euog o gyssegr-ladrad, ac wedi ei wisgo felly mewn croen blaidd, yr oedd yn hawdd casglu holl gŵn y wlad i'w gyfarth a'i gnoi. Ni bu mawrion, a fyddent yn elynion i grefydd, yn fyr o ddynion drwg o grwydriaid i gyflawni ei hamcanion. Y mae genym hanes un tro nodedig a'i cyfarfyddodd yn sir Fflint. Yr oedd yn myned i bregethu i'r Treuddyn, yn agos i Gaergwrle, a chollodd ei ffordd wrth gyfeirio at ei letty yn nhywyllwch y nos. Wedi crwydro am amser, gwelodd oleuni mewn ffenestr, a chyfeiriodd ato. Wedi dyfod at y lle, deallodd mai palas bonheddwr ydoedd. Curodd wrth y drws; daeth morwyn ato, ac a'i hadnabu ef. Gofynodd am letty; dywedodd y forwyn am greulondeb ei meistr at y Cradocs, ond bod ei meistres ychydig yn dynerach. Caniataodd y feistres iddo gael lletty, ond heb yn wybod i'r gŵr. Wedi i'r bonheddwr fyned i orphwys, ymddiddanodd Powel â'r wraig ynghylch ei chyflwr a'i henaid, nes y penderfynodd fyned i'w wrando drannoeth. Wedi iddo fyned ymaith, aeth hithau yn fuan ar ei ol. Deallwyd gan hen chwedleuwraig o'r gymmydogaeth bod y foneddiges wedi myned i'r oedfa, ac ni orphwysodd nes myned i ddweyd wrth y gŵr. Llanwyd ef gan gynddaredd, ac aeth gyd â chyflymdra march ar eu hol. Daeth o hyd i Mr. Powel ar y ffordd, ond nid oedd yn ei adnabod. Dywedodd wrtho i ba le yr oedd yn myned, a'i fod yn benderfynol o ladd y pregethwr. Cynhygiai Mr. Powel y byddai yn well iddynt wrando dros ychydig ar y pregethwr cyn ymosod arno, fel y byddai ganddynt reswm dros eu hymddygiad; a chydsyniodd y bonheddwr. Wedi myned yno, er ei fawr syndod, pwy a ddechreuai lefaru ond y cydymaith a'i dilynai ar y ffordd. Hoeliwyd ei glust wrth wefusau y pregethwr; teimlodd ei galon 'nerthoedd y byd a ddaw;' a chyn diwedd y bregeth yr oedd efe a'i briod wedi eu llwyr ddychwelyd at yr Arglwydd. Y Plas Teg yw y palas, a Mr. Trevor oedd y bonheddwr. Bu y Plas Teg yn noddfa i Anghydffurfwyr am flynyddau lawer, ac yn gartref i weinidogion yr efengyl mewn amseroedd enbyd a blinion. Pan y trowyd Mr. Jones, periglor Dinbych, allan dan Ddeddf yr Unffurfiad,† yn y Plas Teg y cafodd ef a'i deulu ymwared rhag marw o newyn." ‡

Dengys yr hyn a ysgrifenwyd i Powel gael ei erlid yn amser Charles I., yn nyddiau Cromwel, ac o dan deyrnasiad Charles II. Pan yr oedd rhyfel rhwng y cyntaf a'r Senedd, bu Powel yn gapelwr ym myddin y brenin am ryw gymmaint o amser, a bu agos iddo golli ei fywyd yn ei wasanaeth pan

* Ei "weinidogaeth" ef oedd *pregethu* teithiol, fel eiddo yr apostolion, holl aelodau eglwys lïosog Jerusalem, Roger Williams, Walter Cradoc, Howel Harris, a hen bregethwyr eraill y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru; a mawr y lles a wnaeth efe a'i gydlafurwyr i'w gydwladwyr tywyll a difanteision, a hyny ynghanol peryglon ac erledigeuthau chwerwon.—Gol.

† Gwel hanes Richard Jones o Ddinbych, llyfr iii., pen. xiii.—Gol.
‡ Y Traethodydd am y flwyddyn 1849.

yn sir Fon. Gellir crybwyll lliaws o ymosodiadau barbaraidd eraill a wnaed arno, a'i waredigeuthau hynod o'i beryglon lliosog; ond gwasaneuthed yr hyn a ysgrifenwyd fel siamplau o honynt. Yr oedd efe yn llaw ei Dduw, a dïau mai i'r amddiffyniad Dwyfol yr oedd dano y dylid priodoli ei ddïogelwch. Dengys y llinellau blaenorol fod llafur ein gwron braidd yn anghredadwy yn y cymmeriad o bregethwr, ac nad cyfyng nac ysgafn a fu ei lwyddiant yn y cylch pregethwrol. Ond heb law ei ymdrech digyffelyb fel efengylwr cyhoeddus, gwnaeth gryn lawer hefyd dros lenyddiaeth grefyddol ei wlad. Ei *brif* waith oedd pregethu, fel y proffesai; ond gwnaeth gryn lawer hefyd â'i ysgrifbin, fel y dengys y lliaws treuthodau bychain a gyfansoddwyd ganddo. Er ei fod yn Gymro trwyadl, ac mai yn Gymraeg y pregethodd fwyaf yng Nghymru; etto y mae'n bossibl mai mwy dewisol ganddo oedd ysgrifenu yn Saesneg na'r Gymraeg. Modd bynag, treuthodau Seisnig yw ei gynhyrchion llenyddol gyd âg un eithriad, sef "Canwyll Crist," yr hwn a ysgrifenwyd ganddo yn ei dafodiaith enedigol.*

Heb law ysgrifenu mân lyfrau ei hun, ymdrechodd dros ledeuniad yr Ysgrythyrau yn ein gwlad; a'i ymdrechion ef, a'i gydlafurwyr yn pregethu, a fu yn foddion i barotoi y Cymry i werthfawrogi y Bibl. Gan y byddai yn pregethu tu ag ugain o weithiau yn yr wythnos ar gyfartaledd bob blwyddyn, a'i annerchiadau yn cael eu hynodi gan y *fath* gyflawnder o adnodau o'r Bibl, yr oedd ei weinidogaeth o angenrhaid yn goleuo yr anwyb*odus*, ac yn ennyn ac yn meithrin awydd ynddynt am gydnabyddiaeth â chynhwysiad y gyfrol sanct*aidd*. Gwneud yr hyn a olygai yn iawn y byddai efe, yn annibynol ar amgylchiadau. Dangosodd hyny trwy gefnu ar grefydd lluoedd o'i berthynasau arianog ac urddasol, ac ymuno â'r Anghydffurfwyr; ac y mae ei warogaeth i gydwybod yn dod i'r amlwg yn ei waith yn addef cyfnewidiad ei farn ynghylch bedydd, ac yn ymaelodi yn y cyfundeb Bedyddiedig. Ymddengys nad ceisio myned i'r nef rywsut y byddai ef; ac mai Alpha ac Omega ei fywyd oedd gwneud ewyllys ei Arglwydd, gan ymddiried amgylchiadau dyledswydd i'r Goruchaf. Credai efe ym mhersonolrwydd a gwirfoddolrwydd y grefydd Gristionogol; ac yr oedd ei gyflawniadau crefyddol yn esponiad ymarferol ar sylweddolrwydd a grym ei argyhoeddiadau. Ei farn oedd mai Crist yw unig Ben yr Eglwys, ac nad oes a fynno brenhinoedd a seneddau deuarol â llywodraeth y gwahanol eglwysi. Barnai mai y Testament Newydd yw y safon at yr hwn yr ydym i appelio gyd â golwg ar gred a disgyblaeth, ac nid y "namyn un deugain erthyclau" Eglwys Loegr, nac unrhyw gyffesion eraill o waith dynion; ac y dylai pawb geisio myned i ogoniant ar eu traul eu hunain, heb farchogaeth na phlwyf na theyrnas; ac y mae lliosawgrwydd ei erledigeuthau, a dyfnder trueni ei fywyd egnïol, yn hollol esponiadwy yngoleuni y fath syniadau Ysgrythyrol. Gweithiodd yn galed a llwyddiannus yn ystod ei ddydd byr a helbulus; ac yr oedd y cymmwysderau uchod y cyfeiriwyd atynt, mewn cyssylltiad â'i gof cryf, a'i ddysgeidiaeth ehang, yn ei alluogi i wneud gwaith nad yw yn hawdd, nac, fe allai, yn ddichonadwy, gorbrisio ei natur a'i ganlyniadau. Gyd â phob dyledus barch i'w waith a'i goffadwriaeth, nis gallwn gredu iddo ddylanwadu i'r un graddau ar ddyfodiant y Bedyddwyr yng Nghymru ag y gwnaeth John Myles, ac eraill, a hyny o herwydd ei gydymdeimlad â chymmundeb cymmysg, yr hwn na bu erioed, cyn belled ag y gwyddom, yn fanteisiol i gynnydd ein cyfundeb, ond yn hollol i'r gwrthwyneb.† Os nad ydym yn camsynied, y mae'r eglwysi cymmysg a ffurfiwyd gan Vavasor Powel ymeddiant yr Annibynwyr er ys llawer dydd; ac yr ydym yn meddwl bod rhai o honynt wedi ymddiflannu.

---

## PENNOD XII.

### JOHN ROBERTS, HUGH EVANS, JOHN WILLIAMS, A JOHN EDWARDS.

JOHN ROBERTS ydoedd fab i un John Roberts, o Abergefenni, yn sir Fynwy, Deheubarth Cymru,

* *Dywed* Gwilym Lleyn mai "cyfieithiad ydoedd 'Canwyll Crist' o dreuthodyn Seisnig o eiddo Mr. Powel, o'r 'Saving Faith.'" A'r Parch. D. Silvan Evans a ddywed "nad ymddengys i Vavasor Powel *ysgrifenu* na chyhoeddi dim yn yr iaith Gymraeg" (Llyfr. y Cymry, t. 161). *Y mae'r* Dr. T. Rees yn nodi 14 o fân lyfrau a ysgrifenwyd gan *V. Powel* (*Hist.* Prot. Noncon., p. 121, note *); a noda Gwilym *Lleyn* 11 o honynt (Llyfr. y Cymry, t. 142, 151-2, 161-3, 169, 189); ond nid ymddengys hyd sicrwydd i fwy na dau o honynt gael eu cyfieithu i'r Gymraeg, sef "Canwyll Crist" a'r "Gair tros Dduw," a fu *dan* sylw o'r blaen yn y bennod hon. Dywed y Dr. T. Rees mai Charles Llwyd, Ysw. ("o'r Dolobran, y mae'n debyg," medd G. Lleyn), a *James Quarrel*, *bu*gail cyntaf yr eglwys Gynnulleidfaol yn y Mwythig, a ysgrifenasant y llyfryn a elwir "Examen et Purgamen Vavasoris," ac â hyn y cyttuna Gwilym Lleyn (Llyfr. y Cymry, t. 162).—GOL.

† Ymddengys wrth holl hanes Vavasor Powel bod cynnydd crefydd bur, Ysgrythyrol, ymhlith yr holl genedl, yn pwyso yn llawer trymach ar ei feddwl cyssegredig ef, na chynnydd sect neu gyfundeb; a chredir pe cyfodai lliaws etto yng Nghymru o'i gyffelyb, y byddai yn bur ffodus i grefydd ysprydol, ehang, a rhyddfrydig y Testament Newydd.—GOL.

Digitized by Google

yr hwn a ddodwyd yn brentis o gylchlestrwr (cooper) yn y dref honno; ond cyn ei fod wedi gorphen ei brentisiaeth, efe a ddihangodd ymaith, naill ai rhag cael ei gymmeryd i'r fyddin, neu am ei fod yn methu cydweled â'i addysgydd. Ymsefydlodd yn Siddington, ger llaw hen ddinas Caerceri (Cirencester), yn sir Gaerloyw, gwlad yr afalau. Ei brif orchwyl yno oedd gwneud barilau i ddal afalwy (cider); a llwyddodd cystal yn ei alwedigaeth nes y daeth yn ŵr o gryn gyfoeth, a phriododd ferch i deulu parchus a chyfoethog yn y lle o'r enw Sollis. Ymddengys i J. R. droi yn ameuthwr llwyddiannus yn Siddington yn fuan ar ol priodi, a'i fab hynaf ef oedd JOHN, gwrthrych y bennod yma, yr hwn a anwyd yn 1617. Ymddengys bod y tad yn Ymneillduwr egwyddorol, a llwyddodd i blanu yr un egwyddorion ynghalon ei fab. Yr oedd efe hefyd yn bleidiwr zelog i Cromwel, a chafodd ddïoddef yn ddwys o'r herwydd. Bu catrawd o filwyr y brenin yn gwersyllu ar ei dir am ddyddiau. Cymmerasant yr hyn oll a feddai, a difäodd yr anifeiliaid ei holl wair a'i ŷd—peth heb ei dori, a pheth wedi ei dori. Wrth weled ei dad yn cael y fath driniaeth, cynhyrfodd meddwl John i ymuno â byddin Cromwel, a llwyddodd i gael gan gymmydog i'w ganlyn. Pan glywsant fod Caerceri wedi cael ei chymmeryd gan filwyr y brenin, cawsant genad i fyned adref i edrych am eu rhieni. Gwelodd dau o'r milwyr hwynt, rhedasant ar eu hol, a llwyddasant i'w dal, ac ymosodasant arnynt yn y dull mwyaf barbaraidd. Bu John Roberts am ennyd yn amddiffyn ei hun, ond torasant ei ddwylaw a'i freichiau mor dost fel y bu dan ei greithiau hyd ei fedd. Syrthiodd yn y diwedd ar ei wyneb fel un marw, gan feddwl y gallai wneud iddynt gredu ei fod wedi marw, ac y gadawsent ef yn llonydd; ond gweuddodd un o honynt ar y llall, "Tor ei ben ef ymaith, i ti gael bod yn sicr o hono." Ond ni thybiodd hwnw y byddai yn angenrheidiol tori ymaith ei ben, gan mor llonydd yr oedd yn edrych; a chan roddi brathiad neu ddau iddo yn ei ysgwydd a'i wegil, aethant mewn brys ar ol ei gydymaith, a lladdasant ef yn ddiseremoni. Pan welodd John Roberts eu bod yn lled bell, credodd ei fod yn clywed rhyw lais yn dywedyd wrtho, "Diangc am dy einioes." Ond nid oedd wedi myned ymhell cyn i'r gelynion ei ganfod, a dechrau erlid ar ei ol; ond llwyddodd i redeg i lawr dros fryn serth, ar hyd yr hwn nis gallai un ceffyl fyned. Wedi cyrraedd y gweulod, nofiodd dros yr afon, er drwy anhawsder mawr, o herwydd ei archollion, pwysau ei ddillad, ac yn neillduol am fod y dwfr yn llanw ei fotasau; ond pan welodd ei elynion ei fod wedi croesi yn ddiangol, torasant eu calonau, a throisant i gyfeiriad arall. Troes i dŷ Mr. Sollis, ei ewythr brawd ei fam, ac anfonodd was ei ewythr i ofyn i wraig y tŷ lle yr oedd prif swyddogion byddin y brenin yn llettya i ddyfod ato. Crefodd arni arfer ei dylanwad gyd â'r swyddogion iddo gael heddwch tra y byddai yn y dref, yr hyn a wnaeth gyd â'r parodrwydd mwyaf; a hefyd, llwyddodd i gael ganddynt anfon y meddyg gorau oedd ganddynt i weini arno, yr hwn, pan welodd ef, a ddywedodd wrtho y buasai yn ei ladd pe cyfarfuasai âg ef ar y ffordd, ond y gwnai ei orau yn awr i'w feddyginieuthu, yr hyn a wnaeth mewn ychydig wythnosau. Pan ddaeth i ddechrau rhodio o gwmpas, aeth i edrych am ei dad, a chafodd ef yn glaf yn ei wely. Wedi ymgom fer, a chymmysgu dagrau llawenydd a thristwch, dechreuodd yr hen ŵr grynu, a chrynodd yn hir nes oedd y gwely yn ysgwyd dano. Dywedai nad oedd yn teimlo poen o gwbl, ac mai cadarn allu Duw oedd yn ei ysgwyd ef felly; a dechreuodd ganu yn soniarus, "Yn yr Arglwydd yn unig y mae genyf gyfiawnder a nerth; yn Nuw y mae i mi iechydwriaeth." Ar hyny bu farw mewn oedran teg. Dychwelodd John Roberts at y fyddin yn fuan wedi claddu ei dad, ac arhosodd gyd â hi hyd nes yr aeth yn heddwch. Yna dychwelodd at ei berthynasau galarus. Priododd yn fuan ar ol hyn â Lydia Tindal, merch i chwaer Mathew Hales, yr hwn yn amser Charles II. a wnaed yn brif farnwr Lloegr. Bu iddo chwech o blant, dau a'r rhai a fu farw yn ieuangc; lladdwyd y llall gan geffyl pan yn bedair ar ddeg oed. Cafodd y tri arall fyw i gyrraedd oedran gwŷr.

Yn y flwyddyn 1665, daeth dwy ddynes, "dwy Gyfeilles," ar ymweliad â Chaerceri, y rhai a gyfeiriwyd at John Roberts fel y dŷn tebycaf i fod yn ofni Duw yn y dref. Wedi iddo roddi derbyniad iddynt, dymunasant arno alw ychydig o'i gyfeillion ynghyd, a chaniatâu iddynt hwy draddodi ychydig o annerchiad. Daeth pobl ynghyd nes oedd y tŷ yn llawn. Siaradodd un o honynt ychydig eiriau, y rhai a gawsant y fath ddylanwad ar y cwmni nes creu awydd ynddynt am gael clywed ychwaneg; ond gwrthododd y merched siarad ond ychydig, eithr cyfeiriasant John Roberts i fyned i ymweled âg un Richard Farnsworth, yr hwn ar y pryd oedd yngharchar Banbury.

Pan aeth yno, cafodd fod y ddwy ddynes wedi cyrraedd yno o'i flaen, a cheidwad y carchar yn eu rhwystro i fyned i mewn, gan ei fod wedi cael gorchymyn pendant "i rwystro pob un o'r bobl benchwilan hyny i mewn, neu os aent i mewn o gwbl, y byddai raid iddynt aros yno;" ond trwy i John Roberts ymbil drostynt, a myned yn gyfrifol am eu hymddygiad, caniataodd eu cais. Cawsant hyd i Richard Farnsworth wrth ffenestr y carchar yn pregethu i dyrfa o bobl oedd ar yr heol. Tröes atynt cyn hir, gan ddywedyd, "Gan fod Zacheus yn fychan o gorpholaeth, ac yn awyddus am weled Crist, rhedodd ym mlaen, a dringodd i ben sycamorwydden; ond gan fod yr Iachawdwr yn gwybod ei ddymuniadau da, galwodd ef i lawr, gan ddywedyd, Heddyw y daeth iachawdwriaeth i'th dŷ di. Yr oedd Zacheus yn debyg i rai yn ein dyddiau ni, yn dringo i bren gwybodaeth, gan feddwl dyfod o hyd i Grist yno; ond y gair yn awr yw, Tyred i lawr, Zacheus, canys y mae'r cwbl a ellir ei wybod am Dduw wedi ei egluro oddi mewn yn yr enaid." Dywedodd y geiriau hyn, a phethau eraill o'r un natur, gyd â'r fath ddylanwad fel y dywedodd John Roberts wrth ei wraig ei fod wedi llefaru wrtho fel pe yn ei adnabod o'i ieuengctid. O'r adeg hon dechreuodd ddwyn y groes ym mysg y Crynwyr.

Pan ddechreuodd Duw "egluro y gwirionedd" iddo, gorfodwyd ef un borau y "dydd cyntaf o'r wythnos" i fyned ar amser addoliad i'r addoldy plwyfol. Pan welodd yr offeiriad ef yn sefyll o'i flaen â'i het am ei ben, safodd yntau yn ddistaw i edrych arno; a phan ofynwyd paham nad âi ym mlaen, attebodd nad allai fyned ymhellach tra fyddai y dŷn hwnw â'i het am ei ben yn ei bresennoldeb. Cymmerwyd ef allan gerfydd ei fraich, a chadwyd gwyliadwriaeth ar y drws i'w attal yn ol. Pan yn clymu carrai ei esgid o flaen y farchnadfa, tarawodd rhywun ef yn ei gefn â charreg, gan ddywedyd, "Cymmer hyn yna er mwyn Iesu Grist." "Felly yr wyf yn gwneud," eb yntau, ac ni throdd ei wyneb yn ol i edrych pwy oedd yno; ond ymhen ychydig ddyddiau ar ol hyn, daeth y dŷn ato i gyfaddef ei fai, ac i ofyn ei faddeuant, gan ei fod, meddai, wedi methu cael ei feddwl yn dawel ddydd na nos er pan darawsai ef. Aeth tri arall o'r un gredo y Sul canlynol i'r llan â'u hetiau am eu penau. Pan welodd yr offeiriad hwynt, safodd yn ddistaw; a phan ofynodd y clochydd a oedd yn iach, attebodd ei fod, ond nas gallai fyned ym mlaen â'r gwasanaeth tra fyddai y cwn mudion hyny o'i flaen. Cafodd gan rai o'r bobl eu llusgo allan; ac aeth yntau, wedi gorphen y gwasanaeth, at yr ynadon i'w cyhuddo, a chawsant eu rhwymo i ymddangos yn y llys chwarterol. Aeth John Roberts gyd â hwynt i'r llys; a phan welodd hwynt yn cael eu hanfon i'r carchar ar air yr offeiriad, heb ofyn dim i neb yn eu cylch, aeth ym mlaen a gofynodd a oedd y gwŷr oedd yno yn eistedd i farnu wedi cael eu tyngu i wneud cyfiawnder; ei fod yn ymddangos iddo ef nad oedd yno neb yn cynnyg at hyny. Attebodd y cadeirydd ef gyd â bloedd, "Pwy ydych chwi? Beth yw eich enw?" A chyn bod John Roberts wedi gorphen atteb, bloeddiai yn uwch fyth, "Y mae'n dda genyf eich cael o'r diwedd i'm crafangau. Clywais lawer am danoch. Yr ydych yn haeddu cael eich crogi; oes, y mae eich gwell chwi wedi cael ei grogi." "Hwyrach, yn wir," ebai John Roberts; "ond beth feddyliet ti sydd yn dyfod o'r bobl fydd yn crogi dynion diniwaid?" "Wel," ebai'r cadeirydd, "cewch chwi fyned i'r carchar; a phe byddai rhyw amgylchiadau yn debyg o ddyfod i'ch galluogi i fyned yn rhydd, deuwn i'r carchar a thorwn eich pen â'm cleddyf fy hun, canys yr wyf yn crynu rhag i benboethiaid fel chwi ddyfod a'm lladd yn y nos;" a thaflodd belen o sel-gwyr at ei ben gyd â ffyrnigrwydd. Taflwyd hwynt oll i'r carchar heb ychwaneg o holi arnynt; ond yn y prydnawn daeth Mr. Sollis, ei ewythr, yr hwn oedd un o'r barnwyr oedd ar y faingc, i edrych am danynt, a dywedodd wrth John Roberts y gallai yn hawdd fyned adref at ei deulu. Gofynodd yntau ar ba ammodau. "Wel," ebai'r barnwr, "ar yr ammod i'r ceidwad agor y ddor i chwi." Dywedodd ei fod yn derbyn ei ryddid, ond yn rhyfeddu ei fod ef yn eistedd ar y faingc fel mudan, heb ganddo ddim i'w ddywedyd o blaid cyfiawnder a diniweidrwydd. Nos drannoeth, aeth i deimlo yn rhyfedd, a dechreuodd grynu nes oedd y gwely yn ysgwyd dano. Dywedodd wrth ei wraig fod yr Arglwydd yn gosod pethau celyd o'i flaen i'w cyflawni, ac y buasai yn well ganddo golli ei fywyd nag ymgymmeryd â hwynt; ond bod yn rhaid iddo fyned i ymweled â chadeirydd yr ynadon, yr hwn oedd wedi ei garcharu. Gan mai ei ewythr oedd wedi ei ollwng yn rhydd, teimlai y byddai hwnw yn sicr o ddigio wrtho os rhedai felly rhag blaen i'r ddalfa. Ond barnai y wraig, os oedd yr Arglwydd yn gofyn hyny ganddo, mai ei ddyledswydd oedd ufuddhau, deued fel y deuai. Cychwynodd yn y borau cyn bwyta

Digitized by Google

nac yfed, a chredai ei fod yn clywed llais yn dywedyd wrtho pan yn myned ar gefn ei anifail, "Cofia wraig Lot." Ymresymai âg ef ei hun y byddai pawb yn sicr o ddywedyd nad oedd yn caru ei deulu, gan ei fod yn myned felly yn wirfoddol i afael ei elyn. Disgynodd, ac eisteddodd ar y ddeuar i daenu ei achos ger bron Duw; ac wedi disgwyl am ychydig funudau, gwasgarodd yr Arglwydd y cwmmwl â'r adnod honno, "Dos, a myfi a âf gyd â thi." Teimlai ei hun wedi cael ei lenwi gymmaint â chariad Duw nes, cyn ei fod wrth y tŷ, yr oedd yn awyddus am gael cyfle i ollwng allan ffrydlif o'i galon. Pan ddaeth at y tŷ, dywedodd mab y barnwr a'i ysgrifenydd wrtho eu bod hwy yn meddwl ei fod ef yng ynghastell Caerloyw. Attebodd iddo fod yno, ond ei fod wedi dyfod allan. Gofynodd y llangciau pa fodd yr oedd wedi cael ei ryddid. Addawodd yntau eu hatteb pan fyddai ganddynt awdurdod i'w holi: ei fod yn awyddus am gael gweled yr ynad. Addawodd yr ysgrifenydd y caffai, ond iddo ymddwyn yn foesgar. Crefodd yntau ar yr ysgrifenydd ei hyspysu os oedd yn gwneud rhywbeth allan o le. Arweiniwyd ef i'r neuadd, lle y bu yn aros am ganiatâd i weled yr ynad. Yr oedd yn amlwg iddo, pan gafodd fyned ato, fod yr Arglwydd wedi dylanwadu arno. Edrychai nid fel llew, eithr fel oen. Rhedodd i'w gyfarfod, ac ysgydwodd law âg ef yn siriol; ond edrychodd John Roberts arno yn ddifrifol, a dywedodd iddo ef ddyfod yno yn ofn y nefoedd i'w rybuddio i edifarhau ar frys am ei ddrygioni, rhag i'r Arglwydd dori edau ei fywyd, a'i daflu i'r pydew diwaelod. Cymmerodd yr ynad ef i eistedd wrth ei ochr, a dywedodd, "Yr wyf yn eich derbyn fel cennad Duw. Y mae'n debyg fy mod wedi gwneud cam â chwi; ond ni wnaf mwy. Gobeithio y maddeuwch i mi, a gobeithio y maddeua Duw i mi hefyd," ac ymadawsant yn y teimladau gorau.

Aeth John Roberts gyd â'i gyfeillion i'r llys chwarterol. Pan welodd y cadeirydd ef, dywedodd ei fod yn ei gymmeradwyo yn fawr am ymddangos yn y llys, ond y gallai fyned lle y mynnai. Pan yn troi i fyned allan, gofynodd yr ysgrifenydd iddo am y costau. "Beth! ai am arian yr wyt yn gofyn," eb yntau. "Paid a disgwyl i mi byth brynu fy rhyddid âg arian. Nid wyf yn nyled neb; ni wneuthum golled i ti." A phan ddywedodd yr ysgrifenydd wrth yr ynadon ei fod yn gwrthod talu'r costau, bwriwyd ef a'i gyfeillion i'r carchar, lle y buont hyd y prydnawn, pryd y rhyddhawyd hwynt drwy orchymyn yr ynadon.

Taflwyd ef eilwaith i'r carchar am wrthod talu'r degwm i Geo. Bull, offeiriad Siddington. Yr oedd yn y carchar ar yr un pryd ag ef, ac am gyffelyb drosedd, wraig weddw a'i henw Elizabeth Hewlings, yr hon oedd yn enwog fel bydwraig (*midwife*). Er pan oedd hon yn y carchar, yr oedd amryw wragedd yn y gymmydogaeth wedi marw ar enedigaeth plant o eisiau cael cymmorth priodol, fel y tybid. Cynhyrfodd hyny wragedd yr ardal i wrthryfel yn erbyn yr offeiriad, fel y buasent wedi llosgi ei dŷ oni buasai i'r Arglwyddes Dunch ddyfod ym mlaen a thalu drosti. Tra yr oedd y wraig honno yn ymbarotôi at adael y carchar, troes gwas yr arglwyddes i siarad â John Roberts. Wedi deall pwy ydoedd, dywedodd fod yr arglwyddes yn siarad llawer am dano, ac y byddai yn dda ganddi gael ei weled. Wedi clywed ei fod yno, gofynodd i'r ceidwad roddi iddo genad i ddyfod ati; a phan oedd efe yn nesu at y cerbyd, gofynodd yn ei ffordd syml, "A oes arnat ti eisiau fy ngweled i?" Gofynodd hithau ymha le yr oedd yn byw, ac ai efe oedd yn cadw cyfarfodydd yn ei dŷ. Attebodd ei fod yn byw yn Siddington, ac y byddai eglwys Crist yn cyfarfod yn aml yn ei dŷ. Pan ofynodd am ba achos yr oedd yn y carchar, attebodd mai am wrthod talu cyflog i un sydd yn galw ei hun yn offeiriad, yr hyn nas gallai wneud o gydwybod. A phan gynhygiodd hi dalu drosto, attebodd na fuasai hyny yn ddim ond twyll a rhagrith, a'i fod yn foddlon i aros lle yr oedd nes y byddai Duw yn gweled yn dda ei ryddhau. Dywedodd yr arglwyddes y carai ei gael yn rhydd er mwyn cael ei gymdeithas. Attebodd fod digon o achosion mwy teilwng i'w cael lle y gallai ddangos ei haelioni, na thalu arian i greadur mor ddidda a'r offeiriad; ac o'r tu arall, mai ei ddyledswydd ef, pe yn rhydd, fyddai myned yn gyntaf at ei deulu. Prynodd ef yn rhydd, a phennododd amser iddo i fyned i ymweled â hi. Aeth yn ol ei addewid, a chafodd hi ynghanol myfyrdodau dwysion. Cafodd ganddo addaw dyfod yno yr ail waith. Gwahoddodd hithau offeiriad y dref yno i'w gyfarfod, er mwyn cael eu clywed yn ymddiddan â'u gilydd. Ar y diwrnod pennodedig, cyfarfu'r ddau ar y ffordd; a phan ddeallasant eu bod yn myned i'r un lle, cydgerddasant at y tŷ. Pan glywodd yr arglwyddes eu bod yno, galwodd am John Roberts o'r neilldu, a dywedodd ei bod yn dioddef yn enbyd er ys rhai dyddiau oddi wrth

Digitized by Google

ryw anhwyldeb neillduol; ei bod yn deall ei fod ef yn fedrus gyd â llawer math o glefydau, ac y carai yn fawr pe byddai yn gallu lleddfu ei phoenau hi. Attebodd yntau na wyddai efe fawr am glefydau, ond iddo weled un, yr hwn oedd yn arfer byw yn foethus, fel yr oedd yn debyg ei bod hithau, a'i fod wedi gorfod dïoddef llawer yn debyg iddi hi; ond pan welodd yr Arglwydd yn dda gyffwrdd â'i galon, iddo newid ei ddull o fyw, a chael adferiad iechyd rhag blaen. "Yr wyf yn gweled," eb hithau, "eich bod am fy ngwneud i yn Grynwr; ac yn wir, pe gallwn wneud cystal Crynwr a chwi, mi ddeuwn foru. Anfonais am yr offeiriad i'ch cyfarfod, er mwyn cael eich clywed yn siarad am y nefoedd." Cyflwynodd hwynt i'w gilydd, a dymunodd ar yr offeiriad ddechrau yr ymddiddan. Dechreuodd hwnw ymesgusodi; ei fod yn methu gwneud dim o honynt, nac o'u llyfrau; eu bod yn dal yr un athrawiaeth a'r Pabyddion; ac appeliai at John Roberts i brofi i'r gwrthwyneb. Attebodd yntau, os gallai yr offeiriad ddwyn un prawf ym mlaen i ddangos ei fod yn Babydd, y dygai efe ddeg o brofion i ddangos fod yr offeiriad yn Babydd. Sicrhaodd yr offeiriad fod y Crynwyr, fel y Pabyddion, yn dal yr athrawiaeth felldigedig o berffeithrwydd yn y bywyd hwn. Attebodd John Roberts ei fod yn arw o beth ei fod ef yn enllibio y Pabyddion yn eu cefnau, y rhai nad ydynt yn credu mewn un modd fod sefyllfa o berffeithrwydd yn ddichonadwy yn y byd hwn; o ba herwydd, gosodasant i fynu athrawiaeth y purdan, er mwyn cael lle i ymlanhau oddi wrth bechod, fel y gallent fyned i'r nefoedd. "Ond er nad yw'r Pabyddion yn credu hyny, yr wyf fi yn dal yr athrawiaeth yna. Ond gad glywed a wyt ti yn credu mewn purdan?" Attebodd hwnw yn nacaol. "Wel," eb yntau, "y mae'r Pabyddion yn gallach na thi; y maent hwy yn credu geiriau Crist, os bydd dŷn farw yn ei bechodau, nas gall fyned i'r nefoedd; ond yr wyt ti yn credu y rhaid bwrw pawb, bendramwnwgl, i drueni, gan nas gallant gyrraedd sefyllfa o berffeithrwydd yn y byd hwn, ac nad oes lle i lanhau neb yr ochr draw. Dywed i'r ddynes glaf hon, i'r hon yr wyt wedi bod yn pregethu drwy dy oes er mwyn dy fol, a all hi ddisgwyl cael ei pharotôi i'r nefoedd yn y fuchedd hon, neu yn rhywle arall; neu a wyt ti am ddywedyd wrthi y rhaid iddi gael ei thaflu i'r trueni?" Attebodd yr offeiriad ei fod yn credu y gallai Duw barotoi dŷn i'r nef ychydig cyn marw. "Awr neu ddwy wyt ti yn feddwl," eb John Roberts. "Ië," eb yr offeiriad. "Wel," eb yntau, "os awr neu ddwy, paham diwrnod neu ddau; ac os diwrnod neu ddau, paham wythnos neu ddwy; ïe, blwyddyn neu ddwy; ïe, saith mlynedd? Felly, os wyf fi yn Babydd am ddal yr athrawiaeth hon, felly tithau." Yna dechreuodd efe ddwyn ym mlaen brofion fod yr offeiriad yn Babydd. "Yr wyt ti a'th bobl yn adeiladu tai i addoli, yn eu cyssegru, ac yn eu galw yn eglwysi; felly y Pabyddion. Yr ydych yn crogi clychau ynddynt, gan eu galw ar enw y seintiau; felly y Pabyddion. Gwisga y Pab a'i offeiriaid wisgoedd amryliw, gan eu galw yn addurniadau; yr wyt tithau yn gwneuthur yr un peth. Byddwch yn cyssegru y tir claddu, gan ei alw yn dir sanctaidd; felly y Pabyddion. Mewn gair, yr wyt ti mor debyg i Babydd fel y rhaid cael dŷn lled gall i wahaniaethu rhyngoch." Dechreuodd yr offeiriad anesmwytho, ac er pob taerni, gwrthododd aros ciniaw; ond bu yr amgylchiad yn foddion i ennill yr arglwyddes a'i gwas yn bleidiol i'r Crynwyr, a bu yr olaf ar ol hyn yn gydgarcharor i John Roberts yngharchar Caerloyw. Arferai ceidwad y carchar eu poeni ymhob dull a modd. Cyflogai ryw hen gardotyn oedd yn cerdded o gwmpas dan chwythu chwibanogl, i fod yn y carchar drwy y nos i chwythu ei chwibanogl er eu cadw yn effro; ond un noswaith siaradodd John Roberts mor ddifrifol âg ef fel y syrthiodd y chwibanogl o'i law, a dywedodd wrth y ceidwad mai gweision y Duw goruchaf oedd y dynion hyny, ac na byddai iddo ef eu poeni yn hwy pe crogid ef am beidio. Y canlyniad fu ei droi allan yn ddiseremoni, gan ofyn, "A wyt tithau wedi dy lygad dynu gan y bobl hyn?"

Cafodd ef a'i was eu gwysio unwaith o flaen Esgob Caerloyw, yr hwn a ofynodd iddo ef beth oedd ei enw. Attebodd mai John Roberts. "Da iawn," eb yr esgob. "Ganwyd chwi yn Roberts; ond pwy a roddes yr enw John i chwi?" Attebodd ei fod yn ofyniad caled; ei fod wedi cael yr enw hwnw cyn ei fod yn gallu cofio, ond ei fod yn tybio mai ei rieni, gan na wyddai gan bwy yr oedd hawl i osod enw arno os nad ganddynt hwy. Gofynodd yr esgob pa sawl plentyn oedd ganddo ef, a pha sawl un o honynt oedd wedi cael "bedydd esgob." Attebodd i'r Arglwydd weled yn dda roddi iddo chwech o blant, ond nad oedd ond tri o honynt yn fyw, ac nad oedd yr un o honynt wedi cael "bedydd esgob," o ran dim a wyddai efe: a'i reswm dros eu bod heb fedydd esgob oedd, eu bod wedi

Digitized by Google

cael eu geni yn nyddiau Oliver, pan nad oedd esgobion yn rhyw gymmeradwy iawn. Gofynodd yr esgob pa sawl un o honynt oedd wedi cael ei fedyddio. Attebodd na wyddai efe yn iawn beth a olygai wrth fedydd; y gwyddai fod dŷn wedi cael ei anfon oddi wrth Dduw a'i enw Ioan, yr hwn a gafodd orchymyn i fedyddio; ond nad oedd efe yn gwybod dim am neb arall wedi cael y fath orchymyn. Dywedodd yr esgob y gallai brofi fod rhai o ddisgyblion Crist wedi bedyddio â dwfr; ond teimlai John Roberts nad oedd hyny o bwys, gan fod Paul, y penaf o'r apostolion, yn cyfaddef na chafodd efe orchymyn i fedyddio â dwfr, ac yr oedd yn dïolch na wnaeth ond ychydig o hyny, a charai yn fawr gael gwybod pwy oedd wedi awdurdodi yr esgob i fedyddio. Newidiodd yr esgob yr ymddiddan, a chyhuddodd ef o beidio mynychu yr eglwys; ond ni fynnai efe wrando y cyhuddiad heb gael ei gyhuddwyr ger bron; a phan glywodd mai yr eglwys-wardeiniaid a'r offeiriaid oddynt, sicrhaodd ei fod ef yn myned yn rheolaidd iawn i'r eglwys, ac y byddai yr eglwys yn dyfod ambell waith ato yntau. Cododd ysgrifenydd y llys i egluro mai wrth fod yr eglwys yn dyfod ato ef y golygai, ei fod yn cadw cyfarfodydd yn ei dŷ; ond gwadai efe fod yr un tŷ yn eglwys; mai cymdeithas o bobl Dduw, lle bynag y byddont, sydd yn cyfansoddi eglwys; mai gwaith dwylaw dynion yw y tai, ond bod yr eglwys i gael ei hadeiladu gan Iesu Grist. Pan ofynwyd paham nad oedd ei was yn bresennol, attebodd ei fod yn hen, ac nad oedd ganddo galon i ymgymmeryd â thaith mor bell, os na fyddai yr achos yn dda, y fath nad oedd yno yn galw am dano; ac heb law hyny, nas gallai efe ei hebgor ef oddi wrth ei waith, a'i fod yn myned i'r eglwys yn rheolaidd gyd âg ef. Anfonodd yr esgob y ceisbwl i'w ddal yn fuan ar ol hyn, ond yr oedd newydd gychwyn i Gaerodor (Bristol) gyd â George Fox, a bu y swyddogion yn chwilio am dano am ddyddiau. Yr oedd ei wraig yn dyner iawn wrthynt—yn rhoddi iddynt bob croesaw a thiriondeb; ond gan nad oedd yn dychwelyd, cynnygiasant fyned ymaith os rhoddai hi bunt iddynt. Attebodd na wyddai hi ddim fod ei phriod wedi gwneud cam â neb, fel ag i alw am iddi hi dalu iawn. Pan yn dyfod at ei dŷ yn y nos, gwelai ddŷn yn sefyll ynghysgod llwyn. Gofynodd ai ceisbwl ydoedd. Attebodd nad ê, ond ei fod yno yn aros i gael gofyn ei faddeuant am y cam a wneuthai âg ef. Cafodd weledigaeth yn y nos, yr hon, fel y deallai hi, oedd yn peru iddo fyned at yr esgob, yr hyn a wnaeth pan aeth yn ddydd. Cafodd hyd iddo yn ei ystafell, â'i het yn ei law. Safodd John Roberts o'i flaen â'i het am ei ben; ac wedi disgwyl am ennyd iddo ddywedyd rhywbeth i ddechrau, dywedodd, "A thi, yr hen wr, y mae a fynnwyf fi. Mi glywais dy fod wedi anfon ceisbwl i'm dal; ond gan na chawsant fi, yr oedd yn well genyf ddyfod na rhoi ail drafferth iddynt. Os gwneuthum gam â rhywun, myfi a'i talaf; ond os ceir fi yn ddiniwaid, gwylia ar dy enaid beidio fy nrygu." Pan welodd mai ei drosedd oedd peidio myned i'r eglwys, dywedodd i Nebuchodonosor osod delw fawr i fynu, a bod pob un a beidiai blygu iddi i gael ei daflu i'r fflamau; a bod yr esgobion yn awr am gospi pob dŷn am wrthod plygu i'w Llyfr Gweddi Gyffredin hwy, yr hwn ymhob ystyr sydd gymmaint o waith dwylaw dynion a delw Babilon. Dywedodd yr esgob bod yn rhyfedd eu gweled hwy, y Crynwyr, wedi myned mor hyderus yn eu crefydd, tra nad oedd ond crefydd hollol newydd. Attebodd yntau y gallai brofi fod ei grefydd ef lawer yn hyn na chrefydd yr esgob; fod y Llyfr Gweddi, yn amser Oliver, fel hen almanac; nad oedd ond ychydig iawn wedi sefyll drosto; pe buasai i Oliver osod yr offeren Babaidd yn eu geneu, y buasent yn cydymffurfio, ac yn gwneud pob peth er mwyn eu boliau; ac nad oedd crefydd yn werth dim os nad yn werth dïoddef drosti. Yr oedd efe mewn perygl am ei fywyd yr amser hwnw, fel yr amser hwn; ond ei fod yn hyderu, gan na welodd yr esgob ei grefydd ei hun yn werth dïoddef drosti yn amser Oliver, y byddai yn ddigon call i beidio gosod neb arall i ddïoddef drosti yr adeg hon. Cydnabyddai fod y Llyfr Gweddi mewn bod ymhell cyn dyddiau Oliver, o herwydd yr oedd wedi clywed hen offeiriad meddw yn ceisio ei ddarllen, er y byddai yn aml yn rhy feddw i neb ddeall un gair o hono; ac etto, ei fod yn well dŷn o lawer na'r offeiriad oedd yn y plwyf hwnw ar y pryd. Gofynodd yr esgob pwy oedd eu gweinidog yn awr. Attebodd yntau mai ei weinidog ef oedd Iesu Grist, Cyfryngwr y Testament Newydd, ond mai gweinidog y plwyf oedd George Bull, un o'r dynion gwaethaf a welodd erioed. Pan sicrhaodd yr esgob mai George Bull oedd un o dduwinyddion gorau yr eglwys, dywedodd yntau fod yn ddrwg ganddo hyny, gan, os oedd ganddynt waeth pobl nag ef, nad oedd yn debyg y goddefai yr Arglwydd hwynt yn faith iawn ar y ddeuar; ei fod yn gelwyddwr, yn yspeiliwr, ac yn feddwyn; a'i

fod yn gobeithio y dywedai yr esgob hyny wrtho, ac y byddai yn dda ganddo gael dwyn tystiolaeth i'r perwyl hwnw yn ei wyneb.

Wedi hir ddadlau, dywedodd wrth yr esgob fod yr amser wedi myned ymhell, a bod iddo groesaw, os yn dewis, i'w osod ef yngharchar; ei fod yn foddlon myned heb na barnwr, dadleuwr, na chyfreithiwr, ond Barnwr y nefoedd yn unig. Neidiodd cyfaill i'r esgob ar ei draed, a dywedodd ei fod yn ddŷn mor benrydd fel yr oedd efe yn ofni am ei fywyd yn ei bresennoldeb. Attebodd yntau mai hawdd y gallai fod, tra o dan ddylanwad cynfigen a chydwybod euog, fel Cain, yr hwn a deimlai fod pob dŷn a welai yn "myned i'w ladd." Rhuthrai'r gŵr yn wyllt ar hyd yr ystafell, a thyngai os na byddai holl Grynwyr y deyrnas wedi eu crogi cyn pen mis, y cymmerai efe ei hun ei grogi. Attebodd John Roberts ei fod yn gobeithio y safai at ei air. Galwodd yr esgob ei ganghellwr, a llu o offeiriaid, ymhlith y rhai yr oedd George Bull, yr wythnos ganlynol, wrth dŷ John Roberts, a chan estyn ei law iddo, dywedodd ei fod yn awyddus am ei weled cyn myned o'r sir ar ei ymweled â'r esgobaeth. Gan iddynt wrthod disgyn, cyrchwyd ychydig ddïod allan. Gofynodd un a'i enw George Evans iddo a oedd efe yn arfer croesawu pobl fel hwy. Attebodd fod ei dŷ bob amser yn agored i bobl onest, ac weithiau i bobl eraill hefyd. Tynasant hwythau y casgliad mai y Crynwyr oedd y "bobl onest, ac mai hwy oedd y bobl eraill," er mawr ddigrifwch. Canmolai yr esgob y ddïod, a sicrhai nad oedd wedi cael gwell corniad er pan oedd wedi cychwyn oddi cartref. Gwrthododd George Bull gymmeryd y cwpan o'i law, gan fod ei ddïod, meddai efe, "yn llawn hops a heresi;" eithr sicrhaodd John Roberts ef nad allai ddywedyd dim am yr hops, gan nad oedd yn bresennol pan oeddid yn darllaw; ond bod yr esgob wedi ei hyfed heb ddeall fod ynddi heresi o gwbl." "Gwell i chwi," eb yr esgob, "beidio troseddu y cyfreithiau etto. Yr wyf yn deall mai chwi yw blaenor y Crynwyr y ffordd hon; ac heb i ni allu'ch distewi chwi, ni waeth i ni beth a wnelom." Addawodd yntau ymdrechu gwneud ei orau i ufuddhau i awdurdod Duw, gwnaed y mân awdurdodau fel y mynent âg ef. Cyttunasant i gael ymgom drannoeth yn Tedbury. Aeth yno yn ol ei addewid, a'i fab i'w ganlyn, fel, os bwrid ef i garchar, y gallai fyned adref i ddywedyd yr hanes. Cyfarfu ar y ffordd ag un a'i enw Anthony Sharp. Cynygiodd hwnw fyned yn gwmni iddo, ac yr âi gyd âg ef i'r carchar os byddai galwad am hyny, gan ei fod yn gweled y cai yno gwmni da. Pan gyrhaeddodd yno, yr oedd yr esgob ar ei giniaw gyd â'r offeiriaid; a phan gafodd gyfle, dywedodd wrtho yn sarug ei fod yn rhwym o newid ei ddull ato ef; y byddai raid ei orfodi i fyned i'r eglwys, a rhoi heibio y cyfarfodydd terfysglyd a gynhaliai yn ei dŷ. Ond yr oedd John Roberts yn barnu bod yn rhy galed iddo gau ei ddrws yn erbyn ei gyfeillion, tra yr oedd wedi ei agor i groesawu yr esgob a'i gyfeillion y dydd o'r blaen; ei fod yn barod i ymrwymo na chai neb terfysglyd a bradwrus, hyd eithaf ei wybodaeth, ddyfod byth dros drothwy ei ddrws; ond y cai pobl dduwiol, y rhai a ddisgwylient wrth Dduw, bob nodded ganddo a fyddai yn ei allu. A phan ddywedodd nad allai fyned i'r eglwys, am fod yr Arglwydd wedi ei gynhyrfu y tro y bu yno i godi yn erbyn rhyw offeiriad cyflogedig oedd yno yn ceisio pregethu, ac nad oedd arno un awydd myned yno i aflonyddu arno etto. Anfonodd yr esgob am y cwnstabl i'w ddal. Dywedodd yntau fod yr esgob yn ymddwyn yn Judasaidd—yn ymddwyn mor gyfeillgar y dydd blaenorol i'w ddenu ef i Tedbury er mwyn cael mantais i'w garcharu; y byddai yn sicr o wneud ei enw ei hun yn ddrewdod; y gwyddai mai yr offeiriaid oedd fel mintai o lindys yn ei gynhyrfu i'w ddrygu ef. Gofynodd un o'r cwmni pwy a olygai wrth "y lindys." Attebodd yntau mai y creaduriaid a fônt yn byw ar lafur rhai eraill a elwir gan yr ameuthwyr yn lindys, a'i fod ef yn un o honynt os oedd yn byw felly. Methwyd cael hyd i'r ceisbwl, ac felly trowyd y ddau allan dan chwech o'r gloch, pryd y dychwelasant. Dywedodd yr esgob y llosgai efe y ddwy warant; ond ei fod am gael gwybod a oedd John Roberts yn "ddŷn hyspys" (consuriwr), fel y dywedodd George Bull ei fod, sef ei fod yn gallu dywedyd lle y ceid pethau a fyddai wedi myned ar goll. Attebodd iddo fod yn offerynol i gael hyd i wartheg hen ŵr tlawd o gymmydog, y rhai oedd wedi bod ar goll am ddiwrnodau, ac i lawenydd yr hen ŵr dori allan mor gyhoeddus ar ol eu cael, fel yr aeth y son am dano ar led y wlad. "Ac am ddefaid John Curtis, dywedodd ei fod wedi eu colli, a chrefodd arnaf ddal sylw, os gwelwn ar fy nheithiau ddefaid tebyg iddynt, neu os clywn am danynt, y dymunai gael gair; a drannoeth, pan oedd fy nghwn yn rhedeg ar ol ysgyfarnog, aethum i'w canlyn, a chefais hyd i'r



Digitized by Google

defaid yn yr anialwch tew, wedi cael eu gyru yno, y mae'n debyg, gan gwn yr heliwr; ac am geffyl Edward Symmonds, collwyd ef o'r cae yn y nos, a chyhoeddwyd ef yn y trefydd cylchynol i gyd; ond wedi methu ei gael, daeth ataf fi, ac wedi clywed yr helynt, bernais y gallai ei fod wedi colli ei ffordd yn yr eithin, a'i fod yno yn eu canol. Pan aed i chwilio, cafwyd ef yno yn llechu, a gallasai pob dŷn ei gael yr un fath ond iddo osod ei feddwl ar waith." Yr oedd yr esgob yn foddlon iawn i'r eglurhâd hwn, a dywedodd fod John Roberts fel cloch wedi ei gwneud o fetel da, ond allan o gywair; ond barnai efe mai pibell yr esgob oedd allan o gywair. Cyfaddefodd yr esgob ei fod wedi gwneud cam âg ef; gofynodd iddo faddeu iddo, ac ymrwymai na wnai gam âg ef mwy. Attebodd ei fod yn credu y rhan ddiweddaf, gan nad oedd yn disgwyl cael ei weled byth ond hyny. Yr oedd yr esgob wedi clywed ei fod wedi atteb ceidwad carchar Caerloyw yr un fath, ac i hwnw farw yn fuan, yr hyn a aflonyddodd ei feddwl yn fawr; a gofynodd ai gwir oedd yr hanes. Attebodd ei fod yn ddigon gwir i'r ceidwad ei gadw yno am fisoedd yn groes i'r gyfraith, nes iddo gael cyfle i anfon at y barnwr, yr hwn a fygythiodd droi y ceidwad o'i swydd os gwnai beth felly drachefn. Digiodd y ceidwad gymmaint o'r herwydd fel y tyngodd, os âi John Roberts yno byth ond hyny, nad âi oddi yno yn fyw, ac mai clywed hyny wneuthai iddo ddywedyd na chai weled ei wyneb mwyach; ac felly y bu, canys bu farw yn fuan ar ol yr amgylchiad hwn. Edrychai yr esgob yn ddifrifol wrth glywed yr hanes, ac ymhen ychydig wythnosau bu yntau farw, fel na welsant eu gilydd mwyach.

Bu y Crynwyr yng Nghaerceri yn cyfarfod am beth amser ar yr heol, wedi cael eu troi allan o'u haddoldy. Un tro cawsant genad i fyned yn ol; a phan un diwrnod ar ganol eu gwasanaeth, daeth yr esgob newydd, ac amryw foneddigion, i mewn atynt pan oedd dynes a'i henw Theophila Townsend yn gweddïo. Gosododd ei law ar ei phen, a dywedodd wrthi am dewi; ond pan dawodd hi, dechreuodd Richard Bowley weddïo, a phan orphenodd, dechreuasant ei holi. Wedi cael gwybod pwy ydoedd, gosodasant 20p. o ddirwy arno am bregethu; ond buont mewn penbleth yn methu cael allan pwy oedd perchen y tŷ, ond pan gyfaddefodd R. Bowley mai efe oedd yn talu rhent am dano, dirwyasant ef i 20p. arall. Gofynodd John Roberts pwy oedd y gŵr hwnw oedd mor barod i ddirwyo pobl. Attebwyd ef mai Syr John Guise ydoedd; ond gwaeddodd Syr John allan nad oedd o bwys yn y byd iddo ef, ond y carai gael gwybod enw y gŵr oedd yn holi. Attebodd John Roberts ef, a dywedodd, os efe oedd John Guise, ei fod wedi dyfod i adnabyddiaeth â'i dad drwy amgylchiad lled ryfedd, a'i fod yn ei gynghori i gymmeryd rhybudd oddi wrth ei dad. Cynhyrfodd hyny Syr John, a gorchymynodd i'r ceisbwl ei gymmeryd oddi yno gerfydd ei sodlau. Cymerodd y ceisbwl a Syr John ef allan gerfydd ei fraich; ond yr oedd yn ol ym mron o'u blaen, a phan ofynodd Syr John iddo paham y daethai yn ol, attebodd mai er gweled "a wyt ti yn gwneud cyfiawnder â'm cyfeillion." Nacaodd fyned allan heb i'r boneddigon fyned allan yn gyntaf. Yna symmudwyd yr holl feingciau o'r addoldy i'r heol, ac eisteddodd y Crynwyr arnynt yn rhesi o gylch y drws. Cymmerwyd un a'i enw John Timbrel ger bron Syr John yn fuan ar ol hyn, am ei fod wedi anfon llythyr at un o'r ynadon am ymddwyn mor greulon at y Crynwyr. Aeth John Roberts i'w ganlyn. Cynhyrfodd yr ynad pan welodd ef, a dywedodd ei fod wedi ei sarhau y dydd o'r blaen yng nghwmni y boneddigion hyny, ac y gwnai iddo ddywedyd beth a wyddai am ei dad. Attebodd i'w dad, pan oedd efe ac ychydig gyfeillion yn addoli yn Stoke, gymmeryd nifer o filwyr i'w camdrin a'u baeddu, ac anfon deuddeg o honynt i garchar Caerloyw; i'w dad fyned i'w wely fel arferol nos drannoeth, ond gan nad oedd yn canu y gloch yn y borau fel arfer, i'r forwyn fyned i edrych am dano a'i gael yn marw, ac mai y cwbl a ddywedodd oedd, "Y Crynwyr yna. O! y Crynwyr yna. O! gan Dduw na buaswn heb ymyryd â hwynt erioed." Gwrandawodd Syr John yr hanes heb ammau dim, yr hyn, y mae'n debyg, a wneuthai pe na buasai yn wirionedd; ond er y rhybudd hwn, parhaodd i'w carcharu.

Yn fuan ar ol hyn, ffraeodd â Syr Robert Atkins wrth chwarau. Wedi methu cyttuno ar yr ymddiheurad (*apology*), tynasant eu cleddyfau, a thrywanwyd Syr John yn ei ochr nes oedd blaen y cleddyf allan; a phan oedd yn yr arteithiau mwyaf, yn meddwl ei fod yn marw, dywedai, "Llaw gyfiawn Duw yw hyn, am i mi ymyryd â'r Crynwyr. Os achubir fy mywyd, ni wnaf ddim yn eu herbyn byth ond hyny. Yr oedd John Roberts yn arfer dywedyd mai yr offeiriaid oedd yn fy ngyru i'w flino ef. Yr oedd yn dywedyd y gwir. Ni chawn lonydd gan Mr. Care-

Digitized by Google

less na Mr. Freaman heb gospi rhai o honynt o hyd; ond y mae yn wir ddrwg genyf wrando o honof arnynt." Cafodd adferiad, a chadwodd ei air; ni flinodd hwynt byth ar ol hyny.

Galwodd y barnwr, James George, am feibion John Roberts i ddyfod i Gaerceri. Aethant â'r hen ŵr i'w canlyn i'w gyfarfod. Dywedodd wrthynt fod y brenin am weinyddu y cyfreithiau, a gwneud un eglwys o'r holl wlad; ond barnai John Roberts nas gallai efe na neb arall wneud eglwys iawn wrth orfodi pobl i ymuno â hi; fod Crist wedi gwneud fflangell i yru pobl allan; ond na byddai efe byth yn fflangellu neb i mewn. Safent ar gyfer eglwys Caerceri, a gofynodd y barnwr iddo pa fodd y galwai efe y clochdy. "Gelli ei alw yn dŷ y brain, os wyt yn dewis," eb yntau. "Chwarddwch faint a fynnoch chwi," eb y barnwr, "yr wyf yn eich gorchymyn, dan berygl digio y brenin, i fyned i'r eglwys, a pheidio cyfarfod byth ond hyny yn y tŷ yna." "Yr wyf finnau yn gorchymyn i tithau, yn enw Brenin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi, i beidio aflonyddu arnom ni byth ond hyny dan berygl i ti orfod atteb yn y dydd diweddaf," eb yntau.

Ond anfonodd y Sabbath canlynol i ddal y Crynwyr yn eu haddoldy. Crefodd y swyddogion arnynt beidio myned yno ar yr amser pennodedig; ond dywedasant na fyddai hyny yn ddim ond gwadu eu Duw; a phan oeddynt ynghyd, daeth y swyddog i'w canol, a rhoddodd y warant i un o feibion John Roberts. Rhoddodd hwnw hi yn ei logell, ac addawodd ei darllen ar ol i'r gwasanaeth fyned drosodd. Dywedodd y swyddog na thalai hyny, a chymmerodd hi yn ol. Aeth a rhestr o'u henwau i'r barnwr, yr hwn a anfonodd rhag blaen i gymmeryd eu meddiannau. Yr oedd rhyw glefyd ar y pryd yn anrheithio gwartheg y barnwr, ac nid oedd yno neb yn gallu gwneud un lles iddynt. Mynnai y goruchwyliwr gael anfon am John Roberts; ond gwrthwynebodd y barnwr nes oedd wedi myned i'r pen pellaf, o herwydd ei fod wedi anfon gwarant i gymmeryd ei feddiannau. Pan oedd John Roberts yn hwylio i fyned ymaith, wedi gorphen ei waith, cyfarfu â'r barnwr, yr hwn a orchymynodd i'r goruchwyliwr dalu iddo; ond gwrthododd yn benderfynol, gan na byddai ond ofer iddo ef gymmeryd rhan o arian y barnwr tra yr oedd y barnwr yn cymmeryd ei arian ef yn y cyfanwerth; ei fod ef yn barod i wneud da iddo ef, er yr holl ddrwg a dderbyniodd oddi ar ei law. Crefodd arno yn y diwedd aros yno i giniaw. Cydsyniodd, a rhoddodd iddo lyfryn o waith Thomas Ellwood yn erbyn erledigaeth; fel rhwng pob peth na ymyrodd y barnwr âg ef mwyach tra y bu byw, ond gorfu i'w feibion dalu 70p. o ddirwy am fod yn y cyfarfod hwnw.

Cymmerwyd amryw o honynt eilwaith i garchar Caerloyw, ymhlith y rhai yr oedd John Roberts a'i ddau fab, y rhai, drwy iddynt fod yn wasanaethgar i attal dau leidr i ddiangc o'r carchar, oeddynt mewn ffafr gyd â'r ceidwad, a chai y Crynwyr drwy hyny ryddid i fyned adref pan fynnent. Un borau daeth yr offeiriad, Richard Parsons, a chwmni mawr, i'w canol i'r carchar pan oedd Henry Panton yn cymmeryd ei destyn, "Gwneud yr hyn ni ddylem, a gadael heb wneud yr hyn a ddylasem wneuthur." "Ië, fel yr ydych chwi yn gwneud," ebe'r offeiriad. "Yr ydych yn gadael dyfod i'r eglwys heb wneud, ond yn ceisio pregethu eich hun, yr hyn na ddylasech wneuthur;" ac ymestynodd i gymmeryd gafael yn ei farf i'w dynu i lawr; ond gan ei fod yn ddŷn go dal, llwyddodd i ymsythu, ac i siarad dros ben yr offeiriad. Yna cynhygiodd osod ei law ar ei enau, ond troes y pregethwr ei wyneb ffordd arall. Pan welodd nad oedd dim yn tycio, gofynodd am eu henwau, ond nid oedd brys ar neb i roddi ei enw iddo. Yna, wedi gwylltio, cymmerodd eu henwau fel yr oeddynt ar lyfr y carchar; ond yr oedd amryw o honynt yn digwydd bod allan ar y pryd. Y warant gyntaf a anfonodd allan oedd i gymmeryd meddiannau gwraig weddw a'i henw Letticia Gust, yr hon oedd yn digwydd bod yn absennol ar y pryd. Gofynodd i'r swyddog fyned gyd â hi at ei meistr tir, yr hwn oedd wedi bod yn ymddiddan â hi ugain milltir o'r lle y dywedid ei bod y Sul hwnw. Yr oedd hwnw yn ynad heddwch, a gorchymynodd i'r swyddog fyned â'r warant yn ol i'r offeiriad, a pheru iddo wneud y gwasanaeth a fynno â hi. Digwyddodd yr un fath gyd âg un arall a'i enw Francis Boy, meddyg, yr hwn oedd ymhell o'r lle ar adeg y cyfarfod, yn gweini ar foneddwr oedd yn glaf, a chafodd ei holl anifeiliaid yn eu hol.

Yn fuan ar ol hyn, bu John Roberts farw, sef yn 1683, yn 66 oed, ynghanol ei berthynasau, mewn heddwch mawr, a chafodd lawer o gymdeithas Duw yn ei gystudd. Claddwyd ef yn y fynwent a roddasai efe i'r Crynwyr yn ei fywyd, ynghongl ei berllan, yn ymyl pentref Siddington.*

Hugh Evans ydoedd un o bregethwyr gorau a boreuaf y Bedyddwyr ym Maesyfed yn yr 17fed

* The Life of John Roberts, written by his son, D. Roberts.

ganrif, a'r hwn, fel llawer o "Enwogion y Ffydd" o'r cyfnod hwnw, nad oes genym lawer o hyspysrwydd am ei amgylchiadau boreuol. Nid oes sicrwydd pa un ai ym Maesyfed ai ar gyffiniau sir Amwythig y cafodd ei eni tu a'r flwyddyn 1617, ac y mae enwau ac amgylchiadau ei rieni yn anadnabyddus; ond ymddengys iddo adael ei gartref pan yn ieuangc, gan ymsefydlu yng Nghaerwrangon fel egwyddorwas (prentis), lle yr arhosodd am rai blynyddau cyn cychwyn i Gaerwenbir (Coventry) yn 1642. Ymaelododd yn y lle olaf yn 1642 neu 1643, a bu yn aelod defnyddiol a zelog yn eglwys y Bedyddwyr yno cyhyd ag y bu yn y lle. Nid ydym yn gwybod pa un ai yno ai yng Nghaerwrangon y cafodd ei fedyddio, ac nid yw enw yr hwn a'i bedyddiodd yn hyspys i ni. Ni bu y frawdoliaeth yng Nghaerwenbir yn hir cyn gweled y cymhwysder a feddai i bregethu yr efengyl, a'i annog at y gwaith. Cydsyniodd yntau â chais yr eglwys, gan ymaflyd yn egnïol yn yr hyn a fu yn orchwyl ei fywyd rhag llaw. Teimlai yn ddwys yn fuan dros ei genedl ei hun, oedd ar y pryd yn ddwfn mewn anwybodaeth a thrueni moesol, ac ymawyddai am wneud rhywbeth er cynnorthwyo y Cymry i ymddyrchafu mewn moesoldeb a chrefydd, a phenderfynodd wneud ei orau i gyrraedd y diben. Cydymdeimlai yr eglwys yng Nghaerwenbir âg ef yn yr amcan o gyssegru ei oes i wasanaeuthu crefydd; ond golygid y byddai mwy o wybodaeth nag a feddai yn fanteisiol iddo yn ei gylch newydd. Am hyny dodwyd ef dan addysg Jeremiah Ives, un o weinidogion enwocaf y Bedyddwyr ar y pryd, a'r hwn a ddaeth wedi hyny yn un o brif ddadleuwyr ei oes.* Wedi bod dan hyfforddiant Ives am y tymmor penodedig, dychwelodd i Gymru tu a diwedd y rhyfel gartrefol yn 1646 neu ddechrau 1647, gan ymaflyd yn benderfynol yn yr hyn a fu yn brif waith ei oes, sef pregethu i'r Cymry ym Maesyfed a siroedd eraill yn y Dywysogaeth. Gan iddo dderbyn cryn lawer o fanteision ym mysg y Saeson, ac yn ddŷn o allu ac ymroddiad, ni bu aflwyddiannus yn ei amcan. Pan yn dychwel i Gymru, ni fwriadai dreulio ei oes ymhlith ei gydwladwyr, ond aros dros dymmor yn eu mysg, a dychwel drachefn i Loegr; ond wedi cael profion nad oedd ei lafur "yn ofer yn yr Arglwydd," ac wedi derbyn cymhellion taer i aros yng ngwlad ei enedigaeth, penderfynodd gydsynio, ac yng Nghymru yr arhosodd hyd derfyn ei oes. Credai Jos. Thomas i rai pregethwyr ddod i Gymru gyd âg ef; ac os felly, fe allai iddynt hwy ac yntau gydlafurio am dymmor yn y siroedd a nodwyd.

Y mae manylion a heleuthrwydd ei lafur ym Maesyfed a Brycheiniog yn anhyspys i ni; ond gan ei fod yn perthyn i'r un dosparth o Fedyddwyr a Vavasor Powel a Jenkin Jones, sef Bedyddwyr y cymmundeb agored, y mae'n dra thebyg iddo ef ac eraill sefydlu amryw eglwysi cymmysg yn y siroedd a nodwyd, ond nid ydym yn gwybod bod cymmaint ag un o honynt yn perthyn i'r cyfundeb Bedyddiedig, oddi eithr eglwys y Dolau. Y mae Jos. Thomas yn ei alw yn "weinidog gwir lafurus a derbyniol i'r Bedyddwyr yn sir Faesyfed o 1646 hyd o gylch 1656, pan y gorphenodd efe ei yrfa."† Yr oedd dau fath o Fedyddwyr yn y Dywysogaeth yn amser Hugh Evans a'i gydoeswyr, sef Bedyddwyr caeth, yn cael eu blaenori gan John Myles, a'r rhai a berthynent i'r Gymmanfa; a Bedyddwyr Vavasor Powel, yn sir Drefaldwyn; Bedyddwyr Hugh Evans ym Maesyfed; Bedyddwyr Jenkin Jones yn siroedd Brycheiniog, Caerfyrddin, a Morganwg; a Bedyddwyr William Thomas ym Mynwy, y rhai oll a arferent gymmundeb agored. Y mae un ysgrifenydd yn sylwi bod yr holl eglwysi uchod yn y siroedd crybwylledig, oddi eithr y Dolau, ym meddiant yr Annibynwyr ac enwadau eraill yn awr, ac nad yw y Bedyddwyr wedi ennill dim, yn *enwadol*, ond wedi colli llawer, fel enwad, trwy gyssylltiad yr enwogion uchod â'r cyfundeb Bedyddiedig. Dylai Bedyddwyr presennol roddi ystyriaeth ddifrifol i'r ffeithiau hyn. Gwnaeth yr enwogion uchod lawer o les i foesau a chrefydd mewn modd *cyffredinol;* ond fel cyfenwad, buasai yn well i'r Bedyddwyr fod hebddynt. Nid ydym yn ammau eu hawl i farnu drostynt eu hunain, na'u cydwybodolrwydd yn yr hyn a wnelent; ond cyfeirio yr ydym at ddylanwad niweidiol cymmundeb cymmysg ar yr enwad Bedyddiedig fel y cyfryw, ac y mae gonestrwydd hanesyddol yn hawlio hyn oddi wrthym.‡

* Crosby, vol. ii., pp. 231, 305; vol. iv., p. 247.

† Jos. Thomas's Hist. of the Bapt. Associ. in Wales, p. 18.

‡ Yr hyn sy'n ymddangos i ni yn wir bwysig, yn wyneb y Testament Newydd, yw cynnydd "moesau a chrefydd mewn modd *cyffredinol*," hyny yw, cynnydd teyrnas fendigedig, ryddfrydol Iesu Grist yn y byd, ac nid cynnydd unrhyw un cyfenwad, enwad, plaid, neu sect grefyddol. Yn wir, ymddengys i ni yn amlwg bod y Testament Newydd yn gwbl groes i'r cyfryw ymbleidio. Onid gwrthsefyll y teimlad sectyddol yw amcan amlwg Iesu Grist yn yr ymadroddion canlynol hyn:—"Ac Ioan a'i attebodd ef, gan ddywedyd, Athraw, ni a welsom un yn bwrw allan gythreuliaid yn dy enw di, yr hwn nid yw yn ein dilyn ni; ac ni a waharddasom iddo, am nad yw yn ein dilyn ni. A'r Iesu a ddywedodd, Na waherddwch iddo; canys nid oes neb a wna wyrthiau yn fy enw i, ac a all yn y fan roi drygair i mi. Canys

Digitized by Google

Daeth y "Deddf er Gwell Lledeuniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru" i weithrediad yn 1649, yn yr hon yr awdurdodid y Dirprwywyr a enwid ynddi i bennodi personau addas i bregethu yr efengyl i gynnulleidfaoedd sefydlog yn yr eglwysydd plwyfol, a hefyd i fod yn bregethwyr teithiol mewn gwahanol ranau o'r wlad.* Yr oedd cymhwysder neillduol yn Evans i fod yn bregethwr teithiol llwyddiannus. Yr oedd yn ŵr o dymmer addfwyn a siriol, yn meddu doniau llithrig a deniadol, ac yr oedd ei lais yn beraidd a soniarus, a'i dduwioldeb yn ddïamheuol. O herwydd paham, nid rhyfedd bod tyrfaoedd llïosog yn ymgasglu i wrando arno lle bynag y byddai yn pregethu. Dywed y Dr. Richards o Lynn bod lle cryf i feddwl mai efe oedd yr unig weinidog perthynol i'r Bedyddwyr yng Nghymru dros ryw ennyd. "Yr wyf yn meddwl," medd Richards, "fod ei holl bobl ef yn Fedyddwyr, canys nis gallaf ganfod eu bod hwy yn goddef cymmundeb cymmysg, er bod rhai o'r eglwysi cymmydogeuthol yn gwneud hyny; ac nid oeddynt hwy yn arfer *canu* yn eu haddoliad cyhoeddus, oddi eithr, fe allai, wrth fwrdd yr Arglwydd. Ymganghenodd a chynhyddodd yr eglwys wedi hyny; a thybiaf ei bod yn awr [rhwng 1749 ac 1818] yn bedair o eglwysi gwahanol parchus, yn ymgasglu mewn gwahanol fanau yn siroedd Maesyfed, Brycheiniog, a Maldwyn." Ymddengys i Hugh Evans osod ei hun dan nawdd y Dirprwywyr, ac iddo dderbyn rhyw gymmaint o gyflog ganddynt am bregethu yn siroedd Maesyfed a Brycheiniog. Y mae Walker yn ei gyhuddo o dderbyn tâl yn y ddwy sir grybwylledig;† ond nid oedd dim yn afreolaidd yn hyny, gan nad oedd y gyfraith yn ei wahardd, a'i fod yntau yn llafurio yn y ddwy sir. Y mae'r Dr. Richards o Lynn yn tybied mai efe a fedyddiodd Vavasor Powel, ac iddo fedyddio amryw bregethwyr eraill. Golyga y Dr. Richards ei fod dros gymmundeb caeth;‡ ond os bu yn gefnogwr iddo unwaith, yr oedd yn wahanol cyn iddo farw. Y mae'r Cyfeillion (Crynwyr) yn cael eu hystyried yn gyffredin yn bobl heddychlawn; ond ymddengys bod rhai o honynt yn hollol wahanol yn amser Hugh Evans, ac am dymmor wedi ei farwolaeth. Ymosodasant arno droion, gan geisio ei ddirmygu ef a Bedyddwyr eraill ymhob modd y gallent. Cafodd ef lïaws o flinderau yn ei oes fer; ond golygai mai y Crynwyr oedd ei boenydwyr penaf. Gan iddynt feddwl nad oeddynt wedi trallodi digon arno tra yn fyw, ymosodasant yn ffyrnig arno yn fuan wedi iddo farw. Cyhoeddodd Crynwr a'i enw John Moon lyfryn cableddus i'w ddifrïo yn ddychrynllyd wedi iddo ymadael o'r fuchedd hon, yn yr hwn y mae yn ei alw yn "offeiriad dall yn sir Faesyfed;" ond amddiffynwyd Evans yn orchestol a llwyddiannus gan ddau o'i gyfeillion, sef John Price, Maescaled, a William Bound, sir Drefaldwyn. "Megis y mae cynddaredd yn cael ei oruwch-lywodraethu yn fynych i foliannu Duw," medd un ysgrifenydd, "felly y bu yn yr ymosodiad hwnw ar gymmeriad Hugh Evans: trosglwyddodd ei enw da a'i rinweddau i lawr i afael hanesyddiaeth, canys o'r attebiad i'r cyfryw ymosodiad y cafodd Joshua Thomas bron gymmaint o hanes Hugh Evans ag sydd ar gael." Yr oedd Price a Bound yn ddynion o allu a dylanwad, fel y dengys Jos. Thomas yn Hanes y Bedyddwyr.§ Y mae'r ddau amddiffyniad yn siarad yn uchel am syniadau crefyddol, llafur, zel, buchedd, a defnyddioldeb Hugh Evans; ac y mae Price yn galw John Moon, yr ymosodwr, yn "ddŷn celwyddog."‖

y neb nid yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae" (Marc ix. 38–40). Ac oni ddywed yr un Person bendigedig wrth y sectau Iuddewig, y Phariseaid, yr Herodianiaid, y Saduceaid, &c.:—"Yn wir meddaf i chwi, yr â y publicanod a'r putteiniaid i mewn i deyrnas Dduw o'ch blaen chwi. Canys daeth Ioan attoch yn ffordd cyfiawnder, ac ni chredasoch ef; ond y publicanod a'r putteiniaid a'i credasant ef: chwithau, yn gweled, nid edifarhasoch wedi hyny, fel y credech ef" (Mat. xxi. 31–2. Gwel hefyd Ioan xii. oll). Yr un "athrawiaeth iachus" yn gymmwys a'i Athraw Dwyfol a ddysgai yr Apostol Paul, megis yn yr ymadroddion hyn:—"Canys fe ddangoswyd i mi am danoch chwi, fy mrodyr, gan y rhai sydd o dŷ Chlöe, fod cynhennau yn eich plith chwi. A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, bod pob un o honoch yn dywedyd, Yr ydwyf fi yn eiddo Paul; minnau yn eiddo Apolos; minnau yn eiddo Cephas; minnau yn eiddo Crist. A rannwyd Crist? ai Paul a groeshoeliwyd drosoch? neu ai yn enw Paul y bedyddiwyd chwi? Yr ydwyf yn dïolch i Dduw na fedyddiais i neb o honoch, ond Crispus a Gaius; fel na ddywedo neb fedyddio o honof fi yn fy enw fy hun. Mi a fedyddiais hefyd dylwyth Stephanas: heb law hynny nis gwn a fedyddiais i neb arall. Canys ni anfonodd Crist fi i fedyddio, ond i efengylu; nid mewn doethineb ymadrodd, fel na wnelid croes Crist yn ofer" (1 Cor. i. 11–17). Os nad ydyw yr Ysgrythyrau uchod, a'u cyffelyb, sy'n aml yn y Testament Newydd, yn erbyn pleidiau, sectau, neu enwadau crefyddol, a bod y rhai olaf, eiddo Paul, yn dangos hefyd bod *efengylu* yn anhreuthol bwysicach na *bedyddio*, nis gwyddom ni naws o'r byd beth oedd yr amcan mewn golwg gan yr ysgrifenwyr sanctaidd. —GOL.

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 501.

† Walker's Suff. of the Clergy, part i., p. 153.

‡ Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 229.—GOL.

§ Han. y Bedyddwyr, argr. 1778, t. 108.—GOL. Gwel hefyd argr. 1877, gan y Parch. B. Davies, Pont y Prydd.

‖ Myn rhai (ac un yn neillduol) mai Taenellwr oedd Hugh Evans, o herwydd tystiolaeth John Myles am Eglwys Llanilltyd (gwel J. Myles a T. Proud), ac o blegid mai Henry Gregory oedd yr unig weinidog Bedyddiedig ym Maesyfed yn 1675, yn ol tystiolaeth Henry Maurice (Morus) yn y "Broadmead Records;" a bod un Jeremy yn gydweinidog âg ef, neu yn rhagfleunor iddo! Os Gregory oedd yr unig weinidog Bedyddiedig yn y sir yn 1675, sut y mae hyny yn profi nad oedd Hugh Evans yn Fedyddiwr yn 1656, pan fu efe farw, ac nad oedd yn weinidog yn yr eglwys y gweinidogeuthai Gregory ynddi yn 1675? Mor ynfyd y mae dynion da yn gwneud eu hunain pan dan ddylanwad dallbleidiaeth neu ragfarn enwadol!

Digitized by Google

JOHN WILLIAMS, medd y Dr. T. Rees, yw yr unig Anghydffurfiwr yn sir Gaernarfon y mae genym ddim hanes am dano, hyny yw yn amser Cromwel, ac wedi hyny. Dywed Robert Jones, o Ros y Lan, am dano fel y canlyn:—

"Clywais fod rhyw ysgrifenydd Seisnig yn rhoddi hanes crefydd ymhlith y Cymry (er na welais i ei waith), a'r hanes y mae efe yn ei roddi sydd fel hyn, sef ddyfod o dri o wŷr ieuaingc o Rydychain i sir Gaernarfon tu a'r flwyddyn 1646, neu beth diweddarach. Yr oeddynt oll o sir Gaernarfon, ond ni chefais enwau namyn un o honynt, sef Mr. John Williams. Am Mr. Williams, dywedir ei fod yn ddŷn neillduol mewn dysgeidiaeth a duwioldeb, ac yn dra diwyd i gynnyg efengyl y deyrnas i bechaduriaid. Arddelodd Duw ei lafur er bendith i lawer yn y wlad, a gwnaeth ef yn dad ysprydol i lawer; ïe, i'r rhan fwyaf o'r dychwelwyr yn y wlad y dyddiau hyny. Gellir meddwl yn lled sicr mai efe yw'r gŵr a drowyd allan ŵyl Bartholomëus, 1662, o'r Llan yn sir Gaernarfon, fel y cawn hanes gan y Dr. Calamy; ond nid yw'r Doctor yn enwi y Llan y trowyd ef allan o honi. Y mae'n debyg mai Llandwrog ydoedd, o blegid yr oedd hen ŵr a fagwyd yn y plwyf hwnw yn cofio clywed gan ei hynafiaid, pan oedd efe yn fachgen, i ŵr fod yn pregethu yn y Llan honno a fyddai yn dyrchafu ei lais fel udgorn, a'u bod yn ei glywed dros chwarter milltir o ffordd. Y mae Calamy, yn ei hanes am sir Ddinbych, yn adrodd am un Mr. Ellis Rowlands, o Ruthyn, fel yr oedd yn pregethu yn achlysurol yn sir Gaernarfon, i'r erlidwyr ei lusgo allan o'r pulpud. Y mae'n lled ddiamheuol mai un o'r ddau hyn a fu, fel meibion y daran, yn aflonyddu y byd yn Llandwrog.

Yr ydym wedi sylwi bod yn hawdd dros ben genym, ysywaeth, gyhuddo eraill o fod "dan ddylanwad dallbleidiaeth enwadol," pan ond odid y byddwn ein hunain yn llawn mor isel dano a'r cyhuddedig. Wrth weled mewn hanesyddiaeth eglwysig y niwaid erchyll y mae'r canger yma wedi ei wneud i Gristionogaeth bur ymhob oes, o sect *fawr* Rhufain hyd ein sectau *bach* ni yng Nghymru, yr ydym ni wedi dechrau "rhyfel gartrefol" â'r pechod ynfyd hwn er ys dros 50 mlynedd bellach. Byddwn yn meddwl weithiau ein bod wedi cael *llwyr* fuddugoliaeth arno; ond gan ein bod ni, fel y rhan fwyaf o'r Cymry, wedi ein dwyn i fynu dan ei "ddylanwad" atgas, dichon yr ymruthra y bwystfil arnom weithiau yn ddisymmwth, heb i ni feddwl, megis yr ymrithiai ei dad Satan, "fel angel goleuni;" ond cyn gynted ag yr adnabyddwn ef, byddwn yn ymgais am ei ben â'r offeryn cyntaf a ddelo i'n meddwl; eithr yr arf mwyaf effeithiol er ein cynnorthwyo i "sefyll yn erbyn ei gynllwynion" ydyw "Cleddyf yr Yspryd, yr hwn yw Gair Duw." Ond at Hugh Evans dros ychydig amser etto.

"Tystia Mr. J. [Joshua] Thomas bod Mr. Evans yn Wrthfedyddiwr Babanod cyn ei ddyfodiad i Gymru; mai efe oedd y gweinidog sefydlog cyntaf o'r enwad hwnw yn sir Faesyfed; ac iddo gasglu a ffurfio eglwys yno yn dal cymmundeb caeth yn fuan ar ol dychwel o Loegr. Cofnoda y Dr. Richards y tybiau hyn fel gwirioneddau diamheuol, ond ymddengys eu bod yn gwbl ddisail. Y mae John Myles yn heuru yn bendant mai efe, a'i gyfeillion yn Llanilltyd, oedd yr unig bobl y clywodd efe erioed son am danynt yn holl Gymru, y rhai, nid yn unig oedd yn arfer cymmundeb caeth, ond hefyd "ym mysg y rhai yr arferid yr ordinhâd ogoneddus o fedydd." Y mae Mr. Henry Maurice hefyd, yn ei hanes am sir Faesyfed, a ysgrifenwyd yn 1675 (Broadmead Records, p. 518), yn crybwyll Mr. H. Gregory fel yr henadur athrawiaethol o'r unig eglwys yn y wlad yn dal Gwrthfedydd Babanod, ac un Jeremy fel ei ragflaenor a'i gyd-fugail. Nid yw yn cyfeirio o gwbl at Mr. Hugh Evans. O bu efe erioed yn Wrthfedyddiwr Babanod, rhaid y daeth yn gyfryw o gylch yr un amser a Mr. V. Powel; ond nid oes brawf iddo erioed gasglu eglwys o'r farn honno yn sir Faesyfed."—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 133.

Dyna'r "ddwy ochr i'r ddalen" ger bron y darllenydd: barned yntau drosto ei hun. O'n rhan ni, nid ydym yn malio dim pa un ai Bedyddiwr ai Annibynwr oedd Hugh Evans. Digon genym ni ydyw ei fod yn ŵr da, ac iddo lafurio yn egnïol a llwyddiannus er helaethu teyrnas y Gwaredwr yng Nghymru, tu ag at roddi iddo gyfran yn llawen ymhlith "Enwogion y Ffydd."—GOL.

Barna eraill, yn ol a glywsant gan rai o'u hynafiaid, mai o Lan a elwir Ynys Cynhaiarn y trowyd Mr. Williams allan, ac iddo briodi etifeddes y Gwynfryn, ger llaw Pwllheli, a darfod i'w mab droi allan yn ddŷn meddw, afradlon, a threulio ei etifeddiaeth yn llwyr. Eraill a dybiant mai Mr. Henry Maurice ydoedd priod etifeddes y Gwynfryn.* Ond i fyned ym mlaen â'r hanes: cafodd Mr. Williams ei gynnorthwyo yn y diwygiad boreuol hwn gan Mr. Vavasor Powel a Morgan Llwyd, y rhai a fuant dra bendithiol i lawer trwy eu gweinidogaeth. Byddai Morgan Llwyd yn pregethu ym Mhwllheli ar ddyddiau marchnad, a'i arfer oedd myned trwy y farchnad â'i ddwy law ar ei gefn, a'i Fibl yn ei law; a byddai y bobl yn cilio o'i flaen fel pe buasai gerbyd yn carlamu trwy'r heolydd. . .

"Yr oedd Mr. J. Williams wedi casglu eglwys cyn y cyfnewidiad yn nechreuad teyrnasiad Charles II.; ond pan gafodd ef (gyd â lliaws o rai eraill) ei droi allan o'r Llan, cymmerodd ei daith i Lundain, i ochel poethder yr erlid, fel y tybir; ond er mor ddychrynllyd oedd y dymmestl, ni allodd aros yn hir oddi wrth ei anwyl gyfeillion, eithr dychwelodd yn ol atynt, fel bugail gofalus a ffyddlon, i wylio drostynt, ac i'w cynnorthwyo. Cafodd ef a hwythau eu rhan yn helaeth o'r erledigaeth. Byddai gorfod arnynt yn fynych gadw eu cyfarfodydd yn y nos, rhag cael eu haflonyddu gan yr erlidwyr. Amherchid eu cyrph yn greulon, a llunid aneirif gelwyddau arnynt. Taflwyd rhyw nifer o honynt i garchar, ynghyd â chymmeryd ymaith eu meddiannau. Ffiniwyd y Capel Helyg, ymhlwyf Llangybi, ddwywaith, i 50p. bob tro, a thalwyd y cyfan gan ychydig bersonau oedd yn caru achos eu Harglwydd. Yr oedd yn yr amseroedd hyny ŵr tra chreulon yn byw yn y Plas Newydd, ger llaw Llandwrog, a'i enw Hwlcyn Llwyd, ac o ran ei swydd yn ustus yr heddwch. Anfonodd i ran o'r wlad a elwir Eifionydd, ddeg neu bymtheg milltir o ffordd, i ruthro ar y trueiniaid gwirion, heb un achos ond eu bod yn addoli Duw, gan eu harwain, fel defaid i'r lladdfa, at balas yr ustus creulon, a'u dodi mewn dalfa o'r borau hyd brydnawn. Digwyddodd i un o weision yr ustus ddyfod i'w gweled. Attolygasant ar hwnw fod mor garedig a myned drostynt at ei feistr, a dangos iddo nad oeddynt yn gwrthod myned i garchar, os oedd y gyfraith yn gofyn hyny; ond nad oedd un gyfraith i'w cadw yno i lewygu o newyn. Bu'r gwas mor dirion a gwneud eu harchiad; ond yn y fan, tra'r oedd y dŷn yn dyweyd drostynt, ffromodd yr hen lew creulon yn erchyll, a dechreuodd ymwylltio, amhwyllo, ac ymgynddeiriogi, nes y trengodd yn ddisymmwth yn farw yn y fan, a chafodd y praidd diniwaid fyned yn rhydd o'r gwarchau, a dychwel yn siriol at eu teuluoedd mewn diolchgarwch. . . .

"Er i lawer wrthgilio yn yr amser erledigaethus hwnw, etto cafodd llawer gymmorth i sefyll yn ddiysgog dros y gwirionedd, yn wyneb yr holl dymhestloedd; ac am Mr. Williams, parhau yn ffyddlon a diwyd yngweinidogaeth y gair a wnaeth efe, nid yn unig yn amryw barthau yn sir Gaernarfon, ond hefyd rhai manau o sir Feirionydd, Dinbych, a Fflint. Yr oedd ei athrawiaeth yn ddeffrous, ac fel diferiad diliau mêl, a'i ymarweddiad yn arogli yn beraidd o rym duwioldeb. Yr oedd yn anwyl ac yn barchus gan bawb oedd yn caru Crist a'i achos. Wedi treulio ac ymdreulio fel hyn yngwasanaeth ei Arglwydd, ynghylch deng mlynedd,† clafychodd o'r cryd tridiau,

* Dywed y Dr. T. Rees yn bendant mai Henry Maurice oedd priod etifeddes y Gwynfryn (Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 245), a gellir casglu hyny oddi wrth Ddyddiadur Maurice ei hun; ond dengys yr un ysgrif fod John Williams yn gefnder iddo.—Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 241–3.

† Y mae yma gamamseriad go bwysig. Dywed yr awdwr bod Williams wedi "casglu eglwys *cyn* y cyfnewidiad yn nheyrnasiad Charles II.," sef, fel y dywed y Dr. T. Rees, "yn amser Cromwel." Os digwyddodd hyny tu a chanol y Weriniaeth, yn 1654, parhaodd gweinidogaeth crefyddol Williams am o gylch 20 mlynedd, sef hyd ei farwolaeth, a ddigwyddodd tu ag 1674.

a gorphenodd ei yrfa mewn tangnefedd, er mawr alar i laweroedd, yn y flwyddyn 1676, neu o 1673 i 1674, yn ol hanes y Dr. Calamy." *

Dywed Palmer fod Williams "yn ŵr talentog a dysgedig, ac yn bregethwr da. Pregethai *am ddim* lle bynag y cai gyfleusdra."† Ymddengys mai prif goll John Williams oedd digalondid, neu ddiffyg gwroldeb crefyddol. Y mae'n amlwg i'r erledigaeth greulon oedd yn ffynnu ar y pryd beru iddo ef roi pregethu i fynu dros ryw hyd o gylch 1672, ychydig amser cyn ei farwolaeth, canys dywed ei gefnder, Henry Maurice, yn ei Ddyddiadur y 7fed o Fedi, 1672, pan ar ei ymweliad âg ardal Pwllheli y flwyddyn honno, fel y canlyn:—"Deuthum heddyw i weled fy nghefnder, John Williams, a chefais ymddiddan âg ef ynghylch ei ddistawrwydd, a'i waith yn aros yn llonydd yr holl amser yma, ond ychydig o foddhâd a gefais yn yr attebion a roddai. Canfyddais fod llawer o ras Duw yn ymddangos ynddo; etto, gwelais yn eglur ei fod dan demtasiwn, gyd â golwg ar ei waith yn peidio pregethu yr holl amser hyn." Y Dr. T. Rees hefyd a ddywed:—"Mr. John Williams, fel y gwelsom, oedd yr unig weinidog Anghydffurfiol y pryd hwnw yn sir Gaernarfon. Yr oedd efe yn ŵr da, ond yn rhy lwfr i fod o wasanaeth mawr i achos crefydd yn yr oes erledigaethus honno."‡

JOHN EDWARDS a fwriwyd allan gan Ddeddf yr Unffurfiad, fel Anghydffurfiwr, yn 1662, o Eglwys Plwyf Cathedine,§ tu a chwe milltir a hanner i'r de-ddwyrain o Aberhonddu. Tuedda y Dr. T. Rees i farnu, yn groes i'r Dr. Calamy, mai yr un ydyw y gŵr hwn a'r John Edwards, o Langors, a grybwyllir gan y Dr. Walker.‖ Gan fod Llangors a Cathedine o fewn dwy filltir i'w gilydd, nid ydyw debyg y buasai y Dirprwywyr a'r Profyddion yn gosod dau bregethwr mewn ardal mor denau ei phoblogaeth, pan yr oedd pregethwyr mor brinion. Gwrthfedyddiwr Babanod oedd John Edwards, a chymmerth ran yn y ddadl ar fedydd yn Abergefenni yn 1653. Yn 1689, yr oedd yn aelod o'r eglwys gymmysg cymmundeb yn Llangwm ac Abergefenni, a darlunid ef y pryd hwnw megis "hen ddisgybl, ffyddlon yn ei swydd, ond tlawd yn ei amgylchiadau." Nid oedd gan y Dr. Walker ddim gwaeth i'w ddywedyd am dano nag mai crydd ydoedd; ond y mae gwaith y Profyddion yn ei osod i bregethu ymhlwyfydd Cathedine a Llangors yn profi ei fod yn tra rhagori, fel pregethwr, ar lawer offeiriad oedd yno yn flaenorol, er eu bod hwy, yn ol pob tebyg, wedi cael eu dwyn i fynu ym Mhrifysgol Caergrawnt neu Rydychain; ac yr ydym ninnau yn credu ei fod yn deilwng o gongl fechan ymhlith "Enwogion y Ffydd."*

* Drych yr Amseroedd, gan R. Jones, argr. 1820, t. 9–12.
† Palmer, vol. iii., p. 477; Rees's Hist. Prot. Noncon. p. 148.
‡ Idem, p. 242.
§ "Tir y Caeth Adyn," eb Theophilus Jones.
‖ Walker's Suffr. of the Clergy, part i., p. 160; part ii., p. 258.

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 140.

---

## PENNOD XIII.

### CHARLES EDWARDS.

CHARLES EDWARDS oedd un o'r gwŷr enwog a wneuthant fwyaf o les parhaus i'w cenedl yn ystod ei oes ef, trwy gyfrwng y llyfrau gwerthfawr a ddeuthant i'r Cymry o dan ei law ef. Er hyny, ni wyddys odid ddim am dano, ond yn unig yr hyn a ellir ei gasglu oddi wrth y llyfrau godidog y bu ganddo law yn eu diwygio a'u cyhoeddi. Ni fynegir pa bryd y ganwyd ef, na pha bryd nac ymha le y bu farw; ac nid oes neb, hyd y gwelsom ni, wedi ceisio dyfalu ynghylch y pethau hyn. Pa fodd bynag, y mae genym sicrwydd ei fod yn ysgrifenydd o'r fath orau o'r flwyddyn 1670 hyd 1686. Profir ei fod yn Gymreigiwr campus yn y flwyddyn gyntaf a nodwyd oddi wrth ei "At y Darlleydd," sydd o flaen "Dadseiniad Meibion y Daran. Sef ail-printiad o lyfr Escob JUEL a elwir Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr; Ac o Epistol yr Escob DAFIES at y Cembru. . . . Preintiedig yn Rhydychen gan W. H. . . . 1671," copi o'r hwn sydd ger ein bron. Gan mai y dernyn crybwylledig ydyw y cynnyrch cyntaf sydd ar gael, hyd y gwyddom ni, o ysgrifell doreithiog Charles Edwards, a chan fod yr argraphiad yma yn bur brin erbyn hyn, credir y bydd yn hoff gan y "darlleydd" ymofyngar ei weled, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"AT Y DARLLEYDD.

"Tra yr oeddwn yn chwilio i geisio gwybod helynt y grefydd Gristnogol ym-mysc ein gwladwyr ni gynt,† cefais olwg ar y ddau draethawd hyn, y fuont gynorthwyol i ddechreu adferiad y ffydd ym-mhlith ein hynaifiaid ni yn yr oes ddiweddaf aeth heibio. *Deffyniad y ffydd*† a gyfieithwyd, ac a gyhoeddwyd yn Gymraeg er's pymtheng

† Y mae corph yr annerch mewn llythyrenau Italaidd, tra nad oes ond ambell ymadrodd hynod, neu Ysgrythyrol, mewn llythyrenau Rhufeinaidd; ond dodwn ni ycwbl yn yr olaf; oddi eithr hyny, ni newidiwn ddim ar y gwreiddiol.

Digitized by Google

mlynedd a thriugain,* a'r Epistol a brintiwyd gyd a'r Testament Newydd er's tair blynedd a chant.† Mi welwn y ddau wedi heneiddio, ac yn ddi-ymgeledd yn y wlad, yn llechu mewn ymbell gornel, mewn dillad sitrachoc, llychlyd, ac yn o-debyg i'r *ddau dystion, wedi eu gwisco a sachliain*,‡ a lludw hefyd, er iddynt haeddu croesaw gwell: Am hynny cipiais hwynt oddiar y gwyfyn, a'r rhwd ydoedd barod yw difetha hwynt, a rhoddais wisc newydd am yr hen gyrph, a theilwng iddynt y Cymwynas. Ni feiddiais i wneuthur dim cyfnewidiad ynddynt: er bod y dysclau wedi eu hail-bwrw, etto yr vn fâth yw'r seigiau ac oeddent, heb gymysc dim arnynt. Rhaid i ti gydddwyn ag ymbell lythyren allan o'i lle, gan fod y printwyr eisiau deall yr iaith megis yn gweithio dan eu dwylo, ac yn Cam-osod llawer peth. Ceisiais eu printio yn gywiraf ag ellais wrth gopiau sicer. yr Epistol wrth lyfr y Dr. Dafid Powel. a'r llall wrth yr eiddo Watkin Kyffin o'r Glâscoed Esq; yr hwn o ran carennydd a'r cyfieithydd, a'i vniondeb ymhob achosion, ydoedd i'r llyfr yn geidwad o ffyddlondeb diammau: ac yn ewyllyscar i hyfforddi'r ail-printiad, pe cawsei einioes. O na bae i'w etifeddion ef, a phendefigion eraill gymeryd attynt y cyfryw fwriad i amlhau cynnorthwyau adeiladaeth ysprydol i eneidiau 'r gwerin, gystal ag ymborth i gyrph y tlawd, gan fod mor elusen lonni'r *tlodion yn yr ysprыd*, ac yw diwallu y rheidus yn y cnawd, fal wrth wneuthur pob vn o'r ddau drwy râs, yr *ymgyfoethogont mewn gweithredoedd da*, ac yr *amlhão ffrwyth erbyn eu cyfrif hwynt*. Gresyn ydyw, a gofidus o'i ystyried, fod cymaint o'r ychydig lyfrau da ys ydd yn Gymraeg ar ddarfod am danynt, eisieu adnewyddu eu hargraphiad: a bod ein cenedl ni yn gwneuthur a hwynt megis Aiphtiaid a phlant Israeliaid, sef eu boddi hwynt yn nyfroedd distaw Lethe, n'eu claddu hwynt yn-nhir anghof. a gadel i bryfed lwyr ddinystrio 'r pethau a wnaent lês i lawer o eneidiau. Yr anwyl Gymro, yn y llyfr hwn y gelli weled rhai o'r rhesymmau pwysfawr a annogasant y to diweddaf i ymgais a gair Duw, er mwyn trefnu eu ffyrdd wrtho. Digwydded wrth y gorchwyl hwn i wiail y ddau Aaron hyn ail-flodeuo, a dwyn ffrwyth iachus yn ein gwlâd; yr hyn yw dymuniad calon dyewyllyscar wasanaethwr.

"CHARLES EDWARDS.

"*Rhydychen Mis Rhagfyr* 31, 1670."

Dyna brawf ei fod yn ysgrifenydd gwych yn y flwyddyn yna. Y mae genym brawf etto ei fod yn fyw, ac yn alluog i ysgrifenu yn gampus yn 1686, oddi wrth ei gyssylltiad â'r llyfr canlynol—

"Fatherly Instructions: being Select Pieces of the Writings of the Primitive Christian Teachers. Translated into English. With an Appendix, entituled Gildas Minimus.—London, Printed in the year 1686."§

Am y gwaith hwn dywed Gwilym Lleyn, "Cynnwysa y llyfr rhagorol hwn lawer o wybodaeth am y Cymry. Mr. Charles Edwards oedd y cyfieithydd a'r golygydd. Y mae 'To the Reader' yn ei ragflaenu, gan 'Charles Edwards;' ac yn ei ddiwedd, '*To the Honoured Persons in City or Country, that lately were Trustees for charitable works for Wales*,' yn diweddu gyd âg '*Your obedient servant, The Translator;*' a hefyd, llythyr arall, '*To my Kindred and Acquaintance in the Counties of* Salop *and* Denbigh, *and elsewhere*,' yn terfynu 'Your's C. E.' Hefyd y mae dalen o 'Barddoniaeth i Hanes y Ffydd a'r Prif-lyfr Newydd, a llyfrau eraill a breintiwyd yn ddiweddar;' a dyna yn unig sydd yn Gymraeg ynddo."

Dyna'r llyfr diweddaf, hyd y gwyddom, y mae enw Charles Edwards yn gyssylltedig âg ef, yn ystod ei fywyd; am hyny yr ydym yn casglu y bu efe farw yn lled fuan ar ol hyn, canys y mae'n bur sicr nas gallasai gŵr o'i ddiwydrwydd a'i wladgarwch ef sefyll yn segur ond dros ychydig iawn o amser. Yn awr, od oedd efe o gylch 70 oed yn 1686, ganwyd ef tu a'r flwyddyn 1616. Y mae ei addysg etto, ynghyd â'r *man* y ganed ef, a *phwy* oedd ei hynafiaid, bron yr un mor dywyll. Dywed Isaac Foulkes y tybiodd amryw ei fod wedi derbyn ei addysg athrofaol yn Rhydychain; eithr nid oes dim prawf i'r dyb olaf ond ei fod wedi derbyn trwydded ("imprimatur") Isganghellydd y Brifysgol i argraphu "Hanes y Ffydd," a bod y Parch. Thomas Richards, o Langrallo, yn rhoddi y nodyn canlynol yn y gyfres o awduron Cymreig o flaen ei eiriadur:—"Parch. Charles Edwards, gweinidog Croesoswallt, gŵr tra dysgedig, awdur llyfr Cymraeg o'r enw 'Hanes y Ffydd Gristionogol,' 1680." "Nid yw y ffaith flaenaf o angenrheidrwydd," medd I. Foulkes, "yn profi ei fod yn aelod o'r Brifysgol; ac y mae ei fywgraphydd diweddaf, y Parch. Wm. Edmunds, athraw Ysgol Rammadegol Llanbedr, yn dywedyd yn bendant mai camsyniad yw yr olaf, 'o herwydd y mae'n eithaf dilys na bu Charles Edwards erioed yn weinidog Croesoswallt, gan ys p'un oedd yn offeiriad neu beidio.' Pa fodd bynag, y mae'n amlwg ei fod yn ysgolor gwych, yn ŵr o dalentau disglair, yn awdur Cymreig o'r dosparth cyntaf, ac yn caru yn fawr les ysprydol ei gydwladwyr."‖ Profir ei fod "yn ysgolor gwych" mewn amryw ieithoedd heb law y Gymraeg a'r Saesneg, gan y gwirionedd ei fod wedi cyfieithu yr "Hyfforddiadau Tadol" o "Ysgrifeniadau yr Athrawon Cristionogol Cyntefig," sef o'r Groeg a'r Lladin. Ond nid yw hyn chwaith yn profi bod C. Edwards wedi cael prifysgolion, nac un math arall o ysgolion, o ran hyny, canys gwyddys bod Elihu Burrit wedi dysgu lliaws o ieithoedd estronol heb gymmorth ysgolion; a gwyddom ninnau am *un* Cymro, o leiaf, heb law Dic Aberdaron, a ddysgodd rai

* Sef yn y fl. 1595. † Yn y fl. 1567. ‡ Datc. 11. 3.
D.S. Ar ymyl y dail y mae'r nodau yn y gwreiddiol.

§ "Hyfforddiadau Tadol: sef Darnau Detholedig o Ysgrifeniadau yr Athrawon Cristionogol Cyntefig. Wedi eu cyfieithu i'r Saesneg, ynghyd âg Attodiad. A elwir Gildas y Lleiaf."—Llyfr. y Cymry, t. 235.

‖ Enwogion Cymru, t. 270.

Digitized by Google

ieithoedd estronol heb gymmaint a mis o ysgol ddyddiol o fath yn y byd yn ystod ei holl oes. Pa ddelw bynag, gan fod manteision i Gymro ddysgu ieithoedd estronol trwy gyfrwng llyfrau yn bur brinion yn amser Charles Edwards, y tebygolrwydd cryf ydyw iddo ef gael rhyw ysgolion o bwys, er iddo ef a'i gydoeswyr esgeuluso cofnodi ymha le, a pha fath oedd y cyfryw.

Etto: y mae mangre ei enedigaeth, ynghyd â'i hynafiaid, dan leni cyffelyb o dywyllwch ac amheuaeth. Gyd â golwg ar y pethau hyn, y mae'r Dr. L. Edwards, o'r Bala, yn sylwi yn dra phriodol fel y canlyn:—

"Am ba beth yr oedd ysgrifenwyr y dyddiau hyny yn meddwl, nis gwyddom: ond meddwl am gadw coffadwriaeth y dynion gorau heb ei golli oddi ar y ddaear *nid oeddynt.* Os rhoddwyd cymmaint a gair o hanes Charles Edwards ar lawr gan ei gydoeswyr ar bapur neu ar garreg fedd, y mae rhyw gaddug wedi ei guddio er ys talm. Gwelsom ofyniad yn y '*Cambro-Briton*,' oddi wrth un 'Chwiliedydd,' yr hwn, debygem, oedd y Dr. Williams, o Lanbedrog, yn holi am ryw hyspysrwydd mewn perthynas iddo: ond er i'r golygydd ei hun gyfeirio sylw at y gofyniad, nid ydym yn deall iddo byth dderbyn attebiad. Y mae'r holl hanes a roddir gan y Dr. Williams yn nechrau yr argraphiad diweddaf,* yn gynnwysedig mewn dau lythyr; un oddi wrth y Parch. Walter Davies, a'r llall oddi wrth John Edwards, Ysw., o Great Ness. Yn y cyntaf, dywedir i Charles Edwards gael ei eni yn Rhyd y Croesau, ymhlwyf Llansilin, yn sir Ddinbych, ar derfynau plwyfau Croesoswallt a Syllatyn: ac i'w frawd hynaf, Robert Edwards, briodi Ann Cyffin, merch ac etifeddes Robert Cyffin, o Garth Eryr ym Mochnant.† Yn y llall, dywedir nad oedd ond un Charles wedi bod yn y teulu, a bod hwnw yn fab i Robert Edwards, o Cynlleth, yn sir Ddinbych.‡ Hyd yma y mae'r hyspysiadau am dano yn cyrraedd, ac y mae'n rhaid addef nad yw'r ddau hanes uchod yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn hollol gysson. Dichon er hyny nad oes ynddynt ddim anghyssondeb gwirioneddol. Ond os na ellir credu y ddau, dïau y dylid rhoddi y flaenoriaeth i'r Parch. Walter Davies.

"Ychydig sydd i'w gael ymhellach na hyn heb law tybiaeth. Barna rhai ei fod yn offeiriad; ond y cwbl a ellir ei ddywedyd yn benderfynol yw, ei fod yn aelod o'r Eglwys Sefydledig, o'r un ddelw ac yspryd a Leighton a Gurnall."§

Yn awr, trwy garedig ganiatâd y Dr. Lewis Edwards, fel y crybwyllwyd o'r blaen, ni a gymmerwn ei sylwadau ef ar "Hanes y Ffydd," heb newid dim arnynt ond yr orgraph yn unig, er mwyn cydweddiad y gwaith hwn, ar ol dodi enw

* Yr argraphiad a gyhoeddwyd gan y Dr. P. Williams, Llanbedrog, yn 1822, oedd hwn. "Daeth argraphiad tlws o 'Hanes y Ffydd' allan yng Nghaerfyrddin yn 1856, 8plyg; ond gresyn ei fod yn dilyn, mewn llawer o fanau, argraphiad *cyfnewidiedig* y Dr. P. Williams, yn lle cymmeryd y gwaith megis y gadawodd yr awdur ef. Dylai'r hen lyfrau gael aros fel yr ysgrifenwyd hwynt."—D. Silvan Evans: Llyfr. y Cymry, t. 198, nod *.

† Cambro-Briton, vol. i., p. 385; Hanes y Ffydd, argr. 1822, Editor's Pref., p. xi.; Walt. Davies's English Works, ed. 1852, p. 52.

‡ Dywed John Edwards, Great Ness, ddarfod iddo "glywed bod Charles yn Beriglor mewn rhyw fywioliaeth;" ond nid yw'n dwyn dim prawf.—Hanes y Ffydd, Editor's Preface, p. xiii., note *.

§ Traethodau Llenyddol y Dr. Edwards, t. 190.

yr argraphiad a elwir "yr ail-printiad" ger bron, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Y Ffydd Ddi-ffvant. Adroddiad o Helynt y Grefydd Gristianogol er dechreuad y byd hyd yr oes hon, a phrofiad o'i gwirionedd a'i rhinwedd. The unfeigned Faith. Containing a briefe History of the Christian Religion from the beginning of the World to this present Age, and a proofe of its veritie and efficacie. Yr ail-printiad gyd ag anghwangiad.—Printiedig yn Rhydychen gan Hen: Hall, ac a werthir gan lyfrwyr Gwrecsam a Llanfyllin: a chan Mr. Gor" [y ddalen yn ddrylliog] "yn Ghaer-Fyrddin, a chan Mr. Vertue yn Abergavenny, ac ymhen y bont ar ogwr. 1671."*

Y mae Moses Williams yn dywedyd yn ei "Gofrestr" i Charles Edwards brintio "Hanes y Ffydd" y tro cyntaf yn Llundain,† yn 1671,‡ a thrachefn yn Rhydychain, yn 1677.§ Y mae'r Dr. Williams yn tybied bod dau argraphiad wedi ymddangos yn Llundain, gan mai y trydydd yw argraphiad Rhydychain, yn 1677 [1676?]. Yn 1622, cyhoeddodd John Rogers argraphiad arall yn yr Amwythig, yr hwn a elwir ganddo "The *Fourth Edition.*"‖ Yn 1811, cyhoeddodd R. Jones, Dolgellau, argraphiad arall, yr hwn a elwir hefyd "Y Pedwerydd Argraphiad, wedi ei adgyweirio a'i ddiwygio yn ofalus." Cyhoeddwyd un arall yn Dolgellau, 1822, fel y crybwyllwyd eisoes, dan arolygiad y Dr. Williams, o Lanbedrog.¶ Rhoddwn yma y Rhagymadrodd oll fel y mae yn y trydydd argraphiad:—

"*At y Dàrllëydd.*

"GRAS, trugaredd, a thangnefedd a liosogo i ti trwy Grist Iesu. Wrth ystyried mor gynnorthwyawl i'm gwladwyr a fyddai hyspysrwydd o'r pethau a ganlynant, ac nad adwaenwn i un llyfr i'w gyfieithu ydoedd yn wahanredol

* Llyfr. y Cymry, t. 198.

† Yma y dechrau sylwadau rhagorol y Dr. Edwards ar "Hanes y Ffydd."—Traeth. Llenyddol, t. 192–197.—Gol.

‡ Od ydyw tystiolaeth Moses Williams yn gywir, cyhoeddwyd dau argraphiad o "Hanes y Ffydd" yn yr un flwyddyn. Dichon i Williams gamamseru argraphiad Llundain, o ddiffyg gweled yr argraphiad hwnw, ond odid: beth bynag am hyny, y mae'n amlwg wrth gymharu yr enw a ddifynwyd uchod â'r llyfr, fel yr ymddengys, oedd o flaen Gwilym Lleyn, mai yn Rhydychain y cyhoeddwyd "yr ail-printiad" yn y flwyddyn a nodir, sef 1671. Gellir casglu yn deg hefyd bod yr awdur wedi treulio hir amser *cyn* hyny i gyfansoddi y llyfr godidog yma.—Gol.

§ Yn 1676 y dyry Gwilym Lleyn yr argraphiad yma, a dywed, "Dyma'r *ail* argraphiad" (Llyfr. y Cymry, t. 206).—Yr ydym yn credu i Gwilym Lleyn roi "ail" yn y fan yma yn lle y gair *trydydd.*

‖ Yn ol Gwilym Lleyn, cyhoeddodd Edward Samuel argraphiad o "Hanes y Ffydd" yn 1712, ond ni ddywed ymha le. "Camgymmeriad yn ddïau," medd y Parch. D. Silvan Evans. "Ni chyhoeddodd Edward Samuel un argraphiad o 'Hanes y Ffydd,' ac ni chyfansoddodd waith o'r enw" (Llyfr. y Cymry, t. 297, nod §).—Gol.

¶ Saif yr holl argraphiadau o'r llyfr gwerthfawr hwn, yn ol eu hamseriadau a'r lleoedd y cyhoeddwyd hwynt, cyn belled ag y gallwn ni weled, fel y canlyn:—Y 1af yn Llundain, yn 1671, neu cyn hyny; yr 2il yn Rhydychain, yn 1671; y 3ydd yn Rhydychain, yn 1676 neu 1677; y 4ydd yn Amwythig, yn 1722; y 5med yn Nolgellau, yn 1811; y 6ed yn Nolgellau, yn 1822 (yr hwn argraphiad sydd ger ein bron); y 7fed yng Nghaerfyrddin, yn 1856; a gresyn na cheid un etto, yn ol yr argraphiad olaf a gyhoeddwyd gan yr awdur ei hun yn 1676 neu 1677, heb newid dim arno, yn ol awgrym y Parch. D. S. Evans.

hanesion, fel y gwelir yn llyfrau yr oes honno yn gyffredin, yn dangos gormod o hygoeledd; er hyny, nid tro iawn yn y Dr. Williams oedd eu gadael allan. Gallasai wneud nodiadau arnynt yngwaelod y ddalen, ac yna cawsai y darllenydd farnu drosto ei hun.* Ond y mae'r holl bennodau hyn ar y cyfan yn hanes gywir a chryno. Nid oes dim a ddymunem ei gymmell ar ddynion ieuaingc i'w ddarllen yn fwy na hanes y byd, ac yn enwedig hanes crefydd yn y byd: ac wrth ddechrau, byddai yn anhawdd iddynt gael llyfr mwy buddiol na "Hanes y Ffydd." Tueddir i ni roddi dau ddifyniad o'r bedwaredd bennod ar bymtheg. Y cyntaf sydd fel hyn:—

"Gweddïwn ar Dduw am roddi Yspryd ei ras i bob gradd o ddynion yn ein mysc; 'fel yr adeiladont yr hen ddiffeithle, ac y cyfodont anghyfanedd-dra llawer oes; sef tabernacl Dafydd yr hwn a syrthiodd,' yn ein gwlad ni yn amser ein hen dadau: 'ac yr adeilader ei fylchau drachefn: fel y byddo i'r hyn a weddillwyd o honom geisio yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn:' ac a'n gwaredodd o dŷ caethiwed bydol ac ysprydol, yn yr hwn y mae'r Gwyddelod yn nychu. Gwilia arnat yn ddyfal, O Gymro, rhag i ti rwystro a digaloni adferiad at y Ffydd yn dy fro; canys 'yr Arglwydd, yr hwn a ddewisodd y gweddill, a gerydda bob gwrthwynebwr.' 'Onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân?' Yn hytrach gwnaed yr oes hon ei rhan yn adeiladu ar y sail ysgrythyrol a osododd yr oes ddiweddaf, ac yn cynyddu'r gwaith a ddechreuwyd trwy gymaint o anhawsdra, 'fel y toro goleuni Cymru allan fel y wawr, ac na ddiffodder ei phentewyn.'

"Byddai yn gymhorth nid bychan i'n gwlad pe cyfodai ei blaenoriaid GOLLEGE neu ddau ynddi, i ddwyn gwŷr ieuainc gobeithiol i fynu mewn dysgeidiaeth a moesau da, tu ag at eu cymhwyso, gyda bendith y Goruchaf, i weinidogaeth efengylaidd, a swyddogaeth wladwriaethol."†

Caniataer i ni alw sylw pawb at y rhan olaf o'r difyniad hwn. Dyma un o brif anghenion y Cymry yn ein dyddiau ninnau. Y mae genym ryw fath o golegau, ond y maent oll yn perthyn i ryw blaid grefyddol. Yr hyn sydd eisiau yw un Brifysgol gyffredinol i'r Cymry. Y mae enw Charles Edwards yn haeddu ei gadw mewn cofiadwriaeth, pe na buasai wedi gwneud dim ond rhoddi y cynhygiad hwn ger bron ei gydwladwyr. Ar yr un matter y mae'r difyniad arall, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Ni bydd y nef yn nyled y ddaear. Yr hyn a wyddai Solomon yn dda wrth ei brawf a'i lwyddiant rhyfeddol, wedi iddo adeiladu'r deml. Am hyny, yn ei ddoethineb a'i serch, cynghorodd ei fab, gan ddywedyd, 'Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth penaf o'th holl ffrwyth; felly y llenwir dy ysguboriau â digonolrwydd, a'th winwryfoedd gan win newydd. Ac nid yn y byd

* Gwelir bod y Dr. Edwards yn cydsynio â'r Parch. D. Silvan Evans gyd â golwg ar hyn (gwel t. 377, nod *), a dïammau bod y ddau yn gywir.—GOL.

† Y mae yn amlwg wrth eiriau Charles Edwards mai Prifysgol (*University*) a olygai efe wrth "*College* neu ddau," sef sefydliad uwchraddol i gymhwyso "gwŷr ieuaingc gobeithiol" i lenwi "swyddogaeth wladwriaethol," cystal ag "i weinidogaeth efengylaidd." Yr oedd yn gweled pob talaeth arall o'r Deyrnas Gyfunol wedi eu breintio â'r cyfryw sefydliadau gwerthfawr, canys heb law dwy Brifysgol fawr, gyfoethog Lloegr, yn Rhydychain a Chaergrawnt, yr oedd yno, hyd yn oed yn ei amser ef, lïaws o Brifysgolion a Cholegau llai, ond tra phwysig, fel y ceir gweled yn ebrwydd. Yr oedd yn Ysgotland bedair o Brifysgolion godidog, ac yr oedd un yn oed yn y Werddon. Ymddengys mai dymuniad y gwladgarol Charles Edwards oedd cael *dwy* Brifysgol yng Nghymru, un yn y Deheubarth a'r llall yng Ngwynedd; ond wele ni yn awr, ymhen dros ddau gan mlynedd ar ol Charles Edwards, heb gymmaint ag un Brifysgol awdurdodedig gan y Llywodraeth yn yr holl Dywysogaeth! Er mwyn ceisio deffro ein cydgenedl i weled eu hamddifadrwydd o foddion addysg uwchraddol a phwysig, cymmerwn gipdrem hanesyddol ar sefydliadau addysgiadol gwaddoledig a godidog y cenhedloedd eraill o'n hamgylch. Dechreuwn gyd â'r Saeson.

Prifysgol Rhydychain ydyw yr hynaf, cystal a'r fwyaf a'r gyfoethocaf yn yr holl deyrnas, os nad yn yr holl fyd. Colegau a Neuaddau (*Halls*) y Brifysgol ardderchog hon yw cnewullyn gogoniant mawr dinas Rhydychain, y rhai sy'n tra rhagori hyd yn oed ar eiddo Caergrawnt, o ran henaint a nifer, cystal ag o ran ehangder a phrydferthwch; ac y mae neuaddau, capelau, llyfrgellau, a gerddi y sefydliad mawreddog yn brydferth dros ben. Tybir bod y Brifysgol odidog hon wedi bod yn fagwrfa dysgeidiaeth uwchraddol yn oed cyn amser Alffred Fawr, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn o.c. 871, pan oedd Pabyddiaeth yn ei llawn rym yn y Deyrnas Gyfunol; ond bernir mai i nawddogaeth haelionus Alffred y mae hi yn ddyledus am ei hadnewyddiad a'i phwysigrwydd. Y mae ynddi ugain, o leiaf, o Golegau, a phump o Neuaddau. Y colegau y llwyddasom i gael eu henwau yw y rhai canlynol:—Coleg y Brifysgol, Baliol, Merton, Caerwysg (*Exeter*), Oriel, y Frenhines, Newydd, Caerlwytcoed (*Lincoln*), yr Holl Eneidiau, Magdalen, Brazennose (y Trwyn Pres), Corph Crist, Eglwys Crist, y Drindod, Ioan Fedyddiwr Sant, Iesu, Wydham, Penfro, Caerwrangon (*Worcester*), a Keble. Yr hynaf o'r colegau hyn yw Coleg y Brifysgol, yr hwn a sefydlwyd yn o.c. 872; a Choleg Eglwys Crist, yr hwn a ddechreuwyd gan y Cardinal Wolsley, o gylch o.c. 1515, ac a orphenwyd ar ol cwymp Wolsley yn 1530, gan Harri VIII., ac a berthyn i'r Eglwys Gadeiriol (*Cathedral*). Sefydlwyd y gweddill o'r colegau ar ol sefydlu Protestaniaeth yn grefydd sefydledig y wlad. Y Neuaddau yw y rhai canlynol:—Neuadd Alban, Edmund, Mair Santes, Gwestty Newydd, a Mair Magdalen Santes. Llyfrgellau mwyaf nodedig y Brifysgol hon yw:—Llyfrgell Bodleian, yr Holl Eneidiau, Eglwys Crist, y Frenhines, Newydd, Ioan Sant, Caerwysg, a Chorph Crist.

Prifysgol Caergrawnt a gynnwys bedair ar ddeg, o leiaf, o golegau, a phedair o neuaddau, y rhai sy'n meddu yr un rhagorfreintiau a'r colegau. Dyma'r colegau:—Coleg Tŷ Petr, Corph Crist neu Benet, Gonfil a Chaius (a elwir yn gyffredin *Keys College*), y Brenin, y Frenhines, Iesu, Crist, y Drindod, Emanuel, Magdalen, Ioan Sant, Sidney, Sussex, a Downing. Y neuaddau yw:—Neuadd Clare, Catherine, y Drindod, a Phenfro. Yr hynaf o'r colegau yw—Coleg Tŷ Petr, yr hwn a sefydlwyd yn o.c. 1257, diweddarach o 386 mlynedd na Choleg y Brifysgol yn Rhydychain.

Y mae pob un o golegau a neuaddau Rhydychain a Chaergrawnt yn ysgol gyflawn ynddi ei hun, a than ei llywodraeth ei hun yn hollol. Wrth "Brifysgol" yma, gan hyny, y mae i ni ddeall, nid rhyw un adeilad dirfawr ei faint, lle yr addysgir miloedd o wŷr ieuaingc, ond yn hytrach corphoraeth gyfangwbl o golegau; ac yn fwy neillduol, y swyddogion uwchraddol a lywodreuthant arholiadau y ddau sefydliad enfawr. Nid yw myfyrwyr Rhydychain a Chaergrawnt yn agos mor lliosog yn awr ag oeddynt yn yr amseroedd gynt, o blegid bod sefydliadau addysgol y dosparth canol weithian mor aml trwy y deyrnas. Bu yn Rhydychain amser a aeth heibio gynnifer a 30,000 o ysgolheigion, pan nad oes yno yn awr, ond odid, fwy na 3,000; ond yr oedd Rhydychain gynt yn cyflenwi lle Ysgolion Canolradd cystal a Phrifysgol.

Y sefydliad a elwir Prifysgol Llundain ydyw y nesaf o ran pwysigrwydd sydd yn Lloegr i'r Brifysgol fawr a nodwyd. Y mae yno ddau goleg, sef Coleg y Brifysgol, yn Heol Gower, a Choleg y Brenin yn y Strand. Perthyn i bob un o'r ddau hyn dros ddeugain o broffeswyr neu athrawon, ac y maent yn addysgu yn holl ganghenau Gwyddoniaeth a Chelfyddyd, Meddyginiaeth a Chyfraith. Y maent yn addysgu Duwinyddiaeth hefyd yng Ngholeg y Brenin, yr hwn a berthyn i'r Eglwys. Gan fod Coleg y Brifysgol yn agored i bob cyfundeb crefyddol fel eu gilydd, nid ydynt yno yn cyffwrdd â Duwinyddiaeth.

Heb law y tair Prifysgol enwog a nodwyd, y mae yn Lloegr lïaws o golegau uwchraddol eraill a elwir Ysgolion Cyhoeddus, y sawl nis gallwn yma ond prin enwi y rhai penaf o honynt, ac amcan o nifer yr athrawon ynddynt. Eton, 40 o athrawon; Rugby, 22 o

Digitized by Google

yma yn unig y ceir tâl am yr hyn a dreulir ar wasanaeth Duw, eithr yn y byd arall hefyd. Pan gipia marwolaeth y rhai didda at benyd a phrinder tragywyddol, caiff goruchwylwyr ffyddlon, a arferant eu talentau yng ngwasanaeth eu Harglwydd, drysor yn y nefoedd, yr hwn ni dderfydd, a chynnaliaeth ogoneddus byth. Ynte masnach ynnillfawr yw rhoddi echwyn i'r Arglwydd, a goreu hwsmonaeth yw llafurio i dynu yr hâd y tyf ei gnwd yn uwch na'r cymylau. 'O blegid yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fed lygredigaeth; eithr yr hwn sydd yn hau i'r Yspryd, o'r Yspryd a fed fywyd tragywyddol.'

"O nad ymegniai'n cenedl i fod mor fywiog ac mor wresog yn y grefydd Gristianogol ag a fu rai o'n hen deidiau ni gynt. Troesant hwy Scotiaid, a Phictiaid, a Germaniaid, a chenhedloedd eraill at ffydd Crist; ac a esgeuluswn ni hi yn ein cartref ein hunain? Yr oeddynt hwy yn flaenaf; ac a fyddwn ninnau yn olaf yn achosion teyrnas nef? Na ddirywiwn; eithr fel Naboth, glynwn yn y winllan efengylaidd sydd Dref-tadaeth ein hynafiaid; a rhodiwn fel plant y goleuni, ac ymddygwn yn ddyladwy wrth fodd Duw, megis y mae hi yn bryd i ni bellach, 'nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynen a chenfigen:' fel y gallo ein gwlad, a fu cyhyd dan waradwydd, fyned yn enwog am rinwedd."

Testyn yr ugeinfed bennod yw "Sicr wirionedd y Grefydd Gristianogol." Nid ydym yn cofio i ni erioed weled y gwahaniaeth rhwng y profion allanol a'r rhai tufewnol yn cael ei osod allan yn well mewn ychydig eiriau nag yn nechrau y bennod hon. "Er fod achau y ffydd a argraphwyd eisoes yn gwirio Duw yn dad iddi; etto gellir cael ychwaneg o hyspysrwydd am hyny wrth ei phryd a'i gwedd, y rhai sydd yn tebygu iddi." Ar ol dwyn ym mlaen liaws o resymau nerthol a golau i brofi gwirionedd y ffydd Gristionogol, y mae'n sylwi fel y canlyn:—

"Os amheui etto, dywedaf wrthyt, fel y dywedodd Philip wrth Nathaniel, 'Tyred a gwel.' Fel yr argyhoedda'r creadigaeth a rhagluniaeth dy reswm di, gwaith yr 'adenedigaeth ac adnewyddiad yr Yspryd Glân' a lwyr argyhoedda dy galon, ac a ysgrifena'r gyfraith ynddi, oni's gwrthodi hi. Oni choeli fod athrawiaeth y ffydd yn win melus ac iachus, wrth weled eraill yn ei ddymuno, ac yn siriol ar ei ol ef, prawf ef dy hun, a dywedi yr un peth. Golch lygaid gweiniaid dy feddwl â dagrau edifeiriol, a gloywach fyddant, a chanfyddi ewyllys Duw yn graffach a gweli'r Haul cyfiawnder wrth ei oleuni ei hun. Oddiwrth darth cnawdoliaeth y cyfyd niwl yn y meddwl. Bydd pob dyn â deall wedi ei dywyllu, tra fyddo wedi ymddieithrio oddiwrth fuchedd Dduw. Ond y meddwl newydd a gaiff 'brofi beth yw daionus, a chymeradwy, a pherffaith ewyllys Duw.' A'r hwn sydd yn credu ym Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth hon ganddo ei hun. Derbyn Yspryd Duw i sancteiddio dy enaid, yr hwn a dystiolaetha mai ei ysgrifen ef yw'r ysgrythyrau. Yna y gelli ddywedyd wrth yr eglwys fel y Samariaid wrth y wraig, 'Nid ydwyf fi weithian yn credu o oblegid dy ymadrodd di; canys mi a'i clywais ef fy hun, a gwn yn ddiau mai efe yw y Crist, iachawdwr y byd.' 'Yr hwn a ewyllysia wneuthur ewyllys Duw a gaiff wybod am y dystiolaeth, ai o Dduw y mae hi.' Defaid ufudd Crist a adnabyddant ei lais ef rhagor llais dieithriaid.

"Oni bydd dyn yn yr un elfen a'r peth yr edrycho efe arno, nis gwel yn iawn. Pan edrycho un oddiar y lan ar bren yn y dwfr, efe a'i gwel yn gam, er ei fod yn union. Felly ni ddichon yr hwn sydd mewn cyflwr cnawdol iawn ddirnad y gwirionedd grasol, 'oblegid yn ysprydol y bernir ef.' Meibion Duw sydd gynefin a'i bresennoldeb ef, ac arferol o drin ei negesau, a adwaenant ysgrifen-law eu Tad nefol. Cais burdeb calon, a chai weled Duw a'i ewyllys ef."

Yn awr, ddarllenydd, onid yw y difyniad hwn yn profi mai nid dŷn cyffredin oedd Charles Edwards? Nid ydym yn tybied fod un sylw mwy dwfn-dreiddiol, na chyffelybiaeth brydferthach yn holl waith Bacon. Byddai yn hawdd i ni gael nifer mawr o ddywediadau tebyg yn y llyfr hwn; ond cymmerer yr ychydig a ganlyn fel angreifftiau:—

"Ffrydia dwfr edifeirwch o'r calonau creigiog pan eu tarawer a gwialen Moysen.

"Ac o herwydd bod y rhan fwyaf yn eu hawddfyd yn ysmala ganddynt glywed cynghorion gair Duw, a'i weision, a'u cydwybodau eu hunain, gan fod eu brasder yn cadw'r pigau rhag dyfod at y byw, a'u pethau esmwyth hwy yn rhwystro'r ergydion i guro eu rhyfyg hwy i lawr, rhydd yr Arglwydd bwys ei law ar y rhai a fo ysgafn ganddynt ei air ef. A phryd na ddysger er mwynder, caiff llais y wialen ddwyn y wers ar gof, a throir llawenydd yn dristwch i'r rhai a drônt ras yn drythyllwch.

"Tywydd caled oddiallan a chwanega boethni oddifewn; a thra fo'r cyflwr bydol yn gymylog y saetha mellt drwy'r meddwl yn aml. Y pechodau ni chanfyddid yn y cynhesrwydd llwyddiannus a'r maswedd mwll, a ymddangosant cyn amled a'r ser pan ddel oerni calon.

"Ac nid heb achos y mae'r Arglwydd yn gosod ar y pechadur yn neillduol drwy'r cyfryw ddwys argyhoeddiad. Canys tra fyddo ef yn galw pobl i edifarhau drwy gyffredin weinidogaeth y gair; ac megis ar ben yr heolydd yn llefain ar gynnulleidfäau lliosog i ddiwygio eu ffyrdd,

athrawon; Harrow, 20 o athrawon; Caerwynt (*Winchester*), 12 o athrawon a chynnorthwywyr; Westminster, 12 o athrawon a chynnorthwywyr; y Mwythig, 12 o athrawon. Y mae rhai o'r sefydliadau hyn yn dra enwog a chyfoethog.

Hefyd, y mae yn Lloegr lu dirfawr o ysgolion nad ydynt ond ychydig is na'r rhai yna, yn y rhai y mae o 8 i 20 o athrawon, ac amryw gynnorthwywyr yn rhai o honynt, megis Coleg y Frenhines, Birmingham; Yspytty Crist, Llundain, &c.; heb law rhai ychydig is drachefn, ond yn ysgolion uwchraddol, megis Sefydliad Liverpool; Ysgol Rammadegol Leeds, &c.; heb son am yr ysgolion enwog sydd ychydig is etto, megis y rhai a elwir yn Ysgolion Perchenogol, ac Ysgolion Byrddiol, y rhai sydd braidd yn afrifed.

Weithian trown at ein cymmydogion Ysgotaidd. Heb law lliaws o ysgolion gwych sydd ar hyd a lled Ysgotland, y mae yno bedair o Brifysgolion enwog iawn, a chanddynt awdurdod i roi graddau i'w myfyrwyr, a sefydlwyd fel y canlyn:—Prifysgol St. Andrews, 1411; Prifysgol Glasgow, 1450; Prifysgol Aberdeen, 1494; a Phrifysgol Edinburgh, 1589. Y mae gan Brifysgolion Glasgow ac Edinburgh dros 1,500 bob un o fyfyrwyr! Y mae'r Prifysgolion godidog hyn, ynghyd, wedi bod yn diwyllio ac yn coethi pobl Ysgotland er ys mwy na 400 mlynedd, gan anfon allan wŷr o ddysgeidiaeth uwchraddol ar led y byd i lenwi pob swydd ac anturiaeth ennillfawr a gynhygir i ddynion, yn eglwysig, gwyddonol, a gwladol.

Y mae'r Llywodraeth yn rhoddi tu a 335,000p. yn flynyddol at ysgolion uwchraddol yn y Werddon, heb law y ddwy Brifysgol ardderchog sydd yno, sef Prifysgol hynafol Dublin, yn yr hon y dysgir pob cangen o wybodaeth, ynghyd â Duwinyddiaeth, a hyny yn hollol amhleidiol; a Phrifysgol y Frenhines, yn yr hon y dysgir pob cangen o wybodaeth, ond Duwinyddiaeth. Y mae i hon dri choleg mewn gwahanol drefydd, sef yn Belfast, Galway, a Cork; a chostiodd eu hadeiladu tu a 100,000p. i'r Llywodraeth, a dyry 7,000p. o waddol blynyddol iddynt.

Coleg neu ddau fel hyn sydd ar y Cymry eu heisiau, a gobeithio na adawant hwy a'u cynddrychiolwyr Seneddol lonydd i'r Llywodraeth nes eu cael.

Digitized by Google

ni thybir fod ei rybudd ef yn perthyn i'r naill mwy nag i'r llall, am hyny, ysywaeth, cydesgeulusant ef. Ond pan yw yn neillduol drwy ddwys gerydd yn curo wrth ddrws y galon gystuddiol, cydnabyddir y pryd hyny pwy y mae efe yn ei geisio; a'r hwn y mae'r fath ymofyn am dano, a ymrodda iddo ef. Ac fel Moses cenfydd Dduw yn y berth bigog, er iddo ei ddigio fel Adda yn yr ardd lysieuog.

"Er hyny i gyd y mae'r llanc grasol [sef Joseph] drwy ystyriaeth duwiol yn curo'r gôf uffernol yn ei efel. Er maint oedd mantais ei elyn aeth a'r maes oddiarno, a chadwodd ei onestrwydd er colli ei wisc, ac ni wnaeth ddrwg yn erbyn Duw da.

"Gwraig Job a lefarodd wrtho ef fel un o'r ynfydion, er hyny ni phechodd efe â'i wefusau. Cawsai ddigon o rybudd oddiwrth Adda fal y medrai Satan wneuthur bwa croes o'i asen ef i saethu atto ef i'w archolli, am hyny gwiliodd ac ymgadwodd. Mor iachus ydoedd tymmer ei ysbryd ef, nad allai'r haint oedd cyn nesed at ei fynwes ef mo'i amharu.

"Ac os yw amser y byd agos i ddarfod, ac wedi rhedeg hyd at y gwaddod isaf (fel y tybia rhai) nid rhyfedd ei fod wedi egru a chwerwi cymaint. Canys tebyg y gwywa daioni, ac y crina'r byd cyn llosgi pob peth; ac mai'r drygioni erchyllaf a brysura'r farn fawr: a dirmygu llais peraidd efengylwyr a bair glywed udgorn dychrynllyd y Barnwr. Daw'r *eclipse* du ar y byd pan fo ei anwiredd yn llawn lloned.

"Dir yw fod pobl Dduw y pryd hyn yn cael sylwedd yr unrhyw rasau ag a gafodd y Cristianogion cyntaf, er bod rhagoriaeth rhwng eu doniau. Yr un yw daioni Duw i ddynion pa un bynag a fo'r moddion drwy ba rai y gweithredir ef, ai arferol ai rhyfeddol. Y mae'r bara beunyddiol a gawn ni o'r ddaear drwy fendith Duw ar ein llafur, yn torri ein newyn ni, ac yn adferu ein nerth ni yn gystal ag y gwnai'r manna a ddisgynai o'r wybr i'r Israeliaid.

"Un go wan, wrth gyfarwyddyd a pheiriannau, a ddichon wneuthur pethau nad allo y cryfaf hebddynt; a'r hwn gan hyny a fyno'r maes ar elynion ei enaid, a ddylai yn gyntaf fedri iawn drin arfau ei filwriaeth ysbrydol.

"Gyda gwlith y nefoedd, rhaid wrth ddefnyddiau chwys y corph i beri i'r maes ffrwythloni. Ac ni wasanaetha i ni dybied am natur dyn fyddo wedi llygru â phechodau ffiaidd, y daw hi yn ddiboen i ddwyn ffrwyth da.

"Cynhyrfiad a gwaith sydd fuddiol i'r bywyd hwn a'r llall hefyd. Y dwfr rhedegog sydd loywaf, a'r awyr *gwyntog* sydd iachaf, a'r cristion bywiog sydd ysbrydolaf.

"Medr y cythraul chwythu'r tân uffernol o'r cynnud crinion i'r coed ir, gan geisio llygru y rhai da drwy y rhai *drwg*. Yr hwn a gymero ofal am iechyd ei enaid, ymgadwed ym mhellach ag a allo oddiwrth y cyfryw ag sydd gleifion o haint anwiredd.

"Rhwystra ddechreuad pechod. Pan glywech ddeisyfiad afreolus yn ymgodi ynot, brawycha a gweddïa; a dyro dy fryd ar ei ladd ef cyn iddo ymgadarnhau mewn gweithrediadau atgas. Hawdd i wendid dynu eginyn derwen o'r gwraidd cyn gynted ag y toro trwy'r ddaear. Llawer tân wrth ei ganfod mewn pryd a ddiffoddwyd yn ddiboen, yr hwn, pe'd esgeulusasid, a gynnyddasai i ddifrodi dinas.

"Rhoddi cyfarwyddyd i'r enbydus a'r cyfeiliornus, ac elusen i'r truenus, sydd yn cysuro y sawl a'u gwnelo cymaint a'r rhai a'u derbynio. 'Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.' A phan ddel dyn hyd at y cnewyllyn blasus sydd o'r tufewn i weithredoedd crefyddol, ni fyn fod hebddynt mwy; ac y mae dyn yn myned yn aplach i bob gwaith da wrth ei arfer. A bendith y goruchaf a rydd ychwaneg i'r hwn a fyddo 'foddlon ar ychydig.'"

*Hyd yma* y cyrraedd nodiadau gwerthfawr y Dr. Edwards ar "Hanes y Ffydd," a'i ddifyniadau tarawiadol o hono. Yn ei arweiniad i'w nodiadau, efe a ddywed, "Nid hwyrach y gofynid, gyd â gradd o ddirmyg, 'Pwy oedd Charles Edwards? A phaham y rhaid i ni ddarllen am un na chlywsom erioed son am dano, yn lle am awdwyr dysgedig a doniol?' Wel, ddarllenydd mwyn, yr oedd Charles yn awdur: nid awdur Seisnig, y mae'n wir, onid e y mae'n debyg y buasai yn fwy hyspys i'r Cymry; ond awdur Cymreig: ac nid yw yn ormod dyweyd ei fod yn rhagori ar hanner yr ysgrifenwyr a gyfieithwyd i'r Gymraeg gyd â mawr ddiwydrwydd, o'i amser ef hyd yn awr."* A hyn yr ydym yn llwyr gydsynio, ac yn gobeithio y bydd galwad buan am yr *wythfed* argraphiad o "Hanes y Ffydd," fel y cyhoeddodd yr awdur doniol ef ei hun, yn 1676 neu 1677, heb ei newid, tynu oddi wrtho, nac ychwanegu ato, oddi eithr nodiadau ar odrau y dail, yn ol awgrymiad y Dr. Edwards.

Y llyfr nesaf, heb law y ddau a nodwyd eisoes, sef "Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr," a "Hanes y Ffydd," oedd yr un canlynol:—

"Hyfforddiadau Cristionogol. Yn dangos Pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y dydd. A osodwyd allan yn Saesonaec, Gan Thos. Gouge,† Gweinidog yr efengyl, ac yn Gamberaec gan Richard Jones,‡ o Ddinbech.—Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr. 1675."§

"Yn niwedd y llyfr hwn," medd y Dr. Edwards, "y mae'r annerchiad a ganlyn, gan Charles Edwards:"—

"DIWYGIWR Y PRINT-WASG AT Y DARLLEYDD.

WELE Rhagluniaeth y Goruchaf yn porthi dy enaid ti yr awrhon, yn y fath fodd ac y llonodd ef gorph Samson gynt, pan ddarparodd iddo fêl ynghorph llew; gan beri i Sais o'i lawn wirfodd cariadus wneuthur lleshâd i Gymro; a chynhyrfu yr Awdur parchedig, er ei fod yn ŵr o Loegr, i ofalu am brintio tair mil, a phumcant o'r llyfrau hyn, i'w cyfrannu yn rhâd ymmysc ein cydwladwyr ni. Pe buasai rhyw brophwyd ychydig wedi amser Owen Glyn-dwfr yn cyssuro ein henafiaid ni â'r cyffelyb eiriau ac yr adroddwyd y ddychymmyg wrth y Philistiaid, y digwyddai i'w heppil hwynt gael bwyd allan o'r bwyttawr, a melusdra allan o'r cryf, Barn. 14. Anhawdd y deallasant wrth hynny y troeu y Saeson fyth mor dirion, ac hyfforddi iechydwriaeth y Cymru. Etto heddyw y cyflawnir hynny yn dy olwg di; fel y rhoddech ogoniant i Dduw, a ddichon wneuthur trugaredd uwchlaw pob disgwyliad. Wedi yr arferer y llyfrau hyn ennyd, yr wyf ar fedr preintio Hanes y Ffydd beth yn helaethach nag o'r blaen, os yr Arglwydd a'i mynn.

"Yr wyfi yn deall fod cryn nifer o eiriau Cymraeg yn ddieithriol i'r naill ran o Gymru, er eu bod yn gydnabyddus yn y llall. A bod amryw o'r geiriau sy mewn hên lyfrau Cymraeg yn anhyspys i ni o'r oes hon, eisiau ymarfer â hwynt. Oherwydd hynny fe fyddai'n ddymunol i rai o Wynedd a Deheubarth gyttuno i gydwneuthur Dic-

* Traeth. Llenyddol, t. 190.

† Gwel hanes Thos. Gouge yn y bennod nesaf, y xiv. o'r llyfr hwn.

‡ Gwel hanes Richard Jones, o Ddinbych, yn llyfr iii., pen. xiii.

§ Llyfr. y Cymry, t. 202; Traeth. Llenyddol y Dr. Edwards, t. 191

sionari Cymraeg bychan, sef Gair-lyfr cryno i'r Gwerin, yn dangos arwyddoccâd yr holl eiriau Cymreig, mal y dealler llyfrau yn hawsach, ac y deuer o hyd eilwaith i lawer o'r iaith a'r fydd ar goll. Yr hyn a fyddam ni ewyllyscarach i'w wneuthur pe gwyddem faint sydd ynddi o'r famiaith baradwysaidd, er mwyn hynodi hynny mewn rhan, mi a gesclais fagad o ymadroddion o'r Bibl Hebraeg a ellir eu deall yn Ghymru gyd ag ychydig hyfforddiad.

"C. E."

"Er mai Sais oedd Thomas Gouge," medd y Dr. Edwards, "ni wnaeth neb yn yr oes honno fwy o les i'r Cymry. Hyfryd i'n teimlad ni yw gweled cydweithrediad mor gyfeillgar rhyngddo ef ac awdur "Hanes y Ffydd." Nid rhinwedd fechan hefyd yn Charles Edwards oedd cadw ei gariad at ei genedl, a llafurio cymmaint drostynt, er ei fod yn byw y rhan fwyaf o'i oes ymhlith y Saeson. Y mae rhai yn debyg iddo yn ein dyddiau ninnau; a gobeithiwn y bydd i'w nifer fyned ar gynydd."*

Yn yr un flwyddyn etto, 1675, cyhoeddwyd gan T. Gouge a Stephen Hughes,—

"Yr Ymarfer o Dduwioldeb yn Cyfarwyddo dŷn i rodio fal y rhyngo ef fodd Duw. Y trydydd preintiad."†

"Diwygiwr y preintwasc" oedd Charles Edwards, yr hwn, ar ddiwedd y llyfr, yn ei "At y darlleydd," a ddywed fel hyn:—

"Pan i'm galwyd i ddiwygio'r preintiad yma o'r llyfr hwn, mi dybiais nad oedd raid imi ond edrych ar iddo gyfatteb yn gywyr i'r llyfrau o'r blaen. Ac felly y dechreuais wneuthur, nes imi wrth fyned ymlaen i holi'r copi, ddal sylw fod yn angenrheidiol gyfnewid ynddo lawer o bethau; gan fod y darlleniad a'r ystyr yn dywyll, ac yn anghysson mewn llawer o fannau, ac heb gyrhaeddyd ergyd yr awdwr yn y dafodiaith arall: Ac i'r cyfieithydd gamgymmeryd bagad o eiriau Lladingaidd a Groegaidd yn y llyfr Saesonaec, ysydd anhawdd eu dirnad, ac allent fagu amryfussedd; megis yn y ddalen 41 o'r preintiad cyntaf, lle y cymmerth y gair site yn lle sight, gan ei gyfieithu golwg yn lle cyflead. Nid yw y fath gamgymmeriad mewn rhai geiriau dieithriol achos i feio ar y cyfieithydd a gymerth boen mor llesol i'w wlâd yn y gorchwyl hwn, am nad oedd y pryd hynny hyfforddiadau i gyfieithu mor gyffredin ac ydynt yr awrhon. Y mae gennif barch iw enw ef am y llyfr hwn, ac yn gofus gennif er fy mebyd mor groesawus ydoedd i'r parth lle ganwyd fi. Ond y beiau mwyaf (tebyg cennifi), a ddigwyddasai oddiwrth anghyfarwyddyd y preintwyr Seisnig, y rhai yn gynnefinol a adawant amryw eiriau a liniau hefyd heb eu rhoi i mewn, onid edrychir attynt yn dra-manwl. O herwydd yr achosion rhagddywededig mi roddais gais ar gyffelybu y rhan fwyaf o'r llyfr Cymraeg a'r un Saesneg ynghyd, ac iw gwneuthur i gydgordio, gan roddi i mewn a thynu allan, a chyfnewid a symud pethau, fal yr oedd yr achos yn gofyn."

Y fath dynerwch a ddengys dynion da at rai yn amcanu gwneuthur daioni, er iddynt fethu llwyr gyrraedd yr amcan! Yn wyneb yr esgusawd a ddyry Charles Edwards am wallusrwydd cyfieithiad R. Fychan, sef nad oedd "hyfforddiadau i gyfieithu mor gyffredin ac ydynt yr awrhon," gofyn Gwilym Lleyn, "Ond pa hyfforddiadau yn fwy oedd yn y fl. 1675 nag yn y fl. 1620, pan gyfieithwyd y llyfr, neu yn 1630, pan argraphwyd ef gyntaf, neu yn 1656, pan ail argraphwyd ef?" Yr ydym yn synu braidd at y fath ofyniad gan awdur diwyd "Llyfryddiaeth y Cymry;" ond rhaid i ni ddywedyd nad yw'r gofyniad yn amlygu craffder neillduol. Pa wedd bynag, dengys ei waith gwerthfawr ef ei hun, sef y "Llyfryddiaeth," y gellir ei atteb yn ddibetrus yngeiriau yr apostol, "Llawer, ymhob rhyw fodd." Yn 1620, ar ol i R. Fychan gyfieithu "Yr Ymarfer," yn sicr, y cyhoeddwyd argraphiad diwygiedig y Dr. Parry a'r Dr. Davies o'r holl Fibl. Dyna un hyfforddiad ardderchog nad oedd gan Fychan pan yn cyfieithu. Yn 1621, cyhoeddodd y Dr. Davies ei Rammadeg Cymraeg yn Lladin, yr hwn sy'n rhagori mewn rhai pethau ar bob grammadeg Cymraeg a gyhoeddwyd ar ei ol. Yn yr un flwyddyn etto, y "Llyfr Gweddi Gyffredin" a'r "Catecism," o gyfieithiad y Dr. Davies; a'r Psalmau ar gân, o gyfieithiad godidog Edmund Prys. Yn 1628, cyhoeddwyd cyfieithiad gwych Robert Llwyd, Ficar y Waun, o bregeth Arthur Dent; ac yn 1630, cyhoeddwyd y "Llwybr Hyffordd," o gyfieithiad yr un Cymro medrus; a "Charwr y Cymro," gan yr un gŵr, yn 1631. Yn y flwyddyn nesaf, 1632, cyhoeddwyd Geiriadur Dyblyg, a "Llyfr y Resolusion," gan y Dr. Davies, am y rhai y dywed y Parch. D. Silvan Evans fel y canlyn:—

"Heb law Geiriadur Dyblyg y Dr. Davies, yr oedd cynllun y Doethor yn cyfieithu 'Llyfr y Resolusion,' yr hwn sydd mewn Cymraeg bur a llithrig odiaeth, i'w gael yn 1675, yr hyn nid ydoedd yn 1620 ac 1630. Er ymddangos o'r 'Resolusion' o fewn dwy flynedd ar ol yr 'Ymarfer,' gellir meddwl wrth iaith y ddau fod o leiaf gan mlynedd rhwng amserau eu cyfansoddiad. Nid yw 'Llyfr y Resolusion,' megis cyfansoddiad llenyddol, wedi cael hyd yn hyn y sylw y mae yn ei haeddu."‡

Heb law yr "hyfforddiadau," neu yr esamplau amhrisiadwy a nodwyd i gyfieithu, oedd gan Ch. Edwards, nad oeddynt gan R. Fychan, yn 1620, gellir chwanegu y rhai canlynol:—"Yr hen Lyfr Plygain a'r Gwir Gatecism," gan y Dr. Davies, 1633; "Llyfr y Tri Aderyn," gan Morgan Llwyd, 1653; "Gwaedd yng Nghymru," gan M. Llwyd,

* Traeth. Llenyddol y Dr. Edwards, t. 191–2.

† Cyfieithiad Rowland Fychan o Gaergai oedd hwn. Gwel llyfr iii. pen. xii.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 206, nod *.

Digitized by Google

1654; "Perl y Cymro," gan R. Llwyd, Ficar y Waun, 1655; a'r "Gair o'r Gair," gan Morgan Llwyd, 1656; heb law amryw lyfrau Cymraeg eraill, mwy dibwys, a gyhoeddwyd yn yr un yspaid. Chwilier dan y blynyddoedd a nodwyd yn "Llyfryddiaeth y Cymry," a cheir gweled ein bod yn gywir.

Ond etto, at lafur cariad Charles Edwards. Heb law yr ail argraphiad darluniadol prydferth o "Hanes y Ffydd" a gyhoeddwyd ganddo yn 1676, y cyfeiriwyd ato eisoes, yn yr un flwyddyn cyhoeddwyd dan ei olygiad y llyfr buddiol a elwid "Gair i Bechaduriaid, a Gair i Sainct," o gyfieithiad "W. Jones, Gweinidog yr Efengyl."*

Y mae un tudalen ar ei ddiwedd o waith "Diwygiwr y Preint-wasc at y darllcydd," gan "C. E." =Charles Edwards; ac yn nesaf, "Agoriad ar eiriau yn y llyfr hwn, nad ydyw rhai pobl yn eu deall, yn rhyw fannau o Ddeheudir Cymru, wedi eu hegluro trwy eiriau mwy cyffredin a sathredig, gan Mr. S. H."=Stephen Hughes. Yna ceir pedair o bennodau ar amryw bechodau. Gwelir bod gan dri Chymro, o "Enwogion y Ffydd," heb law y Sais enwog, T. Gouge, law yn nygiad y gwaith gwerthfawr yma trwy y wasg.

Y mae'n debyg mai Charles Edwards oedd "Diwygiwr y Preint-wasc" i'r rhan fwyaf o'r gwahanol lyfrau buddiol a gyhoeddid yn Llundain, y blynyddoedd hyn, dan nawdd T. Gouge a S. Hughes, am y rhai y ceir achlysur i grybwyll yn y bennod ganlynol; ond y gwaith nesaf y mae genym sicrrwydd y cyhoeddwyd ail argraphiad o hono dan ei olygiad, yn 1682, yw y llyfr a elwid "Llwybr hyfforddl yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd," yr hwn a elwir yn fyr, ar frig y dail, "Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd," yr hwn a gyfieithwyd gan Robert Llwyd, Ficar y Waun, ac a gyhoeddwyd y tro cyntaf yn 1630.† Y mae "C. E.," sef Charles Edwards, fel "Diwygiwr y Preint-wasc," wrth yr argraphiad yma.

Yn yr un flwyddyn etto, sef 1682, cyhoeddwyd llyfryn tlws o waith Charles Edwards ei hun, fel y bernir, a elwir "Gwyddorion Naturiol." Am hwn dywed C. Edwards yn niwedd ei argraphiad o'r "Llwybr Hyffordd" uchod—"Y mae'r awrhon Briflyfr Newydd wedi dyfod allan, yn cynnwys Gwyddorion Ysprydol a Naturiol, gyd ag ysbysrwydd o'r amser, a Ffeiriau Cymru, fel yr oedd yn y llyfr Plygain gynt, i'w dysgu i'r ieuaingc, ac i'w hystyried gan bawb." Y mae hefyd yn cynnwys "*Barddoniaeth* i Hanes y Ffydd. *A ddanfonodd Mr. Hugh Salisbury o Glog Caenog* (*tra yr oedd efe yn Ysgolhaig yn Rhydychen*) i'w printio gyda'r llyfr hwn."*

* Llyfr. y Cymry, t. 206. † Gwel llyfr iii., pen. vii.

Y llyfr diweddaf a gyhoeddwyd dan olygiad yr enwog Charles Edwards, hyd y gallwn ni ganfod, ond yr "Hyfforddiadau Tadol," ei ddiweddaf oll, oedd "Llyfr yr Resolusion," o waith y Dr. John Davies, o Fallwyd,† yr hwn a gyhoeddwyd y tro cyntaf gan yr awdur galluog ei hunan, yn 1632,‡ a'r waith hon gan C. Edwards, yn 1684.§

Y mae ar ddiwedd yr argraphiad hwn, eiddo C. Edwards, draethawd "Am orphwys ar Grist yn vnic am fywyd ac Iechydwriaeth," gan T. Gouge, fel parhâd o'r llyfr a elwid "Gair i Bechaduriaid," o waith yr un awdur, ac o gyfieithiad W. Jones.

Am yr argraphiad yma, dywed y Parch D. S. Evans—"Cynhwysa yr argraphiad rhagorol hwn o 'Lyfr y Resolusion' 394 o dudalenau 8plyg bychan, heb law 6 tudalen o bethau arweiniol. Ar ddiwedd y treuthawd 'Am Orphwys ar Grist,' ceir 5 tudalen o 'Agoriad ar ryw Eiriau dïeithr i rai yn Neheubarth,' er mwyn gwneuthur y gwaith yn hwylusach i ddarllenyddion pob parth o'r Dywysogaeth. Y mae'r argraphiad drwyddo yn un hynod o gywir. Buasai yn dda iawn cael argraphiad newydd o'r gwaith godidog hwn."‖

Byddai yn dda iawn, i'n tyb ni, cael argraphiad newydd, yn un gyfrol daclus, o'r holl lyfrau buddiol a Chymreigaidd y bu gan yr enwog Charles Edwards law yn eu cyhoeddiad, sef "Hanes y Ffydd," "Dadseiniad Meibion y Daran, ac Epistol yr Esgob Davies;" "Hyfforddiadau Cristionogol;" "Yr Ymarfer o Dduwioldeb;" "Gair i Bechaduriaid, a Gair i Sainct;" "Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd;" "Gwyddorion Naturiol;" a "Llyfr y Resolusion."¶

Gellid enwi y gyfrol fel hyn:—"Cyfansoddiadau Gwreiddiol a Mabwysiedig Charles Edwards." Tybir y byddai yn fuddiol rhoi enwad-ddalen i bob un o'r llyfrau, fel y delent i mewn i'r gyfrol, yn ol eu hamseriad. Dichon y byddai yn fuddiol, er mwyn y darllenydd cyffredin, ysgrifenu yr wyth llyfr mewn llythyraeth ddiweddar, unffurf, ond heb newid dim ar yr eiriadaeth, neu'r llafarwedd, na'r cynhwysiad, yn ol cynllun y Parch. D. Silvan

* Llyfr. y Cymry, t. 228. † Gwel llyfr iii., pen. vi.
‡ Gwel llyfr iii., t. 117. § Llyfr. y Cymry, t. 230.
‖ Yr un, t. 231.
¶ Dyma'r holl lyfrau, hyd y gallwn ni ganfod, heb law'r llyfr Saesneg (*Fatherly Instructions*), y mae genym sicrwydd iddynt gael eu cyhoeddi dan olygiad yr enwog Charles Edwards.

Digitized by Google

sionari Cymraeg bychan, sef Gair-lyfr cryno i'r Gwerin, yn dangos arwyddoccâd yr holl eiriau Cymreig, mal y dealler llyfrau yn hawsach, ac y deuer o hyd eilwaith i lawer o'r iaith a'r fydd ar goll. Yr hyn a fyddam ni ewyllyscarach i'w wneuthur pe gwyddem faint sydd ynddi o'r famiaith baradwysaidd, er mwyn hynodi hynny mewn rhan, mi a gesclais fagad o ymadroddion o'r Bibl Hebraeg a ellir eu deall yn Ghymru gyd ag ychydig hyfforddiad.

"C. E."

"Er mai Sais oedd Thomas Gouge," medd y Dr. Edwards, "ni wnaeth neb yn yr oes honno fwy o les i'r Cymry. Hyfryd i'n teimlad ni yw gweled cydweithrediad mor gyfeillgar rhyngddo ef ac awdur "Hanes y Ffydd." Nid rhinwedd fechan hefyd yn Charles Edwards oedd cadw ei gariad at ei genedl, a llafurio cymmaint drostynt, er ei fod yn byw y rhan fwyaf o'i oes ymhlith y Saeson. Y mae rhai yn debyg iddo yn ein dyddiau ninnau; a gobeithiwn y bydd i'w nifer fyned ar gynydd."*

Yn yr un flwyddyn etto, 1675, cyhoeddwyd gan T. Gouge a Stephen Hughes,—

"Yr Ymarfer o Dduwioldeb yn Cyfarwyddo dŷn i rodio fal y rhyngo ef fodd Duw. Y trydydd preintiad."†

"Diwygiwr y preintwasc" oedd Charles Edwards, yr hwn, ar ddiwedd y llyfr, yn ei "At y darlleydd," a ddywed fel hyn:—

"Pan i'm galwyd i ddiwygio'r preintiad yma o'r llyfr hwn, mi dybiais nad oedd raid imi ond edrych ar iddo gyfatteb yn gywyr i'r llyfrau o'r blaen. Ac felly y dechreuais wneuthur, nes imi wrth fyned ymlaen i holi'r copi, ddal sylw fod yn angenrheidiol gyfnewid ynddo lawer o bethau; gan fod y darlleniad a'r ystyr yn dywyll, ac yn anghysson mewn llawer o fannau, ac heb gyrhaeddyd ergyd yr awdwr yn y dafodiaith arall: Ac i'r cyfieithydd gamgymmeryd bagad o eiriau Lladingaidd a Groegaidd yn y llyfr Saesonaec, ysydd anhawdd eu dirnad, ac allent fagu amryfussedd; megis yn y ddalen 41 o'r preintiad cyntaf, lle y cymmerth y gair site yn lle sight, gan ei gyfieithu golwg yn lle cyflead. Nid yw y fath gamgymmeriad mewn rhai geiriau dieithriol achos i feio ar y cyfieithydd a gymerth boen mor llesol i'w wlâd yn y gorchwyl hwn, am nad oedd y pryd hynny hyfforddiadau i gyfieithu mor gyffredin ac ydynt yr awrhon. Y mae gennif barch iw enw ef am y llyfr hwn, ac yn gofus gennif er fy mebyd mor groesawus ydoedd i'r parth lle ganwyd fi. Ond y beiau mwyaf (tebyg cennifi), a ddigwyddasai oddiwrth anghyfarwyddyd y preintwyr Seisnig, y rhai yn gynnefinol a adawant amryw eiriau a liniau hefyd heb eu rhoi i mewn, onid edrychir attynt yn dra-manwl. O herwydd yr achosion rhagddywededig mi roddais gais ar gyffelybu y rhan fwyaf o'r llyfr Cymraeg a'r un Saesneg ynghyd, ac iw gwneuthur i gydgordio, gan roddi i mewn a thynu allan, a chyfnewid a symud pethau, fal yr oedd yr achos yn gofyn."

Y fath dynerwch a ddengys dynion da at rai yn amcanu gwneuthur daioni, er iddynt fethu llwyr gyrraedd yr amcan! Yn wyneb yr esgusawd a ddyry Charles Edwards am wallusrwydd cyfieithiad R. Fychan, sef nad oedd "hyfforddiadau i gyfieithu mor gyffredin ac ydynt yr awrhon," gofyn Gwilym Lleyn, "Ond pa hyfforddiadau yn fwy oedd yn y fl. 1675 nag yn y fl. 1620, pan gyfieithwyd y llyfr, neu yn 1630, pan argraphwyd ef gyntaf, neu yn 1656, pan ail argraphwyd ef?" Yr ydym yn synu braidd at y fath ofyniad gan awdur diwyd "Llyfryddiaeth y Cymry;" ond rhaid i ni ddywedyd nad yw'r gofyniad yn amlygu craffder neillduol. Pa wedd bynag, dengys ei waith gwerthfawr ef ei hun, sef y "Llyfryddiaeth," y gellir ei atteb yn ddibetrus yngeiriau yr apostol, "Llawer, ymhob rhyw fodd." Yn 1620, ar ol i R. Fychan gyfieithu "Yr Ymarfer," yn sicr, y cyhoeddwyd argraphiad diwygiedig y Dr. Parry a'r Dr. Davies o'r holl Fibl. Dyna un hyfforddiad ardderchog nad oedd gan Fychan pan yn cyfieithu. Yn 1621, cyhoeddodd y Dr. Davies ei Rammadeg Cymraeg yn Lladin, yr hwn sy'n rhagori mewn rhai pethau ar bob grammadeg Cymraeg a gyhoeddwyd ar ei ol. Yn yr un flwyddyn etto, y "Llyfr Gweddi Gyffredin" a'r "Catecism," o gyfieithiad y Dr. Davies; a'r Psalmau ar gân, o gyfieithiad godidog Edmund Prys. Yn 1628, cyhoeddwyd cyfieithiad gwych Robert Llwyd, Ficar y Waun, o bregeth Arthur Dent; ac yn 1630, cyhoeddwyd y "Llwybr Hyffordd," o gyfieithiad yr un Cymro medrus; a "Charwr y Cymro," gan yr un gŵr, yn 1631. Yn y flwyddyn nesaf, 1632, cyhoeddwyd Geiriadur Dyblyg, a "Llyfr y Resolusion," gan y Dr. Davies, am y rhai y dywed y Parch. D. Silvan Evans fel y canlyn:—

"Heb law Geiriadur Dyblyg y Dr. Davies, yr oedd cynllun y Doethor yn cyfieithu 'Llyfr y Resolusion,' yr hwn sydd mewn Cymraeg bur a llithrig odiaeth, i'w gael yn 1675, yr hyn nid ydoedd yn 1620 ac 1630. Er ymddangos o'r 'Resolusion' o fewn dwy flynedd ar ol yr 'Ymarfer,' gellir meddwl wrth iaith y ddau fod o leiaf gan mlynedd rhwng amserau eu cyfansoddiad. Nid yw 'Llyfr y Resolusion,' megis cyfansoddiad llenyddol, wedi cael hyd yn hyn y sylw y mae yn ei haeddu."‡

Heb law yr "hyfforddiadau," neu yr esamplau amhrisiadwy a nodwyd i gyfieithu, oedd gan Ch. Edwards, nad oeddynt gan R. Fychan, yn 1620, gellir chwanegu y rhai canlynol:—"Yr hen Lyfr Plygain a'r Gwir Gatecism," gan y Dr. Davies, 1633; "Llyfr y Tri Aderyn," gan Morgan Llwyd, 1653; "Gwaedd yng Nghymru," gan M. Llwyd,

* Traeth. Llenyddol y Dr. Edwards, t. 191–2.

† Cyfieithiad Rowland Fychan o Gaergai oedd hwn. Gwel llyfr iii. pen. xii.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 206, nod *.

Digitized by Google

1654; "Perl y Cymro," gan R. Llwyd, Ficar y Waun, 1655; a'r "Gair o'r Gair," gan Morgan Llwyd, 1656; heb law amryw lyfrau Cymraeg eraill, mwy dibwys, a gyhoeddwyd yn yr un yspaid. Chwilier dan y blynyddoedd a nodwyd yn "Llyfryddiaeth y Cymry," a cheir gweled ein bod yn gywir.

Ond etto, at lafur cariad Charles Edwards. Heb law yr ail argraphiad darluniadol prydferth o "Hanes y Ffydd" a gyhoeddwyd ganddo yn 1676, y cyfeiriwyd ato eisoes, yn yr un flwyddyn cyhoeddwyd dan ei olygiad y llyfr buddiol a elwid "Gair i Bechaduriaid, a Gair i Sainct," o gyfieithiad "W. Jones, Gweinidog yr Efengyl."*

Y mae un tudalen ar ei ddiwedd o waith "Diwygiwr y Preint-wasc at y darlleydd," gan "C. E." = Charles Edwards; ac yn nesaf, "Agoriad ar eiriau yn y llyfr hwn, nad ydyw rhai pobl yn eu deall, yn rhyw fannau o Ddeheudir Cymru, wedi eu hegluro trwy eiriau mwy cyffredin a sathredig, gan Mr. S. H." = Stephen Hughes. Yna ceir pedair o bennodau ar amryw bechodau. Gwelir bod gan dri Chymro, o "Enwogion y Ffydd," heb law y Sais enwog, T. Gouge, law yn nygiad y gwaith gwerthfawr yma trwy y wasg.

Y mae'n debyg mai Charles Edwards oedd "Diwygiwr y Preint-wasc" i'r rhan fwyaf o'r gwahanol lyfrau buddiol a gyhoeddid yn Llundain, y blynyddoedd hyn, dan nawdd T. Gouge a S. Hughes, am y rhai y ceir achlysur i grybwyll yn y bennod ganlynol; ond y gwaith nesaf y mae genym sicrrwydd y cyhoeddwyd ail argraphiad o hono dan ei olygiad, yn 1682, yw y llyfr a elwid "Llwybr hyfforedd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd," yr hwn a elwir yn fyr, ar frig y dail, "Llwybr Hyfforedd i'r Nefoedd," yr hwn a gyfieithwyd gan Robert Llwyd, Ficar y Waun, ac a gyhoeddwyd y tro cyntaf yn 1630.† Y mae "C. E.," sef Charles Edwards, fel "Diwygiwr y Preint-wasc," wrth yr argraphiad yma.

Yn yr un flwyddyn etto, sef 1682, cyhoeddwyd llyfryn tlws o waith Charles Edwards ei hun, fel y bernir, a elwir "Gwyddorion Naturiol." Am hwn dywed C. Edwards yn niwedd ei argraphiad o'r "Llwybr Hyfforedd" uchod—"Y mae'r awrhon Briflyfr Newydd wedi dyfod allan, yn cynnwys Gwyddorion Ysprydol a Naturiol, gyd ag ysbysrwydd o'r amser, a Ffeiriau Cymru, fel yr oedd yn y llyfr Plygain gynt, i'w dysgu i'r ieuaingc, ac i'w hystyried gan bawb." Y mae hefyd yn cynnwys "*Barddoniaeth* i Hanes y Ffydd. *A ddanfonodd Mr. Hugh Salisbury o Glog Caenog (tra yr oedd efe yn Ysgolhaig yn Rhydychen)* i'w printio gyda'r llyfr hwn."*

* Llyfr. y Cymry, t. 206. † Gwel llyfr. iii., pen. vii.

Y llyfr diweddaf a gyhoeddwyd dan olygiad yr enwog Charles Edwards, hyd y gallwn ni ganfod, ond yr "Hyfforddiadau Tadol," ei ddiweddaf oll, oedd "Llyfr yr Resolusion," o waith y Dr. John Davies, o Fallwyd,† yr hwn a gyhoeddwyd y tro cyntaf gan yr awdur galluog ei hunan, yn 1632,‡ a'r waith hon gan C. Edwards, yn 1684.§

Y mae ar ddiwedd yr argraphiad hwn, eiddo C. Edwards, draethawd "Am orphwys ar Grist yn vnic am fywyd ac Iechydwriaeth," gan T. Gouge, fel parhâd o'r llyfr a elwid "Gair i Bechaduriaid," o waith yr un awdur, ac o gyfieithiad W. Jones.

Am yr argraphiad yma, dywed y Parch D. S. Evans—"Cynhwysa yr argraphiad rhagorol hwn o 'Lyfr y Resolusion' 394 o dudalenau 8plyg bychan, heb law 6 tudalen o bethau arweiniol. Ar ddiwedd y treuthawd 'Am Orphwys ar Grist,' ceir 5 tudalen o 'Agoriad ar ryw Eiriau dïeithr i rai yn Neheubarth,' er mwyn gwneuthur y gwaith yn hwylusach i ddarllenyddion pob parth o'r Dywysogaeth. Y mae'r argraphiad drwyddo yn un hynod o gywir. Buasai yn dda iawn cael argraphiad newydd o'r gwaith godidog hwn."‖

Byddai yn dda iawn, i'n tyb ni, cael argraphiad newydd, yn un gyfrol daclus, o'r holl lyfrau buddiol a Chymreigaidd y bu gan yr enwog Charles Edwards law yn eu cyhoeddiad, sef "Hanes y Ffydd," "Dadseiniad Meibion y Daran, ac Epistol yr Esgob Davies;" "Hyfforddiadau Cristionogol;" "Yr Ymarfer o Dduwioldeb;" "Gair i Bechaduriaid, a Gair i Sainct;" "Llwybr Hyfforedd i'r Nefoedd;" "Gwyddorion Naturiol;" a "Llyfr y Resolusion."¶

Gellid enwi y gyfrol fel hyn:—"Cyfansoddiadau Gwreiddiol a Mabwysiedig Charles Edwards." Tybir y byddai yn fuddiol rhoi enwad-ddalen i bob un o'r llyfrau, fel y delent i mewn i'r gyfrol, yn ol eu hamseriad. Dichon y byddai yn fuddiol, er mwyn y darllenydd cyffredin, ysgrifenu yr wyth llyfr mewn llythyraeth ddiweddar, unffurf, ond heb newid dim ar yr eiriadaeth, neu'r llafarwedd, na'r cynhwysiad, yn ol cynllun y Parch. D. Silvan

* Llyfr. y Cymry, t. 228. † Gwel llyfr iii., pen. vi.
‡ Gwel llyfr iii., t. 117. § Llyfr. y Cymry, t. 230.
‖ Yr un, t. 231.
¶ Dyma'r holl lyfrau, hyd y gallwn ni ganfod, heb law'r llyfr Saesneg (*Fatherly Instructions*), y mae genym sicrwydd iddynt gael eu cyhoeddi dan olygiad yr enwog Charles Edwards.

Digitized by Google

Evans o'i argraphiadau o'r "Bardd Cwsg" a "Gwirionedd y Grefydd Gristionogol." Byddai y fath gyfrol yn un o'r cyfansoddiadau dynol gwerthfawrocaf yn yr iaith Gymraeg, o ran cynhwysiad ac ieithwedd, heb law y byddai yn gofgolofn odidog am un o brif "Enwogion y Ffydd." Pa le y mae'r gwladgarwr a ymafl yn y gorchwyl gogoneddus? Gresyn na byddai rai o'n boneddigion cyfoethog o'r un anian dduwiol a gwladgar a'u hynafiaid gwiwglodus, yr hen Nicolasiaid, Salesbriaid, Cyffiniaid, Morganiaid, Midltoniaid, Prysiaid, Fychaniaid, Wynniaid, a'r cyffelyb; y rhai, er eu tragywyddol glod, a fuant foddion i gyfoethogi duwinyddiaeth a llenoriaeth eu genedigol wlad.

---

## PENNOD XIV.

### THOMAS GOUGE A STEPHEN HUGHES.

Yr ydym yn cyssylltu y ddau ŵr tra enwog hyn â'u gilydd yn yr un bennod, am iddynt gydlafurio mwy nag odid neb yn eu hoes at oleuo a chrefyddoli cenedl y Cymry; ac nid oedd ond o ddeutu 17 flynedd rhwng eu hoedran. "Yr oedd y naill yn gynnorthwyol neillduol i'r llall: un [Gouge=Gwdz] ymhlith y Saeson yn hel cynnorthwyon i ddwyn y gwaith ym mlaen, a'r llall [Hughes=Huws] ymhlith y Cymry yn llafurio i'r un perwyl, ac yn medru rhoddi y cynnorthwyon angenrheidiol i'w gydwladwyr i ddysgu eu hiaith."*

Thomas Gouge, M.A., oedd fab yr enwog Dr. William Gouge, periglor Blackfriars, Llundain. Ganwyd ef yn Bow, yn agos i Stradford, yn Middlesex, ar y 19ydd o Fedi, 1605. Sais trwyadl, o dad a mam, hyd y gwyddom ni, oedd Thomas Gouge; ond bu mor haelionus ac ymdrechgar i hyfforddi ein cenedl ni yn y pethau a berthynant i'w heddwch a'u hiachawdwriaeth, cystal ag i'w cysur tymhorol, fel y bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig byth ynghof pob Cymro gwladgarol a ddarlleno ei hanes. Cafodd ei addysg foreuol yn Ysgol Eton, ac wedi hyny yng Ngholeg y Brenin, Caergrawnt, i'r hwn yr aeth yn y flwyddyn 1626, lle y cafodd ei raddio, ac y daeth yn gymrawd y coleg. Wedi hyny newidiodd ei gymrodoriaeth am fywioliaeth Colsden, ger llaw Croyden, yn Surrey, lle y bu am ddwy neu dair blynedd; ac yna, yn 1638, symmudodd i St. Sepulchre, yn Llundain. Bu yn llafurio yn egnïol, ffyddlon, a haelionus yn y plwyf ehang a phoblogaidd yma dros bedair blynedd ar hugain. Heb law ei fod yn dyfal bregethu, yr oedd yn dra diwyd yn ei ymweliadau â'r cleifion a'r tlodion; ac yr oedd ei gyfraniadau at eu hanghenion tymhorol yn gyfartal i'w gynghorion a'i gyfarwyddiadau ysprydol iddynt. Arferai gatecisio bob borau trwy'r flwyddyn yn yr eglwys, yn benaf y rhai tlotaf, y rhai yn gyffredin oedd fwyaf anwybodus, ac yn enwedig yr hen a'r methedig, y rhai a feddent fwyaf o amser. Er mwyn eu hannog i ddyfod ato i dderbyn ei addysg, cyfranai arian iddynt unwaith yn yr wythnos; ond newidiai y diwrnod i gyfranu, er mwyn eu denu i ddyfod yn wastad i wrando ei addysgiadau. Am y tlodion a allent weithio i ynnill eu bywioliaeth, prynai lin a chywarch i'r rhai hyny i'w nyddu; talai iddynt yn haelionus am eu gwaith, a gwerthai yr edafedd ymhlith ei gyfeillion fel y gallai. Bu yn foddion i achub llawer o'i blwyfolion rhag segurdod, tlodi, a llygredigaeth bywyd. Pe dilynai athrawon cyfoethog, a boneddigion tiriog ein gwlad esampl yr haelionus a'r duwiol Thomas Gouge, yn lle gwario eu harian ar wychderau afreidiol a gwastraffus eu gwisgoedd a'u temlau; ar redegfeydd andwyol meirch a chŵn; ac ar hapchwareuon halogedig a dinystriol, fe fyddai golwg tra gwahanol yn fuan ar foesau, dysg, a chartrefi eu cydgenedl. Pan ddaeth deddf Babaidd annuwiol yr Unffurfiad i rym yn 1662, rhoddes ei fywioliaeth i fynu, gan sylwi yn hynaws a bonedigaidd, "Nid oes angen am danaf fi mwyach yn Llundain, lle y mae cynnifer o weinidogion teilwng, a gallaf finnau wneud daioni mewn dull arall heb roddi tramgwydd i neb."†

Nid yw hyspys pa bryd, na thrwy ba foddion, yr arweiniwyd Thomas Gouge i droi ei sylw haelionus ac egnïol at Gymru. Gan fod Stephen Hughes a Charles Edwards yn fynych yn Llundain o gylch y pryd hyn, mewn cyssylltiad â'r llyfrau a ddygid ganddynt trwy'r wasg, tybia y Dr. T. Rees na byddai dim yn fwy naturiol na meddwl iddo ddyfod i gyssylltiad â hwy, a bod y darluniad a roddent hwy o sefyllfa amddifaid eu cydwladwyr wedi ei arwain i ddewis y Dywysogaeth fel prif safle ei ddefnyddioldeb dyfodol. Y mae'r un mor debyg hefyd iddo ddyfod i gyfarfyddiad â Walter Cradoc a Vavasor Powel yn Llundain, ychydig cyn amser S. Hughes a Ch. Edwards, a'u bod hwythau wedi mynegi iddo am-

* Trysorfa, 1813, t. 50.

† Trysorfa, 1813, t. 50, 51; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 224, 225; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 584.

Digitized by Google

ddifadrwydd eu gwlad o foddion gwybodaeth Gristionogol. Ar ol iddo roddi ei fywioliaeth yn Llundain i fynu, fel y crybwyllwyd, dywed Mr. Charles iddo gael "trwydded gan rai o'r esgobion i bregethu yng Nghymru;" ond ysgrifenydd arall a ddywed, fel y ceir gweled rhag llaw, mai "gan hen drwydded Prifysgol yr awdurdodwyd ef i bregethu yn achlysurol." "Yn ei deithiau blynyddol i Gymru," medd Charles, "canfu yn fuan fod anwybodaeth y trigolion yn ddirfawr, a bod angen neillduol i lafurio i roddi moddion gwybodaeth yn eu plith. Yr oedd yn teithiaw i Gymru pan oedd rhwng 60 a 70 oed, ac yn rhanu llawer o arian ymhlith y trigolion; ond ei ddiben penaf oedd eu haddysgu i ddarllen ac ysgrifenu, ac i ddeall prif byngciau Cristionowgrwydd. Gosododd i fynu rhwng 3 a 400 o ysgolion yn y trefydd; a byddai yn talu ei hun dros lawer o gannoedd o blant tlodion." Dyry y Dr. Tillotson (Archesgob Caergaint wedi hyny) yr hanes ganlynol i ni, yn ei bregeth angladdol i T. Gouge, am ei lafur haelionus yng Nghymru, ac o'i phlaid:—

"Cyfyngodd ei elusenau dros y naw a'r deng mlynedd diweddaf bron yn hollol at Gymru, o blegid mai yno y barnai bod mwyaf o achos am danynt; ac o herwydd ei fod yn waith pur fawr, gwariodd nid yn unig yr hyn oll a allai hebgor o'i etifeddiaeth ei hun arno, ond hefyd treuliodd ei holl amser a'i egni i gynhyrfu elusengarwch eraill er ei gynnorthwyo. Ac yr oedd ganddo ddau amcan godidog yn hynyma: un oedd dwyn plant tlodion i ddysgu darllen ac ysgrifenu, ac i gael eu hyfforddi yn ofalus yn egwyddorion crefydd; a'r llall oedd, cynnysgaeddu pobl mewn oed, yn enwedig y tlodion, â manteision a moddion anhebgorol gwybodaeth, megis y Bibl, a llyfrau duwiol a defnyddiol eraill, yn eu hiaith eu hunain: er mwyn hyn, cyhoeddodd 'Gatecism yr Eglwys,' 'Yr Ymarfer o Dduwioldeb,' a'r llyfr gorau o honynt oll, sef 'Holl Ddyledswydd Dŷn,' heb law amryw o draethodau duwiol a defnyddiol eraill, rhai o'r sawl a gyfieithwyd i'r Gymraeg; ac yr oedd nifer mawr o honynt oll i gael eu hargraphu a'u hanfon i brif drefydd Cymru, i'w gwerthu am bris isel i'r sawl a fedrent eu prynu, ac i'w rhoddi am ddim i'r rhai nas gallent. A thrwy fendith Duw ar ei ymdrechion diflino, cafodd lwyddiant mawr iawn yn ei amcanion daionus. Canys trwy'r cyfraniadau mawrion a haelionus, y rhai a gafodd trwy ei ymdrech diwyd a doeth gan wŷr elusengar o bob gradd a sefyllfa, gan bendefigion a boneddigion Cymru a'r siroedd cyfagos, ac amryw o'r cyfryw radd yn Llundain a'r amgylchoedd, gan lawer o'r Gwir Barchedig Esgobion, ac o'r ffynhonell barhaus honno o elusengarwch, Dinas Llundain, yn cael eu cefnogi gan esampl fwyaf haelionus y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer, a Llys yr Henaduriaid; at yr hyn oll yr ychwanegai yntau yn wastadol ddwy ran o dair o'i etifeddiaeth ei hun, yr hon, fel yr hyspyswyd fi trwy dystiolaeth gredadwy, oedd yn 200p. y flwyddyn. Trwy hyn oll ynghyd, meddaf, yr oedd wyth gant, ac weithiau fil bob blwyddyn, o blant tlodion yn cael eu haddysgu, fel y dwedais o'r blaen; a thrwy yr esampl hon, yr oedd amryw o'r trefydd mwyaf yng Nghymru yn cael eu cynhyrfu i ddwyn nifer cyffelyb o blant tlodion i fynu, ar eu cost eu hunain, yn yr un dull, ac o dan ei olygiad a'i ofal ef. Yr oedd hefyd yn rhoddi nifer mawr iawn o'r llyfrau rhag-grybwylledig, yn Gymraeg a Saesneg, i gynnifer ag nas gallent eu prynu, ac a fyddent ewyllysgar i'w darllen. Ond ei waith mwyaf oll, yr hwn a gostiodd iddo swm dirfawr o arian, oedd cael argraphiad newydd a phur hardd o'r Bibl a Ffurfwasanaeth Eglwys Loegr yn Gymraeg (gan fod yr argraphiad blaenorol wedi myned mor llwyr, fel mai prin y gellid cael ugain copi o hono yn holl Lundain) hyd wyth mil o nifer; un mil o ba rai a roddodd am ddim i'r tlodion, ac anfonodd y gweddill i'r prif ddinasoedd a threfydd yng Nghymru, i'w gwerthu i'r cyfoethogion am bris pur resymol ac isel, sef pedwar swllt yr un, wedi ei rwymo a'i fyclu yn dda, yr hyn oedd lawer rhatach nag y gwerthwyd unrhyw Fibl Saesneg erioed, wedi ei argraphu ar bapur mor wych; gwaith o'r fath gost, fel nad oedd debyg y gwnelsid ef mewn un ffordd arall, ac am yr hwn y bydd gan yr oes yma, a'r nesaf hefyd ond odid, achos mawr i ddïolch i Dduw ar ei ran.

"Yn y gweithredoedd daionus hyn yr oedd efe yn treulio ei holl amser, a'i ofal, a'i bryder; ac yr oedd ei galon ynddynt, fel nad oedd dim arall yn effeithio braidd ddim arno; ac anfynych y meddyliai nac y gofalai efe am ddim o ddigwyddiadau dyrys yr oes flinderus a brysiog hon, y fath fel y tybiaf mai prin y ceir eu cyffelyb mewn unrhyw oes arall. Neu od oedd efe yn pryderu yn eu cylch, prin y llefarai efe byth am dantynt. Canys hyn oedd y gorchwyl a osododd efe at ei galon; a chan y gwyddai ei fod yn fawr ac yn ol ewyllys ei Dad Nefol, yr oedd ei wneuthur yn fwyd ac yn ddïoed iddo; ac yr oedd y llwyddiant godidog a gaffai efe ynddo yn wledd barhaus iddo, ac yn rhoddi sirioldeb gwastadol i'w feddwl ac i'w wyneb. Yr oedd ei gariad a'i zel dros y gwaith yma yn gwneud i bob poen ac anhawsderau oedd ynglŷn âg ef ymddangos iddo ef yn ddim. Cyfodai efe yn forau ac eisteddai i fynu yn hwyr; a pharhâi yr un dyfalwch a diwydrwydd hyd y diwedd, er ei fod yn yr eilfed flwyddyn ar bymtheg a thriugain o'i oedran. Ac fel y gallai efe drefnu dosparthiad yr elusengarwch mawr hwn â'i ddwylaw ei hun, teithiai unwaith yn wastad, ac weithiau ddwywaith yn y flwyddyn, ar ei draul ei hun, dros ranau helaeth o Gymru, heb fod y siroedd gorau i deithio ynddynt. Ond o gariad at Dduw a dynion, goddefai efe hyny oll, ynghyd âg eithafoedd gwres ac oerni (y rhai yn eu gwahanol dymhorau sydd fawrion iawn yno), nid yn unig gyd âg amynedd, ond hefyd gyd â hyfrydwch; fel, ac ystyried pob peth, na bu llawer ym mysg meibion dynion er amseroedd cyntefig Cristionogaeth, y gellir cymhwyso cymmeriad gogoneddus Mab Duw atynt yn fwy priodol, yr hwn a rodiai o amgylch gan wneuthur daioni; a theilwng y gall Cymru ymffrostio o'r gŵr gwir apostolaidd hwn megis eu Dewi Sant enwog, yr hwn y mae'n bur debyg oedd ŵr da, ac ystyried amseroedd yr anwybodaeth ac eulun-addoliaeth hyny.

"Un peth arall a chwanegaf o berthynas i'n brawd ymadawedig: er nad oedd efe yn ymyryd dim â'n poethder a'n gwahaniaeth presennol ni fel plaid, gan fod ganddo bethau lawer gwell i feddwl am danynt; etto fel syllwr yr oedd efe yn galaru yn bur ddwys o'u plegid, a pharhaodd dros amryw o flynyddau olaf ei oes ynghymmundeb ein heglwys; ac, fel y dywedodd wrthyf ei hun, ystyriai ei hun yn rhwym o gydwybod i wneuthur felly. Bu farw yn yr 77fed flwyddyn o'i oedran, ar y 29fed o Hydref, 1681. Gwelodd Duw yn dda i'w farwolaeth fod yn bur ddisymmwth, ac mor ddisymmwth fel, yn ol pob tebygolrwydd, mai prin y deallodd ei hun pan y digwyddodd, canys bu farw yn ei gwsg; fel y gellir dywedyd am dano ef, megis y dywedwyd am Dafydd, Wedi iddo wasanaethu ei genhedlaeth ei hun yn ol ewyllys Duw, efe a hunodd."

Y mae'r Dr. Tillotson, fel y sylwa'r Dr. T. Rees

yn bur briodol, yn gofalus gelu Anghydffurfiaeth T. Gouge cyn belled fyth ag y gallo, ac yn cymmeryd mantais o'i gymmedroldeb eithafol i'w ddarlunio megis pe buasai *bron* yn Eglwyswr. Gall rhai heb fod yn gydnabyddus â gwir hanes yr amgylchiad gael eu harwain, wrth ddarllen y bregeth angladdol, i feddwl mai Eglwyswyr oedd prif gynnorthwywyr y cynlluniau elusenol er budd Cymru; ond nid felly yr ydoedd. Yr oedd ei gymmedroldeb a'i gydsyniad ef â rhagfarnau yr Eglwyswyr, trwy argraphu Catecism yr Eglwys, ac argraphiad o'r Ffurfwasanaeth, gyd â Bibl Cymraeg 1677, yn sicrhau cydweithrediad rhai Eglwyswyr rhyddfrydig yn Llundain ac o'i hamgylch; ond nid oes brawf i fwy na dau neu dri o'r blaid honno yng Nghymru roi un math o gynhorthwy iddo, ond erlidiodd llawer o honynt ef, fel y ceir gweled, gyd â chreulondeb barbaraidd.

Ymddengys i bregeth angladdol y Dr. Tillotson i T. Gouge, er mor unochrog yw ei ddarluniad o Anghydffurfiaeth y gŵr da, roddi cryn dramgwydd i wir feibion yr Eglwys yng Nghymru. Mewn argraphiad o Hanes Cymru gan y Dr. Dafydd Powel, a gyhoeddwyd gan "W. Wynne, *A.M.*," gyd âg ychwanegiadau, yn 1697, ceir y sylw canlynol arni:—"Ac yma wrth fyned heibio, nis gallaf lai na sylwi ar yr hyn a awgrymwyd yn ddiweddar gan ysgrifenydd dysgedig, o berthynas i'r Grefydd Gristionogol a blanwyd yng Nghymru. Canys yn ei bregeth angladdol ar Mr. Gouge, mynnai y gŵr dysgedig hwnw ddarbwyllo'r byd i gredu bod Cristionogaeth yn dra llygredig ac amherffaith yng Nghymru cyn iddi gael ei phuro gan yr hwn a eilw efe yn 'ŵr apostolaidd.' Pan mewn gwirionedd y mae'n nodedig amlwg er yr amser y sefydlwyd y Diwygiad yn y wlad honno, ac y cyfieithwyd y Bibl, ynghyd â'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r iaith Gymraeg, nad oes un lle wedi bod yn fwy manwl at gaeth gyfeireb* a chyfansoddiad Eglwys Loegr, o ran sylwedd a ffurf yr addoliad. Ond yr hyn a ellir ei briodoli yn fwyaf gwirioneddol i Mr. Gouge ydyw, er pan deithiodd efe i Gymru, ac y lledaenodd ei athrawiaeth ymhlith rhai anwybodus y wlad honno, bod Presbyteriaeth, yr hon prin y gwreiddiasai yno o'r blaen, wedi cynhyddu yn feunyddiol yno, a thyfu yn ben."† Yn atteb i'r cyhuddiad rhyfedd yma o'r eiddo Wynn, sylwa'r Dr. Calamy yn bur briodol —"Os effaith cynnydd gwybodaeth yw tyfiant Anghydffurfiaeth yng Nghymru, nis gallwn ni warafun hyny. Bydd y rhai y goleuwyd ac y cynhyrfwyd eu cydwybodau gan Air Duw, yn dueddol bob amser i roi mwy o barch i wirioneddau a gosodiadau dwyfol nag i'r fath ffurfiau a defodau nad ydynt ddim amgen na dynol; a byddant o duedd naturiol i ammau y pethau sydd ddiffygiol o argraph gyssegredig awdurdod ddwyfol. Ac os tybia y boneddwr yma mai y cynllun gorau i ragflaenu hyn yw cadw y bobl yn yr un sefyllfa o anwybodaeth ag oeddynt yn ystod y *cyfnod* y traetha ei hanes arno, y mae'r Pabyddion ganddo o'i blaid, ond hyderaf na chaiff neb sy'n deall egwyddorion Protestaniaeth."

Dechreuodd llafur haelionus Thos. Gouge yng Nghymru o gylch y flwyddyn 1670; ond ymddengys nad oedd ei gynlluniau wedi ymffurfio yn drefniant rheolaidd hyd 1674. Y mae hanes gwaith y flwyddyn honno wedi ei chadw, yr hon sydd fel hyn:—

"Hanes yr hyn a wnaed yng Nghymru y flwyddyn ddiweddaf, o Ganol Haf 1674, hyd Wyl Fair, 1675, yn gyfattebol i'r ymddiried dywededig uchod, ar annogaeth amryw wŷr teilwng gyd â golwg ar yr amcan duwiol ac elusenol yma.

"1. Gosodwyd 812 o blant tlodion mewn ysgolion i ddysgu Saesneg, mewn 51 o drefydd penaf Cymru, heb law dros 500 a roddwyd mewn ysgolion y flwyddyn o'r blaen, trwy haelioni eraill, cyn i'r ymddiried yma ddechrau.

"2. Prynwyd a rhanwyd 32 o Fiblau Cymraeg, mewn amryw deuluoedd, sef y cwbl a ellid eu cael o gopïau yng Nghymru a Llundain.

"3. Rhoddwyd 240 o Destamentau Cymraeg i bobl dlodion a allent ddarllen Cymraeg.

"4. Dosparthwyd 500 yn yr un modd o'r llyfr a elwir 'Holl Ddyledswydd Dŷn,' yn Gymraeg.

"Y mae'r ymdrech duwiol a haelionus yma wedi bod yn foddion eisoes i gynhyrfu amryw o wŷr gorau'r Cymry i roi dros 500 o'r plant Cymreig tlotaf mewn ysgolion ar eu traul eu hunain. Felly y mae o gylch 1,850 oll wedi eu dodi mewn ysgolion yn barod i ddysgu a darllen Saesneg. Tystiwyd genym ni,

| | |
|---|---|
| "John Tillotson, | Benjamin Whitchcot |
| "Simon Ford, | Richard Baxter, |
| "Edward Stillingfleet, | Thomas Gouge, |
| "Matthew Poole, | William Bates, |
| "John Meriton, | Thomas Firmin, &c."‡ |

Parhaodd y trefniant yma mewn gweithrediad cyhyd ag y bu Thomas Gouge byw, ond bu farw gyd âg ef, neu yn fuan ar ei ol. Y camsyniad mawr ydoedd, rhoi y plant mewn ysgol i ddysgu *Saesneg*. Yr oedd hyny yn gwneud yr ysgolion yn gymharol ddiles i blant y bobl dlodion. Defnyddiai Stephen Hughes iaith gref yn ei ragymadrodd i "Ganwyll y Cymru," yn 1672, yn erbyn sefydlu ysgolion Seisnig yn yr oes honno i dlodion Cymru. Yn y ganrif ganlynol, deallodd Gruff-

* Rubric. † Wynne's Hist. Wales, 1697, p. 328.

‡ Undodiad, o ran syniadau, oedd Firmin, Howard yr oes honno.

ydd Jones, Llanddowror, archwaeth ac anghenion ei gydwladwyr yn well na'r haelfrydwyr Seisnig daionus, ac o ganlyniad sefydlodd ef ysgolion elusenol *Cymreig*, y rhai a fuant o anhraethol les i'r dosparthiadau canol a gweithgar. Pe cymmerasai yr enwog T. Gouge yr un cynllun, buasai ei elusenau haelionus yn gyfartal fuddiol. Sefydlodd ef o dri i bedwar cant o ysgolion yn y Dywysogaeth.

Prin y gellid credu bod neb yng Nghymru yn ddigon anniolchgar a maleisus i erlid y fath genad hedd a thrugaredd ag oedd Thomas Gouge; ond er tragywyddol warth i uchel Eglwyswyr yr oes honno, cofnodir ei fod "ef wedi pregethu yn fynych yng Nghymru, hyd oni yrwyd ef o fan i fan gan erledigaeth. Byddai yn myned yn gysson i'r eglwysydd plwyfol, ac yn cymmuno gyd â hwy weithiau; ac yr oedd wedi ei awdurdodi gan hen drwydded Prifysgol i bregethu yn achlysurol, ac etto ysgymmunwyd ef am wneuthur hyny *hyd yn oed yng Nghymru*, a hyny pan yr oedd efe yn gwneuthur yr holl ddaioni yma." Rhoddodd symiau mawrion o arian ei hunan, a chafodd rai gan eraill, i gynnorthwyo pregethwyr tlodion erlidiedig Cymru, a dïau i'r caredigrwydd hwnw fawr greuloni ei erlidwyr. Terfynwn hanes y gŵr enwog ac anwyl yma yngeiriau y Dr. Tillotson etto, yn ei bregeth angladdol iddo:—

"Yr oedd wedi ei wisgo â gostyngeiddrwydd, ac wedi ei addurno i'r graddau mwyaf âg yspryd addfwyn a llonydd. Yr oedd nid yn unig yn rhydd oddi wrth ddicter a chwerwder, ond hefyd oddi wrth bob difrifwch ffuantus ac afrywiog. Yr oedd ei ymddiddanion yn rhwydd ac yn hyfryd. Yr oedd sirioldeb rhyfedd ei feddwl yn ymddangos yn ei wynepryd. Ni byddai braidd un amser yn ysgafn-ddigrif, nac ychwaith yn brudd ac athrist; ac ar bob achlysuron ymddangosai yr un, sef yn siriol ac yn garedig, yn barod i gofleidio a boddhâu pob dŷn: o byddent yn ofni Duw ac yn gweithredu cyfiawnder, carai hwynt o'r galon, er gwahaniaethu oddi wrthynt mewn pethau amgylchiadol. Ond ei rinwedd a'i harddwch mwyaf oll oedd ei elusengarwch. Rhoddes Duw iddo dda y byd hwn yn gymhedrol; ac yr oedd yntau yn haelionus tu hwnt i'r rhan fwyaf o ddynion yn gwneuthur daioni. Hyn oedd gorchwyl penaf ei fywyd, ymha un yr oedd yn llafurio gyd â'r un diwydrwydd ag y llafuria eraill yn eu galwedigaethau bydol. Cafodd gryn golled trwy'r tân yn Llundain, fel, wedi marw ei wraig, a sefydlu ei blant, nad oedd ganddo fwy na 150 o bunnau yn y flwyddyn wedi eu gadael, o'r hyn y rhoddai yn flynyddol 100 punt mewn gweithredoedd o elusenau. Wrth gyfranu i'r tlodion, achos eu heneidiau oedd yn flaenaf yn ei olwg."*

Daw hanes ymdrechion godidog, a chynnorthwyon haelionus y gŵr rhinweddol hwn, er rhoi llyfrau crefyddol a buddiol ynghyrraedd gwerin bobl Cymru, dan sylw yn ebrwydd, yn ei gyssylltiad â'r enwog a'r llafurus

### STEPHEN HUGHES.

Ganwyd y gŵr clodfawr hwn yn nhref Caerfyrddin o gylch y flwyddyn 1622, neu, o bossibl, flwyddyn neu ddwy yn gynharach. O herwydd esgeulusdra beius cydoeswyr y gŵr rhinweddol hwn a fuant byw ar ei ol, ni chadwyd dim o hanes ei addysgiad, ei argyhoeddiad, na dechreuad ei weinidogaeth. Dywedir iddo gael ei ddodi ym mywioliaeth Meidrym, yn ei sir enedigol, yn y fl. 1645; a gellir casglu hefyd oddi wrth awgrym sydd yn ei gân o flaen "Canwyll y Cymru," a gyhoeddwyd yn 1672, y bu yn gwasanaethu ymhlwyf Merthyr Cynon, ger llaw Caerfyrddin, dros ryw ennyd, mewn cyssylltiad, ond odid, â Meidrym. Y mae'r gwirionedd iddo gael bywioliaeth blwyfol Meidrym yn 1645 yn profi dau beth, sef ei fod wedi cael urddiad esgobol, a hefyd ei fod wedi ei eni mor forau ag 1622, o leiaf; canys os yn y flwyddyn honno y ganed ef, nid oedd ond 23 oed yn 1645, "yr oedran ieuangaf y gallai gael urddau eglwysig ynddo."† Y tebygrwydd yw, fel y dywed y Dr. T. Rees,‡ ei fod wedi ei eni flwyddyn neu ddwy yn gynharach, sef yn 1621 neu 1620.

Tybia rhai bod S. Hughes wedi cyhoeddi "Llyfr y Ficar" (Llanymddyfri) mor forau ag 1646, sef ymhen tu a blwyddyn ar ol iddo gael bywioliaeth Meidrym. Gyd â golwg ar gyhoeddiad y llyfr crybwylledig y pryd hwnw, dywed y Parch. D. Silvan Evans fel y canlyn:—

"Ymddengys i mi fod yr holl ddyryswch yn codi oddi wrth fod yr awdur [Gwilym Lleyn] ac eraill yn priodoli argraphiad anghyflawn 1646 i Stephen Hughes, pan yn ol pob hanes a fedraf fi ei gyrraedd, yn 1672 yr ymddangosodd ei argraphiad ef. Fel hyn y dywed cyhoeddwr argraphiad diwygiedig Llanymddyfri, 1841:—'Argraphwyd y llyfr hwn yn gyntaf yn bedair rhan yn Llundain, dan olygiad y Parch. Stephen Hughes, yn y flwyddyn 1672; ond achwyna fod yr ysgrif a gafodd efe o'r caniadau yn dra amherffaith, ac iddo fethu cael gafael yn llyfr penaf yr awdur, yr hwn a gollwyd yn sir Fycheiniog, yn amser y rhyfel rhwng Oliver Cromwel a'r Brenin Charles y Cyntaf.' A oes prawf mai Stephen Hughes oedd colwynydd argraphiad rhanog 1646? Ymgynghorais â Mr. Rees ar y pwngc, a deallaf na welodd ef mo'r argraphiad cyntefig hwnw; ac amlwg yw na welodd awdur y gwaith hwn ['Llyfryddiaeth y Cymry'] mo hono chwaith. Ni chynhwysai ond dwy ran yn unig. Os yn 1623 y ganed S. Hughes, rhaid nad oedd ond 23 oed yn 1646, yr oedran ieuangaf y gallai gael urddau eglwysig ynddo. Pan gofier mai ymhen deng mlynedd wedi

* Tillotson's Works, ed. 1752, vol. i., p. 213; Calamy's Acc., vol. ii., p. 8, vol. iii., p. 12; Palmer's Noncon. Mem., vol. i., p. 184; Life of James Owen, pp. 10-12; Trysorfa, 1813, t. 49-53; Han. Crefydd, D. Peter, t. 244; Rees's Hist. Prot. Noncon., 224-232; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 684.

† Llyfr. y Cymry, t. 140, nod *.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 248.

Digitized by Google

Gweithred yr Unffurfiad (yn 1662) yr ymddangosodd argraphiad addefedig S. Hughes, ac iddo ef gael ei droi allan o'r Eglwys trwy rym y Weithred hono, canfyddir rheswm da paham y mae efe yn ei Raglith i'r Llyfr yn galw ei hun yn 'Neillduwr' ac yn 'ffanatic.' Nid 'Canwyll y Cymry' oedd enw argraphiad 1646, canys dywed S. Hughes mai *wedi* argraphu o hono ef y gwaith y cyfarfu â'r enw hwnw yn un o ysgrifau yr awdur,* a chwanega:—'Yr wyfi yn deisyf ar y neb a'i printio ar fy ôl i, i roddi yr enw hynny iddo.'"†

Rhaid i ni gredu, gan hyny, na ddechreuodd S. Hughes gyhoeddi a golygu llyfrau hyd ymhen 24 blynedd ar ol hyn; a'n gorchwyl yn awr yw ymofyn, mor ddyfal ag y gallom, yn yr hanesion prin am dano a drosglwyddwyd ini, ynghyd â chasgliadau oddi wrthynt, pa fodd y treuliodd efe y blynyddoedd crybwylledig. Ymddengys mai ymroddi i bregethu a wnaeth efe yn ebrwydd ar ol ymsefydlu ym Meidrym a Merthyr Cynon. Pregethai, nid yn unig yn ei Eglwysydd Plwyfol ei hun, ac yn yr holl Eglwysydd Plwyfol cyfagos, lle y cai dderbyniad, ond hefyd aeth allan, yn bur fuan, yn ol gorchymyn ei Arglwydd, "i'r prif ffyrdd a'r caeau," gan gymmell pobl i ddyfod i mewn, fel y llenwid tŷ y Gwaredwr. Wele ddarlun T. Charles, o'r Bala, o hono fel pregethwr:—

"Yr oedd Mr. Stephen Hughes yn bregethwr rheolaidd a serchog. Anaml y pregethai heb dywallt dagrau ei hun, ac heb y cyffelyb effeithiau ar ei wrandawyr. Ymdrechai i bregethu yn aml yn y lleoedd mwyaf tywyll rhwng mynyddoedd Deheubarth Cymru; a chafodd llawer eu galw trwyddo. Er ei fod allan o'r Eglwys Sefydledig,‡ etto ei ymddygiad hynaws, tirion, cymhedrol, a'i cymmeradwyodd i lawer o uchelwyr y wlad, fel, trwy eu goddefiad, y byddai yn aml yn pregethu yn y llannau i gynnulleidfaoedd llïosog. Annogai y werin gyffredin yn hynod i lafurio am wybodaeth; i benau teuluoedd i ddysgu eu tylwyth; i un cymmydog i addysgu y llall; a llwyddodd i gael llawer i ddysgu darllen pan oeddynt rhwng 40 a 50 oed."§

Pan ddechreuodd y Weriniaeth, ar ol torfynyglu Charles I. yn 1649, cafodd S. Hughes, cystal a phregethwyr dïargyhoedd a galluog eraill, gyflawn ryddid i bregethu ymhob man y caffai dderbyniad; ac erbyn y flwyddyn 1650, yr oedd amryw gymdeithasau crefyddol wedi eu casglu trwy ei ymdrechion, y rhai oll a borthai efe, hyd eithaf ei allu, "â gwybodaeth ac â deall." Dengys hen gofnodau eglwysig yr Anghydffurfwyr yn sir Gaerfyrddin mai ffrwyth ei lafur ef yn benaf oedd yr eglwysi a gasglwyd ym Mhencadair, Capel Isaac, Pant Teg, Llanedi, Caerfyrddin, Llanybri, Henllan, a Threlech.*

* Hyny yw, y mae'n debyg, *wedi* iddo gyhoeddi y "*Drydedd Ran*," yn 1670, fel y ceir gweled rhag llaw.

† Llyfr. y Cymry, t. 140, nod *.

‡ Cyfeiria hyn ato ar ol iddo gael ei fwrw allan o'i fywioliaeth eglwysig gan Ddeddf yr Unffurfiad yn 1662, fel y crybwylla Mr. Evans yn y difyniad blaenorol.

§ Trysorfa, 1813, t. 54.

Y mae hanes eglwys Pencadair yn myned yn ol i ddyddiau boreuaf Ymneillduaeth ein gwlad. Y mae'n sicr fod gan S. Hughes nifer o ddisgyblion yno mor forau a 1650; a dichon ei fod yn arfer myned yno rai blynyddoedd cyn hyny. Ymgyfarfyddent ar y cyntaf yn annedd-dy Llanddwfr. Wedi hyny, pan ddaeth yr erledigaeth yn amser Charles II., ymgynhullent, er mwyn diogelwch, yn ogof Cwmhwplin, ac mewn lle cysgodol yn yr ogof a elwir Cwmclyd.† Dyry awduron "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru" ddarlun dyddorol o'r ogof yma, ac o lafur S. Hughes ymhlith y praidd erlidiedig ynddi, fel y canlyn:—

"Wedi gadael Llanddwr ar y llaw chwith, a chroesi dros Afon Dolgan, ac esgyn ryw ddau canllath o'r afon, y mae Cwmhwplin. Wedi myned ychydig uwch law y tŷ, y mae'r cwm yn ymagor yn ddau, yn debyg i'r llythyren Y. Yn y cwm, ar y llaw dde, y mae'r creigiau mwyaf; ond rhaid dilyn y cwm ar y llaw chwith am ryw ddau canllath, nes dod at dro byr, swta, ar y dde; ac yno y mae Cwmclyd, neu Ogof Cwmhwplin. Nid agen mewn craig, fel ogofau yn gyffredin, ydyw, ond cysgod craig; ac yr oedd ddau can mlynedd yn ol yn wahanol iawn i'r hyn ydyw yn awr; heb law bod y llwybrau a arweinient iddi yn llawer mwy anhygyrch. Nis gallasid gweled y lle nes dyfod i'r fan. Dywedir yr arferai dynion ddyfod at eu gilydd i addoli yma o ugain milltir o bellder; a bu'r fangre gyssegredig iddynt yn 'dŷ Dduw a phorth y nefoedd.' Byddai S. Hughes yn dyfod yma at ei braidd yr holl ffordd o Abertawy. Digwyddodd ei fod yn dyfod yma ar un Dydd Llun y Pasg trwy Llanegwad; ac wedi dyfod yn agos i Bant y Blawd, gwelai liaws o ddynion yn dawnsio. Galwodd ar eu blaenor, a dywedodd, 'Deuwch gyd â mi dros y mynydd, a chewch amgen camp o lawer.' Gadawodd y dŷn y cwmni, a dilynodd y pregethwr bob cam; ac erbyn cyrraedd cysgod y graig, synodd yn fawr wrth weled cynnifer wedi dyfod ynghyd i'r fath le; a chyn diwedd y cyfarfod, yr oedd goleuni dwyfol wedi tywynu ar ei enaid. Ymwasgodd â'r disgyblion yn y lle, a theithiodd yn rheolaidd tu ag yno o hyny allan. Y mae'n debyg mai yma yr arferent gyfarfod hyd derfyn oes S. Hughes, ac mai ar ol cael cysgod dan Ddeddf Goddefiad yr adeiladwyd y capel cyntaf. Crybwyllir am enwau Owen Davies a John James fel pregethwyr cynnorthwyol yma i S. Hughes; ond efe a fyddai yn gweini yr ordinhadau."‡

Y mae ychydig fanylion ar gael am lafur S. Hughes ynglŷn â rhai o'r saith eglwys eraill a nodwyd, heb law ddarfod iddo eu sefydlu, a'u gwasanaethu yn ffyddlawn, zelog, ac egnïol, cyn belled ag y caniatâi ei amgylchiadau, hyd ddiwedd ei oes.§

Yn 1662, pan ddaeth Deddf yr Unffurfiad i rym, fel y crybwyllwyd eisoes, bwriwyd ef allan

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 353.

† Y mae'n ddiamheuol genym mai Cwm*clyd* (a sheltering valley), yw'r enw cywir; ac nid Cwm*clud* (a carriage valley).

‡ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 423.

§ Yr un, t. 529, 455, 500, 420, 389, 337, 395.

Digitized by Google

o'i fywioliaethau eglwysig ym Meidrym a Merthyr Cynon; ac o hyny allan ymroddodd i wasanaethu yr eglwysi Ymneillduol a gasglasid ganddo, ac estynodd derfynau ei lafar i amryw siroedd eraill. Yn lled fuan ar ol cael ei fwrw allan o'r Eglwys Sefydledig, efe a briododd wraig dduwiol a rhinweddol o Abertawy, a symmudodd yno i fyw; a chan fod ganddi ychydig o dda y byd hwn, a'i bod yn ddiwyd, cynnil, a gofalus, bu o gynhorthwy arbenig iddo i gyflawni ei weinidogaeth. Cyrchai yn rheolaidd i ymweled â'r eglwysi a sefydlasai, er pelled ei fford oddi wrthynt; ac ennillodd ei ymroddiad a'i lafur iddo y cyfenwad anrhydeddus o "Apostol sir Gaerfyrddin." Y mae agos yr holl eglwysi Annibynol yn y sir honno, y rhai sy'n awr o gylch cant o nifer, yn olrhain eu dechreuad i'r gwahanol eglwysi a blanasid gan S. Hughes; ac y mae un neu ddwy o'r eglwysi Annibynol cyntefig yn sir Aberteifi hefyd yn olrhain eu dechreuad i'w lafur ef; a dywedir mai Ymneillduwyr o'r eglwysi a gasglasai efe ynghyd oedd y rhan fwyaf, os nad holl, sylfaenwyr eglwysi y Bedyddwyr yn y parthau hyny o'r wlad.

Dichon mai i'w foneddigeiddrwydd, a chymmedroldeb ei olygiadau, y gellir priodoli y ffafr a roddid iddo gan bob dosparth, ac iddo ddïangc heb gymmaint o erlidiau a rhai o'i frodyr. Yr oedd efe yn hyn, ac amryw bethau eraill, yn bur debyg i'w gydweithiwr duwiol, haelfrydig, ac egnïol, Thomas Gouge. Ond er ei holl fwyneidddra a'i gymmedroldeb, ni ddiangodd yntau heb weled gwaethaf rhai o genhedlaeth erlidgar y dyddiau hyny, canys bu yn "agored i ddialedd ceidwadwyr yr agoriadau cyssegredig, y rhai ni ofalent ddim pa un ai o bechodau ai o dduwioldeb y bobl y gwnelent hwy eu marchnad. Cyhoeddodd y boneddigion hyn ddedfrydau yr Eglwys arno ef, ac yn lled fuan wedyn trosglwyddasant ef i ddwylaw yr awdurdodau lleol, y rhai a'i caethiwasant ef mewn cell afiach yngharchar Caerfyrddin, er mawr niwaid i'w iechyd a pherygl i'w fywyd. Ond rhyngodd bodd i Dduw, trwy Ragluniaeth ffafriol ac annisgwyliadwy, iddo gael ymwared, trwy yr hyn yr adferwyd iddo ei iechyd, ac y cafodd gyfleusderau ychwanegol i wasanaethu Duw a'i genedl."* Ymdeimlwn yn siomedig iawn am na fynegasai Calamy trwy ba foddion yr estynodd Rhagluniaeth waredigaeth i'r gŵr enwog a defnyddiol hwn; eithr nid oes dim i'w wneud bellach ond aros hyd amseroedd adferiad a datguddiad pob peth.

Cafodd Stephen Hughes amryw dystiolaethau tra chefnogol i'w bregethiad o'r gair, yn y nifer mawr a achubwyd trwyddo oddi wrth eu ffyrdd pechadurus, ac a ddaethant yn Gristionogion difrifol hyd ddiwedd eu hoes; ac yr oedd rhai o honynt yn amlygiadau tra nodedig o ffafr ei Dduw iddo fel pregethwr. Nodwn un esampl, heb law yr hon a grybwyllwyd eisoes, o dröedigaeth dra hynod. Unwaith, pan oedd yn y Wern-Chwith, ymhlwyf Llanon, lle y deuai eglwys Llanedi ynghyd yn gyffredin, daeth un Dafydd Penri, mab i foneddwr o blwyf Llanedi, i mewn wedi iddo gymmeryd ei destyn. Yr oedd Penri yn ŵr ieuangc tal, o ymddangosiad boneddigaidd, ac wedi cael addysg gyd â golwg iddo gymmeryd urddau Eglwys Loegr. Gan ei fod yn ddïeithr i Stephen Hughes, meddyliodd yn y fan, pan welodd ef yn dyfod i mewn, mai swyddog oedd wedi dyfod gyd â gwarant i'w gymmeryd yn garcharor; a mawr gythryblwyd ei feddwl ar y cyntaf. Pa wedd bynag, ym mlaen gyd â'i bregeth yr aeth, a chafodd gymmaint o gymmorth a goleuni ar ei fatterion Ysgrythyrol fel na feddyliodd am y warant nes terfynu. Ar ddiwedd y bregeth, ymwthiodd y gŵr ieuangc ym mlaen trwy y dyrfa at y pregethwr, a chymmerth afael yn ei law. "Yr wyf yn gobeithio, Syr," ebai Hughes, druan, "nad ydych wedi dyfod i'm dala i!" "Nac ydwyf, yn wir, fy anwyl Syr," ebai Penri, gan dori allan i wylo yn hidl; "ond yr ydych chwi wedi fy nala i." O'r dydd hwnw allan rhoddes Penri bob meddwl am fyned i wasanaeth yr Eglwys Sefydledig i fynu, ac ymunodd â'r eglwys Annibynol yn y Wern-Chwith, i'r hon y gweinyddai Stephen Hughes.† Y mae'n sicr i hyn ddigwydd ar ol i Ddeddf yr Unffurfiad ddyfod i rym, pe amgen ni buasai ar S. Hughes ofn i neb ddyfod i'w ddala ef â gwarant; ond yr oedd eglwys yn y lle hwn er ys 12 mlynedd cyn i'r ddeddf Babaidd honno ddyfod i rym yn 1662. Dyma fel y dywed awduron "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru" dan y gair Llanedi:—

"TYNEWYDD y gelwir Capel Llanedi, er bod yr achos yma yn un o'r rhai hynaf yn y sir. Bu hen Ficar Llanymddyfri, fel y'i gelwir, yn dal bywioliaeth y plwyf hwn; a dïau y gellir disgwyl bod ei lafur ef wedi ei fendithio er daioni i'r trigolion. Ymddengys mai i ymdrechion Stephen Hughes y priodolir cychwyniad yr achos yma; a diammau iddo gael llawer o help gan offeiriaid efengylaidd eraill. Yr oedd Meredith Davies, gŵr llawn o'r Yspryd Glân, yn

* Calamy's Acc., vol. ii., p. 719.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 250.

gweinidogaethu yn Llanon; ac nid oedd Marmaduke Mathews, Abertawy, ymhell o'r ardal yma; ond Stephen Hughes a gydnabyddir fel y prif offeryn yn y gwaith. Dechreuwyd yr achos mewn lle a elwir Wern-Chwith mor forau a'r flwyddyn 1650; a dywedir i eglwys reolaidd gael ei sefydlu yno y pryd hwnw. Arferid pregethu hefyd yn Cribyn Walter, ymhlwyf Llanelli, ac yn Llwydcoed-fawr, a Phenderimarch, ymhlwyf Llanon; ond yn Wern-Chwith, Llanedi, y cyfarfyddai fynychaf. Wedi adferiad Charles yr Ail, ac i ystorom yr erledigaeth ddechrau curo arnynt, bu raid i'r praidd bychan yma ymguddo yn aml tu a'r Pandy bach, o dan allt y Droserch; a chyfarfyddent â'u gilydd liw nos yn y coedydd cylchynol. . . . . Ymhen rhyw ennyd ar ol i Dafydd Penri, y crybwyllwyd am dano eisoes, ymuno â'r eglwys yn Wern Chwith, dechreuodd bregethu; a'r flwyddyn y bu farw Stephen Hughes urddwyd ef yn weinidog yn Llanedi. Nis gwyddom dros ba yspaid y bu Mr. Penri yn gweinidogeuthu yma, na pha bryd y codwyd y capel cyntaf; ond tueddir ni i feddwl iddo fod yma am dymmor lled faith,* ac mai yn ei amser ef yr adeiladwyd y capel yma." †

Yr oedd Stephen Hughes yn gefnogwr mawr, ac yn noddwr tyner a charedig, i bregethwyr ieuaingc. Dechreuodd amryw o bregethwyr mwyaf poblogaidd a defnyddiol Cymru, yn y rhan olaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg a dechrau y ddeunawfed, bregethu o dan ei nodded ef. Gan fod ganddo gynnifer o gynnulleidfaoedd "dan ei ofal bugeiliol," fel y dywedir, yr oedd ganddo fanteision helaeth i anfon cynnifer o wŷr ieuaingc addawol a allai gael allan i arfer eu doniau. Yr oedd pregethwyr ieuaingc yr oes honno dan rwymedigaethau parhaus iddo ef a'i gyfaill, Samuel Jones, o Fryn-llywarch. Tra y gwnai y naill hwynt yn ysgolheigion, gwnai y llall hwynt yn bregethwyr. Daeth yr enwogion canlynol, James Owen, Croesyswallt; William Evans, Caerfyrddin; Daniel Phylips, Pwllheli; Owen Davies, Henllan; Dafydd Penri, Llanedi, a llawer eraill, yn golofnau Anghydffurfiaeth Gymreig ar ol i'r gweinidogion alltudiedig gael eu bwrw allan o'u bywioliaethau; ac yr oeddynt oll, i raddau mwy neu lai, yn ddyledus i Stephen Hughes am eu dwyn i waith y weinidogaeth Gristionogol. Ordeiniwyd deuddeg o wŷr ieuaingc yn y flwyddyn y bu efe farw, y rhan fwyaf o ba rai a ddygwyd i fynu dan ei ofal tadol ef. ‡

Ond, pa faint bynag a bregetho ac a lefaro dynion, a pha mor lesol ac effeithiol bynag y gall hyny fod, fe dderfydd yn fuan, rhag mor fyr ydyw bywyd dŷn: *Llyfr* yn unig a bery, i lefaru

* Tybiai y Dr. T. Rees unwaith y bu yn "llywyddu dros yr eglwys honno dros ddeng mlynedd ar hugain."—*Hist. Prot. Noncon. in Wales*, p. 251.

† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., p. 500.

‡ Gan fod eglwys Llanedi yn un o'r rhai hynaf yn sir Gaerfyrddin, credir y bydd byr hanes olynwyr Stephen Hughes yno yn ddyddorol yma:—

DAFYDD PENRI a ddilynodd S. Hughes fel gweinidog eglwys Ymneillduol Llanedi; ond y mae ei holl hanes braidd wedi colli, ond a fynegwyd eisoes am ei dröedigaeth ryfeddol. Mab Plas Llanedi ydoedd, ac yr oedd yn ŵr cyfoethog, wedi ei ddwyn i fynu at fod yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig. Gosodwyd ef yn weinidog yn Llanedi yn 1688, a bernir iddo lafurio yno hyd ei farwolaeth, er na wyddys pa bryd y digwyddodd hyny.

LEWIS JONES a ddilynodd Dafydd Penri yn eglwys Llanedi, yn y flwyddyn 1784. Ymadawodd oddi yno i Lechryd a'r Drewen yn 1739, a'r flwyddyn ganlynol aeth i Benybont-ar-Ogwy. Dyma'r cwbl a wyddys am dano.

DAFYDD THOMAS oedd ei olynydd ef yn Llanedi. Ganwyd ef yn ardal y Cilgwyn, yn sir Aberteifi. Yr oedd yn byw yn Ffos-yr-efail, ym mhlwyf Llandilo-fach, sir Forganwg, yn gyfoethog o dda'r byd hwn, yn foneddwr yn ei holl ymddygiadau, yn ddylanwadol fel pregethwr, a llafurus fel gweinidog. Dechreuodd bregethu yn Llanedi, ac y mae ei gymmeriad yn uchel yn yr ardal, lle y llafuriodd dros hir amser. Yr oedd yn gymhedrol iawn o ran ei olygiadau duwinyddol, ac yn ceisio cadw canol y ffordd mewn oes yr oedd llawer yn gogwyddo at Arminiaeth ar y naill law, ac at Antinomiaeth ar y llaw arall; ac o herwydd hyny, nid oedd gwbl foddhaol gan yr un o'r ddwy blaid. Y mae Edmund Jones, Pont-y-pwl, yn ei drin yn ddïarbed yn ei Ddyddlyfr am 1773, fel un o'r "cyfeiliornwyr." Un o uchel-Galfiniaid ei oes oedd "yr hen Brophwyd" o Bont-y-pwl, am hyny nid rhyfedd fod gŵr cymmedrol fel D. Thomas yn anghymmeradwy yn ei olwg. Nid yw amser marwolaeth Thomas yn hyspys; ond yr oedd yn hen a methedig yn 1775 pan roddwyd galwyd i

EVAN DAFIS i fod yn gynnorthwywr iddo. Mab oedd Davis (Davies) i James Dafis, gweinidog y Cilgwyn ac Abermeurig. Ganwyd ef yn 1750, mewn lle a elwir Dyffryn-llynoedd, ym mhlwyf Llandysul, sir Aberteifi. Cafodd ei addysg athrofaol yn Athrofa Caerfyrddin. Bu yno o 1772 hyd 1775, pan y derbyniodd alwad o Lanedi i gydlafurio â'r Mr. Thomas blaenorol. Bu yn egnïol iawn yn y weinidogaeth, a chynhyddodd yr eglwysi lawer yn ei amser. Ehangodd derfynau ei lafur i Gydweli, Cross Inn, Penbre, a Bethania; ac efe a fu'r prif offeryn i adeiladu Capel Als, Llanelli, ac i ffurfio yr eglwys yno. Goddefodd lawr o erlid yn ei ymdrech i gasglu cynnulleidfa Ymneillduol yn Nghydweli; ond er hyny ni ddiffygiodd efe yn ei ymdrech. Yr oedd Dafis yn ddŷn deallus, o alluoedd cryfion, ac yn meddu gwybodaeth gyffredinol ehang. Yr oedd gan ei holl gydnabod ymddiried mawr ynddo, ac yr oedd ei ddylanwad yn nerthol ymhlith ei frodyr. Pregethai yn eglur, syml, a theimladol, a phob amser yn agos at ddeall ei wrandawyr. Nid aml y pregethai heb dywallt dagrau. Ychydig a ymyrai â'r dadleuon duwinyddol a gynhyrfent yr eglwysi yn y dyddiau hyny, rhag tramgwyddo neb; a thybia rhai i'w ochelgarwch ef fod yn achlysur i'r blinderau a gyfarfuant yr eglwys ar ol ei ymadawiad. Bu farw ar y 12fed o Ebrill, 1806, yn 56 oed.

SAMUEL PRYS (PRICE) a'i dilynodd ef yn Eglwys Llanedi. Ganwyd ef yn Mhenhemwen-fawr, Llangamarch, sir Frycheiniog, ar yr 28fed o Ionawr, 1785. Mab ydoedd i Dafydd Prys ac Elizabeth ei wraig, ac ŵyr i'r hybarch Isaac Prys, Llanwrtyd. Dygwyd ef i fynu dan ofal ei daid, a daeth yn ddeiliad argraphiadau crefyddol cyn bod yn naw mlwydd oed. Cafodd addysg orau ei ardal enedigol; ac ar ol dechrau pregethu, aeth i Athrofa Caerfyrddin, lle yr arhosodd am dair blynedd. Aeth oddi yno i gynnorthwyo ei ewythr, brawd ei dad, oedd yn weinidog yn Mhenybont-ar-Ogwy. Wedi hyny derbyniodd alwad gan Eglwys Llanedi, lle y sefydlwyd ef ar y 14ydd o Awst, 1811. Bu yn llafurio yno yn ddiwyd a chymmeradwy iawn gan bawb dros ugain mlynedd, a chafwyd prawf boddhaol fod gan Rhagluniaeth law yn ei arweiniad yno. Ennillodd serch ac ymddiried ei gydnabod o bob graddau. Llafuriai yn Bethania a Phont-y-beren, cystal ag yn Llanedi, ac yr oedd yn anwyl gan y bobl ymhob man. Bu farw ar y 23ydd o Chwefror, 1831, yn 45 oed, gan adael ar ei ol wraig a saith o blant amddifaid.

JOHN JOSEPH a'i dilynodd ef yn Llanedi. Ganwyd ef yn Llangenech, yn sir Gaerfyrddin, ar y 6ed o Ebrill, 1806. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, a derbyniwyd yntau yn aelod yn Llanedi pan oedd yn 13 oed. Yr oedd yn ŵr ieuangc duwiol a diwyd, ac yr oedd ei gof yn nerthol dros ben. Tu a mis Mai, 1832, derbyniodd alwad o Lanedi, ac ar y 27fed o Fehefin ymsefydlodd yno dan amgylchiadau lled anghysurus, am fod un ran o'r eglwys am ei gael ef, tra yr oedd rhan arall am Samuel Williams, Capel Isaac, o blaid yr hwn yr oedd y rhan fwyaf o bregethwyr y sir; a'r canlyniad fu ymraniad, yr hwn a barhaodd hyd 1841, pan y gwnaed cymmod rhyngddynt, a llafuriodd Mr. Joseph yno ac yn Llangenach yn ddiwyd ac egnïol hyd ei farwolaeth ddisymmwth ar y 8ydd o Dachwedd, 1867, ac efe yn 61 oed.—Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 503.

Digitized by Google

i oesoedd diderfyn. Y mae'n ddilys ddïammau na lefarodd neb erioed yng Nghymru yn fwy nerthol, effeithiol, a llwyddiannus na Howel Harris, Daniel Rowlands, Williams o Bantcelyn, Robert Roberts o Glynnog, a John Elias; ond ni ŵyr yr oes yma, ac ni wybydd yr oesau dyfodol, ddim am danynt ond yn unig yr hyn a drosglwyddir iddynt trwy gyfrwng llyfrau. Fe bery dynion i lefaru trwy eu llyfrau, tra y pery eu holafiaid i'w cyhoeddi a'u darllen. Y mae Homer, er esampl, oedd yn cydoesi â'r Prophwyd Esaiah, tu ag 800 mlynedd cyn Crist, yn llefaru, trwy ei lyfr, wrth fwy o filiynau nag y llefarai y pryd hyny. Felly, pa faint bynag o les a wnaeth S. Hughes i'w genedl, trwy lefaru â'i dafod yn ystod ei fywyd llafurus a defnyddiol, y mae'n ddilys ddïammau iddo wneuthur llawer mwy o les parhaus, ac i fwy o nifer hefyd, trwy gyfrwng y llyfrau duwiol a defnyddiol a gyhoeddwyd ganddo, mewn cyssylltiad weithiau â'r enwog Thomas Gouge ac eraill, fel yr awgrymwyd eisoes.

Heb law y *rhan* a gyhoeddwyd o "Lyfr y Ficar," dan ryw enw, yn 1646,* ac a briodolir yn amryfus i Stephen Hughes, fel y gwelsom, cyhoeddwyd yr un rhan, neu ryw ran arall, o'i ganiadau drachefn, yn 1658, dan yr enw canlynol:—

"Rhan o waith Mr. Rees Prichard, Ficar Llanymddyfri."

Nid ydym yn gwybod y priodolir cyhoeddiad hwn i Stephen Hughes. Dywed "H. M. diwygiwr y wasg," medd Gwilym Lleyn, "bod hwn y *trydydd* argraphiad: nis gall hyny fod, os nad yr un yw hwn a'r un a roddir yn 1670. Rhyw un rhan o bedair ydyw o waith y Ficar."† Tybia rhai bod gan S. Hughes law ynghyhoeddiad y llyfr canlynol yn 1664:—

"Egwyddorion y Grefydd Gristionogol yn gynnwysedig mewn Catechism Byr."

Dywed y Dr. T. Rees fod yn debyg i hwn gael ei gyhoeddi gan Mr. S. Hughes a Mr. David Jones.‡ Catecism y Gymmanfa Bresbyteraidd ydyw y llyfr hwn, at yr hwn yr ychwanegwyd yr Egwyddor Gymraeg (A B C), Credo Athanasius, a Chredo Nicea. Hefyd, "Articlau neu Byngciau wedi eu cyfieithu ym Gymraeg, gan J. D., S. T. P."* Y "namyn un deugain Erthyclau Crefydd Eglwys Loegr" yw y rhai hyn. Ar ol y Catecism y mae'r hyspysiad canlynol yn Saesneg a Chymraeg, fel hyn:—

"The impression of this Book was chiefly done at the charges of Mrs. M. Crowther, an English Gentlewoman; and not a little favoured by Mr. Caleb D'Avenant, a Wigornian.—Argraphiad y llyfr hwn a ddibenwyd yn benaf ar Draul, neu Gôst, Mrs. M. Crowther, Saesnes Fonheddig: A hefyd drwy helaeth gydroddiad Mr. Caleb D'Avenant o Gaerfrangon."

Ymddengys, gan hyny, mai ar draul y boneddigion a nodir yn yr hyspysiad y cyhoeddwyd y gwaith hwn, yn benaf, os nad yn hollol. Dywed D. Peter,† ar ol Palmer, mai William Jones, o sir Feirionydd, a gyfieithiodd Gatecism y Presbyteriaid sydd yn y llyfr; ond y Parch. R. Williams‡ a ddywed mai James Owen a'i cyfieithodd, eithr nid yw efe yn cyfeirio at ei awdurdod. A oedd gan S. Hughes a David Jones ryw law yn y gwaith, nis gallwn benderfynu.§ Yn 1670, cyhoeddwyd

"Y Drydedd Ran o waith Mr. Rees Prichard, gynt Ficar Llanymddyfri yn sir Gaerfyrddin, gŷda Llythyr at Blwyfolion Llanddyfri, Llanfair ar Brin, a Llanedi yn sir Gaerfyrddin, a Llythyr at y Cymru a ddarllenant y llyfr hwn, ynghyd ag Ymholiad beunyddiol o waith Usher, a'r lleill o waith S. Bernard."

Dyma'r llyfr cyntaf y mae genym sicrwydd bod gan Stephen Hughes law arbenig yn ei gyhoeddiad, canys y mae ynddo gyflwyniad a rhagymadrodd o'i waith ef. Dywed y Dr. T. Rees mai ar ei draul ef y cyhoeddwyd y gwaith.‖ Y mae'n debyg nad oedd Stephen Hughes wedi cael gafael, hyd yn hyn, ar yr enw "*Canwyll y Cymry*," neu, fel yr ysgrifenai efe yr enw, "Canwyll y Cymru;"¶ ac y mae'n dra thebyg nad oedd etto wedi cael y *bedwaredd* ran o'r gwaith ychwaith. Yn y flwyddyn 1671, cyhoeddwyd y pummed argraphiad o

"Y Bibl Cyssegr-lân; sef yr Hen Destament a'r Newydd. Llundain."

Argraphiad 8plyg bychan oedd hwn, tebyg i argraphiadau 1630 ac 1654. Cyhoeddwyd yr argraphiad yma trwy ymdrech cyfunol Thos. Gouge a Stephen Hughes,** ac ymddengys mai dyma'r

* Tybia ysgrifenydd yn yr *Adolygydd* (cyf. i., t. 427) mai at y rhan yma o waith y Ficar y cyfeiria S. Hughes yn ei ragymadrodd i'w argraphiad ef o'r gwaith, "yn y flwyddyn 1671," yn y geiriau canlynol:—"Da y gwnai y sawl sydd â llyfr penaf yr awdur (ag a gollwyd, fel y tybir, yn amser y rhyfel yn sir Frycheiniog), neu ddim pethau eraill o'i waith, i'w rhoddi hwynt i'r neb a fyddai ofalus i osod y fath ganwyll mewn canwyllbren i oleuo yr holl wlad, fel y darfu i Mr. Evan Pugh, o Landingat, wneuthur, o ba herwydd y mae nid yn unig myfi, ond holl Gymru, yn rhwymedig iddo." Y mae'n ddigon amlwg wrth hyn ddarfod i Ifan Puw, o Landingat, gyhoeddi rhyw ran o waith y Ficar cyn i Stephen Hughes gyhoeddi dim o hono; ond pa un ai y rhan a gyhoeddwyd yn 1646, ai yr un yn 1658, ni fynegir. Fe allai mai ail argraphiad oedd yr olaf o'r blaenaf.

† Llyfr. y Cymry, t. 181–2.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 220.

* Y Dr. John Davies o Fallwyd oedd y gŵr hwn.

† Han. Cref., t. 282. ‡ Em. Welshm., p. 876.

§ Llyfr. y Cymry, t. 192–3.

‖ Hist. Prot. Noncon., p. 220; Llyfr. y Cymry, t. 197.

¶ Yr un, t. 140, nod *.

** Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 220; Llyfr. y Cymry, t. 198.

Digitized by Google

tro cyntaf i'r enwogion duwiol hyn ymuno i lesoli cenedl y Cymry, ond nid y tro diweddaf. Tybir bod yr argraphiad yma yn cynnwys 6000 o gopïau;* ond a seiliwyd y dybiaeth yma ar y gwirionedd fod yr argraphiad 8plyg a gyhoeddwyd yn 1654 yn cynnwys y nifer hwnw, nid ydym yn gwybod;† eithr nis gallwn ganfod sicrwydd am nifer argraphiad Gouge a Hughes. Y mae'n rhyfedd, braidd, nad yw y Dr. Thos. Llewelyn na'r *Gwyddoniadur* yn cofnodi yr argraphiad pwysig yma o'r Bibl Cymraeg.‡ Yn y flwyddyn 1672, cyhoeddwyd

"Llyfr y Psalmau [cân a darllen] ynghyd â'r Testament Newydd. Printiedig yn Llundain. 1672."

Y mae genym sicrwydd yn rhagymadrodd "Canwyll y Cymru" mai trwy lafur Stephen Hughes, yn benaf, y cyhoeddwyd y gwaith hwn. Gyd â golwg ar y Testament Newydd oedd yn y gwaith yma, fel y tybir, y dywed y Parch. D. Silvan Evans fel y canlyn:—

"Ymddengys yn dra thebyg mai yr *un* yw argraphiadau 1671 ac 1672, gyd â gwyneblen wahanol, canys y mae'n fwy na thebyg na ddaeth allan *ddau* argraphiad o'r Ysgrythyrau mor gyfagos i'w gilydd. Yn yr argraphiad hwn dilynodd S. Hughes yr argraphiad a elwir 'Bibl Cromwel,' gan arfer y llythyren Seisnig J, megis y gwneir yn hwnw. Dywed y Parch. T. Charles§ fel y canlyn am yr argraphiad hwn:—'Y mae gofal a diwydrwydd Mr. Stephen Hughes yn ganmoladwy iawn yn diwygio y Bibl Cymraeg o lawer o wallau oedd yn y tri argraphiad blaenorol o'r cyfieithiad presennol; ac y mae, er nad heb rai gwallau etto, mor ddiwall ag un argraphiad a ymddangosodd gwedi hyny, os nad yn fwy. Y mae'r orgraph a'r attaliadau mor addas, os nid yn fwy, nag un argraphiad o'r Biblau Cymreig. Dilynodd argraphiad 1654, yn rhoddi y llythyren Seisnig J i mewn, yr hon oedd o'r blaen yn ddïeithr i'r iaith Gymraeg.' Cymharer rhif 1. d. f. 1654."‖—Llyfr. y Cymry, t. 164.

Yn y flwyddyn hon, 1672, y cyhoeddwyd,—

"Canwyll y Cymru—yn bedair rhan. Llundain."

Dyma'r tro cyntaf i "Lyfr y Ficar" gael ei alw yn "Ganwyll y Cymru." "Ail argraphiad," medd Gwilym Lleyn. Ië, ail argraphiad o'r tair rhan flaenaf; ond yr argraphiad *cyntaf* o'r bedwaredd ran, ac o'r pedair rhan ynghyd. "Dywedir mai Stephan Hughes a'i cyhoeddodd," eb yr un awdur.¶ Y mae'n ddïau fod hyny yn wir hefyd; o leiaf, mai efe a fu yn brif achos o'i gyhoeddi, canys dywed ysgrifenydd yn yr *Adolygydd*** bod copi o'r argraphiad yma ger ei fron ef, yn cynnwys rhagymadrodd o waith Stephen Hughes, fel y gwelsom eisoes. Y mae'n debyg mai yr achos i'r ysgrifenydd hwnw feddwl mai yn 1671 y cyhoeddwyd y llyfr dan sylw oedd, am mai yr amseriad hwnw sydd wrth y rhagymadrodd, tra nad oes amseriad ar yr enwad-ddalen. Gyd â golwg ar y rhagymrodd hwn, dywed Mr. Thos. Charles, o'r Bala, fel hyn:—

"Yn ei ragymadrodd i Lyfr y Ficar, y mae'n sylwi yr argrephid, yn fuan, 'Yr Ymarfer o Dduwioldeb,' 'Y Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd,' 'Eglurhâd Byr ar Weddi yr Arglwydd,' &c. Trwy lythyr rhagflaenol i'r llyfr hwnw y mae'n cyflwyno y llyfr i'r Parchedig Dr. William Thomas, Deon Caerwrangon; Mr. Hugh Edwards, o Langadog, swydd Caerfyrddin; Mr. David Thomas, o Fargam; Mr. Samuel Jones, o Langynwyd; a Mr. Llwyd, o St. Petrox, yn swydd Penbro. Y mae'n cydnabod fod y gwŷr hyn wedi bod yn dra chymmwynasgar i'r Cymry yn achos eu heneidiau; a bod ei rwymedigaeth iddynt hwy, a boneddigion eraill, a gweinidogion, am y cymmorth a roddasant iddo i argraphu y Testament Newydd y flwyddyn honno, sef 1672, a llyfrau Cymraeg eraill. Dywed fod ynghylch 50 o Fiblau yn Llundain y pryd hwnw; ac yn 1674 nid oedd i'w cael trwy holl Gymru a Lloegr tros 30 o Fiblau Cymreig.* Dengys ymhellach yn y llythyr hwn, fod awydd llaweroedd o'r Cymry i brynu Biblau yn fawr, ond nad oeddynt i'w cael am arian. O herwydd hyn, y mae'n taer ddymuno ar y gwŷr uchod ymdrechu i gael argraphiad drachefn o'r Bibl i'r Cymry. Y mae hefyd yn achwyn yn bruddaidd am y gwallau anafus yn yr argraphiadau yn y flwyddyn 1620, 1630, 1655,† a'r Testament Newydd a argraphwyd yn 1647. Y mae yn nodi allan amryw leoedd y gadawyd allan ynddynt eiriau cyfain, ac mewn rhai amryw eiriau a rhai adnodau. Amserwyd y llythyr hwn Mawrth 20, 1671."‡

Nid oes genym sicrwydd fod gan Stephen Hughes law, mewn undeb â Thomas Gouge, ynghyhoeddiad y llyfr canlynol: y tebygrwydd yw bod ganddo, canys gwelsom fod y ddau wedi ymuno er y flwyddyn flaenorol i gyfoethogi y Cymry â llyfrau. Dyma'r llyfr y cyfeiriwn ato:—

"Holl Ddyledswydd Dyn, gwedi ei osod ar lawr mewn modd hynod o Eglur, Defnyddiol i bawb, ond yn enwedig i'r Darllenydd Annysgedig. Gwedi ei ddosparthu i xvii. o Bennodau; y rhai trwy ddarllen un o honynt bob Dydd yr Arglwydd, a ddarllenir i gyd trostynt deirgwaith yn y Flwyddyn. Angenrheidiol i bob Teuluoedd. Ynghyd a Dwywolder Neillduol ar amryw Achosion. A gyfieithiwyd yn Gymro-aeg gan J. Langford, A.M.—London, Printed for R. Royston, Bookseller to the King's Most Excellent Majesty. 1672."

Y mae enwad-ddalen hefyd i'r traethawd sydd ar ei ddiwedd, sef—

"Dwywolder Neillduol ar amryw Achosion, yn gystal Cyffredinol ac Anghyffredinol. London, Printed for R. Royston. 1672."§

Y mae'n sicr mai Thomas Gouge a fu yr achos penaf o gyhoeddiad yr argraphiad yma o "Holl

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 220; Llyfr. y Cymry, t. 198.
† Llewelyn's Hist. Acc., ed. 1768, p. 40.
‡ Idem, p. 42, &c.; Gwyddon., cyf. i., t. 639.
§ Geiriadur Ysgrythyrol, d.g. Bibl.
‖ Llyfr. y Cymry, t. 220.
¶ Yr un lle. ** Adolygydd, cyf. i., t. 427.

* Dr. Llewelyn's Hist. Acc., p. 42.—"32 copies," medd Llewelyn.—Gol.
† 1654, medd y Dr. Llewelyn: Hist. Acc., p. 42.
‡ Trysorfa, 1859, t. 55.
§ Llyfr. y Cymry, t. 200, &c.

Digitized by Google

Dyledswydd Dyn," a'r traethodyn cyssylltiedig âg ef, gan nad ymddangosodd un argraphiad arall o'r llyfr hwn yn oes T. Gouge, hyd y gallwn ni ganfod; a gwyddus wrth y difyniad a roddwyd genym eisoes o Bregeth Angladdol y Dr. Tillotson ar T. Gouge, ei fod ef wedi cyhoeddi argraphiad o'r "Holl Ddyledswydd." Nid yw hyspys a oedd S. Hughes yn ei gynnorthwyo ynghyfansoddiad y gwaith; ond y mae'n debyg ei fod.

Yr oedd yr enwog Thomas Gouge, mewn undeb â'r Dr. Tillotson ac eraill, ac yn eu plith, yn ddiau, yr oedd S. Hughes, Ch. Edwards, a'r cyffelyb, wedi sefydlu Cymdeithas Wirfoddol yn 1674, i ledaenu addysg yng Nghymru, trwy gyfrwng llyfrau da, megis yr Ysgrythyrau, y Llyfr Gweddi Gyffredin, Holl Ddyledswydd Dyn, a'r cyffelyb, yn yr iaith Gymraeg. Y gorchwyl cyntaf a wnaethant oedd prynu 2000 o gopïau o'r "Ymarfer o Dduwioldeb," a gyfieithasid gan Rowland Fychan, a rhai miloedd o lyfrau eraill, megis "Egwyddorion y Grefydd Gristionogol," "Catecism yr Eglwys," y rhai a roddasant am ddim i deuluoedd tlodion yng Nghymru. Cyn diwedd y flwyddyn hon (1675), dywedir bod 32 o Fiblau, sef yr hyn oll a gafwyd yng Nghymru a Llundain; 240 o Destamentau Cymraeg; a 500 o "Holl Ddyledswydd Dyn," wedi cael eu rhoddi i dlodion Cymru, a fedrent ddarllen Cymraeg.*

Yn y flwyddyn hon (1675) etto, cyhoeddwyd "Yr Ymarfer o Dduwioldeb," gan T. Gouge a S. Hughes; a Charles Edwards, fel y gwelsom yn y bennod flaenorol, yn "Ddiwygiwr y Preint-wasc." Gwelsom hefyd bod gan y tri law ynghyhoeddiad y "Gair i Bechaduriaid, a Gair i Sainct," yn 1676. Cyfoethogwyd llenyddiaeth y Cymry yn fawr yn ystod y flwyddyn nesaf, 1677, a hyny yn benaf trwy ymdrech Stephen Hughes, fel y tybir gan wŷr cyfarwydd. Yn y flwyddyn hon y cyhoeddwyd y llyfr gwerthfawr a elwid "Trysor i'r Cymru"† [Cymry], o gyfieithiad Richard Jones, o Ddinbych.‡ "Mr. Stephen Hughes a ysgrifenodd y rhagymadrodd; ac y mae'n debyg hefyd mai ar ei draul ef y cyhoeddwyd y gyfrol."§ Efe hefyd a fynnodd gyhoeddi y llyfryn a elwid "Galwad i'r Annychweledig,"‖ yn yr un flwyddyn, yr hwn hefyd a gyfieithasid gan R. Jones, o Ddinbych. Yn yr un flwyddyn etto y cyhoeddwyd y llyfr gwerthfawr canlynol:—

"Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd, sef Llyfr yn cynnwys, 1. Agoriad byrr ar Weddi yr Arglwydd. 2. Ymddiddanion rhwng y Carwr a'r Cymro. 3. Ymddiddanion rhwng Crist a'r Publican, &c. Amryw Reolau Duwiol, &c. Ai Brintio yn Llundain gan Thomas Dawks, Printiwr yng-hymraeg i ardderchoccaf Fawrhydi y Brenin. 1677."

Credir mai Thomas Gouge a Stephen Hughes, mewn cyssylltiad, ond odid, â'r Gymdeithas a sefydlasid ganddynt yn 1675, a gyhoeddasant y tri thraethodyn uchod yn un llyfr; ac y mae'n dra thebyg mai S. Hughes neu Ch. Edwards oedd "Diwygiwr y Preint-wasc," ac awdur y "Llythyr at y Darllenydd." Tebycach yw mai Hughes ydoedd, canys "at y *darlleydd*" a ysgrifenai Edwards bron yn wastad. Y mae enwad-ddalen ar ddechrau y tri thraethawd, a chyfeiria y "Llythyr at y Darllenydd" at bob un o honynt ar wahân. Am y gyfrol fechan yn gyfan, efe a ddywed fel hyn:—

"Ddarllenydd anwyl, Dyma llyfr i Hyfforddi ac i Gyfarwyddo y cyffredin Gymru, ym matterion eu iechydwriaeth dragywyddol. Ac o blegit fod hynny yn beth mawr, (tu hwnt i'r hyn a ddichon calon feddwl, na thafod draethu) os ystyriwn ni y pethau y mae'r Enaid yn cael ymwared oddiwrthynt, a'r llawenydd a'r gogoniant y mae'n cael bod yn gyfranog o honynt, fe ddylit dderbyn yn roesawgar y fath draethiadau, ac sy'n gwir gyfarwyddo pobl mewn matterion mor bwysfawr."

Am y traethodyn cyntaf, yr hwn a elwir "Carwr y Cymru," yn ei enwad-ddalen briodol, dywed yr un ysgrifenydd fel hyn:—

"I gyfarwyddo pobl i chwilio'r Scythyrau er iechydwriaeth i'w Heneidiau, dymma i ti Garwr y Cymru, yn awr wedi ei brintio drachefn. Pa darllenem ni y Scrythyrau fel ein cyfarwyddir yn y llyfr hwn, ni fyddem lawer gwell Cristionogion rhagllaw nag y buom hyd yn hyn."

Barnai Gwilym Lleyn mai gwaith Oliver Thomas, un o'r Profyddion, ydyw y traethodyn hwn, a gyhoeddwyd yn 1631, wrth yr enw "Car-wr y Cymru," &c.; ac yn 1666 dan yr enw "Drych y Cristion." Y mae "Y Rhagymadrodd at Eglwyswyr Cymru" sydd yn hwn, yn ddernyn godidog, o'r hwn y dodwn y difyniadau canlynol:—

"Ha-wyr frodyr, a thadau Parchedig, ac anwyl yn yr Arglwydd, y mae yn weddus i mi synnied hyn am danoch oll, nad yw yn anwybod i chwi, ond eich bod yn credu yn ddilys, mai ewyllys Crist yw, nid ar i chwi yn vnig, eithr yr holl braidd y gwnaeth yr Yspryd glan chwi yn olygwyr arnynt, chwilio yr Scrythyrau. Act. 20. 28.

"Canys mae y ddyled-swydd hon wedi ei yspysu yn amlwg, ac mor gyffredin mewn amryw fannau o Air Duw, ac o'r Tadau dysgedig gynt, ac na ddichon neb oddieithr Gwyledyddion deillion fod yn anhyspys ynddi. Athro rhagorol yn nechreu yr oes hon, a gasclodd allan o'r hen Dadau athrawaidd gynt, mor daer, ac mor ddifrifol oeddynt, bawb yn eu hamser, yn cymmell y cyffredin i fod yn gydnabyddus â Gair Duw, ac i'w fynych chwilio, gan gynghori hefyd y Periglorion o'r amseroedd hyny i gynhyrfu, ac i fod yn daer ar bawb tan eu gofal hwynt i ymarfer â'r ddyled-swydd grefyddol hon, yn eu tai eu

* Llyfr. y Cymry, t. 202.
† Llyfr. y Cymry, t. 207. ‡ Gwel llyfr. iii., pen. xiii.
§ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 222. ‖ Llyfr. y Cymry, t. 209.

hunain gartref, ym mysg eu teulu. A minne (frodyr) gan ganlyn ar ol y Saint Dwyfol hyn, a fyddaf (drwy eich cennad) cyn hyfed arnoch, ac attolwg i chwi, er mwyn Crist Iesu, er mwyn eneidiau eich praidd, ac er mwyn eich hun, fod yn eiriol ar eich plwyfolion, ar iddynt brynu beiblau bychain,* y rhai sydd yr awrhon drwy ras Duw a'i ragorol ymgeledd tu ag atom (y cyffelyb peth ni bu yn ein plith erioed o'r blaen) yn aml, yn dda'r newid arnynt, ac yn hawdd i'r tlawd eu cael, fel y gallo pob dyn annyscedig a dim athrylith dduwiol ynddo (o medr ddarllain ei iaith ei hun) (yr hyn a ddylai pawb ei fedru) fanwl chwilio Gair Duw, a bod yn hyspys ynddo. . . .

"Tebygol yw y buasai yng wlad Cymru yn nyddiau ein Tadau, fwy o chwilio ar yr Scrythyrau nag a fu hyd yn hyn o'n hoes ni, pe buasai y Bugeiliaid ysprydol, neu y rhan fwyaf o honynt, mor graff, mor ddiwyd, ac mor daer ag y dylasent fod i annog, i gymmell, ac i gynhyrfu y cyffredin bobl yn y ddyledswydd anhepcor ac angenrheidiol hon.

"Mynych dros ben y mae dolur yn taro fy nghalon wrth weled, ac ystyried y diffyg mawr a'r esceulusdra dybryd, sydd yn ein plith ni Eglwyswyr Cymru, o gymmeryd poen i ddyscu ein praidd yn gydwybodus, eisiau ymosod a llwyr-fryd calon i ddarllen, cynghori, ac i athrawiaethu. 1 Tim. 4. 13. Yr ydym ni ein hunain, (lawer o honom) yn anghynnefin a Gair cyfiawnder, ac am hynny yn anghyfarwydd, ac yn anghymmen i gyfarwyddo eraill. Y mae yn aml gweld yn ein plith ni ynghymru Eglwys-wyr, o ran eu dysceidiaeth yn ganmoladwy, ai ymadrodd yn barabl-ddoeth; ac etto yn anaml gweld mewn llawer goror o'r wlad yr scrifenydd wedi ei ddyscu i deyrnas nef, yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd, a hen, Mat. 13. 22. Ie rhoddwch gennad i mi fy mrodyr anwyl i ddywedyd wrthych (y peth sydd ddrwg gennif orfod ei ddywedyd) y gellir cael ym mhlith un o Esgobaethau Cymru ddeugain neu driugain o Eglwysi, heb un ynddynt ar y suliau hirddydd-haf, pan fo sychaf y ffyrdd a chlaiaraf yr hin.

"Eich Brawd a'ch Car-wr, a'ch car Dienwog Di-Enw."

Yr ail draethodyn yn y "Cyfarwydd-deb" yw "Agoriad byrr ar Weddi'r Arglwydd. Gan William Perkins. O gyfieithiad R. Holland."

"'Yr oedd hwn yn ail argraphiad,' medd Gwilym Lleyn, 'ac yn ail argraphiad mor ddiwygiedig ag y gallesid ei ystyried yn agos yn llyfr newydd gwreiddiol, fel y gellir deall wrth y 'Llythyr at y Darllenydd,' yr hwn a ddywed:—'I gyfarwyddo pobl i weddïo yn ol Ewyllys Duw, fel y derbyniont iechydwriaeth i'w heneidiau——dyma i ti Agoriad byrr ar weddi'r Arglwydd, mewn rhan o waith Mr. Perkins, ac o gyfieithiad Mr. Robert Holand, Person Llanddyfrwr yn shir Gaer-fyrddin; ac mewn rhan o waith a chyfieithiad vn arall—Y mae yn agos i bedwar ugain mlhynedd oddiar pan printiwyd llyfr Mr. Holant gyntaf, ac fel y mae'r Sansoneg, felly y mae'r Gymraeg wedi ei phuro yn fawr oddiar yr amser hyny, ac am hyny nid oedd afresymmol i ddiwygio y llyfr o ran y iaith; ac o blegyt fod y matter yn dywyll mewn rhyw fannau, gweddus oedd iw egluro trwy chwanegu ato.'

"Yn yr argraphiad o'r blaen, dywedir mai 'Person Llanddeferawg, yn sir Gaerfyrddin,' oedd Robert Holand; ac yma dywedir mai 'gynt Person Llanddyfrwr yn shir Gaer-fyrddin,' ydoedd; ond dywed Mr. Stephan Hughes, mai Llanddowror oedd y lle.† Y mae'n un o'r llyfrau gorau a gyhoeddwyd yn ein hiaith ar Weddi yr Arglwydd, yn cynnwys 161 o dudalenau, heb law yr wyneb-ddalen, &c. Y mae yn ei ddiwedd bedair dalen o 'Amryw reolau duwiol perthynol i bob Cristion i'w harfer, a phum dalen yn cynnwys 'Llythyr arall at y Darllenydd.'"‡

* Cyfeiriad sydd yma yn ddïau at argraphiad 1671.
† Gwel llyfr iii., pen. xi., lle y mae nodiad ar yr enw.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 211–2.

Y trydydd traethodyn, a'r olaf yn y gwaith hwn, yw "Canwyll Crist. 1. I gyfarwyddo pechadur. 2. I ddatcuddio rhagrithiwr. 3. I gyssuro y gwann, ar gwir gristion." Ail argraphiad ydyw hwn o waith Vavasor Powel, yr hwn a argraphwyd gyntaf a'i enw ef wrtho yn 1653.§

Ond coron llafur Stephen Hughes a Thomas Gouge y flwyddyn hon, mewn undeb â boneddigion haelionus eraill, oedd cyhoeddi argraphiad 8plyg, hardd a hwylus, o

"Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd.—Printiedig yn Llundain gan John Bill, Christopher Barber, a Henry Newcomb, a Henry Hills, Printwyr i Ardderchoccaf fawrhydi y Brenin;|| ac a werthir gan John Hancock, tan lûn y tri Bibl yn Pope's Head Alley, yn Cornhill. 1677."

Yr oedd hwn y chweched argraphiad o'r holl Fibl,¶ a'r pedwerydd argraphiad 8plyg bychan, rhad, a hylaw. Yr oedd Biblau, erbyn y flwyddyn hon, wedi myned yn dra phrinion yn y wlad. Yr oedd argraphiad 1671 wedi cael ei ddosparthu am ddim, neu ei werthu mor llwyr fel, pan wnaeth S. Hughes a T. Gouge ymchwiliad yn ystod 1675 ac 1676, y methwyd cael dros 20 copi o'r Bibl Cymraeg trwy yr holl deyrnas. Cynhyrfodd hyn y ddau ŵr enwog a nodwyd i wneud egni mawr i gael argraphiad helaeth o'r Bibl yn ddïoed; a'r canlyniad fu iddynt gael cynhorthwy gwŷr haelionus eraill i ddwyn yr argraphiad godidog hwn allan, yn cynnwys 8,000 o gopïau;** yr helaethaf o lawer a gyhoeddwyd hyd hyny yn yr iaith Gymraeg. Dosparthwyd 1,000 o gopïau o hono yn ebrwydd i'r tlodion, a gwerthwyd y gweddill, fel y crybwyllwyd o'r blaen, am 4s. y copi, yr hyn oedd bris pur isel am lyfr mor hardd a thrwchus, yn cynnwys, heb law y Bibl, y "Llyfr Gweddi Gyffredin," "Yr

§ Llyfr. y Cymry, t. 209–212.

|| "Pan ddiangodd y Brenin Iago I. o'r deyrnas i roddi ei orsedd i Dywysog Orange," medd Gwilym Lleyn, "cafodd ei argraffwasg ei llosgi gan y terfysglu o blegid ei fod yn Babydd."—Llyfr. y Cymry, t. 213, nod. ‡.

Y mae yma rai camsyniadau hanesyddol lled bwysig, megis dodi Iago I., yr hwn a deyrnasodd o 1603 hyd 1625, ac a fu farw yn ei frenhiniaeth, ac a ddilynwyd gan ei fab hynaf, Charles I., o 1625 hyd 1649, pan y torwyd ei ben, ac a ddilynwyd gan y Weriniaeth (1649–1659), a chan Charles II. (1660–1685), yn lle Iago II., yr hwn a ddilynodd ei frawd, ac a deyrnasodd o 1685 hyd 1688, pan y dïangodd i Ffrainge ar yr 22fed o Hydref y flwyddyn honno, ar ol deall bod William, Tywysog Orange, a'i wraig Mari, wedi cael eu gwahodd i'r wlad hon i deyrnasu yn ei le. Hefyd, awgrymir mai o gylch yr amser y llosgwyd yr argraphwasg yr argraphwyd y Bibl hwn, pan na ddigwyddodd y llosgiad hyd ymhen tu ag 11 mlynedd ar ol argraphu y Bibl yma, yr hwn a argraphwyd yn y 17fed flwyddyn o deyrnasiad Charles II.—Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 482.

¶ Daeth y pump argraphiad arall o'r Bibl allan yn y blynyddoedd hyn:—1588, 1620, 1630, 1654, ac 1671; y ddau flaenaf yn 1plyg mawr, anhwylus, i'r "Eglwysau," a'r tri arall, fel yr un presennol, yn 8plyg bychan, hwylus, i'r werin bobl.

** Llewelyn's Hist. Acc., p. 42.

Digitized by Google

Apocrypha," a'r "Psalmau Cân;" ac enwad-ddalen wahanol i bob un o honynt, a'r amseriad yn ol yr hwn yr oedd pob un o honynt yn y wasg. Gan mai y Bibl a argraphwyd gyntaf, y mae wedi ei amseru yn 1677, am yr hwn y dywed awdur y "Llythyr at y Darllenydd," sef Stephen Hughes, o flaen y "Trysor i'r Cymru," a fu dan sylw eisoes, fel hyn:—"Y mae y Bibl Cymraeg wedi brintio yn agos i ddiwedd y Barnwyr, ni bydd y cwbl yn barod tan flwyddyn gyfan eto ar y lleiaf: *ond nid hir aros da.*" Ysgrifenwyd hyn yn "Llundain, y trydydd dydd a'r ddeg o fis Awst, 1677." Ni orphenwyd argraphu y "Llyfr Gweddi Gyffredin" sydd mewn cyssylltiad âg ef hyd ddechrau 1678; am hyny nodwyd yr amser yn ddyblyg, er dangos mai ynghyfwng y ddwy flynedd y cafodd ei argraphu, fel hyn: "1677–78." Canfu Thomas Fenion, un o gynnorthwywyr Gouge, ar ol marwolaeth yr olaf, bod 419p. a 9s. wedi eu cyfranu i brynu nifer o Fiblau Cymraeg i'r tlodion, o'r hwn swm yr oedd y Dr. Tillotson wedi rhoddi 50p., Mr. Maurice* 67p., ac eraill y gweddill.†

Mewn cyssylltiad â chyhoeddiad yr argraphiad rhagorol yma o'r Bibl Sanctaidd y cawn enw yr enwog a'r llafurus T. Gouge ddiweddaf ynglŷn â llenyddiaeth grefyddol y Cymry, canys bu ef farw, fel y gwelsom, ymhen tu a dwy flynedd ar ol cyhoeddiad yr argraphiad yma o'r Bibl, sef yn 1681; ond cyfarfyddwn âg enw ei gydlafurwr enwog, Stephen Hughes, dros encyd etto. Dywed Gwilym Lleyn bod copi o'r argraphiad yma o'r Bibl Cymraeg yn llyfrfa y Duc Bedford, yn Woburn, a bod yr ysgrifen ganlynol ar y ddalen wag o hono:—

"For the Right Hon. the Earl of Bedford, Knt. of the noble order of the Garter.

"In thankful acknowledgment of his bounty to Wales in contributing towards the charge of Printing the Household Bibles in the British Language, which were to be freely given to poor families, and of teaching many hundreds of poor children to read and write.

"Signed, Jo. Tillotson,
"Edw. Stillingfleet,
"Benj. Whitchol,
"John Meriton,
"Thos. Gouge,
"Benjamin Calamy,
"Thomas Fenion,
"John du Bois."

"Y mae pob enw yn ysgrifen-law yr ysgrifenydd.—Palmer's *Calamy's Noncon. Memorial*, vol. i., p. 187. Costiodd argraphu hwn agos i 2000p."‡

Y mae'n dra sicr mai y gwŷr enwog uchod oedd arweinwyr, neu o leiaf yr aelodau penaf, yn y "Gymdeithas Fiblaidd" y bu Thomas Gouge yn foddion i'w sefydlu yn 1675. Ond at Stephen Hughes etto. Y tro nesaf y cyfarfyddwn âg enw y gŵr enwog yma ydyw yn 1681, y flwyddyn y bu ei gyfaill ffyddlawn, T. Gouge, farw, pan y cyhoeddodd efe "Lyfr y Ficar" unwaith yn rhagor, dan yr enw canlynol:—

"Canwyll y Cymru; Sef gwaith Mr. Rees Prichard, gynt Ficcer Llanddyfri. A brintiwyd o'r blaen yn bedair rhan, wedi eu cyssylltu oll ynghyd yn un Llyfr. The Divine Poems of Mr. Rees Prichard, sometimes Vicar of Llandovery, in Carmarthen Shire. Whereunto is added The Strange but True Narrative of the Chief Things, spoken and acted, by an unclean Spirit at Macon. Translated out of French into English, by Dr. Peter Du Moulin, upon the desire of the Honourable Robert Boyle, Esquire. And now done into Welsh, by S. Hughes, of Swansey.—London, Printed by Tho. Dawks, his Majeste's British Printer. Sold by Enoch Prosser, at the Rose and Crown in Sweeting Rents, at the East End of the Royal Exchange. 1681. The Price, bound, 2s. 6d."

Mewn cyssylltiad â hwn, yn yr argraphiad sydd yn ein meddiant ni, y mae'r cyfansoddiadau byrion canlynol:—

"Dav Gymro yn Taring, yn Bell o'i Gwlad, Ac yn ymgyfwrdd ar fynydd, yn chwedleua am a welson ac a glywson ynghylch consurwyr, rheib-wyr, dewiniaid a'r fath."

Y mae hwn wedi ei dudalenu ynglŷn â'r "Ganwyll," ac yn cyrraedd o'r tudalen 457 hyd 468, sef 12 tudalen. Ymddiddan ydyw rhwng Tudyr a Gronw, yn erbyn "consurwyr, rheib-wyr, a dewiniaid," y rhai oedd yn uchel iawn eu bri ynghyfrif pob dosparth o'r genedl yn amser S. Hughes, ac yn hir ar ol hyny, ac i'r sawl y telid arian lawer gan y bobl am adrodd a brudio iddynt liaws o "chwedlau gwneuthur." Dywed S. Hughes mai gwaith Robert Holand,§ "gynt gweinidog Llanddowror, yn Shir Gaer" [Fyrddin] yw y ddammeg yma ar gonsuriaeth, yr hon sy'n dechrau fel y canlyn:—

"*Tudyr.*

"Dydd-da a fo i Ronw a chroeso duw wrtho adref, fo a fu hir gennyf (a minne yn ddiarth ymma) am eich gweled, a cael peth gwybodaeth gennych am yr hyn a glywais yn yn darllen yn llyfr y diharebion,|| lle y mae dihareb yn son am fwrw cath i'r cythrel,¶ pa beth oedd feddwl y neb a ddywad hynny yn gyntaf?

* Y mae'n dra sicr mai Henry Maurice, o Leyn, sir Gaernarfon, am yr hwn y rhoddir hanes rhag llaw, oedd y gŵr enwog yma, yr hwn oedd aelod o Gymdeithas y Biblau a'r Traethodau, a sefydlwyd trwy ymdrech Gouge a Hughes yn 1675, fel y crybwyllwydd o'r blaen.

† Llyfr. y Cymry, t. 213–4.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 213, nod. ||.

§ Gwel llyfr ii., pen. viii.

|| Y "Diarhebion" Cymreig yn ddïau a olygir yma, ac nid "Diarhebion Solomon." Yr oedd y Cymry gynt yn dra hoff o'u diarhebion, ac nid gwaeth pe bai yr oes hon hefyd yn gynnefinach â hwynt nag â'r chwedlau Seisnig diles y gwastreffir cymmaint o amser i'w darllen. Dywed y Dr. Richard Davies, Esgob Mynyw, yn ei epistol campus sydd o flaen Testament Salesbury, bod amryw o'n diarhebion ni wedi eu tynu "o berfedd yr scrythyr 'lan, ac o ganol Efengil Christ."

¶ Tybia rhai mai "bwrw *caeth* [nid *cath*] i gythraul," sydd gywir, a bod y ddihareb wedi ei chymmeryd oddi wrth arfer yr hen Dderw-

"Llythyr at y Darllenwyr," o waith S. Hughes, yn cynnwys 8 tudalen, yr hwn a ddechrau fel y canlyn:—

"*Ddarllenwyr cariadus*,

"Dymma i chwi stori wedi ei chyfieithu yn gymraeg, yn cynnwys ynddi gyfrif, ynghylch pethau rhyfeddol a wnaeth ac a ddywedodd Yspryd drwg, yn nhy gweinidog duwiol yn *Ffraingc*, wedi ei ddanfon ich plith ich cadarnhau chwi yn y Gwirionedd hwnw, sef, *Bôd Cythreuliaid;* mewn gobaith, mae po fwyaf y bo chwi wedi eich sefydlu yn y grediniaeth hon, mae mwy fydd eich gofal chwi ymma, i ochelyd profedigaethe yr ysprydion melltigedig hyn, rhag ofn i Dduw eich taflu chwi i uffern, i fyw gyda nhwy ar ol hyn."

Yna olrhain yr ysgrifenydd doniol hanes yr ysprydion drwg yn bur fanwl trwy yr Ysgrythyrau, a therfyna fel hyn:—

"Myfi a glywais stori am wr a ddeffrodd o farw i fyw, a dywedyd o hono fo y geiriau hyn, 'Nid oes neb yn credu, Nid oes neb yn credu, Nid oes neb yn credu:' A phan y gofynwyd iddo Beth oedd yr hyn nad oedd neb yn ei gredu; Fo attebodd, 'Nid oes neb yn credu, mor Fanol y mae Duw yn Holi, mor Gyfiawn y mae Duw yn Barnu, ac mor Dosted y mae Duw yn Cospi.' Ond yr wyfi'n cofio yr hyn a ddywedodd Abraham wrth Difes, Oni wrandawant ar Moses a'r Prophwydi, (hynny yw ar y scrythyrau a scrifenwyd gan Moses a'r Prophwydi) ni chredant chwaith, pe codei un oddi wrth y meirw, Luc 16. 31. Meddyliwch am hyn a Duw a roddo i chwi Ddeall ym mhob peth. Bydd-wch wych, yr wyfi 'n gorphwys

"Eich Gwasanaethwr yn yr Aglwydd,
"STEPHEN HUGHES.

"*Abertawe y* 13. *o Fis Hydref*, 1680."

Yn nesaf, dechrau yr "Adroddiad Cywir," yn cynnwys hanes fanwl o'r ystrangciau a chwareuodd, a'r chwedlau a adroddodd yr "Ysbryd Aflan," yn nhŷ Francis Pereaud, o'r 14ydd o Fedi, 1612, hyd y 25med o Dachwedd yr un flwyddyn; ac y mae'n ddiammau genym y credai Stephen Hughes y chwedl, ac y gwnai wir les i'w gydwladwyr. Pe amgen, ni buasai byth yn ei chyfieithu i'r Gymraeg, ac yn ei chyhoeddi. Cyflwynir yr holl lyfr, sef "Canwyll y Cymru," y "Ddau Gymro yn Taring yn bell o'i gwlad," a'r "Adroddiad Cywir," gan Stephen Hughes, i Thomas Manwering, gorwyr y "Ficar Prichard," yr hwn gyflwyniad a ddechrau fel hyn:—

"*Anrhydeddus Syr*,

"Un o fendithion mawr yr Arglwydd Dduw i ddynion ar y ddaiar, ydyw danfon iw mysc hwynt weinidogion ffyddlon, sef rhai ac a fyddo, nid yn unic yn pregethu athrawiaeth dda, eithr hefyd yn rhoddi siampl dda iw gwrandawyr, mewn ymarweddiad duwiol sobr, a chyfiawn, canys trwy weinidogaeth y cyfryw rai yn gyffredinol, y mae Duw yn rhoddi i bobl wybodaeth iachusol o hono ei hun, ffydd yn Grist, edifeirwch am bechod, a newydddeb buchedd, heb yr hyn ni ddichon neb fod yn gadwedig.

"Os cafas rhai erioed y fendith hon, plwyfolion Llanddyfri, Llanfair ar Bryn, a Llanedi, a'i cawsant hi (pe medrasent hwy yn ei dydd wneuthur defnydd da o honi) pan danfonodd Duw attynt y parchedig Mr. Rees Prichard, i fod yn weinidog iddynt. Canys ni bu dim o'i ran ef yn ôl, na thrwy bregethu, na thrwy siampl dda, i geisio i troi nhwy at Dduw trwy Jesu Grist, fel y byddent cadwedig.

"Trueni mawr ydyw, na buasse dull ei fywyd bendigedig ef wedi ei ossod allan mewn print,* gan rai gwyr duwiol dyscedig, y rhai oeddynt yn ei nabod ef, fel y mae bywydau llaweroedd o weinidogion grassol, mewn amryw leoedd, wedi ei gossod allan er siampl i eraill.

"Rwi'n casclu mewn rhan oddiwrth ei waith ef yn y llyfr hwn, ac mewn rhan oddiwrth yr hyn a glywais i am dano, o eneie rhai a ellid ei coelio, fod Mr. Prichard yn briod da, yn dâd da, yn feistr da, yn weinidog da, yn wladwr da, ac yn Gristion da, trwy y gras a'r donie mawr a dderbyniodd efe oddiwrth y Goruchaf Dduw." . .

Terfyna y cyflwyniad doniol yma fel y canlyn:—

"Ac yn awr, o herwydd y dichon llyfre da helpu peth tuagat iechydwriaeth eneidie pobl, mi ddeisyfaf arnoch chwi (ar ôl pwyso'r matter yn araf) i ddanfon papyre (or oes dim yn eich dwylo chwi) at ryw weinidog duwiol a dyscedig (y sawl a fynnoch chwi) i gael ei farn ef arnynt, fel y gellir eu printio hwynt mewn amser er daioni i'r wlad, o bernir hynny'n gymmwys: y mae Christ ein Harglwydd yn addo gobrwyo (oi ras) y sawl a roddo elusen i gyrph ei bobl ef; (pe bae hynny ond cwppaniaid o ddwfr oer). *Ac oni obrwya efe yn fwy o lawer y sawl a roddo elusen iw heneidie hwynt.* Ac elusen ir enaid yw gossod llyfr da yn llaw dyn, i cyfarwyddo fe ym matterion ei iechydwriaeth. Os dichon gwr wneuthur llesad i eraill, (yn enwedig i eneidie pobl) pan y gwnelo fe hynny iddynt, fe fydd y peth yn fatter o ogoniant a chymtfordd iddo: Ond ni bydd e felly i neb o honom, os esceuluswn ni wneuthur y daioni a allem ei wneuthur, i unrhyw enaid pwy bynag; ond mwy o lawer os esceuluswn wneuthur felly i wlad gyfan; nid i son ymhellach, nid allwn ni roddi dim cyfrif da i Jesu Christ ryw ddydd am y cyfryw esceulusdra.

"Os chwychwi, yr hwn sydd gangen wedi tyfu allan o wyr Eglwysig cyfrifol, sef o'r anrhydeddus Escob Manering, ar yr un ochor, ac o'r parchedig Mr. Prichard, ar yr ochor arall, ni wrendy ar y dymuniade onest, y mae gweinidogion yn gostyngedig yn ei ossod o'ch blaen chwi, er daioni ir wlad yn gyffredinol, ac nid ar amcan yn y byd, i geisio ennill iddynt eu hunain (fel y mae Duw yn dyst) os chwychwi meddaf ni wrendy, pwy a wrendy arnom.

"Rhynged bodd i chwi bardynu fy eondra am helaethrwydd i; a derbyniwch hyn i gyd mi attolygaf arnoch, megis arwydd o gariad at ein gwlad ac o'r parch hynny, ar sydd yn ddyledus i chwithe, anrhydeddus Syr.

"Eich gwasanaethwr gostyngedig,
"STEPHEN HUGHES.

"*Broad street yn* Llundain,
y 29. o *Fis Tachwedd*, 1680."

Dengys y difyniadau dyddorus blaenorol bod S. Hughes yn Abertawe ar y 13ydd o Hydref y flwyddyn yna, ac yn Llundain ymhen ychydig gyd â mis wedyn. Yr achos ei fod yn awr yn Llundain, fel y gellir casglu, oedd er mwyn "diwygio'r preint-wasg," gan y dichon bod Charles Edwards yn rhy brysur ar y pryd yn edrych dros

* Gwel llyfr iii., pen. xi.

gyhoeddiad ei "Wyddorion Naturiol," "Llyfr y Resolusion," a'i "Fatherly Instructions."

Y tro nesaf y cyfarfyddwn â Stephen Hughes mewn cyssylltiad â'r wasg, hyd y gallwn ganfod, ydyw ynglŷn â'r llyfr canlynol:—

"Taith neu Siwrnai y Pererin, tan Rith neu Gyffelybiaeth Breuddwyd. Yn yr hwn y dangosir, i. Y modd y mae Pechadur yn Cychwyn, neu yn Dechreu ei Siwrnai, o'r Byd hwn tua'r Nefoedd. ii. Y Peryglon y mae fo'n cyfarfod âg hwynt, yn ei Daith. iii. Ei Ddyfodiad o'r diwedd i'r Wlad ddymunol, neu'r Nefoedd, mewn Diogelwch.—Wedi ei Lisenso gan R. Midgley, y 23 o fis Tachwedd, 1686. Printiedig yn Llundain gan J. Richardson, yn y flwyddyn 1688."

Gwelir y bu'r llyfr hwn gryn ddwy flynedd ar ol cael ei "lisenso," cyn cael ei brintio. Math ar rydd gyficithiad, neu aralleiriad ydyw y llyfr hwn o "Daith y Pererin," gan John Bunyan; ac yn y "Llythyr at y Darllenydd" sydd ar ei ddechrau, dywed Stephen Hughes fel y canlyn:—

"Fy anwyl Gyd-wladwyr,—Yr wyfi 'n danfon yn awr lyfr i'ch mysg, a fu offeryn i wneuthur llawer o ddaioni i fagad o bobl, y sydd yn deall Saesneg; yr hwn a gyfieithwyd, megis i'r Ffrangeg a'r Dwtsh, felly hefyd yr-wan i'r Gymraeg; mewn gobaith y bydd e buddiol (trwy fendith yr Arglwydd) naill ai i weithio grâs lle mae'n niffyg; neu yntau i angwanegu grâs, lle y mae e eisus.

"Gwir yw fod yn y llyfr yma blisgyn a chnewllyn; ac am hyny, rhaid ei ddarllen e'n fynych trosto; fal y tori'r plisgin (sef, deall y damhegion, y sy'n rhedeg trwyddo) ac felly y canfod y cnewllyn (y matter cynnwysedig yn y cyffelybiaethau) megis ymborth melus a iachusol.

"Y mae'r cyfieithiad o waith pedwar o honom, sef gwr bonheddig o Wynedd (yn yr hanner olaf o'r llyfr); gwr o Benkader; ysgolhaig ieuangc a ddaeth gyda mi i'r ddinas hon; ac om gwaith fy hunan (y rhan fwyaf o honaw) gan sefyll ar yscwyddau y lleill, fel y gallwn ganfod ym-mhellach nag hwynt hwy.

"Ni chedwais i eiriau, ond ystyr a meddwl yr awdwr (mewn amryw fannau) yn y cyfieithiad: Canys fal y gwyr y dyscedig yn ddigon da, nid oes vn llyfr a gyfieithir, o vn iaith i'r llall, air yng air, a dâl ei ddarllain; oblegit bod phrases (ymadroddion) a geiriau yn brydferth mewn vn iaith y rhai nid ydynt felly mewn iaith arall.

"Mi a gedwais allan ail-adroddiad rhyw bethau, ar a oedd yn y llyfr Saesneg; canys wedi eu gosod hwy ar lawr vnwaith, beth oedd raid eu mynegi nhw drachefn.

"Mi angwanegais ym mron *sheet* at y llyfr, ynghylch mynediad y Pererin tua Mynydd Sinai; ynghyd â llawer o egluriadau eraill; fal y gellit ei ddeall e'n well: Ac mi adawaf y dyscedig i farnu, pa vn nad yw 'r llyfr yma yn hawddach i'w ddirnad a'i ddeall na'r llyfr Saesneg. Ac fel na byddem ni yn farbariaid y naill i'r llall, mi a agorais eiriau gwyr Gwynedd â'n geiriau ni o Ddeheubarth; a'n geiriau ninne âi geiriau nhwythau."

Yna, wedi gwneuthur amryw sylwadau cymmeradwyol a gocheliadol ynghylch gwahanol lyfrau a gyhoeddid yn ei oes, terfyna y cyfieithydd medrus fel hyn:—

"Eich Gwasanaethwr yn yr Arglwydd. S. H.
"*Llundain* y 10 o *Ionawr* 168⅞."

Dyma'r tro diweddaf y cyfarfyddwn ag enw yr enwog, y duwiol, a'r llafurus Stephen Hughes mewn cyssylltiad â llyfrau buddiol i'w gydgenedl, achos ysprydol y rhai oedd mor agos at ei galon. Effeithiodd ei lafur amrywiol a pharhaus o'r diwedd i amharu ei iechyd, ac, fel y tybir, i fyrhau ei ddyddiau. Amlygai bryder mawr yn fynych rhag i'w feddwl ddyrysu pan ar ei wely angau, ac iddo ddigwydd dywedyd rhywbeth yn isel am grefydd; a gweddïai yn fynych, gan ddywedyd, "Arglwydd, cofia ni yn awr ein hangau, ac na âd ni i ni ein hunain i'th ddianrhydeddu di yn ein munudau olaf." Rhyngodd bodd i Dduw wrando ei weddïau, canys wedi trefnu ei dŷ, yn ol y cyfarwyddyd dwyfol, rhoddi rhyw gyfarwyddiadau ynghylch yr eglwys y perthynai iddi, a chyflwyno ei deulu i ofal tadol ei Dduw, trodd ei wyneb at y pared, ac efe yn y llawn fwynhâd o'i synhwyrau, a thangnefedd Duw yn llonaid ei enaid, a bu farw yn y fan, yn dawel ac esmwyth, yn ystod y flwyddyn 1688, yn lled fuan, fel yr ymddengys, ar ol cyhoeddi y llyfr a nodwyd ddiweddaf. Ni chyfodwyd cofadail ar lanerch ei hir orphwysfa; ond y mae'r cannoedd eglwysi Annibynol llewyrchus a gasglwyd trwy ei lafur pregethwrol yn sir Frycheiniog, a'r llyfrau gwerthfawr a gyhoeddwyd ganddo, yn gofadeiliau mwy anrhydeddus a pharhaus nag y gallai na maen na mynor fod ar "fan fechan ei fedd," ac y mae'r cwbl yn profi ei fod yn wir deilwng o gael ei restru ymhlith y goreugwyr o "Enwogion y Ffydd."*

---

## PENNOD XV.

### MORGAN LLWYD O WYNEDD.

CRYBWYLLWYD, fwy nag unwaith, y bu'r Dr. Lewis Edwards, o'r Bala, mor garedig a chaniatâu i ni wneuthur y defnydd a farnom orau o'i ysgrifeniadau galluog ef sydd yn ei "Draethodau Llenyddol;" am hyny dechreuwn ein pennod ar MORGAN LLWYD O WYNEDD gyd âg arweiniad y Dr. Edwards i "Ysgrifeniadau Morgan Llwyd," lle y dywed fel y canlyn:—

"Y mae yn gysur genym weled cymmaint o lyfrau newyddion yn cael eu hargraphu yng Nghymru y dyddiau hyn, nid yn unig er mwyn yr argraphwyr eu hunain, ond hefyd, ac yn benaf, er mwyn y dorf o ddarllenwyr, yr hon, y mae lle i feddwl, sydd o hyd yn cynhyddu mewn archwaeth dda a gwybodaeth fuddiol, yn gystal ag mewn

* Calamy's Acc., vol. ii., pp. 718–20; Hanes Crefydd, D. Peter, argr. 1816, t. 578; Williams's Em. Welshm., p. 226; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 184, 220–223, 248–253; En. Cym., I. F., t. 526; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 353.

Digitized by Google

rhifedi. Nid ydym ychwaith yn grwgnach o herwydd bod y llyfrau gorau yn iaith y Saeson yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Y mae'n rhaid addef fod ganddynt hwy amryw gyfansoddiadau nad oes genym ni ddim i'w gystadlu â hwynt. Hoff yw genym ein gwlad â'n hen iaith odidog, ond hoffach yw gwirionedd. Yr ydym yn elynion marwol i bob rhagfarn genedlaethol a chrefyddol. Ond nid anfuddiol fyddai cofio y dichon fod rhagfarn yn erbyn y Gymraeg, yn gystal ag o'i phlaid; ac nad yw y ffaith fod llyfr wedi ei ysgrifenu yn iaith Hengist yn ddigon i brofi ei fod yn werth i'w gyfieithu; neu, o'r tu arall, ei fod o angenrheidrwydd yn anheilwng o dderbyniad o herwydd darfod ei fyfyrio a'i gyfansoddi rhwng bryniau creigiog Cymru. Yr ydym yn cofio clywed am dyddynwr parchus yn sir Ddinbych, yr hwn, pan yn cychwyn i'w daith i un o wledydd breision Lloegr, a dderbyniodd orchymyn pennodol oddi wrth ei briod serchus i brynu y darn gorau a fedrid gael am arian o ryw ymborth neillduol, yr hwn a ystyrir gan lawer yn anhebgorol fel attodiad ar ddiwedd ciniaw. Nid rhaid ei enwi yma. Digon yw dywedyd bod sir Gaerlleon yn enwog am dano er ys blynyddau, a'i fod yn rhan arbenig o'r hyn a gynhwysir yn y gair rhagorol hwnw, *enllyn;* yr hwn air, wrth fyned heibio, nid oes gan y Saeson yr un yn eu hiaith yn cyfatteb iddo. Wele, yr ymborth gorchymynedig a brynwyd, ac a ddygwyd adref yn ddïogel. Mawr oedd y ganmoliaeth a roddid iddo gan y dïeithriaid a ddigwyddent gyfranogi o hono, a llïosog oedd yr holiadau am y lle y cafwyd ef, a'r pris a roddwyd am dano. Ond ryw ddiwrnod, tarawai y gyllell wrth ryw sylwedd caled yn ei ganol; ac erbyn edrych, beth oedd yno ond allwedd fechan, yr hon yr oedd gwraig y tŷ wedi ei cholli amryw fisoedd cyn hyny. Na ddyweded neb fod yr hanesyn yma yn rhy wael i ymddangos yn y 'Traethodydd,'* o blegid y mae yn ddisgrifiad cywir o'r dull yr ymddygir yn rhy gyffredin at gyfansoddiadau o darddiad Cymreig. Dyma ysgrifeniadau Morgan Llwyd yn llawn o athrylith wreiddiol a gwirioneddol, ac etto nid oes un o bob cant o'r Cymry yn gwybod dim am danynt. Er holi llawer, methasom gael nemmawr ychwaneg o'i hanes nag a gynhwysir yn 'Nrych yr Amseroedd,' gan Robert Jones, Rhos-lan."†

Y dystiolaeth hon sydd ry wir: ychydig iawn ychwaneg o'i hanes nag a geir yn yr hen "Ddrych" cymmeradwy a allasom ninnau ei chael, ar ol hir a dyfal chwilio. Y cyfeiriad hynaf ato, hyd y canfyddasom, sydd yn y "Ddeddf er gwell Lledeuniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," a amserwyd yr 22fed o Chwefror, 1649, yn yr hon y mae ei enw ymhlith y Profyddion.‡ Arwydda hyn ar unwaith ei fod yn ei flodau pan wnaed y ddeddf grybwylledig. Y cyfeiriad nesaf ato, o ran oedran, cyn belled ag y gallwn weled, a geir yn y llyfr Saesneg a elwir "A Winding Sheet for Mr. Baxter's Dead," a ysgrifenwyd gan un o'i gydoeswyr galluog, ac a argraffwyd yn Llundain, yn 1685. Yn y llyfr hwnw dywedir am dano fel hyn:—

"Yr oedd Mr. Morgan Llwyd yn meddu y fath gymmeriad ag y byddai yn anhawdd dywedyd dim yn rhy dda ac yn rhy fawr am dano. Yr oedd ei gariad at ei gydwladwyr yn angerddol, i achos eneidiau y rhai y llwyr ymgyssegrodd, ac yr oedd yn hynod gymmwys i'r gwaith, o blegid yr oedd yn un o'r areithwyr Cymreig galluocaf a fu erioed yn pregethu y gair; ac nid oedd hyny yn ddim attaliad i'w rwyddineb a'i hyawdledd fel areithiwr yn yr iaith Saesneg. Yr oedd yn anghyffredin o ran cyfoeth ei ddychymmyg, gafaelgarwch ei gof, ac addfedrwydd cynnar ei holl alluoedd, canys nid oedd dros 40 oed pan y bu farw. Yr oedd yn enwog o blegid ei haelfrydedd a'i gariad, y rhai nis cyfyngai at bleidiau a sectau; ac yr oedd yn nodedig am sancteiddrwydd ei fuchedd, ei ymroddiad diflino i'w fyfyrdodau, ei barodrwydd i dynu addysg ysprydol oddi wrth bob peth, a'i haelioni i'r tlodion. Yr oedd yn dra gofalus am addysgu ei blant yn grefyddol, ac yr oedd ei ddifrifoldeb, yr hwn nid oedd nac arwynebol na sarug, mor wirioneddol a naturiol fel y cynhyrchai fath o arswyd ymhob cymdeithas yr elai iddi; ac yr oedd urddas ei ymddangosiad yn yr areithfa, yr hwn nid oedd gelfyddydol, ond perffaith naturiol, nefol, ac ysprydol, yn ddigyffelyb. Ar fyr, nid mewn mesur cyffredin yr oedd unrhyw beth da ynddo, ond yr oedd ei holl ragorieuthau yn dra anghyffredin. Y fath ŵr oedd y Mr. Morgan Llwyd hwn; ac yn sicr nis gallasai y fath un fod yn ddŷn mor beryglus ag yr athrodir ef gan Baxter. Na! yr oedd efe o fendith i'r byd mewn llawer ffordd; ond erioed nis drygodd ac nis niweidiodd ef o gwbl, oddi eithr mewn un peth, ac nid oedd ganddo ef help am hyny, sef trwy ei adael yn rhy fuan."§

Coll mawr y difyniad hynafol yna ydyw ei ddiffyg o'r flwyddyn y bu farw Morgan Llwyd. Pa wedd bynag, y mae yn y difyniad amryw awgrymiadau gwir werthfawr, ar wahân i'r ganmoliaeth uchel a ddyry i Morgan Llwyd yn bersonol. Dywedir yma, fel y gwelsom, nad oedd "dros 40 oed pan y bu farw." Dywed Joshua Thomas—"Mae gennyfi dri llythyr o waith llaw Morgan Llwyd ei hun, y rhai a ddanfonodd ef at ei fam. . . . . Tebygwn mai mam ei wraig ydoedd, canys mewn llythyr yn 1657, mae'n dywedyd, 'Mae i chwi ŵyr fechan yma, a'i henw yw *Elizabeth Lloyd*—Canwyll a ennynodd TAD bendigedig yr ysprydoedd, &c. Ond am eich merch, fy ngwraig annwyl, bu flin iawn arni y tro yma.—Cyssur a ddaw os medrwn ddisgwyl am dano, a bod o feddwl llonydd, a gadael i Dduw weithio.' Mae'r trydydd llythyr wedi ei amseru 27, 5 mis, 1558 [=y 27fed o Fai, 1658]. Mae'n debyg na bu ef hîr yn fyw wedi ysgrifenu y llythyr hwn, canys y mae *Dr. Calamy*‖ yn dywedyd i Mr. Arbrose Moston [Mostyn] ddyfod i Wrexham o gylch 1659, ac mai efe oedd y pregethwr sefydledig yno ne's dychwelwyd y brenin ar fyr wed'yn pan y gorfu ar Mr. Moston droi ymaith a rhoi y lle i'r hwn a droisid allan gynt am ei anghymhwysder."¶

* Yn y Traethodydd am 1848 yr ymddangosodd yr ysgrif hon gyntaf.

† Traeth. Llenyddol y Dr. Edwards, t. 133.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 501-5.

§ A Winding Sheet for Mr. Baxter's Dead, pp. 11, 12.

‖ Ejected Ministers, 2nd Edition, p. 714.

¶ Han. y Bedyddwyr, t. 145-6.

Digitized by Google

Heb law y profir yma bod Morgan Llwyd yn fyw ym mis Mai, 1658, ac y tybir iddo farw yn lled fuan wedyn, profir hefyd bod ganddo wraig a phlant bychain y pryd hyny; ac y mae'r hen ddifyniad o'r "Winding Sheet" yn profi yr un peth, ond bod hwnw yn ddiamseriad. Y Dr. Richards, o Lynn, ydyw yr hynaf, y mae ei waith wrth law genym, sy'n nodi blwyddyn marwolaeth Morgan Llwyd, yr hwn a ddywed—"Ymddengys y bu farw yn gynnar yn 1659, a dilynwyd ef yn y weinidogaeth yng Ngwrecsam gan Mr. Ambrose Mostyn."* Dywed y Dr. T. Rees "y bu farw y gŵr enwog hwn ar y 3ydd o Fehefin, 1659, ac y claddwyd ef yng Ngwrecsam;"† ond, ysywaeth, nid yw yn nodi ei awdurdod dros yr amseriad manwl yma.

Os bu efe farw yr amser a nodwyd, "heb fod dros 40 oed," ganwyd ef yn y flwyddyn 1619. Y mae ei addysg, etto, a'i dröedigaeth at grefydd, dan lenni cyffelyb o dywyllwch; ond un peth sydd sicr, yn ol tystiolaeth yr hen "Winding Sheet," sef ei fod yn alluog i areithio yn Saesneg yn rhwydd a hyawdl, yr hyn a arwydda ei fod wedi cael addysg dda. Dywed awduron "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru" y bernir "iddo gael ei ddychwelyd at yr Arglwydd yn llangc ieuangc, pan yn yr ysgol yn Wrexham, dan weinidogaeth Walter Cradoc. Yr oedd yn ddŷn o alluoedd meddyliol anghyffredin, ac yn ysgolhaig o radd uchel iawn. Gwelsom dri llythyr a ysgrifenwyd ganddo at Mr. Richard Baxter. Y maent wedi eu cyfansoddi mewn Saesneg classurol, a'r llawysgrifen yn un o'r rhai egluraf a thlysaf a welsom erioed. Gallem feddwl wrth ei law-ysgrifen ei fod wedi cael ei ddwyn i fynu yn gyfreithiwr."

Ymddengys yn bur amlwg mai at ei dröedigaeth, a'i brofiadau hyfryd ar ol hyny, y cyfeiria y ddwy gân o'i waith a gafodd y Proffeswr Peter, o'r Bala, yn yr "Amgueddfa Brydeinig," y rhai a gyhoeddwyd ganddo yn 1875, ac a argraphwyd gan H. Evans, Bala. Gan fod y caneuon hyny yn esamplau nodedig o ddawn farddonol, cystal ag o syniadau duwiol a chyfriniol Morgan Llwyd, ac na chyhoeddodd y Proffeswr ond ychydig gopïau at wasanaeth ei gyfeillion, credir y bydd yn hoff gan y darllenydd eu cael yma, fel yr ysgrifenwyd hwy gan yr awdur ei hunan. Ymddengys mai'r hon a gyfleodd y Proffeswr yn olaf sy'n cyfeirio yn fwyaf uniongyrchol at dröedigaeth yr awdur; am hyny dodwn honno ymleunaf yma, yr hon sydd fel hyn:—

**BYWYD YR AWDUR A YSGRIFENWYD GANTHO EF EI HUN, AC A DDANFONWYD I'R PARCH. THOMAS WILLIAMS, AWDUR YR OES-LYFR.**

1 YM mynydd yr Olewydd trwy lais
Y cefais enedigaeth,
Mynydd llygredig yn fy ngwlad,
Dechreuad fy naturiaeth.

2 Ym mynydd Sinai, gwedi hyn,
Mewn dychryn y lletyais,
Dan fellt y gyfraith bum yn hir,
Ar maelawr‡ y dihunais.

3 Ar fynydd Seion gwelais hedd,
Trugaredd, a hyfrydwch,
Wrth fyw trwy ffydd ar Dduw a'n gwnaeth,
Trwy Grist mewn hiraeth heddwch.

4 I fynydd Gilboa rhaid nesâu,
Mewn arfau a rhyfeloedd,
Lle bu pawb yn gwneuthur plaid
Yn daabaid yn eu hoesoedd.

5 Yn olaf, daethum i roi tro
I fynydd Nebo hardd-deg,
Oddiyno gwelais Ganaan wych,
Lle caf wrth edrych 'hedeg.

MORGAN LLWYD A'I GWNAETH.

Nid yw y gân arall, yr hon a ganlyn, wedi ei hysgrifenu mor ofalus a'r uchod; ond y mae'r un ddelw ac argraph ar y naill a'r llall. Dodwn hi yma fel y mae gan y Proff. Peter:—

1 FY enaid cyfod can i Dduw§
i'th wreiddyn byw ath ffynnon
Ysgwyd ymaith yr holl lwch
Y tristwch a'r amheuon.

2 Dod heibio'r holl feddian' gwael
a fynent gael dy lethu
nerth Duw a gododd Grist yn glau
a'th gyfyd dithau i fyny.

3 Amod a wnaeth a'th di drwy lw
Ni fyn moth fwrw ymaith
o rwydau diffaith kipiodd di
ond nid i'th golli eilwaith.

4 Yn fwyn feth alwodd di oth wlad||
Yn nhy dy dad feth ganfu
i ddangos ynot ei fab rhad
a'i gariad yn dy fagu.

5 Drwy barch ac amarch yn y byd
Drwy iechyd a doluriau
Drwy waethaf llawer drwy ffafr Duw
Di gei di fyw yn angau.

6 Er bod y byd a'r cnawd yn gryf
O can yn hyf i'r Arglwydd
Er gwaetha'r gelyn taerddrwg du
mae'n hedeg fry yn ebrwydd.

7 Duw a roes iti aden ffydd
fel hedydd cei ehedeg
i fyny at dy arglwydd Dad
i mewn i'r wlad oleudeg.

8 Llei mau distawrwydd byth heb gri
Lle mae goleuni disglair
Lle byth ni'th gyrredd neb oth gas
Lle mae iti blas a chadair.

9 Lle nid wrth yr haul yn hwy¶
na'r lleuad mwy yn ganwyll
Lle ni ddaw trwst na blin na bloedd
nag ofu ysbrydoedd tywyll.

10 Er bod y corph yn wael tros ben
bid dy enaid llawen hyfryd
di gei dy dyny cyn bo hir
Oddiyma i dir y bywyd.

11 Dy Dad a'th achub rhag pob drwg
i mewn fe'th ddwg i'r cysgod
Ai fab a ymddiddan ath di dy hun
ped tau pob dyn yn d'wrthod.

12 fy enaid paid a throi yn ol
i chware'n ffol a'r Arglwydd

* Cambro-Brit. Biog., p. 207.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 124; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 7.

‡ "Y mae T. W. yn sylwi ar *maelawr* mai tir gwastad a olyga; ond ai nid oes yma gyfeiriad hefyd at Maelawr, lle y saif Gwrecsam? A dichon fod cyfeiriad at wahanol fannau lle y bu yn trigiannu yn yr enwau eraill a fenthycia. Beth bynag am hyny, y mae'r cyfattebiad yn darawiadol rhwng ei grybwylliad am dano ei hunan yn dihuno ym Maelawr a'r traddodiad am ei dröedigaeth yng Ngwrecsam."—Proff. Peter.

§ "Ysgrifenwyd y gân yn orgraph afreolaidd yr 17fed ganrif, ond yn hytrach na cheisio ei chywiro, gwell genyf ei hargraphu yn hollol fel y mae yn yr ysgrif-lyfr. Nis gall y gwallau beri nemmawr anghyfleusdra i'r darllenydd, ond dichon i'r orgraph fod yn rhyw gymmorth i'r beirniad llenyddol."—Proff. Peter.

|| "Cyfeiriad at ei gartrefiad mewn gwlad ddïeithr."—Proff. Peter.

¶ "Tor mesur, o herwydd gadawiad allan y gair 'rhaid.'"—Proff. Peter.

Digitized by Google

fy enaid deffro a bydd fyw
  yn wllis Duw yn ebrwydd.

13 Fy enaid nac anghofia'r gwir
  a'r nefol ddifyr gysur
di gefaist flas ar dduw ai ddydd
  hyn ynot sydd yn eglur.

14 Arglwydd dod sicrwydd dy fod di
  yn madde imi bob pechod
ac yn fy ngwisgo mewn gwisg wen
  mewn llawn a llawen gymod.

15 fy enaid etto can *
  i'th arglwydd glan sy'n aros
am gael dy gwmni yn y nef
  byth gydag ef mewn diddos.

16 Lle ni ddaw byth y cwestiwn pam
  na chwyn na cham na chwmwl
lle nid oes ofal am y byd
  na phwys na phenyd meddwl

17 Lle nid oes hiraeth am un peth
  na mall na meth ar henwr
Lle mae Duw'r tad oll oll i gyd
  nid rhaid mwy newid cyflwr.

18 Lle mae Creawdwr a'i wedd
  yn rhyfedd yn discleirio
byth yn llynku yr amser hwn
  fel mor yr afon iddo.

19 Lle ni chofir mwy mor drwg
  na'r cilwg cas gwenwynllyd
na gaiaf oer na ffocthni haf
  na chlwyf na chlaf na chlefyd

20 Lle mae tragwyddol ddydd heb nos
  nag achos i ochneidio
na gwae na gwaedd na gweddi chwaith
  na thy na thaith na blino.

21 Lle ni bydd son am nwyfus nerth
  na thrafferth meddwl meddaf
na llyfr na phin na scrifen chwaith †
  a hon yw'r daith a dreiglaf.

22 Lle ni l oes diosg dillad mwy
  nai gwisgo nhwy am danaf
lle nid oes chwys na chwant na chur
  na gwŷn na gwewyr arnaf.

23 Lle mae llawenydd heb ddim prydd
  na gwaith i ffydd i'w wneuthur
Lle mae creadur yn bur iawn—
  yn llon yn llawn o gysur.

24 Lle byth ni flinwn ar y'n cân
  i'n brenin glan anfeidrol
lle nid rhaid wrth dafodau hael
  na thelyn wael naturiol.

25 Lle'r wyneb wyneb welir duw
  ymhob peth byw diddiwedd
lle nid oes temlau i'n prudd-hau
  na synagogau gwagedd.

26 na phechod mwy na chwilydd maith
  o flaen y saith ysprydol
na sen na son am sain y sydd
  nag eisiau budd tragwyddol.

27 na bara'r byd na berw'r bwyd
  na rhaid na rhwyd na rhedfa
nag aur nag arian bethau gwael
  na ffris am gael eu coffa.

28 na rhyfel mwy na phla na phlaid
  nag anifeiliaid anllad
na moch nag arth na chyfarth cwn
  na swn na swn na siarad.

29 A hyn i gyd yn enw yn cun
  yngwaelod dyn a'i ddefnydd
mae hyn i gyd yn agos iawn
  mewn lle mewn llawn‡ mewn llonydd.

30 mewn dyn mwyn doeth nid cun aur coeth
  caiff dranoeth baradwys
di dde di ddarn di ddwl di ddig
  A hon yw'r unig Eglwys.

MORGAN LLOYD A'I KANT.

Am ei syniadau crefyddol, dywed awduron "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru" (cyf. iv., t. 7) fel hyn:—

"'Yr oedd yn hollol iachus yn ei olygiadau ar athrawiaethau yr efengyl; ond o herwydd ei ddull neillduol o feddwl, ac o osod allan ei feddyliau, y mae'n ymddangos bod mwy o gydymdeimlad rhyngddo â'r Crynwyr na neb arall o'i gydoeswyr yn y weinidogaeth yng Nghymru.' Ond y Dr. Richards, o Lynn, a ddywed—'Pan ysgrifenodd efe y llyfr hwnw [y 'Tri Aderyn'], nid oedd ganddo hawl bur eglur i'r hyn a elwir uniongred (orthodoxy). O berthynas i'r Drindod, ymddengys ei fod yn llawer nes i'r heretic Sabelius nag i'r sant Athanasius. Gyd â golwg ar Ragarfeuthiad, ehangder marwolaeth Crist, a thrugaredd, neu dueddgarwch Duw tu ag at ddynol ryw, y mae ei iaith yn amlwg wrth-Galfinaidd. Ac am Fedydd Dwfr, ymddengys ei fod ef, fel y Crynwyr, yn cyfyngu hwnw i weinidogaeth Ioan (megis y dywedir hefyd bod rhai o'i frodyr yn y Deheubarth yn gwneuthur), er yr adroddwyd y meddyliodd yn wahanol wedyn ar y pwngc hwnw, ac y daeth yn Fedyddiwr.'§ Poed hyny fel y byddo, y mae ei ddull a'i iaith yn hwnw ['Llyfr y Tri Aderyn'], ac mewn rhai o'i lyfrau eraill, yn meddu cydweddiad amlwg â iaith a dull y Crynwyr. Pe gellid profi ddarfod i George Fox, a'i frodyr, ymweled rywbryd â M. Llwyd, neu gael cydymddiddan âg ef yn adeg foreuol ei oes, gellid penderfynu yn ddiogel, fe allai, iddynt gael nid ychydig o'u syniadau neillduol oddi wrth ef. Y mae'r tebygrwydd, o leiaf, mewn llawer ystyr, yn gryf a nodedig; ond y mae'r penderfyniad yn amheus."||

Heb law bod golygiadau Morgan Llwyd yn wahanol i'r rhan fwyaf o grefyddwyr ei oes yn y pethau a nodwyd, ymddengys hefyd ei fod ef, wrth ddarllen a myfyrio y Testament Newydd, wedi deall bod ymddangosiad y Gwaredwr bendigedig yn y byd wedi cyssegru pob llanerch o hono yn gyfartal gymmwys i ymgynnull yn ei enw Ef,¶ ac i addoli Duw "mewn yspryd a gwir-

* "Eglur yw fod yma air wedi ei adael allan, 'cyfod,' fe allai."—Proff. Peter.

† "Gall fod yma, ac mewn ymadroddion eraill, gyfeiriad at ei lafur llenyddol."—Proff. Peter.

‡ "Dyma un o'r engreifftiau o'i ddefnyddiad o ansoddair yn lle enw."—Proff. Peter.

Y mae'r llinell yma hefyd, ynghyd âg amryw eraill, yn dangos bod Morgan Llwyd yn dra hoff o gynghanedd.—Gol.

§ Y mae Joshua Thomas yn dyfalu yn gyffelyb ar hyn, gan ddywedyd—"Mae rhai yn haeru mai Bedyddiwr oedd Mr. *Morgan Lloyd*, ac eraill yn dywedyd nad oedd. Mi a glywais iddo fyned i ryw le pell i'w fedyddio, ac na ddarfu iddo ddim hyspysu hyny yn Wrexham. Yn hyn nid wyf fi yn sicr. Barned y darllenydd fel y gwelo oreu. Yr oedd Mr. *Walter Cradoc*, Mr. *V. Powel*, a Mr. *M. Lloyd* yn wyr enwog ac egniol iawn yng Nghymru, yr oedd y cyntaf dros Fedydd plant, yr ail dros Fedydd y crediniol, beth bynag am y trydydd. Ond yr oeddynt dros gymmundeb ymhlith y duwiol, er na allent gytuno ymhob peth mewn barn."—Han. y Bedr., t. 146–7.

Fel hyn y dywed Morgan Llwyd ei hun am Fedydd—"Y mae bedydd adfyd, hwnw yw erledigaeth: y mae hefyd fedydd dyfrllyd, hwnw yw bedydd y Bedyddiwr gynt, yr hwn a basiodd fel seren forau. Gyd â hyny y mae bedydd tanllyd yspryd y gwyrthiau. Ond bedydd Crist yw'r un bedydd mawr, a hwnw yw'r dwfr nefol yn yr ailenedigaeth. Heb hwn, gwae ddyn! Eph. iv. 5. Arwydd o hwn oedd yr Arch yn y dwfr diluw. 1 Petr iii. 21. Ac fel yr oedd rhan o honi uwch law'r dwfr, a rhan is law, felly fe ddïoddefodd y Messiah yn y cnawd, ac fe a gyfiawnhawyd yn yr yspryd, a'i hiliogaeth ynddo. 1 Petr i. 18. Ac fel y cyfodwyd yr Arch uwch law bryniau, a'r anifeiliaid a'r dynion colledig; felly y mae'r seintiau ar y ddaear yn eistedd ym mharadwys yn y nefolion, fel yr oedd yr Ephesiaid ysprydol." Eph. ii. 6.—Llyfr y Tri Ader., t. 61–2.

Ac yn yr un llyfr (t. 82–3), efe a ddywed—"Am gred a bedydd dyfrllyd, nid yw hyn fwy na gwelltyn yn y domen, oni chei di gyd â hyn yr ailenedigaeth.'

Y mae'n amlwg, wrth hyn, nad oedd Morgan Llwyd yn ystyried "bedydd dyfrllyd" yn anhebgorol yn awr mewn un modd; eithr mai "bedydd y Bedyddiwr gynt," sef Ioan Fedyddiwr, oedd hwnw; ond mai y bedydd, "yr hwn sydd yr awr hon yn ein hachub ni, trwy adgyfodiad Iesu Grist," yw "ailenedigaeth," "ac nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd." Y mae'n amlwg hefyd yr ystyriai yr apostol Paul fod pregethu yn llawer pwysicach na "bedydd dyfrllyd:" 1 Cor. i. 12–17. Yr oedd Morgan Llwyd yn llawer tebycach, yn hyn, i'r Crynwyr a'r apostolion nag i'r caeth Fedyddwyr, sy'n rhoddi y fath bwys ar "fedydd dyfrllyd." Gwelir hefyd oddi wrth dystiolaeth Jos. Thomas bod Morgan Llwyd, fel Walter Cradoc a Vavasor Powel, y dynion mwyaf yn eu hoes, dros gymmundeb rhydd "ymhlith y duwiol, er na allent gytuno ymhob peth mewn barn;" yn yr hyn hefyd yr oedd efe yn gwbl wahanol ei syniadau i'r Bedyddwyr culfarn oedd dros gyfyngu y cymmun i rai oedd wedi eu bedyddio trwy drochiad yn unig.—Gol.

|| Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 200–1.

¶ Mat. xviii. 20.



Digitized by Google

ionedd;"* ac nad adeiladau coed a cherrig, o waith dwylaw dŷn, a elwir yn demlau, synagogau, capelau, a'r cyffelyb, yw teml Dduw mwyach, ond mai "y rhai a sancteiddiwyd yng Nghrist Iesu, a alwyd yn saint, gyd â phawb ag sydd yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist, ymhob man,"† yw "teml Dduw,"‡ "cyrph y rhai sydd yn deml i'r Yspryd Glân sydd ynddynt."§ Ond dyma ei eiriau ef ei hun ar y pwngc, yn "Llyfr y Tri Aderyn" (t. 108–112):—

"*Eryr.* Ond ni welaf fi etto un Eglwys bur i uno gyd â hi: nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un; ac er hyny y mae un, a hwnw, meddi, yw Crist. Ond dywed y gwir sydd dan y llen: onid yw'r Eglwysydd newyddion yma cynddrwg a'r Eglwysydd Plwyfol gynt?

"*Colomen.* Mi ddywedais o'r blaen fod llawer yn medru lleisio fel colomenod ac fel cigfrain|| hefyd. Y mae yn yr eglwysydd lawer o adar eraill: y mae'r wyddwalch, a'r fôr-wennol, a'r barcud, a'r gôg, a'r gwalch, a'r dylluan, a'r gogfran, a'r biogen, a'r gornchwigl, a'r ystlum, a'r crŷr [creyr], a'r nos-frân, a'r ful-frân,¶ a'r cyffelyb bobloedd a'r rhai hyn; wrth y gyfraith, adar aflan ydynt oll. Y mae hefyd yspryd y golomen yn eu mysg yn yr eglwysydd; ond y mae yspryd y byd yn taflu cerrig atti.**

"*Eryr.* Ond beth a ddywedi am yr ysguthanod, a'r cyffelyb rai, sydd yn debyg i chwi eich hunain?

"*Colomen.* Nid yw Moesen yn eu galw nhwy yn aflan, er bod gwahaniaeth. Nid wyf finnau yn eu barnu; ond yn dwyn ar gof nad sidan yw'r carth meinaf; nid aur pob peth disglair; nid Gilead yw Ephraim;†† nid Asdod yw Sion; ac nid gwiw nofio a boddi wrth y lan; nid gwell rhedeg a blino cyn diwedd;‡‡ nid nes dŷn er iddo gychwyn o'r Aipht, a chael ei ladd yn y diffeuthwch trwy anghrediniaeth.§§ Yr oedd gan Iachawdwr y byd rai ceraint a'i gwatwarent ef.|||| Mi ddywedais fod Duw yn rhodio trwy dair teml yn barod; sef, y Deml yng Nghaersalem, o waith Solomon,¶¶ a honno oedd dywyll i'r byd a disglair i'r cnawd; yr ail oedd Teml corph y Mab a ddinystriwyd, ac a gyfodwyd yn ogoneddus ysprydol;*** y drydydd oedd yr Eglwys wych ymhresennoldeb Duw gyd â'r Apostolion; a'r Eglwys nesaf yw Caersalem newydd,††† yr hon a gynnwys yr Hen Destament a'r Newydd, ac eiff tu hwnt i'r ddau.‡‡‡

"*Eryr.* Ond, yn benaf peth, dangos i mi beth yw'r bedwaredd Deml; canys mi welaf bawb agos wedi blino ar y temlau a'r gwasanaeth sydd etto.

"*Colomen.* Y Deml olaf yw Duw mewn dynion yn ymddangos, a dynion yn ymddangos yn ei enw yntau; pan fyddo dynion yn addoli Duw ynddo ei hunan,§§§ ac nid mewn cyfarwyddyd dynion; a Duw ei hunan yn oll yn oll ynddynt, ac iddynt. Canys hyd yn hyn, y greadigaeth a gysgododd y Creawdwr;|||||| ond pan ymddangoso y Duw mawr, fe ddiflanna'r creaduriaid. Y mae efe trwy bob peth erioed; ond nid oes mo ysprydoedd dynion ar y ddaear yn ei ganfod ef etto yn oll yn oll, ond yn chwennych y wisg yn hytrach na'r hwn sydd yn aros ynddi.¶¶¶ Cyn gwneuthur y byd, nid oedd ond Duw yn ymddangos iddo ei hunan; ac wedi difa'r byd yma ni ryfeddir neb ond Duw.* Rhai a wêl ei ddigofaint, ac eraill ei gariad ef byth. Y dŷn na welodd Dduw mewn meddwl ysprydol, ni addolodd hwnw mo Dduw ei hunan, ond yspryd y byd mawr yn ei le ef y mae y rhan fwyaf yn ei addoli.† Y mae'r amser yn agos na bydd gan ddynion na goleuni, na hyfrydwch, na thywysog, na bugail, na phorfa, na thai, na thiroedd, na meddiannau, na gorphwysfa, na chyfoeth, na gwybodaeth, na bywyd, na dim ond Duw ei hunan; ac efe sydd ddigon, fel y dywed y ddihareb, 'Heb Dduw, heb ddim, Duw a digon:' a'r rhai sydd yn byw heb Dduw, ni bydd ganddynt ddim pan losger y byd yma, ond eu pechodau, a'u gwewyr tragywyddol yn eu cydwybodau eu hunain. Am hyny, edryched dŷn ar ba beth y mae fo yn gosod ei galon: llawer o demlau yw'r achos o lawer o ymrysonau: llawer o opiniwnau a adeiladasant lawer o demlau; ond yn y diwedd ni bydd ond un Deml i'r holl rai duwiol, ac ni bydd yr un i'r rhai annuwiol. Teml Duw yw corph ei Fab: Teml y Mab yw ei Yspryd anfesurol, canys yn ei Yspryd ei hun y mae efe yn byw, ac nid allan:‡ Teml yr Yspryd Glân yw plant y deyrnas;§ a'u Teml nhwythau yw Duw, yr hwn yw'r cyntaf o'r diweddaf, sef yr oll yn oll. Y sawl a fynno foddloni Duw, arhosed yn ei Fab: y sawl a fynno ddilyn y Mab rhodied yn ei Yspryd. Blin gan ddŷn gael ei ddiddymu a'i ddiddyfnu i'w ddiddanu; ond y sawl sydd ganddo glust i wrando, gwrandawed."

Dan ddylanwad y syniadau Ysgrythyrol a nodwyd, ac wrth weled dynion yn talu mwy o sylw i demlau a synagogau cerrig nag i wir "deml Dduw," sef y saint, y canodd Morgan Llwyd y pennill canlynol, sydd yn y gân a ddifynwyd eisoes:—

"Lle'r wyneb wyneb welir Duw
Ymhob peth byw diddiwedd;
Lle nid oes temlau i'n pruddhau,
Na synagogau gwagedd."

O ganlyniad, byddai efe yn myned, fel y ceir gweled yn fuan, i "heolydd ac ystrydoedd y ddinas," ac "i'r prif ffyrdd a'r caeau," yn ol gorchymyn ac esampl ei Arglwydd a'r apostolion, â'i Fibl yn ei law, gan gymmell ei gydwladwyr i edifarhau a chredu yr efengyl.

Gan fod amryw o lythyrau Morgan Llwyd wedi eu hamseru yng Ngwrecsam yn amser y Weriniaeth a'r Amddiffyniad, gellir casglu mai yno yr oedd ei annedd ef y pryd hyny; ond nis gwelwn ni ddim sail i'r dyb ei fod yn "weinidog y plwyf," nac yn "weinidog sefydlog" i'r Annibynwyr yno ar y pryd,|| er ei fod yn un o'r Profyddion dan y "Ddeddf er gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru." Llawer tebycach, a mwy cysson â'i syniadau ef, sydd yn ei lyfrau a'i lythyrau, mai cenhadwr teithiol oedd efe, gan mwyaf, o leiaf, fel ei frodyr enwog, Walter Cradoc a Vavasor Powel, ac yn ol esampl Crist a'r apostolion.

* Ioan iv. 20–24. † 1 Cor. i. 2.
‡ Yr un, iii. 16, 17. § Yr un, vi. 19.
|| Wrth yr Eryr, fel y tybir, y meddyliai Oliver Cromwel; y Golomen, yr Anghydffurfwyr; a'r Gigfran, yr Eglwys Sefydledig, fel y ceir gweled etto.
¶ Lefit. xi. ** Act. vii. 51. †† Barn. xii. 6.
‡‡ Act. xxvi. 28. §§ Mat. xxiv. 13. |||| Ioan vii. 3.
¶¶ 1 Bren. vi. *** Ioan ii. 21. ††† Act. ii.
‡‡‡ Dat. xxi. 10, 12, 14. §§§ Yr un, xxi. 22; Tit. ii. 13.
|||||| 1 Cor. xv. 24. ¶¶¶ Rhuf. i. 24.

* 2 Thes. i. 10.
† Ioan iv. 22, 23. ‡ Col. ii. 9. § 1 Cor. vi.
|| Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 207; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 126.

Digitized by Google

Ymddengys y bu Morgan Llwyd, fel y rhan fwyaf o'i frodyr Anghydffurfiol, yn ffoadur yn Lloegr dros ryw hyd yn ystod y rhyfel gartrefol. Dywed y Dr. T. Rees y cenfydd mewn llythyr dïamseriad a ysgrifenodd efe at ei fam o Gaerloyw, y bu ef a'i gyfeillion mewn peryglon mawrion; ond amlyga ei obaith y byddai i Ragluniaeth yn fuan agor y ffordd iddynt ddychwel i Gymru at eu cenedl a'u cyfeillion.[*]

Weithion, wedi i ni loffa pob tywysen a'r a allem ei chael am Morgan Llwyd, ymhob maes, ond "Drych yr Amseroedd," rhoddwn le yn llawen i'r Dr. L. Edwards i dreuthu ei syniadau arno ef, ac ar ei brif lyfr, sef y "Tri Aderyn." Gan fod gwaith y Doctor mor llawn o ddifyniadau, gadawn ei waith ef ei hun heb ei ddifynnodi, yr hwn a ddechrau yn t. 134 o'i "Draethodau Llenyddol," fel y canlyn:—

Ar ol [i Robert Jones, Rhos-lan] sôn y byddai yn pregethu ym Mhwllheli ar ddyddiau marchnad, ac yn arfer myned trwy y farchnad â'i ddwylaw ar ei gefn, a'i Fibl yn ei law, ac y byddai y bobl yn cilio o'i flaen, fel pe buasai gerbyd yn carlamu trwy yr heolydd,[†] y mae awdur y llyfr difyr hwnw ["Drych yr Amseroedd"], rai tudalenau ymhellach ym mlaen, yn dywedyd am dano fel y canlyn:—

"Yr oedd Morgan Llwyd o deulu Cynfal ymhlwyf Maentwrog, sir Feirionydd. Mab ydoedd, medd rhai, mai medd eraill,[‡] i Hugh Llwyd, Cynfal.[§] Clywais ddywedyd, pan oedd yr hen ŵr yn glaf, ychydig amser cyn marw, ei fod yn dymuno gweled Morgan. Gofynodd y rhai oedd gyd âg ef iddo, 'Ai nid ydych yn ewyllysio gweled eich mab Dafydd?' Attebodd yntau, 'Nac wyf: nid yw hwnw ond ffwl meddw fel finnau. O na chawn weled Morgan!' Y mae'n debygol wrth hyn mai ei fab ydoedd.[‖] Y mae'n dra thebygol mai trwy weinidogaeth Mr. Walter Cradoc y cafodd dröedigaeth, pan oedd Mr. Cradoc yn gweinidogaethu yng Ngwrecsam: ond pa un ai yn yr ysgol, ai ar ryw achos arall, yr oedd yno, nid yw hyspys. Yr oedd yn ŵr o gynheddfau cryfion, yn nodedig am ei dduwioldeb, dwfn iawn ei fyfyrdodau; ac yr oedd llawer o bethau dirgelaidd yn ei ymadroddion, ei lythyrau, a'i lyfrau, anhawdd i lawer eu deall. Ysgrifenodd amryw o lyfrau bychain yn Gymraeg, megis 'Llyfr y Tri Aderyn,' 'Gair o'r Gair,' 'Yr Ymroddiad,' 'Gwaedd yng Nghymru,' &c. Teithiodd lawer trwy Gymru i bregethu yr efengyl. Gelwid ef gan wŷr y Deheudir, Morgan Llwyd o Wynedd. Bu yn weinidog yng Ngwrecsam dros rai blynyddoedd, yn yr amser y trowyd amryw o offeiriadau anfucheddol o'r llanau. Bu farw o gylch y flwyddyn 1660, a chladdwyd ef ym mynwent yr Ymneillduwyr ger llaw Gwrecsam. Gwelais y gareg yno a fuasai ar ei fedd, ac arni y ddwy lythyren yma, sef, M. Ll. Dywedir i ryw ŵr bonheddig, o erlidiwr creulon, yn ei gynddaredd wrth fyned heibio, drywanu ei gleddyf i'w fedd hyd at y carn. Dywedir bod rhyw bwys a thrymder neillduol wedi syrthio ar feddyliau Mr. Vavasor Powel, y nos y bu farw Morgan Llwyd, ac iddo ddywedyd wrth y rhai oedd gyd âg ef y geiriau hyn, 'Aeth y seren ddisgleiriaf yng Nghymru dan gwmmwl heno:' er na wyddai efe y pryd hyny ddim am y farwolaeth a ddigwyddasai. Byddai rhyw bethau neillduol yn cael eu hamlygu i Morgan Llwyd cyn eu dyfod i ben. Un tro, pan oedd yn pregethu ymhentref Ffestiniog, a bod yno ym mysg amryw oedd yn cellwair ac yn gwawdio, un dŷn ieuangc yn rhagori arnynt oll mewn ysgafnder a chellwair: wrth sylwi arno, nododd ef allan, gan ddywedyd wrtho fel hyn, 'Tydi, y dŷn ieuangc, gelli adael heibio dy gellwair: tydi yw'r cyntaf a gleddir yn y fynwent yma.' Ac felly y bu. Bryd arall, fel yr oedd yn pregethu ym Machynllaith,[¶] a rhai plant wedi dringo

[*] Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 124.

[†] Drych yr Amseroedd, t. 10.—Gol.

[‡] "Nis gwyddys yn sicr pa berthynas oedd i'r enwog Huw Llwyd o Gynfal, ond y tebygolrwydd yw ei fod yn ddisgynodd o hono, un ai mab ai ŵyr, o blegid yr oedd ei fam yn cartrefu yng Nghynfal tu a'r flwyddyn 1640, fel y prawf ei lythyr ati, yr hwn a gyhoeddwyd yn y *Dysgiedydd* am 1837, t. 343. Gan nad oes wybodaeth ddarfod i'w hiliogaeth ef etifeddu yr hen gartref, y mae'n debyg nad efe oedd y mab hynaf."—Cân Anghyhoeddedig o waith Morgan Llwyd, gan y Proff. Peter, t. 1.

[§] Crybwyllwyd enw Huw Llwyd Cynfal o'r blaen (t. 97), fel bardd gwych yn ei amser, a dodasom farn Edmund Prys am dano mewn dwy linell brydferth o gywydd. Yn awr, adroddwn ychydig ychwaneg o'i hanes fel un o hynafiaid Morgan Llwyd o Wynedd.

Bu'n swyddog yn y fyddin dan Elizabeth, os nad dan Iago hefyd ar ei hol hi, a gwasaneuthodd dros amryw flynyddau ar y Cyfandir. Wedi dychwel i'w fro enedigol i dreulio gweddill ei oes, bu farw yno o gylch y flwyddyn 1620, ac efe dros 80 oed. Felly ganwyd ef tu a'r flwyddyn 1540, saith mlynedd cyn marwolaeth Harri VIII.; o ganlyniad, gwelodd efe bump o benaduriaid ar orsedd Brydain, sef Harri VIII., Edward VI., Mari Weudlyd, Elizabeth, ac Iago I. Claddwyd ef ym mynwent Maentwrog. Cedwir cof hefyd am Huw Llwyd mewn enw craig fawreddus a philerog, sy'n ymddyrchafu uwch ben yr afon Cynfal, ac a elwir "Pulpud Huw Llwyd Cynfal," canys dywed llafar gwlad mai yno, i ganol trwst dibaid y rhaiadrau, y cyrchai yn y nos, wrtho ei hunan i fyfyrio. Credai y werin bobl ei fod yn frudiwr, fel y credent am bob dŷn dysgedig yn yr oes honno, ac mai yn y "pulpud" crybwylledig yr arferai gyfeillachu â thrigolion y byd anweledig. Dywedir bod amryw ddarnau barddonol mewn llawysgrif, sy'n dangos ei fod yn fardd gwych. Y mae cân o'i waith yn *Y Greal* (1807, t. 401–2), a'i henw "Beddargraph," yn cynnwys chwech o bennillion pedair llinell, a phedwar englyn. Wele'r ddau bennill blaenaf:—

"Tydi ddŷn sydd gar fy llaw,
  Oddiwrtha' draw ni chilia;
Dere'n nes pwy bynag fych,
  Er dolwg edrych arna'.

"O gwel lle'r wyf mewn deuar gau,
  A dysg wellhâu dy fuchedd;
Gwasneutha Dduw, na wna ddim cam,
  A meddwl am ddy ddiwedd."

Wele ddau o'r englynion etto:—

"Bum fi fal tydi, y dŷn,—yn feinioes
  Yn feinael wallt-felyn;
Dithau fal finnau, fonyn,
  I'r llwch yth welir yn llyn.

"Ped faid yn llosgi pob llesgddyn,—a'r lludw
  Yn llwydaw'r môr glaswyn,
Didwyll am bawb dywedyn',
  Daw'r un cnawd ddydd brawd i ddŷn."

Dengys yr englynion hyn nad oedd yr hen Huw Llwyd yn rhyw fanwl iawn efo'r gynghanedd.—Williams's Em. Welshm., p. 293; En. Cymru, I. F., t. 692.—Gol.

[‖] Yr ydym ni yn methu cyssoni y dywediad yma âg oedran Morgan Llwyd o Wynedd, yr hwn y cyttunir ddarfod iddo farw "heb fod dros 40 oed," yn 1659 neu 1660, ac o ganlyniad a anwyd yn 1619 neu 1620. Felly, nis gallasai y Morgan Llwyd yma fod ond blwydd oed neu lai pan fu farw Huw Llwyd Cynfal. Fe allai mai am ei *dad* ef y galwai yr hen ŵr pan ar fin marw, yn 1620.—Gol.

[¶] Y mae hyn yn myned ymhell i brofi yr hyn a awgrymwyd genym eisoes, sef mai *pregethwr teithiol* oedd Morgan Llwyd, fel yr Arglwydd Iesu a'r apostolion, a mawr fu ei lwyddiant. Gwelsom yr arferai

Digitized by Google

i goed ag oedd ger llaw, efe a gyfeiriodd ei law tu ag atynt, gan ddywedyd y geiriau hyn, 'Pan ddêl y plant hyn i oedran gwŷr, fe ymâd yr efengyl o Fachynllaith;' ac felly y bu dros faith flynyddau. Ond y peth hynotaf oedd ei ragfynegiad am ddiwygiad mewn crefydd yng Nghymru, yn y geiriau nodedig sy'n canlyn:—

"'Y mae dynion gwych (hiliogaeth yr hen Jacob) yn barod i gyfodi allan o'r pridd; ac er hyny o'r nefoedd y disgynant. Y mae ffynhonau'r môr tragywyddol yn tori allan ynddynt; ac ni all y byd, na'r cnawd, na'r cythraul, mo'u cau, na'u cadw dan y ddaear. Y rhai hyn a orchfygant y tri byd; oddi fewn, oddi allan, ac oddi fry. Fe fydd y rhain yn golofnau yn nheml Dduw, ac arnynt hwy yr ysgrifenir y tri enw: ynddynt hwy y darllenir enw y Tad nefol, yr hwn yw'r Brenin anfarwol; a'r Fam nefol, yr hon yw Caersalem newydd, a'r naturiaeth angylaidd; a'r Brawd nefol, Crist, o flaen yr hwn nid yw'r haul ganol dydd ond fel sachlen ddu dywyll; ac wrth ei enw newydd, ni bydd ond ychydig a'i hedwyn. Yna yr ymddengys Paradwys, a phren y bywyd, ac arch y dystiolaeth, a'r manna cuddiedig, a'r byd anweledig sydd trwy y byd hwn; a hwnw a bery byth. Ni theflir y pethau hyn i'r cŵn. Bwyd y moch yw'r mês, ond y rhai ysprydol a fwytânt o fara'r bywyd: ac yno y ceir gweled rhagor rhwng y morwynion call a'r rhai anghall, ac y dywedir y llais cryf, Y sawl sydd frwnt, bydded frwnt etto, a'r gwatwarwr coegddall, bydded ddall byth. Ond y cyfiawn a grêd, ac a gaiff weled â'i lygaid y Brenin Iesu yn ei degwch; a'r delwau a gwympant o'i flaen, a'r teyrnasoedd a blygant i'r bummed frenhiniaeth, fel meibion Israel i Joseph, megis y dywed yr Ysgrythyr sanctaidd yn helaeth. Y mae hyn yn agos, wrth y drws: ïe, ac yn oes gŵr fe'i gwelir. Y mae'r droell yn troi yn rhyfedd trwy'r holl fyd yn barod; ac a dry etto yn gyflymach ac yn rhyfeddach beunydd: Dan. xii. 10; Mat. xxv.; Dat. xxii. 11; Esa. xxxiii. 17; Dan. vii. 27; Esa. xi. 9.'

"D.S.—Os cymherir yr amser yr ysgrifenodd M. Llwyd y rhagfynegiad uchod â'r amser y torodd y diwygiad allan yng Nghymru; ïe, yn Lloegr, Ysgotland, a'r America, sef tu a'r flwyddyn 1739, gellir gweled i'r cyflawniad ddyfod i ben fel y rhagddywedasai, sef 'Yn oes gŵr fe'i gwelir.'"*

Yn y gyfrol gyntaf, t. 31, o'r "Drysorfa Ysprydol," a gyhoeddwyd gan Mr. Charles, dywedir fel hyn:—

"Trwy weinidogaeth Mr. Walter Cradoc, yng Ngwrecsam, y cafodd Morgan Llwyd o Gynfal ei alw. Gŵr tra enwog yn ei oes oedd Morgan Llwyd; o gynheddfau cryfion, dwys fyfyrdod, symlrwydd duwiol. Bu'n fynych yn y parthau hyn yn pregethu, yn y Bodweni, a manau eraill. Y rhai a alwyd trwy ei weinidogaeth ef oeddynt ddechreuad y gynnulleidfa gyntaf o Ymneillduwyr yn y fro hon."

Yn yr un gyfrol, t. 171, cawn y sylw a ganlyn yn hanes Mr. Cradoc:—

"O ddeutu'r flwyddyn 1632, trwy ryw Ragluniaeth anadnabyddus i ni yn bresennol, daeth Mr. Cradoc i fod yn gurad yn Ngwrecsam, yn sir Ddinbych. Gwisgwyd ef yno â nerth neillduol o'r uchelder; a bu yn hynod o ddefnyddiol i alw pechaduriaid i edifeirwch. Yr oedd yn llafurus iawn yn ei waith; yn pregethu nid yn unig yn y dref, ond hefyd mewn parthau oddi amgylch. Yn y cyfamser, yr oedd Morgan Llwyd yn ddŷn ieuangc yn yr ysgol yng Ngwrecsam. Trwy weinidogaeth Mr. Cradoc yr ymwelodd yr Arglwydd gyntaf â'r gŵr enwog hwnw,† yr hwn a fu'n gweinidogeuthu yng Ngwrecsam ar ol i Mr. Cradoc ymadael oddi yno,‡ ac a fu yn dra llafurus yn pregethu mewn amryw fanau, yn Neheubarth a Gwynedd."

Nid ydym yn cyfrif ein hunain yn ddigon medrus i esponio y rhagddywediadau rhyfeddol a grybwyllir uchod. Ond y mae'n rhaid i ddŷn fod yn hynod o anwybodus os nad yw yn deall fod llawer o bethau yn digwydd yn y byd, y rhai nid yw yn alluog i'w hamgyffred. Ped agorem ein llygaid, ni a welem ein bod yn byw o hyd ynghanol rhyfeddodau. Ond os rhyfeddach na chyffredin oedd yr oes honno mewn llawer ystyr, pan oedd pob math o egwyddorion yn ymweithio yn erbyn eu gilydd mewn llawn nerth, ac yn gwneuthur yr holl deyrnas yn dryblith drwyddi; pan o'r diwedd y torwyd pen tra-arglwyddiaeth ymherson Charles y Cyntaf, ac y dyrchafwyd yr ynys hon dan lywyddiaeth Cromwel i uwch bri yngolwg cenhedloedd y ddaear nag y buasai erioed o'r blaen. Yr oedd yn nos o ddinystr cyffredinol ar ffurfiau difywyd, ac o gyffro alaethus ymhlith y pryfed copyn wrth weled eu gweoedd yn cael eu hysgubo ymaith mor ddïarbed. Dymunol fuasai pe gallesid difodi gwaith y creaduriaid hyn heb beryglu eu bywydau, na pheru iddynt ddïoddef llawer o anghyfleusderau; o blegid nid ydym yn chwennych niweidio cymmaint a phryf copyn, os gellir peidio. Er hyny, dylem gofio mai am fywyd, a phethau gwerthfawrocach na bywyd, yr oeddynt hwy yn ymladd: a phan ddelo amgylchiad felly, nid hawdd yw cadw o fewn terfynau rheswm na rheol. Ond nid oes modd i ni ddisgrifio yr amseroedd hyny yn well nag yngeiriau Morgan Llwyd ei hun, yn "Llyfr y Tri Aderyn:"§—

"bregethu ym Mhwllheli ar ddyddiau marchnad;" a dyma brawf ei fod yn pregethu yn Ffestiniog, ac ym Machynllaith; ac y mae'r gwirionedd yr arferai gwŷr y Deheudir ei alw yn Forgan Llwyd o Wynedd yn awgrymu yr arferai fyned i'r parth hwnw hefyd o'r Dywysogaeth i bregethu.—Gol.

* Drych yr Amseroedd, t. 18–23.

† Dengys y *Lambeth MSS.*, vol. 943, fel y gwelsom yn y chweched bennod o'r llyfr hwn ar W. Cradoc, mai yn 1633 y trôed Cradoc o guradiaeth Eglwys Fair, Caerdydd; am hyny nis gallasai efe fod yng Ngwrecsam cyn 1634, pan oedd Morgan Llwyd o gylch 15 oed. Gyrwyd Cradoc o Wrecsam ymhen tu a blwyddyn ar ol iddo fyned yno, trwy ddylanwad erlidgar bragwr cyfoethog a'i enw Timothy Middleton. Felly, os Cradoc a fu yn foddion i argyhoeddi Morgan Llwyd, rhaid y digwyddodd hyny tu a'r flwyddyn 1634 neu 1635.—Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 38–9, 52.—Gol.

‡ Nid oedd Morgan Llwyd dros 16 oed pan yrwyd Cradoc o Wrecsam; am hyny, os bu M. Ll. yn "gweinidogeuthu" yn sefydlog yno o gwbl, yr hyn sydd braidd yn amheus, fel y gwelsom eisoes, y mae'n bur debyg na ddigwyddodd hyny hyd ymhen rhai blynyddoedd ar ol i Cradoc gael ei ymlid oddi yno. Y mae'n debyg mai ar ol 1649, pan wnaed y "Ddeddf er gwell Lledeuniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," dan yr hon yr oedd Morgan Llwyd yn un o'r Profyddion, fel y gwelsom, yr aeth efe a'i deulu i breswylio yng Ngwrecsam.—Gol.

§ Enw'r argraphiad cyntaf o'r llyfr yma yn llawn, yn ol Gwilym Lleyn (Llyfr. y Cymry, t. 163), oedd—"Dirgelwch i rai i'w ddeall, ac eraill i'w watwar, neu Lyfr tri Aderyn. Gan Morgan Llwyd o Wynedd." 1653. Yn ol y Proff. Peter, yn y "Gân Argbyhoeddedig,"

Digitized by Google

"Nid oes chwaith neb yn nheyrnas Lloegr, nag yn ninas Llundain, yn ei ddeall ei hunan. Y peth a wnelont heddyw, y mae rhyw yspryd yn ei ddadwneuthur yfory. Ni welaf fi ddim yn dyfod i ben yn ol meddyliau dynion; ond y mae rhyw droell arall yn troi uwch law synwyr pawb. Y mae'r ûs yn ymgasglu, a chorwynt disymmwth yn ei chwalu: y mae'r pryf copyn yn hir yn gweu ei rwyd, a rhyw blantos yn ysgubo'r cwbl i lawr, a hyny mewn munud awr. Y mae'r bobl, a'r a welaf fi, mewn odyn galch, neu fel plant yn gwneuthur tai bach ym min afon, a'r llifeiriant yn ddisymmwth yn codi, ac yn ysgubo'r cwbl. Y mae rhyw nerth ym mysg dynion yr awron nad oedd o'r blaen. Y mae rhyw yspryd rhyfedd yn gweithio, er nad yw'r bobl yn gweled."

Dyma nodweddiadau ei oes, ac y maent i'w gweled yn amlwg yn ei ysgrifeniadau. Nid oes ynddynt ddim tebyg i ffurfioldeb. Y mae'r awdur yn dal cymdeithas â natur yn ei holl sylweddolrwydd a'i phrydferthwch cynhenid. Yr ydym wrth ddarllen ei waith yn teimlo fel dŷn yn diangc o ganol un o drefydd myglyd Lloegr—a phwy na wnai hyny pan y gallai?—i anadlu awyr iach mynyddoedd Cymru. O ganlyniad, y mae ei feddyliau yn hynod o wreiddiol. Y mae natur bob amser yn newydd; ac y mae rhywbeth ffres ymhob dŷn sydd yn meddwl ac yn llefaru yn ei ddull naturiol ei hun. Pwy bynag a fynno fod yn wreiddiol, nid rhaid iddo ond treiddio trwy ffurfiau i natur pethau: y mae yma ystorfa anhysbyddadwy. Pan fyddo gwyneb y tir wedi ei weithio allan, nes myned yn hollol ddiffrwyth, gyrer yr aradr yn ddyfnach i'r ddaear, a cheir yn fuan gynnyrch toreithiog; hyny yw, os bydd yno ddyfnder daear i'w gael. Ond ar rai amserau, y mae Awdur natur ei hun yn rhwygo holl ffynhonau y dyfnder mawr, ac yn dwyn nerthoedd newydd i fynu o grombil y ddaear, nes y bydd yn ymddangos fel byd newydd ei greu, yn barod i dderbyn yr hâd ym mron heb ddim triniaeth. Felly y bu yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Y mae'n debyg mai y pryd hwnw y bu'r cynhyrfiad mwyaf ar feddyliau dynion er dyddiau yr apostolion; ac y mae'r effeithiau i'w gweled ynghyfansoddiadau beirdd ac athronwyr, yn gystal a duwinyddion, yr oes honno. Er nad oedd y cyffro yn amser Cromwel yn cyrraedd mor bell, etto yr oedd yn llawn mor ddwys, os nad yn ddwysach, yn yr ynys hon: ac y mae dyfnder cyfattebol i'w weled yn ysgrifeniadau Milton, Owen, Howe, a Baxter. Nid ydym am gymharu Morgan Llwyd âg un o'r gwŷr hyn gyd â golwg ar faintioli ei feddwl. Ond etto y mae'r un naturiaeth yn rhedeg trwy ei holl waith yntau; ac nis gallwn lai na thybied ei fod, o ran gwreiddioldeb, yn sefyll mor uchel a neb o'i gydoeswyr.

Fel y rhan fwyaf o awduron ag sydd yn nodedig am wreiddiolder, y mae Morgan Llwyd weithiau yn lled aneglur; ac ysgatfydd ei fod mewn rhai manau yn rhy gyfriniol. Er hyny, nid hawdd yw penderfynu pa le y mae'r clawdd terfyn i fod, tu hwnt i'r hwn nis gall ysgrifenydd ysgogi heb fod yn euog o aneglurder gormodol. Yr hyn sydd yn amlwg i un a ddichon fod i'r llall yn dywyll fel y fagddu. Ymhlith yr awduron enwocaf yn yr Almaen y mae Novalis a Jean Paul Richter, y rhai sydd weithiau yn dra aneglur. A dywedir bod y cyntaf o'r ddau yn dra hoff o Jacob Behmen, y mwyaf cyfriniol, ond odid, o'r holl ysgrifenwyr. Ond heb ymdroi gyd âg ysgrifenwyr Almanaidd, nid ydym yn credu bod neb erioed wedi canfod y pen pellaf i feddyliau mawrion Shakspeare a Milton. Y gwir yw, nad oes un llyfr yn werth llawer, os na fydd ambell waith yn agor rhyw olygfeydd o flaen y darllenydd, y rhai nid yw efe, nac ychwaith yr awdur ei hun, yn medru olrhain eu terfynau. Y mae'n debyg mai yr hyn oll a ellir yn rhesymol ei ddisgwyl yw, bod yr awdur yn ein harwain i le digon manteisiol i weled, a hyny ar dywydd digon clir. Gofaled na fyddo niwl yn ei amgylchynu ef a'r darllenydd, yn cuddio pob gwrthrych oddi wrthynt, ac yn eu rhwystro fe allai o'r diwedd i weled

t. 2, tri argraphiad a gyhoeddwyd ar ol yr uchod, yn "1714, 1752, ac 1826 (Llanrwst, N. D.)." Ond y mae Gwilym Lleyn yn nodi *tri* argraphiad, heb law y cyntaf, yn ystod y 18fed ganrif, sef yn 1714 (ni ddywedir ymha le, ond yn "y Mwythig," y mae'n debyg); yn 1752 (ond ni nodir ymha le); ac yn 1778, yr hwn nis crybwyllir gan y Proff. Peter. Y mae genym gopi o'r argraphiad yma, yr hwn hefyd sydd gan y Dr. L. Edwards, ac wele yr enwad-ddalen:—"Dirgelwch i rai iw Ddeall, ac i eraill iw Watwar, sef Tri aderyn yn ymddiddan, yr Eryr, a'r Golomen, a'r Gigfran, neu Arwydd i Annerch Cymru. Am y flwyddyn 666.—Argraphwyd yn Ngwrecsam, ac ar werth yno gan R. Marsh, Gwerthwr Llyfrau. 1778."

Dywed y Proff. Peter y cyhoeddodd Morgan Llwyd dri o lyfrau heb law y "Tri Aderyn," yn 1653, sef "Gwaedd yng Nghymru," yr hwn a gyhoeddwyd wedi hyny yn 1727, 1750, ac 1766; "Yr Ymroddiad," a gyhoeddwyd drachefn yn 1657, 1737, ac 1765; a "Llythyr i'r Cymry Cariadus," yr hwn a gyhoeddwyd, heb law yn 1653, yn 1657, 1727, 1750, ac 1766. Hefyd, cyfansoddodd lyfr a'i enw "Gair o'r Gair," ac a gyhoeddwyd yn 1656, yr hwn a gyhoeddwyd wedyn yn 1745 ac 1829. Yn 1657, cyhoeddodd dri o lyfrau eraill, y rhai a adgyhoeddwyd fel y canlyn:—"Y Disgybl a'r Athraw o Newydd," 1657, 1737, ac 1765; "Cyfarwyddyd i'r Cymro," 1657, 1787, ac 1765; "Gwyddor Uchod," 1657, 1737, 1765 ("Barddoniaeth serddewinol yw hwn," medd y Proff. Peter). Cyfansoddodd a chyhoeddodd Morgan Llwyd yr wyth llyfr crybwylledig yn yr ystod byr o bum mlynedd, sef o 1653 hyd 1657, yr hyn a ddyry awgrym o'i fawr allu a'i ddiwyd lafur.

"Heb law yr argraphiadau uchod," medd y Proff. Peter, "ymddangosodd amryw o'r Tri Aderyn, ac o'r Gair o'r Gair, yn y ganrif bresennol. Cyfieithiwyd yr olaf i'r Saesneg, a chyhoeddwyd ef yn 1739; a dywed Baxter fod M. L. wedi cyhoeddi llyfr ei hun yn Saesneg, o dan y titl, 'A Dialogue between Martha and Lazarus about his Soul.' Y mae amryw o'i lythyrau hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Crybwylla Richards, yn ei 'Cambro-British Biography,' ei fod yn gyfarwydd âg ysgrifau yr hen gyfrinwyr, ac y mae'r Dr. Nicholas o'r un farn."—Gol.

Digitized by Google

i goed ag oedd ger llaw, efe a gyfeiriodd ei law tu ag atynt, gan ddywedyd y geiriau hyn, 'Pan ddêl y plant hyn i oedran gŵr, fe ymâd yr efengyl o Fachynllaith;' ac felly y bu dros faith flynyddau. Ond y peth hynotaf oedd ei ragfynegiad am ddiwygiad mewn crefydd yng Nghymru, yn y geiriau nodedig sy'n canlyn:—

"'Y mae dynion gwych (hiliogaeth yr hen Jacob) yn barod i gyfodi allan o'r pridd; ac er hyny o'r nefoedd y disgynant. Y mae ffynhonau'r môr tragywyddol yn tori allan ynddynt; ac ni all y byd, na'r cnawd, na'r cythraul, mo'u cau, na'u cadw dan y ddaear. Y rhai hyn a orchfygant y tri byd; oddi fewn, oddi allan, ac oddi fry. Fe fydd y rhain yn golofnau yn nheml Dduw, ac arnynt hwy yr ysgrifenir y tri enw: ynddynt hwy y darllenir enw y Tad nefol, yr hwn yw'r Brenin anfarwol; a'r Fam nefol, yr hon yw Caersalem newydd, a'r naturiaeth angylaidd; a'r Brawd nefol, Crist, o flaen yr hwn nid yw'r haul ganol dydd ond fel sachlen ddu dywyll; ac wrth ei enw newydd, ni bydd ond ychydig a'i hedwyn. Yna yr ymddengys Paradwys, a phren y bywyd, ac arch y dystiolaeth, a'r manna cuddiedig, a'r byd anweledig sydd trwy y byd hwn; a hwnw a bery byth. Ni theflir y pethau hyn i'r cŵn. Bwyd y moch yw'r mês, ond y rhai ysprydol a fwytânt o fara'r bywyd: ac yno y ceir gweled rhagor rhwng y morwynion call a'r rhai anghall, ac y dywedir y llais cryf, Y sawl sydd frwnt, bydded frwnt etto, a'r gwatwarwr coegddall, bydded ddall byth. Ond y cyfiawn a grêd, ac a gaiff weled â'i lygaid y Brenin Iesu yn ei degwch; a'r delwau a gwympant o'i flaen, a'r teyrnasoedd a blygant i'r bummed frenhiniaeth, fel meibion Israel i Joseph, megis y dywed yr Ysgrythyr sanctaidd yn helaeth. Y mae hyn yn agos, wrth y drws: ïe, ac yn oes gŵr fe'i gwelir. Y mae'r droell yn troi yn rhyfedd trwy'r holl fyd yn barod; ac a dry etto yn gyflymach ac yn rhyfeddach beunydd: Dan. xii. 10; Mat. xxv.; Dat. xxii. 11; Esa. xxxiii. 17; Dan. vii. 27; Esa. xi. 9.'

"D.S.—Os cymherir yr amser yr ysgrifenodd M. Llwyd y rhagfynegiad uchod â'r amser y torodd y diwygiad allan yng Nghymru; ïe, yn Lloegr, Ysgotland, a'r America, sef tu a'r flwyddyn 1739, gellir gweled i'r cyflawniad ddyfod i ben fel y rhagddywedasai, sef 'Yn oes gŵr fe'i gwelir.'"*

Yn y gyfrol gyntaf, t. 31, o'r "Drysorfa Ysprydol," a gyhoeddwyd gan Mr. Charles, dywedir fel hyn:—

"Trwy weinidogaeth Mr. Walter Cradoc, yng Ngwrecsam, y cafodd Morgan Llwyd o Gynfal ei alw. Gŵr tra enwog yn ei oes oedd Morgan Llwyd; o gynheddfau cryfion, dwys fyfyrdod, symlrwydd duwiol. Bu'n fynych yn y parthau hyn yn pregethu, yn y Bodweni, a manau eraill. Y rhai a alwyd trwy ei weinidogaeth ef oeddynt ddechreuad y gynnulleidfa gyntaf o Ymneillduwyr yn y fro hon."

Yn yr un gyfrol, t. 171, cawn y sylw a ganlyn yn hanes Mr. Cradoc:—

"O ddeutu'r flwyddyn 1632, trwy ryw Ragluniaeth anadnabyddus i ni yn bresennol, daeth Mr. Cradoc i fod yn gurad yn Ngwrecsam, yn sir Ddinbych. Gwisgwyd ef yno â nerth neillduol o'r uchelder; a bu yn hynod o ddefnyddiol i alw pechaduriaid i edifeirwch. Yr oedd yn llafurus iawn yn ei waith; yn pregethu nid yn unig yn y dref, ond hefyd mewn parthau oddi amgylch. Yn y cyfamser, yr oedd Morgan Llwyd yn ddŷn ieuangc yn yr ysgol yng Ngwrecsam. Trwy weinidogaeth Mr. Cradoc yr ymwelodd yr Arglwydd gyntaf â'r gŵr enwog hwnw,† yr hwn a fu'n gweinidogeuthu yng Ngwrecsam ar ol i Mr. Cradoc ymadael oddi yno,‡ ac a fu yn dra llafurus yn pregethu mewn amryw fanau, yn Neheubarth a Gwynedd."

Nid ydym yn cyfrif ein hunain yn ddigon medrus i esponio y rhagddywediadau rhyfeddol a grybwyllir uchod. Ond y mae'n rhaid i ddŷn fod yn hynod o anwybodus os nad yw yn deall fod llawer o bethau yn digwydd yn y byd, y rhai nid yw yn alluog i'w hamgyffred. Ped agorem ein llygaid, ni a welem ein bod yn byw o hyd ynghanol rhyfeddodau. Ond os rhyfeddach na chyffredin oedd yr oes honno mewn llawer ystyr, pan oedd pob math o egwyddorion yn ymweithio yn erbyn eu gilydd mewn llawn nerth, ac yn gwneuthur yr holl deyrnas yn dryblith drwyddi; pan o'r diwedd y torwyd pen tra-arglwyddiaeth ymherson Charles y Cyntaf, ac y dyrchafwyd yr ynys hon dan lywyddiaeth Cromwel i uwch bri yngolwg cenhedloedd y ddaear nag y buasai erioed o'r blaen. Yr oedd yn nos o ddinystr cyffredinol ar ffurfiau difywyd, ac o gyffro alaethus ymhlith y pryfed copyn wrth weled eu gweoedd yn cael eu hysgubo ymaith mor ddiarbed. Dymunol fuasai pe gallesid difodi gwaith y creaduriaid hyn heb beryglu eu bywydau, na pheru iddynt ddioddef llawer o anghyfleusderau; o blegid nid ydym yn chwennych niweidio cymmaint a phryf copyn, os gellir peidio. Er hyny, dylem gofio mai am fywyd, a phethau gwerthfawrocach na bywyd, yr oeddynt hwy yn ymladd: a phan ddelo amgylchiad felly, nid hawdd yw cadw o fewn terfynau rheswm na rheol. Ond nid oes modd i ni ddisgrifio yr amseroedd hyny yn well nag yngeiriau Morgan Llwyd ei hun, yn "Llyfr y Tri Aderyn:"§—

"bregethu ym Mhwllheli ar ddyddiau marchnad;" a dyma brawf ei fod yn pregethu yn Ffestiniog, ac ym Machynllaith; ac y mae'r gwirionedd yr arferai gwŷr y Deheudir ei alw yn Forgan Llwyd o Wynedd yn awgrymu yr arferai fyned i'r parth hwnw hefyd o'r Dywysogaeth i bregethu.—Gol.

* Drych yr Amseroedd, t. 18-23.

† Dengys y *Lambeth MSS.*, vol. 943, fel y gwelsom yn y chweched bennod o'r llyfr hwn ar W. Cradoc, mai yn 1633 y tröed Cradoc o guradiaeth Eglwys Fair, Caerdydd; am hyny nis gallasai efe fod yng Ngwrecsam cyn 1634, pan oedd Morgan Llwyd o gylch 15 oed. Gyrwyd Cradoc o Wrecsam ymhen tu a blwyddyn ar ol iddo fyned yno, trwy ddylanwad erlidgar bragwr cyfoethog a'i enw Timothy Middleton. Felly, os Cradoc a fu yn foddion i argyhoeddi Morgan Llwyd, rhaid y digwyddodd hyny tu a'r flwyddyn 1634 neu 1635.—Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 38-9, 52.—Gol.

‡ Nid oedd Morgan Llwyd dros 16 oed pan yrwyd Cradoc o Wrecsam; am hyny, os bu M. Ll. yn "gweinidogeuthu" yn sefydlog yno o gwbl, yr hyn sydd braidd yn amheus, fel y gwelsom eisoes, y mae'n bur debyg na ddigwyddodd hyny hyd ymhen rhai blynyddoedd ar ol i Cradoc gael ei ymlid oddi yno. Y mae'n debyg mai ar ol 1649, pan wnaed y "Ddeddf er gwell Lledeuniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," dan yr hon yr oedd Morgan Llwyd yn un o'r Profyddion, fel y gwelsom, yr aeth efe a'i deulu i breswylio yng Ngwrecsam.—Gol.

§ Enw'r argraphiad cyntaf o'r llyfr yma yn llawn, yn ol Gwilym Lleyn (Llyfr. y Cymry, t. 163), oedd—"Dirgelwch i rai i'w ddeall, ac eraill i'w watwar, neu Lyfr tri Aderyn. Gan Morgan Llwyd o Wynedd." 1653. Yn ol y Proff. Peter, yn y "Gân Argbyhoeddedig,"

Digitized by Google

"Nid oes chwaith neb yn nheyrnas Lloegr, nag yn ninas Llundain, yn ei ddeall ei hunan. Y peth a wnelont heddyw, y mae rhyw yspryd yn ei ddadwneuthur yfory. Ni welaf fi ddim yn dyfod i ben yn ol meddyliau dynion; ond y mae rhyw droell arall yn troi uwch law synwyr pawb. Y mae'r ûs yn ymgasglu, a chorwynt disymmwth yn ei chwalu: y mae'r pryf copyn yn hir yn gweu ei rwyd, a rhyw blantos yn ysgubo'r cwbl i lawr, a hyny mewn munud awr. Y mae'r bobl, a'r a welaf fi, mewn odyn galch, neu fel plant yn gwneuthur tai bach ym min afon, a'r llifeiriant yn ddisymmwth yn codi, ac yn ysgubo'r cwbl. Y mae rhyw nerth ym mysg dynion yr awron nad oedd o'r blaen. Y mae rhyw yspryd rhyfedd yn gweithio, er nad yw'r bobl yn gweled."

Dyma nodweddiadau ei oes, ac y maent i'w gweled yn amlwg yn ei ysgrifeniadau. Nid oes ynddynt ddim tebyg i ffurfioldeb. Y mae'r awdur yn dal cymdeithas â natur yn ei holl sylweddolrwydd a'i phrydferthwch cynhenid. Yr ydym wrth ddarllen ei waith yn teimlo fel dŷn yn diangc o ganol un o drefydd myglyd Lloegr—a phwy na wnai hyny pan y gallai?—i anadlu awyr iach mynyddoedd Cymru. O ganlyniad, y mae ei feddyliau yn hynod o wreiddiol. Y mae natur bob amser yn newydd; ac y mae rhywbeth ffres ymhob dŷn sydd yn meddwl ac yn llefaru yn ei ddull naturiol ei hun. Pwy bynag a fynno fod yn wreiddiol, nid rhaid iddo ond treiddio trwy ffurfiau i natur pethau: y mae yma ystorfa anhyspyddadwy. Pan fyddo gwyneb y tir wedi ei weithio allan, nes myned yn hollol ddiffrwyth, gyrer yr aradr yn ddyfnach i'r ddaear, a cheir yn fuan gynnyrch toreithiog; hyny yw, os bydd yno ddyfnder daear i'w gael. Ond ar rai amserau, y mae Awdur natur ei hun yn rhwygo holl ffynhonau y dyfnder mawr, ac yn dwyn nerthoedd newydd i fynu o grombil y ddaear, nes y bydd yn ymddangos fel byd newydd ei greu, yn barod i dderbyn yr hâd ym mron heb ddim triniaeth. Felly y bu yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Y mae'n debyg mai y pryd hwnw y bu'r cynhyrfiad mwyaf ar feddyliau dynion er dyddiau yr apostolion; ac y mae'r effeithiau i'w gweled ynghyfansoddiadau beirdd ac athronwyr, yn gystal a duwinyddion, yr oes honno. Er nad oedd y cyffro yn amser Cromwel yn cyrraedd mor bell, etto yr oedd yn llawn mor ddwys, os nad yn ddwysach, yn yr ynys hon: ac y mae dyfnder cyfattebol i'w weled yn ysgrifeniadau Milton, Owen, Howe, a Baxter. Nid ydym am gymharu Morgan Llwyd âg un o'r gwŷr hyn gyd â golwg ar faintioli ei feddwl. Ond etto y mae'r un naturiaeth yn rhedeg trwy ei holl waith yntau; ac nis gallwn lai na thybied ei fod, o ran gwreiddioldeb, yn sefyll mor uchel a neb o'i gydoeswyr.

Fel y rhan fwyaf o awduron ag sydd yn nodedig am wreiddiolder, y mae Morgan Llwyd weithiau yn lled aneglur; ac ysgatfydd ei fod mewn rhai manau yn rhy gyfriniol. Er hyny, nid hawdd yw penderfynu pa le y mae'r clawdd terfyn i fod, tu hwnt i'r hwn nis gall ysgrifenydd ysgogi heb fod yn euog o aneglurder gormodol. Yr hyn sydd yn amlwg i un a ddichon fod i'r llall yn dywyll fel y fagddu. Ymhlith yr awduron enwocaf yn yr Almaen y mae Novalis a Jean Paul Richter, y rhai sydd weithiau yn dra aneglur. A dywedir bod y cyntaf o'r ddau yn dra hoff o Jacob Behmen, y mwyaf cyfriniol, ond odid, o'r holl ysgrifenwyr. Ond heb ymdroi gyd âg ysgrifenwyr Almanaidd, nid ydym yn credu bod neb erioed wedi canfod y pen pellaf i feddyliau mawrion Shakspeare a Milton. Y gwir yw, nad oes un llyfr yn werth llawer, os na fydd ambell waith yn agor rhyw olygfeydd o flaen y darllenydd, y rhai nid yw efe, nac ychwaith yr awdur ei hun, yn medru olrhain eu terfynau. Y mae'n debyg mai yr hyn oll a ellir yn rhesymol ei ddisgwyl yw, bod yr awdur yn ein harwain i le digon manteisiol i weled, a hyny ar dywydd digon clir. Gofaled na fyddo niwl yn ei amgylchynu ef a'r darllenydd, yn cuddio pob gwrthrych oddi wrthynt, ac yn eu rhwystro fe allai o'r diwedd i weled

t. 2, tri argraphiad a gyhoeddwyd ar ol yr uchod, yn "1714, 1752, ac 1826 (Llanrwst, N. D.)." Ond y mae Gwilym Lleyn yn nodi *tri* argraphiad, heb law y cyntaf, yn ystod y 18fed ganrif, sef yn 1714 (ni ddywedir ymha le, ond yn "y Mwythig," y mae'n debyg); yn 1752 (ond ni nodir ymha le); ac yn 1778, yr hwn nis crybwyllir gan y Proff. Peter. Y mae genym gopi o'r argraphiad yma, yr hwn hefyd sydd gan y Dr. L. Edwards, ac wele yr enwad-ddalen:—"Dirgelwch i rai iw Ddeall, ac i eraill iw Watwar, sef Tri aderyn yn ymddiddan, yr Eryr, a'r Golomen, a'r Gigfran, neu Arwydd i Annerch Cymru. Am y flwyddyn 666.—Argraphwyd yn Ngwrecsam, ac ar werth yno gan R. Marsh, Gwerthwr Llyfrau. 1778."

Dywed y Proff. Peter y cyhoeddodd Morgan Llwyd dri o lyfrau heb law y "Tri Aderyn," yn 1653, sef "Gwaedd yng Nghymru," yr hwn a gyhoeddwyd wedi hyny yn 1727, 1750, ac 1766; "Yr Ymroddiad," a gyhoeddwyd drachefn yn 1657, 1737, ac 1765; a "Llythyr i'r Cymry Cariadus," yr hwn a gyhoeddwyd, heb law yn 1653, yn 1657, 1727, 1750, ac 1766. Hefyd, cyfansoddodd lyfr a'i enw "Gair o'r Gair," ac a gyhoeddwyd yn 1656, yr hwn a gyhoeddwyd wedyn yn 1745 ac 1829. Yn 1657, cyhoeddodd dri o lyfrau eraill, y rhai a adgyhoeddwyd fel y canlyn:—"Y Disgybl a'r Athraw o Newydd," 1657, 1737, ac 1765; "Cyfarwyddyd i'r Cymro," 1657, 1787, ac 1765; "Gwyddor Uchod," 1657, 1737, 1765 ("Barddoniaeth serddewinol yw hwn," medd y Proff. Peter). Cyfansoddodd a chyhoeddodd Morgan Llwyd yr wyth llyfr crybwylledig yn yr ystod byr o bum mlynedd, sef o 1653 hyd 1657, yr hyn a ddyry awgrym o'i fawr allu a'i ddiwyd lafur.

"Heb law yr argraphiadau uchod," medd y Proff. Peter, "ymddangosodd amryw o'r Tri Aderyn, ac o'r Gair o'r Gair, yn y ganrif bresennol. Cyfieithiwyd yr olaf i'r Saesneg, a chyhoeddwyd ef yn 1739; a dywed Baxter fod M. L. wedi cyhoeddi llyfr ei hun yn Saesneg, o dan y titl, 'A Dialogue between Martha and Lazarus about his Soul.' Y mae amryw o'i lythyrau hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Crybwylla Richards, yn ei 'Cambro-British Biography,' ei fod yn gyfarwydd âg ysgrifau yr hen gyfrinwyr, ac y mae'r Dr. Nicholas o'r un farn."—Gol.

Digitized by Google

eu gilydd. Bydded yno ryw gymmaint, a gorau po mwyaf, yn hollol eglur; ac os bydd yr olygfa yn ymestyn ymhell tu hwnt i gyrheuddiad ein golygon, bydd yn hyfryd genym ei ddilyn ym mlaen nes y byddo'r nefoedd a'r ddaear yn raddol fel yn cyffwrdd â'u gilydd, a ninnau yn colli ein hunain mewn anfeidroldeb. Byddai yn dda i bob myfyriwr ieuangc ystyried nad yw i feddwl am fesur yr hyn oll a ddarlleno. Dylai gofio drachefn a thrachefn fod pob peth naturiol yn cynnwys dirgelwch, ac o ganlyniad ei fod yn anolrheiniadwy.

Un achos o ymddangosiad cyfriniol mewn rhai awduron yw eu gwaith yn cario dull allegawl o ysgrifenu i eithafoedd. Y mae gradd o hyn i'w weled yn Christmas Evans, a mwy fe allai ym Morgan Llwyd; ond nid cymmaint yn neb a'r rhagddywededig Jacob Behmen. Tra y cedwir y dull hwn o ysgrifenu o fewn terfynau, y mae'n un o'r addurniadau godidocaf mewn cyfansoddiad. Y mae'n gwisgo meddylddrychau ysprydol mewn cyrph deuarol, ac yn eu gosod yn weledig o flaen ein llygaid. Y mae nid yn unig yn tystioleuthu ac yn profi bod y fath beth yn bod, ond y mae hefyd yn dangos pa fath ydyw. Ond nid oes dim yn fwy peryglus yn llaw ysgrifenydd heb chwaeth gywir, yr hwn sydd yn rhy dueddol i anghofio y sylwedd wrth ddilyn y cysgod. Nid da gormod o ddim. . . . Priodol hefyd yw cadw mewn cof fod rhyw berthynas, rhyw gyfattebrwydd, i fod rhwng y gyffelybiaeth a'r matter y dymunir ei osod allan. . . .

Yn gyferbyniol, o'r ochr arall, os na fyddwn yn dra gwyliadwrus, yr ydym mewn perygl o fyned i'r niwl wrth geisio dilyn cyffelybieuthau yn ol at eu harwyddocâd. Nid ydym yn ddiamheuol nad yw Morgan Llwyd wedi ysprydoli gormod ar yr arch yn "Llyfr y Tri Aderyn." Ond wrth ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi, y rhyfeddod yw ei fod wedi ymgadw mor dda o fewn rhyw derfynau. Ymhell ar ol ei amser ef, cyhoeddwyd llyfryn yn Gymraeg, dan yr enw "Dwy Bregeth; y gyntaf am y creaduriaid yn myned i mewn i arch Noa: yr hyn ydoedd gysgod i iachawdwriaeth etholedig eglwys Dduw yn a thrwy Iesu Grist. Yr ail am y creaduriaid yn myned allan o'r arch i fynydd Ararat: yr hyn ydoedd gysgod o symmudiad yr eglwys filwriaethus o ystâd o ras i ystâd o ogoniant. Gan Edmund Jones, Gweinidog yr Efengyl. Trefecca: argraphwyd yn y flwyddyn 1782." Yn y bregeth gyntaf, y mae'r hybarch Edmund yn profi pob cangen o'r athrawiaeth Galfinaidd oddi wrth fynediad y creaduriaid i'r arch: ac nid yw yn ymddangos ei fod yn teimlo yr anhawsder lleiaf i ysprydoli y cwbl, o'r falwoden a'r ceiliog rhedyn i fynu hyd y llew a'r elephant. Gallesid meddwl y cawsai beth trafferth gyd â'r creaduriaid aflan; ond nid oes un rhwystr a saif o flaen y dull hwn o ymresymu. "Yr oedd gwaredigaeth y creaduriaid aflan yn yr arch," medd efe, "pa rai sydd niweidiol, a drwg eu natur, yn dangos i ni y byddai i rai o'r dynion gwaethaf yn y byd gael eu hachub trwy Grist, cystal ag eraill o well natur." Ac os gofyn neb, Paham yr achubwyd mwy o'r creaduriaid glân? y mae Edmund yn atteb, "Eithr rheswm ysprydol, paham yr achubwyd mwy o'r rhai glân nag o rai aflan, ydoedd i ddangos i ni y byddai nifer y rhai a achubid o eglwys weledig Dduw yn y byd yn fwy saith waith na nifer y rhai a gymmerid allan o'r byd, a'u ystâd halogedig wrth natur i ddechrau eglwys yr efengyl â hwynt." Ar yr un pryd, y mae llawer o ddywediadau da dros ben yn y ddwy bregeth; ond gresyn yw eu bod wedi eu gosod i sefyll ar sylfeini mor weiniaid. Y perygl wrth geisio dehongli cyffelybieuthau yw gosod y cysgod yn lle y sylwedd, ffurfiau allanol yn lle gwirioneddau tufewnol, amgylchiadau lleol ac amserol yn lle egwyddorion cyffredinol a thragywyddol. Hyfryd ar noswaith dawel, deg, yw syllu ar y ser ym mynwes yr afon lydan, lonydd; ond edrychwn ar yr adlewyrchiadau hyn fel gwrthrychau sylweddol, yr ydym yn rhwym o gymmeryd ein camarwain, ac o ddïoddef siomedigaeth ddirfawr yn y canlyniad.

Y penaf o gyfansoddiadau Morgan Llwyd yw "Llyfr y Tri Aderyn," yr hwn a ysgrifenwyd ar ddull ymddiddan rhwng yr Eryr, y Golomen, a'r Gigfran. Nis gellir darllen ond ychydig ddalenau heb weled bod yr awdur yn feistr ar y dull yma o gyfansoddi. Y mae'r Eryr yn siarad fel Eryr, y Golomen fel Colomen, a'r Gigfran fel Cigfran. Tybygid fod yr Eryr yn cynddrychioli Cromwel; a'r Golomen yn sefyll am yr Anghydffurfwyr, neu o leiaf y rhai a fuasent felly cyn i Cromwel gymmeryd meddiant o'r llywodraeth; ac mai wrth y Gigfran y mae i ni ddeall yr hen Eglwys Sefydledig. Nis gellir canfod priodoldeb nac ystyr amryw ranau o'r ymddiddan heb gadw hyn mewn golwg. Ond dilys ydyw bod yma hefyd gyfeiriad pellach, fel y mae rhai o'r esponwyr gorau yn barnu bod mewn llawer o'r darluniadau prophwydolieuthol yn y Bibl; a bod y Golomen wedi ei



E. Pick Sc.

PARCH. CHRISTMAS EVANS.

WILLIAM MACKENZIE, LONDON, EDINBURGH & GLASGOW.

Digitized by Google

bwriadu i ddynodi gwir Gristionogion ymhob oes; a bod y Gigfran, â'i "llais garw gwrol," yn llefaru iaith gelynion y gwirionedd, ac erlidwyr crefydd ysprydol; a'u bod, yng ngwedd frenhinol yr Eryr, yn gweled dŷn cydwybodol a diragfarn i athrywynu rhwng y pleidiau. Nid oes yn hyn ddim yn annaturiol, o blegid nid oedd y rhyfel gartrefol rhwng y Brenin a'r Senedd ond parhâd o'r hen ryfel rhwng cnawdolrwydd ac ysprydolrwydd. Difetha crefydd ysprydol oddi ar y ddaear oedd diben yr Archesgob Laud a'i ganlynwyr, ac amddiffyn y grefydd honno oedd diben y blaid wrthwynebol. Pwy bynag a wado hyn, nid yw ond bradychu [arddangos] ei anwybodaeth: ac y mae'r anwybodaeth honno yn awr yn ddïesgus, wedi i'r matter gael ei chwilio mor fanwl, a'i ddangos mor olau, gan Thomas Carlyle a'r Dr. Marle D'Aubigne. Tawed y Cigfran, gan hyny, tra fyddom yn gwrandaw ar y Golomen fwyn yn mynegi ei syniadau ar rai o brif byngciau crefydd. Fel y canlyn y mae'n treuthu am y Bod o Dduw:—

"*Eryr.* Er a ddywetech di, nid yw hyn yn myned i'm pen i, nac i'm calon chwaith: a'r pen yw drws y galon. Pa fodd y mae i ddŷn feddwl heb feddwl am y pethau hyn?

"*Colomen.* Ni all fod ond un anfesurol; a hwnw am ei fod yn berffaith, rhaid iddo fod ymhob man ar unwaith, ac yn llefaru wrth bawb yn wastad, yn clywed ac yn cynnal pob peth ar unwaith. Nid rhan o hono sydd yma, a rhan acw, canys nid oes mo'r rhanau ynddo: Jer. xxiii. 24. Ond y mae efe i gyd, ac yn gwbl, ac yn hollawl ymhob man ar unwaith. Am hyny y gallai Moesen chwedleua âg ef wyneb yn wyneb: canys yr oedd yr holl Dduwdod o flaen ei lygaid ef. Ond ni wêl neb hyn ond y meddwl ysprydol, megis nas gellir gweled yr haul ond yn ei oleuni ei hunan. Pwy sydd yn gweddio; neu pwy sydd yn pregethu; neu yn rhoddi tro yn y byd; ac yn gweled bod yr holl Dduwdod i gyd, sef y Duw mawr, â'i holl olwg arno; ac yn deall mai lle y mae ei gariad ef, yno y mae bywyd a pharadwys; a lle y mae ei ddig ef, yno y mae angau ac uffern: Mat. xi. 27. Hwn yw y Duw anfesurol, bendigedig byth, yn ymlonyddu ynddo ei hunan; ac iddo ef y bo'r clod ymhob man yn dragywyddol: Rhuf. ix. 36; Deut. xxviii. 58. Ni ddylai dŷn son am ei enw ef heb barch a chryndod, canys ynddo y mae pawb yn son am dano: Dat. vi. O'i flaen ef y mae'r nefoedd yn dïange, a cher ei fron ef y mae'r angylion sanctaidd yn ymguddio: Esa. vi."

Dyma feddyliau mawrion mewn iaith ardderchog. Pe buasai y Dr. Samuel Clark wedi deall cymmaint a hyn, ni chynnygiasai â phrofi y Bod o Dduw trwy gymmeryd yn ganiataol fod hyd a lled yn un o briodolieuthau yr Anfeidrol. Ond gwrandawn yn nesaf beth a ddywed y Golomen am Arfaeth ac Etholedigaeth. A rhag i'r Gigfran gael lle i feio, caniatâwn iddi ddyfod ym mlaen i ddywedyd ei chwyn yn fyr. Er mwyn deall ei gwrthddadl, fe allai mai angenrheidiol yw sylwi bod Noa, yn ei waith yn adeiladu yr arch, yn cael ei olygu trwy yr holl lyfr fel yn arddangos y Tad yn rhoddi y Mab i fod yn Waredwr pechaduriaid.

"*Cig.* Y mae Noa wedi fy ngwrthod i; ac nid gwaeth i mi beth a wnelwyf, os gwrthodedig ydwyf.

"*Er.* Nid efe a'th wrthododd di, ond tydi a'i gwrthodaist ef, ac a aethost ymaith: Ezec. xxxiii. Cariad ac ewyllys da yw efe, ac nid oes dywyllwch ynddo. Hawdd ganddo faddau i'r gweuthaf; anhawdd ganddo ddigio, a gwych ganddo hir-ymaros.

"*Cig.* Ond y mae llawer yn dywedyd ei fod wedi gwrthod llawer, a dewis rhai, cyn eu geni.

"*Er.* Y mae hyn tu hwnt i'm dysg i: fe allai y gŵyr y Golomen y dirgelwch hwn. Beth a ddywedi di?

"*Col.* Anhawdd dywedyd, ac anhawdd deall, pa fodd y mae'r dyfnder hwn yn Noa. Ond mi ddarllenaf i chwi yr A, B, C, yn gyntaf fel hyn. Y mae yn nhragywyddoldeb Dri yn Un; sef, ewyllys, cariad, a nerth; a'r naill yn ymgyrheuddyd erioed a'r llall, ac yn ymborthi, ac yn ymgenhedlu yn eu gilydd byth: Diar. viii. Oni bai fod pleser cariad tragywyddol i borthi yr ewyllys anfeidrol, ni byddai neb yn gadwedig. Ac oni bai fod cynhyrfiad yr ewyllys cyntaf yn dân llosgadwy, ni byddai neb yn golledig. Ac oni bai fod y tri fel hyn yn cydweithio, ni buasai na dŷn, nac angel, nac anifail, na dim arall wedi ei wneuthur. Y mae rhai wedi ymesgor erioed yn y cariad trwy ysgogiad yr ewyllys, yr hwn sydd yn eu gwasgaru fel gwreichion allan o hono ei hun, ac yn eu tymheru yn nwfr y difyrwch, yr hwn yw'r arch. Nid yw gwreiddyn y tri ond cariad ynddo ei hun, heb gasâu neb. Ond yn yr ewyllys gweithgar hwnw y mae'r ysgogiad yn tewychu'r peth sydd ynddo, ac yn gadael heibio (fel pren ei ddail, neu ddŷn ei boeryn) y peth nid yw un âg yspryd y galon: Ioan iv. 8. Wele, nid yw'r cigfrain yn adnabod tarawiad y tant yma yn y delyn nefol. Ond deall di, O Eryr! ac fe ddeall y colomenod hyn yn fwyfwy. Canys fel dyma wreiddyn y matter, a ffynnon pob peth. Dyma fôn derwen yr holl fyd gweledig hwn: dyma'r cynhyrfiad tragywyddol sydd yn achosi pob symmudiad ym mysg yr holl greaduriaid. Ond nid yw'r adar ar ganghenau'r pren yn meddwl pa fodd y mae'r gwreiddyn yn cynnal eu naturiaeth, a hwythau ynddi. Yr ewyllys cyntaf yw gwreiddyn pob un, fel y mae'r wreichionen yn dyfod o'r gareg; ac y mae efe ei hun yn ymgyrchu yn wastad i fynwes y Mab, ac yn ymlonyddu yn y cariad; ond y mae llawer o'r gwreichion heb fynnu ymoeri felly, ond yn ehedeg gyd â Lusiffer yn erbyn y goleuni i'r tywyllwch tragywyddol, ac yn aros yn yr ysgogiad tanllyd, heb gael esmwythdra byth, eisiau dyfod i'w geisio allan o'u naturiaeth eu hunain: Mat. iii. 17. Y mae gallu yn yr ewyllys i ysgog, ond nid oes mo'r ewyllys gyd â gallu i ddychwelyd, fel y dywed y gigfran o'r blaen ran o'r gwir; am hyny y mae llawer yn eu gwrthod eu hunain, ac yn achwyn ar Noa. Ac er bod ei fynwes ef yn eu chwennych, y mae eu mynwes danllyd hwynt yn eu dal yn eu teyrnas eu hunain. Ond, O Eryr; os cofi di ofyn ymhellach am hyn pan fôm ni wrthym ein hunain yn y distawrwydd, mi ddangosaf yn heleuthach wreiddyn pob dirgelwch."

Attolwg i ti, O Golomen hawddgar! ai hyn a elwi yn A, B, C? Mewn difrif, os felly y mae, yr ydym yn anobeithio cyrraedd byth hyd at yr a, b, ab. Er hyny y mae un peth yn eglur, sef na fedr neb brofi *nad* oes yma synwyr, yr hyn sydd fwy nag a ellir ei ddywedyd am bob peth a dreuthwyd ar y matter hwn. Wrth edrych hefyd yn fanwl, y mae rhyw drymwydd [cipdrem?] yn

Digitized by Google

dyfod i'r golwg, nes ein galluogi i benderfynu nad oedd Morgan Llwyd ymhell, o ran sylwedd ei farn, oddi wrth yr hen wir-air Cymreig, "Pob da oddi wrth y Creawdwr, a phob drwg oddi wrth y creadur." Nid ydym yn cofio i ni erioed weled dywediad mwy cynhwysfawr na hwn: "Y mae gallu yn yr ewyllys i ysgog, ond nid oes mo'r ewyllys gyd â gallu i ddychwelyd." Anhawdd yw dywedyd yn well er ysgrifenu cyfrolau. Ond yn niwedd y difyniad uchod, gwelir bod y Golomen yn addaw dangos mwy na hyn pan fyddai hi a'r Eryr wrthynt eu hunain yn y distawrwydd. Ac felly, hwyrach mai cystal fyddai aros hyd hyny am oleuni ychwanegol. Ar ol cryn lawer o ymddiddan ymhellach, y mae'r Eryr yn gwasgu at y Gigfran yn fwy difrifol, nes yw hithau o'r diwedd yn blino, ac yn cymmeryd ei hedfa oddi wrthynt yn y modd canlynol:—

"*Er.* Gwrando, O Gigfran! rhaid i mi o'r diwedd dy holi di yn ddwysach. Paham na ddoi yn ol at dy Arglwydd?

"*Cig.* Mi welaf dy fod di yn fy erbyn i yn hollawl; ond cymmerer Noa, a'i arch, rhyngot ti a'r Golomen. Minnau a wn ple caf fy swper. Mi glywaf sawyr burgunod ar y ddaear.

"*Er.* Fe dderfydd y rhai hyny o'r diwedd, ac yno fe dderfydd am danat tithau.

"*Cig.* Nid oes fatter. Mi a'u cymmeraf tra caffwyf. Ffarwel i Noa, ac i'w arch, ac i tithau, ac i'r Golomen. Ni ddoi atoch mwyach. Crawc. Crawc. Ymaith ymaith. Ymhell ddigon."

Yn awr, dyma'r Eryr a'r Golomen "wrthynt eu hunain yn y distawrwydd." Gadawer i ni wrando pa esponiad pellach a gawn ar y matterion blaenorol.

"*Er.* Tri yn un, meddi di, oedd ef. Ond a oes dim drwg yn dyfod oddi wrth y Rheolwr cyntaf fel oddi wrth Noa?

"*Col.* Nag oes. Nid oes, fel y dywedais o'r blaen, ond cariad a goleuni ynddo: er bod digter ac arglwyddiaeth gyd âg ef pa le bynag y mae: Ioan i. 5; Esa. xxvii. 4. Ac y mae ef ymhob man yn llenwi'r nefoedd a'r ddaear. Gochel feddwl bod dim drwg ynddo, er ei fod ef yn hir yn cyd-ddwyn â'r drygioni sydd yn y byd. O Eryr! deall hyn. Canys dyma wreiddyn ymraniad holl ganghenau gwybodaeth a naturiaeth. Canys y naturiaeth dragywyddol yw ffynnon y naturiaethau amserol. Ti wyddost nad yw gair da ynddo ei hunan yn ddrwg, a ddêl allan o un â meddwl da; ond er cynted y dyweder ef, y mae'r glust ddrwg yn ei wyro. Felly y mae yspryd y byd wedi cipio a chamu enaid dŷn, er iddo ddyfod yn bur ac yn berffaith allan o'r un daionus."

Meddyliem fod hyn yn gystal esponiad a dim a ellir ei gael. Y mae'n amlwg fod Morgan Llwyd yn gweled yr anhawsder, ac yn ei deimlo. Os na lwyddodd i'w symmud yn hollol, nid yw hyny yn rhyfedd, wrth gofio bod pawb wedi methu o'i flaen, ac ar ei ol. Wedi'r cwbl, tybygid nad oes gan neb lawer ychwaneg i'w ddywedyd ar y matterion hyn na'r hen weinidog hwnw yn y Deheudir, yr hwn, pan ofynwyd iddo pa fodd yr oedd yn deall y geiriau hyny, "Esau a gaseais," a attebodd, "Ië, nid ydych chwi yn deall yr adnod yna. Nid wyf finnau yn ei deall. Ond nid yn yr un man yr wyf fi yn methu a chwi. Nid wyf fi yn synu un tipyn iddo gasâu Esau. Y peth sydd yn fy nyrysu i yw, meddwl iddo erioed garu Jacob." Dichon, gan hyny, mai doethineb i ni fyddai disgyn at ryw bethau mwy dealladwy, neu bethau, o'r hyn lleiaf, ag y mae llai o berygl wrth ymdrin â hwynt.

Bu dadl led faith yn "Y Drysorfa" rai blynyddau yn ol mewn perthynas i ddeilliad yr enaid. Y mae Morgan Llwyd, o ran dull o ymadroddi, yn cydfyned â'r naill blaid; ond o ran sylwedd, â'r llall. Ei farn ef ydyw bod yr enaid yn dyfod trwy genhedliad naturiol oddi wrth y rhieni; ond yr yspryd yn uniongyrchol oddi wrth Dduw. Fel hyn y mae efe yn gwahanieuthu rhwng yr enaid a'r yspryd; ac o'n rhan ni, nis gallwn wadu bod ynom ogwydd cryf i feddwl bod y gwahanieuthiad yma yn gywir. Onid dyma y ffordd fwyaf naturiol i ddeall y rhanau hyny o'r Bibl lle y sonir am enaid ac yspryd yn yr un adnod? Ac onid yw y golygiad hwn yn taflu golau ar y gwahaniaeth rhwng dŷn ac anifail? Ar yr un pryd, gan fod y gair "enaid" yn cael ei arfer am yspryd, ac yn cael ei ddeall felly yn unig yn ein dyddiau ni, byddai ceisio dyrysu pobl gyffredin trwy ddywedyd bod enaid mewn anifail, pan y gwyddom y cymmerent hwy y gair mewn ystyr wahanol oddi wrth yr eiddom ni, yn arwydd o brinder mewn synwyr a gras. Nid ydym chwaith yn anfoddlawn i'r dywediad "mai dwy ran sydd mewn dŷn, sef corph ac enaid," o blegid y mae'r gair "corph" yn y dywediad hwn yn cynnwys yr holl ran anifeilaidd sydd o ddŷn, a'r gair "enaid" yn golygu yr hyn a eilw Paul "yr yspryd," sef y sylwedd anfarwol, yr hwn, pan fyddo dŷn farw, "sydd yn myned at Dduw yr hwn a'i rhoes ef." Gyd â golwg ar y gofyniad am ddeilliad yr yspryd, y mae'n ddirgelwch i ni pa fodd y gallai neb gredu ei fod yn hanu o'r rhieni trwy genhedliad naturiol. Y mae'r farn hon yn arwyddo, un ai bod yr yspryd yn effaith cyfluniad corphorol, a dim ond hyny; neu ynte bod dynion yn meddu ar allu creadigol. Ond nis gall dŷn roddi bod i'r un mymryn o sylwedd corphorol; pa faint llai i sylwedd ysprydol ac anfarwol? Ond fel y canlyn y

Digitized by Google

mae'r ymgomiad ar y pyngciau hyn rhwng yr Eryr a'r Golomen:—

"*Er.* Yr oeddwn i gynnau yn barod i ffeintio [llewygu], ond yr awron y mae ynof beth nerth, a chefn, a chalon i ymofyn ymhellach cyn ymadael. Attolwg dangos beth yw y rhagoriaeth rhwng yr enaid a'r yspryd yn yr un dŷn.

"*Col.* Yspryd dŷn yw'r trysor mawr, a'r enaid sydd megis llong i'w ddwyn o'r naill i'r llall. Yspryd dŷn yw'r castell, a'r enaid sydd megis tref o'i amgylch. Yr yspryd yw canhwyllyn [cnewullyn] y meddyliau, a'r enaid yw plisgyn y rheswm oddi allan: yr yspryd, medd yr Ysgrythyr, yw'r mêr, a meddyliau yr enaid yw'r cymmalau. Ysyryd dŷn yw gwreiddyn y pren, a rhesymau yr enaid yw'r canghenau. Y mae enaid ymhob peth byw, a math ar ddeall gan anifail: Heb. iv. 12; 1 Thes. v. 23. Ond nid oes yspryd anfarwol mewn dim ond mewn dynion ac angylion. Yr enaid y mae dŷn yn ei lun ei hun yn ei genhedlu, ond Duw yw tad, ac nid taid, yr yspryd. Yr enaid rhesymol yw hwylbren dŷn, ond yr yspryd yw llyw y llong. Weithiau y mae yspryd dŷn yn rhodio (fel Dina) yn rhodfeydd yr enaid; ac yno y mae gwynt yspryd y byd hwn yn ei gipio; ond y mae yspryd dŷn naturiol yn wastad allan o hono ei hun, fel y mab afradlon, nes dychwelyd, yn cael ei ddwyn yng nghertwyn y cythraul, ac yn dilyn ei chwibaniad ef yn y cnawd: Luc xv. 17. Y mae'r yspryd fel tŷ Lot, a'r enaid yn y cnawd fel heol Sodom: Eph. ii. 2, 3. Ac fel y mae rhagoriaeth rhwng anadl dŷn a'i feddwl, felly y mae rhwng yr enaid a'r yspryd. Yr yspryd yw neuadd yr enaid, a'r enaid yw porth yr yspryd. Dyma'r yspryd (yn angau y corph) sydd yn esgyn i fynu at breswyliwr tragywyddoldeb, pan fo enaid anifail yn disgyn i lawr, canys gwaed yw: Preg. iii. 21."

Ond na feddylied y darllenydd mai pyngciau sychion yn unig yw testynau yr ymddiddan yn "Llyfr y Tri Aderyn." I'r gwrthwyneb, y mae'n llawn o gyfeiriadau grymus at y gydwybod, a'r rhai hyny yn fynych yn taraw i'r byw. Braidd na feddyliem mai yn hyn y mae ei nerth mwyaf, a'i ragoriaeth penaf. Nid yw wedi ei ranu yn bennodau ar wahanol fatterion. Ceir ynddo yr un amrywiaeth naturiol ag mewn ymddiddanion cyffredin. Ond nid yw yn gadael pum munud i fyned heibio heb ryw air at y gydwybod. Rhoddwn yma ddifyniad i ddangos mor ddidwyll a dïarbed y mae'r Golomen yn treuthu y gwirionedd i'r Eryr tywysogaidd:—

"*Er.* Ond pa ryw ddyfnder yr wyt ti yn ei feddwl? Pa beth yw'r dyfnder a'r uwchder?

"*Col.* O Eryr! os gwrandewi fel y dylit, ti gei fwy o ddealltwriaeth: Dat. xxi. 8. Y dyfnder yma yw'r pwll diwaelod, a hwnw yw yr ail angau, a'r angau mawr hwnw yw'r uffern, a'r llid anhreuthadwy sy'n llosgi pechod a phechaduriaid cyndyn fel afon o frwmstan; canys y mae'r pechod lleiaf yn cynhyrfu y digofaint mwyaf; ac am yr uwchder, hwnw yw diwedd yr ailenedigaeth. Nid oes neb a'i hedwyn ond y rhai sy'n hedeg allan o honynt eu hunain iddo, ac yn byw ynddo: Esa. xxx. 33.

"*Er.* Ond ai dïogel i ddynion ehedeg yn uchel? Fe allai po uchaf yr ymgodant isaf y cwympant.

"*Col.* Gwir ddigon yw os bydd esgyll o gŵyr naturiaeth ganddynt. Canys felly yr ehedodd Lusiffer a'i lu i waelod uffern. Y balch a ostyngir, a'r isel o galon a ddyrchfir: Luc xiv. 8. Ond os calon ddrylliog a gais wybod dwfn gariad Duw, hi a gaiff ei dysgu, a'i chynnal, a'i chodi i uchelderau yr Arglwydd, a'i chyfarwyddo yn yspryd y gwir Noa: Psal. xxv. 8; Phil. iii. 20; Yr un, iii. 2, 13.

"*Er.* Ond yr wyt ti yn fynych yn son am Noa. Pa beth yw yr yspryd?

"*Col.* Yspryd y Goruchaf yw yr awel dragywyddol, a'r seren forau, a goleuni y byd, ffynnon yr oesoedd, sel y Testament, anadl yr Oen, rheolwr angylion, a bywyd dynion: a'r Yspryd hwnw sy'n dwyn rhai i baradwys tra fo eu cyrph ar y ddaear.

"*Er.* Paradwys! Pa le y mae'r ardd honno? Mi glywais son llawer am dani.

"*Col.* Ni all neb hedeg yno ond y sawl sydd yn rhedeg allan o hono ei hunan, sef allan o'i ewyllys, a'i gyfrwysdra, a'i ddiweddion [ddibenion], a'i lwybrau ei hunan. Y mae paradwys nid ymhell oddi wrthyt, ond ymhob man lle y mae cariad Duw yn ymddangos. Ac y mae'r holl golomenod cywir ynddi, yn clywed geiriau anhreuthadwy, ym mysg myrddiynau o angylion, ac ysprydoedd perffaith: Heb. xii. 22; Luc xvii. 21. A hefyd o'r tu arall, y mae uffern, a'r tân, a'r nâd, a'r tywyllwch yng nghalonau llawer tra fônt yma yn rhodio ar y ddaear.

"*Er.* Ond gad i mi ofyn i ti, Onid oes un nef nac uffern ond sydd yn y byd yma?

"*Col.* Och lawer! Y mae nef dragywyddol, ac uffern fel ffwrn a bery byth. Ond er hyny, y mae naill ai nef neu uffern ymhob dŷn yn y bywyd hwn: Iago iii. 6. Ond nid yw dŷn yn gweled yma pa le y mae, mwy na gŵr yn cysgu yn ei wely sydd â lleni tywyll y cnawd o'i gwmpas, a'i holl ffenestri wedi eu cau. Ond y mae'r amser i ddeffro yn agos, pan gladder neu pan losger y cnawd; ac yna y mae pawb yn myned i'w gartref, ac yn canfod ei orweddfa.

"*Er.* Ond y mae arnaf ofn hyn: Pa le y byddaf fi yn oes oesoedd?

"*Col.* Er bod Ffelix yn crynu, nid oes fawr dan y diwedd yn ymofyn am hyn: Act. xxiv. 25. Os dilyni naturiaeth, ti gei losgi fyth heb fyned byth yn ulw. Ond os cei di naturiaeth arall a chalon newydd, ti fyddi gyd a'r colomenod yn y llawenydd: Act. xxvi. 18.

"*Er.* Ai son a wnei di wrthyf fi am galon newydd? Parchedig oeddwn i erioed, a'm hynafiaid hefyd, fel y mae'r achau yn dangos: ac y mae llawer a gawsant gred a bedydd nad oes arnynt ofn uffern mwy na thithau.

"*Col.* Er hyny, fe ddaw uffern heb ei hofni. Ac nid yw achau teuluoedd ond rhwyd a weuodd naturiaeth, yn yr hon y mae pryf copyn balchder yn llechu. Nid wyt ti nes er dyfod o honot o Dywysogion Cymru,* onid wyt ti yn un o had Tywysog brenhinoedd y ddaear; wedi dy eni nid o ewyllys gŵr, ond o'r had anllygredig. Rhaid i ti, er glaned wyt oddi allan, gael newid dy naturiaeth oddi fewn, neu fe a'th losgir di yn dy blu, a'th fonedd-igeiddrwydd dy hunan: Iago i. 18. Ac am gred a bedydd dyfrllyd, nid yw hwn fwy na gwelltyn yn y domen, oni chei gyd â hyn yr ailenedigaeth: Act. viii. 13, 23.

"*Er.* Peth na wn i oddi wrthyf fy hunan yw'r ailenedigaeth, er i mi ar glust glywed son am dani.

"*Col.* Yr ailenedigaeth yw dyfodiad dŷn allan o'r naill fyd i'r llall yn y bywyd yma. Pan fo'r enaid yn yr yspryd (mewn poen dan weiddi) yn tori drwy gwrs naturiaeth oddi fewn, heb fynnu ei ddal yn hwy yng nghroth y meddwl daearol, ond er gwenthaf pob creadur yn dyfod allan o dywyllwch i oleuni, allan o fryntni ysprydol i burdeb, allan o gas i gariad, allan o gaethiwed i ryddid nefol, allan o'r carchar i reoli, allan o helynt y byd i gymdeithas sanctaidd, allan o fynwes cythreuliaid i gyfeillach angylion Duw, allan o swn y cnawd i glywed llais Duw, allan o'r oferedd i sobrwydd meddwl, allan o'r chwerthiniad i brudd-der paradwysaidd, allan o'r cnawd drewllyd i'r yspryd bywiol, allan o groth naturiaeth i'r Gaersalem

* Y mae yma awgrym y gwyddai Morgan Llwyd fod Cromwel (yr Eryr) wedi disgyn o hen Dywysogion Cymru. Gwel pen. iv.—Gol.



Digitized by Google

nefol: Ioan iii. 3; Act. xxvi. 18; Eph. ii. 1, 2. Y mae yn yr ailenedigaeth ddwy ran; un i'r enaid a'r yspryd, am yr hon yr ydym ni yn son, a'r llall i'r corph yn y diwedd, yr hon a elwir mabwysiad y corph: Rhuf. viii. Ac fel y mae'r corph yn y bedd heb ei eni hyd yr adgyfodiad, felly y mae'r enaid yn pydru yn naturiaeth nes iddo adgyfodi gyd â Christ; ac fe wna Duw i ddŷn weled ei fod ef yn gorwedd yn uffern, ac yn llechu yn y ddaear, cyn iddo ddwyn y meddwl i baradwys.

"*Er.* Yr wyt ti yn son yn fynych am baradwys. A wyddost ti pwy sydd yno?

"*Col.* Dod i mi genad i son yn ddifyr am fy ngwlad a'm bro fy hunan: Luc vi. 45; Rhuf. viii. 38, 39. Rhaid i bawb son am ei gartref. Yr wyf, mewn rhan, ynddi yn barod, a'r colomenod gyd â mi, fel y dywedais i ti.

"*Er.* Ond beth pe bawn i yn dy ladd di'r awron, i ba le yr ait ti?

"*Col.* I mewn ymhellach i'm gwlad; canys ni ellir mo'm gwthio i allan o'm naturiaeth; a naturiaeth nefol yw paradwys.

"*Er.* A wyddost ti beth yr wyt yn ei ddywedyd?

"*Col.* Gwn, er na allaf beru i ti ddeall.

"*Er.* Onid oes arnat ti ofn marw er hyn i gyd?

"*Col.* Nag oes, mwy nag ar un sydd wedi blino fyned i'w wely i orphwys: Phil. i. Cenad yw angau oddi wrth fy Nhad i'm dwyn i adref allan o ysgol y byd hwn, fel allan o garchar y cnawd."

Y mae adfywiad i yspryd dŷn mewn troi oddi wrth athroniaeth anifeilaidd y dyddiau hyn at syniadau uwch-ddaearol Morgan Llwyd. Mewn gwirionedd, yr ydym bron meddwl na ddarfu i ni ganmawl hanner digon arno. Wrth ddarllen y difyniad uchod, ac amryw ranau eraill o'r llyfr, gellid tybied mai Plato sydd yn siarad, dan ddylanwad ac yngoleuni y Grefydd Gristionogol. Os na ellir dywedyd ei fod yn chwalu y muriau sy'n cylchynu ein byd bach ni, yn yr hwn nid oes ond ychydig heb law ffurf o ymddangosiad, y mae o leiaf yn tynu y ceuadleni oddi ar y ffenestri, ac yn gollwng pelydr yr haul ganol dydd i mewn ar chwareufwrdd amser, nes y mae ei holl ardderchowgrwydd yn diflannu, a ninnau yn gorfod credu nad yw sylweddau tragywyddoldeb ymhell oddi wrthym. Ond "nid oes neb a'i hedwyn, ond y rhai sy'n hedeg allan o honynt eu hunain iddo, ac yn byw ynddo." Mynych y mae'n curo ar yr hoel hon. Ymddengys ei fod yn edrych ar "hunan" fel drwg y drygau. Fel y dywedodd Rowlands, Llangeitho, gan mlynedd wedyn, Dyma'r peth y mae dŷn yn ei wisgo gyntaf, ac yn ei ddïosg olaf. Cymmerer ychydig ymhellach ar y matter hwn, allan o'r ymddiddan cyn i'r Gigfran eu gadael:—

"*Er.* Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd yn erbyn doethineb? Y mae arnaf ofn dy fod yn amhwyllo.

"*Col.* Geiriau sobrwydd yr wyf yn eu treuthu. Nid magl i'r cyffylog yw synwyr y cnawd, ond i'r aderyn doethaf daearol. Y dynion naturiol gorau a gollir. Am hyny gocheled pawb ei synwyr ei hun. Ni fedr anifail hoyw ehedeg; ac nid ysprydol yw'r naturiol, er gwyched fo yngolwg dynion. Y mae llawer o bregethwyr yn anghymmeradwy ac yn golledig: 1 Cor. ix. 27. Eu hathraw yw synwyr y cnawd: y maent yn ysgrifenu eu pregethau; ond oni bai cyflog dynion, ni wnaent bwyth o waith; ac er hyny, fel gweinidogion yr efengyl y mynnent eu hanrhydeddu. Ac heb law y dysgawdwyr deillion, nid oes mewn tref na gwlad ddŷn llwyd llwm anllythyrenog, nag oes sarph yn ei fynwes, a synwyr y cnawd yn ei galon.

"*Er.* Nid rhyfedd wrth hyn fod llawer yn golledig, os yw pob dŷn fel nythiad o nadroedd, yn llawn o feddyliau cnawdol. Ond beth a ddywaid y frân wrth hyn?

"*Cig.* Dyma daro at y gwreiddyn. Os drwg gynghorwr drwg ganlynwr. Os tywyll goleuni rheswm, y mae'r holl gorph yn dywyll, a phob gair a ddywedais i erioed yn ofer. Ond o'm rhan i, yr wyf yn tybied fod rheswm ymhob peth; ac mai rheswm naturiol yw'r goleuni gorau. Dyma wreiddyn y pren a blanwyd yn ddwfn. Diwreiddied y golomen ef os gall.

"*Col.* Mi wn mai dyma Solomon y byd, ond y mae yspryd gwirion y Golomen yn fwy na Solomon yn ei holl ogoniant a'i ddoethineb. Ond i ddangos i ti ddoethineb ddaearol y Frân. Ei synwyr hi yw hyn:—Dalied pawb ei eiddo, cipied pawb a allo. Safed pob dŷn ar ei waelod ei hun. Na ddyweded mo'r gwir mewn cariad, ond mewn creulondeb. Na ddringed uwch law rheswm dŷn. Canlyned y byd a'i arfer. Maged ei naturiaeth, ei gnawd a'i waed, a gwaried ei amser mewn trythyllwch. Bwytaed ac yfed, a bydded lawen. Boddloned pawb er ei fwyn ei hun. Bydded ganddo ddau wyneb yn barod, a'i galon yn ddauddyblyg. Bydded gall drosto ei hun, onid e marw a wna. Ond dyma ffolineb y byd. Dyma ynfydrwydd penagored; canys nid call y dŷn a'i ceisio ei hun. Y sawl sydd a dau wyneb gantho, y mae un o'r ddau yn gythreulig: y neb a wenieithio ddynion sydd bwdr yn ei galon. Hawdd yw bwyta, ac yfed, a chwarau gormod, a dawnsio yn y cnawd ar ol pibell yr yspryd drwg. Yspryd y gwaed yw cwmmwl y meddwl. Arfer y byd yw'r porth llydan i ddistryw. A'r sawl na ddringo uwch law ei hun, ni eistedd fyth yn y nefoedd. Y mae'r dŷn difyr chwerthinog allan o'i gof ei hun, ac o'r tu fewn i gof y sarph. Amser dŷn yw ei gynhysgaeth, a gwae a'i gwario yn ofer. Rhaid yw dofi yspryd y cnawd, a magu bywyd yspryd yr uchaf. Boddi a wna'r dŷn na nofia yn erbyn ffrwd y wlad. Y rheswm uchaf yw'r afreswm isaf. Ni saif neb ond Un arno ei hun. Nid eiddo neb ei hunan. Cadwed pawb ei galon at Dduw. Adrodded pob un ei gydwybod yn ddoeth. Cladded dŷn ei reswm ei hun. Ond dyma iaith nad oes nemmawr yn ei deall. Nag ofned neb arall cymmaint ag ef ei hun. Oni fedri roi taw ar eraill, distawa dy hun. Pan fo mwyaf swn yn y byd, bydded lleiaf yn dy galon. Nag ofna ddiafol, na châr bechod, ac na chynnwys dy hun. Na ddalied yspryd y creadur di, ond nofia i Yspryd y Creawdwr. Cyfrif y da o'th flaen yn berl, a'th waith o'th ol yn dom. Melus i'r cnawd yw siwgr diafol, ond bwyta di y manna dirgel. Mochyn yw Lusiffer yn ymdreiglo ynghnawd dŷn. Crochan hwn yw calon fudr yn berwi ar dân uffern. Gwyniau'r cnawd ŷnt feirch o ryfel; disgyn oddi wrthynt, ac nag oeda. Perthen o ddrain yw rhesymau dŷn: a'i gwado ei hun, a ddiangc o honi. Portha dy chwant, ac fe a'th ladd. Lle y mae dynion, y mae angylion: lle y mae angylion y bydd dynion. Y sawl sy'n byw ynddo ei hun, sy'n byw allan o fynwes y Tad. Oni elli achub eraill, dïangc dy hun oddi wrthyt dy hun. Gwell yw adnabod y galon yn y byd yma, na'i bod hi yn adnabod digofaint byth. Pa fodd y gelli fod yn llonydd oni byddi ar y graig? Nid gwaeth beth a ddywedo ffyliaid: nid eu gair nhwy a saif."

Ond os awn ym mlaen fel hyn, byddwn mewn perygl o ysgrifenu yr holl lyfr. Yr oeddym wedi nodi allan amryw ddarnau eraill, mor faith a'r rhai

Digitized by Google

hyn, ac yn llawn mor odidog; ond rhaid ymattal. Er hyny, byddai yn drosedd anfaddeuol i ni fyned heibio heb bigo a rhoddi at eu gilydd rai angreifftiau byrion etto o wahanol ranau o'r llyfr, y rhai a ymddangosant i ni yn brydferthach na dim gemau a fu erioed yn addurno pendefigion neu bendefigesau y ddaear. Cynghorem ein darllenwyr, ac yn enwedig y rhan brydweddol o honynt, i'w cylymu hwy am eu gyddfau, a'u hysgrifenu ar lechau eu calonau. Beth meddech, gyfeillion hynaws, a chyfeillesau hawddgar, am dlysau o fath y rhai canlynol? Oni feddyliech chwi eu bod yn hardd dros ben?—

"Y mae gan bob dŷn ddigon o gyfrwysdra i'w dwyllo ei hunan: Act. xiii. 10.

"Pan ddelo yspryd y nef i mewn, efe a ostega trwy ostwng y dwfr diluw sydd yn dy galon di, ac yno di gei weled penau'r bryniau, a'r meddyliau tragywyddol cariadus yn ymddangos o'r tu fewn.

"Ni all neb ganfod y Duwdod ond trwy'r Tad, na'r Tad ond trwy'r Mab, na'r Mab ond trwy'r Yspryd, na'r Yspryd ond trwyddo ei hunan.

"Pan fo dŷn duwiol yn ymadael â'r byd, nid yw ond gadael ei wisg fel Joseph yn nwylaw gwraig Potiphar, honno yw'r ddaear.

"Y mae llawer, y rhai byddai yn wych ganddynt deithio yr holl fyd drosto, ond nid adwaenant y byd mawr helaeth yn y galon.

"Y mae yspryd dŷn siaradus yn farch i ddiafol heb un ffrwyn yn ei safn.

"Er cyfrwysed a fo dŷn, cofied a chanfydded fod y byd yn gweled peth, a'r angylion lawer, a'r gydwybod fwy, a Duw yn gweled y cwbl ar unwaith: Eph. iv. 29; Col. iv. 6.

"Y mae'n rhy ddiweddar i lawer yforu, am fod heddyw yn rhy gynnar ganddynt.

"Na phregethed, ac na ddyweded neb ond y peth y mae'n barod i'w selio â'i waed.

"Tra foch di yn gadael i'r meddwl redeg allan trwy y llygaid a'r synhwyrau, neu yn edrych oddi fewn ar luniau a delwau y peth a welaist neu a gopiaist, y mae'r meddwl, fel Lot, yn gadael ei dŷ, i ymresymu â'r Sodomiaid, nes i Yspryd Duw dy gipio di i mewn i ymddiddan â Duw yn ystafell y galon.

"Cyn gynted ag y dyweder y gair, y mae ef wedi ei argraphu yn yr awyr, ac y mae'r angylion yn ei estyn ef i'r byd arall."

Dichon bod rhai, a ystyriant eu hunain yn feirniaid go dda, yn analluog i ganfod prydferthwch y dywediadau hyn: ond nis gallwn gredu bod neb mor amddifaid o archwaeth ymhlith ein darllenwyr meddylgar. Nid yn fynych y cyfarfyddir â chyffelybieuthau clysach na'r rhai a welir uchod, am yspryd y nef yn gostegu y dwfr diluw yn y galon; Joseph yn gadael ei wisg yn nwylaw gwraig Potiphar; a Lot yn gadael ei dŷ i ymresymu â'r Sodomiaid, nes ei gipio i mewn i ymddiddan â Duw yn ystafell y galon. Mewn treuthodau crefyddol, y mae'n ymddangos i ni fod priodoldeb neillduol mewn cyffelybieuthau wedi eu seilio ar hanesiaeth Ysgrythyrol. Sylwer hefyd ar y cyntaf yn y gyfres uchod. "Y mae gan bob dŷn ddigon o gyfrwysdra i'w dwyllo ei hunan." Y mae byd o synwyr yn y dywediad hwn; ac y mae ynddo hefyd ddigon, ac nid gormod, o arabedd a challineb distaw, fel halen i roddi blas arno. Canfyddir yr un gynneddf mewn manau eraill, fel yn yr angraifft a ganlyn:—

"*Cig.* Y mae'r hen rai yn gweled bod tro mawr ar fyd yn agos, a'r cigfrain ifaingc yn dwndro, ac yn cymmeryd eu pleser. Mi fum yn Rhufain y dydd arall, ac yno mi welwn y Pab yn crynu yn ei gadair. Y mae hi'n llawn bryd i mi edrych yn fy nghylch.

"*Er.* A ydyw efe ym mysg y Crynwyr? Paham y mae efe yn crynu?"

Y mae'r crybwylliad hwn am y Crynwyr, y rhai oeddynt yn y dyddiau hyny newydd ddechrau, ac yn dïoddef llawer o erledigaeth, yn ein harwain i ymofyn, beth oedd syniadau Morgan Llwyd am ryddid crefyddol: a rhaid yw cyfaddef nad ydynt mewn un modd mor olau ac mor gyflawn ag y dymunasem eu bod. Fel hyn y llefara'r Eryr wrth y Gigfran:—

"Y mae cyfraith naturiaeth yn dysgu dynion i fyned ar ol eu goleuni eu hunain. Rheswm a chydwybod yw dau lygad dŷn naturiol; a'r dŷn a dyno ei lygaid ei hun allan o'i enaid, fe ddylai y barnwr ei gospi, nid am nad yw yn myned ar ol tyb grefyddol y llywodreuthwr, ond am ei fod yn myned yn erbyn ei reswm ei hun. Ac os gwnei di yn erbyn dy oleuni, yr wyt ti yn dy gospi dy hun oddi fewn, ac yn peru i'r swyddogion oddi allan dy gospi hefyd."

Dyna'r hen reswm a arferwyd gan erlidwyr ymhob oes. Ei sylwedd ydyw, "Fel hyn yr wyf fi yn barnu, ac y mae genyf fi hawl i farnu drosot ti; ac os wyt ti yn dywedyd yn wahanol, yr wyt yn dywedyd yn erbyn dy gydwybod, ac y mae cadwraeth dy gydwybod di wedi ei ymddiried i mi, ac am hyny mi ddylwn dy gospi." Ar yr un pryd, dylid cofio mai ychydig iawn yn yr oes honno oedd yn deall dim am natur rhyddid crefyddol. Nid oes gan un blaid lawer o le i oganu eraill yn y matter hwn. Wrth edrych ar yr honiadau a wneir weithiau, gellid meddwl nad oes neb, *oddigerth y "Traethodydd,"** yn darllen y ddwy ochr i'r ddalen. Ond dywedent a fynnont, y gwir yw fod pob plaid a gafodd erioed gyfle wedi bod yn euog o erlid. Cynghorem Esgobeuthwyr a Henadurieuthwyr i ddarllen bywgraphiad y Dr. Owen gan Orme, a chynghorem yr

* Ni buasem yn ein byw yn peidio dywedyd "Felly!" dan chwerthin, wrth ddarllen y geiriau yna, sydd mewn llythyrenau Italaidd; ac yr oeddym yn dychymmygu gweled cil genau yr awdur galluog yn ymledu peth, a'i lygaid yn ymloni, wrth eu hysgrifenu.—Gol.

Annibynwyr i ddarllen adolygiad y Dr. Macrie ar y gwaith hwnw. Yr oedd golygiadau y Dr. Owen ei hun ar y pwngc hwn yn amherffaith. Ysgrifenodd Jeremy Taylor, gyd â mwy na'i hyawdledd arferol, dros ryddid i bawb brophwydo fel y dewisent, pan oedd efe ei hun wedi gorfod encilio i sir Gaerfyrddin yn amser Cromwel; ond pan ddyrchafwyd ef i awdurdod gan Charles yr yr Ail, ymddygodd yn hollol wahanol i'r egwyddorion a amddiffynasid ganddo o'r blaen. Ac am yr Annibynwyr, y mae'n hyspys ddarfod i lawer o honynt fyned drosodd i America, yn yr amseroedd hyny, er mwyn rhyddid cydwybod: ond ar ol myned yno, nid hir y buant cyn rhoddi mewn grym yr hen ddeddfau caethion ag yr oeddynt wedi diangc rhagddynt, a dangosent at bawb a feddyliai yn wahanol oddi wrthynt hwy yr un creulonder ag yr oeddynt hwy eu hunain yn ei ddïoddef cyn hyny yn yr hen wlad.* Dichon hefyd nad oes genym ninnau, yn y dyddiau hyn, gymmaint o achos ymffrostio.† Os oedd eiddigedd dros Dduw a'i ogoniant yn eu cario hwy i eithafoedd, nid *oes dim dwywaith* (chwedl pobl Gwynedd) nad yw swrn mawr o'r siarad am ryddid a glywir yn awr, yn enwedig oddi wrth olygwyr newyddiaduron Saesneg, yn tarddu o ddifatterwch am y gwirionedd, os nad casineb gwreiddiol tu ag ato.

Ond dyma rywun yn gweiddi ar ein hol, ac yn taeru yn galed ein bod wedi crwydro yn rhy bell oddi wrth ein testyn. Pa fodd bynag am hyny, y mae'r adolygiad a'r llyfr yn tebygu i'w gilydd mewn un peth, sef mewn rhyddid perffaith oddi wrth bob rheol a ffurf. Nid mewn areithfa yr ydym ar hyn o bryd, yn treuthu darlith drefnus; ond yn ein llyfrgell, mewn hen gadair freichiau lled anrhydeddus:‡ a thybied a wneuthom, ddarllenydd hoff, dy fod dithau yn eistedd gyferbyn â ni, a'n bod yn ymddiddan tipyn, ar drws ac ar hyd, am "Lyfr y Tri Aderyn." Ond ofnwn dy fod yn dechrau blino bellach, er dy fod yn rhy foesgar i gwyno; a dychymmygasom unwaith neu ddwy i ni weled cysgodion cwsg yn hofran o flaen dy amrantau. Wel, y mae wedi myned yn hwyr, a'n doethineb ninnau fyddai meddwl am ein gorphwysfaoedd. Ond nis gallwn ganiatâu i ti ymadael heb gyfeirio rhai ymadroddion etto at dy gydwybod; a gobeithiwn y bydd i ti fyfyrio arn ynt yn ddifrifol wrth roddi dy ben ar y gobenydd. Fel hyn y mae Morgan Llwyd yn ein harwain rhwng Ebal a Gerizim, i glywed y felldith a'r fendith. Gwrandaw dithau, ac ystyria:—

"Ond gwae chwi'r cyfreithwyr, y mae cyfraith a'ch ysa: gwae'r cynhenus mewn gwlad, pentewynion uffern ydynt: Iago iii. 16. Gwae chwi ryfygwyr llofruddiog: y mae llawer och wedi myned i'r lan arall yn eich erbyn. Gwae chwi, wŷr trawsion, yn llyngcu cyfoeth: rhaid i chwi chwydu y cwbl gyd â'ch gwaed eich hunain: Job xx. 15. Gwae chwi, yr uchelwyr drwg eu siamplau, yn llusgo y tlodion ar eich ol i ddistryw: Ps. x. 9, 10. Pa fodd y rhowch chwi gyfrif am eich tenantiaid truain? Job xxiv. 9. Gwae bob pren mawr a phob pren bychan ag nad yw yn dwyn ffrwyth da. Y mae tân wedi ei ennyn yng Nghymru. Y mae drws dy fforest di, O! wlad y Brytaniaid presennol, yn agored i'r eirias dân. A hefyd y mae'r fwyell ar dy wreiddyn di; oni ddygi yr awron ffrwyth da, fe a'th dorir rhag bod yn bobl: Esa. ii. 12; Mat. iii. 10; Zech. xi. 1. A gwae chwi yr oferwyr, sy'n gwario eu hamser, a'u hieched, a'u harian, a'u meddyliau tragywyddol mewn oferedd: Preg. xi. 8, 9; Job xi. 11. Gwae di, lafurwr anwybodus; dy holl waith yw cloddio y ddaear a'i thrin, a throi yr anifeiliaid yn y mynydd; a hwy a gymmerant eu troi genyt ti, am hyny tystion ŷnt yn dy erbyn: Job xxiv. 5. Gwae di, ddarllenwr cyfrwysddrwg, yr hwn wyt yn chwilio llyfrau i ganfod lluniau neu feiau: fe genfydd y gwirionedd dy feiau di, ac a'th farna: Diar. vi. 13, 15. Gwae di, ragrithiwr, yr hwn wyt yn ofni golwg dŷn: nid wyt ti yn ofni pechu yn y dirgel; di gei dy farnu yn yr amlwg: Mat. xxiii. Gwae di, gardotyn heinyf, segurllyd, na fynni weithio er lles i neb: lles ni cheisi, lles a golli: Diar. vi. 10; xix. 15. Gwae di, gydwybod gysglyd, yr hon, fel ci mud, wyt yn bradychu dy berchenog: y mae amser hir i ti udo. Gwae chwi, sy'n ymgyrchu i'r dyrfa, yn hoyw eich ysprydoedd, yn bwyta siwgr chwant y cnawd yngyrfa diafol, ac yn carowsio eich eneidiau: Iago v. 5; Jer. li. 39. Gwae chwi, foneddigion drwg, sy'n llyfu chwys y tlodion, yn peru i'ch tenantiaid ocheneidio, ac yn tori eu hesgyrn: y mae amser eich gwasgfa chwi yn prysuro heb oedi: Amos iv. 1; Mic. iii. 3. Gwae chwi, offeiriaid mudion, yn caru llwynogod, yn cyfarth defaid; cŵn deillion, chwerwon, beilchion,

* Gwel llyfr iii., pen. ii.; pen. xiv.; llyfr iv. (hwn), pen. iv.; pen. vii.; pen. x.

† Y mae'r ymddiddan canlynol o waith Morgan Llwyd yn bur briodol ar hyn:—

"*Er.* Ond galwn am y Golomen i wrando beth a ddywed hi am dani ei hun ac am danom ninnau.

"*Cig.* Ni ddaw hi i'n cwmni ni rhag ofn; ac ni feiddia hi ddywedyd ei meddwl lle bwyf fi.

"*Er.* Nage: rhaid wrth gyngor y Golomen. Gwrandawn ar bawb, a dewiswn y gorau. Pa le yr wyt ti, O Golomen? Yn lloches y grisiau? Gad i ni glywed dy lais dithau.

"*Col.* Os ceir cenad, ae onid e, y mae ewyllys i ddangos dirgelwch y dwfr diluw, a'r hen fyd, a'r newydd. Da genyf ddwyn y ddeilen las, a newydd da i'r rhai a achubir. Ac mi ddylwn gael cenad i ddywedyd y gwir yn llonydd am danaf fy hun, ac am bob aderyn arall.

"*Er.* Dos rhagot: ni rwystra neb di. Di gei genad i fyned ym mlaen.

"*Col.* Y mae genyf fi etto lawer ynghylch Ysgrythyrau ac eneidiau dynion; ynghylch teyrnasoedd a rhyfeloedd; Arch y dystiolaeth, a chodiad y seren ddydd Haul y cyfiawnder, a dydd y farn; diwedd y byd hwn, a dechrau y byd arall; naturiaeth Duw, a natur dŷn; nef ac uffern, a llawer o fatterion eraill; ond y mae'r Gigfran yn anhywaith: ni cheir son am ddim daioni o'i bodd hi.

"*Er.* Ond y mae Noah wedi peri i mi, yr Eryr, lonyddu'r Gigfran, a chadw heddwch ym mysg adar; ac fel yr ydym ni, yr Eryrod, yn gryfach na'r Cigfrain; felly y mae'r da yn gryfach na'r drwg."

Pan welodd y Gigfran y mynna'r Eryr chwarau teg i'r Golomen i dreuthu ei meddwl yn ddiwahardd, hi a lefodd,—"Ffarwel i Noah, ac i'w Arch, ac i tithau, ac i'th Golomon: ni ddof fi atoch mwyach. Cnawc, cnawc, ymaith, ymaith, ymhell ddigon;" ac ymaith yr aeth, ac nis gwelwyd hi mwyach.—Gol.

‡ Hen gadair freichiau Charles y Bala?—Gol.

dïog, gwangcus, chwyrnllyd, cysglyd, llydlyd, drewllyd: fe'ch troir chwi oll allan o'r eglwys. A gwae chwi, holl hen Gymry sydd etto heb eu hadnewyddu: Esa. lvi. 10, 11; Jer. xxiii. Ond gwyn eich byd chwi sy'n hiraethu am Dduw, chwi gewch eich llenwi âg ef, ynddo, ac iddo. Gwyn eich byd chwi rai diwyd, ffyddlon, parhaus, chwi a gewch fendith ar eich gwaith: Mat. v.; Zech. x. i.; Ps. i. 3. Gwyn eu byd y gweddiwyr diragrith, hwy a gânt eu gwrando bob amser: Jer. xxix. 13. Gwyn eu byd a'u gwadant eu hunain, ni wâd Duw mo honynt. Gwyn eu byd a gywir heuant wenith Duw, hwy a gânt fwynhau cnwd ysprydol. Gwyn eu byd y rhai ysprydol, canys gyd â hwy y mae cyfrinach Duw. Gwyn eu byd y gwyliadwrus, ni chaiff y diafol afael arnynt. Gwyn eu byd y disgwylwyr distaw, fe ymwêl yr Arglwydd Iesu â hwynt. Gwyn eu byd y rhai a ddïoddefant dros yr Oen, gyd â'r Oen y teyrnasant. Gwyn eu byd y rhai a ddihunwyd ac a ddihunanwyd, byw a wnant yn Nuw ei hunan. Gwyn eu byd a barhânt hyd y diwedd mewn daioni, anhreuthadwy yw eu cyflog hwynt. Gwyn eu byd y llesg, gostyngedig, toredig eu calonau, canys ynddynt hwy yr erys Duw. Gwyn eu byd y diniwaid, ni all neb eu niweidio. Gwyn eu byd blant bychain Duw, mawr yw ei ofal ef am danynt. Gwyn fyd weision grymus y Tad, eisteddant i wledda, a'r Oen a'u gwasaneutha. Gwyn eu byd y rhai boddlawn, dïolchgar, nid oes dim a all eu cythruddo. Gwyn eu byd a arhosant yn isel, hwy a godir yn uchel. Gwyn eu byd a nofiant yn erbyn ffrwd naturiaeth, hwy a ddeuant i'r môr lle y mae'r ysprydoedd sanctaidd. Gwyn eu byd a wnelont bob daioni a'r a wypont, hwy a gânt wybod a fynnont, a nerth newydd fel eryrod: Marc iv.; Ps. xxv. 14; Galar. iii. 26, 31; 2 Tim. ii. 12; 1 Ioan iii. 24; Dat. ii. 10; Esa. lvii. 17; Phil. ii. 15; 1 Ioan ii. 12, 13; Ioan vii. 17. Gwyn eu byd a rodiant gyd â Duw, fel Enoch, Duw a'u geilw ac a'u derbyn o fysg dynion: Heb. xi. 5. Gwyn ei fyd y meddwl pur, llonydd, fe edwyn hwnw baradwys a phren y bywyd. Gwyn ei fyd a ymprydio oddi wrth gnawdoliaeth, fe gaiff fwyta manna Duw. Gwyn ei fyd a wrthodo holl bleserau y cnawd, efe a ŷf o afon Duw. Ac, mewn un gair, gwyn ei fyd yr ailenedig, hwnw a anwyd i etifeddu pob peth: Duw sydd yn Dad iddo, ac yntau yn blentyn anwyl i Dduw. Yr Oen fydd ei oleuni, ac yntau fydd oleuni yn yr Arglwydd. Ni all dim ei ddrygu, ond pob peth a gydweithia er lles iddo. Pan na allo ddal ei afael ar Dduw, fe ddeil Duw ei afael ar ei had ynddo ef. Fe gaiff orphwys byth ynghalon Duw (yr hon yw ei Fab), pan fo llawer eraill byth yn crasu ar y llechau duon tanllyd, yn farw heb fyw, yn fyw heb farw yn dragywyddol. Ond ni all yr ail angau niwaid i'r ailenedig; ac nid oes dafod angel a all gyfrif yr holl drysorau sydd ynghadw yn Nuw cyn dechreuad y byd i'r enaid hwnw: Mat. v. 8; Dat. xxi. 7; vii. 17; Eph. v. Ond efe a'u cenfydd, ac a'u caiff; a'i waith ef fydd eu cyfrif a'u mwynhau yn dragywyddol: Rhuf. viii. 28; 1 Cor. ii. 9; 1 Tim. i. 13. Wele yr awron, dyma'r felldith a'r fendith. Wele dyma fynydd Ebal a mynydd Gerizim. Dyma angau ac fel dyma fywyd. Dewis di, O! ddŷn, fywyd ac nid angau." *

Yma y terfyn difyniadau y Dr. Edwards o "Lyfr y Tri Aderyn," a'i nodiadau tra gwerthfawr arnynt; a chan fod ein lloffion arweiniol ninnau am y gŵr tra hynod a godidog hwn o "Enwogion y Ffydd" wedi rhedeg yn feithach na'n disgwyliad wrth gychwyn, rhaid i ni beidio ychwanegu, heb law datgan ein bod yn gobeithio y caiff ein darllenwyr gymmaint o hyfrydwch, addysg, a mwynhâd wrth ddarllen y bennod hon ag a gawsom ninnau wrth ei hysgrifenu.

* Traeth. Llenyddol y Dr. L. Edwards, t. 133-152.

## PENNOD XVI.

### JOHN MYLES.

Y GWR enwog hwn sy'n cael ei ystyried yn sylfeunydd cyfundeb y Bedyddwyr digymmysg † yng Nghymru, ac yn sefydlydd eu cymmanfa yn y Dywysogaeth. Mab ydoedd JOHN i Walter Myles (Meils), Newton, sir Henffordd, a ganwyd ef yn 1621. Ymddengys bod tair trefgordd o'r enw Newton yn sir Henffordd; ac yn ol y traddodiad cyffredin, yn y Newton sydd ymhlwyf Clodoc, lle y mae'r afon Olchon yn ymuno â'r Escle, y cafodd Myles ei eni. Yn agos yno y ganwyd Syr John Oldcastle, sef yr Arglwydd Cobham, ac yno y treuliodd lawer o'i oes i geisio achub ei gydwladwyr o afael dylanwad melldithiol y Babaeth. Dywedir mai ger llaw y bu Siôn Cent yn goganu yr offeiriaid drygionus a'u hystrywiau twyllodrus, gan lafurio dros egwyddorion y Lolardiaid, y rhai a adweunid ar y pryd wrth yr enw "y Ffydd Newydd." Nid ymhell o'r gymmydogaeth honno y sefydlwyd eglwys Olchon yn 1633, y cyfeiriwyd ati o'r blaen, yr hyn a ddengys nad yw ardal genedigaeth Myles yn amddifaid o ddyddordeb i'r hanesydd eglwysig. Yr oedd Walter Myles mewn amgylchiadau cysurus yn y byd, yn debyg i rieni Vavasor Powel, canys anfonwyd John i Goleg Brasenose, Rhydychain, ar yr 11fed o Fawrth, 1636, pan nad oedd ond 15 oed. Gan iddo gael ei dderbyn yn aelod o'r Brifysgol mor forau, dïau y cafodd addysg o radd uchel mewn ysgolion anrhydeddus yn flaenorol, ac nad llangc o alluoedd cyffredin oedd y myfyriwr newydd o Newton. Nid yw hyd y tymmor y bu yn Rhydychain yn adnabyddus, ac nid oes sicrwydd iddo dderbyn graddau yno. Gan ei fod yn ddŷn mor werthfawr, ac iddo ddylanwadu i raddau mor helaeth ar y cyfundeb Bedyddiedig ym Mrydain, ac yn neillduol yng Nghymru, gresyn nad yw'r amser y gadawodd Rydychain yn adnabyddus, a bod y fath dywyllwch ar ei hanes rhwng yr adeg honno a'r 22fed o Chwefror, 1649, pan y ceir ei enw ym mysg y Profyddion yn y "Ddeddf er gwell Lledeuniad a Phregethiad yr Efengyl yng

† "Bedyddwyr digymmysg" yr ystyrir rhai nad eisteddent wrth fwrdd yr Arglwydd gyd â neb ond rhai wedi eu bedyddio trwy drochiad, ar gyffes o'u ffydd: y "Caethgymmunwyr."—GOL.

Digitized by Google

Nghymru." Y mae'r ffaith iddo gael ei bennodi i'r swydd yma yn profi bod gan y Senedd feddwl uchel o'i alluoedd, ei ddysg, a'i gymmeriad.

Dylid ystyried bod llīaws o ddynion galluog a chydwybodol yn yr Eglwys Sefydledig mewn gwahanol gyfnodau, o amser Harri VIII. hyd heddyw, yn aros ynddi yn hytrach na'i gadael, fel y gwnaeth y Dr. Chalmers a'i gyfeillion; ac yn ymdrechu am ddiwygiadau yn Eglwys y Wladwriaeth mewn athrawiaeth, moesau, disgyblaeth, a'r cyffelyb, a cheid amryw o honynt yng Nghymru yn y rhan gyntaf o'r 17fed ganrif, megis Vavasor Powel, John Myles, ac eraill.* Ymdrechu cael diwygiad ym moesau a bucheddau athrawon yr Eglwys Wladol oedd prif amcan ei diwygwyr rhwng yr amser y rhoddwyd bôd iddi gan Harri VIII. a diwedd teyrnasiad drygionus Charles II., ac wedi hyny, er nad oedd athrawieuthau cyfeiliornus a seremonīau Pabaidd yn dīangc yn ddisylw, fel y crybwyllwyd. Nid oedd y cyssylltiad anysgrythyrol rhwng crefydd a gwladwriaeth yn cael llawer o'u hystyriaeth yn yr oesoedd hyny; ac esponia y ffaith hon i raddau pell ymddygiad rhai o'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn cymmeryd lleoedd offeiriaid annuwiol ac anwybodus yn amser Cromwel, ac yn derbyn tâl gan y Senedd am eu gwasaneuthu. Nid *cyfiawnhau* yr ymddygiad hwnw yw ein hamcan yma, eithr mynegi fel *yr oedd.* Y mae llīaws o ddiwygwyr yn yr Eglwys yn awr; ond gan nad yw y swyddogion eglwysig yn anwybodus ac anfucheddol, fel eu hynafiaid, ymdrech y diwygwyr yn yr Eglwys yn bresennol yw ei glanhau oddi wrth arferion a defodau Pabyddol; ac y mae rhai yn myned mor bell yn eu Protestaniaeth ag i bleidio ysgariad yr Eglwys oddi wrth y Wladwriaeth. Dengys hyn nad at yr un nôd y cyrcha diwygwyr yn yr Eglwys ymhob oes; ond ymddibyna natur pob diwygiad ar natur neillduol y diffyg a fyddo yn ei wneud yn angenrheidiol. Dengys hanes eglwysig fod rhai diwygwyr wedi gadael yr Eglwys, ac wedi ffurfio cyfundebau crefyddol, tra yr arhosodd eraill yn y cymmundeb Esgobyddol am eu hoes, er yn credu ac yn pregethu egwyddorion cwbl wahanol iddi. Yr oedd Mr. Tombs, er angraifft, yn Fedyddiwr proffesedig, ac yn un o'r dadleuwyr galluocaf dros fedydd, fel y dengys y dadleuon rhwng Baxter ac yntau; ond nid oes hanes iddo erioed adael cymmundeb yr Eglwys Sefydledig. Ceid rhai o'r diwygwyr hyny yn Annibynwyr trwyadl, ac yn cyhoeddi eu golygiadau yn ddīorchudd, tra yn yr offeiriadaeth Eglwysig; a Myles, ac eraill o honynt, yn Fedyddwyr zelog, ac yn gwneud pob egni dros eu hegwyddorion, er yn swyddogion yn Eglwys Loegr ar y pryd, fel y gwelir llawer o esamplau o hanes rhai yn y gwaith hwn. O ganlyniad, oferedd yw meddwl nad oedd Bedyddwyr ac Annibynwyr yn y wlad hon cyn i eglwysi Bedyddiedig ac Annibynol gael eu sefydlu yn Olchon, Llanfaches, a lleoedd eraill; a phe buasai rhyddid crefyddol ym Mrydain Fawr yr un yn yr hen amser ag ydyw yn bresennol, dīau y buasai y Bedyddwyr a'r Annibynwyr wedi sefydlu eglwysi lawer yn gynt. Dylid ystyried nad geiriau cyfystyr yw Anghydffurfwyr ac *eglwysi* o Anghydffurfwyr. Nid creu Annibynwyr a Bedyddwyr oedd yr hyn oll a wnaeth sylfeunwyr Cymreig y cyfundebau hyn yng Nghymru, ond casglu a chorpholi y rhai a wnelsid yn barod yn Anghydffurfwyr, trwy ymdrechion llīaws o ddiwygwyr yn yr Eglwys Sefydledig.†

Y mae'n dra thebyg, os nad yn sicr, fod John Myles yn un o'r diwygwyr eglwysig hyny, tra y bu cyssylltiad rhyngddo âg Eglwys y Goron. Yr hyn sydd debycaf ydyw, iddo weinyddu fel offeiriad yn y Dywysogaeth wedi gadael y coleg. Os cywir yr hyn a ddywed Walker,‡ nid John Myles oedd yn offeiriadu yn eglwys blwyfol Llanilltyd yn nechrau 1649, ond un W. Houghton, yr hwn a drowyd allan gan y Profyddion o ddiffyg cymhwysder. Y mae'n bossibl, os nad yn debyg, fod John Myles yn offeiriadu mewn rhyw blwyf cyfagos cyn 1649. Yn ol un traddodiad, ceid cynnulleidfa o Ymneillduwyr yn Llanilltyd mor forau ag 1642, os nad yn gynt; ac y mae rhai yn barnu y byddai John Myles a Thomas Proud yn gwasaneuthu y cyfeillion hyny mewn distawrwydd, o herwydd yr erledigaeth, cyn 1649. Yr hyn sy'n ymddangos yn fwyaf tebygol ydyw, nad oedd Myles yn offeiriadu ymhell o gymmydogaeth Llanilltyd cyn y flwyddyn a nodwyd, ac y byddai yn pregethu egwyddorion y Bedyddwyr i ryw nifer o bobl tu allan i'r eglwys yn yr hon y gweinyddai fel offeiriad, megis yr arferai eraill wneuthur. Gan i'r Profyddion ei osod yn eglwys blwyfol Llanilltyd wedi troi Houghton allan, ac

* Gwel y rhestr yn y bennod gyntaf o'r llyfr hwn, t. 227.—Gol.

† Y dystiolaeth hon sydd wir, a dyma un achos bod cynllun eglwysig yr Ymneillduwyr yn rhy debyg i'r Eglwys Sefydledig mewn llawer o bethau. Gwnaeth yr hen Buritaniaid lawer o ddiwygiadau gwerthfawr, dan gyfarwyddyd y Testament Newydd; a da fyddai i'w holafiaid ymdrechu i fyned rhagddynt yn nes fyth i'r cynllun dwyfol ac anffaeledig, fel y'i gosodir allan gan Grist a'i apostolion.—Gol.

‡ Sufferings of the Clergy.

Digitized by Google

iddo yntau wasaneuthu yr eglwys honno yn y cymmeriad o offeiriad trwy yr amser y bu yn esgob ar eglwys y Bedyddwyr yno, yr hon a ffurfiwyd y laf o Hydref, 1649, paham na allasai bregethu i'r gynnulleidfa honno cyn hyny, tra yn offeiriad mewn rhyw fan yn yr ardal? Gan fod Llanilltyd ymhell iawn o Rydychain, ac o'i ardal enedigol yn Newton, sir Henffordd, i Lanilltyd, os nad dod yno a wnaeth fel swyddog eglwysig, i lafurio yn un o'r llanau yn yr ardal? Nid yw ei ddyfodiad i'r gymmydogaeth o gwbl yn esponiadwy ar unrhyw dyb wahanol.*

Cyn i Myles sefydlu eglwys Llanilltyd, aeth T. Proud ac yntau i Lundain, a deuthant i adnabyddiaeth â'r eglwys Fedyddiedig yn y Glass-House, Broad Street, yr hon oedd dan ofal William Consett ac Edward Draper, a chawsant dderbyniad croesawus gan y ddau fugail a'r frawdoliaeth. Wedi i'r brodyr dreulio tu a phythefnos yn y Brifddinas, daeth y ddau yn ol i Gymru, a ffurfiasant eglwys Llanilltyd (Ilston), yr hon, erbyn diwedd y flwyddyn ganlynol, a gynhwysai 75 o aelodau, ac yn 1660, 263. Cyn belled ag y gwyddom, nid yw diben yr ymweliad uchod â'r Brifddinas i'w gael mewn argraph; ond golygir nad yw anhawdd dyfalu beth ydoedd. Gan fod corpholiad eglwys yn beth oedd i raddau yn ddïeithr, ac yn bwngc a wrthwynebid cyn belled ag yr oedd yn cael ei ddeall; a chan nas gallesid disgwyl i offeiriaid fel Myles a Proud fod yn gyfarwydd iawn âg ef, yr oedd yn naturiol iddynt fyned i Lundain† i ymgynghori â dynion mwy cyfarwydd â'r matter.‡ Dïau fod y cam hwnw o'r eiddynt yn un doeth iawn o dan yr amgylchiadau. Y mae'n ymddangos fod Myles yn fwy tueddol a zelog, fel Bedyddiwr, na Proud: safodd y blaenaf yn ddiysgog dros gymmundeb caeth trwy ei oes, ond dangosodd yr ail dipyn o ansefydlowgrwydd; a chafodd ei ddïaelodi unwaith o herwydd ei gydddeimlad â chymmundeb agored.* Modd bynag, pan ddychwelasant o Lundain, ymddengys eu bod yr un farn ynghylch cyfyngu bedydd i ddynion wedi eu bedyddio yn ol y drefn apostolaidd.† Mewn man arall,‡ cyfeiriwyd at y difyniad o lyfr eglwys Llanilltyd, yr hwn sydd wedi achosi tipyn o anghydwelediad ynghylch hynafiaeth cymharol y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yng Nghymru.§

* Cenfydd y craffus mai dyfaliadau yn unig yw y pargraph yma. Y gwir yw, fel y dywed y Dr. T. Rees (Hist. Prot. Noncon., p. 130), mai gwag yw hanes J. Myles, o'i aelodiad ymhrifysgol Rhydychain hyd 1649.—GOL.

† Gresyn na buasent yn myned i'r Testament Newydd i chwilio y pwngc, yn lle myned i Lundain i ymgynghori â defodwyr yn ei gylch.—Gwel t. 110, nod. *.—GOL.

‡ Dengys gwrthwynebiad Mr. Erbery i gorpholiad eglwys Caerdydd, yn ol siampl Llanfaches, fod brodyr yn groes *iawn* y pryd hwnw i gorpholi eglwysi a sefydlu gweinidogion. [Yr oeddynt yn llygad eu lle, fel y gwelir yn amlwg yn yr Actau a'r Epistolau.—GOL.] Dywed Spinther mai meddylddrych tramor, a phur newydd yn Lloegr, oedd corpholi eglwysi Anghydffurfiol. Yn 1572 y corpholwyd eglwys gyntaf y Presbyteriaid (Neal's Hist. Purit., vol. i., p. 202). Yn 1612, eglwys gyntaf y Bedyddwyr Cyffredinol (Evans's Early Eng. Baptists, vol. i., p. 235). Yn 1616, eglwys gyntaf yr Annibynwyr (Price's Hist. Noncon., vol. i., p. 528). Golygir mai o Hòland y cafwyd y meddylddrych ar ffurf corpholiad. Gwel Han. Cref. yng Nghymru, t. 594. [Y mae'n amlwg y daeth o rywle heb law o'r Testament Newydd, fel y crybwyllwyd uchod.—GOL.] Yr oedd i'r geiriau "cynnull eglwys," ac "eglwys gynnulledig," yn meddu ystyr neillduol i grefyddwyr yn amser John Myles. Wedi arfer ymgynnull mewn dirgel fanau yn ddistaw yn y nos, yr oeddynt yn awr yn dechrau cael eu corpholi yn eglwysi cyfammodol, ac i'r amcan hwnw yn myned trwy *ffurf* o gorpholiad: ffurf a dderbyniasant yn ddiweddar o Loegr, a ffurf ag yr oedd rhai o honynt yn ofni ei bod yn sawru o Babyddiaeth. [Nid "sawru o Babyddiaeth" yn unig y mae'r ddefod ffurfiol dan sylw, ond Pabyddiaeth ddigymmysg ydyw, wedi ei chael o'r Defodlyfr Pabaidd gan yr Ymneillduwyr, trwy gyfrwng Defodlyfr Eglwys Loegr, fel y dengys hanesyddiaeth]. Y mae'n amlwg bod rhai o honynt yn wrthwynebol iawn i gael eu corpholi yn ffurfiol yn eglwysi cynnulledig, gan weithredu ar yr egwyddor o gasâu hyd yn oed y wisg a halogwyd gan y cnawd: ffieiddient dwyll offeiriadaeth a chaethiwed eglwysig i'r fath raddau fel yr ofnent [ac nid heb wir achos.—GOL.] y byddai cael eu corpholi yn eglwysi ffurfiol, dan ddwylaw a bugeiliaeth gweinidogion, ethol swyddogion, a'r cyffelyb, yn tueddu i'w dwyn yn ol i'w caethiwed drachefn (Han. Cym., gan O. Jones, cyf. ii., t. 846). Gan fod y detholion (*extracts*) yn ein meddiant ni, y mae genym gystal hawl i farnu yr hyn a barodd i Joshua Thomas newid ei farn ynghylch eglwys gyntaf y Bedyddwyr yng Nghymru ag oedd gan Mr. T. ei hun, a'n barn addfed a chydwybodol ni ydyw nad yw y difyniad o'r America yn profi nad oedd eglwys o Fedyddwyr yn Olchon yn 1633. Wedi i J. T. sylwi mai yn Llanilltyd y ffurfiwyd eglwys gyntaf y Bedyddwyr yng Nghymru, y mae'r frawddeg nesaf o'r hyn a ellir ei alw yn *hanes* y Bedyddwyr (*Hist. Bapt. Associ.*) fel hyn:—"Mr. Myles seems to be the first Baptist minister in Wales, who defended and maintained unmixed communion among the Baptists in the Principality, in a public open way (Olchon minister of the same sentiment and practice, was a man little known abroad").—Dealler mai rhoddi hanes y modd y cafodd yr hyspysrwydd am sefydliad eglwys Llanilltyd y mae Mr. Thomas yn y brawddegau sydd rhwng y frawddeg uchod a'r un flaenorol. Y mae'r geiriau sydd ganddo rhwng cromfachau am weinidog Olchon yn arwyddo bod hwnw yn cefnogi cymmundeb caeth o flaen J. Myles. Os oedd gweinidog Olchon yn pleidio cymmundeb digymmysg *cyn* i Myles wneud hyny yn Llanilltyd, rhaid bod eglwys Olchon mewn bôd cyn i eglwys Llanilltyd gael ei ffurfio, o blegid cymmundeb caeth oedd yn Llanilltyd o'r dechreuad. Os gellir gwneud unrhyw synwyr o'r frawddeg Saesneg uchod (a dïau y gellir), ymddengys mai yr hyn y mae yn ei ddysgu yw, mai Myles oedd y cyntaf o un *enwogrwydd* neillduol (ym mysg gweinidogion y Bedyddwyr) a amddiffynodd gymmundeb digymmysg yng Nghymru: bod esgob Olchon yn ei arfer a'i gefnogi o'i flaen; ond nad oedd hwnw ond dŷn dinod ac anenwog. Y mae hyn yn hollol gysson â'r hyn y mae Mr. Thomas yn ei ddysgu am weinidog Olchon mewn man arall. (Gwel pen iii. o'r llyfr hwn, t. 126, nod. *). O ganlyniad, yr hyn sydd yn debyg yw, bod J. Thomas wedi mabwysiadu y syniad Holandaidd (y cyfeiriwyd ato eisoes) ynghylch *corpholiad* eglwys; a chan na chawsai eglwys Olchon ei chorpholi fel eglwys Llanilltyd, tueddwyd Mr, Thomas i gredu fel Myles mai eglwys Llanilltyd oedd y gyntaf ("yn unol â'r sefydliad cyntefig") yng Nghymru. Dengys y cyfeiriad crybwylledig o *Han. y Bed.*, ac yn neillduol y cyfeiriad sydd ynddo at yr ysgrifen oedd ym meddiant yr awdur, bod cynnulleidfa o Fedyddwyr yn Olchon yn nyddiau Charles I., ac ym marn yr awdur, cyn 1640; ond ymddengys nad oedd, yn ol ei farn ef, yn "unol â'r sefydliad cyntefig." Wedi darllen y difyniad, barnodd fod eglwys Llanilltyd yn ol y drefn; ac o blegid hyny, tueddwyd ef i alw eglwys Llanilltyd "The first Baptist church in Wales."

* Gwel Thomas Proud, t. 422, nod. *.—GOL.

† Prin y mae angen dywedyd mai y "drefn apostolaidd," yn ol barn y Caeth-Fedyddwyr, yw trochiad un ar gyffes o'i ffydd.—GOL.

‡ Gwel pen. iii. o'r llyfr hwn, t. 126.—GOL.

§ Gwel yr un lle, t. 125, &c.—GOL.

Digitized by Google

Ond nid yw o nemmawr bwys pa un ai yn Olchon yn 1633, ai yn Llanfaches yn 1639, y ffurfiwyd y gynnulleidfa gyntaf o Anghydffurfwyr.* Y mae haeru nad oedd Bedyddwyr yn y wlad hon cyn 1649 yn gwbl ddisail. Ffurfio neu gorpholi eglwys o Fedyddwyr a fodolent ar y pryd a wnaeth John Myles yn Llanilltyd. Y mae genym hanes tair o eglwysi Bedyddiedig yn cael eu corpholi yng Nghymru o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd, sef Llanilltyd, ar y 1af o Hydref, 1649; y Gelli, yr hon a gynhwysai Fedyddwyr Olchon, ac a gorpholwyd dan lywyddiaeth J. Myles, Chwefror, 1650; ac eglwys Llanharan, a gorpholwyd rywbryd cyn diwedd Mawrth, 1650,† gweinidogion y rhai a gyfarfuasant yn Llanilltyd ar y nawfed mis yn 1650, lle y gosodasant i lawr sylfaen cymmanfa‡ y Bedyddwyr yng Nghymru, ac y penderfynasant gychwyn cenhadaeth yn sir Gaerfyrddin.§ Os oedd mor anhawdd ennill Bedyddwyr a magu pregethwyr y pryd hwnw ag ydyw yn bresennol, y mae'n berffaith afresymol meddwl y gallai yr eglwysi uchod ddyfod i fodolaeth, ac i'r fath ffurf weithgar, gan feddu bob un ei henuriaid a'i phregethwyr, ac un o honynt, sef y Gelli, feddu tri, o leiaf, o bregethwyr, sef Howel Fychan, Walter Prosser, a Thomas Watkins; a bod y cwbl wedi cael ei wneud mewn llai na blwyddyn o amser! Y mae'r geiriau, "trefn a disgyblaeth yr efengyl yn unol â'i *sefydliad cyntefig*," yn y difyniad, yn ddigon i ddangos meddwl yr awdur neu'r awduron. Yr oedd *rhywbeth*, neu ryw bethau, yn perthyn i gymdeithas fechan Olchon, ym marn J. Myles, yn wahanol i'r sefydliad apostolaidd,‖ ac eglwys

* Nis gall fod sail i amheuaeth am fodolaeth cynnulleidfa o Fedyddwyr yn Olchon tu a'r flwyddyn 1633; ond os oes rhyw bwys mewn cynnulleidfa wedi ei *chorpholi* yn rheolaidd, ymddengys mai yn Llanfaches y ceir yr olwg gyntaf ar un felly yng Nghymru. Dywed rhai y byddai Bedyddwyr Olchon yn arfer cymmundeb cymmysg, ond haera eraill na fyddent. Os oeddynt yn ei gefnogi, y mae'r difyniad o lyfr Llanilltyd yn hollol ddealladwy (gwel t. 126); ond os nad oeddynt, yr oedd y ffaith na chorphorasid mo honynt fel eglwys Llanilltyd yn ddigon i beru i Myles haeru mai yr eglwys honno oedd y *gyntaf* yng Nghymru, yn unol â'r "sefydliad cyntefig," ac yn gwneud y difyniad yr un mor ddealladwy a'r dybiaeth y byddai Bedyddwyr Olchon yn gymmunwyr agored. Gan mai cynnulleidfa heb fyned trwy y seremoni o gael ei chorpholi oedd y Bedyddwyr hyny, a John Myles yn golygu corpholiad yn beth apostolaidd ac angenrheidiol, pa ryfedd iddo ddywedyd mai y frawoliaeth yn Llanilltyd oedd yr un Gymreig gyntaf yn ol trefn yr apostolion? Nid oedd Jos. Thomas yn llai ei zel dros gymmundeb caeth a chorpholiad na John Myles; a phan welodd efe y difyniad mewn cwestiwn, mabwysiadodd syniad Myles, gan ddywedyd mai yr eglwys gyntaf o Fedyddwyr yng Nghymru oedd eglwys Llanilltyd.

† Hengoediana, p. 15.

‡ Y mae'r cyfarfodydd hyn yn anhyspys yn y Testament Newydd. —Gol.

§ Hist. Welsh Associ., pp. 6, 7.

‖ Gresyn na chyfeiriasai at y "sefydliad" hwnw yn y Testament Newydd, fel y gallasem eu cymharu.—Gol.

Llanilltyd oedd y gyntaf, yn ei dyb ef, yn unol â'r ffurf yn amser yr apostolion.* Yn y rhan flaenaf o'r 17fed ganrif, y mae'n eithaf eglur y byddai Bedyddwyr ac Annibynwyr yn cydaddoli ym mysg y Saeson a'r Cymry, ac mai wedi dechrau y ganrif honno yr ymwahanasant. "O'r blaen" (cyn 1633), eb Jos. Thomas, "yr oedd y Puritaniaid, y Bedyddwyr, ac eraill, yn yr un cymmundeb. Yr oedd yr Independiaid a'r Bedyddwyr wedi ymgorpholi yn eglwys yn 1616. Hon oedd yr eglwys drefnus† gyntaf o honynt."‡ Ac, eb efe, ar y tudalen canlynol,§ "Yn 1637, dewiswyd ef (Henry Jessey) yn fugail ar eglwys yr Independiaid yn Llundain, oddi wrth yr hon yr ymneillduasai y Bedyddwyr bedair blynedd o'r blaen, mewn cariad a thrwy gydsyniad o'r ddeutu;" yr hyn sy'n dangos y modd yr ymlwybrai y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yr amser hwnw.‖ Ceid

* Y mae un Dr. David Rees, medd J. Thomas, genedigol o Gymru, a ysgrifenodd yn 1734, yn dywed mai *tu a'r un amser* y cododd y Bedyddwyr yn Lloegr a Chymru; ac yn ol Crosby (*Hist. Engl. Bapts.*, vol. i., p. 147), y 12fed o Fedi, 1633, y corpholwyd yr eglwys gyntaf o Fedyddwyr yn Llundain, ac un a'i enw Spilsbury oedd y gweinidog cyntaf arni. Nid yw y ffaith hon a nodir gan Crosby yn milwrio yn erbyn bodolaeth yr eglwysi eraill a fodolent yn *ddirgelaidd* cyn y flwyddyn honno yn *Hill Cliff*, &c., at ba rai y cyfeiriwyd o'r blaen. Y mae hyn yn cyttuno yn hollol â'r hyn a ddywed Joshua Thomas am sefydliad cynnulleidfa Olchon tu a'r flwyddyn 1633. Crybwyllwyd mewn man arall (t. 120, &c.) bod haneswyr o fri yn barnu bod Bedyddwyr yng Nghymru er yr oes apostolaidd. Golyga rhai mai gan yr hen Gymry yr adeiladwyd y mynachlogau Cymreig [pe felly, buasai "yr hen Gymry" yn anhreuthol debycach i'r Pabydddion nag i'r apostolion, a holl eglwys fawr Jerusalem, "y rhai a *dramwyasant*, gan bregethu y gair," dros holl Asia Leiaf, a rhanau ehang o Affrica ac Ewrop hefyd]; ond yn sicr, ceir cyflawnder o brofion yn *Dugdale's Monasticon* mai gan estroniaid y sefydlwyd hwynt oll braidd, ac mai gan dramorwyr y byddent yn cael eu noddi a'u preswylio. Yr oedd yr offeiriaid yn gymmaint o bla yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif fel y darfu i bendefigion ac amaethwyr sir Gaernarfon gyflwyno deiseb i Harri VII., yn yr hon y cyhuddent yr offeiriaid o fod yn arfer cyfundrefn dwyllodrus i lithio eu gwragedd a'u merched.—Crofton, p. 931.

† Ceir hanes "eglwysi trefnus," yn ol y cynllun Dwyfol, yn yr Ysgrythyrau canlynol:—"Ac wedi ordeinio iddynt henuriaid ym mhob eglwys, a gweddïo gyd âg ymprydiau, hwy a'u gorchymynasant hwynt i'r Arglwydd, yr hwn y credasant ynddo," Act. xiv. 23. "Ac o Miletus efe a anfonodd i Ephesus, ac a alwodd ato henuriaid yr eglwys. A phan ddaethant ato, efe a ddywedodd wrthynt, . . . Edrychwch gan hyny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Yspryd Glân chwi yn esgobion, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed," Act xx. 17, 28–35. "Paul a Timothëus, gweision Iesu Grist, at yr holl saint yng Nghrist Iesu, y rhai sydd yn Philippi, gyd â'r esgobion a'r diaconiaid," Phil. i. 1. "Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol. ac y gosodit henuriaid ym mhob dinas, megis yr ordeiniais i ti: . . . canys rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd, fel goruchwyliwr Duw," Tit. i. 5, 7.—Gol.

‡ Han. Cref. yng Nghymru, argr. B. Davies, t. 9.

§ Yr un, t. 10.

‖ Cymmundeb cymmysg a arferid yn eglwys Mr. Jessey yn Llundain. Teimlai ef ei hun yn anesmwyth ynghylch bedydd, a mynodd drochi, neu fedyddio, y plant a ddygid ato, yn lle taenellu dwfr arnynt; ac yn y flwyddyn 1645, bedyddiwyd ef ei hun, gan Hansard Nolys, ond arhosodd yn weinidog fel cynt yn ei hen eglwys, yr hon oedd yn gyfansoddedig o Annibynwyr a rhai Bedyddwyr (Han. Bed., gan J. T., t. 30, 31). Nid yw Calamy yn cyfeirio at ei fedyddiad o gwbl; ond y mae Palmer yn croniclo y ffaith.—Gwel Jessey's Life; Noncon. Mem., &c.

Digitized by Google

Bedyddwyr yn eglwys Llanfaches hefyd, fel y dywed Jos. Thomas ac eraill, yr hon y bu Henry Jessey yn cynnorthwyo i'w sefydlu yn 1639; ond ymadawsant yn raddol, gan ymsefydlu mewn lleoedd eraill, a gadael Llanfaches i'r Annibynwyr. Byddai yr un peth i ddŷn ddywedyd na thywynodd yr haul erioed ar y Dywysogaeth, a theuru nad oedd Bedyddwyr yng Nghymru cyn i Myles a Proud gorpholi eglwys Llanilltyd yn 1649.*

Nid yw yn hawdd deall yr ymdrechion aflwyddiannus sy'n cael eu gwneud i geisio profi nad oedd Bedyddwyr yng Nghymru cyn 1649, tra yr oedd y dull, sef trochiad, yn cael ei arfer yn yr Eglwys Sefydledig, ymha un y gweinyddai llïaws o'r hen Ddiwygwyr Cymreig hyd ddyddiau Iago.† Nid peth newydd, neu anadnabyddus, oedd suddo neu drochi, ond un o'r cyflawniadau crefyddol â pha rai yr oedd y Brytaniaid yn fwyaf cyfarwydd. Trochi yn ddïesgeulus oedd yr hyn a ddysgid yn y "Llyfr Gweddi" a ddarllenent yn y gwasanaeth cyhoeddus; o ganlyniad, taenelliad, ac nid trochiad, oedd y newyddbeth yn nyddiau yr hen dadau boreuol. Gan fod syniadau y Bedyddwyr wedi cael eu dysgu yn ardaloedd Olchon am lawer o flynyddau cyn 1633, fel y dywedwyd (t. 123, &c.), beth sydd yn anhebyg neu yn afresymol yn y dystiolaeth fod yno gynnulleidfa o Fedyddwyr yn y flwyddyn uchod? A chan mai trochiad oedd y dull yn Eglwys Loegr yn amser Myles, a'i fod yntau, yn ddïau, wedi trochi llawer o fabanod (ac eraill, fe allai) yn y cymmeriad o offeiriad ynddi, ni fuasai bedyddio credinwyr tu allan i'w chymmundeb cyn 1649 yn orchwyl nas gallai yn hawdd ei ddeall i foddlonrwydd. Yn gymmaint ag mai trochi yn ddïesgeulus y byddid yn yr Eglwys Sefydledig gynt, y mae'n fwy na thebyg i dadau yr Annibynwyr, sef Wroth, Cradoc, ac eraill, drochi llawer o fabanod tra yn Eglwys y Goron; ac fe allai fod hyn, i ryw fesur, yn cyfrif am y ffaith y byddai yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn addoli gyd â'u gilydd yn Llanfaches a manau eraill. Ffaith ag sydd uwch law amheuaeth ydyw, mai trochi oedd y dull cyffredin o fedyddio yn y wlad hon o amser Harri VIII. hyd ddyddiau Iago,‡ a'r gwahaniaeth mawr rhwng Eglwys Sefydledig y cyfnod hwnw a'r Bedyddwyr oedd, ac ydyw, y byddai'r fleunaf yn bedyddio babanod, a'r olaf yn cyfyngu bedydd i ddynion yn proffesu edifeirwch tu ag at Dduw, a ffydd yn y Gwaredwr. Ni ddarfu i John Myles, gan hyny, fabwysiadu un dull dïeithr, ond cyfyngu yr hen ddull adnabyddus i ddosparth neillduol o ddynion.

O'r flwyddyn 1649 hyd 1660, bu Myles yn gweinidogeuthu yn Llanilltyd, ac yn ymdrechu yn galed a llwyddiannus dros egwyddorion y Bedyddwyr mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru; ac efe, mewn gwirionedd, oedd prif ddŷn y cyfundeb Bedyddiedig yn y Dywysogaeth, cyn iddo symmud i'r America. Hawdd fyddai profi iddo ymdrechu llawer yn erbyn cymmundeb cymmysg tra yng Nghymru, yr hon arfer a gefnogid gan V. Powel ac eraill, ac na fu ei lafur mawr dros egwyddorion gwahanieuthol yr enwad yn ofer, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Dengys ei lythyrau pa mor benderfynol oedd yn erbyn cymmundeb agored ["cymmysg"], ac nad bychan oedd y dyddordeb a deimlai ynghysur crefyddol ei frodyr.

* Nis gellir osgoi y casglad fod Vavasor Powel yn cyfeirio at Olchon yn ei "*Bird in the Cage Chirping.*" Yno dywed, yn 1641, neu o gylch hyny, bod proffeswyr crefydd yn anaml iawn yng Nghymru, oddi eithr mewn rhai *conglau o ddwy neu dair sir.* Ynghylch yr amser hyny y casglwyd yr eglwys gyntaf, os nad yr unig eglwys gynnulledig yn yr holl wlad. Ac yna dywed, "Yn nechrau y rhyfeloedd (tu ag 1641 neu 1642), nid oedd ond un neu ddwy gynnulleidfa wedi eu casglu trwy holl Gymru." Yma gellir nodi eglwys Llanfaches wedi ei chorpholi yn 1639. Gallwn fod yn sicr y cyfrifai efe honno fel un yn 1641. Y rhai oedd ar gonglau dwy neu dair sir sydd yn cyfatteb yn hollol i sefyllfa Olchon, ond nid o gwbl i Llanfaches, yr hon sydd yn agos i ganol sir Fynwy. Ond gan fod y fleunaf yn gymdeithas fechan, ddinod, heb un gweinidog o'r Brifysgol i'w bugeilio, tueddai Vavasor Powel i edrych arni mor fechan fel na wyddai pa un a oedd yn iawn ei galw yn eglwys neu beidio. Er hyny nid oedd yn hollol foddlon ei gadael allan. Mewn un lle dywed, "Y gyntaf, os nad yr unig, eglwys gynnulledig." Yn y llall, *un neu ddwy* gynnulleidfa wedi eu casglu."—Han. Bed., argr. B. Davies, t. 135–6.

Os cofir bod John Myles, megis yr oedd yr holl hen bregethwyr Puritanaidd braidd, wedi ei ddwyn i fynu yn egwyddorion yr Eglwys Sefydledig, a ddysgid yn ei phrifysgolion, nid rhyfedd bod ei olygiadau ar byngciau crefyddol y fath ag y'u darlunir yn hanes ei fywyd.—Gol.

† Y mae Ficar Llanddyfri, yn ei agoriad i Gatecism Eglwys Loegr, yn dywedyd fel hyn:—

"Holiad. Beth ydyw'r nôd gweledig,
A'r arwydd digon tebyg,
Sy'n y Bedydd o'r tu fàs,
Yn selu'r gràs arbenig?

"Atteb. Y Dwr yn y bedyddfaen,
Lle trochir y dyn bychan,
Yn Enw'r Tad a'r Mab dri phrŷd,
A'r sanctaidd Ysprvd purlan."

Eglwyswr oedd Syr John Ffloyer, yr hwn a ysgrifenodd tu a'r flwyddyn 1700. Dywed ef i'r Cymry adael trochiad yn ddiweddar, ac i rai canol oed ddywedyd wrtho ef eu bod yn cofio yr arfer o drochiad. "Rhoddais yn awr y dystiolaeth a ellais ei chael mewn llyfrau Seisnig," eb efe, "i brofi yr arfer wastadol o *drochiad*, o'r amser y dechreuwyd bedyddio y Brytaniaid a'r Saeson hyd ddyddiau y Brenin Iago (yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn 1603, ac a ddiweddodd yn 1625), pan ddechreuodd pobl rwgnach yn erbyn pob hen ddefod; a thrwy hoffi rhywbeth newydd, tynerwch rhieni, a chymmeryd arnynt fod yn fwy gweddaidd, rhoddasant heibio *drochiad*, yr hyn ni wnaed erioed trwy un weithred yn Eglwys Loegr, eithr y mae trefn ein heglwys ni mewn bedydd, yn gorchymyn byth i drochi yn ddïesgeulus a darbodus.—Treatise on Cold Bathing, 4th ed., pp. 14, 16, 87.

‡ Felly, Trochwyr oedd y Pabyddion, canys Pabydd noeth oedd Harri VIII., fel ei hynafiaid; a mwy na hanner Pabyddion oedd ei holl olynwyr ar yr orsedd, ond Edward VI., hyd William III.—Gol.



Digitized by Google

Daeth amryw weinidogion oedd ar y maes o'i flaen ef, sef Howel Fychan, Walter Prosser, a Thomas Watkins, i gydweled ac i gydweithio âg ef yn egnïol; ond eraill, sef Jenkin Jones, William Thomas, a Hugh Evans, a ymgadwasant ar wahân, gan blanu a chynnal eglwysi cymmysg, y rhai yn y diwedd a ddarfuasant, neu a lyngcwyd i fynu gan yr Annibynwyr.

Nid yw manylion ei gyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig yn Llanilltyd, ac âg achos y Bedyddwyr yn yr un lle, yn adnabyddus. Wedi sefydliad yr olaf yn 1649, gosododd y Profyddion J. Myles yn Eglwys Blwyfol Llanilltyd yn lle y Mr. Houghton y soniwyd am dano. Bu yno yn offeiriadu o dan y Weriniaeth hyd ddychweliad Charles II., a chafodd ei droi allan, neu ymadawodd, pan osodwyd "Deddf yr Unffurfiad" mewn grym yn 1662.* Y mae'r ffaith hon, sef y byddai yn cael tâl gan y llywodraeth, yn rhoi cyfrif am y ffaith arall, sef ei fod yn alluog i deithio cymmaint dros y cyfundeb, tra na dderbyniai ond y nesaf peth i ddim gan y Bedyddwyr fel cydnabyddiaeth am ei lafur. Nis gallasai amryw o dadau y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yng Nghymru wneud cymmaint ag a wneuthant, mewn un ystyr, dros eu hegwyddorion cyfundebol, ac yn neillduol yn amser Cromwel, oni buasai y tâl Seneddol a dderbynient am lafurio yn y llanau. Wedi gosod Annibynwyr a Bedyddwyr yn yr eglwysydd plwyfol, yr oedd gan y naill enwad a'r llall gynddrychiolwyr galluog yn Eglwys y Wladwriaeth, ac eglwysi neillduol tu allan i'r cyfundeb Esgobyddol. Faint bynag oedd yr ennill arianol a gafwyd trwy y cyssylltiad crybwylledig rhwng Myles ac eraill â'r llywodraeth, hwyrach iddo fod yn anfantais i Anghydffurfiaeth Cymru fel y cyfryw. Gan fod amryw o'r goreuon perthynol i'r enwadau hyn yn y llanau, nid yw yn ymddangos y gallasent fod mor rhydd ag y dymunent i amddiffyn a lledeunu eu syniadau gwahanieuthol; ac yr oedd gwasaneuthu yr Eglwysydd Plwyfol yn gofyn am lawer o'u hamser. Os oeddynt yn ennill mewn un ffordd, collent mewn cyfeiriadau eraill; ac fe allai nas gallwn ni fod yn sicr am raddau y golled a'r ennill. Y mae un ysgrifenydd yn sylwi fel hyn:—

"Y mae'n amhossibl yn awr disgrifio i foddlonrwydd gyssylltiad J. Myles âg Eglwys Blwyfol Llanilltyd, ac â'r Bedyddwyr, sef pa un a fyddai efe yn myned trwy ei ddyledswyddau fel gweinidog y plwyf, gan dderbyn at fwrdd yr Arglwydd yn unig y rhai a fedyddiasid trwy drochiad, neu a oedd ganddo ddwy gynnulleidfa, un yn gymmysg, yn cyfarfod yn Eglwys y Plwyf, a'r llall yn gynnulleidfa o Fedyddwyr, yn ymgynnull mewn rhyw le arall. Y mae hen adfeilion capel yn agos i Lanilltyd, a elwid 'Capel y Drindod,' . . . ac ymddengys mai capel y Bedyddwyr ydoedd. Dichon mai yn hwnw y corpholodd J. Myles yr eglwys, ac mai yno yr arferent ymgynnull mewn cymmundeb; neu dichon i'r eglwys, ar ol cael eu corpholi yno, symmud i Lanilltyd (yr Eglwys Blwyfol) pan bennodwyd ei gweinidog i'r fywioliaeth honno, yn lle W. Houghton. Corpholasid yr Eglwys Fedyddiedig yno, rai misoedd o leiaf, cyn i'w gweinidog gael ei osod yn y fywioliaeth blwyfol. Cymmerodd y corpholiad le, fel y nodwyd, ar y 1af o Hydref, 1649; tra na ddaeth y 'Ddeddf er gwell Lledeuniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru' i'w grym hyd y 25ed o Fawrth, 1650;† ac o dan honno y gosodwyd yr Ymneillduwyr yn y Llanau Plwyfol. Modd bynag, y mae'n ddilys ddigon na weinyddai efe gymmundeb i neb ond i'r rhai a fedyddiasid trwy drochiad, fel y gwelir oddi wrth y llythyr a anfonodd at Eglwys y Gelli, yr hon, cyn ei chorpholi, oedd mewn blinder, trwy fod rhai yn bygwth mynnu cymmundeb cymmysg i'r lle, a dwyn Vavasor Powel yno i bregethu dros y fath gymmundeb."

Y mae Myles yn ysgrifenu yn gryf a phenderfynol yn erbyn cymmundeb agored, ac yn zelog dros un caeth, yn y llythyr crybwylledig. Amserwyd y llythyr, yn ol ein cyfrif ni, y 29fed o Ionawr, 1650. Ymddengys mai ar y 12fed o Chwefror, 1650, y corpholwyd Eglwys y Gelli yn ffurfiol gan J. Myles. Mewn cyfeiriad at yr amseriadau hyn, dywed un awdur galluog bod "y ffaith hon, sydd yn ymgodi oddi wrth yr amseriadau, yn profi tu hwnt i amheuaeth fod eglwys o Fedyddwyr yn ymgynnull ynghonglau Henffordd, Brycheiniog, a Maesyfed, cyn 1649, ac na wnaeth J. Myles ond corpholi y cyfryw yn eglwys o Fedyddwyr digymmysg, a'i dwyn i well trefn o weithio."‡ Dïau na chawsai eglwys y Gelli ei chorpholi yn flaenorol, fel y sylwasom mewn lle arall; ac y mae'n debyg mai o blegid hyny yr oedd ym marn Myles yn groes i'r "cynllun cyntefig." Y mae'n eithaf tebyg hefyd mai cymmundeb caeth a arferid ganddi ar y cyntaf, a'i bod, pan ysgrifenodd Myles ati, naill ai wedi ymollwng i raddau gyd â golwg ar y matter hwn, neu mewn perygl o wneuthur, ac mai diwygio neu ragfleunu oedd diben anfoniad y llythyr. Rhoddasai Jenkin Jones, yr hwn oedd dros gymmundeb cymmysg, gymmun i rai na fedyddiasid ar broffes o'u ffydd rywle yn yr ardal. Anfonodd cyfeillion y Gelli lythyr at Myles ar yr achos; ymddengys mai atteb i hwn yw y llythyr a welir isod.§

* Dywed rhai iddo gael ei droi allan yn 1660.

† Cafodd y "Ddeddf" dan sylw awdurdod y Senedd ar yr 22fed o Chwefror, 1649, fel y gwelsom o'r blaen.—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 505.—Gol.

‡ Dealler nad yw'r Gelli ac Olchon ond dau enw ar yr un eglwys, a symmudwyd o Olchon i'r Gelli.

§ "Frodyr Gwerthfawr,

"Trwy ystyriaeth ddwys a difrifol o'ch llythyr, llanwyd fy nghalon â chymmysgedd o zel, llawenydd, a gofid; gofid, o blegid

Fel dŷn ffyddlon i'w argyhoeddiadau, ac un ymdrechol drostynt, y mae'n dra thebyg i Myles yfed yn helaeth o gwpan trallod yng ngwlad ei enedigaeth, canys nid oedd efe yn foddlon i aberthu cydwybod ar allor tawelwch, eithr gofalai am ei waith, gan adael y canlyniadau i'r Goruchaf. Byddai yn ymddyheu am ryddid, ac yn foddlon i ddïoddef er mwyn ei sicrhau. Gan nad oedd ond gorthrymder mawr i'w ddisgwyl wedi i Charles II. ddychwelyd, penderfynodd Myles adael ei wlad, a gwynebu ar America, lle y disgwyliai yr ymwared a naccid ym Mrydain. Nid oes sicrwydd pa bryd, nac o ba le, y cychwynodd i'r Gorllewin; ond y mae'n dra thebyg mai tu a diwedd 1662, neu ddechrau 1663, yr ymadawodd. Yn ol rhai, Nicholas Tanner oedd yr unig aelod o eglwys Llanilltyd a aeth gyd âg ef i'r America; ond dywed amryw eraill i'r rhan lïosocaf, neu yn agos holl eglwys Llanilltyd, adael eu gwlad yr un pryd ag ef. Yr hyn sy'n ymddangos debycaf ydyw, i un neu ddau o'r aelodau gyd-gychwyn âg ef, ac i lïaws eu canlyn, wedi clywed i Myles a'i gyfaill, neu ei gyfeillion, gyrraedd y Gorllewin yn ddïogel, a chael ar ddeall trwy lythyr, neu lythyrau hwyrach, nad oedd gormes eglwysig yn debyg o'u haflonyddu yn yr America. Yn Backus* y ceir

bod fy anwyl frawd, Jenkin Jones (ffydd, diwydrwydd, ac ufudd-dod moesol yr hwn sydd wedi ei wneud yn enwog) yn awr yn profi ei fod yn offerynol i rwystro llawer, a thrwy hyny wrthwynebu Teyrnas Crist; a'i fod, ar ol gwneud cymmaint i osod i lawr sylfaen dda, yn awr yn adeiladu arni wair a sofl, ac (O newydd trwm!) yn ammau ordinhâd o sefydliad mor ddïamheuol; a hefyd, mewn dull anhrefnus ac anamddiffynadwy, yn tori bara gyd â'r gynnulleidfa, yr hwn arferiad (er, anwyl enaid, gallai nad dyna ei amcan) a all beri eu huno yn gadarnach yn un corph i wrthsefyll ffyrdd Crist. O mor amlwg y gwelaf ddichell Satan! Ond megis ag yr oedd hyn yn newydd trwm, felly hefyd yr oedd eich sefydlowgrwydd, eich dïanwadalwch, a'ch dyfal-barhâd chwi, ynghyd â'r newydd da fod deg neu ddeuddeg gyd â chwi yn barod i ymostwng i'n Harglwydd, a'n Brenin Iesu, yn adnewyddu fy nghalon, ac yn gorbwyso yr ystyriaeth arall. O newydd bendigedig! bod rhai, nad yw eu ffydd mewn doethineb ddynol, ond yngallu Duw, ac yn beiddio dilyn eu Cadfridog er i bawb aros yn ol. Anwylaf eneidiau, nid ydych chwi o'r rhai sy'n tynu yn ol, ond ym mlaen; a llwyddwch yn enw yr Arglwydd. Y mae fy ngweddïau taeraf drosoch; a mwy, y mae Crist drosoch, yr holl eglwysi rheolaidd drosoch, ac yr ydych yn awr ar eich prawf caled: yr aur pur sy'n cael ei brofi fwyaf. Ymddygwch fel dynion; ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac ynghadernid ei allu Ef, fel y galloch wrthsefyll y gelyn, er iddo gael ei oddef i ddefnyddio y duwiol i ddwyn i mewn ei demtasiynau. Na fydded i'ch serch at ddynion dywyllu neu lygru eich barn; ond dychwelwch at y gwirionedd noeth, heb dderbyn wyneb personau, gan wybod hyn hefyd, mai ffordd arferol Duw yw gwneud yr olaf yn flaenaf, a'r blaenaf yn olaf. Ac, yn wir, megis y mae fy llawenydd yn anhreuthadwy, wrth ystyried eich ffyddlondeb, felly hefyd y mae fy nymuniad i wneud i chwi ddaioni, ynghyd â'm gwybodaeth o'ch cyflwr presennol, yn dyrchafu fy zel drosoch, rhag mewn unrhyw fodd i'm hesgeulusdra roddi amser neu le i'ch gelyn gael unrhyw fantais; ac, am hyny, yr wyf yn barod (trwy ras) i dreulio ac ymdreulio yn eich plith chwi a saint eraill; ac, yn wir, nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, pe gallwn orphen fy ngyrfa mewn llawenydd yn y weinidogaeth, yr hon a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu. Gan hyny, fy mhenderfyniad i, gyd â chyfarwyddyd difrifol yr eglwys ffyddlawn hon, yw dyfod atoch gyd â brawd arall, yr hwn a anfonant hwy gyd â mi am dymmor, fel y gallwyf yn ddifeth fod yn pregethu yn Clifford ar y dydd cyntaf o'r wythnos nesaf (dymunaf arnoch, gan hyny, roddi rhybudd), a phe cyfarfyddwn â Mr. Cradoc, Mr. Powel, neu Mr. Jones, y rhai a gyfrifir yn golofnau, mi a ymddygwn tu ag atynt megis yr ymddygodd Paul at Petr, Gal. ii. 9–14. (Erfyniwn arnoch ddarllen yr adnodau yn y Bibl Cymraeg). Mi a'u ceryddwn ac a'u gwrthwynebwn hwynt yn eu hwyneb, am nad ydynt yn iawn droedio at wirionedd yr efengyl. Mi a wn fy mod yn disgwyl tlodi, dirmyg, gwaradwyddiadau, a gwrthwynebiadau, hyd yn oed oddi wrth feibion fy mam; ond yr wyf yn cael fod Duw, i fesur mawr, wedi fy arfogi yn erbyn y rhai hyn oll; ac yr wyf yn hyderus nas gall dim o'r pethau hyny fy syflyd. Anwyl frodyr, byddwch yn zelog dros Grist yn awr, ac am ychydig bach, a disgwyliwch ryfeddodau yn eich plith trwy y moddion gwanaf. Gwyddoch mai ffyddlon yw yr Hwn a addawodd goron y bywyd i'r rhai a fyddont ffyddlon hyd angau. Yn wir, ar yr olwg gyntaf ar eich llythyr, penderfynais oedi ennyd cyn dyfod i fynu atoch; ond ar ail ystyriaeth, ni fynnaf oedi, rhag i hyny brofi yn beryglus; ac y mae gogoniant Duw a lles eich eneidiau chwithau y fath dynfeini nerthol, fel nas gall dim fy moddloni hyd nes y gwelaf chwi, i gael ymddiddan ac ymgynghori ynghyd, &c.

"Bellach, frodyr, nid oes dim i'ch annog iddo, ond bod i chwi, y rhai ydych yn foddlon, bennodi rhyw ddiwrnod ddechrau yr wythnos nesaf i gydgyfarfod ynghylch yr achos gwir bwysig hwn. Yr wyf yn eich cyflwyno i Dduw, ac i air ei ras Ef, yr hwn sydd abl i'ch adeiladu mewn ffydd a gwir ufudd-dod, a gorphwysaf,

"Eich brawd yn cydymdeimlo

"A'ch cyflwr presennol,

"JOHN MYLES.

"Y 29fed o'r 11fed mis, '49=[Y 29fed o Dachwedd, 1649.]

"Dymunaf annerch yn yr Arglwydd, y brodyr a'r chwiorydd anwyl, y rhai sydd yn dymuno arddel, a bod yn ddeiliaid, i'n Harglwydd Iesu Grist. J. M."

Nis gall neb a ddarlleno y llythyr yna yn ystyriol lai na chredu bod J. Myles yn treuthu yr hyn a gredai yn gydwybodol; ac, ar yr un pryd, nis gall neb a'i darlleno yn ddiragfarn sectol lai na gweled nad yw yn profi dim byd, ond bod ei awdur difrifol yn eithafol i bob eithafion, a hyny ar bwnge nad yw yn eglur yn y Testament Newydd, ac am hyny nad yw anhebgorol angenrheidiol i iachawdwriaeth. Pe buasai "bedydd dyfrllyd," ys dywed Morgan Llwyd, trwy drochiad yn anhebgorol er ein cadwedigaeth, dywedasid hyny yn y Testament Newydd mor eglur fel nas gallasai bod dim amheuaeth yn ei gylch ym meddwl un dŷn ystyriol, fel y dywedir am *gredu* yn Iesu Grist yn yr adnodau canlynol, a'u cyffelyb:—"Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi" (Act. xvi. 31). "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol. . . . Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae dig-faint Duw yn aros arno ef" (Ioan iii. 16, 36).

Morgan Llwyd o Wynedd a ysgrifena ar y mater yma fel hyn:—

"*Eryr*. Ond y mae llawer yn dywedyd mai trwy fedydd y mae i ddyn fôd yn gadwedig. Ac y mae llawer o sôn yr awron am y bedydd.

"*Colomen*. Y mae bedydd adfyd (hwnnw yw erlidigaeth): y mae hefyd fedydd dyfrllyd, hwnnw yw bedydd y Bedyddiwr gynt (yr hwn a bassiodd fel y seren forau). Gyd â hynny y mae bedydd tan'lyd yspryd y gwyrthiau. Ond bedydd Christ yw'r un bedydd mawr, a hwnnw yw'r dwfr nefol yn yr ailenedigaeth. 'Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd' (Eph. iv. 5). Heb hwn gwae ddyn. Arwydd o hwn oedd yr Arch yn y dwfr diluw. Ac fel yr oedd rhan o honi uwch law'r dwfr, a rhan is law, felly fe ddïoddefodd y Messiah yn y cnawd, ac fe a gyfiawnhawyd yn yr yspryd, a'i hiliogaeth ynddo. 'Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn sydd yr awrhon yn ein hachub ninnau, sef bedydd (nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd, eithr ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw), trwy adgyfodiad Iesu Grist' (1 Petr iii. 21). Ac fel y codwyd yr Arch uwch law'r bryniau, a'r anifeiliaid, a'r dynion colledig; felly y mae'r Seinctiau ar y ddaiar yn eistedd ym mharadwys yn y nefolion. 'O blegid Crist hefyd unwaith a ddïoddefodd dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw, wedi ei farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywhau yn yr Yspryd' (1 Petr iii. 18). Fel yr oedd yr Ephesiaid ysprydol. 'Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni, ïe, pan oeddym feirw mewn camweddau, a'n cyd-fywhaodd ni gyd â Christ (trwy ras yr ydych yn gadwedig), ac a'n cyd-gyfododd, ac a'n gosododd i gyd-eistedd yn y nefol-leoedd yng Nghrist Iesu' (Eph. ii. 4-6).—GOL.

* Backus's Hist. New England, vol. i., p. 353.

Digitized by Google

y crybwylliad cyntaf am danynt wedi iddynt groesi Môr y Werydd. Dywed efe bod Mr. Myles yn un o'r rhai a drowyd allan o'r Eglwys Brydeinig, ac iddo ef a rhai eraill o'i gyfeillion groesi i'r America, gan ddwyn coflyfr eglwys Llanilltyd gyd â hwynt. Yn nhŷ Mr. Butterworth, yn Rehoboth, yn 1663, ymunodd John Myles, henuriad; James Brown, Nicholas Tanner, Joseph Carpenter, John Butterworth, Eldod Kingsley, a Benjamin Alby, â'u gilydd mewn cyfammod difrifol. Brodyr a ymrwymasant felly oedd yr eglwys Fedyddiedig gyntaf yn y rhan honno o'r America, sef Trefedigaeth Plymouth. Disgwyliai Myles fwy o dawelwch yn Lloegr Newydd nag a gawsai yng Nghymru, ac ni chafodd ei siomi yn ei ddisgwyliad am y pedair blynedd cyntaf y bu yno; ond wedi yr amser hwnw, bu raid iddo ddïoddef erledigaeth drachefn. Ar yr 2fed o Orphenaf, 1667, dirwywyd aelodau yr eglwys yn drwm gan frawdlys Plymouth am feiddio addoli Duw yn eu ffordd eu hunain, heb ganiatâd y llywodraeth, a gorfodwyd hwy i adael y lle, er eu bod yn ddinasyddion parchus, ac yn talu gwarogaeth i gyfreithiau y wlad mewn matterion tymhorol.*

Yr yspryd a alltudiasai Roger Williams o Dalaeth Massachusetts, yn 1635, a ddygodd Myles a'i gyfeillion i drallod yn 1667. Rhwymwyd Brown ac yntau i dalu 5p. yr un o ddirwy, a Nicholas Tanner i 1p., "am droseddu y gyfraith, trwy osod o honynt i fynu gyfarfod cyhoeddus yn ddiarwybod i'r llys, ac heb dderbyn ei gymmeradwyaeth, er aflonyddwch ar heddwch y lle," a'r cyffelyb. Dyma ddedfryd y barnwyr:—

"Ac yr ydym yn barnu nas gellir caniatâu eu harhosiad yn Rehoboth, gan ei fod yn dra niweidiol i heddwch yr eglwys honno, a'r dref; ac yr ydym, gan hyny, yn gorchymyn i'r holl bersonau y perthyn iddynt i ymgadw yn gyfangwbl o'r cyfryw gyfarfod, yn y cyfryw le, neu drefgordd, o fewn y mis hwn. Etto, ar yr ammod iddynt symmud eu cyfarfod i ryw le arall, ac na byddo iddynt aflonyddu ar unrhyw eglwys yn y lle hwnw, a rhoddi i ni foddlonrwydd rhesymol o berthynas i'w hegwyddorion, nis gwyddom lai nas gallant gael caniatâd gan y llywodraeth hon i wneuthur hyny."

Yn ol geiriad y ddedfryd hon, honnai y llywodraeth hawl i wybod eu hegwyddorion, ac i ganiatâu neu wrthod rhyddid iddynt, yn ol y farn a ffurfid gan y llywodreuthwyr am eu syniadau crefyddol. Y mae'n fwy na thebyg i swyddogion y wlad, pa mor addas neu anaddas bynag y gallasent fod, chwilio credo a chyflawniadau crefyddol Myles a'i frodyr, a chael boddlonrwydd ynddynt, canys ar y 30fed o Hydref y flwyddyn honno, rhoddes y llys iddynt ddarn mawr o dir, ar yr hwn yr adeiladasant y dref a elwir Swansey, yn sir Bristol, Massachusetts, yr hon a ddaeth yn dref o gryn enwogrwydd yn y dalaeth. Bu Mr. Myles am dymmor yn gwasanaethu yr eglwys yn Boston a Swansey; ond yn 1678, ymsefydlodd yn Swansey, lle y bu yn ymdrechol a llwyddiannus yngwasanaeth ei Feistr Mawr, ac ymha le y gorphenodd ei oes lafurus a gwerthfawr ar y 3ydd o Chwefror, 1683, yn 62 oed.

"Y mae ei goffadwriaeth o hyd," medd Backus,† "yn werthfawr yn ein plith. Adroddir iddo unwaith, pan o flaen yr ynadon, ofyn am Fibl, ac wedi ei gael, trodd i lyfr Job xix. 28, lle y dywedir, 'Eithr chwi a ddylech ddywedyd, Paham yr erlidiwn ef? canys gwreiddyn y matter a gaed ynof;' ac wedi eu darllen, eisteddodd i lawr. Cafodd y geiriau y fath effaith ar yr ynadon fel y trinasant ef gyd â chymmeradwyaeth, os nad caredigrwydd." Dywed y Dr. Cotton Mather am Hansard Knôlys ac yntau, bod "cymmeriad parchus i'r ddau hyn yn eglwysi yr anialwch yma."

Yn y bennod ar y Bedyddwyr,‡ sylwyd fod haneswyr eglwysig yn gwneud cam mawr â'r Bedyddwyr trwy anwybyddu eu gwaith a'u henwogrwydd, a thrwy gamddarluniadau; ac y mae ymddygiadau rhai o honynt at John Myles yn engraifft boenus o'r fath gamymddygiad, fel y gellid dangos trwy ddifynu yn helaeth o'u hysgrifeniadau; ond gwasaneuthed crybwylliad neu ddau. Nid yw y Dr. Calamy, yn ei "Account of Ejected Ministers," yn dywedyd mwy am y gweinidog enwog a llafurus hwn na hyn: "Llanilltyd, Mr. John Myles, Ailfedyddiwr." Gadewir ei enw allan o'r cynhwysiad; ond yn yr attodiad ychwanegir: "Hon ydoedd y bersonoliaeth o'r hon y diswyddwyd Mr. Wm. Houghton. Aeth Mr. Myles i Loegr Newydd ar ol cael ei daflu allan o'r eglwys."§ Y mae rhoddi cyhoeddusrwydd i bersonau na bu y byd *lawer* yn well o'u bodolaeth, ac anwybyddu dynion o enwog-

* Tueddir dynion i feio llywodreuthwyr gwladol am erlid rhai nad ydynt yn crefydda yn ol trefniadau y llywodraeth; ond nid am erlid y dylid eu condemnio, eithr am ymyraeth â chrefydd y deiliaid o gwbl. Os oes ganddynt hawl i bennodi trefniadau crefyddol, i wahardd y naill beth a gorchymyn y llall, y mae ganddynt hawl hefyd i gospi am anghydffurfiaeth y deiliaid. Y mae crefyddau gwladol yn *rhwym* o erlid ar dir cyssondeb; ac anghyssondeb o'r mwyaf ynddynt yw peidio. Nid achwyn ar lywodreuthau gwladol am ddirwyo, carcharu, a'r cyffelyb, a ddylid, ond eu condemnio i'r graddau eithaf am honni hawl i sefydlu crefyddau. Dyma wreiddyn yr *Upas* gwenwynllyd, ac ar hwn y dylid ymosod yn y modd mwyaf egnïol a phenderfynol. Nid yw yn ymddangos bod yr holl ddiwygwyr Cymreig wedi deall hyn, o leiaf nis gellir casglu oddi wrth eu hymddygiadau eu bod mor oleuedig ar y cwestiwn ag y gellid dymuno. Fel y crybwyllwyd mewn man arall, pwyntiau eraill a dynent eu sylw.

† Backus's Hist. New Engl., ed. 1777.

‡ Gwel pen. i. o'r llyfr hwn, t. 120. § Walker, part i., p. 273.

Digitized by Google

rwydd a defnyddioldeb Mr. Myles, yn fwy niweidiol i gymmeriad y rhai sydd yn euog o'r fath gamymddygiad, nag y gall fod i enwau da y rhai y ceisir eu cuddio. Gresyn nad yw manylion hanes Myles yn fwy adnabyddus nag y maent, "canys y mae'n ddïau," eb Spinther, "fod y dŷn a wnaeth y fath wasanaeth i Anghydffurfiaeth, ac yn neillduol i Fedyddwyr Cymru ac America, yn deilwng o le uchel yn nheml anrhydedd." Buasai Hunangofiant manwl yn ddyddorol a gwerthfawr; ond ymddengys nad oedd ei hanes ei hun o fawr bwys yn ei olwg ef, ond mai heleuthiad terfynau teyrnas ei Waredwr, yn ei phurdeb apostolaidd, oedd Alpha ac Omega ei fywyd llafurus a defnyddiol.*

## PENNOD XVII.

### WILLIAM JONES O DDINBYCH, THOMAS PROUD, MORGAN JONES A'I HILIOGAETH, WALTER PROSSER, JOHN POWEL, A DAVID DAVIES.

WILLIAM JONES ydoedd ŵr enwog nad oes genym ond ychydig iawn o'i hanes; ond y mae hyny sydd genym yn profi ei fod yn un o ragorolion y ddaear. Brodor o sir Feirionydd ydoedd; ond ni fynegir o ba le yno, na pha bryd y ganwyd ef; eithr gellir dyfalu oddi wrth yr amser y bu farw, "mewn oedran teg," y rhaid iddo gael ei eni rywbryd o gylch 1609. Dywed Palmer fel hyn am dano:—

"Cafodd addysg fanteisiol, ac ymsefydlodd mewn ysgol yn Rhuthyn,† o'r lle y symmudodd i Ddinbych, lle y dewiswyd ef gan y Llywodreuthwr, y Milwriad Twisleton,‡ i fod yn bregethwr yn y castell; ac yn 1648, gwnaed ef yn weinidog y plwyf. Aeth ar daith i Lundain, er mwyn ymgynghori â Mr. Baxter, ac eraill, cyn i Ddeddf yr Unffurfiad gael ei sefydlu, a dychwelodd gan lwyr benderfynu bod yn Anghydffurfiwr, at yr hyn y tueddai yn flaenorol. Gorfodwyd ef i ymadael o'r dref pan ddaeth Cyfraith y Pum Milltir i rym, a chafodd noddfa gysurus yn y Plas Teg, yn sir Fflint, etifeddiaeth a berthynai i hen deulu y Treforiaid, lle yn haelionus y rhoddwyd gwerth 20p.† y flwyddyn o dir iddo i fyw arno, gan Mr. Trefor.‡ Wedi byw yno dros amryw flynyddau, efe a symmudodd i blwyf Estyn [Hope, yn yr un sir], lle y bu farw mewn oedran teg, yn Chwefror, 1679, ac yno y claddwyd ef. Y Dr. Morus (Maurice), o Abergele, gweinidog cydymffurfiol, a bregethodd ei bregeth angladdol, ac a roddes iddo gymmeriad cymmeradwy. Efe hefyd a ysgrifenodd y cerfiad Lladin sydd ar ei garreg fedd, yr hwn sydd dra anrhydeddus i'w goffadwriaeth. Yr oedd Mr. Jones yn ŵr o wyneb siriol ac addfwyn, o ddysgeidiaeth, doethineb, cymmedroldeb, a duwioldeb dïamheuol. Dioddefodd dri mis o garchariad am gynnal dyledswydd deuluaidd yn nhŷ bonheddwr,§ ar ol iddo gael ei ddistewi [gan Ddeddf yr Unffurfiad]. Nis gallai oddef iddo ei hun feddwl am gael ei attal i bregethu gan gyfreithiau dynion, am hyny parhaodd i bregethu yn gyfrinachol, ymhob man y caffai gyfleusdra. Pan erfyniwyd gan ei wraig a'i berthynasau arno gydymffurfio, er mwyn ei deulu, efe a attebodd, 'Duw a ddarpara: nid aiff yr un o honoch gyd â mi i'r farn.' Yr oedd iddo air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Cyfieithiodd i'r Gymraeg y llyfr a elwir 'Gair i Bechaduriaid a Saint,' ac 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,' o waith Mr. T. Gouge. Cyhoeddwyd y ddau lyfr hyn, a rhanwyd hwy ymhlith y tlodion yng Nghymru, yn y flwyddyn 1676."||

"Dywed Mr. D. Peter,¶ ar ol Palmer," medd Gwilym Lleyn, "mai Mr. W. Jones, o sir Feirionydd, a gyfieithiodd 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,' er nad ymddengys hyny oddi wrth y llyfr ei hunan; ond dywed Williams** mai James Owen a gyfieithodd Gatecism y Gymmanfa, gan drefnu y gofyniadau yn ol rhifedi yr wythnosau yn y flwyddyn. Fe allai, er hyny, mai ag argraphiad arall y gwnaeth Mr. Owen hyny, gan fod yn hwn [argr. 1664] yr holiadau yn ol rhifedi dyddiau y mis, ac nid yn ol rhifedi dyddiau y flwyddyn."†† Gwelir y tuedda Gwilym Lleyn i feddwl mai y William Jones yma, ac nid James Owen, a gyfieithiodd yr "Egwyddorion," am y tro cyntaf, o leiaf; a dyma oedd barn y galluog Walter Mech-

* Han. y Bed. gan Jos. Thomas; Seren Gomer, Hydref 10, 17, 1873; Han. y Cymry, gan y Parch. O. Jones; Hist. Prot. Noncon. in Wales, by T. Rees; Backus's Hist. of New England.

† "Yr Ysgol Rammadegol yn Rhuthyn," medd Gwilym Lleyn.—Llyfr. y Cymry, t. 193; Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 303.

‡ Am y Milwriad Twisleton, sylwa T. Pennant bod "y cofarwyddion yng Nghlynnog yn ychydig iawn o nifer: un am William Glynn de Illiar, ynghyd â'i ben, a lluniau ei wraig a saith o blant: un arall am ei fab ynghyfraith, George Twisleton, Ysw., o Aula Barrow, yn sir Gaerefrog, ac o Aula yn hawl ei wraig. Tybiaf mai yr un oedd efe a'r Milwriad Twisleton, swyddog gweithwyr dan Cromwel, a'r un a gafodd yr anrhydedd o orchfygu y gwrol Syr John Owen, a'i gymmeryd yn garcharor. (Pennant's Tours, vol. ii., p. 396; vol. iii., p. 393). Dywed Coflyfrau Dinbych bod "y Milwriad Twisleton mewn llawn awdurdod yn Ninbych, ac yn benaf ar y faingc yno yn 1659" (Williams's Records of Denbigh, p. 135), sef y flwyddyn ddiweddaf o lywodreuthiad Richard Cromwel; ond ar adferiad Charles II., fe'i hamddifadwyd o'i holl anrhydedd dinesig, canys dywed yr un coflyfrau am dano fel hyn:—"Am y George Twisleton, Ysw., hwnw, efe a fu dan arfau mewn gwirionedd yn erbyn y brenin diweddar a'i blaid, a gweithredai yn ystod y llywodraeth drawsfeddiannol ddiweddar, fel dirprwywr neu farnwr y llys a elwid yn ddiweddar, Uchel Lys Cyfiawnder, i bawb a roddid ar eu prawf ac a ddodid i farwolaeth am eu teyrngarwch i'r brenin diweddar, ac am wrthwynebu yr awdurdod drawsfeddiannol oedd ar y pryd. Am hyny yr ydym ni, yr Henaduriaid, y Maeroniaid, a'r prif Fwrdeisiaid dywededig, y rhai y mae ein henwau yn ysgrifenedig isod, yn ystyried mai cymmwys yw difreinio y dywededig George Twisleton, a thrwy hyn yr ydym yn unol â hyny yn ei ddifreinio, ac yr ydym hefyd, &c., yn ethol, yn enwi, ac yn appwyntio Foulk Myddelton, Ysw., i fod yn brif fwrgais yn lle y dywededig George Twisleton." Yna dodir enwau 13 o fwrdeisiaid Dinbych ar ol y condemniad uchod.—Williams's Ancient and Modern Denbigh, p. 115.

* Gellir casglu oddi wrth waith y Milwriad Twisleton yn ymddwyn fel y gwnaeth at ŵr mor rhinweddol a W. Jones, ei fod yntau, y Milwriad, yn ddŷn da a chrefyddol.

† Yr oedd 20p. y pryd hyny yn gyfartal i 120p. o'n harian ni.

‡ Gwel pen. xi. o'r llyfr hwn. t. 362.

§ Y mae'n dra sicr mai tŷ Mr. Trefor, y Plas Teg, oedd hwnw.

|| Palmer, vol. iii., pp. 477–8; Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, p. 148.

¶ Han. Cref. yng Nghymru, t. 232.

** Em. Welshn., p. 376.

†† Llyfr. y Cymry, t. 192–3.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

ain.* Y mae enw William Jones wrth ddau lyfr a gyhoeddwyd yn 1676, ac y mae'n dra sicr mai at y rhai hyny y cyfeiriai Palmer, sef "Gair i Bechaduriaid, a Gair i Sainct," at yr hwn y cyfeiriwyd eisoes;† a "Principlau, neu Bennau y Grefydd Gristionogol." Thomas Gouge oedd awdur y ddau lyfr yma a gyfieithwyd gan Wm. Jones. "Yr oedd y 'Gair at Bechaduriaid, a Gair i Sainct,' ac 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,' yn cael eu cyd-rwymo yn un llyfr. Gwynebddalen yr 'Egwyddorion' a argraphwyd gyntaf, ac erbyn eu myned ym mlaen i'r 'Principlau,' yr oedd yn y flwyddyn 1676. Y mae nodau yr argraphwyr, sef eu llythyrenau ar y llenau, yn profi hyny. Y mae'r 'Hyfforddiadau' yn dechrau yn llen I 3."‡

Dyna'r cwbl a wyddys am William Jones, Dinbych, heb law ei fod yn un o'r Profyddion yn y "Ddeddf er gwell Lledeuniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru,"§ yr hyn sydd brawf yr ystyrid ef gan ei gydoeswyr yn un o "Enwogion y Ffydd."

Thomas Proud (Prowd) oedd un arall o "Enwogion y Ffydd" nad oes genym ond ychydig iawn o'i hanes; eithr y mae ei gyssylltiad â sefydliad eglwys Llanilltyd (Ilston), a'r golau a deifl ei hanes ar zel rhai o'r eglwysi Bedyddiedig cyntaf yng Nghymru dros gymmundeb caeth, yn hawlio iddo gongl ym mysg "Enwogion" boreuol Anghydffurfiaeth yn y Dywysogaeth. Y mae rhai o'r dosparth hwn nad oes genym nemmawr hyspysrwydd am y lle na'r amser y ganed y naill na'r llall o honynt; ac ymhlith eraill, Thomas Proud. Modd bynag, yr oedd yn offeiriadu yn Cheriton, ym Mrowyr, Morganwg, yn 1660; ond pa un ai y Profyddion a'i gosodasant yno tu a'r amser y dodasant John Myles yn Llanilltyd, ai ynte a oedd efe yno yn flaenorol, nis gwyddom. Pan adferwyd Charles II., cafodd Proud ei droi allan o Cheriton yn 1660, neu yn fuan wedi hyny; a chan mai efe yw yr ail weinidog ar y rhestr sydd gan Joshua Thomas o weinidogion Llanilltyd,‖ y mae'n debyg iddo gydlafurio â John Myles yn Llanilltyd rhwng 1649 ac 1660, ac mai efe oedd gweinidog yr eglwys wedi i Myles fyned i'r America. Os oedd efe yn offeiriad yn 1649, pan ymwelodd Myles ac yntau â Llundain,¶ y mae'n amlwg ei fod yn un o'r diwygwyr yn yr eglwys at ba rai y cyfeirir mewn mwy nag un man yn y gwaith hwn. Byddai y bobl dda hyny, fel Jeremiah gynt, â'u penau yn ddyfroedd, a'u llygaid yn ffynhonau o ddagrau, pan yn meddwl am anwiredd y ddinas. Y mae'r hyn a welir am y cyssylltiad rhwng John Myles âg eglwys blwyfol Llanilltyd, ac â'r eglwys Fedyddiedig yno, yn gymmwysiadol at y berthynas rhwng Proud a'r olaf, ac a'r gwasanaeth plwyfol yn eglwys Cheriton. Cafodd efe y fraint o gydlafurio âg un o ddynion gorau yr oes honno, ynghorpholiad eglwys y mae dylanwad ei chredo a'i chyflawniadau crefyddol yn parhau i effeithio ymhell ac yn agos hyd heddyw. Dywed Jos. Thomas fod llythyr a anfonwyd gan Fedyddwyr Llanigon at eglwys Llanilltyd, yn dangos yn eglur fod T. Proud yn ddŷn gostyngedig iawn, ac yn nodedig am ei lafur a'i lwyddiant, yr hyn sy'n dangos mai dŷn mawr oedd efe yngolwg y nefoedd, ac y dylasai gael parch mawr gan ei gydoeswyr crefyddol. Nifer bychan o weithrediadau y dynion bleunaf a gofnodid y dyddiau hyny, o blegid erledigaethau ofnadwy yr amseroedd. Ofnid y gallai swyddogion erlidgar y llywodraeth gael gafael yn y croniclau, ac y caent eu defnyddio yn y llysoedd gwladol yn erbyn eu hysgrifenwyr; ac o blegid hyny nid ysgrifenent ond ychydig. Pe cawsai hanesion crefyddol y dyddiau hyny eu croniclo yn eu coflyfrau yn fanwl, ymddangosai llawer o grefyddwyr i ni yn well ac yn fwy nag y maent.

Nid oedd Proud mor ddïysgog a'i gydlafurwr Myles yn ei syniadau crefyddol, canys yr ydym yn ei gael yn gŵyro oddi wrth farn cymmanfa y Bedyddwyr gyd â golwg ar gymmundeb caeth, a chafodd ei ddïaelodi gan gymmanfa Caerfyrddin yn 1651 am ei gamymddygiad. Difynir yr hyn a ganlyn o Ddetholion (Extracts) Mr. Backus:—

"Yr un dydd" (gan gyfeirio at y gymmanfa) "penderfynwyd fod yr eglwys yn ymwrthod â Thomas Proud, am ei fod wedi pechu yn fawr yn erbyn Duw, trwy gyhoeddi y syniad dinystriol o gymmundeb cymmysg i'r bedyddiedig a'r difedydd yn yr eglwys,* ac ymdrechu

* Gwaith Gwallter Mechain, cyf. ii., t. 303.
† Gwel pen. xiii., t. 383; Llyfr. y Cymry, t. 206.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 207. § Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503.
‖ Han. y Bed. gan J. T., argr. 1778, t. 298.—Gol.
¶ Gwel John Myles, pen. xvi., t. 413.

* Wrth y "bedyddiedig" y golygir yma, rhai wedi eu bedyddio trwy drochiad ar eu proffes o'u ffydd; ac wrth y "difedydd" y meddylir proffeswyr yn credu mewn bedydd babanod trwy daenelliad, megis yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid y pryd hwnw, a'r Methodistiaid Calfinaidd a'r Wesleyaid wedi hyny. Felly, "cymmundeb cymmysg" yw proffeswyr crefydd o wahanol gred am fedydd yn cydeistedd wrth fwrdd yr Arglwydd; a "chymmundeb caeth" yw proffeswyr nad eisteddant wrth fwrdd yr Arglwydd gyd â neb ond rhai yn credu bedydd y crediniol trwy drochiad. Gan hyny, "*pechod mawr*" Thomas Proud oedd ei *Ryddfrydedd*, trwy gydgymmuno â chrefyddwyr o wahanol farn am "fedydd dwr;" ac o herwydd y *rhyddfrydedd crefyddol a duwiol* yma, y "diaelodwyd ef gan Gymmanfa Caerfyrddin yn 1651!" Yr oedd y Bedyddwyr gynt, ac yr ydym yn tybied bod y

Digitized by Google

Digitized by Google



Digitized by Google

denu eraill i'r un farn trwy amryw ffyrdd a moddion; a thrwy hyny rwygo a rhanu yr eglwys; fel trwy bregethu yn gyhoeddus yn groes i gyfarwyddyd a gorchymyn yr eglwys; a hefyd, gadael yr eglwys trwy anfoddlonrwydd pan y galwyd ef i gyfrif am droseddau blaenorol; ynghyd â'i waith yn diystyru a dirmygu cyfarfod cyffredinol yr eglwysi yn Llanharan,* fel y tystiwyd wrthym gan amryw frodyr o eglwysi y Gelli a Llanharan."

Dengys y difyniad hwn pa mor groes oedd eglwysi boreuol cymmanfa y Bedyddwyr Cymreig i gymmundeb agored. Yr oedd pob eglwys berthynol i'r gymmanfa dros gymmundeb digymmysg, a'r rhai nad oeddynt yn aelodau o'r Undeb Cymmanfaol yn cefnogi cymmundeb cymmysg. Bu T. Proud allan o gymmundeb am tu a phedair wythnos ar ddeg, ac wedi hyny cafodd ei dderbyn yn ol. Yn y Detholion o America, ceir yr hyspysrwydd canlynol am yr amgylchiad:—

"Ar yr 20fed o'r 8fed mis, wedi i'r brawd Thomas Proud, oddi wrth yr hwn yr ymneillduodd yr eglwys am y troseddau uchod, gynnyg yn aml, a bod o flaen yr eglwys; ac wedi iddo roddi y fath foddlonrwydd iddynt ymhob peth y dydd hwn, penderfynodd y cyfundeb yn unfryd ei adfer i gymmundeb, yr hyn a wnaethpwyd gyd â llawenydd."

Barn y brodyr hyny yn 1651 oedd, a barn y Bedyddwyr teilwng o'r enw ydyw, mai gan ddynion wedi eu bedyddio [trwy drochiad] y mae hawl i'r swper, ac nad yw yn perthyn i neb arall.† Nid yw amser, lle, nac amgylchiadau marwolaeth Thomas Proud yn adnabyddus.

### MORGAN JONES A'I HILIOGAETH.

Canlynwyd John Myles a Thomas Proud yngweinidogaeth Llanilltyd (Ilston) gan ddau Forgan Jones, y rhai oedd yn aelodau yn Llanilltyd yn amser y ddau fleunaf. Ganwyd un o'r ddau yn Llansawel (Briton Ferry), Morganwg; a'r llall mewn lle a'i enw Alltfawr, ymhlwyf Llanon, sir Gaerfyrddin. Pennodwyd y bleunaf gan y Profyddion, ar ol 1649, i wasancuthu eglwys blwyfol Laleston,‡ ger llaw Pen y Bont ar Ogwy, ym Morganwg, a gosodwyd y llall yn Llanmadog, yn y rhan orllewinol o'r un sir. Gan mai yr ail a sicrhaodd iddo ei hun fwyaf o sylw, cofnodwn rai ffeithiau perthynol i'w fywyd ymdrechol a thrallodrus yngwinllan ei Arglwydd. Nid yw amser ei enedigaeth, na lle nac amser ei farwolaeth, yn adnabyddus. Y mae'r Morgan Jones yma yn teilyngu gradd o sylw, o herwydd ei fod yn gyndad i nifer llïosog o weinidogion a ymenwogasant ynghyfundeb y Bedyddwyr yn ystod y ddau can mlynedd diweddaf, pe na buasai dim arall yn hawlio congl ym mysg "Enwogion y Ffydd." Ennillodd tri neu bedwar o'i hiliogaeth iddynt eu hunain safleoedd uchel ymhlith y Bedyddwyr yng Nghymru, ac i raddau yn Lloegr ac America. Yr oedd efe yn un o'r rhai a drowyd allan o'r Eglwys Sefydledig yn 1662. Geilw y Dr. Calamy ef yn "aradwr gonest."* Gan mai Bedyddiwr ydoedd, yr oedd caniatâu ei onestrwydd yn gymmaint ag a allesid ei ddisgwyl oddi wrth Calamy; a dïau nas gall ei gyssylltiad â'r aradr ei ddarostwng. Gan mai ei etifeddiaeth ef oedd yr Alltfawr, nid yw sicr, nac yn debyg, y byddai efe ei hun yn canlyn yr aradr;† a'r hyn a ymddengys debycaf i'r ysgrifenydd yw, nad yw y cyfeiriad ato fel aradwr ond dangosiad o awydd James Owen a'r Dr. Calamy i fychanu y Bedyddwyr. "*Un Jones*, creadur anwybodus," y geilw Walker‡ ef; ond dywed y Dr. Richards nad yw yr haeriad yn cydweddu â'r tra-

Bedyddwyr presennol hefyd, yn arfer cyhoeddi penderfyniadau eu cymmanfaoedd. Y mae Gwilym Lleyn yn nodi amryw o honynt yn "Llyfryddiaeth y Cymry." Yr ydym yn meddwl mai yn y *Greal* y cyhoeddir eu penderfyniadau yn y blynyddoedd hyn, yr hwn nid yw wrth law yn bresennol, pe angen dodasem ychydig esamplau o honynt yma. Ymddengys bod gan y Bedyddwyr yn gyffredin feddyliau pur uchel am danynt, megis y mae gan enwadau eraill am yr eiddynt hwythau.—GOL.

* Ymddengys bod Thomas Proud wedi canfod nad oes dim sail yn y Testament Newydd i'r fath "gyfarfodydd cyffredinol," a chredwn y byddai yn lles i Gristionogaeth rydd, Ysgrythyrol, ac yn wanhâd i sectariaeth gul, ragfarnllyd, a hunanol, pe ymddygai mwy yn gyffelyb iddo.—GOL.

† Nis gwyddom ni naws o'r byd ar ba awdurdod y maent yn seilio y "farn" hon, oddi eithr ar awdurdod (?) hunan-osodol ac anysgrythyrol "y Gymmanfa." Nis gwelwn ni un crybwylliad am "feydydd dyfrllyd" o fath yn y byd mewn cyssylltiad â "swper yr Arglwydd" neu "dori bara," mewn un man yn y Testament Newydd.—GOL.

‡ Nid yw y Dr. Calamy yn son dim am dano ef; ond y mae'r detholion (*extracts*) yn son am dano yn barhaus, gan hyspysu iddo gael ei dderbyn yn aelod yn eglwys Llanilltyd yn 1650, ac felly yr oedd yn un o'r aelodau cyntaf. Ar y 14ydd o'r 3ydd mis, 1651, cymmerwyd ef i brophwydo, neu bregethu, mewn unrhyw ran o'r eglwys, ger bron y byd. . . . Hefyd, ar y 29fed o'r 7fed mis yr un flwyddyn, dewiswyd a neillduwyd ef yn Henuriad a Chynnorthwywr i'r gweinidog yn llywodraethiad yr eglwys; ac mewn llawer o fanau eraill, enwir ef fel gweinidog efengyl parchus, defnyddiol, a chymmeradwy. Er na ddywedodd y Dr. Calamy ddim am dano, etto y mae'r Dr. Walker (part ii., p. 338) yn nodi un a eilw efe yn Morgan John. Yr un, y mae'n dra thebyg, oedd hwn, o blegid gelwir ef yn Ailfedyddiwr; a dywedir ei fod yn ddilynydd i Theodore Price yn Trelales, Thegston, Casnewydd, a'r Betws, ym Morganwg.—Han. y Bedyddwyr, gan Jos. Thomas, t. 316–17.

* Calamy's Acc., vol. ii., p. 502.

† Wrth draethu ar Morgan Jones, dywed Jos. Thomas fel hyn:—"Nid yw amhossibl ei fod yn dal yr aradr ar brydiau. Peth cyffredin yw hynny hyd heddyw [1778] yng Nghymru. Myfi a adwaenwn hên weinidog enwog o'r Presbyteriaid yng Nghymru, yr hwn a ddywedai y byddai efe yn pregethu yn oreu yn fynych ar y Sabbath wedi gorfod gweithio galettaf yn yr wythnos; ac iddo brofi rhwng dau gorn yr aradr yn gystal lle i astydio ag un lle arall" (Han. Bedyddwyr, t. 316-17). Nid oedd yn ddim mwy o ddianrhydedd i Morgan Jones fod yn aradwr nag oedd i Iesu Grist fod yn saer, y rhan fwyaf o'r apostolion yn bysgodwyr, a Paul yn wneuthurwr pebyll; neu, John Elias yn wehydd, Christmas Evans yn was ameuthwr, a Williams o'r Wern yn saer troliau. Mewn gwirionedd, yr oedd dywedyd bod Morgan Jones yn "aradwr gonest" yn anhreuthol fwy o ddyrchafiad iddo yngolwg pob Cristion ansectyddol, sy'n gynnefin â'r Testament Newydd, na phe dywedasid ei fod yn myned o amgylch mewn gwisg offeiriadol Babaidd, fel coeg ŵr bonheddig hunanol, "yn ol arfer rhai" a ystyriant eu hunain yn "weinidogion yr efengyl."—GOL.

‡ Walker's Suff. Cler., part ii., p. 338.—GOL.

Digitized by Google

ddodiadau teuluaidd am ei lyfrau Hebraeg a Groeg.* Gan ei fod yn blentyn i deulu cyfoethog, y mae'n dra thebyg iddo gael cystal addysg ag a roddid i blant ameuthwyr parchus yn gyffredin y dyddiau hyny. Y tebygrwydd yw ei fod yn feistr ar y Saesneg, ac yn alluog hefyd i ddeall Hebraeg a Groeg trwy gymmorth geirlyfrau. Yr oedd y Dr. Calamy, o dan ysprydoliaeth James Owen, yn amharod iawn i ddywedyd gair parchus am Fedyddwyr. Nid oedd Joshua Thomas yn un parod i feio; ond er ei holl hynawsedd, y mae'n condemnio Calamy am beidio dyweyd gair yn yr Attodiad o amddiffyniad i Morgan Jones yn wyneb ymosodiad sarhaus y Dr. Walker arno. Dyma fel y dywed Jos. Thomas:—

"Pe na buasai yn Fedyddiwr, digon tebyg y cawsai [Calamy] rywbeth i'w ddywedyd yn ei ffafr. Pan ddywedodd y Dr. Walker am ddau o gyfeillion y Dr. Calamy yn sir Frycheiniog, fod un yn aradwr a'r llall yn wehydd, nodir y ddau yn yr Attodiad. Am yr aradwr, dywedir yno, 'Gallasai gael personoliaeth gystal ag eraill, pe buasai yn cydffurfio.' Am y gwehydd dywed, 'Os gallwn farnu wrth eraill, ni wrthodasid ef ar gyfrif hyny, pe deuthai i'r Eglwys Sefydledig.' Ond ni roddir y fath awgrym am Jones, druan, er yn ddŷn gonest, yr hyn ni ddywedir am yr aradwr arall na'r gwehydd. Ond yr oedd rhywbeth heb law gonestrwydd yn ei addasu ef i'r weinidogaeth, y mae'n debyg, yn ol barn eglwys Fedyddiedig Llanilltyd, a barn y Dirprwywyr, y rhai a drefnwyd y pryd hwnw i osod gweinidogion priodol yn yr Eglwysydd Plwyfol yn lle y rhai analluog. Yr oedd yr eglwys a'r Dirprwywyr yn adnabod y dŷn yn well na'r ddau ddoctor. Pa beth oedd ei ddïoddefiadau am ei Anghydffurfiaeth, nis gwyddom, na pha bryd y bu farw. Yr oedd llawer o weinidogion teilwng, Bedyddwyr plant, cystal ag eraill, yn dal yr aradr ar amserau, fel ymarferiad pleserus."

Fel y noda Jos. Thomas, nid yw ei hanes, wedi ei droi allan o eglwys Llanmadog, fel canlynydd G. Parry, A.C., ar gael. Y farn gyffredin yw ei fod yn oedranus yn amser ei ddiswyddiad [1662], ac iddo farw yn fuan ar ol i Charles II. gael y deyrnwïalen. Ymddengys mai dynion gweithgar a chymmeradwy iawn oedd Morgan Jones, Llansawel, ac yntau. Llawnododd un o'r ddau benderfyniadau Aberafon yn 1654, a phennodwyd un o honynt i bregethu yn ardal Caerfyrddin; a sylwa'r Dr. Richards mai Morgan Jones, yr Alltfawr, oedd hwnw, yn ol pob tebygolrwydd, o blegid nad oes ond rhyw 14 neu 15 milltir o'r Alltfawr i Gaerfyrddin.†

Crybwyllwyd fod Morgan Jones yn enwog yn ei hiliogaeth. Nis gwyddom rifedi ei deulu; ond yr oedd ganddo un mab yn cael ei alw yn **John Morgan**, enw cyntaf ei dad yn cael ei ddefnyddio fel cyfenw ganddo, yn ol arfer gyffredin yr amseroedd hyny. Bu hwnw dipyn yn wyllt ym morau ei oes: aeth oddi cartref, a bu am dymmor yngorllewin Lloegr. Yn Exeter, meddiannwyd ef gan ddifrifwch, ac ymunodd â chrefydd, i'r hon y bu yn ffyddlon trwy ei oes. Dychwelodd i'r Alltfawr cyn marwolaeth ei dad; ac wedi priodi, dechreuodd gynnal cyfarfodydd crefyddol yn ei dŷ, y rhai a barhawyd yno cyn belled ag y caniatâi gerwindeb erledigeuthus yr amseroedd, yr hyn a fu yn adgyfnerthiad mawr, ac i fesur yn ddechreuad, i achos y Bedyddwyr yn yr ardaloedd, ac mewn manau eraill yn sir Gaerfyrddin. Tybir y byddai yn pregethu yn achlysurol ei hun. Yr oedd yn ddŷn o allu meddyliol cryf, yn hyddysg iawn yn yr Ysgrythyrau, ac, fel ei dad, i raddau pell, yn gyfarwydd â llenyddiaeth. Gan iddo fyw trwy holl amser yr erledigaeth, a chanddo gryn lawer o feddiannau, ac fel y cyfryw yn demtasiwn i erlidwyr maleisus a gwangcus y cyfnod, nid anhawdd credu y traddodiadau am ei golledion a'i ddïoddefiadau. Dywedir iddo ddïoddef llawer trwy ddirwyon, yspeiliadau, a charcharau. Gan fod Esgobyddion annuwiol yr oes honno mor benderfynol i weithio allan fwriadau drygionus eu penaduriaid aflan a drygionus, a'r fath fanteision arianol yn cael eu cynnyg i'r hyspyswyr [achwynwyr] diegwyddor, nid oedd bossibl i'r fath dŷ a'r Alltfawr, a'r fath ddŷn a John Morgan, gael eu dïogelu rhag y diluw dinystriol a orlifai y wlad. Er mai etifeddiaeth Morgan Jones, a John ei fab ar ei ol, oedd yr Alltfawr, etto bu raid iddynt werthu y tir o herwydd y dirwyon a'r yspeiliadau, gan geisio ymgymmodi â darostyngiad a thlodi. Yn gymmaint ag iddynt werthu y tyddyn gryn amser cyn i John Morgan farw, ac ymhell cyn diwedd yr erledigaeth, rhesymol yw casglu mai y trallodion costus a achosid gan yr erlidwyr a wnaeth y gwerthiad yn anocheladwy. Bu John Morgan fyw yn yr Alltfawr am flynyddau wedi gwerthiad y lle, o dan ardreth i'r hwn a'i prynasai; ac yno y bu farw yn yr oedran teg o 91. Dïoddefodd ei yspeilio gan y fileiniaid drygionus, gan wybod fod "taledigaeth y gobrwy" yn fwy na digon i wrthbwyso ei holl golledion deuarol. Yr Hollwybodol yn unig a ŵyr am ddyfnder y trueni a phoethder y peiriau y bu John Morgan ynddynt.

Nid ydym yn gyfarwydd â hanes teulu J. Morgan; ond y mae hanes **Morgan Jones**, ei fab, yr hwn a anwyd yn 1662, i gryn raddau yn adnabyddus. Dechreuodd efe bregethu flynyddau

* Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 291; Han. y Bed. gan Jos. Thomas, t. 316.—Gol.

† Richards's Cambro-Brit. Hist., p. 291.—Gol.

lawer cyn i'w dad farw; ac yr oedd tu a 40 oed pan orphenodd John Morgan ei yrfa.* Bu yn gweinidogeuthu yn eglwys lïosog a gwasgarog Abertawe (yr hon a ymgyfarfyddai mewn amryw fanau) am tu a 40 mlynedd, a bu farw yn 1730, yn 68 oed. Yr oedd llïosowgrwydd eglwys Abertawe yn ei ddyddiau ef, y canghenau, a phellder yr aelodau oddi wrth eu gilydd, a'r cyffelyb, mewn ystyr yn fantais i ddŷn o'i yni ef i wneud y gwaith; a bu ei ymdrechion egnïol ym maes ei lafur, ac yn y cyfundeb yn gyffredin, yn fawr iawn, ac yn anarferol o lwyddiannus. Gwelodd lawer, a chlywodd fwy, am y trallodion a achosid gan y Brenin Charles; a dywed Joshua Thomas i'w ofidiau ddiddyfnu ei feddwl yn rhyfedd oddi wrth y byd. Yr oedd ei lareidd-dra a'i amynedd yn anghyffredin, a'i enwogrwydd mewn gweddi yn ddiarhebol; ac ymddengys iddo gael attebion nodedig i rai o'i weddïau. Gan fod Olynwyr yr Apostolion (?) wedi darostwng ei deulu i amgylchiadau trychinebus, fel y crybwyllwyd, byddai efe weithiau mewn cyfyngder am arian i gyfarfod ei ofynion. Bu raid iddo fenthyca arian unwaith, a chafodd rybudd bygythiol i'w talu yn gynt nag y disgwyliai. Yn ei gyfyngder mawr, ymneillduodd i ystafell i ofyn i'w Dduw am ymwared. Y canlyniad fu i ŵr dïeithr alw wrth y drws, gan ei wahodd at un o'r Crynwyr a yrasai am dano, a'r hwn a roddodd iddo arian ar gais bonheddwr o Barnstaple. Ceir y manylion gan Jos. Thomas a'r Dr. Richards, ond ni oddef ein terfynau i ni fanylu.

Priododd ddynes ieuangc gyfoethog a duwiol; ond gan fod ei rhieni yn elynion ffyrnig i'r Ymneillduwyr, ac yn enwedig i'r Bedyddwyr, gwrthodasant iddi y gynhysgaeth fawr y meddai hawl gyfreithlawn iddi. Bu hi farw yn ieuangc, gan adael ei phriod a phlant bychain ym myd y gofidiau. Pan ar ei gwely angau, appeliodd at ei mam ar roddi o honi ei chynhysgaeth i'w phriod a'i phlant amddifaid; ond gan fod cynddeiriowgrwydd y ddynes honno mor ddychrynllyd yn erbyn y Bedyddwyr, ni bu appeliadau difrifol y ferch ar drothwy eilfyd yn llwyddiannus. Er bod Morgan Jones yn fwyn a phwyllog, yr oedd ei attebion a'i sylwadau yn finiog, parod, a tharawiadol. Yr oedd Eglwyswr a Phabydd mewn dadl unwaith yn Abertawe, ac ymawyddai yr olaf am ddadl â Morgan Jones; ond ni thueddid ef i ddiweinio'r cleddyf y medrai ei drafod mor fedrus. Modd bynag, wedi clywed y Pabydd yn heuru mai Eglwys Rhufain yw mam Cristionogion, ac mai bastardiaid yw yr Eglwyswyr a'r holl Anghydffurfwyr, sylwodd Morgan Jones yn dawel, "Wel, os bastardiaid ydym ni oll, rhaid, gan hyny, mai putain yw ein mam." Rhoddes y sylw derfyn ar y ddadl, ac ni thueddid y Pabydd i'w pharhau.

Fel y dywedwyd, yr oedd ei lafur yn anarferol fawr, a'r maes yn cynnwys rhanau helaeth o siroedd Morganwg a Chaerfyrddin: yr oedd o 30 i 40 milltir rhwng rhai o'r gorsafoedd, yn y sawl y byddai yn pregethu ac yn gweinyddu yr ordinhadau. Nid yw hyspys pa fath ysgolhaig ydoedd, ond dengys ei lythyrau Seisnig ei fod yn feistr yn yr iaith honno, ac y mae'n dra thebyg y gallai bregethu yn Saesneg. Wedi marw yn 1730, claddwyd ef mewn claddfa berthynol i'r Presbyteriaid yn Abertawe, canys nid oedd gan y Bedyddwyr dir claddu yn y dref y pryd hwnw.†

Mab i Morgan Jones, Abertawe, oedd Gruffydd Jones, yr hwn a fu yn gweinidogeuthu ym Mhen y Fai ac yn Hengoed, cyn ymfudo i'r America, lle y bu farw yn 57 oed. Ystyrid Gruffydd Jones yn un o ddynion gorau, ac yn un o bregethwyr blaenaf, yr oes; ac y mae'n fwy na thebyg nad oeddynt yn ei ystyried yn fwy nag ydoedd mewn gwirionedd. Dechreuodd mab iddo yntau bregethu yn America, yr hwn a ddychwelodd i Loegr i gael addysg, a bu yn ddefnyddiol mewn mwy nag un cylch wedi gadael yr athrofeydd Seisnig. Y mae'r enwogion y cipdremiwyd arnynt wedi gwneud yr Alltfawr yn anfarwol, ac wedi gwneud iddynt eu hunain anrhydedd na dderfydd, ac enw na phydra ymhlith "Enwogion y Ffydd."

Walter Prosser oedd ŵr llafurus a chymmeradwy iawn yn ei ddydd; ond, yn anffodus, y mae yntau yn un o'r rhai nad yw manylion, nac hyd yn oed amser na lle eu genedigaeth, wedi eu croniclo. Tybiai Joshua Thomas unwaith mai brodor o ardal Llanelli neu Llanon ydoedd; ond nid oedd efe yn teimlo yn sicr ar hyny ryw gymmaint o amser cyn iddo farw. Gan ei fod yn henuriad eglwysig yn 1649, ac na fyddent yn gosod dynion ieuaingc iawn yn yr henuriaeth;

* Os felly, bu farw John Morgan o gylch 1702, a ganwyd ef tu a'r flwyddyn 1611.—Gol.

† "Nid wyf gwbl sicr pa deulu a adawodd Morgan Jones ar ei ol. Goroeswyd ef gan fab a merch o leiaf. Priododd yr olaf, ac ymsefydlodd yn Gelli-rwydd, yn agos i'r Alltfawr, preswylfod cyntefig y teulu. Y mae ei mab ieuengaf yn byw yno fyth [1820]. Yr oeddwn yn adnabod y teulu o'm ieuengctid; ac yr oedd ei mab hynaf, y diweddar Mr. William Evans, o Allt y Cadno, yn un o'm cyfeillion boreuaf ac anwylaf. Yr oedd yn ŵr o'r fath dduwiolaf a thirionaf: yr oedd ei gymmeriad hardd a thra pharchus yn aurhydedd i'w hynafiaid, ac



Digitized by Google

a chan ei fod yn ddŷn oedranus pan fu farw yn 1672, neu yn fuan wedi hyny, hwyrach y gellir casglu nad oedd dan 30 oed yn 1649: os felly, ganwyd ef yn 1619, a bu farw yn 53 oed. Yr hyn sydd yn fwyaf tebyg yw, ei fod tu a 60 oed pan fu farw; ac os yw y dyfaliadau yma yn gywir, ganwyd ef tu ag 1612. Bu Vavasor Powel ac yntau yn cydlafurio, ac nis gellir casglu bod llawer o wahaniaeth oedran rhwng y ddau. Ymhen amser byr wedi'r flwyddyn 1649, ceir hanes dechrau ei weinidogaeth yn Llanigon. Efe oedd ail weinidog Olchon, olynydd Howel Fychan, yr hwn a fu farw ar ol 1653. Cydoesai Walter Prosser â Howel Fychan, ac y mae enwau y ddau i'w gweled yn hanes amryw o'r cymmanfaoedd. Bu Prosser yn gweinidogeuthu am ryw gymmaint o amser yn y Gelli a'r conglau, sef Bydorddin a Chludoc; ac ymddengys mai o'r Gelli yr aeth efe i Dredynog, yn sir Fynwy.* Cafodd ei osod gan y Profyddion i wasanouthu yn y llan, Tredynog, o'r lle y taflwyd ef allan o dan "Ddeddf yr Unffurfiad," yn 1662; ac y mae'n debyg mai wedi hyny y derbyniodd efe weinidogaeth Olchon. Golyga Joshua Thomas mai yn 1654 neu 1655 y symmudodd efe i Dredynog, lle yr oedd pan ddigwyddodd y dymmestl yn 1662.† Dywedir ei fod yn ddŷn llafurus iawn, yn neillduol o gymmeradwy mewn cymdeithas ac yn y pulpud, ac yn dra derbyniol yn ei gylchoedd gweinidogeuthol.‡ Llafuriodd yn galed a llwyddiannus yn siroedd Mynwy, Morganwg, a Chaerfyrddin; ac hyd yn ddiweddar, ceid traddodiadau am dano ynghymmydogeuthau Llanelli a Llanon. Y mae barn cymmanfa Llanilltyd yn 1650 am dano yn cael ei hadrodd fel hyn:—"Yr ydym yn cael ynddo ef barodrwydd mawr iawn i wasaneuthu yr Arglwydd Iesu Grist a'i saint ef yngwaith mawr a phoenus y weinidogaeth, pa le bynag y gelwir ef." Ymddengys mai ar gais y gymmanfa uchod yr ymwelodd â Chaerfyrddin, ac fe allai âg ardal Llanelli. Gan fod pregethwyr mor brin, a thlodi moesol yn fawr, pennodwyd Myles i bregethu yng Nghaerfyrddin unwaith y mis, a Prosser unwaith bob deufis. Yn ol penderfyniad y gymmanfa honno yn Llanilltyd, yr oedd y tair eglwys a gynddrychiolid i gasglu 10p. yr un yn flynyddol i ddwyn traul Myles, T. Watkins, W. Prosser, a brodyr eraill a lafurient yngwahanol siroedd y Deheubarth.* Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Aberafon yn 1654, pennodwyd Walter Prosser, a thri o frodyr eraill, i wneud gwasanaeth o gryn bwys yn y cyfarfod cyffredinol nesaf; a chan nad oedd Prosser ond ieuangc fel aelod a gweinidog ar y pryd, yr oedd y fath bennodiad yn anrhydedd iddo, ac yn arddangosiad o farn uchel ei frodyr am dano. Parhaodd eu hymddiried ynddo cyhyd ag y bu efe byw.

Nid oedd manteision addysg yn gyrheuddadwy i lawer yn ei amser ef, ac ymddengys na chafodd yntau nemmawr o honynt; o'r hyn lleiaf, golygid nad oedd efe, fel Myles, Powel, ac eraill, yn bur hyddysg yn y Saesneg, fel y dengys y difyniad canlynol:—

"Yn y gymmanfa yn Llantrisant, ymhlith amryw bethau eraill, nodwyd nad oedd Mr. Walter Prosser mor hyddysg yn yr iaith Saesneg ag oedd yn fuddiol i eglwys y Gelli, canys yr oedd hi wedi ymdeunu ymhlith y Saeson i wared tu a Bydorddyn. Cyttunwyd, gan hyny, iddo ef fyned i'r Fenni, ac i Mr. William Prichard fyned i'r Gelli; ond nid wyf yn deall i hyn gael ei ganlyn. Y mae'n eglur mai gŵr call, duwiol, a chymmeradwy oedd Mr. Prosser; ond tebygol yw nad oedd yn dewis pregethu yn Saesneg, ac nad oedd mor rhwydd yn yr iaith honno. Y mae hyn yn peru i ni feddwl ei fod wedi dyfod o sir Gaerfyrddin."†

Dywed Calamy ei fod yn un o'r rhai a drowyd allan ym Mynwy yn 1660 ac 1662. Nid oes un sicrwydd am ei drallodion dyfodol, nac am y lle na'r amser y bu farw.‡ Nid oes amheuaeth na chafodd ddïoddef llawer, ond ni wyddys a garcharwyd ef ai naddo. Y mae'r cwbl sydd yn adnabyddus o'i hanes ar ol ystorm 1662, yn gynnwysedig yn y frawddeg fer hon a ysgrifenwyd am dano:—"Mr. Walter Prosser, gŵr enwog yn y weinidogaeth, yn pregethu yn fynych i bobl Mr. Wm. Thomas yn Llantrisant, Tredynog, a Llangwm."§ Golygir fod y geiriau yna yn cyfeirio at ryw amser erledigeuthus wedi iddo gael ei droi allan o'r llan. Yr oedd cawri ar y ddaear yn y cyfnod ofnadwy hwnw, rhwng 1660 ac 1689; ac un o honynt oedd Walter Prosser. Dygasant eu tystiolaeth yn wrol, a llïaws o honynt yn llawen, trwy galedi yr amseroedd dychrynllyd hyny, ac nid yw yr ychydig sy'n adnabyddus am Prosser yn peru i ni feddwl ei fod ef yn eithriad i'r lleill. Yr oeddynt yn ddynion o yspryd cyhoeddus ac

yr oedd y mab Gruffydd Jones [fel y crybwyllir uchod] yn deilwng ymhob ystyr o'r fath dad; yn wir, y mae'n anhawdd dywedyd pa un oedd y rhagoraf fel dŷn, a Christion, a gweinidog. Yr oedd y ddau yn dra enwog a chlodfawr o ran tynerwch a sirioldeb eu tymherau, addfwynder a hynawsedd eu hymddygiad, eu bucheddau difrycheulyd a sanctaidd, cystal a'u galluoedd a'u diwydrwydd fel gweinidogion."—Dr. Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 301–2.

* Han. y Bedyddwyr, gan Jos. Thomas, t. 169.

† Han. y Bedyddwyr, gan D. Jones, t. 766. Gwel hefyd Han. Bed., gan Jos. Thomas, t. 71, 315.—Gol.

‡ Yr un, t. 172.—Gol. § Yr un lle.—Gol.

Digitized by Google

apostolaidd: parhasant yn ffyddlon i'w hegwyddorion ynghanol tymhestloedd arswydus yr oes; a chafodd lliaws o honynt fwynhau blynyddoedd o heddwch ar ol hyny, fel y dengys eu hanes hwy a'u llafur yn y gwaith hwn.

JOHN POWEL, A.M. (Athraw yn y Celfyddydau), a fwriwyd allan o fywioliaeth St. Lythian. Mab ydoedd i Hywel Powel, o Lythegston, ger llaw Pen y Bont ar Ogwy, yn sir Forganwg, lle y ganed ef yn y flwyddyn 1617. Ar yr 8fed o Fai, 1635, ymaelododd yn Neuadd Edmwnt, ym Mhrifysgol Rhydychain, ac efe yn 18 oed. "Bwriwyd ef allan o'r fywioliaeth eglwysig grybwylledig yn 1660, am wrthod claddu mab i foneddwr yn ol ffurfwasanaeth yr Eglwys Sefydledig. Wedi hyny cynhygiodd y Dr. Llwyd, Esgob Llandaf, iddo ei ddewis o ddau le, os cydymffurfiai efe, â'r hyn nis gallai efe gydsynio. Yr oedd yn ŵr addfwyn, hunan-ymwadol, ac yn bregethwr pur ddeniadol." Parhaodd i bregethu yn ffyddlawn yn ystod poethder yr erledigaeth, ymhlwyfydd Llanedern, Eglwysilan, Bedwas, a manau eraill yn siroedd Mynwy a Morganwg. Crybwyllir ei enw fel henuriad athrawol yn yr eglwys Annibynol ym Mynyddislwyn, yn 1675. Dïoddefodd lawer, ond symmudwyd ef "I fyd sydd well i fyw," gan angau, allan o afael ei erlidwyr creulawn, ar y 30fed o Ebrill, 1691, ac efe yn 73 oed.*

DAVID DAVIES (Dafydd Dafis) a breswyliai yng Nghastell Nedd, sir Forganwg, pan ddaeth Deddf yr Unffurfiad i rym yn 1662. Gwrthfedyddiwr Babanod oedd efe, a derbyniwyd ef yn aelod o eglwys John Myles yn 1649-50. Yr oedd yn bregethwr cyhoeddus cyn hyny, canys dywed Walker iddo gael ei ddewis gan blwyfolion Gelligaer i weinyddu yn y plwyf hwnw, ac i gael ei gynnal trwy eu rhoddion gwirfoddol hwy, o gylch 1645, neu yn fuan ar ol hyny. Digwyddodd hyn tu a chanol teyrnasiad Charles I.; am hyny, gellir casglu iddo gael addysg ac urdd esgobol yn un o'r Prifysgolion. Ymddengys i'w gyssylltiad â phlwyf Gelligaer derfynu pan ymunodd efe âg eglwys y Bedyddwyr yn Llanilltyd (Ilston), canys appwyntiwyd ef wedi hyny gan Gymmanfa y Bedyddwyr i ymweled âg eglwysi newydd eu sefydlu mewn gwahanol siroedd, ac i bregethu iddynt. Dyry William Erbery ychydig o hanes dadl a fu rhyngddo ef a Davies yn Llantrisant, sir Forganwg. Beth a ddaeth o hono ar ol Deddf yr Unffurfiad, yn y flwyddyn 1662, nid oes neb, hyd y gwelsom ni, wedi cofnodi.†

* Palmer's Noncon. Mem., vol. iii., p. 503; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 155.

† Walker's Suff. Cler., part ii., p. 228; Thomas's Hist. Associ., pp. 6, 7, 19; Erbery's Test., p. 219; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 158.

---

## PENNOD XVIII.

**THOMAS WATKINS, THOMAS JONES, WILLIAM JONES, CHRISTOPHER PRICE, ROBERT MORGAN, A RONDL DAVIES.**

THOMAS WATKINS oedd ŵr enwog arall y mae ein hadnabyddiaeth o'i hanes yn nodedig o gyfyng, ond etto yn gyfryw ag a'n galluoga i wybod cryn lawer am ei ddylanwad a'i ddefnyddioldeb mewn cylchoedd cyhoeddus. Er nas gwyddys pa bryd nac ymha le y ganwyd ef, ac nad yw yr amser na'r ardal y bu farw yn hyspys, etto y mae digon o'i hanes i'n galluogi i wybod ymha ddosparth crefyddol i'w osod. Cipolwg yma ac acw a gawn ar hyd ei oes o Thomas Watkins; ond rhwyma y cipdremiadau hyny ni i edmygu ei ymroddiad a'i zel yngwinllan ei Arglwydd, ac i'w ystyried yn un o "Enwogion y Ffydd." Fel y mae adfeilion hen gestyll yn pregethu mawredd cyntefig yr hen adeiladau hyny, felly y mae rhanau o hanes dŷn da yn ein rhwymo i feddwl yn uchel am yr hwn nad yw y rhai hyny ond math ar weddillion bywgraphyddol o hono. Un o'r dosparth hwn oedd Thomas Watkins, yr hwn a fu yn weinidog yn Olchon a'i changhenau am tu a deugain mlynedd, a'r hwn, yn ol Joshua Thomas,‡ oedd y mwyaf enwog o fugeiliaid yr hen eglwys barchus honno. Yr oedd gan Mr. Thomas lawer o fantais i wybod am dano; ond nid yw yr hen hanesydd cydwybodol a llafurus yn hyspysu ar ba ystyrieuthau yr oedd Watkins yn rhagori ar ei frodyr: gellir casglu mai cydgyfarfyddiad happus oedd ynddo o'r cymmwysderau sydd angenrheidiol i wneud dŷn yn bregethwr ac yn fugail rhagorol, ac iddo ddangos ffyddlondeb yn yr arferiad o'r talentau hyny. Y mae'n amlwg na chyfyngai efe ei lafur i Olchon a'r ardaloedd, ond y byddai yn teithio ymhell ac yn agos, gan blanu eglwysi newyddion, a dyfrhau y rhai a blanesid gan eraill.

Yng nghymmanfa Llanilltyd (Ilston), yn 1650, penderfynwyd gwneud casgliad yn eglwysi Llanilltyd, Gelli, a Llanharan, i gynnal math ar genhadaeth er lledeunu egwyddorion y Bedyddwyr yn sir Gaerfyrddin a manau eraill, ac yr oedd

‡ Han. y Bedyddwyr, t. 75.—GOL.

Digitized by Google

Thomas Watkins yn un o'r rhai a bennodwyd i ofalu am yr arian,* yr hyn sy'n dangos ei fod yn ddŷn o ymddiried ym marn y gynnadledd. Mewn cyssylltiad â'r gymmanfa a gynhaliwyd yn y Fenni yn 1653, gelwir Thomas Watkins yn bregethwr ac yn henuriad o eglwys y Gelli; a cheir ei enw ef, ym mysg eraill, wrth y penderfyniadau. Yr oedd eglwys y Gelli ar y pryd yn llïosog a chyfoethog, ond i raddau yn anghyttuno â'u gilydd, a chafodd yr ymryson sylw difrifol y gymmanfa honno. Pan ddechreuodd erledigaeth Charles II. yn 1660, preswyliai Watkins ger llaw Olchon, a gweinidogeuthai yn Llanigon, ac fe allai mewn manau eraill; ac y mae'n fwy na thebyg iddo ddïoddef yn drwm yn amser Charles, canys nid oedd braidd yn bossibl i ddŷn mor gyhoeddus ddiangc mewn amser mor ystormus. Bu yn pregethu yn Olchon a'r ardal trwy yr holl erledigaeth, sef o'r flwyddyn 1660 hyd 1688, pan ddaeth Tywysog Orange (y Brenin William III. wedi hyny) i'r wlad hon, ac y sefydlwyd rhyddid. Yr Hollwybodol yn unig a ŵyr am y filfed ran o'r hyn a ddïoddefodd pobl yr Arglwydd yn y wlad hon yn yr wyth mlynedd ar hugain crybwylledig, ac y mae genym ddigon i brofi nad ysgafn a fu y driniaeth a gafodd T. Watkins a'i ddisgyblion yn Olchon a'r Gelli yn y tymmor dychrynllyd hwnw. Er yr holl erlid, dywed Jos. Thomas i rai o'r frawdoliaeth barhau yn ddïysgog trwy yr holl orthrymderau, a dïau nad oedd neb o honynt yn fwy penderfynol yn y tywydd garw na T. Watkins. Ymgynhullent i addoli yn ddirgelaidd mewn gwahanol annedd-dai, ac yn fynych mewn creigiau a choedwigoedd yn yr awyr agored, fel y dywed Jos. Thomas. Pan ddeallent fod yr erlidwyr creulon yn gwybod am y fan yr arferent addoli, elent i le arall ar y Mynydd Du, neu rywle yn yr ardal.

Pan argyhoeddwyd William Jones yngharchar Caerfyrddin o Ysgrythyrolдeb bedydd y crediniol, aeth i Olchon i gael ei fedyddio; a golyga Joshua Thomas mai T. Jenkins a'i bedyddiodd yno yn 1665 neu 1666. Yn 1668, aeth Thomas Watkins a William Prichard o'r Fenni i ffurfio eglwys Rhydwilym, y rhai a fedyddiwyd gan W. Jones. Dywed Jos. Thomas mai Watkins oedd tad yr eglwys ieuangc honno, ac mai eglwys Rhydwilym yw mam yr eglwysi Bedyddiedig presennol o gylch Afon Tywi, ac i'r gorllewin o honi, oddi eithr ychydig o honynt. Yr oedd eglwys Rhydwilym yn 30 o nifer, heb law y gweinidog, yn amser y corpholiad. Wedi cael eu corpholi gan Watkins a'i gyfaill, gwneuthant gofnodiad priodol o'r amgylchiad.‡ Yn 1690, anfonodd eglwys Olchon lythyr at y Bedyddwyr yn Llundain, wrth yr hwn y mae enw T. Watkins; ond nid oes ynddo hyspysrwydd neillduol am y fywioliaeth yn Olchon; ond mewn papur arall a anfonwyd i Lundain yr un flwyddyn, yn yr hwn y gosodir allan sefyllfa llïaws o eglwysi yng Nghymru, dywedir nad oedd eglwys Olchon fwy na 30 ar y pryd, ac nad oedd T. Watkins, eu gweinidog oedranus, yn alluog i'w gwasanaethu fel cynt, a hyny yn ddïau o herwydd henaint. Gwasaneuthodd trwy yr holl dymmor ystormus, ac yr oedd ar y maes flynyddau meithion cyn iddo ddechrau, a chafodd y fraint o fyw am tu a phump neu chwe mlynedd wedi iddo ddarfod.§ Gan ei fod, fel y gwelsom, yn ddŷn o ymddiried, safle, ac enwogrwydd yn 1650, rhaid ei fod yn hen iawn pan fu farw yn 1694 neu 1695; ond er chwilio, methasom gael allan yn fanwl beth oedd ei oedran ar y pryd.

Yn ysgrifeniadau y Fenni, ceir llythyr o ddïolchgarwch o eglwys Llanharan i eglwys y Gelli, yr hwn a ysgrifenwyd yn 1650, yn yr hwn y dïolchir am wasanaeth T. Watkins iddynt hwy, "yr hwn a'u cynnorthwyodd yn fawr yn yr Arglwydd, gan eu bod hwy yno megis ym mysg bleiddiaid ac eirth." Fel hyn y mae barn eglwys Llanharan yn cyttuno â'r hyn a ddywed Jos. Thomas am enwogrwydd T. Watkins. Pa bryd cyn hyny y dechreuodd efe weinidogeuthu nid yw hyspys. Gan i Prosser ac yntau gael eu pennodi ynghyfarfod Llanilltyd yn 1650 i gynnorthwyo Llanharan, rhaid ei fod yr amser hwnw, fel y nodwyd, yn ddŷn mewn

* Han. y Bedyddwyr, gan J. Thomas a B. Davies, t. 143.

‡ Y mae'r cofnodiad fel hyn:—"Er coffadwriaeth mai y 12fed dydd o'r 5med mis, 1668, y darfu i eglwys Crist, wedi ymgynnull o'r tair sir, sef sir Benfro, sir Gaerfyrddin, a sir Aberteifi, dderbyn swper yr Arglwydd y pryd cyntaf trwy weinidogeuthiad y ddau frawd, William Prichard a Thomas Watkins, henuriad a diacon a anfonwyd yma gan eglwysi Crist yn y Fenni, Olchon, a'r Gelli. Yr oedd hyn ar y dydd cyntaf o'r wythnos; ac ar yr un diwrnod, darfu i ni ymgyunmodi â Duw ac â'r naill a'r llall, wedi ymddarostwng i fedydd ac arddodiad dwylaw. A'r un dydd, sef y 12fed, daeth Lettice Morgan, o Gilfowyr, a Margaret Nicholas, y rhai oeddent wedi eu bedyddio o'r blaen, dan arddodiad dwylaw, ac a unasant â ni mewn cymdeithas eglwysig."

Dengys pellder rhai o'r aelodau hyn o Rydwilym, eu zel a'u penderfyniad fel crefyddwyr yr amser hwnw. Cynddrychiolid 18 o blwyfi sir Benfro gan yr eglwys ieuangc honno; a 9 neu 10 o blwyfi yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd yno rai o blwyfi Llandyssyl, Llanarth, &c., yn sir Aberteifi.

§ Bu'r gweininidogion Bedyddiedig canlynol fyw trwy'r holl erledigaeth:—Y Dr. Christopher Price a William Prichard, o'r Fenni; T. Watkins, o'r Gelli; Lewis Thomas, o Abertawe; Robert Morgan, o Gaerfyrddin; William Jones a Gruffydd Howels, o sir Benfro; Thomas Quarrel, Llantrisant; Thomas Evans a Henry Gregory, sir Faesyfed; Francis Giles a John Edwards, Llanwenarth; Thomas David Rees, sir Aberteifi; Thomas Parry a William Prichard, Llangwm.—A Hist. of Welsh Associ., p. 7.

Digitized by Google

oed ac o ddylanwad yn y cylch gweinidogeuthol. Bu Mr. Prosser yn weinidog yn Olchon; ond pan symmudodd efe i Dredynog yn 1654 neu 1655, dilynwyd ef yn y gofal bugeiliol gan T. Watkins, a pharhaodd i ddal y cyfrifoldeb, fel y crybwyllwyd, trwy y tymmor erledigaethus maith a ddilynodd. Wedi ymladd yn hir, yn galed, a llwyddiannus, fel y dangoswyd, cymmerwyd ef oddi wrth ei waith mawr mewn byd gofidus, i fwynhau y rhagorfreintiau yn y deyrnas sydd wedi ei pharotôi i ganlynwyr ffyddlon y Gwaredwr. Sut y gallodd gadw corph ac enaid ynghyd mewn cyfnod mor faith a chythryblus, nis gwyddys. Ni ddywedir fod ganddo feddiannau fel Powel a Jenkin Jones; ac nid ymddengys iddo gael tâl gan y llywodraeth, fel Proud, Myles, ac eraill. Wrth ystyried enbydrwydd yr amseroedd, y mae'n ddigon possibl y gwyddai trwy brofiad beth oedd prinder.

**Thomas Jones.** Teilynga y gŵr dysgedig hwn gongl fechan ymhlith "Enwogion y Ffydd," o herwydd ei zel dros Brotestaniaeth, a'i egni ymdrechgar yn erbyn Pabyddiaeth yn y wlad. Mab ydoedd i John Williams, o Groesoswallt, lle y ganwyd ef yn gynnar yn yr 17fed ganrif. Wedi derbyn ei addysg foreuol yn ei dref enedigol, aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, o gylch dechrau y rhyfel gartrefol yn 1642; ond ymadawodd yn fuan, am ei fod yn Werinwr zelog, ac ni ddychwelodd yno hyd oni chymmerwyd Rhydychain gan filwyr y Senedd yn 1646; ac yn 1648, gwnaed ef yn gymmrawd y Brifysgol gan ymwelwyr y Senedd, o blegid ei ffyddlondeb i'r Weriniaeth. Yn y flwyddyn ganlynol, cymmerth y radd o M.A.; ac yn 1652, ysgrifenodd fywgraphiad Lladin Edward Simson, S.T.D., i ragfleunu "Chronicon Catholicum" y gŵr hwnw; ac yn 1654, dywedir iddo gael ei urddo gan ryw esgob gwladol. Yn 1655, cafodd berigloriaeth Castell Caereinion, yn sir Drefaldwyn, lle yr ymberffeithiodd yn y Gymraeg, er mwyn gallu pregethu yn gyfaddas yn y parthau hyny, pan y trowyd y clerigwyr Brenhinol anghymmwys allan. Yn lled fuan ar ol hyn, darganfu un Rhys Wynn, ei flaenorydd yn y beriglorineth honno, fod ganddo ef hawlysgrif iddi, a bu raid i Thomas Jones ymadael o'r lle. Wedi hyny, yn 1661, aeth i wasanaeth yr Arglwydd a Chyngor Cyffiniau Cymru, yng Nghastell Llwydlo (Ludlow); ac yn 1663, aeth yn gaplan teuluol a morwrol i Iago, y Duc Caerefrog, a pharhaodd yn y sefyllfa honno hyd 1666, pan y diswyddwyd ef ar gais y Dr. Morley, Esgob Caerwynt (Winchester), o blegid rhyw eiriau a lefarodd efe yn erbyn tuedd Babaidd yr Esgobyddwr hwnw. Mewn canlyniad i hyny, efe a ymneillduodd i'w beriglorineth yn Llandyrnog, sir Ddinbych, yn Esgobaeth Bangor, lle y daeth yn anghymmeradwy gan ei uwchafiaid eglwysig o blegid ei zel dros Buritaniaeth a Gweriniaeth. Yn 1670, dan deyrnasiad y Pabaidd Charles II., daeth yr Esgob Morley a chynghaws cyfreithiol yn ei erbyn yn Llys y Penadur, am ddywedyd y gwir ei fod yn noddi Pabyddiaeth, yr hyn a brofwyd trwy lw gan Esgob Pabyddol Bangor, a dau o'i gaplaniaid, a dirwywyd ef i 300p. Yn fuan wedyn, diswyddwyd ef gan Esgob erlidgar Bangor o herwydd dadl ar Babyddiaeth a ffynnai rhyngddynt, a bu hyny yn ddinystr i'w amgylchiadau. Yn 1678, ychydig cyn y Frad Babaidd, cyhoeddodd lyfr Saesneg dan yr enw canlynol:—

"Am y Galon a'i Gwir Benadur: ac nad yw Rhufain yn Fam Eglwys i Loegr, neu, Ddisgrifiad Hanesyddol o Fraint ein Heglwys Frytanaidd; a thrwy ba fath Weinidogaeth y Planwyd yr Efengyl ymhob Gwlad. Gyd âg Adgof am Hawl y Jerusalem uchod, yn y Pwngc mawr, Pa le y mae Gwir Fam Eglwys yr holl Gristionogion?" *

Yn 1682, cyhoeddodd lyfr Saesneg yn erbyn Pabyddiaeth, a alwodd efe fel y canlyn:—

"Elymas y Swynwr; neu Gofeb er Darganfod y Brad Pabyddol hwn." †

Yn y llyfr hwn, yr hwn a greodd gynnwrf aruthr ar y pryd, priodola y "Brad" erchyll hwnw i'r Dr. Morley, Esgob Caerwynt, ac eraill o dueddiadau Pabaidd cyffelyb iddo; a buasai ei erlidwyr Esgobyddol Pabaidd wedi ei gospi ymhellach, oni buasai i angau roi terfyn ar eu cynddaredd, trwy ei symmud i fyd arall, yr hyn a ddigwyddodd yn Totteridge, yn sir Hertfford, cyn diwedd y flwyddyn 1682. ‡

**William Jones, Rhydwilym.** Nid yw hanes foreuol y gŵr enwog hwn, fel amryw eraill o'r cyfnod terfysglyd yma, yn adnabyddus. Nis gwyddom pa bryd, nac ymha le, y ganed ef; ac y mae enwau ac amgylchiadau ei rieni ymynwes y tywyllwch. Y mae'n debyg mai yn ardal Cilmaenllwyd, ger llaw y ffin, rhwng siroedd Penfro

* "Of the Heart and its Right Soveraign: and Rome no Mother-Church to England, or, an Historical Account of the Title of our Brittish Church; and by what Ministry the Gospel was first Planted in every County. With a Remembrance of the Right of Jerusalem above, in the great Question, Where is the true Mother Church of all Christians?"

† "Elymas the Sorcerer; or Memorial towards the Discovery of this Popish Plot."

‡ Wood's Athen. Oxen., vol. ii., pp. 532–3; Brown Willis, vol. i., p. 265; Williams's Em. Welshm., p. 262; En. Cymru, L F., t. 643; Llyfr. y Cymry, t. 217–18.

Digitized by Google

a Chaerfyrddin, y cafodd ei eni a'i fagu, a bernir ei fod yn nechrau ei oes grefyddol yn perthyn i'r Annibynwyr neu y Presbyteriaid.* Ysywaeth, ni wyddys ymha eglwys y dechreuodd grefydda, ymha le a chan bwy y derbyniodd ei addysg, ac y mae ei osodiad yn llan Cilmaenllwyd yn 1655 ym mysg y dirgeledigeuthau.† Yn y flwyddyn honno, pan gafodd eglwys Cilmaenllwyd, yr ydys yn cael golwg arno gyntaf; ond pan drowyd ef allan oddi yno yn 1662, neu gynt, y mae'n dyfod gyntaf i olwg yr hanesydd. Hyspyswyd Joshua Thomas mai mewn lle a elwid Castell Garw, ymhlwyf Llanglwydwen, yn sir Gaerfyrddin, yr oedd W. Jones yn byw; ond pa bryd y bu yn trigo yno, ai cyn ymuno â'r Bedyddwyr, ai wedi hyny, nis gwyddys. Y mae'n bossibl mai yno y preswyliai tra yn eglwys Cilmaenllwyd, ac wedi ei fwrw allan o honi. Ymddengys mai un Roger Phylips a drowyd allan o Gilmaenllwyd a Llanfallteg gan swyddogion y Weriniaeth; ac y mae Jos. Thomas yn casglu i William Jones gael ei le yno.

Yn ol adroddiad un John Jenkins, ar yr hwn yr ymddibynai Jos. Thomas, byddai W. Jones, yn amser y Weriniaeth, yn pregethu yn yr eglwysydd, ac ymhob man y cai gyfleusdra, ond yn fwy sefydlog yng Nghilmaenllwyd (ac yn Llanfallteg, fe allai), nag mewn manau eraill. Er nad oes sicrwydd pa un ai yn 1660 ai 1662 y tröed ef allan o'r eglwysydd crybwylledig, ond y mae sicrwydd mai ei anghydffurfiaeth a fu yr achos o'i fwriad allan. Er llymed y cyfreithiau yn erbyn Anghydffurfiaeth ar ol y troad allan, ymdrechodd efe lawer i bregethu mewn gwahanol fanau; ond gan ei fod yn naturiol ofnus a gwylaidd, yr oedd yn dra gochelgar ymha leoedd a pha bryd y pregethai; ond er ei holl ofal, bu ymchwil ei erlidwyr yn foddion i osod terfyn ar ei lafur pregethwrol, trwy ei fwrw i garchar Caerfyrddin, lle y bu am tu a thair blynedd. Tra yng Nghastell Caerfyrddin yn y carchar, cafodd W. Jones ei argyhoeddi mai "bedydd y crediniol trwy drochiad" yw y bedydd Ysgrythyrol; ond ni wyddys trwy ba foddion y cafodd ei argyhoeddi.‡ Modd bynag, ymddengys iddo gadw ei argyhoeddiad iddo ei hun tra yn y carchar. Wedi cael ei ryddhau trwy ryw Ragluniaeth ffafriol, penderfynodd gael ei fedyddio yn ol Gair Duw, ac aeth i ardal Olchon, lle y bedyddiwyd ef, yn ol pob tebygolrwydd, gan William Prichard neu Thomas Watkins: gan yr olaf, fel y mae debygcaf, am mai efe oedd yr hynaf o'r ddau, a bugail priodol Olchon ar y pryd. Tybia Jos. Thomas i hyny ddigwydd yn 1665 neu 1666. Wedi cael ei fedyddio, dychwelodd i ardal Cilmaenllwyd, a dywedodd wrth gyfeillion am yr hyn a gymmerasai le, gan roddi iddynt y rhesymau a'i tueddasent ef i ymuno â'r Bedyddwyr. Wedi ystyried ei resymau, barnodd amryw iddo ymddwyn yn deilwng, a thueddwyd rhai o'i gyfeillion i wneuthur yr un modd. Ymhen rhai wythnosau wedyn, bedyddiodd yntau 11 o'i hen gyfeillion, ac yr oedd yr 11 hyny yn cynddrychioli naw plwyf. Bedyddiwyd 6 o honynt ganddo ar y 4ydd o Fehefin, 1667, a 5 ar y 25med o'r un mis. Dyma ddechrau hen eglwys enwog Rhydwilym gan William Jones.

Y mae enwau y rhai hyny a fedyddiwyd, ynghyd â'r siroedd a'r plwyfi lle y preswylient, ar y Coflyfr yn bresennol, ac i'w gweled yn Hanes Eglwys Rhydwilym, gan Henry Price, 1855. O'r amser hwnw hyd y 12fed o Orphenaf, 1668, bedyddiwyd 20 yn ychwaneg; a'r diwrnod hwnw y corpholwyd yr eglwys gan William Prichard a Thomas Watkins, o Olchon, y Gelli, a Llanwenarth. Er holl lymdoster yr erledigeuthau, parhaodd yr eglwys i gynhyddu dan weinidogaeth effeithiol W. Jones, fel yr oedd yn 113 o nifer yn 1689, a'r gweinidog yn cael ei gynnorthwyo gan tu a deg o bregethwyr, a rhai o honynt yn ddynion enwog. Ymwasgarodd yr eglwys liosog hon, gan ymffurfio yn eglwysi annibynol mewn gwahanol ardaloedd yn siroedd Penfro, Caerfyrddin, a Cheredigion; ac yn 1777, yr oedd aelodau yr eglwys hon a'i holl ganghenau, neu yr eglwysi a ddechreuasant, o 17 i 18 cant. Nid oes sicrwydd am yr amser na'r lle y bu W. Jones farw. Yr oedd yn bresennol yn y gymmanfa a gynhaliwyd yn Llundain yn 1689; ac ymddengys iddo fyw am rai blynyddau wedi hyn, gan orphen ei yrfa yn y gymmydogaeth yr arferai lafurio ynddi, a chael ei gladdu yn yr un ardal. Gan fod W. Jones yn ŵr mor enwog, credir y bydd yn hoff gan bawb sy'n teimlo dyddordeb yn "Enwogion y Ffydd" ddarllen y difyniad canlynol o "Hanes y Bedyddwyr" (yr ail argraphiad), gan yr hen hanesydd enwog, Joshua Thomas:—

"Buasai yn ddymunol pe gallesid rhoddi **hanes fanylach**

* Presbyteriad ydoedd, yn ol barn Jos. Thomas.—Han. y Bedyddwyr, t. 326.—Gol.

† Gan fod y Profyddion mewn awdurdod y pryd hyny, y mae'n bur debyg mai hwynt-hwy a'i dodasant yn y fywioliaeth honno.—Gol.

‡ Yn ol Crosby (vol. ii., pp. 26, 27) carcharwyd Jenkin Jones hefyd yng Nghaerfyrddin; ond gan nad ydys sicr ei fod ef yn y carchar hwnw yr un amser a William Jones, nid yw hyspys a fu ganddo ef ryw law yn ei argyhoeddiad am fedydd ai peidio.

Digitized by Google

am W. Jones tu a'r rhan ddiweddaf o'i fywyd, gan iddo fod mor ddefnyddiol a llwyddiannus yn y parthau hyn, wedi gosod sylfaen mam eglwys mor gynhyrchiol, ac wedi cynnorthwyo cyhyd yn yr oruwchadeiladaeth. Ymddengys ei fod, fel llawer eraill o'i frodyr, wedi ei ddarostwng i lawer o galedi a chyfyngderau gan yr erledigaeth. Ym mhapurau y Dr. Price tu ag 1690,* enwir W. Jones ym mysg y gweinidogion anghenus yng Nghymru. Y mae yn y cwbl bedwar papur gan y Dr. Price o gylch yr amser, pob un o ba rai a ddyry beth goleuni. Enwir W. Jones mewn tri o honynt. Y mae ei enw yng Nghofnodion Llundain am 1689 ac 1692, fel gweinidog eglwys Rhydwilym. Nid wyf yn cofio i mi weled ei enw mewn un man wedi y dyddiad [yr amseriad] diweddaf. Buasai yn dda pe buasent yn cofnodi yr amser y byddai gweinidogion yn marw, ond nid ydynt wedi gwneud. Dywedwyd eisoes fod W. Jones o duedd addfwyn ac yn hytrach yn ofnus, cyn yr erledigaeth; ond dywed hanes, pan yr oedd yn cael ei erlid, ei garcharu, &c., fod ei ddewrder a'i wroldeb yn hynodol. Yr oedd yn addfwyn, ac etto yn hyf fel llew, a'i ymddygiad yn ennillgar a didramgwydd. Perchid ef yn fawr gan foneddwyr y wlad. Chwennychent ei ddarbwyllo i gydymffurfio gyd âg addewidion teg o ddyrchafiad, ond gwyddai efe pa fodd i roi attebion hynaws a diolchgar; ac, etto, i oddef caledi a chyfyngderau er mwyn y gwirionedd a heddwch cydwybod. Yn ol ysgrif J. R., dywedai rhai i W. Jones ddewis cadw cydwybod rydd o barthed purdeb addoliad Dwyfol yn hytrach na derbyn cant a deugain punt y flwyddyn am ddarllen Lyfr Gweddi Gyffredin yn yr Eglwys Sefydledig. Nid swm fechan oedd hon ar yr adeg honno yn y parthau hyn. Nid oedd y demtasiwn hon yn ddirmygus, pan nad oedd dim i'w ddisgwl yr ochr arall ond tlodi; ac nid tlodi cyffredin, ond cael ei yspeilio o'r hyn oedd ganddo, myned i garchar, &c. Nid oes wybodaeth pa sawl gwaith y bu yng ngharchar Caerfyrddin. Gan ei fod ar derfynau y ddwy sir, os byddai iddo gael ei ddal a'i ddedfrydu yn sir Benfro, dygent ef i Hwlffordd. Adroddir yr hanes hon am dano pan un tro y dedfrydwyd ef i'r carchar yno. Pan oedd yn y dref, wedi ei ddwyn yno yn garcharor, adnabyddwyd ef gan gynnifer o foneddigion, a pharchwyd ef mor fawr ganddynt, gan ei wahodd i'w tai, fel y dirmygid y swyddogion a ofalent am dano i'r fath raddau, fel yr oedd arnynt gywilydd o honynt eu hunain: ond cadwyd ef yno am beth amser. Yr oedd wedi trefnu i bregethu mewn man pennodol cyn cael ei ddal, a dymunai am ryddid i fyned i gadw yr oedfa, fel na fyddai iddo siomi y rhai a ddisgwylient, gan addaw dychwelyd yn amserol i'r carchar. Caniatawyd rhyddid yn fuan iddo; a rhoddodd boneddwr iddo fenthyg ei geffyl, côt, botasau, spardynau, &c., i fyned i bregethu i'r lle y trefnasai. Aeth, a dychwelodd yn ol ei addewid, a phob peth yn dda; a chynhyddodd ei enwogrwydd yn fwy. Pan ddaeth i'r cyfarfod, rhyfeddodd y bobl ei weled yn y gwisgiad hwnw, a llanwyd hwy â chymmysgedd o lawenydd a thristwch pan ddeallasant fel yr oedd pethau yn bod. Dylai ei enw fod yn beraidd megis apostol y Bedyddwyr yn y parthau hyn, dros oesoedd i ddyfod. Tybir iddo orphen ei filwriaeth yn y flwyddyn 1700. Rhaid ei fod yn oedranus, gan ei fod wedi ei droi allan yn 1662, neu yn gynt. Peth anghyfiawn oedd peidio cofnodi amser ei farwolaeth, a'r lle y claddwyd ef; ond y mae'n ddigon tebyg i'w weddillion gael eu claddu yn y gladdfa ger llaw Rushacre."†

**Christopher Price** (Prys), yr hwn a elwid hefyd y Dr. **Price**, ydoedd un o'r Bedyddwyr mwyaf parchus, defnyddiol, a llafurus tu a Llangwm a'r Fenni yn amser yr erledigaeth. Ymddengys iddo gael ei eni yn Llan Ffwyst (Llanfoist), ger llaw Abergefenni; ond nid ydys yn sicr pa flwyddyn yn y rhan gyntaf o'r 17fed ganrif. Dywedir mai tu a'r flwyddyn 1649 y dechreuodd efe bregethu, ac mai yn 1697 y claddwyd ef, yn y gangell, o flaen bwrdd y cymmun, yn eglwys y Fenni, yn yr hon y cymmerasai efe ran yn y ddadl ar fedydd yn 1653. Ceir amser ei farwolaeth ar ei gareg fedd; ond nid yw ei oedran pan fu farw arni. Bu yn y weinidogaeth‡ am 40 mlynedd yn 1689, a bu yn yr un gwaith am 8 mlynedd wedi hyny; a'r farn gyffredin yw, nad oedd lawer o dan, na thros, 80 oed pan fu farw.§

Dywed G. L. Hiley, Ysw., un o Hileys Llanwenarth, fod y Prysiaid o Lan Ffwyst yn ddynion o enwogrwydd a safle uchel yn sir Fynwy. Yn 1607, yr oedd William Price yn uchel sirydd, ac un arall o honynt yn 1644. Prysiaid hefyd o'r un teulu oedd uchel siryddion ym Mynwy yn 1690, 1715, ac 1771. Yr oedd Christopher Price yn dirfeddiannydd enwog yn yr ardal; ac ar ran o'i dir ef yr adeiladwyd addoldy Llanwenarth, yr hwn a roddes efe at y pwrpas. Gan ei fod yn feddyg, ac yn parhau i arfer yr alwedigaeth feddygol, ac yn meddu llawer o feddiannau hefyd, nid yw yn ymddangos iddo ymroddi yn llwyr i'r weinidogaeth, ond mai y llwybr a gymmerth efe oedd dilyn ei waith fel meddyg, a phregethu yr efengyl yn ddidraul i'r sawl a'i gwrandawai, fel y gallai yr eglwysi fod yn fwy galluog i gynnorthwyo pregethwyr nad oeddynt gydradd âg ef mewn amgylchiadau. Gan fod F. Giles ac yntau yn ddynion o gyfoeth a dylanwad, buant o fendith fawr i grefydd yn ardaloedd Llanwenarth, y Fenni, a Llangwm; ac nis gallasai y Bedyddwyr ymgynnal i'r graddau y gwneuthant yn annibynol ar eu cydymdeimlad a'u cymmorth hwy. Ymgynhullid i addoli mewn annedd-dai yn yr ardaloedd crybwylledig, cyn cael un math o addoldy;

* Gwel Christopher Price, ym mlaen yn y bennod hon.

† Walker's Suff. Cler., part ii., p. 237; Han. y Bed. gan Jos. Thomas, argr. 1778, t. 325–41; Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, pp. 256–9.—Gol.

Dywed Jos. Thomas mewn nodyn, t. 340, fel hyn:—"Mae Mr. M. W. [Moses Williams], yn ei Gofrestr, yn dywedyd argraphu dau lyfr Cymraeg yn 1676. Sef, 'Gair i bechaduriaid a gair i Saint,' o gyfieithiad W. Jones, gweinidog yr Efengyl. Y llall a elwid 'Principlau, neu Bennau y Grefydd gris'nogol,' &c., o gyfieithiad W. J.—Odid nad Mr. William Jones oedd y cyfieithydd cymmwynasgar hwn. Yr oedd hynny yn amser yr erledigaeth."

Gwelsom eisoes, yn y bennod flaenorol, mai William Jones o Ddinbych oedd cyfieithydd y llyfrau crybwylledig.—Gol.

‡ Wrth "weinidogaeth" y golygir, yn gyffredin, swydd pregethwr urddedig, sefydlog, a chyflogedig, mewn un eglwys, neu amryw o eglwysi neillduol; ond ceir gweled yn ebrwydd nad oedd C. Price felly, namyn pregethwr teithiol "i'r sawl a'i gwrandawai," fel yr apostolion, a'r Cristionogion yn yr oes apostolaidd (Act. viii. 1, 4; xi. 19–21).—Gol.

§ Od oedd efe yn 80 oed yn 1697, ganwyd ef o gylch 1617.—Gol.

Digitized by Google

ac ymddengys mai yn nhŷ C. Price y byddent yn ymgyfarfod fynychaf, ac y mae'n dra thebyg y byddai'r doctor yn pregethu iddynt yn fynych yn ei annedd ei hun, er nad oedd efe, fel y gellir casglu, yn aelod yn Llanwenarth, ond yn Llangwm. Wedi i'r doctor farw, golygir i eglwys Llangwm ymuno âg eglwys Llanwenarth; ac ymddengys i drigle y Dr. Price barhau yn dŷ cyfarfod am amser maith, pan ddaeth ei berthynasau eglwysig i fyw i'r tŷ mewn blynyddau ar ol iddo ef farw. Cefnogasant wasanaeth Anghydffurfiol yn y tŷ, dros amser, o barch, fe allai, i goffadwriaeth y doctor ymadawedig.

Gan fod y Dr. Price yn ddŷn o gyfoeth a dylanwad, ac fel y cyfryw yn adnabyddus iawn yn Lloegr, bu yn alluog i gynnorthwyo llawer o weinidogion tlodion Cymreig, yn ystod y tymhestloedd cythryblus a dinystriol. Mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo at Mr. B. Keach, y 12fed o Dachwedd, 1689, dywed ei fod ef wedi gwasanaethu yr eglwys yn rhad er ys 40 mlynedd, a'i fod yn henuriad urddedig er ys 20 mlynedd. Yn yr un llythyr y mae'n crybwyll am dlodi llawer o esgobion y Dywysogaeth yn amser yr erledigaeth, ac am garedigrwydd Mr. Woolaston, Gray's Inn, tu ag atynt, yr hwn a anfonasai iddo ef (y Dr. Price) lawer o gannoedd o bunnau o bryd i bryd, i'w rhanu rhwng gweinidogion anghenus y Dywysogaeth; ond yr oedd Mr. Woolaston y pryd hwnw wedi darfod cyfranu.* Dywed hefyd ei fod wedi derbyn amryw symiau yn ddiweddar oddi wrth un George Griffiths, i'w rhoddi i weinidogion mewn tlodi, y rhai a ranasai efe, yn gystal a'r arian a anfonasid iddo gan Mr. Woolaston, rhwng gweinidogion y Bedyddwyr a'r Annibynwyr.† Yr hyn sy'n debyg ydyw, y byddai pregethwyr trallodus yn ei wneud ef yn adnabyddus o'u tlodi, ac yntau yn ceisio eu cynnorthwyo ei hun, yn anfon at foneddigion eraill am gynhorthwy iddynt, ac yn cael llawer o gymmorth arianol trwy y fath appeliadau. Nid yn yr un cylch y mae pawb yn ddefnyddiol, ac y mae gan bersonau gymmwysderau neillduol i'w haddasu i lesoli eraill mewn cyfeiriadau pennodol. Gwnaeth Price lawer o les trwy bregethu yr efengyl, &c.; ond y mae'n bossibl mai yn y gorchwyl o ddarpar ar gyfer ei frodyr, eu cynnorthwyo yn llwyddiannus i ymladd â'u gelynion, y gwasaneuthodd efe ei genhedlaeth yn benaf. Bu yn byw yn Llan Ffwyst a'r Fenni, ac yn y naill a'r llall ymdrechodd yn galed dros ei Dduw a'i frodyr, gan gredu nas gellir caru Duw anweledig heb gydymdeimlo yn ymarferol â'r rhai yr ydym yn eu gweled.

Robert Morgan oedd ŵr enwog arall nad yw lle nac amser ei enedigaeth wedi eu cofnodi; ond gan iddo farw yn 1711, pan yn 90 oed, gellir casglu mai rywbryd o gylch y flwyddyn 1621 y cafodd ei eni. Cesglir mai yn Llandilo Tal y Bont, ger llaw Pontarddulais, y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, ac, fe allai, ei holl ddyddiau; ac y mae'n debygol oddi wrth hyn, a'r ffaith iddo gydweinidogeuthu â Lewis Thomas yn Abertawe am tu a 40 mlynedd, mai yn ardal Pontarddulais y ganwyd ef. Dywedir mai efe oedd y gweinidog cyntaf ar eglwys fechan y Bedyddwyr yng Nghaerfyrddin; ond os bu efe yn gweinidogeuthu yno, nid yw hyny yn un prawf nad yn Llandeilo Tal y Bont, neu yn ardal Pontarddulais, y trigai ar y pryd, canys nid oedd y pellder rhwng y ddau le ond ffordd fer i weinidogion i'w theithio yn amser Robert Morgan. Cadwai ysgol yn Llandeilo Tal y Bont, yn y plwyf y ganed y Dr. Phylip James,

* Gŵr bonheddig o Sais oedd Thomas Woolaston, neu Woolston, a anwyd yn 1669, yn Northampton, ac a addysgwyd yng Ngholeg Sidney Sussex, Caergrawnt, i'r lle yr aeth yn 1685. Wedi iddo gymmeryd graddau yn y celfyddydau, etholwyd ef yn gymmrawd y coleg hwnw, a pharhaodd i aros yn y Brifysgol am lawer blwyddyn, gan ymroddi yn benaf i fyfyrio duwinyddiaeth, yn yr hyn y cymmerth radd Gwyryf. Cyhoeddodd ei waith cyntaf yn 1705, "The Old Apology for the Truth of the Christian Religion against the Jews and Gentiles Revised." Ni chyhoeddodd ddim ar ol y gwaith yna dros bymtheng mlyneddd; ac yn y cyfamser, ymddengys i'w olygiadau fyned dan gyfnewidiad mawr ac annedwydd ynghyfeiriad anghrededd, a gelyniaeth at athrawon a gwirionedd Cristionogol. Y mae'n sicr mai ar ol y cyfnewidiad dychrynllyd yna y collodd y Dr. Prys ei gynhorthwy i bregethwyr tlodion Cymru. Cofleidiodd ddull Origen o egluro yr Ysgrythyrau mewn ffordd ddamhegol neu alegoraidd, a llithrodd bob yn dipyn i edrych ar yr hanesion Moesenaidd ac Efengylaidd fel damhegion, a dim ychwaneg. Yn 1720, cyhoeddodd dri o dreuthodau Lladin, dau o honynt ar ffurf llythyrau wedi eu cyfeirio gan Origen at y Dr. Whitby, y Dr. Waterland, a'r Dr. Whiston, yn y rhai y dechrau efe ddadlenu ei olygiadau damhegol yn fwy eglur nag o'r blaen. Dilynwyd y rhai hyn gan lythyr at y Dr. Bennet, Llundain, yn gofyn, "Ai nid y Crynwyr, o un sect grefyddol, sy'n fwyaf tebyg i'r Cristionogion Cyntefig." Dilynwyd hwn gan amryw fân dreuthodau yn ymosod yn chwerw ar glerigwyr a chlerigiaeth; ac o'r diwedd, erlyniwyd ef am gabledd, a dedfrydwyd ef i flwyddyn o garchariad, a 100p. o ddirwy. Gan ei fod yn analluog i dalu y ddirwy, pwrcasodd ei ryddid yn ol rheolau llys y penadur ar derfyn ei garchariad; ac felly y parhaodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn nechrau 1733. Ysgrifenodd amryw dreuthodau tu a diwedd ei oes yn cymmeryd arno amddiffyn Cristionogaeth, y rhai erbyn hyn sydd wedi eu llwyr anghofio.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 1386.

† Mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo at un Mr. Barlow tu a Mawrth, 1689, y mae'n cyfeirio at gyfyngderau mawrion ei frodyr dïymadferth yn y weinidogaeth. Gellir casglu oddi wrth y llythyr hwnw fod Mr. Barlow wedi gwneyd ymholiad i achos y Bedyddwyr yng Nghymru, ac yn neillduol i sefyllfa y gweinidogion yn amser y dwyreinwynt garw. Dywed y Dr. Price, yn ei attebiad, ei fod wedi ysgrifenu yn ddiweddar at Mr. W. Kyffin, a rhoddi iddo ef hanes gyflawn o'r pethau hyn; ac y mae yn ei hyspysu hefyd ei fod wedi ysgrifenu tu a thri mis cyn hyny at Mr. Keach ar yr un cwestiwn.

Dywed y Dr. Thos. Rees nad ymunodd y Dr. Price erioed â phlaid y caeth gymmundeb, a arweinid gan Mr. Myles, er ei fod yn cydsynio â'u golygiadau am ddeiliaid a dull bedydd.—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 162.—Gol.

Digitized by Google

ac y mae'n debyg ei fod yn ysgolhaig da; ac y mae un ysgrifenydd manwl yn dywedyd mai yn ysgol Robert Morgan y dechreuodd Phylip James ei yrfa fel ysgolhaig. Ymddengys i Morgan golli ei wraig pan nad oedd y ddau ond ieuaingc, ac mai mewn cryn helbul y bu raid iddo dreulio y rhan fwyaf o'i oes rhag llaw, yr hyn a'i hanalluogai i anfon ei blant i ysgolion uchel.* Er mai isel oedd ei amgylchiadau, a'i fod yn ddïoddefydd, fel eraill, yn herwydd erledigeuthau brawychus ei oes, etto llwyddodd i roddi dysg ragorol i'w blant, yr hyn sydd i raddau pell yn profi mai efe ei hun a gyfranai y ddysgeidiaeth honno iddynt. Yr oedd ganddo un mab, a'i enw John, yn ysgolhaig da, ac yn bregethwr canmoladwy, yr hwn a wahoddwyd, er mor ieuangc, i gymmeryd gofal eglwys y Bedyddwyr yng Nghaerwair (Warwick). Wedi pregethu pregeth ymadawol, cychwynodd i Gaerwair mewn attebiad i'r gwahoddiad a gawsai; ond cymmerwyd ef yn glaf, naill ai ar ei daith neu yn fuan wedi cyrraedd y lle, ac ymhen tu ag wythnos wedi gadael tŷ ei dad, gorphenodd ei yrfa fer ar y 12fed o Fai, 1703, yn 24 oed.† Y mae'r meddylddrych bod Cymro mor ieuangc a hyny, oedd wedi ei fagu mewn ardal hollol Gymreig, yn myned i Gaerwair i weinidogeuthu i'r Saeson, yn dangos bod ganddo feddwl o radd uchel, a bod y meddwl hwnw wedi ei wrteithio yn rhagorol. Y cwestiwn yw, ymha le y derbyniodd efe ei addysg? Gan nad oedd amgylchiadau ei dad helbulus yn caniatâu ei anfon i unrhyw athrofa, yr ydym yn rhwym o gasglu mai i'w dad ei hun yr oedd efe yn ddyledus am y gwrteithiad a dderbyniasai, yr hyn sydd ddigon i brofi ysgolheigdod ei riant. Heb law hyny, yr oedd ganddo fab arall yn brif athraw mewn "Ysgol Rad Ymneillduol" yn Horselydown, a dïau mai yn ysgol ei dad yn ardal Pontarddulais y cafodd yntau ei gymhwyso i dderbyn cyfrifoldeb mor gyhoeddus. Dengys y ffeithiau hyn nad dŷn cyffredin oedd Robert Morgan.

Nid ydym yn gwybod pa bryd, ymha le, na chan bwy y bedyddiwyd ef. Y mae Jos. Thomas yn casglu oddi wrth y Detholion (Extracts) o lyfr John Myles, y rhai a anfonwyd o'r America gan Mr. Backus, nad aelod gwreiddiol o eglwys Abertawe ydoedd: yn ol llyfr eglwys y Fenni, ceid R. Morgan yn llawnodi y penderfyniadau ynghymmanfaoedd 1653 ac 1654, fel cenad oddi wrth eglwys Caerfyrddin. Fe allai ei fod ar y pryd yn weinidog yn y dref, neu yn cynnorthwyo yr eglwys fechan yno, ac, fel dŷn da, yn teimlo dyddordeb yn ei llwyddiant, ac yn amgylchiadau yr enwad yn gyffredin. Yn amser yr erledigaeth, diflannodd eglwys Caerfyrddin yn raddol, ac ymunodd yr aelodau a ddaliasant eu tir â'r rhanau gorllewinol o eglwys Llanilltyd, yn sir Gaerfyrddin; ac y mae'n debyg i Robert Morgan, dan yr amgylchiadau, ymaelodi yn eglwys Abertawe, yr hon oedd tu a saith neu wyth milltir o Bontarddulais.‡

Golyga un ysgrifenydd fod y rhan bwysig a gymmerth efe yng nghymmanfaoedd boreuol y Fenni, Aberafon, Llantrisant, &c., yn profi nad safle ddibwys oedd iddo ef yn ein cyfundeb yn y blynyddoedd hyny. Teimlai y dyddordeb mwyaf yn holl ysgogiadau yr enwad, a meddai adnabyddiaeth fanwl o'i weithrediadau, fel y dengys y llythyr a ysgrifenodd at Benjamin Keach ym Mai, 1689, yn yr hwn y mae'n dywedyd "bod llawer o'r cyfoethogion na chadwasant eu lleoedd yn yr erledigaeth, ac nas gellid eu hadfer trwy yr holl foddion a arferid gan yr eglwysi." Dywed i rai o'r bobl arianog gydymffurfio â gofynion y Llywodraeth, ac i eraill aros mewn sefyllfa amhenderfynol, yr hyn a effeithiodd yn niweidiol ar rifedi yr aelodau mewn rhai eglwysi Cymreig. Llafuriai Morgan yn galed gartref ac oddi cartref. Gan y byddai eglwys Abertawe yn addoli Duw mewn cynnifer o fanau yn ei amser ef, megis yn Llanon, Llanor, Llangyfelach, Casllwchwr, &c., nid cyfrifoldeb bychan oedd eiddo Lewis Thomas ac yntau am y 40 mlynedd y buant yn cydlafurio, heb son am eu cyflawniadau anghyhoedd a chyhoeddus mewn rhanau pellenig o'r Dywysogaeth, ac yn y cymmanfaoedd blynyddol. Pan y bu eglwys Craig

* Dywed Jos. Thomas i'w wraig adael chwech o blant bychain ar ei hol, yr hyn a ddarostyngodd R. Morgan i gyfyngder mawr; ond llwyddodd i'w magu trwy gadw yr ysgol y soniwyd am dani dros flynyddau lawer. Ymhen cryn amser daeth un neu ddau o'i feibion yn alluog i ofalu yn achlysurol am yr ysgolheigion, pan fyddai efe ymhell yn pregethu.

† Han. y Bedyddwyr, gan Jos. Thomas, t. 318.—GOL.

‡ Mewn llythyr a anfonwyd y 29fed o Fehefin, 1668, gan Thomas Gwynn, o ardal Caerfyrddin, at Henry Jessey, yn Llundain, a'r hwn sydd i'w weled yn "Crosby's English Baptists," darlunir yr erledigaeth yng Nghaerfyrddin ar y pryd. Dïoddefodd llawer yn dawel, a glynasant yn eu proffes er cael eu carcharu yn ei herwydd. Gan i'r llythyr gael ei ysgrifenu ymhen mis wedi dychweliad Charles II., a bod rhai wedi cael eu carcharu am fis o herwydd eu crefydd ar y pryd, rhaid i'r erledigaeth ddechrau yn ddïoed ar ol dyfodiad y penadur aflan a chreulon i Loegr. Yn yr hanes am Gymmanfa Aberhonddu yn 1656, ceir y crybwylliad olaf am hen eglwys Caerfyrddin. Golyga Jos. Thomas i'r eglwys honno gael ei difodi yn llwyr gan y cynddeiriowgrwydd a arllwysid arni yn ddïarbed gan yr erlidwyr, ac nad o olion yr hen eglwys gyntefig y ffurfiwyd yr eglwysi presennol. Unodd llawer o honynt â'r canghenau o Lanilltyd a geid yn Llangenech a Llanor, ac y mae'n dra thebyg mai un o'r ffoedigion hyny oedd Robert Morgan.



Digitized by Google

yr Allt (Hengoed) heb weinidog am gryn 14 o flynyddau, bu Lewis Thomas a Robert Morgan yn gwasaneuthu yno unwaith yn y mis bob yn ail am flynyddau, er yr holl bellder rhwng y ddau le, fel y dengys llythyr Craig yr Allt at gymmanfa Llundain yn 1690; ac y mae Robert Morgan ei hun yn cyfeirio at y ffaith hon yn ei lythyr at B. Keach yn 1689, ac mewn llythyr arall a ysgrifenodd at Morris King, Llundain, yn 1690. Gan nad oes sail i gredu iddo fod erioed uwch law tlodi, y tebygrwydd yw mai cerdded yr holl ffordd y byddai o Bontarddulais i Graig yr Allt ac yn ol, unwaith bob dau fis, am flynyddau; ac yn ol pob tebyg, nid oedd y gydnabyddiaeth a dderbyniai am y fath lafur a lludded ond ychydig iawn. Y mae'n bossibl nad oedd yn gydradd âg ambell un o enwogion ei oes am boblowgrwydd gyd â'r lliaws, ac nad oedd mor gynhyrfus a rhai o honynt; ond gyd â golwg arno fel dŷn o gymmeriad a gorchwyl, dŷn synhwyrol, zelog, ymdrechol, a gwybodus, nis ceid y gorau o'i gyfoedion uwch law iddo, ac yr oedd efe yn uwch na hwynt oll gyd â golwg ar feithder y tymmor y bu yn gwasaneuthu ei Waredwr.*

Rondl Davies, A.M., neu Randolph Davies, ydoedd ŵr enwog na wyddys odid ddim am dano ond a geir yng Nghoflyfr plwyf Meifod, sir Drefaldwyn, ac a ellir ei gasglu oddi wrth y llyfrau hynod a ysgrifenwyd ganddo, fel y ceir gweled rhag llaw. Y mae'n sicr ei fod yn Ficar Meifod er ys rhyw faint o amser cyn y 10fed o Fehefin, 1648, canys y mae Coflyfr plwyf Meifod yn cofnodi ei briodas ar y diwrnod hwnw, megis *ficar* y plwyf, "â Mari, merch John Williams, offeiriad."† Hefyd, dywed yr un Coflyfr, "Bedyddiwyd Ioan, mab Rondl Davies, *Ficar y plwyf hwn*, yr 8fed o Orphenaf, 1651."‡ Dywed Gwilym Lleyn mai yr Esgob George Griffith§ a roddes Ficeriaeth Meifod i Rondl Davies; ond ni wnaed y Dr. Griffith yn Esgob Llanelwy hyd yr 28fed o Hydref, 1660. Y Dr. John Owen oedd Esgob Llanelwy o 1630 hyd ei farwolaeth ar yr 16fed o Hydref, 1651; ac yna, bu yr esgobaeth yn wag yn amser y Weriniaeth. o 1651 hyd 1660, pan y dyrchafwyd y Dr. G. Griffith iddi."‖ Y mae'n ddigon sicr, gan hyny, mai y Dr. J. Owen a roddes Ficeriaeth Meifod i Rondl Davies, ryw bryd cyn y 10fed o Fehefin, 1648, pan y priodes efe Mari Jones. Y mae'n ddiau mai ei gadarnhau yn Ficeriaeth Meifod a wnaeth y Dr. Griffith yn 1661; a dichon iddo roddi perigloriaeth y Cwm, ger llaw Llanelwy, iddo yr un pryd, fel y dywed Gwilym Lleyn.¶ Bu yn dal Ficeriaeth Meifod dros 47 mlynedd, o leiaf, sef o'r flwyddyn a nodwyd hyd ddiwedd ei oes; ac yn y cyfamser, y mae Coflyfr Meifod yn cofnodi bedyddiadau 13 o'i blant ef a Mari, ei wraig.

Daliodd Rondl Davies Ficeriaeth Meifod am un flwyddyn, o leiaf (1648), dan Charles I.; ar hyd y Weriniaeth (1649–1659); ar hyd teyrnasiad Charles II. (1660–1685); ar hyd teyrnasiad byr Iago II. (1685–1689); ar hyd teyrnasiad William III. a Mari II. (1689–1694); ac am ran fechan o deyrnasiad William ei hun (1694–95). Y mae hyn yn profi mai dŷn o nodwedd bur hynod oedd yr hen Rondl Dafydd. Rhaid y cymmerai arno fod yn Uchel Eglwyswr, os nad yn hanner Pabydd, ac yn Frenhinwr zelog (a chredwn ei fod y naill a'r llall, mewn gwirionedd) cyn y cawsai ficeriaeth gan Uchel Eglwyswr fel y Dr. John Owen, dan y Pabaidd gan Charles I. a'r Archesgob Laud; a chyn y cawsai ei gadarnhau yn yr un fywioliaeth, gyd âg ychwanegiad ati, gan Uchel Eglwyswr zelog arall o fath y Dr. George Griffith, dan y Pabyddol Charles II. Rhaid hefyd ei fod yn bregethwr go ddoniol, ac y cymmerai arno, dan y Weriniaeth, nad oedd yn malio dim am Esgobyddiaeth na Brenhiniaeth, pe amgen buasai y Profyddion yn sicr o'i droi allan o Ficeriaeth Meifod.

Y mae'r llyfrau a ysgrifenodd Rondl Davies, dan deyrnasiad Charles II., yn dangos, nid yn unig ei fod yn Gymreigiwr galluog, fel y dywed Gwallter Mechain, ac yn un o "Enwogion Ffydd" Eglwys Loegr, ond hefyd mai rhagrithiwr noeth ydoedd yn ystod y Weriniaeth; ac mai Esgobeuthwr uchel a rhagfarnllyd ydoedd mewn gwirionedd. Cafodd ei flino yn dost yn ardal Meifod gan y Crynwyr, dan arweiniad Llwydiaid (Charles,

* Dywedir iddo dreulio y rhan olaf o'i oes yn nhŷ ei ferch a'i fab ynghyfraith; ond nid ydym yn gwybod ymha le y preswyliai y rhai hyny. Aeth y ferch honno a'i gŵr i'r America; ond nid oes sicrrwydd pa un ai ychydig cyn eu hymadawiad, ai yn fuan wedyn, y cymmerwyd yr hen was galluog a ffyddlon oddi wrth ei waith at ei wobr (yn 1709, yn ol y Dr. Richards, ond yn 1711 yn ol Joshua Thomas), ac nid oes un hanesydd, cyn belled ag y gwyddom ni, wedi croniclo lle nac amser ei farwolaeth, nac ychwaith wedi ein hyspysu ymha le y bu farw, nac amgylchiadau ei farwolaeth; nac ymha le y gellir cael golwg ar "fan fechan ei fedd."

† "Matrimonium legitimum contrat. fuit inter Randolphum Davies vicarium hujus parochiæ et Mariam filiam Johannis Williams clerici, 10° die Junii, 1648."

‡ "Johannis filius Randolphi Davies Vicarii hujus parochiæ leaptiz. fuit 8° Julii, 1651."

§ Gwel pen. xi. o'r llyfr hwn.

‖ Y Gwyddoniadur, cyf. i., t. 516.

¶ Llyfr. y Cymry, t. 203.

Digitized by Google

Thomas, a Samuel) Dolobran, ac Ymneillduwyr eraill, tu a diwedd y Weriniaeth, a dechrau teyrnasiad Charles II., ac o hyny hyd ddiwedd ei oes, fel yr ymddengys; ac yn 1660, yn ebrwydd ar ol dyfodiad Charles i'r wlad hon o'r Cyfandir, cyhoeddwyd llyfr, yn erbyn y Crynwyr, yn benaf, dan yr enw canlynol:—

"Cywir a ffyddlawn ateb i Lyfr a elwir ychydig gyfarwyddiadau i'r Cymru yn erbyn y Cyfeiliori sydd ym mysg y bobl a elwir Cwacers, yn yr hon y mae yr awdwr dienw yn dangos i ysbryd maleusus a chenfigenus yn erbyn pobl Dduw. Gyda gwahoddiad i'r Cymru truain fel y byddo ydynt uno goleini Crist oddimewn uddynt, a rhodio yntho. Oddiwrthim ni, y rhai y mae y byd drygionus mewn gwawd yn i galw Cwacers."

Tybiai Gwilym Lleyn mai atteb oedd hwn i lyfr a elwid "Cyfarwyddyd i'r Cymro," o waith Morgan Llwyd o Wynedd, a gyhoeddwyd yn 1657, ac mai "Rondl Davies, person Meifod," oedd ei awdur, neu, o leiaf, mai ganddo ef yr oedd y llaw benaf yn ei gyfansoddiad.* Dywedir fod mwy o gydymdeimlad rhwng Morgan Llwyd a'r Crynwyr nag un blaid arall o grefyddwyr oedd yng Nghymru ar y pryd, ac iddo fyned unwaith at George Fox, arweinydd y blaid grefyddol, onest, a manwl honno, gan feddwl ymuno â hi, ond i'r ddau fethu dyfod i gydwelediad ar ryw bethau. Os cofir hyn, ni ryfeddir bod llawer o bethau yn ysgrifeniadau llïosog a duwiol Morgan Llwyd yn cyd-daro â golygiadau Ysgrythyrol plaid rinweddol y Crynwyr; ac ar y pethau hyny yr ymosododd y dïegwyddor, ond galluog, Rondl Davies, yn y llyfr y dodwyd ei enw uchod. Parhaodd y Crynwyr, ac Ymneillduwyr eraill, i flino Rondl, druan; ac yn 1675, cyhoeddodd yntau y llyfr canlynol, er mwyn eu fflangellu oll ynghyd ar unwaith:—

"Profiad yr Ysprydion, neu Ddatcuddiad Gau Athrawon, a Rhybudd i'w gochelyd. Neu Draethawd byrr ar 1 St. Jo. 4. 1. O waith Rondl Davies, Meistr yn y Celfyddydau, a Ficar Meifod. Ym mha un y Datcuddir drwy oleini Gair Duw, Esboniedig gan hynafiaeth, fod amryw athrawiaethau y Pabistiaid, y Presbyteriaid, yr Independiaid, a'r Cwaceriaid, yn anghysson â'r Ysgrythyr Lân, ac o herwydd hynny i'w gochelyd gan bob dyn sydd yn caru Iechydwriaeth ei enaid."

"Y mae i'r llyfr ddwy ddalen enwol," ebe y Parch. D. Silvan Evans, "y gyntaf yn Saesneg fel hyn:—'A Tryal of the Spirits, or a Discovery of False Prophets, and a Caveat to beware of them; or a Short Treatise on 1 John iv. 1. Wherein is discovered, by the Light of God's Word, expounded by antiquity, that several Doctrines of the Papists, Presbyterians, Independents, and Quakers, are disagreeable to the Holy Scriptures, and carefully to be avoided by every man that loves the Salvation of his Soul. *Pro Ecclesia clamitant, et contra Ecclesiam dimicant.* Cypr.'

"Ar ei ddiwedd y mae annerchion byrion yn Lladin i'r awdwr, ynghyd â chanig Ffrengig i'r unrhyw. Cynnwys y gwaith 227 o dudalenau, gyd â 14 o raglithion, a 7 o derfynolion: y cyfan, 248."†

Dywed Gwallter Mechain, fel yr awgrymwyd o'r blaen, bod y llyfr dan sylw wedi ei ysgrifenu mewn Cymraeg ardderchog; er hyny, nid ydym yn gwybod i neb o'r Ymneillduwyr ystyried ei gynnwys yn werth attebiad uniongyrchol. Fe adeiladodd Llwydiaid Dolobran addoldy i'r Crynwyr ar eu tir eu hunain yn agos i Goed Cawryd, ymhlwyf Meifod; ac y mae traddodiad yn yr ardal, medd Gwallter Mechain, nid yn unig bod llawer o blwyfolion y Ficar wedi troi yn Grynwyr, ond hefyd bod chwaer ei wraig ef yn un o honynt, yr hon oedd yn byw ym Mhentref y Gof; ac un borau Sabboth, cyfarfu y ddwy chwaer, sef gwraig y Ficar a gwraig Pentref y Gof, ym Mhentref Parog, un yn myned i Eglwys y Plwyf, a'r llall yn croesi y llwybr tu ag addoldy y Crynwyr. Wedi ychydig eiriau o gyfarchiad, a phob un yn ymbarotoi i fyned rhagddi, dywedodd gwraig y Ficar, "Pe bai genych *ras*, fy anwyl chwaer, *chwi* a ddeuech gyd â mi." Attebodd y llall yn y fan, "Pe bai genyt *ti* ras, ti a ddeuit gyd â *mi*." Felly yr ymadawsant, gan fyned tu a'u lleoedd addoliad dewisedig, a phob un yn uniongred yn ei thyb ei hun.

Gan fod Rondl Davies wedi cael ficeriaeth yn amser Charles I. a'r Archesgob Laud, ac wedi cael y radd o M.A., rhaid ei fod wedi cael ei addysg golegol yn un o'r ddwy Brifysgol, Rhydychain neu Gaergrawnt; ac y mae'r gwirionedd iddo gael ficeriaeth mor forau, o leiaf, ag 1648, yn arwyddo ei fod ar y pryd o gylch 30 oed; ac os felly, ganwyd ef tu ag 1618. Dengys y Coflyfr iddo gael ei gladdu ar y 29fed o Chwefror, 1697;‡ ac od oedd efe yn 30 oed yn 1648, yr oedd o gylch 79 pan fu farw.§

## PENNOD XIX.

### HUW MORUS, PEREGRIN PHYLIPS, A JOHN JONES.

Huw Morus, neu Hugh Maurice. Er nad oedd y gŵr enwog hwn nac "offeiriad" na "phregethwr," etto gwnaeth lawer mwy â'i bin ysgrifenu er amddiffyn "Ffydd" yr Eglwys Sefydledig nag

* Llyfr. y Cymry, t. 173, 204.

† Llyfr. y Cymry, t. 203.

‡ "Dom. Ranulphus Dauies Cler. de Peniarth Sepultus, 25° Feb. 1697."

§ Cambr. Quart. Mag., vol. i., pp. 325-6; G. Mechain's Engl. Works, pp. 102-3; Llyfr. y Cymry, t. 203-4.

Digitized by Google

a wnaeth odid neb o'i gydoeswyr mewn unrhyw ffordd ymhlith y Cymry, ac y mae'n hawdd canfod yn ei holl waith ef ar yr Eglwys a'r Wladwriaeth ei fod yn berffaith gydwybodol yn ei holl gyfansoddiadau ar y pethau hyny; a gwyddys nad oedd efe yn coleddu y syniadau a fyntumiai, fel y gwnai llawer, er mwyn na pharch na swydd, nac elw. Er iddo gyfansoddi llïaws o ganiadau digrif a hoenus, etto nid oes dim masweddol ac anfoesol yn yr un o honynt; a gwnaeth ei ganiadau moesol a chrefyddol llïosog les mawr i'w gydwladwyr, fel y sylwa Gwallter Mechain, o waith yr hwn y cymmerir y rhan fwyaf o'r cofiant yma.

Trydydd mab ydoedd Huw Morus i uchelwr parchus oedd yn byw yn ei dreftadaeth ei hun ym Mhont y Meibion, yn nyffryn rhamantus Ceiriog, sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1622. Nid yw hysbys iddo gael unrhyw addysg, heb law a gyrheuddodd trwy ei ymroad a'i athrylith gynhenid ei hun. Gan mai y mab ieuengaf ydoedd, dodwyd ef, pan ddaeth i oedran cyfaddas, i ddysgu celfyddyd barcer, gyd â gŵr oedd yn byw mewn lle a elwid Gwaliau, yn Owrtyn Madog (Overton), yng nghantref Maelor, yn sir Fflint. Dywed ei fywgraphydd, yn y Coflyfr Cymreig,* iddo ymadael o'r lle hwnw cyn gorphen ei brentisiaeth; ond y mae mawlgerddi y bardd ei hunan yn profi i'r gwrthwyneb. Yn un o'r caniadau hoenus hyn, y mae'n cwyno yn dost rhag y caethiwed anhyfryd a rodded arno gan ei ammodrwym, yr hwn oedd mor gaeth fel na feiddiai hyd yn oed siarad â gwrthrych ei serch heb fod yn agored i *ddeugain punt* o ddirwy; a phan y daeth y tymmor hir a gorthrymus o *saith* mlynedd i ben, boddheid ei feddwl yn ddirfawr gan y rhagolwg hyfryd o gael ail fwynhau ei ryddid, pan y gallai adnewyddu ei annerchion i'w anwylyd heb fod dan y fath lyffetheiriau gwasaidd. Ond, ysywaeth! yr oedd efe yn cael ei erlyn megis gan groesau a siomedigaethau, canys gwnaed cyfraith, yr hon a gyfyngai y ddefod briodasol i'r ynad gwladol. Gorfodid y pâr ieuangc, yn lle i'w "gostegion" gael eu cyhoeddi, fel o'r blaen, gan weinidog y plwyf, i oddef iddynt gael eu cyhoeddi yn yr heol agored, ar groes y dref farchnad agosaf, ar dri diwrnod marchnad olynol. Yr oedd y pâr annedwydd i gael eu cadw yn ystod y cyfnod tywyll yma mewn math ar dawedogrwydd diflas, heb ganiatâd i ymweled â'u gilydd o gwbl. Wedi i'r coegchwarau yma fyned drosodd, a thalu i'r crïwr, a chael cydsyniad y rhieni, yr oedd angenrhaid i gyfreithiwr gyflwyno yr ymgeiswyr ieuaingc i ynad, yr hwn a derfynai y ddefod briodasol, yn ol cyfarwyddyd y pwyllgor. Yr oedd y gyfraith yma mor groes i deimladau y bardd fel y gwnaeth efe adduned o wyryfdod cyhyd ag y parhai y fath ddeddf ddiriaid mewn grym. Pa wedd bynag, terfyna gyd âg appeliad grymus at y rhyw dêg, er eu cynhyrfu i ymuno âg ef i ddeisebu at yr awdurdod llywodreuthol am ddilëu y fath gyfraith atgas yn ddïoed. Y rhanau o'r gân a gadarnhant y nodiadau blaenorol sydd fel y canlyn:—

"Bûm felly *saith* mlynedd . . .
. . . Heb feiddio cael cusan llangcesi;
Mi awn ffwrdd ar hynt, fel y gwynt,
Rhag fforffetio *deugain* punt:
Yr awron aeth yn fatter gwaeth,
Gwedi bwrw gwythen gaeth;
Wrth ddod yn rhydd, rhyw gyfraith sydd,
Na cheir cofleidio un Wen tan wŷdd.

. . . . . . . . . . . . . .

Rhyw gyfraith newydd gwmbrus
Anhwylus ydyw hon!

. . . . . . . . . . . . . .

Y hi a minnau meinir, i garchar a gyrchir,
A llawer a gostir trwy gystudd;
Gwrando, clyw—Lloer fwyna'n fyw,
Meddylia'n frau, rhag dïodde'n dau,
Pan fwy' yn cynnyg—fy nacâu—

. . . . . . . . . . . . . .

Mynd at ei thad, yngŵydd y wlad,
A chael mewn dig friwiedig frad.

. . . . . . . . . . . . . .

Rhoddi'r ddeuddyn, cyn eu cychwyn,
Yn siŵr mewn gafael nes eu gofyn;
Aeth hyny yn ormod rhwystyr,
Ein rhoi tan law cyfreithwyr,
Rhaid ydyw cospi natur
Os cysur gwell nis cawn.

. . . . . . . . . . . . . .

Rhoi cryn bris i ffwl o ffis
Am grïo'n ffraeth, da y gŵyr ei phris;
Cyhoeddi Gwen ar groes o bren,
O flaen y byd oni flino ei ben;
Oes neb a ŵyr achosion

. . . . . . . . . . . . . .

Ddweyd i'r gwledydd, ar leferydd
Eu bod mewn golwg yn ffit i'w gilydd.

. . . . . . . . . . . . . .

Rhaid dywedyd, rai nwyfus,
Ar osteg i'r ustus,
A hwnw fydd hwylus i'w holi.

. . . . . . . . . . . . . .

Oni chaf fy mun—o honi ei hun,
Heibio yr âf heb yr un;

. . . . . . . . . . . . . .

Y merched rhowch eich gweddi,
Yn ffyddlon gyd â myfi,
Am gael y gyfraith ddifri,
Ffei honi! 'leni i lawr."

Pa wedd bynag, wedi i'r bardd fwrw ei brentisiaeth, ni flinodd ef byth mo'i ben ynghylch barcio crwyn, ond dychwelodd i dŷ ei dad ym Mhont y Meibion, lle y preswyliodd rhag llaw gyd â'i rieni, ac ar eu hol hwy gyd â'i frawd hynaf, ac fe allai gyd âg olynydd hwnw, fel ameuthwr cynnorthwyol; ond os ystyrir maint a rhifedi ei gyfansodd-

* Cambrian Register, vol. i., p. 426.

Digitized by Google

iadau prydyddol, gellir casglu y daliai ei law y pin ysgrifenu yn llawer amlach nag y daliai y rhaw na'r aradr.

Caneuon serch oedd ffrwyth cyntaf ei awen a ddygasant iddo yr anrhydedd o fod yn brif fardd ei oes, y rhai a gymhwyswyd at amryw fesurau telynegol. O herwydd ei fawr fedrusrwydd yn y dosparth yma o brydyddiaeth, mynych y deisyfid ei wasanaeth gan lawer llengcyn serch-glwyfus er ei gynnorthwyo i ennill gwrthrych ei serch. Daeth ei farddoniaeth a elwir "Molawd Merch"* i fri mawr trwy yr holl wlad yn ebrwydd, a mynych y ceisiodd ysgrifenwyr diweddaraf ei ddynwared; ond ni ddaeth neb o honynt yn agos i fynu â chynlluniau y bardd, ac anfynych y mae neb weithion yn cynnyg y dull hwnw o brydyddu. Y mae pethau wedi newid erbyn hyn, a gwynfyd na newidiasent er gwell! Hefyd, cyfansoddodd Huw Morus amryw ddrychwawdiau (*dramas*) cyssegredig yn ei ddyddiau boreuaf, a rhai cymwawdiau (*comedies*). Y mae y rhan fwyaf o'r rhai hyn wedi eu claddu mewn ebargofiant, ac nid oes ond ychydig o'r rhai a'u haddurnant ar gof a chadw. Ymdeunodd ei glod fel prydydd, a'i barodrwydd i gyfansoddi yn ddifyfyr, yn ebrwydd trwy yr holl ardaloedd; ac o ganlyniad, cai wahoddiad mynych a chroesaw gwresog yng Nghastell y Waun, Brygontyn, y Glasgoed, a'r Plas Newydd. Cyfarfu unwaith ym Mrygontyn â'r Dr. William Llwyd, Esgob dysgedig Llanelwy, a chyfansoddodd bedwar o englynion annerch iddo yn y fan a'r lle,† a dywedir nad ychydig o ymgomio a fu rhyngddynt.

O ran gwleidyddiaeth, yr oedd efe yn ymlynwr wrth Frenhiniaeth, ac yn gyfaill difefl i Charles I. Nid edrychwr segur oedd Huw Morus ar y golygfeydd difrifol oedd ger bron ei lygaid yn ystod y rhyfel gartrefol, ond dododd holl alluoedd ei bin ysgrifenu o blaid Brenhiniaeth; ac ychydig iawn o binau oedd mor effeithiol a'r eiddo ef er gogwyddo ei gydwladwyr at yr un golygiadau. Cyhoeddwyd llawer o'i gyfansoddiadau duchanol, y rhai sy'n amlygu ei egwyddorion am yr Eglwys a'r Wladwriaeth, yn y llyfr a elwir "Eos Ceiriog."‡ Er ei fod wedi ymrestru dan fanerau plaid, ac yn trin cleddyf ymryson â braich nerthol, etto nid ymddengys i hyny effeithio i suro a chwerwi ei dymmer at neb, canys y mae gwythen o hynawsedd crefyddol yn rhedeg trwy ei holl ysgrifeniadau mwyaf duchanol. Eu prif nodwedd yw *Digrifwch llawen.* Y mae'n ffrewyllu rhagrith a ffug crefyddol mewn ffraethineb a gwatwareg llawn mor lymion a dim sydd gan Butler ar hyny. Pan geryddwyd yr Iarll Surrey gan Harri VII. am ei wrthwynebu ef ym Maes Bosworth, dywedodd yr Iarll, "Yr oeddwn i yn ystyried bod yn ddyledswydd arnaf, fy mhenadur, ymladd o blaid y goron. Yr oedd y goron y pryd hwnw ar ben Richard; a phe buasai ar ben pawl, buaswn i yn ymladd drosti. Yn awr, y mae'r goron ar ben eich Mawrhydi, ac anturiaf fi, os angenrhaid, fy mywyd a'm meddiannau i'w hamddiffyn." Gwenodd Harri, a maddeuodd i'r Iarll. Ar yr un egwyddor y parhaodd Bardd Ceiriog ei ymlyniad dïysgog wrth y goron, trwy chwe theyrnasiad olynol,§ hyd yn oed pan "Wylai Rhyddid ar fedd y camarweiniol Sydney," a phan oedd y cyfansoddiad ei hun mewn perygl, trwy wleidyddiaeth gamdwyol Iago II.; ond ar ymddeoliad y penadur Pabaidd hwnw, rhwydd fabwysiadodd y bardd egwyddorion y chwyldroad, a dyrchafodd fuddugolieuthau William allan o Hague, ac yn Fflandrys, mewn caniadau eraill.

Heb law yr antur a redai o blegid ei elyniaeth at y Weriniaeth, bu mewn enbydrwydd mawr o herwydd iddo ddefnyddio ei ddawn awenyddol yn erbyn trais ac anghyfiawnder mwy cartrefol. Achlysurwyd un o'r cyfryw beryglon trwy hocedwaith aflan a ddigwyddodd ym Maelor, lle y trawsdynwyd etifeddiaeth oddi wrth y cyfiawn etifedd, trwy ffugysgrifeniad ewyllys, wrth yr hon y defnyddiwyd llaw y marw i ysgrifenu ei enw; ac wedyn tyngwyd mai llawysgrifen y marw ydoedd. Pan ddaeth si am y weithred erchyll hon i glust-

* Eos Ceiriog, llyfr i., t. 118.

† Eos Ceiriog, llyfr ii., t. 384.

‡ Enw y llyfr yn llawn sydd fel hyn:—"Eos Ceiriog, sef Casgliad o Bêr Ganiadau Huw Morus, yn Ddau Lyfr, o Gynnulliad a Diwygiad W. D." [y Parch. Walter Davies, neu Gwallter Mechain]. 12plyg. 1823. Cynnwys y Llyfr I. 363 o dudalenau, yn bedair rhan. "Rhan I.—Cywyddion. Rhan II.—Mabinogion. Rhan III.—Hanesion. Rhan IV.—Priodolion. O flaen y Llyfr I. hwn y mae lvi. o dudalenau o arweinolion, yn cynnwys yr enwad-ddalen; a Sketch of the Life and Character of the Author of the Songs, Poems, &c.; y Cyhoeddwr at y Darllenydd; Cynnwysiadau; Eglurhad o'r Llythyrenau cyfarwyddawl, a osodwyd yn y casgliad hwn, i ddynodi y gainc, neu y mesur, ar ba un y dadgenir pob un o'r dyrifau;" a "Chywydd Mawl i Syr William Williams, Gwr y Gyfraith anrhydeddus," yr hwn gywydd "ni ddaeth i law y Cyhoeddwr nes yr oedd rhan o'r gwaith yn argraffedig."

Llyfr II. sydd 430 o dudalenau, yn cynnwys "y rhelyw o'r Rhan I.—Cywyddolion;" ynghyd â'r rhanau canlynol:—"Rhan V.—Difrifolion. Rhan VI.—Moesolion. Rhan VII.—Galar-gwynion. Rhan VIII.—Dwyfolion. Rhan IX.—Ynglynion." Hefyd, 6 o dudalenau o arweinolion, sef yr enwad-ddalen a'r "cynnwysiadau;" ac un tudalen olddodol yn cynnwys gwallau y wasg yn y ddau lyfr. Pris cyntefig y ddau lyfr oedd 12s.

§ Bu Huw Morus fyw dair blynedd dan deyrnasiad Iago I.; trwy holl deyrnasiad Charles I.; y Weriniaeth; Charles II.; Iago II.; William III. a Mari II.; a saith mlynedd dan deyrnasiad Ann.

Digitized by Google

iau y bardd, defnyddiodd ei awen i fflangellu yr hocedwyr yn dra dïarbed, mewn pedair o ganiadau barddonol a llymion, a elwir "Cerddi Tiroedd y Taerion."* Y mae'r "Cerddi" godidog hyn, megis llïaws o ganiadau eraill Huw Morus, yn dangos bod yr awdur athrylithgar yn dra hyddysg yn yr Ysgrythyrau sanctaidd, yn bleidiwr gonest i'r gwan a'r amddifaid, yn elyn calon i bob twyll, hoced, a rhagrith; ar fyr, ei fod yn wir deilwng o gael ei restru ymhlith "Enwogion y Ffydd." Difynwn ychydig bennillion i gadarnhau ein heuriad:—

"Nid oes dim yn *temtio* yr un,
Yn waeth na'i felus chwantau ei hun,
Pan lithier ganddynt yn gyttûn,
Ei ddoniau a'i lun ddiwyned;
*Chwant* yw'r fam a'r fammaeth fwyn,
I fagu anwiredd ynddo i ymddŵyn,
Nes amlhau fel dail ar lwyn ei lonaid.

"*Chwant* a wnaeth i *Efa*'n siŵr,
Wrando ar y sarph, a thwyllo'i gŵr,
A digio'i Cheidwad, cadarn dŵr,
A'i noddwr, fenyw addien!
Am geisio mwy na'i *hordinhad*,
Cael melldithio ei hun a'i had,
A cholli'r cwbl oedd lesâd, lwys Eden!

"Ni chadd meibion *Jacob* chwaith,
Ond cwilydd mawr o'u celwydd maith,
Twyllo eu tad â'r siaced fraith,
A wnai iddo ganwaith gwyno;
Gwerthu eu brawd i'r Aipht a wnaen',
A gorfod gwedi ymgrymu o'i flaen,
Fel caeth-weision, cyn y caen' eu cinio.

"*Achan* chwannog a roi ynghûdd,
Yr aur a'r fantell, gwerthfawr fudd,
Fe ddigwyddodd diwrnod prudd,
A chywilydd grudd a chalon;
Y guddfa gél i'r golau a gaed,
Ac yntau a'i blant, annuwiol waed,
Ynghŷd â'r diofryd bethau a wnaed yn boethion.

"Ni chadd Dafydd fawr ei ras,
A alwai Dduw'n ddewisol was,
Am waed *Urïas*, hwn a lâs,
Mo'i glaidd gas i'w guldio;
Gwedi i *Nathan* lân ei liw,
Ei gondemnio â dammeg wiw,
Rhoes farn ei hun, gyhoeddus i'w gyhuddo."

Mewn cyffelyb fodd doniol, addysgiadol, a rhybuddiol, noda drachwant Ahab a Jezebel, Gehazi, Haman, ac eraill, hyd Judas Iscariot, a therfyna y gân ragorol hon gan annog pawb i fod yn onest, yn dduwiol, ac i ymddiried yn Nuw am bob peth angenrheidiol i'r corph cystal ag i'r enaid, mewn pennillion prydyddol cyffelyb i'r un canlynol:—

"Os wyt mewn eisiau'n wan ddi blaid,
Gan Dduw bob dydd, trwy ffydd, na phaid,
Cais: ti a gei bob angen-rhaid,
I'th gorph a'th enaid hefyd:
Cura'r porth, fe ddaw *Mab Mair*,
I'th ddwyn i'r wledd wen groyw-wedd grair;
Daw Crist ei hun ar hanner gair i agoryd."

Yn yr ail gân, y mae'r bardd yn dychymmyg bod clychau Eglwys Rhiwabon yn dïaspedain seinio o honynt eu hunain, yn nyfnder y nos, pan oedd y weithred ysgeler o ddefnyddio llaw y marw i danysgrifio y ffug ewyllys, ac yr oedd y rhan fwyaf o drigolion yr ardaloedd ar y pryd yn credu bod hyny wedi digwydd mewn gwirionedd. Y mae'r bardd yn dwyn y dychymmyg yma i mewn fel y canlyn:—

"Fe chwardd yr Arglwydd, awdur gras,
Am ben y drygddyn cyndyn cas,
Am dynu ei gledd min-denau glas,
Mewn *Ewyllys* atgas allan;
I ladd y tlawd fel ergyd gwn,
Y gwrda doeth, â gair di dwn,
Y cleddau hir â nghalon hwn ei hunan.

"*Gwae* y rhai sydd mewn ufudd nerth,
Yn gwyro deddfau, castiau certh;
A *gwae* 'sgrifenyddion sydd am werth,
Yn brithio'r drafferth rwystrus;
I droi un gwirion, druan gwael!
Oddi wrth farn union, er mwyn cael
Ei dynu o'i feddiant: dyna fael anfelus.

. . . . . . . . . . . . .

"Yng Nghantref *Maelor*, cyngor caeth,
Y gwnaed y pechod, syndod saeth!
Trwy wenieithus dafod ffraeth,
Ac yspryd gwaeth yn gweithio:
Nid mawr synwyr oedd i'w gap,
Er bod mor hwylus ar ei hap,
Ar sylwedd drwg y seiliodd drap i'w dripio.

"Swydd y *Waun*, hen orsedd wych,
Sylfaenwch, sefwch ar le sych,
A chymrwch *Faelor* i chwi'n ddrych,
A rhybudd clych *Rhiwabon:*
Chwi gewch weled cyn bo hir,
Os ydyw'r 'Ysgrythyr Lân yn wir,
Rhyw arwydd tost o herwydd *Tir y Taerion*."

Pan glybu y bradwyr fod yr holl fro yn dïaspedain gan swn y caneuon duchanllyd hyn, cydfwriadasant dalu y pwyth i'r duchanydd, trwy ei ddal a'i feuddu, os nad ei lofruddio. Pan ddeuthant i Bont y Meibion ar y neges anfad, y cyntaf a gyfarfuant yno oedd y bardd ei hunan; ond gan nad oeddynt yn ei adnabod ond wrth ei ysgrifeniadau, gofynasant a oedd Huw Morus gartref. Yntau, gan ddrwg-dybied eu neges, a attebodd yn nacaol, gan gynnyg eu harwain i'r lle yr oedd yn aros. Pa wedd bynag, pan ar y ffordd, cafodd gyfle rywfodd i'w gadael yn ddïarwybod iddynt, er mawr siomiant iddynt hwy, ac achubiaeth iddo ei hunan.

Y mae holl ganiadau moesol a chrefyddol Huw Morus yn dangos yn eglur ei fod ef yn ddarllenwr a myfyriwr dyfal yn yr Ysgrythyrau; ac yn wir, y mae yr un arlliw i'w ganfod yn fynych, yn oed yn ei ganiadau hoenus a digrifol. Yr oedd efe yn aelod dichlynaidd o'r Eglwys Sefydledig ar hyd ei oes, ac y mae'n hawdd canfod, ond darllen ei waith yn ddiragfarn, ei fod dan ddylanwad syniadau

* Eos Ceiriog, llyfr ii., t. 128–157.

Digitized by Google

rhinweddol, ei fod o feddwl gostyngedig, a'i fod yn wir ymroddgar i ewyllys ei Greawdwr. Cymmerth lawer o boen a llafur, trwy gyfrwng ei ganiadau lliosog, nid yn unig i attal ymrafeulion, anonestrwydd, a gorthrwm, ond hefyd i ledeunu egwyddorion brawdol, moesol, a chrefyddol ym mysg ei gymmydogion a'i gydwladwyr; ac yn gymmaint a bod gan y bobl feddwl mor uchel am ei awen a'i syniadau, fel yr ystyriai llawer ei fod wedi ei gynnysgeuddu â dawn oddi uchod,* cafodd ei ysgrifeniadau ddylanwad nerthol a buddiol ar eu moesau a'u harferion. Arferai ei ddawn lithrig yn fynych hefyd i gynhyrfu tosturi ei gymmydogion cyfoethog i fod yn elusengar i'r weddw, yr amddifaid, a'r methiantus, a bu yn dra llwyddiannus yn ei amcanion daionus.

Er bod Huw Morus yn llawn mor zelog dros Frenhiniaeth, ac mor eiddigus yn erbyn y Weriniaeth, ag ydoedd ei gydwladwyr doniol, Rowland Fychan, o Gaer Gai, a William Phylip, o Ardudwy, y rhai, o herwydd eu hanochelgarwch, a syrthiasant i helbulon tost yn amser y Weriniaeth, fel y gwelsom;† etto, yr oedd Morus yn meddu mwy o ddoethineb a gwyliadwriaeth na hwy, canys ni lefarai efe byth yn erbyn y Senedd a Chromwel, yn ystod y Weriniaeth, ond mewn damhegion ac arallegau, y rhai nid eglurodd nes y daeth y Frenhiniaeth i'w rhwysg drachefn, yn amser Charles II. Fel hyn, yn un o'i ddamhegion, ei bersonau ef oedd y rhai canlynol:—

Llew : Charles I.
Llewod Ieuaingc : y Tywysogion ieuaingc.
Llwynogod Lloegr goch : y Senedd.
Y Llwynog : O. Cromwel.
Moch Prydyn : y Fyddin Ysgotaidd.
Eirth y Werddon : y Gwyddelod Pabaidd.
Defaid : y Deiliaid heddychol.
Bugeiliaid : y Clerigwyr alltudiedig.

Yn ei "Frwydr y Bwystfilod," ei weithredwyr oedd y rhai canlynol:—

Barcud, } y Pleidiau cydymgeisiol am
Cigfran, } lywodraeth y Weriniaeth.
Oen : Cyllid yr Eglwys a'r Llywodraeth.
Mwyalchen : y Blaid Gymhedrol.
Y Llwynog : O. Cromwel.

Yr oedd efe yn hyn yn tebygu i'w gydoeswr Morgan Llwyd,* os nad yn ei ddynwared, yr hwn nid oedd hynach nag ef ond o gylch tair blynedd, a'r hwn oedd mor eiddgar dros y Weriniaeth ac Ymneillduaeth ag oedd yntau dros y Frenhiniaeth a'r Eglwys Sefydledig. Modd bynag, ar adferiad Charles i'r orsedd, ni lefarai Morus mwyach mewn damhegion, ond dygai Lambert, Vavasor Powel, ac eraill, ar y llwyfan dan eu henwau priodol.

Un o hoff ddosparthiadau barddonol Huw Morus oedd dosparth y carolau, yn enwedig "Carolau Nadolig." Ymddengys yr ystyriai efe y Nadolig (sef y diwrnod a bennodwyd gan Eglwys Rhufain fel dydd genedigaeth Crist, er na ŵyr neb pa diwrnod oedd hwnw) mor gyssegredig, os nad mwy felly, na'r "dydd cyntaf o'r wythnos;" am hyny y mae'n cwyno yn dost, mewn "Carol Gwyliau, a wnaed yn amser rhwysg Oliver," gan ddywedyd:—

"Pob dŷn sydd â'i dafod yn well na'i gydwybod,
   Yn dywedyd gyfarfod â phennod y ffordd
Yn angof gollyngwyd yr amser y ganwyd
   Oen hyfryd wir brophwyd y brif-ffordd.

"O gas ac o ddirmyg, i'r dydd bendigedig,
   Y ganwyd ein meddyg caredig Oen cu,
Eiff rhai at yr *arad*, yn bur iawn eu bwriad,
   A'r lleill yn ddi-ddirnad i *ddyrnu*.

"Fe â'r Meistr bonheddig, mor fwyn yn ei fenyg,
   I weithio'r *Nadolig*, drwy chwithig drwch wedd;
Ar ol hyny flwyddyn, ni wna fe un gronyn,
   Ond eiste, 'n ŵr gerwin, a gorwedd.

"Wrth gofio am yr IESU, mae llawer yn tynu
   I ffordd yr hen *Gymry*, sy'n llechu yn y llwch;
Ac ynddynt grediniaeth i wrando'r gwasanaeth
   Ar ddydd genedigaeth ei DDUWCH."†

O herwydd bod y bardd mor enwog yn nosparth y carolau, byddai deisyfiadau am garol erbyn y Nadolig yn dylifo ato o bob parth o Wynedd, ac ni leihaodd y taerineb am danynt, na'i athrylith yntau i'w cyfansoddi, hyd y Nadolig olaf o'i oes; a chan ei fod ef mor hyddysg yn yr Ysgrythyrau, a bod ei garolau, yn neillduol, mor llawnion o syniadau Ysgrythyrol am y Gwaredwr, a threfn iachawdwriaeth trwyddo ef, dïau iddynt wneud llawer o les i'w gydgenedl.

Yr oedd Huw Morus yn cael ei flino yn aleuthus, "yn amser rhwysg Oliver," am fod rhai na chawsant addysg yn y Prifysgolion Eglwysig, ac heb gael eu hurddo yn ol trefn Eglwys Loegr, megis milwyr, gofaint, cryddion, melinyddion, a'r cyffelyb, yn cael "tramwy, gan bregethu y gair." Dyma fel y cwyna:—

* Y mae'r gynnulleidfa yn yr Eglwys Sefydledig mewn llawer o fanau yng Nghymru, os nad yn Lloegr hefyd, yn arfer myned allan o'r llan, ar ddiwedd yr addoliad, yn rheolaidd, gan adael i'r rhai a ystyrir yn barchusaf fyned yn gyntaf, a'r offeiriad ym mlaenaf oll; a phur weddus fyddai i'r Ymneillduwyr gymmeryd esampl oddi wrthynt yn hyn yn lle bod y gynnulleidfa yn rhuthro allan ar draws eu gilydd, fel defaid o gorlan, a llawer cyn gorphen yr addoliad. Pa wedd bynag, yn Llansilin ni fynai, hyd yn oed y Ficar, fyned allan o flaen Huw Morus, gan yr ystyriai efe, fel pawb o'i gynnulleidfa, mai gan Huw yr oedd y ddawn fwyaf cyssegredig, canys yr Awen a ystyrid y ddawn oruchelaf, yn y dyddiau hyny, a gyfrenid i ddynion.

† Gwel llyfr iii., pen. xii.

* Gwel pen. xv. o'r llyfr hwn (y iv.)

† Eos Ceiriog, llyfr i., t. 180.

Digitized by Google

"Gan faint sydd i'n *hathro*, i'w gilydd heb goelio,
Nid ydynt yn llwyddo mo'n hwylio mewn hedd:
Pob *sect* sydd yn tynu, yn annealltus o'r neilldu,
Heb fedru gwir ranu'r gwirionedd.

"Gŵr gwych yn ei *gleddau*, a chwilia'r Sgrythyrau,
Fel *Ustus* a farnai rhwng beiau ar y bar;
A hwn, er na ddywedo na phader na chredo,
A i'r pulpud i focio yr hen *Ficar*.*

"Hwnw â'i wybodaeth, tu hwnt i'w ddysgeidiaeth,
A fwria i farwolaeth, ysywaeth, y sant:
Fe ddywed Crist Iesu, 'Myfi sydd i farnu,'
I bwy y mae i ni ganu gogoniant.

"Un arall mor dduwiol a *Phaul* yr apostol,
A esponia'n ysprydol air duwfol dan do;
Er na bo'i weithrediad, gyhoeddus gyhuddiad,
Debycach i offeiriad na *Pharo*.

"Ceir *sawdiwr* mor hwylus, mewn moesau a *Moses*,
I daenu'r gair dawnus, ond rhadus yw'r rhod;
Pe chwilid ymhellach, ei fron a'i gyfrinach,
Fe'i ceid e'n ddihirach na *Herod*.

"Mae llawer o rwystyr ymhenau'r gwrandawyr,
Gan faint sy o *bregethwyr* a barnwyr trwy'r byd:
Rhai o'r ffordd newydd, rhai a hoffant yr henffydd:
Pob crefydd a genfydd ei gwynfyd.

"Eiff un i'w weddïau, yn lân ar ei liniau,
Ac eraill â'u garau fel taclau syth, teg;
A rhai yn fwy esmwyth, a'u buchedd yn llawnffrwyth,
Yn eiste'n wŷr ystwyth ar osteg.

"Mae bagad yn canfod eu bod yn ddi bechod,
Hwy gawsant ollyngdod, mawr syndod yw'r son,
Di ffael y deffolwyd, yn rhyddion fe'u rhoddwyd,
Yn llyfyr y bywyd lle buon.

"Rhai a ddywed yn dduwiol mai'r *Gof* sydd ysprydol,
Ac eraill, modd gwrol, a ganmol y *Gwŷdd;*
A rhai sy'n deisyfu y *Crydd* i'w ceryddu,
A'r lleill yn molianu'r *Melinydd*.†

"Fe ddywed y *Person*, a'i *sgil* o'r ysgolion,
Sydd offeiriad o ffynnon ddofn eigion o ddysg,
Fod y gwŷr hyny, yn dwyllwyr i'n dallu,
Heb fedru'n tueddu ni at ddysg.

"Nis gŵyr y dŷn gwirion, pwy a goelia'n ei galon,
Gan faint sy o athrawon draw'n gryfion drwy gred,
A phawb a'i groes grefydd, heb ganlyn mo'u gilydd,
Trwy'r gwledydd, mae'n gwilydd eu gweled!

"Pob un sydd yn deall anwiredd un arall,
Heb ganfod mo'i angall ddeheuwall ei hun:
Cyn gallu ymwrthod, hoff fuchedd, â phechod,
Rhaid dattod o'r gweulod ei galon.

"Chwilied pob Cristion ddirgelwch ei galon;
Ceiff weled ei fudron arferion oer fâr;
Pob disglaer, ymolchwch, mewn dŵr edifeirwch,
Cydunwch, ac wylwch mewn galar.

"Yr awron yw'r amser i droi at dduwiolder,
Mae gwialen cyfiawnder uwch llawer yn llem:
Cofiwn ni ddiwedd Sodom, nôd sadwedd,
A dïaledd cur sylwedd Caersalem!

"Bu Noah'n rhybuddio y bobl i ddiwygio,
A Duw yn bygythio, hen addo iddyn hwy.
Ni choeliai hil Adda, y dïelid eu traha,
Nes darfod eu dala yn y diluw!

"Trown ein meddylie, fel gwŷr hen Ninife,
Rhag arswyd dyrnodie dïaledde di lwydd;
Trwy ufuddol grefyddu, moliannu yr Iesu,
Sydd â gallu i'n gwaredu ni o'n gwradwydd."

Dyma'r dirgelwch i'r amlwg yn y degfed pennill: gwrando yr hyn a "ddywedai'r *Person*, a'i *sgil* o'r ysgolion," yr oedd yr hen fardd, fel y gwna llïaws eraill, yn lle chwilio y Testament Newydd yn ddiragfarn drosto ei hun, ac ymddwyn yn ol ei egwyddorion; am hyny, nid rhyfedd ei fod mor ragfarnllyd a gwawdus yn erbyn y rhai sy'n cymmeryd eu harwain gan gynllun "Llyfr Cyfraith" Eglwys Crist.

Ymddengys hefyd bod y bardd yn cael ei flino yn irad gan y Crynwyr, y rhai oedd yn lled lïosog tu a chanol ei oes ef yn ardaloedd Dolobran, a manau eraill yn y wlad; am hyny, efe a ddywed mewn dychryn:—

"Rhai gwragedd syfrdanllyd, mewn dadl sy'n dywedyd,
Gael cyffwrdd â'r yspryd mewn breuddwyd i'n bro:
O 'r synwyr sy rwan! yn goeth hwy bregethan;
A medran, brau ffwdan, brophwydo."

Ond rhaid i ni dynu at y terfyn gyd â'r hen fardd doniol, a gwnawn hyny yn ymadroddion Dafydd Samuel, ei fywgraphydd yn y Coflyfr Cymreig:—

"Y mae Huw Morus i'w restru ymhlith y penaf o'r prydyddion Cymreig. Yr oedd ei grebwyll yn ffrwythlawn, amrywiol, ac aruchel. Yr oedd pob peth yn dylifo o'i ysgrifell gyd â'r fath rwyddineb ac esmwthder, fel y gellir galw ei gyfansoddiadau yn ysprydoliaeth ei hunan. Nid oes dim cymhellwaith ynddynt o gwbl, na dim yn dangos ymdrech llafurus, ond y mae'r cyfan yn gynnyrch diledryw yr Awen. Yr oedd efe yn tra rhagori yn y ddawn a elwir *hoenusder*, ac yr oedd yr un mor fedrus yn y teimladrwydd a'r arucheledd. Er prawf o'r cyntaf, cyfeiriwn yn neillduol at 'Garol Gwyliau yn amser rhwysg Oliver;' 'Marwnad Gwŷr Oliver;' 'Cân i ofyn Feiol;' a 'Chyffes Dic y Dawns.'*

"Byddai yn bur anhawdd cael dim yn fwy tyner ac effeithiol, yn y dull teimladwy, nag ydyw "Cywydd Marwnad Barbara, gwraig Richard Miltwn, o'r Plas Newydd,'† mewn dull o ymddiddan rhwng y drangcedig a'i phriod goroesol. Y ddau gyfansoddiad prydferthaf yn yr iaith Saesneg, ar yr un pwngc, yw 'Dydd Llun ar Farwolaeth ei Foneddiges,' gan yr Arglwydd Lyttleton;‡ a'r llall, 'Er Cof am Foneddiges Ieuangc,' gan Mr. Shaw.§ Pwy bynag a'u cymharo â'r farwnad hon, rhaid iddo gyfaddef bod y Bardd Cymreig di-goleg yn llawn cyfartal iddynt, os nad yn rhagori arnynt. Y mae 'Cyffes y Prydydd ar ei Glaf-wely'‖ yn gyfansoddiad llawn o eirweddiad dyrchafedig a syniadau aruchel. Ymdrinai â phyngciau

* Y mae arogl lled Babaidd ar y pennill yma, gan yr awgryma nad oes gan neb hawl i "chwilio yr Ysgrythyrau" ond "hen *Ficar*," neu rywun o'r un urdd ag ef; eithr y mae arwydd ar ei ganiadau y tybiai fod *bardd* yn eithriad.

† Ymddengys na sylwodd y bardd mai *saer* oedd y Gwaredwr bendigedig; mai *pysgodwyr* oedd ei apostolion cyntaf; mai golygwr y *dollfa* oedd Matthew yr Efengylwr; mai amcuthwr oedd "Joseph, yr hwn a gyfenwid Barnabas gan yr apostolion;" mai gwneuthurwr pebyll oedd yr Apostol Paul; mai physygwr oedd yr Efengylwr Luc; a'r cyffelyb. Gresyn bod dynion o alluoedd, doniau, a gonestrwydd Huw Morus yn cymmeryd eu camarwain fel hyn.

* Eos Ceiriog, llyfr i., t. 179, 203, 304, 349.
† Eos Ceiriog, llyfr i., t. 12.
‡ "A Monday on the Death of his Lady," by Lord Lyttleton.
§ "To the Memory of a Young Lady," by Mr. Shaw.
‖ Eos Ceiriog, llyfr ii., t. 87.

Digitized by Google

crefyddol gyd â chyffelyb ardduniant, ac ni chyffyrddodd â'r arch gyd â dwylaw halogedig.

"Fel ysgrifenydd telynol, mor ardderchog y bernid ei fod fel y cymharai awdur diweddar* ef 'i seren wib ryfeddol, yn ymddangos ar ol chwyldroad o 300 mlynedd,' amser ymddangosiad Dafydd ab Gwilym yn y ffurfafen awenyddol. Yr oedd y ddau awdur hyn, fel y sylwa yr un ysgrifenydd, 'yn llawn o athrylith bur, ac ymddengys nad oedd yr un o'r ddau yn ddyledus i gelfyddyd.'"

Ymddengys mai prif golliadau Huw Morus, fel dŷn cyhoeddus yng Nghymru, oedd ei bleidgarwch mympwyol ac eithafol i Frenhiniaeth ac Eglwys Wladol, er mor Babaidd, halogedig, gorthrymus, a diwerth oedd y naill a'r llall yn ei amser ef; a'i ragfarn dallbleidiol yn erbyn Gweriniaeth ac Ymneillduaeth, er maint o les tymhorol ac ysprydol a wnaeth y naill a'r llall i drigolion y gwledydd hyn y pryd hyny, sef Lloegr, Cymru, Ysgotland, a'r Werddon; ïe, gwnaeth Gweriniaeth ein cydwladwr Cromwel les hefyd i Ffraingc, yr Ital, yr Hispaen, a'r America. Ond, ni waeth un gair na chant, "Heb ei fai, heb ei eni."

O ran y dŷn oddi allan, medd un o gydoeswyr Huw Morus, "Yr oedd efe yn ŵr tal, gwyneb hir, gwelw ei wedd, ac ol y frech wen arno." O'r diwedd, y bardd hybarch, ac efe yn llawn o ddyddiau ac anrhydedd, ac yn hyderus ddisgwyl am anfarwoldeb, a suddodd yn esmwyth dan ddihoeniad henaint. Treuliodd ei ddyddiau olaf i ymbarotoi erbyn y cyfnewidiad mawr a phwysig, gan ddyrchafu ymbiliau difrifol at orsedd trugaredd, a hyny, gan mwyaf, mewn llinellau a phennillion prydyddol, yn oed yn ei funudau olaf. Bu farw ar yr 31fed o Awst, 1709, yn 87 oed, a chladdwyd ef wrth fur deheuol Eglwys Llansilin, lle y cyfodwyd maen coffadwriaeth hardd gan ei nai, perchenog Pont y Meibion, a cherfiwyd dau englyn ar y maen, o waith y Parch. Robert Wynn, Ficar Gwyddelwern.†

Er godidoced bardd oedd Huw Morus, ac er mor boblogaidd a llïosog y caniadau gorchestol a adawodd ar ei ol, ni chyhoeddwyd casgliad cyflawn a destlus o honynt am dros gan mlynedd ar ol i'r awdur athrylithgar fod "Yn ddigon tawel yn eigion tywod" monwent Llansilin. Cyhoeddwyd rhai carolau a cherddi o'i waith gan Ffoulke Owens, o Nantglyn, yn ei "Gerdd-Lyfr," a argraphwyd yn Rhydychain, 1686;‡ a chyhoeddwyd ail argraphiad o'r "Cerdd-Lyfr," gyd â llawer o chwanegiadau, gan Thomas Jones, yn 1696, dan yr enw "Carolau a Dyriau Duwiol," &c.* Cyhoeddwyd rhai o'i gyfansoddiadau hefyd gan Huw Jones, Llangwm, a Dafydd Jones, Trefriw, yn 1759, mewn llyfr a elwid "Dewisol Ganiadau yr Oes hon," a argraphwyd yn y Mwythig.† Cyhoeddwyd rhai o'i ganiadau, gan Dafydd Jones, Trefriw, etto, yn y "Cydymaith Diddan," 1766.‡ A thrachefn, yn 1779, cyhoeddwyd casgliad heleuthach fyth o'i ganiadau, gan Dafydd Jones, Trefriw, ym "Mlodeugerdd Cymru."§ Ond yn 1823, fel y dangoswyd ar y dechrau, y cyhoeddwyd casgliad cyflawn, trefnus, a phrydferth, o gymmaint o'i waith ag sydd ar gael, hyd y gwyddys, gan yr enwog Walter Mechain.

PEREGRIN PHYLIPS (Peregrine Phillips) ydoedd fab i Ficar Amroth, sir Benfro. Dywedir fod y ficar yn ŵr duwiol iawn, yn Buritaniad zelog, ac y dïoddefodd lawer am wrthod darllen "Llyfr y Chwareuon" ar y Sabbathau. Ganwyd Peregrin yn Ficerdy Amroth, a chafodd ei addysg foreuol mewn ysgol rammadegol yn Hwlffordd; yna dodwyd ef yn ysgol caplan Syr Edward Harley,‖ yn Brampton Bryan, sir Henffordd; a thrachefn, bu dros ryw ennyd yn ysgol y Dr. William Thomas, yr hwn a ddyrchafwyd wedyn i Esgobaeth Tŷ Ddewi, ac yna anfonwyd ef i Rydychain, lle y bu nes y torodd y rhyfel gartrefol allan yn 1642. Wedi i'r trychineb hwnw ddechrau, aeth i wasanaethu dros dymmor fel curad i'w ewythr, y Dr. Còlins, yng Nghydweli, sir Gaerfyrddin; ac oddi yno symmudwyd ef i fywioliaeth Llangwm, ger llaw Hwlffordd, yr hon a fwynhaodd dros amryw flynyddau. Gan yr ystyrid ef y pregethwr galluocaf yn y sir, dyrchafwyd ef, trwy ddylanwad Syr Huw Owen, Syr Robert Lort, a Syr John Meirig (Meyrick), i fywiolieuthau plwyfydd Mari Santes, Penfro, Trefynach (Monktown), a Chocheston. Pregethai unwaith bob Sabbath ymhob un o'r llanau hyny, er y mawrlles i'r plwyfolion. Pan wrthryfelodd rhai o foneddigion Cymru yn erbyn y Weriniaeth, dan arweiniad Langhorn, Poyer, a Phowel, a phan oeddynt yn gwarchau ac yn tânbelenu Castell Penfro, bu Phylips a'i deulu mewn mawr enbydrwydd, am fod eu hannedd yn ymyl y castell. Byddai y peleni, ar adeg y gwarcheuad, yn disgyn o amgylch eu preswylfod, ac yn fynych disgynent yn y cae, yn ymyl y forwyn pan yn

* Lewis Morus (Llywelyn Ddu o Fon).

† Cambr. Reg., vol. i., p. 426; Eos Ceiriog, llyfr i., t. iii.; Williams's Em. Welshm., p. 347; Davies's (Gwallter Mechain) Engl. Works, p. 291; En. Cymru, Ls. F., t. 748.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 235.

* Llyfr. y Cymry, t. 258. † Yr un, t. 449.

‡ Yr un, t. 491. § Yr un, t. 594.

‖ Robert Harley, medd awduron Han. Egl. Ann. Cymru, cyf. i., t. 6.



Digitized by Google

godro, ac weithiau yn yr ardd, a rhuthrent yn oed i'r tŷ; ond gofalodd Rhagluniaeth yn dirion am dano ef a'i deulu, yn yr ystyr hwn, fel na niweidiwyd yr un o honynt. Ond ymddygodd y gwrthryfelwyr yn dra chreulon ac yspeilgar at Phylips. Yspeiliai y milwyr bob peth bwytadwy oddi arno, fel yr oedd yn rhaid iddo roi pob dyfais ar waith er cuddio ei luniaeth rhagddynt. Dywedir y bu raid iddo un tro gornelu ei unig fuwch a adawsid ganddynt yn yr ysgubor, a'r ychydig flawd a adawyd iddo yn y gobenydd ar ei wely; a rhwng llaeth y fuwch o'r ysgubor, a'r blawd o'r gobenydd, llwyddodd i gadw ei hun a'i deulu rhag llwyr newynu, pan yr oedd dinystr ac anrhaith yn amgylchynu ei drigfan.

Ym mis Mai, 1648, aeth y dŷn mawr, duwiol, ac anorchfygadwy, Oliver Cromwel, i Benfro: chwalodd y gwrthryfelwyr mewn byr amser, a chymmerth y castell trwy ruthr. Yn y cyfamser, clywodd am ragoroldeb Peregrin Phylips, fel pregethwr, a dymunodd arno bregethu iddo ef a'i swyddogion yn un o'i eglwysydd, yr hyn a wnaeth yntau, er mawr foddhâd i'w wrandawyr; a bu Cromwel yn dra hoff o hono o hyny allan. Pan drodd llynges Cromwel i Aberdaugleddyf, ar ei ffordd i ddarostwng y gwrthryfel Pabaidd erchyll yn y Werddon, yn 1649, gwahoddodd y cadlywydd galluog Phylips i weddïo gyd â hwy ar fwrdd pob un o'i longau, a chafodd ei ddifrifwch mawr a'i hyawdledd efengylaidd effaith ddwys ar y cadlywydd a'i holl filwyr. Pregethai Phylips wedyn, yn achlysurol, ymhob llan braidd yn y wlad, yn Gymraeg a Saesneg, yn ol yr amgylchiadau; a mynych y pregethai hefyd i'r barnwyr ym mrawdlysoedd Aberteifi, Caerfyrddin, a Hwlffordd. Dewiswyd ef hefyd yn un o aelodau y Pwyllgor* a appwyntiwyd i chwilio i ymddygiad offeiriaid a phregethwyr, a'u cymhwysder at eu swydd; a thrwy ei dynerwch a'i gymmedroldeb ef, goddefwyd i lawer gadw eu bywioleuthau, nad oeddynt gymmeradwy ymhob ystyr, gan y blaid lywodreuthol. Nis ad-dalwyd y caredigrwydd yma, a roddes efe ac amryw o'i frodyr Anghydffurfiol i'r Esgobeuthwyr, mewn un modd, pan adennillodd y blaid honno ei hawdurdod. Goddefwyd i amryw Esgobeuthwyr cymhedrol, yn ystod y Weriniaeth, gadw eu bywioleuthau; ond nid oes *gymmaint ag un esampl* y goddefwyd i Anghydffurfiwr gadw ei fywioliaeth ar ol y 24ydd o Awst, 1662.

Pan fwriwyd Peregrin Phylips allan o'i fywioleuthau, ar adferiad Charles II., symmudodd i ameuthdy a elwid Bryn y Treilliwr (Dredgeman-Hill), ger llaw Hwlffordd, tyddyn ym meddiant Syr Herbert Perrot, yr hwn a fu yn gyfaill ffyddlon iddo yn yr aml flinderau chwerwon a'i cyfarfuant wedi hyny, ac yn y lle hwnw y treuliodd weddill ei oes. Yn fuan wedi ymsefydlu ym Mryn y Treilliwr, cymhwysodd y rhan orau o'i dŷ yn lle addoliad, o herwydd yr hyn yr erlidiwyd, y dirwywyd, ac y carcharwyd ef yn chwerw dost, fel y dengys y difyniad canlynol:—

"Erlidiwyd ef dan Ddeddf y Pum Milltir, a chymmerwyd nifer o'i anifeiliaid ymaith trwy orchymyn Mr. Howard, yr Uchel Sirydd, yr hwn, rywbryd wedi hyny, pan ar ei wely angau, a ofynodd am ei faddeuant, yr hyn a gafodd yn rhwydd; ond nid adferwyd iddo byth ei anifeiliaid. Ymhen ennyd drachefn, cymmerwyd ef i fynu, a gwnaed ef yn garcharor caeth ynghanol y cynhauaf, heb adael neb i drefnu y tyddyn ond y wraig, a phump o blant bychain, ac ychydig iawn o weinidogion. Wedi iddo fod ddau fis yn y carchar, cymmerwyd ef yn glaf, a gollyngwyd ef yn rhydd gan y Dirprwywyr, a hyny, y mae'n debyg, trwy ddylanwad caredig Syr Herbert Perrot, yr hwn a anfonodd ei gerbyd i'w gyrchu adref, lle y bu yn gorwedd dros hir amser dan dwymyn mor llym fel y rhoddes y meddygon ef i fynu; ond neillduwyd dydd o ympryd a gweddi ar ei ran gan lawer o Gristionogion difrifol yn y parthau hyny, a rhyngodd bodd i Dduw ei adfer a'i gyfodi i fynu yn dra rhyfeddol. Bwriwyd ef i garchar eilwaith am gynnal cyfarfod crefyddol yn ei dŷ, a gwnaed cynnygiadau mawrion iddo gan y barnwyr, ynghyd â'r Esgob Thomas, a ddeuthant i frawdlys Hwlffordd, os cydymffurfiai; ond wedi methu llwyddo yn eu hamcan, gollyngwyd ef yn rhydd. Pa wedd bynag, blinid ef fyth a hefyd â dirwyon a dinoddiadau; chwilid ei dŷ gan raglawiaid, ceisbyliaid, heddgeidwaid, &c., canys ni pheidiai efe â phregethu yn ei dŷ, a llafurio ym mysg ei bobl yn y nos; ïe, pregethai i nifer o bobl a elent i ymweled âg ef, yn oed pan yn y carchar."†

Y mae ymddygiad llariaidd, dengar, llafurus, ond penderfynol Peregrin Phylips i sefyll ar lwybr ei ddyledswydd, yn ol argyhoeddiad ei gydwybod, er pob deniadau, bygythion, erlidiau, dirwyon, a charcharau, yn rhoddi rhyw fawredd cyssegredig ar ei gymmeriad fel un o "Enwogion y Ffydd." Ar y 4ydd o Fawrth, 1668, casglodd eglwys ynghyd yn ei dŷ ei hun, ym Mryn y Treilliwr. Er ei fod ef yn bur gymhedrol gyd â golwg ar eraill, fel y crybwyllwyd, etto yr oedd efe yn Anghydffurfiwr o'r fath gadarnaf. Yn fuan ar ol iddo gael ei fwrw allan o'i fywioleuthau, cymmerth dadl le rhyngddo â'r Dr. Reynolds, yng Nghaerfyrddin, ynghylch seremonïau a disgyblaeth yr Eglwys Sefydledig; ac un arall, drachefn, rhyng-

* Nid oedd efe yn un o'r Dirprwywyr, fel y tybiodd un o'i fywgraphwyr ei fod; nac yn un o'r Profyddion a appwyntiwyd gan y gyfraith a wnaed yr 22fed o Chwefror, 1649 (Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 501, 503). Ymddengys mai ar ol hyny yr appwyntiwyd y Pwyllgor crybwylledig.

† Calamy's Acc., vol. iv., pp. 842–3.

Digitized by Google

ddo â'i hen athraw, yr Esgob Thomas, yr hon a argraphwyd wedi hyny, mewn dull unochrog, gan yr esgob, yn groes i amcan ac heb yn wybod i Phylips.*

Pan ganiataodd Iago II. oddefiad i'r Anghydffurfwyr yn 1687, cymhwyswyd lle i gynnal gwasanaeth crefyddol yn nhref Hwlffordd, ac arferai Phylips bregethu bob borau y dydd cyntaf o'r wythnos ym Mryn y Treilliwr, ac yn yr hwyr yn y dref. Heb law hyny, teithiai yn fynych i'r wlad o amgylch i bregethu, a chafodd amryw brofion amlwg o ofal Rhagluniaeth am dano. Ychydig cyn ei farwolaeth, yr oedd yn marchogaeth tu ag adref ar noson dywyll yn agos i Ffreystrup, lle yr oedd amryw o hen byllau glo. Syrthiodd yr anifail ac yntau i un o'r pyllau hyny, yr hwn oedd yn ddwfn iawn, ac agos yn llawn o ddwfr; ond gan fod coed croesion o fewn chwe throedfedd i enau y pwll, cadwyd y ceffyl, ac yntau ar ei gefn, rhag myned i lawr i'r dwfr yn y dyfnder. Yn fuan wedi iddynt syrthio, digwyddodd fod hen wraig fyddar a'i hŵyr yn myned heibio. Clywodd y bachgen weuddi, ac aeth ef a'i nain at y fan. Pan ddeallodd yr hen wraig pwy oedd yno, a'r perygl yr oedd ynddo, aeth yn y fan at y Capten Longman, perchenog y pwll, a'r hwn oedd yn hen gyfaill i Mr. Phylips. Casglodd ddynion i'r lle yn ddïoed; ac wedi llawer o ymdrech, tynwyd y march a'r marchog i fynu o'u sefyllfa beryglus heb gael llawer o niwaid.

Yn 1689, caed Deddf y Goddefiad, trwy ymdrech canmoladwy William III., trwy yr hon y gwaredwyd yr Anghydffurfwyr oddi wrth yr holl gospau a ddodid arnynt am beidio myned i lan y plwyf, ac am gynnal cyfarfodydd Ymneillduol. Ymhen tu a dwy flynedd ar ol hyn, sef ar yr 17fed Ionawr, 1691, cafodd y tŷ addoliad yn Hwlffordd ei gofrestru yn ol y ddeddf honno; ac ar yr 17fed o Fedi canlynol, bu yr enwog Peregrin Phylips farw yn yr 68fed flwyddyn o'i oedran. Claddwyd ef, yn ol traddodiad, ger llaw y pulpud, yn Eglwys Haroldston. Pregethodd ddwy waith y dydd cyntaf o'r wythnos olaf o'i fywyd. Yr oedd yr Eglwys Ymneillduol, ar ei farwolaeth ef, yn cynnwys 60 o aelodau, a chynhyddodd yn fuan dan ofal ei olynydd, Thomas Davies, a threfnwyd canghenau o honi yn eglwysi annibynol ym Mhenfro a Threfgarn, ger llaw Tŷ Ddewi, yn gynnar yn y 18fed ganrif. Bu Esther, gwraig Peregrin Phylips, fyw hyd y 26fed o Fai, 1706, ac y mae eu hiliogaeth wedi parhau yn enwog fel crefyddwyr, o genhedlaeth i genhedlaeth hyd y dydd heddyw. Nid ydym yn gwybod i ddim o waith Peregrin Phylips gael ei gyhoeddi, oddi eithr yr argraphiad unochrog, y crybwyllwyd am dano eisoes, o'i ddadl ar Seremonïau a Disgyblaeth yr Eglwys Wladol, a gyhoeddwyd gan yr Esgob Thomas.†

JOHN JONES, Llwyn Rhys, Llanbadarn-Odwyn. Y mae'r lle hwn yn hynod, o herwydd mai ynddo y dechreuwyd yr achos Anghydffurfiol yn y gymmydogaeth hon, a hyny yn forau iawn; ac oddi yma yr hanodd eglwysi Annibynol Llwynpïod, Blaenpenal, Abermeurig, Cilgwyn, &c. Cedwid cyfarfodydd crefyddol yn Llwyn Rhys mor forau, fel y tybir, a'r flwyddyn 1664, pan oedd yr erledigaeth ar yr Ymneillduwyr, yn amser Charles II., yn ei llawn rwysg a'i gorphwylledd; a gŵr y tŷ, John Jones, a bregethai yn ddirgelaidd i'r cyfryw o'i gymmydogion a gyrchent yno i wrando arno. Nid ydys yn gwybod pa bryd, nac ymha le, y ganwyd y gŵr enwog hwn; pa fanteision addysg a gafodd, na pha bryd y bu farw; ond ymddengys ei fod mewn gwth o oedran pan oedd Charles II. yn ei flodau. A ddygwyd ef i fynu i wasanaeth yr Eglwys Wladol, ac a oedd efe yn un o'r 606 gwroniaid Cymreig a dröed allan o'u bywioleuthau ar Ddydd Bartholomëus yn 1662, am nacâu cydymffurfio â defodau Pabaidd Eglwys Loegr; ynte ai dŷn duwiol cyffredin ydoedd, wedi cael addysg weddol yn ei wlad ei hun, ac yn teimlo dros eneidiau ei gymmydogion oedd yn marw o newyn am "fara y bywyd," ac a bregethai iddynt bob cyfle a gaffai; nid ydym yn gwybod. Y cwbl a wyddys yn sicr am dano, yn yr ystyr hyn, ydyw y pregethai yn ei dŷ ei hun i bawb a ddelent i wrando arno yn ystod yr erledigaeth greulon dan Charles II., y cyrchid ef yn fynych ger bron brawdlysoedd o blegid hyny, ac y dirwywyd ef yn drwm lawer gwaith am ei wasanaeth.

Yr oedd ei deulu yn gynnwysedig o hono ef ei hun, ei wraig, wyth o ferched, a phedwar o feibion; ac ystyrid eu bod fel teulu yn dra chrefyddol, ac yn enwog am eu defnyddioldeb. Ymddengys i un o'r meibion fyned i Lundain yn lled ieuangc, ac iddo, trwy ryw foddion sy'n anhyspys yn awr, gael ei ddyrchafu i wasanaeth y Brenin Charles. Y mae hyn yn arwyddo bod teulu Llwyn Rhys

* Calamy's Acc., vol. ii., p. 717; vol. iv., pp. 841-4; Christian Witness for 1850, pp. 66-70.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 185, 258-6; En. Cymru, Ia. F., t. 834-36; Han Egl. Ann. Cymru, t. 6-8.

mewn gwell sefyllfa na'r cyffredin bobl, a'u bod wedi rhoddi addysg dda i'w plant, neu, o leiaf, i'r mab hwnw, pe amgen ni buasai gymmwys i wasanaeth y brenin. Pa wedd bynag, ymddengys ei fod yn sefyll yn uchel yn ffafr ei feistr brenhinol, yr hwn a ofynodd iddo rywbryd a oedd rhyw gymmwynas a ewyllysiai efe ei chael ganddo. Attebodd yntau fod ganddo dad yng Nghymru, yn hen ŵr, ac yn bregethwr Anghydffurfiol, ac y byddai efe yn ddïolchgar iawn i'w fawrhydi am ganiatâd iddo bregethu. Caniataodd y brenin ei ddymuniad, ond ar yr ammod iddo beidio pregethu mewn un lle ond yn ei dŷ ei hun, a rhoddes iddo freinlen i'w throsglwyddo i'w dad yn ei awdurdodi i hyny.

Yr oedd y mab wedi treulio blynyddau meithion erbyn hyn oddi cartref, a'i rieni heb wybod dim o'i hanes, canys nid oedd ond ychydig iawn o lythyrdai yn yr amser hwnw yn y deyrnas, a'r rhai hyny yn y trefydd yn unig. Modd bynag, un diwrnod, pan yr ymddengys nad oedd ond yr hen ŵr a'r hen wraig yn y tŷ, gwelent swyddog, yn ei ddillad milwrol, yn prysur ddynesu at y tŷ, ac nid oedd amheuaeth yn eu meddwl nad dyfod i ddal y pregethwr yr ydoedd. Ar hyn, rhedodd yr hen ŵr i'r llofft* i ymguddio, tra yr âi yr hen wraig i'r drws i gyfarfod y gŵr dïeithr, yr hwn a ofynai iddi am Mr. Jones, gan ddywedyd ymhellach y rhaid iddo gael ei weled, am fod ganddo genadwri ato oddi wrth y brenin. Dychrynodd yr hen wraig, druan, gymmaint wrth glywed hyn fel y syrthiodd i lawr mewn llewyg. Ymaflodd yntau ynddi yn y fan i'w chodi. Gwelai yr hen ŵr hyn o'r llofft, a chan gredu bod y swyddog yn ei lladd, llefodd allan, "Peidiwch a lladd yr hen wraig; yr wyf fi yn rhoi fy hun i fynu." Ar hyn, eglurodd y gŵr dïeithr pwy ydoedd, a pha beth oedd ei genadwri; ac, fel y gellid disgwyl, yr oedd llawenydd a syndod y ddau hen bererin y fath, pan ddeallasant nad oedd y swyddog neb amgen na'u mab hwy eu hunain, yr hwn "a fu golledig, ac a gafwyd," fel y mae'n llawer haws ei ddychymmygu na'i ddarlunio. Ychwanegwyd yn ddirfawr at y llawenydd hwn pan welsant y freinlen, yn caniatâu rhyddid addoliad yn eu tŷ. Mewn canlyniad i hyn, gan nad oedd y tŷ yn ddigon mawr a chyfleus, adeiladwyd ystafell groes o'r tŷ cefn iddo, i fod yn lle addoliad; a pharhaodd yr ystafell honno i fod felly ar ol y cofrestriad am dros 60 mlynedd. Y mae'r tŷ hwn yn sefyll etto; ac y mae cwppwrdd yn awr yn ei dalcen, lle yr oedd ffenestr y pulpud. O'r "eglwys yn y tŷ" hwn, fel y crybwyllwyd ar y dechrau, y deilliodd yr Eglwysi Ymneillduol boreuaf yn sir Aberteifi.†

---

## PENNOD XX.

### THOMAS EVANS, HENRY WILLIAMS, WILLIAM LLWYD, D.D., A JOHN EVANS.

THOMAS EVANS, un o weinidogion mwyaf llafurus y Bedyddwyr ym Mrycheiniog, a anwyd mewn lle a elwir Pentre, ymhlwyf Llanafan-Fawr, Brycheiniog, tu a'r flwyddyn 1625, ac a fu farw yn 1688, gan adael gwraig a chwech o blant ieuaingc i ofal Rhagluniaeth. Y mae'r Dr. Richards yn barnu iddo gael ei ddwyn at grefydd yn ieuangc iawn, trwy weinidogaeth Hugh Evans,‡ ac iddo ddechrau pregethu yn 1651 neu 1652, canys yn 1653 pennodwyd ef gan y Profyddion i bregethu yng Nghymru o dan y ddeddf y sonir am dani yn fynych yn y gwaith hwn.§ Yn ol y "Welsh Nonconformist Memorial," yr oedd yn hawdd canfod ei gymmwysderau i fod yn athraw crefyddol pan nad oedd ond ieuangc; a dengys y ffaith iddo gael ei ddewis i'r cylch a nodwyd, mor fuan wedi dechrau pregethu, nad oedd y Pwyllgor yn ddall i'w ragoriaethau. Llafuriodd yn galed ac yn ffyddlon i ddysgu y gwirionedd, nid yn unig yn ei ardal enedigol, ac ymhlith pobl Hugh Evans, â pha rai y daliai gyssylltiad, ond hefyd mewn rhanau pellenig o'r wlad. Nid yn y Gelli, Olchon, a Llanigon yn unig y pregethai efe, ond hefyd yn ardaloedd gorllewinol y Dywysogaeth. Yn 1654,

* Y mae hyn yn arwyddo mai ameuthdy cyfrifol oedd Llwyn Rhys, canys nid oedd llofftydd ar dai cyffredin ynghanol gwlad yn y dyddiau hyny.

† Enwogion sir Aberteifi, gan G. Jones, C.M. (Glan Menai), t. 88.

‡ Gwel pen. xii. o'r llyfr hwn (y iv.).

§ Gan y gall copi o'r Dystysgrif (*Certificate*) fod yn ddyddorol i'r rhai nas gwelsant unpeth tebyg o'r blaen, dodwn ef yma heb ei gyfieithu:—"*By the commission for propagating the Gospel in* WALES: —Whereas five of the ministers in the Act of Parliament named, bearing date the 25th of February, 1649, and entitled, *An Act for the better Propagation of the Gospel in* WALES, have, according to the tenors of the said Act, approved of Mr. THOMAS EVANS, the younger, to be a person qualified for the work of the ministry, and recommending him, with their advice to us, that he be encouraged in the work of the ministry: We do, according to an order to us directed by the committee of five, at *Neath*, therefore order that Mr. *John Pryce*, treasurer, shall forthwith pay unto the said Mr. THOMAS EVANS the sum of thirty pounds, which we have thought fit to allow him towards his salary and encouragement in the work of the ministry. This our order, together with his acquaintance, shall be a sufficient discharge for the said treasurer. Dated under our hands 16th of May, in the year of our Lord 1C53. John Williams, &c."—Han. y Bed., Jos. Thomas, p. 33, note *; Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 232.—GOL.

Digitized by Google

ymwelodd â Morganwg, a chymmerodd ran yngweithrediadau Cymmanfa y Bedyddwyr yn Aberafon y flwyddyn honno.* Yn achlysurol yr ymwelai â rhanau gorllewinol y Deheubarth, gan gyfyngu ei lafur yn benaf i ardaloedd nad oeddynt ymhell o'i wlad enedigol, ymha rai yr oedd ei lafur yn fawr iawn, yn neillduol o gymmeradwy, ac yn bur llwyddiannus. Wedi cael ei bennodi i weinidogeuthu yn eglwys blwyfol Maesmynys, efe a wnaeth ei ran yn ffyddlon yn y lle hwnw hyd y flwyddyn 1662, pan y trowyd ef allan o dan Ddeddf yr Unffurfiad. Gan ei fod yn fab i ameuthwr cyfrifol, y mae'n rhesymol casglu iddo dderbyn mwy o fanteision addysg ym morau ei oes na llawer o'i gyd-ieuengctid, a'i fod felly yn addasach na llawer ar gyfer ei gyfrifoldeb dyfodol. Wedi ei daflu allan o Eglwys Maesmynys, ymdrechodd yn galed ac effeithiol dros ei Dduw tra y bu ar y ddaear. Yn y flwyddyn 1686, ymfudodd lliaws o'i gyfeillion ym Maesyfed i'r America, o blegid cynddaredd yr erledigeuthau dychrynllyd yn y wlad hon; ac yn 1688, sefydlasant eglwys Fedyddiedig mewn lle a elwid Pen y Pec (Lower Dublin yn bresennol), yr hon oedd yr eglwys gyntaf a ffurfiwyd gan y Bedyddwyr yn nhalaeth fawr Pensylfania. Y mae dylanwad y Bedyddwyr Cymreig yn yr 17fed ganrif ar lwyddiant mawr Bedyddwyr yr America braidd yn anhreuthol, a'r Hollwybodol yn unig a ŵyr am fanylion ei ddyfnder a'i heleuthrwydd. Methent gael tawelwch i addoli yma, ac o blegid hyny croesasant i'r Gorllewin yn dyrfaoedd lliosog, ac yno y codent faner y cyfundeb, ar ba un y mae'r Goruchaf wedi gwenu i raddau helaeth.

Wedi i Mr. Evans gael ei droi allan o Faesmynys, dioddefodd lawer yn herwydd ei grefydd o dan deyrnasiad halogedig Charles II. a Iago II.; ond aeth trwy yr ystormydd echryslawn yn y modd mwyaf amyneddgar a phenderfynol, a gadawodd ar ei ol goffadwriaeth anrhydeddus, yr hon a berchid ac a anwylid yn fawr gan ei orfucheddwyr, ac sydd yn awr yn fendigedig yngolwg y bobl sy'n gwybod ychydig am dani. Pa sawl gwaith y cafodd ei garcharu o herwydd ei ffyddlondeb i'w Geidwad, nid ydym yn gwybod. Yn ol y Dr. Richards,† bu unwaith yngharchar Aberhonddu; ond nid oes genym hyspysrwydd am feithder ei garchariad.‡ Y mae efe yn sefyll yn uchel iawn, nid yn unig o herwydd ei gyflawniadau personol, ond hefyd ar gyfrif lliaws o weinidogion a hanasant o'i linach ef, y rhai a anfarwolasant eu hunain yngwasanaeth eu Harglwydd. Yn 1675, priododd â dynes ieuangc grefyddol o sir Faesyfed, pan yr oedd efe yn agos i hanner cant oed. Wedi byw dan iau priodas am tu a thair blynedd ar ddeg, bu farw, fel y crybwyllwyd, gan adael gweddw a chwech o rai ieuaingc i ofal "Tad yr amddifaid," sef pedwar mab a dwy ferch, a'r hynaf o honynt heb fod uwch law 12 oed. Ymunodd y chwech â chrefydd pan yn ieuangc iawn, ac ymenwogodd dau o'i feibion fel athrawon crefyddol. Cyrheuddodd pedwar neu bump o'i wyrion enwogrwydd mawr yn y weinidogaeth Gristionogol, un o ba rai oedd yr enwog Hugh Evans, o Gaerodor; a dywed y Dr. Richards§ i ddau neu dri o'i orwyrion ymenwogi yn y weinidogaeth, ac mai un o honynt oedd y Dr. Caleb Evans, o Gaerodor. Yn y Greal am Mehefin, 1872, y mae gan Spinther ysgrif dda iawn ar ei "Llwythau Pregethwrol," yn yr hon y mae taflen achyddol (tebyg i'r hon sy'n dangos achau W. Salesbury yn y gwaith hwn), ymha un y ceir golwg ar liaws o enwogion a hanasant o Thomas Evans. Diau i Evans weddio llawer dros ei blant, a dengys enwogrwydd ei hiliogaeth rhag llaw nad ofer fu ei ymbiliau dros ei anwyliaid. Y mae Thomas Evans yn un o'r lliaws mawr sydd, er wedi marw, "yn llefaru etto."

**Henry Williams.** Un o gydoeswyr Vavasor Powel, ac olynydd y gŵr enwog hwnw ym mugeiliaeth yr eglwys a ymgynhullai ger llaw y Drefnewydd, neu yn y dref. Bernir mai trwy weinidogaeth Powel y cafodd ei ddychwelyd at Dduw; ac y mae'n ymddangos iddo gydlafurio â'i

* Fel y crybwyllwyd mewn man arall, nid oedd Bedyddwyr y cymmundeb agored ym Mrycheiniog, &c., yn rhan o'r gymmanfa a sefydlwyd yn Llanilltyd yn 1650; ac o holl Fedyddwyr Hugh Evans, fel y byddid, ac yr ydys, yn eu galw, ymddengys mai Thomas Evans oedd yr unig weinidog a ddaliai ryw fath ar gyfathrach â Bedyddwyr y cymmundeb caeth yn y gymmanfa.

† Cambro-Brit. Biog., p. 224.—Gol.

‡ Dywed Jos. Thomas fod yr erledigaeth yn ofnadwy y pryd hwnw:—"Eu harfer oedd ysgymmuno y rhai na ddeuent i'r eglwys: ar ol hyny yr oeddynt fel rhai dinodded (*outlawed*). Erlidient y bobl dda, nid yn unig tra byddent byw, ond hefyd wedi iddynt feirw. Ni oddefent y rhai ysgymmunedig i gael eu claddu yn yr hyn a alwent 'y tir cyssegredig.' Gorfodwyd llawer i gladdu eu meirw yn eu gerddi, neu lle y gallent yn ddirgel. Cymmerodd siampl eglur o yspryd yr amseroedd hyny le ger llaw y Pentref, lle yr oedd Thomas Evans yn byw. Ysgymmunwyd merch ieuangc am beidio dod i'r eglwys. Bu farw, a chladdwyd hi yn ddirgel yn y nos, gan ei chyfeillion neu ei pherthynasau, yn yr hyn a elwir yr Eglwys neu y Fynwent. Pan glywodd offeiriad y plwyf hyny, llidiodd yn dost, a gorchymynodd godi y corph, a'i lusgo ar glwyd, neu gar llusg, a'i gladdu ar groesffordd ger llaw y Pentref. Wedi cyflawni hyn oll, gosododd ei chyfeillion gareg ar ei bedd, ac arni ysgrif briodol. . . . Wedi i'r gareg fod yno am ychydig, torwyd hi yn ddarnau. Daeth yr offeiriad hwnw i ddiwedd disymmwth, yr hyn a ystyrid yn farn arno am ei greulondeb."

§ Cambro-Brit. Biog., p. 234.—Gol.

Digitized by Google

odd wrtho, 'Y filain! y mae mewn digon o drallod eisoes, heb i ti ei cham drin mor fwystfilaidd.' Yna gorchymynodd y swyddog, yn dra dynol, bod Mrs. Williams i gael ei harwain i ba le bynag y bwriadai fyned; a rhoddes orchymyn pennodol i'w gosod yn ddïogel y tu arall i'r afon. Un tro pan oedd Mr. Williams yn pregethu, rhuthrodd y gelynion i mewn i'r tu ol heb yn wybod iddo; yna curasant, camdrinasant, a llusgasant ef o amgylch; ond ni laddasant ef yn llwyr. Peth cyffredin yr amserau hyny oedd sylwi ar farnedigeuthau dychrynllyd yn goddiweddyd erlidwyr creulon, hyspyswyr, ynadon, &c. Y mae son fod dau ynad heddwch yn y gymmydogaeth, y rhai a fyddent yn ymddwyn yn llym iawn at Mr. Williams, ac i un o honynt farw yn ddisymmwth ar ginio, ac i'r llall syrthio i'r Hafren a boddi, pan yn dychwelyd yn feddw o'r Drefnewydd. Dywedir hefyd i'r sirydd, neu yr issirydd, yr hwn a gymmerth wartheg Mr. Williams, syrthio oddi ar ei geffyl, tori ei wddf, a boddi yngolwg tŷ y gweinidog. Y mae Mr. R. Davies . . . yn son (mewn cofiant a ysgrifenodd) am ynad, yr hwn oedd yn erlidiwr tra ffyrnig yn sir Drefaldwyn yn 1674, ac a achosodd lawer o drallod i Ymneillduwyr yn y sir. Pan yn dychwel adref trwy nant ger llaw ei dŷ, cafodd ei daflu i'r afon gan ei geffyl (fel y mae'n dra thebyg), a'i gario i'r afon arall; a bu farw yn druenus. . . . Tybia rhai bod personau yn rhy frysiog wrth gasglu bod y cyfryw ddigwyddiadau yn wir farnedigeuthau oddi wrth Dduw; ond pan y mae personau yn syrthio fel hyn, y mae'n bur naturiol casglu hyny. . . . Rhaid peidio gadael allan un Ragluniaeth neillduol a fu yn ffafr Mr. Williams, yr hon oedd yn ddigyffelyb, ac yn cael ei chadarnhau [yn foddhaol]. Ei sylwedd sydd fel hyn:—Ym Medi neu Hydref (ni ddywedir y flwyddyn), yspeiliwyd tŷ Mr. Williams, am ddirwyon, y mae'n debyg. Tu a'r amser hwnw yr oedd cae o wenith yn cael ei hau ganddo, yr hwn a drodd allan yn gnwd anghyffredin y flwyddyn ganlynol. Ni ddywed yr hanes pa nifer o gorseni a godasant o'r un gwreiddyn; ond yr oedd ar bob corsen ddwy, ac yn gyffredin dair o dywys breision, da, trwy yr holl gae. Yr hanes yw, i'r darn tir gwenith hwnw gynhyrchu mwy na dwbl gwerth yr hyn a gollasai Mr. Williams trwy yr yspeilwyr y flwyddyn flaenorol. Parodd hyn syndod trwy yr holl wlad; a siaredir am dano hyd y dydd heddyw."

Yr oedd y cae yn eithaf adnabyddus yn 1745, a dangoswyd ef i Joshua Thomas y flwyddyn honno, pan farchogai efe heibio iddo. Gan fod yr amgylchiad mor ryfedd, tueddid Jos. T. i ammau yr hanes, i raddau, cyn iddo weled galargan i Mr. Williams, o waith un o'i feibion ynghyfraith, yn yr hon y crybwyllir am gnydiad rhyfeddol y cae gwenith.* Cyfansoddwyd yr alargan (yr hon sy'n 222 o linellau), gan Richard Davies, yr hwn oedd yn sir Aberteifi yn 1658, ac yn weinidog gyd â'r Annibynwyr. Yr oedd copi o'r alargan ym meddiant Mr. Williams, Bragwr, un o orwyrion Mr. H. Williams, ym Maesyfed Newydd (New Radnor), yn amser Jos. Thomas. Y mae'r awdur yn son yn yr alargan am enwogrwydd ei dad ynghyfraith mewn cariad a lletygarwch, yn cyfeirio at ei garchariadau mynych, ac at y colledion mawrion a gafodd trwy i'w wartheg a'i ddefaid gael eu cymmeryd oddi wrtho gan greulonwyr ei oes. Yr oedd y flwyddyn y cnydiodd y cae mor ryfeddol yn un lom iawn, ac ysgafnder y cynhauaf yn peri i ddynion ofni newyn, yr hyn a chwanegodd yn fawr at ddyddordeb yr amgylchiad. Fel y crybwyllwyd, cafodd dawelwch am y gweddill o'i oes wedi'r cnydiad rhyfeddol a nodwyd. Dengys beddargraph Henry Williams, yn cynnwys 16 o linellau,† y cyfeirir ato yn yr alargan, mai yn ei ardd y claddwyd ef, a hyny, y mae'n debyg, o herwydd anfoddlonrwydd yr offeiriaid i gladdu Ymneillduwyr yn y tiroedd cyssegredig.

William Llwyd, D.D., Esgob Llanelwy, ydoedd fab i'r Parch. Richard Llwyd, B.D., o'r Henblas, ymhlwyf Llanedwen, sir Fon, periglor Sonning, a ficar Tilehurst, yn sir Berc; ac yno y ganwyd William, yn 1627. Cafodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain; yn gyntaf, yng Ngholeg Oriel, lle yr aeth pan yn 11 oed. Symmudodd oddi yno i'r Coleg Newydd, ac wedi hyny i Goleg Iesu, lle y daeth yn ysgolor a chymmrawd. Yn 1654, cyflwynwyd ef i beriglorìaeth Bradfield, yn sir Berc, yr hon a roddes efe i fynu yn fuan; ac yn 1660, gwnaed ef yn gôr-beriglor Ripon. Yn 1666, appwyntiwyd ef yn gaplan i Charles II., a chymmerth y radd o D.D. yn 1667; ac yn Rhagfyr yr un flwyddyn, gwnaed ef yn gôr-beriglor Willsford ac Woodford, Caercaradog (Salisbury). Dywed y Parch. R. Williams, awdur llafurus "Enwogion Cymru,"* y cyhoeddodd y Dr. Llwyd ryw dreuthodau godidog o gylch y pryd hyn, ac yn 1673, yn erbyn Pabyddiaeth; ond nid yw Gwilym Lleyn yn nodi dim o'i waith, yn "Llyfryddiaeth y Cymry," hyd 1684, fel y ceir gweled rhag llaw. Yn 1667, cyflwynwyd ef gan y Goron

* Dyma rai o'r llinellau sydd yn yr alargan yn cyfeirio at yr hyn a elwir yn wyrth gan y galarnadwr, ac at y llonyddwch a gafodd Mr. Williams wedi iddi gael ei chyflawni:—

"The miracle like nimble lightning flew,
And filled all tongues with things so great, so new:
The good rejoiced, his troubles lost their rage,
Since God so plainly did for him engage.
The furious cease to roar, contract their paws,
Let fall the lift up engine of the laws.
The prodigy had struck this outrage mute,
Nor durst they ever after persecute.
But heaven declares on still, strikes some with blasts,
Life and estates with severe curses wastes."

† Wele 6 o'r llinellau hyny:—

"Sown in his garden lies his precious dust,
I mean, within this grave his dust doth rest.
Bounteous in alms, a charity so large,
Tho' state but small, and numerous his charge;
He ne'er could have his liberal alms pursued
Had not the blessing oil and meal renewed."

* Williams's Em. Welshm., p. 288.

Digitized by Google

i ficeriaeth Mari Santes, yn Reading; ac ar y 13ydd o Fehefin canlynol, urddwyd ef yn Archddiacon Meirionydd. Ym Mai, 1672, gwnaed ef yn Ddeon Bangor Fawr yng Ngwynedd; ac yn 1674, yn gyfarhosog *(residentiary)* Sarum. Ar ol yr holl lifogydd yma o fywioleuthau eglwysig mawrion a chyfoethog a ymdywalltasant ar y Dr. Llwyd, daeth yn "ben gorllanw" arno ar y 3ydd o Hydref, 1680, pan y cyssegrwyd ef yn Esgob Llanelwy.

"O ddeutu y flwyddyn 1680," eb R. Dafydd, y Crynwr,* "gwnaed y Dr. William Llwyd, o St. Martin, Llundain, yn Esgob Llanelwy. Yr oedd erledigaeth lem iawn yn myned ym mlaen yn yr ardal ar y pryd, o dan y Ddeddf Ysgymmundod, ac 20p. y mis o ddirwy. Ond cymmerodd yr esgob hwn ffordd dynerach i wneud ei waith: gwahoddai bob math o Ymneillduwyr i ymddiddan âg ef, er ceisio eu denu yn ol i Eglwys Loegr." Dyry Syr J. B. Williams hanes dyddorol am y cyfryw ymddiddan, neu ddadl, a gymmerth le rhwng yr esgob hynaws a'r Ymneillduwyr fel y canlyn:—

"Ar ei ddyfodiad cyntaf i Esgobaeth Llanelwy, yn ei zel dros yr Eglwys Sefydledig, efe a ymosododd gyd âg egni i ddychwel yr Ymneillduwyr ati; ac fel y gallai wneuthur hyn â *rheffynau dynol*, penderfynodd ymresymu y pwngc â hwynt cyn cymmeryd un ffordd arall, ac ymdrechu eu hargyhoeddi trwy ymddiddan, yn yr hyn yr oedd efe yn dra llwyddiannus o blegid ei ddysg a'i dymmer. Os gwrthodai rhai ymddiddan âg ef, defnyddiai hyny yn bur llym yn eu herbyn, gan honni, fel yr ysgrifenodd wedi hyny at Mr. Phylip Henri†—'Nas gall un dŷn ddadlau cydwybod dros beidio dyfod pan ofyner iddo, i roddi cyfrif am ei grefydd i'r rhai y bo ganddynt awdurdod i ofyn hyny trwy y cyfreithiau y byddo efe yn byw danynt, ac i wrando o'u genau beth sydd ganddynt i'w ddywedyd dros grefydd sefydledig. Pethau ydyw y rhai hyn y mae cydwybod mor bell oddi wrth esgusodi dŷn, fel y mae rheol fawr cydwybod yn gofyn, fel dyledswydd anhebgorol, y dylem fod yn barod bob amser i *roddi rheswm am y gobaith sydd ynom*, ac y dylem wrando ar y rhai sydd yng *nghadair Moses*, &c.; am hyny ystyriai efe y rhai a wrthodent hyn megis dynion yn cael eu llywodreuthu, nid gan gydwybod, ond gan ystyfnigrwydd.'

"Efe a ymddiddanodd yn gyhoeddus â'r Crynwyr yn Llanfyllin, sir Drefaldwyn: eu harwr hwy oedd y Dr. Thomas Llwyd, physygwr.‡ Un o'r gweinidogion Anghydffurfiol enwocaf yn ei esgobaeth oedd Mr. James Owen, Croesoswallt, yr hwn oedd yn bur ieuangc ar y pryd, ond yn eithaf adnabyddus trwy gyfrwng ei lyfr dysgedig a alwai efe 'Dadl dros Ordeiniad Ysgrythyrol,'§ yn profi bod ordeiniad gan henuriaid, heb esgobion teithiol, yn awdurdodol (a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1694), pwngc o ddadl yr oedd efe yn rhwym o chwilio iddo er amddiffyniad iddo ei hun. Cafodd yr esgob amryw ymddiddanion âg ef yn gyfrinachol: o'r diwedd rhyngodd bodd i'w arglwyddiaeth appwyntio James Owen i'w gyfarfod ef yn neuadd y farchnad yng Nghroesoswallt, ar ddydd Mawrth, y 27fed o Fedi, 1681, i roddi cyfrif yno 'trwy ba awdurdod yr arferai efe y weinidogaeth, heb gael ordeiniad esgobyddol.' Cyfarwyddodd ef hefyd i gael cymmaint o weinidogion eraill ag allai i'w gynnorthwyo, gan y byddai yn llawen ganddo ef glywed beth oedd ganddynt i'w ddywedyd drostynt eu hunain. Pur fyr oedd y rhybydd, dim dros bedwar neu bum niwrnod. Ofnodd rhai y dymunwyd am eu cymmorth, y gallai wneud mwy o niwaid nag o les, ac y gallai fod yn niweidiol i'w rhyddid hwy eu hunain, ac am hyny gwrthodasant gydsynio. Mr. Phylip Henri, a Mr. Jonathan Roberts, sir Ddinbych, yn unig, a aethant gyd â Mr. Owen. Daeth yr esgob yn ol ei appwyntiad, a dygodd yr enwog Mr. Henry Dodwel gyd âg ef, fel cynorthwywr. Yr oedd Mr. P. Henri yn gwbl ddieithr i'r esgob, ac ymdrechodd yn galed am gael yr ymddiddan yn gyfrinachol, ger bron nifer etholedig, ond ni chaniatteid hyny iddo. Dywedodd hefyd wrth ei arglwyddiaeth nas gellid disgwyl iddo ef, ac yntau o esgobaeth arall, gymmeryd dyddordeb yn yr ymddiddan, ond fel gwrandawr yn unig. 'Na, Mr. Henri,' eb yr esgob, 'nid peth yn perthyn i'm hesgobaeth i yn unig ydyw, eithr achos cyffredin crefydd ydyw; ac, am hyny, credaf y dylech chwi gymmeryd mwy o ddyddordeb ynddo nag fel gwrandawr.' Rhyngodd bodd i'w arglwyddiaeth addaw na throid dim a ddywedid mewn ffordd o ymresymiad, i fod er niwaid mewn un modd i'r dadleuwyr, ac na chymmerid mantais oddi wrtho i'w blino. Yr oedd amryw o glerigwyr a boneddigion y wlad, ynghyd âg ynadon y dref, a lliaws mawr o bobl yn bresennol, yr hyn, pe gallesid ei ochel, nis gallasai fod yn esmwyth i deimladau Mr. Henri, yr hwn ni hoffodd erioed wneuthur dim cynnwrf. Dechreuodd y ddadl tu a 2 o'r gloch yn y prydnhawn, a pharhaodd hyd rhwng 8 a 9 yn yr hwyr. Dywedwyd llawer o blaid ac yn erbyn, gan ddangos mai yr un rhai oedd esgobion a henuriaid, esgobyddiad ac anesgobyddiad Timothëus a Titus, awdurdod ordeiniad henadurol, &c. Trefnwyd y cyfan gyd â graddau mawr o ryddid, ond nid dan ddeddfau manwl dadleuaeth, yr hyn a barai bod yn anhawdd rhoddi hanes fanwl o'r ymdrafodaeth. Y mae'n haws cael y rhesymau ar bob tu o lyfrau a ysgrifenwyd ar y pwngc, nag o'r fath ymddiddan. Trefnodd yr esgob ei ran ef o'r gynnadledd gyd â mawr ddifrifwch, arafwch, a llareidd-dra yspryd, a thrwy hyny rhoddes gynllun godidog i bawb a ddichon fod yn yr un sefyllfa. Sylw Mr. Henri ar y gorchwyl yma, yn ei ddyddlyfr, sydd fel hyn:—'Gan fod llawer o adroddiadau wedi myned ar led, ymhell ac yn agos, ynghylch y ddadl, a bod pob un yn rhoi barn ar y canlyniad yn ol yr effaith a gaffai arno ef; ond, o'm rhan fy hun, wrth adfeddwl am dano, canfyddaf bod genyf achos mawr i gywilyddio o blegid fy aml wendidau a'm hamherffeithderau; ac etto yr wyf yn bendithio Duw, gan nas gellid trefnu y peth yn well er gwneud gwasanaeth i'r gwirionedd, na ddywedwyd ac na wnaed dim er ei niweidio. I Dduw y bo'r gogoniant!' Ond dywedai eraill bod Mr. Henri yn offeryn yn yr amgylchiad hwnw er gogoneddu Duw, a gwasaneuthu yr eglwys, yn gymmaint bron ag mewn dim a wneuthai efe erioed, oddi eithr pregethu yr efengyl. A dygwyd rhai, er yn wrthwynebwyr i'r achos a bleidiai, ac nad argyhoeddwyd gan ei resymau, etto o blegid ei fawr hynawsedd a'i ostyngeiddrwydd, a'r yspryd gwir Gristionogol a ymddangosai mor amlwg yn yr holl drafodaeth, i feddwl yn uwch o hono ef, ac o'r ffordd yn yr hon y rhodiai.

"Torodd y gynnadledd i fynu braidd yn ddisymmwth. Tra'r oedd yr esgob a Mr. Henri yn lled ddyfal mewn ymresymiad, yn rhedeg dros yr hyn yr ymddiddanwyd am dano, sibrydodd Mr. Jonathan Roberts wrth Mr. Henri, 'Attolwg, gadawer i'w arglwyddiaeth gael y gair olaf!'

* Gwel Rhisart Dafydd y Crynwr, pen. xxiii. o'r llyfr hwn (y iv.).
† Phillip Henry, tad yr esponiwr enwog, Matthew Henry.
‡ Gwel Rhisart Dafydd y Crynwr, fel y nodwyd o'r blaen.
§ "A Plea for Scriptural Ordination."

Digitized by Google

yr hyn a glywodd ynad heddwch oedd ar y faingc, ac a attebodd yn y fan, 'Yr ydych chwi yn dywedyd mai fy arglwydd a gaiff y gair olaf; ond ni chaiff efe, canys myfi a'i mynnaf. Yr ydym yn diolch i Dduw, y mae cleddyf yr awdurdod yn ein dwylaw ni, a thrwy ras Duw ni a'i cadwn ef, ac ni chaiff rydu; ac yr wyf yn gobeithio y gwna pob ynad cyfreithlawn fel y gwnaf finnau. Ac edrychwch chwi atoch eich hunain, foneddigion: trwy ras Duw, myfi a'ch diwreiddaf chwi allan o'r wlad.' Ar hyn llefodd rhyw greadur hyf o'r dyrfa, 'Amen! Bwriwch hwy i lawr dros y grisiau.' Gwrandawodd yr esgob hyn mewn distawrwydd; ond trefnodd Maer y dref ar gyfer eu diogelwch." *

Er na lwyddodd ei arglwyddiaeth i argyhoeddi ei frodyr Anghydffurfiol, yr oeddynt yn uchel yn ei feddwl byth ar ol hyny. Gohebai yn fynych â'r hynaws P. Henri; ac yn y flwyddyn 1687, "fel yr oedd efe yn myned trwy Groesoswallt, gyrodd am Mr. James Owen, ac anturiodd ei hyspysu o'r dirgelwch am wahoddiad Tywysog Orange gan rai gwŷr mawr, â'r rhai yr ymunodd yntau; ac ychwanegodd, y gobeithiai yr ymunai yr Ymneillduwyr Protestanaidd i hyrwyddo y lles cyffredin, 'canys brodyr ydych chwi a ninnau,' eb efe, 'er yn wir i ni fod yn frodyr digon digofus; ond yr ydym wedi gweled ein ffolineb, ac yn penderfynu, os byth y daw i'n gallu, yr ymddygwn atoch fel brodyr.'" †

Y mae'n ddïamheuol fod y Dr. Llwyd, yr hwn oedd ŵr pwyllog, hynaws, a charedig, yn meddwl yr hyn a ddywedai; ond yr oedd ei frodyr yn gyffredin o deimladau tra gwahanol at yr Ymneillduwyr, fel y dangosasant yn rhy fynych pan fyddai yr awenau yn eu dwylaw; ‡ eithr rhaid i ni gefnu arnynt hwy, er mwyn dilyn y Dr. Llwyd. Yn 1684, cyhoeddodd lyfr Saesneg a elwid fel hyn:—

"Disgrifiad Hanesyddol o Lywodraeth Eglwysig, fel yr oedd ym Mrydain Fawr a'r Werddon, pan dderbyniasant gyntaf y Grefydd Gristionogol." §

Dywedir y gellid ystyried y llyfr hwn fel esampl o'r ddadl rhwng yr Esgob Llwyd â'r Crynwyr yn Llanfyllin, ac â'r Ymneillduwyr yng Nghroesoswallt. §

Ar yr 8fed o Fehefin, 1688, yr oedd efe yn un o'r chwech esgob, y rhai, ynghyd â'r Archesgob Sancrofft, a fwriwyd i'r Tŵr am danysgrifo a chyflwyno deiseb i'r Brenin Iago II., yn yr hon y dangosent fawr wrthwynebiad i ddosparthu a chyhoeddi "Datganiad Rhyddid Cydwybod," a wnaed gan y brenin, yn eu holl eglwysydd, yr hon ddeiseb a alwai y llys "yn gynllunio, gwneuthur, a chyhoeddi cabledd terfysglyd yn erbyn Llywodraeth ei Fawrhydi." Cynhyrfodd hyn Eglwyswyr yr holl wlad, ac yn enwedig dinas Llundain; ac ar y 29fed o'r un mis, rhyddhawyd hwynt ar ol prawf hirfaith a chaled yn Llys y Penadur, er dirfawr orfoledd i'w cyfeillion, yn yr hwn yr ymunai yr Ymneillduwyr yn gyffredin, am y credent nad oedd gan y brenin awdurdod i wneud y fath beth heb gydsyniad y Senedd.*

Tu a diwedd y flwyddyn 1688, cydsyniai yr Esgob Llwyd yn galonog â'r chwyldroad; a dywedodd ef ei hun wrth James Owen, fel y gwelsom uchod, ei fod wedi ymuno â boneddigion eraill i wahodd William, Tywysog Orange, i'r wlad hon i ddisodli y Pabaidd Iago II. Pan ymsefydlodd William III. ar yr orsedd, gwnaed yr Esgob Llwyd yn alwerydd (almoner) i'r brenin.

Erbyn 1690, yr oedd Bibl mawr y Dr. Parry, a ddefnyddid yn yr eglwysydd, wedi treulio, fel yr oedd mewn llawer man yn annarllenadwy; a thrwy ymdrech yr Esgob Llwyd, yn benaf, cafwyd argraphiad unplyg mawr o'r Bibl yn y flwyddyn hon, yr hwn a alwyd yn "Fibl yr Esgob Llwyd," o blegid mai efe oedd y prif gynnorthwywr i'w gael allan. Argraphwyd ef "yn y Theatr, Rhydychain," ac yr oedd yr argraphiad yn cynnwys 1,000 o gopïau.† Am yr argraphiad yma o'r Bibl, dywed Rhisiart Morus, Tŵr Gwyn, Llundain, brawd Lewis Morus o Fon, fel hyn:—

"Fy nghymmydog, Mr. Pyrs Lewis, o Goleg yr Iesu, ac wedi hyny o Lanfachreth, ym Mon, oedd coleddwr yr argraphiad hwnw (nid yr Esgob Llwyd), trwy yr hwn y cafodd yr enw *Welsh Rabbi*, yn Rhydychain. Mi welais yn ei dŷ ef, yn Llanfihangel Tre'r Bardd [ger llaw Llanerchymedd, Mon], yr holl ddalenau prawf a ddaethant o'r wasg, yn y gwaith hwnw. Yr oedd tad yr Esgob Llwyd o dylwyth yr Henblas, ym Mon; ond Sais oedd yr Esgob, wedi ei eni yn *Berkshire*, ac ni wyddai fwy oddi wrth y Gymraeg, er ei fod unwaith yn Esgob Elwy, na'r Esgob Newcombe, y sydd yno yr awr hon, yn ymdrechu hyd y geill am ddeol yr iaith oddi ar wyneb y ddaiar; felly tra anghymmwys i hyfforddi iawn ysgrifen y Bibl." ‡

Y Parch. D. Silvan Evans a ddisgrifia y Bibl hwn fel y canlyn:—

"Rhwng enw y llyfr ac enw yr argraphle, y mae darlun o'r 'Theatr,' a rhai o adeiladau eraill Rhydychain; ac yn y cynbarth, milwr yn arwedd gwaywffon yn ei law ddehau, a tharian yn ei aswy, gyd â helm gribog ar ei ben, a sarphlath neu hedd-wialen, petrgalai, compawd, a rhai eer

* P. Henry's Life, by Sir J. B. Williams, pp. 85–7, 192–8.
† Neal's Purit., by E. Parsons, vol. ii., pp. 621–2; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 232–6.
‡ Neal's Purit., vol. ii., p. 622.
§ "An Historical Account of Church-Government as it was in Great Britain and Ireland, when first received the Christian Religion." —Llyfr. y Cymry, t. 231.

* Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. iv., pp. 320–27.
† Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639.
‡ Y Greal, 1806, t. 282.



Digitized by Google

eraill, yn gorwedd yn ei ymyl. Rhagddalen y Testament Newydd a lenwir oll gan luniau, megis angel yn ehedeg ynghanol y nef, â'r geiriau 'Y Testament Newydd' ar ei esgyll; ysgrifenydd yn ysgrifenu ei rol, ar yr hon y ceir yn ysgrifenedig *Dat.* xiv. 6; eryr yn clugio ar ddarn o glogwyn, gyd â rhai lluniau arwyddocaol eraill. Y mae papur y cyfargraph sydd ger fy mron yn helaeth hynod; a lle nid oes cyfeiriadau y mae cryn dair modfedd o ymyl y dail yn wag. Chwanegwyd at yr argraphiad hwn lawer iawn o gyfeiriadau ar fin y dalenau yn fwy nag oedd mewn un argraphiad blaenorol, yn yr hyn y canlynwyd ef gan Moses Williams, Rhisiart Morus, a'r argraphiadau diweddar yn gyffredin. Argraphiad lled anghywir a thrwstan ydyw, ac nid yw i'w gystadlu âg argraphiad yr Esgob Parri a ymddangosodd seithdeng mlynedd o'r blaen; ac ymhlith gwrthunion eraill a gynhwysir ynddo, gellir nodi *dwylo* yn lle *dwylaw*. Dilyn 'Fibl Cromwel' yn yr arferiad o'r llythyren Seisnig J." *

Cyhoeddodd yr Esgob Llwyd ddeg neu ddeuddeg o fân lyfrau heb law y "Disgrifiad Hanesyddol o Lywodraeth Eglwysig" a nodwyd uchod; a dywed rhai mai efe, ac nid William Nichols, oedd awdur "Mynegai y Bibl Cyssegr-lân," a gyhoeddwyd yn Gymraeg yn 1717. †

Yn y flwyddyn 1692, trosglwyddwyd yr Esgob Llwyd o Esgobaeth Llanelwy i Esgobaeth Maes y Cyrph (Lichfield) a Chaerwenbir (Coventry); ac yn 1699, i Esgobaeth Caerwrangon. Gwelir wrth yr holl ddyrchafiadau mawrion a gafodd yr Esgob Llwyd, yr ystyrid ef yn un o brif enwogion yr Eglwys Sefydledig. Bu farw ar y 30fed o Awst, 1717, yn y 91fed flwyddyn o'i oedran, yn ei balas, Castell Hartlebury, yn sir Gaerwrangon; a chladdwyd ef yn Eglwys Fladbury, ger llaw Evesham, yn sir Gaerwrangon, lle yr oedd ei fab yn beriglor. ‡

John Evans ydoedd fab i Matthew Evans, ac a anwyd yn Sutton Fawr, ger llaw Llwydlo (Ludlow), yn 1628. Bu ei dad a'i daid yn beriglorïaid olynol ymhlwyf Pen y Goes (Penegos), ger llaw Machynlleth, sir Drefaldwyn. Cafodd ei addysg athrofaol yng Ngholeg Baliol, Rhydychain. Gadawodd y brifysgol yn gynt nag y bwriadai, am nas gallai ymostwng i ymwelwyr y Senedd. Wedi dychwel at ei dad i Gymru, derbyniodd urddau esgobol gan y Dr. Mainwaring, Esgob Tŷ Ddewi, yn Aberhonddu, ar yr 28fed o Dachwedd, 1648; ac yr oedd efe hyd yn hyn yn Esgobyddwr zelog. Pa wedd bynag, newidiodd ei farn yn fuan wedyn am Esgobyddiaeth a chydffurfiaeth, a chofleidiodd olygiadau Annibynol ac Ymneillduol, wrth y rhai y glynodd yn zelog, er pob enbydrwydd ac erlidiau, hyd derfyn ei oes. Bu am dymmor yn bregethwr teithiol yng Nghymru, dan nawdd y Senedd; a bu wedi hyny yn athraw yr ysgolion gwaddoledig yn Nolgellau a Chroesoswallt, yn olynol; ac o'r lle olaf y trowyd ef allan gan Ddeddf yr Unffurfiad yn 1662. Yn y flwyddyn 1668, dewiswyd ef yn weinidog yr eglwys Ymneillduol yng Ngwrecsam,§ a pharhaodd trwy holl angerdd yr erledigaeth ffyrnicaf i bregethu yn ei dŷ ei hun. Ymddengys hefyd yr arferai gadw ysgol gyfrinachol o gylch y pryd hyn, er cynnal ei hun a'i deulu rhag angen; a bu mor gyfyng arno unwaith, ymhoethder yr erledigeuthau, fel y gorfodwyd ef i werthu amryw o'i lyfrau er cael ymborth iddo ei hun a'i deulu.

Gan ei fod yn ysgolhaig ac ysgolfeistr tra enwog, anfonai amryw o brif foneddigion yr ardaloedd eu meibion i gael eu haddysgu ganddo, yr hyn a fu o gymmorth mawr iddo i gynnal ei deulu; ac y mae'n dra thebyg iddo ddiangc rhag llawer o'r helbulon yr oedd yn agored iddynt fel Ymneillduwr, trwy ddylanwad rhieni y boneddigion ieuaingc a addysgid ganddo. Yn 1681, bu y Dr. William Llwyd, Esgob Llanelwy, a fu dan ein sylw uchod, yn daer iawn arno i gydymffurfio, gan gynnyg iddo fywioliaeth Eglwysig dda os cydsyniai; ond o herwydd iddo wrthod yn benderfynol, trodd yr esgob yn ei erbyn, a dirwywyd ef yn drwm amryw weithiau am gynnal cyfarfodydd yn ei dŷ, a manau eraill; ond ni lwyddodd ei gyhuddwyr gymmaint ag unwaith i gael ganddo dalu y dirwyon, a hyny, y mae'n debyg, am fod cynnifer o foneddigion yr ardal yn bleidwyr iddo, o blegid ei ddysg a'i egni llwyddiannus i hyfforddi eu meibion. Pa wedd bynag, o herwydd bod gan rai gymmaint o elyniaeth ato, bu raid iddo lechu dros dymmor maith yn ei dŷ, â'i ddrysau yn glöedig. Er i'r gwarantau yn ei erbyn fod yn lliosog, ni lwyddodd ei elynion i'w ddal ond unwaith, a hyny tra ar y ffordd; ond rhyddhawyd ef yn fuan trwy ddylanwad boneddwr a arferai gymmeryd ei blaid. Gorfodid ef yn wastad i deithio yn y nos, pan elai oddi cartref, o herwydd bod iddo gynnifer o elynion, a bernir i hyny effeithio yn niweidiol ar ei iechyd, fel yr oedd wedi gweulu yn ei gorph dros rai blynyddau cyn ei farwolaeth; ac effeithiodd i raddau ar ei feddwl

* Llyfr. y Cymry, t. 248. † Yr un, t. 312.
‡ Williams's Em. Welshm., pp. 287–8.

§ Dywed y Dr. Richards (Cambro-Brit. Biog., p. 210), bod "yr Anghydffurfwyr yno, ar ol ymadawiad Mr. Mostyn, wedi ymwahanu, fel yr ymddengys, ac ymffurfio yn ddwy eglwys wahanol, un yn Bresbyteraidd, a'r llall yn Annibynol, yn gynnwysedig o Fedyddwyr. Am yr olaf, daeth Mr. Evans yn fugail iddynt, ac felly y parhaodd byth wedyn hyd ddydd ei farwolaeth." Nid oes neb arall o fywgraphwyr J. Evans yn crybwyll hyn, ac nid yw y Dr. Richards yn cyfeirio at unrhyw awdurdodau i gadarnhau ei adroddiad.

Digitized by Google

hefyd yn ei ddyddiau diweddaf. Yr oedd yn ŵr o ddysg helaeth, o sobrwydd a difrifwch mawr, o ymddiddan dilychwin; ac yr oedd yn bregethwr doeth a llafurus.*

Bu John Evans yn briod ddwywaith. Ei ferch o'r briodas gyntaf oedd gwraig Timothy Thomas; a mab iddi hi oedd Timothy Thomas, yr hwn a fu yn weinidog enwog iawn ar gynnulleidfa gymmysg o Annibynwyr a Bedyddwyr yn Penshore, sir Gaerwrangon.† Ail wraig J. Evans ydoedd ferch y Milwriad Gerard, llywydd castell Caerlleon, a gweddw yr enwog Vavasor Powel, gwraig o yspryd ardderchog, a dealltwriaeth cryf; a mab o'r briodas honno oedd y Dr. John Evans, coffadwriaeth yr hwn a ddaw dan sylw mewn pennod ddyfodol. Cofnododd Matthew Henry derfyniad oes John Evans, yr hon a ddaeth i ben ar yr 16fed o Orphenaf, 1700, fel y canlyn:—

"Ychydig cyn ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn yr 72fed flwyddyn o'i oedran, llefarai gyd â mwy o amgyffred nag arferol, gan lawenychu yn yr Arglwydd Iesu Grist fel ei graig; a phan y dywedwyd wrtho ei fod yn myned i dŷ ei Dad, efe a attebodd yn siriol, 'Ni bydd dda arnaf fi nes y byddaf yno.' Pan geisiodd rhai o'i gyfeillion oedd yn bresennol ganddo roi rhyw gyngor iddynt, efe a ddywedodd, 'Ewch at Dduw mewn gweddi.'"‡

Traddodwyd ei bregeth angladdol gan Dafydd Jones, gweinidog yr Annibynwyr yn y Mwythig, oddi ar Act. xxi. 14.§

---

## PENNOD XXI.

### SAMUEL JONES A HENRI MORUS.

SAMUEL JONES oedd fab i un John Roberts, Corwen, sir Feirionydd, yr hwn a symmudodd oddi yno rywbryd i fyw ger llaw Castell y Waun, yn sir Ddinbych, lle y ganwyd Samuel yn y flwyddyn 1628. Ni wyddys ddim ychwaneg am ei rieni; ond gellir casglu oddi wrth yr addysg a roddasant i'w mab mai Eglwyswyr zelog oeddynt, a'u bod mewn gwell sefyllfa na chyffredin. Derbyniwyd ef i Goleg yr Holl Eneidiau, yn Rhydychain, ar yr 11fed o Fawrth, 1647, pan oedd efe tu a 19 oed, ac yn agos i ddwy flynedd cyn tori pen Charles I., yr hyn sy'n rhoi lle arall i gasglu mai Eglwyswyr Esgobyddol oedd ei rieni. Symmudodd ymhen rhyw ennyd wedi hyny i Goleg yr Iesu, lle y dyrchafwyd ef yn gymmrawd ac yn athraw; a dïau mai o gylch y pryd hyny, pan oedd y brifysgol dan awdurdod y Presbyteriaid, ar ol tori pen Charles I., yn 1649, y cafodd y radd o M.A. Wedi hyny ordeiniwyd ef gan y Presbyteriaid i fywioliaeth eglwysig Taunton, yng Ngwlad yr Haf; ac ar ol hyny symmudwyd ef i fywioliaeth eglwysig plwyf Llangynwyd, ger llaw Pen y Bont ar Ogwy, sir Forganwg,* tu a diwedd 1652 neu ddechrau 1653, o'r lle y trowyd ef allan gan Ddeddf yr Unffurfiad yn 1662.

Wedi iddo ymsefydlu yn Llangynwyd, priododd o gylch y flwyddyn 1653, â Mari, merch Rhys Powel (Rees Powell), Ysw., o'r Maes Teg, ymhlwyf Llangynwyd, yr hwn, fel yr ymddengys, a roddes iddo Fryn Llywarch, ffarm gysurus yn y plwyf, fel cynhysgaeth i'w wraig, Mari; ac yno y preswyliodd efe o amser ei briodas hyd ddiwedd ei oes. Yn ystod y 25 mlynedd y bu Samuel Jones a'i wraig fyw ynghyd, yn anwyl iawn o'u gilydd, ganwyd iddynt 14 o blant; ond bu y rhan fwyaf o honynt feirw yn eu babandod; ac ar enedigaeth yr olaf o honynt, bu y fam dyner ei hunan farw, er dirfawr alar i'w phriod, ar y 23ydd o Orphenaf, 1673, a hi yn 38 oed. Cyfansoddodd y gweddw galarus linellau Seisnig pur effeithiol er coffa am dani, yn cael eu rhagfleunu gan chwech o eiriau Lladin, y rhai sydd i'w gweled ar garreg ei bedd hyd heddyw ym mynwent Llangynwyd, o'r sawl y mae y rhai canlynol yn rhyw fath o aralleiriad:—

"Mewn Bywyd Marwolaeth, mewn Marwolaeth Bywyd.

"Anwylaf wraig. a mam dynera,
Mewn cwsg yng Nghrist, a orwedd yma:
Ddarllenydd clyw, dy ddydd sy'n darfod,
Pryn yr amser, gwna farw'n bennod:
Heddycha â Christ, gwna yn ddiattreg,
Na ddïystyra gyngor carreg."†

Priododd Samuel Jones eilwaith ar y 14ydd o Awst, 1677, â gwraig weddw a'i henw Mari

* Palmer, vol. iii., pp. 523-5.

† "Cynnyrch y briodas hon," medd y Dr. Richards (Cambro-Brit. Biog., p. 212). "ydoedd fab a aned ar ol marw ei dad, enw yr hwn hefyd oedd Timothy, a'r hwn a ddaeth wedyn yn weinidog enwog i'r Bedyddwyr yn Pershore, sir Gaerwrangon, lle y dilynwyd ef gan ei fab o'r un enw, y naill a'r llall yn wŷr o ddoniau a duwioldeb enwog." Nid yw efe yn crybwyll bod y "gynnulleidfa yn gymmysg o Annibynwyr a Bedyddwyr," ac nid yw yn cyfeirio at un awdurdod dros ei fynegiad.

‡ Henry's Miscel. Works, vol. i., p. 186; Williams's Life of M. Henry, p. 342.

§ Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 210, 212; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 166-8; En. Cymru, I. F., t. 338-9; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 9.

* O herwydd ei fod yn dal bywioliaeth blwyfol, yn ddïau, y gelwir ef yng "Nghyfrinach y Beirdd" yn "Samuel Jones Offeiriad," t. 1. 134, 144, 161.

† "In Vita Mors, In Morte Vita.

"A loving wife, a mother dear,
Asleep in Christ, is lodged here:
Reader, repent, thy minutes fly,
Redeem thy time, and learn to die:
Now make thy peace in Christ alone,
Slight not the counsel of a stone."

Digitized by Google

Dafydd, o Lanfleiddiau Fach, ger llaw Caerdydd, medd dau o'i fywgraphwyr;* tra y dywed dau arall mai o Lanidan, Pont Faen, yr ydoedd;† ond nid ymddengys y bu iddo blant o'r briodas yma.‡

Dechreuodd Samuel Jones gadw ysgol yn Bryn Llywarch yn fuan ar ol iddo gael ei droi allan o fywioliaeth blwyfol Llangynwyd, yr hon ysgol a ddygodd ym mlaen hyd derfyn ei oes, a daeth yn sefydliad pur enwog; a dywedir mai parhâd o ysgol Bryn Llywarch yw yr athrofäu Annibynol sydd yn awr yng Nghaerfyrddin ac Aberhonddu.§ Er mai Anghydffurfiwr zelog oedd S. Jones; etto, gan ei fod yn dra enwog fel ysgolhaig ac ysgolfeistr, yr oedd amryw foneddigion Eglwysig yn anfon eu plant i'w ysgol; ac ymhlith lliaws eraill, bu mab yr Arglwydd Mansel, o Fargam, ynddi am flynyddau. Yn ysgol S. Jones hefyd y derbyniodd y rhan fwyaf o bregethwyr Cymru, o 1662 hyd 1697, eu haddysg, ym mysg y rhai y gellir enwi James Owen, Phylip Puw, Daniel Phylips, Rees (Rhys) a Samuel Price (Prys), ac amryw eraill. Er bod S. Jones yn bregethwr doniol a galluog; etto, gan fod gofal yr ysgol arno, nis gallodd wneud ei hun mor gyhoeddus a defnyddiol trwy y wlad fel pregethwr a rhai o'i gydoeswyr, megis Stephen Hughes, Henry Morus, Vavasor Powel, ac eraill. Cyfyngodd ef ei lafur fel pregethwr bron yn hollol i'r ardal yr oedd yn byw ynddi.

Yn y flwyddyn 1665, cymhellwyd S. Jones yn daer gan y Dr. Francis Davies, Archddiacon Llandaf, a'r Dr. Huw Llwyd, Esgob y lle, i gydymffurfio, gan addaw bywioliaeth eglwysig dda iddo os cydsyniai, trwy gymmeryd ei ordeinio yn ol y dull esgobol, a'r cyffelyb. Yntau, gan ddïolch yn fawr iddynt am eu caredigrwydd, a ddywedodd yn foneddigaidd nas goddefai ei gydwybod iddo gydsynio heb gael attebion boddhaol i ofyniadau a ddanfonai efe iddynt. Gan fod y gofyniadau hyny y crynhoad gorau ac egluraf, sydd hyspys i ni, o resymau y Ddwy Fil a drowyd allan o'u bywioleuthau plwyfol ar "Ddydd Bartholomëus," yn 1662, o'r sawl yr oedd S. Jones yn un, am wrthod cydymffurfio, ni a ddodwn rydd-gyfieithiad o honynt ger bron yma:—

"*Am yr Ardystiad yn y Ddeddf.**

"1. A oes unrhyw lyfr, heb law yr hwn a ysgrifenwyd gan yr Yspryd anffaeledig, o ran sylwedd a threuthiad, a all yn gyfiawn hawlio *cydfarniad diffuant* y deall, a *chydsyniad* yr ewyllys â'r hyn oll a gynhwysir ynddo? A ydyw barnau anghyttunol llawer o ddynion cydwybodol a dysgedig ynghylch y llyfrau neillduol a grybwyllir yn yr ardystiad, a'u rhesymau hyderus (gynt ac yn ddiweddar) o'u plaid ac yn eu herbyn, ddim yn rhyw sail, o leiaf, i ddynion llai eu grasusau a'u doniau, i betruso ynghylch y pyngciau dadleuol, i'r rhai y gofynir eu *cydsyniad diffuant?*

"2. Ai nid yw yn rhagrith damniol mewn dŷn ddatgan ei *gydsyniad diffuant* â'r hyn oll a gynhwysir yn y llyfrau hyn neu ryw rai eraill, od ymddengys iddo bod dim ond rhyw ranau o honynt yn amheus?

"3. Ai nid yw y Ffurfwasanaeth,† &c., yn cynnwys rhai gosodiadau sydd ynddynt eu hunain mor amheus, o leiaf, fel y gallant rwystro y cydsyniad a ofynir, megis yr erthycl *Filioq.*, yng Nghredo Athanasius, yr hon sy'n cau yr Eglwysi Groegaidd allan o'r possibilrwydd o iachawdwriaeth? Y mae'r ymadroddion sydd yn y ffurfwasanaeth ar ddiwedd Bedydd Cyhoeddus, am *iachawdwriaeth ddiamheuol* yr holl fabanod bedyddiedig, a fyddont feirw cyn pechod gweithredol, a'r *gwir ddïogel obaith o iachawdwriaeth* pob un a gleddir yn ol y Ffurfwasanaeth, yn ymddangos yn gwrthddywedyd cyfieithiad y Psalmau, megis Ps. cv. 28. Cymharer Psalmau y Ffurfwasanaeth a'r Bibl.

"*Gofyniadau ynghylch y Defodau a arddodir.*‡

"1. Ai nid yw pob ffurfiau sefydledig o ddyfais dŷn mewn addolid Dwyfol yn cael eu gwahardd gan rwymedigaeth yr Ail Orchymyn, a chan fygythion llymion am ychwanegu, cyfnewid, neu dynu oddi wrth yr addoliad Dwyfol, heb adael i ddŷn ond yn unig iawn lywodraethiad yr amgylchiadau naturiol sy'n dwyn perthynas â gweddusrwydd a threfn, yr hyn a berthyn yn gyffredin i wasanaeth gwladol a chrefyddol, ac yn dilyn eu natur fel y maent yn *weithredoedd*, ac nid fel gweithredoedd *crefyddol?*

"2. Ai nid yw y seremonïau a osodir gan ddŷn i'w dysgu, trwy ystyr neillduol a roddir iddynt, yn dyfod yn berffaith grefyddol, a thrwy gael eu cyssylltu fel ammodau angenrheidiol i wasanaeth Duw, yn dyfod yn rhan o'r addoliad hwnw: nid o addoliad moesol a olygaf, ond o addoliad sefydledig, defodol, neu addoliad damweiniol, megis yr oedd y tabernacl, y deml, yr allor, y gwyliau, yr offeiriaid, a'r gwisgoedd offeiriadol o dan y gyfraith, yn rhan o'r gwasanaeth Lefiticaidd?

"3. Gan mai adeilad corph Crist ydyw yr amcan proffesedig yn yr arddodiadau hyn (o blegid rhaid i drefn, gweddusrwydd, a chydffurfiad fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw), onid ydyw yn anfri ar ddoethineb, gofal, a ffyddlondeb ein Gwaredwr bendigedig, Brenin mawr ei Eglwys, i unrhyw foddion gael ei ddefnyddio gyd â defodaeth grefyddol i'r amcan hwnw, ar gyfer yr hyn y gwnaeth efe ei hun ddarpariaeth ddigonol yn y gyfraith berffaith a adawodd i ni? Ac onid yw canlyniadau galarus a wnaed,

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 259; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 212.

† En. Cymru, I. F., t. 636; Cymru, O. J., cyf. i., t. 715.

‡ Priododd Maria, merch hynaf S. Jones, yn Abertawe, ar y 15fed o Awst, 1687, â Dafydd Jones, o Langollen, un o ysgolheigion ei thad. Ymsefydlodd D. Jones yn fuan ar ol priodi yn weinidog i eglwys Annibynol yn y Mwythig, lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1718. Bu ei fab, Joshua Jones, yn weinidog Ymneillduol ym Manceinion (Manchester) dros lawer o flynyddoedd.—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 260; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 202.

§ Ymddengys mai fel moddion i'w gynnal ei hun a'i deulu y sefydlodd S. Jones ysgol Bryn Llywarch, ar ol cael ei droi allan o'i fywioliaeth blwyfol; ond a ddaeth efe, ymhen amser, i ystyried ei ysgol fel athrofa glerigol, nid ydys yn gwybod; a methasom gael gwybod a oedd yr enwad Annibynol, oedd yn ieuangc a gwan ar y pryd, yn talu rhywfaint iddo am addysg y rhai a droisant allan wedi hyny yn glerigwyr Ymneillduol, megis James Owen ac eraill, ai peidio.

* "About the Declaration in the Act."

† Liturgy.

‡ "Queries about Ceremonies imposed."

Digitized by Google

yn oed gan ddynion doethion yngwahanol gyfnodau yr eglwys, er cyrraedd y cyfryw amcan, trwy gyfrwng eu sefydliadau eu hunain, yn dangos diffyg addasder ac effeithiolrwydd y dyfeisiau hyny i gyrraedd eu hamcanion? Y mae Duw yn rhoddi addewid a bendith ar ei sefydliadau ei hun; ond nis gallwn ni roddi y naill na'r llall ar yr eiddom ein hunain.

"4. A allai dŷn, yn gydwybodol, ar ol ymostwng i'r defodau presennol, betruso defnyddio unrhyw ddefodau eraill o eiddo Eglwys Rhufain (pe gelwid am hyny), gan y cydnabyddir mai yr un sail ac amcan sydd iddynt oll; a bod llawer o honynt hwy heb ymddangos mor dramgwyddus, herwydd nad ydynt wedi eu camarfer mor wrthun a rhai o'r eiddom ni y cydsyniwyd arnynt eisoes?

"*Gofyniadau ynghylch Ail-ordeiniad.**

"1. A ddylai dŷn, wedi iddo gael, trwy diriondeb Dwyfol, rhyw dystiolaeth gysurus yn ei galon ei hun, a seliau o'i anfoniad ar galonau rhai eraill, ei fod yn was gwirioneddol, er y distadlaf, i Grist, wneud rhywbeth a ddichon gael ei ystyried yn wadiad o'i weinidogaeth?

"2. A ydyw yn gyttunol âg anrhydedd Crist, âg urddas ei ordinhadau ef, ac â chariad at eneidiau dynion, i weinidog, a fyddo yn foddlawn ynghylch ei alwad fewnol ac allanol, brynu ei ryddid i arfer ei weinyddiadau gweinidogeuthol ar amser arall; ac o ganlyniad, trwy faglu cydwybodau dynion y bo a fynnont â'r gweinyddiadau hyny?

"3. Ai nid arferiad ffugiol, yn tueddu er dianrhydedd yr efengyl, a'i gweinyddiad yn gyffredin, a fyddai ymwrthod âg ordeiniad a ystyrid yn safadwy a chyfreithlawn, trwy ymarferiad y rhan fwyaf, ac, fel y tybiaf, ym marn yr holl eglwysi Protestanaidd, yn enwedig Eglwys Loegr, fel y tystiwyd gan yr Archesgob Bancroft yn sefydliad Esgob Ysgotaidd a ordeiniwyd yn unig gan y Presbyteriaid?

"*Gofyniadau ynghylch Tramgwydd.*†

"1. Oni ddylai y gorchymynion gwaharddol sy'n rhwymo yn wastadol, ac yn gwahardd tramgwydd, natur anfad yr hwn yw enaid-lofruddiaeth—y wae ofnadwy a gyhoeddir yn erbyn yr hwn a dramgwyddo ddim ond un, a hwnw yr un lleiaf—ynghyd â gofal a thynerwch tadol yr apostol yn yr achos, wneud pob Cristion gwirioneddol yn dra gochelgar a gwyliadwrus yn hyn o beth?

"2. A all gorchymyn yr ynad ddïogelu y gydwybod rhag euogrwydd, mewn gweithred y gwyddys yn flaenorol y bydd yn dramgwyddus, ac yn achos o bechod i lawer, yn ol ansawdd y weithred *(ex conditione operis)*?

"3. A ydyw dirmyg y weinidogaeth, a gweinidogion yr Efengyl, y gwawd a fwrir arnynt hwy, eu swydd, a'u galwedigaeth; yr anghrefyddolder, y penrhyddid, a'r diddduwiaeth a welir yn y genhedlaeth bechadurus hon, yn cael ei hanfon, neu o leiaf ryw gymmorth, allan o'r gwreiddyn hwn, sef tramgwydd gweinidogeuthol, ie, o'r rhyw yma hefyd o dramgwydd, i'r hwn yr ymchwilir yn bresennol?

"4. Gan nad yw y drwg lleiaf o bechod i gael ei wneud er gochelyd y drwg mwyaf o ddïoddef, neu er cyrraedd y daioni mwyaf trwy hyny, os bydd i weinidog ymwthio yn erbyn ei oleuni yn y pethau hyn oll, neu rai o honynt, neu y cyffelyb, oni fyddai yn gyfiawn i Dduw ddinystrio ei holl ymdrechion, a'i ddilyn yntau â dychrynfeydd cydwybod hyd ei fedd? Y mae hyn yn ymddangos bron yn ddïamheuol oddi wrth esamplau amlwg sydd ynghyrraedd profiad diweddar."‡

Y mae arwyddion dïamheuol o dduwioldeb, gonestrwydd, difrifwch, cydwybodolrwydd, a phenderfyniad digellwair yn y gofyniadau gonest uchod; tra ar yr un pryd yr ymddengys i ni fod y gŵr da yn bur gyfeiliornus ei olygiadau ynghylch gweinidogion, gweinidogaeth, ordeiniad, rhyddid yr holl saint i "dramwy, gan bregethu y gair," a'r cyffelyb. Nid yw hysbys a wnaed cais gan yr Esgob a'r Archddiacon i atteb y gofyniadau uchod ai peidio: os gwneuthant, ni lwyddasant i gael gan Samuel Jones aberthu argyhoeddiad ei gydwybod ar allor bywioliaeth blwyfol, canys efe a fu byw a marw yn Anghydffurfiwr diymdro. Wedi iddo wrthod cymmeryd ei ail-ordeinio a chydymffurfio â'r Eglwys Sefydledig, cafodd ei erlid yn chwerw gan yr Esgobyddion o'r flwyddyn 1667–1674, pryd yr oedd y Dr. Francis Davies yn Esgob Llandaf, yr hyn sydd yn ein gorfodi i feddwl yn bur isel am dduwioldeb a gonestrwydd y gŵr hwnw. Pan adnewyddwyd Deddf y Celgyfarfod *(Conventicle Act)* yn 1669, ac y galwyd am gyfrif o'r cyfarfodydd dirgel a gedwid ymhob esgobaeth, ceir y nodiad canlynol yn rhestr celgyfarfodydd Morganwg:—*Bettws:* Yn nhŷ Rhys Powel (Rees Powell), yr hwn, yn y gwrthryfel diweddar, ydoedd sirydd ac ynad heddwch. Dysgawdwr, Mr. Samuel Jones, M.A., a ordeiniwyd gan y Presbyteriaid." Dengys y cofnodiad yna bod tad ynghyfraith Samuel Jones, cystal ag yntau, yn parhau i addoli Duw yn ol y ffordd a elwid yn heresi yn yr oes honno, a'u bod wedi cael eu nodi allan i'w herlid.

Yn "Nhrysorfa Grefyddol Gwent a Morganwg" am 1838, dywedir i S. Jones gael ei garcharu amryw weithiau am ei Anghydffurfiaeth yn ystod esgobawd y Dr. Davies crybwylledig. Un diwrnod yn amser cynhauaf, pan yn eistedd ar geubren yn agos i'w dŷ, daeth dau ddŷn dïeithr ato, a gofynasant iddo a'i hwnw oedd Bryn Llywarch; i'r rhai yr attebodd yntau yn gadarnhaol. Yna gofynasant a oedd Mr. Jones gartref. "Ydyw," eb yntau: "ewch i mewn, a chewch ei weled yn ebrwydd." Yr oedd wedi ammau mai ceisbyliaid oeddynt wedi dyfod i'w ddala ef; ond ni chynhygiodd ddïangc, er y gallasai yn hawdd wneuthur hyny. Aeth ar eu hol i'r tŷ, a dywedodd, "Myfi yw Mr. Jones: beth sydd a fynnoch â mi?" Effeithiodd ei eiriau a'i ymddangosiad urddasol gymmaint ar y ddau ddŷn fel y buant dros beth amser heb atteb gair iddo. O'r diwedd, dywedodd un o honynt yn grynedig mai swyddogion oeddynt, wedi dyfod gyd â gwarant oddi wrth yr Ynad Twrbil, o'r Ewenny, i'w ddal am bregethu o'r tu allan i Eglwys y Plwyf. Er bod yr Ewenny

* "Queries about Re-ordination."
† "Queries about Scandal."
‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 231–3

o wyth i ddeng milltir o Fryn Llywarch, dewisodd S. Jones gerdded yno yn hytrach na thaflu cymmydog i anghyfleusdra, i'r hwn yr oedd wedi rhoi benthyg ei geffylau i gario gwair y diwrnod hwnw. Gan ei fod braidd yn dew, a hefyd yn lled wael ei iechyd ar y pryd, teimlai yn bur flinedig wedi cerdded y fath bellder. Ar ol iddo gyrraedd tŷ yr ynad, yr hwn oedd greadur ymyrgar, creulon, ac erlidgar, arweiniwyd Jones i'r gegin, ac eisteddodd yntau yno. Ymhen ychydig amser daeth yr ynad i mewn yn ddisymmwth; a phan welodd ef yn eistedd, gofynodd iddo yn sarug, "Pa fodd yr ydych yn beiddio eistedd yn fy nhŷ i?" Attebodd Jones yn llariaidd, ond yn gwbl hunan-feddiannol, "Ni thybiais y buasai yn dramgwydd i ŵr bonheddig i ddŷn blinedig yr anfonasai efe am dano, eistedd yn ei gegin; ond, bydd fy aelodau blinedig i yn alluog i'm cynnal pan fydd rhai yn methu sefyll." "A wyddoch chwi â phwy yr ydych yn siarad?" eb yr ynad digofus. "O gwn, yn burion," oedd yr atteb digyffro. "Y mae genyf fi awdurdod i'ch anfon i garchar," eb yr erlidiwr. "Nid heb genad fy Nhad nefol," medd S. Jones. Ar hyny, eisteddodd yr ynad ffyrnig, ac ysgrifenodd warant i'w anfon, dan ofal y ddau geisbwl, i garchar y Bont Faen; ond cyn ei fod wedi teithio dros filltir ar ei ffordd tu ag yno, clywent ddŷn yn gyru ar eu hol nerth traed ceffyl, yr hwn a orchymynodd i'r ceisbyliaid ollwng y carcharor yn rhydd yn y fan, gan fod ei feistr bron colli ei synhwyrau yn ei barlwr o blegid yr hyn a wneuthai! Ar hyny, cafodd S. Jones ddychwel adref at ei deulu, wedi cerdded o gylch 20 milltir y diwrnod hwnw. Er mor ddysgedig, duwiol, boneddigaidd, a defnyddiol oedd Samuel Jones, nid oedd y cyfan yn ddigon i'w ddïogelu rhag ymosodiadau creulon erlidwyr culfarn ei oes, ac y mae lle i ofni bod yr un yspryd mewn llawer etto o sectariaid rhagfarnllyd a hunandybus, ond bod barn y cyhoedd, a chyfreithiau y wlad, wedi newid.

Er maint sefydlowgrwydd S. Jones fel Anghydffurfiwr, etto, yr oedd gan bob Cydffurfiwr, galluog i fawrhau ei werth, y parch mwyaf iddo. Yr oedd rhai o'r Eglwyswyr llymaf ar delerau cyfeillgar âg ef. Dengys y llythyr canlynol, a gadwyd ym mysg yr *Ayscough MSS.*, yn yr Amgueddfa Frytanaidd, ac a gyhoeddwyd eisoes yn y "Christian Reformer" am 1834, ac yn "Stoughton's Spiritual Heroes" (Enwogion Ysprydol Stowtn), bod yn oed y Dr. Robert South, Eglwyswr, nodedig o blegid ei ddallbleidiaeth, yn ymdeimlo yn rhwym o barchu Samuel Jones:—

"*Mawrth y 12fed*, 1688.

"*Anwylaf ac Anrhydeddusaf Gyfaill*,- Pe gallwn gywilyddio am ragori o honoch arnaf mewn dim, byddai hyny o blegid i chwi ragori fel hyn mewn caredigrwydd, ac wedi derbyn o honof gymmaint genych, ac i mi roddi cyn lleied. Y mae gan eich cariad y fantais fyth o ragfleuniad, effaith ddiamheuol mawr fywiowgrwydd; fel na ddichon y cwbl a allaf fi ei fynegi gyrraedd ymhellach na chydnabyddiad, yr hyn, ar y gorau, nid yw ond ad-daliad mewn dyn-warediad; pethau diwerth mewn cymhariaeth i'r hyn a ellir ond eu hysgrifenu rhag llaw.

"Anwylaf Syr,—Yr ydych yn son fy mod i wedi selio eich maddeuant; ond gwrthrych arall, yr wyf yn sicr, yw eich cariad, oddi eithr nad gwir yw y dywediad, mai prin y maddeuir ffafrau pan nas gellir eu had-dalu. Yr wyf yn diffuant gyffesu y canfyddaf wir serch cryfach ynoch chwi, a hyny heb fod ar un sail o'm tu i, eithr yr hyn a greir yn gwbl gan eich gogwydd a'ch tueddiad llariaidd chwi iddo ei hun, fel yr wyf fi yn synu at yr hyn a welaf ac a ganfyddaf, wedi gweled a chanfod pethau mor wahanol mewn lleoedd eraill.

"Y mae fy nhrigfod presennol yn Westminster; ond gŵyr Duw nad wyf fi yn edrych ar hwnw nac un lle arall fel fy mhreswylfod, tra y gwelaf yr holl genedl mor ansefydlog. Gallaf fi ddywedyd fel chwithau fy mod (dïolch i Dduw) yn mwynhau fy iechyd, ac nad oes arnaf eisiau dim allanol ond ymddiddan ffyddlon a phriodol; canys gall bod diffyg o hyny lle nad oes dim cyfeillach. A phe baech chwi mor ddïymrwymiad ag wyf fi, dïau genyf y gallwn erfyn arnoch ddyfod yma a byw gyd â mi; canys ni wn i am neb ond chwychwi ac un arall, yr hwn sydd ymhell bell oddi yma, â chanddo lawer o rai bychain o'i amgylch, y rhai, o ran dysg a serch, a allent bereiddio fy mywyd i, a hyrwyddo fy efrydiau. Ond er pelled ydych, yr ydych yn debyg o gael eich blino genyf yn awr ac eilwaith, gan y meddaf ddigon o gyfleusdra i ysgrifenu atoch. Y mae ein cyfaill, y Dr. Llwyd, yr hwn, fel y tybiaf, a adwaenoch, ac, yn fy marn i, yn bur ddedwydd hefyd. Y mae efe yn ŵr gonest ac athrylithgar; ac y mae'n ddïamheuol genyf fod gan Dduw fendith ynghadw iddo. Anwyl Syr,—Nis gallaf ond dïolch i chwi am eich holl serch, a dymuno ar iddo Ef, yr hwn yn unig a all, eich gobrwyo. Yr wyf yn eich sicrhau fy mod,

"Eich byth ffyddlawn a serchog gyfaill,

"ROBERT SOUTH."*

Taenwyd chwedl anwireddus ar led, ychydig amser cyn ei farwolaeth, yn heuru ei fod wedi ymwrthod âg Anghydffurfiaeth; ac ysgrifenodd y gŵr a glywsai y chwedl ato, er gwybod a oedd hyny yn wir, a chafodd yr atteb canlynol oddi wrtho:—

"SYR,—Tarawyd fi â gradd o syndod gan eich llythyr diweddaf, ac nis gallaf lai na rhyfeddu bod y fath chwedlau anwireddus ag a grybwyll eich papur yn cael unrhyw grediniaeth, yn enwedig gan rai sydd yn fy adnabod, ac yn gwybod fy mhroffes a'm hymddygiadau dros ddeugain mlynedd bellach. Ond nid yw tad y celwydd etto wedi marw, er y gallai ddŷn dybied bod ei gadarlwy weithiau wedi eu treulio ymaith, gan y gorfodir ef i ddefnyddio y fath ystrywiau bychain a gwrthun a'r chwedl ddisail hon er cyrraedd ei amcanion. Ystyriaf mai trugaredd yr unig

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 266.

ddoeth Dduw sydd wedi estyn fy mywyd brau hyd yma, tu hwnt i bob disgwyliad, fel y gallwyf amddiffyn, nid yn gymmaint fy enw bychan fy hun ag enw mawr y Duw sanctaidd a bendigedig, a'i ffyrdd daionus Ef, yn y rhai yr wyf fi a'm cyfeillion Cristionogol wedi rhodio mewn heddwch a chydgordiad, er yr holl waradwyddiadau a'r dïoddefiadau a gyfarfuasant.

"Y mae'n wir i Mr. David Thomas, gweinidog plwyf Margam, a chyfaill mynwesol i mi, ymweled â mi amser yn ol yn fy nghystudd; ond anwiredd noeth a haerllug ydyw iddo fy holi i ynghylch fy Anghydffurfiaeth, ac i minnau broffesu fy edifeirwch o'i herwydd, ac addaw gweithredu cymmaint dros Eglwys Loegr, od adferai Duw fy iechyd, ag a wneuthum gynt yn ei herbyn. Yr wyf yn datgan i chwi ac i'r byd, megis geiriau dŷn yn ymyl angau, er bod genyf gynt, ac etto hefyd, lawer o bechodau mawrion i alaru o'u plegid ger bron Duw, etto na theimlais y pryd hwnw, nac wedi hyny chwaith, yr aflonyddwch lleiaf yn fy nghydwybod o herwydd i mi wrthod cyttuno ac ymostwng i'r beichiau a arddodid fel ammodau anhebgorol cymmundeb âg Eglwys Loegr. Yr wyf yn addef fy mod gynt, a'm bod etto hefyd, yn coleddu y teimladau parchusaf at weinidogion galluog a chydwybodol Eglwys Loegr, a'm bod yn cyttuno â phawb sydd yn iach yn y ffydd, a phur yn eu bywyd a'u hymarweddiad; ond proffesu fy *nghydsyniad calonog*, a'm *crediniaeth* o bob peth a gynnwys y llyfrau a grybwyllir yn Neddf yr Unffurfiad;* gwadu fy ordeiniad blaenorol, yr hwn a ystyrir genyf yn Ysgrythyrol, a chydnabod arfer gyffredin yr holl eglwysi diwygiedig; llyngcu amryw lwon; ac ymgrymmu yn wasaidd dan lwyth o arosodiadau eraill, nad oes achos eu henwi, a osodwyd y fath gerig rhwystr gan y gyfraith ar ddrws yr eglwys, fel nas beiddiaswn gynt, ar ol ystyriaeth bwyllog, ac nas beiddiaf etto, neidio drostynt, er sicrhau i mi fy hun barch a bywioliaeth trwy hyny, ac ennill elw, dyrchafiad, ac anrhydedd, heb fod yn euog o'r rhagrith ffieiddiaf, ac aberthu heddwch fy mynwes, yr hwn sydd, ac a ddylai fod, i mi yn anwylach na'm bywyd. Cefais fy arwain gynt i'r penderfyniad yma, nid gan esamplau dynion enwog, na chyd â bwriad i gael eraill i'm dilyn innau; ond gan argyhoeddiad cydwybod. Hyn yw tystiolaeth fyw,

"Syr, eich cyfaill ar drangc, S. J.

"Bryn Llywarch, yr 16fed o Chwefr., 1696."†

Blinid S. Jones yn dost, dros amryw flynyddau cyn ei farwolaeth, gan ddolur y gareg, ac ymddengys mai hyny a fu yn achos o'i farwolaeth. Bu farw ar y 7fed o Fedi, 1697, yn y 70fed flwyddyn o'i oedran, a chladdwyd ef ar y 10fed o'r un mis, ym mynwent Llangynwyd, lle y mae llawer eraill o "Enwogion y Ffydd" yn "cysgu eu hûn yn dawel."

Heb law bod Samuel Jones yn ieithydd dysgedig, yn dduwinydd rhagorol, ac yn bregethwr hyawdl ac effeithiol, yr oedd efe hefyd yn fardd enwog ac athrylithgar. Dywed y Dr. Puw a'r Dr. John Jones, o'r Derwydd, Llandybie, sir Gaerfyrddin, ac eraill ar eu hol, bod "S. Jones, o Fryn Llywarch, offeiriad," ymhlith yr "Awenyddion" yng "Ngorsedd Morganwg," yn 1660, pan oedd Edward Dafydd o Fargam yn gadeirfardd yno, a'i fod yntau, "Samuel Jones, offeiriad," yn gadeirfardd yno yn 1700;‡ ond yr oedd "Samuel Jones, o Fryn Llywarch," wedi marw er ys tair blynedd cyn 1700! Y mae hyn, a phethau cyffelyb, yn peru i ni ofni nad yw yr hyn oll a ddywedir gan y ddau Ddoctor am orseddau Morganwg, a'r beirdd oedd ynddynt, yn wirioneddau hanesyddol. Pa wedd bynag, dengys Edward Dafydd ei hun fod "Samuel Jones, offeiriad," ymhlith y beirdd "yn yr orsedd wrth Gerdd Dafod, a gynneiliwyd yn y Bewpur, ym Morganwg, ar ddydd Llun, dydd Mawrth, a dydd Mercher y Sul Gwynn, yn y flwyddyn 1681, dan nawdd a dawn Syr Rhisart Bassed, Farchog, Arlywydd y lle,"§ yr hon "Orsedd" ni nodir gan y ddau Ddoctor. Dywed y Dr. T. Rees fod yn debyg ddarfod i S. Jones gyfansoddi amryw ddarnau barddonol yn Saesneg, er nas gallodd efe gael gafael ond mewn un o honynt, sef cân ar ei adferiad o afiechyd llym, "er," eb efe, "nad ydyw deilwng i'w chymharu, o ran teilyngdod barddonol, â'i gyfansoddiadau Cymreig," â'r hyn yr ydym ni yn llwyr gydsynio. Cynnwys y gân honno 14 o bennillion pedair llinell, a dechrau fel hyn:—

"Awake, my glory, at length awake,
Give praise to God on high,
Who hath thy soul, with special grace,
Known in adversity.

"Unto the shady vale of death
Thou broughtest me, O God!
But strength I found then on thy staff,
And honey on thy rod."

Yng "Nghyfrinach y Beirdd" y mae'r hyn oll o'i farddoniaeth Gymraeg sy'n adnabyddus, hyd y gwyddom ni; a chan nad ydyw y darnau ond byrion, ac ychydig o nifer, a'u bod mor ragorol o ran eu syniadau, ac nad yw y "Gyfrinach" wrth law ond gan rai o'n llenorion, credwn yr esgusodir ni am eu cyfleu yma:—

"Goleuber nifer nefoedd—i'w glwysder
Gloyw ystod niferoedd;
Gwawl iddynt yw eu gwleddoedd
Goleuni'r gair glân ar goedd.
"Samuel Jones a'i cant.

"Duw, pâr ini, ddynion,
Iawn ddeall d' ofynion,
A chadw dy orchymynion yn dynion a doeth;
Fal byddom rinweddol,
Drwy garu'n fucheddol,
Bryd heddol, a gweddol, dyb gwiwddoeth.
"Samuel Jones a'i cant.

* Y rhai hyny yw'r Llyfr Gweddi Gyffredin, yr Homiliau, ac amryw o lyfrau yr Apocrypha.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 265; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 203.

‡ Pughe's Introd. to Llywarch Hen's Poems, p. 62, &c.; Jones's Hist. of Wales, p. 226.

§ Cyfr. y Beirdd, argr. 1829, t. 1.

Digitized by Google

"Anffaeled y soriaith, a ffoled y siarad,
Yw'r geiriau anynad a'r gerwin awenu
A welaf o'r canu yn waelfai'r acceniad;
Ias anfwyn y triniad, y sen fo'n trywanu.
"Samuel Jones, Offeiriad (o Fryn Llywarch) a'i cant.

"Cydwybod dda'i nod gan Dduw Ner—o chaf
A chyfiawn foddlonder;
Nid rhaid golud diriaid, gweler;
Iawn yw'r ymswyn unrhyw amser,
Duw i ddoeth yw'r cyfoeth, cofier!
Ynddo rhodia'n ddewr ei hyder.
"Samuel Jones, Offeiriad, a'i cant.

"Duw mawr! tro di 'mwriad
I'r iawn ystyr yn wastad,
Wyf wan, bydd o'm rhan yn rhad;
Naf etto tyn fi atad;
Fy Ner, i'm gwaelder na'm gad,
I'm serthedd lle mae'm syrthiad.
Rhoi llef hyd Eurnef arnad yw'm gorchwyl,
Duw anwyl! am danad,
Clafed wyf, clyw fi, O Dad!
"Samuel Jones, o Fryn Llywarch, a'i cant.

"Yn hyn o fedd mae'n gorwedd gŵr,
Un hynod oedd i wan yn dŵr;
A'r gwir i'w gais, trugarog oedd;
Yn ŵr o gant, a'i enw ar goedd;
Caid gras ym mysg ei ddysg a'i ddawn;
A'i feddwl e'n grefyddol iawn;
Da'i waith o Dduw, a doeth oedd ef;
Wr mwyn, yn awr mae yn y nef.
"Samuel Jones a'i cant.

"Mae'n dra hardd, y claerfardd, clyw!
Amlhau dysg a moli Duw;
A thra phêr yw'r lwysber lef,
A wnai'n iawn i Ion y nef.
"Samuel Jones, Offeiriad, a'i cant.

"Duw, nertha'r gwan y man y mae
Er mwyn dy nef, yn goddef gwae;
Rho glust i'w gri, gwna di bob dydd
Yn rhwydd ei ffordd, rho iddo ffydd.
"Samuel Jones a'i cant.

'O! ddoethineb diwith hynod,
Nid yw neb yn d' iawn adnabod;
Odiaeth hynaws wyd i'th anian;
A dy ddyddiau'n hyfryd ddiddan;
A'th iawn addysg gwna'th anneddiad,
Yn 'y mynwes, rho 'nymuniad.
"Samuel Jones a'i cant.

"Duw trugarog, Dad rhagorol;
Ior wyd Naf y rhadau nefol;
Rho dy gymmorth purdeg imi;
Claf yw 'ngwaedd, O clyw fy ngweddi!
Tro fi Ner o'm holl oferedd,
I gywreinion ffyrdd gwirionedd;
Yn dduwiolaidd fal yn ddilys
Y deallwyf fi dy ewyllys.
"Samuel Jones a'i cant.

"Ti sydd ryfelwr, lladdwr lliu,
Yn gyru fal gwynt gerwin;
A deifiwr hyll yn difa'r hedd,
A gorwedd mewn gwaed gwerin:
Er maint dy fost, awr dost sy'n dod,
I'th orfod gwn i'th yrfa;
Tra thost yw'r hawl i'r sawl y sydd
Heb ffydd y dydd diwedda.

"Gwir ffydd y sydd yn cynna serch;
Ië, gwirserch mewn glew gwarsyth;
I'w droi'n ei gais o'i drais rhy drwch
I'r ffwch dawelwch dilyth:
Bydd wâr, bydd hawddgar, a llawn hedd,
Yn unwedd er mwyn oenyn:
Gelynaidd ŵg, llawn drwg a'i drais,
O ddiawl, na chais ei ddilyn.
"Samuel Jones, o Fryn Llywarch, a'i cant.

"Cais gadw y synwyr llwyr ger llaw,
A rhyw glaer bwyll wrth dreiglo'r byd;
Awr hedd y doeth tra rhwydd y daw
I'th haelwiw fron, a thawel fryd.
"Samuel Jones a'i cant."*

HENRI MORUS (Henry Maurice), ydoedd fab ieuengaf Gruffydd Morus, o Fethlan, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Gellir casglu oddi wrth yr amser y derbyniwyd ef i'r brifysgol, a'i oed pan fu farw, y ganwyd ef o gylch o.c. 1634. Cafodd ei dderbyn i Goleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1652, yn gynnar yn amser y Weriniaeth; ac os bu yno hyd yr amser y cafodd urddau eglwysig, treuliodd gryn saith neu wyth mlynedd yn y brifysgol. Cafodd ei urddo yn ystod y Weriniaeth, gan y Presbyteriaid neu'r Annibynwyr, ryw gymmaint o amser cyn adferiad Charles II.; a chafodd fywioliaeth Bromfield, yn agos i Lwydlo, a hyny, fel yr ymddengys, am ei fod yn ddŷn hyawdl fel pregethwr. Treuliodd ei febyd a'i ieuengctid yn wyllt ac anystyriol, a bu yn bur falch a gwag ogoneddgar dros ryw dymmor ar ol cael urddau eglwysig; ac ymddengys y meddyliai yn uchel iawn o'i wybodaeth a'i ddoniau. Pan wnaed Deddf yr Unffurfiad yn 1662, ni phetrusodd Henri Morus ddim rhag cydymffurfio; a dïammau y cafodd ei ailordeinio y pryd hwnw, yn ol y drefn Esgobyddol. Symmudwyd ef o Bromfield ymhen rhyw ennyd i fywioliaeth Eglwys Stretton, yn yr un sir, yr hon oedd yn werth 140p. y flwyddyn, cyfartal i 466p. o'n harian ni. Daliodd y fywioliaeth honno hyd oni ryngodd bodd i'r Arglwydd ymweled â'r dref â thwymyn drom, yr hon a ysgubodd ymaith lïaws o'r plwyfolion; a thrwy yr oruchwyliaeth ddifrifol honno, deffrowyd ef i bryder mawr ynghylch ei gyflwr ysprydol.

Pan ddifrifolwyd ei feddwl felly, aeth ei gydwybod i'w aflonyddu yn annïoddefol o herwydd iddo gydymffurfio, a daeth awydd angerddol arno am roi ei le i fynu yn yr Eglwys Wladol; ond yr oedd wedi myned i 300p. o ddyled wrth adgyweirio y persondy, ac adeiladau o'i amgylch, yr hyn a ychwanegai yn fawr at bryder angerddol ei feddwl; ond cadwodd ei holl ofid iddo ei hunan,

* Cyf. y Beirdd, t. 1, 66, 127, 144, 146, 162–3, 164–5; Calamy's Acc., vol. ii., pp. 721–29; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 186–7, 259–68, 487; En. Cymru, I. F., t. 636–7; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 202–5; Cymru, O. J., vol. i., t. 714–17; Llyfr. y Cymry, t. 237.

Digitized by Google

heb wybod beth i'w wneuthur, nes yr oedd ei archwaeth at ymborth yn pallu, ei gwsg yn cilio, ei gnawd yn cirio, a'i wedd yn gwelwi. O'r diwedd canfu ei wraig, yr hon oedd ddynes graffus a gwrol, fod rhyw gyfyngder ancule yn pwyso ar ei feddwl, a phenderfynodd fynnu cael y dirgelwch allan. Aeth i'w lyfrgell un diwrnod, a dywedodd wrtho nad elai hi allan nes iddo fynegi iddi beth oedd yn gofidio ei feddwl mor llymdost. Addefodd yntau nas gallai yn ei fyw dawelu ei gydwybod heb roddi ei swydd fel offeiriad plwyf Eglwys Stretton i fynu; ond o'r tu arall, bod ei bryder mor fawr ynghylch ei chynhaliaeth hi a'u plentyn fel y methai yn lân a phenderfynu pa fodd i ymddwyn. Dywedodd hithau ar unwaith wrtho am wneuthur yn ol cymhellion ei gydwybod; y gallai hi yn ddibetrus ymddiried ei hun a'i phlentyn i Ragluniaeth Duw, am ofal yr hwn nid oedd ynddi yr amheuaeth lleiaf. Calonogwyd ef yn ddirfawr gan wroldeb ei wraig rinweddol. Wedi hyny, agorodd ei fynwes i James Quarrel, gweinidog yr Eglwys Annibynol yn y Mwythig,* yr hwn a'i hannogodd i fwrw y draul cyn ymdaflu i ganol erledigaeth. Dywedodd yntau nas goddefai ei gydwybod iddo gadw ei le yn yr Eglwys Wladol ddim yn hwy; ac yn ebrwydd wedyn rhoddes ei le i fynu, a thraddododd ei bregeth ymadawol oddi wrth Luc xxiii. 3. Mewn canlyniad i hyny, gosodwyd achwyniad yn ei erbyn yn Llys yr Esgob, gan heuru iddo wneud sylwadau condemniol yn ei bregeth ar lywodraeth yr Eglwys Sefydledig. Ei attebiad i'r cyhuddiad hwn ydoedd, nad oedd yr hyn a ddywedasai efe wedi ei fwriadu i gondemnio neb na dim oll, ond yn unig i dawelu ei gydwybod ei hun.

Wedi iddo ymddiswyddo o'r Eglwys Wladol, rhoddes ei holl eiddo i fynu yn wirfoddol, er talu i'w ofynwyr; ond gan nad oedd hyny ddigonol i'w boddloni oll, bwriwyd ef i garchar y Mwythig. Tra yn y carchar, anfonid iddo amryw roddion gan bersonau anhyspys iddo. Yr oedd gwraig ceidwad y carchar, ar y cyntaf, yn bur sarug wrtho; ond cyn iddo ymadael, bu yn foddion i'w throi at yr Arglwydd. Ymhen amser, ymrwymodd rhyw gyfeillion, ymhlith y rhai yr oedd Mr. Orton, taid yr enwog Job Orton, i dalu ei ddyled; ac o ganlyniad, gollyngwyd ef allan. Wedi iddo ymneillduo, ymddengys i'w elynion ymroi i ddannod iddo, mewn modd maleisus, ei fywyd gwyllt ac anfoesol cyn ei dröedigaeth, canys yn ei Ddyddlyfr a ddaeth i law y Dr. T. Rees ryw amser yn ol, cyfeiria at yr edliwiaeth honno yn bur deimladwy, fel y canlyn:—

"Dywed Mr. Kinston wrthyf fod Esgob Bangor, a rhai eraill, yn fy nghablu o herwydd drygioni ac afreolaeth fy mywyd, cyn i'r Arglwydd weled yn dda, o'i anfeidrol drugaredd, ymweled â mi; a thybiaf y teimlais fod yr Arglwydd yn cynnal fy ysbryd rhag ymollwng yn wyneb eu cabledd, ac yn fy ngalluogi i dosturio wrth y rhai a gynfigenant wrthyf o herwydd daioni a gras Duw i mi."

Hefyd, ar y 18fed o Fehefin, 1672, efe a ysgrifenai fel hyn:—

"Wrth ymddiddan heno â Mrs. King, yn sir Faesyfed, am fywyd aflan a drygionus Mr. Llwyd, arweiniwyd fy meddwl i adolygu fy ffyrdd pechadurus fy hun gynt; ac wrth feddwl am yr hyn a wnaeth Duw i mi, a pha ddrych a fuasai arnaf pe cawswn fy ngadael i mi fy hun, cyffrowyd fy nheimladau i'r fath raddau fel y bu raid i mi fyned allan o'r tŷ, a myned i'r goedwig gyfagos i weddïo, lle yr ymbiliais â'r Arglwydd gyd â phleth taerni a graddau o dynerwch teimlad, ond nid cymmaint ag a ddymunaswn, canys yr oedd fy nghalon ar hollti, ac er hyny nis gallwn ymollwng i rydd wylo a galaru."

Bernir mai tu a'r flwyddyn 1666 y rhoddes fywioliaeth blwyfol Church Stretton i fynu; ond ymddengys yr arhosodd yn y Mwythig wedi hyny hyd o gylch dechrau 1672. Ar yr 2fed o Orphenaf y flwyddyn hon, yn ol ei Ddyddlyfr, ymwelod â'i gyfeillion a'i blwyfolion yn Stretton, ac ymddengys mai hwn oedd ei ymweledìad cyntaf â'r lle ar ol rhoddi ei fywioliaeth i fynu yno, ac fel hyn y dywed efe:—

"Marchogais allan y borau heddyw tu a Stretton, a chenyf lawer o derfysg yn fy nghalon, hyd oni phenderfynais fyfyrio ar groes Crist, yr hyn, i ryw raddau, a wellhaodd ansawdd fy yspryd. Pan gyrheuddais dŷ gweddw Zanchey, adnewyddwyd fi yn ddirfawr wrth weled cynnifer o'm hen gyfeillion a'm cymmydogion yno; ïe, llawer o'r rhai a'm cablent yn druenus pan adewais y lle. Nid oeddwn yn disgwyl ond cynhulliad bychan, ond yr oedd yno nifer mawr o bobl, ac ystyried y rhybudd a gawsant i gadw oddi yno. Pregethais a gweddïais, yn y mwynhad o lawer o ryddid ac ehangder, ac ymweliadau teimladwy gan Dduw. Bendigedig fyddo ei enw! Y testyn oedd Luc xix. 42. Ymddengys i'r bobl gael eu cynhyrfu ac effeithio arnynt yn ddirfawr, a dilys ddiammau i Dduw ymddangos yn amlwg yn ein cyfarfod."

Y mae ganddo nodiadau dyddorol dros ben, yn ei Ddyddlyfr, ar ei ymweliad cyntaf, ynghymdeithas un Mr. Hanmer, â sir Frycheiniog, o'r sawl ni wiw i ni ddodi ond ychydig ddifyniadau ger bron:—

"Awst 5, 1672.—Marchogais ymaith heddyw tu a sir Gaerfyrddin, yn mwynhau taith gysurus o ran agwedd fy yspryd, fy nghydymaith, a'r hin. Bendigedig fyddo'r Arglwydd! Deuthum yn yr hwyr i dŷ y Capten Watkins, lle y canfyddais yn ebrwydd yspryd hyfryd, grasol, yn ei wraig, a llawer o wybodaeth a daioni, fel y gobeithiaf, ynddo yntau. Gweddïais yn y teulu heno yn Gymraeg, gyd â gradd o ryddid ac ehangder. Gweddïodd Mr. Han-

* Gwel pen. v. o'r llyfr hwn (y iv.).



Digitized by Google

mer, fy nghyd-deithiwr, gyd â mi yn y dirgel, yn ein hystafell wely, a hyny yn bur felus.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

"Awst 7.—Gweddïodd Mr. Hanmer yn ddirgel gyd â mi y borau heddyw yn bur felus, fel y cefais lawer o adnewyddiad wrth ymuno âg ef. Gweddïais wedi hyny yn ddirgel fy hunan, gan fwynhau peth cefnogaeth ac ehangder. Bendigedig byth a fyddo'r Arglwydd! Aethum o dŷ y Capten Watkins i Gwernefet [Gwernnyfed?], ac oddi yno i Talgarth, lle y pregethais ac y gweddïais, gyd â llawer o ryddid ac ehangder, oddi wrth Ezec. xvi. 6, ac oll yn Gymraeg. Ymddangosai y bobl yn dra serchog ac ewyllysgar, gan fy ngwahodd yn daer yno drachefn. Bendigedig byth a fyddo'r Arglwydd! Deuthum yn ol oddi yno i Gwernefet, lle y tariais dros y nos. Canfyddais yma hefyd fod y ddyledswydd deuluaidd yn cael ei hesgeuluso, yr hyn a barodd i mi gryn ofid. Cefais lawer o ymddiddan gyd â Mr. Charles Llwyd ynghylch myned i'r cyhoedd.* Gweddïais heno yn ddirgel gyd â'm cyd-deithiwr, a chefais lawer o ehangder, a pheth adnewyddiad. Bendigedig a fyddo'r Arglwydd!

"Awst 8.—Gweddïodd y brawd Hanmer yn ddirgel, a chefais beth drylliad ac adfywiad wrth ymuno âg ef. Gweddïais innau ychydig yn ddirgel wedyn, heb ond ychydig galondid, etto cefais beth ymarferiad o ffydd. Deuthum o sir Gaerfyrddin y borau heddyw tu a Glasgwm, yn sir Faesyfed, lle y pregethais oddi wrth Dat. iii. 20, gan fwynhau ehangder yspryd melus wrth bregethu a gweddïo. O! bendigedig byth a fyddo fy Arglwydd ffyddlawn ac anwyl! Deuthum oddi yno yr hwyr heddyw i dŷ y brawd Hanmer, lle y gweddïais yn y teulu gyd â pheth rhyddid yspryd. Gweddïais wedyn yn ddirgel, gan fy mod yn cael fy mlino gan demtasiynau Satan; etto cefais beth cefnogaeth ac ymarferiad o ffydd. Bendigedig fyddo'r Arglwydd!"

Ar y 27fed o Awst, 1672, gadawodd ef a'i wraig y Mwythig ar daith i Leyn, yn sir Gaernarfon, mangre eu genedigaeth. Pregethodd mewn amryw fannau ar y ffordd, i gynnulleidfaoedd mawrion, megis yn Gwnle, ger llaw y Drefnewydd; Llanbrynmair, Machynlleth, a Bron y Clydwr; ac ar y 3ydd o Fedi, cyrheuddasant yn ddïogel i Bwllheli. Y mae ei Ddyddlyfr tra ar y daith yma, o'r diwrnod crybwylledig hyd y 15fed o'r un mis,† er mor ddyddorol ydyw, yn rhy faith i ni wneud dim ond crybwyll y prif ddigwyddiadau y treuthir arnynt ynddo:—

"Yn hwyr y dydd cyntaf (y 3ydd o Fedi) o'i ddychweliad i Leyn, pregethodd i dyrfa lled lïosog, yn bur llwyddiannus, yn nhŷ un W. Gruffydd, oddi wrth Dat. iii. 20. Wedi aros yn nhŷ W. G. hyd y 5med o'r mis, derbyniodd lythyr oddi wrth ei dad a barodd iddo lawer o flinder a digalondid; ond ni chyfeiria at ei gynnwys, eithr gwyddai ef a'i wraig rinweddol yn dda i ba le i fyned am ymwared, sef at orsedd gras, lle y cawsant fawr ddiddanwch. Yn hwyr y diwrnod hwnw aethant i Nanhoron, lle y buant hyd drannoeth, yr hyn a ddengys nas gallai prif deuluoedd Lleyn lai na'u croesawu. Y dydd canlynol, y 6ed o Fedi, aeth ef a'i wraig i Fethlan, annedd ei rieni; ac ymddengys ei fod ef dan effaith ofn a digalondid, o herwydd pa beth, ni fynegir; ond cafodd ymwared ger bron yr un orsedd, fel o'r blaen. Trannoeth aeth i ymweled â'i gefnder, John Williams, yr unig bregethwr Anghydffurfiol y pryd hyn yn sir Gaernarfon, yr hwn oedd ŵr gwylaidd a digalon;‡ ond ymdrechodd Morus yn egnïol ei galonogi a'i symbylu at ei waith. Ar yr 8fed o'r mis, sef y dydd cyntaf o'r wythnos, bu mewn blinder a than demtasiwn tost gan ofn cael ei garcharu yn y sir yma, mewn canlyniad i un Richard Owen wrthod rhyw le cyhoeddus iddo bregethu; ond cafodd ymwared o'r un ffynhonell ag o'r blaen, a phregethodd yn nhŷ William Gruffydd etto, oddi wrth Jer. xxx, 21, 22, gyd â nerth a rhwyddineb. Ar y 9fed o'r mis aeth i dŷ ei frawd, a phregethodd yno yn effeithiol oddi wrth Ioan xv. 10. Daeth ei fam yno drannoeth, a bu rhyw ffrwgwd rhyngddi hi ac yntau o blegid ei Ymneillduaeth, y mae'n debyg, er na ddywed efe hyny; ond terfynodd yr ymrafael mewn heddwch. Galwodd ar y 10fed dydd yn nhŷ ei chwaer Elin, ac felly aeth i Trygarn. Yr oedd yn cael ei flino yn fynych, tra yn yr ardal yma, gan hudolieuthau a themtasiynau; ond gorchfygodd hwy oll, trwy ras Duw. Er yr ymddengys bod yr holl ardal braidd, yn enwedig goreugwyr y lle, sef ei berthynasau ef a'i wraig, yn Eglwyswyr sychlyd a rhagfarnllyd; etto nis gallent lai na pharchu dŷn mor enwog, mor hyawdl, ac mor rasol. Ar yr 11fed o'r mis, aeth i Wynfryn, cartref ac etifeddiaeth ei wraig, lle yr oedd ei thad a'i mam ond odid ar y pryd. Rhwystrwyd ef i bregethu yno: aeth yntau i dŷ gweddw un Morus Jones, lle y cafodd ychydig Gristionogion mewn ofn a dychryn mawr rhag yr erlidwyr, ac am hyny ni ddeuthant ynghyd nes yr oedd yn hwyr y nos. Pregethodd, neu yn hytrach, fel y dywed efe ei hun, 'dysgodd hwynt oddi wrth Can. ii. 13,' a chafodd le i obeithio ddarfod iddo argyhoeddi ei gyfneithr, Lowri Williams. Ar y 12fed o'r mis, aeth i Bwllheli, i dŷ un Huw Owen, lle y cafodd groesaw ac adeiladaeth mewn cydymddiddan; ond nis pregethodd efe yno. Trannoeth yr oedd ffair ym Mhwllheli, a chafodd gyfleusdra i ymddiddan âg amryw ynghylch yr hyn a berthynai i'w heddwch a'u hiachawdwriaeth, a llettyodd y noswaith hono yn nhŷ un Richard Thomas, lle y cafodd gyfeillach hefyd â'i frawd crefyddol, Huw Owen. Y dydd canlynol, y 14ydd o'r mis, aeth i ymweled drachefn â'i gefnder, John Williams, ac yno, fel yr ymddengys, y llettyodd, a chawsant lawer o gydymddiddan pwysig ynghylch crefydd, a'r mawr bwys o lynu wrthi yn ddisigl, ac ymdrechu drosti hyd angau. Ar y 15fed o'r mis, yr hwn oedd ddydd cyntaf yr wythnos, aeth i dŷ gweddw Morus Jones etto, lle y pregethodd yn y y borau oddi wrth 1 Petr iv. 18, yn dra llewyrchus. Yn y prydnhawn, derbyniodd lythyr oddi wrth ei frawd, oedd yn Llanarmon, yn ei wahodd yno i bregethu y prydnhawn hwnw; ond ceuwyd y lle cyhoeddus [eglwys y plwyf, yn ddïau] rhagddo, gan yr offeiriad. Yna pregethodd yntau yn yr *yard* (y fonwent, fe allai), oddi wrth yr un testyn a'r borau, a chafodd le i obeithio ddarfod iddo effeithio yn ddaionus ar y gwrandawyr. Yna marchogodd oddi yno i Bwllheli yr un prydnhawn, a phregethodd yno (ni ddywedir ymha le) oddi wrth Rhuf. v. 8, a chafodd ryddid mawr wrth weddïo a phregethu."

Y dydd canlynol, canodd yn iach i'w berthynasau a'i gyfeillion yn sir Gaernarfon, a dychwelodd i'r Mwythig, gan bregethu, ar ei ffordd adref, yn Cynfal, sir Feirionydd, cartref perthynasau Morgan Llwyd o Wynedd. Tu a diwedd y flwyddyn hon, 1672, symmudodd o'r Mwythig i sir Frycheiniog, i bregethu i'r eglwys Ymneillduol a ymgyfarfyddai mewn gwahanol ardaloedd yn y sir

* "Yr hyn a olyga yn amlwg yw myned i'r addoliad cyhoeddus yn eglwys y plwyf, yr hyn yr arferai rhai Anghydffurfwyr cymmedrol ei wneuthur; tra yr edrychai eraill ar y rhai a wnelent hyny gyd ag anghymmeradwyaeth, ac megis cydymagweddwyr."—Dr. T. Rees.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 241–3.

‡ Gwel pen. xii. o'r llyfr hwn (y iv.).

Digitized by Google

honno, ac ym Merthyr Tydfil, ym Morganwg. Gan fod ganddo tu ag ugain o wahanol fanau i bregethu ynddynt, yr oedd ei lafur yn ddirfawr ei faint, er bod ganddo bedwar neu bump o bregethwyr i'w gynnorthwyo. Ond er maint ei lafur ymhlith y bobl yr arferai bregethu iddynt yn y manau a nodwyd, byddai yn myned yn fynych i ymweled â phob rhan o Gymru i bregethu yr efengyl, a bendithiodd yr Arglwydd ei lafur er tröedigaeth lliaws o eneidiau. Ymwelodd yn fynych â sir Gaernarfon, gwlad ei enedigaeth, ar ol ymsefydlu yn y Dehcubarth; ac efe, mewn gwirionedd, oedd bywyd Anghydffurfiaeth yn y sir honno. Trwy ei ddylanwad ef y llwyddodd pobl Pwllheli a'r gymmydogaeth i gael gan James Owen ymsefydlu yn eu plith, a Daniel Phylips wedi hyny. Dïoddefodd anghyfleusderau mawrion yn ei deithiau mynych a meithion, oddi wrth y tywydd a thlodi llawer o'r lleoedd y llettyai ynddynt. Ymosodwyd arno yn fynych hefyd gan erlidwyr a gelynion crefydd; ond cuddiodd Duw ef rhagddynt yn fynych "yng ngheudod ei law." Chwiliwyd ei dŷ am dano unwaith ar ol iddo fod yn pregethu; ond cuddiasid ef mewn cell gyssylltedig â'r ystafell lle y cynhaliwyd y cyfarfod, a methodd y chwilotwyr gael gafael arno. Dro arall, daeth ceisbwl i'r ystafell lle yr oedd yn pregethu, ac archodd iddo dewi; ond efe, gyd â gwroldeb dïarswyd, a'i tynghedodd yn enw y Duw mawr, gair yr hwn a bregethai, i beidio ymyryd âg ef, gan y byddai raid iddo roddi cyfrif am ei waith yn nydd mawr y farn a fydd! Ar hyny eisteddodd y dŷn i lawr mewn dychryn; gwrandawodd y bregeth yn dawel hyd ei diwedd, ac yna ymadawodd heb gyffwrdd â'r pregethwr. Unwaith yn unig y cymmerwyd ef i garchar, a chafodd fyned allan y pryd hyny dan feichiau; a phan ymddangosodd yn y llys, rhyddhawyd ef trwy ffafr yr ynadon, y rhai oedd gyfeillion a pherthynasau iddo.

Bu mewn amgylchiadau pur gyfyng lawer gwaith, yn enwedig yn ystod yr amser y bu yn y Mwythig, ar ol rhoi ei fywioliaeth blwyfol i fynu, ond diwellid ei anghenion yn fynych mewn dull tra rhyfeddol. Pan oedd unwaith mewn cyfyngder mawr, ac yn tywallt ei achos ger bron Duw ar weddi deuluaidd, curodd cludydd wrth y drws, gan ofyn am Mr. Morus, a chyflwynodd iddo ddyrnaid o arian oddi wrth ei gyfeillion; ond ymadawodd yn ddisymmwth heb ddywedyd pwy oeddynt. Daeth yr un gŵr ato drachefn, a rhoddes bwrs yn llawn o arian yn ei law yr un modd, pan oedd gwir angen am danynt. Ei wraig ef oedd etifeddes y Gwynfryn, ger llaw Pwllheli, yr hwn, ynghyd â'r tiroedd perthynol iddo, oedd yn werth 40p. y flwyddyn y pryd hyny, cyfartal i tu a 133p. o'n harian ni; ond attaliwyd ei hiawnderau yn anghyfiawn oddi wrthi am gryn ddeng mlynedd, a hyny pan oedd yn rheitiaf i'r teulu wrthynt. Pa wedd bynag, yr oedd hi mor ddiwyd, cynnil, medrus, a siriol ei thymmer, fel y galluogwyd hwy i fyned ym mlaen trwy bob anhawsderau, a chafodd Henri Morus y fraint o fyw nes dyfod allan o bob dyled, yr hyn a fawr ofidiai ei feddwl difrifol a gonest yn fynych.

Yr oedd ei lafur diattal y fath fel yr ofnai ei gyfeillion y byddai yn foddion i fyrhau ei oes; a phan annogent ef i fod yn fwy hamddenol, er mwyn arbed ei hun, dywedai yntau, "Pan fyddo dŷn wedi segura y rhan orau o'i ddiwrnod, a'r dydd yn darfod, fe ddylai roi dau ergyd am yr un;" hyny yw, dau am yr un i ddŷn a dreuliodd ei holl fywyd yngwasanaeth ei Arglwydd. O'r diwedd, gorchfygwyd ei natur gan lafur dwys a dibaid; a gwelwyd fod ei ddiwedd yn prysur agoshau. Yr oedd ei ymddygiad ar ei wely angau yn cwbl gyfatteb i'r rhan olaf a gorau ei oes. Dïoddefai ei gystudd yn bur dawel a thangnefeddus ei feddwl. Pan ddywedodd ei wraig dyner wrtho un borau, ar ol noswaith hynod o anesmwyth, "Cawsoch noswaith flinderus iawn neithiwr, fy anwylyd." "Beth er hyny," eb yntau: "cafodd Job hefyd lawer o nosweithiau blinion." Wrth weled y cyfeillion crefyddol a ddeuent i ymweled âg ef yn ei gystudd, yn wylo o amgylch ei wely unwaith, trodd at ei wraig, gan ddywedyd, "A weli di diriondeb trugaredd yr Arglwydd atom ni, estroniaid tlodion, yn cyfodi cynnifer o gyfeillion tyner galon i gydymdeimlo â ni yn ein hadfyd? Y mae cariad Duw yng Nghrist yn llondid dirfawr i'm henaid. Bendigedig fyddo Duw, yr hwn a'th wnaeth di a minnau yn gyfranogion o'r un gras a bywyd!" Yr oedd efe ymhell o gydnabod ei deilyngdod ei hun, ac etto yr oedd yn llawenychu yn nhystiolaeth ei gydwybod. "Nid oes genyf ddim ymddiried yn fy ngwaith a'm llafur fy hun," eb efe; "ac etto yr wyf yn cael llawenydd yn hyny hefyd." Bu farw yn llawn ffydd a thawelwch, ym mis Gorphenaf, 1682, pan rhwng 45 a 50 oed. Symmudodd ei weddw, ar ol ei farwolaeth, o sir Frycheiniog i'w hetifeddiaeth ei hun ym Mhwllheli, a phriododd, mewn amser cyfaddas, â Daniel

Digitized by Google

Phylips, gweinidog yr Annibynwyr yn y dref honno.*

Nid ydym yn gwybod i Henri Morus ysgrifenu dim, heb law y Dyddlyfr dyddorol a fu dan sylw eisoes, a "Hanes yr Eglwysi Ymneillduol yng Nghymru," a ysgrifenodd efe yn 1675, at Edward Terril, o Gaerodor, ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y *Broadmead Records*, ac a ddifynwyd air yng ngair gan y Dr. Thomas Rees yn ei "Hist. Prot. Noncon. in Wales," pp. 203–17; a cheir cyfieithiad o honi, dan y gwahanol siroedd, yn "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru. Gan T. Rees, D.D., Abertawy, a J. Thomas, D.D., Liverpool." Hon ydyw yr hanes gywiraf a manylaf a'r a feddwn o Eglwysi Annibynol Cymru, o'u dechreuad hyd 1675.

---

## PENNOD XXII.

### RHYS PRYDDERCH, DANIEL PHYLIPS, HARRI GREGORI, DAFYDD JONES, A GRUFFYDD HOWELS.

RHYS PRYDDERCH† ydoedd ŵr enwog nad yw hyspys pa bryd, yn fanwl, y ganwyd ef, nac ymha le y cafodd ei addysg. Dywedir iddo farw "yn hen ac yn llawn o ddyddiau," fel y Brenin Dafydd; ac od oedd yr un oed yn marw a "pheraidd ganiedydd Israel," ganwyd ef ar y 25med o Ionawr, 1629. Preswyliai yn Ystrad Wallter, ger llaw tref Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin; a thybir mai efe oedd perchenog y lle hwnw, ac amryw dyddynod eraill yn yr ardal.

Ni wyddys pa pryd, na thrwy ba foddion, y cafodd dröedigaeth; ond y mae'n debyg i'r cyfnewidiad dedwydd ddigwydd yn lled forau ar ei fywyd. Nid yw hyspys chwaith pa bryd y priododd, na phwy oedd ei briod; ond dywedir fod ganddo blant yn 1662, os nad cyn hyny, pan oedd efe, yn ol ein hamcan gyfrif ni, yn 33 oed. Y mae'n debyg mai ar ol ei ddychweliad at grefydd y dechreuodd efe gadw ysgol ar ei etifeddiaeth yn Ystrad Wallter, a hyny, y mae'n debyg, er mwyn cael cyfle i ddysgu moesau a chrefydd i'w ysgolheigion, cystal a gwybodau eraill. Dywedir y bu'r ysgol dan ei ofal dros 40 mlynedd, yn yr hon "y derbyniodd y rhan fwyaf o bregethwyr Ymneillduol yr hanner gyntaf o'r ddeunawfed ganrif ran, os nad eu holl addysg. Un o'i ysgolheigion ef oedd Willian Evans, athraw cyntaf Athrofa Caerfyrddin."‡ Dywed y Dr. T. Rees nad oedd efe yn y weinidogaeth§ pan ddaeth Deddf yr Unffurfiad i rym, ond y dïoddefodd yn y cymmeriad o ysgolfeistr dan y ddeddf Babyddol honno; y dechreuodd arfer ei ddoniau fel pregethwr yr efengyl rai blynyddau ar ol hyny, er tosted yr erledigaeth; ac y daeth ymhell cyn ei farwolaeth yn un o'r gweinidogion enwocaf ac ehangaf ei ddefnyddioldeb yn y Dywysogaeth.‖ Pa wedd bynag, dywed Joshua Thomas y "bu yn pregethu trwy amser yr erledigaeth, a deng mlynedd wedyn,"¶ sef o 1662 hyd 1699; a dichon ei fod yn pregethu ymhell cyn hyny. D. Morgan, Llanfyllin, a ddywed am dano fel hyn:—

"Yn amser teyrnasiad erledigeuthus Siarl yr Ail, arferai cynnulleidfa lïosog o Ymneillduwyr ymgynnull mewn lle a elwir Castell Craig y Derwyddon, ger llaw Cefnarthen, i wrando yr efengyl, ac i addoli yr Arglwydd. Dywedir mai yr hybarch Rys Prydderch, o Ystrad Wallter, a arferai bregethu yno fynychaf. Ymgasglai y bobl ynghyd o bellder mawr: rhai o Lanwrtyd, Troedrhiwdalar, Brychgoed, Myddfai, Llanymddyfri, &c., fel nad oedd gan rai o honynt lai nag 20 milltir i'w teithio. Ymgyfarfyddent yn nhrymder y nos, rhag i'w gelynion eu dal a'u haflonyddu. . . . . Nid oes amheuaeth nad oedd y gynnulleidfa lïosog a ymgyfarfyddai yno y pryd hwnw yn ffrwyth llafur y gweinidogion duwiol a anfonwyd trwy Gymru i bregethu yr efengyl yn amser y Senedd Hir a Chromwel. Ond pan ddifeddiannwyd hwynt o'u breintiau a'u rhyddid trwy gyfreithiau gormesol Siarl yr Ail, ymgrwydrent o'r naill le i'r llall i wrando geiriau y bywyd. Meddylir i'r gynnulleidfa a ymgyfarfyddai yng Nghastell Craig y Derwyddon adael y lle hwnw, ac adeiladu addoldy yng Nghefnarthen, tu a'r fl. 1687, pan gyhoeddodd Iago yr Ail ryddid cydwybod i bawb addoli yn y lle yr ewyllysiai. . . . . Dywedir fod y Parch. Rhys Prydderch wedi ei urddo i'r weinidogaeth yng Nghefnarthen, yn y fl. 1688, ynghyd âg amryw eraill mewn lleoedd gwahanol. Y mae rhyw dywyllwch o gylch hanes y gŵr duwiol, dysgedig, a defnyddiol hwn, pan ddywedir ei fod wedi ei urddo yn y flwyddyn uchod. Ai tybed nad oedd efe yn urddedig o'r blaen? Paham y dywed haneswyr ei fod yn bugeilio eglwysi, ac yn gweini ordinhadau yr efengyl, mewn amryw fanau, yn enwedig yn sir Frycheiniog, ymhell cyn yr amser uchod? Ac os oedd efe yn weinidog yr efengyl o'r blaen, hyd yn oed i'r gynnulleidfa yng Nghraig y Derwyddon, paham y dywedir mai yn y flwyddyn uchod yr urddwyd ef? Dïau fod y pethau hyn yn ormod i ni eu cyssoni, a bod yn rhaid aros yn y tywyllwch, dan leni amser, hyd y dydd y daw yr holl ddirgeloedd i'r amlwg. Ond hyn sydd eglur a sicr, uwch law pob dadl, bod yr hyglod Rys

* Calamy's Acc., vol. ii., pp. 567–72; Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 215–19; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 236–48; En. Cymru, I. F., t. 718–19; Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 290; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 253–55; Drych yr Ams., t. 13–18.

† Rees Prydderch y gelwir ef gan Joshua Thomas, ac eraill o'r Cymry ar ei ol; ond RHYS PRYDDERCH sydd wrth un o'r llyfrau a adawodd mewn llawysgrif ar ei ol, a RHYS PRYDDERCH sydd wrth y llall a adawodd, fel y ceir gweled rhag llaw. *Rees Protheroe* y geilw'r Saeson ef.

‡ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 588.

§ Wrth "y weinidogaeth" y meddylir yma, y mae'n debyg, bywioliaeth blwyfol dan y Weriniaeth, canys pregethwyr duwiol a osodasid gan y Presbyteriaid neu'r Annibynwyr mewn bywioleuthau plwyfol yr adeg honno, ac a wrthodent gydymffurfio â'r Eglwys Wladol pan ddaeth i rym dan Charles II., a drowyd allan o'u bywioleuthau yn 1662.

‖ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 313.

¶ Hanes y Bedyddwyr, t. 92.

Digitized by Google

Prydderch wedi bod yn ddiwygiwr enwog yn ei ddydd, yn athraw rhagorol a dysgedig, yn weinidog ffyddlawn a llafurus, ac yn bregethwr cymmeradwy a defnyddiol i deunu peraroglau gwybodaeth ynghanol oes dywyll ac anwybodus." *

Dywed y Dr. T. Rees mai ar Rhys Prydderch yn unig yr oedd gofal bugeiliol yr holl eglwysi Anghydffurfiol yn sir Frycheiniog ar ol marwolaeth Henri Morus, yn 1682; ac er ei fod yn cael ei gynnorthwyo gan nifer o henuriaid athrawiuthol,† rhaid bod ei lafur ef yn ddirfawr ei faint. Dywedodd wrth rai o'i gyfeillion ychydig cyn ei farwolaeth, mai bywyd o ryfeddod a fu ei fywyd ef. Yr oedd cyfarfod yn ei dŷ y diwrnod y cymmerwyd ef yn glaf; ac wedi gorphen y gwasanaeth, canodd yn iach i'r bobl mewn dull cyfeillgar. Dywedodd wrth un o honynt nas teimlai ei hun yn iach, a dymunodd arno ei gynnorthwyo i fyned i'r llofft i'w lyfrgell, lle hefyd yr oedd ei wely; a chyn gynted ag y gorweddodd ar y gwely, bu farw. Y 25med o Ionawr, 1699, oedd y diwrnod hwnw; a dywedir mai ar y 25med o'r mis hwnw y ganwyd ac yr ordeiniwyd ef hefyd.‡

Un o lyfrau Rhys Prydderch a nodir gan ei fywgraphwyr yn gyffredin, fel ffrwyth ei bin ysgrifenu, sef "Gemmau Doethineb;" ond dengys Gwilym Lleyn iddo adael dau mewn llawysgrif ar ei ol yn barod i'r wasg. Cyhoeddwyd y cyntaf yn 1714, ymhen pymtheng mlynedd ar ol marwolaeth yr awdur, gan ei hen ysgolhaig, William Evans, y cyfeiriwyd ato eisoes, enw yr hwn lyfr yn gyflawn sydd fel y canlyn:—

"Gemmau Doethineb, neu Ymadroddion doethion, wedi eu chwilio, a'u trefnu, mewn Ffordd (nid anghynefin yn hollawl) i ddyscu Gwybodaeth i Ddynion. Yn gantoedd ac yn Ddegau. Hefyd Holiadau buddiol, ac ymddiddanion rhwng Gweinidog ac amryw Bechaduriaid, &c. Gan Rhys Prydderch, Gweinidog yr Efengyl yn sir Gaerfyrddin."

Dywed y Dr. T. Rees y cynwys y llyfr saith gant o ymadroddion detholedig, tebyg i'r rhai sydd yng "Ngweddillion Mason" (*Mason's Remains*), gyd âg amryw dreuthodau byrion yn erbyn pechodau ac arferion cyffredin yr amseroedd hyny. Gwilym Lleyn a ddywed fod hwn yn un o'r llyfrau bychain hynotaf a gyhoeddwyd yn y 18fed ganrif. "Y mae ei bennodau wedi eu dosparthu yn ddeg adnod, a phob deg pennod yn gwneud yr hyn a eilw yn 'Cant 1,' a 'Cant 2,' &c., hyd 'Cant 7.'" Wele esampl o'r olaf:—

"Cant 7. deg 7.

"1. Fe addawodd Duw gadw ei bobl, ac efe a geidw ei addewid.

"2. Nid oes gymmaint o wahaniaeth rhwng y mwyaf a'r lleiaf o'r rhai duwiol; ac y sydd rhwng y lleiaf o'r duwiol, a'r mwyaf moesol o'r annuwiol.

"3. Mae rhai yn gweled bai lle nad yw, ac heb weled bai lle mae llawer.

"4. Os mynnwn fod yn sainct yn y nef mewn gogoniant, y mae yn rhaid i ni fod fel hwynteu mewn ufydd-dod ar y ddaiar.

"5. Gwell yw troi oddiwrth eulynod at Dduw, na throi oddiwrth Dduw at eulynod.

"6. Nid digon i ni ymgadw rhag drygioni y rhith; ond y mae'n rhaid i ni ymgadw rhag rhith y drygioni.

"7. Nid yw pob dŷn di ail anedig yn anhywaith; ond y mae pob dŷn anhywaith yn ddi ail anedig.

"8. Mae gweithredoedd y cyfiawn yn gymmeradwy yn ei ol ef; ac nid efe ei hun, yn ol ei weithredoedd.

"9. Nid a fu sy'n parhau heddy, ac nid y sydd dros fyth a bery.

"10. Fe a ŵyr y credadyn pe pechai efe, na chondemnid ef am ei bechod; ond y mae efe yn ofni pechu, fel pe na chondemnid ef am ei bechod."

"Yna y canlyn," eb Gwilym Lleyn, "'Holiadau ynghylch amryw bethau, buddiol i'r Oes ryfygus yma eu hystyried, a meddwl yn ddifrifol am y Cyfrif a ofyn Duw am danynt, ac am bob gweithred yn ol hyn.' Y mae'r holiadau yn rhai hynod iawn, megis 'Ynghylch dodi Plant i Weddio cyn Bwyd, yn rhithiol mewn Tafod leferydd i'r Teulu;' 'Am Ddawnsio Cymmysgedig;' 'Am ddodi Ceiliogeu i Ymladd;' 'Am blant yn priodi heb gennad eu rhieni;' 'Am Ocraeth;' 'Am roi Plant i'w Magu i eraill;' 'Ynghylch codi Bedw ar Farwolaeth Deiliaid;' 'Ynghylch Canuau Masweddol a Llygredig;' 'Ynghylch Swyno;' 'Ynghylch yfed Iechyd;' 'Ynghylch Gwallt Llaes.' Yna terfyna gyd â dernyn rhagorol o'r enw 'Dadleuon Pechaduriaid wedi eu Gostegu, trwy Fuddugoliaeth y Gwirionedd, mewn ymddiddan rhwng Gweinidog âg amryw Bechaduriaid.'"§

Enw y llyfr arall, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1767, sydd fel hyn:—

"Rhybudd teg mewn pryd da; sef Dadlau Pechaduriaid gwedi eu gostegu trwy fuddugoliaethau y gwirionedd. Mewn Ymddiddanion rhwng Gweinidog o Eglwys Loegr, ag amryw Bechaduriaid, sef Meddwyn, Tafarnwr, Bragwr, Coegddigrifwr, Cerddwr [Cerddor], Dawnsiwr, Tyngwr, Celwyddwr, a'r Twyllwr. Gan Rhys Rhydderch."||

* O'n rhan ni, nid ydym yn gweled dim dirgelwch yn y peth o gwbl. Ymddengys mai dŷn duwiol a galluog iawn oedd Rhys Prydderch, ac iddo ymroddi, er ei fod yn ŵr cyfoethog, i ddysgu ei gydwladwyr, ar y cyntaf, mewn ysgol ddyddiol, yna trwy bregethu iddynt; ond heb fyned trwy unrhyw seremonïau ffurfiol.

† Y mae sawyr Presbyteriaeth braidd ar yr "henuriaid athrawieuthol" *(teaching elders)* hyn; ac y mae sawyr "henadur llywodreuthol," neu "esgob taleithiol," ar y dywediad bod "gofal bugeiliol yr holl eglwysi Ymneillduol yn sir Frycheiniog" ar Rhys Prydderch. A ymadawodd yr hen Buritan gymmaint â'i symledd cyntefig fel yr aeth yn "henadur llywodreuthol," neu "esgob taleithiol," ar ol cael ei urddo, nis gwyddom.

Dywed Joshua Thomas fel hyn am Rhys Prydderch:—"Mi a glywais gan amryw ei fod yn barnu mai y Bedyddwyr oedd yn ol y gair yn yr ordinhâd o Fedydd, ac i rai o'i frodyr gael gwaith ei attal i fyned i'w fedyddio ei hun" (Han. y Bed., t. 42). Ganwyd Jos. Thomas ymhen tu ag 20 mlynedd ar ol Rhys Prydderch; felly *gallasai* efe glywed rhai o'i gydoeswyr yn siarad am dano. Os ydyw y dystiolaeth hon wir, nid yw yn ganmoliaeth uchel i'w benderfyniad na'i gydwybodolrwydd crefyddol.

‡ Palmer's Noncon. Mem., vol. iii., p. 500; Han. y Bed., J. T., t. 91–2; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 813–15; En. Cymru, t. 862–3; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 587–8; Llyfr. y Cymry, t. 301–2.

§ Llyfr. y Cymry, t. 300–1.

|| Llyfr. y Cymry, t. 496.

Digitized by Google

Phylips, gweinidog yr Annibynwyr yn y dref honno.*

Nid ydym yn gwybod i Henri Morus ysgrifenu dim, heb law y Dyddlyfr dyddorol a fu dan sylw eisoes, a "Hanes yr Eglwysi Ymneillduol yng Nghymru," a ysgrifenodd efe yn 1675, at Edward Terril, o Gaerodor, ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y *Broadmead Records*, ac a ddifynwyd air yng ngair gan y Dr. Thomas Rees yn ei "Hist. Prot. Noncon. in Wales," pp. 203–17; a cheir cyfieithiad o honi, dan y gwahanol siroedd, yn "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru. Gan T. Rees, D.D., Abertawy, a J. Thomas, D.D., Liverpool." Hon ydyw yr hanes gywiraf a manylaf a'r a feddwn o Eglwysi Annibynol Cymru, o'u dechreuad hyd 1675.

---

## PENNOD XXII.

### RHYS PRYDDERCH, DANIEL PHYLIPS, HARRI GREGORI, DAFYDD JONES, A GRUFFYDD HOWELS.

RHYS PRYDDERCH† ydoedd ŵr enwog nad yw hyspys pa bryd, yn fanwl, y ganwyd ef, nac ymha le y cafodd ei addysg. Dywedir iddo farw "yn hen ac yn llawn o ddyddiau," fel y Brenin Dafydd; ac od oedd yr un oed yn marw a "pheraidd ganiedydd Israel," ganwyd ef ar y 25med o Ionawr, 1629. Preswyliai yn Ystrad Wallter, ger llaw tref Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin; a thybir mai efe oedd perchenog y lle hwnw, ac amryw dyddynod eraill yn yr ardal.

Ni wyddys pa pryd, na thrwy ba foddion, y cafodd dröedigaeth; ond y mae'n debyg i'r cyfnewidiad dedwydd ddigwydd yn lled forau ar ei fywyd. Nid yw hyspys chwaith pa bryd y priododd, na phwy oedd ei briod; ond dywedir fod ganddo blant yn 1662, os nad cyn hyny, pan oedd efe, yn ol ein hamcan gyfrif ni, yn 33 oed. Y mae'n debyg mai ar ol ei ddychweliad at grefydd y dechreuodd efe gadw ysgol ar ei etifeddiaeth yn Ystrad Wallter, a hyny, y mae'n debyg, er mwyn cael cyfle i ddysgu moesau a chrefydd i'w ysgolheigion, cystal a gwybodau eraill. Dywedir y bu'r ysgol dan ei ofal dros 40 mlynedd, yn yr hon "y derbyniodd y rhan fwyaf o bregethwyr Ymneillduol yr hanner gyntaf o'r ddeunawfed ganrif ran, os nad eu holl addysg. Un o'i ysgolheigion ef oedd Willian Evans, athraw cyntaf Athrofa Caerfyrddin."‡ Dywed y Dr. T. Rees nad oedd efe yn y weinidogaeth§ pan ddaeth Deddf yr Unffurfiad i rym, ond y dïoddefodd yn y cymmeriad o ysgolfeistr dan y ddeddf Babyddol honno; y dechreuodd arfer ei ddoniau fel pregethwr yr efengyl rai blynyddau ar ol hyny, er tosted yr erledigaeth; ac y daeth ymhell cyn ei farwolaeth yn un o'r gweinidogion enwocaf ac ehangaf ei ddefnyddioldeb yn y Dywysogaeth.‖ Pa wedd bynag, dywed Joshua Thomas y "bu yn pregethu trwy amser yr erledigaeth, a deng mlynedd wedyn,"¶ sef o 1662 hyd 1699; a dichon ei fod yn pregethu ymhell cyn hyny. D. Morgan, Llanfyllin, a ddywed am dano fel hyn:—

"Yn amser teyrnasiad erledigeuthus Siarl yr Ail, arferai cynnulleidfa lïosog o Ymneillduwyr ymgynnull mewn lle a elwir Castell Craig y Derwyddon, ger llaw Cefnarthen, i wrando yr efengyl, ac i addoli yr Arglwydd. Dywedir mai yr hybarch Rys Prydderch, o Ystrad Wallter, a arferai bregethu yno fynychaf. Ymgasglai y bobl ynghyd o bellder mawr: rhai o Lanwrtyd, Troedrhiwdalar, Brychgoed, Myddfai, Llanymddyfri, &c., fel nad oedd gan rai o honynt lai nag 20 milltir i'w teithio. Ymgyfarfyddent yn nhrymder y nos, rhag i'w gelynion eu dal a'u haflonyddu. . . . . Nid oes amheuaeth nad oedd y gynnulleidfa lïosog a ymgyfarfyddai yno y pryd hwnw yn ffrwyth llafur y gweinidogion duwiol a anfonwyd trwy Gymru i bregethu yr efengyl yn amser y Senedd Hir a Chromwel. Ond pan ddifeddiannwyd hwynt o'u breintiau a'u rhyddid trwy gyfreithiau gormesol Siarl yr Ail, ymgrwydrent o'r naill le i'r llall i wrando geiriau y bywyd. Meddylir i'r gynnulleidfa a ymgyfarfyddai yng Nghastell Craig y Derwyddon adael y lle hwnw, ac adeiladu addoldy yng Nghefnarthen, tu a'r fl. 1687, pan gyhoeddodd Iago yr Ail ryddid cydwybod i bawb addoli yn y lle yr ewyllysiai. . . . . Dywedir fod y Parch. Rhys Prydderch wedi ei urddo i'r weinidogaeth yng Nghefnarthen, yn y fl. 1688, ynghyd âg amryw eraill mewn lleoedd gwahanol. Y mae rhyw dywyllwch o gylch hanes y gŵr duwiol, dysgedig, a defnyddiol hwn, pan ddywedir ei fod wedi ei urddo yn y flwyddyn uchod. Ai tybed nad oedd efe yn urddedig o'r blaen? Paham y dywed haneswyr ei fod yn bugeilio eglwysi, ac yn gweini ordinhadau yr efengyl, mewn amryw fanau, yn enwedig yn sir Frycheiniog, ymhell cyn yr amser uchod? Ac os oedd efe yn weinidog yr efengyl o'r blaen, hyd yn oed i'r gynnulleidfa yng Nghraig y Derwyddon, paham y dywedir mai yn y flwyddyn uchod yr urddwyd ef? Dïau fod y pethau hyn yn ormod i ni eu cyssoni, a bod yn rhaid aros yn y tywyllwch, dan leni amser, hyd y dydd y daw yr holl ddirgeloedd i'r amlwg. Ond hyn sydd eglur a sicr, uwch law pob dadl, bod yr hyglod Rys

* Calamy's Acc., vol. ii., pp. 567–72; Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 215–19; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 236–48; En. Cymru, I. F., t. 718–19; Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 290; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 253–55; Drych yr Ams., t. 13–18.

† Rees Prydderch y gelwir ef gan Joshua Thomas, ac eraill o'r Cymry ar ei ol; ond RHYS PRYDDERCH sydd wrth un o'r llyfrau a adawodd mewn llawysgrif ar ei ol, a RHYS PRYDDERCH sydd wrth y llall a adawodd, fel y ceir gweled rhag llaw. *Rees Protheroe* y geilw'r Saeson ef.

‡ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 588.

§ Wrth "y weinidogaeth" y meddylir yma, y mae'n debyg, bywioliaeth blwyfol dan y Weriniaeth, canys pregethwyr duwiol a osodasid gan y Presbyteriaid neu'r Annibynwyr mewn bywioliaethau plwyfol yr adeg honno, ac a wrthodent gydymffurfio â'r Eglwys Wladol pan ddaeth i rym dan Charles II., a drowyd allan o'u bywioliaethau yn 1662.

‖ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 313.

¶ Hanes y Bedyddwyr, t. 92.

Digitized by Google

Prydderch wedi bod yn ddiwygiwr enwog yn ei ddydd, yn athraw rhagorol a dysgedig, yn weinidog ffyddlawn a llafurus, ac yn bregethwr cymmeradwy a defnyddiol i deunu peraroglau gwybodaeth ynghanol oes dywyll ac anwybodus." *

Dywed y Dr. T. Rees mai ar Rhys Prydderch yn unig yr oedd gofal bugeiliol yr holl eglwysi Anghydffurfiol yn sir Frycheiniog ar ol marwolaeth Henri Morus, yn 1682; ac er ei fod yn cael ei gynnorthwyo gan nifer o henuriaid athrawieuthol,† rhaid bod ei lafur ef yn ddirfawr ei faint. Dywedodd wrth rai o'i gyfeillion ychydig cyn ei farwolaeth, mai bywyd o ryfeddod a fu ei fywyd ef. Yr oedd cyfarfod yn ei dŷ y diwrnod y cymmerwyd ef yn glaf; ac wedi gorphen y gwasanaeth, canodd yn iach i'r bobl mewn dull cyfeillgar. Dywedodd wrth un o honynt nas teimlai ei hun yn iach, a dymunodd arno ei gynnorthwyo i fyned i'r llofft i'w lyfrgell, lle hefyd yr oedd ei wely; a chyn gynted ag y gorweddodd ar y gwely, bu farw. Y 25med o Ionawr, 1699, oedd y diwrnod hwnw; a dywedir mai ar y 25med o'r mis hwnw y ganwyd ac yr ordeiniwyd ef hefyd.‡

Un o lyfrau Rhys Prydderch a nodir gan ei fywgraphwyr yn gyffredin, fel ffrwyth ei bin ysgrifenu, sef "Gemmau Doethineb;" ond dengys Gwilym Lleyn iddo adael dau mewn llawysgrif ar ei ol yn barod i'r wasg. Cyhoeddwyd y cyntaf yn 1714, ymhen pymtheng mlynedd ar ol marwolaeth yr awdur, gan ei hen ysgolhaig, William Evans, y cyfeiriwyd ato eisoes, enw yr hwn lyfr yn gyflawn sydd fel y canlyn:—

"Gemmau Doethineb, neu Ymadroddion doethion, wedi eu chwilio, a'u trefnu, mewn Ffordd (nid anghynefin yn hollawl) i ddyscu Gwybodaeth i Ddynion. Yn gantoedd ac yn Ddegau. Hefyd Holiadau buddiol, ac ymddiddanion rhwng Gweinidog ac amryw Bechaduriaid, &c. Gan Rhys Prydderch, Gweinidog yr Efengyl yn sir Gaerfyrddin."

Dywed y Dr. T. Rees y cynwys y llyfr saith gant o ymadroddion detholedig, tebyg i'r rhai sydd yng "Ngweddillion Mason" (*Mason's Remains*), gyd âg amryw dreuthodau byrion yn erbyn pechodau ac arferion cyffredin yr amseroedd hyny. Gwilym Lleyn a ddywed fod hwn yn un o'r llyfrau bychain hynotaf a gyhoeddwyd yn y 18fed ganrif. "Y mae ei bennodau wedi eu dosparthu yn ddeg adnod, a phob deg pennod yn gwneud yr hyn a eilw yn 'Cant 1,' a 'Cant 2,' &c., hyd 'Cant 7.'" Wele esampl o'r olaf:—

"Cant 7. deg 7.

"1. Fe addawodd Duw gadw ei bobl, ac efe a geidw ei addewid.

"2. Nid oes gymmaint o wahaniaeth rhwng y mwyaf a'r lleiaf o'r rhai duwiol; ac y sydd rhwng y lleiaf o'r duwiol, a'r mwyaf moesol o'r annuwiol.

"3. Mae rhai yn gweled bai lle nad yw, ac heb weled bai lle mae llawer.

"4. Os mynnwn fod yn saint yn y nef mewn gogoniant, y mae yn rhaid i ni fod fel hwynteu mewn ufydd-dod ar y ddaiar.

"5. Gwell yw troi oddiwrth eulynod at Dduw, na throi oddiwrth Dduw at eulynod.

"6. Nid digon i ni ymgadw rhag drygioni y rhith; ond y mae'n rhaid i ni ymgadw rhag rhith y drygioni.

"7. Nid yw pob dŷn di ail anedig yn anhywaith; ond y mae pob dŷn anhywaith yn ddi ail anedig.

"8. Mae gweithredoedd y cyfiawn yn gymmeradwy yn ei ol ef; ac nid efe ei hun, yn ol ei weithredoedd.

"9. Nid a fu sy'n parhau heddy, ac nid y sydd dros fyth a bery.

"10. Fe a ŵyr y credadyn pe pechai efe, na chondemnid ef am ei bechod; ond y mae efe yn ofni pechu, fel pe na chondemnid ef am ei bechod."

"Yna y canlyn," eb Gwilym Lleyn, "'Holiadau ynghylch amryw bethau, buddiol i'r Oes ryfygus yma eu hystyried, a meddwl yn ddifrifol am y Cyfrif a ofyn Duw am danynt, ac am bob gweithred yn ol hyn.' Y mae'r holiadau yn rhai hynod iawn, megis 'Ynghylch dodi Plant i Weddio cyn Bwyd, yn rhithiol mewn Tafod leferydd i'r Teulu;' 'Am Ddawnsio Cymmysgedig;' 'Am ddodi Ceiliogeu i Ymladd;' 'Am blant yn priodi heb gennad eu rhieni;' 'Am Ocrneth;' 'Am roi Plant i'w Magu i eraill;' 'Ynghylch codi Bedw ar Farwolaeth Deiliaid;' 'Ynghylch Canuau Masweddol a Llygredig;' 'Ynghylch Swyno;' 'Ynghylch yfed Iechyd;' 'Ynghylch Gwallt Llaes.' Yna terfyna gyd â dernyn rhagorol o'r enw 'Dadleuon Pechaduriaid wedi eu Gostegu, trwy Fuddugoliaeth y Gwirionedd, mewn ymddiddan rhwng Gweinidog âg amryw Bechaduriaid.'"§

Enw y llyfr arall, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1767, sydd fel hyn:—

"Rhybudd teg mewn pryd da; sef Dadlau Pechaduriaid gwedi eu gostegu trwy fuddugoliaethau y gwirionedd. Mewn Ymddiddanion rhwng Gweinidog o Eglwys Loegr, ag amryw Bechaduriaid, sef Meddwyn, Tafarnwr, Bragwr, Coegddigrifwr, Cerddwr [Cerddor], Dawnsiwr, Tyngwr, Celwyddwr, a'r Twyllwr. Gan Rhys Rhydderch."‖

* O'n rhan ni, nid ydym yn gweled dim dirgelwch yn y peth o gwbl. Ymddengys mai dŷn duwiol a galluog iawn oedd Rhys Prydderch, ac iddo ymroddi, er ei fod yn ŵr cyfoethog, i ddysgu ei gydwladwyr, ar y cyntaf, mewn ysgol ddyddiol, yna trwy bregethu iddynt; ond heb fyned trwy unrhyw seremonïau ffurfiol.

† Y mae sawyr Presbyteriaeth braidd ar yr "henuriaid athrawieuthol" *(teaching elders)* hyn; ac y mae sawyr "henadur llywodreuthol," neu "esgob taleithiol," ar y dywediad bod "gofal bugeiliol yr holl eglwysi Ymneillduol yn sir Frycheiniog" ar Rhys Prydderch. A ymadawodd yr hen Buritan gymmaint â'i symledd cyntefig fel yr aeth yn "henadur llywodreuthol," neu "esgob taleithiol," ar ol cael ei urddo, nis gwyddom.

Dywed Joshua Thomas fel hyn am Rhys Prydderch:—"Mi a glywais gan amryw ei fod yn barnu mai y Bedyddwyr oedd yn ol y gair yn yr ordinhâd o Fedydd, ac i rai o'i frodyr gael gwaith ei attal i fyned i'w fedyddio ei hun" (Han. y Bed., t. 42). Ganwyd Jos. Thomas ymhen tu ag 20 mlynedd ar ol Rhys Prydderch; felly *gallasai* efe glywed rhai o'i gydoeswyr yn siarad am dano. Os ydyw y dystiolaeth hon wir, nid yw yn gannoliaeth uchel i'w benderfyniad na'i gydwybodolrwydd crefyddol.

‡ Palmer's Noncon. Mem., vol. iii., p. 500; Han. y Bed., J. T., t. 91–2; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 313–15; En. Cymru, t. 862–3; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 587–8; Llyfr. y Cymry, t. 301–2.

§ Llyfr. y Cymry, t. 300–1.

‖ Llyfr. y Cymry, t. 496.

Digitized by Google

Dyma'r cwbl a wyddom am y gwaith yma. Arwydda yr enw mai math ar heleuthiad ydyw hwn ar y pwngc olaf a grybwyllir ynglŷn â'r llyfr blaenorol, sef "Dadleuon pechaduriaid wedi eu gostegu, trwy Fuddugoliaeth y Gwirionedd, mewn ymddiddan rhwng Gweinidog âg amryw Bechaduriaid." Paham y dodwyd "Rhwng Gweinidog o *Eglwys Loegr*," yn enw y llyfr yma, nis gwyddom, oddi eithr mai rhyw ŵr eglwysig a'i cyhoeddodd.

DANIEL PHYLIPS ydoedd ŵr enwog yn disgyn o un o ganghenau ieuengaf teulu pendefigaidd Castell Picton, sir Benfro. Ni wyddys ymha le yr oedd ei rieni yn byw, na pha bryd y ganwyd ef. Y mae'n lled debyg mai rhyw fan yn y cwr isaf o sir Benfro oedd lle ei enedigaeth. Dyry Robert Jones, Capel Dinas, gynt o Roslan,* yr hanes ganlynol am ei dröedigaeth:—

"Cafodd ddysgeidiaeth dda; ond troes allan yn ei ieuengtid yn ddŷn gwag ac anystyriol. Yr oedd ganddo un cyfaill mwy neillduol nag eraill, ag oedd yn cydredeg gyd âg ef i bob gwagedd. Ar ryw Sabboth, gofynodd y naill i'r llall, 'I ba le y cawn fyned heddyw? A gawn ni fyned i wrando ar y gŵr a'r gŵr yn pregethu?' ac felly fu. Wedi dyfod allan, dywedodd ei gyfaill wrtho, 'Wel, bellach, ni a awn i'r lle a'r lle i'n gwneud ein hunain yn llawen gyd â rhyw ddigrifwch.' Dywedodd Mr. Phylips wrtho, 'Fy nghyfaill, y mae'n rhyfedd genyf eich clywed. Oni chlywsoch fel yr oedd y pregethwr yn dywedyd am bechod, a'r gosp ddychrynllyd ddyledus o'i herwydd? Gan hyny, pa fodd y gallwn wneuthur y mawr ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw?' O hyny allan gadawodd ei hen gyfeillion ofer, a'i ffyrdd pechadurus, ac ymroddodd i geisio yr Arglwydd â'i holl galon. Daeth ym mlaen ar gynnydd mewn gras a gwybodaeth iachusol, a doniau helaeth."†

Tynodd ei dduwioldeb a'i ddoniau rhagorol sylw ei gyfeillion crefyddol yn fuan, a chymmellasant ef i ddechrau pregethu, ac ymroddi i waith y weinidogaeth; am hyny, aeth D. Phylip i ysgol Samuel Jones, Bryn Llywarch, yr hon a ystyrid gan yr Ymneillduwyr ar y pryd megis athrofa glerigol. Wedi treulio y tymmor a ystyrid yn gyfaddas dan ddysgeidiaeth S. Jones, taer gymhellwyd ef gan gyfeillion Anghydffurfiaeth i gymmeryd gofal yr eglwys Ymneillduol ym Mhwllheli, sir Gaernarfon. Cydsyniodd yntau â'r cais, ac, yn 1684, ymsefydlodd yno; ond o herwydd angerdd yr erledigaeth, nid aed trwy y seremoni o'i urddo yn gyhoeddus hyd 1688, pan ail gyhoeddodd Iago II. Ddatganiad Rhyddid Cydwybod, er mwyn y Pabyddion.‡ Yn lled fuan wedi iddo ymsefydlu ym Mhwllheli, priododd weddw yr enwog Henri Morus, etifeddes y Gwynfryn, ac aeth yno i breswylio. Y fath oedd rhagfarn a gelyniaeth pobl y wlad honno ar y pryd at Ymneillduaeth, fel na chai teulu y Gwynfryn, eb R. Jones, "na gwas na morwyn, ond rhyw rai na chymmerai neb arall mo honynt. Cawsant o'r diwedd ryw greadures annosparthus ac ymladdgar yn forwyn; a byddai honno yn rhegi ac yn diawlio, fel pe buasai o ddiben i'w poeni. Sylwodd hon y byddai ei meistr yn cilio i'r parlwr yn fynych wrtho ei hun. Un tro, dywedodd hithau wrthi ei hun, 'Beth y mae'r hen ddiawl yn ei wneud acw?' Edrychodd trwy dwll y clo, a chanfu y gŵr duwiol ar ei liniau, a'r dagrau yn llifo ar hyd ei ruddiau; a thrwy hyny, fel moddion dechreuol, ennillwyd y greadures ysgeler i garu crefydd a duwioldeb, ac o hyny allan bu yn aelod defnyddiol yn yr eglwys."§

Yr oedd D. Phylips yn ŵr tra gweithgar a gwrol; ac er mor chwerw oedd yspryd erledigeuthus y bobl ar y pryd, cyn gynted ag y gwnaed Deddf y Goddefiad yn gyfraith y wlad yn 1689, mynnodd gofrestru tŷ yng Nghaernarfon i bregethu, ac arferai fyned yno i bregethu ar hyd ei oes. Llwyddodd hefyd i gofrestru dau neu dri o dai pregethu yn sir Fon. Bu mewn perygl, rai prydiau, am ei fywyd, oddi wrth y dorf erlidgar, pan yn pregethu; ond ni pharai na pheryglon nac erlid iddo ef ymattal. Ryw bryd yn amser Iago II., cyfarfu amryw bregethwyr ym Mhwllheli, gan feddwl cadw cyfarfod pregethu yno, math ar gymmanfa, ond odid. Wrth weled agwedd y terfysglu (*mob*), yr oedd ar y rhan fwyaf o honynt ofn anturio i'r gwaith. Yna "gofynodd un o honynt," eb R. Jones, "'Pwy a bregetha yma heddyw?' Attebodd un gweinidog ieuangc [sef Daniel Phylips, fel y tybir], yn ddiegwan o ffydd, 'Os caniatewch, fy mrodyr, myfi a bregethaf.' Ac fel yr oedd efe yn myned ym mlaen yn ei orchwyl pwysfawr, saethodd un o'r erlidwyr fwled heibio ei ben i'r pared. Wrth ganfod y waredigaeth ryfedd hon o eiddo Duw tu ag ato, adroddodd y geiriau hyn, 'Ynghysgod dy law y'm cuddiwyd;' ac yna aeth ym mlaen yn galonog hyd ddiwedd y cyfarfod."‖

Tybir bod gwraig gyntaf Phylips, sef gweddw H. Morus, yn hynach nag ef o amryw flynyddoedd, ac wedi iddi hi farw, heb blant, fel yr ymddengys, gadawodd y Gwynfryn i'w gŵr Phylips; ac ail briododd yntau, mewn amser cyfaddas, a chafodd chwech o blant o'r briodas yma, sef dau

* Dichon y dylid crybwyll mai *W.* Phillips y geilw R. Jones ef, mewn camsyniad.
† Drych yr Amseroedd, t. 25–6.
‡ Mackenzie's Fam. Hist. Egl., vol. iv., pp. 305, 320.
§ Drych yr Amseroedd, t. 26.
‖ Drych yr Amseroedd, t. 23; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 181.

Digitized by Google

fab a phedair o ferched. Dywedir y bu'r Gwynfryn yn gartref gweinidogion Ymneillduol Pwllheli dros fwy na 130 o flynyddau. Bu dau fab Phylips yn bregethwyr enwog yn eu dydd; a bu tair o'i ferched yn wragedd pregethwyr, sef Dafydd Williams, Dinbych; Richard Thomas, Pwllheli; a Thomas Morgan, Henllan. Bu ei wyrion a'i orwyrion, a phlant y rhai hyny, yn bregethwyr a gwragedd i bregethwyr. Wyres iddo ef oedd gwraig Rhys Harris, Pwllheli; a merch iddi hithau oedd gwraig E. Davies, Hanover, Mynwy. Y mae lliaws o ddisgynyddion D. Phylips yn awr, yn y seithfed a'r wythfed genhedlaeth, yn wasgaredig ar hyd Cymru a Lloegr, a'r rhan fwyaf o honynt yn bobl foneddigaidd a chrefyddol. Wedi i Phylips lafurio yn dra diwyd a llwyddiannus, yn wyneb llawer o wrthwynebiadau a pheryglon, ym Mhwllheli, Caernarfon, a'r cylchoedd, dros 38 mlynedd, bu farw, mewn oedran teg, yn y flwyddyn 1722.*

Henri Gregori (Henry Gregory), un o weinidogion gorau y Bedyddwyr ym Maesyfed, yn ystod yr erledigaeth ofnadwy yn amser Charles II. a Iago II., sef o 1660 hyd 1689. Nis gwyddom ymha le y ganwyd ef; ond gan iddo farw yn 1700 yn 63 oed, rhaid mai 1637 oedd blwyddyn ei enedigaeth. Golygir mai o dan weinidogaeth Huw Evans y cafodd ei ddwyn at y Gwaredwr, ac ymddengys iddo ddechrau pregethu cyn bod yn 20 oed. Efe oedd y prif weinidog yn eglwys H. Evans wedi marwolaeth yr olaf; ond cynnorthwyid ef yn ffyddlon yn y weinidogaeth gan Peter Davies, John Price [Prys], Evan Bowen, Dafydd Williams, &c., y rhai a bregethent yn y canghenau lliosog, yn y sawl yr ymgyfarfyddai eglwys liosog y Cwm. Byddai eglwysi yn newid manau addoliad yn yr amseroedd terfysglyd hyny; tra yr ystyrid *un* lle neillduol yn fan canolog, neu yn brif le ymgynhulliad y frawdoliaeth, ymgynhullid mewn lliaws o ardaloedd eraill, amryw o ba rai oedd ymhell iawn o'r canolfan. Ymddengys mai mewn lle a elwid Cwm, ymhlwyf Llanddewi Ystrodeni, Maesyfed, yr ymgyfarfyddai hen eglwys Huw Evans yn fwyaf neillduol yn amser Gregori. Daliai efe dyddyn bychan, ond ni hyspysir ei enw gan ei fywgraphwyr. Er nad oedd yn gyfoethog, ymddengys nad oedd yn dlawd, ond pan yspeilid ef o'i feddiannau yn herwydd ei grefydd gan erlidwyr ei oes. Nid ymddengys iddo gael ei osod mewn un eglwys blwyfol pan drowyd allan lliaws o offeiriaid annheilwng gan Ddirprwywyr a Phrofyddion y Weriniaeth; ond er nad oedd yn un o'r "Ddwy Fil" a ddioddefasant yn 1662, etto y mae'n eglur na ddioddefodd llawer o'r rhai hyny fwy nag a ddioddefodd efe o gynddaredd erlidwyr y cyfnod. Ni hyspysir iddo gael ei garcharu, ond gyd â golwg ar yspeiliadau o herwydd ffyddlondeb cydwybodol, yr oedd yn un o ddioddefwyr penaf ei oes, fel y dengys y disyniad canlynol:—

"Cafodd lawer o flinder a cholled trwy yr erlidwyr. Cymmerwyd ei anifeiliaid, ac amryw bethau eraill. Un amser, pan gymmerasant ei dda ef [gwartheg, &c.], gadawsant iddo un fuwch, er mwyn cael llaeth i'r plant; ond wedi hyny, pan oedd y gŵr da oddi cartref, daethant ac aethant ymaith a honno. Pan ddaeth y gŵr adref, mawr oedd galar a gofid y wraig ar ol y fuwch; ond efe a attebodd y wraig yn addfwyn i'r pwrpas hyn, 'Na flina di am hyn: trefna Rhagluniaeth i ni fuwch arall etto mewn rhyw ffordd.' Un peth hynod a glywais oedd hyn: Wrth gymmeryd ymaith ei anifeiliaid ryw dro, darfu i ddau ŵr oedd yn gwneud hyny eu gyru yn chwyrn trwy ryd mewn afon ger llaw y tŷ. Ryw amser ar ol hyny, boddodd un o'r ddau ŵr yn y rhyd honno, a daeth y llall i ryw ddiwedd galarus; ac ni wn i lai nad efe oedd y gŵr a yswyd i farwolaeth gan bryfed fel Herod, canys clywais am un o erlidwyr y gŵr da hwn, ei farw yn y cyflwr ofnadwy hwnw; a llefai un arall o'i erlidwyr ar ei wely angau, gan ddywedyd, 'Nad oedd dim yn ei flino fel ei waith yn cynnorthwyo i ddwyn ymaith feddiannau Henri Gregori.' Yr oedd rhyw farnedigeuthau yn digwydd yn fynych i'r erlidwyr yr amser hwnw. Clywais fod un gŵr cyfoethog yn yr ardal honno, yn llawn o elyniaeth; ac etto, ni chynnorthwyai efe yn yr erledigeuthau. Pan ofynwyd iddo paham na roddai efe ryw gymmorth yn y gwaith, dywedir iddo godi ei ddwylaw, a dywedyd, 'Duw yn y blaen! ni chwrddaf fi â hwynt. A welsoch chwi beth sydd yn digwydd i'r rhai sydd yn eu herlid.'"†

Er nad yw barnedigeuthau tymhorol yn rhan o'r gyfundrefn efengylaidd, fel yn amser Moses; etto, y mae'n hawdd genym gredu y bydd yr Hollalluog yn dangos ei anfoddlonrwydd yn achlysurol i'w elynion mwyaf haerllug ac erlidgar. Nid yn gyffredin y mae bendith y nef yn aros ar eiddo wedi ei gasglu trwy ormes ac anghyfiawnder. Dengys hanes eglwysig nad nifer bychan o erlidwyr creulonaf Cristionogion a fuant feirw o dan arwyddion amlwg o anfoddlonrwydd y Goruchaf.

Ymddangosai Charles II. ac Iago II., a deddfwneuthurwyr eraill, fel pe yn awyddus am roddi cyfleusdra i'r dihirod mwyaf ysgeler i gael aberthau i'w creulondeb, a hyny yn y modd mwyaf didrafferth. "Rhaid cadw mewn cof yma," eb un ysgrifenydd medrus, "fod y budd o ddwyn i

* Drych yr Amseroedd, t. 23, 25-7; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 328-30; En. Cymru, I. F., t. 827-8; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 165-7.

† Han. y Bed., J. T., t. 112; Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 239-10; Han. y Bed., D. J., t. 828.

Digitized by Google

weithrediad gyfreithiau cigyddlyd Siarl ac Iago yn disgyn i ddwylaw yr erlidwyr. Er engraifft, o dan Ddeddf y Celgyfarfod (Conventicle Act), yn 1664, yr hon a wnai bob pump a ddelid ynghyd yn addoli Duw yn agored i gael eu dirwyo, y waith gyntaf i 5p. yr un, neu dri mis o garchar; yr ail waith, i 10p. yr un, neu chwe mis o garchar; a'r drydedd waith, i 100p. yr un, neu saith mlynedd o alltudiad. Yr oedd yr achos i'w benderfynu heb brawf na rheithwyr, dim ond llw y cyhuddwr; ac yr oedd hwn i dderbyn un ran o dair o'r ddirwy yn wobr am ei ysgeleriaeth. O amser ofnadwy ar Eglwys Dduw! Y rhai anwyl a diniwaid, fel ŵyn bychain, yn cael eu hysglyfeuthu gan fleiddiaid!" Er i Gregori ddïoddef erchylldod erledigeuthus gelynion ei oes; etto, efe a ymwrolodd yn ei Dduw, gan ddal yn ffyddlon i'w broffes yn y ddryccin ofnadwy. Pregethodd a phorthodd ei braidd gwasgarog ac erlidiedig mewn ameuthdai, a lleoedd anial, ym Maesyfed a Brycheiniog, am 40 mlynedd. Gwelodd ei elynion ffyrnicaf a mwyaf anfad wedi eu dïarfogi, a llawer o'r cyfryw yn cael eu claddu, a rhai o honynt, yn ol pob tebygolrwydd, yn meirw o dan ddïaledd y Duw a ddiystyrasent, trwy erlid ei anwyliaid ef. Yr amser mwyaf ofnadwy i Gristionogion yn y deyrnas hon oedd yr 28 mlynedd rhwng 1660 ac 1688, a chafodd Gregori yfed yn helaeth o wermod y cyfnod; ond cyn diwedd ei oes yn 1700, mwynhaodd flynyddau o seibiant yngwasanaeth ei Arglwydd, ac yna ymadawodd, gan adael i'r Eglwys Gristionogol goffadwriaeth anrhydeddus ar ei ol, ac enw na phydra tra pery amser.

Dafydd Jones ydoedd ŵr enwog a drowyd allan o fywioliaeth blwyfol Llandyssilio yn 1662, lle ar gyffiniau sir Gaerfyrddin a sir Benfro, nid neppell o dref Arberth. Yr oedd yn bregethwr llafurus a defnyddiol, ac yn un o gymmwynaswyr penaf ei wlad yn yr oes honno. O herwydd esgeulusdra beius ei gydoeswyr a fuant fyw ar ei ol, ychydig iawn sydd genym o hanes ei fywyd, ei lafur, a'i ddïoddefiadau. Wedi iddo gael ei fwrw allan, llafuriodd, mewn cyssylltiad â Stephen Hughes, mewn gwahanol barthau o sir Gaerfyrddin a Morganwg, yn enwedig tu a Chapel Isaac a Llanedi, yn sir Gaerfyrddin. Cyfarfyddir â'i enw yn yr adroddiadau a wnaed ar ol adnewyddu Deddf y Celgyfarfod yn 1669, yn Llawysgrifau

* Nid praidd Gregori oeddynt, namyn "praidd Duw" (1 Petr v. 2).—Gol.

Palas Lambeth, yn hanes y Celgyfarfodydd, lle y dywedir fel hyn:—

"Sir Gaerfyrddin—Y dywededig Mr. Stephen Hughes sydd fugail yr eglwys gyntaf yn y wlad hon; ac Annibynol ydynt yn briodol o ran eu barn, heb wahanieuthu llawer oddi wrth y Presbyteriaid. Nid wyf yn gwybod enwau eu swyddogion, oddi eithr Mr. William Llwyd, dyn dall, ac etto yn gweled, sydd un yn dysgu yn gyffredin yn eu plith; a hefyd Dafydd Jones."*

Mewn lle arall yn yr un Llawysgrif, dywedir fel y canlyn:—

"Sir Forganwg.—Yr eglwysi cyntaf a gasglwyd yn y sir hon oedd rhai Merthyr, yr hon yn awr sydd ran o Eglwys Llanigon. Gwel Sir Frycheiniog. A hefyd yr eglwys a ymgyferfydd yn Abertawe, a gynhullwyd gan Mr. Ambrose Mostyn. Annibynwyr ydynt oll o ran barn, hyd yr wyf fi yn gwybod. Mr. Higgs yw eu bugail, a Mr. Dafydd Jones ac eraill yn henuriaid iddynt."†

Y mae'r Dr. T. Rees yn barnu bod gan Dafydd Jones ryw law, mewn cyssylltiad â S. Hughes, ynghyhoeddiad "Egwyddorion y Grefydd Gristionogol" ("Catecism y Gymmanfa"), a gyhoeddwyd yn 1664;‡ ond nid yw Gwilym Lleyn yn son am yr un o'r ddau mewn cyssylltiad â'r argraphiad hwn o'r gwaith; eithr tuedda efe yn hytrach i'w briodoli i William Jones o Ddinbych.§ Priodola y Dr. Rees a Gwilym Lleyn argraphiad 1679 o'r "Egwyddorion" i Dafydd Jones;‖ a barna y Doctor fod Dafydd Jones yn cynnorthwyo S. Hughes i ddwyn "Canwyll y Cymru" allan yn 1681;¶ ond nid yw Gwilym Lleyn yn crybwyll ei enw ef mewn cyssylltiad â'r argraphiad hwnw o'r "Ganwyll."**

Dywedir i Dafydd Jones ymweled â Chaerodor yn 1682, a phregethu yno ddwywaith, er maint y perygl y gosodai efe ei hun ynddo wrth wneuthur hyny.†† Ond er maint y lles a wnaeth D. Jones trwy bregethu, a lledaenu llyfrau da ymhlith y Cymry, y mae'n sicr mai y gymmwynas benaf a wnaeth efe i'w gydgenedl oedd dwyn allan argraphiad 8plyg, hwylus a rhad, o'r "Bibl Cyssegr-lân," yn Gymraeg. Yr oedd S. Hughes wedi rhagddarpar ar gyfer yr argraphiad yma; ond bu efe farw cyn ei orphen. Am yr argraphiad yma, dywed y Dr. Llewelyn fel hyn:—

"Yr oedd efe [S. H.] wedi gosod argraphiad arall ar droed; ond ni bu efe byw i weled ei orphen. Bu farw o gylch 1687;‡‡ eithr ni chyhoeddwyd yr argraphiad 8plyg

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 205. † Idem, p. 209.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 220.

§ Llyfryddiaeth y Cymry, t. 192–3. Gwel hefyd pen. xvii. o'r llyfr hwn, y iv.

‖ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 222; Llyfr. y Cymry, t. 219.

¶ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 222.

** Llyfr. y Cymry, t. 222.

†† Broadmead Records, pp. 456–7.

‡‡ Gwel pen. xiv. o'r llyfr hwn, y iv.

Digitized by Google

nesaf o'r Bibl hyd 1690. Yr oedd yr argraphiad hwnw yn lliosocach nag yr un a fu o'i flaen. Nis gallaf ganfod y rhif manwl o gopïau a gynhwysai; ond dywedir gan Calamy* y dosparthwyd tu a 10,000 o hono yng Nghymru, gan y golygydd, Mr. D. Jones, yr hwn y dywedir iddo gymmeryd dirfawr boen i argraphu a lledaenu Biblau Cymraeg. Ymddengys mai prif noddwr y cyhoeddiad yma ydoedd Arglwydd ardderchog o deulu Wharton: Thomas Barwn Wharton, fel y tybiaf; Is-iarll Winchendon wedi hyny, Iarll ac Ardalydd Wharton; Protestaniad zelog, a chefnogwr y Chwyldroad; gwasaneuthwr ffyddlawn i'r Brenin William III., ac un o weinidogion y Frenhines Ann, yn y rhan *ogoneddus* o'i theyrnasiad. Cafodd Jones nawdd rhai gwŷr eraill o fri yn y gorchwyl pwysig yma, heb law yr Arglwydd Wharton; a chynnorthwywyd ef yn haelionus gan rai o weinidogion a dinaswyr Llundain."†

Yr oedd D. Jones yn byw y pryd hyn yn Abertawe, lle y mae'n debyg y gorphenodd efe ei ddyddiau ryw bryd ar ol y flwyddyn 1690. "Er iddo gymmeryd poen i wneud daioni i eneidiau yn y wlad ddiffrwyth hon, etto cyfarfu âg anhawsderau mawrion, ac â llawer o wrthwynebiad. Cymmerwyd ysgrifwys o ysgymmundod yn ei erbyn unwaith."‡

GRUFFYDD HOWELS ydoedd un o golofnau cryfaf eglwys y Bedyddwyr yn Rhydwilym, a'r hwn oedd y cyntaf a fedyddiwyd yno, gan William Jones, yr hyn a gymmerth le ar y 4ydd o Fehefin (Awst, medd rhai) yn 1667. Gwnaed ef yn henuriad y dydd y bedyddiwyd ef, am yr hyn y dywed un hanesydd fel y canlyn:—

"Gall ymddangos yn hytrach yn hynod i Mr. G. Howels gael ei ddewis yn henadur y dydd y bedyddiwyd ef, a thebygol yw mai efe oedd y cyntaf a fedyddiwyd gan William Jones. Nis gallai y nifer a'i dewisodd fod ond chwech, na bod yn eglwys briodol.§ Dichon mai yn debyg i hyn y bu: Yr oedd Mr. Howels yn fonheddwr o safle, meddiant, a dysg, a thybir ei fod yn y weinidogaeth ar y pryd. Y mae'n bossibl na chynhwysai y dewisiad a'r henaduriaeth fwy na chyttundeb rhwng yr ychydig gyfeillion, ei fod ef i bregethu yn achlysurol yn ei dŷ ei hun, ac fe allai mewn manau eraill, fel yr oedd yn gwneuthur, fe ddichon, yn flaenorol."

Lle yn ymyl Narberth yw Rhydwilym,‖ yr hwn oedd yn rhan o etifeddiaeth Mr. Howels, a lle y bu yr eglwys yn cyfarfod am flynyddau lawer, ac y mae'n dra thebyg mai yno y dechreuodd. Nid oedd gan y Bedyddwyr eglwys o gwbl yn y rhan honno o'r wlad, pan ddeuthai W. Jones i'r ardal wedi ei fedyddio; a'r hyn sy'n debyg yw, mai ger llaw Rhydwilym y gweinyddwyd y bedydd cyntaf pan ddaeth W. Jones i'r ardal wedi ei fedyddio, ac mai yn nhŷ Mr. Howels y cyfarfu'r cyfeillion bedyddiedig gyntaf wedi talu gwarogaeth ymarferol i'r ordinhâd. Canolfan, neu'r prif le y cyfarfyddent am flynyddau, sef trwy ystod yr holl erledigaeth, ac am dymmor wedi hyny, oedd tŷ Mr. Howels; ac y mae'n fwy na thebyg mai yno y cafodd yr eglwys ei chorpholi yn 1668. Nid oedd ganddynt addoldy o fath yn y byd, ac ni lwyddasant i gael un cyn 1701, pan adeiladwyd Rhydwilym gan John Evans, o Lwyndwfr, ar ei draul ei hun. Cyn hyny arferent ymgasglu yn nhŷ Howels, Llwyndwfr, Cilcam, Ynysfach, a Chilfowyr. Tueddir rhai i feddwl bod Mr. Howels yn gwasaneuthu mewn un o'r llanau dan ddeddf 1649, ac iddo gael ei droi allan, fel eraill, yn 1660 neu 1662; ond dichon nas gellir bod yn sicr y naill ffordd na'r llall. Sut bynag, cyd-ddechreuodd W. Jones ac yntau gyd â'r Bedyddwyr, a chydweithiasant yn enwog cyhyd ag y bu angau heb eu gwahanu. Penderfynwyd yn 1667 bod y ddau i wasaneuthu fel cyd-henuriaid. Cymmerai W. Jones, fel y tybir, y rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb pregethwrol, tra y gofalai Howels yn benaf am yr olygiaeth eglwysig. Gan fod yr olaf yn foneddwr o ran amgylchiadau bydol, safle cymdeithasol, a dysgeidiaeth, yr oedd ganddo gryn fantais i wneud daioni, a gwnaeth lawer; ond gan fod y gynddaredd mor alaethus yn erbyn yr Anghydffurfwyr, ac yn neillduol yn erbyn y Bedyddwyr, ni bu dim a berthynai i Howels yn ddigon i'w ddïogelu rhag chwerwderau yr amseroedd.* Nid yw manylion ei golledion mewn yspeiliadau a dirwyon wedi eu coflyfru; ond y mae'n ffaith iddo ddïoddef yn echrydus yn y cyfeiriadau hyn, ac iddo gael ei garcharu o blegid ei ymlyniad dïysgog wrth egwyddorion Anghydffurfiaeth. Yn y carchar yr oedd Howels yn 1673, pan fedyddiwyd yr enwog John Evans, Llwyndwfr, yn Rhydwilym. Un awdur a ddywed am Howels fel hyn:—

"Gruffydd Howels oedd y nesaf at W. Jones yn seiliad

* Acc. of Eject. Min., vol. ii., p. 720.

† Dr. T. Llewelyn's Hist. Acc. of the Welsh Bible, pp. 47–8; Llyfr. y Cymry, t. 246–7.

‡ Calamy's Continu., vol. ii., p. 845; Han. Cref., D. P., argr. 1851, t. 248–9; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 145.

§ Nid yw y Testament Newydd yn dangos mewn un man pa nifer sydd angenrhaid i wneud "eglwys briodol;" ond dywed Iesu Grist, "Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt" (Mat. xviii. 23). Nis gellir casglu bod y rhai a ymgynhullent yn nhŷ Acwila a Phriscila (Rhuf. xvi. 5; 1 Cor. xvi. 19), ac yn nhŷ Philemon (adn. 2), yn rhyw liosog iawn; ac er hyny y mae'r apostol yn eu galw yn "eglwys" ("briodol," y mae'n debyg).

‖ Yr ydym yn casglu oddi wrth y frawddeg a ddilyn yr enw hwn mai yr un man yw *Rhydwilym* a *Rushacre*; am hyny gwell yw defnyddio yr enw Cymraeg yn wastad yn y testyn, na'i gymmysgu â'r enw estronol.—GOL.

* Golygir mai William Jones fyddai yn bedyddio fynychaf, os nad bob amser, yn Rhydwilym; ond nid yw ei enw fel gweinyddwr i'w gael yn y cofnodau ar y coflyfr cyn 1688: a bernir mai ofn rhag y gallai yr yspïwyr, rywsut, gael golwg ar y llyfr, a dwyn Mr. Jones i drallod mewn canlyniad, a barodd i'r cofiaduron adael enw y gweinyddwr allan. Byddent yn cyfansoddi math ar ganuon, neu bennillion goganus ac enllibus, ac yn eu datganu i'r diben o ddiraddio y Bedyddwyr, ac yn gwneud braidd bob peth a allent er eu darostwng a'u poeni.



Digitized by Google

ac adeiladaeth yr eglwys. Byddai yn pregethu llawer i'r Saeson, gan ei fod yn byw ar derfynau y ddwy iaith. Efe oedd y prif bregethwr Seisnig gan y Bedyddwyr yn yr ardal, ac ymunodd rhai o'r Saeson â'r eglwys. Rhydwilym oedd prif dŷ cyfarfod yr eglwys. Yr oedd yn fath ar Eglwys Gadeiriol i'r holl fanau eraill. Er y byddai ei safle a'i ddylanwad yn ei ddïogelu yn fwy na rhai; etto cafodd ddïoddef llawer. Dïoddefodd dros grefydd mewn llawer ffordd, gan y byddai yn cynnal gwasanaeth crefyddol yn ei dŷ. Cafodd ei erlid, colli ei feddiannau, a'i garcharu. Er cymmaint a ddïoddefodd Gruffydd Howels dros grefydd, gadawodd ran o'i eiddo at gynnal crefydd ar ol ei ymadawiad. Bu eglwys Rhydwilym yn derbyn llôg y swm a adawodd am amser maith wedi iddo farw, yr hwn a ddefnyddid i gynnal y weinidogaeth; ond erbyn hyn, y mae y rhodd rywsut wedi ei cholli.* Dïoddefodd W. Jones ac yntau lawer cyn eu bedyddio, a llawer wedyn am flynyddau meithion. Er bod y ddau yn oedranus, ac wedi ymdreulio yng ngwaith yr Arglwydd mewn llawer ffordd; etto, aethant i Llundain ill dau yn 1689, i gydlawenhau â'u brodyr yn y gymmanfa, ac i gyd-ddïolch am y rhyddid a'r daioni a roddasai Duw i'w bobl. Glaniodd William, Tywysog Orange, yma yn Tachwedd, 1688; ac yn 1689, sefydlwyd rhyddid gwirioneddol trwy Ddeddf Seneddol; ac i'r diben o ddïolch i'r Goruchaf am y waredigaeth, cyfarfu y Bedyddwyr mewn cymmanfa yn Llundain ym mis Medi. Yr ydym yn meddwl mai chwech oedd ynddi o Gymru; ac yr oedd W. Jones a G. Howels yn eu plith, yn cynddrychioli eglwys Rhydwilym. Cynddrychiolent eglwys wasgaredig o barthau pellaf Cymru, yr hon a ddechreuasid yng ngwres yr erledigaeth, ac a gynnyddasai trwyddi oll dan arweiniad yr enwogion hyn. Cyn eu myned i orphwys, cawsant weled yr eglwys yn breswylfa lonydd, a'i meibion yn llïosog i ymaflyd yn ei llaw."

Ffaith boenus, at yr hon y cyfeiriwyd fwy nag unwaith yn y gwaith hwn, ydyw y byddai yr hen Anghydffurfwyr, ac yn enwedig y Bedyddwyr, yn cael eu poenydio gan y gelynion erlidgar mewn cyssylltiad â chladdedigaeth eu hanwylion. Bu raid iddynt sicrhau claddfeydd iddynt eu hunain; ac un o'r rhai a wneuthant lawer yn y cyfeiriad hwn oedd y gwron o Rydwilym. Dïau i'r Bedyddwyr yn ardaloedd Narberth a Rhydwilym gael eu trallodi gan yr erlidwyr ar y pwngc yma, fel y cafodd Anghydffurfwyr mewn llawer o fanau eraill; ac o herwydd hyny, penderfynodd Howels osgoi y fath ofidiau rhag llaw, trwy godi mur o gwmpas darn o'i dir ef ei hun, a'i wneud yn gladdle i'w gyfeillion crefyddol yn y cymmydogaethau. Yr oedd ei fab, yr hwn oedd hefyd yn aelod gyd â'r Bedyddwyr, mor barod ag yntau i roddi tir at eu gwasanaeth. Y mae'r gladdfa, neu yr "Ardd Gladdu," fel y gelwir y lle, yn agos i'r ffordd i Hwlffordd, ar yr ochr orllewinol ymhlwyf Llanddewi. Wedi cyfaddasu y man i'r diben dywededig, Gruffydd Howels ei hun oedd y cyntaf a gladdwyd yno.† Golygir mai yn y flwyddyn 1705 y gorphenodd y gŵr enwog hwn ei yrfa; ond nid oes sicrwydd beth oedd ei oedran yn amser ei ymadawiad; eithr dilys yw ei fod yn wir oedranus, ac iddo farw wedi gwneud llawer iawn o ddaioni yn ei oes faith a thrallodus.

### OLNODION.

Bu llawer o weinidogion, a chynnorthwywyr galluog ac ymdrechol, heb law y rhai y cofnodir eu hanes yn y gwaith hwn, yn ddefnyddiol iawn yn y cyfundeb Bedyddiedig yng Nghymru rhwng 1649 ac 1689, fel y gŵyr y rhai sydd wedi ymgydnabyddu â hanes yr enwad. Gellid ysgrifenu cryn lawer am Thomas Parri, John Rhys Howel, a Howel Watkins, yn Olchon; Dafydd Davies, Thomas Joseph, Howel Thomas, a Thomas Jones, yn Hengoed; Thomas Quarrel, yn Llangwm;‡ John Price (Prys), a Peter Davies, yn y Dolau; Huw Owen, yn Llanbrynmair;§ Thomas Dafydd Rhys, a George John, yn Rhydwilym; ac Evan Llywelyn, John Thomas, Lewis Thomas, a Robert Morgan, yn Llanilltyd ac Abertawe, a llawer eraill, a ymladdasant yn llwyddiannus yn erbyn ffyrnigrwydd difaol yr ystormydd aruthrol. Bu amryw o'r rhai uchod yn enwog iawn yn eu dydd. Bu llawer o weinidogion y Bedyddwyr feirw yn ystod yr erledigaeth, fel y crybwyllwyd; a dengys yr hyn a ysgrifenwyd i lïaws o honynt orfucheddu Charles a Iago. Heb law y rhai y cymmerwyd cipdrem arnynt, bu Lewis Thomas, Abertawe; Robert Morgan, Caerfyrddin; William Prichard, o'r Fenni; T. Quarrel, o Langwm a Llantrisant;

* Nid gadael rhoddion *ar eu hol* i'r eglwysi y byddai y saint gynt, ond cyfranu yn eu bywyd i'w brodyr a'u chwiorydd anghenus, "fel yr oedd yr eisiau ar neb."—Gol.

† "Tu a'r flwyddyn 1862, bu cyfraith ynghylch y gladdfa uchod, rhwng y Bedyddwyr a J. L. G. P. Lewis, Ysw., o Henllan, yr hwn a hawliai y lle fel rhan o'i etifeddiaeth. . . . . Collodd y Bedyddwyr y gyfraith a'r fonwent, am nas gallent gael y Gweithredoedd, yn y rhai y rhoddasai G. Howels y tir yn feddiant i'r Bedyddwyr. Ymhen amser ar ol hyny, cafodd Mr. Lewis ei hun afael yn y Gweithredoedd, a bu yn ddigon gonest i hyspysu hyny, a'u rhoddi i W. Rees, Ysw., o Hwlffordd, cyfreithiwr y Bedyddwyr yn yr achos. Hefyd, rhoddodd Mr. Lewis tu ag erw o dir i'r diben o helaethu y gladdfa; ac y mae'r fonwent yn awr wedi ei hamgylchu â muriau priodol, ac yn un o'r claddfeydd mwyaf prydferth yn y wlad. Y mae'n debyg nad awydd am y tir, ond zel dros ei hawl gyfreithiol, a barodd i Mr. Lewis ymddwyn fel y gwnaeth. Gresyn na buasai yr *hawl foesol* oedd gan y Bedyddwyr yn ddigon ar y pwngc. Yr oedd digon o brofion amserol fod Mr. Howels wedi ei roddi iddynt, ond yr oedd y gyfraith yn gofyn am y Gweithredoedd. Y mae'r hawl foesol hon genym i hen addoldy Llanilltyd hefyd; ond nis gellir cael y Gweithredoedd yn bresennol.

‡ Ceisia rhai ddywedyd nad oedd Quarrel yn Fedyddiwr; ond dengys golygydd yr ail argraphiad o Hanes y Bedyddwyr, gan Jos. Thomas (t. 249), yn anwrthwynebadwy mai Bedyddiwr ydoedd. Fe allai mai Annibynwr oedd yn nechrau ei oes. Byddai eglwys Llangwm yn arfer cymmundeb rhydd ar y cyntaf; ond yr oedd yn wahanol yn 1689.

§ Golygir mai Vavasor Powel a ffurfiodd eglwys Llanbrynmair. Bu Henri Williams (gwel pen. xx. o'r llyfr hwn, y iv.) yn gweinidogaethu yma. Y mae bellach er ys blynyddau yn feddiant hollol yr Annibynwyr. Dyma dynged yr eglwysi rhydd-gymmunol yn gyffredin.—T.

Digitized by Google

Francis a John Edwards, o Llanwenarth; T. D. Rhys, o sir Aberteifi; T. Parri a W. Prichard, o Langwm, ac eraill, fyw trwy yr holl dywydd garw o dan y deddfau gwaradwyddus y cyfeiriwyd atynt.* Dechreuodd amryw weinidogion bregethu yn amser yr erlidiau, sef James James, George Jones, Samuel Jones, John Jenkins, Richard Williams, a Morgan Gruffydd, oll o gylchoedd Dyfed; Nathaniel Morgan, Abel Morgan, Evan David, Joseph Prys, David Thomas, ac Evan Llywelyn, o ranau eraill y Deheubarth. Meddai y Bedyddwyr tu a 40 o weinidogion rhagorol yn y Dywysogaeth cyn 1689. Y mae'n syndod, mewn rhyw ystyr, na buasai yr enwad wedi ei lwyr ddinystrio yn y wlad gan y fath greulonderau; ond yn hytrach na chael ei ddifa, daliodd ei dir er gorfod yfed gwaddod y cwpaneidiau erchyll, fel nad oedd yn llai yn 1689 nag ydoedd yn 1649; a dywed rhai ei fod yn gryfach ac yn llïosocach ym mlwyddyn yr ymwared nag yn amser gosodiad Charles II. Wedi blwyddyn y Jubili, sef 1689, y dechreuwyd adeiladu addoldai. Yn flaenorol, fel y sylwyd, ymgyfarfyddent mewn annedd-dai, ac yn fynych mewn coedwigoedd, a bu rhai eglwysi llïosog a chryfion mewn bod am o 40 i 60 mlynedd cyn cael un math o gapeli o gwbl; ond er yr holl anfanteision a'r gwrthwynebiadau, myned rhagddynt y byddent, gan lesfeinio galluoedd y tywyllwch. Teithient ugeiniau o filltiroedd i'r cynnulliadau crefyddol, gan gymmuno a bedyddio ar gylch mewn manau pennodol yn ol cynllun rhagluniedig, fel na byddai i'r holl lafur teithio, &c., yn disgyn yn barhaus ar yr un rhai. Yr addoldy cyntaf a adeiladwyd gan y Bedyddwyr yng Nghymru, wedi y waredigaeth yn 1689, oedd capel Llanwenarth yn 1694, ar dir a roddasid gan Christopher Prys. O'r flwyddyn 1689, dechreuodd y Bedyddwyr a'r Annibynwyr ymadnewyddu; a gwneuthant waith rhwng y flwyddyn honno a chyfodiad Methodistiaeth yn 1736 nad yw bossibl gorbrisio ei bwysigrwydd, er bod ein holl orchestion a'n dïoddefiadau o 1649 hyd 1736, i raddau pell, yn cael eu hanwybyddu gan rai haneswyr.

---

## PENNOD XXIII.

### RHISIART DAFYDD Y CRYNWR.

Y MAE cryn lawer o hynodion yn perthyn i'r bennod hon. Dichon, yn un peth, mai hon fydd yr unig bennod, yn y gwaith hwn, a gynnwys hunangoffadwriaeth; ac heb law y cynnwys "hanes argyhoeddiad, cyflawniadau, llafur, a theithiau" RHISIART DAFYDD, y Crynwr enwog, gall y darllenydd craffus gael golwg pur deg ynddi ar syniadau ac arferion neillduol y Crynwyr, neu y Cyfeillion, fel cangen hynod o Eglwys Crist, ynghyd â'r erledigeuthau creulawn a ddïoddefasant ar eu cychwyniad. Ysgrifenydd pur amleiriog oedd yr hen Grynwr gonest; ond ymdrechasom wella cryn lawer ar hyny yn y crynhoad canlynol o'i hunangoffadwriaeth:—

GANWYD fi yn y flwyddyn 1635, yn nhref y Trallwm, sir Drefaldwyn, o rieni gonest, yn meddu ychydig o feddiannau yno. Rhoddasant i mi ychydig addysg, a dygasant fi i fynu ynghrefydd Eglwys Loegr. Pan oeddwn rhwng 12 a 13 oed, gosododd yr Arglwydd ei ofn yn fy nghalon, fel y dechreuais feddwl beth a ddeuai o'm henaid pe byddwn farw fel yr oedd rhai o'm cymdeithion yn byw, ac ymadewais â hwynt. Yr oeddwn yn dueddol i fyned i wrando pregethau, ac i ganlyn y bobl a ystyriwn yn meddu mwyaf o ofn Duw, y rhai, fel y tybiwn y pryd hyny, oedd yr Annibynwyr; yn neillduol un Vavasor Powel, yr hwn oedd ddŷn zelog iawn yn ei amser. Cymmerth boen a llafur mawr i gasglu pobl i'r ffydd honno, a llwyddodd i gasglu llawer yn yr ardaloedd hyn. Byddwn i yn canlyn o'r naill gyfarfod i'r llall, gan ysgrifenu eu pregethau; a deuthum mewn amser i allu eu hail adrodd i'r bobl. Gan fy mod yn gyfarwydd yn rhanau hanesyddol yr Ysgrythyrau, gallwn siarad am danynt, fel y daeth y bobl i ddywedyd yn dda am danaf, yr hyn a barodd i mi ymchwyddo nid ychydig, fel nad oeddwn mor ddifrifol ag y dylaswn fod i gyrraedd bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist, yr hwn yw y bywyd ei hun, fel y dywedodd wrth yr Iuddewon yn Ioan v. 39, 40, "Chwiliwch yr Ysgrythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych yn meddwl cael bywyd tragywyddol: a hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystioleuthu am danaf fi. Ond ni fynnwch chwi ddyfod attaf fi, fel y caffoch fywyd."

Yr oeddwn yn diwyd chwilio yr Ysgrythyrau, yr hyn oedd yn dda yn ei le; ond sylwedd a hanfod crefydd bur yw i'r enaid gael mwynhau bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist. Pan oeddwn o ddeutu 14 oed, mynnai fy nhad fy rhwymo yn egwyddorwas gyd â masnachwr, a bûm yno ar brawf; ond gwelais nad oedd ymddiddanion fy meistr bwriadedig yn addas, ac nad oedd ofn Duw

* Hist. of Welsh Associ.

Digitized by Google

yn y lle. Yr oeddwn yn ofni, os arhoswn yno, y diffoddid hyny oedd ynof o zel a chariad at Dduw, ac yr adfywhai cariad a phleserau y byd, fel y byddwn mewn perygl i fyned yn waeth nag o'r blaen. Pan ynghanol yr ystyrieuthau hyn, ymroddais i weddïo ar Dduw, mewn teimlad dwys a dagrau, am gael fy ngwared o'r lle hwnw, ac am i mi gael treulio fy amser gyd â phobl yn ofni yr Arglwydd, ac yn meddwl am ei enw ef. Gwrandawodd yr Arglwydd fy ngweddi; ac ymhen ychydig amser anfonwyd am danaf o'r lle hwnw.

Arhosais gartref ychydig amser ar ol hyn, a pharheais i wneud yr ychydig ddaioni a fedrwn, gan gadw cymdeithas pobl ddifrifol a da. Yr oeddwn yn ymhyfrydu darllen yr Ysgrythyrau, a myned i gyfarfodydd yr Annibynwyr. Ymhen amser, clywais am ddŷn oedd yn proffesu yr un grefydd, yr hwn oedd yn zelog iawn am fyned i'r cwrdd, ac am gyflawni yr hyn a alwn yn ddyledswyddau teuluaidd; ac yno, trwy gydsyniad fy rhieni, y rhwymais fy hun fel egwyddorwas. Ei enw oedd Evan Jones, het-wneuthurwr, ymhlwyf Llanfair, sir Drefaldwyn. Byddem yn cydfyned i'r cyfarfodydd, yn adrodd pregethau, ac yn cyflawni yr arfer oedd yn ein plith o weddïo fel a phan y mynnem, nes i ni fyned yn gwbl farw, ffurfiol, cnawdol, a gwyntog. Cai llawer o eiriau a gweithredoedd penrhydd le yn ein plith, nes yr oeddwn i wedi digio yn lân wrthyf fy hun a'm crefydd ffurfiol. Yr oedd rhywbeth ynof yn fy ngheryddu am fy oferedd; a phan godwn oddi ar weddi, weithiau yn drymaidd fy nheimladau, teimlwn fod rhywbeth yn rhwystro i mi gael heddwch na chysur i'm henaid, o herwydd yr oedd balchder a hunan-glod yn cael lle yn y rhan fwyaf o'n cyflawniadau ffurfiol, os nad ynddynt oll.

Ni wyddwn, yn y cyflwr hwn, beth i'w wneuthur, pan nad oedd ysgrifenu nac adrodd pregethau, darllen yr Ysgrythyrau a llyfrau da eraill, a'u hegluro weithiau fel y gallwn, yn gweini dim cysur. Yr oeddwn yn methu gwybod pa ffordd i'w chymmeryd er cyrraedd heddwch a chysur yn fy nghyflawniadau. Hyd yma, nid oeddwn wedi adnabod Ysbryd Sanctaidd yr Arglwydd, fel y dylaswn, ymhob peth angenrheidiol er fy iachawdwriaeth dragywyddol.

O ddeutu y flwyddyn 1657, daeth dŷn tlawd, mewn gwisg garpiog, a'i enw Morgan Ifan, o Ddeheudir Cymru, i dŷ fy meistr. Yr oedd wedi cyfarfod ar ei deithiau â'r bobl a elwir Crynwyr, ac wedi cael ei argyhoeddi o'r gwirionedd. Ymgomiai y dŷn tlawd hwnw â'm meistr ynghylch yr egwyddorion a'r gwirionedd; a daeth fy meistres ataf i'r faelfa, lle yr oeddwn gyd â'm gwaith, gan ddywedyd, "Pam nad ewch i gynnorthwyo eich meistr, achos y mae rhyw Grynwr wrth y drws gyd âg ef, ac wedi gosod taw glân arno." Wrth glywed hyn, brysiais, a chymmerais y Bibl dan fy mraich, a gwisgais gymmaint ag a allwn o wroldeb er myned i ddadlau â'r dŷn tlawd hwnw; ond aeth yn rhy galed i ni i gyd. Trin yr oeddynt, pan aethum atynt, ynghylch y geiriau, Ti a Thithau. Gofynais iddo yn awdurdodol pa orchymyn oedd dros arfer Ti a Thithau? Yr oeddwn yn cyfaddef mai dyna oedd iaith Duw wrth Adda, a iaith yr Ysgrythyrau; ond heurwn nad yw hyny yn ddigon i ni heddyw, ac y rhaid i ni gael gorchymyn drosto. Yn atteb i hyn, dywedodd yntau, "Bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus, y rhai a glywaist genyf fi." Gofynais iddo a oedd hyny yn yr Ysgrythyr? Gofynodd yntau a wadwn i hyny? Dywedais innau mai arno ef yr oedd profi. Yna cymmerth y Bibl o'm llaw, a throdd i 2 Tim. i. 13. Darllenodd yr adnod, a dywedodd wrthyf fod *bydded* yn y fan honno yn orchymyn. Gwyddwn i y gorchymyn yn eithaf da; ond er ei brofi ymhellach, dymunais arno ddarllen tipyn yn ychwaneg o'r bennod honno, o flaen yr adnod yn gystal ag ar ei hol, yr hyn a wnaeth yn ddiwrthwynebiad; a gofynodd i mi, paham y ceisiwn ganddo wneud hyny? Dywedais innau y clywsom fod y Crynwyr yn gwadu yr Ysgrythyrau, ac yn gwrthod eu darllen. Dywedodd yntau fod llawer o chwedlau anwireddus yn cael eu taenu am danynt; ac, yn wir, wrth ei weled mor barod i ddarllen yr Ysgrythyrau, penderfynais ynof fy hun nad oedd yr hyn a gyhoeddid am danynt yn wirionedd. Gweled ei fod wedi dyfod ataf yn dyst dros Dduw. Yna annogodd fi i dalu sylw i'r goleuni oedd wedi tywynu ar fy nghalon; dangosodd i mi fy meddyliau ofer; a cheryddodd fi yn ddirgel am bob gair a gweithred, gan ddywedyd, "Hwn ydoedd y gwir Oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dŷn a'r y sydd yn dyfod i'r byd;" y cawn i yn y Goleuni hwnw weled ychwaneg o oleuni; yr agorai hwnw yr Ysgrythyrau i mi; ac y cawn dderbyn rhan o'r un Ysbryd ag a'u rhoddasai. Dywedodd wrthyf ymhellach, "Dyna 'air sicrach y prophwydi, yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megis ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio y dydd, ac oni chodo y

Digitized by Google

seren ddydd yn eich calonau chwi" (2 Petr i. 19). Siaradodd lawer ynghylch y gwaith mewnol, a dylanwadau Yspryd sanctaidd Duw ar yr enaid, gan fy nghyflwyno i "ras Duw, yr hwn sy'n dwyn iachawdwriaeth i bob dŷn, gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon" (Tit. ii. 11–13). Ac felly efe a aeth ymaith o'n tŷ ni, ac aethum innau i'w anfon ef ychydig o ffordd.

Gan fod yr anghenrhaid hwn wedi ei osod arnaf, siaredais â'm meistr yn yr arddull yna. Ni thramgwyddodd efe o'r herwydd, gan ei fod yn argyhoeddedig o'i gywirdeb, ac y dylid ei arfer wrth siarad â phob dŷn; ond pan arferais ef at fy meistres, cipiodd ddarn o bren, a tharawodd fi ar fy mhen noeth, fel y chwyddodd, ac y bu yn boenus am hir amser. Yr oedd hi mor ddigofus o'r achos fel y tyngodd y lladdai fi, pe crogid hi am hyny. Yr oedd y gelyn wedi ei meddiannu mor llwyr nes iddi ddyrysu yn lân. Ni byddai cyn hyn braidd byth yn dywedyd gair sarug wrthyf. Galwyd fi yn awr yn Grynwr, o herwydd i mi ddefnyddio Ti a Thithau am berson unigol, cadw fy het am fy mhen, a pheidio arfer defodau y byd, yn y rhai yr oedd crefyddwyr eraill yn rhodio. Er y byddai rhai o honynt yn achwyn ar eu ffurfioldeb, ac wedi cael digon ar ddefodau y byd; etto, ni chymmerent i fynu eu croes i'w gadael. Nid oedd cynddaredd fy meistres wedi lliniaru y graddau lleiaf attaf, er nad oedd ganddi ddim yn fy erbyn, heb law fy mod yn gwrthod cydymffurfio âg iaith lygredig a ffurfiau gweigion y byd; o herwydd yr oeddwn yn gwneud pob ymdrech i gadw cydwybod ddirwystr tu ag at Dduw a dynion. Yr oeddwn i gyfarfod y gorthrymderau hyn a'u bath, os mynnwn ganlyn yr Arglwydd Iesu Grist yn ffyddlon a thrwyadl; gan hyny ymdrechais wisgo holl arfogaeth Duw, fel y gallwn sefyll yn erbyn cynllwynion diafol, a diffodd holl bicellau tanllyd y fall; yr hwn a wnai bob ymdrech i wanhau fy ffydd. Ceisiai genyf gredu bod y ffordd yn anhawdd, caeth, a chul, ac na byddwn byth alluog i redeg yr yrfa i'r pen, gan nad oedd neb yn y wlad hon i gymmeryd fy mhlaid a'm cynnorthwyo; ond y deuai y picellau tanllyd a deimlwn yn fwy drwy ei weision na thrwy un ffordd arall. Yr oedd y drwg yn nerthol anghyffredin yn fy meistres druenus: yr oedd wedi cael ei pherswadio ganddo i'm lladd; ac un tro, pan y tybiai iddi gael cyfleusdra priodol i gyflawni ei hewyllys, aeth yn gynddeiriog wyllt. Rhoddais innau fy hun i fynu yn dawel i farw dan ei llaw; ond rhyngodd bodd i'r Arglwydd dderbyn fy offrwm gwirfoddol; a gallaf ddywedyd fel yr apostol, "Nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun." Ond ymddangosodd yr Arglwydd ei hun i'm gwaredu, a gwnaeth hi yn dynerach ataf dros weddill fy ngaethiwed, yr hyn oedd ychydig lai na dwy flynedd. Wedi i mi ymadael o'r lle, ymwelodd Duw â hi drwy glefyd llym, pryd y dywedodd wrth ei phriod, ac eraill oedd o'i hamgylch, y meddyliai nas gallai farw cyn gofyn fy maddeuant; a dymunodd arnynt anfon am danaf, pe ar y pryd yn Llundain; ac gwnaed felly. Yr oeddwn wedi maddau iddi er ys talm, ac wedi gweddïo ar fy Nhad nefol am faddau iddi hefyd. Anfonais ati, a rhyngodd bodd i Dduw gyffwrdd â'i chalon yn ei gariad, ac estyn ei dyddiau. Byddai yn cyfaddef yn aml y cam a wneuthai "â'r gŵr ieuangc, gonest, gofalus," fel y dywedai i mi fod, "yr hwn," meddai, "a ofalai am ein lles mewnol ac allanol, yn well nag y gwnelem ni ein hunain." Gwelodd Duw yn dda i mi gael ymweled â hi unwaith cyn iddi fyned o'r byd, ac yr oedd hyny yn foddhâd mawr iddi; ac ymhen ychydig amser ar ol hyn, bu farw mewn heddwch. Claddwyd hi ym mynwent y Crynwyr, ger llaw Dolgellau, sir Feirionydd.

Yr oedd son mawr trwy y wlad y pryd hyn (1657) fy mod i wedi myned yn Grynwr, ac yr oedd fy rhieni yn bryderus iawn yn fy nghylch. Clywais i W. Langfford, offeiriad y Trallwm, fyned atynt i ddywedyd fy mod wedi myned yn wallgof, ac y dylent alw am ryw bobl gall a dysgedig er fy adfer i'm synhwyrau. Nid oeddwn etto wedi gweled fy rhieni, eithr yr oeddwn yn aros am ryddid ac eglurder ynof fy hun. Ar ol cael hyny, ymwelais â hwynt; ac wrth fyned, gelwais i weled un o'm hen gyfeillion, proffeswr crefydd, a chefais ychydig ymddiddan âg ef am ddaioni Duw; a chafodd y gŵr ieuangc, enw yr hwn oedd Dafydd Dafydd, ei ennill i'r gwirionedd. Digwyddodd hyn ar brydnhawn y seithfed dydd. Wedi gorphen yno, aethum i'r Trallwm at fy rhieni. Yr oedd yn ofid calon iddynt weled nad oeddwn, fel arferol, yn ymgrymu o'u blaen, yn gofyn am fendith, ac yn tynu ymaith fy het. Trodd fy nhad ei gefn arnaf rhag blaen. O'r diwedd, daeth fy mam ataf yn garedig; sylwodd arnaf yn fanwl, gan edrych yn fy wyneb; a gwelodd mai ei phlentyn hi oeddwn, ac nad oeddwn,

Digitized by Google

fel y dywedasid wrthi, yn wallgof, ac wedi fy nhrawsffurfio i ryw lun arall; canys dywedasid wrthi fod y Crynwyr yn swyno pobl at eu crefydd. Fel yr oeddynt hwy, cystal a llawer eraill, wedi cael eu twyllo â'r fath chwedlau dïcithr, fel y cyfrifid ni, megis yr apostolion, yn dwyllwyr, ac etto yn eirwir. A phan ymddiddenais â hi allan o'r Ysgrythyrau, tynerodd ei chalon ataf, effeithiodd daioni Duw arni, ac aeth i edrych am fy nhad, a dywedodd wrtho, "Cymmerwch gysur; nid yw ein mab fel y dywedwyd ei fod; dichon y cawn gysur etto oddi wrtho." Ond nid rhyw lawer a siaradodd fy nhad â mi y noswaith honno. Borau drannoeth, yr hwn oedd y dydd cyntaf o'r wythnos, cododd awydd ynof, pan glywais y gloch, am fyned i "dŷ y gloch," er mwyn gweled yr offeiriad a ddywedasai wrth fy nhad fy mod yn wallgof; a phan oedd ef wrthi yn addoli, aethum gyd â'm tad i'n heisteddle arferol ni (ni ddarllenid y Llyfr Gweddi Gyffredin i'r bobl y pryd hwnw fel rhan o'r addoliad), ac eisteddais yno nes iddo orphen adrodd yr hyn oedd ganddo i'w ddywedyd. Yna codais ar fy nhraed, a dywedais wrtho y byddai yn burion iddo aros, a phrofi yr athrawiaeth a bregethai y borau hwnw; ac od oeddwn i yn wallgof, fel y dywedasai efe fy mod, y dylai wneud ei orau i'm dwyn ataf fy hun. Ond ni chefais siarad ond ychydig cyn cael fy nghymmeryd i'r carchar, ynghyd â'r gŵr ieuangc y soniais o'r blaen am dano, yr hwn a ddeuthai i edrych am danaf, a chael hyd i mi yn "nhŷ y gloch." Felly buom ein dau yn garcharorion drwy y nos. Yn y cyfamser, daeth llawer o bobl o bell ac agos i'n gweled, gan feddwl mai rhyw greaduriaid afluniaidd ein golwg oeddym. Cynhyrfodd Duw fi i ddywedyd wrthynt am ofni yr Arglwydd mewn pryd; ac, yn wir, i lefain, "Edifarhewch, edifarhewch, canys nesaodd teyrnas nefoedd," gan roddi ar ddeall iddynt mai gwaith Duw oeddym ni, wedi ein creu o'r newydd yng Nghrist Iesu, i weithredoedd da, ynghyd â llawer yn ychwaneg i'r un perwyl. Siaredais â hwynt o'r Ysgrythyrau, yr hyn oedd yn eu boddhau yn fawr; a gogoneddasom Dduw, yr hwn a'u cadwai yn ei ofn, a than ei gyfarwyddyd. Taflwyd ni i'r carchar dan y gyfraith a wnaed yn amser Oliver, yr hon a waharddai i neb siarad âg offeiriad na phregethwr yn yr addoliad.* Cymmerwyd ni drannoeth o flaen prif ynad tref y Trallwm; ac wedi ychydig ymgom âg ef, gwelodd yn dda ein rhyddhau, gan nas gellid cael un achos i'n cyhuddo yn gyfiawn, oddi eithr am gyfraith ein Duw.

O ddeutu y flwyddyn 1658, clywais fod Crynwr, a'i enw Roger Prichard, wedi dyfod o'r Werddon i Lanfyllin, sir Drefaldwyn; ac yngheriad Duw ymwelais âg ef y dydd cyntaf o'r wythnos, lle y cawsom gyfarfod adgyfnerthol, cysurus, ac yr oedd presennoldeb yr Arglwydd yn amlwg ynddo. Er ein bod, o ran y dŷn oddi allan, yn ddïeithriaid i'n gilydd; etto, yr oeddym yn cymdeithasu, ac yn uno, o ran y dŷn oddi mewn. Nid arhosodd yno yn faith, eithr dychwelodd eilwaith i'r Werddon, er y dywedid ddyfod o hono i'r ardal i aros, ac i fod yn dyst dros Dduw yn y gongl dywyll hon o Ogledd Cymru; ond gan na bu efe yn ffyddlon dros Dduw, collodd lawer o'i eiddo ar y môr wrth ddychwelyd. Collodd ei grefydd hefyd, a dychwelodd yn ol at wagedd y byd, yr hyn oedd yn ofid tost i mi; ond ymwelodd Duw âg ef eilwaith, fel y gwelir rhag llaw. Fel hyn, gadawyd fi wrthyf fy hun.

Parheais, yn ol fel yr agorai Duw y ffordd i mi, i ymweled â'r bobl, yn y rhai y gwelwn y duedd leiaf at yr hyn oedd da; a bûm yn offeryn i ennill un William Dafydd. Yr oeddwn hefyd yn caru myned i gyfarfodydd yr Annibynwyr, i'r rhai yr oeddwn gynt yn perthyn, y rhai oedd yn blaid neillduol, wedi eu casglu yn benaf gan Vavasor Powel, yr hwn oedd yn ŵr zelog yn ei ddydd. Ond pan dywynodd y gwirionedd ar y wlad hon, yr oeddwn yn un o'r rhai cyntaf i'w dderbyn yn yr ardaloedd hyn; ac ymneillduais oddi wrthynt o gariad at y gwirionedd bendigedig a dderbyniaswn, a chymmerais ef yn athraw i mi. Felly, digiodd Vavasor Powel; a byddai yn pregethu llawer yn erbyn y Crynwyr, eu ffordd, a'u hegwyddorion. Pan glywais hyn, aethum i'w gyfarfod i le a elwid y Cloddiau Cochion, ger llaw y Trallwm, gan feddwl cael ei weled yno; ond ni ddaeth yn ol y disgwyliad. Yr oedd yno un John Gruffydd, ynad heddwch yn y dyddiau hyny, yn pregethu. Pan aethum i mewn, edrychent yn anesmwyth; a phan gefais gyfleusdra, dygais dystiolaeth i Dduw, a'i Fab ef, Crist Iesu, ei ffordd, ei wirionedd, a'i bobl, yn erbyn y rhai yr oeddynt hwy yn pregethu. Wedi i mi dreuthu yr hyn oedd ar fy meddwl, aeth efe ym mlaen; a phan deimlais awydd i ddywedyd ychwaneg yn eu plith, gorchymynodd J. Gruffydd iddynt fy nghymmeryd

* Credwn fod y gyfraith hon mewn grym hyd y dydd heddyw, er yr ymddengys i ni ei bod yn gwbl anysgrythyrol. Gwel 1 Cor. xiv. 20–33.—Gol.

Digitized by Google

ymaith; a daeth perchen y tŷ ym mlaen, yr hwn oedd gâr agos i mi. Cymmerth fi yn ei freichiau, ac aeth a mi allan o'r tŷ, a thrwy y buarth, a thrwy y glwyd (llidiard) oedd yn agos i'r mynydd, a chauodd hi ar fy ol. Eisteddais yno o dan bren onnen, gan ddwys alaru wrth weled y dallineb, y tywyllwch, y calon-galedwch, a'r trahausder oedd wedi meddiannu y bobl oedd yn flaenorol mor gariadus, serchog, a gostyngedig eu hyspryd. Tra yn eistedd felly yn drwm-lwythog, dan bwys ystyriaeth ddifrifol beth a pha bryd y byddai diwedd y ffurfiau a'r calon-galedwch hyn, gweddïais ar yr Arglwydd drostynt. Yna, daeth gair oddi wrth yr Arglwydd ataf yn dywedyd, er eu bod yn awr yn fy nhroi allan o'u tŷ, y deuent mewn amser i gydnabod y gwirionedd, ac y byddai y tŷ hwnw yn addoldy i'r Cyfeillion. Felly aethum ymaith wedi fy llwyr foddloni nghariad a daioni Duw, yn rhoddi i mi y fath gysur a diddanwch yn lle y dagrau, y prudd-der, a'r trallod oedd newydd fy nghyfarfod; a chofiais air yr apostol yn Hebr. xii. 11, "Etto ni welir un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, eithr anhyfryd; ond wedi hyny y mae yn rhoi heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi eu cynnefino âg ef."

O ddeutu yr amser yma aethum i ymweled â rhyw wŷr ieuaingc, fy nghyfeillion yn fy mhroffes grefyddol flaenorol. Argyhoeddwyd dau neu dri o honynt, a derbyniasant y gwirionedd. Yr oeddwn yn teimlo, wedi i ni ddyfod yn bedwar, y dylem gyfarfod yn enw yr Arglwydd, gan gofio addewid Crist, "Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt" (Mat. xviii. 20). Felly, cyttunasom i gyfarfod; ond nid oedd tŷ gan un o honom i gyfarfod ynddo. Penderfynasom, gan hyny, gyfarfod ar lethr y Cymle, mor agos ag y gallem er cyfleusdra y naill i'r llall, gan ein bod yn byw rai milltiroedd oddi wrth ein gilydd. Cyfarfyddem yno mewn dystawrwydd, er syndod i'r wlad. Pan fyddai y gwynt a'r gwlaw yn curo arnom ar y naill ochr i'r llethr, aem ninnau i'r ochr arall. Nid oedd rhyddid i ni i geuau'n cymmydogion, gan eu bod mor dywyll ac anwybodus. Yr oeddynt yn edrych arnom fel consurwyr; cilient o'n ffordd; a byddai rhai yn gwneud llun y groes o amgylch eu hwynebau a'u talcenau er diogelwch rhagom. Daliasom ati fel hyn hyd onid aeth dau o honom o'r ardal. Prentisiodd y Cyfeillion un o honynt gyd âg un William Shewen, o Lundain. Yr oedd y gŵr ieuangc arall yn filwr yn amser Cromwel; a chyn gynted ag y cafodd ei ryddid, aeth i fyw i Gaerloyw ym mysg y Cyfeillion. Yr oedd y trydydd, William Dafydd, yn byw ger llaw i mi, a buom am beth amser yn cyfarfod ein dau; ond un tro, arhosodd yn hwy nag arferol, a chymmerth rhyw yspryd atgas, croes, feddiant o hono. Pan dorasom y cyfarfod i fynu, gofynodd i mi, "Pa fodd yr wyt yn meddwl yr edrych y byd arnom?" Attebais ef gyd â chynhesrwydd mawr, "Y sarph, y sarph, yr hon a dwyllodd y wraig ym Mharadwys, sydd wedi dy dwyllo dithau. Ni byddi alluog i sefyll." A phan oeddym yn ymddiddan, gwelwn fy meistr yn dyfod, yr hwn hefyd oedd wedi cael ei argyhoeddi o'r gwirionedd, ac wedi canfod yr hyn a ddylai wneud, ond nis gwnai. Er hyny, parhaodd yn garedig iawn i'r Cyfeillion, a byddai yn myned i'w cyfarfodydd hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn dyfod atom â dwy ddynes yn ei ganlyn: ei wraig, fy meistres greulon, oedd y naill, a'i chwaer oedd y llall. Yr oedd ffon gan bob un o'r ddwy; a phan ddeuthant atom, dechreuodd y chwaer guro ei brawd, ac ymosododd fy meistres ar William Dafydd. Fel hyn daeth dydd ei brawf ef yn fuan; ac ni ddaeth W. D. mwyach i'm cyfarfod i, na neb o'r cyfeillion, am lawer o flynyddoedd. Ond ymunodd â'r Cyfeillion ymhen hir amser. Parhaodd yn ffyddlon iddynt hyd derfyn ei oes; a chladdwyd ef gyd â hwynt. Diengais i heb gael un ddyrnod ganddynt; ond pe cawswn, yr oeddwn wedi dysgu gan Grist Iesu fy Arglwydd, a'm Meistr Mawr, i oddef yn amyneddgar er mwyn ei enw ef, ac i beidio cefnu arno, er nad ychydig oedd fy mhrofedigeuthau a'm trallodion, fel y gallaf ddywedyd gyd â'r apostol, "Ond nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einoes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd" (Act. xx. 24; 2 Cor. v. 17; Mat. x. 37–39).

Ymhen ychydig amser ar ol hyn, darparodd yr Arglwydd i mi ymgeledd gymmwys, canys gweddïais arno am iddi fod o'i ddewisiad ef ei hun, gan na wyddwn i hyd yn hyn pwy oedd hi i fod, na pha le yr oedd yn byw. Ond un tro, pan mewn cyfarfod yn Horsley Down, Southwark, clywais ryw ddynes yn agor ei genau i dystioleuthu yn erbyn yspryd drwg, baldorddus y byd, yr hwn oedd yn wrthwynebus iawn i'r Cyfeillion y dyddiau hyny. Dododd yr Arglwydd yn fy nghalon mai dyna y ferch oedd i fod yn wraig i mi, i fyned

Digitized by Google

gyd â mi i'm gwlad, ac i fod yn ymgeledd gymmwys i mi. Ar ol y cyfarfod, ymwthiais ym mlaen ati, ond ni ddywedais ddim, nid ymgydnabyddais chwaith â hi, ac ni wyddwn ymha le na pha bryd i'w gweled ar ol y tro hwnw; ond yr oeddwn yn gwbl dawel, gan fy mod yn foddlawn i'r Arglwydd drefnu fel y dewisai efe. Ymhen amser, dygodd yr Arglwydd ni i adnabod ein gilydd; a chyfaddefodd hi ei bod wedi cael yr un olwg arnaf fi ag a gawswn innau arni hi. Ymadawsom yn fuan, a theimlwn i yn hollol gyflwynedig i ewyllys Duw. Pan welsom ein gilydd nesaf, dywedais wrthi, od oedd Duw wedi trefnu iddi fod yn wraig i mi, y byddai raid iddi fyned gyd â mi i wlad ddïeithr, lle nad oedd Cyfeillion i'w cael, ond y gallai Duw gasglu rhai yno cyn hir. Wedi ennyd o ystyriaeth, dywedodd hithau, os oedd Duw wedi trefnu iddi fod felly, y canlynai hi ei gŵr, ped elai i'r anialwch; a chan ei bod yn cydnabod dylanwadau Yspryd Duw ar ei chalon, yr oeddwn yn foddlawn i'w thueddiadau gael eu llywodreuthu ganddo ef; ond trwy iddi wrando ar un oedd heb iawn bwyso yr amgylchiadau, dechreuodd anufuddhau i'r hyn a ddangosasai Duw iddi, a bu hyny yn achos o ofid a helbul mawr iddi. Aethum i ymweled â hi yn y cyflwr truenus hwnw, ac ymfoddlonais i ewyllys Duw yn yr amgylchiad. Yr oeddwn yn dawel, od oedd yr Arglwydd wedi tueddu ei chalon hi yr un fath a'm calon i, y byddwn yn sicr o'i chael yn rhodd ganddo ef; ac wedi i ni ddisgwyl ychydig wrth yr Arglwydd, cododd ar ei thraed, a dywedodd o'm blaen i a'r cyfaill arall, yr hwn a aflonyddasai ei meddwl, ei bod hi, yn enw a gallu Duw, yn foddlawn i fod yn wraig i mi, ac i fyned gyd â mi i ba le bynag yr arweinid fi gan yr Arglwydd. Ymdawelais felly yn foddlawn i ewyllys Duw, nes y caem orphen trefnu yr amgylchiadau.

Pan yn dwys ystyried ymha ddull y priodem, penderfynasom osod yr achos ger bron yr henuriaid, yn neillduol o flaen fy hen gyfaill, George Fox.* Ac wedi cael o honom bob peth yn eglur yn yr Arglwydd, aethom un borau i gyfarfod y Snail, yn heol y Tŵr, Llundain, ac yn y prydnhawn i Horsley Down, Southwark; ac yn y cyfarfod hwnw, ar y 26ed o'r pedwerydd mis, 1659, ger bron Duw a'r gynnulleidfa, ymgyfammodasom i fod yn ŵr ac yn wraig.†

Yn 1661, aethum i gyfarfod yn Edgemont, ger llaw Wem, yn sir Amwythig. Yma cymmerwyd ein cyfaill William Gibson a minnau, ac o ddeutu 26 eraill, yn garcharorion, ac anfonwyd ni i'r Amwythig. Deallasom mai dŷn creulon oedd ceidwad y carchar. Bygythiai ein trin yn galed os na fwytaem ei fwyd, os nad yfem ei ddïod, os na orweddem ar ei wely, ac os na roddem iddo yr hyn a hawliai genym. Dywedasom wrtho mai carcharorion y brenin oeddym, a gofynasom am gael carchar rhydd, a gwellt i orwedd arno; ond gwrthododd ein cais mewn cynddaredd, a gwthiodd ni i ystafell fechan, yn yr hon nid oedd lle i ni oll orwedd. Pan ddaeth y nos, daeth cysgu arnom, gan ein bod yn flinedig wedi teithio cynnifer o filltiroedd ar draed; ond yr oeddym yn abl ac ewyllysgar i ddïoddef pob peth. Gorweddasom y noson honno ar y byrddau, a mwynhasom ein hunain yn fawr, gan ei bod yn dywydd cynnes, o ddeutu dechrau y cynhauaf gwair. Borau drannoeth, yr oeddym yn iach a bywiog, yn clodfori Duw am ei drugareddau a'i ddaioni i ni, pan ddaeth ceidwad y carchar atom i ofyn pa fodd yr oeddym yn hoffi ein lletty, a pha fodd yr oeddym wedi cysgu. Dywedasom wrtho i ni gysgu gyd â chydwybod ddirwystr a meddwl tawel, gan ein bod yn dïoddef er mwyn cydwybod dros Dduw, ac na feiddiem dori gorchymyn Crist a'i apostolion, y rhai a waharddent i ni dyngu o gwbl. O herwydd ein trosedd tybiedig ni oedd, nid cyfarfod i addoli, eithr gwrthod cymmeryd llw o ffyddlondeb i'r llywodraeth. Yr oedd ceidwad y carchar yn ddŷn nwydwyllt ac anystyriol iawn. Ai allan o'i dŷ yn y borau, ac ni ddychwelai cyn nos; a byddai yn rhy feddw y pryd hyny i siarad na sefyll. Yr oedd yr ystafell mor fechan fel y methasom orwedd i gyd ar unwaith y noswaith ganlynol. Borau drannoeth achwynasom wrth geidwad y carchar nad oedd yr ystafell yn ddigon i ni gael lle i orwedd ynddi, a dymunasom arno roddi i ni ychydig o wellt, ond gwrthododd. Erbyn hyn yr oedd y Cyfeillion o'r dref yn cael rhyddid i ymweled â ni, a dwyn ymborth i ni; a phan agorwyd drws ystafell arall i ni gael myned iddi, cawsom yno bren gwely, a gorweddodd William Gibson a minnau ar y cortynau noethion, fel, erbyn y borau canlynol, yr oedd ol y cortynau, nid yn unig yn ein dillad, eithr yn ein crwyn

* Priodai pobl y dyddiau hyny, naill ai o flaen yr offeiriad, neu o flaen ynad heddwch; a dywedais wrtho [G. Fox] ein bod ni yn bwriadu cymmeryd ein gilydd mewn cyfarfod cyhoeddus. Felly efe a ddymunodd i'r Arglwydd fod gyd â ni.

† Digwyddodd hyn pan oedd R. Dafydd yn 22 oed, ychydig ddyddiau cyn i'r dïymadferth Richard Cromwel ymddiswyddo, pan oedd Charles II. yn ymbarotoi i ddyfod i'r wlad.—Gol.

Digitized by Google

hefyd. Buasai yn esmwythach i ni orwedd ar y byrddau, fel y gwneuthom y noson o'r blaen. Gan fy mod erbyn hyn wedi cael mantais i ddeall tuedd a thymmer ceidwad y carchar, dechreuodd fy meddwl anesmwytho am fy mod yn gadael llonydd iddo: o ganlyniad, gwyliais ef y borau drannoeth pan ddaeth i'r cyntedd o flaen drws ein carchar-gell, a dechreuais ymddiddan âg ef am y carcharorion oedd yn y fath drueni. Dywedais wrtho eu bod yn bobl onest, a'r rhan fwyaf o honynt yn benau teuluoedd; bod ganddynt welyau da gartref i orwedd arnynt; a'u bod yn awr yn dïoddef yn dawel er mwyn Crist a'r efengyl. Dymunais arno adael iddynt fyned at eu cyfeillion yn y dref i lettya y nos, ac y dychwelent y borau i'r carchar; ac os na chaniatâi ychydig wellt iddynt i orwedd arno, am iddo adael iddynt fyned adref i gysgu i'w gwelyau eu hunain; yr hyn, yn surllyd, a wrthododd, gan eu galw yn gwmni o ddihirod a thwyllwyr, a llawer o'r fath enwau. Gofynodd paham yr oeddwn yn dadlau drostynt. Dywedais innau mai cyfeillion i mi oeddynt. "Beth!" eb efe, "Cyfeillion i chwi! Nid ydych chwi yn Grynwyr, a ydych chwi?" Dywedais fy mod yn cael fy ngalw yn Grynwr. Edrychodd yn fy wyneb, ar fy nwylaw, ac ar fy nghorph; a dywedodd nad oeddwn i yn edrych fel Crynwr. Erfyniais arno beidio fy niraddio, trwy ddywedyd nad oeddwn yn Grynwr. Gofynodd ymha le yr oeddwn yn byw. Dywedais mai yn y Trallwm yr oeddwn yn byw pan fyddwn gartref, a bod fy nheulu yno yn bresennol. "Ond," eb efe, "ymha le yr ydych yn cartrefu yn awr?" Gofynais innau ai nid oedd yn gwybod fy mod yno yn garcharor gyd â'm cyfeillion; a gofynodd yntau a oeddwn wedi gorwedd gyd â hwynt ar y byrddau. Dywedais innau fy mod. Dywedodd yntau fod yn ddrwg ganddo hyny; ond aeth ymaith yn llidiog a chynhyrfus iawn ei feddwl. Ni welais ef wedyn hyd borau drannoeth, pan aethum ato drachefn, ac ymddiddenais âg ef yn gyfeillgar. Dywedodd iddo fod yn y dref yn holi fy hanes, a bod i mi groesaw i fyned i'r dref pan fynnwn. Dïolchais am ei garedigrwydd; ond dywedais wrtho na byddai o gysur yn y byd i mi gael rhyddid i fyned fy hun i'r dref, a gadael fy nghyfeillion yn y fan honno. Dywedodd yntau, gan hyny, y gallwn aros yno gyd â hwynt. Ni welais ef ar ol hyn hyd borau drannoeth, pryd yr aethum ato drachefn. Yr oedd mor groes ac anfoddog fel na siaradodd neb arall o'r cyfeillion âg ef.

Wedi i ni gysgu pump neu chwe noswaith ar y byrddau, llwyddais i gael ganddo adael i'r Cyfeillion fyned i'r dref yn y nos, a dychwel i'r carchar bob borau. Daeth yn fwy cyfeillgar atom y dydd canlynol. Ar ol ychydig ddyddiau, dymunais ar ein cyfaill, John Millington, ddyfod gyd â mi i dŷ ceidwad y carchar, er gweled a allem gael rhyddid i fyned adref hyd y brawdlys dyfodol; ond gwrthodd hyny yr adeg honno. Dywedais wrtho y gallai mor hawdd eu gadael fyned ag y gadawai i minnau fyned; bod y rhan fwyaf o honynt hwy yn byw yn y sir, tra yr oeddwn i yn byw allan o honi; ond methwyd a llwyddo ar y pryd. Wrth weled ei fod yn talu sylw i mi, nid oeddwn foddlawn i adael llonydd iddo: parheais i wasgu arno am chwaneg o ryddid i'r Cyfeillion. Ymhen ychydig amser ar ol hyn, gan ei bod yn gynheuaf, ac yn anhawdd iawn i'r gwragedd, eu plant, na neb o'u teuluoedd ddyfod ag ymborth iddynt bob wythnos, llwyddais i a'm cyfaill, John Millington, trwy resymau pwysig, i gael ganddo eu gollwng, a chymmerth ein gair am eu hymddangosiad yn y brawdlys.

Aethum yn fuan ar ol hyn i Benllyn, ger llaw y Bala, sir Feirionydd, i ymweled â rhai Cyfeillion a phroffeswyr ieuaingc, y rhai a'm derbyniasant yn garedig; ac ynghymmorth Duw, sefydlais gyfarfod yn eu mysg. Dychwelais adref oddi yno, lle nid arhosais ond ychydig, er mwyn ymweled â'r carcharorion hyny. Yn fuan ar ol hyn, ymwelais â thŷ Owen Lewis, Tyddyn y Garreg, ger llaw Dolgellau, ym Meirionydd. Yr oedd efe wedi bod yn ynad heddwch yn amser Oliver, ac yn awr newydd ddychwel o'r carchar o'r Bala. Derbyniodd fi yn garedig iawn: yr oedd wedi cael ei argyhoeddi yn flaenorol, trwy Thomas Briggs. Aethum oddi yno i dŷ Robert Owen, Dolysere, ger llaw Dolgellau, yr hwn hefyd oedd wedi bod yn ynad heddwch, ac yn gapten, yn amser Oliver. Derbyniodd fi a'm tystiolaeth: felly hefyd ei dad, Owen Humphrey, a'i frodyr, Samuel a John Humphrey, Llwyngwril, y rhai a breswylient ger llaw glan y môr. Derbyniodd y gwŷr hyn, a llawer eraill, y gwirionedd yn y cariad o hono, a pharhasant yn ffyddlon a gwasanaethgar i'w gwlad. Cadwent gyfarfodydd yn eu hanneddau, a chasglwyd llawer at yr Arglwydd rhwng y creigiau a'r mynyddoedd yn yr ardaloedd hyn. Digwyddodd hyn o gylch 1662. Dygodd yr Arglwydd fi adref ar ol y daith hon, i gysuro fy ngwraig a'm plant, a'm cyfeillion yn yr Arglwydd.



Digitized by Google

Tueddwyd meddwl Thomas Llwyd* a minnau i fyned i ymweled â'r rhan fwyaf o'r ynadon oedd â llaw yngharchariad y Cyfeillion. Dechreuasom gyd â'r ynadon nesaf i Fachynlleth, a daethom ym mlaen at Edward Herbert, Barwn Cherbury, o'r Llyssin, yr hwn oedd wedi carcharu Charles Llwyd, ac amryw Gyfeillion eraill. Clywsom ar y ffordd ei fod ef ac amryw eraill mewn pêl gadlas (*bowling-green*), ger llaw y lle a elwir Cann Office, ar ochr y ffordd fawr, heb fod ymhell o Lyssin. Cawsom hyd iddo yno yn pelenu. Yr oedd yno offeiriad o dymmer groes, caplan teulu ei arglwyddiaeth, gyd â hwynt. Gofynais i Thomas Llwyd pa un a ddewisai, ai siarad â'r offeiriad, ynte â'i arglwyddiaeth. Dewisodd yr olaf, ac aeth yn araf i'r gadlas. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn adwaen Thomas. Nid aeth efe atynt gan foesymgrymu. Torasant eu chwarau i fynu yn fuan; a thra yr oedd efe yn ymddiddan â'r Arglwydd Herbert, yr oeddwn innau yn siarad ychydig â'r offeiriad. Troes yr Arglwydd Herbert atom, a gofynodd i'r offeiriad, "Mr. Jones, beth sydd genych chwi yna?" Attebodd yntau, "Crynwr, a gwneuthurwr hetiau o'r Trallwm." "O," eb yr Arglwydd Herbert, "yr oeddwn yn meddwl mai rhywbeth felly ydoedd, wrth ei weled yn cadw ei het mor dyn am y plocyn." Gan fod gan ei arglwyddiaeth le serth i ddyfod i lawr atom, estynais i fy llaw i'w gynnorthwyo. Ceisiodd offeiriad arall fyned rhyngof ag ef, ond gwrthododd efe law yr offeiriad; ac wedi sefyll dros ennyd, dywedodd am dano, "Dyna frawd yn sefyll ger llaw: y dall yn tywys y dall, a'r ddau yn syrthio yn y ffos." Yr oedd yr offeiriad mor feddw fel nas gallai sefyll ei hun. Gan fod ei arglwyddiaeth yn ddŷn mawr, trwm, derbyniodd fy ngwasanaeth i i'w gynnorthwyo i lawr. Yna canlynasom ef i'w dŷ ei hun, Llyssin, gan osod o'i flaen ar hyd y ffordd helbulon y Cyfeillion, a dangos mai helbulon oeddynt yn herwydd cydwybod tu ag at Dduw. Gwrthododd eu gollwng yn rhydd yr amser hwnw; ond clywsom iddo anfon gair yn gyfrinachol yn erchi iddynt gael mwy o ryddid. Yr oedd gan geidwad y carchar dŷ gwâg ynghwr pellaf y dref, mewn lle cysurus dros ben, bron yn y wlad; a gadawodd i'r Cyfeillion fyned yno, heb un gwyliwr i edrych ar eu hol; a chaent fyned i'r dref, ac i bob lle a ddewisent, ond i'w tai eu hunain.

Anfonodd yr Ynad Corbet, a'r ddau geisbwl oedd wedi eu taflu i garchar, am danom ymhen tri diwrnod i sefyll ger eu bron. Aethom yno ein tri, Samuel Llwyd, Thomas Llwyd, a minnau. Wedi siarad ychydig, cynnygiasant ein gollwng yn rhydd os elem i'r "eglwys i wrando y gwasanaeth Dwyfol," fel y galwent ef. Dywedais i mi gael fy nhroi allan o'r eglwys y tro diweddaf y bûm yno; a phed addawn fyned yno etto, hwyrach y gwnelent yr un peth â mi. Dywedodd yr ynad yr ymrwymai efe na throid fi allan. Dywedais innau, os felly, na wyddwn i am un rhwystr i mi fyned yno. Ymddangosai yr ynad yn foddlawn; ond, eb un o'r ceisbyliaid, "A ydych yn meddwl, Mr. Corbet, y daw hen Grynwr i'r eglwys heb aflonyddu ar ein gweinidog?" Yna gofynodd Corbet, "A wnewch chwi aflonyddu ar ein gweinidog?" Dywedais innau y gobeithiwn na orfodid fi i fod yn ddistaw, os rhoddai Duw rywbeth yn fy nghalon i'w ddywedyd wrth y bobl. "Na atto Duw," eb yntau, "iddynt wneud hyny." Dywedais innau yr hyderwn, gan hyny, allu cyflawni yr hyn a addewais; ac ar hyny cefais fy rhyddhau. Nid oedd neb ond fy hunan wedi addaw myned i "dŷ y gloch," a cherddodd y newydd yn fuan trwy yr ardal bod yr hen Grynwr yn myned i'r eglwys.

Pan ddechreuodd y clychau ganu y dydd cyntaf o'r wythnos, daeth y ddau gyfaill arall, Thomas a Samuel Llwyd, a dywedasant, "Yr ydym yn credu y dylem fyned gyd â thi i dŷ y gloch." Yna cymmerais fy Mibl dan fy mraich, ac aethum at dŷ yr Ynad Corbet, yr hwn oedd o fewn ychydig ddrysau at fy nhŷ i, er mwyn iddo weled fy mod yn myned; a gofynais a oedd efe yn dyfod. Dywedodd nad oedd yn dyfod y diwrnod hwnw, ond yr anfonai ei was i gadw chwarau teg i mi. Aeth fy nau gyfaill a minnau i'm heisteddle fy hun, yr hon oedd gyferbyn a'r areithfa. Nid oedd yno

* Un o Lwydiaid enwog Dolobran (*Dolau Brân*, neu *Dôl Ebran*, eb Gwallter Mechain), ymhlwyf Meifod, sir Drefaldwyn, oedd y gŵr enwog hwn. Yr oedd tri brawd o honynt, Charles (etifedd Dolobran), Thomas, a Samuel. Yr oeddynt wedi disgyn, eb Gwallter Mechain, o Celynin, Llwydiarth; ac yntau o Aleth, Arglwydd Dyfed. "Yn amser Charles II., daeth Charles Llwyd, Ysw., o'r lle hwn [Dolobran], a Thomas Llwyd, ei frawd, yn ddychweledigion borau i ddaliadau Rhisiart Dafydd, Cloddiau Cochion, y Crynwr Cymreig cyntaf, a dioddefasant lawer er mwyn cydwybod yn yr oes honno o ragfarn anoddefgar. Adeiladodd yr yswain dŷ cyfarfod iddo ei hun a'i frodyr ar ei etifeddiaeth ei hun, ger llaw Coed Cawryd, yr hwn sy'n sefyll fyth [yn oes Gwallter Mechain, o 1761 hyd 1849]. Yr oedd Thomas Llwyd ymhlith ymfudwyr Pennsylvania, dan gyfarwyddwyd y mawr a'r daionus William Penn. . . . . Yr oedd Charles Llwyd, ei frawd Thomas, a Morgan Jones, wedi bod yn gydfyfyrwyr yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain" (Walt. Davies's Engl. Works, pp. 123-25). Ymddengys mai mewn rhyw swydd yn Llundain yr oedd Samuel Llwyd, a cheir gweled rhag llaw ei fod yntau, fel ei frodyr, yn Grynwr cydwybodol.—Llyfr. y Cymry, t. 204; hefyd, gwel Rhodd Davies, pen. xviii. o'r llyfr hwn, y iv.—Gol.

Digitized by Google

ond y curad i ddarllen y gweddïau a'r gwasanaeth y diwrnod hwnw. Yr oedd yno dorf fawr o bobl, a dywedid bod yno rai na fuant yno o'r blaen er ys blynyddoedd. Ni chefais ddim i'w ddywedyd wrth y bobl nes yr oedd efe wedi gorphen. Yna codais ar fy nhraed, a dywedais wrth y bobl fel y canlyn:—

"Y mae'n debyg y gwyddoch yr achos o'n dyfodiad ni yma heddyw. Fel hyn y mae pethau yn bod: daeth ynadon y dref hon i'n cyfarfod addoli, a chawsant ni ar ein gliniau yn gweddïo ar yr Hollalluog Dduw. Ymddygasant yn dawel tra fuom yn gweddïo; ond wedi i ni orphen, cymmerasant ein henwau, a thaflasant ni i garchar. Yr oedd y rhan lïosocaf o'r lleill oedd yn y cyfarfod yn garcharorion cyn hyny. Dywedodd yr ynad y gollyngid ni yn rhydd os deuem i'r eglwys; ac felly, chwi a welwch i ni ddyfod yn ol eu cais. Ond gwelaf nad yw eich offeiriad yn bresennol; gan hyny, dymunaf arnoch ei hyspysu fy mod i yn dywedyd,—

"1. Os profa efe fod hon yn eglwys i Grist;
"2. Ei fod yntau yn was i Grist;
"3. Ei fod ef yn cael ei gynnal yn ol trefn yr efengyl;
"4. A bod eich cyflawniadau chwi yn addoliad i Dduw;

"Yna y deuwn yn ol etto atoch chwi, ac yr ymunwn etto â'ch crefydd; ond, os na wna efe hyny, rhaid i ni gasglu,

"1. Mai eglwys dwyllodrus yw eich eglwys chwi;
"2. Ac nad yw efe yn wir was i Grist;
"3. Nad yw efe yn cael ei gynnal yn ol trefn yr efengyl;
"4. Ac nad yw eich addoliad yn addoliad i Dduw."

Yr oedd y gynnulleidfa yn foneddigaidd a threfnus. Gwrandawsant am gryn amser yn "nhŷ y gloch." Pan dewais i, dywedodd Thomas Llwyd ychydig eiriau pwrpasol wrth y bobl. Yna dywedodd y bobl, "Os na bydd i Mr. Langford" (dyna enw yr offeiriad) "brofi i ni ein bod yn wir eglwys i Grist, a bod ein cyflawniadau yn addoliad i Dduw, ni bydd i ni dalu degwm iddo; o herwydd dyma Rhisiart Dafydd wedi profi i'r bobl yr hyn a ddywedodd," canys yr oedd y bobl yn fy llaw o'r dechrau i'r diwedd. Felly ymadawsom am y tro.

Pan oedd y clychau yn canu i alw i'r gwasanaeth hwyrol, yr oeddwn i yn rhwym i fyned yno; a daeth fy nghyfeillion crybwylledig yno gyd â mi. Yr oedd yr hen archoffeiriad ei hun yno yn yr hwyr, a darllenodd bregeth faith, nes yr oeddym oll wedi myned yn anesmwyth; ond dymunais ar y Cyfeillion oddef pob peth yn amyneddgar. Pan oedd yr offeiriad, ar ol gorphen y gwasanaeth, yn myned ymaith, codais ar fy nhraed yn fy eisteddle, a dymunais arno aros, bod genyf fi rywbeth i'w ddywedyd wrtho, sef yr hyn a grybwyllais yn barod. Wedi iddo glywed y gofyniadau, a'r hyn oedd genyf i'w ddywedyd, troes ei gefn, ac aeth ymaith heb roddi i mi un attebiad. Yna y dywedais innau, "Y mae'r gwas cyflog yn ffoi, am mai gwas cyflog ydyw." Arhosodd rhai o'r bobl ar ol, aeth eraill gyd âg ef; ond yr oeddynt oll yn anfoddog am na buasai efe yn profi eu bod hwy yn eglwys i Grist. Cefais gyfleusdra rhagorol i siarad â'r bobl ymhellach yn y fonwent. Yr oedd presennoldeb, bywyd, a nerth yr Arglwydd gyd â ni. Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd byth, yr hwn nad yw yn gwrthod y bobl a ymddiriedont ynddo.

Yn y flwyddyn 1675, clywsom fod erlid mawr o achos cyhuddwyr yn myned ym mlaen ym Meirionydd, yn neillduol ym Mhenllyn, ger llaw y Bala. Llïosogodd y cyfarfodydd yno yn fawr, a deuai lluoedd o bobl iddynt. Teimlodd fy nghyfaill, Charles Llwyd, a minnau awydd ymweled â'r cyfarfodydd hyny; ac yno, ar y dydd cyntaf o'r wythnos, cawsom gyfarfod yn y Waunfawr, yn nhŷ Cadwaladr Thomas. Daeth llawer mwy na llonaid y tŷ o bobl ynghyd. Daeth dau o'r cyhuddwyr i'r cyfarfod, ac arhosasant yno hyd y diwedd; ac wedi i Charles Llwyd a minnau dreuthu ein tystiolaeth wrth y bobl yn Gymraeg (yn yr iaith honno hefyd y gorphenais y cyfarfod), arddelodd yr Arglwydd ni trwy ei nerth a'i bresennoldeb, er calondid mawr i ni, a boddlonrwydd i'r gwrandawyr, deall y rhai a agorwyd yn fawr ymhethau Duw, ac yn ffordd teyrnas nefoedd. Ymgrymodd y ddau gyhuddwr ar eu gliniau gyd â ni pan oeddym yn gweddïo, ac yr oedd un o honynt, a elwid Robert Evans, yn crynu yn anghyffredin; ac wedi gorphen y cyfarfod, tynodd yr R. Evans crybwylledig bapur o'i logell, safodd o'n blaen dan grynu, yn analluog i ddywedyd un gair wrthym, ond "Gwarant, gwarant, gwarant!" Safodd y Cyfeillion yn dawel, yn rhinwedd y bywyd a'r nerth, â'r sawl yr oedd Duw wedi ein bendithio y dydd hwnw. Ni ddywedasom un gair wrtho ef, nac yntau wrthym ninnau, at yr hyn yr oedd yr edrychwyr yn rhyfeddu. Yr oedd efe yn ddŷn gwenwynllyd, eiddigus, ac wedi anrheithio llawer ar y Cyfeillion yn yr ardaloedd hyny. O'r diwedd, gofynais iddo beth oedd ganddo; a dywedodd yntau mai gwarant. Dymunais gael ei gweled; eithr nid oedd foddlon i hyny; ond dywedodd, od elem gyd âg ef ychydig ym mlaen, y caem ei gweled. Dywedasom wrth y Cyfeillion nad oeddym yn rhwym i fyned gyd âg ef, a dymunasom arnynt fyned i'w cartrefi. Ond ni fynnai ein cyfeillion caredig, tyner-galon, ymadael â ni. Yr oedd Charles Llwyd a minnau yn awyddus am weled y warant, a pha ynadon oedd wedi ei har-

Digitized by Google

wyddnodi. Felly aethom gyd âg ef i'r tŷ lle yr addawsai ei dangos i ni; ond gan nad oedd gŵr y tŷ gartref, yr oedd yn anfoddlawn i'w dangos. Wedi hir ymresymu, cawsom olwg arni, a gwelsom mai y Milwriad Prys, o'r Rhiwlas, a'r Milwriad Salisbury, o Rug, oedd wedi ei harwyddnodi. Aethom y noswaith honno i dŷ John Thomas, Llaethgwm; ac yr oeddym yn awyddus am ymweled â'r ddau ynad. Aethom yn gyntaf at Prys, o'r Rhiwlas, gan fod llawer o'r Cyfeillion yn gymmydogion iddo ef, a rhai o honynt yn byw ar ei dir; ond ni chaem ei weled ef, er i ni glywed ei fod gartref. Yna, gan i ni glywed fod y Milwriad Salisbury gartref, aethom i Rug; ond wedi i ni fyned at y tŷ, deallasant wrth ein gwisg a'n iaith mai Crynwyr oeddym; a chan y gwyddai y milwriad beth a wneuthai, a bod y fath anrheithio ar y Cyfeillion, gwrthodd yntau siarad â ni. Dymunasom ar un o'i weision ddywedyd wrtho ein bod wedi dyfod o bell i ymweled â'r Cyfeillion erlidiedig yn y sir honno; a dymunodd Charles Llwyd arno ddywedyd pwy ydoedd efe, gan ei fod yn berthynas ac yn hen gydysgolor iddo. Aethom oddi yno i dŷ Ioan ap Ioan, yng Ngwrecsam, sir Ddinbych, ac ymwelasom â Chyfeillion; ac wedyn dychwelasom at ein teuluoedd, lle y cawsom bob peth yn gysurus, a'r Arglwydd wedi bod gyd â ni trwy y daith.

Yr oedd anghenrhaid arnaf fi, ymhen amser ar ol hyn, fyned i ymweled â Chyfeillion yn Llundain. Gelwais i weled yr Arglwydd a'r Arglwyddes Powys, y rhai a arhosent ar y pryd yn Llundain. Yr oeddynt yn gyfeillion mawr i mi; ac wedi i mi eu hyspysu o helyntion ein cyfeillion yn sir Feirionydd, o herwydd y cyhuddiadau dan y ddeddf a wnelsid yn ddiweddar, gofynasant pa fodd y gallent fod o ryw gymmorth i'r Cyfeillion. Dywedais innau mai trwy weled yn dda ofyn i'w brawd, y Duc Beaufort, yr hwn oedd Arglwydd Raglaw Cymru ar y pryd, anfon ychydig linellau at y Milwriad Prys, o'r Rhiwlas; fy mod yn credu y lliniarid eu helbulon yn fawr, gan nad oedd y Milwriad yn erlidiwr o'r gwraidd, ond fel y cynhyrfid ef i erlid gan un a elwid yn "ŵr eglwysig." Ymhen ychydig amser, rhoddasant lythyr oddi wrtho i mi. Yr oedd ei sel ef arno, ond yr oedd heb ei gau; a dyma ei gynnwys:—

"Syr,—Yr wyf wedi attal i'r achwyniad sydd yn erbyn deiliaid ei Fawrhydi, y rhai a elwir Crynwyr, o dan ddeddf lem dirwyad, ddyfod allan o'r llys."

Wedi cael y llythyr hwn, gwneuthum bob brys i ddyfod i'r wlad, a rhoddais y llythyr i gyfaill a pherthynas i'r Milwriad Prys, ac aeth hwnw âg ef iddo ei hunan. Cafodd ddylanwad da, a rhyngodd bodd i'r Arglwydd osod attalfa ar y creulonderau a'r difrod a arferid yn erbyn y Cyfeillion a'u heiddo yn y rhan honno o'r wlad. Galwodd yr ynadon y cyhuddwr i gyfrif am yr hyn a wnelsai, ac am yr hyn a gymmerasai oddi ar y Cyfeillion; ond nis gallai efe roddi cyfrif o honynt. Erlyniodd yr ynadon cyffredin ef mor llym dros y brenin fel y bu agos iddo gael ei lwyr ddinystrio. Felly gwelodd Duw yn dda ei osod ef yn y rhwyd a fwriadasai efe i'w gymmydogion.

Ymhen ychydig amser ar ol hyn, yr oedd un Prys, offeiriad Llanfor, sir Feirionydd, yn ymddwyn yn greulon iawn at y Cyfeillion, er cael degymau ganddynt; a daeth rhai o honynt ataf fi i'r Trallwm i ddyweyd yr hanes. Edrychais dros y cyhuddiadau, ac erchais i gyfreithiwr sefyll dros y Cyfeillion; ac yn fuan, dyma wyseb *(writ)* yn erbyn yr offeiriad. Pan ddaeth y wyseb i law, yr oeddwn mewn penbleth yn methu gwybod beth i'w wneud â hi, o herwydd gwyddwn, os defnyddid hi yn erbyn yr offeiriad, yr ymgynddeiriogai yn waeth yn erbyn y Cyfeillion. Anfonais at rai o'r Cyfeillion oedd yn cael eu drygu, i ddyfod i'r cyfarfod chwarterol i Ddolobran, o'r hwn yr oeddynt yn aelodau. Dywedais wrthynt beth oedd fy marn ar yr achos; ac er bod y wyseb mewn llaw, etto nad oedd anghenrhaid ei gosod mewn gweithrediad. Cynghorais hwy i gymmeryd y wyseb, a'i dangos i'r sirydd, a gosod yr holl achos o'i flaen ef, ond gofalu am beidio gadael y wyseb yn ei law ef. Gwnaeth y Cyfeillion yn ol y cyngor. Gwyddai y sirydd y byddai hyny yn fanteisiol i'r Crynwyr, ac yr oedd efe yn barod i wneud pob peth yn ei allu drostynt. Felly gwnaeth yn hyspys trwy yr ardal fod gwyseb gan y Crynwyr yn erbyn yr offeiriad, fel y bu ofn arno ef, druan, am ddiwrnodau dyfod i "dŷ y gloch" i gyflawni ei wasanaeth, hyd nes y cafodd gan rywun ddyfod at y Cyfeillion i benderfynu yr achos; ac ni chlywais iddo boeni y Cyfeillion ar ol hyny am ddegwm.

Tu a diwedd y flwyddyn 1674, ymwelais â'm hen gyfaill, George Fox, yr hwn oedd yngharchar Caerwrangon, a chefais rai cyfarfodydd yn Henffordd wrth fyned. Tra yn aros gyd â'm cyfaill, adroddodd i mi y dull y cymmerasid ef i garchar; ei fod wedi cael ei gyhuddo o wrthod tyngu llw o ffyddlondeb i'r llywodraeth; iddo gael ei symmud i Lundain o dan y ddeddf a elwir "Caffeuliad y

Digitized by Google

Corph;"* iddo gael ei brofi yno; a chan na chafwyd un gwall yn y cyhuddiad, iddo gael ei ddwyn yn ol eilwaith i garchar Caerwrangon. Pan yr adroddai yr achos i mi, meddyliais fod digon o wallau yn y cyhuddiad i'w gael yn rhydd. Dywedais wrtho am fargyfreithiwr a'i enw Thomas Corbet, yr hwn oedd ar y pryd yn Llundain, ac yn enwog am gael hyd i wallau. Wedi ystyried ychydig, anfonodd gyd â'r post cyntaf am wyseb "Caffeuliad y Corph." Daeth i lawr mewn byr amser; ac wedi ei rhoddi yn llaw y sirydd, cychwynasom i Lundain, George Fox yn y cerbyd gyd â'r sirydd a heddgofiadur Caerwrangon, a minnau yn marchogaeth wrth ochr y cerbyd, heb neb arall gyd â ni.

Cyrreuddasom Lundain ar yr 8fed dydd o'r 12fed mis; ac yr oedd llawer o Gyfeillion, pan welsant ef yno, yn rhyfeddu ei weled yno drachefn, canys yr oedd efe wedi myned o gylch yr achos braidd yn gyfrinachol. Gofynodd i'r Cyfeillion a ofalent am yr achos y tro o'r blaen, adael i mi gael adysgrif o'r drafodaeth, yr hyn oedd waith lled anhawdd, gan y credai llawer nad attebai fawr, os dim, daioni; ond nid arhosodd George Fox yn llonydd. Yr oeddwn i wedi gosod yr holl achos, cyn belled ag y deallwn ef, o flaen y Bargyfreithiwr Corbet, cyn gweled yr adysgrif; ac o gylch y 10fed awr o'r nos, daeth W. Mead gyd â mi â chopi o honi at Corbet. Wedi iddo ei darllen, dywedodd, "Y mae ynddi lawer iawn o wallau pwysig." Synodd W. Mead yn anghyffredin wrth glywed hyny. Gofynodd sut y gallai hyny fod, a dymunodd ar y bargyfreithiwr ddangos iddo un gwall. Dangosodd yntau iddo amryw wallau. Yr oedd W. Mead yn methu deall sut na buasai y bargyfreithwyr eraill wedi canfod y fath wallau mawrion.

Y borau canlynol, yr 11fed o'r un mis, aethom i'r llys, lle y cynhygiodd rhyw fargyfreithwyr rywbeth yn ffafr George Fox, ac yr oeddynt yn cynnyg yn lled dda ar rai pwyntiau; ond ni wyddent fod un gwall yn y cyhuddiad. Yr oedd y Bargyfreithiwr Corbet yn eistedd yn ddistaw trwy yr holl amser yma. Yr oedd y Bargyfreithiwr Walcot yn erbyn George Fox, ac yn ofni rhag y ceid rhyw wall yn y cyhuddiad; am hyny, cynhygiodd fod y llw i gael ei gynnyg drachefn iddo. Ar hyny cododd Corbet, a dywedodd nad oedd carchariad i fod *ynglyn âg achos o ddirwy*. Ar hyn, dywedodd y Prif-farnwr Hale, "Dylasech chwi, Mr. Corbet, ddyfod â'r ddadl yna ym mlaen yn gynt, tu a dechrau yr eisteddiad." Dywedodd yntau ei fod yn methu cael copi o'r cyhuddiad. Attebodd y barnwr, "Dylasech ddywedyd hyny, a buasem ni yn eu gorfodi i'w rhoddi i chwi yn gynt." "Yna yr ydych chwi, Mr. Corbet," eb y Barnwr Wild, "yn myned yn ol egwyddorion cyffredinol; ac os ydyw pethau fel yr ydych chwi yn dywedyd, yr ydym ni wedi gwneud llawer iawn o gamsyniadau yn Old Bailey, ac mewn llysoedd eraill." Yr oedd Corbet yn benderfynol nad oedd carcharu i fod mewn achos o ddirwy. Dywedodd y barnwr fod gwyseb hefyd i fod mewn achos o ddirwy. "Oes," eb Corbet; "ond nid gwyseb yw carchariad, eithr darpariaeth i gael prawf yw gwyseb." "Wel," eb y barnwr, "rhaid i ni gael amser i edrych y llyfrau, ac ymgynghori â'n gilydd ynghylch y deddfau." Felly oedwyd y prawf hyd drannoeth. Pan yn myned allan o Neuadd Westminster, yr oedd rhai o'r Cyfeillion yn lled ofidus o herwydd i'r Bargyfreithiwr Cymreig godi y fath ddadl, yr hon oedd yn groes i feddwl y barnwyr a'r holl fargyfreithwyr; ac yr oedd rhai o honynt yn lled hyderus y cawsai George Fox fyned yn rhydd oni buasai i'r Bargyfreithiwr Cymreig godi y fath wrthddadl. Dymunais ar y Cyfeillion fod dipyn yn amyneddgar: fy mod i yn credu "y safai y Bargyfreithiwr Cymreig ar ei draed ei hun." Yna dychwelais i'r neuadd, ac arhosais am Corbet nes cododd y llys; a phan gefais hyd iddo, dywedais ei fod wedi codi gwrthddadl y credai llawer na fedrai ei phrofi; ac os felly, y byddai yn waeth arnaf fi, ac ar y "Bargyfreithiwr Cymreig" hefyd, fel yr arferent ei alw. Dymunodd arnaf fyned a chopi arall o'r gyfysgrif iddo y prydnhawn hwnw. Mynnais un, yn ol ei gais, ac aethum âg ef iddo. Ysgrifenodd rywbeth ar yr ymyl yn Ffrangcaeg, a dymunodd arnaf fyned ag ef i Thomas Budyard, cyfreithiwr George Fox, a gofyn iddo fyned âg ef y nos honno i'r Barnwr Hale, ac yr âi yntau â'r llall i'r Barnwr Wild; ac yna credai na chlywid ychwaneg ynghylch yr achos. Ac felly y bu, o herwydd drannoeth barnwyd yn ddoeth gadael yr wrthddadl honno o'r neilldu, a myned ym mlaen gyd â'r gwallau yn y cyhuddgwyn; a phan agorwyd hwynt, yr oeddynt mor lliosog ac mor fawrion fel y cyttunodd yr holl farnwyr fod y cyhuddiad yn erbyn George Fox yn hollol ddiwerth, ac y dylai

* "Habeas Corpus:" math ar ddeddf yn gofyn i'r person a ddalio un yn garcharor, ddwyn corph y carcharor ger bron, ynghyd â'r dydd y daliwyd ef, a'r achos o'i garchariad.—Gol.

Digitized by Google

wyddnodi. Felly aethom gyd âg ef i'r tŷ lle yr addawsai ei dangos i ni; ond gan nad oedd gŵr y tŷ gartref, yr oedd yn anfoddlawn i'w dangos. Wedi hir ymresymu, cawsom olwg arni, a gwelsom mai y Milwriad Prys, o'r Rhiwlas, a'r Milwriad Salisbury, o Rug, oedd wedi ei harwyddnodi. Aethom y noswaith honno i dŷ John Thomas, Llaethgwm; ac yr oeddym yn awyddus am ymweled â'r ddau ynad. Aethom yn gyntaf at Prys, o'r Rhiwlas, gan fod llawer o'r Cyfeillion yn gymmydogion iddo ef, a rhai o honynt yn byw ar ei dir; ond ni chaem ei weled ef, er i ni glywed ei fod gartref. Yna, gan i ni glywed fod y Milwriad Salisbury gartref, aethom i Rug; ond wedi i ni fyned at y tŷ, deallasant wrth ein gwisg a'n iaith mai Crynwyr oeddym; a chan y gwyddai y milwriad beth a wneuthai, a bod y fath anrheithio ar y Cyfeillion, gwrthodd yntau siarad â ni. Dymunasom ar un o'i weision ddywedyd wrtho ein bod wedi dyfod o bell i ymweled â'r Cyfeillion erlidiedig yn y sir honno; a dymunodd Charles Llwyd arno ddywedyd pwy ydoedd efe, gan ei fod yn berthynas ac yn hen gydysgolor iddo. Aethom oddi yno i dŷ Ioan ap Ioan, yng Ngwrecsam, sir Ddinbych, ac ymwelasom â Chyfeillion; ac wedyn dychwelasom at ein teuluoedd, lle y cawsom bob peth yn gysurus, a'r Arglwydd wedi bod gyd â ni trwy y daith.

Yr oedd anghenrhaid arnaf fi, ymhen amser ar ol hyn, fyned i ymweled â Chyfeillion yn Llundain. Gelwais i weled yr Arglwydd a'r Arglwyddes Powys, y rhai a arhosent ar y pryd yn Llundain. Yr oeddynt yn gyfeillion mawr i mi; ac wedi i mi eu hyspysu o helyntion ein cyfeillion yn sir Feirionydd, o herwydd y cyhuddiadau dan y ddeddf a wnelsid yn ddiweddar, gofynasant pa fodd y gallent fod o ryw gymmorth i'r Cyfeillion. Dywedais innau mai trwy weled yn dda ofyn i'w brawd, y Duc Beaufort, yr hwn oedd Arglwydd Raglaw Cymru ar y pryd, anfon ychydig linellau at y Milwriad Prys, o'r Rhiwlas; fy mod yn credu y lliniarid eu helbulon yn fawr, gan nad oedd y Milwriad yn erlidiwr o'r gwraidd, ond fel y cynhyrfid ef i erlid gan un a elwid yn "ŵr eglwysig." Ymhen ychydig amser, rhoddasant lythyr oddi wrtho i mi. Yr oedd ei sel ef arno, ond yr oedd heb ei gau; a dyma ei gynnwys:—

"SYR,—Yr wyf wedi attal i'r achwyniad sydd yn erbyn deiliaid ei Fawrhydi, y rhai a elwir Crynwyr, o dan ddeddf lem dirwyad, ddyfod allan o'r llys."

Wedi cael y llythyr hwn, gwneuthum bob brys i ddyfod i'r wlad, a rhoddais y llythyr i gyfaill a pherthynas i'r Milwriad Prys, ac aeth hwnw âg ef iddo ei hunan. Cafodd ddylanwad da, a rhyngodd bodd i'r Arglwydd osod attalfa ar y creulonderau a'r difrod a arferid yn erbyn y Cyfeillion a'u heiddo yn y rhan honno o'r wlad. Galwodd yr ynadon y cyhuddwr i gyfrif am yr hyn a wnelsai, ac am yr hyn a gymmerasai oddi ar y Cyfeillion; ond nis gallai efe roddi cyfrif o honynt. Erlyniodd yr ynadon cyffredin ef mor llym dros y brenin fel y bu agos iddo gael ei lwyr ddinystrio. Felly gwelodd Duw yn dda ei osod ef yn y rhwyd a fwriadasai efe i'w gymmydogion.

Ymhen ychydig amser ar ol hyn, yr oedd un Prys, offeiriad Llanfor, sir Feirionydd, yn ymddwyn yn greulon iawn at y Cyfeillion, er cael degymau ganddynt; a daeth rhai o honynt ataf fi i'r Trallwm i ddyweyd yr hanes. Edrychais dros y cyhuddiadau, ac erchais i gyfreithiwr sefyll dros y Cyfeillion; ac yn fuan, dyma wyseb *(writ)* yn erbyn yr offeiriad. Pan ddaeth y wyseb i law, yr oeddwn mewn penbleth yn methu gwybod beth i'w wneud â hi, o herwydd gwyddwn, os defnyddid hi yn erbyn yr offeiriad, yr ymgynddeiriogai yn waeth yn erbyn y Cyfeillion. Anfonais at rai o'r Cyfeillion oedd yn cael eu drygu, i ddyfod i'r cyfarfod chwarterol i Ddolobran, o'r hwn yr oeddynt yn aelodau. Dywedais wrthynt beth oedd fy marn ar yr achos; ac er bod y wyseb mewn llaw, etto nad oedd anghenrhaid ei gosod mewn gweithrediad. Cynghorais hwy i gymmeryd y wyseb, a'i dangos i'r sirydd, a gosod yr holl achos o'i flaen ef, ond gofalu am beidio gadael y wyseb yn ei law ef. Gwnaeth y Cyfeillion yn ol y cyngor. Gwyddai y sirydd y byddai hyny yn fanteisiol i'r Crynwyr, ac yr oedd efe yn barod i wneud pob peth yn ei allu drostynt. Felly gwnaeth yn hyspys trwy yr ardal fod gwyseb gan y Crynwyr yn erbyn yr offeiriad, fel y bu ofn arno ef, druan, am ddiwrnodau dyfod i "dŷ y gloch" i gyflawni ei wasanaeth, hyd nes y cafodd gan rywun ddyfod at y Cyfeillion i benderfynu yr achos; ac ni chlywais iddo boeni y Cyfeillion ar ol hyny am ddegwm.

Tu a diwedd y flwyddyn 1674, ymwelais â'm hen gyfaill, George Fox, yr hwn oedd yngharchar Caerwrangon, a chefais rai cyfarfodydd yn Henffordd wrth fyned. Tra yn aros gyd â'm cyfaill, adroddodd i mi y dull y cymmerasid ef i garchar; ei fod wedi cael ei gyhuddo o wrthod tyngu llw o ffyddlondeb i'r llywodraeth; iddo gael ei symmud i Lundain o dan y ddeddf a elwir "Caffeuliad y

Digitized by Google

Corph;"* iddo gael ei brofi yno; a chan na chafwyd un gwall yn y cyhuddiad, iddo gael ei ddwyn yn ol eilwaith i garchar Caerwrangon. Pan yr adroddai yr achos i mi, meddyliais fod digon o wallau yn y cyhuddiad i'w gael yn rhydd. Dywedais wrtho am fargyfreithiwr a'i enw Thomas Corbet, yr hwn oedd ar y pryd yn Llundain, ac yn enwog am gael hyd i wallau. Wedi ystyried ychydig, anfonodd gyd â'r post cyntaf am wyseb "Caffeuliad y Corph." Daeth i lawr mewn byr amser; ac wedi ei rhoddi yn llaw y sirydd, cychwynasom i Lundain, George Fox yn y cerbyd gyd â'r sirydd a heddgofiadur Caerwrangon, a minnau yn marchogaeth wrth ochr y cerbyd, heb neb arall gyd â ni.

Cyrreuddasom Lundain ar yr 8fed dydd o'r 12fed mis; ac yr oedd llawer o Gyfeillion, pan welsant ef yno, yn rhyfeddu ei weled yno drachefn, canys yr oedd efe wedi myned o gylch yr achos braidd yn gyfrinachol. Gofynodd i'r Cyfeillion a ofalent am yr achos y tro o'r blaen, adael i mi gael adysgrif o'r drafodaeth, yr hyn oedd waith lled anhawdd, gan y credai llawer nad attebai fawr, os dim, daioni; ond nid arhosodd George Fox yn llonydd. Yr oeddwn i wedi gosod yr holl achos, cyn belled ag y deallwn ef, o flaen y Bargyfreithiwr Corbet, cyn gweled yr adysgrif; ac o gylch y 10fed awr o'r nos, daeth W. Mead gyd â mi â chopi o honi at Corbet. Wedi iddo ei darllen, dywedodd, "Y mae ynddi lawer iawn o wallau pwysig." Synodd W. Mead yn anghyffredin wrth glywed hyny. Gofynodd sut y gallai hyny fod, a dymunodd ar y bargyfreithiwr ddangos iddo un gwall. Dangosodd yntau iddo amryw wallau. Yr oedd W. Mead yn methu deall sut na buasai y bargyfreithwyr eraill wedi canfod y fath wallau mawrion.

Y borau canlynol, yr 11fed o'r un mis, aethom i'r llys, lle y cynhygiodd rhyw fargyfreithwyr rywbeth yn ffafr George Fox, ac yr oeddynt yn cynnyg yn lled dda ar rai pwyntiau; ond ni wyddent fod un gwall yn y cyhuddiad. Yr oedd y Bargyfreithiwr Corbet yn eistedd yn ddistaw trwy yr holl amser yma. Yr oedd y Bargyfreithiwr Walcot yn erbyn George Fox, ac yn ofni rhag y ceid rhyw wall yn y cyhuddiad; am hyny, cynhygiodd fod y llw i gael ei gynnyg drachefn iddo. Ar hyny cododd Corbet, a dywedodd nad oedd carchariad i fod *ynglyn âg achos o ddirwy.* Ar hyn, dywedodd y Prif-farnwr Hale, "Dylasech chwi, Mr. Corbet, ddyfod â'r ddadl yna ym mlaen yn gynt, tu a dechrau yr eisteddiad." Dywedodd yntau ei fod yn methu cael copi o'r cyhuddiad. Attebodd y barnwr, "Dylasech ddywedyd hyny, a buasem ni yn eu gorfodi i'w rhoddi i chwi yn gynt." "Yna yr ydych chwi, Mr. Corbet," eb y Barnwr Wild, "yn myned yn ol egwyddorion cyffredinol; ac os ydyw pethau fel yr ydych chwi yn dywedyd, yr ydym ni wedi gwneud llawer iawn o gamsyniadau yn Old Bailey, ac mewn llysoedd eraill." Yr oedd Corbet yn benderfynol nad oedd carcharu i fod mewn achos o ddirwy. Dywedodd y barnwr fod gwyseb hefyd i fod mewn achos o ddirwy. "Oes," eb Corbet; "ond nid gwyseb yw carchariad, eithr darpariaeth i gael prawf yw gwyseb." "Wel," eb y barnwr, "rhaid i ni gael amser i edrych y llyfrau, ac ymgynghori â'n gilydd ynghylch y deddfau." Felly oedwyd y prawf hyd drannoeth. Pan yn myned allan o Neuadd Westminster, yr oedd rhai o'r Cyfeillion yn lled ofidus o herwydd i'r Bargyfreithiwr Cymreig godi y fath ddadl, yr hon oedd yn groes i feddwl y barnwyr a'r holl fargyfreithwyr; ac yr oedd rhai o honynt yn lled hyderus y cawsai George Fox fyned yn rhydd oni buasai i'r Bargyfreithiwr Cymreig godi y fath wrthddadl. Dymunais ar y Cyfeillion fod dipyn yn amyneddgar: fy mod i yn credu "y safai y Bargyfreithiwr Cymreig ar ei draed ei hun." Yna dychwelais i'r neuadd, ac arhosais am Corbet nes cododd y llys; a phan gefais hyd iddo, dywedais ei fod wedi codi gwrthddadl y credai llawer na fedrai ei phrofi; ac os felly, y byddai yn waeth arnaf fi, ac ar y "Bargyfreithiwr Cymreig" hefyd, fel yr arferent ei alw. Dymunodd arnaf fyned a chopi arall o'r gyfysgrif iddo y prydnhawn hwnw. Mynnais un, yn ol ei gais, ac aethum âg ef iddo. Ysgrifenodd rywbeth ar yr ymyl yn Ffrangcaeg, a dymunodd arnaf fyned ag ef i Thomas Budyard, cyfreithiwr George Fox, a gofyn iddo fyned âg ef y nos honno i'r Barnwr Hale, ac yr âi yntau â'r llall i'r Barnwr Wild; ac yna credai na chlywid ychwaneg ynghylch yr achos. Ac felly y bu, o herwydd drannoeth barnwyd yn ddoeth gadael yr wrthddadl honno o'r neilldu, a myned ym mlaen gyd â'r gwallau yn y cyhuddgwyn; a phan agorwyd hwynt, yr oeddynt mor lliosog ac mor fawrion fel y cyttunodd yr holl farnwyr fod y cyhuddiad yn erbyn George Fox yn hollol ddiwerth, ac y dylai

* "Habeas Corpus:" math ar ddeddf yn gofyn i'r person a ddalio un yn garcharor, ddwyn corph y carcharor ger bron, ynghyd â'r dydd y daliwyd ef, a'r achos o'i garchariad.—Gol.

Digitized by Google

gael ei ollwng yn rhydd. A chyhoeddwyd, od oedd rhywbeth gan rywun yn erbyn George Fox, am iddo ddyfod ym mlaen ar y pryd, neu y gollyngid ef yn rhydd; ac yna cafodd fyned.

Ennillodd y Bargyfreithiwr Corbet glod mawr am ddadlau yr achos, canys dywedodd llawer o gyfreithwyr wrtho ei fod wedi dwyn pwynt i oleuni oedd hyd hyny yn anhyspys iddynt, sef na ddylid carcharu ynglŷn âg achos o ddirwy. Dywedodd un barnwr wrtho ar ol y prawf, "Yr ydych wedi myned yn enwog iawn wrth drin achos George Fox yn y llys." Cefais gyfle, wrth ddyfod allan o'r llys, i siarad â rhai o'r Llundeinwyr, a beiais hwynt am ddywedyd na ddeuai dim daioni o'r wrthddadl. Yr oeddwn i yn credu yr amser hwnw, ac yr wyf yn dal i gredu etto, bod mwy o law yr Arglwydd nag o gyfrwysdra yn yr amgylchiad, o blegid rhoddes y prawf hwnw derfyn ar ddirwyo yn y wlad. Bu y rhan fwyaf o honom ni, fel Cyfeillion, yn sir Drefaldwyn, dan ddirwyon am flynyddau. Ni chafodd ein cyfaill, Charles Llwyd, fyned i olwg ei dŷ ei hun am flynyddau, er nad oedd ond pum milltir oddi yno i'r Trallwm, lle yr oedd yn garcharor. Ac yr oeddid yn fy ystyried innau yn garcharor am yr un trosedd dros saith mlynedd; ond ni chefais iawn trwy yr holl amser hwnw. Yr oeddwn yn cael rhyddid i fyned i Lundain, a lleoedd eraill yn y wlad, fel y byddai angen am fy ngwasanaeth, ac fel y byddai yr Arglwydd yn agor y ffordd o'm blaen. Yr oeddwn yn gwneud fy ngorau yr amser yma i ymweled â Chyfeillion mewn helbulon.

O ddeutu y flwyddyn 1680, gwnaed y Dr. William Llwyd yn Esgob Llanelwy.* Yr oedd erledigaeth lem iawn yn yr ardal ar y pryd, dan Ddeddf Ysgymmundod, ac 20p. y mis o ddirwy. Ond cymmerth yr esgob hwn ffordd dynerach i wneud ei waith. Gwahoddai bob math ar Ymneillduwyr i ymddiddan âg ef, er ceisio eu denu yn ol i Eglwys Loegr. Pan ar ymweliad â'r Trallwm, anfonodd, ymhlith eraill, am danom ni. Ceisiodd gan Charles Llwyd, Thomas Llwyd, a minnau fyned i ymddiddan âg ef; ond yr oeddwn i yn gorfod cychwyn i Lundain y diwrnod hwnw, fel y methais aros yr amser, ond arhosodd fy nghyfeillion nes y cawsant ymddiddan âg ef; a dywedodd Charles Llwyd mai rhywbeth fel hyn a fu yr ymddiddan:—

"Yr oedd yr esgob yn anfoddlon iawn fy mod i yn absennol; a phan ddywedwyd wrtho am bwysigrwydd yr amgylchiadau oedd yn galw am danaf, a'm bod wedi aros dros beth amser er mwyn ei weled, dywedodd yntau fod ei amgylchiadau ef yn bwysicach na'r eiddof fi, beth bynag oeddynt. Buant yn siarad â'r esgob, ei gaplaniaid, ac offeiriaid eraill, o tu a 2 o'r gloch brydnhawn y diwrnod hwnw hyd o ddeutu 2 o'r gloch y borau dranoeth. Ar ol hyny, buant yn siarad âg ef yn Llanfyllin am ddau ddiwrnod: y dydd cyntaf, o 2 o'r gloch brydnhawn tan y nos; a'r ail dydd, yn gyhoeddus yn neuadd y dref, o 10 yn y borau hyd nes yr oedd yn awr o'r nos. Y dydd cyntaf, yn y Trallwm, yr oedd y Cyfeillion, Charles a Thomas Llwyd, wedi rhoddi eu rhesymau dros ymneillduo. Gwrthododd yr esgob a'i offeiriaid, ar hyd y tri diwrnod, gynnyg amddiffyn eu hegwyddorion eu hunain, na gwrthbrofi yr eiddom ninnau, eithr arhosasant gyd âg egwyddorion cyffredinol gwledydd cred, ac esamplau yr apostolion yn bedyddio â dwfr; a chyffwrddasant unwaith yn dyner â'r bara a'r gwin. Arhosodd Thomas Llwyd, y dydd diweddaf, gyd â'r rhesymau dros adael Eglwys Loegr, sef—

"1. Nad oedd eu haddoliad yn ol yr efengyl.
"2. Nad oedd eu gweinidogaeth yn ol yr efengyl.
"3. Nad oedd eu hordinhadau yn ol yr efengyl."

Aethum drachefn i Lundain yn 1683, i'r cyfarfod blynyddol, ac arhosais yno beth amser ar ol i'r rhan fwyaf o'r Cyfeillion adael y ddinas. Aeth George Whitehead a minnau un borau i Lincoln's-Inn-Fields, i edrych am Iarll Powys. Daeth atom ar frys, pan ddeallodd ein bod yno; ac wedi i mi osod helyntion Cymru o'i flaen, dywedais y dymunwn gael ei gyfarwyddyd ynghylch un achos: bod ein cyfeillion yn dioddef yn dost oddi wrth y ddeddf a wneuthid yn ein herbyn; mai fflangell drom oedd gorfod talu 20p. y mis am beidio myned i wrando yr hyn a elwid "gwasanaeth Dwyfol." Dywedais bod cyfaill i mi wedi bod yn gosod yr holl achos ger bron y brenin; ei fod ef yn barod iawn i ysgafnhau ein baich, a'i fod wedi rhoi gorchymyn i'r perwyl hwnw, ond bod yn ymddangos i'w gyfeillion gymmeryd mantais o hono, a'n cau ni allan. Gofynais a gynghorai efe ni i wneud rhywbeth ymhellach. Dywedodd yntau am i ni wneud, ar bob cyfrif, "o herwydd," eb efe, "cymmerwyd 8000p. oddi ar eich cyfeillion yn sir Gaerhirfryn (*Lancashire*), ac aeth y brenin a minnau i edrych faint o'r arian hyny a aeth i drysordy y deyrnas; ond yn lle hyny, ymddengys bod y brenin wedi myned i 28p. o ddyled wrth eu codi." Yr oedd yr Iarll a'r Iarlles Powys bob amser yn barod i'n cynnorthwyo o'n helbulon, a gwnaent bob caredigrwydd a allent i'r Cyfeillion; a chredaf eu bod yn gwneud hyny yn gydwybodol, canys yr oedd llawer o'n Cyfeillion yn byw ar eu hetifeddieuthau yma a thraw, ac ni adawai yr iarll i un o honynt gael ei ddirwyo am beidio ymddangos fel rheithwyr yn y llysoedd gwladol, nac am ddim arall.

* Cyssegrwyd ef ar y 3ydd o Hydref, 1680.—Gwel pen. xx. o'r llyfr hwn, y iv.—Gol.

Digitized by Google

Y mae'n deg i mi wneud sylw yma o'r amryw gymmwynasau a dderbyniais oddi ar law yr Esgob Llwyd, pan yn ei wahanol esgobeuthau, i'r Cyfeillion oedd mewn caledi, canys gan ein bod yn cofnodi y creulonderau a ddangoswyd i ni gan esgobion ac offeiriaid; y fath nifer o wragedd a wneuthant yn weddwon, ac o blant yn amddifaid, nid yw ond cyfiawn a theg i ni groniclo y drugaredd, y tynerwch, a'r cydymdeimlad a gawn ar law eraill mwy cydwybodol o honynt. Er engraifft, pan oedd yr Esgob Llwyd ar ymweliad â Llanfyllin, sir Drefaldwyn, yr oedd pedwar o eglwys-wardeiniaid y Trallwm, dynion croesion, yn bwriadu erlyn Jacob Endon, fy mab ynghyfraith, am wrthod talu at adgyweirio eu tŷ addoli. Aethum gyd â'm mab ynghyfraith at yr esgob, a gosodais yr achos o'i flaen. Galwodd yntau ar frys am y wardeiniaid, a dywedodd wrthynt fod ffordd rwyddach a rhatach i godi yr arian na thrwy ysgymmuno, sef trwy attafaelu. Galwodd am gopi o'r ddeddf genyf; trodd at y penawd, a darllenodd ef i'r wardeiniaid; a dywedodd mai efe ei hun a ffurfiasai y penawd hwnw yn y ddeddf. Dywedodd y dylent fyned at yr ynadon i gael gwyseb; "ond," eb efe, "paham yr ewch i'r draul i gael gwyseb? Oni ellwch fyned yno, a chymmeryd dysgl ffeutur (*pewter*), neu rywbeth arall a fyddo yn werth y swm? Yr wyf yn sicr nad erlynient chwi byth am hyny, o herwydd rhaid i ni wneud iddynt hwy fel yr ewyllysiem gael pe yn eu sefyllfa hwynt." Felly anfonodd hwy ymaith yn frysiog. Yna dywedais y dymunwn osod o'i flaen achos carcharor arall a'i enw Rhisiart Dafydd, o yn agos i Ruabon, sir Ddinbych. Cynghorodd yntau fi i ymweled â'r canghellydd, y Dr. Wynn, yr hwn, meddai, oedd yn ddŷn teg iawn. Yna galwodd am dano yno, a gadawodd ni gyd â'n gilydd. Diolchais i'r esgob cyn ymadael am ei garedigrwydd. Wedi dywedyd pob peth am y carcharor wrth y canghellydd, gwelais ei fod yn ddŷn pur deg; ac yn fuan ar ol hyny, clywais fod fy nghyfaill, Rhisiart Dafydd, yn rhydd, a chefais lawer tro caredig gan y canghellydd ar ol hyny. Pan ddaeth y wardeiniaid adref, adroddasant yr helynt, a dywedasant wrth bawb y fath ffafr a gawswn gan yr esgob, a mawr oedd eu gofid o'r herwydd; ond ni flinwyd fi na'm mab ynghyfraith byth mwyach ynghylch talu at adgyweirio eu tŷ addoli.

Yma y terfyn yr hyn a ysgrifenwyd gan Rhisiart Dafydd: ysgrifenwyd y gweddill gan ei ferch.

Yn 1702, aeth efe, a'i ferch, Grace Endon, gyd âg ef, i Lundain, ac arhosodd am wythnosau yn y ddinas ac o'i hamgylch, gan ymweled â gwahanol gyfarfodydd y Cyfeillion, a chafodd lawer o gysur a diddanwch yn eu plith. Pennodwyd ef, ac un ar ddeg eraill o'r Cyfeillion, i fyned at y Frenhines [Ann] i Windsor, dros y cyfarfod blynyddol, i ddiolch am y rhyddid a fwynhaent dan ei llywodraeth hi: efe oedd y prif ymadroddwr o flaen y frenhines. Wedi gorphen ei waith yn y parthau hyny, trodd tu ag adref, a daeth trwy Gaerwrangon, lle yr ymwelodd â'i hen gyfaill yr Esgob Llwyd, yr hwn oedd yn falch ei weled. Dyna y tro olaf iddynt weled eu gilydd.

Wedi dychwel adref, ymwelai yn aml â'r cyfarfodydd cymmydogeuthol, ac yr oedd yng Nghyfarfod Blynyddol Cymru y gwanwyn canlynol. Tu a diwedd y trydydd mis o'r flwyddyn 1704, aeth i'r cyfarfod blynyddol i Lundain, ynghymdeithas ei ŵyr, Dafydd Endon. Galwodd i weled Cyfeillion yn Stourbridge, Banbury, Aylesbury, a lleoedd eraill, ac arhosodd yn y ddinas ac o'i hamgylch am yn agos i ddau fis. Yr oedd ar y pryd yn wanaidd ei iechyd. Wedi gorphen yn y ddinas, daeth adref yn ddiymdroi, ac yn weddol iach.

Yn nechrau y flwyddyn 1705, efe a gyfarfu â thywydd garw, o herwydd ar y dydd cyntaf o'r trydydd mis bu farw ei ffyddlon anwyl wraig, yr hon a fu yn dyner wrtho, a gofalus iawn am dano, ac wedi bod yn wraig weithgar iawn mewn llawer ystyr i'r Cyfeillion ac i'r gwirionedd. Yr oedd yn wraig syml, ddidwyll, a chywir galon, ac yn caru y gwirionedd mewn symlrwydd. Buant fyw ynghyd am 46 mlynedd, ac yr oedd ei chymmeriad yn berarogl yn yr ardal ar ol ei chladdu.

Yn y mis cyntaf o'r flwyddyn 1706, aeth i Gyfarfod Blynyddol Cymru,* a gynhelid yn Llanidloes, sir Ddinbych, a hwnw oedd y cyfarfod olaf y bu efe ynddo yng Nghymru. Ar y 15fed o'r ail mis, cychwynodd, ynghymdeithas ei ŵyr, D. Endon, tu a Chaerodor; ac wrth fyned, cynhaliodd gyfarfodydd yn Llanllieni, ac yn Ross, sir Henffordd. Oddi yno aeth i Gaerodor, a llettyodd yn nhŷ Charles Harford, yr ieuengaf, lle yr arhosodd o ddeutu wythnos, yn ymweled â'r Cyfeillion yn eu cyfarfodydd blynyddol; ac ar y 30fed o'r un

* "Y mae eu cyfarfodydd misol," eb y Dr. Gardner (Cred. y Byd, cyf. i., t. 504), "yn cynnwys yr holl gynnulleidfaoedd o fewn cylch pennodol, ac yn cael eu cynnal i wahanol ddibenion, megis derbyn aelodau newyddion, rhoddi llythyrau canmoliaeth i aelodau fyddont yn symmud, gweinyddu disgyblaeth, a dewis henuriaid i ofalu am y weinidogaeth. Telir sylw hefyd yn y cyfarfodydd hyn i aelodau tlodion, ac addysgiad eu plant."

Digitized by Google

mis, cychwynodd tu a Llundain, ac wrth fyned cynhaliodd gyfarfod yn y Gelli. Ar y dydd cyntaf o'r trydydd mis, yr oedd mewn cyfarfod yn Sudbury, sir Gaerloyw; ar y pummed, yng Nghaerceri; ac ar yr wythfed, sef y dydd cyntaf o'r wythnos, yn Rhydychain. Daeth llawer o'r myfyrwyr i'r cyfarfod yn y dref honno, ac yr oeddynt dros beth amser yn lled ddireol; ond wedi i'r Cyfaill Rhisiart Dafydd siarad ychydig, daethant i edrych yn bur ddifrifol. Eisteddodd rhai o honynt yn dawel hyd y diwedd, ac yr oedd y Cyfeillion yn sylwi bod y cyfarfod hwnw yn dawelach nag arferol. Aeth oddi yno i gynnal cyfarfodydd yn Hanley a Windsor; ac oddi yno aeth yn ei ol i Lundain, a lletty-odd yn nhŷ perthynas iddo, a'i enw Thomas Llwyd. Aeth i'r cyfarfod blynyddol, ac arhosodd o gylch y ddinas hyd y 19ydd o'r pedwerydd mis, gan ymweled â chyfarfodydd y Cyfeillion. Yna troes adref, ac ar yr 21fed cynhaliodd gyfarfod yn Chesham, lle y gwelodd William Bingley. Ar yr 21fed cynnaliasant gyfarfod yn Aylesbury; ac oddi yno aethant i Banbury i'w cyfarfod blynyddol, lle yr oedd llawer o Gyfeillion o wahanol ranau y wlad. Daeth Wm. Bingley i'w ganlyn hyd Gaerwrangon, a chynnaliasant gyfarfod yno ar yr 28fed. Cynhaliodd gyfarfod yn Droitwich ar yr 30fed. Yr oedd mewn cyfarfod yn Bromsgrove ar y dydd cyntaf o'r pummed mis, ac ar yr ail dydd yn Birmingham; a bu yn llettya yn nhŷ John Pemberton. Ar y pedwerydd dydd aeth i gyfarfod chwarterol i Wolverhampton, ac oddi yno i Stourbridge, a llettyodd yn nhŷ Ambrose Crawley; ac ar y 9fed o'r pummed mis, daeth adref at ei deulu yn ddiogel, i'r Cloddiau Cochion, wedi bod yn absennol am yn agos i dri mis.

Treuliodd y rhan fwyaf o'i amser ar ol y daith hon gartref mewn iechyd da, ac ymwelai â'r cyfarfodydd cymmydogeuthol. Yn niwedd yr wythfed mis yr oedd yn y Mwythig, ynghladdedigaeth hen wraig oedd yn perthyn i'r Cyfeillion; a bu mewn amryw gladdedigeuthau o amgylch y cartref. Yr oedd yn cael cyfarfodydd da y pryd hyn, a gwrandawai y bobl ef yn ewyllysgar, canys yr oedd yn traddodi yn wrol a difrifol, yn bwyllog, a golau yn ei bwngc, yr hyn oedd yn dderbyniol iawn gan y rhan fwyaf o'i wrandawyr.

Bu ei gystudd diweddaf yn fyr iawn. Yr oedd yn y Trallwm ar y 6ed o'r wythnos; a chan ei fod yn teimlo yn anhwylus, aeth adref, a thranoeth nid aeth allan o'r tŷ. Y dydd cyntaf o'r wythnos, daeth amryw Gyfeillion o gyfarfod Dolobran i edrych am dano, a chawsant ychydig funudau i weddïo gyd âg ef. Ni siaradodd fawr âg un o honynt. Parhau i gynhyddu yr oedd ei boen, ac ar yr 22fed o'r mis cyntaf o'r flwyddyn 1708, o ddeutu y 9fed awr, efe a ymadawodd â'r fuchedd hon, yn y 73edd flwyddyn o'i oedran.

Claddwyd ef ar y 25med, pryd y daeth llawer o Gyfeillion o'r gwahanol gymmydogeuthau, a llawer o bobl eraill, ynghyd i'r Cloddiau Cochion. Cymmerwyd ei gorph i'r fynwent oedd ger llaw ei dŷ ei hun, a chladdwyd ef yn daclus wrth ochr ei wraig. Cynhaliwyd cyfarfod difrifol yn y fynwent, a dygwyd yno lawer o dystioleuthau yn nerth ac yspryd y gwirionedd, er boddhâd mawr i'r gwrandawyr.*

## PENNOD XXIV.

### HUW OWEN O FRON Y CLYDWR, AC OWEN GRUFFYDD O LANYSTUMDWY.

HUW OWEN ydoedd fab i Humphrey Owen, o Fron y Clydwr, ymhlwyf Llanegryn, sir Feirionydd, lle oedd yn rhan o'i etifeddiaeth ef ei hun. Mab oedd H. Owen i John Owen, ail fab John Lewis Owen, Ysw., A.S. dros sir Feirionydd, mab hynaf Lewis Owen (y Barwn Owen), ystafellydd Gogledd Cymru, yr hwn a lofruddiwyd ger llaw "Llidiart y Barwn," gan "Wylliaid Cochion Mawddwy," yn y flwyddyn 1555. Felly yr oedd Huw Owen, o Fron y Clydwr, yn gâr agos i'r enwog Ddoctor John Owen,† a bu yn cydoesi âg ef dros 46 mlynedd. Gan fod Huw Owen yn byw ar ei dir ei hun ym Mron y Clydwr, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1637, y mae yn bur debyg mai efe oedd mab hynaf, os nad unig fab, Humphrey Owen.

Y mae amryw wedi ysgrifenu ar Huw Owen; ond ychydig iawn a chwanegwyd gan neb o'i wir hanes at yr hyn a ysgrifenwyd gan Palmer am dano yn ei "Gofiadaeth Anghydffurfiol," yr hwn a ddywed am dano fel y canlyn:—

"Yr oedd efe yn ymgeisydd am y weinidogaeth‡ pan

* Wrth ystyried llafur a llwyddiant mawr Rhisiart Dafydd o'r Cloddiau Cochion, a'i deulu; y Llwydiaid o Ddolobran, ac eraill a enwyd yn y bennod hon o gylch Dolgellau, y Bala, Gwrecsam, a manau eraill; y mae'n rhyfedd i'w holafiaid fod mor ddiymadferth, ac ymollwng i'r fath ddirywiad mor fuan ar ol eu henwogion gweithgar, fel, erbyn hyn, y mae'r gangen syml, onest, ddiseremoni yma o Eglwys Crist wedi llwyr ddiflannu o'r wlad, canys nid ydym yn gwybod bod cymmaint ag UN GYMDEITHAS O'R CYFEILLION yn yr holl Dywysogaeth.—GOL.

† Gwel pen. x. o'r llyfr hwn, y iv.

‡ O 16 i 18 oed y byddai ymgeiswyr am y weinidogaeth, yn gyf-

Digitized by Google

ddaeth Deddf Bartholomëus i rym;* ac o gylch y pryd hwnw symmudodd o Rydychain i Lundain. Ymsefydlodd yn fuan wedyn yn sir Feirionydd, lle y bu efe byw ar etifeddiaeth fechan o'i eiddo ei hun, a elwid Bron y Clydwr, ger llaw Llanegryn, a phregethai yr efengyl yn rhad i bobl dlodion, anwybodus. Yr oedd efe yn oleuni tanllyd a disglair yn y gornel dywyll honno: yr oedd yn seren olau, a ymsymmudai mewn cylchdro eang. Yr oedd ganddo bump neu chwech o fanau lle yr arferai bregethu yn y sir hon, a rhai o honynt yn ugain milltir o bellder; a chymmaint a hyny bron yn sir Drefaldwyn, o'r sawl yr oedd rhai ynghylch deng milltir ar hugain oddi wrth ei breswylfod. Pregethai hefyd weithiau yn sir Gaernarfon, a pharthau eraill.† Gorphenai ei gylchdaith mewn tu a thri mis o amser, ac yna dechreuai arni drachefn. Pregethai yn dra serchog a deniadol. Cyrchai lliaws mawr o bobl i wrando arno, ac effeithiai ei bregethau yn dra dwys arnynt yn gyffredin. O'r diwedd mawr amharwyd ei iechyd gan ei lafur caled a diball, gan y marchogai yn fynych yn y nos, trwy wlawogydd oerion ar y mynyddoedd llymion, heb gael ond prin ddigon o ymborth angenrheidiol. Anfynych y cai ddim cig i'w fwyta, a llwyr ymattaliai oddi wrth bob dïodydd cryfion. Ei brif ymborth oedd llaeth-fwyd, â'r hwn yr oedd wedi ymarfer trwy lettya yn gyffredin mewn tai tlodion, lle na byddai dim arall i'w gael, na gwely ond o wellt i orwedd arno.‡ Yr oedd yn Gristion apostolaidd a gwreiddiol, ac yn nodedig o dirion a gostyngedig, gan ei ystyried ei hun y lleiaf o holl weision Iesu Grist. Arferai ddywedyd nad oedd efe yn cynfigenu wrth ddoniau neb, ond y dymunai o'i galon wellâu ei dalent fechan ei hun, er mwyn gwasanaethu ei Arglwydd yn well. Yr oedd yn ofalus iawn rhag bod yn achos o flinder i neb; ac er ei fod yn ddïysgog o ran ei farn ei hun, etto yr oedd yn addfwyn a charedig iawn at bawb o wahanol farn iddo. Dywedai yn fynych, 'Nid wyf fi yn parchu neb o blegid ei farn, neu am ei fod yn ymlynu wrth y blaid hon neu arall; ond o herwydd yr hyn a welaf o ras Duw ynddo.' Ennillodd ei ymddygiad difrycheulyd a theilwng iddo barch boneddigion y sir, i amryw o'r rhai yr oedd efe yn berthynas agos.

"Cafodd lawer o waredigeuthau hynod yn atteb i weddi. Fel yr oedd efe un tro yn dychwel adref ar noswaith bur dywyll, collodd ei ffordd, a chanfu ei fod mewn lle peryglus. Yn y cyfyngder yma, disgynodd oddi ar ei geffyl, ac erfyniodd ar Dduw ei gyfarwyddo. Cyn iddo orphen gweddïo, goleuodd yr awyr uwch ei ben, fel y gwelai yn eglur ei ffordd, a dihangodd yn ddiberygl. Pan yn myned i bregethu dro arall, ar amser rhew ac eira, goddiweddwyd ef gan y nos ar ben y bryniau, a chyfododd yn dymmestl ddisymmwth, a chwythai y corwynt yr eira i'w wyneb gyd â'r fath erwindeb fel nas gallai ei geffyl fyned yn ei flaen. Gadawodd iddo fyned fel y mynnai, nes y canfu ei fod mewn perygl gan siglenydd corsiog, fel nad oedd ddiogel iddo farchogaeth ddim ymhellach. Wedi iddo gyflwyno ei hun i Dduw mewn gweddi, gadawodd ei anifail i ymdaro drosto ei hun, a cherddodd yntau yn ei fotasau trwy eira dwfn hyd hanner nos, nes bod mor lluddedig, ac annwyd wedi effeithio cymmaint arno, fel y llwyr anobeithiai am ei fywyd. Ond pan oedd efe ar anobeithio, trefnodd Rhagluniaeth ymwared iddo, canys daeth yn ddisymmwth at feudy, ac ymdrechodd fyned i mewn iddo; ond pan aeth at y drws, canfu fod hwnw wedi ei folltio o'r tu mewn. Wedi cerdded o amgylch dros fwy nag awr, yn ymdrechu cael rhyw agorfa i mewn, a phan oedd pob gobaith wedi pallu, ac yntau yn meddwl mai trengu a fyddai raid iddo, canfu dwll yn nhalcen yr adeilad; ac wedi ymdrech mawr, ymwthiodd i mewn, a gorweddodd rhwng y gwartheg hyd y borau. Wedi iddo ymlusgo

redin, yn myned i'r athrofa; am hyny, y mae'n dra thebyg iddo ef fyned yno rhwng 1653 a 1655; ac y mae'n sicr ei fod yno yn amser llywodreuthiad Oliver Cromwel, pan oedd ei gâr enwog, y Dr. John Owen, yr Annibynwr mawr, yn is-ganghellydd Prifysgol Rhydychain, a'i chynddrychiolydd yn y Senedd. Y mae lle i gasglu, gan hyny, mai fel ymgeisydd am y weinidogaeth ymhlith yr Annibynwyr yr aeth Huw Owen i Rydychain.

* Ar y 24ydd o Awst, 1662, daeth y ddeddf anghyfiawn honno, "Deddf yr Unffurfiad," fel y crybwyllwyd fwy nag unwaith o'r blaen, i rym. Daeth diffyg ofnadwy ar haul rhyddid crefyddol ym Mrydain y diwrnod erchyll hwnw, yr hwn ddiffyg a barhaodd heb lwyr ddiflanu hyd fis Ebrill, 1688, pan gyhoeddodd William III., o fendigedig goffadwriaeth, "Ddatganiad Rhyddid Cydwybod." Yn y diwrnod tywyll hwnw, "Dydd Bartholomëus," rhwymwyd pawb, trwy yr holl deyrnas gyfunol, i arfer y Llyfr Gweddi Gyffredin ym mhob lle o addoliad cyhoeddus, yn ddïeithriad, heb ganiatâu y goddefiad lleiaf i neb farnu drosto ei hun mewn dim perthynol i grefydd gyhoeddus, nac i ddwyn un rhan o addoliad cyhoeddus ym mlaen ond fel yr ysgrifenwyd yn y llyfr hwnw. Yr oedd y ddeddf ysgeler honno yn gwneud holl bregethwyr Brydain fel math ar adar dynwared (parrots) i adrodd gweddïau wedi eu gwneud yn barod iddynt ynghlyw y cynnulleidfaoedd, heb gael rhyddid i farnu dim am anghenion nac amgylchiadau eu gwrandawyr. Rhoddwyd y gyfraith anghristionogol honno mewn grym mor ddisymmwth ar ol ei gwneuthuriad fel nas gallai un o bob deugain o bregethwyr y wlad *weled* y llyfr, chwethach ei ddarllen; er hyny, yr oedd y gyfraith yn eu rhwymo *oll*, ar yr un diwrnod, i arwyddo eu cydsyniad *didwyll â'r hyn oll oedd ynddo*, neu gael eu bwrw i garchar. Pa wedd bynag, yr oedd Puritaniaeth wedi puro cymmaint ar y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, ac ychydig o Esgobyddion oedd mewn bywioleuthau eglwysig yn amser llywodreuthiad Cromwel, fel y dewisodd dros ddwy fil o honynt, trwy yr holl wlad, er bythol anrhydedd i'w coffadwriaeth, aberthu eu bywioleuthau, ac wynebu ar amharch, tlodi, a charchar, yn hytrach na chydymffurfio â deddf dreisiol yr Unffurfiad. Er nad oedd Huw Owen, o Fron y Clydwr, yn un o'r "Ddwy Fil," ac nad oedd, hyd yn hyn, fel yr ymddengys, wedi cael ei urddo i waith y weinidogaeth; er hyny, dewisodd yntau fwrw ei goelbren yn eu plith yn hytrach nag aberthu ei gydwybod. Er mai amcan y ddeddf ysgymmun honno oedd caethiwo pob meddwl i ufudd-dod gwasaidd, etto goruwch lywodreuthodd Rhagluniaeth Ddwyfol hi i fod yn achlysur dygiad i mewn dragywyddol ryddhad; canys er mor dywyll yr ymddangosai y Dydd Gŵyl hwnw i filoedd o dduwiolion, er hyny, dïolch i'r Hwn sydd yn eistedd ar y llifeiriant! torodd goleuni mawr ar Gymru mewn canlyniad iddo, ac un o'r goleuadau mawrion yn ffurfafen grefyddol ein gwlad oedd yr enwog Huw Owen, o Fron y Clydwr.

† Dywed llafar gwlad y pregethai yn Pantphylip, yr hwn sydd o fewn tu a phedair milltir i Lwyngwril; ac y mae tŷ bychan yn Nolgellau, yn ymyl capel yr Annibynwyr, lle y dywedir yr arferai bregethu; a bernir mai hyny yw yr achos ei fod yn cael ei alw yn "dŷ cyfarfod" hyd y dydd hwn.

‡ Priodol y dywed un ysgrifenydd am dano "nas gallasai dim ond cariad at eneidiau dynion a gogoniant Duw beri iddo ymroddi â'i holl galon, a thros ei holl fywyd, fel hyn. Nid angen a'i gyrai oddi cartref, canys yr oedd yn perchen etifeddiaeth ddigonol, a gallasai fwynhau cysuron teuluaidd, a gorwedd ar wely o fân-blu yn ei balas, pe buasai yn dewis; ond dewisodd yn hytrach ddïoddef adfyd gyd â phobl Dduw, gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau y byd; ac er bod effeithiau ei weinidogaeth bron wedi diflanu ymhen blynyddau ar ol ei farwolaeth, etto cododd yr Arglwydd ei Harris, ei Rowlands, ac eraill, i ddyfrhau yr had, cyn iddo lwyr ddarfod o'r tir. Bu ef a'i gydlafurwyr yn planu, a daeth eraill i ddyfrhau; ond Duw a roddodd y cynnydd."

Yn y cyfrifon a wnaed pan adnewyddwyd Deddf y Celgyfarfod yn 1669, ymhen tu a saith mlynedd ar ol i Huw Owen ddechrau ar ei lafur cariad, dywedir fel hyn:—"SIR FEIRIONYDD: Ymunodd yr ychydig bobl broffesedig oedd yn y sir hon cyn hyn naill ai âg Eglwys Gwrecsam, neu âg Eglwys Vavasor Powel, a ymgyfarfyddai yn sir Drefaldwyn, am yr hon y ceir ychwaneg rhag llaw; ond er amser y cyfnewidiad, trodd y rhan fwyaf o honynt yn Grynwyr, a pharhasant felly. Etto am eu henuriaid, y mae un Mr. Huw Owen, o Fron y Clydwr, câr i'r Dr. Owen, wedi ymsefydlu yn y sir honno; a chan iddo gael ei ordeinio yn henuriad athrawol Eglwys Gwrecsam, anfonir ef i'r parthau hyny i arfer ei weinidogaeth. Felly yn ddiweddar, gan i'r Arglwydd eu cynnorthwyo i fod yn ffyddlon a diwyd yngwinllan eu Harglwydd, a chan y coronir ei lafur ef â llawer o fendith, y maent ar gael eu cynnull yn eglwys drefnus, am yr hon nis gallaf roi dim hanes drefnus hyd yn hyn, ond yn unig nad oes neb yn y sir honno, hyd yr wyf fi yn gwybod, heb fod o ran barn yn Annibynwyr, oddi eithr yr haid newydd o Grynwyr a nodwyd eisoes." —Lambeth MSS.

Gan mai yn "henuriad athrawol Eglwys Gwrecsam" yr ordeiniwyd Huw Owen, gellir casglu mai gan y Presbyteriaid y cafodd ei urddo.



Digitized by Google

allan, a gweled tŷ heb fod ymhell oddi wrth y beudy, aeth ato, a churodd y drws. Cyfododd gŵr y tŷ yn ebrwydd, a gwahoddodd ef i mewn, pan y canfu bod ei wallt a'i farf wedi rhewi, ei ddwylaw wedi fferu a diffrwytho, ei ddillad yn anhyblyg gan rew ac eira, ac yntau ei hun bron yn analluog i siarad. Wrth ei weled yn y fath gyflwr truenus, llanwyd gŵr y tŷ â thosturi, gwnaeth dân rhagorol, ac wedi rhoddi iddo beth llaeth poeth i'w yfed, dododd ef mewn gwely cynnes, lle y gorweddodd dros rai oriau. Yna cyfododd wedi ymadfywio yn rhyfeddol, ac aeth i'r tŷ cyfarfod y borau hwnw, a phregethodd mor fywiog a nefolaidd a phe na buasai dim helbulon wedi ei gyfarfod. Bu farw yn y flwyddyn 1699, yn 62 oed. Ar ei ddymuniad ef ei hun, James Owen, o Groesoswallt, a draddododd ei bregeth angladdol, ond gwaharddodd iddo grybwyll ei enw ef o gwbl ar ei bregeth. Ystyriai pawb oedd yn ei adnabod ei fod yn Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll."

Darfu i Huw Ffarmer, o Walthamstow, ŵyr Huw Owen, gynnysgeuddu Palmer, golygydd y "Gofiadaeth Anghydffurfiol," â'r nodiadau ychwanegol a ganlyn am ei hynafiaid enwog:—

"Yr oedd yn nodedig am ei gydymdeimlad a'i elusengarwch. Ymwelai yn gysson a rheolaidd â'r lliaws tlodion oedd yn ei ardal ei hun, a'r manau eraill yr arferai bregethu ynddynt, a chyfranai iddynt yn haelionus yn ol eu hangen. Pan ar deithiau meithion yn pregethu y cyfarfyddai â rhai yn dïoddef gan lymder yr hin o ddiffyg gwisgoedd cyfaddas, dïosgai ei ddillad ei hun i'w rhoddi iddynt, er peryglu ei iechyd wrth wneud hyny. Yn yr amser yr oedd haint y chwys yn ysgubo lliaws ymaith, a'r rhai heintus yn dïoddef o ddiffyg cynhorthwy cyfaddas, âi efe atynt yn ddiwyd, ac ymostyngai i wneud y gwasanaeth isaf a fyddai yn angenrheidiol iddynt. Gyd â golwg ar yr argraph dwfn a adawai ei dduwioldeb a'i ddaioni diymhongar ar eraill, y mae'r pethau canlynol yn nodedig:— Pan ddaliwyd ef yn ei dŷ ei hun gan is-sirydd sir Feirionydd, yn amser Iago II., cydsyniodd yn rhwydd i fyned gyd âg ef; ond attolygai yn unig am ganiatad i weddïo yn gyntaf gyd â'i deulu, â'r hyn y cydsyniodd y swyddog. Wedi iddo orphen, dywedodd y swyddog, ar yr hwn yr effeithiwyd yn ddwys gan ei dduwiolfrydedd, nad oedd ganddo ef ddim weithian i'w ddywedyd wrtho, ac aeth ymaith dan argyhoeddiad dwfn, gan adael ei garcharor at ei ryddid. Carcharwyd ef unwaith yng Nghastell Powys, palas yr Arglwydd Powys; ond ymddygwyd yn dra charedig tu ag ato yn ystod ei garchariad. Pan glywodd y pendefig Huw Owen yn gweddïo, er mai Pabydd oedd ei arglwyddiaeth, dywedodd wrth ei offeiriad Pabaidd, 'Yn wir, y mae'r dŷn hwn yn Gristion cywir!' Ac wrth ei ryddhau, gwnaeth iddo addaw dyfod i Gastell Powys [y Castell Coch?] ar ymweliad bob Gwyliai Nadolig tra byddai byw.

"Gadawodd [Huw Owen] lythyr yn cynnwys cynghorion i'r bobl yr arferai bregethu iddynt, yr hwn a alwodd efe ei 'Gymmunoedd Ddiweddaf,' sylwedd yr hwn sydd fel y canlyn:—Gochelwch fydolrwydd, rhag ofn i'r byd, fel rhwd, ysu yr holl ddaioni sydd mewn llawer, a gadael eu heneidiau fel cregyn sychion. Ymosodwch yn erbyn dirgel falchder, a gofelwch yn anad dim am lwyr feistroli pob syniad hunan dybus am danoch eich hunain. Ymroddwch i arfer y ddyledswydd fawr o hunan-ymwadiad; ie, llawenhewch yn y cyfleusdra o gael ymostwng i'r llwch er mwyn Iesu, gan ymdrechu bod ymleunaf i faddau, i anghofio, a myned heibio i ba beth bynag a all gael ei wneud yn eich erbyn; ïe, byddwch yn gyntaf i ofyn am dangnefedd. Ymogelwch rhag y dymmer falch ac uchel a ddywed, 'Hwynt-hwy sydd wedi troseddu, ac nid myfi; a hwy a ddylent ddyfod ataf fi, ac nid myfi atynt hwy.' Effeithiau balchder ydyw y pethau hyn, a mwy o gariad atom ein hunain nag at yr Arglwydd Iesu Grist a'i ffyrdd. Wedi rhoi awgrym i swyddogion ac aelodau hynaf yr eglwysi ynghylch y ddoethineb a'r cymmedrolder y dylid eu harfer er rhagfleunu dadleuon ynghylch bedydd, sylwa bod y fath ddadleuon wedi achlysuro rhwygiad mawr yng Ngwrecsam, er dianrhydedd i Dduw, a dirmyg ar grefydd, a bod rhai a gymmerasant ran ynddynt wedi cydnabod wrtho ef eu bod wedi colli presennoldeb Duw, yr hwn gynt a fwynheid ganddynt, a bod attalfa wedi ei roddi ar waith tröedigaeth yn eu plith: 'Yr wyf yn pwyso hyn arnoch,' eb efe, 'canys heleuthu teyrnas Crist a ddylai fod yn ddymuniad ac amcan pob aelod eglwysig; cael delw Crist, ac nid eu mympwy eu hunain, wedi ei hargraphu ar eneidiau dynion. Os caf fi ddelw Crist wedi ei hargraphu ar fy enaid, byddaf yn sicr o fyned i'r nefoedd; ond gallaf fod yn gyfranog o bob dull o fedydd dwfr, a myned i uffern yn y diwedd.'"*

Claddwyd Huw Owen ym mynwent Llanegryn, sir Feirionydd, ac y mae'r cerfiad canlynol ar gareg ei fedd:—

"HUGH OWEN, O FRON CLYDWR.

"PREGETHWR YR EFENGYL YN OL EI LAFUR SYDD YMA YN GORPHWYS; OED 60 A HANNER.†

"BU FARW MAWRTH 15, 1699.

"Y Cymro anwyl, edrych yma
Ar fy medd, a dwys ystyria:
Fel yr wyt ti y bum minnau,
Fel yr wyf fi y byddi dithau:
Gan nad wyf mwy i bregethu,
O'm bedd mynnwn wneuthur hyny:
O cred yng Nghrist, a bydd grefyddol,
Casâ bob drwg, a bydd fyw'n dduwiol."

Y mae beddau y cyfiawnion yn anwyl iawn gan eu holafiaid duwiol. Ceir esamplau nodedig o hyn yngeiriau diweddaf Jacob a'i fab Joseph.‡ Ymddengys nad anhebyg oedd teimladau Elin Egryn, wrth edrych ar fedd Huw Owen, o Fron y Clydwr, a myfyrio ar ei lafur a'i ymdrechion Cristionogol, pan y cyfansoddai hi y pennillion prydferth a duwfrydig canlynol:—

"Och! athraw parchedig, ai yma mae'th drigfa?
Rhyw syndod a'm llanwodd wrth wel'd dy orphwysfa!
Rwy'n syllu o'm hamgylch, mae'r llysiau bron cuddio
Yr annedd ddïaddurn lle'r wyt yn gorphwyso:
Mudanaidd yw'r tafod fu gynt yn cyhoeddi
Y ffordd i bechadur ochelyd trueni.

"Ai yma gorweddi dan draed yr ynfydion,
Yr hwn mae dy gofio'n ddifyrwch gan ddoethion?
Ar lwybr dy fywyd blodeuodd rhinweddau,
Pa rai sydd yr awrhon yn bêr eu haroglau,
Er grym erledigaeth a thwrw bygythion,
Ni wyrwyd dy gamrau, ni lygrwyd dy goron.

"Er amled dy wawdwyr, er cryfed eu byddin,
Er carchar, ni siglwyd dy zel dros dy Frenin:
Gwroldeb goronodd dy holl ymdrechiadau,
Dy amynedd ni phallodd, er amled y croesau.
A'th bwys ar dy Brïod, gwynebaist y tonnau,
Dyrchefaist ei faner ynganol y brwydrau.

* Palmer's Noncon. Mem., vol. iii., pp. 490–94.
† Gwelir bod y cerfiad yma yn gwahanieuthu blwyddyn a hanner oddi wrth Palmer.
‡ Gen. xlix. 29-33; L. 24, 25.

"Er maint anwadalwch fy meddwl crwydredig,
Fe'i daliwyd wrth syllu ar annedd lygredig.
Och! Owen ardderchog, paham ceir dy enw
Ar gareg lwyd, waelaidd, ymhlith y rhai meirw?
Oes modd dy ddihuno pe bloeddiwn yn uchel?
'Tyr'd allan oddi yna, mae pob peth yn dawel.

"'Mae rhyddid trwy'r gwledydd, mae mwynder pregethu,
Mae mil o galonau a garent dy gwmni;
Mae'r haul yn pelydru, e ffodd y cymmylau,
Teyrnfradwyr dy Frenin daflasant eu harfau:
Mae braidd yn rhyw syndod dy fod yn gorphwyso,
A'r gwaith heb ei orphen; mae'n bryd iti ddeffro.'

"Er dyweyd am felusder ein goruchel freintiau,
Does ond swn yr awel yn ysgwyd y blodau:
Ni chlywaf i'm hatteb un llais o'r deuardy;
Rwy'n ofni it gyfarfod â pheth mwy na chysgu!
A raid i mi adael dy wely mewn dagrau,
Heb gael, er taer ymbil, un cyngor o'th enau?

"Paham y dych'myga fy meddwl fath wagedd?
Does yma ond mân-lwch ei gorphyn mewn llygredd.
Ymdrechodd deg ymdrech, ehedodd i wynfyd,
Gorphenodd ei yrfa, coronwyd ef hefyd;
Ennillodd y rhyfel, cadd goncwest yn ddibrin,
Boed dyfal fy ngweddi am gymmorth i'w ddilyn."

Wedi cofnodi pob peth o bwys y gallasom daro wrtho am y gŵr tra enwog hwn, credir y bydd ychydig etto am ei hiliogaeth yn gymmeradwy gan y darllenydd. Gwir a ddywed y Bibl ar hyn, fel pob peth arall, "Had y cyfiawn a waredir. Eu had hwynt hefyd a adweunir ym mysg y cenhedloedd, a'u hiliogaeth ynghanol y bobl. Y rhai a'u gwelant a'u hadweunant, mai hwynt-hwy yw yr had a fendithiodd yr Arglwydd."* Ymddengys i hyn gael ei gyflawni yn llythyrenol ymhlant a hiliogaeth Huw Owen, o Fron y Clydwr. Dywedir y bu iddo bedwar o blant, un mab a thair o ferched. Priododd un o'r merched bregethwr Ymneillduol, sef Edward Kenric, Gwrecsam. Dywedir bod amryw o'r teulu hwn yn fyw fyth, ac nad ymadawodd crefydd byth o hono. Priododd yr ail ŵr bonheddig cyfoethog o sir y Mwythig, ond bu y ferch arall farw yn ieuangc a dibrïod. Ymddengys i hyn ddigwydd tu a thair blynedd cyn i'w thad enwog, Huw Owen, farw, canys mewn hen lyfr a fu unwaith ym meddiant John Kenric, gweinidog Gwrecsam, ŵyr Huw Owen, ceir y cofnodiad yma:—

"Y llinellau canlynol sydd ar fedd fy modryb, Jane Owen:—

"JANE OWEN, 17 OED, FU FARW GORPHENAF 13, 1693.

"CYNGOR I'R BYW.

"Mewn daear oer, dan draed fel finne,
Pwy bynag wyt, y byddi dithe:
O! cred yng Nghrist, casâ bob pechod,
A dim dan haul na châr yn ormod:
Y rhybudd yma os dïystyri,
Mewn byd arall ti roi gyfri."

Bu John, mab Huw Owen, byw nes dwyn ffrwythau crefydd i addfedrwydd. Bu yn bregethwr ffyddlawn yn ei oes; ond ynghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, cwympodd i'r bedd wedi cystudd trwm dros naw niwrnod. Cadwyd y cof canlynol am dano:—

"Ar y 27fed o Fehefin, 1700 [ymhen blwyddyn ar ol ei enwog dad], bu farw John Owen, mab i'r gweinidog gwir dduwiol, gostyngedig, a llafurus, Huw Owen, o sir Feirionydd, yr hwn oedd oleuni yn disgleirio mewn gwlad dywyll, oer, a diffrwyth; un oedd yn rhagorol mewn hunan-ymwadiad a marweiddiad i bethau y byd hwn. Yr oedd ei fab John yn sobr a difrifol er yn blentyn. Bu yn fyfyriwr gyd â Mr. Ffrankland, a threuliodd rai blynyddau wedi hyny gyd âg ef i bregethu i'r gynnulleidfa; a thra y bu felly, bu ei ymarweddiad a'i esamplau yn fendith fawr i lawer o wŷr ieuangc yn y teulu. Cynyddodd yn fawr mewn crefydd a dysgeidiaeth cyn ymadael o'r lle hwnw, ac ymroddodd i bregethu gyd â difrifwch mawr a derbyniad cymmeradwy. Dewisodd dreulio ei amser a'i nerth yn yr un lle ag y bu ei dad fyw a marw; ac yr wyf yn meddwl mai efe oedd yr unig bregethwr Anghydffurfiol oedd yn sir Feirionydd. Arweiniodd rhyw achlysur ef i sir y Mwythig, a chymmerwyd ef yn glaf yno, yn nhŷ Mr. Orton (taid Job Orton), ac ymhen naw niwrnod bu farw (ac efe o gylch 30 oed), er dirfawr alar i'w holl gydnabod, a cholled anhreuthadwy i Eglwys Dduw. Galwyd ar Mr. [Matthew] Henry i'w gladdedigaeth, ac efe a bregethodd ar yr achlysur galarus yn nhŷ cyfarfod Mr. Jones, oddi wrth Heb. xiii. 17. Yr oedd James Owen gyd âg ef y noswaith cyn ei farwolaeth, a dywedai ei fod yn gobeithio ac yn dymuno ar i Dduw ei arbed, o herwydd ei ddirfawr ddefnyddioldeb yng Nghymru, a'r golled fawr a fyddai ar ei ol. Dywedodd yntau yn addfwyn, 'Byddai yn falchder meddwl beius ynom dybied fod ar Dduw angen neb o honom!' Bu galar mawr am dano, ac nid heb achos, canys nid oedd ond ychydig o wŷr ieuaingc o gyffelyb feddwl."*

Ar ol marwolaeth John Owen, Edward Kenric, yr hwn a briododd ei chwaer hynaf, ac a gafodd etifeddiaeth Bron y Clydwr yn hawl ei wraig, a gymmerth arolygiad bugeiliol y cynnulleidfaoedd yn sir Feirionydd, a gynnullasid gan ei enwog dad ynghyfraith ym Mron y Clydwr, Dolgellau, y Bala, a manau eraill. Ordeiniwyd ef ar yr 17fed o Awst, 1702, gan James Owen, Matthew Henry, ac eraill. Nid ymddengys bod Edward Kenric, er ei fod yn ddŷn pur dda, wedi bod mor llwyddiannus a derbyniol fel gweinidog a'i enwog ragflaenoriaid. Pa wedd bynag, cafodd yr hyfrydwch, ryw nifer o flynyddoedd cyn marw, yr hyn a ddigwyddodd yn 1742, o weled yr achos yn adfywio, a llawer yn cael eu hychwanegu at yr eglwysi, yn benaf trwy offerynoliaeth Lewis Rhys, Jenkin Morgan, a diwygwyr eraill o Ddeheubarth Cymru.†

OWEN GRUFFYDD, o Lanystumdwy, yng Nghan-

* Diar. xi. 21; Esa. lxi. 9.

* Williams's Life of Mat. Henry, pp. 341–42.

† Thomas's MSS.; Trysorfa Ysprydol 1799, t. 216–18; Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 362–66; Han. Cref. D. P., t. 233; Williams's Em. Welshm., pp. 374–75; Traethod., llyfr viii., t. 290–97; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 211–12, 308–13; Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 164–66.

Digitized by Google

tref Eifionydd, sir Gaernarfon. Ychydig iawn o *hanes* y gŵr hwn sydd ar gael, hyd y gwyddom ni; ond y mae digon o'i *waith* genym i brofi ei fod yn un o "Enwogion y Ffydd" mewn gwirionedd; ac y mae hyny *sydd* genym o'i hanes yn profi yr un peth, er nad oedd na phregethwr nac offeiriad. Y mae Eben Fardd yn crybwyll am dano ym mysg "Enwogion Eifionydd," ac yn ei alw "y bardd a'r achwr clodfawr;"* ond nid yw yn dodi dim o'i hanes. Y mae ysgrifenwr arall yn ei gyfrif ymhlith "Enwogion Arfon;" ond y cwbl a ddywed yntau am dano ydyw, "Owen Gruffydd, Llanystumdwy. Bu farw 1730."† Ymddengys bod rhyw ysgrifenydd yn "Y Brython," a ymgyfenwai "Dewi[illegible]," yn teimlo yn debyg i ninnau, yr hwn a ddywedai fel hyn:—

"Y mae yn [illegible] fawr yn ei oes a chyn [illegible] am dano [illegible] hanes [illegible] ar gael. [illegible] ac Owen Gruffydd y bardd o Llanystumdwy. Y mae llawer o'i waith barddonol ar gael. A wna [illegible] ei gael o hanes am dano [illegible] Brython?"‡

Ni [illegible] yn gwybod i neb ateb y cais rhesymol yna, a hyny, ond odid, o ddiffyg defnyddiau. Rhyw ysgrifenydd yn "Y Traethodydd"§ sydd yn [illegible] mwyaf o'i hanes o neb a'r a welsom ni, ac o hwnw, ynghyd â'r ychydig a allwn ei gasglu o'i ysgrifeniadau sydd yn ein meddiant, y gwneir i [illegible] y byrgofiant yma am dano.

Dywedir iddo gael ei eni ymhlwyf Llanystumdwy, yn y flwyddyn 1643, ac yno y bu fyw, cyn belled ag y gwyddys, ar hyd ei oes. Hen langc dibriod ydoedd, a phreswyliai ei hunan, yn ei flynyddoedd olaf o leiaf, mewn bwthyn bychan, wrth dalcen y tŷ a elwir Tŷ Mawr, ger llaw y fan y mae Capel y Beirdd yn bresennol. Ni fynegir pwy oedd ei rieni, na pha fath oedd eu hamgylchiadau, na pha beth oedd ei alwedigaeth yntau pan yn alluog i weithio; eithr dywedir mai isel oedd ei amgylchiadau ef, ond y noddid ef yn garedig gan foneddigion Eifionydd, megis perchenogion y Plas Hen, y Gwynfryn, Cefn Treflaeth, Cesail Gyfarch (Castell Cyfarch gynt), cartref yr Esgob Humphreys, o Fangor. Perchid Owen Gruffydd yn fawr gan yr esgob; a phan yr elai Owen i'w wrando, gyrai yr esgob ef allan o'r eglwys ar y diwedd o'i flaen, gan ddywedyd wrtho, fel rheswm am ei ymddygiad, "Y mae dawn Duw genych chwi, Owen bach; eithr ni feddaf fi ddim ond a gefais am fy arian." Credid yn gyffredin, y pryd hyny, mai dawn neillduol yr Yspryd Glân oedd y ddawn farddonol; ac yr oedd y gred yn eithaf cywir hefyd, canys "dawn Duw" yw *pob* dawn a fedd dŷn, ac yn eu plith y ddawn farddonol; am hyny, dylai pob dŷn ystyried yn ddifrifol pa fodd i ddefnyddio ei dalentau er gogoniant i'w Rhoddwr, rhag y caiff ei drigle yn y diwedd gyd â'r "gwas anfuddiol."*

Methasom gael allan pa fodd y dysgodd Owen Gruffydd yr iaith Gymraeg mor fanwl, na phwy oedd ei athraw, neu ei athrawon barddonol, od oedd ganddo rai hefyd. Fe allai mai eu dysgu oddi wrth lyfrau a wnaeth, fel y mae rhai a adweunom ni yn awr wedi gwneuthur; ond hynod y gwahaniaeth rhwng y manteision argraphedig y pryd hyny a'r rhai sydd yn ein meddiant ni yn bresennol. Yr unig lyfrau argraphedig yn oes Owen Gruffydd, yn cynnwys rheolau a mesurau caethion, oedd Grammadeg Cymraeg yn Lladin Ioan Dafydd Rhys, a argraphwyd yn 1592, a "Bardhoniaeth neu Brydydhiaeth, y Llyfr Kyntaf. Gan Capten William Middleton," a argraphwyd yn 1593; ac yr oedd y rhai hyny yn bur anhawdd i'w cael. Ni chyhoeddwyd grammadeg Siôn Rhydderch hyd 1728, pan oedd Owen Gruffydd tu a 75 oed. Pa ddelw bynag, y mae gwaith Owen yn profi ei fod yn meddu y ddawn farddonol yn naturiol; a'i fod hefyd, fel Milton, Williams Pant-y-Celyn, Ann Gruffydd, D. Jones o Landwrda, Ed. Jones Maes-y-Plwm, ac eraill, yn ddŷn gwir grefyddol. Y mae 17 o ganiadau lled feithion o'i waith ym "Mlodeugerdd Cymru,"† ac y maent fel gemau ym mysg llawer o lwch sydd yn y llyfr cymmysglyd hwnw. Ni tharawsom ni wrth gymmaint ag un pennill o waith Owen Gruffydd heb fod arno argraph foesol a daionus; ac y mae duwioldeb a difrifwch, fel arogl peraidd, ar ei holl ganiadau meithaf. Canfyddir hyn ar unwaith wrth gynnwysiadau ei gerddi sydd yn y "Blodeugerdd," y rhai sydd fel y canlyn:—

1. "Carol i'r Seren Wyl, neu Ddydd Ystwyll.
2. "Carol yn erbyn Cybydd-dod a Balchder.
3. "Carol Duwiol i feddwl am y diwedd.
4. "Cyfarchiad Henaint, neu ddull o Ymddiddan rhwng Dŷn a'i Henaint, yr hwn sydd wrthwynebus ganddo ef a'i gyfeillion.
5. "Dangos Ofnadwy Fygythion Duw yn amser Tymhestloedd.
6. "Mawl i Dduw am y Cymmun Sanctaidd.
7. "Cerdd y Pren Almon: Preg. xii. 1, &c.
8. "Difrifol Ystyriaeth o Ddïoddefiadau ein Iachawdwr Iesu Grist.

* Brython, cyf. iii., t. 21. † Yr un, t. 165.
‡ Yr un, cyf. iv., t. 407. § Llyfr i., t. 372-76.

* Mat. xxv. 14-30. † Argraphiad y Mwythig, 1759.

Digitized by Google

9. "Myfyrdod ar Farwolaeth.
10. "Ymddiddan rhwng y Prydydd a'r Gôg.
11. "Cerdd yn gosod allan Ddull y Farn Ddiweddaf.
12. "Ffrewyll Pechaduriaid.
13. "Galarnad Troseddiad y Sul.
14. "Cwymp y Dail.
15. "Ystyriol Freuolder Einioes.
16. "Ystyriaeth ar y 3 bennod o'r Pregethwr.
17. "Annogaeth i Foddlondeb."

Weithian dodwn ychydig esamplau ger bron o un neu ddwy o'r caniadau duwiolfrydig hyn:—

"*Carol i'r Seren Wyl, neu Ddydd Ystwyll.*

"Yn gydlais genhedloedd, da lawen deuluoedd,
Cydunwch yn gyhoedd dan nefoedd yn awr,
I gofio'n gyfannedd y Seren gysurwedd,
A'i llewyrch da rinwedd dirionwedd.

"Angyles nefoledd, mewn rhediad anrhydedd,
Wŷch olwg ucheledd, pêr lwysedd pur lamp,
Llawforwyn gyfarwydd yngorchwyl ei Harglwydd,
Daith bylwydd wir ogwydd oreugamp.

"Yr hwn a fu'n *ledio* y doethion i deithio
O'r Dwyrain heb dario, i'w sirio 'mro Sem;
A'u harwain yn hwylus, nes dyfod yn daclus
I ddawnus dro faethlus Dre Fethlem.

. . . . . . . . . . . . . . .

"Lle y rhoeson i'r Iesu, anrhegion dan grymu
Ar liniau, a'i foliannu, heb gelu mo'i glod;
Aur, myrr, a thus hefyd, a roent i'r Anwylyd,
Oedd hyfryd, a gwynfyd ei ganfod."

"*Cerdd y Pren Almon:* Preg. xii. 1, &c.

"Rwy'n gweled, er ei gwylio,
F' adeilad yn adfeilio,
Nid diofal i mi
Hyderu ar dŷ deuarol,
Mewn agwedd mor ddiffygiol
I'm curiol oeri.
Gan fod, llifeiriant gwynt ac ôd,
Fel cawri yn curo i'w lwyr falurio
A'i ddydd i'w basio a bwysodd at y nod,
Mewn annedd gwell o hono
Rwy'n dwys ddymuno 'mod:
Duw dod, o'th lys ryglyddus glod,
Drwy faddau 'nghamwedd, dy drugaredd,
Yn nydd fy niwedd, mwy rhinwedd dan y rhod,
Na miliwn o aur melynion
Mewn eigion cyrion cod.

. . . . . . . . . .

"Oen Duw tragywyddol allu,
Dal fi â'th ras i fynu,
Yn f' einioes egwan;
A dyro iechydwriaeth
I'm rhan yn nydd marwolaeth,
Mawr elw gwiwlan:
Fy llen, i garchar deuar den,
Ar fyr a fwrir, O Iesu Feistir!
Yn nydd y frwydr ddifrodus, cudd fy mhen:
Dydi yn ddrud o'th wirfodd
A'm prynodd ar y pren:
I nen, Baradwys wiwlwys wen,
O derbyn f' yspryd, i rwydd gyrheuddyd
Ail fywyiol fywyd, dwys wynfyd a di sen:
Boed sail f' adeilad yno,
Rwy'n dwys ddymuno, Amen."

Cyffelyb o ran ansawdd duwiolfrydig ac amcan daionus ydyw ei brif ganiadau eraill a nodwyd. Yr ydym yn casglu oddi wrth rai awgrymiadau sydd yn ei farddoniaeth mai aelod dichlynaidd o Eglwys Loegr oedd Owen Gruffydd. Y mae amryw grybwyllion sy'n peru i ni gasglu hyn yn ei gân a elwir "Galarnad Troseddiad y Sul." Nodwn y geiriau sydd yn y gân honno, a bâr i *ni* gasglu mai Eglwyswr oedd Bardd Llanystumdwy, â llythyrenau Italaidd, yn y difyniadau canlynol:—

"Cadw Sabboth Duw a'i berchi,*
Ei *Gyssegr*† liwgar heb halogi:
Mae fe'n gofyn yn ei gyfraith,
Hyn i bawb dan boen marwolaeth.

"Yn lle aberthu mawl, heb wrthod,
Yn yr *Eglwys*† iawn oreuglod,
Mwy tueddol hudol gadarn,
Mwynder difyr mynd i'r Dafarn.

"Ac os doir i'r *Deml* dyner,
Oer iawn yrfa o ran arfer;
Ni bydd drwy'r *fynwent* gan hwsmoneth,
Swn heb ragor son am bregeth.

"Ac yno y bydd y rhwygo a'r rhegu,
Heb fawr brisio yng ngwaed yr IESU:
Ni bydd i'r Arglwydd rwydd oreubarch,
Yn ei *deml* yma ond ammarch.

"Nid eill y lleill o'r dafarn ofer,
Gan y gysp, mo'r mynd i'r *gosper:*
Rhy fyr yw nod y diwrnod hwya,
I feibion Belial lenwi eu bola.

"A'i daith aberthol yntau'r cybydd
Ydyw myned rhagddo i'r mynydd;
Neu fod gartre'n *gwaitio* ei *gattel:*
Gweutha dim yw gwaith y *demel!*"

Heb law yr awgrymiadau sydd yn y gân yna, a rhai o'i ganiadau eraill, sy'n arwyddo mai aelod o'r Eglwys Sefydledig oedd Owen Gruffydd, awgrymir yr un peth gan y parch mawr a roddid iddo yn yr Eglwys Wladol ar y Suliau gan yr Esgob Humphreys,‡ fel y crybwyllwyd eisoes; a cheir awgrym-

* Y mae'r gerdd hon yn fraith o gyfeiriadau Ysgrythyrol. Dyma'r cyfeiriadau sydd ar ol y llinell gyntaf o'r pennill hwn: Lef. xix. 30; xxvi. 2. A dyma y rhai sydd ar ol y drydedd linell: Ex. xxxi. 14–18.

† Nid oes odid neb ond y rhai mwyaf anwybodus yn y Testament Newydd a defodgar eu harferion yn ystyried bod y *Tŷ addoli*, wrth ba enw bynag y gelwir ef, yn *gyssegr*, *eglwys*, *tŷ Dduw*, *teml*, a'r cyffelyb, canys gwyddant, fel y dywedodd un o'r Diwygwyr, "Bod Mab Duw, y munud cyntaf y rhoes ei droed ar y ddaear, wedi gwneud pob llanerch o honi mor gyssegredig a'u gilydd." Am hyny, yr oedd yr apostolion a'r saint cyntefig yn ymgynnull ac yn pregethu mewn rhyw dŷ (Act. ii. 2); yn y deml ac o dŷ i dŷ (adn. 46); mewn rhyw le (iv. 3); ym mhorth Solomon (v. 12, 20, 21, 42); yn y synagogau (ix. 20); yn nhŷ Cornelius (x. oll); yn nhŷ Mair (xii. 12); yn nhŷ Sergius Paulus (xiii. 7); ar lan afon (xvi. 13); yn y carchar (adn. 24–34); yn Areopagus (xvii. 22–31); yn nhŷ Acwila a Phriscila (xviii. 26; Rhuf. xvi. 3–5); mewn llofft (Act. xx. 7–11). Ar fyr, gŵyr y rhai sy'n darllen y Testament Newydd yn ddiragfarn, ac yn ei ddeall, mai y saint yw *teml* a *thŷ Dduw* (1 Cor. iii. 16, 17; vi. 19); am hyny, bod *teml* a *thŷ Dduw ymhob man*, lle y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn enw Crist (Mat. xviii. 20).

‡ Enw priod y gŵr dysgedig hwn oedd Humphrey Humphreys, mab hynaf ac etifedd Richard Humphreys, Ysw., o'r Penrhyndeudraeth, sir Feirionydd, lle y ganwyd ef ar y 24ydd o Dachwedd, 1648. Ei fam ydoedd Margaret, merch Robert Wynn, Ysw., o'r Gesail Gyfarch, yn Eifionydd, sir Gaernarfon. Dodwyd ef am rai blynyddoedd yn Ysgol Rydd Croesoswallt, dan ofal ei ewythr, Humphrey Wynn, A.M., yr hwn oedd yr ysgol-feistr a ficar y plwyf hwnw; ac ar farwolaeth ei ewythr, symmudwyd ef i Ysgol Bangor, sef Ysgol y Friars, fel y'i gelwir yn awr. Yn 1665, derbyniwyd ef i Goleg yr Iesu, yn Rhyd-

Digitized by Google

iadau cyffelyb yn ei englynion yntau ar symmudiad yr esgob o Fangor i Henffordd, y rhai sydd fel y canlyn:—

"*Englynion ar Destyn Drwg-Newydd i'n Gwlad.*

"Gormod oer syndod i'r Sir,—er niwaid,
Yw'r newydd a glywir;
Ymhob ceg lle'i mynegir,
Byth a'i gas na botho gwir.

"Newydd o Eifionydd i Fon,—niwaid,
Newydd drwg i Feirion;
Newydd cas heb nawdd cysson,
Newydd swrth yn niwedd son.

"Newydd annedwydd i ni,—o olwg
Am lywydd haelioni;
Dwyn perl glwys ein heglwysi,
Buna cred a bair y cri.

"Dwyn gwellhâd, gariad goror,—dwyn esgob,
Dwyn asgwrn cefn Bangor;
Dwyn lamp goreugamp grigor,
Dwys yscriniaeth cywaeth côr.

"Os bydd oer gystudd ar Gastell—Cyfarch
Fo'i cofir o'n rhybell,
Am bur esgob aur asgell
Byw ddysg iawn, heb addysg well.

"Penmorfa bydd prudd bob bron,—nych lewyg,
Na chlywir clych Aaron,
A'u swn cysur sain cysson,
O nefol faeth, lluniaeth llon.

"Cystudd a cherydd, Och oered!—ias dygn,
Os digwydd y niwed,
Trwy'r esgobaeth rhygaeth rhed,
Och! am ŵr, gwŷch ymwared.

"Dwyn mwynder breuder a bri—dawn llesol,
Dwyn llusern goleuni,
Dwyn olew di wan eli,
Da i wellâu'n heneidiau ni.

"Fy ngweddi rhof ar Jehofah—yn ddygn
Na ddyger oddi yma
Humphrey Bangor, pur pora,
Fyth o'n mysg am y ddysg dda."

Cyfansoddwyd yr englynion uchod yn ystod y flwyddyn 1701, fel y mae'n amlwg, pan symmudwyd y Dr. Humphreys o Fangor i Henffordd. Yr unig gân arall o waith Owen Gruffydd y mae ei hamseriad yn hyspys, hyd y gwyddom ni, yw "Ymddiddan rhwng y Prydydd a'r Gôg," lle y dywed fel hyn:—

"Er gwyched meillion feinion da,
Na chynnyg, gwylia chwennych,
Ond a roddo Duw i'th ran,
Ar wedd dy oedran edrych:
Yr wyt yn sefyll ar *naw saith*
O flwyddi i'th ymdaith yma:
Ar hyn o oedran cyfan gŵyn
Bu farw'r Forwyn bura,
Oedd Fam dy Brynwr, Barnwr byd,
Mesurwr hyd dy yrfa."

Gan mai "*naw saith*" = 63 oedd Owen Gruffydd pan gyfansoddodd efe y gân hon, digwyddodd hyny yn 1706. Yr oedd O. Gruffydd, fel y mae pob dŷn duwiol, yn dra gwrthwynebus i bob math o greulondeb afreidiol at anifeiliaid diniwaid, fel y dengys y pennill canlynol sydd yn ei "Alarnad Troseddiad y Sul:"—

"Gyru'r anifeiliaid gwirion,
I ferwi o chwys, heb fawr achosion:
Fe fydd griddfanau rhain ryw ddiwrnod,
Yn dyst i'w poeni'n dosta pennod."

Bernir mai cyfeirio y mae efe yma at y drwg arfer creulon oedd yn bod y pryd hyny o redeg meirch ar ddydd Gwylmabsant Dolbenmaen, y 12fed o Awst.

Dywedir bod Owen Gruffydd, fel John Milton, yn ddall er ys rhai blynyddoedd cyn marw, ac mai ei ddisgybl barddonol, William Elias, cyfaill Goronwy Owain, oedd yn byw y pryd hyny ym Mryn y Beddau, am yr afon a'r hen fardd (wedi hyny ym Mhlas yn Glyn, Llanfwrog, Mon), a fyddai yn myned ato ar y Suliau, ac amseroedd eraill, i ysgrifenu ei farddoniaeth. Yr oedd Robert ab Gwilym Ddu, oedd yn byw gynt yn y Mynachdy, ac wedi hyny yn y Bettws Fawr, yn adnabod hen wraig a'i henw Marged Cadwaladr, Ty'n Lôn, yr hon a fyddai yn gweinyddu ar y bardd wedi iddo fyned yn ddall. Dywedir bod yr hen fardd yn dra gwrthwynebus i gladdu y meirw mewn eirch coed, ac y dadleuai yn gyndyn mai mewn amdo llïan yn unig y dylid claddu y marw; y rhoddes orchymyn caeth ar iddo ef gael ei gladdu mewn amdo llïan, heb arch am dano; a darfod iddo gyfansoddi yr englyn canlynol fel tystiolaeth o'i gredo:—

"O ffei! gwaith ffiaidd o'i go—wneud eirch,
Nid archiad Duw mono;
Mewn llïan, graian a gro,
Bu gorph Iesu'n gorphwyso."

ychain, lle yr etholwyd ef yn ysgolor yn 1670, ac efe wedi ei raddio yn B.A. yr Hydref blaenorol. Urddwyd ef yn ddiacon ac offeiriad ym Mangor, ym mis Tachwedd, 1670; a phennodwyd ef, yr un diwrnod, i beriglorïaeth Llanfrothen, sir Feirionydd. Ar y 12fed o Fehefin, 1672, graddiwyd ef yn M.A.; ac yn Awst yr un flwyddyn, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg yr Iesu. Ym mis Tachwedd, yr un flwyddyn etto, pennodwyd ef i beriglorïaeth Trawsfynydd, sir Feirionydd; a'r flwyddyn ganlynol, dewiswyd ef yn gaplan gan y Dr. Humphrey Llwyd, Esgob Bangor. Ar yr 16fed o Ragfyr, 1680, ac efe yn B.D., yn gymmrawd o Goleg yr Iesu, ac yn ganon Bangor, pennodwyd ef yn Ddeon Bangor. Yn 1682, graddwyd ef yn D.D.; ac yn 1689, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Bangor. Yn y flwyddyn 1701, symmudwyd ef o Fangor i Esgobaeth Henffordd (*Hereford*); ac yn ystod y flwyddyn yma y cyfansoddodd Owen Gruffydd yr englynion uchod. Ar yr 20fed o Dachwedd, 1712, bu yr Esgob Humphreys farw yn Henffordd, ac efe yn 64 oed, a chladdwyd ef ger llaw yr allor yn yr Eglwys Esgobol honno.

"Yr oedd efe yn ŵr o ymarweddiad difrycheulyd a rhinweddol trwy ei fywyd; ac yn ystod ei flynyddoedd olaf, yr oedd ei dduwioldeb mor amlwg fel mai ychydig a geid yn gyfartal iddo." Ei wraig oedd Elizabeth, merch y Dr. Robert Morgan, Esgob Bangor; a bu iddynt ddwy o ferched, a elwid Ann a Margaret. Yr oedd yr Esgob Humphreys yn hynafiaethydd Cymreig galluog, ac awdur bywgraphiadau amryw o Gymry enwog, fel ychwanegiad at y rhai a ysgrifenwyd gan Anthony Wood, y rhai a gyhoeddwyd yn yr argraphiad olaf o'r "Athenæ Oxonienses;" a chyhoeddwyd hwy hefyd, ynghyd â byr fywgraphiad o'r awdur, yn y "Cambrian Register," vol. i., pp. 155–62. —Williams's Em. Welshm., pp. 227–8.

Digitized by Google

Pa wedd bynag, pan fu'r bardd doniol ac enwog farw yn nechrau mis Rhagfyr, 1730, ac efe yn 80 oed, nid mewn llîan yn unig y claddwyd ef ar y 6ed o'r mis hwnw, yn ol ei orchymyn, ond mewn arch dderw, fel y tystia ei ddisgybl, William Elias, yn yr englyn canlynol, a draddodwyd ar yr achlysur:—

"Rhoi'r bardd mwyn cufardd mewn cist—o dderw,
I ddaearen athrist:
O'i edrych'r wyf yn odrist,
Mae'n bruddaidd truanedd trist."

"Fe allai," eb 'O Wen,' yn y 'Brython,' "eu bod yn gydwybodol o'u dyledswydd i gyflawni breuddwyd y prydydd, a'i ddehongliad, sef yr hwn a freuddwydiodd, a ddehonglodd, ac a ganodd ddeugain mlynedd cyn ei farw:—

"Breuddwyd gwelwn gwn gynna—y byddwn,
A buddiol gychwynfa,
Mewn gwisg newydd, defnydd da,
Ar geffyl i'w wir goffa.

"Ar fyr i'm gwelir ar farch—âg wyth-droed
Yn gaethdrwm ddigyfarch,
Sef elor ddobor ddibarch,
A'm gwisg fedd, *amwisg fydd arch.*"*

Yr oedd efe wedi awgrymu ymha le y dymunai gael ei gladdu, yn y llinellau canlynol:—

"Ym Mynwent Ifan freulan fron,
Hyd yno'n llon i'm danfon dowch:
Pan roddoch fi'n y lletty llaith,
A chwedi'i gau, ychydig waith,
Hoff rwydda taith, â phridd y towch."

Felly, yn unol â'i gais, claddwyd ef ar y diwrnod crybwylledig, ym Mynwent Ioan Fedyddiwr, neu, fel y galwai efe ac eraill hi, Mynwent Ifan, Llanystumdwy, yn lled agos i gongl dde-ddwyrain yr eglwys; ac ar ei feddfaen y mae'r bedd-argraph canlynol, o waith ei ddisgybl, William Elias:—

"Dyma'r fan syfrdan y sydd,—er gload
Ar glanwych lawenydd
Cerdd; a phwyll, cywir dda ffydd,
Awen graff Owen Gruffydd.

"Dwys fyfyr; difyr, dïoferedd—gamp
A gwympodd i'r dyfnfedd:
Pen clo cân, pinacl ceinwedd
Gloyw, wych fawl; gwelwch ei fedd!
"*Ei oedran* 87, 1730."

Canwyd marwnad odidog am dano, gan Michael Prichard, o Lanllyfni gynt, wedi hyny o'r Brynddu, ger llaw Llanfechell, Mon, yr hwn oedd ddisgybl barddonol i William Elias, Plas yn Glyn. Wele ychydig ddifyniadau o honi:—

"Plwm yw ein bro, ple mae'n brig?
Pallodd ein pen bardd pwyllig. . .

"Trwst oer y sydd, trist arw yw son
Terfysg o bob tu Arfon:
Duodd Eifionydd dawel,
Wedi y bardd hoff hardd ffel.

"Di byngcian a di bencerdd,
Mawr yw ein cur, marw ein cerdd:
Tyfod ym Mynwent Ifan,
Trist yw'r tro, sy'n cuddio cân!
Hai how! na ddai gerdd Owen,
Drwy y bedd, draw, o ei ben.

"Gwnai yn ei bleth gain, ei blaid
Eirionyn o dri enaid:
Mesur, a synwyr moesawl,
Mwyn gynghanedd dda ei mawl.

"Ni fu er Tydain Fardd
O fewn Arfon, o curfardd
Graffach nag Owen Gruffydd,
Gain ei daith yn gweini dydd:
Croniclwr, Achwr uchel,
Cywir wers aur, cariwr sel:
Cymro oedd, cu am yr iaith.
Cloch Gwynedd, clywch ei geinwaith.
Yn iach in gael, nych yw'n gwedd,
Ganghenog groes gynghanedd:
Yn iach un gerdd ddi echwyn,
Yn iach un gyfeillach fwyn:—

"Ni ddaw mo hono fo'n faith
Nod hylwydd mwy i'n talaith:
Nef yw ei le, gore gŵr,
Nos da iddo! nes Dyddiwr."

Gadawodd yr enwog Owen Gruffydd bum llyfr o farddoniaeth ar ei ol, heb law Llyfr Achau, yr hwn a adysgrifenwyd gan y Parch. Dafydd Elis, A.C., gynt person Cruciaeth, yr hwn a'i gadawodd yn ei ewyllys i Dafydd Ddu Eryri, ac oedd ym meddiant Dafydd Llwyd, Ysw., Ffestiniog, yn y flwyddyn 1845.†

---

## PENNOD XXV.

### Y DOCTOR DANIEL WILLIAMS.

GANWYD y gŵr enwog hwn yng Ngwrecsam, sir Ddinbych, Gogledd Cymru, tu a dechrau y flwyddyn 1644, un o'r cyfnodau hynotaf am ei dadleuon crefyddol yn hanes yr Eglwys Gristionogol, ac un o'r cyfnodau mwyaf cynhyrfus yn hanes wladol y deyrnas hon. Yr oedd yr eglwysi heb lonyddu ar ol gweithrediadau Cymmanfa Dort; Arminiaeth a Chalfiniaeth ymhob congl yn ymryson am yr oruchafiaeth; a'r holl wlad yn cael ei rhanu yn ddwy blaid. Pan oedd D. Williams yn bump oed, torwyd pen Charles I., a chymmerth Oliver Cromwel awenau y llywodraeth; a phan oedd yn chwech oed, cyhoeddodd Hobbes ei "Lefiathan" Deistaidd, yr hwn a greodd gyfnod newydd yn y byd meddyliol. Nid oedd ei rieni ond pobl o amgylchiadau cyffredin; etto dywed efe am dano ei hun ei fod yn caru darllen a myfyrio er pan oedd yn cofio dim; ac i un o'r fath

* Brython, cyf. ii., t. 190; cyf. ii., t. 114.

† Blodeugerdd, argr. 1759, t. 44, 59, 74, 76, 93, 166, 172, 182, 198, 263, 333, 417, 429, 447, 460, 502; Traethodydd, llyfr i., t. 372; Brython, cyf. ii., t. 190; cyf. iii., 21, 165; cyf. iv., t. 114, 467.

Digitized by Google

chwaeth, nid oes dim mwy naturiol na meddwl ei fod yn sylwi yn fanwl ar y dadleuon crefyddol hyn, yn darllen cymmaint a welai arnynt, ac yn gwrando cymmaint a allai o honynt. Pan oedd o chwech i naw oed, daeth George Fox, y Crynwr, i Wrecsam, lle y bu'n llwyddiannus i gasglu llawer o ddisgyblion. Yr oedd Morgan Llwyd, clod yr hwn sydd ar led yr eglwysi, ar y pryd yn gweinidogeuthu i'r Eglwys Ymneillduol yn Heol Caer (*Chester Street*), yr hon, fel yr ymddengys, oedd yn cael ei gwneud i fynu o Bresbyteriaid, Bedyddwyr, ac Annibynwyr, yn yr hon yr oedd rhieni Williams yn aelodau; ac y mae'n dra sicr mai i Morgan Llwyd yr oedd efe yn ddyledus am ogwyddo ei feddwl at Ymneillduaeth. Achosodd y Crynwyr beth cynnwrf yn yr eglwys; a dywed "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru" fod llawer o aelodau Heol Caer wedi ymuno â hwynt, a bod Morgan Llwyd ei hun wedi bod bron a myned i'w canlyn;* ond nid oes dim o'r fath yn Nyddlyfr George Fox. Bu y cynhyrfiadau a'r dadleuon hyn, yn ddïau, yn fanteisiol i ehangu meddwl D. Williams, ac i addfedu ei farn ar byngciau crefyddol a gwladol. Dechreuodd bregethu yn 1663, ymhen blwyddyn wedi troad allan y "Ddwy Fil," un o'r adegau tywyllaf ar hanes Ymneillduaeth. O herwydd sefyllfa gynhyrfus pethau yn y wlad hon, aeth i'r Werddon, o dan nawdd yr Iarlles Meath, a chyn hir cymmerodd ofal eglwys yn Wood Street, Dublin, lle yr arhosodd hyd o fewn blwyddyn i adeg y chwyldroad, pryd y dychwelodd i Brydain; ac ymsefydlodd yn fuan yn yr Eglwys Ymneillduol yn Hand Alley, Llundain, lle y bu yn llafurio hyd ddiwedd ei oes, yr hyn a gymmerodd le yn 1716. Bu yn briod ddwywaith, a bu yn ffodus dros ben y ddau dro yn ei ddewisiad. Nid yn unig cafodd wragedd cyfoethog iawn, ond cafodd wragedd yn meddu y rhagoriaethau sydd yn hanfodol i wneud gwraig dda. Gan ei fod yn Ymneillduwr zelog, yn foneddigaidd o ymddangosiad, yn bregethwr poblogaidd, a chanddo ddigon o gyfoeth wrth law, daeth yn fuan i fri a dylanwad ym mysg y frawdoliaeth Ymneillduol yn y brif ddinas: anfynych yr aent yn erbyn ei farn ef. Pan oeddynt unwaith wedi trefnu myned i ddïolch i'r Brenin Iago am yr ychydig ryddid a ganiatasai i'r Ymneillduwyr ynghysgod y Pabyddion, dywedodd y barnai fod yr Ymneillduwyr wedi tynu y creulonderau a oddefasant ar eu penau drwy wrthwynebu deddfau gorthrymus yn hytrach nag am eu Hymneillduaeth grefyddol, ac y byddai yn well i ni gael ein darostwng etto i'n caledi blaenorol na phleidio mesurau niweidiol i ryddid ein gwlad; a syrthiasant oll i'w farn. Yr oedd yn gyfaill calon i Richard Baxter, ac yn cydolygu âg ef ar lawer o byngciau y ffydd; a chafodd ei appwyntio yn olynydd iddo fel darlithiwr yn Pinner's Hall. Erbyn yr amser hwn yr oedd Arminiaeth a Chalfiniaeth wedi rhedeg oddi wrth eu gilydd i ddau eithafion, y naill i dir Deistiaeth, a'r llall i dir Antinomiaeth; a Baxteriaeth fel yn ceisio cadw canol y ffordd rhyngddynt, er mai gyd â'r Arminiaid y rhestrid hwynt bob amser. Dywedir fod Antinomiaeth mor hen a'r Diwygiad; iddi ddechrau blaguro yngwaith Luther yn pregethu "cyfiawnhâd trwy ffydd," ac yn gwadu haeddiant gweithredoedd, er mwyn myned yn ddigon pell oddi wrth haeddiannau y seintiau Pabaidd. Aeth Antinomiaeth yn boblogaidd dros ben yn nyddiau Oliver Cromwel; pregethid yr athrawiaeth bron yn holl bulpudau yr Annibynwyr a'r Caeth-Fedyddwyr, y rhai a garient y syniadau allan i gyfeiriadau ac eithafion na fwriadesid erioed gan Luther na Chalfin. Un o brif amddiffynwyr Antinomiaeth oedd y Dr. Tobias Crisp, offeiriad yr Eglwys Sefydledig, yr hwn a fu farw yn 1642, dwy flynedd union cyn geni y Dr. Williams. Yr oedd y ddadl yn lled ddistaw ar ol marwolaeth y Dr. Crisp; ond yn fuan ar ol y chwyldroad, cyhoeddodd ei fab ei bregethau, y rhai, y mae'n debyg, pe cawsent lonydd, a fuasent yn aros hyd heddyw heb dori eu dail. Ar annogaeth daer llu o weinidogion uniongred, ymgymmerodd y Dr. Williams â gwrthwynebu ei olygiadau, yr hyn a wnaeth yn gryf, boneddigaidd, ac eglur; ac er i'r ddadl barhau am o saith i wyth mlynedd, nid oeddid yn nes i benderfynu y pwngc ar y diwedd nag ar y dechrau. Tynodd hyn erledigaeth drom am ei ben; rhwystrodd y Crispiaid y Dr. Bales, Howe, Allsop, ac yntau i gymmeryd rhan yn y darlithiau yn Pinner's Hall, i ba swydd yr oedd wedi cael ei ethol yn lle Baxter; a'r canlyniad fu i ddarlith o'r un natur gael ei chychwyn gan eu plaid hwythau yn y Salter's Hall. Cyhuddid ef o bob drwg, ac o bob math o gyfeiliornad, yn neillduol o fod yn Sosin; ond methwyd profi un cyhuddiad. Rhoddodd o ddeutu hanner cant o weinidogion uniongred eu henwau i gymmeradwyo ei waith fel un iach yn y ffydd; ac yr oedd, ar y diwedd, yn fwy enwog nag ydoedd wedi bod yn ei fywyd. Yn 1709, anrhydeddodd prif ysgol

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 2.—Gol.

Digitized by Google

Edinburgh ef â'r teitl o D.D., a chyflwynwyd yr urddlythyr (*diploma*) iddo mewn blwch arian, trwy law yr enwog Carstairs.

Er iddo fyned yn ŵr mawr, arferai dalu ymweliadau aml â Gwrecsam, ei dref enedigol, ac â'i fam eglwys; a byddai yn gohebu yn fynych â rhai o gyfeillion ei ieuengctid; a thrwy ei fod yn Bresbyteriad, yn benaf, mae'n debyg, ar gyfrif osgo yr athrawiaeth, o herwydd yng Nghymru, fel yn Lloegr, yr oedd yr eglwysi Presbyteraidd yn fwy rhyddfrydig ac Arminaidd na'r Annibynwyr; ac y mae'r rhan fwyaf o honynt, os nad y cwbl, wedi myned erbyn heddyw yn Undodiaid.* Pan gymmerodd y Dr. Williams safle mor gyhoeddus yn erbyn Antinomiaeth, cymmerodd yr eglwys a'r dref ddyddordeb yn y ddadl: cymmerodd y rhan Bresbyteraidd o'r eglwys ei blaid ef, a'r rhan Annibynol Galfinaidd blaid y Dr. Crisp, a chariwyd y ddadl ym mlaen mor boeth fel na bu yr eglwys yn hir cyn ymranu. Pleidid y Presbyteriaid, neu yr isel-Galfiniaid, gan Philip a Mathew Henry, a James Owen, Croesoswallt, yr hwn a ysgrifenai at Philip Henry, "Yr wyf yn barnu fod eich mab, Mathew Henry, erbyn hyn wedi rhoddi i chwi hanes ein cyfarfod yng Ngwrecsam. Yr wyf yn bendithio Duw fod genyf gydwybod dawel yn yr achos. Y mae ein pobl ni oll yn unol, a phobl Mr. Evans yn rhanedig, ac amryw o honynt yn anfoddlon i'w ymddygiad anghristionogol ataf fi. Y mae ein cyfarfodydd yn llïosocach na phan oedd ei bobl ef yn addoli gyd â ni. Y mae arnom eisiau i chwi roddi Sabboth yng Ngwrecsam, neu, o leiaf, fyned i roddi pregeth yn yr wythnos. Byddai cael eich help yn fanteisiol iawn i achos yr efengyl yno."† Glynodd yr hen weinidog, J. Evans, yn ffyddlon i'r blaid Annibynol, uchel-Galfinaidd; a phan fu efe farw, yr oedd y ddwy eglwys, neu y ddwy blaid, yn awyddus am gael ei fab yn weinidog. Derbyniodd wahoddiad yr eglwys Bresbyteraidd, ac ymdrechodd uno y ddwy blaid, yr hyn, y mae'n debyg, a wnai yn ol cyfarwyddyd y Dr. Williams, yr hwn, pan welodd nad oedd gobaith iddo lwyddo, a'i cymmerodd yn gydweinidog âg ef yn Llundain; a phan fu farw y Doctor, dewisodd yr eglwys ef yn ei le. Yr oedd Mr. Evans yn cymmeryd rhan flaenllaw yn holl amgylchiadau Ymneillduaeth; ac yn amser y ddadl fawr Ariaidd, cawn iddo *wrthod* llawnodi y credo Trindodaidd. Dilynwyd ef yng Ngwrecsam gan John Kenrick, yr hwn, os nad yn Undodwr, oedd yn Ariad, neu Belagiad uchel; ac aeth llawer o'i deulu yn Undodiaid cyhoeddus. Y nesaf fu yno oedd Francis Boult, yr hwn oedd wedi cael ei addysgu yn athrofa Caerfyrddin, magwrga Undodiaeth er y flwyddyn 1718; ac yr oedd wedi bod yn gydweinidog am dymmor i Job Orton, yr hwn oedd yn Undodwr ar bob pwngc y rhan ddiweddaf o'i oes.‡ Dechreuodd yr Antinomiaid erlid y Dr. Williams yn yr un yspryd ag yr erlidiai Calfin Servetus; saethid ato yn ddiarbed o'r areithfa a thrwy y wasg; ac yn 1699 cyhoeddodd un a'i enw Thomas Edwards, o sir Fflint, gŵr mwy enwog am ei ddysg na'i farn, gyfrol fawr 4plyg, dan yr enw "Baxterism Barefaced," i'w drin yn y modd mwyaf anheilwng. Ond dylanwadodd yr ymosodiad yn ffafriol i'r Dr. Williams; gwnaeth ei bleidwyr yn fwy gwrol; gwnaeth lawer o bobl oedd o'r blaen yn ddifatter ynghylch y pwngc, ddechrau siarad â hwy eu hunain, "Os difriaeth fel hyn yw Calfiniaeth, aed lle y mynno," ac ennillodd gydymdeimlad y Calfiniaid mwyaf goleuedig.

Ar esgyniad Sior I. i orsedd Brydain, mawr oedd llawenydd cyfeillion rhyddid gwladol a chrefyddol, ac nid oedd neb o honynt yn ei longyfarch yn fwy calonog nag Ymneillduwyr y brif ddinas; ac ar y 28fed o Fedi, 1714, aeth yr holl weinidogion Ymneillduol i ymweled âg ef, yn cael eu blaenori gan y Dr. Williams, yr hwn a gyflwynodd yr anerchiad canlynol iddo yn eu henw:—

"AT EI ARDDERCHOCAF FAWRHYDI Y BRENIN.

"*Annerchiad gostyngedig Gweinidogion Ymneillduol Protestanaidd y gwahanol enwadau, yn ac o gylch Llundain.*

"Rhynged bodd i'ch Mawrhydi,—Gyd â diolchgarwch a llawenydd cyfartal i'r amgylchiad, y llongyfarchwn eich Mawrhydi ar eich esgyniad heddychlawn i'r orsedd, a'ch dyfodiad dïogel chwi a'r tywysog i'n plith, attebiad trugarog i weddïau brwdfrydig. Pan yn galw i gof fod eich Mawrhydi yn hanu o frenin a brenhines Bohemia, noddwyr enwog y grefydd Brotestanaidd, nis gallwn lai na moliannu Rhagluniaeth Ddwyfol, yr hon yn eu brenhinol linach sydd yn gwobrwyo eu dïoddefiadau yn yr achos hwnw, â choron yr hon a wna eich Mawrhydi yn ben i holl achos Protestaniaeth; ond y mae zel eich Mawrhydi dros yr un grefydd, a'ch ewyllys da adnabyddus i ryddid Ewrop a hawliau dynoliaeth, ynghyd â'ch rhinweddau clodfawr eraill, yn rhoddi i ni y gobeithion sicraf y bydd bendithion eich teyrnasiad mor ehang a'ch gallu.

* Yn y flwyddyn 1830 yr oedd yn siroedd Caer, Derby, a rhan orllewinol York, dri ugain a naw o gynnulleidfaoedd Trindodaidd wedi troi yn Undodiaid; a cheir llawer o engreifftiau o'r un peth yng Nghymru, fel y dangoswn etto.—Bennett's Eminent Dissenters, vol. v., p. 297.

† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 2.

‡ Cofnodir cymmaint a hyn o hanes yr eglwys yng Ngwrecsam er dangos fod rhyw yspryd Undodaidd wedi canlyn dadleuon y Doctor.



Digitized by Google

"Yr ydym yn ystyried fod gwaith y Senedd yn sefydlu y goron ar eich teulu clodfawr chwi yn un o'r bendithion mwyaf a dderbyniasom drwy ein diweddar waredwr, y Brenin William, o anfarwol goffadwriaeth. Wrth y trefniad hapus hwn, yr ydym wedi glynu yn ddisigl yn wyneb pob temtasiwn a pherygl. Cydnabyddir gan y gwladgarwyr rhagorol sydd yn cylchynu eich gorsedd, ein bod ni wedi dangos zel neillduol dros y trefniad hwn.

"Nid ydym yn dal egwyddorion amgen y rhai a'n rhwymant o gydwybod i gydnabod eich Mawrhydi ein hunig deyrn cyfiawn a chyfreithlon, a gwnawn ein gorau i ddal i fynu eich teitl a'ch llywodraeth yn erbyn pob ymhonwr pa bynag.

"Y mae cyhoeddiad doeth a graslawn eich Mawrhydi, am yr hwn yr ydym yn cyflwyno ein diolch puraf, yn esmwythâu arnom yn fawr o dan ein beichiau presennol, ac yn rhoddi i ni le i obeithio, gan ein bod yn anwahanol unedig mewn budd a diogelwch â phawb a ymlyna wrth yr hawl etifeddol o'r deyrnas, fel y mae wedi cael ei phenderfynu gan y gyfraith, y cawn felly gyfranogi o'r diogelwch a'r ffafr yr hyn a'n gwna ni, gyd â'r lleill o'ch deiliaid, yn ddedwydd.

"Parhawn i weddïo am i'ch Mawrhydi, Tywysog a Thywysoges Cymru, a holl aelodau eich teulu anrhydeddus, gael oes hir a llwyddiannus. Bydded i'r Duw hwnw, trwy yr hwn y teyrnasa brenhinoedd, eich cynnorthwyo i ddefnyddio eich gallu a'ch dylanwad mawr fel y byddo amddiffyn y grefydd Brotestanaidd, gosod i lawr oferedd yr oes, meddyginiaethu yr ymraniadau sydd rhwng eich pobl, amddiffyn iawnderau dïoddefwyr tramor, a diogelu cydbwysedd galluoedd Ewrop, yn anrhydedd i'ch Mawrhydi."

Ond er bod y Dr. Williams yn cael ei barchu fel hyn gan ei frodyr, ac yn ymdroi mewn cyfoeth, etto nid oedd y cwbl ond ei wneud yn fwy hunanymwadol ac aiddgar i wneud a allai dros achos yr Iesu. Ymddengys fod y Cymry yr amser hwnw mewn bri neillduol ym mysg Ymneillduwyr Llundain, o herwydd yn 1727, ar esgyniad Sior II. i'r orsedd, cawn ei olynydd, y Dr. Evans, mab hen weinidog Gwrecsam, yn blaenori cant o weinidogion Ymneillduol o'r tri enwad, i gyflwyno iddo annerchiad. Nid yw yn debyg fod y Saeson yn rhoddi y flaenoriaeth i'r Cymry os nad oeddynt yn ei haeddu.

### EWYLLYS Y DOCTOR DANIEL WILLIAMS.

Gan nad oedd gan y Dr. Williams blant, rhoddodd y rhan fwyaf o'i gyfoeth at achosion dyngarol a chrefyddol yngwahanol ranau y byd, ac yn eu plith cafodd Cymru ei rhan. A chan fod llawer un, yn sicr, mewn gwahanol gyssylltiadau, wedi cyfranogi o bryd i bryd o'i roddion, ond heb wybod o ba le yr oeddynt yn dyfod, hwyrach nad annerbyniol gan y darllenydd fydd cael golwg ar ei ewyllys, yr hon a ystyriwn i raddau yn gywreinbeth, ac oddi wrthi gall gael syniad lled glir am safle gymdeithasol a thueddiadau crefyddol y Dr. Williams:—

"Yr wyf fi, Daniel Williams, o Hoxton, ger llaw Llundain, Doethawr mewn Duwinyddiaeth, gan fy mod yn awr yn fy synhwyrau, am yr hyn yr wyf yn diolch i Dduw bendigedig, etto yn teimlo fy mod i farw, yn gwneud hon fy ewyllys a'm testament diweddaf, gan alw yn ol bob ewyllys arall. Yr wyf yn cyflwyno fy enaid i'm ffyddlon Waredwr, yr hwn, yr wyf yn gobeithio yn gryf, sydd wedi fy uno i âg ef ei hun, ac y cyflwyna fi yn ddifrycheulyd i'w Dad Ef a'm Tad innau, trwy ei haeddiant hollddigonol ei hun.

"Yr wyf yn dymuno i'm corph gael ei gladdu yn anghyoedd yn y gladdfa newydd ger llaw y Gadlas, lle y prynir daeargell (*vault*), ac y codir cofgolofn gref arno; a gellir claddu yn y bedd rai o'm perthynasau fy hun, neu berthynasau fy ngwraig, neu, os na fydd rhai o'r cyfryw i'w cael, rhyw weinidogion da, yn ol fel y byddo'r lle yn caniatâu.

"O berthynas i'r meddiannau bydol â'r rhai y mae Duw wedi fy mendithio mor rhyfeddol, a'r rhai a ddefnyddiais i yn gymhedrol, mor bell ag yr oedd yn perthyn i mi fy hun, fel y gallwn fod yn fwy gwasanaethgar i eraill, yn gystal wrth fyw ac wrth fy marwolaeth, yr wyf yn eu trefnu fel y canlyn, ar ol talu fy nyledion a threuliau fy nghladdedigaeth:—

"Yn gyntaf,—Gan fy mod i rwymo wrth fy anwyl wraig am ei hoes bedwar cant o bunnau y flwyddyn, a bod y tiroedd hyny sydd yn gwneud i fynu y rhan fwyaf o'r eiddo yn y weithred briodas wedi gostwng yn fawr yn eu gwerth, a'r rhan fwyaf o honynt ymhell, yr wyf yn pennodi fod, yn lle y rhwymiad hwnw, a phan ddirymir ef, iddi gael, tra fyddo byw, y seilrenti (*ground-rents*) a brynais gan un a'i enw Sutton, yn ac o ddeutu Queen Street, Westminster, y rhai a gyrhaeddant i o oddeutu cant a naw o bunnau yn y flwyddyn, a llog mil o bunnau, y rhai sydd yn llaw Mr. Benjamin Sheppard, heb law y mil arall sydd ganddo, y rhai yr wyf yn gorchymyn iddo eu talu iddi ymhen blwyddyn ar ol fy marwolaeth, yr hyn yr ymrwymais ei wneuthur. Hefyd, fy annedd-dŷ yn Hoxton, a'r holl erddi. Hefyd, y ddau Peveril, a'r holl feddiannau yn Essex, y rhai a brynais gan Daniel Tanfield, Ysw., yr hyn a ddeuant i tu a chant a hanner y flwyddyn. Hefyd, Tolham, yn Essex, yr hwn a ddelir gan un a'i enw Sewel, yr hwn, pan briodasom, oedd yn werth pum punt a deugain y flwyddyn, a rhan yw o hono; a'i ardreth yn awr yw deunaw punt a'r hugain. Hefyd, Teml y Faenor, yn Essex, yr hon a brynais gan Mr. Drage, yn cael ei osod am ddeunaw punt ar hugain, gyd â'r holl ardrethoedd ac ennillion a ddeillia oddi wrtho, ynghyd â gallu i attafaelu ac i ddefnyddio pob moddion cyfreithlon i'w codi, pe y digwyddai fod rhai o'r rhenti crybwylledig yn aros heb eu talu y ddau ben tymmor arferol, Gŵyl Mihangel a Gŵyl Fair; yr hanner-blwydd tal cyntaf i fod ar y gyntaf o'r ddwy ŵyl a ddigwydd gyntaf ar ol fy marwolaeth. Yr wyf hefyd yn ychwanegu y blwydd-dal dyledus i mi oddi wrth y Trysorlys iddi hi, tra fyddo ei phlant byw, yr hyn yn bresennol sydd yn bedair punt ar ddeg yn y flwyddyn; a bydd hi at ei rhyddid i wneud fel y mynno â hwynt; a hefyd, â'm cerbyd a'm ceffylau. Hefyd, yr wyf yn rhoddi i'm dywededig wraig, tra fyddo hi byw, yr holl emau a'r llestri arian, oddi eithr fy nghawg mawr, yr hwn a adawaf i Mrs. Wynn, gan mai ei thad oedd ei berchen; a'm cwpan arian mwyaf, yr hwn a roddaf i Richard Meredith, Ysw., fy nghefnder. Yr wyf yn rhoddi hefyd i'm hanwyl ddywededig wraig, tra fyddo byw, fy holl gelfi tŷ, oddigerth y llestri copr a'r cerwyni, y rhai a orchymynaf eu gadael bob amser i ganlyn y tŷ; a'r awrlais sydd yn taro, yr hwn a roddaf i Mr. John Evans. Fy ewyllys hefyd yw, fod y gemau crybwylledig, y llestri arian, y celfi, a'r llïeiniau, i gael eu rhanu yn gyfartal rhwng fy merch, Mary Sheppard, a'm merch, Elizabeth Barkstead.* A bod i'r mil punnau sydd yn llaw Mr.

* Dywed y Dr. T. Rees mai perthynasau i'w wraig, neu ei wragedd, oedd y Sheppards a'r Barksteads.

Sheppard i gael eu rhanu fel hyn pan fyddo hi farw, sef i'm merch, Mary Sheppard, tri chant a hanner o bunnau, neu, os bydd hi wedi marw, rhwng ei phlant a'i phriod; i'm merch, Elizabeth Barkstead, tri chant o bunnau; i'm mab, Francis Barkstead, dau gant o bunnau; hanner can punt i Stennet, chwaer fy ngwraig; hanner cant punt i Daniel Loflin, ieu.

"Gan gymmeryd yn ganiataol fod fy ngwraig yn derbyn y rhwymiad hwn o'i chynnysgaeth flynyddol oddi wrth y tai a'r tiroedd crybwylledig tra fyddo byw, heb wastraffu, fel ag i golledu y rhai a bennodais i gael yr olfeddiant; na hawlio chwaith, dan ein cyttundeb priodasol, yr hyn a fyddai yn golledus iawn iddi hi a'i pherthynasau. Ond pe dewisai hi lynu wrth y cyttundeb priodasol, yr wyf yn gorchymyn iddo gael ei gario allan; ac yr wyf yn galw yn ol y trefniadau a'r cymmunroddion crybwylledig, y rhai a fwriedais i'w mantais fawr hi a'i pherthynasau. Yr wyf hefyd yn rhoddi i'm mab Benjamin Sheppard, i'm merch Mary Sheppard, i'm merch Elizabeth Barkstead, a'm mab Francis Barkstead, ddeg punt yr un i brynu galarwisgoedd. Ac yn dymuno ar fy Nghymmun-weinyddwyr a'm Hymddiriedolwyr gynnorthwyo fy anwyl wraig er gwneud pob peth yn ddidrafferth iddi hi.

"Yr wyf yn ewyllysio i'm brawd a'm chwaer Roberts, a'r olaf o honynt a fyddo byw, gael am eu hoes fy holl feddiannau yn Burton a Crosshowell, yn sir Ddinbych, y rhai a brynais gan Mr. Smith, a bod ganddynt hawl i afaelu a derbyn yr unrhyw; ei fod ef a hithau i dalu chwe phunt yn flynyddol i Mr. Kenrick, neu i rywun arall a fyddo yn weinidog Ymneillduol Presbyteraidd yng Ngwrecsam; a deg punt y flwyddyn i'r cyfryw ddŷn a bennodir ganddynt i ddysgu ugain o blant i ddarllen ac ysgrifenu, ac i'w haddysgu yn egwyddorion crefydd. Ond yr wyf yn eu gwahardd i wastraffu drwy dori i lawr goed ieuaingc.

"Hefyd, yr wyf yn gadael fy holl ddillad i'm dywededig frawd, a chan punt i'r perthynasau y Sackvils, i gael eu rhanu i'r personau, ac yn symiau fel y barno fy mrawd a'm chwaer yn briodol.

"Hefyd, gan fod ar fy nghefnder, Richard Edwards, yr hwn sydd wedi marw, dri chant a phump a deugain o bunnau i mi, heb law cymmaint a hyny eilwaith mewn ennillion masnachol, y rhai a roddais iddo, fy ewyllys yw fod i'r swm yn gyfan, pan delir ef, i gael ei roddi i'm cefnder, Hugh Edwards, tad y dywededig Richard Edwards, ac i'w blant ar ei ol; ac yr wyf yn gadael i Dorothy Edwards yr holl lôg a'r ennillion dyledus; fod iddi hi a hwythau gymmeryd gofal i godi y dyledion oedd allan iddo, ac iddi hi gael y rheolaeth.

"Hefyd, yr wyf yn gadael cant a hanner o bunnau i Mr. John Welch, i'w talu i 'Gymdeithas i Wellâu Moesau.'

"Hefyd, yr wyf yn gadael can punt i Walter Stevens a Jos. Damer, Yswn., y rhai sydd yn byw yn Dublin, ar gyfer addysgu'r ieuengctid, os na thalaf hwynt yn fy mywyd; ond os na fyddaf wedi eu talu yn fy mywyd, yr wyf yn gorchymyn i lôg gael ei dalu arnynt, yn ol wyth bunt y cant, o'r pumed ar hugain o Fawrth diweddaf.

"Hefyd, yr wyf yn gadael can punt i Mr. Joseph Boys, Dublin (y gweinidog); a deugain punt i dlodion cynnulleidfa Wood Street, lle y bûm i gynt yn weinidog; a chan punt i'r Dr. Duncan Cumming, Dublin, i'w gosod ar lôg ganddo, fel y caffo y weddw, Mrs. Sarah Hartley, y llôg tra fyddo byw; a bod y can punt ar ol ei chladdu hi i gael eu talu i Mrs. Barrington, y wraig weddw, merch Mr. Benjamin Pratt. Yr wyf hefyd yn maddau i'm cefnder, Richard Meredith, Ysw., y gwahanol symiau dyledus arno i mi, ac yn rhoddi cant a hanner o bunnau i'w fab, yr hwn sydd yr un enw a mi; a chan punt i'm cefnither, Elizabeth West, chwaer y dywededig Richard.

"Hefyd, yr wyf yn gadael pum punt yr un i bob un a fyddo yn fy ngwasanaeth pan fyddaf farw, er mwyn iddynt gael galarwisgoedd, os na fydd fy anwyl wraig yn gweled rhyw reswm dros beidio eu rhoddi i rai o honynt.

"Hefyd, yr wyf yn gadael can punt i'm perthynas, Hugh Edwards.

"Hefyd, yr wyf yn gadael deg punt ar hugain i Mr. Samuel Pomfret, y gweinidog. Yr wyf yn gadael hanner can punt, ar brydles fy nhŷ yn Plumtree Street, yr hwn a brynais gan Mrs. Hannah Fox, neu Bradley, i Mr. John Evans, fy nghydweinidog. Hanner can punt i'w rhanu rhwng tlodion cynnulleidfa Hand Alley; o'r swm yma rhodder deg swllt a deugain yr un i Mrs. Haydon a'i chydymaith; ac i Mrs. Etheridge a Mrs. Tomkins. Can punt i ffoedigion tlodion Ffrengig. Ugain punt i dlodion plwyf Shoreditch; y ddau swm olaf i gael eu rhanu gan fy anwyl wraig fel y gwelo hi yn dda.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi pum punt yr un i Mr. Billingsley, hynaf; Mr. David Stott, Mr. Cotton, ger llaw Russell Street; Mr. Cook, Clare, Suffolk; Mr. Stevens, Llundain; Mr. Lorrimore, Mr. Hunt, Newport; Mr. Rastrick, Lynn, Norfolk; Mr. Kempster: y maent oll, ond yr olaf, yn weinidogion; a'r un faint i Mr. Cordell, gweinidog yn sir Gaergrawnt; a Mr. Benjamin Robinson, Mr. Chandler, Bath; ac i'w frawd, oll yn weinidogion; yr un fath hefyd i Isaac Bales, Hackney.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi pedair punt yr un i weddwon y gweinidogion canlynol, sef Mrs. Taylor, o yn agos i Wem; Mrs. Evans, ger llaw Croesoswallt; Mrs. Naylor, ger llaw St. Helens, sir Lancaster; Mrs. Wine, Mrs. Hardcastle, Mrs. Gosnel, Mrs. Webb, Fromley: y mae Mrs. Jacomb yn adnabod y ddwy olaf.

"Hefyd, yr wyf yn maddau i Mr. Toms yr hanner can punt sydd arno i mi, ar yr ammod iddo dalu pum punt ar hugain i Mr. Sheppard, fy mab; ac yr wyf yn dymuno ar fy mab hwnw, pan dderbynio hyny, i beidio aflonyddu arno ymhellach.

"Hefyd, yr wyf yn maddau i Mr. Lyford yr hyn sydd arno i mi, ac yn rhoddi iddo bum punt.

"Hefyd, yr wyf yn rhyddhau fy nghefnither, Catherine Taylor, Gwrecsam, yr hyn sydd arni i mi; ac yn awdurdodi fy Nghymmun-weinyddwyr i ryddhau William King, pobydd, yn Llundain, o'r hyn y mae yn fy nyled, yr hyn a roddais fenthyg iddo, o barch i rieni ei wraig; ac yr wyf yn foddlon eu maddau, a'r holl lôg dyledus arnynt. Yr wyf yn eu maddau yr un fath i'w ddywededig wraig, os bydd hi byw ar ol ef, ac hefyd yn rhoddi iddi bum punt.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi i'm cefnder, Stephen Davies, gweinidog yn Banbury, ddeg punt, ac yn maddau iddo yr hyn sydd arno i mi.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi ugain punt i Mr. Hull, gof gwyn yn Llundain, a deg swllt a deugain i Anne Jerome.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi olhawl ar y meddiannau yn Elsley, sir Gaergrawnt, ar ol y weddw Mason, yr hon sydd yn eu meddiannu yn bresennol, i St. Thomas's Hospital, a gweithdy y tlodion yn Bishopsgate Street, Llundain, yr ardrethoedd a'r ennillion i gael eu rhanu yn gyfartal rhyngddynt hyd byth. Y mae rhan o honynt yn rhydd-ddaliadol, a rhan yn nawdd-feddiannol (*copyhold*). Y maent yn cael eu prisio yn awr i o ddeutu gwerth pymtheg punt a deugain y flwyddyn. Yr wyf yn rhoddi fy holl dai yn Burnham i Robert Mecham, hynaf, i fod at wasanaeth cynnulleiddfa Bresbyteraidd y lle.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi i goleg Glasgow, tra parhao Eglwys Ysgotland yn ei ffurf bresennol, fy nhŷ a'm tir yn Barnet, sir Hertford, ardreth flynyddol y rhai sydd yn awr yn bum punt a deugain, ac olhawl ar fy nhiroedd yn Totham, Essex, ar ol marwolaeth fy ngwraig; a hefyd, can punt yn awr yn arian, ar yr ammod fod fy ymddiriedolwyr a'm dirprwywyr bob amser yn pennodi, o dro i dro, bedwar o Ddeheudir Brydain i fod yn efrydwyr yn Glasgow, i'r rhai y rhoddir chwe phunt yn y flwyddyn gan y coleg hwnw; a hefyd, dri o Ddeheudir Brydain, y rhai, ar

ol dechrau cwrs am y gradd o M.A., a gânt ddeg punt yr un yn flynyddol am dair blynedd, neu ynte ddau i gael pymtheg punt, yn ol fel y byddo yr ymddiriedolwyr yn cyfarwyddo, y naill a'r llall i gael eu rheoleiddio yn ol eu doethineb hwy, ac eraill i gael eu pennodi i lanw eu lleoedd. Yr wyf yn ewyllysio hefyd fod i'r personau a dderbyniont y cyfryw ddeg neu bymtheg punt i gael eu rhwymo i edrych dros a chynnorthwyo y cyfryw wŷr ieuaingc o Ddeheudir Brydain a ddigwyddont fod ar y pryd yn y cyfryw goleg. A phan ddelo y tiroedd yn Totham yn eiddo y cyfryw goleg, yr wyf yn trefnu fod i ychwaneg o flwydd-daliadau i gael eu sefydlu, yn ol fel y byddo y derbyniadau yn caniatâu, i'r fath wŷr ieuaingc o Ddeheudir Brydain ag a bennoda fy ymddiriedolwyr; a rhaid fod y rhai a fyddont yn derbyn y blwydd-daliadau yn darparu at y weinidogaeth, ac yn ymddangos yn debyg o fod yn ddefnyddiol. Yr wyf yn pennodi Mr. Hocker, Mr. Oldsworth, ac un Jay, y rhai sydd yn byw yn Glasgow, i'w cael yn gyntaf; ac mor fuan ag y derbynir y naill neu y llall o honynt i'r cwrs i raddio yn M.A., ei fod ef neu bob un o honynt i dderbyn y symiau mwy. A'r nesaf ar eu hol, derbynier mab Mr. Stennet, a mab Mr. David Stott. A bydded i'm hymddiriedolwyr, wrth lanw y lleoedd gweigion, roddi y flaenoriaeth i feibion gweinidogion Presbyteraidd o amgylchiadau isel, os byddant yn gyfartal gymmwys. Ac mewn amgylchiadau neillduol, boed iddynt ychwanegu dwy bunt y flwyddyn, os na fydd yr hyn a adewais i'r cyfryw goleg yn ddigon. Yr wyf hefyd yn enwi mab Mr. Roberts, diweddar o Redriff, gweinidog, i gael derbyniad y nesaf i fab Mr. Stott. Ac os bydd Annesley Fromanlle, mab Mr. James Fromanlle, yn meddwl am y weinidogaeth, ac yn foddlon i efrydu yn Glasgow, caniataed fy ymddiriedolwyr iddo, tra fyddo yno, bedair punt yn ychwanegol at y chwech a bennodais o'r blaen. Yr wyf yn gwneud hyn fel arwydd o'm parch i'w daid ffyddlon, y Dr. Annesley. Yr wyf yn dymuno hefyd i'm hymddiriedolwyr dalu cyfran yr hanner blwyddyn cyntaf ar ol fy marwolaeth i'r myfyrwyr hyny a fyddont yn Glasgow yn derbyn o'm cymmunroddion, fel y delo'r coleg, drwy gynnydd yr ennillion, yn alluog i atteb y gofynion yn y dyfodol. Yr wyf yn gorchymyn i'r coleg anfon cyfrif o'r hyn a dderbynir bob blwyddyn i'r cyfryw yn Llundain a bennodir gan fy ymddiriedolwyr; a bydded i'm hymddiriedolwyr gynnorthwyo y coleg i osod y tai a'r tiroedd, a derbyn y rhenti.

"Ond, fy ewyllys yw, er y rhoddion rhag-grybwylledig a wneuthum i'r dywededig goleg Glasgow, fod, pa bryd bynag y sefydlir Offeiriadaeth, Esgobyddiaeth, neu Babyddiaeth yng Ngogledd Brydain, y rhodd rag-grybwylledig yn darfod, ac yn myned yn ddirym; ac yr wyf yn rhoddi y tai a'r tiroedd yn Barnet a Totham i'm etifeddion a'r ymddiriedolwyr a enwir yn ol llaw, ac at y fath wasanaeth a bennodaf yn fwy neillduol neu gyffredinol; a bod i'r holl ysgrifeniadau a'r gweithredoedd perthynol i'r meddiannau a fyddont yn nwylaw awdurdodau y coleg i gael eu dychwelyd; ïe, yr wyf yn trefnu, ac yn gobeithio, y bydd i'r rhai hyny o awdurdodau y coleg sydd yn ffyddlon i achos Crist, pan welant y fath bethau yn agosâu, os bydd ysgrifau o'r fath yn eu meddiant, eu gosod yn ofalus yn nwylaw fy ymddiriedolwyr, er arbed y drafferth a ddichon fod i gael hyd iddynt, yn neillduol tra na fydd fy rhodd na'r cyflwyniad i'r cyfryw goleg yn parhau yn hwy na thra parhao Eglwys Ysgotland yn ei ffurf bresennol. A'm hewyllys yw, ac yr wyf yma yn trefnu, fod i'r cyfryw goleg, pa bryd bynag yr adferir y cyfansoddiad presennol, a chyhyd ag y parhao, i gael cyflawn feddiant o'm rhodd hon, er, ar yr un pryd, yn agored i'w cholli, fel y dywedwyd yn flaenorol.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi can punt i'r Gymdeithas yn Ysgotland er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, ynghyd â llôg yn ol chwe phunt y cant, o'r cyntaf o'r mis hwn, os na fydd i mi dalu y corph a'r llôg yn fy mywyd, fel yr wyf yn barod wedi talu llôg un flwyddyn. Yr wyf hefyd yn rhoddi i'r gymdeithas grybwylledig, ymhen blwyddyn ar ol iddi anfon tri gweinidog cymmwys i lafurio mewn gwledydd paganaidd tramor, fy holl dai a'm tiroedd o ddeutu Calworth, yn sir Huntington, y rhai sydd yn rhentu yn awr am o ddeutu tri ugain ac wyth o bunnoedd yn y flwyddyn, ca'r gymdeithas eu dal a'u meddiannu cyhyd ag y parhao yn ei hymdrech dywededig i ddychwelyd y gwledydd paanaidd; a bydded i'r gymdeithas honno gael chwarau teg i ethol ei haelodau. Ond os derfydd y dywededig gymdeithas, neu os rhwystrir hi i gael chwarau teg i ethol ei haelodau, neu os peidia anfon a chynnal nifer boddhaol o weinidogion cymmwys mewn gwledydd paganaidd tramor, er ceisio eu hennill at Dduw yng Nghrist, fy ewyllys yw fod i'r rhodd hon a wneuthum o'r tiroedd crybwylledig i'r gymdeithas ddywededig ddarfod, a chael ei dirymu; ac yr wyf yn rhoddi y tai a'r tiroedd crybwylledig yn ac o gylch Calworth i'm hetifeddion a'm hymddiriedolwyr, y rhai a enwir yn ol llaw, ac at y fath achosion ag a nodaf.

"*Nodiad.*—Y mae rhan fechan o'r eiddo hwn yn cael ei ddal dan nawdd-ysgrif (*copyhold*), yr hon sydd i'w chodi; ac yr wyf yn dymuno, tra fyddo y gymdeithas hon yn dal yr eiddo hwn o dan yr ammodau rhagddywededig, iddi weled yn dda ohebu yn flynyddol â'm hymddiriedolwyr yn Llundain; a phan yn gweled rhyw berygl iddi gael ei chwalu, neu amcan y gymdeithas i gael ei wyrdroi, fod iddi roddi i fynu, fel yr appwyntiais fod iddynt wneud, bob gweithredoedd ac ysgrifeniadau perthynol i'r eiddo crybwylledig, a rhoddi i fynu y nawdd-ysgrif i'r hwn a bennoda fy ymddiriedolwyr. Ond gwell genyf, ac yr wyf yn gorchymyn, os tybia fy ymddiriedolwyr hyny yn fwy dïogel, i Mr. John Evans, y gweinidog, gymmeryd y rhan nawdd-ddaliadol y tro cyntaf, a'i throsglwyddo yr amser a bennodais i'r gymdeithas grybwylledig, gan ymrwymo o honynt i'w rhoddi i fynu, a pha bapurau a gweithredoedd bynag, neu hawl fyddo ganddynt i'r meddiannau crybwylledig: os difodir y gymdeithas, neu os ymyrir â rhydd etholiad ei haelodau, neu os rhydd hi i fynu gadw gweinidogion cymmwys mewn gwledydd paganaidd, er eu dwyn i wybodaeth Iesu Grist ein Harglwydd. Ymhellach, wrth ail feddwl, fy ewyllys yw, er yr hyn a ddywedais yn flaenorol am goleg Glasgow, a rhoddi i fynu yr ysgrifeniadau, yn yr amgylchiadau a nodwyd; etto yr wyf yn pennodi, o berthynas i'w hawl (*title*) i'r tai a'r tiroedd dywededig yn Barnet a Totham, a chael meddiant o unrhyw weithredoedd perthynol iddynt, fod i'r coleg hwnw, neu rywun a lawn awdurdodir yn gyfreithlon ganddo, lawnodi gweithred i rywrai a bennodir gan fy etifeddion, neu fy ymddiriedolwyr, yn yr hon y bydd iddynt ymrwymo i roddi i fynu bob hawl neu feddiant i'r cwbl ac i bob rhan o'r arian a'r tiroedd crybwylledig a roddwyd yn ddioedi pan gyfnewidio cyfansoddiad presennol Eglwys Ysgotland.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi i Joseph Thompson, a'r lleill o Gymdeithas Genhadol Lloegr Newydd, fy meddiannau yn Essex, a elwir Tolshant Becham Manor, neu unrhyw enw arall, yr hwn a brynais gan Mrs. Hannah Fox, neu Bradley, ynghyd â'r holl ennillion a'r buddiannau sydd i ddyfod i mi ar ol marwolaeth y dywededig Fox, yn awr Bradley, cyhyd ag y parhao y gymdeithas, neu y gorphoraeth honno, ar yr ammod fod tri ugain punt yn y flwyddyn yn cael eu rhoddi rhwng dau berson cymmwys o ran duwioldeb a doethineb, i gael eu pennodi yn olynol gan fy ymddiriedolwyr, i fyned yn bregethwyr teithiol i blanhigfeydd Saesneg yr India Orllewinol, ac er lles y paganiaid ac unrhyw bobl dduon a all fod yno yn cael eu hesgeuluso; a bod y gweddill i gael ei dalu yn flynyddol i goleg Caergrawnt, yn Lloegr Newydd, neu

Digitized by Google

i'r rhai a fydd yn arfer rheoli gwaith bendigedig y genhadaeth at yr Indiaid tlodion yno; i hyrwyddo y gwaith hwn yr wyf wedi bwriadu y rhan hon o'm rhodd. Ond os rhwystrir fy ymddiriedolwyr i bennodi y dywededig bregethwyr teithiol, trwy ryw ymyriad o eiddo rhyw ddeddf a wneir yn Lloegr Newydd, neu rywle arall, yr wyf yn rhoddi y tri ugain punt crybwylledig i'r coleg dywededig yn Lloegr Newydd, i'w calonogi a'u galluogi yn barhaus i gael athrawon dysgedig o Ewrop, a chânt hwy eu hunain, mewn cydweithrediad â'r gweinidogion yn nhref Boston, eu dewis.

"A phe digwyddai i'r gymdeithas, neu y gorpholaeth grybwylledig, gael ei chwalu, neu gael ei hamddifadu o'i rhagorfreintiau, fy ewyllys yw, ac yr wyf drwy hyn yn rhoddi y Manor crybwylledig, ynghyd â'r holl ennillion a'r buddiannau, i'r dywedig dref Boston* a'i gweinidogion, er lles y coleg crybwylledig, fel uchod, ac er hyrwyddo gwaith y genhadaeth at yr Indiaid tlodion.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi i'm cefnder, Stephen Davies, gweinidog yn Banbury, ac i'w etifeddion gwrywaidd cyfreithlon; a phe na byddai ganddo rai, yna i'm mab Benjamin Sheppard, a'i etifeddion gwrywaidd cyfreithlon; a phe na byddai ganddo rai, i Mr. John Evans, fy nghydweinidog, a'i etifeddion gwrywaidd cyfreithlon; a phe na byddai ganddo rai, i'r Dr. Edmund Calamy, a'i etifeddion gwrywaidd cyfreithlon; a phe na byddai ganddo rai, i ynadon Edinburgh, yngogledd Brydain, yr hyn oll a ddamweinia fod yngweddill, ynglŷn â Glasgow, neu y Gymdeithas yn Ysgotland er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol; felly hefyd yr hyn oll a ddaw yn ddyledus i mi am weddill y term o naw cant pedwar ugain a phedair ar bymtheg oddi wrth y Trysorlys; y llôg oddi wrth waith dwfr y Tafwys; fy meddiannau yn ac o gylch Trallen a Gresford, y rhai a brynais gan deulu a elwir Meredith; a'r hyn sydd ger llaw Holt, yr hwn a brynais gan Mr. Weavor; a'r meddiannau yn Burton a Crosshowel, y rhai y mae fy mrawd a'm chwaer Roberts i'w dal am eu hoes, neu eiddo cyfartal o ran gwerth, os gwrthoda fy ngwraig y ddarpariaeth fwy manteisiol a wneuthum yma iddi hi a'i pherthynasau; felly hefyd yr hyn a brynais gan Mr. Maddocks yn ardal Clare, yn Suffolk, ynghyd â'r holl diroedd a'r tai rhwymedig wrth fy anwyl wraig dros ei hoes, oddigerth Totham, fel y mae wedi cael ei bennodi yn barod, a phob math o eiddo rhydd-ddaliadol; etto mewn ymddiriedolaeth yn unig, fel i bob un a phawb o'm hetifeddion appwyntiedig i'r amcanion a'r dibenion a nodir yn ol llaw, i gynnorthwyo a ddamweinia fod yngweddill, sef fod Mr. William Lorimore, y Dr. Oldfield, y Dr. Edmund Calamy, Mr. William Tong, Mr. Mathew Henry, Mr. Benjamin Robinson, Mr. Zachary Merrel, Hampstead; Mr. John Evans, fy nghydweinidog; Mr. William Harris, Mr. Thomas Reynolds, Mr. Isaac Bates, Mr. Jeremy Smith, Mr. Read, gweinidogion yr efengyl i gyd; Mr. John Morton, lliain werthwr; Mr. Edmund Farrington, ieu.; Mr. William Adee, Mr. Jonathan Collyer; fy mab, Mr. Benjamin Sheppard; fy mab, Mr. Francis Barkstead; Mr. Archer, Mr. Richard Watts, Mr. Isaac Honywood, Mr. George Smith, mab Mr. Thomas Smith; hyny yw, y cyfryw o honynt a dderbyniant fy ymddiriedolaeth, ac i ddewis eraill os gwrthyd rhai, neu os byddant farw o'm blaen i. A gall, a cha eu cynddrychiolwyr a'u holynwyr, ar yr ammodau ac yn ol y trefniadau a nodir yn ol llaw, sefyll, aros, a meddiannu pob rhan o'r eiddo am yr yspaid o ddwy fil o flynyddoedd, a meddu pob awdurdod i ddefnyddio pob moddion cyfreithlon i godi y rhenti a'r ennillion a ddeillia oddi wrthynt, ond i'w defnyddio i'r gwasanaeth a'r amcanion, fel y byddant yn ol cydwybod yn rhwym o wneud os derbyniant yr ymddiriedolaeth.

"A'm hewyllys yw fod i'r dywededig William Lorimore, y Dr. Oldfield, a'r lleill o'r personau rhag-grybwylledig, a'u cynddrychiolwyr, i gael hawl a meddiannau am ddwy fil o flynyddoedd ar ol fy marwolaeth, y cwbl o bob ennillion a ddeilliant oddi wrth fy hawliau ar y Trysorlys, tiroedd, etifeddiaethau, yr hyn a fyddo yngweddill ac olfeddiant cymmunedig a rhoddedig i'm dywededig etifeddion, fel y nodwyd uchod, gan roddi o honynt a thalu i'r dywededig Stephen Davies, a'i etifeddion gwrywaidd cyfreithlon, a'r lleill yn olynol, fel y delont, yn ol fel y mae fy mhennodiad uchod, y swm o wyth bunt y flwyddyn, os appelir yn rheolaidd am danynt at y rhan fwyaf o'r ymddiriedolwyr crybwylledig, gan ddangos o bryd i bryd gopi profedig o fy ewyllys hon pan yn hawlio yr ardreth grybwylledig. A'm dymuniad yw fod i'r dywededig Mr. Moses Lorimore, y Dr. Oldfield, Mr. George Smith, a'r lleill o'r ddau ar hugain crybwylledig, a oroesant unrhyw un o'r nifer, fod i'r cyfryw oroeswyr i gael eu galw ynghyd, a phan gyfarfyddo y rhan fwyaf o honynt, iddynt enwi person neu bersonau i lenwi lle y rhai a fyddont wedi marw, y personau a appwyntir i fod y fath ag a farnont yn ffyddlon a chymmwys, ac yn byw ger llaw Llundain. A boed i'r personau a etholir o dro i dro ymrwymo yn ddifrifol i fod yn ffyddlon yn rheoliad yr hyn a gymmerant mewn llaw; a boed i'r rhai a etholir felly gydsynio i ethol y rhai a farnont hwythau yn gymmwys i leoedd gweigion a ddigwyddant drwy farwolaethau unrhyw nifer o honynt, naill ai o'r rhai a enwir yn awr genyf fi, neu y rhai a etholir o bryd i bryd, fel y byddo y rhif yn cael ei gadw yn llawn. A pha bryd bynag y byddo etholiad yn cymmeryd lle, caed yr holl ymddiriedolwyr a fyddont byw wybod yr amser a'r lle. Fy ewyllys hefyd yw fod i'r rhai a etholir o bryd i bryd gael yr un hawl, braint, ac awdurdod ag a roddais, neu a roddaf etto, i'r rhai a enwais yn barod yn ymddiriedolwyr. Fy ewyllys hefyd yw fod i'r dywededig Mr. William Lorimore, y Dr. Oldfield, Mr. George Smith, a'r lleill a enwais uchod gyd â hwynt, a dderbyniont yr ymddiriedolaeth, a'r lleill a etholir ganddynt i gydweithio â hwynt, ac yn olynwyr iddynt, hwy, eu cymmun-weinyddwyr, eu hol-weinyddwyr, a'u cynddrychiolwyr, un neu rai o honynt a bennodir o bryd i bryd gan y mwyafrif o honynt, i dderbyn holl ardrethoedd, cynhyrchion, ac ennillion y meddiannau rhag-grybwylledig, am y tymor a nodwyd. A fy ewyllys yw na byddo i un ran o honynt, un amser, gael ei ddefnyddio er budd unrhyw berson neu bersonau, neu gymdeithas a fyddo yn perthyn i neu mewn cyssylltiad âg Eglwys Rhufain; ond fy nymuniad yw i'r ennillion gael eu defnyddio er gogoniant Duw, i ledaenu a hyrwyddo Cristionogaeth bur ddigymmysg, ac i gynnal y tlodion; ac i hyn, dan yr ammod hon, y mae fy anrheg a'm rhodd hon yn perthyn. Gan hyny, fy ewyllys yw fod iddynt ddewis a phennodi rhyw berson pwyllog, duwiolfrydig, yn y trefi canlynol—Dinbych,† Fflint, Caernarfon, Trefaldwyn, Beaumaris, neu Conwy, Meirionydd, neu Holt, a Chelmsford, er dysgu ugain o blant tlodion i ddarllen Saesneg, ac i'w hegwyddori yn y grefydd Gristionogol, i barhau cyhyd ag y barno fy ymddiriedolwyr hyny yn ddoeth a phriodol, ac nid yn hwy, gan dalu wyth bunt y flwyddyn i bob un o'r cyfryw athrawon, cyhyd ag y byddo pob un o honynt yn gymmeradwy yngolwg y dywededig ymddiriedolwyr, y rhai a roddant i bob plentyn un copi o'r Catecism a elwir yn gyffredin 'Catecism y Gymmanfa,' ynghyd â'r protion yn gyflawn, ac un o'm llyfrau a elwir 'Gwagedd Plentyndod ac Ieuengctid,' pan ddelont i allu adrodd y Catecism

* Boston, prif ddinas New England gynt, cartref Trindodiaeth, yw y lle enwocaf yn America yn awr am ei Undodiaeth, beth bynag sydd wedi dyfod o'r cymmunroddion hyn.

† Yn 1726, cynnygiodd yr ymddiriedolwyr i offeiriaid a phrif drefwyr Fflint, Conwy, a Beaumaris, osod i fynu yn y lleoedd yna ysgolion ar eu traul eu hunain; ond gwrthododd y gwŷr da dderbyn y cynnyg, nid am eu bod yn ofni y draul, eithr am eu bod yn ofni y gosodid Anghydffurfiwr yn athraw; ac yn 1749, trefnasant i adeiladu ysgolion yn Newmarket, Pwllheli, a Carreg-Ceinwen, ym Môn. Appendix yr Ewyllys, H. 43.

Digitized by Google

heb y profion, a Bibl pan ddelont i allu myned drwy y profion. Yr wyf yn ewyllysio i'r un dull a threfn barhau gyd â'r plant yng Ngwrecsam ar ol marwolaeth fy mrawd a'm chwaer Roberts; a bod i'r deg punt a delir ganddynt hwy i'r athraw yno i gael eu hychwanegu yn bymtheg punt yn y flwyddyn, fel y gallo pump ar hugain o fechgyn gael, nid yn unig eu hegwyddori fel cynt, eithr dysgu y cyfryw o honynt a fyddont yn dewis i ysgrifenu hefyd. Yr wyf yn dymuno fod rhywun ymhob un o'r lleoedd yna yn cael ei bennodi i edrych fod hyn yn cael ei wneud. Yr wyf yn trefnu fod i'r athrawon weddïo yn ddyddiol gyd â'r plant, ac iddynt gael eu talu yn ofalus tra yn gymmeradwy gan y dywededig ymddiriedolwyr; ac ar farwolaeth neu symmudiad rhai o honynt, fod i eraill gael eu henwi yn eu lle gan fy nywededig ymddiriedolwyr. Yr wyf yn dymuno hefyd i Brotestant hyddysg yn y Wyddelaeg gael ei appwyntio i fod yn bregethwr teithiol ymhlith y Gwyddelod, lle bynag y caffo le i wneud hyny yn y Werddon; a chaiff ei bennodi gan Walter Stevens, Ysw., y Dr. Duncan Cumming, Mr. Joseph Bois, Mr. Nathaniel Weld, yn neu ger llaw Dublin, a'u cynddrychiolwyr o bryd i bryd, yn gystal a chan fy ymddiriedolwyr i; ac yna bod hanner can punt y flwyddyn i gael eu talu yn Nublin i'r crybwylledig Walter Stevens, Duncan Cumming, Joseph Bois, Nathaniel Weld, a'u cynddrychiolwyr, y rhai a'u talant i'r cyfryw bregethwr teithiol Gwyddelig cyhyd ag y byddo yn gymmeradwy ganddynt. A phan fyddo efe marw, neu yr attelir ef ganddynt, dewiser arall at y gwaith, ac i gael y tâl crybwylledig, drwy gydsyniad fy ymddiriedolwyr, a bydded iddynt bennodi rhywun i ofalu am danynt ped esgeulusai y dywededig Stevens a Cumming appwyntio neb i'w derbyn.

"Hefyd, yr wyf yn trefnu i'r dywededig Mr. Lorimore gael, ar ol y flwyddyn gyntaf wedi fy marwolaeth, bum punt y flwyddyn tra fyddo'n byw yn neu ger llaw Llundain. A bod i Mr. William Evans, Caerfyrddin, gael deg punt yn y flwyddyn i gynnorthwyo y cyfryw fechgyn Cymreig a fyddont gyd âg ef yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth yng Nghymru; ac yr wyf yn ewyllysio i hyn gael ei barhau i'r neb a ymgymmero â'r gwaith wedi i Mr. Evans ei adael, os bydd fy ymddiriedolwyr a'u cynddrychiolwyr yn gymmeradwyo y cyfryw bersonau.

"Hefyd, yr wyf yn ewyllysio, ar farwolaeth fy mrawd a'm chwaer, fod deg punt y flwyddyn i gael eu talu i Mr. Kenrick, o Wrecsam, tra y parhao yn weinidog i'r gynnulleidfa honno, lle y mae yn bresennol; a'r un swm i'r rhai a ddeuant ar ei ol i weinidogaethu i'r gynnulleidfa grybwylledig, tra y parhao yn ei ffurf Bresbyteraidd bresennol.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi i Mr. Gidley, o Marlow, ddwy bunt yn y flwyddyn tra fyddo byw, heb law ugain swllt, y rhai sydd i'w talu iddo o fewn mis ar ol fy marwolaeth.

"Hefyd, yr wyf yn rhoddi i Mr. Chandler, Bath, ac i'w frawd, Mr. Chandler, yr hwn sydd yn weinidog yn neu ger llaw Surrey, neu Sussex, ddwy bunt yr un yn flynyddol tra fyddont byw, i gael eu talu am y tro cyntaf yr ail flwyddyn ar ol fy marwolaeth; a'r un faint i Mr. Stevens, y gweinidog a enwais yn barod; a phum punt y flwyddyn i Mr. Cumming, yr hwn sydd yn weinidog yn Caergrawnt, tra yr arhoso yno; a dwy bunt y flwyddyn am ei oes i Mr. Benson, sydd yn weinidog yn Sandwich; yr un faint i Mr. Bradshaw, gweinidog yn Ynys Thanet; yr un faint am ddwy flynedd i Mr. Moor, sydd ger llaw Shoreditch. Yr wyf yn rhoddi i'm mab Sheppard a'i ferch Elizabeth Barkstead, ac i'm mab Francis Barkstead, ddeg punt yr un i gael galarwisgoedd.

"Hefyd, yr wyf yn trefu fod i'r llyfrau a argrephais, er yn lled ddiwerth, gael eu casglu, a'u hail argraphu yn rhanau priodol; y flwyddyn gyntaf, argrapher mil a phum cant o honynt, a rhodder hwynt yn rhad i bobl dlodion, sef yr holl rai sydd heb fod o duedd ddadleugar; argrapher nifer llai o'r rhai sydd yn llai adeiladol, bob pum mlynedd, am ugain mlynedd, a phob deng mlynedd, am ddeng mlynedd ar hugain; bob ugain mlynedd, am ddwy fil o flynyddoedd. Ond yr wyf yn ewyllysio i'm traethodau, 'Childhood and Youth,' 'Gospel Truth,' 'Man made Righteous,' 'The Answer to the Report,' 'End to Controversy,' a 'Ministerial Office,' gael eu hargraphu fil o bob un o honynt, ar yr adegau rhag-grybwylledig, a'u rhoddi i fyfyrwyr a phersonau cymmwys, sef 'The Vanity of Youth and Childhood' i gael ei roddi i'r tlodion, y rhai a ellir eu hargraphu yn amlach er mwyn yr ysgolion; a'r pump arall i gael eu rhoddi i bobl o alluoedd ehangach. Yr wyf yn dymuno fod i'r pump hyn gael eu cyfieithu i'r Lladin a'u rhanu mewn gwledydd tramor, a 'Childhood and Youth' i'r Gymraeg, a bod pum cant o hono i gael ei argraphu yn Gymraeg yr ail flwyddyn wedi fy marwolaeth, a gwneler hyny mor aml ag y byddo yn angenrheidiol.

"Yr wyf yn ewyllysio i Hugh Roberts, fy mrawd, a Mr. Francis Wooley, hynaf, siderydd, yn Llundain, fod yn gymmun-weinyddwyr i mi, ac yr wyf yn eu pennodi felly; ac yr wyf yn rhoddi i'm brawd, Roberts, ugain punt at yr hyn a roddais iddo o'r blaen; ac yr wyf yn rhoddi can punt i Mr. Francis Wooley, yr hyn a wasanaetha yn lle pob buddiannau neu ennillion a allant hawlio dan yr ewyllys hon. O ba herwydd yr wyf yn trefnu fod iddynt, ar ol talu y symiau arian a adewais yn gymmun-roddion ar y llen gyntaf, ac ar yr ail len, hyd nes y crybwyllir fy rhodd i Glasgow; a hefyd, can punt i'r Gymdeithas yn Ysgotland, ar yr un ddalen, a chan punt i Mr. Theophilus Parsons, mab Mr. Thomas Parsons; a chadw eu cymmunroddion a'u treuliau eu hunain, talu am gladdu, a modrwyau o werth ugain swllt yr un i'r rhai hyny o'r ymddiriedolwyr sydd heb gael dim yn fy ewyllys; yr un fath i'r Dr. Upton, y Dr. Charles Morton, gwraig Mr. John Morton, Mr. John Farringdon, gwraig Mr. Edward Farringdon, ac i Mr. Richard Stretton, hynaf, gweinidog; ugain punt i dalu am lyfrau at wasanaeth yr ynysoedd Ysgotaidd, yr hyn, fel y dywed efe, a adewais, er y meddyliaf fy mod wedi ei newid, trwy roddi can punt i'r gymdeithas, yr hyn a addawais yn union ar ol iddo fod yn siarad â mi; a hefyd, modrwy o'r un gwerth i Mrs. Kenrick, ac i bob un o'i merched.

"Fy ewyllys ymhellach yw, os bydd yr arian dyledus i mi yn fyr i dalu y cymmun-roddion, neu unrhyw symiau eraill o arian a drefnais, neu a drefnaf etto, i'm cymmunweinyddwyr i'w talu, fod y rhelyw i gael eu talu gan fy ymddiriedolwyr. Ac os bydd gan fy nghymmunweinyddwyr ddigon o arian i gyfarfod y taliadau hyn, yna rhoddant i fynu i'm hymddiriedolwyr crybwylledig beth bynag a fyddo yn aros, naill ai arian, ysgrifrwymau, prydlesoedd, cyfraniadau yng ngwaith dwfr y Tafwys, nawdd ysgrifau, a phob ol-ddyledion rhenti, a phob rhan arall o'm heiddo, i'm dywededig ymddiriedolwyr, i'r rhai yr wyf yma yn rhoddi y cwbl a phob rhan o honynt (oddigerth fy llyfrgell) i'r amcanion a ddywedwyd yn barod, ac yn ddarostyngedig i'r trefniadau a wneir yn ol llaw.

"Hefyd, yr wyf yn ewyllysio ac yn pennodi fod i'm dywededig ymddiriedolwyr, a'u cynddrychiolwyr, ddefnyddio y cwbl a phob rhan o'r ennillion a ddaw yn flynyddol oddi wrth yr eiddo a adewais iddynt mewn un ran o'm hewyllys, na ddywedir i beth yn yr ewyllys hon, nac yn yr atddodiad, yn y drefn ganlynol, a rhanu y derbyniadau presennol ac olfeddiannol, rhwng yr amcanion hyn—sef, yr wythfed ran am Fiblau, Catecismau, a llyfrau da ymarferol yn Saesnaeg a Chymraeg, i'w rhoddi yn rhad i dlodion gwahanol ardaloedd yn olynol, a hyny y flwyddyn hon; y ddegfed ran i'r cyfryw wragedd gweddwon gweinidogion tlodion a farnont yn fwyaf cymmwys; y bumed i weinidogion tlodion yr efengyl, y rhai a fyddont yn uniongred a chymhedrol eu golygiadau, i gael eu dewis a'u henwi gan fy ymddiriedolwyr; yr wythfed ran i dalu am

Digitized by Google

ddysgu galwedigaeth gyffredin i langciau sobr, o rieni duwiol, a'r rhan fwyaf o honynt i gael eu dewis o blith y rhai a fyddont wedi cael eu hegwyddori yng Ngwrecsam, fel y dywedwyd uchod: y lleill i gael eu dewis o'r lleoedd eraill yng Nghymru, lle y pennodais athrawon; yr wythfed ran i gynnorthwyo y rhai hyny i gael addysg at y weinidogaeth a fyddont wedi treulio tair blynedd yn flaenorol i efrydu y gwybodau eraill, ar ol gadael yr ysgolion grammadegol, ac yn ymddangos yn obeithiol; pennodir hwynt gan fy ymddiriedolwyr; cânt gymmorth i fyned ym mlaen gyd â'u hefrydiau am ddwy flynedd yn Glasgow, os Ysgotland a ddewisa fy ymddiriedolwyr. Ond yr wyf yn eu gadael at eu rhyddid i ddewis y lle a farnont orau yn ol yr amgylchiadau. Yr wyf yn ewyllysio i'r arian gweddill a dderbynir oddi wrth fy eiddo personol a rhydd-ddaliadol gael eu talu gan fy ymddiriedolwyr i'r cyfryw bersonau o ddysg, barn iach, ac egwyddorion difrifol, a bennodir ganddynt i bregethu yr efengyl yng Nghymru: y drydedd ran i fod yn Neheudir Cymru, y ddwy ran arall yng Ngogledd Cymru; a chaed y personau hyn hwynt yn gyntaf—Mr. Baddy, cyhyd ag y byddo yn Ninbych; a Mr. Parrot, o sir Ddinbych; Mr. Philips, Caernarfon; Mr. Howel Powel, yn Neheudir Cymru; Mr. Edward Kenrick, ym Meirionydd; os na fydd fy ymddiriedolwyr yn gweled achos i wneud cyfnewidiad, neu i'w hattal.

"Yr wyf yn dymuno, ac yn trefnu, fod i'm dywededig ymddiriedolwyr a'u holynwyr gyfarfod unwaith, o leiaf, bob chwarter yn Llundain, a chymmeryd dwy bunt i dalu eu treuliau bob cyfarfod, fel y gallont drefnu a hyrwyddo yr amgylchiadau rhag-grybwylledig, ac i edrych i fewn i'r cyfrifon, y derbyniadau, a'r taliadau; ac os bydd i rai o honynt hwy neu eu holynwyr symmud ymhell o Lundain, neu esgeuluso yn wirfoddol, neu gam arfer yr ymddiriedaeth, neu gael eu hanalluogi i gario allan yr amcanion yn ffyddlon a gofalus, yna bod i'r lleill o'r ymddiriedolwyr a'u holynwyr, o bryd i bryd, ethol rhai yn eu lle, ac amddifader y rhai gwrthodedig o bob gallu a hawl i ymyryd o gwbl â'r ymddiriedaeth hon, ac â phob peth perthynol i'r eiddo. Yr wyf hefyd yn appwyntio fy ymddiriedolwyr i fod yr unig feirniaid ar wir ystyr pa beth bynag a all fod wedi cael ei eirio yn amryfus neu dywyll, naill ai ynglŷn âg enwau y rhai sydd i gael y cymmun-roddion, neu unrhyw beth arall, ac yn eu hawdurdodi hwy i roddi prydles o naw mlynedd ar y tai a'r tiroedd am eu llawn werth,* a bod i'r holl dreuliau a chostau gohebu, amddiffyn yr hawl, a chasglu y rhenti a'r ennillion, a pha beth bynag arall a fyddo yn angenrheidiol ei wario ynglŷn â'r eiddo a adewir iddynt i'w reoli, gael ei dalu o'r ennillion am y cyfnod o ddwy fil o flynyddoedd, fel y dywedwyd; a'r un fath bob treuliau a achosa gweinyddiad yr ewyllys hon i'm cymmun-weinyddwyr. A phe byddai un neu fy nau gymmun-weinyddwr yn marw, dymunaf arnynt bennodi eraill, y rhai a gymmeradwya fy ymddiriedolwyr, i lanw eu lle ynglŷn â'r amgylchiadau hyn. Hefyd, os costia rywbeth i'r naill neu'r llall o'm hetifeddion i ddiogelu yr hyn a gyflwynir i'w cadwraeth, taler ef o'r eiddo, fel i'r ymddiriedolwyr, yr hyn a drefnaf ymhellach ar ol hyn. Yr wyf yn ewyllysio hefyd i'r gweithredoedd sydd yn dangos fy hawl i'r gwahanol feddiannau gael eu cofysgrifenu yn y Canghellys, oddigerth y rhai am yr eiddo yn Middlesex, y rhai sydd i gael eu cofrestru, a'r ysgrifeniadau a wnaed cyn y gweithredoedd, y rhai sydd yn cadarnhau fy hawl, gael eu cadw yn ofalus gan y neb a bennodir gan fy ymddiriedolwyr; ac i ddau neu dri o honynt gael copi o bob un, ond o'r hyn sydd yn perthyn i Loegr Newydd, y rhai y gorchymynaf iddynt gael eu gosod yn nhrysordy y gymdeithas honno. Ac er y carwn gofysgrifio gweithredoedd y tiroedd yn Barnet, Totham, a Calworth; hefyd, bod i'r ysgrifeniadau a'r gweithredoedd blaenorol gael eu rhoi i'w cadw fel y penderfynir gan bersonau wedi eu happwyntio gan goleg Glasgow, a'r Gymdeithas yn Ysgotland er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, o'r naill du, a rhai wedi eu happwyntio gan fy ymddiriedolwyr o'r tu arall. Yr wyf yn gorchymyn hefyd fod i'm hewyllys hon gael ei chofysgrifio, a'm hetifeddion yn olynol i gael copi o honi; fy nghymmun-weinyddwyr i gael un arall; a dau arall i fod yngofal y cyfryw o'm hymddiriedolwyr a bennodir gan y mwyafrif o honynt.

"Ond fy ewyllys yw, ac yr wyf yn gorchymyn, fod i'r dywededig Steven Davies, a'i etifeddion gwrywaidd, hawlio a chymmeryd meddiant o'r cwbl, ac o bob rhan o'r eiddo a rwymir wrthynt, er budd a lles dinasoedd Edinburgh a Glasgow, ar ol dwy fil o flynyddoedd, os goddefir i'm dywededig ymddiriedolwyr ddefnyddio y cwbl a phob rhan o'r ennillion i'r amcanion a'r personau a bennodais uchod; neu os bydd i'm hymddiriedolwyr crybwylledig unrhyw adeg yn ystod yr amser yna gael eu hanalluogi, trwy unrhyw ddeddf neu gyfraith sydd yn awr yn bod neu a wneir, i dderbyn yr ennillion, a'u talu at y cyfryw amcanion ac i'r cyfryw bersonau a fyddont yn dewis, yr wyf yn awdurdodi dinasoedd Edinburgh a Glasgow i dderbyn a dal y meddiannau am byth, fy holl diroedd, gwaith dwfr y Tafwys, a'm tai, a'r holl ennillion oddi wrthynt; hyny yw, y cwbl ar derfyn y ddwy fil blynyddoedd, os goddefir i'm hymddiriedolwyr, a'u holynwyr, a'u cynddrychiolwyr gario allan yr ymddiriedaeth a roddais iddynt, ac aros mewn awdurdod i ddefnyddio yr ennillion fel yr wyf wedi cyfarwyddo; ond os analluogir fy ymddiriedolwyr, fel y nodais, i dderbyn a defnyddio yr arian at yr amcanion y rhoddais hwynt, fy ewyllys yw, ac yr wyf yn gorchymyn, er unrhyw drefniad a wnaed arnynt i'm hymddiriedolwyr dywededig, fod cymmaint o'm tai a'm tiroedd, gwaith dwfr y Tafwys, yr hyn sydd yn ddyledus i mi o'r Trysorlys, a pha beth bynag a berthyn iddynt yn ol yr ewyllys hon, neu yn olfeddiant, os deil fy ewyllys, ac os cerir hi allan yn gyflawn; nis gall fy ymddiriedolwyr, meddaf, hawlio y rhan honno yr analluogir hwynt i'w derbyn a'i defnyddio i'r amcanion at y rhai yr wyf wedi eu rhoddi; nid wyf ychwaith, drwy fy ewyllys hon, yn bwriadu rhoddi iddynt hawl na gallu i feddiannu mwy o'm heiddo nag a ddefnyddir at yr amcanion, ac a roddir i'r personau a bennodais yn barod; ac ni chânt ddal na meddiannu mwy o gynhyrchion fy eiddo a'm meddiannau nag a allont, ac y caniateir iddynt eu rhoddi allan i'r amcanion, y gwasanaeth, a'r personau a enwir ganddynt, fel yr wyf wedi cyfarwyddo uchod. Rhodder yr hyn na ddefnyddir i'r amcanion crybwylledig i Edinburgh a Glasgow dros byth at yr amcanion canlynol—sef, os na ddeuant ond o ran yn unig drwy analluogiad fy ymddiriedolwyr, bydd arnynt i dalu deugain punt y flwyddyn at draul Cymmanfa Gyffredinol Eglwys Ysgotland, cyhyd ag y parhao y dywededig gymmanfa a'r eglwys yn ei ffurf bresennol; a'r gweddill i gael ei roddi allan i adeiladu a gwaddoli dau elusendy, un ymhob un o'r dinasoedd crybwylledig, a'r rhai hyny i gael eu gwaddoli drwy ranu yr ennillion yn gyfartal rhwng Edinburgh a Glasgow, ac i gael eu defnyddio yn gyfartal yn ol yr hyn a ennillant, naill ai ar derfyn y ddwy fil blynyddoedd, os goddefir i'm hymddiriedolwyr gario allan fy holl amcanion yn yr ymddiriedaeth a roddais iddynt; neu, pe caent eu rhwystro, fel yr wyf wedi son yn barod. Ac yr wyf yn ewyllysio i'r elusendai crybwylledig fod at wasanaeth pobl dda, oedranus, neu fethiedig; a bod fy ymddiriedolwyr a'u holynwyr i gael yr hawl i ddewis un hanner o honynt, naill ai o Dde neu Ogledd Brydain; a bod pob un o'r tlodion a dderbynir i fewn i gael dau swllt yr wythnos, a'r rhai a dderbynir o Ddeheudir Brydain i gael punt yr un i dalu am eu cludo yno, a'm hymddiriedolwyr i dalu y gweddill; ond os daw terfyn ar reolaeth fy ymddiriedolwyr a'u holynwyr dros bob rhan o'r ymddiriedaeth a roddais iddynt, yna rhodder

* Yn 1756, caniataodd y Canghellys i'r ymddiriedolwyr roddi prydles un ar hugain ar y tai a'r tiroedd, er mwyn denu y bobl i wneud gwelliantau, ac i roddi prydles o dri ugain mlynedd ac un ar y tai o gylch Westminster a Llundain.

y flaenoriaeth i'r personau o Ddeheudir Brydain a gymmeradwyir gan dri gweinidog, yn lle y rhai yr oedd fy ymddiriedolwyr i'w pennodi.

"Ymhellach, yr wyf yn gorchymyn hefyd, os bydd i'm hymddiriedolwyr appwyntiedig, a'u holynwyr, esgeuluso yn hollol yr ymddiriedaeth hon, fel na byddo iddynt gyfarfod am ddwy flynedd o amser i drefnu un ran o honi, oddigerth yn amser rhyfel neu bla; yna yr wyf yn trefnu fod, os nad ymgymmer rhai o honynt â rheolaeth y rhanau hyny o'r ymddiriedaeth sydd o dan eu rheolaeth, o fewn tri mis ar ol y ddwy flynedd, fel y dywedwyd; yna fod i'r dinasoedd Edinburgh a Glasgow, o'r amser hwnw, i gael awdurdod i gymmeryd meddiant o'r cwbl a phob rhan o'r eiddo oedd yn gyfreithlon yn llaw fy ymddiriedolwyr i'w drefnu a'i reoli o fewn y ddwy flynedd a thri mis, ac i gael ei ddefnyddio at yr elusendai crybwylledig, gyd â'r rhodd a enwais uchod at wasanaeth y gymmanfa, yr hon, yn yr amgylchiad hwn, a wneir yn bedwar ugain punt; felly hefyd ar derfyn y ddwy fil blynyddoedd.

"Hefyd, yr wyf yn gorchymyn i bleidlais mwyafrif fy ymddiriedolwyr a fyddont yn bresennol mewn cyfarfod benderfynu pob achos; ond rhaid i ddeuddeg o honynt bob amser fod yn bresennol (os bydd cynnifer a hyny o honynt byw ger llaw Llundain, ac yn rhydd oddi wrth bob gorfodaeth) pan yn rhoddi prydlesoedd, yn ethol olynwyr, ac yn trin pob achos arall o bwys. Ac mewn amgylchiadau o farwolaethau, fel y dywedwyd, pan elwir ynghyd bob un o honynt a fyddo ger llaw Llundain i ddau gyfarfod yn olynol, bydd i'r hyn a benderfynir yn y cyfarfod cyntaf, wedi anfon hyspysrwydd o hono i'r rhai a fyddont yn absennol yn neu o gylch Llundain, ac a gadarnheir yn yr ail gyfarfod i sefyll, pe na byddai ond saith yn bresennol, os na fyddant yn wirfoddol wedi esgeuluso ethol rhai i lanw lle y rhai a fyddont wedi marw, a'r rhai a wrthodant reoliad yr ymddiriedaeth, ar ol unwaith ei derbyn; neu fod yn byw fwy na deng milltir o Lundain; neu y cyfryw a fernir gan bymtheg o'm hymddiriedolwyr a fyddont yn ymdrechu dyrysu a dirymu yr amcan sydd genyf mewn un ran o bwys yn fy ewyllys hon; am y tri achos diweddaf hyn y maent i gael edrych arnynt fel yn farw, ac eraill i gael eu hethol yn eu lle gan fy ymddiriedolwyr. Yr wyf yn ewyllysio hefyd i Mr. J. Collyer, hynaf, sidanydd, gan roddi sicrwydd digonol, i dderbyn a thalu yr hyn a bennoda yr ymddiriedolwyr, a chadw y cyfrifon mewn llyfr ar wahân, a bod copi o hono i gael ei roddi bob hanner blwyddyn i un o'r ymddiriedolwyr a bennodir gan y lleill; a hefyd, talu fy nghymmun-roddion fel y cyfarwyddo fy nghymmun-weinyddwyr; a chaffed am ei drafferth ddeg punt ar hugain y flwyddyn, heb law treuliau y gohebiaethau, a phethau angenrheidiol eraill; a pharhaed yn ei swydd hyd nes y gwelo fy ymddiriedolwyr achos i'w symmud; ac efe a fydd i anfon hyspysrwydd o'r cyfarfodydd pan yn angenrheidiol, neu pan fyddo unrhyw dri o'r ymddiriedolwyr yn galw am hyny, a gwnaed ei olynwyr yr un fath, y rhai sydd i gael eu hethol o bryd i bryd yn unig gan fy ymddiriedolwyr, a'u diswyddo pan welont hyny yn briodol. Yr wyf hefyd yn gadael i'r dywededig J. Collyer gan punt i'w talu iddo ef, neu i'w —— bresennol, os bydd hi byw ar ei ol, y drydedd flwyddyn wedi fy marwolaeth.

"Ac am fy llyfrgell, yr wyf yn ewyllysio i'r llyfrau sydd a dau gopi o honynt yma, a rhyw lyfrau diwerth, i fod mewn llyfrgell gyhoeddus, i gael eu rhoddi ymaith i'r rhai y byddant yn ddefnyddiol iddynt, ac sydd mewn angen am danynt: mae fy anwyl wraig i gadw y rhai sydd yn perthyn iddi hi; ac yr wyf yn rhoddi y lleill at wasanaeth llyfrgell gyhoeddus, fel y pennoda fy ymddiriedolwyr; ac yr wyf yn gorchymyn i'm cymmun-weinyddwyr, gyd â chyfarwyddyd fy ymddiriedolwyr, brynu rhyw adeilad, mewn lle gweddol rad a chyfleus, y tu fewn neu y tu allan i furiau dinas Llundain, megis gweithdy sidanydd, neu rywle o'r fath, yn cynnwys lle i un dŷn, i'r hwn y rhydd fy ymddiriedolwyr, o bryd i bryd, gadwraeth y llyfrau crybwylledig, o'r rhai y cedwir dwy gofrestr (*catalogues*), un yngofal y llyfrgellydd, a'r llall gan yr hwn a ddewiso yr ymddiriedolwyr, yn y rhai y gellir gosod enwau y llyfrau y dichon i ryw bersonau eraill ychwanegu ati; ac o danynt, ysgrifener enwau y rhoddwyr; a thaled fy ymddiriedolwyr ddeg punt yn y flwyddyn i'r cyfryw lyfrgellydd; pregethwr ieuangc a fyddai y cymhwysaf at hyny; gan roddi sicrwydd am ei ffyddlondeb a'i bresennoldeb ar yr adegau a bennodant hwy. Ond os na cheir adeilad briodol, yna pryner dernyn bychan o dir, ac adeilader lle cymmwys i'r amcan hwn, heb fod yn wych na rhy ehang; a bydded i'm cymmun-weinyddwyr lawnodi gweithred y trosglwyddiad i'm hymddiriedolwyr, gan gyhoeddi yr adeilad honno a brynir, neu a adeiledir, i fod mewn ymddiriedaeth at yr amcan y trefnir y lle a'r llyfrau genyf. A bydded i'r ymddiriedolwyr gadw yr adeilad a brynir neu a adeiledir yn drefnus, a chynneuer tân ynddi yn awr ac eilwaith er diogelwch y cyfryw lyfrau.

"Yn gymmaint a bod Mrs. Mary Milbourn wedi gadael mewn ewyllys i mi, Mr. Hughes, a Mr. Edmund Calamy, fy nghydweinidog ar y pryd, rai tiroedd a thai yn neu ger llaw Enfield, ynghyd â swm o arian, pe bai Nehemiah Fromanlle yn marw heb etifeddion cyfreithlon cyn bod yn un ar hugain oed, ac wedi fy awdurdodi i enwi a phennodi ychwaneg o ymddiriedolwyr, yr wyf yma yn enwi Mr. Thomas Reynolds, Mr. Benjamin Robinson, a Mr. J. Evans, gweinidogion yr efengyl, i fod yn gydymddiriedolwyr, ac i gael awdurdod a hawl gyfartal fel yr oedd, neu fel y dylasai fod, genym ni y tri rhag-grybwylledig.

"Rhag i neb feddwl fy mod yn rhoddi mwy nag sydd genyf, yr wyf yn hyspysu fod o ddeutu pymtheg punt a deugain, gweddill yr arian a adawyd i mi i'w trefnu gan Mrs. Milbourn at yr amcanion a bennodasid ganddi hi, y rhan fwyaf o'r rhai a roddais i'w cadw yngofal gof aur, wedi colli. Rhoddodd un arall, yr hwn a'm rhwymodd i gadw ei enw yn guddiedig, ugain punt y flwyddyn i'm gofal, a saith gant a hanner yn un swm; ond gorchymynodd i mi roddi benthyg dau gant yn ddilôg; ac yr wyf yn credu eu bod oll wedi colli.

"Yr wyf yn dymuno ar y bendigedig Dduw, er mwyn Iesu Grist, pen yr eglwys, eiddo yr hwn ydwyf, a'r hwn yr wyf am ei wasanaethu, ar fod i'm hewyllys hon, trwy ei fendith a'i allu ef, gyrraedd ei hamcan, a chael ei gweinyddu yn ffyddlon: gan attolwg, yn enw y Duw mawr a chyfiawn, ar bob dŷn y mae neu a fyddo a fynno â hyn, fod yr hyn a fwriedais i'w ogoniant ef a lles dynion gael ei wneud yn onest, yn ddoeth, a gofalus, i'r cyfryw amcanion, fel yr ydwyf, yn ol fy marn, wedi cyfarwyddo yn fy ewyllys a'm testament diweddaf hwn."

Arwyddwyd yr ewyllys gan y Dr. Williams ar y 26ed o Fehefin, 1711, ym mhresennoldeb Isaac King, Solomon Fromanlle, a Susannah King. Y mae'r attodiad hwn yn canlyn, a amserwyd yr 22fed o Awst, 1712:—

"Wedi selio yr ewyllys uchod, prynais Temple Manor, yn Essex, ac olfeddiant y Glover's Hall, a'r tai sydd yn perthyn iddi, a rhai tai yn Clerkenwell a Coleman Street; a hefyd rai yn Fambridge Ferry; ac yr wyf yn trefnu i'r cwbl gael eu defnyddio gan fy rhag-grybwylledig ymddiriedolwyr at yr un amcanion, ac ar yr un ammodau, gyd â'r gweddill i Glasgow ac Edinburgh at elusendai, fel y dywedwyd uchod.

"Yr wyf yn trefnu y Temple Manor drwy ranlinelliad i'm hanwyl wraig am ei hoes, cynhysgaeth yr hon sydd fel y canlyn:—Fy nhŷ, 30p.; ardreth Westminster, 109p.; y ddau Peveril, 150p.; Totham, 38p.; llôg 1000p., 50p.; blwydd-dal, 14p.; Temple, 38p.=429p."

Bu farw y Dr. Williams ar y 26ed o Ionawr, 1716, gan adael ei feddiannau, fel y dangoswyd, i ofal dau ar hugain o ymddiriedolwyr, sef y dynion mwyaf blaenllaw ym mysg y Presbyteriaid uniongred; ond yn fuan dechreuasant ymadael âg athrawiaeth y Presbyteriaid, ac er bod eu holynwyr, er ys talm, wedi myned yn Undodiaid proffesedig, etto y maent yn glynu wrth yr hen enw. Ond er mai yn nwylaw Undodiaid, dan enw Presbyteriaid, y mae holl reolaeth y cymmun-roddion, ymddengys eu bod yn ofalus dros ben i'w defnyddio i gynnorthwyo achosion a phersonau perthynol i'r Trindodiaid, yn ol amcan y rhoddwr, oddigerth yr ysgolion a'r ysgoloriaethau, y rhai sydd yn agored i bawb o bob enwad, heb holi am ffydd na chredo. Ac er bod hyn, am fwy nag un rheswm, yn ymddangos yn rhyfedd, etto y mae'n ddigon possibl fod yma fwy o degwch yn cael ei wneud â'r arian na phe dan reolaeth yr enwad sydd yn eu cael, o herwydd buasai pobl fawr yr enwad hwnw yn sicr o'u cornelu at eu hamcanion ac i'w cyfeillion eu hunain; ond yn awr, pan y maent o dan reolaeth pobl heb un fantais ganddynt i'w disgwyl oddi wrthynt, nid yw ond naturiol iddynt, tra yn bobl o anrhydedd, i awyddu gwneud y gorau o honynt yn y lleoedd a'r amgylchiadau a farnont yn fwyaf teilwng. Yn ol fel yr oedd y meddiannau yn cynnyddu yn eu gwerth, ychwanegai yr ymddiriedolwyr, o bryd i byd, at y gwahanol gymmun-roddion a dderbynid yng Nghymru, yn gystal ag mewn lleoedd eraill. Bu Treffynon,* Bangor,† Llanbrynmair,‡ Caergybi,§ Dinbych,‖ a Llanuwchlyn,¶ am hir amser yn derbyn 25p. yn flynyddol yr un; a Gwrecsam 35p. at dalu am addysgu plant i ddarllen, a 10p. i weinidog Chester Street, Gwrecsam. Telid hefyd y blynyddoedd diweddaf o ddeutu 130p. am ddysgu galwedigaethau i blant o'r cyfryw ysgolion, a 220p. drwy y 60p. a gafwyd gan Mrs. Roberts, ei chwaer, i gynnorthwyo gweinidogion tlodion yng Ngogledd Cymru, a 80p. i weinidogion y Deheudir. Gwasanaethodd y cymmun-roddion hyn eu cenhedlaeth yn dda am dros gant a hanner o flynyddoedd, mewn gwahanol ddulliau, weithiau i gynnal ysgolion rhad, bryd arall ynglŷn â'r ysgolion Brytanaidd; a chafodd canoedd o blant addysg drwyddynt i'w galluogi i ymgodi i sefyllfaoedd parchus yn y byd. Yn 1871, yr oedd 224 o blant yn derbyn eu haddysg felly yn rhad rhwng y saith ysgol hyn. Pan welodd yr ymddiriedolwyr fod y Llywodraeth yn myned i gymmeryd addysg y genedl i'w llaw ei hun, ac yn myned i ddefnyddo y fath beirianwaith i'w hyrwyddo, penderfynasant gasglu yr holl symiau a roddid at addysg, oddigerth Gwrecsam; codwyd y swm yno i 55p., ac at ddysgu galwedigaethau i'r plant, ac adeiladu ysgol uwchraddol i ferched â hwynt, yr hyn, hyd yma, sydd wedi ei fawr esgeuluso yng Nghymru. Derbyniodd pobl Dolgellau y cynnyg, a buont yn haelfrydig dros ben yn eu cyfraniadau ati; ac y mae o ddeutu cael ei hagor y dyddiau hyn. Tu a'r un adeg, trwy ymdrechion W. D. Jeremy, Ysw., bargyfreithiwr, mab y Parch. J. Jeremy, Caeronen, yr hwn sydd yn un o'r ymddiriedolwyr er ys ugain mlynedd, ac yn awyddus i gadw chwarau teg i Gymru, llwyddwyd i gael ganddynt godi y gymmun-rodd o 10p. a arferid ei thalu i Goleg Caerfyrddin, i 100p., y rhai yn awr a renir yn bedair ysgoloriaeth o 25p. yr un, yr hyn, fel yr hyderir, a ddylanwada i godi awydd yn y to sydd yn dyfod i ragori mewn dysg.

Adeiladwyd y llyfrgell, yn ol yr ewyllys, yn Redcross Street, yr hon a fu am amser maith yn fath o senedd-dy i'r tri enwad. Yno yr arferent gyfarfod i gynnadleddu ar y pyngciau a fyddent yn dal perthynas â hwynt fel Ymneillduwyr, a theimlai pawb fod pob peth yno yn gyffredin. Ond pan oedd y gweinidogion Ymneillduol yn hwylio cyfarfod i dynu allan annerchiad i Victoria ar ei hesgyniad i'r orsedd, hyspyswyd hwynt gan ymddiriedolwyr y Dr. Williams nas gellid caniatâu iddynt gyfarfod mwyach yn y llyfrgell yn Redcross Street, dan yr esgus "nad oedd y fath beth a bwrdd unedig o'r tri enwad mewn bod y pryd hwnw;" ond y gwir reswm, y mae'n debyg, oedd eu bod hwy wedi myned yn ormod o Undodiaid, ac yn eu llaw hwy, yr un fath a'r cymmun-roddion, y mae rheolaeth y llyfrgell. Bu yr amgylchiad hwn yn foddion i ysgaru rhwng y gwahanol bleidiau: aeth y naill a'r llall i chwilio am leoedd iddynt eu hunain; ac er bod y llyfrgell yn awr yn rhydd i'r neb a fyddo yn dewis, etto nid yw y rhwygiad wedi ei wneud i fynu.*

* Cedwid yr ysgol yn Nhreffynnon yn yr ysgoldy perthynol i gapel yr Annibynwyr, ac yn 1866 unwyd y gymmun-rodd â'r Ysgol Frytanaidd.

† Unwyd y rhodd â'r Ysgol Frytanaidd ym Mangor yn 1849.

‡ Symmudwyd yr ysgol o'r Drefnewydd i Lanbrynmair yn 1778.

§ Yn 1849, unwyd y rhodd yng Nghaergybi â'r Ysgol Frytanaidd.

‖ Yn 1849 y symmudwyd yr ysgol o Abergele i Ddinbych, gan ei huno â'r Ysgol Frytanaidd.

¶ Dechreuwyd hi yn Llanuwchlyn yn 1764, symmudwyd hi i'r Bala yn 1845, ac yn ol i Lanuwchlyn yn 1870.—Hanes y Cymmun-roddion, gan W. D. Jeremy, Ysw.

* Bennet's Eminent Dissenters, vol. v., p. 254. Y mae'r llyfrgell wedi cael ei symmud i 16 Grafton Street.



Digitized by Google

Fel hyn y mae'r Dr. Daniel Williams, o Wrecsam, er yn ei fedd yn Bunhill Fields er ys 160 o flynyddoedd, yn dal i lefaru yn eglur mewn rhyw ddull neu gilydd wrth bob congl, nid yn unig o Gymru, eithr o'r byd adnabyddus.

---

## PENNOD XXVI.

### WILLIAM PENN.*

GANWYD William Penn ym mhlwyf St. Catharine, Bryn y Tŵr (*Tower Hill*), Llundain, ar y 14ydd o Hydref, 1644, o ddeutu yr adeg yr oedd yr offeiriad hwnw yn cynghori George Fox i ysmocio, i gymmeryd cartholion (*salts*), a gollwng gwaed, er mwyn iddo dawelu y cythrwfl oedd yn ei feddwl am gyflwr ei enaid. Yr oedd ei dad yn fôrfilwr o'i ieuengctid; gwnawd ef yn gadben pan yn 21 oed; yn ol-lyngesydd y Werddon pan yn 23; a chafodd ei ddyrchafu o swydd i swydd, nes yn 1644 yr oedd yn ben llyngesydd (*admiral*); ac yr oedd pob un o'r swyddi hyny yn ychwanegu ei gyfoeth yn gystal a'i anrhydedd, fel y daeth, nid yn unig yn ddŷn enwog iawn, eithr hefyd yn gyfoethog iawn.

Yr oedd ei hynafiaid wedi symmud o Gymru gyd â Tudur, Penmynydd, Mon, i'r hwn yr oeddynt yn perthyn. Cymmerasant yr enw "Penn" o barch i'w hen gartref; a phan sefydlasant yn Lloegr, rhoddasant yr enw *Pen* neu *Penn* ar bob lle y trigent, fel y gwelir yn PEN-*lands*, PEN-*wood*, PEN-*street*, a PEN-*house*, oll yn sir Buckingham; ac nid oes un hanesydd wedi gallu dangos fod y cyfryw enw ar le na pherson yn y sir cyn y flwyddyn 1450, amseriad yn cyfatteb i gyfnod y Tuduriaid. Parhaodd William Penn yn genedlgarol drwy ei oes: cymmerai ddyddordeb neillduol yn ei genedl, gwnaeth lawer drostynt, a gosodai bob ymddiried ynddynt; ac aeth mwy o Gymry i'w ganlyn i Pensylfania nag a aeth i ganlyn neb arall i un sefydliad yn oesoedd cred, ac ymddengys, fel y cawn egluro etto, ei fod yn alluog i siarad yr iaith yn lled rwydd.

Yr oedd ei fam yn ferch i John Jasper, masnachydd o Rotterdam. Yr oedd yn ddynes o dymmer grefyddol iawn, a chafodd ei hymarweddiad ddylanwad mawr ar ei feddwl pan yn blentyn. Anfonwyd ef, pan yn lled ieuangc, i ysgol rammadegol Chigwel; a phan yno un diwrnod wrtho ei hun yn ei ystafell, credodd iddo gael gweledigaeth nefol, yr hon, fel y tybiai, oedd yn alwad uniongyrchol arno i fyw yn dduwiol. Anfonwyd ef pan yn 15 oed i Goleg Crist, Rhydychain, lle, ar y pryd, yr oedd Robert Spencer a John Locke yn efrydwyr. Yn ystod ei arhosiad yno daeth i gyfarfyddiad â Thomas Loe, yr hwn oedd yn bregethwr cymmeradwy gyd â'r Crynwyr. Yr oedd ei athrawiaethau mor gydnaws â syniadau plentynaidd Penn, fel y bu yn foddion i roddi cyfeiriad newydd i'w fywyd. Cafodd allan yn fuan fod amryw o'i gydefrydwyr o'r un tueddiadau, a dechreuasant ymuno â'u gilydd i absennoli eu hunain o wasanaeth yr Eglwys Sefydledig; ond yn 1660 daeth hyn i glustiau awdurdodau yr coleg, y rhai a'u dirwyasant yn lled drwm am eu hymneillduaeth. O ddeutu yr amser hwn, anfonodd Charles II. orchymyn i'r myfyrwyr oll i ddefnyddio gwisgoedd (*gowns*), yn ol yr arferiad Babyddol. Teimlodd W. Penn, er nad oedd ond hogyn ieuangc, y byddai peth felly yn gam â symlrwydd yr efengyl, a chyttunodd ef âg ychydig gyfeillion i ymosod ar y bechgyn oedd wedi cydsynio â gorchymyn y brenin; a phan gawsant gyfle, tynasant y gwisgoedd yn ddarnau dros eu penau. Y canlyniad fu iddo ef a'i gyfeillion gael eu troi ymaith o'r coleg ar unwaith. Oeraidd oedd y derbyniad a gafodd gartref: yr oedd ei dad yn ofidus ei fod wedi tynu y fath sarhâd arno ei hun; ond yr oedd yn llawer mwy gofidus ei weled wedi myned i'r fath agwedd meddwl drwy yr hyn, fel y credai, y collai ei holl obeithion am ddyrchafiadau bydol. Ymresymodd âg ef i ddechrau fel dŷn; yna arferodd ei awdurdod fel tad, ac fel cadben; ond pan welodd nad oedd dim yn llwyddo, curodd ef yn greulon, a throes ef dros y drws. Ond drwy eiriolaeth ei fam, deffrodd teimladau ei dad; edifarhaodd am ymddwyn mor greulon tu ag ato; derbyniodd ef yn ol yn garedig; ac anfonodd ef yn fuan i Ffraingc, gan

* Yr oedd ysgrifenu y bywgraphiad canlynol yn anhawdd, nid am nad oedd digon o ddefnyddiau i'w cael, eithr am fod yn anhawdd eu dethol yn foddhaol: yr oedd ei gyssylltiadau mor llïosog ac amrywiol, a chynnifer wedi ysgrifenu am dano, a phob un yn gwahaniaethu ychydig oddi wrth y lleill. Gan nas gellid cymmeryd i mewn yr hyn oll a ddywedir gan y naill a'r llall, ymdrechwyd dethol ychydig o waith pob un o honynt. A'r neb a fyddo yn dewis cael ei hanes yn fanylach, darllened y llyfrau canlynol:—Life of W. Penn, prefixed to the Collection of his Works, 2 vols.; History of the People called Quakers, by W. Sewel; Life of Gilbert Latey; James Dickinson's Journal; Life and Travels of George Fox; Journal of the Life of Thomas Story; Anderson's Historical and Chronological Deduction of the Origin of Commerce; British Empire in America, by Oldmixon; Wood's Athenæ Oxoniensis: Burnet's History of his own Times; Picart's Religious Customs of all Nations; Life of John Locke, by J. Le Clerc; Votes and Proceedings of the House of Representatives of Pa., from Dec. 4, 1682; The History of Pa., by R. Proud; Hanes Cymry America, gan Iorthryn Gwynedd; Historical Review of the Constitution and Government of Pa., from its Origin; Sutcliff's Travels in North America; Douglas's Summary, &c.

Digitized by Google

obeithio y byddai i lawenydd ac ysgafnder y Ffrangcoed "ei ddwyn ato ei hun." Bu am dymmor yn Paris; ond nid oes dim o hanes ei symmudiadau yno ar gael, heb law iddo gymmeryd ei gleddyf oddi ar un Ffrangcwr pan oedd yn myned i ymosod arno, ac wedi ei ddiarfogi, iddo droi ymaith heb gyffwrdd âg ef. Ond yn lle mwynhau llawenydd ac ysgafnder y Ffrangcoed, yr oedd efe yn 1662 ac 1663 yn Saumur yn myfyrio duwinyddiaeth yn ysgol Moses Amyrault, gweinidog yr Eglwys Galfinaidd, clod yr hwn oedd ar led y gwledydd fel goleuad mwyaf ei oes. Aeth o Saumur i Turin; a phan yno yn 1664, derbyniodd lythyr oddi wrth ei dad yn gofyn iddo ddychwelyd i gymmeryd gofal cartref tra byddai efe yn myned allan yn erbyn yr Is-Ellmyn. Anfonodd ei dad ef am ychydig amser i Lincoln's Inn i astudio y gyfraith, gan feddwl y byddai hyny yn gymhwysder iddo ar gyfer llanw cylchoedd uchel yn y dyfodol; ond ni lwyddodd y teithio, na'r gyfraith, na'r llawenydd i gyfnewid dim ar ddifrifoldeb ei feddwl a'i dueddiadau, a chadwai ymhell oddi wrth bawb ond pobl o gymmeriad crefyddol.

Pan ddychwelodd ei dad o'r ymgyrch filwraidd, a gweled nad oedd wedi cyfnewid dim, penderfynodd ei anfon i'r Werddon i edrych ar ol ei etifeddiaethau yno. Yr oedd yr Arglwydd Raglaw, yr hwn oedd ddŷn difyr a llawen, yn gyfaill mawr i'w dad, o ba herwydd yr oedd iddo bob amser roesaw calon yn y llys; ond yr oedd pob peth yn y llys yn dylanwadu ar ei feddwl ef yn groes i ddymuniad ei dad. Edrychai ar holl rialtwch y llys fel magwrfa pob drygioni a phenrhyddid; a pho mwyaf a welai o hono, mwyaf i gyd a gasâi arno. Arolygodd yr etifeddiaethau er boddlonrwydd mawr i'w dad; ond siomwyd ei dad yn fawr yn ei amcan o'i gadw o gyrraedd ei hen gyfeillion. Pan ar neges yn Cork, un diwrnod, clywodd fod Thomas Loe, am yr hwn y soniwyd yn barod, yno yn pregethu. Aeth i'w wrando yn ewyllysgar, gan edrych arno gyd â theimladau tyner. Pwngc ei bregeth oedd, "Y ffydd sydd yn gorchfygu y byd, a'r ffydd a orchfygir gan y byd." Yr oedd ei sylwadau mor bwrpasol a phe wedi eu bwriadu iddo ef yn bersonol, fel yr oedd cyn diwedd y bregeth wedi cael ei lwyr orchfygu. Er ei fod, er pan yn ysgol Chigwel, dan argraphiadau crefyddol dwysion, etto nid oedd wedi dangos mwy o ymlyniad wrth y naill mwy na'r llall; yn unig parchai bob dŷn a farnai oedd yn byw yn ofn Duw; ond ar ddiwedd y bregeth hon, penderfynodd ymuno â'r Crynwyr, y rhai a ystyrid fel sorod y byd yr adeg honno.

Ym Medi, 1667, pan yn un o'u cyfarfodydd, daliwyd ef gan y swyddogion gwladol, a chymmerwyd ef o flaen y maer, yr hwn, pan welodd nad oedd yn gwisgo fel y Crynwyr, a'i gollyngodd ef yn rhydd ar yr ammod iddo roddi rhwymysgrif (*bond*) yr iawn ymddygai rhag llaw; ond gan iddo wrthod cydsynio â hyny, taflwyd ef i'r carchar. Anfonodd lythyr at yr Iarll Orrery i ddyweyd ei fod yn y carchar yn achos ei grefydd, ac appeliai ato am ei ryddhau, o herwydd fod yr iarll ei hun wedi bod yn dadlau yn gryf o blaid rhyddid cydwybod mewn crefydd; a llwyddodd yn ei gais. Dechreuwyd yn awr ei alw yn Grynwr; a phan glywodd ei dad yr hanes, galwodd am dano adref. Gwelodd ei fod wedi cofleidio arferion y Crynwyr, y rhai oedd yn gas ganddo, yn neillduol defod yr het. Gofynodd iddo am eglurhad, a daliodd o'i flaen bob addewid a bygythiad; ond gwelodd yn fuan nad attebai y cwbl un diben. Boddlonodd o'r diwedd iddo gael byw fel y mynnai, a dilyn y Crynwyr yn eu holl ddefodau, ond iddo foddloni tynu ymaith ei het yn ei bresennoldeb ef, y Duc Caerefrog, a'r brenin. Gofynodd am amser i ystyried y cais, a mawr oedd ei betrusder yn methu gwybod beth i'w wneud; ond yn y diwedd daeth i'r penderfyniad, gan mai drwy dynu ymaith yr het y byddir yn dangos parch i Dduw, nas gallai efe mewn un modd ei wneud o flaen un dŷn. Cynhyrfodd yr attebiad gymmaint ar ei dad fel y trodd ef allan o'r tŷ, a chauodd y drws ar ei ol. Nid oedd ganddo ddim at fyw, ac nis gwyddai beth i'w wneud am gynhaliaeth; ond ni bu drysau yn hir cyn agor, ac amgylchiadau ddadblygu: noddwyd ef gan lawer o gyfeillion caredig, a chadwodd ei fam ohebiaeth ddirgel âg ef, a chynnorthwyodd ef hyd y gallai o'r hyn oedd ganddi ei hun.

Yn 1668, pan oedd yn 24 oed, dechreuodd bregethu; a chyn diwedd y flwyddyn, cyhoeddodd lyfryn bychan a elwir "Truth Exalted," yn yr hwn y mae'n ymddangos fel campwr ei blaid. Y mae'n appelio at bob gradd a sefyllfa o bobl o bob enwad; ac y mae'n amlwg oddi wrth natur ei appeliadau ei fod yn eu hystyried oll yn gyfeiliornwyr. Ysgrifenodd un a'i enw Jonathan Clapham draethodyn i ymosod arno; ond prin yr oedd o'r wasg nad oedd William Penn wedi ei atteb. O ddeutu yr amser hwn ymunodd dau aelod o'r eglwys Bresbyteraidd yn Spitalfields â'r Crynwyr,

Digitized by Google

yr hyn, pan glywodd y gweinidog, Thomas Vincent, cynhyrfu a wnaeth; galwodd athrawiaethau y Crynwyr yn ddamniol, a rhwystrodd y ddau ddŷn fyned yn agos atynt byth ond hyny. Gofynodd William Penn iddo egluro ei gyhuddiadau, a dyfod i ddadl gyhoeddus. Derbyniodd yr her, a phenderfynodd i'r ddadl gael ei chynnal yng nghapel y Presbyteriaid ar adeg bennodedig. Pan aeth y Crynwyr i'r lle, yr oedd y gweinidog wedi gofalu llanw y capel â'i bobl ei hun, fel mai drwy anhawsder y llwyddodd W. Penn a hanner dwsin o'i gyfeillion i weithio eu ffordd i'r tu fewn i'r drws. Am fod gan T. Vincent y fath fwyafrif, mynnodd gael ei ffordd ei hun ar bob pwynt; ac yn lle myned i ddadl, ac i'r ddwy ochr gael siarad bob yn ail, cymmerodd fantais ar y cyfleusdra i gablu a phardduo y Crynwyr yn y dull gwaethaf. Wedi gorphen ei druth, ceisiodd gan y gynnulleidfa fyned ymaith, ac aeth allan ei hun wrth siarad. Pan gododd W. Penn i gynnyg siarad, tynwyd ef i lawr, a diffoddwyd y canhwyllau; ond parhaodd efe am beth amser i siarad yn y tywyllwch. Pan welodd na chaniateid iddo chwarau teg i amddiffyn ei egwyddorion, cyhoeddodd "The Sandy Foundation Shaken." Cafodd rhywrai allan fod y llyfr hwnw yn cynnwys syniadau Undodaidd, ac yr oedd coleddu syniadau Undodaidd yn drosedd o'r fath waethaf yn yr oes honno. Yr oedd y peth yn ormod o lawer i Esgob Llundain ei oddef; appeliodd at yr awdurdodau gwladol yn ei erbyn, a chyn hir yr oedd William Penn yn garcharor yn Nhŵr Llundain. Cedwid ef yno yn gaeth, a dywedid wrtho fod yr esgob yn penderfynu ei adael i farw yn y carchar, os na alwai yn ol gynnwys y "Sandy Foundation Shaken." Ond nid gŵr i wneud esgusawd oedd William Penn. Attebodd fod ganddo ef ddigon o amynedd i dreulio allan holl gynddaredd ei erlidwyr, ac y byddai yn well ganddo farw yn y carchar na galw yn ol un gair a ddywedodd neu a gyhoeddodd. Yn ystod ei garchariad y tro hwn ysgrifenodd "No Cross no Crown," yr hwn a gafodd y fath gylchrediad fel yr aeth drwy amryw argraphiadau yn ei ddyddiau ef, ac y mae yn parhau yn llyfr cymmeradwy hyd y dydd hwn. O'r carchar ysgrifenodd lythyr hynod ddyddorol at yr Arglwydd Arlington, yr hwn oedd ar y pryd yn Ysgrifenydd Cartrefol, i ofyn iddo ei ryddhau. Dywedai, "Nid wyf yn gweled y gall gwahaniaeth mewn barn am bethau crefydd effeithio dim ar ddïogelwch y deyrnas, gan fod teyrnasoedd a gwerinlywodraethau yn gallu bodoli gyd â phleidiau o farnau gwahanol. Nid wyf yn deall fod neb yn ddifudd i'r wladwriaeth ond y rhai a fyddont yn coleddu syniadau croes i ddiwydrwydd, ffyddlondeb, cyfiawnder, ac ufudddod. Ond y mae dyweyd y rhaid i ddynion dderbyn syniadau am fyd arall yn ol fel y byddo creaduriaid marwol yn y byd hwn yn gorchymyn, a'u hamddifadu o'u breintiau a'u rhyddid os na wnant, yn ynfydrwydd o'r fath waethaf, ac yn beryglus i'r deyrnas. Gall nerth wneud rhagrithwyr, ond nis gall argyhoeddi neb. Nid wyf yn gwneud un esgusawd am ysgrifenu y llythyr hwn, gan fy mod yn ystyried ei fod yn fwy pwysig i ti fod yn ddŷn cyfiawn nag i mi fod yn ddŷn rhydd." Wedi methu cyrraedd ei amcan drwy y llythyr hwn, ysgrifenodd "Innocency with her Open Face," yr hwn a fu yn foddion i ddeffroi teimladau Duc Caerefrog, hen gyfaill ei dad, i fyned i eiriol drosto gyd â'r brenin, yr hwn a orchymynodd ei ollwng yn rhydd ar unwaith.

Yr oedd ei dad erbyn hyn yn dechrau edifarhau am ei droi dros y drws, a dymunodd ar ei fam ei hyspysu fod iddo groesaw i ddyfod adref, neu fyned i edrych ar ol etifeddiaethau ei dad yn y Werddon. Siriolodd hyn ei galon yn fawr, ac aeth i'r Werddon, lle y cymmerodd bob mantais ar ei sefyllfa i ledaenu ei egwyddorion, trwy ymweled â'r frawdoliaeth, cadarnhau y gweiniaid, a diddanu yr helbulus, yn gystal a thrwy ysgrifenu llythyrau cyfrinachol a chyhoeddus, yn neillduol drwy y llythyr a ysgrifenodd at y Dychweledigion Ieuaingc. Wedi cyflawni y swydd a ymddiriedasid iddo yn y Werddon, dychwelodd i Loegr, pryd, er mawr lawenydd i'w berthynasau a'i gyfeillion, ac yn benaf i'w anwyl fam, derbyniodd ei dad ef gyd â sirioldeb.

Prin yr oeddid wedi gorpen gwneud y gyfraith enwog honno, Deddf y Celgyfarfod, yr hon oedd yn gwahardd i bob Ymneillduwr addoli, nad oedd W. Penn yn ei gafael, o herwydd ni chymmerai efe, na neb o'r Crynwyr, sylw o'r fath ddeddfau mwy na'r llangciau yn Babilon. Pan oedd efe a'r frawoliaeth un diwrnod yn myned i'w haddoldy yn Gracechurch Street, Llundain, cawsant y lle o dan wyliadwriaeth mintai o filwyr, y rhai a'u rhwystrasant i fewn. Arhosasant o amgylch y drws nes i'r bobl oedd yn myned heibio ddechrau ymdyru o'u cylch, i'r rhai y dechreuodd W. Penn bregethu gyd â nerth; ond cyn ei fod wedi dyweyd ond ychydig eiriau, cymmerodd y milwyr afael ynddo ef ac un W. Mead, i ddal y rhai yr

Digitized by Google

oedd Syr W. Starling, Arglwydd Faer Llundain, wedi llawnodi dwy warant, a thaflwyd hwy i garchar Newgate. Dechreuodd eu prawf y 3ydd o Fedi. Yr oedd deg o farnwyr ar y faingc, dau o'r rhai, James Edwards a John Howel, oeddynt Gymry. Aeth y ddau Grynwr i'r llys â'u hetiau am eu penau; ond prin yr oeddent drwy y drws nad oedd un o'r swyddogion yn eu tynu ymaith. Gwylltiodd yr Arglwydd Faer, a gorchymynodd i'r swyddogion eu gosod yn ol ar eu penau: y gwnai efe o'r gorau â hwynt; a dirwyodd bob un o honynt i 40 morc* am ddirmygu y llys. Y cyhuddiad ffurfiol yn eu herbyn oedd, iddynt fod yn pregethu i gynnulleidfa derfysglyd, anghyfreithlon, yr hyn oedd wedi achosi dychryn a pherygl mawr i ddeiliaid ei Fawrhydi. Cyfaddefodd W. Penn iddo fod yn Gracechurch Street yr 11fed o Awst; ond na fu yno na chynnwrf na therfysg o fath yn y byd, ac y carai gael gwybod pa ddeddf yr oedd wedi ei throseddu. Attebodd yr ysgrifenydd mai y ddeddf gyffredin (*common law*); ond nad oedd ganddo amser i chwilio y deddlyfrau er boddio ei gywreinrwydd ef. Ond barnai W. Penn, os oedd y ddeddf yn gyffredin, y byddai yn hawdd cael hyd iddi; fod yr Arglwydd Coke yn dyweyd mai y ddeddf gyffredin yw iawnderau cyffredin, ac mai iawnderau cyffredin yw y Freinlen Fawr. Gan nad oedd gan y barnwyr na'r ysgrifenydd ddim i'w atteb, gorchymynasant i'r rheithwyr ofalu am eu cyhoeddi yn euog; ac wedi rhoddi gwers lem i bedwar o honynt, y rhai oedd wedi dangos ychydig bleidgarwch i'r carcharorion, gollyngasant hwynt i ystafell ar eu penau eu hunain er mwyn iddynt gael mantais i gyttuno ar y ddedfryd. Pan alwyd am danynt yn ol, dywedasant eu bod yn unol "Fod y carcharorion yn euog o siarad yn Gracechurch Street." Cynhyrfodd y barnwyr yn aruthr pan glywsant y ddedfryd; ac wedi trin y rheithwyr yn y dull mwyaf amharchus, anfonasant hwynt yn ol i ail ystyried yr achos, gan gredu yn benderfynol y dygent ddedfryd yn eu herbyn y tro nesaf, a galwasant y carcharorion i'r llys i'w clywed. Ond attebodd y blaenor yn yr un geiriau ag o'r blaen, ac estynodd yr un geiriau ar ddarn o bapur i'r ysgrifenydd, wrth yr hwn yr oedd enw pob un o honynt. Gyrodd hyny y barnwyr† allan o'u pwyll; rhoddasant bob enw gwaeth na'u gilydd arnynt; a chyhoeddodd yr ysgrifenydd y cedwid hwynt yn gaeth heb fwyd na dïod, tân na myglys, nes y trengent, os na ddygent i fewn ddedfryd a fyddai yn dderbyniol gan y llys. Appeliodd W. Penn at y faingc am i'r rheithwyr gael chwarau teg fel dinasyddion Brydeinig; ond nid oedd dim yn tycio: cauwyd hwynt i fynu dros y nos, a thyngwyd amryw bersonau i fod yn wyliadwriaeth arnynt rhag iddynt gael un math o angenrheidiau bywyd. Galwyd am danynt y borau drannoeth, er mai Sabboth ydoedd; ond pan ddeallasant nad oedd ganddynt ond yr un ddedfryd ag o'r blaen, trinasant hwynt mewn iaith na fuasai neb yn credu iddynt ddefnyddio oni bai fod yr hanes wedi ei gofnodi. Galwyd am danynt felly bedair gwaith cyn nos Sul; ond nid oedd dim i gael ganddynt ond yr un peth bob tro. Clowyd hwynt i fynu drachefn nos Sul heb damaid i'w fwytta na llymaid i'w yfed; ond nid oedd dim ond yr un peth i'w gael ganddynt am saith o'r gloch y borau dydd Llun, er wedi ymprydio ddau ddiwrnod. Trinwyd hwynt y tro hwn mewn iaith sarhaus a bygythiol; ac am eu bod, meddid, wedi dirmygu y llys, dirwywyd hwynt pob un o honynt i 40 morc, a'u carcharu nes y talent yr arian. Taflwyd hwynt oll i'r carchar, y ddau garcharor, W. Penn a W. Mead, am beidio talu dirwy am ddirmygu y llys drwy ddyfod yno â'u hetiau am eu penau, a'r rheithwyr am beidio dwyn dedfryd yn eu herbyn yn ol dymuniad y barnwyr. Pan glywodd ei dad ei fod yn y carchar, tynerodd ei galon, ac anfonodd yr arian angenrheidiol i dalu dros y ddau.

Yr oedd iechyd ei dad yn gwaelu yr amser hwn, ac i'r graddau yr oedd yn dihoeni, yr oedd ei anwyldeb at ei blentyn yn cynnyddu; a phan yn gweled fod ei ddiwedd yn agosâu, ac yn teimlo y byddai raid i'w fab oddef llawer oddi wrth ddeddfau gorthrymus Brydain, anfonodd i ofyn i Dduc Caerefrog gofio am ei fab mor bell ag y gallai yn gydweddol â'i urddas, a'i fod yn gobeithio y byddai iddo ei gyflwyno i dynerwch y brenin; a gellir dywedyd, beth bynag fu ffaeleddau y naill a'r llall, i'r ddau gydsynio mor bell ag yr oedd yn ddichonadwy â dymuniad y llyngesydd. Y mae'n amlwg oddi wrth yr ymddiddan a fu rhwng ei dad

* Yr oedd y morc (*mark*) aur yn werth 13s. 4c. o arian yr oes hon. Yr oedd mewn cylchrediad yn y wlad hon yn 878, pan oedd y Daniaid mewn bri. Felly bernir mai hwy a ddaeth ag ef i'r wlad hon. Rhoddwyd heibio ei fathu ddechrau y 17 ganrif; ond parheid yn hir i gyfrif yn ol "mark," fel y gwneir yn awr â'r gini.

† Enwau y barnwyr—Syr Samuel Starling, John Howel, Thomas Bludworth, W. Peak, R. Ford, John Robinson, Joseph Shelden, R. Brown, John Smith, James Edwards. Y rheithwyr—Thomas Veer, Edward Bushel, John Hammond, Charles Milson, Gregory Walklet, John Brightman, William Plumstead, Henry Henley, James Damask, Henry Michel, William Lever, John Baily.

Digitized by Google

âg ef, pan oedd yn ymollwng dan gystudd, ei fod wedi llwyr gymmodi âg ef, ac yn cymmeradwyo ei ymdrechion crefyddol, a'i ddull o fyw; a gadawodd iddo ei holl etifeddiaethau, gwerth dros 1,500p. y flwyddyn, yr hyn oedd yn gydwerth i 12,000p. yn yr oes hon. Y peth cyntaf a wnaeth, wedi claddu ei dad, oedd ysgrifenu hanes ei brawf yn "Old Bailey." Yn fuan ar ol ymddangosiad yr amddifyniad, aeth i ddadl gyhoeddus â'r Bedyddwyr yn Wycomb. Agorodd ei wrthwynebydd y ddadl drwy ymosod ar y Crynwyr yn y modd mwyaf haerllug; ac wedi gorphen yr hyn oedd ganddo i'w ddywedyd, neidiodd oddi ar y llwyfan, ac allan âg ef, gan feddwl, y mae'n debyg, y buasai y gynnulleidfa yn ei ganlyn; ond camsyniodd yn hyny, ac aeth yn ol atynt, a dechreuodd eu dwrdio am aros yno i wrando ar y fath ffolineb a draethid gan W. Penn; ond troes y bobl i'w hwtio, a bu raid iddo ffoi o'r lle.

Pan ar daith bregethwrol yn Rhydychain, deallodd fod y frawdoliaeth yno yn cael eu herlid gan y myfyrwyr, ac nad oedd yr is-ganghellydd yn hollol ddifai yn yr achos; o ba herwydd ysgrifenodd lythyr ato, yn yr hwn y ceir y llinellau canlynol:—"A wyt ti yn tybio y caiff yr aml ddrygau yr wyt yn eu cruglwytho ar ben pobl ddiniwaid y wlad hon, yn achos eu crefydd heddychol, fyned heibio yn ddisylw gan y Duw tragywyddol? Yr wyf yn dy sicrhau na chânt. A wyt ti yn meddwl y diengi di rhag ei ddigllonedd a'i ddïaledd ef am erlid ei blant mor greulon ac anghyfiawn? Yr wyf yn dywedyd wrthyt na wnei. Gwell fuasai i ti fod heb dy eni erioed. Y bobl druain! A ymleddi di â'r Arglwydd? A sefi di frwydr â'r Hollalluog? A fedri di ddyrysu ei gynlluniau ef? Neu a ddirymu di ei benderfyniadau ef? Y mae wedi arfaethu cael ei ddyrchafu trwom ni, trwy i ni bregethu ei efengyl hyd eithaf y ddaear." Y mae yspryd y llinellau uchod mor wahanol i'w arddull ef fel nas gwyddom pa reswm i'w roddi drosto, os nad oedd yn ysgrifenu dan ddylanwad adgof o'r triniaethau creulon a dderbyniasai efe ei hun oddi ar law awdurdodau Rhydychain, a theimladau sur yn herwydd yr erledigaeth oedd newydd fod arno.

Yn fuan ar ol hyn cyhoeddodd "A Seasonable Caveat against Popery; or, an Explanation of the Roman Catholic Belief, briefly Examined," yn yr hwn y mae'n trin Pabyddiaeth yn llym. Y Sabboth cyntaf ar ol cyhoeddiad y llyfr hwn, cymmerwyd ef i fynu am bregethu yn eu haddoldy yn Wheeler Street, a gosodwyd ef yn y Tŵr; ond pan fethodd yr ynadon gael dim yn ei erbyn, cynnygiasant iddo gael ei ryddid ond iddo gymmeryd "llw o ffyddlondeb," am y gwyddent yn dda na chydsyniai; ac wedi ymgom chwerw o bob tu, anfonasant ef i garchar Newgate, lle y cadwyd ef yn gaeth am chwe mis. Ysgrifenodd lythyr maith o'r carchar at y Senedd, i erfyn arnynt gofio y Crynwyr cyn myned yn rhy bell gyd â Deddf y Celgyfarfod, yr hon ar y pryd y bwriedid ei gweithio allan gyd â'r fath fanylrwydd fel ag i ddileu Ymneillduaeth o'r byd; a llythyr at siryddion Llundain i achwyn ar geidwad carchar Newgate am ymddwyn yn drahaus at y Crynwyr oedd ar y pryd yn y carchar yn achos eu crefydd. Cyhoeddodd hefyd bedwar o lyfrau bychain i egluro ac amddiffyn eu hegwyddorion, a phan oedd yr olaf o honynt yn barod, gollyngwyd ef yn rhydd.

Aeth ar ei union ar daith i'r Cyfandir. Teithiodd drwy Hòland a Germania, gan bregethu ymhob lle y cai dderbyniad; ond nid yw manylion y daith ar gael, yn unig gwelir oddi wrth ei ohebiaethau ei fod yn llwyddiannus dros ben; ac yn 1672, pan ddychwelodd o'r daith hon, priododd â merch Syr W. Springet, yr hwn oedd wedi syrthio yngwasanaeth y Llywodraeth wrth warchae Bramber.

Gan fod y Crynwyr, er gwaethaf pob deddf, yn dilyn eu harferion, ac yn cynnal eu crefydd yn gyhoeddus, yr oeddynt bob amser i'w cael heb chwilio am danynt, ac felly yn cadw ystormydd erledigaethau i raddau mawr oddi wrth Ymneillduwyr eraill. Byddai yr erlidwyr wedi blino cyn gorphen eu hanrheithio hwy, fel na byddai awydd arnynt wneud dim i neb arall. Felly, pan gyhoeddodd Charles II. oddefiad i gydwybodau tyner ar fatterion crefyddol, daeth dros 500 o Grynwyr allan o'r carcharau yr un dydd. Teimlai y wlad yn garedig neillduol tu ag atynt, ac ymunodd llawer o'r bobl gyffredin â hwynt, yr hyn a fu yn achos i lawer o flaenoriaid y gwahanol enwadau gynhyrfu atynt, a galw allan eu holl nerth i geisio eu llethu. Bu Penn ar daith drwy yr haf; ac ar gyfartaledd, byddai yn pregethu un waith y dydd, yr hyn oedd yn waith mawr pan gofir y byddai yn aml yn gorfod teithio drwy leoedd anghyspell, o flaen erlidwyr, yn gorfod ymddangos yn fynych o flaen yr ynadon, yn gorfod trefnu ei gapel a'i areithfa, ac yn gorfod myned o amgylch ei hunan i gasglu y gynnulleidfa at ei gilydd. Ymosodid arno ymhob dull gan y gwahanol enwadau: rhai

Digitized by Google

o'r areithfanau a rhai drwy y wasg; ond er llïosoced oeddynt, yr oedd yn medru cael amser i'w cyfarfod a'u hatteb i gyd. Ysgrifenodd "A Plain Dealing with a Traducing Anabaptist," mewn attebiad i John Morse, o'r Werddon; a "The Spirit of Truth Vindicated," yn erbyn rhyw awdur anadnabyddus; "A Winding Sheet for Controversy ended," yn erbyn Henry Hedworth; "Quakerism a new Nickname for Old Christianity," yn erbyn John Faldo, gweinidog Annibynol yn Barnet; "New Witnesses proved Old Heretics," yn erbyn Reeve a Muggleton; "The Christian Quaker and his Divine Testimony Vindicated," yn erbyn Thomas Hicks, gweinidog y Bedyddwyr yn Llundain; a "Reason against Railing and Truth against Fiction;" "The Counterfeit Christian Detected and the Real Quaker Justified," mewn ychydig ddyddiau yn erbyn yr un gŵr. Cynhyrfodd yr holl ysgrifenu hyn y bobl i awyddu am ddadl gyhoeddus i drin y pyngciau oedd yn tynu cymmaint o sylw. Cydsyniodd y pleidiau, ond llwyddodd gwrthwynebwyr Penn i drefnu i'r ddadl gymmeryd lle ar adeg y gwyddent nad allai efe na George Whitehead fod yn bresennol. Wedi i Penn wneuthur gwrthdystiad cyhoeddus yn erbyn eu gweithrediadau, penderfynwyd cael ail ddadl; ond nid oes dim o'r manylion ar gael, yn unig ymddengys mai prif bwngc y ddadl oedd Duwdod Crist. Gwrthododd ddadlau â Faldo ar y pyngciau y dadleuai âg eraill ar y pryd. Cyhoeddodd yntau "Quakerism no Christianity;" ond nid oedd ond prin o'r wasg nad oedd Penn yn ei atteb, "The Invalidity of John Faldo's Vindication," ac yn ddiweddarach cyhoeddodd "A Return to John Faldo's Reply." Mewn attebiad i draethodau erlidgar Henri Halliwell a Samuel Grevil, cyhoeddodd "Wisdom Justified of her Children," a "Urim and Thummin, or the Apostolical Doctrines of Light and Perfection maintained." O ddeutu yr amser hwn cymmerodd dau Grynwr, a elwid J. Perrot a J. Luff, gymmaint o benrhyddid yn y gymdeithas grefyddol fel y bu raid eu diarddel; ond nid cynt y cymmerth hyny le na chyhoeddwyd llyfryn dïenw yn ymosod ar y Crynwyr dan yr enw "The Spirit of the Hat." Attebodd Penn ef yn "The Spirit of Alexander Coppersmith lately Revived, and now justly Rebuked." Ymosododd J. Perrot ar drefn eglwysig a disgyblaeth y Crynwyr. Cyhoeddodd Penn attebiad doniol iddo, "Judas and the Jews combined against Christ and his Followers;" ac yn ystod yr un flwyddyn, ysgrifenodd o ddeutu naw o lyfrau llai, pob un o'r rhai sydd heddyw ar gael.

Penderfynodd y Senedd, o herwydd yr anghydfod parhaus oedd rhyngddynt a'r brenin, ei fod wedi cymmeryd gormod o awdurdod i'w law ei hun wrth ganiatau y fath oddefiad i'r Ymneillduwyr; ac er mwyn dial arno, penderfynasant ail sefydlu Deddf y Celgyfarfod, a chymmerodd holl fân swyddogion erlidgar y wlad fantais ar yr amgylchiad i ddrygu yr Ymneillduwyr ymhob man; a'r Crynwyr, o herwydd eu hunblygrwydd, oedd y rhai cyntaf i orfod dïoddef. Ymledodd yr erledigaeth mewn ychydig ddyddiau drwy yr holl deyrnas; dirwyid ac yspeilid yr Ymneillduwyr, yn neillduol y Crynwyr, yn ddidrugaredd; ac ynghanol yr ystorm ysgrifenodd Penn "A Treatise of Oaths," i geisio tawelu ychydig ar yr erlidwyr; ond gan iddo yn fuan weled nad oedd yn debyg o gyrraedd ei amcan, cyhoeddodd "England's Present Interest Considered." Cyhoeddodd hefyd "Naked Truth needs no Shift;" "Jeremy Ives' Sober Request proved False, Impertinent, and Impudent;" "Libels no Proofs;" a llythyr Lladin at Senedd Embden, yr hon oedd ar basio deddf i alltudio pob Crynwr o'r wlad, i erfyn arnynt adael heibio y fath fesurau gorthrymus.

Pan oedd Richard Baxter, yn 1675, yn myned heibio i gartref W. Penn, a gweled yr ardal yn llawn o Grynwyr, dywedodd ei fod yn eu hystyried oll yn golledig. Cymmerodd W. Penn hyny yn achlysur i ohebu âg ef, yr hyn a arweiniodd i ddadl gyhoeddus, yr hon a barhaodd o ddeg yn y borau hyd bump yn y prydnawn, o flaen cynnulleidfa barchus o bob graddau, arglwyddi, barwniaid, ac amryw o offeiriaid yr Eglwys Sefydledig. Nid oes cofnodion o'r ddadl hon ar gael, ond yr hyn a geir yn llythyrau cyfrinachol y ddau at eu cyfeillion. Dywed y naill ei fod yn credu iddi atteb diben da, a dywed y llall ei fod yn ofni iddo fod yn drymach ar ei wrthwynebydd nag yr oedd cariad yr efengyl yn caniatâu, ac anfonodd ato yn garedig i'w wahodd i'w dŷ pan yn gyfleus; y gwneid ef mor gysurus ag y gellid, er mwyn iddynt gael ymgom pellach ar yr un testyn.

Hyd yma nid oedd W. Penn ond boneddwr, pregethwr, ac awdur; ond o'r flwyddyn 1675 ym mlaen y mae yn dyfod allan mewn cymmeriad newydd, sef gwladweinydd; ac y mae yn ormod gwaith i ni heddyw benderfynu ymha gymmeriad y mae fwyaf enwog. Galwyd arno rywbryd y flwyddyn hon i gyflafareddu rhwng dau Grynwr

Digitized by Google

oedd yn methu cydweled am ryw ddarn o dir a brynasent gan yr Arglwydd Berkeley, yn New Jersey, America. Ond ar ol iddo gymmeryd trafferth i ddeall yr amgylchiadau, a gwneud ei orau i'w heddychu, gwrthododd un o honynt, John Fenwick, dderbyn ei ddyfarniad, yr hyn, fel y gwelir oddi wrth y llythyr a ysgrifenodd ato, a achosodd ofid dwys iddo; a diwedda ei lythyr drwy appelio at ei deimladau fel dŷn a Christion, gan ddywedyd, "Y mae'n fwy na thebyg y bydd plant dy wyrion di yn y byd arall cyn y bydd eisiau y tir ar neb, ac y mae'n arw fod y fath degan yn cael aflonyddu ar dy heddwch a'th amser, pan y dylet fod yn gwneud rhywbeth mwy buddiol."

Nid oedd gan y llall ddigon o arian i dalu am ei dir; o ba herwydd, rhoddodd y cyfan i fynu i law ymddiriedolwyr, er mwyn codi arian arno, a chafodd gan W. Penn i arolygu y cyfan drosto fel cyfarwyddwr. Wedi dosranu y tir, a thynu map o hono, cyhoeddodd res o reolau manteisiol i ymfudwyr, ac annogodd y Crynwyr i fyned yno i ymsefydlu; anfonodd allan bersonau i fesur y tir ac i drefnu yr ymfudwyr; ac erbyn diwedd y flwyddyn yr oedd yno 184 o Grynwyr wedi ymsefydlu. Wedi i'r llong a'r ymfudwyr gychwyn, aeth yntau ar daith i Gyfandir Ewrop, a chanlynwyd ef gan George Fox a Robert Barclay. Cawsant dderbyniad caredig ymhob lle, ond yn neillduol felly gan y Dywysoges Elizabeth, merch Frederic V., brenin Bohemia, a'i llys, yr hon, ar y pryd, oedd yn byw yn Herwerden; a buont amryw weithiau yn pregethu yn y palas, fel yr oeddynt wedi myned i gredu fod y dydd ar wawrio pan fyddai brenhinoedd yn dadmaethod, a brenhinesau yn famaethod, i grefydd. Ymwelodd â'r rhan fwyaf o drefydd glanau y Rhine; gwrandawai y Germaniaid ef yn ewyllysgar; ac y mae llawer o'u disgynyddion heddyw yn Pensylfania* yn olrhain eu hachau yn ol i'r dychweledigion a ennillodd ar y daith hon. Ac yn niwedd 1677, yr oedd dros 800 o Grynwyr wedi ymsefydlu yn New Jersey, a'r rhan fwyaf o honynt yn bobl o gymmeriad da ac amgylchiadau cysurus.

Ar ei ddychweliad o'r Cyfandir, cafodd y frawdoliaeth, a'r wlad oll, yn derfysglyd. Yr oedd llawer o'r Crynwyr wedi gadael crefydd, eraill wedi troi allan i gychwyn pleidiau newyddion, anheilwng iawn o'u proffes flaenorol. Yr oedd y wlad yn gynhyrfus o herwydd rhes o amgylchiadau oedd newydd gymmeryd lle, y rhai a briodolid i ystrangciau y Pabyddion, megis tân mawr Llundain, tânau St. Margaret, a'r fradwriaeth yn erbyn y brenin. O herwydd y cyffro hwn, ail sefydlwyd pob deddf a ellid yn erbyn pawb nad oedd yn mynychu y llan ar y Sul, gan feddwl cael y Pabyddion i gyd trwy hyny i'r ddalfa; ond gwelwyd yn fuan nad oedd neb yn dioddef oddi wrth y deddfau gorthrymus hyny yn waeth na'r Ymneillduwyr, yn neillduol y Crynwyr; o ba herwydd, ychwanegodd y Senedd adran newydd atynt, yn caniatâu rhyddid i bob dŷn addoli ei Dduw fel y mynnai, ond iddo gymmeryd llw o ffyddlondeb i'r brenin. Ond gan na fydd y Crynwyr yn cymmeryd llw dan un amgylchiad, ni liniarodd yr adran newydd honno ddim ar eu blinderau hwy. Dan yr amgylchiadau hyn, appeliodd W. Penn at y Senedd am ddyfod gam ymhellach i gyfarfod amgylchiadau y Crynwyr, deiliaid mwyaf teyrngarol y goron, a threfnu fod i'w gair gael ei dderbyn yn lle llw, ar yr ammod fod iddynt gael eu cospi fel anudonwyr os ceid allan eu bod wedi tori eu gair, neu wedi dwyn tystiolaeth ar gam. Ac oddi wrth yr araeth a draddododd o flaen y Senedd ar yr achos, y mae'n amlwg ei fod yn deall egwyddorion gwladlywiaeth ryddfrydig lawn cystal a neb yn yr oes hon.

Daroganid yr amser hwn bob dydd, ymhob cylch cymdeithasol, fod y Ffrangcoed yn myned i wneud ymosodiad ar Brydain. Yr oedd llawer wedi gweled blaenau eu hwylbreni yn y Sianel; yr oedd llawer iawn wedi clywed (mewn breuddwyd) eu swn yn saethu; ac yr oedd pawb wedi gweled, neu wedi clywed, arwyddion rhyfel yn y nefoedd uchod neu ar y ddaear isod. Wrth weled fel yr oedd yr holl wlad yn cynhyrfu rhag y buasai Pabyddiaeth yn cael ei hailsefydlu yn y deyrnas, ysgrifenodd Penn lyfryn bychan i geisio cadw meddyliau y Crynwyr yn dawel, ac yn nechrau 1679 cyhoeddodd "An Address to Protestants of all Persuasions upon the Present Conjuncture, more especially to the Magistracy and Clergy, for the Promotion of Virtue and Charity." Ynghanol y berw mawr hwn yr oeddynt yn myned i ethol Senedd newydd; a chan ei fod yn gwybod yn dda beth oedd teimladau Protestaniaid a Phab-

* Pan ar ymweliad âg America, daethom yn Pa. i gyfarfyddiad â llawer o Germaniaid, y rhai, wedi deall ein bod yn Gymry, a'n bod yn adnabod Germania, a ddywedent fod eu hynafiaid wedi gadael eu gwlad i ddyfod gyd â W. Penn, a rhyw GYMRY ERAILL, i'r wlad honno, o ddeutu dau can mlynedd yn ol. Teimlent yn garedig at y Cymry, a chymmysgent Gymraeg lawn mor rhwydd a Saesnaeg am ben eu Germanaeg. Defnyddir Pa. yn America bob amser am Pensylfania, a gwneir yr un peth yn y dalenau canlynol.

Digitized by Google

yddion, a pheth oedd y nôd oedd gan bob un i gyrchu ato, cyhoeddodd "England's Great Interest in the Choice of a New Parliament, dedicated to all her Freeholders and Electors," er mwyn arwain eu meddyliau i wneud yr hyn a fyddai orau ar les y deyrnas.

Nid oedd y Crynwyr o'r dechrau wedi cymmeryd fawr o ddyddordeb yn amgylchiadau y wladwriaeth, ac anaml y byddai neb o honynt yn cymmeryd trafferth i fyned i bleidleisio ar un achos; ond yn yr etholiad hwn, methodd W. Penn a bod yn llonydd, ac o'r adeg honno ym mlaen y maent wedi bod yn enwog am eu hymdrechion o blaid gwelliantau gwladol. Gwyddai yn dda am alluoedd Algernon Sidney, a chredai y byddai ei gael i'r Senedd yn fendith i'r wlad ar y fath adeg gythryblus; ac wedi cael ganddo foddloni cynnyg am sedd dros Guildford, gweithiodd drosto â'i holl egni, a llwyddodd i ennill mwyafrif mawr o'i blaid; ond gan nad oedd yn dal yr un egwyddorion a'r blaid oedd mewn awdurdod, rhoddwyd y sedd i'w wrthwynebydd, dan yr esgus nad oedd efe yn dal meddiannau yn y fwrdeisdref. Torodd y Senedd i fynu ymhen ychydig wythnosau, a chynnygiodd Algernon Sidney ei hun yn aelod dros Bramber; ond er holl ymdrechion W. Penn drosto, bu yn aflwyddiannus. Arweiniodd yr aflwyddiant hwnw Penn i ysgrifenu "One Project for the Good of England; that is, our Civil Union is our Civil Safety," swm yr hwn oedd profi hawliau pob plaid o grefyddwyr i gael perffaith ryddid i addoli Duw, a gwadu hawliau y Pab i ymyryd ag arolygiaeth yr eglwys.

Yn 1680, pan oedd amgylchiadau y wladfa yn New Jersey yn dyfod ym mlaen yn llwyddiannus, dechreuodd awdurdodau talaeth Caerefrog Newydd gynfigenu wrth ei lwyddiant, a gosodasant ddeg y cant o doll ar bob nwyddau a allforid neu a allgludid drwy gulfor y Delaware. Teimlodd Penn y byddai hyny yn ddinystr i'r wladfa newydd; ond yr oedd mewn penbleth yn methu dyfalu beth i'w wneud. Gwyddai mai i logell ei noddwr, y Duc Caerefrog, yr oedd y tollau yn myned, ac ofnai y buasai hwnw yn tramgwyddo os appeliai yn erbyn eu talu. Etto teimlai, gan fod amgylchiadau y wladfa wedi eu hymddiried i'w law, mai ei ddyledswydd oedd gwneud ei orau drosti, bydded y canlyniadau beth bynag a fyddent; ac ni bu yn faith cyn llwyddo i sicrhau iddi fasnach rydd, a hyny heb ddigio y Duc.

Yr oedd trin amgylchiadau New Jersey am y pedair blynedd diweddaf wedi rhoddi iddo gyfleusdra i ddeall manteision ac anfanteision gwladychfa; ond dywed Oldmixon, yr hwn oedd gydoeswr a chydnabod iddo, ei fod wedi hen gynllunio cymmeryd cynnifer ag a fedrai o'r Crynwyr i'w ganlyn i ryw wlad lle y caent lonyddwch; ond sut bynag am hyny, y mae'n amlwg fod ei gyssylltiad llwyddiannus â New Jersey wedi tynu sylw y Llywodraeth ato fel un cymmwys, ac wedi addfedu a chymhwyso ei feddyliau yntau at y fath anturiaeth.

Pan yn myned dros gyfrifon ei dad, yr hwn oedd bellach wedi marw er ys deng mlynedd, gwelodd fod y Llywodraeth dros 16,000p. yn ei ddyled, swm lled fawr yn yr oes honno; a chan nad oedd angen arian arno o gwbl, gofynodd i'r brenin ganiatâu iddo gael darn o dir yn America yn eu lle. Pan oedd ei gais dan ystyriaeth y brenin, ymddiriedwyd rheolaeth sefydliad arall iddo yn rhan ddwyreiniol yr un dalaeth. Llwyddodd cyn pen ond ychydig fisoedd i osod gwedd newydd arno; a chyn pen y flwyddyn yr oedd llawer o Ysgotiaid ac eraill wedi ymsefydlu yno. Cynhyrfodd y fath boblowgrwydd ei elynion drwy yr holl wlad, a galwasant bob gallu a fedrent i'r maes i erlid y Crynwyr ymhob lle, ond yn benaf o ddeutu Caerodor, lle yr oeddynt yn dra lliosog. Chwilid eu haddoldai, camdrinid eu personau, cymmerid eu heiddo oddi arnynt, a thaflwyd lluoedd o honynt i'r carchar. Gorfu i W. Penn adael amgylchiadau y wladfa er mwyn cyfryngu dros ei frodyr. Appeliodd at y Senedd a'r brenin; ond nid oedd dim yn tycio i dawelu yr ystorm. Yna ysgrifenodd lythyr at y frawdoliaeth i'w hannog i ymdrechu codi o ran eu meddyliau uwch law gofidiau y bywyd hwn, ac edrych at y dyfodol. Ac y mae yn sicr i'r tywydd garw, a'r erledigaethau hyn, fod yn foddion yn llaw Rhagluniaeth i symbylu meddwl Penn i ymdrechu sefydlu gwladfa rydd, ac i addfedu teimladau y Crynwyr i foddloni gadael eu gwlad, a myned i'w ganlyn i rywle, fel yr addfedodd caledi y priddfeini deimladau plant Israel i fyned o'r Aipht gyd â Moses.

Tra yr oedd y bobl yn cael eu parotoi gan yr ystormydd hyn, yr oedd y brenin a'r Senedd yn cydymgynghori beth i'w wneud â'i gais, a pha attebiad i'w roddi iddo. O'r diwedd, penderfynasant iddo gael breinlen ar y darn tir a geisiai, ac arwyddwyd hi yn Westminster ar y 4ydd o Fawrth, 1681. Nid attebai gosod y freinlen i mewn y fan hon un diben, yn unig byddai yn deg dyweyd mai

Cymru Newydd *(New Wales)* yr amcanai efe alw y dalaeth, am mai Cymru oedd "hen wlad ei dadau," neu am mai hi oedd cartref rhyddid; a chynhygiodd ugain gini i'r ysgrifenydd os llwyddai i'w galw felly, neu, os na wnai, y talai yr un swm iddo am adael Penn allan o'r enw, rhag y tybiai neb ei fod ef am wneud ei hun yn enwog; ond attebodd y brenin ef y cymmerai efe gyfrifoldeb yr enw arno ei hun.

Wedi cael talaeth ei hunan, rhoddodd arolygiaeth New Jersey i fynu, rhag y cyhuddid ef o'i hesgeuluso; ond yr oedd yn ymadael â hi yn llawen wrth edrych ar y llwyddiant mawr oedd wedi bod arni yn ystod y pum mlynedd y bu yn ei law. Yr oedd dros 1,500 o ymfudwyr newyddion wedi ymsefydlu ynddi, a phawb o honynt o gymmeriad da. Yr oedd y wlad wedi ei gwareiddio, llawer o dyddynod wedi eu cau i fewn a'u trin, amryw ffyrdd wedi eu gwneud drwy ganol y sefydliad, annedd-dai prydferth ac addoldai gwychion wedi eu hadeiladu yma a thraw, deddfau wedi eu llunio, swyddogion gwladol wedi eu happwyntio, a'r Indiaid cylchynol wedi cael eu hennill yn gyfeillion. Yr oedd bywyd yn llanw yr holl sefydliad.

Wedi gorphen â New Jersey, cyhoeddodd ddisgrifiad manwl o Pensylfania, copi o'r freinlen, a'r ammodau i ymsefydlu, yn y rhai y cynhygid can erw o dir am ddwy bunt, a swllt y flwyddyn o ardreth warogaethol. Cyn i neb gychwyn allan, cyhoeddodd res o gyfreithiau yn ol y rhai yr oedd yn rhaid i'r ymsefydlwyr fyw ac ymarweddu. Ym mysg pethau eraill, yr oedd yr Indiaid yn cael eu gosod ar yr un tir a'r ymsefydlwyr, ac yr oedd rhyddid cydwybod yn cael ei sicrhau i bob dŷn i addoli Duw fel y mynnai, cyhyd ag na byddai y rhyddid hwnw yn ymyryd dim â hawliau y cymmydogion. Prin yr oedd yr ammodau wedi eu cyhoeddi, a'r trefniadau wedi eu gorphen, nad oedd yr holl wlad wedi cynhyrfu gan ysfa i ymfudo, a gwerthodd mewn ychydig ddyddiau dros 20,000 o erwau o dir, a chychwynodd yr ymfudwyr allan mewn tair llong,* dwy o Lundain ac un o Gaerodor, yr un wythnos. Gan fod cymmaint o son am ymddygiadau W. Penn at yr Indiaid, gosodwn yma gyfieithiad o'r llythyr a anfonodd atynt yn llaw ei ysgrifenydd:—

"Y mae Duw mawr a nerthol i'w gael, yr hwn a wnaeth y byd a phob peth sydd ynddo, i'r hwn yr ydych chwi a ninnau, a phob dŷn, yn ddyledus am ein bodolaeth, ac i'r hwn y rhaid i chwi a ninnau, ryw ddiwrnod, roddi cyfrif am bob peth a wneuthom yn y byd hwn. Y mae'r Duw mawr hwn wedi ysgrifenu ei gyfraith yn ein calonau, gan yr hon y'n dysgir ac y gorchymynir i ni garu, cynnorthwyo, a llesoli y naill y llall. Y mae'r Duw mawr hwn yn awr wedi gweled yn dda fy nwyn i i gymmeryd dyddordeb yn y rhan o'r byd lle yr ydych chwi yn byw, ac y mae brenin y wlad hon wedi rhoddi i mi dalaeth yn eich gwlad; ond yr wyf yn dymuno gallu ei meddiannu gyd â'ch serch a'ch cydsyniad chwi, fel y byddo i ni bob amser allu byw yn gymmydogol a chyfeillgar. Os na fyddwn byw felly, beth wna y Duw mawr hwnw i ni, yr hwn a'n gwnaeth, nid i ddifa a dinystrio ein gilydd, eithr i fyw yn sobr a charedig yn y byd. Yn awr, dymunwn i chwi sylwi fy mod i yn teimlo yn ddwys yn achos yr angharedigrwydd a'r anghyfiawnder sydd wedi cael eu dangos i chwi gan bobl o'r rhanau hyn o'r byd, y rhai a gymmerasant fantais arnoch i ymgyfoethogi yn hytrach na dangos eu hunain yn esiamplau mewn caredigrwydd ac amynedd. Yr wyf yn deall fod hyny wedi bod yn helbul tost i chwi, ac wedi achosi casineb a gelyniaeth mawr, weithiau wedi arwain i dywallt gwaed, wrth yr hyn yr oedd y Duw mawr yn digio. Ond nid un felly ydwyf fi, fel y mae yn wybyddus yn y wlad hon. Yr wyf yn eich caru ac yn eich parchu yn fawr, a dymunaf ennill eich serch a'ch cyfeillgarwch drwy fyw yn garedig, yn gyfiawn a heddychol; ac y mae y bobl a ddanfonaf yna o'r un duedd, a bydd iddynt ymddwyn fel y cyfryw ymhob peth; ac os bydd i un o honynt droseddu yn eich erbyn, cewch chwi a hwythau ddewis yr un nifer o bobl i farnu pa iawn a ddylech gael ganddynt. Deuaf atoch fy hunan ar fyrder, pryd y cawn ymddiddan ymhellach ar y pethau hyn. Yn y cyfamser yr wyf wedi anfon cynddrychiolwyr i brynu tir genych, ac i wneud ammodau heddwch â chwi. Gadewch i mi erfyn arnoch fod yn garedig wrthynt ac wrth y bobl, a derbyniwch y rhoddion a anfonaf i chwi fel ernes o'm hewyllys da tu ag atoch, a'm penderfyniad i fyw yn gyfiawn, heddychol, a charedig yn eich mysg.—Ydwyf, eich cyfaill caredig, W. P."

Anrhegwyd ef y flwyddyn hon â'r teitl F.R.S., gan y Gymdeithas Frenhinol, fel teyrnged o barch am ei waith yn sefydlu llywodraeth rydd. Ynghanol ei holl drafferthion gwladwriaethol, parhaodd i bregethu yn rheolaidd, a chymmerwyd ef yn garcharor lawer gwaith yn Gracechurch Street; bu hefyd y flwyddyn hon yn ymdrechgar dros ben i sicrhau rhyddid i Richard Davies o'r Trallwm, yr hwn oedd dan ysgymmundod yr awdurdodau Eglwysig. Tu a'r amser hwn bu farw ei fam, a chafodd yr amgylchiad y fath effaith arno fel y bu am rai dyddiau yn glaf. Mor fuan ag y daeth yn alluog, cyhoeddodd fraslun o ffurf llywodraeth Pa.; ac wrth symio y cyfan i fynu ar y diwedd, dywed fod pob math o lywodraeth yn rhydd pan fyddo y bobl eu hunain wedi cael llais yn ei ffurfiad ac yn ei gweinyddiad, ond mai gorthrwm a thrais yw pob llywodraeth arall; bod cyfiawnder yn dibynu mwy ar y bobl nag ar y deddfau. Os bydd y bobl yn dda, nis gall y llywodraeth fod yn ddrwg; ond os bydd y bobl yn ddrwg, bydded y cyfreithiau gystal ag y byddont,

* Enwau y llongau oedd John a Sarah, dan lywyddiaeth Henry Smith; Amity, dan lywyddiaeth R. Dimon; Bristol Factor, dan lywyddiaeth Roger Drew. Chwythwyd yr Amity i'r India Orllewinol, fel yr oedd ymhell yn y gwanwyn cyn iddi gyrraedd Pensylfania.

Digitized by Google

bydd y bobl yn sicr o'u plygu i'w hamcanion eu hunain.

Wedi gorphen pob trefniadau ar gyfer rheolaeth Pa. yn y dyfodol, a chael gan y Duc Caerefrog drosglwyddo iddo ddarn o dir y tu arall i'r afon, yr hwn yn flaenorol a fuasai ym meddiant yr Ellmyn a'r Swediaid, cymmerodd long a elwid Welcome,* dan lywyddiaeth R. Greenaway, ac wedi ei llwytho â phob peth angenrheidiol i'r fordaith, ac ysgrifenu llythyr maith o gyfarwyddiadau i'w wraig a'i blant, yr hwn, o ran tôn a chrefyddolder, sydd yn tebygu yn fawr i lythyrau John Penry, hwyliodd gyd â thros gant o Grynwyr o ardal Worminghurst ar y cyntaf o Fedi, a chyrhaeddasant enau y Delaware ymhen chwech wythnos, wedi cael mordaith gysurus, yn unig fod o ddeutu deg ar hugain o honynt wedi marw o'r frech wen. Derbyniwyd ef yn gynnes gan y gwahanol genhedloedd; ac wedi myned drwy y seremonïau angenrheidiol, ymwelodd â Chaerefrog Newydd o barch i'r Duc. Wedi dychwelyd, galwodd y Senedd ynghyd am y tro cyntaf, pryd y gwnawd pob dŷn yn rhydd ddinesydd, heb wneud dim gwahaniaeth rhwng y naill genedl a'r llall. Cymmeradwywyd y cyfreithiau a wnelsid cyn cychwyn o'r wlad hon, ac ychwanegwyd 19 o rai newyddion atynt. Y mae gwythïen amlwg o bryder yn rhedeg trwyddynt oll, rhag i neb gael ei aflonyddu yn achos ei grefydd, ac am gael personau o gymmeriad da i lanw pob swydd. Trefnodd i'r carcharau fod yn lleoedd i ddiwygio drwgweithredwyr yn gystal ag i'w cospi; ac y mae holl garcharau America hyd heddyw yn debycach i law weithfeydd (*manufactories*) y wlad hon nag i'w charcharau. Wedi gorphen gyd â'r Senedd, aeth i bregethu i gyfarfod a gynhelid gan y Crynwyr yn nhŷ un Thomas Hooker; ac oddi yno aeth yn ei flaen i Coaquannoc i orphen ei gytundeb â'r Indiaid, a chylchynid ef gan ychydig gyfeillion, gwŷr, gwragedd, a phlant. Yr oedd yn y lle appwyntiedig i'r fynud; ond gan fod y lle yn gyfyng, a llu anferth o Indiaid wedi dyfod ynghyd, symmudasant i le agored yn uwch i fynu, yr hwn a elwid Shacamaxon, lle yn bresennol y saif Kensington, un o faesdrefi Philadelphia. Nid oedd gan W. Penn un math o addurniadau nac arfau i ddynodi awdurdod, yn unig gwisgai wasgrwymyn glâs, yr hwn sydd yn awr ym meddiant teulu Thomas Kett, Ysw., Seething Hall. Pan welodd yr Indiaid hyny, taflasant hwythau eu harfau i lawr; a phan roddasent arwydd eu bod yn barod, dechreuodd Penn ddyweyd wrthynt am y pwys iddynt fyw ar delerau heddychol â'u gilydd, ac ymddwyn yn garedig a chymmydogol y naill â'r llall; a chyflwynodd i'r penaeth y cyttundeb wedi ei ysgrifenu ar groen, gan ddymuno arno ei gadw yn ofalus, a'i drosglwyddo o dad i fab, fel y cai yr oesoedd a ddeuai wybod am y cyttundeb oedd wedi cael ei wneud rhyngddynt. Yna attebasant hwythau eu bod yn ymrwymo y byddai iddynt hwy a'u holynwyr fyw mewn heddwch â W. Penn a'i olynwyr tra fyddai haul a lleuad yn goleuo. Dywedai Voltaire mai dyma yr unig gyttundeb a wnawd â'r Indiaid heb fod yn cael ei selio â llw, ac mai hwn oedd yr unig gyttundeb a gadwyd heb ei dori.

Wedi gorphen pob trefniadau lleol, tynodd allan gynllun tref yn Coaquannoc, ar gydiad yr afonydd Delaware a'r Skuylkill, yr hon, ar gyfrif yr amgylchiadau heddychol yr oeddent ynddynt yn eu plith eu hunain, yn gystal ag yn eu perthynas â'r Indiaid, a alwodd efe Philadelphia; a phe cadwasid at ei gynllun gwreiddiol ef, buasai yn un o ddinasoedd harddaf y byd. Gan fod yr anturiaeth wedi ennill ymddiried ei gydwladwyr, a'r erledig-

* Cafwyd hyd i'r llythyr canlynol yn ddiweddar gan ysgrifenydd Cymdeithas Hanesyddol Massachusetts; a chan ei fod mewn mwy nag un ystyr yn gywreinbeth, gosodir ef yma heb ei gyfieithu:—

"There bee now at sea a shippe, for our friend Mr. Esaias Holcroft, of London, did advise me by the last packet that it wolde sail some time in August, called ye Welcome, R. Greenaway, master, which has aboard an hundred or more of ye heretics and malignants called Quakers, with W. Penne, who is ye chief scampe at the hedde of them. Ye General Court has accordingly given secret orders to Master Malachi Huxett, of ye brig Porposse, to waylaye ye said Welcome as near the coast of Codde as may be, and make captive the said Penne and his ungodlie crew, so that ye Lord may be glorified and not mocked on ye soil of this new countre, with ye heathen worshippe of these people. Much spoyl can be made by selling ye whole lotte to Barbadoes, where slaves fetch good prices in rumme and sugar, and we shall not only do ye Lord great service by punishing ye wicked, but shall make great gayne for his ministers and people. Master Huxett feels hopeful, and I will set down the news he brings when his shippe gets back.—Yours in ye bowells of Christ, COTTON MATHER."

Cyfeirid y llythyr uchod at John Higginson, a cheir ef yn "The English Colonization of America" gan E. D. Neill, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1871. Yr oedd llawer o Grynwyr wedi ffoi i America cyn dyddiau W. Penn; ond erlidid hwynt yno yn fwy barbaraidd braidd nag yn un wlad yn Ewrop. Gadawodd y "Tadau Pererinol" y wlad am na chaniateid rhyddid iddynt i addoli Duw fel y mynnent ar y 6ed o Fedi, 1620; ond yn 1658, yr oeddynt wedi llwyr anghofio y graig y naddesid hwynt o honi, ac yn erlid y Crynwyr yn waeth na neb a fu o'u blaen. Gorchymynodd y barnwr Endicott, yn Boston, i glust dde John Copeland, John Rouse, a Christopher Holder gael ei thori ymaith; a bod i Robinson, Stevens, a Mary Dyer gael eu crogi. Rhwymwyd dwylaw dwy ddynes a elwid Mary Tomkins ac Alice Ambrose; ac wedi eu llusgo at y cyffion, lle y sicrhawyd eu dwylaw, rhoddwyd 35 ffflangelliad i bob un o honynt â ffflangell naw llinyn (*cat o' nine tails*), a thynodd yr ergyd cyntaf waed. Prin y ceir engraifft fwy erchyll yn hanes y byd o gamddefnyddio awdurdod na hanes symmudiadau y "Tadau Pererinol" am y tri ugain mlynedd cyntaf wedi iddynt ymsefydlu yn New England. Nodweddid eu deddfau â dïalgarwch, creulondeb, a phenboethni na cheir ond anaml yn hanes cenhedloedd gwareiddiedig.—Gwel Boyle, cyf. i., "The Deceiver of the Nations Discovered," cyhoeddedig yn 1660; "A New England Tragedy of Endicott," gan Longfellow.

Digitized by Google

aethau yn drymion, ymfudai y bobl yn lluoedd, fel y gwelid weitiau mewn un wythnos gynnifer a hanner dwsin o longau yn glanio ymfudwyr i Pa. Dyna'r adeg yr ymfudodd y Crynwyr o bob rhan o Gymru, a dywed Robert Proud mai "Ancient Britons" oedd y rhan fwyaf o'r Crynwyr a diriasant yn Pa. yn 1682, ac iddynt brynu dros 40,000 o erwau o dir ar ochr orllewinol y Skuylkill, ac adnabyddir y lle hyd heddyw wrth yr enwau Meirion, Haverford, a Radnor, Newtown, Gosen, Gwynedd, Maldwyn, Nantymel, Penyparc, a Pencader. Yr oedd pump o Gymry yn y Senedd gyntaf. Cymro hefyd oedd llefarydd y tŷ, a'i enw Thomas Wynn; a Thomas Llwyd, Dolobran, Meifod, oedd blaenor yr uchel reithwyr ar y prawf cyntaf yn y wlad,* ac efe, ar ol hyny, a fu yn llywydd y sefydliad yn absennoldeb W. Penn.

Ysgrifenodd Penn hanes naturiol y dalaeth yn fanwl, ac nid oes neb hyd y dydd hwn wedi gallu rhagori ar ei ddarluniad o'r gwahanol lwythau Indiaidd. Gwawdid ef am ddyweyd eu bod yn debyg i'r Iuddewon, ac y gallai eu bod yn hanu o'r un teulu; ond y mae wedi dyfod yn gred bob-logaidd heddyw mai hwy yw y deg llwyth a aeth ar goll yn Babilon. Rhoddodd hefyd ddisgrifiad manwl o adnoddau mwnol y wlad, a'i chynyrchion llysieuol; hanes y gwahanol sefydliadau, eu masnach, a'u masnachwyr. Wedi appwyntio swyddogion i gario allan y trefniadau cyhoeddus, a rhoddi y sêl fawr i Thomas Llwyd, Dolobran, a chynghori pawb i fod yn garedig a gonest yn ei absennoldeb, hwyliodd ar y 12fed o Awst, 1684, mewn gobaith y gallai wneud rhywbeth dros y bobl oedd yn y wlad hon yn cael eu herlid mor greulon am beidio myned i'r llanau ar y Sul, ac am gynnal cyfarfodydd yn eu haddoldai eu hunain. Ond cyn iddo gyrraedd i'r wlad hon, yr oeddid yn prysur daenu chwedlau am dano, ac yn pardduo ei gymmeriad fel gwladwr a Christion. Dywedid ei fod wedi gwadu egwyddorion y Crynwyr, wedi bod mewn rhyfeloedd yn America, wedi yspeilio yr Indiaid, ac wedi gwneud pob anghyfiawnder er gwneud arian o'r sefydliad, fel y cafodd waith amddiffyn ei hun yn lle myned i amddiffyn y frawdoliaeth, fel yr oedd yn bwriadu.

Yn lled fuan wedi iddo gyrraedd adref, bu farw Charles II., a chymmerwyd ei le gan ei frawd, y Duc Caerefrog, dan yr enw Iago II., i'r hwn yr oedd y Llyngesydd Penn wedi ymddiried gofal ei fab. Y canlyniad fu i'w gyssylltiad ef â'r llys ddyfod yn agosach nag o'r blaen, yr hyn yn fuan a wnaeth i lawer gynfigenu wrtho, a thywallt eu llid yn ffrydiau am ei ben. Ond defnyddiai efe ei holl ddylanwad yn y llys er daioni; ac ymhlith pethau eraill a wnaeth, llwyddodd i gael gan y brenin alw John Locke adref o Hòland, lle yr oedd wedi bod yn ffoadur am flynyddoedd o herwydd gwrthwynebu Pabyddiaeth a gorthrwm. O herwydd ei berthynas â'r llys, byddai ei dŷ o forau i hwyr yn llawn o ddïeithriaid yn crefu arno gyfryngu drostynt gyd â'r brenin ynghylch rhyw achos neu gilydd yn feunyddiol. Gan ei fod mor gyfeillgar â'r brenin, yr hwn a ystyrid yn Babydd zelog, a bod y fath luoedd o bobl yn mynychu ei dŷ, dywedwyd yn benderfynol ei fod yntau yn Babydd ac yn Jesuitiad, a bod y ddau yn dirgel gynllunio pa fodd i ddymchwelyd Protestaniaeth. Pan glywodd fod ei hen gyfaill, y Dr. Tillotson, yn cymmeryd rhan yn lledaeniad y fath chwedl, ysgrifenodd lythyr caredig ato, yn yr hwn y dangosai ei fod bob amser wedi cymmeryd safle wrthwynebol gyhoeddus, a thraethai ei olygiadau yn eglur a dïamwys ar y pwngc. Attebodd yr esgob ef yn garedig, a rhoddodd iddo lythyr yn galw yn ol beth bynag allasai efe fod wedi ei ddyweyd am dano; a bu y ddau yn gyfeillion mynwesol o hyny allan. Wedi cael ychydig o heddwch, ymgymmerodd âg amddiffyn y frawdoliaeth oedd yn gruddfan o dan erledigaeth barhaus, a chyflwynodd draethodyn bychan i'r brenin a'r Senedd, a elwid "Persuasive to Moderation," yn yr hwn yr appeliai atynt yn y modd mwyaf difrifol ac athronyddol am ganiatâu i bob dŷn addoli Duw fel y mynnai. Cafodd y traethodyn y fath ddylanwad arnynt fel y gorchymynwyd i'r barnwyr, cyn cychwyn ar eu cylchdeithiau, ollwng pob dŷn yn rhydd oedd yn y carchar yn achos crefydd; ac mewn canlyniad, daeth dros ddeuddeg cant o Grynwyr yn rhydd mewn un diwrnod, llawer o'r rhai oedd wedi bod yn gaeth am flynyddoedd.

Wedi gweled y fath lwyddiant gartref, aeth ar daith i ymweled âg eglwysi y Cyfandir, ac i eiriol am ryddid iddynt; ond nid yw manylion y daith hon ar gael, heb law iddo ddyfod i gydnabyddiaeth â rhai ffoaduriaid Ysgotaidd, ac â Burnet, yr hanesydd, yr hwn ar y pryd oedd yn aros yn yr Hague, a'r hwn, o herwydd rhyw anghydwelediad, a fu yn elyn iddo drwy ei oes. Dywedai mewn llythyr a ysgrifenodd oddi yno at gyfaill yn America, ei fod yn cael amser da a llwyddiannus yn achos yr Arglwydd. Derbyniai newyddion

* Gwel pen. xxiii. o'r llyfr hwn, y iv.—Gol.

gofidus yn barhaus o'r wladfa; rhyw anghydweledd yn cymmeryd lle rhwng y swyddogion, y bobl yn anufuddhau, a'r cyffelyb; ond teimlai fod cael y fath ryddid gartref yn fwy na gorbwyso yr holl newyddion drwg. Anfonodd y Crynwyr o'u cyfarfod blynyddol annerchiad dïolchgar i'r brenin am ganiatâu iddynt y fath ryddid i addoli. Derbyniodd hwnw yr annerchiad, ac addawodd wneud pethau yn well, os cai fywyd. Cymmerodd Penn bob mantais ar y rhyddid newydd hwn i deithio y wlad, a phregethu yn ddibaid. Pan ar un o'r teithiau hyn yn pregethu yn eu capel yn Frodsham Street, Caer, yn yr hwn yn awr y mae'r gangen a aeth allan o Eglwys Annibynol Gymreig Albion Park yn addoli, daeth y brenin i'r ddinas; a phan glywodd fod W. Penn yno yn pregethu, aeth i'w wrando, a gwnaeth yr un peth lawer gwaith ar ol hyny pan fyddai yn gyfleus.

O ddeutu yr amser hwn cymmerodd ffrae le yn Rhydychain, yr hon a fu yn achos iddo gael ei bardduo a'i gamdrin. Mynnai y brenin, a'r blaid Babyddol-Eglwysig, ddewis y Dr. Parker yn llywydd Coleg Magdalen. Yr oedd wedi bod unwaith yn Annibynwr, wedi hyny yn Esgobyddwr rhydd, ond yn awr yn Babydd rhongc o duedd, ac yn esgob yn Rhydychain; ond etholodd y frawdoliaeth y Dr. Hough i'r swydd. Digiodd y brenin, a bygythiodd gau y lle i fynu os na chydsynid â'i gais. Ymgymmerodd W. Penn gyfryngu rhyngddynt: wedi siarad âg awdurdodau y coleg, ysgrifenodd lythyr i ddyweyd wrth y brenin ei fod yn gofyn gormod ganddynt, ac nas gallent gydsynio â'i gais heb dori eu llwon. Pan oedd y brenin yn hwylio i gau y coleg, ysgrifenodd rhywun lythyr dienw* at yr etholwyr i'w cynghori i roddi y ffordd i'r brenin, a thaenodd gelynion W. Penn y gair mai efe oedd ei awdur, yn yr hwn, meddent, yr oedd yn ymddangos yn ei liw Jesuitaidd. Ond nid yw y llythyr hwnw yn dwyn dim o ddelw Penn, mewn arddull, syniadau, na thôn; ac nid oedd yr etholwyr eu hunain yn credu hyny ychwaith, neu ni buasent byth yn anfon dirprwywyr ato ar ol iddo gyrraedd adref i erfyn arno gyfryngu drostynt drachefn gyd â'r brenin. Yr oedd yn teimlo drwy ystod y ffrae hon nad oedd rhyddid crefyddol ar y tir y dylai fod, ac appeliodd at bob plaid o grefyddwyr i ofyn iddynt ddyfod allan i gydymdrechu dileu "Gweithred y Prawflw" a'r "Deddfau Cospawl." Wedi i'r brenin ddarllen yr appêl, gorchymynodd i'r "Goddefiad" gael ei gyhoeddi drachefn yn holl addoldai plwyfol y deyrnas; ond gan y credid mai lles y Pabyddion oedd yngolwg y brenin wrth roddi y gorchymyn, a bod teimlad cryf yn y wlad ei fod yn cymmeryd gormod o awdurdod i'w law heb ymgynghori â'r Senedd, gwrthododd saith o breladiaid gydsynio â'r gorchymyn. Taflwyd y saith i'r carchar i aros eu prawf; ond edrychid ar eu hachos drwy y deyrnas gan bob dosparth o bobl fel agoriad drws y dynged oedd o flaen y genedl. Bu y rheithwyr am ennyd yn methu cyttuno ar y ddedfryd, a bu raid eu cloi i fynu am noswaith; ond drannoeth, pan gyhoeddasant hwynt yn ddieuog, yr oedd llawenydd y wlad, sef pob plaid Brotestanaidd, yn annarlunadwy; er y mae'n sicr nad oedd gan yr esgobion fawr o fwriad i wneud lles i'r Ymneillduwyr. Gan y cyssylltid holl symmudiadau rhyddfrydig Iago â mantais y Pabyddion, ac mai W. Penn oedd wedi bod y prif offeryn i ddwyn y "Goddefiad" hwnw oddi amgylch, cyhoeddwyd yn groyw mai efe oedd yn gyfrifol am garchariad yr esgobion; ei fod nid yn unig yn Babydd, eithr yn Jesuitiad, wedi ei ddwyn i fynu yn ngholeg St. Omer,† ac awyddent yn fawr ar osod attalfa arno cyn yr arweiniai y genedl i drueni. Collodd ei boblowgrydd yn hollol, a thrinid ef yn ddidrugaredd gan bob plaid o Ymneillduwyr, ac nid yn waeth gan neb na chan ei bobl ei hun, yr hyn, fel y gwelir oddi wrth ei lythyrau, oedd yn peri iddo ofid dwys. Ar ganol yr amgylchiadau hyn, glaniodd William o Orange yn Torbay; cefnodd pawb ar Iago, ac ymosodwyd yn ddidrugaredd ar W. Penn, o herwydd nid oedd cysgod un law frenhinol rhyngddo a'r ystorm. Buasai yn myned i America ar unwaith oni bai ei fod yn ofni y cymmerid hyny fel arwydd o euogrwydd. Cymmerwyd ef o flaen yr ynadon, a holwyd ef ynghylch ei gyfeillgarwch â Iago; ac er na chafwyd dim yn ei erbyn, gomeddwyd ei ollwng yn rhydd heb iddo roddi sicrwydd yr iawn ymddygai rhag llaw. Gan iddo wrthod cydsynio, taflwyd ef i'r carchar i aros ymchwiliad pellach; ond gan na chaed neb i brofi ei fod yn Babydd nac yn Jesuitiad, nid oedd dim i'w wneud ond ei ollwng yn rhydd. Ni bu yn faith ar ol hyn cyn

* Mae W. E. Foster wedi cyhoeddi hanes manwl a beirniadaeth deg ar helynt y llythyr dienw y dywedid i W. Penn ysgrifenu at y Dr. Bayly o goleg Magdalen, yn cynghori cydsynio â chais y brenin, ac y mae yn y dull mwyaf eglur yn dadwneud holl ymresymiadau Macaulay ar yr achos.

† Gall eu bod yn cymmeryd mai yr un lle oedd St. Omer, lle yr oedd coleg Jesuitaidd, a Saumur, lle yr oedd coleg Protestanaidd Moses Amyrault, lle y bu am dymmor pan aeth i Ffraingc y tro cyntaf.

Digitized by Google

gweled rhyddid yn ennill y dydd, a Deddf y Goddefiad yn cael ei chyhoeddi gan y Senedd a'r brenin, yr hyn, fel y teimlai ar y pryd, oedd yn ddigon o iawn am helbulon ei oes.

Yr oedd yn deall, oddi wrth y llythyrau parhaus a dderbyniai o Pa., mai lled anhrefnus yr oedd pethau yn myned ym mlaen yno; a phan yn parotôi ynghylch myned i'w gwastadhau, cymmerwyd ef i fynu gan haid o filwyr, ar y cyhuddiad o fod yn gohebu yn fradwrus â'r brenin diorseddedig. Wedi ei holi yn fanwl, gollyngwyd ef yn rhydd ar yr ammod iddo ymddangos o flaen y brawdlys canlynol; a bu pob plaid o Brotestaniaid ar eu gorau o hyny hyd ddydd y prawf yn chwilio am rywbeth yn ei erbyn, ond methwyd cael dim, a bu raid ei ollwng yn rhydd drachefn.

Yr oedd y wlad hon ar y pryd yn ferw gwyllt gan yspryd rhyfel; y Ffrangcod newydd ei churo ar y môr; llynges yr Iseldiroedd yn ymwibio yn y Sianel; a'r brenin yn y Werddon yn ymladd â'r Gwyddelod; ac ofnid fod bradwriaeth ar droed i ddwyn Iago yn ol. Rhoddodd y frenhines, yn absennoldeb y brenin, orchymyn i garcharu deunaw o brif ddynion y deyrnas, y rhai a ddrwgdybid o fod mewn cyngrair â'r Ffrangcod, ac yn eu plith yr oedd W. Penn. Credai, pan gafodd ei ollwng y tro hwn, y cai fyned yn ddirwystr; ond pan bron yn barod i gychwyn, tyngodd un a elwid Fuller ei fod yn fradwr, a gorfodwyd ef drachefn i sefyll ei brawf. Ymddygai yr Ymneillduwyr ato fel eu gelyn penaf: galwent ef yn bob enw gwaeth na'i gilydd; ac ystyrid ef y dŷn mwyaf diymddiried yn yr oes honno. Pan yn aros dydd ei brawf, ysgrifenodd lythyr caredig at y Crynwyr i ddadlau ei ddiniweidrwydd, ond yn ofer; eithr bu eiriolaeth John Locke drosto yn llwyddiannus i ennill iddo ei ryddid. Fel hyn, wedi treulio ei oes i ymladd dros ryddid ac Ymneillduaeth, ymunodd yr enwadau Ymneillduol, pan gawsant ryddid eu hunain, i erlid y Crynwyr yn gyffredinol, a Wm. Penn yn bersonol!

Yr oedd amgylchiadau y wladfa yn gwaethygu bob dydd; y rhaglaw yn rhoddi ei swydd i fynu; y Crynwyr yn ymbleidio; a'r cwbl yn yr anhrefn mwyaf. Pan ddeallodd ei elynion hyny, er mai hwy oedd wedi ei attal i fyned i'w rheoli, cyhoeddasant nad oedd yn ddŷn cymmwys i fod yn llywodraethwr; ac awdurdodwyd llywodraethwr Efrog Newydd i gymmeryd awenau llywodraeth Pa. heb gymmaint a'i hyspysu. Yr oedd ei ofid ar y pryd yn ddwysach nag y gellir ei ddarlunio; ei holl obeithion a'i lafur wedi myned yn ofer; ac yntau, yn lle bod yn llywodraethwr talaeth, yn garcharor erlidiedig yn ei wlad ei hun, a'i bobl ei hun, y rhai y bwriadai eu harwain o'r caethiwed, wedi cefnu arno, ac yn dyweyd pob drygair yn ei erbyn; yn dlawd o ran amgylchiadau bydol, a'i wraig ym mron marw o doriad calon. Ysgrifenodd at ei hen gyfeillion yn Pa. i ofyn am fenthyg arian i gael myned atynt; a phan yn aros am eu hattebiad, ysgrifenodd "The Friends of Solitude." Trwy y llyfryn hwnw, neu rywbeth, cynhyrfwyd teimladau ei hen gyfeillion i gyfryngu drosto, ac adferwyd ef i'w ryddid a'i sefyllfa flaenorol. Yr oedd pethau yn Pa. wedi myned yn llawer gwaeth o dan law y llywodraethwr newydd; nid oedd y bobl yn foddlon i newid hen drefniadau Penn; a chan mai Crynwyr oedd y rhan fwyaf o honynt, ni fynnent dalu i gael byddin o filwyr, gwisgo arfau eu hunain, na thyngu llw o ffyddlondeb i'r brenin na'r llywodraethwr. Wedi cael ei adfer i ffafr y mawrion, dechreuodd y Crynwyr feddwl yn well o hono, ac ymddwyn yn well tu ag ato. Yr oedd y brenin erbyn hyn wedi edrych i fewn i amgylchiadau ei lywodraeth yn Pa., ac wedi cael allan nad oedd yno anhrefn o gwbl, heb law yr hyn oedd yn codi yn naturiol oddi wrth ei absennoldeb ef, a gosododd ef yn ei swydd fel cynt; a daeth i fwy o fri yngolwg y Crynwyr, y Senedd, a'r genedl nag yr oedd wedi bod erioed cyn hyny, ac yn gyflymach nag yr oedd wedi myned i lawr. Er ei fod bellach mewn awdurdod i fyned i America pan fynnai, a bod amgylchiadau y wladfa yn galw am ei bresennoldeb, a T. Llwyd, ei gynddrychiolydd, wedi marw; etto, nis gallai feddwl ymadael â'i blant, y rhai oedd yn awr heb un fam i ofalu am danynt. Ymroddodd i ysgrifenu a phregethu, a theimlai nad oedd wedi bod mor boblogaidd erioed o'r blaen. Ar un o'r teithiau hyn, priododd â Hannah, merch Thomas Callowhill, masnachwr cyfrifol yng Nghaerodor; a chyn fod ei wraig bron wedi cyrraedd adref, bu farw ei fab hynaf, yr hwn, fel y gwelir yn ei fywgraphiad, oedd yn llangc addawol iawn. Yr oedd y Czar yn gweithio y flwyddyn honno yn llongadeiladfa Deptford. Rhoddodd y Crynwyr eu bryd ar ei ennill i'r ffydd, ac ni buont yn faith cyn gweithio eu ffordd ato. Anhregasant ef â cyfieithiad Lladin o rai o'u llyfrau; ond ni wyddai yr ymerawdwr ddim am yr iaith honno. Yr oedd yn medru ychydig o'r Is-Ellmynaeg *(Dutch)*, yr hon a siaradai W. Penn yn lled rwydd; a buont yn ymgomio yn

Digitized by Google

ddifyr yn yr iaith honno. Hoffodd y Czar eu cymdeithas, a byddai yn arfer mynychu eu cyfarfodydd tra yr arhosodd yn Lloegr. Pan yn treulio Sabboth yn Hamburg, yn mhen blynyddoedd ar ol hyny, aeth efe a'i gwmni i addoldy y Crynwyr, ac ymgymmerodd a chyfieithu i'w bobl yr hyn a leferid; ac ar y diwedd dywedodd y byddai y neb a allai fyw y cyfryw egwyddorion yn rhwym o fod yn ddedwydd. Wedi i Penn symmud ei deulu i Gaerodor, aeth ar daith i'r Werddon; ac wedi cael derbyniad croesawgar gan ei hen gyfeillion, cymmerwyd ef i fynu yn Ross ar y dybiaeth mai Pabydd ydoedd, a chymmerwyd ei geffyl oddi arno. Cynhyrfodd Esgob Cashel hefyd y maer i chwalu y gynnulleidfa oedd yn gwrando arno yn pregethu; a phan aeth at yr esgob i ofyn paham yr oedd yn gwneud felly, attebodd mai wedi gwylltio yr oedd wrth weled nad oedd neb yn yr eglwys y borau hwnw yn gwrando arno yn pregethu ond y maer, y ceisbwl, a'r wardeiniaid. Dychwelodd wedi bod ar daith am dri mis, ac aeth i Lundain i ganu yn iach i fintai o ymfudwyr oedd yno yn parotoi i hwylio i Pa. Ar ol hyny gwnaeth bob brys i fyned allan ei hun; ac ym mis Tachwedd, 1699, wedi mordaith flin o dros dri mis, cyrhaeddodd enau y Delaware. Yr oedd y dwymyn felen yn gwneud hafog yn y sefydliad ar y pryd: byddid am wythnosau yn claddu o chwech i ddeg bob dydd, nes oedd yr holl wladfa yn fath o d ŷ galar. Bu yn aros am dymmor yn y sefydliadau Cymreig, Haverford a Meirion, ac yn cymmeryd rhan yn eu cyfarfodydd. Dyma'r adeg y galwyd ei sylw at y gaethfasnach. Yr oedd ychydig o bobl dduon wedi cael eu dwyn i Pa., ar ddechreuad y sefydliad; ond ni chamdrinid hwy yn greulon, yn unig prynid a gwerthid hwy. Ond yn 1688, ymhen chwe blynedd, dechreuodd y Germaniaid o Crisheim ddadlau hawliau y dŷn du yn un o'u cyfarfodydd blynyddol; a cheir nodiad, yn nyddlyfr Thomas Story, mai Cymro a'i enw William Ellis, o Ddolgellau, fel y tybir, oedd y cyntaf i bregethu Crist i'r bobl dduon. Parhaodd hawl y bobl dduon i gael lle pwysig ynghredo y Crynwyr nes yr oedd pob meddwl wedi ei lifeinio yn ddistaw. Yn 1720 y codwyd y pwngc gyntaf i'r gwynt, trwy i Grynwr a elwid John Woolman wrthod ysgrifenu trwydded, neu hawlysgrif, i gymmydog iddo i gymmeryd o un dalaeth i'r llall ferch ddu a roddasai rhyw berthynas yn anrheg i'w wraig ar ddydd ei phriodas. Gwrthododd wneud ewyllys cymmydog arall, yr hwn oedd yn myned i adael ei gaethion i'w blant; a chan iddo farw cyn cael neb i'w gwneud, daeth y caethion yn rhydd. Yn 1755, dechreuodd y Crynwyr ddisgyblu y rhai oedd yn dal caethion; yn 1761, cyhoeddasant fod dal caethion yn drosedd y diarddelid am dano; ac yn 1763, cyhoeddasant y diarddelid pwy bynag a gynnorthwyai mewn masnach oedd mor groes i yspryd yr efengyl, a rhybuddiasant bawb o'r frawdoliaeth i gadw'u dwylaw yn lân oddi wrthi. Yn 1780, nid oedd caethion gan un Crynwr drwy'r byd, tra yr oedd pob sect arall yn eu dal.

Yn 1772, cyhoeddwyd fod pob dŷn du yn rhydd pan gai ei draed ar dir Brydain; yn 1783, pasiwyd ysgrif i wahardd arfer creulonderau tu ag atynt; yn 1785, rhoddwyd "Rhyddhad y Caethion" yn destyn i fyfyrwyr Rhydychain ysgrifenu traethawd arno; yn 1787, ffurfiwyd cymdeithas yn y wlad hon i ddadlau y pwngc; yn 1807, cyhoeddodd y Senedd fod y gaethfasnach yn anghyfreithlon; yn 1811, cyhoeddwyd fod masnachu mewn dynion yn drosedd cospawl; yn 1824, cyhoeddwyd y gaethfasnach yn fôrladrad; ac yn 1833, cwbl ymwrthododd Brydain â'r fasnach, a thalodd 20,000,000p. am ryddid i'w chaethion drwy ei holl diriogaethau. Felly, fe welir i ryddid y caethion gael ei ddadlau am dros gan mlynedd cyn i'r genedl ddyfod yn addfed i'w dderbyn.

Gwnaeth W. Penn lawer, yn wladol a chrefyddol, i ysgafnhau beichiau yr Indiaid a'r caethion, nid yn unig yn ei diriogaeth ei hun, eithr mewn rhai pellenig hefyd. Ail gadarnhaodd y cyttundeb â'r Indiaid, a gwobrwyodd hwynt am gadw eu hymrwymiadau mor dda. Cynlluniodd fesurau i rwystro neb o'i bobl i'w hyspeilio o'u nwyddau; ac adferodd heddwch a threfn drwy yr holl sefydliad. Pan oedd pob peth yn myned ym mlaen yn llwyddiannus yn America, yr oedd mawrion Brydain yn parotoi ysgrif i'r Senedd er cymmeryd y wladfa o'i law, ac yn aros heb ei gosod mewn grym nes y cyrhaeddai adref, rhag i neb ddyweyd eu bod wedi trin ei achos yn ei gefn. Pan ddeallodd hyn, galwodd Senedd Pa. ynghyd er mwyn gosod pob peth mewn trefn i gael cychwyn adref; ac wedi ychydig ymrafael, cafodd ganddynt gydsynio i orphen rhes o gyfreithiau, y rhai a arwyddwyd ganddo ar yr 28fed o Hydref, 1701; a thranoeth, wedi bod yn Pa. am yn agos i ddwy flynedd, hwyliodd am Brydain, a glaniodd yn Portsmouth (Aber-porth) ddechrau Rhagfyr. Erbyn iddo gyrraedd adref, yr oedd yr ysgrif a'r cyhuddiadau oedd yn ei erbyn wedi cael eu troi o'r neilldu. Ni fu y brenin fyw

Digitized by Google

yn hir ar ol iddo gyrraedd adref, ac yr oedd mewn cymmaint parch gan Ann fel na feiddiai neb ddyweyd un gair yn ei erbyn. Cartrefodd yn Llundain am y pedair blynedd dilynol, ac ni theithiai ond ychydig. Ysgrifenodd amryw lyfrau, a gohebai yn barhaus â'r bobl yn Pa., lle, cyn hir, y dechreuodd pethau fyned yn anhrefnus dros ben. Bu mewn penbleth gyfreithiol ag etifeddion ei hen arolygwr, ac aeth yr achos yn ei erbyn; a chan nad oedd ganddo arian i gyfarfod y gofynion, bu am dymmor yn methu myned o amgylch y wlad fel y dymunai, a hyny, mae'n debyg, a fu yn achlysur i un hanesydd ddyweyd iddo farw yn y carchar. Er mwyn gorphen â'r gyfraith, bu raid iddo fenthyca 6000p. ar ei dalaeth Americanaidd. Yr oedd wedi gwario ei holl eiddo arni drwy y blynyddoedd, ond heb gael dim erioed yn ol o honi. Wedi cael ei ryddid, teithiai o gwmpas i bregethu yn gysson hyd ddiwedd y flwyddyn, pan y cyflym waelodd ei iechyd, ac ni wnaeth ddim ond ysgrifenu rhyw lythyr neu ddau ar ol hyny. Penderfynodd, yn 1712, roddi pob hawl yn Pa. i fynu i'r Llywodraeth, os rhoddid iddo 20,000p. am dani. Boddlonodd y Llywodraeth i roddi 12,000p. at yr hyn oedd wedi gael yn barod. Cydsyniodd i dderbyn y cynnyg; ond cyn bod y cyttundeb yn barod, yr oedd efe yn rhy wael i'w arwyddo. Ar y 30fed o Orphenaf, 1718, bu farw yn ei dŷ ei hun yn Rushcomb, yn y 74edd flwyddyn o'i oedran, mewn llawn hyder am adgyfodiad gwell. Claddwyd ef ar y 5med o Awst ym mynwent Jordans, sir Buckingham.

Saif W. Penn wrtho ei hun yn hanes yr oesoedd diweddar, ac y mae ar lawer ystyr yn debyg i Moses. Gwrthododd ffafrau brenhinoedd, gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, y rhai, yn ei ddyddiau ef, oeddynt dan lawn cymmaint gwarth ag oedd yr Hebreaid yn yr Aipht, ac arweiniodd hwynt allan o gaethiwed i wlad yn llifeirio o win a llaeth; gwlad llawnder a rhyddid; ïe, gwlad a fydd, y mae'n debyg, cyn hir yn gynllun i holl wledydd y byd. Trinwyd ef yn y dull creulonaf gan ddïeithriaid a chan ei bobl ei hun; ond yn yr ystormydd i gyd cadwyd ei gymmeriad yn loyw. Torodd allan lwybr iddo ei hun trwy ganol y tywyllwch disathr; ond ymddangosai yn holl amgylchiadau ei fywyd, cartrefol a thramor, fel gwladweinydd, deddfroddwr, masnachwr, pregethwr, cymmydog, a Christion, yn hollol gartrefol, ac fel pe yn cael ei arwain trwy y cwbl gan y goleuni mewnol y sonia y Crynwyr gymmaint am dano. Gwawdid ei syniadau ar y pryd gan oreugwyr y wlad, a chan ei berthynasau ei hun; ond y mae goreugwyr pob gwlad erbyn heddyw yn dyfod ar ei ol yn gyflym. Saif ar ei ben ei hun ym mysg blaenoriaid y gwladychfaoedd Brytanaidd, Hispaenaidd, Ellmynaidd, Portugiaidd, a Ffrengig; yn y ddwy India, yn Affrica, America, ac Awstralia. Byddent hwy i gyd yn ymgyfoethogi, ac yn myned yn "Nabobs" ymhob ystyr o'r gair, fel Hastings, Clive, a Pizarro; ond aeth efe yn dlawd wrth lesoli eraill; ac yn lle lladd ac yspeilio yr anwariaid, llanwodd hwynt â lluniaeth ac â llawenydd. Ac wedi gwasanaethu ei wlad a'i oes yn well na neb o'i gyfoed, bu farw mewn dinodedd a chymharol dlodi. Daw gwasanaeth William Penn i gael ei brisio yn ol y graddau y byddo gwirionedd a rhinwedd yn llwyddo, a chymmer oesoedd cyn y delo'r byd i ddeall ei wir werth.

DIWEDD CYF. I.

ARGRAPHWYD GAN WILLIAM MACKENZIE, 43 HEOL HOWARD, GLASGOW.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google